Where a great number of copies of any work are found, that circumstance is a sufficient proof that it has been long extant; and more particularly so, if such numerous copies are obviously of various antiquities; clearly evinced to be so by the very various appearances of age, of colour, of decays of hand writing, &c.—appearances that art can never give; at least, it has not hitherto succeeded in the attempt. Nothing but a great length of time can possibly give existence to such a number of copies, of characters and complexions so various, as we produce. This argument becomes still stronger, if those books appear to be of those ages when but few could write, and when inducements to write were also but very small: a still greater length of time is necessary, under such circumstances, to produce such a multitude of copies; and hundreds of Welsh manuscripts are of such a description.

The copy of a negligent or unskilful transcriber gets into the hands of one who detects its errors, and in his own way corrects them; in the hands of another person, such errors are corrected in a different manner; a third supplies the defect, on ideas of his own, very different, sometimes, from either of the others; so does a fourth, a tenth, and possibly a hundredth. Thus will copies, in a long succession of years, differ greatly from each other; and, perhaps, every one of them in some things from all the others; and when time has left the original at a very remote distance, it becomes imperceptible, where no copy by the author, or of or near his age, can with any probability be discovered. The judicious critic can only prefer that copy which has the best readings; that has the fewest inconsistencies in sense, purity of language, manners, versification, and the like. When a time arrives, wherein we find a great multiplicity of such copies, we may be well assured that their original is very ancient; for such a multiplicity of copies, of variations in readings, of apparent but very various antiquities, evinced by the effects of time in different degrees upon them, can never be produced but by a long series of ages. These things are, as we may term them, the grey hairs and wrinkles of old age, which never deceive those who behold them. The many copies extant of the ancient Welsh bards have been thus acted upon, by time and by accident; of course, they are authentic; or there must have existed a very great number of forgers somewhere, and at some time, as remote at least as the appearances of the greatly decayed manuscripts indicate, who combined thus to impose on the world; and in every age there must have been a succession of forgers, who, possessed of a secret, very similar to that of Free Masons, continued the fraud, and all to no purpose. If there are any who can possibly believe such a thing, we warmly congratulate them on the peculiar superiorities of their understandings; who can stand under mountains of absurdities and improbabilities without failing.

Our bards were not barbarians. They were men of letters. We are informed in what seminaries they were educated; we

talk not foolishly and incredibly of oral tradition, in such cases, but inform the world where their works are preserved, in very ancient and very numerous manuscripts; we name the libraries of the most opulent and respectable families of our country, the library of Jesus College, the Bodleian, the British Museum, and others. In these have our manuscripts been preserved for ages; in these they remain at present; and in these, we presume, they will be well preserved for ages to come, opened to all those who, possessed of proper qualifications, may, *rationally incredulous*, wish to be informed. Ancient copies are also found in private hands, pretty numerously, in most parts of Wales; and that *stubborn audacity*, which either withholds or gives false evidence, is not chargeable on us: and we hope that we shall never have any occasion to bring a charge of *audacity equally stubborn* against those who, without examining the evidences which we point out to them, may presume to decide one way or the other, either for or against the authenticity of what we now give to the press.

These ancient poems have for ages been secluded from the eyes of the public; and some of the collections very difficult of access; and very mistaken ideas of them have for a long time circulated through every part of Wales; there are consequently preconceptions, from which many will too rashly criticise; but a long course of study is absolutely necessary to understand them properly: facts, of which no other records remain, are often alluded to; opinions that are forgotten; manners that no longer exist; idioms, and figurative modes of expression, that are obsolete, and obscured by various schemes of orthography, arising from the inadequacy of the Roman alphabet to represent the ancient British one, render many passages almost unintelligible novices. It is not from a supposed loss, or corruption of our language, that they are difficultly understood; they contain very few, if any words, either radicals or derivatives, that are not at this day of common use, in one part or other of Wales; nor have any of those words materially changed their acceptation. Our language, as some have imagined, is not altered; it is therefore to be regretted that the Reverend Evan Evans did not, in his *Dissertatio de Bardis*, investigate and point out the various things which embarrassed him, instead of assigning all the difficulties to the language. In many of the allusions indeed they are dark, mutilations occasionally met with out of the question, which equally confuse in every age, the present as well as the past, and are matters, not of language, but of accident. Yet, with all these difficulties, which we have mentioned, a little close application to them will make pleasing discoveries; for, besides frequent instances of beautiful poetry, it will be found that from our old bards new and great lights on history are obtained. They exhibit lively pictures of primitive manners, afford curious anecdotes of our ancient knowledge, especially of the very beautiful ethics of our remote ancestors. who seem to have penetrated farther into The knowledge of human nature than the world can be easily brought to believe; and on these occasions we see the Welsh piercing into depths that are almost unfathomable to other languages. Some instances of this will be produced in a proper place from the works of our venerable bards, and also from our very ancient moral aphorisms, which are of nature so very singular in their structure, turn of thought, and mode of expression, that there has not yet been known a language in the world whence they could have been in any degree derived, or wherin strength, clearness, neatness, and facility of expression, can be equally found.[1]

[1] Those who take a pleasure in the research of antiquity, would find their toil well requited, were they to learn the Welsh language, in order to judge for themselves, after the example of Sharon Turner, Esq., the elegant author of the History of the Anglo-Saxons.

We conceive it one of our greatest duties to give these ancient manuscripts with the most scrupulous fidelity, *as we find them;* even with all their real or supposed errors of orthography, omissions, interpolations; defective arrangements, of words, lines. stanzas, and the like, however obvious these may be; and to leave the work of purging them of such defects to the judicious and candid philologist. This we think the best way of obviating the charges of imposition and collusion, which may fairly be brought against those who send writings into the world through the medium of the press, in colours not originally their own; making them to appear what they will not in reality be found to be, by those who so far honour them as to explore the sources from whence they are derived.

Several of the ancient collectors of the works of our bards appear to have had more affection for, than knowledge of, what they copied; and perhaps the greatest number of the oldest manuscripts of every nation, language, and age, are in the same predicament of their authenticity; but, on the contrary, a very corroborative proof of it; especially where such defective copies are (as in our case) numerous, and those defects in the same passages numerously varying from each other, as we have already more fully observed.

In some of our oldest bards, passages that are *Papistically superstitious* appear, though but seldom; and some half informed critics wish to consider such pieces as spurious. The churches of Wales, they observe, submitted not to the Papal authority till long after the age of TALIESIN, and others. So far they are right; but though the *power* of the *Church of Rome* was not then, nor for two centuries at least afterwards, acknowledged in *Wales*, many of its superstitions had taken root amongst us. Of this, we have the unequivocal proofs from monumental inscriptions anterior to the age of our most ancients bards, of whose works we have any thing remaining; amongst others, those in the church-yard of *Lantwit Major*, in *Glamorgan*, where the monastery of ILTUTUS stood, are striking instances. Two of these monumental pillars, or crosses, as their inscriptions inform us, were erected by SAMSON, archbishop of Dole, in Britanny, who was the disciple and successor of ILTUTUS, about the year 500, or rather earlier: for ILTUTUS was vested with the superintendency of this monastery of *St. Germanus* about the year 440. For these reasons, such passages of superstitious doctrines affect not the authenticity of the poems in question; imprudent sticklers for the imaginary honours of our ancient church, or any thing else, that wears the colours of unphilosophical nationality, would admit, or reject, as best suited their prejudices; and would consequently greatly mutilate, and otherwise corrupt, our old manuscripts, give the world a very fallacious idea of them, and bring the whole into discredit. But, on our plan, the authenticity of every piece has, besides other supports, a foundation of its own to rest upon; and if its own should be found unable to bear it up, that of another may not beso in the least.

The index of the contents of the first volume of poetry will give the reader a tolerably exact idea of the periods when the different poets flourished, as the years are put therein after the name of each.

It has been already observed, that in the conclusion, it is intended to give a dissertation on the ancient Welsh poetry; wherein we shall consider the nature and peculiar character of it; analyze the verse of our different periods, point out in what they differed, the progress of their improvement, and enlarge on the subject of alliteration. This will enable the reader, who meets, as he frequently may, with ancient anonymous poems in Wales, to form a tolerable judgment of the age wherein they were written. It is intended also to give a catalogue of all our ancient writers in prose and verse, with such anecdotes of their lives as are known, what remains of their works, in whose possession, and to give a

proper account and description of such manuscripts as we have used, and as many others as we can meet with, or be well informed of.

The second part of this volume, as is likewise observed before, contains the works of a great number of our most celebrated bards of the second period, commencing at the beginning, or nearly so, of the twelfth century, and continued into the fourteenth century. At the close of this period, our versification had attained such a degree of perfection, by regular and progressive improvements, that no language, ancient or modern, ever yet attained to. Our system includes not only all the varieties of verse that has yet been produced in all known languages, and in all known ages, but also a number equally great of such constructed verse as we have neither seen nor heard of, in any country, or in any tongue; and yet these latter ones are by far the most beautiful and musical that we have. This system comprehends twenty-four classes of verse, or twenty-four elementary principles; these classes, and their subdivisions, include every species of verse that has ever yet, in any age, or amongst any people, been produced; besides, as just observed, a prodigious number of originals entirely and exclusively our own:—all which had been discovered and brought into general practice about the close of this our second period. But, with the whole being arranged and reduced to a regular system commence our third period, the object of the second volume of poetry, which must consist now of only a selection from a great number of bards, the whole of whose works could not be comprised in a very great number of volumes. This period will come down to the time of queen ELIZABETH; ever since which period our poetry has been lamentably on the decline, till within about forty years ago, when a considerable revival took place; and it is now slowly returning, by an advancing reformation, to its ancient purity, which will be where it should stop, a little short of the excessive refinements to which it once attained. A selection of a sufficient variety of the *best*, rather than the restoration of the *cumbersome whole*, of our *ancient metres*, is that which seems most desirable; and of attaining to this we are, seemingly, in a pretty fair way at the present conjuncture.

CYFARWYDDYD I DDARLLEN

YR HEN GYFANSODDIADAU CYMRAEG

SYDD YN Y GWAITH HWN.

Ysgrifenwyd y cyfansoddiadau hynaf sydd yn y gwaith hwn yn y 12fed ganrif, llawer o'r rhai a geir yn "Y Llyvyr Dŷ o Gaer Vyrdhyn." Hwn, yn ol barn Edward Llwyd [*Arch. Brit.* 225], a gynnwys y llawysgrifau hynaf a mwyaf awdurdodol a feddwn. Y mae y rhan gyntaf o hono, medd E. L., wedi ei ysgrifenu mewn llythyren fras eglur, ac yn ymddangos yn llawer hynach na'r rhan olaf. Cynnwys y rhan gyntaf Farwnad i Hywel, yn B. A. 1104, gorŵyr i Hywel Dda; a chynnwys y rhan olaf Farwnad Fadawg fab Maredyd (tu dal. 155 o'r gwaith hwn) Tywysog Powys yn 1158, gan Cynddelw Brydydd Mawr; a thybia E. L. y dichon mai y bardd hwnw a ysgrifenodd yr rhan olaf o'r Llyfr Du. Y mae lliaws o'r caniadau sydd yn y gwaith hwn yn y Llyfr Du; megys, "Ymdiddan rhwng Ugnach ab Mydno, o Gaer Seon â Thaliessin, o Gaer Dyganwy," tu dal. 44; "Ymdidan rhwng Myrdin Wyllt â Thaliessin," tu dal. 45; "Kerdd i Wallawg ap Lleenawg," tu dal. 55; "Englynion beddau milwyr Ynys Prydain," tu dal. 65; "Marwnad Geraint ab Erbin," tu dal. 83; "Marwnad Urien Reged," tu dal. 84; "Marwnad Cynddylan ab Cyndrwyn," tu dal. 87; "Canu Llywarch Hen, i'w henaint a'i Veibion," tu dal. 92; "Can Maenwyn," tu dal. 96; "I'r Gog, yn Aber Guawg," tu dal. 100; "I Yscolan," tu dal. 104; "Hoianau neu Borchellanau Myrddin ap Morfryn, alias Myrddin Wyllt," tu dal. 106; "Afallenau Myrddin," tu dal. 115; "Gossymdeith Llevoet Wyneb Glawr," tu dal. 118; "Cyngogion Elaeth," tu dal. 123; "Gwyddneu," tu dal. 125; "Gwyddneu pan ddaeth y môr tros Gantref y Gwaelawd," tu dal. 125; "Ymryson Gwyddneu a Gwyn ab Nudd," tu dal. 126; "Marwnad Fadawg fab Maredud," tu dal. 155; "Dadolwch yr Arglwyt Rys," tu dal. 164.

Cymmerodd Golygwyr cyntefig y gwaith hwn (Iolo Morganwg, Owain Myvyr, ac Idrison=y Dr. Pughe), amryw o'r caniadau crybwylledig o lawysgrifau ereill, er mwyn eu heglurdeb, fe allai, gan gyfeirio yn achlysurol ar odre'r ddalen at y Llyfr Du, a llyfrau ereill; ond y mae'r deuddeg awdl dienw sydd yn yr Attodiad, tu dal. 378, wedi eu cymmeryd "allan o'r Llyvyr Du lythyr yn llythyr."

Y nesaf i'r Llyfr Du o ran oedran a phwysigrwydd yw "Llyvyr Koch o Hengest," yr hwn, yn ol E. L., a ysgrifenwyd tua diwedd y 14eg ganrif; ond gan fod rhai caniadau yn niwedd y llyfr o waith Lewis Glyn Cothi, yr hwn a fucheddai tua diwedd y 15fed ganrif, rhaid fod y rhan yma o hono, o leiaf, yn llawer diweddarach na'r 14eg ganrif. Y mae yn dra thebyg nad ydyw holl gynnwys y Llyfr Coch, mwy na'r Llyfr Du, ar yr un amser, na chan yr un person; a bod y rhan olaf o'r naill fel y llall yn hynach na'r rhan flaenaf. Y mae rhai wedi meddwl mai L. G. Cothi a ysgrifenodd yr holl lyfr, tra y tybia ereill mai rhyw ad-ysgrifenydd proffesedig a wnaeth hyny, allan o ddefnyddiau hynach fyth [*Cambro Brit.* ii. 107]. Yn y rhan olaf o'r llyfr y mae'r brydyddiaeth a gynnwys wedi ei hysgrifenu: dechreu tu dal. 513. Y mae lliaws o'r caniadau sydd yn y gwaith hwn yn y Llyfr Coch, o'r rhai a briodolir i Taliesin, Llywarch Hen, a Myrddin, hyd yr Iustus Llwyd; a chynnwys lawer o'r rhyddiaith a geir yma hefyd; megys Brut y Tywysogion, Brut y Saeson, ac amryw o'r Trioedd.

Nid yw hysbys, hyd y gwyddys, pa bryd yr ysgrifenwyd y Gododin gyntaf; ond ymddengys fod y gân yn hysbys yn y 12fed ganrif, gan fod Dafydd Benfras, (B. A. 1190—1240) yn crybwyll am dani ac am yr awdwr, fel hyn:—

> "I ganu moliant mal *Aneirin* gynt
> Dydd y cant *Ododin*."—tu dal. 217.

Dywed Edward Llwyd [*Arch. Brit.* 261], fod William Maurice, Cefn y Braich, yn dywedyd am "Lyvyr Aneyryn, ne Lyvyr y Gododhyne a'r Gwarchane," oedd yn yr Hengwrt, ei fod mewn "llaw hen dros ben." Dywed Ab Ithel [*Pref. to Gododin,*

tu dal. viii], fod ei gyfieithiad ef o'r Gododin wedi ei seilio ar lawysgrif ar femrwn, a ysgrifenwyd, fel y tybir, tua 1200.

Dywedir fod y llawysgrifau hynaf o Gyfreithiau Hywel Dda, a gasglwyd yn y 10fed ganrif, wedi eu hysgrifenu yn y 12fed ganrif. Ysgrifenwyd y copi o honynt sydd yn y gwaith hwn, gan y Dr. Pughe, mewn llythyraeth o'i gynlluniad ef ei hun, yr hon y rhaid ei hegluro ar wahân i lythyraeth yr hen gyfansoddiadau.

GWAHANOL DDEFNYDDIAD LLYTHYRENAU YR EGWYDDOR.

Prif nodwedd yr hen orgraphau *(orthographies)* ydyw eu hamddifadrwydd o dreigliad y llythyrenau; hyny yw, nid ydyw *c*, er esampl, braidd un amser yn troi yn *g*, *ngh*, ac *ch*. Gan hyny, yn lle *cefn*, dy *gefn*, fy *nghefn*, ei *chefn*, megys yn yr orgraph bresennol, *cefn*, dy *cefn*, fy *cefn*, ei *cefn*, a geir yn yr hen orgraphau; a chyffelyb ydyw yr holl lythyrenau cyfnewidiol. Hyn ydyw'r peth penaf sy'n gwahaniaethu yr hen orgraphau oddi wrth y rhai diweddar; a pho hynaf y byddo orgraph, lleiaf oll a fydd o dreigliadau ynddi. Nodwn rai o'r manylion dan y gwahanol lythyrenau.

A.

Heb law ei sain gyffredin, defnyddid *a* am *o* ac *y*: "*a* dan morduyt mygr was" —*o* dan forddwyd mygr was; "a chimrev *a*n biv"—a Chymry *y*n byw.

Ae am *a'i*:—"ar saer *ae* gunel"—a'r saer *a'i* gwnel; "arbenygaul mon *ae* guledychuy"—arbenigawl Mon *a'i* gwledychwy.

Ai am *ae* ac *e*: "k*ai*r"—caer; "c*ai*toir" —cedawr.

Au am *aw*, *af*, *o*: "m*au*r y kynnit"—m*aw*r y cynnydd; "arduire*au*e Dev"—arddwyre*af* fi Dduw; "rringued*au*l"—rhinweddol.

Aw am *ab*, *af*: "*aw*raham pen fit"—*Ab*raham ben ffydd; "guengert agan*aw*" —gwen-gerdd a gan*af*; "bet deheveint ar eleveint *aw*on"—bedd Deheuciut ar gleuciut *af*on.

Ay am *a'i*, *ai*: "dir y paup or *ay* clywei"—dir i bawb a'r *a'i* clywei; "*ay* da kiliau rac y kornuyt"—*ai* da cilio rhag y cornwyd!

B.

B a saif yn fynych, heb law ei sain ei hun, am *f* ac *m*: "gil*b*in, mor*br*an, am*bod*laun"—gyl*f*in, mor*fr*an, an*f*oddlawn; "em*b*edid"—ym *m*edydd; "em *b*edin"—ym *m*yddin.

Saif *b* yn ddamweiniol am *ff*: "amgi*b*ret"—amgy*ff*red.

C.

C, heb law ei sain ei hun, a saif am *ch*, *g*, *ngh*: "niguorcosam"—ni wor*ch*usaf; "enelle einicier ar alanas"—yn y lle y cynyg*g*ier ar alanas; "gueleisse guir yg cvinowant"—gwelais i wyr yng *ngh*wynofant.

Ck a ddefnyddir yn ddamweiniol am *ch*: —"a honno ader*ck*ewyr"—a hôno a ddyr*ch*efir; "mec*k*id meibion Meigen"— Mec*h*ydd meibion Meigen.

CH.

Ceir *ch* yn y cyfansoddiadau hynaf yn dynodi y sain a roddir iddi yn bresennol, ac nid ydys yn gwybod iddi gael ei defnyddio erioed yn y Gymraeg am un sain arall: "Ef rhwygei a *ch*ethrei a *ch*ethrawr' odduc*h* lle lladdes a llafnawr;" "Due u*ch* guit, ac vn u*ch* eluit"—dwy u*ch* (uwch) gwŷdd, ac un u*ch* elfydd.

D.

D, heb law ei sain ei hun, a saif yn fynych am *dd*, ac weithiau am *n* ac *th* hefyd: "gaur a *d*oded"—gawr a *dd*oded; "na *d*idaul i barch"—na *dd*idawl ei barch; "me*d*al, echui*d*, hyr*d*, hei*d*"—me*dd*al, echwy*dd*, hwr*dd*, hai*dd*: "vy *D*ewis kinvllaud"—fy *n*ewis gynnullawd; "bet Airgwl in *d*yved"—bedd Aergwl yn Nyfed; "Ioruer*d* uab madauc"—Iorwer*th* fab Madog.

Dd, a ddygwyd i'r orgraph, medd E. L. [*Arch. Brit.* 227], tua'r flwyddyn 1400. Pa fodd bynag, ceir hi ddwywaith neu dair yn yr "Ymdidan rhwng Myrdin Wyllt a Thaliessin," sydd yn y gwaith hwn (tu dal. 45), "allan o'r Ll. Du o Gaerfyrddin;" ac y mae'n fynych yn y copi sydd yma o'r "Gododin;" a cheir hi yn ddamweiniol yn yr holl gyfansoddiadau bron a elwir gwaith y *Cynfeirdd* a'r *Gogynfeirdd*, oddigerth "Beddau Milwyr Ynys Prydain," tu dal. 65, a'r Awdlau dienw sydd yn yr Attodiad.

Dh a ddygwyd i'r orgraph i gynnrychioli *dd*, medd E. L. [*Arch. Brit.* 227], yn amser y frenhines Elizabeth, gan y Dr. D. Powel [B.A. 1584], a'r Dr. J. D. Rhys [B. A. 1592]; ond yr ydym yn cael *dh* yn sefyll am *dd*, yn ddamweiniol yn y *Glossæ Oxonienis* [*Zeuss*, ii. 1076], a ysgrifenwyd yn y 9fed ganrif, yn y gair "mergi*dh*aham"— mery*dd*af. Ceir hi yn ddamweiniol hefyd yn y gwaith hwn; megys, "ebruy*dh*av"— ebrwy*dd*af; "echui*dh*"—echwy*dd*, &c. Tybir ei bod yn sefyll am *th* yn y gair "lau*dh*uer"—llae*th*fer, yn y *Glossæ*. Adferodd y Dr. Davies yr *dd* yn ei lle, yr hon a arferir hyd heddyw.

Dl, a saif am *ll*, yn y *Glos. Ox.*: "*dl*onaid"—*ll*onaid.

E.

E, a saif weithiau am *a*, *i*, *y*, ac *ei*, heb law ei sain ei hun: "guerin *e*nuir"—gwerin *a*nwir; "kynt *e* vud *e* vran nogyt *e* allawr"—cynt *y*n fwyd *i* fran nag (yr ä) ynghyd *i* allor; "chwerw *e*n trin a llain *e*n *e*mdullyaw"—chwerw *y*n nhrin a llain *y*n *y*mddullio; "disgynnyeis *e*m bedin"—disgynais *y*m m*y*ddin; "Devi *e*hun"—Dewi *ei* hun.

Ei am *ai*: "man edelh*ei*"—man y del*ai*.

Eu am *au*, *yw*, *y*, ac *u*, heblaw ei sain ei hun: "m*eu* i voli"—m*au* i foli; "afr*eu* afop amrifr*eu*"—a ffr*au*, a phob amryffr*au*; "arall *eu* pan del d*eu* vrenyn ar *eu* eydterfyn"—arall *yw* pan ddel *dau* frenin ar *eu* eyd-derfyn; "a chimr*eu*an biv"—a Chymr*u* yn byw.

Ev am *au*, *eu*, *ew*, *uw*, heb law am *ef*:—"D*ev* yssi vn a deu, yssi tri hep *ev*, hep haùt y amh*ev*"—D*uw* ys sy un a dau, ys sy dri heb *au*, heb hawdd ei ammh*eu*; "ni but ar l*ev* tr*ev* direid"—ni lydd ar l*ew* dr*ef* ddiraid.

Ew am *ef*, heb law *ew*: "ni ddodai l*ew* ar ladron"—ni ddodai l*ef* ar ladron; "Ri oet *ew* Riogan ae guant"—Rhi oedd *ef*, Rhiogan a'i gwânt (gwanodd).

Ey am *ai* ac *ei*: "o t*ey*r forth egu*ey*r saraet yr brenyn"—o d*ai*r ffordd y gwn*ei*r sarhâd i'r brenin.

F.

F, a saif am *ff* ac *ph*, heb law ei sain bresennol: "*f*ruith a*f*reu a*f*op anri*f*reu"—*ff*rwyth a *ff*rau, a *ph*ob amry*ff*rau; "e*f* a gie*f*"—e*f* a gai*ff*.

Ff.

Ff, a ddygwyd i'r orgraph, medd E. L. [*Arch. Brit.* 227], mor foreu a'r 12fed ganrif, neu gynnarach. Yr unig lawysgrifau sy genym, yn hynach na'r 12fed ganrif yw y *Glos. Oxon.*; ond ni cheir *ff* yn y rhai hyny. Saif *ff*, weithiau, yn yr hen gyfansoddiadau, am *f*: "ac im cow. val io*ff*. a diwaud wrth y gureic. y am dreic v*ff*yldawd"—ac i'm cof fel Io*f* (Iob) a ddywawd wrth ei wraig ei amddraig u*f*ylldawd; "canydoet hagen higa*ff*. y rotion"—can ydoedd hagen hyga*f* ei roddion. Ond ei sain gyffredin ydoedd yr un ag yn bresennol; megys, "o*ff*er y lwyth maddeu."

G.

G, heb law ei sain ei hun, a saif am *ng* ac *nhg*: "athuendicco de egluis a cha*g*eil"—a'th fendigo di eglwys a cha*ng*hell; "y rug Kaer Kenedir a glan"—y rhw*ng* Caer Cenedr a glan; "y*g* *g*oed gorvynuy y*g* *g*ordibet loegyr"—y*ng* *ngh*oed Gorfynwy, y*ng* *ng*orddibed Lloegr.

Gc, neu *gk*, am *ngh* (=ng—ngh): "nyd oet a*gc*loduawr llaur pan llatei"—nid oedd a*ngh*lodfawr llawr pan laddai; "arf a*gc*ynnull a*gc*yman dul a*gc*ysgoget"—arf a*ngh*ynnull a*ngh*yman ddull a*ngh*ysgoged; "hiraethauc vyg kog y*gk*yueithas"—hiraethog fy *ngh*og y*ng* *ng**h*ymdeithas.

Gg, a saif yn bur fynych am *ng*: "naut e*gg*ylion"—nawdd a*ng*ylion: "y*gg*rut y*g* *g*retyf carant"—y*ng* *ng*rudd y*ng* *ng*reddf carant; "meint uyd y*gg*uasgar"—maint fydd y*ng* *ng*wasgar.

Gh, a saif weithiau am *ch*, ond yn fynych am *ng* neu *ngh*: "treg*h*i:sant trydyd o vei try*gh*anllog yn llyg*h*es voi·dei"—trec*h*asant trydydd dydd o Fai dri *ch*an llo*ng* yn llyn*g*es Mordai; "kyn ag*h*en ag*h*eu athrugar"—cyn an*g*en an*g*eu a thrugar; "nyt yngy*gh*ein"—nid yngy*ngh*ein; "o gyt gy*gh*or"—o gydgy*ngh*or; "a*gh*yvyrdelit"—a*ngh*yfrdelid; "balch y*gh*ynted"—balch y*ng* *ngh*yntedd.

Y mae *g* weithiau yn fud yn nechreu ac yn nghanol geiriau: "Ryv duted ed mic. ogyllestic *g*uisc. A*g*usevis im deni"—Rhyw dudded ednyg o gyllestig *w*isg a a *w*isgwys am dani; "a*g*ueleiste *g*ureic amab genti"—a *w*elaist ti *w*raig â mab ganddi? "e*g*uin"—e*w*in; "ringue*d*aulyon"—rhin*w*eddolion; "ped*g*uar"—pe*dw*ar; "mer*g*idhaham"—meryddaf.

Ng.

Nid ydys yn cofio gweled *ng* mewn ysgrifau hynach na'r rhai a gymmerwyd o'r Llyfr Coch; megys, "A di*ang*o;" "deu-dde*ng* gura*g*edd; "yn pump ran r*yng*thynt"—yn bum rhan rhy*ng*thynt.

H.

Defnyddid *h* o'r dechreuad yn yr orgraph:: "*h*elgahti"—*h*ela di; "*h*ep amgnaubot"—*h*eb ymnabod; "*h*acboi"—*h*acbwyt"=yr wyt yn *h*acio.

Arferid *h* yn fynych yn y llawysgrifau hynaf o flaen mân eiriau a ddechreuant â llafariaid; yn wir, tybia rhai mai ynganiad cyntaf y llafariaid oll oedd *ha*, *he*, *hi*, &c.: "*ha* crip"—*a* chrib; "*hac* orachmonou"—*ac* o'r achfenau; "*hin* map düop"—*un* mab i Iob (Iof, Iau?); *hin* cetlinou ir leill"—*yn* gydlinau i'r lleill [*Glos. Oxen.*]

Defnyddid *h* hefyd i hwyhau llafariaid ac i rymuso rhai o'r cydseiniaid; ac yn y fath amgylchiadau, wrth gwrs, byddai yn

fud: "*eh*ag fin"—eang ffin; "llenn lliu *eh*auc"—llen lliw *eo*g; "ba*h*et"—baedd; pan ro*h*o naud ydyn ay lad"—pan ro nawdd i ddyn a'i ladd; "*h*eitham"—*ei*thaf; "ba*h*ell"—bwyell; "*elh*id bendit"—*el*id bendith: "man ede*lh*ei"—man y de*l*ai; "etncoe*lh*aam"—edngoe*l*iaf (rhoddaf goel i ednod).

Saif *h* yn ddamweiniol am *ch*: "su*h*"—swch [*Glos. Oxen.*].

I.

I, a ddefnyddid weithiau, heb law ei sain ei hun, am *a*, *e*, *u*, *y*, ac *ei*: "Rev duted ed mi*c*. ogyllestic gui*s*c. Aguisc vis *i*m deni"—rhyw dudded edm*yg* o gyllest*ig* wi*s*g a wisgwy*s* *a*m dani; "teilng pirfeith"—teilwng perffaith; "rotesew dirneid kin dirnaud"—rhoddes ef dd*yr*naid cyn d*yr*n*o*d; "angunel iechid iry penid ae bimp dirnaud"—a'n gwnel iech*yd* er y pen*yd* a'i bum d*yr*nawd; "maab ad dyco *i*vam"—mab a ddygo *ei* fam; "*i* mae"—*y* mae.

K.

K, a ddygwyd i'r orgraph, medd E. L. [*Arch. Brit.* 228], o gylch 1200, gan y Normaniaid; "ac nid ydyw byth i'w chael," eb efe, "yn y llawysgrifau hynaf." Pa fodd bynag, yr ydys yn ei chyfarfod yn fynych yn y caniadau o'r Llyfr Du, a ysgrifenwyd, yn ol pob tebyg, cyn 1158; megys, "Turr keissied y keissav keli"—twr ceisied i geisio Celi. Ceir "k kam," hefyd yn Egwyddor Nemnivus [*Zeuss.* ii. 1089], a ysgrifenwyd yn y 9fed ganrif.

K a saif yn y gwaith hwn am *c*, *g*, *ngh*, ac weithiau am *ch*: "Erbarch o *k*yuarch. o. kyuaenad. vy *k*ert ith *k*irpuill *k*anuill *k*angulad"—Erbarch o *g*yfarch o *g*yfaenad: fy *ngh*erdd i'th *g*yrbwyll canwyll canwlad; "nat oed un gobeyth yda6 *k*affae dyvot tray*k*evyn oy *k*yvoeth"—nad oedd un gobaith iddo caffai ddyfod dra*ch*efn o'i *g*yfoeth. *Gwel* C.

L.

L, yn y cyfansoddiadau hynaf, a ddefnyddid am *l* ac *ll* yn ddiwahaniaeth: "mi te*l*un"—fy nhe*l*yn; "med nou*el*"—medd nyfe*l*; "an ca*l*aur"—a'n callor; "an pate*l*"—a'n pade*ll*; "*l*oinou"—*ll*wynau; "budicaul"—buddugo*l*; "gu*l*an"—gwa*l*an; "ma*l*gueretic"—ma*ll*waredig.

Lh a ddefnyddid yn y cyfansoddiadau hynaf, yn fynych rhwng dwy lafariad, er mwyn grymusder, fe allai; megys, "etncoi*lh*am"—edngoe*l*iaf; "men y de*lh*ei"—man y de*l*ai; "med a da*lh*ei"—med a da*l*ai; "*elh*id bendith"—*el*id bendith; "a yd *alh*aeth"—a rydd *al*aeth.

Tua chanol yr 16eg ganrif, defnyddiodd y Dr. J. D. Rhys, a'r Dr. T. Williams, *lh* am *ll* yn gysson, hyd oni fwriodd y Dr. Morgan a'r Dr. Davies hi ymaith, gan ddefnyddio *ll* yn ei lle. Defnyddiodd E. Llwyd yr *lh* drachefn, yn ei *Archaiologia*, yn 1707; ond ni lwyddodd yntau i'w dwyn i arferiad yn lle *ll*.

Ll.

Ll, a ddygwyd i arferiad, yn ol E. L. [*Arch. Brit.* 228], o gylch y 12fed ganrif; ond y gwir yw ei bod yn cael ei harfer yn achlysurol, o leiaf, er pan ysgrifenwyd yr iaith gyntaf, canys cyfarfyddir â hi amryw weithiau yn y *Glos. Oxen.*, yn gystal ag yn y *Llyfr Du*; megys, "bahe*ll*"—bwye*ll*; "epi*ll*"—ebi*ll*; "gui*ll*him"—gwe*ll*aif; "grate*ll*"—grade*ll*; "cuntu*ll*ed"—cynnu*ll*ed; "cuntu*ll*etou"—cynnu*ll*edau (cynnulliadau).

Defnyddid *ll* yn ddamweiniol am *l*: "o blein cingleis i a*ll*un guernenn"—o Flaen Cynlais i A*l*un Gwernen.

M.

M, heb law ei sain ei hun, a saif am *f* yn fynych yn y cyfansoddiadau hynaf: "irdigatma"—y ddygad*f*a; "guaroi*m*aou' gwareu*f*au (chwareufäu); "ce*mm*ein"—ca*m*fain; "irana*m*ou"—yr ana*f*au; "hac orach*m*onau"—ac o'r ach*f*enau; "e*m*neitia*m*"—a*m*neidia*f*; "cy*m*reith na breint ecluis Teliau"—cy*f*raith a braint eglwys Teilo.

Y cynaniad yma o'r *m*, medd E. L., a barodd i'r Rhufeiniaid ysgrifenu Cad*f*an, Cuneddaf, Cyn*f*arch, Brych*f*ael, yn Catam*m*annus, Cunota*m*us, Con*m*archus, Broch*m*aelus.

M, a saif yn ddamweiniol am *b*: "Bet Ebediv a*m* Maelur"—bedd Ebedyw a*b* Maelur.

N.

Fe allai mai *n* ydyw y sain fwyaf sefydlog yn yr egwyddor, oddi gerth *s*; canys nid ydys yn gwybod iddi erioed gael ei seinio yn wahanol. Yr unig ddyryswch gyda golwg ar *n* oedd, fod ysgrifenwyr y canol oesoedd yn defnyddio yr un llythyren i'w dynodi ag *u*; canys ysgrifenid are*n*au, ty*n*er, *n*erthu, y pryd hyny yn are*uu*eu, ty*u*er, *u*ertu, a'r cyffelyb; hyny yw, arferent yr un llythyren am y ddwy sain *n* ac *u*.

O.

O, a saif yn yr hen gyfansoddiadau, heb law ei sain gyffredin, am *u*, *w*, neu *y*: "ni-

guorcosam"—ni worch*u*saf; "Ugnach yw vy heno"—Ugnach yw fy hen*w*; "coorn"—c*y*orn (cyforn); "dogu*o*misur"—d*ygy*mmesur; "dogu*o*hintiliat"—d*ygy*hyntiliad (dygyhyntiad=myned ar hynt); "cenitolaidou"—cened*y*leddau (cenelaethau); "dat*o*laham"—dad*y*laf (dadlaf, dadlenaf).

Oe, heb law ei sain bresennol, a saif am *au*, *o'i*, ac *o'u*: "ac angel a ddoeth att Padrig"—ac angel a dd*a*eth at Padrig; "neud meu *oe* agheu 'dagreu digraun"—neu mau *o'i* angau dagrau digrawn; "erbyn oet y dlt. y del paup *oe* bet"—erbyn oed y dydd y del pawb *o'u* bedd.

Oi am *aw*, *eu*, *oe*, a'i sain bresennol *oi*: "caito*i*r"—ced*aw*r; "guaro*i*ou"—gwar*eu*au; "lo*i*nou"—ll*wy*nau; "co*i*lou"—co*e*lau.

Oo, weithiau am *o*: "*oo*lin"—*o*lwyn.

Ou, yn fynych am y terfyniad *au*, ac weithiau am *ew*: "aperthou"—aberth*au*; "datlocou"—dadlog*au*; "cilchetou"—cylched*au*; "emetou"—efydd*au*; "diguolouchetic"—dyole*w*chedig.

Dywed E. L., mai terfyniad priodol y Gernywaeg a'r Llydawaeg ydyw *ou*, ac nad yw yn gwybod iddo gael ei arfer erioed yng Nghymru. Os felly, y Llyfr Du o Gaerfyrddin, lle y defnyddir y terfyniad *eu*, ydyw y peth cyntaf erioed a ysgrifenwyd yng Nghymru; canys *ou* sydd yn yr holl lawysgrif sydd hynach na'r 12fed ganrif [*Zeuss*, ii. 1076, &c.]. Noda Zeuss dri chyfnod i'r iaith Frutanaeg. 1. Pan yn defnyddio *ou*. 2. Pan yn defnyddio *eu*. 3. Pan yn defnyddio *au*.

Oy, a ddefnyddid am *oe* ac *o'i*: "*oy*r"—*oe*r; "*oy* gureic"—*o'i* wraig.

P.

P, a saif am *b*, *mh*, ac weithiau am *ph*, heb law ei sain ei hun: "*P*oriw new ap'is idi. imp'uet y chiwoeth y noethi"—*P*eryf nef a *b*eris iddi ym *mh*erfedd ei chyfoeth ei noethi; "a *p*erchen fit"—a *ph*erchen ffydd. Arferid *ph* hefyd, ac *f*, am *ph*, yn y Llyfr Du: "a*ph*eleidir agaur inyganhvy"—a *ph*elydr a gawr yn Nyganwy; "a *ph*edir pen pob ieith"—a *Ph*edr pen pob iaith; "a*f*op amriffreu"—a *ph*ob amryffrau.

P, a saif weithiau am *f* ac *ff*: "gu*p*arch"—cy*f*arch; "han*p*ych guell"—hen*ff*ych well.

Ceir *p* weithiau yn fud: "pim*p* dirnaud"—pum dyrnod.

Q.

Q, a saif weithiau (ond anfynych) am *c* neu *g*: "*Q*uenetav"—*C*yneddaf; "*q*uith"—*g*wyth.

R.

R, a saif am *rh* cystal ag *r*: "*r*ac brenniu a*r*ac paup namyn dy Teliau"—*rh*ag brenin a *rh*ag pawb namyn y Teilo.

Tua diwedd y 15fed ganrif, medd E. L. [*Arch. Brit.* 229], defnyddid *rr* weithiau yn nechreu geiriau lle y rhoddwn ni *rh*; *r*, bryd arall, ac *rr* weithiau, lle y defnyddiwn ni *r*: "*rr*iallaun"—*Rh*iallon; "guaeuawr *rr*in *R*ei adarwant"—gwaewawr rin, *rh*ai a darfant.

Yr oedd *r* yn cael ei hysgrifenu mor debyg i *n* yn y llawysgrifau hynaf, medd E. L., fel nas gellid eu gwahaniaethu ond wrth y synwyr yn unig. Ysgrifenid gua*r*di yn gua*n*di; co*r*sen yn co*n*sen.

S.

S, fel *n* a geidw ei sain o'r dechreuad hyd yn awr, yn ddigyfnewid. Yr oedd yn cael ei dyblu weithiau yn nechreu geiriau, medd E. L., mor foreu a'r 12fed ganrif; a pharhawyd i wneuthur hyny, yn achlysurol, hyd amser W. Lleyn, neu ddiweddarach; megys, "*ss*yllu"—*s*yllu; "Pedair llythyren ar higain Kymraeg y *ss*ydd."—*W. Lleyn.*

T.

T, heb law ei sain bresennol, a saif yn fynych am *d* ac *dd*, yn enwedig yng nghanol a diwedd geiriau:—

> "Be*t* ymarch be*t* y guythur
> Be*t* i gugavn Cle*t*yfrut
> Anoeth by*t* be*t* y Arthur."

Sef,

> Be*dd* i March, be*dd* i Gwythur
> Be*dd* i Gwgawn Gle*dd*yfru*dd*;
> Anoeth by*dd* be*dd* i Arthur;

"Pa for*t* y*t* awn o Fortun"—pa ffor*dd* yd awn o Forddun? "anu*t*on"–anu*d*on; "da*tl*"—da*dl*; "legi*t*"—llygai*d*; "ka*t*nav"—ca*dn*o; "cale*t*"—cale*d*.

Dywed E. L. [*Arch. Brit.* 229], na wyddai ef ond am un esampl o *t* yn troi i *d* yn nechreu geiriau; sef "*T*eurafti"—Dyfrod. Pa fodd bynag, canfyddir hi nid yn anfynych yn nghyfansoddiadau y 12fed ganrif, os nad yn ddiweddarach, yn troi yn *d* yn nechreu geiriau; megis, "arduireaue *t*ri *t*rined in celi"—arddwyreaf fi *d*ri, trined yng Ngheli; "vnguirth oe *t*eithi"—ungwyrth o'i *d*eithi; "yssi *t*ri hep ev"—ys sy *d*ri heb au. Y mae lliaws o esamplau o'r fath yn yr hen gyfansoddiadau sydd yn y gwaith hwn.

Th.

Y mae *th* yn ein llawysgrifau hynaf, a saif yn fynych am *dd* cystal ag am *th*: "in

llan heleth beth Owein"—yn Llan Heledd bedd Owain; "a rothei o nebaud"—a roddai o nebawd; "teyr forth"—tair ffordd.

Th, yn ddamweiniol a saif am *d*: "ethuinam"—edfynaf; ac ymddengys ei bod yn fud, neu yn newid i *n*, yn "hanther"—hanner.

U.

U, a saif am *f*, *i*, *w*, *y*, heblaw ei sain bresennol *u*: "athuolaf uaurri maur dy urhidri"—a'th folaf fawr Ri, mawr dy wrhydri; "arduireaue tri"—arddwyreaf i dri; "Duu y enu in vn"—Duw ei enw yn un; "Duu y hun. Aunaeth maurth a llun"—Duw ei hun a wnaeth Mawrth a Llun; "dricun i mynit"—drycin y mynydd; "maab a ducco iuam"—mab a ddyco ei fam.

Uu, a safai weithiau yn ddamweiniol am *w*: "dauu"—daw (mab yng nghyfraith).

V.

V, a ddygwyd i'r orgraph, medd E. L. [*Arch. Brit.* 229], tua 1200; ond yr ydym yn ei chael yn fynych yn y cyfansoddiadau o'r Llyfr Du; a saif am *f*, *u*, ac *w*: "ni lut ar lev. trev direid"—ni ludd ar lew dref ddiraid; "chuerr vuelin"—chwerw fuelin; "Dev yssy vn a deu. yssi tri hep ev hep haut y amhev"—Duw ys sy un a dau, ys sy dri heb au, heb hawdd ei amheu.

Yn y 14eg ganrif, ysgrifenid *v* yn 6, yn enwedig pan yn sefyll am *w*, o'r hyn y ceir lliaws o esamplau yn y gwaith hwn, yn y caniadau a'r brutiau; megys, "G6yr yng-a6r g6erth6a6r g6rd ymdared"—gwyr yng ngawr gwerthfawr gwrth ymwared.

W.

W, a ddygwyd i'r orgraph, medd E. L. [*Arch. Brit.* 229], o gylch 1200. Ceir y llythyren hon, pa fodd bynag, yn fynych yn y cyfansoddiadau a gymmerwyd o'r Llyfr Du; a saif am *b*, *f*, *u*, cystal ag am ei sain bresennol, *w*: "awraham pen fit"—Abraham ben ffydd; "mi nid aw ina in awr"—mi nid af inneu yn awr; "bendith new a llawr"—bendith nef a llawr; "diwyguiff wympechawd"—diwygwyf fy mhechod; "penllu wu tra wu y amser"—pen llu fu tra fu ei amser; "yewenctit"—ieuengctyd; "datcanw"—dadganu.

Ysgrifenid *w* yn 6 yn fynych yn y 14eg ganrif. *Gwel* V.

X.

X, a saif am *ch*, mewn dwy gân sydd yn y gwaith hwn, tu dal. 130, a gymmerwyd o'r *Llyfr Gwyrdd*; megys, "Pa xwardd pa edryx Eryr"—pa chwardd pa edrych Eryr? Rhoddir *h*, mewn un esampl, ar ol yr *x*: "a xhelu medwl yn hir"—a chelu meddwl yn hir. Dengys orgraph gyffredinol y caniadau hyn, iddynt gael eu hysgrifenu tua diwedd y 15fed, neu ddechreu yr 16eg ganrif.

Ymddengys fod y sain yma i'r *x* (χ Roeg) yn hysbys i'r Brutaniaid cyn foreued, o leiaf, a'r 9fed ganrif, gan fod Nemnivus yn ei defnyddio fel hyn yn ei Egwyddor ef; meygs, "dexu"—dechu, neu techu (enw'r llythyren *d*), [*Zeuss.* ii. 1089].

Y, a ddefnyddid weithiau fel *cs*, mewn geiriau estronol; megys, "*Rex* radau"—recs rhadau; "Rex regwm;" "Rex awyr," &c.

Y.

Y, a saif yn yr hen gyfansoddiadau am *i*, *ei*, ac *iw*, heb law ei dwy sain bresennol yn hyny (hynu): "aduin yd rotir y paup ychuant"—addwyn y rhoddir i bawb ei chwant; "a phob un adoeth y le y eistedd fal y buassai"—a phob un a ddaeth i'w le i eistedd fal y buasai; "ae vam yn mynet yr eglwys y wrandaw"—a'i fam yn myned i'r eglwys i wrando.

Dywed E. L. [*Arch. Brit.* 236], na ddefnyddid *y* o gwbl, hyd yr oedd ef wedi sylwi, cyn y concwest Normanaidd (1066), os cyn foreued (nid oes genym ni lawysgrifau mor hen a hyny, oddigerth y geirnodiadau yn y *Glos. Oxen.* yn unig). Yr oedd yn cael ei defnyddio mor gyffredin, eb efe, o gylch diwedd y 12fed ganrif mewn rhai llawysgrifau, fel yr oedd yn llwyr gau allan yr arferiad o *i*. Ysgrifenid hi yn wastad y pryd hyny â dotyn uwch ei phen; a thua chanol y 12fed ganrif, neu ychydig yn ddiweddarach, ysgrifenid *y* ac *i* yn yr un sefyllfaoedd bron yn ddiwahaniaeth.

Y mae *y* yn egwyddor Nemnivus; a'r enw a roddir iddi ydyw "*oyr*"—oer; ond nid yw yn cael ei defnyddio mewn un gair arall, hyd y canfyddasom ni, yn y *Glossæ*.

Z.

Hysbysa E L. na bu hon erioed yn cael ei harfer yn y Gymraeg, ond y defnyddid hi yn fynych yn y Gernywaeg am *dd*; megys, "Ezeuon"—Eddewon, a'r cyffelyb. Pa fodd bynag, cawn fod hon hefyd gan Nemnivus; ac ymddengys wrth yr enw a roddai efe iddi, sef zeirch (seirch), yr ystyr iai hi yn gyfystyr âg *s*.

Ymdrechodd y Dr. Pughe yn egnïol ddwyn *z* i arferiad yn y Gymraeg yn lle

dd yn yr argraphiad cyntaf o'i Eiriadur, cystal ag mewn rhai mân draethodau; ond "trech gwlad nac arglwydd;" a bu raid hyd yn oed i'r Dr. Pughe, blygu iddi hi, fel y prawf yr ail argraphiad o'i Eiriadur godidog, a gyhoeddwyd dan ei olygiad ef ei hun.

Dyma ni wedi myned trwy yr egwyddor oll; ac er y tybir ein bod wedi nodi llawer mwy o'r gwahanol ddulliau yr arferid y llythyrenau yn yr hen gyfansoddiadau nag y gwnaeth neb o'n blaen, nid ydym yn hòni ddarfod i ni lwyddo i ganfod *pob* amrywiad o'r llythyrenau sydd yn yr hen ysgrifau Brutanaidd. Er hyny, credwn fod y nodiadau blaenorol ar yr y llythyrenau, a'r sylwadau canlynol ar yr hen ddull o gyfuno geiriau â'u gilydd, ac o ddefnyddio rhai amserau o'r berfau, yn ddigonol i gynnorthwyo pob myfyriwr manwl i ddarllen yr holl hen gyfansoddiadau sydd wedi eu hargraphu, o leiaf, yn rhwydd a boddhaol.

Y DULL O GYSSYLLTU GEIRIAU A'U GILYDD YN YR HEN GYMRAEG.

Sylwa E. L. yn briodol, mai un o anhawsderau penaf yr hen ysgrifau Brutanaidd, oedd yr arfer mynych o gyssylltu arddodiaid, nid yn unig â geiriau ereill, ond weithiau â'u gilydd hefyd. Cyfarfyddir â rhai esamplau o eiriau ereill hefyd yn cael eu cyssylltu, ond nid ydynt ond anfynych mewn cymmhariaeth i'r arddodiadau.

Esamplau.

A: "gulib *a*sich"—gwlyb *a* sych; "*a*unaeth fruith *a*freu *a*fop. amrifreu"—*a* wnaeth ffrwyth *a* ffrau, *a* phob amryffrau.

Cyssylltid *a* yn fynych wrth wahanol amserau'r berfau: "ef *a*unaeth"—ef *a* wnaeth; "disguil *a*oruc"—disgwyl *a* orug; "*a*sich heil. *A*gulich *e*dar"—*a* sych haul, *a* wlych *y* ddâr; "*a*gueleiste gureic *a*mab genti"—*a* welaist ti wraig *â* mab ganddi?

Ae=a'i: "arbenycaul mon *ae*guledichvi"—arbenigol Mon *a'i* gwledychwy; "detuitach no mi *a*eharhowui"—dedwyddach na mi *a'i* harofwy; "mi *a*egowinneis y offereid bid"—mi *a'i* gofynais i offeiriaid byd.

Am: "amdeffin duv *am*danav"—amddiffyn Duw *am* dana*f*.

An=a'n: "Duu *an*amuc. Duu *an*goruc. Duu *an*guaraud"—Duw *a'n* hamyg, Duw *a'n* gorug, Duw *a'n* gwarawd.

Ar=a'r: "*ar*gueisson gleisson"—*a'r* gweision gleision.

Ath=a'th: *ath*uendicco de egluis"—*a'th* fendigo di eglwys.

Can: "*can*ydoet hagen higaff"—*can* ydoedd hagen hygaf.

De neu *te*=*di* neu *ti*, rhagenw yn gyssylltiedig â'r ferf flaenorol: "Ystarn*de* wineu"—ystarn *di* finnau; "ruita*de* vy neges"—rhwydda *di* fy neges: "athuendiguis*te* aron o moesen"—a'th fendigwys *di* Aaron a Moesen; "a gueleis*te* diuion din. gewri"—a welaist *ti* ddynion yng ngofri?

Di=dy:—"pan deuthoste y basse *di*wedit"—pan ddaethosi ti i basc *dy* fedydd.

Druc=dryg: "*druc*vaet"—*dryg*waed; "*druc*veithret"—*dryg*weithred.

E=ei: "sant yn kerdet *e*hun"—sant yn cerdded *ei* hun.

E=y: "mae *e*lle *e*tal estrawn"—mae *y* lle *y* tâl estron.

E=i: rhagenw mewn cyssylltiad â'r ferf o'i flaen: "gueleisse guir ygcoinowant"—gwelais *i* wyr yng ngwynofant.

Eg=yng: "ag *eg*hwyt edeu vrenyn"—ag *yng* ngwydd y ddau frenin.

En=yn: "*en*elle cenicier aralanas"—*yn* y lle y cynnygier ar alanas.

E6=eu; rhagenw mewn cyssylltiad â berfau ar ei ol: "pa tri ederin g6illt nidele neb *e6*llad hep kaniat ardir arall"—pa dri aderyn gwyllt ni ddylai neb *eu* lladd heb ganiad (genad) ar dir arall?

Ev=yw; berf mewn cyssylltiad â rhagenw ar ei hol: "sev *ev*hene peterarugeint"—sef *yw* hyny, pedair ar hugaint.

Ew=ef; rhagenw mewn cyssylltiad â berf o'i flaen: "Rotes*ew* dirneid. kin dirnaud"—rhoddes *ef* ddyrnaid cyn dyrnod.

Ig=yng (yn): "ruit *ig*niw rigig atew"—rhwydd *yng* ngnif ry-gyngoddef.

Im=ym, yn: "*im*paradui.' *im*pir kynnuis rac puis pechaud"—*ym* Mharadwys *yn* bur gynnwys rhag pwys pechod.

In=yn: "y duv *in*din digerit"—i Dduw *yn* ddyn digerydd; "agaur *id*yganhvy"—a gawr *yn* Nyganwy; "ameneich *in* vynich *in*varchocion"—a mynaich *yn* fynych *yn* farchogion.

In=yng (yn): "y geissau *in*guesti"—i geisio *yng* ngwesty.

Init=onid: *init*oet aratur in eretic tir"—*onid* oedd aradr yn aredig tir.

Ir=er: "aduch ir gulet *ir*y varet ae. werindaud"—henffych i'r wledd *er* ei waredd a'i werindod; "an gunel iechyd *ir*y penid ae pimp dirnaud"—a'n gwnel iechyd *er* y penyd a'i bum dyrnod.

Ir=yr: "Ni chedwis eva *ir*awallen per"—ni chedwis Efa *yr* afallen bêr.

It=yd (hyd oni?): "Dyv iev bv. ir. guarth *it*atcorasant"—dyw (dydd) Iau bu hir warth *yd* (hyd oni) adgorasant.

Na: "*na*digaun dinyon—*na* digon dynion.

Nam=na'm: "*nam*ditaul oth. uit"—*na'm* didol o'th wŷdd.

Nas: "Duu a collei bei *nas*prinhei diuei devaud"—Duw a gollai pe *nas* prynai difai defod.

Ny=ni: "am y cham *ny*chimv ahi"—am ei cham *ni* chymmu (chymmydd) â hi; "bv hyvit ac *ny*bu doeth"—bu hywydd ac *ni* bu ddoeth.

Nith=ni'th: *nytho*met ingueti"—*ni'th* omedd yng ngweddi.

O: "Ryv duted edmic *o*gyllestic guisc"—rhyw dudded edmyg *o* gyllestig wisg; "*o*morccanvc *o*rieinvc radev rvytheint"—*o* Forganwg, *o* Rieinwg raddau rwyddant.

Or=o'r: "ev aetinaut *or*tan"—ef a'i tynodd *o'r* tân.

Ue=ŵ; rhagenw mewn cyssylltiad â berf o'i flaen: "ny canlinafue"—ni chanlynaf *ŵ;* "arduireaue tri trined in celi"—arddwyreaf *ŵ* dri Trined yng Ngheli.

Uyg, uyg=fy; mewn cyssylltiad â geiriau yn dechreu âg *g, c,* neu *k*: "*uyg*guesti agaduant"—*fy* ngwesti a gadwant; "nyt cyuch *uyg*guaet"—nid cywch (cyfuwch) *fy* ngwaed; "*uyg*cerenhit"—*fy* ngharenydd; "nyt colletic *uyg*kyucillyou"—nid colledig *fy* nghyfeillion.

Uyn, uym=fy: "ar *uyn*dvy coes"—ar *fy* nwy goes; "yedrych *uyn*tad yssit guanclau"—i edrych *fy* nhad ys sy wanglaf; "adyn *uyn*troed o gadwyn"—a dyn *fy* nhroed o gadwyn.

Wy=fy: "nid eisieu *wy*kert. yg keinev"—nid eisieu *fy* ngherdd yng ngheiniau.

Wym=fy'm (fy): "dywyccviff *wym*pe chawd am gweithred"—diwygiwyf *fy'm* pechod (*fy* mhechod) a'm gweithred.

Y a ragddodir at eiriau fel bannod, rhagferf, rhagenw, ac arddodiad: "ar *y*daear"—ar *y* ddaear; "vrth *y*gwr aweli"—wrth *y* gwr a weli; "dit *y*deuthant"—dydd *y* daethant; "ac vno *y*llas albanac"—ac yno *y* llas (lladdwyd) Albanact; "ac hid vraud ny vn *y*arvaeth"—ac hyd frawd ni wn *ei* arfaeth; "pan wanpwyd yessu yn*y* asseu"—pan wanwyd Iesu yn *ei* asau; "arch y plwyv all dyvot *y*mywn"—arch y plwyf all ddyfod *i* mewn.

Y; rhagenw mewn cyssylltiad â berf o'i flaen: "neu cholleis*y* argluyt ruyt yn roti, neu'm rotes*y* hil run ryt aphali"—neu (yn wir) collais *i* arglwydd, neu'm (oni) rhoddais *i* hil Rhun rydd a phali?

Yd=ydd (yr); fel rhagferf: "ac yn yr amser hwnw *yd*oyd daniel pphwyt yn gwledychu"—ac yn yr amser hwnw *ydd* (yr) oedd Dauiel brophwyd yn gwledychu; "ac yna *yd*erchis ef ydwyn hi rac yvron ef"—ac yna *ydd* (yr) erchis ef ei dwyn hi rhag ei fron ef; "ac yna ykyvyd y*g*uyr ac *ydd*aa yr lle ykivyd yr heul"—ac yna y cyfyd y gwyr ac *ydd* (yr) ä i'r lle y cyfyd yr haul.

Yg=yng, o flaen *c, k,* ac *g*: "dywal *yg*cad"—dyfal *yng* nghad; "oer guely piscaud *yg*kiscaud iaeu"—oer gwely pysgod *yng* nghysgod iaeu; "gu*g*in ybid hi y vedu*en yg*uarthaw din vythvy"—gwyn ei byd hi y fedwen *yng* ngwarthaf Dinfythwy.

Ygan=gan: "*ygan*din"—*gan* ddyn.

Ygyt=gyd: "onyt edewy ditheu deuot *ygyd* aminneu yrsened vaur"—oni addewi dithau ddyfod *gyd* â minnau i'r senedd fawr.

Ym=yn: "*ym*pen ydeg bluynet"—*ym* mhen y deng mlynedd.

Yn: "*yn*y deyrnas"—*yn* y deyrnas; "*yn*yr amser ydoet selev vab dauid *yn*adcilat temyl crist"—*yn* yr amser yr oedd Selyf fab Dafydd *yn* adeilad temi Crist; "gorbowys ageiff *yn*dihaul *yn*ymchuelho ygeuyn arydas"—gorphowys a geiff *yn* ddihawl *oni* (hyd oni) ymchwelo ei gefn ar y das.

Yr: "*yr*eneitiau hinv"—*yr* eneidiau hyny.

Yr=i'r: "athalet tri buhin *yr*brenyn am gomet guis"—a thaled tri bwyn (buch) *i'r* brenin am omedd gwŷs.

Ys: "Brenhiu guirthvin guirth uchaw *ys*sit. *ys*si pen plant adaw"—breniu gwyrthfyn, gwyrth uchaf *ys* sydd, *ys* sy ben plant Addaf.

CYSSYLLTIAD GEIRIAU.

Cyssylltir geiriau yn yr hen ysgrifeniadau yn dra gwahanol i'n dull ni yn awr. Ni chaniatâ lle i ni roddi ond ychydig o esamplau byrion.

"Deudeckeinyauc"—deudd*e*g ceiniog; "namethryad"—na'm eithri*a*d: "namditaul"—na'm didol; "irbleuporthetic"—i'r blew-borthedig; "iargeuyn"—oddi argefn; "morliaus"—mor liaws (mor liasog); "mortru"—mor dru (mor druenus); "ni ceinguodemisauch"—ni chain oddefasoch.

CYFREDIAD A DYLEDDFIAD.

(Gerunds and Supines.)

Y mae y dulliau hyn yn gwbl allan o arfer yn bresennol; ond yr oedd beirdd y canoloesau yn eu defnyddio yn dra mynych. Rhoddwn ychydig esamplau.

Cyfrediad: "adeilator"—yn adeiladu *(in building)*.

Dyleddfiad: "adeilitor"—i'w adeiladu *(to be building)*.

"Mwynawg am ran *cwyniator*"—mwynwr (yr uchelfryd) am ran *yn cwyno*.—ANEURIN.

"Gwelator aruydion"—*yn gweled* arwyddion.—TAL.

"Arwed Gwynedd *gweiniator*. Arwyrain Owain cain *ceinitor*"—Arwydd Gwynedd *yn gweini*: Arwyrain Owain gain *i'w ganu*.—CYNDDELW.

"Cathl gwae *canator*"—cathl gwae *sydd yn canu*.—TAL.

"*Canator* cathl gwynfyd"—*yn canu* cathl gwynfyd.—MEIG.

"Llyvn môr *brithotor* tired"—llyfn môr, *brith y daw* tiredd.—LL. HEN.

"Gwae a eduis drysor ygglyn *llosgitor*"—gwae a adawes drysor mewn glyn *yn llosgi*.—TAL.

"Pob lluvyr *llemitor* arno"—pob llwfr *i gael llamu* arno.—LLEFOED.

GWAHANOL AMSEROEDD Y BERFAU.

Yr oedd rhai o'r hen ysgrifenwyr yn arfer yr un terfyniad, yn enwedig *ynt*, yn amser gorphenol, presennol, a dyfodol y ferf: megys yn y gân a briodolir i Taliesin, a elwir "Gwaith Argoed Llwyfain," tu dal. 48, dywedir,—

"Nid dod*ynt* nid yd*ynt*, nid *ynt* parod'.'

Hyny yw, "Ni ddodas*ant*, nid yd*ynt*, ni bydd*ant* barod," lle y defnyddir yr un terfyniad i dri amser y ferf.

Y mae yr un dull anosbarthus yn cael ei arfer yn fynych yn y caniadau a briodolir i Llywarch Hen; megys,

"Gwyr dewr cymmyn*ynt* â dur."

Yn y llinell hon, defnyddir *ynt* yn yr amser gorphenol; ond yn y llinell ganlynol, ceir ef yn y presennol:—

"Eglwysau Basa *ynt* dirion heno."

Dywedir mai yn y cerddi a briodolir i Taliesin a Llywarch Hen yn unig y ceir y cymmysgedd yma o'r amserau.

Yn y "Gododin" a briodolir i Aneurin, defnyddir *ent* yn y gorphenol, *ynt* yn y presennol, ac *ant* yn y dyfodol; megys, tu dal. 3,—

"Maon dychur*ant* eu hoet bu hir."
"Dyphorth*ynt* gowyssawr gelorawr hir."
"Cyt yv*en* (ent) vedd gloew wrth liw babir."

Fe fernir mai yr achos fod y "Gododin" yn fanylach yn hyn, a phethau ereill, na'r caniadau a briodolir i Taliesin a Llywarch Hen, ydoedd, fod awdwr neu awdwyr y "Gododin" yn fwy dysgedig a chynnefin â'r iaith Lladin na'r lleill, gan y dywedir fod ol dylanwad Lladin ar lawer o bethau heb law amserau y ferf yn y "Gododin." Y mae lle cryf i gasglu mai monachod dysgedig oedd awdwyr y rhan fwyaf o'r "Gododin," tra y gellir casglu oddi wrth lawer o'r caniadau a briodolir i Taliesin, Llywarch Hen, ac ereill o'r Cynfeirdd, mai gwaith y clerwyr annysgedig ydynt.

DEFNYDDIO Y FANNOD O FLAEN ENWAU PRIOD.

Cyfarfyddir â hyn yn fynych yn y Brutiau, y caniadau, ac yn enwedig yn y Mabinogion; megys, "Heb *y* bendigeidvran"—eb (medd) Bendigeidfran; "Heb y matholwch"—eb Matholwch; "heb *y* guenhuyvar"—eb Gwenhwyfar; "heb *yr* Owain"—eb Owain; "heb *yr* Arthur"—eb Arthur, &c.

Y mae yn ddiammheu mai yr "heb yr" yma yw gwreiddyn yr arfer gyffredin sydd ar lafar gwlad hyd heddyw, o ddywedyd—"*ebra* fo," "*ebra* hi," "*ebra* nhw," &c.; ac yr ydym yn cofio gweled y dull yma unwaith mewn orgraph:—

"O Ifan *ebr* hithe, pan orygsoch chwi fyned i bant, yr oeddwn i goledig o dri mis gan blentyn," &c. – *Arch. Brit.* 253.

Y CYNVEIRDD.

GODODIN.

ANEURIN GWAWDRYDD A'I CANT.

Heb law testyn yr argraffiad cyntaf, yr hwn a roddir yma yn gwbl ddinewidiad, y mae deg o goplau ereill o'r *Gododin*; ac un amrywiad, a elwir *Gorchan Maelderw*. Rhoddir gwahanol ddarlleniadau yr un ar ddeg hyn ar odreu y dalenau, ynghyd â nodiadau eglurhaol golygydd yr argraffiad blaenorol; a dynodir hwy fel y canlyn:—

Tri pheth a dry drwg wenwyn
Cyngor Gwraig, Murn, a Chynllwyn:[9]
Penn Ci ar fore Gwanwyn;[10]
Gwae a laddodd ei Forwyn!

MIS MAWRTH, mawr ryfyg adar
Chwerw oerwynt, ar dalar:[11]
Hwy fydd Hinon, na Heiniar[12]
Hwy peru Llid na Galar,
Pob rhyw Arynnaig[13] a ysgar;
Pob edn a edwyn ei gymmar:[14]
Pob peth a ddaw trwy'r ddaear
Ond y Marw, mawr ei Garchar!

MIS EBRILL wybraidd gorthir;[15]
Lluddedig Ychen, llwm Tir;
Cnawd osb[16] er nas gwahoddir;
Gwael Hudd chwareus Clust-hir;
Aml bai lle nis cerir;[17]
Gwyn ei fyd a fo cywir;[18]
Cnawd[19] difrod, ar blant enwir:
Cnawd gwedi Traha, tranc hir.

[1] Meirwon coed aml clerddyn.—*Llyfr Hir.*
[2] Cul bran, distaw gwenyn.—*Ll. H.*
[3] Gwael.—*Ll. H.*
[4] Cynnwy march distaw aderym.—*Ll. H.*
[5] Hir i blygain byr brydnawnyn.—*Ll. H.*
[6] Llwm pob llwyn.—*Ll. H.*
[7] Deffry neidr i hel gwenwyn.—*Ll. H.*
[8] Yr ych llog ni fedr achwyn.—*Ll. H.*
[9] Cynghor gwraig mewn llid nachynlluyn.—*Ll. H.*
[10] Pechod marwol paid oi derllwyn.—*Ll. H.*
[11] Ar ben talar (a dalar).—*Ll. H.*
[12] Y diwyd a drin ei heiniar.—*Ll. H.*
[13] A reing (o aig a).—*Ll. H.*
[14] Ac a dyn ar gwr i ysgar.—*Ll. H.*
[15] Eglur.—*Ll. H.* [16] Gwest.—*Ll. H.*
[17] Pawb a ymarddel ai lafur.—*Ll. H.*
[18] Nid teilwng ir iach segur
Hyf yr ymddengys y cywir
Diwradwydd deurydd y cywir.—*Ll. H.*
[19] Mynych.—*Ll. H.*

MIS MAR difrodus Geilwad;[1]
Clyd clawdd i bob di gariad:
Llawen hen di Archenad;
Llafar Cog, a Bytheiad:[2]
Hawdd cymmod lle bo cariad[3]
Hyddail coed, hyfryd anllad:
Nid hwyrach[4] daw i'r Farchnad,
Groen yr Oen, na chroen y Ddafad[5]

MIS MEHEFIN hardd Tiredd;[6]
Llyfn Mor, llawen Maranedd;[7]
Hirgain ddydd, heini Gwragedd;
Hilawn Praidd, hyffordd Mignedd:[8]
Duw a gar bob Tangnefedd;
Diawl a bar[9] bob Cynddrygedd;
Pawb a chwennych Anrhydedd;
Pob cadarn gwan ei ddiwedd.

MIS GORPHENAF hyglyd* Gwair;
Taer tes tawddedig Cyssair
Ni char Gwilliaid hir gyngrair:
Ni lwydd hil corph anniwair;†
Llom Ydlan lledwag cronffair;
Llwyr dielid mefl Mawrair;
Gwir a ddywaid Mab maeth Mair,
Duw a farn, Dyn a lefair.‡

MIS AWST molwynog Morfa;
Llon Gwenyn llawn Modryda;[10]
Gwell gwaith Crymman na Bwa
Amlach Das na chwareufa;
Ni lafur, ni weddia;[11]
Nid teilwng iddo'i Fara[12]
Gwir a ddywaid saint Breda,[13]
Nid llai cyrchir drwg na da.

MIS MENNI[14] mynnawc planed,
Mwynieithus mor a threufred[15]
Gnawd Gwyr a meirch yn lludded
Gnawd pob ffrwyth yn adfed
Merch frenhinawl a aned

[1] Ynfyd anllad.—*Ll. H.*
[2] Llafar cog ar lethr gwlad,
Uchel adlais bytheiad.—*Ll. H.*
[3] Balch merch o aml gariad.—*Ll. H.*
[4] Cyn ebrwydded.—*Ll. H.*
[5] Gwae a vo ai fwriad
Ar anwiredd na lledrad.—*Ll. H.*
[6] Claear wedd.—*Ll. H.*
[7] Llawn murianedd (llon rhianedd).—*Ll. H.*
[8] Hylawn ffair (llaid) hyffordd mignedd
Gwlithog llwybrau hyffordd mignedd.—*Ll. H.*
[9] Gar.—*Ll. H.* [10] Diofal gwenyn yn ol haf.—*Ll. H*
[11] A fo diog y mis yma.—*Ll. H.*
[12] A ddwg eisiau drymder gaiaf.—*Ll. H.*
[13] Brenda.—*Ll. H.* [14] Medi. [15] Threfred.

*Myglyd gwair.
†Y llinell hon yw y 6 yn Ll. R. Jones.
‡Mis gorphenaf teilwng chwys
Gweiriau ar dan pawb mewn brys
Chwimwth morgrug rhuddion mefus
Segur milgwn ymhob llys
Llwin yw grudd dyn eiddugus
Gwyn ei fyd a fo cariadus
Ni bydd byth dihelbulus.—*Ll. H.*

An duc o'n dygn gaethiwed[1]
Gwir a dywed saint Berned[2]
Ni chwsg Duw pan ro wared.*

Mis Hydref hydraid Hydod
Melyn blaen bedw, gwedw Havod
Llawnfras[3] adar a physgod
Lleilai laeth Buwch a gafrod
Gwae a haed mefi er pechod
Gwell marw no mynych difrod
Tri pheth a dawd pob pechod[4]
Ympryd a gwedi a chardod†

Mis Tachwedd moch mehinfawr
Aed Bugail delid cerdawr

[1] Hwnnw a'n duc o gaethiwed
[2] Sain Bened.—A.D. 496
[3] Llymfras
[4] Bychod
[5] Mlwyd, neu gwyd.

*Mis Medi mydr ynghanon
Addfed coed yd ac aeron
Esgud teuleu teilwng ddynion
Gwae gan hiraeth fy nghalon
Golug Duw ar dylodion
Gwaetha gwir gwarthu dynion
Gwaetha da drwg anudon
Traha a threisio gwirion
A ddifa (ddifa sylwedd) etifeddion.—*Gut. Owain.*

†Mis hydref hydraul echel
Chwareus hydd chwyrn awel
(Mynych drawiad o ryfel)
Gnawd ysbeilwyr (ysbeilynt, ysbeilwynt) yn
Gnawd lledrad yn ddiymgel [rhyfel
(Erioed a gynnygid yn ddirgel)
Gwae'r dyn ni ddawr pan el
(Pan feid bras y barysia'r Gwyddel)
Trychni nid hawdd (rhwydd) ei ochel
Angeu a ddaw yn ddiogel
Ammau fydd y dydd a del.—*Gut. Owain.*

Gwaedlyd llafn llawn Escubawr
Llon merllyd pob callawr
Hirnos heinus carcharawr
Parchus pawb a fed drysawr
Tri dyn nid aml a'u didawr
Trist, Blwng, a chybyd angawr*

Mis Rhagfyr tomlyd archan
Llwm gwyd llonyd Llywethan
Llon ceiliog a Thwylluan
Au deudeng[5]-nyd yn hoean[6]
Am eni yspeiliwr sattan
Trwm tir trymluoc huan
Gwir a ddywed Yscolan[7]
Gwell Duw no'i drwg darogan[8]†

[6] Hoywan-Oi ddeuddegnydd yn hoyan [7] Ysgolan
[8] Yr ab drogan, y mab darogan, no drwg ddarogan.

*Mis tachwedd tuchan merydd
Bras llydnod llednoeth coedydd
Awr addaw trwy lawenydd
Awr drist drosti a dderfydd
Y da nid eiddo'r cybydd
Yr hael ai rho pieufydd (rhoddo pian'r bydd)
Dyn a da'r byd a dderfydd
Da nefawl tragwyddawl fydd.—*Gut. Owain.*

Arall. Mis tachwedd diwedd dail
Llednoeth coed bras anifail
Llawen dedwydd hylwydd hael
Clyd nyth diwyd i ochel
Diged fydd ffau cybydd gwael
Ni erys nwyfus pan wiael
A dyrro y dyn anhael
Cyffelypa ir casa eu cael.

†Mis Rhagfyr byrddydd hirnos
Brain yn egin brwyn ar ros
Tawel gwenyn ac eos
Trin ynghyfedd diweddnos
Adail dedwydd yn ddiddos
Adwyth diriaid heb achos
Yr hoedl er hyd (fo) ei haros
A dderfydd yn nydd a (ac yn) nos.—*Gut. Owain.*

GWAITH TALIESIN.

HANES TALIESIN.

O'r Mangofion.

Gwr bonheddig oedd gynt ym Mhenllyn a elwid Tegid Voel ai drefdad oedd ynghanol llyn Tegid ai wraig briod a elwid Caridwen, ac or wraig honno y ganed mab a elwid Morfran ap Tegid a merch a elwid Greirfyw a thecca merch or byd oedd honno; a brawd iddynt hwy oedd y dyn haccraf or byd *Afagddu*. Ac yno Caridwen ei fam a feddyliodd nad oedd ef debyg i gael ei gynnwys ymhlith boneddigion rhag ei haccred, oni bei arno ryw gampeu neu wybodau urddasol canys yn nechreuad Arthur ar ford gron oedd hynny.

Ac yna yr ordeiniodd hi drwy gelfyddyd Llyfrau Pheryllt i ferwi Pair o Awen a Gwybodeu iw mab fal y bai urddasch ei gymeriad am ei wybodau ai gelfyddyd am y byd a ddelai rhag llaw. Yna y dechreuodd hi ferwi y pair yr hwn wedi dechreuid ei ferwi nid allid torri y berw dan ben undydd a Blwyddyn ac oni geffid tri defnyn bendigedig o rad yr Yspryd. A Gwion bach mab Gwreang o Lanfair yng nghaer Einion ym Mowys a roes hi i amodi y pair, a dall a elwid Morda i gynneu y tan dan y pair a gorchymmyn na adawai ir berw dorri hyd pan ddelai undydd a Blwyddyn. A hitha drwy Lyfrau Astronomyddion ac wrth oriau y planedau yn llysieua beunydd o bob amrafael lysieu rhinweddol. Ac fal yr oedd Geridwen ddiwrnod yn llyseua ac ac yn gorchfanu yn agos i ben y flwyddyn y damweiniodd neittio a disgyn o dri defnyn o'r dwr rhinweddol o'r pair ar fys Gwion

bach; a rhag ei frytted ef ai trewis yn ei ben ac yn gytrym ac y trewis y defnynnau gwyrthfawr hynny yn ei ben efe a wyddai bob peth ar a ddelai rhag llaw ac efe a adnabu yn hysbys mai mwya gofal oedd iddaw ystryw Caridwen canys mawr oedd ei gwybodau, a rhag dirfawr ofn efe a ffoes parth tua ei wlad. Ar pair a dorres yn ddau hanner, herwydd y dur i gyd oedd wenwynig eithr y tri defnyn rhinweddol hynny fal y gwenwynodd Feirch Gwyddno Garanhir am yfed y dwfr or Aber y rhedodd y pair iddi, ac am hynny y gelwir yr Aber o hynny allan gwenwyn feirch Gwyddno. Ac ar hynny Caridwen yn dyfod i mewn ac yn gweled ei llafur er ys blwyddyn yn golledig ysglyfy Rhodyl a tharo y dall Morda ar ei ben oni aeth un oi lygaid ar ei rudd. Sef y dywaid ynteu drwg im anffurfieist a minneu yn wirion, ni buost golledig om hachos i. Gwir a ddywedaist eb y Caridwen, Gwion bach am hyspeiliodd a chyrchu ar ei ol dan redeg, ai chanfod hithau a wnaeth yntau, ac ymrithio yn rhith ysgyfarnog a rhedeg. Sef y rhithiodd hithau yn Filast ai ystumio ai ymchoelyd tuag Afon. Ac ymrithio yn bysgodyn, a hithau yn rhith dyfrast, ac ymgeisio ag ef dan y dyfr, oni fu ddir iddo ymrithio yn Aderyn ir wybr a hithau yn Llymysten iw ymlid ac ni adodd iddo lonydd yn yr wybr; a phann oedd yn ei oddiwes ac ynteu ac ofn angeu arno, efe a arganfu dwr o wenith nithiedig ar lawr ysgubor ac efe a ddisgynodd ir gwenith, ac a ymrithiodd yn rhith un or grawn; ac yno yr ymrithiodd hithau yn iar ddû goppog ac ir gwenith yr aeth, ac ai thraed ei grafu ai adnabod ef ai lyngcu, ac fel y dywed yr ystori, Hi a fu nawmis yn feichiog arno ac wedi esgor o honi ni allei hi ar ei chalon ei ladd rhag mor deg oedd Namyn ei wisgaw mewn *boly o groen* ai fwrw ef yn ewyllys dyn yn y mor y 29 o Ebrill. Ac yn yr amser hwnnw yr oedd Gored Wyddno yn y traeth rhwng Dyfi ac Aberystwyth, garllaw ei gastell ei hun, ac yn y gored hwnnw y ceid cywerthydd can punt pob nos Galanmai; ac yn yr amser hwnnw yr oedd un mab i Wyddno a elwid Elphin yn un or rhai dyryssaf or ieuaingc a mwyaf o eisiau arno, ac yn orthrwm gan ei dad hynny, gan dybiaw ei eni ar awr ddrwg; a thrwy annogiad ei gynghoriaid arno ef a roes ei Dad iddaw dynniad y gored y flwyddyn honno i edrych a ddamweiniai iddo ras byth ac i ddechreu gwaith iddo. A thrannoeth wrth edrych o Elphin ac nad oedd ynddi ddim ond wrth fyned i ffordd arganfod ar bawl y gored y *bol croen* yna dywawd un or Goredwyr wrth Elphin ni buost ti anhappus erioed cyn henno Canys ti a dorraist Gyneddfau y gored yn yr hon y ceid ynddi werth can punt bob nos Glanmai. Beth yn awr, eb Elphin ef a allai fod yna Gywerthydd canpunt o dda? dattod y croen a wnaethpwyd ac arganfod or agorwr dàl mab ac a ddywawd wrth Elphin Llyma Daliessin! Taliesin bid eb Elphin a dyrchafel y mab rhwng ei ddwylaw gan gwyno anhap iddo ac ai cymmerth yn brudd is ei gil; ar awr honno ef a berai i'r March rygyngu oedd yn tuthiaw or blaen ai arwain mor esmwyth a phettai yn eistedd mewn Cadair esmwytha or byd; ac yn fuan yn ol hynny y gwnaeth y mab ddehuddiant i Elphin a moliant ac a brophwydodd urddas iddo ar ddyhuddiant oedd fal y gwelwch yn T.D. yr 25d. o'r llyfr hwn. A hon (sef y Dehuddiant) oedd y gerdd gyntaf a ganodd Taliesin er dyhuddo Elphin am ei fod yn drist golli helfa y gored a gwaeth ganddo weled or byd mai arno ef yr oedd y bai ar anffortun. Ac yno y gofynnodd Gwyddno Garanhir iddo beth oedd efe ai dyn ai yspryd. Ac yno y canodd yntau yr hanes ac y y dywawd "Prif Fardd Cyffredin, &c." Yno daeth Elphin a Thaliessin ganddo i dy Wyddno ei dad, ac a ofynnodd Gwyddno iddaw ai da'r caffaeliad yn y gored? Yntau a ddywawd wrtho gaffael peth oedd well na physgod, beth oedd, eb Gwyddno? Bardd eb yr yntau Elphin; yna y dywawd Gwyddno.— Och druan beth a dal hwnw i ti! Yno yr attebawdd Taliessin ei hunan ac a ddywawd Efe â dâl hwn iddo ef fwy nag a dalodd y gored erioed iti. Yno y gofynnodd Gwyddno iddo a fedri di ddywedyd a chyn fychaned a wyt? Medraf i ddywedyd mwy nag y fedri di ofyn imi. Moes imi glywed beth a fedri eb yr Gwyddno.

Yno y canodd TALIESSIN—

Ar y dwr mae cyflwr cant bendigaw, &c.

Yn yr un M.S. lle y cefais yr hyn a aeth ymlaen o'r Mângofion, &c. Yr ydoedd y gerdd a ganlyn hebai Ll. Ddû. Mae yn debyg i ryw grynodeb o fywyd Taliessin.

KYNTAF im lluniwyd ar lun dyn glwys
Yn llys Caridwen em penydiwys [nwys
Cyd bawn bach o'm gwlled gwyl fy nghyn-
Oeddwn fawr uwch llawr llann am tywys
Prid fum parwyden per awen Parwys
Ag ynghyfraith heb iaith am rhydd ry-
Hen widdon ddulon pan lidiwys [lliwys
Anghuriawl ei hawl pan hwyliwys
Ffoes yn gadarn
Ffoes yn llyffan } Braidd orphowys
Foes yn rhith bran

Ffoes yn derwyn
Ffoes yn gadwyn } Mewn llwyn llychwys
Ffoes yn Iyrchwyn

Ffoes yn fleiddyn
Ffoes bleiddawr } Cyfiaith Coelwys
Yn niffaeth
Foes yn fronfraith

Ffoes yn gadno
Cyd naid ystumau } Fal na thycciwys
Ffoes yn Felau

Ffoes yn wiwair ni chynnydd celwys
Ffoes yn Gern Hudd rhydd im rhwyfwys
Ffoes yn haearn mewn tan towys
Ffoes yn ben gwayw gwae ai puchwys
Ffoes yn Darw taer ymladdwys
Ffoes yn faedd Gwrych mewn rhych rhith-
Ffoes yn ronyn gwyn Gwenith lwys [iwys
Ar ael llen carthen im carfaglwys
Cymmaint oedd ei gweled a chyfeb rhewys
A fai yn llenwi fal llong ar ddyfrwys
Mewn boly tywyll im tywalldwys
Mewn mor dylan im dychwelwys
Bu goelfain im pan im cain fygwys
Duw Arglwydd yn rhydd am rhyddhawys

TAL. AE CANT.

HANES TALIESIN.

PRIFARD cyffredin
Wy fi i Elffin
Am gwlad gynhefin[1]
Iw bro Gerubin[2]

Ioannes Dewin
Am gelwis i Merdin,
Bellach pob Brenin
Am geilw Taliesin

Mi a fum nawmis hayach
Yn mol Gridwen wrach
Mi a fum gynt Wion bach
Taliesin ydwy bellach

Mi a fum gyda'm ner
Yn y goruwchelder
Pan gwympiod Luciffer
I uffern dyfnder

My a fum yu dwyn banner
O flaen Alecsander
Mi a wn[3] enwau'r ser
Or gogledd hyd Awster

Mi a fum ynghaer Bedion[4]
Tetragrammaton

[1] Gyssefin—L. M.
[2] Sierubin—R. I.
[3] Rhif y ser.
[4] Gwdion.

Mi a dygum Heon
I lawr glyn Ebron

Mi a fum yn y Ganon[1]
Pan las Absalon
Mi fum yn y Llyd don[2]
Cyn geni Gwdion

Mi a fum bedrenog[3]
I Eli ag Enog
Mi a fum[4] ar fran crog
Mab Duw Trugarog

Mi a fum ben ceidwod
Ar wneuthur Twr Nimrod[5]
Mi a fum dri chyferod
Ynghaer Eirianrhod[6]

Mi a fum yn Arca
Gyda Noe ac Alpha
Mi a welais difa
Sodoma a Gomorra

Mi a fum yn Affrica
Cyn adeilad Roma
Mi a ddoethym yma
At weddillion Troia

Mi fum gyda'm Rhên
Yn mhreseb yr asen
Mi a nerthais Foesen
Trwy dwr Urdonen

Mi a fum ar yr Wybren
Gyda Mair Fadlen
Mi a gefais awen
O bair Griduen

Mi a fum fardd telyn
I Theon[7] Llychlyn
Mi a gefais newyn
Am fab y Forwyn

Mi a fum yn y Gwynfryn
Yn llys Cynfelyn
Mewn cyff a gefyn
Undydd a blwyddyn

Mi a fum am Logawd
Yngwlad y Drindawd
Ni wyddis beth yw y cnawd
Ai cig ai pysgawd

Mi a fum dysgawd
Ir holl fydysawd

[1] Mi a fum yng nghanon.—R. I.
[2] Mi fum yn Llys don.—R. I.
[3] Baderog.—R. I. [R. I.
[4] Farn crog.—R. I.
[5] Ar waith Twr Emrod. [—R. I.
[6] Arianrhod.
[7] Lleon.—R. I.

Mi a fyda hyd dyd brawd
Ar wyneb daiarawd

Mi a fum ynghadair flin
Uwch Caer Sidin[1]
A honno yn troi fydd
Rhwng tri alfyd
Pand rhyfedd ir byd
Nas argenydd

DYHUDDIANT ELPHIN.

Gogwawd gyrru
A gwawd dyfyrru
A thraethawd gedu
Pa fyd a ddyfu
Pwy a wyr canu
Gar bron yr Iessu
Yngwydd y tri llu
Pan foe'r yn barnu
Pa gerddor a gan
Pan alwer Cynan
I ddyfyn gader
Ger bron Cadwaladr
Pan fo'r dranc enaiar
Ar Cynan ap Bran
Os ywch brif feirddion
Crwyf celfyddon
Treuthwch oruchuddion
Or Mundi Maon
Y mae pryf atcas
Oi Kaer Satanas
A oresgynas
Rhwng dwfn a bas
Cyfled yw ei enau
A mynydd Mynnau
Nys gorfydd angeu
Na llaw na llafneu
Mae llwyth naw can maen
Yn rhawn dwy bawen
Un llygad yn ei ben
Gwyrdd fál glas iaën
Tair ffynnon y sydd
Yn ei wegorlydd
Mor fryched arnaw
A nofiant trwyddaw
Bu laith bualawn
Deifr ddonwy dyfr ddawn
Henwa'r tair ffynnawn
O ganawl Eigiawn
Un llwydd heli
Pan fo yn corini
I edryd lliant
Dros Moroedd difant
Yr ail yn ddinam

[1]Sidydd.

A ddigwydd arnam
Pan fo'r glaw allan
Drwy awyr dylan
Y drydedd a ddawedd
Trwy wythi Mynyddedd
Fal callestig wledd
O waith Rex Rexedd
Ydywch bosfeirdd
Mewn rhwyf ofeiliant
Ny wyddoch ddychanu
Teyrnas y Brytannaec
Minneu yw Taliesin
Ben beirdd y Gorllewin
A ollwng Elphin
Oi hual Lurin
Aryf ag cynnil[1]
Ag cyman dull
Twryf yn agweud
Erac menwed
Erac maryed
Pan ysteyrn gwern
Eam gamgyrn eam gamled
Y voli rhi alar peithiu racued
Yd y gweles
Arhul tres Turdei galed
Dygochuiaur a chloi a phor
A pherth a pher
Arud morua
Ac ymorua
Ac Eivionyd
A Gwynheidyd
Cein edryssed
Trybedaut raut
Rac y Defaut
Eil dal rossed
Taryanneu ban amdal henfan[2]
Bu edryssed
Bleid y vyuyt
Oedd bleidyat rhyd
Yn y deuredd
Pubal Peleidyr
Penyr pryd neidyr
O luch nadredd
Velyd yt wyd
Gwelydon rhuyt
Riein gared
Carut vreidun
Carun dyvuyn
Vur heyured
Cam hurauc daru
Cuynaf dy varu
Carut dyhed
Baran mor y goryf guyt
Y am Gatpul yn man bran ygcynuyt
Tardei don gyu cyngon gouytawr byt
Ef gwrthodes
Ar lwyth peues

[1]Cynnul. [2]Heulan 9 W.M.

Ar les pedyt
Petuar milet ar letauc byt
Aesawr yn uellt a llavyn yguallt dri o betror
Ur guylyas
O gyrn glas
Med meitin
Bre eych tutuulch baran ret tost ben guaed gwin
Yr med a fauryf yd aethan aury dros eu haufin
Guyar van vaith
Er cadu cynrheith
Bu cynyeuin
Cynan cenon
Teithugir o Von
Ar vreint Goelin
Tutuulch-cyuulch
A oreu vulch
Ar van caereu
Gan vynydauc
Bu atveilyauc
Eu gwirodeu
Blwydyn hiraeth
Er gwyr Gattraeth
Am maeth yt meu
Eu llafneu dur
Eu med eu bur
Eu hualeu
Aryf ag cynnul
Ag cyman dul
Turyf nis cigleu
Ac vely tervyna

KANU Y MEDD

24 I ELPHIN MS. L. M.

GOLYCHAF[1] wledig pendefig pob wa
Gwr a gynneil y Nef Arglwydd pob tra
Gwr a wnaeth y dwfr i bawb yn dda
Gwr a wnaeth pob llad ac ai llwydda
Meddwer[2] Maelgwn Mon ag an meddwa
Ai feddgorn ewyn gwerlyn gwymha
As gynnull gwenyn ac nis mwynha
Med hidleid moleid molud i bob tra
Lleaws Creadur a fag terra
A wnaeth Duw i ddyn er ei ddonha
Rhai drud rhai mud ef ai mwynha
Rhai gwyllt rhai dof Dofydd ai gwna
Yn dillig iddynt yn dillad ydd a
Yn fwyd yn ddiawd hyd frawd yd barha
Golychaf i wledig pendefig gwlad hedd
I ddillwng Elphin o alltudedd [medd
Y gwr am rhoddes y gwin ar cwrwf ar
Ar meirch mawr modur mirein eu gwedd
Am rothwy etwa mal diwedd
Trwy fodd Duw y rhydd trwy enrhydedd
Pump pemhwnt calan ynghaman hedd
Elffinawg farchawg medd hwyr dy Ogledd*

[1] I Fâ—L. M. [2] Med wet—E. D.

I'R GWYNT.

DYCHYMIC di pwy yw
Creadur cadarn cyn dilyw [waed
Heb gig heb asgwrn heb wythen heb
Heb pen a heb draet
Ni bydd hyn ni bydd iau
Nog yn y dechreu
Er ofn nag ry ddifoes eisiau
Gan greaduriau
Mawr Dduw mor wynneu
Ban ddaw o ddechreu
Mawr ei fretheiriau
Pan ddel or dehau
Mawr ei ferthidau
Y gur gan goreu
Ef yn maes ef ynghoet
Heb law ac heb droet
Heb henaint heb hoet
Ac ef yn gyfoed
A phumoes pymhoed
A hefyd y sydd hyn
Pet pemwnt flwyddyn
Ag ef yn gyfled
Ag wyneb tudwed
Ag ef ni anet
Ac ef ni weled
Ef a nona gythrudd
Lle mynno Dofydd
Ef ar for ef ar dir
Ni wyl ni welir
Ag ef yn anghywir
Ni ddaw pan fynnir
Ef ar dir ef ar for
Ef yn anhepcor
Ef yn diesor
Ef yn beteiror
Ef yn ddi achor
Ef yn ddieisor
Ef o bedeiror
Ni bydd wrth gyngor
Ni fydd heb gyngor
Ef cychwyn agor
O dduch maen mynor
Ef yn llafar ef yn fud

*This poem was written when his patron, Elphin ap Gwyddno, was imprisoned in the Castle of Deganwy by his uncle Maelgwn Gwynedd, Prince or King of Wales, son of Caswallon Lawhir, which Caswallon built the fortress of Caer Gybi, and the son built the Collegiate church of Holyhead and the priory of Penmon.

Mae'n Gorwedd yn Ynys Seirioel.

Ef yn fynud
Ef yn wrdd ef yn ddrut
Pan dremyn drosdud
Ef myd ef llafar
Ef yn orddear
Mwyaf y amar[1]
Ar wyneb daear
Ef yn dda ef yn ddrwg
Ef yn orddwc[2]
Ef yn anamlwc
Cannis gwyl golwc
Ef yn ddrwg ef yn dda
Ef hwnt ef yma
Ef a anrhefna
Ni ddiwg a wna
Ni ddwg a wnech
Ec ef yn ddibech
Ef yn wlyb ef yn sych
Ef a ddaw'n fynych
O wres haul ac oerfel
Lloer yn hanhel[3]
Lloer yn anlles
Handid llai ei gwres
Un gwr ai goreu
Yr holl greadwrieu
Drwy ddirfawr awel
I wneuthur dialedd

Ar Faelgwn Gwynedd

Drwg y gwr goreu
Greaduriau
Ef biau dechreu
A diwedd diheu
Yr hwn a roddes
Yr oerfel ar gwres
Yr huan ar tes
Ar Lloer llwyr achles
Nyd cerddor celfydd
Ny molwy Ddofydd
Nyd cywir ceinad
Ny molwy y Tad
Ny nawd fydd arad
Heb heyrn heb had
Ny bu oleuad
Cyn Celi cread
Ny bydd offeiriad
Na bendicco afrllad
Ny wybydd anygnad
Y saith lafanad
Dengwlat darmarthad
Yn yngylaw wlad
Degvet digarad
Digarwys eu tad
Digaru cawat
Yn rhwy rhewiniat
Llucuffer Llygrad
Eisor[4] eisys wlad
Saith seren y sydd

[1]Ei Faniar. [2]Angelwg.
[3]Hafydel. [4]Eissyfwlad.

O seithnawn Dofydd
Seon a Sywedydd
A wyr eu defnydd
Marca mercedus
Ola olumis
Luna lafurus
Jupiter Venerus
O Haul o hyd yrfer
Hyd gylch lloer lleufer
Nyt cof yn ofer
Nyt crog ny chreter
Ein Tad ein pater
An car an cymer
An tad an Rhen nin rhaner
Gan hu Lucuffer *

MAB GYFREU TALIESSIN.

Elementa Tal. E. L. Ll.

Kyvarchaf im Rhen
Ystyriaw Awen
Py ddyddwg angen
Cyn no cheridwen
Cyssefin im byd
A fu eissiwyd
Myneich aleid
Pyr nam dyweid
Pyr nam eregyd
Unawr nam herlynyd
Py ddatwreith mwy
Pyd echenis mwg
Py ffynnawn a ddiwg
Uch arget tywyllwg
Pan yw calaf cann
Pan yw nos Lloergan
Arall ni chanwyd
Dy ysgwyd allan
Pan yw gofaran twrwf
Tonnau wrth lann
Yn dial[1] dylan
Dydd a haedd attan
Pan yw mor drwm maen
Pan yw mor llym draen
A wddosti pwy gwell
Ai ei fon ai ei flaen
Py peris parwyd
Rhwng dyn ag anwyd
Pwy gwell ei Addwyd
Ai ieuanc au llwyd
A wddosti beth wyd
Pan fyth yn cysgwyd
Ai corph ai enaid
Ai argel canhwyd

[1]Yn nial.

*Taliesin ai gwnaeth ymmhorth Castell Teganwy i weddio r Creawdr pennaf am gael gwynt i dorri'r Carchar yr oedd Elphin a Gwyddno ynddo. Un o'r Pedair Colofn Cerdd.

Eilewydd celfydd
Pyr nam dyweyd
A wddosti cwdd fydd
Nos yn aros dydd
A wddosti arwydd
Pet deilen y sydd
Py drychefis mynydd
Cyn rhewiniaw elfydd
Py gynheil magwyr
Daear yn breswyl
Enaid pwy Gwynawr
Pwy gwelas ef pwy gwyr
Rhyfeddaf yn Llyfreu
Nas gwddant yn ddiau
Eneid pwy ei hadneu
Pwy bryd ei haelodeu
Py barth pan dineu
Ry wynt a ryffreu
Rhyvel anygnawd
Pechadur periglawd
Rhyveddaf ar wawd
Pan vu y gwaddawd
Py goreu medd-dawd
O fedd a bragawd
Py goryw eu ffawd
Amwyn Duw trindawd
Pyr i traethwn i draethawd
Namyn o honawd
Py beris ceinhawc
O ariant rhoddawg
Pan yw mor rhedegawg
Car mor eithiwawg
Angeu seiliawg
Ymhob gwlad ys rhannawg
Angeu uch an pen
Ys lledan ei lenn
Uch nef noe nen
Hynaf fydd dyn pan anher
A Ieu Ieu pob amser
Yssid a pryderer
Or bressent haedd
Gwedy anrheufedd
Pyr i'n gwna ni byrhoedledd
Digawn llawrydedd
Cywestwch a bedd [efin
Ar gwr an gwnaeth o'r wlad gwerth-
Boed ef an Duw an duwch
Attaw or diwedd TERFYN

CANU Y BYD MAWR

O WAITH TALIESIN. ALLAN O'R DELYN LEDR.

GWOLYCHAF fy nhad
Fy Nuw fy neirthiad
A ddodes trwy fy iad
Enaid ym pwyllad[1]
Am gorug ym gwylad

[1]Yr enaid yn y pen.

Fy saith llafanad
O dan a daiar, a dwr ac awyr
A niwl a Blodeu
A gwynt a goddeheu
Eil[1] synwyr pwyllad
Im pwyllwys fy nhad
Un yw a rynniaf[2]
A deu y tynnaf[3]
A thi a waedaf[4]
A phedwar a flasaf
A phump a welaf
A chwech a glywaf
A saith a arogleuaf
A ragddywedaf
Seith awyr ysydd
Uwch ben sywedydd
A thair rhan y myr
Mor ynt amrygyr
Mor fawr a rhyfedd
Y byd nad unwedd
Ry gorug Duw fry
Ar y Planete
Rygorug Sola
Rygorug Luna
Rygorug Marca
Y Marcarucia
Rygorug Venus
Rygorug Venerus
Rygorug Seuerus
A seithfed Satwrnus
Rygorug Duw dda
Pump gwregys terra
Pa hyd yd para
Una y sydd oer
A dau sydd oer
Ar trydydd a sydd wres
Ac an bludd afles
A dyofec anlles
Pedwerydd paradwys
Gwerin a gynwys
Pymhet artymherawd
A byrth y fedyssawd
Yn dri yd rannad
Yn amgan pwyllad
Un yw'r Assia
Deu yw'r Affrica
Tri yw Europa
Bedydd gyngwara
Hyd frodic yt para[5]
Pan farner pob traha
Rygorug fy Awen
I foli fy Rhen
Mydwyf Taliesin
Areith lif Dewin
Parahawd hyd ffin[6]
Yng hynnelw Elphin[7]

[1]Seith.
[2]Fynaf, Ewyllys.
[3]Teimlaw.
[4]Llafar.
[5]Hyd frawd y para.
[6]Fin.
[7]I ollwng Elphin.

CA NU YBYD BYCHAN

MOROEDD Q.

KEIN geneis canaf
Byd unddydd mwyaf
Lliaws a bwyllaf
Ac a Bryderaf
Cyfarchafi Feirdd byd
Pryd nam dyweid
Py gynheil y byd
Na syrth yn eissywyd
Neu'r byd pei syrthiei
Py ar yd gwyddei
Pwy ai gogynhaliai
Byd mor yw aduant
Pan syrth yn diuant
Etwa yn geugant
Byd mor yw rhyfedd
Na syrth yn unwedd
Byd mor yw odid
Mor fawr yd sethrid
Johannes Matheus
Lucas a Marcus
Wy a gynneil y Byd
Trwy rad yr Yspryd

TALIESIN A'I CANT.

DYMMA FUSTL Y BEIRDD,

A ganodd TALIESIN yn Llys MAELGWN GWYNEDD yngwydd Beirdd Maelgwn i gyd ALLAN O'R DELYN LEDR.;

CLER o gam arfer a ymarferant
Cathlau aneddfol fydd eu moliant
Clod orwas ddiflas a ddatcanant
Celwydd bob amser a ymarferant
Gorchmynau deddfau Duw a dorant
Gwragedd priodol wrth ei moliant
Drwy feddwl drygbwyll a fawr dwyllant
Morwynion gwynion mair a lygrant
A goelio iddynt a gwilyddiant
A gwirion ddynion a ddyfalant
Ai hoes ai hamser yn ofer y treuliant
Y nos y meddwant y dydd y cysgant
Segur heb lafur yr ymborthiant
Yr Eglwys a gashânt ar Dafarn a gyrchant
A lladron ffeilsion y cydsyniant
Llysoedd a gwleddoedd a 'mofynant
Pob parabl dibwyll a grybwyllant
Pob pechod marwol a ganmolant
Pob pentre pob tre pob tir a dreiglant
Pob salwedd ofer a ymarferant
Gorchmynau y Drindod a ddifrodant
Gwiliau na suliau nis addolant
Am ddyddiau angau nis gofalant
A phob glothineb nïs arbedant
Gormod o fwydydd i diodydd a fynant
Degwm ag Offrwm teulwng nis talant
Deddfolion ddynion a ddyfalant
Adar a hedant gwenyn a felant
Pysgod a nofiant pryfed a 'mlysgant
Pob beth a ymdaith i gynull i borthiant
Ond cler ag Oedion a lladron difwyniant
Ni chabla i'ch mysg dysg na cherdwriaeth
Can's Duw ai rhoes gloes ar gyllaeth
Ond sawl syn arfer o gam arfaeth
Am watwar Iesu ai wasanaeth*
Tewch chwi Bosfeirddion ffeilsion anhy-
lwydd‖ [wydd
Ni wyddoch i farnu rhwng gwira chel-
Odych brifeirdd ffydd o waith Duw
ofydd[1]
Dywedwch i'ch Brenin beth fydd ei
dramgwydd
Myfi sydd Dewin a phrif Fardd cyffredin
A wyr bob gorsin yngwlad eich Brenin†
Mi a ryddhaf Elphin o fol twr meinin[2]
Ag a ddyweda i'ch Brenin bethe i gyffrin[3]
Fe ddaw pryf rhyfedd iâr Forfa Rhianedd
I ddial anwiredd ar Faelgwn Gwynedd
Ai flew ai ddanedd ai lyged yn eurwedd[4]
A hwnnw wna ddial[5] ar Faelgwn Gwyn-
edd‡

BUARTH BEIRDD.

EDD ympeibli oedd ympuylled
O feirdd Prydein Pryddest ofer
Ymryoreu ymryorsedd
Digaun gofal i gofan gordd
Wyf eissyc pren cyfyn an Gerdd
Buarth beirdd ar nis guypo
Pymthengmil drostaw
Yn ei gymhwyaw
Wyf cerddoliad wyf ceiniad claer
Wyf Dwr wyf Dryw
Wyf saer wyf syw
Wyf sarph wyf serch ydd ymgestaf
Nid wyf fardd syn yn yryfreidiaw

[1] Ddofydd
[2] O rhyddhaf fi Elpin, &c.
[3] Ag a ddyweda ïx Brenin gwbl o'i gyfrin.
[4] Ei flew fydd eurwedd ai lygaid ai ddannedd.
[5] Ddiweddar Faelgwn, &c.

* Yma diwedd mewn rhai llyfreu, ond yr oedd y tra dysgedig Mr. John Jones o'r Gelli Lyfdu yn tybied mai gorphenran or Bustl ydyw.‖
† A edwyn bob orsin ynghyrau Gorllewin.
‡ Yno (yn llys Maelgwn Gwnedd) i bu Taliesin onid oedd 14 oedd yno ïr aeth Elphin ab Gwyddno mewn gwahodd y Nadolig at Faelgwn Gwynedd ei Ewythr ac y canmoles ef Taliesin yn llys Maelgwn ac i rhoed Elphin yn ngharchar oni ddaeth Taliesin ai ollwng allan ei hun ai gerdd ac yno i canodd Taliesin osteg y Beirdd gar bron 33 Beirdd Maelgwn ac o hynny allan y galwyd ef Taliesin ben Beirdd. Gwel ddy huddiant Elphin a Hanes Taliesin.

Pan gan ceinied canu yngof
Nyt ef wnafyt wy ryfedd uchon
Handid a mi eu herbyniaw
Mab arfoll dillad heb law
Mal ymsawd yn llyn heb naw[5]
Tyrfi aches eofn yngradd
Uchel yngwaed morddwyd trefydded
Craig am waneg wrth wawr trefnad
Anghlut[2] ysgrut esgar noddiad
Craig pen perchen pen anygnad
Yn gwna meddut medddawt meddydd
Wyf Cell wyf dell wyf darw becrlled
Wyf llogell cerdd wyf lle ynydd
Caraf y gorwydd a gorail clyd
A bardd a bryd ni pryn yred
Nyt ef caraf amryssoniad
A geibl celfydd ny meuedd medd
Madws myned ir ymddiod
A chelfyddeid am Gelfyddyd
A chanclwm cystwm cywlad
Bugeil Brooedd porthoedd neirthiad
Mal ymdaith heb drevet i gad
Ni fynnei ymdaith heb droet
Ni fagei Crau Ha heb goed
Mal ceisiaw byweid yngrug
Mal peiriant anrhaith ynfud
Mal gosgordd lluydd heb benn
Mal porthi anclyd ar Kenn
Mal grynniaw tyndei o vro
Mal haeddu awyr a bach
Mal eirach a gwaed ysgall
Mal gwneuthur goleu i ddall
Mal dogni dillad i noeth
Mal tannu engwyn ar draeth
Mal porthi pysgawd ar laeth
Mal toi neuadd a dail
Mal lladd llyry a gwiel
Mal toddi dyvet rhac gair
(Mal) wyf bardd Neuodd wyf Kyv Kadeir
Digonaf i feirdd llafar llestair
Cyn ym argywrein ym garw gyflog
Ry prynom ni an llog yth dy di Vab Ma

TALIES

ADDFWYNEU[3] TALIESIN.

Q. AN ADDFWYN W. M. Q. YR UN AC ADDYBYNNE ORNANAMENTA E. Ll.

ATUYN rin rypenyd i ryed
Arall atuyn pan fydd Duw ddymgwared
Adwyn cyfed nwy gomedd gogyffred
Arall atuyn y am corn cyvyved
Atuyn Nudd udd bleidd naf
Arall atuyn hael gwyl golyscaf
Atuyn aeron yn amser cynhaeaf
Arall atuyn gwenith ar galaf
Atuyn Heul yn Ehwybr yn nuyfre
Arall atuyn rythalwyr aedde
Atuyn march myngfras mangre
Arall atuyn dilw yw he
Atuynt chant ag ariant Amaerwy
Arall atuyn dy vorwyn modrwy
Atwyn Eryr ar lan llyr pan llanhwy
Arall atuyn guylein yn guaruy
Atwyn march ar Eurgalch gylchwy
Arall atuyn addfwyn yn aduy
Adduyn lyuawn meddit i liaws
Arall atuyn cerddawr hael hygnaws
Atuyn mai i gogeu ac Eaws
Arall atuyn pan fydd hinhaws
Atuyn reith a pherffeith Neithiawr
Arall adduyn cyfluyn a Garhawr
Atuyn bryd wrth benyd Periglawr
Arall atuyn dyddwyn y allawr
Addwyn medd ynghyntedd i Gerddawr
Arall addwyn am derwyn torf fawr
Atuyn cleiric catholic yn eglwys
Arall addwyn enefydd yn neuaddwys
Atwyn pluyf *cymrwydwy* Atowys
Arall atuyn ar amser paradwys
Atuyn lloer llewychawd yn elfydd
Arall atwyn pan fydd da dymgofydd
Atuyn Haf ac araf hirddydd
Arall atuyn a threiddiaw o gerydd
Atuyn blodeu ar warthas Perwydd
Arall atuyn a chreawdr cerennydd
Atuyn didrif Ewig ac Elain
Arall addwyn ewynnawg am harchfain
Atuyn lluarth pan llwydd y genhin
Arall atuyn Kadawarth yn Egin
Atuyn Eddystr ynghebystr lledrin
Arall atuyn cyweithas y Brenhin
Atuyn glew nuy goleith gogyweg
Arall atuyn elleïn gymaëg
Atuyn grug pan fydd ehoeg
Arall atuyn Morfa i wartheg
Atwyn tymp pan dyn lloe llaeth
Arall atuyn Ewynawg marchogaeth
Ac ys i mi atwyn nid gwaeth
A thad bual wrth dal meddfaith
Atuyn pysg yn ei lyn llywiawd
Arall atwyn y oreïlw gwaryhawd
Atwyn gair a lefair y drindawd
Arall atuyn rypenyd y pechawd
Addfwyn Haf or addfwyndawd
Cerennydd a Dofydd dyddbrawd

[1] A nawf. [2] In vetusto an clut.—W. M.
[5] An addwyn ubiq. legendum.—W. M.

KAD GODDEU.

BUM yn lliaws rhith
Cyn bum dysgyfrith
Bum cleddyl culfrith
Credaf pan urith

Bum deigr yn awyr
Bum *serwaw* syr
Bum geir yn llythyr
Bum llyfr yn mhrifder
Bum llugyrn lleufer
Blwyddyn a hanner
Bum pont ar trigar
Ar drugain Haber
Bum hynt am Eryr
Bum corwg ẽmyr
Bum darwedd yn llad
Bum das ynghawad
Bum cleddyf yn angad
Bum Ysgwyd ynghad
Bum tant yn nhelyn
Lledrithiawg blwyddyn
Yn nwfr yn Ewyn
Bum yspwng yn nhan
Bum gwydd ynguarthan
Nid mi wyf ni gan
Ceint er yn fychan
Ceint ynghad godeu brig
Rhag Prydein wledig
Gweint feirch canholig
Llynghessoed meuedig
Gweint mil mawrem
Arnaw ydd oedd canpenn
A chad er ddy gnawd
Dan fon y tafawd
A chad arall y sydd
Yn ei wegilydd
Llyffan du gaflaw
Cantewin arnaw
Neidr fraith gribawg
Cant enaid trwy bechawd[1]
Bum ynghaer Fefenydd
Yt gryssynt wellt y gwydd
Cenynt Gerddorion
Eryssynt cad faon
Dadwyrain i Frythron
A oreu gwydion
Gelwyssid ar Neifon
Ar Grist o achwysson
Hyd pan y gwarettai
Y rhen rwy digonesai
Os attebwy Dofydd
Trwy ieith ag elfydd
Rhithwch rhieddawg wydd
Gantaw yn llwydd
A rhwystraw peblig
Cad ar llaw annesig
Pan swynhwyd godeu
Y gobeith an goddeu
Dygottoroynt godeu
O bedryddant danheu
Cwyddynt am aereu
Brychwn trym ddieu
Dyar gardei bun

[1] Aboenir yn ei chnawd.—Ll. E. D.

Buddiant buch anhun
Blaen llin blaen bun
Tarddei am at gun
Nim gwnei amellun
Gwaed gwyr hyd an clun
Mwyaf tair argyfryd
A chweris ymmyd
Ac un a dderyw
O ystyr dilyw
A Christ y croccaw
A ddydd brawd rhag llaw
Gwern blaen llin
A wnaent gyssevin
Helyg a cherddin
Buant hwyr ir fyddin
Eirinwydd ys prin
Anchwant o *dynin*
Keri cywrenhin
Gurthrychiad gurthrin
ffaonwydd eithyt
Ertuyn llu o Gewryt
Afanwydd gwneithyt
Ni goreu emwyt
Er amgelwch bywyd
Rhyswydd a Gwydd-fyd
Ac eiddo ar ei bryd
Mor eithin ir gryd
Sirian senyssid
Bedw er ei fawr fryd
Bu hwyr gwisgyssid
Nid er ei lyfrder
Namyn er ei fawredd
Auron delis bryd
Allmyr uch allfryd
Ffeinidwydd ynghyntedd
Cadeir gyngwrysedd
Omi goreu arddyrchedd
Ger bron teyrnedd
Llwyf ar ei farannedd
Nid osgoes troedfedd
Ef laddei a pherfedd
Ac eithaf a diwedd
Collwydd barnyssid
Eiryf dy argyfryd[1]
Gwyros gwyn ei fyd
Tarw trin teyrn byd
Morawg a moryd
Ffawydd ffyniessyd
Celyn glessysid
Bu ef y gwrhyd
Yspyddad amnad
Heint *ech* i angad
Gwiwydd gorthorrad
Gorthorryssid ynghad
Rhedyn anrheithad
Banadl rhag bragad
Eithin ni bu fad
Er hynny gwerinad

[1] Arfgryd.—Ll. E. D.

Grug bu ddydd amnad
Dy werin swynad
Hyd gwyr erlyniad
Derw buanawr
Rhagddaw cryneu nef a llawr
Gelyn glew dryssiawr
Ei enw ym peullawr
Clafuswydd cymgres
Cymnaw a roddes
Gwrthodi gwrthodes
Ereill o tylles
Per goreu gormes
Ym mhlymnwyd maes
Gorwythawg Cywydd
Aches feilon wydd
Castan cywilydd
Gwrthriad ffenwydd
Handud du muchudd
Handid crum mynydd
Handid Kyl Koetdydd
Handid cynt myr mawr
Er pan gigleu 'r awr
An deilas blaen bedw
An datrith an datedw
An maglas blaen derw
O warchan mael derw
Wherthiniawg tu creig
Ner nid Ystereig
Nid o Fam a Thad
Pan ymddigonad
Am creu am cread
O nawrhith llafanad
O ffrwyth o ffrwytheu
O ffrwyth Duw dechreu
O Friallu blodeu bre
O Flawd gwydd a Goddeu
O bridd o briddred
Pan ym digoned
O Flawd danet
O ddwfr ton nawfed
Am swynwysei Math
Kyn bum diaered
Am swynwys i Wydion
Mawrnwr o Brython
O Eurwys o Eurwn
O Euron o Fedron
O bump pum hwnt Celfyddon
Athrawon ail Math
Pan ymdygaid
Am swynwys i wledig
Pan fu led losgedig
Am swynwys sywydd
Sywydon cyn byd
Pan fei genyf fi *vot*
Pan fei faint byd
Hardd bardd budd an gnawd
Ar wawd y tueddaf a draetho tafawd
Gwaryeis yn Llychwr
Cysgais ym mhorphor

Neu bum yn ysgor
Gan ddylan ail mor
Ynghylchedd ymherfedd
Rhwng deulin teyrnedd
Yn deu wayw anchwant
O nef pan ddoethant
Yn anwfn llifeiriant
Wrth frwydin dybyddant
Peduar ugein Kant
A Gweint ar eu chuant
Nid ynt hyn nid ynt iau
No mi yn eu banau
Arial cannwr a geni pawb o naw caht
Oedd gennyf inneu
Ynghledyf brith gwaed
Bri am darwedd
O Ddofydd a *Golo* lle ydd oedd
O dof hyd las baedd
Ef gwrith ef datwrith
Ef gwrith ieithoedd
Llachar ei enw Llawffer
Lluch llywei Nifer
Ys gein ynt yn ufel
O dof yn uchel
Bum neidr fraith ym mryn
Bum gwiber yn llynn
Bum Ser gam gymbyn
Bum bwysfer hyn
Fy nghassul am Cawg
Armaaf nid yn ddrwg
Peduar ugeint mwg
Ar bawb a ddyddwg
Pum pemhwnt angell
A ymdal am cyllell
Whech March Melynell
Canwaith y sydd well
Fy March melyngan
Cyfred a gwylan
Mi hun nid Eban
Cyfrwng mor a glan
Neu gorwyf gwaed lan
Arnaw cant cynrhan
Rhudd em fy nghylchwy
Eur fy ysgwydrwy
Ni ganed yn adwy
A vu im gowy
Namyn Goronwy
O Ddoleu Edrywy
Hirwyn fy myssawr
Pell na bum heussawr
Treiglais y mewn llawr
Cyn bum lleënawr
Treiglais cylchyneis
Kysgeis Cant Ynys
Cant Kaer a thrugys
Derwyddon doethur
Darogenwch i Arthur
Yssid y sydd gynt
Neu'r mi ergenhynt

A Christ y Crocaw
A dydd brawd rhagllaw
Ac am un a dderyw
O ystyr dilyw
Eurem yn euryll
Mi hydwyf berthyll
Ac ydwyf drythyll
O ormes fferyll

TALIESIN.

YMARWAR LUDD MAWR.

Yn wir dymbi Romani Ker
Odid o fab dyn arall y Par
Rhagddaw ygglywhawd maw gyfagar
A byddin a gwaedlin ar ei Esgar
A thruganedd cyrn a gwerin trygar
Ry thryehynt rygyrchynt ynghleddyfar
Arllwybr gwrid Arth gwrys diarchar
Arddyrchedd Cadwaladr lluch a llachar
Ar wyneb biddinawr broöed ynial
Yn wir dymbi dyddranofeu
Gofuned dysgogen ynghynnechreu
Bluiddynedd buddig rossedd rihidd reitheu
Gayaf gyd llyry llym llywid llongeu
Ceithiawn eiliassaf mynut ryffrenu
Prit myr ryferthwy ar war tonneu
Elyrch dydymgyrch tam o glawr balcheu
Arth a llew derllys oleu bylleu
Ef dibyn ei terfyn o ruydd fereu
Rwy ceissud cystudd rybudd rageu
Rag ei faranrhes oi fawr feddeu
Credeu cuydynt tyrch torynt torfoedd taleu
I gynnif Cadwaladr clod lathr leu
Dyddyrchafwy dreic o barth deheu
Gan was ryded las yn nydd dyfieu
Yy wir dymbi hael hywredd
Teyrnwawd *molut* mawr edryssedd
Llwybr lle lluossawg llydan ei wedd
Hyd pan fwynt seith Ieith i ri Gwynedd
Hyd pan fwynt trangwy tranghawr trydar
Rhi eiddun dyhun *duded*
Trais ar Eingl a hynt i alldudedd
Trwy for llithrant ei heissilledd
Yn wir dymbi teithiawg Mon
Pen lluydd perchydd llurygogion
Ffaw dreig diffrediad i bobl Frython
Dwfn darogan dewin Drywon
Pebylliawnt ar Tren a Tharanhon
Gorllechant gorddyfynt i geisiaw Mon
Pell debet by hyt o Iwerddon
Teg ffaw dillyngiaw Cessarogion
Dysgogan delwat o Agarat dyhedd
Gogwn pan perid Kad ar winfedd
Arth o ddeheubarth yn cyfarth Gwynedd
Yn amwyn rhihyd rhyfedd rossedd
Y cheirig altired y darmerthedd
Gayaf Kalennig yn lleu tiredd
Cyflewyn aessawr yngawr ynghledd
Y cynnif Cadwaladr ar Ior Gwynedd
Yn wir dyddheuawr dydderbi hyn
Lloegr oll ymellun eu meuoedd genhyn
Gwelet artebet y gwyr brychwyn
Rhwng saeth fereu a haiarn gwyn
Galw hawr ar bor gwaywawr aergryn
Nuchawnt yn eigiawn tra llydan lyn
Hallt ag ynysedd fydd eu buddyn
Yn wir dymbi dy dra Hafren
Wrthenedig prydain brenhin gorddeu
Llary Lywydd lluydd lliaws ei echen
Teyrnas cyfaddas cas o iaën
Gwerin byd yn wir byddawnt lawen
Meddhawnt ar peiron berthwyr echen
Flamychawd hirell tu uch Hafren
Byddhawt Cymry cynnyll yn ddisgawen
Y cynnif Cadwaladr bythid llawen
Peneri Cerddorion clod y gweithen
Yn wir dyddeuhawr
Ai lu ai longawr
A darf Ysgwydawr
Ai newidiaw gwaywaur
A gwedy gwychyr awr
Ei fodd ef gwnelawr
Cylch Prydain bo
Flemyched yngo
Draig nid ymgelo
Eir meint y *do*
Nid ysgawn i oled
Gorescyn Dyfed
Dyddycawd ynwet
Tra merin Reged
Prif perchen ced
Gwledychaud yn elued
Hael hydr ei ddylif
Gorfawr ei gynnif
Wrth awirio hif
Cadwaladr gweith heinif

TALIESIN.

PRIF GYFARCH TALIESIN

Ragoddeu.—E. Ll. a Gododdau.
Remoræ seu Impedimenta.—Ll.

PRIF gyfarch[1] gelvyd par ryleat[2]
Puy Kyntae tyuyll ae goleuat
Neu adaf pan vu pa dyd y great
Neu y dan tylwet py ry Seilyat
A vo Lleion nys myn pwyllyat
Est qui pecator am nivereit
Collant gulad Nef uy pluyf Offeiryeit

[1] Gyfan.—E. Ll. [2] Pan rylead.

Boreu neb ni del
Or ganon teir pel
Eingngyl gallwydel
Gunaont eu ryvel
Pan dau nos a dyd
Pan vyd lluyd Eryr
Pan yw tyuyll nos
Pan iu guyrd llinos
Mor pan dyverwyd
Cud anys guelyd
Yssit teir ffynnaun
Y mynyd Fuaun[1]
Yssit[2] gaer Gwarthawn
A dan don eigiawn
Gorith gyvarchawr[3]
Puy enw y Porthawr
Pwy y periglawr
Y vab Meir mwynvawr
Pa vessur muynaf[4]
A orug Adaf
Puy vessur Uffern
Puy tuet y llen
Puy llet y geneu
Puy meint eu mein heu[5]
Neu vlaen gwydd ffalsum
Py estung mor grum
Neu pet anat llon
Yssyd yn eu bon
Neu leu a gwydion
A vuant gelvydon
Neu a *rodant* lyvyryon[6]
Pan[7] wnant
Pan dau nos a lliant
Pan vyd y diviant
Cud anos rac dyd[8]
Pater Noster ambulo
Gentis tonans in adjuvando[9]
Sibilem Signum
Ro gentes fortium
Am gwiw gwiwam gwmyd
Am geissyant deu Gelvydd
Am Kaer Kerindan Kerindydd
Rys tyneirch[10] *pector* Dauyd
Y mwyngant ys ewant
Ym Kaffwynt yn dirdan
Kymry yggridvan
Provater eneit
Rac Lluyth eissyffleit
Kymry prif diryeit
Rann ry goll buyeit
Gwaedd hir ucheneit
As guyar honneit
Dydoent guarthvor
Gwydveirch dyarvor
Eingyl yghygvor

[1] Ffyawn. [2] Ys id. [3] Go ith gyvarthawr. [4] Lafur fwynaf. [5] Enneinieu. [6] Wyddont lyvron. [7] Pa. [8] Cwdd a nos rhag dydd Pan daw nas welydd. [9] Ambulando. [10] Rhy dynnueirch.

Guelattor aruyddion
Guynyeith ar Saesson
Claudus in Sion
O ruyvannussion
Bydaut penn Seiron
Rac ffichit[1] lewon
Marini[2] Brython
Ryd a roganon[3]
A medi heon
Am Hafren Avon
Lladyr ffadyr Ken a Massuy
Fsis amala ffur ffir Sel
Dyrnedi trinet tramoed
Creaudyr o ro hai[4]—huai
Gentil divlannai[5] gyspell
Codigni ceta gosgord mur
Gan nath beu gan Govannon
Corvu.....dur
Neu bum gan uyr Kelydon
Gan Vatheu gan Govannon
Gan Emnyd[6] gan Elestron
Ry ganhymdeith achuysson
Bluydyn yg Kaer Govannon
Wyf hen, uyf neuyd uyf guion
Wyf lluyr uyf synwyr Keinyon
Dy gy vi dyheu[7] vrython
Guydyl Kyl diaerogyon[8]
Meddut medduon
Wyf bard uyf ny rivaf[9] y eillyon
Wyf llyu, uyf syu amrysson
Sihei a rahei[10] nys medry
Si ffradyr yn y ffradri
Pos Verdein bronrhein a dyvi
A ddeuont uch medlestri
A ganont gam vardoni
A geissent gyvaruys nys deubi
Heb gyvreith, heb reith, heb rodi
A guedy hynny dyvysgi
Brithvyt a byt dyoysci
Nac eruyn dy hedduch nyth vi
Reen nef rymavyr[11] dy wedi[12]
Rac y gres[13] rym guares dy voli
Ri Rex gle[14] am gogyvarch yn gelvyd
A ueleisty Dominus ffortis
Darogan dwfn Domini
Budyant Uffern
Hic nemor i por progenii
Ef a dillyngys ei thuryf
Dominus virtictum
Kaeth naut Kynhulluys estis iste—est
(Est) a chyn buassun a simsei[15]
Ruyf deruin y duu diheu

[1] Ffichti.
[2] Morini (Mariuu).
[3] Ry daroganon.
[4] Oro hai.
[5] Dichanai.
[6] Ieuuyd—iewydd.
[7] Dy gofi dy hen.
[8] Diferogion.
[9] Ni rifafi.
[10] Sihai arahai. Arahei nys meddai,—Deest in Ll. C.
[11] Rym a wyr.
[12] Dy weddi.
[13] Yngres.
[14] Gloriæ.
[15] Synsei arnaf.

A chyn mynnuyf dervyn ereu
A chyn del ewyn friw ar uyggeneu
A chyn vyg Kyvalle ar y llatheu pren
Poet ym heneit yd a Kyvadeu[1]
Abreid om dyweit llythyr llyvreu
Kystud dygyn geudy guely agheu
Ar saul a gigleu vy mardlyfreu[2]
Ry bryn huynt wlat Nef adef goreu
Ry prynwynt &c.

DIWEDD Y PRIF GYFARCH.

TALIESIN.

Myfi sydd Ddewin
A Phrifardd cyffredin
Mi adwaen bob corsin
Yngogof gorthewin
My a ryddhaf Elphin
O fol y Twr Meinin
Mi a fynagaf ich Brenin
Ac hir bobl gyffredin
E ddaw pryf rhyfedd
O Forfa rhianedd
I ddial enwiredd
Ar Fâelgwn Gwynedd
Ai flew ai ddannedd
Ai lygaid yn euredd
A hun a una ddiwedd
Ar Faelgwn Gwynedd.

ANGAR CYVYNDAWD.

Inimica Confæderatio.—E. Ll.

BARDD yman y mae ni chaint aganho
Caned pan ddarffo
Sywedydd yn yd fo
Haelon am nacco
Nis deubi a rotho
Trwy Iaith Taliesin
Bu ddydd ymellin
Kian pan ddarfu
Lliaws gyvolu
By lleith bid araith afagddu
Neus dwg yn gelfydd
Cyfreu Argywydd
Gwiawn a leferydd
A ddwfn ddyfydd
Gwnaei o farw fyw
Ag anghyfoeth yw
Gwneynt eu perion
Af erwynt heb don
Gwneynt eu delidau
Yn oes Oesau
Dydyth dyddyccawd
O ddyfnwedydd gwawd
Neut Angar Cyfyndawd
Pwy ei chynefawd

[1] Cyfeddeu. Mard gyfreu.

Cymmeint cerdd ciwdawd
A delis eich tafawd
Pyr na threthwch draethawd
Llad uch llyn llathrawd
Penilliach pawb
Dybyddaf yna gnawd
Dwfn dyfu yngnawd
Neu'r doddyw ysgygnawd
Trydydd par ygnad
Triugein mlynedd
Yd porthes lawrwedd
Yn nwfr Kaw a chiwed
Yn elfydd tiredd
Canweis am ddioedd
Cant rihydd addynoedd
Can yw ydd aethant
Can yw y doethant
Can eilewydd gant
Ag ef ai darogant
Lladdan ferch lliant
Oedd bych ei chwant
I aur ac Ariant
Pwy byw ai diadas
Gwaed i ar mynwas
Odid traethator
Mawl molhator
Mi dwyf Daliesin
Ryphrydaf i iawnllin
Parawd hyd ffin
Ynghynelw Elphin
Neur Deyrnged
O rif eur dylyed
Pan gassad ni charad
Anudon a brad
Mi ni chwennych vad
Trwy gogyweg au gwawd
A gogyfarchwy brawd
Wrthyf ny gwybydd nebawd
Doethwr prif gelfydd
Dispwyllawd sywedydd
Am wyth am edrwyth
Am ddoleu dynwedydd
Am wyr gwawd gelfydd
Cerddwn Dduw yssydd
Trwy ieith Talhayarn
Bedydd bu ddydd farn
A farnwys teithi
Angerdd Farddoni
Ef ai rhin rhoddes
Awen anghynnes[1]
Saith ugein Ogrfen
Y sydd yn Awen
Wyth ugein o bob ugein e fydd yn un
Yn annwfn y diwyth
Yn annwfn y gorwyth
Yn annwfn is Elfydd
Yn awyr uch Elfydd
Y mae ei gwybydd

[1] Anghymmes.

Pa dristyd y sydd
Gwell na llawenydd
Gogwn *ddeddf* rhadeu
Awen pan ddyffreu
Am gelfydd taleu
Am ddedwydd Ddieu
Am buchedd ara
Am oeseu ysgorfa
Vm hafal Deyrnedd pa hyd eu cyngwara
Am gyhaval ydynt trwy weryd
. . . . .
Awel uchel gyd
Pan fydd gohoyw bryd
Pan fydd mor hyfryd
Pan yw gwrch echen
Pan echrewyd uchel
Neu haul pan ddodir
Pan yw toi tir
Toi tir pwy maint
Pan dynid gwytheint
Gwytheint pan tynnid
Pan yw gwyrdd gweryd
Gweryd pan yw gwyrdd
Pwy echenis cyrdd
Cyrdd pwy echenis
Ys dir pwy ystyriwys
Ystyriwyd yn Llyfreu
Pet wynt pet ffreu
Pet ffreu pet wynt
Pet Afon ar hynt
Pet Afon ydynt
Daear pwy ei lled
Neu pwy ei thewed
Gogwn t. ws llafnawr
Am rudd am lawr
Gogwn atrefnawr
Rhwng nef a llawr
Pan atsain advant
Par ergyr divant
Pan llewych Ariant
Pan fydd tywyll Nant
Anadl pan yw du
Pan yw oreu a fu
Buch pan yw bannog
Gwraig pan yw Serchawg
Llaeth pan yw Gwynn
Pan yw glas celyn
Pan yw barfawg myn
Yn lliaws mehyn
Pan yw baraut
Pan yw creu efwr
Pan yw meddw rolwyn
Pan yw lleddf orddwyn
Pan yw brith Iyrchwyn
Pan yw hallt halwyn wyn
Cwrw pan yw Ystern
Pan yw lledrudd gwern
Pan yw gwyrdd Llinos
Pan yw rhudd Egroes
Neu wreig ai dioes
Pan ddygynnu nos
Pan ddatwein y sydd yn eur Lliant
Ni wyr neb pan ruddir ei bron huan
Lliw yn erkynan newydd
Anahawr ei ddwyn
Tant telyn py gwyn
Eog py gwyn ny Gan
Py geidw ei diddan
Py dyddwg Garthan
Gereint ac Arman
Py ddyddwg glain
O erddygnawd fain
Pan yw per Erwain
Pan yw gwyrliw brain
Talhayarn y sydd
Mwyaf y Sywedydd
Pwy amgyffrawd Gwydd
O aches ammod dydd
Gogwn da a drwg
Cwdda cudd amewenir mwg
Mawr maint gogyhwg
Cawg pwy ae dylifas
Pwy gwawr gorphennas
Pwy a bregethas
Eli ag Eneas
Gogun gogeu Haf
A fyddant y gayaf
Awen a ganaf
O ddwfn ys dygaf
fon cyd beryd
Gogwn ei gwrhyd
Gogwn pan ddyfeinw
Gogwn pan ddyleinw
Gogwn pan ddillydd
Gogwn pan wegrydd
Gogun py pegor
Y sydd y dan For
Gogun eu heissor
Pawb yn ei Osgordd
Pet gygloyd yn nydd
Pet dydd ymlwyddyn
Pet paladr ynghat
Pet dos ynghawat[1]
Atuyn yd rannawd
Gwawd mwy mefl gogyffrawd
Aches gwyd Gwydion
Gogwn i nebawd
Py lenwis Afon
Ar bobl Pharaon
Pwy dyddwg rwynnon
Baran achwssyon
Py ysgawl oddef
Pan ddyrchafwyd Nef
Pwy fu fforch Hwyl
O ddaear hyd Awyr
Pet byssedd am pair

[1] Bum dôs yngh awad.—Dr. Davies.

Am un am neddair
Pwy enw y ddeuair
Ni eing yn un pair
Pan yw mor meddwtawd
Pan yw du Pysgawd
Morfwyd fydd eu cnawd
Hyd pan yw Meddysg
Pan y gannawg Pysg
Pan yw du troed alarch gwynn
Pedryddawg gwaew Llymm
Llwyth nef nid ystyng
Py pedair tywarchen
Ni wys eu gorphen
Py voch neu py grwydr hydd
Ath gyfarchaf fargad fardd
Gwr yth gynnydd esgyrn Niwl
Cwddynt dau raiadr gwynt
Traethator fyngofeg
Yn Efrai yn Efroëg
Yn Efroëg yn Efrai
Laudatum laudate Iessu
Eilgweith yn rhithad
Bum glas gleissiad
Bum ei bum Hydd
Bum Iwrch ym Mynydd
Bum cyff mewn rhaw
Bum bwall yn llaw
Bum ebill yngefel
Blwyddyn a hanner
Bum Ceiliawg brithwyn
Ar ieir yn eidin
Bun Amws ar Re
Bum tarw toste
Bum bwch melinawr
Mal y maethawr
Bum gronyn erkennis
Ef lyfwys ym Mryn
A mettawr am ddottawr
Yn sawell ym gyrrawr
Ymrygiaw o Law
Wrth fy ngoddeidiaw
Am harfolles iar
Grafrudd grib escar
Gorffwysseis naw nos
Yn ei chroth yn was
Bum aeduedig feddedig
Bum llad rhag gwledig
Bnm marw bum byw
Keing ydd ym Eidduw
Bum i arweddawd
Rhag ddaw bum tlawd
Am eil cynghores gres
Grafrudd am rhoddes
Odid traethator
Mawr molhator
Mi wyf Taliesin
Ryphrydaf iawnllin
Parahawd hyd ffin
Ynghynelw Elphin

DIWEDD.

KADEIR TALLIESIN,

(24 ADAL) CATHEDRA.

MYDWYF Merwerydd
Molawd Duw dofydd
Llwrw cyfranc cywydd
Cyfreu dyfynwedydd
Bardd bron Sywedydd
Pan atleferydd
Awen cyd echwydd
Ar feinoeth feinydd
Beirdd llafar lluc de
Eu gwawd nym gre
Ar ystrawd ar ystre
Ystryw mawr mire
Ac mi wyf cerdd fud
Gogyfarch feirdd tud
Ryd ebrwyddaf drud
Ry talmaf ehud
Ryddy hynaf dremud
Teyrn terwyn wolud
Nid mi wyf cerdd fas
Gogyfarch feirdd *tras*
Bath vadawl idas
Dofn eigiawn addas
Pwy am lenwis cas
Camp ymhob noethas
Pan yw dien gwlith
A lladd gwenith
A gwlid Gwenyn
A glud ac ystor
Ac elyw tramor
Ac aur bib lleu
A llon ariant gwiw
A rhudd em a grawn
Ag ewyn eigiawn
Py ddyfrys ffynnawn
Berwr byryrddawn
Py gysswllt gwerin
Brecci bonedd llynn
A llwyth lloer wehyn
Lleddf lloned verbyn
A syuion synhwyr
A sewyd am loer
A gofrwy gwedd gwyr
Gwrth awel awyr
A mall a merin
A gwadawl tra merin
A chorwg gwydrin
Ar llaw pererin
A phybyr a phyg
Ag urddawl segyrffyg
A llyseu Meddyg
Lle allwyr Venffyg
A Beirdd a blodeu
A guddig bertheu
A briallu a briwddail
A blaen gwydd goddeu
A mall ameuedd

A mynych adneuedd
A gwin tal cibedd
O Rufein hyd Rossedd
A dwfn ddwfr echwydd
Dawn ei lif Dofydd
Neu pren purawr fydd
Ffrwythlon ei gynnydd
Rei ias berwidydd
Oedd uch pair pumwydd
A gwiawn afon
A gofwy hinon
A mel a meillion
A meddgyrn meddwon
Addwyn i Ddragon
Ddawn y Derwyddon

CAN Y GWYNT.

Cychwedl am doddyw o Galchfynydd
Gwarth yn Neheubarth anrhaith clodrydd
Da a rydd i lew dywaledd i fedydd
Llaw yw ei Ystrad llawen gynnydd
Llara lluedd peblet llara arallfro
Cad gormes tra trachwres bro
Odid o Gymry ai llefaro
Dyfed dygyrched biw mab Idno
Ac ni llefessit neb nid *do*
Er talu canmu erof un llo
Golaith dy Ysgarant amgant dyvro
Mal tan twym tarth yn yd vo
Pan gyrchassam ni drwydded ar dir Gwyddno
Oedd celein feinwen rhwng graian a gro
Pan ymchoelwys Echwydd o Gludyffro
Nid Efrewys buch wrth ei llo
Gogyfarch fabon o arall fro cad
Pan amug Owein biw ei fro
Cad yn rhyd Aclud Cad Yngwen
Cad Yngossulwyd aban uddun
Cad rhag rhodawys eirwyn drych
Gwaywaw a lleullenyn
Cad tu man llachar derlyw derlin
Ysgwydawr yn llaw garthan yngryn
A welei Vabon ar Ranwen Rheidawl
Rhag biw Reged y cymysgyn
Oni bai ac adanedd ydd ehettyn
Rhag Mabon heb gelanedd hwy nid ëyn
O gyfarfod disgyn a chychwyn cad
Gwlad Vabon gwehenyd anoleithad
Ban ddisgynnwys Owein rhag biw ei dad
Tarddai Galch a chwyr ag yspyddad
Nid ysgafael i neb ddwyn biw moel
Cyd es glwch rhag gwyr rhain ruddion
Rhag Pedrydan dandde
Rhag cadarn gyfwyne
Rhag gwyar ar gnawd
Rhag afar Ystaenwawd
Cychwedl am doddyw o leutiredd deheu
Traeth riau goleu haelon
Nith ogyfeirch o chwynogion
Am ryd or am gwern y Gadfaon
Ban berid cad rhi rhwyf Dragon
Billt nä *owillt* biw rhag Mabon
O gyfarfod Gwrgun
Bu celanedd nedd rhai yn Rhun
Bu llawenydd dy bydd i frain
Ban ymadrawdd gwyr gwed Muchien cad
Nid ef diengis ysgwyd Owein
Ysgwyd fal urthiad ynghad trabludd
Ni reëi wartheg heb wyneb rhudd
Rhuddion beuder biw a mawr ei rad
Gwyar gorgolcher gwarthaf iad
Ac ar wyneb gwyn ydd yr ymgaffad
Euorbell greuled genem ddulliad
Praid wenhwys iolin praidd daresteinad
Praidd rhag taerfrwydr taer gyffestrawn
Praidd ben gyfylchi Keing oreig ar ysgwydawr
Mawr ddiscreinawr llafnawr am iad
Cad y rhag Owein mawr mawr o irad
Meinddynt cwyddynt hwy wyr yn amwyn gwlad
Gor erefein bud oi tad

KANU Y KWRWF

(24).

Teithi edmynt
Gwr a gadwynt gwynt
Pan del ei rihudd
Gorfloeddawg Elfydd
Menhyd yn dragywydd
Ys tydi a fedydd
Dylif deweint a dydd
Oedd ym amogawr
Nos yn Orphowyssawr
Maswedd a folhawr
Y wrth wledig mawr
Mawr Dduw digones
Heul haf ai rywres
Ag ef digones
Budd Coed a Maes
Galwettawr Yraches
Ar eilig anghymes
Galwellawr pob neges
Deus dymgwares
Achyn dybyddyn
Llwyth byd i'r unbryn
Ni ellynt ronyn
Heb gyfoeth Mechdeyrn
Ef ai tawdd yn llyn
Hyn y vo Eginyn

Ef ai tawdd waith arall
Hyn y fo yn fall
Drehawg dydderfydd
Dysgofag yr Elfydd
Golchettawr ei lestri
Bid gloyw ei frecci
A phan fo anawell
Dyddyccawr o gell
Dyddyccawr rhag rhieu
Ynghein gyfeddeu
Nis gwrthryn pob dau
Y mel ai goreu
Duw edwynt ynof
Ydd fydd yn ei fodd
Llaryaf yw trindawd
Gorwyth meddw meddwhawd
O fynud pysgawd meint y godrefi
Grayan mor heli y dan dywawd
Am cudd y ar teithiawg
Mi hun am gwarawd
Ni ddigonir nebawd
Heb gyfoeth y Drindawd
Teithi edygant[1]
Yn Nyffryn Garant
Gallawg gallwgyd anchwant
Sybwll symudant
Ban erddefel tant
Neu nos cwdd dyfydd
Cwdd dirgel rhag dydd
A wyr cerdd Gelfydd
Py gel Kallofydd
Am dyro amde
Or porth pan ddwyre
Py ddyddug llyw gayaf
Py gyd ddechreu lle
Yn dewis eichiawg
Ffus ffons ffodiawg
Ef dyhun hunawg
Ef gobryn Carawg
Cymry Caerneddawg
Ytat Garadawg
Dear meneiuon
Dear Mynawg Mon
Mawr erch anudon
Gwenhwys gwallthirion
Am Gaer Wyrangon
Pwy a dal y Ceinon
Ai Maelgwn o Von
Ai dyfydd o Aeron
Ai Coel ai Canawon
Ai gwrweddw ai feibion
Nid anchwardd ei Alon
O Ynyr Wystlon
Ef cyrch cerddorion
Se Syberw Seon
Neu'r dierfeis i rin
Ymordei Uffin
Ymhoroedd Gododin

[1]Teithi edmygant. *Dechreu can arall, Qy !*

Ys geirfrith cyfrenhin
Bran bore ddewin
Wyf carddenhin hen
Wyf cyfreu lawen
Athaw y dygen
Meu molawd Urien
Eirian eiriòes
Llyminawg llumoes
Rhuddfedel afwys
Rhuddyn ai llynwys
Cad yn Harddnenwys
Ynyr ai briwys
Cant calan cynnwys
Can car amyuwys
Gweleis wyr gorfawr
A ddygyrchynt awr
Gweleis waed ar llawr
Rhag rhuthr cleddyfawr
Glessynt esgyll gwawr
Esgorynt yn waeywawr
Trychant calan cyman clodfawr
Ynyr ar dir yn wir Cochawr

TAL.

PLAEU YR AIPHT.

EFREI edwyl ar veib Israel,
Uchel enfryd
Cyd rif dilyn
Ry dynesseyn
Ry gadwys dduw ddial
Ar blwyf Pharaowys
Deg pla poeni
Cyn eu boddi
Ym môr aphwys
Cyssefinbla pyscawd ddifa
Dignawd annwyd
Eilbla llyffeint lluossawg
Llewyssynt Aronoed
Tai a threfnau
A thyleeu
A chelleu bwyd
Trydedd gwyddbed
Gwychr gonogèd gwaladwyd
Pedwar *iccwr*
Cwr am ystyr edynogion
Ail cygnoës
Ffrwyth coed a Maes
Cnwd cylion
Pumed bwystnon
Ar holl Vibnon
Egypeion
Belsid miled
O drum aeled
Deritolion
Chweched heb au

Chwyssig crugau
Creithiau *morion*
Seithfed tarian
Cynllysg a than
A glaw cynwyd
Gwynt gorddiberth
Ar ddeil a gwydd
Wythfed Locust
Llydan eu clust
Blodeu cyfys
Nawfed Aruthr
Diwedlawg uthr
Doniawg nofys
Du dywyllwg
Drem eneglwg Egiptuis
Deg veinoeth
Mwyaf gwyniaith
Ar blwyf cynrain
Christ Iesu christioni grein
Hyd ynt clydwr
Chwechant milwr
Miled Efrei

LLATH MOESSEN.

O BOB adfer y dorf froder
Dychyfaerwawd
Budd addefig
I Grist Wledig
Dogyn volawd
Dybwyth Duw cein
Yn Arffed Mair ei heissorawd
Hynt gwirionedd
Cyflawn riedd
Cynnelw o honawd
Gwyeil Iese
Dy bobl Iude
Dychyfaerawd
Hu gelwir lleu
O luch a letro
Er eu pechawd
Dehau reen
Mynydd addien
Mwyn gyfundawd
Yn rhan Elfydd
Yn nheml Selyf
Sail o gyffrawd
Gofuned gwas
Colofn dias
Fest fflemychawd
Paradwys ddrws
Bugail Dews
Dauun gwledychawd
Neu rygigleu
Gan broffwydeu lleenawc
Geni Iesu
A ryddarfu
Hyd ei fuchedd
A fai fuchedd
I bob rhiedd bywyd parawd
Cyn peryssid bai mi prydwn periglawd
Ryddug claear
Nid dayar a yspeiddawd
Ar for diffwys
Pan ddisgynnwys
Dy amgyffrawd
Gwlad priodawr
Nis dug mwynfawr
Bei im o honawd
Maint dy godded
Boed im dy rad
Gwyeil Iesse
A rhad Iessu
Llathr eu blodeu
Mawr gwyrth yn ei fryd
O Dduw donieu
Ef oedd Ygnad
Ygnad oedd ef
Dewin diheu
Gwr y cussyl
I bob ufudd rhag geu
Ef y sydd gafael
Claear nifer toeu
Cynllaith i luydd Deheu
Y mal bydewin dilid
O lu lloneid
Hubydd y gwrth mab mair
Moli Reën
Huarwas gwas
O Dduar treiddas
Pet wyr pet gwirion
Dy rac afael cyfoed coed cyflawn
Rhudd ni popon moch y dysged
Lleddyssid gein o arffed Iessu
A rhoddi rhad Rex Meibion
Newydd anaw ni mawr glywant
Dyniadon
Gwir ei rad gwas porthiant heb wr
adon
Dygwerthydyd pob uches rhag
Rhai Derwyddon
Nudris ni widyn llarychwel
gweled Mabon
Dyddugant thus
Ag aur dilys o Ethiopia
O Dduw gordden
O Duw Reën Rex meneifon
Herod gystig
Ni bu goddig Yn geleudon
Dy boenedig gwallawd
Peues perchen meibion
Pan aeth Dofydd par pan ddilludd
Nilus habedd
Py ddug Herod
Anwyd gayafawl

Cyflawn fonedd
Ynghaer Nazaredd
Nid aeth peues perchen anaw
Byd adebriad
Hubwydd ith irad
Tud gorchorddion
Geni Dofydd dyddug perchen
Lleng Engylion

LLATH VOESEN.

A Duw meiddad
Duw dofyddad
Dewin trugar
Mawr enwerys
Pan ym noddeist
I drwy donniar
Torfoedd Moesen
Gwledig reën
Gwae ae hesgar
Ys arganfu Perif ai Lu
Reglyd ai bar
Ac i vorawg a orugost
Newydd ei bar
Neu'r denwy
Trwy ryferthwy
A fawdd Adar
A ddrychaif haul
Hyd gollewin y bu dayar
Ti a noddyd a rygeryd
O bob carchar
Namyn torfoedd terydd
Eu gwawr trwm eu dear
A nawdd ninnheu
Rhag anwydeu
Uffern anwar
Ad Dduw meiddad
Duw ddofyddad
Dewin trugar
Ys teu di wlad Nef
Ys gurth dangnef
Iti y Kery
Nid oes tudded
Nag eissiwed
Ith wlad Ddofydd
Ni pherir neb
Ni bydd esgar neb i'w gilydd
Mi a wyddwn
Beis deallwn
Rhag cywilydd
Caru o honawd
Y lan Drindawd
O neb celfydd
Beirdd ach gogan
Wynt acharan
Yn dragywydd
Ni bu angwael
Y rhoddaist Irael
Yn llaw Ddafydd
Alexander ceffei lawer
Nifer ei wyr
Nid ef nerthas
Oni chafas
Dy garenhydd
Pan ddoethant ir ddaear
Buant ddear
Eu dihenydd
Selyf ygnad
A gennis gwlad
Bu gwell nog Ydd
Mab teyrnon
Bu gnawd berthon
Oi gyweithydd
Iago feibion
A fu ferthon
Ar eu helfydd
A ddygymuant
A rannysant
Trwy air Dofydd
Afel[1] wirion
A fu lwyddon
A gymyrth ffydd
Ei frawd Caën
Bu ddiwerin
Drwg ei gussyl
Asser a Soyw
Yn awyr loyw
Ei cyweithydd
Seren Angel
A ddwyn nifer
Rhag eu Milwyr
A llath Voessen
Ef ai ddorfoedd
Ar eu helfydd
Rhuddech ddalen
Udd eilladen
Ydd ei genhym
Llafar a Mud
A doeth a drud
As diwygydd
Gwledig cwdd
Un cwdd dirperian ddihenydd
Molaf inheu preswyl
Torfoedd addef menhwyd
Molaf inheu
Addawd goreu
Goreilenw byd
Prif deyrnas
A ddug Ionas
O berfedd Kyd
Ciwdawd Niniven
Bu gwrllawen
Pregethyssid
Rhiein tra mor

[1] Abel.

Bu cysgod Ior
Ysgoryssid
Ac Auasia
Meir Merch Anna
Mawr ei phenyd
Er dy haeledd
A thrugaredd
Fechdeyrn byd
Bwym ninheu
Yn nef gaereu
Gynhwys genhyd

CAN Y MEIRCH.

Torrid Anuynudawl
Tuthiawl dan Yogawl
Ef iolen o dduch lawr
Tan tan hwstin gwawr
Uch awen uchel
Uch no pob nyfel
Mawr ei anyfel
Ni thrig yngofel no neithiawr Llyr
Llyr llwybyr y tebyr
Dy far ynghynebyr
Gwawr gwen gwrth uchyr
Wrth wawr wrth wrys
Wrth bob heuelis
Wrth heuelis nwython
Wrth Pedyr Afaon
Arddyreafi a farn gwrys
Cadarn trydar dwfn ei gas
Nid mi gwr llwfr llwyd
Crwybr wrth clwyd
Hud fy nau garant
Deu dich far dichwant
Om llaw ith law *dyt dwp dim*
Trithri nodded
Atcor ar hened
A march mayawg
Cymrwy teithiawg
A march gwythur
A march gwarddur
A march Arthur
Ehofn roddi cur
A march Taliessin
A march lleu lledfegin
A Phebyr llai llwynin
A Grei March Cunin
Cornan cynneifawg
Awydd awyddawg
Ar tri carn aflawg
Nid ant hynt hiliaw
Cethin March Ceidaw
Corn avarn arnaw
Ysgwyddfrith Ysgodig
Gorwydd llemenig
March Rydderch ryddig
Llwyd lliw elleig
A llamrai llawn elwig
A ffroenfoll gwyrennig
March Sadyrnin
A March Custennin
Ac eraill yn rhin
Rhag tir all gwin
Henwn Mad dyddug
Cychwedl o Hiraddug
Bwn swch bum bwch
Bym Syw bum Swch
Bum ban bum banhwch
Bum gawr yn rhythwch
Bum llif yn eirth
Bum ton yn engweirth
Bum ysgof ysgeiniad dilyw
Bum cath benfrith ar driphren
Bum pell bum pen
Gafr ar ysgaw bren
Bum garan gwala gweled golwg
Tragwres miled morial
Cadwent cenedl dda
Or y sydd is awyr gwedi cassolwir
Nid byw ormodd maint am gwyr

"Deest folüum integrum in vetusto membranaceo." Verba "*Davissi* sunt, ex quo hæc transcripta sunt per me."

Ieuan Fard.

LURYG ALEXANDER.

Ar glawr elfydd
Ei gystedlydd
Ni ryaned
Teir person Duw
Un mab addwyn
Terwyn trinded
Mab ir Dwydid[1]
Mab ir dyndid
Un mab rhyfedd
Mab Duw dinas
Mab gwen Mairgwas
Mad gwas gwledig
Mawr ei ordden
Mawr Dduw Reën
Ran gogened
O Hil Adda
Ac Abraha yn ryaned
O hil Dofydd
Dogn ddyfnwedydd
Llu ryaned
Dyddug o eir
Deill a byddeir
O bob aeled
Rac pob anuaus
Pob yn ddilis
Dinas diffred

[1]Deilas.

ANRHYFEDDODAU ALEXANDER.

MENDOSUS TITULUS.—D.

RHYFEDDAF na chiawr
Addef nef i lawr
O ddyfod rhwyf gawr
Alexander mawr
Alexander Magidawr
Hewys hayarnddawn
Cleddyfal enwogawn
Aeth dan eigiawn
Dan eigiawn eithyd
I geisiaw celfyddyd
O geisio celfyddyd
Bid o iewin ei fryd
Eithyd odduch gwynt
Rwng deu grifft ar hynt
I weled dremynt
Dremynt ni weles
Present ni chymhes
Gweles ryfeddawd
Gorllin gan bysgawd
A eiddunwys yn ei fryd
A gafas or byd
A hefyd o'i ddiwedd
Gan Dduw drugaredd

PREIDDEU ANNWN.

GOLYCH wledig pendefig gwad ri
Pa ledas y pennaeth tros draeth Mundi
Bu cywair carchar Gwair ynghaer Sidi
Trwy ebostol Pwyll a Phryderi
Neb cyn nog ef nid aeth iddi
Yr gadwyn dromlas cywirwas ai cedwi
A rhag Preiddieu Annwn tost yt geni
Ac yd frawd parahawd yn barddwedi
Tri lloneid prydwen ydd aetham ni iddi
Nam saith ni dyrraith o Gaer Sidi
Neud wyf glod geymyn cerdd o chlywir
Ynghaer pedryfan pedyr y chwelyd
Ynghynueir or pair pan leferid
O anadl naw morwyn goehynnessid
Neu pair pen annwfn pwy *uynyd*[1]
Gwrym am ei oror a Mererid
Ni beirw bwyd llwrf ni rydyngid
Kleddyf lluch lleawc iddaw rhyddychid
Ac yn llaw Lleminawg ydd edewid
A rhag drws porth Uffern llugyrn lloscid
A phan aetham ni gan Arthur trafferth llethrid
Namyn saith ni ddyrraith o Gaer Vediuid
Neud wyf glod geimyn cerdd glywanawr
Ynghaer Pedryfan Ynys Pybyrddor

[1]Munud mos. Pair Tyrnog.—D.

Echwydd a Muchydd cymysgettor
Gwin gloyw eu gwirawd rhag ei gosgordd
Tri lloneid Prydwen ydd aetham ni ar for
Namyn saith ni ddyrraith o Gaer Rigor
Ni obrynaf lawyr llen llywiadur
Tra chaer wydr ni welsynt wrhyd Arthur
Tri ugeint canhwr a sefi ar y mur
Oedd anawdd ymadrawdd ai gwiliadur
Tri lloneid Prydwen ydd aeth gan Arthur
Namyn saith ni ddyrraith o Gaer Goludd
Ni obrynnaf i lawyr llaes eu cylchwy
Ni wyddant hwy py ddydd peridydd pwy
Py awr ym meinddydd y ganed Cwy
Pwy gwnaeth ar nid aeth dolau Defwy
Ny wddant hwy yr ych brych bras ei benrhwy
Seith ugein cygwn yn ei aerwy
A phan aetham ni gan Arthur afrddwl gofwy
Namyn saith ni ddyrraith o Gaer Vandwy
Ni obrynaf lawyr llaes ei gehen
Ni wddant py ddydd peridydd pen
Py awr ym meinddydd y ganed perchen
Py fil a gatwant ariant y pen
Pan aetham ni gan Arthur afrddwl gynhen
Namyn saith ni ddyrraith a Gaer Ochren
Mynaich dychnud fal cunin cor
O gyfranc uddydd ai Gwiddanhor
Ai un hynt gwynt ai un dwfr mor
Ai un ufel tan twrwf diachor
Myneich dychnud fab bleiddawr
O gyfranc uddydd ai gwyddyanhawr
Ni wddant pan ysgar deweint a gwawr
Neu wynt pwy hynt pwy ei rynnawdd
Py *va* ddifa py dir a plawdd
Bed Sant yn ddifant o bet allawr
Golychaf i wledig pendefig mawr
Na bwyf trist Crist am gwaddawl

GWAWD GWYR ISRAEL.

TRINDAWD tragywydd
A oreu elfydd
A gwedy elfyd
Addaf yn gelfydd
A gwedy Addaf
Da y goreu Efa
Yr Israel bendigaid
A oreu Murgreid
Gwrdd ei grybwylleid
Glan ei gywyddeid
Deuddeg tref yr Israel
Dwyrein gywychel
Deuddeg veib Israël
A oreu Duw hael
Deuddeg tra dinam

Teir Mam ai maeth
Un gwr ai crewys
Creawdr ai gwnaeth
Mal y gwna a fynho a fo Pennaeth
Deuddeg Mab Israel a wnaeth cul-
wydd
Mal y gwna a fynho a fo Arglwydd
Deuddeg meib Israel a wnaeth Dofydd
Mal y y gwna a fynho a fo celfydd
Deuddeg meib Israel dymgofu
O ganhad Iesu
Ac untan ai bu a their Mam uddu
O naddu y doeth rhad
Ag eissydyd mad
A mair mad gread
A Christ fy nerthiad
Arglwydd pob gwenwlad
A alwaf a eilw pob rhydd
Ha bo fynghynydd
Genhyd gerennydd

YMDIDDAN

RHWNG UGNACH AB MYDNO, o GAER SEON A THALIESIN, o GAER DEGANWY.

ALLAN O'R LLYFR DU O GAERFYRDDIN.

TAL. 1.

MARCHAWC a girch y Dinas
Ae con guinion ae cirn bras
Nyth adwaen nu rythweles

UGN. 2.

Marchawc a circh ir Aber
Y ar March cadarn cadfer
Dabre genhiw nim gwatter

TAL. 3.

Mi nid aw ina in awr
Gollew gueith y godriccaur
Elhid bendith new a llawr

UGN. 4.

Y gwr nim gwelas beunit
Y tebic y gur deduit
Ba hyd eidy a phanndeit

TAL. 5.

Ban deuaw o Caer Seon
O imlat ac itewon
I tau Caer leu a Guidion

UGN. 6.

Dabrede genhiw ir Dinas
A thuit met ara phellas
Ac eur coeth ar di wanas

TAL. 7.

Mi nyd aduen y gur hy
A meteu tan a gveli
Tec achuec y dywedi

UGN. 8.

Debre genhiw imtino
A thuit guin gorysgelho
Ugnach yw vy heno mab Mydno

TAL. 9.

Ugnach bendith ithorset
Athro rad ac enrhydet
Taliessin viw inheu talaw iti dy gulet

UGN. 10.

Taliessin penhaw or guir
Beitad yng Kert Kyurgir
Tric yma hyd dyv Merchir

TAL. 11.

Ugnach Moihav y alaw
Ath ro rad y gulad penhaw
Ny haetaw Kabit ny thrigiaw

"The following Poem, beginning GOGANWAWD TEYRN, &c., contains an odd sort of Philosophy about the origin of Salt Water, Rain, and Springs; but as the following part is historical, I insert it here."—L. MORRIS.

GOSGORDD Fardd uchod
Gosgordd fardd isod
Nid oes fan wybod
Dan huan a rhod

Ni wyddoch chwithau
Pa draetho'ch Tafodau
Na dosparth diau
Rhwng eich gwir ach gau

Beirddion bychain Brain bro
Braidd nad ewch chwi ar ffo
Y Bardd nim gostego
Gosteg ni's caffo
Oni el mewn gortho
O ddaiar a Grô
Ar sawl a'm gwrandawo
Mab Duw ai Caro
Elphin ap Gwyddno[1]
Sy'n Naear Arthro[2]

[1] Gwyddno Goronhir, the father of Elphin, was the lord of Cantref Gwaelod, which was swallowed up by the sea. It is said to extend from Sarn Badrig to Aberystwyth, for there is a place in the sea near, called Caer Wyddno. This must have happened *Circ. An.* 530 a 540.

[2] Arthro, now pronounced Artro, is a river in that neighbourhood, where Cantref Gwaelod is said to have been; and it seems Elphin was in prison at the Castle of Harlech (Diganwy says many others) by the command of Maelgwn, for differing with him about religion or politics.—*Vide* pa. 25.

Dan dri ar ddeg clo
Am ganmol ei Athro

Myfi yw Taliesin
Ben beirdd y Gorllewin
Ac a adwaen bob Gorsin
Yngogeir Gorllewin
Ac a ollwng Elphin
O'i Hual Eurin TALIESSIN.

YMDIDAN

RHWNG MYRDDIN WYLLT A THALIESSIN.

ALLAN O'R LL. DU O GAERFYRDIN.

MYRD.

Mor truan genhyf mor truan a dery
Am Kedvy a chavan
Oed llachar Kyflavar cyflavan
Oed yscuid o Tryvvuyd[1] o truan

TAL.

Oed Maelgwn a welwn yn ymwan[2] y deulu
Rac ter y uulu ni thawant

MYRD.

Rhac deuwr yn nentur y tirran
Rhac Errith a Churrith yar welugan
Meinwineu yndihen a dygan
Moch gweler y nifer gan Elgan
Och oe leith mawr ateith y deuthan

TAL.

Rys undant oedd rychwant y tarian
Hyd attad y daeth rhad cyflawn
Llas Cyndur tra messur y cwynan
Llas haelon o ddynon tra fuan
Trywyr nod mawr eu clod gan Elgan

MYRD.

Trwy a thrwi vug a rug y daethan
Traw a thraw undoeth Bran a Melgan
Llad Dyuel[3] oe diwed cyflafan
Ab Erbin ae werin a wnaethan

TAL.

Llu Maelgwn bu yscwn y daethan
Aerwyr cad trybelidiad gwaedlan
Neu gweith Aryfderydd pan fyd y deunyd
O hyd y wychyd y darparan

MYRD.

Lliaws peleidrad gwaedlad gwaedlan
Lliaws aerwyr bryw breuawl sidan
Lliaws ban briwher lliaws ban foher
Lliaws eu hymchwel yn eu hymwan

TAL.

Saith meib Eliffer, seith gwyr ban broffer
Seith gwaew ni ochel yn eu seithran

[1]Owynruyd. [2]Inim wan. [3]Dywal ab Erbin.

MYRD.

Seith tân ufelin, seith cad cyferbin
Seithfed Cynfelin y pop cinhvan

TAL.

Seith gwaew gowanon seith loneid afon
O gwaed Cinreinon y dylanwon

MYRD.

Seith ugein haelon a aethan yg wllwn
Ynghoed Celiddon y darfuan
Canys mi Myrtin gwydi Taliessin
Bythawd[1] cyffredin fy darogan

LLYMA AWDL A ELWIR

ARMES BRYDAIN.

O DAIR ARMES CERD TALIESIN.

DAROGANA fi hyn
Cad ym hob meyn
Cymry ar gychwyn
Crwst ymrhydyn
Ag Emil ar gychwyn
Rhag llion Llychlyn
A llynges drom droch
A Brython ar Foloch
A deudd och
A diwedd dydd croch
A chelain Foch
A guadun yngwadun
A llew llawer dafn
A llaw ar y llafn
A gwaed Iad ar rudd
A Brain ar golydd
A phelydr yn rhydd
a gosgerdd
Am gogawn pennardd
A llu digyfor o bell
A chroes Crist yw cymmell
A fflam o Feddlem
A chaerselem
A gorfod a fydd
I genedl Gwindodydd
Dwy flynedd yn hedd
A hanner y drydydd
Cynan Yngwynedd
Coel cyn celanedd
Cadwaladyr y sydd
Cymru llawenydd
Cymru fu Cymru fydd
Or mor bwygilydd
Cyn ein Gwindodydd
Oes cyn cudwydd
Tair blynedd di hêdd
Trigain Trichant i rai ai harwedd
Oer fydd ei difant

[1]Bydded.—L. M.

Heil plant o honyn i ddant
Nid ef ai diwedda
Nid aflwydd alaf
Hedid yngaya
Hed mab modreda
Nid coel cyfynles
Cymru di fuches
Mae cad cyfeinedd
Cymry ddifuchedd
Anrhydedd rhinwedd
Drindod Trugaredd TALIESIN.

ANREC URIEN.

LLYFR COCH.

GOGYFERCHEIS, gogyvarchaf,
gogyverchyd
Urien Reget
Duallovyet
Y Leuenyd
Eur ac Aryant
Mor eu divant
Eu dihenyd
Kyn noc y dau
Rug y duylau
Y guesceryd
Ieuaf a unaeth
Coll ac alaeth
Am feirch peunyd
Keneu y vraut
Kynnin daervaut
Ni by geluyd
Urien a wnaeth
Dialynyaeth
Y gewilyd
Kynnin vynnu
Kyvarchuelu
Eu dihenyd
Deutu Aerven
Diffuys dilen
Dydau lwyd
Seleu delyit
Enynnyessit
Or a dybyd
Dybi y vaeth
A ryd alhaeth
Oc eu herwyd
Cochliu lavneu
Truy valch eiryeu
Am ffruyth eu guyd
Wy Kynnhalyant
Lle peduar cant
Y peduar guyr
Dufyr dyvnav[1]
Bendigwyf clav

[1] Dyvnvas.

Ac oe herwyd
Yr ae Kaffo
Kynvinaul vo
Yn dragyuyd
Dydeu collet
Or ymdiret
Yr ardelyd
A llau heb vaut
A llavyn ar gnaut
A thlaut lûyd
Oes feibionein
Nyt ymgyghein
Ymmerueryd
Nyt ymganret
Nyt ymdiret
Neb oe gylyd
Dreic o Wyned
Diffwys dired
Dirion drefyd
Lloegrwys yd a
A lletaut yna
Harchollyd
Torrit meinueith
Yn anoleith
Ar gyfhergyd
Muy a gollir
Noc a geffir
O Wyndodyd
O gyt gyghor
Kyvrung esgor
Mor a Mynyd
Gotriffit Brythyon
Yn at poryon
Ar antyrron gyueithyd
Ef a dau byt
Ny byd Kerdglyt
Ni byd Kelvyd
Alaf gar maer
Arthauc vyd chuaer
Wrth y gilyd
Llad a bodi
O Eleri
Hyt chuil fynyd
Un gorvydyauc
Antrugarauc
Ef a orvyd
Bychan y lu
Yn ymchuelu
Or Mercherdyd
Arth or deau
Kyvyt ynteu
Dychyfervyd
Lloegruys lledi
Afrivedi
O Bowysyd
Guaith cors Vochno
O diango
Bydaud deduyd
Deudeng guraged

Ac nyt ryved
Am un gur vyd
Oes Ieunctid
Aghyvyrdelit
Y vaeth dybyd
Beru yndivant
Barnauc or cant
Nys ryuelyd
Uryen o Reget hael ef syd ac a vyd
Ac a vu yr Adaf letaf y gled [gogled
Balch yghynted or tri Theyrn ar duc or
A un eu enu Aneuryn guautryd Auenyd
A minneu Dalyesin o lann llyn geirionnydd
Ny dalywyf yn hen
Ym dygyn aghen
Oni Moluyf Uryen. Amen.

TAL. AE DYUAUT.

DADOLWCH URIEN REGED.

TALIESIN.

URIEN yr echwydd
Haelaf dyn bedydd
Lliaws roddydd
I ddynion efydd
Angaw a gawsant
A mynych goddiant
Mal y cynyllwyd
Yd wesgerydd
Llawn beirdd bedydd
Tra fo dy wychydd
Ys mwy llawenydd
Gan glodfein glodrydd
Ys mwy gogoniant
Fod Urien ai blant
Ac ef yn arbennic
Yn oruchel wledic
Bellenic yn ciniad
Cyntair Lloegrwys ei gwyddiead
Yn ninas pellenig
Yn ceiniad cynteïg
Lleegrwys ai gwyddant
Pan ymadroddant
Llosci y trefred
A dwyn eu Tudded
Ac emmic[1] colhet
A mawr anghyfred
Heb gaffel gwaret
Rhag Urien Rheget
Rheget diffrydiad
Clod ior angorwlad
Fy modd y sydd arnat
O bob herchlynad
Dwys dy beleidrad
Pan erglywad
Cad pan i eyrchud
Gwiniaith a wnud
Tan yn nhai eyn dydd
Udd yr echwydd
Yr echwydd teccaf
Ai dynion haelhaf
Gnawd eingl heb waesaf
Am deyrn glewaf
Glewaf eissyllydd
Tydi goreu y sydd
Teccaf ai dynion
Haelaf gwawd . .
Pan dremir arnaw
Es helaeth y braw
Gnawd gwyledd am danaw
Am deyrn gognaw
Am danaw gwyledd
A lliaws teyrnedd[1]
Eurdeyrn gogledd
Arbennig Teyrnedd
Ac yn falchwy fi hen
Ymdygn angeu angen
Ny byddwyf yn dirwen
Na Molwyf Urien

[1]Eimwng.

GWAITH GWENYSTRAD.

ARWYRE gwyr Kattraeth gan dydd
Am wledig gwaith fuddig gwarthegydd
Urien hwn anwawd eineuydd
Cyfeddeily teyrnedd ai gofyn rhyfelgar
Rwysg anwar rwyf bedydd
Gwyr Prydain adwythein yn lluydd
Gwen ystrad Ystadl cad cynnygydd
Ni ddodes na maes na choedydd tud achles
Diormes pan ddyfydd
Mal tonnawr tost ei gawr tros elfydd
Gwelais wyr gwychr yn lluydd
A gwedi boregat briwgig
Gwelais i dwrf teirflin trancedig
Gwaed gohoyw gofaran gowlychid
Yn amwyn Gwenystrad y gwelid gofwr
Hag angwyr llawr lluddedig
Yn nrws rhyd gwelais i wyr lledruddion
Eirf dillwng rhag blawr gofedon
Unynt tanc gan aethant golluddion
Llaw ynghroes gryd *ygro* granwynion
Cyfeddwynt y gynrhein Kywyn don
Gwaneicawr gollychynt rawn y caffon
Gweleis i wyr gospeithig gospylad
A gwyar a uaglei ar ddillad
A dulliaw diaflym dwys wrth gad
Cad gwortho ni buffo pan bwylled
Glyw Reged rhyfeddaf pan feiddad
Gweles i ran reodig gan Urien

[1]Maranhedd.

Pan amwyth ai Alon yn llech wen Galystem
Ei wythiant oedd llafn aesawr gwyr
Goberthid wrth Angen
Awydd cad a ddiffo Euronwy
Ac yn y fallwyfi hen
Ym dygyn Angheu angher
Ni bydif yn dirwen
Na molwyf fi Urien

TALIESIN AE KANT.

Y CYFIEITHAD

GAN IEUAN FARDD AC OFFEIRIAD.

Extol the Men of Cattraeth, who, with the dawn went with their victorious leader Urien, a renowned elder, the pillar of Kings, of matchless valour, a chief of great power. The Men of Britain came in a body to Gwenystrad to offer battle; neither the fields nor the woods afforded protection to their enemies when they came in their fury, like the roaring wave rushing in its might to cover the beach. I have seen brave men in the army, and after the battle in the morning the mangled flesh. I saw the place where the shout was given, and where three ranks of men fell, and the crimson gore covered the ground: in Gwenstrad was seen a fort, assailed by the laborious toil of warriors. In the pass of the fort have I seen men dyed with red who have hurted their arms * * * † * * * they jointly fell to the ground when they lost the day; their hands were on the Crucifix, and horror was in the pale face of the dead warriors. I have seen men * * * * and the blood entangled on their clothes, quick and furious thrusts in battle. Men bore patiently the warlike toil, and where there was no flying when they grew outrageous. I am astonished at the courage of Reged's Chief! I have seen *Urien's* Brow covered with rage when he furiously attacked the enemy by Lech Wen Galysten; his anger was satisfied in dealing deadly blows amongst his foe, and his shield in time of need was heaved up to defend him. Euronwy mayest thou grow desirous of Conflict! And till I grow old, and must necessarily die, may I have no constant joy if I praise not Urien.

N.B....This battle was fought by Urien Reged, Prince of Cymbria, against the Saxons.

GWAITH ARGOED LLWYFEIN.

CANU URIEN.

Y BORE Dduw Sadwrn Cad fawr a fu
Or pan ddwyre Haul hyd pan gynnu
Dygrysowys fflamddwyn yn bedwarllu
Goddeu a Reged i ymddullu
Dyfwy o Argoed hyd Arfynydd
Ni cheffynt eiryoes hyd yr undydd
Atorelwis fflamddwyn fawr drybestawd
A ddodynt yngwystlon a ynt parawd
Yr attebwys Owain ddwyrain ffossawd
Nid dodynt nid ydynt nid ynt parawd
A cheneu mab Coel byddai Cymwyawg lew
Cyn attalai owystl nebawd
Atorelwis Urien Udd yr echwydd
O bydd ynghyfarfod am garennydd
Dyrchafwn eidoed odduch mynydd
Ac ymporthwn wyneb odduch emyl
A drychafwn beleidr odduch ben Gwyr
A chyrchwn fflamddwyn yn ei luydd
A lladdwn ag ef ai gyweithydd
A rhag Gwaith Argoed Llwyfain
Bu llawer Celain
Rhuddei frain rhag rhyfel Gwyr
A gwerin a grysswys gan einewydd
Arinaf y blwyddyn nad wyf Kynnydd
Ac yn y fallwyf hen
Ym dygn angeu angen
Ni byddif ym dyrwen[1]
No molwyf Urien[2] TALIESIN.

ENGLISHED THUS.

BY L. MORRIS, 1763.

ON Saturday Morning a great battle ensued,
Which lasted from sun-rising to its descent;[3]
Fflamddwyn[4] hastened in four legions
Goddeu[5] and Reged's[6] forces to fight,[7]
They reached from Argoed[8] to Arfynydd,[9]
but lived only one day.
Flamddwyn loudly called in great hurry,

[1] "The two last lines were not in the Book of John Lewes of Llynwene."—*Davisius.*
[2] This Urien is he whom the old Author in Nennius calls Urbgen, with his Sons. Deovix the Saxon fought stoutly. Vide Gale's Nenn.—*Ll. Ddû.*
[3] See Cynnu, Esgyn, Desgyn, in Davies's Dict.
[4] The Saxon General Flamddwyn mentioned in Triade, 56.
[5] Goddeu, a country in North Britain, where the famous Battle of Gwaith Goddeu was fought, Triade 47; one of the three trifling battles.
[6] The King of Cumbria Reged.
[7] Ymddyllu in the original signifies to dispose an army.
[8] Argoed, the country of Llywarch-hen, out of which he was driven by the Saxons.
Gwyr Argoed erioed am Porthant.—Ll. H.
[9] Arfynydd, some place on the borders of Northumbria.

Will they (the Britains) give pledges, are they ready?
He was answered by Owein,[1] brandishing[2] his spear,
They will give no pledges, nor are they ready.
And Cenau,[3] son of Coel, would be an afflicted lion[4]
Before he would give pledges to any one.
In the forenoon Urien[5] the Prince, with fresh men,
Called aloud, We relations will unite our forces,
And will erect our banner on the hills,
And will assist, and turn our faces above the edges, [heads,
And will raise our shafts above men's
And will push Flamddwyn in his Army,
And kill[6] (fight) with him and his auxiliaries;
And because of the Battle of Argoed Llwyfein[7]
There happened many a dead carcase,
And the ravens were coloured with the War of Men,
And the common people ran about hastily with the news.
I will foretell[8] the year that is not prosperous; [die,
And till I grow old, and necessarily must
Let me never smile if I praise not Urien.

CANU I URIEN REGED.[9]

Urien yr Echwydd
Haelaf Dyn bedydd

[1] Owein ap Urien Reged, the general of the Cumbrian or Reged men, under Urien his father, he and Flamddwyn had married two sisters, daughters of Culfynawyd Prydain, noted in Triad 56 for their incontinency.
[2] Or clashing his weapons.
[3] Cenau, son of Coel, must have been the general of Goddau's men, who were auxiliaries with Owein.
[4] Or would behave like an angry lion.
[5] Urien the Prince was King of Cumbria, and his dominion reached as far north as the river Clyde, to the northward of which the men of Goddau were, whom I take to be the Godini of Ptolomy. The trifling battle mentioned in p. 48, note 5, seems to be the same with that mentioned by John Major, Hist. of Scotland, occasioned by a mastiff bitch detained by the Picts; but as that battle has been celebrated by Taliesin in his Gwaith Goddeu, it is probable Major was out in his chronology about 300 years.
[6] The original word *lladd* is in the modern British *ymladd*, to fight.
[7] The meaning of the word Argoed Llwyvein seems to be a Forest of Ems (Elms).
[8] Here the poet takes the character of a prophet, after his usual manner. Vide Armes, in D. D. *Llewelyn Ddâ*.
[9] *Gwel* Dadolwch, tu dal. 47.

Lliaws a roddydd
I ddynion elfydd
Mal y cynnullwyd
Yd wesgerydd
Llawn beirdd bedydd
Tra fo du uchydd
Ys mwy llawenydd
Gan glodfan clodrydd
Ys mwy Gogoniant
Fod Urien ai blant
Ac ef yn Arbennig
Yn oruchel wledig
Bellennig yn cyniad
Cyntau Lloegrwys ai gwyddiad
Yn Ninas Pellenig
Yn ceiniad cynteig
Lloegrwys ai gwyddant
Pan ymadroddant
Angeu a gawsant
A mynych goddiant
Losgi eu trefred
Adwyn eu lludded
Ac eimwng colled
A mawr amgyffred
Heb gaffel gwared
Rhag Urien Reged
Rheged diffreidiad
Clod Ior angor gwlad
Fy modd y sydd arnad
O bob erglywad
Dwys dy beleidrat
Pan erglywat cad
Cad pan i cyrchud[1]
Gweniaith a wnaud
Gweniaith a wneit
Tan ynhai cyn dydd
Rac Udd yr Echwydd
Yr echwydd teccaf
Ai dynion haelaf
Gnawd Eingl heb waessaf
Am deyrn glewaf
Glewaf Eissyllydd
Tydi goreu sydd
Or a fu ac a fydd
Nith oes cystedlydd
Pan dremher arnaw
Ys helaeth y braw
Gwnawd gwledd am danaw
Am deyrn gognawd
Am danaw gwyledd
A lliaws Maranhedd
Eudeyrn gogledd
Arbennig Teyrnedd
Ac yn y vallwyf hen
Ym dygn angeu angen
Ni byddiff im dirwen
Na molwyf Urien

[1] Cyrchynt.

I URIEN.

Yngorphowys
Gan rychedwys
Parch a chymrwys
A medd meueddwys
Meueddwys medd
Ei orfoledd
A chain diredd
Imi yn rhyfedd
A chyfedd mawr
Ag eur ag Awr
Ac eur a ched
A chyfrifed
A chyfrifiant
A choddi chwant
A chwant oi roddi
Er fy llochi
Yd ladd yd gryg
Yd fag yd fyg
Yd fyg yd fag
Yd ladd yn rhag
Rhagwedd rhoddid
I feirdd y Byd
Byd yn geugant
Itti yd weddant
Wrth dy ewyllis
Duw ryth beris
Rhieu yngnis
Rhag ofn dibris
Annogiad cad
Diffreiddiad gwlad
Gnawd am danad
Lwryf pystylad
Pystylad lwrwf
Ac yfed cwrwf
Cwrwf oi yfed
A chein drefred
A chein dudded
Imi ryanllofed
Llwyfenydd fan
Ag eirch achlan
Yn un trygan
Mawr a bychan
Taliessin gan
Tidi ai diddan
Ys tidi goreu or gigleu
Ei wrdd lidau
Molaf inneu dy weithredau
Ac yn y vallwyf hen
Ym dygn angeu angen
Ni byddiff ym dirwen
Na molwyf Urien

I URIEN.

Ar un blynedd
Un yn darwedd
Gwin a mall a medd
A gwrhyd digassedd
Ac ei lewydd gorod
A haid am fereu
Ai phen ffuneu
Ai teg wyddfaeu
Ei bawb oi wyd
Dyfynt ynhlymnwyd
Ai farch y danaw
Yngoddeu gwaith Mynaw
A chwaneg anaw
Budd am li am law
Wyth ugein unlliw
O loi a biw
Biw blith ag Ychen
A phob cein amgen
Ni byddwn lawen
Bei lleas Urien
Ys cu cyn iethydd
Iais cyngryn cyngryt
A briger wen olched
Ar elor ei dynged[1]
A gran gwyarlled
Am waed gwyr gonodded
A gwr hewr bythig
A fei feddw ei wreig
Am ys gwin ffelaig
Am ysgwin mynych gyttwn
Am Sorth am porth am pen
Cyn na phar cyfwyrein
Kymaran taraw
Gwas y drws gwrandaw
Py drwst ai dayar a gryn
Ai mor a ddugyn
Dy gwyawg ychyngar wrth y peddydd
Ossid uch ym mhant
Neud Urien ai gwant
Ossid uch ym mynydd
Neud Urien a orfydd
Ossid uch yn rhiw
Neud Urien ai briw
Ossid uch ynghawdd
Neut Urien a blawdd
Uch hynt uch as
Uch ymhob Kamas
Nac un tew na dau
Ni nawdd y rhag eu
Ni byddei ar newyn
A phreiddieu yn ei gylchyn
Gygoriawg gorlassawc gorlassar
Ail angeu oedd ei bar
Yn lladd ei Esgar
Ac yn y vallwyf hen
Ym dygyn Angeu Angen
Ni byddif ym Dyrwen
Na molwyf Urien

[1] Y dyged.

CANU I URIEN.

Ardwyre Reged rysedd Rieu
Neu ti rygostais cyn bwyf teu
Gnissynt cad lafnawr
A chad fereu gnissynt wyr
Y dan gylchwyawr
Lleeu goleu gwyn gelein
Ymathren ni mad frwydrwyd
Rhi ni mad geu
Ydd ymarmerth gwledig
Wrth Cymryau
Nis gyr neges y geissiaton
Gochawn Marchawg mwth molud gwrion
O ddreig ddylaw adnaw doethaw don
Yn i ddoeth Wlph yn dreis ar ei Alon
Hynny ddoeth Urien yn edydd yn Aeron
Ni bu cyfergyriad ni bu gynnwys
Talgynnawd Urien y rhac Powys
Ni hyfrwd brwd echen gynnwys
Hyfeidd a Gododin a lleu towys
Dewr yn enmynedd a thaith gyduwys
Difefl dyddwyn yngwaed gwyden
A weles llwyfenydd ufydd cyngryn
Yn eiddoedd cyhoedd yn eil mehyn
Cad yn rhyd Alclud Cad ym ynuer
Cad gellawr brewyn Cad hireurur
Cad ymhrysg Cadleu, Cad yn Aber-ioed
Y ddygyfrang a dur breuer mawr
Cad gluduein Gwaith pen coed
Llwyth llithiawg Cunar ormant gwaed
Atveilaw gwyn goruchyr cyd mynan
Eingl eddyl gwrthryd
Lledrudd o gyfranc ag Wlph yn rhyd
Gwell ganher gwledig pyr y ganed y Udd
Prydain pen perchen broestlawn y Udd
Nid ymddug ddillad na glas na gawr
Na choch nag ehoëg uyg mawr llawr
Nid arddodes y forddwyd dros Voel Maelawr
Meirch o genedl vrych mor greidiawl
Haf ydan ayaf ag araf yn llaw
A Rhyd a Rhodwydd eu harwylaw
A gwest y dan geirdd ag ymdwyraw
Ac hyd orphen byd edrywyd Caw
Gosydin[1] goyscub dyhawl am delw
Dilwfr am leufereu neu fi erthrycheis
Rhag hwyd Peleidr ar ysgwydd
Ysgwyd yn llaw Godeu a Rheged yn ymddulliaw
Neu fi a weleis wr yn buarthaw
Sarph sonedd firen Segidyd[2] lawr
Neu fi gogwn Ryfel ydd argollawr
Er maint a gollwyf y argollaw
Neu fi neu ym gorwyth meddu meddlyn
Gan hyfeidd hywr hywest ddilyn
Neu fi neu ysgynhedais cysgawd gweithen
Dithrychwys fy rhieu radeu lawen

[1] Gofyddin.—Ll. E. D. [2] Sengidydd.

Gwasga gwlad dda wrth wruyn
Ac yn y vallwyf i hen
Ym dygn Angeu Angen
Na bydyf ym dirwen
Na molwyf Urien

YSPEIL TALIESIN.

Canu Urien.

Yngwryd gogyfeirch yn nhrafferth gwaetwyf
A wellwyf yn Kerthwir
Gweleis i rhag neb nim gweles pob annwyl
Ef diwyl ei Neges
Gweleis i basg am leu am lys
Gweleis i ddail o ddyfyn o dowys
Gweleis i geing gyhafal ei blodeu
Neur'r weleis udd haelaf ei ddedfau
Gweleis i lyw Catraeth tra maeau
Bid fy nar nwy lachar Cymryau
Gwerth fy nad mawr fydd ei fudd y radeu
Pen Maon milwyr amde
Preidd lydan Pren onhyt yw fy Awen gwen
Ysgawr y rhag glyw gloyw glasgwen
Glyw ryhawd glewaf un yw Urien
Nim gorseif gwarthegydd
Gorddear gorddyawg gorlassawg gorlassar goraig a gorddwyre
Pob rhai sang dilew du Merwydd y Mordei
Udd tra blawdd yn ydd el oth fodd
Vared Melynawr yn neuadd maran heddawg
Diffreidiawg yn Aeron
Mawr ei wyn ei aniant ac eilon
Mawr ddyfal ial am ei Alon
Mawr gwrnerth ystlyned i Frython
Mal rhod tanwhydin tros elfydd
Mal ton teithiawg Llwyfenydd
Mal cathl cysluv Gwen a Gweithen
Val Mor Mwynfawr yw Urien
Yn y egin echangryd gwawr
Un yw rhieu rhwyfiadwr a Dwyawr
Un yw maon meirch mwth miledawr
Dechreu mei ymhywys byddinawr
Un yw yn deuwy pan ofwy ei werin
Eryr tir tuhir tythremyn
Addunwn i ar orwydd ffysgyolyn tud ynial
Gwerth Yspeil Taliessin
Un yw gwrys gwr llawr a gorwydd
Un yw breyr benffyg yr Arglwydd
Un yw hyddgre hydd yn divant
Un yw blaidd banhadlawr anchwant
Un yw gwlad fab Eginyr

Ac unwedd ac unswn cadfa cedwyr
Unswn y drwg iraven (iaeran)
A Cheneu a Nudd hael a hirwlad y Danaw
Ac os it *ytwydef* ym gwen
Ef gwneif beirdd byd yn llawen
Cyn mynhwyf meirw meib Gwyden
Gwaladr gwaed gwenwlad Urien

I. WALLAWG.

Yn enw Gweledig Nef Gorchorddion
Ryganant ryghwynant y Dragon
Gwrthodes gogyfres gwelydon
Lliaws Rhun a Nudd a Nwython
Ni golychaf an gnawt Beirdd o Vrython
Ryfedd hael a sywyd Sywedydd
Un lle rhygethlydd rygethlig
Ryddysyfaf rychanaf i wledig
Yn y wlad ydd oedd ergrynnig
Nim gwnel nis gwnaf ei newig
Anawdd diollwng adwloedd ni diffyg
I wledig ni omedd
O edrych awdl trwm teyrnedd
Yn ei fyw nis deubydd budd bedd
Ni ddigonont hoffedd o'i buchynt
Caletach yr artaith hael hynt
Tarf pressenawl tra Phrydain
Tra phryder ry gohoyw rylycirawr
Rylyccrer rytharnawr rybarnawr
Rybarn pawb y gwr banher
Ac uinat yn yngnad ac elwet
Nid y gwr dilaw ei ddaered
Gwas greid a gwrhyd gottraed
Eil eichawg Gwallawg yn llywet
Hwyrweddawg gwallawg artebed
Ni ofyn i neb a wnaeth udd
Neud ym udd nac neud ych Darwerther
Tewuedd yn niwedd Haf
Nis cynnydd namyn chwech
Chweccach it gynan o hynnydd
Chedlawg trwyddedawg traeth dydd
Teyrnedd yngwedd nwys medd mad!
Tebyg heul haf huenydd soned gan mwyaf
Cenhaf gan ddoeth y gan llu eiliassaf
Bint *bydi* derwy bryt haf pryt mab
Lleenawg lliawg hamgwrwl gwmn
Gwawl gwnn gwres tarth gwres tarth
Trangyunis yd engis heb warth
Cleda cledifa cledifarch nidd am tyrr
Y lu y ledrad nid amescud i gaw ei gywlad
Tyllant tal ysgwydawr rhac taleu ei feirch
O march trwst Morial rith gar riallu
Gwynawg ry gwystlant gweiryd goludawg
O gaer Glut hyd gaer Garadawg
Ystadl tir penprys Gwallawg
Teyrnedd tewrn tangweddawg

DADOLWCH URIEN.

Urieni Regedenis Compensatio.

Lleu uydd echassaf
Mi nyw dirmygaf
Urien yd gyrchaf
Iddaw yd ganaf
Pan ddel fyngwaessaf
Cynwys a gaffaf
Or parth goreuhaf
Y dan eilassaf
Nid mawr nim dawr
Byth gweheleith a welaf
Nid af attaddynt ganthynt ni byddaf
Ni chyfarchaf fi gogledd
Ar mei teyrnedd
Cyn pei am laweredd
Y gwelwn gynghwystledd
Nid rhaid ym hoffedd
Urien nim gommedd
Llwyfenydd diredd
Ys meu eu rheufedd
Ys meu y gwyledd
Ys meu y llaredd
Ys meu y deliedeu
Ai gorefrasseu
Medd o fualeu
A da dieisieu
Gan deyrn golau
Haelaf rygigleu
Teyrnedd pob Iaith
It oll ydynt gaith
Rhagot yt gwynir ys dir dy olaith
Cydef mynnasswn
Gwey helu henwn
Nid oedd well a gerwn
Hyd ys gwybyddwn
Weithian y gwelaf
Y meint a gaffaf
Namyn y Duw uchaf
Nis dioferaf
Dy deyrn Veibon
Haelaf dynedon
Wy canan eu hysgyron
Yn nhiredd cu galon
Ac yn y vallwyf hen
Ym dygyn angeu angen
Ni byddaf im dirwen
Na molwyf Urien

MARWNAD OWAIN AP URIEN REGED.

Enaid Owain ap Urien
Gobwyllid ei Ren
Oi Raid
Reged Udd ai cudd tromlas

Nid oed fas
Ei gwyddeid
Isgell cerddglyd clodfawr
Esgyll gwaywawr
Llifeid
Cany cheffir cystedlydd
I Udd llewenydd
Llathreid
Medel galon gefeilad
Eissillud y tad
Ai taid
Pan laddawdd Owein Fflamddwyn
Nid oedd fwyn
Og ef cysgeid
Cysgid Lloegr llydan nifer
A lleufer
Yn eu llygaid
A rhai ni ffoynt hayach
A oeddynt.....ach
No chaid
Owain ai cospas yn ddrud
Mal cnud
Yn ymlid defeid
Gwr gwiw uch ei amliw seirch
A roddei feirch
I eirchiaid
Cyd as cronnai mal caled
Ni ranned
Rhag ei Enaid
Enaid Owain ap Urien, &c.

GORCHAN ADEBON.

Incantatio Adeboni.—E. Ll.

Ny phel guyd aual o aual
Ny chynnyd dyual a dyual
Ny ehofn noeth yn esgal
Paub pan rydyoger yt bal
A garun y ef carei anreithgar
Ny byd marw duyueith
Nyt amsut y vut y areith
Ny cheri y gyneuin gyvieith
Emis anwychwas ancuyn
Am surn am gorn Cuhelyn
Yn adef tangdef colit
Adef let buost leu yn dyd mit
Rhudvyt ceissiessit ceissiadon
Mein uchel medel y alon
Dyuen ar Uarchan Adebon

Ac vely teruuyna Goarchon Adebon.

GORCHAN CYNVELYN.

Pei mi brydun
Pei mi ganun
Tardei Uarchan gorchegin
Gwelgin torch trych truyt
Cyrchessit yn Von
Cyn noe geinyon
Tyllei garn gaphan
Rac carneu riu rhon
Ryu elogown
Esyrn vyrr vyriach
Varchogion
Tyllei ylvach
Gwrhyt Govurthyach
Ruyt guyn rac Eingl iaun llad
Iaun vrinyn vrynnyal
Rac canhuynaul cann
Luc yr duc dyvel
Disgynnyal alel
Y pob deur dysel
Truy hoel truy hen. .n
Truy gibelaur a gen
Ac eur ar drein
A galar duyn dyvyd
Y uynassed velyn
Y greü oe gylchyn
Celedic euyn
Medd melyn
Eil creu oe gylchyn
Rac cadeu Gynvelyn
Cynvelyn gasnar
Ysgrun bryffun bar
Goberthiat Adar
Ar deuin duyar
Cyrreith grad voryon
Adan vorduyt haelon
Cyuret cerd uylyon
Ar weling dirion
Teyrn tut anau
Ys meu y guynau
Yn y vuyt y dyd tau
Gomyndyat gelyn
Ehangseit eruyn
Gorchaun cyrd ceinmyn
Yw Guarchan Cynvelyn
Gorchan Cynvelyn cyluy wylat
Etuyn gwr guned Guyned y Ulat
Dychiannawr deur dychiangat
Eidyn gaer gleision glaer
Cyuerchrynneit
Cein dy en rud ynys guerth
Rud volaut ued meirch
Eithinyn neut gut blennyd
Guarchan Cynvelyn
Ar ododin neus goruc odyn
Dogyn gymhuyliet
Y uaeu drum oreureit
Am rodes poet er les yu eneit
Etmygir y vab Tecvan
Wrth rif ac urth rann
Wyr Calvan greit
Pan Uyryuyt arveu

Tros ben cat o vleidiau
Buan deuer dyd rheit
Trywyr a thrygeint a thrychant
Y vreithyel Gattraeth ydacthant
Or saul yt gryssiasant
Uch ved venestri
Namyn tri nyd atcorasant
Cynon a Chatraeth a Chathleu a gatuant
A minneu om Creu dychyorant
Mab coelcerth uyguerth a unaethant
O eur pur a dur ac ariant
Evnyvet nyt nodet e caussant
Guarchan cyrd Cynvelyn cyvnovant

Yma Tervyn Guarchan Cynvelyn

Canu un Canuauc a dal pob Awdyl o'r Gododin heruyd breint yngcerd amrysson. Tri chanu a thriugeint a thrychant a dal pob un or Gorchaneu.....Achaws yu am goffau yn y Gorchaneu rivedi Guyr a aethant y Gatraeth nog y dyle gur vyned y ymlad heb arveu: Ny dyle Bard myned i amrysson heb y gerd honno.

GORCHAN MAELDERU.

TALIESIN AE CANT, ac a rodeis breint y dau Cymmeint ac odleu y Gododin oll ae dri Gwarchan ygcerd Amrysson.

DOLEU deu ebyr am gaer
Guibde adoer a duyaer
Clod rud ceissiedyd cysgut
Brithue arue aruryt
Ruthyr anorthur a wehit
A duy a dodet nyt hebit
Odef ynyas dof y urthyt
Dygugei yn aryf yn escut
Hutei yn ulyd eluit
Gur a ret pan dych
Cyuely crymdy crymduyn
Cyveilu nac eilu etuuy
Tervyn torret tec teithiaul
Nyt aruedauc y uolaut
Dyphryderas y uascaut
Molaut rin rymidin rymenon
Dysylei trech tra manon
Dysgleiriauc ac archauc talachon
Ar rud dreig fud Pharaon
Cyueylyawr yn auel adauann
Trengsyd a gwydei neb ac eneu
Y ar orthur maur mur onuyd
Ar vor ny delis na chynguyd
Na chynguyd na chyngor
Gordibleu eneit talachor
Nyt muy undyt y Esgor
. . . sgor eidin rac dior
. . . nan ceinmyg y ragor
. . . ossodes y gledyf ar glawd
. . . . . nwyr budic
. . . en yn y annaud wledic
. . . gynnuythic cynlas cynneis
Duvyn dyvynneis
Cychuech ny chuyt cychueru cych venyches
Cychuenychuy Enlli weles
A lenuis mican mar edles
Ar ystre gan vore godemles
Hute iduare yngorvynt
Guyr govynnaf rhyannet
Yn lluru ruyd heu ry golet
Colluyt meduyt menuyt
Gogled Run ren rydynnit
Gorcheu am dychuel dychuelyt
Goruyd muy galuaut no meluit
Am ruyd amry ysto flit lit lam
Blin blaen blen bleunyd
Trybedauc y uledic y rhung
Drem dremrud dremryd
Ny wolet odef dogynfyd
Mor eredig dar digeryd
Cyntaf digonaf can elw
Cynnuythic leithic tivyrdelu
Cyn y olo goundelu
Tal gwr mawr y vael Maelderu
Deluat dieirydaf y erry
Par ardelu ruysc uryf bre
Rymun gulat rymun rymdere
Ysgaul disgynnaud ulaud gymre
Nac ysgaut y redec rygre
Ni odiueid o vevyl veint gure
Da dyuot Adonuy am adassuyt
A uneles vratuen gunelu
Ladut llosgut ny chetueist
Nac eithaf na chyngor
Ysgun tref dy bennel
Ny ueleis or mor buyr mor
Marchauc a vei uaeth no od gur
Trychant eurdorchauc
Gyuedgar guaenauc
Trychan trahauc
Cyvun cyuarchauc
Trychan mant godrut
A gryssius ganthut
Trychun a thrychant
Try nyt atcorasant
Dyual ygcat cyrunug ygcyni
Yscyvrang nyt oed bleidic mab Eli
Eruyssit guin guydyr lestri lawn
Ac yn dyd camaun
Campa wneei
Y ar awyl can cynn y drenghi
Calaned cochued ae deni
Puys blaen rydre ferei gadeu
Dryl cadyr cat cein erysguydyat
Bryt am gorleu
Diechuith lain y oruylan

Nat ry gigleu
Ef guneei guyr ludu a guraged
Guedu cyn noe angheu
Breint mab Bleidgi
Rac ysperi
Y beri greu
Cein guodeo y celyo ery vyhyr
O honaw aryf yscut
As eiranghût
Pan estynnei bawb ti disgymiut
Ceneu guin guaet meiru meint a neint
Teir blyned a phedair tudet en vaur
Yt vaer asgyni myrr hut
Ath uedi guas nym guerth na thechut
Present cyn adrawd oed breichyaul glut
Pan gyrchei ygcywlat e glot
Oed annodauc
Edilydei Run gur eurderchauc
Arduyei can ur arur mynauc
Ef rodei gloyu dul glan y gwychauc
Anvonauc eissyllut altut marchauc
Un maban y Gian o dra bannauc
Ny sathraut Gododin ar glaur phossawt
Pan vei no lif lymmach nebaut
Angor deor dain sarph saffwy graen
Anysgoget uaen blaen bydin aral
Arcluy treis trachyniuyn
Ruy gobruy gorduylam
Enuir ith eluir oth gyuir ueithret
Rector rhuyvyadur mur pob cyvyeith
Tutvulch treissir aer caer o dileith
Angor deor dain sarph Saffuy graen
Blaen bydin enuir yth eluir
Guerit cyuir yth eluir oth gywir weithret
Rector rhuyfyadur mur pob uivet
Meruyn mab Madyeith mad yth anet

KERDD DARONWY.

Daron E. L.

Duw differ Nefwy
Rhag llanw lled ofrwy
Cyntaf attarwy
Atreis tros fordwy
Py pren a fo mwy
No get[1] Daronwy
Nid wy am noddwy
Am gylch balch nefwy
Yssid rin y sydd fwy
Gwawr gwyr Goronwy
Odid ai gwypwy
Hutlath Fathonwy
Ynghoed pan dyfwy
Ffrwytheu mwy cymrwy
Ar lan Gwyllionwy
Kynan ai kaffwy

[1] Nog ef (el).

Pryd pan wledychwy
Dyddeuant et waeth
Tros drei a thros draeth
Pedair prif Bennaeth
Ar pummed nid gwaeth
Gwyr gwrdd ehelaeth
Ar Brydain arfaeth
Gwragedd a fu ffraeth
Eillon a fi caeth
Ryferthwy hiraeth
Medd a marchogaeth
Dyddeu dwy rain[1]
Gweddw a gwriog fain
Heyrn eu hadain
Ar wyr yn goriein
Dyddeu cynrain
O am dir Rhufain
Eu cerdd a gyngein
Eu gwawd a ysgain
Anan derw a drain
Ar Gerdd yd gyngain
Ki i dynnu
March i rynniaw
Eidion a wân
Hwch i dyrvu
Pymhed llwyn gwyn a wnaeth Iesu
O wig[2] Adaf i ymtrau
Gwydded[3] coed cain eu syllu
Hyd yd fuant a hyd yd fu
Pan wnel Cymry camfalhau
Ceir arall fro pwy caro fu
Llemais i lâm o lam eglwg
Hewssit da nir gaho drwg
Mygedorth Run ys ef a ddiwg
Rhwng Caer Rian a chaer Rywg
Rhwng Dineiddyn a Dineiddwg
Eglur dremynt a wyl golwg
Rhag rhynnawd tan dychyffrwymwg
An rhen Duw ann ry amwg

[1] Riain. [2] Wisg.—Ll. E. D.
[3] Gwyddfed.—Ll. E. D.

De Galgaco, Gwallawg ap Lleenawg, Sic.

Camden in Descriptione Scotiæ qui in Triadum Libro in tres Britanniæ heroas, appellatur, vir animo magno fortique qui fusa nona Legione magno animi ardore cum Romanis concorrit acerimeque Patriam defendit donec fortuna cum potius quam virtus desereret.

TRI PHOST CAD YNYS PRYDAIN.

Dynawt ap Pabo Post Prydain, Gwallawg ap Lleenawg, a Chynfelyn Drwsgl. Vid. Trioedd.

KERDD I WALLAWG AP LLEENAWG.

E. Ll.

Yn enw gwledig nef Goludawg
Y drefynt biefydd Gyfeil foawg

Eirig ei rethren rieddawg
Rhieu rhyfelgar gewheruawg
Ef diffyrth addfwyn llan lleenawg
Toryd un trwch[1] ardwyawc
Hir ddychyferfyddain
O Brydain gofain
O berth Maw ac Eiddin
Ni chymmeryn cyferbyn
Cyweith cyweithydd clydwyn
Digonwyf digones i Lynges
O beleidr o bleigheid prenwres
Prenial yw i bawb i drachwres
Anghyfrent o gadeu digones Gwallawg
Gwell gwydd[2] fwyd nog Arthes[3]
Cad yn Agathes o achles gwawd
Gognaw[4] ei brod[5] digones
Cad ymro Vretrwyn trwy wres mawr tan
Meidrawl yw y trachwres
Cad ir ai cymrwy Kanhon
Cad cad crynai yn Aeron
Cad yn Ardunion ag Aeron
Eiddywed eilywed i feibion
Cat ynghoed Beid boed ron ddydd
Ni meddyliaisti dy Alon
Cad yn rhac llydawdawl[6] a Mabon
Nid adrawdd adfrawd Achubion
Cad yn Gwensteri ag estygi Lloegr
Safwawr un a[7] wner
Cad yn rhos terra gan wawr
Oedd hywst gwragawn egurawn
Yn nechreu ynheniad y geirawr
O rieu o ryfel ry ddiffawd
Gwyr a ddigawn goddai gwarthegawg
Haearnddur a Hyfeidd a Gwallawg
Ac Owein Mon Maelgynig ddefawd
A wnaw peithwyr gorweiddiawg
Ym mhen coed cleddyfein
Atfydd calanedd gwain
A brain ar ddisperawd
Ym Mhrydain yn Eiddin yn addefawg
Ynghafran yn adfan Brycheiawg
Yyn ergyn yn ysgwn gaenawg
Ni wyl gwr ni welas Gwallawg

GLASWAWD TALIESIN.

24 A DAL.—Ll. E. D.

KENNADEU am ddodynt mor ynt anfonawg
Dygawn ymletcynt meint fy ngheudawd
Gnawd rwyf yn heli Beli wirawd
Gnawd ysgwyd ysgawn ar gefn Yscawd
Gnawd gwyth ag adwyth o Yspyddawd Gaer

[1] Unhwch.—Ll. E. D.
[2] Gwyduit.
[3] Arthles.
[4] Gognaaw.
[5] Brawd.
[6] Racwydawl.
[7] Wy.—Ll. E. D.

A nawcant Maer marwhawd
A fydd mai ar Fenai crei gyflogawd
Atfydd mwy ar Gonwy creith gwynieith gwnahawd
Addoerlleith dyrreith anaw barawd
O heyrn erchwyrn edyrn ddyrnawd
Tri dillyn diachor droch drymlyhawg
Tair llynges yn aches armes cyn brawd
Tri diwedydd cad am dri phriawd gwlad
Gwnahawd bad betrawd
Tri o bob tri tri phechawd
Ac Eryri fre farnhawd
Llu o sais ail oynt trydydd dugnawd
Ynghymry ydd erhy gwragedd gweddawd
Rac baran Kynan tan tarddawd
Cadwaladr ai cwyn
Briwhawd bro a brwyn
Gwellt a tho Tai ty tyndawd
Atfydd rhyfeddawd
Gwr gan ferch ei frawd
Dy fyn hyn dwrhawd
O Lin Anarawd
O honaw y tyfawd
Coch call y bruddawd
Nid arbed na nawd
Na chefnderw na brawd
Wrth lef Corn Cadwr
Naw cant yn afrddwl
O Bedryddant ddygnawd
Dygorelwi lefni o laswawd efret
Wrth a gawd y Geudawd

KADEIR TEYRNON CCC.

AREIT awdl eglur
Awen tra messur
Am gwr deu awdwr
O echen aladwr
Ai ffonsai ai ffwr
Ai reon rechdur
Ai ri rhwyfiadur
A rif ysgrythwr[1]
Ai goch gochlesswr
Ai ergyr dros fwr
Ai Kadair gymmesswr
Ymhlith gosgordd mur
Neus dug o gawrmwr
Meirch gwelw gostrodwr
Teyrnon henwr
Heilyn pasgadwr
Treded dofn doethur
I fendigaw Arthur
Arthur fendigad
Ar gerdd gyfaenad
Arwyneb ynghad

[1] Ai rif ysgrythrir.—Ll. E. D.

Arnaw bystylad
Pwy y try chynweissad
A werchedwis gwlad
Pwy y tri chyfarwydd
A gedwis Arwydd
A ddaw wrth awydd
Erbyn eu Harglwydd
Ban rinwedd rotwydd
Ban fydd hyn hoywedd
Ban corn cerddetrwydd
Ban biw wrth echwydd
Ban guir pan ddisglair
Bannach pan lefair
Ban pan ddoeth o bair
Ogyrwen Awen teir
Bum Mynawg mynweir
Ynghorn im neddair
Ny ddyly cadeir
Ni gatwo fy ngair
Cadeir gennyf glaer
Awen hyawdl daer
Pwy yw enw y teircaer
Rhwng lliant a llaer
Nis gwyr ni fo taer
Eissillut eu Maer
Pedair caer yssydd
Ym Mrydain powyssedd
Rhieu Merwerydd
Am nid fo nid fydd
Nid fydd am nid fo
Llynghessawr a fo
Tohid Gwaneg tra gro
Tir dylyn dirbo
Nag Aillt nag *ado*
Na bryn na thyno
Na rhynnawd godo
Rhag gwynt pan sorho
Cadeira Teyrnon
Celfydd rwy catwo
Ceissitor yngno
Ceissitor Cedig
Cedwyr colledig
Tebygaf ddull dig
O ddifa Pendefig
O ddull difynnig
O Leon luryg
Dyrchafwyd Gwledig
Am derwyn hen enwig[1]
Breuhawd bragawd brig
Breuawl eissorig
Orig a Merin
Am derfyn chwefrin
Ieithoedd eddein
Aches ffysgiolin
Mordwyaid Merin
O blan[2] Seraphin
Dogyn-dwfn diwerin
Dyllyngein Elphin

[1] Euwig.—Ll. E. D. [2] Blant.—Ll. E. D.

KADEIR KERRIDWEN. CCC.

Rhen rym awyr titheu
Cerreifant on[1] correddeu
Yn Newaint ym mhlygeieu[2]
Llewychawd yn lleufereu
Mynawg hoedl Minawg ap Lleu
A welais i yma gynneu
Diwedd yn llechwedd Lleu
Bu gurdd ei hurdd ynghadeu
Afagddu fy mab inneu
Dedwydd Dofydd rhwy goreu
Ynghyfamryson Kerddeu
Oedd gwell ei Synwyr no'r fau
Celfyddaf gwr a gigleu
Gwydion ap Don dygnferthau
A hudwys gwraig o Flodeu
A dyddwg Moch o Ddeheu
Can ni bu iddaw disgoreu
Drud ymyd a gwryd pletheu
A rithwys gorwyddawd y ar plagawd lys
Ac enwerys cyfrwyau
Pan farner y Cadeiriau
Arbennig uddun y fau
Fynghadair am pair am deddfon
Am Araith drwyadl gadair gysson
Rym gelwir gyfrwys yn llys Don
Mi ag Euronwy ag Euron
Gweleis ymladd taer yn Nant ffrancon
Duw sul pryd pylgeint
Rhwng wythaint a Gwydion
Dyfieu yn geugant ydd aethan Von
I geissaw yscut a hudolion
Aran rhod drem clot a gwawr hinon
Mwyaf gwarth y marth o barth Brython
Dybrys am ei Lys Enfys[3] Afon
Afon ai hechrys gurys gwrth terra
Gwenwyn ei chynbyd cylch byd eda
Nid wydywaid geu llyfrau Breda[4]
Cadair gedwidedd yssydd yma
A hyd frawd parawd yn Europa
An rothwy y drindawt
Trugaredd Dyddbrawd
Cein gardawd gan wyrda

[1] Om.—Ll. E. D. [3] Efnys.—Ll. E. D.
[2] Mhylgeineu.—Ll. E. D. [4] Beda.

KERDD AM VEIB LLYR AB BRYCHWEL POWYS.

Golychaf i gulwydd Arglwydd pob echen
Arbennig torfoedd ynhyoedd am Ordden
Ceint yn yspyddawd uch gwirawd aflawen
Ceint rac meibon Llyr yn ebyr Henfelen
Gweleis treis trydar ac afar ac anghen
Yd lethrynt lafnawr ar bennawr disgywen
Ceint rhag udd clodeu yn noleu Hafren[5]

[5] *Y pummed ban yn* Ll. E. D.

Rhag Brochwel Powys a garwys fy Awen
Ceint yn addfwyn *rodle* ym more rhag Urien
Yn ewydd am antraed gwaed ar ddien
Neud amug ynghadeir o beir Cerridwen
Handid rydd fy nhafawd
Yn addawd gwawd Ogyrwen
Gwawd Ogyrwen Uferen rwy ddigones
A llefrith a gwlith a mes [arnunt
Ystyriem yn llwyr cyn clwyr cyffes
Dyfod yn ddiheu angeu neses[1]
Ac am diredd Enlli dyvi[2] dylles
Dyrchawr llongawr ar glawr aches
A galwn ar y gwr andigones
An nothwy rhag gwyth llwyth Anghes
Pan alwer Ynys Von tirion vaes
Gwyn eu byd hwy gwleiddon Saesson artres
Doddwyf Deganhwy i amrysson
Ellyngais fy Arglwydd yngwydd deon[3]
A Maelgwn fwyaf ei Achwysson
Elphin pendefig ry hodigion
Yssid imi deir Cadeir cyweir cysson
Ac yd vrawd parhawd gan Gerddorion
Bum ynghat Goddeu gan Llew a Gwydion
Wy a rithwys gwydd Elfydd ac Elestron
Bum i gan Vran yn Iwerddon
Gwleis[4] pan laddwyd morddwyd tyllon
Cigleu gyfarfod am gerddorion[5]
A gwyddyl diefyl diferogion
O Benryn wleth hyd Luch Reon
Cymru yn unfryd gwrhyd Wrion
Gwret dy Gymry yghymelri
Teir cenedl gwythlawn o iawn deithi
Gwyddyl a Brython a Rhomani
A wahan[6] dyhedd a Dyuysgi
Ac am derfyn Prydein cein ei threfi
Ceint rhag Teyrnedd uch medd lestri
Yngheinion Deon im ai dyroddi
An dwy ben sywed ... ced ryferthi
Ys cyweir fy nghadeir ynghaer Sidi
Nis plawdd haint a henaint a fo yndi
Ys gwyr Manawyd a Phryderi
Tair Orian y am dan a gan rhegddi
Ac am ei bannau[7] ffrydieu gweilgi
Ar ffynnawn ffrwythlawn yssydd odduchti
Ys whegach nor gwin gwyn y llyn yndi
Ac wedi ath iolaf Oruchaf cyn gweryd
Gorod cymmod a thi. DIWEDD.

[1] Nesnes.—Ll. E. D.
[2] Dybi.—Ll. E. D.
[3] *Ar ol y ganlynol yn* Ll. E. D.
[4] Gwllis(gweleis.--Ll.E.D.)
[5] Gerddolion.—Ll. E. D.
[6] Wnahon.—Ll. E. D.
[7] Ei bennau.—Ll. E. D.

Bid lawen Ynghalan eirian yri
Ac amser pan wna mor maw wrhydri
Ys gnawd gorun beirdd uch medd lestri
Dyddybydd gwaneg ar frys dybrys iddi
Addaw hwynt y werlas o Glas *Ffichti*
Ac am bwyf o Ddews dros fy ngweddi
Pan gattwyf ammod cymod a thi

Addfwyn Gaer y sydd ar lydan Lynn
Dinas diachor mor ai cylchyn
Gogyfarch ty Prydain cwdd gyngein hyn
Blaen Llyn ap Erbin boed teu voyn
Bu gosgordd a bu cerdd yn eil mehyn
Ac eryr uch wybr a llwybr granwyn
Rhag udd ffelyg nag esgar gychwyn
Clod wasgar a Gwanar ydd ymddullyn

Addfwyn Gaer y sydd ar don nawfed
Addfwyn ei gwerin yn ymwared
Ni wnant eu dwyn cyt trwy feflhaëd
Nid ef eu defawd bod yn galed
Ni lefaraf au ar fy nhrwydded
Nog eillon deudraeth gwell caeth Dyfet
Cyweithydd o rydd wledd waredied
Cynnwys rhwng pob ddau goreu ciwed

Addfwyn Gaer y sydd ai gwna cyman
Meddut a Molut ac adar ban
Llyfn ei cherddau yn ei chalan
Am arglwydd hywydd hewr eiran
Cyn ei fyned yn ei adwyd yn derfyn llan
Es am rhoddes medd a gwin o wydrin ban

Addfwyn Gaer y sydd yn yr eglan
Addfwyn y rhoddir i bawb ei ran
Adwen yn Ninbych gorwen gwylan
Cyweithydd wleiddydd udd erlyssan
32. 32. Oni ddel rhyw vyd
Yn ol hir benyd
Pan vo gogyhyd[8]
Y ddau draha

33. 33. Yno caif Brython[9]
Eu tir a'u coron
A'r bobl estronion
A ddivlana

34. 34. Geiriau yr angel[10]
Am hedd a rhyvel
A vydd diogel
I Brytania[11]

35. 26. Mi wn[12] eu cerdded
A'u twng a'u tynged[13]
A'u tro a'u trwydded[14]
Hyd ultima[15]

O'r haul i'r ddaiar o ddwvn i orchudd
Ond mi Taliesin nid oes cyvarwydd.

DIVREGWAWD TALIESIN.[16]

Goruchel Dduw golochir ym hob va[17]
Goruchel ei enwau yn hebrea[18]

[1] Ddiymweledigca: Yr homicida: Ddymwaredoca: I Arasynia: I Amisidia.
[2] Pymtheg o wryddon: Pedwar o angylion.
[3] A phedwar angylion: A deuddeg gweryddon.
[4] Anvones Layson. [5] I ddangos nerth.
[6] Pan ddel anghyfraith.
[7] Ar bererindotta: Ar brinatra: Ar Brutania.
[8] Gwin sinobl rhudd.
[9] Y gwimaluna: Ar gwin alpha.
[10] Ef a gafas. [11] Y tair gwialen.
[12] Rhaw ddirfawr angen
[13] Ar ddominia. [14] Ef (E) a gafas.
[15] Yr holl gelfyddydon.
[16] Arca a ffecia: Gwlad Europa.
[17] Ag a gafas inneu.
[18] Yn fy mardd-gyfrau: Yn fy mhrif-lyfrau.
[19] Drwy ddirfawr gwynran (gyfrdan).
[20] Ydyw'r ddarogan.

[1] Ai hesgyll sefydlog: Ai hesgyll yn ewrog (arfog).
[2] Sarmania. [10] Geiriau Emanuel: Geiriau Attanael.
[3] Hono.
[4] Loegr a Phrydyn. [11] I frutania: I lin Troia.
[5] Yd yn Sabrina. [12] Mi a wn.
[6] Fal carcharonion. [13] I tro ai trwydded.
[7] Ir Saxonia: I Saxonia. [14] I twng ai tynged.
[8] Gogyd. [15] Hyd ddydd ultima.
[9] Yno y caiff Brython.
[16] *Neu Ymddivregwawd: neu Bragawdgerdd Taliesin allan o Lyvyr y* Dr. J. Davies; *sev adysgriveniad allan o Lyvyr Darogan* Bodhenlli; *ac wedi ei chymharu yyda amryw lyvrau ereill.*
[17] Golochir ym mhob wa: a weddia ym mhob fa.
[18] Goruchel glod ymhob da.

Eli eloi ac adonai[1] ac o ac alpha[2]
Peryv nev parhaus gwrdda
Peris[3] paradwys yn gynnwys i'r rhai da
Ac ufern i'r rhai drwg a gwg i'w diva
Peris ef nef parhaus wrda
Parwydydd elvydd peris privdda[4]
O dan ac awyr a llyr a therra[5]
Can ni bwynt un unian tan a therra
Cadwynau dyrys o dir hyd ethera
Pwy namyn cyvrwys ai cyvrwyma[6]
A chynnil a chelvydd yn holi materia[7]
Achymmau helis o lemaria
Canys nid un anwyd ser a therra
Nid maen nid haearn ai cadarna
Nid cors nid calav tudded ai cuddia[8]
Nid plwm trwm ei risg a'i gorwisga
Nid mettel o waith uvel ai cylchyna
Neus gwisgwys celvydd gwr a dwvr a ia[9]
Traethadur prophwyd pur ai traetha[10]
Ond celvyddyd Panton sempiterna
Pan ddywed tad Selyv yn psalmodia
Quis tegit aqua superiora
Qui legis scriptura
Neus gorwisgwys gwr celvydd nev oi nodd-
A syr a sygnau a haul a lluna[12] [va[11]
Peunydd cylch elvydd haul ai hwylia
Yn uchel odduchom i lleuvera[13]
Pum gwregys lluniws lluniedydd llawndda
Sicut in cœlo et in terra
Llawn yw y ddau cithav o eiry ac ia[14]
A rhag eu hoervel neb nis nesaa
Ail dau a osoded o'r tu isa'[15]
Yn llawn o yngres gwres ignisia
Pumed yw y pervedd[16] neb nis cyvannedda
Rhac maint tragwres haul yn ei redegva[17]
Oes na gwydd na dail na neb rhyw anivail
Y ddau o boptu y dyvu tymer da[18]
Gwres oddihwnt ac oervel oddima[19]
Peris Duw ddwy fynnawn cyvlawn eu da[20]
Fynnawn gwres yn awyr a´haul yw ei
hwylva[21]

[1] Omega.
[2] Eli Eli Eloy ac Adoneia : Pater et homo O ac Alpha.
[3] Peir.
[4] Pa ryw dy elfydd a orug Agla.
[5] A syr a therra.
[6] Nid oes ond cyfrwys au cyfrifa.
[7] Yn holi matria; yn holi Maria.
[8] Nid cors nid calaf rhudd er au kuddia
Nid calaf tudded au cuddia.
[9] Neus gwisgwys celfydd gwr dwfr ag ia.
[10] Prophwyd traethad per ai traetha: *Ar ol y ganlynol mewn un llyvr.*
[11] Neus gorwisgws gwr kelfydd nef ai noddfa.
[12] Sugnau a ser a haul a luna.
[13] Oddiuchom lloer lleuuera. [14] O eira a ia.
[15] Ail a osoded or tu issa.
[16] Y pummded yw'r perfedd.
[17] Rygotfa.—Ll. P. P.
[18] Ar deau y sydd ardymyr da.—Ll. P. P.
[19] Yr oerfel o'r tu hwnt a'r gwres o'r tu yma.—Ll.P.P.
[20] Gorug dwy ffynawn cyflawn eu da: Peris Duw dwy ffynnawn gyflawn o dda (o eli dda).
[21] Fynnawn wres yn uchel haul yw ei hwylva: a haul yn i hwyfla (hadva, ladva).

A'r ail fynnawn a ddail yr eigiawn yn
yma[1]
Peryv nev a beris pob da[2]
A berys present i blant Adda[3]
A beris paradwys yn gynnwys i'r sawl a
vo da
Ac fern i'r rhai drwg er eu diva
A beris blwyddynoedd ac oesoedd a secula[6]
Cyntav oes Addav[4] ac oes Eva
Eiloes oes Noe[5] a novies yn archa
Trydedd oes oes Abraham pen fydd[7] pater
patriarcha
Pedwaredd oes oes Moesen o Egyptica[8]
A gavas y deuddeg fordd drwy Vari Rubia
A gavas gan geli voddi Pharona
A gavas[9] dengair deddv yn y dirwestva
Mewn dau davl vaen yn mynydd Sina
Pumed oes oes ddedwydd Davydd propheta
Chweched oes oes Iesu a hyd vrawd y para
Ac ynddi y proved[10] y prophesia
Dyvod o heppil[11] enwir Eva
Mal y daw o'r drain[12] blodau rosa
Mair wyry a ddyvu yn mru Anna[13]
Ac Iesu a ddyvu o vru Maria
A'r nos y ganed Iesu gwr a'n iachaa[14]
Y clywid[15] cor engylion nev yn canu gloria
In excelsis Deo et in terra
Dyvynwys elvydd i lawer da
Ac i'r tri brenin seren lucerna[16]
Tra vu Emanuel yn dawel yma
Gwnaeth gwyrthiau lawer a gweithredoedd
da[17]
Gwnaeth ar y neithiawr Ieuan yn Galilea[18]
O'r dwvr y gwin melys[19] pan erchis Maria
Ev porthes pum-mil[20] ar y pumtorth bara
Mwy oedd o wargred nog a lewed[21] wrth
vwyta
Cyvodes y vorwyn o'r domo clausa
Cyvodes unmab mam[22] extra porta
Y ar ei elorwydd o'i orweddva[23]
Cyvodes Lazar[24]
Y dan y ddaiar
Brawd Mair a Martha
Ev treiddwys tonau
Heb geisio llongau
Hyd y borthva

[1] Ac o'r trydydd fynnawn y dyellir eigiawn attan yma.
Yr eil ffynnawn yn deil eigiawn attom yma.
[2] Perus nef peris pob da.
[3] Efa. [14] Gwr an nertha.
[4] A beris oes ac oesoedd blwynyddoedd a secula. [15] I clywspwd.
[5] Oes oes Addaf. [16] Ac i'r tri brenin serena.
[6] Ar ail oes Noe. [17] Fo a wnaeth wyrthiau a llawer o dda.
[7] Abram benffydd. [18] Neithiawr yn Galalia.
[8] Pedwerydd oes Foesen ym mynydd sina. [19] O'r dwfr yn win melus.
[9] Pan gavas. [20] Porthes y pum mil.
[10] Ac yna i proved. [21] Nog a weled.
[11] Y dosth o heppil. [22] Gwraig.
[12] Ar y drain. [Anna. [22] Y pedwerydd dydd o'i weddorweddfa.—Ll.P.P.
[13] Mair wyrf a doeth o fry [24] Sef cyfodes Lazar.

Ev á vu veddig[1]
I'r parlysedig[2]
Yn ymyl porthig piscina
Ev a vu veddig[3]
I'r clav nychedig
A ddoeth attaw hyd y dyrva
Ev gwarawd deillion[4]
Ev diddan cleivion[5]
A charcharorion
O bob clevyd a'u gorthryma
Nis cyvriv nebawd
Na'r holl vedysawd
Byth nis traetha
A wnaeth ein rhiau
O anryveddodau
Hyd tra vu yma
O'r diwedd y dyvu[6]
Iachwyddawl Iesu[7]
Hyd yn Ierosolyma[8]
Y cymmerth crog a chethrau
A frewyllau ac angau
Y cymerth un mab Maria
I obrynu llawer o law satana[9]
Ev cyvodes y trydydd dydd o'i vedd or-
weddva[10]
Ac a ddoeth at ei ddisgyblon gwedi bwyta
Gwedi yspaid dieuoedd[11] quadraginta
Neud o mewn nev y daeth pan ddaeth
yma[12] [etwa[13]
Mewn nev bu mewn y bydd mewn y mae
A dyddbrawd y daw ev attam ni yma[14]
Ac a ddwg gantaw y sawl ai cofa
Y caif Mihangel y saul a vo da
I obrynu gwlad nev ys ev y sydd dda
Y gethern enwir a adewir yma [da
Y gethern y sy waeth ni wnaethant ddim
Y gethern a el i ufern gan Lucifer ydd a
Pwy a wyr pwy ynt, pwy a'u cofa[15]
Pwy onid cyvrwys a'u cyvriva
Gwae a gymerth bedydd
A chred a chrevydd
Ac ni sevis yn dda[16]
Gwae berchenawg tir
Ni chynnalio ei wir[1]
Rhag un traha[2]
Gwae er gwerth gweini
A vo cyn trengi
Oni thrugaraa
Gwae hwynt penaethau
O chwant alavau
A dyr devodau
Ac a'u diva
Gwae ofeiriad byd
Ni angreiftia gwyd
Ni phregetha
Ni warcheidw ei gail[3]
Ac ev yn vugail
Nis areilia
Ni ddifer ei ddevaid[4]
Rhag bleiddiau Rhuveiniaid[5]
A'u fon glopa[6]
Gwae ev a vo ci
Cyn diwedd gweini
Erbyn tervyn trengi
Gwae ni thrugarha
Gwae ni chred i'r drindawd[7]
Gwae ni gynnydd cardawd
Ac ni thrugaraa[8]
Gwae a yso bwyd
Gwae ni char olochwyd
Ni lavuria[9]
Gwae hwynt gynniviaid[10]
Ni garant eu henaid
Ni ddygymma[11]
Gwae a geisio ei vryd[12]
Hyd tra vo mewn byd
Trwy drais a thraha
Gwae berchen da cybydd
Gwae leidyr difydd
O ledrata
Gwae a laddo dynion
Gwae a dyng anudon
Onis dywyca
Gawe berchen tafawd
A farno camvrawd[13]
Onis dilea
Gwae wrth gymydwg
A gynnalio gwg[14]

[1] Fo fu feddyg.
[2] I'r paralytig.
[3] Fo fu feddyg.
[4] Gwaredawdd ddeillion.
[5] Gwaredawdd gleifion.—Ll. P. P.
[6] Ac yn y diwedd dyfu.
[7] Iachaaw Iesu: Iachusawl Iesu.—Ll. P. P.
[8] Serisolyma.
[9] Yny i cymerth cethreu
A dirfawr angeu mab Maria
Er dadbrynu ei lu o law satana.—Ll. P. P.
[10] O'i orweddfa.
[11] Hir.
[12] Neud aeth men pan ddoeth:
Neu'r aeth men pan ddoeth yn y nef i bu yn y nef
i mae:
I nef ydd aeth mewn pan ddoeth yma.—Ll. P. P.
[13] Mewn ydoedd mewn i bu mewn i mae etwa.
[14] Attam yma.
[15] *Nid ynt y 6 ban rhagvlaenawl yn* Ll. P. P.
[16] Ac nis ceidw yn dda.

[1] Ni cheidw ei wir.—Ll. P. P.
[2] Rhag y traha: Rhag i ddifa.—Ll. P. P.
[3] Gwae ni ddiffer ei gail:
Gwae ni warcheidw ei gail.—Ll. P. P.
[4] Gwae ni ddiffer (cheidw) ei ddefaid—Ll. P. P.
[5] Rhibynniaid: rubanniaid: rybynniaid.— Ll. P. P.
[6] A chyffes dda: Ai ffon glwppa.
[7] Gwae ni weiniaid safawd
Gwae ni chred i'r drindawd
Gwae ni chynnydd kerdawd, Gwae ni thrugarha.
[8] Gwae a ddwg treftad gweddw a gwan onis adfera.
[9] Gwae a ys bwyd, Ni chan golochwyd. [—Ll. P. P.
Gwae ni lafuria.—Ll. P. P.
[10] Gwnnifiaid: gweiniaid: gweinifiaid.—Ll. P. P.
[11] Ni ddegyma.
[12] Gwae a gasclo golud.
[13] Cyn yscar ai gnawd.—Ll. P. P.
[14] Gwae a gynhalio gwg wrth ei gymydawg.—Ll.P.P.

A wnel iddo ddrwg
Ac a ddwg ei dda
Gwae a ddyco tystiolaeth gam
Ar vab no vam[1]
Onis penytia
Gwae ddigasog saint
Ni chynnal eu braint
Nis addola[2]
Gwae yn erbyn angau
A wnel[3] pechodau
Nis cyfesa
Gwae erbyn dyddbrawd
Ni chospo ei gnawd
Ac am ei briawd
Ni phrydera
Gwae ev a gynnydd
Gogan a chelwydd
Cyn ei elorwydd
Onis gogela[4]
Gwae a gynnail arnaw
Ac a ddwg attaw
Ar ni vo yn eiddaw
Gwae a yspail tud[5]
A gynnalio golud[6]
Oni gyvnewita
Gwae a ddyco trevtad
Gweddw ac ymddivad
Onis cyvrana[7]
Gwae a orthrymo ar wan[8]
Ai cawdd ac a ddwg ei ran
Onis advera[9]
Gwae ni garo Duw
Gwae a gasao dyn[10]
Gwae ai diva
Gwae a gynnail bar
Yn ei galon wrth ei gar[11]
Ac ai casaa
Gwae berchenog bwyd
Ac a gaeo ei glwyd
Ac ni alwo bwyst
Wrth ei vwyta
Gwae a ladd bendevig
Gwae a wel sychedig
Nis disycha
Gwae berchen cyvoeth
A welo lednoeth
Onis cuddia
Gwae ni roddo letty
A than a gwely
I beregrina[12]
Gwae a gawdd gwirion
Gwae ni ddiddan cleivion

A charcharorion
Nis govwya[1]
Gwae ev pan aned
A ddwg ei weithred
Yn inferna
Gwae hwynt y gethern[2]
A wladycha ufern[3]
Byth wedy yma[4]
Man y mae[5] ubain
Man y mae[5] llevain
A llawer pla
Man y mae[5] griddvan
Man y mae[5] poethvan
Heb esgorva
Man y mae[5] deincryd
Man y mae[5] anwyd
Ac eiry ac ia
Ac nad oes[6] dadolwch
Nac edivarwch
Vyth wedi yma
Achav arch i'r Mab rhad ac i'r Tad da
Trugaredd y Drindawd a drugarhaa
Cyn myned yn medd i'm gorweddva[7]
Llwyr edivarwch tud cyn elwyv oddiyma
Ar a veddyliais
Ar a ddigonais
O drais a thraha
Cael i'm drugaredd a diwedd da[8]

TALIESIN.[9]

[1] Ar fab Abraham: Ar fab I fam.
[2] Yn Sabbatha.—Ll. P. P.
[3] A folo: a wnelo.
[4] *Pennill o* L. P. P.
[5] Gwae a gynnail tud.
[6] Gwae a gynnydd golud.
[7] *Pennill o* L. P. P.
[8] Gwae a orthrymo ar weddw a gwan.
[9] Onis cyfrana.
[10] Gwae ni gassa dyn.
[11] Wrth gar.
[12] I bererina.

CYFFES TALIESIN.

BENEDICITE Dominus[10] drwy nerth Iesu fab Alpha
I'r wyf yn cydnabod[11] i Dduw a'r Drindod gorucha
Fy mod yn wir pechadur ir penadur[12] cadarna
O air meddwl a bryd a bywyd anmherffeithia
Camdreulio fy mhum synwyr mewn cyferwyr[13] a thraha
Ac arfer[14] or seith brifwyd heb boenyd na dirwestfa
Esceuluso iawn fuchedd a saith rinwedd Ecclesia
Miserere mei Deus iti f'arglwydd[15] erfynia

[1] Nis llawenha.
[2] Gwae 'nt hwy y gethern. Gwaenhwy y gethern.
[3] A fynnant uffern.
[4] Yn y Rathydra.
[5] Yn i mae.
[6] Man nid oes.
[7] Cyn myned i'm bedd ar (a'm) diwedd orweddfa.
[8] *Ban o* L. P. P.
[9] Ionas Athraw o Vynwy ai cant medd hen Lyvyr Darogan Bodhenlli.
[10] Benedicte Domine.—Ll. P. P.
[11] Ir wy'n cydnabod. Ll. P. P.
[12] Bechadur im pennadur.—Ll. P. P.
[13] Seguryd.—Ll. P. P.
[14] Ymarfer.—Ll. P. P.
[15] Itti Iesu yr.—Ll. P. P.

Iesu er dy bum archoll am hyn oll[1] ir archa
Maddeu fy holl gamwedd cyn myned i orweddfa[2]
Pan ddel angeu im calon ac oer loesion a chrynfa
Dwyn poenyd tros fy mhechod a rhoddi[3] nis galla
Efrydd mud byddar[4] a dall ac anghall fydda
Am cynghorau[5] am trysor am anwylyd[6] adawaf
Am gweithredoedd[7] am canlyn am gelyn cyhudda
Pan ddelwyf i borth y fonwent y bresent adawaf
Ar a welais y gerais oll a ddigaraf[8]
Fy ngwely a wnair mewn gro a rhwymo fy nwy adaf[9]
A chlustog faen dan fy mhen a thudded pren amdanaf
Am gado wna fy ngheraint ymmysg[10] llyfaint im bwyta [arnaf
Am ysbeilio om da byd a bwrw gweryd
Am gweithred am canlyn am gelyn am cyhudda[11]
Pwy yna sydd oludog ond y tywysog penaf
Arglwydd ar dy bum archoll am hyn ith weddiaf[12] [yma
Am hyn Duw gogoned cyn fy myned oddi-
Pen teyrn y deyrnedd dy drugaredd a archaf[13]

TRAWSGANU[14] CYNAN GARWYN.

M. Broch.—Can etto o waith Taliesin.

Kynan cad gyffred
Am arlloses[15] ced
Cynyd gau gogyfed
Gwrthelgwn trebred[16]
Cant gorwydd cyfred
Ariant eu tudded
Cant llen[17] ehoeg
O un oflaen[18] gyffred
Cant armell im arffed
A phympwnt cathed
Cleddyf gwein carreg
Dyrngell no neb
Cant cynan caffad
Cas anweled
Cadellig ystrad
Cad ynysgoged
Cad ar wy cyrched
Gwaywawr ebrifed
Gwenhwys a ladded
A llafn gwyarlled
Cad ym Mon mawr teg
Eglyd moled[1]
Tra menei myned
Gorwydd a gwrgred
Cad ynghrug Dymet
Aercol ar gerdded
Nac ni ryweled
Ei biw rhag ffriw neb
Mab Brochuael broled
Ei ddywed eidduned
Cernyw cyfarched
Ni mawl ieu lynged[2]
Dystwg angyffred
Ynyd[3] am ioled
Myngynnelw o Gynan
Cadeu er gymman[4]
Aeleu fflam lydan
Cyfwyrein mawrdan
Cad yngwlad Brachan
Cadlan godoran[5]
Tegyrned truan
Crinyd rhag Cynan
Llwryg yn ymwan
Eissor llyw hoechan[6]
Cyngen cymangan
Nerthi ath wlad Lydan
Cigleu ymddiddan
Pawb yn y gochfan
Cylch byd goch gochvan
Ceithynt dy Gynan

[1] Iti oll.—Ll. P. P.
[2] Cyn fy niwedd orweddfa.—Ll. P. P.
[3] Am fy mhechod a rhoi cerdod.—Ll. P. P.
[4] Efrydd byddar a dall.—*Arall.*
[5] Am hanwylyd.—Ll. P. P.
[6] Am cynghor a.—Ll. P. P.
[7] Fy ngweithredoedd.—Ll. P. P.
[8] O'r holl dda byd a welais ac a gerais nis caraf.—Ll. P. P.
[9] Am gwely a wnair mewn gro am rhwymo a wnair yna.—Ll. P. P.
[10] Yno i gedy fy ngheraint fi ymhlith.—Ll. P. P.
[11] *Nid yw hon yn* Ll. P. P.
[12] *Nid yw hon yn* Ll. P. P.
[13] Trugaredd a archaf.—Ll. P. P.
[14] Satyra.
[15] Arllofes.—Ll. E. D.
[16] Trefbred.—Ll. E. D.
[17] Lleu.—Ll. E. D.
[18] Faen.—Ll. E. D.

MARWNAD CORROI MAB DAIRY.[7]

Can etto o waith Taliesin.

Oy[8] ffynhawn lydan dyleinw aches
Dyddaw dyhepcyr dy bris dybrys
Marwnad Corroy am cyffroes
Oer deni gwr[9] garw ei anwydeu
A oedd mwy ei ddrwg nis mawr gigleu
Mab Dairy dalei lyw ar for deheu
Dathl oedd ei glod cyn noi adneu

[1] Erglyd amoled.—Ll. E. D.
[2] Tynged.—Ll. E. D.
[3] Yn nydd, ynnydd.
[4] Gynnan.—Ll. E. D.
[5] Godaran.—Ll. E. D.
[6] Heuhan.—Ll. E. D.
[7] Corre ab Dairn. — E. Llwyd.
[8] Dy.—Ll. E. D.
[9] Ordyviwr.—Ll. E. D.

Dy ffynhawn lydan deleinw nonneu
Dyddaw dyhepcyr dybrys dybreu
Marwnad Corroy am cyffroes[1]
Dy ffynhawn lydan dyleinw dyllyr
Dy saeth dychyrch draeth diwg dybyr
Gwr a werescyn mawr[2] ei faranrhes
A wedy mynaw myned trefydd
A...ant wy ffres ffra y wyonydd[3]
Tra fu vuddugre vore ddugrawr
Chwedleu am gwyddir o wir hyd lawr
Cyfranc Corroy a chocholyn
Lliaws eu terfysg am eu terfyn
Tarddei pen amwern gwerin goddfwyn[4]
Caer y sydd[5] gulwydd ni gwydd ni gryn
Gwyn ei fyd yr enaid ai harobryn

AUDYL

A Gant Taliesin, e dybir.

Mal rot yn troi tramhuylyeu[6]
Trallaut meith tra chymell[7] tretheu
Traus arofyn dreil[8] mynwyn mynneu
Trin engyrret[9] am byrth am borthvaeu
A guenuyu Kuyn[10] riein gan rieu
Gnaut glut van Trein deuandureu[11]
Ac am guyn riein ryueleu a vyd
A diffeith eluyd heb eluydeu
Ac alued Rufein gan ruyveu
Ac a llinyn heb allel Kyrcheu
A guyn vyt Guyndyt yn gaun[12] yr deheu
A guander seis ag[13] inseilyeu
A llugyr meith am gyvreithyeu
A lloegyr yn brydyon brat y rieu
A guth ffreinc a ffraud ar logheu
A gueith dovyr yn dyvrys agheu
Eryssi oesvaur yr ae Kigleu
Cluyf am bluyf amddifflar opleidyeu[14]
Dreic diduyll tywyll a goleu
Goludauc riedauc rieu
An rodd trwy rydit adneu
Y rann oe uled oesued heb eisseu

Diwedd yr Audyl.

MARUNAD Y MILVEIB.

Taliesin ai Cant, e ddywedir.

Archaf weddi ir Drindawt
Rhen am Rhothwy yr dyvolawt
O ryned present periglawd aw[1] gweith
An rheith gwyth gogyffrawd
Ydd edryssynt[2] saint sef Kiwdawd
Rex Nef bwyf ffraeth o honawd
Cyn ysgar uy enaid am Cnawd
Ryn a wyr ym mha ym mhechawd[3]
Fy eirioled rhag rhiedd
Byddwyf or drindawt drugaredd
Iolaf rybuchaf elfydd gwaedd
Naw radd Nef mestic torfoedd
A degfed saint saig seithoedd
Gwrhydrych ryvydd ieithoedd
Morhaig mat gynnydd cyhoedd
Nifer awyl Duw trychoedd
Yn nef yn naear yn niwedd
Yn yng yn ehang yn y ngwedd
Ynghorph yn enaid yn hagwedd
Pell pwyll rhag rhiydd rhagwedd[4]
Ath iolaf wledic wlad hedd
Poed ym henaid[5] ym muchedd
Yn dragywydd ynghyntedd
Yngwas Nef nim gomedd
Ebystyl a merthyri
Gweryddon gweddwon gofri
A Selyf Duw a servi
Glan iaith glan daith dydeithi
Ac yn dawn glas dyvydd imi
Hyd pan rychadwyf fy nheithi
Nifer a fuant glan lwys
Graddeu aur golofneu Eglwys
Ar maint draethadur a draethwys
Sywedydd Llyfreu llwyrlwys
Rhag Gwein digarad deswys
Boed im henaid ei amddiffynnwys
Nifer a fuant yn anghyffred
Uffern oer gwerin gwaredred
Hyd pumoes byd
Hyd pan ddillyngwys Crist Gaethiwed
O ddwfn fais affwys abred
Maint dyddwg Duw trwy nodded
Dwy fil feib o blant llia
A bimatu et infra
A leddaint er anistra
Edris ertri Kila
Deccrawn Rachel gwelsid pl[6]
Dybi Jerosolima
Nifer Saint Armorica
A Nifer y null Toronia
A thorri trachaer Roma
A noli[6] ac Alexandria
A Garanwys ac Iudea[7]
Tre partes Divitia[8]
Asia Affrica Europa
Nifer saint Capharnawn Maritnen a Nain[9]

[1] Corroy genhyf inheu(oer deni).—Ll. E. D.
[2] M . . . r, M . wr.—M. S.
[3] Wynyonydd.—Ll. E. D.
[4] Goaddfwyn.—Ll. E. D.
[5] Caer y su.—Ll. E. D.
[6] Tramchweiliau.—Ll. E. D.
[7] Trachyndell.—Ll. E. D.
[8] Draig.—Ll. E. D.
[9] Engyrth.—Ll. E. D.
[10] Gwenwynwyn.—Ll. E. D.
[11] Ffraingc deuan difieu.—Ll. E. D.
[12] Gwan. —Ll. E. D.
[13] Oi.— Ll. E. D. [D.
[14] Difflan pleidiau.—Ll. E.

[1] An (ar).—Ll. E. D.
[2] Edryfynt.—Ll. E. D.
[3] Im pechawd.
[4] Ban o L. E. D.
[5] Im buchedd.—Ll. E. D.
[6] Apoli.—Ll. E. D.
[7] India.—Ll. E. D.
[8] Tres partes vivitia. —Ll. E. D.
[9] Naim.—Ll. E. D.

A zebulon a cisen[1] a ninefen a Neptalim
Yn Dubriactus a zorim
Ynddi y prophwydwys Crist vab mair merch Ioachim
O ardeml penechen pan ym
Nifer saint Erechalde
Clot pell castell marie
Nat atorroedd silvc[2]
Ecclesiæ rolundæ[3]
Phelasiæ[4] cæsariæ
Amaneon ambulatæ[5]
A dyffrynnoedd Bersabæ
A chyn cred gwyr cartasine
A rhaithvorion Rolwnde[6]
Ieithoedd Groeg a Efrai a Lladin
Gwyr llacharte
Nifer saint enugyniaid
Dewrwyr echeurin eu plaid
Rhag Rhiydd rhwysg folaid
Cedwyr neb eu cynerchaid
Yn ing yn ehang ym mhob rhaid
Bwynt ddinas in Corph ac in Henaid
Nifer saint sicomorialis
A dephrophani ynys
Ar maint glan a vendigwys
Dwfr gwin[7] gwyr ai distrywys
Ac eiriawl urddawl pwys
Dan Syr saint ryseilwys
Nifer saint a ddeil goror
Effectus re inferior
A superare superioræ
Ac armonim a thysor
A Dyffryn Enor a Segor
A chartago mawr a minor
Ac ynys gwyr terwyn mor
Nifer saint ynys Prydain
Ac Iwerddon addwyn rann
Torfoedd gweithredoedd mirain
A gredis a gweinis y Genhyn
Nifer - - - [8] senedd anchwant
O Duw ddewin Darogant
Ymhob ieith im prydant
Ynghylch elfydd i buant
Ar maint doethur a ddarogan Crist
A chyn dybei dybuant
Nifer seint oriento[9]
A chyfyndawd ciwdawd Iudæ
Ieithoedd Groeg ag Efrei
A lladin gwyr llacharte
7 Ugaint 700 o saint
A 7000, a saith degugeint
November nifer adduunant
Trwy verthyri mad doethant
15 Ugeint saint a vuant
A 3000, morialis plant

[1] Cisnen.—Ll. E. D.
[2] Siloe.—Ll. E. D.
[3] Rotunde.—Ll. E. D.
[4] Phalaifiè.—Ll. E. D.
[5] Ambulate.—Ll. E. D.
[6] Rotunde.—Ll. E. D.
[7] Gwin.—Ll. E. D.
[8] Saint.—Ll. E. D.
[9] Oriente.—Ll. E. D.

Hijs Decembris uch carant
Tra phen Iesu dichiorrant
12,000, yn y gyman
A gredwys drwy lef Ieuan
Golychan gobrynnant rann
Yn nefoedd nis digofant
9 mil saint a arvolles
Bedydd a chrefydd a chyffes
Er golaith poen pobloedd gwres
Uffern oer ei hachles
Os Dofydd ryndigones
Trwy ben Pedr perid anlles
Qui venerunt Angeli
In Natali Domini
Media nocte in laudem
Cum pastoribus in Bethlehem
Nieum[1] Angeli de Cœlo
Cum Michaelo Archangelo
Qui præcedunt præcelio
Erga animas in mundo
Am nieum Angeli
Præcedunt confirmati
Unisorati[2] baptizati
Usque in diem Judicei[3]
Quando fuit Christus crusifixus ut sibi
Ipse plaeuisset venissent ibi in auxilium
Plusquam duodecim legiones angelorum
Toto orbe terrarum
Jesus Christus videntem in agonia in muordo
Ut sint nostri auxilium
Duodecim millia millium
Anti tribunal stantium
Qui laudantie laudantium
Tues mores Rex regum
Nifer a fu ac a fydd
Uch nef is nef maint y sydd
Ar maint a gredwys ynghywydd
A gredis trwy ewyllys Dofydd
Maint ar lid trwy y rhodydd
Trugar Dduw dy gerennydd
Am bwyr gwar anwar gweledig[4]
Nis goddwyf cyn bwyf diemig
Tost yd gwyn pob colledig
Ffest yd hawl eissiwedig
Ni phecha[5] bryd rhyoddig
O ryred present pan wyf dig
Traethaf pan fyddaf yngro
O osymdaith osepio
A rhyfyr a Merthyr elo
Yn edryfant St. Segerno
Ô air pechawd pan ym bo
Dim uch dim maint am clyho

YMA Y TERFYNA BARDDONI TALIESIN.[6]

[1] Niuem.—Ll. E. D.
[2] Unistrati.—Ll. E. D.
[3] Judicii.—Ll. E. D.
[4] Gwledig.—Ll. E. D.
[5] Reha.—Ll. E. D.

[6] [Cawsom y dernyn canlynol, o waith TALIESIN, yn y *Cambro-Briton*, a gopïwyd gan y Gol., lythyr

CANIADAU LLYWARCH HEN.

MARWNAD GERAINT AB ERBIN.

TYWYSAWG DYVNAINT.[1]

PAN anedGeraint oedd agored pyrth nev
Rhoddai[2] Grist a arched
Pryd mirain Prydain ogoned[3]

Moled pawb y rudd Eraint
Arglwydd molav innau Eraint
Gelyn i Sais car i saint

Rhag Geraint gelyn dyhad[4]
Gwelais i veirch cymmrudd o gad[5]
A gwedy gawr garw bwylliad

Rhag Geraint gelyn cythrudd[6]
Gwelais i veirch tan gymmrudd[7]
A gwedy gawr[8] garw achludd

Rhag Geraint gelyn ormes[9]
Gwelais meirch can eu crees
A gwedy gawr garw achles[10]

Yn Llongborth gwelais drydar
Ac elorawr yn ngwyar
A gwyr rhudd rhag rhuthr esgar

Yn Llongborth gwelais i wythaint
Ac elorawr mwy no maint
A gwyr rhudd rhag ruthr Geraint

Yn Llongborth gwelais waedfrau
Ac elorawr rhag arvau
A gwyr rhudd rhag ruthr angau

Yn Llongborth gwelais i ottoew[11]
Gwyr ni giliynt rhag ovn gwaew[12]
Ac yved gwin o wydr gloew

yn llythyr, o *Lyvyr Taliesin*, yng *Nghasgliad Hengwrt*, yr hwn ddernyn a adawyd allan yn ddamweiniol o'r argraffiad cyntaf o'r gwaith hwn.—GOL.]

MARWNAD DYLAN AIL TON.

An duw uchaf dewin doethaf mwyhaf aned
pydelismaes pwy ae swynas yn llaw trahael
neu gynt noc ef. pwy uu tagnef arredyf gefel.
Gorthrif gwastrawt gwenwyn awnaeth gweith
gwythloned. Gwann dylan. adwythic lan.
treis ynhytyrver. Ton iwerd. . athon vanaw.
Athon ogled. Athon prydein torvoed virein
yn petweired. Gwolychafi tat duw dovydat
gwlat heb omed. Creawdyr celi an cynnwys ni
yn trugared.

[1] *Ll. arall:* Marwnad Geraint ab Erbin: Canu o Eraint ab Erbin. Tri Llyngesawg Ynys Prydain: Geraint ab Erbin; Gwenwynwyn ab Nav; a March [2] Rhoddi.—Ll. P. P. [ab Meirchiawn.
[3] Wogoned (fagoned).—Ll. P. P.
[4] Glyn dihat: Glynn dihat.—*Arall.*
[5] Gweles y veirch kymrut o gat; *neu*, crumend.
[6] Gelyn cystudd.
[7] Gymryd, neu gymryud, neu grymrudd.
I gweleis i meirch can crymrudd.—Ll. P. P.
[8] Guawr, gwa. [9] Gelein ormes. [10] Achlees (aches).—
[11] Otteu, ottew, godde, goddoew. [Ll. P. P.
[12] A gwyr ni chilynt (gyllynt, gylyn) rac gwaew.

Yn Llongborth gwelais i vygedorth
A gwyr yn godde amhorth
A gorvod gwedi gorborth

Yn Llongborth gwelais i arvau
Gwyr a gwyar yn dineu
A gwedi gawr garw adneu

Yn Llongborth gwelais gymminad[1]
Gwyr yn ngryd a gwaed ar iad
Rhag Geraint mawr mab ei dad

Yn Llongborth gwelais drabludd
Ar fain brain ar goludd[2]
Ac ar gran cynran man-rudd[3]

Yn Llongborth gwelais i brithred
Gwyr ynghyd a gwaed ar draed[4]
"A vo gwyr i Eraint bryfied!"

Yn Llongborth gwelais vrwydrin[5]
Gwyr ynghyd[6] a gwaed hyd ddeulin
Rhag rhuthr mawr mab Erbin[7]

Yn Llongborth y llas Geraint
Gwr dewr o goettir Dyvnaint[8]
Wyntwy yn lladd gyd a's lleddaint[9]

Yn Llongborth llas i Arthur[10]
Gwyr dewr cymmynynt a dur[11]
Ammherawdyr llywiawdyr llavur

Oedd re redaint dan vorddwyd Geraint
Garhirion grawn hydd
Rhuthr goddaith[12] ar ddifaith vynydd

Oedd re redaint dan vorddwyd Geraint
Garhirion grawn odew[13]
Rhuddion ruthyr eryron glew

Oedd re redaint dan vorddwyd Geraint
Garhirion grawn wehyn[14]
Rhuddion ruthyr eryron gwyn

[1] Gymynad, gymmanat (i gwelis gymynad). *Nid yw y pennill hwn yn y* Ll. C. *Onid yw yr hwn a gan yn, yn ryr o vraich yr un un, yr hwn sydd hefyd yn y* Ll. Du.

Yn Longborth gwelais gymmynad
Porthid gniv pob cynniviad.

[2] Eruein brein ar golud.—Ll. P. P.
[3] Ac ar grawn Cynran madrudd.
[4] Gwyr yggrit a gwaet am draet.—Ll. P. P.
[5] Ryw drin.
[6] Gwyr ruthr, gwyr ysgryt.
[7] Onawr mab Erbin.—Ll. P. P.
[8] Gwyr dewr, o Godir (o Odir) Dyfnaint.—Ll. P. P.
[9] A chyn ry lleddid hwy (we) lladdysseint.
[10] Yn Llongborth gweleis i Arthur.—Ll P. P.
[11] Cymynt o dur.
[12] Twrv goddaith.
[13] Grawn odeu; neu, Grawn o dew. [14] Vehyn.

Oedd re redaint[1] dan vorddwyd Geraint
Garhirion grawn voloch[2]
Rhuddion ruthr eryron coch

Oedd re redaint[3] dan vorddwyd Geraint
Garhirion grawn eu bwyd[4]
Ruddion ruthr eryron llwyd

Oedd re redaint[5] dan vorddwyd Geraint
Garhirion grawn addas
Rhuddion rhuthyr eryron glas.

Oedd re redaint[6] dan vorddwyd Geraint
Garhirion grawn vagu[7]
Ruddion rhuthr eryron du

Oedd re redaint[8] dan vorddwyd Geraint
Garhirion grawn gwenith[9]
Ruddion ruthr eryron brith[10]

Oedd re redaint[11] dan vorddwyd Geraint
Garhirion grawn anchwant[12]
Blawr blaen eu rhawn yn ariant[13]

MARWNAD URIEN REGED.

Dymcyvarwyddiad ynhwch dywal[14]
Baran yn nghyvlwch[15]
Gwell yd lladd nog yd ydolwch

Dymcyfarwyddiad yn hwch[16] dywal
Dywedydd yn nrws Llech
"Dunawd vab Pabo ni thech"

Dymcyfarwyddiad ynhwch dywal chwerw[17]
Blwng chwerthin mor ryvel dorvloeddiad
Urien Reged greidiawl gravel

Eryr gal ynhwch glew hael[1]
Ryvel goddig buddig vael
Urien greidiawl gravel[2]

Gravael Eryr Gal ynhwch[3]
Berchen enawr
Cell llyr cain ebyr gwyr glawr

Pen a borthav o vy nhu[4]
Bu cyrchyniad rhwng deu-lu[5]
Mab Cynvarch balch bieuvu

Pen a borthav ar vy nu Pen Urien
Llary llyw ei lu[6]
Ac ar ei vron wen vran ddu

Pen a borthav mywn vy nhrys pen Urien
Llary llywai lys[7]
Ac ar ei vron wen bran ai hys

Pen a borthav i'm neddair[8]
Eryr echwydd oedd ni gair[9]
Teyrn-vron treuliad gynniwair[10]

Pen a borthav tu morddwyd
Oedd ysgwydd ar ei wlad oedd olwyn yn nghad
Oedd cledyr cywlad[11] rhwydd[12]

Pen a borthav ar vy nghledd
Gwell ei vyw nog yn ei vedd
Oedd dinas i henwredd[13]

Pen a borthav o Godir Penawg[14]
Pellyniawg ei luydd[15]
Urien geiriawg glodrydd

Pen a borthav ar vy ysgwydd
Ni'm arvollai waradwydd[16]
Gwae vy llaw lladd vy arglwydd

[1] Oedd re rereint.—Ll. P. P.
[2] Boloch.—Ll. P. P.
[3] Oedd re rereint.—Ll P. P.
[4] Grawn eubwyd. [P.
[5] Oedd re rereint.—Ll P. P.
[6] Oedd re rereint.—Ll. P. P.
[7] Grawn ae bu.—Ll. P. P.
[8] Oedd re rereint.—Ll. P. P.
[9] Grawn wenith.
[10] Eryron blith.—Ll. P. P.
[11] Oedd re rereint.—Ll. P. P.
[12] Gran awchwant.—L. P. P.
[13] Blair blaen eirion yn ariant
Glaur blaen i rawn yn ariant.

[14] Dym kywarwydyat unhuch dywal—Ll. Ddu.
Dim cyfarwyddiad yn Hwch dywal.—Ll. C.
[15] Barau ynghyfolch; *neu*, Baran ygkyouluch.
[15] Dymkyuarwydyat unhwch.—Ll. P. P.
[16] Dymkywardyat unhuch dywal
Chwerthin mor ryvel dorvloedyat
Urien Reged greidyaul gravel (gauel).—Ll. Ddu.
Dim cyfarwyddiad yn Hwch ddywal, chwerw
Blwng chwerthin mor rhyfel
Darfloeddiad Urien Reged graiddiol.—Ll. C.

[1] Graiddiol eryr gal yn Hwch gleu haul rhyfel
Goddig buddig fael
Urien greiddiol gafael.—Ll. C.
[2] Urien grudyawl gavael.—Ll. Du.
[3] Eryr gal unhuch berchen enaur
Kell llyr ebyr guyl (glwyr) glaur.
[4] Pen a borthav a untu; *neu*, a bu tu.—Ll. Du.
Pen a borthav a ynty.—Ll. C.
[5] By kyrch ynat rug deutu.—Ll. Du.
[6] Pen a borthav ar vyntu
Pen Urien llary llyu eilu.—Ll. Du.
[7] Llary llyw eu llys.—Ll. C.
[8] Fedeir.—Ll. C.
[9] Yryr echwydd aed vugeil; neu yrrechwyd, yr echwyd oed uugail, &c.
Yr erechwydd aed nu geil.—Ll. C.
[10] Genweir.—Ll. C.
[11] Oedd cledyv cad cywlad; *neu*, Oed cledyr cad cywlad.—Ll. Du.
[12] Gedd ysgwyd ar ei wlad,
Oedd owyn ynghad cywlad rwydd.—Ll. C.
[13] Gwell y vyu noc yt y ved
Oedd dinas y henured.—Ll. Du.
[14] Godir pennauc; neu, Gorddir pennog.
[15] Penynllawch y luyd.—Ll. Du.
[16] Ny marfyllai war at wydd.—Ll. C.

Pen a borthau ar vy mraich
Neus gorug o dir Brynaich[1]
Gwedy gwawr elorawr veirch

Pen o borthav yn angad vy llaw
Llary udd llywiai wlad[2]
Pen post Prydain ryallad

Pen a borthav o du pawl
Pen Urien udd dragonawl
A chyd del dydd brawd ni'm tawr

Pen a borthav a'm porthes
Neud adwen nad arvylles[3]
Gwae vy llaw lle 'm digones

Pen a borthav o du Rhiw[5]
Ac ei eneu ewyn vriw gwaed[6]
Gwae Reged o heddiw

Ni thyrvis vy mraich rhygarddwys vy
Vy nghalon neu'r dores[8] [ais[7]
Pen a borthav a'm porthes

Y gelain veinwen a oloir heddiw[9]
A dan bridd a main
Gwae vy llaw lladd tad Ow ain

Y gelain veinwen a oloir heddiw
Ynmhlith pridd a derw
Gwae vy llaw lladd vy nghevynderw

Y gelain veinwen a oloir heno
A dan vain ai dewid[10]
Gwae vy llaw llam rym tyngid[11]

Y gelain veinwen a oloir heno
Ynmlith pridd a thywarch
Gwae vy llaw lladd mab Cynvarch

Y gelain veinwen a oloir heddiw
Dan weryd ac arwydd
Gwae vy llaw lladd vy arglwydd

Y gelain veinwen a oloir heddiw
A dan bridd a thywawd
Gwae vy llaw llam rym daerawd

Y gelain veinwen a oloir heddiw
A dan bridd a main glas
Gwae vy llaw llam rym gallas[1]

Y gelain veinwen a oloir heddiw
A dan bridd a dynad
Gwae vy llaw llam rym gallad

Anoeth byd brawd bu yn cynnull[2]
Am gyrn buelin am drull[3]
Rhebydd viled Reged dull[4]

Anoeth byd brawd bu yn cynnwys[5]
Am gyrn buelyn amwys[6]
Rhebydd viledd Regedwys[7]

Handid Eurddyl avlawen henoeth[8]
A lluosydd amgen
Yn Aber Lleu lladd Urien[9]

Ys trist Eurddyl o'r drallawd heno
Ac o'r llam a'm daerawd[10]
Yn Aber Lleu lladd ei brawd

Dyw Gwener gwelais i ddiwyd mawr[11]
Ar vyddinawr bedydd[12]
Haid heb vodrydav hy bydd[13]

Neu'm rhoddes i Run ryvelvawr[14]
Cant haid a chant ysgwydawr
Ac un haid oedd well pell mawr[15]

Neu'm rhoddes i Run rwyv iolydd cant-
A chant eidionydd[17] [rev[16]
Ac un rodd oedd well nag ydd[18]

Yn myw Rhun reawdyr dihedd[19]
Dyrain enwir enbydedd[20]
Heiyrn ar veirch enwiredd

[1] Nys goruc o dir Bryneich (Odir Bryneich).—Ll. C.
[2] Llaryud (llaryaid) llywyei wlat.—Ll. C.
Llarywydd llyw ei wlad.—Ll. C.
[3] Neut atuen nat ar vylles.—Ll. C.
Neud adwen nad yrfylles (ar y lles).—Ll. C.
[4] Llym digones.—Ll. P. P.
[5] O dy Riu.—Ll. Du. O ddu Riw.—Ll. C.
[6] Ac y eneuriw gwaet.—Ll. Du.
Ac y eneo ewynrhiw gwaid.—Ll. C.
[7] Ny thyr vis vymbreich rygarduys vy eis.—Ll. Du.
Ny thyrrwys fy mreich rygardwys fy ais.—Ll. C.
[8] Neut dorres; neu, Neur dorreis.
[9] A oleuir heddyw.
[10] Aedeuit; neu, a dewyd (a edewit).
[11] Llad rym tyghit; neu Llamryn tynged.
[1] Llam ryn gallas.—Ll. Du.
[2] Annoeth byd braut buyn kynnull.—Ll. Du.
Annoeth byd brawd yn cynnydd.—Ll. C.
[3] Amgyrn buelyn am drull (amdrull).—Ll. C.
[4] Rebyd vilet (*neu*, wyled) Reget dull.
[5] Annoeth bydd (neu, byd) brawd bu yn (bwyn) cynwys.—Ll. C.
[6] Amgyrn buelyn a mwys.—Ll. C.
[7] Rhebydd filed Rhegethwys.—Ll. C.
Rhebyd vilet regeduis (*neu*, rededwys).—Ll. Du.
[8] Handit euyrdyl (*neu*, evyrddyl) avlauen.—Ll. Du.
[9] Yn Abner Lley lladd Urien.—Ll. C.
[10] Ac or llam amdaerawt.
[11] Gweleis y divyd mawr; *neu*, difydd; *neu* ddinydd Gweleis i ddiwyd mawr.—Ll. C. [mawr.—Ll. Du.
[12] Betit, bedit, *neu* bedydd.
[13] Hubydd.—*Ll. Du.*
Heid heb vodrydav hubyd.—Ll. Du.
Heid heb fodrydau hy byd.—Ll. C.
[14] Neu rivedliawr; *neu* ryfeddfawr; *neu* rhyfeddliawr.
[15] Ac un oedd well pell mawr.—Ll. C.
[16] Rhwyfydydd cantref.—Ll. C.
[17] A chant eudyonyd.—Ll. Du.
[18] Ac un (rod) oedd uell nogyd.—Ll. Du.
[19] Rheawdyr dyhedd; *neu*, creaudyr dyhed.
[20] Dyrein enwir eu bydedd (*neu*, enbydded).—Ll. Du.
Direin enwir eu bydedd.—Ll. C.

Mor yw gogwn vy anav[1]
Arglyw pob un yn mhob hav
Ni wyr neb nebawd arhav[2]

Pwyllai Dunawd[3] marchawg gwain
Er echwydd[4] gwneuther celain
Yn erbyn crysaid Owain[5]

Pwyllai Dunawd ydd presen[6]
Er echwydd[7] gwneuthur cadwen,
Yn erbyn cyfrysedd Pascen.

Pwyllai Wallawg marchawg trin
Erechwydd[8] gwneuthur dyvin
Yn erbyn cyvrysedd Elphin.

Pwyllai Vran vab y Mellyrn[7]
Vu'n diol i losgi vy ffyrn[10]
Blaidd a vygai wrth ebyrn[11]

Pwyllai Vorgant ev a'i wyr
Vu'n diol i losgi vy nhymmyr[12]
Llug a gravai wrth glegyr[13]

Pwyllais i pan las Elgno
Frowyllai lavyn a reiddio Pyll[14]
A phebyll o'i vro.

Eilwaith gwelais gwedy gweithien[15]
Aur ysgwyd ar ysgwydd Urien[16]
Bu ail yno Elgno hen

Ar erechwydd ethyw gwallt[17]
O vraw marchawg ysguall[18]
A vydd wrth Urien arall[19]

Ys moel vy arglwydd er evras gwrth[20]
Ni's car cedwyr ei gas[21]
Lliaws gwledig rhydreulias

[1] Mor vi gogun vy anaf.—Ll. Du.
Mor yw gogwn fy arnaf (*neu*, arwaf).—Ll. C.
[2] Arnaf.
[3] Pwyllic Dunawd; *neu*, Pyllei Dunawd.
[4] Erechwydd.
[5] Crysoedd Owein; cryssed, *neu*, cyfrysedd Owain.
[6] Pwyllic Dunawd, ud presen.
[7] Erechwyd.
[8] Erechwyd.
[9] Melsyrn; *neu*, melhyrn.—Ll. Du.
[10] Vyn Dihal llosgi uy ffyrn.—Ll. Du.
[11] Bleid ullgei (fu gai; vu gel; milgi) wrth Ebyrn.—Ll. Du.
[12] Uyn dihol llosgi uyn tymyr.—Ll. Du.
[13] Llye a gravei wrth Glegyr.—Ll. Du.
[14] Ffrouyllei lavyn o reidyo Pyll.—Ll. Du.
Ffrowylle lafyn ar eiddo (ereidyo) Pyll.—Ll. C.
[15] Gweleis i gwedy gweithiau.—Ll. Du.
[16] Uryein.—Ll. Du.
[17] Ar erethuyd (erechuud) ethyw guallt (guall).—Ll. Du.
[18] Ysgueill; ys gweill, ysgweill.
[19] A fydd fyth Urien arall.—Ll. C.
[20] Ys moel yn fy arglwydd yr (ys) euras gwrth.—Ll.
[21] Nys car cadwyr y gas.—Ll. Du. [C.

Angerdd Urien is agro genyv[1]
Cyrchyniad yn mhob bro
Yn wysc Llovan Llawddifro[2]

Tawel awel ti hirglyw[3]
Odid a vo moledyw
Nam Urien cen nid yw

Llawer ci geilic a hebawc wyrenic
A lithiwyd ar y llawr
Cyn bu Erlleon llawedrawr[4]

Yr aelwyd hon a'i goglud gawr,[5]
Mwy gorddyvnasai ar ei llawr
Medd a meddwon eiriawr[6]

Yr aelwyd hon neu's cudd dynad
Tra vu vyw ei gwarcheidwad
Mwy gorddyvnasai eirchiad

Yr aelwyd hon neu's cudd glesin
Yn myw Owain ac Elphin
Breuasai ei phair breiddin[7]

Ar aelwyd hon neu's cudd callawdyr
Mwy gorddyvnasai am ei bwyd [llwyd
Cleddyval dywal diarswyd

Yr aelwyd hon neu's cudd caen vieri[8]
Coed cynneuawg oedd iddi[9]
Gorddyvnasai Reged roddi

Yr aelwyd hon neu's cudd drain[10]
Mwy gorddyvnasai ei chyngrain
Cwmmwynas cyweithas Owain[11]

Yr aelwyd hon neu's cudd myr[12]
Mwy gorddyvnasai babir gloyw
A chyveddau cywir

Yr aelwyd hon neu's cudd tavawl[1]
Mwy y gorddyvnasai ar ei llawr
Medd a meddwon eiriawl

Yr aelwyd hon neu's cladd hwch
Mwy gorddyvnasai elwch gwyr
Ac am gyrn cyveddwch[14]

[1] Ys a gro (agro) gennyv.
[2] Yn uisc lovan law diffro.—Ll. Du.
Yngwisc Louan law divro.—Ll. P. P.
[3] Tauel auel ty (fu) hirglyu.—Ll. Du.
[4] Cyn by Erlleon llauedraur.—Ll. Du.
Cyn y bu Erlleon Llyweddriawr.—Ll. C.
[5] Ae goglyd gawr: *neu*, ai goglud gawr.—Ll. C.
[6] Eiriawl,—Ll. C.
[7] Berwassei ei phair breiddin.—Ll. Du.
Berwassei ei pheir breid din.—Ll. P. P.
[8] Neus cud cein vieri coed.—Ll. Du.
[9] Cynnevaut oed idi.—Ll. D.
[10] Yr aelwyd hon sai ddrein.
[11] Cymmwynas, cymdeithas Owein.—Ll. C.
[12] Neus cyd myr. [13] Nes cud tafawl.—Ll. C.
[14] Ac amgyrn cyfeddwch.—Ll. C.

Yr aelwyd hon neu's cladd cywen
Ni's eiddiganai angen[1]
Yn myw Owain ac Urien

Yr ystwfwl hwn a'r hwn draw
Mwy gorddyvnasai amdanaw
Elwch llu a llwybyr anaw[2]

MARWNAD CYNDDYLAN AB CYNDRWYN.

Sevwch allan vorwynion a syllwch
Werydre Cynddylan
Llys Pengwern neud tandde
Gwâe ieuainc à eiddynt brodre[3]

Un pren â gwyddvid arno[4]
O dianc ys odid[5]
A vyno Duw dervid[6]

Cynddylan calon iaen gauav
A wânt Twrch trwy ei ben[7]
Ti a roddaist cwrwv Tren[8]

Cynddylan calon goddaith wanwyn
O gyvlwyn am gyviaith[9]
Yn amwyn Tren, trev ddifaith

Cynddylan bevyr-bost cywlad[10]
Cadwynawg cyndyniawg câd[11]
Amysgai Tren[12] trev ei dâd

Cynddylan vyvyr-bwyll o vri[13]
Cadwynawg, cyndyniawg llu
A mysgai[14] Tren hyd tra vu

Cynddylan calon milgi
Pan ddisgynai yn nghymhelri câd
Celanedd a laddai

Cynddylan calon hebawg
Buddai'r enwir cynddeiriawg[15]
Cenau Cyndrwyn cyndyniawg

[1] Ni eiddiganei angen.—Ll. C.
[2] A Lluybyr arnaw.—Ll. C. & Ll. Du.
[3] Gwae ieuanc a eiddyn brodyrdde (*neu*, brodyrde).
[4] Unpren a govit arnau. [—Ll. Du.
[5] O diemic yr odit.
[6] Ac a fynno Duw derffid.
[7] A unant turch truy y benn.
[8] Cu (tw) a rodeist curuf (yr kwrwf, twrwf) Tren.
[9] O gyfly yn amgyfieith.
[10] Bwyrbost kyulat.
[11] Cildynnauc cat.
[12] A myscei (mysce, amygsei) tren; *neu*, A mucsei Tren.
[13] Cynddylan vyvyrbwyll (bevyrbwyll) off ri (ry).—Ll. Du.
[14] A muscei; a mycsei; *neu*, amugsei.
[15] Buddair, (*neu*, Bu tair) enwir cynddeiriawg.

Cynddylan calon gwyth-hwch[1]
Pan ddisgynai yn mhriv-lwch câd[2]
Celanedd yn ddeu-drwch

Cynddylan gulhwch gynniviad llew
Blaidd ddylyn ddisgyniad[3]
Ni adver Twrch trev ei dâd

Cynddylan hyd tra attad
Ydd adai ei galon mor wylad
Gantaw mal y twrwv i gâd[4]

Cynddylan Powys borfor wych yt
Cell esbyd bywyd ior[5]
Cenau Cyndrwyn cwynitor

Cynddylan wyn vab Cyndrwyn
Ni mâd wisg baryv am ei drwyn[6]
Gwr ni bu gwell no morwyn[7]

Cynddylan cymmwyad wyt[8]
Ar meithyd na veddyliwyd[9]
Am drebull tull dy ysgwyd[10]

Cynddylan cae di y rhiw
Er yddaw Lloegyrwys heddiw[11]
Amgeledd am un nid gwiw[12]

Cynddylan cae di y nen[13]
Yn i ddaw[14] Lloegyrwys drwy Dren
Ni elwir coed o un-pren[15]

Gan vy nghalon i mor dru
Cyssylltu ystyllod du
Gwyn-gnawd Cynddylau cynran canllu[16]

Ystavell Cynddylan ys tywyll heno
Heb dân heb wely
Wylav dro[17] tawav wedy

Ystavell Cynddylan ys tywyll heno
Heb dân heb ganwyll
Namyn Duw pwy a'm dyry pwyll

Ystavell Cynddylan ys tywyll heno,
Heb dân heb oleuad
Elid amdaw am danad

[1] Cyndylan callon guythhuch.
[2] Priffwch cad.
[3] Llei (blai) dilyn dis gynnat.
[4] Mal y guruf y gat (y gwrf a gat).
[5] Cell a byt bywyt ior.
[6] Fy mad-wisc baraf am ei drwyn.
[7] Gwr ny les gwell no morwyn.
[8] Cymoyt (cynwuyt) wyt.
[9] Ar meithyd na vedylyuyt (bydylwyt) Armeityd na bydy lwyd.—Ll. P. P.
[10] Yr ydau (yny daw) Lloegrwys hediw
[11] Nid yw gwiw; *neu*, nid iw; *neu*, nydiu.
[12] Cae di dy nenn. [13] Yng ddaw; *neu*, yn y dau.
[14] Ny elvir coel o unpren.—Ll. Du.
[15] Cyngran canllu. [16] Wylaf wers.—Ll. P. P.

Ystavell Cynddylan ys tywyll ei nen
Gwedy gwên gyweithydd
Gwae ni wna da a'i dywydd[1]

Ystavell Cynddylan neud aethwyd heb wedd[2]
Mae yn medd dy ysgwyd[3]
Hyd tra vu ni bu doll glwyd

Ystavell Cynddylan ys digarad heno
Gwedy 'r neb pieuvad[4]
Wi o angau byr a'm gad[6]

Ystavell Cynddylan nid esmwyth heno[7]
Ar ben Careg Hydwyth[8]
Heb nêr heb niver heb ammwyth

Ystavell Cynddylan ys tywyll heno[9]
Heb dân heb gerddau
Dygystudd deurudd dagrau

Ystavell Cynddylan ys tywyll heno
Heb dân heb deulu
Hidyl mau yd gynu[10]

Ystavell Cynddylan a'm gwân ei gweled[11]
Heb döed heb dân[12]
Marw vy nglyw byw my hunan[12]

Ystavell Cynddylan ys peithiawg heno[13]
Gwedy cedwyr-voddawg
Elvan Cynddylan Caeawg.[14]

Ystavell Cynddylan ys oergrai heno
Gwedy y parch a'm buai
Heb wyr heb wragedd a'i cadwai

Ystavell Cynddylan ys arav heno
Gwedy colli ei hynav
Y mawr drugarawg Dduw pa wnav[15]

Ystafell Cynddylan ys tywyll ei nen
Gwedy diva o Loegyrwys[16]
Cynddylan ac Elvan Powys

[1] Ae dyvyd; *neu*, Ae dywydd.
[2] Aethuyt heb ued.
[3] Mae ym bed dy yscuyt (ascwyt).
[4] Guedy'r neb pieu vat.
[5] Owi a angau byr im gad; *neu*, Wi a agheu byr am
[6] Neud eisinwydd heno. [gat.
[7] Carreg hydwydd (hytuyth).
[8] Stavell Gyndylan ystywyll heno.
[9] Hidyl ineu ytgynnu. Hidyl men yt gynnu.—Ll. P. P.
[10] Ystavell Cynddylan amgen ei gweled.
[11] Heb doeth heb dan.—Ll. C. Heb doet heb dan. —Ll. Du.
[12] Maru vyglyu byu mu hunan—Ll. Du.
[13] Ys peithwae heno; Ys peithwg (peithwac) heno. —Ll. C.
[14] Cueawc.
[15] Y mawr-drigawc Dduw pa wanaf.
[16] Gwedy dyva o Loegyruys.

Ystavell Cynddylan ys tywyll heno
O blant Cyndrwyn
Cynon a Gwion a Gwyn

Ystavell Cynddylan a'm erwan pob awr
Gwedy mawr amgynnyrddan[1]
A welais ar dy bentan

Eryr Eli ban ei lev
Llewsai gwyr llyn[2]
Crau calon Cynddylan wyn[3]

Eryr Eli gorelwi heno[4]
Yn ngwaed gwyr gwynnovi
Ev yn nghoed trwm hoed i mi[5]

Eryr Eli a glywav heno
Creulyd yw ni's beiddiav
Ev yn nghoed trwm hoed arnav

Eryr Eli gorthrymed heno
Dyfrynt Meisir mygedawg
Dir Brochvael hir rhygodded

Eryr Eli echeidw myr
Ni thraidd pysgod yn ebyr
Gelwid gweled o waed gwyr[6]

Eryr Eli gorymda coed
Cyvore ciniawva[7]
A'i llawch llwyddid ei draha[8]

Eryr Pengwern pen-garn llwyd
Aruchel ei adlais[9]
Eiddig am gîg à gerais[10]

Eryr Pengwern pen-garn llwyd
Aruchel ei ieuan[11]
Eiddig am gîg Cynddylan

Eryr Pengwern pen-garn llwyd
Aruchel ei adav
Eiddig am gîg a garav[12]

Eryr Pengwern pell galwawd heno[13]
Ar waed gwyr gwylawd
Rhy gelwir[14] Tren trev ddifawd

[1] Ysdavell Gyndylan amorwan pob awr Gwedy mawr anghyvran (anghyvyrdan, ymgynyrdan).—Ll. Du.
[2] Lleisieu gwyr llyn.—Ll. C. Guyr llyn.—Ll. Du.
[3] Creu callon Kyndylan roynn.—Ll. Du.
[4] Eryr Eli gorelwi heno eu gwaed gwyr gwynnofi. Efi goet trwm hoet arnaf ymi.—Ll. Du.
[5] Oet y mi; *neu*, Arnaf fi.
[6] Geluit guelet (gwelit) o waet gwyr.—Ll. D.
[7] Cyvore ciniawa.—Ll. C.
[8] Ae llauch lluydit y draha.
[9] Aruchel y atlas (*neu*, addes).
[10] Eiddig am gig a gares.—Ll. C.
[11] Aruchel y ewan.—Ll. P. P. [12] Gîg Cynddylan.
[13] Pell galwant heno. [14] Ys gelwir.—Ll. P. P.

Eryr Pengwern pell gelwid heno
Ar waed gwyr gwelid
Rhy gelwir Tren trev lethrid

Eglwysau Bassa y orphowys[1]
Y diwedd ymgynnwys[2]
Cledyr câd calon Argoedwys.

Eglwysau Bassa ynt faeth heno[3]
Vy nhavawd a'u gwnaeth
Rhudd ynt wy rhwy vy hiraeth[4]

Eglwysau Bassa ynt wng heno[5]
I etivedd Cyndrwyn
Tir mablan Cynddylan wyn[6]

Eglwysau Bassa ynt dirion heno
Ys gwaedlyd eu meillion[7]
Rhudd ynt wy rhwy vy nghalon[8]

Eglwysau Bassa collasant eu braint
Gwedy diva o Loegyrwys
Cynddylan ac Elvan Powys[9]

Eglwysau Bassa ynt ddiva heno
Eu cedwyr ni phara[10]
Gwyr a wyr a mi yma

Eglwysau Bassa ynt barwar heno[11]
A minnau wyv dyar[12]
Rhudd wy rhwy vy ngalar[13]

Y drev wen yn mron y coed
Ys ev yw ei hevras eirioed
Ar wyneb ei gwellt y gwaed[14]

Y drev wen yn y tymmyr
Ei hevras ei glas vyvyr
Ei gwaed a dan draed ei gwyr[15]

Y drev wen yn y dyfrynt
Llawen y byddair wrth gyvamug câd[16]
Ei gwerin neu'r derynt[17]

[1] Eglwysseu Bassa ynt faeth heno.
[2] Y diued ymgynnuys.
[3] Ynt tirion heno.—Ll. Du.
[4] Rud ynthwy a hwy fyhiraeth.—Ll. Du.
[5] Ynt yng heno y etived Cyndrwyn.
[6] Mablan Cynddylan wyn.
[7] Y gwaeth eu meillyon: y gwnaeth eu meillyon.—Ll. P. P. Yn gwaedly (gwaedlef) ei meillion.—Ll. Du.
[8] Rhudd yn hwy rhwy fy nghalon.—H. Du. *Neu*, Rud ynt vy rwy vy gacallon.
[9] Kyndyl ac Elvam Powys.
[10] Y chetwyr ny phara.
[11] Ynt barvar (farwar) heno.
[12] A minneu wye ordyar.—Ll. P. P.
[13] Rud vy rwy vyggalar: rud ynt wy rwy vyggalar.
[14] Br uyneb y guellt y guaet.
[15] Y drev uen ynyt (yn yd) hymyr. Y hevras y glass vyvyr. Y guaet a dan draet y guyr.
[16] Llauen y bydeir wrth gyvamud (gyuanrud) kat.
[17] Y gueryn neur derynt.

Y drev wen rhwng Tren a Throdwydd
Oedd gnodach ysgwyd tón
Yn dyvod o gâd nog yt ych yn echwydd[1]

Y drev wen rhwng Tren a Thraval
Oedd gnodach y gwaed ar[2]
Wyneb gwellt nog eredig braenar

Gwyn ei vyd Freuer[3] mor yw di haint
Heno gwedy colli cevnaint[4]
O anfawd vy nhavawd yd lesaint

Gwyn ei vyd Freuer mor yw van heno[5]
Gwedy angau Elvan
Ac eryr Cyndrwyn Cynddylan

Nid angau Freuer a'm de heno
Am damorth brodyrdde
Dihunav wylav vore[6]

Nid angeu Freuer a'm gwna haint
O ddechreu nos hyd ddewaint
Dihunav wylav bylgaint

Nid angau Freuer[7] a'm tremyn heno
A'm gwna gryd iau melyn[8]
A chochau dagrau dros erchwyn

Nid angau Freuer a ernywav heno[9]
Namyn my hun mi wan-glav[10]
Vy mrodyr a'm tymmyr a gwynav

Freuer wen brodyr a'th vaeth
Ni hanoeddynt o'r difaeth
Gwyr ni vegynt vygyliaeth[11]

Freuer wen brodyr a'th vu
Pan glywynt gyvrenin llu
Ni echwydd sydd ganthu[12]

Mi a Freuer a Medlan
Cyd yd vo câd yn mhob man
Ni'n tawr ni laddawr ein rhan[13]

[1] Noc yt ych y echuyd.
[2] Oed gnodach y gavat (ganet, gauet) *neu*, Gnoch y guaet (guaet yn ar).
[3] Guyn y vyt Freuer; *neu*, Guyn y vyt Treiry. Gwyn ei vyd Freuer mor yw haint.
[4] Ceuueint, cenueint.
[5] Gwyn byd Freuer mor yw wann. Ll. P. P.
[6] Du hunav uylav vore.
[7] Ny agheu ffreuer.
[8] At am gwna gryd iau melyn.
[9] Ny aghen ffreuer a ernuaf heno.
[10] Ny wanglaf.
[11] Wyr ny fegynt uygylyaeth.
[12] Ny echuydei sydd ganthu. Ni echyfyddai sydd ganthu.—Ll Du. Ni echyuydei ffyd ganthu.—Ll. P. P.
[13] Nyn taur ny ladaur an ran.

Y mynydd cyd ad vo uwch[1]
Nid eiddigadav dwyn vy muwch
Er ysgawn gan rai vy rhuwch

Amhaval ar Avaerwy
Ydd aa Tren yn y Trydonwy
Ac ydd aa Twrch yn Marchawy[2]

Amhaval ar Elwydden[3]
Ydd aa Trydonwy yn Nhren
Ac ydd aa Geirw yn Alwen[4]

Cyn bu vy nghylched groenyn gavyr[5]
Galed chwannawg i gelin[6]
Rym goruc yn veddw vedd bryvyn[7]

Cyn bu vy nghylched
Croen gavyr galed
Celyngar y llillen
Rymgoruc yn vedw ved Tren.

Gwedy vy mrodyr o dymmyr Havren
I am dwylan Dwyryw
Gwae vi Dduw vy mod yn vyw

Gwedy meirch hywedd a chochwedd ddillad
A phluawr melyn
Main vy nghoes nid oes ym dremyn[8]

Gwartheg Edeyrniawn ni buant gerddenin
A chan neb nid aethant yn myw[9]
Gorwyniawn gwr o Uwchnant[10]

Gwartheg Edeyrniawn ni buant gerddenin
A chan neb ni cherddynt
Yn myw Gorwyniawn gwr edvynt[11]

Edwyn warth gwarthegydd[12]
Gwerth gwyl a negydd[13]
Ar a ddyvo dragwarth a'i deubydd

[1] Y mynyd kyt at vo uch
Nyt eidigafaf y duyn vym buch
Yr ysgaun (ys ys cawn) gan rei vy ruch.
[2] Amhaval ar avaeruy
Yd y Tren yn y Trydonuy
Ac yd aa Turch ym marchauy (marchnwy).
[3] Am haul ar Eluyden (Elfydden).
[4] Geirw am Alwen —Ll Du.
[5] Cyn bu vyghylchet croenen (groen) gawyr.
[6] Galed chwannawc i gelen (gelein).
[7] Rum gorug y wedu ved Tren bryuynn.—Ll. P. P.
Rym gorug yn feddw fedd brynn.—Ll. Du.
[8] Mein vynghoes nym oes dudedyn.—Ll. P. P.
[9] A chant (cherdd) neb nyd aethant ym buw (byw).
[10] Gwyr a uchuunt (uchnant). Gorwynnion wyr a uch uant.—Ll. P. P.
[11] Ym buyf Goruynnyaun gwr Eduyn.
[12] Warth gwarthegyd.—Ll. P. P.
[13] Gwerth gwyla negydd.

Mi a wyddwn à oedd da,
Gwaed am eu gilydd gwrda

Rhag[1] gwraig Gwrthmwl byddai gwân
Heddyw byddai ban ei dysgyr
Hi gyn na diva ei gwyr[2]

Tywarchen Ercal ar âr dywal
Wyr o edwedd Morial
A gwedy Rhys mae rhysonial[3]

Heledd hwyedig ym gelwir
O Dduw padyw yth roddir[4]
Meirch vy mro ac eu tir

Heledd hwyedig a'm cyveirch
O Dduw padyw yth roddir gwrwm seirch
Cynddylan ar bedwar-deg meirch

Neu'r syllais olygon ar dirion dir
O orsedd Orwynion
Hir hwyl haul hwy vy nghovion

Neu'r syllais o Ddinlle Vrecon[5]
Freuer werydre
Hiraeth am damorth brodyrdde[6]

Llâs vy mrodyr ar unwaith
Cynan Cynddylan Cynwraith[7]
Yn amwyn Tren trev ddifaith

Ni sangai wehelyth ar nyth Cynddylan
Ni thechai droedfedd fyth
Ni vagas ei vam vab llyth

Brodyr ambwyad ni vall
A dyvynt val gawyail coll[8]
O un i un edynt oll

Brodyr ambwyad a ddug Duw rhagov
Vy anfawd ai gorug
Ni obrynynt faw ei fug[9]

Teneu awel tew ledcynt
Peraidd y rhychau ni pharad a'u goreu[10]
Ar a vu nad ydynt[11]

[1] Bei.—Ll. P. P.
[2] Rhei gureu gyrthmul bydei guan hediw.
Bydai ban y disgyr hi gyva (*Ll. D.* gyn na) diva y guyr. [wyr.)
[3] Tyuarchen ercal ar er (ar) dyual wyr (er erdywal O etwed (etiued) Moryal a guedy Rys maer y sonal.
[4] O Duw padyv yth rodir.
[5] Vreiddun.—Ll. P. P.
[6] Yma canlyn y darn pennill hwn:
Marchawg o Gaer Adnau
Nid oedd hwyr a gwynion
Gwr o Sanneir.
[7] Cynvreith (Kymwreith).
[8] A dyuynt val guyall coll.
[9] Ny o brynynt ffaw er ffug.
[10] Ny pharat (pharae) ae goreu.
[11] Ara vu nat ydynt.

As clywo a Duw a dyn
As clywo ieuanc a hyn
Mevyl barvau maddeu hedyn[1]

Yn myw ehedyn ehediai[2]
Dillad yn araws gwaed vai
Ar glas verau nav nwyvai

Rhyveddav dinclaer nad yw[2]
Yn ol eilydd celwydd clyw[4]
Yn ngwall Twrch tòri cnau cnyw

Ni vu niwl ai mwg[5]
Ai cedwyr yn cyvamwg
Yn ngweirglawdd aer yssydd ddrwg

Endewais o weirglawdd aer ysgwyd[6]
Digyvyng dinas i gedyrn[7]
Goreu gwr Garanmael

Caranmael cymwy arnad
Atwen dy ystle o gâd
Gnawd màn ar ràn cynniviad

Cynniv oedd ognaw llaw hael[8]
Mab Cynddylan clod avael
Dyweddwr Cyndrwynin Caranmael

Caranmael oedd dihaidd
Ac oedd deholedig trev tâd
A geiswys Caranmael yn ynad[9]

Caranmael cymmwyedd ognaw[10]
Mab Cynddylan clod arllaw
Nid ynad cymmynad o honaw[11]

Pan wisgai Garanmael gadbais Cynddylan
A pheryrddiaw ei ònen[12]
Ni chafai Franc tanc o'i ben[13]

Amser y bum i vras vwyd
Ni ddyrchavwn vy morddwyd
Er gwr à gwynai clav gornwyd[14]

[1] Madeu hed yn.
[2] Ym byw ehedyn ehedyei.
[3] Rywedaf dincleir nadiv.
[4] Yn ol kilyd keluyd klyw.—Ll. P. P.
[5] Ny vu nuil ae muc: Nywy ae nywl ae mwc.—Ll. P. P.
[6] Edeueis y veirglaud aer ysguyt.
Edeweis i weirgledd ae ysgwyd.—Ll. Du.
[7] Digyvynd dinas y Gedyrn.
[8] Kynnivoed o gnaf llav hael: Kymwed ognaw llaw hael—Ll. P. P.
[9] Oed diheid ac oed diholedic
Trev tat a geissyuys
Karanmael yn gat.
[10] Cymwed ognaw.
[11] Nyt ynat kyt mynat ohonau-
[12] A phyryrdyau y onnen.
[13] Tranc oe ben.
[14] Yr gur a guyneu klav gomuyt.

Brodyr ambwyad innau
Ni's cwynai glevyd cornwydau
Un Elvan Cynddylan dau

Ni mâd wisc briger nyw dirper[1]
O wr yn nirvawr gywrysedd
Nid oedd levawr vy mroder[2]

Onid rhag angau a'i aelau mawr
A gloes glâs verau
Ni byddav levawr innau[3]

Maes Maoddyn neu's cudd rhew
O ddiva da ei oddew[4]
Ar vedd Eirinwedd eiry tew

Tom Elwyddan neu's gwlych gwlaw[5]
Mae[6] Maoddyn y danaw
Dyn vai Gynon i'w gwynaw[7]

Pedwar pwn broder a'm bu
Ac i bob un penteulu
Ni wyr Tren berchen iddi[8]

Pedwar pwn broder a'm buant
Ac i bob un gorwyv nwyviant
Ni wyr Tren perchen cyngant[9]

Pedwar pwn terwyn[10] o addwyn vrodyr
A'm buant o Gyndrwyn
Nid oes i Dren berchen mwyn

Gosgo yngod addoed arnad[11]
Nid wyv bylgaint gyvod
Neu'm gwânt ysgwr o gwr dyvod[12]

Gosgo di yngod a thech
YMATREG LLYWELYN A GWRNERTH.

Llywelyn a Gwrnerth a oedynt deusant Duyaul yn y Trallung yn Powys a dyvot yghyt a unaethant y teiraur Diuethaf or nos, ar teiraur cyntaf or dyd y dyuedid eu plygeint ac oryeu y dyd y am hynny ac y sef y guelai Lyuelyn Hudugyl Gurnerth yn gaent. A chan ny vydyat pa ham oed hynny, sef a wnaeth ynteu canu Englyn.

Tyssiliau vab Brochuel Yscithrauc agant yr Englynyon hyn y gan Urnerth yn dy voty gyffurau y greturth Lyuelyn sant y getymeith ac a eluir Ymatreg Llywelyn a Gwrnerth.

1. Eiry mynyd guynt am berth
Canys creaudyr nef am nerth
Ae kysgu a wna Gwrnerth?

2. Eiry mynyd Duw yn bennav
Kanys attau guediav
Nac ef kysgu ny allav

3. Eiry mynyd guynt am ty
Kanys llevery velly
Beth Urnerth a wna hynny

4. Eiry mynyd guynt deheu
Kanys traethaf prif eiryeu
Tebekaf yu mae agheu

5. Eiry mynyd goruyn bro
Deduyd baub urth ae llocho
Creaudyr nef ath diangho

6. Eiry mynyd goruyn pren
Kanys llefaraf amgen
Nyt oes naut rag lyghet nen

7. Eiry mynyd pob deuaut
Ra gormeil goval dydbraut
A gaffaf y gymun ynghardaut

8. Eiry mynyd guynt am ty
Kanys llefefry felly
Och vy mraut ae reit hynny?

9. Auendrut mi ath garaf
Hyt ar Duw y guediaf
Lyuelyn ryuyr y Kaffaf

10. Eiry mynyd guynt am vryn
Kanys creadyr nef ae myn
Ae kysgu y mae Lyuelyn

11. Eiry mynyd guyn deheu
Kanys traethaf prif eiryeu
Nac ef canu oryeu

12. Eiry mynyd godysgeit
Pan droho ygkylch pleit
A uydost puy a dyueit

13. Eiry mynyd llafar hy
Kanys kyrbuylly felly
Na unn onys dyvedy

14. Eiry mynyd Kanherth
A geiff y voli yn prydverth
Mae yma dy vraut Gurnerth

15. Blaengerd gymhelri a duu pob drut
Ac auen ym peri
Beth Urnerth oreu itti

16. Blaeneat pob deuaut a llafar o neaut
Am uuched kyt dyd braut [drut
Goreu y cefeis gardaut

17. Auen drut teg dy gampeu
Y mae'r ganon yth eneu
Dyuet pa gardaut oreu

18. Blaengar auen guynt urth lynn
Pam ymlado am vryn
Goreu yw buyd rac neuyn

19. Onyt buyt ny kyrhaedaf
Ac am duylau nas kaffaf
Dyuet beth yna aunaf

20. Blaengar gymelri ac ynni dob drut
Ac auen ymperi
Dyro ddillad rac noethi

21. Vyndillat mi ae rodaf
Y Duw y gorchymynnav
Py dal yna a gaffaf

22. A rodych o da ym pob atrec
Drut ym breint cady dy uyneb
Sev y key neb ar y ganvet

23. Kyvliw dyd kan yth garaf
Ardelu kerd kanys keissyaf
Gan Duw py unpeth gassaf

24. Bud ac auen a chyffret
Pan retto dufyr ar anuaret
Guaethav tuyll truy ymdiret

25. Tuyll truy ymdiret os gunav
Ac y Duw Naf kyffesaf
Pa dial a vyd arnav

26. Os gunei duyll truy ymdiret
Heb ffyd heb grevyd heb gret
Key benyt ar dy seithvet

27. Kyfliu dyd mi ath gredaf
Ac ar Duw y govynnaf
Nef py ved yd henillaf

28. Nyt cyffelyb da a druc
Pan ymlado gwynt a muc
Guna da yr Duw sef y diuc

29. Blaengar auen pob achles
Retuaur goruydaur ar tes
Diued pob peth yu cyffes

30. A nuelych o bob dirdra
O duyll a threis a thraha
Yr Duw kyffesa yn da

CUHELYN AI CANT.

Greid bleid byghawd
Gretyw detyf durawd
Gnavd brawdwriaeth

Gwr oet eiteol
Gorwy reol
Gordethol doeth

Gwyth vill dragon
Gosparth Brython
Gosgyman weith

Gnawd tryganet
Gnawd kyhidet
Gorset metveith

Metwin kyvran
Marchavc midlan
Man meidrolaeth

Medrit mur ior
Mavs Pedir pedror
Mawr Cor kyvoeth

Moes breisc vreyr
Moes wirth vehir
Milwr orvith

Maer claer kywid
Mad cathyl kyvid
Moidit ieith

Mas cas nognav
Maer antedawg
Maredavg doeth

Medel visci
Mal vartoni
Mynogi gwyth

Myn vinad vron
Medv ton
Tros draeth

Mer kerteu kein
Mywir corein
Mirein anoeth

Menestir vytud
Meued vedud
Molud esmwyth

Music a gan
Mâl eur orian
Man Vyhanieth

Gweith reith rysset
Gwich ruich rywet
Rinwet Reen

Rec rysyolaw
Rec a archaw
Rvymav virchen

Rhuthr uthr awel
Rynaut vvel
Ryfel febin

Ruteur dyrlyt
Rhychlud clodryt
Rihit aden

Reuwet parawd
Rin vynn wascawd
Tra gwawd wobrin

Ry hait i tavt
Ry cheidv ynawt
Racc kawt gelyn

Rychetwis detyf
Ry chwynis gretyw
Rac lletyw Ogyrven

Rac dac drossot
Reghit brid bod
Rot Cuhelin

GWYDDNEU AI CANT.

Kyd karui vi Morva, kassaa vi mor pur
Doe waneg karrec kamhur
Glew diwael hygar hael hwyskur
Yscinvaen beirt bid bydic clydur
Goruc klod Heilin benffic awirdwl
Hyd braud parahawd y ertivul
Hyd karui vi Morfa cassa vi don
Digoneis don dreis oer kleis y ron
Ef kwyniw yn i wiw herwyt hon
Gwaith heiniw golchiw or winuiuron
Kyd illeinw keudaud nis beirw kalon
Ac ni lluru cyheic kymod y ron
Y vun edivar oi negessau
Ban vryssyus pebrur pell y agheu
Glew diwal kywerthyd yd vain in deu
Menic it arwet duwir dalenneu
Fechit dirisclan oth divot
Mi nith erwill fuched[1] diot
Om parth gwerthais y march irot
Dial kyheic amoed blis
Am y kyvreu y melis
Oth korr dy sorr di ymi bu ewnis

GWYDDNEU AI CANT

PAN DDAETH Y MOR TROS GANTREF Y GWAELAWD

Seithenin saw di allan ag edrych
Uirde varanres mor maes Gwitneu rhytoes

Boed emendiceit y morwin
A hellyngaut gwydi e wyn[2]
Ffynnawn Wenestyr mor terrwyn

Boed emendigeit y vachdeith
Ai golligaut guydi gweith
Ffynnaun Wenestyr mor diffeith

[1] Unchod, *neu* imchod.
[2] Gwyddi ewin, *neu* gwydi cwin.

Diasbad wererit yar van kaer
Hyd ar Duw i dodir
Gnawd gwedi traha tranc hir

Diaspad mererit y ar van kaer
Hetiu hyt ar Duv y dadoluch
Gnawd gwedi traha attregwch

Diaspad mererit am gorchwyt heno[1]
Ac nim haut gorluyt[2]
Gnawd gwedi traha tramcwyt

Diaspad mererit y ar gwineu
Kadir Kedaul Duw ae goreu
Gnawd gwedi gwedi gormod eisseu

Diaspad mererit am kymhell
Heno wrth vy ystavell
Gnawd gwedi traha tranc pell

Bet seithenin synwyr van
Rhwng kaer Kenedir a glan
Mor, maurhydic a kinran

YMRYSON GWYDDNEU A GWYN AB NUDD.

Kanis koegawc sy mor eurawc
A hin yn ymyl llys Gwallawc
Minneu byddaf goludawc

Boed emendigeit ir gwydd
A dynnwys y lygad yn y wydd
Gwallawc ap Lleinawc arglwydd

Boet emendigeit ir gwydd du
A dynnwys i lygad oed ddu
Gwallawc ap Lleinawc penn llu

Boet emendigeit ir gwydd gwenn
A dynnwys i lygad oi benn
Gwallawc ap Lleiniawc unben

Boet emendigeit ir gwydd glas
A dynnwys y lygad yngwas
Gwallawc ap Lleinawc urddas

Tarw trin an vyddin blawdd
Arbennic llu llid anhawdd
Dinam eiroes am oes nawdd

Ygan gwr gwrdd i kynnyad
Arbennic llu llid Owydd
Ath wrdd nawdd kanys erchydd

[1] Gorvydd. [2] Gorewydd.

Kanys nawdd ym a roddyt
Mor verth y thogyvethyd
Gwawr lu py du pan ddoyd

Ban ddeuaf ogat a chymynad
Mawr ag aesawr in anghad
Briwint pennavr peleidrad

Ath gyvarchaf huyscwn
Gwr ai yscwid yn anghen
Nebir gwr pan yw dyechen

Karngrwn vy march kat trabludd
Hud im gelwir i Gwin Mab Nudd
Gordderch kreurddillad merch Lludd

Kanys ti Gwin gwr kywir
Rhagot ni ry ymgelir
Minnew Gwiddnau Garanhir

Nim gad i gan gyvlafaredd
A thi wrth i frywn yd wedd
Diwris im trwm Tawy annedd

Niu Tawve i nessaf a lafaraf
Wrthyt namvin Tawve i eithaf
Erir mor teruin treiaf

Yscithreid fy modrwy eur gywrwy
Kanu y gan vy Afarwy
Gweles aer rac Kaer Fandwy

Rhag Mandwy llu a weleis
Aessawr briwhed torrhid eis
Mygedawl kein a ddygei dreis

Gwin ap Nudd budd bytinawr
Cynt i syrthiei cadoedd rhag Carnedd-
Dy vreich no brwyn briw i lawr [awr

Ystee fy ki as ystrwn
Ag ys ev oreu or kwn
Dormarchedd hwnnw a vu y Maelgwn

Dormarth drwynrhydd ba syllydd
Arnaw can yssamgyffredydd
Dy grwidir ar Wiber wynydd

My wn yn y lle y llas Gwenddoleu
Mab Ceidiaw Colowyn kerdeu
Ban ryerchint brein ar kreu

Mi a wnn yn y lle y llas Bran
Mab y Werydd glod lydan
Ban ryerhint Brein garthan

Mi a wnn lle y llas llacheu
Mab Arthur uthr yngherteu
Ban ryerhint brein ar kreu

Mi a wn lle i llas Meiric
Mab Kerreian clad etmic
Ban ryreeint brein aa kic

Mi a wn lle[1] i llas Gwallawc
Mab Goholeth teithiawc
Addwod Lloegyr mab Lleynawc

Mi a wn lle[2] i llas milwyr Prydein
Or dwyrein ir gogledd
My wi wiw vinteu y bedd

Mi a vun lle llas milwyr Prydein
Or dwyrein ir deheu
Mi wi wiw vinteu y hagheu

YMDDYDDAN ARTHUR A CHAI A GLEWLWYD.

Pa gwr yw y Porthavr
Glevlvid Gafaelfawr
Pa wr ai govin Arthur a Chei gwin
Pa imdda genhit gwin goreu im bid
Ym ty ny ddoi onis gwaredy[3]
Mi ai gwardi a thi ai gwely
Vithneint elei Assivion ell tri
Mab a Mydron gvas Uthir Pendragon
Kyscaint mab Banon a gwin godybrion
Oet rinn vy gweission in amwin eu detvon
Manawydan ap Llyr oet dvis i kusil[4]
Neus duc Manavid eis tull o Trywrid
A Mabon am Mellt
Maglei gwaed ar gwellt
Ag angvas edeinawc a llwch llawynnawc
Oetin diffreidiawc ar i din cyminavc
Arglvit ai llochei mynnei ymtiwygei
Kei vi heirolei tra llathei pob tri
Pan gollet Kelli kaffad cuelli
A seiriolei Kei hid trae kymynei
Arthur oed hvarei y gvaed goverei
In Neuat Awarnach in imlat ef a gvrach
Ew a gwant penn Palach
In atodev dissethach
Ym minit Eidin amvc a Chinbin
Pob cant id gwrtin pob cant
Rhac Bedwir bedrydant
Artraetheu trywrvid in un in a garwlwid
Oet gwychyr y anwyd o cletyf ac yskwid
Oet gwaget bragad vrth Cei ynghad
Oet cletyf i ghad oe law digwystlad
Oet hyneiw gvastad ar lleng as lles gwlad
Betwir a Bridlav naw Cant gwarandaw
Chwechant y eirthaw a talei y ortinav
Gveission am buyat oet gvell ban vitint
Rhag rhiau Emreis gveleis e Kei ar vrys
Preiteu gorthowys oet gwrhir in ewnys
Oet trum i dial oet tost y cynnal
Pan yvei owval yvei wrth pedwar
Yg kad pan delei wrth gant it lathei
Ny bei Duw ae digonhei
Oet diheit agheu Kei
Kei gwin a lathei digonynt wy kadeu [un
Kyn gloes glas vereu ygvarthaw ystawing-
Kei a gwant nav gniton Kei win aeth Fon
Y dilein Llevon
Y yscvid oet mynud erbin Cath Paluc
Pan gogyveirch tud
Pwy gwant Cath Paluc
Naw ugein kinlluc ac vitei in y bvyd
Naw ugein kiwrann

ENGLYNION CAD GODDAU.

Val dyma yr Englynion a ganwyd pan cad goddau, ereill a'i geilw cad Achren, ac o achos iwrch gwyn a cheneu y bu, ac o anwn yr hanoedd hwynt, ac Amathaon ap Don ai daliodd. Ac am hynny yr ymladdodd Amathaon ap Don ac Arawn vrenin anwn, a gwr oedd yn y gad oni wyped i henw ni orfyddit arno; a gwreic oedd yn y tu arall a elwid Achren, ac oni wypid y henw ni orfyddit arnunt. A Gwidion ap Don a ddychymygawdd henw y gwr ac a ganodd y ddau Englyn sy yn canlyn.

Carngraf vy march rhagotoyw
Benn Olgen gwera ar yasfoyw
Bran ith elwir briger loyw

AC FAL HYN.

Carngraff dy farch yn y dydd cad
Bann blaen gwern ar dy angad
Bran lorgric ai vrig arnad
Y gorfu Amathaon mad

Gwydion ap Don ai cant.

AMRYW GANUAU, NIS GWYDDIS PWY A'U CANT.

ENGLYNYON Y KLYWEIT.

A Glyweisti a gant Kynvyt[5]
Ac a glyv y dvedut[6]
Goreu Kamwri Katbyd[7]

A glyweisti a gant Kynrein[1]
Pen Kyssul Ynys Prydein
Ys gwell cadw noc olrein

A glywaisti a gant Idloes
Gwr guar hygar y einyoes
Goreu kynnyd Kadu moes

[1] Ni bum lle.
[2] Mi a vum.
[3] Gwarchodei.
[4] Cyssir.
[5] Kynwyd.
[6] Dywedwyd.
[7] Cedwid.—*Dr. Davies.*

[1] Cynrhain.

A glyweisti a gant Kynlluc[1]
Gur lluyt llydan y oluc
Kavas da ni chavas druc

A glyweisti a gant Meugant
Yn ysgar a ysgarant
Pob enuir dienwir y blant[2]

A glyweisti a gant Karku
Gwedy gorvot ar y llu
Nid guaraduyd guellahau

A glyweisti a gant y vronvreith
Pan dramuyich dros diffeith
Na vid elyn dy gedymeith

A glyweisti a gant y vran
Kymmer ..... Kynnudan
Gvell ry draws uo ry druan

A glyweisti a a gant Kadgyffro
Hen yn darllen llyvyr Cauo
Nyt mad vu ny bu Gymro

A glyweisti a gant y gegin
Byd leu na vyd dia ... thrin
Na vit dy wreic dy gyvrin

A glyweisti a gant Uryen
Gyt ac a ganei amgen
Digaun Crist Trist yn llauen

A glyweisti a gant Kynvarch
Bit dy ysguyt ar dy varch
Ar nat parcho na pharch

A glyweisti a gant Deui
Gur lluyt llydan y deithi
Goreu denaut daioni

A glyweisti a gant Teilau
Gur a vu'n penydyau
A duv nyt da ymdarau

A glyweisti a gant Padarn
Pregethwr kywir kadarn
A wnel dyn duv ac barn

A glyweisti a gant Andras
A diodevod croes leas
Duv a rannuys nef a gavas

A glyweist ti a gant Anaraut
Milur donyauc ditlaut
Reit urth amhuyll puyll paraut

A glyweisti a gant Gurhir
Gwalstaut pob yeith gywir

[1]Cynllwg. [2]Difenwir.

A wnel duyll ef a duyllir

A glyweisti a gant Marthin
Breinyaul sant y gyffredin
Namyn Duw nyt oes deuin

A glyweisti a gant Gereint
Mab Erbyn kywir kywreint
Byr hoetlauc digassauc seint

A glyweisti a gant Ryderch
Tridyd hael[1] serchauc serch
Gnaud rygas guedy ryserch

A glyweisti a gant Hugbuyd
A vuassei gynt yn fuyd
Gnaud guedy traha tramcuyd

A glyweisti a gant Ffoluch
O gymryd edifeirwch
Gnaut guedy redec yrthuch

A glyweist ti a gant Cormoc
Breinyaul gyvreith annoc
Pob bur ledrat y groc

A glyweisti a gant Eileru
Marchauc serchauc syberu
Hir y cnoir tameit chueru

A glyweisti a gant Esperir
Ymdidan a Meni hir
Kar kywir yn yng y guelir

A glyweisti a gant Heled
Verch Cyndruyn vaur y rhyved
Nyt rodi da a wna dloded

A glyweisti a gant y Barcut
Y dyn ysglyvyat gleu drut
Moch vyd Barn pob Ehut

A glyweisti a gant Haernued
Vradauc vilur teyrned
Trech nerth no guir urth digassed

A glyweisti a gant y Pysc
Wrth ymdrafful ymplith y gurysc
Trech anyan nac adysc

A glyweisti a gant Huêil
Mab Caw Kymmuyll ariel
Mynych y syrth mevyl o gesseil

A glyweisti a gant Llywarch
Oed henwr drut dihavarch
Onyd kyvaruyd kyvarch

[1] Rhydd hael.

A glyweisti a gant Beduini
Oed escaub donyauc diffri
Racreitha dy eir kyn noi dodi

A glyweisti a gant Avaon
Vab Talyessin gerd govyon
Ni chel grud gystud calon

A glyweisti a gant Ysgafnell
Vab Dysgyvndaut Katgymell
Nyt anregit tlaut o bell

A glyweisti a gant Rioget[1]
Guedy caffel teyrnget
Ny chusc Duv pan rywaret

A glyweisti a gant y Gorres
Wrth y gelein pan sorres
Ny charaud Crist ae croges

A glyweisti a gant Angar
Mab Caw milwr clotgar
Bid tonn kalonn gan alar

A glyweisti a gant llu crun
Wrth y gydenu Huatrum
Pan lado Duv llad yn drum

A glyweisti a gant Goliffer
Gosgordvaur guych y niver
Kas uiryoned ny charer

A glyweisti a gant Beuno
Kan dy bader ath credo
Rac agheu dy thycya ffo

A glyweisti a gant y Beleu
Gyt ar adar yn guareu
Pob hir nychdaut y agheu

A glyweisti a gant Duinnic
Milur doeth detholedic
Digaun Duv da y unic[2]

A glyweisti a gant Kymluch
Yn y henaint ae heduch
Deduyd a gar datoluch

A glyweisti a gan Gwiaun
Dremynur goluc unyaun
Duv cadarn a varn pob yaun

A glyweisti a gant Llenllyauc
Guydel urdawl eurdochauc
Guell Bed no buchedd heghenauc

A glyweisti a gant Kynon
Yn ymoglut rac meduon
Curw yw alluyd Calon

A glyweisti a gant y gurhy
Bit lauen paub yn y dy
Wyneb Trist druc ae hery

A glyweisti a gant Hylwyd
Oed henur kall kyvaruyd
Nyt treftat enryded argluyd

A glyweisti a gant Gurgi
Yn kyssul mewn Kunsli
Nyt reit y detuyd namyn y eni

A glyweisti a gant gur kall
Yn kyghori guas aghall
A unel druc arhoet y llall

A glyweisti a gant Rioget
Oed ffydlaun kyviaun y gret
A unel druc ymogelet

A glyweisti a gant Kyghellaur
Yn ymdidan a lliu guaur
Chuerdit bryt wrth agharaur

A glyweisti a gant Kynan
Guledic sant y anyan
Drykai pob amuyll y rann

A glyweisti a gant .....
Gur a un y lla ...
Druc drycuas guaeth bod hebdo

A glyweisti a gant Huaraur[1]
Yn ymdidan ae gymhar
Ded or ae gwel ae kar

A glyweisti a gant Gildas
Mab Caw Milwr atkas
Dynaut guas hir y gar

A glyweisti a gant Gurselid
Guydel diogel y ymlit
Drwg pechaut oe hir erlit

A glyweisti a gant Lliaus
Mab Nuyvre milur hynavs
Dadleuad ar bob achaus

A glyweisti a gant Kyndelu[2]

A glyweisti a gant Credeiliad
Verch Ludd riain wastad
Digaun da diwyd gennad

[1] Rhiogedd. [Cynghanedd.
[2] Mae Giraldus wedi rhoi hwn er dangawd ansawdd

[1] Huarwar.
[2] Mae arwydd yn yr hen lyvrau vod pennill ar goll ar ol hwn.

A glyweisti a gant Kyndrwyn
Tangnefeddwr mad mwyn
Nid gwarae hengi a cholwyn

A glyweisti a gant Hen Gyrys
Gwna dy neges yn ddi ddefrys
Gwell car yn Llys nag aur ar Fys

A glyweisti a gant Calcaw
Ni mynnei i neb ei dwyllaw
Gwell un hwde no dau addaw

A glyweisti a gant Europa
Mab custeon caswestfa
Gnawd o ben drythyll draha

A glyweisti a gant Eheubryd
Mab Cyfwlch cyfiawn yspryd
Goval Dyn Duw ai gweryd

A glyweisti a gant Drystan
Gobeithiwr prudd ei anian
Gossymdeith dyn Duw ai rhan

A glyweisti a gant Dremhidydd
Hen ddisgwylliwr ar geurydd
Gwell nag nac addaw ni wneydd

A glyweisti a gant Cywryd Ceint
A oddefawdd lawer heint
Gwae ieuangc a eiddun heneint

A glyweisti a gan Eilassaf
Odid un Dyn dianaf
Nid un awen iach a chlaf

A glyweisti a gant y Pi
Geilwad argoeliad gwesti
Nid menichdid maerioni

A glyweisti a gant Cadreith
Fab Porthawr filwr areith
Ni char Dofydd diobeith

A glyweisti a gant Gwenddoleu
Wrth dramwyaw dyffrynau
Pren ynghoed arall bieu

YMDDIDDAN

RHWNG ARTHUR FRENHIN AI AIL WRAIG GWENHWYFAR.

Hon oedd y ferch a ddygodd MELWAS Tywysog o'r Alban.—O'r Ll. Gwyrdd.

A. Du yw fy march a da dana
Ac er dwr nid arswyda
A rhag ungwr ni chilia

G. Glas yw fy march o liw dail
Llwyr ddirmygid mefl mawrair
Nid gwr ond a gywiro ei air

G. .....
.....ymlaen y drin
Nid deil gwr ond Cai hir ab Sefin

A. Myfi a ferxyg ac a sai
Ac a gerdda yn drwm gaulan trai
Myfi yw'r gwr a ddaliai Gai

G. Dyd wâs rhyfedd yw dy glywed
Onid wyd amgen no'th weled
Ni ddalid di Gai ar dy ganfed

A. Gwenhwyfar olwg eirian
Na ddifrawd fi cyd bwy byxan
Mi a ddaliwn gant fy hunan

G. Dud wâs o ddu a melyn
Wrth hir edryx dy dremyn
Tybiais dy weled cyn hyn

A. Gwenhwyfar olwg wrthox
Doedwx imi os gwyddox
Ymhâ le cyn hyn im gwelsox

G. Mi a welais wr graddol o faint
Ar fwrdd hir Arthur[1] yn Dyfnaint
Yn rhannu gwin iw geraint

A. Gwenhwyfar barabl digri
Gnawd o ben gwraig air gwegi
Yno y gwelaist di fi

ENGLYNION YMDDIDDAN

RHWNG ARTHUR AB UTHUR A'I NAI 'LIWLOD AB MADOG AB UTHUR OED FARW, ac wedi ymrithio yn rhith ERYR.—Allan o'r Llyfr Gwyrdd.

A. Y sy ryfedda gan wy fardd[2]
Ar flaen dâr a'i brig yn hardd
Pa edrych Eryr pa xwardd

E. Arthur bell glod oddiwes
A'th lu llawenydd a'th les
Yr Eryr gynt ath weles

A. Y sydd ryfedda o du mur
Ath ofynaf yn fesur
Pa xwardd pa edryx Eryr

E. Arthur bell glod yn hynt

[1] Celliwig. [2] Ys rhyfeddaf cyd bwyf bardd.—L. M.

Ath llu llawenyx dremynt
Yr Eryr ato weles gynt

A. Yr Eryr a sai ar flaen dâr
Pei hanffit o rew adar
Ni byddit ti na do na gwâr

E. Arthur gleddyddawg uthur
Ni sai dim gan dy ruthur
Mi yw mab madog ab uthur

A. Yr eryr ni wn ei ruw
A dreigla glyneu Cernyw
Mab Madog ab uthur nid byw

E. Arthur iaith gyfrwyslid
Ath lu nis gwradwylid
Eliwlod gynt im gelwid

A. Yr Eryr olwg difai
Ar dy'madrodd nid oes fai
Ai di yw Liwlod fy nai

E. Arthur dihafarx osod
Os mi ydyw Liwlod
Ai gwiw ymgystlwng o honod?

A. Yr Eryr barablau difrad
Os di ydyw Liwlod
Ai gwiw ymladd am danod

E. Arthur dihafarx atteb
Ni sai gelyn ith wyneb
Rhag angau ni ddianc neb.

A. Yr Eryr iaith di ymgel
Allai neb drwy ryfel
Yn fyw eilwaith dy gaffel

E. Arthur bendefig haelion
O xredir geiriau y ganou
A Duw nid gwiw ymryson

A. Yr Eryr barabl eglur
A ddywedi di wrth Arthur
Pa beth sydd drwg iw wneuthur?

E. Meddylio drwg drwy irdwl[1]
A thrigo yn hir yn y meddwl
A elwir pexod a xwl

A. Yr Eryr barabl doethaf
It dy hun y gofynaf
Bodd Duw pa ddelw ir harddaf?

E. Caru Duw o fryd iniawn
Ac erxi arxau cyfiawn
A bair nef a bydawl ddawn

[1] Afrdwl.—L. M.

A. Yr eryr gwir fynegi
Os llwyr ofynaf iti
Ai da gan Grist ei foli?

E. Arthur ydwyd gadarnaf
Ar dwr gwr gwiw obeithiaf
Pob yspryd moled ei Naf

A. Yr Eryr radlon fywyd
Ith ofynaf eb ergyd
Pwy sy nesa eb yspryd

E. Arthur disegur lafnau
...ydaist o gur gan waydau
Crist yw ef cred nag amau

A. Yr Eryr barabl adef
A ofynaf o hyd ilef
Beth ore i geisio Nef

E. Edifeirwx am drawsed
A Gobeithio y drugared
Hyn a bair y dangnefed

A. Yr Eryr barabl diwg
A fynegi di yn amlwg
I wneuthud be sy drwg

E. Medylio brad anghywir
A xhelu medwl yn hir
Cwbwl bexod i gelwir

A. Yr Eryr barabl tawel
A dywedi di heb ymgel
Beth a bair ym i oxel

E. Gwedio Duw bob plygaint
A dymuno cael madeuaint
Ac erxi cynnorthwy'r saint

A. Yr Eryr barabl didlawd
Ith ofynaf ar draethawd
Pa fath waetha ar bexawd

E. Arthur oderxog doethiaith
Gwedi profer pob cyfraith
Gwaetha bernir anobeith

A. Yr Eryr barabl Osyd
A fynegi yn gelfyd
O anobaith beth a fyd

E. Heudu hir boen uffernol
A xaffel cwymp anesgorol
A xolli Duw'n dragwydol

A. Yr Eryr iaith ymadaw
Ath ofynaf rhag llaw
Ai gore dim gobeithiaw

E. Arthur arderxawg Cynan
O mynni o fyd gafel rhan
Wrth gadarn gobaith gwan

A. Yr Eryr barabl cywir
It dy hun y gofynir
Pan nad cadarn perxen tir

E. Arthur arderxawg wydfa
Na xoll Dofud or alfa
Y cadernid yw'r pennaf

A. Yr Eryr barabl diau
Ath ofynaf ar eiriau
Ond yw cadarn finnau

E. Arthur ben cadoed Cernyw
Arderxog finiog o liw
Nid cadarn neb ond Duw

A. Yr Eryr iaith diarfford
Ath ofynaf heb foeldord[1]
Beth a wna Duw a gosgord

E. Gosgord os gwir i folî
Os cyfiawn cyferxi
Ni ryd Duw uffern arni

A. Yr Eryr iaith drym garn
Ath ofynaf yn gadarn
Pwy dyd brawd a ryd barn

E. Arthur arderxawg wydfa
Gorxest gwir a defa
Duw ei hun a farna

A. Yr Eryr nefol dynged
Ar na xafas i weled
Beth a wna Crist i'r rhai cred

E. Arthur wydfa llawenyd
Ath lu buost lwyr gynyd
Dy hun dyd brawd a'i gwybyd

A. Yr Eryr barabl syxoed
Ath ofynaf berxen torfoed
Dyd brawd beth a wna i bobloed

E. Arthur arderxawg *Lampre*
Ath wir gwiriondeb hagdle
Yna i gwybod pawb ei le

A. Yr Eryr barabl difustul
Ath ofynaf heb gynfyl
Ai da cael gwasanaeth sul

E. Gwasanaeth sul o xeffi
A gras gan duw gwedi
Gwynfydedig wyt o honi

[1] Faldord.—L. M.

A. Yr Eryr barabl difri
Ath ofynaf dros geli
Beth ym o byda hebdi

E. O bydi heb eiriau llên
Die sul eb raid eb angen
Hyd yr ail sul na xward wên

A. Yr Eryr barabl hynod
Ath ofynaf yn hynaid
Beth ore rhag enaid

E. Pader a gwediau
A dirwest a xardodau
A diodef enaid hyd angau

LLYMA ENGLYNION

A fu rhwng TRYSTAN FAB TALLWCH A GWALCHMAI FAB GWYAR, gwedi bod TRYSTAN dair blynedd allan o Lys Arthur ar sorriant, a gyrru o ARTHUR wyth ar hugain o'i Filwyr i geisio ei ddal a'i ddwyn at ARTHUR ac e fwrriodd TRYSTAN hwynt i lawr bob un yn ol eu gilydd, ac ni ddaeth er neb ond er GWALCHMAI a'r Tafod aur.

G. PRWYSTYL sydd tan[1] anianawl
Pan fo'r mor yn ei chanawl
Pwy wyl filwr anfeidrawl

T. Prwystyl fydd tonn a tharan
Cyd bont brwystul eu gwahan
Yn nydd trin mi yw Trystan

G. Trystan barabl difai
Yn nydd trin nid ymgiliai
Cydymaith yt oedd Gwalchmai

T. Mi a wnawn er Gwalchmai yn nydd
O bai waith cochwydd yn rhydd
Nas gwnae'r brawd er eu gilydd

G. Trystan gynneddfau eglur
Huddellt baladr oth lafur
Mi yw Gwalchmai nai Arthur

T. Yno gynt Gwalchmai nog *mydrin*
O bae arnat ti orthrin
Mi a wnawn waed hyd ddeulin

G. Trystan o honot ti y pwyllon
Oni'm gommeddai'r arddwrn
Minneu a wnawn goreu ag allwn

T. Mi ai gofyn er a fen
Ac nis gofynaf ar grauen
Pwy yw'r milwyr sydd om blaen

[1] Ton.

G. Trystan gynneddfau hynod
Nid ydynt ith adnabod
Teulu Arthur sy'n dyfod

T. Arthur nim bogelaf
Naw cant cad ai tyngeddaf
Om lleddir minneu a laddaf

G. Trystan gyfaill rhianedd
Cyn mynd yngwaith gorfedd
Goreu dim yw tangnefedd

T. O caf fy ngledd ar fy nghlun
Am llaw ddeau i'm ddiffyn
Ai gwaeth finneu nag undyn

G. Trystan gynneddfau eglur
Cyn cynnaws lliaws llafur
Na wrthod yu gar Arthur

T. Gwalchmai o honot y pwyllaf
Ag om pen y llafuriaf
Fal i'm carer y caraf

G. Trystan gynneddfau blaengar
Gorwlychyd cafod cann dâr
Tyred i ymweled ath gâr

T. Gwalchmai attebion[1] cymmen
Gerwlychyd cafod cann rhych
Minneu af ir lle mynnych

Ac yno daeth Trystan gyda Gwalchmai at Arthur.

G. Arthur attebion cymmen
Gorwlychyd cafod cann penn
Llyma Drystan bydd lawen

A. Gwalchmai attebion difai
Gorwlychyd cafod cann tai
Croesaw wrth Drystan fy Nai

Trystan wynn bendefyg llu
Car dy genedl cred a fu
A minneu yn ben Teulu

Trystan bendefig cadau
Cymmer gystal ar goreu
Ag yn gywir gad finnau

Trystan bendefig mawr call
Câr dy genedl nith ddwg gwall
Nid oera rhwng câr ar llall

T. Arthur o honot y pwyllaf
Ac ith ben y cyfarchaf
Ac a fynnach mi ai gwnaf

[1]Nage, Gwrthgrych.

ALLAN O DDRYLL O HEN LYFR YSGRIFEN

A gafed yn Ngogerthan yn y fl. 1759, mewn llaw odiaethol, meddai Llywelyn Ddu.

Aches ym leinist aflei tyrwy ym byddin
Twrwf Catwallawn hael edhwyl a ydin
Esgar hyd haual a rhan chwefrin
Rhahawd y adveirch ai radlann medud?
Y uolud ar llyr llaun
Nauit glust deheu a mor eigiaun
Hevelys y llon nas arllu estraun
Hyd esgyr y wyr a daly yaun
Madganet mab brith[1] cyth mor radlawn
Kynneved echel aeth Kywryd Kamawn
Tewynt rieu Krawn rac proystlaun
Gardei ir pananed dyn dywyndaun Kymry
Pan rygreas Crist Catuallaun

As amoduy Duw y deur orchordou
Nys arlludion gwynt a thonnawr
Nychuedyl am doddyw o wynedd glawr
Lladd y gwyr yn aer anoleith awr
Diau trafodynt lladd llafnawr
Rived o dud agynhennawr
Yd wnad Cadwallawn pan gymhwyllo y myd?
Tra barhao Nef ucheluit lawr

Ossidd arf y Mon ryphebyllas
Malgwn hevelyit haylon o guas
Ny ar arch Briniach ny ry dadlas
Ac eduin arnaddynt yn dad ruytuylluras
Ny buglait ywarthec nys arlleueir nep
Hymanaf Gweithen i dan adas
Ar wyneb Cymry Catuallaun uas

Dybit ymdouit y luydauc Prydain
Y digones guychyr gwallauc
Eilywod Gattraeth fawr vygedauc
Allmyr a maen a gwiyonawc[2]
Biw rewyt y rann rad Luossauc yn aer?
Yg cattreu gwyn gwesti varchawc
Esgor lluded llong llann gled yfawc
Yspyddawd Catwallawn Gaer Garadauc vre
Wrth y gyfwyre gynne Efrawc

Kyweir dennmeir yc oneir Prydein
Pryder ior udic aduer
Kedwesid grut Kymry can differ y ysgwyd
Y ysberi pell yd glower
Cawawc cynhorawc cawgawg fer
Peuyr porth ysgewin Kyffin Aber
Canotor cathyl gwynnwyd gwenleuver
Golluchaf gleu hayl hilic naf ner
Aded gynt ethynt yn hyd irver hallt

[1] Pict or Briton. [2] Gwinionawc.

Rac gawr pallt gorthrycher
A uouch nothi hael dimyn oer arglwydd?[1]
Onid gordeil awyr a ser
Calwallawn ei miawn a ral ymher
Pydret..... .

O LYFR GOGERTHAN, 1759.

Rhan rhen rhad gordden gwaith heinyw
Dylaith i bob gwyni aith
A chadwyd cyfraith
Cysgawd gwiniaith geinyw
Dyddwyn ac addwyn cedeirn ynghadwyn
A gwedi cwyn cynnif
Cochwedd calanedd cyfyng freon
Cochwedd calanedd ev seggyf a renaint
Amnoethaint yngwarthaf nant
Seith angerdd au segyf, dwfyn, dwfyn, gwaddyn, gwaddyn awallu
Tri gair am dri phair tri theulu
Tri M. tri nis deupi meddygon
Tair aer, aer am gaer o ganhon
Kadcad cyffylud ar saeson
Gwall gwall ou arfall ar gynhon
Graid greic goffelaig ddragon
A eryri fraith freon
Eryri a orfi ban welych
Daragon o nyuant a lewych
Greid un bro greid agro gro yngwrych
Ar ysci asceini asgellwrych
Llestri llu ar helituth eleirch
Gwae wrth for nad gwrthdir a wrthrych

Drull yw hon o'r Gan. Tu dal. 160.

AUDYL.

Moch dau byt yggryt yggredyf carant[2]
Moch dau mynych dorr o[3] *twrneimant*
Moch dau rung saeson ryssyant ymdrychu[4]
A dibarch gladu a guassant
Moch day guyr Mannau er mynny molyant
A gogled dyhed diheu a gunant
Moch vyd ym prydein pryder achuant
Ac am deutu lloegyr llavar yt guynant
Am lithrau mab Henri enryvedant
Meint uyd ygguasgar yr ysgrydyant
Ysgeindorf[5] voroed rif torfoed tarvant
Turf am y teruyn traha ny barchant
Ami disgoganaf escut levant
Guiryon val geuauc a gymmunant
Maur trachures llyghes lloegyr o fyrchuant[6]

[1] Qu. na vo uch, &c.
[2] Korant.
[3] Ar -Ll. E. D.
[4] Ymdrechu.—Ll. E. D.
[5] Ysgain dros. -Ll. E. D.
[6] A gyrchant.—Ll. E. D.

Lluoed avledneis treis a geisiant
Am gyhoed ty roed[1] taer ostygant
Y tyreu kadarn yn uann y gunant
Am dal tyrva y turneimant
Am gyghaus undyd rif myrd a syrthyant
Am voroed kyhoed y kymynant
O honau disgoganaf na hilia plant
Ac nyt mi ae kel nys treulant
Oesvot adyvyt Dovyd ac divant
Brython ae treula penna urdant
Brith vyd a dybyd o dicter Karant
A Seis byd lauen pan y guelant
Dygogan tyvyrru erymes tra bydant

YMDDIDDAN Y SAINT A CHYBI.

Wrth fyned i Ynys Enlli.[2]

Pan oedd seint senedd Brevi
Yn ol gwiw pregeth Dewi
Drwy arch y Prophwydi
Yn myned i ynys Enlli
Yno i gofynnent i Gybi[3]
Bwy borthiant sydd ar weilgi[4]
Duw a ro cyngor ini[5]
Ar dir a mor yleni[6]
Cann haws[7] gan Dduw roddi
Na chan ddyn diddim erchi
Mae medd y Prophwydi
Ddau parthiant byd or heli[8]

Gweddiwn Dduw o ddifri[9]
A goddefwn galedi[10]
Ni chair lles o ddiogi
Trech llafur no direidi

Yno i dywawd Eleri
O chredir llyfr Genesi
Ni rodd Duw ddyn geni[11]
Heb lafur iddo iw borthi[12]

Wellwell fydd Duw oi addoli[13]
Waethwaeth[14] Diawl oi berchi
Dirwest ffydd[15] a gweddi
A orfydd bob caledi[16]

[1] Tyroed.—Ll. E. D.
[2] Aneurin ai cant medd rhai llyvrau.
[3] I dywedasant (dyfod hon) wrth gybi
[4] Pa (ryw) vwyd a geir yngweilgi.
[5] Gyngor i chwi.
[6] Ar dir a mor a drysni.
[7] Mil can haws.
[8] Deuparth da (y) byd yn heli.
[9] Gweddiwch dduw yn ddifri.
[10] A goddefwch (fawr) galedi.
[11] Ni roes duw ddyn iw eni.
[12] Heb ryw luniaeth iw borthi.
[13] Foli.
[14] Waethwaeth fydd.
[15] Dirwest a chred.
[16] Clefyri.

Y mwyaf yn nydd cyfri[1]
Y mwyaf ei amherchi[2]
Yr haccraf ei ferthyri[3]
Teccaf a fydd ger bron Celi[4]

Nag ofnwch for heli[5]
Mwy nor fwyalch ynghelli
Nidd ardd nid erddir iddi
Nid llawenach neb no hi

Archwn i Dduw un a thri
Arglwydd yr holl arglwyddi
Iesu ar ei bum gweli
Yn dwyn o bob cyfelrhi[6]

AWDYL.

Kyvaenad kelvit
Kynelv o Dovit
Kyvaenad kynan
O Crist kein didan
Ac vei gyverkinan
Am y gylchin huan
Ar gynniver pegor
Yssit dan y mor[7]
Ar gynnifer edeiniavg
A orug kyvoethavg
Ac vei vei paub
Tri trychant tavaud
Ny ellynt wy traethaud
Kywoetheu y trindaud
Din dyval y vawd[8]
Ni erfyll cospavd[9]
Cymmun bid paraud
In erbyn trindaud[10]
Bit glaf glevychaud
Ban wanha ei gnaud
I ddiovryd yssictaud[11]
Gvae ti din hewid
Pir dodvid im bid
Onit imwaredit
Or drug digonit
Neud uit yth rehit
Yt vrit a kerit
Drud dy tihenit
Dy imtuin ar logelvit
Truach dy divet
Dy lafuriav o uet
A segi a thraet
Ymplith prit a thudwet

[1] Y mwyaf ei glwyf ai dlodi.
[2] Rhydd a fydd yn nydd cyfrif.
[3] Ar llaw a gar ferthyri.
[4] Hagraf a fydd garn bron Celi.
[5] Nac ofnwch ormod bwystri (prwystri).
[6] Cydfedhorni (klyvyri).
[7] Yscid y dan mor Ffawd.
[8] Ni eruyn cospaud.
[9] Trallaud.
[10] Y diodrut yscaut.

Diavael[1] dy imteith
Dy iscar ath cedimteith
Corph diffit direit
Gobvill oth eneit
Corph ni gliuit
Pe lleveir y gilit
Pa roteiste oth revet
Kyn kywes arget
Pa roteste oth olud
Kin pwll mwll mut
Ac i harvetud
Ac i diadaud
Ac ni rywelsud
Y meint a garyssud
Ac itoet owud
Y luru tenit dud[2]
Ad aon[3] itaethant
Y kymmeint no finniaut
Prid prin udechant
Othrud a geugant
Ag ysmortmant
Mal gosod amrant
A veleiste ogarant
A vu treis tra geissant[4]
Ny phecheiste guener
Oth vaur etyllter
Ni cheuntoste pader
Na philgeint na gosper
Pader priw traethawd
Gobvill o nebawd
Namyn y trindawt
Rhytalud istedlid
Tri seith pader beunit
A wu ag nid oes
Ac ni threghis eu hoes[5]
Moe y dinwassute merwerit, no phregeth efegil
An deid i glethvir gverth[6] na buost ussil
Ni phercheiste creireu
Na lloc na llanneu
Nid endewiste kiwreu
Beirt goveg hygleu
Ni phercheiste kivreith
Kreavdir new kin lleith
Llyaus anghivieith
A dodute ar di areith
Gwae fi pir imteith
Genhide in kyveith
Gwae fi pir wuu[7]
Ar dikivolu
Pan daethume attad
Oet bichan vi mad[8]
Neu rimartuad
Oth lavr kiveithad

[1] Dihafal.
[2] Teint dud.
[3] A duon, daon, ad *bona*.
[4] Tragissant.
[5] In hoes.
[6] Gurth.
[7] Wuvf, wuu.
[8] Vi anvad.

Arnun nin cred
Ni neb oth tremynt trvyted

AWDYL.

Eneid kit im gvneit
In agheu digerit
Gwir yw gvae vinneu
Pir daethoste im goteu
Nag irove nag agheu
Na divet na dechreu
O seith lawanad
Bann im se suinad
O seith creadur
Pan in roded[1] ar pur
Oet un tan llachar
Pan im roted par
Oet un prit daear
Nim dyhaetei alar
Oetun gwint gouchaf
Llei vyn drwg nom da
Oetun nyvl ar mynit
Yn keissav kedonit
Oetun blodeu y guit
Ar wyneb elvit
Am suinase dovit
Im dodath ar devnit

AWDYL.

Nag un adneir un[2]
Neu runwared un[3]
Keugant kyuranghawn
Wide kywascaran[4]
A chiwnod senet
A cheugant kinadlet
A dadvirein o vet
Gvedi hir gorvet
Kyvaethawc Duu a wet
Y din in y deheu wuchet
A dyadu tan
Ar pobloet anylan
A lluch a tharian
A llyaws llydan
Ny lletraut lle dinag
Na didrif na diag
A wide tagde
Teernas arvereu
Dygettaur y trillu
Rac drech drem Iesu
Llu guirin guirion
Eiliu egilion
Llu arall brithion
Eiluu brodorion
Trydet llu divetit
Syth leith gyweithit
Huiliant i glithuir im parthred dievil
In un in daon
Gan dull aghivion
Myn i mae meillion
A gvlith ar tirion
Myn i mae kertorion
In kyveir kyffon
Kein bit eu govalon
Gan gwledig gorchortion
Myn i mae ebestil
Am teernas uwil
Myn i mae periw hael in i claer kyveistet
Rotiat bid beddrael nid gvael y gerennit
A chin deginnull enne eilivert vedit
Or saul dymguytat ar lleith dim gorbit
Ac ew gweith dvngv nelemne dunbrodic dit
Nis rydraeth ryveteu kyvoeth rvyteu dovit

AWDYL.

Kyntaw geir a dywedaw
Y bore ban gyvodaw
Croes Crist en wisc am danaf

Ar helv fy rhen i g6escaw
Hetyw untrev a gl6aw
Nid ew wy Du6 nis credaw

Gwisaw am danaf in berth
Ny credaf coel canyd kerth
Y gwr am creuys e am nerth

I mae vi mrid ar debed
Arowun ar mor wyned
Etyl butig bithawl ket

I mae vi mrid ar kighor
Arovun myned ar mor
Etyl budig bytawd ior

Dyrchid bran y hasgell
Ar ovun myned im pell
Etyl budig bydawt gwell

Dyrchefid bran y hadein
Arovun myned Ruvein
Etil butig byta6d kein

Ystarnde wineu ffrvin gvin
Rhedeg hiraethawc rhawn rhin
Rhen new oet reid Duw genhin

Ystarn de wineu byrr y blew

[1] Dodaeth.
[2] Neu unadneirun.
[3] Neu runwaredun.
[4] Kywiscarn.

Ruid ygniw rygig otew
Myn yt fyt tróyn yt fyt trev

Ystarn de wineu hir i neid
Ruid igniw rygig woteid
Ni lut ar lew trev direid

Trwm kytvot daear tev deil dris
Chwerv vuelin met melis
Rhen new rhóita de neges

O eissillit gwledig a gweith
Wdig wosprit, a Phedir penn pob ieith
Sanffreid fwyna de in imdeith

Heul eirioled arowned
Argluit Crist Celi Colovin Cred
Dwcc viff wyn pechod am gweithred

Terwyn pisc tuth eleirch tonn
Trybelid areith
Duw i din a denvin kedimdeith

Goróyn blaen pertheu kei gyvreu
Adar hir din bann cogeu
Trugar daffar Duw oreu

Mi ai gowynneis y Offeirieit bid
Ac hescib ac higneid
Ba beth oreu rhag eneid

Pader a bóyeit a bendigeit creto
Ae canho rhag eneit
Hid wrawd goreu gortywneit

Yskithrich fort a delhech ti
A llunhych tagnevet
Nyth vi tranc ar tragaret

Rho vóyd i newynawc a dillad
I noeth, a cheinc olychwyd
O Cyfyl dievil dothvid

Syberw a segur dolur
Ar eu cnawt guerth vynet tros vessur
Ystir nithieu ni bo pur

Rhy hun a rhyvetudawd a rhywirawt o vet
A rhy etylldea o ynawd
Llyna chwech chwerw erbin brawt

Anudon am tir a brat Arglvit
A divanó llawgar
Dit brawt bitawd ediwar

O kyvoti pilgeint a deweint
Dyhunaw a ymeitunaw seint
It keiff pob Cristiaón Maddeuant[1]

[1]Cyrreisiant.

AWDYL,

CUHELYN A'I CANT.

DEUS Ren
Ry mauy Awen
Amen fiat

Fynedig waód
Ffrwythlawn draethawd
Rhy bestawt

Herwit urten
Awdyl Keridwen
Ogyrwen amhad

Amhad anav
Areith awyr llaw
Y kau keiniaid

Cuhelin Bart
Cymraeg hart
Kit wrthodiad

Cert cymwynas
Ket kyweithas
Ni faintimeit

Gathyr kywystrawd
Kyvan volawd
Cluttawd attad

Kyvrgein genhid
Cor a chiwit
Cyhyd cydneid

Kywrgryn kywfle
Kywlan flamde
Kywvire vad

Kenedyl worord
Kywrisc woscort
Kyg hygneid

Kywolu waór
Kywaus mawr
Kir llavreucheid

Kerit vychod
Kerenit not
Clod achubiad

Clo celwit
Kant kalan kit
Kynnullyd greid

Cuhelin doeth
Kymraec coeth
Cyvoeth awyr llaw

Kelvit it gan

Clyvir vir Aeddan
Kywlafan lev

Kert kyvlawnder
Kadeir dirper
Cadir wobr yw

Kan halogicion
Caffod eilon
Keinon wrthaw

Can tyirnet
Cathyl gyhidet
Kywrys wyn

Campus veirch
Canhyn au peirch
Kywreneirch glyw

Cor 6aradred
Kenedyl noted
Ket kyvetliw

Lliwet a h6n
Llysseit eitun
Llun venediv

Llyd am kywor
Llog defessor
Llog porth anaw

Llygrin kydrun
Lledvegin grim
Llim yd grin glew

Lleuver synhvir
Llawer a vyr
Llwir id worriw

Gor pegwr gwlet
Drwy tangnefet
Het o hediw

AWDYL.

Gogonedawc Argluit hanpich gvell
Ath vendicco de eglvis a chagell
A kangell ac eglvis a vastad a diffwis
A teir finhaun yssit due uch gvit
Ac un vch elvit a y riscawd ar dit
A firig a pervit
Ath vendiviste Awraham penfit
A vuchet tragivit
Adar a gwen a attpavr a dien
Ath vendigaiste Aron a Moessen
A Vascal a femen
A seithnieu a ser a awir ag ether
A llyvreu a llyther
A physcawd yn hydir ver
A kywit a gweithret a thyvot a thudwet
A sawl da digonet ath vendigaf de Arglwit
Gogoned gogonetawc Arglwyt

AWDYL.

Bendith y wenwas ir dec diyrnas
Breisc don bron ehelaeth
Duw i enw yn nufin ymhob ieith
Dyllit en6ir Meir rymaeth
Mad daethost di ynghorpolaeth
Llyna mab gwyri gobeith
A dylivas Idas y leith
Bu drwy vevyl a thwyllvriaeth
Yn hudawl gwar gwassanaeth
Y Arglwydd bu hewit ac ni bu ddoeth
Ac hyd vrawd ni vu i arvaeth
Kyffei Bart Prydit
Ar y syt yn elfit
Ar hallt ar echwit
Ar graian ar mir ar syr syweddiaeth
Beirniad rhodiad llaru llaw fraeth
Mwi i dynwasswn i ganawn i edwaeth
Kyvoetheu rhi nysyrdraeth
Mawr Duw heddiw moli dywr daeth

Bendith naw toryf nef ir kelvydd
Creawdur Cyfoetha6c Duw Ddofydd
A beris lleufer llewenydd
Hael vyhver heul yn dydd
Ail canwyll Cristiawn a lewychydd
Uch eigiawn lloet vilwedd vilenydd
A thrydydd rhyfedd yw merwerydd
Mor kv threia evd echwydd
Digones perew pedwerydd
Rhyvedd rhedeg dvc dwfr ech6ydd
Kv da kvd ymda kw treigil kv threfna
Pa hyd anev evd vydd
Ympen y seith mlynedd
I duc ren y Rhyssedd
Y dat wedy nyd wyt
Iolune arabeir Cyvoetha6c Dduw Mab
Meir, a beris new ag elvit
O uffern a vu ran iti bu rydd
Rhen nef ry ffrynom ni dy gerennydd

Brenin gwirthwin gwyrth uchaf
Y sydd y sy penn plant Addaf
Yssi per gadeir gadarnaf
Yssi hael diwael diwerhraf a diwir
Yssi o wir yd pridaw
I Duw mawr i Dduw llawr llariaf [fyw
I Duw gwinn g6engerdd a ganaw yn i

I Duw yn ddyn digeryd or defnydd i dellaf
O bechu a bechwys Addaf
O bechawd cyn brawd pryderaf erbyn oed
Y dydd y del pawb oe bedd yn y deuredd yn deuraf
Mal i bu pan vu oreuhaf
Yn un llu yn un lle teccaf
Hyt ymhen un bryn erbyn eu barnu or teulu teilyngaf
Teilyngdawd wascawd osgordd naw gradd nef
Vy Dews kynnu llawdd
Vy Deus Dominus menawd
Vy barddeir y beirdd y vedyssa6d
Fy maurhydic non fy mherchen
Fy mharch cyn tywarch cyn tywa6d
Am gadu i draethu traethawd
Yth voli cyn tewi tafawd
Am im cof mal Iob a ddywawd
Wrth y wreic y am dreic uffyldawd
Ban dywu gwas Duw diwarnawd
Attaw ir ymbrav ai briawd
Rhoddes ef ddirneid cyn dyrnawd
A bilwis o bilion i gnawd
Kan ydoedd hagen hygaf i roddion
A roddei o nebawd
G6naeth trugar y gardawd
Yn evr koeth kyvoeth y driudawd
Y mas maeistawd y mae mol
Duw adwin yn codi
A diwad pechawd wid wedi
A diwin kelu brad Keli
Kulwid Arglwydd nef naw canma6l
Attad gwenwlad vàd veidroli
Gwenwlit rhydd rhieiddun voli
Gwyn gar kar gwar gwirionedd kedwi
Ni ched6is Eva yr avallen pen bârwys Duw wrthi
Am i cham ni chymv a hi
Gwyth goleu a oreu erni
Rhyw dudded edmic o gyllestic wisc a gwisc6ys am deni
Perif nef a beris iddi
Ymhervedd ei chywaeth y noethi
Ag ail gwyrth a wnaeth ehelaeth
Arglwydd a erglyw ei voli
Ban vynnwys gochel y deli
Sef ffordd y ffoes iddi
Yn yd oed aradwr yn eredig tir
Herwydd gwir y gweini
Y dywawd y Drinda6d Geli
Ew ai mam dinam dawn owri
A gwr gwyn twrr gwyr gwedi
Ni addaw y geissyaw yn gwesti
Or owris y win yddi
A gwelest gureic a mab genthi
A dy6ed tithau crolav gwironedd
Nith omedd yngweddi
Yn gweled y myned hebddi
Y randir a rhad Duw arni
Ar hynny y doeth digyfoeth gwerin
Llin Kain kadverthi
Toryf anwar enwir y hynni
Twr keisseid yn keissaw koeli
Y dywad un gwrthwn gwrtharab
Wrth y gwr a weli
A gweleisti ddynion dyn gowri
Yn myned hebod heb-drossi
G6elais pan llyvnais y lleudir degwch
A welwch i medi
Sef a wnaethant plant Kæi
Y wrth y medel ymchweli
Drwy eirioled Mair Mari oe gwybod
G6ybu Duw o heni
Ydd oedd y diffryd gyda hi
Yspryd glan a glendyd ynddi

TERVYN Y CYNVEIRDD.

Y GOGYNVEIRDD.

CANUAU MEILYR.

Meilyr Brydyt a gant yr Awdyl Varwnat hon i'w vreiniawl uchelrat Gruffut ap Kynan Tywysawc Gwynet diffynwr a tharyan Kymru oll. A uu uarw yn niwet y ulwytyn 1137 wedi itaw deyrnasu yn uilwreit 50 mlynet.[1]

Rheen nef mor rhyfet i ryfetawd
Riau rwyf elfyt rwyt i folawd
Rex radau vruo ryn fynghardawd
Rec rydeirinam ynn[2] rhan drindawd
Pann dyfo dofyt yn nyt pennawd
Peryf par urthfynn yn erbyn brawd
Pann gaffwyf i y gan glain glan gyflogawd
Can dyddaw angeu angen drallawd
Ac eu[3] dra drymhaf trengi metwawd
Llys lleufer ynys gurys gorfyndawd[4]
Py dawant anant na phrydant wawd
Y Edwyn[5] terrwyn torf y forawd
Nid adfarn certau nid gau daerawd[6]
Ni duc neb ceiniad nag o honawd
Yn awen gyfrif kenif draethawd
Y ri a roai heb esgusawd
Gruffut glew dywal ar orfetawd[7]
Gwir gwae i werin gwin eu gwirawd
Gwr a lywai lu cyn bu breuawd
Blait bytin orthew yn derw blynghawd[8]
Yr perygl preitwyr peri ffossawd
Pascadur cynrain[9] Prydain briawd
Handoet gadgyffro[10] o Anarawd
Ac ail o Run Hir ryfel durawd[11]
Gwanai ynghynghor eissor Medrawd
Mal Urien Urdden ai amgyffrawd
Gweled i ben llu ni bu defawd
Mur cadeu neuaddeu o ystyllawd
Cyn myned mab Cynan y dan dywawd
Ceffid yn i gyntet met a bragawd
O olo Gruffut yn rut fedrawd[12]
Cwynym[13] dragon dwfn dygn diwrnawd
Ergyr waew brwydrin cyn rhewin rhawd[14]

[1] *Neu val hyn*—Marwnad Gruffudd ap Kynan ap Iago ap Idwal ap Meurig ap Idwal Foel ap Anarawd ap Rhodri mawr brenhin holl Gymru.
[2] Rec rydeiri namyn
[3] Ac yn.
[4] Gorfywdawd.
[5] I Edwyn, Etuyn.
[6] Gan daearawd. [fetaut.
[7] Orwetawd, oruetaut, or-
[8] Deno blygawt.
[9] Pasgawdur cywrain.
[10] Handoed gan gyffro.
[11] Ddurawd, dinawt.
[12] Feddrawd.
[13] Cwynyn.
[14] Ruawd ryawt

Rynn[1] ruthrai dorfeit oet[2] rybarawd
Ry gadet[3] Rufain reg atwyndawd
Ni fynnai gamhur garu nebawd
I gymeriait[4] lyw dotyw dyrnawd[5]
Difa draig wron weinion[6] wascawd
Gogwyppo i Dduw oi diwetawd
Nad el[7] yn rygoll oi holl bechawd
O gyfranc brenhinet brain fotawc[8]
Pan fai gyfluyt[9] o wyr gwychawc
Atcoryn deyrnet yn weinytawc[10]
Pob pump pob pedwar yn war weiniawc
Gwylynt golithrynt yn ogelawc
Rhag un mab Cynan y cyndyniawc
Yr arynaic lew llaw diferiawc[11]
Ni lut i erlid yn odidawc
Ceiniad cas agarw[12] syberw serchawc
Ced galwed unic[13] nid oet ofnawc
Ar boh rai reitiai yn aur rotawc[14]
Rag bytin Emrais drais drahawc
Cadau dididyt[15] cletyf durawc
Cwl clywed cystut[16] ar grut mynawc
Can gertau cyhoet oet arterchawc
O Ysgewin barth hyd borth Efrawc[17]
Dybu brenhin Lloegr yn lluytawc
Cyd doeth ef nid aeth[18] yn warthegawc
Ni yn Eryri yn reiawc
Ni thorres i baur a fu breitiawc
Gruffut grym cyhoet nid oet gutiawc
A diffyrth i wyr yn Orwythawc[19]
Cyfamuc i wyr[20] a mil farchawc
Clywed i gyma ut tra bannawc[21]
Brenin brwydr efnys gwrys gwellyniawc
Penn riau parau anoleithiawc
Perchen pefr ystre o re fyngawc[22]
Modrydaf Cymry erchi farchawc[23]
Ar wyneb neuat yn amniferawc

[1] Fryn.
[2] Oeth
[3] Ry gaded
[4] I gymereid
[5] Dyrwawd.
[6] Fron-weinion.
[7] Pan el.
[8] Ffotawc.
[9] Gyflwyt.
[10] Renytawg, reenydawc, reuetawc.
[11] Differiawg, difeiriawc.
[12] Cennad (kenyad) cas a garw.
[13] Kyd bei unyc.
[14] Reidyei yn eurodawc, anrhodawc.
[15] Llatau (ladeu) dididyt.
[16] Cwl clywynt, clywyd.
[17] Eurawg.
[18] Cyd daeth nid aeth.
[19] A dyphyrth y wyr yn orwetawg, orwytawc.
[20] Cyfamug ei wir. [awg.
[21] Clywed a gyna yd traban-
[22] Perchen peufer (peuur) ystre or re vygawc.
[23] Ei rhi (erhi) varchawc.

Nerth Rodri rei rywascarawc
Cyn myned mur ced yn dawedawc
Dym guc neum goruc yn oludawc
Yfais gan deyrn o gyrn eurawc
Arfod faet feitiad[1] anghad weiniawc
Yn llys Aberffraw yr ffaw ffodiawc
Bum o du gwledig yn lleithiawc
Eilweith yt aethum yn negessawc
O leufer llyw camawn iawn dywyssawc
Bu fedd aegylchwy[2] yn fodrwyawc
Torressid gormes yn llynghessawc
Gwedi tonnau gwyrt gorewynawc
Dyphorthynt i seirch meirch rygyngawc
A fu[3] neud gweryd yn war weiddiawc[4]
Gwae a ymtiried wrth fyd bradawc
Ni wyl[5] cychwil feirt cyhusseitiawc
Tymp pan dreing terwyn torf diffreidiawc[6]
Cwyniff ni bytif[7] diebreidiawc
Delw yt am gyrrwyf bwyf cynheiliawc[8]
Crist cyflawn anwyd boed trugarawc
Wrth Ruffut Gwynet gwylet fotawc
Yngwlad nef boed ef yn draftadawc
Nad i enaid hael yn waeletawc
Hael a ri a renni ynny rhyhyt[9]
Ni chronnai na seirch na meirch gweilyt
Gwladoet ofynaic draig Gwyndodyt
Gwr a roddei gad kyn dybu i dyt
Gruffut grym angor eissor merhyt
Marchogai escar ar elorwyt
Arbennic cenfaint ceraint weinyt
Cynrheinion[11] ysgwyd ysgororyt
Yn i fu weryd i obennyt
Ni bytai diwyth i lwyth oswyt
Amugei dragon udd Mon meindyt
Men yd las Trahaiarn yn Gharn fynyt
Y dau dywyssawc deifniawc dedwyt
Brenhinet Powys au Gwenhwyssyt
Gorau gwaith gwynniaeth ai gyweithyt
Pan gedwis i wyneb heb gywilyt
Cutynt cyfuofaut cant cyfoedyt[12]
Cyngen gymmynid gwytfid wryt
Taer tertyn assau talau trefyt
Torri calchdoet tiret trenyt
Am drefan dryffwn rac eirolyt
Tyrfai rac llafnau pennau peithwyt
Caith cwynynt certynt gan elfyt
Cnoynt frein friwgic o lid llawryt
Llenwyt dwreawr[13] i fawr faessyt
Delid meirch amliw a biw elfyt
Gwern Gwygyd gwanai bawb yn i gilyt
Gwaed gwyr goferai gwyrai onwyt
Or maint a dyfu ar eu edryt

A duc oe gadau chwedlau newyt
Cad rag Castell march maur ewedyt[1]
A Chadau Cynwric wyrenic wlyt
Y gad gynghywair[2] ym Meirionnyt
Arglwyt glew gadarn haiarn dyfyt
Ni fotes mawret en merweryt[3]
Yngwaith y Waederw chwerw chwelidyt[4]
Cad Geredigiawn gyfiawn gywyt
Crefynt[5] gwraget gwetw gotiwedyt
Cad yn Iwerton dirion drefyt
Gan ai canfu ni bu feryt[6]
Cad rag tal Prydain prennial fethyt[7]
Gruffut a orfu rag llu gwythryt
Cad rag castell Mon mor digeryt
Dybu oi gyffred gwared bedyt
Dewissais in hau nid gau defnyt
Ar emys i lys ai luossyt
As rotwy fy rên rann dragywyt
Yngwerth a rotes ar lles Prydyt
Ni wtant fanfeirt ni faur gynnyt[8]
Pwy a ennillo or do y syt
Edewis eurwas clas Cymreyt
Canawon mordai mynogi ryt
Dytwyreo Owain Eingl didudyt
Ennillot llyw ystrad lle i gilyt
Gwelant glyw Powys i bell oessyt
A hawt i ergryd hyd lew divyt
Cadwallawn gedawl o gynfedyt
Cyntaic ar gann calan weinyt
Gnawd gwarchan a gan eu haweinyt
Yr arfod[9] adwy hwy a orfyt
Gruffut grym wriawr oe fawr vevyt
Nim didoles nu ny bu gelwyt[11]
Yn i fwyf gynnefin a derwin wyt
Ni thorraf am car fy ngharennyt
Carennyt y syt herwyt trined
I Gristiawn ys iaun i gyrrhaeted
Crefyt y Creawdr i cyfrifed
I Ruffut gloyw ut ae cut tudwed
Hyd nas gwnel pechawd pell eiliwed
Pedrydawc deyrn uch cyrn Coned
Cenif nis dygif yn diabred[12]
Marwnad mur tewdor mor dylyed[13]
Cadernid rhewid[14] cynn noe fyned
Ergrynnai fy mhwyll o bell gerted
A dyfo mab Cynan maur amgyffred
Can Grist cain forawd[15] gwlad ogoned
Pan gaffo penn gwyr peuer ymtired[16]
Gan engylion foes nym oes neued
Un undawd Drindawd drwy rybuchedd[17]
Gan glain gloyw addef yn nef drefred.

[1] Aruot uaet ueithyat. cynheilwawg.
[2] Eurgylchwy. [9] Yny ryhyt
[3] Anu, a ni. [10] Guladoet (ef) ouynneic
[4] Weidiawg, feitiawg. dreic gwyndotyt.
[5] Ni wyr. [11] Kynreinion.
[6] Difreityawc. [12] Kutynt kyfnouant cant
[7] Cwynis ni byddis. kyuoedyt.
[8] Delw yt amgyrwys bwys [13] Llenwyd dwy reawr.

[1] Edwdyt.
[2] Goglyweir.
[3] Y merweryt.
[4] Gwelidyt.
[5] Crenynt, creuynt.
[6] Bo feryt.
[7] Prenuyal uethyt.
[8] Genfyt, gynfyt.
[9] Yn arfod.
[10] Feuyt. ueuyt
[11] Ni wybu (wy bu) geluyt.
[12] Diabred.
[13] Nor dylyed.
[14] Rewyt.
[15] Ceinfolawd.
[16] Pefr ymtired.
[17] Yn undawd.

I DRAHAEARN A MEILYR.

Meilyr Brydyt a gant yr Awdyl hon yn y lluyt y llas Trahaearn vab Caradawg, a Meilyr mab Riwallawn vab Cynvyn.

Gwolychaf ym Ren rex awyr
Arglwyt a wyr uym pryder
Pryder pryderaf yn fawr
Am uy arglwyt llawr llyw niuer
Ny dotynt dros uor etwaeth
Pobyl anhyuaeth Nanhyuer
Gwytyl dieuyl duon
Ysgodogion dynion lletfer
Cad a uyt ym mynyt carn
A Thrahaearn a later
A mab Rywallawn rwyf myr
O'r gyfergyr nyd aduer
Difieu ym pen y teir wythnos
Tru a nos[1] yd ith later

DIWEDD.

MARW YSGAFYN VEILYR BRYDYT.

Rex regwm rybyt rwyd ei voli
Ym arglwyt uchaf archaf weti
Gwledig gwlad oruod
Goruchel wenrod
Gwrda gwna gymmod
Yryngod[2] a mi
Adfref adfant cof dy rygodi[3]
Erof ac edîuar y digoni
Digonais geryt
Yg gwyt duw douyd
Vy iawn greuyt
Heb y weini
Gweini fi[4] hagen ym Reen ri
Cyn bwyf deierin diuenynni[5]
Diheu darogant
I Adaf ae blant
Y ry draethysant
Y prophwydi
Bod Iesu ym mru merthyri
Mair mad ymborthes y beichogi
Baich rygynnulleis
O bechawd annoueis[5]
Ry dy ergryneis
Oe gymhelri
Rwyf pob fa[7] mor wyt da wrth dy ioli
Ath iolwyf ry purwyf cyn o'm[8] poeni
Brenhin holl riet
Am gwyr nam gommet

[1] Tu a nos, trayan nos.
[2] Gryghod, yryghod, MS.
[3] Adureu aduant cof dy rygoti.—MS.
[4] Gweiniui.—MS.
[5] Diuenynhy.—MS.
[6] Annofais.—MS.
[7] Ua & wa.—MS.
[8] Nom.—MS.

Am y drugaret
Om drygioni
Ceuais i liaws awr eur a phali
Gan vreuawl rieu er[1] eu hoffi
Ac wedy dawn awen amgen ynni
Amdlawd fy nhafawd ar fy nhewi[2]
Mi Veilyr Brydyt bererin i Bedyr
Porthawr a gymmedyr gymhes deithi
Pryd y bo cyfnod yn cyuodi
Y sawl y sy' met armäa fi[3]
As bwyf yn adef
Yn aros y llef
Y lloc a achef
Aches wrthi
Ac ysi didrif[4] dideul ebri
Ac am y mynwent mynwes heli
Ynys veir uirain
Ynys glan y glain
Gwrthrych dadwyrain
Ys cain yndi
Crist croes darogan
Am gwyr am gwarthan
Rag Ufern afan
Wahan westi
Crea6dyr a'm cre6ys am cynn6ys ym plith
Plwyf gwirin gwerin Enlli

Tervyn bardoniaeth Meilyr Brydyt.

GORHOFET GWALCHMAI.

E HUN AI CANT.

Mochdwyreawg huan haf dyfestin
Maws llafar adar mygyr hyar hin[5]
Mi ydwyf eurdedf diofn yn nhrin[6]
Mi ydwyf llew rag llu lluch fy ngordin
Gorwyliais nos yn achadw fin
Gorloes rydau[7] dyfyr dygen freidin
Gorlas gwellt didrif dwfyr neud iesin
Gordyar eaws awdyl gynnefin
Gwylain yn gware ar wely lliant
Lleithrion eu pluawr pleidiau edrin[8]
Pellynig fy nghof y' nghyntefin
Yn ethryb caru caerwyd febin[9]
Pell o Fon fain ydwyti dwythwal werin
Esmwyth ysyd[10] yn aserw gyfrin
Yd[11] endewis enau yn achlysur gwir
Ar lleferyd gwâr gwery ei lain
Ac er[12] lles Owain hael hual dilin
Dychysgogan Lloegyr rag fy llain

[1] Yr.—MS.
[2] Amdlawd uyn tavawd ar uyn tewi.—MS.
[3] Arma a ui.—MS.
[4] Ac yssi ditrif.—MS.
[5] Mygy hear hin.—MS.
[6] My ytwyf eur detyf di-ofyn yn rin.—MS.
[7] Lleithyryon eu pluawr
[8] Rydyau.—MS. pleidyeu etrin.—D.D.
[9] Ethrip caru kaerwys vebin.—D.D.
[10] Yssyt,—MS.
[11] Yt.—MS.
[12] Acar lles.—MS.

Llachar fy nghledau lluch yd ardwy—glew
Llewychedig aur ar fy nghylchwy
Cyfun westlawg dyfyr dyd neud gafy[1]
Cathl o ar adar awdl osymwy
Gorfynnig[2] fy mhwyll ymhell amgant
Hedyw wrth athreidiaw tir tu efyrnwy
Gorwyn blaen afall blodau fagwy
Balch caen coed bryd pawb parth yd garwy
Caraf Gaerwys fun fenediw deithi
Cas genyf genthi ni gynhelwy[3]
Gennilles a'm llif ced a'm lladwy—ar air
Fy muner nid mawr imi fy ngofwy
Gwyn ei fyd padiw Duw yd ragwy
Rieinged rwych wyry wared Lywy
Llachar fy nghledyf lluch ei anwyd
Y' nghad llewychedig aur ar fy ysgwyd
Lliaws a'm golwch nym gwelsant er moed
O rianed gwent gwyllt ym crybwylleid
Gweleis rag Owain Eingyl a'u hadoed[4]
Ac o du ribyll rebyd y' ngreid
Gwalchmai ym gelwir gelyn y saeson
Er[5] lles Gwledig Mon gweint ym mhlymnwyd
Ac er bod Llywy lliw eiry ar goed
Pan fu aer rag caer cyforiais waed

Gwaedreid fy nghledyf a godrud y' nghad
Cyn nechrau fy udd ner
Cynnygn fy llyw oedd llawer
Cwyddynt ynguif seithrif ser
Rhif ser rwy cigleu cigwledd rad—i frain
O freisgwyr ardwyad
Cerhynt fy llyw nid lledrad
Cwrr gogof cyrrheidd coscad
Cadwent pan gyrchaist gyrch union—senig
Sangei bawb ei alon
Parthred gwyth mal gwaith fadon
Porth athwy myrdd ofwy mon
Ym Mon bendragon ban dreigiau—Prydain
Wyt prydfawr ith arfau
Cefeist a donaist yn dau
Cad anhawdd y coed aneu
Cedwaist cad orfod caen orferw—gwaedlin
A gwaedlaif yn ymherw
Cyd tan trwy wan trwy agerw
Ced hy cad fry fron yn erw
Erwan teyrnedd teyrn udd—Prydain
Pryder Lloegr ai cythrudd
Ai law braw bryneich gystudd
Alun rac hil run bu rudd
Rhuddgreu ei arfeu arfeidd erlyn—Lloegr
Lliaws bardd o'i gylchyn
Dawn fu pan ddyfu yn ddyn
Dydd llawenydd Llywelyn

[1] *Allan o* L. E. D.

LLYMA ENGLYN

A gant CYNDDELW gwedi anfon Mynach o Fyneich Yschad Marchell iw wrthod ac i ddywedyd nas cleddynt yn eu Monachlog.

CEN ni bai ammod dyfod—i'm herbyn
A Duw gwyn yn gwybod
Oedd iawnach[1] i fynach fod
Im gwrthfyn[2] nag im gwrthod.

MARWYSGAFN CYNDDELW

Y GELWIR Y PUM-AWDL HYN. I DDUW.

CYFARCHAF i Dduw cyfarchwel iawn
I foli fy rhi rhwydd rhadlawn
Un mab Mair a bair pyrnhawn—a borc
Ac aberoed ffrwythlawn
A wnaeth coed a maes a mesur iawn
A ffrwythau a doniau Duw ry ddigawn
A wnaeth gwellt a gwydd
A grug ym mynydd
A wnaeth dedwydd—yr dedfryd iawn
Ac arall ar wall ar wellic ddawn
Yn eissiwedig ac yn ddigllawn
Archaf i fab Duw canys digawn
Commod o'n pechod pechu nid iawn
A chynnwys yn naf yn arnodded
Ir wlad eidduned myned a wnawn
Cyfarchaf i Dduw cyfarchaf
Ceinfolawd ardraethawd i ti a draethaf
Neud milioedd ath fawl fodrydaf
O'th dorfoedd ith derfyn uchaf
Neud mi a fynnwn fy naf—o'th ganiad
O'th gariad i'th gredaf
Neud cennyd cerdd glyd cynnelwaf
Ced wallaw na ad wall arnaf
Neud oedd fwy no rhaid rhad mwyaf
Rhwyf cedyrn yn cadw ar eithaf
Neum dychryn meddwl a feddyliaf
O bechu a bechws Addaf
Neud wyf alltud drud o dreigl dy wendud
Ath wendorf am danaf
Neud beirdd yr eglwys egluraf
Neud eu porth a barthwyd attaf
Neud hyfryd ny llwrw y lle a gyrchaf
Neud gobaith wrth benrhaith rhin a geisiaf
Brenin pob gwerin gwared arnaf
Gwedi treiglaw byd budd arnaf
O ganiad y tad teyrneiddiaf
Ar mab ar yspryd glendyd gloywaf
Yngoleuder deddf dedwydd fyddaf
Yngwarf engylion gwiriou gwaraf
Yngwenwlad wledig nef a archaf
Gwledig arbenig pan ith aned
Dyfu waredd ynn dyfu wared
Dyfu Addaf blant o blaid angred
O anghyfraith faith o gaithiwed
Dyfu yn gofwy un gofuned

[1] Iawn.—Ll. P. P. [2] Derbyn.- Ll. P. P.

Ry ddyfu wrhydri hydr afneued
Dyfu Grist ynghnawd priawd prifaed
Dyfu ym mru mair mab dymuned
Dyfu bumoed byd o boen galled
O dwyll o dywyll trydwyll trefred
O anghyffred gadwo gadarn—alar
O garchar esgar pan ysgared
Ac ef yw ein llyw an llwyr nodded
O farn wrth ein gwaith ar ein gweithred
Ac ef Arglwydd nef tangnef tynged
An dug o gyfrgoll pan archolled
Ac ef dwyre ynn ac ef daered—ei fudd
Ac ef Udd nin lluddan llessaed
Ac ef yn osseb yr ossoded
Yn hollawl meidrawl hawl huanred
A roddo i Dduw ei ddegfed—oi law
Heb luddiaw iddaw ei ddyled
Nid wyf fardd digardd ymdigoned
Ar helw fy nghreawdr llywiawdr lliwed
Mi Gynddelw geiniad rhad am rhodded
Mihangel am gwyr am gwrthfynned
Gwledig arbennig pan genais—honawd
Nid ofer draethawd a rydreuthais
Nid eissiwed ced man y cefais
Nid ef ym crews dews diffleis
I wneuthur amhwyll na thwyll na thrais
Nid ef digrefydd
A gretto Ddofydd
Nid ef ai cedfydd—clwyf defnydd clais
Nid ef ddihunaw ar handdenais
Nid ef rhoddir nef ir neb nyw cais
Nid rhwydd yr arwydd a weinyddais
Nid rhwy o obrwy ry obrynais
Nid perthyn ryfyg ryfegais—im bryd
Nid porthi penyd ryfeddyliais
Yn adawd rheen ry deidddunais
Rhyd im enaid rhaid rheolais
Gwledig arbennig erbyn attad
Er barch gogyfarch o gyfaened
Yn ddigabl ar barabl ar ei bariad
Fy ngherdd ith grybwyll canwyll canwlad
Can wyt priodawr can wyd meidriad —
mawr
Can wyd cynhorawr—gwawr goleuad
Can wyd bronn broffwyd can wyd ynad
Can wyd rieu hael can wyd roddiad
Can wyd athro ym nam eithriad—oth fanu
Oth faran oth irein wlad
Nam diddawl oth fudd udd echeiniad
Nam gwellyg ym mhlyg ym mhlaid irad
Nam gwallaw oth law gwallus drefrad
Nam gollwng gan llu du digarad. TERFYN.

HIRLAS EUEIN.

EUEIN KYVEILIAUC E HUN AI CANT.

GUAUR pen dóyre gaór a doded
Galon yn anvon anvut dynged

Geleurut ein g6yr g6edi lluted tr6m
Tremid gov6y mur Maela6r Drevred

Deon a yrreis dygyhyssed
Diarf6yd ar vr6ydyr arvau goched
A rygot6y gle6 gogeled ragta6
Gna6d y6 oi dygna6 devnyt coted

D6yalla6 di venestyr gan vothaed
Y Korn yn lla6 Rhys yn llys lly6 ced
Llys E6ein ar brait yt ryborthed eirioed
Porth mil a gly6i pyrth egored

Menestyr am gortha6 nam ada6ed
Estyn y Korn er cyd yved
Hiraethla6n am lly6 lli6 ton na6ved
Hirlas i ar6yt aur i duted

A dyt6c o vraga6d 6ira6d orgred
Ar lla6 Wgan dra6s dros i 6eithred
Kena6on Goron6y g6rt gynnired g6yth
Kena6on hyd6yth hydyr ei g6eithred
G6yr a obryn tal ympob caled
G6yr yngа6r g6erthva6r g6rt ym6ared
Bugelyt Havren balch eu cly6ed
Bugunat cyrn met ma6r a 6na neued

Dy6alla6 di y corn argynvelyn
Anrydetus vet6 o vet gore6yn
Ac o'r mynni hoedyl hyd un bl6ytyn
Na dida6l i barch can nid perthyn
A dyt6c i Rufut 6ay6rutelyn
G6in a g6ydyr goleu yn ei gylchyn
Dragon Ar6ystli ar6ystyl tervyn
Dragon O6ein hael o hil Kynvyn
Dragon i6 dechreu ac ni6 dychryn cat
Cyvlavan argrat cymy6 erlyn
Ket6yr yt aethant er clod obryn
Kyveton arva6c arvau Ed6yn
Talassant i met mal g6yr Belyn gynt
Teg i hydrevynt tra vo undyn

Dy6alla6 di y corn canys amcan cennyv
Yt ymgyrry6 gly6 gloe6 ymtitan
Ar lla6 deheu ein lly6 gyvlavan
Lluch y dan ysg6yd ysga6n lydan
Ar lla6 Ednyvet lla6r diogan le6
Ergyr6ay6 tryle6 trei i darian
Tervysc dyfysc deu diovn anian
Torrynt torred6ynt uch teg advan
Teleir6 ynghyngrein ynghyvran br6ydr
Tal ysg6yd eurgr6ydr torrynt yn vuan
Tryli6 eu pelydr g6edi pen6an
Tryl6yn yn am6yn am6i6 Garthan
Kigleu ym Maela6r ga6r va6r vuan
A gar6 disgyrr g6yr a g6yth er6an
Ac ymgynnull am drull am dram6yan
Fal i bu ym Mangor am ongyr dan

Pan 6naeth dau deyrn heb cyrn cyvrdan
Pan vu gyvetach Vorach Vorvran

Dy6alla6 di'r corn canys myvyr gennyv
Men yt amygant met a'n tymmyr
Selyv diars6yt Orsav G6ygyr
Gogelet ai ca6t calon eryr
Ac unmab Mada6c en6a6c Dudur hael
Ha6l bleitiad lleitiad lluch ar ysgyr
Deu ar6reit deu le6 yn eu kyngyr
Deu arial dy6al deu vab Ynyr
Deu ryt yn nyt cat eu kyvergyr
Kyvargor diachor camp diachyr
Arvod lle6od g6rt g6rt6an ced6yr
Aer gunieid lunieid coch eu hongyr
Treiser6yr yn f6yr fa6 ehegyr
Trei eu d6y aesa6r dan un ystyr
Gorvu g6ynt g6aetvan uch glau glasvyr
Gort6y clau tonnau Talgarth ystyr

Dy6alla6 di venestr na vun angau
Korn can anrydet ynghyvetau
Hirlas buelin breint uchel hen ariant
Ai gortho nid gortheneu
A dyt6g i Dudur eryr aereu
G6ira6d gyssevin o'r g6in g6ineu
Oni da6 i me6n o'r met gorau oll
G6ira6d o ban dy ben vateu
A lla6 Voreitig llochiat certau
Kertyn hyn i glod cyn oer adnau
Dieithr vrodyr vryd ucheldeu
Diarchar arial a dan daleu
Ced6yr am gorug g6asanaetheu
Nid ym hyn dihyll nam hen deheu
Kynnivieid gyrthieid vleinieid vleitiau
Kynvaran creula6n creulyd vereu
Gle6 gly6 Mochnann6ys o Bo6ys beu
O gle6 g6net arnatunt deu
Achubieit pob rheit rhut eu harveu
Eched6ynt rag tervysc eu tervynau
Moliant y6 eu rann y rei g6ynnau
Mar6nad vu neud mi ne6id y dau
O chan Grist mor drist 6yv o'r anaeleu
O goll Moreitig mawr ei eissieu

Dy6alla6 di'r corn can nim puchant
Hirlas yn lla6en yn lla6 Vorgant
G6r a dyly g6a6d g6ahau voliant
G6en6yn y at6yn g6an edry6ant
Areglyt devnyt dioteviant llavn
Llyvu i deutu llym ei hamgant

Dy6alla6 di venestr o lestr ariant
Kelennyg edmyg can urtuniant
Ar lla6r G6estun va6r g6eleis irdant
Ard6y Goron6y oet g6eith i gant
Ced6yr cyvarvaeth yt ym6naethant
Cad ymerbynieid eneid dich6ant
Cyvarvu ysg6n ac ysgarant aer

Llas aer llosget maer ger mor lliant
M6ynva6r o garchara6r a gyrchassant
Meurig vab Grufyt grym darogant
Neud oet goch6ys pa6b pan atcorsant
Neud oet la6n o heul hirvryn a phant

Dy6alla6 di y corn ir cynnivieid
Cena6on Euein cyngrein cydneid
Wynt a dyrllytant yn lle honneid
Glud men yt ant gloy6 heyrn ar neid
Mada6c a Meilir g6yr gortyvneid treis
Tros gyver6yr gyverbynieid
Tariannogion torv terfysc dysgeid
Trinheion vaon tra6s ard6yeid
Kigleu am dal met myned dreig Kattraeth
Ky6ir eu harvaeth arveu lli6eid
Gosgort Vynyta6c am eu cysgeid
Ka6ssant y hadra6t cas vla6t vleinieid
Ni 6naeth a 6naeth vynghed6yr ynghalet Vaelor
Dill6ng karcharor dullest voleid

Dy6alla6 di venestr vet hidlaid melus
Ergyr6ay6 g6rys goch6ys yn rheid
O gy n buelin balch oreureid
Yr gobryn gobr6yei heneid
O'r gynniver anhun a borth cynnieid
Nis g6yr namyn Du6 ac ai dy6aid

G6r ni dal ni d6ng ni byt 6rth 6ir
Daniel dreig cannerth mor verth he6ir
Menestr ma6r a g6eith yd ioleithir
G6yr ni oleith lleith oni llochir
Menestr met anc6yn a'n cydrotir
G6rtdan gloy6 goleu g6rtloy6 babir
Menestr g6elud dy g6yth yn Llid6m dir
Y g6yr a barchav 6ynt a berchir
Menestr g6elud dy galchdoed kyngrein
Ynghylchyn E6ein gylch6y en6ir
Pan breit6yd Ka6res taer6res tr6y dir
Preit ost6ng orvl6ng a orvolir
Menestyr nam dida6l nim didolir
Boed ym mharad6ys in cynh6ysir
Kan pen teyrnet poed hir eu tr6yted
Yn i mae g6eled g6aranred g6ir Amen.

EUEIN KYVEILYAUC EHUN AE CANT.

Tywyssauc Powys yttoed: Owein Gwyned a Rys o Deheubarth au hymlityassynt] oe ulat Anno 1167 *ynteu ai henillaud hi yn ol drwy gymhorth y Norddmyn ar Saeson dan Harri yr* 2*ed.*

EGLYNYON

A Gant Teulu Ywein Kyveilyawc'i Gylchyau Kymry.

Teulu ywein llary lluoet anhun—treis
Yn eu traws arovyn
Fyrt kyrt kyueteu duhun
Pa fort yt awn o vortun
Dos was yn ebrwyt heb roti—geirda
Yr gwrda y sy yndi
Dywan wan trywan trwydi
Dywed an dyuod y geri
Dos was o geri ac archwn wrthid
Rac an llid an llochi
Diwet y doetham i ti
Dywed y down arwystli
Dygychwyn gennad gan vawrrydic—doryf
Y deruyn keredic
Dywan ar wyllt ar wallt pic
Dywed y down benwedic
Dos o benwedic boen ouyt—gennad
Gan yth wna kewilyt
Dywan ar gynan gynyt
Dywed y down veiryonnyt
Dygychwyn gennad gyuyl mordwy—gwyrt
Gordyar y gylchwy
Dywan yr traean tramwy
Dywed y down Ardudwy
Dygychwyn gennad gein deruyn—y wlad
A wletychwys meruyn
Dos y west ar nest neuyn
Dywed an dyuod leyn
Dygychwyn gennad o gylch dragon—llary
Lluossawc y galon
Dos varchawc aruawc aruon
A dywed an dyuod von
Teulu ywein hael hawl dioleith—lloegyr
Lluossawc am aureith
A ennir wedy hirdeith
A annwny yn ros nosweith
Dos was y gennyf ac nac annerch—nep
Ony byt uyg gorterch
Dywan ar vuan veinerch
Dywed an dyvod lannerch
Dygychwyn gennad gadyr ardal—teulu
Teilwg met o vual
A dywan dyno Bydwal
A dywed an dyuod yal
Kychwyn yw theruyn pathawr—eu hoewet
Hirvelyn eu gwaewawr
Dywan diw calan yanawr
Dywed an dyuod uaelawr
Dos was na olut na oleith—dy lwrw
Dy lutyaw nyd hawtweith
Dywan o vaelawr vawrdeith
Dywed an dyuod gynlleith
Dos was a chyghor na chygein—an toryf
Ual teiluoet bychein
Dywan dwc rybut hytwein
Dywed an dyuod uechein
Teulu ywein rwyf rwystrassam—wladoet
Poed gwlad nef a welam[1]
Kyrch kyfrwyt kyflwyt adlam[2]
Kylch kymry kymerassam

[1] Ein adlam.—Ll. Coch. [2] Cyflam.—Ll. Coch.

MARWNAD YWEIN GWYNET.

DANYEL AB LLOSGWRN MEW AE K.

Ochafy duw o dyuod y leith
Llyw gwynet ac gwyndyd obeith
Ochaf duw na daw ef eilweith
Ymyd ymydawl ossymdeith
Diouryd ewein dygyn a weith
Y vnbyn gwynet ae metueith
Nyd oet wr dwy awr dwy areith
Wrth neb ny thorrid gyfreith
Gwr a wnaei ar lloegyr llwyr anreith
A dwyn y dynyon yn geith
A chwytaw racdaw rif seith—riallu
Ny ellid y oleith
Oet gwr hael rac gwael rac gwynyeith
Oet kymreisc oet kymry dyleith
Oet ysgwnn oet twnn taleith—y daryan
Oet cadarn kyuarweith
Drwc y lliw y llaw oet benreith y luoet
Kyhoet kanhymdeith
Nym arwar na char na chyweith — nym arha
Aros agkyuyeith
Am retyf angor dyuynuor diffeith
Yd lysc vy ghallon yg cof meith
Mal y llysc gwynnawn gan oteith
Ny thawn pei bytwn keluyt
O uoli mab duw diwenyt
Kyn yn dwyn yn herw yn herwyt—daear
Yn herwr ar douyt
Moch gwnelwyf mal y gwna dedwyt
My a duw diheu gerennhyt
A welei Ewein yn lluyt—yn lloegyr
Yn llosci y threuyt
Gwelei doryf ar doryf y gilyt
Gwelei daryf ar dyrrua osswyt
Ny weled o gred a betyt—etwa
Y gynna gystetlyt
Ny wnaeth duw neb dyn dwywawl fyt
Ny maeth mam mab y heuelyt
Mi nyd wyf lawen o lewenyt—bryd
Am bryder yr vndyt
Am ewein am dwyrein dyrllyt
Am deyrn am gedyrn gyduyt
Am rotes meirch re rewyt a danaf
Neud nad ef ae dyryt
Mi nym dawr ken del dros eluyt
Llanw o uor a llif o uynyt
A mi bei gallwn ymgeryt—a duw
Yt oet ym y defnyt
Dwyn uy rwyf a dwyn uy rihyt
Dwyn uy ner uy nenn kyweithyt
Yny uwyf hynwyf hyneuyt—galar
Yn auar yn ouyt
Cof Ewein ym callon yd uyt
Diunner vcher ac echwyt

GWYNNUART BRYCHEINYAWC

A GANT YR AWDYL HONN YR AEGLWYT RYS.

Vyn duw vyn neirthyad uad rad rannu
Vyn nerth am cannherth ym kynytu
kynneir om cadeir cadarn ganu rys
Kymry wrys ysbys ysbyd wetu
Kynwan coryf rac toryf twryf elyflu
Kynrabad kyncad wlad wletychu
Kymhendraws kyghaws kygretyf morgymlawt
Kymhentawt canclawt uar ulawt ulaen
Kymhendreic penn eic yn pennaethu
Kymhenaf pennaeth yr wnaeth yessu
Kymhendoeth a choetha chaeth yr molyant
Pebyrdor pedrydant pebror gylchu
Kymhenrwyt gyfrwyt gyfrwys tra haetu
Kymhenreith gyfreith gobeith pob tu
Kymhenvrwydyr am vinwydyr pan eurgrwydyr wasgar
Seri gyuarpar sathar sathru
Seith wyr ser gyfnifer am ner a vu
Seith cad a seith cant seith riallu
Wyth cad ac wyth cant ac wyth teulu taer
Cannhaer am cancaer kyn hetychu
Naw cad a nawcant gormant gorfv
Dec cad a dec cant deccaf a fv
Yscafyn niuer rys yn llys dinefwr fyrt
Myrt gyrth glydwr glod chwennychu
Fort wosgord diwosgort diwasgaru
Fort aergun odorun wadwryf teulu
Fyrt kerteu a threthau a thraethu molawd
Milyoet wawr wasgawd wennwawd wetu
Fwyr dra fwyr dra llwyr dra lloegyr vethlv
Frawt dra frawt dra chawt drachynhennv
Frwst dra frwst dra thrwst tretheu o lundein
Traethadur prydein wyf yn prydu
Treis tra threis tra thraws tra threun gyrchu
Twryf tra thwryf tra thoryf tra tharyf racdu
Tew tra thew dra thro o dra thrychu trin
A gwaedlin am deulin yn yn gwanecu
Taer tra thaer am drom aer drwm gymynu
Am deruysc am deruyn am deruynu
Am biw deifyr dewr escor yt ysgymu hael
Ac am dreth dinmael trauael tri llu
Am deyrn am gedeyrn heyrn heu
Am degeigyl am dir eingyl yn ymdyrru
Am gydurawd medrawd myrdin darogan
Am orwyr kynan kert echlyssu
Am dyfyrdwy am ordwy wrt disgynnu
Am hafren am orten am wrt luestu
Am hyfryd kymryd kymry ben baladyr
Am aber taradyr yn tremynv
Am byrth ysgewin yn goresgynnv
Am borth wygyr y mou yn menestrv

CANU Y DEWI.

GWYNSUART BRYCHEINYAWC AE CANT.

Am roto dyuot dedwyt deweint
Awen gan awel pan del pylgeint
Awyt boet kyfrwyt kyfreith bartoni
Kynnelw a dewi y deukymeint
Ny dyly corn met keinon metweint
Bart ny wypo hwn hynny dy geint
Nyd ef y canaf can digyofeint—uymmryd
Namwyn mi ae pryd kywyd kywreint
Ys mwy y canaf kyn no heneint
Canu dewi mawr a moli seint
Mabsant syw gormant gormes heint—ny ad
Na lledrad yn rad rwyd ysgereint
Yssid rad yny wlad a mad a meint
Yg gyfoeth dewi difefyl gereint
A rydid heb ofud heb ofyn amgen
Heb ofal kynhen kylch y beneint
Onyd bleit a dreit drwy y wythneint
Neu hyt goruynyt rewyt redeint
Ef kymerth yr duw dioteifyeint—yn dec
Ar donn a charrec a chadw y vreint
A chyrchu ruuein ran gyreifyeint
A gwest yn efrei gwst diamreint
A gotef paluawd dyrnawd trameint
Y gan vorwyn difwyn diwyl y deint
Dialwys peirglwys pergig dyfneint
Ar ny las llosged lluoet llesseint [vreint
Dyrchafwys brynn gwynn breinyawl y
Yg gwyt seith mil mawr a seith vgeint
Archafael kaffael gan westeifeint
Dyrchafwys dewi breui ae breint
Y freint wrth y vryd yn vreinyawc y ssyt
Ae eluyt yn ryt yn rietawc
Ar iwerton wlad ys rad rannawc
Ar deheu ef bieu a phebidyawc
A phobloet kymry a gymer attaw
Ac a ryt yn llaw llwyr deithyawc
Tra el yn erbyn yrparch nodawc
Padric ae luoet yn lluossawc
Ac ef an gwrthuyn wrth nad ofnawc
Ar drugaret Duw ar drugarawc
A garo dewi da diffreidyawc
A gaho ae caro ual caradawc
A garo ual Dewi deu eiryawc na vid
Na chared na llid na lleidyr difyawc
A garo dewi diofredawc
Cared efferen len lawerawc
A garo dewi da gymydawc
Cared ymwared ac yghenawc
A garo dewi ual difutyawc doeth
Ry gelwir ef yn goeth yn gyuoethawc
Deu ychen dewi deu odidawc
Dodyssant hwy eu gwarr dan garr kynawc
Deu ychen dewi vrterchawc oetynt
Deu gar a gertynt yn gyd preinyawc
Y hebrwg anrec yn redegawc
Y lasgwm nyd oet trwm tri vrtassawc
Edewid bangu gu gadwynawc
Ar deu ereill ureisc y orycheinyawc
Ban del goiyn arnam ny rybytwn ofnawc
Rac gormes kedeirn cad dybrunawc
Ar duw a dewi deu niuerawc
Yd gallwn bressen bresswyl uodawc
Amen.
Breinhyawl uyth uydaf ban delwyf yno
Ny byt yn eu bro a bryderwyf
Gwelafy offeiryeid coetheid canhwyf
Canaf eu molyant men y delwyf
Gwelafy wir yn llwyr a llewenyt mawr
A llen vch allawr heb allu clwyf
Gwcleisy am vcher vchel eu rwyf
A gwraget rianet rei a garwyf
Gweleisy glas ac vrtas vrtedic haelon
Ym plith dedwytyon doethyon dothwyf
Ym plwyf llan dewi lle a volwyf
Yd gaffwyf y barch kyn nys archwyf
Ac o bleid douyt diheuuart wyf
Ac ar nawt dewi y diaghwyf
A digoneisy o gam o gyglwyf difri
Y duw a dewi y diwykwyf
Canys dichawn dewi nys dichonwyf
Gwnaed eiryoled ym am a archwyf
Archaf rec yn dec a digeryt wyf
Y erehi ym rwyf rwyt gerenhyt
Y duw gessefin dewin dofyt
Ac y dewi wynn wedi douyt
Dewi mawr mynyw syw sywedyt
A dewi breui ger y broyt
A dewi bieu balchlan gyfelach
Lle mae morach a mawr greuyt
A dewi bieu bangeibyr yssyt
Meidrym le ae mynwent y luossyt
A bangor esgor a bangeibyr henllann
Yssyt yr cloduan yr clyd ywyt
A maenawr deifi dioruynyt
Ac aber gwyli bieu gwylwlyt
A henuyniw dec o du glennyt aeron
Hyfaes y meillyon hyfes goedyt
Llann arth llan adneu llanneu llywyt
Llann gadawc lle breinyawc rannawc rihyt
Nys arueit ryuel llann uaes lle vchel
Nar llann yn llywel gan nep lluyt
Garth bryngi bryn dewi digewilyt
A thrallwg kynuyn ker y dolyt
A llann dewi y crwys llogawd newyt
A glascwm ae eglwys gyr glas uynyt
Gwyteluod aruchel nawd ny achwyt
Kreic vuruna dec yma tec ymynyt
Ac ystrad uynhid ae rydid ryt
Rotes duw dofyt defnyt oe voli
Dewi ar ureui uryn llewenyt
Ragor mawr vch llawr rac lluossyt
Penn argynan coned cred a bedyt
A bod oe gylchyn kylch y veyssyt
Haelon a thiryon a thec drefyt
A gwerin a gwin a gwirodyt

A goruod gwared lliwed llonyt
Llwyth daniel oruchel eu hefelyt
Nyd oes yn cadw oes a moes a mynudyt
Llwyth maryed mawretus eu merweryt
Gwell pob vn duun dewr noe gilyt
A dewi an differ an diffyn uyt
Ae wyrth an diffyrth rac pob diffyt
A dewi an gweryd rac kryd keryt pechawd
Y maes maestawd dytbrawd dybyt
A dewi ae goruc gwr bieifyt
Magna uab yn uyw ae uarw deudyt
A dewi ryweled yny rihyt
Ual kyfliw a heul hwyl ysplenhyt
Yssid a dewi da gyweithyt
Wrth wann a chadarn a chadw y prydyt
Ac itaw y mae mal y dedwyt
Dedwytyon breui yny broyt
O vedru canu coeth anrec y hael
Kefeisy archafael kaffafy ostec
O gyrchu breui breint ehedec
Dym gorden yn llawen llawer gosteg
Y voli dewi da gymraec ehofyn
O vot bryd a bronn o brydest chwec
O brydest dyllest dull ychwanec
Y vreui a dewi doeth gymraec
Diogel y nawt yr neb ae kyrcho
Diogan y uro diogywec
Rac creiryeu dewi yd gryn groec
Ac iwerton tiryon tir gwytelec
O garawn gan yawn gan ehoec
Hyd ar dywi auon uirein a thec
Or llyndu lled vu llid gyhydrec
Hyd ar twrch teruyn tir a charrec
Dothyw y dewi deheuparthec beir
Y dial ual diweir dwyn y warthec
Dothyw y dewi yn deheuec
Gan borth duw porth dyn yn diatrec
Dothyw y dewi diffreidyad tec
Rys mawr mon wledic reodic rec
Ry metylieisy hynn y honni vrtawl
Y vrtas anvedrawl a vedyr roti
Rwyt radeu bieu beirt iw voli
A llen a llyureu a llenn bali
Pan deuth o freinc franc o erchi
Yechyd rac clefyd rac clwyf delli
Wynepclawr ditawr dim ni weli
Pefychwys tremwys drwy uot dewi
Merch brenhin dwyrein doeth y vreui
A phryd a gweryd y gyd a hi
Wrth glywed dahed tyghed dewi
Ae vuchet wiryonet wirion ynni
A el ym medrawd mynwent dewi
Nyd a yn vffern bengwern boeni
A pheulin a pheunyt yggorelwi
Y geisyaw diffryd yd ecrwi
Ny allwys gwerin gwared iti
Hyd ban y gwarawd gwirion dewi
Ac adar ae haroy nyd arhoynt wy neb namwyn dewi
Ar ef ae dytuc oll heb eu colli
Yn vn ysgubawr vawr ar llawr llenwi
Pan del ryuel a rwys fichti
Ros eluyt pob kelwyt geilw dewi
A gwrtheu a oruc gwerthuawr dewi
Bu obeith canhweith kyn noe eni
Danvoned itaw ditan perchi
O nef dec adef adwyn westi
Allawr dec ny eill dyn disgwyl arnei
Ychwanec kyuoeth kreuyt peri
Kredwch a glywch kedwch dewi
Yn ych llaw a llu y byd gyd a chwi
Ar uagyl eur y phenn ffowch recdi
Val rac tan tost yd wan tyst duw iti [peri
Ae vreich ureisc ae vryn gwyn vchaf vchel
Arllech dec dros wanec a thros weilgi
Ae dytuc dybu duw wrth y throssi
Ac nad bo yny uro breint a theithi
Eithyr tri mwc yn amlwc oe amlenwi
A uynn duw dybyt byth wy voli
A uynno noted kyrched dewi
Duw a volaf yr eiryoled ym
Kany allafy dim heb duw trined
Dewi yn ehag yn rann rwytged
Ac yn yg dietig dewi wared
Dewi mawr ar y mor mynych noted
Ry gelwir ar y tir rac dy wrthred
A gwestua y dewi gwestei roted
Ar pob sant gormant geugant goned
A dewi ae treitywys tros tydwed eluyt
Ar seint sywedyf dedwyt dyghed
Ac y uynyw ethwyf eithaf dyued
A theyrnet ethynt a theyrnged
Ar uab nonn haeluronn hawt ogoned
A dewi uab sant syndal duted
Dewi mawr myniw mad y gweled
Penn ar gynnan bedyt crefyt a chred
Ny chronnes rotes radeu wallofyad
Ruteur a dillad uad uerthideu
Ny cheffid gan naf nac oe eneu
Ny chaffad gwrthep namwyn gwyrtheu
Gwrthebed hyged y hygleu gertawr
Gwyrthuawr briodawr briawd detfeu
Or daw llyghes drom drwm y geiryeu
Y geissyaw kymraw kymryd preityeu
Rwg mynyw ar mor mawr a droeu
A uyt ar eu llu wy lliw dyt goleu
Collant ar llygeid ar eneidyeu
Ny welant na lliant nac eu llogeu
A chyghor a wnant a chennadeu
Y hebrwg itaw ebrwyt dretheu
Trydy pla wytyl aflwyt diheu
Try dybut mynyw mynawc bieu
Peufydwys trefnwys diffwys trefneu
Yn amgant hotnant ormant oreu
O anuot boia[1] bu diamheu
Y doeth ef y uynyw syw synhwyreu [eu
Keisswyd kythreulaeth gwaeth gweithred-

[1] Bora.—Ll. Coch.

Ny allwyd a uynnwyd methlwyd wynteu
Ellygwys gwraget eu gwrecysseu
Rei gweinyon noethon aethan vateu
Y gwerth eu gwrth warae gwyrth a oreu
Kertassant gan wynt ar hynt agheu
Edewis padric drwy dic dagreu
Lloneid llech llauar hygar hygleu
Pan aeth y werton y wyrth ynteu
Ac eigyl racdaw draw dra thonneu
A duw ae myunwys myniw y dewi
Kyn geni yn ri y enryueteu
Pan pregethwys hael pregeth oreu
Ual corn yd glywid gloyw y eirieu
Kyn syrthei urwynen ar urynneu o nef
Neuoet y gadeu oe hanoteu
Ny syrthei yr llawr uawr uilltireu
Namyn ar dyn vrtawl vrthynt seinhyeu
A dewi oet bennaf or pennaetheu
A duw yn gwybod y deuodeu
Ac ef oet vchaf yr yn dechreu byd
A hefyd kertynt ygyd a ninheu
Dewi differwys y eglwysseu
Dichones rac gormes gormant greiryeu
A phynnawn dewi ae phynnhonneu llawn
Llawer vn radlawn frwythlawn frydeu
Ac ol y uarch ae ol ynteu
Ys adwaen y maen y maent ell dev
Yssid hynu ar vrynn gwynn goleu vchel
Gan ochel drygoet drygweithredeu
Mynogi a pherchi a pharch beinkeu
Yn eglwys a chynnwys a channwylleu
Yssid gyfetach gan gyfeteu
A charu duw yn drech no phennaetheu
Yssid gan vnbynn vnbarch dynyolaeth
Yssid vnbennaeth vnbennesseu
Yssid escob llary uch alloreu dewi
Pym allawr breui breint yr seinhyeu
Ac y uoli dewi dothwyf yr deheu
Boed doeth uon am clyw am gwerendeu
Y gwr a volaf gwir ogonet
Ny wnaeth na gwaeth na gwythlonet
Namyn o bell dygymhell gwell gwiryonet
A dygynnnull seint yny senet
Seint angaw a llydaw llu edrysset
Seint lloegyrwys ac iwys a seint y goclet
Saint manaw ar anaw ac ynysed
A seinhyeu powys pobyl enryuet
Seint iwerton a mon a seint gwynet
Seint dyfneint a cheint a chynnatled
A seint brycheinyawc bro hywret
A seinhyeu maelenyt eluyt uannet
A seinhyeu present worment tiret
Dy buant y gyd yn vn orsset
Y ureui ar dewi da y vuchet
Y gymryd dewi dy gymrodet
Yn bennaf yn deccaf or teyrnet
Or digonsam ny gam o gymaret
Kyuodwn archwn arch diomet
Drwy eiryoled dewi a duw a uet
Gwae anad gwennwlad gwedy masswet
Drwy eiryolet meir mam radlonet
A mihagel mawr ym pob aruet
Dychyferuytwn ny lu am y laryet
Dycheferuytwn ninheu am drugaret

EGLYNYON

A Gant Gwilym Ryuel e Dauyt uab Ywein.

Hanpych well dauyt dawn gaffael fal turn
Teyrnged or israel
O duw deon archauael
Ac o dyn hawl erwyn hael
Hael vt cletyfrut clod ueith nam gwrthod
Mawr wrthyd vyg gobeith
Anaw dreullyaw drin wosbeith
Enw bell hanpych gwell ganhweith
Cannhweith mal vn weith enw bell o hanawd
Heneuyt bro hiryell
Hanbwylleis gemeis gymell
Hanbwyll o hanaf hanbych gwell
Hanbych gwell dauyt &c.

EGLYNYON DADOLWCH

A Gant Gwilym Ryuel e Dauyt vab Ewein.

Dauyt uab ywein bwyf vn uryd a thi
Yth dewruawr anwylyd
Cas cart kertoryon venwyd
On trydar trydyt hael byd
Dy vyd wrth dy vryd vranhes oborthyant
Wyd berthdud oddiwes
Dawn kyflawn kywlad ormes
Dauyt duw ytty ae rotes
Rotes duw dri dawn y drin wychyd naf
Nerth ercwlff ywr trydyt
Doethineb sselyf yssyt
A phryd adaf ar dauyt
Nyd gnawd yt dauyt nad ei bryd am vut
Yn votlawn y gennhyd
Gnawd ytt dreic dragon wynnuyd
Dygant rutaw am gant ryd
Ryuet eithyr gwynet gwenwyngawt kywlad
Kyn kyflechwyf rynnawt
Uym myw am uy llyw nym llawt
Uymryd nyd hyuryd hyd hawt
Hawt y bawb a thi yth wyneb am vut
Ymueitiaw am attep
Yth aruod ossod ossep
Yth arueu nyth arueit nep
Neb ny oruc duw wrhyd benlli gawr
Bannllef beirt yth uoli
Trin elyn tranc arglwyti
Treul metgyrn teyrn val ti
Tidi o mynny ym einyoes arglwyt
Erglyw vi yth gynnoes

Hebawc bryn brenhin eiryoes
Hebu ym hebod nid oes
Nyd oes ym dauyt dawn oruod ar bawb
Arbennigyawl hebod
Cadyr rwyf cadarn glwyf glybod
Cau llonyt byw vn dyt bod
Can uod yn wirion wrhyd hywlyt hir
Y archaf ytt dauyt
Dygen vt llaweu llawryt
Dygant dreic py gerennhyt
Kerennhyt herwyt or ua (er na) heteis val
Ar vreyenhin kemeis
Y harchaf llary naf lledneis
Llyw gwryaf trin eithaf treis
Treis dwyn glyw asswyn glew essyng oual
Ofyneic maelgynig
Mab ywein coeluein coeling
Mawrad gwallouyad gwellyg
Gwell genuhyf arnaf ernyw elyn lloegyr
Wallofyad eur melyn
Noth uar uawret gar ganlyn
Bar y ssy ar y daear o dyn
Dyn wyt galon rwyd goleu y deruyn
Nyd arueit nep y teu
Duw ath wnaeth or pennaetheu
Yn orofyn pawb yn oreu
Goreu vn goreu gerennyt y dyn
Yr honn duw tragywyt
A goreu eil gerennyt
Wedyn ronn duw ronn dauyt

HYWEL VAB YWEIN A GANT YR AWDYL HONN.

Karafy gaer wennglaer o du gwenylan
Mynyd gar gwyldec gweled gwylan
Ydgarwny vyned kenym kared yn rwy
Ry eitun ouwy y ar veiugann
Y edrych uy chwaer chwerthin egwan
Y adrawt caru can doeth ym ran
Y edryt uy llleduryd ae llet ourwy
Y edryt liywy lliw tonn dylann
Llifyant oe chyfoeth a doeth atann
Lliw eiry llathyr oeruel ar vchel uann
Rac ual ym cotidy yn llys ogyruann
Chweris oe hadaw hi adoed kynrann
Ethyw am eneidy athwyf yn wann
Neud athwyf o nwyf yn eil garwy hir
Y wenn am llutir yn llys ogyruann

HYWEL AB YWEIN AE CANT YR AWDWL HON.

Carafy gaer ualchweith or gyuylchi
Yny bylch a balchlun vy hun yndi
Enwawc drafferthawc a dreit iddi
Anwar don lauar leuawr wrthi
Dewisle lywy loyw gydteithi
Glaer gloew y dwyre o du gweilgi
Ar wreic a lewych ar eleni
Ulwyddyn yn ynyal aruou yn eryri
Ny dirper pebyll ny ssyll pali
Nep a rwy garwy yn uwy noti
Pei chwaerei y but yr barddoni
Nebawd nossweith y byddwn nessaf iddi

HYWEL AB YWEIN AE CANT.

Asswsiswny heddiw uarch gloywliw glas
A threiddyaw arnat geinwlat gynlas
Y haeddu daddyl ucith kyn lleith lleas
Gan hwn arlludyaw hoen arlludyas
Ac ym bei arwyd yr yn was etmyc
E lliw oed debyc gwenyc gwynlas
Hiraythawc vyg kof yg kyweithas
Hoet yrddi a mi genti yn gas
Kyt gwnelwyf ar ddyn vrdd o uolyant
Nym gwna poen rwydyant bodyant
ba dras
Tonn a gallonn honn oet a gavas
Yr twf mein riein rwdeur wanas
Nyt ydyw heddyw nyd hu adas vym porth
Yn ymyn yd oed vym perthynas
Or a vn mab duw o deyrnas nef
Kyn addef goddef gwae ui nam llas

HYWEL AB YWEIN AE CANT.

Pan vei lawen vrein pan vrysyei waed
Pan wyar waryei
Pan ryuel pan rudit e thei
Pan rudlan pan rudlys losgei
Pan rudam rudflam flemychei hyt nef
Yn addef ny noddei
Hawd gwelet goleulosc arnei
O gaer wenn geir emyl menei
Treghissant trydydyd o uei trychanllog
Yn llyghes vordei
A deckant kyman ae kilyei
Kyuaryf heb vn varyf ar veneî

HYWEL AB YWEIN AE CANT.

Pym vcher vchet pan achubet freinc
Pann faraon foet
Pan vu yryf am gyryf am galet

Pan vei aryf am varyf a wyryet
Yng goet gorvynwy yng gordibet lloegyr
A llygru y threfet
Llaw ar groes llu a dygrysset
A llad a lliwet a gwaetlet y lauyn
A gwaetliw ar giwet
A gwaetlenn am venn a vannet
A gwaetlan a grann yn greulet

HYWEL VAB YWEIN AE CANT.

Vyn dewisy riein virein veindec
Hirwen yny llenn lliw ehoec
Am dewis synhwyr synhyaw ar wreicyeit
Bau dyweid o ureit weteit wouec
Am dewis gydran gyhyd rec a bun
A bod yn gyurin am rin am rec
Dewis yw gennyfy hartliw gwanec
Y doeth yth gyuoeth dy goeth gymraec
Dewis gennyfy di beth yw gennyt ty ui
Beth a dewi di dec y gostec
Dewisseisy vun ual nad attrec gennyf
Yawn yw dewissaw dewistyn dec

GORHOFET

Hywel vab Ywein e hun ae Cant.

Tonn wenn orewyn a orwlych bet
Gwytua ruuawn bebyr benn teyrnet
Caraf trachas lloegyr lleudir goglet hetiw
Ac yn amgant y lliw lliaws callet
Caraf am rotes rybuched met
Myn y dyhaet myr meith gywrysset
Caraf y theilu ae thew anhet yndi
Ac wrth uot y ri rwysaw dyhet
Caraf y morfa ae mynytet
Ae chaer ger y choed ae chein diret
Ae dolyt ae dwuyr ae dyffrynnet
Ae gwylein gwynnyon ae gwymp wraget
Caraf y milwyr ae meirch hywet
Ac choed ac chedyrn ae chyuannet
Caraf y meusyt ae man veillyon arnaw
Myn yd ganas faw fyryf oruolet
Caraf y brooet breint hywret
Ae diffeith mawrueith ae marannet
Wy a un mab duw mawr a ryuet
Mor yw eilon mygyr meint y reuet
Gwneuthum a gwth gwaew gweith ar derchet
Y rwg glyw powys a glwys wynet
Ac y ar welw gann gynnif rysset
Gorpwyf ollygdawd o alltudet
Ny dalyaf diheu yny del ymplaid
Breutwyd ae dyweid a duw ae met
Tonn wenn orewyn a orwlych bet
Tonn wenn orewyn wychyr wrth dreuyt
Gyfliw ac arien awr yd gynnyt
Caraf y morua y meiryonnyt
Men ym bu vreich wenn yn obennyt
Caraf yr eaws ar wyryaws wyt
Yg kymer deu dyfyr dyffrynt iolyt
Arglwyt nef a llawr gwawr gwyndodyt
Mor bell o geri gaer lliwelyt
Esgynneis ar velyn o vaelyenyt
Hyd ynhir reged rwg nos ymy a dyt
Gorpwyfy kyn bwyf bet butei newyt
Tir tegygyl teccaf yny eluyt
Ked bwyfy karyadawc kerted ouyt
Gobwylled uy nuwy uy nihenyt
Tonn wenn orewyn wychyr wrth dreuyt
Cyuarchaf yr dewin gwertheuin
Gwerthuawr wrth y uod yn vrenhin
Kyssylltu canu kysseuin
Kert uolyant ual y cant mertin
Yr gwraget ae met uy martrin mor hir
Hwyr wetawc ynt am rin
Pennaf oll yn y gollewin
O byrth caer hyd borth ysgewin
Vn ywr vun a uyt kysseuin uolyant
Gwenlliant lliw hafin
Eil ywr llall or pall pell uy min y wrthi
Y am orthorch eurin
Gweiruyl dec uy rec uy rin ny geueis
Ny gauas neb om llin
Yr uy llat y a llafneu deuuin
Rym gwalaeth y gwreic brawduaeth brenhin
A gwladus wetus wyl uebin vab wreic
Gouyneic y gwerin
A chenaf ucheneid gyfrin
Mi ae mawl a melyn eithin
Moch gwelwyf am nwyf yn etein y wrthaw
Ac ym llaw uy llain
Lleucu glaer uy chwaer yn chwerthin
Ac ny chwart y gwr hi rac gortin
Gortin mawr am dawr am daerhawd
A hiraeth y ssywaeth yssy nawd
Am nest dec am debic afallulawd
Am berweur beruet uymhechawd
Am enerys wyry ny warawd ym hoen
Ny orpo hi diweirdawd
Am hunyt defnyt hyd dytbrawd
Am hawis uy newis deuawd
Keueisy vun duun diwyrnawd
Keueis dwy handid mwy eu molawd
Keueis deir a phedeir a ffawd
Keueis bymp o rei gwymp eu gwyngnawd
Keueis chwech heb odech pechawd
Gwenglaer vch gwengaer yt ym daerhawd
Keueisy seith ac ef gweith gordygnawd
Keueisy wyth yn hal pwyth peth or wawd
Ys da deint rac tauawd [yr geint

AWDYL

A Gant Hywel vab Ewein.

Karafy amsser haf amssathyr gorwyt
Gorawenus glyw rac glew Arglwyt
Gorewynawc tonn tynhegyl ebrwyt
Gorwisgwys auall arall arwyt
Gorwenn uy ysgwyd ar uy ysgwyt y dreis
Kereis ny gefeis gefeiawyt
Kecidwen hirwen hwyrwann ogwyt
Kyfeiliw gwenn wawr yn awr echwyt
Klaer wanllun wennlletyf wynnlliw kywyt
Wrth gamu brwynen breit na dygwyt
Bechannigen wenn wann y gogwyt
Bychan y mae hyn no dyn degmlwyt
Mabineit lunyeit lawn gweteitrwyt
Mabdysc oet iti roti yn rwyt
Mabwreic mwy yd feic fennedic rwyt ar wen
No pharabyl oe phenn aghymhenrwyt
Petestric iolyt am byt y eilwyt
Pa hyd yth yolaf saf rac dy swyt
Adwyfy yn anuedret o ynvydrwyt caru
Nym ceryt yessu y cyfarwyt

CANUAU LLYWARCH AB LLYWELYN, SEV PRYDYDD Y MOCH.

CANU

A Gant Prydyt y Moch y Dauyt M. Ywein.

Kyuarchaf duw naf neuawl dad keli
Keluytyd heb afrad
Y uilwr arwr arwein vad
Y voli ked westi wastad
Y uilwyr eryr aryf gwennwlad a gwaed
A gwytgwn ysborthyad
A dauyt lawryd lawr gyrchyad
Y deuawd eirthyaw detyf neirthyad
Priodawr pennwaet pan gaffad ut ner
O nerth duw ae cread
Prif deyrn kedyrn kydwet rad
Preityei bawb y bob digarad
Pendeuic fraw aber frawt cad
Prydein hydyr hudoet ymdiuad
Heb reith heb gyfreith heb gyfrad a gwan
Na gweini keleurad
Heb ysgor hygor hygarad
Heb ysgar ysgwyd ac aghad
Heb ysgarant blant yd blygyad kymry
Oet kymrwyn y delwad
Pan doues peir trachwres trochyad
Par trwy var trwy uyrt ysgwytyad
Por eissor aessawr weiniuyad
Pan racdaw bu faw bu fysgyad
Penn brynn keredic nyd karyad ae duc
Yn deyrn pymthegwlad
Namyn gwaew yn gwan oe aghad
A llafyn coch yn llaw gynnifyad
A brwyscaw a briwaw bragad
A brwysglet a breisc lat trwm yad
A bytinawr gwrt gortyfnyad kynnygyn
Yn kynnif ar ysdrad
Kedwitt duw an kedwis heb wad
Kadyr hetwch hytyn am winllad
Kad wyllyon dauyt da gyrchyad
Ked wallaw cad wallawn amhad
Ked orllwyt arglwyt argleidrad kymru
Kymreisclod dyrchauad
Y anaw a daw a dyfnad
Y anant y eni bu mad
Y eur rut yn rot oe geinyad
Ae emys ae amryw dillad
Y bali porffor parth nad a wyrthya
Ae werthuawr ysgarlad
Ef oreu rieu ry gread
Vt edmyc traws ryuyc treissyad
Ef yn wyl yn olud rotyad
Ef yn daer yn aer yn anllad
Ef vlawt kyfrieu ef vleityad yn dygyn
Ef kynnygyn kymynad
Ef ysgrud ef drud ef drussyad
Ef doethaf ef doethuawr ygnad
Ef goreu a vu o vab tad
A mab gwreic gwrygwys y pwyllad
Pwyllaf a ganaf a genwch veirtyon
Y vawrdawn a geffwch
Kert dauyt kein rebyt kenwch
Kor eissor hyfor kyfetwch
Kart wahart a wahan volwch
Ar dreicyeu dragon amdistrwch
Kabyl arnaw ut fraw a frouwch nyd oes
Nyd assw y gwelwch
Ef digawn dyhet a hetwch
Ef dwyre dewrueirt uireinwch
Ef dyrran dyt kalan cadrwch
Ked eirchyon yr kedawl erchwch
Ef dyryt heityt a heitwch anaw
Ef anant kyuolwch
Ef goreu aereu arafwch
Ef gorfu goruawr y clywch
Ef goruc am gerryc mor llwch
Am vuarth caduan cad arrwch [anet
Ef gwnaeth tu pentraeth penn trwch cal-
Gal ac ef na cherwch

Gwyr yn digyn yn dygyrrydwch
Gwerin ner yn aerdawelwch
Gwar hywel hoewal kyuetwch
Gwrt yn llat a llafyn deu avwch
Gwyr hoetylwydyr gwr hydyr yn y hwch
Kyn noe vawr attregwch [ae var
Teyrnet prydein pryderwch
Rac teyrn gwynet yd gwynwch
Teyrnllaw uy llyw ryddygwch
Teyrnllw teyrnllid gennwch
Teyrnged heb rif hebrygwch oe lys
Ywch llessaf os gwnewch
Rac talu y agheu telwch
Rac talarw cadeu cwt uytwch
Rac diuei deyrn diuennwch
Rac dauyt awch kilyt kilywch
Ef uawrllyw mawrllid mallolwch
Chwi vawr wyr y vawr wr gwystlwch
Ef a daw y dwyn yr einwch
Ef ae dwc ac nyw diolwch
Chwi racdaw y gyd ny gedwch yn rwyt
Na rydewr ynyalwch
Ef y uaes y uaws gadarnwch
Chwi y goed y gad nwy beitwch
Ef y vrynn y vreinyawc kyfrwch
Chwi y bant diuant dyurydwch
Ef aer dyrch awch kyrch nys kyrchwch hyd
Chwi oe fawd yd fowch [urawd
Gnawd oe law lawrfeirt gyuradwch
Gwan o aer a gwin o evrvlwch
Gwaew a llafn yn llat yn deutrwch
Gwae ae cawt nyw dyhut dadolwch
Dadolwch teyrn tarw catvc pryduawr
Gwyr prydein rwy goruc
O vro echeifyeint vchelgruc
Hyd wynn urynn llundein lle clod luc
O Pennwaet dyfneint dim nyd fvc
Hyd pentir gafran yd gysyrduc
Alaeth y pennaeth ar bob engiryawl
O hir wawl hir aduc
Ef wrawl oe orofyn rwy duc
Hyn nyd feith yn faeth pob sarruc
Gwr goruawr gorflwg pan amuc
Gwyr gystwy gwrt gastell y ruc
Ef gwnaeth yn erthyst byst bochgluc
A glyw briw branes dy orlluc
Ef ae gwna nym gwnel gorchyfluc
Y wytgwn eu bod or wytgruc
Ef goreu rieu hyd y rudyc heul
Hwyl diruawr diffeithuc
Meith y ry yr hynn nym aduc
Meirch breischir vch brasgeirch hafluc
Mwth myggann hir llam haerlluc
Na bwynt gynt na rywynt vch ryd nuc
Mab ywein gyfwyrein gaduc
Mad ganed mad uam ae hymduc
Dauyt hael y haual nyd fuc
Dyn nys gwyr a duw nys goruc
Mam wyr ae colles kyllestricyawl wisc
Ae osget gorphorawl
O chwanta cua efnys hawl
Y assen bu assw kythrawl o urys
Amryuys amryuawl
An hendad handym agheuawl
Dybu yr gwared gwr detuawl
Grist yg knawd an brawd bu breinyawl
Mab an tad an tud rwyf hollawl
Ac an teid ac an tad dwywawl
Y gwr a oruc wrawl deyrnllin
Breyenhin bron gedawl
Breisc dauyt o deuawd yth yawl
Brenhinet vrt vonhet vrtawl
Bre ganre geinrad ganhwynawl
Bro gynnyt ar gynnygyn breuawl
Meith oth rad heb reid eu heiryawl
Mythyon ueirch fwyr tyweirch fortawl
Mur gwerin goreu bedytyawl
Milueirt hynt mwyn mawrwynt meiryawl
Meu ofyneic dreic dragonawl prydein
Prif deyrn canhwynawl
Wrth uyn duw na vyn uy nitawl
Ac wrthyd orthywys greidyawl
Uy reen am rotes heb dawl
Rwyf myrtoet mawrdawn ysprydawl
Nam dod ut mandoet ym mantawl ac eur
Ac emys hyganawl
Ti deyrn derrwyn butugawl
Mi brydyt brydest annyanawl
Ti wron oreu eneidyawl
Mi digart dy vawrvart ath uawl
Ti aerwr arwr arwynyawl fossawd
Mi ath wawd ath watawl
Ti eryr ongyr angertawl
Teu yth lys lestri eurinawl
Teu vyg kert angert engiryawl
Meu dud ior ath cor ath canmawl
Boed teu ben rieu bot neuawl douyt
Balch dauyt da uydawl
Boed agored pyrth pedyr a phawl
Yth erbyn arbennic dynyawl
Bych gwr het yn hawturyd ar sawl
A geif tud an tad ysprydawl

BYGWTH DAUYT.

PRYDYT Y MOCH AE CANT.

KALAN hyturef tymp dyt yn edwi
Calaf gan lloer uann llwrw uenegi
Kyntwryf yn ebyr llyr yn llenwi
Kyngyd gaeafawr hwyluawr heli
Keluytodeu reen rannwyd a mi
Megys na rannwyd am rieni
Kychwetyl am dothyw am dwythualch ri
Kywythyawn am dawn om dielwi
A gwrt uyt adwyn agwedi uyg kert

Agarw y angert engyr a hi
Anmynetus vum vyr kadeithi
Enwawc orthywys om gorthewi
Nyd adawaf hael o hil beli
Na bwyf bwyll sarruc o bell sorri
Gwn yny ganwyf gwenwynic ui
Gwyth wastaawd tavawd nas tyf eli
Gwythlawn yw vyn dawn yn diuysgi
Gwaethyluann yg kyman yg kymelri
Gollycha dy uar ueirtyon westi
Gollachar y uar o vartoni
Gwyl dauyt lawryt lawr orthorri cad
Cedawl ar ogel uy ysperi
Gwyllon teyrnon tud amnoti
Golluthon dragon dreic eryri
Gollewin deyrn gwellaa ui
Gwellygyaw uyg kert yw uyg koti
Gwell ytt wyf hael rwyf no riuedi meirch
Marchogwyr hyd bell ar dy deithi
Gwell wytt vn edmyc treissyc nor tri
Mordaf nut ryderch yn detyf roti
Gwellynyawc deyrn gedeyrn gospi
Gwallaw ym anaw enw dy uoli
Gwallouyad eur rad rodri essillyt
A syll dy uy mody ym cuelli
Nam gyrr y wrthyd nam gwrthod ui
Nam gad ar gychwyn dytyn dewi
Gwyn deyrn prydein prawf vy llochi
Ath eur rut ath vut ath uynogi
Gwynnygawd dy glod hynod honni
O angert am kert am kymelri
Gweleis ueirt yn gryc nyd egrygi
Gal vlawt yn adrawt dy wrhydri
Keneis dy volyant val nas ry ganant
Milwr pedrydant pedrydawc ri
Gogwyr doethyon dwfyn nad ofyn tlodi
Doethgert lawr werthuawr yt wyf wrthi
Gogwn duw pryffwn y proffwydi
Nad advc oe dawn y daeoni
Gogwybyt dauyt detyf elifri
Na ryweilyt ny rwyoli
O chygein hael vt hwyl ym ynni
A chygor angor ym agori
Ny byt keladwy uod kaledi
Y men ym chwrwer yr chwant kronni
Teyrnuab ywein teyrnet aergrein
Teyrnas uirein varan benlli
Na gwna eryr gwyr gordiogi
Am dadyl ut trwyhatyl yn detyf troi
Na orsag dy lenn dy les wyf i
Na orssaf ar naf yr neb ynni
Nam arwerth yr eur y arglwyti ereill
Nym arwar arall yr uym perchi
Dym gweta vrtas dym gwadawl hi
Megys y dewrwr y dywedi
Dydotyw y dyt dauyt dyuynfri
Detyf hael ym kaffael neu ym colli
Dydel kyn ryuel y rott a mi
Engyl tagneuet tanc heb drengi
Am bo vt kedawl kyduod a thi
Ath uo hwyr hatlet a hir hoetli

KYUARCH GWELL DAUYT.

PRYDYT Y MOCH AE CANT.

HANBYCH well dauyt handid o deuawd
Gogyuarch teyrn gogwyr teyrnuart
Gogyfurt torment gogyfyaw toruoet
Gogawn teyrnueirt gogawn teyrnuro
Termud torment terrwyn deyrn
Eryres ormes eryron dyrrua
Eryr teyrnon yr yn deyrngein
Eryr dreic ormant ardunyant prif ueirt
Eurdwrn prydytyon arwynawl pryduar
Ar wyneb prydein.
Hud wytt yth edryt hud wyf yth eduryd
Hydyrueirt oth edrych hud ynt yth adrawt
Eiryoed dy ang car aerawd dyt angkeu
Eurawc dy aghad eiryt ym anghen
Teyrnllu teyrnet teyrnllaw teyrnllin
Teyrnllyw teyrnas teruysc torment
Teruyn tir gadw terrwyn
Teyrn ar gedyrn eur gedawl dauyt
O devawd angertawl
Rwym kynnygyn kynnogyn ditawl
Rwyf prydein prydyt ath vawl

AWDYL

A GANT PRYDYT Y MOCH Y RODBI VAB YWEIN.

ANTYRRON daear antyrron
Ampryfleu donyeu dynyadon
Amryw uyd lle beynt urodoryon
Vu cain ac afael wirion
Ny bu bryd eisyeu absalon
Nac alexander na iason
Bu kedyrn or tri trinheion
Treul efrei afyrdwl groegyon
Ercwlff a samswn seirff galon
Ac echdor gadarn gad wyllon
Doeth vu or trioeth teir canon
Teir colofyn y keluytodyon
Marcwlff a chadw gadyr swysson
A selyl benn sywedytyon
Rannws duw dews donyon angkymwys
Angkymhes veibyon
Ran y bawb o bobyl yadon
Rei yn drud eraill yn doethyon
Kei tra llwfyr tra llauar eu son
Ac ereill taerlew termudyon
Rei digart yn hart yn haelon
Mwy no rwy o rei kybytyon

Ym om dawn om daw kyflawdon
Am olud termud teyrnon
Vyn tauawd yn vrawd ar vrython
O vor ut hyd vor iwerton
Mi ym detyf wyf diamrysson
Or prif ueirt ym prif gyfeillyon
Neum roted gweled golygon
Tro orid trwy wyr a gweissyon
Gweleis uyrt o ueirt yn osson
Yn moli rodri rwyf dragon
Wynt kenynt nas kelynt pa hon
Keblynt or kwbyl an defon
Ef yn vawr yn llawr yn llyryon angert
Yn angut y rotyon
Ef yn wyl yn olud anuon
Ef diwyl diwyll gweidyaton
Ef oreu rieu nyd ron y gynna
Ef kynnif tud uoryon
Ef bu ryt or rwyt gorchordod
O amgant llys dygant uab don
Ef a vo gan vot egylyon
Yn naw grat yn dewret gwiryon
Ef ym myd ym mawruryd ym mon
Yg kemeis yg kymaws deon
Hil ywein prydein praf wron
Hil rodri yn helw rodolyon
Yn eryr prifwyr priodoryon clod
Yn cludaw anoethyon
Yn eurdud terrwyndrud tirion
Yn eurdwr yn eurdorchogyon
Yn eurdoryf kyntoryf kynreinon
Yn eurgoryf yn toryf antyrron
Antyrron dacar antyrron

ARWYREIN RODRI VAB YWEIN

Prydyt y Moch ae Cant.

Ardwyreaf hael o hwyl aches kyrt
Nyd kartwawd agkyfres
Yrdang nad plygyad plymnwyd bres
Ardwyad gorwlad a gormes
Aryfle ysgwyd eur yn armes kynnygyn
Yn kynnif ry dodes
Ar ysgwyt didramgwyt didres
Aryal hy ny fy ny foes
Ny chwsg y gywlad ny chyscoges glew
Glyw prydein rwy proues
Nyd kynna itaw eidol nes
Noc Arthur eirth dragon walhes
Nyd kynnwys y lu nyd kynnhes y lid
Y lochi nyd afles
Nyd ef rif kynnif kyuynnes
Ny wtant cwt ant rwy cotes
Yn dyrlid molyant mal yt es
Yn moli milwr uaranres
Ef yn atteb ny dywaes nac
Nac vchel na hanes
Ef milwr ar vilwyr didres
Ae uilyoet kyhoet kyuaeres
Ker aber congwy kynnognes dwy dreic
Deu dragon yn ygres
Deu dremud am dud ae dodes
Dwy uytin orllin orllawes
Deu deyrn derrwyn didorres yn llid
Llu daear ae hoffes
Vn ar dir ar doruoet ry dres
Yn aruon yn arwar trachwres
Ac arall mynawc y mynwes mawrvor
Ymawr uar agkymhes
Yn esguraw hawl hawt adnes
Yn esgar y bawb am beues
Yn yscwthyr trydar yn ysgwn darpar
Yn llachar nyn lloches
Ar draethell ny draethwyd neges
Mor orvlwg gyulwg gyuaeres
Ar honn rodri mon mwyn claearwres
Heul—hael dauyt ae rotes
Duc eil ruthyr troch aruthyr trachwres
Tir lleyn yr llithyaw branhes
Tu goror halluor holles ysgwytawr
Ar ysgwydeu gwyngnes
Dy gyuarth pob parth ef porthes
Dec am vn ef dygyuoryes
Deu cann waew terrwyn torres bar dygrwn
Pan ysgwn esgores
Kyn ysgar llew llachar lluchwres
Ae alon ae al angkymhes
Kynnifyeid bleinyeid bleidyeu armes cad
Bleityeu coed ae llewes
Kynna hwn neus gwn nas gweles
Dyn y myw or meint ry ganhes
Cart arnaw vt fraw frawt odiwes clod
Bei clywed oet eres
Mor wrawl y hawl pan holes
Mor gadarn yd geidw hyd reges
Mab ywein prydein priodes gwendud
Gwyn deyrn eryres
Mad gogant molyant rwy moles
Mal mertin ym marteir kyffes
Milueirt mawrurydic ryd anuones duw
Dyn ym myd ae gwares
Rodri mawr rwym llawr rym lloues
A ryt but y bawb y gymhes
Cafaf cor mawrnaf mawrnerth aches llydw
Handid lled uym muches
Cafant uyrt o veirtyon eu lles
O voli rodri ryodes

ARWYREIN RODRI VAB YWEIN.

Prydyt y Moch ae Cant.

Ardwyreaf naf vt neirthyeid prydein
Prif deyrn kynnifyeid

Aerdoryf goryf gwrt derrwyn y neid
Y gynnif ar gynnygyn trechyeid
Ardwy cad argrad eurgreid teyrneit
Teyrngert ordyfneid
Llew trylew trylef y geineyid
Llwrw beirt byd esbyd esporthyeid
Llaw rodri gwrt ri gwrth amygeid gwlad
A gwr gwlyt wrth eirchyeid
Llary ysbar ysbenyt y neid
Llew wrth aer a llwfyr wrth eirchyeid
Llaw didawl gwrawl gwr ny dyweid nac
Uy neges yw synnhyeid
Yn eryr ar llawr wyr lleityeid
Yn adon medwon met kynteid
Yn ardwy beirt dwfyn dyfneid y alaf
Y elyff ueirch canneid
Yn erchlyfyn yn erchliw gleissyeid
Yn eruawr froenuawr friw eureid
Ym pob lliw keinwiw can ryuygeid dyn
Yn velyn yn voleid
Ef ae ryt yn rwyt eruynnyeid
Ef rywr ryweryd digreid
Ef gogel gogan gymhwyllyeid
Ef gogawn glyw kamawn keimhyeid
Ef gogwyt galon geleurutyeid aer
Y oruod y yspeid
Ef dreissyc ny blyc y blygneid
Ef dreissyad ac wynteu dreissyeid
Ef gyrchyad ragor wy gyrchyeid rac kwys
Wy loegrwys lofrutyeid
Ef ysgydw am ysgor y deid
Ysgwydawr llethriduawr llathreid
Ef eryr prydein priawd wy gwrthau gwrth-
Pan oruc keili keluytyeid daear [rychyeid
Dynyadon edeifnyeid
Ef goreu vn gwron ym pleid
Kymry vawr kymrwy gynnyrcheid
Ef mwyhaf y met adrotyeid
Ef haelaf ef teccaf teleid
Ef medrws modur henuryeid
Mal medru modrydaf ar heid
Yn wyaf balchaf bwlch liueid lafynawr
Yn wryawr ordyfneid
Yn gymynher ner nerth pob reid
Yn gymhen yn gymhan ygneid
Y gwnacth duw deifnyawc ar honneid
Rodri hael ae hafal ny gwneid
O dwfyr ac awyr ac eneid a phrit
A frawtus tan ny pheid

AWDYL

A Gant Prydyt y Moch y Rodri.

Hael rodri ryodres edneint
Hawl gretuawl tra gwawl tra gwyneint
Hanbych well o duw diechwreint deyrn
Teyrnet westiuyeint
O wynet yn het yn hartureint
O Bowys o beues dyfneint
O ynys brydein briawd ureint
Ae their rac ynys rec hofeint
Teyrnas yth law lid gereint nyd chwith
Yr chwydad esgereint
Nyd bath llath yn llaw ysgereint
Ny byt byth bydawl y gymeint
A thrugar kertgar cad wytheint
Ath roto creawdyr kyrreiuyeint
Ath lwyto mawruro a mawrureint
Athro ked bych kydurawd a seint

EGLYNYON

A Gant Prydyt y Moch y Ruffut M. Llywelyn.

Graessaw anaw angut ym prydein
Ym pryduawr dadanhut
Engiryawl arwynyawl ut
Angertawl gretuawl gruffut
Gruffut gryd lofrut a lawurydet dygyn
Y dugost bobyl wynet
Bar gwanar y gwin ae met
Ae gwyr goruych or diwet
Diwet wyr eryr ar gymry hu bych
Hu byt bawb ae dyly
Wrth duw yt yolaf hynny
Wertheuin vreyenhin vry
Breisc deyrn kedeyrn cad ognaw llawhir
Gan llewenyt wrthaw
Metwl pawb porth uyt itaw
Metyant y grissyant graessaw

EGLYN.

Nyd yr da y hwfa hen
Namyn yr maws ym y hun
Y molafy vletyn vleit trin
Haelwas hwywys yg garthan

AWDYL

A Gant Prydyt y Moch y Ruffut M. Llywelyn.

Ardwyreaf dreic dragon nenn prydein
Llawer bart pryduawr yny ohen
Ardwyad cancad kyn ked oe benn
Ys kynt no rywynt uch rut wybren
Yr kertgar ysgar ysgarlad lenn
Ys gwyr vwrw yn uierien
Ys gwybuam gam am ganhunben
Gwrth herw dyt osswyt oes o yaen

Dillyngws keli ual kwlwm dolen
Eu carchar anwar amhar am penn
Ny bu haws udut ual trablut trenn
Noc anhawt gwahawt gwynt yg gwden
Neu wtam nad cam kymryd yn benn
Mab llywelyn hael hylwyt berchen
Ar wyneb prydein prif eluyten
Eryr huysgwr hyd ysgoen
Aer orun ual run rut y onnen
Eryr teyrnet y wynet wenn

BYGWTH GRUFFUT VAB KYNAN.

Prydyt y Moch ae Cant.

Ardaly nef ardunya fyn dlid
Arglwyt duw yn dyn yth enid
Erglyw ui am vuner ossid
Yg canyad oth rad oth ry did
Na dos hael yn helw dy dwydid
Y wrthif na mi y wrthid
Am parabyl oth dawn ym perid
Parhawd o nebawd y nid y hael glew
Y gloduawr hu bid
Y gybyt y gabyl ae ouid
Rac beieu rieu yny rennid but
Dy rybut ruffut a rybuchid
A thitheu aryf kadeu kydlid
A thrugar kertgar kynyrdelid
Ytt heu vyg cert nac ef uid
Mal heu rac moch meryerid
Ac ystyr brif vnbenn mor brid
Eur auya os ef ny erchid
Ny ystyr llythwyr uy llethrid ym kert
Gyrr di yr cart y wrthid
Ac onys gyrry di gyrraf wrid
Yth deurut ath dewrwarth ganlid
A glywo dy wyr wy erlid
Ath orwyr ym llamwyr ym llid
A hwde dewis or rydid
Cabyl neu glod om dyuod dybid
Dym dotyw edliw ac edlid
Am haelon haelder kynhenid
Llas ioruerth aernerth eur newid a char
Och yrdaw nyd odid
Mab madawc llaw deawc lleudid
Y uawr uyw y vawrueirt pob hid
Marw eiuyawn mawr anaw dibrid
Myrt ry wneith yn gyureith gymid
Mab Tegwared hael hawl dremid galon
Gal ac ef ny borthid
Ny llat bleit vch blaenwel gwituid
Nys dwc lleidyr uy llawrgert o did
Neud llei dy ouod neud dy ouid ked
Cadwgawn ry delid
Mab llywarch dihauarth dyndid
Mab duw nef boed nerth wy rydid
Ny mag nac neges amollid
Ny myc rot yn rann edewid
A minheu magator om dilid
Bot y duw a bod yg gleindid

AWDYL

A Gant Prydyt y Moch y Ruffut ap Kynan.

Rac rwy dygannwy dygynwyre glyw
O uon hyd uynyw llyw llu agde
Dy ryd y doryf dy re orwydawr
Hyd y llewych llawr gwawr gwymp vore
Dychymysc airffysc yn aryfle aesdur
Ae gledyf flamdur ay glot dyre
Mab medel vtkyrn heyyrn dy he
Gruffut teyrnud tut elisse
Mab cor dor dewred ef dwyre prifgat
Megys y hendat oe rat rodre
Molawt yw ygnif mal ym danure
Edeinueirch a seirch serygyl kynnwe
Moladwy y ryd rod y bore
Moidyd essillyd ny syll eurde
Molcis y rwyf kemeis hamre ysgaylan
Yn amwyn garthan gyrch y dande
Moli haelder ner nyt aghyfle
Aghyflym uuner ueirch fer fyryfne
Pan divwng trawsulwng tros vre y dreiss-[yon
Ysgyluyon ysgylue
Rac colouyn lliaws maws mab nwyfre
Rac gelyn bryneich branhes dychre
Ny byd arodryd ar odre prydein
Prydydyon arwyre
Ef yw fenn fynnyant dibelre
Ef ae dwc oy dec werydre
Ef kymer hyder hyt uudugre lys
Ef dengys emys amyl eu gorne
Ef yn freu tereu tarole saysson
Mur eryglon mon mynestyr greude
Poet ef y orffen orffywysle
Arfedawc eirchyeit arch oe vnlle
Ygkyuaruot clot cludueird dyle
Ygkyurwys gynnwys gan wawr y le

MARWNAD RUFFUT VAB KYNAN.

Prydyt y Moch ae Cant.[1]

Hael gruffut dilut dilawch teyrnet
Teyrnveirt neus gwtawch

[1] Llyfr arall a ddywaid mai Daniel ai gwnaeth ar pennill diweddaf yma sy gyntaf yno. Gruffudd ap Cynan ap Ywein Gwynedd ydoedd hwn. Bu farw Anno 1200 ac a gladded yng Nghonwy mewn cwfl abad neu fynach, Caradoc. 253.

Periglew glew a glywssawch
Peir prydein pryd nad oet rawch
Rychwynant anaut anhawtgoll teyrn
Teyrnueirt kymry oll
Can y hoed hyd ynt aruoll
Cant callonn yn donn yn doll
Ny weles uolud am get
Ny weleis dreis gyn drymet

Trwm golli arglwyd oerglad weryt yw
Tramgwyd llyw llawch espyt
Trimut aerwalch valch vawrvryt
Trymaf treis vwyaf tros vyt

Yr byd[1] ys tristyt treisddwyn damwein dreic
Drwc a chwedyl y arwein
Eryr cat breisc borthyat brein
Aerwalch awydvalch ywein
Dothyw &c.

LLYMA AWDYL UARWNAD

A Gant Bletynt Uart y Ewein Goch. M. Gruffut. M. Llywelyn. O L. D. D.

Aghall o dyall yt ym yndaw
Aghwbyl vu yn pwyll am yn twyllaw
Yg draa eua a vu vraw y dyn
Aual bu dechryn dechreu arnaw
Agheu pob rieu diheu y daw
Egyrth ry gymyrth y gam racdaw
Aghof gwr hebof heibyaw nyd etiw
Aghadyr yw uy myw uy mod hebdaw
Am ywein gyfyrgein gyuyrglod itaw
Am aerwalch haelualch hawt yw wylaw
Am eryr kedwyr kyduraw meruynyawn
Mor digllawn digrawn deigyr yn syrth-yaw
Am deyrn eurgyrn aergwn lithyaw
Am deyrnwawr llawr llu vytinaw
Am dihiruut prut yn preityaw gormes
Teyrnlles branhes bryneich syrthyaw
Hil gruffut waew rut rotuawr eurllaw
Haeluab llywelyn llyw Aberfraw
Hil yoruerth cannerth kein wallaw reunet
Hil ywein gwynet haelon gwynaw
Hil gwrawl breinhyawl brenhin manaw

[1] *Neu*, byt.

Hil madawc uodawc uyd[1] eitunaw
Hil maredut draws hawt drostaw ledkynt
Hil eduynt bletynt bleit ymwryaw
Hirgwyn yssym dwyn urwyn vreutwydaw
Hirgawt nyd anhawt im ym danaw
Hir dewrllew traglew yn treiglaw ysgwyd
Hirwaew vn annwyd ar hwn nynhyaw
Hiraeth am gwalaeth gweled arnaw flwng
Hirhebrwg echwg och or cutyaw
Hir darpar galar heb gilyaw yssyt
Hir defnyt a uyt oe uetylyaw
Hirdetyf gynnetyf gynn noe orthaw
Heirt oet y uilueirt uolyant itaw
Hart ywein virein var lluchyaw yg cad
Haeluab rad y tad ae duc attaw

LLYMA AWDYL UARWNAD

A Gant Bleddyn Vart y Lywelyn vab Gruffut. M. Llywelyn. O L. D. D.

Crist vawr arglwyt rwyt rad a archaf
Crist uab duw didwyll hanbwyll honaf
Crist ddetuawl cedawl cadarnaf arddelw
A porthes y ddelw ddolur ddyknaf
A perthyn am ddyn a ddywedaf
A bortho gouid bid bwyllokaf
A uo gnaws achaws vchaf y vetyant
Y vetwl bid leihaf
Crist a ddoeth yr byd rac bod adaf
Ae bobyl yn vffern gethern gaethaf
Y amlenwi nef amgylch naf vchel
A golles angel angheluytaf
Kolles kymry vawr gwawr gwreitaf
Gwreitlafyn esgud gloewddrud glewaf
Gwreitlyw nyd byw ba wnaf oe golled
Gwreitlew hyged rotged rwytaf
Gwr a las drosom gwr oet drossaf
Gwr oet dros gymry hy y henwaf
Gwrawl lywelyn gwraf o gymro
Gwr ny garei ffo yr fort nessaf
Gwr gwrt yn kyrchu llu lledeithaf
Gwr gwyrtliw bebyll gwerssyll gorssaf
Gwreituab gruffut ddigraffaf am rec
Yn deddyfeu mawrdec nut a mordaf
Gwr gwaewrut gwr prut uegys priaf
Gwr gwiw yn vreuhin vyddin valchaf
Gwr hylwyt y glod gwr haelaf am dreul
Hyd yd gertei yr heul yr hwyl bellaf
Gwr dic y ddistryw llyw llysseitaf
Gwr dygyn y alar kar kywiraf
Gwr kywirgoeth doeth detholaf o uon
Hyd yg caer llion y lle teccaf
Gwr vu lywelyn ger teruyn taf
Gwawr kyhoet wisgoet wa garoccaf
Gwr oet arbennic bennaf o uilwyr

[1] *Neu*, uyd.

Hyd ym porth wegyr eryr araf
Y gwr a gymyrth eghyrth yghaf
Agheu dros bymhoes drymloes dromhaf
A gymero uy rwyf rywoccaf vonhet
Yn rann trugaret vawret vwyhaf

LLYMA AWDYL

A Gant Bledyn Vard y Rys am Maredud ap Rys. O L. D. D.

Ardwyreaf naf neirthyat tyyrnet
Tyyrnvud llaw rodyat
Tyyrnas addas iddaw boed mat
Tyyrndrut ordrut wrd beleidrat
Tyyrnwawr trawsuawr tros ystrat tywy
Tyyrnwyr lochi gwesti gwastat
Tyyrnwr uilwr ual eliwlat
Tyyrneid luchynt hynt e hendat
Teyrn yn heyrn yn hard wisgat balch
Teyrnwalch ygkalch ygkylch gorwlat
Ar wymp emys rys ros achubyat
Ayruab maredud rud e ruat
Aruaeth ehelaeth hwyl gyrchyat brwydrin
Eryr caer vyrddin vyddin veiddyat
Aruot peredur drymgur dromgat
Aruawc ab eurawc[1] cadyr uarchawc cat
Aryf prydein ysgein ysgarlat wasgar
Ysgwyt tan llachar car kynnifyat
Esgut waew weith i wir[2] ovynnyat
Ysgwn baladyr cadyr cadarn leidyat
Ysgauyn oed gennyf ysgarat pob dyn
Wrth hwn llewelyn llyw beruedwlat
Ysgor kor kymry diffreityat
Aesgur val Arthur ethryst ladyat
Ysbydd gnawt berthwawt barth ac atat rys
Om tavawt ysbys oesbell garyat
Ys bo dy orffen gymhen geimhyat
Ys bych neuawl hawl hwyl oleuat
Yn ran drugared yn rat y drindawt
Yn ryd oth bechawt ddeuawt ddiurat
Dewrddreic deheubarth warth wrthotyat
Dawn adlam dinam duw am danat

MARWNAD DD AP GRUFFUD AP O. AP MADAWG AP MAREDUD.

Bledyn Vard ae Cant. O L. D. D.

Duw a ddwc ataw bud waelaw byt
Deduawl vreyenhin dewin diwyt
Dewrddreic edeirnyawn gadernyt frwyth-
lawn
Doethwalch o leissyawn dawn dileturyt

[1] *Neu*, efrawc. [2] *Neu*, ron.

Dd ab gruffud grym gythrud gryt
Vab ywein[1] virein vawr syberwyt
Vab madawc vynawc venwyt diorchud
Vab maredud vud valch e ddetryt
Gwr rybu dd diveuyl blegyt
Gwrawl y verroes einyoes ennhyt
Gwr hyvriw e wayw gwr hyuryt e vyw
Gwreid eurllyw glyw glew oe vebyt
Gwr goleu e arveu airgreu ergryt
Gwr gelyn e ddyn e ddiovryt
Gwr golut esgut oysgyt byddinawr
Ysgwn ysgwydawr buduawr beddyt
Gwr balch yn eurgalch ayrgwn waytlyt
Gwr bwlch y eurgled yn arueddyt
Gwr bolch y daryan dewr wryt bedwyr
Gwr beilch e uilwyr eryr ayrvryt
Gwr hygyrch e lys esbys ysbyt
Gwr hyget hygar car card oglyt
Gwr am gwnayth hirayth hirhyt ys rynnawd
Gwr hawd e adrawd kawd am kyuyt
Y dduw yd archaf naf nym enhyt
Llehav dd yn lle diwyt
Lle may'r vn ar tri twy anwylyt mat
Lle may'r mab ar tat ar tec ysbryt

MARWNAD ORONWY AB EDNYUET.

Bledyn Vard ae Cant. O L. D. D.

Kolli goronwy gwr diemyth vu
Gorofyn llu llafyn dilyth
Llew hael or llin wehelyth
Llawir uyd dorvydir vyth[1]

Byth am walch rwydvalch ryndoeth
Treis galar—bu traws golofyn kyuoeth
Arwr dwr eryr ddewrdoeth
Eurwawr karueddvawr koeth

Dewrgoeth lluyduawr yn llu arallwlad
Dinydyr gad gynydv
Dinas esbyd gyd gyrchu
Dinac———uain vanac vu

Bu aruthyr gwythruthyr yn nyd gweithret
Traws haeluab ednyued [trin
Byd wir bud gywir am get
Bu gwawr hygyrch lawr hyget

Kedawl oronwy kat uorgymlawd hard
Kard wahard kerd wahawd
Kas kabyl kwbyldoeth ymadrawd
Keissyaw bot hebdaw nyt hawd

[1] Ywein Brogeintum ydoedd hwn
[2] *Neu*, Llawir ni orfyddir vyth.

Nyt hawd am yn kawd kan aeth oe dymyr
Non damwein yssywaeth
Hyt vrawt herw ddevawt hiraeth
Hoet vraw damweiniaw dim waeth

Gwaethwaeth yn tragwnaeth treghi mur kiwdawt
Traws uar gwenwynwar gwae ni
Treis pobl trist pawb oe golli
Kolli Goronw &c.

MARWNAD HOWEL AP GORONW.

Bledyn Vart ae Cant. O L. D. D.

Rym goreu agheu anghen ordwy dreis
Am draws uab goronwy
Rym dirwaen duw rym dirwy
Rym dirwnaeth rann hiraeth rwy

Pwy y roddei vor a orwu e glod
Ym pob gwlad yrywu
Rinveirch rytveith eu kyrchu
Rut val nut rotvawr vut vu

Hylithyr vu y lu lawer rec dy uyw
Hwylva glyw glod redec
Hylwyt wawr llawr llary ostec
Hil doethyon hael tiryon tec

Tec yd gauas gwas gwayw hynod amlaen
Dec amlwc y ganuod
Llyw glyw gleif anesgymod
Llew llavyngroch kledyfgoch clod

Arwymp glod oruod aryf kyhoet hywerth
Vu hywel oe pobloet
Eryr triuawr aryf toruoet
Aer ysgwn eur ysgwyd oet

Oet gleifruthyr aruthyr aryf ryuel oet hael
Oet hwyluawr glod vchel
Oet glew oet llew kyn llenn gel
Oet glwys digart hart hywel

Gwar hywel vchel och or grwnn y mae
Nyd vy mot nas gwelwn
Gwawr gwreitualch gwalch gwaewdwnn
Gwae wynet hir orwet hwnn

Hwn oet draws gyghaws ac angeu ae dvc
Dic am gwnaeth ac eisseu
Hwyl cad cletyf gyrchyad cleu
Hael gwrawl or hil goreu
Rym goreu agheu &c.

EGLYNYON

A Gant Bleddyn Vard y Ruffut ap Ioruerth ap Maredud o Von. O L. D. D.

Gro a gut deurut dewrwas gwael y varw
Yn y vawrglod gaffael
Grym erddrym aerddreic auael
Gruffut hil maredut hael

Ar hael gruffut cut can drauod angheu
Yng achweddyl y glybod
Gwayw gwrt ragor yn goruod
Gwawr dragon gwae uon y uod

Bod heb walch keinvalch kynhebyc drys-
Ayr gynnwann eur gynnyc [tan
Detholew glew glod edmyc
Doeth y lwyth hwva pla plyc

Oet plyc dwyn terrwyn yny tyrrei bobyl
O bob man ay kyrchei
Oet dilyuyn eur a dalei
Oet dilut but myn y bei

Myn y bei ayr uab ioruerth yn ryuel
Kyn ryuawr drygyruerth
Oet kadarn dreic benn eic berth
Oet ked gynnyt kad gannerth

Cad gannerth mawr werth mor wae ym
Nym gad deigyr y warae [digiwyd
Gryd esbyd oesbell warchae
Gruffut y maengut y mae

Lle y mae argae ar gymro dinam
Detyf dunawd ap pabo
Llavyn llidyawgddur kur kyffro
Llew prut neud llawn prit a gro
Gro a gut deurut &c.

MARWNAD

A Gant Bletynt Vart y Dauyt Benuras. O L. D. D.

Mae gwyrda gwynet gwae ni yr eissywed
Yssywaeth yn treghi
Pob deu pobyl dygyn eu colli
Pob awr poeu dramawr pob dri

Oet tringar an car oof newyt an peir
Perygyl hiraeth peunyt
Oet cwyn dwyn difefyl dauyt
Oet coeth gwr a doeth y dyt

Tra vu ddyt davyt difefyl ddylif cad
Oet cadarn y gynnif
Oet kedawl oet cadyr yg gnif
Oet koeth digrawn doeth digrif

Tros nad digrif ym am was hael difei
Hwyl ddifefyl gyweithas
Trist wyf treis Duw ry gallas
Traws dauyt lawryt ry las

Llas vnmab llywarch llew afael yn reid
Llary deleid honneid hael
Car coeth doeth dygyn y allael
Cywir nas gwelir ys gwael

Mor wael myned hael hwyl gyffro galar
Yn rwym gwely manro
Llawr gwerthvawr llan ae gortho
Gadawc gadarn vreinyawc vro

Em bro dewddwr gwr gwrt yn argae trin
Trist achwetyl heb warae
Vthyr gwynuan chwerw herw hirwae
Eithyr gwynet ymet y mae
Mae gwyrda gwynet &c.

MARWYSGAWN

Bledyn Vard e hun ae Cant. O L. D. D.

Erbyn vi vy ri rwyf bedydyawl
Erbarch vchelseint breint brenhinyawl
Erbynneist keueist kyuawl eneideu
Yr agheu gethreu y gan gythrawl
Erbynyat pym oes o groes greuawl
Arbennic wledic wlad gynveithyawl
Arglwyd dat nam gat gyllestrigawl dan
Yny may poethuan peth uffernawl
Yny may mawrway heb ymeiryawl
Yny may mawrwall eneit marwawl
Yny may kynigyn yn kanmawl kelwyd
Yny may peunyd poen angerddawl
Kyn mynet o'r byd bryd breuddwydawl
Kein vynwent brouent bro gorfforawl
Kyn maynved diwed bwyf dwywawl gyffes
Kyn nom goddiwes bwyf gweddiawl
Kan gwneuthost veithrin brenhin brein-
yawl
Kan gwneir yr dy eir veir vuddugawl
Gwna dan gof yrof eiryawl ym dangnef
Yn teyrnas nef naf ysprydawl

MARWNAD HYWEL. M. MADAWC.

Llygad Gwr ae Cant.[1] O L. D. D.

Gwae ui duw or diruawr golled
Ry golleisy[2] nym gellir gwared
Gwannder y lawer eilywed tramgwyt
Ry doeth am arglwyt eurglawr trefred

[1] Dylasai yr awdyl hon vod gyda chanuau ereill y bardd, yn dechreu tu dal. 237.
[2] Yr golleis. – Ll. P. P.

Gwalch gwrawl gwrhyd gwalhafed[1]
Gweilch oet veilch yny valch gerdded
Gwyr golofyn ehofyn pan ehaget fot
Am drefgort drwy galed
Gwac yr byd bod heb y hawtged
Gwael dwyn hael hwylvawr y weithred
Galar yw gennyfy gweled ar lachar
Golwc agklaear daear duted
Hywel am[2] madawc ny mad doded
Y mywn mynwes llawr mygyr wawr myged
Hir yw byth bellach belled bod hebdaw
Hiraethlawn gymraw gymrwyn goted
Hydoryf kylch y goryf gwrymseirch ar lled
Hydyr glodryt gynnyt gynulaen lliwed
Hygyrch oet y lys les trwyted oy fut
Ae uetgyrn kyfyved
Arwyt teg am rec ban riued gant seint
Breint brenhin gogoned
Ar deheu mab duw bo y dyghed ef
Drwy gaffael porth nef yn agored
Aghall yw y dyn ny del y gred
Ar y gwr goreu a aned
Agheu yn[3] edev yn noted racdaw
Trwy benn an treissyaw yw an tristed
Trist yn gorug Crist kred nyd ymchwel
Treis dirgwyn ac nyd treis dirgel
Am draws walch aerualch oruel y golli
Nyd ryuet ochi yn yawn vchel
Neud etiw[4] ynofy cof kyuarchwel
Am lyw cletyfrut heb gut heb gel
Neud meu y eisseu neud issel uy mryd
Yw ueirtyon oet clyd clod diargel
Neud aelaw kwynaw neud kynhawel
O uerrwyn hyd uawr hirddywel
Am yr dwyn terrwyn twryf uuel am riw
Ae bar oet gwaedliw ual gwaed awel
Och am rwyf aer glwyf eurglet echel
Och am diliw mawr nym dawr ken del
Och am arglwyt rwyt rutuedel vtkyrn
Och am wawr kedyrn cad diogel
Och yr uyned gwr gwrtlew ryuel
Och ueith byth bellach ny dychwel
Och pa wneir och ueir och uihagel
Och hyd attad duw yr dwyn hywel
Eryr gwyr gwarant heb ochel
Ar wiryonet yawn dawn ytymdel
Erbynnyed arbennig agel
Yn barchussaf naf ar nef yt el

Oe gannayd oe rad oe rinwet yn llawch
Llewychedic heul yny gynted
Ac ynteu an dwc on diwet
Oe dyg ——— trigyant yn drugaret
Edry ant trachwant trachywet an knwad
Yt yn knyny daear yn y diwet
Drwg yw ynn dryked an buchet
Eil drwc yn kyflwc an kyflyet
Trydyt twyll herwyt kymwyll camwet
Pedweryt rewyt pymhed ryuet
Chweched am galed amgelet am eur
A mireinwch byd ae anrydet
Seithued bwrw gwythlwrw gweithlonet
Geir syberw a berw yny beruet
Wythued yw llat a llafneu cochwet
Kelein a chathyl brein ar y bronnwet
Nawued yn ryred nyd yn anryuet
Lleidyr na all edrych crist yn y grocwet
Decued anwaraed yw anwaret anwar
Dall uydar kynn tylluet
Dreic anhuenyt herwyt haeret
Hiruod heb gymod yny gamwet
Duw a uynn dyuod yw orset
Hydyr a llaw nyd llai yw omet
Dadwyrein o uein o uet an dylyt
Y an diburyaw o an camwet
Treisswr yw agheu ar bob trosset
Trameint nyd kywreint an kywrysset
O Ruffut gwaewrut goruolet ym ken
Am kynnygyws eur a meirch hywet
Hil kynan erwan erwydet
Hael y wan hil ywein gwynet
Hil madawc hydyr uynawc vonhet
Mwynnyant kert nyd cart y diwet
Kyuetach uorach uawret oruchel
Or achwet oreu o deyrnet
Neum bu oe agad mwyndyad met
Ny bu oesdlawd beirt oe ystlynet
Ysgereis a gwr nyd yw goruolet
Ysgar byw a marw garw argywet
Am arglwyt diwyd am diwet ysgar
An ysgafyn a wr y vreuolet
Ny byt kyuoed pawb pymcan mlynet
Noc y bu gyuyg gwlyd teilyg gwlet
Ny bo kyuyg duw ym kyuet yg kyuawr
Synnhwyr vawr Senet

MARWNAD RUFFUT FAB KYNAN.

GRUFFUT AP GWRGENEU AE CANT. O L. D. D.

GWR a gynneil y lloer yny llawnwet
A genniw pob tra trwydi beruet

[1] Gwahaved.—Ll. P. P.
[2] Vab.—Ll. P. P.
[3] Ni'n gedy, *neu* nynedeu.
[4] Ytyv.—Ll. P. P.

GRUFFUT VAB GWRGENEU

A GANT YR EGLYNYON HYN OR GEDYMEITHON. O L. D. D.

MARW merwyd hirwlyd am hirwlych
Dagreu—digrawn ynt a mynych
Nyt heneint gwr ae gwrthrych
Nyt hyn oes dyn noc oes drych

Ystyrywn kwynwn ketwyr aruoll naf
Ny ad duw yghyuyrgoll
Marw myrd mawred kyrd kardgoll
Marw merwyd meirw uydwn oll

Pell yw o Bowys pwyll argel y dyn
Y ddial gwaet auel
Gwaelawt ty tywawt tawel
Gwely rud gwilim ryuel

Gweleis le am de am danaw heddiw
Hawd y gallaf wylaw
Rudued werthuawr wed wrthaw
Ac edenawc y danaw

Kanys marw mawred a grym
Griffri y treghi oed trwm
Marw vyd einawn dawn dinam
O dyna ny byd da dim

PHYLIP PRYDYD

A Gant yr Awdwl hon y Rys Gryc. O L. D. D.

Gwelreis Rys yn llys eissidlo
Gelurud gelyn yn alluro
Hyuoluawc hael mynawc hawd bo
Glot edmyc kymhengryc kymro
Dragonllyw lluoed anwosgo
Dreic vnbyn a vynn a vynho
Hir y wir y wr dra sauo
Hydyr y dreis y dreth o benuro
Gwalch gwylwalch golut anghryno
Gwawd uyuyr gwawr gwhyr gortho
Enw y uard y uarn a welho
Kediuor kadeiryawc artho
Baran llew yn lluryc eurdo
Brenhin beird breinyawl a ganho
Gorwenn tonn tued porth gwydno
Garw y llenn a grann wenn y gro
Gnawt rygwyd rygeis ny allo
Gnaws gaeaf alaf yng godo
Teleis y ueirch y uarchawc mwydno
Teilwng yng talv an rodho
Ys ymi vd lwysrud kas a gro
Fyddyawc fodyawc y ymdro
Hael hir lew hir llew hir llwydho
Hil catuan kynan vab iago

LLYMA KYGORYON DADOLWCH

A Gant Phylip Prydyt y Rys Gryc Gwedy Sorri wrthaw am Brydu y neb namyn itaw ef. O L. D. D.

Pa gessidy ui uodrydaf kreugar
Kroewgoch gwaew oth adaf
Pa ham veirt adlam vleit naf
Pa gam a gefeisty arnaf

Arnaf kymeraf kymhennrys atteb
Hyd attaw yny lys
Myned dylyed dilys
A mawrglod ym arglwyt rys

Rys uyg loegyr westyng lary westi toru-
Taryan ystrad tywi [oet
Rac dy uar kar kert lochi
Mal gwiryon gwared dduw ui

Mi ath fum borthwr borthyad riallu
Ny ellir y ddiwad
Pan oet lyw kyhoet lew cad
Ym pob riw ryuel arnad

Ar dy uawluar par pymllyg nam gwartha
Nam gwrthod yn dduruyg
Eryr llewyr llaw bergyng
Erreityeisty ehang o yng

Ys yng yn ystwng ystic vara rys
Rutuoawc cadurua
Ys anilys im ddim da
Os am carwys am cassa

Nam cassa pwylla pyllyawc eduynt rys
Y rwng ros ac eppynt
Bart vum itt trimud tremynt
A chedymddeith kanweith kynt

Kyntaf achubaf echel ureint rac bar
Hil casnar cas wytheint
Nawt duw mawr dengwawr deweint
Gyda nawt naw mil o seint

Synnya di roti rwyf gwawr carannawc
Kerennhyt yth gertawr
Rysua kyrt kalan yonawr
Rys rut bar rwysc moruar mawr

Mawr fwy y credaf no chreir ked
Neirthyad—echel kad ked adneir
Gwr yssy ym kadw ym kadeir
Gwn itaw goreuraw geir

O dywedeisy eir ar wekrei heb porth
Parth eurgolofyn kymry
Diwygaf honnaf hynny
Difwyn a gymer duw ury
Pa gessee dy &c.

EGLYNYON Y RYS IEUANGC.

Phylipp Prydyd ae Cant. O L. D. D.

Rys rwysc chuel ryuel rwyf naf deyrn
Rwym kedyrn cat worssaf
Eithryat brat bron eilyassaf
Eithyr kenyt kynelw ny wnaf

Ys gwneuthum ytt glot glut rwyf gawr ygwrys
Gwawt vrys rys rwysc ddiryawr
Llyw ior llew tewder tutwawr
Llawer echaws tat maws mawr

Mawr yw ym dreic wawr fawr faw fwyr Fysclew cat ket wallaw [fyscyat
Bot addef nef yn eiddiaw
Ar byt achlan y danaw

Dan Rys vab greifwrys grufut ysgwyt-wyrd
Oes ket kyrd kard wosgud
Llwrw llwyrglot wawt rot wotrud
Llyry drauyn llawer llauyn lletrud

Lletrud parvrys rys rwysc hiryell yn aer
Yn arueu agkysbell
Hawl toryf teyrnvro gadell
Hydyr auael hael hanbych gwell

Hanbych gwell hyd bell bellawc lluch-urys cat
Kedernyt enwerys
Aryfrud prud prydein ynys
Eryr aer glwyf arglwyd Rys
Rys rwysc &c.

AWDWL

A gant PHYLIP PRYDYD yn Llys yr Arglwyd Rys ieuanc yn Llan Padarn Vawr pan vu amrysson yrygthaw a Beird ysbydeit pwy gyntaf o honynt a delei a cherd Dduw Nadolyc. O L. D. D.

Bu dioual ny bu diofit
Gan golofyn kymry camp ddiodit
Pan wu yn ryuel gat chwel chwerwlit
Myny adeigei neb ar y newit
Peunyd yn rwyddryt ym rodit anoeth
Peunoeth a rygoeth ym anregit
Ac yn llys hil tewdwr tec ym hurdit yn-aeth[1]
Ac attoeth etwaeth nam gwnaeth wneit
Pei achwir volawt
Y dylwet fossawt
Dyrllydwn i wirawt
Kyn bydwn i ermit
Moladwy uleidriw nym rodey brit
Mawr y afael hael hawd y erlit
Ny thraethaf i gelwyd nyd ef gelwit
Hwn cledyf ysgwnn twnn twyll y gwndit
Disseirch meirch a seirch osseddrit borfor
Diachor ysgor ysgwyt turnit
Kadyr wychawc varchawc mynawc mwynlit
Kat elling ener wener wenit

[1] *Neu*, y uaeth.

Kadeir vaelgwn hir a huberit y veird
Ac nyt yr goueird yt gyuerchit
Ac am y gadeir honno heddiw bei heiddit
Bod se ynt herwyd gwir a breynt yd ym-brouit
Bydynt derwyddyon prydyon prydein
Nes gwaew yn adein nyt attygit
A bei gwnawn or dawn a dadenit
Penkerd o digerd ny ddigonit
A bei ef gennyfy yd gennelwit
Atvyddaf naf arnaf y dorvyddit
Eudusswny uot rys rwysc ddiednit
Tra vei dywawl duw yny dwyodit
Ar y llenn valchwen ny vylchit y breint
Yd ysgarawd heneint ac yeuegtit
Rwng y prenn frwydlawn
Ar tair prif ffynnawn
Nyt oed ar hirgrawn
Yd ymborthit
Yn hyrgan vann vawr y rydit
Yn hyngaer glaer yn yt glywit
Yn heyrn adef yn nheyrnas nef
Gwr ys yn godef y goreilit
Kywot dy was assaf essill ervit vawr lawr
Gnawt o synwyr vawr varu drybelit
Ae kymraw treidaw tra mynyd gwidawl
Myny ret redyawl o elenit
Ae gwallus yghof yghyuyrdelit
Ae gwaeth mynac nac noc eddewit
Kigleu y doroff ath toroff a thwryf ysgwyd-awr
Nos galan ionor mwynwawr medwit
Ac ambyrth clot wasgar llyry daear divrisc
Llawer march a gwisc wesgerit
Wedy cat dramawr agawr d—mit
A hyuaruot pybyl penn yn eruit
Rac me vei kyued kyuedach hedyrn
Rac bronn eurdeyrn kyrn a genit
Bann ket ban rodet pan rodit eur coeth
Pan vei parabyl doeth a dywettit
Pan rei ankwyn med yn medwit yn llys
Ym hadawssei rys nam diddolit

AMRYSSON PH PRYDYD AR GOVEIRD YSPYDEIT.

O L. D. D.

ARGLWYD nef a llaȣr maȣr a ryued
Val y keissyr cam o bop kamȣed
Andaȣt ud gȣayȣrud gȣaȣr teyrned
Y goueird ar beird yn kyȣryssed
Yr pan vu elffiu yghyȣryssed vaelgȣn
Neus porthes pepprȣn pell dyfryded
Llauar merinnyeu gȣynnyeu gȣraged
Llaȣer chȣedel anoeth a doeth ȣyned
Kyny deley hȣnn o achened

Geuveird aghyfrǒys y beryf ae henryded
O gǒnaeth golydan gyflauan diryeit
Bit ar y eneit yr enǒired
Taraǒ kadǒaladyr colofyn elyflu
Gǒr oed yn gallu y dyualied
Ac eissoes eissoes yny dygned
Divreinyaǒ daǒn duǒ nyd dyn ae med
Mor dygaǒn y mae digymroded
Wedy penkeyrdeth kymry yghamryssed
O byd arglǒyd gǒir gǒyned dyǒyssaǒc
Essillyd madaǒc ryǒyaǒc reuved
Lleǒelyn lleǒ gǒaǒr clotvaǒr cleddyfir
Pell yd etmygir y atchǒedled
Gǒr ny uarn kamvarn kadarn yt ved
Gǒr a vyd y enǒ yn edryssed
Gǒr biheu tretheu trathued llundein
Diffeithdir prydein ae chyvanhed
Gǒr yn llǒyr a ǒyr synnǒyr sened seint
Gǒr a ǒys y vreiut o vrenhined
Goroeu yǒ gennyfy gorǒed neuadaǒr
Llyǒ llǒyth Teǒdǒr maǒr gǒaǒr gǒaradret
Kynnedyf yǒ kennyf y k—derganed
Kanu kerd am borth am byrth neufed
Hengerd talyessin y teyrned elvyd
Hi a vu neǒyd naǒ seith mlyned
Ac onym agheu y aghenved daear
Kyn anǒar kyfar kyflauared

Ny dervyd aǒen y ar darǒed treul
Tra vo lloer a heul ar y rodǒed
Ac onyt trech kelǒyd na gǒiryoned
Neu darvot daǒn duǒ yn y diǒed
Ys my a veflaǒr or gygheussed
Gǒeryt yr gǒagveird y gǒaghoffed

AWDWL VARWNAD Y RYS IEUANC.

Phylip Prydyd ae Cant. O L. D. D.

Goruchel arglwyd goreythoylaf
Goruedawt vyn tauawt gwawt a ganaf
Goroyr vyng callon goruch atdaf llys
Goruc angheu rys anghen arnaf [ych
Gorwlychawt vyng rwydeu om dracgeu myn-
Neud val drych gwrthrych gwrth a welaf
Neud ethyw glyw gloew orsaf byddin
Hoedyl egin vrenhin hoet a borthaf
Gwenwynvar gwanar kerdgar kyrd vyget
Gwae ui oe vynet vyn nas gwelaf
Gwedy mab gruffud gwaewrud gurhaf
Ysgwnn vyng hystlwnn ny wnn py wnaf
Och hyt attat ti duw a dotaf yn dde
O welet vy lle ar llet eithyaf

CANUAU Y PRYDYDD BYCHAN.

MARWNAD RYS IEUANC

Y Prydyt B. ae Cant.[1] O L. D. D.

Colled gwr arwr aruawc chwyrn yg cad
Yg cadarnwisc heyrn
Mur toryf aerdoryf eurdeyrn
Mygyr bennaeth mab maeth metgyrn

Mab metgyrn teyrn tawel ut mwynuawr
Kyn maenuet y orchut
Mab mad mygyr lleityad llauynrut
Brwysc breinyawl gretuawl gruffut

Mab gruffut llauynrut lluoet ros gyrcheid
Rys gyrchyad tra moroet
Gwrt am deruyn amhyl doruoet
Gwr bytin gwawr bytinoet

Bytinoet hartoet dyt y hyrtei rys
Kiwdawd ros o hanei
Lleith kynnygyn kynnetyf gwalchmei
Llew gawr ysgwyduawr ys gwnei

Ys gwnai Rys ar urys arlwy gwlet branhes
Kyn prynu tangnhefet
Par tridryll gwerssyll gorsset
Penn clod kyn noe vod yw vet

Y met argyuet nyd gouyged teith
Doeth y ueirt oe vyned
Am ysgwyt gawr vawr vur ked
Am ysgwyd vriwdoll golled
Colled gwr arwr &c.

EGLYNYON

A Gant y Prydyt Bychan y Varedyt vab Ywein. O L. D. D.

Maredut aestromrut troch
Par awchlym wych lith gwyach
Eurwawr llew yg gawr llauyndrwch
Aerwalch eiryf ny theiryf ny theich

Ny thechei ner fer frawtus
Mab ywein bro goeluein brys
Gwychyrlym dreic eil meic myguras
Gwychwlad o gad a gedwis

[1] Rhys Ieuanc a ꝛ farw yn y Flwyddyn 1222 ac a gladded yn Ystradfflur.

Cadw varedut cadyr eurdoryf
Cadoet gyman cad gynnwryf
Bolch glet yn dewret yn eiryf
Balch glod ac aruod ac aryf

Aryfrut balch teyrnwalch tec
Eurvro gadw gadarn dinac
Armes ros bla ddangos blyc
Aeruleit gwreit ae goruc

Goruc fy llyw llew amgoed
Gwyar am aer drydar draed
Oesawc varchawc veirch gydneid
Aes valchliw rut eurvriw rwyd

Rwyd ysgwyd ysgwn eurwlet
Ruthyr rynn ny geis rann o vot
Rugyl yawn y dawn yny dyt
Rutbar vawruar varedut
Maredut aestromrut &c.

EGLYNYON

A Gant y P. B. y Varedut vab Ywein. O L. D. D.

Maredut ut prut praflu
Kefeis nyd kyfyg dy vro
Gwledic doeth kyuoeth kyfa
Gwlad roc diofyn colofyn kymry

Kymry varedut kymer
Kymreisc walch balch bennadur
Dreic vnbynu aervyn arwr
Drud llaw esgud lluosgar

Car gymhell treitbell trethoet
Mab ywein mawrdwryf arraet
Llyw glyw glew yn ymorchwyt
Llwytdud llew gwrtrud gwreit

Gwr yw uy llyw gorllawen
Gwyr a gar gwawr trydar trin
Gwrt yn ryuel ae elyn
Gwrth gas wrth y gassogyon

Digassawc franc frawt anvot
Dugost vawrdost uaredut
Diffeith pob gwlad gad gynnyt
Dewr gyuran ae chyfannet

Kyuannet walch dy ualchgorn
Ar tir ynyal dywalwern
Eurbost cad aerbyst kedyrn
Eryr cadyr dewrwyr kadarn

Kadarn kedeirn gywrysset
Y keidw glew gwlad yr anuot
Bolchlauyn yn aer daer deryt
Balchgoeth uawrdoeth varedut
Maredut vt prut &c.

EGLYNYON

A Gant y Prydyt Bychan y Varedut M. Ywein. O L. D. D.

Oesuyrr dy alon aesuriw varedut
Trawsualch ut treiswlad wiw
Pwyll mab vthyr rwyf aruthr riw
Pwyllawc par dryllyawc drilliw

Yn lliw gwyar bar beir vetu prydein
Hil ywein hawl fynnu
Pob gwlad barawd gad gyrchu
A diuarn ae gadarnllu

Yn llu yth weled yn llithyaw branhes
A bryneich yn cwytaw
Llyw dragon llafneu dreiclyaw
Llew ehwybyr o lwybyr dy law

Llaw ar bar anwar enwawc varedut
Dreic rwytuut rutuoawc
Kynnyt blas dy digassawc
Kynnwalch muner ner nerthawc

Ym neirthyawc breinhyawc brenhin
gwyr toruoet
Teruysc lloegyr y gelwir
Kymreisc wystlon a wystlir
Kymry ae dyry roc dir

Roc dir y rotir rwyf gofyneic prut
Maredut mawrvut meic
Ardwy llu lloegyr eryneic
Eurdretheu dreithyeu ym dreic

Dreic agkynnwys dwys nyd oes ath veito
Yth uytyn diarlloes
Ath gynnhwan gad veityad voes
Ath gynnhar wlad yth gynnhoes
Oesuyrr dy alon &c.

EGLYNYON

A Gant y Prydyt Bychan y Uaredut. M. Ywein. O L. D. D.

Gwalch yssym amyl y niuer
Gwalch eurgalch aergun gyuor
Gwalch dewrualch o lin dewdwr
Ac am walch dewrualch dewrwyr

Gwyr rif syr yssyt yn y gad
Gwrthrut varedut vur gryd
Twn y bar dreic anwar drud
Didwn y eir ual creir cred

Cred pan aeth dreic hydyrfraeth hy
Yr goteu goteith bennuro
Oet amhyl am amlaen deulu
Heyrn traws teyrn trosti

Trosti yr treisdwyn gwendud
Aeth mab ywein prein prifglod
Ny bu le ar lawr dyued
Ny bei sathyr gan y seithgad

Cadyr uab ywein cadyrualch gwlet
Kedeyrn wostwg rygylvlwg ryt
Dyfrys brwydyr bryd ar ymlat
Difraw y law ar lafyn rut

Llafynrut uaredut llyw drinc
Llew ny ad lloegyr yny wnc
Nys arueit aerulawt frawt freinc
Nys geill seis na threis na thranc

Tranc ar bob franc frawtus gylch
Gwnaeth uy llyw llew ysgwydvwlch
Meic kyhaual aryal aerweilch
Mut mwynfut mygyr gwaerut gwalch
Gwalch yssym &c.

EGLYNYON

A Gan y Prydyt Bychan y Varedut vab Ywein. O L. D. D.

Kyrch a duc uy llyw llew gwyth
Kad vt uaredut valch deith
Oet aerdreic penn eic pann aeth
Oet agro pennuro pan doeth

Doeth brut varedut
[*Englynion ar goll.*]

MARWNAD UAREDUT. M. YWEIN.

Y Prydyt Bychan ae Cant. O L. D. D.

Am varedut vut vawrged
Gwae y genetyl gwawr gogoned
Doeth oe gyuoethcoeth kerted gwenyndro
Gwenwyndrwm a golled
Colled llyw llew huysgwr
Maredut mur dineswr
Dunawd gynnefawd gynnifwr ar ros
O lin rys ab Tewdwr

O dewdwr aeth gwr gwrtlaw hir bolchlauyn
Balchwlad dreic bu kywir
Maredut men na welir
Mygyrdrud gwae y dud ae dir

Tiriawc rywawc ros wrthrych uu uy rwyf
Rwysc ywein urych
Vn oe deruyn doryf lewych
Yspys yspadaden ddinbych

Dinbych y kyrchws kyrch diatrec prut
Gwalch gwawdvut rwytvut rec
Hwyl diwyl dyfyndref saesnec
Hael awyt hil ywein dec

Oet tec rwyf rwysc oliffer
Oet cleu darpar clod dirper
Oet glew maredut oet gloewner esgud
Yn ysgwyd deu hanner

Oet deu hanner ber bar gwythrut yn
Gwr ual llew digythrut [llaw
Oet erwan gwaew preitwan prut
Aruoll mawrgoll maredut
Am varedut vut &c.

EGLYNYON

A Gant y Prydyt Bychan y Ywein uab Gruffut uab Rys. O L. D. D.

Ywein rutlein rot edmyc
Ged ysgein gad ddiysgoc
Teyrnet leith dudueith dec
Teyrnas dinas dinac

Dinac ywein rutlein lafyn
Doeth id yth wlad leityad leifyn
Trethoet tros uoroet uar dwfyn
Treul ked rwyf dyfed rac dy ofyn

Diofnawc uarchawc ueirch fraeth
Yw hwn ut gwaedwn gwawdueith
Lloegyr distryw cadarnllyw coeth
Llid anwar llew gwrtuar gwyth

Angwyth lew arglwyt gwythawr
Ywein borthyad brein bronddor
Dragon a volafy naf ner
Dreic ddiogel y gelwir

Gelwir hwn llu gystlwn llyw
Lloegyr gyrchyad cad ced aelaw
Teruysc eingyl eghyrth pob glew
Teruyn gadw taryan vradw vriw

Briw ragod ragor anvedyr
Bradw yscwyd hud blymnwyd hydyr
Aergleis glwyf rwyf rut beleidyr
Arglwyt gwawd rwyt gwaed raeadyr

Raeadyr gwaed am draed am drwyn
Ryw rac uy llyw llew aryein
Rwym bryneich branhes terrwyn
Rwyf gawr awytuawr ywein

MARWNAD Y EWEIN. M. GRUFFUT.

Y P. Bychan ae Cant. O L. D. D.

Gwr kymrwyn y dwyn gwawr kymry
neud marw
Ywein prein neud prit wely
Aruod uygyr aerwalch hydyr hy[1]

Vy hy arglwyt rwyt rut glet ry golleis
Rym gellir lledurydet
Vy llyw oet vur glyw a gwlet
Vy naf poed nef y diwet

Oe diwet vaenuet uwynuawr aruaeth
hydyr
Hidyl uyt deigr o hiraeth
Ardelw dyued ged gyduaeth
Aerdreic oet benn eic ban aeth

Ban aeth gwawr gwinuaeth gwenwyn a
golled
A golleis oe adwyn
Doeth y ueirt byd y gyd gwyn
Diua gwalch tyrua terrwyn

Oet terrwyn ywein tyrua rec eurvut
Kyn oervet gyhydrec
Oet amhyl oet amlwc gostec
Metgyrn am gylch teyrn tec

Oet tec eurbost rec rwyf adas prydein
Traws ywein treis leas
Oet aergwyn oet oergwyn was
Oet eurgoryf toryf teyrnas

Teyrnllv y law teyrned alar
Gwawr gwanar gwin a med
Teyrnllew glew gloew voned
Teyrnllyw nyd byw neud bed

[1]*Neu*, hydw vab hy.

Neud bed dewrwalch gwlet daear dyw-
archen
Nem[1] gorchwy rwy trugar
Nyd am llud am uud y var
Nym llwyd goleuwyd galar

Meu alar llachar mur traeth llychwr
gwychyr
Llew gwychddrud dineuwr
Mwyth doryf dervyn ehachdwr
Meith blas yn was ac yn wr
Gwr kymrwyn y dwyn &c.

MARWNAD Y RYS GRYC.

Y Prydyt Bychan ae Cant. O L. D. D.

Llawer deigyr hydyruer ar hynt
Hityl am rys ryssua mynwent
Llyw dinefwr gwr gwychblant
Llew trin ae brenhin ae breint

Breinyawc rys brenhin kyuoeth
Brein borthyad cad kanhymdeith
Neud ethol walch weilch hydwyth
Neud ethym am dreic neud aeth

Athwyf ym brwyn gwyn geithyw
Ethym heb vt llauynrut llew
Aeth rys uab rys ros breityaw
Yw diwet uanuet vyniw

Ger myniw llyw llew hawrfort
Y gweleisy rys ros ymhwrt
Teyrnwawr yg gad uawr uyrt
Teyrn yn heyrn yn hart

Hart llys rys ros geithiwed
Rwyf llu tra vu y vywyd
Balchgryc barabyl bolchglet drud
Bar dwys aghynnwys yg gad

Cad gyrchyad llauyndrochyad llew
Vu rys rugylvar rutbar riw
Eryr deyrn loew eurgyrn lyw
Creir oet y luoet y law

MARWNAD Y VORGANT. M. RYS.

Y Prydyt Bychan ae Cant. O L. D D.

Morgant achvre cant mor echrys myned
Llyw llwytged llwrw na wys

[1]*Neu*, neur.

Oet argledyr gwir dir dilys
Ar eurglawr yr arglwyt rys

Mab rys eurbost llys aerbeir yn arueu
Duc angheu dygyn o eir
Ae law oet lw ym pob kyfeir
Fal kyuun grededun greir

Creir nyd amharchei creulawn y volch-lauyn
Ae valchlys yg carawn
Rwyf blwng rwyt ystwng estrawn
Rot digraff rotyon digrawn

Digrawn ar uyg grut dagreu am vorgant
Neum kynwant clwyfyant cleu
Hael enwawc hoetyl uradawc vreu
Hydyr nenn kyn aghen agheu

Duc agheu rieu rwyf ehagdwr llu
Llurycwalch dinefwr
Llew tir teyrnuro dewdwr
Llaw esgud llwybyr gwrtrud gwr

Gwr glew oet vorgant gwrt glet gogoned
O genetyl teyrnet
Gwawr llawr lluossawc vonhet
Gwalch kein aerualch kyn oeruet

Oer ym daw treisuraw tros diuant dragon
Ar pob dreic ys ramant
Erwan dolur mur milcant
Aruoll mawrgwyt goll morgant
Morgant achvre cant &c.

MARWNAD KYNAN VAB HYWEL.

Y P. Bychan ae Cant. O L. D. D.

Dyfed llwyr y gwyr gwrhyd frawt kyf-yrdan
Marw kynan kynhwan cawt
Dawn degwlad cad vleinyad vlawt
Dwyn yn llyw duw ryn llatawt

Llwyr yn llatawt cawt kwyn uetu galar
Gelyn lloegyr a darvu
Bod gwr arall yn gallu
Ym adolwyn ae deulu

Teuluoet kyhoet kwynyant eu heurglawr
Eu harglwyt collassant
Dwys ym bryd beirt byd ba wnant
Disgyr gwyr am eu gwarant

Gwarant gymry blant bla diochel mawr
Marw kynan vab hywel
Kein wlad nef boed ef yt el
Cannos gwnaeth yn ros ryuel

Ryuelnaf trossaf wyf treisdic oe goll
Gallwys beleidr yssic
Brein lithyaw breinyawl leithic
Mur gwladoet marw an gwledic

Gwledic mwyn uawr kwyn kynan kyrch breityau
Preityad lloegyr ae phoethuan
An llyw aer aryf taer ual tan
Llew gretuawl llawer grituan

Grituan uarw kynan kynnyt seithuc bla
Plygu lloegyr a oruc
Dragon gyrchyad gad gaduc
Vu duw an dreic ny a duc

Duc agheu yr goreu goruc coted bron
Peir rotyon par ruted
Pennyal beirt llawr keinwawr ked
Pennyadur dewrvur dyued
Dyfed llwyr y gwyr &c.

MARWNAD RYS VOEL A SAMSUN M. MEURYC.

Y P. B. ae Cant. O L. D. D.

E am rys uab rys ryuyc ny dalywn
Aeth samswn blyngrwn blyc
Mur llauyndur lluoet edmyc
Mwyndud llawr mab mawr meuryc

Kyn plyc vab meuryc mawr anosbarth llys
Kolli rys rwystud barth
Colled rwy ym rwyf diwarth
Coll mawr ar wawr llawr llannarth

Gwalch o barth llannarth llaw agor ysgwn
Oet samswn kystlwn cor
A gwalch rwyt eurvalch ragor
Hydwyth cadarnllwyth caduor

Cadarn an diuarn kyd a mateu rys
Cadwalch llys lles kerteu
Cwyn dwyn deifnyawc oe dechreu
Cof meith anghyfreith angheu

Agheu ry diheu egy— seithuc pla
Plant adaf ry amuc
Hityl deigyr diuryd am goruc
Hoetyl ureu hydyr a deu a duc

Oe dwyn kynnetyf brwyn kwynassam
Samswn—llyw llauyndwn llew dinam
Collyssant oll coll kyflam
Cenetloet eu kein adlam

Adlam gweilch dinam gwychlys
Kyn ystwyll—can ystyn meirch dilys
Anwar yn aer urwydyrdaer urys
Enwawc rutbar votawc rys
E am rys &c.

MARWNAD RYS UAB LLYWELYN.

Y P. B. ae Cant. O L. D. D.

Ducost rys ar urys oe uro
Dic ym oe dwyn gwyn gyfle
Da y dewisseisty hwnnw
Yth uytin grist urenhin vry

Wrth dduw vry vreyenhin coeth
Rys —yl urys ureiscuawr dylwyth
Llawer kertawr gwawr gwawdueith
Ar uar am dy uarwolaeth

Marw rys dreic enwerys drud
Am gwnaeth drwy hiraeth dristyd
Rwg gedymddeith cludueith clod
Am arglwyt mawrglwyf golled

Colleisy rys colled nym peisc
Vab llywelyn llew aerffysc
Gwr am parchei parch dilesc
Ac am rotei rut eurwisc

Gwiscawc varchawc veirch hywet
Oet rys rwysc llew yn ymlat
A drud geir dreic gwynnyonyt
A distein gwawr prydein prut

Prut alar am rys nym roesy hoen
Prifwalch cadarn haearngaen
Chwetyl oer y euruab ywein
Ae gyfoeth a doeth oe dwyn
Ducost rys ar urys &c.

MARWNAD MADAWC MON.

Y Prydyt Bychan ae Cant. O L. D. D.

Madawc mon mal kynnifywr
Bu gwletawc oe nerthawc ner
Ae daeran ae daerlew bar
Bu briw ger bron y eryr

Oe eryr bu oer golled
Dwyn madawc dreic vodawc drud

Oe dy digart hart hyuryd
Oe wayw nyd oet waeth y glod

Oet cloduawr clutueirt otef
Madawg mon kein rotyon cof
Oet tauawd coeth doeth digrif
Ar lles pob neges oe naf

Kyd ae naf cadarn yg grym
Madawc leif aerduryawc lem
Oet pargoch yn aes droch drom
Oet glew lew o lwyth y cam

Llwyth y cam keimyeid dinydyr
Ae colles colled anvedyr
Llary vadawc brif enwawc brwydyr
Llew gwrthgloch burgoch baladyr

Oet briw baladyr cadyr cadcun
Oet brwysc y rwysc rwyd gelyn
Oet gwrt yg cad treifyad trin
Oet llew gawr madawc mawr mon
Madawc mon mal &c.

MARWNAD VLETYNT. M. DWYWC.

Y P. Bych. ae C. O L. D. D.

O dwyn bletynt o duw nef
O goll kywir aruoll cof
Glud yw herw hiraeth arnaf
Glyw deigyr am wr glew digrif

Digrif a gar gwaewbar gwaed
Vletyn vleit trin tra adwyd
Oet kywir y eir erioed
Oet hael talym ddiwael teleid

Teleid yn reid yn rin gwrys
Vu vletyn vlygddrud neges
Ragor glod rugyl y kedwis
Rac bron balch naf y kafas

Can kauas kyuet dichwant
Gan vab dyn dawn ym pressent
Mab duw naf drwy nerth seint
Boed gwar wrth vlaengar vletynt
O dwyn bletynt &c.

MARWNAD WEN VAB GORONWY.

Y Prydyt B. ae Cant. O L. D. D.

Marw am wên lawen lawch kyrt
O hiraeth oi uaeth i ueirt

Marwnad heb plyc hirddryc hart
Bellach a ballaf oe gert

Kertoryon kerteu diuwlch
Gwen lawen lyw ysgwyduolch
Oet tec am rec am rwyf gweilch
Oet tew amlew glew gwlet valch

Balch yn yscwy — loew galch laes
Vu wen wenwynic wrth seis
Vnbenn — vynnei nyvoes
Vnben o vnbyn powys

O bowys be —— dihagyr
O dwyn gwen dilawen deigyr
Gof am daw — llaw am llwgyr
Am goll gawr am wawr mawr mygyr

Mygyrddrud wen hydyrlawen hy
Mygyrveirt magwyd oe voli
Gwawr destyluawr distein tr —
Gwalch kenneytylualch kynnatylua

Kynnatyl —— bei beilch ddoethon
Yn ymaruoll mawrweilch n—
Y lw ny lithid ar wen
Y eir oet creir crededun

A grettei wen walch syberw
Creded y vyned y ———
Erwan y ddwyn gwyn gannhwryf
Eryr mur mawrwyr neud marw
Marw am wen lawen &c.

MARWNAD LYWELYN VAB RYS. M. IORUERTH.

Y P. B. ae C. O L. D. D.

Colli llywelyn llew argae mwynvawr
Maenvet trwm ae gwarchae
Oe genetyl nyd chwetyl chwarae
Ae blant os gwytant ys gwae

Gwae ui oe golli drwy edgyllaeth hydyr
Hityl uyt deigyr o hiraeth
Aerwalch aruod ualch aruaeth
Eur — dwylann frydmaw — fraeth

Oet fraeth y aruaeth aerulaen gynghor llu
Llywelyn anhepcor
Tawedawc breinyawc brondor
Tauarn llwyth cadarn cediuor

Caduarchawc pyllawc pwyll agglaear
Gwrt—gortwy y esgar
Llawch kyrt kertwys y alar
Llew traws ny wneid treis ae gar

Oet carannawc walch weilch gylchyn yn
Yn llyw coch a melyn [llu
H——— gludhawd glod obryn
Haelrwy lawryt lywelyn

———————————

———————————

Llywelyn llyw ————

———————— colles
Colli llywelyn &c.

MARWNAD BLEGYWRYT.

Y Prydyd Bychan ae Cant. O L. D. D.

Marw blegywryt bla wrthot galon
Wyf galar anoruot
Aerwalch balch bolchgled aruot
Eurwawr hoeddyl ddiruawr ddaruot

Deryw Bleg. deurud arwyd hoew
Neum doeth hoet oe tramgwyd
Drutwalch hylwybyr ualch hylwyd
Dewr argletyr da wr arglwyd

Arglwyd neit mawrgud neud mawrgwyn
Dwyn gwrda penadur [gwyrda
Blewgy. llew gryt llafynddur
Llew oestrawt llan ystrat flur

Ger flur yr dolur dilen saeth detwyd
Oe dytwed olo ydaeth
Dwyn gwawr trylwyn trwy hiraeth
Duw ury dewr urenhin ae gwnaeth

Gwnaeth — law aeruraw aurcol bryneich
Briwlan riw a heol
Gwawr cadarn yn cadwyt ol
Gwr coeth gweryt doeth dethol

Neut dethol gwalch nef neut aeth ble-
Oe gywreint wassanaeth [gywryt
Llyw gwled gwin a med ae maeth
Llef gawr oe vawr varwolaeth
Marw Bleg &c.

MARWNAT GORONW AP EIDNYUET.

Prydyd Bychan ae Cant. O L. D. D.

Marw goronw mur gwyndyt
Gwychyr — uab ednyuet
Arueu —— cleu —— clot
———————— wlat

[*Englynion ar goll.*]

EGLYNYON

A Gant y Prydyt Bychan o Deheubarth y Owein Goch vab Gruffut. M. Llywelyn. O L. D. D.

Gwynet kein reuet cann rad nyth arllut
Mab gruffut mawrvut mad
Gorvlwng walch yg calch yg cad
Goruolet y beructwlad

Gwledic gwychyr hydric gwychnaws yw ywein
Clet lith brein clod liaws
O lyw glyw glewddrud gynghaws
O lin breyennin trin traws

Trawsuar yn trydar yn tro dygythrut
Mab gruffut breiscut bro
Caer daer terwynwalch gymro
Dygant yth uetyant ath vo

Bo gwalch bro breint teyrnas
Drwy rad y rwyf cad nyd cas
Yn ddiofyn ehofyn ehangblas arglwyt
Oe eurglet ry cafas

Kawssawch goruuawch gwrhydri angut
Angert ueibyon beli
Mwynvawr weilch beilch westi
Mon eryron eryri

Eryr eurdreth myr aerdranc yw ywein
Gweilch goelucin gwalch gyfranc
Drud yn arueu yn yeuanc
Dreic llys fraw drwc ar lles franc

Ffranc uyth ueit kyfranc kyfrwysgar gwersyll
Rwym pebyll bumddryll bar
Cad aerulawt uorgymlawt uar
Cadarn ddilesc wrth esgar

Hyddysc y esgar escuduryd ywein
Gwawr llundein llew yg gryd
Hydoryf walch hydyr or mebyd
Hyder gwendud ner gwendyd

AWDYL

A Gant Einyawn vab Madawc ab Rahawd y Ruffut ab Llywelyn. O L. D. D.

Arddwyreafy hael hwylglod ellwg
Arddunyant toruoet tyrrua eitwg
Aruod ysgymod goruod gorflwg
Arueu briw trilliw trillu gyhwg
Eryr gwyr gwynet gwn nad echwg
Ked ef ddigoner ny chymmer vvlwg
Yr yn uab ym rwyfy ry gwnaeth ystwg
Ar y estronyon ys drud echwg
Pendefic crukyeith meith mygyr ddifwg
Pennyadur prydein prydest deilwg
Pennaf yw gruffut peunaeth rwg deu uor
Penn eurddor bronddor breint a hebrwg
Pannu a uyt dir rac dewr gorflwg
Pan uo dyt gorwlad a chad yn wg
Pennyal pob aryal crev allwg branes
Amgylch llyw didres dwydreul gyfrwg
Gnawd yd gyrch kynnygyn oe gynnif pwg
Mal pan gyrch fflamdan flamdo yspwg
Gnawd yd goch a glew gleif gan vwg gor-
Gnawd goches rodwyt ruat ostwg [wyt
Gnawd taw treissyaw tros bob ethwg
Nyd gnawd oe ardal na thal na thwg
Gwnaeth drwy einc ar freinc frawt anheil-
Ac ergryd a chryd a chreu ddillwg [wg
Gwnaeth drallif gwyar vch trallwg Eluael
Pan fu ymdrafael drud ac erdrwg
Gwnaed dduw y ddiwet ef ddifefyl hebrwg
Yny uo y orffen ar ffort deilwg
Yn dygyant trigyant dreic diystwg
Yn tec adef nef nawt orddillwg

EGLYNYON

A Gant Gwernec vab Clyddno. O L. D. D.

Kwddedynt lletkynt llit anoeth goval
Gnawt gouyn chwedel y ddoeth
Mawr dduw a ddyckych beunoeth
Mor wael na welir dranoeth

Tranoeth or pan el trwm ddylyn ys gwael
Nas gwyl neb yr gouyn
Dolur adrawd gawd ganlyn
Diuancoll dygyn hirgoll dyn

Y dyn a ddyckych o ddygyn troua poen
Or pan el o ddyma
Hawl ddidawl ddidwyll wrda
Hael iessu kwd ev kwdda
Kwddeuynt &c.

HOWEL VOEL VAP GRIFFRI AP PWYLL GWYDDEL

A gant yr Awdyl hon. i Owein Goch ap Gr. ap Ll. yr hwn oedd yngharchar gan ei frawd Llywelyn ac a ollyngwyd yn rhydd 1277.[1] O L. D. D.

Duw mawr amerawdyr dynyadon
Dillwg dy walch terrwynualch tirion
Dewr ewein deurutliw fion

[1]Ef a garcharwyd yn 1254. bu yn garcharor 23 blynedd.

Dur goch bar llachar llawch deon
Dinegyf neges rodolyon
Digaled am ged am geinnyon
Diffrwythws daear oe uod ygharchar
Aed ae car gan wyllon
Dilwfyr gwych gweithfutig dragon
Digrawn eur digrifwch dynyon
Diafyrdwl yn aer yn aruon diwet
Rwyf gwynet rwysc lleon
Difro wyf hep rwyf hep rotyon
Hep ewein hebawc kynureinon
Diarswyd ysgwyd ysgyryon ygnif
Ysgwthyr llif llid dryon
Digart hart y uart ae vaon
Ae uyrteu ae uyrt aruogyon
Digabyl wawr gwryawr ual gwron
Gwreit bleit bliant arwyton
Dilut but ual nut y netuon mordaf
Pryd Adaf prif haelon
Diofyn cad kedeyrn doruogyon
Difefyl ner fyryfder faraon
Dinam hael o hil eryron
Dinac dreic dinas kertoryon

HOWEL VOEL AP GRIFFRI AP PWYLL GWYDEL

A Gant yr Awdyl hon i yr un gwr.
O L. D. D.

Gwr yssyt yn twr yn hir westi
Gwreit teyrneit teyrnwalch ri
Gwr am dotyw gwall oe golli o uyw
Gwreitlyw a glyw y gloduori
Gwr teleid teiluoet lochi
Gwr teilu teilwg y uoli
Gwr y gryd yn ryd gwr ual rodri mawr
Gwr eurglawr aessawr vsswyt holli
Gwr yn rwym gan rwyf eryri
Gwr pei ryt ual run uab beli
Gwr ny adei loegyr y losgi y deruyn
Gwr o hil meruyn mawruryd beulli
Gwr toruoet gwr gwisgoet gwisgi
Gwr gwasgawd kiwdawd kad weini
Gwr cadarn cadoet reoli
Gwr cadwent kedwis haelyoni
Gwr eurfut dilut heb doli
Gwr diletyf prifddeddyf pryderi
Gwr oet ewein hael ny wnei holi mach
Gwr nyd oet lyfrach noc elifri
Gwr a beris lloer llwry goleuni
Gwr a beris heul nyd treul tregi
Yr gwir dduw yt wyf yn erchi
Yr gwyr nef om neuawl weti
Ar oed byrr os tyrr torri glas euyn
Gan uot llywelyn llyw kedwli
Gan uod hir gymod heb gam ynni
Gan ddidwyll gymwyll gymodi
Gan uadeu o dduw y dodi yg crocwet
Gan uyned yr bet bu bot keli
Gan gredv penn llu llwry kyuodi
Gan holl ddifryd byd oe bym weli
Pam na vadeu brawd y brovi arall
A uyt wrth ddyall guall gospi
Ny uet namyn duw digyuoethi dyn
Digart lywelyn lew tra gweilgi
Dewr dragon berywon borthi
Dreic arueu pebylleu pali

GRUFFUDD YN. COCH I DDUW.

O L. L. D.

Moli Duw yn nechreu a diwedd
Ai cynnif ni wellyg[1] ni ommedd
Un mab Mair modrydaf teyrnedd
Mair mam Grist ergynnan[2] rhianedd
Dyddaw yr haul or dwyrain
Dy eiriawl er dy fawr drugaredd
Ar dy fab iolydd di yn nhrugaredd[3]
Duw uch omne[4]
Duw rhag omnne[5]
Duw a fedd
Rheen nef an rhoddo ni rann trugaredd
Teyrnfron tange erom heb ymommedd
Diwyceo fi digono fi[6] o gamwedd
Cyn myned im gweryd i'm hirwedd
Yn nhywyll heb ganwyll i'm gorfedd
Ym gwein fod ym gored im gorwedd
Gwedi meirch ac ymddwyn glafwedd
A chyfedd a chyd ynni[7] a gwragedd
Ni chysgaf gobwyllaf om diwedd
Gwlad yddym ys agro ei maswedd
Mal dail o flaen gwydd dadwedd
Gwae angawr a grawn mawrferthedd
Ac onis gwadawl y riedd
Cyn gatter ef yn rhyfedd[8] present
Perygl yw[9] yn y diwedd
Ni wyr drud nid ysgryd yn ei dymmer
Ni chyfyd fore ni chyfeirch nid eistedd
Ni chan wên nid eirch drugaredd
Bydd chwerw ei dalawr yn y diwedd
Sybyrwyd a mawrfryd a mawredd[10]
Meithrin corph i lyffaint a nadredd
A llewod[11] ac ymddwyn anwiredd
Ac angeu dyddaw wrth glwydedd
Ef yn llwch dychynnull dychyfedd
Dynessa henaint ar lled arfedd
Dy glust dy ddrem dy ddaint neud adwedd

[1] Welli *neu* felly.—Ll. D.
[2] Ergynan.—Ll D.
[3] Yngharedd.—Ll. D.
[4] *Neu*, uchom, uch omni.
[5] Rhagomni.—Ll. D.
[6] Diwyccom ni a ddigonom ni.—Ll. D.
[7] Ym ni.—Ll D.
[8] Rhyred.—Ll. D.
[9] Fydd.—Ll D.
[10] Maredd.—Ll. D.
[11] Lleufod.—Ll. D.

Dychrycha croen dy fysedd
Ath wna henaint a llwydedd
Afeirolony[1] Mihangel
Ar reen nef ran trugaredd
Cyntefin ceinaf amser
Daear aclar[2] glas calledd
Ereidr yn rhych[3] ych yngwedd
Gwyrdd mor brithottor tiredd
Pan ganont cogeu ar flaen gwyddgwiw
Handid mwy fy llawfrydedd
Tost mwg amlwg amhunedd
Can ethynt wy cereint yn adwedd
Ymbrynu[4] yn tyno yn ynysedd
Mor ym mhob ffordd ydd eler
Rag Grist gwyn nid oes ynialedd
Oedd ein chwant yn car yn trossedd
Treiddiaw ty tir i alltudedd
Saith saint a saith ugaint a seithgant
A fuant yn un orsedd[5]
Y gyda Christ gwynn ni phorthynt fy
Arch a archaf nym naccaer [gwedd
Y rhof[6] a duw tangnefedd
Am bo ffordd i borth rhiedd Crist
Ni bwyf trist yn dy orsedd

ARALL

O L. E. D.

Yn enw Domini
Meu y moli
Mawr ei folawd
Molaf Ddofydd
Mawr ei gynnydd
Ar ei gardawd
Duw an hamug
Duw an gorug
Duw an gwarawd
Duw ein gobaith
Teilwng berffaith
Teg ei burffawd
Duw an dyly
Duw ysy fry
Frenin trindawd
Duw a brofed
Ynn yn drwydded
Drwy ei drallawd
Duw a ddyfu
I'w garcharu
Gan ufulltawd
Gwledig dedwydd
An gwnel ni'n rhyd
Erbyn dyddbrawc
An dwg i'r wledd
Er ei waredd
Ai werindawd
Ym mharadwys
Ymhur gynnwys
Rhag pwys pechawd
A'n gwnel iechyd
Er ei benyd
Ai bum dyrnawd
Dolur engyrth
Duw a'n diffyrth
Pan gymyrth gnawd
Dyn a gollai
Pei nas prynai
Ddifai ddefawd
Or grog greuled
Y daeth gwared
Ir fedyssawd
Cadarn fugail
Crist nid adfail
Ei deilyngdawd

[1] *Neu*, an eirolwy ni.
[2] Dyar adar.—Ll. D.
[3] Rhith.—Ll. C.
[4] Ym mrynn.—Ll. C.
[5] Y giledd.—Ll. D.
[6] Rhee.—Ll D.

MARWNAD ARGLWYDD LYWELYN

A Las ym Muellt yn y Flwyddyn 1281. Gruffudd ap yr Ynad Coch ai Cant.

O L. E. D.

Oer galon dan fron o fraw allwynin
Am frenin dewin dor Aberffraw
Aur dilyfn a delid oi law
Aur dalaeth oedd deilwng iddaw
Eurgyrn aur deyrn ni'm daw llawenydd
Llywelyn nid rhydd i'm rhwydd wisgaw
Gwae fi am Arglwydd gwalch diwradwydd
Gwae fi o'r aflwydd ei dramgwyddaw
Gwae fi or golled gwae fi or dynged
Gwae fi or clyyd fod clwyf arnaw
Gwersyll Cadwaladr gwae saf llif daradr
Gwas rhudd ei baladr balawg eurllaw
Gwasgaroedd alaf gwisgoedd[1] bob gauaf
Gwisgoedd am danaf oddi am danaw
Bucheslawn arglwydd ni'n llwydd yn llaw
Buchedd dragywydd a drig iddaw
Ys mau bid wrth Sais am fy nhreisiaw
Ys mau rhag angau angen gwynaw
Ys mau gan ddefnydd ymddifanw a Duw
Am edewis hebddaw
Ys mau ei ganmawl deb dawl heb daw
Ys mau fyth bellach ei faith bwyllaw
Ys mau i'm dyn hoedl am danaw afar
Can ys mau alar ys mau wylaw
Arglwydd a gollais gallaf hirfraw
Arglwydd teyrnblas a las o law
Arglwydd cywir gwir gwarandaw arnaf
Uched y cwynaf och or cwynaw
Arglwydd llwydd cyn lladd y deunaw
Arglwydd llary neud llawr ei ystaw eiddaw

[1] *Neu*, gwisgawdd.

Arglwydd glew fal llew yn llywiaw elfydd
Arglwydd aflonydd ei afluniaw
Arglwydd cannadlwydd cyn adaw Emrais
Ni lyfasai Sais ei ogleisaw
Arglwydd neud maendo ymandaw Cymry
Or llin a ddyly ddâl Aberffraw
Arglwydd Crist mor wyf drist drostaw
Arglwydd gwir gwared y ganthaw
O gleddyfawd trwm tramgwydd arnaw
O gleddyfau hir yn ei ddiriaw
O glwyf am fy rhwyf y sy'mrhwyfaw
O glywed lludded llu bod faeaw
Cwbl o was a las o law ysgeraint
Cwbl braint ei henaint oedd o honaw
Canwyll teyrnedd cadarn llew Gwynedd
Cadair anrhydedd rhaid oedd wrthaw
O laith Prydain faith cwynllaith canllaw
O ladd llew o an coel lluryg na'ncaw
Llawer deigr hylithr yn hwylaw ar rudd
Llawer ystlys rhudd a rhwyg arnaw
Llawer gwaed am draed wedi ymdreiddiaw
Llawer gweddw a gwaedd y amdanaw
Llawer meddwl trwm yn tomrwyaw
Llawer mab heb dad gwedi ei adaw
Llawer hendref fraith gwedi llwybrgodaith
A llawer diffaith drwy anrhaith draw
Llawer llef druan fal ban fu'r Gamlan
Llawer deigr dros ran wedi'r greiniaw
O leas gwanas gwanar eurllaw
O laith Llywelyn cof dyn ni'm daw
Oerfelawg calon dan fron o fraw
Rewydd fal crinwydd y sy'n crinaw
Pam na welwchwi hynt y gwynt ar glaw
Pam na welchwi'r deri yn ymdaraw
Pam na welwchwi'r mor yn merwinaw'r tir
Pam na welwchwi'r gwi'r yn ymgyweiriaw
Pam na welwchwi'r haul yn hwylaw'r awyr
Pam na welwchwi'r syr wedi syrthiaw
Pam na chredwchwi Dduw dyniadon ynfyd
Pam na[1] welwch chwi'r byd wedy bydiaw
Och hyd attad Dduw na ddaw mor dros
Pa beth i'n gedir i ohiriaw [dir
Nid oes le y cyrcher rhag carchar braw
Nid oes le y triger och or trigaw
Nid oes na chyngor—na chlo nag egor
Unffordd i esgor brwyngyngor braw
Pob teulu teilwng oedd iddaw
Pob cedwyr cedwynt y danaw
Pob dengyn a dyngynt oi law
Pob gwledig pob gwlad oedd iddaw
Pob cantref pob tref ynt yn treiddiaw
Pob tylwyth pob llwyth y sy'n llithraw
Pob gwann pob cadarn cadwedd o'i law
Pob mab yn ei grŷd y sy'n udaw
Bychan lles oedd ym am fy nhwyllaw

[1] Poni, *yw dechreu yr* 8 *ban rhagylaenawl, mewn rhai llyvrau.*

Gadael pen arnaf heb pen arnaw
Pen pan las ni bu gas gymraw
Pen pan las oed lesach peidiaw
Pen milwr pen moliant rhagllaw
Pen dragon pen draig oedd arnaw
Pen lln. deg dygn o fraw—ir byd
Bod pawl haiarn drwyddaw
Pen arglwydd poen dygngwydd amdaw
Pen fenaid heb fanag arnaw
Pen a fu berchen ar barch naw Canwlad
A naw canwledd iddaw
Pen teyrn heiyrn heid oi law
Penteyrnwalch balch bwlch ei ddeifniaw
Pen teyrnaidd flaidd flaengar ganthaw
Pen teyrnef nef ei nawdd arnaw
Gwyndeyrn ortheyrn wrthaw
Gwendorf gorf gorfynt hynt hyd Lydaw
Gwir freiniol frenin Aberffraw
Gwenwlad nef boed addef iddaw

DIWEDD.

GRUFFUDD AP YR YNAD COCH.

O L. E. D.

Och hyd ar frenin freint ucheldaw
Haeldad goleuad llygad a llaw
Na chred pechadur ei ddifuriaw[1]
Yny el i bwll i bell drigaw
Na phoeni gau galon dreuliaw
Na myned o Ghrist ir grog erddaw
Ac na wyr yn llwyr llabyddiaw ——'n harglwydd
A thrwy waradwydd ei wir adaw
Bei meddyliai ddyn ei feddyliaw
A fu o ddolur ar ei ddwylaw
Gan gethri parawd yn cythruddaw cnawd
Ef ni wnai bechawd nai rybuchaw
Bei na bai undydd dofydd an daw
Dyddbrawd yn barawd i'n diburaw
Ar gwaed gyn ired[2]
Ar dydd y croged
Ai ddwylaw ar lled
Wedi'r[3] llidiaw
Ar gwaed yn ffrydiau ynghylch ei fronnau
Ai holl weliau heb eliaw
Ai goron yn ddrain ac yntau'n gelain
Ai ben yn anghrain wedi'r greiniaw
Ac ol ffrewyllau ar ei ystlysau
Er gwneuthur angeu a phoen i ldaw
Er prynu mab dyn or tan ufelyn
Y gan ei elyn oedd yn aelaw
Er dangos i'r byd ei boen ai benyd
Er ein[4] dwyn i gyd o gidwm law
Ac yna y dywaid y dydd uchenaid
Mae ef y diriaid oi eneidiaw

[1] Diuryau.—Ll. P. P.
[2] Yn giret.—Ll. P. P.
[3] Uedy.—Ll. P. P.
[4] Er y. Ll. P. P.

A cham gyhuddwr
A cham usurwr
A thwyllwr bradwr
Bradawg ddwylaw
A lleidr annoniawg a dyn dau eiriawg
A glwth a diawg dial cymraw
A gott[1] a chelwydd a geuawg grefydd
Can nad eiddynt ffydd ffoynt rhagddaw
I blith y gethern i waelawd uffern
Yn lle mae mygn wern wedi' mygnaw[2]
A chynnau o dan a defni brwmstan
A phob marchdaran yn ymdaraw
Rhag tragwres y tan a gormodd poethfan
A wnaeth Barabban[3] i benydiaw
Er cythruddaw cnawd er dial pechawd
Perchen drwgddefawd a ddel attaw
Archwn i'r yspryd Celi oth blegyd
Cyn pridd a gweryd ein gwarandaw
A chaffael angen a goleu[4] a llen
A chymmod a'n rheen cyn no'n rheiniaw
A nefol orsedd a rhan drugaredd
A Christ o'r diwedd i'n dwyn attaw
Amen.

CERDD GRUFFUDD AP YR YNAD COCH 1280.

O L. E. D.

Ponid gwan truan trymder pechadur
Pechodeull annifer
Na wyl dyn dyfod ei amser
Na welydd cywilydd callder
Na chryn llaw yn llyniaw salwder
Na chred i Dduw ddewin ffyddlonder
Na chrynai bob pryd rhad pryder cwymp-
Y mewn cwymp Luciffer [aw
Yn ddiledfryd byd bod yn ofer
Nid da na thraha na thra-balchder
Nid digywilyd pan weler ddyddbrawd
Diarllain pob pechawd fal y pecher
A Christ ymrhen crog er creulonder
Yn y boen y bu dduw Gwener
Ar pumffrwd pumffrwyth nid ofer
Ai bannai am ben y nifer
Ac anheilwng lu gan Luciffer
Ac yn nhal pob sant ei galander
Ac angylion nef niser curannaid
Yn crynu rhag pryder
Deallwn syniwn trwy synwyr ber[5]
Dielwed fydd dyn y dydd y ganer
Ef yn fab yn febyd ofer
Ef yn was anwastad gallder
Ef yn oed yn edrym llymder
Ef yn wr yn arial pryder[1]
Ef yn grwm yn grymman gwillmer
Ef yn rhwth yn rhuthraw gwener
Ef a rhwngc yrhwng ei ddwyfer
Ef heb gof ynghyf brif aeredd
Ef yn wan truan law tryfer heb nerth
Ef heb gannerth heb gynnifer
Llwyd ei benn ban henyw ei falchder
Llygad briw heb liw heb leufer
Lle'r dannedd yn dwn pan geisier
Lledr y grudd yn grin pan deimler
Llwm ei groen crinfrych ysgeler
Lle rhyfedd rhyfyg a balchder
Na fid un llysenw a Luciffer
Ni bydd brychwen llen llawanycher
Ni bydd brychwyn dyn dydd cladder
Nis canlyn oi dda oi ddifer ymdro
Eithr ei amdo amdlawd biner

Nawdd y tad ar mab rhad rhof am galon
Nawdd y glan yspryd cywyd cofion
Nawdd y Iesu caru coron tangnefedd
Caredd disgybledd ai ddisgyblon
Nawdd y grog ddehau ddoniau ddanfon
A gymmeraist Dduw er dy ddynion
Rhag Uffern gethern geithaw anffyddlawn
Ai chreulawn ddigawn ddigasogion
Nawdd y cariad rhad rhof am galon
Nawdd myr a mair ai morwynion
A nawdd a archaf archengylion mawr
Arglwydd nef a llawr fal y llwyddon
Nawdd pedr arbennig lleithig llithion
Oreu porthoriau or porthorion
Nawdd y pedwar gwar gwyryddon wyr-
yaid
Angelystor plaid cywaid Canon
Nawdd Ieuan liw bann ben diwydion
A fendigawdd Christ croes arwyddion
Nawdd addfwyn cysswyn cysson eu gweddi
Prophwydi celi cylwyddogion
Nawdd undawd Trindawn y tri pherson
Nawdd yr holl seiniau senedd wirion
Nawdd canmawl hollawl holl angylion
nef
A gwir addef y gweryddon
Nawdd arnaf dodaf y dedwyddion
Nodded oi parthed am perthynon
Nawdd merthyri Duw Deon tragywydd
Nawdd y sydd ufudd afael wirion
Cyn goddef angeu engyrtholion
Am bwyf gan deuhael cael cyfeillon
Mihangel Gabriel gobrwyon ganmawl
Ysprydawl gedawl gydymdeithion
I reol dehol y gwyr doethion
I rydd-did addef nef i'm noddon
Yn rhydd i'm henaid rhoddion goleuder
Yn rhwydd-der lleufer i'm llehaon
Amen.

[1] Ac ot.— Ll. P. P.
[2] Y lle y mae miguern guedy'r vignau. Ll.P.P.
[3] Bar aban.—Ll. P. P.
[4] Ac oleu.—Ll. P. P.
[5] Ver.—Ll. C.

[1] *Neu*, prudder.

AWDYL I DDUW.

Gr. ab tr Ynad Coch ae Cant.[1] O L. E. D.

Y gwr an rhoddes[2] rhiniau ar dafawd
Ac arawd a geiriau
Am troses i gyffes nid gau
Am troho i'r trohedd[3] goreu
I guriaw gorwisg[4] y gruddiau
I garu mab Duw yn ddiamheu
I gymryd penyd rhag poenau Uffern
Ac affeith pechodau
Gwae ddyn a ddilyn camlyau
Gwae leidr ai ladrad ynghloddiau
Gwae dwyllwr ai dwyll nis maddau
Gwae gyfrydd[5] oi gabl amryffrau
Gwae ott oi drafod yn y dyddiau
Gwae syberw ar subed angau
Gwae lwth oi lithiaw[6] yngwenerau
Gwae fradwr oi frydion feddyliau
Gwae ni chyrcho ffair offerennau Christ
Croes dolur archolleu
Gwae a goddo nam o gam nid gau
Gwae a goddo tad nid rhad rhiau
Gwae ef oi eni ener cynghorwr
Cynghorfynt ai geingiau
Saith brifwyd pechawd yw pechodau'r bobl
Mae yn y Bibl eu henwau
Am saith briwyd nid gwyd gau
Saith weddi y pader arfer oreu
Seithrad mad medrwyf eu dechreu
Saith lleufer enwer eu henwau
Saith wers cymman glan cyn gloes angeu
A gant Christ ai enau [crog
Ystyrieint pumoes byd eu bod ym maddeu
Pan aeth unmab Duw y dydd goreu
I ddrws porth Uffern gethern gaethau
I wân heb aunog ai grog oi grau
Y sarph aflawen yn ei enau
Ydd oedd yn berwi wb or barau
Saith canmil peiriad o eneidiau
A glaweir ac ot[7]
A seirph a llewod
A phawb heb annod[8] yn ei boenau
Ar cethri osglawg
Ar cythrawl cerniawg
Ar cyrn llym sodlawg
Ar ei sodlau
Ar llygod pengarn
Ar gylfinau carn
Ar llech las haiarn
Ar sarn saethau
Ar ffair yn hirddrwg
Ar ffwrn dywyllwg
A phawb ai olwg
Ar ei balfau

[1] O L. E. D. eithyr o L. P. P. y mae yr enwad hwn.
[2] A rodes.—Ll. P. P.
[3] Am trosso yr trossed.—Ll. P. P.
[4] Goruest.—Ll. P. P.
[5] Gebydd.—Ll. P. P.
[6] Tuth oe tithiau.—Ll P P.
[7] A glau eira ac ot.—Ll. P. P.
[8] Ammot.—Ll. P. P.

A phob rhyw hirddrwg
A phob cyfriwg[1]
A phob eiddiorwg
Ar hen doreu
A phob rhyw ddefawd er doluriaw cnawd
A phob cigweinawd ar cigweinau
A phawb yn ubain
A phawb yn germain
A phawb yn llefain
Nas lladd angeu
Nis adrodd tafawd
Nis traetha ceudawd
Onid y Drindawd
Undawd oreu
Poenedig gethern
Pobl[2] mewn mygwern
Poenofaint Uffern
Gethern gaethau
Archaf arch i'm naf
Y dewin doethaf
Nid ymarwerthaf
Heb ei wyrthiau
Or llethri arhaul[3]
Or lle cyfyd haul[4]
Na'm rhoddo i gythraul
Er ei gethreu
Er ei gyd arfoll
Er ei bum harcholl
Yn ei arch friwdoll
Ai archollau
Er car Absalon
Er cur ei ddwyfron
Er gwaed ei galon
Ai fron friwgreu
Ydd archaf im tad
Ei yspryd a rhad[5]
Ran o wir gariad
Fal i'm goreu
Cyn ysgell beddrawd
Ysgar am pechawd

Modawd nid mau
Penedy cynnes
Caffael gorddiwes
Cymmun a chyffes
A lles llyfrau
O lew ac angen
A chymwyll amen
A chymmod am rhên
Yr hyn goreu
Ni bwyf lwth diawg
Ni bwyf lesg ofnawg
Ni bwyf weithredawg
Camweithredau
Ni bwyf gyhuddgar
Ni bwyf ymladdgar

[1] A phob ryn kyvruc.
[2] Pobloed.—Ll. P. P.
[3] Er lethri araul.
[4] Ar cyvyt gwenheul.—Ll. P. P. [P. P.
[5] Yspryt a mab rhat.—Ll.

Ni bwyf anhygar
Yn hogi gau
Ni bwyf hoedyl gywall
O weithred arall
Ni bwyf wr angall erbyn angeu Amen.[1]

AWDYL I DDUW.

GRUFF AP YR YNAD COCH AE CANT. O L. P. P.

Duu yn gyntaf
Y kyvarchaf
Bennaf bieu
Nef a daear
A gwyllt a g6ar
G6a6r ysprydeu
Mor a dyfredd
Mur teyrnedd
Reitued radeu
Ar ffurvaven
Ar holl bressen
Bryssur donieu
A Pharad6ys
Ef ae pryn6ys
Pryn godeheu
Ar holl bobled
Ac nyt ryved
R6yf synh6yreu
Iessu Iessu
A vyd a vu
Tr6y vud gethreu
Mae yn vedyant
Ma6r ogonyant
G6arant goreu
Y mae'n canvot
Ac yn g6ybot
Holl 6ybodeu
Nyt oes Vrenin
Deus Domin
Ynn yn eisseu
Pam nat ystyr
Y parch s6yd6yr
Percheu s6ydeu
Nad an dros gof
Y 6yllt a dof
I da6 agheu
Ac na 6ydant
Rac a glyussant
O glevytieu
Bryder dirya6
Pa bryt y da6
Eu d6yn h6ynteu
Ac nyt g6ell barn
Eurgledd cadarn
Argl6yd kadeu
Nor dyn g6annaf
A distadlaf
Yn y datleu
Prudyon[1] vydant
Du6[2] y barnant
Am eu barneu
Heb dim neva6l
O r6yf byda6l
Byt gyfreithieu
Kyvreith hocket
A chyhudet
Baned beieu
Ac en6ired
Heb drugared
A dryc eirieu
A g6ylltineb
Ha6l ac atteb
Gattel poeneu
A d6yn reidus
Yn gamlyrus
L6yr ovityeu
Y dyd a da6
Ni byd divra6
G6yra6 geiryeu
Ar 6an gristia6n
Yn anghyvya6n
Digra6n dagreu
Yr neb ae g6nel
Gormot ryvel
Ryva6r gammeu
Ny byd un vreich
Heb v6y no beich
O bechodeu
G6ae hocked6r
G6ae gyhud6r
O'r gohodeu
Ar ɒalch gyved
Her6yd trossed
Tryssor obreu
Pan 6ir varner
Yngoleuder
Ser a sygneu
Geyr bron Dovyd
A sy6edyd
Nyt oes 6adeu
Nyt oes allu
'N erbyn Iessu
Na syn droeu
Nac esgussa6
Na chydya6 bra6
Brat vedylyau
Yna y telir
Agheu ystir
En6ir eneu
Y bob tuyll6r
Ac athrod6r
Eu gueithredeu
Pan 6rthotter

[1] *Yn* Ll. E. D. *yn canlyn yma, heb yr un enwad, y mae yr awdyl nesav; ac hevyd un o eiddo Elidyr Sais, yn dechreu yn tu dal.* 351, *yn ol* Ll. P. P. *ac yn ddiwahaniad.*

[1] Drudion.—Ll. E. D. [2] Drwg.—Ll. E. D.

O 6rth y niver
Nef obr6yeu
Y dyg6ydant
Eisseu g6arant
G6ae'r eneityeu
Ym p6ll uffern
Gyt a'r gethern
Uern 6elyeu
Lle mae trist6ch
A thy6yll6ch
A ll6ch a lleu
Ar kythreulyeit
Eu herbynyeit
Oeron boeneu
Pob cam6eda6c
Pa6b ys ofna6c
Rac eu sasneu
Yn disgyrnu
Danned arnu
Orn ymly6eu
Llidia6c vydant
Llym i g6anant
A'r cigueinyeu
G6en6yn atneir
G6ed agky6eir
Me6n peir poeneu
Ac eu cronni
Y hir goethi
G6aeth noc agheu
Ac odyno
Uel dyna tro
Dryc dam6eineu
Eiry a rhe6
A rhuthr6ynt gle6
A gla6 dineu
A g6aeth hevyt
Oed odef kryt
My6n cra6nbylleu
Y neb ny chret
Eu kyvryntet
Bryvet broveu
Wel dy yna
Perchen traha
Tra hir gammeu
Yn hardymer
Gan Luciffer
Bryder bradeu
Oed g6ell mynet
Yn lle caffet
G6elet goleu
G6ylva6r vrenin
Y gorlle6in
Lle6ych drefyneu
I gymrye g6led
Va6r enryded
Rydit gerdeu
Geyr bron Dovyd
Yn dragy6yd
Gy6ir donyeu Amen.

T

Y BRAWD FADAWG AI CANT I DDUW.

A. D. 1250. O L. E. D.

Gwared arnaf naf nawdd am rhoddych
Gwan wyf im nerthwyf fy neirthiad fych
Gwareder llawer lle gwaredych raid
Gwaredwr gweiniaid gwae ni gerych
Sef yw gwander ner nid nas gwypych
Salw ym gelu pan y gwelych
Gwander gwir pryder brad fynych cywyd
Anghadernyd bryd wrth a bredych
Bradychwr yw'r byd ai gyd gywrych
Ar Satan truan hyd tra ettych
A wyl cnawd chwannawg a chwennych ynhawdd
Mawr gawdd diadrawdd daw iw edrych
Rhac tri gelyn dyn Duw am noddych
Rhugl gyd eu cyngyd a'i cemwrych
Rhac eu llu cad-ddu i'm cedwych Arglwydd
Rhag ebrwydd cyfrwydd am cyfrennych
Ffalster byd ai wyd a weherddych
Ffoaf os gallaf ei asgellwrych
Ffoawdyr yw ei ryw rewindrych fyned
Un fyged gerdded a gardd fressych
Ceisiaid gythreuliaid a gythruddych
Cas wybraid crwydraid rhwystraid rhwystrych
Cawsant gennyd farn nid adfernych fyth
Na thrangc eu hoernyth nac eu hirwych
Caer fras eu dorau fal daear sych
Corph ai bum synwyr llwyr y llywych
Caeadau parau perych yn eu bronn
Gwirion borthorion a berthynych
Tithau yr enaid paid nam pedych
Tro o ffyrdd didro yd tra geffych
Tyn droed dy feddwl tra feddych dy bwyll
O blith maglau twyll tywyll eu rych
Dyfodiad gwastad gwir ystyrych
Dy fonedd ar wedd y harweddych
Dybyed aeddfed faddeuych[1] yn gall
Dy anian ddeall a ddyellych
Gloyw degach no'r aur yngwaith[2] eurych
Ath luniawdd creawdd hawdd y crettych
Ei eilun ei hun honnych ei arddelw
Ac oi deg wirddelw yr arddelwych
Arfollaist ynof cof y cedwych
Anffawd a phechawd cyn ni phechych
Achaws reidwlych un oedydd fowych
Angheu Dofydd Duw a folych
Ryssyniaist wedi cais nas gwedych
Ar cnawd wall ddefawd a well ddofych
Nid unwaith na dwy dolurych bob awr
Namyn yn rhyfawr a ryfynnych
A wneych o ddrwg a ddiwygych[3]
Gwedi cant cymmod cymyddych unwaith!
Herwydd cariad maith hyd na methlych.

[1] *Neu*, maddeuych, fettrych.
[2] Ith wnaeth.—Ll. C.
[3] *Neu*, o ddiwg na ddiogych.

Disgwyliaw yr awr elych o'r cuawd
Na fydd amharawd pan ammherych
Gwaed Iessu a fu gwaed cu cwynych
Gwirdda ystoria pan ystyrych
Griddfana ocha fal uch yn beichiaw
Pan fo yn cwynaw gwae ei gydych
Iessu deg Iessu im dangosych
Dy wyneb ni heb a ohebych
Na rhudd dy ddeurudd diddorych oth was
Gwae'r neb a gas a gassych
Tro fi fy rhwyf celi am calonnych
Attad y troaf attaf troych
Nad fi iwrthyd i wrthrych maswedd
Gwagedd breuoledd a ddiweddych
Amherawdr creawdr cryf i'm gwnelych
Ym ffydd ym crefydd i'm crytheych
Daly fy llaw ith law a lywych yn iawn
Ar hyd ffyrdd uniawn im harweddych
Ath folaf Duw naf nefoedd lewych
Pwy nith fawl or sawl a ry seilych
Ith foliant soniant son clych a llyfrau
Cerddau telynau cras dannau crych
Nef daear uffern pan y bernych
Dod nod im hwyneb am hadneppych
Parth clet i minnau ni mynnych fy mod
Parth yr oen gorfod im gossodych
Pan ddel y trillu trallawd berych
I leaws yn draws a drais boenych
Ith lu di difri difrych gwynoleu
Ar y llaw ddehau i'm lleheych Amen.

I GRIST.

Y Brawd Fadawg ap Gwallter ai Cant Fl. A.D. 1250. O L. E. D.

Mab an rhodded
Mab mad aned dan ei freiniau
Mab gogoned
Mab i'n gwared mab goreu
Mab fam forwyn
Grefydd aeddfwyn aeddfed eiriau
Heb gnawdol Dad
Hwn yw'r mab rhad rhoddiad rhadau
Doeth ystyriwn
A rhyfeddwn rhyfeddodau
Dim rhyfeddach
Ni bydd bellach ni bwyll enau
Duw i'n dyfu
Dyn yn creu creaduriau
Yn Dduw yn ddyn
Ar Duw yn ddyn yn un ddoniau
Cawr mawr bychan
Cryf cadarn gwan gwynion ruddiau
Cyfoethawg tlawd
An tad an brawd awdur brodiau
Iesu yw hwn
A erbyniwn yn ben rhiau
Uchel issel
Emmanuel mel meddyliau
Uch ac assen
Arglwydd pressen preseb piau
A soppen wair
Yn lle cadair yn[1] llwycadau
Pali ni myn
Nid uracl gwyn ei gynhiniau
Yn lle syndal
Ynghylch ei wal gwelid carpiau
Eissoes mai ef
Dangos o nef a wnaeth gwyrtheu
Oedd fab Duw ren
Or hwn y Cen llen a llyfrau
A dewinion
Synhwyr ddoethion ddethol gampau
A darogan
Prophwydi glân glaer barablau
Ei leferydd
Wrth fugelydd gwylwyr ffaldau
Engyl yd fydd
A nos fal dydd dyfu'n oleu
Yna y traethwyd
Ac y coeliwyd coelfain chwedlau
Geni Dofydd
Ynghaer Ddafydd yn ddiammau
Son angylion
A glyw dynion a diolchau
Llawenydd mawr
A llawer gawr o ganeuau
I Dduw gloria
Pax in terra i'n terfynau
Heddwch i'r byd
Iechyd i gyd gwedi angeu
Gwilynt er cynt[2]
O gof hir hynt herwydd tadau
Gwilwyr cywrain
Gwyr y dwyrain ar Dal bryniau
Pawb ol yn ol
Gwnaent trwy reol rann wylfaau
O nos i nos
Fal chwant aros cyfarossau
Gwelsan seren
O liw amgen ac amgylcheu
Ac amgen nôd
Nôr ser uchod uch eu pennau
Geni yna
Y brenhin da arwydd dihau
Un gyssefin
Gan dri brenhin fawr eu breiniau
Yna y credant
Yna y cyrchant cyrch goddehau
Ac eu manag
Seren oi rhag yn rhoi goleu
Caerusalem
A chaer Vethlem nid yr methlau
Daethant yn chwydd
Ar feirch ebrwydd wiw ebrannau

[1] *Neu*, i'm. [2] Myc gynt. -Ll. C.

Disgyn yn ffysg
Seren ai dysg wir[1] ei dysgau
Ir ty iddant
Heb ddor heb gant gwynnawg ddrysau
Y mab ydoedd
A anydoedd dan ei nodau
Ai fam ar llawr
Ai bron werthfawr wrth ei enau
Dyn a welant
Duw y credant da eu credau
Ef addolant
Ni ohiriant ar heirdd liniau
Swllt agorant
Aur anrhegant a rhagorau
Myrr ac ystor
Ardduniant cor certh rinweddau
Trwy ffordd arall
Troant yn gall heb golledau
Rhyddun ai gwlad
Rhag twyll a brad y brenhin gau
Rhwystrwyd Erod
Greulod arfod ar ei arfa
Lladdwyd meibion
Gwirion gweinion gwae eu mamau
A nid gwae nhwy
Gwyn eu byd hwy bod yn seiniau
A merthyri
Achaws ei rhi yn eu rhwymau
Cyn bod etwa
Ewyllys da dial eisiau
Na gwneuthur da
Na thraethu da ar dafodau
Hynny a wnaeth
Ganedigaeth deg fy nerthau
Un mab Duw gwir
Od edrychir ar y dechrau
Nos nadolig
Nos annhebig i ddrygnosau
Nos lawenydd
I lu bedydd byddwn minnau
Bendigaid fyg
Yw'r nadolig deilwng wleddau
Pan aned mab
Arglwydd pob pab pob peth piau
O arglwyddes
A wna ynn lles an lludd penau
Ac an gwna lle
Yn nhecca bre yngobrwyau Amen.

YR ENGLYNION HYN

A Gant y Brawd Fadawg ap Gwallter. O L. E. D.

Mihangel uchel och rhag gelyn mawr
Mae y sarph i'm dilyn

[1] *Neu*, wiw.

Dyd ym nerth canys perthyn
Balch dywysawg doniawg dŷn
Dyn can wyf oth blwyf ni oblygant
Fihangel fy mabsant
A thi yn drech no chwechant
O gethern blin Uffern blant
Plant Mihangel sant y sarph
Yw drygwedd lliwen Cen Cyrph
Hagr a llawn yw llun ei gorph
A hwy a mwy no mân seirph
Y sarph pan[1] sethrych seithuchig ei gaen
Gain angel urddedig
Gwan drwy ei safn ai sefnig
Dymawd uthr bigawd ath big
Ath big fawr yn awr yn y rhyfel taer
Torr danhedd rhwyf Babel
Ni bu awr rhag twyll cawr cel
Fwy ei hangen Fihangel

LLYMA ODLAU Y MISOEDD

A Gant Gwilym Ddu o Arfon i Syr Gruffudd Llwyd o Dref-Garnedd a Dinorweg yn Arfon. O. L. Coch Hengest.

Neud cynnechrau Mai mau anrhydedd
Neud aeth ysgwaeth a maeth a medd
Neud cynhebyg ddig ddygn adrossedd drist
Er pan ddelid Crist weddw athrist wedd
Neud cur a lafur im wylofedd
Neud cerydd Dofydd nad rhydd rhuddgledd
Neud cof sy ynnof ys anwedd ei saint
Neud cywala haint hynt diryfedd
Neud caeth im dilyd llid llaweredd
Neud caith Beirdd cyfiaith am eu cyfedd
Neud caethiwed ced nad rhydd cydwedd
Nudd
Cadrwalch Ruffudd brudd breiddin tachwedd
Neud cwyn Beirdd trylwyn meddw ancwyn medd
Neud cawdd im anawdd menestr canwledd
Neud carchar anwar enwiredd Eingl-dud
Aerddraig Llan Rhystud fynud fonedd
Neud nim dyhudd budd bum arygledd
Neud nam dilyd llid lliaws blynedd [glyw
Neud nam dawr Duw mawr maranedd nef
Neud nad rhydd fy llyw llew trefgarnedd
Neud trwm oi eisiau dau digyfedd
Neu'r wyr Beirdd canwlad nad rhad rheufedd
Neud ef arwydd gwir neud oferedd gwyr
Wrth weled fy eryr yn ei fawredd
Neud truan im gwân gwayw lledfrydedd
Neud trwydded galed im amgeledd
Neud trymfryd Gwynedd gwander dyedd braw
Neud hwy eu treisiaw am eu trossedd

[1] Ban.—LI. P. P.

Neud trahir gohir gloyw babir gledd
Oed trablwng echwng Echel ddewredd
Neud trai cwbl or Mai mawredd allwynin
Neud Mis Mehefin weddw orllin wedd
Neud Mis Mehefin mau hefyd gystudd
Neud nam rhydd Gruffudd wayw rhudd yn rhyd
Neum rhywan im gwân gwayw cryd engiriawl
Neud am Ddraig urddawl didawl im dyd
Neum erwyr om gwyr im gweryd Crist Ner
Neud arfer ofer Beirdd nifer byd
Neud arwydd nam llwydd lledfryd im calon
Neud eres nad tonn honn ar ei hyd
Mau ynnof mawrgof am ergyd gofal
Am attal ariel Urien yngryd
Mal cofain cywrain Cywryd fardd Dunawd
Meu im Dreig priawd gwawd ni bo gwyd
Mau gwawdgan Afan ufuddfryd ffrwythlawn
O gof Gadwallawn brenhinddawn bryd
Ni wn waith gwaywdwn gwawd ddihewyd clod
A thi heb ddyfod pa dda bod byd
Neud wyr pawb yn llwyr lleyrfryd gynnal
Nad hylithr aur mâl mal oddiwrthyd
Nid oes nerth madferth ym myd oth eisiau
Gwleddau na byrddau na Beirdd ynghlyd
Nid oes lys ysbys esbyd neud dibeirch
Nad oes meirch na seirch na serch hyfryd
Nad oes wedd na moes massw ynyd yw'n gwlad
Nad oes mad eithr gwad a gwyd
Neud gwagedd trossedd traws gadernyd Môn
Neud gweigion Arfon is Reon ryd
Neud gwann Wynedd fann fenn ydd ergyd cur
Neud gwael am fodyr eglur oglyd
Neud blwyddyn i ddyn ddiofryd a gar
Neud blaengar carchar grym aerbar gryd

GWILYM DDU O ARFON

I Syr Gruffudd Llwyd pan oedd Yngharchar Ynghastell Rhuddlan. O L. E. D.

Rhen trindawd a rawd eirf ynghystudd
Rywnaethost am bost neddeirgost Nudd
Rhiau rhad barau beri gorchudd llew
Caer galchdew glew glyw ddadannudd
Rhy flin yw attal llwydd arial lludd
Rhy flwng yw echwng echel ddeurudd
Rhy flaengar aerddar urddawl roddfudd hael
Rhcflac wael rwysg Mael er cael cyhudd
Rhyfedd yw yn fyw feirdd ni'n dyhudd
Ei fod reiniad clod cledren flaen rhudd
Rhi Dinorweg deg dygn ryfudd Gwynedd
Gan Saeson gogledd mawredd Morudd
Lle ym am walch grym gryd oleurudd
Lledfrydedd mynych greddf hirnych grudd
Llwrw gohir llawhir llawer cudd gau Eingl
Ar llawr caer Degaingl dygn o gystudd
Lluoedd a wyddiad llaw roddiad rudd
Llwybr drud aer ddylud aur ddioludd
Lle delid llid prid prifudd eidduned
Y rydelid ced cyd a Gruffudd
Llwyr ynn feirdd anheirdd anhoyw drabludd
Lliaws eisiwed am nodded Nudd
Llwyddid ei rydid o rad ufudd
Llawenydd nawcant prif foliant prudd
Llithiwyd o'i wenllaw bodd wallaw budd
Llafn Flamddwyn fal brwyn brain argoludd
Llwybrged llawfrodedd llofrudd gelynion
Llew di ymryson o fon forudd
Neud digerydd Duw neud digarad cyrdd
Neud llai gwyrdd i fyrdd o feirdd yn rhad
Neud lliaws frwyn cwyn canwlad ynghystudd
O'th attal Ryffudd waywrudd roddiad
Neud llid fy llethrid llathrad o'th adaf
Llathrwyrdd am danaf oddi am danad
Neud lledfryd fymryd fy mrad o ddyfu
Pan ddarfu ri llu roi llaw arnad
Neum laddawdd trymgawdd llew tromgad py wnaf
Pam na ddoi di attaf neu fi attad
Neum llwydd tristyd prid prif wrthrychiad wyf
A thrigwy fy rhwyf mewn rhwyl gacad
Neum llwyrgur llafur llifiad fyngorhoen
Neum lludd dygnboen hoen hun ar lygad
Nam llestair fab Mair mawr arnad fy mar
Ellwng ym fy aerddar cadarnbar câd
Mowrglwyf a orwyf eryr gyrchiad glew
Mor oedd ryw ym llew llywiawdr dengwlad
Am eurglod hynod hyn a ddiwad Eingl
Ym mowrglawr Tegaingl Tegyr bwyllad
Am argledd trosedd treisiad ynghyni
Am erglyw Dewi gwesti gwastad
Am arglwydd hylwydd hwyliad yn aesawr
Ar fraint carcharawr cyrch oer irad
Pei mau pibl ddiau ddyad Talyesin
Pan gyrchawdd a ffin[1] par trin trychiad
Pwyll uudd Ruffudd bydd beiddiad yn heiyrn
Pen teyrn cedyrn ced wallofiad
Pybyr eryr gwyr Gwriad yn yngorsedd
Pobl orfoledd medd wledd wledychiad
Post catgun eiddun ef a wyddiad byd
Parch esbyd pair gryd greidiawl ffysgyad
Na'th oedid rydid rad ymadroddau

[1] *Neu*, Elffin.

Na'th edau ddoniau ddinam bwyllad
Na'th arfail buail bwad gwyn ddofydd
Na chadwyd ith ddydd cynnydd cennad
Na'th adwn od gwnn guniad pennadur
O fewn caear falchfur fy modur mad
Mad amddiffynniawg ceidwad ciwdawd
Modur gwayw ddur mur Merfyn ddefawd
Mydr eirian rhiau rhaawd ail Morgant
Mygr foliant Rolant ffyniant ffawd
Mirain Ruffudd budd byddin wasgawd
Morien ddysg rodd ffysg reidd-ffyrf yng-
nhawd
Myfyr giried ced Cedrawd calchfynydd
Mwyfoy gynnydd rhydd rhoddion didlawd
Meddw ym gwnaeth hiraeth herwr ceudawd
Maddau fy rhiau ddau ddiwarnawd
Meddwl lledfryd bryd modd brawd edifar
Meglyd draig llachar llachynt medrawd
Muner clyw clod ryw llyw llewychwawd
Maig un arynnaig prif ddraig priawd
Medd wleddau doniau Dynawd ai gyfarch
Myfyr barch Llywarch llywydd ciwdawd
Mi a wyr fy rhi rhwyf o ddifrawd
Maith fôd mis hebod ehebawg ffawd
Mygr naf ddiffwysaf dy ffossawd yn aer
Menestr gledd-glaer taer tarw gaeafrawd
Mor wael attal hael hwyl Anarawd
Mor wann byd trymfryd wedi tromfrawd
Mor wae ym y mae medrawd gyflafan
Ynghastell Rhuddlan rhieddlwy walstawd
Archaf i Grist naf araf arawd
Er ei galon donn o'i fron friwgnawd
Allwedd nef senedd son undawd Trefi
Ellwng ym fy rhi Dduw tri trindawd
Rhen trindawd arawd &c.

MARWNAD TRAHAIARN BRYDYDD AP GRONWY.

Gwilym Ddu ai Cant. O L. E. D.

Ffrwythlawn a chyfiawn a chyfoeth y
gerdd
Gwrdd Drahaian eirgoeth
Ffawd gwyr oed nawd gwared noeth
Ffraeth dafawd detholwawd doeth
Doeth ynn gwyn o'i ddwyn o'i ddawn
gynnydd
Detholrydd brydydd brawd ffydd ffydd-
lawn
Doethfab rwy Goronwy gair uniawn syberw
Doeth dichwerw ei ferw hyd wlad Feiriawn
Dyhir na welir waladr nawn cerddau
Dihau iw anghau dagrau digrawn
Da fu ffawd y wawd i Wiawn ddewin
Da Fyrddin a'i lin o lwyth Meirchiawn
Da Lefoed erioed da radlawn arddelw
Da arddelw cynnelw Cynddelw ceinddawn
Da Elidir gwir gwarant iawn ganon
Gwr o ddoethion Môn mynweseigiawn
Da Lywarch cyfarch cyfenw iawn urddas
Da Ddafydd Benfras digas digawn
Da o Ddyfed ced Cadwgawn Ruffudd
Da or iaith ddigudd araith Wgawn
Da oedd rhwng caeroedd Ceredigiawn rym
Phylip a Gwilym aethlym wythlawn
Da gyfnun un Einiawn ap Gwalchmai
A ganai ffynnai fal berw ffynnawn
Da Gneppyn warthryn o Werthryniawn
dud
Oedd gerdd esgud lud Ladin gyfiawn
Llygad gŵr oedd dŵr Edeyrniawn artal
Odid ei gystal ynial uniawn
O dudwed fawr lled hyd fôr llawn yngwy
Hyd Gawrnwy fudd rhwy ar fedd Rhuawn
Trahaiarn o'm barn em beirniawn cerddraid
Oedd blaid pencerddiaid ceimiaid cammawn
Trindawd tros folawd fal y gwnawn i'th
fraint
Trwy eirioled Saint ceraint carawn
Tro raid iw enaid i uniawn gymwys
Trefred Baradwys ffraethlwys ffrwythlawn
Ffrwythlawn a chyfiawn &c.

Gwilym ddu arvon ai cant.

LLEWELYN BRYDYD HODNANT AE KANT Y IEUAN AP GR. VOEL.

O L. P. P.

Kyueillt grym yssym nys amheuir
Kyueillt beirdyon yw uy llyw llauynhir
Kyueillt hynot glot a gludir vwyvwy
Kyueillt arlwy rwy ny ry geblir

Kynheilyat diurat gwaredeat gwir
Kyhoed dewr llyssoed nyd arllwysir
Kerd—awt ud hyffawt yd hoffir ieuan
Kyhaual anyan Drystan dreistir

Kyn uab gruffud ud a odeuir
Kynnyd yawn oy dawn ny diuenwir
Kyuoethawc toruawc nyw teruir y gled
Kyuet edryssed ef ny dreissir

Karaf ny wadaf vd ny wedir
Koron glan aeron glyn a eurir
Kynnetyf gwen lawen lwybyrdir nae oed
Kanoed oludoed wyr elidir

Kadarn uyt peunyt pan gyuerchir
Kedawl arwyrein a gein genir

Kyfyawn gwalch karawn keryr y gyngyd
Kyvyd oe blegyd dedyf ny blygir

Keinyon am rotes lles nym llyssir
Kyuedach uorach uur dienwir
Kar dawnus parchus perchir orwyron
Kanon atebyon ef nyw tybyir

Kyueillt wyf ym rwyf nyd arwydir
Kyueillt ym uy rwyf rac herwnwyf hir
Kyueillon dragon dreic tir a ffedyt
Kyueillach diwyd kywyd kywir

I IEUAN AP GR. VOEL.

O L. D. D.

Kyueillt grym yssym assawd y alon
Ay aelaw ny chronnawd
Kedawl wirawt wawt wahawd
Kadyr fysc rwyd hydysc rod hawd

Kyueillt grym yssym ysyd ker aeron
Kor beirdyon rodyon ryd
Kyrd uolyant eadyr ffynnyant ffyd
Kar ket gynnar kat gynnyd

Kyueillt grym yssym seil glyw glut gyfranc
Kadyr yeuanc ieuan yw
Grymus uab lafyn arab lyw
Gruffud griff gwaywrud gwiwryw

Kyueillt grym yssym ny ssomir ri ffyrd
Yn ryw fford pan brouir
Kad gyfles yw llyw llafyn hir
Ked gyflwyd gwaranrwyd gwir

Kyueillt grym yssym nyd som gaffael walch
O weilch hydyr goafael
Koryf melwynyawn dawn diwael
Kyfrwyd mawl hylwyd moel hael

HILLYN AE CANT

I Ieuan Llwyt ap Ieuan ap Gruffut Voel.
O. L. D. D.

Klot vuan ieuan ieuang dirion hael
Walch ehelaeth rodyon
Kludeis o uat vawrwlat von
Klot ys yrot is Aeron

Per is glot yrot eur gofyon ieuan
Vriw darian vro dirion
Parableu a donyeu don
Peir tes eureir is aeron

Hytlit hael greir meir mur beirdyon dinac
Donyawc ieuan dirion
Hydyr geirdoeth synhwyrdoeth son
Hyder gloyw ner glyn aeron

Haelaf ac euraf dan y goron yw
Ieuan llwyt am rodyon
Ys wyr y ruffud rud ron
Ys irioel ieith is aeron

Lle bo y hoywuro hyuryt y winwlet
O wenwlad y gwyndyt
Llwyttec ieuan brifdec bryt
Llawered llu a weryt

Llys hyspys y gwys nit gwyt ker aeron
Karwreid gymlegyt
Lloegyrwys dachwed arnedyt
Llauyn awchlym ygrym ygryt

Llwyr attaw y daw diwyt y genyf
Gynedyf nud or mebyt
Llawen eir llew vn wryt
Llyw kynnyd vyw kan hawd vyt

AWDL

I Ieuan Llwyt ap Ieuan ap Gr Voel.
O L. D. D.

Mae yn gyueillt grym grymus val kei
Molyant ymadrawd hawd y haedei
Milwr hu ysgwr ysgwyt dryllyei ygnif
Mawl ddyrrif kynnif kynnyd gwalchmei

Milwreid aerueid aryf a bylei
Mal arall deall diofyn y gwnei
Meidrawl llew didawl lle dodei y vryt
Mireinbryt ygryt ygrym hwylei

Medwl dewr frwythlawn oe dawn yd ei
Mywn kyfrang ieuang ieuan diuei
Mab ieuan daryan a dorrei yntrin
Mab gruffud heilwin uydin uydei

Gwawr llauyn escut klut klot a uynuei
Gwalch or adwynryw llew llyw lle bei
Gwarant kyndwrwf twrwf taruei estronyon
Gwiw ron llit alon yn lle delei

Ger bydin brenin y gobrynei
Gorhoffer a ffarch ar llyuynuarch llei
Gwr didramgwyd llwyd lladei eingyl gawat
Goreu ergyrchgat veidyat vydei

Gorwyd a hylwyd hwyl uarchogei
Gorhoffyon neidieu vch klodieu klei
Gwaew onnen rethren gwae ruthrei rac
ouyn
Gwir eofyn golofyn gwyr a giliei

Llywiawdyr vrdaseid deyrneid dei
Llym ron isaeron ys aer gyrchei
Llawen uyd a ryd a rodei daoed
Lluoed ar bunnoed a erbynnei

Lloegyr vryneich ae vreich a vrein borthei
Llaw gadarn dichwith dros nith dros nei
Lliwgoch gadyr baladyr llew ny bylei yghat
Lleidiat gwir giliat gwyr y galei

Llwyr ym gwnaeth aruaeth aruer hep uei
Llewenyd beunyd ban ym gwelei
Llew tadawl nefawl naf pob rei or byt
Llwydo iechyt hyt hoedel didrei

Costes kun bardles beirdlith
Ieuan ran rwyd dy diueth
Naduein a gwyngalch valch uath
Neb ny cyst y ryw byst byth

AWDYL

A Gant Iorwth Vychan ap Iorwth ap Rotpert. O L. D. D.

Medwl a dodeis medwid vy kofein
Am twf mirein mein kein kyfyrdelid
Medyant pob nwyfyant naw gofid am treul
Nym llut lliw gwenheul gwan edewid
Medweis prydereis pryd tonn eruid
Madeu dyn goreu nym goruygid
Mwyuwy ym tramwy tramawr edlid
A meinoeth ym doeth o detholiad nep
Lliw ar uy wynep ny llwyr edid
Mynawc dawedawc dec kyfnewid
Meingan wedeidwau huan hownid
Mynygylwen yn llen yn lle rhennid gwyrd
Mynychsathyr miluyrd milueird ganlid
Morwyn a weleis mor drybelid
Mireingall o ball a bell glywid
Mawredus veinus ven yd vernid kreir
Mor wen y hesgeir vch y hesgid
Yn arllwyd arwyd ar a boenid
Yn eurllenn yn wenn yn wann obrid
Yn orlliw eiry riw rettid ym pwyllad
Yn orllat kariad men y kerid
Yn arllauar war wawr diodid
Yn orllawen wen aweinydid
Yn orllut hoen grut gredyf dodid rac poen
Yn orllifyant hoen hwn ny geisid
Yn arllawt hirgawt a hwyr geblid
Yn arllaw anaw yn e rennid
Yn erllyt kynnyt kynnyenid riein
Yn arllwybyr arwein mein mererid
Pan vu gymry lu o gymrwynlid
Yn kymryd kydkof am eu gofid
Am brydu kanu kerd a trethid
Y pryduawr gwenuawr llawr llewychid
Am bryd ewyn gwyn ym gweindid am
gwyl
Am brydest weiruyl yd bryderid

IORWTH VYCH. AE CANT.

O L. D. D.

Neut wyf digeryd neut wyf digeryd
O garu nwyf llu neut lliaws dyd
Hawl hyuawl ganmawl ganmwy beunyd
Hawd vu y charv oe chaer newyd
Hwyl orne heul ure ar vrohyd glasuor
Pan vyd gloyw goror gorwymp lethryd
Llifawd vyg keudawd uyghyd hoet dyd
Llofrud uy neurud yn awr echwyd
Lleuver ebyr myr morveyd dylan
Pan llewych huan ar vann vynyd
Llywy vun wy hvn aeth oe hedryd
Llywyawc law eurawc liw eiry bronnyd
Lleueris wrthyf lleueryd didaer
Llawenglaer uy chwaer chwedyl am
deubyd
A addawssei hoet a hut beunyd
Om hoen drwy hirboen hirbell gynnyd
A ddygei kyn mei merweryd gyfliw
Gne gwynn gyllestyr riw rin dieduyd
A chyn meheuin hywyn glotryd
Hi dygawd yn hawd hediw oe fyd
Hoew wannvein riein na wenyd hawd wen
Yny wnel orffen vynihenyd
Kalan gorffennaf gorffwyll am byd
Gorffwyf gwedynwyf rwyf gan ryhyd
Gorffenneis kereis ker elvyd ffydyon
Ar gefyn rutheon ruthreis y drefyd
Gorffynnyant llivyant llu gwyndodyd
Gorfarant y phrifwawd gan y phrydyd
Gorferygyl ym cof nam kein vygyd hon
Gorffurvyd gwenndonn gwyndir mechyd
Gorffurveid wedeid lunyeid lonyd
Gorffurvawr glotuawr wawr wir hafdyd
Gorffeigyawd trymgawd tragywyd ym dwyn
Nym gorffeirch morwyn mor wyf vuyd
Gorflamliw kywiw kyheuelyd
Gofflyc rawt wenyc ryt derwennyd
Gorflemych llewych llenn avallwyd kann
Gorffowys am gran ae bann nym byd
Gorffwyllaf molaf mal awenyd
Gorffwyllawc enwawc deifnyawc defnyd
Gorffell ym kymhell kamre iolyd kein

Gorffysc dadwyrein gwawr ddwyrein dyd
Gwynnlliw aryen briw bric huenyd
Gwynnlluch eiry vchuch aches dolyd
Gwynnllat wat vagyat vegidyd pobloed
Gwenn gannwyll llyssoed a lluossyd
Gwanlledyf dedyf didawl y hieythyd
Gwenlloer vawrth adoer adwyr wescryd
Gwanllun wawr anhun veiryonnyd y daeth
Gwenlliant am gwnaeth rygaeth o ryd
Escor y hepcor nyd mi dorvyd
Yscauael valch-hael vylchawc keiryd
Escut am olut am dilyewyd rwyd
Yscwn am eylwyd molyant derllyd
Yskennyf y mae mawr hiraethyd
Ysgwn na aned ych cystedlyd
Yskenyey ys kmuoet ar yskwydyd kyrd
Ys gelwir yn wyrd rif miluyrd ryd
Ys mwy gan y beird heird bob hirddyd
Na fan gant myrddin mawrddysc gwenddyd
Meith arwyrein kein kynedwyd forwyn
Mein wyf yn gorllwyn gorllewenyd
Ys mawr uy angof na bum ouyd
Ys mi ysy yn merwi mor angheluyd
Ys blwyddyn am ne ysblennyd gawat
Kyt bwyf digarat wyf digeryd
Neut wyf digeryd &c.

LL. DDU AP Y PASTARD

Ae Cant y Lywelyn ap Gwilim ap Howel. O L. D. D.

Gwae vi arglwyd rwyd rwyf goleuat
Gwelet mawr giwet val mor gawat
Gwirodau gwledeu a gwlat ar hwntan
Kwhwuan truan yw eu troat
Gwyr hediw yn wiw yn weilch fyscyat
Gwawt gny a vory yn varw heb wat
Gwenwyn rent present bryssyat yw aruaeth
Waethwaeth hudolyaeth oe hadeilyat
Gwar amkar am ken uy ren reinyat
Gwir hir mordehir eu marw deat
Gordyfneis mygeis magyat llwyth katuor
Goror y glasuor a gar gleissyat
Gwedy llywelyn hyn hy neirthyat
Gwedy Gwilym lym lys kynheilyat
Gwedy chwedyl kenedyl kunyat diogel
Gwedy pensel hywel digel dygyat
Gwae a gar na gwar na gwyllt ffrystyat
Gwawr tref dieithyr nef tagnef yn tat
Gwatwar cwbyl gynnar cabyl gennat dybryt
Gwyt yw carv yr byt hyt ehedyat
Gweleis wennllys valch gweleis winnllat
Goror trefynor geir gor garyat
Gweleis wled a med a mat wrhydri
Gweilch ac eurllestri gwesti gwastat
Gwelei ae gwelas kedawlblas kat
Gwelwon arwydon rydyon rodyat
Gruffud cledyf rud ruhat kyflauan
Vychan daryandan ae diryondat
Gwedy eu gwelet gwawt a gwiw wlat
Gwedy eu colli rieni rat
Gwae ui aros dros dref nat kydecket
Gwelet llaes kiwet a llys kayat
Gwedy hyn duw gwynn gwenwyn borthyat
Gwedy byt breuawl ae hudawl hat
Gwedy ruthyr goruthyr girat pob kerdawr
Gwedy nat oes awr heb vawr varwnat
Goreu yn geissyaw heb vraw heb vrat
Gwr a gynneil seil seithrad prelad
Goruoled gwinwled gwenwlat tragywyd
Lle byd hael llywyd heul a lleuat

ENGLYNNYON

A Gant Llywarch Llaety y Lln. ap Madawc ap Maredud. O L. D. D.

Gouynnwys nebun ny bu raen gan rei
Kyn rudaw haearngaen
Pa was a wisg e lasgaen
Pa walch yw y balch or blaen

Lleissyawn werennic o ranned dyall
Nyd arall ae harwed
Llyw glyw glew anhangnyued
Llywelyn gelyn gwyned

Pieu yr ysgwt egutwal[1] kynwan
Ar kanwaew am y thal
Pwy 'r glew llew llit aer ddywal
Ae deily kyfrwg dwy brennyal

Ysgwyt lywelyn lyw kadeithi bro
Eu honno yw honni
Ysgwyt ac ysgwyd yndi
Ysgwyt ac ysgryt recdi

Pieu y cledyf cleu a drauodir
Klwyf hir diamheu
Klotuawr klywitor nat geu
Kauas llad ar llaw deheu

Yssef ae treuyt treuat amdiffyn
Am diffwys gymynat
Gweilch argae yn dyd aergat
Gwalch mechein gorwyrein gwlat

Pieu y rodawc rud naran aerule
Ae haervleid gyr y ban
Pwy briw vch browysuarch can
Pwy y henw hynot gyurann

Yssef y gelwir llawhir llywelyn
Llyw teruyn teruysc dir

[1] *Hwyrach mai*—Ysgwyd esgudwal.

Llawr gawr goruchel y wir
Lloegyr ddiua ddiueuyl gywir

Pieu yr arueu aruot heb gilyaw
Ny gilyant hyt agheu
Pwy wr pennaetheid geneu
Rac pawb pieu y dechreu

Yssef yw hwnnw honneit nud or glyw
Ef yw glew a llofrud
Mygyr gawr uar trablawr trablud
Mab madawc vab maredud

Pieu y katuarch catulaen ae gorueid
Ar goruot dihauarch
Ar gwr ar gwyr am y barch
Ar gwaew ar gwan anghyuarch

Yssef yw hwnnw honneit ganllaw draws
Dra sauo duw ganthaw
Gwyr oruod gwrd glot gludaw
Gwr rac gwerin dyssilyaw

Yssef ae herly arlwy garthan dyn
Llywelyn gwawtwyn gwan
Gwyr eryr aer darogan
Gwr yn gware llawessan

Dygychwyn gennat ar vreint keinyat kall
Ath dyall ath dyat
Kyrch uarch yr llywarch llew cat
Ar llywelyn llaw rodyat

Dos a duw gennyt yn hyuryt yn hawd
Ar gatulawd gatulaen gryt
Poet hwyl y holi diwyt
Poet ef enw dy rod bod byt

O dyuydyd uyth o ueith dremyn hwyr
Ar fwyr lwyr loegyr gymyn
Annerch ——— ac yr dyn
Y gan lywarch lywelyn

Tremytyat mynyd manot tew nyth lud
Nyth losgo eiry na rew
Annerch was hirlas hirlew
Annwyl dyn llywelyn llew

Llwydit mat a rat[1]———

AWDYL.

Nis Gwyddis pwy ai Cant. O L. D. D.

Cadarn uyd ysgwyd esgudvrys brwydyrd-
Gwalch ymhwrd gweilch emys [wrd

[1] *Y diwedd ar goll.*

Carw mawrdrafyn rudlafyn rwydlys
Cadyr helmuriw keinrodwiw Rys

Clo dodwyd beirdlwyd bwrdlys y wrdurvyg
Diruawr brydein ynys
Cart waywgrwydyr trawsfrwydyr treisfrys
Cud taryan rud tirion Rys

Gwneuthost aerurys rys ros gyurein
Gwawdlwyd a gwaedlafyn ym prydein
Oth ysgwyd rod glod gloywgein
Ath ureich leith bryneich lith brein

Cadarn rys cad urys ced uryd vrwydyr
dreis drafyn
Gwayw eurllauyn gwyarllyd
Carw rodlym cadyr wayw grym gryd
Coryf llew gwendoryf llyw gwyndd

AWDYL.

Nis Gwyddis pwy ai Cant. O L. D. D.

Tra vuam yn seith triseith nyn beitei
Nyn kilyei kyn an lleith
Nyd oes yssywaeth or seith
Namyn tri trin dioleith

Seithwyr y buam dinam digythrut
Digyflut eu kyflam
Seithwyr ffyryf ffo diadlam
Seith gynt ny gymmerynt gam

Can etiw hywel hwyl diotef kad
Kyd vuam gyd ac ef
Handym oll goll gyuadef
Handid tegach teulu nef

Meibyon kediuor kyd ehelaeth blant
Yn y pant vch pentraeth
Buant brwysgyon breisc aruaeth
Buant briw ger eu brawd uaeth

Yny berwid brad brython ag cristyawn
O cristin ae meibyon
Ny bo dyn y myw y mon
Or brychuaelyeid brychuoelyon

Yr a del o da o dala tir pressent
Presswyluod aghywir
A gwaew gwae dauyt enwir
Gwan gwalch ryuel hywel hir

Caradawc vab kediuor
Gwalch bydin gwerin goror
Hebawc teulu ku keinmynn
Anhawd genhym dy hepcor

AWDYL.

Nis Gwyddis pwy ai Cant. O L. D. D.

Llyw gwrawl breinyawl brenhineitaf
Llywyawdyr gwenndref nef nerth a archaf
Llwydyant pob carant caraf dy uoli
Llewychuawr geli ri rywoccaf

Llwyr ym kyfyd bryd brys ny gelaf
Llauur veith a weith aweinydaf
Llyryeid uawl trethawl traethaf o naw uan
Llwydran ellylw gan a genydaf[1]

Llawen eidun vun uyd diorssaf
Lleueir ry gwbl eir ny ry gablaf
Letyf dihol dethol doethaf or gwraged
Llaryed gluduawred a gloduoraf

Llawr mawr mebwynyawn dawn diwarthaf
Llewychdud meinhir ywr tir teccaf
Llu diurawd hyffawd hoffaf ker meuryc
Lliw gwynnblyc gwenyc gwen y hadaf

Lleuuer ciry didreul neu heul yn haf
Lliaws ae canmawl or mawl mwyaf
Llin gwinuaeth pennaeth pennaf o gymry
Llun hy ae dyly ieith atalaf

Llwrw gwir nyw cenir ual y canaf
Llauar car kerdrod o uod uydaf
Lloer hynot ar glot yr gloewaf deurud
Llaesuerch uaredud a brud brydaf

Llleduryd yw gouyn dyn diweiraf
Llit cant o volyant gwarant gwiraf
Llawer geir — neir a wnaf ker aeron
Llif dragon vanon vonhediccaf

Llevliw[2] ardal gwiw gwydyrblas yd af
Lle uym llwyd cilwyd arwyd araf
Lles uymoet eres evraf am tavawt
Llathreit wawt hyd urawt hut nawt hoet naf

Lliw cer — enwysc riw rin dawl om tafawd
Neut diuethl anueidrawl
Llin arglwyd llary hylwyd hawl
Llun diweiruun dy wiruawl

Mawl ran ellylw gan gynyd gwyd hydec
Y gwawd hydyr ny deruyd
Milyoed dreul ne heul hafdyd
Molyant pwyll vedyant pell uyd

Ny byd amdlawd gwawd gwawr hynod
Allwed dawn a gwybod [ellylw

[1] *Neu*, canaf. [2] *Neu*, *Llebliw*.

Nawd yw rac ran o dannod
Nwyf rieu glwyf rwy o glod

Cloduawr dŵn kyrchwn kyrch dilud ueinuarch
Ar fwynuerch varedud
Claer orne dwyre deurud
Clwyf cant uyrd uedyant veird uud

Buduawr yawn hydawn hediw hawl dylyn
Yw heul dolyd lleblaw
Bod rod rin diurawd wawd wiw
Bun laes wanllun lwys wynlliw

AWDYL.

Nis Gwyddis pwy ai Cant. O L. D. D.

Thomas vab rotpert rwyt par gwersyllyc
Rwyf ryuyc ryuelgar
Ruthur aruthur areithran[1] esgar
Reithon gawr reithawr llawr llachar
Rot kynnygyn kynnif diwatwar
Rwyn kedeirn kadarn y ouar
Rwysc tan a gwynawn ual twryf gwynnyar drud
Molut klut klot wasgar
Moli ri rybuch yn arpar
Molawdyr maws nyd moes y gytpar
Molyant llew lletawt om bannyar
Milwr coeth traws doeth tros dayar
Mal molawt dunawt gan rif tonnyar veird
Tynuegyl heird hir dear
Tadawc gwent torment termyd gwar
Tadmaeth myrd mawr dawn y daffar
Tud menwyd mynud wrth wangar
Tu brwydyr glyw ef glew anhygar
Tuoed wysc yn wysc yn yscar torvoed
Ac eu teiryf mal adar
Adwyn llew yn llat yn anwar
Adwen llyw yn llawch yn hygar
Ac edif gynnif gnawd llychu amar
Edern llit pan llud y arwar
Edyrn trin vedgyrn trydar erchwynyawc
Trawd varchawc veirch amar
Emyrd kyrd kerdoryon llauar
Amlwc seif y safwy ual dar
Amwlch gled gloywdrut yg wyar
Amorth cart nyd kerdawr nyw kar
Amyl y rod oe uod y uar ys rydrwin
Ys rydraws kein wanar
Cnuyad cad kedernyd elgar
Kyneil vrwydyr ar vreint tanllachar
Kynor trin nyd rwy ediuar
Kynwrwf gweir kyniweir kunyar

[1] *Neu*, areithrau.

Kynheilyant anant auar anelyf
Aer gledyf glew digar
Glud a drut ar drawt a thrugar
Glyw y ryw ef rwyf uuelyar
Glew ual rew rudgrys brys brwydyrgar
Gleif hywan ac nyd gleif hywar
Ae glod gueir ae eir y ar y trihael
Neb traha nyd achar
Lleawr gwawr gwedy bo abar
Lle mae seint yn sant diauar
Y dechreu oed wychuryd casnar
Y diwet boed y duw trugar

CANUAU CASNODYN.

CLOD I WENLLIANT VERCH GYNAN.[1]

O L. P. P.

Molaf ia6n y da6n[2] gne g6a6n gwawthwec
Eiliw cwynriw gwynwiw gwanec
Eilieis hynot[3] glot gloywdec Wenlliant
Eiliа6d y molyant[4] mil ych6anec
Eilw[5] dreidyaw nym da6 tra6 truy gystec
Elvyd twf glodryd dyd na deudec
Eil kein galet ret ym reitrec okeith
Oleuveith hoew dreith[6] breint ehedec
Aryal bugethal[7] brif dial brec
Ar hoy6vun lu[8] hun hoen gynwanec maen
Pan wisc tonn vr6yscvlaen gaen am garcc
Eirgall diwall gall bwyll ogywec
Eiryoet yr difoet[9] hoet gyhydrec
Eur mal am bu dal dolur attrec vra6
Yn lla6 6yl anda6 gan eil Indec
Eiryan verch Gynan kynran kanrec
Eryr tymyr gwyr gweilch disaesnec
Argl6yd cul6yd r6yd r6yf groec rugylch6yrn
A ellwng heyrn[10] y teyrn tec
Meu geiryeu goleu g6yl wyndodec
Mi a wyr moli hil ri ha6l rec
Meithir y cludir clot anrec tava6t
Mor ddidlawt ygg6aut[11] yggwenh6yssec
Meua6t[12] mola6t gna6t gne tonn waedgrec
Manar[13] wisc lassar avar 6osec
Mil[14] ae ma6l heb da6l diledyf ch6ec l6ysieith
Ma6r da6n ganhymdeith oesdeith ostec
Mein virein riein gein Gymraec
M6yn vor6yn hund6yn hoendygyn gystec
Mynych lle lle6ych lli6 ehoec ym
Meu y duc gwenlym[1] ar rym redec
Mynet yr gwelet gwennet gwanec
Manon wawr Arvon govvon govec
Maengaer glot belldaer glut balldec mygyrvan
Meingan dyn eurwan[2] y Dinorwec

CASNODYN AE CANT.

[1] Awdyl a gant kasnodyn y Wenlliant m. gynan, yw yr Enwad yn Ll. D. D. *Gwenlliant verch Gynan ap Maredudd ap Rys ap Gruffudd ap yr Arglwydd Rys oed honn; Gwraig syr Gruffudd Llwyd ap Rhys ap Gruffudd ap Ednyfet Vychan.—Ynyharchar yr oedd syr Gruffudd.*
[2] Aelw iaun yw dawn.—Ll. D. D.
[3] Erot.
[4] Dy voliant.
[5] Elw.
[6] Hoewdeith.—Ll. D. D.
[7] Bu gethal.—Ll. D. D.
[8] Lud.—Ll. D. D.
[9] Yn dioed.—Ll. D. D.
[10] Ellwng o heyrn.—Ll. D. D.
[11] Mawr didlawt uyg gwawt.—Ll. D. D.
[12] Menhawt.—Ll. D. D.
[13] *Neu,* Manaw.
[14] Myrd. Ll. D. D.

AWDL I IEUAN ABAD ABERCONWY.

O L. P. P.

Vy ruyf geyr Kon6y goreu kanyat mydyr
Vy un eneit hydyr vy ia6n ynat
Vygket vynkiriet vynkaryat perffaith
Vy meith va6r obeith vy Ior abat
Vy argl6yd modl6yd medlat walla6gyrn
Vygg6i6 rodyon ch6yrn vygwaredyat
Vy mra6t ffyd gynnyd med keinyat gerda6r
Vynkynorth6y ma6r vynkein neirthyat
Vyghartrevr6yd ru6d rodyon diffael
Vyng6ir gymorth hael vygg6a6r geimyat
Vygholovyn diovyn rac dyat lletpei
Vynghynn6ys a wnei gan vyghennat
Gwa6r lla6r Maenan va6r mewn ia6n vyryat ha6l
Gwedy heitya6 ma6l g6a6t ehetyat
Gweilging klot arvot g6a6l eurvat heird-dai
Gwylyei vud g6estei gan vod g6astat
Bedaf y barnaf wyf beirnyat kyvyawn
Barn ae trossa da6n Bernet drwssyat
Beuno bwyll didwyll dodyat enryded
Balched ber6 vudwled y berved6lat
Rydd ffyd ffa6t traetha6t nyt truthyat gogan
R6yd ia6nllythyr gan gauryd dianllat
Rec dec dal aryal r6yf vyryat ieithrym
Ry diengis ym rod oe anghat
Ieuan 6r divan ar dyvyat kanlla6
Ion a barchei dra6 wyneb eirchyat

[1] Man ymduc gwelwlym.—Ll. D. D.
[2] Erwan.—Ll. D. D.

Ener yu'n hydyr yn hoy6dat crevyd
Ar d6ys ganneit ffyd eur disgynnyat
Llaryeidd6yn dillyn lla6n dullyat Moesen
Llwyddei gyhoed llen lla6 ddigaead
Lly6 by6 berth ma6rnerth nyt murnyat
yg6neir
Llathyrgreir lles bartheir llia6s borthiat
Maured enryded un redyat Machreith
Meith[1] mynych obeith mwyn achubyat
Myrdd gyrd gael ryael med ruat beirddoryf
Ma6rgoryf mygyr wenlloryf mag6yr winllat
Kelvydgoel Giryoel egorynt deall
Kovyon Dyvric kall kyvya6n divrat
Kampeu kein h6ylyeu kynheilyat ki6da6t
Kymorth y drinda6t fo ym keimyat
Kat keimyat divrat dyvrys eirchyeit
Eur eneit yr ynys
R6yd wenllan rydd y winllys
R6yf pab rywyau doeth vab Rys
Ysbys hil Rys heily6r rod
Ys boet vyw barch esbyt vyd
Aml6c yw hoy6ly6 hy6led
Oe ganneit beis y gynnyd
Kynnyd ae dyvyd kein dava6t Bedaf
Aml wybodus geuda6t
Kynnwys wyr kynnes wira6t
Kynnull ffyd kann6yll y ffaut
Kyvl6yd ffa6t salym dalym dyl6yth
Karyatva6r byrdva6r beirdvaeth
Kedyrn dut kadarn a doeth
Kar purffa6t kywir perffeith

CASNODYN AE CANT.

AWDL I IEUAN AB GRUFFUDD.[2]

O L. P. P.

Llyu yw'r meu goreu g6reid kanlla6
Lly6 lla6er haelder ffer ffuryveidya6
Lleuychvab arab y eura6 clot prud
Ieuan vab Gruffud vud vedylya6
Lly6 nym gwneit teleit talym damuna6
Llewenyd a neb tra ve6n[3] hebda6 [eith
Lly6 am dysga6d ha6d hodya6 gerd berff-
Nyt val sothachieith beird keith Caeaw
Ll6yd ragores les luossyd vra6
Ll6ydgar rac ieueinc veinc vydina6
Llym gyngor ragor yn r6yga6 darpar
Lladgar rac escar der6 rac ysca6
Llathyrwa6r nyt[4] oed va6r eiryf g6a6r[5]
Ll6r6 vri[6] daeoni dieu ana6 [guriya6
Ll6ybr digaeth y yarllaeth y eurlla6 Ieuan
Ll6yt llydan daryan llit yn[7] durya6

[1] *Neu*, Meich.
[2] I Ieuan Llwyd ab Ieuan ab Gruffudd o Ogerddan.—Ll. E. D.
[3] Fawn.—Ll. E. D.
[4] Llathrawr uyd.—Ll E D.
[5] Gawr.—Ll. E. D.
[6] Bri.—Ll. E. D.
[7] Ei.—Ll. E. D.

Ll6ybra6d eha6nffysc adysc ida6
Ll6ybra oe[1] nerth vreich i Vryneich vra6
Llit erdyrn kedyrn Keidya6, neu Wrleis
Lleis ll6gyr dinas treis Lloegyr dinistrya6
Llam Lloegyrfflam ll6gyrfflwch drysswch
dreissya6
Llit dura6t dur hua6dur[2] Hueil vab Caw
Llwybrd6rf Morgynn6rf ma6r gannait[3]
nerthwir
Llan6 enwir am dir yn ymdara6
Llia6s gystl6n h6n honneit gyvya6
Lla6chblas a gavas adas eiddyau[4]
Llys hysbys dyvrys divra6 6asanaeth
Llys uchel6ryaeth llary ffraeth ffr6ythya6
Llavur6u[5] kan6n keinyeit hebdau[6]
Llavarveird digeird dyg6n atta6
Lle mae me6n kur lla6r ker lla6 llys haelnat
Llann ran rymussaf goethaf Geithyaw
Kyrcheis 6r klyd6r klot tavarn a thref
A thravot med o garn
Kar kaeth y var koeth y varn
Katvalck kadyr eurwalch kadarn
Kadarn y eirvarn ae ervit ae ha6l
Hael Ieuan eil Pebit
Keitwat rhac brat br6ydyr ymlit
Katol[7] eidyol i lit
Llit vr6ysc tan chueivr6ysc ch6evrin y6
Ieuan
Llavyn Garthan gyrthy6r trin
Llydan ryd[8] y g6einyd g6in
Llat lle6 beidyat lly6 bydin
Bydinlet hirget h6yrgard y6 Ieuan
Baed r6ydgan rudgoch dard
Bodlyv croy6 heilhoy6 haelhard
Budla6n oe va6rda6n y vard
Bard 6yf i im Ri rif ll6yr ar va6rgerd
Aryf aergat estra6nff6yr
Bard ynteu goreu ae g6yr
Beird loe6gerd b6rd oleug6yr
G6yr Ieuan divau deva6t ffr6st br6yscdrcth[9]
G6r breisc-dreul med am6st[10]
Erddeint[11] Gereint a Gor6st
G6rdvri eur gosti er g6st
G6st gynnal heildal haelder g6yr Ieuan
Gar ieuanc Nud arver
Gosgedic Nur eilic Ner
Gosgord loy6fford Eliffer
Erc6lff[12] gryf[13] Selyf seil wledic Ryderch
R6yd Ieuan wayw yssic
Aryf aer didaryf urdedic

[1] Ei.—Ll. E. D.
[2] Ddurawdr huawdr.—Ll. E. D.
[3] *Neu*, gamraw.
[4] Iddaw.—Ll. E. D.
[5] Llafuriwn.—Ll. E D.
[6] Heb daw.—Ll. E. D.
[7] Cad ôl.—Ll. E D.
[8] Llydawrydd.—Ll. E. D.
[9] Brwyscdrech.—Ll. E D.
[10] Am wst.—Ll. E. D.
[11] Erddraint.—Ll. E. D.
[12] Mae y Cyrchgymmeriad yn hynod yma, ac yn dangaws yr achaws o vod y sill gyntaf o bennüllion Tawddgyrch Cadwynawg yn govyn bod yn dechreu val y maent.—*Iolo Morganwg.*
[13] Gyrf.—Ll E. D.

Ar glot y tri glut y tric
Trigys ma6l haed6ys mal haedu o ia6n
I Ieuan gan veirdlu
Adysc glot ffysc heb vysc vu
Ud kard gorchud kerd gyrchu
CASNODYN AE CANT.

AWDYL MARWNAD MADAWC.

CASNODYN AE CANT. O L. P. P.

Bu oerchwedl cenedl cwyn enwa6c[1] tristla6n
Kamp Meirchya6n kwymp Marcha6c
Bud a vyd rygud y ra6c
Bit heb vyd bot heb Vada6c
Mada6c oed marcha6c meirch sarruc kein
Ail Kynva6r katgaduc [wr[2]
Dy6an gar6 Du6 an goruc
Dan sygn pocn dygn pan y duc
Duc Du6 dat bost kat kytvaeth heird eirch-yeit
Oc orchud neb ni ch6eirdd
Dygei yng6ylyeu digeird
Diga6n oe va6rda6n y Veird
Beird wisca6c Vada6c o vot a6r hebot
Y hybarch Grist nym da6r
Der6 her6 hirvacth maeth meithva6r
B6r6 naf o l6r6 nef i la6r
I la6r Vada6c va6r vur ervit Trystan
Ban dra6stacr ordinit[3]
Tralla6t Eingl giwda6t gedit
Dryllycu aelodeu oe lit
Llidya6c oed Vada6c Ved6yr na6s garthan
Gyrthyei Eingl yggygha6s
Llet kadoed lluoed lliа6s
Llit Kedic lla6 dreisic dra6s
Tra6s Vada6c arva6s eiryf sathrsarn aerllu
Tra vu tu to hayarn
Trech oed y nerth truy verth vain
Tr6ch ad6y no'r tri chadarn
Kadarnbleit eirchyeit y orchud bu trist
Tra6sdec Vada6c eil Nudd
Kadarnvalch[4] llu tra vu y vud
Ket yn eurllet anarllud
Arllud y6 yn bud bed anglad mada6c
Modur Beirdd a neuad
Arll6ysyat hy6lat[5] rat rad
Eurlly6[6] helym aerlle6 hylad
Hylad Beird digeird digu[7] oe d6yn
Hyl6yd c6yn cyn darvu
Ha6l va6l vil6r t6r tyryflu[8]
Hyla6 rod heil vod hael vu
Bu oerch6edyl &c.

[1] Cenedl enwawc.—Ll. E. [5] Cywlad.—Ll. E. D.
[2] Ceinfwr.—Ll. E. D. [D. [6] Eurlliw.—Ll. E D.
[3] Ordmid.—Ll. E. D. [7] Wyf digu.—Ll. E. D.
[4] Cadrwalch.—Ll. E. D. [8] Torflu.—Ll. E. D.

Dreic llu kan darvu deurvur
Drut Vada6c arva6c arver
Dr6c na doeth ma6r anlloeth mor
Dreigyl brys dreis dyrys dros dir

Dir6yn k6yn keinyeit l6yr6ys
Dery6 lly6 lli6et aros
Dur br6ydrdorf kerdgorf kardgas
De6r nenbren perchen parchus

Parchus Vadauc deivna6c doeth
Pob kynhalya6dr lly6ya6dr ll6yth
Pibyl yr lla6r llu ma6r lle meith
Pa6b gynt y dethynt y daeth[1]

Aeth mada6c en6a6c anwat
Uthr gyvlam Vargam va6rget
Athraw br6ydyr draw gyffra6 drut[2]
Uthr escutruthr ysc6ytrot

Roda6c Vada6c vodur lleng
Rat winllat weullys ehang
Rudgled kyn der6ved durvyng
Reid yrth acrvleid Arthur vl6ng

Bl6ng eingl est6ng eisd6ng[3] oed
Blodeu kampeu k6ymp Lloegr6aed
Bla6d galar am gar g6reid
Blingur eirf blaengar ar6yd

Ar6yd ff6yr nafl6yr nefly6[4]
Ar 6naethost hoedyldost hedy6
Aer gattra6s yr lliа6s lla6
O'r Goettref dan llef d6yn lle6

Lle6 gle6 gloywlan gan Gynwyt
Llavur naf a6dur nef aet
Lla6 ana6 yr lly6[5] eneit
Lle6enyd lly6 bedyd boet

Boet lla6en reen r6yf llen ll6yr
Wrth Vada6c bur en6a6c beir
Byt am walch gryt bryt br6ytrdaer
Bei tes nyt eres neut oer

Oer vu y gyrd vyrd veirdroec
Aros dyd ketryd katuryc[6]
Arf aergled afnved evnvaec[7]
Eryr tut murdrut ma6rdreic
Dreic llu kan daru &c.

Amdrist wyf gorph6yf ym gorphen
Ymdro call cyn dirwall derwen
Ymdreigl brat ymbryssyat[8] bressen

[1] Ydd ethynt ydd aeth.—Ll. E. D.
[2] Athro brwydr gyffro dro drud.—Ll. E. D.
[3] Eiddwng.—Ll E. D.
[4] *Neu*, na ffl wyr neu ffl yw.—Ll. E. D.
[5] I'r llew.—Ll. E. D.
[6] Katruyc.—Ll. E. D. [D.
[7] Arweddeurwaeg.—Ll. E.
[8] Yw brysiad.—Ll. E. D.

Ymdra6t ffa6t ny pheit vyggohen
Amdylan[1] am d6ylan Havren
Am d6yn k6yn kynhebic Maxen
Am vedru canu kyn aghenn
Am Vada6c deivna6c dovyn a6en
Am Nur pur val peir Keritwen
Am ner per paroded Pascen
Am nerth berth a barthei ychen
A meirch eirch y arch6yr aren
O'm kyvoeth amcandoeth[2] ym ken
Am cyveillt ceveis wrth angen[3]
Am kovya6dr am lly6ya6dr lla6en
Am kyvarch am parch am perchen
Am kyved ymaenved y men
Nym kyuyt tristyt treis diwen
Am koryf toryf tyrvahoed[4] ohen
Am kar rac escar rac ascen
Am gystal eirf aryal Uryen
Am gwst[5] Gystennin vab Elen
Am vydroed mesuroed moesen
Am veidra6l kymuna6l[6] kymmen
Am vodur val mab mur Moryen
Am Vada6c bryt voda6c Brat6en
Amyl na6d Du6 y de6in adyen
Amled hed o rin6ed y ren[7]
Ren llen a llyvreu goleu galar
R6yf gl6yf o glevyt lleu bryt br6ydrbar
R6ym did6ym dodi ri r6ng daear
Rebyd ryd r6yd6in a de6in dâr
Reda6d ca6d ym cof dof divevylgar
R6y a m6y y mae no g6ae hyt g6ar
Rydranc ieuanc ia6n da6n diwat6ar
Reit ry6 lly6 lleas oescas escar
R6yt ysc6yt escut drut wrth drydar
Rot arvot arveu keneu kynnar
Redyat kat kedyrn deyrn diuar
Ryt byt b6yt vyrdoed wiscoed wascar
Ryngwellyng walla6 heilya6 h6ylyar
Rif llif llu vueil eil Ulkassar
Reid arveid arvot 6edy clot clar
Redet vet veidra6l dreigya6l drugar
Trugar g6ar g6ir trioet hoet hir k6ynir keinud
Trist Grist groy6 vra6t ym uyr 6ylna6t am wa6r eil Nud
Tr6mgoll oll y6 tramg6yd yn lly6 trymga6d ny'n llud
Treid-ffraeth maeth med treis y de6red tra6s y deurud
Trossed Mervyn treissi6r gelyn gerdbryn g6rdbrud
Tryssa6r oed ym tra vu walch llym gwi6-rym gwaywrud
Trossed y glo manar amdo mynor ymdud
Traethu oe d6yn tretheu au6yn hirg6yn hwyrgud

[1] Amddylyn.—Ll. E. D.
[2] Am can ddoeth.— Ll. E.
[3] *B n o.*—Ll. E. D. [D.
[4] Torfaoedd.—Ll. E. D.
[5] Gost.—Ll. E. D.
[6] Cynmawl.—Ll. E. D.
[7] *Dyma dervyn yr awdyl yn* Ll. E. D.

Traetha6t en6a6c trathec Vada6c a vedyr Gruffudd
Tra reit ymi rac tra phrovi costı cystud
Tr6y ar6yrein treidya6 o6ein dihein duhud
Tr6y hir bara y Du6 donya y datannud

Datannuda6l ha6l yw hywled Owein
Dig6yllgein ysgein'd6yrein de6red
Dedveu tra6s geneu treis g6ned gyrchyat
Da6n y tat rodyat borthyat berthed
Du6 g6ae vi d6yn Ri dyn ryved y vy6
Am r6yf r6ydly6 nyt by6 neut bed
Dyvrwledic eilic y wyled amget
Dyvet y drosset oed et ryssed
Divei val G6alchmei gweilchmaeth med a g6in
Divlin sarff bydin yn rin ried
De6r dyvyant Rolant rul daered plyml6yt
Diars6yt ysc6yt eurgl6yt aergled
Dur eil Arthur mur ma6r alued ar lu
Darvu lle ryvu lla6er reuved
Dor ior dygyvor da gyved enwa6c
Defnya6c oed vada6c vyna6c voned
Y gan hon etton atteb
Atteb dihareb hir orchwyl enaid
A ddywaid hawl-blaid hwyl
Ys addef feingan anwyl
A deu brâd goleu bryd gwyl
Ni'm bydd dydd llonydd a llun llary gwan-llaes
Ar llawr gwen llys Eittun
A minnau hydr yn anhun
Mau nwyf cur rwyf uch caer Run
Cymmered haeled hoyw-lun o'm dolur
Am dalu pwyth fy hun
Ar blaid glas glwys lawr Eittun
Ar blaid ei henaid ei hun
Ni'm gwnaeth gwayw alaeth gwiw eilun hyd hyn
Onid hon yw Eittun
Na chof na chawn arofun
Na chawdd uthr anawdd eithr un
Gwyddwn na haeddwn haddun hygerais
Hoyw gares yn Eittun
Gwyddai agwyddor anhun
Gweddaidd elynaidd wyl lun
Wythnos ymannos o'm anhún gyffro
Aeth etto wyth Eittun
Wyth atteb a aeth attun
Aethant dan gudd heb fudd fun
Aml drwy hiraeth ydd aethan
Ammod rwydd awydd awen
O'm genau eiriau eirian
Erddylad attad Eittun
Yt oedd cam llwrw cytgam llif
Nad anfonud hud hoyw-dwf
O Eittun gennad attaf
Hyd tra gaid enaid ynof
Dïau y cymmer nêr nêf
Y ddau enaid ddianaf
Enaid yw hirwen gennyf
Ar enaid a wyr ynof

Hoffder fydd doethder deithdud a ddysger
I ddysgawdr ddywedyd
Ar goreu geirioel fynud
Y gein pwyll hydwyll a hud
Trwy hud bwyll astud a bell ystyr gwenn
Tu a'i gwan a'i hepgyr
Tro mwyfwy traha myfyr
Trech o dwyll no gwirbwyll gwyr
Gwyr nwyf gwir gannwyf gwawr gannwyll llethrid
A'm llithrawdd i'm gorphwyll
Deith wyl-boen dyn dethol-bwyll
Doethion mal deillion a dwyll
Twyll a symud pwyll pell ddefnydd meddwl
Mal dyn meddw diawdrydd
Hoen gwaedd grêg gwaneg gweunydd
Hun am neb un ym ni bydd
Cyntaf fu Addaf o ddyn
A morwyn wyl am aeron
A dau gymmar trydar trin
Y gelwid gofid gyfun
Un fu Addaf am afal
Ac Efa cyd bai goful
A roes oi merched fedel
I'w meibion doethion dethol
Yn ôl Addaf naf nwyf radd
Cyn cyfraith Pâb mai drabludd
Y gorug pawb ei garedd
A'i gares yn ddigerydd
Digerydd fydd rhydd rhwydd gael
Da y gwnaeth mai dai o'r dail
Deu-oed dan goed y dan goel
I minnau mi a'm anwyl
Gwylia bwyll hir-dwyll hwyr dwf
Golwg cyd modd dïoddef
Ac ynnill dysg ac ynnif
Ac antur bedd yn gyntaf

DIWEDD.

G. D. T. ETTO I FERCH.

O L. E. D.

Nid lle ym geisiaw llasur brwyngur braw
Rhof a phryd alaw fal grwd wylais
Lluniaw tangnefedd llifran gwahan gwedd
Braint cyflafaredd cyflafuriais
Llidiawg fu genti llidiant rwyddiant ri
Beiddiaw ei henwi pan y henwais
Llithged breinged brwyn llaes firain forwyn
Llyma fy mawr gwyn nid am eurgais
Rhag lliw tonn ertrai mae fy llaw arnai
Rhai ai rhyfeddai na's rhwyfeddais
Llifiaw fy ngruddiau am lladd heb arfau
Minnau ei maddau ni's meddyliais
Yn y llun cyntaf o ddechrau gaeaf
Pan fydd anaraf tonn safaf sais
Yr unfed fiwyddyn o oed a therfyn
Iawnder yw gofyn hynn a honnais
Ar ddeg rwymdeg rin trwy lid a gorddin
O oed y brenin breiniawg Cemmais
Yn llygrant i'm grann yn lle y gelwir llann
Yn llogawd fodfan hoedran hydrais
Yngheindref Aber angau draul lawer
Lle bu nêr nifer naf y gollais
Ynghymmwd pennaf Arllechwedd uchaf
Y dyn a garaf nis digerais
Yn seryddiaeth don yn Sir Gaernarfon
Lle bu ron dragon dreigiau Emreis
O mynnwn fy nghlwyf gan liw tonn wrth rwyf
Rwyf nid esgorwyf can dwys gerais
Er deugein swllt nôd o ysterlingod
Fynn anaes amyd[1] ai sommais
Ys gwyr fy nifa ys gwan ym adwna
Os gwenn ai gwada gwydn ydd holais
Mae ym fraw glywed gwybod a gweled
Carwed Ednyfed Ednowein Sais
Gwenn a hoyw yw hon gyfliw ertrai tonn
Pan fydd eglur fronn a llonn ei llais
A'i gwahodd yn faith i'r llys dyfrys daith
Cam ac anghyfraith gwaith gwythlawn drais
Fy nghwyn fu gynnau dy ladd heb arfau
A llafnau geiriau gwyrion llednais
Am llw be ith lleddid o gair llesmair llid
Yn fyw na'th welid edlid adlais
A byw ith welaf i bawb ytystaf
A brawd a archaf ac a erchais
Na ddilynwch dlawd ni ddilynwy wawd
Ar ec eur dafawd lliw eiry difais
Dedlis bed[2] yn haf didlawd ith welaf
Dadleu ni allaf ac ni ellais
A diallu wyf a deallwr clwyf
A diellfyd fwyf[3] can diellais
Dealled doethon dyfod dialon
O gwnaeth Pendragon drwg i Wrlais
Nid eilhaws dignaws dygnais ddawn dadlau
Ar ddyn didlawd cwrtais
No myned hwyrged hirgais
I Werddon o Fôn o fais

[1] *Neu*, mi. [2] *Neu*, bod. [3] *Neu*, nwyf.

CANUAU MADAWG DWYGRAIG.

LLYMA GERDD MADAWG DWYGRAIG.

MARWNAD RUFFUDD AP MADAWG O LECHWEDD YSTRAD. O L. E. D.

GWLAD i'm trig trawsdig treisdwyn Gruffudd
Dogn arlludd dygn orllwyn
Gwr o ddeddf gŵraidd addwyn
Gwyr o dir Cynyr a'i cwyn
Cwynwn fyd i gyd am gydwedd Mordaf
Cun ddewredd araf ar ddeuryw fawrgld
Cynnefin fy min a medd ar ancwyn
Cyn dwyn bwrdd amwyn beirdd ddiomedd
Cadr Ruffudd drawsudd drosedd diofnawg
Cadarn fab Madawg rifiawg reufedd
Cad ddileddf gynneddf ac annedd didrangc
Cynnif unfodd ffrangc cyn noi faen-fedd
Yn nheir llys y gwys gwaisg ddygnedd nad byw
Llun teyrnaidd lyw llin teyrnedd
Balch y beirdd bobl heirdd harddedd Hu ysgwr
Bryn hynafwalch gwr brenhineidd wedd
Yn nhrefgoed i'n rhoed anrhydedd digeirdd
Ym ai firein feirdd am oferedd
Yn gynt no'r lluchwynt dir llechwedd ystrad
Dofai ugeinwlad difai ganwledd
Taleithlys emys diomedd teulu
Tylwythlu a fu o fewn berthedd
Taladwy arlwy eur wledd gan eryr
I bellennigwyr bwyll un agwedd
Telid gwawd tafawd etifedd deddfawl
Can ei gorff oes-fawl cyn gorphwys-fedd
Talaf i'm eurnaf marwnawd gwynwedd trais
Am bwyth a gefais byth oi gyfedd
Ni bu llaw dreisiaw llew drosedd ymlaen
Ni ragorai chwaen o ryw garedd
Ni bu dlawd ym mrawd drwy ymrodedd wir
Nac enwir dihir hyd dydd dyhedd
Nid anghyfunai dangnefedd ffrwythlawn
Ni rusai gammawn hirddawn harddedd
Ni bu wann anian annedd o'th olo
Hyd tra fu yno hyttraf fonnedd
Oi gyngor tros for traws fawredd cyrchid
Y cawn ein rhydid can anrhydedd
O'i gynrain mirain aml mawredd yn llaw
O gystal a naw o'i gystlynedd
O'i lynn cawn ferfyn fawrfalch cledd Gwyndyd
O'i ddillad bum clyd hyd hydr ddiwedd
O'i law bu i anaw buanedd llifnant
O'i blant fu i gant yn ei gyntedd
Cymmen ail Morien elw mawredd atteb
Nid ai ddoethineb ni ddoeth Wynedd
Cymmanfawr eurwawr arwedd i'r dangnef
Eur-lyw werin nef ar laweredd
Cymmer di Duw tri trugaredd attad
Lyw Llechwedd ystrad i'th wlad a'th wledd
Amen.

MADAWG DWYGRAIG ETTO.

O L. E. D.

GWEDI Gruffudd Nudd yn nydd gwrthgroch trin
Gwnae o Eingl gwaedlin pergin purgoch
Py gadarn hoyw farn hyfoch o Benllyn
A gystwy Ellmyn hyd Gastell moch
Byth weithian hoedran ehudroch erom
Beth o daw attom lynges drom droch
Pwy a glaif a saif o lan Soch yn gadr
A geidw a'i baladr hyd goed Beloch
Gwedi ynglynn Egwestl gwydn och gyfarwydd
A llif am arglwydd a llef mawr gloch
Gwelygyrdd tri myrdd trem och o'r golled
Gweled ei ddarged a'i lafn ddur-goch
Pob hynaif pencerdd pawb honoch am ged
Cwyned ei golled cynta'g alloch
Bed fai fyw fy llyw llafn oer foloch Sais
Byddai annifflais byddin offloch
A mach ar gammawn a moch wrth gastell
A fflammygau pell a fflam ogoch
A gwas gwin agwrdd gwas gwineugoch coeth
Llawreg arwydd goeth llurig ruddgoch
Chwithau y seiniau synioch am danguef
Dy aur bennaeth nef y derbynioch
Er rhengi bodd Duw y rhyngoch y bydd
Rhydd cyn nawfettydd i nef attoch

MADAWG DWYGRAIG I HOPCYN AP THOMAS AP EINIAWN.

O L. E. D.

HAWDD ammor trysor trwsiad uchelfraint
Hardd feint hwyl Geraint hawl egoriad
Heddyw o Wynedd i wahoddiad beirdd
Hyn heirdd glew ddigeirdd gloyw ddiwyg-iad
Hopcyn wirawd-lyn reid-wlad hardd golofn
Llywiaidd ac eofn llaw ddigaead
Fab Thomas ddigas ymddygiad cyfiawn
Fyrdd-lawn fab Einiawn feirdd erbyniad

Twr gwiw mwyn ydyw mynudiad i ryd
Tau aes grom yngryd Tywi ystrad
Coeth wybod ceisglod casglad doethineb
Cyflawn ei wyneb cof-lan ynad
Cynneddfau Selyf ceinfodd seiliad dawn
Cyfiawn ac uniawn ei ddigoniad
Corf Deheubarth dir a'i cariad barngoeth
Cyfoeth hir wiwddoeth a'i harweddiad
Cystal cof Eidal cyfodiad cerddau
Campau y Deau a'i hardwyad
Cefais iôr rhagor rhwygiad aer dramwy
Cadarn Afarwy cedyrn fwriad
Cain allawr yngherdd cynnulliad clodfaith
Cyfraith mydr rwyddiaith ymadroddiad
Coeth hustyng wrth ieirll caith ostyngiad gryd
Celfyddyd y byd a'i wybodiad
Cynhelydd clodrydd clud-rad gynnyddu
Ceinddu dai borthlu deheubarth-wlad
Carw fflam-ddur a mur maer ffysgiad gwinfaeth
Cynnydd ehelaeth cain Nudd heiliad
Cymry ben a'i nen a'i neirthiad a'i porth
Cywiwblaid hyborth cwbl attebiad
Cleddlym ail edlym lidlafn câd ymwrdd
Caledfin agwrdd clôd fynegiad
Ni bu gan deulu gain daliad y gwyr
Glywed mawr ystyr glod mor wastad
Na Nudd o galon nawdd ddigaead llwyr
Neu gadw o synwyr iawn gydsynniad
Nag Ifor lwydd-iôr leiddiad gwayw ergryn
Na neb a Hopcyn iôr meddlyn mâd
Ni welais erioed yn ei wiw-wlad ef
Newydd aur addef neddair roddiad
Nid llai da a haeddai dyhuddiad pellgerdd
Y gwnaf i fawrgerdd gynnif aergâd
No'r beirdd a wna'n heirdd hyrddiad caer eofn
Esgeir-loyw golofn o'i ysgarlad
Neud wyf pan allwyf paun ennilliad mawl
Eryr iw faenawr arofuniad
Iw lys Hopcyn wynn wynniad a'i galchfur
Iôr anian Arthur uniawn neirthiad

MADAWG DWYGRAIG

I Forgan Dd. ap Llywelyn o Ystrad Tywi. Rhydodyn. O L. E. D.

I fwytty pobloedd af attad Forgan
Fawrgar osp ac eirchiad
Dewisdrefn Dywi ystrad
Drennydd drwy nerth dofydd dad
Tadmaeth prifeirdd heirdd o hirddawn Forgau
Fawrgar cadarn cyfiawn
Gwymp o'r borth cymmorth cammawn
Gwych bôr o hîl Iôr hael iawn
Iawn y rhoddes yr Iesu
Anaw caredig yno
Anawdd rhag ei haelioni
Ynnill ei gyfryw ynny
Ynn y mae tyddyn oed dydd lles fawrgost Llys Forgan fâb Dafydd
Dyn agos nid a negydd
Dyn o bell i feddgell fydd
Rydd yn fy mryd gwynfyd gwir
Budd teg bu o'i reg ragor
Myned wlad fy mhennadur
Manwl pawb wrth fy muner
Muner y sydd mewn aur sud
Morgan bennadur mawrged
Menestr cler mewn ystyr clod
Meistr fawr o ddwyfawr Ddyfed
O Ddyfed pan addefer
Hyd ym Môn lle ydd hed mor
Ni weled ac ni welir
Ferthawg er pan fu Arthur
Castell ni ad cymmell car
Cof dal gwyl cystal y gwr
Gwr clodrydd y sydd i'n ansoddi
Gorfuddiawg farchawg pan fai erchi
Gwr cadr rhudd baladr mal rhodd Beli mawr
Gwawr dandew aesawr Duw i'w oesi
Gorddwy uch Tawy ni chyrch Tywi
Gwrdd Forgan Drystan a'i law drosti
Gwarant i anant daioni cyfrin
Gwerin fyrdd fyddin o feirdd feddwi
Goreu y barnant o wlad Geri
Goron yr awron i Eryri
Gwnai man y delai na myn doli gwin
Mwy no dwfr melin ymen Deifi
Gwnaf i'm brawd araf ail Bryderi
Gwiw a difilain gwawd i'w foli
Gwnaeth yntau finnau f'ynni'n llawenach
O'i lifrei'n falchach nog Elifri
Hir y gatto Duw mewn daioni
Hwyr y dyccer ner rhag yn oeri
Herwydd gwych edrych edryd eri arglwydd
Ar ei ehudrwydd ai wrhydri
Hylwydd a chadarn lle bai holi
Hyglau ar ddwyfoes hoyw-gler ddofi
Hardd afael fur hael fy rhi 'n Neheubarth
Hwyliau dewr diwarth haelder Dewi
Hael am fudd fu Nudd o fewn noddi
Dianhaef[1] Fordaf mewn daioni
Di serch fu Rhydderch i roddi trysor
Porphor a phylor aur a phali
Deu well yw Morgan ni wn dewi
Dwywawl llyw gwrawl llaw egori [ledd
Deddf Pawl yn awr traul no'r tri o'r Gog-
Ym Duw i Wynedd da ei eni
Llafuriaf ei fawl ger gwawl gweilgi
Llamsach Deheubarth yn wr llymsi

[1] *Neu*, Dianhael?

Llwybr hardd i bri'fardd brofi o Benllyn
Gofyn Rhyd-odyn a'i rhad oedi
Hwn yw'r arfeddyd ergryd eur-gri
Heb fynegiad ffyrdd heb fynegi
Mewn ystryw y ddaf menestri clodrydd
Morgan ap Dafydd rydd rieni
Mal Seth ap Addaf ydd af ddyfi
Pan aeth i Baradwys wiwddwys weddi
A dylyn ôl cler ni wnaeth doli rheg
I'w fireinllys deg o fôr Enlli
Llew glew glaif gwyar llwybr bar beri
Lle llawn dawn digardd bri'fardd brofi
Lluddiai ennynnai yn ynni galon
Lladron ddeifr coethion drwy ddwfr Cothi
Lle gwna rhiain gain gynnefodi
Llaryeiddiaf merch mam a'i llaw roddi
Lleucu lle prydu pryd arieni ryw
Lliw arien ydyw eiry i'w nodi
Lluniaf a malaf glod i'w moli
Llerwddoeth aur gloyw-ddoeth o arglwyddi
Llwybr da a wedda dyweddi Forgan
Llathraid lliw huan ar wynllethri
Rhad da a wedda rhoed Duw iddi fun
O fewn gwyrdd a phali
Llun tawel uch llanw Tywi
Llaw-hir fyw hir ef a hi

MADAWG DWYGRAIG IR UN GWR.

O L. E. D.

Main a gudd deu rudd trom fu'n dirwy
Muner fab Madawg rieddawg rwy
Mewn arfau gorau oedd ail Garwy
Mewn oerfa bu dda i ddwyn saffwy
Manerfawr eurlawr aml ei arlwy
Mynorfedd diwedd cwyn bro Dawy
Mewn erfid ei lid oedd daladwy
Mae'n oerfar i gâr mawr alar mwy
Llefir i'r deifrdir amgylch Dyfrdwy
Llafuredig fydd llef ar adwy
Llwyr i'n gwnaeth Dofydd hir ddefnydd hwy
Llâdd y gennym ail llyw Ddyganwy
Lleyn ddwyn ai cwyn am dy Conwy
Llawr Môn ac Arfon gorfawr gyfrwy
Llin haelion doethion gwlad Dindaethwy
Llefant hyd Brydyn llynn llinnonwy
Lleyn a'i cwynyn dros dwfr Cawnwy
Lluoedd a'i gogylch hyd am gylch Gwy
Rhy anniben wyf ail Ronabwy
Rhyw freuddwydydd moel coel celadwy
Rywelais Ruffudd ryffyrf ardwy
Ri llwyr ym meddwi is llawr Mawddwy
Rywelais cyn cwyn yrdd-ddwyn erddwy
Rhyw haelion hoewon hywel Gronwy
Dewr gadarn Ruffudd ar dir Gadwy
Dogn o freuddwyd yw llyw llaw fodrwy
Naf a'i rho culwydd ebrwydd obrwy
Naw alar ym yw na welir mwy
Mwy rhan difa'r gran a dwfr grudd drost-
Gan dristyd ai cystudd [aw
No dwfr dros draeth yn faeth fudd
Nawd am oreuffawd Ruffudd
Gruffudd cyn maengudd o fewn mein gyr llann
Dan rwym llenn crefyddwyr
Oedd enw mawr a gwawr y gwyr
Ac wyneb dros wlad Gynyr
Gwlad i'n trig treisdig llwrw trawsdwyn Gruffudd
Dogn arlludd dygn orllwyn
Gŵr o ddeddf gŵraidd addwyn
Gwyr o dir Ynyr a'i cwyn

M. DWYGRAIG I LO RHODD.

O L. E. D.

Tprue loe lo leuawg ei gynffon
Assen i gylion ys sy'n goliawg
Pryf cloff-droed ym rhoed rhad llwysawg Mirain
Teneu-goeg elain tin gagalawg
Eidion y gelwynt oediawg marw ddwyen
Nid mwy no'r chwannen ar erchwynniawg
Ni weled gan wr ni wylawg galon
Anfon rhyw eidion uch Rhiwedawg
Moel grafangmyr byrr bareuawg tindwll
Maint cwccwll trydwll ni thyrr troedawg
Mal athrist yrhoes meleithrawg eiddil
Mil tarw i gynnil torogennawg
Yn attethol plant unteithiawg henfon
Yn well no'r edion calon ceiliawg
Yn lleiaf unrhodd yn lleuog[1] ommach
Yn llun cod owrach grach grafangawg
Cynnyg ym fudredd riniawg drewedig
Gwell oedd ym Padrig cynnig ceiniawg
Rhawn gwrcath mwrchath nid marchawg tromwedd
Rhyfedd i'r bawedd na bydd bywiawg
Ganed yn gydoes Gynawg a Deinioel
O hicc henfon foel Goel Godebawg
Am gynnyg ym bryf em giniawg lawes
Ar des a golles gan daid gellawg
Ymelldith mab Duw diawg y dyry
I'w dy a'i feudy o dai Fadawg

Tprue loe lo lom ei gynffon
Pen bryd hyd hydr pil a hil henfon
Pam y gwnaeth ath faeth fethion buwch ddiffaith

[1] *Neu*, lleuawg.

Pa waith ddiwydiaith addaw eidion
Deuthum i'm cyngor a gwyr doethion
Detholais ceisiais nifer cysson
Doeth un ysgymmun osgymmon pobloedd
Llygru'r addaw oedd llygrai roddion
Eddewis yn rhodd unfodd anfon
Ych dwnn a yrrwn dan euorion
Rhoi pryf hwyr carnwyr ceirnion pry'r berth
Anferth nid cywerth un o'r cywion
Syllais a gwyliais ar draws gwylion
I geisiaw'r addaw gan gas arwyddion
Cael cymmar dyfriar dwyfron anghymman
Gwan ei ffurf allan ni phawr feillion
Eres ym sommes myn Sain Seimon
Oer oedd gynnig dioer darw eddnogion
I Fadawg oediawg eidion gwaradwydd
Dwy ysgwydd henwydd ar ddydd hinon

Tprue loe lo leiaf o wartheg
Ei werthu ni medraf
Prid i ddyn ei ddwyn hyd attaf
Prin o rodd o fodd a feddaf
Pryf a'n rhoed anrhydedd leiaf
Pryf horllyd hwyr-llo Gorphennaf
Piblyd ni chyfyd ni chaf ddim erddaw Ym myrddydd cynhauaf
Mantach bach bychan y gwelaf
Maint ffured ni phawr wellt calaf
Mil eiddil iddaw ni phrydaf
Mael ffwlbert ar guert gauaf
Mwy corph gwadd iw lladd nis lluddiaf i'r cog
Os llwdn cig a geisiaf
Mae rhuad i'r rhai a dystiaf
Mae braeor gyda hôr haf
Mae cloffi o'r cliffid bawaf
Mae'r bendro ar y llo lleiaf
Mae'r dafawd wst gwst gest achlaf oediog Ar fy eidion dybygaf
Gwr a'i rhoes gwyddiad foes fawaf
Gorfynydd geir fanon pringaf
Gogeilwas gogul wan llesgaf
Gogaled gelyn cyfnesaf
Gwerth isel eidion gwarthusaf unrhodd Yn anrheg nis mynnaf
Pan golles llawes lliwion gwyw gimmwch Gogymmaint corn sebon
Nid ai ar drai drwy afon
Adwedd adref dinref don
Ni cheisiwyd erddaw na chysson ffeiriau Na pheri dal lladron
Na thra annog swyddogion
Na thresi na si na sôn
Digiaw am danaw dynion a chwilcais Mal am chwalcys yngwimmon
Dimmai ni cheid er f'eidion
Delai i'r ffair wyl Fair fôn

MADAWG DWYGRAIG. DYCHAN I FERCH.

O L. E. D.

Afallèn beren beth ath bores
A impais a'm llaw mewn lle cynnes
Merch dlawd rwydd waelawd ryweles yman
Gael cyn gwyl Ieuan gnwd mân mal mês
Mallt ferch Ddafydd rydd oedd eres
Mawr a ddug neithwyr llwyr y llewes
Poeth fursen finwen o fynwes cae drain
Puttain din angcrain nid a yn angcres
Pan oedd flysig hon hyn a'm sommes
Pwynt darogan fu pan dorroges
Pond da bod deincod dincau gwres gyfedd
Ynghylch ei dannedd ai diennes
Rhai yn amrwd mewn cwd cad yn ei mynwes
A llawer ynghudd ymhob[1] llawes
Rhai a hawdd fernawdd ferw trigwres tân
Rhaib abo perllan rhai a bobes
Afallen beren a bored i'm plas
Ei chnwd clas o flas o flys merched
Ffrwythan rhyw gangan[2] rhag ynged arnai
Ffraeth y dug blottai gallai golled
Tair afallen per pored o anfodd
Ni roddid o fodd ai ni roddid
Un ym Mharadwys a aned yngwydd
Rhwng hên a newydd yn eniwed
Ail yn dwyn rhyddail rhodded i Fyrddin
Buchedd gyffredin werin wared
Trydedd hardd i'm gardd am gerdded gormes
Mul y dibobles Mallt bibled
Rhai'n amrwd mewn cwd cad yn myned draw
Rhai gwedi guddiaw gwyd o godded
Rhai a hawdd ferwawdd ferwed ystletban
Rhaib abo perllan rhai a bobed
Afallen beren beraf dan ddaint
Gwelwyf a'th ddiwynawdd mewn gwal trym haint
Am gyhwrdd gormail a gofeiliaint
A chrwydr a chlafri a hi a haint
Maallt ferch Dafydd hir fynydd faint
Merch dingrach dryswrach o droswraig naint
A rodded i neb rodd gogymaint
A hwn Maallt wael gwyl ffael gelffaint
Saith gastr aeth yndi a saith ugaint
O lodrau rhiau rhy anghywraint
Prif fuchedd merch weddw oedd wyr meddwaint
Plygai eu caliau amgylch plygaint
A deng-niawl a dynn cwbl o'i dengnaint
Dyn ni wŷr ffrwythau sallwyrau saint
Afallen beren mae ffrwyth y gangen

[1] *Neu*, ym mhob. [2] *Neu*, gangau.

Gwae nid o gymen cyn dy gwynaw
Cyd gostwng dy frig ar coed-sach helig
O Faallt frynnig lyniedig law
Ofer fu gywain y polion a'r drain
Rhag Maallt buttain gethr-fain gwthrfaw
Hyd pryd pren llath pont hell ddafngoll ddwfngont
Hydreidd drawsgont[1] front hy y doeth drostaw
Cyd ryd rid canwas cefn weinlefn wanlas
Cas oedd ei chwmpas wedi ei chwympaw
Tynnu afalau torri canghennau
Oerfel i'w dyrnau am ei darniaw
Yr afallen a fu beren cyn dy bori
Mae ffrwyth dy frig oedd ddiunig o ddaioni
Hâd afalau Adda bynnau oedd heb enni
Pan ddoeth gennel traws goed ressel tros gae dryssi
Mallt y buttain llyna gelain llawn o guli
Ar ddwy gangen o'r afallen y gwnaeth felli
Cael tromlathau a chryslennau echrys lonni
Tynnu ysgawlwyth dogn i ddeulwyth dygn addoli
Mawr a ddysgais can ogenais cyn noi geni
Myrddin ym gwnair dydd y bo ffair yn ei pheri
Medd bugeilydd o Feirionnydd ofer ynni
Mawr a sonnieu am genghenneu o'i ganghenni
Oer y cweiriwyd can ehaugwyd cyn no'i hengi
Araith annheg aeth yn falleg o'i thin felli
O'r gwydd oedd fau tynnu tyrrau ac eu torri
Cylch ei harffed rhag ei ddofned oedd yn ddefni
Ar ddail gwyddfid aele y gwelid ol ei gweli
Afallen beren a berais
Ei gosod yn gall a geisiais
A'm cyllell y dydd ai collais ac ordd
O fewn gardd y himpais
Cyn clybod Dyfod difais faw haelder
Feheldyn anghwrtais
A gostwng gystal gwlattrais
Brigawglwyn oedd braw a goglais
Am ir-lwyn y daeth i'm oer-lais
A mawrlwyth parth a glan Marlais
Meheldyn gylyn gelain henbais ledr
A ledai dan a'i cais
Gafl-feddal gwan-wal ugein-wais
Gefel gel gulion ei hir-ais
Gofid prid er pryd a welais
Gofyn hyn ar hon ni pherais
Gafr hyfram fawtgam fwytgais fon llommach
No llumman llanferrais
Mae yn eiddi wryf main eiddil
Moel derchwain mahalt oerchwyl

[1] *Neu*, hydreich drostan.

Achub drygbarabl uchel
A meddw weithred a meddwl
A llwydfoll olwg lledffol
Ac ystlom-gwthr gast lem-gul

MADAWG DWYGRAIG ETTO. DYCHAN.

O L. E. D.

Ystyried bobloedd ystoria Deicyn
Ni med acr o dir da
Helm drasur hylam drwsa
Hil gwrach nid o ddwyach dda
Wedi cael gafael ar gyfa Wenllys
Lle ydd oedd winllad gwyrda
A'i seigiaw Deicyn swga
A'i barch gan glei oedd a'i ba
O'i gydfod isod ar fro Assa sant
Lle ydd oedd saint a chyrchfa
Eithinog refr aeth yna
Fal ei ddwyn yn falch o'i dda
Luciffer y gler gloria faw ddiccwst
Fu Ddeiccyn o'i draha
Ceiliawg yw penfrith cwla
Ceifn bran ydyw'r cefn heb ra
Trwywarth trafn hirwarth tra fu'n herwa byd
Ar ôl bod yn wrda
Bwyd fy nghar oedd fwyccra
A phys a phipcnau a ffa
Truan i groesan egroesa perthi
Nas porthai gardotta
Trist fu ei hyder o glera
Trigwaeth nac y daeth y da
Profes arfer cler cloria ireidlyd
Ar dyle meddw gwassa
Profes a'i fratt farchnatta
Profi rhai'n y tai nid da
Profes fan drottian lledratta 'sgubau
O'r esgobawd yma
Profes yn ogloff loffa
Prif baw braint chwifiaw brwnt chwa
Gwerthawdd oedd anawdd oddi yna 'r gwrthban
Gwrthben ugain cachfa
Gwerthu'r tabar ar bara
A gwerthu'r baltog du da
A cholli rheibog aeth ei chylla 'n lludw
Llwydwan with ongl rongca
A'i thymyr tlawd a'i thama
A'i chaws drwg yw gnaws ai gwna
Sef a fynnai lleidr sef a wna gwibiaw
A cheisiaw a chawsa
Sothach o'i refr a saetha
Saith fryd sathr plegyd pla
Difiawg leidr cipiawg coppa

Rhech chwyd fa
A'i nod[1] yw amod yma
Nis gwnaetha'r cyfryw nis gwna
Syniwch ar Ddeicyn a senna pobloedd
Piblyd llyfant gorcrwa duryn catt yn lladratta
Deurudd oen deryw ei dda

TERFYN.

MADAWG DWYGRAIG ETTO. DYCHAN.

O L. E. D.

Mab y gof glawr dof difiau ni'm perchud
Perchen clap a chodau
F'anwyl ni pharchaf finnau
Wrthyd y twyll glefyd tau
Carn gossawg gorawg gorau ytt dewi
A dewis claf-dyau
Cas fegr cest egr costogau
Clyr ath ffust a dust oedd dau
Cais gnap a gwna glap glippiwr rannau casgl
Cwsg o fewn odynau
Ffrwyna adail dy ffroenau
Ffror a o'th garnor yn ffrau
Coliawg yw gweled ciliau y llygaid
Mawr fydd llwgr crammynnau
Colles rhan oth amrannau
Call glawr cellwair fawr yw'r fau
Cyfod ddrygwas cas cais laeth bronnau moch
Ymachub a'th glwyfau
Ac ir dy hun dy glunniau
Ac oer yw celwydd a gau
Cais glafres gynnes dan dy giniau r'nos
Yn nesaf ith arrau
Cymmer rhag gwres glafesau
Cimmwch brynnig forhwch brau
Bydd gywair ar ffair cais offerau caf
Clwyfus drwyn a gweflau
Eistedd leidr ffrom ar dommau
Y mysg moch cais fail goch gau
Arch flawd arch waddawd arch weddian 'r byd
Herwydd bod ytt angau
Arch er y grôg waedogau
Arch i wr gwan ran o'r au
Arch esgyrn a chyrn a charnau defaid
Ac iraid o'r gorau
Ymbil am wêr ith fferau
Ymddiosg rhag llosg y llau
Cais draw gyfeiriaw goferau peras
Poera d'olofynnau
Mae rhwngc pell ith bibellau

[1] *Neu*, uod.

Mawr fydd cossi clafri clau
Rhai a ddel gochel dal guchiau wrthyn
Mae erthwch i'th lefau
Rhyfedd ben llechwedd lluchau
Horyn tin gan yr haint tau

YR UN MADAWG. DYCHAN.

O L. E. D.

Cristarglwydd didrist edrydd gyfiawnder
Traws a glander tros ei gleindyd
Crair llywiawdr cofiawdr a'n cyfyd ddydd brawd
Ciwdawd oedd iawnfrawd cedoedd unfryd
Cymmen gadeirnen gedernyd difreg
Cain o ferthyr reg cwynaf wrthyd
Difa os dilwn dulwyd areglydd
Defnydd gwe newydd gwae anniwyd
Gwnaeth waeth hiraeth wyth wrthyd brethyn
Gwynn i gael y glynn yn gwl a glyd
Gwilym gwiden goelbren gulbryd heb ereidr
Gwrneidr gormesleidr garw amuslyd
Tincyr greffddyn brethyn brithyd a chwennych
Dwyen a deurych Duw ni deiryd
Dihaedd-wlan dilan delw chwydfryd letpai
Difdai gwaddottai gwe a ddettyd
Casgl gigleu chwedlau chwydlyd gornettwr
Crwydrwr goganwr am gig ynyd
Cas bryf oddiwrthyf a wrthyd cyngrair
Crwydrffair coprys dwyfflair ceipr ystifflyd
Cribin ddanheddgrin anhuddgryd gyntedd
Crychwedd cryw nadredd crawn a edryd
Cyrbwyll hwn a wn ennyd y croccer
Croen ellyll gwillmer drigfer drygfyd
Canaf dyfalaf du fawlyd gidwm
Cerdd i ystilwm hirllwm horllyd
Ci aeth a'r olbrain cythreulbryd Sattan
Cwthr bran gal garan a gel gwrhyd
Creinogawg myssawg masw gerbyd diflas
Cuynwas cyrch lliwlas crach a lleulyd
Cringrys traed efrllys tra dyfrllyd tinbleth
Creth gwarae cyfeth gwyr a'i cyfyd
Creawdr amerawdr am wryd amen
Crog fagl y ddwyen a gwyden gyd
Gwys arnaw gwiw ei seirnial
Gwall mawr oedd gwillmer eiddil
Gwell gennyf gwilliawg annel
Gwahodd ci no'r gwehydd cul
Annedd goled-oer annheg nadolig Deliais ringcyn hyfreg
Ar barth rhwng dwy o'i wartheg
Ddyad chwain heb ddiawd chweg
Heb gyhydrwydd medd heb gyhydreg lles Na modd llys Dinorweg

Heb rost nac erchi gosteg
Heb rannau llettyau teg
Eithr ym achrwm lwm wilammeg lygaid
Ai lewgerdd ffiloreg
Ai wart ar bentan carteg
Ai din ar Hunydd grin grêg

PRYDYDD BREUAN AI CANT I FAREDUDD.

O L. E. D.

Ardwyaf profas prifwawd nis cyll
Eurged rhaith yfed nid rhwyth efyll
Aerddrud aeth es gud wrth esgyll ongyr
Eryr rhodd bybyr mewn rhwydd bebyll
Gwr gwrawl fydd ef pan fo'n sefyll
Gwr gwawd llwydd gyllid gwaedliw gyllill
Gwr a ddaw oi law lafn estyll awch grai
O'i wanas difai win ystefyll
Nid gair anghyfan di fan defyll
Nid gwr cyfagos gair cyfegyll
Nid gwerthfudd pwyst udd pistyll gwin andawl
Nid gwarthfar f'antawl gwerthfawr fentyll
Glew llew llad merfyn is bryn bryd cyll
Gloyw deyrn cedyrn cadoedd a hyll
Glaif trabludd cystudd ces tyll rhos helcud
Gludrwyddbair tradrud ruddbar tri-dryll
Un gynnyd beunydd gwinwydd gwyn wyll
Un profiad angad Eingl wyr a dyll
Un ddeddfau arfau o erfyll prydain
Yn rhyfedd Mechain a Rhys mechyll
Maredudd cydfudd cydfod a syll
Mawr adail cynnail cynnydd fleryll
Marannedd bonedd bennial ffyll gystlwn
Mur gwaywdwnn ysgwn ysgwyd wëyll
Rhag pob drwg amlwg amlaen d rythyll
Rhwyg aerflawdd llwgrgawdd Lloegr-gad ddistyll
I noddi fy rhi rhwyf gwersyll penaf
I'm naf a archaf er ei erchyll
Llawr ynys Derllys nid arlludd i'r lloyd
Bod yno ddadannudd
Llaw egored Faredudd
Llary ffysg un addysg a nûdd
Nûdd unfryd yngryd yngraid rhyfel trais
Traws ddeddfau mab Echel
Niferllwydd rhwydd rhôdd nis cel
Naf cerdd uchel cardd ochel
Ni ochel rhyfel rhwyf argae moliant
Bwrdd warrant beirdd warae
Torfoedd barch nid clod warchae
Tyrrwyn llyw mwyn y lle mae
Lle mae cadair gair gwrawr maeth ardwy
Maith eurdeml pob cerddawr
Anant mwyn arddduniant mawr
Fewn ynys Derllys derllawr

LLAWR YNYS DERLLYS &c.

I TOMAS AP HOPCYN.

Y Proth ai Cant. O L. E. D.

Hoywlyw ryw ras rysedd edlym
Edlau cyflym coflyhr hylwydd
Coeth doeth Domas dymyr erddrym
Urddrad grym llym llaw Duw ai llwydd
Cyflwr gwr gwych gwledd medd mynych
Gwin hoyw edrych gwynn ehudrwydd
Cannawdd cennych arnaw llaw llych
Noddiau tlau clych eurwych arwydd
Arwyddion ion iawn ener diball
Dwbl cwbl cuall cyhoedd bensel
Abl digabl dawn doniawg ddeall
Deongl arall eryr digel
Yw ar bobloedd ac ar luoedd
A niferoeddd wiwnwyf uriel
Ior cenedloedd a golu doedd
Iawnrad torfoedd unrad derfel
Derfel sel sant saint ogyfarch
Gafael mawrbarch alarch eiliw
Gwawl mawl moliant mal dihafarch
Hoywfodd ar farch wedd llywarch wiw
Hil madfil mawr Hopcyn wyn wawr
Hael wrth gerddawr ffraeth ffaglawr ffriw
Wyr beirdd eurawr dros briaflawr
Yssig aesawr frwydr gatgawr friw
Briwgad rad rwysg rysgyr mordaf
Mawrdeg adaf ydyw Thomas
Beirddfyd bryd brwysg braisg rodd alaf
Eilun Addaf addysg melwas
Gorwyr geirwir Einiawn dawn dir
Mawr a gerrir mur gywiwras
Clau y clywir clod hynod hir
Cludnawd wawd wir cenir nid cas
Nid cas fas fodd fudd arddduniant
Ddaniel rymiant rwymiad cyfraith
Nudd ffydd rydd rodd rwydd ogoniant
I gynnal cant cyntedd llys faith
Erglyw Arglwydd nef tref trawsglwydd
Ymyr madrwydd am wr mydriaith
Ehud syud swydd euraid arwydd
A hael hylwydd paun rhwydd pennrhaith
Penrhaith gwaith gwrdd gwyrdd ei roddion
Bwyddaf calon celi a'i nawdd
Penllad fad fydd feirdd whoddion
Hoywdda ddynion ddoniawg ansawdd
Lliw-lafn trafn traws lluoedd lliaws
Llyfr hoff unnaws llwyn y ffynnawdd
Bo hoywdro haws bellnot glod glaws
Lle ni bydd anaws llynn byddinawdd
Byddin drin draul drylwyn cadau

Cedyrn bleiddiau blodeu yn ryw
Dyn hy dan haul hylwydd gerddau
Gyrddaf gampau gwympaf gwr yw
Molawd ffawd ffydd mewn rhwyl mae'n rhydd
Mawl a'i cynnydd mal y cennyw
Irloes foes fydd ion awenydd
Hirawdl mal hydd helydd hoywlyw

DAFYDD Y COED IH OPCYN AP THOMAS.

O L. E. D.

Arglwyddiaidd traidd tr6ydded g6yr Cymru
B6rdd cymr6ysg g6in yfed
Y6 Hopcyn hoy6 loy6 la6ged
Mab Thomas crair urddas crêd
Cred a 6yr yn ll6yr ym'hob llun o'r dawn
Aur dinag lorf cyfun
G6r yng'Hymru hy hoy6gun
Gof na6d aur ac ef nad un
Nid un lle6 modd gle6 medd glas a hepcyr
A Hopcyn fab Thomas
Da6n eur ddull nid un urddas
Nid un rym ac nid un ras
Grâf y6 mab Thomas me6n tymmyr ei dda6n
Ys o ddyn yng6hyr
A'i harf ym mr6ydr a'i heryr
A'i hen6 a'i pharch ai h6n pyrr
H6n pyrr g6yr g6hyr g6ay6 blaenaf ynghad
Ynghy6i6d6rn de6raf
Lyr nerth loy6 oreu naf
Lary g6rol a l6yr garaf
Ll6yr garaf naf na6 can-punt
Lle6 cyrchiad ar Eingl gadbont
Llyw Gwhyr gwell no gwyr Gwent
Lla6n orfl6ch ffl6ch ffloy6 aur brint
Llathr ben cun y dymuniant
A llath bla6dd holl l6yth Bleddynt
Ll6yth Bleddyn 6inllyn 6ynlly6 iôn eillgad
Ynnill gerdd Hopcyn y6
Llyr harddrym ail llyry heirdd-ry6
Llary Gymro hir y bo by6
Nid by6 lly6 beilehry6 bylch-rondi-hepcor
Mal da Hopcyn ddragon
Ef y6 ystor cerddorion
O for Morgan6g hyd Fôn
Ef y6'r naf m6yaf a fag mäon byd
Bid a6dyr y Brython
Eurfeistr myna6g sercha6g son
Ior dethol ar y doethion
An6yd Nudd pryd Udd prydyddion a faeth
Ar faith heiliau trymion
Un adlam a Thalamon
Eneid-ly6 teg difreg dôn
Ar a6duriaid blaid blodau cofion mydr
Meidra6l Gymry gysson
O farn byd ia6n leindyd ion
Fur g6ay6rudd ef y6'r goron
Coron y6 Hopcyn cy6i6 ŵryd. Cai
Ca6 fâb Erbin unbryd
Rheol g6indai rh6yl G6yndyd
Rhyla6n barch ar haelion byd
Byd doethder arfer eurfad ma6r e6ybr
Mi a ro6n fy llygad
Ma6l aur en6 mal yr ynad
Os dy6aid un is Du6 dad
Is du6 dad yn rhad ion rh6y aml gylchlyn
I'6 galchlys ger Ta6y
O 6in ac aur en6 Gar6y
Ni roes neb fael 6ynel f6y
M6y a rydd cynnydd cynneddf g6a6r tr6yadl
No'r tri-hael i gerdda6r
Walch trahydr clud-fydr clodfa6r
Way6 ennyn aer yn un a6r
Yn un a6r hyfa6r ddihafarch hoy6bost
Deheubarth ben cyfarch
Ynad lle6ych por g6ych parch
Nid lla66ag un na6d Lly6arch
Na6d Lly6arch cludbarch clodbell cledd na6ddgâd
Coeth geiniad caith gymmell
Nen cedyrn anian Cadell
Naf balch ni 6nn 6alch ei 6ell
G6ell ymmbell dîell deyrn lla6ch-bobl r6ydd
Hyd yn nrhef Gonstinobl
Ail Elffin 6ay6 lli6 synobl
Y6 na neb am 6in a nobl
Ei noblau yn fau fy6 ddifri facc6y
Ai f6g c6rn a'i sendri
Ai gariad oreu g6i6ri
O'i ras nawr a roes imi
Mi a glodforaf feistr llys m6yeilch hael
G6nai helmau yn fri6deilch
Dros barch rhagora6l g6a6l g6eilch
Harddfur a'i wisgoedd heirddfeilch
Ei heirddfeilch 6isgoedd harddfoes y6'r g6aladr
G6el6yf idda6 hiroes
Ffyrf ia6n y6 me6n ffurf einioes
A phob da ai ra a roes
Rhoes ym ly6 hylym le6 helma6g ruthrdar6
Llary rygar6 llurygа6g
Ei fedd a'i 6in ffyll drin ffa6g
Ai f6nai Hopcyn fyna6g
Myna6g Hopcyn lynn loy6glos
Mur heil-dd6bl ced-g6bl cad-gis
M6nai la6 mae yn ei lys
Eur ddar y Lucidarius

A'r greal ar yniales
A grym pob cyfraith a'i grâs
Y gras a gafas y g6r
A chlod teilyng-brif Ifor
G6yndodig fonheddig fur
G6inau did6yll feistr p6yll pêr
G6i6 ail G6alchmai ap G6yar
A g6ay6 a tharian G6yr
G6yr 6arant ffyniant ffin
Y gerdd tra f6yf fy6 y g6nn
G6a6r ma6r mad bedeircad ben
G6aladr cadr coeth y doethion
G6alch a gar argl6ydd a g6ann
G6yrdd a hepcyr g6rdd Hopcyn
G6rdd Hopcyn loy6-6ynn le6aidd lary gleindyd
G6r arfa6g yngryd 'n y byd n6y baidd
Fab Thomas falchras fylchraidd yngham-ma6n
Fab Einia6n fyrddla6n drin greula6n draidd
T6r tir Ta6y rh6y rhiaidd rhugl ddidarf
Taer y6 aï ddurarf tyrau ddi6raidd
Tarian i'r hollwyr mewn anturiaidd grwydr
Wrth aros ym mr6ydr 6r Arthuraidd
Ceing hiraer orfod cynghoraidd nen gŵyr
Cy6iriaid eryr mygr car6raidd
Ca6r aesa6r g6a6r ma6r mireinaidd beilch-ry6
Car6 h6yrfar6 hir fy6 eurlli6 iarllaidd
Helmfellt lorf g6ay6ddellt g6rddaidd an6yd Ga6
Ha6l caerau ddiria6 hael cerdd6raidd
H6yl deil6ng brisgfl6ng breisgflaidd yn aer-gr6ybr
Hyl6ybr Uthr e6ybr ac athröaidd
G6ir 6yneb Cymry g6erinaidd fyrddau
A g6a6r y dëau a g6rdäaidd
Da lyfr y gyfraith dilyfraidd ynghad
A d6yfil ynad difileiniaidd
Di6edd6 olud ma6r di6yddelaidd ia6n
Da wedd aelaw ddawn dieiddilaidd
Doniawg calon hael dienciliaidd blaid
Digrinarf yn rhaid digrynŵraidd
Di6y6 aesa6r hydr 6r de6isaidd d6rdd
D6ys oesen6 ag6rdd disaesnigaidd
Difreg Hopcyn dêg didaiogaidd dwr
Da 6i6 uchel6r diachulaidd
A dlyeda6g ia6n a di6ladaidd ly6
A dy6ynnig y6 a de6iniaidd
Bri6 aerau a'i ron breyraidd ei radd
Byrdd-6in eu neuadd barddoniaidd
Bronn hynaif beilch-lin brenhinaidd erfai
Buan dd6ygamp Cai boneddigaidd
Por ior g6ineuddor G6yneddaidd eglur
Pur fur praff a6dur fer6 proff6ydaidd
Par br6ydr daer mael ael mil6riaidd 6aladr
Paun difygwl cadr pendefigaidd
Pryd berth certh taernerth teyrnaidd digabl
P6yntus6alch doethbabl parabl peraidd
Parottaf lle6naf lluniaidd helm ddurgaen
Peryf ragorflaen g6a6lch6aen g6alchaidd
En6a6g naf ffyrfaf ffurfaidd ll6yth Bleddyn
Yn ei lys 6inllyn ef ni fynn faidd
Eurgadr fu'ng6aladr engylaidd difrad6
Ion m6yn eiddun cad6 enmyneddaidd
Eryra6l Hopcyn ar6raidd diofn
Ior gloy6ddu eofn argl6yddiaidd
Argl6yddiaidd traidd &c.

DAFYDD Y COED I RUFFUDD AP LLEWELYN AP IEUAN O UCH-AERON.

O L. E D.

Ceredigiawn walch balch bylchrou
Cryfdrafn clodgar rhwysg barwn
Yw llathr Ruffudd law Nudd lan
Llew olwg fab Llywelyn
Llawch-lu eryr llewych lin
Llwyddiant holl wyrion Llowdden
Wyrion Llowdden ben beunydd y dyry
Yn dirion ail Mechydd
Aur i'r gler ger merwerydd
A medd gwledd gloyw fy hoyw hŷdd
Teyrnaidd lluniaidd llonydd a gloyw-deg
Yw Gwledig Mefenydd
Trech no'i gas fawr ei ras fydd
Trychdrin diawdwin dedwydd
Dedwydd dieiddil dilaes
Dynion gynnydd dawn gynnwys
Dewr cain gwell no thrugein sais
Diwg yw fydd deg ei foes
Ei foes yw rhoi 'bawb ei fudd
Ei feirdd cânt ei win a'i fedd
Ei fawl yng Hymry a fydd
Ei fyd a gaiff wrth ei fodd
Modd pablaf medd y bobloedd
Mil a'i gwyr mawl a gyrraedd
Mur iawn rym mewn mireinrwydd
Mynawg llaw eurawg llaryaidd
Llaryeiddfab arab eirian llaw olud
Llywelyn ap Ieuan
Llurygawg calonnawg glan
Llew trawsdeg unllid Trystan
Llid Trystan dewrder ner nerth
Yw Gruffudd Nudd naf di-swrth
Dihyball myn Duw hoywborth
Deheubarth feddbarth fuddbarch gyfoeth beirdd
Byrddau brwysglawn beunoeth
Dioer yw Gruffudd lyw loywgoeth
Drafn diddig di Seisnig doeth
Doeth ail Uthr gwayw-ruthr yn gywrain iawnfalch

O anfodd Eingl Llundain
I'r morfa coeth wrda cain
Eryrawl walch arwyrain
Arwyrain mirain morudd un urddas
Wŷn arddwrn plymlwyd-ludd
Eurgarw clodbell naw'ell Nudd
Aergyrf oreuffyrf Ruffudd
Gruffudd Nudd uddair grym llym llafn disglair
Gwynngrair hael myn Mair am y gwingrawn
Gyrfa mawrdda maith gyrrbrwydr dewrgrwydr daith
Gwyr distryw Einglgaith garw diestrawn
Gwawl hawl mawl mil-cant gwych llych llawch anant
Gwarant glud ffynniant eurglod ffynnawn
Hardd ffrwst wst wayw aestalch hydrdaer ar gaer galch
Hyn Llywelyn walch iôr coethfalch iawn
O werin lin lwys glod byw gwlad Bowys
Hael ynad gleifddwys o hil Einiawn
Emyr ail hail heirdd aml-ba da digeirdd
Emyn Cirig beirdd yw myn Carawn
A chel ferth nerth naid uch Aeron ron raid
Un cymmurth Lloegr-blaid yw iôn cammawn
Elw sal ail Selyf arf mael darf mawldyf
Eryraidd aergryf a rydd eur grawn
Ei fardd ryhardd ryw wyf tra fythwyf fyw
Fy llyw cymmen yw nid cam a wnawn
Arfaeth maeth maith ner aerfaidd rhaidd rhuddfer
Aur oleuged clêr ar ael eigiawn
Draig trin lynwin law dragon calon Caw
Drylliwr caer aelaw dreill-aer creulawn
Bugail cad mad mawr baedd gwnedd gwedd gwawr
Bryd uthr cadruthr cawr byrdd-lawr beirdd-lawn [sedd
Breyr gwyr myr medd brenhin gwin gwên
Bryd byd hyd hydrgledd mawredd Meiriawn
Balch gwalch gweilch loywnen barchus glod berchen
Budd ffrwyth llwyth Llawdden doeth ben y dawn
Braisg waisg wysg brwydr-dwrdd brys emys ymwrdd
Bwrdd ciried agwrdd Ceredigiawn
Ceredigiawn walch &c.

DAFYDD Y COED ETTO.

O L. E. D.

Cystuddfull bawddull baddwm y pechod
Yw'r mab bychan iad-lwm
Cest gawl garl fol tombarlwm
Gystegawr clawr amner clwm
Caeth arial-sur dwrch cythreul swm soegfa
Ci hir-bla cehyr-blwm
Collais o'i werngoffr offrwm
Cylla diawl mewn cenawl cwm
Calonfaen cyff graen caiff grwm ni hyrthgwymp
Mal hurthgen Siacc fâb Twm
Corph pydew trum Iddew trwm
Ci ŵyr cedi yw'r cidwm

Lle ni's gwneath o faeth fethiant ryff erioed
O rodiaw gwledydd hyff
Harddged oesgred heb ysgryff
Heirdd brydyddion prifion pryff
Llyma wneuthur pur pefr ysglyff ryged

O ragor geiriau cryff
Englyn o farn gwyr anghlyff
O ddau gwys nad gau ei gyff

Cafas Cadwgawn llawn llef
Llawer nos dig annigrif
Wrth din ei wrth dan calaf
Yn tynnu drwy wrysg o brysg bryf

Ffo a wna'r Bedo oer badell ddrewson
Ffed gweision ffad gyssellt
Ffugiol ei waith fal ffagl o wellt
Ffiloreg ffleiryn
Ffosydd fydd fawddyn
Ffod anglod englyn bawyn Buellt

DAFYDD Y COED AI CANT.

I Ieuan Llwyd ap Ieuan ap Gruffudd Foel o Ogerddan. O L. E. D.

Ieuan Llwyd eirian llew dewredd
Yng'winllys o'i emys ni ommedd
Brŷd uthr ddrud em golud amgeledd
Baedd brwydrchwant falch fwyniant feilch fonedd
Braisg hir-laif bron hynaif brenhinedd
Rhull Garwy rhaid gofwy rhâd gyfedd
Rhwyll Arthur rhwydd lwysfudd rhodd lâs-fedd
Hail fyrddged hawl gwared hwyl gwiredd
Hardd gariad Cai oesgad Caw osgedd
Hil Einiawn glud uniawn glêd annedd
Fab Gwallter ni fylcher ei falchedd
Croyw Rydderch Pâb geirferch pob gorsedd
Cryf Selyf gwiw hoyw-dyf gyhydedd

Crair geirgall dda ddyall ddi-ddyedd
Credigiawn ail Meiriawn elw mawredd
Enw clodfawr un aesawr ynysedd
Dilaesdof da lwysgof dilesgedd
Drud ddurnawd mael ddignawd mawl ddognedd
Drafn aml-blaid mawr-enaid marannedd
Draws gyngrair anghabl-air ynghwbledd
Dur friw fron annhirion yn nhaeredd
Dull Bedwyr deg eryr digaredd
Dwf Rolant enw mwyniant anmynedd
Dewr gynnwrf câd ymyl-wrdd ced amledd
Diruthr darf mur durarf mawr diredd
Udd gampau iôn rhadau anrhydedd
Anwyd clyr anghysur ynghasedd
Gwawr faelewr gwir filwr gorfoledd
Glan eryr eur-clerwyr wr claerwedd
Glynn Aeron da ddragon diddrygedd
Gwyr Rydderch enaid-serch anwydsedd
Ein heuraw a'n hurddaw enw harddedd
A'n dysgu nid ysgyg o'i drosedd
A'n puraw a'n breisgaw i'n brwysgedd
Aig eur-barch ac arbed pob salwedd
O'i giried ac euraw trychan-wledd
Ac eiriach rygaru dim serthedd
O'i gyrbwyll ac erbyn clêr wynedd
Ac arail y geiriau cymrodedd
Ac aros mal Geraint yngwnedd
A gorfod ac aerfin fflam ddurgledd

DAFYDD Y COED I RAYADR GWY.

O L. E. D.

Rhaeadr oergri cadr a'r crwcedau bach
Bychain geiniawg werthau
Rhugl ffugl ffagl magl mwygl refrau
Rheglwern i gwm Uffern gau
Cau gosostig dig dygn gyrbwyll asgen
Du gynnen diganwyll
Caeth Raeadr ddiwaladr-bwyll
Clafres bres taeoges twyll
Twyll dwng rwng duslwng diflas lle ceusoeg
Lle ceisiwyd fy llëas
Trist chwedl blin doed i'r dinas
Tanfflam drwy Raeadr Gwy gas
Cas yw anghadr Raiadran
Casaf unhwch trwch lwch lun
Cas drachus-ffrom sawr tom tin
Cas cas cas cas cas cas cwn
Cas digarw i'm cystegyn
Cwys dewgur i'r costogion

ENGLYN I DD. Y COED.

O L. E. D.

Dafydd y coed hoed hydr sant
Dyn wyt cerddlawn radlawn rent
Ffo'r bore o'r brithle brwnt
Ffi 'Lanymddyfri ddu front

ENGLYNION YN Y MABINOGION.

O L. E. D.

Clywais aran a lefai ym mhwll
Ym mhell oddiwrth dai
Ar na wrandawer tawai
Ys id yn y boly hwn blawd
Ceiniaid cynnifiaid disgynnaid yn nhrin
Rhag cadwyr cad barawd

Pan aeth Bendigeidran ap Llyr i Iwerddon i ddial sarhaed ei chwaer Branwen yr heddychodd a'r Gwyddelod a rhan o'r heddwch oedd iddynt wneuthur iddaw dy y gannai ynddo can nas gannasai mewn ty erioed. A'r ty a a deilwyd ar gant colofn ac ystryw a wnaeth y Gwyddyl dodi gwanas o bob parth i bob colofn a dodi boly croen ar bob gwanas a gwr arfog yato. Yna y daeth Efnysien brawd unfam i Fendigeidran i edrych y ty o flaen ei frawd a'i lu a gofyn i'r Gwyddyl beth oedd yn y boly. Blawd eb hwythau. Yna y gwasgai Efnysion a'i law ben pob un o'r gwŷr trwy'r boly nes eu lladd ac yna y canai yr Englyn uchod.

TRAHAIARN BRYDYDD MAWR AI CANT.

I Hywel o Landdingad yn Ystrad Tywi 1350. O L. E. D.

Diofryd dor gryd grym arwyriaith
Dewr Howel ddigel ddygn o dreiswaith
Draig balchlyw canllyw cunllaith Gelynion
Dragon gan gofion gwn gwyn gyfiaith
Gweled ar giwed eur argywaith
Gwedi gwalch rhoddiad gad gedymdaith
Gwaed reieidr beleidr heb olaith yngryd
Gwae fy mryd ym myd fy mod noswaith
Llettawd greddf bythawd gruddfan hyd beith
Llastr gwyn gwenwyn dirrwyn dyrraith
Llafar llu daffar lle diffaith heb ri
Llawr Tywi tewi llwrw nad hywaith
Llinon ysgyrion llew aes gwyriaith
Llefain ac ubain am ddwyn gobaith
Llugyrn braisg deyrn brwysg daith morgymlawdd
Llwybr sawdd Lloegr-dorf gawdd llwgr dwrf goddaith

Lleon ddewrder ffer ffwyr annorraith
Llam drin breenhin Brynaich angraith[1]
Llwyth Tewdwr tresiwr trisaith brenhiniaith
Llary llawffraeth bennaeth feirddfaeth fwrddfaith
Llid anian dylan tarian teiriaith
Llaw rudd-lein ysgain ar wain eur waith
Llew prudd ced ddiludd cad ddylaith Caeaw
Llawr llwyrfraw lludwaw llid llyr llediaith
Pwyll Cai pyll Myddfai par pall meddfaith
Pyrth pybl-fag ddinag ddawn ganhymdaith
Por gryd lles esbyd llys oesbaith nad byw
Par glyw digabl ryw deheu gwbl raith
Parhawd molawd mil ossymdaith
Paun gwyr mawr eryr o'm aur araith
Prudd budd udd diludd oedd dalaith trydar
Par galon esgar gelyn oesgaith
Bid iddaw anaw ynad cyfraith
Baradwys tadwys tud pob gwyniaith
Parawd rodd unrhodd anrhaith ni dderfydd
Cerennydd perydd purffydd perffaith
Duw ddewin brenhin breiniawl neirthiad
Doethfab Mair a bair oi bur gennad
Dawn hysbys dyfrys difrad gerennydd
Ei brif awenydd herwydd hirwad
Gan wyrion haelion hwyl ddigranniad
Arf creulwan cammawn Einiawn ynad
Ardal aur bennal erbyniad anant
Ardeml blant moliant miloedd borthiad
Ni wadaf barnaf can wyf beirniad
Na waisg ar glod braisg brwysg ddychaniad
Ac ymhlith ynrhith anrheithiad ni'm ceir
Heb grair dilesgair[2] ac offeiriad
Cywyr wyf haeddwyf heddwch arad
Cyffredinrodd bodd byddin gyrchiad
O bwyll mur didwyll mawr dad didramgwydd
Arglwydd culwydd rhwydd rhwyf goleuad
Anfonaf traethaf treth o gariad
Eur chwedl i'm cenedl canon brydiad
Awen yn llawen rhac lliwiad celwydd
Nis bwyf goll gynnydd gan gall gennad
Eisiau synhwyrau mydr eiriau mad
Oedd imi golli gwesti gwastad
Peiriau ffrwyth wleddau ffraeth wlad pêr heilgyrn
Pyr lafnau erddyrn pyst cedyrn câd
Gwae biau maddau medd a gwinllad
Gwerinoedd llysoedd llês pob eirchiad
Gwahoddion rhwyddion a roddiad dreigiau
Gwiw gawadau tau Tywi ystrad
Da gyfoeth peunoeth poen ymbwyad
A golleis i drais drosedd ffysgiad
A gallu ceinllu canllaw had Merfyn
Ac ysgeir-loyw lynn ac ysgarlad
Gwir folir yn hir gywir gawad

[1] *Neu*, annraith. [2] *Neu*, dilesai.

Gweilch hirfryn terfyn torf gymmynad
Gwaed werin o lin lleiddiad am eryr
Gwyr bleiniad ongyr o blwyf Dingad

TERFYN.

TRAHAEARN BRYDYDD MAWR A'I CANT.

I Gadwgawn[1] a'i Ddaw ac y llosges ei dy y Calan nesaf wedi ei ddychanu nos Nadolig ac y llas ei daw. O L. E. D.

Trallawn Gadwgawn gyd ogan a'i ferch
A'i farch ddaw grabidan
Angall a nifer mall man
Ar gronwledd fuchedd fechan
A gwilio fawdro ef oedd fwdran llynn
Llan Gynawg fab Brychan
Mudfa oedd dda dduw Calan
Lle y bai llanw ei dai o dan
Ulldach ewingrach ei wan a rhudd-gledd
Oedd rwydd glod gyflafan
Alltud secreulyd succan
Ail breinial albrwn gwlad gwlan
A chynnheig-nest gest gwst ogan celfi
A'i rhagci'n ei rhoccian
Gwys arnai nid bai bychan
Gweision a chleifion achlan
Ar offeiriad brad braint llawchwethan brwnt
Maint[2] cadfarch lefhrchan[3]
Nid gweddaidd blaidd bloedd cigfran
Nid iaith o geiniaith a gan

ENGLYNION

A Gant Goronwy Gyrriog. i Wenhwyfar ferch Madawg Gwraig Howel ap Tudur. O L. E. D.

Rhoed llen gudd uwch grudd greddf drais
Rhiain barabl groyw loyw lwys
Rhyfyr ir byd hyd ei hoes
Rhwym caen llenn faen yn Llan-faes
Llanfaes fann uch marian môr
A gudd Gwen hoywfudd hwyfar
Lletty saint a braint brodyr
Llawr-gudd-fun llwyr-gawdd hun hir
Hir yw ynof cof cyffro
Herwydd trais Dofydd trosti
Hawdd ym urddawdd a mawr-dda
Hael hoendeg liw haul hundy
Dy hir hun-dy gwedi gwedd

[1] *Neu*, Cadwgan Ficar. [2] *Neu*, maint. [3] *Neu*, lewhrchan.

A phryd a guddiwyd a phridd
Dygn gofion rianon rodd
Digofaint bun deg ufydd
Ei llu fydddawd ceudawd cof
I hardd Wenhwyfar araf
Bun deg o bwyll didwyll dwf
A'i haelder a dal ner nef
Rhen nef rhan ofid ddygngoll
Ei hun bun byd ni's ynnill
Rhoed llawr ar lloer hardded hyll
Ni rodded llawr ar wawr well
Gwell fu bwyll ganwyll gwenwyn
Gwenhwyfar haul daear hoen
Gorchudd gwawr yw llenn fawr faen
Garw chwedl iw chenedl ei chwyn
Mawr o gwyn dwyn dinag rodd
Merch Fadawg rieddawg radd
Gro heddiw maenwiw a'i medd
A gra a wisgawdd ei grudd
Rhoed lenn gudd &c.

SEFNYN A'I CANT I ANGHARAD.

O L. E. D.

Bryd olud byd o bydd mawr dodaf
Brysiaf lle ygwelaf brys llu gweilydd
Braint nef hun adref hoyw fad rydd y caid
Breiniawl hawl henblaid gannaid gynnydd
Braisg addurn difurn neud ufydd arber
Brenhines haelder gloywder gwledydd
Brwysg fyddaf od af y dydd i'm gwelo
Bro aml yw yno ym lawenydd
Prydiaf a lluniaf o'i llonydd-falchdud
Paraw aelaw olud or sud y sydd
Perddadsain coelfain celfydd lafarwawd
Parawd berth dafawd gan borth Dofydd
Prif degwch dilwch eiry dolydd cynglaw
Praw nwyf gyrf anaw nid gorfynydd
Priawd oleu wawd eilewydd hyfryd
Pryd gem ar ddeufyd gynnar Ddafydd
Gwawr gerddgar hwyrwar herwydd addnabod
Gorfod ar hoywglod gwiw ei rheglydd
Gorhoffder llawer medd llywydd cerddau
Geiriau aml fwriau ymleferydd
Gwir gymmwyll ei phwyll ai ffydd
Gorau ffurf brodiau gan ffyrf brydydd
Gwared yw rwydded y rhydd o'i gwydrin
Gwin o'r llaw iessin i'r lliossydd
Rhagores cares cerydd ni haeddai
Rhai a'i rhyfolai llawr hufelydd
Rhag braint merch wynddaint wenddydd wybodau
O'r môr bu golau mawr bwygilydd
Rhoddiad Angharad yngheirydd gwyngalch
Rhieddawg dremwalch wyl falch elfydd
Rhiain loyw firain leferydd gwastad
Rhad hylwys blaniad haul ysblennydd

DIWEDD.

SEFNYN AI CANT I LYWELYN.

O L. E. D.

Crist celi poed mi o'm meithfaint synwyr
Ai synniwy cyn henaint
Crist creawdr llywiawdr llwrw saint
Cred crefydd celfydd cywraint
Nid cywraint i neb cywryssedd a'm rhwyf
Yn rhyfyg gwythlonedd
Tud glyw tir Mynyw neus medd
Twr torfoedd terfyn Gwynedd
Gwynedd yn rhyfedd yn rhyswriaeth glyw
A glywant men ydd aeth
Mal torf nyw terfysg alaeth
Mal tonn trais trodlonn tros traeth
Traethaf canmolaf canmil gwyr ysgwn
Hawdd esgyn eu heryr
Calchdoed saith rifed sŷr
Cylch fy rhwyf yn ei rechdyr
Rhechdyr croes Oswallt crysiasant am ddraig
Aml ddragon pedryddant
Gwyr gortho bro bryn a phant
Gwir Cymry cymmellasant
Pebylliwys rhywr rhywodig lluoedd
Llywelyn waith undig[1]
Ym mro Lloegrwys diffwys dig
Ym mryn gwyth yn Amwythig
Amwythig wledig wlad anhydr ei braint
Am Udd braisg ni chyhydr
Uch uch y dydd herwydd hydr
Yssig ddydd oswydd oeswydr
Godrais a laddawdd o lu trychiad Lloegr
Llywelyn ar honnaid
A'i bobloedd cyhoedd cydnaid
A'i byll a'i bebyll ni baid
Pebyll Llywelyn lle cad a weled
Yn oleu arthawad
Yn lludwaw llidwm yn rhad
Yn llu gorfeddu gorwlad
Pebylliwys fy llyw yn llu hyfryd praff
Ar pryffwn o Wynedd
Gorthöai drai draws a hyd
Gorthir y gelwir gerwryd
Pebylliwys fy rhwyf yn rhwyd gwrdd gynnygn
Gwyr gynnif ym mhlymnwyd
Yngwendud glud yd glywyd
Yngwenwen befr bell o Glwyd

Pebylliwys teyrn tew arnad ei henw
Ef henyw o gan-câd
Llyw Gwynedd gwynfydig wlad
Llwyth lleudir ystwyth ystrad
Yn ystrad Meurig anystywell lu
Oddi am lyw bro hiriell

[*Diwedd yr Awdyl, mewn hen lyfyr, y sydd yn canlyn megys y darn olaf o Awdyl gan* GYNDDELW, *yn dechreu*—"Ym maes brynn Actun."]

Ni safai rhag dim rhwych pell
Nac aer na chaer na chastell
Pedwar castell poeth paith ryfig ystwyth
Oddi am ystrad Meurig
Clwyf uswydd nid plydd neud plyg
Clod gyhoedd caeroedd cerryg
Cerrynt a ddugam ni ddygerdd eraill
Ar allt mor a'i ogerdd
Pebyllfa pair cyfa cerdd
Pennal dir engir angerdd
Engiriawl rubeth am rybydd angerdd
Ar gerdd gerdd Geirionnydd
Dybuant dybyddawd fydd
Dywalwern drywern drefydd
Tremynws rhyswr rhosedd ddiabred
Am ddiebryd Gwynedd
Lloegr gychwyn a'i mynn a'i mêdd
Llywelyn llyw teyrnedd
Teyrndud Leisiawn ac Alaswy dir
I deyrn Deganwy
Cam i'r Cymro ni hoffwy
Cynnif Cadwallawn nid mwy
Pebylliwys fy llyw yn Llyssyn drefad
Am drefred Wenwynwyn
Clawr Powys peues Unbyn
Canmil canmoles Duw hyn
Pebyll Llywelyn pawb etwa a'i gwyl
Fal y gwelsawchwi yma
Ynghaer yngharreg Hofa
Ynghaerfyrddin fyrddoedd bla
Pla oedd ar gyhoedd ar gytgam cynnygn
Eu cynnif ry wnaetham
Arthur gynt ffwyr luchynt fflam
A'i ceisiai fal y cawsam
Cawsam ar Bowys beues goeth gestyll
Eu gostwng oedd anoeth
Tri tryfan cyfan cyfoeth
Pedwar enwawg peithiawg poeth
Peth o'i ddylyed gan ddylyu braint
Bro Feli ai meddu
Cafas cyn lleas canllu
Ceisied pen tudwed pob tu
Tuedd a thiredd a thi neud hafal
Neud hyfawl dy westi
Ehang yw ytt rydid ri
Ehofn a golofn geli
Crist celi &c.

SEFNYN ETTO. MARWNAD IORWERTH GYRRIAWG.

O L. E. D.

MYGR-DDUW hardd mae bardd balchffawd cyfannedd
Mewn bedd modd buchedd maddau ei bechawd
Moes râs molt pariad parawd ddigrifiaith
Maith mawrddwyn gwindaith Myrddin geudawd
Maccwy mau fordwy myfyrdawd garwfloedd
Mad oedd mau wisgoedd mwrai wasgawd
Medd cyhoedd miloedd molawd Aneurin
Maer gwin mur gwerin Mair a'i gwarawd
Dysgais gur dwysgur nid ysgawd terfysg
Dysg dyrrwyf addysg diryfeddawd
Dygnaf Duw eurnaf diwarnawd dygnddu
Fu ddoe gan dri llu ddogn o drallawd
Dwyn eurwas difas defawd diweccry
I dy dirwely daear waelawd
Diaingc tros fawrgaingc fargawd grudd prydydd
Deigr rhydd diefrydd dau auafrawd
Gwiw fydd ger broydd i briawd deigr gost
Garw ffrost gan gwaedd-dost gwynaw gweddwdawd
Gwneynt draw gwarandaw gwr undawd feddgyrn
Gar chwyrn ger tefyrn goreu tafawd
Gwae nifer glewder gloywddefawd pobloedd
Draws fywyd oesoedd dros fedyssawd
Cafas cwbl urddas rhag cabl orddawd hawdd
Cawdd cain ymadrawdd cyn no medrawd
Cyfiawn cathl fawrddawn farddawd diletpai
Cof rhai ced ddifai cadw addefawd
Ceingau coeth ddadleu caith ddidlawd ddarmerth
Cyngerth cwyn Iorwerth canon eurwawd
Cuddiawd llawr cwymp mawr am arawd gwyrain
Cor saint corff haeddfraint cywyr ffyddfrawd

Brawd ffydd pob prydydd pab priodawr gwawd
Gwydn yn fyw bedeirawr
Bod ar Iorwerth gerth gerddawr
Byddar gudd bedd lliwrudd llawr
Llawr du oer yw llai'r dëall
Lletty Iorwerth ddawnferth ddull
A garwbwys cwynfain geirwbell
Ac irbwynt derw ac oerbwll
Pwll a gudd ei rudd o rif pencerddiaid
Gwlad gannaid glod gynnif
Pawb a'i gwyl llyd dyn fyl llif
Pelled deigr pyllaid digrif
Digrifwch diau grefydd
Dwy grefft bardd urddedig-rodd

Doded yn gaeth doe dan gudd
Dogn trafael dig nid rhyfedd
Nid rhyfedd trosedd traserch trais galar
Tros golofn cerdd brydferth
A marw ein bardd mawr enw berth
Ym arwain deigr am Iorŵerth
Eurawdd Iorwerth geinferth gân
Erllynedd gwir gyfedd gwin
Arawd têg o orau tôn
O rodd Duw a eurawdd dyn
Dyn doethbwyll didwyll dodais floedd
gyngerth
Dwyn Iorwerth lwysferth lais
Araf i dref oer fu drais
I waelawd llawr a welais
Gwelais am fardd hardd hylithr
Gwedi darllain gwawd eurlythr
Baradwyswaith berw disathr
Bridd a derw breuddwyd aruthr
Aruthr alaeth ruthr o lithraw prophwydi[1]
Meddyliwyd modd wyliaw
Dinidr dagrau am danaw
Defni glud deufwy no glaw
Glaw bryd wylaw brad alar
Gloywon ddagrau a glywir
Nychwyd anafwyd nifer
Na chawn ragorddawn gerddor
Da gerddwr hawlwr haelion a guddiwyd
Gwyddiad ffyrf amryson
Dafodiawg beirdd difudion
Didlawd traws fwynwawd tros Fôn
Gwae ger Môn o feirddion fyrdd
Gwisgaw o gorph gwisgi gerdd
Gwead diffest gwawd hyffordd
Gwasg llawr gwaisg gerddawr gwisg hardd

TERFYN.

IORWERTH AP Y KYRRIAWG I FERCH.

O L. E. D.

Mi a baraf i ddyn araf
Or a garaf ryw ogerydd
Am foniwaw wyf fron friwaw
A'm diliwaw ym duw lywydd
Mae dy warant mawr dy farant
Mewynfeilch garant maenfylch geurydd
I lyfasu fy lliw lasu
A'm lliasu em lliosydd
Gwant fi'n druan gwayw nwyf buan
Gwynder huan gwindai rhydd
Gwen addwynaf gwyd ddirwynaf
Gwedd gain gwynaf gwedd gwawn
gweunydd
Gwn na'm cery gwan y'm pery

[1] *Neu*, proffwyd.

Gwas a'th ery gwys ith ddyrydd
Gwawd foliannus gwaith lwyddianus
Gwae dygianus gwiw dy gynnydd
Heais eiriau haul cadeiriau
Hafal creiriau hyfawl croywrydd
Hyn a wneddyw yt y deddyw
Gair yt eddyw gorwyt hoywddydd
Yt feidduned wyt ddamuned
Eilwedd luned wylweddw lonydd
Uthr ddoluriais oth serch curiais
A llafuriais fy lleferydd[1]
Llywiaf awen llwybr per awen
Efa lawen yw feilewydd
Lleddf eaglynion llyw rhos gwynion
Lloer morynion llawr Meirionydd
Gwawr ddydd Meirionydd mawr anawdd
I'm nwyf gwyn bryd nyf cyn dattawdd
Gwyd a gofal am talawdd
Gwawn lliw och heddiw o'i chawdd

ENGLYNION

A Gant Llywarch y Nam. i Lywelyn fab Madawg mab Mareddudd. O L. E. D.

Neud mau melynddwn
Orchfain cyngrwn
Ceirw cyd bai ef ni roddwn
Bodd bryd ar ei hyd yw hwn
Fal y cefais y ceisiwn
Goddeu budd gwyddiad fy lles
Gwyddant negyf gant neges
Ni aill gwaedd awel goddiwes
Llyfn gwn Llywelyn ai rhoddes
Or dyfyddi syth ar faith dremyn hwyr
Lwyr Loegr gymmyn
Annerch er Du ac er dŷn
Y gan Lywarch Lywelyn

I HOPCYN THOMAS.

Iorwerth Llwyd ap y Gargam ai Cant. O L. E. D.

Hawdd fyd im por parawd foliant
Filwr dyfiant difeth frwydrgledd
Hylwydd Hopcyn hylwybr ganlyn
Heirdd a'i gofyn hirdda gyfedd
Hael fab Thomas teml gwynedd seirdd
Fyrddau digeirdd degan o wedd
Hyder Rolant heirddgler fabsant
Hael ogoniant hoywlew gwnedd
Hil i Einiawn ener Cymry
Cymro trahy trwyadl fonedd
Hyawdl doethfin hofion Myrddin

[1] *Neu.* llyferydd.

Heiliai rawnwin hael o rinwedd
Hopcyn glaerwyn glerwyr frenin
Freiniau Elffin wylffawdd gloywedd
Hoedl hir iddaw hwylddawr fâb Caw
Hydr yn llywiaw llin teyrnedd
Heafi fawl filwr aerau
Yr ein rheidiau ar anrhydedd
Hwyl Peredur hebawg gleis ddur
Hoywdeg eglur hyd y gogledd
Hopcyn arglwydd eurglod warant
Wiwri anant wawr rhianedd
Hydr arglwyddlyw hir y bo byw
Hael o wiwryw hyloyw wiredd
Llewpart y gwyr gwyarliw lafn
Liaws hoyw drafn hydrum osgedd
Llafn ymmrwydrgad llyr undrwsiad
Llywiwr gwenwlad llawhir gwinwledd
Llorf deheubarth hybarch freyr
Freiniau bedwyr byd orfoledd
Lluniaf glod gwalch llyw llys gaergalch
Llew dewr hoywfalch lle diryfedd
Lleyg yw pawb pybyrlew gwyn
Gwir wrth Hopcyn hepcyr ganwedd
Llwyr wybodau llen a llyfrau
Llawr y deheu ai llwyr duedd
Llidiawg wrth frwydr friwdorf aergad
Eurgarw gwenrad gwynrwydd elifedd
Llorf cleddyf hir lleon falchedd
Llathr y cynnail cannyn beunydd
Bennaeth dedwydd didwyll wyledd
Lliaws barlmant llonydd anant
Llyr ddigoniant llwyr ddigonedd
Dyly foliant filwr unfraint
Iawn fryd Geraint gwrawl ryssedd
Dihagr drwsiad doctor cerddfad
Deheu fwriad diofieredd
Dydd da iddaw addas gariad
Wawr ei hoyw-wlad wiwri hywledd
Darian gwyr degan clerwyr
Doethder eryr ar gymrodedd
Dysgawdd lyfrau loywfraint dowuus
Lucidarws lwys ei daerwedd
Cor holl Gymry diwael haelhy
Da yw ymy a diomedd
Dygaf ei glod gloywdwr hyder
Hoywder ener hyd ar wynedd
Dyly amlwawd dewin dafawd
Dewr da hyffawd dewr dihoffed
Difefl bennaeth bumoedd roddi
Rwysg mab Beli baladr dewredd
Dor tariandalch digrif dremwalch
Dewr a haelfalch dyry heilfedd
Duw a'i rhoddo rhwydd hyawdlfryd
Hoedl ac iechyd gwychaf orsedd
Da y hadwaen deyrn chwyrn chwaen
Drech enw ymlaen drychan mlynedd

TERFYN.

MEURUG AP IORWERTH AI CANT I HOPCYN AP THOMAS.

O L. E. D.

Digabl wr y dwg ei blaid
Dor dursaf dewr diarswyd
Difai rad da fu erioed
Diornwalch o deyrnwaed
Teyrn hil cedyrn cydwiw faedd gwawr brwydr
Briwdon wayw ar aesawr
Teml beirdd byd bryd briodawr
Tad y gerddwriaeth fad fawr
Mawr Hopcyn aer-gryn eurgrair pwyllig teml
Fab Tomas wyndodig
Braint gwyr yw llyw llyssig
Baredur ddysg mewn brwydr ddig
Eryr uchelwyr diochelwig hael
Hylathr farn gadwedig
Breiniawl hawl hoywlys diddig
Braisg fyfyrdawd fragawd frig
Dragywydd y bydd barnedig mawl sail
Mal Selyf wynfydig
Ei drwydded bendigedig
A'i dra myfyrdawd a drig
Myfyrdawd ceudawd cerdd blethedig
Mawrfawl swllt didawl cyssylltedig
Modur maith awdur nid methedig
Mal gwasgarfudd Nudd nyw roi'n oddig
Mur gwayw-ddur gwiwddoeth coeth catholig fryd
A —— mawrwell no dyn byd hyd ym Merwig
Synwyr a orug alwyssennig
Sef ydyw naid syw yn safedig
Syth wrth syth trasyth ac arf treisig
Serth lorf doeth loywdorf detholedig
Selyf un-nawd wawd Wyndodig brofiant
Sant swydd a alwant y sydd elwig
Hopcyn iôr gwinllyn gwenllys foesig
Hopcyn wynn wanar trawsdar treisdig
Hopcyn ail Merfyn mawrfar pwyllig
Hopcyn harddwyn hyd deufryd Dyfrig
Hopcyn yn dylyn Nadolig beunoeth
Hopcyn eirgoeth doeth wrth ymdeithig
Hylym arf yngryd fal hwyl amig
Hoyw olud addef hwylau diddig
Heliwr aer friwdwr arferedig
Hael o wir anian hawl wyrennig
Heilwin da wydrin diodrig cadarn
A heiliau masarn wr helm ysig
A gair yn ei lys ym delw Gwrig
A gwraidd ydyw ac urddedig
Y gler a a nifer nefol leithig
A glân a difan yw'r peudefig
A gloywdeg synwyr dirgeledig iawn
A gwinfwrdd yn llawn i bellenig
I Arthur loyw deml wrth aur wledig

A'i lwysgall awen lys Gelliwig
Ein Udd o fwy fudd a fu feddig
I dlodion ddynion a ddywynnig
I Feda a Chadw gynnefodig iôn
Am ei attebion y mae tebig
Caeth awdur mesur moeseu Ffrengig
Caith ostyngiad mad yn rhwymedig
Cystal ac Eidal yw neud cedig
Costiad ddyfodiad addefedig
Cymmaint yw ei fraint fro ni ddiffig nawdd
Ar mwyaf yn hawdd o fonheddig
Clau aergarw trafel cler gartrefig
Clywed ein awdur clod enwedig
Cedlym cleulafu grym greddf ffynnedig
Clwyf rhôn a'r dynion a'r diennig
Calander masw ener a miwsig beirddion
Coron y doethion tra dwythedig
Cymro ydyw ef cymmeredig
Cyfraith erbyniaith wr arbennig
Camber rymuster o rwym ystig
Calon ein brudion yn buredig
Cwyn a mil adar canmoledig hail
Cai ail a gynnail ac a gynnig
Cwrseriaid euraid eirf bedestrig
A chadoedd emys nyd ychydig
Cyfoethawg lludwawg nid colledig
Cadr-lyw yw uniawn dawn diunig
Cerddau mwy radau mawredig a fedd
Cwbl awdur mawredd nid cabledig
Digabl wr &c.

O du'r elor i dir mynor mad yr myned
Och nad ystyr y dialwyr eu dielwed
Doe'n cyhuddaw heddiw'n treisiaw hawdd i'n trosed
Heddiw n ddidraink heddiw'n ieuaingc heddiw'n neued
Heddiw'n feilchion a doe gysson ni dangosed
Ac afory pridd yw'n gwely prudd yw'n gweled
Duw dwywawl naf diga ganaf Duw gogoned
Rhag diawl elyn Duw an herbyn Duw an harbed
Duw gwir arglwydd diau gulwydd diogeled
Douiawg fab Mair dawn yw ei grair i ddwyn ei gred
Dug Pharaon y dyniadon y dau noded
Dug nefawl ddraig gair gofanaig gwr gofuned
Holl bobl yr Aipht o fawr angraifft o ferangred
Felly Duw ren da offeren ni ddiffered
O ball heiniau o daw angau i'n dianged
Un Duw doniawg tri trugarawg i'n trugared
Trugaredd fab Mair ytt roi gwared coeth
Rhag caeth bobl geithiwed
I'n rhoes ar loes groes greuled
Ar grog er dwyn pobl or gred
Credaf y dodaf ein dwyn cyddyn[1] prudd
I'n pridd wely ———————— Dyn
Mor wir y daw dir derfyn
Mor ddielw dy myn delw dyn

GRONW DDU AI CANT.

MARWNAD GRONWY DDU AP TUDUR AP HEILYN.

O L. E. D.

Da lafurfa dawn ni dychia dyn o'i deched
Nac oi gynnydd nac oi grefydd nac oi gryfed
Nac oi fawredd nac oi fonedd nac o'i fwyned
Nac oi gadair oi gydarnair ei gaderned
Ac nad arfaidd neb ei ddiwraidd rhag ei ddewred
Cyd cawn ddynion ymadroddion ymadrwydded
Henym o dwyll daear orffwyll dioer arffed
Hen a ofal prudd y dial pridd ein duedl
Ponid rhyfedd rhag dialedd ein dielwed
Nad ystyriwn oni faglwn o haid[1] fygled
Nad oes o ddyn daear dyddyn duoer dudded
Ond tywarchen dymig bruddlem domog briddled
O weddiaw a modd wylaw pawb meddylied
Ydaw angau dan gau beddau dyn gwybydded

[1]*Neu*, hain.

GORONWY DDU I FERCH.

O L. E. D.

Goror maend6r g6ir benydi6r g6ael fy 'nghyfl6r
G6ae ryfel6r g6yr ofalu
G6a6n 6edd neud tau g6ynbryd Tegau g6an a'th faddau
G6enn a golau g6nn ei gelu
G6en laes ch6erthin g6eheni a6dr g6in g6eilging eurin
G6a6r loy6 iessin g6yr leassu
Arien decced eirian drefred ar6ydd codded
Aur dy giried er dy garu
G6a6n b6yll enid g6en drybelid g6yr fa6r edlid
A dogn l6yth llid g6yr dygnllaith llu
Na 6na fein6ar ne ber6 tonniar g6en6en h6yfar
Nid g6yd oth far neud g6a6d ath fu
Berigl a ddel bara6d ryfel budd ni'm ymgel
B6rdd ia6n uchel bardd i nychu

[1]*Neu*, tyddyn.

ENGLYNION AC ODLEU

A Gant mab Clochyddyn i Wenhwyfar ech Madawg gwraig Howel ap Tudur ap Gruffudd. O L. E. D.

Hunudd mar6gudd neud ma6r gur
Enid unrh6yf Wenh6yfar
Anrhaith eil6aith a el6ir
Yn droednoeth 6yngoeth 6ingor
G6asg6yd côr o fynor faen
G6asgarai 6yrdd cyrdd ai c6yn
G6asga6d g6a6d g6indraul haul hoen
G6isg ryoer uch g6aisg riain
Rhiein gain gynneddf ddeddf ddoeth
Rhyhoy6 falchloy6 o feilchl6yth
Rh6ol en6ir o hiraeth
Rhoi mein6ar me6n rh6ym maen6aith
G6aith anhyfryd bryd a bronn
G6ythla6n dymp am d6f g6ymp g6ynn
Gradd fein faes greddfa6l laes Lann
Grudd g6a6r a gro lla6r ei llenn
Llen a gudd d6yrudd d6yre
Llun haelaf ger llan6 heli
Lloga6d gyfunda6d faendy
Lle ceid6 saint ei braint a'i bro
De6id ger bro tonn gro grêg
Dan lla6r ael dyn llary ol6g
Dinam o aur oedd dinag
Deune haul dyno helyg
Ael bro helig tremmig tr6m
Adeu o nad-lais drais drom
Hyloy6 dra6s hoy6li6 drem
Haul a garai draul ger drum
Lloer drym llary dremyn gwalcheidd
Llawr wisg ai cudd neud llwyodd
Llun balch hael llin beilch hylwydd
Lliw ———————————— oedd
Oedd g6a6r ger lla6r llary fechyll
Oedd g6ael ei d6yn g6yn gynnull
Oedd g6angain lleddf ddeddf ddiell
Oedd g6ingar 6enn oedd g6enn gall
Call o'i phyll ei ph6yll oedd ddoe
Cyn colled ddaered ddir6y
Can6yll gaen hoend6yll hundai
Can aeth neud anrhaith g6eith g6ae
G6ae fi ddodi ddadl anfodd
G6aisg l6ysfun me6n g6isg lasfedd
G6a6r fa6r fireinddysg ffysg ffydd
G6yd am ergyd oi maurgudd
Hunudd mawrgudd &c.

Lliaws ofalon i Fôn a fydd
Llenfer haul ucher hyloy6 ech6ydd
Llafuriau poenau peunydd o ddarfod
Lli6 g6i6 g6ymp o gyfnod mânôd mynydd
Llafar mor h6yr6ar o'i mar6 her6ydd
Lla6er deigr is grann oedran edrydd
Lly6 nefa6l d6yfa6l dofydd oi dygiad
Lle yw ynn arnad girad gerydd
Llathr-6edd g6enn 6a6r fa6r fore haf-ddydd
Llithraw merch Fadawg ddeifnia6g ddefnydd
Llaw roddfrys o'i lŷs lliosydd edlid
Llym ddygn ofid prid pob prydydd
Lly6y gymmenb6yll ddid6yll dded6ydd
Lla6en ei g6yngen g6ingar ufydd
Ll6r6 eisi6ed cêd i'm cydfydd galar
Ll6yr dd6yn G6enh6yfar llun g6ar g6a6d-rydd
Llefais llafuriais fy llcferydd
Llafurus groy6 mal g6aith G6enddydd
Ll6yr hiraeth arfaeth ni orfydd cerdda6r
Am 6a6r drem 6yl6a6r o drym elfydd
Llun a roed dan lleu orphen eurffydd
Yn lle6ychgor saint creifiaint crefydd
Llary enaid llathraid ger llethrydd morfrig
Lla6r tyno helig trig tragy6ydd
Lledfryd can dery6 i'm by6 am bydd
Lli6 lloer pan dd6yre bre a broydd
Llaryaidd a lluniaidd er llonydd riain
Lluniais ar6yrain coelfain celfydd
Lly6ia6dr amera6dr môr a grôydd
Lly6ied ail Elen i le6enydd
Lle mae didla6d ffa6d a ffydd ymgaru
Rh6ng llu ni ddarfu ac ni dderfydd
Un ni dderfydd iawn digerydd ion digaredd
Ener g6yrthau a thri gorau a thrugaredd
Eu6 gogoniant a gar foliant a gorfoledd
Araf riain enaid firain enid fa6redd
Eirian gangu a ddug Iesu o ddigasedd
Oedd arddercha6g a hael en6a6g a haul Wynedd
Oedd urddedig a hoen g6enig a hen6 g6ynnedd
Oedd urddas blaid a ry enaid i rianedd
A'm rhoes gan6aith g6in-ne gl6ys faith g6in a glasfedd
A'm rhoes edmyg a phob rhyfyg a phob rheufedd
A roes i fyrdd ac aur a g6yrdd ac eiry ei g6edd
A wnaeth boddiant aela6 ariant i la6eredd
O fe6n ysgrin a main ger6in y mae'n gor6edd
Llathrferch Fada6g llun balch fyna6g llin beilch fouedd
Ll6yr oleu-ne llary drem d6yre lloer drym diredd
Llithr o'i darfod llefain hynod llif anhunedd
Aeth G6enh6yfar i gaen daear o g6yn dyedd
Eigr fun anian o ga6dd gruddfan a gudd graddfedd

Ynghor crefydd ei llun ded6ydd neud
Llandud6edd
O gyfyngd6r angau dreis6r yng adrossedd
Y mae rhiain yn ei har6ain yn ei heur-
6edd
Yn en6 cyfia6n yn ei hirdda6n yn ei
harddedd
Yn rheinia6l yn rhagora6l yn nhrugar-
edd
Yn rh6y gariad ein naf 6en6lad yn nef
6in6ledd
Gwledig urddedig air ddidwyll glaerdwf
Eglurder eiry yst6yll
Cymman y gellir cymm6yll
Cymmhenda6d ei ffa6d a'i ph6yll
Mygr b6ylla6g fyna6g fanon 6ann hoy6-
fun
Wenh6yfar rudd ffion
Ma6r doeth dial gofalon
Mar6 g6raig ofynaig o Fôn

AWDL I FEFANWY FECHAN O GASTELL DINAS BRAN.

O L. E. D.

Neud wyf ddihynwyf hoen Creirwy hoyw-
A'm hudodd fal Garwy [ged
O fan o'r byd rhwymgwyd rhwy
O fynor gaer Fefanwy

Trymmaf yw cariad tramwy hoen eur-nef
Hwn arnaf dy faccwy
Dy far feinwar Fyfanwy
Ar a'th gar ni bu far fwy

Gofyn ni allaf namyn gotwy cûr
Dug[1] mewn cariad fwy fwy
Fynawg eirian Fefanwy
Fuchudd ael fûn hael fyw'n hwy

Eurais wawdd ddidlaw ddadl rhwy eglur-
llwybr
I glaerllun Myfanwy
Euraf i haul amaerwy
Er ei mwyn o eiriau mwy

Nid hawdd ardeml cawdd ardwy adneuboen
Adnabod Myfanwy
Hoen a'th gar afar ofwy
Hoed brwyn i'r ddwyn yr ai'r ddwy[2]

[1] Dyn.—Ll. E. E.
[2] *Darnau y ddwy englyn ragvlaenawl a wnant un yn* Ll. E. E. *fal hyn:—*

Eurais wawd ddidlawd ddadl rwy adneuboen
Adnobod Myfanwy
Poen ath gar afar ofwy
Poen brwyn ei ryddwyn i ddwy.

Gorwydd cyrch ebrwydd ceirch ebran addas
Dwg dristwas dig drystan
Llwrw buost farch llary buan
Lle arlloes fre eurllŷs Frân

Gwnn beunydd herwydd herw amcan ddilyd
Ddelw berw Caswennan
Golwg deddf amlwg diddan
Gwelw freichfras brenhinblas Brân

Gyrrais a llidiais farch bron llydan hoyw
Er hoen blodau firian
Gyrrawdd[1] ofal i'r Alban
Garhir braisg ucheldir Brân

Lluniais wawd ddefawd ddifan traul ofer
Nid trwy lafur bychan
Lliw eiry cymmar[2] pen Aran
Lloer bryd lwys fryd o lŷs Frân

Mirein wawr drefawr drofa[3] brad i'm dwyn
Gwarandaw fy nghwyn frwyn freuddwyd-
iad
Mau glwyf a mawr-nwyf murniad hun oheb[4]
Gwrtheb teg atteb tu ag attad
Mi dy fardd digardd dygn gystuddiad Rhun
Gyfun laes wanllun wrth[5] lys winllad
Mynnu'dd wyf draethu heb druthiad na
gwyd
Wrthyd haul gymryd gamre wastad
Mynud hoyw fun loyw oleuad gwledydd
Glodrydd gain gynnydd nid gan gennad
Maînt anhun hael-fun hwyl-fad em cyfoeth
Ddoeth fain oleugoeth fy nau lygad
Medron hoen goroen wyf[6] digarad was
Heb ras mau drachas o'm edrychiad
Magwyr myr wydr hydr hydreiddiad lwysle
Mygr wedd haul fore eurne arnad
Megais llwyr gludais llawer gwlad yn ddwys
Dy glod lwys cynnwys pob atceiniad[7]
Mal hy oedd ymy am wyl gariad graen
Myfanŵy hoen blaen eiry gaen gawad
Meddwl serchawl hawl liw tonn hwyliad
welw
Arddelw dygn elw[8] heb dy gynheiliad
Modd trist ni wnaeth Crist croesdeg[9]
nerthiad llwyr
Wanwyr o'i synwyr drwy lud synniad[10]
Murn boeni a mi o'm anynad hawl
Serchawl eneidiawl un fynediad
Mul y bwriais trais tros ddirnad Duw
gwyn
Tremmyn ar ddillyn porphor ddillad
Megis ti ferch rhi rhoddiad gymyrredd

[1] Gyrrawd.—Ll. E. E.
[2] Cynnar.—Ll. E. E.
[3] Dra fo.—Ll. E. E.
[4] Huno heb.—Ll. E. E.
[5] P'th.—Ll. E. E.
[6] Nid.—Ll. E. E.
[7] Datceiniad.—Ll. E. E.
[8] Dygynnelw.—Ll. E. E.
[9] Im gwnaeth Crist croes-
dog.—Ll. E. E.
[10] Senniad—Ll. E. E.

Mwyfwy anrhydedd wledd wledychiad
Marw na byw nwyf glyw gloyw luniad cyngaws
Hoednaws nid anhaws i'm am danad
Meddwl ofeiliaint braint braidd o'm gad llesmair
I gael yr eilgair wrth offeiriad
Masw imi brofi brif draethiad a wnawn
Lle ni'm rhoddi iawn ne gwawn na gwad
Mesur cawdd anawdd i ynad eglur
Adrodd fy nolur ddwysgur ddysgiad
Modd nad gwiw fy lliw[1] lleuad rhianedd
Na'm gwedd hud garedd gan[2] hoed girad
Meinir nith'[3] berthir gwn borthiad poenau
Yn nen hoen blodau blawd ysbaddad
Medraist aur delaist er adeilad gwawd
Ym nychdawd ddifrawd ddyfrys golliad
Meddylia o'th ra a'th rad i'th brydydd
Talu y cerydd Duw dofydd dad
Meddiannus Ddeus ddyad ffyddlonder
Ner dreisgwyn bryder droi gain brydiad[4]
Brydydd wyf tros glwyf trais glud hoen gwaneg
Iaith laesdeg ith lwysdud
Fynawg riain fain funud
Fun arlludd hun eirllwydd hud
Ym neud glud dy hud hydr riain wanlleddf
O'r wenllys ger din-brain
Aml yw gwawd gynnefawd gain
O'm araith i'th dwf mirain

HWYEL AP EINGION LYGLIW AI CANT.[5]

LLYWELYN GOCH AP MEURIG HEN I HOPCYN AP THOMAS.

O L. E. D.

Gogyfarchaf naf ini a rodded
Yn llaw egored weisged wisgi
Gwawr ystrad diwad Tywi o'i dechrau
Gwrdd foesau llachau yn ein llochi
Goroff gadr baladr Beli am osgryn
Gwellyniawg Hopcyn waywryn wiwri
Llin Domas ddifas llawen ddofi cler
Llin Einiawn ener llew un ynni
Nid rhaid i eirchiaid erchi im canllaw
Ei law o'r eiddaw a wŷr roddi
Gwyrdd-las o'r dinas daioni gofeu
Gwin a phiolau gwynn a phali
Eryr glewddewr iawn arglwyddi gydfaeth
Uwch goror hoywdraeth awch gwrhydri
Eofn llwyr y gwyr egori hyd frawd
A ddywawd praffwawd y proffwydi
Nid rhyfeddwael cael celi a'i berthwnaeth
O gampau luniaeth gwymp haelioni
Diodydd ynn rhydd ein rhi Rydderchnaws
O faril gyngaws rhydraws Rhodri
Hwyliaf addefaf o Ddyfi ardal
Trwy ochel pennial tryfal trefi
Dyyrrais[1] goethynt dros Gothi ddulas
I Fedyfnych blâs heb fod ofni
Trwy lychwr at ŵr ni ad torri ffydd
A thraw i'w geirydd[2] ni thry gwyri
Hebawg goludawg galedi wrthryn
Hopcyn goreu ynn gŵr ei eni
Lle mae draw iddaw drwy weddi ffaglawr
Croesdai neuaddawr Crist iw noddi
A lliaws draul mêdd a llestri ariant
A hir ogoniant a hwyr gyni
Gwyr a gwbl hygyrch i Gaer Gybi sant
A he yd fwyniant hyd Efenni
Gwawr gwhyr hoyw lawr ger heli amrwyf
Glywed ei fawr rwyf iw glodfori
Gael gorhoff einioes Gilgwri fwyalch
Falch ym eryrwalch uwch mawr erwi
A diwedd hywledd yn holi a wnair
Un gredadun grair uthr air a thri
Tri ac un tro ym gun gael
I luniaw cerdd aelaw wyl
Wrth ei rym wiw Arthur ail
I eryr Gwhyr gwiw hael
Haelach no neb or hoyw-lu
Heiliawdd ym win uwch heli
Hwn a orddyfnawdd hynny
Hopcyn gyttyn lygeittu
Llygatgall diball debyg
Lle mae gair oth nawdd grair grôg
Llew durwayw llyw diorwag
Llywy rydd-dal llaryeidd-deg
Leg yw oronlyw ar alarch unlliw
Wahen-lliw palffrei-farch
A hael megis mael am arch
Ac ufudd fy ngogyfarch
Gogyfarchaf naf &c.

[1] Gwiw lliw.—Ll. E. E.
[2] Nam.—Ll. E. E.
[3] *Neu*, neuth.
[4] *Nid yw y ddau fan rhagvlaenawl yn* Ll. E. E.
[5] Edrych ai ewythr i Ruffudd Llwyd ap Dd' ap Einion lygliw oedd yr Hywel yma.—Dr. DAVIES.

LLYWELYN GOCH I LYWELYN FYCHAN AC I RYDDERCH EI FRAWD.

O L. E. D.

Henynt o le ni hunir
Heol y glyn hail y glêr
Hedd hawdd ddiommedd amnor
Hirdda fawl heirdd ddau filwr
Milwriaidd gorph mal Urien
Mygr Rydderch gaethferch goethson
Meinlew ail mwyn Lywelyn
Meddgell difachell fychan

[1] *Neu*, dieres. [2] *Neu*, geurydd.

Bychan yw fy rhan o'r rhad a'r echwyn
A'r uchel ysgarlad
Hyd pan ddycco cyffro cad
Duw o Loegr cin dau lygad
Llygad ei hael wlad yw hwn
Llaryaidd Rydderch luniaidd lonn
Ail llygad y winwlad wenn
Yw fy llawlyw Llywelyn
Llywelyn uwch y glynn glwys
Rydderch gwrferch hygarfoes
Deuwr yn arwain dwyaes
Dau gyfaillt deg a gefais
Cefais iawn redais yn wirodau gwin
Yn gaened yn dlysau
Yn rhuddion feirch yn rheiddiau
Yn ra ran o dda y ddau
Dau o gennadau gwynniou ydynt dir caeth
Lloegr a aeth boed ffraeth ffrwythynt
Diwasaidd yngherdd ym dewissynt
Dewisaw gwiw ddyn dwys y gwyddynt
Rhieddawg farchawg a gyferchynt
Rhuthr milwraidd fraisg mawr-waisg morwynt
Rhydderch wrth hir-ferch ddigynghorfynt
Rhi deutu Aeron ein rhaid yttynt
Rhwydd rhag Llywelyn fo hyn o hynt
Fychan ddiymgel echel uchynt
Rhai o drumydd Lloegr bob rhyw dremynt
Rhoed y ffawd i hwn rhydiau a phynt
Gosyml y barnai er a geisynt
Rhai a'i gommeddai gemmau oeddynt
Gwerin gynnefin gwin a yfynt
Gwŷr drythyll eu byd gwir a draethynt
Braisg eu cyrph a gwaisg gwedi y gwisgynt
Brenhinedd y serch byrr iawn hunynt
Breiniau negesau a ddangosynt
A gwin y brenhin a obrynynt
Y nifer o glêr a eglurynt
Awen yn llawen iawn y llywynt
I dlodion ddynion a eiddunynt
Gael eu lles gan hael llaes gynhelynt
Deallu barddlyfr da a ellynt
Dillynion cysson ni'm atcessynt
Dechreu a chanawl hawl a holynt
Na diwedd cyfraith nid edewynt
Rhwydd bererinion rhudd a brynynt
Meirch ar ol dwysgeirch wedi dysgynt
Arfau o'r gorau aer a gurynt
Gwyrdd a rhudd-aur coeth gwrdd y rhoddynt
Pybyr Lywelyn hyn a honynt
Pabl Rydderch loyw serch ni'n dilyssynt
Par Iessu fab Mair rhag pyr ryssynt
Pob un o honun i'r lle yr henynt
Henynt o le ni hunir &c.

I LYWELYN FYCHAN AP LL'N. ABAD YSTRADFFLUR.

Llywelyn Goch ap Meurig hen ai Cant. O L. E. D.

Credaf ytt Iesu fab y croy6-dad
Crea6dr hael lly6ia6dr haul a lleuad
Credadun nef gun naf ac ynad
Crair o ddilys Fair ddeules fóriad
Can6aith ragoriaith pob rhyw gariad
Cynnorth6yaist fi geli gwyliad
A'r a6r hon etton Du6 ren attad
Rhed6n o'r di6edd ith 6lêdd ath 6lad
Y nerthaist fyfy megis neirthiad
Am argl6ydd-ly6 ym a mur g6leddólad
Am 6r eresdrefn a'm 6a6r Ystrad
Fflur ai phennadur a'i modir mad
Lly6elyn 6i6barch lluniaidd Abad
Fychan g6r difan gar6y dyfiad
Llin lly6 cynnefin lle6 cynnifiad
Lly6elyn arall ded6yddgall dad
Heiliaist ddofydd g6ynn h6yl bryn a brad
Haint a'i arwyddion hynt da roddiad
Anobaith fuam am ia6n Abad
A'th nerth a'n diffyrth a'th 6yrth 6yrthiad
Cly6ed a 6naethost dost destuniad
Fy llef ųyd y nef ehud nofiad
Ac estyn hoedl heb gus dyniad
Ym llayaidd obaith lla6-rodd Abad

AWDL I DDUW.

Gruffudd ap yr Ynad Coch ai Cant.

Duw sul un hyder gwn y ganed
Mab Duw—ag i doeth i'n gwared
Braint y saint ar y seithfed
Bedydd a chrefydd a chred
Duw Llun naf gwiwlun aber gleu lles
Llys Uffern a orfu
O'r dydd y codes Iessu
O farw yn fyw da farn fu
Duw mawrth coeth[1] ydoedd wr diwael yngaillt
Yngwydd pobl yr Israel
Yn un Duw Tad iw adael
Yn dri Cun drugarog hael
Duw Mercher archer arch adreg o'r nef
Pan ddaeth nâf aur anreg
Gwnaeth Duw bob dwyfol oddeg
I gwnaethpwyd brad y tad teg
Duw Iau mab da rad diwradwydd da lw
I dylawd yn ebrwydd
Gwir wared Ior reged rwydd
Gwawr eurglod yn gwir Arglwydd
Duw Gwener pryder pryd egwan Sawd wyr

[1] *Neu*, coedd.

Gwnaeth Suddas a chusan
Diau gwnaid gloyw enaid glan
Dihenydd Duw ei hunan
Duw Sadwrn wiw dwrn o ddihenydd hael
I helaeth drugaredd
A dywed yn y diwedd
At yn tad iw wlad ai wledd

I wledd annherfynawl Ior
Y sydd uwchlaw haul a ser
A ddarparawdd rhag cawdd cur
Duw i holl ddynion daear
A byt deg a bywyd hir
A gawn o charwn y gwr

Y gwr a rannodd ini i reiniau
Ar dafawd gwarawd a phob geiriau
A'n crëodd o bridd a phrif Sugnau
A'n prynodd ar waed ei draed ai frounau
A'n troes ni i gyffes heb air gau
A'n trosso ni i bob trossedd gorau
I foli 'r Drindod drwy gardodau
I garu mab Duw er ei fyw ddoniau
Ifoli braint y Saint ar Santessau
I erfyn gweddi Mair er i mawr radau
I gymmeryd penyd rhag y poenau Uffern
Ag affaith pechodau
Gwae ddyn a dyngo oergam leau
Gwae a ddiflas glas yr eglwysau
Gwae ni chred mewn llen ag mewn llyfrau
Gwae ni chretto bob peth o'r pregethau
Gwae ni ddylyd rif prif weddiau
Gwae a wnel balchder o gam arferau
Gwae gynfigennus rhag petrusau
Gwae lidiog creulon ai ddrwg ddoniau
Gwae ddiog ni ddywaid weddiau
Gwae gybydd ni rydd rann o'r gorau
Gwae lwth a lithir ar Wenerau
Gwae ef wybod ddyfod ei ddyddiau
Gwae dwyllwr ai dwyllwaith ai gammau
Gwae leidr ai ladrad yn y cloddiau
Gwae a gâr y ddaear yn ry ddiau
Gwae a dreulio'n ofer ei amserau
Gwae a frawdwr a frawdio gam farnau
Gwae raglaw ai ruglon ddirwyau
Gwae ringyll hir sefyll yn ei swyddau
Gwae ef oni saif yn y swydd orau
Gwae a gollo i dad ni rad riau
Gwae a gotto i fam ai gam gwynau
Gwae ni chyrcho ffair offerenau
Dros y saith bechod anglod anglau
Saith weddi'r pader arfer orau
Pan ddoeth un mab Duw ar ol dioddau
I ddrws porth uffern gethern gethrau
Ar gwaed drwg annog ar y grog ai grau
A'r Sarff aflawen a'r tan o'i enau
Yr oedd yno yn berwi o bob perirau[1]
Saith ganmil beraid o enaidiau

[1] *Nev*, pe'riau.

A berw hyddrwg a phob yddwrwg
A phawb ai golwg ar ei boliau
A chwerw yn boeth dan ag ennaint brwmstan
A lle gwelw Sattan suttiwr ffyrnau
A llyffaint llidiog a'r tir oerfelog
Ar nadroedd cribog oer i cribau
A Chythrau corniog a chethrydd osclog
A chyrn gofyllog ar i sodlau
A phob dychymig i druanu cig
A phob cog ffyrnig o'r coeg ffyrnau
A phob ryw ddefawd i ddolurio cnawd
A phob cigweiniawd ai cigweiniau[2]
A phawb mewn deincryd a phawb mewn penyd
A phawb mewn clefyd a phob clwyfau
A phawd yn druain a phawb yn germain
A phawb yn llefain nas lladd angau
Adolwg a wnaf im dewin doethaf
Nam gyrro i'r eithaf er i wrthiau
Er myfyr degmain Er i wylofain
Er i goron ddrain ai wiw gadeir
Er a oruc Mair oi mawr wrthiau
Er lle i cyfyd haul hyd y lle i machlud haul
Nam gatto i Gythraul er i gethrau
Er cur i galon er Caer Apsalon
Er gwaed i ddwyfron ai fronn freiniau
Er i wiw arfoll er gwaed i fronn oll
Er i bum archoll ai archollau
Na bom gythruddgar na bom athroddgar
Na bom anhygar erbyn angau
Mihangel im raid a mair wen gannaid
A fo erbyniaid ir eneidiau
Archwn ir Drindod drwy wir ufuddod
Roi ini lwyr gymmod on pechodau
A pherffaith fuchedd a phurlan ddiwedd
A chwbl drugaredd o'n camweddau
A chael goddiwes cyffredin hanes
Cymmun a chyffes a lles llyfrau

Llyfrau llaswyrau yn n sâl
Llwyr obaith heb araith bôl
Credu a charu pob chwŷl
Crist creawdr ymerawdr mîl
Mab mair o bumgair heb gel
Y Sant a aned Duw Sul

[2] *Neu*, cigwenau.

HYWEL YSTORYN AI CANT I ADDAF EURYCH.

O L. E. D.

Cyfarchaf i'm naf nefa6l oesdrig hwyl
Hael frenin g6yrennig
Cyfran ran rin6edd gotholig
Cyfarf arf eur6a6r arbennig [gardd
Cyfia6n argl6ydd rh6ydd rh6ymedig breidd-
O bruddgerdd en6edig

I Addaf addail gόyόedig
Addaόd naόd neόyn heb ddiffig
Addysg mysg ymysgόfl ffyrnig
Addurn murn yn marn crogedig
Addoed gynfyl chόyl chόaledig
Y bydd buddelό tân cyllestrig
Eurych brych breich-gul llosgedig
Afrόydd sόydd y sydd anelόig
Afraid naid nidyr gerdd rόystredig
Afr-fόch trόch trachόybl rhostiedig
Efrydd dall cybydd ceibr prynig
Rhόyll grin rull gryό cledr ysgyrnig
Car anόar enόir tridyblig
Caόr trillaόr trallόng rheibiedig
Corf breith-lorf brith-leidr gόenόynig
Cyrf anffyrf anffaόd cadόedig
Cyrfyll hyll chόedryll chόydrefr pennig meirch
March glermόnt bremienig
Chόerόlys flys heb flas deόisig
Chόyrn esgyrn esgyll lliόiedig
Chόefris mis mysseing diennig
Chόerό draberό o'i drabudr sefnig
Chόare nid dyre teirό pόyedig pla
Plant Addaf gryniedig
Llys dyfrys difraόd heiriedig
Lles armes ermain anodrig
Llόs mynόs menestr annheilig
Llestrau llau chόaennau chόein-wig
Lleisglaόr yn nhymmaόr annhymmig frysόlydd
Heb frasόledd Nadolig
Llόybr cyflόybr cyfle difόydig
Llόrό pasgiad nid pesgych seisnig
Lloriaid rhaid rheidusion debig
Llyngeler ser sarphod bόytteig
Llyngaid rheidysiaid rhόd yssig rheithgun
Rhythgόn cynnefodig
Lle diflan calan calennig
Lle diflith diflόng godroig
Lle difloedd diflaόdd enderig
Lle diflas teuluόas talmig
Lle direufedd gόedd goddedig hόngyr naόs
Heb hengaόs heb hengig
Lle llafar glas adar gloesig
Llefain brain branes fediedig
Lle rhyόan garan wyl gurig
Lle rheόydd haul maόrth ddydd marthig
Lle rheόydd cethlydd cathl-ddig herythlom
Hiraethlaόn ddifόydig
Lle y gόnair dadlau i'r drydό lludό llettollig
Lle bydd uchelydd ar ychydig
Lle mae tylleuan gόrach fegr-όan fig
Llόytben anllaόen yn y lleόig
Lle ar diόanόe ar dyόynnig bod
Bed myn tlaόd sychedig
Lle anhardd lle anaml selsig
Lle anhoyό lle anosgeiddig
Lle aelaό eilόydd pellennig
Lle dile dilaόch adfydig
Lle dîoludaόg dioledig noeth
Nyth hόnggyrdlaόd rynniedig
Lle dine dynaόl flotteig
Lle denaόl dynion hirbrydig
Lle dire dirόydd adreisig
Lle dirodd dirόydd gόrthnysig
Lle difenwant plant plennig Lusiffer
Llys uffern όenόynig
Lle y brysir bresych wyl Badrig
Lle y berόir barf y bόch cyrnig
Lle difudd i dafaόd blysig
Lle diffaith lle diffoddedig
Lle difraόd rhόysόaόd rhyfig nis daliant
Noes dylόyth trangyedig
Lle diόen pob unben pόyllig
Lle diόe lle diόestl mennig
Lle diheirdd prifeirdd profedig
Lle dyhir poenir pendefig clyttwyr[1]
Clyttiόr pedyll benffig
Lle heb foes llom arloes lleithig
Na mynud na menestr rhestrig
Lle heb win cynnefin ceinmig
Na medd ymmadull gwaeddedig
Lle heb gόrf na thόrf na thorf diyssig rygul
Rhac neόin bob orig
Lleas oersarόyl gόeiniedig
Er cyfle nid cyflόyddiedig
Ar marygyl[2] merydd llygredig
A'i i fodd gόedd gόaeddan gynnhebig
Meddό grόban lloppan lleipr-frigtόll fyrci
Tόyll farcut ystyfnig
Lle anghryf pob pryf pryd anelόig
Lle anghredadun bun bengyrnig
Lle y mae dryg eurych brych briόedig
Drygof dryg cynnyrch llemffyrch llymffig
Llif daradr paladr plygeidig creifion
Llifion briόyssion nid broόyssig
Addaf grin gribin gόrbach dig
Addaf glaf gleiriach troedig
Addaf dincyr dancόd chόyddedig
O ddôf ddefnaόd nid Afan fyrddig
Addaf gόynn anaf gwenwynig ei bόrs
Bors-lyngaόl adόythig
Addaf leidr lόydedd pren gellig
Addaf grόm grymman ffugiedig
Addaf cnâf cnifddelph pysgodig
Addaf ddrych dallgrych ddulliedig
Addaf rasgl tόyll-gasgl tyllgorn prynig lledr
Lleidr arian clippiedig
Addaf ddelό ddilόr plygiedig
Addaf bryf crinrόyf croen-chόysig
Addaf hyll pebyll pobiedig
Addaf gul galon όasgedig
Addaf gau ni thau iaith enid frith-gyrdd
A'i freithgerdd ddreόedig

[1] *Neu*, clottwyr. [2] *Neu*, marugyl.

Can ni thau garrau goriedig
Can ni phaid tar6 diriaid terrig
Can ni myn emennydd yssig
Ymada6 a'i ffrost ffennugl-fost ffig
Bore oer ceilioer clo caedig cyff
Am ben Addaf ddyff ryff r6ygiedig
Goganaf Addaf wddf gieu lledr
Lieidr arian careglau
Gogul arch gogr cywarch cau
Gaga6g craff daea6g crefftau

ENGLYN.

O L. E. D.

Tripheth[1] dirgel ni welir
Tramwy maent hwy mewn tir
Tyrfau ac angau terfyn
Angau dwrfing ei derfyn
A gwynt oer ac enaid dyn

ENGLYN.

O L. E. D.

Neuadd hywel hygel hegl
Newydd drwg neud mwg ai meigl
Ys dor gaead nid rhad rhugl
Os derw ys diriaid na sigl
Ys oerffyrch anhygyrch hogl
Ys del drwy nen ei phen ffagl

TUDUR DDALL AI CANT.

LLYWELYN GOCH FAB MEURIG HEN

I Oronwy ap Tudur o Benmynydd.
O L. E. D.

Llary wynedd llawer ynod
Llef uchel llifaw iechyd
Llethrawdd oth wyndir llwythrad
Llew a gwawr llaw egored
Egored frys lys ni laeso ei hil
Hael foneddfawr Gymro
Gronwy gymheniaith gryno
Gwiwrwydd fu gwr oedd efo
Efo hepgorus ei fudd
I feirdd ymbiliaid o'i fodd
Ei fod ynghyssegr-galch fêdd
I Fon anghyflyrus fydd
Bydd gwae a cherydd ac och irad fawr
Farwbaglur pymthengwlad
Bu dewr nef bïau ei dâd
Bydding arno baedd eiddun-gad
Cad arynaig ced Ronwy
Cefais o'i law draw heb drai
Cyhafal brwyn o'i ddwyn ddoe
Cyfluddiwyd gwen men y mae
Y mae heb chwarae na chweiriaw ei wyr
Och wir Dduw am danaw
Gwae fi gan drueni draw
Gwawr Penmynydd-lawr Nudd-law
Llaw Ronwy llyw ar Wynedd
Llaw'n amlaen llu yn ymladd
Llaw yn cynnal llin cannudd
Llafn awchrym llaw fynychrodd
Mynychrodd o'i fodd a feddais o'i aur
Awr neithwyr ni chysgais
Mal chwedl gofal a gefais
Marw fy iôr drud mawr fu'r drais
Treiswyd ni am ein trysor
Trwsiad trais ei dad Dudur
Taer ddysgawdd terydd esgar
Tëyrn bryd twrn Beredur
Peredur gystal parawd och gyngerth
Rhac angen ai foloch
Ym mol twr calch gol cylch goch
Ym mryn aer am Ronwy och
Och heno nawoch yn niwedd berthfyd
Anhyfryd i'm bryd am barododd
Aeth gwawr a phennaeth gorhoff annedd myrdd
Ym a fwriawdd gwyrdd am oferedd
Iôn trychantref Môn amynedd ni chawn
Iawn arial Wgawn uriel agwedd
Arfaeth ehalaeth hwyledd bennadur
Eryr fab Tudur goleuddur gledd
Gwae fyth gwr geir-syth gwyr gorsedd ei wlad
Gronwy o'i ddygiad gwae rianedd
Gwae bybyr aerwyr oerwedd eu chwarae
Gwae a bod lle mae eu llyw ym medd
Cymmyrth Duw i'w byrth berthedd gogon-
Cymro dirusiant cymry drosedd [iant
Tâd o'r cymeriad er cymmaredd iôr
Ni bydd yn esgor baedd an osgedd
Achwyn gwn fal brwyn brenhinedd foloch
Och Loegr wineugoch wenwyn agwedd
Yth ddifrawd arnam ath ddyfredd ath ddwg
Ath ddihunaw drwg ath ddihinedd
Pan ym cen am lann naw mlynedd drosof
Ynof ydaw cof ar deg cyfedd
Ytty wyf anhy o fonedd a phlaid
Hwyl Gronwy f'enaid hawl gwirionedd
Gwr oedd hwn wrth dwr arth o daeredd glew
Lle ym mron caer dew cyn çur diwedd
Gwr gwrdd hydr hoed-lwybr huawdledd
Garwy

[1] *Neu*, pedwar.

Gronwy loyw saffwy liaws hoffedd
A phen ei rethreu aruthredd a wnaeth
Draw a gelyniaeth drwy galanedd
Yngheirydd Ffrengig yngharedd brwydr-lwybr
Ynghammawn ewybr ynghymminedd
Peris ym Mharis ammhuredd riddfan
Gwaedd yn narogan gweddwon wragedd
Pwy ŵr ar adwy mewn parodedd dwyn
Par cynuydd-gar cwyn gwenwyn gwnedd
Diengis rhag cis na rhwyf cassedd caith
A phob anghyfiaith gwaith gwythlonedd
Doeth i Fôn win doeth o fynyddedd Ffraingc
Dewis ar ieuaingc hoyw gainc agwedd
Mynediad rhifiad nid rhyfedd hyd Went
Fy ngosymmeith-rent i Gent gyntedd
Bu alar i'w feirdd heb wyledd a'i wyr
A llid iw frodyr a lledfrydedd
Parchuswaith bumwaith heb ommedd a mwy
Ymrhoddes Gronwy gorddwy gyrddedd
Pennadurwawr mawr marannedd gynnal
Penmynydd ardal aur mâl a'r mêdd
Mab tâd yspryd rhad aurhydedd rhag poen
O'i wyl loyw orhoen i laweredd
Mawr wnaeth i'n hiraeth yn nhaeredd Gollmyn
Pan las Llywelyn ni bu hyn hedd
Gwedi gwae fyfi am feu fedd a gwin
Ac ymgoeliaw rhin ac amgeledd
Mau uniawn heiniau amhunedd orddwy
Mwy mwy dug Ronwy da ger Wynedd Llary Wynedd &c.

LLYWELYN GOCH AP MEURIG HEN AI CANT.

I Rys ap Gruffudd ap Ednyfed. O L. E. D.

Henpych well haelwych yn hwyl-wawd prydydd
Hardd dy fedd-fardd fydd wiwrydd wirawd
Hyawdl grair purair parawd wrhydri
Hoyw-dwr daioni hyder Dunawd
Hael hoyw Rys diwael dywawd peir awen
Y rhwy fyddut ben nid rhyfeddawd
Hil coeth Rhys dur-noeth rhoes dyrnawd yngrhai
Hil Ruffudd erfai windai Wyndawd
Hyder brywysgler briw asglawd belydr
Ael gwyar reiydr ail gwiw ryawd
Hyrddaw tre bergaw bargawd peithynben
A wnaeth dy gigwain cynrhain canrhawd
Gwyn ei fyd i gyd dy giwdawd telaid
Gwyn yn Frutaniaid gweiniaid gwiwnawd
Gwyn ei fyd feirdd byd bedw-wawd a ganant
Gwyn ei fyd anant gwyllt ffyniant ffawd
Gwyn ei fyd uwch rhyd ach rhawd ni chyrchych
Gwyn ei fyd lle y bych Owain frych frawd
Gwyn deyrn erddyrn gwenwyn orddawd caith
Gwnaf i'th wiwaf waith mliaith molawd
Gwrdd-ior llawegor llogawd ferneis-win
Gwawr trywanawr trin Elffin eilffawd
Gwisgaist am danad gwasgawd llurygdew
Gŵraidd afael llew Gweirydd ddefawd
Teyrn hil cedyrn ceudawd gwyrennig
Trum difethedig safedi sawd
Teflaist oddiwrthyd taflawd ymwangais
Trafn Abermarlais trillais trallawd
Tyfir yt foliant o'm tafawd y ceir
Nid o anghywair druthair draethawd
Terwyn fydd dy rynn fudd drawd gelyngawdd
Ynghymmwy anawdd ynghymminawd
Tyrfal tiriondal trindawd i'th adu
Tri ac Iesu tu teilyngdawd
Tegyw dy hynt lyw hyn nid tlawd gynnydd
Trugaredd ath fydd fraisg dydd y frawd
Iawn frawd Rolant ffawd ffydd yw arglwydd Rys
Eryr gloywddrem dedwydd
Ergydwayw aer daer derydd
Iôr du gwynn aur ynn a rydd
Rhydd i glêr bedydd glawr byd
Rydderch ail rwyddarch olud
Rhi yn ein angen y rhêd
Rhŷs dewr mal y rhoes ei dâd
Y tad o nef wlad oleudwng llwyddiant
Lluddied Rŷs dy ostwng
Aruthr yw dy fleidd ruthr flwng
Arddelw talm urddawl teilwng
Teilwng di freudwng dy fryd
Tewbar glas ti biau'r glod
Taer yn aesgalch twrn esgud
Tëyrn diwallgyrn dullgod
Cad oresgyniad a roes gwiwnaf hael
I heli Ffraingc ar eithaf
Carw trin gwr o lin lanaf
Ceinfyged Ednyfed naf
Naf yw Rhys gwinllys a gwyrdd
Nerthawg erddyrn farchawg urdd
Nid dielw lun neud hael urdd
Nid taeawg hên neud teg hardd
Hardd berit hoywfardd bert efaill Geraint
Gurwr Ffrengig castell
Hurieist glôd y frô hiriell
Henpych wych wymp wiw-dymp well

PERYF FAB CADIFOR AI CANT I HYWEL AP YWAIN.

O L. E. D.

Es blwyddyn ydd wyf neu ddwy ith
Nith besgaf a fo mwy [besgi
Dug ym y dygn ofwy
Nim dygy —— a fo hwy
Difiau i'n diau leas
Yn y penrhyn uch penrhos
Ym Mon y mewn ei hynys
Ydd ym lleddir a llafn glas
Dielid mab Duw dygn alaeth Hywel
Haul echel och arfaeth
Am ledrad frad freuolaeth
Ef ai frodyr mawr wyr anaeth
Llas arch yn y gyfarchfa[1]
Llas nerth awyr eryr aerfa
Llas Hywel wyn fab Ywain
Llas gwr mirain uch morfa
Llas gyda Hywel hawl amddyfrwys
Lew llew trylew traul diffwys
Pla ple do dial dywal dwys
Plant Kedifor wyn wenwys
Lladd Brochfael wyn a gwynaf
Lladd Aearddur[2] an cur cof
A lladd Rhirid am llid llif
A lladd Iddon ac Addaf
Brochfael ac Iddon brodorion Hywel
A holynt gerddorion
Ry llas a llafneu rhuddion
Ar lles draig yn llys dragon
Can eddyw aerddur yn arddyfrwys far
Yn trydar dar diffwys
Ciliai rhag ei lu Loegrwys
Cadr fab Cedifor wenhwys
Am fyned Hywel hawl diachor traws
Doeth tristyd i'm cyngor
Yn naear franar fangor
Doe a dau fab Cedifor
Fy nghalon a gryn rhac erchlais y fran
Dechreu gwan dychrynais
Gwae fi pan ei harhais
Gwayw yn Hywel a welais
Bran a gre yn y gyfarthfa
Ni ddarogan ym ddim da
Bod mab brenhin gwyn Gwynedd
Yn gorwedd yn yr aerfa

AWDL A GANT GRUFFUD GRYC.

O L. E. D.

Yor nef ae chreir
Ac euryn meir
Y gwr an med
A throet a llaw
Ac aryf aelaw
A gorvoled
Gwarandaw heit
Bechaduryeit
Beich o daered
A maddeu ynn
Yn llusc dremyn
An llesc drymed
An llet lyeu
An llit vrodeu
An llet vryded
An kasgyl olut
An kam ehvt
An kamwed
An gogan weith
An kyfrwysweith
An kyfryssed
An gwac valchet
Yn anwaeret
An enwired
Ti ywn llywyawdyr
An amerawdyr
Yn y mawred
Ti yw yn yor
Ti yw n tryssor
Ti aw n trossed
Ti an pryneist
Ti an ffuryfeist
Ti yw'n fyryfed
Ti ymhob pwnk
Yn ry ymwnk
Ni wyr omed
Tostyon erchyll
Ti yn nhywyll
Ti yw yn hoewed
Ti yw r goreu
Ti yngoleu
Ti yngwyled
Ti yw yn tat
An gwar ynat
An gwirioned
Ti an bendic
Ti yw n ryfic
Ti yw'n revued
Ti mab meir wenn
O Iorddonen
A vrdd wyned
Ti yw'r gwr kael
Ti yn Israel
Ti o Nasred
Yr dy gethyrdraet
Er dy raenwaet
Yr dy rinwed
Yr dy uawr drank
Yr dy diank
Wr di ddyed
Yr dy hoelion
Yr dy goron
Wr digared

[1] Llas arth yn y gyfarthfa. [2] *Neu*, Aearnddur.

Yr dy veddyant
Yr dy uwynyant
Yr dy uoned
Yr dy garyat
Ath enw redeat
Oth enryded
Yr dy lendyt
Eurdwf iechyt
Yr dy vuched
Yr dy ddechrev
Yr dy ddwyweu
Yr dy ddiwed
Yr dy grychlam[1]
Yr dy lwysvam
Yr dy loesved
Erbyn arglwyd
Yrom gvlwyd
Yr amgeled
Y ddaearblant
Yrdang nwyfyant
Yr dangneved
Rheyt gael gan Bedyr
Rydit hyfedyr
Rat etiued
Yn rwy an coryf
Yn wyd gantoryf
Yn rwyd gynted
Yn rod nawoed
Yn rif milioed
Yn rwyf moled
Ynghor yspryt
Ynghof ennyt
Ynghyvanned
Yn raed Serubin
Yn rhol farthin
Yn chwyl ferthed
Ynghaer addas
Ynghae mawr ras
Ynghymyrred
Ymher gwiwfreint
Ymher eurseint
Ymhur orsed
Ymherffeithgwys
Ymharadŵys
Ymharoded

AWDL

FADAWG AP IERWERTH AP RITHID AP IERWERTH AP MADAWG ESGOB BANGOR BRAWD I ROTBERT AP IERWERTH AP RITHID O GOED Y MYNYDD. O L. P. P.

I.

DUW byw an rhoes llyw llen bendefig
Dwyfawl yw'r urddawl canmawl ceinmyg
Diafyrddwl feddwl feddig perchodau
A lles Eneidiau llys enwedig

[1] Gythrlam.—Ll. C.

II.

Dor ag Ior Bangor cor catholig
Dar i lu daiar car caredig
Dogyn gymaint deufraint Dyfrig Beneurawg
Yw heulwin Fadawg hawl wynfydig

III.

Dyn dan Nef ag ef ni chaf debig
O gwbl bwyll didwyll dadl brofedig
O haelder Ener[1] unig ynghyfraith
I gyfryw benrhaith Bibl-iaith Beblig

IV.

Duw gan roes einioes'n ei fenthig
Ai gad oi ganiad gan Nadolig
Wrth raid y Gweiniaid i gynig Alaf
A da rhwydd adaf dy rhoddedig

V.

Gwarant gaer trefnant traw diddiffig
Gwin eurin lwryf chwryf a chig
A gwisgoedd miloedd moledig wleddau
I feirdd galonau fyrdd galenig

VI.

Gwynedd anrhydedd rhadau Curig
Gwanas pob urddas eurddull Padrig
Gwyn i fyd bod gwledig clodbwyll
Mewn cnif didwyll cynnefodedig

VII.

Gwan oedd Lys allan man a mennig
O'n gwlad hyd trefad tref y Mwythig
Pan ddoeth rhwyf cyfoeth cofedig Eur nerth
Hil Ierwerth gannerth hael win gynig

VIII.

Gwymp heddiw Gaer rhiw rhwyll eurddedig
Gwin drefnblas addas addurnedig
Gwir glod ni chelir uwch helig dyno
Gwenfro wyr Pabo bybr Leithig

IX.

Lluniaf gant moliant mawl haiedig
I Fangor rhagor rhag Celliwig
Llys llu ai dengys dawn gaeledig gwyrdd
Lle diwallwyd myrdd llu diwellig

X.

Lle mae Arglwydd rhwydd yn rhoddedig
Heb fynnu pallu pwyll Teoderig
Lle deheuaf budd lle deheuig glwys
Lle a gwin da dwys llu gwyndodig

XI.

Llyna dir an pair parabl a doig
Hwn Madawg ddoniawg ddawn boforig

[1] *Neu*, yner.

Llaw Dduw am danaw ddoniawg frig[1]
frongwyr
Eryr ar Glaswyr aer eglwysig

XII.

Lle mae rhaid Ceiniaid Canon fendigedig
Am Arglwydd hylwydd hael caredig
I hiroedl yw llyw Llys deithymig fawl
Mal banda gedawl bendigedig
GRONW GYRRIOG AI CANT.

GORDDODAU MERDDIN AB MORFRYN.

O L. R. D.

I.

Gorddod bron gorvod nid hawdd gysgaf
Pan ddel maban o hil Bryton brithvyd a
wna
Gwr o vewn awr
O Loegrwys nim dawr
A llwyr ddiva
Kyfyd Bryton
Braisc gowyddon
Brys di draha
Kyfyd Bryneich mawredd ynys
Y fo addaw y Saeson
Lliaws pob bron
Lees ni wedda
Kaman i boodd
Y Tir a waeddodd
Y terfyn gwaethaf
Kyfyd Prydyn y menych henaf
A rhuddion lafneu yn rhywyllt
O'n Caerau gan nis traethaf
Ac ar ervin brain pla a welir
Brysia iw diva
Y maban o gudd
Kyffreddiwr y budd
I'r blaid issa
Yn rhwydd y rhydd of y rhai esgud
Mewn cnaif cymwys
Gwr ni wna ymwys
Yn y gyfraith ddwys
Ni ddysg draha
Maban o dad
Er a veiont wy ai mad
Mawr yr hoffaf
Glendid Bonedd
Gwlad holl Wynedd
A dynn ef oll ou halltuded
Aillt ai casa ef ni chyd ganan
Ni chyd archan gorchwil nis gwnan
Cydfod Saesson
Gwaith anhyron
A derfyna
Diolchaf archaf arch ddi drahaf
Cadwr haelaf
O'r hil penna
Gwyn eu byd Bryton
Braisc yw'r goron
O Dduw nefol
Cadwr cedol
Mwyn ei ganmol
Llew llaw rhuddwaith
Milwr ei waith
Maith y molaf

[1] *Neu*, am danaw frig?

II.

Gorddod bron gorfod yn derfyn
Aurfinioc fydd[1] llen llwyr amofun
Maban a gad mad ail gychwyn
A gwageled
Pan gychwynned
O gylch Mwyf y Gwynvryn
Rhag twyll y gann y Saeson
Arwyddion bradoch
I Ddyn neu ddau
Y gwnant wenwynau
Ar Ansoddau
Mewn rhyw wleddau
Gwedi'r moddion
Llawen fyddon
Pan ddigonont
Dysc ir Vervyn[2]
Weithred rhyw ddyn
Gorchwyl divraw
Gochelid rhagddaw
Rhiol dervyn
Y Rhïoedd er hynn
Y Llew llafn rhudd
Gwiw vudd gwerin
Lluossawc eidiawc bid ef ar gychwyn
Mymn ef ystyr y Gaer
Ac anifer nis mynein
Ac arhöant wy Ddofydd yn gydwr
Oessawl ef fo a gychwyn
Ac oddiar dowysenau yr oen
Y Llew llüaws[3] mawr a fynn

[1] *Neu*, vvdd. [2] *Neu*, Veroyn. [3] *Neu*, lliaws.

III.

Gorddod bron gorfod gwyr arfogion
adynn
Y gad pan ryddyfo y dydd diarbed
A llafneu rhuddion
Y llu Alltudion
A meirch amliw amryw anrhec
A marchoc pwylloc
Pell fydd ei orfod
O hil Brython
Braisc ei hattebion
Llywiawd llawer oes am oeswr lluoedd
Ac yna ymladd arweddawr cad

Difrad[1] divrec
Pwylloc eidioc irwaith dynged
I'r hwn ai gwnaeth
Drwy fawr arfaeth
Ef y gweithred
Er nerthu a rhwyddhau i'r rhwyf godded

IV.

Gorddod bron gorfod gwynnoc er trai
Llanw a thwrw a llawen fydd rhai
A lluossydd a â yn rhydd
Drwy rwyfau y Bi
Maban cadyr medrawl holi
Holion Brython
Llawen fython
Rhoddion a gaiff rhyw wr o'n iaith
Myfi ai molianwn pei gwelwn ygwaith
Yfo a ddaw ar awr
I ni glodfawr Gawr
Ac a gychwyn ar awr
Yn rhydd i dramwy
Gwaed dan draed arfaeth fwy fwy.
Gwnn if ei foli
Yn llywiadur[2] an rhi
Pennad y llafneu rhuddwisc
Rheidawl genedyl
Cadarn ei dadyl
Llawer ai derbyn
A liaws iw herbyn
Ar tiroedd ini hevaid yn ofwynion
Yn ofni hil Dewdwr mwr[3]
Llawr llwyth Teifi
Lluossog enwog anodd fydd ei goddi
A llawen fydd[4] a rhydd vydd i rwydd roddi
Cedwid ef Creawdyr nef
Nawdd am ein pechodeu ni
Rhag angherdded
Rhag ariwared
Oessawl fo'r Bi

V.

Gorddod bron gorfod heb rwyf ddegynod
Heb luoedd a Sais draha tiriogaeth fy gawr
Rhoddion cyfion
Cyfyd Brython
Eulun cyfraith
A lygra yn iaith
Drwy erlyn yn faith
Baath a Baath yn oes oesau
A vydd esgud y mud mynnawr
Cyfyd eilwaith
Yn llyw an Penrhaith
Taith gyinwywaw
Y tiroedd a ddychryn
A'r tiroedd a vynn
Gwaith y cynheilliwr maith
Ai gydymaith
Blaidd rhun rhydaith gwaith gymwyawr
Mynnu Colann
Gwlad dderogan
Yno y trigan
Yn unawr
Yn y wenwlad fawr
Yn y lle y gwnaethpwyd brâd
Yn cynheiliad
Cynal di yn oesswr
Yn enwoc wr
Creawdyr Seli
Gair o divri
Gwn ei foli
Ar mawl gorau

VI.

Gorddod bronn gorfod gweddill Brython
Eidioc rhywioc hil Rhioedd Moon
Cyfion o Gynan mwyn waith dragon
Rhywioc pwylloc pill marchogion
Ar varfaeth iddaw a llaw eilon
Deued gwared poed gwir vython
Drwy hir dynged ced cidtalon
Dyvedd gyrchant
Cyfarfod a wnant
Ceraint vyddant
Lliaws fal brain
Braisc feddyliain
Meddan gadau
Gwlad ai gwybydd yn glau
Gwledd fawr gyson
Ywain ei henw hael y rhoddir
Y gwin ym Mhenfro
Pennaeth fydd y fo
Ac Ion ar Ddeheubarth
Ac o amgylch val traeth
Ar llywodraeth
Drwy'r tair talaith twyll ni ddelo in Iôn

VII.

Gorddod bronn gorvod gorchwyl am ei ddyvodied
Fal ac y traethwyd am Grist cynn ei weled
Darogan y daw
Brython alaw
Hylwydd dynged
Daroganwyd
Mab y Medrod
Ai fawr weithred
Credwn Iesu
Creawdyr pob llu
Yn llwyr im puched
Pan fo drutta bid trista Brython
Glutta calon golud golled
Y fo an rhydd Dofydd
Bawb ohonom yn rhydd
Ar y dydd ior da i wared
Drwy eiriol saint

[1] *Neu*, divrad. [2] *Neu*, llywiadwr. [3] *Neu*, mawr. [4] *Neu*, oydd.

Gweithred gowraiut
Coro buchedd
Gwelir symud
Yn oes alltud
Ailld o'r gogledd
Y fo addaw rhydid
Brython gwelid
Gwedi ei dilid
Gofyn tehyrnged
Yn ddiamau
Drwy nerth blodau
O'r Dwyrain y daw yn ddiamau
Ddifri weithred
Pan gyfodant
Tir a fynnant
Tervyn caled
Alaw y gwelir
Elain ar dir
Brenhinwys gwir
A folianned
Pan fo y difiau[1]
Y daw ef in barn
Prudd fydd y dydd hwnn i honni
Ar brif galan
Cyfodwch a gwisgwch gwiscoedd diddan
Y fo a welir y llynges ar llongau
A rhwyfir y rhyfel ar tan
O gylfyddyd ai hergryd ar ai gwelon
Yntwy ai harohan au pyryannau
Ceid yr llidiawc yn afrowiawc
Y gwnant pan rwyf sathraith
Ryw niver gwn y cwympiant
Distrowio dyall
Esdud a chall
Hwynt a giliant
Archaf iddo pennadun yn bro
Brys yw yr amcan
Cyfran o wlad cyffredinwyr yn rhad
Nyni ai meddwn

VIII.

Gorddod bronn gorfod gorvinnioc mynydd mynnau
Gorfydd rhod —— gawr gan gadau
Pendevig ——— yn y Dehau heb
Wahoddion i dir Brython brith vyddiau
Rhyfel a vydd
Ag ymwan g——
A gorvod a wnau dau
O blant alldud
Drwy gymry glud
Drud feddyliau
Collir trydydd waith nim dorpydd
Diriaid fydd Beirdd caith alldudydd
Heb dynggefedd drwy waith cochwedd
Caswaith y llu
Ar y pydwerydd a lywia'r elfydd
Byrr yw'r cynnydd

[1]*Neu*, difian.

Baar o bobtu
Heb fawr alaeth
Oi frodyr maeth
Maith gychwynud
Rhyddid caffan
Gwlad a gadwan
Drwy weithred llann
Lluoedd grynnu
Caffont wynvyd
Drwy union fryd
A phawb i gyd
A a yn gyfion
Addnef meel a gwenith
A gwlith a dyfredd
A rydd Dofydd
Creawdr elvydd
Ai law i'n bro gyda rhydit
Cyfraith cyfartal ddylit
Cyfion eiste am air tangnef a thangnefedd
A rhyddid a gwared gwedd moliannu

IX.

Gorddod bronn gorvod galed a vydd
Ac am Loegrwys rhyd rhywin golled
A gorddwy tynged
A Saeson mewn gloes heb nos wared
A chyfion ar y Brython a chysondeb
Ac o eisiau 'r Ganon cannoch glywed
Heb leen heb lyfrau
Heb lwyrfawr weithredoedd
Heb fenych mewn llann
Gorchwyl gwul im barn gwnn nam
puched
Heb ydeiladau
Nac anneddau
Annoeth olwc drwy fawr — —
Y bobloedd heb wynvyd[1] ——
Ffysc gynired
Heb na rhoddion na — —
Mawr yw'r golled
Gwragedd a merched ———
Ddim ac na ddadtodwch
Canys chwychwi a welwch ——
Yw'r dynged
Anrhyfeddod traethaf rhagod
Rhag eich[2] gweith
Pan ddelo yr tan
Rhwng y teir ban
Pethau enbyd
Arwyddion Celi
Gwn o ddivri
A dangossir
Yn oes maban
Y mynnir cyfran
O'r cyfarwyddyd
Ac y fo a ddengys yn neer
Ei arwydd yn y seer
Gwener goched

[1]*Neu*, myr. [2]*Neu*, eych.

Ymswrn am draul
Amliwioc vydd yr haul
A rhyvel mawr luoedd
A mawr ludded
Ffrwythlon daiar
Marfol adar
Ymhob cyfor
Cyfion rhodded
Pyscod mewn llif a leinw
Pawb a wna arllwyf
I lwyr weled
Archwn in tad nefawl ei rad
O rodd deilwng gadw Brython
Rhag afrwyddon a brad Saeson
Yn oes y iaith oi gwaith nim dawr

MYRDDIN AP MORFRYN AI CANT.
DIWEDD Y GORDDODEU.

ENGLYNION.

O L. P. P.

Gwynt tan awyr llwyr llawr daearfa mwyn
Gwnaeth un Mab Maria
Lleuad dwfr heul ni threula
Gwyllt gwar gwell gwydd nos dydd da
Rhybychan Grist loywlan lyw
Dros gur hoelion loesion liw
A brath bronngnaif a glaif glew
Ner eurddoeth a wneir erddaw
Erddaw y dylem ddrem ddrud
Oddef Mab Duw a Wyddiad
Efe an prynawdd nawdd nod
O uffern rew fignwern rwd
Ac an gwnaeth ffraeth ffrwythlawnged
O gaith yn rhyddion i gyd
I gyd bobl y byd anwybodus ym
Am na charwn Iesus
A theg urddas y Grassus
A Thad aur Myrr a Thus

GRUFFUDD AP MAREDUDD AI CANT.

DAFYDD Y COET A GANT YR ODLAU HYNN.

O L. P. P.

Mynawg gwareddawg y gwiw raddeu
Mwynawl hawl nefawl ceffir mawl mau
Modd rhodd rhen awen awydd gwyrthau
Maint braint gwyrth y saint seilm y graddeu [lau
Mawr gwawr fab gwyry Fair Grair Careg-
Yt ydd addolaf ti Udd delwau
Aur fyngloywner wyt ar fyngliniau
Om pedeiriaith ddysc am paderau
Am Cuwrdd seilmawl am cerdd salmau
Am fy rhi geli golofn rheidiau
Ath fawl heb ddim tawl talm gerdd odleu
Yt i cyfarchaf deuaf diheu
Ddihagr f'Arglwydd Grist o ddehau
Ti a wnaeth fy Nhad bob had iw hau
Ti a wnaeth yn ffraeth yr holl ffrwythau
A môr a daear mwy ardwyeu
Hofflawn hoywdeg wyrth a phlanedau
Gadr Iesu wiwgnawd gyda'r sygnau
Arglwydd pendefig rhyfyg rhificu
Arglwydd cyfiawn iawn ddawn dynionau
Arglwydd Dduw culwydd rwydd ei reiddieu
Arglwydd a Dofydd cynnydd cannau
Arglwydd nef a llawr gwawr y gwyrthau
Arglwydd dad mad rhad cariad corau
Arglwydd llawen ren llen a llyfrau
Dyro im Arglwydd rhag arwydd gau
Cynnar yngyrth loes cynn yr Angau
Cyffes a chymmun gyfun gofieu
Oth nawdd rhag uffern billwern bylleu
Er dy goron ddrain wr da gorau
Wirdeg Athro nef er dy gethrau
Mawr diwael eddyl er dy wleddeu
Er deiliadaeth nef er dy lydwau
Eurdal ydwyt haul er dy aelodau
Er dy fyssedd heirdd er dy foeseu
Er dy enwinedd llathr wr diwinau
Er dy olwg Crist er dy aeliau
Er dy aelaw saint er dy wylieu
Er dy eiliw teg er dy oleu
Er dy wyneb gloyw er dy enau
Er dy hoelion dur er dy heiliau
Er dy ddigrif nef er dy ddagreu
Er dy ing alar er dy engylau
A gwaed dy galon hygron donn dau
Fyngwyth rydaer gam fyngweithredau
Am gwyll aruthr lid am gwall eirian
Am eiddilwch oll am meddylieu
Trwy iawndud meddiant Trindawt maddeu
Cadarnenn syrr em gwyr am gylch om drygeu
Draig rhag aml bechawdfylch
Cerdd gennyfi ai diylch
Cof nawdd y Drindawd im Cylch
Ith wenwlad wirdad eurdo gras disglair Grist oesglod lathr loywfro
Ener gyda thi yno
F'ynad henn fy enaid bo
By gyfyngaf Naf nefawl fryd gain Dduw Fo gan ddyn anhyfryd
Ehangangaf sydd benffydd byd
O gynnull Iesu gennyd
Gennyd ri Celi culwydd cywir mawr
Amerawdr mor a thir
Caffwyf nef lle tangnefir
Drwy nerth gair y wyryf air wir

Wir...glod cred wared dy arwydd arnaf
Awyrnenn rhag tramcwydd
Erglyw fi Rhen Geli rhwydd
Eurgledd nef a byd Arglwydd
Arglwydd Iesu Grist Arglwydd Asia mawr
Arglwydd mur Affrica
Arglwydd rhwydd rhodd Europa
Arglwydd buddwedd hylwydd ba
Arglwydd eglur Dduw Arglwydd Agla naf
Arglwydd nef a therra
Arglwydd Ri fab Maria
Trugaredd a diwedd da

Trindawd gwawd gwalch fyngharw trafalch fynghartrefiawdr
Tro im rad mad trwy hoyw gariad gair rybuddiawdr
Trafn gwyrth hoywryw tra bwyf yn fyw fy llyw llywiawdr
Teg wyt Geli traws haelioni rhi rhagoriawdr
Trysor moliant trasyw ffynniant ffawd arweddiawdr
Trossaist wyrth nyrth trasyth eurbyrth borth oleuawdr
Trai bai bumoes ath wnaeth garwloes ar gros grogiawdr
Er ein prynu eurwyrth feddu fudd warediawdr
O wart Uffern dduhagr fignwern gethern gaethawdr
Wyt un a thri ein Harglwydd ni nef gynhaliawdr
Car Brydydd rhwydd ai hael arwydd o hil arawdr
Gwnaethost for Tawch a thir ffrwythlawch awch uchelyawdr
A gwellt a gwydd a chred a ffydd ffyrf gynghoriawdr
A gwyllt a dof a gwir hoywgof hygadr ddyscawdr
Ar holl ffrwytheu ar holl radeu raid warcdiawdr
Er dy gethrau ath aml wyrthau wyrth edrychiawdr
Naad fi yn drist mewn uffern gist hael Grist Greawdr

Crist Greawdr llywiawdr llawer
Creulyd geli gwiwri gwyr
Crair nef ddigae a daear
Craff yth folaf teccaf twr
Cryf Arglwydd gwaranrwydd gwir
Hoyw gloyw hynod fawrglod fur
Credaf yd iawn hyfryd Ior
Hyfryd Ior wyd Bor balch
Hoyw fraisc babl di barabl fwlch
Eu cur mawr dy fronn fawr folch
Rho dy nawdd nid cawdd im cylch
Dy nerth Iesu cu yw'n coel
Dy nawdd gwn nad cawdd y cael
Naf nef eurwlad ddiadfail
Na wrthod fi Geli gwyl
Celi gwyl annwyl ennyd
Cael im rym rann oth gariad
Cwlm cwbl synwyr heb lwyr lid
Coel da glwys nid cul dy glod
Calongur fuost cost ced
Er prynu pumoes loes lud

I DDUW LLYWELYN GOCH AP MEURIG HEN AI CANT.

O L. P. P.

Achubaf Du6 naf diamnofydd
Dy na6dd oth gyfarch rybarch rebydd
Uchel yn a6yr dy fag6yrydd
Iechyd meir6 a by6 lly6 lla6enydd
Brenhin a de6in pob rhy6 dy6ydd
Crea6dr ymmera6dr crair ma6r ded6ydd
Ysbryd gloy6fryd glan darian derydd
Tad da6n annogiad mab dinegydd
Pan lithrddel rhyfel rh6yf mer6erydd
Or tra llia6s bobl ar tri lluydd
Ar lethr Olifer funer fynydd
Engylion 6erin dy fyddin fydd
G6naethan ddadl cynnel6 gydar cel6ydd
G6naethost for reydr hoen g6ydr a g6ydd
G6naethum ddifflais drais dros dy gerydd
G6naethost nef a lla6r drama6r drumydd
G6naethum ddifra6d nef a g6yr Crefydd
G6naethost gelfyddyd byd a bedydd
G6naethum latteiaeth barn fedd6gaeth fydd
G6naethost dd6fr a than glan a glennydd
G6naethum i gy6ir 6ir 6arad6ydd
G6nacthost hagr a theg ofeg ufudd
G6naethum ar draetha6d geu6a6d gy6ydd
Lleucu yn eilfar lli6 caen elfydd
G6naethum odineb nag ednebydd
G6naethost lynn Ebron ai afonydd
Cyffessaf 6rthyd byd 6ybedydd
Cammau a 6naethum cymmen ieithydd
G6rolgadr 6aladr digy6ilydd
Goruchel bylgain ag a6r ech6ydd
Torrais ogredeu bannau beunydd
Taeredd a ddyscais hydrau hoedrydd
Torrais y dengair ffurfaidd grair ffydd
Deddf eurior dileddf ei ardelydd
Torraist g6eryaist hil g6i6 rihydd
Truma6gfedd daear loy6ar ly6ydd
T6r dior6agiaith perffaith parffydd
Torraist byrth uffern g6lyb fign6ern g6lydd

Er dy goron ddrain er dy gerydd
Er dy gariad clyó lyó fy eileóydd
Er dy gethraól draed ar rhuddóaed rhydd
Er dy glóyf ofal ar glaif efydd
Er dy lóyróir faró ar dy eloróydd
Ar tradoeth gyfod y pryd trydydd
Erbyn fy maróaól ddióeddaól ddydd
Eurdad digronniad dy gerennydd

I DDUW IORWERTH AP Y CYRRIOG AI CANT.

O L. P. P.

Brenin gorlleóin gór a'n llyóia
Broydd a gorthir brig tir terra
Breiniaól nen dóyfaól na'n difa erom
Onî benytiom iaónboen etóa
Breisgior dor dóyrain cein amcana
Bróysgedd alaóedd ynn na lióia
Brycheu eneidiau Ion oeda cyóyd
Bryd paób ai górthyd ai góarthaa
Beirniad byd ein Tad cofiad cyfa
Barniaódr ammeraódr meiró obeithfa
Bernych pan rennych ŵyr Anna arnam
Y cam ryónaetham na rynoetha
Barn drugar ein car cor leóychfa
Oedd raid i óeiniaid ar ddióannfa
Berny y ceffy coffa er gallu
I ddial Iesu na ddiyssa
Bróysc ofalon dall ein góallygfa
Bóró dysc in mysc yrfyd crynfa
Bóró fendith in plith pletha ddóyolder
Ner na rysommer rhai sy yma
Buriaf i óeddi ym a óedda
Buriaf y gennyt gennyt ydd a
Ban fo amser ner nertha órth angau
Y synhóyrau mau maór óellhaa
Un óyf a hanóyf o hen Efa
Ynof naód pechaód pechais ddirdra
Un óyd a hanóyt dihuna im pleid
O Fair ras enaid faór Reisina
Yn y farn gadarn gyd gymanfa
Yn y fraód baraód buredigfa
Yn y fro i bo pob traha yngorphen
Yn y fen fy Rhen mae'n rhaid noddfa
Adraódd dioer dir yma a ónair
Ger bron Crair Crog Calfaria
Edrych na lyssych O ag Alpha
Er dy bum óeli Geli góylia
Fy Argióydd cyfióydd am cyflea
Fy ergly6 'nghyfyng yn ing a óna
Fy eurgledd maóredd Maria ai góonaeth
Am hoes hoedl digaeth ffraeth im ffróytha
Am rhydd fy Nofydd nef orphóysfa
Am rhoddes hoyóles haul a luna
Am rhoddóy obróy Ebrea faóredd
Am rho trugaredd a diódedd da Amen
Diwedd glan a edeóis
Dibenn rhóydd da bann rhoddes
Ynnof Duó o nef Deus

AWDL SANTAIDD AM DDIWEDD DYN AI GORPH.

O L. P. P.

Rhyfedd na phwyllwn
Rhyfyg na ddaliwn
Peidiwn na rwyfwn
Er ei fawr rinwedd
Gwae ddyn nad ystyr
Ydd a yn ehegyr
Cynn rhythyr tymyr
Tomod Vaenvedd
Yr un dyn deccaf
O holl blant Addaf
Aro vory y góonaf
Nefol rinódedd
A phob dyn felly
Rhóng yr aóyr fry
Ar ddaear obry
Wely waeledd
Pa wnaer yn unig
Na thrais na thremyg
Na wnaed neb ddig
Nag eiddigedd
Miloedd anghyoed
Fal ir oedd erioed
Pawb a gyrch yr oed
Ir saith droedfedd
Milwr twr taerfor
Val i bu Ector
Nid eiddo ragor
Yn ei orwedd
Rhywnaeth caeth cynnadl
Rhyfyg annhrwyadl
Rhag rheidus disdadyl
Dostur fuchedd
Eurfab y Brenin
Ag Iarlles Erbin
A fagawd ar win
Flin flynyddedd
Neu'r fun lun laesra
Fal i bu Efa
Wel dyma fal ir a
Yn y diwedd
Mewn pwll i dodir
Mewn pridd i cuddir
A byth ni welir
Dihir dihedd
Y corph afrifed

Mewn budr garreg
Yn fwyd i bryfed
Heb ged geidwedd
Llyffaint braint brydnod
A chynrhawn diglot
A phryfed hynod
Nod a nadredd
Yn sach drewedig
Yn sur doddedig
Yn swydd annelwig
Dig dign agwedd
Y Penn a weled
Yn hoff ei dynged
Yn benglog briddled
Ar bruddlawr bedd
Ar pryd gweddeiddliw
A oedd weddus wiw
Cyt boet deg heddiw
A hyddysc valchedd
Ef a fydd annelwic
Dan bridd a cherrig
Heb na chroen na chig
Dremyg drymwedd
Y llygaid glwysion
Yn dyllau crynion
Yn llawn o gynrol
Myn y gwirionedd
Y geneu gweddus
A fu chwareus
A fu ryfygus
Yn oer ei agwedd
Yn dwll mingamddu
Yn anybell ei garu
Yn dwllgorn digddu
Dygyn difroedd
Ar dannedd gwynnion
Fal hen ebillion
Yn escyrn llwydion
Budron budredd
Yr hirion freichiau
Ar heirdd esceiriau
Yn ffustiau giau
Gohygar budredd
Nid estyn erddo
Na thraed na dwylo
Can gorfu arno
Braw breuvoledd
Ni flassa'r geneu
Ni chlyw y clustiau
Ni wyl llygaid brau
Mewn cau Cadfedd
Na dysc ffysc ffynniant
Na gwyr a garant
Nag aur nag ariant
Na meddiant Medd
Yna i diflann
Y lwyswedd eirian
Mewn pwll truan
Anghyfannedd
Archwn yt Geli
Er dy bum weli
Er dy ddaioni
Rhif rhwydd gymyrredd
Er dy ddrain goron
Er dy ddrud loesion
Er gwaed dy galon
Kymodlonedd
Drwy ddiwair eiriawl
Mair wyrf gannmawl[1]
Ysprydawl hil hawl
Brenhinawl wedd
Drwy eiriawl sawl saint
O honun cymmaint
Yn ei bro ai braint
Am ein Camwedd
Cyn cyrchu'r ddalfa
Cwbl fawr cymmanfa
Ni thyccia yna
Un gyfrwysedd
Ond herwydd i gwaethant
Ag i gorugant
Ag ir haeddassant
Anfad chwant chwerwedd
Ior yr uchelder
Mynydd Olifer
Nid drwy na symlder
Nag oferedd
Yna i diolchir
Ymadrodd Cywir
Yna i dielir
Pob enwiredd

DAFYDD DDU O HIRADDUC AI CANT.

DARN O AWDYL.

Nis Gwyddis pwy ai Cant. O L. P. P.

Gossymmwy tramwy trom ddygnedd byd
Gossymmittid bryd brad ammynedd
Gorsach arllasach lles maraunedd
Gossymmeith eilweith annielwedd
Gossummudawd gwawd gwedi maswedd
Gossymmud gofud gofwy Nasredd
Gofynnwn treulwn traed a byssedd
Tref ydd aeth Duw nef iw dangnefedd
Ymru morwyn fwyn o fonedd Anna
Diw gwyl Faria fawr Gyhydedd
Pan fu ym mhreseb ym mhrysur wedd
Yr ych yr Assen gyda Iossedd
Y gorau rhiau rhinwedd pan aned
A ddoeth yn wared i laweredd
Cyn bei Mab ein tad rhwy danwedd
Yr hoen ar ysbryd gyd amgeledd
Drwg a daethaw wrthwynebedd iawn
I Erod greulawn ei greulonedd

[1] *Neu*, gannwawl.

Gwerthu yr Iesu y sy ryfedd
A orug Iddas o ddigassedd
Gwaith vernid gwythlid gwythlonedd im byd
Gwrthfyd fu gywyd ei argywedd
Cann ryfu ir werin o anwiredd
A fredychwys Crist Creawdr buchedd
Cyfiawn a edeu Cyfannedd ar dir
Enwir difenwir ei etifedd
Archaf arch im naf yn anwyledd
Er archollion doll gan dylluedd
Ei ddwyfron a fu ar fedd ei Arglwydd
Na fy rho awydd yn oferedd
Ei gorph a eddyw eiddun ryssedd
Y mewn Eurddonen hyd y dannedd
Cann ni mynnwys er Duw difroedd arnaw
Na fynned ai law ladd calanedd
O mynn o ammwyll cymmwyll camedd
Myned ym wared o iawn waredd
Na ddalied yn ddiau ddwy vlynedd y gyd
Ei fod yn y byd hyd hir hoedledd
Paham nad edrych tlawd yn ei dlodedd
Mor fydd hoedl egin y brenhinedd
Nad hwyrach i dwg Duw teyrnedd rhagon
Na meibion eillion ni eill trossedd
Ym cen im ceinwawdd ddyfrydedd
Ym cwyn brwyn dwyn brenin Gwynedd
Gwae fi Arglwydd Dduw am eurgledd dideich
Gwynn eu byd hwy Fryneich oi freuoledd
Mal i dug oi deg anrhydedd
I dwg Duw braw yn y diwedd
Digarad a fydd digaredd rhagllaw
Heb allell hunaw gan anhunedd
Ef a nef a llawr gwr mawr ai medd
Ef yn ddihun ddianhyedd
Ef gareu rhiau rhadlonedd ryfu
Gwrawl Iessu pen llu llaryedd
Ef yn dri yn rhi ag nid rhyfedd

Cais y gorphen : fel hyn y mae y gorphen yn Ll. C. : Bwyf gwas Duw cyn gwesti daear.

O SAITH WEDDI Y PADER.

O L. P. P.

Trwm yw tremygu
Hael Ddofydd ym rhydd om rhwydd brynu
Llyma medd Beda byd i feddu
Fy rhi ail weddi Celi ef ym celu
Ai synwyr yw'r llwyr llwrw traethu gofeg
Herwydd ei fadreg gymraegu
Del dy deyrnas blas blaid barthu rhadau
Diau na'n maddeu Duw in meddu
Fal i bydder Ner nef allu ddyddbrawd
Rhag rhwyf o bechawd ryfawr bechu
Un hanes un lles un llu un awydd
Ag un Arglwydd rhwydd in rhyddhau
Fiat voluntas addas oddeu
Tua rhag traha trwm feddylieu
Sicut in Cœlo salw eiriau ai gwna
Et in terra pla plyg eneidiau
Wel dyna drydedd rheufedd rhiau
Weddi ar Geli drwy lên goleu
Ai synwyr yn llwyr llorf graddeu dwywawl
Dothyw in eiriol doethion eiriau
Bid dy ewyllys heb frys frodiau
Ar y ddaear car ceryddeu bennadur
I bob pechadur rhag pechodeu
Panem nostrum trwm yw trem o lid
Quotidianum dy enw gleindid
Do nobis bodie dyn ysodid
A wyr dy foli fel i gellid
Llyma bedwaredd medd menechdid
Weddi or Pader wedd na'n pydid
Llyma lwyr synnwyr llwrw o synnid
Ein rhaid Duw telaid talm a'n rhoddid
Baraw beunyddiawl hawl a holid
Dod Dduw gwiw heddiw ni haeddwn lid
Hynny yw buchedd hon ni bechid
Hanes pob cyffes caffom rydid
Eth reufedd riau gwyd i gyd a gau
Maddau imminau om anian ffaith
Dimitte nobis fab rhad Tad dewis
Dilys in cedwis cadarn obeith
Debita nostra dybydd dydd bo da
Duw ai gwna'n gyfa dinam gyfiaith
Sicut et nos eurgrair air aros
Ufudd-dawd aros dros ein drygwaith
Dim oed *dimittimus* dyb *debitoribus*
Nostris iawn astrus chwyl mwythus maith
Haelfab Mair Crair Cred honn yw llyw llwybrged
Y weddi bummed gyfred gyfraith
Llywiwn y geiriau llyma eu synhwyrau
Twy'r einym ninnau orau araith
A maddeu weithion mawrdad rhad rhoddion
Ein gwir ddyledion gwar ddilediaith
Mal erod tithau bob cyfryw bynciau
Gwnawn innau faddeu feddwl canllaith
Eth rhag cyfedd cas a llid sid siudas
Ne nos inducas in teptatione
Sed libera nos swydd rwydd rad ddangos
A malo mal dros dyryswch aele
Llyma weddiau gydar pump gynnau
Gorau rhag barau berw anaele
Hael Dad rhad rhifiant naf gyntaf ai cant
Maddeuant gwarant meddwl gware
Hynny yw amlder saith weddi y Pader
Ym er honner Ner nefoedd gyfle
Lle ini foli fal i praw Prophwydi

NIS GWYDDIS PWY AI CANT.

O WAITH Y CHWE DIWRNOD.

O L. P. P.

Pan gyhyrddawdd nawdd neddair hyged
Duw mor nef a llawr llorf eidduned
I doeth brenin coeth rhag caethiwed
O uchelder nef nef amgyffred
Ir ddaer fal car i ymwared
A dyn oedd mewn glyn o glwyf hybred
Gwiscawdd gwisc anawdd enw sarhaed
Gwascawd dynawl gnawd brawd o brofed
Gwiscad herwydd rhad a rybuched
Gwnaeth i rhai caeth gael ymwared
Yn nydd i bu rydd ei rad ddegfed
Nadolig Gwledig gwlad ddamuned
Dewin gorllewin llyw a aned
Dewin deorwin diareb ged
Dechrau eu dechreu Crair orau Cred
Diwedd eu diwedd Duw gogoned
Pan syrthiodd Luciffer or goruchelder
Mewn amlder bryder bradawg diffydd
Duw ollgyvoethawg pan oedd drugarawg
Yn nechrau ——— ddeifniawg ddefnydd
Ef a wnaeth darpar ni bu edifar
Y nef ar ddaear ffurfeiddgar ffydd
Ef a wnaeth rhoddi dirfawr oleuni
Da fu Geli rhi fy rhwyf clodrydd
Llyna'r gwaith pennaf a wnaeth Duw haelaf
Duwllun yn gyntaf ddeddf blaenaf ddydd
Ef a wnaeth dyvredd ag mewn eu perfedd
Y ffarfafen wedd rhinwedd an rhydd
Ag ai gwahanawdd trwy wir ymadrawdd
Mal hawdd luniawdd yn iawn lonydd
Dyvredd anniben goruwch ffurfafen
A ddodes fy Rhen men i maent rydd
A dyfredd llafar ar wyneb daear
A'n rhoes car trugar treigl afonydd
A mor i gelwir a mawr i gwelir
A mwy na chwbl wir dir daeerydd
Llyma ddwywawlweith a wnaeth wir bennafiaith yn eilfedyd[1]
Pan weles llyw cred llawhir gogoned
Däed ei weithred i lu bedydd
Yna digyssellt gwr a feddu mellt
A wnaeth amlder gwellt a gwiwddellt gwydd
Ag amryw brennau amrafael ffrwytheu
A blodeu llysiau lles tragywydd
A bychan a mawr fal i tyf trwy'r llawr
Y medd wawr tymawr gwawr gwarant fydd
Heiliawdd ynn Geli hael oedd in porthi
Holer in foli rhi ai rheglydd
Hwylwaith y dwywawl hoywdad ysprydawl
Neud mad rad didawl y trydedydd
Duw goruchelddad a wnaeth on cariad
Yr haul a lleuad pob rhad an rhydd
A sygnau a syr un anian yw myr
Ag awyr bybyr pobl a edrydd

[1] *Neu*, Eilfed dydd.

Didraul haul ehun a ddyd gyd gyfun
Ethun o glaerlun eglurliw dydd
A lloer oer aros mewn wybr liw diddos
Ag ymddangos nos i lliossydd
Felly terfynawdd y gwaith a luniawdd
Hawdd byd waredawdd bedwaredydd
Ni thraethai dafawd yr amryw giwdawd
A wnaeth o byscawd rhyfeddawd rhydd
A hoywdeg adar ar wyneb daear
Haid gerddgar lafar o leferydd
Diddanwch bylgaint a ganant ir saint
Diddeneint edneint adneu goedydd
Llyma waith amlder o brim hyd ucher
Duw gwener fy Ner yn oriau a rydd
Ef a wnaeth weithred Cyfenwir chweched
Oedd wir eidduned ir rhei dedwydd
Pob rhyw anifail gymmarawl arail
Diadfail rhwng dail dol a mynydd
A phob cenedl bryf Cyfrwng gwan a chryf
Or a ddeilyf chwyf chwyl a dderllydd
Wrth eu bryd esbyd ysbaid Dofydd
Llyma attebion llywiawdr dyniadon
Wrth i Angylion rhoddion an rhydd
Ni a wnawn nebun o ddyn credadun
Ar ein llun ein hun a honnaid fydd
A hwnnw yn bennaf Creadur a wnaf
Addaf fu'r hynaf or henw bedydd
A chymmar hir hen a roed oi assen
Anghymmen medd llên y lle or dydd
Wrthynt i traethawdd y gwr au creawdd
Erthyst ymadrawdd gannawdd gynnydd
Tyfu a gerwch tyfid yr einwch
Tyfwch amllewch ym blant beunydd
Gorug gwaith didlawd defawd Dofydd
Gorphowys dyged o bob rhyw weithred
A wnaeth y seithfed teyrnged dydd
Am hynny i dedryd y sul seguryd
Hirfyd trwy gywyd bid dragywydd
Dangos nos i liossydd
Ac wedi nos dangos dydd

NIS GWYDDIS PWY AI CANT.

LLYMA ENGLYNION

Yn dangos Cynneddfau amryw o Barthau Cymry. O L. W. M.

I.

Cnawd[1] yngwynedd focsedd[2] eiriau
A llyrfion gwyr am aur[3] mawr fwriadau
A Phen bonedd tir[4] Mon a doethion a Chreirian

II.

Cnawd ynhegeingl anghowrain ynghuras

[1] Gnawd.
[2] Fogsedd.
[3] A myr a.
[4] Gwyn thrâ.

Beunydd a bonedd mewn Dinas
A Ial yn ddisâl[1] heb sylwedd[2] yn ddiras

III.

Cnawd yn hwndrwd ysgafn[3] gelwydd
A gwarth ar ddieithr a pherth a ffrwyth coedydd[4] [ydd
A min gamwaith[5] maith a methiant Beun-

IV.

Cnawd ym Mhowys gwys[6] ac arfer[7]
A gwyr dewrion gwchion i gychwin lr rhyfel [fwynter
A chroeso i[8] gerddor a chyngor a chân gan[9]

V.

Cnawd ym Maelor mor draws wydd
O daerwch ar tiredd ar Rybydd [ydd
Dyffryn clwyd a Bwyd a Byd da ar ffrwyth-

VI.

Cnawd ym Mochdref chwedleu chwyrn
A churas a cheri ai[10] Meddgyrn
A chydewain gowrain gwbario[11] yn gedyrn

VII

Cnawd ynghefelioc rowioc Rianedd
A chymdeithion gwchion ac achau Ieirll fonedd[12]
Ac ymhob plwyf mwy mawl[13] anrhydedd

VIII.

Cnawd yngheredigion roddion mewn dyrfa[14]
Ac aml das Ceirch Môch[15] Meirch a Modryda
A garw llais dyn a llawn bai[16] yngorseddfa

IX.

Cnawd ynghemais drais a di resyni[17]
Ac Emlyn yn dyn ai dynnion yn rhoddi
A phebidiog yn daeog a dieithr[18] heb berchi

X.

Cnawd ynghaio gaeau crinion[19]
A chri a chowain ac achwyn ar ladron[20]
A 'geifr yw gwerthu ar oed[21] a choed a Chadache[22] brithion

XI.

Cnawd ym Muellt gwellt a Gwydd[23]
Ac ymhob plwyf llwdn hydd [ilienydd
A morwyn yn dirwyn coel a gwr moel ym-

[1] Ddyfal.
[2] Salwedd.
[3] Coed i cawn.
[4] *Neu*, ar goedydd.
[5] Gan waith.
[6] Gwrs.
[7] Ar gychwyn baner.
[8] Ar.
[9] Chyngan.
[10] Yn rheoli.
[11] Yn ymgyweirio.
[12] Each irllonedd.
[13] A nwyf a mawr.
[14] Yngheredigiaw garedigwydd rhwydd a rhodd mewn tyrfa.
[15] Ceirch Meirch, &c.
[16] Allyn llawn.
[17] A drysni.
[18] Phibidiawg daeawg.
[19] Gae draenion.
[20] A chwain a chwaen o ladron.
[21] A Gwerthu geifr ar oed.
[22] Chadw.
[23] Gweunydd.

XII.

Cnawd yn elfel haelioni
A march a merch a mynych roddi
A Brecheiniog yn llawn brad a chad yn ystrad towri

XIII.

Cnawd Rheudus ni yngwyr[1] hyd ymro
A Gwyr ac arfau yn ymdaro
Rhyngthyn' i hunain bydd gwyth a chostowglwyth ymhenfro

XIV.

Cnawd ym Morganwg ddiwg ddynion
A gwragedd mewn mawredd a muriau gwnion
A gwyr mewn marchnad o garliad a goludog ddynion

XV.

Cnawd yngwent rent aroglau
Ac ymborth a thorth a thir or goreu
Bost am wragedd a maswedd a moesawl wybodau

XVI.

Cnawd yn euas gas ac oerfel
Ynglyn bwch trwch trychu chwedel
A lledrad ynhalgarth a gwarth a gwerth a Chwnsel

AWDL FAR. RHYS GRUG.

Dewi Mynyw.[2]

Llawer deigr hydr aer ar hynt
Hidl am Rys rysfa monwent
Llyw dinefwr gwr gwychblant
Llew trin ai brenin ai braint

Breiniawg Rhys brenin cyfoeth
Brain borthiad cad canhymddaith
Nevd ethol walch weilch hydwyth
Nevd evthym am draig nid aethwyth

Aethwy ym brwyn gwyn geithyw
Eithym heb fed llafvrvd llew
Aeth Rys fab Rys rhos preiddiaw
I ddiwedd fannedd Fyniw

Geir Myniw llyw llew howrffordd
I gwelais Rys ros ymwrdd
Teyrn wawr yn gad fawr fvrdd
Teyrn yn heyrn yn hardd

Hardd llys Rys rhos gaethiwed
Rhwyf llv tra fv i fowyd
Balchgrvg barabl balchgledd drvd
Bar dwys anghymwys ynghad

[1] Rheidussi yn Gwyr. [2] *Neu*, Llywarch Brydydd y Moch.

Cad gyrchiad llafn dorchiad llew
Fv Rys rvglfar rhyddbar liw
Crvg deyrn loyw evrgyrn lew
Crair oedd i lvoedd i law

ENGLYNION EIRY MYNYDD.

Allan o amryw Lyvrau.

I.

Eiry mynydd blin y6'r byd
Ni 6yr neb ddam6ain golud
Nid a traha i 6eryd
Ni phery dim ond enyd
Gna6d gorfod yn ol adfyd
T6yllo g6irion sy ddybryd
Byth ni l6ydd un dyn a g6yd
Ar ddu6'n unig rhown oglud

II.

Eir mynydd g6yn corn m6g
Hoff gan leidr dy6yll6g
G6yn ei fyd a fo diddr6g
Ha6dd cymmell diriaid i ddr6g
Nid da i dig6ydd trythyll6g
Gna6d galanas o hir gil6g
Ar bennaeth bai sydd aml6g
Coelia'n llai'r glust na'r ol6g

III.

Eira mynydd ma6r ar Ros
Gofal Her6r y6 hirnos
Anaml lles o rodio'r nos
Cyn credu myn yr achos
Cam ffordd i ddierth na ddangos
Na 6reicca ond yn agos
Nag anifeilicid[1] ar gefn Rhos
Lly6odraeth g6yr fydd annos

IV.

Eira mynydd ceir g6eled
Nad da mynych nag am ged[2]
Nid cybydd yw pob caled
Na li6ia i neb moi dynged
Heb fai nid heb ar aned
O fynych antur ceir colled
Ni l6ydd a 6neir dr6y hocced
G6aetha stor oll or merched

V.

Eira mynydd mae'n ysbys
Gna6d y difyrr6ch o frys
Dr6g fydd llyferydd beius
Anodd cydfodd eiddigus
Ni fa6r g6sg un gofalus
Ma6r g6en6yn y g6enieithus
Pell amcan y deallus
Ffola dyn y cynfigenus

[1] Enfiliaid. [2] Nad da mynych nag amged.

VI.

Eira mynydd da y6'r hedd
Cyn dechreu g6el y di6edd
Ma6r gofal dyn me6n blinedd
Gna6d adfyd ynol tra6sedd
G6edd6a un peth y6 bonedd
Oni chanlyn rhy6 rin6edd
I 6rthnebu[1] aruthredd
Ystry6 dyn y sydd ryfedd

VII.

Eira mynydd dail ar onn
Tryma dim d6yn gofalon
Caletta cl6y clefyd calon
M6ya cam a dyn g6irion[2]
Nid g6r i'r byd y6'r cyfion
M6y ir ofnir y tra6sion
Dr6y filoedd o beryglon
Du6 a 6eryd y G6irion

VIII.

Eira mynydd melus g6in
P6y a 6yr dranc mab 6rth feithrin
Ni chair parch ar rygynnefin
Nid parhaus lly6ia6dr g6erin
Am bechod y cyffredin
I rydd Du6 annoeth Frenin
G6ir a ddy6a6d Taliessin
Namyn Du6 nyd oes De6in[3]

IX.

Eirà mynydd ll6m ych llog
Bychan Teyrnas i chwannog
Gna6d dyn ifanc yn ddifiog
Aml tro ar fedd6l serchog
Na thyn ch6are ar daeog
Na fydd ry hy ar ry6iog
G6ae'r neb a fo dyledog
Llc bo annoeth dy6ysog

X.

Eira mynydd hoff y6 clod
Ni waeth digon na gormod
Yn ol traha gna6d gorfod
Ma6r y6 cariad aur dafod
Ar ddim na 6na mor difrod
Na[4] ludd i gael y parod
Nid llai'r heiniar er cardod
Cy6ira cydymaith priod

XI.

Eira mynydd Du6 sydd ner
Gnotta c6ymp o'r uchelder
Anhardd ar Bennaeth balchder
Y 6isg oreu i ferch y6 g6ylder
Hardd ia6n ar 6r y6 hyder
G6ell nag Athro y6 arfer

[1] Wrthnifiaw.
[2] Mwya cam cam a'r gwirion.
[3] Nid yw'r ddwy linell yma yn Llyfr Dewi Fardd.
[4] Ni.

G6edi profi ffyrdd lla6er
Mae'r byd i gyd yn ofer

XII.

Eira mynydd llydan mor
Gorau ar hen ei gyngor[1]
Dyro i'th 6ell ei ragor
G6ell celfyddyd na thrysor
Ffol m6ythus ha6dd ei hepcor
Un fodd a llong ar gefnfor
Heb raff heb h6yl nag angor
Ydy6'r ieuanc digyngor

MERFYN GWAWD RYDD AI CANT.[2]

---

2. ENGLYNION ERAILL I'R EIRA O WAITH Y MAB CLAF NEU Y MAER GLAS VAB LLYWARCH HEN.

I.

Eiry mynydd G6yn tir pant
Hy fydd pa6b ar ei fabsant[3]
Ni char g6raig ch6egr na llysblant
Nid gna6d g6eledd gan Anant
I 6rthladd dr6g i roi ffyniant
Ond i Ddu6 nid oes feddiant

II.

Eira mynydd g6yn lla6r bro
Hygar pa6b wrth a garo
Na chabled neb yr eiddo
Dyled ar ba6b ei addo
Ni char ffol ai cynghoro
Ar bob da Duw sydd Athro

III.

Eira mynydd g6yn gaeaf
Pa6b a garant eu g6alaf
Pei g6elef pa6b ei ystoriaf
Odid un dyn dianaf
Cyd boed balch perchen alaf
Nid Ner ond Du6 goruchaf

IV.

Eir mynydd g6yn Ionor
Uchel brig tonn ar gefnfor
G6ae hen a gollo i mogor
G6ae ieuanck ni 6nel gyngor
G6ir a ddy6ed saint Grygor
Namyn Du6 nid oes Bennor

V.

Eira mynydd g6yn tir maith
Bra6d i Fud pob anghyfiaith[4]
Ni dda6 da o ddr6g araith[5]
Ol6yn yn rhych ych yn y 6aith[6]
A wnel Du6 nid a'n ad6aith
Odid o'r cant cydymaith

[1] Gynor.
[2] Llyfr Mr. Davies Bangor, felly ai cair mewn copi arall hen.
[3] Golwg pawb ar ei adfant.
[4] Arwydd drwg mwg yn niffaith.
[5] *Neu*, obeith.
[6] Gwan a gwyn ac ni chwyn d—.

VI.

Eira mynydd g6yn traethell
Ni fa6r ddiolchir rhodd gymmell
Nid anrhegir tla6d o bell
Goreu un tudded mantell
O For a thir a Chastell
Du6 a ed6yn bob dichell

---

3. ENGLYNION ERAILL I'R EIRA.

I.

Eira mynydd g6yn bronn mur
Ni chair g6lad nef heb lafur
Odid cael el6 heb antur
G6ell goddef cam na'i wneuthur
Ysdir[1] nithio yd yn y bo pur
Ond Du6 nid oes Bennadur

II.

Eira mynydd g6yn blaen drain
Gna6d mab taeog yn filain
Ni choelir neb ar ddigrain
Ni 6yr neb beth y6 ei ddam6ain
Os g6ir geirieu 'r Eurgelein
Trythyll6g dr6g ei ddich6ain

III.

Eira mynydd g6yn lla6r tre[2]
Lla6 pa6b ar ei anaele
Nid g6i6 g6ylder rhag eisieu
Ymhob rhith y da6 angeu
O bob creff a phob campeu
G6eddio Du6 sydd oreu

IV.

Eira mynydd gwyn tal bronn
Brodyr pob cydgerddorion
Gna6d ar Eiddig ofalon
G6yn ei fŷd a fo union
Mal i'r a i'r mor bob afon
I'r a i'r nef bob g6irion

V.

Eiry mynydd g6yn maen[3] sarn
Gog6ydd march oddiar ei bed6arcarn
Ni 6na les llyn[4] heb wasarn
Gna6d y6 caru me6n perllan[5]
Ni bydd g6an heb iddo[6] gadarn
Dyn a ddy6aid Du6 a farn[7]

VI.

Eira Mynydd g6yn bronn dar
Y mud a ocar llafar[8]
Nid ha6dd hardd heb idda6 gymmar[9]
Ni ll6ydd hil rhy ddichellgar[10]
Tri thir a ch6d a heiniar
Cesail bryn g6ar pant a thalar

[1] *Neu*, ystyr.
[2] Bre.
[3] *Neu*, tal.
[4] *Neu*, odyn.
[5] Lle g— caredig tafarn.
[6] *Neu*, ei.
[7] Gwae'r neb a roddo gam-[farn. Cesail bryn gwaela talar.
[8] Y myd a ran eg i lafar.
[9] Nid hawdd ardd ych heb gymmar.
[10] Tri thri a chwanega'r heiniar

VII.

Eira mynydd g6yn Gardden[1]
Lla6 lan diogel ei pherchen
Nid oes g6yl rhag rhoddi elusen
Nid oes undydd[2] rhag tynghedfen
Nef a daiar a ffurfafen[3]
I Ddu6 ni allan[4] absen

VIII.

Eiry mynydd g6yn bron g6al
Dr6g fydd penaeth an6adal
Lle bo g6raig serchog anial
Rhaid i'r g6r fod me6n gofal
G6eniaith a chel6ydd anial
Sy'n g6en6yno pob ardal
I'r holl fyd Duw sydd r6nd6al
Ymgroesed pa6b yn ddyfal

IX.

Eiry mynydd hydd ar des
Dr6g fydd gormod o rodres
Ni wna balchder ddim o'r lles
Parabl difalch sydd gynhes
G6ae'r ieuanc diried diles
Ni 6nel cynghor synwyr-les
G6r dysgedig o'i fon6es

X.

Eiry mynydd ma6r y6'r g6la6
Hardd ar ferch fod yn ddista6
Hardd ar 6r ymgell6eiria6
Ni chais neges yn 6agla6
Rhag it gael nag am dana6
G6ell y6 crothell bach yn lla6
Na gleisiad a fo'n nofia6
Ni 6yr neb pa fyd a dda6

XI.

Eiry mynydd g6yn caen ffos
G6g o bell g6raig o agos
Melina i dla6d ei g6ynos
———— a charchar hirnos
G6ir a ddy6ed pob llios
Ni 6naeth Du6 ddim heb achos

XII.

Eiry mynydd g6yn tra red
Eli ci cell agored
Rhediad d6r ar i 6ared
Nid cadarn ond dini6ed
Rhag pob dolur a dr6g dynged
Du6 a ddichon roi g6ared

XIII.

Eiry mynydd g6yn lla6 myg
G6yn ei fyd a fo diddig[5]
I'r m6yaf ei r6ysg a'i ryfyg

[1] Gaden. [2] *Neu*, nawdd.
[3] Yn nef ac uffern a ffurfafen.
[4] *Neu*, ellir. [5] *Neu*, diddryg.

Nid oes o'r byd ond benthyg
Rhag pob dolur a dr6g ddiffyg
Du6 a ddichon roi meddyg
MAER GLAS AI CANT.[1]

---

4. ENGLYNION ERAILL I'R EIRA.

I.

EIRA mynydd ll6m brig[2] ca6n
Ni chydfydd ded6ydd a didda6u
Lle ni bo dysg ni bydd da6n[3]

II.

Eira mynydd pysg yn rryd
Cyrched gar6 culgr6m g6m clyd
Gofal Dyn Du6 ai g6eryd[4]

III.

Eira mynydd miniog rhi6
Ch6annog annoeth i ymli6
Ni 6yr neb p6y pieu heddi6

IV.

Eira mynydd cell[5] hafod6r
Hydd yngarth i6 i barth
Di6edd lleidr caffael g6arth[6]

---

5. ERAILL O LYFR ARALL.

I.

EIRA mynydd brith bryniau
Cyrchid hyddod i'r glynnau[7]
Ni ch6sg Ded6ydd y borau[8]

II.

Eira mynydd g6yn brig ll6yn
Cna6d yngaiaf pilio br6yn
Na chad6 stor o For6yn

III.

Eira mynydd G6yn to Tai
Gol6g pa6b ar a garai
Ni 6yl y diriaid arno Fai

IV.

Tira mynydd G6ydd[9] Tafa6l
G6yn ei fyd a fo ddeddfa6l
Ni bydd dyn diriaid heb ha6l

V.

Eira mynydd rhydd rhydau
Ta6ed doeth anoeth ni thau
Wrth[10] ammh6yll p6yll sy orau

VI.

Eira mynydd dos hediaid
Ond geni ded6ydd nid rhaid
Ni all Du6 dda i ddiriaid

[1] Felly mewn copi arall. [2] Llon blaen.
[3] Gwyn brig gwrysg pysg yn eigiawn.
Crwm blaen gwrysg pysg yn eigiawn.
[4] Hiraeth am farw ni weryd. [5] *Neu*, gell.
[6] Eiry mynydd Hydd yngarth
Cell Hafodwr yw ei barth
Diwedd Lleidr caffael gwarth.
[7] I gymmau. [8] Hun forau. [9] Gwyn. [10] Wrth bob.

VII.

Eira mynydd góyn bronn[1] cla6dd
Cnawd yn eglwys caffael nawdd
Cynghori diriaid nid hawdd

VIII.

Eira mynydd llwm afall
Ni bydd cyfoethog rhygall
Cnawd am air serth un arall[2]

IX.

Eira mynydd llawn beudy
Clydwr dafad yw ei chnu
Ni haedd diriaid ei garu

X.

Eira mynydd cwn yn cyfarth[3]
Glas fydd adladd hen fuarth[4]
Bid drwg gwraig o fynych warth

XI.

Eira mynydd cryn dail gardd
Heb ei gymmer ni cheir hardd
Bid drwg gwraig a fynych chwardd

XII.

Eiry mynydd rhewyd rhos
Gwynfyd herwr yw hirnos
Gnawd uwch ben dedwydd diddos

XIII.

Eira mynydd march cadarn
Ar ei siwrne sathred Sarn
Dyn a lefair Duw a farn

XIV.

Eira mynydd hydd ym mro
Cyrched bryn ai disgwylio
Cas fydd gweled[5] a geisio

XV.

Eira mynydd hydd ar dwyn[6]
Purddu bran pryd i gychwyn[7]
Iach rhydd rhyfedd pa gwyn

XVI.

Eira mynydd brith fy nghi[8]
Gochwiban gwynt uwch[9] gweilgi
Nid esmwyth ymgyflogi

XVII.

Eira mynydd trwm i troes
Cnawd gorphwys y lle bo croes
Gwaetha anaf yw drygfoes[10]

XVIII.

Eira mynydd loyw lyb ia
Trwm ei fyd a brydera
Cnawd o benn trythyll traha

[1] Pob. [arall. [6] Yn llwyn. [wyn).
[2] Gnawd o air serth gael [7] Buan iyrchwyn (gyrch-
[3] Cwn ar barth. [8] Mynci.
[4] Diflas odlau heb gyfarth. [9] Wrth.
[5] Y neb. [10] Anfoes.

XIX.

Eira mynydd gwlyb glan naint
Nid lafurus llaw gywraint[1]
Ni bydd cyttun hun a haint

XX.

Eira mynydd rhudd rhedyn
Gorchwiban gwynt uwch ewyn
Goreu canwyll pwyll i Ddyn

XXI.

Eira mynydd gwynt yn tanu[2]
Gnawd[3] i farn fynych ganu
Ni ddaw da o hir[4] gysgu

XXII.

Eira mynydd Llawn goddaith
Olwyn[5] yn rhych ych yngwaith
Odid o'r cant cydymaith

XXIII.

Eira mynydd llawn aber
Hawd eiriol ar a garer
Hyd tra fych na fydd ofer

XXIV.

Eira mynydd cwn ar graig
Rhewid rhew rhyd yr enaig
Gwae'r gwr a gaffo ddrygwraig[6]

XXV.

Eira mynydd llwm ar ddwr
Rhewid rhew tri argysswr
Gwae wraig a gaffo ddrygwr[7]

TERFYN.

Ereill.

Eiry Mynydd caled grawn
Dail a'r gychwyn llynwyn llawn[8]
Nag ymddiried i estrawn

Eiry Mynydd gwangcus Iâr
Gochwiban gwynt ar daiar
Yn yr ing gorau yw'r câr[9]

Eiry Mynydd glâs morfa

[1] Anhunog pawb yn hen-aint. [3] Nid gnawd. [ty). [4] Ni chair da o dra.
[2] Gwyn ei gnu (gwyn pob [5] Aradyr.
[6] Eiry Mynydd gwynn bronn craig
Cysgod Gwenyn eu Saig.
Gwae 'r gwr a gaffo drygwraig
Eira mynydd brith bron craig
Crin calaf alaf dichlaig
Gwae wr a gaffo ddrygwraig
[7] Eiry Mynydd gwynn bron Twr
Rhewid Rhew hyd argysswr
Gwae 'r wraig a gaffo drygwr
Eira mynydd brith bron twr
Cyrchid anifail glydwr
Gwae wraig a gaffo ddrygwr
[8] Dail yn syrthio llyn yn llawn.
[9] Eira mynydd gwagul iar
Gochwiban gwynt gan flaen ar.
Yn yr ing goreu yw car.

Gnawd Rhyfel y Cynhaua
Ni cheidw diriaid ei dda

Eiry Mynydd gwynn brig gwrŷsg
Gochwiban gwynt yn nherfysg
Trêch sydd[1] anian nag addysg

Eiry Mynydd gwangcus Hŷdd
Odid dŷn atcas dedwydd
Nid ystyr serch ciwilydd

Eira Mynydd llwm yw ŷd
Gnawd dyn atcas heb olud
Pawb a gnîth Cedor ynfyd

Eiry mynydd gwynn gorwydd
Gnawd gelanedd yn fforestydd
Gwaetha gwir yw gwaradwydd

Eiry Mynydd Hydd ar dês
Hwyad ar llynn cynn achles[2]
Hwyr hen hawdd ei orddiwes

Eiry Mynydd llwm brig Onn[3]
Go chwiban gwynt gan flaen Tonn[4]
Trydydd Troed i hên ei ffonn

Eiry Mynnydd gwynn bronn rhych
Gafael gan ŵr grym gan ŷch
Gwell dynoliaeth da na drych

Eiry Mynydd glas gwyddfyd
Naturiaeth pawb a'i dilyd
Ni bydd doeth yn hir mewn llid

Eiry Mynydd gwyn to tai
Bei traethai dafod[5] a wypai
Ni byddai gymmydawg neb rhai

Eiry Mynydd rhewid Rhos
Gwynfyd Herwr yw hirnos
Gnawd pob dedwydd yn niddos

Eiry Mynydd yn gofrenydd
Gnawd bod dâ dan law dedwydd
Yn mhob dirgelwch Duw a fydd

Eiry Mynydd glâs Egin
Gnawd gofal wrth gaffael trîn
Lle ni fynn Duw ni bydd dim

Eiry Mynydd Brain yn nhraeth
Celfydd caled ei arfaeth
Ni thyrr Duw ar a wnaeth

Eira mynydd gwyn ceunant

[1] Drwg.
[2] Hyfaidd yn llyn gwyn aches.
[3] Hydd ym mron.
[4] Uwch blaen on.
[5] Ceudawd.

Llawer dau a ymgarant[1]
A phyth ni cyfarfyddant

Eira mynydd hydd esgud
Gnawd ymhrydain gynrheid drud
Rhaid oedd deall rhyalldud

Eira mynydd hydd ar dro[2]
Chwerddid bryd wrth a garo
Cyd dyweter wrthyf chwedl mi a adwen
fefl lle y bo

Eiry mynydd hydd esgud
Odid am didawr o'r byd
Rhybydd i drwch ni weryd

Ereill.

Eiry Mynydd Hydd ar ffô
Go chwiban gwynt ym mlaen to
Nid ymgel Cariad lle bo

Eiry Mynydd tywyll Celli
Purddu Brân buan Milgi
Nawdd Duw rhagod ddireidi

Eiry Mynydd caled grawn
Go chwiban gwynt ymlaen cawn
Lle ni bo Dysg ni bydd Dawn

Ereill o'r Llyvyr Coch.

Eira mynydd graenwyn gro
Pysg yn rhyd elyd i ogo'
Cas fydd a oreilyto

Eira mynydd hydd ar darf
Gnawd gan gynrhan eirian arf
A disgyn bar ar farf[3]

Eira mynydd hydd cyngrwn
Llawer a ddywedais os gwn
Annhebyg i hafdydd hwn

Eira mynydd hydd hellawd
Gochwiban gwynt i uch bargawd
Twr trum aur yw pechawd

Eiry mynydd hydd ar naid
Gochwiban gwynt uwch gwenblaid uche
Gnawd tawel yn delaid

Eiry mynydd hydd ym mro
Gochwiban gwynt ymlaen to
Nid ymgel drwg y lle y bo

Eiry mynydd hydd ar draeth
Collid hen ei fabolaeth
Dau corem a wna dyn yn gaeth

[1] Rhag rhuthr gwynt gwydd gwyrant.
[2] Eira'mynydd ffel cadno.
[3] Ac escynnu o du corf.

Eiry mynydd hydd mewn brwyn
Oer mignedd medd yngherwyn
Gnawd gan bob anafus gwyn

Eiry mynydd hydd yn ffos
Cyvyd lleidr a hirnos
Cysgid gwenyn yn ddiddos

Eira mynydd cynglenydd afon
Hwyrweddawg ynghynydd
Ni moch dial mefl merydd

Eira mynydd pysg yn llyn
Balch hebawg vacwyawg unbyn
Nid ef a geiff pawb a ofyn

Eiry mynydd coch blaen pyr
Llidiawg lliosawg ongyr
Och rhag hiraeth fy mrodyr

Eira mynydd buan blaidd
Ystlys diffeithwch a draidd
Gnawd neb anaf ag diaidd

Eiry mynydd hydd nid hwyr
Digwyddid gwlaw o awyr
Megyd tristyd lledfryd llwyr

Eira mynydd eilon ffraeth
Gowlychyd tonau blaen traeth
Kelfydd celed ei arfaeth

Eira mynydd hydd mewn glyn
Gwasdad vydd haf araf llyn
Barflwyd rhew glew i erchwyn

Eiry mynydd brith bron gwydd
Cadarn fy mraich am ysgwydd
Eiddunaf na fwyf ganmlwydd

Eira mynydd hydd yn nghoed
Na cherdda dedwydd ar droed
Mecyd llwfr llawer addoed

Eira mynydd hydd arnaw
Hwyad yn llyn gwyn alaw
Diriaid ni myn gwrandaw

Eira mynydd coch traed ieir
Bas dwfr men yd lefeir
Anchwanecyd mefl mawreir

Eira mynydd gwyn ei gnu
Ys odidawg wy ——— ku
O gar gyda mynych athreiddu

Eiry mynyd dydd ai droeth
Bid glaf bob trwm llwm llednoeth
Gnawd pob anaf ar anoeth DIWEDD.

GORCHAN Y MAIN GWYRTH.

TALIESIN AI CANT. O L. H. Y.

PAN gyfyd gorsedd o'i gorweddfa
A chyrch maen Gwyrth gan gymanfa
Ag elgan edwain ar lawr Gwyddfa
A phawb yn cyfarch parch i'r penna
Yna bydd creulon balchder a thraha
A'r cam ar gadfarch a'r gwir yn isa
A'r cywir dan garn yn y sangfa
Ag ymladd ym mhob Gwlad gan luedda
A laddo lle'r el a fydd penna
A ddywetto 'n groch a fernir yn ddoetha
Yna i rhifer y gŵr draw ag yma
A phrin yr ymborth ag eisiau bara
A meirw gan ddrud ymud yma
Yna syrth yn ein plith chwith gymanfa
A'r Gormes an cymmhell i'r ffordd bella
Pan daw ewig lwyd i fynydd Asa
A'r Eryr at wŷr i ben Garth-Ganna
Gwae frodir Essyllt gan ai treisia
Gwyn fyd ym Mhowys y cyfrwysa
Gwibiolion ddynion heb Aneddfa
Gobaith a dderfydd gan hir draha
Gwystlon yn drychion a gyrchir i drennfa
Y Paun o'r Llwyfenni au cymmell i'r [ddalfa
Gwyddyl ar y tir a welir yna
Ag i Faelawr fawr yr ymgyfeiria
Yna y bydd dedwydd Brynn y Wyddfa
Ag o hynny allan Sais a ddiflanna

TALIESIN BEN BEIRDD ai cant o Flaen Arthur yn Nghaerlleon ar Wysg.

LLYMA DDAROGAN

A GANT HEININ FARDD I FAELGWN GWYNEDD. O L. H. Y.

I.

CYNTAF daroganaf o'm daroganair
Cwynfan Brynn Melarth cad gyflefair
A'r Gwanwyn dunoeth a'r dygn Gyngrair
A sul y Pasg gwyl gyhydedd Gwen Fair

II.

Daroganaf arnaw yr Haf hir felyn
A phob Dyffryn yn llawn o'r grawn di-
newyn
A goresgyn llydan y Rhydain llwydwynn
Lle daw ai arfau ai blaid i'r gorllewyn
Llew goruchel Rhyfel yn goresgyn
Lle bynnag y del y bydd derwyn

III.

Gobaith rhagllaw y daw i lywenydd
Yn ymgyweiriaw a phob deunydd
Gwyr a Meirch Llydaw llydan eu lluydd
Yn rhoi 'r alanas ar elorwydd

IV.

A llynges draw yn hwyliaw i'r Wenn Ynys
Addaw Llydaw llwydion eu hemys
A dig ymarwar moroedd dyrys
Yman a ddaw gan ddewr ymgyfrys
Prifion milwyr arfog yn eu hystlys
Am Frynn Dinewyr dydd a'u dengys

V.

Pan ddel llu dihafarch o barth gogledd
I Aberdaugleddau heb ymyr ommedd
Ag i Aberhodni deuant diau y diwedd
Gwae wynt y Beilchion gwyn eu byd lle bont yn hedd
Pan ddyffo Dofydd yn Nialedd
Ys damgel a fo da ei fuchedd

VI.

Llu tramawr yn helau tonnau Teifi
Uchel eu rhwysg rhwyf rhyddyfysgi
Tair breuddwyd a brofir
Eu bod yn wir a gwir
Tair Rhandir yn ymrysoni

VII.

Tair Blynedd o'u blaen wynt a glywir
Tair naw a ddwg ffrwyth wedi 'r wyth y gwisgir
Tair Asgell ar well a gynhelir
Tair buwch mewn buarth ni welir
Tair anesgor a wasgar bob rhandir
Tair gwraig anniwair ar lawr mae'n gywir
Un yn lle y ddwy a gynhelir
Cynnullawg yw'r amser gwelir
A Lloegr i'r Llew a orestyngir

VIII.

Mi a ddanfonaf faen a thri mor ynddaw
Ag a wnaf gafod a main brwd i'th ddystrywiaw
Mi a wnaf baladr yn gadr o Lydaw
Mi a ddanfonaf dy aelodau cyn peidiaw
A'th eppil a'th had gad gynhulliaw
At y cwn ar bleiddiaid a'r brain iw bwyttaw
Mi a ddanfonaf anwiredd i'r lle y daw
Mi anfonaf wledd o'r sygnedd i'r neb ai haeddaw
Mi anfonaf ddiwedd i'r anghywirion
Mi anfonaf rad yn y mor a'r donn
Mi anfonaf wiail Beirddion i flodeuaw

IX.

Mi osodaf ffynon yn yr uchelion
Mi osodaf rhyfel rhwng hen elynion
Mi osodaf lanw mewn saith afon
A llid llif Tonn
Yn saith Aberon
Mi anfonaf nifer yn berchennogion
Mi osodaf blu ar y rhai noethion
Ag a rof iechyd i'r rhai cleifion
Fal y bo'r byd am hyun yn ymryson
Mi osodaf y cyfoeth rhwng annoethion
Fal y bont gurawg gan ymryson
Mi osodaf hedd a choledd i bob cyfradlon
Pum naw a ddeholant Estronion
Pum tri yn ymryson
Yn bleidiau blinion
Gracia Tempora terra
Tarw maen mawr i'r llawr a ollynga
Llynges o foroedd a dramwya
Hyd amdiroedd Ammyr mein a'u harweinia

HEININ BARDD MAELGWN GWYNEDD AI CANT.

PROPHWYDOLIAETH Y BERGAM O FAELOR.

O L. H. Y.

I.

Traethaf yt fardd daf
Cyd cyfanned o gof a'th gaf
Diymgyd a byd bydaf
Bryd ar hunaw
Traethasom awenydd
Y dydd y daw cynnydd
Ar fro ag am foydd
Heb orddwyn cwyn cilydd
Caled ddifiaw

II.

Pan ffrwytho coedfryn
A châd ar y Brynn gwynn
A choelfain byd cynglyn
Conglau dreiddiaw
Pan chwarddo Ofydd
Lle'dd ymgyferfydd
Yn niffaith maith mynydd
Ag yn y sylf o dan y gwydd
Dydd ymdeithiaw

III.

Arth o Feli a rydd
Ryddyd a chynnydd
I Bowys dwys drefydd
Ag i bob Cymro y bydd
Pawb cyfun ai gilydd
Un cyfar cyfannydd
Ar y byd a ddyfydd
A heddwch hir ysblennydd
A fynno Duw diau y bydd

BERGAM O FAELOR AI CANT.

PROPHWYDOLIAETH IEUAN TRWCH Y DARAN.

O L. H. Y.

Pennau'r Byd i'r llawr a ddigwyddan
Mab y Dyn a'r Eryr o hynny allan
Y Byd ai holl wledydd a feddianan
Yna bydd Tangnefedd a llafar y Gan
Hyd wyneb y byd a phob diddan
Ag ar y ddaiar daioni cymman
Ag ymchwel gwynfyd i bawb yn gydgyfran
Ag i Dduw'r gogoniant yn yr uchelfan

Y MAB CRYG A'I CANT.

O L. C. II.

Duw diadnair a mair mae'r cynghorion
A wnaf rhag lladron dynion dannod
Aethpwyd am teiriair taeriaith ffyrnigrwydd
Tramgwydd naws arwydd y nos arall
Ni fu[1] ryw lefain damwain dymmestl
Ac a fu echos i'm diddos dy
Er pan laddawdd cawdd y cath losgyrngrin
Y ci lledfegin llwyd a fegais
Dyfod y carnlleidr gwrmeidr garnal
Ac yspeilio'r ty hyd nos tywyll
Arfaethu mynnu cawell mynnaedd teg
A dwyn fy nhaedeg murchweg mawrchwedl
Edrych a orug ffug uffern drum
Ar hyd y ty clyd bryd bredychfoes
Ac arganfod rhidyll y tringod
A drylliau fy ffon drwy'r un ffenestr
Cafas y lleidr was gyda'm llawdr wael
Cyfaillt anniwyd bryd i brydydd
Crib ffyrtling nidling neddwallt gymmanfa
A llwy droed gwtta drud a gattel
Hirgrog i'r diriaid oer daid od ai
Am gwal poen gofal hyd pan gafas
Hengod fyngwhegr rhwng hengist at-hil
A thyllau gwiril yn y gwarag
Nid edewis ym dim grym grymiant
O'r trysor trawsfyg lawdr byg bagan
Dieithr clwyd nawieir bywion hwngyrdlawd mellt
Wrth dda reffyn wellt gyssellt gasaf
Cigfrain a weler uwch y wilers
Yn dial f'anrhaith gwaith gwythlonder
Ar ddinas maelawr lle mae molest sôn
Ysgwyd pren lladron am eu lledrad

Neu, bu.

Y MAB CRYG AI CANT.

O L. C. H.

Crist Crair unmab mair mawr ryfeddod
Am gri bilain sais trais wtreswr
Nad a hëyrn chwyrn chwyrndwrch gwaddawd blas
Y doeth y lleas cyn glas gloeslif
Can oedd celwyddawg rhochgawg rhechgawr
A ffalst ac anghlaer murdaer mawrdwyll
A ffugiawl trethawl truthain amrhydferth
A serth ac anferth swrth ac ynfyd
Am fy ngharcharu tru tra digter
Trwy weithred Griffri cablgi cwblgas
Prif afonydd rhydd rhwng Gwy a hafren
Modrybedd cymmen mi ai cymmerth
Un oedd defeidiad ddifrad ddyfrys
Enwog brif afon tros Fôn traws fodd
Eurgaddug can dug y dogi gwaddawd saig
I'r oreu carrwraig yn dwyn corwrysg
Ar ail dwfr gynnail deifr ar gynnwrf
Oer yw i ddedwydd cerydd cares
Dig oedd Ieithon son seingul raeawdo
Deffro rhwyd ortho be rhaid wrthi
Trydedd mawr gochwedd er marw gychwedl
Bei ceffid trwy lid adled bu erw
Ofer gleiriach sach sarrug ei wagffon
Afon cymmaron ai cymmerai
Ceisiaw Griffri ddeifrgi ddwfrgwymp
Gwnaeth ar ei thrawsryd pyd pedwardyn
Glawedawg feinawg fwynaf cyfnithderw
Clwyflif dros ganerw glwysferw glasfor
Porth Duw i'r pontpren llethr asgen llithr
Ar saer ai dodes yn odidawg
Am ddychwelu cnu cnecc bwch gynhorthwy
Gan felyn fordwy falaen fawrdwysg
O gwlychawdd Griffri cri crin foelfors
Uchlaw Trefycclawdd fawdd faethgennau
Syched ei ffilcas bengam ffwlcwd wyll
Dibwyll arth ffwrndwyll wrth ufferndan

Y MAB CRYG AI CANT.

O L. C. H.

Duw am rho deall call rhag cellwair
Dyn wyf yn gwarthrwyf oddigarthref
I brydu canu ceinwawd gyfiawni
I walch balch bylchwin fyddin faddau
Coethrydd hael Ddafydd cynnydd cannyn
Caith a ddioddef rhag llef a llosg
Carcu cil eiddil eiddun hedd ddichlais
Cerennydd a Sais rhag trais traethawd
Ni bu ddigon rhydd greddf onnwydd grym
Balchwyr clod ddadweir mawreir meurig

Pan fu glau 'r hyntau yn Norhamtwn dref
Pan oedd ddioddef ynglef Englis
Cyffelyb a'r son y digones
Dafydd yn nhrefydd seisnig ryfedd
Ac y digones deg anwych dercyn
Maredydd ar llynn yn Llann Rhystyd
Pan welas Dafydd hwylddydd haelddeddf
Y gwyr yn ymgur tyst ddolur tost
Myfyr oedd gantaw rhac antur ymladd
Brwydr nadd gwyrs mawrradd gwers y meirw
Can ni ddel yngawr llawr llwyddgyrch
Maith yw ei wirawd a'i wasgawd wisg
Llyw rhwysg Beirdd hyfrwysg rhwng hafren a Gwy
Lle ynu i ofwy drwy dref Raiadr
Can ni bon undad mad ymodwrdd
Maredudd gyfiawn dawn a Dafydd
Brodyr ungalon wrth ymgiliaw ynt
I goed gad luchynt i gydlechu

YR IUSTUS LLWYD A'I CANT.

O L. C. H.

I Dduw y diolchaf
Dewin plant Addaf
A'i Ddoniau cwplaf
Euraf eryr
Caethed ym faerdy
Coeth iawn yw hynny
Fal cwthr iar anhy
Yn eirina
Gruffudd iarll Mawddwy
Groth hanner aerwy
Grwth brau mewn burwy
Wrth hen bared
Grem llem llo truan
Groen hoen hen weinian
Gyrrawdd fi allan
Garran ellyll
Gwyr nid gwiw i fro
Gwarrog aseth dro
Gwyredd llo yn ffo
Rhag dwy ffiol
Gwaeg budrgengl rawn
Gwywedd henraw fawn
Gweddaidd yw ei ddawn
Dilawn deulu
Gwarant ef ni eill
Er gwarae eraill
Gwyrawdd ei ddwygaill
O eiddigedd
Gwe he hen ddyfrchwil
Gwain fain faw rombil
Gwae a gais ymbil
A'i gas henbeth
Gwyd fryd frys godech
Gwadd glaf glun ffallech
Gwedd elech feinsech
Drwg fu f'ansawdd
Gydag ef echnos
Heb gudeb agos
Gedor bran wythnos
Wrth bren aethnen
Bum yn dirwestu
Bawa dyn a fu
Bwa gwrych tradu
Gwrâch mewn troedog
Yn Llys Ruffyddyn
Llef cath mewn odyn
I'm llas o newyn
Ar llawr ei neuadd
Ynghroth loth ledpai
Ynghred na's llanwai
Nid mawr i'm dygai
Y mae'r digelo
Na bwyd na diawd
Na medd na bragawd
Dam mawd yn wassawd
Tan ei weision
Gruffudd ysgeler
Groth efnys tryfer
Gwddf amner maelier
Wrth glun miliast
Breiddfyw yw Gruffudd
Ebrwyddfudr drabludd
Bryd ffrwyn o goludd
Y bengaled
Brys bran yn corddi
Braich adain eli
Brwyd o grwyn dyfrgi
Gan adargwn
Brenin cwm llygod
Braidd fu ymddyfod
A'r lle anorfod
Uwch Llanurful
Pennaeth moel Benddin
Heb gael pynnau gwin
Pin wrth din yswin
Heb hossanau
Gwedi mod noswaith
Gwell myned ymaith
Yn y llys diffaith
Gerllaw ystyffwl
Gwag oeddwn dranoeth
Yn gadu'r cyfoeth
Fel bran esgeirnoeth
Brin ysgornach
Yscornach codowrach[1] ci
Ys gwyr newyn hoenyn hwch
Ysgwydd cylionyn isgell
Ysgawd o fewn bargawd bwth

[1] *Neu*, cod owrach.

YR IUSTUS LLWYD AI CANT.

O L. C. H.

Madawg gorymnawg gwr anelw ei fyw
Gwas drygryw ceillsyw collswydd Rhydderch
Medrawdd ni gedawdd ei hen gadach ym
Nid modur gwiwrym minllym manllaes
Madws i'r bawdlws bodlon ni byddaf
Ni chaf y gauaf dim o'i gyfoeth
Medr goelgant ramnant ramiwr[1] puteiniaid
Moelsaid nid callnaid yn oed collnef
Mair a'i mab gwir grair gwawr Grist gymmyrredd
Yssydd anrhydedd marannedd mad
A ddifao y llo lleithgabl o wanas
A gan denebras ar din ebrwydd
Ar wair mul-gont gul gant gwas faidd fordwy
A'i mwn mal aerwy march Maelorig
Hawdd ganthaw addystr pe i herchid
A phyth ni cheffid odid eden
Eddewis er's[2] mis a mwy no blwyddyn
Ym ei gedechyn cefndedyn cul
Sorrais na's cefais cyfyng offeiriad
A'i dad oedd reiniad taergad dyfrgwn
Swrcodan druan adrywedd noethi
A fu am Fenlli yn hen fonllawdr
Hi a fu yngwydd llu fab Llyr llediaith
Hi a fu gauwaith yn hen gonach
Hi a fu am wyneu[3] wenn cabl rheidusion
Hi a fu am Wydion ac am Eudaf
Hi a fu yn rhynnu 'n oes rhau duran
Hi a fu yn lluman cregyn llenmeirch
Hi a fu yn babwyr i'r aurbibau
Hi a fu yn llymu rhag llymed ei charn
Ar ol pais Badarn rhac pas bydawl
Hi a fu yn nychu yn achos ei haint
Hi a fu am Eraint ac am Arwy
Hi a fu yn gwasgu gweisgion ar fara
Hi a fu'n Sacsonia y mewn Senedd
Hi a fu'n gresawu Sawel benuchel
Hi a fu'n gawdel i hen Gadell
Hi a fu'n mygu ynghylch megin ledr
Hi a fu am fam Bedr yn cael bedydd
Hi a fu'n cyrchu cyrch ebawl cattus
Hi a fu am Fruttus yn hen frettyn
Hi a fu yn malu ym melin Reinallt
Ar hyd cae llugallt yn rhwyd llygod
Hi a fu yn tyllu nid dillyn clerwr
Hi a fu yn Neuddwr ac yn neiddef
Hi a fu yn llechu lluwch Eiry mynydd
Bellach am gybydd ymae'n hen gebystr
Hi a fu'n crynu rhac crined ei llain
Hi a fu'n llefain am hên llafais[4]
Hi a fu'n tarnu turnen wraig fab Pyll
Hi a fu yn bebyll i hen Babo
Hi a dynnwyd yn rhwyd ar hyd cwm sasnast
I geisiaw dyfrast yn ei dwyfron
Hi ni chât trwy frâd mae'n fradw ei llun
Gan berchen corun byth ni'n curied
Madawg yw hwnnw meudaf llwy haiarn
Calon cul faen sarn carn corn iyrchell
Gwisgawdd am danaw uch Dinerth yn Rhos
Swrcod anniddos cylch cylch ei neddair
Byth yn rhodd o'i fodd nid Rhydderch gampau
Noeth yw fy ysgwyddau anosgeiddig
Ni welir am ddyn eddewid ganthaw
Ni ddaw o'i ddurllaw Fadawg ddyfrllyd
Madyn gi gelyn gogaled wyncu
Yn y ddel esgob du o din dyfrgi
Hi a ddoeth yn noeth o neithiawr Franwen
Hyd yn Llys Facsen nid llaes focsach

[1] *Neu*, rimiwr. [2] *Neu*, es. [3] *Neu*, wyncu. [4] *Neu*, llawes.

OFFICIUM B. MARIÆ.

Gwasanaeth Mair wedi ei dynnu o'r Lladin Ynghymraeg y gan Ddafydd Ddu o Hiraddug hyd mae pawb yn tybiaid ac a gopiwyd yma er mwyn cael gweled y dull oedd gan yr oes honno ar gyfieithu.

O L. E. D.

Hyn a ddywedir o flaen pob awr—Henpych gwell Fair cyflawn o rad Duw gyda thi bendigaid wyt ym mhlith y gwragedd a bendigedig yw ffrwyth dy groth di Iesu. Amen—Arglwydd agor fy ngwefusau. Am genau a fanaig dy foliant. Duw ystyria yn gynhorthwy ym. Arglwydd brysia i'm cymmorth Gogoniant i'r tad a'r mab a'r yspryd glan. Megis ydd oedd yn y dechrau ac y mae yr awr hon ac yn wastad ac yn oes oesoedd. Amen.

Salm 95.

Deuwch ymddrychafwn wrth yr Arglwydd canwn i Dduw ein iachawdur ni. Rhagachubwn ei wyneb ef ynghyffes a chanwn Sailm iddaw. Canys Arglwydd mawr yw Duw a brenin mawr ar yr holl dduwiau can ni wrthladd yr arglwydd ei blwyf canys yn ei law ef y mae holl derfynau y ddaear ac ef a edrych uchelder y mynyddoedd. Canys of a biau y mor ac a'i gwnaeth ai ddwylaw a seiliawdd y dywarchen. Deuwch, addolwn a syrthiwn rhac bron Duw wylwn yngwydd yr Arglwydd a'n gwnaeth. Canys ef yw ein Harglwydd ni a ninnau yw ei bobl ef a defaid ei borfa ef. O chlywch heddyw ei lef ef na chybydded eich calonnau megis ynghellwair herwydd dydd prawf yn y di-

ffaith yn y lle ydd ym brofasant eich tadau chwi—hwynt am profasant ac a welsant fy ngweithredoedd. Deugain mlynedd y bum gyfnesaf ir genhedlaeth hon a mi a ddywed ais y mae eu calonnau yn wastad ynghyfailorn ac nid adnabuant hwy fy ffyrdd i. Wrth y rhai y tyngais yn fy llid na ddeuynt i mewn i'm gorphwysfa. Gogoniant i'r tad &c.

Emyn. Quem terra pontus &c.

Mair addwyn forwyn fawredd a ymddug
Y gwr a'i gorug o'i drugaredd
Mawr foliant mab sant saint orsedd nefawl
Mair ddeddfawl ddwyawl ddiwael bensedd
Môr llafar daear duedd ac awyr
Hael a lloer yn llwyr llwrw teyrnedd
Mair greawdr llywiawdr llyw hedd tŵr doniau
Tair ffyrf defnyddiau gwiw radau gwedd
Mirain wyry ysgain osgedd gwynfydig
Wyt Fair fawrhydig fawr anrhydedd
Morwyn yn ymddwyn em ddawn feuedd[1] byd
O ysbryd gleindyd glan etifedd
Moliant gogoniant gwnedd i'r Drindawd
Tair person undawd undeml fonedd
Amen.

Salm 8.

Arglwydd ein harglwydd wyt a gwyllt a gwâr
Mor·rhyfedd dy henw yn yr holl ddaear
Canys drychafedig yw dy fawredd
A'r uchaf nefoedd Dduw ben teyrnedd
O enau maibion yn dyfnu gwnaethost foliant
I ladd dy elyn a dialwr chwant [edd
Can gwelaf nefoedd gwaithredoedd dy fys-
Lloer a ser y rhai a seiliaist i'th anrhydedd
Beth yw dyn canys coffei ef
Neu fab dyn a dramwy o nef
Lleiheist ef noc engylion gwisgaist o goron enrhydedd
A gosodaist ef ar weithredeodd dy ddwylaw o'th drugaredd
Pob peth a ddarestyngaist dan ei draed ef yn rhydd
Defaid ac ychen ac anifeiliaid y maesydd
Ehediaid nef a physgod y wailgi
Y rhai a hwyliant lwybrau môr heli
Arglwydd ein harglwydd wyt a gwyllt a gwar
Mor rhyfedd dy enw yn yr holl ddaear
Gogoniant i'r tad &c.

[1] *Neu*, reufedd.

Salm 19.

Gogoniant yr arglwydd a ddatgan y nefoedd
A'r ffurfafen a ddengys ei ddwylaw weithredoedd
Dydd i ddydd a ddiguddia gair diwyd
A'r nôs a ddengys i'r nos gelfyddyd
Nid oes barablau nac ymadroddion
Ar ni chlywo llefoedd y gwyr doethion
I bob tir ydd aeth eu sain ac eu llafar
I ymylau cylch y ddaear
Yn yr haul y gosodes ei annedd a'i gell
Ac yntau mal gwr priod yn dyfod o'i ystafell
Ymddrychafawdd fal cawr i ffordd ryediad
Bu o nef uchaf ei hynt fynediad
Ai gyferbyniad hyd uchelder
Nid oes a ymguddio rhag gwres ei gallder
Difagl gyfraith yr arglwydd a ymchwel eneidiau y rhai truain
A'i gwir dystiolaeth a ddyry ddoethineb i'r rhai bychain
Cyfiawnder Duw a lawenhaa calonnau ar naid
A'i eglur orchymmyn a oleuhaa llygaid
Sanctaidd ofn Duw a drig yn oes oesoedd
A'i farnau a gyfiawnheir ar gyhoedd
Eiddyn ynt yn fwy nag aur nac emmau
A pherach ynt no mel a'i ddilyfau
Ath was a'i cedwis yn ddianwadal
Ac am eu cadw dirfawr iawn fydd ei dal
Pwy a ddyaill ei feiau glanhaa fi o'm dirgeloedd
Arbed ith was am ei arallion gamweithredoedd
Onid arglwyddasant arnaf difagl fyddaf
Ac ef am glanheir o'r gweithredoedd mwyaf
Ac ef a ranga ei fodd ymadroddion fy ngenau
A meddwl fy holl galon ger dy fron dithau
Arglwydd fy nghynnorthwyawdr
Tydi yw fy mhryniawdr
Gogoniant i'r tad.

Salm 24.

Duw biau y ddaiar a'i chyflawnder
Byd y daierydd a'i breswyl nifer
Canys ar y moroedd ef a'i seiliawdd
Ac ar yr afonydd ef a'i cyweiriawdd
Pwy a esgyn ar fynydd yr Arglwydd
Neu pwy a saif yn ei santeiddrwydd
Diargywedd o ddwylaw a glan o galon
A diorwag ei enaid a difrad i'w gymmydogion
Hwn a gaiff fendith gan y creawdr
A thrugaredd gan Dduw ei Iachawdr
Hon ydyw'r genhedlaeth a'i cais efo

Ac a wyl wyneb Duw Arglwydd pobl Iago
Agorwch eich pyrth dwysogion a chenwch foliant
Ymddrychefwch dragywydd byrth i frenin y gogoniant
Pwy'r brenhin gogoniant hwn a ddaw attam yn ddirgel
Arglwydd cadarn cyfoethawg a galluus yn rhyfel
Agorwch eich pyrth dwysogion a chenwch foliant
Ymddrychefwch dragywydd byrth i frenin y gogoniant
Pwy'r brenin gogoniant hwn wrth gael moliant
Arglwydd y nerthoedd yw brenin y gogoniant
Gogoniant i'r tad &c.

Llith Luc 1, 26.

Gabriel a anfoned yn gennad y gan Dduw i ddinas yn Galilea yr hwn a elwir Nasraeth i briodi morwyn a gwr a elwid Ioseph o lwyth Dafydd. Ac enw y forwyn oedd Mair. A phan ddaeth yr angel i mewn attai y dywawd ef hanpych gwell Fair gyflawn o râd Duw gyd a thi bendigaid wyt ynghyfrwng y gwragedd. A phan gigleu Fair hynny cynhyrfu a wnaeth a meddyliaw pa ryw gyfarch oedd honno.

53. Tri thom edystyr ynys Prydein. Gwineu Guduc hir march Kei. a Grei march Edwin. a Llwyd march Alser mab Maelgwn.

54. Tri gorderchuarch ynys Prydein. Fferlas march Dalldaf eil Kynin. a gwelugan gohoegein march Caredic vab gwallawc. A Gurbrith march Raawt.

55. Tri phrifuarch ynys Prydein a dugant y tri marchlwyth. y mae eu henweu dracheuyn.

56. Tri gwrveichyat ynys Prydein. Pryderi mab Pwyll pen Annwn wrth voch Pendaran Dyuet y datmaeth ac ysef y katuei y glyn Cuch yn Emlyn. ac ys ef achaws y gelwit hwnnw yn wrueichyat. Kany allei neb na thwyll na threis arnau. Ar eil Drystan vab Tallwch wrth voch march fab Meirchyawn. Tra aeth y meichyat yn gennat ar Esyllt. Arthur a March. a Chei. a Bedwyr a uuant oll petuar ac ny chawssant cymmeint ac un banw, nac o dreis naç o dwyll nac o ledrat y gantau. ar drydyd Coll vab Collvreuy wrth voch Dallwyr Dallben ygglyn Dallwyr yg Cernyw. ac un or moch oed dorrawc Henwen oed y henw. a darogan oed yr hanei waeth ynys Prydein or torrllwyth. Ac yna y kynnullawd Arthur llu ynys Prydein ac yd aeth y geissyaw y diva. Ac yna y daeth hychen yngordodu. ac ym Penryn Austin yg Kernyw yd aeth yn y mor. ar gwrdueichyat yn y hol. ac ym Maes Gwenith yg Gwent y dotwes ar wenithen a Gwenynen. ac yr hynny hyd heddyw y mae goreu lle gwenith yg Gwent. ac yn Llouyon ym Penuro y dotwes ar heiden a gwenhithen. ac am hyny i diarhebir o heid Llouyon. ac yn riw gyvnerthwch yn Arvon y dodwes ar geneu Cath a Chyw Eryr. Ac y rhoed yr eryr y Vreat tywyssawc o'r gogledd ac wynt a hanfuant waeth o nadunt. Ac yn Llanueir yn Aruon a dan y maen du y dodwes ar geneu Cath, ac y ar y maen y byryawd. y gwrveichyat yn y mor. a Meibon Paluc y Mon ae Magassant yr drwc udunt. a

honno uu gath Paluc. ac a vu un o deir prif ormes Môn a vagwyt yndi. ar eil oed Daronwy. ar drydet Etwin frenhin Lloegr.

57. Tri anuyl llys Arthur, a thri chatvarchawc, ac ny mynnasant penteulu arnynt eiryoet. ac y Cant Arthur eglyn.

Sef yu vyn tri Chaduarchawc
Mened a Llud llurugawc
A cholouyn Kymry Karadawc.

58. Tri eurgryd ynys Prydein. Caswallawn vab Beli. pan aeth y geissyaw Flur hyd yn Rufein. a Manauydan uab Llyr pan uu hyt ar Dyuet. A Llew llaw gyffes pan uu ef a Gwydyawn yn ceissaw enw ac arveu y gan aranrot y uam.

59. Tri brenhin a vuant veibon eillon. Gwryat vab Gwryan yn y Gogled. a Chadauael vab Kynuedw yg Gwyned. a Hyseid vab Bleidic yn Deheubarth.

60. Tri budr Hafren Katwallawn pan aeth y weith Digoll. a llu Kymru gantaw. ac Etwin o'r parth arall. a llu Lloegyr gantaw. ac yna y butrawd Havren oe blaen byt y Haber. Ar eil kyuarws Golydan y Gan Einyawn vab Bled brenhin Kernyw. ar drydet calain uerch Idon vab Ner y gan Vaelgwn.

LLYMA

DRIOEDD YNYS PRYDAIN:[1]

SEF YDYNT TRIOEDD COF A CHADW A GWYBODAETH AM HYNODION O DDYNION AC O BETHAU A FUANT YN YNYS PRYDAIN AC AR DDAMWAIN A DAMCWYDD I GENEDL Y CYMRY ER YN OES OESOEDD.

CYFRES III.

1. TRI enw a ddoded ar Ynys Prydain o'r dechreuad: Cyn ei chyfanneddu y doded arni Clas Merddin, a gwedi ei chyfanneddu y doded arni y Fel Ynys, a gwedi gyrru Gwledigaeth arni y gan Prydain ab Aedd Mawr y doded arni Ynys Prydain. Ac nid oes dylyed i neb arni namym i Genedl y Cymry, can ys hwy ai goresgynasant gyntaf, a chynn no hynny nid oedd neb o ddynion yn byw ynddi, eithr llawn Eirth, a Bleiddiau ac Efeinc, ac Ychain bannog ydoedd.

2. TAIR Prif Ardal Ynys Prydain: Cymru, Lloegr, a'r Alban, a Braint Teyrnedd a ddylid i bob un o'r Tair. A than Unbennaeth a Rhaith Gwlad ai gwladoler herwydd Dosparth Prydain Ab Aedd Mawr, ac ar Genedl y Cymry y mae dodi yr Unbennaeth wrth Raith Gwlad a Chenedl, herwydd Braint a Dyled gyssefin: ac yn nawdd hynn o ddosparth y dylid Teyrnedd ymhob Gwlad yn Ynys Prydain, ac yn nawdd Rhaith Gwlad pob Teyrnedd: sef achaws hynny y dywedir ar ddihareb, Trech Gwlad nag Arglwydd.

3. TAIR Colofn Gwladoldeb Ynys Prydain: Rhaith Gwlâd, Teyrnedd, ac Yngneidiaeth, herwydd Dosparth Prydain Ab Aedd Mawr.

4. TRIPHOST Cenedl Ynys Prydain: Cyntaf, Hu Gadarn a ddaeth a Chenedl y Cymry gyntaf i Ynys Prydain, ac o Wlad yr Haf a elwir Deffrobani y daethant: sef y lle mae Constinoblys: a thrwy For Tawch y daethant hyd yn ynys Prydain a Llydaw lle ydd arhosasant. Ail, Prydain Ab Aedd Mawr, a wnaeth Wladoliaeth a Theyrnedd gyntaf ar ynys Prydain, a chynn no hynny nid oedd o Iawn namyn a wnelid o Addwynder, na Deddf namyn y trecha treisied. Trydydd, Dyfnwal Moelmud, ac efe a wnaeth Ddosparth gyntaf ar Gyfreithiau, a Deddfau, a Defodau, a Breiniau Gwlad a Chenedl: ac achaws y pethau hynny eu gelwid hwynt yn Dri phost Cenedl y Cymry.

5. TAIR Ciwdawd Addwyn ynys Prydain: Cyntaf oeddynt Genedl y Cymry a ddaethant gyda Hu Gadarn i ynys Prydain, sef ni fynnai efe wlad a thiroedd o ymladd ac ymlid, eithr o gyfiawnder ac yn nhangnef; Ail oeddynt Al y Lloegrwys a ddaethant o Dir Gwasgwyn ac a hanoeddynt o brif Genedl y Cymry; Trydydd oeddynt y Brython, ac o Dir Llydaw y doethant a'u hanas o gyssefin Al y Cymry, a'r Tair Hedd-Giwdawd a'u gelwir, am ddyfod o honynt y naill wrth fodd y llall yn heddwch a thangnef; a'r Tair Ciwdawd hynny a hanoeddynt o gyssefin Genedl y Cymry, a chyfiaith cyflafar y Tair Ciwdawd.

6. TAIR Ciwdawd Nawdd a ddaethant i ynys Prydain, ac yn Nhanc a Chennad Cenedl Cymry y doethant, heb arf heb ossawd: Cyntaf oeddynt Ciwdawd Celyddon yn y Gogledd; Ail oedd yr Al Wyddyl, ac yn yr Alban y maent; Trydydd Gwyr Galedin a ddaethant yn y llongau moelion hyd yn ynys Wyth ban foddes eu Gwlâd, a chael o honynt Le Tîr gan Genedl y Cymry; ac nid oedd iddynt Fraint o Hawl yn ynys Prydain, namyn y Tir a'r Nawdd a rodded iddynt dan derfyneu, a dodi

[1] Y Trioedd canlynol a gymmerwyd allan o Lyfr ysgrifeniedig y diweddar Barchedig Mr. Richards o Lanegwad yn Ystrad Tywi, a fu ym menthyg gyda'r Parchedig Mr. T. Walters o Landocha ym Morganwg, gennyf fi Iolo Morganwg.

arnynt nas gellid Braint Cymry cynhenid iddynt hyd ym mhen y nawfed Ach.

7. Tair Ciwdawd Ormes a ddaethant i ynys Prydain, ac nid aethant fyth ohoni: Cyntaf, oeddynt y Corraniaid, a ddaethant o Wlad y Pwyl; Ail, y Gwyddyl Ffichti, addaethant i'r Alban drwy For Llychlyn; Trydydd, y Saeson; sef lle y mae y Corraniaid am Afon Hymyr a Glann Mor Tawch; ac yn yr Alban y mae y Gwyddyl Ffichti, yng Nglann Môr Llychlyn: a myned yn un a wnaethant y Corraniaid a'r Saeson, a dwyn, Rhëal y Lloegrwys yn ogyfun â hwynt, o drais a gorfod arnynt, a chwedi hynny dwyn Coron yr Unbennaeth oddiar Genedl y Cymry. Ac nid oes o'r Lloegrwys nad aethant yn Saeson namyn a geir yng Ngherniw, ac yng Nhwmmwd Carnoban yn Neifr a Bryneich. A Chiwdawd gyssefin y Cymry a gadwasant eu Gwlad a'u Hiaith colli Teyrnedd ynys Prydain a wnaethant achos Brâd y Ciwdodeu nawdd, ac anraith y Tair Ciwdawd Ormes.

8. Tair Ciwdawd Ormes a ddaethant i ynys Prydain ac a aethant o honi: Cyntaf y Llychlynnwys, a gwedi dwyn o Urb Lluyddawg y goreuon o Genedl y Cymry o'r ynys honn: sef oeddynt eu rhif tairmil a thrugaint ac un mil o wyr cyfallawg meirch a rhyfel, a gyrru y Llychlynnogion drwy For hyd yng Ngwlad yr Almaen a wnaethant y Cymry ymhenn y drydedd oes; Ail y bu Lluoedd Ganfal Wyddel a ddaethant i Wynedd, ac a fuant yno nawmlynedd a'r hugain, hyd yn a'u gyrrwyd hwynt i'r Môr y gan Gaswallawn ab Beli ab Mynogan; Trydydd y bu'r Caisariaid a fuant o drais yn yr ynys honn amgen na phedwar canmlynedd yn ydd aethant i wlad Rufain i wrthosod Cadgyffrwd yr Ormes ddu, ac ni ddaethant fyth yn ol i ynys Prydain; ac o hynny nid arhoses yn yr ynys honn namyn Gwragedd a Phlant bychain y dan nawmlwydd oedran, a myned yn Gymry a wnaethant y rhai hyny.

9. Tair Bradormes ynys Prydain: Cyntaf y Gwyddyl Coch o'r Werddon, a ddaethant i'r Alban; Ail y Llychlynnwys; a Thrydydd y Saeson, sef y daethant i'r ynys honn yn Nhanc a Chennad Cenedl y Cymry, ac yn nawdd Duw a'i wirionedd, ac yn nawdd Gwlâd a Chenedl, ac a wnaethant ossawd o frâd a diriedi ar Genedl y Cymry a dwyn i arnynt a ellynt o gyfoeth Teyrnedd ynys Prydain, a chydymwerinaw a'u gilydd a wnaethant yn Lloegr a'r Alban, lle yr arhosasant hyd yr awr honn, ac yn oes Gwrtheyrn Gwrthenau y buad hynny.

10. Tri Difancoll ynys Prydain: Cyntaf Gafran ab Aeddan a'i wŷr a aethant i'r mor ynghyrch y Gwerdonau Llion, ac ni chlywyd mwyach am danynt; Ail Merddyn Bardd Emrys Wledig a'i naw Beirdd Cylfeirdd a aethant i'r mor yn y Ty Gwydriu, ac ni bu son i ba le ydd aethant; y Trydydd Madawg ab Owain Gwynedd, a aeth i'r mor a thrichannyn gydag ef mewn deg llong, ac ni wyddys i ba le ydd aethant.

11. Tair Gormes a ddaethant ar ynys Prydain ac a ddarfu am danynt: Cyntaf Gormes March Malaen, a elwir Gormes Galaumai; a Gormes Draig Prydain; a Gormes y Gwr Lledrithawg: sef y cyntaf tramor, yr ail o Wynofaint Gwlad a Chenedl dan wasg anrhaith ac amrawd Teyrnedd; Dyfnwal Moel Mud ai diffoddes drwy wneuthur dosparth gyfiawn ar Frawd a Chymmrawd, ac ar Deyrn a Chytteyrn, ac ar Wlad a Gorwlad; y Drydedd a fu yn amser Beli ab Manogan, a Bradgyfarfod ydoedd, ac efe ai diffoddes.

12. Tair Haint Echrys ynys Prydain: Cyntaf, Haint o Gelanedd y Gwyddyl a laddwyd ym Manuba gwedi gormesu o honynt ugain mlynedd a naw a'r wlad Wynedd; Ail, Haint y Fad felen o Rôs, ac achos celaneddau lladdedigion y bu honno, ac od elai neb o fewn eu gwynt cwympo'n farw yn ddioed a wnelai; a'r drydydd Haint y Chwŷs drewllyd achos llygru yr yd gan wlybaniaeth yn amser Gormes y Normeinwyr, y gan Wiliam y Bastardd.

13. Tair Engir Ddichwain ynys Prydain: Cyntaf Torriad Llynn Llion a myned bawdd hyd wyneb yr holl diroedd yny foddes yr holl ddynion namyn Dwyfan a Dwyfach, a ddianghasant mewn llong foel, ac o honynt hwy ydd adepiliwyd ynys Prydain; Ail fu Dychryn y Tân rhyferthwy bann holltes y ddaear hyd annwn, ac y difaëd y rhan fwyaf o bob byw; Trydydd, yr Haf Tesog, pan aethant y coedydd a'r llysiau ar dan gan angerdd gwres yr haul, a cholli llawer o ddynion ac anifeiliaid a rhywiau adar, a phryfed, a choedydd, a llysiau yn anesgorawl.

14. Tair Cyforddwy a aethant o ynys Prydain: Cyntaf, yr un a aeth y gan Ur ab Erin Luyddawg o Llychlyn, ac efe a ddaeth i'r ynys honn yn amser Gadial ab Erin i erchi cymmorth yr ynys honn dan adduned na chaisiai o bob Prifgaer namyn y rhif a ddelai ganthaw iddi; ac ni ddelai

ganthaw amgen nag un i'r Gaer gyntaf, namyn ei hûn a'i was Mathatta fawr, ac o honno cael dau, ac o'r eilgaer pedwar, ac o'r drydygaer myned yn wyth, ac o'r nesaf unarbumtheg, a herwydd hynny o gyfedryd o bob Caer arall, hyd onid oedd o'r Gaer ddiweddaf nis gellid eu rhif yn yr holl ynys. A chydag ef y ddaeth teirmil a thrugaint, ac un mil, ac nis gellid iddaw fwy no hynny yn yr holl ynys o wyr cyfalleu gan nad oedd namyn plant a henawgwyr ar ei ôl. A llywra llüydd a fu erioed oedd Ur ab Erin Luyddawg: ac ar ddiystyrdod y bu gan Genedl y Cymry roddi hynny iddaw dan adduned anesgorawl, canys o hynny y cafas y Corraniaid le i ddwyn cyrch Gormes i'r ynys honn. Ac o'r Gwyr hynny ni ddaethant drachefu yr un onaddynt, nag o lin nag o epil iddynt. Sef ydd aethant ar gyrch Gorddwy, hyd ym Mor Groeg, ac aros yno yn Nhir Galas ac Afena hyd heddyw, a myned yn Roegiait.

Ail Cyforddwy a ddyweiniwyd y gan Gaswallawn ab Beli ab Manogan a Gwenwynwyn a Gwanar meibion Lliaws ab Nwyfre, ac Arianrod ferch Beli eu Mam. Ac o Arllechwedd Galedin, ac Essyllwg, ac o Gydwelyddon y Bylwennwys ydd hanoeddynt; a rhif y Gwyr hynny oeddynt driugaint ac un mil: a myned a wnaethant y gyda Chaswallawn eu hewythr ar ol y Caisariaid drwy Fôr hyd yn Nhir Geli Llydaw, a hanoeddyn o Rïal y Cymry: ac ni ddaeth un o honynt na'u heppil yn eu hôl i'r ynys honn, eithr aros a wnaethant yng Ngwlâd Gwasgwyn ym mysg y Caisariaid, lle maent hyd yn awr; ac ynghyrch dial yr Orddwy honno y daeth y Caisariaid gyntaf i'r ynys honn.

Trydydd Cyforddwy a ddyweiniwyd o'r ynys honn y gan Elen Lüyddawg a Chynan ei brawd, arglwydd Meiriadawc, hyd yn Llydaw, lle y cawsant Diroedd a Chyfoeth a Theyrnedd y gan yr ammherawdwr Macsen Wledig, am ei ganllofi yn erbyn Gwyr Rhufain. A'r Gwyr hynny a hanoeddynt o Dir Meiriadawc, ac o Dir Seisyllwg, ac o Dir Gŵyr a Gorwennydd: ac ni ddaeth yn eu hol yr un o honynt, eithr aros yn Llydaw, ac yn Ystre Gyfaelwg a wnaethant hwy gan wladychu yno. Ac achos honn o Gyforddwy y bu wanhâd a diffyg Gwŷr arfawc ar Genedl y Cymry onid aethant y Gwyddyl Ffichti yn ormes arnynt; ac o hynny y gorfu ar Wrtheyrn Gwrthenau gyrchu Saeson i ladd yr ormes honno, a'r Saeson yn gweled Gwendid y Cymry, a droesant yn Fradormes drwy Gystlyniad y Gwyddyl Ffichti a'r Gwyr difrawd a hwynt, a dwŷn eu tiroedd oddiar y Cymry, a dwyn hefyd oddiarnynt eu braint a'u coron. A Thair Traha gadarn Cenedl y Cymry y gelwir y Tair Cyforddwy yma; a hefyd y Tri Arianllu, achos dwyn o honynt o'r ynys honn yr aur a'r ariant hyd y gellid eu cael o dwyll a dichell a difrawd, yn gystal ac o iawn a bodd; a'r Tair annoeth Luyddawd a'u gelwir, am wanhâu drwyddynt yr ynys honn gymmaint ag y rhoed lle drwy hyny i'r Tair Gormes Gadarn, sef y Corraniaid, a'r Caisariaid, a'r Saeson.

15. Tair Gormes Gadarn Ynys Prydain a gystlynasant yn un, ac o hynny ydd aethant yn un Ormes a ddug oddiar y Cymry eu braint a'u coron a'u tiroedd: sef cyntaf y Coraniaid, ac ymgystlynu a wnaethant a'r Caisariaid onid aethant yn un; ac ail o'r Tair y bu'r Caisariaid: Trydydd oeddent y Saeson, ac ymgystlynu a'r ddwy eraill a wnaethant yn erbyn y Cymry: ac o Dduw y bu hynn er dial y Tair Traha Gadarn Cenedl y Cymry, can nas gellid o gyfiawnder eu cynghyd.

16. Tri phrif Welyddon Cenedl y Cymry: y Gwenhwyson, sef Gwyr Essyllwg; y Gwyndydiaid, sef Gwyr Gwynedd a Phowys; a Gwely Pendaran Dyfed; sef ydynt Gŵyr Dyfed, a Gŵyr, a Cheredigiawn, ac arbennicctcr ar y Gymraeg i bob un o naddynt.

17. Tri Unbenn Rhaith Ynys Prydain; Un, Caswallawn ab Lludd ab Beli ab Mynogan; Ail, Caradawc ap Bran ap Llyr Llediaith; Trydydd Owain ab Macsen Wledig: sef o Raith Gwlad a Chenedl y doded arnynt yr Unbennaeth, lle nad oeddent Hyneifiaid.

18. Tair Gwelygordd Santaidd Ynys Prydain: Gwelygordd Bran Fendigaid ap Llyr Llediaith, sef y Bran hwnnw a ddug y Ffydd yng Nghrist gyntaf i'r ynys honn o Rufain, lle y bu ef yngharchar drwy Frad Aregwedd Föeddawg merch Afarwy ab Lludd; Ail Gwelygordd Cynnedda Wledig, a roddes Dir a Braint gyntaf i Dduw a'r Saint yn Ynys Prydain; Trydydd ydoedd Brychan Brycheiniawg, a ddug ei blant a'i wyrion ar ddysg a bonedd, fal y gallent ddangos y Ffydd yng Nghrist i Genedl y y Cymry, lle ydd oeddent yn ddiffydd.

19. Tri Gwesteion Gwynwyddedig Ynys Prydain: Dewi, Padarn, a Theilaw; sef au gelwid felly am ydd elynt yn Westeion i Dai Bonedd, a Gwreng, a Brodor, ac Aillt, heb gymmeryd na rhodd na gobr, na bwyd na llynn, eithr dysgu'r ffydd Ynghrist a wnaent i bawb heb na thal na

diolch, eithr i dlawd ac anghenus y rhoddynt roddion o'u haur a'u harian, a'u gwisgoedd, a'u bwydydd.

20. Tair Bradgyfarfod Ynys Prydain: Cyfarfod Afarwy ab Lludd a'r Gwŷr Difrawd a roddasant le ar dir i Wŷr Rhufein yn Ynys Prydain ym Mhwyth Mein a Glas, ac nid mwy; a'r diwedd o hynny fu ynnill o wyr Rhufain Ynys Prydain; Ail, Cyfarfod Goreugwŷr y Cymry ac Arddelwyddiaid y Saeson ar Fynydd Caer Caradawc, lle bu Frad y Cyllyll hirion, o frad Gwrtheyrn Gwrthenau, sef o'i gynghor ef yn gyfrin a'r Saeson y llas Dyledogion y Cymry agos oll yno; Trydydd, Cyfarfod Medrawd ac Iddawc Corn Prydain a'u Gwŷr yn Nanhwynain, lle y gwnaethant Frad Arthur, ac o hynny Cadernyd i'r Saeson yn Ynys Prydain.

21. Tri Charnfradwr Ynys Prydain: Afarwy ab Lludd ab Beli Mawr a wahoddes Iwl Caisar a Gwŷr Rhufain i'r ynys honn, ac a beris ormes y Rhufeiniaid; sef yr ymroddes efe a'i wŷr yn gyfarweddiaid i wŷr Rhufain, a derbyn y ganddynt ged o aur ac ariant bob blwyddyn, ac o hynny y daeth gorfod ar wŷr yr ynys honn dalu tair mil o ariant bob blwyddyn yn Deyrnged i wŷr Rhufain hyd yn amser Owain ab Macsen Wledig, ac efe a ommeddes y Deyrnged honno, a than rith boddlondeb i hynny o beth y tynnasant Wyr Rhufain oreuon Gwŷr ynys Prydain, a ellid Gwŷr Rhyfel o honynt i Wlad Arafia a phell o Wledydd eraill, ac ni ddychwelasant yn eu hôl; a Gwyr Rhufain a oeddent yn ynys Prydain a aethant hyd yr Eidal, hyd nad oedd o honynt namyn Gwragedd a Phlant bychain ar eu hôl; ac fal hynny y gwanhëid y Bruttaniaid fal nas gellynt wrthosod Gormes a Gormedd eisiau Gwŷr a Nerth. Ail ydoedd Gwrtheyrn Gwrthenau, ac efe wedi lladd Cystenyn Fendigaid a dwyn Coron yr ynys o drais ac anraith, a wahoddes y Saeson gyntaf i'r ynys honn yn amddiffynyddion iddaw ac a briodes Alis Rouweu merch Hengist, ac a roddes Goron yr ynys i'r mab a fu iddaw o honi, a'i enw ef oedd Gotta, ac o achos hynny y gelwyr Brenhinoedd Llundain yn Blant Alis: sef achaws Gwrtheyrn y collasant y Cymry eu Tiroedd a'u Braint a'u Coron yn Lloegr. Trydydd y bu Medrawd ap Llew ap Cynfarch, pan edewis Arthur Lywodraeth ynys Prydain yn adneu y gydag ef, tra fu'n myned yn erbyn yr Ammherawdr yn Rhufein, ac yna y dug Fedrawd y Goron oddi ar Arthur o drais a llathlud, ac fal y cadwai efe hi ymgynghreiriaw a'r Saeson a orug, ac o achaws hynny y collasant y Cymry Goron Lloegr a Theyrnedd ynys Prydain.

22. Tair Brad ddirgel ynys Prydain: Cyntaf, bradychu Caradawc ap Bran y gan Aregwedd Föeddawg, ferch Afarwy ab Lludd, a'i roddi yn Gaethglud i'r Rhufeiniaid; a bradychu Arthur gan Iddawc Corn Prydain a ddatrinwys ei Rin ef; a bradychu Tywysawg Llywelyn fab Gruffudd gan Fadawg Mîn, ac o'r tair Brad hynny y bu lwyr ortrech a'r Genedl y Cymry, ac nis gallasai namyn Brad eu gortrech.

23. Tri glewion Unbennaid ynys Prydain: Cynfelyn Wledig, a Charadawc ab Bran, ac Arthur: sef y gortrechaint ar eu galon hyd nas gellid, namyn o frad a chynllwyn, eu gorfod.

24. Tri phrif Gatteyrn ynys Prydain: Caswallawn ab Beli, Gweirydd fab Cynfelyn Wledig, a Charadawc ab Bran fab Llyr Lledïaith.

25. Tri Gwyndëyrn ynys Prydain: Rhun ab Maelgwn, Owain ab Urien, a Rhuawn Befr ab Dewrath Wledig.

26. Tri Eilldëyrn ynys Prydain: Gwrgai fab Gwrein yn y Gogledd, a Chadafael fab Cynfedw yng Ngwynedd, a Hyfaidd Hir fab Bleiddan Sant ym Morganwg: sef y rhodded Teyrnedd iddynt am eu campeu a'u cynnedfeu clodforion a rhadforior.

27. Tri Hueilogion Teulu ynys Prydain: Teulu Caswallawn Lawhir, a Theulu Rhiwallon ab Urien, a Theulu Belyn o Lëyn: sef eu gelwid felly am nad oedd na phenn na theyrnedd arnynt hyd y cerddei braint eu Teuluoedd a'u Cyfoeth, cyt bei a holid o fewn y terfyneu hynny, namyn Rhaith Gwlad a Chenedl.

28. Tri Aurhualogion ynys Prydain: Rhiwallon wallt Banhadlen, a Rhun mab Maelgwn, a Chadwaladr Fendigaid: sef y rhodded iddynt wisgaw hualeu euraid am eu breicheu, ac am eu glinieu, ac am eu gyddfeu, ac ar hynny y rhodded braint Teyrnedd ymhob Gwlad a Chyfoeth yn ynys Prydain.

29. Tri Chadfarchawg Teyrn ynys Prydain: Caradawc Freichfras, a Llyr Lluyddawg, a Mael ab Menwaed o Arllechwedd; ac Arthur a gant iddynt hynn o Englyn,

> Sef ynt fy Nhri Chadfarchawg,
> Mael hir a Llyr Lluyddawg,
> A Cholofn Cymru Caradawg.

Sef goreugwyr oeddynt o bawb ar feirch cad a gosawd, ac yn hynny rhodded iddynt Tëyrnedd er gallu a fynnynt; a'u

cynneddfau oeddynt ni wnelynt onid a fai dosparthus a chyfiawn, ba wlad a chyfoeth bynnag ydd elynt.

30. Tri Haelion Teyrnedd ynys Prydain: Rhydderch Hael ab Tudwal Tudclud; a Mordaf Hael ab Serfan; a Nudd Hael ab Senyllt; a'u cynneddfau oeddynt ni phellynt o un peth bynnag o'r byd ac o ryw i'r neb ai ceisiai hyd y bai ganddynt, nag a gaent yn rodd, neu yn echwyn, neu o gyfarch; na char na chas na thras nag estron, ai ceisiau.

31. Tri Rhuddfannogion ynys Prydain: Arthur, Morgan Mwynfawr, a Rhun fab Beli: sef pan ydd elynt i ryfel ni fynnai neb aros gartref rhag maint ai cerid, ac nid oedd na rhyfel na maes nas ynnillynt lle ni bai frad a chynllwyn, ac am hynny diarheb yw, Tri gwr a wnaint ŵyr lle 'dd elynt: Arthur, Morgan Mwynfawr, a Rhun fab Beli: Triwyr a wnaint wyr lle i byddynt, Gwyr Arthur, Gwyr Morgan Mwynfawr, a Gwyr Rhun fab Beli.

32. Tri Gal Ofydd ynys Prydain: Gal Ofydd Greidiawl, ac Enfael mab Adrân, a Thrystan ab Tallwch; a braint iddynt nis gellid a elei yneu herbyn lle bynnag y mynynt yn ynys Prydain hyd nad elynt yn ammrawd.

33. Tri Escemmydd Aerau ynys Prydain: Grudnew, Henpen, ac Eidnew; a'u cynneddfau nad elynt o gad a rhyfel onid ar eu heloreu, gwedi nas gellynt symmud na bys na thafawd.

34. Tri Unbenn Dygynnull ynys Prydain: Cyntaf, Prydain fab Aedd Mawr pan rodded Teyrnedd ddosparthus ar ynys Prydain a'i rhagynysoedd; Ail, Caradawc ap Bran pan ddoded arnaw ef Gattëyrnedd holl ynys Prydain er attal Cyrch Gwyr Rhufain; ac Owain ab Macsen Wledig pan gawsant y Cymry 'r Dëyrnedd ym mraint eu cenedl eu hunain y gan yr ymherawdr Rhufein: sef a'u gelwir y rhain y Tri Unbenn Dygynnull am eu breiniaw felly y gan ddygynnull gwlad a gorwlad dan holl derfynau Cenedl y Cymry, a chynnal dygynnull ymhob Cyfoeth, a Chwmmwd, a Chantref yn ynys Prydain a'i rhagynysoedd.

35. Tri Menwedigion Teyrnedd ynys Prydain: Bran fendigaid ab Llyr Llediaith a ddygwys gyntaf ffydd yng Nghrist i Genedl y Cymry o Rufain, lle y bu efe saith mlynedd yngwystl ei fab Caradawc a ddug Gwyr Rhufain yng ngharchar gwedi ei fradychu drwy hud a thwyll a chynllwyn Aregwedd Fôeddawg; Ail, Lleirwg ab Coel ab Cyllin Sant, a elwir Lleufer Mawr, a wnaeth yr Eglwys gyntaf yn Llandaf, a honno fu'r gyntaf yn ynys Prydain, ac a ddodes fraint Gwlad a Chenedl a brawd a briduw ar a fyddaint o'r ffydd yng Nghrist; Trydydd, Cadwaladr Fendigaid a roddes nawdd o'i diroedd a'i holl ddäoedd ei hun i'r ffyddloniaid a ffoynt rag y Saeson di grêd a'r Ammrodorion a fynnaint eu lladd.

36. Tri Bancewyddion Teyrnedd ynys Prydain; Prydain ab Aedd Mawr; Dyfnwal Moel Mud; a Bran ab Llyr Llediaith: sef goreu Trefn eu Trefn hwy ar Deyrnedd ynys Prydain hyd onis beirnid hwy 'n bennorawl ar bob Trefneu eraill a wnaed yn holl ynys Prydain.

37. Tri Charnfeddwon ynys Prydain: Ceraint, feddw brenin Essyllwg, a losges yn ei feddwdod yr holl yd ym mhell ac yn agos hyd glawr gwlad, ac o hynny dyfod newyn bara; Ail, Gwrtheyrn Gwrthenau, a roddes ynys Daned yn ei ddiawd i Hors, am gael ymodinebu a Rhonwen ei ferch ef; a rhoddi hawl hefyd a wnaeth efe i'r mab a enid o hynny ar Goron Loegr: ac yn un a hynny Brad a Chynllwyn yn erbyn Cenedl y Cymry; Trydydd, Seithinyn feddw ab Seithyn Saidi, brenin Dyfed, a ollyngwys yn ei ddiawd y môr dros Gantre'r Gwaelod, oni chollwyd o dai a daear y maint ag oedd yna, lle cyn hyny y caid un dinasdref ar bymtheg yn oreuon ar holl drefydd a dinasoedd Cymru, a gadu yn amgen Caerllion ar Wysg: a chyfoeth Gwydnaw Garanhir, brenhin Ceredigiawn ydoedd Cantre'r Gwaelawd; ac yn amser Emrys Wledig y bu hynny; a'r Gwŷr a ddianghasant y rag y bawdd hynny a diriasant yn Ardudwy, a Gwlad Arfon, a mynyddoedd yr Eryri, a lleoedd ereill nad oeddynt gyfannedd cyn no hyny.

38. Tri lleddf Unben ynys Prydain: Manawydan ab Llyr Llediaith, gwedi dwyn yngharchar teulu Bran ab Llyr ei frawd; a Llywarch Hen ab Elidir Lydanwyn; a Gwgawn Gwron ab Eleufer Gosgorddfawr; a meib o feirdd oeddynt y tri; ac ni cheisynt gyfoeth a theyrnedd gwedi eu myned wrth gerdd, cyd nas gellid ei lluddias iddynt; sef achaws hynny eu gelwid yn Dri Lleddf Unben ynys Prydain.

39. Tri Unben Deifr a Bryneich; Gall ab Dysgyfedawg, a Diffedel ab Dysgyfedawg, ac Ysgafnell ab Dysgyfedawg; a meib beirdd oeddynt y tri; a gwedi eu myned wrth gerdd y rhoddwyd arnynt Unbenaeth Deifr a Brynaich.

40. Tri Gwaywruddion Beirdd ynys Prydain: Tristfardd, bardd Urien Rheged;

Dygynnelw, bardd Owain ab Urien; ac Afan Ferddig, bardd Cadwallawn ab Cadfan; a meib o feirdd y tri hynn, ac nis gellid ai dehorai.

41. Tri Chynweisiad ynys Prydain: Caradawc ab Bran, ab Llyr Llediaith; a Chawrdaf mab Caradawg Freichfras; ac Owain fab Macsen Wledig; sef a'u gelwid felly am fyned, o'u gwir fodd, holl wyr ynys Prydain o deyrn i aillt yn wyr iddynt, wrth raid gwlad, rag rhuthr gal a difrawd; a phan elynt y triwyr hyn i ryfel nid oedd nebun o wyr ynys Prydain nad elai yn eu gosgorddau; ac ni fynnid aros ynghartref: A thri meib beirdd oeddynt.

42. Tri Hualogion Teyrnedd ynys Prydain: Morgan Mwynfawr o Forganwg; Elystan Glodrydd rhwng Gwy a Hafren; a Gwaithfoed brenin Ceredigion; sef eu gelwid felly achaws y gwisgynt hualau yn holl y gwneleint brif deyrnedd ynys Prydain, ac nid taleithiau, sef coronau.

43. Tri Theyrn Taleithiawg ynys Prydain: Cadell brenyn Dinefwr; Anarawd brenin Aberffraw; a Merfyn brenin Mathrafal; sef a'u gelwid y Tri thywysog Taleithiog.

44. Tri Estron Deyrn ynys Prydain: Gwrddyled Gawr, a Morien Farfawc, a Chystenyn Fendigaid.

45. Tri Charnfradwr a fuant achaws i'r Saeson ddwyn Coron ynys Prydain oddiar y Cymry: Un oedd Gwrgi Garwlwyd, ac efe wedi cael blas ar gig dynion, yn llys Edelffled, brenin y Saeson, ai carai gymmaint ag nis bwytëai amgen na chig dyn fyth gwedi hyny; ac am hynny ymgyfunaw a orug efe a'i wŷr ag Edelffled brenin y Saeson: ac efe a wnai ossawd lladrad ar Genedl y Cymry, ac ai dygai yn wryw ac yn fenyw y rhai ieuanc y maint ag a fwytëai beunydd; a phawb o'r gwyr difrawd o Genedl y Cymry a gyrchynt atto efe a'r Saeson, lle caent braidd ac yspail eu gwala, a ddygid oddi ar frodorion yr ynys honn; Ail ydoedd Medrawt, a roddes ei hun a'i wyr yn un a'r Saeson er cadarnhau iddaw a Deyrnedd yn erbyn Arthur; ac achaws hynny o frad ydd aethant laweroedd iawn y'r Lloegrwys yn Saeson; Trydydd ydoedd Aeddan Fradwr o'r Gogledd, a ymroddes, efe a'i wyr, dan derfyneu ei Gyfoeth yn Saeson, fel y ceffynt ymgynnal ar Annosparth ac Anraith, yn nawdd y Saeson: ac o achaws y tri charnfradwyr hynny y colles y Cymry eu tir a'u coron yn Lloegr; a phei na buassei y bradeu hynny, ni allasent y Saeson ynnill yr ynys oddiar y Cymry.

46. Triwyr o Feirdd a wnaethant y tair madgyflafan ynys Prydain: Cyntaf, Gall mab Dysgyfedawg a laddwys ddau Ederyn Llychwin Gwenddoleu ap Ceidiaw: sef ydoedd iau o aur amddynt a dwy gelein o'r Cymry a yssynt beunydd ar eu ciniaw, a dwy ar eu cwynos; Ail, Ysgafnell mab Dysgyfedawg a laddwys Edelffled brenin Lloegr; ac efe a fynnai bob nos dwy riain ddyledawg o Genedl y Cymry, ac a wnelei anfodd arnaddynt, a thrannoeth y lladdei efe wynt ac a'u hyssai; Trydydd ydoedd Diffedel mab Dysgyfedawg, a laddwys Gwrgi Garwlwyd yttoedd briod a chwaer Edelffled, ac a wnaeth frad a chyflafan yn ungyrch ag Edelffled ar Genedl y Cymry; a'r Gwrgi hwnw a laddei gelein o Gymro a Chymraes bob dydd, ac ai hyssai, a dydd sadwrn efe a laddei dwy gelein o fab a dwy o ferch, rhag lladd ar y sul: A thri meib o feirdd oeddynt y triwyr hynn a wnelynt y tair madgyflafan.

47. Tair Anfad Gyflafan ynys Prydain: Eiddyn mab Einygan, a laddwys Aneurin Gwawdrydd mydeyrn beirdd; a Llawgad Trwm Bargawd, a laddwys Afion mab Taliesin; a Llofan llaw dino, a laddwys Urien mab Cynfarch; sef trimcib o feirdd oeddynt a las, gan y triwyr hynny.

48. Tair Anfad Fwyellawd ynys Prydain: bwyellawd Eiddyn ab Einygan ym mhen Aneurin Gwawdrydd; a bwyellawd a roddes Cadafael Wyllt yn mhen Iago ap Beli; a'r fwyellawd a rodded yn mhenn Golyddan Fardd, achaws y balfawd a roddes efe a'r Gadwaladr Fendigaid.

49. Tair Engir balfawd ynys Prydain: palfawd Matholwch Wyddel ar Fronwen ferch Llyr; a phalfawd a roddes Wenhwyfach i Wenhwyfar, a honno a beris y Gad Gamlan; a phalfawd Golyddan fardd ar Gadwaladr Fendigaid.

50. Tair Ofergad ynys Prydain: Cyntaf oedd y Gad Goddeu, a honno achaws gast a iwrch a chorniccyll; ac yn y Gad honno y llas trugain mil o wyr ac unarddeg o filoedd; ail y bu waith Arderydd, a nyth ehedydd a fu achaws honno, lle lladdwyd pedwar ugain mil o wyr o Genedl y Cymry; Trydydd fu'r Gad Gamlan y rwng Arthur a Medrawd, lle y llas Arthur a chydag ef cannmil o wyr yn oreuon Cenedl y Cymry: ac achaws y tair ofergad y bu i'r Saeson ynnill Gwlad Loegr i ar Genedl y Cymry; sef achaws nad oedd o wyr rhyfel a allai wrthosod y Saeson, a Brad Gwrgi Garwlwyd, a Hud Eiddilic Gorr.

51. Tri Anfad Gynghor ynys Prydain; Can hiadhau lle i Ul Caisar a Gwyr

Rhufein i flaen carneu eu meirch yn Mhwyth Min y Glas yn ynys Daned; sef o hyny y cafas y Caisariaid le i oresgyn ynys Prydain, ac i ymgystlynu a Brad Afarwy ab Lludd; sef y rhodded hyny o ganniadhad i'r Caisariaid am fod yn ofer gan Genedl y Cymry amddiffyn eu gwlad namyn drwy nerth arfau a gwroldeb a chalondid gwlad, lle nas gwyddid yn y byd am fradgyfarfod Afarwy ab Lludd a Gwyr Rhufain; Ail anfad gynghor oedd gadael Hors a Hengist a Rhonwen i ynys Prydain, gwedi eu gyru drwy for i'r Wlad lle ydd hanoeddynt; a'r Trydydd, gadu i Arthur rannu ei wŷr a Medrawd deirgwaith yn y Gad Gamlan, ac o hynny y colles Arthur y maes a'i fywyd; lle ydd oedd Medrawd yn un a'r Saeson.

52. Tair Aerfa Ddrud ynys Prydain: Cyntaf, pan aeth Medrawd i Gelliwig, ni edewis ef yn y llys na bwyd na diawd a borthai wybedyn, eithr ei yssu a'i dreuliaw i gyd, ac a dynnes Wenhwyfar o'i rhieingadair, ac a wnaeth anniweirdeb a hi; Ail ydoedd pan aeth Arthur i lys Medrawd, ac yno ni edewis na bwyd na diawd nas difethai, ac a leddis bob byw yn y cantref, yn ddyn ac yn ysgrubl; Trydydd, pan aeth Aeddan Fradawg i lys Rhyddderch Hael, ef a ddifethis y bwyd a'r diawd oll yn y llys, heb adu a borthai ednogyn, ac nas gadai yn fyw na dyn na llwdn, eithr difa 'r cyfan; a'r tair Aerfa ddrud y gelwir y rhai hynny, am orfod ar Genedl y Cymry, herwydd Deddf a Defawd, atteb a dodi iawn am a wnaed yn hynny o fodd annosparthus, ac annefodawl ac anneddfawl.

53. Tair Cudd a Datgudd ynys Prydain: Cyntaf, Pen Bendigeidfran ab Llyr, a guddiawdd Owain ab Macsen Wledig yn y Gwynfryn yn Llundain; a thra bai yn hynny o ansawdd ni ddelai Ormes i'r ynys honn; Ail ydoedd Esgyrn Gwrthefyr Fendigaid, a gladdwyd ym mhrif borthladdoedd yr ynys; a thra baint yn eu cudd analledig gormes i'r ynys honn; Trydydd oedd y dreigiau a guddiwyd gan Ludd ab Beli yn ninas Pharäon yng Nghreigiau 'r Eryri: a'r tri chudd hynny a ddoded yn nawdd Duw a'i riniau, ac anpoed Gwaeth o'r awr a'r un a'u datguddiai. Gwertheyrn Gwrtheneu a ddatguddiawdd y dreigiau er dial anfodd y Cymry parth ag ef, ac a wahoddes y Saeson dan rith gwŷr porth i ymladd a'r Gwyddyl Ffichti; a gwedi hyny y datguddiawdd efe Esgyrn Gwrthefyr Fendigaid, o serch ar Ronwen ferch Hengist Sais; ac Arthur a ddatguddiawdd Ben Bendigeidfran fab Llyr, can mai bach oedd ganthaw gadw yr ynys namyn oi Gadernyd ei hûn; a gwedi 'r tri datgudd y cafas Gormes y goreu ar Genedl y Cymry.

54. Tair Gwrthrym Ardwy ynys Prydain: Hu Gadarn yn dwyn Cenedl y Cymry o Wlad yr Haf, a elwir Deffrobani, hyd yn ynys Prydain; a Phrydain ab Aedd Mawr yn gyrru Gwlad a Rhaith ar ynys Prydain; a Rhitta Gawr a wnaeth iddaw ei hun ysgin o farfau brenhinoedd a wnaeth efe yn eillion am eu gormes a'u difrawd.

55. Tri Madoreilittiwr ynys Prydain: Prydain ab Aedd Mawr yn goreilid y ddraig Ormes, sef oedd honno gormes anrhaith a difrawd a faged yn ynys Prydain; a Charadawg ab Bran ab Llyr, yn goreilid Gormes y Caisariaid; a Rhitta Gawr yn goreilid Gormes ac Anraith y Brenhinoedd annosparthus.

56. Tri Chyfarwysawg Cenedl y Cymry: Cyntaf Hu Gadarn, a ddangoses y ffordd i aru tir gyntaf i genedl y Cymry, pan oeddynt yng Ngwlad yr Haf, sef y lle y mae Constinoblis yn awr, cyn no'u dyfod i ynys Prydain; a Choll ap Coll Frewi, a ddaeth gyntaf a Gwenith a Haidd i ynys Prydain, lle nid oedd namym Ceirch a Rhyg cyn no hynny; ac Elldud farchawg Sant o Gor Dewdws, a welläes y modd a erid Tir ac a ddysges well nag a wyddid o'r blaen i Genedl y Cymry, ac a roddes îddynt y drefn a'r gelfyddyd ar aru tir ysydd yn awr, canys cyn nog amser Elldud ni chyferid tir eithr a chaib ac arad arsang yn unrhyw a ffordd y Gwyddelod.

57. Tri Chynofydd Cenedl y Cymry: Hu Gadarn, a wnaeth Glud a Gosgordd gyntaf ar Genedl y Cymru; a Dyfnwal Moel Mud, a wnaeth ddosparth gyntaf ar gyfreithiau, a breiniau, a defodau Gwlad a Chenedl; a Thydain Tad Awen, a wnaeth drefn a dosbarth gyntaf ar Gof a chadw Cerdd Dafawd a'i pherthynasau; ac o'r drefn honno y dychymygwyd Breiniau, a Defodau dosparthus ar Feirdd a Barddoniaeth ynys Prydain gyntaf.

58. Tri Chyntefigion Beirdd ynys Prydain: Plennydd, Alawn, a Gwron; sef oeddynt y rhai hynny a ddychymygasant y Breiniau a'r Defodau y sydd ar Feirdd a Barddoniaeth; ac am hynny eu gelwir y tri chyntefigion; hagen ydd oedd cyn nohynny Beirdd a Barddoniaeth, ac nid oedd arnynt ddosparth drwyddedawg, ac nid oedd iddynt na Breiniau na Defodau, namyn a gaid o addwynder a syberwyd, yn nawdd Gwlad a Chenedlcyn nog amser y tri hynn: a rhai a ddywedant mai yn amser Prydain

ab Aedd Mawr y buant; ac eraill y ddywedant mai yn amser Dyfnwal Moel Mud ei fab ef y buant; ac yn rhai o'r hen lyfrau y gelwir ef Dyfnfarth ab Prydain.

59. Tri Mattëyrn ynys Prydain: Prydain ab Aedd Mawr, a wnaeth ddosparth Brodoriaeth gwlad a chenedl, a dosparth ar wlad a gorwlad gyntaf yn ynys Prydain; a Dyfnwal Moel Mud a wnaeth wellhad a mwyhad ar Ddeddfau, a Chyfreithiau, a Breiniau, a Defodau Cenedl y Cymry, mal y bai iawn a chyfiawn i bawb yn ynys Prydain a faent yn nawdd Duw a'i daugnef, ac yn nawdd Gwlad a Chenedl; a Hywel Dda fab Cadell ab Rhodri Mawr, brenin Cymru oll a wnaeth wellhad ar Gyfreithiau ynys Prydain, mal y gofynnei y troion a'r trafodeu a fuant ar Genedl y Cymry, rhag myned ar goll a fai daionus, a rhag na chaffai a fai daionus ei le, a'i ansawdd, a'i waith yn nosparth Gwlad a Chenedl, a goreuon ar bob Deddfwyr y buant y Triwyr hynny.

60. Tri Gyrddion ynys Prydain: Gwrnerth Ergydlym, a laddes yr arth mwyaf ac a welwyd erioed a saeth wellten; a Gwgawn Lawgadarn, a dreiglis Maen Maenarch o'r glynn i benn y mynydd, ac nid oedd llai na thrugain ych ai tynnai; ac Eidiol Gadarn, a laddes o'r Saeson ym mrad Caersallawg chwechant a thrigain a chogail gerdin o fachlud haul yd yn nhywyll.

61. Tri Theulu Teyrnedd a ddyged yng ngharchar o'r gorhendaid i'r gorwyron, heb adu yn nianc un o honynt: Cyntaf, Teulu Llyr Llediaith a ddyged yng ngharchar hyd yn Rhufein y gan y Caisariaid; Ail, Teulu Madawg ab Medron, a fuant yngharchar y gan y Gwyddyl Ffichti yn yr Albau; Trydydd, Teulu Gair ap Geirion arglwydd Geirionydd, y gan Raith Gwlad a Chenedl yng ngharchar Oeth ac Anoeth; ac o'r rhai hynny nag un nag arall o honynt yn nianc; a llwyraf carcharu a wybuwyd erioed a fu ar y Teuluoedd hynny.

62. Tri Archescobawt ynys Prydain: Cyntaf, Llan Daf, o ddawn Lleurwg ab Coel ab Cyllin, yr hwn a roddes diroedd a braint Gwlad gyntaf i'r rhai a gystlynasant gyntaf a'r ffydd yng Nghrist; Ail, Caerefrawc, o ddawn Cystynin amherawdr; sef oedd efe y cyntaf o'r amherodron yn Rhufain a ymgystlynwys a'r ffydd yng Nghrist; Trydydd, Llundain o ddawn yr amherawdr Macsen Wledig; a gwedi hynny y buant Gaerllion ar Wysg, a'r Gelliwig yng Ngherniw, a Chaer Rianedd yn y Gogledd; ac ynawr y mae Mynyw, a Chaerefrawc, a Chaer Gaint.

63. Tair prif Orsedd ynys Prydain: Cyntaf, Llundain; ail, Caerllion ar Wysg; a Thrydedd, Caer Efrawg.

64. Tri Lleithig Llwyth ynys Prydain: Un, Caerllion ar Wysg, ac yno Arthur yn Benrhaith, a Dewi Sant ab Cunedda Wledig yn Benescob, a Maelgwn Gwynedd yn Bennhynaif; ail, Celliwig yng Ngherniw, ac yno Arthur yn Benrhaith, a Bedwini yn Benescob, a Charadawg Freichfras yn Benn Hynaif; a'r Trydydd, Penrhyn Rhionydd yn y Gogledd, ac yno Arthur yn Benn Rhaith, a Chyndeyrn Garthwys yn Benn Escob, a Gwrthmwl Wledig yn Bennhynaif.

65. Tair Porthladd Freiniawl ynys Prydain: Porth Ysgewin yng Ngwent, Porth Wygyr ym Môn, a Phorth Wyddnaw yng Ngheredigiawn.

66. Tair prif Afon ynys Prydain: Hafren yng Nghymru, Tain yn Lloegr, a Hymyr yn Nyfr a Bryneich.

67. Tair Rhagynys Gyssefin ynys Prydain: Orc, Manaw, a Gwyth; a gwedi hynny y torres y môr y tir onid aeth Môn yn ynys; ac yn unwedd ynys Iorc a dorred onid aeth yno liaws o ynysoedd, a myned yn ynysoedd a wnaeth mannau eraill o'r Alban a Thir Cymru.

68. Tri Llynghesawg ynys Prydain: Geraint mab Erbin; Gwenwynwyn mab Naf; a March mab Meirchion: a chweugain llong gan bob un o'r Llynghesogion, a chweugain llongwyr ymhob llong.

69. Tri Thaleithiog Cad ynys Prydain: Trystan mab Tallwch; Huail mab Caw o Brydyn, arglwydd Cwm Cawlwyd; a Chai mab Cynyr Cainfarfawc; ac un gwr yn Daleithiawc y arnynt eill Tri, sef oedd hwnnw Bedwyr mab Pedrawc.

70. Tri Deifnogion ynys Prydain: Gwalchmai ab Gwyar; a Llecheu ab Arthur; a Rhiwallawn Wallt Banhadlen: ac nid oedd nas gwypyn ei ddefnydd a'i ddeifnogaeth, ai o ryw ai o rann, ai o ansawdd, ai o gyfanfawdd, ai o ddychymmod, ai o ddychymmyg, ai o anian ai o aniad y byddei.

71. Tri phost Cad ynys Prydain: Dunawd Ffur fab Pabo Post Prydain; Gwallawc fab Lleenawg; a Chynfelyn Drwsgl: sef y medrynt Dosparth ar Gad a Chatteyrnedd yn oreuon o bawb oll ar a fuant erioed.

72. Tri Tharw Cad ynys Prydain: Cynfar Cadgadwg ab Cynwyd Cynwydion: a Gwenddoleu ab Ceidiaw; ac Urien mab Cynfarch: sef y rhuthrynt ar eu galon yn ail i darw, ac ni ellid ai dehoraint.

73. Tri Tharw Unbenn ynys Prydain: Elmur eil Cibddar; a Chynhafal fab Argad; ac Afäon mab Taliesin Ben Beirdd: a Beirdd oeddynt y tri hynn, ac nid oedd a ofnynt yng nghad a brwydr; eithr rhuthraw ynddynt a wnaent, ac nid ofnynt gyflafan.

74. Tri Thrahäawg ynys Prydain: Sawyl Bennuchel; Pasgen mâb Urien; a Rhun mab Einiawn: a thrahäusaf ar bob trahäus eu traha wynt, ac achaws hynny dwyn difrawd ar ynys Prydain; a'r ddifrawd honno a ddamgystlynes a'r Saeson, ac o'r diwedd myned yn Saeson.

75. Tri Gwrddfaglawg ynys Prydain; Rhineri mab Tangwn; a Thinwaed Faglawg; a Phryderi mab Doler Deifr a Bryneich.

76. Tri Aerfeddawg ynys Prydain: Selyf ab Cynan Garwyn; ac Afäon mab Taliesin; a Gwallawg mab Lleenawg: sef achaws yu gelwyd hwynt yn Aerfeddogion, am ddarfod dial eu cam oc eu beddau.

77. Tri Eurgelein ynys Prydein: Madawc mab Brwyn; Ceugant Beilliawc; a Rhuawn Befr ab Gwyddnaw Garanhir: sef yu gelwid felly achaws rhoddi eu pwys yn aur am danynt o ddwylaw au lladdes.

78. Tri Chyndynnawc ynys Prydain: Eiddilic Gorr, a Thrystan ab Tallwch, a Gweirwerydd Fawr; ac nid oedd au trothai o iwrth eu harfaetheu.

79. Tair Gosgordd Addwyn ynys Prydain: Gosgordd Belyn fab Cynfelyn yng nghadfel Caradawc ab Brân; a Gosgordd Mynyddawg Eiddin yng nghattraeth; a Gosgordd Drywon ab Nudd Hael yn Rhodwydd Arderydd yn y Gogledd: sef ydd elei bawb yn y rhai hyny ar eu treul eu hunein heb aros gofyn, ac heb erchi na thâl nag anreg y gan Wlad na chan Deyrn; ac achaws hynny au gelwid hwy y tair Gosgordd Addwyn.

80. Tri Theulu Diwair ynys Prydain: Teulu Cadwallawn eil Cadfan, a fuant gydag ef saith mlynedd yn y Werddon, ac yn hynny o amser ni ofynasant na thal nag iawn yn y byd, rhag gorfod arnaddynt ei adaw, ac nis gallai efe 'r iawn a ddylesynt; Ail, Teulu Gafran ab Aeddan, pan fu 'r difancoll, a aethant y'r mor dros eu harglwydd. Trydydd, Teulu Gwenddoleu mab Ceidiaw, sef cynnal y frwydr a wnaethant chwenydd a deugaint gwedi llâdd eu harglwydd; ac nid elynt o gad a brwydr, yny dielynt ei alanas ef; a rhif pob un o'r Teuluoedd hynny uncant ar hugain o wyr glewion, a chymmeint eu gwrololdeb ag nis gallesid eu gormedd.

81. Tri Anniweir Teulu ynys Prydain: Teulu Goronwy Befr o Benllynn, a ommeddasant eu harglwydd o erbynniaid y Gwenwynwaywau y gan Llew Llaw Gyffes yn Llech Oronwy ym Mlaen Cynfel yn Ardudwy; a Theulu Gwrgi a Pheredur, a adawsant eu harglwydd yng Nghaer Greu, a chyfnod ymladd a oedd drannoeth iddynt ag Edaf Glin Mawr, ac au llas wynt ill dau; Trydydd, oedd Teulu Alan Forgan, a ymchwelasant oddi wrth eu harglwydd yn lledrad ar y ffordd, a'i ollwng yntau a'i weision i Gamlan mann ai lladdwyd.

82. Tripheth a fu achaws gorchfygu Lloegr, a'i dwyn oddiar y Cymry: cynnwys Dieithraid, rhyddhau Carcharorion, ac anreg y Gŵr Moel.

83. Triwyr Dianc o'r Gad Gamlan a fu: Morfran ab Tegid rhag ei haccred, sef y tybiei bawb mai cythraul o Uffern ydoedd, ac a ffoynt rhagddaw; Sandde Bryd Angel gan ei hardded, a'i laned a'i decced; ni chodai neb law yn ei erbyn, gan dybied mai angel o'r nef ydoedd; a Glewlwyd Gafaelfawr rhag ei faint a'i gryfder, nid oedd a safai o'i flaen, a phawb a ffoynt rhagddaw: sef namyn y Triwyr hynny ni ddiengis neb o'r Gâd Gamlan.

84. Tair prif Gyfangor ynys Prydain: Bangor Illtud Farchawg yng Nghaer Worgorn; Cor Emrys yng Nghaer Caradawg; a Bangor Wydrin yn ynys Afalleu; ac ym mhob un o'r tair Bangor hyny ydd oedd pedwar cant ar hugain o saint, sef oedd cant ar bob awr o'r dydd a'r nos yn eu cylch yn cynnal mawl a gwasanaeth Duw heb orphwys heb yspaid.

85. Tri Buelydd Gosgordd ynys Prydain: Bennren Fuelydd yng Ngorwennydd, a gedwis Fuel Caradawc ab Brân o'i Osgordd; ac yn y Fuel honno ugain mil ac un yn Wartheg blithion; Ail, Gwydion fab Don a gedwis Wartheg Gosgordd Gwynedd Uch Conwy, ac yn y Fuel honno ugain mil ac ûn; Trydydd, Llawfrodedd Farfawc a fuelis Wartheg Nudd Hael fab Senyllt, ac yn y Fuel honno ugain mil ac un yn Wartheg blithion.

86. Tair Llynges Gynniweir ynys Prydain: Llynges Llawr mab Eidrif; a Llynges Difwg mab Alban; a Llynges Dolor mab Mwrchath brenin Manaw.

87. Tair prif Ddinas ynys Prydain: Caerllion ar Wysg yng Nghymru, Caer Lundain yn Lloegr, a Chaerefrawc yn Neifr a Bryneich.

88. Tair Gorchwyl Gadarn ynys Prydain: codi Maen Cetti, adeiliaw Gwaith Emrys, a thyrru Cludair Gyfrangon.

89. Tri Gwyn Seronyddion ynys Prydain: Idris Gawr, a Gwydion mab Don, a Gwyn ab Nudd; a chan faint eu gwybodau am y ser a'u hanianau a'i hansoddau y darogenynt a chwennychid ei wybod hyd yn nydd brawd.

90. Triwyr Hûd a lledrith ynys Prydain: Math ab Mathonwy, ac efe ai dangoses ei hud i Wydion mab Dôn; a Menyw fab Teirgwaedd, a ddysges ei hud i Uthyr Bendragon; a Rhuddlwm Gawr, ac efe a ddysges ei hud y gan Eiddic Gorr a Choll mab Collfrewi.

91. Tri Mad-Gyrfinydd ynys Prydain: Corfinwr bardd Ceri Hir Lyngwyn, a wnaeth Long, Hwyl, a Llyw gyntaf i Genedl y Cymry; Morddal Gwr Gweilgi, saer Ceraint ab Greidiawl a ddysges waith Maen a Chalch gyntaf i Genedl y Cymry yn yr amser y bu Alecsander ammherodr yn dwyn y byd y danaw; a Choel ab Cyllin ab Caradawg ab Brân a wnaeth Melin, Rhod, ac Olwyn gyntaf i Genedl y Cymry: a thri meib beirdd oeddynt.

92. Tri Deifnogion Cerdd a Cheudawd Cenedl y Cymry: Gwyddon Ganhebon, a wnaeth Gerdd Dafawd gyntaf o'r byd; a Hu Gadarn a ddodes gyntaf ar Gerdd Dafawd gynnal Cof a Cheudawd; a Thydain Tad Awen, a ddodes gelfyddyd gyntaf ar Gerdd Dafawd, a dosparth ar Geudawd; ac o'r a wnaethant y triwyr hynny y cafad Beirdd a Barddoniaeth, a dodi yn nosparth Braint a Defawd y pethau hynny y gan y tri beirdd cyntefigion, nid amgen, Plennydd, ac Alawn, a Gwron.

93. Tri Chynfebydd ynys Prydain: Tydain Tad Awen, Menyw Hen, a Gwrhir bardd Teilaw yn Llan Dâf: a thri meib beirdd oeddynt.

94. Tri Tharw Ellyll ynys Prydain: Ellyll Gwidawl, ac Ellyll Llŷr Merini, ac Ellyll Gwrthmwl Wledig.

95. Tri Gwydd Ellyll ynys Prydain: Ellyll Bannawc, ac Ellyll Melan, ac Ellyll Ednyfedawc Drythyll.

96. Tri Gwrforwyn ynys Prydain: Llewei ferch Seithwedd Saidi, a Mederai Badellfawr, a Rhorei Fawr ferch Usber Galed.

97. Tri phrif Orchestwaith ynys Prydain: Llong Nefydd Naf Neifion, a ddug ynddi wryw a benyw o bob byw bann dorres Llynn Llion; ac Ychain Bannog Hu Gadarn, a lusgasant Afanc y llynn i dir ac ni thorres y llynn mwyach; a Main Gwyddon Ganhebon, lle y darllenid arnynt holl gelfyddydau a gwybodau Bŷd.

98. Tri Gwynfebydd ynys Prydain: Cadawg ap Gwynlliw yn Llangarfan; Madawg Morfryn yng Nghor Illdud; a Deinioel Wynn yng Ngwynedd: Tri meib beirdd oeddynt.

99. Tri Defeidydd Gosgordd ynys Prydain: Colwynn defeidydd Gosgordd Brân ap Llyr Llediaith yn Morganwg; Pybydd Moel defeidydd gosgordd Tegerin Llwyth Llwydiarth ym Môn; a gwesyn defeidydd Gosgordd Goronwy ab Ednywain brenin Tegeingl yn Rhyfoniog; ac o'i enw ef y gelwir Gwesyn ar fugail defaid: sef oedd rhif a gadwai bob un o'r triwyr hynny, chweugain mil, ac y danynt bob un dri chant o feibion eillion yn nawdd Cenedl y Cymry.

100. Triwyr y rhodded hwy a'u heppil hyd y byddei byd dan warth ac ammraint, ac nis gellir arnynt amgen na braint meibion Eillion; Cyntaf, Afarwy ab Lludd, a wahoddes y Rhufeiniaid gyntaf i'r ynys honn yng ngosgordd Iwl Caisar eu hemmherawdr, ac a roddes daiar iddynt yn ynys Daned; Ail oedd Gwrtheyrn Gwrthenau, a wahoddes y Saeson gyntaf i'r ynys honn yn gannllawiaid iddaw yn ei drawsdeyrnedd, ac a roddes dir iddynt yn ynys Daned, ac hanfydded gwaeth i'r neb a rothai dir a daiar i estron yn yr ynys honno; ac efe a ymddyweddïes a Rhonwen ferch Hors; ac i'r mab a gafas efe o honno a'i enw Gotta fab Gwrtheyrn, y rhoddes efe o drawsfraint Unbennaeth ynys Prydain; ac achaws hynny y collasant y Cymry Unbennaeth ynys Prydain; Trydydd ydoedd Medrawt ap Llew ap Cynfarch, a gafas deyrnedd ynys Prydain yn Adneufraint, tra fai Arthur yn gwrthladd Gwyr Rhufain y draw i Fynydd Mynnau, pan fynnynt attychwel yn Ormes i'r ynys honn, ac yno y llas goreuon Gwyr Arthur, a phan glybu Medrawd, ymgystlynu a'r Saeson a orug, a pheri ymladd y Gad Gamlan, lle y llas Arthur a'i wyr namyn tri, ac o hynny ydd aethant y Saeson yn ormesgyrch ar deyrnedd ynys Prydain, a lladd a deol o Genedl y Cymry y neb nad elai gauthynt, ac ni chaid namyn Ciwdoddeu Gwlad Gymru a fynnynt Wrthladd Gormes y Saeson: a Gwŷr Rhufain yn cadarnhau braint a thiroedd i'r Saeson yn ynys Prydain, mal pei y naill Genedl ormes yn ymddyweddiaw ar llall, onid aeth iddynt wyr Rhufain mal y modd y llosges genfigen ei pherchen o ddyfod yr Ormes Ddu arnynt.

101. Tri Gwrddfeichiad ynys Prydain: Cyntaf fu Pryderi fab Pwyll Pendaran Dyfed, a getwis foch ei dâd tra yttoedd yn

Annwn; ac yng Nglyn Cwch yn Emlyn y cetwis efe wynt. Ail, Coll ab Collfrewi a getwis Hwch Dallwaran Dalben, a ddaeth yng ngorddodwy hyd ym Mhenrhyn Penwedic yng Nghernîw; ac yna myned yn y mor, a'r lle y dathoedd i dir Abertarogi yng Ngwent Iscoed; a Choll mab Collfrewi a'i law yn y gwrych ffordd bynnag ydd elei, ai ar for ai ar dir; ac ym maes Gwenith yng Ngwent y dodwes dri Gwenhithyn a thair Gwenhynen; ac er hynny y mae goreu Gwenith a mêl yng Ngwent: ac o Went y cerddei hyd yn Nyfed, ac y dodwes ar Heiddyn a Phorchellan; ac er hynny goreu Haidd a Moch yn Nyfed; ac yn Llonnio Llonnwen y dodwes y rhain. Gwedi hynny y cerddwys hyd yn Arfon, ac yn Lleyn y dodwes ar y Gronyn Rhyg; ac er hynny goreu Rhyg yn Lleyn ac Eifionydd; ac er ystlys Rhiwgyferthwch y dodwes ar Genau Blaidd a Chyw'r Eryr; a rhoddi'r eryr a wnaeth efe i Frynach Wyddel o Ddinas Affaraon, a'r blaidd y rhoddes efe i Fenwaed arglwydd Arllechwedd: a llawer o son y sydd am Flaidd Brynach ac Eryr Menwaed: ac oddiyna myned yd y Maen Du yn Arfon, lle dodwes ar geneu Cath; a Choll mab Collfrewi ai teflis ym Menai; a honno oedd y Gath Balwg, a fu'n Ormes ynys Mon wedi hynny. Trydydd, Trystan ab Tallwch, a getwis foch March fab Meîrchion, tra aethai y meichiad yn gennad at Essyllt i erchi oed a hi; ac Arthur, a Marchell, a Chai, a Bedwyr, a fuant eill pedwar ar ymgais a chyrch, ac nis gallasant gael cymmaint ac un banw, nag o rôdd, nag o brŷn, nag o dwyll, nag o drais, nag o ledrad. Sef achaws au gelwid y Gwrddfeichiaid am nas gellid nag ynnill na gortrech arnynt am un o'r moch a gedwynt, eithr eu dadfer a wnaent ar eu llawn gynnydd i'r rhai au pieuffynt.

102. Tri Serchogion ynys Prydain: Cyntaf, Caswallawn ab Beli am Fflur ferch Mygnach Gorr, a myned yn ei chyrch hyd yn Nhir Gasgwyn, yn erbyn gwŷr Rhufain, a'i dwyn ymaith, a lladd chwemil o'r Caisariaid; ac yn nial hynny o alanas y daethant wyr Rhufain i ynys Prydain; Ail fu Trystan fab Tallwch am Essyllt ferch March ab Meirchion ei Ewythr; Trydydd, Cynon am Forfydd ferch Urien Reged.

103. Tair diweirferch ynys Prydain: Trywyl ferch Llynghesawl Llaw hael; Gwenfronn ferch Tudwal Tudclud; a Thegau Eurfronn, yr honn oedd un o dair Gwenriain Llys Arthur.

104. Tair diweirwraig ynys Prydain: Arddun gwraig Catgor ap Collwyn; Efiliau gwraig Gwydyr Drwm; ac Emerchred gwraig Mabon ab Dewein Hên.

105. Tair Anniweirwraig ynys Prydain, sef oeddynt tair merched Culfynawyd Prydain: un, Essyllt Fyngwen gordderch Trystan ab Tallwch; Ail, Penarwen gwraig Owain ab Urien; Trydydd, Bun gwraig Fflamddwyn.

106. Tair Gohoyw Rïain ynys Prydain: Angharad Tonnfelen, merch Rhydderch Hael; Annan ferch Maig Mygedwas; a Pherwyr ferch Rhun Ryssedffawr.

107. Tair Gwenrïain ynys Prydain: Gwenn ferch Cywryd ab Crydon; Creirwy merch Ceridwen; ac Arianrod ferch Dôn.

108. Tair Gwenrïain Llys Arthur: Dyfir wallt euraid; Enid ferch Yniwl Iarll; a Thegau Eurfronn: sef oeddent Tair Rhiain Ardderchawg Llys Arthur.

109. Tair Gwragedd Arthur, sef oeddent ei Dair Prif Riain; nid amgen, Gwenhwyfar ferch Gwythyr fab Greidiawl; a Gwenhwyfar ferch Gawrwyd Ceint; a Gwenhwyfar ferch Ogyrfan Gawr.

110. Tair Prif Gariadwraig Arthur: un, Garwen ferch Henyn Tegyrn Gwyr ac Ystrad Tywy; a Gwyl ferch Eutaw y Gaerworgorn; ac Indeg ferch Afarwy Hir o Faelienydd.

111. Tair Priflys Arthur: Caerllion ar Wysg yng Nghymru; Celliwig yng Nghernîw; a Phenrynn Rhionydd yn y Gogledd, ac yn y tair hynny cynnal y tair Prifwyl Arbennig, nid amgen, y Nadolic, y Pasg, a'r Sulgwyn.

112. Tri Thrwyddedawg Hanfodawg Llys Arthur: Llywarch Hên ab Elidir Lydanwyn, a Llemmenig, a Heiddyn Hir: sef meib beirdd oeddynt.

113. Tri Gogyfurddion Llys Arthur: Dalldaf mab Cynin Côf; a Thrystan mab March ab Meirchion, a Rhyhawd mab Morgant ab Adras.

114. Tri Unben Llys Arthur: Goronwy ab Echel Forddwydtwll, a Chadraith ab Porthor Godo; a Fleidur Fflam mab Godo: sef oeddent yn Dywysogion yn Berchennogion Gwlad a Chyfoeth, a gwell oedd genddynt no hynny aros yn Farchogion yn Llys Arthur, gan y bernid hynny yn bennaf ar bob anrhydedd a bonheddigeiddrwydd, a ellid wrth a gair y Tri Chyfiawn Farchawg.

115. Tri Marchogion Aurdafodogion Llys Arthur: Gwalchmai ab Gwyar, a Drudwas fab Tryphin ab Madawc fab Uthur, a doethaf ar bob doethion o'u hamser oeddynt, ac mor deg a llaryeidd eu

hymddwyn, ac mor hyawdl a hynaws eu holl ymadroddion, fel nas gallai neb ball iddynt ar a geisiynt.

116. Tri Marchog Cynghorddoeth Llys Arthur: Cynon mab Clydno Eiddin; ac Arawn fab Cynfarch; a Llywarch Hên mab Elidir Lydanwyn: ac ni chaid amgen na llwydd i bob Cynghor o'u heiddaw a wnaed, ac aflwydd a gaid lle bynnag nas gwneid yn oll eu cynghoreu.

Ai cyrchu h6ynt a oruc Corineys a drychav y v6yall ai daro ev ar 6arthav y benffesting ai holldi hyt y lla6r ac 6edy hyny troy y v6yall yn y gylch a oruc ev heb orffo6ys a chymyny y elynion ar neb y gyfarffai ac ev y lad neu ynafu a 6nai ar un dyrnot. Ac yna g6elas Bryttys ev yn y gofyt h6nn6 ac atto y dayth ai vydin yn borth ida6. Ac yna y by aerva va6r ryngtynt ar amrafaelion genedloed. Ac yn y lle wedy hynny y cymhell6yd Coffarffichdi ar ffo ai lu ganto. Ac yr aeth ev y ffrainc at y genedl y gaissio nerth y dial y lit ar 6yr troyav cans yr amser h6n6 or un dailyngdawt ar un argl6ydiaeth ar un lly6odraeth y cynhelynt y g6lat. Eithr brenin Car6et oed y6ch y dailyngda6t noc h6ynt cans ydoed daudec brenin ar ffrainc ar haini ai herbynna6d ev yn hygar la6en ac ado nerth ido y 6rthlad estron genedl i6rth y 6lat ev ai thervynau. Ac yna g6edy cael o Vryttys y vydigoliaeth cyfoethogi y 6yr a oruc ev ac ysbail yr hai lladedic. Ac 6edy hyny ail6aith bydina6 y 6yr a oruc ev a mynet yr 6lat a d6yn pob ry6 da ac oed yndi gantynt yr llongau a llosgi y dinessyd a chymryt y haur ai hariant ac a ellit y gych6yn o daoed eraill a llad c6bl or bobl ac 6edy darvot ida6 losgi dros 6yneb gasg6in ac odyno yr lle a el6ir yr a6r hon dinas tyrri. Ac yno g6edy g6elet o hona6 le adas o gadernit messuro a oruc ev le adas y bebyllau a g6naythur cadernit yn y cylch megis y gellynt gynnal br6ydr o bai rait cans ofni doedynt dyfot Coffarffichdî a brenhinoed eraill ac amlder o luoed gydac ev ac ynte oed yn y haros h6ynt yno. Ac yna pan gigle Goffarffichdi y bot h6ynt yno ni orffwysoed ev na dyd na nos nes dyfot lle y g6elas ev yr holl gadernit ac y dy6at ev och och rac cy6ilyd trist o dynghedven y6 hon 6elet estron genedl 6edy gossod pebyllau ym teyrnas g6isg6ch 6yrda amdanoch a del6ch h6ynt megis daly defait me6n ffalt a rann6n h6ynt yn garcharorion ac yn gaethion ymhob mann yn g6lat ni y dial yn llit an digofaint arnynt. A bydina6 y g6yr yn daydec bydin a dyfot yn erbyn g6yr troyav. Sev a oruc Bryttys pan 6yby hyny g6isga6 y arvau ev ai 6yr a dyfot yn erbyn Caffarffichdi ai cyrchu yn diofn a chynghori y ly y gyrchu pan vai amser ac y aros pan vai rait. Ac velly y gorvot a oruc g6yr troyav ar yr rythyr cyntav a chymell Coffarfichdi y ffo ev ai 6yr ac ar y ffo. hyny y llas d6yfil o nadynt. Ac velly dec cymaint oed anifer Coffarffichdi ar ffrainc noc anifer Bryttys cans bob a6r ydoed rai yn dyfot attynt.[90] Ac yna ail6aith y doethant am ben g6yr troyav a g6naythyr aerva va6r arnynt ai cymell yr cestyll drychefn. Ac velly 6edy cael or ffrainc y vydigoliaeth hono eisted a orugant yn y cylch a med6l y g6archau yn y vaynt var6 o ne6yn neu y gellit y roi y angeu a vai hagrach no hyny. Ar nos hono cynghor a gymerth Bryttys ev a Chorineys fev oed y cynghor mynet o Gorineys yn da6el o'r lluestau ac ymgydiat mewn ll6wyn o goet oed yn agos yno. A thrannoeth pan elai Vryttys y ymlad ac h6ynt. Codi o hona6 ynte o'r ty arall a roi cri arnynt a roi aerva va6r ar y ffrainc. A hyny a oruc Corineys mynet allan ar hyt nos a thair mil o 6yr arvoc gydac ev ac ymgydia6 yn y coed. Ar borau drannoeth bydina6 y 6yr o Vryttys yn reolys ac yn gy6air a roi cat ar vaes yr ffrainc ai cyrchu h6ynte or ffrainc yn llidioc ac yna y llas lla6er o viloed o bob part. Ac yno ydoed was ievanc a hanoed o droyav a nai oed ev y Vryttys ai hen6 ev oed Dyrri cans ond Corineys de6rav oed ev cans ai gledyv y hun ev a ladoed ch6echaun6r ac yna y ffrainc ai lladoed ynte ac yno y cladwyt ev. Ac o hen6 ev etto y gel6ir y lle h6n6 dinas Tyrri am y glady ev yno. Ac yny nachav Gorineys yn dyfot heb 6ybot ydynt or tu cefn ai cyrchu yn diannot a phan 6elas Bryttys hyny ymgadarnhau me6n de6rder a oruc ev ai 6yr a rac maint y cri a roddes Corineys digalonni a oruc y frainc gan dybiet vot yno v6y anifer nog oed a dechrau gado'r maes a oruc y frainc a fo ai hemlit h6ynte a oruc g6yr troyav yny ga6ffant y vydigoliaeth arnynt ac velly hyt bai la6en Bryttys o gael y vydigoliaeth trist oed ev am lad Tyrri y nai. Ac velly llaihau ydoed anifer Bryttys beynyd a m6yhau ydoed anifer y frainc. sev yna y cafas Bryttys yn y gynghor mynet y longau a ran v6yav o'i 6yr yn iach ganto a chlot y vydigoliaeth hefyt. Ac yna mynet parth ar ynys a vanagassai y du6es ida6 ac yn diannot tr6y gynghor y 6yrda mynet yr llongau a orugant a d6yn gantynt a vanasson o bob cyfryw da ar a oed yn y 6lat hono.

A DRYCHAV h6ylau a chael y ma6n6ynt ac yr tir y doethant y draeth talnas. Sev oed y lle h6n6 yr Alban yr hon a el6ir yn gymraec y 6en ynys ac nid oed neb yn y chyfanedu namyn ychydic o ge6ri ac ansa6d dec oed yndi nit amgen lla6er o afonyd tec a fysgot yn amyl yndynt a choedyt tec oed yndi. Ac velly bodlon vy gan Vryttys ai gyfaillion ossodiat yr ynys ar ce6ri oed yn fo yr mynydoed ac yna gan genat

y ty6yssogion rannu yr ynys a 6naethont ryngtynt a dechrau aredic ac adailiady tai arni ai chyfanhedy me6n encyt bychan megis y tybygit vot cyfaned yndi er ys lla6er o amseroed. Ac yna y mynnod Bryttys al6 yr ynys ar hen6 ev y hun ac en6 y genedl oed yn y chyfanedy y brytannait sev oed hyny achos y hen6 ev y hun o her6yd y mynnai ev gafel ido yn dra-g6da6l hyt dyd bra6t ac o hyny allan y gel6it iaith y genedl hono bryttanec. Ac y roes Corineys ar yr rann a dayth ido ynte cerni6 cans ev a gafas y dewis ymlaen pa6b. Ac ynte a de6issod y ran hono or ynys o achos amlav oed y ce6ri yno cans digrifach oed ganto ev ymlad ar haini. Ac yn y myfc h6ynt yr oed ry6 anghynvil yr h6n a el6it Gogmagog a daydec cyfyd oed yn y hyt a hefyt cymaint y dy6edynt vot y nerth ev ai gryfder ac y tynnai ev y derwen v6yav yn y coet yr lla6r dan y draet oi g6raid cyn ha6ded a thynny g6ialen goll vechan. Ac velly val ydoed Vryttys yn ryfely ar dyd g6ylva yn y lle y dathoed ev y dir gyntav yr ynys hon nachav Gogmagog yn dyfot ar y daydegvet ga6r ac yn g6naythyr croylon aerva ar y Bryttaniait. Ac yna ymgynyll a oruc lla6er o nadynt ynghyt ac ymlad ac 6ynt yn 6ra6l ai lad oll eithr Gogmagog cans Bryttys a beris y ada6 ev yn vy6 cans digriv oed ganto 6elet Corineys yn ymlad ac ev achos hyny ydoed ev yn y damyna6. Ac yna pan 6elas Corineys yr anghynvil h6n6 yn dyfot ennynii o la6enyd a oruc a b6r6 y arvau odi6rtho ac erchi yr ca6r dyfot i ymdrech ac ev. A dyfot y gyt a orugant a sefyll 6yneb yn 6yneb a chymryt o bob un afel ar y gilyd a mynych ymdafodi a 6naethant yny oed y sa6l oed yn y hemyl.....gana y hanadl h6ynt. Ac yn y lle g6asgu or ca6r Gorinays atto oi holl nerth yny dorres tair assen ida6 d6y or ty assa6 ac un or ty dehau ac yna llidia6 a oruc Corineys a chymryt yn erth atto a drychav y ca6r ar y ysg6yd a rydec ac ev ty a chraic y mor a dyfot ac ev y ben tarren ychel ai v6r6 dros y graic yr mor yny aeth ev yn vil o dryllau yn y li6is y don oi 6aet ev yn hir o amser ar lle h6n6 o hyny hyt hedi6 a el6ir llam y ca6r neu naid Gogmagog. Ac yna g6edy rannu yr ynys ch6nychu a oruc Bryttys 6naythyr dinas. A cherdet ar hyt yr ynys a oruc y gaisia6 lle a vai adas y 6naythyr y darpar ac or di6ed ev a dayth hyt ynglan avon Demys a gorymdayth hono a oruc ar hyt y traethau. Ac 6edy cael o hona6 le adv6yn a ryngau y vod ev adail6ys dinas yno ac ai gel6is hi troyav ne6yd ac velly y gel6it hi yn hir o amser ac yna tr6y lygredigaeth y hen6 ef y gel6it hi Trynovant ac 6edy y chael hi lyd ap Peli ma6r bra6t Casswalla6n y g6r amladoed oc Ilcassar. Ac 6edy cael y vrenhiniaeth or Llyd h6nn6 y cadarnha6ys ev y dinas o diroed a miroed o anairiv gelvydyt a chy6raiudeb ac y herchis ev y gal6 hi o hynny allau caer Lyd oi hen6 ev ar Saisson ai gelwis hi L6nd6n ac am hyny y by r6ng Lyd a Nynia6 y vra6t amrysson ma6r am difa hen6 troyav. Ac yna g6edy darvot o Vryttys adailiat y dinas ai chadarnhau o vyroed a chestyll ai chyssegru a oruc a gossot cyfraithiau cad6edic yndi yr neb ai press6yliai yn dangnefedys a gossot na6d ar y dinas ac ystynny braint idi. Ar amser h6n6 ydoed heli effairiat yn g6ledychu yn yr Iudea ac yno yr oed yr archysteven yngharchar gan yr Pilisteo6ission. Ac yn troyav yr oed mab y Ector gadarn yn g6ledychu 6edy y 6rthlad o ettifedion Antenor o heni. Ac yn yr Eidial yr oed Sylhys ap Ysgannys ap Eneas yn g6ledychu c6yrth Bryttys o oed h6n6 yn drydyd brenin yn o Latinys.

Ac yna y by y Vryttys o Enogen y wraic dri maib nid amgen Locrinys Camber ac Albanactys ar tri maib hyny g6edy mar6 y tat y bed6red vl6ydyn ar hygain 6edy dyfot yr ynys hon. Ac yna h6ynt a ranassant yr ynys yn dair ran. Locrinys cans hynav oed a gymerth canol yr ynys ar ran hyny oi hen6 ev a el6ir Lloegr. Camber a gafas y ran arall ty yna y hafren ar ran hono a el6ir Cymbry ac Albanactys a gafas o avon hymyr hyt ymhenryn bladon a hono a el6ir Ysgotlond ac oi hen6 ynte Alban. Ac velly y byant yll tri yn cid6ledychu. Ac yna y dayth hymyr vrenin huna6t a llynges va6r ganto ir Alban y dir ac ymlad a oruc Albanactys a chymell pobl y 6lat hono y ffo hyt att Locrinys. Ac anvon a oruc ynte att Gamber y vra6t a chynyll a 6naethant holl ientit y dau gyfoeth a mynet yn erbyn hymyr ai yrry ar ffo yny vodes ev yn yr avon hono ac o hynny hyt hedi6 y gel6ir yr avon hono hymyr. Ac yna 6edi cael o Locrinys y vydygoliaeth ev a rannod ysbail yr hai lladedic ar maint a gafat o aur ac arian yn y llongau. Ac yna tair mor6yn 6ych y pryt ai teg6ch a dali6s ev ac un o nadynt oed verch y vrenin Germania a dyg-assai hymyr ganto o dyno pan anraithassai ev y 6lat a d6y vor6yn eraill gida hi ai hen6 hi oed Essyllt. a g6nnach oed y chna6d hi nor aira g6nnav neu ala6 neu asg6rn morvil. A fan y gwelas Locrinys

hi ennynu oi chariat a oruc ai chymryt hi ar y 6ely megis g6raic briot ida6. A phan 6yby Gorineys hyny llidia6 yn va6r a oruc cans ado a 6naethoed Locrinys gymryt y verch ev yn briot ida6. Ac yna cyrchu'r brenin o oruc Corineys gan ysgydia6 y v6yall arno a dy6edyt val hyn. Ai val hyn 6as y tely di i mi y gynifer brath a g6eli a gefas i gydath dat ti tra vyom ni yn ymlad ac estron genedl drosta6 ev ai velly wâs y tely di y mi pan ettyt ti 6all ar vy merch i a chymryt mor6yn achyfiaith yn y blaen hi nit a hyn yn rat gennyt ti tra vo nerth ym d6yfraich i cans tr6y y v6yall honn y colles lla6er ca6r y by6yt a hyny gan ysgyd6ait y u6yall dau vinioc arno megis be bai yn mynny y daro ev. Ac yna yr aeth cydmaithion rynto ev ar brenin. Ac yna 6edy tangnofedy ryngtynt y cymhell6yt ar Locrineys gymryt merch Gorineys yn briot. Ac er hynny nit ym-6rthodes ev a chariat Essyllt namyn g6naythyr seler yn llyndain idi dan y daiar a gorchymyn i an6ylaid y chadw. a phan elai etti y dy6edai y vot yn mynet y 6naethyr aberth dirgeledic y du6 cans ni lefassai ev rac ofn Corineys y chad6 hi ar goed ar y 6ely ac velly y bu ev yn tram6y etti hi saith mlyned. Ac 6edy mar6 Corineys gadau G6endolau y verch ev a oruc Locrinys a chymryt Essyllt ar goed ar 6ely y vrenhines. Ac yna dolyrio a oruc G6endolau a mynet hyt ynghern6 a chynyll holl ienctit y chyfoeth etti a dechrau ryfely ar Locrinys. Ac yna y cyfar6y y dau lu ar lann yr avon a el6it Vyrram a br6ydr groylon a vy yno. Ac yna y tre6is Locrinys a saeth yn y dalken ac y llas ev. Ac yna y cymerth G6endolau ly6odraeth yr ynys yn y lla6 y hun. A feri a oruc hi gymryt Essyllt a Hafren y merch ai bodi ylld6y yn yr avon ac o hynny allan y gel6ir yr avon Havren dros g6bl o ynys Brydain ac velly y gel6ir hi hyt dyd bra6t o achos y vorwyn a vodet yndi megis y delai gov yn drag6yda6l amverch Locrinys. Ac 6edy Locrinys y lly6ia6d y vrenhines y dyrnas daydeng mlyned a daydec eraill bysai Locrinys yn ylly6ia6. A phan dayth Madoc y mab hi me6n oed dedvol yr hyrd6yt ev yn vrenin a ly6ia6 cerni6 a oruc hi y hun tra vy vy6. Ac yna g6raica a oruc Madoc a dau vab a vy ida6 o honi nit amgen Membyr a Mael ac yna lly6ia6 y dyrnas a oruc Madoc yn dangnofedys deng mlyned ac yna y by ev var6. Ac yna y by anundeb r6ng y deu vab ev am y dyrnas cans pob un o nadynt a vynnai y chael hi ido y hun. a roi cennat a oruc Membyr y Vael y vra6t y dyfot ymdidan ac ev ar vessyr tangnefed ac yna tr6y vrat y peris Membyr lad y vra6d. Ac 6edy cael o hona6 ev yr ynys yn holla6l cymaint o groylonder a gymerth ev yndo y hun hyt pan ladoed ev gymaint o 6yrda ac oed yn yr ynys megis na beynt h6y yn g6ledychu yn y ol ev a hefyt gado y 6raic a oruc yr hon oed vam y Efroc cadarn. ac ymroi a oruc y bechot Sottma a Gomorra ac ym-hoelyt yr anian pryffaith ni 6rth6yneb ar y ganvet vl6ydyn oi dyrnas di6arnot ydoet ev yn hela a mynet a oruc ev ychydic odi-6rth y g6yr me6n glyn coeda6c ac yna y dayth blaidau ac ai ladassant ev ac ai lla6-ssant.

Ac vedy mar6 Membyr y dayth Efroc y vab yn vrenin cadarn y gynnal y dyrnas ac ai cynhelis hi deng mlyned ar hygain. a chyntav brenin aeth 6edy Bryttys a llynges y frainc vy ev. A llat a llosgi a oruc ev yno a d6yn y hanraithiau ai haur ai harian a dyfot y drev a chlot y vydigoliaeth ganto vedy llosgi y dinessyd a dystry6 y cayryd ar cestyll yn ll6yr. Ac ev yn gyntaf adaili6ys y parth dra6 y Hymyr y dinas a el6ir oi hen6 ev y hun dinas Efroc. Ar amser h6n6 Dafyd oed vrenin Carissa-lem. A hefyt ev adaili6ys Caer Efroc gyf-erbyn ac Alban. Ac ev adail6ys castell mynyd Angnet a h6n a elwir hedi6 castell y morynion neu vynyd dolyr ac velly ygain maib a vy y Efroc o ygain g6raged a dec merchet ar hygain. Ar dyrnas hon a ly6iod ev daygain mlyned. hunav or maib-ion oed Vryttys darian las Gilins Run Moryd Bleidyn Iago Calan Cynar Ys-bladen Gwryl Dardan Eidiol Ivor G6ychyr Gron6y Ector Cyhelyn Rat Assaracys Howel. Ar maibion ar merchet a dan-vones y tat yr Eidial att Silmins Alban y g6r a vy vrenin 6edy Siliys Lattinys ac yna rodet h6ynt y 6yr bonedigion o genedl troyav. Ar maibion oll hefyt ac Asaracys yn dw6foc arnynt aethant a llynges gan-tynt hyt yn Sermania ac o ganhorth6y Silmins Alban y goresgynasant Sermania ac y ca6sant y vrenhiniaeth hono.

Bryttys darian las a drigiod gyda y dat ac ev a 6ledychod 6edy y dat deng mlyned. Ac ar y ol y bu Leon ga6r y vab ynte a g6r da vy h6n6 yn vrenin yn cynnal g6ri-oned a chyfia6nder.

Ar Lleon h6n6 a r6ydha6ys ly6odraet y dyrnas ac adaili6ys yn y part dra6 yr gogled o ynys Brydain dinas a elwir Caer Lleon. ar amser h6n6 ydoed Selyv ap Dafyd yn adailiat temyl Iessu Grist yn-gharissalym. Ac yna y dayth Brenhines

y dehau y 6rando doethineb Selyv. ac velly pymlyned ar hygaint y by Leon yn g6ledychu yn vrenin. Ac yni6ed y oes llesc vy ev ac am hyny y codes tervysc yn y dyrnas a ryfel ryngtynt y hun.

Ac yni ol ynte y g6ledych6ys Run baladr brâs y vab onit un vl6ydyn daygain. A h6n6 a duc y bobl oi ryfel y dangnefed. Ar Run h6n6 adaili6ys Caer Caint aint a Chaer Wynt a Chaer vynyd y paladr ac yno yr oed yr Eryr yn proff6ydo daroganau ir ynys honn ac v gorffen-6ys Selyv ap Dafyd y demyl yn Gaersalem.

Ac yn y ol ynte y dayth Blaidyt y vab ac ygain mlyned y g6ledychod ynte. Ac ev adaili6ys Gaervadon ac a 6naeth yr ennain t6ym parhays byth y vedignaethu y neb y bai rait ido 6rtho. Ac ev aberth-6ys yr de6ines a el6ir Minerva osot tân heb diffodi byth yny losgi y dym hoelai yr... 6aith yn bellenai tân ac amser h6n6 y g6edi6ys y proff6ydi hyt nar rodai du6 dim gla6. ac yna ni by un dafn gla6 dair blyned a saith mis. A g6r ethrylithys oed Vlaidyt ac ev gyntav a duc nigromans ar hyt ynys brydain. ac ni orff6yss6ys ev yn g6naythyr celvyd yny 6naeth escyll ac adenyd ida6 ac ehedoed y orychelder a6yr ac odyno y syrthiod ev ar ben temyl Apolo yn Llyndain yny aeth ev yn gant o drylleu. Ac yn ol Blaidyt y dayth Llyr y vab ynte yn vrenin yr h6n a vy daygain mlyned yn lly6-ia6 y dyrnas yn 6ra6l dangnofedys. Ac ev adaili6ys Caer ar lan avon Soram yr hon a el6ir Caerlur o Gymraec ac o Saesnec Lessedr. Ac yr Llyr h6n6 ni by un mab namyn tair merchet sev oed y hen6au Coronilla a Raga6 a Chordalia. Ai tat ai carai h6y yn vwy no mesyr. a mwy y carai ev Gordalia y verch ioyav ida6 nor d6y verchet eraill. Ac yna 6edy y henaidio ev ai drymhau meddylia6 a oruc ev rannu y gyfoeth yn dair ran ai roi h6ynte y 6yr a thrayan y gyfoeth gida fob un o nadynt ac hefyt 6edy g6ypai pa un v6yav oi verchet ai carai ev a rodai y hono y ran v6yav oi gyfoeth. ac yna gofyn a oruc ev yr verch hynav pa gymaint y carai hi y that. ac y tyng6ys hithau mae m6y y carai hi y that nor enait oedyn y chorf. Ac y dy6at ynte 6rthie er m6yn dy vot ti ym carv i yn v6y nor holl vyt vyngharediccav verch mi ath rodav di yr g6r m6yav a garych a thrayan vy nghyfoeth gyt a thi. Ac yn y lle gofyn a oruc ev yr ail verch hynav pa gymaint y carai hi y that. Ac y dy6at hithe na vedrai hi draythy ar y thafot vaint y carai hi y that a thyngu y carai hi y that yn v6y nor holl greadyriait y dayar. Sev a oruc ynte y charu hi yn va6r a rodi idi yr ail ran oi gyfoeth. Ac yna y dywat Cordaila 6edy g6elet y d6y ch6ioryd yn y d6yllo ev tr6y gariat falst t6yllodrys profi a oruc hi daly atteb ressyma6l ida6 ev. Ac yna gofyn a oruc ev y6 verch ieyav pa gymaint y carai hi y that. Argl6yd dat ev alle vot rai yn cymryt arnynt garu y tat yn v6y nog y carant. eithr Argl6yd mi ath garav di megis y dyly merch garu y that. cans megis y bo defnyd y cariat y carav i dy di vy Arglwyt dat. Sev a oruc y that yna llidia6 yn va6r 6rthi gan dybiait mae o l6yr e6yllys y chalon y dy6ed assai hi hynny 6rtho ev. Ac yna y dy6at ynte val hynn. yn y mod yd6yt ti ym caru i yn vy henaint y carav inau dithau rac lla6 cans mi ath anhailyngav di oth ran o ynys brydain byth ac ai rodav yth6y ch6ioryd di. Ac ni dy6edav i na rod6yv i di y 6r os tynghedven ai d6c cans vy merch i 6yt ti. Ac er hynny ni rodav i gyda thi na da nac anryded megis dy chwioryd di cans mi ath geraist di yn v6y no h6y yll d6y a thithau heb vy nghary i. Ac velly o gynghor y 6yrda y rodes ev y d6y verchet hynav y dau d6yssoc nit amgen noc y d6yssoc cerni6 a th6yssog y gogled ar cyfoeth yn dau hanner ryngtynt. Ac 6edy hyny y dam6hain6ys y Ganipys vrenin ffrainc glybot clot ma6r y Gordalia a dy6edyt mae dyn g6ych oed hi. ac anvon cenadau a oruc y herchi hi y that yn 6raic briot ida6. ac yna dy6edyt 6rth y that or genad6ri. Ac ynte a dy6at y rodai hi y 6r heb ardemyl or byt gida hi candaroed ida6 rodi y gyfoeth ai aur ai arian yr d6y verchet eraill. ac er hynny pan 6yby vrenin frainc decet oed y vor6yn cyfia6n vy ev oi serch hi a dy6edyt vot ganto ev digon o aur ac arian a chyfoeth ac nat oed rait ida6 ev 6rth dim namyn g6raica g6ych y caffai blaut o heni yn ettifedion ar y gyfoeth. ac yn diannot y g6naithb6yd cyfrathach ryngtynt. Ac yna y cymerth y ty6ssogion eraill oresgyn or cyfoeth yr h6n a gynhalassai ev yn 6ra6l yn hir o amser ac y rannassant y dau hauer ac y cymerth Magla6n ty6ssoc yr Alban Lur atta6 a daygain marchoc gidac ev rac bot yn g6ilyd ganto vot heb varchogion yn y ganlyn. Ac 6edy bot Lur gidac ev g6arter bl6ydyn blynghau a oruc Coronilla gan vaint oed o varchogion gida y that hi a rac y g6asnaeth6yr h6ynte yn tervysgu y llys. A dy6edyt a oruc hi 6rth y g6r mae digon oed dec marchoc ar hygain gidac ev a gell6n yr hai eraill ymaith. ac 6edy dy6edyt

hynny y Lur y dy6at ynte tr6y lit ymada6ai ev a Magla6n ac ydai ev att Iarll Cerni6. ai erbynnait a oruc y Iarll yn anrydedys ac velly ymhen y fl6ydyn y codes ryfel a thervysc r6ng g6snaeth6yr. Ac yna y sorres Raga6 6rth y that ac a erchis ida6 ell6ng y varchogion odi6rtho oll onit pymp marchoc ai g6snaethai ev. Ac yna tristau yn va6r a oruc llur a chodi odyno ty ac att y verch hynav yr ail6aith gan dybiait y bot hi 6edy dat digia6 6rtho am gynnal y varchogion gidac ev. sev y 6naeth hitheu tyngu tr6y lit ma6r na chai ev drigio yno oni ellyngai y holl varchogion odi6rtho onit un marchoc ai g6snaithai a dy6edyt nat oed rait y 6r hen dim or lyosogr6yd hynny. Ac yna g6edy na chai ev dim ar a gaissiai gan y verch. gell6ng a oruc y holl varchogion odi6rtha6 onit un. Ac yna medylia6 a oruc am y dailyngda6t ai anryded a thristau yn va6r a oruc a medyliet mynet y ym6elet ar verch athoed y frainc ac ofni hynny a 6naeth rac mor digariat y gellyngasai ev hi yno. ac eisioes ni alloed ev diodev y merchet eraill yn h6y ac yna codi ty a frainc a oruc. ac yna pan oed ev yn mynet yr llong ac na 6elai gidac ev neb namyn tri marchoc a than 6ylo y dy6at ev val hyn. O dynghedvennoed pa le y cerd6ch ch6i cans m6y o boen y6 coffai cyfoeth g6edy y coller no godev tlodi heb ordyfnait cyfoeth cans yr amser yr oed y sa6l gann6r gida mi ym canlyn pan vym yn ymlad ar cestyll ar dinesyd ac yn anraithio cyfoethau vy ngelynion a godev 6edy hynny angenoctit a thlodi y 6naeth y g6yr hyn y mi yr hai a vydai yr amser h6n6 dan vynraet i. och du6 pa bryt y da6 amser y gall6yv i dial arnynt h6y hynny. Och vi Gordaila mor 6yr vy dymadrod di pan dy6edaist di mae val y bai vynghally i am cyfoeth y caryt ti vy vi. Ac velly tra vy vynghyfoeth ym lla6 ac yn gally rodi rodion ma6r pa6b am carai. Ac velly pan gili6ys y rodion y foes y cariat. Ac 6rth hyny pa del6 y gallav i rac cy6ilyd gaissio nerth gennyt ti o achos ym sorri 6rthyt am dy doethineb di yn doethach noth ch6ioryd cans 6edy i mi roi vynghyfoeth ydynt h6y h6ynt am g6naethant i yn alldyt om g6lat am cyfoeth. a chan g6yno y drafel velly ev a dayth hyt ymharis y dinas ydoed y verch ev yn trigio. Ac yna anvon annerch at y verch a oruc ac y vanegi idi y ri6 anghyfnerth a gyfarfyssai ac ev. Ac 6edy dy6edyt or gennat nat oed yno onit ev y hunan ac un marchoc gidac ev. Sev a oruc hithau anvon amlder o aur ac arian ida6 ac erchi y that vynnet yr dinas oed gair lla6 yno a dy6edyt y vot yn glav a g6naythyr ennaint ida6 ai 6isga6 ev me6n g6isc ne6yd oed dayl6ng y vrenin y g6isga6. A d6yn atta6 daygain marcha6c ai g6isga6 yn hard o veirch ac arvau a dillat. ac yna anvon llythr a oruc ev at y vab ynghyfraith ac at y verch. A phan gly6as y brenin hynny y dayth ev ai 6yrda yn y erbyn ai arvoll ev yn anrydedys megis dlyai vrenin. Ac yna cynyll llu ma6r a oruc Acanipys dros holl frainc ac yn un6edic yr holl varchogion arvoc a dyfot ylldau a orugant y Loegr. Llur a Chordaila y verch ar llu h6n6 y ymlad ai dau vab ynghyfraith a chael y gorvot arnynt ac 6edy goresgyn o lur y gyfoeth yr ail6aith ni by ev by6 namyn tair blyned. Ar un amser y by var6 Acanapys vrenin frainc. Ac yna y cas Cordaila y vrenhiniaeth yny lla6 y hun ac yna hi a beris clady y that me6n gogov a 6naethodit dan yr avon a el6it soram ynghaer Lur ar daerdy h6n6 a daroed y 6naythyr yn anrydedys yr du6 a el6it biffrons ac yno ymgynyllai holl sairi a chrefftwyr y dyrnas y waithio pob gwaith ac y vedylynt y wnaythyr hyt mhen y fl6ydyn y dyd hynny y dechroynt y 6naythyr. ac velly by Gordaila yn lly6ia6 y dyrnas yn hedychlon dangnofedys. Ac yna y codes yn y herbyn hi y dau nai maibion y ch6ioryd mab Magla6n ty6sa6c y gogled a mab Einion tywsa6c cerni6. A hen6ay y maibion oed Morgan ap Magla6n. A chyneda ap Einion gan dy6edyt vot yn anhail6ng vot g6raic yn lly6ia6 y dyrnas. Ac velly llidia6 a oruc pob un o nadynt a dechrau anraithia6 y g6ladoed. Ac yno br6ydro a hithau ai dala ai roi yngharchar ac yn y carchar o digofaint a llit ydymgolles hi y hun. Ac yna y rannod y g6yr hynny yr ynys rynttynt yn dau hanner ac y rodet y vorgan y ran val y dycai hymyr yr hon a el6ir Ysgottlont. Ac y Gyneda y ran ynte or parth arall ty ar gorlle6yn. ac ymhen y d6y vlyned 6edy hyny y dayth at Vorgan y neb a garai dervysc a ryfel ac a dy6at vot yn g6ilid ida6 o achos ev a dylai o henafiaeth ly6ia6 y dyrnas o g6bl ai vot ynte yn daly dan arall a bot dayparth y cyfoeth gan Gyneda. Ac yna dechrau anraitha6 a llosgi a oruc Morgan. Ac yna y cynyllod Cyneda lu ma6r yn y erbyn ynte ai yrry ar fo ai ymlit o 6lat y 6lat ac o le y le yny doethant yr maes ma6r ynghymry ac yno y by'r vr6ydr ac y llas Morgan y Morgan6c yn y lle y mae Monach loc Vargan yn sefyll ac yna y cladwyt ef. Ac yna 6edy caffel o Gyneda y vydigoliaeth y by ef vrenin ar g6bl or

dyrnas dair blyned ar dec ar hygain yn llaɛen ac yn dangnofedys ac unved dyd ar dec cyn calan mai nesaf att hyny y dechray ɛyd adailiat Ryfain gan dau vrodyr a elɛit Romilys a Raimes. Ac ɛedy marɛ Cyneda y dayth Riallon y vab ynte yn vrenin yn y ol ef. A gɛas ievanc oed hɛnɛ a hedychɛr tangnofedys. Ef a lyɛiod y dyrnas yn hedychlon ac yn y amser ef y dayth glaɛ gɛaed ari diɛarnot a thairnos a marvolaeth ar y dynion.[181]

Ac ɛedy Riallon y dayth Gorɛst y vab yntau yn vrenin. Gɛedy ynte y dayth Saifyllt yn vrenin gɛedy ynte y dayth Iago nai Gorɛst yn vrenin. Gɛedy Iago y dayth Cynvarch ap Saisyllt yn vrenin. Gɛedy Cynvarch y dayth Gɛrvyɛ yn vrenin ac y hɛnnɛ y by dau vab yr ai a elɛit ffervex a fforex.[182] Ac ɛedy dygɛydaɛ y tat meɛn henaint a chlefyt y codes tervysc rɛn y dau vrodyr am y vrenhiniaeth. ac y ɛybot pɛy ai caffai. Sev a oruc Porex ennyny o lit a digofaint ɛrth y vraɛt a darparu y lad ev. A phan giglau ffervex hyny yr aeth ev y ffrainc y gaissio porth a nerth gan Siɛart vrenin ffrainc a dyfot ailɛaith a oruc y ymlad ai vraɛt. Ac yna fforex ai llas ev ar ran vɛyav oi lu. sev a oruc mam y day vab daly llit wrth fforex y mab oed yn vyɛ a dyfot hi ai morynion pan i cafas hi ev yn cysgu a hi ai llas ev yn y gɛsc ac ai torres yn darnau mân. Ac ɛedy hyny y by dervysc rɛng y bobloed yn hir o amser a ryfel ryngtynt y hunaint am y dyrnas hyt pan y rannassant hi yn bym ran rɛng pym brenin o nyddynt ar hain bob ailɛers yn ymlad baɛb ai gilyd. Ac yna ymhen llaɛer o amser ɛedy hyny y codes clot y ɛas ievanc a elɛit Dyfnɛal Moel Myt cans mab oed hɛnɛ y Glydno Iarll Cerniɛ a ragor oed idaɛ o degɛch a deɛrder rac holl vrenhinoed ynys Brydain. ar gɛas hɛnɛ ɛedy marɛ y dat a gymerth y cyfoeth yn y laɛ y hun. Ac yn y lle ɛedy hyny ymlad a oruc ev ar pymet brenhin Lloegr a llad hɛnɛ. Ac yna pan glyɛas Nydaɛs Vrenin Cymbry hyny a Theɛdɛr vrenin Ysgotlant y daythant hɛynte ai lluoed y gyfoeth Dyfnɛal a dechrau anraithiaɛ a llosgi. A ffau glyɛas dyfnɛal hyny dyfot a oruc a deng mil ar hygain o ɛyr arvoc gidac ev ac ymlad ac hɛynt a throylaɛ llaɛer or dyd hɛnɛ heb arvot o un ar y gilyd. Ac yna pana ɛelai Dyfnɛal y vot yn cael y vydygoliaeth galɛ a oruc atto chɛaygainɛyr or gɛyr gorau a roi arvau y gɛyr lladedic yn y cylch ac ynte y hun a roes arvau un or gɛyr mairɛ andanaɛ a thynny ymmayth y arvau y hun ac yn gyflym dyfot yr lle ydoed Nydaɛc vrenin ai lad a mynet ai chɛaigainɛyr yr lle ydoed. Deɛdɛr ac erɛhi ydynt rythraɛ idaɛ ac yn gyflym y lad ynte a ɛnaithant heb aim ont chɛaigainɛr gidac ev. Ac yna rac ofn y lad oi ɛyr y hun y gɛisɛys y arvau y hunan am danaɛ. Ac yna annoc y ɛyr o neɛyd y lad y gelynion ac ni by hir o ennyt yn y chafas ev y vydigoliaeth ar gɛbl. Ac yna cerded a oruc ev ar hyt y cyfoethau a goresgyn a distryɛ y cayryd ar cestyll ac ɛedy goresgyn cɛbl o ynys Brydain or mor y gilyd yn y eido y hun. ef a beris ɛnaythyr coron o aur iddo ai gɛisgaɛ a oruc ar y ben a dɛyn yr ynys ar y hen dailyngdaɛt a gossot cyfraithiau yr hai a elɛir etto cyfraithiau Dyfnɛal Moel Myd. Ac y maer Saesson etto yn y cynal hɛynt ac ev a rodes y braint yr temlau ar dinessyd ac yr fyrd cyfraeth val y caffai bob dyn naɛd ac a foe attynt er a ɛnelai o gam a mynet heb genat y elynion ford y mynnai a hefyt llaɛer o bethau eraill a oruc ev yr hɛn a vyd yn ry vlin y draythu val ysgrifennɛys Gildas hɛynt cans braint nodva a rodes ef yr fyrd a gyrchai y priv dinessyd. A roi y priffyrd yr bobl gyffredin y vynet yr dinessyd ar temlau. ac yn y oes ev ni by na llaidr na thraissɛr ac velly ɛedy llyɛiaɛ y cyfoeth yn y ɛed hono daygain mlyned ɛedy gɛnaithyr Coron ai gɛisgo marɛ vy ev. Ac yn llyndain meɛn temyl a ɛnaethoed y hun y cladɛyd. A ɛedy y varɛ y codes tervysc ac anundeb rɛng y dau vab ev Beli a Bran am y vrenhiniaeth ar goron cans pob un a vynai y chael hi ido y hun. Ac yna y gɛnaeth gɛyr da doethion dangnefed ryngtynt a rannu y cyfoeth yn dɛy ran nit amgen no gady y vely Loegr a choron y dyrnas a chɛbl o gymry a cherniɛ hefyt o achos mae hunav oed ev cans o herɛyd hen dedyv gɛyr troyav y mab hunav a gai y dailyngdaɛd y gyt. Ac y vran y parth draɛ y hymyr gan y vot yn darostyngedic y vraɛt sev oed hynny y gogled oll. a chadarnhau hyny a ɛnaethbɛyt ryngtynt ac velly mynet pymlyned haibio yn dagnofedys. Ac yna rai a garai dervysc a dayth at Vran a dyɛedyt vot yn llesc idaɛ ac yn gɛilydys ellɛng y dlyet y vyny y vraɛt ac ynte yn un vam undat ac ev ac yn un vrait a dlyet. a hefyt mɛy y byost di meɛn ymladau a chynnhennion noc y by ev. pan dayth Edɛetro tyɛssoc morien yth ɛlat ti a thi ai gyrraist ev unɛaith ar fo ymayth ac am hyny torr di y gyngrain ɛradɛydys yssyd rot ti ath vraɛt. a dos di at vrenin Llychlyn a chymer di y verch

ev yn 6raic briot itti a thr6y nerth h6n6 y gelly di ynyll dy dlyet. Ac yna llidia6 o Vran dr6y y gaĭriau hyny ac yr aeth hyt yn llychlyn y briodi merch brenin llychlyn. Ac 6edy manegi hyny y Veli dr6c vy ganto ac anhail6ng a llidia6 a oruc yn va6r am vynct y vra6t heb gynghor y gaissio ford hyny nerth yn y erbyn ev. A chynyll lu ma6r a oruc Beli a mynet tr6y hymyr a chymryt y caeryd ar dinessyd a roi y 6yr y hun yndynt. A phan gigle Vran hyny cynyll llu ma6r a oruc ynte o Lychlyn ac velly val yr oed ev yn dyfot ar llynges hono parth ai 6lat yn lla6en ar g6ynt gidac ev nachav yn cyfarvot ac h6ynt Wychlan Vrenin dassia yr h6n oed yn emlit ev o gariat ar y vor6yn a dygassai ev o Lychlyn a fan 6yby h6n6 mae Bran oed yn parattoi y Lynges a oruc ac ymlad ac ev yn galet yny gafas ev v6r6 bachau am y llong ydoed 6raic Bran yndi a thynny ganto yny daith ev a hi yn ganol y Lynges y hun. Ac yna nachav ystorm o 6ynt yn dyfot ac yn g6asgaru y llongau y bob traeth tr6y anffortyn ac velly di6arnot y byant yn h6ylia6. Ac yna pan glyby 6yr y lat hynny y daly a 6naethant ai d6yn at Veli oed yno yn aros y vra6t o Lychlyn. A chida llongau brenin Dassia ydoed dair llong eraill ac un o nadynt a hanoed o longau Bran y vra6t ev. A da vy gan Veli gael honno y dechrau dial ar y vra6t. Ac ar ben ychydic o dydiau g6edy hynny nachav Vran yn dyfot g6edy casglu y llongau ynghyt yr lan yr gogled. Ac 6edi manegi ida6 y Veli oresgyn y gyfoeth ev a daly y 6raic anvon cenat a oruc ev at Veli y erchi idda6 adveryt y 6raic ai gytoeth ida6 ev drachefn. a dy6edyt onys cae y hanraithiai ev yr holl ynys or mor y gilyd ac y lladau ynte hefyt o chaffai g6rd ac ev. A phan gigle Veli hynny y naccau a oruc or dau b6nc hyny oi 6raic ai gyfoeth. Ac yna Beli a gynyll6ys llu o holl varch-ogion ynys Brydain a dyfot yn erbyn brân ac arl6ya6 ymlad ac ev. Ac yn y lle pa.i 6y by Vran hyny dyfot a oruc yn erbyn Beli hyt y lle a el6ir ll6yn caladyr.[197] ac yna ym-gyrchu a orugant yn groylon cans g6yr canmoledic ymr6ydr oed bob un o nadynt ac o bob part y syrthiau'r g6yr megis y syrthiau y cayrch y cynhauav gan y medel-6yr. Ac yn y di6ed y gorvy y Bryttaniait ac y ffoes g6yr Llychlyn yn vri6edic parth ai llongau ac yn y vr6ydr hono y llas o 6yr Llychlyn bymthengmil ac ni diengis neb o nadynt yn iach. Ac yna o vraid y cafas Bran un oi longau ac yr aeth hyt yn ffrainc ar anifer eraill y daethoed gidac ev a ffoes yr lle cyntav y ca6ssant 6asgot. Ac yna 6edy cael o Veli y vydygoliaeth gal6 a oruc atto holl 6yrda y dyrnas hyt ynghaer Efroc y gymryt y cynghor am vrenin Dassia. A gell6ng cenadau a oruc h6n6 atta6 ev y gynnic y 6rogaeth ida6 ev a darostyngedigaeth o her6yd y da o dyrn-get bob bl6ydyn er y ell6ng ev yn ryd ev ai orderch. A hyny a oruc Beli o gynghor y wyrda a chymryt caeernit a g6ystlon gan vrenin Dassia ai ell6ng ev yn ryd gida y orderch. Sef a oruc Beli yna 6edy goresgyn yr ynys or mor y gilyd ac nat oed neb ai g6rafynau. Ac yna cadarnhau y cyfraithau a 6nacthod a oruc a chrio hed6ch tr6y yr holl ynys ac yn gadarnav yn y temlau ar dinessyd a roi y braint pennav ar a vyssai ydynt er ioed. Ar amser hynny ymrysson oed am y ffyrd ni 6ydid y tervyn yn hysbys. Ac yna y gel6is ev atto holl Sairi main ynys Bryd-ain a gorchymyn ydynt wnaythyr y fyrd yn gyfreithlon o vain a chalch. Sef y g6naithb6yt un o nadynt or lle ida penryn cerni6 yr mor hyt ymhenryn bladon yn y gogled a hyny y6 hyt ynys Brydain tr6y briv dinessyd a vai yn unia6n ar y fford. ac un arall a beris ev y g6naythyr ar dra6s yr ynys nit amgen noc o gaer vyni6 ar lan y mor hyt ym horth hamon sev y6 h6n6 Northamton. A d6y ford eraill a erchis ev y g6naythyr yn resg6y ydynt ar vessyr conglau yr ynys dr6y dinessyd hefyt val y llaill. A fan darvy y g6naythyr ev a beris y c6ssegru a rodi ydynt vraint nodva. c?us p6y bynnac a gaffai un or ffyrd hynny er maint o gamai a 6nelai na lefassai neb y lestair[200] ac yna y by Veli yn dangnofedys yn g6ledychu. A Bran y vra6t g6edy mynet y ffrainc yn ofalys achos tr6m oed ganto y deol oi 6lat ai gyfoeth ac nat oed fford ida6 y chaffel hi drychefn ac ni 6ydiait beth a 6nai. Ac yna ve aeth ar y daydecved march at d6yssoc frainc a dangos y dam6ain tryan ida6. Ac 6edy naccau y nerthu o h6n6 yr aeth ev yn union att dywssoc Byrg6in. A h6n6 a vy la6en 6rtho ac a rodes y gydmaithias ai gariat arno hyt nat oed yn y llys un cym-aint y hanryded ac ev sev achos oed hyn-ny ymhob peth ac a 6nelai nac yn ryfel nac yn hed6ch y bai y dangossai ev voliant ac anryded hyt pan y caroed y ty6ssa6c ev yn gymmaint a fai bai mab ida6. cans g6r tec oed Vran o edrych arno. Ac ael-odau hirvainion oed ida6 a bonedigaid oed a chy6rain a doeth val y g6edai ida6 vot. Ac 6edy rodi or ty6ssa6c y gariat arno ev velly ac unverch oed ido ac yn ettifed ida6

ac ev a rodes hono yn vraic briot y Vran ac oni bai ida6 ettifed arall ado Byrg6in ida6 yn y ol ev ac o bai vab ida6 ada6 porth a nerth ida6 ev y oresgyn y gyfoeth y hun. A hefyt ydoed un o dy6ssogion frainc 6edy ada6 porth a nerth ida6 megis yntau. Ac yna y priodes Bran y vor6yn ac velly ty6ssogion y 6lat a darestynga6d ida6. A llyfodri y cyfoeth a roesb6yt ida6 6rth y la6 y hun. [202] Ac ni by vl6ydyn 6edy hynny yn y vy var6 y ty6ssa6c. Ac yna rannа6d Bran yr ty6ssogion oed yn y garu ev yr hynn daoed a dygassai y ty6ssoc ar y taidiau h6ynt or blaen. Ac velly y r6ymoed ev y cariat h6ynt atto o achos y haelder ev. A chida hyny g6naythyr yr h6n gorau gan 6yr Byrg6in roi b6yt a diot y ba6b ac a delai ac ni chayit un porth ragdynt. Ac yna 6edy bot yr anifer hynny yn gitun ac ev medylia6 a oruc ev pa vod y gallai ev gael ymdial a Beli y vra6t am a 6naethoed ida6. Ac velly ada6 o ba6b borth a nerth ida6 y vynet y oresgyn y lle a vynnai or byt. Ac yna yn diochir cynyll llu ma6r a oruc a dyfot y ffrainc a g6naythyr cyngrair ar g6yr hyny a: gael mynet ai lu tr6y y g6lat h6ynt ty ac ynys brydain. Ac yna pan vy barot y llongau ar draeth fflandrys yr aethant yr môr ar g6ynt yn y hol yny doethant y ynys Brydain. A fan gigleu Veli vot y vra6t yn dyfot a llynges va6r ganto cynyll llu ma6r a oruc ynte a dyfot yn y erbyn y ymlad ac ev. Ac yna val yr oedynt yn mynet y ymgyrchu y dayth Tonwen y mam attynt a bryssia6 a oruc hi tr6y y bydinoed y gaiffio g6elet Bran y mab o achos nas g6elsai er ystalym o amser ac velly yn argrynedic ofnoc y cerd6ys hyt y lle ydoed Vran yn sefyll a rodi y d6yla6 am y v6n6gl ev a rodi mynych gysanau a oruc hi a dy6edyt val hynn tr6y igvan ac 6yla6 vy an6yl vab coffa di y d6yfron hyn a signaist di arnynt. coffa di galon dy vam yr hon a thyc di na6mis dan y g6regis coffa di y trafel a gefais i yth ymd6yn di. Med6l di hyny hedi6 er ni6yn y crea6dyr or nev ath 6naeth di dyro vadeyant yth vra6t a fait ar llit a gymeraist 6rtho cans ni 6naeth ev y ti dim defnyd llit ac nit evo atheoles di oth 6lat ath gyfoeth. Ac ni 6naeth ev dim cam y ti ac ni etholes ev di er gestyngat arnat namyn er dy drychafu cans g6r darostyngedic oedyt ti ida6 ev o ran vechan or dyrnas a phan gollaist di hono yd6yt ti yn gynebic ida6 ynte. Ac velly ev a vy ach6ysa6l ar dy drychafiat ti me6n yrdas ma6r. cans m6y yrdas y6 bod yn duc o Byrg6in noc ar gyfran o ynys Brydain. Edrych di nat oi achas ev y tyfod y tervysc cyntav ryngoch namyn ty di a dechray6ys pan aethost di y vynny merch brenin Llychlyn yn 6raica ytt ac o nerth h6n6 cassio y digyfoethi ynteu [205] ac velly 6edy dy6edyt o heni hi hynny 6rtho tr6y 6ylo troi a oruc ynteu ar lonyd6ch a hed6ch tr6y y l6yr vryt ai ved6l a g6naythyr cynghor y vam a diot y helym ai benffesting iam y ben a dyfot hyt y lle ydoed Veli y vra6t. A fan 6elas ynte y vra6t yn dyfot ty ac atto b6r6 y arvau odi6rtho a oruc ynte a mynet d6ylo ym6n6gl ai vra6. A chymodi yndiannot a orugant. Ac yna b6r6 or lluoed y harvau odi6rthynt a chammol yr hed6ch a mynet o dyno hyt yn Llyndain. ac yna cymryt y cynghor h6y ai g6yrda. Sev oed y cynghor mynet y frainc a goresgyn yr holl 6ledyd 6rth y mediant y hun. ac 6edy ybot yn Llyndain vl6ydyn y codassant ty a frainc a dechrau anraithio y g6ladoed a orugant. A fan gigle 6yr frainc hyny ymgynyll a 6naethant holl frainc y gyt yr unlle ac ymlad ac h6ynt ac y cafas Beli a Bran y vydygoliaeth a fo a oruc g6yr frainc ai hemlit a oruc y Bryttaniait yny dalasant y brenin ai gymell y darost6ng ydynt. ac yna destry6io y cayryd cedyrn oll a wnaethant ac erbyn pen y vl6ydyn y darostyngasant g6bl or dyrnas. Ac 6edy hyny y daethant ai lluoed ty a Rufain a dechrau g6asgaru y cayryd a orugant ar hyt yr Eidial ac yna goresgyn yr holl 6ladoed a orugant hyt yn Rufain. [207] ar amser h6n6 ydoed yn Rufain dau dy6sa6c ai henw oed Gabius a sorcena ac yr haini y daroed gorchymyn lly6odraeth y 6lat. Ac 6edy g6elet or haini na allai un genedl 6rthneb y groylonder Beli a Bran ac o gyt gynghor sened Ryfain y g6naethant dangnefed ac h6ynt a rodi rodion ma6r ydynt o arian ac aur ac ada6 tyrnget ydynt bob bl6ydynt er cady y cyfoeth yn llonyd ydynt. Ac y cymmerth Beli a Bran wystlon gantynt ar hyny. Ac o dyno y daeth Beli a Bran ai llyoed ty a sermania. Ac yna 6edy dechrau o nadynt ryfely ar y bobloed edifar vy gantynt yr amot a 6naethoedynt ar Bryttaniait a thorri a orugant a mynet yn borth y 6yr sermania. [209] A phan gigle Veli a Bran hyny llidio a 6naethant yn va6r a chymryt y cynghor pa vot ymledynt ar dau lu cans nit oed ha6d 6mro y llu a dathoed o Ryfain ar cynghor vy ada6 Beli ar Bryttaniait oll gydac ev y ymlad a g6yr sermania a mynet o Vran ai lyoed ynte ty a Ryfain. [210] A fan gigle wyr Ryfain hyny ymado a wnaethant a g6yr sermania a chaissia6 y blaen ar Vran ai lu cyn y dyfot y Ryfain. [211] a ffan gly6as Beli hyny dyfot a

wnaeth ev ai lu ar hyt nos yn y herbyn hóynt hyt o ve6n glyn coeda6c oed ar y fford a llechu a oruc Beli ac lu yno ai ragot hóynt. A thrannoeth nachav 6yr Ryfain yn dyfot yr lle hón6 ac yno y g6elynt hóy arvau y gelynion yn disglairio ar hyt y glyn ac yna ofni yn va6r a 6naethant gan dybiait mae Bran oed yno a g6yr Byrg6in gydac ev. [213] Ac yna y cyrchu yn gyflym a oruc Beli ac yn y lle fo a oruc g6yr Ryfain a gado y maes cans ni cha6ssynt na g6isga6 y harfau na bydina6. ai herlit a oruc Beli yn y dyc y nos yr aerva ragdo.[214] ac yna gwedy cael y vydygoliaeth o Veli yr aeth ev hyt att Vran y vra6t y trydyd dyd wedy ida6 6isted wrth gaer Ryfain. Ac yna wedy dyfot y dau lu 6rth y gaer ymlad yn dirving a wnaethant a chyn bai va6r y drygiau a wnelynt y wyr Ryfain ac hwynt a 6naethant gorog6yd wrth borth y gaer y grogi y gwystlon oni rodynt y gaer y vynyd ai chynnal hi a orugant er hyny.[215] Ac 6aithiau ymledynt ai peiriannau ac 6aith eraill yn ymsaethu ac hóynt ac ymlad a orugant o bob ford ac y gellynt. Ac yna g6edy g6eled o Veli a Bran hyny ennyny o lit a wnaethant ac erchi crogi y ped6ar g6ystl ar hygain or hai bonedicav yn y g6yd gair bron y gaer.[216] Sev yna a oruc g6yr Ryfain llyniaethu y llu yn vydinoed a dyfot allan or gaer a roi cat ar vaes ydynt cans cenadau a dathoed at 6yr Ryfain odi6rth y dau dy6ssa6c 6edy cynyll y gwasgaredic lu a dywedyt y bot yn dyfot yn borth ydynt ac erchi ydynt na rodynt y gaer y vynyd er dim ac yna y dayth y bydinoed yn dau lu am benn y Bryttanniait a gwyr Byrgwin yn dirrybyd ac y gwnaethant aerva va6r.[217] Ac yna pan 6elas Beli á Bran llad y cidvarchogion tristau a wnaethant a bydina6 y g6yr ai hannoc y ymlad ai gelynion ai gyrru ymhell yn y hol a wnaethant ac yn y di6ed 6edy lad milioed o bob ty Beli a Bran a gawssant y vydygoliaeth a lad Galins a daly forcena ar gaer a ga6ssant. A rannu y s6llt a oruc Beli a Bran r6ng y cidvarchogion.[218] Ac yna 6edy caffael y vydygoliaeth y trigi6ys Bran yn amhera6dr yn Ryfain a darost6ng y bobl a oruc o anvaidra6l groylonder val y dy6edyr yn ystoria g6yr Ryfain ni thraythais i yma m6y o nadynt cans gormod o vlinder vydai y traethu y gyt.[219] Ac yna ymhoeles Beli yn y ol ty ac ynys Brydain ac a lly6iod ev y dyrnas yn hedychlon y ran arall oi oes. Ac adne6dy y cayryd a oruc ymhob lle ac y beynt yn advailio a g6naythyr eraill o ne6yd. Ac ymysc yr hain yr adailiod ev gaer ar lan avon 6ysc ac yno ydoed archesgopty Dyfed. Ac 6edy dyfot g6yr Ryfain yr ynys hon y gel6it hi caerllion cans yno y bydynt hóy yn trigio y gayaf. A hefyd yn Llyndain y g6nayth Beli borth anryfedis ar lan temys yr hón a el6ir Bilinsgat ac ar 6arthav hón6 y g6naeth ev d6r anvaidra6l y vaint a forthva adas dano yn disgynva yr llongau. A hefyt cyfraithau y dat adne6dod ev ym hob lle. Ac ymrodi y 6irioned a oruc ac yn y amser ev y by amlder o aur ac ariant ymysc y 6obloed hyt na by y gyffelyb na chynt na ch6edy. Ac nydi6ed pan dayth y dyd tervynedic y vynet or byt hón y llosged y gorff ev ac y rodet y llyd6 hyny me6n llester aurait ac y clad6yt yn Llyndain o amrafael gelvydyt ymhen y t6r a dy6etb6yd vry.[221] Ac 6edy mar6 Beli y dayth G6rgant Varf-dr6ch y vab ynte yn vrenin a g6r hyna6s pryd oed hón6 a dilin g6aithredoed y dat a oruc a hed6ch a g6irioned a garai ev. A phan gaissiau neb ryfely arno gle6der y gad a gymerai ac ymlad yn groylon ai elynion ai cymell y 6edy ida6 ac yna brenin Dassia a gaisiiod adtal y dyrnged ev yr hón yr oed yn y daly y dat ev ac ni fynnai y daly ida6 ev.[222] Sev a oruc ynte mynet a llynges ganto am ben brenin Dassia ac ymlad yn groylon ar bobl hynny a llas y brenin a gossot y 6lat yn gaeth ida6 ev y hun vel y byssai y dat or blaen.[223] Ac velly val ydoed yn dyfot y drev tr6y ynyssoed Orc y cyfarvy ac ev dec llong ar hugain o 6yr a g6raged ac 6edy gwybot o hona6 y dyfodedigaeth hwynt ymafael a oruc y brenin yn y tywssoc yr hón a elwit Barthlome ac erchi na6d ida6 a oruc hónn6 a dywedyt y deol or Ysbaen ai vot yn trailo y moroed yn caissio lle y bress6yli6 yndo ac erchi a oruc ev y Wrgant ran or ynys hon y bresswylio rac diodev mord6y gwailgi a vai hóy cans bl6ydyn a hanner y byssai ar y wailgi er pan dathoed oi 6lat.[224] Ac velly pan wyby Wrgant y dyfodiat a pha genedlaeth ydoed ev a dan vones genat gydac hwynt hyt yn Iwerdon yr hon oed diffaith yna a rodi hono ydynt o hynny hyt hedi6. Ac yna amlhau a orugant a chyfanhedy y lle hón6 ac er hynny hyt hedi6 y mae ettifedion yr haini yn Iwerdon. Ac yna wedy tervyny bych ed G6rgant ai var6 ynghaerllion ar wysc ac yno y clad6yt ev yn y lle y gwnathoed ev la6er o gadernit wedy mar6 y dat ev.[225]

Ac wedy mar6 G6rgant y cymerth Cyhylyn y vab ynte goron y dyrnas ac ev ai llywiod hi yn hed6ch dangnofedys tra vy vy6 ai wraic ynte a elwit Marssia a dysg-

edyc oed hi ymhob celvydyt a hono a gafas pob peth o anryfedodau hi ai gwr priod o athrylithr y gyfraith yr hon a elwis y Bryttaniait cyfraith Marssia a hono a droes Alvryd vrenin or Gymraec yn Saesnec ac ai gelwis hi Maicheneange o iaith y Saesnec.[226] Ac wedy marw Cyhylyn y trigiwys llywodraeth y dyrnas yn lla6 y wraic ev ac yn llaw Saessyllt y mab hi cans nit oed oet ar y mab hi pan vy varw y dat saith mlwyd ac ni allai ev herwyd oet lywia6 y dyrnas ac am hyny y gad6yt y vam gidac ev o achos y doethineb hi ac wedy mar6 y vam y cymerth Sayssyllt goron y deyrnas. Ac wedy ynte Cynvarch y vab a vy vrenin. Ac wedy ynte Daned y vra6t a vy vrenin. Ac wedy Daned y dayth Moryd y vab ynte yn vrenin cans mab oed h6n6 ida6 ev o gariadwraic a h6n6 gwr clodva6r canmoledic vy nadymrodassai yn ormod mewn croylonder cans pan lidiai nit arbedai ev neb ac nas lade os galle a thec oed ev a hael am rodion ac nit oed yn y deyrnas un gwr dewrach noc ev me6n ymlad.[227] Ac yn y amser ev y dayth Morien a llu ma6r ganto hyt y gogled a dechrau anraithia6 y wlat. Ac yna y dayth Moryd yn y erbyn ai lu ynte. A mwy a ladoed Moryd o nadynt noc a ladoed yr holl lu. Ac wedy gorvot o hona6 a chael y vydygoliaeth ni dewis ev un dyn byw or llu ac y erchis ev dwyn pob un atto ar ol y gilyd y gael y llad ac wedy y llad y blingo a gorffwys ychydic a oruc ac erchi blingo yr hai eraill yn vyw ac wedy hyny y llosgi. Ac yna ev a damhwainod dyfot ryw groylonder y difa y diraidi ev ai enwired. cans ev a dayth odiwrth vor Iwerdon ryw anifeil ni all6yt erioed gyflewni y groylonder a h6nn6 heb orphwys a lyngcai dynion a nifailiaid fford y cerdai. A fan giglau Voryd hyny ef aeth atto y hun y ymlad ac ef ac ni thygiwys ida6 cans pan darvy ida6 droyla6 y y cwbl oi arvau y neffa6d y bwystvil atto ai lyngcu yn vy6 megis y llyngcau bysgodyn mawr un bychan.[228] A thrimaib a vy ida6 ac un o nadynt a elwit Gwrviniа6. A h6n6 a gymerth goron y dyrnas a gwr da oed h6n6 cans nit oed neb a garai gyfiawnder yn vwy noc ev. Ac velly trwy holl dinessyd ynys Prydain adnewdy y temlau a oruc ev ac adail eraill o newyd. Ac yn y oes ev amyl oed aur ac ariant ac anoc a wnai ev yr cyffredin lafyrio y dayar ac ynte ai cadwai hwynt rac y neb wnaythur cam ydynt oi arglwyddi ev ai swyddogion. ar gwaission ievainc a gyfoethogai ev o aur ac arian val na bai rait y neb draissio y gilyd. Ac yna mar6 vy Wrviniа6 ac yn Llyndain y clad6yd. wc yn y ol ynte y dayth Arthal yn vrenin y vra6t ynte ac nit oed debic y defodau ev y vra6t arall cans y bonedigion dlyeda6c a darostyngau ev ac anvonedigion a drychafai ar anryded ac anraithia6 y cyfoethogion ar cyfiawnion ai cymell y roi teyrnget ida6 ev. ac yna y codes gwyr da y deyrnas yn y erbyn ai wrthlad ev ymaeth oi vrenhiniaeth. A gwnaythyr Eleidir y vra6t yn vrenin ai alw a wnaethant Eleidir va6r o achos y drygared a oruc ev ai vra6d cans wedy myned pym mlyned haibio velly ydoed Eleidir yn hely yn forest llwyn y cladyr ac yna y cyfarvy Arthal y vra6t ac ef yn diarwybot ida6 yr h6n a daroed y deol or deyrnas wedy y vot mewn swrn o wledyd yn caissio porth y oresgyn y cyfoeth ac ni chawssai ev dim. Ac am na allai diodev angenoctid yn hwy ymhoelod ev yr ailwaith y ynys Brydain a dauddec marchog gidac ev y gaissio gwelet cydmaithion. A phan y gwelas Eleidir ev yno rydec a oruc atto a mynet dwylo ym6n6gl ac ef yn garedic gan y gyssanu ac wylo a oruc Eleidr o achos y vra6t oi vrenhiniaeth a maint vyssai y anghyfnerth. Ac yna y duc Eleidr y vrawt gydac ev y dinas Alclyt ai gy6io yno mewn ystavell.[231] a chymryt a oruc Eleidir arno vot yn glav ac anvon cenadau a oruc y bob lle dros wyneb ynys Brydain y erchi y ba6b or tywssogion dyfot y ymwelet ac ev. Ac wedy dyfot pa6b hyt ynghaer Alclyd erchi a oruc yr porthor na ellyngai atto onit un ar unwaith a dyfot yn dista6 rac bot yn vlin ar les y ben ev glywet gormot son a chredy o ba6b hyny. Ac yna gorchmynai Eleidir y wsnaethwyr y daly ev a thorry y ben oni wrhai y Arthal ailwaeth megis y byassai gynt ac velly wedy cadarnhau o nadynt trwy amodau ai b6g6th y tangnofedawd ev ba6b yn hedychlon ai vra6t.[232] Ac yna y dayth Eleidir at y vra6t y gaer Efrawc ac a gymerth y goron iam y ben y hun ac ai roes am ben Arthal y vra6t ac o hyny allan y gel6it ev Eleidir va6r.[233] Ac wedy hyny y by Arthal yn vrenin deng mlyned gan wellhau y dryc defodau anathoed or blaen. Ac o hyny allan perchi bonedigion a oruc a gostwn anvoned a gado y ba6b y eido y hun a chynnal gwirioned ym hob lle ac ynghaerlyl y clad6yt.[234] Ac yna ailwaith y dyrchafwyt Eleidir yn vrenin. Ac yna y dayth y dau vrodyr ieyav y ymlad ac ev Owain a ffredyr a llu ma6r gantynt a chael y vydygoliaeth a wnaethan a daly Eleidir a mynet ac ev y Lundain yngharchar a

ranny y gyfoeth ryngtynt sev y dayth yn ran Owain o hymyr hyt y gorllewyn nit amgen Lloegr a chymry a cherniw. a ran Bredyr oed o hymyr hyt y gogled ar gogled oll. Ac ymhen y saith mlyned y by var6 Owain ac y dayth y vrenhiniaeth oll yn lla6 Bredyr ac y llywiodd ev y deyrnas yn dangnofedys megis na chofait am un oi vrodyr ac y by var6 Predyr.[235] Ac yna y cyrch6yd Eleidir oi garchar ac y gwnaethbwyt yn vrenin y drydyd waith. Ac wedy troylo y amser yn hedychlon y by var6 ev.[236] Ac yn y ol ynte y gwnayth-b6yt Gorvinia6 y vab ynte yn vrenin a chyffelyb y dat vy ev o unia6nder a chy6irder.[237]

Ac yn y ol ynte y dayth Morgan ap Arthal yn vrenin ac y cynhal6ys y dyrnas yn hed6ch dangnofedys.[238] Ac yn y ol ynte y dayth Einion y vra6t yn vrenin ac anhebic vy y defodau ev y vra6t yn lly6-ia6 pobyl ar chweched vl6ydyn y b6ri6yt ev oi vrenhiniaeth am y groylonder ac na vynnai wirioned a hyny ai digyfoethei ev.[239] Ac yn y ol ynte y dayth Eid6al ap Owain yn vrenin y gar ynte a rac ofn y damwain a dathoed y Einion unia6nder a gynhelis ymysc y Bobloed.[240]

Ac yn y ol ynte y dayth Run ap Predyr yn vrenin. Ac yn y ol ynte y dayth Geraint ap Eleidir yn vrenin. Ac yn y ol ynte y dayth Cadell ap Geraint yn vrenin. Yn ol Cadell y dayth Coel yn vrenin. Yn ol Coel y dayth Porex yn vrenin. Yn ol Porex y dayth Cheryn yn vrenin ac y h6n6 y by drimaib nit amgen fylgniws ac Eidal ac Andras ar haini bob un yn ol y gilyd a vyant vrenhinioed. Yn y ol hwynte y dayth Urien ap Andras yn vrenin. Yn y ol ynte y dayth Elvryd yn vrenin. Yn y ol ynte y dayth Clydoc ac yn ol Clydoc y dayth Clydno. Yn ol Clydno y dayth Gorwst. Yn y ol ynte y dayth Mairia6n. Yn y ol ynte y dayth Blaidyt yn vrenhin. Yn y ol ynte y dayth Caff. Yn y ol ynte y dayth Owain gwedy Owain y dayth Sayssyllt gwedy ynte Blegywryd.[241] gwedy ynte Arthmael y vra6t. Gwedy ynte Eidol. gwedy ynte Rydion gwedy ynte Rydderch gwedy ynte Sawlben-ychel. Gwedy ynte y dayth Pirr. gwedy ynte Capeir gwedy ynte Manogan y vab a gwr hyna6s oed h6n6 ac unia6nder a gwirioned a garai.[242] Gwedy ynte y dayth Beli Ma6r y vab ac ynte a wledycha6d yn vrenin ynys Brydain daygain mlyned. ac y h6n6 y by bedwar maib Llyd a Llefelys a Chasswalla6n a Mynia6. a Llyd oed y mab hunav. Ac wedy mar6 y dat ev a gymerth lywodraeth yr ynys. A chwairia6 myroed llyndain a oruc a damgylchyny y gaer o anairiv diroed a thrigio yno y ran vwyav or vl6ydyn a feri adailat tai ma6rwaithioc o vewn y gaer megis na bai y chyffelyb yn yr holl wnedyd an wledyd ac ev ai gelwis hi Caer Lud ac nydiwed y gel6it hi Caer Lyndain. Ac wedy dyfot estron genedl iddi hi y gelwit hi Caer L6nd6n. A llefelys a garai ev y v6yav oi vrodyr cans doeth a cymhen oed ev. Ac wedy clybot o Lefelys var6 brenin frainc yn diettifed namyn un verch ar cyfoeth yn lla6 hono ymgynghori ai vra6t a oruc ev am vyned att dywssogion frainc y erchi y verch. ac yna yn diannot y vorwyn a rodet idav. a choron y dyrnas gyda hi ac ynte ai llywia6d hi tra vy vyw yn hyna6s garedic. Ac yna wedy talym o amser tair gornes a dygwyd6ys yn ynys Brydain ni welssid erioed y cyfry6 cans un o nadynt oed genedl a el6it y Coraniait a chymaint oed y gwybodau ac nat oed un ymadrod ac y cyfarffnai y gwynt ac ev nas gwypynt hwy ac 6rth hyny ni ellit drwc ydynt. Ar ail oed diasspat a roit bob nos glammai ywch benn pob aelwyt drwy holl ynys brydain a hono ai trwy galonnau dynion ac anifailiait yn gymaint ac y collai y gwyr y lliw ai nerth ar gwraged y baichogi ar maibion ar merchet a gollai y synwyr ar anifailiait a dawai ev yn diffr6yth ar coedyd. Y drydyd oed er maint vai yr ordainiaeth a vai yn holl lyssoed ynys Brydain ni chait byth dim o hona6 ont y troylit y nos gyntaf. Ac velly amlwc oed yr ormes gyntav ar d6y eraill nit oed neb a wypai y hystyr ac yna prydery a gofaly yn va6r a oruc Llyd am vot y ryw ormessoed hyny yn ynys Brydain. Ac yna cwairia6 llongau a oruc ev y vynet ymwelet a Llefelys y vra6t. Ac wedy gwybot o Lefelys hyny dyfot yn y erbyn ynte a oruc a mynet dwylo ym6n6gl ac ev. Ac wedy gwybot o Lefelys ystyr y neges ev yno peri a oruc ev wnaythyr corn hir megis y gellit ymdidan drwydo megis na chai y Coraniait dim or gwynt oi ymadroed h6ynt rac gwybot o nadynt y cyfrinach ac velly yn y corn ymdidanassant. Ac nachai un o nadynt glywet gan y gilyd namyn ymdian chwer6 din dros ben ac adnabot o Lefelys vynet cythrayl yn y corn a feri golchi y corn a gwin a oruc ev. Ac yna y rodes Llefelys y vra6t ryw bryfet ac erchi ido pan delai y drev y briwo h6ynt ai b6r6 me6u dwr oer. A dyfynnu pawb yn gyffredin atto y Bryttaniait ar Coraniait or holl dyrnas a b6r6 y dwr h6n6 ar ba6b o nadynt yn gyffredin. ac a lad yr holl Gor-

niait y gyt ac nit argyweda ev dim ar y Bryttaniait. Yr ail ormes y syd yth dyrnas di yw draic yr ynys a draic arall o estron genedl y ssyd yn caissia6 a goresgyn hi ac y dyrru ych draic chwi rac llit a digofaint a diasbot hynny a gly6ch chi. A llyma heb ev val y gell6ch chwi wybot hynny. messur di yr ynys y hyt ai llet pan delych y drev ac yn y lle y ceffych di ganol yr ynys par di glad pwll yn y dayar a ffar di roi cer6ynait o ved or gorau ar a geffych me6n cerwyn yn y pwll h6n6 a ro di lenn o bali ar wyneb y gerwyn. A byd dithau dy hun yn y gwiliait hwy yno a thi a gly6y y draigau yn ymlad yn arythr yn yr awyr. Ac wedy darffo ydynt vlino yn ymlad h6ynt a fyrthiant yn rith dau barchell ar warthav y llen ac a yfant y med ac a dynnant y llen gantynt hyt yng6aelot y gerwyn ac yno y cysgant. Ac yno lapia di y llenn yn y cylch hwynt ac yn y lle cadarnav a geffych yth dyrnas clad di hwynt yn dyf6n yn y dayar a thra vont hwy yno ni da6 un gormes yr ynys Brydain o un lle arall. Y drydyd ormes yw gwr cadarn lledrithioc y ssyd yn d6yn dy v6yt ti a thiot trwy hyt a lledrith ac a bair y ba6b gysgu. Ac am hyny rait y6 i ti dy hun wiliad dy amser a chad6 dy armerth a rac gorvot arnat gysgu gat gerwyniat o dwr oer gair dy la6 a fan vo y cysgu yth orvot dos yr gerwiniat dwr. Ac yna ymhoeles Llyd y drev. Ac y dyfyn6ys holl wyr y dyrnas ger y vron a b6r6·y dwr yn gyffredin arnynt. Ac yn diannot y by var6 y Coraniait ac heb argywedy dim ar y Brittaniait ac yn y lle wedy hyny Llyd a bar6ys messyr yr ynys y hyt hi ai llet ac yn Rydychen y cafat y canol. Ac yno y herchis ev wnaythyr pwll val y dy6edassai Lefelys 6rtha6. Ac yn y lle ev a gafas pob peth yn wir val y dywedassai y vra6t ida6. Ac wedy cysgu or perchyll Llyd a lapi6ys y llenn yn y cylch hwynt ac yn ninas Emrys me6n cist vaen y cydi6ys ev h6ynt yn dyfn yn y dayar. Ac o hyny allan y paidi6ys y diasbat dymhestlys hono. Ac yna y peris y brenin arlwya6 gwled va6r ac 6edy y bot yn barot gossot a oruc gerwyniait o dwr oer gair y law ac wedy y gwili6ys ev y wled. Ac val yr oed ev velly am la6er or nos ev a gly6ai y cerdau tecav yn y byt yn y cymeryt ev y gysgu sev a oruc ynte mynet yn dwr yn vynych ac yna y gwelai ev wr ma6r yn dyfot yn harnaissys y me6n a cha6ell ma6r ganto a roi yr holl armerth o vwyd a llynn yn y cawell yny olwc ev ac yn cychwyn ac ev ymaith. Ac yna erchi a oruc Llyd ido ev aros a dy6edyt wrtho er y ti wnaythyr collet y mi cyn hynn nis g6nau di bellach oni bydy di trech no mi. Ar gwr dy arhoes ac ymlad yn groylon a wnaythant yn y oed y tan yn goleyo oi clefydau hwynt ac ny di6ed y gorvy Lyd yr ormes. Ac yna erchi na6d a oruc y gwr dy yr brenin gan dy6edyt y gwnai ia6n ida6 am yr holl golledau a wnathod ev ida6 hyt hyny ac y bydai ev wr cy6yr yr brenin o hyny allan. a hyny a gymerth y brenin ganto. Ac velly y gwrthneba6d Llyd y tair gormes. ac wedy y varw y clad6yt y gorf ev ynghaer Lyndain gair llaw y porth o el6ir yn gymraec porth llyd ac o saesnec lwyd-gad a dau vab a vy ida6 Afarwy a Thenefan. ac am nat oedynt me6n oedran y lywia6 y dyrnas y hyrd6yt Casswalla6n ap Peli ewyrth y brenin. Ac wedy yrda6 Casswalla6n yn vrenin ev amrodes y garu gwirioned a chyfia6nder. Ac er y vot ev yn vrenin ni vynnai ev didymy y niaint namyn roi rann va6r or cyfoeth ydyntsev y rodes y Afarwy Lyndain a iarllaeth gent ac yr odes y Denefan iarllaeth Gerniw ac ev y hun yn vrenin ar g6bl. Aramser h6n6 y doeth Ilcasar amherawdr Ryfain yn goresgyn ynyssoed ac wedy goresgyn frainc ac odyno ev a gafas gwelet ynys brydain a gofyn a oruc pa dir oed gyfairwyneb ac ev a rai a dy6at wrtho mae ynys Brydain oed hono. Ac wedy gwybot o Ilcassar ystyr yr ynys ar bobl oed yn y chyfanhedy a dywedyt a oruc cyma yn cenedl ni gwyr Ryfain cans gwyr Ryfain ar Bryttaniait o genedl Droyav y doethom cans Eneas wedy ymlad troyav vy yn hendait ni ac ydynt hwynte cans Bryttys ap sylhys ap Ysgannys ap Eneas. a Bryttys a oresgyn6ys yr ynys racco yn gyntav a thyb yw gennyv na byd anod i mi y darost6ng yr ynys racco dan Sened Ryfain cans yn y mor y maent hwy ac heb wybot ryfely na dwyn arvau nac ymlad. Ac hefyt iawn yw anvon cenadau attynt yn gyntav y erchi ydynt na fellhaynt iwrth wyr Ryfain a thaly tyrnget ydynt megys pa6b or cenedloed yny cylch. a hyny heb ymlad rac gorfot arnom ni est6ng y gwaet hwynt ac hwynte yn geraint y ni a chodi boned yn hendait ni Priav. Ac yna wedy y Ilcassar danvon y llythr hyny ar gorchmynion y Gaswallon wnaythyr velly. Eithr ni by dail6ng gan Gaswallawn hyny ac anvon a oruc ynte lythr att Ilcasar ar ymadrod hynn yndo. Caswalla6n brenin y Bryttaniait yn anvon anerch at Ilcasar amhera6dr Ryfain y vanegi vot yn ryfed gennyv i chwant g6yr Ryfain a maint yw arnynt syched aur ac ariant ac na fynant hwy yn

bot ni yn diodev perigl yn y wailgi yn preswylia6 me6n ynys yn y mor o diaithr tervyn y byt heb gaissio cymell swllt arnom or lle y byom ni hyt hyn yn y gael y ryd a chwilid ma6r y ti Ilcasar yw yr hwn a orchmynnaist cans or un voned y disgynassom ni a ch6ithau o Eneas ysgwyd6yn. Ac am hyny na chais di yn dwyn ni y gaethiwed tragwda6l am hyny gwybyd di Ilcasar ymladwn ni dros yn ryddit a thros yn gwlat ac or de6y di dros y mor megis yd6yt yn ada6 dyfot yn gynt noc y sengych ar dir ynys Brydain. Ac velly wedy gwelet o Ilcassar lythr Caswalla6n ai attebion cwairia6 llynges a oruc ev a dyfot hyt yn aber Temys ac yn y erbyn y dayth Nynnia6 y vra6t ac Afarwy y nai twysa6c Llyndain a thrahayant iarll Cerniw a Chrada6c vrenin yr Alban a Gwerthaet vrenin Gwent a Brithael vrenin Dyfet. Sef y doethant yn diannot hyt ynghastell Doral ac yn diannot cyrchu y traeth a orugant ac ymlad yn wychyr o bob parth. ac yna y cyfarvy Nynia6 ac Ilcasar a drychav y gledyv a oruc Ilcasar y gaisia6 pen Nynnia6 ac erbynait a oruc ynte ar y darian yny lynna6d y cledyv yndi. ac ni alla6d ev dynnu odyno rac tewed y bydinoed nymgymysgu ac hwynt. Ac wedy cael y cledyv o Nynia6 ni safod neb dan y dyrnot ev ac yna y cyfarvy Alibiens iarll nynia6 ac yn diannot y llas ev h6n6. Ac velly llu Ilcasar a las gan v6yav a gyrru fo arno ynte yn wrad6ydys hyt yn frainc. Ac ymgyferbyn ac ev a oruc gwyr fraine ac y ymlad ac ev y gaissio b6r6 y arglwydiaeth iarnynt yr lla6r cans tybiait y daydaynt faely y gyrch ev ar y Bryttaniait ai gymell ar fo odyno am glybot vot llongau Casswalla6n ar y mor yn y ymlit ev. Sev a oruc ynte roi swmp anvaidra6l o da y dywsogion frainc a ryddit y ba6b ar a oed dan y gaethiwed ev. Ac velly y tangnofedod ev y bobl. Ac wedy y vydygoliaeth hono y dayth Caswalla6n y Lyndain ai gydvarchogion gydac ev y anrydedy y duwau. Ar pymthegvet dyt wedy hyny y by var6 Nynnia6 or dyrnot pen hyny ac y clad6yt gair llaw porth y gogled ar cledyv gidac ev cans yr angau coch y gelwit. y cledyv cans pwy bynnac a hanwaydid ac ev mar6 fydai yn diannot.[253] Ar amser h6n6 y g6naeth Ilcasar gastell odinae rac damhwainio yr ailwayth y wrthlad o wyr frainc. Ac velly ymhen y dwy vlyned y dayth Ilcasar yr ailwaith y gaissio dial y syrhaedau. ar y Bryttaniait. A phan gigle Gaswalla6n hyny peri a oruc ev blannu polon hayrn cyn braffed a mord6yt gwr ar hyt canol Temys ar ford llongeu Ilcasar. ac yn dirybyd y dayth y llongau ar ben y polon yny vri6od y llongau a bodi milioed or gwyr. Ar sawl a dayth yr tir Caswalla6n ai herbyni6ys hwynt a holl gadernit lloegr ac y cafas ev y vydygoliaeth ac y foes Ilcasar hyt yn raeth Moran ac odyna y daeth ev y gastell odinae ac y dayth Csawalla6n hyt yn Llyndain ac yna y gwnaeth ev y wled va6r y dywsogion ev ai wsnaethwyr. Ac yna aberthu a oruc ev daydengmil ar hygain o amrafaelion anifailiait ar haini a droyl-assant nos dr6y amrafaelion ch6aryau. Ac yna ydaeth yn ystriv rwng dau was ievainc arderch a6c wrth chwarau paled. ac enw y naill oed Hirlas nai yr brenin ar llall oed Gyhylyn nai Afarwy ac yny darvot hyny y llas Cyhylyn Hirlas nai y brenin. Ac o hyny ydaeth cynwrf ma6r yn y llys ac y llidi6ys y brenin yn va6r gan vynnu cael nai Afarwy wrth varn y llys. A fettrys oed gan Afarwy hyny gan dy6edyt mae pob cam a wnelit o vewn y dyrnas mae yn Llyndain y dlit g6naythyr ia6n am dano. Ac ynte parot oed y hyny. Ac ni vynnai y brenin namyn cael Cyhylyn wrth y 6yllys ev. Ac ni fynnai Afarwy hyny cany wydiat beth oedd e6yllys y brenin ac am hyny y gade6ys Afarwy y llys a mynet y gyfoeth y hun. Agwelet or brenin hyny a dyfot yn y ol ev a llu ma6r ganto a difa y gyfoeth ev yn ll6yr o dan a hayarn ac yna danvon o Afarwy att y brenin y gaissio tangnefed ac heb y gael. Ac yna y medyliod Afarwy pa fod y gallai ev 6rthnebu y brenin. ac y cafas yn y gynghor anvon at Ilcasar y erchi ida6 dyfot y ynys Brydain ac y bydai ev ganhorth6y ida6 ac y cadarnhae ev o dyfot ac y darostyngynt hwy ynys Brydain y Ilcasar. Ac yn gadernit ar hyny y danvones Afarwy Gynan y vab a daydec gwystyl arhygain o vonhedigion ynys Brydain yn wystlon ar hyny.[257] Ac yna cwairia6 llynges a oruc Ilcasar a dyfot y borth Rwydon yr tir. Ac Afarwy ai herbyna6d yn anrydedys. Ac yna yr oed y brenin yn ymlad a chaer Lyndain. ac wedy clybot o Gaswalla6n dyfot Ilcasar y ynys Brydain ym-g6airio a oruc y dyfot yn y erbyn a fan dayth yr glyn coeda6c yn agos y gaer gaint fev y gwelas bebyllau g6yr Ryfain.[260] ac yna brwydro a orugant ac yna y bu aerva va6r o bob parth. ac yn y diwed y gyrr6yd y Bryttaniait y mynyd ychel.[262] a chad6 yno yn wra6l a orugant a llad lla6er o wyr Ryfain.[263] a fan welas y Ryfain6yr hyny damgylchynu y mynyd a orugant y gaissio

neǫnu y Bryttaniait. ac yna y danvones Caswalla6n at Afar6y y ervynnait ida6 wnaythyr tangnefed ryngto ev ac Ilcasar.[265] a ryfedy a oruc Afar6y a dy6edyt panit lle6 me6n hed6ch gaissio hedychu. Ac yna ef a dayth Afar6y at Ilcasar. ac a dy6at 6rtho fal hynn. Argl6yd heb ev mi ade6ais y ti darostyngedigaeth ynys Brydain a llyma y ti hyny trwy y ti adel Caswalla6n yn vrenin danat ti trwy rodi o hona6 ynte dyrnget y Sened Ryfain. A gwrth6yneb vy gan Ilcasar yr atteb h6n6. Ac wedy g6elet o Afar6y hyny. dy6edyt a oruc ef. Argl6yd er i mi ada6 y ti darostyngedigaeth ynys Brydain nit ade6ais i y ti distry6io y nghenedl vy hun cany wnaethont dr6c y mi hyt na allont 6naythyr iawn am dano. ac ni chyttuav i difa vynghenedl.[268] Ac yna rodes Ilcasar dangnefed y Gaswalla6n tr6y rodi tair mil o bynnoed bob bl6ydyn y Sened Ryfain o ynys Brydain. Ac wedy cadarnhau hyny y daethant y gyt hyt yn Llyndain ac yno y trigasant y gayaf h6n6.[269] ar gwan6yn rac wyneb yr aeth Ilcasar ty a Ryfain ac yr aeth Afar6y gydac ev y daro wrth y Pontenis yr h6n oed yn cynnal yr amerodraeth yr amser h6n6.[270] ac y trigiod Caswalla6n yn ynys Brydain yn gwledychu saith mlyned ac wedy y var6 y clad6yt ynghaer Efroc. Ac yn ol Caswalla6n y dayth Tenefan ap llyd iarll cerni6 yn vrenin.[272] Ac yn y ol ynte y dayth Cynvelyn y vab yn vrenin yr h6n a vagasai Ilcasar a rac maint y carai Gynvelyn wyr Ryfain nichassiod ev d6yn y tyrnget arnynt.[273] Ac yn y amser ev y ganet Iesu Grist [4]. Ac 6edy gwledychu o gynvelyn deydeng mlyned y ganet dau vab ida6 G6yder a G6airyd. Ac wedy mar6 cynvelyn y gwnaethb6yd G6ydr yn vrenin ac wedy ymgadarnhau o hona6 yn y gyfoeth y attala6d ev dyrnget gwyr Ryfain. Ac wedy g6ybot o wyr Ryfain hyny anvon Eloy6casar a wnaethant a llu ma6r ganta6 y ynys Brydain. A fan dayth yr Amhera6dr y tir cyrchu Caerberis a oruc ac ymlad ar gaer. ac wedy nathyg-i6ys ida6 hynny cau pyrth y drev a orugant a myr maen y warchau yr anifer oed y mewn yn y vaynt vair6 o newyn.[275] Ac wedy clybot o Wydr hyny cwairia6 llu ma6r a oruc a dyfot wrth Gaerberis ac yn diannot cyrchu gwyr Ryfain a m6y a ladai wydr y hun o honynt noc a ladai gan m6yav yr holl lu. Ac yna y dayth Hamon dwyll6r yr h6n a dysgasai yr iaith gan y gwystlon or Bryttaniait yn Ryfain. a b6r6 haibio y arvau y hun a chymryt arvau un or Bryttaniait a las am danaw a chyrchuo ymlith y bydinoed.[276] a fan gafas ev gyfla llad y brenin a oruc. Ac odyno llithro tr6y un a thr6y arall a oruc oni dayth at y vydin y hun. Ac yna b6r6 yr arvau hynny ymaith a chymryt y arvau y hun.[277] Ac wedy g6ybot o wairyd lad y vra6t diosc y arvau y hun a oruc a chymryt arvau y brenin ac anoc y wyr y ymlad yn wra6l a a oruc agyrry fo ar wyr Ryfain.[278] Acyna y foes Hamon arrann v6yaf or llugydacev hyt y llea el6ir porth Hamon neu borth Ham6nt y gel6ir ev hyt yr a6r hon ac yno y llas Hamon.[279] Ac y dayth Gwairyd hyt y lle ydoed Glywcasar yn ymlad a chaerberis. A fan welas yr aniferoed yn y gaer y Bryttaniait yn dyfot yn borth ydynt. hwy ymdoethant y maes i ymlad a g6yr Ryfain. a llad lla6er o bob parth ac eissioes rac amled gwyr Ryfain h6ynt a enillassant y gaer a a gyrru fo ar wairyd hyt ynghaer wynt. ac yno y dayth Gloyw-casar ai lu a mynnu gwarchau y Bryttaniait yny vaint vair6 o o newyn.[280] a fan wybu wairyd hyny cywairiav y lu a oruc a dyfot allan. a fan welas Gloyw Casar hyny anvon a wnaeth y gaissio tangnefed at y Brittaniait. ac yn diannot y gwnaethb6yt tangnefed ryng tynt. ac y rodes Cloywcasar y verch yn wraica y wairyd y gadarnhay y dangnefed. ac wedy hyny o nerth y Bryttaniait y gor esgynnod gwyr Ryfain ynyssoed Orc ar cyt ynysoed eraill yny cylch.[282] ac wedy llithro y gayav haibio y dayth y vor6yn o Ryfain a diayret oed y ffryd ai theg6ch ac y priodes Gwayryd hono. Ac y gwnaeth Gloywcasar dinas yr hon a elwis ev Caerloyw ar lan Hafren yn y tervyn rung Cymry a Lloegr.[284] Ar amser h6n6 y diodefod Crist yngharisalem.[285] ac y gosodes pedr Ebostol gadair yn anossia ac o dyno y dayth ev hyt yn Ryfain y drigio ac y gynnal y Esgoba6d ac y danvones ev Varc Athro ac Evengyl6r hyt yr Eifft y bregethu yr Efengil a scrifenassai y hun.[286] Ac velly pan vy amser gan Gloyw-casar ef aeth y Ryfain a gadel ynys Ily6odraeth ynys Brydain y Wairyd. Ac wedy y vynet ev or ynys hon. y cymerth Gwairyd yndo ryfic a balchder. ac attal tyrnget gwyr Ryfain a oruc. ac wedy clybot o gloywcasar hyny ev a danvones Vasbassian a llu mawr ganto y gymryt tyrnget o ynys Brydain. ac wedy parattoi y llynges yn barot hwynt a doethant yr tir y borth rydipi. Ac yn y herbyn y dayth Gwairyd ai lu. ai llydias y dir a oruc sef y gwnaethont hwynte troi y hwylau a disgin ymhorth totnais.[288] ac wedy y dyfot yr tir cyrchu caer benh6yl.

goet a orugant ac ymlad a hi.[289] Ac wedy gόybot or brenin hyny. ymgόairio a oruc ynte ai lu ac ar ben y saithved dyd y dayth ev yno a chyrchu gwyr Ryfain ac ymlad ac hόynt. a llad llawer o bob part y dyd hόnό. A thranoeth gan amlet oed wyr Ryfain anod oed y gorvot. Ac yna y dayth y vrenhines y dangnofedy ryngtynt ac y gyt y doethant hyt yn Llyndain. Ac yna anvon a wnaethant y cidvarchogion hyt yn Iwerdon a goresgyn hi. Ac wedy darvot y gayav ydaeth Vaspassian y Ryfain ac y tyngόys ev Wairyd yn ynys Brydain hyt ynίόed y oes. Ac wedy y varό ev y cladόyt ev ymanachlog Caerloyw yr hon a wnaethoed Glow-casar. Ac y nol GόairydΔ y dayth Mayric y vab ynte yn vrenin ac yn oes hόnό y dayth Rodric vrenin y ffichdiait o seithia a llu mawr ganto yr Alban ai goresgyn a oruc. Ac wedy gwybot or brenin hyny ev a dayth yn y erbyn ac ymlad ac hόynt a oruc a gyrru fo arnynt ac yn y fo hyny y llas Rodric. ac yna y roes Meiric or Alban yr bobl hyny y breswylio yndi ac wedy cyfanedy y lle hόnό nit oed cymariait yr ffichdiait. ac y daethant hwy at y Bryttaniait y erchi y merchet hόynt yn wraged ydynt. ac ni by dailόng gan y bryttaniait y roi ydynt. Ac yna yr aeth y ffichdiait hyt yniwerdon a chymryt y Gwydelessau yn wraged ydynt ac or haini y heniw Ysgottiait. Ac wedy y Vairic lonydu yr ynys hon. ev a rodes dangnefed ŷ wyr Ryfain trόy y vod ai gariat. a gosot cyfraithiau neόyd ym hob lle yn y gyfoeth ac yn hedόch dangnofedys y gwledychoed tra vy vyw. Ac wedy marό Mayric y dayth Coel y vab ynte yn vrenin yr hόn a vagasŷd yn Ryfain. A rac maint y carai ev wyr Ryfain cyt gallai attal y tyrnget nis attalioed tra vy vyό.[290] Ac wedy Coel y dayth Lles y vab ynte yn vrenin ac un annwyt ai dat oed ef. Ac wedy ymgadarnhau o honaό yn y gyfoeth. ev a danvones att Eleuteriws esgob Ryfain y ervynnait idaw danvon y ynys Brydain dysgaόdyr o Gristnogaόl fyd megys y gallai ev gredy y Grist trόy dysc a fregethau.[291] ac ynte a danvones idaό dau dysgaόdyr Dyfan a Fagan ar haini a bregethawd idaό o dyfodiat Crist yn gnaόd. Ar haini ai golches ev o lan fydlaόn Vedyd a holl bobl y dyrnas wedy ynte.[292] ac yna y roes Lles y temlau oed ossodedic yr gau Duόau. ev a beris y cyssegru yn enό holl gyfoethaόc Duw ar saint a gossot ydynt amrafaelhion yrdolion y cyfanhedy ac y daly duόaόl wssanaeth y duό.[293] ar amfer hόnό yr oed wyth Esgobdy a thrygain yn ynys Brydain a tri arch esgobdy yn benadyr ar y llaill. ar tri hyny yn y tri dinas pennav yn yr ynys. Llyndain a chaerefroc. a chaer-llion ar wysc. A fan ranόyt rόng yr arch esgobdai. wrth Esgobdy Caer Efroc y perthynόys deifyr a brynaich ar gogled oll val y gwahanai hymyr. Ac wrth Arch Esgobdy Llyndain Lloegr a Cherniw val y caidό hafren. Ac wrth Arch Esgobdy Caer llion Cymry o hafren y vynyd cans Caer llion oed benadyr ar y dwy eraill.[294] Ac wedy y roes y brenin ydynt rodion maόr o dir a dayar. Ac yn nghaer loyw y tervynόys y vyched ac ny vanachloc hono y cladόyt yr unvet vlwyddyn ar bymtheg ar hygain a chant gόedy dyfot Crist yngnaόt. Ar amser hόnό y oed yn ynys Brydain wyth temyl ar hygain. A thair temyl hefyt oed odiar yr haini. Ac yr oed yr wyth demyl ar hygain hyny dan vediant y tair eraill ai hargl6yddiaethau oll y vot wrth orchymyn yr haini ac ymhόb un or temlau hyny y gossodwyt Esgob cyssegredic ac ymhob un or tair pennav y gossodet Arch Esgob yn y tri dinas pennav a ennwid or blaen. Ac velly am nat oed ettifed y Les y codes tervysc rόng y Bryttaniait a gwyr Ryfain. Ac wedi manegi hyny y sened Ryfain hόynt a danvonassant severys senedόr o Ryfain a lleng o wyr ymlad ganto nit amgen ygain mil. ac ev a oresgynόys yr ran vόyav ar y Brittaniait a rai o nadynt a foes dros daifyr a brynaich a silien yn dyόssoc arnynt. a mynych ymgyrchu a vy ryngtynt. a gorthrόm vy gan yr amheraόdr hyny. Ac yna y peris ev ónaythyr claόd rόng daifr ar Alban o gyffredin dreth or mor y gilyd val y bai haόs gwrthneby y Bryttaniait. a phan welas Silien na thyciai idaό ymlad ve ar Bryttaniait a gόyr Ryfain. ef aeth hyt yn Seithia y gaissio nerth. Ac wedy cael o honaό holl iengtit y wlad hono y gyt ev y dayth y ynys Brydain ac yna cyrchu Caer Efraόc a oruc ac ymlas a hi. Ac wedy mynet y chόedl dros y dyrnas. yna y ran vόyav or Bryttaniait amadeόis ar amheraόdr ac a dayth at Silien. Ac yna yn diannot y dayth severys ai lu ganto y ymlad a silien. A silien ai brathόys ynte yn angeuaόl ac o hόnό y by varό severys ac y cladwyt ynghaer Efraόc A dau vab oed y severys Bassian ac Etta a mam Getta a hanoed o Ryfain. a mam Bassian o ynys Brydain. ac wedy marό y dat y cymerth gwyr Ryfain Getta yn dyόssoc arnynt o achos hanvot y vam o Ryfain. Ac y cymerth y Bryttaniait Bassian yn vrenin arnynt hwynte am hanvot y vam o ynys Brydain. ac yna y

codes tervysc r6ng y brodyr a di6arnot y g6rd ac yn y c6rd hyny y llas Getta ac y cafas Bassian y vrenhiniaeth yn y eido y hun.[299] Ar amser h6n6 ydoed gwas ievanc yn ynys Brydain. Caran oed y henw ac o genedl issel y hanoed a chlodva6r oed ev o de6rder wedy y brofi me6n lla6er o vr6ydrau a chyrchu a orvc h6n6 ty a Ryfain ac erchi wnat a oruc y Sened6yr Ryfain y warchad6 ynys Brydain ai longau rac estron genedl a cada6 da ma6r a oruc ev am hyny.[300] Ac yna y dayth ev yr ail6aith i ynys Brydain a chynyll cadernit yr ynys a oruc a mynet yr mor y vynych amrafaelion borthyayd a gwnaythyr cyn6rv ma6r ar yr ynyssoed o gylch ido gan y hanraithia6 ei llad ai llosgi. a pha6b ac a garai drais a lledrat a da6ai atto ev yn y oed gymaint y anifer ev ac nat oed arno ofn neb.[301] Ac wedy gwelet o hona6 bob peth yn gynydy ganto. Anvon a oruc at y Bryttaniait a gofyn ydynt a gai ev vot yn vrenin arnynt ac ynte a distry6ai wyr Ryfain ac ai helhai or ynys hon ac ai rydhai h6ynt odi6rth estron genedl.[302] ac wedy ida6 gael y vydygoliaeth. ev a dayth a llu ma6r ganto yn erbyn Bassian a gwyr Ryfain ar y ffichdiaid ac yn y vr6ydr gyntaf y troes y ffichdiait yn erbyn gwyr Ryfain ac yn y vr6ydr hono y llas Bassian a gyrru fo ar wyr Ryfain canu wydynt p6y oed yn y herbyn p6y nit oed. Ac wedy cael o Garan y vydygoliaeth tr6y vrat y ffichdiait ev a rodes Esgottlont ydynt hwy ac yno y maent etto yn y lle a elwir Prydyn.[303] A phan wyby Sened6yr Ryfain hyny hwy a danvonassant Alectys Sened6r o Ryfain a thair lleng o wyr ymlad ganto hyt ynys Brydain ac yn y erbyn y dayth Caran ai lu ac ymlad ac h6ynt ac yn y vr6ydr hono y llas Caran. A gwnaythyr dirva6r dymestl o Electys ar y Bryttaniait. a thr6m vy gantynt hyny a dethol Alysglapit6l6s yn dy6ssa6c arnynt sev oed h6n6 iarll Cerniw a mynet a wnaethant am ben Alectys hyt yn Llyndain lle ydoed ev yn cynnal gwylva yr tadolion du6au a fan adnaby Alectys ystyr y neges parattoi y lu a oruc a chyrchu y Bryttaniait ac yna y by aerva vawr ac nydi6ed y foes y Ryfain6yr ai hemlit a oruc y Brytaniait a llad milioed o nadynt ac yna y llas Alectys.[305] A chayet pyrth Llyndain a oruc gwyr Ryfain. Sef a oruc Beiysgalys cydymaeth y Alectys oed h6n6 cymryt arno vot yn dy6ssoc gwyr Ryfain sev a oruc Alisglapit6l6s cylchyny y gaer ac anvon at holl dy6sogion ynys Brydain y vanegi y vot ev yn eisted wrth gaer Lyndain ac erchi y ba6b dyfot yn diohir yn borth idav.[306] Ar dyfyn a dayth at y dehayw6r ar gwyndit a gwyr daifr a brynnaich a gwyr yr Alban. ac wedy y dyfot oll ymronn y gaer a bri6o y myroed a orugant a thr6ydynt a throstynt myned y me6n a dechrau llad y Ryfain6yr a fan welsant hwynte hyny dyfot gair bronn y brenin a wnaethant ac erchi na6d ida6 ai gell6ng yn fyw y gwlat.[307] Ac velly val ydoed y brenin yn cymryt y codes gwyr Gwyned a ragot ar wyr Ryfain ai llad o gwbl. Ac yna y cymerth Alysglapit6l6s goron y dyrnas ai llywio hi a oruc daydeng mlyned.[309] Ac yn y amser ev y dechray6ys y dymestl a wnaeth Diaclessian amherawdr Ryfain ar y Cristnogion hyt pan difaoed ev gan mwyav yr holl Gristnogaeth. Ac yna y dayth Maxen ac Erc6lff yn dau dy6sa6c o arch y Croyla6n h6n6 a distry6 yr Eglwysau a llosgi llyfrau ysgrythr lan ac yna y lais y gwyr llen ar Cristnogon.[310] ac yna y llas Saint Alban o Virolan ac Aron o gaer llion y gydymaith ynte.[311] Ac yna y codes Coel iarll Caerloyw a ryfely yn erbyn Alysglapyt6l6s ac yn diannot y lladod Coel ev. Ac yna y dayth Constans Senedwr o Ryfain hyt yn ynys Brydain wedy y vot yn darest6ng Ysbaen a ryfely ar Goel a oruc a gosot dyd y daro a mynnu ymgyrchu.[312] ac yn diannot y tangnofedwyt hwynt ac ymhen wythnos a mis wedy hyny y by var6 Coel a deng mlyned y gwledycha6d.[313] ac yna y cymerth Constans Elen un verch Coel yn wraic bria6d ida6 yr hon a elwit Elen lyda6c yr ni welssit y chyffelyb hi o bryt a gwed.[314] Ac ydynt y by vab a elwit Cystennin ap Constant a h6nn6 a oresgynnot Ryfain ar Vaxen groyla6n ev ai dri Ewyrth vrodyr y vam nit amgen Llywelyn a Thrahaern a Mayric. ar Trahaern h6n6 a dayth a thair llen o wyr arvoc i oresgyn ynys Brydain odiar Eidaf iarll Erging ac Eyas ac y ca6ssent gaerberis.[320] Ac erbyn pen yr ail dyd y dayth Eidav hyt yn emyl Caer wynt y vaes vrien ac yna y cafas y vydygoliaeth gyntav. Ac y gorvy ar Drahaern fo y6 longau ac yr Alban y dayth ev y dir i ryfely.[321] Ac yna y gorfy drahayrn ar Eidav ai emlit o le y le yny foes hyt yn Llychlyn y gaissio nerth gan Gytbert vrenin Prydyn ac ervyn idi6 dion wnaethyr angau Trahayrn. Sev a oruc iarll y castell cadarn dyfot o fewn glyn yr ford y doe Drayhayrn ac yna llechu ar y ganvet marchoc. a phan dayth Trahayarn yno yn diannot y llas ev.[323] Ac yna y goresgynnod Eidav ynys Brydain ac y cymerth ev

goron y dyrnas ac yn y lle ymgyfoethogi a oruc a chynnal gwyr a mairch ac arvau a da hyt nat oed ha6d i un brenin ymryson ac ef. Ac velly y cynhelis Eidav y dyrnas hon yny dayth dau Amhera6dr o Ryfain. nit amgen Grassiant ac Afala6nt a gwledychu ynys Brydain a oruc o eissiau ia6n ettifed hyt y diwed hayach cans nit oed ida6 ettifed namyn un verch. Ac yna peri a oruc ev dyfynnu atta6 holl wyrda ynys Brydain i ymgynghori ac hwynt am lywodraeth yr ynys ac am gyfle y rodi Elen y verch a rai a gynghores ida6 roi cyfoeth y Gynan Mairiada6c y nai ap y vra6d.[325] A roi Elen y verch y Bryns o ynys arall a digon o da or ynys hon gyda hi. Eraill a gynghorau y roi hi y dywssa6cyr ynys honn arcyfoeth genthi. Ac yna y dywat Crada6c iarll Cerniw dan darostyngedigaeth Sened Ryfain ydymni.[326] Cynghor yw genyv e danvon hyt yn Ryfain a dethol Maxen wledic cans mab y6 h6n6 y Lywelyn ewyrth Elen Lyda6c. a merch oed y vam ynte y dy6ssoc Sened Ryfain a rodi dy verch y h6n6 ar cyfoeth gida hi ac o hyny y cawn ni nerth sened Ryfain y ymdiffin yn gwlat rac estron genedl. ac ar hyny y trig6yt. Ac yna y danvones Crada6c iarll Vairyc y vab hyt yn Ryfain.[327] Ac anvynych vyd vot cytundeb r6ng gwyr Ryfain a fa6b or ynyssed. Ac gwedy gwelet o Vayric y terfysc h6n6.[328] dy6edyt a oruc ev wrth Vaxen ryfed yw geniv dy vot yn diodev gan y gwyr raco. beth a wnafi heb y Maxen. dyfot heb ef gyda mi hyt yn ynys Brydain a friodi Elen verch Eidav brenin y Bryttaniait a chymryt y cyfoeth gyda hi a hefyt val y gellych o nerth y Bryttaniait darest6ng pob ynys ac a wrthnepo ytt ac ar hyny y trig6ys Maxen.[329] Ac yna cy6airio llynges a oruc ev a dyfot hyt yn frainc ai cymell y wnaythyr y ewllys ev a rodi ida6 aur ac arian.[330] Ac yna y dayth rybyd y vrenin y Bryttaniait vot llynges ar y mor ac na wydir pa le y disgynnai ac yna y erchais Eidav y Gynan Mairiadoc dyfynnu gidac ev holl iengtit ynys Brydain y warchad6 y tir rac estron genedl. Ac yna y dayth a llu ma6r ganto hyt ymynd Cent.[331] Ac wedy gwelet o Vaxen vaint oed y llu rythra6 a oruc ev y Vayruc a dy6edyt wrtho vot yn rait cynghor da a fowair wrth lu a vai gymaint a h6nn6 ac ar6yd ymlad arnynt.[332] ac yna y detholet daydeng6yr or hai hynav a doethav a gafat ai hanvon mewn bad y dir ac yn lla6 bob un o naddynt gwialen o oli6yd glas yn ar6yd tangnefed. a dyfot a wnaethant att Gynan Mayriada6c.[334] a chyfarch gwell ido a manegi y bot yn genadau gan Vaxen Wledic att vrenin y Bryttaniait.[335] sef y gofynnod Cynan pam y dathoed ev a llu cymaint a h6n6 ganto ar hed6ch.[336] ynte a dy6at mae rac y orthrymu ar y ford.[337] Ac wedy gwybot o Gynan y neges ev y mynassai y wrthlad rac colli o hona6 y vrenhiniaeth ac yna dy6at Crada6c iarll Cerniw gellyng6n ni hwy at y brenin ac a vynno ev gwnaet ydynt ac yna y doethant y gyt ar gaer yn arvon lle ydoed Eydav ac Elen y verch yn cynal y llys.[339] Ac yn diannot y cymerth Maxen Elen yn wraic briot ida6 a lly6odraeth y dyrnas gida hi. A phan wyby Gynan hyny mynet a oruc hyt yr Alban a chynnyll llu ma6r ganto.[341] a dyfot trwy hymyr ac anraithia6 y cyfoeth hyny doeth Maxen a gyrry fo arnynt ar ailwaith y dayth Cynan ai lu ac y tangnefed6yt ryngtynt y git gael ac y git golli.[342] Ac ymhen y bymet vlwydyn wedy hyny ydaeth Maxen a Chynan y frainc yr lle ydoed Hymblat yn dy6ssa6c yno.[343] a llad h6n6 a wnaethant ac yna y dy6at Maxen wrth Gynan Mairiada6c cyn dygym mi arnat ti ynys Brydain mi a rodaf y uithau Mida6.[344] A llyna yr amser cyntav ydaeth y Bryttaniait y lyda6. ac o hyny allan y gel6it hi Bryttaen vechan. Ac odyna y cerdod Maxen ty a dinas Roam y Normandi ac y foes y frainc rac y ofn a gado y cestyll ar dinessyd yn wac. Ac odyno ydaeth Maxen ty a Ryfain a ryfely yn erbyn Grassian Navala6nt amherodron Ryfain ac yn diannot y llada6d ev y naill a deol y llall a oruc ymaes o Ryfain.[348] ar amser h6n6 yr oed mynych gyfrangau r6ng y Bryttaniait. o lyda6 ar frainc. Ac wedy y bot velly yn hir o amser medylia6 a oruc gwyr Llyda6 am gael gwracae da ydynt.[350] ac anvon cenadau y ynys Brydain at iarll Cerniw yr hwn ade6it yn gaid6at ar y dyrnas ac ervynnait ida6 danvon un-vil-ar dec o verchet gwyr anlyeda6c ir ynys yn wraicae ydynt hyt at Gynan. A thrygain o verchet maibiot aillion a gwenedigion.[351] Ac wedy cynyll hyny o Vorynion cych6yn ai llynges a orugant. ac ar y mor y dayth g6ynt gwrth6yneb a g6asgaru y llongau y amrafaelion draethau a bodi rai o nadynt. Ar amser h6n6 ydoed Gwn6as a Mel6as yn ryfely ar y mor ar wyr sermania o blegit Grassian amherodr Ryfain.[353] sev y cyfarvy ar gwyr hyny d6y long or merchet hyny a 6asgarassit ar vor frainc ac 6edy cael manec or gwyr a dywethb6yt vry gan y morynion ada6 ynys Brydain yn 6ac. troi

y hwylau a orugant a dyfot y ynys Brydain. Cans Gwn6as oed vrenin hynot a Mel6as oed vrenin Paitto. Ac wedy y dyfot yr gogled yr lan llad y bobloed a 6naethant ford y cerdassant.[354] Ac wedy cly6ed o Vaxen hyny yn Ryfain anvon a oruc d6y leng o wyr arvoc a Grassian yn llywia6dr arnynt y amdiffin ynys Brydain. Ac velly br6ydr a vy ryngtynt ar ryfelwyr a llad lla6er o bob parth a gyrry fo ar Wn6as a Mel6as hyt yn I6erdon. Ar amser h6n6 y llas Maxen yn Ryfain ar holl aniferoed o hanodynt o ynys Brydain ont adiengis hyt yn llyda6 her6yd y pedestric.[355] Ac yn g6edy cly6ed o Grassian lad Maxen ai orcygwyr ev a gymerth Grassian ly6odraeth ynys Brydain yn y eida6 y hun ac a wisgod goron y dyrnas am y ben ac a wledychod yn hir o amser tr6y groylonder yn erbyn y brittaniait ac yny di6ed y lladod y wyr y hun ev. Ac 6edy clywet o Wn6as a Mel6as lad grassian oi wyr y hun cynyll a 6naethant h6ynte wyr llychlyn a Denmarc ar Ysgottiait ar ffichdiait a dyfot y ynys Brydain ai hanraithio o dan a hayarn or mor y gilyd a lad y cenvainoed. Ac 6edy gwelet or Bryttaniait nathyciai ydynt ymgyferbynnait ac h6ynt. Anvon a 6naethant hyt yn Ryfain y gaissio. nerth gantynt.[356] Ac y ca6sant leng o wyr arvoc a Severys yn dy6soc arnynt. ac 6edy y dyfot y ynys Brydain cy6rd ai gelynion a 6naethant ai g6rthlad y maes oi tervynau. ac o gyt gynghor y g6naethant myr maen o gyffredin drayl r6ng daifyr ar gogled val y bai anos y estron genedl y gorthrymu rac lla6.[357] Ac 6edy y dyfot odyno hyt yn Llyndain y herchis gwyr Ryfain y Gyhylyn vanegi golli or Bryttaniait y gwyr ai swllt ac ydynt hwy gosti y haur ai harian mwy noc y ga6ssant yr ioed o ynys Brydain yn caissio amdiffin y Bryttaniait ac na lafyriynt h6y o hynny allan i hamdiffin.[358] A llev tryan a rodes y bobl boenedic am bally oi holl nerthoed ydynt ac yna cyrchu o wyr Ryfain ty ai llongau a mynet ty ai g6lat. Ac wedy adnabot o Wyn6as a Mel6as hynny cynyll a 6naethant h6ynte y llu m6av ac ellynt a dyfot yr Albau yr tir a ryfely ar y Bryttaniait ai llad. a goresgyn yr Alban hyt yn hymyr a g6naythyr mynych gyrchau arnynt. Ac yna gwelet or Bryttaniait na ellynt ymgyferbynait ai gelynion ac anvon a 6naethant y gofydys g6yn at Gitti6s amherodr Ryfain. y adolwyn y nerth ev ymgyferbynait ai gelynion. Ac 6edy g6ybot o Sened Ryfain y hadolwyn h6ynt y nacau o g6bl a orugant ac ym6rthot ac ynys Brydain ai thyrnget o hyny allan. ac 6edy adnabot or Bryttaniait y gomed o wyr Ryfain. Anvon a orugant Gyhylyn Archesgob Llyndain y Lyda6 y y gaissio nerth gan Ald6r vrenin llyda6 cans y ped6ryd breuin oed h6n6 g6edy Cynan Mairiada6c. ac 6edy y Gyhylyn vanegi yr brenin ofyt yr Bryttaniait gan estron genedl.[359] dolyrio a oruc y brenin a rhodi ydynt d6y vil o varchogion arvoc a Chystennin y vra6t yn dy6ssa6c arnynt.[370] ac wedy ydynt gaffel y llongau yn barot h6ylia6 a orugant parth ac ynys Brydain. ac y borth Totnais y doethant y dir lloegr. Ac 6edy clybot o Wn6as a Mel6as hyny. ymbarattoi a orugant h6ynte a chyfarvot ynghyt a br6ydro yn groylon a lad llyossogr6yd o bob parth. Ac nydi6ed Cystenin ar Bryttaniait a gafas y vydygoliaeth dr6y lad y gelynion. Ac 6edy hyny y doethant y gaer Vydau.[372] ac yna y g6isgod Cystennin goron y dyrnas ac y roded yn wraic idaw verch un o dywssogion Ryfain a vagassai Gyhylyn Archesgob.[373] Ac o hono y by ida6 drimaib nit amgen Constant ac Emrys ac Ythyr ben drag6n. Ar Constant hwnw a vagwyd ymanachlog Amffibalys ynghaer wynt ar maibion eraill a roesb6yd at Gyhylyn ar Vaeth.[374] Ac wedy gwledychu o Gystennin daydeng mlyned mewn hed6ch tangnofedys. ev a dayth un or ffichtiait yu rith ymdidan ac ev odiaithr niver ai vrathu a chyllell dan ben y vron ac or brath hyny y by ev varw.[375] Ac yna wedy mar6 Custennin y by anundeb r6ng gwyrda yr ynys am 6naythyr brenin rai a vynnai 6naythyr Ythyr yn vrenin. eraill a vynnai 6naythur rai oi ceraint yn vrenin. Ac yn y di6ed 6edy na by undeb rydynt y dayth G6rtheyrn G6rthenau o achos y vot yn un o Anhawgwyr ynys Brydain a m6yav a 6nait oi gynghor. Ac 6edy medylia6 o hona6 nadoed wir dlyedys ar yr ynys hon ont un o Vaibion Gystennin.[376] A gofyn pa ry6 anryded a 6nai ida6 ev o farai y 6naythyr ev yn Vrenin.[377] Sev y ade6is y mynach ido bob peth ac a fynnai er hyny. Ac yna y cymerth G6rthayrn y mab ymaith oi vanachloc o anvod yr Abat ai g6faint ai yrda6 yn Vrenin.[378] Ac ynte a wnaeth G6rtheyrn yn orychel ystiwert dros ynys Brydain. Ac 6edy y vot ev velly dalym o amser medylia6 a oruc G6rtheyrn dr6y vrat pa vod y gallai ev vot yn vrenin y hunan. Ac yna y manag6ys ev yr Brenin vot llynghes ar y mor ac na6ydiat pa le y disgynai a bot yn orau cadarnhau cestyll o wyr ac arvau a b6yt a llynn. Ac y herchis y brenin ida6 6naethyr megis y mynnai y hun. cans ev a rodassai ido ly6odraeth yr ynys.[379] Ac 6edy cael o

Wrthayrn atteb y brenin mynet a oruc ev y hun o gastell y gastell ac yno dethol a oruc ev bed6ar-ygainwyr o Vaibion y dlyedogion gorau ar y hannoed o genedlaeth y ffichtiait y 6aettan 6rth ben march y brenin. Ac 6edy y bot velly dalym o amser. a Gwrtheyrn oed ryngy bod yr haini o barch a rodion ac ysmwythder.[380] Sev ydoedynt nos6aith yneyad y brenin yn yfet g6in 6edy mynet y brenin y gysgu. c6yno a oruc Gwthayrn 6rth y ffichdiait. nat oed gyfoeth ganto ev megis y gallai 6naythyr cydmaithias a neb onit bychan. a ffai gall6n 6naythyr anryded y neb mi ai gwna6n y ch6ch6i paham heb h6ynt ponit ty di y ffyd vrenhin. nagev yn wir nit oed y mi o gyfoeth ont Erging ac Eyas.[381] Ac velly wedy mynt G6rtheyrn y gysgu. myned a 6naethant y stavell y brenin a llad y ben ev a dyfot att Wrthheyrn a b6r6 y pen yn y arffet ev gan dy6edyt cymmer di h6nn a byd vrenin os mynnu. A phan 6elas G6rthayrn hyny 6ylo a oruc o d6yll ac nit o alar a fferi a 6naeth ev daly y gwyr hyny ai carcharu. Ac yna pan adnaby dlyedogion ynys Brydain lad y brenin ymgynylla6 a orugant hyt yn Llyndain a fferi crogi y ped6ar ygainwyr a vyssai yn llad y brenin a gorchymyn y cyfoeth y Wrtheyrn yn y geffit brenin dlyeda6c arno. Ac yna 6edy g6ybot o Gyhylyn lad y brenin. codi a oruc ev heb 6ybot y Wrgant iarll Cent. ac heb 6ybot y neb o wyrda yr ynys a phan adnaby wyrda'r ynys ai thy6ssogion hyny hefyt hagr vy gantynt a hefyt gan y vaibion ynte or wraic arall sev oed y hen6au Cyndayrn a G6erthevyr a Ffasgen.[383] ar amser h6n6 ydoed Simiaun Esgob a Lippys y gydymaeth ynte yn pregethu yn yr ynys honn ac yn dysgu y ffyd yr Cristnogon cans er pan dathoed y peganiait attynt ydoed gamgret yn y plith trwy falst bregethau angrist yr h6n a el6it Pelagian cans h6n6 a lygrassai fyd y Bryttaniait. A thr6y bregethau y gwyr sanctaid hyny y troes y Bryttaniait yr fyd gatholic Ac yna y dayth Hainssiestr att y brenin ac ai gwahodes ev y s6pper. Ac yr oed merch y Hainster yn un or bobl lana yn y byd. ac y chwenych6ys y brenin gael cysgu gida hi y nos hono ac ae cafas trwy amot y friodi. Ac yna dy6edyt o Hainssiestr 6rth y brenin dranoeth ty di waithion ysyd vab y mi a minau yn dat y tithau ac am hyny ia6n y6 i ti 6naythyr vynghyngor i o hyn allan. a mi ath gynghorav di yn da rac dy godi o estron genedl. Anvon di hyt yn Sermania yn ol Octa vy mab i ac Assaf y e6yrth ynte yfyd varchoc da clodva6r a ro di Ysgottlant yr haini y lle yssyd yth ortrechu di o vynych ryfelo6ed ac h6ynt a gad6ant yno rac pellenigion.[400] A hyny a oruc y brenin anvon hyt yn sermania y gyrchu y gwyr hyny. ac yna y dayth o sermania drychan llong o wyr arvoc ac Octav ac Assav a Chledric yn dy6ssogion arnynt hyt yn ynys Brydain.[401] Ac 6edy g6ybot o dy6ssogion yr ynys hyny tristau a 6naethant rac maint yr anifer a gl6ssynt y dyfot y dyr. Ac anvon a orugant att y brenin y erchi ido y g6rthlad ymaeth or ynys ai hely ymaith.[402] Ac 6edy adnabot hyny o Wrtheyrn ni wnai ev ynamyn cyn6ys gwyr sermania tr6y rodi tiroed a chyfoethau ydynt. a phan 6yby y Bryttaniait hyny dethol a orugant Werthevyr ap G6rthayrn yn vrenin arnynt a dechrau ryfely ar y Saeson.[403] ac yna G6erthevyr a enill6ys bedwar maes arnynt. y maes cyntav a vy ar dervyn Avon. ar ail maes yn ryt y pysgot ac yno y cyfarvy Gyndayrn a Hors ac y llas pob un y gilyd o nadynt. Ar trydyd maes a vy ynglan y mor ac y ffoes y saesson hyt yn Ynys Danet a G6erthevyr yn y hemlit h6ynt ac yn y llad. A phan welas y saesson nat oed le y dianc gado y plant ai gwraged a 6naethant o ffo y hunain y gwlat.[404] Ac 6edy gorvot o Werthevyr arnynt ev a dayth ty ac ynys Brydain.[405] A phan gigle Rawn6en hyny gwraic G6rthayrn lad y Saeson yn ll6yr rodi aur ac ariant a oruc hi y 6snaethwr ev y hun er gwen6yno y brenin. Ac yna pan wyby ev darfot y wen6yno dyfynnu a oruc ev y holl dy6sogion atto a chynghori pa6b o nadynt y amdiffyn y g6lat ai gwir dlyed rac estron genedl a rannu y swllt a oruc y ba6b oi dy6sogion. a gorchymyn llosgi y gorf ev a roi y llyd6 h6n6 mewn del6 o evyd ar lun gwr a roi y del6 hono yn y borthloed y bai estron genedl yn mynnu dyfot yr tir a diau oed na delynt tra g6elynt y lun ev yno. Ac 6edy mar6 G6rthevyr ni 6naeth y tywsogion megis y harchasai ev ydynt namyn y glady ev yn Llyndain.[407] a g6naythyr G6rtheyrn yn vrenin yr ail6aith o eissiau gwr dlyeda6c. Ac 6edy cael o hona6 ev ly6odraeth yr ynys ail6aith. anvon a oruc Rawn6en hyt yn sermania at Hainssiestr y that y erchi ido dyfot a chyfot a chyfartalr6yd o bobl gydag ev hyt yn ynys Brydain a manegi ida6 mar6 G6rthevyr.[408] A phan wyby Hainssiestr hyny ev a dayth a thrygain llong o wyr arvoc gydac ev y ynys Brydain. A phan 6yby y bryttaniait dyfot y ry6 anifer hyny yr tir. ervyn a wnaethant yr brenin y g6rthlad. A phan 6yby y sermaniait hyny

manegi a orugant yr brenin ai dy6sogion na doethant h6y yr ynys er molest or byt at y bryttaniait namyn tybiaw na bysai var6 G6rthevyr vendigait eithr rac yn cyfarsangu o hona6 ev y daythom ni ar anifer hyn gennym. ac velly gan y var6 ev ervynnait yw gennym yr brenin wnaythyr oetyd mewn lle tervynedic y wybot pa vaint o enifer a vai e6llys ganto ydynt drigio yma ar sawl ni bo amhoelant ail6aith y g6lad. Ar oedtyd h6n6 a dodet du6 calan mai yn y maes ma6r ynghymry. a g6rafyn na dygai neb dim arvau gantynt yr oedtyd rac tyvy amryson r6ng y plaidiau Ac 6edy medylia6 o Hainssiest oi hen vrat gorchymyn a 6naeth y bob un oi wyr ev d6yn cyllaill hirion yn y sanau erbyn yr oed tervynedic. A phan archai ev draw owd iwr Sax tynnwch y cyllaill a lled6ch y bryttaniait yn diar6ybot ydynt.[410] a phan dayth y dyd dyfot or brenin ai dy6sogion yr oet ar Saxoniait or parth arall. Ac velly pan oed y ty6sogion yn sefyll yn un peut6r y gymryt y cynghor Hainssiestr a dy6at draw out iwr Saxs ac yno y tynnod y saeson y cyllaill ac y lladasant drygain a phedwar cant iairll a a bar6niait a ffenaethiait or Bryttaniait a daly y brenin o Heinssiestr.[411] ac ni diengis neb o holl dy6sogion ynys Brydain namyn Eidiol iarll caer loy6 a diengis o nerth trosol a gafas ev dan y droet ac ar trosol h6n6 ev a las deng6r a thrygainwyr. Ac velly y diengis ev yn iach ac yr aeth y gyfoeth y hun. Ac yna y dykb6yt rac y brenin Gaer Lyndain. a Chaer Efroc a Chaer Lincol.[412] ac yna y gellyng6yt y brenin ac y gwrthlad6yt o holl dervynau Lloegr ac y foes ynte y gymry. Ac 6edy y vot ev velly dalym o amser medylia6 a oruc am adailiat castell rac y gyfarsangu o estron genedl val y g6nathoedynt gynt. Ac 6edy edrych c6bl o dir cymry ev a gafas le g6edys y gastell yn y lle a el6ir yr a6r hon dinas Emrys yn yr Yrri.[414] ac wedy dyvynnu yno la6er o sairi main a dechrau y g6ayth ymyr. Ac yna cymaint ac a 6aithit y dyd ev a syrthiau y nos. Ac 6edy bot velly yn hir o amser heb fynnu y g6aith ryfedy a oruc G6rthayrn a gofyn y daydec Prifard beth a 6nai na safai y g6aith.[415] Ac yr aethant h6y yn y cynghor pa atteb a rodynt ida6 ac yna dy6edyt o un y peth ni allo bot o far6n ni gaissio yr h6n ni chair byth ac velly y byd6n ni diadnair. Ac y dy6edassant 6rth y brenin ba ceffit g6aet mab heb dat ido a chymysgu h6n6 ar morter y safai y g6aith. ac 6edy manegi hyny yr brenin anvon a oruc ynte ar hyt y gyfoeth y gaissio mab heb dat ida6 ac 6edy cerdet pob lle y dayth y cenadau hyt ynghaer Vyrdin. sev achos y gel6ir hi velly am y sailia6 o vyrd o wyr. Ac yna y gwelsant vaibion yn ch6arau pel a thyfu amryson r6ng dau o nadynt. ta6 heb er un 6rth y llall athgyfraitha a mi cans bounedic wyv i o dat a mam a thithau nit oes ytt un tat.[417] A fan gly6as y cenadau hyny ymafel ar mab a wnaethant.[417] ai d6yn ev gair bron y mayr a gorchymyn ida6 o blegit y brenin danvon y mab ai vam gair bron y brenin a hyny a oruc ynte.[418] Ac yna y gofynnod y brenin yr wraic p6y oed dat y mab. na6n ymcyffes heb hi namyn un verch oed6n i y vrenin dyfet ac yn ievanc ym roded i yn vanaches y gaer Vyrdin ac val yr oed6n ni yn cysgu r6ng vych6ioryd mi a 6el6n trwy vy hun was iefanc yn cydia6 a mi a fan defroais nit oed yno neb namyn mi am ch6ioryd ac yna y baichogais i ac y ganet y mab hyn y mi ac ym cyffes y du6 ni by achos rofi a gwr er ioed namyn hyny.[420] ac yna y gofynnod y brenin y Vaygan Esgob allai hyny vot yn wir. gallai heb ev cans pan syrthiod Lysyfer ai engylion dr6c a bechasant gydac ev yn y lleoed ar mod ydoedynt pan erchis Du6 ydynt baidio yn y leoed hyny y maent hyt hedi6 ac y mae rai or haini yn gally ymrithio yn rith gwraged eraill yn rith gwyr ac velly agatvyd y cofat y mab h6n.[421] Ac yna y dy6at y brenin 6rth y mab vot yn rait ida6 gael y 6aet ev y beri yr g6ayth sefyll y gymysgu ar morter. paham heb y mab beth a 6na vyng6aet i o les m6y na g6aet arall. am dy6edyt om daydec prifard y mi hyny heb y brenin. Gel6ch yma y daydec prifard heb y mab.[422] A phan doethant y gofynnod y mab ydynt. paham y dy6edasoch ch6i y g6nai vy ng6aet i yr gwaith sefyll. pa beth heb y mab y syd dan y br6ynf6rn raco.[423] Na 6dom ni ymcyffes heb h6ynt. Ac yna y peris y mab glady dan y br6yns6rn ac ydoed yno lynn va6r o d6r. pa beth waithion y syd yn y llyn heb y mab. na 6dom ni heb y baird. disbyd6ch y llyn a ch6i a ge6ch yndi gist vaen ac yn y gist hono y mae d6y draic 'yn cysgu a phan defront ymlad a 6nant a chan y cyffro h6n6 y syrth y g6aith. ac 6edy na ellynt h6y disbydy y llyn Merdin oi gelvydyt ai gellyngod hi ym bymff6t yn rydec. Annvab y llaian y gel6it ev cynno hyny ac yn Vyrdin gwedy hyny am y gael ev ynghaer Vyrdin.[425] Ac wedy g6ybot o Wrtheyrn vot g6ybodau ma6r gan y mab gofyn a oruc ida6 pa beth a dervyd y mi. dy lad ath losgi heb y merdin cans

gorvot ar Bettrainc tr6y y lad neu daly.[567] Ac yn diannot y daethant tr6y vydinoed y Ryfainwyr a thynnu Pettrainc odiar y varch ai r6ymo yn fest. ac yna y by vr6ydr galet o bob part. ac nydi6ed y gorvy y Bryttaniait a d6yn Pettrainc gantynt y bydin y hun ac o ne6yd mynet y ymlad a gwyr Ryfain. ac y nydi6ed y gyrru ar fo. ac ar na by wi6 y daly. y llad ai sbailio. Ac yna y daith y Bryttaniait ar carcharorion gantynt hyt y lle ydoed Arthyr. a manegi ida6 ev g6bl or dam6ain. A lla6en vy gan Arthyr mor r6yd vysai ragdynt yn y apsen ev. Ac yna y gorchymynna6d Arthyr y Vedwyr a Chatt6r Iarll Cerni6 a dau dy6ssoc eraill hebr6ng y carcharorion hyt ymharis. Ac yna pan glywas gwyr Ryfain hyny y detholed pymthengmil o wyr arvoc ai hanvon hyt nos y ragot y carcharorion y gaissio y rydhau. ac o vlaen yr anifer hyny ydoed sened6r o Ryfain a el6it Ach6intys. ac Ofander vrenin Siria. a Sertorys Lybia. Ac velly aros a 6naethant me6n lle dirgel. A thrannoeth y dayth gwyr Arthyr ar carcharorion hyt y pant coeda6c lle ydoed y Ryfainwyr yn aros a chodi ydynt ai g6asgaru yn dr6c. Sev a oruc y Bryttaniait ranu yn d6y ran. nit amgen Bed6yr a Rissiart o Bald6n y gad6 y carcharorion. Ac o vlaen y vydin ydoed Gatt6r iarll Cerni6 yn ymlad. a Borel ty6ssoc. Ai cyrchu a oruc y Ryfainwyr. Ac yna y dayth Gwidart ty6ssoc Paittio a thair mil o wyr yn borth yr Bryttaniait. ac yna y g6rthneby yn wra6l a orugant a dial arnynt y t6yll ai brat. Ac yna y llas Borel ty6ssoc achos Ofander vrenin Siria ai brathwys a gway6 yny vy var6 a fed6ar eraill o wyrda a las y Arthyr. Hirlas o Elia6n a Mayric ap Catt6r. a Halidyc o Dindagol. a Chei ap Ithel. Ac er colli hyny nida6od y Bryttaniait un or carcharorion y golli namyn gyrru fo ar y Ryfainwyr ac ar y fo hyny y llas Ofander vrenin Siria a Vyltanys senedwr o Ryfain. Ac yna 6edy gorvot or Bryttaniait y daethant ar carcharorion y Baris a rai a dalwyt hefyt y dyd h6n6. Ac yna yn lla6en dyfot y drev at Arthyr a manegi ida6 y dam6ain. Ac yna tristau yn va6r a oruc Lles drycet vyssai dam6ain y wyr ynte a mynet yny gynghor a oruc y 6ybod beth a 6nelai ai mynet y drev yn ol porth ida6 gan Leo amhera6dr Ryfain ai mynet y hun i ymlad ac Arthyr. Sev y cafas yn y gynghor mynet hyt y Nafarn yr lle a elwir Leigrys ac yna y byant y nos hono. A phan gigle Arthyr hyny myned a oruc hyd y lle a elwir glyn Asnessia cans yno y da6ai Les amhera6dr drannoeth, ac yno y arhoes Arthyr h6ynt a roi y varchogion ar llailldy a Moryd ty6ssoc Caer Loy6 oi blaen a bydina6 y lu a oruc ynte yn 6yth bydin. Ac ymhob bydin ydoed bymcant a thair mil o wyr profad6y. Ac velly 6edy y parattoi h6ynt yn gymhedrol. y dysgu a oruc Arthyr y gyrchu ac y aros y cyfle. ac ymlaen pob bydin ydoed dau varchoc clodva6r profedic. cans o vlaen y gyntav ydoed Aron ap Cynvarch. a Chatt6r Cerni6. Ac y vydin hono oed or ty dehau. Ac ar y llall or ty as6 ydoed Bosso o Ryd-ychen. a Geraint Caer6ys. O vlaen y drydyd vydin ydoed Achlc vrenin Denmarc. a Lle6 ap Cynvarch vrenin Prydain. ymlaen y bed6red ydoed Ho6el ap Emyr Llyda6. a G6alchmai ap G6yar. Ac yn ol y pedair hyny ydoed pedair eraill a dau reol6r ar bob un o nadynt. Ymlaen y gyntav ydoed Gei hir a Bed6yr ap Pedrot. Ymlaen yr ail ydoed Holdins ty6sa6c Ryttain. a G6idart ty6ssoc Peittio. Ymlaen y drydyd vydin ydoed Owain o Gaer Llion a G6ynn6as o Gaer Gaint. Ymlaen y bed6red vydin ydoed Yrien o Gaer Vadon. a G6rsalem o Dorsiestr. Ac yn ol hyny ydoed Arthyr a lleng o wyrda gidac ev. ac oi vlaen ydoed del6 draic eurait yn ar6yd nodva y ba6b or gwyr brathedic. Sev oed amcan bydin Arthyr y hun ch6egwyr a thrychant a ch6e mil. Ac yna y pregethoed Arthyr y lu val hynn. O wyrda hysbys y6. heb ev mae o achos ych nerth ch6i ach cynghor y cafas ynys Brydain vot yn bennav ar dec tyrnas ar hygain. ac etto tr6y ych nerth ch6i ni a orvyd6n ar Ryfain ac a dîal6n arnynt gaissio yn caethiwo ni am y rydit. Coffe6ch yr a6r hon am segyryt a ga6ssom estalym o amser trwy ymdidan a gwraged. Coffe6ch bellach y ch6i ynnynnu yn ychgle6der ach mil6riaeth. a byd6n ni gyttun pan gyfarffom ni a gwyr Ryfain a chymyn6n h6ynt megis anifailiait cans ni thybygant lefassu o honom ni roi cat ar vaes ydynt h6y. Ac os ch6ych6i wyrda a 6na vynghyngor i minau ach anrydedav ch6che 6rth ych bod o bob peth ar y vo ar vy mediant i. a fa6b o nadynt a de6is g6naethyr gorchymyn Arthyr. A phan gigle Les vot Arthyr yn pregethu y lu sef a oruc ynte pregethu y lu a manegi y dlyai yr holl vyt vot yn yfyd y Ryfain. a choffe6ch mae ych tadau ch6i a ged6is Ryfain yn bennav lle or holl vyt o de6rder a mil6riaeth a ffynniant ac am hyny na wrthod6ch ch6ithau angau er cynal braint Ryfain. ac ymled6ch yn

gadarn megis y gallom ni ofyn tyrnget o ynysoed eraill. ac am hyny wyrda coffe6ch na doethom ni yma er ffo nanym er ymlad yn gyttun an gelynion a chyn bont h6y gle6 ar y dechrau sas6n ni ynghyt a ni ai gorvyd6n h6ynt. A ffan darvy ida6 hynny bydina6 y lu a oruc ev yn daydec bydin. ac ymhob bydin o hyny lleng o varchogion ac ymlaen pob bydin y roded dau varchoc glodva6r yn reol6yr. A chida hyny ydoed Lles yn dysgu y wyr lle y g6elai raittav ac ynghanol y vydin y herchis ev roi eryr aur me6n ystondart yn ar6yd nodva yr neb y bai berigl arno. ac yna ymgyrchu a orugant ac yn gyntav y cyfarvy vydin brenin Ysbaen. a bydin Aron ap Cynvarch a Chatt6r iarll Cerni6 a dechrau ymlad yn ffest. Ac yna nachav Geraint Caer6ys a Bosso o Rydychen yn dyfot ac yn tylly bydinoed gwyr Ryfain ac o hyny allan ymffysto yn groylon a 6naethant blith draflith yn y gly6yt y t6r6 yn cyffro y dayar ar a6yr dan dr6st sodlau y milwyr yn ffysto'r lla6r. ac yna y by aerva va6r o bob ty val y roed vlin y draethu. Ac yna y brath6ys Bocys vrenin Med Ved6yr a g6a6 dr6da6 yn vy var6. Ac y brath6yt Cei yn angheua6l. ac er hyny y vydin a duc y gorff ev yny gyfarvy a bydin Libia. a hono ai g6asgarod h6ynt. ac er hyny h6ynt a dygassant y gorff ev hyt lle ydoed y draic aurait. Sev a oruc Hirlas nai Ved6yr cymryt gydagev drychant marchoc grymys profedic ac megis baed coet ymlith lla6er o g6n rythro yni mysc yny gafas ev g6rd a Bocys ai dynnu gydac h6ynt ar gefn y varch het yn emyl corff Bed6yr ac yno y dryllio6yt ev. Ac yna y dayth Hirlas at y vydin y hun ai hannoc y ymlad yn wra6l. ac yna y collet o bob ty.[575] ac y llas o Ryfainwyr. Aliffantys a Milinys senedwyr o Ryfain.[576] Ac y llas o wyr Arthyr Holdins dy Ryttain. a Leodegar o Vol6n a thri thy6ssoc o ynys Brydain. nit amgen Grissalem o Gaer Gaint a G6alhoc o Am6ythic. ac Yrien o Gaer Vadon. Ac yno Cai a vy var6 or brath a ga6sai ev or blaen.[577] Ac yna y g6ahanod y bydinoed blaen ac encyl hyt att Vydin Ho6el ap Emyr Llyda6 a G6alchmai. Ac yna ymgryfau a orugant ac yn 6ychyr cyrchu y gelynion o ne6yd. ar neb a gyfarffai a G6alchmai ar un dyrnot y lladai. ac velly ni off6ysod G6alchmai yny dayth y vydin amhera6dr Ryfain. Ac yna g6anha6yt y Bryttaniait am am lad Cynvarch ty6ssoc Teiger a d6y vil gydac ev. Ac yno y llas try6yr da nit oed 6aeth y gwrhydri no thy6ysogion.[579]

Sev a oruc Ho6el a G6alchmai ymgad6 y gyt a chynnal y hanryded a llad a gyfarffai ac h6ynt a rodi dyrnodau ai cymryt.[580] ac yn y di6ed y cafas G6alchmai yr h6n yd. oed yny damyna6. nit amgen cy6rd a Lles amhera6dr Ryfain. Ac nit oed dim 6ell gan yr amhera6dr ny chy6rd a G6alchmai a newidia6 dyrnodau a orugant a ffan oedynt lidiocav yn ymfyst y dayth anairiv o wyr Ryfain am ben Ho6el a G6alchmai yny vy rait ydynt encil hyt att Arthyr ai vydin.[581] A ffan 6elas Arthyr hynny llidia6 yn va6r a oruc a rythro y wyr Ryfain ai cymyny a Chaledv6lch a dy6edyt yn ychel 6rth y wyr nac oed6ch wyrda dial cam ych taidiau ar y gwyr g6aigion. hynn ro6ch ydynt dyrnodau llidioc ffyrv a gel6ch ych ffyniant attoch val y g6naethoch er ioed ac ni byd6n 6rthynt un cam. Ac yna o vlaen y wyr cyrchu y elynion a oruc Arthyr val l'e6 croylon ar sa6l a gyfarffai ac ev ar un dyrnot y lladai. ac am hyny y foes pa6b rugdo val y foe anifail g6an rac lle6 ne6noc cans nithygiai y neb y arvau rac y dyrnodau ev. Ac yna y cyfarvy Arthyr ai dau vrenin Sertorius vrenin Libia. a Foltetes vrenin Bettania ac y lladod yr haini ar dau dyrnot.[582] Ac yna pan 6elas pa6b y argl6yd yn digoni velly enynnu o lit a digofaint ac ymlad yn wra6l o hyny allan trwy dysc y hargl6yd. Ac velly g6naeth g6yr Ryfain annoc y gwyr h6ynte ai cymfordi. a hefyt ni ellyt rifedi yno ar a las o bob ty.[583] yna nachav Voryd iarl Caer-loyw a lleng o wyrda ganto ac o ne6yd cymynu g6yr Ryfain. Ac yna y dayth un or Bryttaniait a g6an Lles amhera6dr Ryfain a g6ay6 yny dygwydod ev yn var6 yr lla6r. ac ni 6is p6y ai llas. Ac yna y gorvy y Bryttaniait a chymell gwyr Ryfain ar fo gan y llad ai nafu gaissio caethi6o dlyedogion ryd y daly tyrnget ydynt.[584] Ac yna y peris Arthyr 6ahanu cyrff y wyr ev odi6rth gyrff y Ryfainwyr ai clady yn anrydedys yn y manachlogyd nesav attynt. Ac yna y herchis Arthyr danvon cyrf gwyr bonedigion o Ryfainwyr gida y han6ylait y clady ac y dyg6yt corff Bed6yr hyt y Normandi y dinas a 6naethoed y hun. ac yno y clad6yt ev. A chorff Cei a dycb6yt y Beittio ac yno me6n egl6ys ermidwr y clad6yt. A Holdin ty6ssa6c Ryttain a dyg6yt y Fla6ndyrs ar holl wyrda eraill a dycb6yt yr egl6ysau nessav attynt. Ac yna y herchis Arthyr d6yn corff amhera6dr Ryfain gair y bron essened Ryfain a gorchymyn ydynt na delynt ail6aith y ynys brydain y gaissio tyrnget.[585] Ac yno y

trigiod Arthyr y gayav h6n6 yn darost6ng Byrg6in. Ac velly pan oed Arthyr yr 6ythnos gyntav or hav yn mynet ty a Ryfain dros vynyd Mynnau y gordi6ed6ys cenadau o ynys Brydain ev. a manegi ida6 darvot y Vedrot y nai ap y ch6aer 6isgo coron Lyndain. a chymryt G6enh6yfar yn wraic g6ely ida6 ar cyfoeth oll. Ac yna ymhoeles Arthyr ty ac yny Brydain a gell6ng Ho6el ap Emyr Llyda6 y ost6ng g6ladoed y Ryfainwyr.[587] Ac yna y gorvy ar Vedrot anvon Selix y 6ahod y Sermaniait y dyfot y ynys Brydain ar rifedi m6yav a geffynt yn borth ida6 ev ac ev a rodai ydynt gymaint ac y roesse Wrtheyrn ydynt nit amgen noc o Hymyr h6nt a swyd Gaint hefyt. Ac yna ydaeth Selix y Sermania ac a dayth yr ail 6aith a saith ganllon ganto yn lla6n o beganiait arvoc. ac erbyn y dyfot ev a daroed y Vedrot gael undeb y Fichdiait ar Ysgottiait ar Gwydil a fob ry6 genedl oed gas gantynt Arthyr. yny gafas gydac ev bed6ar ygain mil o wyr ymlad.[588] a dyfot a 6naeth Medrot ar anifer hyny ganto hyt y Northampt6n y gaissio llydias Arthyr yr tir. ac Arthyr ai lynges ar y mor a Medrot ar y lan. ac yna y llas lla6er o bob ty ac yn bennav Aron ap Cynvarch a G6alchmai ap G6yar. ac yn lle Aron y roet Yrien ap Cynvarch a thrwy lafyr ma6r a cholli gwyrda y dayth Arthyr yr tir a chymell Medrot y ffo a g6asgaru y wyr. Ac 6edy nos gal6 a oruc Medrot y wyr ynghyt a mynet y gaer Wynt a chadarnhau y dinas arnynt.[589] A fan 6yby Wenh6yfar hyny mynet a oruc hi y Gaerllion a chymryt abit crefyd am deni gidar manachessau eraill yn egl6ys Siliws verthyr.[590] Ac ymhen y trydydd dyd6edy ido beri clady y wyr y dayth Arthyr hyt ynghaer Wynt ai lu. Ac yno y dayth Medrot ai lu y maes or gaer a roi cat ar vaes y Arthyr Ac yna y by aerva va6r ac y llas lla6er o bob ty ac nydi6ed y foes Medrot ac y diengis hyt yngherniw. Ac nit amb6yll6ys Arthyr yna am beri clady y wyr namym emlit Medrot d6yllwr ac yn drist am y dianc d6y6aith arna6. Ac yna ar avon Gamlan y arhoes Medrot Arthyr. Sev oed rifedi llu Medrot ch6egwyr a ch6echant a thrygain mil ac am hyny g6ell vy ganto ev aros Arthyr no fo o le a bydina6 y wyr a oruc Medrot yn na6 bydin sev amcan a rodes ymhob bydin lleng o wyr. Ac yna yr ade6is Medrot y ba6b os ev a orffai 6naythyr y bod h6ynt oll o dyr a dayar a da rodion eraill.[591] Ac yny erbyn ynte y bydinoed Arthyr. ac y dy6at ha wyrda nit ymlad y bobl rac6 byth yn gittun cans pob casgal anghyfiaith ynt ysgymynedic nit ynt un galhon a christnogion da a ninau y syd hefyt ar y ia6n a h6ynte ar y cam. Ac velly gan dysgu y wyr y cyrchod Arthyr y elynion ac ymlad o oruc ev ve ai lu yn ch6erdost yny oed y rai by6 yn mynet y maes oi p6yll gan grio a llefain yr hai llet vair6.[592] Ac yna 6edy troyla6 lla6er or dyd y cyrchod Arthyr y vydin ydoed Vedrot yndriac yn y lle g6asgaru y vydin ai thylly a oruc Arthyr val lle6 ymlith anifailiait dov. ac ar y rythyr h6n6 y lladoed ev Vedrot a milioed gydac ev. Ac er llad Medrot br6ydro a oruc pa6b or hai by6 y vr6ydyr v6yav ar a vy er ioed. A hynn a las o dy6ssogion Medrot Eiaes. Brytt. B6fynt or Saeson. O I6erdon Gilam6ri a Gilafradric a Gilasg6r6m. ac Ilarch. Ar Fichdiait ar Ysgottiait a las oll. Ac o barth Arthyr y llas Ebras vrenin Llychlyn a Choel vrenin denmarc a Chatt6r Lemennic. a Chaswalla6n a lla6er o vilioed gida hyny. Ac yna y brath6yt Arthyr yn angheua6l. ac odyno ydaeth ev y ynys Avallach y vedignaethu. ac ni dy6edyr yma am angau Arthyr m6y no hyny. Ac y Gystennin ap Catt6r y gorchymynnod Arthyr goron y dyrnas. Oed Crist yno oed d6y vlyned a daygain a fymcant. Llyma di6ed Ystoria Arthyr a Medrut.[593] Ac 6edy coroni Cystennin yn vrenin y codes dau vab Vedrot ar Saeson yn y erbyn ac ni thygi6ys ydynt.[594] Ac yna y by var6 De6i archesgob Caer Llion. ac y peris Maelg6n G6yned y glady ev yn anrydedys. ac velly 6edy lla6er o ymladau r6ng Cystennin ar Saeson y foes y Saeson ac un o vaibion Vedrot hyt yn Llyndain ac yno y llas ev ymanachloc y brodyr. Ar mab arall a foes hyt yghaer Wynt. ac yno y llas ynte yn egl6ys Amffidalys rac bron yr allor va6r. Ac yn y dryded vl6ydyn oi dyrnas y llas Cystennin y gan Gynan Wledic ac y clad6yt gair lla6 Ythr benn drag6n ynghor y Ce6ri yn Salsbri.[595] Ac y nol Cystennin y g6ledycha6d Cynan Wledic. gwr ievanc clodva6r oed h6n6 ac adas oed ida6 6isga6 coron. a ch6annoc oed ev y dervysc ac ymladau. ac 66yrth a oed ida6 ev a dlyai y goron ac ev a daliod y g6r hynny ac a ladoed y dau vab. ar ail vl6ydyn oi dyrnas y by var6 ev.[597] Ac yn y ol ynte y dayth Maelg6n G6yned a gwr ma6r oed h6nn6 a goresgynnwr ar la6er o vrenhinoed a de6r a chadarn a chroylon oed ev. A ch6bl o gampau da pai namrodasai y bechot Sottmia ac Amorra. Ac am hyny ev a vy gas gan du6. A chyntav brenin ar ol Arthyr

a enilloed ch6ech ynys 6rth ynys Brydain vy ev. Sev oedyn I6erdon. Islont. Orc. Llychlyn. Denmarch. Ac ai duc h6ynt yn drethol dan ynys Brydain. ac yn egl6ys y brodyr y by var6 pan 6elas ev y vall velenn drwy d6ll ar dr6s yr egl6ys.[598]

Ac yny ol ynte y dayth Caredic yn vrenin a h6n6 a gare dervysc r6ng cenedloed ac am hyny y by ev gas gan du6 a chan y Bryttaniait a fan 6yby y Saeson hyny anvon cenadau a oruc ev hyt yn I6erdon at Orm6nt vrenîn yr Affric oed yno yr h6n a dathoed a llynges va6r ganto i 6resgyn I6erdon.[600] Ac 6rth daisiv y Saeson y dayth y Gorm6nt h6n6 yma a thrygain llong ganto yn lla6n o wyr arvoc hyt yn ynys Brydain. ar Bryttaniait ar ran arall ar y gwir dlyed ac yn gristnogion da ac yn dr6c ryngtynt ar Saeson. Ac 6edy dyfot y Gorm6nt h6n yn borth yr Saeson. ymlad a 6naethant a Charedic a chael y vydygoliaeth arno ai yrru ar ffo hyt yn Sysedr.[601] Ac 6edy gorvot or Gorm6nt h6n ar y Bryttaniait Inbert vrenin Frainc a doeth y wrhae yr Gorm6nt h6n er cael y borth y oresgyn Frainc i gan y e6yrth ai gyrrassai ev odiar y wir dlyet y hun. A mynet a orugant y gyt hyt ynghaer Vydau i ymlad ar dinas ac y gaissio Caredic a g6archau y dynesswyr y me6n heb ennill dim eithr colli y gwyr. Ac yna y ca6sant yny gynghor daly adar y to anifer ma6r o nadynt. a llen6i plisg cnau o dan a br6msdan a fyc ac yn agos yr nos r6ymo y plisc wrth y daned h6ynt ai gell6ng i hedec y do y tai yr dinas ac yr dassau yt a g6air. Ac y cynnod y tan yn y plisc gan 6ynt adaned yr adar yny oed y dinas yn boeth erbyn trannoeth. Ac yna y dayth Caredic allan y roi cat ar vaes y elynion ac ni thygi6ys ida6 namyn fo a oruc tr6y Hafren hyt ar dervynau Cymry. Ac yn diannot llad a llosgi a oruc y Gorm6nt h6n ar Saesson y dinessyd ar cestyll ac heb airiach neb nac ysgolhaic na llyc or Bryttaniait megis na didorai neb y pa le y foai cans ni thyciai ydynt dim o achos hen dra y rieni yn erbyn llyosogr6yd ormessoed genedl yr hai a danvonassai du6 yn dial ar y Bryttaniait.[602] Ac nit ryfed genedl dryain ynys Brydain ych darest6ng ch6i velly cans cyn hyn ych hen daidiau ch6i a darostyngassai bobloed eraill yn oessoed. ac yn a6r ydychwi yn ymhoelyt yn ch6er6 hyt na ell6ch amddiffin ych g6lat ych hun o la6 estron genedl. dryain ynys Brydain cymer6ch ch6i benyt megis y haedassoch a chydnabyd6ch air du6 nyr efengil. pob tyrnas a rennir ac a 6ahenir yndi y hun yny syrthio y tai ar y gilyd. Ac velly anundeb y Bryttaniait ai cynghorvynt a distry6is yr ynys hon. ac am hyny y mae y peganait croylon yn darest6ng ettifedion yr ynys hon. Ac velly 6edy darffo yr peganiait y hanraithia6 hi a llosgi or mor y gilyd. cans ev a roes Caredic holl Loegr yr Saeson. Ac yna y by dir y 6edillion y genedl dryain drigia6 yn ymylay yr ynys ty a Cherni6 ac yr lle a el6ir Cymry a godev mynych gyrchau gan y gelynion. A fan 6elas Teon archesgob Llyndain. ac archesgob Caerefroc yr egl6yssau 6edy y distry6o. yna y cymerth yr esgob hyny yr holl grairiau ac esgyrn ysaint a fo ac h6ynt hyt y lle anialav yn yr Yrri rac ofn yr ysgymyn bobl hyny cael h6ynt. a lla6er o nadynt aeth hyt yn Llyda6. canyt oed yn un or d6y esgobaeth un egl6ys heb distry6o o peganait Saeson a llad y maibion llen yn ll6yr. Ac velly dros serten ma6r o amser y colles y Bryttaniait goron y dyrnas ai harglwydiaeth. a chida hyny y ran a vyssai yn y lla6 or wlat hono. ac nit dan un brenin yd oedynt yn daly eithyr dan dri a mynych ryfel arnynt. ac er hyny ni chafas y Saesson goron y dyrnas a mynych ryfel a vydai ryngtynt y hun ac ar Bryttaniait hefyt. Ac yna y dayth esgob o Ryfain bregethu yr Saesson hyt yr ynys hon cans daillion oedynt o fyd Grist. cans ev a daroed ydynt distry6 fyd Grist yn ll6yr oi plith. Ac er hyny ydoed y Bryttaniait yn cynal fyd Grist yn g6bl yny mysc er yn oes Eleuteriws esgob Ryfain y gwr cyntav a danvones fyd Grist yr ynys hon.[607] Pregethu yr Saesson a oruc a m6y o la6er ai gwat6arai noc a gredai ida6. ac y dayth ev ty a mynyd y Saint ac anifer ma6r yn y ganlyn. Ac yna me6n pant ma6r y by eissiau dwr arnynt. ac yno y gwediod ev ar yr argl6yd am d6r. Ac a dayth angel atta6 ac a herchis ido na fetryse dim oi arvaeth cans du6 a roessai ida6 bob peth cyfia6n ac yno y tardod fynnon or dayar megis y cai ba6b digon o d6r ac y by hoff gan Awstin hyny. A dyfot a oruc ragdo ty a Chaint. ac yno y pregethod yny dayth y brenin y gredy y Grist ai holl aniferoed. Ac odyno ydaeth ev hyt yn rer riw a thra vy ev yn pregethu yno vo daroed g6nio amrafaelion o losgyrnau anifailiait 6rth y esgob6isc ev er gwatt6ar arno. Ac yna y g6ediod ynte p6y bynnac a delai ymaes or drev y vot yn llosgyrnoc. Ac odyno ydaeth hyt yn Llyndain. ac ymofyn a oruc ev yno am yr archescoptai. ar maibion llen a daroed y Saesson y difa. Ac y cly6as ev vot archesgopty Caerllion a saith

esgob dana6 yn g6ssnaethu yn grefydys a manachlogyd hefyt a ch6efent d6yfol yndynt yn g6snaethu du6 ar saint. Ac ymlith yr hai hyny ydoed vanachlog Vangor vawr y Maelor Saesnec ac yndi heb rifo na friorait na s6ydogion un cant ar hygaint o vynaich ar haini oll yn ymborthi ar lafyr y dwyla6. Ac abat y vanachloc hono a elwit Dyna6t a h6n6 a 6ydiat m6y o gelvydyt no neb yn y oes ev. A fan 6yby A6stin hyny lla6en vy ganto. ac anvon a oruc ev att Dyna6t ac erchi ido dyfot y bregethu yr Saeson y gaissio y d6yn y gret sev y danvones Dyna6t att A6stin y vanegi ida6 nat oed dayl6ng ganto ev bregethu yr bobl groylon hyn a dathoed o all6lat tr6y y t6yll ai brat a llad o nadynt yn rieni ni ai traissio oi g6ir dlyed. ac ni ferthyn y ni na fregethu nac yfydhau ydynt ac y neb or ynys onit y archesgob Caerllion cans h6n6 ysyd brimas a fennav yn ynys Brydain.[609] Ac yna pan wyby Edelflet vrenin Caint hyn anvon a oruc ynte att Edelflet arall vrenin y gogled ac att y genifer penadyr ac ocd or Saeson y erchi ydynt yn diannot lydia6 am ben Dyna6t ai vanachloc y dial arno y anfyda6t ac yna ymgynullod y Saeson gymaint ac oed yn ynys Brydain a dyfot hyt ynghaer Llion sev ydoed yn Vroch6el Esgithroc yn bennadyr ar y Cymry a chida hynny ydoed yno anifer ma6r o grefydwyr o bob manachloc o ran y Brytaniait ac yn bennav o Vangor vawr a brwydro ar Saeson a orugant ac yna fo o Vroch6ael hyt y Mangor a dyfynnu atto g6bl or Bryttaniait. a fan 6elas Edelflet yno y sa6l grefydwyr ac adnabot y bydai ladva va6r oi plegit y peris ev lad y Mangor dau cant a mil o grefydwyr.[611] Sev y dayth o dy6sogion Cymry yn borth y Vroch6el hyt y Mangor nit amgen Bledric ty6ssoc Cerni6. a Mredyd vrenin Dyfet. a Chanvan vrenin G6yned. Ac yna y by ymlad croylon ryngtynt ar Saeson a llad lla6er o bob ty. ac nydi6ed y gorvy y Bryttaniait. a brathu Edelflet ai gymell y fo ac a diengis ar Saeson gidac ev. Sev rifedi a las or Saeson yna ch6egwyr a thrygain a dengmil.[612] Ac o barth y Cymry y collet Cledric ty6soc Cerni6 a lla6er gydac ev cans gorau un gwr a ged6is yr ymlad vy ev. Ac ymgynylloed y Cymry y gyt ac aethant y gaer Lleon.

Ac yna y ca6sant yny cynghor 6naythyr Cadvan ap Iago yn benav arnynt ac emlit Edelflet ar Saeson a oruc ev yny foassant tr6y hymyr. Ac yna cynyll llu a oruc Edelflet ac ymlad a Chadvan.[613] Ac 6edy dyfot y lluoed yn gyfagos ynghyt y tangnofed6yt ryngtynt. nit amgen no gado Edelflet yn vrenin ty dra6 y hymyr ac y Gadvan ty yma y hymyr a choron Lyndain y Gadvan.[614] ac 6edy ymr6ymo o nadynt ar hyny tr6y 6ystlon. sev y darvy y r6ng Edelflet ai 6raic briot o achos gorderch oed ida6. Ac y deholes Edelflet y wraic briot oi dyrnas ev a hi yn vaichiog. sev y dayth hithau hyt yn llys Cadvan y ervynnait ida6 beri cymot idi. Ac ni wnai Edelffled dim er ervyn Cadvan. Sev y trigiod y wraic yn llys Gadvan nes geni y mab idi. Ar un pryt y ganet mab y wraic Gadvan. Ac en6 mab Gadvan oed Gad6allon. ac en6 mab Edelfflet oed Edwin ai cydvaithrin a wnaethbwyt yn y vyant vaibion ma6r. Ac y hanvonet h6ynt yll-dau at Selyv vrenin Llyda6 y dysgu moessau ydynt. a defodau llys ac arver o vairch ac arvau.[616] A lla6en vy Selyv 6rthynt. A chynydy a 6naethant yna ar gampau da hyt nat oed 6ell neb ymrwydra ac ymladau noc h6ynt.[617] Ac 6edy mar6 Cadvan ac Edelfflet y dayth pob un or maibion yn lle y dat ac ymr6ymo ar gydmaithias a orugant megis y byssai r6ng y tadau. Ac ymhen y d6y vlyned erchi a 6naeth Ed6in genat y Gad6allon y 6naythyr coron ido val y gallai y g6isgo pan 6nelai anrydet yng6ylau y saint ty dra6 y hymyr megis y g6nai defot brenhinoed cyn noc h6ynt. a gossot oetyd a 6naethant ar lan yr avon a el6ir Dylas y dodi gwy doethion y dosparth am y neges. Ac y rodes Cad6allon y ben ar lin Braint ap Nefyn y nai. Sev a oruc Braint hir yna 6ylo yny syrthiod y d6r ar 6yneb Cad6allon yny deffroes ev gan dybiait vot gla6. Ac yna gofyn or brenin y Vraint paham ydoed ev yn 6ylo.[619] heb ynte defnyd 6ylo a dayth yr bryttaniait o hedi6 allan. can rodaist yr h6nn oed o ragor dailyngdot ytti ac yth genedl yr h6n oed yrdas y6ch er yn oes Maelg6n G6yned hyt hedi6 yn y roi yr Saeson t6yllwyr bradwyr peganiait anfydla6n 6naythyr brenin o hanynt y hun. ac yna h6ynt amgynyllant ynghyt ac a oresgynant g6bl o ynys Brydain oi t6yll ai hystry6. Ac am hyny ia6nach oed y ti y gest6ng h6ynt noi cynydy. paham na da6 cov y ti argl6yd am a 6naethant h6y a G6rthayrn y gwr ai cynhwyssod h6ynt gyntav gydac ev yn lle gwyr cy6ir. Ac h6ynt a dalassant ida6 dr6c dros da. Ac 6edy hyny y g6naethant h6y vrat Emrys Wledic ai 6en6yno ev ac Ythr ben dragwn hefyt. Ac 6edy hyny y torassant y cret a g6rhau y Vedrot yn erbyn Arthyr. ac yn di6ethav y dyfynassant Gorm6nt vrenin y

oresgyn cyfoeth Caredic ai deol oi vrenhiniaeth y 6r d6ydys.[620] ac 6edy tervyny o Vraint ymadrod y danvones Cad6allon genadau at Ed6in y vanegi ida6 nat ydoed y gynghor yn cenady ido vot un goron yn ynys Brydain namyn coron Lyndain. Sev a oruc Ed6in dy6edyt y g6nai ev goron er drycet vai gan Gad6allon. A Chad6allon a dy6at os g6nai y parai lad y ben ev dan y goron.[621] ac o hyny allan y by dervyn ryngtynt ac y cynyllod pob un y llu m6yav ac allai a br6ydr va6r a vy ryngtynt. Ac Edwin a orvy a gyrru Cadwallon ar fo hyt yn I6erdon. ac y goresgynod Ed6in dr6y lad a llosgi gwbl o gyfoeth Gad6allon. Ac ynte yn caisio dyfot yr tir a pha le bynnac y caissiai. ev a vydai Ed6in ai lu yny lestair tr6y dysc de6in oed ganto yr h6n a el6it Pelidys. Ac ar esgyll adar ar ser y de6iniai ev bob peth yr brenin Sais. A fan 6elas Cad6allon hyny annobaithio yn va6r a oruc. gan dybiait nat enillai byth y gyfoeth drychefn. Sev y dayth y g6yna6 att Seliv vrenin Llyda6 ac ervyn ida6 nerth a chyngor y gaissia6 y gyfoeth. Ac val ydoed ev ai lynges yn h6ylia6 ty a Llyda6 y dayth g6ynt g6rth6yneb ida6 a g6asgaru pob llong odi6rth y gilyd. ac yna y clefychod Cas6allon o orthr6m haint hyt na allai gymryt na b6yt na diot dri di6arnot a thair nos un ty ar pedwryd dyd y codes Cas6allon yn iach y vynyd.[623] a phan ga6sant y g6ynt gyntav h6ylia6 a 6naethant ty a Llyda6. A lla6en vy Selyv 6rthynt. ac addo porth y Gadwallon a oruc yn dirion a thost vy ganto ally o estron genedl y gorthrymu mor wrad6ydys a hyny a ryfedy a oruc lesget gwyr ynys Brydain yn erbyn y Saeson a fob ynys yny gwrthlad namyn yn twy. cans er pan dayth Maxen Wledic a Chynan Mairiadoc a dlyedogion ynys Brydain gyntav y Lydaw ac ni by neb yno o hyny hyt hediw a allai gynal braint ynys Brydain. ac am hyny drwc y6 genyfi na allav i ymdial ar Saeson. A phan darvy y Selyv dervyny ymadrod cywilydio yn va6r a oruc Cadwallon a diolch y Selyv y dirionwch wrtho a dy6edyt val hyn Arglwyd nafit ryfed genyt vot yn llesc y bobloed a dewit yn ynys Brydain. ac ni adewit yno un gwr bonhedic na dayth yma gida Chynan Mairiadoc. A fan aeth mediant yr ynys yn lla6 anlyedogion llesc diwybot ni fedrassant nai chad6 hi nai chynnal. namym ymrodi y ormod bwyt a diot a godineb a balched megis y dywat Gildas mae arver o bechodau a darest6ng y bobloed yny wneler ia6n am danynt ac nafynnant hwy dim gan vedic yr holl wirioned ac am hyny Argl6yd nit ryfed vot yn gas gan duw y rai hyny. ac am hyny y mae duw yn roi estron genedl yn bennav arnynt ac yn y gost6ng y dial y pechodau. Ac am hyny Arglwyd y daythym i yma ymgystl6ng carenyd a thi cans Maelgwn Gwyned a vy y ped6ryd brenin wedy Arthyr ar g6bl o ynys Brydain. a dau vab a vy ida6 Einiona Run. A mab y Run oed Veli. a mab y Veli oed Iago. a mab y Iago oed Gadvan vynhat inau. Run 6edy mar6 Einion y vrawt ai deol or Saeson a roes y verch yn briot y Howel Vychan ap Ho. ap Emyr Llyda6 y g6r a vy gidac Arthyr yn goresgyn lla6er o 6ladoed. Ac y Ho Vychan or verch hon y by vab a el6it Alan a mab yr Alan h6n6 oed dy dat tithau a g6r cadarn grymys oed h6n6. Ac yn Llyda6 y trigiod Cadwallon y gayav hyny ac y cafas yn y gynghor ell6ng Braint hir i ynys Brydain ac y ch6edleya am Belitys de6in y brenin Sais. Ac yna y dayth Braint y ynys Brydain yn rith cerded6r a bagl hayarn yny la6 ac y dayth ev hyt ynghaer Efroc lle doed llys Edwin. Ac val ydoed Braint yno ymlith yr hai tlodion. Sev y g6elai ev y ch6aer a llester yn y llaw yn mynet y gyrchu d6r y vrenhines ymolchi ac y manag6ys y vor6yn y Vraint ansa6d y llys a dangos y de6in ida6 a fan dayth y de6in y rannu cardodau ymlith y bobl dlodion y brathod Braint ev ar vagl hayarn tr6ydo yny dyg6ydod ev yn var6 yr lla6r a ni 6yby6yt p6y ai llas ev. Ac 6edy hyny ydaeth ev hyt ynghaer Exon a dyfynu atto la6er or Bryttaniait a chadarnhae y dinas ar gaer a oruc a manegi y ba6b darvot ido lad y de6in. Ac anvon y ch6edl hyny a oruc ev y Gad6allon a erchi ido dyfot i ynys Brydain yn gyntav a gallai ac ynte barai dyfynu c6bl or Bryttaniait yn y erbyn. a fan gigle Bainda ty6ssoc y Saesson hyny dyfot a llu ma6r a oruc ev y ymlad a chaer Exon. A fan gigle Gad6allon hyny dyfot a oruc i ynys Brydain a dengmil o varchogion yn borth ida6 y gan Selyv vrenin Llyda6 ac ni orf6yssod yny dayth hyt ynghaer Exon. Ac yno bydina6 y lu a oruc yn bedair bydin a chyrchu y Saesson a llad lla6er o nadynt a daly Painda a rac y lad y g6rhaod Painda y Gad6allon a mynet gydac ev i ymlad ar Saeson a roi g6ystlon a oruc ar vot yn gy6yr yr brenin. Ac yna ydaeth Cad6allon tr6y hymyr am ben Ed6in vrenin. A dyfot a oruc ynte a llu or Saeson yn erbyn Cad6allon ac yn y lle y llas Ed6in a Gorblot vrenin Orc ai holl luoed. Ac wedy

gorvot o Gad6allon dechrau a oruc dileu y Saeson ai distry6 dr6y lad a llosgi a llad y Saessnesau a thynny y baichogi oi crothau y gaissio difa y Saeson o ynys Brydain. Ac yna y llas Offric vrenin ai dau nai a Byanda vrenin Ysgottlont a dathoed yn borth i Offric ai bobl oll a las. Ac yny le ynte y dayth Oswall yn vrenin a Chad6allon ai hamlidiod ev o le i le. ac y foes Oswallt o ve6n myr maen a 6nathoed Seferys amhera6dr Ryfain r6ng Daifr a Brynaich. Ac y danvones Cad6allon Baynda ar ran v6yav or llu y emlit ef. ai gylchyny a oruc Paynda ny lle a el6ir maes nefa6l. Sev a oruc Oswallt drychav del6 y groc a dy6edyt wrth y gydmaithion dygwyd6n ar yn gliniau on ll6yr e6llys a gwedi6n du6 holl gyfoetha6c yn rydhau ni y gan y ty6ssoc croylon Paynda. cans du6 a 6yr mae caissio rydhau yn cenedl ydym ni. a thrannoeth y cyrchod Os6allt y elynion gan ymdiret y du6 a gorvot a oruc ai ordi6es yn Vyrnwy ac yna y lladod Paynda Os6allt vrenin. Ac 6edy llad Os6allt y dayth Os6yt Ael6ynn y vra6t ynte yn vrenin yn y le. A chynyll s6llt a oruc ai hanvon y Gad6allon achos ev oed oruchel vrenin ar g6bl or ynys a g6rhau a oruc Os6yt ida6 ev. Ac yna y codes y dau nai vaibion y vra6t y ryfely yn erbyn Os6yt. Ac 6edy na thyciod ydynt cymodi ac ef a 6naethant. ac at Baynda brenin y mars ydaeth Os6yt y ervynait nerth ganto y ryfely ar Gad6allon. Ac y dy6at Paynda na lefassai ev dorri ar brenin tra vai vy6 oi 6rogaeth heb y genat. Ar sulgwyn rac 6yneb daly y lys a oruc Cad6allon yn Llyndain a ch6bl o dywssogion Cymry a Saesson a doethant yno 6rth goron Cad6allon namyn Os6yt Ael6ynn. Ac y gofyn Paynda paham na dathoed Os6yt yno. Am y vot yn glav heb y brenin. nagev os gwir heb y Paynda ev a danvones attai y gaissio gennyv gyttuno ac ev y dial y vra6t arnat ti. Ac am na chittunais ac ev anvon cenadau a oruc y Sermania y 6ahod y Saeson atto y dial y vra6t arnat ti ac arnav innau ac yn ar6yd ar hyny ev a deholes y dau nai y maes or ynys ac ev a gaissiod vy nghittundeb i yn dervyn di ac am hyny y mae ev yn torri hed6ch ynys Brydain. A dyrro di argl6yd genat y mi y lad ev neu ydeol ymaes or ynys. Ac yna ydaeth Cad6allon yny gynghor. Ac y dy6at Mredyd vrenin Dyfet wrth y brenin. nidlit ti baidio ar darpar cyntav nit amgen no dehol c6bl or Saeson or ynys hon. Ac am hyny dyro genat y Baynda vynet i ymlad ac Os6yt megis y llado pob un o nadynt y gilyd. achos na dyly anfydla6n gad6 fyd 6rtho. ac velly y distry6ir h6ynt o g6bl.[642] Ac yna y rodes Cad6allon genat y Baynda ryfely ar Os6yt. Ac y hela6d Paynda ev tr6y hymyr a dechrau llad a llosgi y gyfoeth ev. Ac y cynigiod Os6yt rawnswm ma6r o da y Baynda er cael y hed6ch. Ac nis cymerai ynte namyn ryfely arno. Ac y rodes ar Du6 dervynu ryngtynt. Ac yn y vruydr gyntav y llas Paynda. Ac yna y rodes Cad6allon y vrenhiniaeth ev y Wlvryt ap Paynda. Ac yr aeth h6n6 y ryfely ar Edbart ty6soc y Mars. Ac ny di6et y cymodi a oruc Cad6allon.[645] Ac velly y by Gad6allon yn g6ledychu ynys Brydain ac yn benadyr Cymry a Lloegr 6yth mlyned a daygain yn y syrthiod ev me6n haint a chlevyt ar pymthegvet dyd o vis ragvyr y by var6 ev ac y hira6d y Cymry y gorf ev ac iraidiau gwrthva6r ac ai roesant ev mewn del6 o lattwn a 6naethb6yt trwy gy6reinwaith anifigedic ac a roesant y del6 hono ar varch o latt6n y6ch ben porth Llyndain i rythro ar y Saeson. Ac yn y porth h6n6 y g6naethb6yt egl6ys ai chysegry hi yn en6 Du6 a Marthin ac yno y cenit yfferenau rac enait Cad6allon y g6r a droganod Merdin yn varcha6c efyda6l.[461]

Ac ni ol ynte y dayth Cyd6aladr vendigait y vab yn vrenin. Oet Crist yna.[647] Ac yna y by Gyd6aladr yn dangnefedys yn cynal coron y dyrnas ai lly6odraeth un vl6ydin ar dec ac yna y clefychod Cyd6aladr o hir nychdot. Ac i tyfod tervysc r6ng y Cymry y hunain. cans mam Gyd6aladr oed ch6aer un dat a faynda ai mam hithau oed 6raic vonhedic o dlyedogion Erging ac Eyas cans pan gymodes Cad6allon a Faynda y cymer ef y 6raic hono yn briot yr hon oed vam Gyd6aladr.[648] Ac yn y tervys hyny y dayth mall a ne6yn ar y Bryttaniait yn dial gan du6 am y pechodau megis na chefit dros 6yneb ynys Brydain un tamait bara namyn cic hely ac ni allai yr hai by6 gladdy yr hai mair6 rac ne6yn ar hai a ellynt vyned i ynyssoedd eraill h6y aynt gan ddy6edyd g6ir ddu6 ti an roddaist ni yma yn v6yd blaiddau megis defaid ac yna y y peris Cad6aladr barattoi llynges idda6 y hun y vyned ty a Llyda6 gan ddy6edyd g6ai ni y pechadyriaid rac amled yn pechodau dr6y yr hai y codassam ni ddu6 cans ni a ga6ssam oed y baidia6 ac ym 6nayth-yr a du6 ac nis gwnaethom ac am hyny y mae Duw yn dehol ninnau on g6ir ddlyed canu all6ys na gwyr Ryfain na neb yn g6asgaru ni val hynn namyn dn6 y hun.[649] Ac yna yddaeth Cyd6aladr dan 6ylo ty ac

att Alan vrenin Llyda6 a lla6en vyr brenin 6rtho.[650] ac ni adewid yn ynys Brydain r6ng ne6yn a ball ond yr hai athoedd yr yr diffaith y gaissio by6 ar gic hely ac un vl6yddyn ar dec y parha6ys y vall hono yn ynys Brydain. Ac yna g6eddillion y Saesson a danvones hyd yn Sermania y vanegi vod ynys Brydain yn 6ac ac erchi yddynt y chymryt hi yn rad ydynt y hun.[651] Sev a oruc y bobl hyny cynyll anvad rifedi o wyr a gwraged a dyfot yr gogled yr tir a chyfaneddy y g6ladoed o Lychlyn hyd yngherni6 achos nat oed o Vryttaniait ai llyddiai ac o hyny allan y colles y Bryttaniait y llywodraeth ar ynys Brydain.[652] Ac ymhen ysbaid g6edy hyny y herchis Cyd6aladr nerth y Alan vrenin Llyda6 y dyfod y oresgyn ynys Brydain ar y peganiaid Saeson oed 6edy y goresgyn. Ac yna y dayth angel att Gyd6aladr ac a erchis ido nad elai y ynys Brydain canu mynnai Du6 vod y Bryttaniaid yno yny delai yr amsser a droganoed Merdin Emrys gair bron G6rtheyrn ac y herchis yr angel y Gyd6aladr vyned y Ryfain y benydio y gorf ac ev a gyfrif6yd yno ymlith yr hai g6yn-vydedic ac y dy6ad yr angel 6rtho mae dr6y y obr6yu ev ai 6aithredoed da y caif y Cymry ly6odraeth ynys Brydain yr ail-6aith pan vai gyfla6n yr amser tynghed-venna6l gan du6 ac ni byd hyny heb yr angel yny del dy esgyrn di o Ryfain i ynys Brydain a hyny a geffir pan dangoser esgyrn y saint oll a gydi6yd gynt yn Ryfain rac ofn y Sarssiniait a fan gafer hyny y cayf y Cymry y mediant ai hargl6ydiaeth o g6bl ar ynys Brydain.[653] Ac yna y dayth Cyd6aladr at Alan vrenin Llyda6 a manegi ida6 pob peth. ac yna y cymerth Alan holl lyvrau Merddin Emrys a chanyau Sibli y edrych oeddynt y gairiau yr angel. a fan gafas yn cy6rd da vy ganto ac annoc y y Gyd6alad vyned y Ryfain a oruc ev. Ac yna Cyd6alad a danvones Ivor y vab ac Ynyr y nai y gaissio cad6 ynys Brydain o ia6n a dlyed cyfia6n rac diflannu cenedl Gymry.[654] Ac yna y g6rthodes Cyd6aladr bob ry6 beth byda6l o gariad du6 ac yr aeth yr Ryfain ac y cymerth y benyd. Ar dayddegved dyd o vis Ragvyr y by var6 ac yr aeth yn enait yr nefoed yr 6ythved vl6yddyn a ffed6ar ygain a ch6e-chant 6edy geni Crist. Ac yna cynyll llu ma6r a oruc Ifor ap Cyd6aladr ac Ynyr y nai a dyfod i ynys Brydain a ryfely ar y Saesson 6yth mlyned ar hugain ac ni thyciod ydynt cans y dymestl hono oed 6edy llad y Cymry tryain hyd na ellynt 6rthladd yr estron genedl oddi6rthynt. Ac o hyny allan ni el6id hwynt yn Vryttaniait namyn yn Gymry. Ac o hyny allan y g6naeth y Saesson yn gall cad6 cittundeb ryngtynt y hun ac adailiad dinessyd a chestyll ac velly y b6rassant argl6ydiaeth y Bryttaniait odi6rthynt ac 6ynt y hun yn medy ar holl Loegr dan Edelstan y gwr cyntav or Saesson a 6isgod goron y dyrnas. Ac o hyny allan y colles pria6d genedl yr ynys y hen6 ac ni allassant y gael o hyny allan ond yn 6astad diodev caethi6ed y Saesson arnynt aithr y ty6yssogion a vy ar Gymry bob ailwers.

Myfi Gwallter Archiagon Rydychen a droes y llyfr h6nn o Gymraec yn Lladin. Ac yn vy henaint y troes i ef yr ailwaith o ladin ynghymraec.

D.S...Y mae y nodiadau at ba rai y mae'r ffigyrau yn y Brut hwn yn cyfeirio i'w cael yn niwedd Brut G. ab Arthur.

BRUT G. AB ARTHUR.

Eneas Ysgwydwyn g6edy ymlad Tro a dystrywedigaeth y gaer y gyt ac Ascanius y vab ev. yr h6n a anet ydaw o Creusa merch Pryav brenin Tro a deuthant ar longheu[1] † hyt yng6lat yr Eydal : ac ys sev llongeu a kavas yr a athoed kan Alexander Parys y Roec o eyryv dwy ar ugaint. Ag ys ev eyryv o dynion a doeth gyt agev 6ythmyl ar ugaint yr r6ng g6yr a g6raged a hen a ieuanc. A g6edy eu dyvot hyt yg gwlat yr Eydal. Latinus brenin yr Eydal ae harvolles wynt yn anrydedus.[2] Ac wedy hynny Twrn brenyn Rwytyl a kyghorvynnws urthau ac a ymladus ag ef. Ac wedy ymlat o nadunt a llat Twrn. Eneas a kavas brenhynyaeth yr Eydal a Lavynya merch Latynus. ag o en6 honno y gelwys ev y Kastell Lavynyum. ac Eneas a g6ledychus ar 6lat yr Eydal pedayr blyned. Ac g6edy mar6 Eneas. ev a kymmerth Ascanius y vap ev y Vrenhynyaeth yr hwn a anadoet yda6 yn Tro o Creusa merch Pryav. Ac a dugassey Eneas kanthau hyt yr Eydal. Ac g6edy hynny Ascanyus a ede6ys Lavynyum y dinas rywnathoed Eneas y tat oy lysvam. Ac a edeil6s ynteu y dinas g6yn ar Avon Tyberym yr hon a el6yr Ruvein yr auron. Ac a duc d6y6eu y tat kanthau hyt y dinas newyd ry6nathoed ynteu. Ac g6edy hynny y geu d6y6eu hynny eu huneyn a ymch6elassant trachevyn hyt yn Lavynyum. Ar eylweyth Ascanius a duc y geu dwyweu hyt y dinas gwynn. Ac wynteu yr eylweyth ac ymchwelassant hyt yn Lavynyum. Ascanyus agen a vagaud Sylvyus y vrat vraut ynteu y gyt a holl gwared ac Amgeled. Ar Sylvyus hunnu mab oet y Eneas o Lavynya merch Latynus brenyn yr Eydal. Ac gwedy gwledychu o Ascanyus teyr blynet ar dec ar ugeynt. ev a edewys Sylvyus y vrawt yn trevtadauc yn y ol gwedy ev. Ar Sylvyus hunnu a ymrodes y letrat serch godinep. ac a vechyoges nyth y Lavynya.[3] Ac gwedy Klybot o Ascanyus hynny ev a orchymynus oy dewynyon ev gwybot pwy a veychogassey y vorwyn honno a pha ryw etyved a vydey o honey.[4] Ac gwedy gwybot dyheurwyd o nadunt. wynt a dywedassant y bot yn veychyauc hy o vap a ladey y vam ae tat. A gwedy darfei ydau cruydrau llawer o wladoet yn alldudet. or dywed ev a deuey ar vlaenwet gorwchaf Anrydet. Ac ny thwyllus eu dewyndabaeth wynt.[5] Kanys pan doeth oet escor oy vam y bu varw hy ar y thevytle ac gwedy hynny y map a rodet arvaeth ac a elwyt Brutus.[6] Ac or diwet gwedy bot y gwas yn pymthec mlwyd ac y gyt ae tat yn hely ev a ladawt y tat o ergyt anodeu. Kanys pan ydoedynt y gweyssyon yn trossy y Keyrw yn eu herbyn Brutus a ellyngus Saeth or odeu un or keirw ac o honno y gwant y tat a dan y vron.[7] Ac gwedy marw y tat gwyr y kyvoeth a dyhollassant Brutus kanyt oet teilwng kanthunt gwledychu arnadunt gwr ar rywneley kyvlavaneu mor dybryt ar rey rywnaethoet ynteu.[8] Ac gwed alldudokau Brutus oe wlat ef a kerdws racdau hyt yg gwlat Roec. Ac yno y kavas gwelygort Helen vap Pryaf yn arweyn keythywet adan Arglwydyaeth Pandrassus brenyn Groec. Ar kenetyl honno Pyrr vab Achel gwedy dystryw Tro ae dugassey kanthau ygkeythywed wrth dyal agheu y tat arnadunt.[9] Ac gwedy atnabot o Vrutus y kytkenetyl ev a trygwys y gyt ag wynt. A chynydu a oruc ar voliant a chlot a deured a mylwriaeth. hyt pan oed kymeredyc a charedyc y gan y brenhyned ar towyssogion ym blaen holl iewenctyt yt hanoet o honey. Kanys doeth oet ym plyth o doethyon. Dewr a glew ym plyth yr ymladwyr. A pha beth bynnac nac eur nag ariant ae da arall a gasey neu a damwenyey ydau. hynny yn hollaul a wascarey ac ar rodey oy kytemdeythyon yn hael.[10] Ac gwedy mynet y klot wrth hynny tros y gwladoet. dechreu a gwnaethant gwyr Tro ymkynnullau attau ac erchy ydau ynteu bot yn tywyssawc arnadunt. ac eu rydhau o keythywet gwyr Groec.[11] Ac wynt a kedernheynt y gallon ef hoey yn yscavyn hynny. kanys kyn amlet oed eu heyryf ac yd oedynt seyth myl o wyr ymlad. heb eu

† Y mae y nodiadau at ba rai y mae'r ffigyrau yn y Brut hwn yn cyfeirio i'w cael yn ei ddiwedd.

gwraged ac eu meybyon. Ac y gyt a hynny hevyt yd oed gwas yeuanc bonedyc o Roec yr hwn a elwyt Assaracus a hunnu a oed yn kannwrthwyau eu pleyt hwynt hevyt. kanys mam y gwas hwnnw a hanoed o kenetyl Tro. Ac wrth hynny ymdyryat yn vawr a wnaey yndynt hyt pan bey trwy eu nerth ynteu y galley ynteu gwrthwynebu y Wyr Groec. Kanys brawt ydau a oed yn gwaravun ydau try chastell a rodassey y tat ydau pan vuassey varw.[12] Ae vrawt ynteu oed yn keissyau dwyn yr rey hynny y kanthau kanys o karat wreyc yd hanoed ef. Ac gwelet o Brutus amylder o nyver a chestyll Assaracus yn agoret ydau haus vu kanthau ef darestwng y eu harch wynteu.[13]

Ac gwedy y ardyrchavael ef yn tywyssawc galw a oruc attau y Trovanwyssyon pobloed o pob lle a chadarnhau cestyll Assaracus a wnaeth o wyr ac arveu a bwyt. Ac ynteu ac Assaracus y gyt ac eu holl nyver y am hynny o wyr a gwraged a kyrchassant y koedyd ar dyffeythwch ac o dyna yd anvones ef llythyr at Pandrasus brenyn Groec ar amadrawd hwn yndunt.[14]

Brutus te6yssauc g6edyllon[15] kenedyl Tro yn anvon annerch y Pandrasus brenyn Groec. Kanys antheil6ng ac an6edus oed yglur ettyved Dardan eu traethu yth kyvoeth di yn amgen[16] noc y dyley eglurder eu boned 6ynt.[17] 6rth hynny yr aeth 6yntеu yr koedydd ac yr dyffaeth6ch. Kanys dewissach kanthunt o bwystvyla6l deva6t ymborth ar cyc ac ar lyssyeuoed kan kynhal eu rydyt[18] pellach. noget ymarveru o bob melyster a digriv6ch a fo hwy adan keythy6et.[19] ac os peth h6n6 a goda dy deylycta6t dy ny dyleyr y etmygu idunt uy hynny.[20] Kanys anian pob kaeth y6 ucheneidia6 ar y rydyt ac ymch6elyt ar y hen deylycta6t.[21] Ac 6rth hynny gwna trugared ac 6ynt a chanhyattaa eu rydyt udunt ar dyffeyth6ch ar achubassant gad udunt y presswylya6 neu ynteu kannhyatta 6ynt y wladoed ereyll y gyt ath garyat y keyssya6 dayar a kyvanhedont ac a presswylyont.[22]

Gwedy gwelet ac atnabot o Pandrasus grym a syn6yr y llythyr h6nn6 ryvedu a oruc yn wuy no meynt llavassu or nep ar ry sey yn y keythy6et ef yn kyhyt ac y buessynt wy llavassu anvon yr ry6 orchymyn h6nn6 atta6 ynteu.[23] Ac yn dvannot o kyghor y wyrda kynnulla6 llu a oruc a mynet yn eu hol. Ac gwedy mynet yr dyffeyth y tebygassey ef eu mynet yda6 ac yn kerdet hep y kastell a elwyt Esp ar Tanum. Brutus a theyr myl o wyr ymlad y gyt ac ef yn dyssyvyt ac eu kyrch6s. Kanys pan kygleu ef eu bot yn dyvot hyt nos y dothoed ynteu a hynny o nyver y gyt ac ef yr Castell h6nn6. Ac eu kyrchu a oruc gwyr Tro ac emrodi y wneuthur aerva or Groegwyssion.[24] Ac yn y lle kylya6 a gwnaethant gwyr Groec a gwaskaru a ffo pawb megys y kaffey kyntaf ac eu brenyn yn eu blaen. A chyrchu a orugant yr avon a elwyt Akalon ag yn bryssya6 tros honno lla6er o nadunt a vodassont. kanys Brutus ae nyver oed yn eu kymell. ac wrth hynny ran o nadunt a ledyt ar y tyr sych. ar ran arall kymellyt y eu body. Ac y velly deudyblyc agheu a ymdangossey udunt.[25] Ac g6edy g6elet o Antigonus bra6t Pandrasus yr aerva honno. Mwy no dyrva6r dolur a kymyrth ynda6 or acha6s honno. a gal6 y ketymdeythyon atta6 ac ymvydyna6 ac ymchwelyt a chyrchu y Trovan6ssyon o wnaeth. Kanys gwell oed kantha6 y lad yn gwrthwynebu ac yn ymlad. nocyt y vody yn llycha6l tonneu yn warad6ydus.[26] Ac wrth hynny otew vydyn. o kytymdeithyon yn 6ra6l kan aunoc yr rey hynny oe holl nerth treygla6 agheua6l dyrnodyeu ac ergydyeu a oruc. ac ny dygrynnoes hynny hagen namyn ac ychydyg ae dym. kanys y Trovanwyssyon a oedynt gwyskedyc o arveu. Ar rey ereyll yn noe hyon. Ac wrth hynny gle6ach y gwneynt y truanhaf aerva o nadunt hep orffo6ys.[27]

Gwedy caffael o Brutus y budugolyaeth kadarhau y kestyll a oruc o hwechant marcha6c. Ac g6edy yd aet yntheu yr dyffeyth6ch yn lle yd oedynt y anhedeu yn eu haros.[28] Ar nos honno Pandrasus trwy dyrva6r drystyt ac goveylyeint o acha6s y ffoedygaeth e hunan a dalyedygaeth y vra6t. kynnulla6 y waskaredyg l6 a wnaeth y gyt. a phan doeth y dyd drannoeth mynet a oruc ygkylch y kastell. Ac eyste wrtha6. kanys ynda6 y tebygey ef bot Brutus ae vra6t ynteu ygharchar gantha6.[29] ac g6edy dyvot o hona6 yn kyvagos yr muroed. rannu y lu a oruc yn vydynoed ac yn torvoed yn y kylch a gorchymyn y pa6b o nadunt a oruc lludya6 ffyrd yr g6archaedygyon y dyvot allan. ac ereyll y ludyas d6fyr ydunt. ac ereyll y ymlad ac 6ynt trwy amravael peyryanneu y geyssya6 destry6 y kastell.[30] a pha6b o nadunt yn her6yd y gellynt a wnaethant yr hyn a archassey y brenyn udunt yn creulonhaf ag y gellynt. Ar rey gle6haf ar de6rhaf pan delhey y nos a kymerynt arnadunt p6ys yr ymlad a gadu yr rey a ymladey y dyd y nos y orffo6ys ac y ell6ng y lludet y ar nadunt.[31]

Ar g6yr o fe6n y muroed ar kastell hagen nyt oedynt segur 6ynteu namyn tr6y pob amravalyon kelvydodeu a pheyryanheu yg g6rth6ynep y eu peyryanheu 6ynteu yn gwrth6ynebu udunt. Ac yn 6ra6l ymlad ac 6ynt. g6ers yn tavlu a magneleu. g6ers arall yn b6r6 tan g6yllt. g6ers arall yn saethu ac unvryt yn g6rth6ynebu udunt. Ac g6edy bot yn parvant peyryant y cladu y mur a d6fyr br6t ac a than g6yllt 6ynt ac llosgasant ac a kymhellasant y gwyr y kylya6 tracheuyn.[32] Ac or dy6ed eyssyoes o peunydya6l lafur ac eissyen bwyt yn eu kody h6ynt a anvonassant eu kennat hyt at Brutus y erchy nerth a chanurthwy y kantha6 kanys ovyn oed arnadunt eu gwanhau a gorvct arnadunt rody eu kastell.[33] Ac wrth hynny goval a kymyrth Brutus ynda6 kan ny wydyat pa wed y galley ynteu rydhau y sa6l varchogyon honno kan nyt oed kantha6 o nyver megys y galley rody kat ar vaes yr Groeg6ssyon. Ac eyssyoes arveru a oruc o gyghor kall doeth. ag ys ef oed h6nn6 dwyn kyrch nos am eu pen. a chan nyt oed fford y galley ynteu ey len6y hynny heb kanh6rth6y un o wyr Groec ef a kymyrth atta6 Anacletus kytymeith Antigonus. A noethy y kledyf a oruc a dywedyt 6rtha6 yn y wed hon.[34] Ony wney di yr hyn a orchmynnaf y ty ar kledyf h6nn y lladaf y dy ben di a phen Antigonus dy kytymdeyth. Ac y sef y6 hynny. hono y darpereys y d6yn kyrch yn dyrybud am pen g6yr Groec. Ac any ellyr hynny heb geyssya6 twylla6 y gwylwyr ar gwersylleu yn kyntaf. a chanys yn y rhey hynny yd oed ymch6elyt yr arveu yn kyntaf. 6rth hynny y mynnaf ynneu tr6y dy gallder dy ath synh6yr eu t6ylla6 6ynt hyt na bo dyogelach y my gwedy hynny kyrchu am pen y Groecweyssyon ereyll.[35] Ac 6rth hynny yn gall kymer dytheu arnat pwys y neges hon ac am pryt kyntun or nos hon dos ragot hyt ar y gwylwyr ac yn gall trwy ystry6 dy amadrodyon ty twyll h6ynt a dywot rydyvot o honot ty ac Antigonus om karchar y ar rydwyn o honot y velly hyt me6n glyn dyrys ai ry ada6 yno hep allu rac pwys yr heyrn y dwyn a uey pellach namyn y ada6 yno yn llechu ymplyth dreyn a myeri a deryss6ch.[36] Ac g6edy hynny dwg dythau 6ynteu hyt y glyn h6nn megys y rydhau Antigonus. Megys y kaffwyf ynneu 6ynt 6rth vy ewyllys.[37]

Ac g6edy g6elet Anacletus y kledyf noeth a geyryeu y tewissauc yn gokyvada6 y angheu. yn y lle uvudhau a oruc rac ovyn a thebygu a oruc e gwnaey pob peth nor archey kan kaffael o hona6 ynteu y eneyt ef ac Antygonus. Ac gwedy darvot hynny kan y kadarnhau yn yr amser. yd erchys Brutus yda6 y kerdus ynteu parth ar e lw. Ac yn y lle ynachaf y gwylwyr or gwersylleu yn y achub ac yn y daly ac yn govyn yda6 pa kerdet oed arna6. Ac yn govyn yda6 ae yr bredychu ed oed yn dyvot. Ac yn y lle megys kan dyrva6r lewenyd y dywa6t. yn kyvlym hep ev do6ch y kyt a my y kyrchw Antygonus ar redygum y o karchar Brutus. Ac a adeweys me6n dyrryse yn llechu hep allu y dwyn a vey pellach rac pwys yr heyern hyt yn y kaff6n kymmorth. Ac vel yd oedynt ynn amheu a dyuedey ynachaf un yn dyvot ac yn y atnabot. ac yn y lle kerdet gyt ac ef hep pedrus a wnaethant. ac gal6 pa6b or gwylwyr ar gwersylleu ereyll y gyt ac 6ynt hyt y koet y dywedassey ef ada6 Antygonus yn llechw.[38] ac gwedy eu dyvot hyt yno kyvodi a oruc Brutus ae kytymdeythyon y gyt ac ef yn arva6cac eu daly yn kwbyl h6ynt ac eu llad hep annot. Ac odyna kyrchu racdu ac am benn brenyn Groec ae lu. Ac g6edy eu dyvot hyt y gyt ac wynt rannu y kytymdeythyon a oruc yn teyr bydyn ac gorchymyn udunt mynet pa6b yn tawel yn kymhen am pen y pebylleu ar llwesteu. ac na dy6ettey nep un geyr hyt pan klywynt llef korn Brutus yn kyntaf yn ar6yd udunt.[39] Ac yna g6edy dyscu o hona6 ef y pa6b o nadunt pawed y gwnclynt kych6yn a oruc ynteu ac vydyn gyt ac ef hyt pan doeth am pen pebyll e brenyn. a pha6b or bydynoed ereyll a kyrchassant yn eu kyveir megys yd erchessyt udunt. ac arhos er arwyd a wnaethant.[40] a hynny nyt annodes Brutus yr rody udunt. gwedy y dyvot ym pebyll y brenyn. G6edy klybot o pa6b o nadunt y rac dywededyc ar6yd dyspeylya6 eu kledyveu a orugant paub o nadunt. Ac ygyt ar kledyveu noethyon deffroy a orugant yr rhey kyscadur a rody agheua6l dyrnodyeu. a hep nep trugared g6ahanu yr eneydyau ar corfforoed.[41] Ac yn ywed o honno y e kerdynt tr6y y pebylleu ar lluesteu. Ac chwynvan yr rey meyr6 en deffroy yr by6. Ac y velly gwelynt eu gelynion megys bleydyeu ymplyth deveyt. Ac gwedy klybot or kastellwyr yr aerva honno allan y doethant wynteu a deudyplyc aerva a wnaethant. Gwedy kaffael eyssyoes o Brutus pebyll y brenyn megys y dywedassam ny wchot 6rth y kyghor daly y brenin a oruc. kanys medylya6 a wnaeth bot yn wuy lles a kaffey oe daly noc oe lad.[42] E toryf eyssyoes ar vedyn a oed y gyt ac ef ny orphwyssey o wneuthur antrucara6c aerva or Groegwysyon.

Ac gwedy treylya6 o nadunt y nos yn y wed honno y dyd a doeth.[43] A g6edy gwelet o Brutus yr aerva honuo dyrva6r le6enyd a kymyrth. a rannu y pa6b oe wyr espeylyeu yr rey lladedygyon. Ac evelly eu kyvoethogy. Ac odyna mynet a oruc ir kastell ar karcharoryon kantha6 hyt tra yd oedynt y wyr ef yn rannu y da ar golut y rygthunt. Ac g6edy darvot hynny kadarnhau eylweyth y kastell a oruc or bwyt ac o wyr ac arveu. Ac ynteu ae nyver kantha6 a kerdassant parth ar dyffeyth6ch y gyt a llawen budugolyaeth.[44] Ac yna galw atta6 a wnaeth y hynafgwyr ae doethyon a govyn udunt pa beth a gymmerynt y gan Pandrassus. kanys hyt tra vey ef yn eu karchar wynt ac yn eu medyant ef a wnaey pop peth or a erchynt yda6.[45] Ac yna rey a gyghorynt kymryt y kantha6 ran o Roec a presswylla6 yndy. ereyll a vynnynt kymryt y kantha6 eur ac aryant ac gwenith a llongheu a chanhyat y vynet yn rhyd y kantha6 y fford y gweley Dyw udunt kaffael gwlat y presswylynt yndy.[46] Ac gwedy bot yn hyr yn pedrussa6 y velly y kyvodes un o nadunt. ac ys ef y gelwyt h6nn6 Membyr ac erchy gostec a oruc. Ac megys y kygleu pa6b o nadunt yr ymadra6d h6n a dywa6t. A wyrda hep ef bot a pedruss6ch chwy yn yr hyn y syd lessaf ynny. Sef y6 hynny kymryt kanhyat y vynet y ymdeyth. kanys kyt kymeroch trayan Grocc y gan y brenyn y presswyllya6 yndy ymplyth gwyr Groec ny cheff6ch chwy hed6ch yn trgywyda6l yndy or dyd hedy6 allan. kanys y meybyon syd heb eu geny ett6a a goffaant yr aerva hon ac a kyyssyant dyal agheu eu tadeu ac eu hentadeu ar en meybyon nynheu. Ac ar eu wyryon o bob ffordd or ac allont. Ac 6rth hynny kymer6n nynnheu Ygnogen merch y brenyn yn wreyc y en tywyssa6c ny. ac ygyt a hy eur ac aryant. a gwin a gwenyth a llogheu. a phob peth or a vo reyt y en fford ny wrtha6. a chanhyat y vynet y ymdeyth.[47] Ac g6edy dywedwyd o hona6 ef yr amadra6d h6n a llawer hevyt y gyt a hynny dvuna6 a wnaethant pa6b ac ef a dwyn Pandrasus yr lle a wnaethp6yd a mynegy yda6 ony rodey pob peth udunt or a erchynt yda6 wrth eu mynnu y mae or kyntaf agheu y tervynyt y hoedyl ynteu. Ac g6edy y ossot ef mewn gorwchel kadeyr y eyste yn eu perved a dywed6yt wrtha6 hynny. ef a wrthebus udunt kan dywed6yt udunt yr amadra6dh6nn.[48]

Kanys kythraul dwyweu am rodassant my ac Antygonus vem bra6t ac Anacletus yn ych dwyla6 ch6y. ac yn ych karchar. reyt y6 6rth hynny y mynheu ufudhau y wneuthur yr hyn a vynnoch chwytheu. kanys nyt oes dym a vo melyssach y dyn noe vwched na dym a vo dygryvach a chet boet anvod genhyf. eyssyoes dydan y6 kenhyf rody ve merch yr gwas iewanc e syd kemeynt y klot ae volyant a h6nn6 ac wrth henny mi a rodaf ve merch yda6. My a rodaf eur ac aryant. a gwyn a gwenyth a llongheu a phop peth a vo reyt y ech hynt ac ych fford megys y dywettoch. Ac o mynn6ch tryga6 a chyt presswylya6 a my eg gwlat Grocc my a rodaf trayan Groec yw ch6y 6rth presswylya6 yndy en hyd6ch.[49] Ac yn y lle kynnulla6 llongheu o bop porth yn eg Groec a wnaeth.p6yd. ac eu llen6y o bob kyvry6 da or a oed reyt udunt 6rtha6. Ac gwedy bot yn para6t pob peth o hynny mynet yn y llongheu a wnaeth Brutus ae kytemdeythyon y gyt ac ef.[50]

Ac yna g6edy kych6yn ar y mor yd oed Ygnogen yn y k6rr ol yr llong yr r6ng dwyla6 Brutus yn wyla6 ac yn drycyrverthu o acha6s ada6 y gwlat. ae that ae mam. ae brodyr ae chenedyl ac hwynep heb ymchwelut y 6rth y gwlat hyt pan ymgud6ys y gwlat y genthy yg kysca6t y mor. Ac eyssyoes ny pheyd6s hy ae drycyrverth hyt pan dygwyd6s dyrva6r hun yn y phenn.[51] Ac yvelly deudyd a nosweyth ar gwynt yn hyr6yd unya6n yn eu hol yn hwylia6 wynt a dacthaut hyt yn ynys a elwyr Legesty a honno diffeyth oed hep nep yn y chevanhedu.[52] Ac yno yd ellyghus Brutus try chan6r arva6c y edrych ansa6d yr ynys honno. Ac gwedy na welsant nep or dynyadon yny chyvanhedu kyvla6n hagen oed o amravael kenedloed anyveylyeyt ac y ladedigaeth y rey yd ymrodassant ac chandunt y eu llogheu y dugant kymmeynt ac a vynnassant o nadunt.[53] Ac yn yr ynys honno y doethant y hen dinas dyffeyth ac yno yd oed hen temhyl y Dyana yn yr hon yd oed delw y dwy6es ac ymrody gwrtheb a chyvarch y pa6b o pob peth or a vynnynt ydy. Ac or diwed wynt a doethant hyt eu llongheu ac a vanagassant y Brutus ac oy kytemdeythyon yr hyn a rywelsynt.[54] ac annoc a orugant yr tewyssa6c mynet yr temhyl y ovyn yr delw honno pa wlat a pha dayar a kyrchynt y ev pressuylya6.[55] Ac o kyffredyn kyghor y doethyon y kymyrth Brutus Gereyn dewin a deu degwyr or gwyr hynaf y gyt ac ef ac yd aethant yr temhyl a pob kyvreyt kanthunt or a oed reyt y aberthu ac ef.[56] Ac gwedy eu dyvot yno Brutus a dodes koron or gwynvydyg kylch y ar llevoed ef ac o heu kynnevaut teyr kynne a osodasant rac bron dr6s

y themyl. un y Jupiter. ac un y Vercuryus. ac un y Dyana. ac aberth y bob un nadunt ar neylldu.[57] Ac ynteu Brutus a sevys rac bron yr alla6r a llestyryn y la6 yn lla6n o wyn a gwaet ewyc wen. Ae wynep ef ar alla6r y dwy6es. ar amadra6d h6nn a dywa6t.[58] Kyvoetha6c dwy6es y koedyd. ty syd aruthred yr beyd koet. y ty y mae kanhyat y kerdet trwy awyra6l ffyrd ac uffernolyon tey. a threygla6 dayarolyon dylyet. Dywet imi pa dayar a vynnych y phressuylya6 o honof. yn y lle yr anrydedwyf finneu ty o werynya6l chorcu.[59] a gwedy dywedwyd o hona6 ef yr amadra6d h6nn nau weyth ef a dyneua6d y llestreyt h6nn6 y me6n y kynne. ac gwedy hynny gorwed a oruc ar croen yr ewyc wen honno rac bron yr allaur ac yno y kysk6s. Ac yn y tryded a6r or nos pan vyd melyssaf eu hun gan yr rey marwa6l ef a weley y dwy6es yn sefyll rac y vron ac yn dywedwyt wrtha6 val hyn.[60] Breudwyt Brutus.

Brutus adan dygwydedygaeth yr heul tros mor Ffreync y mae ynys yn yr eygya6n a wu kyvanhed gynt gan y kewry. ac yn a6r dyffeyth yw. ac adas yth kenedyl ty. kyrch honno. kanys yno y byd tragywyda6l eystedva y ty ac yth lyn gwedy ty. honno a vyd eyl Tro yth veybyon ty. Ac yno oth lyn y genyr brenhyned yr rey y byd darestyghedyc yr holl dayar y hyt.[61]

Ac gwedy gwelet or tewyssa6c y gweledygaeth honno dyhuna6 a oruc a phedrussa6 pa beth oed hynny ae ffalst vreudwyt ae ynteu y dwy6es yn kyndrycha6l yn manegy yda6 y dayar a kyrchey. Ac or dywed gwedy galw atta6 y kytemdeythyon datkanu udunt a oruc yr hyn rywelsey. A dyrva6r lewenyd a kymerassant yndunt ac a annogassant yda6 yn dyannot kyrchu eu llongheu. a hyt tra gwynt rwyd unya6n yn eu hol keyssya6 y wlat ryvanagadoed udunt wrth y phressuylya6.[62] Ac hep un gohyr at y kytemdeythyon yr llogeu y doethant a dechreu rwyga6 y gorwchel vor trwy yspeyt deg nyeu ar ugeynt. Ac ar hynny o yspeyt y deuthant hyt yr Affryc ac ny wydynt wy pa wlat yd oedynt yn y kyrchw. Ac odiyna y doethant hyt ar alloryeu y Phyllystewyssyon a hyt yn llyn yr helyc. Ac o dy yna yr hwylyassant yr rwng Rwsscat a mynyd Azare.[63] Ac yno y ka6sant ma6r perygyl gan kenedyl pyrate ac gwedy kaffael budugolyaeth buduga6l y nadunt ac eu kyvoethogy o yspeyl ac anreythycu yr rey hynny yd hwylyasant ar hyt avon Malue ac ydoethant hyt y wlat a elwyr Maurytanya.[64] ac yna o eisyeu bwyt yn y llogheu yd aethant ar tyr. ac y bydynasant ac yd anreythyasant y wlat honno or emyl pwy gilyd ydy. Ac gwedy llenwy eu llogheu o nadunt o bob da odyna yd aethant hyt yg kolovneu Erculff.[65] ac yno yd ymdangosasant y morvorynnyon udunt a chylchynu eu llongheu ac gwneuthur dyrva6r o temhestyl a govut udunt hyt pan wu agos udunt a body.[66] Ac gwedy dyanc o henny wynt a doethant hyt ym mor Tyrwys. Ac yna yn ystlys y mor h6nn6 6ynt a kawsant pedeyr gwelygord o alltudyon kenedyl Tro yr rey ryffoasey y gyt ac Antenor pan wu destryw Tro. a Choryneus yn tewysauc arnadunt. Gwr hunaws oed h6nn6 agoreu kyghor6r oed a dewraf a glewhaf or gwyr. Ac o bey ymtara6 neu ymhwrd yg rytha6 ef ac un or kewry yruoy y dewred ef a orvydey arna6 megys kyt bey map vydey.[67] Ac gwedy ymatnabot o nadunt a gwybot eu hanvot o un kenedyl wynt a ymkytemdeythysasant y gyt. ac ef ar pobyl a oed y gyt ac ef. Ac o enw eu tewysauc y gel6yt y kenedyl honno Corneueyt yr hynny hyt hedy6. Ac yna Brutus yn kanhurthwy6r yda6 ym pobl le ac ym pob kyvranc.[68] Ac o dyyna y gyt y doethant hyt yn Angyw a hyt ym porth Lygeyr. ac yno y bwryasant anghoreu allan ac y gorffwyasant yno wythnos ac edrychasant ansa6d y teyrnas honno.[69]

Ac yn yr amser hwnnw yd oed Goffar Ffycty yn vrenyn yn y wlat honno. ac gwedy klybot o hona6 ef rydyskynnu llyghes o estra6n kenedyl ar tervyn y teyrnas ef. Anvon kennadeu a oruc ynteu y syllu ac y wybot pa beth a vynnynt. ae ryvel ae hed6ch.[70] Ar kennadeu hynny a kyrchasant parth at y llogheu. wynt a kyvarvuasant a Choryneus yn holy. Ar kennadeu hynny a ovynnasant yda6 pa kanhyat oed yda6 ef y hely fforest y Brenyn kanys gosodedyc oed o hyn kynneva6t hyt na lavasey nep hep kanhyat hely yn fforest y brenyn na thervysku ar yr anyveylyeyt a vey yndy.[71] Choryneus hagen a wrtheba6d ydunt hyt na cheysyey es kanhyat y gan neb y hely yn y lle bey da kantha6 hely ynda6. Ac un or kennadeu yr hwn a elwyt Ymbert a annela6d y wua ac a wri6s Coryneus a sayth. a gochel e sayth hagen a oruc Coryneus. a chyrchu Ymbert ac a w6a e hun esygau y penn a oruc yn dryllyeu. Ar rey ereyll or kennadeu a ffoasant.[72] ac a vanagasant y eu brenyn agheu kytymdeyth. a thrystau a oruc e brenyn a chynnulla6 llw ma6r wrth dyal agheu y kennat yndunt.[73] Ac ysef a wnaeth Brutus pan kygleu eu bot yn dyvot kadarnhau y llogheu a gosot gwraged ar

meybyon yndunt. Ac ynteu ar holl ymladwyr y gyt ac ef a aethant yn erbyn y llu. Ac gwedy ymkyvarvot ygkyt gyrat ymlad o bob parth.[74] Ac gwedy trewlya6 llawer or dyd yvelly kewylyd vu gan Coryneus hwyret yd oed ef yn kaffael y wudugolyaeth a gwelet y elynion yn kyn glewet ac yd oedynt yn gwrthwyneba udunt a hep rykaffael o wyr Tro y wudugolyaeth.[75] Sef a oruc Coryneus galw y lewder atta6. a chymryt y vydyn ehunan ar y parth dehau ir wr6ydyr a chyrchu y elynyon. Ac ny orffwysey.[76] ef o kywarsanhu yr rey hynny hyt pan aeth trwy'r holl vydynoed ac eu kymmell ar fo yn holla6l. kanys gwedy kolly y kledyf o hona6 y tyghetven a wasanaeth6s bwyall deu fynya6c yda6. a pha beth bynnac na gwr na march a kyvarffey ac ef ar un dyrna6t y gwahaney owarthaf y pen hyt y dayar. Anryved hagen oed gan pa6b or a welhey Coryneus meynt oed ynda6 o nerth ac angerd a chedernyt a dewred a chan eskytweyt a threygla6 y wuyall deuvynya6c honno yn y law ymplith y elynya6l vydynoed y dywedey ef fal hyn. Pa beth a ffowch chwi ofynogyon ergrynnedyg. ymchwel6ch ymch6elwch ac ymled6ch a Choryneus. gwae chwy rac kewylyd y saul vylyoed honno o wyr en ffo rac un gwr. ac or e wed hon y gwatwarey wynt.[78]

Ac ar hyny sef a oruc yarll a elwyt Sywart y gyt a thrychant marcha6c ymchwelyt a chyrchu Coryneus. Ac yssef a oruc Coryneus gochel y dyrna6t adan y daryan a choffau y wuyall ddeufynya6c a oruc a gossot ar warthaf y penfestyn ae holly yn dwyran a oruc yda6 hyt y dayar. Ac yn y lle yn ddyanhot kymmell yr rey ereyll ar ffo a oruc kan gwneuthur gwychraf aerva o nadunt. A pha6b or gelynyon yn ey erbyn ef ehun. Ac ynteu yn erbyn pa6b. Ac ar wuyall honno y trychey ef pen y un. ac y arall vreych y wrth y escwyd. y ereyll y gwahaney eu traet ac eu hesceyryeu y wrth eu corfforoed. A gwedy gwelet o Brutus hynny kyrchu a oruc ynteu ae vydyn y gyt ac ef oy kanwrthwyau. ac yna y bu'r lleveyn ar gordery. yna y bu newydya6 mynych dyrnodyeu o pob parth a dyrva6r eyryf o kalaned. Ac ny bu yna un gohyr y uudugolyaeth a kavas Brutus a gwyr Tro. a Goffar vrenyn ae ffychtyeit y gyt ac ef a ymchwelassant ar ffo ac odyna y kyrchus ef eythavoed Ffreync y keyssya6 nerth a chanhwrthwy y gan y kereynt ay kytymdeythyon. Ac yn amser h6n6 yd oedynt y deudec gogyvurd yn medu Ffreync. ar rey hynny a ada6ssant o kyt duundeb g6rthlad y estra6n kenedyl o tervyneu Angyw a Pheyttw.[79]

Ac o acha6s y wudugolyaeth honno ar rydywedassam ny wchot llewenyd a kymyrth Brutus ynda6. ac o yspeyl yr rey lladedyc kyvoethogy y wyr e hun a oruc. Ac gwedy hynny eylweyth eu llunyaethu wynt yn vydynoed. ac y velly kerdet tros y wlat a mynnu y dyleu hy hyt ar dym. a llenwy y longheu o bob kyvryw olut a da dayara6l. Ac gwedy hynny trwy dan a hayarn dystryw y dynassoed o pob parth. ac odyno kynny y kudyedygyon gollidoed a sswllt. ac ameythyau y tyred yn llwyr. a mynnu dyleu y dyryeyt keuedyl honno yn holla6l trwy creula6n aerva. Ac or dywed y velly ef a doeth hyt y lle y gelwyr yn awr dynas Twrn.[80] Ac gwedy gwelet o honau yna lle adas y dyogeluch a chedernyt ef a vessur6s yna lle kastell. ac ae goruc. hyt pan alley ynteu kaffael yno dyogel6ch o bey reyt yda6 urthau. kanys ofyn oed arna6 dyvot Goffar Ffychty a brenhyned a tewyssogyon Ffreync kantha6 wrth ymlad ac ef ac y dyal arna e sarhaed ar rywnathoed ynteu yda6 ef. Ac or dywed gwedy darvot gwneuthur e kastell h6nn6 ef a arhoes yna trwy yspeyt deu dyd. dyvotygaeth Goffar Ffychty kan emdyryet oy gallder ef ac oy doythynep a glewder yr yewenctyt or oed enteu en rac vlaynu arnadunt.[81]

Goffar hagen Ffychty gwedy klybot o hona6 yn dyeu bot y Trouanwyssyon yn kyndrycha6l yn y lle honno ny orffwyssus ef na dyd na nos yn kerdet hyt pan dyvu hyt yno. Ac yn y weles kestyll Brutus ae luesteu ae pebylleu. Ac gwedy edrych yn agar6 o hona6 ar hynny glas chwerthyn kellweyryedic a oruc a dywedwyt val hyn. Gwyskuch wyr amdana6ch.[82] gwysc6ch ych arveu a bydyn6ch. a hep un gohyr kymmer6n yr hanner gwyr hyn a dalyun wynt megys deveyt ar rann6n wynt yn keyth ym pob lle ar traws yn teyrnassoed.[83]

Ac yn y lle yn dyannot kymryt a wnaeth pa6b y arveu a gwyska6 yn kyvlym am dana6 a thrwy deudeg bydyn ymkyweyrya6 a chyrchu eu gelynyon. Ac yn erbyn hynny or parth arall bydyna6 a wnaeth Brutus y kytymdeythion ynteu nyt yn wreygya6l hagen namyn yn wra6l ac yn doeth dysku udunt pa wed y deleynt kyrchu neu kylya6. neu ymlad ac yn dyanhot ymlad a orugant yn drut ac yn kalet. ar Trouanwyssyon a wnaethant aerva dyrva6r y meynt oc eu gelynyon hyt ar dwy vyl hayach o wyr gan eu kymmell ar ffo.[84] Ac yn y lle mwyhaf vey nyver

mynychaf yw yna damweinya6 e wudugolyaeth. A chanys mwy teyrgweyth oed lw Ffreync nogyt un Brutus. kyt ry plykyt wynt ar y dechreu. or dywed ymkyweyrya6 a orugant a chyrchu gwyr Tro a llad llawer o nadunt. ac eu kymmell yr kastell tracheuyn a medylya6 wnaethant eu gwarchae yna wynt yn y vey reyt udunt trwy newyn ymrody yn ewyllys y Ffreync. Ac gwedy dyvot y nos eyssyoes y kaussant gwyr Tro yn y kyghor mynet Coryneus ae wyr kantha6 allan hyt y mewn llwyn koet ker eu llaw a llechu yno hyt y dyd. A phan delhey y dyd mynet Brutus ae lu kantha6 allan y ymlad ae elynyon a phan vey kadarnhaf y wrwydyr dyvot Coryneus ae vydyn kantha6 or parth yn ol oy elynyon ac eu llad. A megys y dywedassant y velly y gwnaethant oy kytvundep. A trannoeth pan dyvu y dyd bydyna6 a oruc Brutus a mynet allan y emlad. ar Ffreync a kyvodassant yn eu herbyn. ac yn y lle y syrthyassant ac y brathwyt lla6er o bop parth.[85] ac yna y llada6d gwas yeuanc o Tro ney y Vrutus y gyt ae un kledyf chwech chant o wyr nyt oed hagen eythyr Coryneus yn y llu gwas dewrach no hwnnw.[86] Ac eyssyoes ydamkylchyn6s llawer oy elynyon ef ac y llas yna ef ac ysef oed y gwas T6rn. ac oc enw ef y gelwyr y dynas yr hynny hyt hedyw T6ron.[87] Ac ar hynny y doeth Coryneus a theyr myl o wyr arva6c ygyt ac ef yn dyrybud or tu ol y Ffreync a gwneuthur aerva trom o nadunt.[88]

A PHAN welsant y Ffreync hynny kymra6 a chythrud a aeth yndynt o tebygu bot yn w6y noc yd oed y llu ac ymchwelut ar eu ffo. ac eu hymlyt a wnaethant gwyr Tro ac eu llad ac eu gwascaru hyt pan ka6ssant y wudugolyaeth. a chyt bey mawr defnyd lle6enyd y Vrutus or rykaffael o hona6 e wudugolyaeth honno. Tryst eyssyoes oed am ry llad T6rn y ney.[89] a bot y nyver yn lleyhau ae elynyon en amlhau.[90] ac en pedrus kantha6 or dywed padyw e damweynyey e wudugolyaeth.[91] Sef a kavas yn y kyghor hyt tra vey er rann wuyhaf oy lu kantha6.[92] mynet yn y longheu y gyt a chlot y wudugolyaeth honno. Ac o kyt kyghor y ketymdeythyon ed aethant en eu llongheu. Ac eu llenwy o pop kyvryw golut a da dayara6l. Ac y gyt hyrwyd gwynt e deuthant hyt er ynys oed adawedyc udunt trwy dwywa6l wrthep. ac y traeth Totenys e daethant yr Tyr.[93]

Ac yn yr amser hunnu y gelwyt yr enys hon e wen ynys.[94] a dyffeyth oed eythyr echedyc o kewry en y chyvanhedu. tec hagen oed y hansa6d o avonoed tec a physca6t yndunt. a choedyd a bwystvylet gwyllt endynt yn amyl a bodla6n wuant yr lle wrth presswylya6 ynda6. Ac gwedy gwelet or kewry wynt yn damkylchynu yr enys. fo a orugant yr gogoveu ac yr mynyded. Ac yna trwy kanhyat Brutus yr rannwyt yr ynys. ac e dechreuassant y chyvanhedu a dywyllyau y tyred. ac adeylat tey. ac yn ychydyc o amser gwneuthur dyrva6r kyvanned arney. ac y mynn6s Brutus galu yr ynys oe enu ef Brytaen. ar kenedyl Brytanyeyt. ac o henny allan er yeyth er hon a elwyt kyn no henny yeyth Tro neu enteu kam Groec a elwyt gwedy henny Brytanec. ac or un ryw dysc hunnu e mynn6s Coryneus gal6 yrann enteu or enys Kernyw ae pobyl. eu Korneuyeyt kanys pan rannwyt e kavas Coryneus dewys. ac e dewyssus ynteu yr ran honno. kanys eno yd oedynt y kewry yn amlhaf ac nad oed dygryvach dym kantha6 enthi noc ymlad ar rey henny ac ym plyth yr rey henny yd oed un anthyghetvennol y veynt a deudec kyvyd oed y hyt.[95] a chymmeynt oed y angerd ac y tynney derwen er y meynt oe gwreyd megys gwyalen coll vechan. kany yskytweyt vnweyth. Ac val yd oed Brutus dywrnawd yn aberthu y Dyana yn y porthloed rydyskynnassey yndy ynachaf y ka6r h6nn6 yn dyvot ar i ugeynvet or keuri ereyll y gyt ac ef ac yn gwneuthur creula6n aerva or Brytanyeyt. Ac eyssyoes eu damkylchynu a wnaethant e Brytanyeyt ac eu llad oll eythyr y kawr ma6r hunnu ar ry archassey Brutus y gad6 y welet katwent ac ymdrech yr rygtha6 ef a Coryneus. kanyt oed dym dygryvach kantha6 nor ryw katwent honno. ac y ymdrech yd aeth Coryneus ar ka6r a phob un o nadunt a kymyrth gavael ardurn ar y gylyd. ac ymtara6. a gwascu a oruc y kawr Coryneus atta6 a thorry teyr assen ynda6 un yn yr ystlys deheu a dwy yn yr assu.[96] a llydya6 a wnaeth Coryneus. a dyrchavael y kawr ar y ysc6yd a oruc. ac or veynt y gattey pwys yr agkyghel hunnu redec a wnaeth a chyrchu pen gorwchel carrec a b6r6 yr anthyghedvenna6l anyveyl h6nn6[97] y ar y ysckwyd trwy yskythred kerryc hyt pan wu yn vyl o dryllyeu ac yn y gochassant y tonneu y waet ef. Ac yr hynny hyt hedyw y gelwyr y lle h6nn6 llam Goemagoc neu ynteu megys y geilw ereyll ef llam y kawr.[98]

Ac yna gwedy rannu o Vrutus y teyrnas rwng y wyr ynteu a chwennychu adeylat dynas. ac ynteu a edrychws pa le y bey teylwng kantha6 adeylat dynas a vey

kyvurd ar hunn a vynney ynteu y wneuthur. Ac gwedy krwydraw o hona6 llawer o leod or dywed ef a deuth hyt ar avon Themys. ac yno y kavas le a wu adas kantha6 wrth adeylat. Ac yno yd adeylus ef dynas ac e gelwys ef y dynas h6nu6 Tro newyd. Ar enu h6nn6 a parhaus arney hyt yn oes Llwd vap Bely[99] bra6t Kaswalla6n vap Bely y gwr a ymladas ac Wlkessar amherawder Ruveyn. Ac gwedy kaffael o Lwd y vrenhynyaeth y kadarnha6s ynteu y dynas o keyryd a thyroed amvroed anrydedus. ac y gelwys o eu6 e hun Kaer Lwd. ac or achos h6nn6 y bu tervysc y rygtha6 ynteu a Nynnya6 y vraut am keyssya6 o hona6 ef dyffody enw Tro.[100] A chanys traeth6a Gyldas en eglur or tervysc h6nn6 urth hynny y peydyeys ynheu rac hacrau om tla6t ethrylyth y amatra6d gwr mor kyffrwys hvawdyl a h6nn6.

Ac gwedy darvot y Vrutus adeylat o dynas ty dywedpwyt wuchot.[101] gossot kywda6twyr a oruc ynda6. ar rody kyvreythyeu a breynhyeu udunt trwy yr rey y gellynt buchwedokau gan hed6ch a thagneved ynda6. Ac yn yr amser hunnu yd oed Hely offeyryat o Sylo ym blaen pobyl yr Ysrahel yg gwlat Iudea. ac yd oed yr arch ystafen ygkeythywet e ffylystwyssyon.[102] ac yd oedynt yn gwledychu Tro meybyon Hector kadarn vap Pryaf gwedy ry dyhol plant Antenor o honey ymdeyth. Ac yn yr Eydal yd oed Sylvyus Eneas yn trydyd brenhyn gwedy Eneas Yskwdwyn e ewythr brawt y tat y Brutus.

Ac gwedy ky6eyryav a llunyethu pob peth ar hyt yr ynys yn tagnevedus ac adeylat y kaer ar dynas.[103] kysku a oruc Brutus gyt ac ygnogen y wreyc.[104] a thry meyb a anet yda6 o honey. Sef oed enweu yr rey hynny.[105] Locrinus. Kamber. Albanactus. ac ym pen y pedwared wulwydyn ar rugeynt gwedy y dyvodedygaeth y enys Prydeyn y bu varw Brutus.[106] ac a cladwyt yn y kaer a adeylassey ehun yn anrydedus. Ac yr rannassant y veybyon yr ynys yn teyr ran yr rygthant.[107] Ac y Locrinus kanys yr hynaf oed y dygwyd6s yr ran berved or ynys yr hon a elwyr Lloegyr oe enw ef.[108] Ac y kymyrth Camber or tu arall y Hafren y rann a elwyr oc enw enteu Kymry.[109] ac y kymyrth Albanactus y gogled yr ran a elwys enteu oe enw ef Alban. A honno a elwyr yn yr amseroed hyn Yskotlont.[110] ac gwedy eu bot e velly yn tagnhevedus trwy hyr amser y deuth Humyr brenyn Huna6t a llyghes kantha6 hyt yr Alban. ac gwedy ymlad ac Albanactus y lad a oruc a chymmell y pobyl oed gyt ac ef ar ffo hyt ar Locrinus.[111] a gwedy gwybot or kyvranc honno o Locrinus.[112] kymryt Kamber y vra6t a oruc y gyt ac ef a chynnulla6 eu llu a chyrchu.[113] yn erbyn Humyr vrenyn Huna6t hyt yg glan yr avon a elwyr Humyr. ac ymlad ac ef yno ae kymmell ar ffo. Ac yn y ffo h6nn6 y bodys Humyr ar yr avon honno. ac edewys ynteu y enw ar yr avon yr hyn hyt hedy6.[114] Ac gwedy kaffael o Locrinus y wudugolyaeth honno rannu yr yspeyl oy kytemdeythyon a oruc hep ada6 dym ydau ehun eythyr teyr morwyn enryved eu pryt ac eu tegwch a kavas yn e llogheu. A~ pennaf or teyr morwyn hynny oed verch y vrenyn Germanya. ac a dugassey Humyr kantha6 pan wuassey yn anreythya6 y wlat honno. Sef oed enw y vorwyn honno Essyllt.[115] ac nyd ydoed hawd kaffael dyn kyndeket na chymryt a hy yn yr hollvyt. kanys gwynnach oed y chna6t mor echtewynnedyc ask6rn morvyl. ac no dym a ellyt dyharebu o hona6.[116] A dyrva6r serch a charyat a dodes Locrinus arney a mynnu y chymryt yn wreic wely yda6. Ac gwedy klybot o Coryneus hynny llydya6 a oruc yn va6r kanys kyn no hynny ry wnathoed Locrinus amvot y kymryt y verch ef yn wreyc yda6.[117]

Ac wrth hynny kyrchu Locrinus a wnaeth Coryneus a dan treygla6 bwyall deuvynya6c yn y law deheu a dywedwyt wrthau yr amadra6d h6nn. Ae megys hyn Locrinus y tely di y my yssa6l vracthau a gwelyeu a kymereys y tros dy tat fy hyt tra wuhvm y yn kynydu tyr a dayar yda6 ef.[118] kymryt alldudes hedyw yn wreyc yt ny udost ty pa le pan henyw. a gwrthot vy merch ynheu. Etnebyd hagen nat prydverth yt hynny ac nat dy pryt hyt tra parhao nerth yn y breych deheu h6nn.[119] yr h6nn a lada6d y sawl kewry ar traetheu ynys Prydeyn. Ac evelly y okyvadau yn vynych a dan treyglya6 y deuvynya6c wuyall.[120] Ac yna eyssyoes y daethant eu kytemdeythyon o pob parth yr rygthunt y eu tagnhevedu.[121] a chymmell ar Locrinus kymryt merch Coryneus yn wreyc yda6. Ac yna y kyskus Locrinus kan Gwendoleu merch Coryneus. Ac yr hynny eyssyoes ny leyha6s karyat Essyllt kantha6 namyn y gossot mewn dayar ty o fewn kaer Lundeyn. ac anwylyeyt yda6 yn y chad6 ac yn y gwassanaethu ac yn y dywallu o pob peth or a vey reyt ydy. a hynny yn dyrgel.[122] Ac yno y deuey ef attey hy en kudya6c. Ac evelly y bu yn mynnychu

attey trwy yspeyt seyth mlyned hep wybot o nep eythyr y aunwylyeyt ehun a oed yn y gwarchad6. namyn yn ryth aberthu yn dyrgel yr dwyweu yd aey ef yno.[123] Ac eno eyssyoes beychyogy a kavas Essyllt a merch a wn ydy. ac ys ef enw a dodes ar honno Hafren. Ac yn yr unrhyw amser h6nn6 beychyogy a kavas Gwendoleu a a map a anet ydy hytheu. ac ar y map h6nn6 y dodet Mada6c.[124] Ac ar Coryneus y hentat yr rodet h6nn6 ar vaeth ac oy dysku.[125] Ac em pen espeyt gwedy mar6 Coryneus ymada6 a wnaeth Locrinus a Gwendoleu. ac ar ostec ardyrchavael Essyllt yn vrenhynes. ac wrth hynny llydya6 a oruc Gwendoleu yn dyrva6r eythyr mod.[126] a mynet hyt yg Kernyw a chynnulla6 y llu mwyhaf a allws y kaffael wrth ryvelu ar Locrinus. ac ar lan yr avon a elwyr Sturam emkyvarvot a wnaethant. ac en e wurwydyr honno o ergyt sayth y llas Locrinus. Ac yna y kymyrth Gwendoleu llywodraeth y teyrnas yn y llaw ehun ac arveru o tata6l creulonder. Ac erchy a oruc Gwendoleu body Essyllt a Hafren y merch yn yr afon honno.[127] Ac gwedy hynny gwys a ossodes tros wynep ynys Prydeyn galw pawb or avon honno o enw y vorwyn honno Hafren. Ac y velly y gelwyr yr avon honno o enw y vorwyn Hafren yr hynny hyt hedyw.[128]

Ac gwedy hynny deudec mlyned g6edy llad Locrinus y gwledychus Gwendoleu. a dec mlyned y buassey Locrinus yn vrenhyn kyn no hynny ac gwedy gwelet o Wendoleu Mado6c y map yn oedrau y galley ynteu bot yn vrenhyn. hy a rodes gwyalen y teyrnas yn y law. ac ae harderchoges ef yn vrenhyn. a hytheu ehunan a vu bodla6n ar Kernyw oy gossymdeythya6 hyt tra wu vyw. Ac yn yr amser h6nn6 yd oed Samuel prophwyt yn gwledychu ym blaen pobyl yr Ysrahel yg gwlat Iudea a Sylvyus Eneas etwa yn vyw yg gwlat yr Eidal. ac Omyr etwa yn traethu y kathleu yn eglur clotva6r.[129]

Ac gwedy urda6 Mada6c yn vrenhin gwreyc a vynna6d a deu vap a vu yda6 o honey. Sef oed yr rey hynny. Mymbyr a Mael. a deugeyn mlyned y bu Vada6c yn hed6ch tagnhevedus yn gwledychu. Ac gwedy marw Mada6c tervysc a kyvodes y rwng y deuvap am e kyvoeth. kanys pob un o nadunt a vynney kaffael e vrenhynyaeth o k6byl. ac eyssyoes Membyr a vynna6d dwyn y enny ef ar perffeythda6t ac wrth hynny ef a wnaeth datleu o eskus gwneuthur llunyeth ar tagnheved yr rygthunt. ac yn y datleu h6nn6 y perys ef llad Mael y vra6t. ac gwedy llad Mael y kymyrth Membyr llywodraeth yr holl teyrnas.[130] a chymmeynt y creulonder a kymyrth enda6 en erbyn y pobyl hyt pan lada6d ef hayach holl dyledogyon y teyrnas or a tebykey ef keyssya6 kyvody yn y erbyn. Ac y gyt a hynny amadau a wnaeth ae wreyc prya6t or hon y ganodoed yda6 yr ardercha6c was ieuanc Efra6c kadarn.[131] ac arveru ac ymrody y pecha6t Sodoma a hynny yn erbyn dedyf ac anyan yr hyn oed kassach kan Dyw no dym arall.[132] ac val yd oed yn hely dywyrna6t yn yr ugeynvet wulwydyn oe arglwydyaeth y wrth y kytymdeythyon y mewn glyn koeda6c yd ymkynnullassant yn y pen lluossowgrwyd o vleydyeu kyndeyrya6c. ac yn truanhaf y llyghassant ef.[133] ac yn yr amser hunnu yd oed Sawl un vrenyn yn yr Ysrahel. ac Eurystheus yn Lacedemonya.[134]

Ac yna gwedy marw Membyr yd urdwyt Efra6c y vab ynteu yn vrenhyn. Gwr mawr y twf ac anryved y kedernyt ae dewred oed h6nn6. Ac un wulwydyn eyssyeu o deugeynt y bu yn gwledychu ar ynys Prydeyn.[135] Ef gyntaf gwr gwedy Brutus a aeth a llyghes kantha6 y ffreync ac gwedy llawer o ymladeu a llad dyvessured or pobyl ef a dyvu adref kan wudugolyaeth ac amylder o da a golut eur ac aryant kantha6.[136] Ac gwedy hynny ef a adeyla6d dynas.[137] or parth dra6 y avon Humyr. ac ae gelwys oe enw ehun Kaer Efra6c. ac yn yr amser h6nn6 yd oed Davyd prophwyt yn vrenyn yg Kaerssalem a Sylvyus Latymis yn vrenyn yn yr Eydal. a Gad a Nathan ac Assaf yn prophwydy yn yr Ysrahel. ac y gyt a hynny hefyt Efra6c kadarn a oruc kaer Alclut kyverbyn ac Yskotlont.[138] a chastell mynyd Agned yr h6nn a elwyr yn awr kastell y morynyon ar vynyd dolurus. Ac y gyt a hynny hefyt ef a anet yda6 ugeyn meyb o ugeyn wraged a oedynt yda6. a deugeyn mlyned yn wychyr kadarn y gwledych6s ar holl teyrnas ynys Prydeyn ac ys ef oedynt enweu y meybyon.[139]

Brutus Taryan las. oed y map hynaf yda6[140] Maredud. Seyssyll. Rys. Morud. Bleydud. Yago. Bodlan. Kyngar. Yspadaden. Gwa6l. Dardan. Eydol. Yvor. Hector. Kyngu. Gereynt. Run. Asser. Howel. Ac ys ef oedynt enweu y verchet ef.[141] Gloewgeyn. Ignogen. Euda6s. Gwenllyant. Gwawrdyd. Agharat. Gwendoleu. Tanghwystyl. Gorgon. Medlan. Methael. Efrar. Maelvre. Kamreda. Ragau. Gwael. Ertus.[142] Rest. Keyn. Stadud. Efren.[143] Blayngeyn.

Avallach. Angaes. Galaes teccaf morwyn oed honno or a wu ygkytoes a hy yn ynys Prydeyn a Ffreync.[144] Gweyrvyl. Perweur. Eurdrec. Edra. Anor. Stadvalt. Egron. Ar rey hynny oll a auvones Efra6c hyt at Sylvyus ygar oed yn vrenyn yn yr Eydal. ac enteu ae rodes wynt yr gwyr bonedykaf a hanoedynt o genedyl Tro. ar meybyou a aethant a llyghes kanthunt ac Asser y bra6t yn tewyssa6c arnadunt hyt yn Germanya ac o kanhwrthwy Sylvyus wynt a oreskynnasant y wlat honno ac a gwledychassant yndi.[145]

Brutus hagen Taryan las ehun a trygós y gyt ac tat yn yr ynys órth kymryt y teyrnas gwedy ef a deudec mlyned y gwledychós ynteu gwedy y tat.[146]

Ac yn ol Brutus Taryan las y deuth Lleon y vap ynteu. Gwr oed hónnó a karey kedóch. ac gwedy gwelet o hona6 y kyvoeth yn llwyda6 ac yn hedychu pop peth órth y gyghor ef a adeyla6d dynas yg gogled yr ynys hon ac ac gelwys oe enw ehun Kaer Lleon ac yn amser hónnó yd adeylós Selyf themyl yr Arglwyd yg Kaerussalem ac y deuth brenhynes Sabba y waranda6 y doethynep ef. ac y deuth Sylvyus ypytus yn lle y tat yn vrenyn yn yr Eydal. ac yn dywedd y oes llescu a wnaeth. a phum mlyned ar rugeynt e bu yn gwledychu. Ac oy lesked ef ar dywed y oes y kyvodes ef kytórada6l tervysc yn y teyrnas.[147]

Ac góedy Lleon y gwledychós Run Paladyr vras y vap ynteu un wlwydyn eyssyeu o deu ugeynt hónnó a duc y pobyl oc eu tervysc ar tagnheved a duhundep. Ac ef hevyt a adeylós Kaer Keynt. a Chaer Wynt. a Chastell mynyd Paladyr. yr hon elwyr yn awr Kaer Septon. ac yna tra adeylut y gaer honno y bu eryr yn proffwyda6 ac yn dywedyt darogoneu yr ynys hon. Ar amadrodyon hynny bey tebykón y eu bot wynt yn wyr ny ochelón y eu hyskryvennu wynt megys yr rey ereyll.[148] Ac yn yr amser yd oed Cappys Sylvyus yn vrenyn yn yr Eydal. ac Aggeus ac Amos. ac Hyeu a Iohel ac Azaryas yn proffwydy yn yr Ysrahel.

Ac gwedy marw Run y deuth Bleidud y vap ynteu yn vrenyn ugeyn mlyned ar y teyrnas hon. ar gwr hónnó a adeylós Kaer Vadon. ac a oruc yndy yr enneynt twymyn yr medygynyaeth ac artymyr yr marwa6l.[149] Ar gweythret hónnó a aberthós ef yr dwywes a elwyt Mynerva. ac adan yr enneynt hónnó y gossodes ev tan heb dyffody byth yn wrychyon nac yn llwdw. namyn pan dechreuey dyffody yna eylweyth yd ymchweley yn tana6lyon pelleneu kerryc. Ac yn yr amser hónnó y gwedyós Helyas hyt na delhey glaw. ac e bu hep dyvot un davyn glaw chwemys a theyrbl yned yg gwlat Kaerussalem.[150] Ar Bleydud hónnó dyrva6r ethrylyth a kavas. ac ef yn kyntaf a dyskus kelvydyt nygromans trwy teyrnas enys Prydeyn. Ac ny orffowyssós ef o dychemygu kelvydodeu a chyóreynrwyd hyt pan wnaeth eskyll ac adaned yda6 ehun a phrovy ehedec trwy orwchelder yr awyr. Ac yna y syrthyós ynteu ar temhyl Apollo yn Llundeyn. ac yd yssygós ef yna yn llawer o dryllyeu. ac yna y kladwyt.[151]

Gwedy rody Bleydud yr tyghetvenneu y dyrchawyt Llyr y vap ef yn vrenyn. A thry ugeyn mlyned y bu ef yn wychyr ac yn óra6l yn gwledychu y teyrnas.[152] A Llyr hónnó a adeylós dynas. ar avon Sorram ag ae gelwys yn Kymraec Kaer Llyr. ac yn Saysnac y gelwyr Leyrcester.[153] ac ny bu yda6 ef un map namyn teyr merchet. ac ys ef oedynt enweu yr rey hynny. Gonorylla. Raga6. Gordeylla. a dyrva6r karyat oed kan eu tat udunt. Ac eyssyoes mwy y karey y verch yeuhaf yda6 nor dwy ereyll.[154] A phan ydoed ef yn llythra6 parth a heneynt medylya6 a oruc pa wed yd adawey y kyvoeth oy verchet gwedy ef. Ac ys ef a wnaeth provy pwy wuyhaf oy verchet ae karey megys y galley ynteu ada6 o honno y ran oreu or kyvoeth kan wr. a galw a wnaeth attaw Gonorylla y verch hynaf ydaw a gofyn ydy pa veynt y karey hy ef. a thyghu a oruc hytheu yr nef ac yr dayar bot yn wuy y karey hy ef noe henćyt ehun. a chredu hynny a wnaeth ynteu a dywedwyt wrthy kan oed kymeynt y karey hy ef a hynny yr rodey ynteu hy yr gwr a dewyssey yn ynys Prydeyn a thrayan y kyvoeth genthy.[155] Ac yn ol hynny y gelwys ef Ragau atta6 y verch eyl hynaf a govyn y houno pa veynt y karey hytheu ef a thyghu a wnaeth hythau y kyvoeth nef a dayar hyt na alley dywedwyt ar y thava6t leveryd meynt y karey hy ef. a chredu hynny a wnaeth ynteu. ac ada6 y rody hytheu yr gwr a dewyssey a thryded ran y kyvoeth genthy.[156] Ac gwedy hynny y gelwys ef Gordeylla y verch yeuhaf yda6 atta6. yr hon a karey ef yn wuyhaf a govyn ydy hytheu pa veynt y karey hytheu ef. Ac yna atnabot a wnaeth Gordeylla rycredu oy tat y yr amadrodyon anlyedus tóyllodrus rydyóedyssyat y chwyoryd órtha6. a phrovy y that a oruc. a gurthep yda6 yn amgen noc y górthesbessynt wy yda6 ef. Ac ar e wed honn e rodes hytheu atteb yda6. Ny chredaf y bot merch a allo

karu y that yn wuy noc y dely hy y caru. nac ae dywetto onid trwy gellweyr kan gelu g6yryoned.[157] Ac 6rth hynny myvy ath kereys ty eyryoet megys tat ag et6a hep peydya6 or arvaeth h6nu6. ac o cheyssy m6y no hynny gwaranda6 dy dyheur6yd meynt dy garyat dy genhyf y a gossot tervyn yth orcheston. ac ysef yw hynny yn y meynt y bo de kyvoeth ath yechyt ath de6red. yn y veynt honno y karaf y ty.[158] Ac ena kyffroy a llydya6 a oruc y that wrthy. a thebygu mae o dyhewyt i challon y dy6edassey hy yr amadrodyon hynny a hep annot dy6edwyt wrthy val hyn. kanys yn y veynt honno yd ebryuygeyst ty heneynt dy tat ty hyt na charut ty ef megys de chwyoryd ty. Mynheu ath varnhaf ty yn diran.[159] y gyt ac 6ynteu o ynys Prydeyn. Ry dywedaf y kan wyt merch ym na rodwyf y ty y wr os y tyghetven a damweynya hynny. hyn hagen a kadarnhaaf na by'dy vyth un anryded ath ch6yoryd. kanys m6y eyryoet y kereys y ty dy noc wyntwy. a thytheu ym karu ynheu yn lley noc wynt6y.[160] Ac yna hep un gohyr o kyghor y wyrda ef a rodes y d6y verchet hynaf yda6 yr deu tewyssa6c nyt amgen tewyssa6c Kerny6 ac un gogled a hanner yr ynys kanthunt hyt tra vey vy6 ef. ac gwedy bey var6 ynteu llywodraeth yr holl ynys udunt yn deu hanner.[161] Gwedy hynny Aganyppus brenyn Ffreync a kygleu clot teked Gordeylla nat oed nep or a alley y chyffebu o pryt a gosged a theg6ch.[162] ac anvon kennadeu a wnaeth hyt ar Lyr y that oy erchy yn wreyc yda6. Ac ys ef y dywa6t y that yn atteb yr kennadeu kan parhau yn y lyt ae kyffro wrthy. my ae rodaf ep ef yn llawen hep arkyvreu. a hep da kenthi. kanys y kyvoeth a rodassey yr merchet ereyll. ae eur ae aryant.[163] ac gwedy mynegy hynny y Aganyppus o karyat y vor6yn ef a anvones y kennadeu ey16eyth trachevyn a dy6etpwyt.[164] bot yda6 ef dyga6n o eur ag aryant a chyvoeth ac nat oed dym eyssyeu arna6 ef namyn kaffael morwyn vonhedyg dyleda6c or hon y galley gaffael ettyved a kynhalyey y kyvoeth gwedy ef. kanys ef pyeuoed tryded ran Ffreync. Ac yn dyannot y rodet Cordeylla y Aganyppus.[165]

A GWEDY llawer o amser a dechreu o Lyr lescu o heneynt y deu racdywededyc defyon wchot a kyvodassant yg gwrthwynep yda6. ac oreskynnassant yr holl teyrnas ac ae dugant y arna6 ae llywodraethyr hon a llywyassey ef en 6ra6l ac en wychyr ac en clotva6r hyt yr amser h6nn6 ac o kyt duhundep eyssyoes Magla6n tewyssa6c yr Alban ae kenhelys ygyt ac ef a deu ugeynt marcha6c kantha6. rac bot yn kewylyd yda6 y vot hep varchogyon y gyt ac ef.[166] Ac eyssyoes gwedy yspeyt dwy vlyned llydya6 a wnaeth Gonorylla y verch 6rtha6 rac meynt oed o varchogyon y gyt ag ef. kanys kyprys a vydey rwng y wassanaethwyr ony cheffynt y gossymdeyth yn yr amylder y mynnynt. Ac wrth hynny hy a dywaut wrth y gwr bot yn dyga6n oy that ugeyn marcha6c yn y wassanaethu ef ac ell6ng yr ugeynt ereyll y ymdeith.[167] Ac wrth hynny llydya6 a oruc Llyr. ac amada6 a Magla6n a mynet hyt at Hen6yn tewyssa6c Kernyw yr h6nn yr rodassey ynteu Raga6 y verch eyl hynaf yda6. Ac gwedy bot yn llawyn y tewyssa6c 6rtha6. ny deuth eyssyoes pen y wlwydyn hyt pan wu tervysc yr rwng eu gwassanaethwyr. ac wrth hynny llydya6 a oruc Raga6 a gorchymmyn oy that oll6ng y holl ketymdeythyon y gantha6 eythyr pym marcha6c a vydynt yn y wassanaethu.[168] Ac wrth hynny llydya6 oddyeythr mesur a oruc Llyr. ac ymchwelut eylweyth at y verch hynaf yda6 o tebygu trugarhau o honno urtha6 ae kynhal ae varchogyon y gyt ac ef. Sef a oruc hytheu trwy y llyt ae chyffro tyghu y kyvoetheu nef a dayar na chassey un gohyr y gyt a hy ony mynhey gollwng pob un y wrtha6. a bot yn vodla6n y wassanaeth un marcha6c. Ac y gyt a hynny dywedwyt 6rtha6 nat oed reyt y wr kyvoet ac ef un lluossowgr6yd y gyt ac ef. na theulu achwanec y un gur ae gwassanaethay.[169] Ac gwedy na chaffey ef dym or a keyssyey gan y verch ellwng y varchogyon a oruc oll y ymdeyth eythyr un y gyt ac ef. Ac gwedy bod y velly rynna6d o hona6. dwyn ar gof a oruc y kyvoeth a hen teylygdaut ae anryded. ae vedyant. a thrystau yn va6r a medylya6 am veynt y trweny ry dygwydassey ynteu yda6. a medylya6 hevyt gowya6 y verch ar ry athoed yda6 y Ffreyngc ac ovynhau hynny hevyt a oruc rac mor dygarat y gellyghassey y kantha6.[170] Ac eyssyoes ny all6s ef a vey hwy dyodef envyget ac amarch kymmeynt ac a oed arna6. Ac yna kychwyn parth a Ffreync a wnaeth.[171] Ac gwedy y vynet y mewn y llong ac na weley nep 6rth y oscord ef namyn ar y trydyd. kan wylaw e dywa6t ef yr amadra6d h6nn.[172] Ae chwy yr anweledygyon tyghetvenneu pa le y kerd6ch chwy tros ych gnotaedygyon hynt pa acha6s yd ardyrchaussa6ch chwy vyvy eyryoet ac ar orwchelder anryded. kanys mwy poen yw koffau prythverth6ch a chyvoeth gwedy y koller kanys dyodef aghanoctyt hep ordyvneyt prythverth6ch kyn no hynny. Mwy y gorth-

rymma hedyw cof yr amser h6nn6 yn yr h6nn yd oed6n damkylchynedyg or sa6l kan myl o varchogyon yn anreythya6 gwladoed vygelynyon. ac yn destryw eu kestyll ac eu dynasoed no dyodef poen yr anghanctyt a wnaeth y gwyr hynny y my yr rey a vydynt yna adan vyn traet ynheu Owy a Dwyweu nef a dayar a da6 amser y gallwyf y talw chwyl en y gwrthwynep yr gwyr hynny yr rey ry oruc ymynheu dyvot yn yr aghanoctyt hon. och Cordeylla vyg karedyg verch y mor wyr yr amadra6d teuty. pan dywedeyst ty pan yw val y bey vyg gallu am medyant am kyvoeth y a gallw rody da o honaf. pan yw yvelly y karut ty vyvy. Ac wrth hynny tra uv vygkyvoeth a gallu rody o honaf pa6b am karey. ac nyt my hagen a kerynt namyn vy rodyon am donyew. a phan kylyws y rey hynny y kylyasant wynteu. Ac wrth hynny o pa tal vyg karedyg verch y llavasaf yr ac kewylyd kyrchu dy kyndrychyolder o acha6s ry sorry o honaf fy wrthyt ty am yr amadrodyon hynny ath ry ell6ng dytheu dy anrhydedusach noch ch6yoryd ty. yr rey g6edy hey sa6l anrhyded a rodeys y udunt wy am dugant ynheu yn dyanrydedassant ynheu. ac a dan kwyna6 y agkyvnerth ae aghanoctyt yn y wed honno ef a doeth hyt yg Karytya y dynas yd oed y verch ynda6.[173] Ac anvon kennat a wnaeth at y verch y venegy ydy y ry6 agkyvnerth rykyvaroed ac ef. ac nat oed ydaw na b6yt na dillat ae vot ynteu yn dyvot y keyssya6 y trugared hytheu. a phan kycly y verch yr amadrodyon hynny wyla6 a oruc a govyn pa sa6l o varchogyon a oedynt y gyt ac ef. ac g6edy dy6ed6yt or kennat nad oed namyn ef ac un es6eyn y gyt ac ef. Sef a oruc hytheu yna kymryt amylder o eur ac aryant ac anvon yn llaw y kennat. ac erchy mynet ae that odyno hyd ym mewn dynas arall. a chymryt. arna6 y vot yn glaf a g6neuthur enneynt yda6 ae artymheru a symuda6 y dyllat. a chymryt attau tryugeyn marcha6c ac eu kyweyrya6 yn hard kymyrredus o veyrch a dyllat ac arveu. A gwedy darffey hynny anvon o vlaen at Aganyppus brenyn Ffreync ac at y verch ynteu a dywed6yt y vot yn dyvot. A g6edy darvot gwneuthur pop peth o hynny. anvon a oruc Llyr kennat at y brenyn ac at y verch ynteu a dywed6yt y vot yn dyvot ar y try ugeynt marcha6c.[174] g6edy ry dehol oe deu dofyon o ynys Prydeyn yn dyanrydedus ac yn dyvot y keyssya6 porth y ganthunt y oreskyn y kyvoeth trachevyn. a phan kygleu y brenyn hynny kych6yn a wnaeth ef ae 6reyc ae teulu oe erbyn yn anrydedus mal yd oed teylwng erbyneid g6r kyvurd ac ef ac a vey yn vrenyn yn kyhyt ac y buassey ynteu. A hyt tra wu ynteu yn Ffreync y rodes y brenyn yda6 lly6odraeth holl teyrnas Ffreync hyt tra vydynt wynteu yn kynnulla6 llu yda6 ef 6rth oreskyn y kyvoeth ehun yda6.

Ac yna yd anvonet gwys tros teyrnas Ffreync y kynnulla6 y holl varchogyon arva6c urth eu hell6ng y gyt a Llyr y oreskyn ynys Prydeyn yda6 trachevyn. Ac gwedy bot pop peth yn para6t kych6yn a oruc Llyr a Chordeylla y verch y gyt ac ef ar llu h6nn6 kanthynt hyt pan deuthant hyt yn ynys Prydeyn.[175] Ac yn dyannot ymlad yn erbyn y dofyon a oruc a chaffael y wudugolyaeth. Ac g6edy g6edu pop peth yda6 yn y tryded wl6ydyn gwedy hynny y bu var6 Llyr. ac y bu var6 Aganyppus brenyn Ffreync ac yna y kymmyrth Cordeylla lly6odraeth teyrnas ynys Prydeyn yn y llaw ehun ac y clad6yt Llyr mewn dayar ty a wnathoed adan avon Sorram yg Kaer Llyr. Ar temhyl honno ry6nathoed Llyr yn anryded yr dy6 a el6yt Biffrontis Iania phan delhey g6ylva y demhyl honno y deuhynt holl creft6yr y dynas h6nn6 ar rey y wlat hyt yd ymkyrraedynt oy anrhydedu. ac yno y dechreuynt pob g6eyth or a dechreuynt hyt ym pen y wl6ydyn or un amser hunnu.[176]

Ac yna g6edy g6ledychu Cordeylla tr6y yspeyt pym mlyned yn heduch tagnevedus y kyvodassant y deu neyeynt meybyon y ch6yoryd nyd amgen Margan vap Magla6n a Chuneda vap Henwyn a dechreu ryvelu arney kanys bl6ng ac antheil6ng oed kanthunt bod llywodraeth ynys Prydeyn urth vedyant g6reyc. Pob un hagen or deu was yeueync hynny moledyc a chlotva6r oedynt. ac yna kynnulla6 llu mawr a wnaethant. ac ny orffwyssassant hyt pan anreythyassant y gwladoed. ac or dywed ey daly hythau au cbarcharu. ac yn y karchar hunnu y dolur kolly y chyvoeth y g6naeth e hun y dyhenyd. Ac odyna y rannassant wynteu y teyrnas yn deu hanner yr rygthunt. ac y deuth y Vargan or parth dra6 y Humyr y gogled gan y thervyn. ac y Cuneda y parth yma y Humyr Lloegyr a Chymry a Cherny6.[177] Ac gwedy llythra6 d6y vlyned y deuthant ar Vargan y g6yr a keryn dervysc ac anuundep a lleuwy y vryt ae ved6l o tervysc a dywed6yd 6rtha6 bot en ke6ylyd ac yn waradóyd yda6 ac ef yn hynaf bot deuparth y kyvoeth yn eydav Kuneda ac ynteu yn yeuaf. A Margan yn hynaf ac ar ran leyhaf.[178]

Ac yna gwedy llen6y Margan or amadrodau hyn a llawer or rey ereyll ef a kyn-

nullós llw a dechreu anreythya6 kyvoeth Cuneda o lad a llosci ac gwedy dechreu or ryvel h6nn6 yr rygthunt kynnulla6 llu a oruc Cuneda adyvot yn y erbyn a brwydra6 ac ef a gwneuthur aerva va6r oe lu ae kymmell ynteu ar ffo o wlat p6y gylyd hyt pan deuth hyt ym mewn maes ma6r yg Kymry ac yna rody kat ar vaes. ac yno y llas Margan. ac oe en6 ef y gel6yr Maes Margan yr hynny hyt hedy6. Ac yno y mae manachloc Vargan yn a6r.[179] Ac g6edy y wudugolyaeth honno y kymyrth Cuneda holl teyrnas ynys Prydeyn. ac y gwledych6s Cuneda yn hed6ch tagnevedus teyr blyned ar dec ar ugeynt. Ac yn yr amser yd oedynt Ysayas oc osee yn proph6ydy yn yr Israhel ac a adeyly6yt Ruveyn gan y deu vroder. Remus. a Romulus. yn yr unvetdyd ar dec cyn kalan mey.[180]

Gwedy marw Cuneda y deuth Rywalla6n y vap ynteu gwedy ef. g6as yeuanc tagnhevedus a tyghetvenna6l oed h6nn6. ac ef a gwledych6s tr6y karyat a thagneved. ac yn y amser ef y deuth glaw g6aet. ac y buant var6 y dynadon y. gan y Kak6n tr6y y glaw gwaetlyt yn eu llad.[181] Ac yn ol hunnu y deuth Gwr6st y vap ynteu. Gwedy h6nn6 Seyssyll. gwedy h6nn6 Iago ney Gwr6st. .g6edy h6nn6 Kynvarch vap seyssyll yn nessaf Kynvarch G6rfyw dygu. ac y h6nn6 y ganet deu vap Servex a Phorrex.[182] ac gwedy dyg6yda6 eu tat yn heneynt y kyvodes tervysc yr rygthunt wynteu am y vrenhynyaeth. ac ys ef a oruc Porrex o wuyhaf ch6ant y kyvoeth keyssya6 llad y vra6t trwy vrat. ac gwedy klybot hynny o Fervex ef a ffoes hyt yn Ffreync. ac odyna. yd ymchwela6d trachevyn a phorth kantha6 y gan Sywart brenyn Ffreync. ac ymlad a oruc a Phorrex y vra6t. ac yn yr ymlad h6nn6 y llas Fervex ar kynnulleyt6a a dothoed y gyt ac ef.[183] a g6edy g6ybot oc eu mam wynt yr hon a el6yt Widon ry lad y map. Sef a oruc hytheu medylya6 llad Porrex y map y byw yn dyal y map mar6. Ac gwedy kaffael o honey lle ac amser adas y hynny ac ef yn kyscu hy ae lla6vor6ynyon a doethant yr ystavell. ac yn llawer o dryllyeu wy ae rannasant ac gwedy hynny trwy lawer o amser ky6da6da6l ryvel a tervysc ymplyth y pobyl ar teyrnas a tan pym brenyn yn rannedyg. ar rey hynny pob eylwers yn ryvelu ar y gylyd. ac yn newydya6 aerva.

DYFYNWAL MOELMUT.

Ac g6edy hynny ym pen yspeyt y kyvodes molyant a chlot gwas yeuanc clotva6r ac ys ef oed h6nn6 Dyfynwal Moelmut map Klytno tewyssa6c Kerny6. ac o pryt a theg6ch a glewder rac vlaenu a wnaey rac oll vrenhyned ynys Prydeyn. Ac gwedy mar6 y tat a chaffael o hona6 ynteu y kyvoeth. kyvody a oruc Dyvynwal yn erhyn pymet brenyn Lloegyr a dechreu ryvelu arna6. ae lad a gorescyn y kyvoeth. Ac gwedy llad Pymer kytvuna6 a wnaethant y gyt Nyda6c vrenyn Kymry. ac Stater vrenyn y gogled ac wedy ymarvoll o nadunt dechreu lludha6 am penn kyvoeth Dyvynwal ac anreythya6 y gwladoed ac eu lloscy.[185] Ac yn y lle yn dyannhot Dyfynwal a deuth yn eu herbyn a dec myl ar rugeynt o wyr arva6c kantha6 ar rody kat ar 6aes udunt. Ac gwedy treulya6 llawer or dyd ac na weley Dyfynwal y wudugolyaeth yn damweynnya6 yda6. ef a kymmyrth atta6 ar neylltu chwechann6r or gweyssyon ieueync glewhaf a wydyey ac erchy y pob un o hynny gwysca6 arveu eu gelynyon yr rey ryladessynt ac ynteu ehun a wysk6s y arveu ac a wysk6s arveu g6r lladedyg a dywed6yt wrth y kytemdeythyon val hyn. kanlyn6ch ch6y vyvy a gwne6ch megys y gweloch vynheu yn y wneuthur. Ac yna kerdant racdunt. a gwnaethant trwy eu gelynyon megys kyt bydynt rey o nadunt yn y doethant hyt y lle yd oedynt Nyda6c ac Stater. ac yna annoc y kytemdeythyon a oruc ac ym perved eu bydyn eu llad yll deu. Ac gwedy hynny yn dyannot y dyodassant wy y gelynya6l arveu hynny y am danunt a chymryt y harveu ehuneyn rac ovyn eu kywarsanghu oc eu gwyr ehuneyn. Ac yn y lle ymchwelut ar y gelynyon ac eu llad ac eu ffo a chaffael e wudugolyaeth. Ac odyna kerdet a oruc tros wladoed y brenhyned hynny gan eu gorescyn a gwascaru y muroed ar kestyll a darest6ng y pobyl 6rth y arglwydyaeth ehun a chymryt ynys Prydeyn or mor pwy gylyd yn eyda6 ehun.[186] Ac gwedy darvot yda6 hedychu a tagnhevedu pob peth ev a oruc Coron yda6 o eur a gemeu ac y duc yr ynys ar y hen deylynda6t. ag o dyna gossot kyvreythyeu arney or rey yd arverant y ssaysson ettwa. Ac o dyna rody nodvaeu a breynhyeu yr dynassoed ac yr temlheu megys y hyscryfenn6s Gyldas tr6y lawer o amseroed gwedy hynny megys y galley y nep a wneley kam kaffael dyogel6ch yndunt ac a rodes yr unryw vreynt h6nnw y erydyr y byleynyeyt ar tyr dywyllodryon. ac yr pryffyrd a kyrchynt dynassoed ar petheu hynny oll yn kymmeynt eu breynt ac eu rodva ar rey doed yr temlheu.[187] Ac y gyt a hynny yn oes Dyfynwal y pylywyt kledyveu a grybdeyl y treiswyr. Ac yn y oes

ef nyd oed neb a lavassey gwneuthur kam na treys ar y gylyd. Ac gwedy kyflen6y deu ugeyn mlyned o hona6 gwedy kymryt coron y vrenhynyaeth y bu var6 ac yn Llundeyn y cladwyt ker llaw temhyl tagnheved yr hon a wnathoed ynteu wrth kadarnhau y kyvreythyeu rywnathoed.[188]

O Vely a Bran i traetha hynn.

Gwed mar6 Dyfynwal y kyvodes tervysc yr rwng Bely a Bran y deu vap ynteu am y vrenhynyaeth pwy a nadunt ae kaffey. Ac gwedy llawer o kynnhen a datleu y tangnevedut trwy kytemdeythyon a doethyon ar y wed honn. Ac ys ef a orugant rannu y teyrnas yr rygthunt. a gadu y Veli coron y deyrnas a Lloegyr a Chymry kanys hynaf oed. kanys o herwyd hen kynevaut gwyr Tro y map hynaf a dyley y deylygtaut. ac y Vran kanys yeuhaf oed or parth arall y Humyr a darestyghedygaeth oy vra6t.[189] Ac gwedy darvot eu tagnhevedu a chadarnhau hynny yr rygthunt pym mlyned y buant trwy hed6ch yn llywyau eu kyvoeth. a chanys tervysc ac annundep ny charant hed6ch na tagnheved. dychmygwyr kelwyd a doethant at Vran a dywedwyd 6rtha val hyn. pa acha6s y gwney ty g6ryogaeth a darestyghedygaeth y Veli dy vra6t. a pha lesked ath duc y hynny. a thi yn unvam undat ac ef ac yn un voned ac yn un dylyet ac yn un vreynt.[190] Ac y gyt a hynny yn llawer o kyvrangheu ac ymladeu provedyc a chlotva6r wyt. yn y gniver gweyth y deuth Thelff tewyssa6c Moryan yth wlat ti. ti a elleyst gwrthwynebu yda6. ac yn waradwydus y kymmell ar ffo.[191] Ac wrth hynny torr y tagnheved y syd waradóyd yt y chad6. a chymer merch Elsyng brenyn Llychlyn yn bryot wreyc yt hyt pan vo tr6y porth h6nn6 ae nerth y gellych dytheu kaffael de teylygda6t ath dylyet ry golleyst. Ac 6rth hynny gwedy darvot udunt trwy yr amadrodyon hynny a llawer or rey ereyll llenwy bryt a med6l y g6r yeuanc ef a wnaeth eu kyghor ac aeth hyt yn Llychlyn ac a kymyrth y vorwyn honno yn wreyc yda6 megys y dyskessynt y bradogyon twyllwyr anhyedwyr hynny ef.

Ac gwedy mynegy hynny oy vraut ynteu. nyt amgen y vynet y keyssya6 porth yn y erbyn ef yn y lle sef a oruc ynteu kynnulla6 llu a mynet racda6 a gorescyn y kyvoeth ynteu a gossot gwyr yda6 ehun y kad6 y dynassoed ar kestyll.[192] Ac yn y lle pan kygleu Vran y chwedleu hynny. ef a kymyrth kantha6 aneyryf luossogrwyd or Llychlynwyr ac gwedy bot yn para6t y lyghes ymchwelut a wnaeth parth ag ynys Prydeyn. Ac mal yd oedynt yn r6yga6 moroed yn hyfrytaf gantha6 ar gwynt yn r6yd yn eu hol ynachaf Gwythlach brenyn Denmarc yn kyvarvot ac ef. kanys mwyhaf gwreyc a karrey Wythlach oed y vorwyn ar vynnassey Vran. ac 6rth hynny ry dothoed ynteu oy erlyt ef. ac yn dyannot ymlad a wnaethant o longha6l wrwyder. ac yna o damweyn y kavas Gwythlach y llong yd oed y vorwyn yndy a bwr6 bacheu arney ae thynnu hyt ym perved y llongeu ehun.[193] Ac mal yd oedynt y velly yn ymlad a pob parth ar warthaf yr eygya6n ynachaf yn dyssevyt y gwynhyeu gwrth6ynep yn chwythu ac yn temhestlu y weylgy ac yn gwaskaru eu llongeu y amravaclyon traetheu. Ac yna trwy elynya6l treys y gwynhoed gwedy y vot ar va6t trwy yspeyt pym nyeu y b6rywyd brenyn Denmarc y gyt ae vorwyn kan ergrynnedyc ovyn yr gogled yr tyr. ac ny wydyat ef hagen pa wlat y bwryessyt ydy.[194] Ac gwedy eu gwelet o wyr y wlat eu daly a wnaethant ac eu dwyn hyt at Beli. kanys yn yr amser h6nn6 yd oed ef ar glan y morbenn oed hynny yn aros dyvodedygaeth Bran y vra6t. Ac gyda llong Gwythlach yd oedynt teyr llong or rey hynny a hanoed o lyghes Vran. ac gwedy mynegy yr Brenyn pa beth oedynt ar damweyn a daroed udunt llawenhau a oruc or ry kyvarvot or damweyn h6nn6 yda6. kanys yd oed ey vra6t yn mynnuryvelu yn yerbyn.[195]

Ac g6edy yspeyt ychydyc o dydyeu ynacbaf Bran gwedy rykynnulla6 y logheu ac yn dyskynnu ar tyr yr Alban. A gwedy mynegy y Vran ry daly brenyn Denmarc ae wreyc ynteu. yn y lle anvon kennadeu a oruc hyd at Vely ac erchy yda6 etvryt y kyvoeth ae wreyc yda6. ac onys advereday tyghu a oruc y kyvoetheu nef a dayar yr anreythyay yr ynys or mor pwy gylyd a y lladey ynteu o chaffey lle y ymkyvarvot ac ef.[196] Ac g6edy mynegy hynny y Vely naccau yn dyannot o k6byl a oruc. a chynnulla6 holl varchogyon arva6c ynys Prydeyn ae holl dewred a dyvot yn y erbyn hyt yr Alban y ymlad ac ef. Ac gwedy gwybot o Vran yr rynaccau or peth ry archassey a bot y vra6t yn dyvot ar y wed honno. ynteu a deuth yn y erbyn hyt yn llwyn y Calatyr 6rth ymkyvarvot ac ef.[197] ac gwedy kaffael o pob un o nadunt y maes h6nn6. gossot a orugant eu kytemdeythyon trwy vydynoed a dynessau gyt a dechreu ymlad a llawer or dyd a drewly6yt yn ymlad. kanys y gwyr deurhaf a moledykaf a danossynt eu deheuoed pob rey oy gylyd o nadunt. Ac y gyt a hynny llawer o

crew a gwayt a ellyghassant o pob parth. kanys yr ergydyeu a ellyghynt oc eu holl nerth agheuolyon welyeu a dyporthynt. Ena y syrthynt y gwyr brathedyc ymplyth y bydynoed megys y ssyrthyey yt e kynhayaf pan vydynt y medelwyr da yn amrysson. Ac or dywed gwedy gorvot or Brytanyeyt ffo a wnaethant y Llychlyn6yr yn yd oedynt yssyc eu bydynoed y eu llongheu. Ac yn yr ymlad h6nn6 y llas o nadunt pymtheg myl ac ny dyeghys mil o nadunt yn yach. Ac o vreyd y kavas Bran yna un llong megys y rann6s y tyghetven yda6. Ac odyna yd aeth hyt yn traetheu Ffreync. Ar rey ereyll oll megys y ranney damweyn eu tyghetven udunt y ffoassant.[198]

Ac g6edy kaffael o Veli y wudugolyaeth honno galw atta6 y wyrda hyt yg Kaer Efra6c a oruc a govyn kyghor udunt peth a 6nelyt am vrenyn Denmarc. kanys oe karchar anvon kennadeu a rywnathoed hyt at Veli y gynnyc ydau darestyghedygaeth a theyrnget pob blwydyn o Denmarc ae 6yrogaeth ynteu yr y ell6ng ef ae orderch yn ryd oy wlat. Ac y gyt a hynny y kadarnhau y petheu hynny arvoll a g6ystlon kymmeynt a vu dogyn kantha6. Ac gwedy galw y gwyrda megys y dywedp6yd uchot. o kytsynnhedygaeth y holl wyrda ellwng a oruc Beli Wythlach en ryd o karchar ae orderch y gyt ac ef hyt yn Denmarc kan kadarnhau eu hamvot trwy arvoll a gwystlon.[199].

Ac gwedy gwelet o Veli nat oed nep yn y teyrnas a kyhytrey ac ev nac a urthwyneppay yda6 namyn bot yn eyda6 ef yr holl ynys or mor pwy gylyd. ef a kadarnhaus yna y kyvreythyeu rywnathoed y tat. A y gyt a hynny kadarn a gwastat yawnder a gwyryoned a ossodes ac a orchmynn6s eu kad6 tros y teyrnas. Ac yn wuyhaf kadu breynt y dynassoed. a hynny o un ryw vreynt a theylygda6t ac a wnathoed Dyfynwal y tat ynteu kynnoc ef. A chanys kynhen ac amrysson a kyvodassey am y ffyrd kan ny wydyt pa dervyn oed udunt. Urth hynny y brenyn a vynn6s g6rthlad pob petrusder ac amrysson y 6rth hynny. A galw y gyt a wnaeth holl seyry maen yr ynys ac erchy gwneuthur y ffyrd hynny o veyn a chalch. un o nadunt o vor Kernyw ar hyt yr ynys hyt ym mor Kateneys yn y gogled. a honno trwy dynassoed a kyvarfey hy yn unya6n. Ac y gyt a hynny ef a erchys bot arall ar traws yr ynys o Vynyw hyt ym porth Hamen a honno hevyt trwy dynassoed a kyvarfey a hy yn unya6n. Ac y gyt a hynny hevyt ef a erchys gwneuthur dwy fford ereyll yn amryscoew croesygroes. Ac gwedy darvot oll ef ae teylygh6s wynt o pob anryded a breynt hyt na lavassey nep gwneuthur ar rey hynny na cham na threys na sarraet oy gylyd. A phwy bynnac a vynno yn llwyr gwybot breynhyeu y ffyrd hynny keyssyet ef kyvreythyeu Dyvynwal Moel Mut yr rey a ymchwelus Gyldas o Kymraec yn Lladyn. Ac gwedy hynny a ymchwelus Alvryt vrenyn o Ladyn yn saysnec.[200] Ac val yd oed Bely yna trwy hed6ch a tagnheved yn wledychu. Bran y vra6t ynteu megys y dywedp6yt wchot a wuryt y traeth Ffreync yr tyr yn ovalus pryderus kanys gorthrum a thryst oed kantha6 yr ry dyhol o tref y tat ac oe wlat ac oe kyvoeth ac nat oed un gobeyth yda6 kaffae dyvot traykevyn oy kyvoeth. A chan ny wydynt pa peth a wnaey. Sef a oruc mynet at tywyssogyon Ffreync a deudec marchauc gyt ac ef. a gwedy mynegy udunt y govut ar trweni ar kyvaroed ac ef. ac na chaffey nep kanwrthwy na nerth y gan un o honunt. Or dywed ef a aeth hyt at Segwyn tywyssa6c Bwrg6yn. ar gwr h6nn6 ae harvolles yn anrydedus ef. Ag gwedy tryga6 o hona6 a phresswylya6 y gyt ac ef kymmeynt wu y kytymdeythyas ac ef ac nad oed er eyl gwr yn y llys a vey kyvurd ag ef. kanys ym pob negys nac yn ryvel nac yn hed6ch clotva6r a molyannus yd ymdangossey hyt pan ydoed y tywyssa6c yn y karu megys kyt bey map yda6.[201] kanys gwas tec oed Vran oe welet oe pryt ac oe osceth. ac aelodeu teyrneyd brenhyna6l yda6. Ac y gyt a hynny megys y gwedey doeth a chyvrwys oed yn hely a gweylch ac a hebogeu a gwedy y vynet ygkaryat kymeynt a h6nn6 gan y tywyssa6c. ef a vynn6s rody y Vran unverch oed yda6 hep ettyved arall yn y gwreycca. ac ony bey un map yr tywyssa6c dygwyda6 y kyvoeth oll y Vran gwedy bey varw y tywyssa6c. Ac y gyt a hynny hevyt ada6 porth yda6 y oreskyn y kyvoeth yn ynys Prydeyn. Ac nad mwy yd adawey y tywyssa6o namyn y holl wyrda yn kyt duun yn ada6 yr un peth h6nn6. Ac ny bu un gohyr y vorwyn a rodet y Vran a tewysogyon y wlat a darystyghasant a llywodraeth y tyyrnas a rodet yda6.[202] Ac ny bu k6byl yspeyt bl6ydyn gwedy hynny y bu var6 y tywyssa6c. ac yna g6edy hynny tewyssogyon y wlat yr rey ry wnathoed Vran yn un ac ef o kytemdeythyas kyn no hynny ny ochel6s eu gwneuthur yn r6ymedyc yda6 oy haylder kan rody udunt eur ac aryant y tywysa6c ar swllt ry kynnullasey

yn eu hoes 6ynteu kynnoc ef. Ac y gyt a hynny y peth m6yhaf a karey y Bwrg6yn6yr haelder o 6uyt a dya6t. ae porth ny cheyt rac nep.

Ag gwedy darvot y Vran tynnu pa6b atta6 ac eu dwyn yn un ac ef. medylya6 a oruc pa wed y galley ef ymdyallia ar Bely y vra6t am ry wnathoed o sarahedeu yda6. Ac g6edy mynegy o hona6 ef hynny oy wyr ac oy kyvoeth kytdunna6 a wnaethant pa6b ac ef a thyghu yda6 yd eynt y gyt ac ef y pob lle or y mynhey yn y byt. Ac ny bu un gohyr kynnulla6 llw ma6r a oruc a chygreyrya6 a gwyr Ffreync y vynet trwy eu gwlat hyt yn ynys Prydeyn yn hed6ch. Ac odyna gwedy parrattoy y llyghes ar traeth Flandrys ar y weylgy ay gyt a hyr6yd wynt yn eu hol y dyskynnasant yn yr ynys.[203] A g6edy hynny y dyvodedygaeth ef. Bely y vra6t ynteu a kynull6s holl yeuenctyt ynys Prydeyn. ac a deuth yn y erbyn 6rth ymlad ag ef.[204] a phan ydoedynt gwedy gossot eu bydynoed o pop parth ac yn kymyscu hayach ynachaf y mam ylldeu oed vyw ett6a yn bryssya6 ac yn kerdet trwy y gossodedygyon vydynoed. ac ys ef oed en6 honno Tonn6en. a dyrva6r ch6ant oed arney g6elet y map ny ry welsey trwy la6er o amser. a gwedy y dyvot trwy ergrynnedygyon kameu hyt y lle yd oed y map yn sevyll b6r6 y breychyeu a orvc am y wunugyl a damdyblygu damunedygyon kussaneu. a g6edy hynny noethy y bronneu a wnaeth a dywed6yt wrtha6 yn y wed hon ac ygyon yn llesteyrya6 yhamadra6d. koffa dy arglwyd vap hep hy koffay bronneu hyn yr rey a segneyst ty ac ath vaeth koffa hevyt ep hy bru dy vam yn y lle yth wnaeth di pensaer yr anwydew yn dyn or peth nyt oed dyn ac odyna ath duc dy yr byt. a dyrva6r poeneu a doluryeu yn poeny vy ymyscaroed. Ac wrth hynny yr aghyvnertheu ar doluryeu a dyodeveys y yrot koffa ty hedyw a dyro vadeueynt yth vra6t a gorffowys y gan y dechreuedyc yrlloned y syd kennyt. kanys ny dyley bot un bar kenhyt yn y yrbyn. kan ny wnaeth ef y ty un sarhaet. Os ef dywedy dy y mae ef ath dyholes ty oth wlat ac otref dy dat. eysyoes ot edrychy dy hynny yn graff ac yn karedyc ny cheffy un enwyred ynda6 ef. kanys nyt ef ath ffoes ty hyt pan damweynhyey a vey waeth yt namyn dy kymmell y ada6 peth bychan ac eskynnu ar vey wuch. Darestyghedyc oedut gynt yda6 ef ar ran o ynys Prydeyn. a phan golleyst hynny yth wnaethp6yt yn kyffelyp yda6 ynteu yn vrenyn yn Bwrg6yn. ac wrth hynny pa peth a wnaeth ef y ty. onyt o brenyn hyn tla6t dy gwneuthur yn oruchel vrenyn. Ac y gyt a hynny hevyt y tervysc a vu yr ryghoch nyt trwyda6 ef namyn trwyot ti y dechre6yt pan keysyeyst ty porth y gan Vrenyn Llychlyn y geysya6 gorescyn ar dy vra6t.[205] Ac g6edy darvot ydy hy trwy ygyon hedychu y ved6l a oruc Bran a tagnhevedu. ac oe vod dyot y penffestyn ac y gyt ae vam dyvot parth ac at y vra6t. Ac y gyt ac y gweles Beli hynny bot Bran a drech tagnheved kantha6 yn dyvot atta6 b6r6 y arveu a oruc ynteu a mynet dwyla6 m6n6gyl ae vra6t. Ac yn dyannot kymmody a wnaethant a dyot eu harveu or bydynoed ac ygyt mynet y kaer Lyndeyn. Ac yno g6edy kymryt kyt kyghor pa beth a wnelynt. parattoi llyghes a wnaethant wrth gych6yn a llw kyffredyn y orescyn Ffreync ar holl wladoed ereyll yn y amgylch wrth eu harglwydyaetheu ac eu medyant.[206]

Ag gwedy llythra6 yspeyt bl6ydyn y kych6ynasant parth a Ffreync a dechreu anreythya6 y gwladoed. Ac g6edy klybot o hynny yn honneyt tros y gwladoed wynt amkynnullassant y gyt holl vrenhyned Ffreync yn eu herbyn 6rth ymlad a h6ynt ac eyssyoes 6edy damwennya6 y 6udugolyaeth y Beli a Bran y Ffreync yn vrathedygyon a ffoasant. ac yn y lle y Brytanyeyt ar Burg6yn6yr g6edy arveru or 6udugolyaeth ae hymlydasant y Ffreync hep orffo6ys hyt pan dalyhasant y brenhyned ac eu kymmell wynteu y wrhau ac y wedu udunt. a chyn y vl6ydyn y keyryd ar dynasoed ar kestyll kedyrn a dy6reydyasant a gorescyn yr holl teyrnas. ac or dywed g6edy darvot udunt goreskyn pob un or teyrnasoed wynt ac eu holl kynnulleitva a aethant parth a Ruveyn kan anreythya6 y gwladoed ar tyr dy6yllodryon trwy yr Eydal.[207]

Ac yn yr amser h6nn6 yd oedynt deu tywysa6c yn gwledychu Ruveyn. Sef oedynt yr rey hynny Gabyus a Phorsenna ac y llywodraeth yr rey hynny y darestyghey gwlat Ruveyn ae hamerodraeth. Ac g6edy g6elet o nadunt nat oed un wlat a alley gwrth6ynebu dym y dywalder a chreulonder Bely a Bran o kytsynhedygaeth Senedwyr Ruveyn y doethant y erchy taghevedd a dyunndep y ganthunt. ac yr kaffael hynny llawer o eur ac aryant yn teyrnget udunt bob pl6ydyn. a gwystlon y kadarnhau hynny. yr gadu udunt wynteu eu kyvoeth yn hed6ch.[208] Ac g6edy kymryt y gwystlon ar hynny y brenhyned a rodes kygreyr udunt a trossassant eu bydynoed parth a Germanya. ac gwedy dechreu o nadunt ryvelu ar y pobloed hynny edyvar

wu gan wyr Ruveyn yr amvot ar rywnathoedynt a gal6 eu gle6der attadunt a mynet yn porth y wyr Germanya.[209] Ac g6edy kaffael or brenhyned gwybot hynny mwy no messur y bu trum kanthunt. Ac yn y lle kymryt kyghor pa wed yd ymledynt ar deu lu. kymeynt o amylder g6yr o wlad yr Eydal a dothoedynt ac yn yd oedynt yn aruthred ofyn arnadunt. ac gwedy kymryt kyghor o nadunt. Beli ar Brytanyeyt a drygassant y ymlad a gwyr Germanya. a Bran ae lu ynteu a kerdasant parth a Ruveyn y dyal arnadunt torry eu kygrheyr ac wynt.[210] Ac yn y lle g6edy gwybot o wyr yr Eydal hynny yn dyannot ymada6 a gwyr Germanya a wnaethant ac ymch6elut parth a Ruveyn. a cheysya6 blaen Bran kyn kaffael o hona6 eyste 6rth y gaer.[211] Ac gwedy mynegy hynny y Veli gal6 a oruc atta6 ei lu a hyt nos bryssya6 a wnaeth hyt y mewn glyn a gavas o vlaen y elynyon y fford y deuynt.[212] Ac yno llechu a wnaeth ac arhos eu dyvodedygaeth a phan yd oed y dyd trannoeth yn dyvot gwyr yr Eydal a doethant hyt yr un lle h6nn6. Ac g6edy g6elet y glyn o nadunt yn echdy6ynnygu o arveu y gelynion yn y lle kynhyrvu a orugant a thebygu y mae Bran ar Burg6yn6yr a g6yr Ffreync y gyt ac ef.[213] Ac yna eyssyoes yn dyannot eu kyrchu a oruc Beli yn dyssyvyt ac yn wychyr. Ac ny bu un gohyr yr Ruveynwyr g6edy eu damkylchynu yn dyssyvyt ac yn dyarveu dyarvot heb un urdas yn dypryt kan ffo ac ada6 y maes. Ac yna hep wared a hep trugared eu herlyt ac eu llad a wnaeth Beli hyt pan duc y nos lleuver y dyd y kanthunt ac na ellynt eylenwi y dechreuedyg aerva honno.[214] Ac odyna gan wudugolyaeth y kyrch6s at Vran y vra6t yn trydyd yda6 yn ymlad ar kaer. Ac yna gwedy dyvot y deu lu ygyt yn dyannot o pob parth yr dynas ymlad ar dynas ar kaer a cheyssyau y dystryw. A hyt pan vei mwy gwarad6yd udunt dyrchavael ffyrch a g6naeth rac bron y porth a mynegy yr rey ym mewn mae yn yr rey hynny y crogynt eu gwystlon ony rodynt y dynas.[215] ac ys set a wnaethant wynteu kan tremygu eu meybyon ac eu hwyryon a chynnal y dynas arnadunt ac eu hamdeffyn eu hun. ac o amravaelyon kelvydodeu a pheyryanneu yn erbyn eu peyryarheuw ynteu. Gweythyau ereyll o pob kyvryw kenedloed ergydyeu yd ymledynt. Ac g6edy g6elet or brodyr hynny ennynnu o creula6n ag agar6 yrllon-ed a wnaethant ac hep annot pery crogy pedwar gwystyl ar rugeynt or rey bonhedykaf a dyledokaf o wyr Ruveyn. ac 6rth hynny g6rthb6ythach a gle6ach 6uant y gwyr o veun kanys kennadeu Gabyus a Phorssenna rydoded attadunt a mynegy udunt y denynt wynteu trannoeth y nerth udunt.[216] ac arvaethu mynet or kaer allan ar rody kat ar vaes udunt. a phan ydoedynt yn gossot eu bydynoed ynachaf y ty6yssogyon hynny yn dyuot gwedy kynnullau eu gwascaredyc lu. Ac yn dyssyvyt kyrchu y Bwrg6yn6yr ar Brytanyeyt. Ac yn y lle ky6da6twyr a doethant or kaer allan. ac yn kyntaf gwneuthur aerva va6r o nadunt.[217] Ac eyssyoes gwedy gwelet or brodyr aerva yr rey trystau o peth a wnaethant. ac eyssyoes annoc eu kytemdeythyon ac eu kynnulla6 yn eu bydyn. ac yn vynych eu kyrchu ac eu kymell trachevyn y kylya6. Ac or dywed g6edy llad llawer o pob parth y 6udugolyaeth a kavas y brodyr. Ac gwedy llad Gabyus a Phorssenna y kaer a kymerassant a chudyedyc sswllt y ky6da6twyr a rannasant y eu kytvarchogyon yn dytla6t.[218]

Ac gwedy kaffael y 6udugolyaeth honno Bran a tryg6s yn amhera6dyr yn Ruveyn yn darest6ng y pobyl o agklywedyc creulonder. A phwy bynnac a vynno gwybot y weithredoed ef ae dywed kanys hystorya gwyr Ruveyn ae traetha. 6rth hynny y peydyeys ynheu ac wynt kanys gormot o hyt a blynder adod6n yn y gweythret h6nn pey yscryvenn6n. ac amada6 am arvaeth ac am gweythret vy hunan.[219] Ac yna yd ymchwel6s Beli hyt yn ynys Prydeyn. a thrwy hed6ch a thagnheved y gorffenn6s ef dyewoed y 6uched ac y llywus y wlat. ac adnewydu a oruc y keyryd a atveylynt ac adeylat ereyll o newyd. Ac yn yr amseroed hynny ymplyth y weythredoed y lleyll ef adeylus kaer ar avon wysc ker llaw mor Havren yr hon a elwyt tr6y lawer o amser kaer wysc. a honno oed archescopty Dyvet. Ac gwedy dyvot gwyr Ruveyn yr ynys y dyle6t yr en6 h6nn6 ac y gelwyt kaer Llyon kanys yno y pres6ylynt y gayaf.[220] Ac y gyt a hynny ef a wnaeth yg kaer Lundeyn ar lan Themys porth anryved y ky6reinr6yd yr h6n a eilw y saesson Belyn Esgat. Sef y6 hynny yg Kymeraec Porth Beli. ac ar warthaf h6nn6 y g6naeth Twr anryved y veynt ac y adana6 dyskynva yr llongheu addas y orffowys. ac y gyt a hynny atnewydhau kyvreythyeu ey tat em pob lle trwy y teyrnas o wastat wyryoned. Ac en y oes ef kyn kyvoethoked wuant pa6b yn y kyvoeth o eur ac aryant ac na chynt na chwedy y kyffelyp. Ac gwedy dyvot tervyn y wuched y vynet or byt h6nn ef a loscet y corff ae lud6 a kudu6yt em mewn llestyr eureyt ym pen y twr

racdy6ededyc ar ry wnathoed ef yg kaer Lundeyn a hynny o anryved kelvydyt.[221]

GURANT VARYF TWRCH.

AG gwedy mar6 Beli yd urdet G6rgant Varyf Twrch y vap yn y ol ynteu yn vrenyn. Gwr hyna6s prud. A thrwy pop peth erlyn a wnaey gweythredoed a gwyryoned a thagnheved a karey. a phan delynt y elynyon y ymlad en y erbyn glewder a kymerey a aghreyfft y tat a chreula6n emladeu a dyporthey a chymell y elynyon a wnaey ar dyledus darestyghedygaeth. Ac ymplyth llawer oe weythredoed ef a damweny6s brenin Denmarc yr h6n a taley teyrnget oy tat ef keyssya6 y attael racda6 ynteu a hep vynnu talu dyledus ufudyaeth yda6. A thr6m y kymyrth G6rgant hynny arna6.[222] Ac yn y lle parattoy llyghes a mynet hyt en Denmarc ac o kaletaf ymladeu ef a lada6d y brenyn ac a orescynn6s e g6lat ac ac kymhell6s ar y hen taledygaeth teyrnget yda6.[223] Ac yn yr amser h6nn6 pan ydoed yn ymch6elut adref g6edy e 6udugolyaeth honno trwy enyssed Orc ef a kavas dec llong ar rugeynt eu lla6n o wyr a gwraged ac g6edy govyn o hona6 pa le pan dewynt. ac ed hanoedynt o hona6 ef a doyth Partholym eu tewyssa6c wynt ac adoly rac bron e brenyn ac erchy tagnheved a thrugared y gantha6. A dywed6yt a oruc ry dyhol ae ry wrthlad o tervyneu er Hespaen ae vot yn kylchynu ac yn crwydra6 moroed yn keyssya6 lle y presswylya6 yntha6. ac erchy a oruc y 6rgant ran o enys Prydeyn y presswylya6 yndy rac y vot yn godef tymhestyl a mord6y gweylgyoed a vey hwy. kanys blwydyn a hanner ar lythrassey yr pan dyholyessyt oy wlat ag yn gwybya6 trwy yr eigia6n.[224] Ag gwedy gwybot mae or Hyspaen pan hanoedynt ac gwybot yr arch ed oedynt yn y hadol6yn ef a rodes kyvar6ydyeyt gyt ac wynt y dangos y Werdon udunt yr hon a oed dyffeyth6ch yr amser h6nn6 hep nep yn y chyvaredu. ar rody honno udunt. ac odyna amlhau a thyvu a wnaethant yndy a gwledychu yndy yr hynny hyt hedyw. Ac gwedy eylen6y o 6rgant varyf t6rch dyeuoed y vuched ef y gyt a tagnhefed a hed6ch ef a klad6yt yg kaer Llyon ar Wysc yr hon g6edy mar6 y tat a lavuryassey ynteu y hanrydedu ai thekau o adeylyadeu a muroed a cheyryd arderch a6c.[225]

CUHELYN VAB GWRGANT.

GWEDY mar6 G6rgant Varyf T6rch y kymyrth Cuhelyn y vap ynteu llywodraeth y teyrnas yr h6un ae traeth6s yn hygna6s ac yn war hyt tra 6u yn y oes. a gwreyc vonhedyc doeth oed yda6 a elwyt o enw Marsia a dyskedyc oed yr holl kelvydodeu. A honno ymplyth llawer o agklywedyc pethau a dychymyg6s oe phrya6t ethrylyth hy a kavas y kyvreyth a elwyt yr rwng y Brytanyeyt Martyan. Ar kyvreyth honno ymplyth petheu ereyll a ymchwel6s Alvryt vrenyn o Vrytanaec yn Saysnec ac a el6ys Mechenlage.[226] Ac gwedy mar6 Cuhelyn llywodraeth y teyrnas a tryga6d yn lla6 y racdywededyc vrenhynes honno. ac oy map a elwyt seyssyll. ac yn yr amser h6nn6 seyth mlwyd oed seyssyll. ac wrth hynny nyt oed adas y oedran y llywodraeth y teyrnas. Ac o acha6s hynny kanys grymus o kyghor a doethinep y kymyrth y vam holl llywodraeth y ky oeth yn y llaw ehun. a phan aeth hytheu o lenver e wuched hon seyssyll a kymyrth coron y teyrnas. Gwedy Seyssyll Kynvarch y vap a doeth yn vrenyn. Ac yn ol Kynvarch y doeth Dan y vra6t ynteu yn vrenyn. Ac yn ol Dan y doeth Morud y vap ynteu yn vrenyn a h6nn6 dyrva6r oed meynt y clot ae haelder pey nat ymrodey y ormod creulonder. A phan lyttyey ny arbedey y nep yn y lladey o chaffey o arveu ac ergydyeu y veynt honno. Ac y gyt a hynny tec oed o edrych arna6 a hael yn rody. Ac nyt oed yr eyl a vey kyn deuret ac ef yn y teyrnas or a alley ymkyverbynnyeyt ac ef.[227] Ac yn y amser ef y doeth brenyn Moryan a llw mawr kantha6 yr gogled a dechreu anreythya6 y gwladoed. Ac yn y erbyn y doeth Morud a holl kynnulleytva ac yeuenctyt y teyrnas oed eyda6 ef ac yn dyannot ymlad ac ef. a mwy a ladod ef ehunan nor rann wuyaf oe l6. Ac gwedy kaffael o hona6 ef y 6udugolyaeth ny dyenghys un yn vyw nys lladey. kanys erchi a wnaey dwyn atta6 yr un h6n yn ol y gylyd hyt pan vey ehun a lladey oll ac o hynny yd eylanwey ynte6 y creulonder. Ac gwedy blyna6 o hona6 gorffowys ychydyc a oruc a gorchymyn eu blygha6 yn vyw. ac gwedy blyghyet eu lloscy. Ac ymplyth hynny a phetheu ereyll oy dywalder ae creulonder ef a doeth ac a dameweny6s ryw anthyghetven yda6 y dyal y enwyred arna6. Ac ys ef oed hynny ry6 vwystvyl a deuth y 6rth vor ywerdon. ac ny chlywyt eyryoet kyvryw anyveyl y creulonder. a hono hep orffowys a lyghasey y tyr dywyllodron a press6ylyent ker lla6 y weylgy. Ac gwedy klybot o Vorud y chwedyl h6nn6 ef a deuth ehunan y ymlad ar bwystvyl h6nn6. Ac gwedy treulya6 o hona6 eu holl arveu en over er enyveyl h6nn6 ae savyn en agoret ae kyrch6s ac ae llyg h6s megys pysc bychan.[228]

GORVYNYAWN.

Pym meyb hagen a anadoed yda6 a hynaf o nadun oed Gorvynya6n a h6nn6 a kymyrth llywodraeth y teyrnas. kanys nyt oed yn yr amser h6nn6 gwr ya6nach noc ef namwyn a karey gwyryoned nac a lywey y pobyl en karedygach. kanys gwastat oed y voes ae devodeu ac anyan. a dyledus anryded a taley yr Dwyweu. ac unya6n wyryoned yr pobyl. a thrwy holl teyrnas ynys Prydeyn templheu y dwy6eu yn y dynassoed a atne6ydey ac ereyll o newyd a adeyley. ac yn y holl amseroed ef kymmeynt a wu o amylder a ryodres yr ynys o verthed a golut ac nat oed nep un or ynyssed yn y chylch a gyffelypyd ydy kanys annoc a wnaey y brenyn e tyr dywollodron y dywyllya6 y dayar ac eu hamdeffyn rac treys eu harglwydy. Ar gweysyon yeuync dewr ar ymlad6yr a kyvoethogey o eur ac aryant a meyrch ac arveu hyt nat oed reyt y nep gwneuthur kam na threys ey gylyd. Ac er rwng y gweythredoed hyn a llawer o devodeu da ereyll talu dylyet yr annyan a oruc ac or lleuver hon cd aeth. ac yg kaer Lundeyn y cladwyt.[229]

ARTHAL.

A gwedy Gorvynya6n y deuth Arthal y vra6t ynteu yn vrenyn. ac ym pop peth hagen gwrth6ynep oed y weythredoed y vra6t. kanys yr rey bonedyc ar dyleda6c a lavuryey ef eu hyst6ng ar rey anvonedyc anyleda6c a urdey ac a dyrchafey er rey bertha6c a chyvoetha6c ef ae anreythyey a chynnulla6 anthervynedyc Swllt. Ac g6edy g6elet o wyrda y teyrnas hynny ny allasant y dyodef a vey hwy. namyn en kytdunn kyvody yn y erbyn ae 6rthlad o kadeyr y teyrnas.

Ac urda6 Elydyr y vra6t yn vrenyn yr h6nn gwedy hynny o acha6s y trugared a wnaeth ac vra6t a elwyt Elydyr War.[230] Ac ys ef oed hynny gwedy y vot ef yn llywya6 y teyrnas trwy pym mlyned. dywyrna6t o damweyn yd oed yn hely yn fforest llwyn y Caladyr ef a kyvarvu ac ef Arthal y vra6t yr h6nn a dyholyessyt or vrenhynyaeth. gwedy ry crwydra6 pob gwlad yn keyssya6 nerth a chanwrth6y y orescyn y gyvoeth trachevyn. a hep kaffael dym. A gwedy na alley a vey hwy dyodef yr aghenoctyt ar dodaed arna6 ymchwelut drachevyn y ynys Prydeyn a wnathoed. a dec marcha6c y gyt ac ef. ac yn mynet y owuy y gwyr rywuessyat kydemdeythyon neylltuedyg yda6 gynt ac yn kerdet trwy y koet h6nn6 y kyvarvu ac Elydyr y vra6t yn dyarwybot. Ac y gyt ac y gweles Elydyr ef redec a oruc a mynet dwyla6 m6n6gyl yda6. a rody llawer o Cussaneu yda6. Ac gwedy wyla6 a chwyna6 yn hyr y trueny ae aghyfnerth ef ae duc cantha6 hyt yg Kaer Alclud. ac ae kudyus yn y Castell.[231] a gwedy hynny dychymygu a wnaeth ei fot yn glaf. ac anvon kennadeu a wnaeth tros pob gwlat yn ynys Prydeyn. ac erchy y bawb or tewyssogyon a oedynt adana6 ef dyvot oe edrych. Ac gwedy dyvot o pawb hyt y dynas erchy a oruc y pob un ar neylltu dyvot atta6 oy ystavell yn tawel a hep ffrost. kanys a dywedey bot yn argywedus oy pen o delhynt llawer y gyt o nadunt. Ac ys ef a oruc pob un o nadun kredu hynny a dyvot pob un ol yn ol megys y harchassey. A megys y delhey pob un y gorchmynney Elydyr yr gwasanaeth6yr oed ossodedyc kantha6 y hynny kymryt pob un mal y delhey a llad y pen ony wrhaey eylweyth y Arthal y vra6t. Ac velly y gwnaey y pob un ar neylltu. Ac y velly yn yd oed kymherved ovyn y tagnhevedus pa6b ae vra6t.[232] Ac or dywed gwedy kadarnhau y kerennyd honno y rygthynt Elydyr a kymyrth Arthal y vra6t ag ae duc kantha6 hyt yg kaer Effrawc ac yno y kymyrth ef koron y ain pen ehun ae dody am penn y vra6t ac wrth hynny y kavas ynteu yr enw h6nn6 o hynny allan Elydyr War.[233] ac odyna dec mlyned y bu Arthal yn gwledychu a pheydya6 a wnaeth ar dryc devodeu a wuessynt arna6 gynt. ac odyna allan anrydedu y bonedygyon ar dyledogyon ac estwng er rey anyleda6c a thalu y pawb y dylyet. Ac or dywed y bu varw ag yg Kaer Lyr e cladwyt.[234]

Ac yna yr eylweyth yd etholet Elydyr yn vrenyn. ac eyssyoes hyt tra ydoed ef yn erlyt gweythredoed a devodeu Gorvynya6n y vra6t yr hynaf yn holl daeony. y ddau froder yeuaf yda6 Iugeyn a Pheredur a kynnullassant llw mawr arva6c o pob parth ac a dechreuassant ymlad ac ef. Ac gwedy arveru o honunt or 6udugolyaeth wynt a dalyassant Elydyr War ac ac carcharassant ef mewn Twr yg kaer Lundeyn. a gossot keytweyt oy kadw. ac cdyna yr rannasant hwynteu y teyrnas yn dwy ran yr rygthunt. ac ysef y dygwyd6s y ran Iugeyn o Humyr hyd y gorllewyn. Sef yw hynny Lloegyr a Chymry a Chernyw. Ac yn rann Peredur y dygwyd6s o Humyr h6nt y gogled ar Alban oll. ac gwedy llythraw seyth mlyned marw wu Iugeyn ar teyrnas oll a dygwyd6s yn llaw Peredur. ac gwedy y vot yn vrenyn ar kwbyl o ynys Prydeyn ef ae llywya6d yn hygar

anrhydedus megys yd oed aml6c y vot yn well noy holl vrodyr kyn noc ef. ac na choffeyt kevey Elydyr rac dahet arglwyd oed Peredur. Ac eyssyoes kan ny wuyr agheu arbet y nep hy a deuth o dyssyvyt redec ac a duc Peredur or wuched honn.[235] Ac yn y lle yna y kymerwyt Elydyr oy carchar ar trydewayth yd urdwyt ef yn vrenyn. Ac gwedy trewlya6 o hona6 holl amser y wuched ef trwy holl daeony a ya6nder a gwyryoned or wuched hon yd aeth kan ada6 agrheyfft gwarder y pawb or a delhynt yn y ol ynteu.[236]

Ac gwedy marw Elydyr War y deuth Rys vap Gorvynya6n yn vrenyn ac ewyther a evelychus ef o synnwyr a phurder a doethynep a pheydya6 a wnaeth ef a chreuiouder ac erlyn gwyryoned athrugared yn y pobyl. ac eyryoet ny chyveylyornes y gan lwybyr ya6nder a gwyryoned.[237]

Gwedy Rys y deuth Margan vap Arthal yn vrenyn a h6nn6 o dysc y ryeny a wnaeth ya6nder ag a eglur6s kenedyl Brytaen o weythredoed da.[238]

Ac yn y ol ynteu y deuth Eynnyayn y vra6t a phell wu odiwrth anwydeu y vra6t wu h6nn6 yn llywya6 y pobyl. Ac yn chwechet wl6ydyn y b6rywyt ef allan oe vrenhynyaeth. kanys pellau odiwrth ya6nder a gwyryoned a wnaeth. a rac deuyssau creulonder. yr hon ae b6rywys ef or vrenhynyaeth.[239] Ac yn y le ynteu y deuth Ydwal vap Iugeyn y gar ef. yr h6nn a emyavnha6s o aghreyfft Eynnya6n dylyet a ya6nder a dywylleu.[240] Ac yn ol Ydwal y deuth Run vap Peredur. Ac yn ol Run y deuth Gereynt vap Elydyr. Ac yn ol Gereynt Cadell y vap ynteu. Ac yn ol Cadell Coel. Ac yn ol Coel Porrex. Ac yn ol Porrex Cheryn. Ac yr Cheryn h6n6 y bu trymeyp Fulgen ac Eydal ac Andryv a phob un or rey hynny a wledych6s yn ol y gylyd.

Ac odyna y deuth Uryen vap Andryw. Ac yn ol Uryen y deuth Eluid Klyda6c. Ac yn ol Kelyda6c y deuth Clytno. Ac yn ol Clytno y deuth G6rwst. Ac yn nessaf y 6rwst Meyrya6n. Ac yn ol Meyrya6n Bleydud. Ac yn ol Bleydud Caph. Ac yn ol Caph y deuth Oweyn. Ac yn ol Oweyn Seyssyll. Ac yn ol seyssyll y deuth Blegywryt.[241] a h6nn6 ny bu yn yr oessoed na chynt noc ef nac gwedy kouyadur kystal ac ef ar rac dahet y caney ac y gwydyat keluydyt y mussyc y gelwyt ynteu Dyw y gwareu. Ac yn y ol ynteu y deuth Arthvael y vra6t ynteu. Ac yn ol Arthvael y deuth Eydol. Ac yn ol Eydol y deuth Rydyon. Ac yn ol Rydyon y deuth Ryderch. Ac yn ol Ryderch y deuth Sawyl Penyssel. Ac yn ol Sawyl y deuth Pyrr. Ac yn ol Pyrr y deuth Capoyr. Ac yn ol Pyrr y deuth Capoyr. Ac yn ol Capoyr y deuth Manaogan y vap gur prud a hygna6s. Ac y ar pob peth unya6n wyryoned yr rwng y pobyl a wnaey.[242]

Bely maur vap Manogan.

Ac gwedy marw Manogan y deuth Bely mawr y vap en y ol ynteu yn vrenyn a deu ugeyn mlyned y gwledych6s ar enys Prydeyn.[243] Ac yr Bely h6nnu e bu try meyp Ll6d a Chasswalla6n. a Nynya6. A megys y dyweyt rey or kyvar6ydyeyt pedweryd map a wu yda6 Lleuelys. A Llud oed hynaf or rey hynny. a h6nn6 gwedy mar6 y tat a kymyrth lywodraeth y teyrnas. Ac odyna y bu gogonedus adeylya6dyr keyryd a chestyll ef a atnewyd6s muroed Llundeyn. ac anryvedyc tyroed ac amkylchyn6s. Ac gwedy hynny a orchmynn6s yr kywdawd6yr adeylat tey endy megys na bey en y teyrnassoed ym pell yn y chylch yn un dynas adeyladeu na they kymryt ac vey endy. Ac y gyt a henny ymlad6r da oed a hael ac ehelaeth yn rody bwyt a dya6t y pa6b or ae keyssyey. a chet be llawer yda6 o keyryd a dynassoed honn a karey ef yn w6y noc yr un. ac yno yn honno y preswylyey yr rann w6yhaf or wlwydyn. ac wrth hynny y gelwyt hy Kaer Lud. ac or dywed Kaer Lundeyn. ac gwedy dyvot estra6n kenedyl y gelwyt hy Lyndyne neu ynte Lyndres.

Llevelys.[244] hagen a karey ef en wuyhaf oy vrodyr kanys gwr prud a doeth oed. A gwedy klybot o Levelys varw brenyn Ffreync heb ada6 ettyved namyn un verch ac ada6 y kyvoeth en llaw honno. ef a deuth at Lwd y vra6t ac erchy kyghor a nerth nyt na mwy yr lles yda6 ef namyn er keyssya6 chwanegu anryded ac urdas a theylygda6t y eu kenedyl o galley ef mynet y teyrnas Ffreync y erchy y vorwyn honno yn wreyc yda6. Ac en e lle y vra6t a kytsyny6s ac ef ac a vu da kantha6 y kyghor ar hynny. Ac yn y lle parattoy llogheu ac eu llenwy o varchogion en arva6c a chychwyn parth a Ffreync. ac yn y lle gwedy eu dyskynnu anvon kennadeu a orugant y vyneg y wyrda Ffreync estyr y neges a dothoed oe cheyssya6. Ac o kytkyghor gwyrda Ffreync ae tewyssogyon e rodwyt e vorwyn y Levelys a choron y teyrnas y gyt a hy. ac gwedy hynny ef a lywy6s y kyvoeth yn prud ac yn doeth ac yn dedwyd hyt tra parhaus y oes

Ag gwedy llythra6 talym o amser teyr gormes a dygwyd6s yn ynys Prydeyn. arny ryklywsey nep or hen oessoed gynt eu kyvryw.

KYNTAF oed o nadun ryw kenedyl a doeth a elwyt Koraneys. a chymeynt oed eu gwybot ac nat oed amadrawd or a kyvarffey y gwynt ac ef nys gwyppynt. ac wrth hynny ny ellyt un drwc udunt.

EYL oed diaspat a dodyt pob nos kalamey wrth pob aelwyt yn ynys Prydeyn. a honno a aey trwy kallonnoed y dynyon yn kymeynt ac y kolley y gwyr eu lliw ac eu nerth. E gwraged a gollynt eu beychyogy. ar meybyon ar merchet a gollynt eu synwyr. ar holl anyveylyeyt a adawey yn diffrwyth.

TRYDED oed yr meynt vey darmerth ar arlwy a parattoet yn llyssoed y brenyn kyt bey arlwy blwydyn o w6yt a dya6t ny cheffyt byth dym o hona6 namyn a dreulynyr un nos gyntaf. Ac eyssyoes kyoed oed ac amlwg yr ormes gyntaf. ar dwy ormes ereyll nyt oed nep a wypey pa ystyr oed udunt. Ac wrth hynny mwy gobeyth oed kaffael gwaret or kyntaf nogyt or eyl neu or tryded.

Ac wrth hynny Llud Vrenyn a kymyrth pryder ma6r a goval ynda6 kan ny wydyat pa fford y kaffey gwaret or gormessoed hynny. ac o kyffredyn kyghor y wyrda Llud vap Beli a aeth hyt at Levelys y vra6t brenyn Ffreync. kanys gwr doeth a ma6r y kyghor oed h6nn6 y keyssya6 kyghor y kantha6. Ac yna parattoy llyghes a wnaethant a hynny yn argel ac yn dysta6 rac gwybot or kenedyl honno ystyr y negys. nac o nep eythyr y brenyn ae kyghorwyr. Ac gwedy bot yn para6t y llyghes Llud a aeth udunt a dechreu holly y moroed. Ac gwedy klybot o Levelys y chwedleu hynny kany wydyat ef acha6s na neges llyghes y vra6t yn y lle ynteu a kynnull6s llyghes or parth arall dyrva6r y meynt. Ac a aeth ar y mor yn erbyn y vra6t. Ac gwedy gwelet o Lud hynny. ef a edewys y holl logheu ar y weylgy allan o eythyr un llong. ac yn yr un honno y deuth yn erbyn y vra6t. Ac yn y lle pan weles Llevelys hynny. ynteu y me6n un llong arall a deuth yn y erbyn ynteu. Ac gwedy eu dyvot ygyt pob un o nadunt a aeth dwyla6 m6n6gyl oy gylyd ac o vrodyrya6l karyat pob un a gressaa6d y gylyd o nadunt.

AG gwedy mynegy o Lud yda6 ystyr y neges y vra6t a dywa6t y gwydyat ehun pa acha6s ry dodoed yr gwladoed hynny. Ac gwedy hynny wynt a kymmerassant kyghor y ymdydan yn amgen no hynny megys nat elhey y gwynt am eu hamadra6d a gwybot or Koranyeyt yr hyn a dywedynt. Ac yna y perys Llevelys gwneuthur corn hyr. ac trwy y corn dywedwyt. Ac gwedy bot yn bara6t y korn Llevelys a dywa6t 6rth y vra6t y rodey ef yda6 ef ryw pryvet a gadu rey o nadunt yn vyw y hylya6 rac ovyn damweinya6 eylweyth dyvot y ryu ormes honno a chymryt ereyll or pryvet ac eu brywa6 ym plyth d6fyr ac ef a kadarnhaey bot yn da er rey henny y dystryw kenedyl Koranyeyt. nyt amgen gwed yd elhey adre. oy teyrnas ehun galw pawb y gyt oy pobyl ei ag o kenedyl e Koranyeyt y un datlew y vynnu gwneuthur tagnhefed yr rygthunt. Ac yna gwedy delhey pawb ygyt kymryt y d6fyr h6nn6 ay v6r6 yn kyffredyn ar pa6b. Ac ef a kadarhaey y bydynt var6 y Koranyeyt yn kwbyl ac nad eydygavey nep oe kenedyl ynteu ehun. Ar eyl ormes hep ef ysyd yth gyvoeth ty. dreyc yw honno. y dreyc arall estra6n kenedyl y syd yn ymlad a hy ac yn keyssya6 y gorescyn. Ac wrth hynny rac llyt y dyt ych dreyc ch6y y dyaspat engyrya6l honno. Ac val hyun y gelly kaffael gwybot hynny. messur yr ynys y hyt ae llet. ac yn y lle y keffych y pwynt perved yn ya6n par cladu y lle honno ac gwed hynny par dody kerwyn yn lla6n or med goreu a aller y wneuthur ym mewn y clad h6nn6 a llen o paly ar wynep y kerwyn ac gwedy hynny yth person dy hunan byd yn y gwylya6. ac yna ty a wely y dreygyeu yn ymlad en ryth aruthyr anyveylyeyt. Ac or dywed yn ryth dreigieu yd ant yr awyr. Ac or dywed oll gwedy darffo udunt blynaw o engyrya6l a gyrat ymlad wynt a syrthyant yn ryth deu parchell ar warthaf y llen ac a sudant. ac a dynnant y llen ganthunt hyt yg gwaela6t y kerwyn ag a yvan y med yn kwbyl. ac a kyscant gwedy hynny. Ac yna yn y lle plyka tytbeu y llenyneu kylch wy. ac yn y lle kadarnhaf a keffych yth gyvoeth ym me6n kyst vaen clad wynt a chud ym mewn y daear. a hyt tra w6ynt wy yn y lle honno ny da6 gormes y ynys Prydeyn o le arall.

ACHAUS y tryded ormes yw g6r lletrythauc kadarn y syd yn dwyn dy w6nt di ath darmertheu h6nn6 trwy y hwt ef ae letryth a wna y pa6b kyscu. ac wrth hynny y mae reyt y tytheu y dy person duhunan gwylya6 dy darmerth ath arlwy. A rac gorvot o kyscu arnat bit kerwyn yn lla6n o d6fyr oer ker dy law a phan vo kyscu yn treyssya6 arnat dos y mewn y kerwyn.

Acyna yd ymchwel6s Llud trachevyn oy wlat. ac yn dyannot y dyvynn6s ef pa6b yn llwyr oe kyvoeth ef ac or Coranyeyt. a megys y dyscadoed yda6 brywa6 y pryvet a oruc ym plyth dwfyr a b6r6 h6nn6 ar pa6b yn kyffredyn. Ac yn y lle yr holl Coranyeyt yn llwyr a wuant var6 hep edygavael nep or Brytanyeyt.

Ac ym pen yspeyt gwedy hynny Llwd a perys messura6 yr ynys ar hyt ac ar y llet. ac yn Ryt Ychen y kavas y perved pwynt. ac yn y lle honno y peris ef cladu y dayar. ac yn y ffos honno gossot kerwyn yn lla6n or med goreu a allwyt y kaffael a llen o paly ar y wynep. Ac ef y hunan y nos honno wu yn wylyat. ac val yd oed e velly ef a weles y dreygyeu yn ymlad. ac gwedy darvot udunt blyna6 a dyssygya6 yn ymlad wynt a dygwydassant yn y kerwyn ac gwedy darvot udunt yvet y med kyscu a wnaethant. ac yn eu k6sc Llwd a plyk6s y llen yn eu kylch. ac yn y lle dyogelaf a kavas yn Dynas Emreys yn Eryry ym mewn kyst vaen y kwdy6s. ac evelly y peydy6s y dyaspat tymhestlus oe kyvoeth.

Ac gwedy darvot hynny y brenyn a perys arlwya6 gwled dyrva6r y meynt. ac gwedy y bot yn bara6t ef a perys gossot kerwyn yn lla6n o d6fyr oer ker y llaw. ac ef ehun yn y prya6t person ae gwyllv6s. ac val y byd yuelly yn gwyllya6 ef a klywey llawer o amravaelyon kerdeu a hun ag yn y kymell ynteu ar kyscu. Ac yn y lle sef a oruc ynteu rac y orthrymmu ef or kyscu a llesteyrya6 ar y darpar mynet yn y d6fyr a hynny yn vynych. Ac or dywed ynachaf g6r dyrfa6r y veynt yn wyskedyc o arveu trom kadarn yn dyvot y me6n a chawell kantha6. ac megys y gnotaassey yr holl darmerth ar arlwy or bwyt ar llyn ym mewn y kawell. ac yn kychwyn yn y ymdeyth ac ef. ac yn y lle Llud vrenin a kychwyn6s yn y ol a dywa6t wrtho fal hyn. Arho ep ef arho kyt ry gwnelych ty sarrahadeu a cholledeu ymy kyn no hyn. nyt ey weythyon ony barn dy vylwryaeth yn trech ac yn dewrach no my. Ac yn dyannot ynteu a ossodes y kawell ar y lla6r ae arhos ef atta6. ac yna gyrat ac angerda6l ymlad a wu yr rygthunt. a newidia6 dyrnodien ar tan yn ehedec or kledyveu ac or arveu ereyll. ac or dywed y tyghetven ar rac weles damweynnya6 y wudugolyaeth yr brenyn. kan w6r6 y ormess6r yr rygtha6 ar dayar. Ac gwedy gorvot arna6 o rym ac angerd erchy nawd a oruc. Ar brenyn adywa6t 6rtha6 ynteu pa wed ep ef y gallaf i rody na6d yty. gwedy y gniver gollet a sarrahet a wnaethost tytheu ymy. ac ynteu a dywa6t yn atteb yda6 ef dy holl kolledeu eyryoet or ar rywneuthum yty myvy ae hynnyllaf yn kystal ac y dygum. Ac o hyn allan my nys gwnaf y kyffelyp. ac o hyn allan g6r ffydla6n vydaf hyt bellach. ar brenyn a kymyrth hynny y gantha6. ac y velly y gwara6t Llud y teyr gormes hynny y ar ynys Prydeyn. Ac o hyny hyt yn dywed y oes yn hed6ch ac yn dedwyd y gwledych6s.

Ac yna or dywed gwedy mar6 Llud map Beli Ma6r y kudywyt y korff yg kaer Lundeyn ker llaw y porth a elwyr ettwa Porth Llud. ac yn Saysnec y gelwir ef Lwdys Gady. deu fap hagen a wuessynt yda6. Avarwy vap Llud a Theneuvan vap Llud. ar rey hynny urth nat oed oet arnadunt megys y gellynt llywyaw y teyrnas y gwnaethpwyt Kasswalla6u vap Beli y vra6t ynteu yn vrenyn. Ac yn y lle gwedy y urda6 ef o coron y teyrnas. ef a kymyrth ynda6 haelder a daeony a chlot a molyant yn kymeynt ac yny ydoed y clot ef yn ehedec tros y gwladoed ar teyrnassoed ym pell y wrtha6. Ac odyna gwedy damwennya6 yda6 ef yn kwbyl llywodraeth yr holl teyrnas ac nyt oy neyeynt. Eyssyoes Kasswalla6n a ymrodes y warder ac ny mynn6s bot y neyeynt yn diran or teyrnas namyn rody udynt a oruc ran va6r or kyvoeth. ac y sef a rodes y Avarwy vap Llud Kaer Lundeyn. a yarllaeth Swyd Geynt. ac y Teneuvan y rodes yarllaeth Kernyw. ac ynteu ehunan pennadur ar pa6b ac yn arweyn coron y teyrnas.[245]

Ac yn yr amser h6nn6 megys y keffyr yn hystoryacu gwyr Ruueyn gwedy darvot y Wlkessar gorescyn Ffreync ef a damwenny6s y dyvot ar lan Traeth Rwten. ac gwedy gwelet o honaw odyna ynys Prydeyn. govyn a oruc yr nep a oed yn eu gylch pa wlat oed honno. a pha kenedyl ae kyvanhedey. ac ae presswyllyey. Ac gwedy kaffael o honaw gwybot enw y teyrnas ar pobyl ef a dywa6t. Mwyn Herc6lff hep ef o un kenedyl henym ni yr Ruueynwyr ar Brytanyeyt kanys o kenedyl Tro y kerdassam ni. Eneas Ysgwydwyn gwedy dystriw Tro a wu hentat ynny yn kyntaf. ac udunt hwytheu y bu hentat Brutus vap Sylvyus Ascanyus vap Eneas. Ac onim twyllir i neu rydivonhedassant wy. kanys megys y tebygaf ny wdant wy dym y wrth vylwriaeth wrth y bot yn presswylya6 odyeythyr y byt ym mewn yr Eigia6n. Ac ysgavyn herwyd y tebygaf y byd eu kymmell wynt y talu teyrnget ac y eu gwneuthur yn tretha6l ac y talu gwastat wassanaeth yr Ruveynnya6l teylygta6t. Ac eyssyoes ya6n yw yn kyntaf erchi udunt talu teyrnget y wyr Ruveyn kyn eu llaffurya6 nac ymlad ac wynt. megys y mae yr holl kenedloed ereyll o amgylch y byt yn talu teyrnget udunt a darestyghedygaeth y Sened Ruveyn. rac kody o honam nynnheu hen vonhed Pryaf yn hentat ny

ae hen teylygta6t. kan ellwng eu gwaet wynteu megys y maent yn kereynt ynn. Ac gwedy anvon o Wlkessar yr amadrodyon hynny meun llythyr hyt at Kasswalla6n llydya6 yn va6r a oruc ynteu ac anvon llythyr hyt at Wlkessar ar geyryeu hyn yn y llythyr.[246]

Kasswallaun Brenyn y Brytanyeyt yn anvon annerch y Wlkessar ygyt ar amadrod hwnn. Anryved yw Wlkessar meynt chwant a chybydyaeth gwyr Ruveyn kanys rac meynt sychet arnadunt eur ac aryant na allant dyodef en bot ny megys odyeythyr y byt yn dyodef perygleu yr Eigia6n heb kan ryvygu kymell swllt a tretheu arnam. or lle a ar rykynnalyassam ny eyryoet yn ryd dydreth hed6ch hyt hyn. Ac nyt dyga6n ganthunt hynny namyn keyssya6 gwaret yn rydit. a mynnu gossot tragywyda6l keythiwet kewylyd yty Wlkessar yd wyt yn keyssya6 kanys kyffredyn gwythen boned y syd yr Brytanyeyt ac yr Ruveynwyr yn llythra6 y gan Eneas ar un ryw kadwynyn rac eglura6 kadarn kytemdeythas a dylyey yr rygthunt honno a dylynt y cheyssya6 ae erchy ynny. nyt kymhell keythywet arnam. kanys yr rydyt honno a ordyvnassam ny ac a dyscassom ny yr rody ae chynnal yn w6y noc arweyn gwed keythywet yn y veynt honno y gordyvnassam ny y chaffael ae medu hyt na wdam ar ufydhau y keythywet a honno hagen pey keyssynt y dwyweu y dwyn y kenhym. ny a lavuryem yn y veynt y gallem or yn oll nerth oy hattal yn eu herbyn. ac wrth hynny Wlkessar byt etnebededyc yth dy osparth ty yn bot ny yn para6t y ymlad yth erbyn o cheyssy dy dyvot yr ynys honn megys yd wuyt yn gogyvada6 dyvot ydy.[247]

Ac gwedy gwelet o Wlkessar y llythyr h6nn6 yn dyannot parattoy y lyghes a oruc ac aros gwynt wrth eylenwy ey weythret yr hyn a dywedassey y Kaswalla6n trwy y llythyr ae kennadeu.[248] Ac gwedy kaffael o honaw ef y damwnedyc wynt dyrchavael hwylyeu a wnaethant ac yn Aber Themys y deuth yr tyr ae lu ganthaw ac val yd oedynt y llongheu yn kaffael y tyr ynachaf Kaswalla6n a holl kedernyt ynys Prydeyn kantha6 yn dyvot y kastell Dorahel yn y erbyn. Ac yno y kymyrth kyghor y gyt ae wyrda pa wed yd ymledynt ac eu gelynyon a pha ansa6d y lludynt y kaffael y tyr. Ac yno y dothoed Bely pen teulu Kaswalla6n a tywyssa6c y vylwryaeth a thrwy kyghor y gwr h6nn6 y gwneyt pob peth yn y teyrnas. ac yno hevyt y dothoedynt deu neyeynt y brenyn. Avarwy vap Llwd tywyssa6c Llundeyn a Thenevan yarll Kernyw. yno hevyt y dothoedynt y try brenyn a oedynt darestyghedyc ydau nyt amgen Creudu brenyn yr Alban a Gwerthaed brenyn Gwyned a Brythael brenyn Dyvet.[249] Ar rey hynny megys pawb ar rodes kyghor yn newyd y kyrchu gwyr Ruveyn kyn kaffael o nadunt un dynas nac un kastell ar dir ynys Prydeyn. ac y velly llafurya6 y keysya6 y gwrthlad ymdeyth. kanys o cheffynt wy dyvot ym plyth kedernyt e wlat. anha6s a dyrysach oed eu gurthlat. Ac yna o gyttundep kyghor pawb wynt a kyrchasant y traetheu yn y lle yd oed Wlkesar ae lu yn eu pebylleu. Ac gwedy gosot ynt y bydynoed o pob parth wynt a kymyscasant eu deheuoed ac eu gelynyon. a newydya6 dyrnodyeu ae gylyd ac ergydyeu yn erbyn y lleyll. A hep un gohyr o pob parth y syrthynt yr rey brathedyc ar ergydyeu yn eu hymyscaroed. A chyn amlet yr redey y tywarchen or gwaet a chet bey dysyvyt deheuwynt yn llynghu eiry yr mor.[250] Ac val ed oedynt y gwrthwynebedygyon vydynoed yn kymyscu ef a damwenny6s trwy y tyghetven kyvarvot Nynya6 ac Avarwy vap Llud a gwyr Llundeyn ar rey swyd Keynt yd oedynt wynteu yn tywysogyon arnadunt kyvarvot a bydyn yr Amherawdyr. Ac gwedy eu kymyscu ygyt yr amherodra6l vydyn hayach a wascar6s rac y Brytanyeyt o tew vydyn yn eu kywarsanghu. Ac gwedy eu bot plyth traphlyth yn deudyplygu dyrnodyeu. y damweyn a rodes fford y Nynnya6 y kaffael ym6rya6 ar Amerawdyr. Ac wrth hynny kan dyrvaur o lewenyd y kyrchu a wnaeth Nynnya6 kanys mwy no llawen oed kantha6 kaffael rody un dyrna6t yr ryw wr h6nn6. Ac y gyt ac y gweles Wlkeser ef yn y kyrchu y taryan yn kyvlym a derchevys yn erhyn y dyrna6t. Ac yn veynt y gadus y nerthoed yda6 ef a ossodes ae kledyf ar Nynnya6 ar y penffestyn. ac yn y lle dyrchavael y kledyf a oruc a cheysya6 yr eil dyrna6t ar e kyntaf hyt pan alley rody agheua6l dyrna6t yda6. Ac megys y gwyl Nynnya6 ef a dodes y daryan yn erbyn y dyrna6t. Ac yna eysyoes y tryga6d kledyf Wlkesar ym pen Nynnya6. ac ny all6s ef kaffael tynnu y kledyf rac kaletet y w6rwydyr kan y bydynoed yn ymkymyscu ac yn newydya6 agheuolyon dyrnodyeu.[251] Ac wrth hynny Nynnya6 a kymyrth kledyf Wlkesar ac a w6ry6s y kledyf ehun y 6rtha6. a chledyf yr Amherawdyr yn y law y ruthr6s ef y elynyon. a phwy bynnac a kyvarffey ac ef ar cledyf h6nn6 y trawey. ar neyll a vydey a llad y pen y

arna6 ae ynteu ef vynet yn vrathedyc megys na bey un gobeyth o honaw. Ac val yd oed Nynnya6 ar wed honno yn dywalhau yn erbyn y elynyon ynachaf Labienus tywysa6c yn kyvarvot ac ef ac yn y lle ar y kyvranc kyntaf Nynnya6 ae llada6d. Ac eysyoes gwedy llythraw yr rann w6yhaf or dyd y Brytanyeyt o kywarsangedygyon vydynoed a dugynt ruthreu glew kalet a Dw6 yn y kanh6rthwya6 y wudugolyaeth a damwenny6s udunt. Ac Wlkesar a kymyrth y logheu ae pebylleu ae luesteu yn kedernyt yda6. Ac gwedy dyvot y nos ef a kyweyrws y longheu ac a aeth yndunt. Ac a wu lawen kantha6 kaffael y mor yn lle kastell yda6. Ac gwedy kyghory oe kytemdeythyon yda6 na chynhalyey ymlad ar Brytanyeyt a vey hwy. ef a wu wrth eu kyghor ac a ymchwel6s trach y kevyn parth a Ffreync.[252]

Ac gwedy hynny Kaswalla6n acha6s y wudugolyaeth honno ygyt a dyrva6r lewenyd a tal6s dyolch dredeu yr D6wyweu ac galw atta6 y kytymdeythyon ar kytlavuryessynt ac ef. ac yn herwyd breynt pob un ae lavur talu udunt eu gwasanaeth o amlhaf rodyon. ac or parth arall govalus oed kanys Nynnya6 y vra6t oed yn vrathedyc ac yn pedrus am y vyw. kanys Wlkesar yn y vrwydyr a rodassey dyrna6t hep allu medegynyaeth yda6. Ac or dyrna6t h6n6 kyn pen y pymthecvet dyd gwedy e wrwydyr y bu varw. ac yg Kaer Lundeyn ker llaw porth y gogled y cladwyt y gyt a brenhynya6l arwylyant. Ac y gyt ac ef yn y bed y dodassant y cledyf a dugassey ynteu y gan Wlkessar pan ymladassey ac ef. ac esef oed enw y cledyf h6n6 Agheu Coch. kanys pwy bynnac a archollyt ac ef ny bydey byw.[253]

Ac gwedy ymchwelyt o Wlkesar y keuyn ar ffo a dyscynnu o hona6 ar traeth Ffreync medylya6 a wnaethant y Ffreync gwrthwynebu yda6 a mynnu gwrthlad y arglwydyaeth y arnadunt. kanys a tebygynt y vot yn wannach megys na bey reyd udunt y ovyn ef arnadunt. kanys chwedleu kyhoed a dywedyt ym pob lle bot y mor yn kyvlawn o lyghes Kaswalla6n yn erlyt Wlkesar. Ac wrth hynny glewach yr ymrodynt y keysya6 gwrthlad Wlkesar oc eu tervyneu wynt.[254] Ac y gyt ac y gweles Wlkesar hynny ny mynn6s ef mynet ym petrusder ymlad ac wynt. namyn agory y tryssor a oruc ar rody da yn dyvessur y pob un ar neylltu o nadunt. ac yvelly y dwyn yn tagnheved ac yn un ac ef. Ac y gyt a hynny yr pobyl adau rydyt. ac yr rey rykollassey tref eu tat y hynnyll udunt. Ac yr keyth adau rydyt. ar gwr a oed kynt yn dywal megys llew. yn awr megys oen gwar yn llawen yn talu yr eidaw y pawb. ac ny orphwyss6s ef wneuthur y clayar dredeu hyny hyt pan dagheved6s ef pawb ac eu dwyn yn un ac ef a chaffael y arglwydyaeth arnadunt megys kynt. ac yna eyssyoes nyt aey un dyd heybya6 hep koffau budugolyaeth y Brytanyeyt a ffoedygaeth Wlkesar a hynny kan y watwaredygaeth.[255]

Ac gwedy llythra6 dwy vlyned parattoy eylweyth y lyghes a oruc Wlkesar vrth vynet tros yr Eigia6n y keysya6 dyal y sarahet ae kewylyd ar Kaswalla6n ac ar y Brytanyeyt. Ac gwedy kaffael o Kaswalla6n gwybot bot yn wyr hynny. kadarnhau y keyryd ar kestyll ar dynasoed. ac eu atnewydu yr rey a atveylyey o nadunt. a gosot marchogyon arva6c y eu kad6 a wnaeth. ac ym pob pryf borth yn amkylch yr ynys gosot gwyr arva6c a oruc y eu gwylya6 ac y eu gwarchadw. ac eithyr hynny ar hyt kana6l Themys y fford yd hwylyt parth a Llundeyn ef a perys gwneuthur polyon heyrn kyn vrasset a mordwyt gwr. ac eu plymmu. a gosot er rey hynny a dan d6vyr a phan delhynt y llongheu megys yd elhey yr rey hynny trwydynt ac y peryclynt o hynny. ac gwedy darvot hynny kynnullu a wnaeth Kaswalla6n holl yewenctyt yr ynys ag ygkylch yr arvordyr arhos dyvodedygaeth Wlkesar ae lyghes kantha6.[256]

Ac gwedy darvot y Wlkesar parattoy pob peth or a oed reyt yda6 ef a kychwyn6s ar y mor y gyt ac aneyryf amylder marchogyon kan darmerth ac awyda6 gwneuthur damwnedyc aerva or Brytanyeyt. a hynny hep amheu a wnathoedynt pey rydelhey eu llyghes yn yach ganthunt yr tyr ac wrth hynny ny all6s ef dwyn y dyhewyt ar weythret. kanys hyt tra ydoedynt yn hwylya6 ar hyt kana6l Themys yn kyrchu parth a Llundeyn yd aethant eu llogheu ar y polyon heyrn ar ry dywedasam uy wchot. a chan yr rey hynny y dyodefasant dysyvyt perygl agheua6l hyt pan vodasant hyt ar vylyoed o varchogyon. kanys gwedy tylly y llongheu ar y polyon heyrn hynny y deuth d6fyr ym mewn a sudau y llongheu a dan y weylgy. Ac gwedy kaffael o Wlkesar gwybot hynny y gyt a dyrva6r o lavur ac govut trosy yr hwylyeu a orugant parth ar tyr ar rey a wuesynt yn y veynt perygyl honno ac a ka6sant o vreyd y tyr. a phan weles Kaswalla6n y ar lan y dymhestyl honno arnadunt llawenhau a oruc o achos

body y sa6l a vodes o nadunt a thrystau o acha6s dyanc yr rey ereyll. ac gwedy rody arwyd o hona6 oy kytvarchogyon kyrchu yr Ruveynwyr a wnaethant yn dyannot. Ac ys ef a orugant gwyr Ruveyn eysyoes kyt ry kyvarffey perygyl ac wynt ar avon y gyt ac y ka6sant y tyr yn 6ra6l g6rthwynebu yr Bryttannyeyt. a chymryt eu glewder yn lle mur y eu hamdyffyn. ac aerva dyrva6r y meynt a wnaethant or Brytanyeyt. Ac eysyoes mwy wu yr hon a ka6sant nor hon a wnaethant kanys llawer a vodes o nadunt. ac urth hynny lley oed eu nyver. Ar Brytannyeyt pob a6r mwyv6y vydey eu llw. kanys o pob lle yd ymkynnullynt a mwyv6y teyrgweyth oed eu nyver. ac 6rth hynny y kan gwanhau yr rey ereyll y ka6sant wynteu y wudugolyaeth. Ac gwedy gwelet o Wlkesar ry orvot arna6 y gyt ac ychydyc oy nyver yd aeth ar ffo yn y longheu. a chymryt dyrgel6ch y mor ynn amdyffyn yda6. Ac gwedy kaffael gwynt hyr6yd o hona6 dyrchavael hwylyeu a hwylya6 hyt yn traeth Moryan. ac yno yd aeth ym me6n kastell ar ry wnathoed rac ovyn kyvarvot ac ef y kyffryw damweyn ar ry kyvarvuassey gynt ac ef y gan y Brytanyeyt. Ac ysef y gelwyt y kastell Odnea. Ac ys ef acha6s y gwnathoed rac ovyn ymchwelut or Ffreync arna6 yr eylweyth o delhey ar ffo y 6rth y Brytanyeyt megys y weyth arall. Ac wrth hynny rywnathoed ynteu y kastell h6nn6 megys y galley ynteu g6rth6ynebu y wrth pwyth pobyl honno o cheysynt wrthwynebu yda6 megys y keysynt gynt.

Ac o acha6s kaffael o hona6 y wudugolyaeth yr eylweyth y ar Wlkesar Kaswalla6n a kymyrth dyrva6r o lewenyd ynda6 ac a ynvyn6s gwys tros pob lle yn ynys Prydeyn y erchy eu holl wyrda dyvot hyt yn Llundeyn ac eu gwraged y gyt ac wynt y talu gwylya6l anryded dyledus y eu tadolyon dwy6eu. tr6y yr rey ry ka6synt budugolyaeth or veynt Ruveynnya6l Amhera6dyr h6nn6. ac gwedy dyvot pa6b heb waradrygyant amravaeylyon aberthau (a orugant ac y ladedygaeth yr annyveylyeyt yd ymrodasant. ac yna.) a wnaethant deu ugeyn myl o warthec a chan myl o deveyt. ac o amravaelyon kenedloed adar y sa6l ny ellyt yn ha6d y ossot yn ryf. Eithyr hynny deg myl ar rugeynt o amravaelyon koedolyon b6ystviled. Ac yn y lle gwedy darvot udunt perffeythya6 eu anryded yr dwy6eu or gwedyllyon ar gormodyon wynteu ehuneyn a w6ytasant megys y gnotteyt yn y wyr ry6 abertheu hynny. Ac odyna yr hyn a wedyllus or nos ag or dyd kanthunt wynt ae trewlyasant trwy amravaelyon wareeu. Ac ym plyth y gwareeu hynny ef a damwenny6s deu was yeueync arderch a6c. y neyll o nadunt yn ney yr brenyn ar llall yn ney Ava r6y vap Llwd kynhennu yn gware palet. ac or dywed llydya6 am y wudugolyaeth. Ac ysef oed enw ney y brenyn Hyrlas. ac enw y llall Kuhelyn. ac enw y llall Kuhelyn. ac gwedy ymlydya6 ac ymkywethyl yskylvu cledyf a wnaeth Kuelyn a llad pen Hyrlas ney y brenyn. Ac gwedy y lad kynhyrvu a oruc y llys oll. ac ehedec y chwedyl at Kaswalla6n a llydya6 a chyffroy yn va6r a oruc acha6s lladedygaeth y ney. Ac erchy a wnaeth i Avarwy rody Kuelyn y dyodef kyffreyth y llys arna6 rac mynet Hyrlas yn didial os kam y lledesyt. Ac gwedy gwelet o Ava r6y bot bryt y brenyn yn kyffroedyc yn y erbyn pedrusa6 a wnaeth rody y ney yn y ewyllys a dywedwyt bot llys yda6 ef. ac yn y lys ehun y dywedey ef delyw o hona6 ynteu rody ya6n ae kymryt o pa6b or a vynhey yawn oy wyr ef. Ac wrth hynny os keysya6 ya6n a vynhey ef y gan Kuhelyn. ef a dywedey y mae yn ey lys ef yn Llundeyn y dylyey ef gwneuthur yawn tros y ney. a hynny o vreynt a hen dylyet yr kynhoes yr hen wyrda. Ac gwedy gwelet o Kaswalla6n na chaffey ya6n 6rth y vynnu ae ewyllys gogyvada6 a thyghu y Ava r6y a wnaeth yd anreythyey ynteu y kyvoeth ef o tan a haearn ony delhey wrth y ewyllys. ac odyna trwy lyt a bar buysya6 a oruc Kaswalla6n y anreythya6 kyvoeth Avarwy hagen peunyd trwy kytymdeythyon a charant yn keysya6 arafhau yrlloned y brenyn. a cheysya6 madeueynt y kantha6. Ac gwedy na alley ef nep fford yn y byt kaffael lleyhau llyt y brenyn medylya6 a oruc pa fford y galley ynteu gwrthwynebu yr brenyn a daly yn y erbyn. Ac or dywed gwedy nad oed fford arall yda6 y galley ef gwrthwynebu yda6. ef a anvones kennadeu hyt ar Wlkesar a llythyr ganthunt ar synhwyr hon yndunt.[257]

Y WLKESSAR. Avarwy vap Llwd tywysawc Llundeyn yn anvon annerch. a gwedy damunedyc agheu damunedyc yechyt a bwched. Edyvar kenhyf y daly yth erbyn di hyt tra vuost di yn kynhal ymladeu yn erbyn vy mrenyn y kanys pey peyt6n y tydy a orvuasut ar Kaswalla6n y gwr gwedy y veynt wudugolyaeth honno a kavas trwy vy nerth y a kymyrth y veynt syberwyt ynda6 hyt pan edyw yn keysya6 hynytreftadu y am dykyvoethogy am dyhol om kyvoeth a gorescyn ydau

ehun vygkyvoeth. Ac gwybyd ty nat y velly y dylyey talu y my. myvy yn y kyvoethogy ef. ac ynteu ym dygyvoethogi ynnheu. kanys myvy yn kwbyl yn ymlad yth erbyn dy. a wnaethum y pethau hyn oll yda6. a mynheu y tyghaf y kyvoethau nef a dayer hyt na heydeys y onyt na rod6n y ve ney y dyodef bra6t y lys ef arnaw. Ac yn y vo goleuach ac eglurach yth doethineb dy acha6s y wryvoned. gwranda6 dy a my a datkanaf yt yr acha6s y mae y var arnaf y. Gwedy kaffael o hona6 ef y veynt wudugolyaeth honno trwy vy nerth y. y gwnaetham nynheu gwylyawl lewenyd ac anryded y en tadolyon dwy6eu. ac gwedy perffeythya6 o honam ny pob peth or a perthyney ar e dwy6eu. y damwenny6s y rwng deu neyeynt yn tyvu kyvrysed am wudugolyaeth gwarae palet. Ac gwedy kaffael om ney inheu y wudugolyaeth ennynu a oruc y llall o enwyr yrlloned a dyspeylya6 cledyf a cheysya6 llad pen vy ney ynnheu. ac ys ef a oruc ynteu gochel y kledyf ac yn y kyvrysed h6nn6 eysyoes syrthya6 ney y brenyn ar y cledyf ac y bu var6. Ac gwedy kennatau hynny yr brenyn. gorchymyn ac erchy y mynheu rody ve ney y dyodef brawt y lys ef yn dyal y ney ynteu. Ac gwedy nas rod6n ve ney yn y ewyllys ef e deuth ynteu ae holl lw kantha6 am pen ve kyvoeth ynheu ae anreythya6 ae losky. ac wrth hynny yd wyf ynheu yn erchy de trugared ty. ac yn keysya6 porth a nerth y kenhyt ty y keysyaw ve kyvoeth ymy trachevyn hyt pan vo trwy ve nerth inheu am porth y gellych tytheu goreskyn ynys Prydeyn. Ac o hyn na phedrwsa dym kanys nyt oes dym twyll na brat yn yr amadrawd h6nn.[258]

Ac gwedy darlleyn y llythyr h6nn6 rac bron Wlkesar kyghor a kymyrth y gan y anwylyeyt hyt na chretey ef oy over amadra6d ac nat aey ef y ynys Prydeyn ony chaffey ef gwystlon a vey da kantha6 hyt pan vey dyogelach kyrchu ynys Prydeyn. ac wrth hynny Avarwy vap Llud a envyn6s Kynan y vap ac gyt a hynny dec gwystyl ar rugeynt o veybyon y gwyr bonhedykaf yn y kyvoeth oe anwylyeyt ae karant.[259] ac gwedy rody y gwystlon yn hyfryt Wlkesar a kynnull6s y lw ac a kyweyry6s y lyghes. Ac yr y gwynt kyntaf y dyskynu6s ym Porth Rwytun. ac yn yr amser hunnu yd oed Kaswalla6n yn dechreu ymlad a Chaer Lundeyn ac yn anreythya6 y gwladoed yn y chylch. Ac y gyt hagen ac y kygleu ef rydyvot Wlkesar y dir ynys Prydeyn ymada6 a wnaeth ynteu a Llundeyn a brysya6 a oruc yn erbyn yr amhera6dyr ac gwedy dyvot o hona6 hyt ger llaw glyn oed yn agos y gaer Keynt ef a weles yn y lle honno gwyr Ruveyn ac eu pebyllen ac eu lluesteu gwedy rydyskynnu yn y glyn h6nn6. kanys Avarwy vap Llud ae dugassey hyt y lle honno wynt y keysya6 dwyn kyrch nos yn dirybud am penn Kaswalla6n.[260] Ac yna heb un gohyr gwedy gwybot or Ruveynwyr bot y Brytanyeyt yn dyvot yn dyannot gwysca6 amdanyt a wnaethant eu harveu a gossot eu marchogyon yn vydynoed. Ac yna yd aeth Avar6y vap Llud a phym myl o wyr arva6c y gyt ac ef ac ym mewn llwyn koet oed yn agos udunt ymkudya6 yn h6nn6 hyt pan vey odyno y galley gwneuthur nerth a chanwrthwy y Wlkesar.[261] Ac gwedy darvot yr Brytanyeyt or parth arall gwysca6 am danynt am ympery nyt annodassant o pob parth newydyau agheuolyon dyrnodyeu. ymkyrchu a wneynt y bydynoed ac ellwng y gwaet y redec. ac o pob parth y syrthynt y kalaned yn veyrw megys y syrthynt y deyl y ar y gwyd mys Hydref pan vey va6r y gwynt. Ac val yd oedynt y felly yn ymlad ynachaf Avarwy vap Llud ae vydyn kantha6 yn kyvody oy lechva. ac or tu yn ol yn kyrchu bydyn Caswalla6n yr hon oed yn kynhal kedernyt y Brytanyeyt. ac ar rydaroed y Ruveynnya6l vydyn y anreythya6 or ran va6r o honey ac ar aurhon heb allel sevyll yn erbyn y chytcywta6twyr. ac wrth hynny kymryt ffo a orugant wy ac ada6 y maes. Ac yn agos y hynny mynyd oed ac ym pen y mynyd llwyn o coll tew a oed. ac yno y ffoes Kaswalla6n ae wyr gwedy y dygwyda6 yn y ran wannaf or ymlad.[262] Ac gwedy kaffael o hona6 ef gorwchelder pen y mynyd yn 6ra6l kynhal h6nn6 a orugant a gwneuthur agheu y lawer o eu gelynyon. kanys eu herlyt a wnathoedynt yr Ruveynwyr ac Avarwy vap Llud wynt gan vywau eu bydynoed avyn vynych y keyssynt kyrchu ar eu torr yr mynyd ac nys gellynt. kanys kerryc y mynyd ae oruchelder a oed amdyffyn yr Bryttanyeyt a llesteyr yr gelynyon. oc o pen y mynyd y gwneynt y Brytanyeyt aerva dyrva6r y meynt oc eu gelynyon.[263] Ac wrth hynny sef a wnaeth Wlkesar kylchynu y mynyd ae lw a mynnu gwarchae Kaswalla6n yn y lle honno hyt pan vey reyt yda6 ae ymrody yn ewyllys yr amherawdyr ae ynteu y warchae yna hyt pan vey var6 o newyn.[264] Oy a Dyw anryved kenedyl y Brytanyeyt yr rey dwyweyth a kymhellasant Wlkesar amherawdyr Ruveyn ar ffo. y gwr y daroed yda6 darestwng a gorescyn yr holl vyt

wrth y gyghor. ac yr gwr ny allus yr hollvyt gwrthwynebu yda6. ar Brytannyeyt eyssyoes ar ffo oeddynt yn gwrthwynebu yda6 ef. ac yn para6t y dyodef agheu tros eu gwlat ac eu rydyt. ac urth hynny y kant Lucan ym molyant y Brytanyeyt or Kessar. Ef a dangosses y ergrynnedyc kevnoed yr Brytanyeyt.[265] Ac yna gwedy llythra6 yspeyt deudyd gwedy nat oed y Kaswalla6n na bwyt na dyawt ovynhau a wnaeth gorvot arna6 ymrody ygkarchar Wlkesar, ac wrth hynny anvon a oruc Kasswalla6n kennadeu hyt at Avarwy vap Llud y erchy ydau ef y tagnhevedu ef ac Wlkesar rac ovyn kolly breynt y kenedyl ed hanoed o honey. ac y gyt a hynny hevyt mynegy a wnaeth yda6 kyt ryveley ef ar y kyvoeth ef hyt na mynney ef eyssyoes y agheu ef er hynny.[266] Ac gwedy datkanu or kennadeu hynny y Avarwy. ynteu a dywa6t val hyn. Ny dyleyr karu y twyssa6c a vydey araf a gwar en ryvel megys oen ac ar ei hed6ch a vyd dy6al megys llew. Oy a dwy6eu nef a dayar vy arglwyd y e gwr a oed kyn no hyn yn medu o honaf ac arawrhon y mae yn erchy y my y tagnhevedu ef ar amherawdyr. yr h6nn a vuassey damunet kantha6. kyn no hynny kaffael tagnheved y kantha6 ef. Ac wrth hynny y deley ynteu anrydedu ac aryneyga6 y gwr a kymmell6s y gyt ac ef amherawdyr Ruveyn oe kyvoeth ac eylchwyl a all6s y dwyn trachevyn. Ac wrth hynny ny deleyt gwneuthur kam i mynheu y gwr a alley yna gwneuthur y gwassanaeth h6nn6. ac ar awrhon a allaf y tagnhevedu ynteu ar amherawdyr. Ac wrth hynny an doethynep yw yr tewyssa6c gwneuthur kodyant a sarhaet oy varchogyon ef. trwy er rhey y kaffo ynteu y wudugolyaeth. kanys nyt y tywysa6c pyeu y wudugolyaeth namyn gwyr a ellyngant eu gwaet yn ymlad trostaw. Ac eysyoes my ae tagnhevedaf ef ar amhera6dyr kanys o gwnaeth ef sarhaet ymy dyga6n o ya6n kenhyf ynheu y vot ef yn erchy vy'n trugared ynheu.[267]

Ac yn dyannot yna kyodi a oruc Avarwy vap Llud or lle yd oed a brysya6 a oruc hyt y lle yd oed Wlkesar a dygwyda6 ar tal y lynyeu a oruc rac bron yr amhera6dyr a dywedwyt wrtha6 ar y wed hon. Arglwyd hep ef dyga6n ar rywnaethost di o dyal ar Kaswalla6n gwna weythyon trugared ac ef. Pa peth a keysy dy kantha6 amgen noc uvudyaeth y ty a thalu teyrnget y wyr Ruveyn o ynys Prydeyn. Ac yna gwedy na rodey Wlkesar un atteb yda6 ef. Avarwy eylchwyl a dywa6t val hyn. hyn hep ef a adeweys i yty. ac amvodeys a thydy. sef yw hynny darestwng Kaswalla6n a gorescyn ynys Prydeyn wrth dy kyghor di. llyma hynny wedy rywneuthur. llyma Kaswalla6n yn darestyngedyc. llyma ynys Prydeyn o kanurthwy y gwedy y gorescyn. pa peth a dylyaf y wneuthur yn amgen no hynny yty. nyt ef a wnel crea6dyr pob peth ymy gwedy y gwelhwyf y vy ewythyr y. am arglwyd vrenyn yn erchy vyn trugared i. ac yn gwneuthur ya6n y my or sarhaet a wnaeth ef ymy. dyodef o honaf ynheu byth y karcharu ef a myvy yn vyw. Nyt yskavyn llad Kaswalla6n neu y karcharu a myfy yn vyw. kanys nyt kewylyd kenhyf y rody vy kannh6rthwy am porth am nerth yda6 ef ony bydy ty wrth vy kyghor ynheu am dana6 ynteu.[268] Ac wrth hynny yna rac oyn Avarwy Wlkesar a kymyrth kytuhundep a thagnheved a theyrnget bob blwydyn y gan Kaswalla6n o enys Prydeyn. Ac ys ef oed eyryf y teyrnget a delyt or enys hon y wyr Ruveyn pob blwydyn teyr myl o punhyoed aryant. Ac o hynny allan kydymdeythyon vuant Wlkesar a Kaswalla6n vap Bely kan rody o pob un o nadunt oy kylyd amravaeylyon rodyon a dilyseu. Ac yna y gayaf h6nn6 y tryg6s Wlkesar yn ynys Prydeyn.[269] A phan dechrewys y gwayanh6yn dyvot yd aeth trwy y mor hyt yn Ffreync. Ac odyna gwedy hynny ym pen yspeyt kynnulla6 llw mawr a wnaeth o pob lle a mynet hyt yn Ruveyn yn erbyn Pompeyus y gwr oed yn kynnal yr amherodraeth.[270]

Ac odyna gwedy llythra6 yspeyt seyth mlyned y bu varw Kaswalla6n. ac yg kaer Efrawc y cladwyt[271] ac yn ol Kaswalla6n y gwnaethpwyt Teneuvan vap Llud y ney ynteu vap y vrawt yn vrenyn yarll Kernyw oed h6nno. kanys Avarwy vap Llud ry athoed y gyt ac Wlkesar parth a Ruveyn. ymlad6r a ryfel6r da oed Teneuvan a gwr oed a karey yawnder a gwyryoned ac ae gwney a pha6b.[272] Ac yn ol Teneuvan y gwnaethpwyt Kynvelyn y vap ynteu yn vrenyn. Marcha6c gwychyr oed h6nn6 ac amhera6dyr Ruveyn ae magassey ac a rodassey arveu yda6. Ac wrth hynny kymmeynt oed kantha6 karyat gwyr Ruveyn a chyt galley ef attael eu teyrnget racdunt hyt nas attalyey.[273]

Ac yn yr amser yd oed Kynvelyn vap Teneuvan yn vrenyn yn yr ynys hon y ganet Iesu Grist yn Arglwyd ni. y gwr yr y wyrthvaur waet ef a prynn6s kenedyl dyn o keythywet agahana6c dyaful.[274] Ac gwedy gwledychu o Kynvelyn ynys Pry-

deyn trwy yspeyt dec mlyned y ganet deu vap yda6. Sef oedynt yr rey hynny. Gwydyr oed y map hynaf yda6. a Gweyryd oed y llall. ac or dywed gwedy y ylenwy o Kynvelyn dyeuoed y wuched ef teyrn gwyalen y kyvoeth a llywodraeth y teyrnas a digwyd6s yn llaw Gwydyr. Ac gwedy attael or Gwydyr hwnn6 teyrnget a deley y talu y wyr Ruveyn ef a deuth Gloew Kesar yr h6nn a oed. yn kynhal yr amherodraeth a llw maur kantha6. Ac y gyt ac ef y dothoed Ieuli6s Haymo tywysa6c y lu ef oed h6nnu. a thrwy kyghor h6nn6 y gwneyt ac y llunyethit pob peth or wnelyt. Ac yna gwedy dyskynnu Gloew Kesar ym porth kaer Perys ef a dechrewys kaw pyrth y dynas a mwr maen a lludyas y kywdawt6yr y dyvot allan. kanys ef a vynney eu kymmell y wedoyda6 neu ynteu hep trugared eu gwarchae yn y lle honno hyt pan vydynt maru o newyn.[274]

Ac gwedy bot yn honnedyc dyvodygaeth Gloew Kesar yr ynys honn Gwydyr yn dyannot a kynnull6s holl varchogyon ynys Prydeyn ae holl wyr ymlad ac yn erbyn gwyr Ruveyn y deuthant. Ac gwedy gwysca6 a bydyna6 yn dyannot kyrchu gwyr Ruveyn a orugant. ac en wychyr dechreu ymlad a oruc Gwydyr. a mwy a ladey ef ehunan ac uncledyf oe elynyon noc a ladey yr ran wuyhaf oe lw. Ac a6r pob a6r y medylye Gloew Kesar fo a chyrchu y longheu. ar Ruveynwyr yn holla6l yn gwascaru. pan aeth y twyllwr gan Haymo a b6r6 y arveu ehun y amdana6 a chymryt arveu un o'r Brytanyeyt y ymlad megys kyt bey un o nadunt vey ef a dywedwyt bot y wudugolyaeth ar gorvot yn eu llaw o pherheynt yn ymlad megys yd oedynt. kanys yeyth y Brytannyeyt ac eu moes a dyskassey ynteu yn Ruveyn ym plyth gwystlon y Brytanyeyt yn Ruveyn. kanys yn eu plyth y megessyt. Ac odyna trwy blyth y bydynoed dynessau a oruc hyt van vyd kerllaw y brenyn[276] ac gwedy kaffael o honaw ef lle ac amser y gyt ae cledyf llad pen y brenyn a oruc. Ac odyna y gyt ar eskymun wudugolyaeth honno llythra6 a oruc trwy un trwy arall hyt pan vyd ym plyth y lw ehun.[277] Ac yna y deuth Gweiryd vrenyn ac gwedy gwelet o hona6 y vra6t gwedy rylad yn y lle dyot y arveu ehun a oruc a gwyska6 arveu y brenyn am dana6 ac yn y lle annoc y Brytanyeyt a oruc a gyrru grym ac angerd yndunt ac erchy ymkadarhau ynn ymlad megys kyt bey ef vey Gweiryd. ac yna y Brytanyeyt ymkadarnhau a wnaethant wrth y annoc ef megys kyt bey ef vey Gwydyr. kanys ny wydyn ettwa rylad eu brenyn. Ac or dywed eyssyoes llythra6 a orugant y Ruveynwyr yn dwyran. ac yn dypryt waradwydus adaw y maes. Ac yna yd aeth Gloew Kesar ar ran oe lw y gyt ac ef a chymryt y longheu yn kedernyta dyogelwch idaw. A Haymo ar ran arall y gyt ac ynteu a ffoassant yr koedyd ac yr mynydoed kan ny cha6ssant o yspeyt mynet yn eu llongheu.[278] Ac yna tebygu a wnaeth Gweyryd bot yr amhera6dyr yn yr ran honno or llu a bryssya6 a oruc ynteu ac eu herlyt wynt o le pwy gylyd hyt pan godiwedawd wynt ar lan y mor y lle y gelwir yr aurhon oe enw ef Porth Hamunt. neu ynteu Sudhampt6n. kanys eno yd oed porthloed a dyskynva adas y longheu. ac yno yd oed llawer newyt longheu. ac yn yr rey hynny y mynnassey Haymo mynet yndunt pan deuth Gweiryd yn disyvyt ym y ben ac yn dyannot y lad. ac wrth hynny y gelwyt y lle honno yr hynny hyd hedyw Porth Hamwnt.[279] Ac yn hynny Gloew Kesar gwedy ymkynnulla6 y kytemdeythyon attaw a dechrewys eylweyth ymlad a chaer Perys yr hon a elwyr yr a6rhon Porth Cestyr. A gwedy kaffael y dynas a gwascaru y muroed erlyt Gweyryd a oruc hyt yg kaer wynt a damkylchynu y dynas ac y gyt ac amravaelyon peyryanheu ymlad ar dynas a cheyssya6 eu dywreydya6 ae chywarsangu.[280] Ac gwedy gwelet o Weyryd gwarchae y dynas arna6 kyweyrya6 y lu a oruc ynteu trwy vydynoed ac egory pyrth y dynas a wnaeth a mynet y maes or dynas ac arvaethu rody kat ar vaes udunt. Ac gwedy gwelet o Gloeu Kesar wynt yn arvaesu ac yn darmerthu kat ar vaes. Anvon kennadeu a oruc at Weyryd ac erchy tagnheved udunt kanys ovyn oed arna6 glewder y brenyn a dewred a drudanyaeth y Brytanyeyt ac wrth hynny gwell oed kantha6 ef goreskyn trwy synhwyr a doethynep no mynet ym petrusder brwydyr ac ymlad ac wynt. ac wrth hynny anvon a oruc Gloeu Kesar at weyryd ac erchy tagnheved yda6 ef yn y wed hon rody merch yr amhera6dyr yn wreyka y Weyryd kan daly enys Prydeyn wrth amherodraeth Ruveyn.[281] ac yna o kyghor y wyrda y peydya6d Gweyryd ac ymladeu a bot wrth Gloew Kesar. kanys wynt a dywedynt nat oed waradwyd yda6 ef darestwng y wyr Ruveyn pan vey yr holl vyt yn gwedu udunt. ac yn talu teyrnget udunt. ac o acha6s y pethau hynny a llawer o achwysson ereyll arafhau a oruc Gweyryd a bot wrth kyghor y wyrda ac ufudhau yr amhera6dyr. Ac yn dyannot anvon

kennadeu hyt yn Ruveyn a oruc ef yn ol y verch a thrwy kann6rthwy Gweyryd e goreskynn6s Gloew Kesar ynysed Orc ar kytynysed ereyll yn ey chylch.[282]

Ac gwedy llythra6 y gayaf heybya6 y kennadeu a ymchwelasant or Ruveyn ar vorwyn kanthunt ac wynt ae rodasant oy tat. ac y sef oed enu y vorwyn honno Gennylles a chyn teket oed ac yd oed anryved kan pa6b or a gweley y phryt ac gwedy y rody yn wreyc pwys y Weyryd kymeynt y kara6d Gweyryd hy ac yn y oed mwy kantha6 y serch hy ae charyat noget holl presenna6l da ac alavoed or a welhey ae lygait. Ac wrth hynny y lle kyntaf y kysk6s ef y gyt a hy a vynn6s ynteu y vot yn anrhydedus enwa6c ac yd erchys ynteu yr amhera6dyr gwneuthur dynas hono megys y bey honno yn kadw kof y neythya6r honno hyt vra6t trwy holl oessoed.[283] Ac yn y lle honno yd adeyl6s Gloew Kesar dynas yr hon a elwyr oe enw ef Kaer Gloew yr hynny hyt hedyw yg kyffynyd Kymry a Lloegyr ar lan Hafren. ac ereyll a dywedant y mae y kan y Loyw wlat Lydau map Gloew Kesar a ganet. yn y dynas h6na6 gwedy hynny y kavas y dynas honno y enw y gwr gwedy Gweyryd a wu tewyssauc ar Kymry.[284] Ac yn yr amser h6nn6 yg Kaerusalem y kymyrth yr Arglwyd Iesu Grist map Dyw dyodevyeynt yr prynnu ken dyl dyn a oed yg keythywet aghana6c Dyaf6l trwy yr holl oessoed kyn no hynny. Ac yna yr rydha6s ynteu wynt trwy y angeu ac ellyngedygaeth y waet ef.[285] Ac yno gwedy adeylat y kaer a thagnhevedu yr ynys ymchwelyt a oruc Gloew Kesar yr Ruveyn. a llywodraeth yr ynysed a orchmynn6s y Gweyryd. Ac yn yr amser h6nn6 y dechrewys Pedyr abostol yn gyntaf gossot y kadeyr yn yr Antyoces. Ac odyna y deuth hyt yn Ruveyn ac yno y preswyllyo6s. ac y cynhelys escoba6t. ac y danfones ynteu Marc evangelystwr hyt yr Eyfft y pregethu yr eveghyl a yscryvenassey.[286]

Ac gwedy mynet Gloew Kesar o'r ynys a chymryt o Gweyryd synhwyr a syberwyt a molyant dechreu adeylat y dynasoed ar kestyll a llywya6 y pobyl ar kyvoeth trwy yawnder a gwyryoned hyt pan oed y ovyn ae aryneic ar y teyrnasoed a oedynt ym pell ac yn agos yda6. Ac gwedy hynny kymryt syberwyt ynda6 a oruc a thremygu gwyr Ruveyn ac attael eu teyrnget racdunt a hep vynnu daly adanadunt a vey hwy no hyny.[287] Ac gwedy klywet o Gloew Kesar y chwedyl h6nn6 ynteu a envyn6s Vaspasyan y kymhell Gweyryd ar tagnheved a gwyr Ruveyn ac y talu y gnottaedyc teyrnget udunt. Ac gwedy y dyvot hyt ym porth Rutupy ef a deuth Gweyryd a holl kedernyt ynys Prydeyn 6rth ludyas h6nn6 ae lu yr tyr. kanys kymeint oed o nyver y gyt ac ef megys yd oed ovyn ac arymneyc ar wyr Ruveyn racdunt. Ac wrth hynny trossy eu hwylyeu a oruc Vaspasyan a dyskynnu ym Perth Totenysy a orugant.[288] Ac gwedy kaffael tyr o nadunt kyrchu a wnaethant Kaer Pen Hwylcoyt.[289] a dechreu ymlad ar kaer. Ac gwedy hynny ym pen y seythvet dyd y deuth Gweyryd ae lu. ac yn dyannot dechrau ymlad a orugant. ar dyd h6nn6 llawer a las o bob parth. ac ny chavas nep o nadunt y wudugolyaeth. ac val y deuth y dyd trannoeth y vrenhynes a deuth y rwng y deu lu ac a oruc tagnheved y rygtant. ac odyna yd anvonasanteu kytvarchogyon hyt yn y Werdon. Ac gwedy mynet y gauaf heybya6 ymchwelut a oruc Vaspasyan y Ruveyn a Gweyryd a drig6s yn ynys Prydeyn. ac gwedy dechreu o hona6 ef trosy parth a heneynt karu a wnaeth ynteu Sened Ruveyn a traethu y kyvoeth trwy hed6ch a gwarder a chadarnhau yr hen kyvreythyeu a gosot ereyll o newyd trwy y kyvoeth. a rody rodyon ma6r y pa6b or ae keysyey y gantha6. Ac y velly y clot ef a eheda6d trwy yr holl Europa. Gwyr Ruveyn a karey a hevyt yd oed ei ovyn arnadunt. kanys mwy a dywedyt am dana6 ef ehunan noc am yr holl vrenhyned. Ac wrth hynny y dyweyt Suvenal wrth Nero yn y koffau ef yn y lyvyr Brenyn a dygwyd o Vrytaen nid amgen Gweyryd. nyt oed nep glewach yn yr ymlad ar ryvel nid oed nep gwarach yn yr heduch. nit oed nep haelach yn rody da. ac gwedy eylenwy holl dyheuoed y wuched ef a cladwyt yg kaer Gloew ym mewn temhyl a wnaethoedyt yn anryded Gloew Kessar.

Ac yn ol Gweyryd y deuth Meuryc y vap ynteu yn vrenyn gwr anryved y pruder oed h6nn6 ae doethynep. Ac ym pen yspeyt gwedy hynny a Meuryc yn gwledychu yr ynys. Rodryc brenyn y Ffychtyeyt a deuth a llyghes va6r kantha6 o Scythya ac a dyskynn6s yg gogled yr ynys hon y lle a elwyr yr Alban. a dechreu anreythya6 y wlat a oruc. ac gwedy klybot o Veuryc hynny kynnulla6 y pobyl a oruc ynteu a mynet yn y erbyn a wnaeth. ac gwedy dechrau ymlad y lad a oruc a chaffael y wudugolyaeth. ac gwedy hynny dyrchavael maen ma6r a wnaeth yn arwyd budugolyaeth yn y wlat a elwyr gwedy

hynny oe enw ef Gwysmeuryc ac yn e maen hónnó yd yscryvennwyt tytyl y wudugolyaeth honno yr hynny hyt hedyw. Ac gwedy llad Rodryc yna y rodes Meuryc rann or Alban yr pobyl orchvygedyc a dothoed ygyt ac ef Rodryc y preswylyaó yndy. ar rann honno o'r wlat a elwyr Yscotlond. kanys yn yr amser hónnó dyffeyth oed hep nep yn ei phreswyllyaó nac yn y chyvanhedu. nac yn y dywyllyaó. Ac nat oed gwraged udunt erchy a wnaethant yr Brytanyeyt eu merchet ac eu karesen yn wreyka udunt. ac y bu antheylwng gan y Brytanyeyt hynny ac ny mynnasant rody eu merchet yr pobyl honno. Ac wrth hynny yd aethant wynteu hyt yn y Werddon at y Gwydyl ac y gan yr rey hynny y kymmerasant eu merchet ac eu kareseu yn wraged udunt. ac or rey hynny yd hylyasant eu kenedyl gwedy hynny. Ac ar hynny y peydyón ar kenedyl honno. kanys ny bu darpar kennym ny traethu oc eu hystorya wynt nac or Yscotyeyt yr rey a dechrewys y kenedyl o'r Gwydyl Ffychty ac or Gwydyl yaón. Ac gwedy darvot y Veuryc lunyethu yr ynys holl trwy tagnheved karyat a kynhelys y rygthaó a gwyr Ruveyn ac oe vod yllóng eu teyrnget udunt. Ac o agcreyfft y tat trwy yawnder a tagneved y kyvreythyeu yn adóyn tros yr holl teyrnas a dywyllyós.

Ac gwedy eylenwy o honaw ef y holl wuched ef Coel y vap ef a kymyrth y llywodraeth y teyrnas. a hónnó yr yn vap a vagessyt yn Ruveyn ac yno y dyskassey ef moes a devodeu gwyr Ruveyn a chymeynt oed y kytymdeythas ae karyat arnadunt a chyt galley ef attael eu teyrnget racdunt y hellyghcy oe vod udunt. kanys ef a welhey yr holl vyt yn darostyghedyg udunt. ac wrth hynny yd ellyghey ynteu udunt eu delyet. ac nyt oed ym plyth brenhyned y dayar gwr well a anrydedy y bonedygyon ar dyledogyon noc oed Koel. kanys paób o nadunt a adey yn eu hedóch ac y gyt a hynny llawer a rodyon a rodey udunt.[290]

Ac gwedy hynny map a anet yda6. ac ysef oed enw hónnó Lles vap Koel. ac gwedy marós y tat a chymryt o hona6 ynteu koron y teyrnas holl weythredoed da y tat a evelychós ef eu gwneuthur. megys y dywedyt mae ef oed Koel. ac odyna ef a vynnós keysya6 gwneuthur y dyóed yn well noe dechreu. ac órth hynny kennadeu a ellyghós ynteu hyt yn Ruveyn at Eleuter Pap y erchy yda6 anvon atta6 gwyr ffydla6n dyskedyc yg crystnoga6l ffyd tróy pregeth a dysc yr rey y galley ynteu credu y Cryst. Canys y gwyrtheu ar anryvedodeu a kylywey ef tróy pregethóyr Cryst ar let y bydoed rydaroed udunt yglurhau a golehau y 'gallon ynteu órth gredu y Crist yachwyda6l.[291] Ac órth hynny oy war desyvedygaeth ef ufudhau ef a oruc y Pab hónnó. ac anvon a oruc deu dyskya6dwyr credyvus. Ac ysef oedynt yr rey hynny Dwy6an a Ffagan. ar rey hynny a pregethasant yda6 ef dyvodedygaeth Cryst yg cna6t ac ae golchassant ef or lan ffynnya6n vedyd. ac ae hymchwelassant ef ar Cryst. Ac yna hep un gohyr o pob gwlad y pobloed o agcreyfft eu brenyn ymkynnólla6 ac or un ryw ffynna6n vedyd honno ymlanhau ac ymkyssylltu a theyrnas nef.[292]

Ac gwedy darvot ir gwynvydedyc dyscodryon hynny golchy a dyleu agcret trwy holl ynys Prydeyn hayach y templhau y rhey a oedynt aberthedyc yn enryded yr geu dwyóeu yr rey hynny a rodes ynteu ac y kyssegrós yr holl kyvoetha6c Dduw ac oy seynt ynteu. Ac yn y templheu hynny amravaelyon kenveynnyoed urdassedyc y talu kynnevodyc wassanaeth dyledus y Dyw a ossodassant.[293] Ac yn yr amfer hónnó yn ynys Prydeyn yd oedynt wyth escopty ar rugeynt. a thry archescopty. ac yr try archescopty hynny yd oedynt yr wyth escopty ar rugeynt yn darestyghedyc wedaul y talu dyledus ufudta6t udunt. Ar rey hynny trwy orchymmyn ac awdurda6t pab Ruveyn góedy dyleu yr aghret onadunt a kyssegrassant megys y dywedpóyt wchot yn anryded Dyw ar seynt. Ac yn y tri dynas bonhedykaf yn ynys Prydeyn yd oedynt y try archescopty nyt amgen Llundeyn a Chaer Efraóc a Chaer Llyon ar Wysc. ac órth hynny yr try lle hynny y rannóyt yr wyth escopty ar rugeynt. Ac y Archescopty Caer Efraóc y dygwydós Deifyr a Brynych ar gogled oll megys y gwahana Humyr y órth Loegyr. Ac y Archescopty Llundeyn y parthóyt Lloegyr y gyt ae tervyneu a Chernyw y gyt a hy. Ar dwy archescoba6t hynny a gwahana Hafren a Chymry yr hon a parthóyt y archescopty kaer Llyon ar Wysc.[294]

Ac or dyóed góedy darvot ir gwyrda hynny llunyethu ac urda6 a gossot pop peth yn wedus yn heróyd crystnoga6l ffyd y deu escop hynny a ymchwelassant trachevyn hyt yn Ruveyn a phob peth o'r wnathoedynt óynt ae datkanassant y Pap Ruveyn. Ac góedy kymryt kedernyt a thelygta6t y gan y pap yr petheu hynny oll óynt a ymchóelassant a llawer o kytymdeythyon ereyll y gyt a hóynt hyt yn ynys Prydeyn ac o dysc yr rey hynny

ar vyrr yspeyt y kadarnha6yt ffyd a Chrystonogaeth ym plyth y Brytanyeyt. Enweu hagen a g6eythredoed y gwyr p6y bynnac a vynno eu gwybot keyssyet yn y llyfr a yscryfenn6s Gyldas o wudugolyaeth ymreys wledyc. ar peth a draeth6s y gwr h6nn6 mor yglur a gloe6 a hynny nyt rheyt y mynheu y atnewydu hynny o traetha6t a vey dyel6ach no honno[295].

Ac odyna ym plyth y g6eythredoed da hynny y gogoned6s arderch a6c vrenyn h6nn6 Lles vap Coel g6edy gwelet o hona6 ef dywyll gwyr ffyd a Chrystonogaeth yn echdy6ynnygu yn y teyrnas ar kyvoeth dyrva6r lewenyd a kymyrth ynda6 y medyant ar breynhyeu ar tyr ardayar a oed gynt y templheu y geu dwy6eu yr rey hynny a ymchwel6s ynteu yn arver a oed well ac a kadarnha6s yr eglwyseu ac yr seynt. A chanys m6y o anryded ac adurn a dyleyt yr g6yr Dyw ac oy seynt ac oy ebystyl ynteu a achwaneg6s rodyon o tyr a dayar ac eistedvaeu ac o holl rydyt eu hedychu ac eu kadarnhau. ac eu hardyrchavael trwy bob rydyt y gan y brenyna6l anghenda6t. Ac y velly yr r6ng pob g6eythret da ae gylyd yg Kaer Loew y tervyn6s ef dyeuoed y wuched. ac yn eglwys y pennhaf eistedva yr escopty y clad6yt yn anrydedus yn yr unvet vl6ydyn ar pymthec a deu ugeyn a chant g6edy dyvot Cryst yg cna6t.[296]

A CHANYT oed plant yda6 a dylyeu kynhal y teyrnas yn y ol 6rth hynny y kyvodes ky6da6da6l tervysc yr r6ng y Brytanyeyt ar Ruveynya6l kyvoeth a gwanha6s. Ac g6edy kennathau hynny y Sened Ruveyn 6ynt a anvonassant Severus Sened6r a d6y leng o wyr y ymlad y gyt ac ef ac y kymholl enys Prydeyn 6rth Ruveynya6l vedyant trachevyn. Ac g6edy dyvot y tyr ynys Prydeyn ef a dechre6ys ymlad ar Brytanyeyt ac a oreskynn6s ran o nadunt ar ran arall ny all6s eu goreskyn o kalettaf a chreulonhaf ymladeu a govalus hyt pan va reyt udunt ffo hyt yr Alban tros Deifyr a Brenych yn y gogled. Ar rey eyssyoes a Sulyen yn tywyssa6c arnadunt oc eu holl lavur yn gwrth6ynebu ac yn daly yn erbyn y Ruveynwyr. ac yn vynych yn g6neuthur aervaeu or Ruveynwyr ac or Brytanyeyt a oedynt y gyt ac 6ynt. kanys kynnulla6 a gal6 attadunt a 6neynt pa6b or a keffynt or ynyssed y6 eu kylch yn kannwrth6y udunt. ac y velly yn vynych yd ymch6elynt y gyt a budugolyaeth.[297] Ac 6rth hynny gorthr6m vu kan yr amhera6dyr diodef eu kyrchu ac eu ryfel arna6. ac 6rth hynny yd erchis yr amhera6dyr gwneuthur cla6d or mor p6y gylyd yr r6ng Deyfyr a Brennych ar Alban megys y bey ha6s gwahard eu kyrcheu 6ynteu. Ac o kyffredyn treul y gwnaethp6yt ac y kwpla6yt y gweyth or mor pwy gylyd yr r6ng Deyfyr a Brenych ar gogled. a h6nn6 trwy llawer o amseroed g6edy hynny a dyffyrth ac a ytelys ruthreu a chyrcheu y y gelynyon. Ac ysef a oruc Sulyen g6edy gwelet o hona6 ef na alley ef ae porth gwrth6ynebu yr amhera6dyr. mynet hyt yn Scythyay keyssya6 nerth a phorth y gan y Ffychtyeyt y oreskyn y kyvoeth trachevyn. Ac g6edy kynnulla6 o hona6 holl veuenctyt y wlat honno y gyt a dyrva6r lyghes y deuth hyt ynys Prydeyn. Ac yn dyannot kylchynu Kaer Efra6c ac ymlad ar dynas.[298] Ac g6edy ehedec e chwedyl tros y gwladoed. yr ran m6yhaf or Brytanyeyt a ymada6ssant ar amhera6dyr ac a aethant at Sulyen. ac eyssyoes yr hynny ny pheydy6s Severus ac dechreuoed ef namyn o pob lle kynnulla6 yr Ruveyn6yr ef ar Brytanyeyt a trygessynt y gyt ac ef. ac yn dyannot kyrchu tu a Chaer Efra6c ac ymlad a Sulyen. Ac g6edy ymlad yn wychyr o nadunt yr amhera6dyr a las yna a llawer or rey eyda6 y gyt ac ef. a Sulyen a vrath6yt en agheua6l. Ac odyna y cladwyt Severus enghayr Efra6c er hon a ka6ssant y lenghoed Ruveyn6yr enteu. A deu vap a ada6ssey enteu ac esef oedynt er rey henny Bassyan a Getta a mam Getta a hanoed o Ruveyn a mam Bassyan a hanoed or enys hon. Ac g6edy maru eu tat esef a orugant gwyr Ruveyn kymryt Getta en vrenyn ae kann6rthwya6 oc eu pleyt 6ynt kanys o Ruveyn ed hanoed e vam. Ac ysef a orugant y Brytanyeyt gwrth6ynebu y henny ac ardyrchavael o nadunt 6ynteu Bassyan en vrenyn kanys y vam enteu a hanoed o enys Prydeyn. Ac odyna en kynydu br6ydyr er rygthunt. ac ena e llas Getta. ac e kavas Vassyan e vrenhynyaeth tr6y nerth y Brytanyeyt.[299]

Ac en er amser h6nn6 ed oed yno gwas yeuanc a el6yt Kara6n. ac nyt oed vonhedyc. ac eyssyoes en llawer o emladeu clotva6r oed oe dewred ac oe da6n. ar gwas h6nn6 a kerda6d racda6 hyt en Ruveyn ac erchy kanyat yg gwyd Sened Ruveyn y kad6 enys Prydeyn ar longheu ar e moroed rac gormessoed y gan estronolyon kenedloed. ac ada6 tros henny o da y wyr Ruveyn kymeynt a chet kaffey enteu brenhynyaeth enys Prydeyn.[300] Ac g6edy darvot yda6 ef tr6y e ffals adaweu henny twyllau Sened Ruveyn ef a kavas er hyn a erchys udunt ac y gyt ac escryvenneu yn seylyedyc ef a

deuth trachevyn hyt yn enys Prydeyn. Ac ene lle en dyannot kynnulla6 llongheu a oruc a galw atta6 lawer o kedernyt yeuenctyd ynys Prydeyn a mynet a oruc yn y lyghes ar y mor a chylchynu holl traetheu a phorthvaeu enys Prydeyn. a g6neuthur llawer o kynh6ryf ar y pobloed ac ar enyssed en y cylch kan anreythya6 e dynassoed ac eu llad ac eu llosky a grypdeylya6 ac yspeylya6 e tyr dywyllodryon oc eu da. Ac ef evelly yn y creulonder h6nn6 llythra6 atta6 a wneynt pa6b ar ay karey treys a grypdeyl ac enwyred. ac ar yspeyt vechan kymeynt oed y lw ac nad oed arna6 ovyn un tywyssauc.[301] Ac o acha6s henny dyrchavael y syber6yt a oruc ac anvon kennadeu at y Brytannyeyt y erchy udunt y 6neuthur ef en vrenyn arnadunt. ac enteu a emladey a gwyr Ruveyn ac ae dystrywey 6ynt o enys Prydeyn ac ar rydhae e Brytannyeyt y gan estra6n kenedyl.[302] Ac y gyt ac y kavas enteu e vrenhynyaeth en dyannot emlad a oruc Cara6n a Bassyan ae llad. kanys y Ffychtyeyt a 6naethant y vrat yda6. pan dyleynt wy kanh6rthwya6 Bassyan ed emch6elasant 6ynteu arnaw ef en e wrwydyr ac emlad en erbyn eu gwyr ehun. Ac g6edy henny eu e lle ada6 y maes a oruc y Ruveyn6yr a dechrau ffo. kany 6ydynt pwy a vey porth. pwy a vey amporth. Ac gwedy kaffael o Kara6n e wudugolyaeth ef a rodes yr Gwydyl Ffychty en e gogled y wlat a el6yr Escotlont. ac eno y maent yn preswyllya6 em plyth e Brytanyeyt yr hynny hyt hedy6.[303]

Ac g6edy kennatau en Ruveyn ryoreskyn o Kara6n enys Prydeyn Sened Ruveyn a anvones Allectus Sened6r a theyr lleng o wyr emlad y gyt ac ef y lad e creula6n ac y oreskyn er enys trachevyn urth vedyant gwyr Ruveyn. Ac g6edy eu dyvot y tyr enys Prydeyn. en dyannot emlad a orugant a Chara6n. ac g6edy y lad kymryt koron y teyrnas a wnaeth Allectus. ac odyna dyrva6r temhestyl a dyporthes yr Brytannyeyt er rey a ymada6sey a chyhoed gwyr Ruveyn. ac ar athoedynt ar Kara6n.[304] Ac wrth henny trwm e kymerassant e Brytannyeyt henny. a chymryt Asclepyodotus yarll Kernyw ac urdaw h6nn6 en vrenyn arnadunt. ac o kyffredyn kyghor a chytsynnhyedygaeth mynet a orugant am benn Alectus ae kymhell y emlad ac 6ynt. Ac en yr amser h6nn6 ed oed enteu en Llundeyn en g6neuthur g6ylva oy tadolyon dwy6eu. ac y gyt ac y kygleu ef dyvodedygaeth e Brytanyeyt emada6 ae abertheu a oruc ac y gyt ae holl kedernyt kyrchu e Brytannyeyt a oruc a chalettaf aerva o bob parth a orugant. Ac eysyoes trechaf wu Asklepyodotus ar Brytannyeyt a gwascarw er Ruveyn6yr a 6naethant ac eu kymell ar fo ac eu hymlyt a llad llawer o vylyoed o nadunt a llad Allectus eu brenyn.[305] Ac g6edy damweynya6 y wudugolyaeth yr Brytanyeyt sef a oruc Lylyus Gallus ketymdeyth Allectus kynnulla6 er rey ar dyangesynt or Ruveyn6yr atta6 y Lundeyn a chad6 e pyrth ar kestyll arnadunt a medylya6 keysya6 g6rth6ynebu odyna yr Brytanyeyt neu enteu gochel e kyndrycha6l angheu oed en y herbyn. Ac g6edy gweled eysyoes o Asclepyodotus hyny kylchyny e dinas a oru enteu ac en dyannot anvon kennadeu a 6naeth at holl tewysogyon enys Prydeyn a dy6edyt udunt rylad o hona6 ef Allectus a llawer o vylyoed y gyt ac ef ae vot enteu en eiste 6rth Lundeyn. ac en gwarchay endy er hyn a dyanghasey or Ruveyn6yr endy. Ac 6rth henny erchy y pa6b o tewysogyon enys Prydeyn en kytduhun ac en dyannot dyvot hyt atta6 ef en porth yda6. kanys ef a tebygey bot en eskavyn udunt dywreydya6 er Ruveyn6yr or enys os o kytduhundep pa6b ed emledyt ac 6ynt.[306] Ac ena 6rth y kennadeu e doythant e Deheuwyr ar Gwyndyt a gwyr Deyfyr a Brennych ar Albanwyr ac y gyt a henny pa6b or hanoedynt o kenedyl e Brytanyeyt. Ac g6edy dyvot pa6b hyt rac bron e brenyn ef a erchys parattoy amravaelyon peyryanneu a llavurya6 y dystryw e muroed. Ac en dyannot uvudhau a orugant yda6 or g6yr kadarn ar rey glew ac en wychyr kyrchu e muroed a orugant. Ac en dyannot eu brywa6 athr6ydunt a throstunt y me6n ed aethant a g6neuthur aerva or Ruveynwyr en e lle. Ac eysyoes gwedy gwelet or Ruveyn6yr eu llad hep trugared hep orffowys annoc a 6naethant y eu tewysogyon ufudhau yr Brytannyeyt ac erchy eu trugared y eu hellwng en vy6 y eu gwlat. kanys neu ry daroed hayach eu llad oll namyn un lleng oed ett6a en keysya6 emkynhal.[307] Ac 6rth hynny kytsynnhya6 ac 6ynt a oruc Gallus eu tewysa6c ac amrody ac ef ae cytymdeythyon en ewyllys Asclepyodotus ar Brytannyeyt. Ac val ed oed e brenyn en kymryt kyghor am trugarhau wrthunt e kyvodasant gwyr Gwyned a bydyna6 ac ar lan nant bychan ed oedynt llad penneu er Ruveyn6yr a orugant. Ac 6rth henny e gelwyr e nant h6nn6 eg Kymraec Nant Gallg6n ac en Saysnec Gallobroc.[308]

Ac gwedy gorvot ar Ruveyn6yr Ascle-

pyodotus tr6y annogedigyaeth tywyssogyon e teyrnas a kymyrth koron e vrenhynyaeth ac ae gwysc6s am y pen ac a traeth6s y kyvoeth trwy unyawn wyryoned a thagnheved ar espeyt dec mlyned. a g6ahard a 6naeth grypdeyl e treyswyr a chledyveu e lladron.[309] Ac en y oes ef e dechreu6ys e temhestyl a oruc Dyocletyan amhera6dyr ar e Crystonogyon en er hon hayach e dyleyt Crystonogaeth en ynys Prydeyn. er hon a kynhelyt en kyvan ac en yach endy yr en oes Lles Vrenyn e g6r kyntaf a dothoed eg kret endy. Ac en er amser h6nn6 e dothoed Maxen Erewlff pen teulu y creula6n h6nn6 ac o arch h6nn6 ae orchymyn y dystrywyt er holl eglwyseu. ac e lloscet holl lyfreheu er escrythur lan ar a allwyt y kaffael o nadunt. ar etholedygyon effeyryeyt ar meybyon lleen ar Crystonogyon adanadunt a llas en kyn amlet ac ed ehedynt en vydynoed ar 6lat nef megys ar eu gwyr prya6t tref tat 6ynt. Ac ena y ma6rha6s yr Holl-gyvoetha6c Dyw y trugared ef em plyth e Brytannyeyt rac eu tewylla6 wynt o nosa6l tewyll6ch agheu er rodes ef egluraf lampeu udunt e seynt ar merthery a ennyn6s udunt a bedeu er rey henny ar lle e kymmerasant eu merthyrolaeth trwy gwres caryat em meun bryt a med6l e nep a edrycho a dangossassant eu gwyrthyau pey na bey kwynvannus klybot y gan agkyvyeyth kenedyl er ryw destryw a h6nn6 ar kywdawt6yr enys Prydeyn.[310] Ac em plyth pa6b or bobloed a verthyr6yt ena e dyodevasant mylwyr em mydyn Cryst. seynt Alban o Verolan. ac Wl. ac Aaron o kaer Llyon. A seynt Alban hagen o wres kymerwedyc carda6t a kymyrth Amphybal y kyffeswr ef o la6 er rey ae merthyrey ac en kyntaf ae kudy6s en y ty ehunan ac odyna a symud6s e dyllat. ac ae ellynga6s y ymdeyth. ac ed emrodes enteu ehunan y verthyryolaeth. ar rey ereyll trwy amravaelyon poenau ar eu corfforoed a ehedasant ar orwchelder llewenyd g6lat nef hep un pedrus.[311]

Ac en er amser h6nn6 e kyvodes Koel yarll Kaer Coelin yn erbyn Asclepyodotus brenyn y Brytannyeyt. ac g6edy bot br6ydyr er rygthunt e llas Asclepyodotus ac arderche6yt Kcel o coron e teyrnas. Ac g6edy kennatau hynny y Sened Ruveyn lla6enhau a orugant o acha6s agheu e brenyn er h6n a daroed yda6 kynnyrvu Ruveynya6l kyvoeth. ac ena koffau a oruc Sened Ruveyn e veynt kollet a kollesynt o teyrnget enys Prydeyn. Ac 6rth hynny 6ynt a anvonasant Constans senedur er hun a darestyghasey er Espaen wrth Ruveynya6l vedyant. gwr doeth hagen oed h6nn6 a glew. ac em blaen pob peth gwr a vynney aghwanegu kyhoeda6c vedyant sened Ruveyn.[312] Ac 6rth henny Koel vrenyn e Brytannyeyt g6edy gwybot o hona6 en honneyt dyvodedygaeth Constans y enys Brydeyn aryneyga6 ac ovynhau a oruc emlad en y erbyn kanys y clot a kadarhaey na ry allassey un brenyn gwrth6ynebu yda6. Ac 6rth hynny y gyt ac y dyskynn6s Constans ar tyr er ynys anvon kennadeu a oruc Koel at Constans ac erchy tagnheved yda6. a rhody o hona6 ynteu gwryogaeth a darestyghedygaeth yda6 ac y Sened Ruveyn a dan yr amvot h6n medu o hona6 ef enys prydeyn ae theylygda6t. a thalu o hona6 ynteu e gossodedyc teyrnget y Sened Ruveyn. Ac gwedy kennatau henny y Constans ef a kymyrth henny en llawen. ac a rodes hed6ch a tagnheved yda6 a dan er amvot h6nn6. ac ar henny gwystlon a kymyrth a chadarnhau tagnheved er rygthunt. Ac gwedy espeyt mys clevychu a wnaeth Koel o orthrwm heynt ac o h6nn6 e bu var6 kyn pen er wythnos.[313] Ac g6edy mar6 Koel e kymyrth constans coron y deyrnas. ac y kymyrth un verch oed y Koel en wreyc yda6. Ac esef oed honno Helen Llwyda6c. pryt honno hagen ae tholedyw-r6yd ny cheffyt en er enyssed en y chylch ae kyffelyppey. nac en er Espaen nyt oed er eyl a vey kynteked a hy. ac y gyt a henny hevyt nyt oed er eyl a vey kyn doethet a hy eg kelvydyt Mussyc ar kelvydodeu ryd a hy. kanys nyt oed o plant oy that namyn hy ehunan. Ac 6rth hynny e mynn6s enteu dysku ydy hy e kelwydodeu hyt pan vey doethach e galley hytheu llywya6 e kyvoeth g6edy ef.[314] Ac gwedy kymryt o Constans honno eg kytemdeythas y wely ef a anet map ydaw o honey. ac esef oed h6nn6 Custennyn vap Helen. Ac o dyna em pen er un wlwydyn ar dec eg Kaer Efra6c e darestygh6s Constans y dylyet agheu. ac er rodes enteu teyrnas enys Prydeyn y Cwstennyn y vap enteu. Ac en e lle g6edy arveru o hona6 ef a llywodraeth e teyrnas kyn ychydyc o wlydyned ef a dangosses bot enda6 dyrva6r clot a molyant a haylder. ac y gyt a henny en erbyn er Ruveyn6yr dywalder lle6 ae creulonder. Ac evelly ya6nder a gwyryoned a wnaey er r6ng e pobloed. Crypdeyl e lladron a pyley. dywalder er rey enwyr creulon a sathrey. tagneved a ned6ch ym pob lle a lafuryey eu hatne6ydu trwy e teyrnas.[315]

Ac en er amser h6nn6 ed oed en Ruveyn

gwr en6yr creula6n en amhera6der. ac esef oed h6nn6 Maxen creulon. ac esef a wnaey dytreftadu o vonhedygyon ar dyledogyon ac eu hyst6ng. ac o waethaf creulonder ky6arssangu kyffredyn kyhoed Sened Ruveyn. ac ef evelly yn eu kywarssanghu ac en eu dytreftadu sef a wneynt 6ynteu ffo hyt en ynys Prydeyn hyt at Cwstennyn. ac enteu en anrydedus ae arvolley 6ynt.[316] ac or dywed g6edy llythra6 llawer o nadunt atta6 wynt ae kyffroassant ac a annogassant ar lyt yn erbyn e creula6n h6nn6. ac en venych e dygynt ar cof yda6 creulonder Maxen. ac e dywedynt wrth Cwstenyn val hyn. Pa hyt y dyodefy ty en trueny ny ac en alltuded arglwyd Cwstennyn. pa hyt y gohyry tytheu ynny en ganedyc lavur a thref en tat. kanys tydy duhunan o en kenedyl ny a elly talu yny en kollet gwedy e goreskynnych ac e g6rthledych Maxen o Ruveyn. kanys pa dywyssa6c e eyll ymkyvartalu y vrenyn Brytaen o kedernyt a dewred marchogyon neu enteu o amylder eur ac aryant. Ac 6rth henny gwedy6n nynnheu tydy hyt pan telych ty y ny tref en tat ac en kyvoeth ac en gwraged ac en meybyon kan dyvot y gyt a ny a llu kenhyt hyt en Ruveyn[317].

Ac odyna gwedy kyffroy Cwstennyn or amadrodyon hyn ac o lawer o ereyll ef en ll6yr a kynnull6s llu enys Prydeyn. ac a aeth y gyt ac wynt hyt en Ruveyn ac ae goreskynn6s. ac odyna a kavas llywodraeth yr holl vyt. Ef hagen a dugassey gyt ac ef try ewythred Helyn y vam. nyt amgen Llywelyn Trahayarn a Meuryc. ar rey henny a urd6s enteu en Seneda6l urdas.[318] ac en er amser h6nn6 e kyvodes Eudaf yarll Ergyng ac Ewas en erbyn e tewyssogyon ar ry ada6ssey Cwstennyn en kynhal er ynys 6rth Ruveynya6l telygta6t. ac Eudaf a emlad6s ar rey henny ac ae llada6d ac a kymyrth ehun llywodraeth enys Prydeyn.[319] ac g6edy mynegy henny y Cwstennyn enteu a envynn6s Trahayarn e6ythr Helen a theyrlleng o wyr emlad y gyt ac ef y kymhell enys Prydeyn tracheuyn 6rth Ruveynya6l vedyant. Ac gwedy dyskynnu Trahayarn ar traeth ker llaw Kaer Perys ef a kyrch6s am pen y dynas. ac en espeyt deudyd ef ae kavas.[320] Ac g6edy henny e chwedyl h6nn6 trwy yr holl wlad6ed Eudaf vrenyn a kynhull6s holl wyr arva6c ynys Prydeyn. ac y deuth en y erbyn hyt e lle e gelwyr Maes Uryen ker llaw Kaer Wynt a dechreu ymlad a 6naethant ar wudugolyaeth a kavas Eudaf. ac 6rth hynny Trahayarn a dyengys oy varchogyon kantha6 a kyrch6s longheu ac odyna a hwylyassant hyt e gogled. Ac ena e deuthant yr tyr ac e dechreuassant anreythya6 e gwlad6ed.[321] Ac gwedy kennatau henny y Eudaf Vrenyn. enteu eylweyth a kynhyll6s holl kedernyt ynys Prydeyn ac a deuth en y erbyn ef hyt en Escotlont. ae eno yd emlad6s ac ef. ac eyssyoes Eudaf a ffoes ena hep wudugolyaeth. Ac esef a orug Trahayarn gwedy kaffael o hona6 e wudolyaeth dechreu ymlyt Eudaf o le pwy gylyd hep adu yda6 un gorffowys hyt pan duc y kantha6 holl dynassoed a cheyryd ynys Prydeyn a hevyt coron e teyrnas.[322] Ac 6rth henny en ovalus Eudaf en y longheu a aeth hyt yn Llychlyn y keyssya6 porth y gan vrenyn Llychlyn y keyssa6 goreskyn y kyvoeth trachevyn ac en henny eyssyoes o amser Eudaf ar ry ada6ssey kan y kytemdeythyon ae anwylyeyt g6neuthur brat ag agheu Trahaearn. ac 6rth henny yarll e mynyd kadarn e gwr a karey Eudaf en wuy no nep a lafury6s em blaen pa6b yr gweythret h6nn6. kanys dywyrna6t ed oed Trahayarn en mynet o Kaer Lundeyn y emdeyth er racdywededyc yarll a theyrmyl o Varchogyon y gyt ac ef a emkydy6s ym me6n glyn e fford e dewey Trahayarn ac en dirybud a kyvodassant am y pen ac ae lladassant em plyth y kytvarchogyon.[323] ac y gyt ac y kennatta6yt henny y Eudaf enteu en dyannot a deuth trachevyn hyt en enys Prydeyn. ac gwedy goreskyn a gwascaru er Ruveynwyr e kymyrth ynteu coron y teyrnas er eylweyth. ac odyna kymeynt wu y clot ae volyant o amylder eur ac aryant ar vyrr amser ac nat oed ha6d kaffael yr eyl a kyffelyppyt yda6. Ac o dyna Eudaf a lywya6d yr enys hyt ar oes Gratyan a Valentynyan.[324]

Ac or dywed g6edy trewlya6 Eudaf o heneynt medylya6 a oruc pa wed e llunyethey enteu e pobyl gwedy ef. a cheyssya6 gwybot y gan y gyghorwyr pwy oe lyn ef a wnelynt en vrenyn kanys nyt oed yda6 ef ettyved namyn unferch. ac 6rth hynny rey or kyghorwyr a vynnynt rody e vorwyn honno y un o dyledogyon enys Prydeyn ar teyrnas kenthy. ereyll a vynnynt y rody y un o dyledog on Ruveyn ar vrenhynyaeth genthy. Ereyll a vynnynt rody koron y teyrnas y Konan Meyryada6c ney Eudaf vap y vra6t. ar rody y verch enteu y dyleda6c o estra6n kenedyl. ac eur ac aryan ynn amyl y gyt a hy.[325] A hyt tra oedynt en er amrysson h6nn6 e rydunt nessau a oruc Karada6c yarll Kernyw a chyghory a wnaeth gwahody Maxen Sened6r or Ruveyn ar rody y verch yda6. Ac evelly y

dywedey ef y gellynt wynteu kaffael tragywyda6l hed6ch. kanys e gwr h6nn6 oed vap y Lywelyn ewythyr Cwstennyn va6r vap Helen e gwr a dywetp6yt wchot o hona6. Mam Maxen hagen ae genedygaeth a hanoed o Ruveyn. ac o pop parth o vrenhynya6l waet ed hanoed. Ac wrth hynny ed ada6ey enteu g6astat hed6ch. kanys o amherodryon Ruveyn ac o Vrenhyned ynys Prydeyn yd hanoed. Ac g6edy g6elet o Kynan Meyryada6c Yarll Kernyw yn rody y kyghor h6nn6. blyghau a sorry a oruc. kanys e holl ynny ae holl lavur ef oed en keyssya6 e vrenhynyaeth yda6 ehun. ac o acha6s henny kynhyrvu e llys en holla6l a oruc.[326] Ac yr hynny eyssyoes ny pheydy6s Karada6c yarll Kernyw ae dechrewoed namyn anvon Meuryc y vap a oruc hyt en Ruveyn y datkan y Vaxen e kyghoreu henny. Gwas yeuanc hagen teledyw oed e Meuryc h6nn6 hedus clotva6r molyannus. glew a dewr en reyt e gwyr a gwychyr yn y heyreyt yda6 ef ornesu.[327] Ac g6edy y dyvot ef rac bron Maxen ef a arvollet en anrydedus y gantha6 ef ay holl kytvarchogyon. Ac en er amser h6nn6 dyrva6r terfysc ar ryvel oed er r6g Maxen ar deu amhera6dyr oedynt en Ruveyn nyt amgen Gratyan a Valentynyan kanys e gwyr hynny a daroed udunt g6rthlad Maxen hyt na chaffey ef arveru o tryded ran er amherodraeth megys y dyley o tada6l anryded.[328] Ac gwelet o Veuryc Maxen en kywarssangedyc y gan er amherodron ef a dywa6t 6rtha6 ar e wed hon. Pa acha6s Vaxen e byd arnat ty ovyn Gratyan. kanys egoret yw yty fford trwy er hon y gelly dytheu d6yn er amherodraeth e gantha6 enteu. Debre gyt a my hyt en enys Prydein ty a geffy coron teyrnas enys Prydeyn kanys Eudaf brenyn Brytaen sydd gorthr6m o heynt a heneynt. ac nyt oes dym a damuno enteu namyn kaffael y kyfryw was yeuanc dyleda6c ac wyt ty urth rody y un verch yda6 a theyrnas ynys Prydeyn y gyt a hy. kanys nyt oes nyt oes un map yda6 namyn er un verch honno. Ac 6rth henny kyghor y gan y wyrda a kymerth padyw e rodey enteu y teyrnas kan y un verch. ac 6rth henny kymmeredyc wu gan wyrda e teyrnas kanyhadu y vrenhynyaeth yty gyt ar verch. ac ar e kennad6ry honno yd anvonassant wy vynheu y vynegu y tytheu y kyghor h6nn6. Ac wrth hynny o mynny dytheu dyvot y gyt a my e dechreu h6nn6 a keffy ty. ac o eur ac aryant enys Prydeyn ae marchogyon ae hymlad6yr e gelly tytheu goreskyn Ruveyn en y bwynt gwrthladedyc y hamerodryon o honey. ac y velly y kynnyd6s Cwstennyn dy gar ty a llawer hevyt o Vrenhyned Prydeyn a oreskynassant Ruveyn.[329]

Ac wrth henny ufudha a oruc Maxen 6rth kyghor Meuryc vap Karada6c a chychwyn y gyt ac ef tu ac ynys Prydeyn. ac ar e fford ef a oreskynn6s keyryd Ffreync ae dynnassoed. ac a kynnull6s llawered ac amylder o eur ac aryant ac o pob parth yda6 e kymdeythoka6s llawer o varchogyon. ac odyna ar e mor ed aethant. ac o herwyd hwylyeu y dyskynnassant em Porth Ham6nt.[330] Ac g6edy kennatau henny y Eudaf brenyn e Brytanyeyt ofynhau en va6r a oruc a thebygu ry dyvot en dyssyvyt gelynya6l lu am pen y kyvoeth. ac en dyannot gal6 Kynan Meyryada6c ey ney atta6. ae erchy yda6 ef kynnulla6 holl varchogyon arva6c enys Prydeyn a mynet en erbyn e gelynyon henny. Ac en e lle en dyannot Kynan Meyryada6c e llw llwyrhaf a mwyhaf ac all6s holl yeuentyt e teyrnasae dewred oed henny ac aeth hyt ym Porth Ham6nt en erbyn y llu a dothoed y gyt a Maxen Wledyc.[331] ac gwedy gwelet o Vaxen y veynt amylder llw honno en e erbyn govalu en va6r a oruc kany wydyat pa beth a wnaey kanys bychan oed o vydynoed y gyt ac ef 6rth keyssya6 ymlad a llw kymmeynt ar h6nn6 en y erbyn. ac 6rth henny pedrus a wu kantha6 emrody y emlad en erbyn amylder y gwyr ac eu glewder kanys kan obeyth tagnheved e dothoed. ac 6rth hynny gal6 a oruc atta6 y hynafgwyr ae kyghorwyr. ac erchy udunt mynegy y kynghor goreu a wypynt en erbyn e kyvry6 dam6eyn h6nn6.[332] Ac en kyntaf Meuryc a rodes atteb yda6 ar e wed hon. nyt oes eb ef ynny ymlad ar sawl emlad6yr glew kadarn hyn. ac nyt o acha6s emlad y dodym ny yma y enys Prydeyn y geysya6 y goreskyn trwy emlad. tagnheved a arch6n a chanyat y llettyaw ar e tyr hyt pan wybydom ny medwl e brenyn. Ac 6rth henny dywed6n en bot en kennadéu e kan er amhera6dyr en arweyn kennad6ry a negesseu at Eudaf brenyn e Brytanyeyt. ac evelly trwy amadrodyon kall doeth arafha6n mynnheu e pobyl honn.[333] Ac g6edy ryngu bod y pa6b y kyghor h6nn6. Meuryc a kymyrth y gyt ac ef deudengwyr llwydyon or rey doethaf or a kavas en e ll6. a cheynk olywyd en lla6 pob un o nadunt e deheu. ac evelly deuthant en erbyn Kynan Meyryada6c.[334] Ac gwedy gwelet or Brytannyeyt wyr mor anrydedus ar rey henny a oet a doethineb ac ar6ydyon hed6ch a tagnheved kanthunt. kyvody en

anrydedus a orugant en eu herbyn ac agory e fford udunt en hehang hyt pan ellynt en r6yd mynet rac bron e tewyssa6c. Ac ene lle gwedy eu dyvot a sevyll rac bron Kynan Meyryada6c yannerch a wnaethant o pleyt er amhera6dyr ar Sened a dywedwyt ryanvon or amhera6dyr Maxen vap Llywelyn hyt at Eudaf brenyn e Brytannyeyt a a negesseu a chennad6ry kantha6 y gan yr amherodryon atta6.[335] ac ena e dywa6t Kynan Meyryada6c. nyt tebyc hyn e drech kennadeu ys tebygach hyn y elynyon a vynnynt g6neuthur treys a goreskyn gwladoed.[336] ac en dyannot Meuryc a attebod yda6. nyt oed wedus hep ef y wr kymeynt kywurd a h6n hep lawer ac amylder o kytymdeythyon ygyt ac ef ac en w6yhaf oll o acha6s medyant ac argl6ydyaeth gwyr Ruveyn a gweythredoed eu tadeu ac eu hentadeu kas ynt y gan lla6er o Vrenhyned. ac 6rth hynny pey kerdey un o nadunt y gyt a nyver bychan. ac attoed ef ky6yrssangedyc ef y gan y elynyon. ac evelly e ke6ylydyt kyffredyn gyhoed Ruveyn. ac 6rth henny en hed6ch a thagnheved e deuth. a tagnheved a keys.[337] a henny e mae en y dangos ar y weythret kanys yr pan dyskynnassam ny ar tyr er enys hon ny wnaetham na threys na chollet na sarhaet nac eyssyeu y nep. en treul ac en reydyeu megys kenedyl tagnhevedus a prynnassam ny ac ny dugam ny dym y treys y ar nep.[338] Ac gwedy pedrussa6 o Kynan Meyryada6c ena pa beth a wneley ae emlad ac 6ynt ae enteu rody hed6ch udunt. nessau ena a oruc Karada6c yarll Kernyw a hynafgwyr e teyrnas y gyt ac ef ac annoc y Kynan rody udunt er hyn yd oedynt en y adol6yn. A chet bey gwell gan Kynan emlad ac wynt. eyssyoes dyosc eu harveu a oruc pa6b o nadunt a chanhyadu hed6ch udunt a d6yn Maxen ae kytemdeythyon y gyt ac ef at Eudaf vrenyn e Brytanyeyt hyt en Llundeyn a demlle6ychu yda6 ynteu e kyffranc h6nn6 eny 6rdas megys ed ada6ed.[339]

Ac ena e kymyrth Karada6c yarll Meuryc y vap y gyt ac ef ac erchy gostec a oruc. ac en e wed hon e dywa6t 6rth e brenyn. llyma ep ef er hyn trwy hyr amser ed oedynt er rey a kedwynt kyfla6n a chy6yr ffyd y ty en ydamuna6 a Dy6 en y llunyethu kanys tydy weyth arall a orchmynneyst yth wyrda dy rody kyghor yty pa 6ed y llunyethut ty dy verch ath kyvoeth g6edy ty. ac en w6yhaf oll en y dyeuoed hyn e mae heneynt en emlad ath dy en kymeynt ac na elly tytheu llywya6 de pobyl ath kyvoeth a vo h6y. ar rey a kyghores yt rody coron y teyrnas y Kynan Meyryada6c dy ney. ar rody dy verch y wr gwlat arall ac eur ac aryant y gyt a hy. Ereyll a kyghorynt rody dy verch y un o te6yssogyon er enys hon a lly6odraeth e teyrnas y gyt a hy. ac a dalyey e kyvoeth gwedy ty. er ran w6yhaf hagen or kyghorwyr ar gwyrda a kyghorassant keyssya6 un dyleda6c o lyn er amherodryon ac y h6nn6 rody de verch y gyt a choron e teyrnas kanys wynt a ede6ynt kaffael g6astat a thragywyda6l hed6ch trwy henny tra vey Ruveynya6l kyvoeth en eu hamdyffyn. Ac 6rth henny y bu teyl6ng gan Dy6 anvon e gwas yeuanc h6nn bonhedyc o lyn er Ruveynwvr. ac o vrenhyna6l kenedyl e Brytannyeyt. ac om kyghor y de verch a rody yda6 hep annot a choron e teyrnas y gyt a hy. ac ony 6ney henny pa dylyet syd yty ar enys Prydeyn m6y noc yda6 enteu. kanys kar yw ef y Custennyn a ney y Coel en brenyn nynheu er h6n ny all6n ny g6adu Helen y verch ef y ryvot en Vrenhynes arnam ny ac 6rth henny o treftada6l delyet ef a dely kaffael brenhynyaeth enys Prydeyn.[340] Ac g6edy y Karada6c darvot dywed6yt er amadrodyon hyn Eudaf trwy gyffredyn kyghor y wyrda ef a rodes y verch yda6 a theyrnas er enys y gyt a hy. ac g6edy gwelet o Kynan Meyryada6c henny llydya6 ac antheyl6ngu ac anrhyfyghu a oruc en wy noc e gellyt y credu. ac en dyannot mynet hyt er Alban a chynulla6 llw m6yaf a all6s ef y gaffael atta6 6rth ryvelu ar Vaxen.[341]

Ac gwedy kytemdeythokau amylder o kynnulleitva Kynan Meyryada6c a deuth trwy avon Humyr ac o bob tu y Humyr dechreu a oruc anreythya6 e g6ladoed. Ac g6edy kennatau henny y Vaxen enteu a kynnull6s holl kedernyt enys Prydeyn ac ar vrys ed aeth yn y erbyn. ac en dyannot emlad ac ef a chaffael e wudugolyaeth. ac er henny eyssyoes ny pheydy6s Kynan namyn atkynnulla6 eyl6eyth y vydynoed ae torvoed atta6 ac emdangos en te6yn dystry6edygaeth e gwladoed. ac evelly eyl6eyth ed emch6eley Vaxen ac g6edy ed emledynt gweythyeu e kaffey e wudugolyaeth. ac or dy6ed g6edy gwneuthur o bob un o nadun dyrva6r kollet oy gylyd tr6y annoc eu kytemdeythyon tagnhevedu a orugant.[342]

Trydyd dekyvor a aeth or enys honn wu h6nn.

Ac gwedy llythra6 yspeyt pum mlyned syber6hau a wnaeth Maxen ac o acha6s anthervynedyc amylder eur ac aryant a kymull6yd yda6 peunyd. ac 6rth henny parattoy llyghes va6r a oruc agkyvodedyn.

ac y gyt a hynny kynnulla6 holl varchogyon enys Prydeyn a 6naeth a chwennychu y oreskyn Ffreync. Ac 6rth henny g6edy mynet o hona6 tros e mor en kyntaf e kyrch6s cf Llydaw e teyrnas a el6yr er awrhon Brytaen vechan.[343] a dechreu a oruc ryvelu ar Ffreync a oedynt en y g6ledychu. ac esef a wnaethant e Ffreync ac Ymbalt en te6yssa6c arnadunt dyvot en y erbyn a dechreu emlad ac ef. Ac eyssyoes en y ran wuyhaf peryglu a orugant a dechreu ffo kanys Ymbalt eu te6yssa6c wynt o phymthec myl o wyr arva6c y gyt ac ef a dyg6ydassant. Ac g6edy henny g6edy gwneuthur o Vaxen e veynt aerva honno dyrva6r lewenyd a kymyrth kanys g6ydyat bot en ha6d ac en eskavyn yda6 goreskyn e wlat. gwedy rylad e sa6l varchogyon honno. Ac 6rth henny gal6 Kynan Meyryada6c atta6 odyeythyr e torvoed ac adan ch6erthyn en eskavyn dywed6yt 6rtha6 val hyn. llyma ep ef un or teyrnassoed goreu o Ffreync g6edy y goreskyn o honam ny. llyma gobeyth ynny y oreskyn e teyrnassoed ereyll. ac 6rth henny bryssy6n ny y achubeyt e keyryd ar teyrnassoed ar kestyll en dyssyvyt kyn ehedec e ch6edyl tros eythyvoed y gwladoed ac ymkynnulla6 pa6b ac arveu en erhyn. kanys o gall6n ny kaffael e teyrnas hon ny phedrassaf y gallu o honam ny goreskyn holl Ffreync 6rth en medyant nynheu. Ac 6rth henny na vyt edyvar gennyt kanhyadu ymy pa beth bynnac vey de delyet dy en enys Prydeyn. kanys pa beth bynnac a golleyst ty eno my ae hennyllaf y ty eman en e wlad hon. Ac 6rth henny my ath 6naf ty en vrenyn ar e teyrnas hon. a hon vyd Brytaen arall. a honn a kyvanhed6n ac en kenedyl g6edy g6rthladom ny estronolyon kenedloed o honey. kanys gwlat ffrwythla6n y6 hon o ydeu ac avonoed kyvla6n o pysca6t.[344]

Ac g6edy henny kynnulla6 a chyweyrya6 bydynoed a oruc a mynet hyt en Rodhin ac en e dyd h6nn6 e a kavas y dynas h6nn6. ac g6edy klybot o ba6b dywalder a chreulonder e Brytanyeyt a lladedygaeth er aerva ry ledessyt ffo a 6naey pa6b o nadunt kan ada6 eu gwraged ac eu meybyon.[345] ac velly o aghrefft a dysc er rey henny e gwneynt pa6b tr6y e gwladoed ar keyryd ar dynassoed hyt pan oed e ffyrd en heang ac en r6yd yr Brytannyeyt. ac evelly ed oed creulonder e Brytanyeyt hyt pan ledyn er holl kenedyl or gwyr kan arbet e gwraged e huneyn. ac or dy6ed g6edy dyleu o nadunt er holl wladoed ac eu tyr dy6yllodryon kadarnhau e dynassoed ar keyryd ar kestyll a orugant o Varchogyon Brytaen. ac adeylat kestyll a chedernyt en lle-oed kryua a wnaethant. ac gwedy henny dy6alder a chreulonder Maxen a aeth tr6y teyrnassoed Ffreync dyrva6r ovyn ac aryneic a achub pob tewyssa6c a phob yarll en e veynt hon hyt nat oed un gobeyth yn ep o nadunt namyn emoll6ng ac emrody yr tyghetven. Ac 6rth henny ffo a wnaey pa6b o pob lle or e vydynt enda6 yr keyryd ac yr dynassoed ar kestyll kadarn ac y pob lle or e tebygynt kaffael na6d a dyogel6ch enda6. Ac gwedy gwybot o Vaxen bot y ovyn ef ar pa6b en kymeynt a henny kymmeryt glewder a oruc enda6 ac amlhau a oruc y lw kan rody kyvar6sseu a rodyon amhyl udunt. A ph6y bynnac a wyppey y vot en ch6annoc y grypdeylya6 da dynyon ereyll er rey henny a kytemdeythokaey Vaxen y gyt ac ef. ac yr rey y rodey eur ac aryant y ereyll. ac evelly o amravaelyon rodyon nyt annodey gwaha6d pa6b atta6 ac evelly eu kyvoethogey.[346]

Ac odyna kymmeynt amylder llu a kynnull6s atta6 megys yd oed tebyg a dyheu e galley goreskyn holl Ffreync y gyt ae therfyneu. ac eyssyoes annot a oruc henny hyt pan darffey yda6 en kyntaf hedychu e teyrnas a oreskynnassey ae llen6y ae chyvanhedy or Brytannyeyt. ac 6rth henny gwys aossodes hyt pan deley kan myl o vyleynyeyt a thyrdy6yllodryon a chynnulla6 henny trwy holl teyrnassoed enys Prydeyn. ac eu hanvon atta6 wynt. Ac y gyt a henny deg myl ar ugeynt o varchogyon y gad6 er rey henny ac y hamdyffyn en e wlat e press6yllynt endy rac kyrcheu a ruthreu estrona6l kenedyl. ac g6edy darvot yda6 kaffael o honno pob peth o henny 6rth y vynnu. ef a rannus Llyda6 er rygthunt ac a 6naeth Brytaen arall o honno. ac ae rodes y Kynan Meyryada6c.[347] ac odyna e kerd6s enteu ae kytemdeythyon kantha6 hyt en eythavoed Ffreyngc a thr6y orthrymmaf emladeu ef ae goreskynn6s Ffreync a dan y thervyneu y gyt a holl Germania ac em pob emlad e bu wuduga6l Maxen. ac odyna e gossodes cystedva y teyrnas en Treverys. ac odena y dechre6ys ryvelu ar amherodryon. Gratyan a Valentynyan. ac gwedyllad e neyll o nadunt e llall a dyholes or Ruveyn en holla6l.[348]

Ac en er amser h6nn6 ed oedynt e Ffreync a g6yr Peytw en ryvelu ar Kynan Meyryada6c ar Brytanyeyt ereyll a oedynt y gyt ac ef ac o vynych kyrcheu en avlonydu arnadunt. Ac enteu eyssyoes en 6ychyr ac en 6ra6l en g6rthwynebu udunt ac en talu aerva en erbyn y gylyd udunt ac en amdyffyn ac en kynhal e wlat a kyf-

reidóyt ydaó en óraól. ac góedy gorvot a chaffael e vudugolyaeth o honaó y mynnós ef oy kytvarchogyon kymryt gwraged or rey e gellynt meythryn plant er rey a vey tragyóyddaól treftadogyon ar e wlat honno. A megys na bey nep kymysc en e byt en eu kenedyl ef a vynnós o enys Prydeyn kyrchu góraged udunt.[349] ac órth henny anvon kennadeu a oruc Kynan Meyryadaóc hyt en enys Prydeyn at Dunaót brenyn Kernyó. e gwr a dothoed en lle Karadaóc y vraót ac ar e kyvoeth ac erchy ydaó ef perffeythyaó e neges honno. kanys gwr bonhedyc oed hónnó a chyvoethaóc. ac ydaó e gorchymynnassey Vaxen llyódraeth er enys en y absen hyt tra oed enteu en goreskyn e gwladoed racdaó. Ac yr gwr hónnó ed oed merch anryved y phryt ae thecked a honno a elwyt Ursula a vynney Kynan Meyryadaóc y chaffael en wreycca ydaó ehunan.[350]

Ac góedy góelet o Dunaót kennadeu Kynan ac eu neges ef a vynnós ufudhau oy neges. Ac órth henny ef a kynnulós un vyl ar dec o verchet dyledogyon tróy holl teyrnassoed ynys Prydeyn. Ac o verchet a vey ys eu bonhed ar tyr dyóyllodryon ed erchys kynnullaó. try ugeyn myl a dóyn henny oll hyt yg Kaer Lundeyn. Ac y gyt a henny o pob porthva ed erchys dóyn llongheu en e rey e gellyt anvon e morynnyon hynny hyt en Llydaó ac er racdyóededygyon wyr uchot.[351] A chyt bey llaóer em plyth e vydyn honno a vey da genthunt henny eyssyoes ed oed laóer o honunt óynteu en dróc kanthunt adaó eu gólat ac eu ryeny ac eu kenedyl. ac ereyll o nadunt a oed góell kanthunt kadu eu dyweyrdep ac eu gweruda6t noc ymkyssylltu a neythyoreu. ac evelly en amravaelyon luossawgróyd amravael ewyllys a vydey yndunt. Ac góedy bot en baraót e llynghes e gwraged a ossodet endunt ac ar hyt avon Themys e kyrchassant y mor.[352] ac or dyóed góedy trossy o nadun en hwyllyeu parth a Llydaó kyvody a wnaethant y gwrthóynebedygyen wynhoed a chóytheu en kythraól en eu erbyn. ac en e lle eu gwaskaru er holl longheu en peryglós trwy amravaelyon voroed gan sudaó a body er ran wóyhaf o nadunt. ar rey a dyenghys o'r veynt perygyl a hónnó óynt a wórywyt y enyssed agkyvyeyth ac e karcharóyt ac e keythyóyt llaóer o nadunt. kanys em plyth llynghes Gwynóas a Melóas e dothoedynt o Ruveyn. ar rey henny o arch Gratyan Amheraódyr e dothoedynt yr ryvelu ar Germanya ar arvordyred en ychylch. Grattyan hagen a anvonassey e gwyr henny yr ryvelu ar e nep a vey un a Maxen.[353] Ac val ed oedynt e velly en anreythyaó er arvordyred óynt a kyvarvuant ar racdyweddedygyon vorynyon wóchot a rywóryessyt yr morbennoed henny. Ac góedy góelet o nadunt teked e morónyon óynt a vynnassant ellóng eu ryodres arnadunt. Ac góedy gwrthóynebu or morynyon udunt ac eu górthlad hep un gohyr e bratwyr a vrathassant ac a ladassant en creulaón er ran óuyhaf o nadunt. ar rey hynny ynt yr un vyl ar dec o Werydon e mae er eglóys en enrydedu eu góylon. Ac góedy henny er eskymmunedygion teóyssogyon henny Gwynóas a Melóas er rey a kanórthwynt Gratyan a Valentynyan pan welsant enys Prydeyn en wac emdyvat o holl varchogyon ac emladwyr bryssyaó ae eu llynghes a orugant ydy a chynnullaó y gyt ac óynt móyhaf ac a kaóssant o porth or enyssed en eu kylch a deskynnu en er Alban. a góedy bydynaó o nadunt kyrchu a ónaethant e teyrnas oed hep giwdaódóyr ae hamdyffynney e dan lad y byleynllu hep orvot en eu herbyn. kanys megys e dywedpóyt wóchot Maxen a dugassey kanthaó en llóyr Marchogyon enys Prydeyn ae hymladwyr. ac nyt adaóssey nep endy namyn er rey gwaullesc agkyghorus dyarvot ac góedy góelet or teóyssogyon henny nat oed nep en enys Prydeyn a alley górthónebu udunt anreythyaó e góladoed a orugant kan wneuthur aerva dyrvuór y meynt or pobloed.[354] Ac góedy mynegy y Vaxen e trueny ar govyt hónnó ef a anvones Gradlaón Rodgymeryat a dóy leng o wyr arvaóc y gyt ac ef en kanórthwy yr Brytanyeyt. Ac góedy eu dyvot er enys emlad a ónaethant ar racdyóededygyon elynyon henny. ac y gyt a llad llaóer o nadunt eu kymmell ar ffo a orugant hyt en y Werdon. ac en er amser hónnó e llas Maxen en Ruveyn y gan kytemdeythyon Gratlaón Amheraódyr ac e llas ac e gwascaróyt e Brytanyeyt a dugassey Vaxen y gyt ac ef. ar rey a dyenghys o nadunt a doethant at eu kyótaódwyr hyten Llydaó.[355]

Gradlawn Rodkymeryat góedy klybot o honaó ry lad Maxen ef a kymyrth coron teyrnas enys Prydeyn ac ae dodes am y pen e hun ac a ymwnaeth ehun en vrenhyn. Ac odyna kymeynt o creulonder a oruc e e bobyl ac eny aethant en vydynoed yn erbyn ae lad. ac góedy klybot e chóedyl hónnó tróy e teyrnassoed er rac dyóededygyon elynyon o y Werdon a deuthant ar Escotyeyt y gyt ac ónt ar Llychlynwyr ac anreythyaó er enys or mor póy gylyd a orugant o tan a hayarn. a rac e pla ar tymhestyl honno anvon kennadeu a orug-

ant e Brytannyeyt hyt en Ruveyn ac escryvenneu kanthunt y erchy porth y eu hamdyffyn acada6 tragywyda6l wyryogaeth udunt yr eu hamdyffyn rac eu gelynyon.[356] ac en e lle y kyfreid6yt lleng o wyr arva6c udunt. Ac g6edy kaffael llongheu o nadunt 6ynt a doethant yr enys ac emladassant ar gelynyon ac a 6naethant aerva dyrva6r y meynt o nadunt ac ae g6rthladassant en holla6l or enys hon 6ynt ac a dyfferassant e pryaut kenedyl or pla ac or tymhestyl a wnathoedynt arnadunt. ac ena e gorchmynnassant at wneuthur e mur er r6ng Deyfyr ar Alban hyt pan vey h6nn6 en aruthred yr gelynyon ac en amdyffyn yr ky6da6dwyr. kanys er Alban er amser h6nn6 dyffeyth anreythyedyc oed y gan vynych kyrcheu estronolyon kenedloed agkyvyeyth. ac odyna gwedy kynnulla6 kyffredyn treul 6ynt a 6naethant ac a kupplaasant e mur h6nn6 en holla6l.[357]

Ac g6edy henny sef a wnaeth e Ruveynwyr kych6yn parth ac eu g6lat a dan vynnu na chymmerynt a vey h6y no henny llavur a threul ac enbydr6yd en amdyffyn kenedyl e Brytanyeyt y gan kyveylyornwyr a lladron a mynegy hevyt udunt na chymmerey Ruveynya6l kyvoeth e mynych luedau henny ar blynder ar perygyl en kerdet mor a thyr en emlad trostun a mynegy udunt vot en ya6 nach udunt kymryt dysc ac arveu a gle6der endunt y emlad trostunt a thros eu g6lat ac eu kenedyl ac y amdyffyn eu bwched ac eu rydyt ehuneyn oc eu holl nerth.[358] Ac g6edy darvot yr Ruveynwyr rody e dysc h6nn6 ar kymmendy6 6ynt a archassant kynnulla6 emladwyr enys Prydeyn hyt en Llundein kanys odyno e mynnynt er Ruveynwyr kych6yn y eu g6lat ac g6edy emkynnulla6 paub hyt eno y Kuhelyn Archescop e kyvradwyt er amadra6d. Ac en e wed hon e dywa6t enteu 6rthunt 6ynteu.[360]

PREGETH KUHELYN.

KANYS o arch a gorchymmyn e te6yssogyon hyn e mae reyt y my dywed6yt wrthy6ch chwy m6y ar k6ynvan ac wyla6 e trossa vy amadra6d y noc ar pregeth. kanys truan yw gennyf y er ymdyvedy ar llesked ar g6ander ar ry deuth yny gwed espeylya6 o Vaxen er enys hon oy holl varchogyon. a ch6ytheu oede6ch 6edyllyon llesc agkyvr6ys ar emlad. kanys arver arall a dyskassauch nyt amgen amravaelyon kyfne6ydvaeu a dywylleu edayar. ac g6edy dyvot estra6n kenedyl megys deveyt hep vugeyl ych gwascar6yt ar hyt e gwladoed hyt pan deuth Ruveynya6l vedyant y echrydhau ar tref ech tat ac ech kyvoeth. ac 6rth henny e bydech ch6y en 6astat en estrona6l amdyffyn a hep dysku ech dwyla6 ch6y ech huneyn y arveru o arveu y wrthlad ych gelynyon ar lladron y wrthy6ch. kan nyt ynt de6rach no ch6y pey gattey lesked a seccvryt a methyant ch6y. llyma en edyvar gan e Ruveynwyr e llavur ar kerdet g6astat mor a thyr ac en emlad a gelynyon trossoch. Ac 6rth henny kynt e madeuant e teyrnget y genn6ch noc e kymmeront bellach e llafur h6nn6 ar vor. a thyr trossoch. Ac er na buoch ch6y en amser ech marchogyon 6rth henny e tebyg6ch ch6y ffo dynolyaeth y genh6ch. Ac eg gwrth6ynep anyan e genyr e dynyadon megys or byleyn geny marcha6c ac or marcha6c geny byleyn. Ac eyssyoes yr henny ny thebygaf golly o nep dynya6l anyan yr henny. Ac 6rth henny kanys dynyon y6ch byd6ch megys dynyon. a gel6ch ar Cryst hyt pan vo of a godo gle6ger y6ch hyt pan alloch ch6ytheu amdyffyn ech rydyt.[361] Ac g6edy darvot yda6 tervynu y amadra6d kynh6ryf a murmur a kyvodes en e pobyl megys e tebygynt eu bot en kyvla6n o dyssevyt glewder.[362]

Ac odyna kadarn dyskedygaethau ar rodassant er Ruveynwyr yr ergrynnedyc pobyl honno ac ada6 ganthunt dyskedygaethau ac exemplareu y wneuthur arvau 6rthynt. ac y gyt a henny hevyt erchy udunt en e porthvaeu e deskynnynt llongheu er estronolyon kenedloed gwneuthur tyrau a chestyll megys y gellynt or rey henny amdyffyn eu g6lat. ac eyssyoes ha6s y6 gwneuthur heba6c o varcutan no gwneuthur byleyn en dyskedyc en dyssevyt a dyscu doethynep yda6 un ag6ed yw a b6r6 merieryt adan draet moch.[363] ac g6edy ada6 or Ruveynwyr e wlat ar ved6l na delyn ydy tracheuyn. en e lle e dynevassant ey6eyth er racdy6ededygyon elynyon henny Gwyn6as a Mel6as e mewn llongheu o y Werdon. ar Escotyeyt ar Ffychtyeyt ar Llychlynwyr a gwyr Denmarc y gyt ac 6ynt. ac a allasant y gyt a henny hevyt y gaffael. ac yr Alban e deuthant yr tyr. ac anreythya6 en ll6yr o vewn y mur. Ac g6edy gwybot o nadunt ryvynet er Ruveynwyr a heb obeyth eu hymch6elut trachevyn hayach ac ehofnach ed emrodassant y destry6 er enys. ac er henny e rodyt e byleynyeyt llesc en e kestyll ar muroed hep wybot kelvydyt emlad. namyn en ergrynedyc ofyna6c emch6elyt ar ffo. ac e velly ny orff6yssynt gelynya6l ergydyeu en tynnu e truan vyleynllw or muroed hyt e lla6r ac evelly e rodyt 6ynt y creulonhaf agheu.[364] O dyal Dyw en va6r am er hen

pechodeu lla6er o peth o varchogyon ac emladwyr a gollet o syberwyt Maxen kanys pe bydynt er rey henny en er amser h6nn6 ny dewey kenedyl attadun y6 gyrru ar ffo a henny a wu 6rth. nad oedynt. canys en eu hoes h6ynt e teyrnassoed en eu kylch a oedynt darestyghedyc udunt ac enys prydeyn en araf ac en hed6ch en eu medyant. ac e velly e byd pan roder teyrnas 6rth amdyffyn a lly6odraeth byleynyeyt. A pheth a vynny amgen ada6 a wneynt y dynassoed ar muroed w6chwel ac emrody y ffo a 6neyn e ky6da6dwyr ac eyl6eyth e rodyt y wascaredygaeth. ac y anobeyth. ac eyl6eyth e lledyt y gan e gelynyon. o creulonhaf aerva. a megys 6yn y gan y bleydyeu evelly y dystrywyt e c6ynvannus pobyl truan y gan eu gelynyon. Ac 6rth henny eylweyth trueyn 6edyllyon kenedyl honno a anvonassant kennadeu ac escryvenneu hyt at Agytyns e gwr a oed en kynhal Ruveynya6l kyvoeth en e 6ed hon.[365] Kwynvan e Brytanyeyt en y dangos yr amhera6dyr. ac en y elleygyt a henny en mynegy yda6 bot eu gelynyon yn eu kymmell 6ynt yr mor ar mor yn eu kymmell ar eu gelynyon. ac evelly d6y kenedyl agheu en emdangos. kanys nyt oes namyn un o deu peth ae en body neu en llad.[366] ac yr hynny ny cha6ssant y kennadeu un kanh6rth6y ac 6rth henny en tryst yd ymch6elassant e kennadeu ac atteb nac en eu penn.[367]

Ac gwedy kymryt kynghor o nadun Kuhelyn archescop Llundeyn a aeth hyt em Brytaen vechan er honn a el6yr Llyda6 y keyssya6 kanh6rth6y a nerth a phorth y gan eu kytvrodyr. Ac en er amser h6nn6 ed oed Aldwur vap Kynva6r en pedweryd gwr en gwledychu gwedy Kynan Meyryada6c en Llyda6.[368] Ac g6edy g6elet or gwr h6nn6 person kyvurd ac oed er Archescop y erbynnyeyt ae arvoll en anrydedus a oruc a govyn yda6 acha6s y dyvodedigaeth atta6 enteu. Ac en elle Kuhelyn Archescob a dywa6t 6rtha6 val hyn. Aml6c a danllwychedyc yth vonhed ty ac ar k6ynvan e dylyat ty kyffroy o klybot e poen. ar trueny edym ny de kytvrytannyeyt ty en y odef yr pan espeyl6s Maxen en enys ny oy Marchogyon. ac a ossodes 6ynt en e teyrnas ed 6yt ty en y medu. a g6yn y byt a weles gan hed6ch a tagnheved en 6astat y medu o hona6t. kanys gwedy d6yn o Vaxen y marchogyon o enys Prydeyn e kyvodassant gwyr er enyssoed essyd en y chylch ac anreythya6 en enys nynheu o holl amylder golut or a oed endy o eur ac aryant ac alavoed ereyll. ae hadau hytheu en wac ac en dyffeyth hayach hyt pan edynt o kenedloed hep kaffael bwyt hayach eythyr kelvydyt hely ac evelly emborth ar cyc anyveylyeyt a g6ydvylet. Ac ny bu a alley g6rth6ynebu y dym o henny. kany bu un kyvoetha6c nac un emlad6r da oc eu kenedyl ny yr hynny hyt hedy6. kanys er Ruveynwyr er ry dery6 udunt blyna6 rac henny ac en holla6l emada6 a ny heb kaffael un kanh6rth6y nac amdyffyn y ganthunt pellach en erbyn e gormessoed henny. ac 6rth henny en espeylyedyc o holl kanh6rth6y a gobeyth y gan nep arall en y byt e kyrchassant nynheu ar de trugared ty y adol6yn kanh6rth6y a nerth y amdyffyn e teyrnas e syd dyledus yt y amdyffyn. kanys pwy arall a dylyey oth ty caffael coron Custennyn a Maxen kanys er rey henny a 6uant hentadeu a gorhentadeu yty ac a vuant arderch a6c a coron enys Prydeyn. Ac 6rth henny parota de lynghes a deret y gyt a my a my a rodaf enys Prydeyn yth d6ylaw ty.[369] Ac ena Aldwur a dywa6t wrtha6 enteu. Dyoer ep ef ef a vu amser na wrthod6n ny enys Prydeyn o bey ae rodey y my kanys ny thebygaf y or gwladoed g6lat Ffrwythlonach no hy hyt tra gaffat en hed6ch tagnhevedus arveru o honey. Ac weythyon hagen kanys dryc damweynyau lla6er a keveyry6 a hy gwaeth y6 ac y my ac y pob tewyssa6c a chassach yw gan pa6b. Ac yr ar pob dr6c or essyd arney mwyhaf ed argywed6s medyant gwyr Ruveyn en kymeynt ac na eyll nep kaffael gwastat teylygta6t a medyant endy megys na bo reyt ydau kolly y rydyt a g6assanaethu y keythy6et. ac 6rth henny p6y ny bey gwell kantha6 kyvoeth bychan en lle arall y gyt a rydyt noget arveru oe holl olut hy ae chyvoeth adan keythy6et. E teyrnas a wely ty eman en darestyghedyc y my y gyt ac anryded y medaf a hep talu g6assanaeth y nep o honey. Ac 6rth henny de6yssach y6 gennhyf ynheu e wlat vechan honn en ryd no holl teyrnassoed ereyll adan keythy6et. ac eyssyoes kanys vy hentadeu y am gorhentadeu a wu eydunt er enys megys y dy6edy ty my a rodaf y ty Custennyn vem mra6t a d6yvyl o varchogyon y gyt ac ef os Dy6 a vyd teyl6ng kantha6 rydhau e wlat honno y gan ruthreu estronolyon kenedloed. ar gwas h6nn6 arveret ef o coron teyrnas enys Prydeyn. kanys y my y mae bra6t a el6yr Custennyn er h6nn e syd brovad6y em mylwryaeth a champeu ereyll, a dewred a molyant a chlot. h6nn6 a rodaf y ty ac eyryf a dy6edeys o varchogyon y

gyt ac ef o byd da genhyt y kymryt. kanys eyryf marchogyon a vo m6y no h6nn6 tewy ara6rhon a wna6n am dana6 kanys byg6th ryvel y gan Ffreync beunyd e syd arnaf. ac o vreyd e daroed yr brenyn tervynu y amadra6d pan ed oed er Archescop en talu dyol6ch yda6. ac en e lle gal6 Custennyn attadunt. ac a dan chwerthyn er Archesca6p a dywa6t val hyn. Cryst a orvyd. Cryst a wledycha Cryst ar arglwydha. llyma vrenyn Brytaen dyffeyth Cryst ara6rhon y waret. llyma en amdyffyn ny llyma en gobeyth ac en llawenyd. peth a traethaf y amgen ethol a orucp6yt e llongheu ar e traeth ac o pob lle en e teyrnas kynnulla6 e marchogyon ac eu rody y Cuhelyn Archescop.[371]

Ac g6edy bot pob peth en bara6t 6ynt a aethant ar e mor ac a deskynnassant en aber Themys ar draeth Totoneys ar tyr enys Prydeyn. ac odyna hep un gohyr kynnulla6 a wnaethant holl yeuengctyt a dewred enys Prydeyn a chyrchu eu gelynyon ac emlad ac 6ynt a thrwy effrllyt e g6ynvydedyc wrda h6nn6 e wudugolyaeth a gawssant. ac odyna o pob parth emkynnulla6 a orugant e gwascaredygyon Vrytanyeyt hyt yg kaer Wudey.[372] ac eno ardyrchavael Custennyn vendygeyt vap Kynva6r en vrenyn a gossot coron e teyrnas am y pen ac en dyannot rody gwreyc yda6 o dyledogyon Ruveyn er hon a vagessey Cuhelyn Archescop.[373] ac g6edy atnabot o hona6 ef honno trymeyp a anet yda6 o honey. Ac esef oedent er rey henny. Constans ac Emreys wledyc. ac Uther Pendragon. ac ena y rodes ef Constans e map hynaf yda6 em mynachloc Amphybalus eg Kaer Wynt oy veythryn ac y kymryt mynacha6l urda. yno. ar deu ereyll hagen Emrys ac Uther a orchmynn6s y Cuhelyn. archescop y eu meythryn.[374] Ac odyna g6edy mynet deg mlyned heybya6 ef a deuth un or Ffychtyeyt a rywuassey en wassanaeth6r kyn no henny yda6 a megys kyvr6ch neylltuedyc ar brenyn a vynney y kymryt ef me6n ll6yn ac g6edy gyrru pa6b y 6rtha6 en e lle honno y llada6d ef a chyllell en dirybud.[375]

Ac 6rth henny g6edy llad Custennyn Vendygeyt tervysc ac annuhundep a kyvodes e r6ng e gwyrda p6y a 6nelyt en vrenyn. kanys rey o nadunt a vynnynt urda6 Emreys Wledyc en vrenyn. ereyll a vynnynt Uther Pendragon. ereyll a vynnynt etholl ereyll oc eu kenedyl. ac o'r dywed g6edy na chytsynhynt namyn un val hyn arall evelly. nessau a oruc Gortheyrn Gortheneu tywyssa6c Ergyng ac Euas er h6nn a oed oe holl lafur en keyssya6 e vrenhynyaeth yda6 ehun. a dyvot hyt Kaer Wynt at Constans vanach map Custennyn vendygeyt a dywed6yt 6rtha6 val hyn.[376] mar6 ep ef y6 de tat ty. ath vrodyr dytheu rac bychanet eu hoet ny allan bot un o nadunt en vrenyn. ac ny 6elaf y nep arall oth kenedyl ty a dyly bot en vrenyn. ac 6rth henny o mynny ty vot 6rth veg kyghor y. ac angh6hanegu vy medyant y am kyvoeth. mynheu a ymch6elaf 6ynep e pobyl yth ethol ac yth urda6 ty en vrenyn. ac or ry6 abyt honno ket boet gwrth6ynep gan er urdas de tynnu o honev my ath 6naf en vrenyn.[377] ac g6edy klybot o Constans er amadra6d hynn dyrva6r le6enyd a kymmyrth enda6. a thynghu yda6 en kadarn pa beth bynnac a vynney y kaffey. ac en dyannot Gortheyrn ae kymyrth ac ae gwysc6s o vrenhyna6l adurn. ac ae duc hyt en Llundeyn. ac eno ar ar pobyl o vreyd en y kanhyadu y urdas ef en vrenyn. ac en amser h6nn6 neut var6 Kuhelyn archescop ac nyt oed un arall a racveydyey y kyssegru ef en vrenyn. 6rth e tynnu ef enteu or venechtyt. Ac eyssyoes yr henny nyt hebrevyg6ys Gortheyrn y coronhau ef namyn ehunan arveru o 6assanaeth archescop ac ae dwyla6 ehunan dody coron vrenhyna6l am pen Constans ac evelly y urda6 en vrenhyn.[378]

Ac g6edy ardyrchavael Constans en Vrenhyn holl ly6odraeth a ya6nder e teyrnas a kyvradus enteu y Ortheyrn ac emrody ehunan en holla6l 6rth y kyghor en e veynt honno megys na 6uasy ef dym namyn a kyghorey Ortheyrn. kanys g6ander y synhwyr ae deall ef a dyssyvey hynny. ac y gyt a henny amgen dysc a dyscassey ef en e cla6styr a llywya6 teyrnas e vrenhynyaeth. Ac g6edy g6elet o Ortheyrn henny dechreu medylya6 a oruc enda6 ehun pa wed e galley enteu emdyrchavael en vrenhyn kanys henny em mlaen pop peth a ch6ennychey. Er holl vrenhynyaeth hagen ar rydaroed y gorchymyn oy dosparth ef. ac nyt oed dym y Constans or teyrnas onyt gwasca6t ac enw. kanys ef a el6yt en vrenhyn ac nyt oed nac gar6der nac ya6nder nac ovyn enteu ar nep nac o bell nac o agos or pobloed. E deu vap yeueync oed deu vroder yda6 enteu nyt amgen Uther Pendragon ac Emreys Wledyc en eu crudeu ett6a ed oedynt. ac nyt oed arnadunt oed adas wrth lywya6 e vrenhynyaeth nac y eu g6neuthur en vrenhyned. Eythyr henny hevyt dryc dam6eyn arall a dam6eynnyassey en er enys honn. Sef oed henny ryvar6 holl henafgwyr e teyrnas ac nat oed nep namyn Gortheyrn ehun megys

aryennyc oe gallder ae doethynep ac estry6 megys en un kyghor6r en e teyrnas. ar rey ereyll oll megys meybyon a gweyssyon yeueync oedynt g6edy rylad en er ymladeu kyntadeu a hentadeu er rey henny ac eu he6ythred a pha6b or a wuessynt urdedyc a medyannus kyn no henny. ac 6rth henny g6edy g6elet o Ortheyrn henny medylya6 a oruc o pob athrylyth ac o pob estry6 pa wed e galley enteu diosc Constans vanach or vrenhynyaeth yda6 ehun. Ac eyssyoes e peth h6nn6 a annodes ef hyt pan kavas en kyntaf er holl wladoed ar holl kestyll ar dynassoed kadarn arpennyc 6rth y kyghor ae vedyant ac g6edy kaffael o hona6 henny evelly wrth y kyghor ae vedyant erchy a oruc yr brenyn rody y tryssor ae s6llt ae eur ae aryant ae tlysseu en y warchad6 ef ac en y vedyant ae dynassoed ar kestyll. kanys ef a kadarnhaey rydyvot rybudyeu atta6 bot er enyssed yn eu kylch yn emkynnulla6 ac en lludhau am pen enys Prydeyn. ac g6edy kaffael o hona6 henny y gan e brenyn ef a dodes y wyr ehun en e kestyll henny y eu kad6 6rth y vedyant ae ewyllys ehunan. Ac g6edy darvot yda6 henny dechreu medylya6 pa wed e galley ef eylenwy er racdy6ededyc vrat. u6chot. ac 6rth henny ef a deuth at Constans a dywed6yt wrtha6 bot en reyt ydau ef ang6hanegu eyryf y teyl6 megys e bey dypryderach a dyogelach yda6 rac y elynyon. ac ena y dywa6t Constans. panyt yth vedyant ty ac yth dyosparth e gorchmynneys holl ly6odraeth a holl pryder e teyrnas. ac 6rth henny g6na dytheu pob peth or a vynnych. a henny hagen gan kad6 fydlonder ymy.[379] Gortheyrn a dywa6t 6rtha6 enteu. Ed edes en dywed6yt ymy ep ef bot e Ffychtyeyt en devynnu gwyr Denmarc attadunt ar Llychlynwyr ac y gyt holl er rey henny am en pen nynheu y ryvelu arnam en wuyhaf ac en kadarnhaf y gallont. Ac 6rth henny my a kynghoraf y ty gwaha6d rey or Ffychtyeyt ac eu kaffael yth llys ac ar teulu megys e bo er rey henny en kymhervedwyr er rystat tytheu ac eu kenedyl ehunayn. kanys os gwyr eu bot en mynnu ryvelu arnam ny er rey henny en e lle a allont gwybot brat a gweythredoed eu kyt kenedyl ac an rybudyant nynheu val e bo ha6s en emoglet emgallhau en eu herbyn. llyma dyrgeledyc vrat e kytemdeyth. kanys nyt yr yechyt nac yr dywytr6yd yr brenyn y dy6edey ef hyn. namyn g6ybot bot en an6astat annyan e Ffychtyeyt a bot en ha6d eu trossy ar pob gweythret creula6n. ac g6edy bydynt med6 bot en ha6d eu kyffroy ar lyt ac yrlloned yn erbyn e brenyn megys e lledynt ef en dyhavarch. Ac os henny a damwenney megys e kaffey enteu fford oy ardyrchavael en vuan en vrenyn megys ed oed en wastat en y ch6ennych. Ac en dyannot anvon kennadeu a oruc hyt en Escotlont a gwaha6d cant marcha6c or Ffychtyeyt ac eu kymryt ar teulu y brenyn. Ac g6edy eu kymryt eu hanrydedu a gwnaey Ortheyrn er rey henny y ar pa6b ac eu kyvoethogy o amravaelyon rodyon. ac en wuy no meynt eu llen6y or b6yt ac or llyn megys ed oedynt 6ynteu en y kymryt ef en lle brenyn. Ac e fford e kerdynt ar hyt er estrydoed ar heolyd ar ky6ydeu ar kanhuau e kenynt teyl6ng yw Gortheyrn o amherodraeth teyl6ng yw o teyrnwyalen enys Prydeyn. ac antheyl6ng yw Constans.[380] ac 6rth henny mwyv6y ed anrydedey Ortheyrn 6ynteu o amravaelyon rodyon hyt pan vey m6y e keryt enteu y ganthunt 6ynteu. ac g6edy g6ybot o hona6 kaffael eu kareat 6ynt en holla6l ef ae g6naeth 6ynt en ved6 ac a dywa6t wrthynt y vot ef en ada6 enys Prydeyn ac en mynet y kessya6 mynet en lle arall a vey m6y noc a oed yda6. a dywed6yt na alley ef ar bychydyc kyvoethoed yda6 gossymdeythya6 dec marcha6c a deu ugeynt. ac evelly en tryst mynet oy letty ac eu hada6 6ynteu en yvet en e neuad. ac g6edy g6elet o nadunt 6ynteu henny trystau a wnaethant yn v6y noc y gellyt y credu. a thebygu bot en wyr a dywedassey Gortheyrn 6rthynt. a dywed6yt pob un 6rth y gylyd. pa acha6s y gad6n ny y manach h6n en vy6. pa acha6s na llad6n ef hyt pan allo Gortheyrn arveru o'r vrenhynyaeth. kanys p6y e syd teyl6ng y kaffael ac amherodraeth namyn Gortheyrn e gwr ny orffowys en anrydedu nynhen.[381]

Ac g6edy henny yn y lle kyvody a orugant a kyrchu estavell e brenyn a g6edy y lad d6yn y pen a orugant hyt rac bron Gortheyrn. ac g6edy g6elet o Orthayrn y pen trystau a oruc ac wyla6. ac eyssyoes ny bu la6enach enteu eyryoet no a6r honno. ac eyssyoes gal6 a oruc ky6da6twyr Llundeyn atta6 kanys eno y daroed e kyvlavan honno ac erchy llad e brad yr henny en holla6l kanys kymerẽssynt arnadunt g6neuthur kyvry6 kyvlavan a honno. ac ed oed eno 6rth henny rey a tebygynt pany6 trwy Ortheyrn ae kyghor e g6nathoedyt e brat h6nn6 ac nas dychymygessynt e Ffychteyt herwydunt ehuneyn. ereill ae dyheurynt en holla6l gan y ry6 weythret h6nn6.[382] Ac eno eyssyoes ar peth h6nn6 en agheugant tat maetheu a deu vroder nyt

amgen Uther ac Emreys a ffoassant ae meybyon kanthunt hyt em Brytaen vechan. ac eno y harvolles 6ynt emhyr Llyda6 ac or anryded y dyleynt e perys eu meythryn.[383]

Ac g6edy g6elet o Ortheyrn nat oed nep en e teyrnas a emkyffelyppey nac a emkyvuchey ac ef. ef ehunan a dodes coron e teyrnas am y pen. ac a aeth tros y kyt te6yssogyon.[384] ac or dy6ed g6edy bot en danlle6ychedyc ac en honnedyc yvraduryaeth ef tr6y e gwladoed kyvody a orugant en y erbyn pobloed er enyssed en y kylch er rey a dugessynt e Ffychtyeyt hyt er Alban. kanys llydya6 a 6nathoedynt e Ffychtyeyt 6rth rylad eu kytvarchogyon o acha6s Constans. Ac y gyt a henny nevyt goualus oed o acha6s y vot peunyd en kolly y lw en peunydya6l emladeu henny. A hevyt goval oed arna6 or parth arall rac ovyn Emreys Wledyc ac Uthr Pendragon y vra6t enteu er rey megys y dy6edassam ny wuchot a ffoessynt hyt en Llyda6 racda6 enteu pan las Constans eu bra6t. kanys odyno peunydya6l ch6edyl a ehedey ar y clusteu enteu eu bot 6ynt en darmerthu e llynghes w6yhaf ac ellynt y chaffael y emch6elyt trachevyn y enys Prydeyn ar y cor fenteu y orescyn eu gwyr teyrnas ac eu gwyr dylyet.[385]

Dyvodedygaeth e saesson.

Ac en er amser h6nn6 y dyskynnassant teyrllong hyryon en emylyeu Swyd Keynt en lla6n o varchogyon arva6c a deu vroder en tewyssogyon arnadunt. Sef oedynt er rey henny Hors a Heyngyst. Ac en er amser h6nn6 ed oed Gortheyrn eg Kaer Keynt en her6yd kynneva6t. kanys mynych e gnottaey myned a phresswyllya6 eno. ac eno e kennatta6t yda6 rydyvot gwyr ma6r anetnebededyc agkyvyeyth em mewn llongheu ma6r ar rydyskynnu ar y tyr. kyghreyr a rode udunt ac erchy a oruc eu d6yu atta6 wynt.[386] Ac en lle g6edy eu dyvot trossy eu lygeyta oruc ar e deu vroder. kanys ragor a dugynt rac eu kytemdeythyon en holla6l o pryt a meynt. a gosged a theg6ch a bonhed. ag 6edy edrych o hona6 ar pa6b o nadunt govyn a oruc pa wlat ed hanoedynt o honey. A pha acha6s e dothoedynt oy wlat yntau. Ac ena em mlaen pa6b e g6rthebus Heyngyst yda6 en e wed hon. kanys ragor oed yda6 o advedr6yd a doethynep rac pa6b oe kytemdeythyon. Argl6yd ep ef. bonhedykaf or brenhyned en Saxonya un o vrenhynyaethau Germanya yn ganet ny. Acha6s en dyvodyat ninnau yth kyvoeth tytheu hynny y6 y kynnyc yty neu enteu y tewyssa6c arall a rodo da a gossymdeyth yn tros en g6asanaeth en g6rygyaeth. Ac esef acha6s en g6rthladut oc en gwlat. kynneva6t e syd en e wlat honno pan amlhao e kywda6t endy ed emkennullant ygyt holl te6yssogyon e vrenhynyaeth ac e kynnullyr rac eu bron holl yeuengctyt e wlad. Ac odyna ed etholant er rei a welont yn orau ac er rodant prennau udunt. ac megys e del or koelpren udunt yd erchyr udunt mynet y wladoed ereyll y keyssya6 gossymdeyth. ac evelly e rydheyr eu gwlat 6ynteu ehuneyn y gan ormot kywda6t. Ac en e dy6ed h6n e vu ormod o amylder kywda6t en en gwlat ny. ac e deuthant e tewyssogion y gyt ac e b6ryassant koelprennau ac ed etholassant er yeuengctyd a wely dy rac dy vron ema. ac ed erchassant yn uvudhau yr kyvreith ac yr deva6t a oed ossodedyc en e wlat hyr e kynnoes ac e gosodasant nynneu en deu vroder en te6ysogyon arnadunt. Ac esef yn gel6yr nynheu Horss y6 vem mra6t a Heyngyst 6yf ynheu. ac o lyn e te6ysogyon pan henym. Ac 6rth henny ufudhau a wnaetham nynnau yr kyvreythyau gosodedyg or dechreu. ac yr mor e dody mae yth kyvoeth tythau a Mercury6s en tewysa6c yn. A phan kygleu Gortheyrn en6y Mercury6s dyrchavael y wynep a oruc pa ry6 gret oed ganthunt. Ac ena e dywa6t Heyngyst wrtha6 enteu en tadolyon dwy6eu a anrydedo6n ny Saturn6s a Iupyter ar dwy6eu ereyll tr6y er rei e lly6yr e byt. ac en v6yaf oll Mercury6s er h6n a elwyr en en iayth ni Woden. ac y h6nn6 ed aberthasant en ryeny y ped6eryd dyd o'r Wythnos yr hynny hyt hedy6 ac y gal6asant Wodens dey. ac gwedi h6nn6 ed anrydedo6n e dwy6es kyvoethokaf er hon a elwyr Fream ac y honno e parthasant e ch6echet dyd er h6n a al6n nynheu oe hen6 hy Ffrydey.[387] Ac ena y dywa6t Gortheyrn oc ech cret chwy er hon a elwyr yn well y dywedut ae gal6 en ankret noc en kret dolur y6 kennyf. og ech dyvodedygaeth chwytheu pa dam6eyn bynnac ae dydyko lla6en y6 kennyf kanys en amser kryno e daetha6ch pa Dyw na peth arall ag ech hanyu onho kanys veg gelynion o pop parth esyd ym ky6arsangu ac ym govalu en va6r en er amseroed hyn. ac o mynn6ch ch6ytheu kymryt kytlafur er emladeu hynny ygyt a nynheu. My ac ech kymmeraf en wyr ym ac ach kynhalyaf en e teyrnas y gyt a my en anrydedus ac o amravaelyon rodyon ac ech kyvoethogaf ac o tyred. Ac en e lle ufudhau a orugant ac emkadarnhau ac ef a thrygau en wyr llys yda6.[388] Ac en e lle enachaf e Ffych-

tyeyt yn kynnulla6 llw ma6r ac en dyvot ac en dechreu anreythya6 e gwladoed kanthunt e fford e kerdynt. Ac wedy kennattau henny y Ortheyrn enteu a kynnull6ys y holl varchogyon enteu ac a deuth tr6y Hymyr en eu herbyn. Ac o dyna gwedy eu dyvot en kyvagos e ky6da6twyr or neyll parth ar gelynyon or parth arall en dyannot dechreu ymlad kalet gwychyr a wnaethant. Ac ny bu reyt yr Brytannyeyt dym llavur hayach en er emlad h6nn6 kanys e saeson a emladasant en 6ra6l ac en wychyr megys e kymmellasant ar ffo e gelynyon a notheynt orchvygu a gorvot kyn no hynny.[389]

A GWEDI kaffael o Ortheyrn e wudugolyaeth ar gorfot tr6y nerth e saeson ef amravaelyon rodyon en amvyl udunt. Ac i Heyngyst eu tewysa6c er rhodes llawer o tyr a dayar en Lyndesey megys y galley kynhal y varchogion y gyt ag ef ac ev gosymdeithia6. ac odyna megys yd oed ef gwr kall estry6ys a doeth gwedi caffael o hona6 ef kytemdeithas a charyat e brenin. dywedyt a oruc enteu en e wed hon wrth e brenin.[390] Argl6yd ep ef mi a welaf da elynyon ty en ryfelu arnat o bob parth yt. ac ychydig oth kywda6t6yr hevyt yth garu. kanys pa6b o nadunt esyd yn bygythya6 dwyn Emreys Wledyc o Lyda6 ath vur6 ty or vrenhynyaeth ae urda6 enteu en vrenyn. Ac wrth hynny o rhyng bod iti envynvu kennadeu im gwlat y a gwahod6n marchogyon odyno ac achwanneg6n en nyfer 6rth emlad. Ac un peth o bey da kenhyt ty a arch6n pey na thebyg6n vy nackau o hona6t. Ac ar ar hynny e dywa6t Gortheyrn. Anvon tyde kennadeu hyt en Germanya a gwaha6d e neb a vynnych. Ac arch y mynheu er hyn a damunych ac nyth ommedyr. Ac ar henny estwng e penn a oruc Heyngyst a thalu dyolchyadeu ma6r yda6. Arglwyd ep ef ty am kyvoethogeyst o tyr a dayar amyl. Ac eysyoes nyt mal y dyleyt anrydedu tewyssa6c ac a enyt o tewyssogyon dyleda6c. kanys y gyt ar peth ar rodut e dylyvt rody ymy ae dynas arpennyg ae enteu kastell megys ym gwelyt en anrydedvs ym plyth e tywysogyon ereyll. kanys teylyngda6t a dylyet tewyssa6c a deleyt y rody y tewyssa6c ac a hanffey o lyn tewyssogyon o bob parth.[391] Ac en erbyn hynny e dywa6t Gortheyrn. Gwahardedyg wy i y yngan vy ngwyrda hyd na rod6yf y rhyw rodyon henny ychwy. kanys estra6n kenedyl y6ch a phaganyeyt. Ac 6rth hynny ny ddylyaf y ech gwneuthur chwy en un breynt am kywda6twyr ve hunan. nyt ar na rybuch6n y ech gwneuthur en unfreynt ac 6ynt. namyn nas llavassaf rac e kywda6twyr a gwyrda a teyrnas.[392] Ac ar henny y dywa6t Heyngyst. Arglwyd ep ef kanhyatta ymy de was ty gwneuthur ar y tyr a rodeyst ty ymy kastell en kymmeynt ac i damkylchyna un karrey. megys e gallwyf i emlehau ynda6. y adeylat o byd reyt ym wrtha6. kanys ffydla6n wum y a ffydla6n wuyf a ffydla6n vydaf y ty a gwnaf ynheu y peth a damunych y gwneuthur.[393] Ac wrth henny gwanhau a orug y brenin wrth y ymadrodyon ef a gorchymmyn yda6 ell6ng y kennadeu hyt en Germanya y waha6d marchogyon ar ffrwst en kanurth6y udvnt. Ac odyna heb un gohyr gwedy ell6ng o Heyngyst y kennadeu hyt yn Germanya of a kymyrth croen car6 ac ae gwnaeth ef en un karrey. Ac odyna ed etholes ef le carrega6c megys e ryghey bod yda6 y ansa6d ac kedernyt. Ac eno e messur6s y gyt ar garrey honno ac en e lle h6nn6 ed edeyl6s ef castell a chaer. Ag wedy darvot y adeylat ef a gavas y en6 or karrey kanys a hi e messur6yt. Ac wedy hynny em Brytanec egelwit e lle h6nn6 Kaer Garrey ac en saesnec Thancastre kastell e Garrey.[394]

AG en er amser h6nn6 e kennadeu y ymch6elasant o Germany a dev na6 llong kanthunt. ac y gyt a hynny wynt a ddugant merch Heyngyst y gyt a hwynt er hon a elwyt Ronwen. Ac nyt ha6d kaffael. en e byt er eyl a ellyt kyffelybu y phryt ae theg6ch y honno. Ac wedy eu dyvot Heyngyst a wahodes Gortheyrn y edrych er adeylat newyd ar marchogyon newyd dyvot. Ac en e lle e brenin a deuth atta6 a nyver bychan ysgywala y gyt ac ef. a moly a hoffy en va6r a oruc y disevyt adeylat h6nn6. a gwaha6d e marchogyon newyd dyvot y gyt ag ef.[395] Ac odyna gwedy udynt vwytta ag yfed o vrenhynolyon anregyon e deuth e vor6yn dec honno or estavell a ffyol eureyt en lla6n o wyn en y llaw hyt rac bronn e brenin ac ar tal y glynyeu e dywa6t fal hyn Lafyrt kyng wasseyl. Ac esef a oruc Gortheyrn y gyt ac y gweles anryvedu y phryt ac emlen6i oy serch. a govyn yr yeythyd pa peth a dywedasei hy. Ar yeythyd a dywa6t. hy ath el6ys en Arglwyd ac en vrenyn. ac or galwedygaeth h6nn6 yth anryded6s. A hyn a dyley titheu y wrthep idi hitheu Drync heyl. Ac Gortheyrn a 6rtheb6s ydy Drync heyl. ac a erchis ydy yvet e llynn en kyntaf. ac enteu a kymyrth e ffyol oe llaw hytheu ac ar rodes cusan ydy ac gwedy henny a lewes e wira6t honno.

ac yr hynny hyt hedy6 e mae e kyneva6t honno em plyth e Kymry ar kyvedach. kanys e nep a yvo en kyntaf a dywait wrth y ketymmeyth washeyl. ar llall a 6rthep Dryne heyl. Ac ena gwedy med6i Gortheyrn tr6y amravael wirodeu ygyt ac annoc y Dya6l karu a wnaeth e vor6yn ae herchy oe thad kanys Dya6l a ryathoed en y gallon ef pan vey en en6 Crystya6n chwenychw o hona6 enteu kyd dau a gwreyc ancrystya6n hep bedyd.[396] Ac gwedy gwclet o Heyngyst henny megys ed oed gwr estra6n ef gal6 a oruc y vra6t atta6 ar gwyr hynaf oy kytemdeythyon ac emkyghor ac 6ynt. pa peth a wneley or rody y verch yr brenyn. Ac o kytgyghor pa6b o nadunt yr rodassant e vor6yn yr brenyn. ac ed erchassant 6ynteu yda6 ef swyd Keynt trosty hytheu.[397] A hep un gohyr e vor6yn ar rodet yr brenyn. a swyd Keynt ar rodet y Heyngyst hep wybot a hep kanyat Gwrgant e gwr oed yarll ar e swyd honno. Ar nos honno e kysc6s Gortheyrn ygyt ar paganes honno ac y kar6s yn 6uy no meynt. ac o acha6s henny e bu cas ef y gan wyrda e teyrnas. a thry meyb a oedynt yda6 kyn no henny. Sef oedynt e rei henny. Gwrthevyr a Chyndeyrn a Phasken.[398]

GARMAWN.

Ac en er amser h6nn6 e deuthant Garma6n Escop ar Bleyd y kytemdeytb y pregethu geyr Dyw yr Brytannyeyt kanys llesteyrya6 a llygru ar ry daroed ffyd a Crystonogaeth en eu plyth o acha6s e paganyeyt saysson. ar kymmerassey en eu plyth neu enteu o acha6s kam cret ar pregethassey Pelagyan. ar gwen6yn h6nn6 tr6y lawer o amser ae llygrassyd. Ac wrth henny trwy pregeth e gwynvydedygyon wyr henny ed atnewyd6yt ffyd a gwyr Crystonogaeth em plyth e Brytannyeyt. kany llawer o anryvedodeu a gwyrthyeu a dangossey Dy6 peunyd udunt tr6y efyrllyt e gwyrda henny. ar rey henny a escryvenn6s Gyldas o eglwr traetha6t.[399] Ac gwedy rody e vor6yn yr brenyn megys e dywetp6yt w6chot. Heyngyst a dywa6t wrth e brenyn. my essyd tat yt a chynghor6r yt y dylyaf vot. ac nados tytheu tros vyng kynghor ynheu. a thy a a orvydy ar dy holl elynyon trwy nerth vyng kenedyl ynhau. Ac gwahod6n ettwa Octa vy map ac Ebyssa y kevynder6 kanys emlad6yr da ynt a chynnyfwyr. a dyw udunt egwladoed ker lla6 e mur er r6ng Deyfyr ac Escotlond. w6ynt a erbynniant eno ruthreu a kyrcheu e gelynyon angkyvyeyth a delont megys e bych tytheu en hed6ch e parth h6nn y Humyr.[400] ufvdhau a oruc Gortheyrn yda6 a gorchymmyn yda6 gwaha6d e nep a wypey ef eu bot en kanwrth6y ac en nerth udunt. Ac en e lle anvon kennadeu a oruc Heyngyst hyt en Germany. ac 6ynt a deuthant odyno Octa vab Heyngyst ac Ebyssa a Cheldryc a thrychanllong en lla6n o wyr arva6c. Ar rey henny a kymyrth Gortheyrn en hygar. ac a rodes llawer o rodyon ma6r udynt. A thr6y nerth e saysson e gorvydey Gortheyrn ar y holl elynyon. ac em pob gwlad e bydei vuduga6l.[401] A Heyngyst eissioes en wastat a wahodey e llongheu. ac ang6anegey y nyver peunyd. Ac gwedy gwelet o'r Brytanyeyt henny ovynhau a orugant brat e saysson. Ac 6rth henny wynt a dywedassant urth e brenyn ac archassant yda6 gwrthlad e saysson paganyeyt oy kyvoeth. kanys ny dyleynt y paganyeit emkyssylltu ar Crystonogyon nac emkytemdeythyokau ac wynt. kanys Crystonoga6l kyfreyth a wahardey hynny. ac y gyt a henny hevyt kymeynt o amylder o paganyeit a dothoedynt er enys a megys ed oedynt yn ofyn ac yn aruther yr ky6da6twyr. kanys nid oed gwybot ha6d pwy a vey Crystya6n p6y a vey pagan kanys e paganyeyt a rodessynt eu merched ac eu karesseu en gwraged udunt. ac 6ynteu g6edy rody yr paganyeyt eu merched ac eu karesseu ac wrth henny ed annogyn e Brytannyeit yr brenyn dyhol e paganyeit oe kyvoeth rac ofyn trwy eu brat ac eu hystryw goreskyn o nadunt e ky6da6twyr.[402] ac esef a wnaeth Gortheyrn eyssyoes efelychw ac annot hynny rac meynt oed kantha6 karyat y wreyc ac eu karyat 6ynteu. Ac gwedy gwelet o'r Brytannyeyt hynny 6ynt a ymada6sant a Gortheyrn ac o kyt kyghor a chyt duundep kymryt G6rthevyr y vap ac ounvryt y ardyrchavael ae urda6 en vrenhin. ac essef a oruc G6rthefyr en holla6l gwneuthur kynghor e Brytanyeyt o pob peth. a dechreu emlad ac estra6n kenedyl ac en wychyr greula6n mynnu eu dyhol or enys hon.[403] a phed6ar kyfranc a phed6ar emlad a wu yda6 ar saysson. Kyntaf o nadunt ar avon Darwenhyd. Er eyl ar ryt Epyffort. Ena ed emkyvarvu Kyndeyrn vap Gortheyrn a Hors bra6t Heyngyst. ac gwedy ymkaffael o nadunt e llada6d pob un y gylyd o nadunt. Trydyd emlad a wu ar lan e mor en e lle ed aethant e saysson en wreygya6l en eu llongheu ac e kyrchassant enys Thanet en lle amdiffyn udunt. Ac eyssyoes esef a wnaeth G6rthyvyr eu damkylchynu ac o longa6l ymlad beunyd eu govalu. Ac gwedy na ellynt e

sayson a vey hóy dyodef ryvel Górthyfyr Vendygeyt ar Brytanyeyt arnadunt. wynt a ellynghassant Gortheyrn e gwr a wuasey em pob emlad y gyt ar sayson en kennat hyt at Werthyvyr ar Brytannyeit y erchy kanhyat udunt y emchwelut hyt yn Germany en yach. A hyt tra ed oedynt e kymry en kymryt eu kynghor ed aethant e sayson en eu llonghieu ac e daethant hyt en Germany kan adaó eu gwraged ac eu meybyon.[404]

Ac góedy kaffael o Werthyvyr e wudugolyaeth dechreu a oruc talw y paób tref y dat ac eu kyvoeth or ar rydugassey e saysson y arnadunt. ac y gyt a henny hevyt karu y wyrda ac eu hanrydedu ac o arch Garmaón ac kynghor atnewydhau er eglwyseu.[405] ac eysyoes en e lle kynghorvynnu a oruc Dyafól wrth y daiony ef a mynet a wnaeth eg kallon Ronwen y elldrewyn ef a honno a lafuryaód y keysyaó agheu y Werthyvyr. ac wedy medylyaó pob ystryó or diwed hy a rodes gwenóyn tróy laó un o wasanaethwyr ydaó a henny kan rody y hóunó llawer o da.[406] Ac y gyt ac y llewes er arderchaóc emladwr hónnó e gwenóyn en dyssyvyt klevychu hep un gobeith o honaó. Ac odyna hep un gohyr dyfynu attaó a oruc y holl varchogyon a mynegu a wnaeth udunt y vot ef yn mynet yr fford y mae yn reyt y pob perchen cnaót vynet ydy. Sef yó honno y angheu. a gwascaru udunt y eur ae aryant ae holl daoed or a kynnullesynt y tatau ae hentadeu kyn noc ef. kan dyscu udunt bot en reyt y paób mynet y angheu megys yd oed enteu en mynet ac annoc y wyr yewainc glew ar ryfuesynt rac y vron ef en e brwydreu ac en er emladeu hyt pan ymdyffynnynt ew gwlat en wraól ac en wychyr a llafuryaó oy dyffryt rac eu gelynyon a rac estraón kenedyl ag y gytadyscu glewder udunt erchy a oruc udunt gwneuthur deló arwraól ydaó a llehau honno en e porthva e gnotteynt e sayson dyvot yr tyr ydy. ac gwedy bey varw enteu gosset y gorph enteu ar y deló hono. ac yr aór y gwelei er aghyfyeith genedyl honno y deló honno ydymchoelynt hóynteu y hóylyeu dracheuyn hyt en germania. kans góerthevyr vendigeit a dywet na levassei er un or saesson byth dyfod y dir ynys prydein tra góelynt y wed ef yny borthva honno. Ofi maór o beth oed glewder y gwr a debygey vot y ofyn ar y elynyon yn varó mal yn vyó. Ac eissyoes amgen awnaeth e brytanyeid. kans yg kaer lundein e cladóyt y gorff ef yn anrydedus.[407]

Ac óedy maró góerthevyr vendigeit eilweith y gossoded Górtheyrn yn frenhin. Ac yn diannot yd anvones kenhadeu hyt yn germania y erchy y Heyngyst dyfod y ynys prydein. a niver bychan ganthaó. a hynny yn dystaó daóel rac ennynu teruysc eilweith yn yr ynys o achaós y Saesson.[408] Ac yna yn diannot. sef a oruc Heyngist kynnullaó trychanmil o varchogyon arvaóc a dyuot a hynny ganthaó y ynys Prydein. A phan gygleu y brytanyeid dyvod hynny. yn diannot dyunaó a orugant. a dyfod yn y herbyn ac ymlad ac hóynt kyn y eu dyvot yr tyr. A diffryt y porthloed ractynt. Sef aoruc Heyngyst yna medylyaó o pob medól twyllodrus pa ffunut e gallei ef dyfot yr tir. Sef val yd ystrywyós ef hynny. nyt amgen anvon ar órtheyrn ac ar ronwen y verch y vot ef yn dyvot y ymwelet ar brytanyeid tróy garyat a thangnheved. a manegy ydynt nad yr keissyaó trigaó yn ynys Prydein y dodoyd ef yna. namyn tybygu bot Górthevyr yn vyó ac er nerthu Góertheyrn y dygassey ynteu y niver hónnó yno. Ar niver a vynho Góertheyrn y attal gydac ef attalyed. Ac ar ni mynho ellyghed ymeyth.[409] A phan wyby Góertheyrn ystyr y kennadóry honno. Sef aoruc ynteu yn diannot rodi idynt kennad y dyvot yr tir. A góneuthur oet y ymdydan ar Brytanyeid yny lle a elwyr maes y kymry yn agaós y vanachloc Ambyr. A hynny ar dyó kalanmei. Sef aoruc Hingestyr erbyn e dyd hónnó prydu tóyll. nid amgen no rody kyllell hyr y bop gwr onadynt yny hossan ygyt ae esgeir. a rhodi yn aróyd oi wyr pan vynney tynnu eu kyllyll onadynt. doedyd o honaó ef namyn. draweth hwy sexes. neu onwer saxes. Sef yó hynny. kymmerwch ych kyllyll. A phan doetey ef hynny llad o bop un onadynt a ellynt vóyhaf or brytanyeid.[410] Ac yr oet dyd y daethant yr lle yd oed eu kynnadyl. Aphan vu amser gan Hengistyr doedyt aoruc yr aróyd o hyd y lef. Ac yna yn diannot y kymerth y Saeson eu kyllyll a llad y brytanyeid yna o rivedi onadynt triugeinwr a phedóar kant. o dyósogyon a baróneyid a marchogyon. kans paób onadynt a doethant yno heb arveu. kany medylyynt dym namyn tagnheued ar Saeson. Ac hóynteu tróy eu brad a doethant yn arvaóc órth hynny haód idynt lad e góyr ereill yn diarvot. Ac eissoes nys kawsant yn rat. kanys llawer o honynt hóynteu a las yna. kanys y Brytanyeid a gymerynt e meini or dayar ar trosolyon. ac yvelly y lladasant lawer or bradwyr Saeson.[411] Ac yno ydoed Eudol

iarll Kayaw. sef yw honno Kaer Loyw. A phan welys ef y dam6eyn h6nn6 e lladoed Eidol dengwyr a thriugeinwyr or Saeson heb a anovod onadunt. o dorri eu breychieu neu siga6 y penneu. ac wedy na thyckia6d ida6 ef hynny ffo a oruc hyt yny dinas ehun. a llawer o pop parth yn y hymlyt. ac velly y gorfu y Saeson yna. A daly Gortheyrn ae garcharu. ac yn y garchar kymhell arna6 rodi idynt y dinasoed ar kestyll y ryfedi a vynnasant er y rydhau ef. Sef y kawsant ganthaó Lundeyn. a chaer Evra6c. a Lincol. a chaer Wynt. Ac yna y kymerth Eidol. gorfforoed y gwyr da a las yno. a phery eu kladu ygkaer Garada6c. ac aelwir yrawran Salsbury mewn myn6ent garlla6 mynachloc Ambyr. Ac ef a berys abad yno engynta.[412]

A wedi rhydhau Gortheyrn llad a orugant y Bryttanyeid. megys bleidyeu yn llad defeid y me6n keil. wedy ydada6ei eu heusor h6ynt. A phan welas Gortheyrn y lladva honno ar Brytanyeid. y doeth ynteu i emyleu Kymru o dic a llyt 6rth yr yscymun bopyl honno.[413] Ac yna gal6 atta6 a oruc holl doethyon y kyuoeth a gouyn kyghor idynt. Sef y kowssant yn eu kyghor. gwneuthur kastell kadarnaf ar a ellyd yny lle kadarnaf a 6ypynt. megy y bey h6nn6 yn amdiffyn ida6. Ac odyna y doethant y geissia6 lle kadarn. sef y kowssant y lle ymynyd yryri.[414] Ac y kynnull6yt g6eithwyr a holl seiri main ynys prydein or a all6yt eu kaffel ac eu d6yn hyt yno. Ac 6edy eu dyfot yno. dechreu y g6eyth a orugant. a gossot sylvain. ac a wnelynt beunyd o weith a lynkau y dayar ac a syrthiau beunoyth. Ac 6edy mynegu i ortheyrn hynny. gouyn a oruc ynteu oy dewinyon. beth a wnaey divlannu y gwaith uelly.[415] Ac yna yd erchys y dewinyon ida6 geissia6 mab heb dad a llad h6nn6. ac a g6aet h6nn6 ira6 y main ar kalch ac uelly y sauey y g6aith. Ac yna yn diannot yd anuones Gortheyrn kenhiadeu y bop lle i geissya6 y kais h6nn6. Ac val y da6 y keniadeu yr dinas a elwir kaer Verdyn. wynt a 6elynt s6rn o weission yeueinc yn g6are yn ymyl porth y dinas. sef a orugant y kenhadeu yna eiste ac edrych ar y g6areu.[416] Ac val yd oedynt velly ynychaf deu or g6eission yn darvot rhyngthynt. ar neill onadynt a el6yt Merdyn. ar llall a el6yt Duna6t. Ac yna y dywa6t Duna6t 6rth Verdyn. nyt 6yt ti un 6r a myfi. kanys dyn tagheduenna6l 6yt ti heb dat itti. A minheu a han6yf o lyn brenhinoed. o dat a mam.[417] Ac yna pan gigleu y kenhiadeu y gair h6nn6 am Verdyn. goffyn a orugant ir niver o bop tu udynt. p6y oed y gwas. Ac yna y dywa6t pa6b onadynt na wydhynt h6y p6y oed y dat. y vam ynteu oed 6erch i vrenhin Dyvet. a manaches vuchedaól y6 ymplith manachesseu ereill yn egl6ys Beder ygkaer Vyrdyn.[418] Ac yny lle yn diannot yd aeth y kenhiadeu hyt ar e swyda6c a oed yn y dinas ar kastell. Ac erchi ida6 oblegyd y brenhin anvon Merdyn yn diannot ae vam ygyt ac ef i ymwelet a Gortheyrn. Ac yna yn diannot ydaeth y lleian ai mab ygyt ac h6ynt rac bron Gortheyrn ir Yri. Sef a oruc Gortheyrn yna aruoll y lleian da honno yn anrydedus. kanys y hanvot o lin brenhina6l.[419] Ac yna govyn a oruc Gortheyrn yr lleian. p6y oed dat y mab. Argl6yd vrenhin ebhi mi a doedaf yt wiryoned. val ydoed6n ymplith fy ch6iored krefyd yn vy hundy ynychaf y dyfot attaf wr ma6r tec teledy6. ac yn rody kussaneu mynych ym. ac yny lle yn diflannu y6rthyf. Ac yny di6ed yn kytya6 a mi am ada6 yn veichia6c. Ac edrychet dy doethineb di arglwyd a alley vot tat ida6 6rth na bu imi erioet achaws a gwr namyn hynny.[420] Ac yna ryfedu hynny a oruc Gortheyrn. a dyvynnu atta6 Meugant dewin. a gofyn i h6nn6 a allei hynny vot yn wir. Ac yna y dywa6t Meugant ef a geffyr yn llyvreu doethyon ac yn ystoriau bot llawer o dynyon or ryw enedigaeth a honno udynt. Aphili6s a dywaid pan draetho o du6 ac or seint. bot y ryw genetyl ysbrytion yn pres6yliaó r6g y lleuat ar dayar. ar rei hynny a al6n ni yn deivyl dyg6ydetic. ar rei hynny rann syd onadynt o anyan dynyon a rann arall o anyan agylyon. a phan vynnont y kymerant korf dynyon ai drych arnadunt. Ac yny wed honno y kytyant a gwraged. ac agatvyd un or rei hynny a ymdaghoses yr wraic hon. ac a grea6d y gwas ieuanc h6n.[421] Ac wedy gwranda6 o Vyrdyn pob peth or ymadrodyon hynny nessau aoruc ar y brenhin adoedyt wrtha6. Argl6yd eb ef pa acha6s y dycp6yt fyfi yma am mam hyt rac dy vron di. Gortheyrn a dywa6t wrtha6 ynteu vyn dewinyon am doethyon a gyghorassant ym geissia6 mab heb dat ida6. ac a gwaet h6nn6 ira6 y mein ar kalch. ac velly ydoydynt h6y y savey y gwaith. Ac yna y dywa6t Merdyn ar ith doythyon ath dewinyon dyvot gar fymron i ami a brovaf arnadynt eu bod yn gelwyda6c. ac eu bot yn dechymygu kelwyd.[422] Ac yny lle anryvedu yn va6r aoruc y brenhin y amadrodyon ef. ac erchi d6yn e dewinyon rac bron e brenhin a Merdyn

ygyt. Ac yno y dy6ot Merdyn 6rthynt h6y. kanys ny wda6ch ch6y pa beth yssyd dan y gr6ndwal e dechreywydic dwr. yn llesteirya6 y gweith i sevyll 6rth hynny yd archysa6ch ch6y roi vyg gwaet i ae gymyscu ar kalch. megys byt sauey y gweith o hynny allan. namyn doyd6ch ch6y imi pa beth yssyd dan y gr6ndwal. kanys yno y mae y peth ni ad y gweith i sevyll.[423] Sef a wnaeth e dewinyon yna ofynhau a thewi. Ac yna y dywet Merdyn. Argl6yd vrenhin gal6 dy weith6yr ac arch idynt gladu y dayar. a thi a geffy lynn dan y dayar. a h6nn6 ny ad yr twr seuyll. Gwedy g6neuthyr hynny. y llynn a gaffat. yr h6n a wnay y dayar yn an6astat. ac a 6nay ir g6aith na saf. Ac eyl6eith nesau a oruc Merdyn at y dewinyon. a gouyn udynt. doyd6ch imi eb ef d6yllwyr geua6c pa beth yssyd yg g6aela6t y llynn. Sef a orugant h6ynteu tewi.[424] Ac yna dy6ot Merdyn 6rth Ortheyrn par di argl6yd oll6g y llyn yn gyffredin a thi a weli deu vaen geu yny gwaela6t. Ac ymae yn y rei hynny d6y dreic yn kyscu. A chredu hynny aoruc Gortheyrn am welet y llyn. A pha6b a oed yn ryvedu ar a oed yn gwranda6. Ac yna edrych ar y g6as ieuank yn doydyt hynny. Ac An vap y lleian y gel6yd ef hyt hynny. ac o hynny allan Merdin. o acha6s y gael ygkaer Verdin.[425]

Ac g6edy goll6g y llynn y kad e gyst. ae hegori a vynha6d y brenhin. Yna proph6ydolyaeth Merdyn Emrys garbron Gortheyrn. yr hon aelwyr y brofwydolyaeth va6r. y brofwydolyaeth hon nid yscryven6s yma rac y hyt.[426]

Ac 6edy darvot i Verdyn draethu y broff6ydoliaeth. ryfed oed gan ba6b vaint oed syn6yr y mab. Sef y gofynna6d y brenhin i Verdyn: pa agheu ae dygai ef.[427] Gochel di eb ef. dan meibyon c6stenin. kanys y maent yr a6r hon yn lledu h6ylieu ar draeth llyda6. yn dy6at i enys Prydein i lad saesson. ac ae gorescynant oll. Ac yn gyntaf h6ynt ath loscant ti me6n t6r. kanys tydi oth d6yll a vradycha6d y tat ae bra6t. Ac a wahodeist Heyngest yma yr lles yt. Ac y mae hynny yn amhorth yt. kanys deu agheu syd yt ogyvada6. un y6 y Saesson sy yn gorescyn arnad. Ac Emrys ac Uthyr a doant y draeth Toynus yvore yr tir. Ac 6ynt a gochant 6ynebeu y Saesson ou g6aet. Ac 6edy llader Hengestyr e coronir Emrys. h6nn6 a atnewyda er egl6yseu. ac a g6en6yn e lledir ef. Ac yny ol y coronir Uthyr. ac a g6en6yn y lledir h6nn6. o d6yll y Saesson. Ac yn ol h6nn6 y da6 Baed Kerny6. yr h6n ae ll6nk 6ynt oll.[428]

Ac ny bu h6y noc hyt trannoeth ony doeth Uthyr ae Emrys ir tir. a deg myl o varchogyon arua6c.[429] Ac ymgynnulla6 a oruc y Brytanyeid oll attunt. a g6rhau i Emrys. Ac yna y kymerth Emrys y goron. ac y kavas yny gyghor vynet am ben Gortheyrn tua Chymru. Ac 6edy y dyvot hyt yn Erging. kyrchu castell Gronwy. ar ben mynyd Denarch. ar lan G6y. avon a da6 o vynyd Klorach. kanys hyt yno ffoassei Gortheyrn. Yna d6yn argof a orugant ida6 llad eu tat ae bra6t. a d6yn Saesson ohona6 yr tyr. ac 6rth hynny eb ef. wyrda ymled6ch yn di6eiria6c ar kastell ack6. Ac yn diannot roi tan a orugant yg kylch y kastell. a lloski a oed ynda6 o da a dynyon. Ac y llas Gortheyrn ac y llosced.[430] Aphan gycleu Hengestyr llad Gortheyrn. a dewred Emrys ffo a oruc y Saesson or tu h6nt y H6myr. ac ymgadarnhau yno.[431] Yna yr aeth Emrys ar y hol ac y bu dr6c gantha6 welet yr egl6ysseu 6edy distry6ia6 or Saesson. a dywedyt yr adnewyday o doe dracheuyn.[432] Yno y daeth Heyngest ae lu i vacs Beli. ar ved6l d6yn kyrch disy6yt am ben Emrys.[433] Ac ni ochela6d Emrys y lle h6nn6. Ac yno bydina6 a oruc a rhoi g6yr Llyda6 or naill tu. ae wyr ehun blith draphlith. a g6yr Dyvet gan y hystlys. a g6yr G6yned yn y koet garlla6 a oruc Emrys. val y galley ymlid y Saesson pan ffoynt.[434] Ac yn y tu arall yr oed Hengestyr yn annoc y wyr ynteu. ac yn y dysku. Yno y bu aerua va6r o bop tu. ac or di6ed yffoes Hingestyr ae wyr i gaer Kynan ar kastell. Ay ymlid a oruc Emrys. ac yno ymvydina6 a llad lla6er o bop tu. Or diwed gwyr Llyda6 a dylla6d y Saeson tr6ydynt. Ac yr oed Eidal iarll kaer Loy6 yn ymgeisya6 a Hingestyr.[435] Ac or di6ed yr ymga6sant. Ac ymlad ony bu y tan oe harueu val mellt lluchedena6l ymlaen taran. Ac val y budynt velly. nychaf Gwrlas iarll Kerny6 ae vydin yn dyvot attynt ac yn g6ascaru y Saesson. Sef a oruc eidal yna y hyder hynny kymryd Heyngyst erbyn barfle y benfestyn ai d6yn ym plith y vydin. a dy6edyt o hyt y lef. kyfarsengwch y Saesson. kanys kad Hingestyr.[436] Yna y ffoes Octa vab Heyngyst a ran va6r or llu hyt yg kaer Efra6c. A Osa y geuynder6 a ran arall i gaer Alkl6yt. Ac yno ymerbyn ac Emrys.[437] Ac 6edy gorvot o Emrys arnunt. ef a gavas y gaer. Yno y bu dridyeu yn pery cladu y kalaned a ledesyt.[438] Yna govyn kyghor

a oruc pa beth a 6naid i Hingestyr. Ac un oy gyghor oed Eidol escob kaer Loy6 bra6d Eidol iarll. A phan 6elys Heyngyst y dy6a6t. pe erbynyeu pa6b rydhau Hingestyr mi ae llad6n vy hun val y g6naeth Sam6el brof6yt pan 6eles Agag brenhin Amalech y perys y drylliа6 6edy y daly a dy6edyt 6rtha6. val y g6naethost di y meibyon heb vameu. minneu a 6naf dy vam ditheu heb vab. Yna y duc Eidol iarll kaer Loy6 Hengestyr y ben bryn ac yno torri y ben ae gladu a roi karned arna6 val y g6naed am Sowdan.[439]

Yna yr aeth Emrys ae lu hyt yg kaer Efra6c i geissya6 Octa. Yna y kavas y Saeson yn y kyghor. dyvot allan a chad6yn yn lla6 pob un. a thamet o bryd ympen pob un. a dy6edyt 6rth Emrys. Argl6yd gorch6ygedic y6 yn du6yeu ni. ach du6 ch6i sy gadarn ysyd yn kymhell y sa6l vonedygyon hyn yn ych·e6yllys ch6i yn yr ag6ed hon. A llyma ni a chad6yn yn pob un. par di argl6yd yn r6yma6 os myn-ny. Yna 6edy kymryt kyghor y dy6a6t Eidol escob val hyn. Egobanite a doethant oy bod y erchy tagneued y popyl yr Israel ac ay ka6sant. Ac ny byd g6aeth yn trugared no h6ynteu ir Ide6on. Ac odyna yd aeth Osa ay bopyl ynteu yn trugared Emrys. Yna y roet Octa ay niver yn gaithyeit i Emrys yn Ysgotlant.[440]

Yna y gel6ys Emrys atta6 y holl ieirll ac var6nyeit ar archescob i gaer Efra6c. Ac yn y kyghor y ka6sant yn gyntaf g6eirya6 y temleu neu yr egl6ysseu a distr6assei y Saesson. Ac ar gost y brenhin ehun y peris g6eirya6 yr egl6ysseu. Ac yn en6edic egl6ysseu yr archescoptey. Ac ympen y pymthecvet dyd 6edy hynny yd aeth Emrys i Lundein. a phery yno hevyt adne6ydhau yr egl6ysseu. Ac yny lle ar ol hynny y perys adne6ydhau y kyvreithyeu dr6c a oedyt yn y kynhal. nid amgen no roi yr meibyon ar wyrion ar gor6yrion eu g6ir dylyet o dired a dayared a dylynt. ac a daroed eu treisya6 amdanadynt. A dilin gwirioned ympop lle ae chynhal.[441] Ac odyna yd aeth y brenhin parth a chaer Wynt i 6neuthyr yno val y g6naethoed ym pob lle. Ac 6edy darvot ida6 llunyaethu pob lle ay hedychu yd aeth hyt y lle ael6yr yr a6r hon Salsbru. i edrych yno y niver a barassey hengestyr eu llad yno o ieirll a bar6nyeit a marchogyon urda6l. A thrychan manach oed yno o g6vent ym mynyd Ambri. Ac Ambri a seili6s y vanachlog honno gyntaf. A thrist vu gan Emrys 6elet a lle honno. mor diadurn a hyny. A dyuynu a oruc atta6 hyt yno holl seiri mein a phren o holl ynys Prydein i darparu g6neuthur yno adurn parhaus tragy6yda6l tec anrydedus y u6ch ben y vedra6t hono o dylyedogyon a ladyssit yno yn 6yryon yn amdiffyn tref eu tat rac y brad6yr paganyeit.[442] Ac 6edy eu dyvot hyt yno ygyt dechymygu g6eith a orugant. oc eu holl ethrylith ay wneuthur yn diannot yn barhaus dragywyda6l. Ac 6edy pallu eu hethrylith ganthunt. nessau a oruc Tramor archescob kaer llion ar y brenhin. a dy6edyt 6rtha6 val hyn. Argl6yd eb ef. gal6 attat Verdyn bard Gortheyrn. A h6nn6 a wyr dechymygu g6eith enryved. o anniffyc ethrylith tragywyda6l.[443] Ac y dyvyn6yt Merdyn yno 6edy y gafel ar lan fynha6n Galades yg g6lat E6ias. kans yno y tram6yey ef yn vynych. Ae arvoll a oruc y brenhin ida6 yn lla6en ac yn enrydedus. Ac erchi a oruc ida6 dywedyt y daroganeu a deley rac lla6.[444] Ac yna y dywa6t Merdyn. Argl6yd eb ef. nid ya6n draethu or ry6 betheu hynny. namyn pan y kymhello anghereit. Pei as dywet6n ni yn amser ni bei reit wrthynt. tewi a wnaei er ysbryt ysyd yn dysgu inheu. A phan vei reit 6rtha6 y ffoei racof.[445] Ac ni mynn6s e brenhin i dirrya6 namyn govyn ida6 pa ffunyt y dechymygey ef datkan y g6eith ar 6edra6t yno. Llyna val y kyghoraf eb enteu. mynet hyt en Iwerdon y lle mae kor y kawri. ym mynyd Kilara. kanys yno y maent mein enryued eu hansa6d. Ac nyt oed neb yn yr oes honno. a wypai dym y 6rth y mein hynny. Ac ny cheffit h6ynth6 nac o gryfder nac o gedernyt. Ar mein hynny. Arglwyd. pei bydunt 6y yma val y maent yno. h6ynt a seuynt yn dragywyda6l.[446] Ac yno y dywa6t Emrys dr6y ch6erthin val hyn. pa ansa6d eb enteu y gellyd eu d6yn h6ynt odyno. Ac yna y dywa6t Merdyn. na chyffroa di argl6yd ar ch6erthin yn ormod nac ar wat6ar nac ar or6acder. kanys ny dywedafi namyn prudder a g6iryoned. A mein riuweda6l yty6 y mein. ac amryuaelyon vedeginyaetheu arnadunt. Ar kewri gynt ac eu duc h6ynt yno. o eithauoed yspaen. ac ae rodassant yn y mod y maent yno. Sef acha6s y g6naethant h6y hynny. pan deley glevyt ar un onadunt sef y g6einid enneynt yg kymherved y mein. ac yna y golchynt y mein ac y dodunt yn yr enneynt. Ar neb onadunt a vei glaf. o ba heint bynhac y bei iechyt a gaffei o vynet yr enneynt. A llysseu a rodynt heuyt yn yr enneynt, ac or llyssieuoed hynny yd iecheynt eu g6elioed.[447]

A phan gigleu y Brytanyeyt kynnedfeu

y mein. yn diannot y daethant y eu kyrchu. Ac yn benaf arnadynt yd anvonet Uthyr ben dragon. aphymptheg myl o wyr arua6c ygyt ac ef. Ac yna yd anvonet Myrdin gyt ac 6ynt. am y vot yn gelvyd ac ethrylith ma6r ynda6.[448]

Ac yn yr amser h6nn6 yt oed Gillam6ri yn vrenhyn yn I6erdon. A phan gicleu Gillam6ri h6nn6 eu bot yn dyvot. kynnulla6 llu aoruc ynteu a dyvot yn erbyn y Brytanyeyt. A gouyn ydynt ystyr eu dyuotyat yno. A phan 6yby ystyr eu hynt. ch6erthin aoruc a dywedyt 6rthynt nyt ryved genyfi eb ef gallu o genedyl lesg anreithya6 ynys prydein. canys ynvyt ynt pan delynt h6y hyt yn I6erdon. i bery i genedyl I6erdon ymlad a h6ynt am geryc. Ac yn diannot ymvydina6 aorugant ac ymgyrchu ac ymfust yny gymhell6yt Gillam6ri i ffo ac a dyengys oe wyr.[449] Ac yn gyflym diannot mynet a oruc y Brytanyeit hyt ym mynyd Kilara. y lle yt oed y mein. Ac yna y dywa6t Merdyn 6rthynt. Arver6ch or dechymyc goreu a 6ypoch i d6yn y mein ymeith. Ac yn diannot pa6b onadynt a lavurya6d or a 6ydynt obop kelvydyt a dechymyc i geissya6 d6yn y mein. Ac ny dygrynnoes udynt dim. Sef aoruc Merdyn yna chwerthin. A heb lavur or byt arna6. onyd y anodun ethrylith 6edy dar6ot ida6 gweirya6 pop peth or a vey reit. nyt amgen peyrianneu a chelvydoteu ereill. Merdyn a duc y mein oll oc eu lle yny vuant yn y llogheu. Ac yn diannot herwyd dyuot y g6ynt. yni vuant ym mynyd Ambri. A dyvynnu hyt yno a beris Emrys a oed yn ynys Brydein o ieirll a bar6nyeit ac yscolheigyon urd ysaid 6rth adurna6 y lle honno. o odida6c adurn. Ac 6edy ymgynnull pa6b ygyt hyt yr un lle h6nn6. pan daeth y dyd gossodedic h6nn6. Emrys Wledic a wisga6d coron y deyrnas am y pen ac yn vrenhina6l a anryded a6d gwylva y Sulg6yn tr6 espeyt tridieu a theirnos. Ac yn henny o espeyt ac amser or anryded ar teilygdodeu a oedynt yn wac heb perchanogyon na dylyedogyon arnadynt. er rei henny a rodes e brenhin oy wasanaethwyr enteu ac oy wyrda i dalu eu llavur udynt. A d6y archescoba6t oedynt yn 6ac heb vugelyd endynt. nid amgen kaer Efra6c a chaer Llion ar Wysc. Ac o gyffredin gyghor e gossodes ef ena Sampson en archescob ygkaer Efra6c. g6r arderch a6c goruchel oe gre6yd ae vuched oed h6nn6. Ac ygkaer Llion e gossodes Dyvric yn archescob. e gwr a rac welsei d6ywa6l edrychedigaeth i vot yn etholedic ir lle honno. Ac 6edy darvot ida6 llunyaethu henny. a llawer o betheu ereill a perthyneu ar ly6odraeth y deyrnas. ef a orchymyna6d i Verdyn gossot a llunyaethu e mein ar rydygessynt oywerdon egheilch e bedra6t ar e wed e g6ely ef i vot yn ia6n. A Merdyn yna o arch a gorchymyn y brenhin ae gossodes ena h6ynt ar e wed ar ansa6d ed oedynt ym mynyd Kilara en I6erdon.

Ac yn yr amser h6nn6 Pasken vap Gortheyrn. e gwr a ffoassei ygyt a Saeson hyf yn Germanya a gyffroes y bopyl honno ae holl varchogyon arva6c en erbyn Emrys Wledic. i geisia6 dial e dat arna6. kan ada6 udynt antervynedic amylder o dir eur ac aryant. or tr6y eu nerth h6ynt ac eu kant6rth6y e galley enteu gorescyn teyrnas ynys Prydein. Ac or diwed g6edy darvot ida6 dr6y ei ada6eu ef llygru holl ieuengctyd e g6lat. paratoy a gwnaeth e llyghes v6yaf a allei. a dyvot hyt yg gogledd er ynys. a dechreu anreithya6 e g6ladoed. Ac 6edy kennatau henny ir brenhin enteu a gynnulla6d y holl lu ac a aeth en eu herbyn. ac a elwys ar ymlad y dy6al elynyon. Ac h6ynteu oc eu bod a ymladassant ar ky6da6twyr. Ac eissoes kan vod Du6 e ky6da6twyr a orvuant ac a gymhellassant e gelynyon ar ffo.

Ac 6edy kymhell Pasken ar ffo ny llavassa6d ef ymchoelyt tracheuyn i Germany. namyn trossi y h6ylieu a chyrchu hyt at Gillam6ri brenhin I6erdon. A h6nn6 ae herbynya6d yn anrydedus. Ac 6edy datkanu o hona6 y antyghetven ae direidi i Gillam6ri. truanhau 6rtha6 a oruc. ac ada6 nerth a chanh6rth6y ida6. A ch6yna6 y sarhaet ar rygа6ssei enteu ygan y Brytanyeyt. pan dygessynt Kor e Ke6ri odyno. Ac or diwed g6edy kadarnhau kerennyd er rygdynt. paratoy llogheu ag6naethant a mynet endynt. ac i gaer Vyny6 e daethant yr tir.[450] Ac g6edy honni eu dy6odedigaeth 6ynt tros y g6ladoed. Uthyr Pendragon a kymyrth holl varchogyon a holl wyr arva6c er enys. ac a aeth parth a Chymru 6rth emlad yn eu herbyn. kanys Emrys Wledic y vra6t ef a oed yn glaf ygkaer wynt. ac ny allei dyvot i'r ll6yd 6rth henny.[451] Ac g6edy g6ybot henny o Basken a Gillam6ri ar Saesson ygyt a h6ynt lla6enhau aorugant en va6r. kanys tebygu a g6neynt vot en ha6s udynt goreskyn e deyrnas o acha6s klevyt e brenhin. Ac val yt oedynt evelly en m6rmuria6 am hynny em plith e llu nessau a oruc un or Saesson at Pasgen. ac esef oed y en6 ef Eopa neu neu Eppa neu Oppa. a dy6edyt val hyn 6rth Pasgen. Pa beth eb ef o da

ar rodut ti yr nep a ladey Emrys Wledic. A Phasgen a dy6a6t 6rtha6 enteu. dioer eb ef. p6y bynhac a alley eskynnu hynny en eu ved6l ai d6yn ar berfeithda6t ar i 6eithred. mi ar rod6n ida6 mil o bunhyoed o aryant am ann6ylyt ynheu am kytemdeithas hyt tra vyd6n vy6. Ac os e dyghetven a kanhiataey i mi arveru o goron teyrnas ynys Prydain mi ae g6na6n ef en s6yda6c ym a henny a gadarnha6n tr6y arvoll.[452] Ac ar hynny e dywa6t Eopa mi a dyscais eb ef yeith e Brytanyeit. ac eu deva6t mi ae g6n. a chyvar6yd 6yf yg kelvydyt medeginyaeth. Ac 6rth henny. o chy6iri di er hyn yt 6yt en i ada6 i mi. minheu a dychymygaf vy mot yn gristya6n ac yn vryt6n. Ac en rith medyg mi a doaf at e brenhin. a mi a wnaf dia6t ida6 er hon ae llado enteu. A hyt pan vo kynt e kaff6yf ym6elet ar brenhin mi am g6naf yn vanach credyfus ryola6dyr. ac en dyscedyc o bop dysc.[453] Ac gwedy ada6 o hona6 henny Pasken tr6y kedernyt aruoll a ade6ys ky6ira6 pop peth ida6 megys y hada6ssey. Ac 6rth henny yny lle Eopa a berys eillya6 y varyf a chneivya6 y ben ac eillya6 y gorun a chymryt abit manach amdana6. a llestri ac offer medyc. a chymryt y hynt e tu a chaer Wynt. Ac or diwed g6edy i dyvot ir dinas ac ir gaer daga6s y 6asanaeth ae gelvydyt agwnaeth i wassanaethwyr e brenhin. A chymedeithas a gavas ygan er rey henny. kanys ny damunyt ena dym gwell na chaffael medyc da.[454] Ac g6edy y dyvot rac bron e brenhin ef a ade6ys i g6neuthur en iach o mynhey e brenhin arveru or diotyd ar rodey enteu ida6 ef. A heb un gohir erchi a gwnaethp6yt ida6 gwneuthur dia6t i'r brenhin. Ac en diannot kymyscu gwen6yn a oruc ar dia6t ae rodi ir brenhin. Ac g6edy y chymryt o Emrys ac hyvet ene lle erchi a wnaeth er yskymun vrad6r h6nn6 ida6 dodi dillat arna6 a llechu a chysku. kanys evelly m6yaf a chadarnaf ed ymgymerei e gwen6yn ac ef. Ac ufydhau aoruc e brenhin i dysc yr yskymun vrad6r h6nn6 a chysku megys kyt bei o henny e kaffey enteu iechyt a g6aret. Ac ni bu en gohir ygyt ac er reda6d e gwen6yn tr6y fenestri y gorf ef. en e lle yt euth er angeu en ol er hon ni g6yr nac ni myn arbet i nep. Ac yn henny er r6ng un ac arall llithra6 ag6naeth er eskymun vradwr h6nn6. ac nit emdangosses yn e llys o henny allan.[455] A hyt tra yt oedyt yn g6neuthur henny egkaer Wynt yd ymdangosses seren enryved y meint ae lleufer. ac vn baladyr idi ac ar ben y paladyr h6nn6 et oed pellen o dan ar lyn dreic. ac o eneu honno e kerdynt deu baladyr. a hyt y neill onadynt a welyt en estynu tros teruyneu Freinc. ar llall a welyt en kerdet parth ac I6erdon. ac en teruynu en seith baladyr bychein.[456]

A phan amdangosses e seren honno anryued ac ofyn a drewys pa6b or ae g6eles. A dirva6r ofyn a gymerth Uthyr bra6t e brenhin en e lle et oed yg kymru en kyrchu y elynyon. Ac gofyn i ba6b or doethyon ygyt ac ef. pa beth a ar6ydokaey e seren honno. Ac ym plith pa6b or rei henny ef a erchys dyvynu Merdyn Emrys ir lle. Ac 6edy dyuot Merdyn a seuyll rac y vron. ef a erchys ida6 danlle6ychu pa beth a ar6ydokaey e seren rady6ededic v6chot.[457] Ac en e lle 6yla6 aoruc Merdyn. a gal6 y esbryt atta6 a dy6ed6yt val hyn. O kollet heb 6aret. O emdiva6t bobyl brydein. O agheu e bonedicaf vrenhin. kanys difodedic y6 er ardercha6c vrenhin e brytanyeid Emrys Wledic. Ac yn i agheu ef et aballem ni en holla6l pey na rodey du6 ini kanh6rth6y. Ac 6rth henny bryssia di Uthyr. bryssia ac na ohir g6neuthur br6ydyr ath elynyon. kanys e vudygolyaeth a vyd yth la6. Ti a vydi vrenhin ar holl enys Prydein. Ti a ar6ydokaa e seren ar tana6l dreic adan e seren. E paladyr a estyn parth a Freinc h6nn a ar6ydokaa mab kyfoetha6c a vyd itti. a chyfoeth h6n6 ae vedyant a amdifyn. e teyrnassoed a vydant adana6 en ho la6l. E paladyr arall a estyn parth a mor I6erdon a ar6ydokaa merch a vyd itti. a meibyon honno ae h6yrion a fydey udunt pob eilwers teyrnas Brydein.[458] Ac val yt oed Uthyr yn pedrussa6 ae gwir ae kel6yd a dy6edassey Merdyn. am e seren. megys y dechreuassey kyrchu parth ae elynyon aoruc. Ac 6edy i dyvot hyt ker lla6 Myny6 ac nat oed namyn ymdeith hanner dyd errygthynt.[459] A g6ybot o Basken a Gillam6ri ar Saesson eu bot en dyuot h6ynteu a aethant en eu herbyn h6ynt. Ac g6edy eu dyuot hyt pan ym6elsant o pob tu. h6ynt agossodassant eu bedynoed ac adechreuassant emlad. Ac h6ynt yn e wed honno en emlad e marchogyon o bob parth o las megys e derveyd en er ry6 dam6ein h6n6. Ac or diwed g6edy treulia6 lla6er or dyd gorvot aoruc Uthyr. Ac g6edy llad Pasken a Gillam6ri e vudygolyaeth a gavas Uthyr. A dechreu ffo agwnaethant e gelynyon at eu llogeu. Ac yn e ffo h6n6. e lledyt h6ynt ygan y ky6da6twyr en eu hymlit. Ar vudygolyaeth a dyg6yd6ys en lla6 e te6yssa6c a christ yn

y kanhórthóy.[460] Ac góedy e veint lavur hónnó. megys y gallaód gyntaf ef a aeth parth a chaer Wynt. kanys kennadeu a dothoedynt attaó a menegi idaó dygóydedigaeth e brenhin ar rydarvot yr archescob ac yr escyb ac i abadeu e teyrnas i gladu ger llaó manachloc ambri yn mynóent kor y kewri. er hon a parassei ef i góneuthur hyt tra etoed en vyó. kanys pan glywsant i varólaeth ef et ymgynnullasant er escyb ar abadeu ar escoleigyon ar holl deyrnas. megys y dylent órth aróyliant gór kymeynt kyvórd a hónnó. kanys hyt tra etoed en y vyóyt e gorchymynassei enteu i gladu en e lle hono. Ac órth hynny ygyt a brenhiniaól aróyliant eno eu kladassant.[461]

Ac góedy henny en et oedynt galódedigyon er escoleigyon. ar lleigyon. ar bobyl ygyt. Uthyr braót e brenhin a kymyrth coron teyrnas enys Prydein. Ac o gyt annoc paób en gyfredyn ef a urdóyt en vrenhin. Ac odyna kofau aoruc e dehongyl agónaethoed Merdyn or racdyóededic seren uchot. ef a erchys góneuthur llun dóy dreic o eur ar kynhebygróyd er hon a emdangossasei ygyt ar seren. Ac góedy góneuthur er rei henny o anryued kywreinróyd. ef a ofryma6d eneill onadynt eg er eglóys penhaf yg kaer Wynt. ar llall a attelys kantha6 órth i aróein en y vlaen en llc aróyd pan elhey i vróydyr ac i kat ac i emlad. Ac or amser hónnó allan egelóyt ef Uthyr Pendragon. Ac órth henny e kauas ef er enó hónó órth i darogan ef o Verdyn tróy e dreic i vot en vrenhin.[462]

Ac en er amser hóunó Octa vap Heyngyst ac Offa y keuynderó enteu góedy góelet onadynt eu bot en ellygedyc or arvoll a rodessynt i Emrys Wledic. medylya6 agónaethant ryvelu en erbyn e brenhin. Ac amlhau eu teruyneu ehuneyn. kanys e Saesson ar a vuessynt ygyt a Pasken vap Gortheyrn. a gymeressynt attadunt. ac eu kennadeu a ellyghessynt hyt en Germania en ol ereill.[463] Ac óedy emgynnulla6. kynnulleidva vaór ygyt onadynt. dechreu agónaethant aureithya6 gogled góladoed er enys. ac emrodi i creulonder en gymeint a distryó e keyryd ar kestyll ar lleoed kadarn or Alban hyt eg kaer Efraóc.[464] Ac or diód góedy dechreu onadynt emlad a chaer Efraóc ac eiste órthi. Uthyr pendragon ygyt a hol kedernyt a dewred e deyrnas a deuth. ac en diannot emlad ac óynt. Ac essef a góaethant e Saesson eissioes en óraól gwrthóynebu ir brytanyeit. ac eu kymhell ar ffo. Ac góedy kaffel e vudygoliaeth onadynt hóynt ae herlidassant e Brytanyeit hyt ym mynyd Damen. kan eu llad hyt tra kynhelys er heul e dyd. Ac esef ansa6d oed ar e mynyd hónó vóchel oed ac yni ben en iaón et oed kelli. a cherryc dyffóys en y kylch. a lle adas i presóylva bóystviled. Ar mynyd hónó a gymerasant e Brytanyeit ae kynhyaliasant en amdifyn udynt tróy e nos.[465] Ac góedy goruot or nos ar edyd Uthyr Pendragon a dyvynnóys attaó i dyósogyon ae ieirll ac varónyeit hyt pan vey tróy eu kyghor óynt e treythynt py óed e górthóynebynt i eu gelynyon. Ac yn gyflym paób a deuthynt órth dyvyn e brenhin rac deu lyn i kyndrycholder. Ac góedy eu dyuot ygyt hóynt ef a erchys udynt rodi eu kyghor. Ac yn kyntaf et erchyt i Górleis tyósaóc Kernyó dyóedyt i gyghor ef ae synóyr. kans gór doeth adfet oed hónó. a maór i gyghor. Ac ar henny Górleis a dywaót val hyn. ny reit eb ef amgylchion nac amadrodyon goróac eghylch hyn. namyn hyt tra barhao e nos e mae iaón inni arueru ogleóder a chadernyt a deóred. o mynhón ninheu arueru o rydyt a vo hóy ac on buched. kanys maór yó amlder e paganyeit a chóannaóc i emlad. a lley yó en niuer ninheu. ac os e dyd a arhoón ni barnafi bot en gryno yny ymgyvaruot ac hóynt. Ac órth hynny. hyt tra barhao tyóyllóc e nos disgynón. ac en disyvyt kyrchón am eu pen en eu pebyllyaeu en diaróybot. kanys ni thebygant hóy en dyvot ni. ac evelly en dirybud diarvot e kafón ni budugolyaeth arnadunt os oun vryt ed arverón ninheu o gleóder a henny heb pedrus.[466] Ar kyghor hónnó a vu da kan baób. ac ufydhau a orugant oy dyskedigaetheu ef. Ac en diannot kyóeiriaó eu bydynoed ac en wiskedic oc eu harueu kyrchu lluesteu eu gelynyon. ac en dihefyt ac o un vryt eu kyrchu. Ac góedy y dyvot hyt en agos yr lluesteu e gwilwyr a óybuant eu bot en dyvot. ac o sein eu kyrn e dyhunasant eu kytemdeithyon kysgyadur. Ac órth henny en kynhyrfedic dehnnaó agównaethant a rey onadynt. kan vrys a óiskynt eu harveu. ereill en achubedic o ofyn a ffoynt en e lle y haróedey eu tyghetven hóynt. Ar brytanyeit oagen kan deóhau eu bydynoed en gyflym ac en óychyr e kyrchynt lluesteu a phebylleu eu gelynyon. ac ygyt a noethyon cledyfau en ruthraó e gelynyon. Ar rey henny góedy eu damkylchynu en disyvytnyt oed grynno e telynt emlad. kanys er rey ereill gleóder ygyt a chyghor oed ganthynt. Ac órth henny e Brytanyeit en óychyr e kerdynt ygyt ac eu llad e paganyeit hyt ar

vilyoed. Ac or di6ed e delyt Octa ac Offa ar Saeson en holla6l a waskarasant heb emkanlyn neb ae gilyd.[467]

Ac g6edy e budygolaeth hono ed aeth e brenhin hyt eg kaer Alclut. a llunyaethu e teyrnas hono aoruc. ac atne6ydu y thagnheved. Ac odyna kylchynu holl g6ladoed Escotlont. ac est6g er vrpwith pobyl hono aoruc 6rth y gyghor. A chymeint o ia6nder a g6irioned aoruc ef tr6y e g6ladoed ac na g6naethoed nep kyn noc ef e kymeint. Ac 6rth henny en i dyefoed ef e bydey ofyn ar ba6b oc g6nelynt na dr6c na cham. kanys heb trugared e poenyt.[468] Ac or diwed 6edy hedychu a thagnhevedu holl deyrnasoed e gogled. odyna et aeth hyt en Llundein. ac eno et erchys ef karcharu Octa ac Offa ac eu g6archad6 en graff amgeledus. Ac odyna val et oed g6ylva e Pasc en dyvot. ef a orchymyn6s i wyrda e deyrnas emkynnalla6 hyt egkaer Lundein. kanys yno e mynney ef g6iska6 coron e deyrnas. a chan enryded ac adurn g6neythyr g6ylua e Pasc en vrenhina6l. Ac vfydhau a wnaethant pa6b ida6. Ac o pop amryuailion kaeroed a chestyll a dinassoed a g6ladoed emkynnulla6 ag6naethant en erbyn y dyd kyfnodedic h6n6. Ac 6rth henny e brenhin a anryded6s yr 6ylua honno en vrenhina6l megys e darparassey. Ac a ymrodes i le6enyd ygyt ae wyrda. A lla6enyd a g6naey pa6b kanys lla6en oed e brenhin en arvoll pa6b onadynt 6ynteu.[469] Ac yno e doethoedynt e sa6l vonedigyon a dyledogyon. ygyt ac eu g6raged ac eu merchet. megys yt oedynt teil6g o anryded kymeint a henny. Ac eno em plith er rei henny e dothoed G6rleis tywyssa6c Kerny6 ac Eigyr y wreic ygyt ac ef. A ffryt honno ae theg6ch a orchfygey holl wraged enys Prydein kany cheffit vn kyn deket a hi.[470] Ac g6edy g6elet or brenhin honno em plith e g6raged ereill. a syllu arney aoruc ac ymlen6i oe serch en kymeint ac nat oed dim kantha6 ef nep namyn hi ehunan. ae holl ved6l ae holl enni en i cheilch hi e treygley ef henny. Ac i honno ehunan ed anvonyt er anregyon ar g6irodeu ar annerchion heb orffo6ys heb kyh6ng. Ac en vynych amneidia6 a ch6erthin a geirieu digryf ch6areus.[471] Ac g6edy g6elet or g6r henny en e lle llidia6 a g6naeth. A heb kanhiad en kyfroedic ada6 e llys en dianot. Ac ny bu en e llys nep or a allei i 6aha6d. kanys ofyn oed kantha6 ef golli e peth a garei ef en v6y no dim. Ac 6rth henny llidia6 a barhau aoruc e brenhin 6rtha6. ac erchi ida6 ymch6elu yr llys i g6neuthur ia6n yr brenhin or sarhaet a g6naethoed am ada6 y llys en anghyfreithia6l en her6yd i barney kyfreith y llys yda6. Ac g6edy nat ufydhaey G6rleis yr gorchymyn h6nn6. llidia6 en va6r a oruc e brenhin. ac yn i lit ae gyffra6 tyghu et anreythyey i gyuoeth en holla6l ony deley i g6neuthur ia6n ida6.[472] Ac hep un gohyr ar racdy6ededic yrlloned honno en parhau errythynt. kynnulla6 llu aoruc e brenhin a mynet tu a Cherny6. a dechreu lloski e dinassoed ar keyryd ar trevyd. Ac ny lauassa6d G6rleis emgyuaruot nac emkyferbynnyeit ac ef. kanys lley oed eiryf i wyr arva6c noc ef. Ac 6rth henny de6issach vu gantha6 kadarnhau i gestyll hyt pan gaffey enteu porth o Y6erdon. A chanys m6y oed y oval ae pryder am i wreic noc amdana6 ehunan. Ac 6rth henny ef ae dodes hi eg kastell Dindagol. er h6n a oed ossodedic em me6n e mor. a h6nn6 oed diogelhaf a chadarnhaf amdifyn ar y hel6 enteu. Ac enteu ehun a aeth eg kastell Dymlyot. rac o dam6ein eu kafel ell deu ygyt.[473] Ac 6edy mynegi henny yr brenhin kyrchu aoruc enteu e kastell et oed G6rleis enda6. ac eiste en i gylch. a g6archae pob ford or e gellyt dyuot allan o hona6. Ac odyna g6edy llithra6 espeit 6ythnos heybia6 kofau a g6naeth e brenhin karyat Eigyr ac gal6 atta6 Wlffyn or ryt karada6c. kytemdeith neylltuedic a chydvarcha6c ida6. a mynegi 6rtha6 val hyn. En lloski eb ef 6yfi o karyat Eigyr en gymeint ac nat pedrus genhyf na allaf gochel perygyl vengorf ony chafaf e wreic 6rth vyg kyghor. Ac 6rth hynny et archaf inheu i ti gyghor or h6n e gall6yf inheu eylen6i vy e6yllys inheu rac dam6eyn o tra gofeilieint vy aballu.[474] Ac ar henny e dy6a6t Wlffyn. Argl6yd eb ef p6y a alley rody kyghor iti kanyt oes nep kyvry6 grym nac ansa6d ni mynet enghyvyl kastell Tindagol. kanys en e mor e mae gossodedic. ac en gayedic en i kylch or mor. ac nat oes un ford e gallet mynet ida6. namyn un karrec kyvyng. a honno tri marcha6c arva6c a ellynt i chad6 ket delhey holl deyrnas Prydein ygyt a thi. Ac eissioes pey Merdyn vard a g6neley i allu en graf enghylch hynny mi a debyg6n tr6y i gyghor ef e gellut titheu arveru oth damunet ac oth ewyllys.[475] A chredu aoruc e brenhin i henny a dyvynu Merdyn atta6. kanys en e llu et oed. ac g6edy dyvot Merdyn rac bron e brenhin. ef a erchys ida6 rody kyghor ida6 tr6y yr h6n e galley e brenhin kaffael Eigyr 6rth i gyghor.[476]

Ac g6edy g6ybot o hona6 meynt e gofeilyeint ar pryder oed ar e brenhin amdeni. dolurya6 aoruc enteu rac e veint gariat oed gan e brenhin arney. a dywed6yt val hyn. O mynni di gafael dy ewyllys 6rth dy gyghor reit y6 arveru o keluydodeu ne6yd ar ny chly6yt eirioet yth oes di. kanys mi 6n om medyginiaetheu i rodi i ti drech ac ansa6d G6rleis. hyt na bo neb a 6ypo nac a adnapo na bo di vo G6rleis. Ac 6rth henny o mynni ditheu vfydhau i henny minheu ath g6naf di en e drech ar g6ed e mae G6rleis. Ac Wlffyn en ryth I6rdan o Tindagol. a minheu en drydyd ygyt a ch6i a gymeraf e trydyd fyg6r. Ac evelly en diogel e gelly mynet yr kastell e mae Eigyr enda6.[477] Ac ufydhau a oruc e brenhin oy holl dyhe6yt. ac or di6ed gorchymyn e llu aoruc oy teylu. ac emrodi i medeginyaetheu Merdyn. a symuda6 ag6naeth en ryth G6rleis megys e dy6edassei Merdyn. ac Wlffyn en ryth I6rdan. a Merdyn en ryth Brythvael. megys nat oed nep or holl niver ae hadnapey megys e buassynt gynt.[478] Ac odyna kymryt eu fford a orugant parth a chastell Tyndagol en e lle et oed Eigyr. A ffan oed gyvly6 gwr a ll6yn e deuthant. Ac g6edy menegi yr portha6r. bot er iarll en dyuot en e lle egori e pyrth aoruc. ac i me6n edeuthant. kanys pa beth arall a debygey nep pan g6elynt G6rleis ehun en i ffuryf en dyuot. Ac ena e nos hono e trig6ys e brenhin ygyt ac Eigyr ac eylen6i o damunedic serch ygyt a hi aoruc. kanys e drech ar ffuryf a gymerassey. oed en ty6ylla6 Eigyr. Ac ygyt a henny hevyt er amadrodyon dychymygedic t6yllodrus oed en i thywylla6. kanys ef a dy6edey i dyuot en lledrat or kastell et oed et oed enda6 i syllu pa 6ed oed ar e kastell ac ar e nep a garey enteu. en v6y nor holl vyt. oed en e kastell. Ac 6rth heny e kredey hitheu bot en wir pop peth megys e dy6edey enteu. ac ni lludyey ida6 g6neuthyr dym or a vynney. Ar nos hono e kafat er anrydedusa6 Arthur. er h6n g6edy heny a dangosassant i anryued g6eithredoed i vot en volyannus ardercha6c ef.[479] Ac odyna eissioes g6edy g6ybot eissieu e brenhin emplith e llu. en agkyghorus mynet pen tra phen a g6naethant. ac emrodi i geissia6 dystri6 e gaer ar kastell. a chymhell er iarll i rodi kat ar vaes udynt. Ac odyna er iarll en agkyghorussach a deuth ae varchogyon ygyt ac ef allan kan debygu ohona6 gallu o niuer bychan. emerbynnied a g6rth6ynebu yr sa6l varchogyon arva6c a oed en eu herbyn. Ac odyna g6edy dechreu ymlad o pop parth en e lle emplith er hey kyntaf e llas G6rleis. ac e g6askarassant i gytemdeithion. Ac y kaffet e kastell et oedynt 6rtha6. Ar da oed enda6 en aghyfredyn er ran6yt. kanys pa6b megys er raney e tyghetuen ida6 ae kymerey.[480] Ac g6edy daruot e kyvranc ar dam6eyn h6n6. kennadeu a deuthant at Eigyr. er rey a vynagassant idi rylad er iarll. ac rykafael e kastell. Ac eissioes g6edy g6elet onadynt e brenhin en ryth G6rleis en eiste ygyt a hi. erdang a bra6 a aeth arnadynt. a ryvedu e gwr a ede6synt g6edy yr rylad en e br6ydyr. g6elet h6n6 en vy6 ac en iach oc eu blaen eno, ni g6ydynt h6y hagen e medegyniaetheu ry g6naethoed Merdyn. Ac en erbyn hagen e ch6edleu henny ch6erthin a g6naeth e brenhin. Ac ygyt ar geyriaeu hyny. dodi y d6yla6 eghylch er iarlles. a dywed6yt. Argl6ydes eb ef. nym llas i. namyn megys y g6eli di by6 6yf. dolur eissioes y6 kenyf rykaffael vygkastell a llad vyg6yr. ac 6rth henny ofyn y6 inni rac dyuot e brenhin en dyssyvet am ben e kastell h6n. ac en kaffael en deu ygyt enda6. Ac 6rth heny mi a aaf en erbyn e brenhin ac a dangnhevedaf ac ef rac dyuot dam6eyn a vo g6aeth.[481] Ac 6rth henny et aeth ac a cyrch6ys parth ae lu. Ac 6edy b6r6 drech a furyf G6rleis iarna6 et emch6ela6d en Uthyr pen Dragon. Ac g6edy menegi ida6 holl dam6eyn er emlad. dolurya6 a oruc o angeu G6rleis. Ac eissioes or parth arall lla6enoed o acha6s bot Eigyr en ryd ellygedic oe phriodas. Ac en dianot emch6el6yt aoruc parth a chastell Tyndagol. ar kastell a gavas. ac Eigr a gymyrth ac arveru o honei aoruc en her6yd i ewyllys. Ac odyna ygyt e preswylasant en r6ymedic o vfydhaf gariat. A mab a merch a fu udynt. Ac en6 y mab fu Arthur. ac en6 e verch fu Anna. A honno fu mam G6alchmei. a Medra6t. ac a fu wreic i Le6 ap Kynvarch her6yd g6irioned er hystoria.[482]

Ac odyna g6edy mynet dydieu ac amseroed heibia6. eu dirva6r glevyt e dyg6yd6s e brenhin. Ac 6edy i vot evelly tr6y la6er o amser. blina6 a g6naethant e gwyr a oedynt en kad6 e karcharorion Octa a Ossa. er rey a gofaassam ni uchot a fo ygyt ac a h6ynt hyt en Germania. Ac ofyn ac aruthred a aeth o acha6s henny tr6y er holl deyrnas. kanys e ch6edyl a gadarnaey eu bot g6edy ry kyffroi holl Germania ar ry paratoy dirva6r lynges 6rth dyvot i distry6 enys Prydein en holla6l. Ar peth h6n6 a darfu. kanys h6ynt a emch6elassant

ygyt a dirva6r lynges ac aneiryf o niuer kantynt. Ac en er Alban e deskynassant ar dinassoed ar ky6da6twyr o dan a hayarn a dechreuasant eu molestu ac eu anrheithya6.[483] Ac 6rth henny holl lu enys Prydein a orchymyn6yt i Le6 ap Kynvarch 6rth keissia6 g6rthlad a g6rth6ynebu yr gelynion. Ar Lle6 h6n6 iarll kaer Llyr oed. a marcha6c g6ychraf a de6rhaf a chlodforhaf a doethaf. ac advet oy oet. Ac o acha6s e molyanheu ar devodeu da henny eny klodfori. e brenhin a rodassey Anna i verch ida6. a llywodraeth e deyrnas hyt tra ydoed e brenhin en gor6ed eny gleuyt. Ar g6r h6n6 g6edy mynet ohona6 a dechreu ymlad ar gelynion en vynych e kiliei racdynt megys e bey reit ida6 kyrchu e dinassoed kadarn racdynt g6eithieu ereill e bydcy budiga6l enteu. ac i g6askarey g6eithieu yr koedyd ac yr mynyded ac yr keryc. g6eithieu er ymkymhelley i eu llongau en warad6ydus. Ac evelly hir pedrusder ymlad a fu er rydynt megys na alley neb g6ybot pa du onadunt e dyg6ydei e vudugolyaeth. kanys syber6yt e brytanyeit oed en eu harky6edu 6rth nat oed teil6g kanthunt bot 6rth kyghor er iarll.[484] Ac evelly e buant heb dervyn yny fu aga6s yr enys ar re6inia6. A menegu henny a wnaethb6yt i Uthyr nat ydoed yr iarll en gallu yst6ng e Saesson t6yllwyr. Ac yna pan 6ybu Uthyr henny en dieu llidia6 en v6y no mesur a oruc. a ma6r ydoed i heint. Afferi dyfynnu atta6 k6byl hyt eno oy wyrda i gymryt kyghor. ac ymli6 ac h6ynt am lesket oedunt. a r6ng llit a dig 6rth i wyr. ef a berys g6neuthur elor ida6. ac ar honno peri i d6yn ymlaen y llu er i vot en glaf. Ac ni allei o un ystym or byd onys dykit ar er elor. Ac ena y paratoyt elor ida6 erbyn e dyd tervynedic yr oed br6ydyr. Ac ena yd aethp6yt ac ef ar er elor hyt en e dinas a el6yt Verolan. Ac eno yd oedynt y Saesson en llad ae en lloski.[485] Affan gigleu Octa ac Ossa bot e brenhin velly ch6erthin g6at6ar a orugant am dana6 ai gell6eiria6 o eiriau difrodus. ai al6 en hanner mar6. A mynet a aoruc e Saesson ir dinas h6n6 i me6n. ac o dremyc balchder a difra6t ar Uthyr. ae lu. ada6 pyrth e dinas yn agoret.[486] Affan gigleu Uthyr henny erchi aoruc enteu mynet i me6n yn eu hol h6ynt. a damgylchynu e dinas en distry6gar. a g6neuthur aerua va6r o pob parth. ac ni ffeidiassant. oni 6ahana6d e nos 6ynt. A thrannoeth pan emdangosses e dyd dyvot aoruc y Saeson allan or gaer a chymhell br6ydyr en erbyn e brytanyeit ymhell or dyd. ac eissoes en e di6ed llad Octa ac Ossa a chymhell eu g6edillion ar ffo yn 6rad6ydus.[487] Ac emogonniannu a oruc e brenhin. ac ymdroi ehun ar yr elor. ac ni allai gynt namyn val e troit. ac ef a godes yn i eiste o ly6enyd a doedyt dr6y ch6erthin yr ymadra6d h6n 6rth i 6yr. Y bratwyr t6yllwyr eb ef am gal6assant i en hanner mar6. ys g6ell yr hanner mar6 a orffo nor by6 c6byl e gorfer arno. ac os g6yrva6rockach mar6 en glotva6r no buchedokau en gy6ilydus anghlodfa6r gan 6ard6yd.[488] Ac 6edy gorvot ena ar e Saeson a chael e vudygolyaeth or Brytanyeit ni ffeidiassant 6y ac eu t6yll. namyn mynet odyna hyt er Alban i ryvelu val kynt. Ac e mynassey Uthyr eu hymlit val e dechreuassei. ac ni ad6s i gyghor ida6. rac trymet er heint arna6 ai wanet am i d6yn ar er elor velly.[489] Ac am henny gle6ach vu e Saeson. a m6y e llavurynt i 6neuthur t6yll a brat ac ystry6 dr6g. A medylia6 a orugant pa ford e gellynt g6neuthur agheu Uthyr o bop ystry6. Ac anvon rey onadunt en rith reidussion i dyvot a ch6edleu i 6rth e brenhin. Sef y doyth y rai henny. a menegi nat yvei e brenhin d6fyr or byt namyn d6fyr o ffynnon loy6 a oed yn aga6s i dinas Verolan.[490] Sef a orugant 6ynteu dyuot ac anveidred o wen6yn hyt na cherdey dim or d6fyr or ffynnon yn diwen6yn. Affan rodet e d6fyr or ffynnon honno yr brenhin y bu far6 en diannot. a llawer heuyt ygyt ac ef ae llewes a vuant veir6 o annian e g6en6yn. Affan 6ybu y Brytanyeit yna g6neuthur cruc ma6r ar warthaf y ffynnon. rac g6en6yna6 m6y o dynion.[491] Ac g6edy henny emgynnulla6 a oruc k6byl or holl wyrda enys Prydein. ae hescyb ac archescyb. a mynet ar korf oi gladu i vanachloc Ambri ger lla6 Emrys i vra6t y klad6yt Uthyr bendragon en vrenhina6l.[492]

Ac g6edy mar6 Uthyr ai wen6yna6 or Saeson yd amgynnullassant holl wyrda enys Prydein ae hescyb ac archescyb. ae habadeu hyt eg kaer Vudai. Ac yna o dyhun gyghor k6byl or niver h6nn6 e perit i Dyvric archescob kyssegru Arthur en vrenhin. a dodi coron ami ben. kanys eu hangen oed en eu kymhell. Affan gigleu y Saeson mar6 Uthyr y danvonassant 6ynteu keniadeu i Germania i erchi anvon porth attadunt. Ac yna y danvonet llyghes va6r. a Cholkrin yn dewysa6c arnadunt. Ac daroed udunt yna goreskyn o Hymyr hyt ym penryn Bladon. sef oed traian enys Prydein.[493] Ac nyt oed Arthur yna namyn pymthegml6yd. ac nyt oed

yna hyt y kly6yt or byt. na hen nac ieuanc un devodeu nac un gampeu ac Arthur. kanys hael oed a doeth. a digrit a de6r. a ffrud pan vei amser. a lla6en a chell6eirus pan vaey amser arall. Ac ar vyrder ni wnaeth Du6 or pan vu Ada un dyn g6blach noc Arthur. A henny a rodassey Du6 yn anedic da6n gantha6.[494] Ac o henny allan emdyrchavael aoruc Arthur ympop peth. kanys or a dy6etp6yt uchot oni ytoed yn dyuot atta6 o varchogy6n val nat oed ha6d ida6 gaffel o da a rodai udunt. Ac er henny p6ybynac a vo enda6 daeoni aniana6l nyt ad Du6 arna6 6astat anghanoctyt. ac am henny sef a oruc Arthur yna. kanys daeoni aniana6l a oed enda6. en dianot kynnulla6 llu a mynet i gaer Evra6c.[495] A phan gigleu Golkrin henny emkynnulla6 aoruc e Saeson a Fichtyeyt gyt ac 6ynteu. a dyuot en erbyn Arthur hyt lan Dulas. Ac yn yr emlad h6n6 e peryglo6s anveidred o pop parth. Ac or di6ed Arthur a orfu. a gyru Kolkrin. ac a dyengys oi lu ar fo hyt egkaer Evra6c. ae warchau en e dinas a oruc Arthur.[496] Affan gigle Baldólph. bra6t oed y Golkrin. hynny. dr6c vu ganta6 bot y vra6t egkarchar. Ac en diannot y dyvu eno a ch6emil o wyr arva6c gantha6. kanys ar lan e mor edoed e Baldólff h6n6. pan yr6s Arthur Colkrin ar ffo. Ac en ara6s Cheldric. d6yssa6c ydoed Baldólph ar lan e mor. a phorth o Germania ganta6. Ac g6edy dyuot Baldólph hyt ar dec milltir y 6rth gaer Evra6c medylia6 a oruc d6yn nosa6l kyrch am pen Arthur ae lu.[497] Ac Arthur a 6ybu henny. sef a oruc Arthur yna anvon Kad6r dy6ysa6c Kerny6 a ch6echant marcha6c gantha6. ac a their mil o pedit ygyt ac ef. a mynet yn eu herbyn. ac eu ragot e nos hono e ford e delynt.[498] Ac g6edy kaffael o Gad6r e fford e deuynt e gelynyon eu kyrchu en disyvyt a oruc. Ac g6edy bri6a6 ac essiga6 eu bydinoed ac eu llad lla6er onadynt. kymhell e Saeson a oruc ar ffo. Ac 6rth henny dirva6r tristyd a goval a gymyrth Baldólff enda6. 6rth na allo6s g6neuthur kanh6rth6y na nerth oi vra6t. a medylya6 a oruc pa 6ed e galley enteu kaffael emdidan ae vra6t. kanys ef a debygey e galley kaffel holl 6aret i pob un o nadunt pey ymkeffynt i ymdidan igyt ell deu. Ac g6edy na chaffey ford arall en e byt eilliá6 a oruc y ben ae varyf. a chymryt telyn en i la6. ac en rith kroesan ac ar6estdyn. ac g6areyt dyvot emplith e llu ar lluesteu. ar klymeu a ganey ar edelyn a dangosynt i vot en telynia6r. Ac or di6ed g6edy na thebygei neb i vot en d6yllwr nesau a oruc parth a muroed e gaer.[499] Ac g6edy i adnabot or g6yr o ve6n i dynu a orugant 6rth raffeu attadunt i me6n. Ac g6edy g6elet ohona6 i vra6t emkaru a orugant megys na ryym6elsynt tr6y la6er o espeit kyn no henny. Ac val ydoedynt velly yn medylya6. ac en keisa6 ystry6 pa 6ed e gellynt emrydhau odyno. Ac val edoedynt en diobeithia6 o henny enachaf eu kennadeu en ymch6elyt o germania a Cheldric en dy6ysa6c arnadunt. a ch6echant llong kauthunt en lla6n o varchogyon arva6c. ac en dyskynu en yr Alban.[500] Ac g6edy klybot henny annoc a g6naethant i gyghorwyr i Arthur ada6 e dinas rac dyvot esa6l niveroed henny am eu pen. a bot en pedrus ac ar dam6eyn udunt rodi kat ar vaes udunt. Ac 6rth henny vfydhau a oruc Arthur oe kyghorwyr. Ac odyna ed aeth hyt en Llundein. ac eno gal6 aoruc atta6 holl 6yrda e deyrnas o esgolheigion a lleygion. ac erchi udunt rodi kyghor goreu a iachaf or a 6ypynt neu a ellynt en erbyn e paganieit. Ac o gyt dyundep a chyt gyghor pa6b ygyt kenadeu a ellyngassant hyt ar Hy6el vap Emyr Llyda6 brenhin Prydein vechan. i venegi ida6 enteu er ormes ar trueni ar ryuel oed gan y paganyeit ar enys Prydein. kanys ney vap ch6aer i Arthur oed e g6r h6nn6.[501] Ac g6edy klybot o Howel er ryuel ar avlonyd6ch a oed ar i e6ythyr. erchi a oruc paratoi llynges. a chynnulla6 pymthec mil o varchogyon arva6c. ac ar e g6ynt kyntaf a gavas e deuth i Borth Ham6nt i dir enys Prydein. Ac odyna Arthur ae harvolles or anryded e g6edey ar6oll g6r kyfórd a h6nn6. ac en vynych damplygu ac ymgaru pob eil6ers.[502] Ac odyna g6edy llithra6 echedic o dydieu 6ynt a kyrchassant kaer Lóytkoet. lle er oed e paganyeit yn ymlad a hi. E gaer honno hagen a oed gosodedic en e 6lat a el6it Lyndysey ar pen mynyd er r6g d6y avon. ar dinas honno ar a6rhon a el6ir Lincoll. Ac g6edy eu dyvot eno igyt ac eu holl niueroed ymlad a orugant ar Saeson. Ac anghly6edic aerva a g6uaethant onadunt. kanys ch6e mil onadunt a dyg6ydasant e dyd h6n6 rey oc eu llad. rey oc eu bodi en er avonoed a gollasant eu heneidieu ac eu buched. Ac 6rth henny er rey ereyll en gyfla6n o ofyn ada6 e dinas a orugant. a chymryt eu ffo en lle diogel6ch udunt. Ac eisoes er rey henny ni orf6ysa6d Arthur oc eu hymlit hyt pan deuthant hyt en ll6yn Kelydon.[503] Ac eno ymkynnulla6 o pop lle a g6naethant oc eu fo. A medylya6 odyno g6rth6ynebu i Arthur. Ac

Tristau en vaór aoruc Lles amheraedyr ena am vethu idaó dechreu i emlad. Ac emgyghor aoruc ef ai wyrda pa peth awnei. ai mynet i Ruvein drachevyn. ai anvon en ol porth odyno ygan Leo amheraódyr. sef e kaósant eu eu kyghor mynet e nos honno hyt en Aóvern. Ac en e lle a elóir Leugrys e bu ef ai lu e nos hono.[572] A ffan gycleu Arthur henny mynet aoruc enteu ef ac lu i dyfryn e deuynt hóy idaó. Ac eu haros eno dranoeth. A henó e lle hónó Glyn Suegia. neu Senan. A gossot i varchogion aoruc Arthur ar neilltu. a Morud deóyssaóc kaer Loeó en eu blaen. A ranu i lu e am heny en seith. neu óyth bydin. Ac em pop bydin et oed pym mil a ffym kant a dengóyr a deugeint a ffym wyr echóanec. A heny en gyóair o arveu. A henny o wyr provedic en emladeu.[573] Ac óedi eu paratoi en gymhedraól eu paryat dróy dysc arveru emlad eu dyscu a ónaethpóyt i gyrchu ac i araós eni orfynt ar eu gelynion. Ac em blaen un or bydinoed e rodet Araón vrenin Escotlont. A Chadór iarll Kernyó un onadunt ar deheu ac arall ar assó. Ac em blaen arall onadunt e rodet Boso o Rytychen. A Gereint Carnóys. Ac em blaen e dryded er rodet Achel vrenin Denmark. A Llew vab Kynvarch brenin Llychlyn. Ac em blaen e betóared er rodet Hyvel ap Emyr Llydaó a Góalchmei nei Arthur. Ac en ol er rei heny e gossodet pedeir ereill. Ac em blaen un onadunt e gossodet Kei pen sóydwr. a Betóyr i ben trulliat. Ac em blaen er eil vydin er rodet Holdinus dyóyssaóc Ruteu a Góittard dyóyssaóc Peittóf. Ar dryded e gossodet Ewein o Gaer Lleon. a Góynóas o Gaer Wynt. neu gaer Keint. Ac e betwared a rodet i Urien o Gaer Vadon a Górsalem o Dorcestyr. Ac ar ol heny et oed Arthur ehun e lleng o wyr ganthaó. A gossot a peris e dreic eureit oi vlaen. kanys hono oed aróyd gan Arthur o dóyn e gwyr a vei vrathedic hyt attei, Sef yó rivedi lleng chóech a thriugeint a chóe chant a chóe mil.

Ac ena e dywaót Arthur val hyn. Awyrda eb ef. vyghyt varchogion i yóch chói a chóichói wyrda aoruc enys Prydein en ben ac en argióydes ar dec teyrnas ar ugeint. a ffei na bei chóichói ni bydei óch hi na theyrnas arall. Ac onyt tróy aóch nerth chwi ettóa nyt oes imi orvot ar wyr Ruvein. A thróy nerth Duó ar einóch chóitheu ni a orfenwn dial ar wyr Ruvein eu traha ac eu geirieu divanóedic en an kyveir en keissiaw dóyn an rydit ygenym. A gedóch chóitheu dros gof e seguryt a gaósaóch ar emdydan a góraged. ac ar góare er wydbóyll. ar set. ar dapplys. Koffewch bellach aóch gleóder ac aóch milóriaeth aóch clot. A bydóch duhun diósogo pan del gwyr Ruvein yr glyn attaóch. a lledóch hóynt val e lladeuch esgribyl. Ac ni thebygant hóy llevasu o

honam ni rodi kat ar vaes udunt. Ac o gỏneỏch chỏi er enryded a eidunoch ỏrth aỏch bod or galln ar mediant a vo imi. Ac a oreskynoch oc eu tir ac eu kestyll ac eu heur ac eu hariant. yỏchi oll e rennyr ỏrth cỏch bod. Ac ena e dywaỏt paỏb onadunt un duhun e gỏneint hyn a orchymynnỏs Arthur yn oreu ac e gellynt.

A phan wybu Lles ameraỏdyr vot Arthur ai lu evelly ni oruc enteu ena namyn pregethu oy wyr. ac eu dyscu. a menegi udunt e dylyci Ruvein estỏng idi or dỏyrein hyt e gorlleỏin. A chofeỏch chỏitheu emae aỏch tadeu ac aỏcb hen dadeu. ac aỏch rieni a gynheliis Ruvein en benaf oc eu duhundep ac eu milỏriaeth ac eu gleỏder. A chofewỏh chỏitheu hediỏ aỏch hanvot or gwyr da henny. Ac na ochelỏch hediỏ aỏch agheu er kynnal Ruvein mỏy noc e gochelasant hỏynteu. kanys teyrngetoed a doethant i Ruvein o bob gỏlat. aỏch rieni chỏi a gavas eu mynu onadunt. A chỏitheu a gefỏch oc aoresgynnoch gyt a minheu er hyn gorcu a gavas aỏch rieni. Ac am hynny wyrda nit yr ffo edodym ni ema namyn yr emlad en duhun en erbyn an gelynion. Ac am henny wyrda kybỏynt gleỏ hỏyntỏ ar er uthyr kyntaf sefỏch chỏitheu en duhun gadarn. Ar nep a savo en da ar dechreu kyvrang. gnaỏt vyd idaỏ i orfen en vudygaỏl.

Affan darvu yr ameraỏdyr i emadraỏd gỏiscaỏ en diannot a oruc gwyr Ruvein kỏbyl oc eu harveu a dyvot yr glyn et oed Arthur. A chyn eu dyvot yr glyn bedinaỏ a orugant en deudeng mydin. ac em pob bydin o varchogion et oed rivedi lleng. Ac em blaen pob bydin onadunt e rodet deu deỏyssaỏc i eu ryoli. Em blaen e gyntaf onadunt e rodet Cadell Vleid ac Aliffatima brenin er Espaen. Ac em blaen er ail onadunt Irtaceius brenin Parthia. a Marysgyvarnaỏc senedỏr o Ruvein. Ac em blaen e dryded Boccus brenin Midif. a Gaiỏs gwr o sened Ruvein. Ac em blaen e betỏared e gossodet Serrex vrenin Libia a Chỏyntus Miluinus senedỏr o Ruvein. ar pedeir hyny a aeth en e blaen. En ol er rey heny e rodet pedeir ereill. Ac em blaen un onadunt e rodet Seret vrenin Sturrua. Ac em blaen er eil Pandrassỏs brenin er Eifft. Ac em blaen e dryded Politetes vrenhin Frigia. Ac em blaen e bedỏered Denotus teỏysaỏc Bithinio. Ac en ol er rei heny er rodet pedeir ereill. Em blaen un onadunt e rodet e pymhet senedỏr o Ruvein. Em blaen er eil onadunt e rodet Lellius deỏysaỏc o Ruvein. Em blaen e dryded e rodet Supplicus. Em blaen e bedỏared e rodet Meuric or Koet. A Lles ameraỏdyr ehun en eu dyscu em pob man or e gỏelei wall. Ac em perved henny e peris gossot delỏ eryr o eur en arỏyd emlad. ac en lle ystondart. Ar nep a vei arnaỏ ai govut ai perigyl o wyr Ruvein oll eno e dygit em breint nodet ac amdifyn.

Pan vuant baraỏt o bob tu emgyrchu aorugant. Ac en gyntaf e kyvarvu e vydin et oed vrenhin er Espaen en i llywiaỏ. ar vydin et oed Araỏn vab Kynvarch vrenin er Alban eni llywiaỏ. a Chadỏr iarll Kernyỏ gyt ac ef. Ac ni bu haỏd gan nep onadunt wasgaru er un i ỏrth i gilyd. Ac val e bydynt velly enychaf Gereint Carnỏys ae vydin en dyvot. a Boso o Ryd Ychen. Ac en diannot eu tyllu. Ac o heny allan ni allỏyt un ryol arnadunt namyn emffust en greulaỏn eni glyỏyt eu sẹin en edrinaỏ en er awyr. ac en i glyỏyt e daiar en krynu gan dỏrỏf sodleu e milwyr en dilỏyn eneit. Ac ena i bu aerva vaỏr o pop parth val e bydei ryvlin i datkanu ai gytrif. Ac en gyntaf e kollet Betỏyr ben trulliat. a Chei ben sỏydỏr a vrathỏyt en agheuaỏl pan gyvarvu Boccỏs brenin Midif a Betỏyr hỏnỏ a vrathaỏd Betỏyr a gỏaeỏ eni syrthiỏs Betỏyr en varỏ yr llaỏr. Ac en keissiaỏ dỏyn Betỏyr odyno e brathỏyt Kei en agheuaỏl. Ac er heny Kei ai vydin a duc korf Betỏyr. en i gyvarvu ac hỏynt bydin brenin Libia. A hono a wasgarỏys er rei eidaỏ ef en hollaỏl. Ac enteu eissoes ygyt ac echydic a chorf Betỏyr ganthaỏ a foes hyt adan e dragon eureit. Ac ena pa veint o gỏunvan oed gan wyr Normandi pan ỏelsant korf eu tyỏyssaỏc en vriỏedic or saỏl ỏelioed heny. pa veint o gỏynvan a gỏneint wyr Angyỏ ta yteidunt en ymodi gỏelieu Kei eu teỏyssaỏc. Ac nit oed reit kỏyvan ena kanys ni edynt e gỏaetlyt vydinoed en emgyrchu o bob parth espeit i cỏynvan. namyn kymbell paỏb oy amdifyn ehun. Ac ỏrth heny Hirlas nei Bedỏyr en kyfroedic o agheu i eỏythyr a gymyrth ygyt ac ef tri chanwr or rei eidaỏ. A megys baed koet em plith toryf or cỏn evelly e kerdỏs ef trỏy gelyniaỏl vydinoed o dyssyvyt redec e meirch hyt e lle e gỏelei ef arỏyd brenin Midif. A hep didordep na medyliaỏ pa beth a damỏeinieu idaỏ hyt tra geissiey dial i eỏythyr. Ac or diỏed ef a gavas ford yr hyn a geissiei. Ac a ladaỏd er racdyỏededic vrenin hỏnỏ. ac gỏedi i lad. ef a duc y corf ar i kytemdeithion ehun. ar rac bron corf Bedỏyr ef ai gỏahanỏys en dryllieu oll ef.[574] Ac odyna goraỏ ar i kytemdeithion. a chan eu hannoc kyrchu eu gel-

ynyon en vynych. megys kan atne6ydu eu nerth hyt tra etoedynt er rei ereill en ofynhau ac eu kallonoed en krynu. Ac ygyt a heny ky6reiniach e kyrchynt e Brytanieit oi dysc enteu. A chreulonach a mynach e g6neynt aerva. Ac 6rth henny oi annoc ef grym ac enni a kymerassant e Brytanieit a d6yn ruthyr i eu gelynion.[575] Ac o bop parth ena dirva6r aerva a orucp6yt. kanys em parth er Ruveinwyr ena ygyt ac eneirif o vilioed ereill e syrthiassant Aliphant brenin er Espaen. Mysypsa brenin Babilon. Quintus Miluius. Marias Lepidus senedwyr.[576] Ac o parth e Brytanieit e dyg6ydassant Holdyn iarll Ruthen a Leodegar iarll Bolo6yn. A thri the6yssa6c o enys Prydein. Cursalem o kaer keint. a G6alla6c vap Llyenna6c o Salesbru.[577] Ac 6rth henny e bydinoed et oedynt en eu llywia6 g6anhau a g6naethant a ffo trachevyn. hyt pan kyvarvuant a bydin Hy6el vab Emyr Llyda6 a G6alchmei. Ar vydin hono megys flam yn enynnu godeith kan gal6 er rei a ffoynt kyrchu eu gelynion. Ar rei a oedynt kynno heny en erlit er rei heny a kymhellassant trach eu kevyn ar ffo. Ac ygyt a heny eu herlit 6ynt kan eu b6r6. ac eu llad. a g6neuthur aerva onadunt heb orfo6ys hyt pan deuthant hyt ar vydin er amera6dyr.[578] Ac g6edy g6elet or amera6dyr aerva er rei eida6 bryssia6 a oruc en porth udunt. Ac ena e g6anha6t e Brytanieit en va6r kanys Kynvarch te6ysa6c Trygery a d6y vil ygyt ac ef a las ena. Ac ena e dyg6ydassant trywyr. nid amgen rykyuarch a Bolconi a Lag6yn o Bodolan. A bei bydin ty6yssogion teyrnasoed er oessoed a delhynt hyt vra6t a anrydedynt eu moliant ac eu clot. Ac eissoes hyt tra et oedynt en emlad a Hy6el ac a G6alchmei ni dyanghey p6y bynac a kyvarfei ac un onadunt heb kolli i eneit. ai a g6ae6 ai kledyf.[579] Ac g6edi dyvot megys e dywetp6yt u6chot hyt en plith bydin er amera6dyr. en damgylchynedic o eu gelynion e syrthiasant e try6yr heny. Ac 6rth heny Hy6el a G6alchmei er rei ni megessyt er oesoed kyn noc 6ynt nep well noc h6ynt pan 6elsant aerua eu kytemdeithion. en 6ychyr e kyrchasant h6nt ac yman un o pop parth en kyvredic. ac en di6allu. ac en blinia6 bydin er amera6dyr. Ac eissioes G6alchmei megys o ne6yd nerth en llosky en 6astat en keissia6 ford i emgafael a Lles amera6dyr. A megys e marcha6c gle6haf a de6rhaf en b6r6 ac en llad a kyvarfei ac ef. A Hy6el hagen or parth arall nit oed llei i angerd megys ll6chaden en annoc er rei eida6. ac en llad i elynion. ac en erbynicit eu dyrnodeu 6ynteu nit megys llesc. Ac ni bydei un a6r hep rodi dyrnodeu o hona6 ef neu enteu e kymerei ereill. Ac nit oed ha6d barnu p6y oreu ai Hywel ae G6alchmei.[580]

Ac odyna eissioes megys e dy6etp6yt v6chot G6alchmei kan lad llawer. or di6ed ef a gavas er hynt et oed en i damuna6. Ac en 6ychyr kyrchu er amhera6dyr a oruc a gossot arna6. Ac eissioes Lles megys et oed en dechreu blodeu de6red i ieuenctit ac en va6r i ryvyc ae enny enda6. nit oed g6ell dim kantha6 nac emkafel ar ry6 varcha6c h6n6. er h6n ai kymhellei i 6ybot pa beth vei i angerd ai de6red. Ac 6rth heny erbynieit dyrna6t Gwalchmei aoruc a dirva6r le6enyd a kymyrth rac meint e klot a gly6sei y 6rth Gwalchmei. Ac g6edi bot emlad en hir er rygthynt kan ne6idia6 caledion dyrnodeu ac eu herbynieit ar eu tarianeu. Affob un onadynt en llavuria6 keisia6 agheu oy gilyd. A hyt tra etoedynt en emlad en 6ychyr evelly. llyma er Ruveinwyr en 6ychyr en em6ellau ac en d6yn ruthyr i wyr Llyda6. Ac en kanh6rth6ya6 eu hamera6dyr. Ac en kymhell Hy6el a G6alchmei ar eu torvoed kan eu llad byt pan kyvarvuant ac Arthur. ai vydin.[581] Kanys pan gycleu ef er aerva et oedynt eni rodi oy wyr ef. enteu oed en dyvot ar lleng a oed ygyt ac ef. Ac en kyrchu i elynion. Ac g6edi tynnu Kaletv6lch e cledyf goreu. en u6chel e dywa6t ef val hyn en annoc i gytvarchogion. A6yrda peth a wne6ch ch6i val hyn. pa acha6s e ged6ch ch6i e g6reigolion wyr hyn i vynet en iach val hyn. Nac aet un en vy6 onadynt. nac act. Kofe6ch eu deheuoed er rei en gyfr6ys en sa6l emladeu kyn no hyn a darystyngasant dec teyrnas ar ugeint 6rth vy mediant i. Kofe6ch ech hen tadeu er rei pa oedunt kadarnach g6yr Ruvein no hedy6 ae g6naethant en tretha6l udunt. Kofe6ch ech rydit er hon e mae er hanner g6yr hyn en ch6enhychu i d6yn i arna6ch. Ac wrth heny nac aet un onadunt en vy6. nac aet. Pa beth a g6ne6ch ch6i. A chan dywed6yt er amadrodion kyrchu i elynion. ac eu b6r6. ac eu sathru. ac eu llad. A ph6y bynac a gyvarfei ac ef ar un dyrna6t i lladei ae ef ae i varch. Ac 6rth henny pa6b a ffoynt racda6 megys e ffoynt er aneveilieit rac lle6 dy6al pan vei ne6yn ma6r arna6. ac enteu en keisia6 b6yt. Aff6y bynac o dam6ein a gyvarfei ac ef nis dyferei i arveu ef rac Kaletv6lch pan e treiglei deheu e kadarn nertha6c vrenin h6n6. hyt pan vei reit talu i eneit ygyt ae 6aet. Deu vrenin er dryedam6ein a kyvarvuant

ac ef. Sertor brenin Lybia a Pholitetes brenin Bythynia. ar deu heny. g6edi llad eu peneu a envyn6ys i ufern.[562] Ac g6edi g6elet or Pryteinieit eu brenin en emlad evelly. gle6der a gymerasant ac ehovyn-der. a chan de6hau eu bydinoed o un vryt kyrchu er Ruveinwyr. A hyt tra vydei e kat peditkant o'r naill parth ar 6ed hono en eu ky6arsanghu. en un ag6ed a henny e katvarchogion or parth arall en eu b6r6 ac en mynet trostynt. Ac eisioes en 6ychyr g6rth6ynebu a g6neint er Ruveinwyr. Ac o dysc Lles arderch a6c vrenhin llavuria6 i talu aerua yr Bryteinyeit. A chymeint vu gryr ac angerd er emlad. a chet bei en er a6r honno e dechreuit o ne6yd en kyntaf or parth h6n megys e dy6etp6yt u6chot. Arthur en llad i elynion ac en annoc e Brytanieit i sevyll eu wra6l. Ac or parth arall Lles en annoc er Ruveinwyr. ac en eu dyscu. ac eu moli. Ac ni orfo6ysei en-teu en llad ac en b6r6. ac en kylchynu i vydinoed. Affa elyn bynnac a kyvarfei ac ef. ai a g6ae6. ai a chledyf ef ay lladei. Ac evelly o pob parth e bydei Arthur en g6neuthur aerva. kanys g6eithieu e bydynt trechaf e Brytanyeit. g6eithieu e bydynt trechaf er Ruveinwyr.[563] Ac or di6ed val et oedynt ar ry6 amryson h6n6 er rygthynt. enachaf Morud iarll Kaergloe6. ar lleng a dy6edasam ni i hada6 egg6ersyll u6chot. en dyvot ac en dissyvyt en kyrchu e gelynion heb debygu dim o heny. Ac or tu en ol er Ruveinwyr en eu kyrchu. a chan en g6asgaru mynet trostynt kan 6neuthur m6yaf aerva onadunt. Ac ena e syrthias-ant lla6er o vilioed or Ruveinwyr. Ac ena e dyg6yd6ys Lles amera6dyr en vrath-edic a chledyf ac e bu var6. Ac ena e Bryteinieit ket bei kan dirva6r lavur. 6ynt a ga6sant e vudygoliaeth ar maes. Ac ena e g6ascarasant e Ruveinwyr rei yr difeith-6ch ac yr koedyd. ac ofyn en eu kymhell. ereill yr dinasoed ac yr kestyll ac i leoed kadarn e foynt. Ar Brytanieit hagen oc eu holl enni ac eu holl lavur en eu hymlit. ac o druanav aerva en eu llad ac en eu daly ac en eu hes-peilia6. Ac evelly megys eroedynt er ran v6yaf onadunt eu dywyla6 en 6reigia6l i eu r6yma6 ac i eu karcharu i keisia6 estennu echedic eu hoedyl. a heny o vra6t gan du6. kanys eu hentadeu h6ynteu kyn no henny en andledus a g6naethoedynt e Brytanieit en tretha6l estyngedic vdunt h6y.[564]

Ac ena g6edi kafel o Arthur e vudygol-iaeth e peris g6ahanu corforoed i wyrda ef i 6rth gorforoed gwyr Ruvein. a fferi eu hanvon i vanachlogyd en urdaseid dr6y gyweir brenhina6l. Ac anvon pa6b onad-ynt oi wlat ehun. Ac ena peris Arthur anvon Bet6yr i ben trulliat oi wyr ehun hyt en Normandi yr dinas a adeilasei ef e hun. Ac yna yme6n myn6ent a oed ger-lla6 e dinas y klad6yt en anrydedus. Ac en nesaf i heny Kei ben swyd6r Arthur a glad6yt yme6n kastell a wnadoed ehun ac a el6it kastell Diarnum. Ac yme6n man-achloc ermudwr a oed eno ger lla6 e kastell e klad6yt Kei en anrydedus. A Holdin dy6ysa6c Ruten a ducp6yt hyt en Flandrys ac en dinas yn Tervan e clad6yt. Ar g6yrda ereill ar tywysogion ar ieirll ar bar-6nieit ar marchogion urda6l. a erchis Ar-thur eu d6yn yr manachlogoed nesaf udunt i eu cladu en anrydedus. Ac ef a erchis hefyt kladu gwyr Ruvein en ll6yr. A gorchymyn a oruc anvon corf Lles amer-a6dyr hyt en. senad Ruvein a gorchymyn eno ida6 na delei eil6eith i ovyn teyrnget o enys Prydein.[565]

Ac g6edi darvot i Arthur peri g6neuthur pop peth o heny. eno i trig6s Arthur e gaiaf h6n6 i est6ng B6rg6yn. A ffan et-oed er haf en dechreu dyvot. Ac Arthur en mynnu mynet i Ruvein. Ac ef en dechreu mynyd Mynheu e doeth kennadeu atta6 o enys Prydein i venegi ida6. vot Medra6t i nei vab i ch6aer 6edi g6isca6 coron e deyrnas ami ben. a chymryt G6en-h6yvar wreic Arthur en wreic ida6 ehun. a chytgyscu en diargel a hono.[566] A ffan gygleu Arthur endyhun emch6elyt aoruc i enys Prydein. Ac ell6g Hy6el vab Emyr Llyda6 a llu Freinc gantha6 i wastatau e g6ladoed heny.[567] Sef aoruc Medra6t e t6yll6r ena. anvon Sellinx de6ysa6c e Saes-on. hyt en Germania i waha6d odyno er hyn m6yaf a gefynt i dyvot en borth i Vedra6t en erbyn Arthur. Ac neur dar-oed ida6 ada6 ir Saeson o delynt atta6 o H6myr hys Escotlont. val e rodassei Gorth-eyrn Gortheneu udunt oreu eirioet a s6yd Geint en ach6anec er dyvot en amporth i Arthur. Ac ena et aeth e Sellinx h6n6 hyt en Germania. Ac e doeth odyno ac 6yth gan llong ganta6 en lla6n o baganieit arva6c. en borth i Vedra6t. A neur dar-oed ena i Vedra6t ena dehuna6 ac ef Es-cotyeit a Fichieit a G6ydyl ereill a ffob ry6 genedyl or a 6ypei ef arnadynt kassau Ar-thur i e6ythyr. sef oed eirif a duhuna6d a Medra6t yn erbyn Arthur o g6byl. nit amgen pet6ar ugein mil.[568] A henny o niver gantha6 oll e doeth en erbyn Arthur. yr lle et oed Arthur en mynnu dyvot i dir. Sef lle oed h6n6 Porth Ham6nt. Ac ena rodi br6ydyr aoruc Medra6t i Arthur

en keissia6 i ludias yr tir. A llad lla6er o bop tu. Ac ena e llas Ara6n vab Kynvarch brenin er Alban a G6alchmei vab G6yar. Ac yn e lle Ara6n vab Kynvarch e rodet Owein vab Urien en vrenin en er Alban. A thr6y lavur a cholli gwyr. Arthur a doeth yr tir o anvod Medra6t. Ac en diannot kymhell Medra6t ai lu a oruc Arthur i fo en wascaredic agklotva6r. Ac 6edi bot en nos emanvon aorugant ac emkynnulla6 ygyt a beris Medra6t udunt. a mynet ef ai lu hyt egkaer Wynt. A chadarnhau e dinas h6n6 arnadunt.[589] A ffan 6ybu Wenh6yvar vot i dam6ein evelly mynet a oruc o gaer Evra6c hyt egkaer Llion ar Wysc. Ac en eglwys Iule verthyr g6isca6 aoruc en un grevyd a manachesseu a oed eno i ara6s agheu.[590]

Ac ena m6yhau aoruc Arthur i lit ai engiriolaeth am na chavas dial i lit am golli i wyr. Ac em pen e tryded dyd 6edi darvot i Arthur peri cladu i wyr. mynet aoruc ef ai lu am ben kaer Wynt en ol Medra6t. Ar boredyd kylchynu e dinas aoruc Medra6t. a bydina6 i wyr ac eu hannoc. ac eu dyscu. Ac egori e pyrth a mynet allan a rodi kad ar vaes i Arthur. Ac ena e bu aerva athrugar eni gollet lla6er o bop tu. Ac or ai6ed ffo aoruc Medra6t ay lu ac ni orf6ys6s eni vu yg Kerny6. Ac ny handen6s Arthur ena peri kladu i wyr namyn mynet en ol Medra6t parth a Cherny6 dr6y ofal am diang Medra6t d6y6eith yganttha6. Ac ni orfowys6s Arthur eni doeth en i ol hyt ar avon Gamlan. Ac eno et oed Vedra6t ay lu en ara6s. A gwr gle6 estry6gar kadarn oed Vedra6t. Ac en diannot bydina6 aoruc Medra6t i lu. en ch6e bydin. sef amcan o rivedi a oed ida6 oll o lu trigein mil a ch6e gwyr a ch6echannwr. hevyt. kanys g6ell oed gantha6 noi ffo o le i le en warad6ydus ara6s ena. Ac em pob bydin ida6 e rodes o rivedi lleng o wyr. Ac yg-yt ac ehun rivedi lleng. Ac ada6 aoruc i ba6b oi wyr os efo a orfei rengu eu bod h6ynteu val y heidunei bob un onadunt o eur ac ariant a thlyseu ma6r6eirthia6c a thired a deieryd. a ffob kyfry6 da byda6l a vo en i vediant ef er sevyll en duhun gyt ac ef en erbyn Arthur.[591]

Ac eni erbyn enteu e goruc Arthur i lu en na6 mydin a the6ysogion kyvr6ys doeth kadarn a rodes Arthur em blaen pop bydin Ar pedyt a rodet ar neilltu erh6ng deheu ac ass6. val e g6elsant bot en gymedra6l. ac annoc e gwyr aoruc Arthur i lad e brat-6yr escymunedic baganieit divedyd. Ac anebyd6ch ch6i wyrda nat emlad ygniver kenedyl esyd racc6 vyth en duhun. ac nit ynt brovedic en emladeu megys ed y6ch ch6i. A ffan darvu i ba6b onadunt lluniaethu eu dydinoed. endiannot emkymyscu a orugant ac emlad en ch6er6dost greula6n engiria6l. Ac velly e buant en emfustia6 eny ettoed e rei by6 en kolli eu synywyr odostur kly6et e rei meir6 en dyscrethein ac en dil6yn eneit o pop parth val et oed druan nai draythu nai escrivenu.[592] Ac g6edi treulia6 onadunt lla6er or dyd en emlad evelly. sef aoruc Arthur ai vydin mynet am ben e vydin et oed Medra6t vratwr endi. ac eu g6ascaru aoruc. Ac eu tyllu a llad a gyvarvu ac 6ynt megys lle6 dy6al ne6yna6c heb eiriach. Ac ar e ruthyr h6n6 e llas Medra6t a milioed ygyt ac ef. Ac er kolli Medra6t ni pheidi6s er hyn a dyengis oy lu yni fu eno er aerva v6yaf a vu en un lle erioet na chynt na g6edi. nit amgen a gollet ena o de6yssogion noc Elaes ac Eg'brict a Bymync te6yssogyon Saeson oed er rei henny. A Gillam6ri. a Gillaphuric. a Gillasor. a Gillarch. te6yssogion G6ydyl oed er rei heny. A ch6byl o te6ysogion e Fichteit ar Escotieit a las eno oll. Ar parth arall e llas i Arthur Etbrict brenin Llychlyn. ac Achel brenin Denmarc. a Chad6r Lemenic. a Chaswalla6n a lla6er gyt a heny o vilioed o a doet heno o bop g6lat. Ac ena e brath6yt Arthur er arderchа6c vrenin Arthur. en angeua6l. Ac odyno e ducp6yt ef hyt en enys Avallach oy iachau. Ac ni dy6edir ema o vo ysbysach no henny am angeu Arthur. Coron e deyrnas a gymyn6s enteu i G6stenin vab Kad6r i gar ehun. Sef amser oed heny. d6y vlyned a deugeint a phymkant 6edi geni Mab Du6 or argl6ydes Veir 6yry. e gwr a brynn6s e kristonogion da oll yr creu i gallon a geithi6et diefyl ufern.[593]

Ac g6edy g6neuthur C6stenin vab Kadwr en vrenhin e kyvodes e Saeson a deu vab Vedra6t en i erbyn. ac ni thygi6s udunt. namyn g6edi lla6er o emladeu ffo aoruc e Saeson ac un o veibion Medra6t hyt egkaer Lundein. ac eni i llas. Ar llall a odiwa6d egkaer Wynt. ac eno i llada6d.[594]

Ac en er amser h6n6 et aeth Deinioel sant. gwr a vu escob em Bangor i orfo6ys or byt h6n i obr6yeu nev. Ac et etholet Theon escob kaer Loe6 en archescob en Llundein. Ac ena hevyt et aeth De6i vab Sant i orfo6ys or byt h6n. Ac em Myny6 en e vanachloc a seiliassei ehun e klad-6yt. A Fadric kyn noi eni a daroganassei e lle hono ida6. ac eno e klevych6ys or

heint e doeth i agheu. A Maelg6n G6yned a beris i gladu eno yme6n egl6ys en anrydedus. Ac ena et etholet Kyna6c escob en i le enteu en archescob egkaer Llion.[595]

Ac ena erlit e Saeson aoruc C6stenyn hyt e dinasoed a dy6edasam ni uchot. ac em me6n egl6ys Amphibalus egkaer Wynt rac bron alla6r eno e llada6d ef un o veibion Medra6t. ar llall onadunt a lada6d en Llundein y me6n manachloc broder. Ac en e dryded bl6ydyn e llas C6steuyn. ygan Gynan Wledic. A cher lla6 Uthyr Bendragon e clad6yt eg Kor e Ce6ri en emyl Salsbru. er h6n essyd osodedic o anryved gelvydyt ac annidiffic amylder gy6reinr6yd.[596]

Ac en nesav i G6stenyn e g6naethp6yt Cynan Wledic en vrenin. g6as ieuanc oed a dirva6r glot ida6 ac adas i wisca6 coron. a ch6anna6c oed i dervysc err6g i g6da6dwyr ehun. Ac e6ythyr ida6 ehun a dylyeu 6ledychu 6edi C6stenyn a ryvel6s arna6 ac a delus. ac ai rodes egkarchar. Ac 6edi llad i deu vab a gymyrth ehun e deyrnas. ac en er ail vl6ydyn oi deyrnas e bu var6.[597]

Ac en nesaf i Gynan Wledic e doeth G6rthevyr en vrenin. ac en erbyn h6n6 e kyvodes e Saeson. a d6yn eu kenedyl attadunt o Germania yme6u llynges. Ac ni thygi6s udunt. G6rthevyr a orvu arnadunt. ac a vu vrenin pedeir blyned ar un tu.[598]

Ac en nessaf ar ol G6rthevyr e doeth Maelg6n G6yned en vrenhin ar g6byl or Bryteinieit. A gwr ma6r teg vu Vaelg6n a gorescyn6r vu ar la6er o greulonion vrenhined a chadarn a de6r oed Vaelg6n en arveu. A hael a ch6byl oed em pob kamp da. pei nat emrodei em pecha6t Sodoma a Gomorra. A chan henny e bu atkas ef gan Du6. Ac er henny kyntaf brenin g6edi Arthur a orescynn6s ch6ech enys 6rtb enys Prydein vu Maelg6n. Sef oed er rei heny I6erdon. ac Islont. a Gotlont. ac Orc. a Llychlyn. a Denmarc. Ac ef a estyng6s heny o wladoed en drethaб1 i enys Prydein. Ac yme6n egl6ys en emyl Dygann6y e bu 6ar6 pan 6eles e vat velen dr6y d6l dor er egl6ys.[599]

Gwedy Maelg6n en nesaf ida6 e doeth en vrenhin Ceredic. a gwr a garei dervysc oed h6n6 erh6g i gi6da6twyr ehun ac am heny e bu gas h6n6 hevyt gan Du6. a chan e Brytanyeit. A ffan 6ybu e Saesson vot er an6astatr6yd h6n6 arna6 ef. anvon kennadeu a orugant h6ynteu I6erdon ar wr a el6it Gotm6nt vrenin er Affric. a doeth ema a llyghes va6r ganthaб i orescyn I6erdon.[600] Ac ena y dyvyn e Saeson e doeth e Gotm6nt h6n6 a thriugein llong ganthaб en lla6n o wyr arva6c hyt en enys Prydein. Ac en e neill ran or enys et oed Saeson en dy6yll6yr escymun baganieit dyvedyd hep gret. Ac en e ran arall et oed e Pryteinieit ar eu g6ir dylyet. Ac en da eu kret en du6. ac en dr6c e rygtunt ar Saeson. Ac ena duhuna6 aoruc e Saeson ar Gotm6nt h6n6 a mynet hyt en Ceicestyr en erbyn Keredic. gan i emlit o dinas b6y gilyd.[601] Ac ena e doeth ar y Gotm6nt h6n6 gwr a el6it Ymbert. neu Hysembard nei i Lo6ys. neu Lowyrt vrenin Freinc a g6rhau aoruc h6n6 i Otm6nt dan amvot. nit amgen no dyvot e Gotm6nt h6n6 gyt ac Ymbert i orescyn ida6 enteu Freinc y ar i e6ythyr. ai gyrrassei o Freinc y ar y dylyet dilys ehun. Ac ena o duhundep mynet aorugant am ben e dinas a chymhell Ceredic allan or dinas i rodi kat ar vaes ida6. A gyrru Keredic ar fo dr6y Havren eni vyd ar dir Kymru. Ac en e lle Gotm6nt anreithia6 e g6ladoed a lloski e dinassoed. Ac ni orf6ysa6d o hyt pan distrywia6d haiach er holl enys or mor p6y gilyd ygyt a llad e meibion eillion ar efeireit ar esgoleigion ar cledyfeu. ac ar flam en eu lloski. ac evelly en eu ky6arsangu hyt e daiar. Ar hyn a allei kafael dyanc onadunt fo a g6neynt e lle e kefynt dyogel6ch.[60]

Pa beth a g6naey segyr kenedyl ky6arsangedic o pynner gorthrymion pechodeu er hon en 6astat a vydei arnei sychet ky6da6da6l emlad. kanys en e veint hono tr6y de kartreva6l ryvel. kanys cenedyl e Brytanieit kynt a gnotteynt gorescyn pell teyrnasoed e byt en eu kylch 6rth eu he6yllys. ac 6rth eu mediant ehuneyn. Ac ar a6rhon megys g6inllan da 6edi dir6ia6 emch6eledic en ch6er6ed hyt na elli ti amdiffin dy wlat nath wraged nath veibion. Ac 6rth henny kynyda titheu ki6da6ta6l apall kynyda. bychan apeth e dyellеist ti er evengela6l amadra6d h6n6. pob teyrnas 6ahanedic endi ehun a difeithir ar ty a syrth ar y gilyd. Ac 6rth heny kanys g6ahanedic de teyrnas ti. kanys envydr6yd ki6da6ta6l teruysc ac anundeb. kanys m6c kynghoruynt a dy6ylla6d de ved6l di. kanys syber6yt ni adawd itti ufydhau i un brenin. Ac 6rth heny ti a 6eli de 6lat eu anreithedic egan er en6iraf baganyeit. ti a 6eli e teu g6edi rysyrthia6 ar y gilyd. er hyn a g6ynant de ettived g6edi ti. kanys h6ynt a 6elant kanaon agkyvieith le6es en medu e trefy ar dinasoed ar kestill. ac eu holl kyvoeth ac

eu mediant ac en truan eu g6rthlad h6ynteu i alltuded or lle ar eu hen deilynct a6t ni allant dyvot onyt en anha6d neu enteu byth nis gallant.[603]

Ac gwedy darvot e dywetp6yt u6chot yr escymunedic creula6n h6n6 a lla6er o vilioed paganieit ygyt ac ef anrheithia6 er enys oll haiach ef ar rodes e ran v6yaf o honei er hon ael6yt Lloegyr yr Saeson tr6y vrat er rei e doethoed yr enys hon. Ac ena e kiliassant e Prydeinieit er hyn a dianghasei onadynt i olle6yna6l raneu er enys. nit amgen i Kerny6 ac i Kymru. Ac odyna mynych a g6astat ryvel dy6al a g6naethant ar eu gelynion.[604] Ac 6rth heny Theon archescob Llundein. ac archescob kaer Efra6c g6edi g6elet onadunt er egl6yseu aoedynt adan eu lla6 g6edi eu distry6hyte lla6rar veinta dienghysoc eu hurdolion ygyt ac h6ynt or veint perygyl hono a foasant hyt en dyogel6ch koedyd Kymru. ac eu kreirieu ac escyrn seint kanthynt. rac ovyn dileu or anghyvieith paganieit e veint o escyrn e sa6l seint a oedynt kanthunt et emrodunt 6ynteu i verthyrolaeth en e dysevyt perygyl h6n6. A lla6er hevyt onadunt a foassant hyt en Llyda6 hyt pan oedynt holl egl6yseu e d6y archescoba6t en difeith. nit amgen Llundein a chaer Efra6c. Ar petheu heny ar a6rhon tewi a g6na6n amdanunt. kanys pan trayth6yf oc eu lle6enyd ena e traethaf o henny.[605]

Ac odyna e collasant e Bryteinieit coron e teyrnas tr6y la6er o amseroed a lly6odraeth er enys ar i hen teilynct a6t ni allasant i hadne6ydu. Ac ett6a er ran a drigassei kanthunt or enys nit i un brenin. namyn i tri creula6n et oed darestyngedic. Ac en vynych ki6da6ta6l ryvel er ryngthunt. ac yr hynny eissioes ni cha6sei e Saeson ett6a coron e teyrnas kanys tan tri brenin et oedunt 6ynteu g6eithieu er ryvelynt er ryngthunt ehunein. g6eithieu ereill er ryvelynt ar Brytanieit. ac evelly ni cha6sei nep onadunt coron e teyrnas.[606]

Ac en er amser h6n6 et envynda6d Girioel pap Awstyn i enys Prydein i pregethu yr Saeson er rei a oedynt dall o paganna6l arver en er ran et oedynt h6y eni medu or enys. neu rydaroed udunt dileu holl cret a christonogaeth a fyd katholic. A christonogaeth en grymhau er en oes Eleuther pap e g6r ae hanvyna6d en kyntaf i enys Prydein. heb i difodi un amser er rygthunt.[607] Ac g6edy dyvot A6styn megys e dy6etp6yt u6chot ef a kavas en ran e Brytanieit archescoba6t a seith escoba6t en kadarn o eglurion preladieit credyfus glan vucheda6l a lla6er o vanachlogoed en er rei ed oedynt keinveinoed i Du6 en kynhal unia6n reol ac urdas. Ac emplith er rei heny en dinas Bangor et oed manachloc vonedic en er hon e dy6edir bot e veint hon o k6veint g6edi renyt en seith ran e bydynt trichant mynach em pob ran. sef oed eirif heny oll ygyt kant a d6y vil. ygyt ac eu pryorieit ac eu preladieit en osodedic udunt. A heny oll en buch6edu o lavur eu d6yla6. A Duna6t oed abat arnadunt. g6r anryved y dysc en e kelvydodeu oed h6n6.[608] Ar Duna6t h6n6 pan geisia6d A6styn ygan er escyb darestyngedigaeth ida6 ef. ac annoc udunt pregethu ygyt ac ef ir Saeson. enteu a dangosses tr6y amravailion argumenneu ac a6durdodeu er esgrythyr lan hyt na deleynt h6y darest6ng ida6 ef. kanys archescob oed udunt ehunein. A bot kenedyl e Saeson en d6yn tref eu tat iarnadunt. Ac 6rth heny dirva6r kas oed er rygthunt ac ni dodynt mesur ar eu kret na chyt emdeithocau ac 6ynt am dim m6y noc ar c6n.[609] Ac 6rth heny Edelflet brenin Keint pan 6eles e Bryteinieit hyt nat ufydheynt i A6styn. ac en tremygu i pregeth. tr6m vu kantha6 heny. Ac annoc a g6naeth i Edelfryt brenin Escotlont ac yr brenhined bychein ereill or Saeson. kynnulla6 llu a dyvot ygyt ac ef hyt en dinas Bangor i dial ar Duna6t ac ar er escoleigion ereill ygyt ac ef ac eu tremygesynt. ac i eu distry6. Ac 6rth heny 6ynt en kytduun a deuthant ygyt ac ef a dirva6r lu i veint kanthunt parth a g6lat e Brytanieit. Ac ena 6ynt a deuthant hyt egkaer Lleon en lle et oed Broch6ael Escythra6c en eu haros. ty6ysawc e gaer. A hyt e dinas h6n6 e dothoedynt o pop g6lat egkymru oll meneich o aneirif niver onadunt a dydryv6yr. ac en v6yaf o dinas Bangor. hyt pan 6edihynt tros iechyt eu pobyl ac eu kenedyl. A g6edy kynnulla6 evelly e llu o pob parth. dechreu emlad. A Broch6ael er h6n a oed lei i niver o varchogion noc Edelflet. Ac or di6ed ada6 e dinas aoruc Broch6ael. Ac eissioes nit heb g6neuthur dirva6r aerua en gyntaf oi elynion. kynnoget i ffo.[610] Ac or di6ed g6edi kafael o Edelflet e dinas. A g6ybot er acha6s e dothoedyn e meneich heny yr lle hono. ef a erchis en kyntaf. emch6elyt er arveu en er rei heny. Ac evelly en e dyd h6n6. deucant a mil. kan eu tekau o goron merthyrolaeth a ga6sant neva6l eistedva.[611] Ac odyna pan edoed errac dy6ededic creula6n h6n6 en kyrchu Bangor. A chlybot or Bryteineit i creulonder ae envytr6yd. ty6ysogion e Bryteinieit a emkynnullasant obop lle ygyt. nit amgen a

Bledr6s ty6ysa6c Kerny6. Maredud brenin Dyvet. Cadvan vab Iago brenin G6yned. Ac g6edy dechreu emlad h6ynt a kymhellasant Ethelflet en vrathedic ar ffo. Ac ygyt a heny h6ynt a ladasant oi lu ch6eg6r a thriugeint a degmil. Ac emparth e Brytanieit e dyg6yd6s Bledr6s ty6ysa6c Kerny6. e gwr a oed penaduraf ar er emlad h6n6.[612]

Ac odyna ed emcynnullasant holl te6ysogion e Brytanieit hyt egkaer Lleon. Ac o gyt dyundeb h6ynt a urdasant Cadvan vab Iago vab Beli en vrenhin arnadunt. Ac en eu blaen erlit Edelflet tr6y Humyr. Ac g6edy i coronhau ef ogoron e deyrnas emgynnulla6 a orugant pa6b en ll6yr or Brytanieit atta6. ac en kytduun en ol Edelflet e daethant tr6y Humyr. Affan gygleu Edelflet heny enteu a kynnull6s er holl Saeson atta6.[613] Ac odyna val ed oedynt o pob parth en bydina6 e deuthant eu kytemdeithion o pob parth ac e g6naethb6yt tangnheved er ryngthynt ar e 6ed hon. Gada6 i Edelflet e parth dra6 i H6myr en i vediant. ac i Kadvan e parth ena. sef oed heny Lloegyr a Cherny6 a Chymru a choron e deyrnas: a chadarnhau hynny tr6y arvoll a g6ystlon. Ac 6edi darvot heny. kymeint vu eu kytemdeithas ac et oed pob peth en kyfredin er ryngthynt.[614] Ac odyna e darvu gan Edelflet g6rthlad i 6reic pria6t. a chymryt g6reic arall. A chymeint vu i kas ar e 6reic a 6rthodes. a hyt pan i dyholais oy holl kyvoeth. Ac ena eissioes et oed e 6reic hono en veichia6c. A hyt at Kadvan e kyrcha6d i geissia6 i porth ef megys e gallei hitheu kafael kymot gan Edelflet. Ac 6edy na allei kafael o nep ford en e byd: hi a pres6yliа6d en llys Cadvan. hyt pan escores e mab oed endi.[615] Ac en e lle g6edi heny e ganet mab i Cadvan oy vrenhines enteu. kanys en er un amser h6n6 ed oed hitheu en veichia6c. Ac odyna ygyt e mag6yt e meibion megys e dyleyt meithrin brenhina6l etived. Ar neill onadynt. nit amgen mab Cadvan a el6yt Kat6alla6n. ar llall Ed6yn. Ac g6edy eu bot en 6eision ieueinc vynt. eu rieni ae hanvonasant hyt at Selyf brenin Llyda6. hyt pan vei eni lys ef e dyscynt moescu a devodeu a mil6riaeth.[616] Ac g6edi eu kymryt en garedic e kantha6 ef 6ynt a ka6sant i kytemdeithas ef ai kariat en e veint. hyt nat oed nep oc eu kyvoedion a garey en kymeint ac 6ynt. nac a dy6etei i dirgel6ch en gynt noc udunt. noc a vei digrivach kytemdydan ac h6ynt. Ac or di6ed en ebey reit en vynych eni vlaen ed eynt yr yng ac yr kalet. ac yr vr6ydyr. ac e dangosynt eu klot tr6y eu de6red. ac eu kampeu moliannus.[617]

Ac g6edi treulia6 ruthyr o amser mar6 vuant eu tadeu en enys Prydein. ac 6ynteu a emch6elasant trach eu kevyn i eu g6lat. ac a kymerasant pob un onadunt kyvoeth i tat. ar kytemdeithas a oed er ryngthunt kyn no hynny ac r6ng eu tadeu kyn noc h6ynteu. hono a kat6asant h6ynteu ar talym. Ac evelly em pen e d6y vlyned Ed6yn a erchis i Kat6alla6n kanhiat i 6isca6 coron o hona6 parth tra6 i H6myr. ac i gynhal g6ylvaeu megys i g6nai Kat6alla6n. e parth eman i H6myr.[618] Ac g6edi g6neuthur oet onadunt. datleu y traythu o heny ar glan Dulas. A doethion o pob parth eu edrych pa beth oreu a deleyt. egkylch henny et oed Kat6alla6n en gor6ed or parth arall yr avon. ae ben en arflet Breint Hir i nei. A hyt tra edoedynt e kennadeu en ar6ein attebion. ewyla6 ag6naeth Breint Hir. megys e g6lycha6d baryf e brenin kan e dagreu oi lygeit en syrthia6. Ac ar heny kychynnu a oruc e brenin kan tebygu emae kavat. a derchafael i 6yneb a g6elet Breint Hir en 6yla6. a govyn ida6 pa acha6s oed ida6 yr dyssyvyt tristyt h6n6.[619] Ac ar heny e dywa6t Breint. denvyd 6yla6 a thristyt y6 imi ac i holl kenedyl e Bryteinieit en tragywyda6l o hedi6 allan. kanys rodeisti heny a oed o ragor teilyngda6t ytt ac i genedyl e Brytanieit. a hyn a oed o urdas y6ch er en oes Maelg6n G6yned. kanys er heny e mae kenedyl e Bryteinieit heb gafael un te6ysa6c a allei g6rthlad gormes estra6n genedyl. nac a allei i d6yn ar i hen teilyngta6t. a hedi6 ebychydic a oed o emgynhal anryded dy vot titheu en dyodef lleihau henny ae kolli. kanys kenedyl Saeson. er hon eyrioet tr6y i brat ae th6yll ae distry6ia6d. ac 6rth heny y6eithion m6iaf oll pan kanhiater udunt arveru o coron te6ysogaeth en er enys hon. kanys pan gly6er bot en6 brenin udunt syber6ach vydant ac eu ky6da6t a 6ahodant attadynt tr6y e rei egallont distry6 en kenedyl ninheu. kanys en 6astat egnotaäsant bot en vrad6yr ac ni allant gad6 fydlonder 6rth nep. Ac 6rth heny ia6nach a dyledusach oed eu ky6arsangu ac eu darest6ng egenym ni noc eu harderchavael. Pan ettelys Gortheyrn h6ynt en kyntaf megys i emlad tros e 6lat. ac eissioes pan allasant h6y gyntaf talu dr6c tros da h6ynt a dangosasant eu t6yll ac eu brat. Ac a ladasant en kenedyl o dy6al aerva. Eil6eith 6ynt a vredychasant Emrys Wledic. 6ynt a vredychasant Arthur pan duunassant a Med1a6t i nei. Ac or di6ed 6ynt a dugant

Gotmónt am pen Keredic. ac ae deholasant. ac a dugant e ólat rac i dyledogion.[620]

Ac wedi dyóedyt o Vreint Hir er amadrodion heny edivar vu kan Catóallaón e dechreuedic amvot hónó. ac gorchymyn a menegi i Edóyn na chytsyniei i gyghorwyr ac ef. ac na edynt idaó kanhiadu idaó er hyn et oed eu i erchi. kanys en erbyn devaót a gosot er hen wyrda yr e dechreu na deleyt ranu er enys órth dóy goron. Ac órth heny sori a gónaeth Edóyn ac adaó e datleu a mynet i Escotlont a dywedóyt e gyiscei ef coron hep ovyn kenhiat i Katwallaón. Ac góedi menegi heny i Katóallaón ef a anvones kennadeu attaó a menegi idaó o góisceî ef coron cn enys Prydein e lladei enteu i ben adan y goron.[621]

Ac góedi bot teruysc evelly erryngthynt óynt a emcyvarvuant elldeu e parth traó i Hómyr. Ac góedi dechreu e vróydyr Katwallaón a golles llaóer o vilioed oi wyr. ae kymhell enteu ar ffo. Ac ena i kymyrth i hynt tróy er Alban hyt en Iórdon. Ac óedi arveru o Edóyn or vudygoliaeth ef a duc i lu tróy óladoed Katóallaón a llosgi e dinasoed ar trevyd a llad e kiódaótwyr ac anreithiaó e gwladoed. ac hyt tra ydoed Edóyn en dyóalhau evelly et oed Katóallaón en óastat en keissiaó ar llongeu emchóelyt oi ólat ac nis gallei. kanys pa porthva bynac e keisiei dyvot yr tir eno y bydei Edóyn ae lu en i ludias. kans attaó e dothoed deóyn doethaf en e byt or Espaen a elóyt Pellytós. A hónó o ehediat er adar ae oredec e ser. a venegei i Edóyn pob damóein or a delei idaó. Ac órth heny e menegei enteu pan geissiei Katóallaón emchóelyt. Ac e bydei Edóyn en paraót en i erbyn. Ac e briói i longeu a bodi i kytemdeithion. Ac óedi haiach nat oed un gobeith kafael emchóelyt tray kevyn i enys Prydein or diói ef a gavas en i gyghor mynet hyt at Selyf brenin Llydaó i geisiaó porth y ganthaó i kynydu i gyvoeth idaó trachevyn.[622] Ac góedi trosi eu hóylieu onadynt parth a Llydaó en dyssyvyt e kyvodes temhestyl en e mor. a góascaru eu llogheu ar vyr hyt nat oed un ygyt ai gilyd onadunt. Ac órth heny dirvaór ovyn a gymyrth llyóyd llong e brenin. Ac emadaó ar llyó aoruc. a gadu e llong órth vynnu e tyghetven e ford e mynhei i haróein. Ac góedy eu bot evelly em perygyl angeu ar hyt o nos hónt ac eman pan deuth góaór e dyd tranoeth hóynt a deuthant i enys a elóyr Garneria. ac eno tróy dirvaór lavur e deuthant ir tir. Ac en e lle kymeint o dolur a llit a thristyt a gymyrth Katóallaón endaó o achaós rykolli i kytemdeithion megys e bu teir nos a thridieu en goróed ar i óely heb vynnu na bóyt na diaót. Ac en e pedóeryd dyd e deuth idaó blys kic hely.[623] Ac órth heny galó Breint aoruc attaó a menegi idaó heny. Ac en e lle Breint a gymyrth y vóa ae saetheu. a chróydraó er enys aoruc i syllu a kyvarfei un góydlódyn ac ef or hón e gallei góneuthur bóyt oy argióyd ohonaó. Ac góedi kerdet o honaó er holl enys. a hep welet dim or ageissiei diruaór ovut a fryder a gymyrth a goveilieint órth na allei kafael i damunet oy argióyd. kanys ovyn oed kanthaó dyvot i agheu oni chafei i damunet. Ac órth heny arveru aoruc o kelvydyt newyd. trychu drull o kyhyr y vordóyt. a dodi hónnó ar ver ae bobi ae dóyn yr brenhin. Ac en e lle kan tebygu e mae kic góydlódyn oed i gymryt a bóyta o honaó. Ac anryuedu na ry kaósei eirioet e veint velyster hono ar kic arall kyn no hynny. Ac óedi bóyta ohonaó or diói llaóenach vu. megys ed oed ar pen e tridieu en holliach. Ac odyna pa kaósant e góynt en heróyd kyóeiriaó eu llong a gónaethant a derchavael eu hóyl a róygaó e mor. Ac i gaer Kathalet e deuthant i dir Llydaó. Ac odyno ed euthant hyt en Selyv brenin Llydaó. Ac ef ae harvolles en llaóen hynaós.[624]

Ac góedi góybot estyr eu neges. ef a edeóis kanhorthóy idaó ygyt ar amadraód hón. Dolur yó kenyvi arderchaóc óeision ieueinc bot gólat en hendadeu ni en cyóarsangedic egan agkyvieith kenedyl. A faób or kenedloed ereill en amdifyn ac en kynhal eu góladoed. Ac ech kenedyl chóitheu colli enys mor fróythlaón. ac na ellóch górthónebu yr Saesson er rei ni dodynt en hentadeu ninheu mesur arnadunt pan edoed vyg kenedyl i e Brytain Vechan hon en presóyliaó ygyt eno. hóynt a oedunt argióydi ar er holl teyrnassoed eni cheilch. Ac ni allós nep gorvot arnadunt hóy eithyr gwyr Ruvein. Ar rei heny ket bydynt rynnaód eni medu eissioes góedy llad eu llyóiodron hóynt a órthladóyt en waradóydus or enys. Ac óedi dyvot Maxen a Chynan yr ólat hon. er hyn a trigós eno ni chaósan byth rat i gynhal e coron en wastat. ket er ryvo rei o teóysogion kadarn endi eissioes ereill a vydunt góan. Afan delynt e gelynion i kollynt. Ac órth heny dolur yó kenyvi góander ech pobyl chói. kanys or un genedyl et henymni. Ac órth heny en gelóir en Bryteinieit megys ech kenedyl chóitheu. Ac edym ni en wraól en kynhal e wlat a óelóch chói. rac paób o en gelynion o pop parth ynni.[625]

Ac g6edi darvot i selyf dywedut evelly megys kan gy6ilyd Katwalla6n a dywa6t val hyn. Argl6yd vrenin eb ef ganedic on hendadeu vrenhined lla6er o dyolchtredeu a dalaf itti tros e nerth et wyt eni ada6 imi i geissia6 vygkyvoeth trachevyn. Er hyn a dy6edi titheu ryvedu ohona6t nat edym ni en kad6 teilyncta6t en hentadeu ni kyn no ni g6edi dyvot e Brytanieit yr g6ladoed hyn. ni varnavi bot en ryved heny. kanys e bonedigion ar dyledogion a deuthant ygyt ar ty6yssogion heny. or holl deyrnas. ar rei anvonedigion a drigassant eno. ac a gymerasant anryded er rei heny. Ac g6edi dechreu or rai heny kafael kyvoeth a theilyncta6t er rei bonhedic emderchavael ag6naethant en ryodres a syber6yt en v6y noc e deissyvei anian. ac emrodi i odineb er ry6 un ni chly6yt emplith e kenedloed. A megys e dyweit Gildas traethad6r hystoria. nit nam6y e pecha6t h6n6. namyn er holl pechodeu agnotaa dynia6l anian eu g6neuthur. Ac en v6yaf oll er h6n a di6reidia ansa6d er holl da. sef y6 h6n6 kas g6irioned ygyt ae amdifynwyr. kariat kel6yd a th6yll. a brat. kymeredigaeth dr6c tros da. Anrydedu an6ired. a cham 6eithredoed tros hygar6ch a hyna6ster. arvolledigiaeth diavyl em blaen engyl lleuver. A brenhined a etholynt nit herwyd du6 namyn er h6n a 6elynt en creulonaf. Ac en e lle egan er un rei ae hetholynt e lledyt. kan ethol ereill a vei creulonach. P6ybynac a vei aravach ac echedic nes i garu g6irioned. h6n6 megys gelyn enys Prydein a distry6yt. Ac or di6ed pob peth or a garei du6 ac or a gassaei o kyhaval vra6t e g6neynt. onyt bot en caruach kanthunt er hyn a kassaei du6. Ac evelly e g6neynt pob peth or a vei g6rthynet yr iechit. A hep geissia6 dim ygan 6edyc er holl iechit. Ac nit na m6y y dynion byt namyn kenveint du6 ehun ae vugelyd heb diosparth a g6neynt evelly. Ac 6rth heny nit ryved bot en kas gan du6 er rei anvonhedic a g6neynt e petheu heny. Ac 6rth heny e duc du6 e pobyl hono yr mynnu dial eu syberwyt arnadunt ac eu dehol oc eu g6lat. Ac eissoes os gatei du6 teil6ng oed inni llavuria6 i geissia6 derchavael e kenedyl ky6arsangedic ar ei hen teilyncta6t. rac bot en ward6yd yn kenedyl en bot ni en lly6iodron g6an oni llavuri6n oc en holl allu i keissia6 eu rydhau. kanys er un gorhentat a vu ynni en deu. 6rth heny diogelach ac ehovnach e keissiaf kanh6rth6y egenyt titheu. Mael-g6n G6yned e goru6chel vrenin Prydein e ped6eryd gwr a wledych6s g6edi Arthur. deu vab a vuant ida6. nit amgen Run ac Einia6n. i Run e bu vab Beli. yr Beli h6n6 e bu vab Iago. i Iago e bu vab Catvan vyn tad inheu. Einia6n g6edi mar6 i vra6t a deholiet or ryvel e Saesson ac a deuth hyt e 6lat hon. Ac a rodes i verch i Hy6el Vychan brenin e 6lat hon. mab Hy6el ab Emyr Llyda6. e g6r ygyt ac Arthur a oresceyn6ys e teyrnasoed. ac o hono e ganet Alan i vab. o Alan Hy6el dy tat titheu e gwr hyt tra vu vy6 i holl Freinc a dyporthei ovyn en v6yaf or ty6ysogion en wastat.[626]

Ac en ygyt a Selyf e gaiaf h6n6 e bu Katwalla6n ac oeu kytgyghor ell6g Breint Hir i enys Prydein i geissia6 os kanhatei du6 ida6 o nep ford kafael llad de6yn Et6yn. rac llesteiria6 o hona6 o kynnevodic kelvydyt i Katwalla6n dyvot yr tir. Ac g6edy dyvot Breint Hir i Porth Ham6nt yr tir. ef a kymyrth g6isc reidus am dana6. ac en rith anghana6c kerdet. Ac ef a g6naeth ida6 bagyl o haiarn. a hono en vlaenllym ia6n ar hon a dam6einiei du6 ida6 kafael kyf6rd y lladei enteu e de6yn Ac odyno e kerd6s parth e chaer Efra6c. kanys eno en er amser h6n6 et oed Ed6yn. Ac 6rth heny g6edi i dyvot yr dref emkymyseu ar reidusion aoruc er rei aoedynt en ara6s alusen em porth llys e brenhin.[627] Ac val et oed Breint en treigla6 emplith er anghanogion enachaf ch6aer ida6 en dyvot allan or llys a phaeol eny lla6 en kyrchu d6vyr yr vrenhines. A hono a dygassei Ed6yn o kaer Wyrangon g6edy dehol Katwalla6n hyt tra ydoed en anreithia6 g6ladoed e Brytanieit. Afan ydoed hono en kerdet heb la6 Breint atnabot i ch6aer ag6naeth ac 6yla6. Ac en isel gal6 arnei. Ac essef aoruc hitheu trossi i h6ynep atta6. ac en gyntaf pedrussa6 p6y oed. Ac g6edi dynessau atta6 ac atnabot i bra6t megys haiach lle6ygu rac ovyn o dryc dam6ein i adnabot o neb a kafael oi elynion ai daly. Ac g6edi karedigion cusaneu ac geirieu ry buchedic ar vyrder megys amadra6d arall hi a vynegys oi bra6t ansa6d e llys. ac a dangosses ida6 e de6yn et oed eni geissia6. kanys ef edothoed i orymdeith emplith er reidusion tra edoedet en ranu alusseneu udunt.[628] Ac g6edi atnabot o Vreint e de6yn. ef a erchis oy ch6aer en nos hono keissia6 dyvot en lledrat or llys hyt atta6 enteu odyeithyr e gaer kar lla6 hen dempyl oed en aga6s yr dinas ac enteu ae haroei hi en llechu em pen e karec hono. Ac en e lle et aeth Breint em plith toryf or reidussion en e parth et oed e de6yn en eu ryoli. A hep gohir pan

gavas ef ryt ar i kyvla6an. ef a derchevys wrdun ac a want e de6yn adan i vron ac or un dyrna6t y llada6d. Ac en e lle b6r6 i vagyl oi la6 ac emgudia6 em plith er anghanogion ereill heb i atnabot o nep nai dybia6. Achan kanh6rth6y du6. kyrchu i lechva.[629] Ac odyna i chwaer enteu gwedi bot nos en dyvot o lawer ford en keissiaw mynet allan or llys. ac nis gall6s kanys kyfraw mawr ac ovyn a kyrch Edwyn o acha6s rylad e dewyn. Ac wrth heny gossot g6ilwyr a cheitweit a g6nathoed. ar rac er rei heny ni chafei hitheu ford allan. Ac gwedy gwybot o Vreint heny. enteu a aeth or lle hono hyt enghaer Excestyr.[630] Ac eno dyvynnu atta6 e Brytanieit. A menegi udunt e kyvlawan ar ry6nathoed. Ac gwedi anvon kennadeu at Katwalla6n. kadarnhau e gaer hono aoruc. a gorchymyn i holl wyrda e Brytanieit llavuriaw i gad6 eu dinassoed ac eu kestyll. Ac en llawen arhos dyvodedigaeth Katwalla6n kanys ar vyr edeuey a phorth egan Selyf brenin Llydaw i eu kanhwrth6ya6.[631] Ac gwedi honni e ch6edyl h6n6 tros er enys Peanda brenin swyd Keynt a m6ihaf kynnulleidva o Saesson ygyt ac ef a deuthant hyt egkylch kaer Excestyr a g6archae Breint en e dinas ac dechreu emlad ac ef.[632]

Ac ar heny enachaf Katwalla6n en deskynu yr tir oi longeu a dengmil o varchogion arva6c ygyt ac ef ygan Selyf brenin Llyda6. Ac en kyvlym kyrchu o lle et oedet en g6archae Breint. Ac g6edi eu dyvot hyt en aga6s yr llu g6ahanu i varchogion en pedeir kat a heb annot kyrchu i elynion. Ac g6edi dechreu emlad daly Peanda a llad llawer oy lu. Ac g6edi nat oed ford arall ida6 egallei kafael iechit gwrhau ag6naeth i Katwalla6n a rodi g6ystlon. ac ada6 mynet ygyt ac ef i emlad ar Saesson. a chadarnhau heny tr6y arvoll a g6ystlon.[633]

Ac g6edi kafael o Katwalla6n e vudyg-oliaeth. gal6 ag6naeth atta6 i wyrda a vessynt g6ascaredic. tr6y hir amser. Ac en diannot kyrchu e gogled ar tor Ed6yn. a dechreu anreithia6 e g6ladoed.[634] Ac g6edi menegi heny i Ed6yn ef a kynnulla6d atta6 holl vrenhined e Saesson. a hyt e maes a el6ir Hedfeld en erbyn Katwalla6n. a dechreu emlad ar Brytanieit. Ac en e lle ar dechreu er emlad e llas Ed6yn ai holl pobyl haiach. ac Offrit i vab ygyt ac ef. a Gotbott brenin Orc. a dothoed en porth ida6. ar ran v6yaf or eu llu ygyt ac 6ynt.[635]

Ac g6edi kafael o Katwalla6n e vudyg-oliaeth kerdet aoruc tr6y g6ladoed e Saesson er kyn creulonet ac nat arbedei i neb. namyn en e lle e g6elhei Saesnes en veichia6c. ai gledyf ed ellyngei i beichiogi yr lla6r. Ac evelly nit arbedei nac i wr nac i wreic. nac i was nac i vab. kanys ef a vynnei en ll6yr eilliа6 kenedyl e Saesson or enys hon en holla6l. Ac 6rth heny. pa rei bynac a gafei onadunt o anghly6edigion poeneu i dyvethaei.[636] Ac or di6ed br6yd-yr vu ida6 ac Offric er h6n a deuth g6edi Ed6yn. a h6n6 a las ae deu neieint. er rei a deleint g6ledychu g6edi ef. Ac g6edi llad er rei heny. Oss6allt a deuth en vrenin en Escotlont. a h6n6 hevyt Katwalla6n g6edi er rei ereill ar ryvela6d arna6 ac ae ffoes o 6lat p6y gilyd hyt e mur ag6nathoed Sever6s amera6dyr er r6ng Prydain ac Escotlont. Ac g6edi heny ef a envyna6d Peanda ar ran v6yaf or llu kantha6 hyt e lle hono i emlad ac ef.[637] Ac essef aoruc Osswallt hyt tra ydoed Peanda eni 6archaey en e maes a el6ir en Saesnec Hevefelt. ac en Gymraec e Maes Neva6l. nos6eith derchafael croes er argl6yd eno ac erchi oy kytemdeithion ac oy kytvarchogion ac oy lla6n llef dywed6yt. plyg6n en glinieu a g6edi6n er holl kyvoetha6c Du6 by6 hyt pan yn rydhao ni ygan syber6 lu e Brytanieit. Ac ygan eu hyskymun te6yssa6c Peanda. kanys ef a wyr mae ia6n edym ni tros en kenedyl en emlad. Ac 6rth heny pa6b onadunt a g6naeth megys i herchis. Ac evelly pan deuth e dyd e kyrchassant eu gelynion a her6yd evyrllit eu ffyd h6ynt a ka6sant e vudygoliaeth.[363] Ac g6edi menegi heny i Katwalla6n llidia6 a g6naeth a chynnulla6 llu ma6r ar erlit Osswallt a br6ydra6 ac ef. en lle a elwir Bwrne i kyrch6s Peanda ac i llada6d.[639]

Ac g6edi llad Osswallt a lla6er o vilioed oy wyr ygyt ac ef Osswy ael6yn i vra6t a deuth en vrenin en i le. a h6n6 ar rodes lla6er o eur ac ariant i Katwalla6n. Ac a gavas tanghneved ygantha6. a g6rhau ida6 hevyt.[640] Ac ni bu un gohir h6ynt a gyvodassant en i erbyn. Alffryt i vab ehun ac Oydwallt i ney vab i vra6t. Ac g6edi na ellynt sevyll en i erbyn h6ynt a foassant hyt at Peanda i geissia6 nerth yganthaб i orescyn kyvoeth Oss6y ael6yn.[641] Ac 6rth na lavassei Peanda tori e tangneved ar ryg6nath6ed Katwalla6n tr6y teyrnas enys Prydein ef a annodes heny hyt pan keissiei kanhiat Katwalla6n. ae yr ryvelu arna6 ae i rodi kat ar vaes ida6. Ac 6rth heny treigyl6ceith pan edoed Katwalla6n e sulg6yn en Llundein en daly llys ac en g6isca6 coron e deyrnas am i pen. A holl ty6yssogion e Saesson ygyt ac ef eithyr

Megis y gwrthlat ywen ydreic coch, velly ybrwrw y dywyll ywen. Dreic aruthyr waethaf athecca ac ochwythat y geneu oflamawl dan alysc yr holl ynys gan y llyuu. O arennev hwnnw ydaa maharen man ygnv, adiwyllya dyrnodieu ygyrn yny dwyrein. Odyna ydaa ystlum gwenwynic y olwc ac ar y edrychiat ydechryn fyd achreuyd. Odena ydaa llew anesao yr ystlum lluchyadenawc, ac adan ylywodraeth yllygryr aychet gwirioned. Crang or mor adynessa yr llew ac adan y vediant ydivlanna rydit o rydit. gwedy y trosser y keibieu yn waywyr. Baed danhedawc anessa yr crang ac awalhaa yny mieri tew ac alymhaa y danned yngkedernyt ydeyrnas. Ochwant y baed y kynnyd kenev er hwn a ryd am agheu y dad megis am angheu ki. Gwaet ytat agynyd y meibion ar kyntaf onadunt aesgyn yoruchelder ydeyrnas yn defynyd hagen vegis blodeuyn gwaenwyn kyn noe frwyth y gwywa. O bechawt yr hen ypecha ymeibion wrth eu tat, ar caret cyntaf a vyd devnyd yr rei ol. Meibion agyuodant yn erbyn eu tat ac amdial pechawt, em-ysgaroed a a gyffroant yn erbyn y groth. Gwaet agyuyt yn erbyn eu gwaet yny daruo yr alban wylaw penyt yperheryn ac anobeithus boen avyd. Yna ydaw kynhwrf kadarn owynt dwyrein, ac aruthra yr gorllewin ac adiwreida holl gedernyt iwerdon. Rac bron hwnnw ygostwng twysogion agwedy y kyngreir-ier tagneued yd ymgarant. Dolur adrossir yn llewenyd, pan drychont ytat yngkallon y vam. Ef anessa luir adisgynno ohat y llew ac lymder adylla kedernyt haearnawl ac un elechawl. ymynediat hwnnw yged-eu normandi ydwy ynys. ac odiruawr vod symudedigaeth ygwehenir ykledyf ywrth ygoron. Oachaws anvhvndep y brodyr ygwledycha vn adelei ole arall. Kerbyt ypymet adreiglir yr petweryd agwedy y dyrchauer ylluneu priawt ysarret aetiaug asathyr yteyrnassoed, yn dydyev diwethaf ydreic wen ygwes-gerir yhetivet yn deir ran, ran adyn yr pwyl odwyreiniawl swllt ykyuoethogir, ran adisgin y iwerdon, o orllewiniawl ardymyr ydifrifheir, ydryded ran adric yn ywlat dielw agorwac ykeffir. Tanawl beleu adis-gin ordwyrein allydaw yny kylch ogylch alynga. Wrth ylluver yd ehetta adar yr ynys, arrei mwyaf onadunt wedy yd ennynner eu hesgyll adigwydant yn dalyedigaeth. Or tan hwnnw ygenir gwreichionen; ac oe chynwrf y dechrynant yr ynyssed, yngwyd yrei mwiaf ygwelir yr absent; ar eil mynedyat avyd gwaeth nor kyntaf. Gwedy bo marw llew ywirioned, ykyvyt ybrenhyn gwyn bonhedic yn ynys brydein yn gyntaf yn ehedec, odena yn marchogaeth, odena yn disgynnu, ac yny disgynyat hwnnw ykeir ef yny glud. Odena ydygir ac adangossir abys ac ydywedir mae ybrenhin gwyn bonhedic. Yna y kynullir y vydin ev agwyatyl drostaw agymerir, ac yna ybyd porthmanyaeth ydynyon megys am eidion neu am dauat, ymendaat hynny ageisir ac ny hyd yr un; onyt pen dros pen. Ac yna y kyuyt ygwyn ac ydaa yr lle ykyuyt yr heul, ar lle digwyd heul arall, yna ydywedir yn ynys brydein brenhin na vrenhin. Gwedy hynny ydyrcheif yben ac ydengis yuot yn vrenhin ar lawer o weithredoed dybryt, ac nyd arun elwedic. Gwedy torrer llawer ny byd atkyweirdeb, yna ybyd byt ybarcuttanot; adycko pawb ydreis avyd eidaw ehun ahynny abery seith mlyned. Ac yna ybyd treis agordineu gwaet, ar fyrnev agyfflybir yr eglwiseu, ar hyn aheo un arall ay met, ac ar y uuched druan ygoruyd angheu ac yn ychydic odynyon ybyd kariat kyuan. Ar hyn agyngreirier ar osber ybore yllygrir. Odena ydaw or deheu ar veirch pren ar ewyn mor kyw eryr ac ymordwya ac ydaw y ynys brydein yr tir, ac yny lle ef asaetha y dy yr eryr, ac aygoresgyn, ac yna ybyd ryuel yn ynys brydein blwydyn ahanner, ac yna ny thal dym dwyn kyfnewit, namyn paub abrydera pa furyf ykattwo yr eidiaw ehun ac ykeisio da arall. Odena ydaa ybrenhin gwyn bonhedic tu argorllewyn ay vydin yny gylch yr henn lle gar llaw ydwfyr redegauc, ac yna yda y elynion yny erbyn, ac y lluniethir pawb yny le yny gylch ef. Allu y elynion afurfheir ar bon taryan. Yna yd ymledir oc eu talen ac en hystlysseu, ac yna y llithyr ybrenhin gwyn bonhedic yr awel. Odena y nytha kyw yr erir yngoruchelder kreigeu holl ynys brydein, ny digwid yn ieuang, ny daw ynteu ar heneint, yna gogonyanus fynniant ny odef amreint na sarhaet idaw. agwedy ytagnauetter ydeyrnas ydigwyd.

[149] Ac aoruc endi er enneinod twimin. A. [149] Ac awnaeth yno yr ennein twymyn. B.

[150] Ac ydan yr ennein hwnnw y gyssodes tan heb diffodi. Ac yny yr amser hwnnw y gwedwys helias proffwyt hyt na dele wlaw. Ac ni bu wlaw ynteu chwe mis a their blyned ygwlat kaerusalem. B.

[151] Ar bleidut hwnnw awnaeth nigromans yn gyntaf yn yr ynys hon. Ac ny orffowysswys o dechymygu kywreinrwyd hyny wnaeth idaw adaned a phroui hedec. Ac yn hynny y syrthwys ar temyl apollo yn llundein. Ac yd yssigwys oll. Ac yno y cladwyt. B.

[152] Bu lyr yn llwyaw y teyrnas yn wychyr ac yn wrawl. B.

[153] Ac y adeilwys dinas ar auon soram y gelwys kaer lyr. ac yn saessnec leircestyr. B.

[154] Ac ny bu y lyr un mab namyn teir merchet. sef oed eu enweu. Goronilla. Regau. Cordeila. Adir-uawr ykarei eu tat wynt. a mwyaf y karei ef y verch ieuhaf. cordeila no rei ereill. B.

[155] Sef awnaeth proui pwy uwyhaf ae karei oe verchet. wrth rodi y ran uwyhaf agoreu gan wr or kyu-oeth. A galw attaw aoruc Goronilla y verch hynaf idaw. A gouyn py veint y karei hi euo. Athygu

aoruc hitheu yr nef ar dayar bot yn vwy ykarei hi euo no eneit heun. Achredu awnaeth ynteu hynny. A dywedut aoruc ynteu. y rodei hi yr gwr a dewissei yn ynys prydein athrayan y gyuoeth genthi. B.

[156] Ac yn ol honno y gelwis ef rageu yr eil hynaf. A gouyn idi py veint ykarei hitheu ef. Athygu aoruc hitheu y gyuoetheu nef a dayar. na allei venegi ar y thauawt leueryd py ueint y karei hi euo. Achredu awnaeth ynteu hynny. Ac adaw idi hitheu y rodi yr gwr edewissei ar trayan arall genti oe gyuoeth. B.

[157] Ac yna y gelwis ef Gordeila y ieuhaf. a gouyn idi py veint y karei hi euo. Ac yna adnabot aoruc Cordeila rycredu oe that yr amydrodyon anhyedus a dywedassei ychwioryd wrthaw. a phroui ythat. a gwrtheb idaw yn amgen noe chwioryd ar y wed hon. Ni chredaf ui bot merch a allo karu y that yn uwy noc y dylyho y garu nac ae dywetto onyt trw gellweir llad y heneit gan gelu gwirioned. B.

[158] Ac yna llidyaw aoruc y that wrthi. gan tebygu y mae dihewyt y challon y dywedassei hi hynny. A dywedut wrthi val hyn. kans yny veint honno y tremygeisti heneint dy tat hyt na charut ti ef megys chwioryd y rei ereill. B.

[159] Heb ran y gyt ac wynteu or ynys. B.

[160] Ny dywedafi can wyt merch ti imi na rodwyf ui ti y wr ny hanffo or ynys hon. Os tyghetuen adamweina hynny heb argyfreu. hyn adywedafi na bydy un anryded ath wihoryd. kans mwy eiryoet y kereis i ti noc wyntwy: athitheu ymkaru inheu yn llei noc wynteu. B.

[161] A heb un goir o gyghor y wyrda y rodet y dwy verchet hynaf idaw y deu tywyssawc. nyt amgen. y tywyssawc kernyw. Ac y tywyssawc y gogled. ahaner yr ynys gantunt tra vei vyw ef. Agwedy ybei uarw ynteu. y kyuoeth oll yn deu haner y rydunt. B.

[162] Ac yna gwedy clybot o aganipus vrenhin freinc clot a phryt a theghwch cordeila. B.

[163] Anuon kennadeu awnaeth hyt ar lyr ythat oe erchi yn wreic idaw. Ac y dywawt ynteu lyr y rodei y verch idaw heb argyureu a heb da genthi yn llawen. kan daroed idaw ynteu rodi y gyuoeth ae eur ae aryant yr dwy verchet ereill. B.

[164] Tracheuyn y dywedut. B.

[165] Ac nat oed reit. idaw wrth dim. namyn kaffel gwreic vonhedic telediw dylyedawc y kaffei etived ohonei a gynhalei y gyuoeth gwedy ef. kans ef bieoed y tryded ran o ffreinc. Ac yn diannot cordeila a rodet y aganipus. B.

[166] Ac ympen yspeit ygkylch diwed oes llyr. A dechreu llescu o honaw o heneint. y deu racdywededigyon douyon awerescynassant arnaw y gyuoeth. yr hwn agynhalyassei ef yn wrawl trwy hir amser. Ac ae rannassant y rydunt yn deu hanner. Ac o gyt duundeb eissoes maglawn tywyssawc yr alban a gymyrth llyr attaw ar y deugeinnet marchawc. rac bot yn gewilyd gantaw vot heb varchogyon wrth escord. B.

[167] Agwedy bot llyr velly gyt a maglawn yspeit dwy vlyned: llidyaw aoruc coronilla y verch wrthaw rac meint oed o varchogyon ygyt ac ef. A rac eu gwssanaethwyr ynteruyscu y llys. A dywedut awnaeth wrth y gwr vot yn digawn ugein marchawc ygyt ae that ac ellwg y rei ereill ymdeith. B.

[168] Agwedy dywedut hynny wrth lyr. llidyaw a oruc. ac ymadaw a maglawn a mynet hyt ar henwyn tywyssawc kernyw y daw y llall. ac erbyneit o hwnnw ef yn enrededus llawen. Ny bu pen y ulwydyn hyny daruu teruysc y rwg eu gwassanaethwyr. Ac wrth hynny y sorres regau y verch wrthaw. Ac erchi idaw ellwg y varchogyon oll y wrthaw eithyr pump marchawc ae gwassanaethei. B.

[169] Athristau a oruc llyr eithyr mod. Achychwyn odyna elchwyl hyt ar y verch hynaf idaw. A thebygu trugarhau o honno wrthaw. achynal gyt ac ef y varchogyon. Sef awnaeth hitheu tygu trwy y llit y gyuoetheu nef a dayar na chaffei ef ohir yno onyt ellygei oll y varchogyon y ymdeith eithyr un ae gwassanaethei. A dywedut awnaeth heuyt nat oed reit y wr kyuoet ac ef na theulu na lluossogrwyd y gyt ac ef onyt un gwr ae gwasanaethei. B.

[170] Agwedy na chaffei dim or ageissei gan y verch. Gellwg y varchogyon oll y wrthtaw eithyr un marchawc. A gwedy y vot yno hir yspeit. mydylyaw aoruc am y hen teilygdawt ae enryded. Athristau aoruc yn vawr. A medylyaw mynet hyt ar y verch a athoed y ffreinc. Ac offynhau hynny heuyt aoruc. mor digaryat ygellygassei y wrthaw. B.

[171] Ac eissoes ny allwys ef a vei hwy diodef yr amharch a oed arnaw. Achychwyn parth a ffreinc aoruc. B.

[172] A phan yttoed yn mynet yr llog. Ac na welei neb wrth y escord namyn ar y eil. ganwylyaw. y dywawt yr ymadrawd hwn. B.

[173] Ev adoeth hit egkaer idinas edoed iverch indaw. A.

[174] Anvon aoruc Lyr genat at ebrenin ac at iverch enteu ari drigeinvet. A.

[175] Ac yna yd anuoned gwys tros wyneb ffreinc y gynnullaw y holl dewred: wrth eu gollwg gyt a llyr y orescyn y gyuoeth tracheuyn idaw. A gwedy bot pop peth yn barawt. kychwyn a oruc llyr a chordeila y verch ar llu hwnnw gantunt. A cherdet hyny doethant y ynys prydein. B.

[176] Ac yn diannot ymlad ae dofyon Achaffel y uudugolyaeth o lyr. A gwedy gwedu pawb or ynys idaw: y bu varw llyr yny tryded ulwydyn. Ac y bu varw aganipus vrenhin ffreinc. Ac yna y kymyrth cordeila llewodraeth y teyrnas yny llaw ehun. Ac y cladwyt llyr y mywn daerty awnaethoed ehun dan auon soram. Ar temhyl honno a rywnaethoed ef yn anryded ianij bifrontis yr duw a elwit, Aphan delhei wylua y temyl honno: y deuei holl grefftwyr y dinas ar wlat oe henrededu. Ac y dechreuynt pob gweith or a wnelynt hyt ym pen y ulwydyn. B.

[177] A gwedy gwledychu o cordeila pump mlyned yn tagneuedus: y kyuodes ydeu nyeint yny herbyn. Margan vab maglawn. A chuneda vab henwyn a llu aruawc gantunt. A dala cordeila ae charcharu. Ac yny karchar hwnnw o dolur colli y chyuoeth y gwnaeth ehun y lleith. Ac y ranassant wynteu y kyuoeth yrydunt. Ac y doeth y vargan or tu draw y humyr y gogled yny theruyn. Ac y doeth y guneda y parth yma y humyr. llloeger achymry achernyw. B.

[178] Achyn pen dwy ulyned y doethant gwyr a gerynt teruysc ac annundeb a llenwi bryt margan o teruysc. A dywedut wrthaw bot yn gewilyd ac ef yn vab hynaf gadu deuparth y kyuoeth yn eido kuneda. B.

[179] A chynnullaw llu aoruc margan. ac anreithyaw kyuoeth kuneda o lad a llosci. A dyuot aoruc cuneda yny erbyn ae erlit o le y le hyny doeth yg kymry. Ac ar uaes mawr ymorganwc. Ac yna y llas margan ac oe enw ygelwit y lle o hyny hyt hediw. maes margan. ac yno y mae manachloc vargan yn awr. B.

[180] Agwedy y uudugolyaeth honno y kymyrth cuneda holl lywodraeth ynys prydein. Ac y gwledychwys yn tagneuedus teir blyned ardec arugeint. Ac yn yr amser hwnnw yd oed ysayas ac eseu yn proffwydaw yg kaerusalem. Ac yd adeilwyt ruuein y gan deu wroder remus a romulus. yn yr vnuet dyd ar dec kyn kalan mei. B.

[181] Agwedy marw cuneda. y doeth riwallawn y vab ynteu yn vrenhin. Ac yn oes y gwr hwnnw y bu y glaw gwaet. Ac y bu varw y dynyon gan y kakwn yn eu llad trwy y glaw gwaet. B.

[182] Ac yn ol hwnnw y doeth. gorwst. Ac yn ol gorwst y doeth seissyll. Ac yn ol seissyll y doeth iago

vab gorwst y nei ynteu. Ac yn ol iago y doeth kynuarch vab seissyll. Ac yn ol kynuarch y doeth goronw digu. Ac y hwnw y bu deu vab porrex a fernex. (Ferwex. A.) B.

[183] A gwedy marw eu tat y kyuodes teruysc y rydunt am y vrenhinyaeth. A cheissaw o porrex llad ffernex y vraw to vrat. A gwedy gwybot o fernex hynny. ffo a oruc hyt yn ffreinc. A dyuot a phorth odyno y gan suardus vrenhin ffreinc. Ac ymlat a phorrex y vrawt. Ac yna y llas ffernex ar gynnulleitua a doeth gantaw. B.

[184] A gwedy gwybot oe vam (yr hon a elwid Indon. A.) rylad y mab. Sef a wnaeth hitheu keissaw llad y mab byw. yn nial y mab marw. A gwedy gaffel yn kyscu o honei. yd aeth hi ae morwynion ae lad. Ac yna y raunwyt yr ynys yn pump ran trwy symudaw teruyneu. B.

[185] Ac ym pen yspeit. y kyuodes gwas ieuanc clotuawr. Sef oed y enw dyfnawl moel myt mab clydno tywyssawc kernyw. A gwedy marw y tat a chaffel o dyfnawl y gyuoeth. Ryuelu a oruc ar piner (pymer. A.) vrenhin lloeger. A gwedy llad preier y daethassant yn y erbyn. Nidyawc vrenhin kymru ac atater vrenhin y gogled. a dechreu llosci kyuoeth dyfnawl ae anreithyaw. B.

[186] A dyuot aoruc dyfnawl a degmil o wyr aruawc gantaw yn eu herbyn a rodi kad ar faes idunt. A gwedy gwelet o dyfnawl hwyret yd oed yn kaffel y uudugolyaeth. dwyn chwechanwr or gwyr dewraf a oruc a gwiscaw arueu y gelynyon lladedic. a mynet a hwynt racdaw trwy y golynyon ac y llas nidyawc a stater a chaffel y uudugolyaeth. Ac odyna gorescyn gwladoed y brenhined hynny a darostwng pawb wrth y arglwydiaeth ehun. B.

[187] A gwedy daruot o dyfnawl dwyn y pobyl ar kyuoeth wrth y hen teilygdawt. A gwneuthur coron eur idaw. a mein gwyrthuawr yndi. A gosaot kyfreitheu yr ynys. or rei y mae y saesson etwa yn aruer. A rodi noduaeu yr dinasoed. mal y gallei pawb or a uei reit udunt gyrchu yno diogelwch. Ac yr ereidyr allan y rodes ef y breint hwnw ar y meyssyd yn un furuf ac yr temleu. B.

[188] A hyt tra parawys dyffnawl: y pylwys cledyfeu y lladron ar treiswyr. Ac yny dyd ef ny lauassei neb treissyaw y gilyd. Ac ym pen deugein mlyned gwedy kymryt y goron y bu uarw. Ac y cladwyt geir llaw temyl awnathoed ehun yn enryded ydwyes a elwit kyttunndeb. B.

[189] A Gwedy marw dyfnawl y kyuodes teruysc y rwg beli a bran y deu vab ynteu am y kyuoeth. A gwedy llawer o gynhen a dadleu y kymodet trwy getymdeithon. gan amuot gadu y veli coron y teyrnas can oed hynaf. A lloeger a chymry a chernyw genthi. can oed iawnach gadu yr hynaf yn vrenhin. A gadu y vran or parth arall y hymyr a bot yn darystygedic oe vrawt. B.

[190] Agwedy eu tagneuedu yny wed honno. pymp mlyned y buant trwy hedwch y llywyaw eu kyuoeth. Ac yna y doeth meibion annundeb y teruyscu y rygtunt. Ac y waradwydyaw bran am y vot yn darystygedic yw vrawt. Ac wynt yn un vam un tat. Ac yngyndewret. Ac yn un dylyet. B.

[191] Ac egita henni hevit eu llawer ocivrageu ac imladeu provedic achlotvawr wit in eniver weith a deuth Chelff (Thelff) tivisawc Morgan ith wlat ti. ti alleist gwrthwinebu idaw ac en waradwidus i gimhell ar fo. A.

[191] A choffau idaw or dothoed tywyssogyon ereill y ryuelu ac ef. Ryoruot o honaw. Achan oed kystal a defnyd a hynny: erchi idaw torri ae vrawt yr amot aoed waradwyd idaw y uot y rydunt. B.

[192] Ac erchi idaw kymryt merch helsyn vrenhin llychlyn yn wreic idaw. hyt pan vei trwy porth hwnw y gallei gaffel y gyuoeth ae dylyet. A chymryt kyghor yr anhyedwyr twyllodrus a oruc bran. A mynnu y vorwyn yn wreic idaw. A thra yttoed ef yn llychlyn. y doeth beli hyt y gogled a llanw y kestyll ar dinasoed oe wyr chun. Ac eu kadarnhau o pop peth or wei reit. B.

[193] A phan doeth ar vran hynny kynnullaw y llychlynwyr aoruc ynteu. a cheweiryaw llyges diruawr y meint. A chyrchu tu ac ynys prydein. Aphan oed lonydaf gantaw y rwygaw y mor. nachaf Gwythlach vrenhin denmarc a llyghes gantaw yn erlit bran o achawa y vorwyn. Ac ymlad a wnaethant. Ac o damwein y kauas gwythlach y llog yd oed y vorwyn yndi. Ae thynnu a bacheu ym plith y logeu ehun. B.

[194] Ac val yd oedynt velly yn ymlad nachaf wynt kythrawl gwrthwyneb yn gwasgaru eu llogeu pawb y wrth y gilyd o nadunt. Ac or ryw damwein y byrwyt llog wythlach ar vorwyn y gyt ac ef y tir y gogled. B.

[195] Agweti igwelet owir ewlat eu dali agwnaethant ac eu dwin hit at beli. kans en er amser hwnw et oed ev ar glan emoroed morbennoed heni en achaws divotetigaeth bran ivrawt. Ac igit allog gwithlach etoetint teir llog. ar drited or rei henni ahanoed olyghes vran. Ac gweti menegi ir brenin pa beth oedint ar damwein. adarvot idunt llawenau aoruc or ri civarwot e damwein hwnw idaw. kans edoed ivrawt en mennu rivelu eni erbin. A.

[195] Yn y lle yd oed beli yn aros dyuodedigaeth bran y vrawt. pedeir llog y doethant ar pedwared a hanoed olyghes bran. Aphan datganwyt hynny y veli: llawen vu gantaw. B.

[196] Agwedy yspeit ychydic o diewed y doeth bran yr tir ae lyghes gantaw. Ac anuon awnaeth trwy genhadeu ar veli y erchi idaw eturyt y gyuoeth ae wreic rydalyassei ynteu. gan vygythyaw onys atuerhei yn diannot. o caffei le ac amser y lladei y pen. B.

[197] A gwedy y naccau o veli o pob peth o hynny. kynnullaw ymladwyr ynys prydein a wnaeth beli. A dyuot i ymlad a bran. ac ar llychlynwyr a oed y gyt ac ef. A dyuot aoruc bran ae lu ynteu hyt yn llwyn y kaladyr wrth ymgyuaruot. B.

[198] A gwedy eu dyuot y gyt. llawer o greu gwaet a ellygwyt o parth. Achynhebic y dygwydei y gwyr brathedic: y yt gan vedelwyr kyflym. Ac eissoes goruot a wnaeth y brytanyeit. a chymell y llychlynwyr y eu llogeu. Ac yna y dygwydwys pymthegmil o wyr bran. ny dienghis hayach o nadunt yn diuriw dianaf. Ac yna o vreid y damweinwys y vran kaffel un llog. Ac y hwylwys a honno parth a ffreinc. y getymdeithion ynteu. y rei ereill mal y dyccei eu tyghetuen y ffoassant. B.

[199] Ac wedi kaffel o vely y uudugolyaeth honno a dyuo hyt kaer effrawc o gyt gyghor y wyrda yd ellygwyt brenhin degmarc ae ordderch yn ryd gan tragywydawl darystygedigyaeth a theyrnget y gan vrenhined denmarc y ynys prydein. B.

[200] Ac yna kadarnhau a oruc ynteu kyfreitheu y tat. A gossot ereill o newyd. Ac yn penhaf yr temleu ar dinasoedd ar ffryd. Ay peris gwnyuthur ffryd brenhinawl o vein a chalch ar hyt yr ynys o pen ryn kernyw hyt yn traeth catness ym prydein. Ac yn unniawn trwy y dinassoed a gyuarffei ahi. A fford arall ar y llet. o vynyw hyt yn norhampwn yn unyawn trwy y dinassoed a gyfarfei a hitheu. A dwy fford ereill yn amroscoyw yr dinassoed a gyfarffei ac wynteu. Ac eu cyssegru a rodi breint a noduacu udunt mal y rodassei y tat. A phwy bynhac a vynho gwybot y breinheu hynny ar noduaeu: darlleet kyfreitheu dyfnawl.

[201] Ac val y dywetpwyt uchot y doeth bran y ffreinc. yn gyflawn o pryder a goual. am y dehol yn waradwydus o tref y tat y alltuded. Ac nat oed obeith gallu ennill y teilygdawt tracheuyn. Agwedy menegi pop

un o tywyssygyon ffreinc ar neilltu ac na chauas na phorth na nerth. or diwed y doeth hyt ar segyn tywyssauc byrgwyn. A gwedy gwrahu ohonaw y hwnw: kymeint a gauas o garyat a chedymdeithas y gan segyn agwyrda y teyrnas. Ac nat oed yr eil gwr nes noc ef y tywyssawc. hyny oed euo alunyaethei negesseu y teyrnas. Ac adosparthei y dadlyeu. B.

[202] Sef kyffryw wr oed vran. teo oed o pryt a gosced. Adoeth achymhen oed adosparthus. Ac ethreleithus oed wrth hely achwn ac adar ma y dylyei teyrn. Ar tywyssawc agauas yny gyghor rodi un verch aoed idaw yn wreic y vran. Ac ony bei etiued o vab. kanhyadu y vran y gyuoeth gan y verch o bei hyn noc ef. Ac o bei vab idaw yteu. Adaw porth y vran y orescyn y gyuoeth ehun. B.

[203] Ac odyna ny pen y vlwydyn. marw segyn. Ar gwyr a garei vran gynt o getymdeithas yn fawr. ny bu anhawd gantunt darestwg oe wryogaeth. A gwedy tynnu pawb yn un vedwl ac ef. medylyaw aoruc dial ar veli y vrawt y saraet. Ac yna heb annot trwy gyghor y wyrda. kygreiraw aoruc a thywyssogyon ffreinc. val y kaffei yn hedwch kerdet trwy ffreinc. ae lu hyt y traeth ffiandras y lle yd oed y llogeu yn parawt. A gwedy eu dyuot yno yd hwlyasant hyt yn ynys prydein. B.

[204] A phan doeth y chwedyl ar veli. kynnullaw aoruc ynteu icuenctit adewred ynys prydein yn erbyn bran ae lyghes. B.

[205] A phan welas tanwen ma y gweissyon y bydinoed yn parawt. Ac yn chwanhawc y ymgyuaruot. brysyaw aoruc hitheu trwy ergrynodigyon gameu hyt ynlle yd oed vran y mab a oed damunedic genthi y welet. A noethi y dwy vron trwy dagreu a icuon. Ac erchi idaw ef coffau pan yw yny challon hi y crewyt ef yn dyn o peth nyt oed dim. Ac erchi y charedic vab coffau y poen ar gouyt a gawsei yny ymdwyn naw mis yny challon. A chan hynny erchi idaw madeu y vrawt y llit ar bar a oed gantaw wrthaw. kany wnathoed y vrawt idaw ef deunyd llit. kanys beli ae deholasei ef o ynys prydein mayn y gamwed. ae anghymendawt ehun. pan duc brenhin llychylyn am pen y vrawt y geisaw y digyuoethi. B.

[206] Ac ar hyny. sef aoruc bran hedychu ac ufydau y vam. A bwrw y arueu y wrthaw. A dyuot hyt ar y vrawt. A phan welas beli y vrawt y dyuot attaw trwy arwyd tagnefyd. diot y arueu aoruc ynteu a mynet dwylaw mynwgyl elldeu. A chymodi y deu lu y gyt. a dyuot y gyt hyt yn llundein. B.

[207] Ac ym pen yspeit gwedy eu bot ygyt yn ynys prydein. oc eu kyt gyghor y kychwynnassant parth a ffreinc a llu diruawr y veint gantunt. A chyt bei trwy lawer o ymladeu y kymellasant holl tywyssogyon ffreinc yn wedawl darystygedigaeth udunt. A chael y uudugolyaeth ar ffreinc gyt ac wynt kyn pen un olwydyn y kyrchasant parth a ruuein dan anrehithaw awrthwynepei udut. B.

[208] Ac yna yd oed Gabius. a phorcenna yn amherodryon yn ruuein. A phan welas y gwyr hynny na ellynt ymerbyneit. a beli a bran. dyuot yn ufyd awnaethant y rodi darystygedigaeth ac vfylldawt. Ac adaw teyrnget udunt yno o ruuein pop blwydyn gan ganhat sened rufein er gadu tagnefyd udunt. A rodi gwystlon a chedernyt ar eu kywirdab. B.

[209] A gwedy ymchoelut beli a bran y wrth ruuein a chyrchu parth a germania: ediuarhau awnaeth gwyr ruuein am wneuthur y ryw tagnefed honno na rodi eu gwystlon y uelly. Sef awnaethan trwy twyll lludyaw yn eu ol. A mynet yn porth y wyr germania. B.

[210] A phan doeth y chwedel honno ar veli a bran. Sef awnaethant llidyaw yn uwy no meint. Am wneuthur ac wynt y kyfryw twyll hwnw. A medylyaw py wed y gellynt ymlad ar deu lu. Sef y kawsant yn eu kyghor trigyaw beli ar brytanneit wrth ymlad a gwyr germania. Ac y eu darestwg. A mynet bran a ffreinc a byrgwyn gantaw y geisaw dial eu twyll ar wyr rufein. B.

[211] A phan doeth diheurwyd or darpar hwnw ar y rufeinwyr. Sef awnaethant wynteu brysyaw tracheuyn y geisaw rufein o vlaen bran. Ac adaw gwyr germania. B.

[212] A gwedy kaffel o veli y chwedyl hwnw. Sef awnaeth ynteu ef ae lu y nos honno eu pydyaw wynteu y mywn glyn dyrys a oed ar eu ford. B.

[213] A phan doeth gwyr rufein trannoeth yr glyn hwnw. Sef y gwelynt y glyn yn echtewynnu gan yr heul y discleiraw ar arueu eu gelynion. A chymraw a aeth arnynt o tebygu mae bran ae lu aoed yn eu ragot. B.

[214] Ac yna gwedy kyrchu o veli wynt yn diannot. Sef awnaet y rufeinwyr gwascaru yn diaruot a ffo y waradwydus. Ac eu hymlit awnaeth y brytanyeit yn greulawn tra parawys y dyd. Agwneuthur aerua trom onadunt. B.

[215] A chan y uudugolyaeth honno yd aeth beli hyt ar bran a oed yn eisted wrth rufein. Agwedy eu dyuot y gyt. dechreu ymlad ar dinas a briaw y muroed. Ac yr gwradwyd y wyr rufein dyrchauel crogwyd rac bron y gaer a menegi udunt y crogynt eu gwystlon yn diannot ony rodynt y dinas. A dyuot yn eu hewyllys. B.

[216] A gwedy gwelet o ueli a bran gwyr rufein yn ebryuygu eu gwystlon. Sef awnaethont wynteu gan flemychu o antrugarawc irlloned. peri crogi petwar gwystul ar hugeint o dylyedogyon rufein yg gwyd eu rieni ac eu kenedyl. Ac yr hynny yn uwyaf oll parau awnaethant y rufeinwyr trwy engiryolyaeth yn eu herbyn. kans kennadeu a doeth y gan eu deu amherawdyr y dywedut y doynt trannoeth y eu amddiffyn. B.

[217] Sef awnaeth gwyr rufein oc eu kyt gyghor pan doeth y dyd trannoeth. kyrchu allan yn aruawc y ymlad oc eu gelynyon. Athra yttoydynt yn llunauthu eu bedinoed. nachaf y deu amherawdyr yn dyuot megys y hedewssynt. gwedy ymgynullaw yr hyn ar adiagassei oc eu llu heb eu llad. A chyrchu eu gelynyon yn dirybud drac eu kefneu. ar gwyr y dinas or parth arall. A gwneuthur aerua diruawr y meint or brytanyeit. B.

[218] A gwedy gwelet o veli a bran llad aerua gymeint a honno oc eu marchogyon. glewhau awnaethont wynteu a chymell eu gelynyon tracheuyn. A gwedy llad milyoed o pop parth. y damweinwys y uudugolyaeth yr brytanyeit a llad Gabius a Phorcenna. A gwerescyn y gaer. ar hen swllt cudedic a oed yny gaer. hwnw a rannwyt y eu kedymdeithon. B.

[219] Ac yno y trigwys, bran yn amherawdyr yn rufein yn gwneuthur yr arglwydiaeth ny chlywyspwyt kyn no hynny y chreulonet. A phwy bynhac a uynno gwybot gweithredoed bran gwedy hynny. edrych-et estoriau gwyr rufein. kan ny pherthyn ym traethu oweithredoed gwyr rufein. B.

[220] Ac yna y kechwynnwys beli ac y doeth ynys prydein. Ac yn hedwch tagnouedus y treulwys y dryll arall oe oes. Ac odyna y kadarnhawd y keiryd ar kestyll ar dinassoed or a uei reit. Ac y gwnaeth ereill o newyd. Ac odyna yd adeilawd ef kaer a dinas ar auon wysc. yr hon a elwit trwy lawer o amser. kaer wysc. Ac yno y bu y trydyd archescobty ynys prydein gwedy hynny. A gwedy dyuot gwyr rufein yr ynys hon. y gelwit. kaer lleion. ar wysc. B.

[221] A beli a wnaeth y porth yn llundein enryued y weith. Ac oe enw ef etwa y gelwir ef porth beli. y danaw ef y mae discynua y llogeu. Ac yny oes ef bu amylder o eur ac aryant. megys na bu y gyffelyb yn yr oesoed gwedy ef. A phan doeth y diwed ae uarw. y llosccet y escyrn yn lludw. Ac y dodet y mywn llestyr eur ympen y twr awnaethoed ehun yn llundein. B.

[222] A gwedy marw beli: y doeth Gwrgan varyf twrwch y vab ynteu yn vrenhin. Gwr a euelychwys

gweithredoed y tat trw tagneuyd amwnder. A chynhal y teyrnas rac estrawn genedyl yn prud. A chan kymell y elynyon yn dylyedus y darestwg idaw. Ac ym plith y weithredoed y damweinwys nakau o vrenhin denmark y teyrnget a talyssei y tat. Ac a dalyei ynteu y talu idaw." B.

[223] Acheweiraw llyges a oruc gwrgan a mynet hyt yn denmarc. A gwedy creulawn ymlad a llad y brenhin y kymhellwys y bobyl y wedawl darystygedigaeth idaw. ar teyrnget val kynt y ynys prydein. B.

[224] A phan yttoed yn dyuot parth ac ynyssed orc tracheuyn. nachaf yn kyuarnot ac wynt dec llog ar hugeint yn llawn o wyr a gwraged. A gwedy gouyn udunt o pyle pan hanoedynt. A phyle yd eynt. y kyuodes eu tywyssawc ac adoli y wrgant. Sef oed y enw. bartholonn. Ac erchi nawd idaw. A dywedut a oruc y rydeol or yspaen. Ac bot ulwydyn a hanher yn krwydraw y moroed yn keissaw lle y kyuanhedu yndaw. Ac erchi idaw ran yn ufyd darystygedic o ynys prydein y chyuanhedu dan tragwydawl geithiwet yr neb a uei vrenhin arnei. kany ellynt diodef mordwy yn vwy no hynny. B.

[225] A gwedy gwybot eu neges. truanhau a wnaeth gwrgant wrthtunt. Ac anuon kyuarwydyt udunt hyt yn iwerdon a oed diffeithle yna y rodes gwrgant yr ynys honno yr gwydyl yn gyntaf eiroet. Ac yna yd aethant hyt yn y werdon. Ac y kynhydassant yr hynny hyt hediw. Ac yna doeth gwrgant y ynys prydein. Ac yno y bu uarw. Ac y cladwyt yg kaer llion ar wysc. y lle ar daroed idaw ef y teccau. B.

[226] A gwedy gwrgan y doeth kuhelin y uab ynteu y vrenhin. A hyt tra parawys y oes. yn tagnouedus y traethwys y teyrnas. A marcia oed enw y wreic. A honno oe ethrylith a dechymygwys kyffreith. Ac alwei y brytanyiet kyfreith marcia. Ar gyfreith honno a troes aluryt vrenhin o gymraec yn saesnec. B.

[227] Gwedy marw kuhelyn y doeth y vrenhinyaeth yn llaw varcia a seissyll y mab. kanyt oed ar y mab oet nam seith mlwyd pan fu varw y tat. Ac wrth hynny y gadwyt y vrenhinyaeth yn llaw y wreic kans doeth ethrelithus oed. A gwedy marw marcia y bu yn vrenhin seissyll. A gwedy seissyll y doeth kynuarch y vab yn vrenhin. Ac yn ol kynuarch. y doeth. dan y vrawt ynteu yn vrenhin. Ac yn ol dan. y doeth morud y vab yn vrenhin. Ar gwr hwnw clotuawr uu pei nat ymrodei y greulonder. pan littyei nyt arbedei neb mwy noe gilyd. Teg oed ynteu a hael. Ac nyt oed un dyn dewrach noc ef. B.

[228] Ac yn y amser ef y doeth brenhin moren yr gogled a llu mawr gantaw. Ac y doeth morud yny erbyn. A gwedy bot ymlad y rydut y kauas morud y uudugolyaeth. Ac erchi a oruc dwyn pawb oe elynyon wedy y gilyd attaw y eu llad y gyflenwi y greulonder. A hyt tra vei yn gorffwys. yd archei eu blygaw yn vyw rac y vron. A gwedy eu blygaw eu llosci. Ac ar hynny y doeth ryw awystuil athrugar y ueint y wrth vor y werdon. A dechreu llyngcu y ganarffei ac ef o dyn. Ac y aeth ynteu ehun y ymlad ac euo. A gwedy treulaw y arueu yn ouer. y llynckwys yr aniueil ef mal pysgodyn. Ac o hynny allan ny welat nac ef nar enefeil. B.

[229] A phymp meib a uu y uorud, A hynaf oed gorboniawn. A hwnw a gymyrth llywodraeth y teyrnas yn llaw. A hwnw a uu tagnouedus ac araf. Ac ymlaen pop peth y talei teilwg anryded y dwyeu. Ac uniawn wirioned yr pobyl. Ac attnewydhau temleu y dwyeu ar dinasoed a oruc. a gwneuthur ereill o newyd. Ac yn yr amser hwnw kymeint uu amlder eur ac aryant a goludoed ereill. Ac nat oed un or ynyssoed a allei ymgyfflybu idi. Ac ym pen hynny oll y kyuoethogei ynteu yn hael pawb or tlodyon mal na bei reit y neb. wneuthur treis na lledrat na chribdeilei ar y gilyd. B.

[230] A gwedi marw gorboniawn yn llundein. y drychauwyt arthal y vrawt yn vrenhin. Ac nyt tebic vu ef yw vrawt kyn noc ef. y bonhedigyon a estyghei. Ac ar andylyedogyon a urdei. A gwedy na allwys y dylyedogyon y diodef duunaw yny erbyn awnaethant ae diwreidaw o gadeir y teyrnas y ymdeith. A dodi elidyr y vrawt yny le. B.

[231] Ac ym pen pump mlyned gwedy y vot yn vrenhin. yd oed yn hela diwarnawt yn fforestlwyn y kaladyr nachaf arthal y vrawt y gwr a dyolassit oe vrenhinyaeth gwedy ryuot yn crwydraw gwladoed ereill am y geissyaw y gyuoeth tracheuyn. Ac ny chawsei dim. Sef a wnaeth elidyr truanhau wrthaw ae dwyn gantaw hyt yg kaer alclut ae dodi yny ystauell ehun. ymgaeledus. B.

[232] A chymryt eleuyt arnaw awnaeth elidyr. Ac anuon ar y holl wyrda y erchi udunt dyuot yw wybot. A gwedy eu dyuot yn llwyr hyt y dinas. Erchi y pop un onadunt dyuot y ymwelet un ar ol y gilyd. Ac y delhei pop un. gwyr yn parawt gantaw y eu daly ac y eu llad ony wrheynt y arthal. A gwedy gwelet hynny ac ofyn eu llad, y gwrhayssant y arthal. B.

[233] Ac odyna y doethant hyt yg kaer efrawc. Ac yna y kymyrth elidyr y goron y am y pen ehun. Ac y dodes am pen y vrawt. Ac wrth hynny y gelwit ef elidir war. B.

[234] Ac odyna y gwledychwys arthal deg mlyned gan ymchoelut y chwyl yny gwrthwyneb. urdaw y dylyedogyon a gestyg yrei andlyedawc. A gwneuthur iawnder a phawb. A phan vu varw y cladwyt yg kaer lyr. B.

[235] Ac yna eilweith y deuth elidyr yn vrenhin. Ac ym pen rynnawd y kyuodes ywein a pheredur y deu vroder ieuaf yn eu erbyn. A gwedy ymlad ac ef. daly elidyr ae rodi yn llundein ygkarchar. Arannu yr ynys y redunt. nyt amgen lloegyr a chymry y ewein. ar gogled y peredur. Ac ym pen seith mlyned y bu varw ywein. Ac y doeth y kyuoeth yn llaw peredur. Ac ym pen yspeit gwedy hynny y bu varw peredur. B.

[236] Ac yma y doeth elidyr y tryded weith yn vrenhin. A phan aeth or byt hwn yd edewis agreiffeu da yny ol. B.

[237] A gwedy marw elidyr y doeth rys mab gorboniawn. A hwnnw adelis yn ol weithredoed elidyr y wneuthur o gwbyl. B.

[238] A gwe y marw rys. y doeth morgan vab arthal. A hwnnw o dysc y rieni awnaeth iawnder. B.

[239] A gwedy marw morgan y doeth einyawn y vrawt ynteu. A phellau aoruc ynteu y wrth weithredoed y vrawt. Ac am y greulonder y bwrwyt ef y chwechet ulwydyn oe teyrnas. B.

[240] Ac yna y doeth idwal vab ywein y geuynderw ynteu y vrenhin. A hwnw a wnaeth iawnder rac ofyn damwein einyawn. B.

[241] Ac yn ol idwal y d. run vab peredur. Ac yn ol run y doeth gereint vab elidyr. Ac yn ol gereint y doeth kadell y vab ynteu. Ac yn ol kadell y doeth coel. Ac yn ol coel y d. porrex. Ac y porrex y bu tri mab. ffulgen. ac idwal. ac andryw. A phob un or rei hyny a deuth yn ol y gilyd. Ac yn ol y rei hyny y doeth uryen. Ac yn ol uryen y d. elnyd. Ac yn ol eluyd y d. clydaw. Ac yn o clyaw. y doeth clydno. Ac yn ol clydno. y doeth gorwst. Ac yn ol gorwst. y d. meiryawn. Ac yn ol meiryawn. y doeth. bleidut. Ac yn ol bleidut y d. caph. Ac yn ol caph. y d. ewein. Ac yn ol ewein. y d. seissyll. Ac yn ol seissyll y d. blegywryt. B.

[242] Ac ny bu yn yr oesoed kantor kystal ac ef. Ac rac dahet y kanei y gelwit duw y gwaryeu. Ac yn ol blegywryt y doeth arthmael y vrawt. Ac yn ol arthmael y d. eidol. Ac yn ol eidol y doeth. rydyon. Ac yn ol rydyon y d. ryderch. Ac yn ol ryderch y d. sawyl pen uchel. Ac yn ol sawyl y doeth pyrr. Ac yn ol pyrr y d. capoir. Ac yn ol capoir. y d. manogan y vab. B.

[243] Ac yn ol manogan. y d. beli mawr y vab ynteu. A deu ugeint mlyned y bu vrenhin yn ynys prydein. B.

[244] Ac y veli y bu tri meib. lud. a chaswallon. a nynnyaw. A gwedy marw beli mawr. y gwnaethpwyt llud y vab yn vrenhin. Y gwr a vu gwedy hynny. gogonedus adeilawdyr kaeroed a dinasoed. hwnw a atnewydwys muryoed llundein ae tyreu. A chyt bei llawer idaw o dinassoed. hwnw eissoes a garei ef yn vwy nor un. Ac wrth hynny y gelwit hi kaer lud. Ac wedy hynny y gelwit ef yn llundein gan lygru y henw. A phan vu varw llud y cladwyt yn llundein. geir llaw y porth a elwir etwa oe enw ef porth lud yn gymraec. Ac yn saesnec ludysgat. A deu vab a vu idaw ynteu. auarwy a theneuan. B.

[245] A phan vu varw llud nyt oet ar un or meibon val y gellit ywneuthur yn vrenhin. Ac wrth hynny y gwnaethpwyt kaswallawn yn vrenhin. Ac ymcyrchaucl aoruc ynteu y haelder a daeoni. hynny oed y glot ef ae volyant yn hedec tros y teyrnas pellaf. Ac wrth hynny y kauas ynteu vot yn vrenhin. Ac eissoes herwyd y haelder. ny mynwys e vot y meibon yn di ran or teyrnas. namyn rodi y auarwy lludein a iarllaeth keint. Ac y teneuan iarllaeth kernyw. Ac idaw ynteu ehun coron y teyrnas. B.

[246] Ac yn yr amser hwnw m[illegible] y keffir yn ystoria gwyr rufein. gwedy daruot y wlkessar orescin ffreinc a dyuot hyt ar lan y mor ar traeth rwyten. A gwedy arganuot ohonaw odyno ynys prydein. A gwybot py tir oed a phwy oed yn y chyuanhedu. y dywawt pan yw un genedyl oed wyr rufein ar brythanyeit. Kans o encas yd hanoedynt wy ar bryttanyeit. Ac eissoes om tebic i. neur derw udunt dygenedlu y wrthym ni. kany wdant beth yw milwriaeth wrth eu bot y mywn eigawn o dieithyr y byt yn presswylyaw. Ac wrth hynny mi a tebygaf bot yn hawd eu kymell y talu teyrget y rufeinawl amherawdyr megys y tal yr holl vyt. Ac eissoes yawn yw anuon y erchi teyrget udu. blayn llafuryaw gwyr kymeint a gwyr rufein yn eu kymell y talu teyrnget. A rac coti priaf hen eu hentat wy gan ellwg gwaet an kereynt. Ar ymadrawd hwn a dotes wlkessar y mywn y llythyr. Ac anuones at gaswallawn vab beli brenhin prydein. A phan dyganwyt y llythyr y gaswallawn. sorri a wnaeth. ac anuon llythyr ar wlkessar tra therwyn a oruc kaswallawn yn y mod hwn. B.

[247] Kaswallawn brenhin prydein yn anuon anerch y wlkessar. O ryuedu meint sychet a chwant gwyr rufein y aur ae aryant mal na allant dyodef yn bot ni yg kwr y byt. val yd ym ni. heb ef. y dyodef peryggyl yr eigawn y mywn ynyssed heb gymell teyrnget arnadunt. A menegi idaw nat digawn gantaw keissaw teyrnget. namyn tragywydawl geithiwet. A bwrw eu rydit y gantunt. yr hon yd oedynt wy yn buchedoccaeu ohonei. A menegi y wlkessar nat herwyd kaithiwet y dylyei adolwyn udunt. namyn herwyd kerenyd. kans o un llu pan anhoedynt. kans rydit a ordyfnassant wy yn gymeint ac na wydynt peth oed geithiwet. Ar rydit honno bei keissei y dwyeu y dwyn y genym. ni alafuryem yny meint y gallem y amdiffyn. Ac wrth hynny menegi y wlkessar an bot ni yn parawt y ymlad dros an gwlat ac an rydit os eno ageu dyuot y ynys prydein. B.

[248] A gwedy menegi grym a llythyr y wlkessar. kynnullaw llyghes a wnaeth ynteu wrth dwyn ar weithret yr ymadrawd a anuonassei ynteu yny lythyr ar gaswallawn. B.

[249] A chwedy kaffel damunedic wynt drychauel hwyleu a dyuot aber temys yr tir. Ac yna y doeth kyswallawn a holl gedernyt ynys prydein gantaw yn eu herbyn. a beli tywysawc y ymladeu ae benteulu ae deu nyeint auarwy tywysawc llundein. a theneuan tywysawc kernyw. a chreidu vrenhin prydein. a gwerthaed vrenhin gwyned. a brithael vrenhin dyuet. Ac y am hynny ieirll a barwnyeit a marchogyon urdolyon. B.

[250] Sef y kawsant yny kyghor. kyrchu ulkesar yny bebylleu kyn kaffel ohonaw dyuot yr wlat. gan tebygu bot yn anhaws y wrthlad gwedy y kaffei ae dinasoed ae kestyll. A gwedu llunyaethu eu bedinoed a chyrchu gwyr rufein yny pebylleu yn diannot. Ac yna y bu kyn galettet y vrwydyr hynny oed y tyweyrch yn rydec o waet. mal pei delhei deheuwynt yn deisyuyt y todi eira a rew. B.

[251] Ac ual yd oedynt yn yr ymfust hwnw y kyuaruu y vydyn yd oed nynhyaw vab beli ac auarwy vab llud yn y llywynw a bydin ulkesar. a llinaru bydin yr amherawdyr. Ac ar hynny yd ymgyuaruu nynyaw ac ulkesar. a diruawr lywenyd a gymyrth nynyaw yndaw am damweinaw idaw gyuaruot a gwr kyuurd a hwnw. Ac yndiannot y gyrchu a oruc. A phan welas ulkesar nynhyaw yny kyrchu a chledyf noeth troi y taryan yn wyehyr gyflym a oruc ac erbynyeit y dyrnawt a oruc arnei. a megys y gadwys y nerthoed idaw gosot a wnaeth ynteu a chledyf ar nynyaw ar uchaf y helym. ar penfestyn yr eil yn gyflym mal y bei angheuawl. A phan welas nynyaw hynny erbynyeit y dyrnawt a oruc ay daryan. a chymeint vu y dyrnawt ac y glynhws y cledyf yny taryan. ac rac ruthyr bydinoed yn kyrchu pan y bu reit yr ymherawdyr adaw y cledyf yny taryan heb y gafel o honei. B.

[252] A chwedy kafel o nynyaw y kledyf hwnw acrua dirvawr y meint a wnaeth oe elynyon. a gwedy treulaw llawer or dyd yny wed honno y brytanyeit a ganas y uudugolyaeth. a ffo ulkessar ae u yw llogeu. a chymryt y mor yn lle castell udunt. a llawen vu gantunt gafel hyny odiogelwch ac yny kyghor y kawssant na dilynyn ymlad ar brytanyeit hwy no hynny. A hwylaw a wnaethant parth a ffreinc. B.

[253] A gwedy kaffel y uudugolyaeth honno diruawr lywenyd a gymyrth kysswallawn yndaw. ac yn gyntaf talu molyant y eu duweu. Ac odyna rodi rodyon mawr oe wyr o tir a daear ac eur ac aryant a goludoed ereill val y dirperei y enryded. Ac eissoes yr hynny goualus oed a bot nynyaw yn vrathedic a chyn pen y pythewnos y bu varw. ac y cladwyt yn llundein. ac y dodet y cledyf a dugassei yny taryan rac ulkessar yn yr yscrin y gyt ac ef. sef oed enw y cledyf ageu glas sef achaws y gelwit velly nyt oed dim cr y anwaetei arnaw a vei vuw. B.

[254] Ac odyna gwedy dyuot ulkessar hyt yn traeth ffreinc. sef a wnaeth y ffreinc medylyaw bwrw y arglwydyaeth y arnudunt wynteu wrth y dyuot ar ffo y wrth y brytanyeit. a thebygu y uot y wanach o hynny. ac attunt heuyt yr dathoed bot y weilgi yn gyflawn o lyghes gan gaswallawn yn y liymlit. Ac wrth hynny glewach oed y ffreinc yn keissaw y wrthlad oe teruyneu. B.

[255] A gwedy gwelet o ulkessar hynny ymgallau a oruc ynteu ac nyt ymrodes y pedruster ymlad ar pobyl greulawn honno namyn agori y tryssor a rodi y pawb amylder o eur ae aryant a bodlonhau pawb or bonhedigyon ac eu tagneuedu velly ac eu dwyn yn un ac ef. Ac y gyt a hynny adaw eu breint ac eu dylyet y pawb or ae kollassei a rydit y a wei kaeth. Ar gwr a oed gynt yn anhrugarawc megys llew dywal gwedy y hespeilliaw ae treissaw ar awr honno yd oed hwnnw megys oen gwar yn adaw talu ac edrud pop peth udunt ac ny orffowysswys or gwaradogrwyd hynny trwy eu hedychu yny duc oll yn un ac ef. Ac yn yr amser hwnw nyt oed na chywyd nac ymdidan gan neb namyn am ulkessar a budugolyaeth y brytanieit. B.

[256] Cynn pen y dwy vlyned eilweith parattoi llyghes aoruc ulkessar y geissaw dial ar gysswallawn y sarhaet awnaethoed idaw. A phan gigleu gaswallawn hynny cadarnhau y kestyll aoruc ac adeilyat ereill o newyd a gossot keitweit kedeyrn ym pop porthua yg kelych ynys prydein. a gwneuthur sycheu o hyrn plymhedic ar hyt kenawl temys a gossot y rei hynny wrth gadwyneu y tyllu y llogeu ydydanunt o delyn yno ac odyna yd aeth kyswallawn a holl gedernyt yr ynys gantaw y kadw yr aruortir ractaw. B.

Yma y mae dalen ar goll yn llyvyr B.

[257] A gwedy nas kaffai auarwy tagneued yn un mod yd anuones y geissaw nerth at ulkessar ymherawdyr rufein. trwy lythyr yny y mod hwn. B.

[258] Auarwy tewyssawc llundein yn anuon anerch y ulkessar. A gwedy damunaw gynt y ageu damunaw weithon y iechyt. ediuar yw genyfi dala yth erbyn ti pan vu yr ymlad rot a chaswallawn an brenhin ni. kans pei peidasswn i ti a gaffoedut. y uudugolyaeth. A chymeint syberwyt a gymyrth ynteu gwedy kael y uudugolyaeth trwy vy nerth i. Ac y mae ynteu weithon ymdigyuoethi y inheu. Ac velly y mae ef yn talu drwc tros da y un. Miui ae gwnaethof ef yn tref tatawc. ac ynteu y syd ymditretatu inheu. Miui ae gossodeis ef yr eilweith ar y vrenhinyaeth. Ac ynteu yssyd yn wenychu vyn deol inheu. a minheu a alwaf tystolyaeth y nef a dayar na hedeisi y var. o nyt na rodwn vy nei oe dienydu y wiryon. Ac edrychet dy doethineb ti deunyd y lit ef. damweinaw awnaeth y deu nyeint y ni ware palet. a gwedy goruot om nei i. sef awnaeth nei y brenhin llidiaw. a chyrchu y llall a chledyf. ac yn hynny y serthwys nei y brenhin ar y cledyf hynny aeth trwydaw. A gwedy dyuot hynny ar y brenhin yd erchis ynteu vy nei i yw dienyd tros y llall. Ac wrth nasrodeis y mae ynteu yn anreithaw vyg kyuoeth ac ny distryw ac wrth hynuy yd wyf y gwedidaw ty trugared ti. ac yn erchi ty nerth y gynhal vyg kyuoeth hyt pan vo trw vyn nerth inheu y kefych titheu gwrescyn ynys prydein. ac nac amhenet ty bruder ti dim o hyn. kans or deuawt hon yd aruerant y rei marwawl gwedy eirlloned tagnouedu. A gwedy ffo ymchoelut ar y uudugolyaeth. B.

[259] A gwedy edrych y llythyr o ulkessar. sef agauas yny gyghor ef ae wyrda nat elynt y ynys prydein yr geireu y tewyssawc. hynny delhei wystlon a ellit y credu. A gwedy kynhetau hynny y auarwy yd anuones kynan y vab a deg gwystyl arrugeint o dylyedogyon y gyuoeth ygyt ac ef. B.

[260] A gwedy dyuot y gwystlon kychwyn ar y mor aoruc ulkessar ar llu mwyaf a ganas y gyt ac ef. A dyuo y dofyr yr tir. A phan gigleu gyswallawn hynny lle oed yn ymlad allundeiu ymadaw ar dinas aoruc. A bryssyaw yn erbyn yr ymherawdyr ae lu. Ac val yd oed yn dyuot parth a cheint nacha wyr rufein yn pebyllyaw yny lle hwnw kan auarwy ae dugassei wynt yno wrth dwyn kyrch deissyuyt am pen kyswallawn y ellwg ygaer y gantaw. B.

[261] A phan welas gwyr rufein y brytanyeit yn dyuot attunt gwiscaw eu harueu a chweiryaw eu llu yn vydinoed awnaethant. Ac yna y kymyrth auarw vab llud pumil o wyr aruawc ae dwyn y lwyn coet a oed yn agos. val y gallei pan vei amser dwyn kyrch dirybud am pen kyswallawn ae lu. B.

[262] A gwedy daruot llunyaethu y bydinoed y gwnaethpwyt aerua greulawn o pob parth. kans y gwyr lladedic a dygwydeu mal deil mis hydref gan wynt kadarn. Ac val yd oedynt yn yr ymffust hwnnw kychwyn a oruc auarw ae varchogyon gantaw or llwyn. bydin gyswallawn or tu dracheuyn ar vydin honno a oed anreithedic or tu arall gan ruthyr gwyr rufein. Ac yna rac kywarsaghedigyaeth y kywtawtwyr ehun ny allwys seuyll y ryctunt namyn kymryt eu ffo. Ac yn agos udunt yd oed mynyd karegawc. a llwyn o goet dyrys a oed ym pen y mynyd. A hyt yno y ffoes kyswallawn ae lu. B.

[263] A gwedy dygwydaw yn y ran waethaf or ymlad a chael goruchelder y mynyd gwrthwynebu yn wrawl awnaethant y eu gelynyon a oed yny ymlit gan geissaw trigyaw ar y tor. Ac eissyoes serthed y mynyd ae drysswch ae gerric a oed ymdiffyn yr brytanyeit mal y gellynt wneuthur aerua vawr or gelynyon. B.

[264] Ac yna sef awnaeth ulkessar codi y lu yg kylych y mynyd y worchaluw rac dianc neb odyno. kans y vedwl oed kymell y brenhin y darostwg idaw trw newyn. yr hwn ny allassei y gymell trwy ymlad. B.

[265] O enryved genedyl y brytanyeit a gymellawd dwy weith y gwr hwnw ar ffo yr hwn ny allwys yr holl vyt gwrthwynebu idaw. Ae wynteu yr awr hon yn ffoedigyon rac hwnnw. Ac eissoes yn gwrthwynebu yn wrawl idaw. Ac yn parawt y diodef ageu dros eu gwlat. B.

[266] Ac ym pen yr eil dyd gwedy gwarchae kaswallawn velly. Ac nat oed na bwyt na diawt udunt. ofynhau a oruc bot yn dir idaw rac newyn ymrodi y garchar yr amherawdyr. Sef a oruc anuon ar auarwy y erchi idaw tagnouedu ac ulkessar rac yw genedyl golli eu teilygdawt ar y teyrnas gwedy darffei idaw daly kaswallawn. A menegi idaw kyt ryfelei ar talym ar auarwy yr darestwg ae gospi ny mynhei ef y ageu yr hynny. B.

[267] A gwedy menegi hynny y auarwy y dywawt ynteu nat oed hawd karu tywyssawc a vyd gwar ar ryfel megys oen a chreulawn a dywal ual llew ar yr hedwch. Oi a duw nef a dayar yr awrhon y mae ef ym gwediaw i y gwr a oed arglwyd arnafi gynheu yr awr hon y mae ef yn damunaw tagnouedu trwy darystegedigyaeth ac wlkessar y gwr a oed gan wlkessar kynno hyn. gaffel tagnoued y gantaw. Ac wrth hynny y dylyei ef edrych ar wneuthur iawn yr gwr y gallwys ef dwy weith trwy y nerth wrthlad ymherawdyr rufein dwy weith or teyrnas ar trydyd weith y dwyn idi oe anuod. Ac wrth hynny nyt oed iawn dadleu ar gam ac enwir a miui kan gelleis i wneuthur y gwyssaetheu hynny yna. Ac yr awr hon y gwneuthym hon. Ac wrth hynny annoethinab yw gwneuthur sarhaedeu na cham yr neb y kaffer vudugolyaeth trwydaw yn wastat kany eill un tewissawc gaffel budugolyaeth heb y gwyr a ellyghant y gwaet yn ymlad drostaw. Ac yr hyny eissoes os gallafi mi a wnaf tagnoued ac ulkessar kan deryw dial yn digawn arnaw ef y syrhaet awnaeth y mi. Pan ydyw yn gwediaw yn uytrugared i. B.

[268] A chychwyn a oruc auarw a dyuot gan urys hyt y lle yd oed ulkessar a darestwg rac y vron gan dywedut yr ymadrawd hwn. Llyma weithon goleu ac amlwg yt bot yn digawn y dieleisti ty lit ankaswallawn gwna weithon trugared ac ef. beth a vynnyt amgen gantaw ef noc ufylltawt a darystygedicyaeth a thalu teyrnget y rufeinawl teilygtawt. A gwedy na rodes ulkessar atteb idaw y dywawt auarwy wrthaw val hyn tidi ulkessar heb ef hyn a adeweis i y tidi. gwedy goruydit ar gaswallawn. darystygedigyaeth a theyrnget y ti o ynys prydein. llyma kyswallawn gwedy goruot arnaw. llyma ynys prydein yn darystygedic ytt trwy vy nerth i. beth a dylyafi yti y wneuthur ymlaen hynny nyt ef dww greawdyr nef a dayar a wnel diodef ohonafi gyrcharu kyswallawn vy arglwyd. Ac ynteu y gwneuthur iawn y mi am y syraedeu a wnathoed ym. Ednebyd ti ulkessar nat hawd llad kyswallawn. a miui yn vyw y gwr nyt kywilyd genyf rodi vy nerth idaw o ny bydy ti wrth vyg kyghor. B.

[269] Ac yna rac ofyn auarwy arafhau a oruc ulkessar a thagnouedu a kyswallawn. A chymryt teyrnget o ynys prydein pop plwydyn. sef oed meint y teyrnget teirmil o punoed. Ac yna yd aethant ulkessar a chyswallawn yn gytymdeithon. Ac y rodes pop un y gilyd rodyon mawrweirthawc o eur ac aryant a thlysseu. Ac y bu ulkessar y gauaf hwnw yn ynys Prydein. B.

[270] A dechreu gwanwyn y cychwynwys ef rydaw a ffreinc. A ym pen yspeit o amser kynnullaw llu mawr awnaeth ulkessar. Ac ar llu hwnw yd aeth ef parth a rufein yn erbyn pompeis y gwr a oed yn lle amherawdyr yna y dala yn erbyn ulkessar. A chan ny perthyn ar y deunyd i mi traethu o weithredoed gwyr rufein. hyny uo hebryuedic y rei hynny yd amhoelwn ar yn treuthawt nyhunein. B.

[271] Ac ym pen yspeit seith ulyned gwedy mynet ulkessar o ynys prydein. y bu varw kyswallawn. Ac y cladwyt yg kaer efrawc kan vrenhinawl arwylyant. B.

[272] Ac yn ol kyswallawn y gwnaethpwyt teneuan vab llud yn vrenhin. kans auarwy a athoed y rufein y gyt ac ulkessar. A hwnw a traethwys y teyrnas. trwy hedwch a thagnoued. Gwr dewr oed teneuan ac agarei gyfiawnder yn vawr. B.

[273] A gwedy marw teneuan y deuth gynuelyn y vab yn vrenhin. marchawc gwych trybelit oed hwnw

anagassei ulkessar ac ae wrdassei mewn arueu a chymeint un garyat gwyr rufein gan gynuelyn. A chyt gallei attal eu teyrnget oc eu anuod y rodei udunt heb oruot y chymell. B.

[274] Ar amser hwnnw y ganet iessu grist or arglwydes veir wry y gwr y brynwys y kristynogyon yr creu y gallon. B.

[275] A gwedy bot kynuelyn yn vrenhin deg mlyned y bu deu vab idaw Gwydyr. a gweryd adar weudawt. A gwedy marw kynuelyn y gwnaethpwt gwydyr yn vrenhin ac y dechreuwys attal teyrnget gwyr rufein. Ac yna y doeth gloyw ymherawdyr rufein a llu ganthaw y ynys prydein y gymell y teyrnget tracheuyn. a thywyssawc y ymladeu y gyt ac ef sef oed y enw lilius hamo yr hwn ni wnaei ef dim eithyr trwy y gyghor. ac y porchestyr y deuthant yr tir. ac y gwnaethant mur maen ar pyrth y dinas mal na chaffei neb o vywn vynet allan. kans. eu bryt oed y gwarchae ae darestwg uelly. B.

[276] A gwedy dyuot y chwedyl ar wydyr kynnull aoruc ynteu holl ymladwyr ynys prydein yny herbyn. A gwedy dyuot y deu lu y gyt bydinaw o pop parth awnaethant a dechreu ymlad a molestu y elynyon a oruc gwydyr yn wychyr a mwy a ladei ehun no ran vwyaf oe lu. Ac ar hynny yd oed yr ymherawdyr ae lu yn kyrchu eu logeu y ffo pan aeth y twyllwr bradwr gan lilius hamo. a chymryt arueu un or brytanyeit a ryladyssit ac yn yr arueu hynny annoc y brytanyeit megys kyt bei un o nadunt. ac adaw udunt y uudugolyaeth o perheyn velly kan ieith a dyuodeu y brytanyeit a dyscassei ym plith y gwystlon a oed yn rufein o ynys prydein a cherdot yn astrywys trwy y bydinoed hyny deuth geir llaw y brenhin. B.

[277] A phan gauas gyffle taraw y brenhin hyny vu y pen hyt y maes a chledyf. A llithraw trwy y bydinoed gan yr yscymun vudugolyaeth honno hyny deuth ar y lu ehun. B.

[278] A gwedy gwelet o weiryd adarweinidawc rylad y brenhin bwrw y arueu ehun y wrthaw a gwiscaw arueu y brenhin. ac annoc y gytemdeithon a gyrru angerd y ymlad yndunt megys pei euo wei y brenhin. A phawb a vu wrth y dysc. Kans ny wydynt rylad eu brenhin. A gwedy ymlad yn drut wynt awnaethant aerua creulawn or eu gelynyon. Ac or diwed ffo aoruc gwyr rufein yn dwy ran. Gloyw ar lleill ran oe lu yn vriwedic aeth yw llogeu. A chymryt y rei hynny yn diogelwch idaw. a lilius a ran arall a gyrchwys y koet kany chafas yspeit y vynet yr llogeu. B.

[279] A thebygu awnaeth Gweiryd vot Gloyw yn ffw yr koet y gyt a hamo. Ac wrth hynny ny orffowyswys oc eu hymlit hyny gordiwedawd ar lan y mor yny lle a elwir oe enw ef nordhamtwn. yno yd oed porthua adas y discynnu llogeu. Ac val yd oed hamo yn kaffel y llogeu y doeth gweiryd yn deissyuyt am eu pen. ac yno y lad. Ac yr hynny hyt hediw y gelwir y porthua honno nordhamptwn yn saesnec. Ac yn gymraec porth hamo. B.

[280] A thra yttoed Weiryd yn ymlit hamo. yd oed loyw ar hyn a diagassei oe lu gantaw gwedy rymchoelut tracheuyn. Ac yn ymlad ar dinas a elwit yna kaer peris. Ac elwir weithon porchestyr. Ac yn diannot gwedy kaffel y gaer ae goresgyn a gwascaru y muroed. kychwyn awnaeth yn ol gweiryd a ryathoed hyt yg kaer wynt. A gwedy y dyuot hyt yno dechreu ymlad ar gaer. A medylyaw awnaeth ef gwarchae gweiryd hynny delhei yny ewyllys rac newyn. B.

[281] A gwedy gwelet o weiryd y warchae ef uelly. kyweiryaw a oruc ef y lu yn vydinoed. A chyrchu allan wrth rodi kat ar vaes. A phan welas yr amherawdyr weiryd mor lew a hynny. Sef awnaeth anvon attaw y geissaw tagneued a duundeb y gantaw. kans ovyn oed gantaw glewder a chadernyt y brytanyeit. Ac wrth hynny diogelach vu gantaw trwy synwyr a doethineb eu gwaret yna. noc ymrodi yn pedruster ymlad ac wynt. Sef yd anuones y gan y genhadeu. rodi y uerch y weiryd yn wreic idaw gan gymell brenhinyaeth ynys prydein dan goron rufein. B.

[282] Ac o gyghor ywyrda ae doethon. y kymyrth gweiryd y tagneued honno. A chymryt merch yr amherawdyr yn wreic idaw. A dywedut awnaeth y wyrda wrthaw heuyt nat oed waradwyd idaw darestwg y amherawdyr rufein. pan vei yr holl vyt yn wedawl idaw. Ac uelly trwy y ryw amydrodyon hynny ufydhau a oruc gweiryd wrth eu kyghor. A darestwg yr amherawdyr. Ac yn dianot yd anuones gloyw yn ol y uerch wrth y rodi y weiryd. A thrwy porth gweiryd ae ganhorthwy gwedy hynny y goresgynnwys gloyw yr ynyssoed ereill yny gylych. B.

[283] A gwedy mynet y gayaf hwnnw heibaw. y doeth y kynhadeu o rufein a merch yr amherawdyr gantunt. Ac y dodassant hi ar y that. Sef oed y henw gwenwissa. Ac enryuedawt oed y thegwch o pryt a gosced. A gwedy y roi y weiryd mwy y karei ef hi nor holl vyt. Ac wrth hynny y mynwys ynrydedu y lle kyntaf y kyscwys genthi o tragywydawl gof. Ac erchi a wnaeth yr amherawdyr adeilat dinas yny lle hwnnw y gadw koff rywneuthur neithoreu kymeint a reihynny trwy yr oessoed. B.

[284] Ac ufydhau awnaeth yr amherawdyr y hynny. Ac adeilyat dinas a chaer. A galw hwnnw oe enw ef kaer loyw. Ac yg kyffinyd kymry a lloegyr y mae ar lan hafren. ereill a dyweit mae o achaws mab yr amherawdyr a anet yno. Ac a elwit gloyw gwlat lydan. y gelwit y gaer velly. Ac nyt ef. B.

[285] Ac yn amser gweiryd y kymyrth yr arglwyd iesu grist diodeifeint ym pren kroc yr prynu cristynogyon o geithiwet uffern. B.

[286] Gwedy adeilyat y dinas. a hedychu yr ynys yd ymchoeles yr amherawdyr parth a rufein. A gorchymun y weiryd llywodraeth yr ynyssoed yny gylch gyda ac ynys prydein. Ac yn yr amser hwnnw y seilwys pedyr eglwys gyntaf yn yr antioc. Ac odyna y doeth y rufein. Ac yno y delis teilygdawt tadawl escobawt ac yd anuones marc euegylwr hyt yr eifft y pregethu euygil iessu crist ascriuenassei ehun o weithredoed mab duw. B.

[287] A gwedy mynet yr amherawdyr y rufein y kymyrth gweiryd yndaw synnwyr ac atnewydhau y kaeroed yny lle y bydunt yn adveilyaw. A llywyaw y teyrnas aoruc trwy wrolder a gwiryoned megys yd oed y enw ae ofyn yn ehedec y teyrnasyoed y boptu. Ac yn hynny eissoes kyuody syberwyt yndaw ac attal teyrnget gwyr rufein. B.

[288] Ac wrth hynny yd anuones gloyw vasbasyanus a llu mawr gantaw hyt yn ynys prydein. y tagnouedu a gweiryd. neu y gymell teyrnget y wyr rufein arnaw. A gwedy eu dyuot hyt ym porth rwydyn. Nacha Weiryd a llu mawr gantaw yn dyuot yn eu herbyn. hynny oed aruthyr gan wyr rufein amlet eu nifyr. Ac wrth hynny. ny lauasyssant kyrchu y tir yna. namyn trossi y hwyleu a chyrchu racdunt hyny doethant y traeth tutneis yr tir. B.

[289] A gwedy kaffel o vasbasyanus y tir ef ae lu y docthant parth a chaer penhwylgoet. yr hon a elwir yr awr hon Exon. *Dalen ar goll yma.* B.

[290] A gwedy eilenwi o veuruc y vuched y deuth koel y vab ynteu yn vrenhin yny ol. Ac yn rufein y magyssit koel. a moes gwyr rufein ae deuawt a dyscasei. Ac wrth hynny yd oed yuron yn rwymedic oe karyat wynt ac yn talu teyrnget udunt heb y warauun. kans yr holl vyt awelsei yn yr amser hwnnw yn darystygedic udunt. ac ar vyrder ny bu yn ynys prydein vrenhin well a ynrydedei dylyedogyon y teyrnas ny choel nac ae katwei yn hedychach. Ac vn mab a anet idaw. sef oed y enw. lles. B.

[291] A gwedy marw koel y deuth lles y vab yn vrenhin. ac holl weithredoed da y tat a erlynwys. Ac awnaeth yn gymeint ac y tebygit mae ef oed koel ehun. a medylyaw a wnaeth hyt y gallei vot yn well y

ved noe dechreu. Ac anuon aoruc hyt ar eleutherius pab y erchi idaw danuon attaw wyr ffydlawn a pregethei idaw gristynogyaeth a chret a bedyd. kans gwyrtheu awnathoed yr ebystyl yn pregethu ar hyt y byt adaroed udunt kyffroi a golehau y gallon ae vedwl at duw. Ac wrth yd oed ynteu yn damunaw gwir ffyd o dihewyt y vryt. Ac ynteu ae kauas. B.

[292] A gwedy gwelet or pap y greuydus damunet sef yd anuones attaw deuwr greuydus ffydlawn dyscotron seiledic yny lan ffyd gatholic y brygethu idaw ac yw pobyl dyuodedigyaeth yr arglwyd iessu grist yg knawt ae golchodigyaeth wynteu trwy lan ffydlawn vedyd. Sef oed enweu y gwyr. dunau. a phagan. A gwedy dyuot y gwyr da hynny y ynys prydein a phregethu y les vab koel ae vedydyaw ae ymchoelut ar grist oe holl gallon. a dechreu a oruc y bobyl yny lle rydec attadunt. ac o dysc ac egreifft eu brenhin credu y duw ac eu bedydyaw yn enw iessu grist trwy ffyd lan gatholic. Ac velly y rifaw ymplith y gleinyon ac eu talu y grist eu creawdyr wynt. B.

[293] A gwedy daruot yr gwynuededigyon athrawon hynny dileu kamgret or holl ynys y temleu a oed gwedy seilaw yr geuduweu a gysegrwyt ac aberthwyt yr gwir duw hollgyuoethawc. Ac yr ebystyl ac yr seint. A gossot yndunt amryuályon genueinoed o vrdas yr lan eglwys y talu dwywawl wassanaeth yndi y eu creawdyr. B.

[294] Ac yn yr amser hwnnw yd oed yn ynys prydein yn talu enryded yr geuduweu wyth temyl ar ugeint. A their prif temyl y ar hynny a oed vwch noc wynteu. Ac wrth gyureitheu y rei hynny y darystygei y rei ereill oll o arch yr ypotolaw wyr hynny y ducpwyt y temleu hynny rac y geu duweu. Ac ympopyn or wyth temyl ar ugeint y gossodet escob. Ac ympop vn or tri lle arbenic y gossodet archescob. A rannu yr wyth temyl ar ugeint yn teir ran. vfydhau yr tri archescobeu ac eisteduaeu y tri archescob a oed yn y lleoed bonhediccaf yn yr ynys. nyt amgen llundein. a chaer efrawc. a chaer llion ar wysc. Ac yr tri dinas hynny y darystygei yr wyth ar ugeint. A gwedy ranu yr ynys yn teir ran. y discynawd y archescob kaer efrawc deiuyr a bryneich ar alban megys y kerda humyr. Ac y archescobawt lundein lloegyr a chernyw. Ac odyna kymry oll mal y keidw hafren wrth archescobawt kaer llion.

[295] A gwedy daruot yr deu wrda gatholic hynny llunyaethu pop peth yn wedus or a perthynei parth ar lan ffyd. ymchoelut a wnaethant trach eu keuyn parth a rufein. A datganu y eleutherius pap pop peth or a wnathoedynt. Ac y kadarnhawd y pap pop peth ar y llunyaeth y edewssynt wynteu. A gwedy kaffel onadunt wynteu y kedernyt hwnnw y deuthant y ynys prydein a llawer o getymdeithon dywawl ygyt ac wynt a thrwy dysc y rei hynny yn enkyt bychan y bu kadarn ffyd y brytanyeit. A phwy bynac ac auynno gwybot enweu y gwyr hynny. keisset yny llyuyr aascriuenwys gildas o volyant y emrys wledic. kans yr hyn a yscriuenei wr kymeint ahwnnw o eglur traethawt nyt reit y un y atnewydu. B.

[296] A gwedy gwelet o les diwyllwyt cristynogawl ffyd yn kenydu yny teyrnas diruawr lywenyd a gymyrth yndaw. ar kyuoeth ar tired ar breineu aoed y temleu y geuduweu kyn no hynny a rodes ef y duw ar seint yntragywydawl dan ygwneccau yn vawr o tir a dayar a breineu a rydit a noduaeu. Ac ym plith y gweithredoed hynny y teruynawd lles y vuched ac y aeth or byt y teyrnas mab duw. ae gorff a gladwyt yg kaer loyw yn y eglwys penas yny dinas. Sef amser oed hynny vn vlwdyn arbymthec a deugeint a chant gwedy dyuot crist ymrud yr arglwydes veir wyry. B.

[297] A gwedy marw lles ac nat oed vn mab idaw y wledychu yny ol y kyuodes teruysg y rwg y brytanyeit. Ac y gwanhawys arglwydiaeth gwyr rufein. A gwedy klybot hynny yn rufein. Sef awnaethant anuon seuerus senedwr a dwy leg o wyr aruawc gantaw y gymell yr ynys wrth y harglwydiaeth val kynt. A gwedy dyuot seuerus a bot ymladeu lawyr rygtaw ar brytanyeit gwerescyn ran or ynys aoruc. a ran arall ny allwys y gwerescyn namyn o vynych amladeu y poeni hyny deholet dros deifyr a brynych hyt yr alban a sulyen yn tewyssawc arnadunt. Ac sef a wnaeth y dylyedogyon hynny kynnullaw llu mawr or enyssed ac goualu eu kiwtawtwyr trwy vynych ryfel a brwydyr. B.

[298] A thrwm vu gan yr amherawdyr diodef eu ryfel y wastat. sef awnaeth erchi dyrchauel mur rwg yr alban a deifyr a bryneich or mor bwy gilyd ac eu gwarchae val na cheffynt dyuot dros teruyn y mur hwnnw. Ac y gossodet treul keffredin wrth edeilat y mur. Ar mur hwnnw a parhawys trw lawer o amseroed ac ae attelis yn vynych y wrth y brytanyeit. A gwedy na allwys sulyen kynhal ryuel a vei hwy yn erbyn yr amherawdyr. sef yd aeth hyt yn sithya y geissyaw porth y gan y ffichteit y werescyn y gyuoeth tracheuyn. A gwedy kynnallaw holl ieuenctit a dewred y wlat honno. A dyuot awnaeth y ynys prydein yr tir a llyghes uawr gantaw. ac am pen kaer efrawc y doeth ac ymlad ar gaer. B.

[299] A gwedy mynet y chwedyl honno yn honneit tros y teyrnas yd ymadewis y ran vwyaf or brytanyeit ar ymherawdyr a mynet at sulyen. Ac yr hynny ny pheidwys yr amherawdyr ae darpyr namyn kynnullaw gwyr rufein arhyw a trigassei y gyt ac ef or brytanyeit. a chyrchu y lle yd oed sulyen ac ymlad ac ef. A phan oed gadarnaf yr ymlad y llas seuerus. ac y brathwyt sulyen yn agheuawl. ac y cladwyt seuerus yg kaer efrawc. a gwyr rufein agynhelis y dinas arnadunt a deuvab seuerus. nyt amgen. bassianus. a geta. Basianus a hanoed y vam or ynys hon. a gyta. a hanoed o rufein. A gwedy marw eu tat sef awnaeth gwyr rufein dyrchauel gyta yn vrenhin wrth hanuot y vam o rufein. Sef awnaeth y brytanyeit ethol bassianus yn vrenhin ac oachaws hanuot y vam or ynys hono. Ac wrth hynny ymlad awnaeth y deu vroder ac ynyr ymlad hwnnw y llas gyta. Ac y kauas bassianus y vrenhinyaeth trwy nerth y brytanyeit. B.

[300] Ac ynyr amser hwnnw yd oed gwas ieueinc clotuawr yn ynys prydeyn sef oed y enw karawn. Ac ny hanoed o vrenhinawl genedyl namyn o lin isel. A gwedy kaffel clot o honaw yn llawer o ymladeu. kychwyn a oruc parth a rufein y geissaw kanhat gan sened rufein y wyrchadw arvortir yr ynys rac estrawn genedyl. Ac adaw oda wdunt yr hynny digawn bei kenhettit idaw vrenhinyaeth yr ynys. B.

[301] A gwedy twyllaw o honaw y sened trwy ewidyon twyllodrus. A chanhattau a wnaethpwyt idaw y negesseu ac ymchoelut adre ac negesseu gantaw trw gedernyt llythyreu. ac inseilеu y sened wrthtunt. A gwedy y dyuot y ynys prydein kynnullaw amylder o logeu a oruc a galw attaw holl ieueinctit ynys prydein a chyrchu traetheu a gwneuthur kynwryf mawr yn yr holl teruyneu. Ac y gyt a hynny dwyn kyrcheu mynych y enyssed yny gylch ac eu anreithaw ac eu llosci a distryw eu kestyll a llad eu tir diwyllodron a thra yttoed ef yn hynny pawb or kribdeilwyr ereill a gwrchei attaw y wrhau idaw. Ac ar pen yspeit vechan kymeint oed y nifer ac nat oed hawd y vn tywyssawc seuyll yny erbyn. B.

[302] Ac wrth hynny sef a oruc karawn ymdyrchauel o syberwyt ac anuon ar y brytanyeit y venegi pei gwnelynt euo yn vrenhin gwedy darffei idaw gwascaru gwyr rufein ae llad yd ymdiffynnei ynys prydein rac estrawn gendyl ac rac pob gormes a geissei dyuot idi. B.

[303] A gwedy kaffel o honaw dunndeb ymlad a oruc a bassianus ae lad a chymryt llawodraeth yr teyrnas yny ehun kans effichteit a dugassei sulyen ganthaw a wnathoed brat bassianus. A phan dylynt y ffichteit kyhorthwyaw eu brenhin nyt ef awnaethant wynteu namyn kymryt gwerth gan garawn a llad bassianus. Ac sef a oruc gwyr rufein ynuydu a heb wybot pwy a vei y gwyr ehunein ac adaw y maes a ffo. A gwedy kaffel o garawn y uudugolyaeth honno y rodes ynteu yr effichteit yr alban yn lle hynny y preswlaw ac yr hynny hyt hediw y maent yno. B.

304 A gwedy clybot yn rufein rywarescyn o garawn ynys prydein a llad gwyr rufein ae gwascaru. sef a wnaeth gwyr rufein anuon alectus a their lleg o wyr aruawc gantaw y geissaw llad y creulawn hwnnw a dwyn yr ynys wrth arglwydiaeth gwyr rufein. a heb vn goir gwedy dyuot alectus yr tir ac ymlad a charawn ae lad a chymryt llewodraeth yr ynys yny law ehun. ac gwneuthur creulonder a molest ar y brytanyeit o achaws ryymadaw o hanunt ac arglwydiaeth gwyr rufein. a gwrhau y karawn. B.

305 Sef awnaeth y brytanyeit heb allu diodef hynny gwneuthur asclipiototus tewyssawc kernyw yn vrenhin arnadunt ac odyna kynnullaw llu y ymlad a gwyr rufein. Ac yna yd oed alectus yn llundeyn y gwneuthur gwylua ydy tatolyon duweu. Ac eissoes pan gigleu alectus bot y brytanyeit yn dyuot am y pen peidaw ac aberthu a oruc a mynet o dieithyr y dinas ae kedernyt gantaw. A gwedy bot ymlad y rydunt. aerua diruawr y meint a las o pop parth. A goruot a gauas y brytanyeit a gwascaru bedinoed gwyr rufein ac kymell ar ffo. Ac yny ffo hwnnw y llas alectus a llawer ovilioed ygyt ac ef. B.

306 A gwedy klywet o lilius gallus kedymdeith alectus rygaffel or brytanyeit y uudugolyaeth sef awnaeth ynteu. kynnullaw yr hyn adiagassei oe getymdeithon a chyrchu kaer lundein a chae y pyrth arnadunt o tebygu gallu gochel eu ageu uelly. Ac eissoes sef awnaeth asclipiototus eu gwarchae yno ac anuon at pawb or ynys y venegi rydaruot idaw ef lad alectus a bot ynteu yngwarchae yr hyn a diagassei oe lu yg kaer lundein ac wrth erchi y bawb dyuot yn gyttuun ac eu holl porth gantunt y geissaw diwreidaw gwyr rufein or ynys hon. kans tebic oed gantaw bot yn hawd hynny hyt tra vydynt ygvarchae velly. B.

307 Ac wrth y wys honno y doethant pawb or a hanoed or brytanyeit. Ac gwedy dyuot pawb hyt yno agwneuthur amryual perianeu y ymlad ar gaer yn drut ac yn galet. A phan welas gwyr rufein hynny annoc awnaethant eu tywyssawc y ymrodi y trugared asclipiototus. ac erchi idaw eu ellwg or ynys heb dim o da gantunt namyn y eneideu kan daroed oll y llad o nyt vn leg a oed etwa yn ymgynhal. B.

308 Ac wrth y kyghor hwnnw yd ymrodassant y ewyllys y brenhin. ac val yd oedynt yn kymryt kyghor am eu ellwg sef awnaeth gwyr gwyned eu kyrchu ac ar yr vn ffrwt a gerdei trw lundein. llad gallus ae gytymdeithon oll. Ac yr hynny hyt hediw oenw ef y gelwir y nant hwnnw yn gymraec nant y kellawc. ac yn saesnec galwsbrwc. B.

309 A gwedy goruo ar wyr rufein y kymerth asclipiototus coron y teyrnas ae llywodraeth trw duundeb pawb. a thraethu y gyuoeth a oruc o vnyawn wiryoned a hedwch trwy yspeit deg mlyned a gwaryd crib deil y treiswyr. a phylu cledyfeu y lladron. B.

310 Ac yna y cyuodes creulonder dioclicianus amherawdyr rufein trwy yr hwn y dilewyt cristynogyaeth o ynys prydein. yr hon a gynhalyssit yn gyuan yndi yr yn oes lles vab coel y brenhin kyntaf agymerth cret a bedyd yndi. kans maxen tywyssawc ymladeu yr amherawdyr creulawn hwnnw a deuth yr ynys hon a llu mawr gantaw. ac o arch yr amherawdyr. y diuawyt yr eglwysseu ac y lloscet ae llyfreu or yscrythyr lan yn lwyr ac merthyrywyt yr ytholedigyon effeireit. a christynogyon a oed ufyd dan wed mab duw. ac yna y damlewychwys duw y trugared ac ny mynwys bot kenedyl y brytanyeit yn llychwin o tewyllwch pechawt. namyn goluhau ohanunt ehunein egluraf lampeu o verthyri. Ac yn awr y mae bedeu y rei hynny ac eu hescyrn yn greireu mawr weirthawc yny a oed y merthyrwyt yn gwneuthur gwyrtheu hyny bei kwynvannus y kristynogyon clybot rywneuthur o paganyeit y kyfryw distryw hwnw ar eu priawt genedyl. B.

311 Ac ym plith y bendigeidyon verthyri y diodefwys seint alba o varolan. Ac ygyt ac ef iulius ac aron o gaer llion ar wysc. Ac yna y kymyrth seint alban anthibalus a y cudywys yn ty ehunan rac y verthyru. A gwedy na thygye y kymyrth y wisc ehun ymdanaw ac ymrodes ym merthyrolyaeth drostaw gan euelychu crist y gwr a rodes y eneit tros y deueit. ac odyna y deu wr ereill trwy aglywedic poeneu ar eu korfforoed ae hellwg y wlat nef. B.

312 Ac yna y kyuodes iarll kaer loyw yn erbyn asclipiototus. A gwedy ymlad ac ef ae lad. y kymyrth ehun coron y teyrnas. A gwedy menegi hynny y sened rufein. llawenhau awnaethant o ageu. y brenhin a gynhernassei eu arglwydiaeth. A gwedy dwyn ar gof onadunt eu kollet yr pan gollasynt arglwydiaeth ynys prydein sef awnaethant anuon constans senedwr o rufein y gwr a waryscynassei yr yspaen wrth rufein. gwr doeth glew aoed hwnnw ac alafuryei yn vwy no neb y chwaneccau arglwydiaeth gwyr rufein. B.

313 A phan gigleu goel bot y gwr hwnnw yn dyuot y ynys prydein ofynhau aoruc ymlad ac ef kan klywei nat oed neb a allei gwrthwynebu idaw. Ac wrth hynny pan doeth constans yr tir. Sef awnaeth koel anuon attaw y erchi tagnoued ac y gynic idaw darystygedigyaeth o ynys prydein o ganhadu y goel y vrenhinyaeth a thalu teyrnget y wyr rufein. A gwedy datganu hynny y constans y rodes tagnoued udunt. Ac y kymyrth gwystlon y gan y brytanyeit ar hynny. a ehyn pen y mis gwedy y kleuychwys coel o orthrwm heint. Ac ynyr wythuet dyd y bu varw. B.

314 Agwedy marw coel y kymyrth constans coron y teyrnas ac vn verch coel yn wreic idaw. sef oed y henw elen verch coel. a honno a vu elen luydyawc. ac ny chat yn yr enyssed a gyflypei idi o pryt a gosced. ac nyt oed yg kyluydodeu a allei ymgyflybu idi. kans y that a parassei y dyscu velly wrth nat oed idaw etiued namyn hi. mal y bei haws idi liwyaw y theyrnas gwedy ef. B.

315 A gwedy kymryt o constans. elen y wreic idaw. ac y ganet mab idaw o honai. Ac y dodet ar y mab Custenin. Ac ympen deg mlyned gwedy hynny y bu varw constans. ac y cladwyt yg kaer efrawc. Ac yd edewis y custenin y vrenhinyaeth. ac ympen ychydic o vlwnyded ymdangos aoruc kustenin vot yndaw voned mawr a delyet. ac ymrodi y haelder adylyet adaeoni agwneuthur iawnder yny arglwydiaeth ac ymdangos mal llew dywal y rei drwc. a megys oen yr rei da. B.

316 Ac yn yr amser hwnnw yd oed wr creulawn engiriawl yn amherawdyr yn rufein. Sef oed y enw maxen. ar bonhedigyon a gywarsagei o gyffredin arglwydiaeth. Sef awnaeth y dylyedogyon hynny. gwedy yr creulawn amherawdyr y dehol wynt otref y tateu ae dyuot hyt ar custenin ac ynteu ae aruolles wynt yn llawen vonhedigeid. B.

317 A wwedy dyuot llawer or rei hynny ar custenin y gyffroi awnaethant gan gwynaw wrthaw eu alltuded ac eu trueni yn vynych gan annoc idaw gwrescyn maxen kans o genedyl rufein y hanoed custenin. ac nat oed ae dylhyei wynteu yn gystal ac euo. Ac wrth hynny adolwyn idaw dyuot ygyt ac wynt y werescyn tref eu tateu ac edrut vdunt eu dylyet ac y waret gormes o rufein. B.

318 A thrw yr ymadrodyon hynny kyffroi aoruc custenin. A chynullaw llu mawr a mynet ygyt ac wynt hyt yn rufein. a gorescyn yr ymarodraeth yn eidyaw ehun. ac odyna y kauas llewodraeth yr holl vyt. Ac yduc tri ewythyr y elyn ygyt ac ef. llywelyn athryayarn ameuruc. ar rei hynny a ossodes custenin yn vrdas sened Rufein. B.

319 Ac yn yr amser hwnnw y kyuodes eudaf yarll ergig ac euas yn erbyn y tywyssogyon a adawsei custenin yn kadw llewodraeth yr ynys danaw ef. A gwedy ymlad eutaf ar gwyr hynny ac eu llad kymryt aoruc ehun coron y teyrnas allawodraeth ynys prydein yn gwbyl ywy law. B.

320 A gwedy menegi hynny y custenin anuon aoruc tryhayarn ewythyr elen a their lleg o wyr aruawc

ygyt ac ef y werescyn ynys prydein tracheuyn. A gwedy dyuot tryhayarn yr tir yr a elwir kaer peris. y kauas y dinas hwnnw kyn pen deudyd. B

[321] A phan gigleu eutaf hynny. kynnullaw holl ymladwyr ynys prydein a dyuot yny erbyn ef hyt yn ymyl kaer wynt. yr lle a elwir maes vryen. Ac yno y bu vrwydyr y rydunt. Ac y gorua eutaf. Ac val yd oedynt yn vriwedic ladedic y wyr yd aeth tryhayarn. yny logeu ar ffo. Ac yna trwy vorawl hynt yd aeth hyt yr alban. a dechreu anreithaw y gwladoed ae llosci. a llad y bileinlu. B.

[322] A gwedy dyuot y chwedyl hwnnw attaw. kynnullaw llu a oruc eutaf a mynet yny erbyn hyt yr alban. Ac yny wlat a elwir westmarlont roi brwydyr y tryhayarn. ac eissoes kilyaw or vrwydyr honno awnaeth eutaf. heb vudugolyaeth. Sef awnaeth tryhayarn y ymlit ynteu o le y le hyt y ynys prydein. a dwyn y arnaw y dinassoed ar kestyll. a choron y teyrnas. B.

[323] A gwedy digyuoethi eutaf yd aeth ynteu hyt yn llychlyn. Ac eissoes tra yttoed eudaf velly ar dehol. Sef awnaeth adaw gan y getymdeith ae gereint llafuryaw y geissaw diua tryhayarn. Sef awnaeth iarll y kastell kadarn. kans mwy ykarei ef eutaf no neb mal yd oed tryhayarn diwarnaw y dyuot o lundein. llechu ar y ganuet y mywn glyn koedawc ar y fford y deuei trahayarn. Ac yny lle hwnnw ymplith y gytuarchogyon yllas tryhayarn. B.

[324] A gwedy clywet o eutaf hynny dyuot awnaeth y ynys prydein a gwascaru y rufeinwyr a gwiscaw ehun coron y teyrnas ac ar vyrder ymgyuoethogi o eur ac aryant hyt nat oed hawd kaffel neb a vei arnaw y ofyn. ac o hynny allan y Kynhelis eutaf ynys prydein hyt yr amser y buant grassian a valawnt yn ymherodron yn rufein. B.

[325] Ac yg kylych diwed oes eutaf ymgyghor awnaeth ae wyrda pywed ydawei y gyuoeth gwedy ef. kanyt oed etiued idaw nam'yn vn verch. rei a gyghorei idaw rodi y verch y vn o dylyedogyon rufein ae gyuoeth genthi mal y gellit kynhal y teyrnas yn tagnouedus gadarn rac llaw. Ereill a gyghorei idaw rodi y verch y vrenhin o wlat arall ac eur ac aryant digawn genthi a rodi y gyuoeth y kynan meiriadawc y nei. B.

[326] Ac eissoes cradawc iarll kernyw ae kyghores ef y roi y verch ae gyuoeth gwedy ef y vaxen wledic. kans o hynny y tybygei ef kaffel tragywydawl hedwch kans mab oed vaxen ylywelyn ewythyr yelen luydyawc y vam ynteu ahanoed o dylyedogyon rufein. Ac ar vyrder o vrenhinawl gendyl y hanoed. a chynhyruu y llys a oruc kynan yn vawr am roi ykyghor hwnnw yr brenhin. kans y vedwl ef oed gaffel y vrenhinyaeth. Ac wrth hynny aday y llys trwy eirlloned. B.

[327] Ac yna eissoes anuon awnaeth cradawc veuruc y vab oed wr mawrdec clotuawr o haelder a dewred. A phybeth bynac adywetei ef ae kadarnhaei oe korff a aruou. B.

[328] A gwedy dyuot meuruc rac bron maxen. kymeredic vu ganthaw ymlaen pawb. sef yd oed yna teruysc mawr a ryfel rwg maxen ae deu vroder gracian a valawnt. kans y rei hynny a daroed gwrthlad maxen or tyrted ran or ymherodraeth. a hynny oed wrthrwm gantaw. B.

[329] A phan welas meuruc y vot yn gywarsygedic gan y vrodyr. sef ydywawt meuruc wrthaw yr ymadrawd hyn. maxen heb ef paham y diodefy ti ty tremygu val hyn. afford yt y ymwaret. dabre y ynys prydeyn a chymer coron y teyrnas. kans eutaf vrenhin yssyd hen a chlauus. ac nyt oes adamunc namy kaffel dylyedawc o rufein y rodi y vn verch idaw ae vrenhinyaeth genthi. kanyt oes idaw etiued namyn hi. Ac wrth hynny y kauas eutaf yny kyghor rodi y ti y verch ae teyrnas genthi. ac or achaws hwnnw yd ymanuonet inheu hyt yma. ac o mynny titheu dyuot ygyt a mi hyt yno pop peth o hyn avyd parawt itt. A gwedy keffych amylder o eur ac aryant a marchogyon ynys prydein y gelli goresсyn yr amharodron hyn ar holl vyt kans o ynys prydein y kauas custenin dy gar amherodraeth rufein. A gwedy hynny yr holl vyt. llawer ygyt ac ynteu o ynys prydein agenedassant rufein. B.

[330] Ac wrth yr amhedrodyon hynny y kewynwys maxen ygyt a meuruc hyt ynys prydein. ac ar y fford yn mynet y darestygwys kaereu ffreinc ae dinassoed. ac y gwerescynwys wynt. A chynullaw llawer o swllt y roi yw varchogyon ac amlahu y teulu. A gwedy gwerescyn ffreinc o honaw kychwyn aoruc ar y mor a gwynt rwyd yny ol a dyuot y nordhamtwn yr tir. B.

[331] A phau canhatawyt hynny at y brenhin diruawr ofyn agymerth o tebygu mae y elynyon yn keissaw gweresсyn y gyuoeth. agalw attaw aoruc kynan meiriadawc y nei. ac erchi idaw kynnullaw holl ymladwyr ynys prydeyn a mynet yny herbyn. a chynnull awnaeth kynan lu diruawr a chychwyn parth a nordhamptwn yr lle yd oed pebylleu maxen. B.

[332] A gwedy gwelet o vaxen lu kymeint a hwnnw yn dyuot ny erbyn ofynhau awnaeth o pop vn o dwyfford. o veint y llu. ac o wybot glewder y brytanyeit ac na yttoed ynteu yn gobeithaw tagneued. a galw attaw a oruc y henafgwyr a meuruc vab cradawc ac erchi kyghor udunt am hynny. B.

[333] Ac yna y dywawt meuruc. arglwyt heb ef nyt oes ynn ymlad a gwyr racco ae nyt yr hynny y doetham yma. nac yr kyffroi y gwyr racco yn dybryt yn herbyn namyn tagnoued yssyd iawn y erchi vdunt a letty hyny wypom vedwl y brenhin ymdanam. a dywedut yn bot a chanadwri genym ygan ymherodron rufein ar eutaf vrenhin y brytanyeit. Ac velly trw ymadrodyon claer keissaw tagnouedu ac wynt. B.

[334] A gwedy bot yn ranc bod gan bawb y kyghor hwnnw. kymryt awnaeth meuruc deudegwyr o wyr llwydon a cheint o eliwyd yny llaw deheu y pop vn onadunt a dyuot hyt rac bron kynan. B.

[335] A phan welas y brytanyeit y gwyr aduwyn hynny yn arwein oliwyd yny deheuoed yn arwyd tagnoued. Sef awnaethant kyuodi hyny herbyn yn arededus. Ac mal y doethant rac bron kynan y anerch awnaethant o pleit y herodron rufein ae sened. A menegi idaw ryanuon maxen achanadwri gantaw y gan ymherodron rufein ar eutaf. B.

[336] Ac yna y gouynwys kynan py achaws yr dathoed llu kymeint a hwnnw gantaw ynteu. A dywedut nat oed tebic y kerdedyat y kenadeu namyn y elynyon avynynt anreithaw gwladoed. B.

[337] Ac yna y dywawt y kenhadeu nat oed teilwg kerdet gwr kyuurd a hwnnw heb luossogrwyd ygyt ac ef. kans velly y mae teilwg kerdet ygyt a phob vn o ymherodron rufein rac kaffel kewilyd gan eu gelynyon. kerdet llu y eu kadw y fford y kerdont tagnoued a geissant. tagnoued adyborthynt. B.

[338] *Hyd yma, eithyr lle mae nodau i'r gwrthwyneb, mae llywyr A yn canlyn, air yn air, y traethawd ganol, dan enw* BRUT G. AB ARTHUR.—A heni emae eni dagaws ari weithret. cania er pan discenasam ni ar dir er enis hon ni wnaetham na threis na chollet na saraed i neb namin er da arall lawinllaw wrth vot pawb. A.

Ac arwyd yw hynny yr pan doethant yr tir hwn ny wnaethant na threis na sarhaet y neb am prynu eu kyfreideu yr y eur mal gwyr hedwch heb geissaw dim yn rat gan neb. B.

[339] Sev aoruc cenan ena roti hetwch vtunt. adwin maxen get a vint hit en llundein i emveled ac eutav. A.

Ac val yd oed kynan yn pedrussaw beth a wnelhei ae ymlad ac wynt ae peidaw dynessau aoruc cradawc iarll kernyw ar gwyrda ereill a chyghori hedychu ac wynt. a chyt bei drwc gan gynan rodi hedwch awnaethpwyt udunt. Ac yna y doeth maxen y gyt ac wynt hyt yn llundeyn. Ar eutaf a datganu idaw mal y daroed. B.

[340] Ac wedi i devod i lundein ed aeth caradawc iarll cerniw. a meuric i vab a gwirda ereill gidac wint hit

rac bron eutaw. a dewedid wrthaw val hin aoruc caradawc. Arglwit vrenin eb ev. llima e cighor a gighores doethion de deirnas it. wedi i anvon o duw hit attad ema. A hin arglwit ed oetud dvhun eni damunaw. nid amgen no cheisaw deliedawc en wra ith verch o deliedogion ruvein. canis ediw heneint en cimwet athi. Afan roted it arglwit er eil cighor am roti de deirnas i cenan meiriadawc de nei ni bu da genid heni. na chan neb oth cighor ochafut deliedawc o ruvein. A llima wedi anvon heni arglwit o duw hit attad. ac o emerodron ruvein. Ac ogwrthodi di arglwit e gwas ieuanc da hwn. enebit vod en gistal delied e gwas hwnw o vonet agwaed ar enis hon athitheu canis car agaws i gwstenin iw a nei i goel an brenin ninheu. A.

Ac yna y kymyrth cradawc iarll kernyw gwyrda y gyt ac ef. a gwedy eu dyuot y rac bron eutaf dywedut awnaeth wrthaw ual hyn. arglwyd heb ef llyma yr hyn yd oed y gwyr ath garei ti yny damunaw eirioet a duw ny danuon hediw yma wrth dyuot titheu yn kadw fydlonder wrth duw. Sef yw hynny tra vuost yn ymgyghor ath wyrda beth awnehit am elen ty verch ath gyuoeth kan yttoedut yn treiglaw parth a heneint. mal nat oed hawd ytt llywyaw ty teyrnas yn hwy no hynny. Ac y rei agyghorei itt roi coron y teyrnas y gynan dy nei. A rodi dy verch y dylyedawc o wlat arall. kans ofyn oed arnadunt dyuot darystygedigyaeth arnunt or delhei vrenhin aghyuyeith. Ereill a gyghorei itt rodi dy verch y vn o dylyedogyon rufein. kans velly y tebygynt kaffael hedwch a rufeinawl amherodraeth y emdiffyn. A llyma hediw arglwyd gwedy ryanuon o duw y gwas ieuanc hwn yma ytti yr hwn a henyw o rufeinawl amherodron a brenhinholyon vrytanyeit. Ac y hwnw y kyghorwn ui ytti rodi dy verch ath gyuoeth genthi. Ac y gyt a hynny edrych ti vot yn kystal y dylyet ef ar teu ditheu ar ynys prydein. kans kar agos yw ef y gustenin a nei y koel yn brenhin ninheu. Ac wrth hynny ny dylyit gwarauun yr gwr hwnnw y verch ar vrenhinyaeth. B.

[341] Ac en diannod odvhun gighor eudav ae wirda iroted elen i vaxen ar vreniniaeth genti. Afan gicleu cenan meiriadawc heni llidiaw aoruc amined hid er alban. a chennullaw llu aoruc eno i venu rivelu ar vaxen. A.

Ac ufydhau awnaeth eutaf yr kyghor hwnw a rodi elen y verch ae gyuoeth gwedy ef y vaxen. A gwedy gwelet o gynan hynny llidyaw aoruc. a mynet parth ar alban. A chynnullaw llu mawr y ryfelu ar vaxen. B.

[342] Ac aniver mawr cantaw ev adoeth drwi avon hwmir ac anreithiaw adarwu vwiaw itaw aoruc. Afan gicleu vaxen heni cennullaw llu aoruc enteu a dawed en erbin cenan. aroti brwidir ar vaes itaw. a giru cenan ar fo. Ac enteu eilweith a gennullawt llu enewit a rivelu ar vaxen. ac or diwet. wint a gimmodasant ac aethant en ungar unesgar. A.

A dyuot ae lu trwy humyr a dechreu anreithaw y gwladoed. A gwedy menegi hynny y vaxen kynnullaw llu mwyaf a allwys awnaeth a mynet yny erbyn y roi kat ar vaes y gynan ae yrru ar ffo. Ac ny pheidwys kynan namyn kynullaw y lu ac anreithaw y gwladoed. Gweitheu gan vudugolyaeth gweitheu hebddi yd ymchoelei vaxen y wrthaw. Ac or diwed gwedy gwneuthur kollet mawr o pop vn yw gilyd. dyuot awnaeth ketymdeith y rydunt ac eu kymodi. ae dwyn yn vn garyat. B.

[343] Acwedi minet pum mlinet heibiaw arvaethu aoruc maxen mined i orescin freinc. afan vu barawd gantaw i darpar. mined aoruc hit en llidaw. elle aelwir wedi heni pridain vechan. A.

Ac ympen yspeit pump mlyned syberwau awnaeth maxen o amlder eur ac aryant a marchogyon. Ac yny lle parattoi llyghes. a holl ymladwyr ynys prydein. ac allwys y gaffel o leoed ereill. A gwedy bot pop peth yn parawt. kychwyn aoruc parth a llydaw y wlat aelwir weithon brytaen vechan. B.

[344] Ac emlat en wichir aoruc ac aoet eno o freinc. A dali aoruc e freinc aoet eno en erbin maxen. Ac imbalt oet henw eu tewisawc. allat er imbalt hwnw awnaethpwid apimthecmil oe wir. Allawen vu vaxen am heni. agalw attaw cenan meiriadawc a dewedid wrthaw val hin odieithir iniver. Cenan eb ev. weldi ema wlad da. agoreu ran iw hon o freinc. abrisiwn i orescin e raneu ereill cin cliwed or gwladoet an divod ima. Achid collut ti beth o enis pridein om divod i eno. minheu ae hennillwn itti ema. ami ath urtav di or lle en vrenin ar ewlad hon. A hon awit eil pridein o hin allan. Ani ae llanwn oc an cenedil nvhun wedi darvo imi vwrw estronion genedil otima emdeith. A.

A gwedy dyuot yno dechreu ymlad ar popyl aoed yndi a llad hunpallt eu tywyssawc. A phymthegmil o wyr aruawc y gyt ac ef. A phan welas maxen meint yr aerua awnathoedit ar y gelynyon. A gwybot o honaw bot yn hawd gwedy hynny eu darestwg o gwbyl galw kynan awnaeth attaw dan werthin a dywedut wrthaw val hyn ar neilltu o dieithyr y lluoed. Kynan heb ef llyma vn or gwladoed goreu yn ffreinc gwedy darostwg y ni. gobeith yw genyf weithon kaffel y rei ereill. Ac wrth hynny bryssywn y gymryt y kestyll ar kaeroed ar dinassoed kyn mynet y chwedyl hwnnw yn honeit dros y gwladoed. Ac ymgynullaw pawb ygyt yn erbyn kans o kaffwn y teyrnas hon nyt oes pedruster genyf gaffell holl ffreinc yn einym. Ac wrth hynny na vit ediuar genyt ganhatau y mi dy dylyhet ar ynys prydein. kans py beth bynhac a gollych ti yno mineu ae entllaf yti yma. Ac yn gyntaf mi ath wnaf yn vrenhin ar y wlat hon. Ac ae kyuanhedwn oc an kenedyl nehunein gwedy darffo yn vwrw estrwn genedyl o honei yn llwyr a hon vyd eil brytaen. A hyt y gwelir ymi gwlat ffrwythlawn yw hon o ymryual yteu ac auonoed kyflawn o pyscawt. A choedyd a fforestyd tec adas y hela. Ac yhyt y gwn nyt o gwlat garueidach no hon. *Dalen ar goll yma.* B.

[345] Achemrit er urtas hwnw aoruc cenan meiriadawc. ac ataw cinnal fitlonder i vaxen o heni allan. Ac en diannod id aethant otina hit en rodwm. ac ae gwelei wint ac ae cliwei. fo awneint ractunt efort i tebicint cafel noted er eu heneidieu. Ac nid eiriechint winteu neb or a civarfei ac wint nas dienitint. onid wraget. A.

[346] Agwedy darvod itint estwg y cwbil or gwladoet. cadarnhau aorugant e cestil ar caeroet. Agwneuthur llaweroed ini lleoet ni buesint erioed er un gint. Ac evelli egoruc maxen efort e certawt eni itoet i oven ae ergric ar bop tewisawc afob brenin or ai cliwei. Ac enteu vaxen en amilhau beumit i varchogion ac en roti utunt eur ac ariant a meirch ac arveu a dillad a thir a daiar a bwid a diawd. A.

[347] Ac ev agennullws ena o riwedi o vilioet eni tebigei ev vod en digawn i orescin freinc. Ac ena e gohiriawt ev eni lenwis ev eno or brytanieid. Ac eno ed anvones maxen cenadeu i enis pridein i dwin attaw eno o riwedi or bobil isaw eu breint ac eu gwaed o lavurwir edaiar. nid amgen no chanmil a degmil arugeint o varchogion. a heni orivedi adnepwid ar vaxen ena o enis pridein hid en llidaw. Ac eni igosodes maxen wint i ginnal e wlad hono. nid amgen nor niver isel ibreint ac eu gwaed i dewill edaiar. ar niver marchogion in arglwiti arnatunt winteu ac i eu amdifin rac eu gelinion. ac oheni allan igelwid llidaw en ail pridein. A.

[348] Ac eno cd edewis maxen cenan meiriadawc in vrenin ac ed aeth enteu parth ac eithavoet freinc. ac i gorescinws cwbil o freinc idan i thervineu a germania oll hevid adan i thervineu. agwedi darvod itaw gorescin e gwladoet heni. igosodes eistetva i deirnas in e dinas aelwir treveris. Ac odina rivelu aoruc ar e deu amerawdir aoetint ena in ruvein. nid amgen gratian ac avalawnt. a deu vroder oetint. a llat e naill aoruc maxen. a dehol e llall o ruvein. A.

[349] Ac ed oet ena wir freinc en rivelu ar cenan meiriadawc aadewsit en vrenin en llidaw. ac en benaw oi

britanieid. A chenan aoruc ar e freinc. Acwedi hetichu arnaw i cavas eni cighor circhu gwraget hid en enis pridein. en wreicaeu oe gid varchogion. rac bod amgen riw en eu hetivetion no britanieid. A.

[350] A dunawd aoet vrenin ar gerniw ena. Ac ir dunawt hwnw i gorchiminasei vaxen liwodraeth er enis. A merch aoet ir dunawd hwnw enrivet i thegweh. A chenan meiriadawc aoet en caru hono. Ac anvon aoruc cenan cenad at dunawd i erchi itaw e verch hono en wreica i genan. Ac anvon hevid llawer o rivedi o wraget ereill o enis pridein hid en llidaw. A.

Sef oed y dunawt hwnnw brawt y gratawc iarll kernyw. ac a athoed yn lle y vrawt yn vrenhin. A phena dury a heuyt oed ef yn ynys prydein. kans idaw ef y gorchymunassei vaxen tywysogyaeth y teyrnas tra vei o honei. B.

[351] A dunawd aoruc heni val ed oet genan eni erchi. Nid amgen no feri o dunawd cennullaw o verched deliedogion vnvil ardeg. A chennullaw o verched e bobil anvonetic devgeinmil. A heni oll o niver a beris dunawd eu dwin hid en llundein. aferi cennullaw llogeu ac eu dwin i lundein i anvon e nifer hwnw i lidaw. A.

A gwedy dyuot y genhadwri honno ar dunawt ufydhau aoruc idi. Ac anuon gwys tros wyneb y teyrnas y gynullaw y gwraged hynny mal yd archassit idaw. Sef oed eiryf y gynnullwyt o verchet dylyedogyon vn vil ardeg ac o wraged a oed is y breint deugein mil ac erbyn dyout y gynnulleitua honno hyt yn llundein y kynnullwyt kymeint ac a ellit o logeu wrth eu hanuon hyt yn llydaw. B.

[352] Ac ar hid temis ed hwiliasant eni doethant ir mor. allawer or niver hwnw aoet well gantint eu marw en er enis hon noc eu mined i lidaw. Ac wint a rotint govunedoet ovined egcrevit a mined en lleianeu rac eu mined oc eu gwlad. A.

A chyt bei lawer ym plith hynny o wraged a wynnychei vynet velly yw roi y wyr gwlat arall. eissios yd oed yno lawer aoed well gantunt eu marw yny gwlat ehun noc adaw eu kenedyl ae rieni ar wlat y ganyssit yndi. ac ereill adewissei kadw eu diweirdeb. A gwassanaethu duw trw aghenoctit no mynet y wlat arall y aruer o euyllter knawt ae digrifwch. Ac yna pan yttoed y llyghes yn parawt ar gwynt yn rwyd dodi awnaethpwyt y gwraged yny llogeu a dechreu hwylyaw ar hyt temys yr mor. B.

[353] Acwedy eu hwiliaw eni vuant en agaws i draeth llidaw. Ac ena i civodes gwint gwrthwineb iwrth emil c tir. ac eu gwascaru ir mor allan eni votes e ran vwiav onatint. Ac a dieghis en viw onatint a vwriwid i enisoet agcivieith a llat llawer onatint. Ac adaw ereill en viw in geith no in garcharorion. Ac wint evelli ene civeiliorn truan hwnw e civarvu ac wint ar e mor gwinwas a melwas. Canis e gwir heni a erasei gratian amerawdir ruvein a llighes vawr gantaw hid en germania i rivelu ar gwladoet oboptu itaw a wetasei i vaxen. Ar gwinwas hwnw aoet vrenin ar hunawd. Ar melwas hwnw aoet vrenin in peithwv. Ac i rivelu ar vaxen i girasei gratian emerawdir wint ell deu. A.

Ac mal yd oedynt yn dyuot yn gyuagos y traetheu llydaw y deuth gwynt gorthwyneb kythrawl ac ar ennyt vechan gwascaru eu llogeu. A bodi y ran vwyaf or gwraged. ac ereill onadunt a vyrwyt y enyssed aghyuyeith ym plith estrawn genedloed. Ac yno y merthyrwyt ac y llas rei. ac ereill a attelit yg keithiwet. Ac ereill a gyuaruu a llyghes diruawr a anuonassei gracian amherawdyr hyt yn germania y ryfelu ar yraruortir yn erbyn a wedassei y vaxen. Ac yn tywyssogyon arnaduut gwinwas vrenhin hunawt a melwas vrenhin peitaw. B.

[354] Ac ena i delliis a deu heni a gawsant or morwinion. ac ni menit dim igantint namin emrewitu ac wint cid bei drwc cantint. sef aoruc e bradwir escimin heni llat e ran vwiaw onatint in diannod. Afan gicleu e bradwir heni vod enis pridein heb gedernid enti ni orfwisasant eni doethant ir alban ir tir ar gallu mwiaw a allasant egid ac wint. Ac en diannod anreithiaw e wlad a llat e gwerin val i gellasant gintaw. canid edewid en er enis hon. pan aeth maxen ohonei namin pobil lesc i diwill edaiar. ar rei heni heb na meirch nac arveu. A dirvawr aerva awnaethant ar bobil er enis hon. a dwin eu holl daoet cichwinawl. A.

Agwedy kyuaruot y moryon ar yscymunedic pobyl honno gwedy gwelet o nadunt tecced y gwraged keissaw awnaethant ymdiauarchu ac wyut ac eilenwi y godineb. A gwedy na mynei y morynywn kytsynnyaw ac wynt yn yr ewyllys hwnw. Sef awnaeth y bradwyr hynny llad y ran vwyaf o nadunt ac yn diannot pan glywssant bot ynys prydein yn anreithedic oc eu marchogyon ac yn wedw oc eu brenhin. Sef awnaethant bryssyaw eu hynt parth ac ynys prydein. A chymryt ygyt ac wynt porth vwyaf a allessant y gaffel or enyssed y pobtu a dyuot yr alban yr tir a dechreu anreithaw y gwladoed a oed heb amdiffynwyr arnadunt a llad y bileinlu ar tir dywyllodron. B.

[355] Afan wenegwid heni i vaxen. sev ed anfones enteu ima gwr aelwid gratian amerawdir a dwi leg o wir gid ac ev. en arvawc i amdifin e britanieid. Acwedi divod e gwr hwnw ima emlat aoruc en wrawl ae elinion. ac eu cimhell ar fo eni foint in iwerton. Ac en er amser hwnw i llas maxen wledic in ruvein igan gedimdeithion gratian. Ac a dieghis or britanieid otino a daethant hid in llidaw ar genan meiriadawc. a adawsei vaxen en vrenhin ar elle hono. A.

A gwedy menegi hynny y vaxen yd anuones gracianrodgymryt a dwyleg o wyr aruawc gantaw y amdiffyn y brytanyeit. A gwedy dyuot gracian hyt yn ynys prydein dechreu ymlad a oruc ae elynyon a gwneuthur aerua vawr a oruc onadunt. Ac eu kymell ar ffo hyt yn iwerdon. Ac yn yr amser hwnnw y llas maxen yn rufein ac y gwascarwy a oed y gyt ac ef or brytanyeit. ac y ffoassant hyt yn llydaw ar gynan meiriatawc. B.

[356] Afan gicleu gratian rot cimeriawdir llat maxen wledic in ruvein i cimerth enteu coron e deirnas ami ben ehun. a chemrid entaw redic a balchder eni bu dir ir britanieid dvhvnaw eni erbin ai lat. Afan gicleu gwinwas a melwas rilat gratian. sev aorugant winteu ena dvhvnaw ac wint e gwitil ar esgotieid ar llichlinwir. A divod a heni gantint i enis pridein ac anreithiaw er enis aorugant or mor pwi gilyt o dan a haiarn. Ac ena in diannod ed anvones e britanieid genadeu i ruvein i erchi nerth oc eu hamdifin igan eu gelinion. A.

Agwedy clybot o gracian rodgymryt rylad maxen yn rufein. kymryt a oruc ynteu vrenhinyaeth ynys prydein. A gwedy y uot yn vrenhin. kymeint vu eu creulonder yny arglwydiaeth. hyt pan vu reit yr brytanyeit or diwed y lad. am y greulonder. A phan gigleu y racdywededigyon elynyon uchot affoassynt y iwerdon rylad gracian. kynnullaw awnaethant wynteu y gwydyl ar ysgotteit ar denmarcwyr ar llechlynwyr y gyt ac wynt. A dyuot hyt ynys prydein. ae hanrheithaw o tan a hayarn or mor y gilyd. Ac wrth hynny anuon llethyreu awnaeth y brytanyeit hyt yn rufein. A dagreuawl gwynuan yndunt gan adaw tragywydawl darystygedigaeth udunt yr gollwg canhorthwy udunt. B.

[357] Ac ena ed anvoned lleg o wir arvawc. afan doethant i dir er enis hon emlat aorugant en diannod ac eu gelinion ac eu cimhell oholl dervineu enis pridein. Ac oachaws emlat ar riw elinion heni. ac eu gwrthlat otima emdeith. Ac am heni i parasei severws gwneuthur aruthrach gan genedil elinion divod ar e britanieid. A difeith oet er alban ena. ac ena o dvhvndeb cwbwl or enis e gwnaethpwid e mur val i buasei gint or mor pwi gilit. A.

Ac yna yd anuonet lleg o wyr aruawc attadunt. A gwedy eu dyuot hyt yn ynys prydein. Ac ymlad

ar gelynyon ac eu dehol o holl teruyneu ynys prydein. ac eu gwrthlad o gwbyl. a rythau y bopyl lesc. Ac yr gwrthlad gelynyon yd archassei Seuerus amherawdyr gynt wneuthur mur rwg deiuyr ar alban or mor y gilyd. kanys yr alban y gnotaei pob gormes or a delhei y ynys prydein dynot yn gyntaf. Ac yna eilweith y kaussant yn eu kyffredin gyghor attnewydhau y mur hwnw. ac wneuthur yn gwbyl or mor y gilyd. B.

[358] Acwedi darvod cwplau e gweith e menegis gwir ruvein ir britanieid na ellint hwi en wastad divod o ruvein trwi berigleu hint ac aneiriw o gost a threul wrth wir a meirch ac arveu rac crwidredigion ladron agcivieith. Ac ni ad senetwir ruvein vn amdifin arnawch namin discwch chwihunein emlat drosawch eneidieu. athros awch plant. athros awch trev tad. A.

A gwedy daruot cuplau y gweith hwnnw y menegis gwyr rufein yr brytanyeit hyt na ellynt wy kymryt llafur ac aneiryf o treul o wyr ac arueu ac eur ac aryant ar uor ar tir yn keissaw amdiffyn popyl mor lesc a hynny. A bot sened ruvein yn blinaw o treulaw eu da. ac eu swllt mor wastad a hynny yn kerdet mor a thir. ac yn diodef agheuolyon perigleu drostunt. a bot yn well gantunt dilyssu eu teyrnget no hynny. Ac y gyt a hynny bot yn iawnach udunt ehunein kymryt dysc ac aruer o ymlad mal y gellynt amdiffyn eu gwlat. no dodi eu hemdiret yn wastat ar wyr rufein. B.

[360] Ac ena wedi menegi vtvnt er amadrawt hwnnw ed erchid ir britanicid divod en llwir hid en llundein. canis mined otino ruvein ed oet cwbil or a hanoet o ruvein. Ac wedi eu divod lundein ed erchis gwir ruvein i guhelin archescob discu e britanieid i emlat. A gorchemin itaw pregethu vtvnt en drwiadil hvawdil eni vitint discedic. A.

A gwedy daruot udunt venegi yr ymadrodyon hynny yr brytanieit. erchi awnaethant kynnullaw ieuenctit ynys prydein ae holl ymladwyr ac eu dwyn hyt yn llundein yn eu herbyn wynteu. kanys ar ymhoel y oedynt tu a rufein. A gwedy eu dyuot yn llwyr hyt yn llundein pregethu udunt yd erchut y kuhelyn archescob llundein a menegi udunt yr ymadrodyon yd oed wyr rufein yny adaw gantunt. B.

[36 1] Sew val e dechreuwa cuhelin pregethu vtvnt. Awirda eb ev. eid archer imi dewedid wrthewch chwi is mwi im cimelliri i wilaw noc i diwedid pregeth ac amadrotion wchel. sev achaws iw heni truaned iw geniwi er imtivedi ar gwander a damweiniws inni. er pan aeth maxen an gwir da ar meirch ar arveu. Ac nad edewit ema namin attethol pobil a chivnewidwir a llavurwir daiar. Ac am heni pan doeth awch gelinion attawch ich cimhellwid in awch ceilieu megis deveid civeiliornus heb vugeil wrthunt. Ac ni minwch arver nac o emlat ac arveu. nac o disc nac o anian enoch chwichwhwn. nac ar veirch na heb veirch. Ac ni daw neb o ruvein bellach i awch amdifin er mateu eu teirnged. Afei bitewch chwi er amser i buant e marchogion da in enis pridein. pa beth a debigewch chwi ai fo diniawl anian iwrthiwch. Ac e gwrthwyneb anian e genir e dinion. canis ev a enir mab ir milein ac ev a vit marchawc. ac ev a enir ir marchawc hwnw mab in vilein. Ac am heni o minwch chwi vod en dinion gwnewch val e deli dinion i wneuthur a galw ar grist a deliwch i vod en nerth iwch i enninu in finiant a glewder i amdifin awch gwlad. A.

A megys y dechreuis yr archescob yr ymadrawd. Arglwydi heb ef kyt archer y mi pregethu ychwchi. ys mwy ym kymhellir y wylyaw noc y pregethu. rac truanet genyfi yr ymdiuedi ar gwander a damwheinwys y chwi gwedy aspeilaw o vaxen ynys prydein oe marchogyon ae ymladwyr. Ac a dieghis o honawch hitheu. pobyl aghefryrwys ywch y ymlad. namyn yn achubedic o amryuolyon negesseu a chefnewidyeu yn vwy noc ar dysc ymladeu. Ac wrth hynny pan doethant awch gelynyon am awch pen. y awch kymhellassant y adaw awch keibeu. A megys deueit keueilornus heb uugeil arnadunt awchgwascaru. kany mynyssawch kymyscu awch dwylyaw ac erueu nac a dysc ymlad. Ac wrth hynny py hyt y keisswchi bot rufeinyawl arglwydiaeth yn vn gobeith ich. A phy hyt yd ymriredwch yn estrawn genedyl nyt oed dowrach no chwi pei nar attewch y lesced awch goruot. Ednebydwch heuyt bot gwyr rufein yn blinaw ragoch. Ac yn ediuar gantunt y gyniuer perigyl a gymerassant drassawch yn wastat. Ac weithon y maent yn dewissaw madeu eu teyrnget iwch ym mlaen diodef y kyfryw lafur hwnw bellach. Pei bydewchi yn yr amser y bu y marchogyon ynys prydein. beth a tybygwchi. ae yr hynny y tebygwchi ffo dynyawl annyan y wrthywch a geni dynyon ygorthwyneb anyan y megys pei genit or bieiln varchawc ac or marchawc vilein. Ac yr hynny eisoes discynnu dyn y gan y gilyd. ny thebygafui colli o nadunt wy eu dynyawl anyan yr hynny. Ac wrth hynny. kans dynyon ywch gwnewc megys y dylhy dynyon. gelwch ar grist hyt pan vo euo rodho ywch lewder arydit. B.

[362] Afan darvu i guhelin dervinu ar i emadrawt ed oet e britanieid oc eu metwl ac eu brid ac eu hini wedi emlenwi o finiant a glewder. A.

A gwedy teruynu or archesco yr ymadrawt yny wed hon. kymeint uu y kynhwryf yny pobyl. a megys y tebygit yn deissyuit eu bot gwedy eu kyflenwi o lewder o vn vryt. B.

[363] Ac ena i civodes gwir ruvein oc eu discu en frwithlawn i amdifin eu gwlad rac estrawn genedloet. ac adaw vtvnt exemplareu i wneithir arveu wrthint. a dyscu vtvnt wneithir cestil ar lan e moroet elle i bei borthloeteu da a discinvaeu llogeu. ac evelli e gellwch ginnal ich gwlad rac awch gelinion. Ac eisioes haws iw gwneithir ehebawc or barcutan no gwneithir milein en discedic en disevid. Apwibenac aroto disc o doethineb i vilein cinhebic iw hwnw a gwascaru gemeu mawrweirthiawc dan draed moch. A.

Ac yn ol y parabyl hwnnw y rodes y rufeinwyr kadarnon dyscydigyaethyeu arymladeu yr pobyl honno. ac adaw agreiff udunt y wneuthur arueu. Ac erchi udunt adeilyac kestyll ar lan y mor yny porthueyd y bei discynua eu llogeu. wrth gadw eu gwlat o nadunt rac eu gelynyon. haws yw eissoes gwneuthur hebawc or barcut. no gwneuthur bilein yn dyscedic ar vrwydyr. A phwy bynhac a rodo dysc o am dim doethinab idaw. kynhebic yw yr neb a wascarei geineu mawrweirthawc dan traet moch. B.

[364] Ac otina en diannod ed aeth gwir ruvein emdeith. Ac eni lle ar ol heni e doeth Gwinwas a melwas ir alban ir tir. A gwir llichlin gyd ac wint. a gwir denmarc. Afob riw genedil or a allesint cafel eu duhvndeb. Ac ar hint gorescin aorugant cwbil or wlad hid e mur awnatoet sever. Ac amgliwed onatvnt mined gwir ruvein emdeith otima ehovnach lawer i gorescinasant ar enis hon iar e bileinlu llesc digalon. Ac eu cimhell ir cestil ac ir muroet ac ir ceirit. Ac otino i tenid wint a bachen ac wrth rafeu. ac ena i dieneidid wint. Canid oet in enis pridein dim or marchogion ena en hanvod ohonei ehun. A.

Ac yna kychwyn awnaeth gwyr rufein y ymdeith megys ar odeu na delhynt yr ynys hon tracheuyn. Ac ar hynny nachaf yny lle racdywededigyon elynyon uchot. gwynwas a melwas yn dineu or llogeu yr tir a llawer o niveroed gantunt or gwydyl ar yscoteit ar yfichteit ar llychlynwyr. a gorescyn yr alban yn diannot o vywn y mur. A gwedy gwybot o nadunt yr vynet gwyr rufein y ymdeith heb obeith y ymchoelut tracheuyn. eofnach noc y gnoteynt yd ymranassant y distryw y mur. Ac yna y gossodet yw anıdiffyn wynteu y bileinlu diaruot. parawt ar ffo pei lleuessynt. Ac ny orffowysei y gelyon o vwrw agheuolyon ergydyeu yn eu plith. Ac o vwrw bacheu gwrthuinyawc yn eu plith wrth linynyeu. Ac y uelly y trymyon vileinlu or kestyll a tynnyt hyt y llawr attadunt. A digawn o didan a oed gan y neb a gaffei agheu ebrwyd arnaw. rac y ryw amryuaelyon poynyeu awnelynt ywneuth' ar eu kenedyl yu gwyd. B.

[365] Ac is mawr o beth iw gweled dwiwawl dial ar bopil am eu pechodeu. Ac evelli hagen i bit pan adawer metiant a lliwodraeth mawr gan vileinieid gwenwinic creulawn. Ac wedi darvod eu hestwg hid

ar dim haiach. ed anvonasant winteu lithir hid en ruvein ar agitius aoet amerawdir ena in ruvein. A.

Oi a duw mawr a beth yw gwelet dwywawl dial ar e pobyl am eu pechodeu hen. kanys pei bydynt yna y sawl varchogyon a dugassei vaxen gantaw trwy enuydrwyd. ny doei pobyl y ynys prydein a allai oruot arnadunt. A thra yttoedynt yno gwerescyn y gwledyd awneynt yny kylch. Ac uelly yw gadaw brenhynyaeth y vileinlu. Beth weithon a dywedafi. namyn yna yd edewit y dinassoed yn wac. Ac wrth hynny y kauas gwedillon y pobyl truan yn eu kyghor anuon llythyreu hyt yn rufein ar agicius amherawdyr rufein yny mod hwn. B.

[365] Cwinvan ac vcheneidieu e britanieid en dagaws i agitius amerawdir ruvein. ac en cwinaw wrthaw val hin. E mor essit en in cimhell ni ar an gelinion ir tir i en llat. ac en gelinion an cimhellawt ir mor i an boti. Achanid oes i ninheu namin vn o dev peth. arglwit amerawdir ed im en damunaw de divod titheu arglwit en amdifin. A ni a dalwn itti e deirnged vwiav a dalwid erioed o enis pridein. A.

Kwynuan y brytanyeyt yn eu dangos y agicius amherawdyr rufein. Ac yn menegi bot ymor yn en kymell yr tir ar toreu gelynyon y en llad. A bot en gelynyon yn en kymell yr mor y en bodi. Ac uelly menegi nat oed udunt namyn o vn o deu peth. ac en bodi or mor ac en llad ar y tir. B.

[367] Ac ni chavas e cenadeu eu gwarandaw in ruvein namin eu gillwg drachevin en drist allwinin. A.

Ac ymchoelut awnaeth y kenhadeu yn trist heb eu gwarandaw. B.

[368] Gwedy divod e cenadeu velly. sev agavas e bobil druan hono en eu cighor anvon cuhelin archescob llundein hid en llidaw i geisiaw nerth igan eu cidvroder. Ac en vrenin in llidaw ed oet ena aldwr e pedwerit brenin oet hwnw wedi cenan meiriadawc. A.

Ac yna y kawssant yn eu kyghor anuon kuhelyn archescob llundein hyt yn llydaw y geissaw nerth y gan eu kereint. Ac yn yr amser hwnnw yd oed aldwr yn vrenhin yn llydaw. y pedwered gwedy kynan meiriadawc. B.

[369] Ac ena igorvt cuhelin archescob i neges wrth aldwr am nerth i amdifin enis pridein. A dewedid itaw na dileu neb coron e deirnas a lliwodraeth en gestal ac evo er pan vu gwstenin. Ac am heni arglwit ep cuhelin emgiweiria en diannod a dered i gemrid coron enis pridein. A.

A gwedy dyuot kuhelyn hyt yn llydaw ac welet or brenhin ef yn wr dywawl. y erbynneit yn enrededus: Ac amouyn ac ef achaws y hynt ac ystryw y negys. Ac yna y dywawt kuelyn wrthaw. Arglwyd heb ef digawn yw damllywechedicet itti vy neges i. A thi a allut kyffroi ar dagreu o glybot y trueni yssyd arnam yn ynys prydein. yr pan anreithwys maxen wledic hi oe hymladwyr yn llwyr. Ac y gossodes yny hon yr hon yd wyt yn vrenhin arnei. A gwyn y vyt a welas pei gwledychut titheu hi trwy hedwch. kanys y rei yssyd yno agheuyrwys ynt ar ymlad. Ac ny allan wrthwynebu yr gelynyon. Ac y gyt a hynny neur deryw y wyr rufein vlinaw mal na chaffwn gantunt wynteu dim o amdiffyn. Ac wrth hynny yd ym ninheu yn gwediaw ty trugared titheu hyt pan rodych ti nerth ac amdiffyn o honot tuhun y teyrnas yd wyt dylyedawc arnei. kanys ny dyly neb y coronhan yn well no thidi o coron custenin a maxen wledic. kanys y gwyr hynny yssyd gereint itti. Ac wrth hynny parotta lyghes adyret y gymryt coron ynys prydein. A minheu ae rodaf itti. B.

[370] Ac ena i diwawd aldwr wrth cuhelin. A wrda eb ev nid avi odeirnas vechan hon ed wiv eni chafel en llonit esmwith diovalus divygwth. ac o ruvein ac o bob breniniaeth. nid av i enis pridein. dan e bigithieu. ac amled iw gelinion a digasogion iti. Ac is gwell civoeth bechan in llonit digenvil. no chivoeth mawr en avlonit ovalus dan vigwth a thalu teyrnged i wir ruvein. Ac er heni wrda eb ev mi a rotav en nerth gidathi i ginnal enis pridein custennin vimrawd a dwivil o wir arvawc gid ac ev. canis bigwth essit arnavi o wir freinc nid adawavi vigcivoeth. A.

Ac ar hynny y attebawd y brenhin yr archescob. Hawrda heb ef. eff a uu amser nawrthodwn i teyrnas ynys prydein o bei ae rodei ym. kans mi a tebygaf nat oes teyrnas ffrwythlonach no hii tra geffit hedwch. ac yr awr hon y mae wedy y ryuel y dy distryw. Ac wrth hynny kas yw genyfi hihi a chan pop tewyssawc arall. ac ny all vn tewyssawc y chynhal heb talu teyrnget y wyr rufein. Ac wrth hynny wrda pwy ny bei well ganthaw gyfoeth bychan yn ryd no chyuoeth mawr a thragywydawl geithiwet. Ac eissoes heb ef. kanys yr ynys a dywedy ti a uu eidunt wy uy rieni uiena minheu a rodaf yn ganhorthwy itti. Gustenin vy mrawt a dwyuil o uarchogyon y gyt ac ef y edrych a vynno duw idaw allu distryw y gormeisseit. A chymeret ef y goron ehun. Or myn duw idaw y chaffel. Ac ny adawafi mwy o wyr yn awr rac ryuel o ffreinc dyuot ymma. B.

[371] Ac ena llawenhau aoruc cuhelin archescob a diolwch heni en vawr e rot hwnw en vwi no mesur. A galw custenin attaw aoruc cuhelin a dywedid val hin wrthaw. custenin a orvit. custenin a orchivicca. custenin a wledicha. llima an gobeith ni ac an amdifin ac en llewenit ac an brenin. Ac ene lle pan gawsant eu parotrwit divod aorugant enis pridein. A.

Ac diolch awnaeth y yr archescob idaw yn uawr. ac yny lle galw custenhin. a dywedut wrthaw val hyn. Crist a oruyd heb ef. crist a wledycha. crist a orchynyt da. llyma vrenhin ynys prydein. Beth gwedy hynny yny lle gwedy bot y llogheu yn parawt kychwyn awnaethant y ynys prydein. B.

[372] Ac ena i doethant i borth totneis ir tir. ac en diannod cennullaw llu aorugant arnatint. ac eu geru ar fo. Afan gliwid e damwein hwnw dros gwbil or enis emgennullaw aoruc cwbil o bobil enis pridein eni doethant hid elle aelwid cicester. A.

Ac yna dyuot y porth titneis yr tir. Ac yn diannot kynnullaw y brytanyeit y gyt ac wynt. a chyrchu y gelynyon. ac ymlad ac wynt. a chaffel y uudugolyaeth. a gwedy mynet hynny yn honneit tros wyneb y teyrnas ymgynullaw awnaeth y brytanyeit hyt yn cyrcestyr. B.

[373] Ac ena i rotes cuhelin archescob coron teirnas enis pridein am ben cwstenin. ai vendigaw ai alw oheni allan custenin vendigaed. A roti en wreica itaw gwreic ahanoet o deliedogion ruvein ac a vagassei cuhelin archescob in llundein. A.

A gwiscaw coron y teyrnas am y pen custenhin vendigeit. A rodi gwreic idaw a hanoed o dylyedogyon rufein. ac a uagassit yn llys a kuhelyn. B.

[374] A thri meib a vu itaw ohono. sev oet eu henw. constans ac emris wledic ac uther bendragon. a henav oet onatint constans. a chuhelin ai rotes ar vaeth ev emewn manachloc amphibal' egcaer wint. Ac eno ed aeth ene crevit hwnw. Ar deu vab ereill a beris cuhelin eu roti hevid ar vaeth. A.

Ac or wreic honno y bu idaw tri meib. Sef oed y rei hynny. constans ac emrys ac uthur pendragon. A chonstans a rodes ef y mab hynaf idaw ar vaeth y vanachloc amphibalus yg kaer wynt. ac y yd y wneuthur yn vanych. Ar deu vab ereill a rodet ar cuhelyn archescob. B.

[375] Agwedi mined deudeg mlinet o oes custenin en vrenin i doeth un or fichteid a vuasei wr itaw gint. a galw custenin attaw ar neilltu en rith hustig neu givrinach. ac in heni iwan a chillel drwitaw eni chill i eneid. A.

Ac ym pen deudec mlyned gwedy hynny y doeth un or effichteit ar auuassei wr idaw kyn no hynny. A

galw y brenhin attaw megy y gyfrwch yny lle yskyvalaf. A gwedy gyrru pawb y wrthtunt y lladawd y twyllwr y brenhin a chyllell. B.

[376] Gwedi colli custenin velli tivu aoruc andagnhevet irwg gwirda e civoeth am wneithir brenin o un o veibion custenin. sev aoruc gwrtheirn gortheneu ena iarll oet hwnw ar went ac ergig ac euas. metiliaw obop fort. ac obop estriw pa funit i cafei ev o vreniniaeth itaw ehun. Ac or diwet i cavas eni gighor mined hid i vanachloc egcaer wint ed oet constans enti igcrevit. a diwedid aoruc wrth constans val hin. A.

Ac yna gwedy llad custenhin vendigeit y kyuodes annuundab y rwg gwyrda y teyrnas am wneuthur brenhin. kanys rei a vynnei wneuthur emrys wledic yn vrenhin. ereill a vynhei uthur pen dragon. ereill a vynhynt wneuthur un oe kenedyl ehun. Ac or diwed gwedy na duunynt am hynny. Sef awnaeth gwrtheyrn gwrtheneu. iarll a oed hwnnw ar went. ac ergig. ac uas. wrth geissyaw ehun y vrenhiniaeth or diwed. mynet hyt yg kaer wynt y lle ydoed constans yn vanych. A dywedut wrthaw val hyn. B.

[377] Henav mab wit ti heb e gortheirn o blant cwstenin. ac ni ellir brenin o er un oth vroder mor int ieveinc. A mi ath wnav di en vrenin. a mwiha ditheu vinheu or civoeth a mi amchwelav attad wineb e civoeth oll. A.

Constans heb ef. ty tat ti ar y uu varw. at vrodyr yssyd ieueinc ydy wneuth' vn o nadunt yn vrenhin. Ac wrth hynny o bydy ti wrth vy kyghor i bo ychwanaccau vy medyant i. mi a para ty tynnu or abit hon ath wneuth' yn vrenhin hyt bo gorthwyneb gan yr urdas. B.

[378] Ac ena emoginniannu aoruc constans ac ataw i ortheirn gadu itaw ev lliwiaw e deirnas ogwbwl wrth i gighor. Ac ena i peris ev diosc er abid iam dano a roi dillad e bid amdanaw. ai dwin or vanachloc o anvot er abad ar covent. Afan daeth i lundein gwisco dillad breninawl ar goron. A.

A phan gigleu constans yr amadrodyon hynny llewenhau a oruc. Ac adaw trwy aruoll rodi pob peth idaw or a uynhei. Ac yndiannot y tynnu awnaeth gwrtheyrn or vanechtit. Ac o vreid kaffel canhat y dyrchauel yn vrenhin. Ac yn yr amser hwnnw marw uuassei kuhelyn archescob. Ac wrth hynny ny chaffat un escob ae kyssegrei yn vrenhin wrth y tynnu or creuyd. Ac eissoes nyt ebyrgoues gwrtheyrn namyn mynet ehun yn lle escob. a rodi coron y teyrnas am y pen. B.

[379] Ac wedi urtaw constans en vrenin enteu awnaeth gortheirn en oruchel swidawc dano ev ar er enis. ac en wneuthuredic a wnelei. Ac gwedi i vod velli metiliaw aoruc gortheirn. pa vot e gallei ev vined en vrenin. Ena i diwed ev ir brenin. weled lliges ar e mor. a menegi i bitei da estorio a cestill arvordir. Gwnewch eb e brenin. a heni awnaeth gortheirn. aferi i bawb or switwir deghu itaw ev. a roi swit dair blinet itvnt. A.

Gwedy dyrchauel constans yn vrenhin. y rodes ynteu holl lewodraeth y teyrnas yn llaw gwrtheyrn. Ac ef heuyt a ymrodes wrth y gyghor. kanys amgen dysc a dyscassei ehun yny claustwr no llywyaw teyrnas. A gwedy kaffel o wrtheyrn medyant kymeint a hwnnw yny law. medylyaw aoruc py wed y gallei gaffel ehun y vrenhinyaeth a distryw constans. Ac or diwed gwedy ystrywyaw pop peth menegi awnaeth y constans bot dygyuor llu am eu pen o wledyd ereill. Ac arglwyd vrenhin heb ef goreu yw itti ychwaneccau dy teulu mal y bo tibryterach itt rac dy elynyon. Ac yna y dywawt constans ponyt yth law ti y rodeis i medyant a llywodraeth y teyrnas. Ac wrth hynny gwna titheu pop peth or a uynych gan gadw ffydlonder y minheu. B.

[380] Ena e daeth gortheirn ir alban a dethol pedwarugein o wir or meibion dewrav a deledocav a gorev eu campeu or fichtiaid. ai dwin at e brenin iw galin wrth ben i varch. Ena i diwed gortheirn wrth e brenin darvod itaw pop peth. a dwin e meibion or alban. ac i gellid o doei rivel i dali en wistlon. gortheirn a rigawt bot. e meibion. A.

Ac yna y dywawt. ef a dywespwyt imi heb ef bot y ffiichteit yn mynnu dwyn gwyr llychlyn a denmarc yn vn ac wynt wrth ryuelu arnam ni. Ac wrth hynny y mae goreu gwawd rei o nadunt yn wyr itti yn wastat yd lys val y gallont whedleua it a gwybot medwl eu kenedyl ar y twyll yth erbyn. A phony welwchi vrat gwrtheyrn kanyt o achaws kynhal iechyt y brenhin yd ystrywei ef yr yr ymadrodyon hynny. namyn gwybot bot mae yscauyn aoed annwyt y rei hynny a hawd troi y medwl a llad y brenhin. A gwedy darffei hynny. medylyaw wnaeth mae hawd a oed idaw gaffel y vrenhinyaeth yny law ehun gwedy hynny. A gwawd awnaeth gwrtheyrn cant marchawc yn wyr yr brenhin o yscotteit ac or effichteit ac eu anrydedu awnaeth udunt o eur ac aryant a meirch a dillat hyny yttoydynt wynteu yny gymryt yn lle brenhin. Ac yna y kenynt wynteu gowydeu idaw ar hyt yr yholyd y fford y kerdynt. Gwrtheyrn yssyd teilwg o amherodraeth a theyrnwyalen ynys prydein. a chonstans yssyd anheilwg. B.

[381] Ac wedi bod nosweith en wtres wrth e tan wedi mined e brenin i gescu. ena i diwed gortheirn. ir ai ar echidic goweth a oet itaw. i geisiaw da iw roi vtvnt. onid wid ti eb wint en cael a vinich or enis. Nac wiv eb ev ond ergig ac euas. afe bai mwi chwi ae cefich. Ena ir aeth gortheirn i giscu. A.

Ac or diwed gwedy kaffel gwybot o wrtheyrn rygaffel eu karyat yn llwyr. Gwedy eu medwi nosweith y dywawt gwrtheyrn wrthtynt y uot ef yn adaw ynys prydein y geissyaw kyuoeth a uei vwy yn lle arall. kany allei ef herwyd y dywedei kynhal dec marchawc a deugeint yn diwall or bychydic kyuoeth a oed idaw ef. A gwedy dywedut wrthtunt kymeint a hynny mynet parth ae letty awnaeth yn trist. Ac eu adaw wynteu yn y neuad yn yuet. A gwedy gwelet or effichteit hyny. tristau awnaethant wynteu yn vwy noc yd hawd y credu. a thebygu pan yw pruder a dywedassei wrtheyrn wrthtunt a dywedut awnaethant y rydunt pa achaws na ladwn yr atuanach hwn. megys y caffo gwrtheyrn gwedy hynny cadeir y teyrnas. Pwy a dyly brenhinyaeth yn well noc ef. ar gwr an rydedwys ninheu yn wastat. B.

[382] Sev awnaethant rwg metdawd a geirieu gortheirn circhu estavell e brenin a llat e brenin a divod. bit di vrenin os meni. ena e peris gortheirn dali e rai hin ae carcharu rac dial arno ev er alanas. A.

Ac yn diannot kychwyn awnaethant a dwyn ruthur am y brenhin y ystauell ae lad. A chymryt y pen gantunt hyt rac bron gwrtheyrn. A phan welas ynteu hynny megys trwsdan o dieithyr ac wylaw a oruc. Ac eissoes ny buassei lawenach erioet o vywn noc yd oed yna. A galw a oruc attaw kywtawtwyr llundein. kanys yno y gwnathoedit y gyflauan honno. ac erchi udunt daly oll y bratwyr hynny. ae dihenydyhaw am wneuth' kyflauan kymeint a honno nyt amgen llad y brenhin. A rei o wyr y teyrnas adywedei panyw gwrtheyrn a rywnathoed y vrat honno. ac nas gwnaei y ffichteit oe dechymyc e hunein. B.

[383] Afan gicleu cuhelin archescob llat e brenin drwi vrad gortheirn. fo aoruc ar deu vab ereill at emir llidaw i cevindrheu i lidaw rac ovin twill. Ena i croges e tewisogion in llundein e gwir a ladasei e brenin. a gorchimin er enis in llaw gortheirn. A.

—Ei ac eissoes sef awnaeth tatmaetheu y meibon ereill. emrys ac uthur pendragon ffo ac wynt hyt yn llydaw rac ofyn gwrtheyrn. ac na bei oc eu hetiued y dylychi y teyrnas o diffodei y rei hynny. Ac yn yr amser hwnnw yd oed emyr llydaw yn vrenhin yn llydaw. ar gwr hwnnw a aruolles y meibyon yn llawen. B.

[384] Ena pan wibu e fichtiaid grogi i meibion. cinnull a orugant a rivelu ar gortheirn. Ena i gwiscawt gortheirn e goron a mined en vrenin heb ganiad. A.

Ac yno pan welas gwrtheyrn nat oed a allei ymerbynneit ac ef. Sef awnaeth ynteu kymryt. coron y teyrnas ae wiscaw am y pen ehun. A gwerescyn y tywyssogyon ereill. B.

[385] Ac wedi mined gortheirn en vrenin anvon aoruc i geisiaw pawb i deol e fichtiaid. necau aoruc e britanieid ac erchi itaw o gwnaethoet dwill vtvnt wneuthur iawn ne derbin a delei ato. A.

Ac eissoes gwedy clybot y vratwryaeth honno ym pop lle yn honneit. Sef awnaeth gwyr yr ynyssoed ymdyunaw y gyt wrth ryuelu a gwrtheyrn. kanys y ffichteit a dyffynassynt or alban attunt y dial eu kytuarchogyon ar parassei wrtheyrn y llad am rylad o nadunt wynteu constans vab custenin vendigeit. Ac yna diruawr ouyn a phryder a oed ar wrtheyrn or neill parth o achaws y vot yn kolli y wyr trwy benydyawl ymladeu a brwydreu. Ac or parth arall rac ofyn emrys wledic ac uthur pen dragon. kanys y rybud tra gilyd a doei attaw y venegi eu bot yn dyuot a llyghes dyruawr gantunt y werescyn. ac y dial agheu eu brawt arnaw. B.

[386] Afan oet en minu gado er enis. am na chai nerth o yn lle. a gweled llid e britanieid wrtho. ac ev ar venit cent. i gwelei dair llog enrivet i meint ar vor freinc. Anvon aoruc i wibod pwi oetint. A.

Ac ar hynny nachaf teir llog hiryon yn llawn o varchogyon aruawc yn discynnu yr tir yn swyd geint. a deu wr yn deu vroder yn tywyssogyon arnadunt. Sef oed eu henweu. hors. a hengyst. ac yn uffern y maent. Ac yr amser hwnnw yd oed wrtheyrn yn dinas dorobern. Sef y dinas yw hwnnw kaer geint. A chenhadeu adeuth ar wrtheyrn y venegi idaw rydyuot gwyr mawr hedwch heb wybot panhanoedynt y mywn lloghen hirion. A rodi nawd awnaeth gwrtheyrn udunt. Ac erchi eu dwyn attaw. B.

[387] A wint a venegasant mae o germania i doethesint. a divod o been i vined oe tir. canis velli i gwneint pob seith mlinet. ae bod ar e mor er esblwitin a hanfer. ac ervin cael lle i preswiliaw in enis pridein. Hors a hingestir i gelwid e deu dewisawc aoet arnint. Anvon aoruc e brenin en i hol. Ac wedi e divod govin aoruc e brenin i bwi i credint. I wden heb hwi i credwn. Ar pedwerit dit or withnos a elwid oe enw ev wodensday. Ae gaiduw arall a elwid froeu ac oi enw ev i gelwid froeday. A.

A gwedy eu dyuot rac eu vron. arganuot awnaeth gwrtheyrn y deu vroder a oed tywyssogyon ar y rei ereill. kanys a oed arnadunt o pryt. A gouyn awnaeth o pyle pan hoedynt. a phy negys y dothoedynt y teyrnas ynteu. Ac yna y rodes hengyst atteb idaw. kanys ystrywysaf a oed ef a mwyaf y drwc pei gallei. Ac yn y wed hon y dechreuis yr ymadrawd. O tidi vonedicaf or brenhined yg wlat Saxonia yn ganet ni. vn yw honno o wladoed germania. Achaws an dyuodedigyaeth ninheu yw. y rodi yn gwassanaeth itti neu y tywyssawc arall a wnel da yn. Ac nyt oes achaws y an gwrthlad oc an gwlat namyn adywedwn ni ytti heuyt. Gwlat vechan gyuyg yw yn gwlat ni. A phan amlaont y pobyl yno mal noc eignont yno. Sef yw eu keneuawt kynnullaw holl wyr ieueinc y wlai ger bron eu tywyssogyon. A bwrw prenneu y rydunt. A megys y del y coelbren udunt yd etholir. ac yd ellyghir y wladoed ereill y mywn llogheu megys y gwely ti y geisaw gosymdeith. A ninheu y deu vroder a wely ti yn tywysogyon arnadunt kanys o lin brenhined yd henyd. Sef yw vy enw. hengyst. A enw vy mrawt hors. Ac uelly doetham hyt dy vrenhinyaeth titheu yn yd oed mercurius an duw ni yn an tywysaw. A phan gigleu y brenhin kyrbwyll mercurius drychauel y wyneb a oruc. A gouyn py ryw cred ysyd genhwchi. Ac yna y dywawt hengyst yscymun. Arglwyd heb ef an taidolyon dwyeu a enrydedwn nyt amgen. Saturnus a Iubiter. Ar dwyeu ereill yr syd yn llywyaw y byt. Ac eisoes yn penhaf yd anrydedwn i mercurius. yr hwn a alwn ni yn an eith ni wogen. Ac y hwnnw y partwys an rieni ni y pedywred dyd or wythnos. ac alwn ninheu oe enw ef wogenes day. A hwnnw a elwir yn kymraec duw merchyr. Ac yn nesaf y hwnnw yd enrydedwn ni y dwyes kyuoethoccaf or dwyseu. yr hon effreini. Ac y honno y kysegrwys an rieni ni y chwechet dyd or wythnos. Ac yn an eith ni y gelwir ffriday. Sef yw hynny duw gwener. B.

[388] Afan welis e brenin deledíwrwit e gwir cimrid i gwraget aoruc a divod igid i lundein. Sev oet heni wedi dechreu bid 4361. A.

Yna y dywawt gwrtheyrn am awch cret chwi yr hon ysyd iawnach y galw yn aghyret noc yn gret. dolurus yw genyfi. llawen yw genyf ineu ych dyuodedigyaeth. kanys ny bu reidac ym eirioet. kanys vy gelynyon ysyd ym kywarsagu o pop parth. Ac o mynwch chwitheu kylauuryaw a minheu wrth ymlad. im gelynyon. minheu awch kyuoethogaf chwitheu o tir a dayar ac eur ac aryant a da ara l. Ac yn diannot ufydhau awnaethant y hynny. A gwrhau yr brenhin. A thygu fydlonder idaw. B.

[389] Ena i cennullawt e fichtield in erbin gortheirn. A thrwi nerth e saxoniaid i gorvu gortheirn arnunt. A.

Ac yny lle nachaf y ffichteit yn dineu or alban a llu diruawr y veint gantunt ac yn anreithaw y gwladoed. A phan gigleu wrtheyrn hynny kynnullaw y varchogyon awnaeth ynteu a mynet yn eu erbyn. A gwedy dyuot y deu lu y gyt ac ymlad. ny bu reit hayach yr kiwtawtwyr ymlad y dyd hwnnw. kanys y saesson a ymladassant yn kynwryolet. Ar gelynyon a oedynt yn pylu y kiwtawtwyr hyny uu reit udunt ymchoelut ar ffo yn gewilydus. B.

[390] A llawenhau aoruc gortheirn ena. a roi tir ir saeson aelwid lindesi. A.

A gwedy kaffel o wrtheyrn y vudugolyaeth honno trwy nerth y saesson ynteu yny lle a amlawys rodyon udunt wyntau. Ac y hengyst y rodes ef. yn swyd lindesei tir a dayar megys y gallei ymossedeithaw yn da o honaw. ef ae varchogyon. Ac odyno mal yd oe hengyst ystrywys a ffalst. gwedy gwybot o honaw rygaffel ketymdeithas y brenhin. Sef y dywawt wrth y brenhin yny wed hon. B.

[391] Ac ena pan gawsant ginnwis anvon i germania i ol deunaw llog i wir emlat. Ena i daeth hors a hingestir at e brenin i geisiaw caer ne gastel i emgadw. A.

Arglwyd heb ef dy elynyon yssyd yn ryuelu arnat o pop parth. A chyt gwelir imi heuyt echydic o wyr ty teyrnas ath gar. kanys eu kanmwyaf a glywaf eu bot yth ogyuodaw ti am dwyn emreis o lydaw am ty pen yth diot oth teyrnas. Ac wrth hynny os da genhyt titheu. kyghor yw genyfi anuon kenhadeu hyt vyg gwlat i y wawd marchogyon odyno. megys y bo mwy an niuer y ymlad ath elynyon titheu. Ac y gyt a hynny heuyt vn arch a archaf yt bei na bei rac ofyn vy gomed o honei. Ac yna y dywawt gwrtheyrn anuon ti heb ef ty genhadeu hyt yn germania y wawd marchogyon odyno. Ac odyno arch y minheu ac nyth nekeir o honaw. Ac yn estwg y pen awnaeth hengyst a diolch idaw hynny. Tidi arglwyd heb ef a kyuoethogeisti o tir a dayar. Ac eissoes nyt megys y gwedei enredu tewyssawc a hanffei o lin brenhined. ti adylyut rodi y mi ae kastell ae dinas y gyt ac y rodut megys ym gwelit inheu yn enrydedus ym plith y tywyssogyon. B.

[392] E brenin a diwed na livasei ev i roi rac e britanieid. A.

Ac yna y dywawt gwrtheyrn. Hawrda heb ef vy gward i awnaethpwyt rac rodi y ryw rodyon hynny itti kanys estrawn genedyl ychwi a pheganyeit. Ac nyt atwen inheu ych moes chwi. nac awch deuawt megys y gallwyf awch kefflybu ym kytwtawtwyr. kanys pei dechrewn i awch enrededu chwi megys priawt kiwtawtwyr yr ynys gwyrda y teyrnas a gyuodynt ym erbyn gan wrthwynebu ym. B.

393 Hwinteu a ovynasant gyvled a chroen ich i deilad kaer. B.
Ac yna y dywawt hengyst. Arglwyd heb ef canhatta titheu yth was wneuthur kymeint ac y gyrhaedo karrei y damgylchynu o vntu ar y tir a rodeist ym mal y bo diogelach ym ymgadw mywn hwnnw rac vy gelynyon. kanys fydlawn vum ac wyf a vydaf. B.
394 Ar brenin ai roes. Ena ir aethant adref a holli e croen ich mwiav a gawsant en garrei vain. a gwneuthur dinas e garrai ai galw doncastel. A.
Achanhadu awnaeth y brenhin hynny idaw. a gorchymun idaw ellwg kenhadeu hyt yn germania y geissaw porth o newyd. Ac yna heb vn gohir ellwg a oruc hengyst hyt yn germania. ac odyna kymryt croen tarw awnaeth ynteu ae holli yn vn garrei. Ac odyna dewis y lle kadarnhaf a allwys y gaffel ar hyt y tir a rodassit idaw. ac ar garrei honno mesuraw lle yr kastell a dechreu y adeilyat yn dianot. A gwedy daruot adeilyat y gaer y gelwit yn gymraec kaer y garrei ac yn saesnec tancastyr. ac yn llading castrum corrigie. Ac or enw hynny y gelwit y gaer yr hynny hyt hediw. Ac velly yd oed hengyst yn gwneuthur lleoed kadarn ae vryt ar twyllyaw y brytanyeit a gwneuthur drwc dros da. Ac y uelly y gwna y peganyeit saeson escymun vyth. B.
395 Ena e daeth llogheu o germania. a ronwen verch hingestir. Ena i gwahot e brenin i wlet aorugant i weled er adeilad. B.
Ac yna ydoeth ykynnadeu o germania a deunaw llog yn llawn o uarchogyon gordethol yn aruawc gantunt. A merch hengest ygyt ac wynt. Sef oed y henw ronwen. Ac nyt oed yr eil aellit ychyfylybu idy rac ytheccet. A gwedy dyuot yn niuer hwnnw. Sef awnaeth hengyst gwawd gwrtheyrn y edrych yr adeilat deisyuyt a wnathodit. Ac y edrych y marchogyon newyd dyuot. A gwedy dyuot y brenhin yno a niuer kyfartal gantaw a moli awnaeth y gweith newyd. A chymryt ymarchogyon yn wyr idaw. B.
396 Ac val etoet e brenin ar diwet i vwid ev a welai vorwin anrivet ifrid en divod a gwin attaw. a gostwg a diwedid lenly king wasel. Ar brenin aoruc anridedu e vorwin a rivetu ifrid ac emlenwi oe serch a govin ir ieithit pa beth a diwedasei hi a fa beth a dilei enteu i doedid egwrthwineb iti hitheu. Ar ieithit a diwawd hi ath elwis in vrenin. ac or galwedigaeth hwnw ith anridetoet. A hin a deli ditheu i wrthwineb iti hitheu Drink heil. A gortheirn a wrthebawt iti. Drink heil. A gortheirn a wrthebawt iti. Drink eil. ac a erchis iti ived e llin en gintav ac entcu a gimerth e fiol oi llaw hi ac a rotes cusan iti. Ac wedi heni a evawt e wirawd hono. Ac otina gwedi gortheirn drwi amraveilion wirodeu gidac annoc e cithrel. caru e vorwin aoruc ai herchi iw thad. A.
A gwedy daruot udunt uwyta o vrenhinolyon anregyon nachaf y vorwyn yn dyuot or ystauell agorulwch eur yn llawn o win yny llaw. ac yn dyuot hyt rac bron y brenhin. A gwedy rodi idaw ar tal y deu lin. kyfarch gwell idaw aoruc. A heilyaw arnaw mal hyn. lofart king wasseil. A phan welas y brenhin pryt y uorwyn. enryuedu aoruc yn vawr y theccet. Ac yny lle ymlenwi oe charyat. a gouyn yr ieithyd peth a dywedassei y vorwyn. a phy beth a dylyei ynteu ydywedut ygwrtheb idi hitheu. Ac yna y dywawt y ieithyd wrthaw. Arglwyd heb ef hi ath elwis ti yn arglwyd. ac yn vrenhin. yn y ieith ni. Ac heilwys arnat yr hyn a dylyy titheu y wrtheb yw hyn. Sef yw hynny. drink heil. Ac yna rydywawt gwrtheyrn wrthi. drinc heil. Ac erchi yr vorwyn yvet y gwin. Ar yr hynny hyt hediw y mae deuawt honno yn plith y kyuedachwyr yn yr ynys hon. drinc heil. wesseil. Ac yna gwedy medwi gwrtheyrn neidaw awnaeth diawl yndaw. A pheri idaw kytsynyaw ar paganes yskymun heb vedyd arnei. B.
397 Ac wedi gweled o hengest heni megis et oet ev wr estriwus ev galw aoruc i vrawd attaw. ar gwir henav oe gidemeithion ac emgighori ac wint beth a wnelei am roti i verch ir brenin. Ac o gidgighor pawb onatint i rotasant e vorwin ir brenin. Ac er archasant winteu swit ceint itaw ev erti hi. A.
Ac ysef awnaeth hengyst. mal yd oed ystrywus. adnabot yscawnrwyd y brenin ai annwyt. Ac ymgyghor ae vrawt ac oe gedymdeithon am rodi y vorwyn wrth ewyllys y brenhin. Ac oc eu kytgyghor y rodassant y vorwyn idaw. Ac erchi idaw ynteu swyd geint idi hitheu yny hegwedi. B.
398 A heb oir e vorwin a roted ir brenhin. a swit geint a roted i hingest heb wibod a heb gennad gwrgant e gwr a oet iarll ar e swit hono. Ar nos hono e cisgawt gortheirn egid ar baganes hono. Ac i carawt en vwi no meint. Ac o achaws heni i bu gas gan e deirnas ev. A thri meib a oet itaw cin no heni gorthevir. a chindeirn a fasgen. A.
Ac yn dianot y rodes ynteu swyd geint idi. heb wybot yr gwr aoed iarll yno. Sef oed y enw. gwrgant. Ar nos honno y kyscwys gwrtheyrn gan y vorwyn. A mwy no mesur y karei ef hi o hynny allan. A thri meib auuassei y wrtheyrn kyn no hynny. sef oed eu henweu. kyndeyrn. a gwrtheuyr vendigeit. a phascen. B.
399 Ac en er amser hwnw etoet garmon en pregethu geirieu duw en plith e britanieid. canis llesteiriaw a lligru adaroet fit a christnogaeth in eu plith. Ac enteu o achaws camgred a bregethasei pelagian. ar gwenwin hwnw drwi lawer o amser ae lligrasei. Ac wrth heni drwi e gwinvidedic wr hwnw e dadnewitwid fit e gwirgristnogaeth emplith e britanieid. canis llawer o anrivetodeu a gwrthneueu a daghosei duw vtvnt beunit drwi everllid e gwir da heni. Ar rei heni a scrivenawt gildas vab caw o eglur draethawd. Oed crist 462 e gwnaeth leo bab duw pasc ar duw sul. ar vlwitin wedi heni i ganed sanfraid. ac i daeth garmon a bleit uchod. A.
Ac ynyr amser hwnw y doeth. Garmon escob. a Lupus trauocius y pregethu geir duw yr brytanyeit. kans llygredic oed cristonogaet er pan dothoed y paganyeit yn en plith. Ac yna gwedy pregethu or gwyrda hynny. yd atnewydwyt yffyd ym plith y brytanyeit. kans py beth bynhac a pregethynt ar eu tauawt. wynt ae kederheynt trwy beunydawl wyrtheu ac ynryuedodeu awnaei duw yrdunt. B.
400 Ac wedi roti e vorwin ir brenin mal e doetpwid uchod. Hingist a diwawd wrth e brenin. mivi esit dad it a chighorwr it i diliav vod. ac na dos ditheu dros vigcighor ineu a thi a orviti ar de holl elinion drwi nerth vigcenedil ineu. a gwahotwn attom ettaw octa vi mab i ac cbissa i gevinderw enteu. canis emlatwir da vnt. a diro vtvnt e gvladoet gerllaw hwmur rwg deivir ac escotlont. ac wint eno a erbinant ruthreu ar circheu igan e gelinion agciwieith vegis i bich ditheu en hetwch e parth hwn i hwmir. A.
Ac yna gwedy rodi y uorwyn yr brenhin. y dywawt hengyst yr ymadrawd hwn. miui heb ef ysyd megys tat maeth itti. Ac or bydyti wrth vygkyghor i. ti aorchyuygi dy holl elynyon trwy vym porth i. am kenedyl. Ac wrth hynny. gohodwn ettwa offa vy mab attam ac ossa vyg keuynderw. kans reuelwyr goreu yny byt ynt. A dyro vdunt ygwladoed yssyd yrwg deuyr ar mur. Ac wynt ae kydahyant rac estrawn genedyloed. mal y gellych titheu kaffel yn hedwch or parth hyn y humur. B.

Oddiyma allan y mae y llyvyr A yn canlyn, air yn air, y traethawd canol, dan enw
BRUT G. AB ARTHUR, *oddieithyr y llythyriant.*

401 Ac vfydhau awnaeth gwrtheyrn wrth kyghor hyny. Ac odyna yd anuones hengyst hyt yn germania. Ac ydoethant odyno offa. ac ossa. a cheldric. athrychant llog gantunt o varchogyon aruawc. A hynny

oll a aruolles gwrtheyrn yn llawen. Ac a urdwys pawb onadunt yny lle o rodyon mawrweirthawc. kans ym pop kyfranc y bydei oruydawdyr ef trwydunt wy. B.

[402] Ac velly beunyd eissoes yd achwanegei hengyst ylu trwy twyll brat ganedic gantaw. A gwedy adnabot or brytanyeit hynny dala ofyn awnaethant. Ac erchi yr brenhin gyrru hengyst ae nifer o teyrnas ynys prydein. kany wedei ygristonogyon ketymdeithocau a phaganyeit na ymgymyscu ac wynt. kans kyfreith adedyf gristonogyaet ae gwahanei. Ac ygyt ahynny heuyt. kymeint oed eu niuer ac nat oed hawd adnabot pwy aoed gristiawn pwy aoed pagan. A ygyt ahynny heuyt seint Garmon escob a orchymynassei udunt deho! ypaganyeit saeson oc eu plith. B.

[403] Ac eissoes sef awnaeth gwrtheyrn o garyat y wreic ar saeson. yscalusaw gorchymyn y brytanyeit. Aphan welas y brytanyeit eu tremygu hwynt ỽuelly. Sef awnaethant ymadaw agwrtheyrn. achymryt. gwrtheuyr vendigeit y vab ynteu ae urdaw yn urenhin arnadunt. A dechreu ymlad ar saeson agwneuthur aeruaeu mawr creulawn onadunt. megys ydoed da gan duw ywneuthur. B.

[404] A phedeir brwydyr a vu rwg gwrtheuyr ar saeson. ac ym pop vn ygoruu wrtheuyr trwy nerth duw. Ar ymlad kyntaf auu rydaw ac wynt ar auon tewenyd. Ar eil auu ar ryt epifort. Ac yna yd amgyuarnuant kyndeyrn vab gwrtheyrn a hors brawt hengyst. Ac y lladawd pob vn onadunt ygilyd. Y trydyd ymlad auu ar lan y mor. Ac yn yffoes ysaeson yn wreigawl y eu llogeu. Ac ydaethant hyt yn ynys tanet ygeisaw ymgadw yno. Ac eisoes gwedy eu damgylchynu o wrtheuyr ac eu blinaw o peunydyawl ymlad mal na ellynt ydiodef. Sef awnaethant anuon gwrtheyrn ar uuasei ygyt ac wynt ym pob brwydyr yn porth udunt. hyt ar wertheuyr. y uab y erchi idaw eu canhadu y uynet yeu gwlat ynryd. A thra yttoedit yn kymryt kyghor ymdanadunt. Sef awnaeth ysaeson kymryt eu llogeu ac adaw eu gwraged ac eu meibyon. Affo hyt yn germania. B.

[405] Agwedy kaffel o wertheuyr y uudugolyaeth hono. dechreu awnaeth ynteu talu y pawb ydelyet ar daloed yr saeson ydwyn y arnadunt. Ac enrydedu y wyr. a chadw iawnder ac wynt. Ac ygyt ahynny atnewydhau yr eglwyseu. ac eu anrededu wrth gyghor garmon escob. B.

[406] Ac eissoes kyghoruynu awnaeth diawl wrth y daeoni ef ae gyfarchwel. A dodi yghalon ronwen y lysuam medwl y geissaw ystrywyaw y agheu.. Agwedy medylyaw o honei pob ystryw. or diwed sef awnaeth rodi gwenwyn yn llaw vn oe wassanaethwyr. Agwedy kymryt y gwenwyn ohonaw. cleuychu awnaeth o wrthtrwm heint yn deisyuyt. B.

[407] Ac yny lle dyuynnu attaw holl wyrda yteyrnas. Agwedy eu dyuot ygyt. rannu udunt agynnullassei o eur ac aryant a da arall. A menegi udunt yuot ef yn mynet ygantunt y hagheu. A phawb onadunt wynteu yn griduan ac yn drycyruerthu. Ac ynteu yn eu didanu wynt ac yn eu kyghori. Ac yn annoc y gwyr ieueinc dewr bot yn wrawl fenedic y ymlad dros eu gwlat. Ac y amdiffyn y teyrnas rac gormes estrawn genedyl. A gwedy eu hannoc velly yn hewyd y gallei oreu. erchi awnaeth dineu delw euydeit trwy tanawl geluydyt. Ae gossot yny porthua ygnotaei ysaeson dyscynnu yndi. Agwedy bei uarw ynteu iraw y gorff ac ireideu gwerthuawr. ae ossot yny porthua ygnotaei y saesson dyuot ar ydelw honno yr aruthred yr saesson. Ac ef adwedei wertheuyr vendigeit hyt y gwelynt wy y delw honno ae gorff ef arnei hi. na leuessynt dyuot y tir ynys prydein. kans ef a gerdei na leuessynt wy dyuot ar y tor ef yn uarw. y gwr awnadoed udunt yny vywyt y gyuniuer defynyd ofyn ac aruthred ar awnadoed ef. Ac eissoes gwedy y varw ef. kyghor a oed waeth awnaethant wy. cladu ygorff ef yn llundein. B.

[408] A gwedy marw gwertheuyr vendigeit. y doeth gwrtheyrn gwrtheneu y gyuoeth tracheuyn. A gwedy kaffel o honaw y vrenhinyaeth. o arch ac annoc y wreic anuon awnaeth hyt yn germania y erchi y hengyst dynot tracheuyn y ynys prydein yn yscyfalahaf y gallei o niuer rac ofyn geni teruysc eilweith yrydunt ar brytanyeit. B.

[409] Ac yna pan gigleu hengyst yr uarw. gwertheuyr vendigeit. kynnullaw aoruc ynteu trychant mil o varchogyon aruawc achyweiraw llyghes. ac ymchoelut tracheuyn hyt yn ynys prydein. A gwedy gwybot or brytanyeit bot nifer kymeint ahynny yn dyuot. Sef agawsant yn eu kyghor ymlad ac wynt kyn eu dyuot yr tir. A diffryt y porthuaeu racdunt. A gwedy anuon oe verch attaw ef y uenegi hynny. Sef awnaeth ynteu ystrywyaw bredychu y brytanyeit trwy arwyd tagneued. Ac anuon ar y brenhin y uenegi idaw nat yr keissaw trigyaw yn yr ynys y doethant y sawl niuer hwnnw ygyt ac ef. namyn tebygu bot gwertheuyr ettwa y uyw y dygassei y niuer hwnnw y amdiffyn racdaw. Ar niuer a uynnho gwrtheyrn onadunt. attalyet yn wyr idaw. Ac ar ny mynno. ellyghet y ymdeith yn diannot. B.

[410] A gwedy datganu hynny yr brenhin rodi tagneued awnaeth udunt. Ac erchi yr kiwtawtwyr ac yr saeson duw kalan mei aoed yn agaws y hynny. dyuot ygyt y maes kymry y wneuthur tagneued y rydunt achymot. Ac aruer awnaeth hengyst yna onewyd keluydyt bradwryaeth athwyll. Ac erchi y pop vn oe wyr ef dwyn kylleill hiryon gantunt y mywn eu hossaneu gyt ac eu hesceired. Ac yna pan vei dipryderaf gan y brytanyeit yn gwneuthur eu dadleu. rodi arwyd o hengyst y wyr. Sef arwyd oed. Nunyd awr saxys. Aphan dywettei ef yr arwyd hynny wrthunt hwy. Erchi y pop un onadunt kymryt y gyllell allad y bryttwn nesaf idaw. B.

[411] Ac yny dyd teruynedic hwnw ar amser gosodedic wynt adoethant pawb yny gyueir onadunt yr ynlle. Agwedy dechreu y dadleu. a gwelet o hengyst yr awr auu da gantaw ac amcanus. sef adwawt yn digawn y uchet o hyt ylef. Nunyd awr saxys. sef oed hynny yg kymraec kymerwch awch kylleill. Ac ar hynny sef awnaeth y saeson dispeilaw eu kylleill. a chyrchu tywysogyon y bryttanyeit ac eu llad megys deueit. a sef niuer alas yno rwg tewysogyon a gwyr da ereill trugein wyr a phetwar canwr. B.

[412] Ac yno y kymerth gwynuydedic eidal escob corfforoed y gwyr da hyny merthyri. ac y cladwys ymherwyd dedyf gristonogawl yn agos ygaer garadawc yny lle aelwir salysberi ymywn mywent geir llaw manachloc ambri abat. y gwr auu seilawdyr ar y vanachloc hono yn gyntaf. Ac ny doeth gan y brytanyeit yr dadleu hwnw vn aryf kanyt oed yn eu bryt namyn gwneuthur tagnefed. Ac ny thebygynt wynt eu bot ymryt ysaeson amgen no hyny. Ac eissoes y doethant y bratwyr yn aruawc. ac eissoes ykeric auu amdiffyn iawnda yr bryttanyeit.

Ac yno yr dothoed. eidol iarll kaerloyw. Aphan welas eidol lad ygetymdeithon uelly trwy vrat. Sef ykauas ynteu pawl da kadarn. Ac ahwnw py vn pynhac or saeson agyfarffei ac ef. yny bei vriwedic y pen ae emenhyd y auuonei parth ac uffern. Ac ar pawl bendigeit hwnnw y briwei ef ypen y vn. y yscwydeu y arall. y vreicheu y arall. ae dwylaw y arall. y traet ae esceired ywrth y gorff. Ac ny orffowyswys eidol ar ruthur honno. hyny ladawd deg wr athri vgeint ar vn pawl hwnnw. A gwedy gwelet o honaw na allei ef ehun gwrthwynebu yr niuer mawr hwnnw. kymryt yffo aoruc hyny doeth y dinas ehun. A llawer asyrthwys yna opop parth. Ac eissoes yryscymun uudugolyaeth honno agafas y saeson. Ac yr hyny eissoes ny ladasant wy wrtheyrn. namyn y garcharu achymell arnaw rodi vdunt. ydinasoed ar kestyll cadarn o ynys prydein yr yellwg. Ac yna y rodes gwtheyrn udunt pop peth a uynasant yr yellwg. Ac yna ykymyrth y saeson y gantaw lundein achaer efrawc. alincol. achaer wynt. allad eu kiwtawtwyr yn llwyr. megys ylladei vleideu deueit gwedy assadawei eu bugeil. B.

[413] Agwedy kymryt kedernyt aruoll y gantaw : yd ellygwyt. agwedy gwelet o wrtheyrn y truan aerua honno ar priodoryon yr ynys ygan yr yscymun pobyl saesson. Sef awnaeth ynteu kylyaw parth ac emyleu kymry kany wydyat peth awnaei yn erbyn yr yscymun pobyl honno. B.

[414] Ac yna galw aoruc gwrtheyrn attaw holl doethon ahenuryeit yr ynys. a gouyn udunt peth awnaei wrth hynny. Ac yna ykyghoret idaw adeilat kastell kadarnaf a allei yny lle kadarnaf agaffei megys y bei hwnnw yn amdiffyn idaw. can kollassei y lleoed cadarn oll oe gyuoeth. Agwedy crwydraw ohonaw llawer oleoed ygeisaw lle auei adas gantaw. or diwed ef adoeth hyt ymynyd eryri. B.

[415] A gwedy kaffel ohonaw le auu adas gantaw wneuthur ykastell. kynnullaw awnaethpwyt a allwyt y gaffel oseiri meini ac eu dwyn yno. Agwedy gossot y grwyndwal onadunt. kymeint ac awneint ydyd or gweith : trannoeth pan gwnont neur daruydei yr dayar yllyncu heb wybot dim ywrthaw. mwy nochyny ryffei eiroet uch ydayar. agwedy menegi hynny y wrtheyrn : gouyn awnaeth yw dewinnyon peth awnai hyny. B.

[416] Ac ynad yd erchis y dewinnyon idaw : keissaw mab heb tat idaw. allad hwnnw. achymyscu ywaet ar kalch. ac iraw y meini heuyt ar kalch agwaet y mab. A dineu y gwaet yny grwndwal. Ac y velly y sauei y gweith. Ac yn yd anuonet y pop lle y geissaw y kyffryw vab hwnw. Agwedy dyuot deu or kanhadeu hyt y dinas aelwit gwedy hynny. kaeruyrdin. B.

[417] Nachaf y gwelynt bwrn oweisson ieueinc yn gware yn drws ydinas. Asef awnaethant ykynhadeu dynessau y edrych ar y gware. Ac eisted yn lludedic dyffygyawl. Ac ywarandaw am eu negys y dothodynt oc cheissaw. Agwedy bot y gweisson velly yn gware yn hir veith. daruot awnaeth rwg deu onadunt a elwit myrdin. ar llall a elwit dunawt. Ac yna y dywawt dunawt wrth vyrdin. py achaws heb ef yd amryssouyt ti a miui nac y kynheny. kans dyn tyghettuenawl wyt heb tat itt. A minheu a henwyf o vrenhinawl lin o pleit mam athat. B.

[418] A phan gigleu y kennadeu y gyireu hynny. Drychauel eu wynebeu awnaethant y edrych ar vyrdin. Agouyn yr dynnyon aoed yn eu kylch pwy oed y gwas. Ac wynteu adywedassant na wydyynt wy pwy oed y tat ef. nac a oed tat idaw. y vam ynteu a dywedynt wy ybot yn verch y vrenhin dyuet. Ac yny tref yma y mae yn vanaches ym plith y manachesseu ereill yn eglwys pedyr. B.

[419] Ac yny lle cychwyn awnaeth y kenhadeu ar gwnystabyl y tre. Ac erchi idaw o pleit y brenhin. anuon myrdin ae vam yn diannot hyt ar y brenhin. wrth wneuthur y ewyllus onadunt. A gwedy eu dyuot hyt rac bron y brenhin. y aruoll yn anrededus awnaeth y brenhin y vam vyrdin can gwydyat y hanuot o vrenhinawl genedylaeth. B.

[420] Ac odyna gouyn awnaeth ef idi : pwy oed tat y mab. ac yna y dwawt hitheu wrth y brenhin. byw yw vy eneit. i. nat adnabuum. i. wr eireoet. ac na wn pwy a gerwys y mab. namyn vn peth awn. Pan yttoedwn ym plith vyg ketymdeithesseu yn yr hunty. Nachaf ygwelwn yn dyuot attaf ar drych gwr ieuanc teccaf or byt. Ac yn dodi y dwylaw ymdanaf. ac ym karu ami. Ac or diwet yn kytyaw ami trwy vy hun. Am adaw yn veichawc. Agwybydet dy prudder di ath doethineb arglwyd vrenhin na bu imi erioet achaws agwr namyn hynny. megys y gwypwn. i. bot idaw ef amgen no hwnnw. B.

[421] Ac ynreuedu yn vawr awnaeth y brenhin hynny. ac erchi dwyn meugant dewin attaw. y ouyn idaw ef aallei hynny vot yn wir. agwedy dyuot meugant yr lle datganu awnaethpwyt idaw y gyfranc honno. ynteu a dwawt y keffit yn llyureu y doethon ac yn llawer o istoriaeu. bot llawer o dynyon aryw anedigatheu hyny udunt. Apuleius adyweit pan traetha o duw ar seint bot ryw genedyl o yspryt yn presswylyaw y rwg y lleuat ar daiar. A rei hynny allwn ni dieuyl gogwydedic. A ran yndunt or dayar ac o dynyawl annyan. A ran arall o annyan egylon. A phan y mynont y gallant kymryt furuf gwr ae drych arnadunt. A chydyaw ar gwraged velly ac atuyd y mae vn o rei hynny a doeth ar y wreic da hon. ac ae beichoges. pan gahat y gwas hwn. B.

[422] Ac yna gwedy gwarandaw o vyrdin yr ymadrodyon hynny : nessau awnaeth ar ybrenhin ac adoli idaw. A gouyn py achaws y ducsit ef ae vam yno. Ac yna y dywawt gwrtheyrn wrthaw. vyn dewinnyon a archassant im keissaw mab heb tat idaw. Ac agwaet hwnnw iraw y gweith. Ac yvelly y dywedynt y sauei. Ac yna y dwawt myrdin. Arglwyd heb ef par ti dyuynnu dy dewinyon rac vy mron. i. Ami aprouaf arnunt bot yn gelwyd adywedassant. B.

[423] Ac enreuedu awnaeth y brenin ar ymadrodyon myrdin. ac erchi dwyn y dewinyon rac bron myrdin. Agwedy eu dyuot rac y vron. merdyn a ofynwys vdunt. peth a oed yn llesteiraw yr gweith seuyll. kans ymae yno peth yn dirgelu : ny at yr gweith seuyll. B.

[424] Ac ny allwys y dewinyon atteb idaw. Ac yn y dywawt myrdin. Arglwyd heb ef. arch ti dwyn dy weithwyr y gladu y dayar yma. Athi ageffi llyn y dan y dayar. A hwnnw ny at ygweit seuyll. Agwedy gwnynthur y clad. A chaffel y llyn. yna y dywawt myrdin eilweith wrth y dewinyon. dywedwch twyllwyr bratwyr anhyedwyr kelwydawc. peth ysyd dan y llyn. Ac yna tewi awnaethant megys kyt bydynt uut. B.

[425] Ac yna dywawt myrdin. Arglwyd heb ef. par ti dispydu y llyn trwy frydyeu. A thi awely deu uaen keuon yny waelawt. A ymywn y deu vaen y mae dwy dreic. yn kyscu. A chredu awnaeth y brenhin hynny idaw. kan dywedassei wir am y llyn kynno hyny. Ac erchi dispydu y llyn awnaeth y brenhin. A gwedy y dispydu y llyn. y mein megys y dywawt myrdin agahat. ar dreigeu yn kyscu yndunt. Ac am pop peth o hynny : enryued doethineb myrdin awnaei y brenhin. A phawb ar a oed gyt ac ef yn credu bot dwywawl gyfoeth a gwybot a doethineb yndaw. B.

[426] Pan yttoed gwrtheyrn gwrtheneu ar lan y llyn yn eisted diwhwynedic. y kyuodassant dwy dreic o honaw. O rei ydoed vn wen ac arall goch. Agwedy dynessau pop vn yw gilyd onadunt. dechreu girat ymlad awnaethant. a chreu a dan oc eu handyl. Ac yna gwrthlad y dreic choch ae chymhell hyt ar eithaoed y llyn. A doluryaw aoruc hitheu allidyaw yn vawr. Achymhell y dreic wen drachefyn. Ac val ydoed y dreigeu yn ymlad yny wed honno. yd erchis y brenhin y vyrdin dywedut beth a arwydoccaei hynny. yny lle sef awnaeth ynteu gwehynnu y yspryt gan wylaw adywedut gwae hi y dreic coch kans y haball yssyd yn bryssyaw. y gogoueu hi a achub y dreic wen yr hon a arwydoccaa y saesson. a hodeist. y dreic coch arwydocaha kenedyl y brytanyeit. yr hon agywarsegir ygan y dreic wen. wrth hynny y mynyded awastateir mal y glyneu. Ac auonoed y glineu alithrant owaet. Pwyll y gristonogyaeth adileir. a chwymp yr eglwysseu a ymdewynic. yny diwed y ran uwaa y gywarsagedic. Ac dywalder yr estronyon y gwrthwynebir. kanys baed kyruyw aryd kanhorthwy. A mynygleu yr estronyon a sathyr dan y drayt. ynyssed yr eigawn adarystygant idaw. A gwladoed freinc auedhawt. Gw rufein a ofynhaa pobyl yd anrydedir. Ae weithredoed a vyd bwyt yr ae datgano. Wheych gwedy ef aymlynant y teyrnwyalen. A gwedy wynteu y kyuyt pryf o germania. y morawl vleid adrycheif hwnnw. yr hwn agytymdeithocaha kwyneu yr affric. y creuyd a dileir eilweith. A symudedygaeth yr eisteduaeu penhaf a uyd Teiligdawt lundein a adurnoccaa kaer geint. A bugeil kaer efrawc a vynycha llydaw. Mynyw a wiskir o vantell kaer llion. Aphregethwyr iwerdon auyd mut o achaws y mab yn tyfu yg kallon y vam. Ef adaw glaw gwaet. a girat newyn aliwha y rei marwawl. Pan delhont y petheu hynny. y doluria y dreic coch. Ac yny bo llithredic

llafur y grymhaa. yna y bryssa direidi y dreic wen. Ac adeiladeu au y gardeu a diwreidir. Seith dygawdyr teyrnwyalen: a ledir. Ac vn onadunt a uyd sant. Diruawr poen a uyd yr dynnyon. yny atneher y rei eissywedic. awna y petheu kyn hynny a wisc gwr enydawl. Athrwy laweroed o amseroed ar varch ufydawl y geidw llundein. Odyna yd ymchoel y dreic coch yny priodolyon deuodeu. ac yndi ehun y llafyrya y dywalhau. wrth hynny y daw dial ar holl gyfoethawc. kans pop tir a twyll y amaeth. marwolaeth a gribdeila y popyl. yr holl genedloed a diffrwytha. a gwedillon a adayar ant en genedic dayar. Ac aheant gradeu estronawl. y brenhin bendigeit a darpar llyges. ac yneuad y deudec y rwg y gwynuydedigyon y rifir. yna y byd truan adawat y teyrnas. Ac ytlaneu yr ydeu a ymhoelant yn anfrwythlawn. eilweith y kyfyt y dreic wen. a merch germania a wahawd. Eilweith y llenwir an gradeu ni o estronawl hat: ac yn eithauoed yllyn y gwarha y dreic coch. Teruyn gossodedic yssyd idi. yr hwn ny eill mynet drostaw. Dec mlyned a deu vgeint a chant y byd yn anwastadrwyd. a darystygedigaeth. trychant hagen y gorffwys. yna y kyuyt gogledwynt yny erbyn. ar blodeu a greawd y deheuwynt a gribdeila. yna yd eurir y temleu. ny orffwys hagen llundein y cledyueu. Breid uyd o cheiff pryf germania y ogoueu. kans dial y vrat adaw yny erbyn. wrth y diwed y grymha bychydic. Degwm flandras hagen ae llesteirha. kans popyl adaw yny erbyn y mywn pren a pheisseu henru amdanadunt a gymer dial oe dywalder ef ae enwired. Ef a atverir yr hendiwhyllodion y presswyluaeu. Achwymp yr estronyon aymdawynic. hat y dreic wen a eillir oc an gradeu ni. Agwedillon y genedyl a degemir. Gwed tragwyddawl geithiwet a dyborthant. Ac eu mam a archollant o geibeu ac ereidyr. yna y dynessa y dryigeu. or rei y darestwg y neill y saeth kyghoruynt yllall agen a ymchoel dan wascawt y enw. Odyna y dynessa llew y wiryoned. Ar vreinat yr hwn yd ergrynant tyroed ffreinc. Ac ynysolyon y dreigeu. yn dydyeu hwnnw yd ymchoelir. eur or lilium ar danhaden. Ac aryant alithyr o garneu y rei a ureuont y calanustreit awiscant amreuaelon guoned. Ar abit vchaf a arwdochaa y petheu o vywn. Traet y rei a gyfarchont atrychu: hedwch agafant y bwystuileit. Dynyolyaeth adolurya poen. ef ahollir. furuf y gefnewit. hanher crwn a uyd. ef a balla cribdeil y barcutaneit. a danhed y bleideu a bylant. Canawon y llew asymudir y morolyon pyscawt. Ac eryr hwnnw awna ynyth ar vynyd yr auia. gwyueb a gocha oe mamawl waet. Athy cornius alad ywhebroder. onossolyon dragreu y gwylycha yr ynys. yna y gelwir pawb ar pop peth. y plant alauuryant ehedec ar oruchelder. canmawl petheu newyd hagen a dyrcheuir. yr auo gwar yd argwedir o enwired hyny wisco ef y tat. wrth hynny yd escyn y mynyded y rwymedic o danhed baed coet a gwascawt y penfestinyawc. llidyaw awna yr alban. Ac yny bo kyt alwedic y ystlysseu. yllauurya ydineu gwaet. y genoed hwnnw y rodir frwyn yr hwn awneir yn arfet llydaw. Eryr torr y gygreir a eurha hwnnw. Ac yny trydyd nyth y llawenhai. yna y deffry y kanawon aaruthrant. Ac yny bwynt adawedigyon y llwyneu o vywn muroed y kerhyt yd hehir. Ac. na uyt bychan awnant or ae gwrthwynepo. A thawt y teirw a trcchant. mynygleu y rei vrefont a wrthcrymant o gadwyneu. Ahenyon amseroed a atnewydant. Odyna or kyntaf yr pedwyryd. Or pedweryd yr trydyd. or trydyd yr eil y troir y vawt ynyr olew. y chwechet adiwreida muroed iwerdon. A llwyneu a sumyt yn wastatrwyd. amryual ynuo ranneu adwc yn vn. Ac ym pen y llew y coronheir. y dechreu a darestwg y whibiander. diheuhyt y diwed hagen a eheta ar oruchelyon. kans atnewydaha eisteduaeu y gwynuedidigyon trwy y gwladoed. Ac aleha bugelyd yny lleoed gwedus. Dwy kaer awisc o dwyuantell. ae werynolyon rodyon aryd ywerydon. Odyna y gobryn canmawl yr holl gyuoethawc. Ac y rwg y rei gwynuededigyon a kyfleheir. O hwnnw y kertha hur aerchyruynha pop peth. yr hwn a ymdywynic yn gwymp y priawt genedyl. Trwy hwnnw y kyll flandrys y dwy ynys. Ac oe hen teilygtawt yd yspeilir. Odyn ymchoelant ykiwdawtwyr yr ynnys. kans aball yr estrawn genedyl adwyrhaa. yr hen gwyn y ar varch gwely yn diheu a trossa auon perydon. Ac agwyalen wen a uessur melin arnei. katwaladyr a eilw kynan. ar alban a dwc yny getymdeithas. yna y byd aerua geneloed. yna llithrant owaet. yna y llawenhant mynyded llydaw. Ac or teyrnwyalen y coronheir y bryttanyeit. yna y llenwir kymry o lewenyd. Achedernyt kernyw a irhaa. O enw brutus yd enwir yr ynys. Ac erni yr estronyon a aballa. O gynan y kerda baed ymladgar yr hwn alymhaa blaenwed y danhed o vywn llwyneu freinc. kans trecha pop kedernyt mwyaf. yr rei lliaf hagen y ryd amdiffyn hwnw aoffynhaant yr auia ar affrica. kans ruthur y redec ef a ystyn y eithauoed yr yspaen. y hwnnw y dynesa bwch y serchawl gastell. abaraf aryant idaw. achyrn eur. yr hwn achwyth oe freneu y veint wybren. yny tywyllo wyneb yr holl ynnys. hedwch auyd yny amser ef. Ac o frwythlonder y tywarchen yd ymlaant yr yteu. Agwraged yn eu kerdedyant auydant nadred. a phop cam udunt a lenwir o syberwyt. yna yd atnewydir lluesteu godineb. Ac ny orffowysant saethu kybydyaeth o vrathu. ffynawn eilweith alenwir owaet. a deu vrenhin awnant ornest am y llewes o ryt y vagyl. Pop gweryt agynheuda. A dynyolyaeth ny pheit a godineb. pop peth o hyn teir oes ae gwyl. hyny datgwdyer y brenhined cladedic ygkaer lundein. Eilweith yd ymchoel newyn a marwolyaeth y popyl. Ac odiffeithwch y keryd ydoluryan y kiwdatwyr. Odyna y daw baed ygyfnewit. yr hwn aeilw y kenueihoed ar eu kolledigyon porueyd. y vron ef a uyd bwyt yr rei awlychant gwywn weusoed y dynyon. Odyna ar twr llundein y creir pren a their keing arnaw. yr hwn atywylla wyneb yr holl ynys olet y deil. Yn erbyn hwnw y kyuyt gwynt y dwyrein. Ac oe enwir whythat ef y gribdeila ytryded geig. y dwy hagen atrigyo: a achubant le y diwreidedic. hyny diewo y neill y llall o amylder y deil. Odyna hagen y kymer vn lle y dwy. Ac adar yteyrnasoed eithaf a gynheil. y wlatolyon adar ybyt argyweidawdyr. kans o ofynt y wascawt y collant eu plant. yhwnnw y dynessa assen enwired. buan ygweitheur. llesc hagen yn erbyn cribdeil y bleideu. yny dydyeu hwnnw y lloscant y deri yny llwy. Ac yg heigeu y llwyf y genir y mes. Mor hafren trwy seith drwys y ret. Ac auon wysc trwy seith mis a gamerwa. Pyscawt honno auydant verw o wres. Ac onadunt y creir nadred. yna yd oerhaa yneint badwm. Ae dyffred iachwyawdyl auagant agheu. llundein agwyn agheu vgein mil. Ac auon temys asymudir yn waet. y kyflogwyr a elwir ar neithoryeu. Ac eu lleueni aglywir ymynyd mynheu.

Teir fynawn agyuyt ogaer wynt. ffrydyeu y rei hynny ahollant y dayar yn teir ran. yneb a yffo o vn o nadunt: o hir uuched yd aruera. Ac ny wrthrymir o gleuyt rac llaw. Ac yffo or eil: o aniffegedic newyn yd aballa. Ac yny wyneb ybyd aruthred a glassed. Ac yffo or tryded: o deissyuyt agheu yd aballa. Ac ny thric ygorff ymed: y rei auynhont gochel y veint tymhestyl honno. A lafuryant oe dirgelu o amryualyon gwdedigaetheu. wrth hynny beth bynhac adottor arnadunt: furuf corff arall agymer arnaw. kans dayar yn vein. mein yn pren. pren yn lludw. llwdw yn dwfyr o bwrir yarnaw a ymchoel yn plwm. yn hynny y dyrcheuir morvyn or llwyn llwyt. y rodi medeginyaeth o hynny. Gwedy prof ho honno pop keluydyt. oe hanadyl ehun y sycha yfynhoneu argywedawdyr. Odyna yn ydymiachao hitheu o iachwydawl vedyglyn. ykymer yny deheu lwyn kelydon. Ac ny asseu hagen muroed llundein. Pyle bynhac y kertho hitheu: cameu brwnstanawl awna. y rei avygant o deu dyblyg flam. y mwc hwnnw a gyffry gwyr rodwm. Ac auyd bwyt y rei dan y mor. O trueinon dagreuoed y llithyr hitheu. Ac o aruthur diaspat y lleinw yr ynys. honno alad y carw dec geig. y pedwar onadunt a arwedant coroneu eur. y chwech ereill a ymchoelir yn kyrn buffleit. y rei y gyffroant teir ynys prydein oc eu hyscymyn sein. yna y sychir llwyn

danet. Ac yn dynawl lef gan ymtori y llefha. Dynessa gymry a gwasc kyrnyw wrth dy ystlys. A dywed y gaer wynt. y dayar ath lwnc. Symut eistedua yr lle y discyn y llogeu. Ac ymlynent yr aelodeu ereill y pen. kans dyd a vryssya. yn yr hwn yd aballant y rei anudonyl am eu pechodeu. Gwyder y gwylan a argwedaha. ac ymryuaelder y rei hynny. Gwae yr anudonyl genedyl. kans kaer ardyrchawc a syrth oe achaws. Ac vn odeu auyd. Draenawc gwrthrwm o aualen a adeilha honno o newyd. wrth arogleu y rei hynny yd ehedant adar amryualyon lwyneu. fford diruawr auyd yr llys. Ac owechant twr y kedernheir. wrth hynny y kyghoruynha llundein. Ae muroed a achwannecca yn tri dyblyc. Temys ae cylchyna o pop parth. A chwedleu y gweithret hwnnw agerdant tros vynheu. yndi ycud y draenawc y auaeleu. a gwneuthur fford idaw dan y dayar. yn yr amser hwnnw y dywedant y mein. ar mor y kerdir drostaw y freinc. a gyfygir ym byrr yspeit. y am y dwylan yd ymglywant ydynyon. Achedernyt yr ynys ahwyheir yna y damllywychant dirgeledigyaeth y moroed. A freinc rac ofyn a ergryna. Odyna y kerda ederyn o lwyn y kaladyr. yr hon agylchyna yr ynys dwy vlyned. O nossawl leuein y geilw yr adar. Aphop kenedyl yderyn agetymdeithocca idi. yndiwyll y rei marwawl y ruthrant. Aholl grawn yr yt alyncant. Odyna ydaw newyn yr popyl. yn ol ynewyn : girat agheu. Pan orffowysso y veint aghyfnerth hono : y kyrch yr yscymun ederyn hono glyn galabes. Odyna yd ymdyrcheif y vynyd. ym pen hwnnw y planha dar. Ac yny cheigheu ygwna ynyth. Tri wy adeidy yny nyth. or rei ybyd llewynawc. a bleid. ac arth. y llewynawc alwnc y vam. Ac ynteu aarwed pen assen arnaw. wrth hynny ynybo kymyredic yr aghyghyl yd aruthra y vrodyr. Ac y ffy hyt yn flandrys. Agwedy ykyffroont wynteu y baed yscithrawc. yd ymchoelant o vrodwy ywnyth' dadleu. ar llwynawc. pan el ynteu yr dadleu : yd ymwna yn varw. Ac enwired ybaed agyffroha yny lle ykyrch ynteu y gelein. A phan del vch y pen. ywyth yny wyneb ae lygeit. Sef awna yllwynawc heb ebryuegu ynotaedic vrat. Temhigaw y troet asseu ae diwreidaw oll oe gorff. yd ysclyf ynteu y clust deheu yr llewynawc ae loscwrn gan neidaw draegeuyn. Ag yg gogoueu y y mynyd yd ymdirgelha. wrth hynny ybaed twylledic ageis y bleid ar arth y eturyt idaw y golledigyon aelodeu. y rei gwedy elhont yn dadleu a adawant deu traet achlustalloscwrn. Ac orei hynny. gwneuthur aelodeu hwch idaw. Darestwg awna ynteu y hynny. Ac arhos y edewit. yn hynny y discyn yllwynawc or mynyd. Ac yd ymritha yn vleid. Amynet y gyffrwch awna ar baed. Ac yn ystrywys ylyncu yn gwbyl. Odyna yd ymritha yn vaed. A megys heb aelodeu y derhy y vrodyr. Ac eissoes gwedy delhont. o deissyuynt deint y llad. Ac o pen y llew y coronheir. yn dydyeu hwnw y genir sarff a ymdywynnic y agheu y rei marwawl. Ohyt ef ykylchyna llundein. Ac el heibaw alwnc. yr ych mynydawl agymer pen bleid. ae danhed awynhaa yg werth mor haffren. Ef a gytymdeitha idaw kenueinoed yr alban achymry. yr rei a sychaut auon temys gan y hyuet. yr assen a eilw bwch hir y varyf. ae furyf a symut, y llonhau awna ymynydawl : yny bo galwedic y bleid. y tarw a ansoda y gyrn yndunt. Gwedy y madeuho hagen y dywalder. y llwnc eu kic ac eu hescyrn. Ac ym pen oryan y lloscir. Gwirychyon y gynnen : asamudir yn eleirch. y rei anouyant yny sychdir megys yn yr auon. y pyscawt alyncant y pyscawt. Ar dynyon y. l. y dynyon. wrth heneint y rei dan vor awneir yn lleuffer. Ac wynteu a lunyant bredycheu dan y mor. y llogeu asodant ac aryant nyt bychan a gynnullant. Eilweith yret auon temys. Ac yny bwynt alwedigyon auonoed eithr teruyn ychanawl y kertha. y kaeroed nessaf agud. Ar mynyded y ar fford a distryw. wrth hynny yrodir ffynhawn idaw lawn o vrat ac enwired. Ohonno y genir lladuaen aeilw a gwyndyt ar ymladeu. kedernyt yllwyneu, A gytunnha. Ac o elecheu y deheuwyr yd ymladant. Bran a ehetta ygyt ar barcutanot. Achorfforoed y rei lladedic alwnc. A muroed kaerloyw y gwna y bwn y nyth. Ac yny nyth y creir assen. hwnnw auag sarf maluarn. Ac yn llawer o wredycheu y kyffroha. yn ybo kymeredic y teyrnwyalen : yd escyn goruchelder. Ac o aruthyr sein yd aruthra y wlat. yny dydyeu y seinant y mynyded. Ac y dyspeilir y kymhydeu oc eu lwyneu. kans daw pryf tanawl yanadyl : yr hwn alysc ygwyd yny bo gwrthladedic y gwlybwr Ohwnw y kerdant seith ychen kynyruedic o penneu bycheu. O dryc wynt eu froeneu yllygrant y gwraged. Ac ygwnant yn priawt udunt. Ny wybyd y tat y priawt vab. kans o deuawt aniueileit y rewydant. wrth hynny y daw kawr enwired : yr hwn a aruthra pawb o lymder y lygeit. yn erbyn hwnnw ykyuyt dreic kaer wyragon. A hwnnw auydylya ydistryw. Gwedy ybo ornest yrydunt y goruydir y y dreic. Ac o enwired y budugawl y kywarsegir. kans escynnu y dreic awna. Ac yny bo diodedic y wisc. yd ested ar y gefyn yn noeth. y dreic ae dwc ynteu ar oruchelder. yny bo atgymeredic y loscwrn ; ae maed yn noeth. Eilweith yny atgymeredic y grym. y kawr hwnnw ae kywarssagha achledyf. yny diwed ef a blygir y sarff dan yloscwrn. Ar gwenwinic a aballa. yn hol hwnnw ydaw baed tutneis : ac o greulawn lwybur ykywarsagha y bobyl. kaer loyw adyrcheif llew : yr hwn a aflonyda o amryualyon ymladeu. Hwnnw asathyr dan y traet. ac o agoredigyon orchyruaneu yharuthra. yny diwed ykywaethla yllew. Achefneu abonhedigyon a escyn. Odyna y daw tarw yr amrysson. A llew a seren oe troet deheu. hwnnw a wrthlad trwy leeu dielw y teyrnas. y gyrn hagen atyrr muroed kaer exon. llewynawc kaer dubal a adeila y llew. Ac ae treutha oll ae danhed. Neidyr kaer lincol a damgylchyna yllewynawc. Ae kyndrycholder ylaweryon a nadred atystir o aruthyr whibanat. Odyna ydymladant y dreigeu. Ar neill a vriw y llall. yr edeinawc y gywarsaga yr hon heb adaned. Ae gwenwynic ewined aweisc yny genoed. Ereill adeuant yr ymlad : Ac arall alad hwnnw. y pymet a nessa yr lladedigyon. Ar neill o agheuoed amryual a vriw. Odyna yd escyn kefen vn achledyf. Ac y gwahan y pen ywrth y gorff. yny bo diogedic ywisc : ydescyn arall ae deheu. ac ae bwrw ar assaw. hwnnw a orchyfyca y noeth pryt na allei dim yn wiscedic. ylleill aboenha y ar eu gefyn. Ac yg cryuder y teyrnas ykymhell. Teir pymp ran adwc yn vn. Ac ehun auyd arglwyd ar y pobyl. kawr a echtywynnycca o vywn liw. Ae pobyl wen aulodeuha. Tegycheu adiwreida y tywyssogyon a darystygedigyon a kynnyda yanniueileit mor. yna y dwyrhaa y llew. kwydedic o dynawl greu. dan hwnnw ydodir iachwyawdyl yn yt. yr hwn tra lauuryho y bryt : y gywarsegir o gan hwnnw. y rei hynny ahedycha kerbyt kaer efrawc. yr hwn adyweit : escynet y kerbyt. yny bo gwrthladedic arglwyd. yno vo noeth y cledyf : ygogyuedeu y dwyrein. Ac oleu y olwyneu aleinw o waet. Odyna y byd pyscawt yny mor. yr hwn atalwedic o chibanat neidyr agyttya ac ef. Odyna y genir tritharw echtewynedic y rei a ymchoelir ywyd gwedy eu treulhont eu porueyd. yn gyntaf a arwed ffrowyll gwenwynic. Ac y wrth y ganedic wedy ef y trossa y geuyn. Dwyn y frowyll ygantaw alafuryant wynteu. A ygan yr eithaf ydagreiffyr. ymchoelut pop eilwers eu hwynebeu hyny vwryant dychymic wherthin y hwnnw y dynessa diwyllawdyr yr alban. yr hwn yd ymdywynnic ysang traegefyn. hwnnw a orffowys o ymdiwyllat y dayar wrth ymechtywynnu or ydyeu. allafuryaw awna ysarff y ellwg gwenwyn val na chefit llysyeu yn yr hydeu. O agheuolyon a peris y diffyc y popyl. A muroed y keyryd a diffeithir. kaer loyw arodir y vedeginyaeth. yr hon agyfragawt merch vaeth y neb a ffrowylla. kans mantais medeginyaeth a arwed. ar ynys ar vyrder a atnewydir. Odyna deu amlynant y teyrnwyalen. yr rei y gwascarwys y dreic cornaw. Odyna y daw arall yn hay yd. Ae marchocca sarff a ehetto. ynybo nocth y gefyn. Ac ogylch eu losgwrn y kyffry y moroed. Oe lef ef y kyffroant ofyn eilweith. O symudigyon aeruaeu y darystwg echwyn. Dywalder hagen aneuestl mor aracryma. Odyna y daw neb vn yntinpan athelyn. Ac a glerhaa dywalder y llew. wrth hynny yd

hedychant genedloed y teyrnas. ar llew ar vantawl y galwant. yny gyfleedic eistedua y llauurya y dyrchauel y dwylaw hagen a ystyn ar yr alban. wrth hynny y tristaant kymhydeu y gogled. a drysseu y temleu aagori. y serenawl uleid ahebrwg toruoed. Ac oachaws ef: kernyw arwym. y hwnnw ygwrthwynepa marchawc ynny kerbyt. yr hwn asymut ypobyl yn vaen coet. wrth hynny yd anreitha y kymhydeu. Ac ygwaelawt hafren y syrthyr y pen. Dyn a damblygir y gan lew. byw alluchadeu eue a dalla y rei a edrychont. yr aryant awynha yny gylch. Ac amryualyon pressureu aulinha. yny bo trossedeic ygwin y medwant y rei marwawl. ynybo ybryuygedic y nef. y edrychant ar ydayar. y syr adwc ygantunt eu drych. Ar gnotaedic rydec awascarant. yny dirlly ou had yrei hynny: ylloscant yr ydeu. A gwlybwr ykyfrsagyedic aneckeir. y gwreid arkageu aymchoelant ychwyn. A newydder ygweithret auyd anryvedawt. Echtywynnedigrwyd mercurius awanha. Ac aruthred uyd yr neb ae hedrycho. Stalbon asymut taryan arcadio. Penfestyn mars aelw venus. Penfestyn mars awna gwascawt. Kyndared mercurius agyrcha y rwymynau. Orion hayarnawl asymut y gledyf. y mor..... a vlinha yr wybr. Jubit' a gyrcha y ganhataedigyon lwybreu. A venus a edeu y gossodedigyon letyeu. Kyghoruyn sadwrn seren a dygwyd. Ac o grwm gryman yllad y rei marwawl. Deu whech y rif ty y syr a gwyn kerdet. y letywyr. Gemini aebryuygant eu gnotaedigyon damgylchyneu. Ar kelwrn a alwant yr ffynhoneu. Mantaw y punt a dobynya yg kam. hyny dotto y maharen ygrymyon gyrn ydanaw. lloscwrn y sarff a greha lluchedeneu. Ar cranc a amrysson ar heul. y wyry a escyn keuyn y seythyd. athywyllu awnant gwerynolyon vlodeuoed. Redec y lleuat agynhyrua zodiacum. Ac yg cwynuan ydymtorrant peliadea. Nyt ymchoel neb o wasanaeth ianus: namyn yny bo kayat y drws. yr ymgelant y gogoueu adrianus. yndyrnawt y paladyr y kyuodant y moroed. Alludu y rei hen a atnewyda. y gwynhoed a ymtorrant o nat chwyth' draeth. Ac awnant sein y rwg y syr. B.

[427] Ac yna gwedy daruot y vyrdin traethu or anodun profwydolyaeth hynny. ryuedu awnaeth pawb yn uawr or ae gwarandawssei meint gordyfynder ysynwyr ae doethineb. Ac yn vwy no neb. moli aoruc gwrtheyrn gordyfynder y synhwyr ae wybot ae doethinab kany chlywssei ef yny oes ac nas gwelsei adywettei y ryw doethinab hwnnw. ac wrth hynny erchi aoruc y vyrdin menegi idaw y diwed ae dyccei os gwypei. B.

[428] Ac yna ydywawt myrdin. ffo heb ef rac tan meibyon custennin os gelly. kans yr awr hon y maent y paratoi eu llogeu. y maent yn ymadaw yr awr hon athraeth llydaw. yr awr hon y maent yn lledu eu hwyleu ar ymor yn kyrchu y ynys prydein. ymgyrchu a wnant a chenedyl saesson. wynt awerescynant y pobyl yscymun. Ac eissoes yn gynt no dim ohynny wynt ath loscant ti y mywn twr. kans oth drwc ti y bredycheist eu tat wy. Ac y gohodeist kenedyl saeson yr ynys yr keisaw nerth y gantunt. Ac wynteu adoethant yn poen itti. kans deu agheu ysyd yth ogyuadaw. Ac nyt hawd yt wybot py vn gyntaf a ochely onadunt. kans or neill parth it y mae y saesson yn gwerescin dy gyuoeth. Ac yn llauuryaw y geissaw dy agheu. Ac or parth arall y mae y deu vroder emreys wledic. ac uthur pen dragon y llauuryaw y geissaw dial agheu eu tat arnat. Ac wrth hynny keis le y ffo os gelly. kans anory y deuant y traeth twtneis yr tir. wynt a gochant wynebeu y saesson oc eu gwaet. Agwedy y llader hengyst: y coronheir emreys wledic. Emreys ahedycha y gwladoed. Ac atnewydha yr eglwysseu. Ac or diwed y lledir agwenwyn. Ac yny ol ynteu y coronheir vthur pen dreic y vrawt. Ac eissoes a gwenwyn ybyrrheir y diwed ynteu. kymeint a hynny vyd brat dy saesson ti. y rei hynny baed kernyw ae llwnc. Sef oed hwnnw Arthur. B.

[429] Aphan yttoed ydyd trannoeth yn golehau: y doeth emreys wledic. ac vthur pen dragon a deg mil o varchogyon aruawc olydaw gantunt y tir ynys prydein. Tref yn tadoed ni. B.

[430] Ac yna pan glywspwyt y chwedel hwnw yn honneit ymgynnullaw awnaeth y brytanyeit o pob lle oc yd oydynt wascaredic. A dyuot yn toruoed gan diruawr lewenyd o glybot dyuot eu kiwtawtwyr attadunt. A gwedy dyuot pawb ygyt or yscolheigyon ar llygyon. kyssegru emreys awnaethant yn vrenhin. Ac yn herwyd eu kynheuawt gwrhau idaw. Ac mal yd oed pawb yn annoc mynet am ben y saesson. Sef aoruc emreis annot hynny darffei idaw yn gyntaf gaffael gwrtheyrn. kans kymeint oed y lit o achaws y brat a rywnathoed wrtheyrn yw tat ef. Ac nat oed well gantaw wneuthur dim or awnelei no phedyaw ony chaffei yn gyntaf dial y lit ar wrtheyrn. Ac wrth hynny ymchoelut a oruc parth ac ymyleu kymry. Achyrchu kastell goronwy y lle yffoassei wrtheyrn idaw y geissaw diogelwch. Sef lle yd oed hwnnw yrgig ar lan gwy auon ymynyd clorach. A chwedy dyuot emreis hyt yno coffau a wnaeth y brat awnathod wrtheyrn yw tat ae wrawt. A dywedut wrth eidol iarell caer loyw. Edrychti tywysawc bonhedic yn graf adeiladeu y kaer ar kastell. Ac atybygy ti a allant hwy diffryt gwrtheyrn racgoffi megys nachaffwyf gudyaw blaenllymder vyg cledyf yndaw. kan haedwys ef agheu megys y gwdosti. Kans yn gyntaf y bredychwys ef wy tat i. y gwr a rythawys y wlat. ac ynteu ygan ormes yffichteit. Achwedy hynny ybredychwys constans vy mrawt. Ac or diwed gwedy y vot ehun yn vrenhin yduc estrawn genedyl saesson paganyeit. y geissaw distryw y kiwtawtwyr. Ac y tybygyti yvot yn cadw fydlonder y mineu. Ac eissoes heb ef megys y canhadawd duw: neu rysyrthwys ehun yny magyl a ranwys y rei gwiryon. kans pan wybu y saesson y enwired ef. wynt ae byrryassant ef oe vrenhinyaeth. yr hyn nyt reit y neb y gwynyaw. kans euo yn yscymun a wahodes pobyl yscymun attaw. Ac a duc tref eu tateu rac y dylyedogyon. Ef a anreithwys y wlat frwythlawn. Ac y distrywyawd yr eglwysseu ar gristynogaeth or mor y gilyd hayach. Ac wrth hynny y kiwtawtwyr dylyedawc. dielwch arnaw yn wrawl trwy yr hwn y cawssoch y sawl drwc hwn. Ac odyna ymhoelwn yn harueu yn an gelynyon. Arythawn ygwlat ygan en gormes. Ac yn diannot dechreu ymlad ar kastell trwy pop keluydyt. A gwedy na dygrynoes udunt wy dim o hynny. Dodi tan yndaw. Ac yna y lloscet y kastell a gwrtheyrn yndaw. B.

[431] A gwedy clybot or saesson hynny ofynhau awnaethont. kan clwyssynt nat oed neb a allei ymerbyneit ac emreis na gwrthwynebu idaw. Ac ygyt ahynny hael oed am rodyon. Agwastat mewu dywyawl wasanaeth a hynaws ym pop peth. A throa pen pob peth karu gwirioned a chassau celwyd. kadarn oed a dewr ar y troet. a chadarnach ar varch. Doeth oed yn tywyssaw llu ac yny llywyaw. A hyt tra yttoed yn llywawdyr o ryv deuodeu hyny yd ehedei y glot ar hyt ynys prydein. Ac wrth hynny sef aoruc y saesson mynet yn gwbyl hyt y parth draw y humur. Ac yno kadarhau y kestyll ar kaerod ar dinassoed arnadunt. kans y wlat honno a oed megys kedernyt y estrawn genedloed pan delynt y ffichteit ar yscotyeit ar saesson ar llychlynwyr. yno y discynynt yr tir ac o gedernyt y lle hwnnw yd anreithynt y gwladoed ac y lledynt y kiwtawtwyr. B.

[432] Ac yna gwedy klybot o emreis ryffo y saesson hyt yno ehofnach un ynteu gan tebygu kaffael goruot arnadunt. A gwedy kynnullaw y llu mwyaf aallwys ygaffael. kychwyn a oruc parth ar gogled yn ol y saesson. A phan yttoed yn kerdet ar traws y gwladoed. Sef gwelei wynt gwedy eu llosci ae anreithaw. allad y kiwtawtwyr. A doluryaw aoruc yn vawr or achaws hwnnw. Ac yn vwyaf oll o achaws rydistryw yr eglwysseu hyt y dayar. Ac adaw aoruc ynteu gwneuthur yr eglwysseu o newyd oll os duw a rodei idaw y uudugolyaeth ual yd oed yny obeithaw. B.

[433] Ac yna pan gigleu hengyst vot emreis ae lu yn dyuot galw y lewder attaw aoruc ac annoc y getym-

deithon y seuyll ac y ymlad yn wrawl yn erbyn emreis. A dywedut nat oed gantaw namyn deg mil o varchogyon llydaw nydodei ynteu vessur ar wyr yr ynys. kans mynych y goruuassei ef wynt. Ac wrth hynny yd adawei ef y uudugolyaeth yw getymdeithon. kans mwy oed y niuer noc vn y brytanyeit. Sef oed y rif deu can mil o wyr aruawc. Agwedy daruot y hengyst gyrru grym ac ewych yny wyr cychwyn a oruc yn erbyn emreis wledic yr lle a elwit maes beli. y wneuthur kyrch deissyut ar y brytanyeit y eu keissyaw yn amharawt aghweir. B.

[434] Ac eissyoes trwy nerth duw ny ymgelawd hynny rac emreis. ac yr hynny ny ochelawd ef y maes eithyr pan welas y elynyon llunyaethu y lu awnaeth yn vedinoed. Ac yna y dodes ef teir bydin o varchogyon llydaw gyt ac ef ehun ar neilltu ar rei ereill oll ym plith gwyr yr ynys yny bydinoed. Ac y gossodet gwyr dyvet gan eu ystlys. a gwyr gwyned ycoet keir llaw. Sef achaws oed hynny os fo awnelei y saesson mal y bei wyr emreis yny herbynyeit ny lle y ffoynt. Ac yna dynessau a oruc eidol iarll kaer loyw ar y brenhin a dywedut wrthaw. arglwyd heb ef digawn oed genyfi o hodyl kaffael vn dyd y ymgyuaruot a hengyst a gatuyd ef a syrthei y neill ohonom rac y gilyd tra vydem yn ymfust cledyfeu. kans kof yw genyfi y brat awnaeth ef y dyd y doethom ar uessur tagnouedu rom ac wynt. Ac y lladassant ar kylleill hiryon tir vgein wyr a phedwar can wr heb dianc neb onyt uu a damweinwys ym gaffael trossawl ac o hwnnw yd dymdiffereis ac ydeuthym yn vyw ywrthtunt. a hynny oll o ieirll a barwneit a marchogyon vrdawl. a hyd yd oed eidol yn dywedut hynny yd oed emreis yn annoc y lu ac y dodi y holl obeith ar duw. Ac odyna yn lew ac y wychyr kyrchu eu gelynyon ac ymlad tors eu gwlat. a thref eu tateu. B.

[435] Ac or parth arall yd oed hengyst yn bydinaw y lu. ac ny dyleu. ac yn kerdet o vydin y gilyd yn annoc glewder yndunt. Ac or diwed gwedy eu bot yn parawt o pop parth: ymgyrchu awnaethant. Ac yny lle ellwg creu a gwaet yn drallawt o pop parth. Ac yna yd oed emreis yn annoc y gristynogyon. Ac or parth arall yd oed hengyst yn annoc y paganyeit ynteu. Athra yttodynt wy velly. yd oed eidol ynteu yn ymgeis a hengyst. Ac eissoes nys cauas yna. kans pan welas hengyst y bryttanyeit yn goruot. Ar saesson yn plygu. Sef awnaethant kymryt eu ffo. Achyrchu kaer gynan. Ac eu herlit eissoes aoruc emreis udunt. Aphan welas hengyst bot emreis yny erlit. nyt aeth ynteu yr kastell. megys y dyrparassaei. namyn bydinaw y lu eilweith. ac ymchoelut ar emreis. kan gwydyat na allei gynhal y kastell racdaw kyt as kyissei. Ac wrth hynny y dodes y holl obeith ae amdiffyn yny wayw ae gledyf ae taryan. Ac yna bydinaw aoruc emreis y lu o newyd. A dechreu gwychyr ymlad awnaethant. Ac yna elchwyl yd ellygwyt creu a gwaet o pop parth. ac ybu aerua diruawr y meint. hyny gyffroei y rei byw ar lit achyndared. gan gwynuan y rei marwawl brathedic. Ac or diwed y saesson a oruuassynt pei nar delei vydin o varchogyon llydaw ar ossodyssyt ar neilltu. mal y gwnathoedit yn yr ymlad kyntaf. A phan doeth y vydin hono y pylwys y saesson. ac y kilyassant. Ac oureid yd ymgynnullassant gwedy hynny. Ac ymplith hynny eissoes yd oed eidol ae holl vryt yn ymgeissaw a hengyst y ymwybot ac ef. B.

[436] Ac eissoes or diwed val yd oed y bydinoed yn ymfust. ac yn ymgymynu blith dra chymysc. yd ymgauas eidol a hengyst ygyt. ac ymgyuogi ar cledyfeu awnaethant. yna y gellit gwelet deu ymladwr yn ragori rac pawb. Yna y gwelit y tanllychar yn esceinaw or arueu ygantunt megys myllt ymlaen taran. A hir y buant yn ymlad heb wbot pwy aorffei. Ac ual ydoydynt uelly. nachaf gorleis iarll kernyw yn dyuot ar vydin yd oed yny llywyaw. Ac yn gwascaru y elynyon yn diannot. A phan welas eidol hynny. kymryt hengyst a oruc herwyd barfle y penfestyn ac arueru oc holl nerthoed. Ae tynnu gantaw hyt ym perued kedernyt y gytuarchogyon ehun. Agwedy y dyuot hyt yno: gan oruchel lef y dywot val hyn. Awyrda heb ef a eilenwis vyn damunet. kywarssegwch y bratwyr twyllwyr. kans yn awch llaw y mae y uudugolyaeth ar goruot. Pan oruuwyt ar hengyst. O hynny allan bwrw y saesson oc eu llad ac eu daly awnaethant hyny gawssant y uudugolyaeth. B.

[437] Ac ar hynny gwascaru awnaethant y saesson. ac adaw y maes yn dybryt. A ffo pawb o nadunt megys y harwedei y tyghetuen. rei yr koydyd. ereill yr kestyll. ereill y eu llogeu. Ac yna yd aeth octa mab hengyst a ran uwyaf or llu gantaw hyt yg kaer essulwc. Ac ossa y geuynderw a ran arall or niuer a ffoes hyt yg kaer alclut. A chadarnhau y dinassoed hynny awnaethant o lawer o varchogyon aruawc. Ac aruaethu eu kynhal ra emreis ar brytanyeit. B.

[438] Agwedy kaffel o emreis y uudugolyaeth honno. yd aeth hyt yg kaer kynan. Ac yno y bu y gorffywys ridieu. Ac yn hynny o yspeit yd erchis emreis gladu y gwyr lladedic a gwneuthur medeginyaeth wrth y trei brathedic. A gorffywys y rei blin lludedic. B.

[439] Ac odyna galw attaw y wyrda. ac ymgyghor ac wynt beth awnelit am hengyst. Ac ymplith hyny owyrda yr dothoed. Eidal escob kaer loyw. gwr prud doeth crefydus. A phan welas. eidal hengyst yn seuyll rac bron y brenhin. dechreu yr ymadrawd hwn. Arglwydi heb ef. pei barnewchi oll ellwg hengyst mubunan ae lladwn ef. gan erlit agreiff a dysc samuel proffwyt am agag vrenhin amalec a oed yny garchar ac yny vedyant. Sef aoruc briwaw yn drylleu man. gan dywedut val hyn. Megys ygwnaethost ti mameu ymdiueit oc eu meibyon. velly ygwnaf inheu dy vam titheu yn ymdiuat ohonot titheu ymplith y gwraged. A gwnewch chitheu uelly y hwnnw yr hwn a ymdyngoses yn eil agac yn an plith ninheu. Ac yna y kymyrth eidol iarll kaer loyw hengyst. ac y aeth ac ef dieithyr y gaer. ac y lladawd y ben. Ac yna mal yd oded waredoccaf y emreis or gwyr. erchi aoruc cladu hengyst. a gwneuthur cruc mawr or dayar ar y warthaf. mal yd oed deuawt gan y paganyeit cladu eu meirw. B.

[440] Ac odyna kychwyn awnaeth emreis ae lu parth a chaer efrawc. y ymlad ac octa mab hengyst. A gwedy dyuot yno kylchynu a oruc y gaer. a dechreu ymlad a hi. A gwedy gwelet o octa na allei gynhal y gaer rac emreis. Sef ykauas yny gyghor ef ae henafgwyr kymryt kadwyneu yn eu dwylaw. A dodi tywawt yn eu penneu yn lle kymun udunt. A mynet yn ewyllys y brenhin. gan dywedut yr ymydrawd hwn. Gorchyuynedic ynt au dwyeu ni. Ac ny phedrusswn ni bot dy duw ti y gwledychu. yr hwn yssyd y kymhell y sawl uohedigyon hyn hyn y dyuot yth ewyllys ti yny wed hon. Ac wrth hynny kymer ti y gadwyn hon. Ac o yny myn ty trugared ti wneuthur amgen nohynny. rwym ti ni a honno. A gwna y dihenyd a vynhych o honam. Ac wrth hynny kyffroi ar warder a thrugared awnaeth y brenhin. Ac erchi kymryt kyghor ymdanadunt. A gwedy rodi o pawb o nadunt amryuaylon gyghoreu. kyuodi awnaeth eidal escob kaer loyw. atheruynu ar eu hymadrodyon val hyn. A gabionitte adoethant oc eu bod y erchi trugared y pobyl yr israel. Ac wynt ae cawssant. Ac wrth hynny na vydwn waeth ninheu a ni yn gristynogyon: noc wynt yn idewon. rodwn vdunt trugared. llydan ac yhalaeth yw ynnys prydein. Allawer ysyd yndiffeith heb neb ny chyuanhedu. Dan arwein. tragywydawl geithiwet y danam ninheu. Ac ar hynny ytrigwyt. Ac yna o agreiff octa y doeth osa ar saeson ereill a ffoasynt gyt ac ef: y geisaw trugared. Ac wynt ae kawsant. Ac yna y rodet udunt y gwladoed ykylch ysgotlond. Ac y kadranhawyt kygreir ac wynt. B.

[441] A gwedy goruot o emreis ar y saeson. galw aoruc attaw y tywysogyon. ar ieirll. ar barwnyeit. ar marchogyon urdawl. ar escyb. ar abadeu. ar yscoleigon y teyrnas hyt yg kaer efrawc. A gorchymyn udunt adnewydu yr eglwyseu y rei rydaroed yr saeson eu distryw. Ac yna y kymyrth y brenhin ar y gost ehun

atnewydhau yr eglwyseu or a vei archescopty ac escobty trwy y gyuoeth. Ac ympeu y pymthecuet 'dyd gwedy gosot seiri a gweithwyr wrth yr eglwyseu. y kychwynnwys y brenhin parth a llundein: y. lle nyt arbetasei y saeson o dim. A chytdoluryaw ac wynt a oruc y brenhin. Ac erchi udunt atnewydu y dinas. ar gaer. ac eu eglwyseu. Ac yna y mynwys y brenhin y kyfreitheu a oedynt yn kyscu trw lawer o amser gan eturyt yr plant dylyet eu rieni ar gollysynt hir yspeit. Aholl hynni y brenhin a oed yg kylch atnewydhau y kyfreitheu y teyrnas. A gwneuthur yr eglwyseu. a chadw gwiryoned. B.

[442] Ac odyna yd aeth parth a chaerwynt. y lunyaethu yno megys ylleoed ereill. Ac odyno yd aeth parth ar uanachloc a oed kerllaw kaer geradawc. yr hon aelwir salsburi. y edrych y lle yrlladassit ytywysogyon ar ieirll ar barwnyeit trwy vrat yr yscymun hengyst. yno yd oed vanachlawc athrychant mynach o gwuent yndi ymynyd ambri. Sef oed yr ambri hwnnw: y seilawdyr kyntaf a uu yr uynachloc. A gwedy gwelet or brenhin ylle yd oed ygwyrda hynny yngorffowis kyffroi ar warder awnaeth y brenhin. Ac ellwg ydagreu ac wylaw. A medylyaw a oruc gwneuthur y lle hwnnw yn anrydedus. kans barnedic oed gantaw bot yn teilwg o volyant ac ardurn tragywydawl y tywarchen yd oed ysawl tywysogyon dylyedogyon hynny yn gorffywys gwedy eu rylad yn wiryon yn amdiffyn tref eu tat. ac eu rydit. B.

[443] Ac yna y dyuynwyt ar emreis holl seiri pren a mein or gaffat yny teyrnas. Ac yd erchit udunt oc eu holl ethrylith ac eu kywreinrwyd dychymygu gweith enrydedus wch pen y gwyr hynny. Ac a parahei yntragywydawl. y gadw koff a molyant y gwyrda hynny hyt dyd brawt. A gwedy pallu eu hethrylith y pawb o nadunt. Ac na wydynt beth awneynt. dynesau a oruc tramor archescob kaer llion. ar y brenhin. adywedut wrthaw val hyn. Arglwyd vrenhin heb ef ossit neb aallo dechymygu y ryw weith adywedy di. myrdin vard gwrtheyrn a dichawn y dechymygu oe ethrylith ae gywreinrwyd. kanyt oes yth teyrnas dyn uvy y ethrylith ae gywreinrwyd noc ef. Ac yn gyndrychawl a racllaw. ac oe y ymadrawd. ac oe weithret. Ac wrth hynny heb ef. Arch y deuynnu attat. a gorchymyn idaw arueru oc eu ethrylith hyt pan vo drwydaw ef. y kwplaer y gweithret ysyd yth vryt y wneuthur. B.

[444] Ac yna yd anuonet kenhadeu ygeissaw myrdin wrth y dwyn ar y brenhin py le bynhac ae keffit. A gwedy crwydraw llawer oleoed onadunt. wynt ae kawssant ef yg wlat euas. ar lan ffynawn galabes. kans yno y gnotaei genniweir. A gwedy eu menegi idaw eu negys: wynt ae duciant ef gantunt hyt ar y brenhin. Ae aruoll yn llawen aoruc y brenhin idaw. Ac erchi idaw datganu yr brenhin daroganeu a delynt rac llaw. kans digryf oed gantaw warandaw petheu enryued. B.

[445] Ac yna y dywawt myrdin. nat oed iawn traethu o ryw betheu hynny drwy pan y kymhellei aghenreit. kans bei' as dywetwn. i. yn amser ny bei reit wrthaw: tewi awnaci yr yspryt yssyd ym dangos. i. a ffo y wrthyf awnaei pan vei reitia vrtho. B.

[446] Ac wrth hynny ny cheisswys y brenhin y uolestu nae gymell oe anvod y dywedut daroganeu. Gofyn awnaeth emreis pei i mod y gwnaei datgan y gweith yd oed yn mynnu y wneuthur. Ac yna y dywawt myrdin. Arglwyd heb ef. o mynny ti canhiatau bedrawt y gwyrda hyn o dragywydawl weithret. anuon hyt yn iwerdon. y gyrchu kor y kewri yssyd ym mynyd kilara. Ar gweith yssyd yno. nyt oes yn yr oes hon a allo manegi ony bai ethrylith mawr ai harwedei. kans kymeint ynt y mein ac na cheffit kedernyt na dewred aallei dim wrthunt. Ar mein hynny pei bydynt yma yny wed y maent yno gwedy eu gossot ygkylch y vedrawt. wynt a seuynt yno yn dragywydawl. B.

[447] Ac yna sef aoruc emreis chwerthin. a dywedut val hyn. py ansawd eb ef y gellir dwyn mein kymeint ar rei hynny. ac kynbellet a hwnnw. ac na cheffit yn ynys prydein cedernyt a ellit gwneuthur y gweith hwnnw onadunt. Ac yna y dywawt myrdin. Arglwyd heb ef. na chyffroa ti ar werthin yn orwac yr hyn. kanyt yr gwatwar na gorwacter y dywetis yr ymadrawd hwn. kans kymyscedic rinwedawl ytynt y mein hynny a iachwydawl. Ac adas y amryual vedeginyaetheu. Ar kewri gynt ae ryduc yno wynt pan yttoedynt yn presswylaw iwerdon. Sef achaws oed hynny: pan delhei heint neu gleuyt ar un onadunt. sef y gwneit enein yg kymherued pedryual y mein. Ac y golchynt y mein. ac y byrrit ymywn yr enein. ac yny dwfyr rinwedawl hwnnw y kaffei y claf iechyt o pob heint or a vei arnaw. Ac odyna y kymyscit llysseu ar dwfyr hwnnw. Ac a hwnnw y iecheit gwelioed y rei brathedic. kanyt oed yno un maen heb vedeginiaeth rinwedawl arnaw. B.

[448] A gwedy klybot or brytanyeit bot y ryw rinwedeu hynny ar y mein. wynt a gawssant yn eu kyghor kyrchu y mein. Ac ymlad a gwyr iwerdon ocheissyn eu lludyas. Ac yna yd etholet vthyr bendragon brawt y brenhin. A phymthec mil o wyr aruawc ygyt ac ef y vynet yr negys honno. A myrdin ygyt ac wynt. hyt pan vei trwy y dysc ef ae ethrylith y cwpleit y neges. B.

[449] Ac yn yr amser hwnnw yd oed gillamwri yn vrenhin yn iwerdon. Gwas ieuanc enryued y volyant ae glot. Aphan gigleu y gwr hwnw rydyuot y brytanyeit yw wlat. kynnullaw llu mawr awnaeth a dyuot yn eu herbyn. Ac eissoes pan wybu achossyon eu dyuodedigyaeth. Sef awnaeth chwerthin. A dywedut wrth y gytymdeithon val hyn. Awyrda heb ef. nyt ryued genyfi gallu o genedyl lesc anreithaw ynys pdein rac eu henuyttet. ac eu symlet. kans pwy agiglen eiroet gynt y ryw enuydrwyd hwn. py achaws tybygwchi. ybei well mein iwerdon. no mein ynys pdein pan doynt y gymhell kenedyl iwerdon y ymlad yn eu herbyn o achaws y kerric hynny. Gwiscwch ymdanawch heb ef gwiscwch. ac ymledwch dros awch gwlat. Ac ymdiffynwch cor y kewri. kans a miui yn vyw ny chaffant wy vn grenyn o hadunt. A phan welas vthur y gwydyl yn parawt y ymlad ac wynt. Sef awnaeth ynteu yndiannot eu kyrchu wynt yny doedynt parawt y bydinoed. A heb hayach ohir goruot or brytanyeit. allad y gwydyl. a chymell gillamwri ar ffo. y doeth y brytanyeit hyt ymynyd kilara. y lle yd oed y mein. *Dalen ar goll yma.* B.

[450] Ac yna y kymhellwyt pascen ar ffo. ynteu ny lauuryws ef yna kyrchu germania. namyn trossi y hwyleu tu ac iwerdon. Ac yna y erbynnwys Gillamwri ef yn enrededus. Agwedy datganu y trueni o honaw. Truanhau aoruc gillamwri wrthaw. Ac adaw nerth idaw. Achwynaw wrthaw ynteu y serhahet a gawssei ynteu gan vthyr pendragon. pan doeth y gyrchu cor y kewri y treis y arnaw. Ac wrth hynny ymaruoll awnaethant ar dyuot ygyt y ynys prydein y geissaw y gorescyn ar tor ymrys wledic. A gwedy bot eu llogeu yn parawt. kychwyn awuaethant parth ac ynys prydein. A dyuot y vynyw y tir. B.

[451] A phan gigleu emreis hynny. Sef awnaeth anuon vthyr pendragon ac amylder o wyr aruawc hyt yg kymry wrth ymlad ac wynt. kans kleuychu awnathoed emreis o wrthrwm gleuyt. mal na allei dyuot yr llud. B.

[452] A phan gigleu y gelynyon hynny llawenhau awnaethant yn vawr o tebygu bot yn hawd vdunt gorescyn yr ynys or achaws hwnnw. A hyt tra yttoed y godwrd hwnnw ar murmur yny llu dynessau aoruc or saesson a elwit eoppa ar pascen vab gwrtheyrn. A dywedut wrthaw val hyn. Py veint oda heb ef a rodut ti yr neb alathei emreis. Ac y dywawt pascen wrth eoppa. Dioer. heb ef. pei kaffwn y dyn a allei wneuthur a dywedy ti. mi a rodwn idaw teir mil o punneu aryant. am karyat tra vydwn vyw a gaffei. Ac ygyt a hynny os tynghetuen a vei y minneu aruer or goron yn yr ynys hon. mi ae gwnawn yn iarll kyuoethawc. a hynny trwy aruoll a garnhawn. B.

[453] Ac yna y dywawt eoppa wrth pascen. miui a dysceis iechyt y brytanyeit. a mi a wn eu moes ac eu

deuawt. Ac ygyt a hynny kyfrwys wyf ygkeluydyt medeginyaeth. Ac wrth hynny o chywiri ti imi yr hyn ydwyt yny adaw. mineu a dywedaf vy mot yn vrytwn kristawn. ac yn vedyc. Ac velly mi agaffaf vynet rac bron y brenhin. Ac gwedy delwyf yno mi a rodafi idaw diawt trwy yr hon y bo marw yny lle. Ac val y bo haws ym heuyt gaffel mynet hyt y lle y bo y brenhin. mi aeillaf vyn pen am baryf. A y dywedaf wy mot yn vanach. ac yn gyuarwyt ympop keluydyt medeginyaeth. B.

[454] A gwedy daruot vdunt ymgydernhau trwy aruoll am pop peth or aadawssei pop vn y gilyd o nadunt. Sef awnaeth eoppa eillaw y varyf ae gorun. A chymryt gwisc manach amdanw. a chymryt offer medyc gantaw. A mynet parth a chaer wynt. A gwedy y dyuot hyt yno. menegi awnaeth y weisson ystauell y brenhin y uot yn vedyc goreu or byt. Ac yny lle kaffel ketymdeithas y rei hynny. kanyt oed dim a damunynt wy yn vwy na medyc da. B.

[455] A gwedy y dwyn yn dianot rac bron y brenhin. Adaw awnaeth gwneuthur iechyt idaw ochymerei diodyd medeginyaeth gantaw. Ac yna yd erchit idaw yny lle wneuthur diawt vedeginyaeth ae rodi yr brenhin. Ac sef awnaeth y bradwr yna gwneuthur diawt. a chymyscu gwenwyn ahi. ae rodi yr brenhin. A gwedy yuet or brenhin y diawt. Erchi aoruc y bradwr yscymun idaw orffowys. achyscu. hyt pan vei vwy yd argywedei y gwenwyn idav. Ac ufydhau awnaeth y brenhin wrth gyhor y bradwr. Achyscu. megys kyt bei kymryt iechyt deissyuyt a wnelei or diawt. Ac eissoes heb vn goir redec awnaeth y gwenwyn ar hyt y gwythi. Ac ym pop lle ar hyt y korff. Ac yn ol hynny nachaf yr agheu yn dyuot yr hwn nyt arbetei neb. Ac yn gwanhau yr eneit ar corff. Ac ym plith hynny eissoes llithraw awnaeth yr yscymun vradwr hwnnw rwg vn ac arall y maes or llys. Ac ny welat o hynny yny llys. B.

[456] Ac yna tra yttoedut yn gwneuthur y petheu hyn yg kaer wynt: yd ymdangosses seren ryued y meint ae eglurder. ac vn paladyr idi. Ac ar pen y paladyr pellen o tan ar lun dreic. Ac o eneu y dreic deu paladyr yn kerdet. Ar lleill onadunt a welit yn ymestynnu dros eithauoed ffreinc. Ar llall parth a mor iwerdon. Ac yn rannu yn seith paladyr bychein. B.

[457] Aphan ymdangosses y seren hono. ofyn mawr a gymyrth pawb or llu yndunt rac er enreuedawt hwnnw. Ac sef awnaeth vthur pendreic eissoes pan welas y seren. gan diruawr ofyn. galw attaw y doethon. Agouyn vdunt peth aarwydoccaei y seren honno. Ac ym plith pawb o hynny yd erchis keissaw merdin. kans yno yr dothoed wrth wneuthur pop peth or auei reit yn yr ymladeu hynny. trwy y gyghor ef. A gwedy y dyuot hyt rac bron vthur. erchi awnaethpwyt idaw venegi beth a arwydoccaei y seren honno. B.

[458] Ac ar hynny sef awnaeth myrdin wylaw yndrut. Ac eissoes galw y yspryt attaw. A dywedut yr ymadrawt hwn. O gollet heb allu y ennill. owedw genedyl y brytanyeit o achaws marwolyaeth emrys wledic an brenhin ni. Ac yny varwolyaeth ef y daruydwn ni oll. Pei na rodei duw nerth yn o fford arall. Ac wrth hynny tywyssawc bonhedic bryssya dithyeu. Ac yn diannot ymlad ath elynyon. kans yth law y mae y vudugolyaeth. A thi vyd brenhin ar holl ynys prydein. kans ti a arwydoccaa y seren ar dreic tanawl ydan y seren. Ar paladyr awely yn estynnu dros ffreinc. a arwydoccaa mab kyuoethawc a vyd y titheu. Ar holl teyrnassoed a amdiffyn ac a vyd idaw. Ar paladyr arall a arwydoccaa merch a vyd itt. A meibion honno ae hwyryon a vyd vdunt yr ynys ol y ol. B.

[459] Ac eissoes kyt bei petrus gan vthyr beth ar ydywedassei vyrdin ae gwir ae kelwyd. Sef awnaeth kyrchu y elynyon megys y darparassei. kans ef a dothoed yn gynesset y vynyw. Ac nat oed y rydaw a hi namyn ymdeith hanher vn diwarnawt. B.

[460] A gwedy clybot o pascen a gillamwri bot vthyr yn dyuot parth ac attunt. Sef awnaethant wynteu dyuot yn erbyn vthyr wrth ymlad ac ef. A gwedy bydinaw onadunt a dechreu ymlad onadunt. y llas o pop parth megys y mae gnawt ryw damwein hwnnw. Ac eissoes gwedy treulaw llawer or dyd yny wed honno. y dygydwys y uudugolyaeth yn llaw vthyr. A gwedy llad pascen a gillamwri. ffo aoruc yr agkyfyaeth bobyl honno. y ymdeith y eu llogeu gan eu hymlit ac ae llad. Ac yna yndiamryson y kauas vthyr y vudugolyaeth. B.

[461] Ac odyna brysyaw aoruc yn gyntaf ac y gallwys parth a chaer wynt. kans kenhadeu a dothoed attaw y venegi idaw marwolyaeth emrys wledic y vrawt. Ar y daruot y escyb yr ynys y gladu geir llaw manachaloc ambri o vywn y cor y kewri y lle ar awnathoed ehun yny vywyt. Ac yd archysei y gladu yno. B.

[462] Ac yna trwy annoc y bobyl o ysgolheigyon a llygyon y kymyrth vthyr y goron y am y pen. Ac yn diannot y kysegrwyt vthyr yn vrenhin. Achoffau aoruc y dehogyl ar awnathoed vyrdin am y seren. Ac wrth hynny yd erchis vnteu gwneuthur dwy delw dreic o eur ar y llun y gwelsei ar pen y paladyr y seren. A gwedy daruot eu gwneuthur wynt trwy enryued ethrylith megys yd archadoed. y gosodes y brenhin yneill o nadunt yg kaer wynt. Ac y gadwys y llall wrth y harwein yny vlaen ynteu pan elhei yr ymladeu. Ac or amser hwnnw allan y gelwit ef vthyr pendragon. Sef yw hynny yn gymraec vthyr pen dreic. Ac or achaws hwnnw. kans myrdin ae daroganasei yn vrenhin trwy y dreic. B.

[463] Ac yna sef awnaeth octa mab hengyst. ac osa y geuynderw. gwedy marw emrys. ac eu bot wynteu yn ryd oe aruoll a oed y rydynt ac ef. dechreu ryfelu ar vthyr. A gwawd attunt y saesson a dathoedynt gyt a phascen. Ac anuon kenhadeu hyt yn germania y wawd ereill odyno. B.

[464] A gwedy kynnullaw diruawr attadunt o lu. dechreu hanreithaw y gwladoed yn eu kylch awnaethant. Ac ny orffowysysont or kreulonder hwnnw: hynny orescynnssant y dinassoed ar kestyll o hynny hyt yg kaer efrawc. Ac eu distryw o gwbyl. B.

[465] Ac val yd oedynt yn ymlad ar dinas hwnnw. nachaf vthyr yn dyuot ae holl gedernyt gantaw. Ac yn diannot ymlad aoruc ac wynt. Ac eissoes gwedy bot brwydyr y rydunt. y kymhellwyt y brytanyeit ar ffo. Ac eu herlit a oruc y saeson wynt hyt y mynyd damen tra parahwys y dyd yn ole. Sef kyfryw le oed y mynyd. vchell oed a chelli garregawc yny phen. Ac yno y kyrchwys y brytanyeit y nos honno. B.

[466] A gwedy eu ymgynnullaw ygyt. Erchi awnaeth vthyr yw henafgwyr kymryt kyghor ebrwyd peth awnelynt yn erbyn y genedyl a oed yny kywarsegu yn gymeint a hynny. Ac ar hynny yn gyntaf y dywawt Gorleis iarll kernyw yr ymadrawd hwn. kans hynaf gwr oed a phrudaf y gyghor. Arglwyd vrenhin heb ef nyt reit vn amgylchynu ymadrodyon na chyghoreu gorwac. namyn hyt tra paraho etwa tywyllwch ynos y mae iawn y ninheu arueru oc an glewder. megys y mynhom an rydit an buched kans oc arhown y dyd. ny barnafi bot. yngryno yn ymgyuaruot ac wynt. kans lluosyawc ynt a chwanoawc y ymlad. A ninheu llei an niuer. Ac wrth hynny tra parao tywyllwch ynos bydinwn a chyrchwn wynt yn eu pebylleu. kany thebygant lauasu o honam ni dyuot yn eu kyuyl. Ac o gwnawn velly: ny phedrusaf vi gan porth duw gaffel a vudugolyaeth. B.

[467] A ranc vu gan bawb o nadunt y kyghor ef. Ac yn diannot gwiscaw awnaethant a bydinaw. Ac o vn dihwyt kyrchu eu gelynyon. Ac eisoes gwedy eu dyuot yn gyuagos vdunt. eu harganuot awnaeth y gwilwyr or gwersylleu. Ac yny lle dyffroi eu kytymdeithon trwy sein eu hutgyrn. Ac yna sef awnaeth

y gelynyon yn ofnauc wyuodi rei a gwiscaw eu harueu. ereill y ffo. Ac yna eisoes sef awnaeth y brytanyeit tewhau eu bedinoed. A chyrchu ar eu tor yr pebylleu. Ac ny dygrynoes yr gelynyon dim yn eu herbyn. kans hyngweir rac dyscedic yr doethoed y brytanyeit am eu pen. Ac wynteu amharawt oedynt. Ac yna y llas o nadunt hyt ar vilyoed. Ac or diwed daly octa. ac osa. B.

[468] Ac odyna gwedy y vudugolyaeth honno yd aeth y brenhin kyt yg kaer al clut y attnywydhau tagneued trwy y teyrnas. A chymeint o iawnder a gwirioned awnaeth dros wyneb y teyrnas. Ac nas gwnathoed vn brenhin kyn noc ef. A thrwy y holl diwed ef ofyn a vydei ar y neb awnelei kam neu ae kynhalei. Ac yno kospi heb drugared yny dial. B.

[469] A gwedy daruot idaw hedychu yr alban dan y theruyneu yd aeth odyno hyt yn llundein. Ac yno y dodes octa ac ossa yg karchar. A gwyr neilltuedic yd y cadw. Ac val yd oed wylua pasc yn dyuot annon awnaeth y brenhin kenhadeu y pob lle or ynys. y dyuynu pawb oe wyrda ieirll a barwnyeit hyt yn llundein. wrth enrededu yr wylua honno trwy lywenyd. A gwiscaw coron y teyrnas am pen eu brenhin. Ac y rodi y iawn ae dylyet y pawb. Ac ymgynnullaw awnaeth pawb wrth y wys honno. a dyuot hyt yn llundein o pop lle dros wyneb y teyrnas. Ae enrededu awnaeth y brenhin yr wilua honno. megys y darparysei gan lewenyd. A diruawr lewenyd a gymmyrth pawb o welet eu brenhin yny herbynheit mor lawen a hynny. B.

[470] A chymeint o dylyedogyon adoethant yno wynt ac eu gwraged ac eu meibyon ac eu merchet. ac a oed teilwg y ryw wled honno. Ac ym plith y gwyrda hynny y dothoed gorloes iarll kernyw. ac eigyr verch amlawd wledic ywreic ygyt ac ef. Pryt y wreic honno ae thegwch aorchyuygei holl wraged ynys prydein. B.

[471] A phan welas y brenhin y wreic honno ym plith y gwrageda ereill. ymlenwi awnaeth oe charyat yn gymeint ac na hanbwyllei o dim namyn treiglaw y holl ynni ae vedwl ygkylch y anryuedu hi Idihi yd anuonit y golwython. Idihi yd anuonit y gorulycheu eureit. ar gwirodeu yndunt. ar heil mynych. ar anregyon.

[472] Ac wedy kaffael gwybot hynny or iarll y gwr hitheu. llitiaw aoruc ac yn diannot adaw yllys heb genhat y brenhin. A chymeint vu y lit ac na allwyt y ymchoelut trachefyn rac ofyn kolli y wreic. yr hon a garei ynteu yn vwy no dim daearawl. Ac wrth hynny llidiaw a oruc y brenhin am adaw y lys heb y ganhat. A gwedy nat ymchoelei yr neb. tygu awnaeth y brenhin trwy y lit yd anreithei gyuoeth gorleis.

[473] Ac yna heb vn gohir tra yttoed y lit yn parahu. kynnullaw llu mawr awnaeth y brenhin. A chyrchu kernyw. a dechreu llosci y dinassoed ar kestyll Ac yr hynny eissoes ny lauasswys gorleis ymerbynneit ac ef. kans llei oed y niuer. no niuer y brenhin. Ac wrth hynny sef y kauas yny gyghor kadarnhau y gestell. ac velly arhos porth o iwerton attaw. A chan oed mwy y ofyn am y wreic noc ymdanaw ehun. Sef awnaeth y gossot hi yg kastell tintagol ar lan y traeth yny lle kydarnaf yny gyuoeth. Ac ynteu ehun aaeth y kastell dimlot. rac eu kaffael ell deu ygyt. B.

[474] A phan gigleu y brenhin hynny. Sef awnaeth ynteu mynet parth ar kastell yd oed gorlois yndaw. A gwedy y gylchynu dechreu ymlad ac ef. ae warchae mal na chaffei neb dyuot ohonaw na mynet idaw. A gwedy mynet wythnos heibaw. koffan aoruc vthyr karyat eigyr. A galw vlphyn o ryt garadawc y gedemeith a menegi idaw y vedwl yny wed hon. Dioer. heb ef mawr yw ynof ui karyat eigyr. Ac nyt diheu genhyf na chollwyf vy eneit ony chaffaf y wreic. wrth vyg kyghor. Ac wrth hynny dyro ym gyghor trwy yr hwn y gallwyfi. eilenwi vy ewyllys. kanyt oes pedruster gennyf vy aballu ony chaffaf y wreic. B.

[475] Ac y dywawt vlphyn. Arglwyd heb ef a allei kyghor itt pryt na bo fford yny byt yd ymgaffer a hi. kans y kastell y mae hi yndaw yssyd ar pen karrec yny weilgi yn gaedie or mor o pop parth idaw. Ac nyt oes fford yny byt y galler mynet idaw. na dyuot o honaw namyn ar hyt othry cyr vn karrec gyuyg yssyd or hyt y tir. Ar garrec honno trywyr ae katwei yn aruawc rac holl teyrnas ynys prydein. Ac eissoes arglwyd heb yr vlphin pei myrdin vard a rothei y weithret wrth ty vedwl ti. mi a tebygaf y gallut ti gaffel y wreic wrth ty gyghor ti. B.

[476] Ac y velly erchi aoruc y brenhin dyuynnu myrdin attaw. kans yny llud yd oed. A gwedy dynot myrdin. erchi awnaethpwyt idaw rodi kyghor yr brenhin trwy hwn y gallei ef gaffel eigyr wrth y ewyllys ef. B.

[477] A gwedy gwybot o vyrdin meint oed garyaf y wreic ae serch yny brenhin doluryaw aoruc yn vawr. A dywednt wrthaw val hyn. Arglwyd heb ef o mynny ti gaffel y wreic wrth dy vympwy val yd wyt yny damunaw. reit yw it arueru o geluydydeu newyd ny chlywspwyt erioet yth amser ti. kans mi awn geluydyt trwy yr hwn y gallaffi rodi drych gorlois arnat ti. hyt na bo neb a adnapo na bo gorlois vych di. A mi awnaf vlphin yn rith iwrdan o tintagol gwas ystauell y brenhin oed hwnnw. A minheu a gymeraf drych arall arnafi. ac af yn tyded gyt a chwi. Ac y velly y gelly ti yn ehouyn vynet y gastell tintagol. A chaffel y wreic wrth ty gyghor ti. B.

[476] A gorchymyn aoruc y brenhin y annwyleit warchadw y kastell yn da. a chynhal yr ymlad. Ac ymrodi aoruc ynteu y geluydeu. Ac yna y rodes myrdin arnaw ef drych gorlois. ac ar vlphin drych iwrdan o tintagol. ac arnaw ehun drych brithael arall megys nat oed neb or ae gwelhei awypei na bei y gwyr hynny vydynt yny gwir drych. B.

[479] Ac odyna kymryt eu hynt awnaethant parth a chastell tintagol. A phandoethant yno: yd oed yn gyflychwr. A gwedy menegi yr porthawr bot y iarll yn dyuot. egori y pyrth a oruc yndiannot. Ac eu ellwg y mywn. kanyt oed neb or ae gwelei awypei na bei y iarll vei. Ar nos honno kyscu aoruc y brenhin gyt ac eigyr gan ymrodi y damunedic serch. kans y falyst drych a rodassei vyrdin arnaw atwyllassei ywreic. Ac ygyt a hynny geireu twyllodrus dychymyguawr a dywedei ynteu. kans dywedut wrthi awnaeth y rydyuot yn lledrat or kastell. kany allei yr dim bot heb y gwelet rac meint y amgeled ymdanei. wrth wybot py ansawd a vei arnei ac ar y kastell. A chredu awnaeth hitheu yr ymadrodyon hynny. a gwneuthur y vynnu ef. Ar nos honno y kauas hi veichiogi. Ac or beichogi hwnnw y ganet Arthur. y gwr clotuorussaf a vu oe genedyl wedy hynny. megys y dengys y weithredoed. B.

[480] Ac yna gwedy clybot nat yttoed y brenhin yny llu. Sef awnaethant yn aghyghorus ymlad ar muroed a cheissaw distryw y kastell. A chymhell y gwarchaedic iarll allan y rodi kat ar vaes a niuer bychan gantaw gan tybygu gallu goruot. Ac val yd oedynt yn ymlad o pop parth. yny lle ym plith y rei kyntaf y llas gorlois. Ac y gwascarwyt y getymdeithau. Ac y kaat y kastell ar golut a oed yndaw. nyt trwy vnyawn goelbren y ranwyt. namyn herwyd y bei dewred anwyt o gedernyt yny cribdeilaw. B.

[481] A gwedy daruot y gyuranc honno. y deuthpwyt y venegi y eigyr rylad y iarll a chaffel y kastell. A phan welas y kenhadeu y brenhin eissoes yn drych gorlois yn eisted ar neillaw y eigyr. kywylydaw awnaethant yn vawr. A ryuedu yn vwy no meint gwelet yno yn eu blaen. y gwr yd oedynt yn dywedut y rylad. A phan gigleu vthyr dywedut y chwedyl hwnnw. sef awnaeth ynteu cwerthin. a dodi y dwylaw am vwnwgyl y iarlles. A dywedut wrthi val hyn. Dioer arglwydes nym llas ettwa. ac eissoes dolur yw genhyf dyuot y brenhin am an pen ninheu a chaffel y kastell hwn heuyt. Ac an kaffel ninheu yndaw ef an deu. ac wrth hynny miui a af yn ewyllys y brenhin rac kyuaruot a ni a vo gwaeth no hynny. B.

[482] Ac ar hynny kychwyn awnaeth y brenhin a mynet ar y llu. A bwrw drych gorlois y arnaw. A mynet yny drych ehun. A gwedy menegi yn wir ar daroed. doluryaw yn vawr aoruc am agheu Gorlois. Ac eissoes or parth arall llawen vu o achaws bot eigyr yn ryd o rwym priodas. Ac odyna ymchoelut aoruc y brenhin parth a chastell tintagol y gymryt y kastell idaw ehun. Ac y gymryt eigyr yn wreic idaw heuyt. Ac ohynny allan y trigassant y gyt yn rwymedic o diruawr garyat. Ac y ganet vdunt arthur ac anna. B.

[483] Ac ym pen yspeit gwedy dydyeu ac amseroed heibaw. cleuychu awnaeth y brenhin o wrthrwm heint. A gwedy yuot llawer o diwed yny cleuyt hwnnw. blinaw awnaeth y gwyr a oed yn kadw octa ac ossa. Ac eu ellwg or karchar. A mynet y gyt ac wynt hyt yn germania. Ac wrth hynny kynhwryf a gymyrth yr holl teyrnas. kans beunyd ydytgenit udunt bot y saesson yn parattoi llyghes. ac yn ymchoelut tracheuyn y orescyn ynys prydein. Ac ar hynny wynt a doethant a llyghes diruawr y meint gantunt. ac amylder o niuer y gyt ac wynt y tir yr alban. A dechreu llosci y wlat ae anreithaw. B.

[484] Ac yna y gorchymynwyt y leu vab kynuarch llu ynys prydein wrth ymlad ar gelynyon hynny. Iarll oed hwnnw a marchawc prouedic oed hwnnw clotuawr. a synhwyrus. Ac wrth veint y glot ae volyant y rodassei y brenhin. anna y verch idaw y wreic. A llywodraeth y teyrnas yny law tra yttoed ynteu glaf. A gwedy mynet lleu a llu ynys prydein gantaw a dechreu ymlad ar gelynyon yn vynych y ffoei ef racdunt wy yr dinassoed. ac yn vynychaf y kymhellei ynteu wynt y ffo y wrthaw. A mynych gyfranc a vu rydunt heb wybot pieinei y vudugolyaeth kans syberwyt y kiwtawtwyr ehun a oed yny gwanhau. kanyt oed teilwg gantunt nfydhau wrth gyghor y iarll. B.

[485] A gwedy anreithaw yr ynys hayach. menegi hynny awnaethpwyt yr brenhin. a llidiaw aoruc y brenhin y vwy no meint. A gwedy dyvynnu attaw y holl wyrda: eu hagreiffaw aoruc yn dost. ac yn drut. am eu syberwyt. A thrwy y lit tygu yd aei ehun yn eu blaen yr ymlad. Ac yny lle erchi paratoi elor idaw wrth y arwein. kany ellit yn amgen no hynny y dwyn rac y gleuyt ae wander. A gwedy eu kyfreideu yn parawt. gossot awnaethpwyt y brenhin yn yr elor. A dyuot ac ef hyt y dinas a elwit verolan yny lle yd oed y saesson yny distryw. B.

[486] A gwedy clybot or saesson bot y brytanyeit yn dyuot ac eu brenhin gantunt ar elor. Sef awnaethant eu hygaelussaw. a megys anheilygu ymlad ar neb a arwedit ar elor o wyr kyfurd ac wyntwy. Ac wrth hynny. Sef awnaethant mynyt yr dinas y mywn. ac o syberwyt megys na bei ofyn arnadunt adaw pyrth y dinas yn agoret yn eu hol. B.

[487] Ac eissoes menegi hynny y vthyr pendragon. erchi aoruc ynteu mynet ampen y dinas ae gylchynu. ac ymlad ac ef. Ac ufydhau aoruc y kiwtawtwyr. a dechreu ymlad ar muroed yn wrawl. A megys yd oed y brytanyeit gwedy ryoruot hayach ar y muroed. ac yn gwneuthur aerua vawr or saesson pei na wrthwynepit udunt ar y diwed. Ac yna sef awnaeth y saesson daly ydiuarwch am ar awnaethoedynt am anuessuraw y brytanyeit. Ac or diwed eissoes mal yd oedynt yn ymlad yn drut ac yn galet. y doeth y nos yr hou y wahanwys pawb y wrth y arueu. Ac yna pan welas y saesson bot eu syberwyt yn argywedu vdunt a bot y brytanyeit hayach gwedy ryoruat arnadunt. Sef awnaethant medylyaw trannyoeth mynet allan a roi kat ar vaes udunt. A phan daporthes yr heul y dyd tranyoeth. yd aeth y saesson or dinas. a gossot y marchogyon yn vydinoed. A phan welas y brytanyeit hynny llunyaethu aoruc wynteu y marchogyon yn vydinoed. Ac yn diannot kyrchu y saesson. ae gwrthwynebu awnaethant wynteu yn wrawl. A gwedy treulaw llawer or dyd uelly y uudugolyaeth y kauas y brytanyeit. A llad octa ac eossa. a chymryt eu ffo aoruc y rei ereill oll. B.

[488] Achymeint o lewenyd a gymyrth y brenhin yndaw ac ual yd oed heb allu ymdreiglaw ar y elor. Ac yna kyuodi a oruc yny eisted heb nerth neb rac llywenyd yn unwed. a phei deissyuyt iechyt adelhei idaw yn yr awr honno. a dywedut dan chwerthin yr ymadrawd hwn. y bratwyr twyllwyr am gelwynt i yn hanher marw wrth vy mot yn gorwed ar yr elor yn glaf. a gwir oed hynny. eissoes gwell yw genyf i vy mot yn haner marw gan oruot arnunt wy no phytuewn iach a goruot o nadunt wy arnafi. kans gwerthvoroach yw merwi yn glotuawr gan enryded no buchedoccau yn gywilydus gan weradwyd. B.

[489] Ac yna gwedy goruot ar y saesson mal y dwespwyt uchot. yr hynny ny pheidyassant wy eiryoet oc eu drycystryw namyn mynet hyt yr alban a ryuelu yno heb orffywys ac eu erlit a vynnassei vthyr ual y buassei darpar gantaw ac nys gadwys ywyrda idaw. kans trymach uu y heint a gwanach gwedy vudugolyaeth no chyn. B.

[490] Ac or achaws hwnnw glewach oed y gelynyon yn ryuelu ar y brytanyeit. ac o pop fford ymrodi y gnotaedic urat gan geissaw goresсyn yr ynys ae distryw ac ymplith pop peth prydu awneynt yny wed y gellynt gwneuthur brad y brenhin yn gyntaf. A gwedy dyffygyaw pob ystryw sef awnaethant anuon kenadeu yn rith aghenogyon hyt verolan. y dinas yd oed y brenhin yn glaf yndaw. wrth wybot ansawd y llys ae cherdedyat. B.

[491] A gwedy eu dyuot yno a chaffel gwybot pop peth wynt awelsant ffynyon loeyw eglur. ac or dwfyr hwnnw ygnotaei y brenhin yuet pryt na allei yuet ony pryw dim arall yny byt. Ac yna gwedy kaffel or yscymunedigyon vratwyr gwybot hynny sef awnaethant wynteu yny lle kyrchu parth ac yno. a damgylchynu y fynyon o wenwyn. Ac ynghylch y glaneu megys y bei wenwynawc y dwfyr arettei ohonai. Ac yna gwedy yuet or brenhin or dwfyr gwenwynic hwnnw o ebrwydedic agheu y bu varw. a mwy no chant o dynyon ygyt ac ef. a lewes or dwfyr gwenwynic. ac sef awnaethant llenwi y ffynyon or dayar a gwneuthur kruc mawr ar y gwarthaf. B.

[492] Ac yna gwedy honni marwolaeth y brenhin y deuthant yr archescyb ac escyb ac abadeu o pop lle yny teyrnas. Ac odyna kymryt korff eu brenhin ae dwyn ynrydedus hyt ym manachloc ambri. ac yno mewn cor y kewri geir llaw emreis y vrawt y cladwyt trwy vrenhinawl arwylyant. B.

[493] Ac yna gwedy marw vthyr pendragon yd ymgynnullassant holl wyrda ynys prydein o yscolheigyon allygyon hyt yg kaer vudei ac o gyt synedigaeth pawb yd archassant y dyfric archescob kyssegru arthur yn vrenhin arnadunt. kans eu agen ae kymhellei. Sef achaws pan gigleu y saesson marwolyaeth vthyr. yd ymhoelassant wynteu hyt yn germania y geissa porth. a neur dathoed attunt llyghes vawr a golgrym yn tewyssawc arnadunt. ac neut daroed udunt gwerescin tu traw y hwmyr sef oed hynny y tryded ran or ynys. B.

[494] A phan welas dyfric arthur a thrueni y pobloed kyt doluryaw ac wynt awnaeth a chyssegru arthur yn vrenhin. a gwiscaw coron y teyrnas am y pen. A phymthegmlwyd oed arthur yna. Ac ny chlywyssit ar neb kyn noc ef y ryw dauodeu a oed arnaw o nerth a chedernyt a glewder a daeoni. a chymeint a racvrydassei duw idaw ac nat oed yn eithauoed y byt dyn or a glywei dywedut ymdanaw nys karei. a chwaethach or ae gwelei. a hynny yn anedic gantaw. B.

[495] A gwedy y hardahu o vrenhinolyon arwydon y teyrnas ymrodi y haelder aoruc yn gymeint ac nat oed hawd idaw gaffel kymein o da ac aoed reit idaw y rodi yr sawl varchogyyn a lithrei attaw. ac eissoes pwy bynag a vo hael ynyanawl ygyt a phrouedic volyant kyt boet eisseu arnaw ar talym. ny at duw wastat

aghenoctit y argywedu idaw. Ac wrth hynny sef awnaeth arthur kan oed yaw ef molyant y kytymdeithocau haelder a daeoni llunyaethu ryfel ar saesson hyt pan vei oc eu da wynt ac eu swllt. y gallei kynoethogi y varchogyon ae telu ae iawnder a dangossei hynny idaw. kanys ef a dylyei holl vrenhinyaeth ynys prydein o wir tref tatawl dylyed. A chynnullaw aoruc holl ieuenctit ynys pdein. A chychwyn parth a chaer efrawc. B.

[496] A phan gigleu golgryn hynny kynnullaw y saesson ar yscotteit ar fichteit aoruc ynteu ygyt ac ef a dyuot yn erbyn arthur hyt yg glan dulas. ac eidyna y periglwys y deu lu yn vawr. Ac eissoes y uudugolyaeth a gauas arthur a chymell golgrun ar ffo hyt yg kaer efrawc. ae werchae yny dinas. B.

[497] A phan gigleu baldwlf aoed a hwemil o wyr aruawc ganthaw ae wyrchae. sef awnaeth ynteu kyrchu parth ac yno a hynny o niuer gantaw y geissaw gellwg y vrawt kans pan ymladassei arthur a golgrun yd oed baldwlf ar lan y mor yn aros dynot geldrig tywyssawc a llu gantaw o germania yn porth udunt. A gwedy dyuot baldwlf hyt ar deg milldyr y wrth y gaer. medylyaw aoruc dwyn kyrch nos am pen arthur ae lu. B.

[498] Ac nyt amgelwys hynny rac arthur. Sef a oruc ynteu anuon cadwr tewyssawc kernyw a wechant marchawc gantaw a theirmil o pedyt y rac vlaenn y fford y tybygynt y dyuot. B.

[499] A gwedy kaffel o cadwr gwybot y fford wynt dwyn kyrch aoruc am eu pen ac eu gwascaru ae kymell ar ffo. A diruawr tristyt a gymyrth baldwlf wrth na allwys gellwg y urawt or gwarchae ydoed yndaw. A medylyaw awnaeth pwed y gallei gaffel ymdidan ae vrawt. kans ef a tybygei y keffynt holl rydit a gwaret pei keffynt ffuryf y gytystrywyaw peth a wnelynt. ac gwedy nat oed fford amgen. sef awnaeth allaw y wallt. a gwneuthur diwyl erestyn arnaw. a chymryt telyn yny law a cherdet trwy bebylleu Arthur gan ymdangos yn erestyn. A gwedy na thybygei neb wrthaw y vot yn twyllwr mal yd oed. Sef a oruc dynesau parth ar gaer dan ganu telyn. B.

[500] A gwedy y adnabot or rei gwarchaedic. sef awnaethant estynnu raffeu idaw. ac wrth y raffeu y tynnu y mywn. A gwedy gwelet o honaw y vrawt mynet dwylyaw mynwgyl ac ef aoruc. A gwedy medylyaw o nadynt bwed y gellynt ymrythau odyno nachaf y kenhadeu yn dyuot o germania a wechanllog gantunt ynllawn o varchogyon aruawc a cheldric yn tywyssawc arnadunt. a discyn yr alban y tir. B.

[501] A gwedy clybot o arthur hynny. sef y kauas yny gyghor nat eistedei wrth ygaer hwy no hynny rac pedruster ymlad a chynulleitua gymeint a honno. o delynt am y pen. A mynet odyno awnaeth hyt yn llundein a galw attaw holl wyrda ynys prydein ieirill a barwnyeit a marchogyon urdawl ac escyb ac abadeu. Ac oe kytkyghor yd annonet kenhadeu hyt ar hywel vab humyr llydaw oed vrenhin yn llydaw y venegi idaw ef yr ormes aoed ar y bryttanyeit gan genedyl saesson paganyeit. nei y arthur vab chwaer oed hywel. B.

[502] A phan gigleu hywel y ryvel a oed ar y ewythyr paratoi llyghes awnaeth. ac ethol pymthegmil o varchogyon aruawc ygyt ac ef. Ac ar y gwynt kyntaf agauas yny ol kychwyn aoruc parth ac ynys prydein. a dyuot y norhamton yr tir. ae aruoll a oruc arthur yn anrydedus mal y dylyit y wr kyuurd a hwnnw. B.

[503] A gwedy mynet ychydic o diheuoed heibaw kychwyn awnaethant odyno parth a chaer lwytgoet am pen y saesson yscymun a oed yny chawarsagu. ar tref honno y syd yn lyndyssei ar pen mynyd uchel rwg dwy auon. ac aelwir o enw arall lincol. A gwedy eu dyuot yno ymlad awnaethant yn diannot ar saesson ac yn yr un dyd hwnnw y dygwydwys wemil or saesson rwg eu llad ae bodi. a chymryt eu ffo aoruc y saesson: ac ny orffowysswys arthur oe hymlit odyno hyt yn llwyn kelydon. B.

[504] Ac yno yd ymgynnullasant wynteu oc eu ffo a pop lle. a medylyaw awnaethant eilweith gwrthwynebu y arthur. A gwedy dechreu ymlad o pop parth aerua ny bu vychan awnaethant or brytanyeit gan y andiffyn ehunein. ac aruer owyscawt y deri y ochel ergydyon y brytanyeit. a phan welas arthur hynny erchi a oruc trychu y gwyd or parth hwnt yr llwyn ac eu gosot yn gae ym kylych mal na cheffynt mynet odyno hyny ymrodynt y wyllys arthur neu wynteu a veynt veirw o newyn. A gwedy gwneuthur y kae a rannu y bydinoed yg kylych y llwyn. Ac velly y buwyt tri dieu a their nos. B.

[505] A gwedy nat oed dim bwyt gan y saeson sef awnaethant rac eu marw rac newyn anuon kenhadeu ar arthur y adolwyn y hellwg yn ryd y eu llogeu. Ac adaw idaw ynteu y eur ae haryant ae holl swllt. A theyruget pop plwdyn o germania a gwystlon ar hynny. Sef y kauas arthur yny kyghor kymryt hynny gantunt. A roi kanhat udunt y vynet yn ryd. B.

[506] Ac val yd oedynt yn rwygaw moroed yn mynet tu ac eu gwlat y bu ediuar gantunt wneuthur yr amhot hwnnw ac arthur. Ac yny lle trossi eu hwyleu dracheuyn parth ac ynys prydein. A dyuot y traeth totneis yr tir. A dechreu anreithaw y gwladoed hyt ymor hafren. Allad ybileinlu. Ac odyna kerdet racdunt hyt yg kaer vadwn. A dechreu ymlad a hi. B.

[507] A gwedy menegi hynny y arthur. ryuedu aoruc meduc y twyll arnadunt yn gymmeint ac yto rynt y haruoll mor ebrwyd a hynny. Ac yn diannot crogi eu gwystlon ac ymadaw ar yscotteit a mynet parth ac yno. Ac eissoes goualus oed am ryadaw hwel vab emyr llydaw yn glaf yg kaer alclut. B.

[508] A phan welas y peganyeit yn ymlad ar gaer y dywawt yr ymadrawd hwn. kyny uy teilwg gan twyllwyr saesson bradwyr kadw aruoll wrthyfi miui a kadwaf ffyd wrth duw gan geissyaw dial gwaet vy kiwtawtwyr arnadunt. gwiscwch awch arueu a chyrchwch yn wrawl y twyllwyr racco. A chan porth duw ni oruydwn arnadunt. B.

[509] A gwedy dywedut o arthur yr ymadrawd hwn y kyuodes dyfric archescob kaer llion. a seuyll ar pen bryn uchel. A dechreu y ymadrawd val hyn. hawyrda heb ef y rei ysyd arderchawc o gristynogawl ffyd gatholic koffewch waet yc kiwtawtwyr yr hwn ysyd ellygedic y gan escymyn estrawn genedyl saesson. kans gwaradwyd tragywydawl ywch ony lafurywch y geissaw dial ych kenedyl arnadunt. ac wrth hynny ymledwch dros awch gwlat a diodefwch ageu trosti orbyd reit ywch. A pwy bynac a damweinaw idaw yr ageu honno. y mae yn ymroi ehun yn wir aberth y duw gan euelychu krist y gwr a ymrodes yn wir aberth tros y popyl. B.

[510] A gwedy kymryt bendith y gan y gwynuydedic archescob. bryssyaw a oruc pawb yny gyueir y wiscaw y arueu. Ac yna y gwiscwyt am arthur lluruc a oed teilwg y vrenhin. ac am y pen y dodet helym eureit. a dreic escithredic a gwen taryan arthur aosodet ar yscwyd yn yr hon yd oed delw yr arglwydes ueir. kans ym pop lle kalet ac yg y galwei ef arnei ac y koffaei. Ac ar y glun y dodet kaletuwlwch y cletyf goreu awnathoedit yn ynys aualla. Ac yny law y rodet gwaew aelwit ron goruchel. a llydan oed hwnnw ac adas. B.

[511] A gwedy daruot gwiscaw bydinaw o pop parth a ymgyrchu awnaethant. a llad llawer o vilioed. Ac val yd oed yr eul yn gestwg ar dyd yn daruot. Achub awnaeth y saeson y mynyd a oed yn agos. A chymryt hwnnw yn lle kastell udunt gan ymdiret y eu kedernyt ac yn amylder y niuer. Ac eisoes pan arwedwys yr heul y dyd trannoeth. yscynnu awnaeth arthur ae lu y pen y mynyd. A llawer oe wyr a golles yn escynnu y mynyd. kans haws oed yr saeson ymlad o oruchelder y mynyd. noc yr brytanyeit wrthwynebu nac argywedu udunt wy yny gwrthwyneb. A gwedy treulaw llawer or dyd yn ymlad yny

wed honno. llidiaw ablyghau aoruc arthur owelet y saesson yn ymlad mor wrawl a hynny. ac nat yttoed ynteu yn kaffel y uudugolyaeth. Ac ar hynny tynnu kaletuwlych oe wein o arthur gan alw enw duw ar arglwydes ueir. ac oe vuan vuan ruthyr. kyrchu y lle tewaf y gwelei vydinoed y saesson. Ac ny orffowysswys hyny ladawd ae vn cledyf ehun deg wyr a thri ugeint a phedwar canwr. A gwedy gwelet hynny or brytanyeit. glewhau awnaethant wynteu. a gwneuthur aerua diruawr y meint or saesson. Ac ny urwydyr honno y llas colgrin. a baldwlf y vrawt. a llawer o vilioed y gyt ac wynt. A phan welas keldric yr aerua trom honno oe gytymdeithon. ffo awnaeth ynteu. B.

[512] A gwedy kaffel o arthur y vudugolyaeth hono. sef awnaeth anuon kadwr tewyssawc kernyw y erlit y saesson a ryffoassei. hyt tra bryssei ynteu parth ar alban yn erbyn yr yscoteit oed wedy dyuot am pen kaer alclut. y lle yd oed wedy dyuot am pen kaer alclut. y lle yd oed hywel vab emyr llydaw yn glaf. Ac wrth hynny y bryssei ynteu rac kaffel y gaer am pen hywel. B.

[513] Ac yna y kychwynwys kadwr a degmil o varchogyon aruawc gantaw. A gwedy kaffel y llogeu ac eu briwaw ychoelut ar y elynyon aoruc. Ac eu llad heb trugared rei o nadunt a gyrchei diogelwch y llwyneu ar koedyd. ereill y mynyded ar gogoueu y geissaw yspeit rac eu hangeu. A gwedy nat oed dim diogelwch udunt. sef awnaethant kyrchu yny tanet hyny oed yn ladedigyon eu bydinoed. Ac eu herlit aoruc kadwr hyt yno gan wneuthur aerua diruawr y meint. Ac ny orffowysswys hyny ladawd keldric. a chymell y rei ereill y darestwg y arthur. B.

[514] A gwedy gwneuthur tagnoued ac wynt y kerdwys kadwr parth a chaer alclut yr hon a daroed y arthur y rathau y gan yr yscotteit ar ffichteit. Ac odyno y kychwynnassant parth a muryreifft ynol yr yscotteit ar effichteit. a ymladassynt teir gweith ac arthur kyn no hynny. Ac y ffoassynt hyt yno. Ac yna yd athoedynt y enyssoed a oed yn llyn llumonwy y geissaw eu ymdiffyn yny lle kadarn hwnnw. kans yny llyn hwnnw y mae trugein ynys. athrugein auon a daw idaw. Ac ny ret o honaw namyn un. A thrugein karrec a nyth eryr ym pop karrec. Ac unweith pop plwydyn yd ymgynnullynt ygyt. Ac y dangossynt ar y lleisseu y damwein adelhei yr teyrnas o hynny hyt ym pen y vlwydyn. Ac yr lle hwnnw y ffoassei yr yscotteit ar effichteit. Ac ny dygrynoes udunt: kans kynnullaw llogeu ac yscraffeu awnaeth arthur. ac ae gwarchae velly trwy yspeit pythevnos. hynny vu varw hyt ar viliod. B.

[515] Ac val yd oedyn uelly nachaf gillamwri brenhin iwerdon. a llyghes anueidrawl y maint yn dyuot yn porth yr popyl truan yd oedit yny gwarchae. Sef awnaeth arthur ymadaw ar yscotteit. ac ymchoelut y arueu yny gwydyl. ac eu kymell ar ffo. A gwedy ffo y gwydyl ymchoelut aoruc arthur ar yr yscotteit ar effichteit y vynnu y dileu hyt ar dim. Ac val yd oed arthur gwedy ymrodi y kreulonder yn erbyn y bobyl honno nachaf escyb y truan wlat ae offeireit ae yscolheigyon yntroetnoeth ac escyrn y seint ar crogeu yn dyuot wediaw trugared arthur dros edlybin y truan pobyl honno. A gwedy adoli ar tal eu glineu ac adolwyn idaw gadu udunt y ran vechan a oed gantunt or ynys y arwein tragywydawl geithiwet y danaw ef. A chyffroi a oruc arthur ar warder a thrugared arodi yr gwyrda seint hynny eu adolwyn. B.

[516] Ac yna gwedy daruot hynny. sef awnaeth hwel uab hemyr llydaw edrych ansawd y llyn. a ryuedu y sawl auon a deuei idaw ac nac aei o honaw namyn vn. Ar sawl ynys. ar sawl garrec. ar sawl nythot eryrot. sef awnaeth arthur dywedut wrthaw vot llyn arall yny wlat honno aoed ryuedach no hynny. sef oed y ansawd vgein troetued yny hyt ac ugein yny llet a phump yny dyfnet yn pedrogyl. ac ym pedeir koghol yd oed pedeir kenedyl o pyscawt ac ny cheir vn byth yn ran y llall. Ac y mae llyn arall yg kymry arlan hafren. sef yw y henw llyn lliwan. A phan lanwo y mor vet atei ylwnc ynteu megys morgerwyn. ac ny byd kyuywch a y kudyo y glaneu yr meint uo y llanw. A phan treio y mor y wyda ynteu megys mynyd mawr tan taflu toneu a chymerw. A phwy bynac a vo yn seuyl yn agos idaw ae wyneb attaw breid uyd idaw dianc heb y lyncu or llyn. or bei y geuyn ar y llyn nyt oed perigyl yr nesset y bei idaw. B.

[517] A gwedy daruot hedychu yr yscotei yd aeth y brenhin hyt yg kaer efraw y enrydedu gwil ynydoluc a oed yndyuot yn agos. A gwedy ydyuot yno a gwelet distrywedigyaeth yr eglwysseu. a gwedy rywrthlad y gwynuydedic sampson archescob ar dwywolyon wyrda ereill effeireit. a gwedy peidaw a dwywaw wassanaeth o gwbyl. doluryaw aoruc arthur yn vawr. am hynny. Ac galw y wyrda ygyt. ac o getuundeb pawb y gossodes priaf y gaplan ehun. yn archescob yg kaer efrawc. ac y peris adeilat yr eglwysseu llosc-edigyon o newyd. A gossot kouenoed kreuydus y talu deduawl wasanaeth yn amseroed herwyd gossod-edigyaeth y ffyd lan catholic. Ar dylyedogon ar daroed yr saesson ydiwreidaw eu gossot aoruc arthur ar eu dylyet ae medyant o gwbyl tracheuyn. B.

[518] Sef oedynt yno tri broder a hanoedynt o vrenhinawl uoned a delyet. llew wab kynurach. ac uryen. v. k. ac aron v. k. ar rei hynny a dylyynt tywyssogyaeth y gwladoed hynny. Ac yd oed yn y heidun kyn dyuot y saesson y eu gwarescyn. Ac yna y rodes arthur y aron vab kynuarch brenhinaeth yscotlont. ac y lew vab kynuarch iarllaeth lodoneis dan y pherthyneu. kans yn oes emrys y rodassit anna verch uthyr pendragon yn wreic idaw yr hon a oed vam y walchmei. a medrawt. Ac y rodes y uryen vab kynuarch ryget dan y pherthyneu. A gwedy daruot llunyaethu pop peth a dwyn yr ynys ar y hen teilygdawt. A rodi y pawb y dylyet. y kymyrth y brenin gwreic a hanoed o dylyedogyon rufein. A gwenhwyuar oed y henw. Ac yn llys kadwr iarll kernyw y magyssit. A phryt athegwch y wreic honno a orchunygei holl wraged yn ynys prydein. B.

[519] Ac erbyn dyuodedigyaeth yr haf rac wyneb parattoi llyges a oruc arthur y vynet y werescyn iwerdon. A gwedy discyn yr tir y deuth gillamwri brenhin iwerdon. ac ynneiryf o luossogrwyd ygyt ac ef. A gwedy dechreu ymlad sef awnaeth y genedyl noeth truan diaryf heb vn goir kymryt eu ffo. Ac yna y delit gillamwri ac y kymhellwyt y darestwg y arthur. Ac o agreifft hwnnw y deuth holl tywyssogyon iwerdon. a gwedhau y arthur oc eu bod. B.

[520] A gwedy daruot gweresсyn iwerdon mynet ae lyghes a oruc y islont. A gwedy ymlad ar popyl ef ae gwerescynnwys. A gwedy clybot or ynyssoed ereill nat oed un wlat a allei gorthwynebu y arthur. sef doldan vrenhin gotlont. a gwinwas vrenhin orc. dyuot oc eu bod y wrhau y arthur. ac y rodi teyrnget idaw. A gwedy mynet y gayaf hwnnw heibaw ymchoelut a oruc arthur y ynys prydein. A chadyrnhau tagnoued yndi. Ac ybu yndi ar vntu deg mlyned. B.

[521] A gwawd attaw awnaethpwyt marchogyon prouadwy clotuawr o wladoed ereill y chwanaccau y teillu. A chymeint oed syberwyt llys arthur. ae teulu o vaes a gwybodeu a daeoni a haelder a milwryaeth ac nat oed dim gan neb or ae clywei o ny allei ymgyfflybu idi. ac nyt oed dim gan vn dylyedawc o pedeir bannoed y byt ony bei vn diwygat ac vn o teulu arthur. Agwedy ehydec dros pedeiruanoed y byt y ryw wr oed arthur. yd oed pawb or brenhined yn ergrynu rac ofyn y gwarescyn o honaw. sef awneynt kadarnhau y kestyll ae kaeroed agwneuthur ereill o newyd rac ofyn. B.

[522] Gwedy clybot o arthur hynny ymdyrchauel aoruc ynteu o glybot bot y ofyn ar pawb yn gymeint a hynny. A medylyaw awnaeth gwerescyn holl europa. sef oed hynny y tryded ran or holl vyt. A pharatoi llyghes aoruc arthur. a mynet tua llychlyn a gwarescyn y lew vab kynuarch oed nei y sychelyn vrenhin

llychlyn a vuassei varw. Ac a gymynassei y vrenhinaeth y lew y nei sef awnaeth y llychlynwyr y wrthot ef. ac vrdaw rikwlf yn vrenhin arnadunt. sef awnaeth hwnnw kadarnhau y dinassoed ar kestyll. gan vedwl daly yn erbyn arthur. B.

[523] Ar amser hwnnw yd oed walchmei yn oet deudegmlwyd yn gwasanaethu suplicius pap. gwedy y arthur y anuon y dyscu moes a milwryaeth. A chan y pap hynny y kymyrth ef arueu gyntaf. B.

[524] A gwedy dyuot arthur y traeth llychlyn. nachaf rikwlf a llu mawr ganthaw yn dyuo yny erbyn. a gwedy gollwg llawer o greu a gwaet o pop parth y llas rikwlf a llawer y gyt ac ef. ac y kauas arthur y vudugolyaeth a dechreu dodi tan yny dinassoed. Ac ny orffowysswys arthur ae lu yny daruu vdu gorescyn llychlyn a denmarc. ac eu darestwg wrth arglwydiaeth arthur. Ac yna y gossodes arthur lew vab kynuarch yn vrenhin yn llychlyn. B.

[525] Ac odyna yd aeth arthur ae lu hyt yn ffreinc a dechren anreithaw y gwladoed hi o bob parth udunt. Ac yn yr amser hwnnw yd oed ffrollo yn tewyssawc yn ffreinc dan les amherawdyr rufein yn llywyaw ynty. trythal. A gwedy clywet o ffrollo dynodedigyaeth arthur. ac yd oed ny wneuthur ar ffreinc. kynnullyaw holl uarchogyon ffreinc aoruc. a dyuot yn erbyn arthur a dechreu ymlad. Ac ny allawd ffrollo seuyll yny erbyn. kans kymeint oed lu arthur ac nat oed hawd eu gossot mywn rif. rwg ynys prydein ar enyssed ereill awaryscynassei. a ran oreu o wyr ffreinc oed heuyt y gyt ac ef. A gwedy gwelet o ffrollo y syrthyaw yny ran waethaf or ymlad. Adaw y maes a oruc. ac ychydic o nifer kyrchu paris. A gwedy ymgynnullaw aoruc y ffoedigyon lu attaw a chadarnhay y dinas ar veder y gynhal yn erbyn arthur. B.

[526] A thra yttoed ffrollo yn aros porth attaw nachaf arthur yn dyuot yn deisyuyt am pen y gaer. ac yn rannu y lu yny chylych ual na chaffei neb dyuot o honei onyt wrth y gyghor ef. ac ar pen y mis doluryaw aoruc ffrollo o welet y pobyl yn meirw rac newyn. Sef awnaeth anuon ar arthur y ofyn a vynnei y dyuot elldeu y le ny allei neb kanhorthwy y vn mwy noe gilyd. ar vn a orffei kymerei kyuoeth y llall ae wyr yn diymlad yr deu lu. Sef achaws y kenygwys hynny gwr mawr aruthyr anueidrawl y dewred oed ffrollo. Ac o achaws hynny mawr oed y ymdiret y goruydei ar arthur. ac y rythae y bobyl. B.

[527] Allawen vu gan arthur y gynadwri honno. A gwedy kydarnhau yr amot hwnnw rydunt wynt a doethant elldeu y mewn ynys wastat a oed odieithyr y gaer yn gaedic or auon. ar lluoed o pop parth yn edrych py damchwein a vei rydunt. B.

[528] A gwedy dyuot eu ylldeu yn gyweir adurnedic o arueu ar deu varch enryued y meint ae buanet mal nat oed hawd gwybot pwy bieuydei y vudugolyaeth. a gwedy dyrchauel eu harwydyon gosot aoruc pop vn ar y llall oe holl nerthoed. sef awnaeth arthur gan ochel dyrnawt ffrollo gosot arnaw ym pen y vron hyny y doed y ar y varch y lawr ac yn gyflym kyuodi a oruc ffrollo a gosot ar varch arthur ae leif hyt pan syrthiawd yn agheuawl or dyrnawt. A phan welas y brytanyeit eu brenhin yn dagwydaw. breid y gallwyt eu attal heb torri y gyghreir. Ac mal yd oedynt yn mynnu y thorri. Nachaf arthur yn kyuodi ac yn dyrchauel y taryan yn erbyn dyrnawt arall ffrollo gan y gyrchu ynteu yn gyflym. A gwedy eu dyuot y gyt ac ymgyuogi yn hir gosot awnaeth ffrollo ar arthur y tal. Ac bei na phlyccei y cledyf ar awch yr helym ar penfestyn ef auuasei agheuaw. A gwedy gwelet o arthur y waet yn kolli ac yn kochi y arueu enynu o flamychedic lit aoruc. A galw y nerthoed ae wrhydri attaw. a gosot ar ffrollo. a thrwy y helym ae holl arueu hyny aeth y cledyf drwydyaw hyt y llawr. Ac ynteu yn deu hanner y bobtu yr cledyf. A gwedy bot ynhonneit hynny yr deu lu. Agori pyrth y gaer awnaethpwyt ae rodi y arthur. A gwrhau a orugant y ffreinc idaw yn diannot. B.

[529] A gwedy y vudugolyaeth honno sef aoruc rannu y lu yn dwy ran. a rodi y hywel vab emyr llydaw y neill ran. y werescyn peittaw. ar ran arall gan arthur ehun y darestwg y gwladoed ereill yny gylch a vei orthwyneb idaw. a mynet a oruc hwel hyt yg gwasgwyn a pheitto ac ankio. A gwedy llawer o ymladeu y gwerescynwys y kestyll ar kaeroed ar dinasoed. ac y kymellwys y brenhined y darestwg idaw. B.

[530] A gwed mynet yspeit naw mlyned heibaw. a derestwg holl teruyneu ffreinc wrth ywed ef. y deuth arthur hyt ym paris y daly llys. a galw attaw archescyb ac escyb ac yscolheigon a lleygon holl teyrnas ffreinc. Ac yna y rodes arthur y vedwyr pen trullyat iarllaeth nordmandi. Ac y gei y penswydwr iarllaeth yr ankiw. Ac yr gwyrda ereill dylyedawc aoed yny wasanaeth. y gwladoed ereill yg kylych hynny. Ac yny wed honno hedychu pawb ac eu gwneuthur yn vodlawn. A gwedy daruot llunyaethu y gwladoed hynny yn dylyedus. pan yttoed y gwanwyn yn dyuot. y deuth arthur tracheuen y ynys prydein. B.

[531] A gwedy y dyuot darparu awnaeth trwy diruawr lywenyd daly llys a gwiscaw coron y priawt teyrnas am y pen. A galw pawb or brenhined ar tywysogon a wyryscynasei arthur hyt y wled honno. sef amser oed hynny y sulgwyn. Ac aruaethu awnaeth aruoll pawb trw lywenyd. ac ydnewydhau tagneued y rydunt trwy y teyrnasoed. B.

[532] A gwedy menegi o honaw y vedwl yw annwyleit oc eu kytgyghor y kawsant gwneuthur y wled honno yg kaer llion ar wysc ygwlatuorgant. kans teccaf lle oed yn ynys prydein. achyuoethoccaf o eur ac aryant a goludoed ereill. ac adasaf y ynrydedu gwylua kymeint a honno. kans or neill parth yr dinas yd oed yr auon vonhedic yn arwein y llogeu ar brenhined yndunt o pedyruannoed byt. ac or parth arall yr dinas yd oed y gwyrglodeu a llwynen ar fforestyd yny theccau. ac o uewn yr gaer ar dinas yd oed y tei brenhinawl goreureit. ac euo oed yr eil dinas a oed gynhebic y rufein o teccet y thei ac amlet y chyuoeth o eur ac aryant a meint y syberwyt. A dwy eglwys arbenic a oed yndaw. vn yn enryded y iulius verthyr. a manachloc gwerydon. A honno oed tryded archescopty ynys prydein. ac yn yr amser hwnnw arderchawc oed dinas kaer llion o deucant yscol ac ythraon da yn kanu yndunt amryualyon geluydodeu. B.

[533] A chymein a parattoet yna o armerth ac a oed teilwc yryw wled honno. Ac yna yr anuonet y po gwlat o a warescynasei arthur y wawd y brenhined ar tywysogyon ar ieirll ar barwneit ar marchogyon urdawl ar gwyrda y gymryt eu iawn ac eu dylyet. B.

[534] Ac yna y doethant wrth ywys honno. Aron vab kynuarch brenhin yscotlont. ac vryen vab kynuarch brenhin reget. a kyswallawn llawhir brenhin gwyned meuruc vrenhin dyuet. a chadwr. i. kernyw. a thri archescob ynys prydein. archescob llundein. ac archescob kaer efrawc. a dyfric archescob kaer llion. a hwnnw a oed penaf. a legat dan pab rufein. Ac yam hynny tywyssogyon y trefyd mawr bonhedic. morud iarll kaer loyw. mor iarll kaer wrangon. anarawt o amwythic. marchrut o gaer weir. yr hon aelwir warwic. ywein o gaer lleon. kynuarch o gaer geint. gwallawc o salysberi. vryen o kaer vadon. ionatha o dorgestyr. bosso o ryt ychen. dunawt vab pabo post prydeyn. kene vab koel. predur vab rud. gruffyd v. vognet. kygyn v. klawd. edelyn vab coledawc. kygar vab angaw. massen cloffawt. run vab noethon. kynuelyn vab trunyat. kariel vab kadell. kynllith vab noethon. Ac ygyt a hynny llawer owyrda a oed reir y datgan. ac or enyssoed y doeth yno gillamwri vrenhin iwerdon. gillamwri brenhin islont. doldan vrenhin gotlant. winwas brenhin orc. llew vab kynuareh brenhin llychlyn. echel vrenhin denmarc. a o ffreinc y doeth hothin tywyssawc rwytun. lodgar tewyssawc bolwyn. pedwyr petrullat tewyssawc normandi. burel tewyssawc senomon. kei pen swydwr tewyssawc ankiw. gwiudard tywyssaw peittaw. ar

deudec gogyuurd o ffreinc. a gereint garaffus yn eu blaen. hywel vab hemyr llydaw. a llawer o wyrda oed darystygedic idaw ynteu. Ae ar vyrder ny thrigawd vu tywyssawc or parth yma yr yspaen ny delhei wrth y wys honno. A chymeint o adurn muloed a meirch a gwiscoed ac arueu aoed gan pawb o hynny. Ac yd oed vlin a ryhir y datganed. B.

[535] A gwedy ymgynullaw pawb yr gaer. a dyd y wlua yn dyuot. y gelwit y tri archescob y llys wrth wiscaw y teyrnwisc am y brenhin. A choron y teyrnas am y pen. Ac y dyfric archescob y gorchymynwyt yr yfferen. kans yny archescopty ef yd oedit yn daly llys. A gwedy daruot gwiscaw am y brenhin. kychwyn awnaethpwyt ac ef parth ar eglwys yr archescopty. Ar neill archescob or parth deu idaw yn kynhal y wisc. ar llall or parth asseu. Ac arawn vab kynuarch brenhin yr alban. A chatwallawn law hir brenhin gwyned. A meuruc brenhin dyuet. A chadwr brenhin kernyw. yn herwyd eu breint yn arwein petwar cledyf noethon eureit ymblaen y brenhin yn mynet yr eglwys wrth efferen. Ac o pop parth udunt y cwuenoed o veneich a chanynwyr ac yscolheigon yn amryual urdasoed yn eu prossession. yn canu amryual geinydigyaethu ac organ yn dwyn eu brenhin wrth efferen. Ac or parth arall yd oedit yn dwyn y vrenhines yn wiscedic o vrenhinaw wisc. A choron o lawryd ami phen. ac escyb athrawon yny chylch hitheu y eglwys y manachesseu wrth efferen. Ac oe blaen hitheu gwraged y pedwar brenhin yn arwein pedeir clomen pur wynnyon ar eu dwy law. Ac y gyt a hynny y gwrageda kymeint vn ny canlynt wynteu parth ar afferen. A gwedy daruot y prossession ym pob vn or dwy eglwys. kymeint oed yr organ geinyadaeth a rac digrifet oed y gwarandaw hyt na bydynt y marchogyon adathoedynt yno py vn gyntaf or dwy eglwys a gyrchynt gan daet y kenit ym pop vn onadunt. namyn kerdet yntorwet or eglwys yr llall. ac ni megynt vlinder by treiglynt y dyd oll wrth wassaneth yr effereneu. B.

[536] A gwedy cwplau dywyawl wassanaeth ym pop vn or dw eglwys gwaret awnaethpwyt y am y brenhin ar vrenhines brenhinolyon wiscoed. a gwiscaw ymdanadynt yscanyon wiscoed. Ac odyna yd aeth y brenhin yr neuad y vwytta ar gwyr oll y gyt ac ef. ar vrenhines yr ystauell a gwraged oll ygyt ahitheu. B.

[537] A gwedy gossot pawb y eisted herwyd eu anryded y kyuodes kei y vynyd. a mil o dylyedogyon y gyt ac ef yn adurnedic o ermyn wiscoed ywasanaethu o gegin. Ac or parth arall y kyuodes bedwyr a mil ygyt ac ynteu yn adurnedic. oamryual wiscoed ywasnaethu or vedgell trw amryualyon lestri gorulycheu a fioleu eureit ac aryant a chyrn buelyn goreureit y wallaw amryualyon wirodeu. y paw herwyd y dirperei y enryded. Ac or parth arall yny neuad y vrenhines yd oed aneiryf o wasanaethwyr yn adurnedic o amliw amrynalyon wiscoed. y rodi yr gwraged eu gwasanaeth yn anrydedus herwyd eu kynheuawt. Ac yna ydoed amlwc dyuot ynys prydein yw hen ansod ae chyuoeth ae trefflyllwch yn gynmeint ac nat oed vn teyrnas aellit y chefflybu idi. Ac a vei o varchogyon clotuawr o vn ryw wisc ac arueu yd aruerynt ar gorderchwraged o vn ryw diwygat yd aruerynt. Ac ny bydei teilwg yna gan vn wreic gymryt vn gwr yn orderch idi o nyt vn a vei prouedic teirgweith ymilwryaeth. Ac velly diweirach yd ymwnai y gwraged. a chlotuorach yd ymwnai y marchogyon ymilwryaeth. B.

[538] A gwedy daruot bwytta ac yfet a chyuodi y ar ybyrda mynet allan awnaethant odieithyr y dinas. rei y chware pedyt. ereill i torri pelydyr. ereill y taflu dyscleu plwm yr awyr. ereill y vwrw maen. ereill y ymwan. ereill y chware gwydbwll. Athra yttoedunt odieityr y gaer yny chwaryeu hynny. yd oed y gwraged mwyaf agerynt ar van y gaer yn edrych arnadunt. ac yn ymdangos vdunt val y bei vwy ynni pawb onadunt wynteu yny gwaryeu. A phwy bynhac a vei vudugawl yny chware yn diannot y talei y brenhin idaw ygyuarws. B.

[539] A gwed treulaw tridieu a theyrnos yny wed honno y pydwyryd dyd y gelwit ar pawb yr vn lle y tal eu gwasanaeth vdunt mal y dirperei pawb yn anrydedus. Ac yna y rodet y dinasoed ar kestyl ar brenhinaetheu ar gwladoed. ar archescobodaetheu ar escobodaetheu. Ac y lle ybydynt yn wac. B.

[540] Ac yna y gwrthodes dyfric y archescobawt ac yd aeth hyt yn heulli y gwplau diwed y vuched o penydyaw ac y gosodet dewi ewythyr y brenhin yn archescob yny le ynteu a theilwg oed y hynny o lyindit a buched a santolyaeth. ac yn lle y gwynudydic sampson archescob kaer efrawc y gosodet teilaw y escob llandaf herwy y vuched ae deuodeu da yny ganhorthwyaw. Ac yn y gwnaetlpwyt morgan yn esco yg kaer vudei. a julian yg kae wynt. ac eteluryt yg kaer alclut. B.

[541] Ac val yd oedynt y llunyaethu pop peth yn dylyedus. nachaf y gwelynt yn dyuot deudegwyr o wyr aeduet eu hoct enrydedus eu gwed a cheinc o eliwyd yny llaw deheu y pop vn arwyd y bot yn kenhadeu. A gwedy eu dyvot rac bron arthur. annerch o pleit ymherawdyr rufein awnaethant. a rodi llythyr yny law gwedy y yscriuennu yn y mod hwn. B.

[542] Lles amherawdyr ruvein yn anvon annerch y arthur vrenhin y brytanyeit. yr hyn a haedwys enryued yw genyfi dy greulonder ti ath enuydrwyd ath seberwyt. na choffei ty. ti rywneuthur y sawl sarahadeu awnaethost y rufeiniawl amherodraeth pan dugost yn gyntaf y gantunt eu teyrnget o ynys prydein yr hwn agauas wlkesar ac ymherodron gwedy ef. Achyn no ninheu. Ac odyna y gorescyneist ffreinc a burgwyn. a holl enysoed yr eigawn a rei aoedynt trethawl y rufeinawl amherodraeth tra yttoedyn ny racuedu. Ac wrth hyny yd ym ninheu yn ryuedu eithyr mod hwyret yd wyt titheu yn ymchoelut ar ty synhwyr. Ac yn ymydnabot a thuhunan. kans gormod gwll yw gwneuthur codyant y sened rufein. ar holl vyt yn dylyeu bot yn darystygedic ydi. Ac wrth hynny sef y barnwys sened rufein bot yn iawn y titheu wneuth iawn or sawl sarahaedeu hyny mineu a archaf yti dywot hyt yn rufein erbyn kalan awst nessaf y wneuthur iawn or sawl sarahaedeu hynny mal y barno sened rufein arnat. ac ony deu ti yno yny racdywedydic teruyn hwnnw etnebyd ti y doafi yth teruyn ti a phy beth bynac a gribdeileisti oth enwired mineu ae dygaf yny bwynt gymherued y cledyfeu yn rannu rom. B.

[543] A gwedy daruot darllein y llythyr rac bron arthur ar brenhined ar tywysogyon aoed ygyt ac ef. kyuod awnaethant a mynet odyna parth a thwr y kewri y ymgyghor wrth atteb y gennadwri honno. a thra yttoedynt yn escynnu gradeu y twr. Sef awnaet kadwr tewysawc kernyw dan chwerthin yn llawen oe vryt ae vedwl. hyt hyn arglwyd y bu arnafi ofyn mawr heb ef rac gwarescyn o lesced y brytanyeit trwy hir tagnoued a seguryt trwy ymrodi y wledeu a medawt a godinab. kany oes pedruster hyn wledycha medawt a charyat y gwraged a seguryt a thaplas a gwydbwll. koll y glewder ar nerthoed. a llychwinaw y clot ar enryded. ac agaws y y pymp mlyned yssyd yr pan ydym ninheu yn amrodi y wledeu a seguryt. ac wrth hynny y mae duw yn kyffroi gwyr rufein yn an herbyn y rodi deunyd ini y vwrw llesged a seguryt y wrthym. ac ymgoffau ac an milwryaeth. ac ar hynny wynt a doethant hyt yn twr y cewri. B.

[544] A gwedy kyueisted pawb onadunt herwyd y anryded arthur a dywawt ual hyn. arglwydi vyg kytuarchogyon prouedic y keueis ych kyghoreu eirioet hyt hyn yn rwyd ac yn dyrys. Ac wrth hynny synhwyrwch yr awr hon. A medylywch o vn vryt py atteb a dylywn y talu yn erbyn yr ymadrodyon hyn. kans by beth bynhac aracuedylyo doethon yn da pan deler ar weithret haws vyd y odef. a heuyt herwyd a tybygafi nyt reit ynni ofyn gwyr rufein. kans trwy anlyet y maent wy yn keissaw teyrnget o ynys prydein wrth dyuot wlkessar ac ymherodron ereill gwedy ef a llu mawr gantunt ac otreis ac anundeb an rieni nyncu

a gwarescyn y wlat. ae gwneuthur yn trethawl vdunt trwy treis achribdeil. A phy beth bynhac a dyker trwy treis a chymhell ny dylyir kaffel kedernyt yw gynhal. Ac wrth hynny kan ydiw yr ymherawdyr rufein trw snlyet yn keissaw yn bot ni yn trethawl idaw ef. ninheu trw dylyet a iawn aholwn teyrnget idaw ynteu o rufein. ar kadarnaf ohonam kymeret ygan y gilyd. kans gwerescynwys wlkessar ac ymherodron erejll ynys prydein oc eu kedernyt. ac or achaws hwnnw kymell teyrnget ohonai. yn awr yn kynhebic y hynny. mineu a varnaf dylyet ohonaf ineu teyrnget o rufein. kans vy rieni yneu gynt a waryscynassant rufein. nyt amgen. beli. a bran. meibon dyfnawl moel mut. ac a grogassant y pedwar gwystyl ar vgeint rac bron y gaer ac a vu eidunt y gaer trwy lawer o amser. A gwedy hynny kustenin vab elen a maxen wledic yg kereint inheu auuant amherodron yn rufein. ac o yny prydein y gweryscynassant. ac wrth hynny pony bernwch chwitheu dylyet o honaf inhen teyrnget o rufein ac o ffreinc ac or enyssoed ereill. ni wrthcbaf i idaw ef kans amdiffynwys pan y gweryscyneis i wynt. B.

[515] A gwedy daruot y arth' teruynu y ymadrawd velly. hwel vab hemyr llydaw a attebawd ual hyn ymlaen pawb. dioer heb ef. gwedy medylyei pawb ohonan arneilltu a menegi o pop vn ohonam y synnwyr yn wahanedic a gallu o hynny oll bot yn vn kyghor wedy hynny nyt ydwyfi yntebygu bot vn kyghor a vo gwell. a nac atteb a vo eglurach nor hwn y rodeisti yr awr hon arglwyd. Ac wrth hynny y delywn ninheu trw diergryn sanedigyaeth dwyn ardylyet a phruder y kyghor arodeisti. kans o myny ti kyrchu rufein herwyd y synnwyr ar dylyet a dywedeisti arglwyd ny phedrussaf kaffel y vudugolyaeth hyt tra vohom trwy iawnder yn amdiffyn yn breint ac yn rydit. yr hon y mae yn gelynyon yn keissaw y dwyn y arnam trwy enwired kans pwy bynac ageisso dwyn delyet ygan arall trwy enwired. ef yrlit a iawnder dylyedus yw y hwnnw kolli yr hyn auo idaw ehun. ac wrth hynny kans gwyr rufein yssyd yndarparu yn keithiaw ni a dwyn an rydit y arnam ninheu a dygwn y arnunt wy yr eidun os duw a ry lle ac amser y ymgyuaruot ac wynt. llyma gyuaruot damunedic yr holl vrytanyeit. llyma darwganeu sibli yn dyuot trwy geugant tastolyaeth bot or brytanyeit tri brenhin a werescynynt rufeinawl amorodraeth. ac o hynny amlwc yw dyuot y deu. beli a chustenin. ac arawr hon yd ym yth kaffel titheu yn trydyd kan yttys yn adaw blawed anrydedaw amherodraeth rufein it. Ac wrth hynny bryssya titheu y gymryt y peth ny ydiw duw yn annot y rodi yt trwy y haelder ef. bryssya y darestwg yr hwn yssyd yn bynnu bot yndarystygedic. bryssya y dyrchauel tywy ath teulu yrei ny ochelant or byd reit rodi eneideu yth dyrchauel titheu ac yth vrdaw. Ac yn nerth yr neges hon miui achweneccaa ty lu ti o degmil o varchogion aruawc. B.

[516] A gwedy hyny y dyrchewis arawn vab kynuarch y ymadrawd ynteu yny wed hon. yr pan derchewis vy arglwyd i heb ef. damlewychu y vedwl ae darpar kymeint lywenyd adiscynwys ynofi ac na allafi y venegi ar uyn tauot kanyt oed dim genhyf y sawl teyrnyssoed a weryscynassam gan dianc gwyr rufein a germania heb y darestwg a dial arnadunt yr areuaeu trymon awnaethant wynteu gynt on an rieni ninheu. A chan ytys yn darogan bot kyffranc rom ni ac wynt mwy no diruawr lywenyd yssyd ynof. y. am hynny a chymeint yw arnaf sychet yw gwaet a phei bythwn heb diawt tri dieu a their nos a gwelet ffynyon rac vy mron. arglwyd heb ef gwyn y vyt aarhoei y dyd hwnnw yn yr hwn y kaffem ymgyuaruot ac wynt melys o welioed vydei genyf i y rei agymerwn tra vythwn ynkeissaw dial vy rieni ac ynamdiffyn yn gwlat ac an rydit. Ac yn dyrchauel an brenhin. ac chwanaccau ty lu mi arodaf dwy vil o wyr aruawc heb eu pedyt. B.

[517] A gwedy dywedut o pawb y dull. adaw awnaeth pawb yn herwyd y gyuoeth. y nifer goreu aallei yn porth y arthur. Ac yn y kahat o ynys prydein ehun heb a adawsei hywel vab emyr llydaw triugeinmil o varchogyon aruawc. Ac or enysoed ereill nyt amgen iwerdon ac yscottlont a gotlont ac orc llychlyn a denmarc y riuwyd weugeinmil o pedut. kanyt oed aruer o varchogyon gantunt. Ac o ffreinc nyt amgen o rwuthun. a phorthvu a normandi. senoman a pheitaw ar angiw. y riuwyt petwar vgein mil o varchogyon aruawc. Ac ygan y deudec gogyfurd o ffreinc y rifwyt deg mil o varchogyon aruawc. Sef oed y rif hynny oll ygyt o varchogyon. Deucant a their mil a phetwar ugein mil a chan mil heb eu pedyt. yr hyn nyt oed hawd eu gossot yn riff. B.

[518] A gwedy gwelet o arthur pawb yn amrodi yn llawen yny wassanaeth. rodi canhat a oruc y pawb ouadunt y vynet y en gwlat y ymparottoi erbyn kalan awst. A gorchymyn awnaeth y pawb dyuot yny teruyn hwnnw y porthua dofyr yn llwyr a chychwynu odyno y gyt yn erbyn yr amherawdyr. Ac yna yd anuones arth' ar yr amherawdyr trwy genhadeu y uot ef yn ymparattoi wrth vynet parth a rufein. Ac nyt yr ufydhau y sened rufein. namyn yr kymell arnaduut wy trwy delyet iawn. yr hyn yd oedunt wy trwy anlyet yny erchi idaw ef. A chychwyn awnaeth y brenhined ar tywyssogyon y eu gwlat wrth paratoi eu lluoed mal yd adewssynt yr arthur. B.

[519] A gwedy gwarandaw o les amherawdyr rufein atteb arthur y gan y kenhadeu. Anuon gwys aoruc ynteu ar vrenhined y dwyrein. o gyghor sened rufein y erchi y pawb onadunt luydyaw y gyt ac ef am pen arthur oe darestwg. Ac yna y doethant wrth y wys honno epistropus vrenhin groec. mustensar vrenhin yr affrik. ac eliffant vrenhin yr yspaen. a hirtagus vrenhin parth. a boccus vrenhin midiff. a sertorius vrenhin libia. a serrer vrenhin iturta. pandrassius vrenhin yr eifft. euader vrenhin ziria. missippia vrenhin babilon. politetes duc bititna. teuser duc ffrigia. elion vrenhin borth. ipolit brenhin cretta. Ac y am hynny tywyssogyon mawr a ieirll a barwnyeit a marchogyon urdawl. Ac o urdas sened rufein lles amherawdyr. kadell. meuruc. lepitus. gagius. mettelus. cocta. quintinus. mistinus. catulus. quyntus. karaussius. Sef oed eiryf eu marchogyon. seith mil a phetwar kan mil. B.

[520] A gwedy bot y rei hynny yn parawt erbyn kalan awst kychwyn awnaethant parth ac ynys prydein. B.

[521] A gwedy kaffel o arthur wybot ybot yndyuot gorchymun awnaeth ynteu llewodraeth y teyrnas y vedrawt y nei vab y chwaer. ac i wenhwuar vrenhines. Achychwyn awnaeth arth' y gyt ae lu parth a nordhamtwn wrth kychwyn odyno yny lyghes. B.

[522] Ac nal yd oed yn rwygaw moroed yn damgylchynedic o luosogrwyd anyiryf o logeu. mal am hanner nos y dygwydwys hun diruawr y thrymet ar arthur. Sef y gwelhei trwy y hun arth yn ehedec yn yr awyr. a murmur hwnnw ae odwrd alanwei y traethu o ofyn ae ergrenedigyaeth. Ac odyna y gwelhei dreic yn ehedec y wrth y gorllewin ac o echtewenedigrwyd y llygeit ygolhehau y wlat. ac y gwelhei wynt ynkenydu ymlad ryued y ryctunt. Ac or diwed. y gwelhei y dreic yn kyrchu yr arth ac oethanawl anadyl yny losci ac yny vwrw yn lloscedic yny dayar. ac ar hynny dyffroi a oruc arthur a datganu y vreidwyt yr gwyrda a oed yny kylych. Ac erchi vdunt ydeogyl. Sef mal ydehoglassant. dywedut mae arthur a arudoccaei y dreic a doeth y wrth y gorllewin. Ar arth a dywedynt a arwydoccaei y ryw aghynuil o gawr a ymladei ac ef. A budugolyaeth y dreic a arwydoccaei y uudugolyaeth a damweinei y arthur. Ac nyt velly y tybygasei arthur bot y dehoglat namyn o achaws y gyuaruot a vei rydaw ac ymherawdyr rufein. A phan oed y wawr dyd trannoeth y golehau y doethant y aber bawerfloi y tir llydaw. Ac yny lle hwnnw tynnu eu pebylleu wrth arhos eu llu ygyt. B.

[523] Ac val yd ydoedynt gwedy diseynu. nachaf kenhadeu or wlat yn menegi y arthur rydyuot kawr enryued y veint o eithauoed yr yspaen. a chribdeilaw elen nith hywel vab emyr llydaw a dwyn y treis y ar

y cheitweit. a mynet ahi hyt y mynyd mihagel. a mynet pobyl y wlat yny hol. Ac ny degrywys vdunt o dim ny erbyn ef ar vor nac ar tir. Os ar vor yd erlynunt wy ef. llenwi eu longeu o doneu ac eu sodi a wnai. os ar y tir ydelhei attaw a ladei. B.

[554] A gwedy dyuot y nos honno mal am yr eil awr kyuodi awnaeth arthur a chei a bedwyr ygyt ac ef achychwyn yn distaw o plith yllu parth ar mynyd yd oed y kawr. a chymeint oed ymdiret arthur yny nerthoed ac na tybygei vot yn reit idaw saethugyaw ylu yr yriw aghyguil hwnnw o gawr. A gwedy eu dyuot yn agos wy a welynt deu vynyd a thanllwyth ar pob vn ac ethryckin or mor rwg y deu vynyt hyt na ellit mynet onyt mewn llog neu yscraf. A gwedy kaffel yscraf onadunt anuon bedwyr awnaethant or blaen y geisaw diheurwyd am y kawr. A phan deuth parth a phen y mynyd lleiaf. nachaf y clywei gweigawl gwynuan adrycaruerth. sef awnaeth ynteu megys pedrusaw ac ofynhau o tebygu mae y kawr aoed yno. Ac eisoes galw y nerthoed attaw. a chyrchu pen y mynyd. a phan deuth yno: nyt oed yno namyn gwrach vawr yn eisted wrth tanllwyth vawr ac yn wylyaw ywch pen bed newyd cladu.

[555] A phan welas hi vedwyr y dywawt dan icuon. awylyaw. o tydi direttaf or dynyon paryw direidi athuc ti yr lle hwn. ny ellir adrawd y saw poen ysyd parawt it. yr awr hon y daw yr yscymunedic kawr. yr hwn aduc elen yn lathrut. yr hon cledeis yr awr hon yny bed newyd hwn. Ac am duc inheu ygyt kans y mamyaeth oedwn hyt yma. A gwedy keisaw kydyaw a hi ac nys gallwys a duw a alwaf inheu ym tystolyaeth rydwyn treis o honaw arnafi ac wrth hynny ffo titheu vyg karedic i ra ofyn ydyuot ef herwyd y genheuawt ef y gydyaw a miui. ath ordiwes titheu yny wed hon athreulaw blodeu dy ieuenctit ath lad. B.

[556] A thruanhau awnaeth wrthi o dynyawl annyan ac adaw kanhorthwy idi yn ebrwyd. A dyuot ar y gytymdeithon aoruc a menegi vdunt ar ywelsei. B.

[557] A chwynyaw aoruc arthur yn vawr varwolyaeth y vorwyn ac erchi y gytymdeithon y adu ef or blaen y ymlad ar kawr. ac o gwelynt bot yn reit idaw dyuot oe ganhorthwyaw. A phan deuthant parth a phen y mynyd wynt awelynt yr aghyguil kawr a bereideu ogig moch coet gathaw yn eu pobi. ac ny hysu yn lletamrwt. B.

[558] A gwedy arganuot o honaw y gwyr y dyuot yn dirybud bryssyaw aoruc y kymryt y ffon. A chymeint oed y ffon ac yd oed anahwd yr deu vilwr dewraf y dyrchauel y wrth y llawr. a dispeilyaw cledyf aoruc arthur a dyrchauel y taryan yny clywit sein y dyrnawt dros wyneb y traetheu. ac yny pylwys clusteu arthur gan y sein. Ac yna ennynu o lit awnaeth arthur a dyrchauel caletuvlych a tharaw dyrnawt mawr yny tal hyny yttoed ywaet yn llithraw ar hyt y wyneb ac yn tywyllu drem y lygeit. Sef awnaeth ynteu mal baed coet kyrchu yr helw ar hyt yr hychwayw kyrchu arthur ar tor y cledyf ac ymauel ac ef am y wregis ae kymell hynny vu y deulin yr llawr ac eissoes kaffel o arthur yn reduawl ethrelithius lithraw y ganthaw a throi cledyf yny kylych hyny kauas oe holl nerthoed gossot ygwarthaf y pen hyt yr ymhenyd allef adodes y kawr a syrthyaw y lawr megys derwen pan syrthei gan wynt. a chwerthin awnaeth arthur ac erchi y vedwyr llad y pen oe dwyn ym plith y llu yw dangos anryuedawt. B.

[559] Ac yna ydywawt arthur narygawssei ef eirioet yr eil gwr gan dewret a hwnnw gwedy ymlad o honaw a ruta kawr ym mynyd eryri yr hwn a daroed idaw rywneuth' pilis o varued brenhined. ac wrth hynny erchi y arth' ehunan vlygyaw y varaf yn llwyr wrth y danuon idaw ef. ac am vot arthur yn penhaf or brenhinoed yr enryded y arthur y gadyssei ef lle baraf arthur yn vchaf ar y pilis. ac oyny blygei arthur y varaf iffyd erchi idaw dyuot y ymlad ac ef. ar vn a orffei o nadunt kymerei varaf y llall ae pilis. ac or ymlad y goruu arthur a dwyn y varyf ae pilis y arnaw ae lad. a gwedy hwnnw ny rygawssei arthur vn gwr kyn gadarnet ar llall. B.

[560] Ac odyna ydoethant a phen y kawr ar y llu. A phan welas pawb y pen moli awnaethant y gwr a rathyassei y wlat o ryw ormes hwnnw. Ac eissoes tristau aoruc hywel am ageu y nith. ac erchi gwneuthur eglwys ywch y bed ac o enw y vorwyn y gelwir y mynyd hwnnw ettwa. bed elen. B.

[561] A gwedy ymgynnullaw pawb y gyt. kyrchu aoruc arthur odyno parth ar dinas aelwit awgustutunum. A gwedy y dyuot y lan auon wen y dywespwyt wrthaw vot yr amherawdyr yn lluestu yn agos. A chymmeint olu ganthaw ac nat oed hawd y neb y arhos. A phebyllyaw awnaeth arthur ar lan yr auon y lle y gallei lunyaethu y lu or bei reit idaw. B.

[562] Ac o dyna yd anuones ar yr amherawdyr bosso o ryt ychen a gereint garannys a gwalchmei vab gwyar. ac erchi idaw vynet o teruyneu ffreinc neu ynteu bot yn barawt y rodi kat ar vaes tarnnoeth y arthur y wybot pwy oreu o ydylyet onadunt ar ffreinc. ac annoc awnaeth ieueinctit llys arthur y walchmai wneuthur ryw wrthgafrwyd yn llys yr ymherawdyr val y bei reit teruyscu yllucod o pop parth ran wannoccet oedynt y gaffel brwydyr a gwyr rufein. B.

[563] A gwedy dyuot y kenhadeu hyt rac bron yr amherawdyr erchi awnaethant idaw adaw teruyneu ffreinc y gan arthur neu vot ymparawt trannoeth y rodi kat ar vaes idaw. ac val yd oed yr amherawdyr yn dywedut nat mynet o honai adylyei namyn y amdiffyn. y dywawt gagius nei yr amherawdyr bot yn vwy bocsach ac orhofter y brytanyeit noc eu gallu. a bot yn hwy y tauodeu noc eu cledyfeu. allidia a oruc gwalchmei am dywedut or gwranc mor trymegedic a hynny wrthaw a diyspeilyaw cledyf a llad y pen. ac yn gyflym kaffel y meirch. ac eu hymlit a oruc gwyr rufein y keissaw dial y gwr arnadunt. Sef awnaeth gereint ymchoelut ar y gwr nessaf a oed yny ordiwes ae lad. A chyghoruynu a oruc bosso amrylad pop vn oe gytemdeithon wr ac ynteu etwa heb lad vn ac ymchoelut awnaeth ynteu ar a gwr nessaf idaw ae vwrw yr llawr ae vrathu yn agheuawl. Sef awnaeth marchell mut ymlit gwalchmei yndi uudyawc ac val ydoed yn ymordiwes ac ef ymchoelut aoruc gwalchmei arnaw a llad y pen a gorchymun idaw ot ymgaffei a gaius yn uffern dwedut bot yn hwy cledyfeu y brytanyeit neu tauodeu. ac ymchoelut aoruc y deu getymdeith a llad y deuwr nessaf udunt. Ac yr bot gwyr rufein oc eu holl dihewyt yny kywarssagu: ny allyssant nac eu llad nac eu dala. B.

[564] Ac val yd oedynt yn dyuot parth a llwyn coet. nacha wemil or brytanyeit yndyuot yn canhorthwy udunt gwedy ryclybot erlit ar y kenhadeu ac yndiannot dodi gawr arnadunt ae kyrch yndeissyuit ae kymell ar ffo. ac odyna y erlit gan dala rei a bwrw ereill. B.

[565] Ac ar hynny y deuth pedrius senedwr a degmil owyr arvawc gantaw yn ganhorthwy y wyr rufein. Ac ar hynny y kymellwyt y brytanyeit ar ffo yr coet y dothoedynt o honaw ac nyt heb wneuthur diruawr collet ywyr rufein. Ac yna y doeth bedwyr vab mut a phumpmil yn porth yr brytanyeit. Sef awnaeth y rei aoed yn dangos y kefneu y ffo. dangos eu dwyuron yn gyflym gan ymchoelut ar y gelynyon. Ac ny didoreu y brytanyeit py damchwein y dagwydynt yndaw gan gaffel clot oc eu milwryaeth doethach oed wyr rufein kans pedrius senedwr oed yny dyscu y wneuthur diruawr gollet or brytanyeit gweitheu gan gyrchu gweitheu gan gilaw.

[566] A phan welas bosso o ryt ychen hynny galw attaw y getymdeithon aoruc a dywedut wrthtunt val hyn. A vnbyn teulu heb ef kans heb wbot yn brenhin y dechreuassam ni yr ymlad hwn reit oed y ninheu ymweglyt rac yn dygwydaw y ran waethaf or ymlad. a chywylydyaw an brenhin. Ac wrth hyuny ymlynnywn vydinoed gwyr rufein y edrych atto duw yn ae llad pedrius ae dala. B.

567 Ac vfydhau awnaethant wrth ygyghor ef ac o gynhebic vilwryaeth kyrchu y lle yd oed pedrius yn dyscu y getymdeithon a dodi aoruc bosso y law dros vygwgyl pedrius ae tynnu gantaw yr llawr. ac ympentyrru awnaeth y brytanyeit yn porth y vosso. Ac yna y bu aerua galet o pop parth. yna y bu y kynhwryf ar lleuein ar gorderi ar ymurathu ar ymsag ar ymdaraw. yna y gwelit pwy oreu adigoneu or aryf yd aruerei o honaw a diodef yn ymanedus awnaeth y brytanyeit ruthur gwyr rufein a dyuot a phedrius yn garcharawr hyt ym perued eu llu. Sef awnaeth gwyr rufein yna gwedy dala eu llywawdyr kymryt eu ffo. Sef awnaeth y brytanyeit y hymlit. a bwrw rei adaly ereill ac eu llad ac ny diwed gwedy gwneuth' diruawr gollet o wyr rufein. ymchoelut awnaeth ar kyrcharoryon hyt eu pebyllyeu gan lewenyd a budugolyaeth. a menegi y arthur argauaroed ac wynt. B.

568 A diolwch awnaeth ynteu hynny vdunt yn vawr gan adaw echwaneccau eu enryded am eu gwassanaeth ny apsen. Athranoeth y rifwyt gwyr wrth anuon y karcharoryon parth a pharis tra veit yn kymryt kyghor ymdanunt. ac yna yd erchut y kadwr iarll kernyw a bedwyr pen trullyat a deu dewysawc o ffreinc. borel a richert eu hebrwng hyt yn diogel rac eu ellwg o wyr rufein. B.

569 A gwedy clybot or amherawdyr hynny sef aoruc ynteu ellwg pympthegmil o wyr aruawc y geisaw gellwg y karcharoryon ac yn tywysogyon arnadunt. vlteis senedwr a chedell vleid. a cwinito caricius euander vrenhin siria. a sertorius vrenhin libia. Ac y kerdwys y nifer hwnnw. hyny kawsant le adas y eu ragot ac ymgudyaw yno ar bore tranoeth kychwyn awnaeth y brytanyeit ar karcharoryon. ac ual y deuthant parth ar lle yd oed y pyt. kyuodi aoruc gwyr rufein ac eu kyrchu ae gwasgaru. B.

570 Ac eisoes kyt kyrchit y brytanyeit yn dirybud ny chat yn diaruot. gosot rei awnaethant wrth eu karcharoryon. a llunyaetheu ereill yn vydinoed wrth ymlad ae gelynyon. ac ymlaen y vydin aoed yn kadw y karcharoryon y dodet borel a bedwyr. Ac ny cheiswys gwyr rufein vn reol namyn pawb yn y gyueir keisaw ellwg eu kyrcharoryon. Ar brytanyeit a gollasei y karcharoryon yn waradwydus pei na delei quuitart tywysawc peitaw a theirmil o wyr aruawc gwedy ry gaffel brat gwyr rufein. A gwedy dyuot canhorthwy yr brytanyeit gorthwynebu y gelynyon yn wrawl. B.

571 Ac yna y dygwydwys borel tewysawc o parth y brytanyeit a llawer y gyt ac ef. Ac eisoes ny allaant wyr rufein namyn kymryt eu ffo parth ae pebylleu. A sef awnaeth y brytanyeit eu hymlit ac eu llad a dala ereill. Ac yna y llas vlteis senedwr. ac euander brenhin syria. A gwedy kaffel or brytanyeit y vudugolyaeth honno. yd anuonasant y karcharoryon hyt ym paris. ac odyna ymchoelut tracheuen gan adaw budugolyaeth y eu brenhin. kans niuer mor uychan a hwnnw a gawsei uudugolyaeth ar y sawl elynyon hynny. B.

572 A gwedy gwelet or amherawdyr meint y gollet ar dechreu y luded tristau aoruc yn vawr a medylyaw peidaw ae darpar am ymlad ac arthur. a mynet or lle hwnnw hyt yn afar y aros porth o newyd attaw. B.

573 A gwedy clybot o arthur hynny. mynet aoruc ynteu hyt nos y eu ragot yr fford y delynt trannoeth. A gwedy y dyuot yno llunyaethu ywyr a oruc trwy naw bydin. a wegwyr a hweugein a wechant a wemil ym pop bydin. a dodi leg o wyr yg gwersyll erbyn pan vei reit wrthunt. *Dalen ar goll yma.* B.

574 Ac y kymyrth brenhin midif y ar y varch ae dwyn ganthaw hyt y lle yd oed gorff bedwyr. Ac yno y vriwaw oll yn drylleu man. B.

575 A gwedy daruot idaw hynny kyrchu awnaeth ym plith y getymdeithon a gyrru grym ac angerd yndunt hyny oed y ofyn yn vawr ar eugelynyon. Ac oe dysc ef ae angerd kymryt grym awnaethant yndunt. A gwneuth' aerua diruawr y meint oe gelynyon. B.

576 Ac o parth gwyr rufein y syrthwys eliffant vrenyn yspaen. A missippia vrenhi babilon a cwuintus mulinus a mar senedwr ac nifer ygyt ac wynt yr hyn ny ellit riff anadunt. B.

577 Ac o parth y brytanyeit y dygwydwys lodgra tewyssawc bolwyn. A hotlinus tewyssawc rotwyn. A chursalam o gaer geint a gwallawc o amwythic. ac uryen o gaer vadwm. B.

578 Ac o achws hynny y gwanhawys y bydinoed yd oedynt yny llywyaw. A chilyaw trach eu keuen hyt ar vydin yd oed hywel vab emyr llydaw a gwalchmei yny llywyaw. Aphan welas y gwyr hynny eu ketymdeithon yn kiliaw ennynnu awnaethant wynteu o lit ac angerd megys flam o tan: a dwyn ruthyr ym plith eu gelynyon. Ac annoc y ketymdeithon a oed yn kiliaw a chymell ar ffo y gwyr aoed yny hymlit gan eu bwrw ae briwyaw ae llad. Ac ny orffowysswys gwalchmei ac wynt hyny doeth ar vydin yr amherawdyr. B.

579 Ac yna y dygwydwys o parth y brytanyeit kynuarch tywysawc tringer a dwy vil ygyt ac ef. B.

580 Ac yna gwedy gwelet o hywel a gwalchmei eu gelynyon nat oed well gwyr noc wynt. Ac aerua gymeint a honno oc eu ketymdeithon: kymryt angerd o newyd yndunt y ymlad a bydin yr amherawdyr o pob tu idi megys llucheit yn llad a gefarfei a hwynt. Ac yn bwrw rei ac yn llad ereill gan annoc eu kedymdeithon. B.

581 Ac ar hynny yd ymgauas gwalchmei ar amherawdyr yr hyn yd oed yny damunaw. Ac nyt oed dim well ynteu gan yr amherawdyr noc ymgaffel a marchawc kystal a gwalchmei y gymell arnaw dangos peth a allei y milwryaeth. kan clywsei nat oed varchawc well no gwalchmei. Ac ymerbyneit awnaethant yn drut ac yn galet ac yn gadarn mal na welat rwg deu vilwr ymlad agyffylyppei idaw. Ac ar hynny eissoes tewhau aoruc gwyr rufein am eu pen mal y bu reit y wyr llydaw gilyaw tracheuen ar arthur ae vedin. B.

582 A phan welas arthur yr aerua ydoedit yny wneuthur oe wyr. kyrchu aoruc y elynyon gan annoc y wyr y ny wed hon. Py beth awnewchwi wyr. Paha y gedwchwi y gwreigawl wyr hyn y genwch. Koffewch awch deuodeu y rei a darestyngawd deg teyrnas arugein wrth vy arglwydiaeth i. Koffewch ych rieni y rei awnaethant wyr rufein yn treth vdunt pan oedynt gadarnach nor awr hon. Koffewch awch boned awch rydit yr hwn y mae yr haner gwyr hyn yn keisaw y dwyn y genwch. nac aet yr vn o nadunt y genwch yn vyw. Nac aet. Ac ar hynny gwascaru eu elynyon ae bwrw ac eu llad aoruc. A pho awneynt wynteu racdaw ef. megis yffoei anneueileit rac llew creulawn newenawc. Ny differei y arueu neb or a gyfarffei ac ef. B.

583 A phan welas y brytanyeit eu brenhin yn ymlad yny wed honno. ymgynnullaw awnaethant wynteu yn eu bydinoed. A medillaw mynet tros wyr rufein. Ac eisoes gwrthwynebu yn wechyr aoruc gwyr rufein vdunt. Ac o dysc lles eu hamherawdir wynteu llauuryaw a thalu aerua elchwyl yr brytanyeit. A chymeint vu yna yr erua o pop parth achyt bei yr awr honno y dechreuit yr ymlad. kans or neillparth yd oed yr arderchawc vrenhin arth' yn kyrchu ac yn llad y clynyon ac yn annoc y wyr ac or parth arall ydoed lle i amherawdyr rufein y dyscu ywyr ynteu ac yny moli. ac ny orffwysei ynteu namyn ym pop koghol yr llu. kyrchu y elynyon ac eu bwrw ae llad. Ac yna o pop parth y bu aruth' aerua anawd y thraethu hyt nat oed awypei pydiw y damwheinei y vudugolyaeth. B.

584 Ac val yd oedynt yn yr ymphust hwnnw nachaf morud tywysaw kaerloyw yr hwn adywespwyt uchot y adaw yn gwesyllt yn kyrchu y elynyon yn deisyuyt. A lleg ordethol ganthaw o wyr aruawc. Ac yn

gyfflym yn eu herchyruynu. Ac yn mynet drostunt. Ac yna y dygwydwys llawer o vilioed onadunt. Ac ym plith y bydinoed y gwant vn a chledyf lles amherawdyr rufein. Ac or dyrnawt hwnnw yndiannot y bu varw. Ac ny dyweit y llyuyr pwy ae lladawd. A chyt bei trwy diruawr lauur a gouit: y brytanyeit a gauas y vudugolyaeth. Ac yna y gwascarwys gwyr rufein yr koetyd ac yr mynyded. ac yr kestyll pawb val y dyccei y tyghetuen. y geisaw nawd ac amdiffyn. Ac eisoes eu hymlit awnaeth y brytanyeit. ac eu daly ac eu llad. ac ereill o nadunt oc eu bod a amrodasant yn garcharoryon. A hynny awnaethpwyt o vrawt dwywawl trugared kanys eu ryeni wynteu yn enwir engirawl awnaethant gynt yntrethawl vdunt y brytanyeit yr hyn yd oedynt wynteu yno heuyt yny geisaw oc eu holl ynni. B.

[585] A gwedy gwastattau hynny. erchi a oruc arth' gwahanu corfforoed y wyr y wrth eu gelynyon. Ac eu kyweiryaw o vrenhinawl arwylyant. Ac eu hanuon yr manachlogoed a vei ansodedic yny gwladoed ydy hanfei pawb o nadunt. Ac yna yd anuonet corff bedwyr hyt ym peitaw. Ac yny vynwent ysyd or parth deheu yr dinas gerllaw y gaer y cladwyt yn enrydedus. A chorff kei aducpwyt hyt yr angiv. Ac y mywn manachloc meudwywyr a oed y mywn forest geirllaw kastell ydcanwm y cladwyt yn anrydedus. Hodlinus tywyssawc rwythin a ducpwyt y dinas tyrnau yn flandrus ac yno y cladwyt ygwyrda ereill lladedigyon ieirill a barwnyeit a marchogyon urdawl a ducpwyt yr manachlogoed nessaf y eu cladu yn anrydedus. Ac ygyt a hynny owarder trugared arthur yd erchis cladu corfforoed eu gelynyon yn llwyr. Ac anuon korff lles amherawdyr y rufein. Ac erchi menegi vdunt na dylyei ef talu teyrnget vduntwy o ynys prydein amgen no honno. B.

[586] Ac yno y trigwys arth' y gayaf hwnnw. Ac y darystygwys teyrnassoed bwrgwin idaw. A phan yttoed yr haf rac wyneb yn dyuot. Ac arth' yn escynnu mynyded mynheu wrth vynet y orescyn rufein. nachaf genhadeu o ynys prydein yn menegi idaw bot medrawt y nei vab y chwaer gwedy rywiscaw coron ynys pdein trwy greulonder a brat. A rygyscu gan wenhwyuar vrenhines gan lygru kyfreith dwywawl y neithoreu. B.

[587] Ac wrth hynny ymchoelut awnaeth arth' tracheuen. Ac ellwg hwel vab embyr llydaw y tagnouedu y gwladoed hynny a llu freinc gantaw. A chychwyn a oruc ynteu a gwyr yr ynyssoed gyt ac ef parth ac ynys prydein. B.

[588] Ac neur daroed yr bradwr yscymun gan vedrawt anuon selinx tewyssawc y saesson hyt yn germania y wawd y nifer mwyaf a allei y gaffell hyt yn ynys pdein yn porth idaw gan rodi vdunt or tu traw y humur oll. Ac ychwanec y hynny yr hyn a rodassei wrtheyrn gwrtheneu y hors a hengist yn swyd geint. A gwedy kadarnhau yr amot hwnnw y rydunt. y doeth y tywyssaw hwnnw ac wythcant llong yn llawn o varchogyon paganyeit aruawc ganthaw. A gwrhau y vedrawt megis y vrenhin. Ac yn achwanec y hynny neur daroed yr yscotteit ar ffichteit ar gwydyl duunaw ac ef yn erbyn arth' y ewythyr. Sef oed erif y llu rwg kristynogyon a phaganyeit petwar vgein mil. B.

[589] Ac o hynny o niuer ganthaw y doeth yn erbyn arthur hyt yg glan y mor y porth hamo. A rodi brwydyr idaw yn dyuot oe llogheu yr tir. A yna y dagwydassant. arawn vab kynuarch vrenhin yr yscotteit. a gwalchmei vab gwyar nei arthur. Ac ar nyt oed hawd eu rifaw y gyt ac wynt. Ac yn lle arawn vab kynuarch y dodet ywein vab vren yn vrenhin. gwyr a uu glotuawr gwedy hynny yn llawer o volyanneu. Ac eissoes kyt bei trw diruawr lafur: arthur ae lu a gauas y tir. A gwedy llad llawer o nadunt. kymell medrawt i lu ar ffo. A chyt bei mwy o lawer niuer medrawt. eissoes trwy dysc gwastat a fenydyawl aruer ar ymladeu doethach oed niuer arth' nor lleill. Ac wrth hynny y bu reit vedrawt kymryt eu ffo ef a lu. Ac yny lle eissoes ymgynnullaw awnaethant ar vedrawt y ffoedigyon o pop man. A chyrchu hyt nos y gaer wynt a chydarnhau y dinas yn eu kylch. B.

[590] A phan doeth y chwedleu hynny ar wenhwyuar vrenhines. Sef awnaeth hitheu anobeithaw yn vawr. a mynet o gaer efrawc hyt yg kaer llion ar wysc. Ac ymroi yn vynaches ym mynachloc Iulius verthyr a oed yno. Ac yno y bu hyt agheu. B.

[591] Ac ym pen y tryded dyd gwedy cladu y lladedigyon kychwyn awnaeth arth' am pen kaer wynt yn flamychedic o lit am rygolli kymeint oe lu a hynny y gan vedrawt ae lu. A phan wybu vedrawt eu bot ygchylch y dinas bydinaw awnaeth ynteu gan annoc y getymdeithon ac eu moli am eu dewred. achyrchu allan y rodi kat ar vaes yw ewythyr. Agwedy dechreu y vrwydyr honno diruawr aerua y las o pop parth. Ac eissoes mwyaf y las parth medrawt Ac or diwed kymell arnaw adaw y maes a ffo yndybryt. Ac ny handyuwys arthur yna goir wrth gladu y cylaned o achaws rydianc y bratwr y ganthaw y sawl weith hynny. Namyn gan diruawr vrys kymryt y hynt parth a chernyw hyny deuth hyt ar auon gamlan y lle yd oed vedrawt yny haros gan vedylyaw o honaw bot yn tegach idaw y lad yana neu ynteu a orffei no ffo yn gywilydus o le y le. a vei hwy no hynny. Ac yd oed gantaw oe lu ettwa chwe gwyr a whechant a thriugeint mil. Ac o hynny y gwnaeth wech bydin a wegwyr a weugein a wechant a wemil ym pop vn o hynny a thywyssogyon ar pop vn o nadunt. Ac or hyn nyt aeth yny bydinoed y gwnaeth lleg ordethol y gyt ac ef ehun. A gwedy daruot idaw llunyaethu y vydinoed yny wed hono adaw awnaeth y pawb o nadunt os ef a orffei medyant mawr eur ac aryant meirch ac enryded a cyuoeth. Ac erchi vdunt o vn vryt ymlad ygyt ac ef. B.

[592] Ac or parth arall gossot awnaet arthur y lu ynteu trwy naw bydin. Athywyssogyon doeth neilltudededic ar pop rei o nadunt. Ac annoc y pawb awnaeth ynteu llad y pyganyeit yscymun a dugassei y bratwr yscymunedic gan vedrawt attaw. y geissyaw digyuoethi y ewythyr. Ac ychwanegu y ymadrawd a oruc yny wed honn. wrth y llu a welwchi racco yn awch erbyn o amryuaylon ynyssoed yd henynt. Ac aghyfrwys ynt y ymlad. Ac wrth hynny ny allant wrthwynebu iwch na seuyll ych erbyn. A gwedy danot vdunt annoc eu llued o pop parth. A hyt pan yttoed y rei buw yn ynuydu gan gwynuan y rei meirw mal yd oed truan ac irat a dolurus yscriuenu. kanys o pop parth y brathei y gwyr. ac y brethit wynteu. Ac y lladei y gwyr. ac y lledit wynteu. B.

[593] Agwedy treulaw llawer or dyd yny wed honno kyrch awnaeth arthur ae vydin megys llew dywal newawc y vydi y gwydat bot y bratwr twyllwr gan vedrawt escymun. Ac agori ffyrd ar gledyfeu udunt. A gwneuthur aerua anrugarawc o nadunt. Ac ar y ruth' honno y llas y bratwr twyllwr gan vedrawt. a llawer o vilioed ygyt ac ef. Ac yr hynny eissoes ny ffoes y rei ereill. Namyn kynhal eu brwydyr galettaf or a vu eirioet yn ynys prydein na chynt na chwedy. hyt pan dygwydassant yr holl tywyssogyon o pop parth ac wynt ac eu bydinoed. Ac o parth medrawt y llas cheldric. ac elaes. ac edbrich. a humys. tywyssogyon y saesson. Gillamwri. a gillaphadric. a gilasor. a gilari or gwydyl. yr yscotteit ar y fichteit oc eu holl niuer hayach alas. Ac o parth arthur y llas etbrict brenhin llychlyn. ac echel brenhin denmarc. a chadwr llemenic. a chasswallawn a llawer o vilioed y gy ac wynt y rwg y brytanyeit a chenedloed ereill. Ac ygyt a hynny heuyt yr arderchawc vrenhin arthur a vrathwyt yn agheuawl. ac y dupwyt hyt yn ynys aualach. y iachau y welioed. Ac ny dyweit y llyfyr ymdanaw a uo hispissach no hynny. Coron teyrnas ynys pdein a gymynnwys arth' y gustenin vab kadwr y gar e hun yn agos. A sef amser oed hwnnw dwy vlyned a deugeint a phump cant gwedy geni mab duw or arglwydes veir vorwyn. y gwr an pnawd ni yr y waet. B.

[594] A gwedy gwneuthur custenin yn vrenhin. y kyuodes y saesson a deu vab vedrawt gantunt y vynnu daly yny erbyn. Ac ny dygrynoes vdunt. Ar neill o veibon medrawt a gauas custenin yn llundein. ar llall ygkaer wynt. Ac y lladawd trwy greulawn agheu elldeu. B.

[595] Ac yn yr amser hwnnw y doeth deinyol sant y orffowis or byt hwn. Ac yna yd etholet theon escob kaer loyw yn archescop yn llundein. Ac ynyr vn amser hwnnw yd aeth dewi y gwynuydedic archescob kaer llion ar wysc or byt hwn y orfowys. Ac y mynyw y mywn manachloc aseiliasei ehun y cladwyt. kans padric adaroganasei y lle hwnnw idaw ef. kyn noe eni. Ac yna yd etholet kynawc escob llan padarn yn archescob yg kaer llion ar wysc yny le ynteu. B.

[596] Ac erlit y saeson awnaeth custenin megys y dywespwyt uchot. ar neill mab y vedrawt a ordiwawd yg kaer wynt gwedy y ryffo hyt yn eglwys amphibalus. Ac yno rac bron yr allawr y lladawd. ar llall a gauas yn llundein y mywn manachloc a oed yno. ac yno rac bron yr allawr y llas. Ac odyna ym pen y tryded vlwydyn y llas custenin y gan gynan wledic. Ac y cladwyt yg hkor y kewri geirllaw uth' pendragon yn emyl salisberi. B.

[597] Ac yn nesaf y gustenin y doet kynan wledic yn vrenhin nei y custenhin. Gwas ieuanc a oed hwnnw enryued y volyant ae dewred ae daeoni. A hwnnw a gauas llywodraeth yr holl ynys. A theilwg oed ynteu y hynny. pei na charei teruysc yn ormod y rwg y kiwtawyr ehun. Ac ewythyr idaw heuyt yr hwn a dylyei wledychu gwedy custenhin a ryuelwys arnaw ac ae delis. Ac ae dodes yg karchar. A gwedy llad y deu vab y kymerth ehun llywodraeth yteyrnas. Ac yn yr eil vlwydyn oe vrenhinyaeth y bu varw. B.

[598] Ac yn nesaf y gynan wledic y doeth gwertheuyr yn vrenhin. Ac yn erbyn hwnnw y kyuodes y saeson. a dwyn eu kenedyl attunt o germania. Ac eisoes gwedy kreulawn ymlad. goruot awnaeth gwertheuyr arnadunt. A chymryt llewodraeth y teyrnas yny law ehun. A phedeir blyned gan hedwch y kynhelis. B.

[599] Ac yn nesaf y hwnnw y doeth maelgwn gwyned yn vrenhin yn ynys pdein oll. Ac ar vu kyn noc ef tekaf gwas oed vaelgwn. kywarsagawdyr a diwereidwr vu ynteu ar lawer o greulonyon vrenhined. kadarn a dewr oed y vilwryaeth. hael oed am rodyon. Ac ar vn geir: eglurach oed no neb pei nat ymsodei ym pechawt sodoma. Ac o achaws hynny y bu gas gan duw ef. Maelgwn eissoes a gauas coron yteyrnas ae llywodraeth. Ac y gyt a hynny: ef a oresgynwys ywhech ynys yn gyntaf brenhin gwedy arth' wrth coron teyrnas ynys pdein. Sef oedynt iwerton. Ac yslont. A gotlont. Ac orc. A llychlyn. A denmarc. A rei hynny trwy greulonyon ymladeu y darystygwys. Ac or diwed yd aeth y mywn eglwys geir llaw y gastell ehun. yn deganhwy. Ac yno y bu varw. B.

[600] Ac yn nessaf y vaelgwn y doeth keredic yn vrenhin Gwr oed hwnnw agarei teruysc ac annundeb yn ormod y rwg y kiwtawyr ehun. Ac wrth hynny y bu gas ynteu gan duw. a chan yteyrnas. A gwedy gwybot or saeson y anwastatrwyd ef. Anuon awnaethant ar gotmwnt vrenhin yr affric hyt yn iwerdon. adothoed a llygher diruawr gantaw y weresсyn iwerdon. B.

[601] Ac yna trwy vrat y saesson y doeth gotmwnt yr alban yr tir. A thrugein llong a chant llong gantaw. yny ran honno yd oedynt y saesson. twyllwyr heb vedyd arnadunt. Ac yn y ran arall yd oed priawt genedyl yr ynys. A theruysc ac annundeb y redunt. Agwedy duunaw y saesson a gotmwnt. ymlad awnaethant. a cheredic vrenhin. Agwedy ffo keredic y erlit o dinas pwy gilyd hyt yn circestir. B.

[602] Ac yna y doeth ymbret nei y lewis vrenhin freinc. A gwrhau y gotmwnt gan ammot y ganhorthwyaw ynteu or gotmwnt hwnnw wrth werescyn teyrnas ffreinc ar tor y ewythyr. kanys herwyd y kadarnhai ef yn aghefreithawl yr list deholissit ef y ymdeith ohonoi. Ac or diwed gwedy kaffel y dinas ae losci: ymlad kat ar vaes awnaethant. A cheredic vrenhin.. Ae gymhell ar ffo trwy hafren hyt yg kymry. Ac ny orffowysswys gotmwnt yna eo dechreuedic irlloned o lad a llosci y dinassoed ar kestyll ar treuyd. hyny daruu idaw dileu holl wyneb y teyrnas hayach or mor y gilyd o yscolheigon a llygyon heb trugared o ilam a chledyf a distrywei hyt y prid. Ar hyn a diaghei or truan aerua honno à ffoynt y ynnyalwch y geissiaw amdiffynt eu heneiteu. B.

[603] Py beth genedyl lesc gywarsagedic o diruawr a gorthrwm. puner pechawt a syberywyt y rei a uydent gynt yn wastat yn sychettoccau gwaet ac annyundeb a teruysc rwg eu kiwtawtwyr e hun. y velly genedyl truan ynys prydein y gwenheist ti. kanys titheu kyn nohyn a gymelleist kynedloed y teyrnassoed pell y wrthyth y darestwg it. Ac weithon megys gwinllan yd wyt titheu gwedy ryymchoelut yn werwed. A cheithwet hyt na elly bellach amdiffyn dy wlat o law dy elynyon. Ac wr hynny truan seberw genedyl. kymer dy penyt. ac ednebyd y geir a dyweit yr arglwyd yn yr yvigil pop ty teyrnas ar hanher ac awahaner yndi ehun. a distrywir ac a diffeithir ar ty a syrth ar y gilyd. Ac wrth hynny kanys ymlad ac annaundeb y giwdawt e hun. A mwc teruysc a chyghoruynt a tywyllywys dy vryt ti. kanys ty syberwyt ti ny mynwys ufydhau y vn brenhin. wrth hynny y gwely titheu y creulonaf paganeit yn distryw dy wlat. Ac yn bwrw y tei ar tor y gilyd. yr hyn a wyl dy etiued ti hyt dyd brawt. kanys wynyt a welant estronyon genedloed yn medu eu tei. ar kestyll ar dinassoed. athref eu tat. o rei ymaent deholedic. y rei onyt duw ae peir ny allant eu kynydu byth tracheuen. B.

[604] Agwedy dauot yr creulawn yscymunedic hwnnw a gwyr yr afric ygyt ac ef anreithaw yr ynys ac llad ae llosci or mor y gilyd megys y dywespwyt vchot i y rodes loegyr yr saesson a vo distryw o nadunt arneit. kanys trwy eu brat wy yr dothoed gotmwnt yr ynys. Ac wrth hynny kilhwys attlybin y brytanyeit y emyleu yr ynys y gymry a chernyw. A gwneuthur mynych ryuel o dyno am pen eu gylynyon. B.

[605] Ac yna gwedy gwelet o teon archescob llundein. ac archescob kaer efrawc yr eglwysseu ar kenueinoed dwywawl ae gwassanaethen gwedy eu distryw hyt y dayar. Sef awnaethant kymryt escyrn y seint a ffo ac wynt yr lleoed diffeithaf a gawssant yn ynyalwch eryri. rac ofyn eu distryw yn gwbyl or yscymun diuedyd saesson y sawl ar erif o escyrn seint e hentadeu aoed gantunt. A rac kolli hynny ot ymrodynt wynteu oc eu bod ymertherolyaeth. Ac ereill onadunt yn llongeu hyt yn llydaw. Ac aruyrder yr holl eglwysseu or a oedynt yny dwy archescobawt llundein a chaer efrawc. A edewit yn diffeith. B.

[606] Ac yna trwy lawer o amser y colles y brytanyeit coron ynys pdein ae theilygtawt. Ar hyn a trigassei gantunt wynteu or ynys nyt y dan vn brenhin creulawn yd oed darystygedic gan vynych ymanreithaw. Ac yr hynny henyt ny chauas y saesson y goron. namyn daly dan dri brenhin aorugant. B.

[607] Ac ynyr amser hwnnw yd anuones Giryoel pap austin y pregethu yr saesson hyt yn ynys prydein. kanys y ran yd oedynt or ynys. yr daroed dileu cristonogyaeth o honei yn gwbyl. A chan y brytanyeit ydoed ffyd gatholic didramgwyd yr yn oes leuterius pap. B.

[608] A gwedy dyuot austin: y kauas seith escobawt yn gyflawn o preladyeit credyfus. a manachlogoed lawer yny rei yd oedynt keueinnoed dywawl yn talu dywawl wassanaeth herwyd eu hurdas y duw. Ac ymplith y manachlogoed hynny yd oed vanachloc arbenic yndinas bangor y maelawr. Ac yny vanachloc honno y dywedit bot yngymmeint erif y chwuent o veneich. a gwedy ranhet yn seith ran. y bydei trychant manach ympop ran heb eu pryoret ae awydwyr. A hynny oll yn ymborth o lauur y dwylaw. Sef oed enw eu habat dunawt. Gwr enryued y ethrylith ae dysc yny keluedodeu. B.

[609] Ac yna y keisswys austin gan yr escob darestwg wrt gytlauuryaw ac ef wrth pregethu yr saesson drwc. Ac yna y dangosses dunawt trwy amryualyon awdurdodeu yr yscryth lan hyt na dylyynt wy pregethu eu fyth wy y eu gelynyon kanya archescob a oed udunt ehunein. A chenedyl y saesson yn ormes arnadunt. Ac wrth hynny na mynhynt na prygethu yr saesson. na chedymdeithas ac wynt na chyffrannu eu ffyd ac wynt mwy noc a chwn. B.

[610] A gwedy gwelet o edelbert brenhin keint y bryttanyeit yn ymwrthot a phregethu yr saesson ygyt ac austin. Sef awnaeth ynteu blyghau. Ac anuon hyt ar edelflet brenhin y gogled. ac ar y brenhined ereill or saesson. y erchi vdunt luydyaw am pen dinas bangor y gyt ac ef. ydial ar dunawt ac ar yr ysgolhegon. A tremygassei awstin. ae pregeth yr saesson. A gwedy kynnullaw diruawr lu o nadunt. dyuot awnaethant ar llu hwnnw gantunt hyt yg kaer lleon y lle ydoed brochuael yscithrawc yn eu herbyn. Ac yno yr dothoedynt y meneich a chredyfwyr o pop manachloc or aoed ynteyrnas y brytanyeit. Ac yn vwyaf oll o dinas bangor y wediaw ar duw gyt ae kenedyl. Ac yna gwedy ymgynnullaw y lluoed o pop parth: dechreu ymlad awnaethant ysaesson ar brytanyeit. Ac or diwed y bu reit y brochuael adaw ymaes ar dinas. Ac eissoes nyt heb wneuth' diruawr aerua oe elynyon. B.

[611] A gwedy kaffel o edelflet y dinas. A gwybot yr achaws yr dothoedynt yno y sawl gredyfwyr hynny ymchoelut y arueu awnaeth yny credyfwyr. Ac ynyr vn dyd hwnnw gan goron mertherolyaeth yd ellygwyt y wlat nef deucanwr a mil o veneich. B.

[612] Ac odyna megys yd oed y creulawn hwnnw ar saesson y gyt ac ef yn kyrchu dinas bangor. Gwedy clybot or brytanyeit y greulonder: ymgynnullaw awnaethant holl tywyssogyon hyt ym mangor. Ac yna y doeth bledrys tewyssawc kernyw. A maredud vrenhin dyuet. katuan vrenhin gwyned. Mab oed hwnnw y iago vab beli vab enyawn vab maelgwn gwyned. A gwedy dechreu y vrwydyr honno: drut a chalet ac aruth vu yr aerua o pop parth. Ac eissoes trwy drugared duw y gorun y brytanyeit. Ac y brawyt edelflet. ac y kymellwyt ar ffo. adiangassei oy lu ef. Ac heuyt y llas hwech a thriugeint adegmil oe wyr. Ac y dygwydwys bledrys tywyssawc kernyw o parth y brytanyeit. B.

[613] A gwedy hynny tywysogyon y brytanyeit a ymkynnullasant hyt ygkaer lleon. ac o kytgyghor yna yd urdwyt katuan vab iago yn vrenhin arnadunt. Ac yna wedy gwiscaw o honaw coron y teyrnas y kymellawd edelflet trwy humyr. Yna yr ymkynnullws yr holl vrytanyeit yn borth i katuan. a chyrchu trwy humyr gan erlit edelflet. Gwedy gwelet o edelflet hynny. sef aoruc kynnull attaw yr holl saeson. a bydinaw yn erbyn y brytanyeit. B.

[614] A gwedy bot y deu lu yn barawt y gyrchu y gilyd. sef y tagnouedwyt rwg katuan ac edelflet kan kytymdeithon. kan rodi y parth traw y humyr y edelflet. ac adaw lloegyr a chernyw a chymru yn medyant katuan ygyt a choron y deyrnas. B.

[615] A thra yttoedynt evelly yn kynhal tagnoued a chytymdeithas. sef awnaeth edelflet ymwrthawt ae wraic briawt. ac o herwyd y kas oed ganthaw wrthi y dehol aoruc oc y kyuoeth. Ac yna kan vot eisoes yn veichawc. sef y kyrchawd y wreic hyt at katuan y geisaw porth mal y gallei odyna kymodi ac edelflet. ac ny thygwys hynny idi. sef awnaeth hitheu yna trigyaw yn llys katuan. hyt pan eskorei oc y beichogi. B.

[616] Ac yn yr amser hwnnw y ganet heuyt mab y katuan oc ei vrenhines. Ac yna y rodet y meibon hynny ar vaeth ygyt yn ol y deuawt y dylyei brenhinawl etived. Sef oed enweu y meibon. nyt amgen mab katvan aelwyt katwallawn. ac etwin oed enw y llall. Ac yna pan yttoedynt weisyon ieueinc y rodet wynt ar selyf brenin llydaw. er dyscu udunt. mal y dyscynt yno moesau ac arueu. B.

[617] A selyf a aruolles y meibion yn llawen ac yn anrydedus. ac ympen yspeit o amser y tyfawd gan selyf y meint kariat udunt hyt nat oed nep yn y ryw gymdeithas ac ef. ar gweisyon hynny ympob achaws a daghosynt y dewred ac eu kampeu molyannus hyt y kerdws eu klot tros y gwladoed. B.

[618] A gwedy bot euelly talym o amser y buant varw katuan ac edelflet. yna y deuthant katwallawn ac etwin trach y keven y ynys prydein. ac y kymyrth pob un onadunt kyuoeth y tat. kan kynhal y kytymdeithas y rygthynt mal kynt. A gwedy llithraw yspeit dwy ulyned heibaw erchi aoruc etwin kanhat ygan katwallawn y wiscaw koron ohonaw y tu hwnt y hwmyr. ac i gynhal gwyluaeu yn enryded y seint. mal y gnotaei katwallawn or parth arall. B.

[619] Ac yna oet dyd awnaethant y datleu hynny wrth auon dulas. sef y doethant yno doethion o pob parth en holi yr hyn a dyleyt ygkylch yr achaws hwnnw. ac yd oed katwallawn or neill tu yr auon yn gorwed ae ben ar lin breint hir y nei. A phan yttoedynt yuelly wylaw aoruc breint hir. ac y dygwydwys y dagreu ar wyneb katwallawn. Ac yna kan tebygu bot gwlaw yn bwrw arnaw dyrchauael y olwc aoruc. a gwelet breint hir yn wylaw. sef y gofynwys y brenhin achosyon y trystyt hwnnw. B.

[620] Yna yr attebawd breint hir mawr yw deunyd wylaw imi ac y kenedyl y brytanyeit oll rac llaw. kanys hynny aoed ragor teilyctawt udunt wy ac y titheu arodeisti. a hyn aoed ragor breint ac urdas er oes maelgwn gwyned. kans er hynny ny bu un tywyssawc y genedyl y brytanyeit yn gallu gwrthwynebu gormes y saesson. nac aallei y kadw ar eu hen teilygtawt. ar awr hon yw ymgynhal yr anryded dy vot ti yn godef kolli a lleihau hynny. kan vot yr estrawn genedyl honno yn wastat trwy gnotaedic twyll a brat yn y distrywiaw. ac yr awrhon yn vwyaf oll kan geissaw arueru o wiscaw coron brenhiniaeth yn yr ynys hon. A phei keffynt hynny mwy o ayberwyt a gymerynt o vot udunt gynhal urdas brenhinawl. ac er gorchuygu a distrywiaw y brytanyeit y gwahodynt ereill oc eu kenedyl attadunt trwy y rei y gellynt wneuthur hynny. Ac heuyt anyanawl udunt yw twyll a brat. y rei ny wnaethant erioet kadw amot wrth neb. Ac wrth hynny reitiach yw eu gwrthlad ae darestwg noc agwanegu eu anryded ac eu medyant. kanys ymdangossawd eu gnotaedic dwyll. pan ladassan yn kenedyl yn amser gwrtheyrn. ac wynt aorugant vrat emrys wledic. wynt a vredychassant arthur heuyt trwy dyunaw a medrawt. a chan dwyn gotmwnt yma wynt a deholassant keredic ac a dugant y kyuoeth ygan y dylyedogyon. B.

[621] A gwedy clybot o Gatwallawn yr ymadrodyon hynny edivar vu ganthaw yr amot awnaethei. ac anuon aoruc at etwin y venegi bot yr hyn a geissyei yn erbyn kyghor ei wyrda. panyw deuawt eu hentadeu ydoed nat iawn dal yr ynys tan dwy goron. Ac yna blyghau aoruc etwin ac ymadaw kan vynet parth ar alban. a dywedyt y gwiscei ef coron er gwaethaf i gatwallawn. Ac yd anuones katwallawn a menegi idaw o gwiscei ef coron ynys prydein y lladei enteu y ben ydan y goron. B.

[622] A gwedy hynny kynnullaw y llu mwyaf a allei aoruc pob un. ac ymkyuaruot parth traw y humyr. a brwydraw yn dost aorugant. Ac etwin a gymhellawd gatwallawn ar ffo hyt yn iwerdon. ac etwin a oresgynawd gyuoeth katwallawn gan loski y dinassoed a llad y kiwdawtwyr ac anreithiaw y gwladoed. Ac val yd oed etwin evelly yd oed katwallawn yn keissaw ymchwelyt yw gyuoeth tracheuyn. ac nys gallei. kanys pa le bynhac y keissiei dyuot yr tir yna y bydei etwin yn barawt yw erbyn. kans dothoed dewin goreu or byt attaw or yspaen. sef oed enw hwnnw pellytus. A hwnnw a adwanei ar redec y ser. Ac ar trwyf escyll yr adar ydamweineu adelhei rac llaw. A hynny a vanagei ynteu i etwin. Ac wrth hynny ny allei katwallawn dyuot ynys pdein. A gwedy gwybot hynny o gatwallawn annobeithaw a oruc o

tebygu na chaffei byd dyuot y ynys prydein. Ac or diwed y kauas yny kyghor mynet hyt yn llydaw megys yw gallei dyuot yw gyuoeth tracheuen. B.

623 A throssi awnaethant eu hwyleu parth a llydaw. Ac ynhynny kyuodi gwynt kythrawl gorthwyneb yn eu herbyn. Ac yn deissyuyt gwascaru eu llongeu hyt nat oed vn y gyt ae gilyd. A diruawr ofyn a dygyrchwys llywyd llog y brenhin. Ac ymadaw ar llyw aoruc. Ac yuelly y buant ar nawd yn gyhyt ar nos mal y dydoei y tonneu wynt. Ac yna pan doeth y dyd trannoeth y doethant y ynys vechan. Sef oed y henw garnarrei. A gwedy kaffel y tir onadunt. kleuychu aoruc ybrenhin o wrthrwm heint rwg dolur colli y wyr ar tymhestel ar mordwy ar dyfroed ar alltuded aoed aruaw ynteu ehun. A chyntrymet vu y heint ac na lewaa na bwyt na diawt teir nos a thri dieu. ar petwered dyd y doeth arnaw blys kik hely. B.

624 A gwedy menegi hynny o honaw y vreint hir. kymryt bwa a saetheu aoruc breint. a mynet y grwydraw yr ynys y edrych adamweineu idaw caffel y vlys yw arglwyd. A gwedy na chauas dim goneileint a gymyrth yndaw yn vawr rac ofyn dyuot agheu yw arglwyd am na chaffei yr hyn yd oed yny whenychu. A chany wydat peth awnaei: aruer aoruc o geluydyt nyr clywsei eirioet nyt amgen no thrychu dryll o gehyr y vordwyt ae dodi ar ver: ae ardymheru ynda. Ae rodi ar gatwallawn: ae yssu a oruc katwallawn gan tybygu y mae kik eneueil gwyllt oed. a ryuedu awnaeth na rygassei eirioet y ryw chweith a blas y gwyssei ar y golwyth hwnnw: Ac ar hynny eissoes y dechreuis grymhau y annyan. ac ar pen y tryded dyd yd oed yn iach. Ac yna dechreu awnaethant kyweiryaw eu llogheu. A drychauel hwyleu. Achymryt eu hynt. Ac y gaer gidalet y doethant y tir llydaw. ac odyna yd aethant hyt ar selyf vrenhin llydaw. Ae erbyneit aoruc selyf idaw yn anrydedus. B.

625 A gwedy gwybot o honaw yr achaws yr dothoedynt yno adaw nerth awnaeth udunt: Adywedut megys hyn. Dolurus yw genyfui. etholedigyon gwyr ieueinc bot gwlat anhentadeu ni gwedy ygwerescyn o estrawn genedil. A chwitheu gwedy awch dehol yn waradwydus. Ac ereill oc awch kenedyl yn gywarsanedic ydanadunt. Aphob kenedyl yn awch kylch yn amdiffyn eu gwlat yn wrawl. A ryued yw bot gwlat gystal ac ynys pdein na ellwch chwitheu amdiffyn hi rac kenedyl satanas sef yw rei hynny y saesson. Pan yttoed awch hentadeu chwi a gwyr y wlat hon yny gwarchadw hi: nyt oed vwy ganthunt nor dim lleihaf y hamdiffyn hi rac kenedyl saesson. A rac pop kenedyl arall. ac wynt a vydynt arglwydi ar yr holl enyssoed yn eu kylch. Ac nac ny bu vn genedyl a allei wrthwynebu vdunt eithyr gwyr rufein. wynt a gymhellwyt eissoes ohonei yn waradwydus gwedy llad eu tywyssogyon yn llwyr. Ac eissoes yr pan duc vaxen wledic a chynan meriadawc ydylyedogyon ohonei hyt ywlat hon ny bu yno yr hynny hayach a allei kenydu eu breint idi tracheuen. Achyt ry ffei heuyt rei agynydei vdunt eu breint o peth: ereill a vei wannach a gollei hynny eilweith. Ac wrth hynny dolur yw genyfi awch gwander chwi. kanys vn genedyl ym. Ac vn yn gelwir megys chwitheu brytanyeit. Ar wlat hon y mayn yn amdiffyn eu gwlat rac pawb oe gelynyon yn wrawl. B.

626 A gwedy darnot y selyf dywedut yr ymadrodyon hyn: megys kywylydyaw a oruc katwallawn. ac atteb yr brenhin val hyn. Arglwyd vrenhin heb ef duw attalho itti adaw nerth ymi y geissaw vy kyguoeth tracheuen. A minheu ae diochaf yr hyn a dywedy titheu bot yn ryued genhyt lescet kenedyl ynys prydein: hyt na allassant kynhal breint eu hen tadeu. gwedy dyuot y brytanyeit hyt y wlat hon. Nyt reit ryuedu hynny herwyd y gnelir imi. Sef achaws yw. dylyedogyon yr holl teyrnas a duc a tywyssogyon hyny ganthunt hyt ywlat hon. Ar anlyedogyon a trigassant yno. A phan gauas yr anlyedogyon medyant y gwyr bonhedic: ymdyrchauel awnaethant wynteu yg ham ryuyg. a cham syberwyt yn vwy noc y kanhadei dylyet. Ac o ormodyon kyuoeth a drych y llwy a golut. ymrodi y odinab megys y dyweit gildas. hyt nat mwy y pechawt hwn: no phop pechawt or a uyd ymplith ykynedloed. Ac yn penhaf peth a distryw yr holl da: Cassau gwiroed. A charu kelwyd. A thalu drwc dros da. Gredeu enwired dros hegarwch. Ac y uelly y gwneynt pop peth yn wrthwyneb yr wirioned. Ac ny cheissynt dim gan vedyc yr holl nerthoed. Ac ygyt a hynny: hyt nat mwy y gwnaei y dynyon y byt hynny: namyn meneich ar eglwyswyr a chenuein duw ehun. Ac wrth hynny nyt ryued bot yn gas duw y genedyl y wnelei y ryw distryw weithredoed hynny: Ac or achaws hwnnw colli o nadunt tref eu tat ac eu gwlat: kanys a oed yn mynnu dwyn estrawn genedyl y dial arnadunt eu pechodeu. Ac eissoes teilwn oed pei duw ae caahattaei keissaw kenydu eu breint ac eu teilygdawt. Ac y vwrw gwaradwydyt y wrth an priawt genedyl mal na ellit dywedut an bot yn tywyssogyon llesc: na gwallus. mal na lauuryem y geissaw bwrw gwradwydyt y wrthym. Ac yn achwanec y hynny. hyach ehofnach yd archaf y dy canhorthwy ti. noc vn arall kanys vn gorhentat a vu yn andeu. Ac velly dwyn y hach awnaeth yn dec. B.

627 Ac yno y trigwys katwallawn y gayaf hwnnw y gyt a selyf vrenhi llydaw. Ac anvon breint hir i enys prydein aorugant o gytgyghor. y arvaethu kaffael or gattei duw idaw kaffael y dewin. yr ydoed yn lludias Katwallawn y dir enys prydein. Ac yna y dothoed breint hir y porth hamwnt yr tir. ac ymwisgaw aoruc megys y reidussyon. ac yn y dull hwnnw ymdeithaw parth a chaer efrawc lle yd oed y dewin yn llys etwin. Sef y kauas yny kyghor gwneuthur bagyl hayarn a blaen tra llym idei ygyt ar hon yr aruaethei llad y dewin or ryghei bod duw idaw ymkyuaruot ac ef. A gwedy dyuot yr gaer kytymdeithoccau ar reidussyon aoruc breint y rei o herwyd deuawt a eruerynt derbyn eluseni yn porth llys y brenhin. B.

628 A phan oed breint hir yn y lle hwnnw sef y gwelei ei chwaer a llestyr ganthi yn dyuot allan or llys wrth keissaw dwfyr yr vrenhines. A honno a rydygassei etwin o gaer wyrangon wrth ymchoelut o dyhol katwallawn. A phan welas breint hir y vorwyn yn dyuot yn agaws attaw. wylaw aoruc. a galw arnei yn isel. Sef awnaeth hitheu derchauael y golwc gan pedrussaw. A gwedy dyuot attaw ac atnabot y brawt ergrynedigyaeth a gymyrth rac ouyn y damwein oe atnabot gan y elynyon ae daly. A gwedy ymgaredigaw ar vyrder trwy amrauael ymadrawd hi uenegys idaw ausawd y llys. ac a dangosses y dewin idaw. kanys ef a dothoed yn ol y aruer ym plith y reidussyon wrth rannu kardawt udunt.

629 A gwedy adnabot y dewin. sef a erchis breint oy chwaer. kaffael fford os gallei y dyuot yn diarwybot or llys attaw hyt yn agaws y hen temhyl aoed gerllaw lle y gwnelhei llechu yn y haraws. Ac yna yd aeth breint ygyt ar toryf o reidussyon hyt y lle yd oed y dewin yn eu ryoli. A phan rodes y tyghetuen idaw fford y gyflauan. sef y gwant y dewin adan y vron. ac ar dyrnawt hwnnw y lladawd. Ac yn deissyuyt bwrw y vagyl ymdeith awnaeth breint a mynet ymplith yr aghanogyon ereill hep nep yn y dybyaw. ac yn diannot kyrchu y lechua. B.

630 A phan ydoed breint euelly. y chwaer ynteu gwedy bot trwy y nos yn mynnu o pop ystryw kaffael fford y dyuot allan or llys ac eissoes nis gallei hynny. kan y kyffraw ar braw aoed yn y llys o achaws agheu y dewin. gossot gwilwyr aoruc etwin ar y gaer. Ac yna pan atnabu breint hynny ymadael aoruc ar lle hono. a mynet parth a chaer excestyr. B.

631 A gwedy dyuot yno dyuynnu attaw y brytanyeit aoruc breint. a dywedut udunt y gyflauan a rywnaethei. yna kadarnhau y gaer honno awnaeth. a gorchymyn y holl wyrda yr ynys ymgeisyaw y gadw y dinassoed ar kestyll. ac heuyt anuon kenhadeu hyt ar katwallawn y erchi idaw ymchwelyt yn diannot a phorth ygan selyf brenhin llydaw y eu kanhorthwyaw. B.

632 A gwedy mynet y chwedyl hwnnw yn hyspys tros ynys prydein. sef aoruc peanda brenhin keint kynnullaw y llu mwyhaf a allei or saesson a mynet hyt yg kaer excestyr a gwarchae y dinas a dechreu ymlad a breint yno. B.

633 Ac ual yd oed y saesson euelly yn gwarchae breint. nachaf katwallawn a degmil o wyr aruawc ygyt ac ef yn dyuot yn ganhorthwy o lydaw. ac yn diskynnu yr tir oc eu llogheu. ac yn gyflym yn kyrchu parth ar gaer honno. A phan oed yn agaws yr lle rannu y varchogyon yn pedeir bydin aoruc. ac yn diannot kyrchu y elynyon. ac eu kymhell ar ffo gan llad niuer mawr onadunt a daly peanda. A phan welas y gwr hwnnw nat oed ffordd idaw gaffael rydyt gwrhau aoruc y katwallawn. gan rodi gwystlon ac adaw mynet ygyt ac ef yn erbyn y saesson. B.

634 A gwedy kaffael y uudugolyaeth honno galw attaw y holl wyra awnaeth katwallawn. y rei a vuessynt waskaredigyon er talym o amser. a mynet yn diannot y ryuelu ar etwin parth ar gogled. B.

635 A phan gicleu etwin hynny kynnullaw attaw aoruc holl vrenhined y saesson. a dyuot yn erbyn Katwallawn hyt y lle aelwir hetfeld. Ac yno eissoes wedy dechreu y vrwydyr y llas etwin ae holl lu hacach. Ac ygyt ac ef y dygwydws offryt y vab a gotbott brenhin orc. a daethei yn kanhorthwy idaw. B.

636 A gwedy y vudugolyaeth honno kyrch trwy wladoed y saesson awnaeth kalwallawn gan y vath kreulonder hyt na adawei nep yn vyw. namyn lle gwelhei wreic veichiawc. ac gledyf yd ellygei y beichogi hyt y llawr. ac evelly nyt arbettei na gwr na gwreic. na hen nac ieueinc. kan wneuthur kyflauian druenus o kenedyl y saesson. kan aruaethu eu diua yn hollawl or ynys hon. B.

637 Ac yn kerdet racdaw evelly or diwed brwydyr a uu idaw ac offryc. y gwr aoed yn dywyssawc ar ol etwin. a hwnnw a las ygyt a deu nei idaw. y rei a oedunt y lywodraethu gwedy ef. Yna y daeth osswallt yn vrenhin yn y gogled. ac yn erbyn hwnnw y daeth katwallawn ac ae kymhellawd ar ffo o wlat pwy gilyd hyt y mur a adeilawd seuerws amherawdyr y rwg lloegyr ar alban. Ac yna anuon peanda aoruc ygyt a ran vwyhaf or llu hyt yn y lle hwnnw y ryuelu arnaw. B.

638 A phan ydoed peanda yn gwarchae osswallt yn y lle aelwir yn saesnec heuefelt. ac yn gymraec y maes nevawl. sef awnaeth osswallt yna derchauael croes yr arglwyd. kan erchi ar y gytuarchogyon oc eu llawn llef dywedyt plygwn an glinyeu a gwedywn yr holl kyuoethawc duw yn rydhau o dwylaw y brytanyeit dywal. ac ygan vr yscymun tywyssawc peanda. kanys ef a wyr an bot ni ar yr iawn yn ymlad tros yn kenedyl. Ac yna pawb awnaethant yn ol y orchymyn. a phan dorres y wawr y dyd trannoeth kyrchu eu gelynyon aorugant. a thrwy evyrllit eu ffyd kaffael y uudugolyaeth. B.

639 A gwedi clybot hynny o gatwallawn blyghau aoruc a chynnullaw llu mawr er cyrchu osswallt. ac yna ymlad ac ef aoruc peanda yny lle aelwir bwrne ac y llas. B.

640 A gwedy llad oswallt ar ran vwyhaf oc y lu oswi aelwyn y vrawt a uu yn gwledychu ar y ol ef. A hwnnw a gauas tagnoued gan katwallawn trwy wrhau idaw. a thalu amylder o eur ac aryant. B.

641 Ac yna yn diannot alflut mab y oswi ac odwalt y nei vab brawt a gyvodassant yn y erbyn. a chan ny dygrynnoes. udunt hynny wynt a ffoassant ar peanda ac erchi kaffael porth ganthaw y oreskyn kyuoeth oswi aelwyn. B.

642 A chan nat allei peanda torri y tagnoued awnaethei katwallawn tros y gwladoed annot hynny aoruc hyt pan kaffei kanhiat gan katwallawn y vrwydraw arnaw. Ac yna tra ydoed katwallawn yn daly llys ar wylyeu y sulgwyn yn llundein. ac yn gwiscaw coron y deyrnas. sef yd oed yno holl tywyssogyon y saesson eithr osswi aelwyn yn unic. ygyt a holl tywysogyon y brytanyeit heuyt. Ac yna y daeth peanda ar katwallawn y ouyn py achaws na dathoed oswi yr llys. ar holl tywysogyon wedy dyuot namyn ef ehun. A chatwallawn a dywawt mae claf oed. Nac ef arglwyd heb ef nyt or achaws hwnnw na doeth. namyn anuon kenhadeu awnaeth hyt yn germania yscymun y wawd saesson attaw y geisaw dial y vrat arnafi. athi. ac ygyt a hynny heb ef y mae yn torri tagneued ynys prydein. gan dihol y deu nyeint alflut ac odwalt. Ac erchi canhat awnaeth peanda oe lad noe diho o teruyneu ynys prydein. B.

643 Ac yna gwedy galw o gatwallawn y gyghorwyr attaw. a medylyaw peth awnellhit am hynny. ym plith hynny y rodes mareded vrenhin dyuet y kyghor hwn. Arglwyd heb ef. kanys holl genedyl saeson a derpereisti eu dehol yn llwyr or ynys hon. pa achaws na thrigeist titheu ar y medwl hwnnw kanys ny dylyit kadw ffyd wrth y neb nys catwo. Ac wrth hynny dyro canha y peanda y ryuelu ac wynt. ac attuyd ef a lad pop rei o nadunt y gilyd. yr saeson. ac y uelly y dilhehir or ynys hon. B.

644 Ac ar hynny y rodes katwallawn ganhyat y peanda ryuelu ar oswi. A gwedy kynnullaw llu mawr. kychwyn a oruc peanda trwy humyr ar torr oswi. A ryuelu yn wychyr a oruc arnaw gan anreithaw y wlat. B.

645 A chynnic aoruc oswi lawer o rodyon o eur ac aryant y peanda yr peidaw ae ryuelu. A gwedy na mynnei peanda dim ganthaw. Sef awnaeth kynnogni duw ac ef. A chyn bei llei y niuer noc un peanda y rodi kat ar vaes idaw ar lan yr auon a elwit guniued. Ac y llas peanda ar y deguet arugeint o tywysogyon y saeson : a ryuychan oll. A gwedy llad peanda y rodes katwallawn y kyuoeth y ulfrit y vab. Ac y kymyrth ulfrit tywysogyon mers y ryuelu yn erbyn oswi. Ac eissoes or diwed y kymodi awnaeth katwallawn udunt. B.

646 Ac wyth mlyned a deugeint gwedy goruot katwallawn y bu yn gwledychu. Ac ym pen yr wyth mlyned ar deugeint yd aeth or byt hwn y pymthecuet dyd o vis tachwed. ae gorff a gymyrth y brytanyeit ac ae hirasant ac ireideu gwyrthuawr. Ac y dodassant y mywn delw edyf gwedy dineu ar y lun ehun. o enryued geluydyt. Ac y gossodassant y delw ar varch uch pen y porth tu ar gorllewein yn llundein yr aruthyr yr saeson. Ac ydanaw y gnaethpwyt eglwys o enw seint marthin. ac effeireit yganu rac y eneit. Ar gwr hwnnw a vu y marchawc evydawl ar darwgan myrdyn. B.

647 A gwedy daruot hynny y kymyrth katwalawdyr vendigeit y vab ynteu lewodraeth y teyrnas y law. B.

648 Mam katwalawdyr ynteu a oed chwaer untat a pheanda. ae mam hitheu oed wreic vonhedic o dylyedogyon ergig ac euas. A honno a gymyrth katwallawn yn wreic idaw gwedy y gymot a pheanda. B.

649 A gwedy llywaw o katwalawdyr y teyrnas trwy yspeit deudec mlyned yn wrawl trwy hedwch. yna y cleuychwys o ryw nychtawt. Ac or achaws hwnnw kyuodi teruysc y rwg y brytanyeit ehunein. ar wlat ffrwythlawn a distrywyssant oc eu hyscymun teruysc. ac ygyt a hynny heuyt ryw direidi arall adoeth arnadunt ydial o duw arnadunt eu pychodeu. Ac sef oed hynny diruawr newyn a thymhestyl a marwolyaeth ym pop gwlat dros wyneb ynys prydein yn gyffredin hyt na cheffit na bwyt na diawt namyn ychydic y neb a allei hely yny diffeithwch. ar varwolyaeth aoed kymeint ac na allei y rei bu gladu y rei meirw. Ac wrth hynny sef awneynt mynet y wladoed ereill or byt yny cylch. Ac adaw eu gwlat eu hun yn diffeith gan wylouein yny wed hon. Arglwyd holl gyuoethawc nef a dayar ti an rodeist ni megys deueit yn vwyt bleideu. ac an gascereist ym plith alltudyon. Ac yn y kyweirywys katwalawdyr ehun lyghes. Ac y kychwynnwys parth a llydaw gan achwanegu y ryw gwynuan hon. Gwae ni pechaduryeit am an pechodeu. trwy y rei y codassam duw. kany ny chymarassam penyt tra yttoedem yn kaffel yspeit y

penydyaw. wrth hynny hediw y mae duw yn dial arnam ninheu hynny. ac yn dyrru oc an ganedic dayar. kany ny allwys un genedyl or byt a dyrru. tra yttoed duw ygyt a ni. ac wrth na allwys neb an dihol. y mae ynteu ehun yn dihol ni o tref an tat o achaws an pechodeu. Ac wrth hynny ymchwelwch wyr rufein. ymchwelynt yr yscotteit ar ffichteit. ymchoelent y bratwyr twyllwyr yscymun saesson. llyma ynys prydein yn difeith uduntwy. Gwedy y difeithaw a var duw. yr hon ny allassant wy oc eu holl gedernyt y difeithaw. B.

[650] A chan y ryw gwynuan honno y doeth katwalawdyr vendigeit a hynny o gynnulleitva ygyt ac ef hyt yn llydaw. A chyrchu awnaethant hyt ar alan brenhin llydaw: nei oed hwnnw y selyf. Ac ynteu ae herbynwys ef yn anrededus. mal yd oed deilwg aruoll brenhin. B.

[651] Ac yna yd edewit ynys prydein yn diffeith oe phriawt kiwtawtwyr eithyr echydic a diaghyssei y diffeithwch kymry twy ymborth ar hely ar dechreu y uall newyn honno. Ac aruthyr y uall honno ar y brytanyeit ar saesson trwy yspeit un ulwydyn ardec. Ar ydiagassei or saesson eissioes a anuonassant ar eu kenedyl hyt yn germania y venegi udunt bot ynys prydein yn diffeith heb neb yn y chyuanhedu oe phriodoryon. A manegi udunt bot yn hawd y chyunanhedu ae gorescyn. B.

[652] A phan gicleu y saesson hynny ymgynnullaw awnaethant lluossogrwyd ac amylder o niuer gwyr a gwraged. a dyuot yr gogled yr tir. A dechreu kyuanhedu y gwladoed diffeit awnaethant or alban hyt yg kernyw. kanyt oed neb ae lludyei nac ae gwarauunei udunt. Ac or amser hwnnw allan y colles y brytanyeit llywodraeth ynys prydein. ac y dechreuis y saesson y chyuanhedu ae gwledychu. B.

[653] Ac yna ym pen yspeit gwedy ymgadarnhau or yscymun pobyl honno yn ynys prydein yd archoed katwalawdyr ganhorthwy ygan alan vrenhin llydaw y dyuot y orescyn yr ynys iarnadunt tracheuyn. Ac yna y daeth llef ygan agel or nef at gatwalawdyr y orchymyn nat elhei ynteu y ynys prydein kan na mynhei duw yr brytanyeit gaffel y llywodraeth hyt na chyflawnyt yr amser a daroganawd merdyn. Yna y peris yr agel i gatwalawdyr mynet y rufein ar sergiws. ac yna y gymeryt penyt mal y kaffei y riuaw ymplith y gwynuydedigyon seint. a trwy euyrllit y ffyd ef y delhei llywodraeth ynys prydein tracheuyn yr brytanyeit. gwedy idaw ef eilenwi yr amser tyghetuenawl. a chaffel dwyn y escyrn ef o rufein y enys prydein. pan geffir dangaws ereill escyrn y seint. y rei a gudyessit rac ouyn y paganyeit yscymun. B.

[654] Yna y daeth katwalawdyr at alan vrenhin llydaw a manegi idaw y geireu adywedassei yr agel wrthaw. A phan glywes alan hynny. sef y kymyrth ef llyfreu daroganeu myrdyn. a doroganeu yr eryr o gaer septwn. a chanyaden sibli. a chwilaw y daroganau hynny oll aoruc er kaffel gwybot a oedunt yn un ar geireu adywedassei yr agel. yna y gweles alan bot y sawl daroganeu hynny ac ymadrodyon yr agel ygyt yn wir. sef yr annoges ynteu i gatwalawdyr y rufein. Ac anuon iuor y vab ac ynyr y nei aoruc alan y ynys prydein y geissaw y chynhal ar y hen deilygtawt o waet a gwir dylyet y brytanyeit. B.

[655] Ac yd aeth katwalawdyr y rufein. ac o karyat duw ef a ymwrthodes a phob peth bydawl. A sergiws bap ae kadarnhaws ef ym plith y seinteu gleinyon. yna y cleuychawd katwalawdyr o orthrwm heint. ac y bu varwłyn y deudecuet dyd o uei yn yr wythuet vlwydyn a phedwar ugeint a seith kant gwedy genu iessu grist or arglwydes veir.—*Mae y diwedd ar goll.* B.

[656] *Yr hyn a ganlyn, tan y nod yma yw diweddiad llyvyr* Geoffrey o Vynwy *o Vrut y Breninodd, yr hwn sydd ym nghadw dan arwydd*—Cleopatra B. V. *yn y* British Museum *yn Llundain.*—A phan aeth catwaladyr y ruvein o lydaw: y doeth Iuor vab alan ac ynyr ynei allynges ganthunt hyt yn ynys brydein y ryvelu ar saesson: ac ny dygrynhoes ydunt dim. Canyt adaussei ball a newyn dim haeach or brutanyeit yn vew: ar ıei hynny ar daroed ev dehol yran kamber or ynys. Ac ny elwyt wynt yn vryttannyeit yna: namyn yn gymre. Ac o hynny allan y goruc y saesson yn diveryauc: kynnal tagnened ryngthunt ev hvneyn. A diwyll ytiroed goreu: ac adeiliat kestill. achaeroed. adinessyd. Ac val hynny y byriassant medyant y bruttannyeit iarnadunt: ac o hynny allann y colles y kymry ev breint. ac y bu dir ydunt godef saesson yn bennaf arnadunt. Ar tywyssogeon auuant ar gymre gwedy hyny pob eilwers: aorchymyneis ynnev y garadauc o lan garban. vyng kyt oesswr y oed hwnnw. Ac ydaw ef yd edeweis y defnyd y ysgrivennv ‡brenhined y saesson o hynn allan: affeidyaw or kymre. Canyt ydiw ganthunt y llyvyr kymraec yr hwnn a ymchweylws Gwallter archdiagon ryt ychen o ladyn yng kymraec. Ac ef ay traethws yn wir ac yn gwbyl o herwyd ystoria y racdywededigeon kymre. A hynny oll adatymchweileis ynnev o gymraec yn lladyn. Ac velly yteruyna ystorea brutus.—*Wedy hyn y canlyn Brut y Saeson yn yr un llyvyr.*

‡ *Mae gwall yma.*

[657] Oed Crist pan fu farw Caradoc 1156. Mae er hynny hyd heddyw 457 o flwyddau. *Geiriau ar ymyl y llyvyr.* A.

[658] "Ac evelly e tervyna vyngwaith inheu am ddrwc yscrifenu hyn yma; er hwn a gesgleis allan o amravailion lyvreu: o achaws nad oedd un llyvyr yn berfaith heb lawer ar goll ynddo, etwa myvi a gevais e cwbyl ymewn pymp o lyvreu hen, deu o honynt o parchment wedi yscrifenu es agos i 500 o vlynyddoedd wrth dyst; a thri ereill o hen gopïeu. Y neb a'u hysgrifeno nesav govaled am iawn ysgrifenyddiaeth: mwy oedd vy ngoval i am y matter."—*Geiriau ysgrifenydd y llyvyr.* A.

Gwybydded y Darllenydd nadoes bwys ar yr enwau a ddoded ar y ddau vrud uchod, sev Brut Tysilio *a* Brut G. ab Arthur, *eithyr er gwahaniaeth rhyngddynt.*

BRUT Y TYWYSOGION.

PETWAR ugeint mlyned a whechant oed oet Crist pan vu y var6olyaeth ua6r dr6y holl ynys Prydein. Ac o dechreu byt hyt yna yd oed blwydyn eisieu petwar ugeint mlyned ac wyth cant a phum mil. Ac yn y vl6ydyn honno y bu var6 Kad6aladyr uendigeit uab Kadwalla6n uab Catuan brenhin y Brytanyeit yn Rufein y deudecuet dyd o Vei megys y proff6ydassei Vyrdin kyn no hynny 6rth Wrtheyrn G6rthenau. Ac o hynny allan y colles y Brytanyeit goron y teyrnas. ac yd ennillawd y Saeson hi. Ac yn ol Kadwaladyr y g6ledycha6d Iuor uab Alan vrenhin Llydaw. yr honn a elwir Brytaen uechan. Ac nyt megys brenhin namyn megys pennaeth neu tywyssa6c. A h6nn6 a gynhellis llywodraeth ar y Brytanyeit 6yth mlyned a deugeint. ac yna y bu uar6. Ac yn y ol ynteu y g6ledycha6d Rodri mael6yna6c. Ac yn oes h6nn6 y bu uar6olyaeth yn I6erdon. Ac yna y cryna6d y dayar yn Llyda6. Ac yna y bu y g6la6 gwaet yn ynys Prydein. ac Iwerdon. Deg mlyned a phedwar ugeint a whechant oed oet Crist yna. ac yna yd ymchoela6d y llaeth ar emenyn yn waet. Ar lleuat a ymchoela6d yn waeta6l li6. Seith cant mlyned oed oet Crist pan vu uar6 Elffrytt brenhin y Saeson. Deg mlyned a seithgant oed oet Crist pan vu uar6 Pipin v6yaf brenhin Ffreinc. Ac yna kyn oleuet oed y nos ar dyd. Ac yna y bu uar6 Osbric brenhin y Saeson. ac y kyssegrwyt egl6ys lan Vihagel. Vgein mlyned a seith cant oed oet Crist pan vu yr haf tessa6c. Ac yna y bu uar6 Beli uab Elfin ac y bu vr6ydyr Heilin ygkerny6. a g6eit G6archmaela6c.[1] a chat Pen coet yn Deheubarth ac yn y teir br6ydyr hynny y gornu y Brytanyeit. Deg mlyned ar hugeint a seith cant oed oet Crist pan vu vr6ydyr ym mynyd Carn. Deugeint mylned a seith cant oed oet Crist pan vu uar6 Beda offeirat. Ac yna y bu uar6 Owein brenhin y Picteit. Deg mlyned a deugeint a seith cant oed oet Crist pan vu y vr6ydyr r6g y Brytanyeit ar Picteit yg g6eith Maes yda6c.[1] Ac y lladawd y Brytanyeit Talargan brenhin y Picteit. Ac yna y bu uar6 Te6d6r uab Beli. ac y bu uar6 Rodri brenhin y Brytanyeit. ac Ecbalt brenhin y Saeson. Trugein mlyned a seith cant oed oet Crist pan vu br6ydyr y r6g y Brytanyeit ar Saeson yg gweith Henfford. Ac y bu uar6 Dyfynwal uab Tewd6r. Deg mlyned a thrugein a seith cant oed oet Crist pan symmud6yt pasc y Brytanyeit dr6y orchymyn Elbot g6r y Du6. Ac yna y bu uar6 Ffernuail[2] uab Idwal. A Chubert abat. Ac yna y bu distry6 y deheubarthwyr gan Offa vrenhin. Pedwar ugein mlyned a seith cant oed oet Crist pan diffeitha6d Offa vrenhin y Brytanyeit yn amser haf. Deg mlyned a phedwar ugein a seith cant oed oet Crist pan deuth y paganyeit gyntaf y Iwerdon. Ac y bu uar6 Offa vrenhin. a Maredud brenhin Dytet. ac y bu vr6ydyr yn Rudlan. Wyth cant mlyned oed oet Crist pan lada6d y Saeson Garada6c brenhin G6yned. ac yna y bu uar6 Arthen vrenhin Keredigya6n. Ac y bu diffyc ar y heul. Ac y bu uar6 Rei[3] vrenhin[4] a Chadell brenhin Powys. ac Elbot archescob G6yned. Deg mlyned ac 6yth cant oed oet Crist pan dua6d y lleuat du6 nadolyc. ac y lloscet Myny6. ac y bu uar6olyaeth yr anifeileit ar hyt ynys Prydein. Ac y bu uar6 Owein uab Maredud. Ac y lloscet Deganwy o tan myllt. Ac y bu vr6ydyr y r6g Howel a Chynan. a Howel a oruu. Ac yna y bu daran ua6r ac y g6naeth llawer o loscuaeu. Ac y bu uar6 Tryffin[5] uab Rein.[6] Ac y llas Griffri uab Kyngen o d6yll Elisse y ura6t. Ac y goruu Howel o ynys Von. Ac y gyrra6d Gynan y ura6t o

[1] Garthmaelawc D. P. MS. LL.

[1] Magedawc. P. Maes Edawc Ll. MS.
[2] Ffermael D. P. Ffernael Ll. MS.
[3] Run. D. P.
[4] Dyfed MS. Ll.
[5] Gruffyth D. P.
[6] Run.

yna y gellyg6yt mab Kad6ga6n. Ac yg-kyfr6g y petheu hynny y g6naeth Owein a Mada6c ac eu Kedymdeithon lla6er o drygeu yg g6lat y Ffreinc ac yn Lloeger. A pha beth bynnac a geffynt nac o ledrat nac o dreis. y dir Iorwoerth y dygynt. Ac yno y press6ylynt. Ac yna anuon kenad6ri a oruc Iorwoerth attunt yn garedic a dywedut 6rthynt ual hynn. Du6 an rodes ni yn lla6 an gelynyon. ac an darestyga6d ni yn gymeint ac na allem ni g6neuthur dim or a vei ewyllys gennym. G6arhadedic yw ynni ba6b or Brytanyeit hyt na chyffredino neb o honam ni a ch6-ch6i nac o vwyt nac o dia6t. nac o nerth nac o ganhorth6y. namyn a6ch keissa6 ach hela ym pob lle. ach rodi yn y diwed yn lla6 y brenhin oc a6ch carcharu neu oc a6ch llad. neu ych dihenydya6 neu yr hynn a vynnei a ch6i. Ac yn bennaf y gorchymyn6yt i mi a Chad6ga6n nat ym-gredem a ch6i. Kanys ni diga6n neb tebygu na damuna6 tat neu ewythyr da y eu meibon ae nyeint. kanys od ymgedym-deith6n ni a ch6i. neu vynet haeach yn erbyn gorchymynneu y brenhin. ni a goll6n an kyfoeth ac an karcherir yn y vom veir6 neu an lledir. Ac 6rth hynny mi a6ch g6ediaf megys kyueillt. A un[1] a6ch gorchymynnaf megys argl6yd. Ac ach eirolaf megis car nad eloch ford ym kyuoeth i na ford y gyuoeth Kad6ga6n m6y noc y gyuoeth g6yr ereill yn kylch. Kanys m6y o anuodedigaeeheu a geissyr yn erbyn ni. noc yn erbyn ereill yn bot yn gylus. A thremygu hynny y 6naethant a m6yfwy eu kyuoeth a vynychynt. a breid y gochel-ynt kyndrycholder y g6yr e hunein. A Iorwoerth a geissa6d eu hymlit a chynnull-a6 lla6er o wyr a oruc ac eu hela. Ac 6ynteu ae gochelassant bob ychydic. Ac yn un dorof ygyt y kyrchassant gyuoeth Uchtrut hyt ym Meiryonyd. A phan gigleu veibon Uchtrut hynny ae teulu rei a ellygassant Uchtrut y amdiffyn y tir. anuon a orugant y Veiryonyd y beri y ba6p dyuot attunt y 6rthlad y g6yr oc eu tir. Kanys yn gyntaf y dathoedynt y Gyfeila6c yn y lle yd oed meibon Uchtrut. Ac ny allyssant eu g6rthlad. Ac yna yd ymgynnulla6d gwyr Meiryonyd heb ohir ac y deuthant at Veibon Uchtrut. Ac ual yd oed Owein a Mada6c yn y lletyeu ygkyfeila6c. Trannoeth y boreu aruaethu a orugant mynet y Veiryonyd y letya6 heb wneuthur dim dr6c amgen. Ac ual yd oedynt yn d6yn eu hynt. nachaf wyr Meiryonyd ygkyfr6g mynyded ac anyal6ch yn d6yn y bydin gyweir yn kyfaruot. Ac yn eu ruthra6. ac yn dodi ga6r arnunt. ac 6ynteu heb dybya6 dim 6rthynt ar y kyrch kyntaf y ffoassant. ac y deuth Owein. A phau g6elas g6yr Meiryonyd ef yn kyrchu yn 6ra6l ac yn bara6t y ymlad. ffo yn deissyfeit a orugant. Ac 6ynteu ae hym-lidyassant hyt eu gwlat. a diffeitha6 y wlat a orugant. a llosgi y tei ar ydeu a llad yr yscrybyl kymeint ac a ga6ssant heb d6yn dim gantunt. A g6edy hynny yd aeth Mada6c y Bowys. Ac Owein a ymchoela6d ef ae wyr y Geredigya6n y lle yd oed y dat yn g6ledychu ac yn press6yla6. a thrigya6 a oruc ef ae gedymdeithon yn y lle y mynna6d. a choffau dyuodyat y dat kyn no hynny yr kyuoeth. Kanys y ged-ymdeith oedynt[1] y dyfet y yspeila6 y wlat ac y dala y dynyon. ac eu d6yn yn r6ym hyt y llogeu a dathoed gan Owein o Iwerd-on. Ac yna yd oedynt yn trigya6 yn tervyneu y wlat. Ac eilweith yd aethant y gal6 ynvydyon a ch6anegi eu rif. a chyrchu dros nos y wlat ae llosgi. a llad pa6b or a ga6ssant yndi. ac yspeila6 ereill. a d6yn ereill gantunt ygkarchar. ac eu g6erthu y eu dynyon neu eu hanuon yn r6ym yr llogeu. A Gwedy llosgi y tei a llad cymeint ac a ga6ssant or anifeileit. a chymeint ac a ga6ssant a dugant gantunt. ac a ymchoelassant fford y Keredigya6n 6rth letya6 a thrigya6 a mynet a dyuot. heb edrych dim o ach6ysson Kad6ga6n nac o wahard y brenhîn. A rei o nadunt dreilgweith a oedynt yn kad6 fford yd oed henafg6r or Flemhissieit yn dyuot idi. a elwit Wiliam o Vreban. ac gyferbynieit a wnaethant ae lad. Ac yna mynet o Gad6ga6n gyt a Iorwoerth y lys y brenhin y vynnu kael ymdidan ac ef. Ac ual y buant yna nachaf bra6t yr g6r a ladyssit yn y lle yn menegi yr brenhin ry lad o Owein ae gedymdeithon y vra6t. Pan gig-leu y brenhin hynny gofyn a oruc y Gad-6ga6n beth a dywedy am hynny. nis g6nni argl6yd heb y Kad6ga6n. Yna y dywa6t y brenhin kany elly di kad6 dy gyfoeth rac kedymdeithon dy uab hyt na ladon vyg gwyr eilweith mi a rodaf dy gyfoeth yr neb ae katwo. a thitheu a drigy y gyt a mi dr6y yr amot h6nn yma na sethrych di dy bria6t wlat. a mi ath borthaf di om hymborth i yn y gymer6yf gyghor am danat. A rodi a oruc y brenhin ida6 peunyd yg kyfeir y dreul pedeir ar hugein. Ac yna y trigya6d heb dodi gefyn arna6. namyn yn ryd y fford y mynnei eithyr y wlat e hun. A g6edy clybot o Owein

[1] Mi.

[1] A aethant. MS. Ll.

yspeila6 y dat oe gyuoeth. kyrchu Iwerdon a oruc ef a Mada6c uab Ridit. A g6edy hynny anuon a oruc y brenhin at Gilbert uab Rickert yr h6nn a oed de6r molyannus galluus. a chyfeillt yr brenhin a g6r arderchа6c oed yn y holl weithredoed erchi idaw dyuot atta6. ac ynteu a deuth. Ar brenhin a dywawt 6rtha6 yd oedut yn wastat yn keissa6 ran o tir y Brytanyeit y genyf. Mi a rodaf ytt yr a6r honn tir Kad6ga6n dos a goresgyn ef. Ac yna y kymerth yn llawen ygan y brenhin. Ac yna gan gynulla6 llu gyt ae gedymdeithon y deuth hyt yg Keredigya6n ac y gorescynna6d. Ac yd adeila6d deu gastell yndi. Nyt amgen un gyferbyn a Llan Badarn yn ymyl aber yr auon a elwir Ystwyth. Ar llall geir lla6 Aber Teifi yn y lle a elwir Dingereint. y lle gr6ndwalassei Roger iarll kyn no hynny gastell. A gwedy ychydic o amser yd ymchoela6d Mada6c ab Ridit o Iwerdon heb allel godef andynolyon voesseu y G6ydyl. Ac Owein a drigya6d yno yn y ol dalym o amser. A Mada6c a aeth y Powys. ac nyt aruollet nac yn hegar nac yn drugara6c y gan Iorwoerth y ewythyr rac y gynnal yn gylus y gan y brenhin her6yd kyfreith a drycweithret ot ymgyffredinei ae nei o dim. Ac ynteu yn wibia6dyr a lecha6d h6nt ac yma gan ochel kydrycholder Iorwoerth. Iorwoerth a wnaeth kyfreith hyt na bei a veidei dywedut dim 6rtha6 am Vadawc. na menegi dim am dana6 g6elit na welit. Ygkyfr6g hynny aruaethu a wnaeth Mada6c g6neuthur brat Iorwoerth y ewythyr. A dala kyfeillach a oruc a Llywarch uab Trahaearn. Ac ymaruoll y gyt a wnaethant yn dirgeledic. ac eissoes yr tervyn h6nn6 yd aethant. Y vl6ydyn rac 6yneb y paratoes Mada6c urat Iorwoerth. a cheissaw amser a chyfle a wnaeth y gyflenwi y ewyllys. A phan ymchoela6d Iorwoerth y Gaer Eina6n y kyrcha6d Mada6c a chedymdeithon Llywarch y gyt ac ef yn borth ida6 kyrch nos am ben Iorwoerth. A dodi ga6r a orugant ygkylch y ty lle yd oed Iorwoerth. a dyhuna6 a wnaeth Iorwoerth gan yr a6r. a chad6 y ty arna6 ef ae gedymdeithon. a llosgi y ty a wnaeth Mada6c am benn Iorwoerth. a dodi ga6r o orugant. A phan welas kedymdeithon Iorwoerth hynny kyrchu allan a orugant dr6y y tan.[1] Ac ynteu pan welas y ty yn dyg6yda6 keissa6 kyrchu allan a oruc ae elynyon ae kymerth ar vlaen gwewyr. ac yn atlosgedic y lad. A phan gigleu Henri vrenhin ry lad Iorwoerth rodi Powys a wnaeth y Kad6ga6n uab Bledyn. A hedychu ac Owein y uab. Ac erchi y Gad6ga6n anuon kenadeu yn ol Owein hyt yn Iwerdon. A gwedy g6ybot o Vada6c ar rei a ladyssant Iorwoerth ygyt ac ef rywneuthur agkyfreith o nadunt yn erbyn y brenhin llechu y mywn coedyd a orugant. ac aruaethu g6neuthur brat Kad6ga6n. A Chad6ga6n heb vynny arg6edu y neb megys yd oed uoes ganta6 a doeth hyt yn Trall6g Llywelyn ar vedyr trigya6 yno a phress6yla6 lle yd oed hyr-r6yd[1] ac agos y Vada6c. Ac yna anuon yspiwyr a oruc Mada6c y 6ybot py le y bei Gad6ga6n. Ar rei hynny a doethant drachefyn ac a dywedassant y neb yd oedynt yn y geissa6. ym pell y mae h6nn6 ae yn agos. Ac ynteu ae wyr yn y lle a gyrcha6d Kad6ga6n. A Chad6ga6n heb tybya6 dim dr6c a ym6naeth yn llesc heb vynnu ffo. a heb allel ymlad. wedy ffo y wyr oll ae gael ynteu yn unic ae lad. A gwedy llad Kad6ga6n anuon kenadeu a wnaeth Mada6c at Rickert escob Llundein y g6r a oed yn kynhal lle y brenhin ac yn y lywya6 yn Am6ythic y erchi ida6 ef y tir y g6nathoedit y kyflafaneu hynny ymdana6. A g6edy rac vedylya6 or escob yn gynnil y ach6ysson ef heb rodi messur ar hynny y oedi a oruc. ac nyt yr y garyat ef. namyn adnabot o hona6 deuodeu g6yr y wlat mae llad a 6naei bop un o nadunt y gilyd. Ac gyfran a vuassei ida6 ef ac y Ithel y 6ra6t kyn no hynny a rodes ida6. A phan gigleu Varedud uab Bledyn hynny kyrchu y brenhin a oruc y erchi ida6 tir Iorwoerth uab Bledyn y vra6t. ar brenhin a rodes kad6ryaeth y tir ida6. yn y delei Owein uab Kad6ga6n yr wlat. Ygkyfr6g hynny y deuth Owein ac yd aeth at y brenhin. A chymryt y tir ganta6 tr6y rodi g6ystlon. ac ada6 llawer o aryant. A Mada6c a edewis llawer o aryant a g6ystlon ac amodeu ger bronn y brenhin. A g6edy kymryt nodyeu ymoglyt a oruc pob un rac y gilyd yn y vl6ydyn honno hyt y diwed. Yn y vl6ydyn rac 6yneb y delit Robert iarll uab Roser o Vedlehem y gan Henri vrenhin. ac y carcha6yt. Ac y ryvela6d y uab yn erbyn y brenhin.

Deg mlyned a chant a mil oed oet Crist pan anuones Maredud uab Bledyn y teulu y neb un gynh6ryf y tir Llywarch uab Trahaearn y d6yn kyrch. Yna y damweina6d ual yd oedynt yn d6yn hynt dr6y gyfoeth Maredud[2] uab Ridit. Nachaf 6r yn kyuaruot ac 6ynt a dala h6nn6 a orug-

[1] Ac adaw Iorwerth y tan MS. Ll.

[1] Herwyd. MS. Ll.
[2] Madawc. MS. Ll.

ant a gofyn ida6 py le yd oed Vada6c uab Ridit y nos honno yn trigya6. A g6adu yn gyntaf a 6naeth y g6r hyt nas g6ydat ef. Ac odyna g6edy y gystuda6 ae gymell adef a oruc y vot yn agos. A g6edy r6yma6 h6nn6 yspiwyr a aroyssant yno.[1] a llechu a 6naethant yn y oed oleu dyd dranoeth. A g6edy dyfot y bore o deissyfyt g6nn6ryf y dugant kyrch ida6. a dala[2] a orugant a llad lla6er oe wyr. ac d6yn ygkarchar at Maredud. ae gymryt yn lla6en a oruc ae gad6 y my6n gefyneu. Yna y deuth[3] Owein ab Kad6ga6n yr h6n nyt yttoed gartref. A phan gigleu Owein hynny ar frys y deuth. ac y rodes Maredud ef yn y la6 ae gymryt yn lla6en a oruc ae dallu. A rannu rygtunt a 6naethant y rann ef o Bowys. Sef oed hynny Kereina6n a thraeau Deud6r ac Aber Riw.[4] Y vl6ydyn rac 6yneb y kyffroes Henri vrenhin llu yn erbyn G6yned. ac yn bennaf y Powys. A g6edy barnu ar Owein gwneuthur agkyfreith y guhuda6 a oruc Gilbert uab Rickert 6rth y brenhin. a dywedut bod g6yr Owein yn g6neuthur lledrateu ar y wyr ef ae tir.[5] Ar drygeu a 6nelei ereill a dywedit ar 6yr Owein. A chredu a oruc y brenhin bot pob peth or a dywa6t y kyhud6r yn wir. Ygkyfr6g hynny kyhuda6 a wnaeth mab Hu iarll kaer Llion (ar Wysc) Gruffud uab kynau. a Gron6 uab Owein. Ac aruaethu o gyttundeb mynnu dileu yr holl Vrytanyeit o g6byl hyt na cheffynt Vrytana6l en6 yn dragy6yda6l. Ac 6rth hynny y kynulla6d Henri vrenhin llu or holl ynys o Penryn Peng6aed yn Iwerdon[6] hyt ym Penryn Blataon[7] yn y Gogled yn erbyn G6yned a Phowys. A phan gigleu Varedud uab Bledyn hynny mynet a wnaeth y geissa6 kyfeillach y gan y brenhin. A g6edy adnabot hynny o Owein kynulla6 y holl wyr ae holl da a 6naeth a muda6 hyt ym mynydoed Eryri. kanys kadarnaf lle a diogelaf y gael amdiffyn ynda6 rac y llu oed h6nn6. Ygkyfr6g hynny yd anuones y brenhin tri llu. Un gyt a Gilbert tywyssa6c o Gerny6. a Brytanyeit y Deheu, a Ffreinc a Saeson o Dyfet ar Deheu oll. ar llu arall or Gogled ar Alban a deu tywyssa6c arnunt. Nyt amgen Alexander mab y Moel C6l6m. a mab Hu iarll kaer Llion. Ar trydyd gyt ac ef e hun. Ac yno y deuth y brenhin ae deulu y gyt ac ef. hyt y lle a elwir Mur Gastell. Ac Alexander ar iarll a aethant y Pennaeth[1] Bach6y. Ygkyfr6g hynny yd anuones Owein genadeu at Ruffud ac Owein y uab y erchi udunt g6neuthur kadarn hed6ch y rygtunt yn erbyn y gelynyon y rei yd oedynt yn aruaeth y dileu yn g6byl neu y g6archae yn y mor hyt nat enwit Brytana6l eu6 yn dragywyda6l. Ac ymaruoll ygkyt a wnaethant hyt na wnelei un heb y gilyd na thagnefed na chyfundeb ae gelynyon. Gwedy hynny y danuones Alexander uab y Moel C6l6m ar iarll gyt ac ef genadeu at Ruffud uab Kynan y erchi ida6 dyfot y hed6ch y brenhin. ac ada6 llawer ida6 ae d6ylla6y gyttuna6 ac 6ynt. Ar brenhin a anuones kenadeu at Owein y erchi ida6 dyfot y hed6ch ac ada6 y g6yr ny aller gaffel na phorth na nerth y gantunt. Ac ny chytsynya6d Owein a hynny. Ac yn y lle nachaf un yn dyfot atta6. ac yn dywedut 6rtha6 byd oualus a g6na yn gall yr hynn a 6nelych. Llyma Ruffud ac Owein y uab g6edy kymryt hed6ch y gan uab y Moel C6l6m ar iarll g6edy rodi ida6 o nadunt kael y tir yn ryd heb na threth na chyllit na chastell ynda6 hyt tra vei vy6 y brenhin. Ac etwa ny chytsynya6d Owein a hynny. Ar eilweith yd arua6th6ys y brenhin anuon kenadeu at Owein. a chyt ac 6ynt Varedud uab Bledyn y ewythyr yr h6nn pan welas Owein a dywa6t 6rtha6 edrych na h6yrheych dyuot at y brenhin rac racflaenu o ereill kael kedymdeithas y brenhin. ac ynteu a greda6d hynny a dyfot a wnaeth at y brenhin. Ar brenhin ae haruolles yn lla6en dr6y ua6r garyat ac enryded. Ac yna y dywa6t y brenhin 6rth Owein kan deuthost ti attaf i oth vod a chan credaist vygkenadeu minheu ath va6rhaaf di ac ath dyrchafaf yn uchaf ac yn pennaf oth genedel di. A mi a dalaf it yn gymeint ac y kyghorvynno pa6b oth genedyl 6rthyt. A mi a rodaf it dy holl tir yn ryd. A phan gigleu Ruffud hynny anuon kenadeu a oruc at y brenhin y geissa6 hed6ch y ganta6. Ar brenhin ae kymerth ef y hed6ch dr6y dalu o hona6 dreth ua6r ida6. Ac ymchoelut a oruc y brenhin y Loegyr. ac erchi y Owein dyuot y gyt ac ef a dywedut y talei ida6 a vei gyfya6n. a dywedut 6rtha6 hynn a dywedaf yt. Mi a af y Normandi ac o deuy di y gyt a mi. mi a

[1] Anfon yspiwyr a wnaeth yno. MS. Ll.
[2] Ae ddaly. Ib.
[3] Yn i ddoeth.
[4] Ac yng nghylch yr amser yma y bu ddaear grynn mawr yn Amwythic o fore hyd hwyr. A hefyd yr amser hwnnw yr ymddangoses seren gynffonnawc ac y bu aiaf caled yn ol hynny, a marwolaeth a phrinder. MS. Ll.
[5] Dir. Ib.
[6] Kernyw.
[7] Blathaon.

[1] Pennant. D. P.

gyweiraf ytt bop peth or a edeweis it. a mi ath wnaf yn uarcha6c urda6l. A chanlyn y brenhin a wnaeth dr6y y mor. Ar brenhin a gwira6d ida6 pob peth or a edewis ida6. Y vl6ydyn rac 6yneb yd ymchoela6d y brenhin o Normandi ac Owein uab Kad6ga6n gyt ac ef. Ac y bu uar6 Ieffrei escob Myny6. ac yn y ol ynteu y deuth g6r o Normandi yr h6nn a elwit Bernart yr h6nn a dyrchaf6yt yn escob ym Myny6 y gan Henri vrenhin o anuod holl yscolheigon y Brytanyeit gan eu tremygu. Ygkyfr6g hynny y deuth Gruffud uab Rys Te6d6r brenhin Deheubarth o Iwerdon[1] yr h6nn a athoed yn y vaba6l oetran y gyt a rei oe gereint hyt yn Iwerdon. Ac yna y trigya6d yn y bu 6r aedvet. Ac yn y diwed g6edy diffyg-ya6 o tra hir alltuded yd ymchoela6d y dref y dat. A h6nn6 a drigya6d amgylch d6y vlyned g6eitheu y gyt a Geralt ystiwart castell Penuro y da6 gan y ch6aer. a honno oed Nest uerch Rys uab Te6d6r g6reic Geralt Ystiwart. g6eitheu ereill gyt ae gereint. g6eitheu yg G6yned.[2] g6eitheu yn absen o le y le. Yn y diwed y cuhudwyt 6rth y brenhin. A dywedut vot med6l pa6b or Brytanyeit gyt ac ef. dr6y y ryuygu o vrenhina6l vedyant Henri vrenhin. A phan gigleu Gruffud y chwedleu hynny aruaethu a wnaeth ar vynet at Ruffud uab Kynan y geissa6 amdiffyn y hoedel. A g6edy anuon kenadeu ef a edewis o deuei atta6 y aruolli yn llawen. A g6edy clybot o Ruffud uab Rys hynny ef a Howel y vra6t a aethant atta6. yr Howel h6nn6 a vuassei ygkarchar Ern6lf uab Roser iarll castell Baldwin yr h6nn y rodassei Wilim Vrenhin ida6 kyfran o gyuoeth Rys uab Te6d6r. Ac yn y diwed y diagassei yr Howel h6nn6 yn annafus g6edy trychu y aelodeu or carchar. Ac yna yd aruollet 6ynt ac ereill gyt ac 6ynt yn hegar y gan Ruffud uab Kynan. Ac ygkyfr6g hynny g6edy clybot or brenhin mynet Gruffud ab Rys at Ruffud ab Kynan anuon kenadeu a wnaeth at Ruffud uab Kynan y erchi ida6 dyuot atta6. Ac ufud uu Ruffud y vynet at y brenhin. Ac megys y mae moes y Ffreinc twylla6 dynyon tr6y edewidyon ada6 lla6er a wnaeth Henri vrenhin ida6 o chymerei arna6 dala Gruffud uab Rys ae anuon yn vy6 atta6 ef. ac ony allei y dala y lad ac anuon y benn ida6. Ac ynteu dr6y ada6 hynny a ymchoela6d y wlat. Ac yn y lle gofyn a wnaeth py le yd oed Ruffud uab Rys yn trigya6. A menegi a 6naethp6yt y Ruffud uab Rys dyuot Gruffud uab Kynan o lys y brenhin ae geissa6 ynteu yn y ewyllys. Ac yna y dywa6t rei 6rtha6 a oedynt yn trigya6 y gyt ac ef dr6y ewyllys da. gochel y gedrycholder yn y 6yper py fford y kerdo y chwedyl. Ac 6ynteu yn dywedut hynny nachaf un yn dyfot ac yn dywedut. Llyma varchogyon yn dyfot ar vrys. a breid yd athoed ef dros y dr6s nachaf y marchogyon yn dyfot y geissa6. Ac ni alla6d amgen no chyrchu Eglwys Aber Daron arna6d. A g6edy clybot o Rufud uab Kynan y dianc yr eglwys anuon gwyr a oruc y tynnu ef or eglwys allan. Ac ny ada6d escyb a [bieuffynt] beuafyeit[1] y wlat hynny rac llygru na6d yr egl6ys. A g6edy y ell6g or eglwys ef a ffoes yr Deheu. ac a deuth y Ystrat Tywi. A g6edy clybot hynny llawer a ymgynnulla6d atta6 o bop tu. ac ynteu a duc kyrch anhegar aniben[2] y Ffreinc ar Flemhissyeit yn y daruu y vl6ydyn honno. Y vlwydyn rac wyneb y kyrcha6d y Grufud ab Rys a dywedassam ni uchot. yn y vr6ydyr gyntaf y castell oed yn ymyl Arberth ac y llosces. Odyna yd aeth hyt yn Llan ym Dyfri lle yd oed gastell neb un tywyssa6c a elwit Rickert P6ns6n y g6r y rodassei Henri vrenhin ida6 y kantref Bychan. ac y profes y torri ae losgi. ac nys galla6d kanys ym6rthlad ac ef a wnaeth keitweit y kastell a chyt ac 6ynt Maredud uab Ryderch uab Krada6c y g6r a oed yn kynnal Ystiwerdaeth y dan y dywededic Richert. y rac castell eissoes a losges. A g6edy ymsaethu or t6r ac ef a brathu llawer oe wyr a saetheu. a llad ereill yd ymchoela6d drachefyn. A g6edy hynny y danuones y gedymdeithon y wneuthur kyrch a chynn6r6f ar gastell a oed yn ymyl Aber Tawy. a h6nn6 a bioed iarll a elwit Henri Bem6ud. A g6edy llosgi y rac gastell. ac amdiffyn or keitweit y t6r a llad rei oe wyr yd ymchoela6d drachefyn. A g6edy clybot hynny ac ymgynulla6 atta6 lla6er o ynvydyon ieueinc o bob tu wedy y d6ylla6 o chwant anreitheu. neu o geissa6 atnewydu Brytana6l teyrnas. Ac ny thal ewyllys[3] dim o ny byd Du6 yn borth ida6. G6neuthur a oruc ysclyfaetheu ma6r yn y gylch o gylch. Ar Ffreinc yna y gymerassant gyghor a gal6 pennaetheu y wlat attunt. Nyt amgen Owein uab Caradа6c uab Ryderch y g6r y rodassei Henri vrenhin ida6 rann or Kantref Ma6r. a Maredud uab Ryderch yr h6nn a dywed-

[1] I Ddyfed. MS. Ll.
[2] Gwydd. MS. Ll.

[1] Hennafieid. ib.
[2] Am benn. MS. Ll.
[3] Dyn. MS. Ll.

assam ni vry. A Ryderch uab Te6d6r ae veibon Maredud ac Owein. Mam y rei hynny g6reic Ryderch ab Te6d6r oed Hunyd uerch Bledyn ab Kynvyn y pennaf or Brytanyeit wedy Grufud ab Llywelyn y rei oedynt vrodyr un Vam. Kanys Ygharat uerch Varedud brenhin y Brytanyeit oed y mam ell deu. ac Owein uab Karada6c uab Gwenllian uerch y dywededic Vledyn y rei a llawer o rei ereill a deuthant y gyt. A gofyn a oruc y Ffreinc udunt a oedynt oll ffydlonyon y Henri vrenhin. ac atteb a wnaethant eu bot. A dywedut a wnaeth y Ffreinc 6rthynt od ydy6ch ual y dywed6ch dagoss6ch ar a6ch g6eithretoed yr hynn yd ytty6ch yn y ada6 ar a6ch taua6t. reit yw y6ch kad6 kastell Kaer Vyrdin yr h6nn a bie y brenhin. pob un o hona6ch yn y ossodedic amser ual hynn. Cad6 y castell o Owein uab karada6c pythewnos. a Ryderch uab Te6d6r pythewnos arall. a Maredud uab Ryderch ab Tewdwr pythewnos. a Bledri uab Kediuor y gorchymynn6yt castell Robert La6gan yn Aber Caf6y.[1] A g6edy ansodi y petheu hynny. Gruffud ab Rys a bryder a6d am anuon disg6yleit am torri y kastell neu y losgi. A phan gauas amser adas ual y gallei yn ha6d kyrchu y kastell. Yna y damweina6d vot Owein uab Karada6c yn kad6 ygkylch y castell. Ac yna y duc Gruffud ab Rys kyrch nos am benn y castell. A phan gigleu Owein ae gedymdeithon kynn6r6f y gwyr ae ge6ri yn dyuot. Kyfot yn eb6ryd or ty lle yd oed ef ae gedymdeithon a wnaethant. Ac yn y lle y clywei yr awr ef e hun a gyrcha6d ymblaen y vydin a thebygu bot y gedymdeithon yn y ol. 6ynteu g6edy y ada6 ef e hunan a ffoassant. ac uelly y llas yna. A g6edy llosgi y rac gastell heb vynet y mywn yr t6r yd ymchoela6d ac yspeileu ganta6 yr notaedigyon goedyd. Odyna yd ymgynullassant y ieueinc ynvydyon y 6lat a bop tu atta6 o debygu goruot o hona6 ar bop peth o acha6s y damwein h6nn6. kanys castell a oed yg G6hyr a losges ef o g6byl a llad llawer o wyr ynda6. Ac yna yd edewis G6ilim o Lundein y castell rac y ofyn ae holl aniueileit ae oludoed. A g6edy daruot hynny. megys y dyweit Selyf[2] drychafel a 6na[3] yspryt yn erbyn k6ymp.[4] Yna yd aruaetha6d yn ch6ydedic o valch-der. ac o draha yr anosparthus bobyl ar ynvyt giwta6t kyweira6 ynvydyon[5] o Dyfet y Geredigya6n. A chymryt g6rth6ynebed yr gyfya6nder.[1] G6edy gal6 o Gediuor ab Gron6. a Howel uab Idnerth. a Thrahaearn ab Ithel. y rei a odynt yn dynessau o gyfnessafr6yd gerennyd a chyfaduab[2] a dunna6[3] argl6ydiaetheu[4] ida6. Ar rei hynny a oedynt gyt ac ef ymblaen holl wyr Keredigya6n. ac nyt oed dim a allei uot yn direitach nor Kediuor h6nn6 yr 6lat agkyffredin kyn noc yt ada6 Dyfet yn lla6n o amryuaelon genedloed nyt amgen Fflemhissyeit a Ffreinc a Saeson ae giwta6t genedyl e hun. y rei kyt beynt un genedyl a gwyr Keredigya6n eissoes gelynyon gallonneu oed gantunt o acha6s eu hanesm6ythdra ae hanundeb kyn no hynny. Ac yn vwy no hynny rac ofyn y tremyc a wnathoedynt y Henri vrenhin y g6r a dofhaassei holl bennaduryeit ynys Prydein oe allu ae vedyant. ac a darestygassei lawer o wladoed tramor 6rth y lywodraeth. rei o nerth arueu ereill o aneiryf rodyon eur ac aryant. y g6r nys dicha6n neb ymoscryn[5] ef ac eithyr Du6 e hun y neb a rodes y medyant ida6. A g6edy dyuot Grufud uab Rys yn gyntaf y deuth y is Coet. Ac yna y kyrcha6d lle a elwir blaen Porth Hodnant. yr hwn a adeilassei neb un Fflemiss6r. Ac yno y deuth[6] y Fflemissyeit y drigya6.[7] A g6edy ymlad dydgweith ar hyt y dyd. a llad llawer o wyr y dref. a llad un oe wyr ynteu. a llosgi y rann v6yaf or dref. heb gael dim amgen no hynny yd ymchoela6d drachefyn. Odyna y ruthra6d g6yr y wlat atta6 o dieflic annogedigaeth yngyfun megys yn deissyfyt. Ar Saesson a dugassei Gilbert kyn no hynny y gyflenwi y wlat yr honn kyn no hynny o anamylder pobloed a oed wac valch. a diffeithassant ac a ladassant. ac a yspeilassant. ac a losgassant y tei. Ae hynt ae kynn6ryf a dugant hyt ym Mhenwedic. A chylchynu a orugant gastell Razon Ystiwart a oed ossodedic yn y lle a elwir ystrad Peithill. ac ymlad ac ef a orugant ae orchyfygu. A g6edy llad llawer ynda6 y losgi a wnaethant. A phan deuth y nos pebyllya6 a wnaeth yn y lle a elwir Glasgruc. megys ar villtir y 6rth egl6ys Badarn Anafr6yd[8] a wnaethant yn yr egl6ys. d6yn yr yscrubyl yn v6yt udunt or egl6ys. Ar bore drannoeth ymaruaethu a wnaethant ar castell a oed yn Aber

[1] Cofwy. Tofwy. ib.
[2] Ddoeth. ib.
[3] Yr. MS. Ll.
[4] Dyn. ib.
[5] Deithiau. ib.

[1] Cyfiawnder. MS. Ll.
[2] Chyfadnabod. MS. Ll. ib.
[3] Addunaw. ib.
[4] Arglwyddiaethu. ib.
[5] Ymystrin. MS. Ll.
[6] Yd oed. ib.
[7] Yn trigaw. ib.
[8] Anaddasrwydd. ib.

Yst6yth gan debygu y oruot. Ac yna y danuones Razon Ystiwart g6r a oed gastell6r ar y castell h6nn6. Ac a losgyssit y gastell ynteu kyn no hynny. ac y lladyssit y wyr yn gyffroedic o dolur am y wyr ac am y gollet ac yn ergrynedic rac ofyn kenhadeu hyt nos y gastell Ystrad Meuruc yr h6nn a wnathoed Gilbert y argl6yd kyn no hynny y erchi yr castellwyr oed yno dyuot ar ffysc yn borth ida6. A g6ercheitweit y kastell a anuonassant atta6 kymeint ac a allyssant y gaffel. ac hyt nos y deuthant atta6. Trannoeth y kyuodes Grufud uab Rys a Ryderch uab Te6d6r y ewythyr a Maredud ac Owein y veibon yn ansyn6yrus oc eu pebyll heb gyweira6 eu bydin. a heb ossot ar6ydon oc eu blaen namyn bileinllu. megys cyweithas o giwta6t bobyl digyghor heb lywya6dyr arnunt y kymerassant eu hynt parth a chastell Aber Ystwyth. yn y lle yd oed Razon Ystiwart ae gymhortheit gyt ac ef. heb 6ybot o nadunt h6y hynny yn y deuthant hyt yn Ystrat Antarron a oed gyfar6yneb ar kastell. Ar castell a oed ossodedic ar benn mynyd a oed yn llithra6 hyt yn avon Ystwyth. ac ar yr avon yd oed pont. Ac ual yd oedynt yn seuyll yno megys yn g6neuthur magneleu. ac yn medylya6 pa ffuryf y torrynt y castell y dyd lithra6d haeach yn ỻy oed prytna6n. Ac yna y danuones y kastellwyr megys y mae moes gan y Ffreinc g6neuthur pob peth dr6y ystry6. gyrru saethydyon hyt y bont y vickre ac 6ynt megys o delynt h6yyn ansyn6yrol dros y bont y gallei uarchogyon lluruga6c eu kyrchu yn deissyfyt ae hachub. A phan welas y Brytanyeit y saethydyon mor le6 yn kyrchu yr bont yn ansyn6yrus y redassant yn y erbyn gan ryuedu pa ham mor amdiredus y beidynt kyrchu yr bont. Ac ual yd oed y neill rei yn kyrchu ar rei ereill yn saethu. yna y kyrcha6d marcha6c lluruga6c yn gynhyruus y bont. A rei o wyr Grufud ae kyferbynya6d ar y bont. Ac ynteu yn aruaethu eu kyrchu v6nygyl. A g6edy brathu y march y dyg6yda6d. Ac yna yd aruaethod pa6b a gwe6yr y lad ynteu. ae luruc ae hamdiffynna6d yn y doeth neb un or vydin ae thynnu.[1] A phan gyfodes ynteu y ffoes. A phan welas y gedymdeithon ef yn ffo y ffoassant 6ynteu holl. Ar Brytanyeit ae hymlidya6d hyt yg g6rthallt[2] y mynyd. Y doryf ol eissoes nys ymlidya6d. namyn heb geissa6 na phont na rhyt kymryt eu ffo a wnaethant. A phan welas y Ffreinc o benn y mynyd y rei hynny yn ffo kyrchu y doryf vlaen a wnaethant a llad kymeint ac a ga6ssant ac yna y gwascar6yt y giwta6t bobyl ar dra6s y wlat o bop tu. rei ae hanifeileit gantunt rei ereill g6edy ada6 pop peth namyn ceissa6 amdiffyn eu heneideu yn y edewit yr holl wlat yn diffeith. Ygkyfr6g hynny y danuones Henri vrenhin kenadeu at Owein uab Kad6ga6n y erchi ida6 dyuot atta6. Ac ynteu yn y lle y deuth. A phan doeth y dywa6t y brenhin 6rtha6. Vygkaredickaf Owein a atwaenost di y lleidryn gan Rufud uab Rys yssyd megys yn ffoedic yn erbyn vyn tywyssogyon i. Acha6s a chanys credaf i dy uot ti yn gywiraf g6r imi. Mi a vynnaf dy uot ti yn dywyssa6c. llu gyt am mab i y 6rthlad Grufud uab Rys. A mi a wnaf Lywarch uab Trahaearn yn gedymdeith yt. kanys yna6ch ch6i a6ch deu yd ymdiredaf i. A phan ymchoelych drachefyn mi a dalaf b6yth it yn deil6g. A llawenhau a oruc Owein or edewidyon hynny. a chynulla6 llu a Llywarch gyt ac ef a mynet y gyt hyt yn ystrat Tywi lle y tebygid uot Grufud uab Rys yn trigya6. kanys coetir[1] oed. ac yn ana6d y gerdet ac yn ha6d ruthra6 gelynya6n ynda6. A phan deuth[2] y tervyneu yr wlat. holl wyr[3] Owein a mab y brenhin ae kymhortheit a anuonassant eu bydinoed yr coedyd. pa6b dan yr amot h6nn hyt nat arbedei neb y gledyf nac y 6r nac y wreic nac y uab nac y uerch. a ph6y bynnag a delynt nas gochelynt heb y lad neu y grogi neu drychu eu aelodeu. A phan gigleu giwta6t bobyl y wlat hynny keissa6 a wnaethant ffuryf y gellynt gaffel amdiffyn ac uelly y gwasgar6yt 6ynt. Rei yn llechu yn y coedyd. ereill yn ffo y wladoed ereill. ereill yn keissa6 amdiffyn or kestyll nessaf y dathoedynt o honynt. megys y dywedir y my6n Brytana6l diareb. Y ki a lyha yr aryf y brather ac ef. A g6edy g6asgaru yllu y dan y coedyd. ef a damweina6d y Owein ac ychydic o nifer gyt ac ef kyrchu y coet o amgylch degwyr a phetwar ugein. Ac yn edrych a welynt oleu dynyon. Nachaf y gwelynt oleu dynyon yn kyrchu parth a chastell kaer Vyrdin lle daroed udunt g6neuthur eu hed6ch. Ac eu hymlit a wnaeth hyt yn agos yr castell. A g6edy eu dala yno ymchoelut at y gedymdeithon a oruc. Ygkyfr6g hynny y damweina6d dyuot llu or Fflemissyeit o Ros y Gaer Vyrdin yn

[1] Attunt. MS. Ll.
[2] Nghwr allt. ib.

[1] Ynial. ib.
[2] Ddoethant. MS. Ll.
[3] Lu. ib.

yn erbyn mab y brenhin. a Geralt ystiwert gyt ac 6ynt. Nachaf y rei a diaghyssei yn dyuot dan llef tu ar castell. ac yn menegi y hyspeila6 o Owein uab Kad6ga6n ae hanrheithya6. A phan gigleu y Fflemisseit hynny ennynnu a wnaethant o gassa6l gyghoruynt yn erbyn Owein o acha6s y mynych godyant a wnathoed kedymdeithon Owein udunt kyn no hynny. Ac o annogedigaeth Geralt Ystiwert y g6r y llosgassei Owein y gastell ac a dugassei y dreis Nest y wreic ae anreith. Ymlit a orugant heb debygu bot g6rth6ynebed ida6. Owein a gymerth y hynt yn araf. Ac 6ynteu gan y ymlit ef a doethant yn ebr6yd hyt y lle yd oed ef ar anreith ganta6. A phan welas kedymdeithon Owein dirua6r luossogr6yd yn y hymlit. Dywedut a wnaethant 6rtha6 llyma luossogr6yd yn ymlit heb allel o neb ym 6rthlad ac h6ynt. 'Atteb udunt a wnaeth nac ofynhe6ch heb acha6s. bydinoed y Fflemisseit ynt. A gwedy dywedut hynny o neb un gynu6ryf eu kyrchu a wnaeth. A diodef y kynn6ryf a wnaethant yn 6ra6l. g6edy b6r6 saetheu o bop tu y dyg6yda6d Owein yn vrathedic. A gwedy y dyg6yda6 ef yd ymchoela6d y gedymdeithon ar ffo. A phan gigleu Lywarch ab Trahaearn hynny ymchoelut ef ae wyr drachefyn a wnaeth y wlat. A g6dy y lad ef y kynhala6d y vrodyr y rann ef o Powys eithyr yr hynn a dugassei Owein kyn no hynny gan Maredud uab Bledyn. nyt amgen kereina6c yr h6nn oed eida6 Mada6c uab Ridit kyn no hynny. Ac enweu y vrodyr yw y rei hynn. Mada6c ab Cad6ga6n o Wenllian uerch Rufud ab Kynan. Ac Eina6n uab Kad6ga6n o Sanan uerch Dyfynwal. ar trydyd oed Wrgan uab Kad6ga6n o Ellyw uerch Kediuor uab Gollwyn y g6r a uu bennaf argl6yd ar wlat Dyfet. Petweryd uu Henri uab Kad6ga6n or Ffranges uerch Pictot tywyssa6c or Ffreinc. ac o honno y bu uab arall ida6 a elwit Grufud. Y whechet uu Maredyd o Euron uerch Hoedlyw ab Kad6ga6n ab Elstan. A g6edy hynny yd ymaruolles Eina6n uab Kad6ga6n uab Bledyn. a Grufud uab Maredud ab Bledyn y gyt y d6yn kyrch am benn kastell Uchtrut uab Etwin a oed gefynder6 y Vledynvr enhin. Kanys Iweryd mam Owein ac Uchtrut veibon Etwin. a Bledyn uab Kynvyn oedynt vra6t a ch6aer un dat ac nyt un vam. Kanys Agharat verch Maredud uab Owein oed vam Vledyn. a Chynvyn ab Gwerstan oed y tat ell deu. Ar castell rydywedassam ni a oed yn y lle a elwit Kymer ym Meiryonnyd. Kanys Kad6ga6n uab Bledyn a rodassei Veirionnyd a Chyveila6c y Uchtrut uab Etwin dan amot y uot yn gywir ida6 ac y veibon ac yn ganhorth6y yn erbyn y holl elynyon. Ac ynteu oed 6rth6yneb6r ac ymladgar yn erbyn Kad6ga6n ae veibon. A g6edy colli Owein heb debygu gallu dim o veibon Kad6ga6n a 6naeth ef y dywededic castell. Ac vynteu a dywedassam ni vry dr6y sorr a gyrchassant y castell. ac ae llosgassant. A g6edy ffo rei or gwercheitweit a dyuot ereill attunt h6ynteu y hed6ch. achub a wnaethant Veironnyd a Chyfeila6c a Phenllyn ae rannu y rygtunt. Ac y Rufud uab Maredud y deuth Kefeila6c. A Mada6c[1] a hanner Penllyn. Ar ranner arall y Penllyn y veibon Kad6ga6n uab Bledyn. Ygkyfr6g hynny y tervyna6d y vl6ydyn yn vlin ac yn atcas y gan ba6p. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Gilbert uab Rickert. A Henri vrenhin a drigya6d yn Normandi o acha6s bot ryuel y rygta6 a brenhin Ffreinc. Ac uelly y tervyna6d y vl6ydyn honno. Y vl6ydyn rac 6yneb y mag6yt anundeb y r6g Howel uab Ithel a oed argl6yd ar Ros a Rywyna6c a meibon Owein uab Edwin. Gron6 a Ridit a Llywarch y[2] vrodyr y rei ereill. A Howel a anuones kenadeu at Varedud uab Bledyn a meiba6n Kad6ga6n uab Bledyn Mada6c ac Eina6n y ervynieit udunt dyuot yn borth ida6. Kanys oe hamdiffyn 6ynteu ae kanhaledigaeth yd oed ef yn kynhal y gyfran or wlat a dathoed yn rann ida6. Ac 6ynteu pan gly6sant y 6rthrymu ef o veibon Owein a gynullassant eu gwyr ae kedymdeithon y gyt. kymeint ac a ga6ssant yn bara6t ual yn amgylch pedwar can 6r. Ac yd aethant yn y erbyn y Dyffryn Cl6yd yr h6nn a oed wlat udunt h6y. Ac 6ynteu a gynnullassant y gwyr gyt ac Uchtrut eu hewythyr. a d6yn y gyt ac 6ynt y Ffreinc o Gaer Llion yn borth udunt. Ac 6ynteu a gyfaruuant a Howel a Maredud a meibon. Kad6ga6n ae kymhortheit. a g6edy dechreu br6ydyr ymlad o hop tu a wnaethant yn chwerw. Ac yn y diwed y kymerth meibon Owein ae kedymdeithon. wedy llad Llywarch uab Owein a Iorwoerth uab Nud g6r de6r enwa6c oed. a gwedy llad llawer, a brathu llia6s yd ymchoelassant yn orwac drachefyn. A g6edy brathu Howel yn y vr6ydyr y ducp6yt adref. Ac ym penn y deugeinuet diwarna6t y bu uar6. Ac yna yd ymchoela6d Maredud a meibon Kad-

[1] Mawddwy. MS. Ll.
[2] Ae. ib.

6ga6n adref. heb lyuassu gorescyn y wlat rac y Ffreinc kyt kefynt y vudugolyaeth. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 M6rcherdarch y brenhin pennaf o Iwerdon yn gyfla6n o luossogr6yd[1] a budugolyaetheu. Y vl6ydyn arall g6edy hynny yd aruaetha6d Henri vrenhin ymchoelut y Loeger wedy hedychu y rygtha6 a brenhin Ffreinc. a gorchymyn a oruc yr mord6ywyr kyweira6 llogeu ida6. A g6edy parattoi y llogeu anuon a wnaeth y deu uab yn un or llogeu. un o honunt a anyssit or vrenhines y wreic pria6t. Ac o h6nn6 yd oed y tada6l obeith oe vot yn g6ledychu yn ol y dat. A mab arall o orderch ida6. ae un uerch a llawer o wyr ma6r gyt ac 6ynteu. Ac o wraged arbennic amgylch deucant. y rei a debygunt[2] eu bot yn deilygaf o garyat plant y brenhin. ac ef a rodeut udunt y llog oreu a diogelaf a odefei y mor donneu ar morolyon dymhestloed. A gwedy eu mynet yr llog dechreu nos dirua6r gyffroi a oruc y mor donneu dr6y eu kymell o dymhestla6l uord6y a drychdrum. ac yna y kyfaruu y llog a chreiga6l garrec a oed yn dirgel dan y tonneu heb 6ybot yr llogwyr. ac y torres y llog genti yn drylleu. ac y bodes y meibon ar niuer a oed y gyt ac 6ynt hyt na diegis neb o nadunt. Ar brenhin a eskynassei y my6n llog arall yn y hol. A chyt gyffroi o dirrua6ryon dymhestleu y mor donneu eissoes ef a diega6d yr tir. A phan gigleu ryfodi y veibon dr6c yd aeth arna6. Ac ygkyfr6g hynny y tervyn6ys y vl6ydyn honno. Y vl6ydyn rac 6yneb y priodes Henri vrenhin merch neb un dywyssa6c or Almaen kanys kyn no hynny g6edy mar6 merch y Moel C6l6m y wreic a aruerassei yn wastat o orderchu. A phan doeth yr haf rac wyneb y kyffroes Henri vrenhin dirua6r greula6n lu yn erbyn gwyr Powys. nyt amgen Maredud uab Bledyn ac Eina6n a Mada6c a Morgan meibon Kad6ga6n uab Bledyn. A phan glywsant 6ynteu hynny. anuon kenadeu a orugant at Rufud uab Kynan a oed yn kynal ynys Von y eruyneit ida6 vot yn gyt aruoll ac 6ynt yn erbyn y brenhin. ual y gellynt warchad6 yn diofyn ynyal6ch y g6lat. Ac ynteu dr6y gynhal hed6ch ar brenhin. a dywa6t y ffoynt[3] h6y y dervyneu y gyfoeth ef y parei y hyspeila6 ae hanrheitha6 ac y g6rth6ynebei. A phan 6ybu Maredud a meibon Kad6ga6n hynny. kymryt kygor a wnaethant. Ac yn y kygor y ka6ssant.

[1] Luoed. MS. Ll.
[2] Debygid. MS. Ll.
[3] O doynt. ib.

ada6 tervyneu y g6lat e hunein. a chymryt eu hamdifyn yndunt. Ar brenhin ae luoed a dynessayssant y dervyneu Powys. Ac yna y danuones Maredud uab Bledyn ychydic o saethydyon ieueinc y gyferbynyeit y brenhin my6n g6rthallt goeda6c ynyal fford yd oed yn dyuot. ual y gellynt a saetheu ac ergydyeu wneuthur kynn6ryf ar y llu. Ac ef a damweina6d yn yr a6r y dathoed y g6yr ieueinc hynny yr 6rthallt dyuot yno y brenhin ae lu. Ar gwyr ieueinc hynny a erbynnyassant yno y brenhin ae lu. dr6y dirva6r gynn6ryf gell6g saetheu ym plith y llu a wnaethant. A g6edy llad llawer a brathu ereill un or g6yr ieueinc a dynna6d y v6a ac a ellyga6d saeth ym plith y llu. A houno dygwyda6d ygkedernit arueu y brenhin gyferbyn ae gallon. heb 6ybot yr g6yr[1] ae byrya6d ac nyt argyweda6d y saeth yr brenhin rac daet yr arueu. Kanys llurugа6c oed namyn treilla6 a oruc y saeth drachefyn yr arueu. Ac ofynhau yn va6r a wnaeth y brenhin. a diruа6r aruthder a gymerth yndaw yn gymeint haeach a phei brethit tr6yda6. Ac erchi yr lluoed a wnaeth pebyllya6. a gofyn a oruc py rei a oedynt mor ehofyn ae gyrchu ef yn gyn lewet a hynny. A dywedut a wnaethp6yt ida6 mae rai o wyr ieueinc a anuonassit y gan Varedud uab Bledyn a wnathoed hynny. Ac anuon a wnaeth attunt genadeu y erchi udunt dyuot atta6 dr6y gygreir. Ac 6ynteu a doethant. A gofyn a wnaeth udunt p6y ae hanuonassei yno. A dywedut a wnaethant mae Maredud. a gofyn udunt a wnaeth a 6ydynt py le yd oed Varedud yna. Ac atteb a wnaethant y g6ydynt. Ac erchi a wnaeth ynteu y Varedud dyuot y hed6ch. Ac yna y doeth Maredud a meibon Kad6ga6n y hed6ch y brenhin. A g6edy hedychu y rygthunt yd ymchoela6d y brenhin y Loeger dr6y ada6 deg mil o warthec yn dreth ar Powys. Ac velly y tervyna6d y vl6ydyn honno. Ugeint mlyned a chant a mil oed oet Crist pan lada6d Gruffud ab Rys ab Te6d6r Ruffud uab Trahaearn. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Eina6n uab Kad6ga6n y g6r a oed yn kynhal rann o Powys a Meirionyd y wlat a dugassei ef y gan Uchtrut uab Etwin. Ac 6rth y agheu y kymynna6d y Varedud uab Bledyn y ewythr. Ac yna y gellygwyt Ithel uab Ridit o garchar Henri vrenhin. A phan doeth y geissaw rann o Powys ni chauas dim. A phan gigleu Ruffud ab Kynan ry wrthlad Maredud ab Kadwgawn o Uaredud uab Bled-

[1] Gwr. MS. Ll.

yn y ewythyr. Anuon a wnaeth Kadwalladyr ac Owein y veibon a diruaór lu gantunt hyt ym Meironnyd. a dóyn a wnaethant holl dynyon y wlat o honei ae holl da gyt ac 6ynt hyt yn Llyyn. Ac odyna kynulla6 llu a wnaethant ac aruaethu allduda6 holl wlat Powys. A heb allu kyfle6ni eu haruedyt yd ymchoelassant drachefyn. Ac yna yd ymaruolles Maredud uab Bledyn a meibon Kad6ga6n uab Bledyn y gyt ac y diffeithassant y rann v6yaf o gyfoeth Llywarch uab Trahaearn. o acha6s nerthu o hona6 veibon Gruffud ab Kynan ac ymaruoll ac 6ynt. Y vl6ydyn rac 6yneb y llada6d Gruffud uab Maredud ab Bledyn Ithel ab Ridit ab Bledyn y gefynder6 ygg6yd Maredud y dat. Ac yn ol ychydic o amser wedy hynny y llada6d Catwalla6n ab Grufud ab Kynan y tri ewythyr. nyt amgen Gron6 a Ridit a Meilyr meibon Owein ab Edwin. Kanys Agharat uerch Owein ab Edwin a oed wreic Grufud ab Kynan. a honno oed vam Katwalla6n ac Owein a Chatwaladyr. a llawer o verchet. Yn y vl6ydyn honno y mag6yt tervysc y rwg Morgan a Maredud meibon Katwga6n uab Bledyn. Ac yn y tervysc h6nn6 y llada6d Morgan ae la6 e hunan Varedud y vra6t. Y vl6ydyn rac wyneb yd ymchoela6d Henri vrenhin o Normandi wedy hedychu y rygta6 ar neb y buassei tervysc ac 6ynt kyn no hynny. Y vl6ydyn rac 6yneb y g6rthlad6yt Grufud uab Rys or kyfran o dir a rodassei y brenhin ida6 wedy y gyhuda6 yn wiryon heb y haedu o hona6 or Ffreinc a oedynt yn kyt bress6yla6 ac ef. Yn diwed y vl6ydyn honno y bu uar6 Daniel uab Iulyen escob Myny6. y g6r a oed gymodred6r y r6g G6yned a Phowys yn y tervysc a oed rygtunt. Ac nyt oed neb a allei gael bei nac aglot arna6. kanys tagnefedus oed a charedig gan ba6p. Ac archdiagon Powys oed. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Grufud uab Bledyn. Ac yna y delit Llywelyn ab Owein y gan Varedud uab Bledyn y ewythyr ura6t y hendat a h6nn6 ae rodes yn lla6 Blen[1] uab Ieuan y g6r ae hanuones ygkarchar hyt ygkastell Bruch. Yn diwed y vlwydyn y bu uar6 Morgan ab Kad6ga6n yn Cipris yn ymchoelut o Gaerussalem wedy mynet o hona6 a chroes y Gaerussalem o acha6s rylad o hona6 kyn no hynny Varedud y vra6t. Y vl6ydyn g6edy hynny y g6rthlad6yt Maredud uab Llywarch oe wlat. y g6r a lada6d mab Meuruc y gefynder6. Ac a dalla6d meibon Griffri y deu gefynder6 ereill. A Ieuaf uab Owein ae g6rthlada6d. ac yn y diwed ae llada6d. Y vl6ydyn rac 6yneb y llas Iorwoerth uab Llywarch gan Llywelyn uab Owein ym Powys. Ychydic wedy hynny y dyspeil6yt Llywelyn uab Owein oe lygeit ae geilleu y gan Varedud uab Bledyn. Yn y vl6ydyn honno y llas (Kad6ga6n uab Grufud) Ieuaf uab Owein y gan veibon Llywarch uab Owein y gefynder6. Yn diwed y vl6ydyn honno y llas Mada6c uab Llywarch y gan Ueuruc y gefnder6 uab Ridit. Yn diwed y vl6ydyn rac 6yneb yd yspeil6yt Meuruc uab Ridit oe deu lygat ae d6y geill. Y vl6ydyn rac 6yneb y llas Iorwoerth uab Owein. Yn y vl6ydyn honno y llas Kad6ga6n[1] uab Grufud ab Kynan y gan Gad6ga6n uab Gron6 ab Owein y gefynder6. ac Eina6n uab Owein. Ychydic wedy hynny y bu uar6 Maredud ab Bledyn teg6ch a diogel6ch holl Powys ae hamdiffyn wedy kymryt iach6ya6l benyt ar y gorff. a gleindit ediuar6ch yn y yspryt. a chymyn corff Crist. ac ole6 ac aghen. Deg mlyned ar hugein a chant a mil oed oet Crist pan vu bedeir blyned yn un tu heb gahel neb ystorya or a ellit y g6archad6 dan gof. Ar vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Henry uab G6ilim Bastard brenhin Lloeger a Chymry ar holl ynys y am hynny yn Normandi y trydyd dyd o Vis Racuyr. Ac yn y ol ynteu y kymerth Esteuyn o Blaes y nei goron y deyrnas y dreis. ac y darestyga6d yn 6ra6l ida6 holl Deheu Lloegyr. Y vl6ydyn rac 6yneb y llas Rickert uab Gilbert y gan Vorgan ab Owein. g6edy hynny y kyffroes Owein a Chatwaladyr veibon Grufud uab Kynan dirua6r greula6n lu y Geredigya6n y g6yr a oed deg6ch yr holl Vrytanyeit ae diogel6ch ae rydit ae kedernit y g6yr a oedynt deu arderch a6c vrenhin a deu haelon. Deu diofyn deu le6 de6ron Deu detwydyon. Deu huodron. Deu doethon. Diogelwyr yr eglwysseu ae hardemylwyr. Ac amdiffynwyr y tlodyon. llofrudyon y gelynyon. hedychwyr y rei ymladgar. Dofyodron y g6rth6ynebwyr. y diogelaf na6d y ba6p or a ffoei attunt. y g6yr a oedynt yn rac rymhau o nerthoed eneideu a chyrf. Ac yn kyt gynhal yn un holl deyrnas y Brytanyeit. Y rei hynny ar y ruthyr gyntaf a losgassant gastell G6allter. Ac yna wedy kyffroi eu hadaned yd ymladassant a chastell Aber Yst6yth ac y llosgassant. A chyt a Howel uab Maredud a Mada6c uab Idnerth. a deu uab Howel nyt amgen Maredud a

[1] Paine. D. P.

[1] Cadwallan MS. Ll.

Rys a losgassant gastell Rickert Dylamar. a chastell Dinerth a chastell kaer Wedros. Ac odyna yd ymchoelassant adref. Yn diwed y vl6ydyn honno y doethant eilweith y Gerediguya6n. a chyt ac 6ynt amylder lu o detholediguya6n ymladwyr nal amgylch whemil o bedyt adu6yn. A d6y vil o varchogyon llurugа6c. Ac yn borth udunt y deuth Grufud uab Rys a Howel uab Maredud o Vrecheina6c a Mada6c uab Idnerth. a deu uab Howel uab Maredud. Ar rei hynny oll yn gyfun a gyweirassant y bydinoed y Aber Dyui. Ac yn y herbyn y deuth Ysteuyn g6nstabyl a Robert uab Martin. a Meibon Geralt Ystiwert ar holl Fflemisseit. ar holl varchogyon ar holl Ffreinc o Aber Ned hyt yn Aber Dyfi. A g6edy kyrchu y vr6ydyr ac ymlad yn greula6n o bop tu y kymerth y Fflemisseit ar Normanyeit eu ffo her6yd eu harueredic deua6t. A g6edy llad rei o nadunt. a llosgi ereill. a thrychu traet meirch ereill. a d6yn ereill ygkeithiwet a bodi y rann v6yaf megys ynvydyon yn yr avon. A g6edy colli amgylch teir mil oe gwyr yn drist afiawen yd ymchoelassant y g6lat. A g6edy hynny yd ymchoela6d Owein a Chatwaladyr yw g6lat yn hyfryt lawen g6edy kaffel y uudugolyaeth. a chael diruа6r amylder o geith [1] ac anreitheu a g6iscoed ma6rwertha6c ac arueu. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu var6 Grufud uab Rys. lleuver a chedernit ac adu6ynder y Deheuwyr. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Grufud ab Kynan brenhin a phennadur a thywyssa6c ac amdiffyn6r a hedych6r holl Gymry. Gwedy lliа6s berigleu mor a thir. Guedy aneiryf anreitheu a budugolyaetheu ryueloed. Gwedy goludoed eur ac aryant a dillat ma6rwertha6c. Gwedy kynhulla6 G6yned y briа6t wlat y rei a daroed y gwasgaru kyn no hynny y ymravaelon wlatoed. y gan Normanyeit. Gwedy adeilat llawer o egl6ysseu yn y amser ae kyssegru y Du6. Gwedy g6isga6 ymdana6 yn vynach. a chymryt cymun corf Crist. ac ole6. ac aghenn. Yn y vl6ydyn honno y bu uar6 Ieuan archoffeirat Llan Badarn y g6r a oed doethaf or doethon. Gwedy arwein y vuched yn grefydus heb becha6t mar6a6l hyt agheu yn y trydyd dyd o galan Ebrill. yn y vl6ydyn honno hefyt y deuth meibon Grufud ab Kynan y dryded weith y Gerediguya6n. ac y losgassant gastell ystrat Meuruc. A chastell Llan Ystyffan. a chastell kaer Vyrdin. Y vl6ydyn rac 6yneb y doeth yr amherodres y Loegyr yr darest6g brenhinyaeth Loegyr y Henri y mab. Kanys merch oed hi y Henri gyntaf uab G6ilim Vastard. Ac yna y bu diffyc ar yr heul y deudecuet dyd o galen Ebrill. Y vl6ydyn rac 6wyneb y llas Cyn6ric ac Owein y gan deulu Mada6c uab Maredud. Y vl6dyn wedy hynny y bu uar6 Mada6c uab Idnerth.[1] Ac y llas Maredud uab Howel y gan veibon Bledyn uab Kynuyn G6yn. Y vl6ydyn rac lla6 y llas Howel uab Maredud uab Ryderch or Cantref Bychan dr6y dychymic Rys uab Howel. ac ef e hun ae llada6d.

Deugein mlyned a chant a mil oed oet Crist pan las Howel uab Maredud ab Bledyn y gan neb un heb 6ybot p6y ae llada6d. Ac yna y llas Howel ae vra6t meibon Mada6c uab Idnerth. Y vl6ydyn wedy hynny y llas Anara6t uab Grufud gobeith a gogonyant a chedernyt y Deheuwyr y gan deulu Kadwaladyr y g6r yd oedynt yn ymdiret ida6. yn gymeint ac [2]ofynhaei. A gwedy clybot o Owein y vra6t hynny dr6c uu ganta6. Kanys amot a wnathoed rodi y uerch y Anara6t. A mynnu Kadwaladyr y vra6t a wnaeth. Ac yna yd achuba6d (Owein) Howel uab Owein rann Kadwaladyr o Geina6n. ac y llosges castell Kadwaladyr a oed yn Aber Ystwyth. Ac yna y llas Mils iarll Henfford a saeth neb un varcha6c ida6 e hun a oed yn b6r6 kar6 yn hela y gyt ac ef. Y vl6ydyn rac lla6 pan welas Catwaladyr uot Owein y vra6t yn y 6rthlad oe holl gyfoeth. kynulla6 llyges o Iwerdon a oruc. a dyuot y Abermenei yr tir. Ac yn dywysogyon gyt ac ef yd oed Otter. a mab Turkyll a mab Cher6lf. Ygkyfr6g hynny y kytuna6d Owein a Chatwaladyr megys y g6edei y vrodyr a thr6y gyghor y g6yr da y kymodassant. A phan gly6it hynny y dellis German6yr Catwaladyr. Ac ynteu a amodes udunt d6y vil o geith ac velly yd ymrydhaa6d y 6rthuut. A phan gigleu Owein hynny a bot y vra6t yn ryd tervysgus gynn6ryf a wnaeth arnunt ae kyrchu yn diennic a oruc. A gwedy llad rei a dala ereill. ae kaethiwo yn warat6ydus y diaghyssant ar ffo hyt yn Dulyn. Y vl6ydyn honno y bodes ar vor Groec pererinyon [3]yn mynet a chroes y Gaerussalem. Yn y vl6ydyn honno yd atgyweira6d Hu uab Ra6lf gastell Gemaron[4] ac y gorescynna6d eilweith Vaelenyd. Ac yna yd atgyweir6yt Colwyn.[5] ac y darestyg6yt Eluael yr eilweith yr Ffreinc. Y vl6ydyn rac

[1] Gyweith. MS. Ll.

[1] Iorweth. ib.
[2] Ac nas. MS. Ll.
[3] O Gymru. MS. Ll.
[4] Gemaeron. ib.
[5] Gastell Colwyn. ib.

6yneb y delis Hu o Mortimer Rys uab Howel ac y carchar6d my6n carchar. wedy llad rei oe wyr a dala ereill. Ac yna y diffeitha6d Howel uab Owein a Chynan y vra6t.[1] A g6edy bot br6ydyr ar6dost. a chael o nadunt y vudugolyaeth yd ymchoelassant drachefyn a diru a6r anreith gantunt. Ac yna y deuth Gilbert iarll uab Gilbert arall y Dyfet. Ac y darestyga6d y wlat ac yd adeila6d Gastell Kaer Vyrdin. a chastell arall ym Mab Udrut. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Sulyen Richmarch mab y Seint Padarn mab maeth yr egl6ys. a g6edy hynny athro arbennic g6r oed aeduet y gelfydyt. ymadrod6r dros y genedyl. a dadleu6r kymedrod6yr. hedych6r amryuaelon genedloed. adurn o vrodyeu egl6yssolyon ar rei bydolyon y decuet dyd o galan Hydref. G6edy kymryt iach6ya6l benyt ar y gyssegredigaeth[2] gorff a chymun corff Crist ac ole6 ac anghenn.[3] Ac yna y llas Meuruc uab Mada6c uab Ridit yr h6nn a elwit. Meuruc Tybodyat tr6y vrat y gan eu wyr e hun. Ac yna y llas Maredud uab Mada6c uab Idnerth y gan Hu o Mortimer. Y vl6wydyn honno y goresc yna6d Cadell uab Grufud gastell Dinweileîr yr h6un a wnathoed Gilbert iarll. Ychydic wedy hynny y goruu ef a Howel ab Owein Gaer Vyrdin dr6y gadarn ymrysson wedy llad llawer oe gelynyon a brathu ereill. Ychydig o dydyeu wedy hynny y doeth yn deissyfyt diru a6r luosogr6yd or Ffreinc ar Fflemisseit y ymlad ar castell. Ac yn dywyssogyon yn y blaen meibon Geralt Ystiwert. a G6ilim ab Aed. a phan welas Meredud uab Grufud y g6yr y gorchymynnassit udunt gad6ryaeth y castell ae amdifyn y elynyon yn dyuot mor deissyfyt a hynny gyrru callon yn y gwyr a oruc ae hannoc y ymlad. a bot yn drech ganta6 y vryt noe oet. Kanys kyn bei bychan y oet eissoes yd oed ganta6 weithret marcha6c ac yn anyngrynedic dywyssa6c yn annoc y wyr y ymlad. ac yn kyrchu e hun y elynyon yn aruen.[4] A phan welas y elynyon bychanet oed y nifer yn amdiffyn o vy6n y castell drychavael yscolyon 6rth y muroed a wnaethant. Ac ynteu a odefa6d y elynyon y yskynnu tu ar bylcheu. Ac yn dilesc ef ae wyr a ymchoelassant yr yscolyon yn y syrtha6d y gelynyon yn y cla6d gan yrru ffo ar y rei ereill. ac ada6 lliaws o nadunt yn veir6, ar hynn a dangosses ida6 y detwyd dyghetuen rac lla6 ar gaffel da6u o hona6. ar wledychu yn y Deheu. Kanys goruu ac ef yn uab ar lawer o wyr profedic yn ymladeu. Ac ynteu ac ychydic o nerth y gyt ac ef. Yn diwed y vl6ydyn honno y bu uar6 Run uab Owein yn was ieuanc clotuorussaf o genedyl y Brytanyeit. yr h6nn a vagyssei uoned y rieni yn arderch a6c. Kanys tec oed o ffuryf a drych. a hyna6s o ymadrodyon. a hua6dyr wrth pa6p. Rac wela6dyr yn rodyon. Ufud ym plith y dyl6yth. Balch ym plith y estronyon. a ther6yn gar6 wrth y elynyon. Digrif 6rth y gyfeillon. hir y dyat.[1] G6yn y li6. Pengrych melyn y wallt. hir y 6yneb. Goleisso.ı y lygeit llydanyon a llawenyon. Myn6gyl hir praff. D6y vronn lydan. Ystlys hir. Mord6ydyd praffyon. Eskeired hiryon. ac oduch y draet yn veinon. Traet hiryon a byssed unya6n oed ida6. A phan doeth y ch6edyl y irat agheu ef at y dat Owein ef a godet ac a dristaa6d yn gymeint ac ni allei dim y hyfrytau ef na theg6ch teyrnas na digrif6ch. na chlaear[2] didan6ch g6yr da nac edrychedigaeth ma6rweirthogyon betheu namyn Du6 rac wela6dyr pob peth a drugaraa6d oe arveredic defa6t a drugarhaa6d 6rth genedyl y Brytanyeit rac y cholli megys llog heb lywya6dyr arnei a gedwis udunt Owein yn dywyssa6c arnunt. Kanys kyn kyrchassei anniodefedic dristit ved6l y tywyssa6c. eissoes ef ae drychafa6d. deissyfyt lewenyd dr6y racweledigaeth Du6. Kanys yd oed neb un gastell a elwit yr Wydgruc[3] y buessit yn vynych yn ymlad ac ef heb dygya6. A phan doeth g6yr da Owein ae deulu y ymlad ac ef ny alla6d nac anyan y lle nae gedernit ym6rthlad ac 6ynt yn y losget y castell ac yn y diffeith6yt gwedy llad rei or kastellwyr a dala ereill ae carcharu. A phan gigleu Owein yn tywyssa6c ni hynny y gellyg6yt ef y gan bob dolur a phob med6l k6ynvanus ac y doeth yn rymus yr ansa6d a oed arna6 gynt. Y vl6ydyn rac 6yneb daeth Lowys vrenhin Ffreinc ac amhera6dyr yr Almaen gyt ac ef a diru a6r luossogr6yd o ieirll a bar6neit a thywyssogyon gyt ac 6ynt a chroes y Gaerussalem. Y vl6ydyn honno y kyffroes Cadell ab Grufud ae vrodyr Maredud a Rys. A G6ilim ab Geralt ae vrodyr gyt ac 6ynt lu am benn Castell G6iff.[4] A gwedy anobeitha6 o honynt yn y nerthoed e hunein. Gal6 Howel ab

[1] Aberteifi. MS. Ll.
[2] Gyssegredic. ib.
[3] Angeu. ib.
[4] Ac aruen. MS. Ll.

[1] Dyfiad. ib.
[2] Chlaer. ib.
[3] Y Rwydgruc.
[4] Gwiss. MS. Ll.

Owein a orugant yn borth udunt. Kanys gobeitha6 yd oedynt oe de6rle6 luossogr6yd ef parottaf y ymladeu ae doethaf gygor gaffel o nadunt y vudugolyaeth. A Howel megys yd oed ch6anna6c yn wastat y glot a gogonyant a beris gynulla6 llu gle6af a pharottaf yn enryded y hargl6yd. kymryt hynt a oruc tu ar dywededic gastell. A gwedy y aruoll yn enrydedus or dywededigyon varwneit yno pebyllya6 a wnaeth. A holl negesseu y ryuel a wneit oe gygor ef ae dechymic. Ac uelly yd oed ba6b or o oed yno y oruchel ogonyant a budugolyaeth dr6y oruot ar y castell oe gygor ef gan dirua6r ymrysson ac ymlad. Ac odyno yd ymchoela6d Howel yn vuduga6l drachefyn. ny bu bell g6edy hynny yn y uu tervysc y r6g Howel a Chynan veibon Owein a Chatwaladyr. Ac odyna yd aeth[1] Howel or neilltu. a Chynan or tu arall hyt ym Meironnyd ae gal6[2] a wnaethant y la6 gwyr y wlat a gilyassant y noduaeu egl6ysseu gan gad6 ac 6ynt y nodvaeu ac enryded yr egl6ysseu. Ac odyna kyweira6 eu bydin a wnaethant tu a Chynuael castell Cadwaladyr yr hwn a wnathoed Cadwaladyr kyn no hynny yn y lle yd oed Moruran Abat y ty G6yn yn Ystiwert yr h6nn a 6rthodes rodi y 6rogaeth udunt. kyt ys profit weitheu dr6y ar6ydon[3] vegythyeu. gweitheu ereill dr6y aneiryf anregyon a rodyon a gynygyit ida6. Kanys gwell oed ganta6 uar6 yn adu6yn no d6yn y vuched yn d6yllodrus. A phan welas Howel a Chynan hynny d6yn kyrch kynhyruus yr kastell a wnaethant. ae ennill a orugant y dreis. Ac o vreid y diegis keitweit y castell dr6y nerth y cyfeillon wedy llad rei oe kedymdeithon. a brathu ereill. Yn y vl6ydyn honno y bu uar6 Robert iarll uab Henri[4] g6r a gynhalassei ryuel yn erbyn Estevyn vrenhin deudeg mlyned kyn no hynny. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Gilbert iarll. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Uchtrut escob Llan Daf g6r ma6r y volyant ac amdiffyn6r yr egl6ysseu. g6rth6ynebwr y elynyon yn y berffeith heneint. Ac yn y ol ynteu y bu escob Nicol uab G6rgant. Yn y vl6ydyn honno y bu uar6 Bernart escob Myny6 yn y drydyd vl6ydyn ar dec ar hugeint oe escoba6t g6r enryued y volyant a dy6a6lder a santeidr6yd oed wedy diru a6rogyon lauuryeu ar vor a thir. 6rth beri y egl6ys Vyny6 y hen rydit. Ac yn y ol ynteu y dynessaa6d yn escob Davyd uab Geralt archdiaga6n Keredigya6n. Yn y vl6ydyn honno y bu uar6 Robert escob Henfford g6r oed her6yd yn barn6ryaeth ni greuydus a chyflawn o weithredoed cardodeu a hegar borthwr y tlodyon. ac arbennic deg6ch yr eglwysseu yn gyfla6n o dydyeu da hyt na lygrit cadeir yr ueint brelat h6nn6 o anheil6g erlynya6dyr. Yna yd urdwyt Gilbert abat Kaer Loyw yn escob yn Henfford. Yn y vl6ydyn honno y bu ua6r var6olyaeth yn ynys Prydein. Y vl6ydyn rac wyneb yd adeila6d Owein uab Grufud ab Kynan gastell yn Ial. Y vl6ydyn honno yd adeila6d Kadwaladyr uab Grufud gastell Llan Rystut o g6byl ac y rodes y rann ef y[1] Geredigya6n a Chad6ga6n y uab. Ygkylch diwed y vlwydyn honno yd adeila6d Mada6c uab Maredud gastell Croes Hysuallt. ac y rodes Gyfeila6c y Owein a Meuruc veibyon Grufud uab Maredud y nyeint. Y vlwydyn rac wyneb yd atgyweira6d Cadell ab Grufud gastell Kaer Vyrdin yr teg6ch a chadernit y deyrnas. ac y diffeitha6d Gedweli. Yn y vlwydyn honno y carchara6d Owein vrenhin G6yned Gynan y uab. Yn y vl6ydyn honno y delis Howel uab Owein Gatuan uab Kadwaladyr y gefynderw ac yd achuba6d y tir ae gastell. Ny bu bell wedy hynny yn y doeth meibon Grufud uab Rys. Cadell a Maredud a Rys a llu gantunt y Geredigya6n ae gorescyn hyt yn Aeron. Yn y vlwydyn honno y darpara6d Mada6c uab Maredud vrenhin Powys dr6y nerth Rand6lf iarll Kaer Lleon kyuodi yn erbyn Owein G6yned. A gwedy llad pobyl y ganhorth6ywyr ef yd ymchoela6d y rei ereill y kefyneu y ffo.

Deg mlyned a deugeint a chant a mil oed oet Crist pan duc Cadell a Maredud a Rys veibon Grufud ab Rys Geredigya6n oll y gan Howel ab Owein eithyr un castell a oed yn Pen Gwein yn Llan Vihagel. A gwedy hynny y gorescynnassant gastell Llan Rustut o hir ymlad ac ef. A gwedy hynny y kauas Howel uab Owein y castell h6nn6 y dreis ac y llosges oll. Ny bu hayach wedy hynny pan atgyweira6d Cadell a Maredud veibon Grufud ab Rys gastell ystrat Meuruc. A gwedy hynny yd edewit Cadell uab Grufud yn lletuarw wedy issiga6 yn greulawn o rei o wyr Dinbych ac ef yn hela. Ac ychydic wedy hynny wedy kynulla6 o Varedud a Rys veibon Grufud ab Rys y kedernit ac yn gyfun y kyrchassant Whyr ac ymlad a wnaethant a chastell Aber Llychwr oe losgi a diffeitha6 y wlat.

[1] Deuth.
[2] A galw. MS. Ll.
[3] Arwon. ib.
[4] Frenhin. MS. Ll.

[1] O. ib.

Yn y vl6ydyn honno yd atgyweirassant 6y oll deu gastell Dinweleir ac yd atgyweira6d Howel ab Owein gastell Hwmffre yn nyffryn Clettwr. Yn y vlwydyn rac wyneb yd yspeila6d Owein G6yned Guneda uab Kadwalla6n y nei uab y vra6t oe lygeit. Yn y vlwydyn honno y llada6d Llywelyn ab Mada6c ab Maredud Ysteuyn uab Baldwin. Yn y vlwydyn honno y g6rthladyr[1] o ynys Von. ac y bu uar6 Simon archdiagon Keueila6c g6r ma6r y enryded ae deilygda6t. Yn y vl6ydyn rac wyneb y kyweira6d Maredud a Rys veibon Grufud uab Rys y Penwedic. Ac ymlad a wnaethant a chastell Howel ae dorri. Ny bu ua6r g6edy hynny yn y gyrcha6d ueibon Rys gastell Dinbych. a thr6y urat nos wedy torri y porth y goreseynnassant y castell. ac y dodassant ef ygkadwryaeth G6ilim uab Geralt. a g6edy daruot hynny y diffeitha6d Rys uab Grufud a diua6r lu gyt ac ef gastell ystrat Kyngen. A mis Mei wedy hynny y kyrcha6d Maredud a Rys veibon Grufud y gyt gastell Aberuyn.[2] a gwedy llad y castellwyr a llosgi y castell diua6r anreith ac anciryf oludoed a dugant gantunt. odyno eilweith y diffeitha6d Rys Geveila6c drwy uudugolyaeth. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Davyd mab y Moel C6l6m vrenhin Prydein. Y vlwydyn honno y doeth Henri tywyssa6c y Loeger. Y vl6ydyn honno y bu uarw Randwlf iarll Kaer Llion. Y vlwydyn honno ydaeth Cadell uab Grufud y bererinda6t ac yd edewys y holl uedyant ae allu ygkad6ryaeth Maredud a Rys y vrodyr yn y delei ef. Y vlwydyn honno y bu uarw Ysteuyn vrenhin, y g6r a gynhela6d vrenhinyaeth Loegyr y dreis yn ol Henri uab G6ilim vastard. A gwedy h6nn6 y deuth Henri mab yr amherodres y Loegyr ac y kynhalya6d holl Loeger. Y vl6ydyn honno y bu uarw Griffri ab G6ynn. Y vlwydyn rac wyneb y bu uar6 Maredud uab Grufud ab Rys brenhin Keredigya6n ac ystrat Tywi a Dyuet yn y bunet vlwydyn ar hugeint oe oet g6r a oed diua6r y drugare6d wrth dlodyon. Ac ardercha6c y gedernit 6rth y elynyon a chyuoctha6c y gyfya6nder. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Geffrei escob Llan Daf ar offeren [3]iarll Henfford. Y vlwydyn rac wyneb pan gigleu Rys uab Grufud uot Owein G6yned y ewythyr yn dyuot a llu gantaw y Geredigya6n yn dilesc y kynnulla6d ynteu lu ac y doeth hyt yn Aber Dyfi. ac yno y gorff6yssa6d ar uedyr ymlad a rodi br6ydyr y Owein G6yned ae lu. Ac ny bu bell wedy hynny[1] pan wnaeth yno gastell. Y vl6ydyn honno y g6naeth Mada6c uab Maredud argl6yd Powys gastell yg Kaer Eina6n yn ymyl Kymer. Yn y vl6ydyn honno y diegis Meuruc uab Grufud nei yr dywededic Vada6c oe garchar. Ny bu bell wedy hynny yn y gyssegrwyt eglwys Veir ym Meinot. Y vlwydyn honno y bu uarw Cerdeilach vrenhin Conach. Y ul6ydyn rac wyneb y duc Henri mab yr amherodres vrenhin Lloeger. wyr oed h6nn6 y Henri uab G6ilim Bastard diru a6r lu hyt ym maestir Kaer Lleon ar uedyr darest6g ida6 holl wyned. ac yno pebyllya6 a wnaeth. Ac yna gwedy galw [2]Owein tywyssa6c G6yned at ta6. y ueibon ae nerth ae lu ac allu. pebyllia6 a oruc yn dinas Bassin y diru a6r lu gyt ac ef. Ac yno gossot oet brwydyr ar brenhin a wnaeth. A pheri drychafael clodyeu ar uedyr rodi kat ar uaes yr brenhin. A gwedy clybot or brenhin hynny rannu y lu a oruc. ac anuon ieirll a bar6neit gyt a chadarn luossogr6yd o lu arua6c ar hyt y traeth tu ar lle yd oed Owein. ar brenhin e hun yn diergrynedic ac arua6c vydinoed parottaf y ymlad gyt ac ef a gyrchassant drwy y coet a oed y rygtunt ar lle yd oed Owein ae gyferbynyeit a oruc Dauyd a Chynan veibon Owein yn y coet ynyal. a rodi br6ydyr ch6er6dost yr brenhin. A gwedy llad llawer oe wyr breid y diegis yr Maestir. A phan gigleu Owein bot y brenhin yn dyuot ida6 or tu dra egefyn a g6elet o hona6 y ieirll or tu arall yn dynessau a diua6r lu arua6c gantunt ada6 y lle a oruc. a chilya6 a oruc hyt y lle a elwir Kil Owein. Ac yna kynnullaw a oruc y brenhin y lu y gyt[3] yn greula6n.[4] Ac yna y pebyllya6d Owein yn tal Llwyn Pina. Ac odyno yd argywedei ef y brenhin dyd a nos. A Mada6c uab Maredud argl6yd Powys a dewissa6d y le y bebyllyaw r6g llu y brenhin a llu Owein ual y gallei erbyniet y kyrcheu kyntaf a wnelei y brenhin. Ygkyfr6g hynny y dyblyga6d llyges y brenhin y Von. A g6edy adaw yn y llogeu y gwyr noethon ar g6assanaethwyr. y kyrcha6d tywyssa6c y llogeu ar penllogwyr gyt ac ef y ynys Von. ac yspeilaw a wnaethant eglwys Veir ac egl6ys Bedyr a llawer o egl6ysseu ereill. ac am hynny y gwnaeth Duw dial, arnunt. Kanys trannoeth y bu

[1] Gwrthladwyd Cadwaladyr. M.S. Ll.
[2] Aberavan. D. P.
[3] A llosser. MS. Ll.

[1] Hyd. ib.
[2] O. ib.
[3] A mynet hyt yn Rhuddlan. MS. Ll.
[4] *Om.* ib.

vr6ydyr y rygtunt a gwyr Mon. Ac yn y vr6ydyr honno y kilya6d y Ffreinc herwyd eu gnottaedic deua6t gwedy llad llawer o nadunt a dala ereill a bodi ereill. a breid y diegis ychydic o nadunt yr llogeu wedy llad Henri uab Henri vrenhin a chanm6yaf holl bennafduryeit y llogwyr.[1] A gwedy daruot hynny yd hedycha6d y brenhin ac Owein ac y kauas Katwaladyr y gyfoeth drachefyn. Ac yna yd ymchoela6d y brenhin y Loegyr. Ac yna yd ymchoela6d Iorwoerth Goch uab Maredud y gastell Ial ac y llosges. Y vl6ydyn rac 6yneb y llas Morgan ab Owein dr6y d6yll y gan wyr Iuor uab Meuruc a chyt ac ef y llas y trydyd goreu. a h6nn6 a elwit G[illegible]rgant uab Rys. Ac yna y g6ledycha6d Iorwoerth uab Owein ura6t Morgan dir Kaer Llion a holl gyfoeth Owein. A gwedy gwneuthur hed6ch o holl tywyssogyon kymry ar brenhin Rys uab Grufud e hunan a darpara6d g6neuthur ryfel ac ef. A duuna6 a wnaeth holl Deheubarth ae holl an6yleit ae holl da gantunt hyt yg coedyd Ystrat Tywi. A phan gigleu y brenhin hynny anuon kenadeu a wnaeth at Rys y venegi ida6 uot yn gryno ida6 vynet y lys y brenhin yn gynt noc y dygei Loegyr a Chymry a Ffreinc am y benn ac nat oed neb eithyr ef e hunan yn ymerbynyeit ar brenhin. A gwedy mynet yn y gygor ef ae wyrda ef a aeth y lys y brenhin. Ac yno y goruu arnaw oe anuod hedychu ar brenhin. dan amot ida6 gaffel y Cantref Ma6r a chantref arall or a vynhei y brenhin y rodi idaw yn gyfan heb y wasgaru. Ac ni chynhelis y brenhin ac ef hynny. namyn rodi dryll o dir yg kyfoeth pob bar6n o amryuaelon var6neit. A chyt dyallei Rys y d6yll honno kymryt a wnaeth y ranneu hynny ae kynhal yn hedycha6l. Ac yg-kyfr6g hynny kyt dyfryssei Rosser iarll Clar mynet y Geredigya6n. eissoes nys beidei kyn hedychu Rys ar brenhin. A gwedy hynny dydg6eith kyn kalan Mchefiu y doeth y ystrat Meuruc. a thrannoeth du6 kalan Mehevin yd ystorres y kastell h6nn6 a chastell H6mfre. a chastell Aber Dyfi. a chastell Dineir. a chastell Llan Rystut. Ygkyfr6g hynny y duc G6allter Clifford anreith o gyfoeth Rys ab Grufud. ac y llada6d oe wyr y wlat nessaf ida6. Kanys ef bioed kastell Llan ym Dyfri. A gwedy daruot hynny yd danfoues Rys genadeu att y brenhin y bery iawn ida6 am hyny.[2] Ac yna yd ymchoela6d teulu Rys. Ac y gastell Llan ym Dyfri y doeth Rys attunt. ac y goresgynna6d y castell. yna y kyrcha6d Eina6n uab Anara6t vra6t yr argl6yd Rys. ieuanc o oet a g6ra6l o nerth. Ac acha6s g6elet o hona6 bot Rys y ewythyr yn ryd or amot ac o bop ll6 a rodassei yr brenhin. Ac o ach[illegible]6s y uot ynteu yn dolyrya6 kynarsagedigaeth y bria6t genedyl gan d6yll y gelynyon. Yna y kyrcha6d am benn castell Humfre ac y llada6d y marchogyon dewraf a cheitweit y kastell o g6byl. Ac a duc holl anreith y castell ae holl yspeil oll ganta6. Ac yna pan welas Rys uab Grufud na allei ef ga[illegible]l6 dim ganta6 or a rodassei y brenhin i la6 namyn yr hynn a ennillei oe arueu. kyrchu a wnaeth am benn y cestyll a darestygassei yr ieiril ar bar6neit yg Keredigya6n ae llosgi. A gwedy clybot or brenhin hynny kyrchu Deheubarth a wnaeth a llu ganta6. A gwedy mynych 6rth6ynebu o Rys ae wyr ida6 ymchoelud a wnaeth y Loegyr. Ac odyno yd aeth dr6y y mor. Y vl6ydyn rac 6yneb y darestyga6d yr argl6yd Rys uab Grufud y cestyll a wnathoed y Ffreinc ar dra6s Dyfet ac y llosges. Ygkyfr6g hynny yd arweda6d y lu y Gaer Vyrdin ac [1]ymlada6d ac ef. Ac yna y doeth Reinalt uab Henri vrenhin yn y erbyn a chyt ac ef diruawr luossog6ryd o Ffreinc a Normanyeit a Fflemisseit a Saeson a Chymry. Ac ada6 a oruc Rys y castell a chynnulla6 y wyr y gyt hyt ym mynyd kefyn Restyr. Ac yno y pebyllya6d yg kastell Din6eleir. Reinallt iarll Bristei a iarll Clar a deu iarll ereill. a Chatwaladyr uab Grufud. a Howel a Chynan veibon Owein G6yned. a dirua6r lu o varchogyon a phedyt gyt ac 6ynt a heb veida6 kyrchu y lle yd oed Rys. ymchoelut adref a wnaethant yn lla6 segur. Odyna cynnic kygreir y Rys a orugant ac ynteu ae kymerth. A chenettau y wyr a wnaeth ymchoelut y g6lat. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Mada6c uab Maredud argl6yd Powys y g6r a oed dirua6r y volyanr6yd yr h6nn a ffurfa6d Duw o gymmeredid teg6ch. Ac ae kyflanwod o anhybygedic hyder. ac ae hadurna6d o lewder a molc yanrwyd ufud a hegar a hael 6rth dlodyon-hua6dyr 6rth ufudyon. Gar6 ac ymladgar. 6rth y alon. Gwedy g6neuthur iach6ya6l benyt a chymryt cymmun corff Crist. ac ole6. ac aghenn[2] ac ym Meiuot yn y lle yd oed y 6yl6a[3] yn egl6ys Tyssilia6 sant y clad6yt yn enrydedus. Ni bu ua6r wedy

[1] Llongéu. MS. Ll.
[2] Ac ni mynnawdd y brenhin beri iawn iddaw am hynny. MS. Ll.

[1] Ydd. MS. Ll.
[2] Angeu. ib.
[3] Wyddfa. MS. Ll.

hynny yn y las Llywelyn y uab. y g6r a oed unic obeith y holl wyr Powys. Ac yna y delis Kadwalla6n uab Mada6c uab Idnerth Eina6n Clut y vra6t ac y danuones ygkarchar Owein G6yned. Ac Owein ae rodes yr Ffreinc a thr6y y gedymdeithon y diegis hyt nos o Wiciew[1] yn ryd.

Trugein mlyned a chant a mil oed oet Crist pan uu varw Agharat g6reic Grufud uab Kynan. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Meuruc escob Bangor. Yn y vl6ydyn honno y goreskynna6d Howel uab Ieuaf gastell Daualwern yg Cyfeila6c o d6yll. Ac o acha6s hynny y syrtha6d Owein G6yned ygkymeint o dolur ac na allei na theg6ch teyrnas na didan6ch neb ry6 dim arall y arafhau nae dynnu oe gymmeredic lit. Ac eissoes kyt kyrchei anniodefedic dristit ued6l Owein deissyfyt lewenyd o racweledigaeth Duw ae kyfodes. Kanys yr un ryw Owein a gyffroes un ryw lu y Ar6ystli hyt yn Llan Dinam. a g6edy kaffel diua6r anreith o nadunt ymgynnulla6 a oruc gwyr Arwystli amgylch try chan 6r gyt a Howel uab Ieuan y hargl6yd y ymlit yr anreith. A phan welas Owein y elynyon yn dyuot yn deissyfyt. annoc y wyr y ymlad a oruc. ar gelynyon a ymchoelassant ar ffo gan y llad o Owein ae wyr yn y bu vreid y diegis y traean adref ar ffo. A phan gyflenwis y llewenyd h6nn6 ved6l Owein. Yna yd ymchoela6d ar y gyssevin ansa6d wedy y rydhau oe gymmeredic dristit. ac atgyweiraw y castell a oruc. Y vl6ydyn rac wyneb y dyg6yda6d Caer Offa y gan Owein ab Grufud ab[2] Owein ab Mada6c. a Maredud uab Howel. y vl6ydyn honno y kyffroes Henri vrenhin Lloegyr lu yn erbyn Deheubarth. Ac y doeth hyt ym Penn Cadeir. A gwedy rodi gwystlon o Rys idaw ymchoelut y Loegyr a wnaeth. Ac yna y llas Eina6n uab Anara6t yn y g6sc y gan Wallter ab Llywarch y 6r e hun. ac y llas Cad6ga6n ab Maredud y gan Wallter uab Ridit. Ac yna y kymerth Rys ab Grufud y cantref ma6r a chastell Dinefwr. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Kediuor uab Daniel archdiagon Keredigya6n. Ac yna y bu uar6 Henri ab Arthen goruchel athro ar holl gyfredin yr holl yscolheigon. Y vl6ydyn rac wyneb wedy g6eled o Rys ab Grufud nat yttoed y brenhin yn kywiraw dim 6rtha6 or a ada6ssei. ac na allei ynteu uuduchockau[3] yn adu6yn kyrchu a wnaeth yn wrawl am benn cyfoeth Rosser iarll Clar y g6r y lladyssit Eina6n uab Anara6t y nei oe acha6s. a thorri castell Aber Rheidawl. a chastell Mabwynya6n ae llosci. ac atorescynn holl Geredigya6n a mynychu lladuaeu a lloscuaeu ar y Fflemisseit. a d6yn mynych anreitheu y gantunt. A gwedy hynny yd ymaruolles yr holl Gymry ar ym6rthlad a cheitweit y Ffreinc a hynny yn gyfun y gyt. Y vl6ydyn rac wyneb y diffeitha6d Dauyd uab Owein G6yned Tegigyl. ac y muda6d y dynyon ae hanifeileit y gyt ac ef hyt yn dyffryn Cl6yt. A gwedy tebygu or brenhin y bydei ymlad ar y castell a oed yn thegygyl kyffroi llu a oruc dr6y diua6r vrys a dyuot hyt yn Rudlan a phebyllu yno deirnos. A gwedy hynny ymchoelut y Loegyr. a chynnulla6 diua6r lu y gyt ac ef a detholedigyon ymladwyr Lloegyr a Normandi a Fflandrys ac Angiw a Gwasg6in a holl Brydein a dyuot hyt y Groes. Oswallt gan darparu alltuda6 a difetha yr holl Vrytanyeit. Ac yn y erbyn ynteu y deuth Owein G6yned. a Chatwaladyr ueibon Grufud ab Kynan a holl lu G6yned y gyt ac 6ynt. Ar argl6yd Rys ab Grufud a holl Deheubarth y gyt ac ef. ac Owein Keveila6c a Iorwoerth Goch uab Maredud a meibon Mada6c uab Maredud a holl Bowys y gyt ac 6ynt. a Deuna6[1] Mada6c uab Iorwoerth[2] ae holl gyfoeth y gyt ac ef.[3] Ac y gyt yn gyfun diergrynedic y doethant hyt yn Edeirna6n. a phebyllu a wnaethant yn Coruaen. A gwedy trigya6 yn hir yn y pebylleu yno heb arueidaw o un gyrchu at y gilyd y ymlad. llidyaw a oruc y brenhin yn diua6r. a chyffroi y lu hyt yghoet Dyffryn Keiria6c. a pheri torri y coet ae b6r6 yr lla6r Ac yno yd ymerbynya6d ac ef yn 6ra6l ychydic o Gymry etholedigyon y rei ny wydynt odef eu goruot yn a6sen y tywyssogyon. A llawer or rei kadarnaf a dygwyda6d o bob tu. Ac yna y pebyllya6d y brenhin ar bydinoed. y gyt ac ef. A gwedy trigya6 yno ychydic o dydyeu y kyfarsagwyt ef o diua6r dymestyl awyr a thra llifeireint gla6ogyd. A g6edy pallu ymborth ida6 yd ymchoela6d y pebylleu ac lu y vaestir Lloegyr. Ac yn gyfla6n o diua6r lit y peris dallu y g6ystlon a vuassei ygkarchar ganta6. yr ys talym o amser kyn no hynny. Nyt amgen deu uab Owein G6yned Kadwalla6n a Chynwric. a Maredud uab yr argl6yd Rys a rei ereill. A gwedy kymryt kygor y symuda6d y lu hyt yg kaer Lleon. ac yno

[1] Wiccw Wicwm. ib.
[2] A. MS. Ll.
[3] Ufuddoccau. ib,

[1] Deu uab.
[2] Idnerth.
[3] Wynt. MS. Ll.

pebyllya6 a oruc llawer o dydyeu yn y doeth llogeu o Dulyn ac or dinassoed ereill o Iwerdon atta6. A gwedy nat oed diga6n ganta6 hynny o logeu rodi rodyon a oruc y logeu Dulyn ae gell6g drachefyn ac ynteu ae lu a ymchoela6d y Loegyr. Yn y vl6ydyn honno y kyrcha6d yr argl6yd Rys kaer Aber Teiui ae chastell. ac y torres. ac y llosges. a diru a6r anreith a duc. Ac achub Castell Kil Gerran a oruc. a dala Robert Ysteuyn ae garcharu. Y vl6ydyn honno dr6ygen nat Du6 ac annoc yr Yspryt Glan y doeth koueint o vyneich y Ystrat Fflur. Ac yna y bu uar6 Llywelyn uab Owein G6yned y g6r a ragores mod pa6b o de6red a doethineb ar doethineb o ymadrod. ar ymadra6d o voesseu. Y vl6ydyn rac 6yneb y doeth y Ffreinc o Benuro ae Fflemisseit y ymlad yn gadarn a chastell Kil Gerran. A g6edy llad llawer oe g6yr yd ymchoelassant adref yn llaw wac. Ac eilweith yd ymladassant a Chilgerran yn over heb gaffel y castell. Y vl6ydyn honno y distrywyt dineis Basin y gan Owein G6yned. Y vl6ydyn honny y g6rthlad6yt Dieruut[1] uab M6rchath oe genedyl ac yd aeth hyt yn Normandi at vrenhin Lloegyr y eruynieit ida6 y dodi yn y gyfoeth drachefyn wedy c6yna6 wrtha6. Ac yn y vl6ydyn honno y g6rthlad6yt Iorwoerth Goch uab Maredud oe genedyl ac oe gyfoeth ym Mochnant y gan y deu Owein. Ar deu Owein hynny y rannassant Vochnant y rygtunt. ac y deuth Mochnant uch Raeadyr y Owein kefeila6c a Mochnant is Raeadyr y Owein Vychan. Y vl6ydyn rac 6yneb y kyfeira6d Owein a meibon Grufud ab Kynan y Wyned a Rys ab Grufud ab Rys o Deheubarth yn erbyn Owein keueila6c. ac y dugant y ganta6 Gaer Eina6n. ac y rodassant y Owein Vychan uab Mada6c uab Maredud. Odyna yd ennillassant Davalwern a honno a rodet yr argl6yd Rys kauys oe gyfoeth y dywetit[2] y hanfot. Ny bu ua6r wedy hynny yn y doeth Owein keueila6c a llu or Ffreinc y gyt ac ef am benn castell kaer Eina6n yr h6n a wnathoed Kymry kyn no hynny. A g6edy ennill y kastell y dorri a wnaethant ac losgi a llad yr holl gastellwyr. Yn diwed y vl6ydyn honno y kyrcha6d Owein a Chatwaladyr tywyssogyon G6yned. ar argl6yd Rys tywyssa6c o Deheubarth ae lluoed gyt ac 6ynt am benn castell Rudlan yn Tegeigyl. ac eisted 6rtha6 dri mis a orugant. A gwedy hynny cael y castell ae dorri. ae losgi. a chastell arall y gyt ac ef yr molyant y Gymry yn hyfryt uuduga6l pa6b y6 g6lat. Y vl6ydyn rac 6yneb y llas G6rgeneu abat a Llawden y nei y gan Gynan ac Owein. Y vl6ydyn rac 6yneb y rydha6yt Robert uab Ysteuyn o garchar yr argl6yd Rys y gyfeillt. Ac y duc Diernut[1] uab M6rchath[2] ef hyt yn Iwerdon gyt ac ef. Ac yr tir y doethant y L6ch Garmon. ac ennill y kastell a wnaethant. Y vl6ydyn rac 6yneb y llas Meuruc uab Adam dr6y d6yll yn y g6sc y gan Varedud Bengoch y gefynder6. yn diwed y vl6ydyn honno mis Tachwed y bu uar6 Owein G6yned uab Grufud ab Kynan tywyssa6c G6yned. g6r diru a6r y volyant ac anueidra6l y brudder ae uoned ae gedernit. ae de6red yg kymry.[3] wedy aneiryf uudugolyaetheu. heb omed neb eiryoet or arch a geissei. wedy kymryt penyt a chyffes ac ediuar6ch a chymun rinwedeu corff Crist. ac ole6 ac aghenn.

Deg mlyned a thrugein a chant a mil oed oet Crist pan lada6d Davyd ab Owein Howel uab Owein y bra6t hynaf ida6. Y vl6ydyn rac 6yneb y llas Thomas archescob g6r ma6r y grefyd ae sancteidr6yd ae gyfya6nder. ae gyghor ac annoc Henri vrenhin Lloegyr y pumhet dyd g6edy du6 Nadolic ger bronn alla6r y drinda6t yn y gapel e hun yg Gheint ae escoba6l wisc ymdana6. a del6 y groc yn y la6 y llas[4] ar diwed yr efferen. Yn y vl6ydyn honno y mord6ya6d Rickert iarll Terstig[5] uab Gilbert vwa kadarn a chadarn varcha6clu gyt ac ef y Iwerdon. Ac yn y kyrch kyntaf y kymerth Porth Lachi. A gwedy gwneuthur kyfeillach a Dieruut[6] vrenhin ac erchi y verch yn bria6t. ac o nerth h6nn6 y cauas Dinas Dulyn dr6y wneuthur diru a6r aerua. Ac yn y vl6ydyn honno y bu uarw Ropert uab Llywarch. Ac y bu uarw Dieruut vrenhin Largines. ac y clad6yt yn y dinas a elwit Fferna. Ac yn y vl6ydyn honno y mag6yt teruysc y r6g brenhin Lloegyr a brenhin Ffreinc am lad yr archescob. Kanys brenhin Lloegyr a rodassei yn veicheu y vrenhin Ffreinc Henri tywyssa6c B6rg6in a Thybawt ieuanc y urawt meibon oed y rei hynny yr Tibawt tywyssawc Byrgwin. a iarll Fflandrys a llawer o rei ereill pan wnaeth kymot ar archescob hyt na wnaei argywed ida6 byth. A g6edy clybot o Alexander bap rylad yr archescob anuon llythyreu at

[1] Diermit.
[2] Dyweid. MS. Ll.

[1] Diermit.
[2] Mwrtach MS. Ll.
[3] A dewredd y Cymry. MS. Ll.
[4] A chleddyfeu. ib.
[5] Trist. Strifling.
[6] Diermit.

vrenhin Ffreinc a wnaeth. ac at y meicheu ereill. A gorchymun udunt dr6y yscymunda6t kymell brenhin Lloegyr y dyuot y lys Rufein y wneuthur iawn am agheu yr archescob. Ac 6rth hynny anesm6ytha6 a wnaethant o bop aruaeth ar y tremygu ef. A phan welas Henri vrenhin hynny dechreu g6adu a oruc hyt nat ae gyghor ef y llas yr archescob. ac anuon kenadeu at y pab a wnaeth y venegi na allei ef vynet y Rufein dr6y yr ach6ysson hynny. Ykyfr6g hynny y kilya6d rann ua6r or vl6ydyn. A thra yttoedit yn hynny tu dra6 yr mor y kynulla6d yr argl6yd Rys uab Grufud lu am benn Owein Keueila6c y da6 ar uedyr y darest6g. Kanys y genifer g6eith y gallei Owein g6rthwynebu yr arglwyd Rys y g6rth6ynebei. A Rys ae kymhella6d y darest6g idaw. Ac y kymerth seith 6ystyl ganta6. Ygkyfr6g hynny ofynhau a wnaeth y brenhin yr ebostola6l ysgymunda6t ac adaw g6ladoed Ffreinc ac ymchoelut y Loegyr. a dywedut y mynnei vynet y darest6g Iwerdon. Ac 6rth hynny ymgynnulla6 a oruc atta6 holl dywyssogyon Lloegyr a Chymry. Ac yna y deuth atta6 yr argl6yd Rys. or lle yd oed yn Llwyn Danet amgylch yr wyl y ganet yr arglwydes Veir. Ac ymgyfeilla6 a wnaeth ar brenhin dr6y ada6 drychan meirch. A phedeir mil o ychen a phetwar gwystl ar hugeint. A gwedy hynny y dynessa6d y brenhin y Deheubarth. Ac yn yr hynt honno ar auon Wysc y duc ganta6 Iorwoerth uab Owein uab Crada6c uab Grufud. Ac o acha6s hynny y distrywa6d Iorwoerth ae deu uab Owein a Howel a anyssit ida6 o Agharat uerch Uchtrut escob Llan Daf. A Morgan uab Seisyll uab Dyfynwal. o Agharat uerch Owein chwaer Iorwoerth uab Owein gyt a llawer o rei ereill dref Gaer Llion ac y llosget hyt y castell. ac y diffeitha6d y wlat hayach o g6byl. Ac yna y deuth y brenhin a dirua6r lu ganta6 hyt ym Penuro yr unfet dyd ar dec o galan Hydref. ac y rodes yr argl6yd Rys Geredigya6n ac Ystrat Tywi ac Ystlwyf ac Euclfre. Ac yn yr haf h6nn6 yd adeilassei yr argl6yd Rys gastell Aber Teiui o vein a morter yr h6un a distrywassei kyn no hynny pan y duc y ar iarll Clar ac y dileawd Robert uab Ysteuyn o Nest uerch Rys ab Te6d6r. ar Nest honno a oed vodrup y Rys a Robert yn gefynder6 ida6. A brodyr Robert oed Dauyd escob Myny6. a G6ilim Bastard. Meibon oed y rei hynny y Eralt ystiwert. Ac yna yd aeth Rys o gastell Aber Teiui hyt yg kastell Penuro y ymdidan ar brenhin y deudecuet dyd o galan Hydref. a du6 Sad6rn oed y dyd h6nn6. Ac yd erchis Rys gynnulla6 y meirch oll a ada6ssei yr brenhin y Aber Teiui ual y beynt bara6t 6rth eu hanuon yr brenhin. A thrannoeth du6 sul yd ymchoeles Rys ac ethol a wnaeth whe meirch a phetwar ugeint 6rth eu hanuon drannoeth yr brenhin. A gwedy dyuot hyt y Ty G6ynn clybot a wnaeth ryuynet y brenhin y Vyny6 y bereirina6 ac offryma6 a wnaeth y brenhin ym Myny6 deu gappan cor o bali ar vedyr cantoryeit y wasanacthu Du6. Ac offryma6 hefyt a wnaeth dec swllt. Ac eruynneit a oruc Dauyd uab Geralt y g6r a oed escob ym Myny6 yna yr brenhin v6ytta y gyt ac ef y dyd h6nn6. a g6rthot y g6aha6d a oruc y brenhin. o acha6s gweglyt gormod dreul yr escob. Dyuot cissoes a oruc ef ar escob a thrychan6r gyt ac 6ynt y gina6a. a Rickert iarll g6r a oed o Iwerdon y ymgyueilla6 ar brenhin. Kanys o annod y brenhin y dathoed o Iwerdon. a llawer o rei ereill a gina6ssant oc eu seuyll. Ac yn ebr6yd gwedy kinya6 yd yskynna6d y brenhin ar y veirch. Gla6 ma6r oed yn y dyd h6nn6 a du6 g6yl Vihagel oed. Ac yna yd ymchoela6d y Benvro. A phan gigleu Rys hynny anuon y meirch yr brenhin a oruc. A g6edy d6yn y meirch rac bronn y brenhin kymryt a wnaeth un ar bymthec ar hugeint a etholes. a dywedut nat y bot yn reit ida6 wrthunt y kymerassei 6ynt. namyn yr talu diol6ch y Rys a vei v6y no chynt. A g6edy regi bod uelly yr brenhin dyuot a oruc Rys at y brenhin. a chael da6n[1] a wnaeth gyr bronn y brenhin. a rydhau a oruc y brenin ida6 Howel y uab. a vuassei ganta6 yn 6ystyl yn hir kyn no hynny a rodi oet a oruc y brenhin ida6 am y g6ystlon ereill a dylyei Rys y dalu yr brenhin. Ac am y dreth a dywetp6yt vry yn y delei y brenhin o Iwerdon. Parattoi llyges a wnaeth p6yt ac nyt oed adas y g6ynt udunt. Kanys amser nywla6c. a breid y keit yna yt aeduet yn un lle yg kymry. A gwedy dyuot[2] Galixtus bap. Erchi a wnaeth y brenhin gyrru y llogeu or borthua yr mor. Ar dyd h6nn6 ysgynnu y llogeu a orugant. Ac etto nyt oed gymmwynassgar y g6ynt udunt. Ac acha6s hynny ymchoelut a wnaeth drachefyn yr tir. ac ychydic o niuer y gyt ac ef. Ar nos gyntaf wedy hynny yd ysgynnawd y logeu gan 6yla6 o hona6 ef e hun ac o ba6b oe wyr. a thrannoeth du6 Sul oed yr unuet dyd ar bym-

[1] Ac urdas. MS. Ll.
[2] Dyuot Gwyl. MS. Ll.

thec o galan Racuyr dr6y hyr6yd awel wynt y dyblyga6d y logeu ar dir Iwerdon. Y vl6ydyn rac wyneb y bu diua6r var6olyaeth ar y llu oed gyt ar brenhin yn Iwerdon o acha6s newydder y diargrynedigyon wynoed. ac o acha6s kyfygd6r o newyn. Am na allei y llogeu a newidyeu yndunt vord6ya6 attunt y gayaf. dr6y dymestla6l gandared mor Iwerdon. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Katwaladyr ab Grufud ab Kynan vis Ma6rth. Ac yn y vl6ydyn honno yd ymchoela6d brenhin Lloegyr o Iwerdon. gan ada6 yno var6neit a marchogyon urdolyon drosta6 o acha6s y kenadeu a dathoed atta6 y gan y pab a Lowys vrenhin Ffreinc. A du6 G6ener y Croglith y doeth ym Penuro. ac yno y trigya6d y pasc h6nn6. a du6 Llun Pasc yd ymdidana6d a Rys yn Talacharn ar y fford. Ac odyno yd aeth y Loegyr. A gwedy mynet y brenhin o Gaer Dyf hyt y Kastell Newyd ar Wysc anuon a wnaeth y erchi y Iorwoerth uab Owein dyuot y ymwelet ac ef. ac y ymdidan am hed6ch. A rodi kadarn gygreir a oruc ida6 ac oe veibon. A phan yttoed Owein uab Iorwoerth gwas ieuanc grymmus hegar yn parottoi o gygor y dat ae wyrda y vynet gyt ae dat y lys y brenhin. y kyfaruu 6r[1] iarll Brista6 ac ef ar y fford yn dyuot a Gaer Dyf ac y lladyssant. A gwedy y lad ef yna y diffeitha6d y dat a Howel y vra6t a llawer o rei ereill heb ymdiret or acha6s h6nn6 yr brenhin o neb un mod cyfoeth y brenhin hyt yn Henfford a Chaer Loyw dr6y lad a llosgi ac anreitha6 heb drugared. Ac yna heb odric yd aeth y brenhin y Ffreinc wedy gossot yr argl6yd Rys yn Iustus yn holl Deheubarth. Ygkyfr6g hynny y delit Scisyll ab Dyfynwal a Ieuan uab Dyfynwal a Ridit dr6y d6yll y gan wyr y brenhin. ac y carcharo6yt yg kastell Abergefenni. Y vl6ydyn rac wyneb y bu diua6r ardymyr ar hinda ar hyt y gayaf ar g6an6yn a mis mei hyt dyd Ieu kychavel. Ar dyd h6nn6 y kyuodes diua6r dymystyl yn yr awyr o daraneu a myllt a chorwynt a chawadeu kenllysc. a gla6 y rei a dorres keigeu y g6yd. ac a vyrya6d y coedyd hyt y lla6r. a ry6 bryuet a doeth y vl6ydyn honno y yssu deil y g6yd. yn y diffr6yth-a6d hayach pob ry6 brenn. Y vl6ydyn honno ar vl6ydyn kyn no hi y collet lli a6s or dynyon ar aniueileit ac nyt heb acha6s. Kanys yn y vl6ydyn honno y ganet mab yr argl6yd Rys o uerch Varedud uab Grufud y nith uerch y vra6t. Ygkyfr6g hynny pan yttoed Henri vrenhin hynaf y tu dra6 yr mor y deuth y uab Henri ieuaf vrenhin newyd atta6. y ofyn ida6 beth a dylyei y wneuthur. Kanys kyt bei vrenhin ef llawer oed ida6 o uarchogyon. ac nyt oed ganta6 fford y dalu kyuar6sseu a rodyon yr marchogyon o nys kymerei yn ech6yn y gan y dat. Ar amser h6nn6 oed Ra6ys. Ae dat a dywa6t 6rtha6 y rodei ida6 ugein punt o v6nei y wlat honno beunyd yn dreul ac na chaffei m6y. Ac ynteu a dywa6t na chly6ssei ef eiryoet bot brenhin yn 6r pae ac na bydei ynteu. A g6edy kymryt or mab gyghor ef a aeth y dinas T6rs y geissa6 aryan ech6yn y gan v6rdeisseit y diuas. A phan gigleu y brenhin hynny. anuon kenadeu a oruc y brenhin at y b6rdeisseit. y wahard udunt dan boen y holl da. nat ech6ynynt dim oe uab ef. A heb ohir anuon a oruc wyr da y warchad6 y uab rac y vynet odyno yn dirybud y un lle. A g6edy adnabot or mab hynny peri a oruc medwi nossweith y g6ercheitweit a oed arna6 o lys y brenhin. A gwedy eu hada6 yn vedwon yn kysgu dianc a wnaeth ac ychydic o nifer y gyt ac ef hyt yn llys brenhin Ffreinc y whegr6n. Ygkyfr6g hynny yd anuones Howel y uab hyt att yr hen vrenhin tu dra6 yr mor ar vedyr trigya6 yn y llys a g6assanaethu ar y brenhin a haedu y ged-ymdeithas o bei vy6.[1] ac ual y gallei y brenhin ymdiret y Rys o bei vy6.[2] ar brenhin a aruolles y mab yn enrydedus. a diua6r diolch a wnaeth y Rys. Ac yna aflonydu a oruc y brenhin ieuanc ar gyuoeth y dat dr6y nerth y whegr6n. a Thyba6t iarll B6rg6yn. a iarll Fflandrys. A thra vyd y brenhin yn ymryson uelly tu dra6 yr mor y dechreua6d Iorwoerth uab Owein o Gwynll6g ymlad a Chaer Llion. y pymthecuet dyd o galan A6st du6 Merchyr. Ac a ostyga6d y dreis oe rym ae nerth. Du6 Sad6rn wedy hynny. g6edy dala du6 Gwener y dyd kyn no hynny y g6yr a oed yn kad6 y baeli. A throstunt 6ynteu drannoeth y rodet y kastell. A g6edy hynny yr eilweith yr eil dyd o vis Medi y kyrcha6d Howel uab Iorwoerth Went is Coet. A thrannoeth du6 G6ener y darestyga6d yr holl wlat eithyr y kastell, ac y kymerth wystlon o uchelwyr y wlat. Y vl6ydyn honno y goreskynna6d Dauyd uab Owein G6yned ida6 e hun ynys Von g6edy dehol o hona6 Uaelg6n uab Owein y vra6t hyt yn Iwerdon. Y vl6ydyn rac 6yneb y goreskynna6d Dauyd uab Owein holl 6yned gwedy g6rthlad o hona6 y holl

[1] Wyr. MS. Ll.

[1] A fei fwy. MS. Ll.
[2] A fei fwy. ib.

vrodyr ae holl ewythred. Y vl6ydyn honno y delis Dauyd uab Owein Vaelg6n y vra6t ac y carchara6d. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Kynan uab Owein G6yned. Yn y vl6ydyn g6edy hynny y delis Howel ab Iorwoerth o Gaer Llion. heb 6ybot oe dat Owein Penn Car6n y ewythyr. A g6edy tynuu y lygeit oe benn y peris y yspadu rac meithrin ctifed o hona6 a wledychei[1] Gaer Llion. Ac y gyrrassant ymeith odyno Iorwoerth a Howel y uab. Yn y vl6ydyn honno y hedycha6d Henri vrenhin hynaf. a Henri ieuaf. g6edy diru a6r distry6edigaeth Normandi ae chyfnessasyeit wledyd. Ac yna y delis Dauyd uab Owein dr6y d6yll Rodri uab Owein y vra6t un uam un dat ac ef. ac y carchara6d my6n gefynneu am geissa6 cyfran o dref y dat ganta6. Ac yna y priodes y brenhin Davyd h6nn6 Dam Em ch6aer y vrenhin Lloegyr dr6y debygu gallel o hona6 gaffel y gyuoeth yn llonyd hedycha6l or acha6s h6nn6. Ac yna y diegis Rodri o garchar Dauyd y vra6t. A chyn diwed y vl6ydyn y g6rthlada6d ef Dauyd o Von ac o Wyned. yn y doeth dr6y auon Gon6y. Ac yna yd ymbarattoes yr Argl6yd Rys ab Grufud 6rth uynet y lys y brenhin hyt yg Kaer Loy6. Ac y duc gyt ac ef dr6y gygor y brenhin holl dywyssogyon y Deheu a uuessynt yg g6rthwyneb yr brenhin. Nyt amgen Katwalla6n uab Mada6c o Vaelenyd y gefynder6. ac Eina6n Clut o Eluael y da6 gan y uerch. ac Eina6n uab Rys o Werthrynyon y da6 y llall. A Morgan ab Crada6c ab Iestyn o wlat Vorgan o Wladus y chwaer a Iorwoerth uab Owein o Gaer Llion. A Seisyll uab Dyfynwal o Went uch Coet. y g6r a oed yna yn bria6t a G6ladus chwaer yr argl6yd Rys. Hynny oll o dywyssogyon a ymchoelassant yw g6ladoed yn hedycha6l gyt ar argl6yd Rys y g6r a oed garedickaf gyueillt gan y brenhin yn yr amser h6nn6. dr6y ymchoelut Kaer Llion drachefyn y Iorwoerth ab Owein. Yn y lle wedy hynny y llas Seisyll uab Dyfynwal dr6y d6yll argl6yd Brecheina6c a chyt ac ef Rufud y uab a llawer o Bennaduryeit G6ent. Ac yna y kyrcha6d y Ffreinc lys Seisyll uab Dyfynwal. a g6edy dala G6ladus y wreic y lladyssant Gadwaladyr y uab. Ar dyd h6nn6 y bu y druanaf aerua ar wyrda G6ent. A g6edy y gyhoededicka danllywychedic d6yll honno uy beida6d neb or Kymry ymdiret yr Ffreinc. Ac yna y bu uar6 Cadell uab Grufud dr6y orthr6m glefyt. ac y clad6yt yn ystrat Fflur wedy kymryt abit y krefyd ymdana6. Ac yna y llas Rickert abat Cleryna6t my6n manachla6c yn ymyl Reinys[1] y gan neb un anffydla6n uynach o vrath kyllell. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Kynan abat y Ty G6ynn a Dauyd escob Myny6. Ac yn y ol y denessa6d Pyrs yn escob. Ac yna y kynhalya6d yr argl6yd Rys 6led arbennic yn castell Aber Teiui. ac y gyssodes deu ry6 amrysson un r6g y beird ar prydydyon ar llall r6g telynoryon a chrythoryon a phibydyon ac amrauaelon gerd arwest.[2] a d6y gadeir a ossodes y uudugolyon yr amryssoneu. Ar rei hynny a gyuoethoges ef o diru a6ryon rodyon. Ac yna y cauas gwas ieuanc oe lys e hunan y uudugolyaeth o gerd arwest. a gwyr G6yned a gauas y uudugolyaeth o gerd dava6t. A pha6b r kerdoryon ereill a ga6ssant y gan yr argl6yd Rys kymeint ac a archyssant hyt na 6rthlad6yt neb. Ar wled honno a gyhoedet vl6ydyn kyn y g6neuthur ar hyt Kymry a Lloegyr a Phrydein ac Iwerdon a llawer o wladoed ereill. Yn y vl6ydyn honno yn y Gra6ys yd ymgynulla6d kyghor hyt yn Llundein 6rth gadarnhau kyureitheu yr egl6ysseu yno geir bronn cardinal o Rufein a dathoed yno 6rth y neges honno. A g6edy meithryn cynn6ryf y r6g archescob Keint ac archescob Iorc y tervysg6yt y gyghor. Kanys y dyd kyntaf or kyg..or yd achubassei archescob Iorc eistedua y gadeir or tu deheu yr cardinal yn y lle y dylyer ac y gnottaei archescob Keint eisted. A thrannoeth pan doethant ger bronn y cardinal wedy amrysson yg g6yd yr holl lys am y teilygdodeu. y deuth y rei or tu drachefyn y archescob Iorc ac yd ymchoelassant y gedeir yn y vyd g6egil yr archescob yr lla6r ar gedeir ar y uchaf ac 6ynteu ar y dra6s ef gan y sathru ae traet. ae ffusta6 ae dyrneu. A breid y diegis yr archescob yn vy6 odyno. Y vl6ydyn rac 6yneb y llas Eina6n Clut. ac y llas Morgan uab Maredud. Ac yna yd adeila6d yr argl6yd Rys gastell Rayadyr G6y. Y vl6ydyn rac 6yneb y ryuela6d meibon Kynan yn erbyn yr argl6yd Rys. Ac yna y llas Kadwalla6n. Ac y dechreu6yt coueint y Manachla6c Gaer Lliou yr honn a elwir Deuma.

Pedwar ugeint mlyned a chant a mil oed oet Crist pan uu uar6 Alexander bap. Ac yn y ol ynteu y doeth yn bap Lucius. Ac yna y bu uar6 Adaf escob Llanely6 yn

[1] Ac yna o ddeisyfyd gyrch y goresgyn y Ffreinc Gaer Llion. MS. Ll.

[1] Remys.
[2] Genedloedd arwest.

Ryt ychen. ac y cladóyt y myón manachlaóc Osnei. Y vlóydyn rac óyneb y llas Randólff Depoyr a llawer o varchogyon y gyt ac ef y gan ieuenctit Coer Wynt. Y vlóydyn rac óyneb y bu uarw Henri ieuaf vrenhin Lloegyr. Ac y bu uaró Rickert archescob Keint. Y vlóydyn rac óyneb y bu uaró Ryderch abat y Ty Gwynn. A Meuruc abat y Cwm Hir. Y vlóydyn rac óyneb amgylch y Garaóys y doeth padriarch Caerussalem hyt yn Lloegyr y eruynieit nerth y gan y brenhin rac distryó or Ideóon ar Sarassinyeit holl Gaerussalem. A chyt ac amylder o varchogyon a phedit yd ymchoelaód drachefyn y Gaerussalem. Yn y vlóydyn honno duó calan Mei y symudaód yr heul y llió. ac y dywaót rei uot erni diffyc. Y vlóydyn honno y bu uaró Dauyd abat Ystrat Fflur. Ac y bu uaró Howel uab Ieuaf arglóyd Aróystli. ac y cladóyt yn enrydedus yn Ystrat Fflur. Ac yna y bu uaró Einaón uab Kynan. Y vlóydyn rac óyneb y bu uaró Lucius bap. Ac yn y le yd urdóyt y trydyd Urbanus yn bap. Yn y vlóydyn honno amgylch mis Gorffenna yd aeth Cofeint Ystrat Fflur y Redynaóc Velen yg Góyned. Ac yna y bu uaró Pedyr abat yn dyffryn Clóyt. Ac yna y llas Katwaladyr uab Rys yn Dyfet. ac y cladóyt yn y ty Góynn. Yn y vlóydyn honno y bu uaró Ithel abat Ystrat Marchell. Ac yna y llas Owein uab Madaóc gór maór y uolyant. Kanys cadarn oed a thec. a charedic a hael. ac adurn o voesseu da y gan deu uab Owein Kyueilaóc. nyt amgen Góenóynóyn a Chatwallaón. a hynny dróy nossaól vrat a thóyll. Ac yna y delit Llywelyn uab Katwallaón yn enwir y gan y vrodyr. ac y tynnóyt y lygeit oe benn. Ac yna y diffeithaód ac o llosgaód Madaóc[1] uab Rys Dinbych. Y gór a oed daryan a chedernit yr holl Deheu. Kanys egluraf oed y glot a thec a charedic oed gan baóp. kyt bei kymedraól y veint garw wrth y elynyon. hegar órth y gedymdeithon. paraót y rodyon. budugaól yn ryuel. Ar holl dywysogyon kyt amhinogyon ac ef ae hergrynynt. kyffelyb y lew yn y weithredoed. Ac megys keneu lleó aruthur yn y helua. y gór a ladaód llawer or Fflandraswyr ac ae gyrraód ar ffo. Y vlóydyn rac óyneb y doeth y Sarassinyeit ar Ideóon y Gaerussalem gan dóyn y groc gantunt duó Merchur y Lludó a goresgyn Kaerussalem. a chymeint ac a gaóssant o Gristonogyon yndi llad rei a wnaethant a dóyn ereill yg keithiwet. Ac o achaós hynny y kymerth Philip brenhin Ffreinc. a Henri vrenhin Lloegyr. ac archescob Keint ac aneiryf o luossogróyd cristonogyon ac aróydon croes Crist arnunt. Y vlóydyn rac wyneb y bu uaró Henri vrenhin. ac yn y ol ynteu y coronet Rickert y uab yn vrenhin y marchaóc goreu a gleóaf. Y vlóydyn honno y goreskynnaód yr arglóyd Rys gastell Seint Cler. ac Aber Coran. a Llan Ystyffan. Yn y vlóydyn honno y delit Maelgón uab Rys y gan y dat dróy gyghor Rys y uraót ac y carcharóyt.

Deg mlyned a phedwar ugein a chant a mil oed oet Crist pan aeth Phylip vrenhin Ffreinc. a Rickert vrenhin Lloegyr ac archescob Keint a diruaór iuossogrwyd o ieirll a baróneit y gyt ac óynt y Gaerussalem. Yn y vlóydyn honno yd adeilaód yr arglóyd Rys Castell Ketweli. Ac y bu uaró Gwenllian uerch Rys vloden a thegóch holl Gymry. Y vlóydyn rac wyneb y bu uaró Grufud Maelaór yr haelaf o holl tywyssogyon Kymry. Y vlóydyn honno heuyt y bu uaró Góiaón escob Bangor gór maór y grefyd ae enryded ae deilyggaót. Ac y bu diffyc ar yr heul. Y vlóydyn honno y bu uaró archescob Keint. Ac yna y llas Einaón or Porth y gan y vraót. Ac y goresgynnaód yr arglóyd Rys gastell Niuer. Ac y bu uaró Owein uab Rys yn Ystrat Fflur. Y vlóydyn rac óyneb y diehegis Madaóc uab Rys o garchar arglóyd Brecheinaóc. Ac y goresgynnaód yr arglóyd Rys gastell Llan y Hadein. Ac y bu uaró Grufud uab Cadógaón. Y vlóydyn rac óyneb y delis neb un iarll Rickert vrehin Lloegyr ac ef yn dyuot o Gaerussalem. ac y dodet yg karchar yr amheraódyr. A thros y ellygdaót ef y bu diruaór dreth dros óyneb holl Loegyr y gymeint ac nat oed yn helóo eglóyswyr na chrefydwyr nac eur nac aryant hyt yn oet y carecleu a dodrefyn yr eglóysseu ar ny orffei y dodi oll ym medyant sóydogyon y brenhin ar deyrnas órth y rodi drostaó. Y vlóydyn honno y darestygaód Rodri uab Owein ynys Von dróy nerth Górthrych vrenhin Manaó. A chyn penn y vlóydyn y górthladóyt y gan veibon Kynan uab Owein. Y vlóydyn honno nos nadolic y doeth teulu Maelgón uab Rys a bliuieu gantunt y dorri castell ystrat Meuruc. ac yd ennillassant y kastell. Y vlóydyn honno y kauas Howel Seis ab yr Arglóyd Rys gastell Góis dróy urat. Ac y delis Phylip uab Góis keitwat y kastell ae wreic ae deu uab. A góedy góelet or dywededic Howel na allei ef gadó y kestyll oll heb vóró rei yr llaór. ef a ganhadaód y deulu ac y deulu y

[1] Maelgwyn.

vra6t torri castell Llan y Hadein ae distry6. A phan gigleu y Fflaudrassyeit hynny kynnulla6 a wnaethant yn dirybud yn erbyn y deu uroder. ac kyrchu. a llad llawer oe gwyr. ae gyrru ar ffo. Ac yn y lle g6edy hynny ymchoelut a wnaeth y Kymry. ac ymgynnulla6 ygkylch y castell. ac 6rthy hewyllys y distry6yt hyt y lla6r. Y vl6ydyn honno y delis Anara6t Vada6c a Howel y vrodyr ac yd yspeila6d 6ynt oc eu llygeit. Y vl6ydyn honno y rodes Maelg6n uab Rys gastell Ystrat Meuruc y vra6t. Ac yd adeila6d yr Argl6yd Rys eilweith gastell Rayadyr G6y. Y vl6ydyn honno y delit yr arglwyd Rys y gan y veibon ac y carcharwyt. Ac y rydhaawd Howel Seis y dat gan dwyllaw Maelgwn uab Rys. Ac yna y torres meibon Katwallawn gastell Rayadyr Gwy. Ac yd ymchoela6d Rickert vrenhin o Gaerusalem. Ac yna kyfuna6d Llywelyn ab Iorwoerth a Rodri uab Owein a deu uab Kynan ab Owein. yn erbyn Dauyd uab Owein. Ac y g6rthladyssant 6y holl gyfoeth Dafyd eithyr tri chastell. Y vl6ydyn rac 6yneb y deuth Rosser Mortymer a llu ganta6 y Vaelenyd. A g6edy g6rthlad meibon Cadwalla6n yd adeila6d gastell y Gamaron.[1] Ac yna y goreskynna6d Rys a Maredud meibon yr Argl6yd Rys dr6y d6yll gastell Dinef6r a chastell y Cantref Bychan dr6y gyt synnedigaeth g6yr y kymhydeu.[2] Ar rei hynny a delit yn y vl6ydyn honno dr6y d6yll y gan y tat yn Ystrat Meuruc ac a garcharo6yt. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 escob Bangor. Ac yna y kynulla6d yr argl6yd Rys lu. ac y kyrcha6d kaer Vyrdin. Ac y llosges hyt y prid eithyr y kastell e hun. Ac od yna y kych6ynna6d a dirua6r lu ganta6 oe wyr e hun ac o wyr argl6ydi ereill a odynt gyfun ac ef y ymlad a chastell Col6yn. ae gymell y ymrodi. A g6edy y gael. ef ae llosges. Ac yn ebr6yd odyno y kych6ynna6d ae lu hyt Maes Hyfeid ae losgi. A g6edy llosgi y dyd h6nn6 yn y dyffryn yn gyfagos y kyweira6d Ros er Mortymer a Hu Dysai yn vydinoed aru a6c. o ueirch a llurugeu a helmeu a tharyaneu yn dirybud yn erbyn y Kymry. A phan welas y ma6rvrydus Rys hynny ymwisga6 a wnaeth megys Llew dyfal o gallon a lla6 gadarn a chyrchu y elynyon yn 6ra6l ae hymchoelut ar ffo ae hymlit ae traethu[3] yn diel6 kyt bei g6ra6l. yn y g6yna6d y marswyr yn diruа6r yr ormod aerua or rei eidunt. Ac yn y lle yd ymladada6d a chastell Paen yn Eluael a blifieu a magneleu. Ac y kymella6d y ymrodi. A g6edy y gael y bu gyfundeb y rygta6 a G6ilim Brewys. Ac am hynny yd edewis y kastell h6nn6 yn hed6ch. Yn y vl6ydyn honno yd ymlada6d Henri archescob Keint Iustus holl Loegyr. a hyt ac ef gynnulleitua o ieirll a Bar6neit Lloegyr a holl tywyssogyon G6yned yn erbyn castell G6en6yn6yn yn Trall6g Llywelyn. A g6edy llauurys ymlad ac ef ac amryuaelon peiranneu a dechymygyon ymladeu yn y diwed o enryued gelfydyt 6ynt a ennillassant y kastell dr6y anuon m6yn6yr y gladu y dana6. ac y wneuthur ffossyd dirgeledic y dan y dayar. Ac uelly y kymhell6yt y kastellwyr y ymrodi. Ac eissoes 6ynt a diagyssant oll yn ryd ae g6isgoed gantunt ae harueu eithyr un a las. Ac odyna kyn diwed y vl6ydyn honno y kynulla6d G6en6yn6yn y wyr y gyt ac yd ymlada6d yn 6ra6l ar dywededic gastell ac ae kymhella6d y ymrodi ida6. dr6y amot hefyt rodi rydit yr castellwyr y vynet yn iach ae dillat ae harueu gantunt. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Grufud abat Ystrat Marchell. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu diruа6r dymhestyl o uar6olyaeth ar hyt ynys Prydein oll a theruyneu Ffreinc yn y vu var6 aneiryf or bobyl gyffredin. a diuessured or bonedigyon ar tywyssogyon. Ac yn y vl6ydyn dymestla6l honno yd ymdangosses Antropos oe ch6ioryd y rei a el6it gynt yn du6iesseu y tyghetuennoed y kyghoruynnus wen6ynic nerthoed yn erbyn y veint arderch a6c dywyssa6c hyt na allei ystoryau Ystas ystorya6r na chathleu Fferyll uard menegi y meint g6ynuan a dolur thrueni a doeth y holl genedyl y Brytanyeit pan dorres agheu yr e melldigedic vl6ydyn honno ol6yn y tyghetuenneu y gymryt yr Argl6yd Rys ab Grufud dan y hadaned dan darestygedic uedyant agheu y g6r a oed benn a tharyan a chedernit y Deheu a holl Gymry. a gobeith ac amdiffyn holl genedloed y Brytanyeit. Y g6r h6nn6 a hanoed o vonhedickaf lin brenhinoed. Ef a oed eglur o amylder kenedyl. a grymuster y ued6l a gyffelyba6d 6rth y genedyl. Kyghor6r y dylyedogyon. ymladgar yn erbyn kedyrn. diogel6ch y darestygedigyon. ymlad6r ar geyryd. Kyffro6r yn ryueloed. kyweir6r yn y bydinoed ae reol6r. c6ymp6r y toruoed. ac megys baed[1] neu le6 yn ruthra6 uelly y dywalei y greulonder yn y elynyon. Och am ogonyant yr ymladeu. taryan y marchogyon. ymdiffyn y wlat.

[1] Yng Nghamaron. MS. Ll.
[2] O bobtu. MS. Ll.
[3] Saethu.

[1] Yn wherun. MS. Ll.

tegóch arueu. breich y kedernit. llaó yr haelon. llygat y dosparth. echtyónnór yr aduónder. uchelder maórurytróyd. defnyd grymusder. Eil Achelaróy o nerth cledyr y dóyuronn. Nestor o hynaóster. Tideus o leóder. Samson o gedernit. Ector o brudder. Ereólf o wychter. Paris o vryt. Ulixes o lauar. Selyf o doethineb. Aiax o uedól. a gróndwal yr holl gampeu.

Góedy maró yr argióyd Rys y dynessaód Grufud y uab yn y ol yn y llywodraeth y kyfoeth yr hónn a delis Maelgónn y uraót pan doeth y dywededic Vaelgón wedy ryalltudaó kyn no hynny oe gyfoeth ae wyr y gyt ac ef. a theulu Góenóynóyn y gyt ac óynt hyt yn Aber Ystóyth. A goresgyn y dref ar castell. a llad llawer oe bobyl. a dóyn ereill ygkeithiwet a goreskyn holl Geredigyaón ae chestyll. A góedy dala Grufud y uraót yd anuones y garchar Góenóynóyn. A hónnó heróyd y ewyllys ae hanuones y garchar Saeson. Ac yna y goreskynnaód Góenóynóyn Aróystli. ac y delis Llywelyn uab Iorwoerth a Danyd ab Owein Góyned. Y vlóydyn honno y bu uaró Owein Kefeilaóc yn Ystrat Marchell wedy kymryt abit y crefyd ym danaó. Ac yna y bu uaró Owein ab Grufud Maelaór. ac Owein or Brithdir. a Howel uab Ieuaf. a Maelgón uab Katwallaón o Vaelened. Y vlóydyn honno y delit Trahayarn Vychan o Vrecheinaóc gór arderchaóc bonhedic cadarn. a nith yr argióydes yn briaót idaó pan yttoed yn dyuot dróy Lan Gors y lys Wilim Brewys y argióyd ac y gefynnóyt yn greulaón. Ac yn Aber Hodni y llusgóyt órth raón Meirch dróy yr heolyd hyt y crocwyd. ac yno yllas y benn ac y croget heróyd y draet. ac ar y crocwyd y bu dridieu. wedy dianc y wreic ae uab ae uraót ar ffo. Y vlóydyn rac óyneb y gorescynnaód Maelgón ab Rys Aber Teiui. a chastell ystrat Meuruc wedy mynet Grufud y uraót yg karchar Saesson. Ac yna y daeth coueint y Cóm Hir y bressóylaó y Gymer. Y vlóydyn honno y goresgynnaód y meibon ieuaf yr argióyd Rys gastell Dinefór. Y vlóydyn honno ýd aruaethaód Góenóynóyn geissaó talu y hen delygdaót yr Kymry. ae hen briodolder ae teruyneu. A góedy kytsynyaó ac ef ar hynny holl dywyssogyon Kymry kynullaó diruaór lu a oruc. a mynet y ymlad a chastell Paen. A góedy bot yn ymlad ac ef deir óythnos hayach heb óybot y damwein rac llaó. A phan óybu y Saesson hynny gellóg a wnaethant Rufud uab Rys a oed ygkarchar y gantunt a chynullaó kedernit Lloegyr y gyt ac ef ar uedyr hedychu ar Kymry. Ac yna ny mynnaód y Kymry hedóch y gan y Saesson namyn góedy caffael y kastell. bygythyaó a wnaethant losgi y dinassoed a dóyn y hanreitheu. A heb diodef or Saesson hynny óynt ae kyrchassant. ac yn y vróydyr gyntaf ae kymellassant ar ffo dróy wneuthur diruaór aerua o nadunt. Ac yna y llas Anaraót ab Owein ab Kadwallaón. a Ridit ab Iestyn. a Rodri uab Howel. ac y delit Maredud uab Kynan ac y karcharóyt. Ac uelly y deuth a Saesson drachefyn dróy uudugolyaeth wedy y kyuoethogi o yspeil y Kymry. Y vlóydyn honno y goreskynnaód Grufud uab Rys yn óraól y rann oe gyuoeth y gan Vaelgón y uraót eithyr deu castell nyt amgen Aber Teiui ac Ystrat Meuruc. Ar neill o nadunt nyt amgen Aber Teiui a tygaód Maelgón uch benn amryuaelon greireu yg góyd myneich wedy kymryt góystlon y gan Rufud dros hedóch y rodei y castell. ar góystlon y gyt yn oet dyd y Rufud. Ar llóhónnó a dremygaód ef heb rodi nar castell nar góystlon. Dóywaól nerth eissoes a rydhaaód y góystlon o garchar Góenóynóyn. Y vlóydyn honno y bu uaró Pyrs escob Mynyó. Y vlóydyn rac óyneb y gorescynnaód Maelgón uab Rys gastell Dineirth a adeilassei Grufud uab Rys. a chymeint ac a gauas yno o wyr llad rei a wnaeth a charcharu ereill. Ac yna y goreskynnaód Grufud ab Rys[1] gastell Kil Gerran. Y vlóydyn honno ual yd oed Rickert vrenhin Lloegyr yn ymlad a chastell neb un varón a oed órth óyneb idaó y brathóyt a chóarel. ac or brath hónnó y bu uaró. Ac yna y drychauóyt Ieuan y uraót yn vrenhin.

Deucant mlyned a mil oed oet Crist pan uu uaró Grufud uab Kynan ab Owein[2] yn Aber Conóy wedy kymryt abit y krefyd ymdanaó. Yn vlóydyn honno y góerthaód Maelgón uab Rys Aber Teiui a llaóed[3] holl Gymry yr ychydic werth y Saesson rac ofyn ac o gas Grufud y uraót. Y vlóydyn honno y gróndwalóyt m nachlaóc Lenegwestyl yn Ial. Y vlóydyn rac óyneb y gorescynnaód Llywelyn uab Iorwoerth gantref Llyyn wedy górthlad Maredud ab Kynan o achaós y dóyll. Y vlóydyn honno nos wyl Sulgóyn yd aeth coueint Ystrat Fflur yr eglóys newyd a adeilassit o aduónweith. Ychydic wedy hynny ygkylch góyl Bedyr a Phaól y llas Maredud uab Rys góas ieuanc advóyn campus yg Karny wllaón ae gastell ynteu yn Llan ym Dyfri.

[1] Drwy dwyll. MS. Ll.
[2] Gwynedd. ib.
[3] Gan allwed.

Ar cantref yd oed ynda6 a oresgynna6d Grufud y ura6t. Ac yn y lle wedy hynny wyl Iago Ebostol y bu uar6 Grufud ab Rys yn Ystrat Fflur. wedy kymryt abit y krefyd ymdana6. ac yno y clad6yt. Y vl6ydyn honno y cryna6d y dayar yg Kaerussalem. Y vlydyn rac 6yneb y g6rthlad6yt Maredud ab Kynan o Veironnyd y gan Howel ab Grufud y nei ab y ura6t ac yd yspeil6yt yn ll6yr eithyr y uarch. Y vl6ydyn honno yr 6ythuet dyd g6edy Du6 G6yl Bedyr a Pha6l yd ymlada6d y Kymry a chastell G6erthrynya6n a oed eida6 Rosser Mortymer ac y kymhellassant y kastellwyr y rodi y kastell kyn penn yr 6ythnos. ac y losgassant ef hyt y prid. Y vl6ydyn honno amgylch g6yl Veir gyntaf yn y kynhayaf y kyffroes Llywelyn uab Iorwoerth lu o Powys y darest6g G6en6yn6yn ida6 ac y oreskynn y 6lat. Kanys kynn bei agos G6en6yn6yn ida6 o gerennyd. gelyn oed ida6 her6yd g6eithredoed. Ac ar hynt y gelwis atta6 y tywyssogyon ereill a oedynt gereint ida6 y ymaruoll ar ryfelu y gyt yn erbyn G6en6yn6yn. A g6edy g6ybot o Elisy ab Madac hynny ym6rthod a wnaeth ar ymaruoll yg g6yd pa6b. Ac oe holl ynni aruaethu a wnaeth wneuthur hed6ch a G6en6yn6yn. Ac am hynny wedy hedychu o egl6ysswyr a chefydwyr y r6g G6en6yn6yn a Llywelyn a digyfoethet Elisy. Ac yn y diwed y rodet ida6 ygkarda6t y ymborth gastell a seith tref bychein y gyt ac ef. Ac uelly g6edy goresgynn castell y Bala yd ymchoela6d Llywelyn drachefyn yn hyfryt. Y vl6ydyn honno amgylch g6yl Vihangel y goresgynna6d teulu Rys ieuanc ab Grufud ab yr Argl6yd Rys gastell Llan ym Dyfri. Y vl6ydyn rac 6yneb y goresgynna6d Rys ieuanc gastell Llan Egwat. Ac yna y bu uar6 Dauyd ab Owein yn Lloegyr wedy y deol o Lywelyn ab Iorwoerth o Gymry. Y vl6ydyn honno y goresgynna6d G6en6yn6yn a Maelg6n ab Rys dr6y dychymygyon gastell Llan ym Dyfri. a chastell Llan Gada6c. ac y c6pla6yt castell Dineirth. Y vl6ydyn rac 6yneb y brath6yt Howel Seis ab yr argl6yd Rys yg Kemeis dr6y d6yll y gan wyr Maelg6n y ura6t. ac or brath h6nn6 y bu uar6. ac y clad6yt yn Ystrat Fflur. yn unwed a Grufud y ura6t. wedy kymryt abit y krefyd ymdana6. Y vl6ydyn honno y colles Maelg6n ab Rys allwedeu y holl gyfoeth. Nyt amgen Llan ymdyfri a Dinef6r. Kanys meibon[1] y ura6t ae hennilla6d arna6 yn 6ra6l. Y vl6ydyn honno y deuth G6ilim Marsgal a dirua6r lu ganta6 y ymlad a Chil Gerran. ac y gorescynna6d. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Hubert archescob Keint. y g6r a oed lygat yr pab a phen prelat holl Loegyr. Y vl6ydyn honno y peris Maelg6n uab Rys y dyd kyntaf or g6edieu yr haf y neb un 6ydel Abwell lad Kediuor ab Griffri. g6r da adu6yn ae bedwar arderchogyon veibon gyt ac ef a hanoedynt o dylyeda6c voned. Kanys y uam oed Susanna uerch Howel. o uerch Mada6c uab Maredud. Y vl6ydyn rac 6yneb y deuth Ieuan gardinal hyt yn Lloegyr. ac y kynnulla6d atta6 holl escyb ac abadeu Lloegyr. ac aneiryf o egl6yswyr a chefrydwyr 6rth wneuthur sened. Ac yn y sened honno y kadarnhaa6d kyfreith yr egl6ys dr6y yr holl deyrnas. Y vl6ydyn honno y g6naeth Maelg6n ab Rys gastell Aber Eina6n. Ac yna y rodes Duw amylder o byscа6t yn Aber Yst6yth yn gymeint ac na bu y kyfry6 kyn no hynny. Y vl6ydyn rac 6yneb y g6ahard6yt y gristonogaeth y gan y pab yn holl teyrnas Loegyr o acha6s g6rth6ynebu o Ieuan vrenhin etholedigaeth archescob Keint. Y ul6ydyn honno y g6rthlada6d Ieuan vrenhin Wilim Bre6ys a G6ilim icuanc y uab ae g6raged ae h6yron o gyghoruynt a chas hyt yn Iwerdon dr6y amarch a chollet ar yr eidunt. Y vl6ydyn honno y delis y brenhin Wen6yn6yn yn Am6ythic. Ac y goresgynna6d Llywel uab Iorwoerth y holl gyfoeth ae gestyll ae lyssoed. A phan 6ybu Vaelg6n ab Rys hynny rac ofyn Llywelyn ab Iorwoerth y byrya6d gastell Ystrat Meuruc yr lla6r a llosgi Dineirth ac Aber Yst6yth. Ac nyt edewis eissoes Lywelyn y aruaeth namyn dyuot a wnaeth hyt yn Aber Yst6yth ae hadeilat. a chymryt cantref Penwedic ida6 e hun. a rodi y dryll arall o Geredigyon uch Aeron y veibon Grufud ab Rys y nyeint. Y vl6ydyn honno y goresgynna6d Rys Vychan uab yr argl6yd Rys gastell Llan Gada6c. heb goffau yr amot a wnathoed ae nyeint pan rodyssant ida6 gastell Dinef6r. Y vl6ydyn rac 6yneb yd ymlada6d Rys ac Owein meibon Grufud a chastell Llan Gada6c ac y llosgassant gan lad rei or kastellwyr a charcharu ereill. Y vl6ydyn honno yd aeth Ieuan urenhin a diru a6r lu ganta6 hyt yn Iwerdon. ac y duc y ar ueibon Hu Dylasai y tir ae kestyll. A g6edy kymryt g6rogaeth y gan ba6b o Iwerdon. a dala g6reic Wiliam Brewys a G6ilim ieuanc y uab ae wreic ae uab ae uerch yd ymchoela6d y Loegyr yn enrydedus. Ac yna y llada6d ef Wilim ieuanc ae uam o anrugara6c agheu yg kastell

[1]Gruffudd. MS. Ll.

Windylsor. Y vl6ydyn honno yd adeila6d iarll Kaer Lleon gastell Degan6y yr h6nn a doryssei Lywelyn uab Iorwoerth kyn no hynny rac ofyn y brenhin. Ac yna hefyt yd adeila6d y iarll h6nn6 gastell Terfynna6n. ac y diffeitha6d Llywelyn ab Iorwoerth gyfoeth y iarll h6nn6. Ac yna g6edy hedychu o Rys Gryc ar brenin. dr6y nerth y brenhin y goresgynna6d gastell Llan ymdyfri. Kanys y kastellwyr wedy anobeitha6 o bop fford a rodassant y kastell. ac un amws ar bymthec ynda6 Du6 g6yl Veir y Medi dr6y amot cael or kastellwyr y cyrff a phob peth or eidynt yn iach. Y vl6ydyn honno amgylch g6yl Andras y goresgynna6d G6en6yn6yn y gyuoeth drachefyn dr6y nerth Ieuan vrenhin. o lewenyd hynny yd hedycha6d Maelg6n ab Rys ar brenhin a heb goffau y ll6 ar aruoll a uuassei y rygta6 a Rys ac Owein meibion Grufud ab Rys y nyeint. kynnulla6 diru a6r lu o Ffreinc a Chymry y rygta6 a Phenwedic ac y doeth hyt yg Kil Kennin. ac yno pebyllya6 a oruc. Ac yna y kynnulla6d Rys ac Owein meibon Grufud trychan6r o etholedigyon deuluoed a hyt nos kyrchu llu Maelg6n a orugant a llad llawer a dala ereill a gyrru y dryll arall ar ffo. Ac yn y vr6ydyr honno y delit Kynan ab Howel nei Maelg6n. a Grufud ab Kynan pen cygor6r Maelg6n. ac y llas Eina6n ab Crada6c ac aneiryf o rei ereill. Ac yna y diegis Maelg6n ar y draet yn ffo yn warat6ydus. Y vl6ydyn honno y kadarnhaa6d synyscal Kaer Loyw gastell Buellt. wedy llad or Kymry lawer oe wyr kyn no hynny. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Mahallt y Brewys mam meibon Grufud uab Rys yn Llan Badarn ua6r. wedy kymryt kymun a chyffes a phenyt ac abit y crefyd ac y clad6yt y gyt ae g6r pria6t yn Ystrat Fflur.

Dec mlyned a deucant a mil oed oet Crist pan duc Llywelyn ab Iorwoerth greulonyon gyrcheu am ben y Saeson. ac am hynny y llidya6d Ieuan vrenhin. ac aruaethu a wnaeth digyuoethi Llywelyn o g6byl. A chynnulla6 diru a6r lu a oruc tu a G6yned ar uedyr y distry6 oll. A chyt ae lu ef y dyfynna6d atta6 hyt yg Kaer Lleon hynn o dywyssogyon Kymry. G6en6yn6yn o Powys. a Howel ab Grufud ab Kynan. a Mada6c ab Grufud Maela6r. a Maredud ab Rotbert o Gedewein. a Maelg6n a Rys Gryc meibon yr argl6yd Rys. Ac yna y Muda6d Llywelyn ae giwda6t y perued y wlat ae da hyt yn mynyd Eryri. a chiwta6t Von ae da yn un ffunyt. Ac yna y deuth y brenhin ae lu hyt yg kastell Degan6y. Ac yno y bu kymeint eisseu b6yt ar y llu ac y g6erthit yr 6y yr kema6c a dimei. a g6led uoethus oed gantunt gael kic y meirch. Ac am hynny yd ymchoela6d y brenhin y Loegyr amgylch y Sulg6yn ae neges yn amherffeith. wedy colli yn warat6ydus la6er oe 6yr ac oe da. A g6edy hynny amgylch calan A6st yd ymchoela6d y brenhin y Gymry yn greulonach y ved6l ac yn v6y y lu. Ac adeilat lla6er o gestyll yg G6yned a wnaeth. A thr6y auon Gon6y yd aeth tu a mynyd Eryri. Ac annoc rei oc lu y losgi Bangor. Ac yno y delit Rotbert escob Bangor yn y egl6ys. ac y g6erth6yt wedy hynny yr deu cant heba6c. Ac yna heb allel o Lywelyn diodef creulonder y brenhin dr6y gyghor y wyrda yd anuones y wreic at y brenhin yr honn oed verch yr brenhin y wneuthur hed6ch y rygta6 ar brenhin pa ffuryf bynnac y gallei. A g6edy caffel o Lywelyn diogelr6yd y vynet att y brenhin ac y dyuot ef a aeth atta6 ac a hedycha6d ac ef. dr6y rodi g6ystlon yr brenhin o vonhedigyon y wlat. ac ugein mil o warthec a deugein emys. a chanhattau hefyt yr brenhin y berued wlat yn dragywyda6l. Ac yna yd hedycha6d ar brenhin holl dywyssogyon Kymry. eithyr Rys ac Owein meibon Grufud ab Rys. ac yd ymchoela6d y brenhin y Loegyr dr6y diru a6r lawenyd yn uudugа6l. Ac yna y gorchymynna6d ef yr tywyssogyon hynny gymryt y gyt ac 6ynt holl lu Morann6c a Dyuet. a Rys Gryc. a Maelg6n ab Rys ae lluoed. a mynet am benn meibon Rys ab Grufud ab Rys y gymell arnunt y dyuot y la6.[1] neu gilya6 ar dehol or holl deyrnas. Ac yna y kymhella6d Synyscal Kaer Dyf. g6r a oed dywyssa6c ar y llu. a Rys a Maelg6n meibon yr argl6yd Rys y lluoed ae kedernit a chyrchu Penwedic a wnaethant. A g6edy na allei Rys ac Owein meibon Grufud ymerbynyeit ar ueint allu h6nn6. ac nat oed le ryd udunt yg Kymry y gyrchu ida6 anuon kenadeu a orugant att Ffa6c6n y wneuthur y hed6ch. A hedychu ac ef a wnaethant. a chanhattau a wnaethant yr brenhin y kyuoeth r6g Dyfi ac Aeron. ac adeilat a oruc Ffa6c6n gastell yr brenhin yn Aber Yst6yth. Ac yna yd aeth Rys ac Owein meibon Grufud ar g6ndit Ffa6c6nn y lys y brenhin. ae kymryt a oruc y brenhin yn gyfeillon ida6. A thra yttoedynt 6y yn mynet y lys y brenhin. ediuarhau a oruc Maelg6n uab Rys a Rys Gryc y vra6t y hamodeu ar brenhin. a chyrchu a wnaethant am benn y castell

[1] Y brenhin. MS. Ll.

newyd yn Aber Yst6yth ae dorri. A phan doeth Rys ac Owein veibon Grufud ab Rys o lys y brenhin wedy hedychu ac ef kyrchu a wnaethant Is Aeron cyuoeth Maelg6n uab Rys a llad a llosgi ac anreitha6 y kyuoeth a wnaethant. Ac yno y llas g6as ieuanc da dewr oed h6nn6. Y vl6ydyn rac 6yneb wedy na allei Lywelyn ab Iorwoerth dywyssa6c G6yned diodef y genifer sarhaet a wnaei wyr y brenhin ida6 a edewyssit y castell[1] newyd. ymaruoll a oruc a thywyssogyon Kymry nyt amgen G6en6yn6yn a Maelg6n ab Rys. a Mada6c ab Grufud Maela6r. a Maredud ab Rotbert. a chyuodi a oruc yn erbyn y brenhin. a goresgyn yr holl gestyll a wnathoed yg G6yned eithyr Degan6y a Rudlan Marthaual ym Powys a wnathoed Robert Vep6nt h6nn6 a oresgynnassant. A phan oedynt yn goresgyn h6nn6 y doeth y brenhin a dirua6r lu y gyt ac ef y g6rthlad ac ef e hun a than ae llosges. Y vl6ydyn honno y croges Robert Vep6nt yn Am6ythic Rys ab Maelg6n a oed yg g6ystyl y gan y brenhin. heb y uot yn seith ml6yd etto. Ac yn y vl6ydyn honno y bu uar6 Robert escob Bangor. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu vr6ydyr. yn yr Yspaen y r6g y Cristonogyon ar Sarassinyeit.[2] yn y vr6ydyr honno y dywedir dyg6yda6 deg mil o wyr a their mil o wraged. Y vl6ydyn honno y croget yn Lloeger trywyr ardercha6c o genedyl a phrif tywyssogyon Kymry. Nyt amgen Howel ab Katwalla6n. a Mada6c uab Maelg6n. a Meuruc Barach. Y vl6ydyn honno y rydhaa6d Innossens bap y tri thywyssa6c. Nyt amgen Llywelyn ab Iorwoerth. a G6en6yn6yn a Maelg6n ab Rys or ll6 ar ffydlonder a rodassynt y vrenhin Lloegyr. A gorchymyn udunt a wnaeth yn uadeueint oe pechodeu dodi goualus garedicr6yd y ryuelu yn erbyn enwired y brenhin. A g6ahard y Gristnogaeth a baryssei yr ys pump mlyned kyn no hynny yn Lloegyr a Chymry. y rydhaa6d y pab y tri thywyssa6c gynneu oe kyuoetheu a pha6b ar a uei un ac 6ynt. Ac 6ynteu yn gyfun a gyuodassant yn erbyn y brenhin. Ac a oresgynnassant yn 6ra6l y arna6 y berued wlat. a dugassei ynteu kyn no hynny y ar Lywelyn ab Iorwoerth. Y vl6ydyn rac 6yneb wedy g6eled o Rys ieuanc y uot yn dirrann o gyfoeth anuon kenadeu a oruc att y brenhin y eruynneit ida6 dr6y y nerth ef peri ida6 rann o dref y dat. Ac yna yd anuones y brenhin att Synyscal Henfford. ac att Ffa6c6n Synyscal Kaer Dyf. a gorchymyn beri y Rys Gryc rodi castell Llan Ymdyfri ar wlat. neu ynteu a gilyei o deruyneu y wlat ar dehol. A g6edy dyfynnu Rys Gryc y atteb 6rth orchymynneu y brenhin. A dywedut a oruc yn atteb na rannei ef un er6 a Rys ieuanc. Ac yna llidya6 a oruc Rys Ieuanc. a chynulla6 dirua6r lu o Vrecheina6c. a dyuot y dreis a oruc y Ystrat Tywi. a phebyllya6 yn y lle a elwir Trall6c Elgan. wedy yr wythuet dyd o wyl Seint Ilar. A thrannoeth du6 G6ener y doeth atta6 Owein y vra6t. a Pha6c6n synyscal kaerdyf ae lluoed. A thrannoeth kyrchu a orugant gyuoeth Rys Gryc a chyweirya6 y bydinoed. a dodi Rys ieuanc ae vydin yn y blaen. a Ffa6c6n ae vydin yn y cana6l. ac Owein ab Grufud ae vydin yn ol. Ac ny bu bell yn y gyfaruu Rys Gryc ac 6ynt. Ac yn y vr6ydyr ar vydin gyntaf y goruu6yt ar Rys Gryc ae wyr. ac y kilya6d ar ffo wedy llad llawer oe wyr o dala ereill. Ac yna yd aeth Rys ieuanc ar uedyr ymlad a chastell Dinef6r. Ac eissoes Rys Gryc ae racula6na6d ac a gadarnhaa6d y gastell o wyr ac arfeu. A g6edy llosgi Llan Deila6 kilya6 ymeith a oruc Rys Gryc. Ac eissoes Rys ieuanc a g6rcha6d y castell. a thrannoeth dodi peiranneu a dechymygyon y ymlad ar castell. A g6neuthur ystolyon 6rth y muroed y wyr y driga6 dros y muroed. ac uelly y goresgynna6d ef y castell oll eithyr un t6r. ac yn h6nn6 yd ymgymerth y kastellwyr 6rth ymlad ac amdiffyn ac ergydyeu ac a pheiryanneu ereill. ac o dy allan yd oed saethydyon. ac arblastwyr. a m6ynwyr. a marchogyon yn ymlad ac 6ynt. Ac uelly y kymhell6yt arnunt kynn y prynha6n talu y castell a rodi tri g6ystyl a wnaethant dr6y amot cael y dillat ae harueu ae haelodeu yn iach. Ac uelly y g6naethp6yt. A g6edy cael y castell y kilya6d Rys Gryc ae wreic ae veibon ae deulu att Vaelg6n y ura6t. wedy cadarnhau castell Llan Ymdyfri o wyr ac arueu ac aghenreiteu ereill. Ac eilweith yd aeth Rys ieuanc y Vrecheina6c. Ac yna kynulla6 dirua6r lu a oruc o Gymry a Ffreinc. a chyrchu Llan Ymdyfri. A chynn pebyllu o nadunt ef a rodes y castellwyr y castell ida6 dr6y amot cael y heneideu ae haelodeu yn iach. Y vl6ydyn honno y kymerth Ieuan vrenhin benyt am y kameu a wnathoed yn erbyn yr egl6ys. a gal6 drachefyn archescob Keint. ar esgyb ar ysgolheigon a ymrodassant y alltuded o acha6s g6ahard yr egl6ysseu. Ac o acha6s

[1] Cestyll. MS. Ll.
[2] Ac or Sarasinieid. MS. Ll.

y górthrómm godyant a wnathoed yr eglóys yd ymróyma6d ef ae etiuedyon ae holl urenhinyaeth Lloegyr ac Iwerdon y Du6 a Phedyr a Pha6l. ar pab ar pabeu ereill yn y ol yn dragywyda6l. Ac ar hynny góneuthur górogaeth gan tygheu talu y ba6p or eglóysswyr y collet. a thalu mil o vorkeu bob blóydyn y eglóys Rufein. Y vlóydyn honno góedy ymada6 o Rys Gryc ar Kymry a mynnu hedychu ac 6ynt eilweith herwyd y dyweit. Yna y delit ef yg Kaer Vyrdin ac y dodet yg karchar y brenhin. Y vlóydyn honno y darestyga6d Llywelyn uab Iorwoerth gastell Degan6y a chastell Rudlan. Y vlóydyn rac 6yneb y mord6ya6d Ieuan urenhin ac amylder o ryuelwyr arua6c y gyt ac ef ym Pheita6. Ac ymaruoll ac ef a oruc iarll Fflandrys a Bar a Hena6nt. Ac anuon attunt a wnaeth ieirll Garur y gyt ae vra6t ac aneiryf a varchogyon. a góaha6d atta6 Otho amhera6dyr Rufein y nei. a chyuodi a oruc y ryfelu yn erbyn Phylip brenhin Ffreinc. Ac yna y mag6yt diruaór ryuel y rygtunt. Otho amhera6dyr Rufein ar iarll o parthret Fflandrys yn refelu. ar Ffreinc a Ieuan urenhin. o parthret Peita6 yn aflonydu. Ac uelly o bop tu yd oedynt yn kymhurtha6 y Ffreinc. Ac yna yd anuones Phylip arderha6c urenhin Ffreinc Lowys y uab y Peita6 a llu y gyt ac ef y ymerbynyeit a brenhin Lloegyr. Ac ynteu e hun ar Ffreinc y gyt ac ef a dyna6d tu a Fflandrys yn erbyn yr amhera6dyr. A phan welas yr amhera6dyr ar iarll hynny bl6g uu gantunt llauassu o vrenhin Ffreinc dynessau attunt. ae gyrchu yn dic a orugant. A g6edy yr ymlad ef a syrthya6d y uudugolyaeth y urenhin Ffreinc. ac a yrróyt yr amhera6dyr ar ieirll ar ffo o Fflandrys a Bar a Hena6nt. A phan gigleu vrenhin Lloegyr y damwein hónnó ofynhaw a wnaeth gynhal ryfel a vei vóy. a góneuthur kygreir seith mlyned a oruc a brenhin Ffreinc. ac ymchoelut y Loegyr. a thalu llawer oe colledeu yr eglóysswyr. Ac yna y bu gyffredin ellygda6t yr eglóysseu ar hyt Lloegyr a Chymry. Y vlóydyn honno y bu uaró Geffrei escob Mynyó. Y vlóydyn rac 6yneb y bu teruysc y róg Ieuan urenhin a Saesson y Gogled. a llawer o ieirll ereill a baróneit Lloegyr. o acha6s na chatwei Ieuan urenhin ac 6ynt yr henn Gyffreith. a deuodeu da a ga6ssynt gan Etwart a Henri y brenhined kyntaf. a atygassei ynteu yr teyrnas pan rydhaa6d rodi udunt y kyfreithcu hynny. Ar teruysc hónnó a gerda6d yn gymeint ac yd ymaruolles holl wyrda Lloegyr a holl dywyssogyon Kymry yn erbyn y brenhin. hyt na mynnei neb o nadunt heb y gilyd y gan y brenhin na hedóch na chyfundeb na chygreir yn y dalei ef yr eglóysseu y kyfreitheu ae teilygdodeu. a dugassei ef ae rieni kyn no hynny y gantunt ac yn y dalei hefyt y wyrda Lloegyr a Chymry y tired ar kestyll a gymmerassei órth y ewyllys y gantunt heb na góir na chyfreith. A g6edy eu dysgu o archescob Keint ac escyb Lloegyr a [1] ieirll ae baróneit a gofyn ida6 a rodei yr hen gyfreitheu da yr teyrnas y gomed a oruc a heróyd rydywespóyt rac y hofyn 6ynt. kymryt croes a oruc ac ual kynt y kynodes y Gogledwyr yn y erbyn er neill tu. ar Kymry or tu arall. Ac yn y vrwydyr gyntaf y duc y Gogledwyr y arna6 dinas Llundein. Ac yna y kyrcha6d Llywelyn ab Iorwoerth ar Kymry y Am6ythic. A heb órth6ynebed y rodet ida6 y dref ar castell. Ac yna yd anuones Gilis o Brewys mab Góilim o Brewys Robert y ura6t y Vrecheina6c. Ae gymryt yn enrydedus a wnaeth [2] gwyrda Brecheina6c ida6. [2] A chynn penn y tri dieu y goreskynna6d castell Pen Celli. ac Aber Gefenhi ar castell Góynn ac ynys Gynwreid. Ar Gilis vry oed escob yn Henfford. ac a uuassei un or aruollwyr kyntaf yn erbyn y brenhin. A g6edy hynny yd aeth ynteu Gilis e hun y Vrecheina6c. Ac y goresgynna6d Aber Hodni a Maes Hyfeid ar Gelli. a Blaen Llyfni. a chastell Buellt heb un górth6ynebed. Castell Paen. a chastell Colwyn. a chantref Eluael órthunt a edewis ef y Wallter uab Eina6n Clut órth y goresgynn. A thra yttoedit yn hynny ym Brecheina6c yd hedycha6d Rys ieuanc a Maelgón uab Rys y ewythyr ac y kyrchassant Dyuet y gyt. Ac y goresgynnassant Gymry y Dyuet oll eithyr Kemeis a honno a anreithassant. ar Maen Clocha6c a losgyssant. Ac odyna yd aeth Maelgón ac Owein ab Grufud y Wyned att Lywelyn ab Iorwoerth. ac y kynnulla6d Rys ieuanc lu diruaór y veint. ac y goreskynna6d Ketweli a Charnywylla6n. ac y llosges y castell. ac odyno y tyna6d y Whyr. ac yn gyntaf y goreskynna6d gastell Llych6r. Ac odyno yd ymlada6d a chastell Hu. Ac yd aruaetha6d y castellwyr gad6 yn y erbyn. Ac ynteu Rys a gauas y castell y dreis gan ell6g y castellwyr ar castell dróy dan a haearn. Trannoeth y kyrcha6d tu a Sein Henyd. ac rac y ofyn ef y llosges y castellwyr y dref. Ac 6ynteu heb dori ar

[1] Ae MS. Ll.
[2] *Om.* MS. Ll.

y haruaeth a gyrchassant gastell Ystumllóynarth. a phebyllyaó yn y gylch y nos honno a oruc. a thrannoeth y cauas y castell. ac y llosges ef ar dréf. Ac erbyn pen y tri dieu y goresgynnaód holl gestyll Gwhyr. Ac uelly yd ymhoelaód drachefyn yn hyfryt uuduga6l. Ac yna y gellygóyt Rys Gryc o garchar y brenhin gwedy rodi y uab a deu wystyll ereill drosta6. Y vlóydyn honno y gónaethpóyt Iorwoerth abat Tal y Llycheu yn escob ym Mynyó. a Chadógaón Llan Dyffei abat y Ty Góynn yn escob ym Mangor. Yna yd hedychaód Gilis escob Henford ar brenhin rac ofyn y pab. ac ar y fford ym mynet att y brenhin y clefychaód. Ac yg Kaer Loyó y bu uaró amgylch góyl Martin. Ae dref tad ef a gauas Reinold y Brewys y ura6t. A hónnó a gymerth yn wreic idaó merch Llywelyn ab Iorwoerth tywyssaóc Góyned. Y vlóydyn honno y kynhalyaód y trydyd Innossens bap gyffredin gyghor or holl gristonogaeth hyt yn eglóys Rufein. Ac yno yd atnewydóyt kyfreitheu yr eglóys. ac yd ymgyghoret am rydhau Kaerussalem a daroed yr Sarassinyeit y gywarsagu yr ysllawer o amseroed kyn no hynny. Y vlóydyn honno y kynnullaód Llywelyn ab Iorwoerth a chyffredin tywyssogyon Kymry diruaór lu hyt yg Kaer Vyrdin. A chynn penn y pumhet dyd y cauas y castell ac y byryaód yr llaór. Ac odyna y torryssant gastell Llan Ystyffan. a Thalacharn a Seint Cler. Ac odyna nos wyl Thomas Ebostol yd aethant y Geredigyaón ac ymlad ar castell a orugant. Ac yna y górhaaód gwyr Kemeis . y Lywelyn ab Iorwoerth. ac y rodet idaó gastell Trefdaeth. A hónnó o gyffredin gyghor a yssigóyt. A phau welas castellwyr Aber Teiui na ellynt gynhal y castell y rodi a wnaethant y Lywelyn ab Iorwoerth duw góyl Ystyffan. A thrannoeth duw góyl Iouan ebostol y rodet castell Kil Gerran idaó. Ac odyna yd ymhoelaód Llywelyn ab Iorwoerth. a holl tywyssogyon Kymry a oed y gyt ac ef yn hyfryt lawen y góldoed drachefyn dróy uudugolyaeth. A llyma enweu y tywyssogyon a uuant yn yr hynt honno o Wyned. Llywelyn ab Iorwoerth Tywyssaóc Góyned. a Howel ab Grufud ab Kynan. a Llywelyn ab Maredud ab Kynan. Ac o Powys Góenóynóyn ab Owein Kyueilaóc. a Maredud ab Rotbert o Gedewein. a theulu Madaóc ab Grufud Madaóc. A deu uab Maelgón ab Katwallaón. O Deheubarth Maelgón ab Rys a Rys Gryc y ura6t. a Rys ieuanc ac Owein ueibon Grufud ab Rys. A llyma enweu y cestyll a oresgynnóyt ar yr hynt honno. Nyt amgen castell Sein Henyd. castell Ketweli Kaer Vyrdin. Llan Ystyffan. Seint Cler. Talacharn. Trefdraeth. Aber Teiui. Kil Gerran. Ac ar yr hynt honno y bu araf hedóch. a thegóch hinon y gayaf. hyt na welet eiryoet kyn no hynny y cyfryó hinda honno. Ac yna y bu cyfran o tir y róg Maelgón ab Rys a Rys Gryc y ura6t. a Rys ac Owein meibon Grufud ab Rys. yn Aber Dyfi ger bronn Llywelyn ab Iorwoerth góedy dyfynnu y gyt holl tywyssogyon Kymry. a holl doethon Góyned. Ac y Uaelgón uab Rys y doeth tri chantref o Dyuet. Nyt amgen y cantref Gwarthaf. a chantref Kemeis. a chantref Emlyn. a Phelunyaóc. a chastell Kil Gerran. ac o ystrat Tywi castell Llan Ymdyfri. a deu gymót. Nyt amgen Hirfryn a Mallaen a Maenaór Vydfei. Ac o Geredigyaón deu gymót. Góynyonyd a Mabwynyon. Ac y Rys ieuanc ac y Owein y ura6t meibon Grufud ab Rys y deuth castell Aber Teiui. a chastell Nant yr Aryant. a thri chantref o Geredigyaón. Ac y Rys Gryc y doeth y cantref maór oll eithyr Mallaen. ar cantref Bychan eithyr Hiruryn a Myduei. Ac idaó y deuth Ketweli a Charnywyllaón hefyt. Yn y ulóydyn honno yd hedychaód Gwenóynóyn argló6yd Powys a Ieuan urenhin Lloegyr. wedy tremygu y llóar aruoll a rodassei y dywyssogyon Lloegyr a Chymry. A thorri yr órogaeth a roessoed y Lywelyn uab Iorwoerth. a madeu y góystlon a rodassei ar hynny. Góedy góybot o Lywelyn ab Iorwoerth hynny kymryt arnaó yn órthróm a wnaeth. ac anuon attaó escyb ac abadeu. a góyr ereill maór y haódurdaót ar Llythyreu ar Syartrasseu gantunt. ac echrestyr[1] yr aruoll ar ammot ar góroggaeth a wnaethoed yndunt. a llafurya6 o bop medól a charyat a góeithret y ól6 drachefyn. A góedy na dygrynoei idaó hynny o dim. dygynnullaó llu a oruc. A galó canmóyhaf tywyssogyon Kymry y gyt ataó. a chyrchu Powys y ryuelu ar Wenóynóyn. ae yrru ar ffo hyt yn swyd Kaer Lleon. a goresgynn y kyuoeth oll idaó e hun. Y vlóydyn honno y doeth Lowys y mab hynaf y urenhin Ffreinc hyt yn Lloegyr gyt a lluossogróyd maór amgylch Sul y Drindaót. ac ofynhau a oruc Ieuan urenhin y dyuotyat ef. a chadó a oruc yr aberoed ar porthuaeu a diruaóc gedernit o wyr aruaóc gyt ac ef. A phan welas ef llyges Lowys yn dynessau yr tir. kymryt

[1] Chiaster. MS. Ll.

y ffo a oruc tu a Chaer Wynt a dyffryn Hafren. Ac yna y tynna6d Lowys tu a Llundein. Ac yna yd aruollet yn enrydedus. a chymryt a oruc g6rogaeth y ieirll ar bar6neit ae g6ahodassei. a dechreu talu y kyfreitheu y ba6p o nadunt. A g6edy ychydic o dydyeu wedy hynny yd aeth tu a Chaer Wynt. A phan 6ybu Ieuan urenhin hynny llosgi y dref a oruc. a g6edy cadarnhau y castell kilya6 ymeith a wnaeth. Ac ymlad a oruc Lowys ar castell. a chynn penn ychydic o dydyeu y castell a gauas. A chyrchu a oruc Ieuan urenhin ardal Kymry. a dyfot a oruc y Henfford a lla6er o wyr arua6c gyt ac ef. A galw atta6 a oruc Reinalt y Brewys a thywyssogyon Kymry y erchi udunt ymaruoll ac ef a hedychu. A g6edy na rymhaei ida6 hynny kyrchu a wnaeth y Gelli a Maes Hyfeid. a llosgi y trefyd a thorri y cestyll. Ac odyna llosgi Croes Hyswallt ae diffeitha6 ae distry6. Yn y vl6ydyn honno amgylch g6yl Seint Benet y bu uar6 y trydyd Innossens bap. Ac yn ol h6nn6 y bu bap y trydyd Honorius. Ac yna ygkylch g6yl Luc euegyl6r y bu uar6 Ieuan vrenhin. ac y clad6yt yg Kaer Wyragon yn ymyl bed D6nstan Sant yn enrydedus. Ac yn y lle wedy brenhina6l ar6ylant y dryehaf6yt Henri y mab hynaf ida6 mlyned[1] yn urenhin ar lywodraeth y deyrnas. A thr6 ganma6l rei o wyrda Lloegyr ae hescyb y kyssegra6d escob Bad ef yn urenhin dr6y a6durda6t cardinal o Rufein a Legat yr pab. Ac yna y coronet ac y kymerth y groes. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Howel ab Grufud ab Kynan. ac y clad6yt yn Aber Con6y. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu gyghor yn Ryt Ychen y gan gyt uarchog-yon Henri urenhin. Ac yno y traeth6yt am hed6ch a chygreir y rygtunt a Lowys uab brenhin Ffreinc. a g6yr y Gogled. A g6edy na dygrynoynt dim o hyuny. mord6ya6 a oruc Lowys y Ffreinc y geissa6 cyghor y gan Phylip y dat am y g6eithret-oed a wnelei rac lla6 yn Lloegyr. Ygkyf-r6g hynny y kyuodes g6yr y brenhin yn erbyn y gyt aruoll6yr ef. a d6yn llawer o gyrcheu arnunt. Ac odyno dyuot a wnaethant y Gaer Wynt. a chymell y castell6yr y rodi y castell udunt. a gor-esgynn y cestyll ereill a rodyssit y Lowys. Ygkyfr6g hynny yd ymchoela6d Lowys y Loegyr ac ychydic o nifer y gyt ac ef. Ac odyna o acha6s y dyuotyat y bu ehofnach y Gogledwyr ar Ffreinc. a chyrchu dinas Lincol a wnaethant ae oresgyn ac ymlad ar castellwyr. Ac eissoes y kastellwyr a ymdiffynnassant y castell yn gywir 6ra6l ac anuon kenadeu a orugant at Wilim Varscal iarll Penuro y g6r a oed yna hyn-aif a phenkygor6r y deyrnas a g6yrda ereill o Loegyr. ac erchi anuon porth udunt. Ar rei hynny o gyt gyghor a gynnullassant holl gedernit Lloegyr y gyt ac 6ynt y uynet y nerthoccau y castellwyr. kanys gwell oed gantunt teruynu eu bywyt yn ganmoledic dros rydit eu teyrnas no chyt odef ac aghyfreitheu y Ffreinc. Ac yna tynnu a wnaethant yn arua6c uarcha6clu tu a Lincol. A cher bronn y pyrth cyweir-ya6 eu bydinoed ae gossot y ymlad ar Gaer. Ac yna y Gogledwyr ar Ffreinc a ymwisg-assant y 6rth6ynebu udunt. Ac ysgynnu y muroed ac amdiffyn yn 6ra6l a wnaeth-ant. A g6edy ymlad yn hir o bop tu. ef a diasgella6d bydin y 6rth y llu yr honn ydoed iarll Kaer Loyw a Fa6c6n Brewys yn y harwein. a thr6y dr6s dieithyr ar y castell y deuthant y my6n. a chyrchu y dinas a wnaethant a g6neuthur diru a6r aer-ua or Ffreinc ar Gogledwyr. Ac 6ynteu wedy eu haruthra6 a gymerassant eu ffo. ac megys ynuydyon pob un o nadunt a ymgudyei yn y lle kyntaf y kaffei. Ac yna y kyrcha6d g6yr Henri urenhin y pyrth ac o torrassant ac y deuthant y my6n. Ac ymlit y ffoodron ae llad ae dala ae carcharu. ac yn y vr6ydyr honno y delit iarll Caer Wynt a iarll Henfford a Robert ab G6allter. ac y llas iarll Perffi y bonhedickaf or Ffreinc. a Sym6nt Dypeffi. a Hu Dyroc. a Gilbert iarll Clar. a Robert Derupel. a Reinald Dy Cressi g6nstabyl Kaer Lleon. a Geralt iarll a llawer o rei ereill. Ac aneiryf o nadunt a vodes yn yr auon. ac uelly yd ymchoela6d g6yr y brenhin yn lla6en dr6y uoli Du6 y g6ra wnaeth rydit yr bobyl. Ac yna yn o'yn-a6c y peidya6d Lowys ac ymlad ar castell. ac y bryssya6d y Lundein. Ac anuon kenadeu a wnaeth y Ffreinc yn ol nerth. Ac yna y kedwis g6yr y brenhin y porth-ueyd a diru a6r lu gantunt. Ac yna y doeth y Ffreinc y h6yla6 y moroed a diu-essur lyges gantunt. a chyr bronn Aber auon Temys y bu ymlad llogeu y r6g y Saesson ar Ffreinc. a g6edy llad llawer or Ffreinc y syrtha6d y uudugolyaeth yr Saesson. Ac odyna yn hyfryt yd ymhoel-assant drachefyn wedy g6archae Lowys yn Llundein. Ygkyfr6g hynny o damwein y kymu[1] Reinald y Brewys ar brenhin. A phan welas Rys ieuanc ac Owein meibon Grufud ab Rys y hewythyr yn mynet yn erbyn yr aruoll a wnathoed 6rth wyrda

[1] O oedran. MS. Ll.

[1] Cymododd. MS. Ll.

Lloegyr a Chymry. Kyuodi yn y erbyn a wnaethant a goresgyn Buellt oll y arna6 eithyr y kestyll. Ac yna y llidia6d hefyt Llywelyn ab Iorwoerth yn erbyn Reinald y Brewys. a thorri yr aruoll ac yd aruaetha6d y lu hyt ym Brecheina6c. Ac y cych6ynna6d 6rth ymlad ac Aber Hodni ac aruaethu y distry6 oll. Ac yna yd hedycha6d gwyr y dref a Llywelyn dr6y Rys ieuanc oed gymeredic gymodrod6r y rygtunt gan rodi pum g6ystyl y Lywelyn o uonhedigyon y dref ar dalu can morc ida6 kan ny ellynt y 6rth6ynebu. Ac odyna yd arweda6d y lu y Whyr dros y Mynyd Du. yn y lle y periglа6d llawer o S6mereu. Ac yna y pebyllya6d yn Llan Gi6c. A g6edy g6elet o Reinald y Brewys y diffeith6ch yd oed Lywelyn yn y wneuthur yn y gyuoeth ef a gymerth whech marcha6c urda6l y gyt ac ef ac a doeth y ymrodi y Lywelyn 6rth y gyghor. Ac ynteu a rodes gastell Sein Henyd ida6 a h6nn6 a orchymynna6d Llywelyn dan gad6ryaeth Rys Gryc. A g6edy trigya6 yno ychydic o dydyeu arwein y uydinoed a oruc rygta6 a Dyfet yn erbyn y Fflandraswyr yn eruyneit hed6ch y ganta6. Ac nyt edewys y tywyssa6c y aruaeth namyn tynu y Ha6lfford a wnaeth. A chyweira6 y vydinoed ygkylch y dref ar uedyr ymlad a hi. Ac yna yd aeth Rys ieuanc a lleg o wyr y Deheu y gyt ac ef yd oed yn y harwein dr6y afon Gledyf. A dynessau tu ar dref a wnaeth ar niuer h6nn6 y gyt ac ef y ymlad yn gyntaf ar dref. Ac yna y doeth Iorwoerth escob Myny6 a llawer o grefydwyr ac egl6ysswyr y gyt ac ef yn dyuot att y tywyssa6c. ac yn aruaethu ffuryf tagnefed ac ef. A llyma y ffuryf. nyt amgen rodi o nadunt yr tywyssa6c ugein o vorkeu erbyn g6yl Vihagel nessaf. neu 6ynteu a 6rheynt ida6 erbyn hynny. ac y kynhelynt y dana6 yn dragywyda6l. A g6edy hynny yd ymchoela6d pa6b y wlat. Ac ygkyfr6g hynny y traeth6yt am dagnefed y r6g Henri urenhin Lloeger a Lowys uab brenin Ffreinc. Ac ual hynn y bu y dagnefed y rygtunt. nyt amgen talu o Henri urenhin y ieirll a bar6neit y deyrnas kyfreitheu ae gossodeu y buassei yr afreol oe hacha6s y rygtunt a Ieuan urenhin. a gell6g pa6b or carcharoryon a dalyssit o acha6s y ryuel h6nn6. a thalu dirua6r s6mp o aryant y Lowys uab brenhin Ffreinc. dr6y dyghu o hona6 ynteu deyrnas Loegyr yn dragywyda6l. Ac yna g6edy cael s6mp o aryant ac ell6g sentens ysgymunda6t y mord6ya6d yn Ffreinc. Ac yna y bu cyffredin ellygda6t o wahardedigaeth yr egl6ysseu dr6y holl deyrnas Loegyr a Chymry ac Iwerdon. Ygkyfr6g hynny yd ymlada6d G6ilim Marscal a Chaer Llion. ac y goreskynna6d kany chytsynyassei y Cymry ar dagnefed uchot gan debygu ebrygofi y kymot. Ac yna y distry6a6d Rys Gryc gastell Sein Henyd a holl gestyll G6hyr. Ac y deholes y gi6a6t Saesson a oedynt yn y wlat honno oll heb obeitha6 ymchoelut byth drachefyn gan gymryt kymeint ac a fynna6d o da. a dodi Kymry y bress6yla6 yn y tired. Y vl6ydyn rac 6yneb y rydhaa6d y gristonogaeth y wyr y Deheu. ac y rodet Kaer Vyrdin ac Aber Teiui dan gad6ryaeth Llywelyn ab Iorwoerth. Ac yna yd aeth Rys ieuanc e hunan y lys y brenhin o Deheubarth y wneuthur g6rogaeth ida6. Y vl6ydyn honno yd aeth llawer o groessogyon y Gaerussalem y r6g y rei yd aeth iarll Caer Lleon. a iarll Marscal. a llawer o wyrda ereill o Loegyr. Y vl6ydyn honno y mord6ya6d llud y cristonogyon hyt yn Dametta. Ac yn y blaen yn dywyssogyon yd oed brenhin Caerussalem a Phadriarch Caerussalem. a meistyr y demyl. a meistyr yr yspytty. a thywyssa6c A6stria. ac ymlad ar dref a orugant ae goresgyn. a chastell a oed yg kana6l yr auon wedy adeilat ar logeu. h6nn6 a eskynna6d y pererinya6n ar yscolyon ac ae torrassant wedy llad llawer or Sarassinyeit a dala ereill. Y vl6ydyn rac 6yneb y priodes Rys Gryc uerch iarll Clar. ac y priodes Ion y Brewys uargaret uerch Llywelyn uab Iorwoerth. Y vl6ydyn honno y rodes yr holl gyfoetha6c Du6 dinas Damiet yn yr Eifft a oed ar auon Nilus y lu y cristonogyon a oed wedy blina6 o hir ymlad ar dinas. kanys d6ywa6l racweledigaeth a beris y ueint uar6olyaeth yn y dinas hyt na allei y rei by6 gladu y rei meir6. Kanys y dyd y cahat y dinas yd oed m6y no theirmil o gyrff y meir6 ar hyt yr heolyd megys k6n heb y cladu. Ar dyd h6nn6 yr molyant a gogonyant yr crea6dyr y crewyt archescob yn y dinas.

Ugein mlyned a deu cant a mil oed oet Crist pan dyrchaf6yt corff Thomas Verthyr y gan Ystyffan archescob Keint. a chardinal o Rufein. ac y dodet yn enrydedus y my6n yscrin o gywreinweith eur ac aryant a mein g6erthua6r yn egl6ys y Drinda6t yg Keint. Y vl6ydyn honno y gelwis Llywelyn ab Iorwoerth atta6 gaum6yaf tywyssogyon Kymry oll. a chynulla6 diru a6r lu a oruc am benn Fflandrasswyr Ros a Phenuro. am dorri o nadunt yr hed6ch ar gygreir a wnathoed wyr Lloegyr

y r6g y Saeson ar Kymry. dr6y wneuthur mynych gyrcheu ar y Cymry ac aflonydu arnunt. Ar dyd kyntaf y cyrcha6d gastell Arberth yr h6nn a adeilassei y Fflandrasswyr wedy y distry6 or Cymry kynn no hynny. A chael y castell y dreis a wnaeth ae v6r6 yr lla6r. wedy llad rei or castellwyr a llosgi ereill a charcharu ereill. A thrannoeth y distry6a6d gastell G6is ac y llosges y dref. Y trydyd dyd y doeth y Ha^lfford ac y llosges y dref oll hyt ym porth y castell. Ac uelly y cylchyna6d ef Ros a Deu Gledyf pump diwarna6t dr6y wneuthur dirua6r aerua ar bobyl y wlat. A gwedy g6neuthur kygreir ar Fflandrasswyr hyt Galan Mei yd ymchoela6d drachefyn yn llawen hyfryt. Y vl6ydyn rac 6yneb y mag6yt teruysc y r6g Llywelyn ab Iorwoerth a Grufud y uab o acha6s cantref Meironnyd a darestygassei Rufud ida6. O acha6s y sarhaadeu a wnathoed y cantref h6nn6 ida6 ac y wyr. A llidya6c uu Llywelyn am hynny. a chynnulla6 llu a chyrchu y lle yd oed Rufud dr6y vyg6th y dial yr hynt honno arna6 ac ar y wyr. Ac aros a wnaeth Grufud yn ehofyn dyuotyat y dat wedy kyweirya6 y vydinoed ae lu. Ac yna yd edrycha6d doethon o bop tu meint y perigyl a oed yn dyuot. Ac annoc a wnaethant y Rufud ymrodi ef ae da yn ewyllys y dat. ac annoc hefyt a wnaethant y Lywelyn kymryt y uab yn hed6ch ac yn drugara6c a madeu ida6 g6byl oe lit o ewyllys y gallon. ac uelly y g6naethp6yt. ac yna y duc Lywelyn gantref Meironnyd y ar Rufud. a chym6t Ardud6y. A dechreu adeilat castell ynda6 a wnaeth ida6 e hun. Ygkyfr6g hynny y llidya6d Rys ieuanc 6rth yr argl6yd Lywelyn. ac yd ymedewis ac ef ac yd aeth att Wilim Marscal iarll Penuro. o acha6s rodi o Lywelyn Gaer Vyrdin y Vaelg6n ab Rys. ac na rodei ida6 yuteu Aber Teiui a oed yn y rann pan rann6yt Deheubarth. Ac yna y deuth Llywelyn ae lu hyt yn Aber Yst6yth. Ac y goreskynna6d y castell ar kyuoeth a oed 6rtha6. ac ae dodes dan y argl6ydiaeth e hun. Ac yna y kyrcha6d Rys ieuanc lys y brenhin. a ch6yna6 a oruc 6rth y brenhin am y sarhaet a wnathoed Lywelyn ida6. A duuna6 a wnaeth y brenhin atta6 Lywelyn a ieirll a bar6neit y Mars hyt yn Am6ythic. Ac yn y kyghor h6nn6 y kymodrodet Rys ieuanc a Llywelyn ab Iorwoerth. ac yd edewis Llywelyn ida6 Aber Teiui megys y rodassei Gaer Vyrdin y Vaelg6n ab Rys. Y vl6ydyn honno yd aeth llu y cristonogyon Danneit yn yr Eifft tu a Babilon 6rth ymlad a hi. ac nys gada6d dial Du6. Kanys llifa6 a wnaeth auon Nilus ar y fford. ae g6archei r6g d6y auon yn y uodes aneiryf o nadunt. Ac yna y doeth y Sarasinieit uddunt a llad llawer o naddunt. ac yna keithiwaw ereill. Ac yna y goruu arnunt dalu Daunet yr Sarassinyeit drachefyn dros y bowyt ac rydit y keith. a g6neuthur cygreir 6yth mlyned ac 6ynt. Ac odyno y hebrygа6d y Sarassinyeit wynt hyt yn Acrys lle ny 6ydit dim y 6rth groes Grist. namyn trugared Du6 e hun ae tala6d udunt. Y vl6ydyn honno y kyweira6d Ion y Brewys gastell Sein Henyd dr6y genat a chyghor Llywelyn ab Iorwoerth. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Rys ieuanc. ac y clad6yt yn Ystrat Fflur g6edy kymryt penyt a chymyn a chyffes ac abit crefyd ymdana6. A g6edy hynny y kauas Owein ab Grufud y un bra6t ran oe gyfoeth. a ran arall a rodes Llywelyn ab Iorwoerth y Vaelg6n ab Rys. Y vl6ydyn honno y mord6ya6d G6ilim Varscal iarll Penuro y Iwerdon. Y vl6ydyn rac wyneb y doeth Wilim Varscal o Iwerdon. a lluossogr6yd o uarchogyon a phedyt ganta6 a diru a6r lyges yr tir amgylch sul y Blodeu. A du6 Llun y cyrcha6d Aber Teiui. ar dyd h6nn6 y rodet y castell ida6. a du6 Merchyr rac 6yneb y tynna6d y Gaer Vyrdin. ac y cauas y castell h6nn6 hefyt. A phan gigleu Llywelyn uab Iorwoerth hynny y g6r yd oed gad6ryaeth y kestyll ganta6 o blegyt y brenhin anuon Grufud y uab a oruc a diru a6r luossogr6yd o lu ganta6 y 6rth-6ynebu yr iarll. A phan gigleu Grufud uot bryt yr iarll ar dyuot y Getweli. kyrchu a wnaeth a dylyedogyon Kymry y gyt ac ef. A choffau a wnaeth Rys Gryc rac brat y gan y b6rgeisseit. a cheissa6 cyffroi y Kymry y diogel6ch y coedyd. ac nys gadyssant namyn kyrchu y dref a wnaethant. a llosgi y dref ar egl6ys hyt y prid. A phan gigleu y iarll hynny kyrch dr6y Tywi a wnaeth y bont Gaer Vyrdin. Ac aros Grufud ab Llywelyn yn ehofyn a wnaeth. A g6edy hir ymlad y rann v6yaf or dyd ymchoelut a wnaeth pob un or deu lu y 6rth y gilyd y pebylleu wedy llad llawer o bop tu. a brathu ereill. Ac yna rac newyn yd ymchoela6d Grufud ab Llywelyn y wlat drachefyn. Ac yna y cyweira6d y iarll gastell Kaer Vyrdin. Ac y dechreua6d adeilat castell Kil Gerran. Ny bu bell g6edy dechreu y g6eith yn y doeth llythyreu atta6 y gan y brenhin. ac archescob Keint y erchi ida6 dyuot yn y bria6t berson y atteb ger y bronn 6ynt6y ac y wneuthur iawn am a wnathoed ac y

gymryt iawn y gan y tywyssa6c am bop cam or a wnathoed ida6. Ar iarll a ufudhaa6d yr gorchymynneu a mord6ya6 a wnaeth y my6n llog hyt yn Lloeger gyt ac ychydic o nifer. ac ada6 y lu ygkil Gerran y gynnal y g6eith dechreuedic ac y nerthockau y lle y g6elyn berigyl. Ac ymdangos a wnaethant y gyt yn Ll6tla6 y tywyssa6c ar iarll gyr bronn cyghor y brenhin ar archescob. A g6edy na ellit eu kymot aruaethu a wnaeth y iarll dr6y nerth iarll Fferer. a Henri Pictot argl6yd Euas dyuot dr6y gyuoeth y tywyssa6c tu ae wlat. ac nys galla6d. Kanys Llywelyn ab Iorwoerth a anuonassei Rufud y uab a diruaer lu y gyt ac ef. a Rys Gryc ae wyr hyt yg Karnywylla6n y ragot y iarll ae wyr. Ac ynteu Lywelyn ae holl allu a deuth hyt ym mab Udrut. Ac yno aros ch6edleu a wnaeth y 6rth y wyr. ac y 6rth dyuotedigaeth y iarll. Y vl6ydyn rac 6yneb yd aeth Kofeint or Ty G6ynn y bres6yla6 y G6yndir yn Iwerdon. Y vl6ydyn arall rac lla6 y bu uar6 Kediuor abat Ystrat Fflur. Y vl6ydyn rac lla6 y bu uar6 Lowys brenhin Ffreinc. Y vl6ydyn rac 6yneby delit Rys Gryc yn Llanarthneu y gan Rys Vychan y uab. a thros gastell Llan Ymdyfri y gellyg6yt. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Maredud uab yr argl6yd Rys archdiagon Keredigya6n ym Pont Ystyffan. ac y ducp6yt y gorff y Vyny6 ac y clad6yt yn enrydedus y gan Iorwoerth escob Myny6 yn egl6ys gyr lla6 bed yr argl6yd Rys y dat. Y vl6ydyn rac 6yneb y doeth Henri a chedernit Lloegyr y gyt ac ef y Gymry. ac aruaethu darest6g Llywelyn ab Iorwoerth a holl dywyssogyon Cymry ida6. Ac yn y lle a elwir Kori[1] y pebyllya6d. ac or tu arall yr coet yd ymgynnulla6d y Kymry y gyt a Llywelyn ab Iorwoerth eu tywyssa6c y 6rth6ynebu y brenhin. Ac yna kyrchu y gelynyon a wnaethant ac ymlad ac 6ynt yn duruig. a g6neuthur diruaer aerua arnunt. Ac yno y delit G6ilim Bre6ys ieuanc yn urathedic. ac y carcharet. a thros y ellygda6t ef y rodet y Lywelyn ab Iorwoerth gastell Buellt ar wlat a diruaer s6mp o aryant. Ac yna yd ymhoela6d y brenhin y Loegyr yn ge6ilydus. eithyr cael g6rogaeth o hona6 y gan y tywyssogyon a oedynt yno. a ffurua6 tagneued y rygta6 a Llywelyn ab Iorwoerth. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Iorwoerth escob Myny6.

Deg mlyned ar hugeint a deu cant a mil oed Crist pan uord6ya6d Henri urenhin a diruaer lu arua6c y gyt ac ef y Ffreinc ar uedyr enill y dylyet o Normandi ar Angi6. a Pheitta6. Ac yn ebr6yd wedy hynny o acha6s tymhestyl a mar6olyaeth dr6y y d6ylla6 oe aruaeth yd ymchoela6d y Loegyr. Y vl6ydyn honno y bu uar6 G6ilim Canta6n[1] o Gemeis. Ac yna y bu uar6 Llywelyn ab Maelg6n ieuanc[2] y gyuoeth yg G6yned. ac y clad6yt yn Aber Con6y yn enrydedus. Y vl6ydyn honno y croget G6ilim Brewys ieuanc y gan Lywelyn ab Iorwoerth wedy y dala yn ystauell y tywyssa6c gyt a merch Ieuan urenhin g6reic y tywyssa6c. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Maelg6n uab Rys yn Llanerch Aeron. ac y clad6yt yn y cabidyldy yn Ystrat Fflur. Y vl6ydyn honno yd adeila6d Henri urenhin gastell Paen yn Eluael. Odyna acha6s teruysc a uuassei y r6g Llywelyn ab Iorwoerth ar brenhin y llosges Llywelyn dref y castell Baldwin a Maes Hyfeid ar Gelli ac Aber Hodni. ac a distrywa6d y kestyll hyt y lla6r. Odyna y tynna6d y Went ac y g6naeth Gaer Llion yn llud6 kyt collit bonedigyon yno. Ac odyna y kych6ynna6d y gestyll Ned a chastell Ketweli ac y byrya6d yr lla6r. Y vl6ydyn honno y llosges Maelg6n ieuanc a Maelg6n ab Rys Aber Teiui hyt ym porth y castell ac y llada6d yr holl v6rgeisseit. ac a ymchoela6d yn uuduga6l wedy cael diruaer anreith ac amylder o yspeil. Ac odyna yd ymchoela6d ac y torres pont Aber Teiui. Ac odyna y doeth att Owein ab Grufud a gwyr Llywelyn ab Iorwoerth y ymlad ar castell. a chyn penn ychydic o dydyeu y torrassant y castell a magneleu. Ac y goruu ar y castellwyr ada6 y muroed a rodi y castell. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Ion Brewys o greula6n ageu wedy y essiga6 oe uarch. Ac yna y bu uar6 iarll Kaer Llion. Ac y bu uar6 Ybraham escob Llan El6y. Y vl6ydyn rac 6yneb yd atgyweirya6d Rickert iarll Penuro bra6t Henri urenhin gastell Maessyfeid yr h6nn a distry6assei Lywelyn ab Iorwoerth yr ys d6y ulyned kyn no hynny. Y vl6ydyn honno y kyrcha6d Llywelyn ab Iorwoerth Vrecheina6c. ac y distry6a6d holl gestyll a threfyd y wlat. dr6y anreitha6 ac yspeila6 pob lle. Ac ymlad a chastell Aber Hodni vis a wnaeth gyt a blifieu a magneleu. ac yn y diwed peidya6 dr6y ymchoelut y dref yn llud6. Ac yna ar y ymhoel y llosges dref Golun6y ac y darestyga6d Dyffryn Teueitya6c. Ac odyno y cyrcha6d y castell coch ac y byrya6d yr lla6r. Ac y llosges dref Croes Oswallt.

[1] Keri. D. P.

[1] Camtwm.
[2] Yn. MS. Ll.

Y vl6ydyn honno y bu teruysc r6g Henri urenhin a Rickert Marscal iarll Penuro. Ac yna y cytaruolles y iarll a Llywelyn uab Iorwoerth ac a thywyssogyon Kymry. Ac yn y lle cynnulla6 dirua6r lu a oruc ef ac Owein ab Grufud. a chyrchu am benn Aber Mynyó a wnaethant ae losgi a g6neuthur aerua o wyr y brenhin a oedynt yno yn kad6. Odyna yn ebr6yd y goreskynnassant hynn o gestyll. Kaer Dyf. ac Aber Gefenni. Penkelli. Blaenllyfni. Bólch[1] y dinas. ac ae byryassant oll yr lla6r eithyr Kaer Dyf. Y vl6ydyn honno yd ymgynnulla6d Maelg6n Vychan ab Maelg6n ab Rys. ac Owein ab Grufud ab Rys Gryc ae meibon h6ynteu. a llu Llywelyn ab Iorwoerth. a llu iarll Penuro am benn Kaer Vyrdin. Ac ymlad a hi trimis a g6neuthur pont ar Tywi a orugant. Ac yna y doeth y llogwyr yn aru a6c y gyt ar llan6 y dorri y bont. A g6edy g6elet or Kymry na ffr6ythei y hynt udunt ymchoelut a wnaethant y g6latoed. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Rys Gryc yn Llan Deila6 va6r. ac y cladóyt ym Mynyó yn ymyl bed y dat. Y vl6ydyn honno y gorffenna6d Maelg6n Vychan adeilat castell Tref Iian yr h6nn a dechreuassei Vaelg6n y dat kyn no hynny. Y vl6ydyn rac 6yneb y brath6yt Rickert iarll Penuro y myón br6ydyr yn Iwerdon wedy y ada6 oe dywyssogyon[2] yn d6yllodrus. a chyn penn y pythefnos y bu uar6. Y vl6ydyn honno y gellyg6yt Grufud ab Llywelyn ab Iorwoerth wedy y uot ygkarchar whe blyned. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Katwalla6n uab Maelg6n o Vaelenyd yn y C6m Hir. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Owein ab Grufud yn Ystrat Fflur du6 merchyr wedy yr 6ythuct dyd o Yst6yll. ac y cladóyt y gyt a Rys y ura6t yg kabidyldy[3] y myneich. Y vl6ydyn honno y priodes Henri urenhin verch iarll Prouins. ac y g6naeth y neitha6r yn Llundein y natolic g6edy kynnulla6 escyb a chanm6yaf icirll a bar6neit Lloegyr y gyt. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Mada6c ab Grufud Maela6r ac y cladóyt yn enrydedus ym Manachla6c Llan Egwystyl yr honn a r6ndwalassei kyn no hynny. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Owein ab Maredud ab Rotbert o Gedewein. Ac yna y bu uar6 escob Llundein. ac escob Caer Wyragon. ac escob Lincol. Ac un nos kyn nos Nadolig y kyuodes diarebus Wynt y torri aneiryf o dei ac egl6ysseu ac essiga6 y coetyd a llawer o dynyon ac anifeileit. Y vl6ydyn honno y gellyga6d y na6uet Gregori bap Gad6ga6n escob Bangor oe escoba6t. ac y kymer6yt yn enrydedus yn y crefyd g6ynn ymanachla6c Dor. ac yno y bu uar6 ac y cladóyt. Ac yna y cauas Gilbert iarll Penbris dr6y d6yll gastell Morgan ab Howell ym Machein. A g6edy y gadarnhau yd atuera6d drachefyn rac ofyn Llywelyn ab Iorwoerth. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Giwan uerch Ieuan urenhin g6reic Lywelyn ab Iorwoerth vis Whefra6r yn llys Aber. ac y cladóyt myón Mynwent newyd ar lan y traeth. a gyssegrassei Howel escob Llan El6y. Ac y henryded hi yd adeila6d Llywelyn ab Iorwoerth yno Vanachla6c troetnoeth a elwir Llan Uaes ym Mon. Ac yna y bu uar6 Ieuan iarll Kaer Lleon a Chynwric uab yr argl6yd Rys. Y vl6ydyn honno y deuth atta6 gardinal o Rufein y Loegyr yn legat y gan y na6uet Gregori bap. Y vl6ydyn rac 6yneb traunoeth o du6 g6yl Luc euegyly6r y tyga6d holl tywyssogyon Kymry ffydlonder y Dauyd ab Llywelyn ab Iorwoerth yn Ystrat Fflur. Ac yna y duc ef y gan y ura6t Ar6ystli a Cheri a Chyfeila6c. a Ma6d6y a Mochnant. a Chaer Ena6n. ac ny ada6d ida6 dim namyn cantref Llyyn e hun. Ac yna y llada6d Maredud ab Mada6c ab Grufud Maela6r Rufud y ura6t. Ac yn y lle y digyuoethes Llywelyn ab Iorwoerth ef am hynny. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Maredud Dall ab yr argl6yd Rys. ac y cladóyt yn y Ty G6ynn. Ac yna y bu uar6 escob Kaer Wynt. ac y ganet mab y Henri urenhin a elwit Etwart. ac y delis Dauyd ab Llywelyn Rufud y ura6t gan dorri aruoll ac ef. ac y carchara6d ef ae uab ygrugyeith.

Deugein mlyned a deu cant a mil oed oet Crist pan uu uar6 Llywelyn ab Iorwoerth tywyssa6c Kymry g6r a oed ana6d menegi y weithredoed da. ac y cladóyt yn Aber Con6y. wedy kymryt abit crefyd ymdana6. ac yn y ol ynteu y g6ledycha6d Dauyd y uab o Siwan uerch Ieuan urenhin y nam. Mis Mei rac 6yneb yd oeth Dauyd ab Llywelyn a bar6neit Kymry y gyt ac ef hyt yg Kaer Loy6 y 6rhau yr brenhin[1] y ewythyr. ac y gymryt ganta6 y gyfoeth yn gyfreithol. Ac yna yd anuones y Saeson Wallter Marscal a llu y gyt ac ef y gadarnhau Aber Teiui. Y vl6ydyn rac 6yneb yd aeth Otto gardinal o Loegyr. ac y delit ef a llawer o archescyb ac escyb ac abadeu. ac egl6yswyr ereill y

[1] Bwch. MS. Ll.
[2] Uarchogyon.
[3] Senedd-dy. MS. Ll.

[1] I Henri frenin. MS. Ll.

gyt ac ef y gan Ffrederic amhera6dyr g6r a oed yn yskymun yn ryuelu yn erbyn Gregori bap. A g6edy mynet y cardinal o Loegyr y cynnulla6d y brenhin lu. ac y doeth y darest6g tywyssogyon Kymry. ac y kadarhaa6d gastell y Garrec yn ymyl y Disserth yn Tegeygyl. ac y kymerth 6ystlon y gan Dauyd ab Llywelyn y nei dros Wyned. ar talu o Dauyd y Rufud ab G6en6yn6yn y holl dylyet ym Powys. ac y veibon Maredud ab Kynan y holl dylyet ym Meironnyd. a chan dyfynnu Dd y Lundein yr c6nsli. a d6yn y gyt ac ef Rufud y ura6t. ar holl garcharoryon a oed y gyt ac ef ygkarchar y brenhin y Lundein. Ac yna y bu uar6 y na6fet Gregori bap. Y vl6dyn rac 6yneb ychydic wedy y pasc y mord6ya6d Henri urenhin y Peita6 y geissa6 gan y[1] Ffreinc y dylyet ar y dired a dugassei urenhin Ffreinc y ganta6 kyn no hynny ac nys cauas y vl6ydyn honno. namyn g6edy gell6g y ieirll drachefyn y trigya6d ef ar urenhines ym M6rdy6s. Y vl6ydyn honno y kadarnha6yt hynn o gestyll yg Kymry. y gan Vaelg6n Vychan Garthgrugyn. y gan Ion Myny6 Buellt. y gan Roser Mortymer Maelenyd. Ac y bu uar6 Grufud ab Maredud ab yr argl6yd Rys archdiagon Keredigya6n. Y vl6ydyn rac 6yneb yd ymchoela6d Henri urenhin o V6rdy6s. ac y kyfarsag6yt y Kymry a llawer orrei ereill yn agkyfreitha6l. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Rys Mechyll uab Rys Gryc. Y vl6ydyn honno y ceissa6d Grufud ab Llywelyn dianc o garchar y brenhin yn Llundein wedy b6r6 raff dr6y ffenestyr y t6r allan a diskynnu ar hyt y raff. a thorri y raff. ae syrtha6 ynteu yn y dorres y 6yn6gyl. Ac yna y llidya6d Dauyd ab Llywelyn a dyuynnu a oruc y holl wyrda y gyt. a ruthra6 y elynyon ae holl deruyneu eithyr a oedynt y my6n kestyll. Ac anuon kenadeu a llythyreu a wnaeth a dyuynnu atta6 holl dywyssogyon Kymry. a pha6b a gyuuna6d ac ef eithyr Grufud ab Mada6c a Grufud ab G6en6yn6yn. a Morgan ab Howel. a llawer o golledeu a wnaeth ef yr rei hynny. ae kymell oe hanuod y darest6g ida6. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Maredud ab Rotbert penn kyghor6r Kymry wedy kymryt abit crefyd yn Ystrat Fflur. Y vl6ydyn rac 6yneb y cynnulla6d Henri urenhin gedernit Lloegyr ac Iwerdon ar uedyr darest6g holl Gymry ida6. ac y doeth hyt yn Tegan6y. A g6edy cadarnhau y castell ac ada6 marchogyon ynda6 yd ymchoela6d y Loegyr gan ada6 aneiryf oe lu yn gelaned heb y cladu wedy llad rei a bodi ereill. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Dauyd ab Llywelyn yn Aber vis Ma6rth. ac y clad6yt gyt ae dat yn Aber Con6y. A g6edy nat oed etiued o gorff ida6 y g6ledycha6d Owein Goch a Llywelyn y nyeint meibon Grufud ab Llywelyn y ura6t yn y ol. Y rei hynny o gyghor g6yr da a rannassant y kyuoeth yn deu hanner. Y vl6ydyn honno yd anuones Henri urenhin Nicolas de Mulus a Maredud ab Rys. a Maredud uab Owein y digyuoethi Maelg6n Vychan. Ac yna y goruuar Vaelg6n ae e ida6 ffo hyt yg G6yned. ac Owein a Llywelyn veibon Grufud ab Llywelyn gan ada6 y kyuoeth y estronyon. Ac o acha6s bot brenhina6l allu yn dyuynnu pa6b or a vei gyfun ar brenhin yn erbyn Owein a Llywelyn. a Maelg6n a Howel ab Maredud o wlat Uorgan a oed yna y gyt ac 6ynt yg G6yned wedy y digyuoethi yn g6byl o iarll Clar. A g6edy G6ybod a nadunt hynny yd ymgadwassant yn y mynydoed ar ynyal6ch. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Ra6lff Mortymer. ac yn y le y cyuodes Roser y uab. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Howel escob Llan Ely6 yn Ryt Ychen ac yno y clad6yt. Ac yna y bu uar6 escob Myny6. Y vl6ydyn honno yr ugeinuet dyd o vis Whefra6r y cryna6d y dayar yn aruthur yn gyffredin ar dra6s yr holl deyrnas. Y vl6ydyn rac 6yneb y kymerth arderch a6c urenhin Ffreinc ae dri broder ac aneiryf o luoed Cristonogyon gyt ac 6ynt eu hynt hyt yg Kaerussalem. Ac am diwed y vl6ydyn y mord6yssant y mor ma6r. Y vl6ydyn honno vis Gorffennaf y g6naeth Grufud abat Ystrat Fflur hed6ch a Henri urenhin am dylyet a dylynt yr Manachla6c yr ys llawer o amser kyn no hynny gan uadeu yr abat ar cofeint deg morc a deugein morc. a thrychan morc a dala6d. a thalu y gymeint arall my6n teruyneu gossodedic her6yd y keffir ynyaeles y vanachla6c. Y vl6ydyn honno y kauas Owein ab Rotbert Gedewein y dylyet. ac y kauas Rys Vychan ab Rys Mechyll gastell Carrec Kennen drachefyn a rodassei y uam yn d6yllodrus ym medyant y Ffreinc o gas ar y mab. Y vl6ydyn honno y kanatha6d Henri urenhin y abat Ystrat Fflur ac abat Aber Con6y gorff Grufud ab Llywelyn. ac y dugant gantunt o Lundein y Aber Con6y yn y lle y mae yn gorwed. Y vl6ydyn rac 6yneb yd aeth Lowys urenhin ae dri broder ar urenhines hyt yn dinas Danneta.[1] ac y rodes Du6 ida6 y dinas yn r6yd wedy ada6 or Sarasinyeit. Yr haf

[1] Frenhin. MS. Ll.

[1] Damieta.

rac 6yneb yd ymchoela6d y dyghetuen yn y g6rth6yneb. ac y delit y brenhin y gan y Sarasinyeit wedy llad Robert y ura6t. ac amgylch degmil ar hugeint or Cristonogyon. a thros y ellygda6t ef ae hebrygyat ef ae wyr hyt yn Acris y goruu arna6 rodi Danneta drachefyn yr Sarassinyeit. a g6edy hynny y rodes Du6 ida6 ynteu uudugolyaeth y dial ar elynyon Crist y sarhaet. Kanys ef a anuones y deu uroder hyt yn Ffreinc y gynnulla6 nerth ida6 o s6llt a g6yr arua6c tra drickyei ynteu ar urenhines yn Acris. Ac odyna yd ennilla6d ef dinas Danneta gan lad anneiryf or Sarassinyeit.

Dec mlyned a deugein a chant a mil oed oet Crist pan uu uar6 brenhin Prydein wedy ada6 y un mab yn etiued ida6. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 G6ladus Du uerch Llywelyn ab Iorwoerth. Ac yn diwed y vl6ydyn honno y bu uar6 Morgan ab yr argl6yd Rys wedy kymryt abit crefyd ymdana6 yn Ystrat Fflur. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu gymeint g6res yr heul ac y dissycha6d yr holl dayar gantho hyt na thyfa6d dim ffr6yth ar y coet na maes. ac na chahat pysga6t mor nac auonyd. Ac yn diwed y kynhayaf y vl6ydyn honno y bu gymeint y gla6ogyd ac y kudya6d y llifdyfred 6yneb y dayar hyt na allei oe mod sychd6r y dayar lygku y dyfred. Ac y llifhaa6d yr auonyd yn y dorres y pynt. ar melineu ar tei kyfagos yr afonyd a chribdeila6 y coedyd ar perllanneu a g6neuthur lla6er o golledeu ereill yn yr haf. Y vl6ydyn honno y duc G6ilim ab G6rwaret y g6r a oed Synyscal yr brenhin ar dir Maelg6n ieuanc dr6y orchymynn y brenhin y ar wyr Eluael anreith am eu bot yn keissa6 aruer o borueyd Maelenyd megys o ureint. Y vl6ydyn rac 6yneb y mord6ya6d Henri urenhin y V6rdy6s a dirua6r lu ganta6. a gorchymynn y vrenhinyaeth y Etwart y uab a Rickert iarll Kerny6 y ura6t ar vrenhines. Y vl6ydyn honno y Grawys yd ymchoela6d Thomas escob Myny6 o lys Rufein. Y vl6ydyn ra6 6yneb yd ymchoela6d Lowys urenhin Ffreinc oe bererinda6t wedy y uot whe blyned yn ymlad ar Sarassinyeit. Y vl6ydyn honno yd ymchoela6d Henri vrenhin o Wasg6in g6edy ada6 yno Etwart y uab yn kad6 dirua6r lu y gyt ac ef. Ac yna y bu uar6 G6enllian uerch Vaelg6n ieuanc yn Llan Vihagel Gelynrot. ac y clad6yt yn Ystrat Fflur. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Maredud ab Llywelyn o Veironyd. gan ada6 un mab yn etiued ida6 o Wenllian uerch Vaelg6n. Ac yn ebr6yd g6edy g6yl Ieuan y bu uar6 Rys un mab Maelg6n ieuanc wedy kymryt abit creuyd yn Ystrat Fflur ac yno y clad6yt. Yn y dydyeu hynny o annoc y kythreul y mag6yt ternysc y r6g meibon Grufud ab Llywelyn. nyt amgen Owein Goch a Dauyd or neill tu. a Llywelyn or tu arall. Ac yna yd aruolles Llywelyn ae wyr yn diofyn ym Bryn Der6in dr6y ymdiret y Du6 creula6n dyuotyat y vrodyr a dirua6r lu gantunt. a chyn penn un a6r y delit Owein Goch. ac y ffoes Dauyd wedy llad llawer or llu a dala ereill a ffo y dryll arall. Ac yna y carchar6yt Owein Goch. ac y goreskynna6d Llywelyn gyfoeth Owein a Dauyd. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Mararet uerch Vaelg6n. g6reic Owein ab Rotbert. Ac y pryn6yt y gloch ua6r yn Ystrat Fflur yr trugein a d6y 6orc ar bymthec ar hugeint a d6y uu. Ac yn y lle y drychaf6yt ac y cyssegr6yt y gan escob Bangor. Ac yna amgylch diwed haf y bu uar6 Thomas Walis escob Myny6. Y vl6ydyn rac 6yneb y doeth Etwart uab Henri urenhin iarll Kaer Llion y edrych y gestyll ae dired yg G6yned. Ac yna y doeth dylyedogyon Kymry att Lywelyn ab Grufud wedy y hyspeila6 oe rydit ae keithiwaw. a menegi yn g6ynuanus bot yn well gantunt y llad yn ryfel dros y rydit. no godef y sathru gan estronyon dr6y geithiwet. A chyffroi a oruc Llywelyn 6rth y dagreuoed. am eu hannoc 6ynt ae kyghor kyrchu y beruedwlat ae goreskynn oll kyn penn yr 6ythnos. a chyt ac ef Maredud uab Rys Gryc. Ac odyna y kymerth Veironnyd ida6 e hun. Ar rann a oed eida6 Etwart o Geredigya6n ef ae rodes y Varedud ab Owein. a Buellt gyt a hynny. A thalu y Varedud ab Rys Gryc y gyfoeth gan 6rthlad Rys y nei oe gyfoeth. a rodi y kyuoeth y Varedud uab Rys heb gynhal dim ida6 e hun or tired goreskynn oll eithyr clot a gobr6y. Ac odyna y goreskynna6d Werthrynyon y gan Roser Mortymer yn y la6 e hun. Ac yna y kyssegr6yt yr Athro Rys o Gaer Riv[1] y gan y pab yn escob ym Myny6. Y vl6ydyn rac 6yneb y kyrcha6d Llywelyn ab Grufud. a Maredud uab Rys. a Maredud uab Owein. a lla6er o dylyedogyon ereill y gyt ac ef y gyuoeth Grufud ab G6en6yn6yn. ac y goreskynna6d oll eithyr castell y Trall6g Garan[2] o dyffryn Hafren ac ychydic o Gaereina6n. A distry6 a wnaeth gastell Bydydou. Ykyfr6g hynny y kynnulla6d Rys Vychan uab Rys Mechyll a oed yn Llcegyr ar dehol dirua6r borth a chedernit

[1] Riwyn. MS. Ll.
[2] Q. an. *a ran*.

o var6neit a marchogyon Lloegyr y gyt ac ef. Ac y doeth hyt yg Kaer Vyrdin. Ac odyna yn 6ythnos y Sulg6yn y duc hynt y Dinef6r. A g6edy dyuot y my6n yr castell y delis y castellwyr ef. a chyrchu a wnaethant y llu a dala y bar6neit ar marchogyon urdolyon. a llad m6y no d6y vil or llu. Ac yna y kyrcha6d y tywyssogyon Dyfet. a distry6 a wnaethant gastell Aber Toran.[1] a Llan Ystyffan. ac Arberth. ar Maen Clocha6c. a llosgi y dref ar trefyd. Y vl6ydyn rac 6yneb y goreskynna6d Lly6elyn ab Grufud Gemeis. Ac y kymmodes[2] Maredud a Rys Vychan y nei. Ac odyno yn gyfun y kyrchassant Drefdraeth. ac y briwassant y castell. Ac odyno y kymerassant Varedud ab Owein y gyt ac 6ynt. Ac y kyrchassant Ros. ac y llosgassant y wlat oll eithyr Ha6lfford. Ac odyno yd h6ylassant y wlat Uorgan. A g6edy goresgynu a chael castell Llan Geneu yd ymchoelassant adref. wedy llad llawer a dala ereill. Ac yna y bu uar6 Maelg6n ieuanc ac y clad6yt yn Ystrat Fflur. Y vl6ydyn honno amgylch g6yl Feir yn A6st y deuth Henri urenhin a llu ma6r ganta6 hyt yn Tegan6y. Ac yno y trigya6d hyt wyl Veir ym Medi. Ac yna yd ymchoela6d y Loegyr. Yn yr amser h6nn6 y llosges egl6ys Llan Badarn Va6r. Ac y kymda6d[3] Llywelyn ab Grufud a Grufud ab Mada6c. ac y gyrra6d Grufud ab G6en6yn6yn ar dehol oe gyfoeth: Y vl6ydyn rac 6yneb y rodes kynnulleitua o dylyedogyon l6 ffydlonder y Lywelyn ab Grufud gan[4] boen ysgymunda6t. Ac ny chetwis Maredud ab Rys y ll6 h6nn6. namyn mynet yn y erbyn yn agkywir. Y vl6ydyn honno y bu teruysc yn Lloegyr y r6g yr estronyon amgylch g6yl Ieuan Vedydy6r. Y vl6ydyn honno yd aeth Dauyd ab Grufud a Maredud ab Owein a Rys Vychan. a Rys Mechyll y ymdidan a Maredud ab Rys. ac a Phadric Dysaes synysgal y brenhin yg Kaer Vyrdin hyt yn Emlyn. pan welas Maredud a Phadric y g6yr ereill torri kygreir a wnaethant ae hachub. Ac yna y llas Padric a llawer o varchogyon a phedyt y gyt ac ef. Yn diwed y vl6ydyn honno y mord6ya6d Henri urenhin y ymdidan a brenhin Ffreinc.

Trugein mlyned a deu cant a mil oed oet Crist pan aeth Llywelyn ab Grufud y Vuellt. a d6yn Buellt oll y gan Roser Mortymer eithyr y castell. Ac odyna dr6y ymdeith ar dra6s Deheubarth heb wneuthur dr6c y neb yd ymchoela6d y Wyned. Ac yn y lle y cauas g6yr Llywelyn o gyrch nos heb un ergyt ymlad gastell Buellt. A g6edy dala y castellwyr a chael y meirch ar arueu yr dotrefyn ar yspeil oll y distry6assant y kastell. Ac yna y doeth Owein ab Maredud o Eluael y hed6ch yr argl6yd Lywelyn. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 G6ladus verch Rufud ab Llywelyn gwreic yr argl6yd Rys ab Rys Mechyll. Ac yna am galan gayaf y bu uar6 Owein uab Maredud argl6yd Kedewein. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 iarll Clar. Y vl6ydyn honno amgylch g6yl Andras y doeth rei o gyghor g6yr Maelenyd yr castell newyd a oed y Roser Mortymer ym Maelenyd. A g6edy dyuot y my6n drwy d6yll y lladassant y porthoryon. ac y dalyassant Howel ab Meuruc a oed g6nstabyl yno. ae wreic ae veibon. ae uerchet. a menegi hyny a wnaethant y synysgal a ch6nstabyl yr argl6yd Lywelyn. A bryssya6 a oruc y rei hynny yno y losgi y castell. A phan gigleu y dywededic Rosser hynny dyuot a wnaeth a diru a6r gedernit yn borth ida6 hyt y dywededic gastell. a phebyllya6 o vy6n y muroed ychydic o dydyeu. A phan 6ybu Llywelyn hynny, kynnulla6 llu a oruc a dyuot hyt ym Maelenyd. a chymryt g6rogaeth g6yr Maelenyd. A g6edy ennill deu gastell ereill rodi kennat a wnaeth y Roser Mortymer y ymchoelut drachefyn. Ac ynteu dr6y arch g6yr da Brecheina6c a aeth y Vrecheina6c. a g6edy kymryt g6rogaeth y wlat yd ymchoela6d y Wyned. Y vl6ydyn rac 6yneb y kyrcha6d Ion Ystrog' ieuanc a oed Vaeli yg kastell Baldwin gyrch nos a diru a6r lu ganta6 ar dra6s Keri a Chedewein. A g6edy kynnulla6 diru a6r anreith o hona6 ymchoelut a oruc drachefyn. A phan gigleu y Kymry hynny y ymlit a wnaethant. a llad y dyd h6nn6 or Saeson m6y no deudeg kant y r6g ar y meyssed. ac yn yscuba6r Aber Mi6l. Ac yn y lle wedy hynny y llosges Ion Ystrog yr yscuba6r acha6s y lladua honno. ac ychydic wedy hynny y llas y Kymry yn ymyl Colun6y. Yr amser h6nn6 yd oed Etwart yn ymdeith ardal G6yned. ac yn llosgi rei or trefyd. A g6edy hynny yd ymchoela6d y Loeger. Ac yna o annoc y kythreul yd ymedewis Dauyd a chedymdeithas Llywelyn y ura6t. Ac yd aeth y Loegyr a rei oe aruollwyr y gyt ac ef. Ar amser h6nn6 y kyuodes bar6neit Lloegyr a rei o ieirll y gyt ar Kymry yn erbyn Etwart ar estronyon. ac aruaethu eu g6rthlad oc eu plith ac o holl Loegyr a darest6g y dinassoed

[1] Coran.
[2] Cyfodes. MS. Ll.
[3] Cymodawdd. ib.
[4] Dan. ib.

kedyrn o nadunt o distry6 y kestyll. a llosgi y llyssoed. Ac yna y distry6a6d Llywelyn y kestyll a oed yg G6yned yn y gyfoeth. Nyt amgen Degan6y a Chaer Faelan. A Grufud ab G6en6yn6yn a distry6a6d castell yr Wydgruc. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu gofad6y deruysc y r6g Henri urenhin ac Etwart y uab. Ae kymhorth6yr or neill tu. Ar ieirll ar bar6neitor tu arall. Ac yn hynny y doeth hyt ym Maes Leos[1] brenhin Lloegyr a brenhin yr Almaen ae deu uab wedy ymaruoll y gyt ar dala y ieirll ar bar6neit a oedynt yn mynnu kyfreitheu a deuodeu da Lloegyr. Ac eissoes y dyghetuen a ymchoela6d yn y g6rth6yneb. Kanys y ieirll ar bar6neit a delis yno y brenhined. a deu uab Henri urenhin nyt amgen Etwart ac Etm6nt. a phump ar hugein or bar6neit pennaf a oed y gyt ac 6ynt. a llawer or marchogyon bonhedickaf o nadunt. wedy llad m6y no deg mil o wyr y brenhined. herwyd y dywawt rei or gwyr a uu yn y vr6ydyr. A g6edy hynny o gyghor y gellyga6d y ieirll urenhin Lloegyr gan garcharu y rei ereill. Y vl6ydyn honno y trigya6d y Kymry yn hed6ch y gan y Saeson. a Llywelyn ab Grufud yn dywyssa6c ar holl Gymry. Ac yna y bu uar6 Llywelyn ab Rys ab Maelg6n yr 6ythuet dyd or yst6yll. Y vl6ydyn rac 6yneb du6 Ieu kyn g6yl a drinda6t y diegis Etwart uab Henri urenhin o garchar Sim6nt M6nfford o gastell Henfford dr6y ystry6 Roser Mortymer. A g6edy hynny y kynnulla6d Etwart diru a6r lu o ieirll a bar6neit a marchogyon aru a6c yn erbyn Sim6nt M6nfford ae gyt aruoll6yr. a du6 Ma6rth nessaf wedy A6st y doethant y gyt hyt ym Maes Efsam. A g6edy bot darest6g y vr6ydyr y rygtunt a llad llawer o bop tu y dyg6yda6d Sim6nt M6nford ae uab. a lluossogr6yd o rei ereill. Y vl6ydyn honno vis Ma6rth y bu uar6 Maredud ab Owein yn Llan Badarn Va6r ac y clad6yt yn Ystrat Fflur. Ac yna y detholet y pedweryd Clemens yn bap. Y vl6ydyn rac 6yneb y dihegis deu uab Sim6nt M6nfford o garchar y brenhin. A g6edy kadarnhau kastell Kelli Wrda o wyr ac arueu ac ymborth mord6ya6 a wnaeth y Ffreinc y geissa6 nerth y gan y kereint ac kedymdeithon. A phan gigleu Henri urenhin hynny kynnulla6 diru a6r lu a oruc o holl Loegyr y ymlad ar castell wedy g6yl Ieuan Vedyd6r. Ar castellwyr yn wra6l a gynhalassant y castell hyt nos wyl Thomas ebostol. Ac yna o eisseu ymborth y rodassant y castell dr6y gael o honunt y heneideu ae haelodeu ae harueu yn ryd. Y vl6ydyn rac 6yneb yd ymaruolles Llywelyn ab Grufud a Iarll Clar. Ac yna y kyrcha6d y iarll Lundein a diru a6r lu ganta6. a thr6y d6yll y b6rgeisseit y goreskynna6d y dref. A phan gigleu Henri urenhin ac Etwart y uab hynny kynnulla6 diru a6r lu a orugant a chyrchu Llundein ac ymlad a hi. a thr6y amodeu kymell y iarll ar b6rgeisseit y ymrodi udunt. A g6edy hynny du6 g6yl Galixto bab y ffuryfha6yt hed6ch y r6g Henri urenhin a Llywelyn ab Grufud dr6y Octo Bonus legat y pab yn gymodrod6r y rygtunt yg kastell Baldwin. a thros y kyfundeb h6nn6 yd edewis Llywelyn ab Grufud yr brenhin deg mil ar hugeint o uorceu o ystyrligot. Ar brenhin a genhataa6d ida6 ynteu g6rogaeth holl var6neit Kymry. ac ymgynhal or bar6neit yr eidunt y dana6 ynteu byth. ac eu gal6 yn dywyssogyon Kymry o hynny allan. Ac yn tystyolaeth ar hynny y kynhalya6d y brenhin y siartyr ef y Lywelyn o gytsynnedigaeth ac y etiuedyon yn r6ymedic oe inseil ef. ac inseil y dywededic legat. a hynny a gadarnha6yt o awdurda6t y pab. Yn y vl6ydyn honno y llada6d Charles urenhin Cisil Coradin wyr Ffrederic amhera6dyr a mab Ffrederic y my6n br6ydyr ar Uaes y P6yl. Y vl6ydyn honno y darestyga6d S6dan Babilon dinas Antiochia g6edy llad y g6yr ar g6raged a diffeitha6 g6lat Armenia ac eu d6yn y geithiwet. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Gron6 ab Eidnyuet a Ioab Abat Ystrat Fflur. Y vl6ydyn rac 6yneb ym mis Racuyr y bu uar6 Grufud ab Mada6c Uychan y ura6t. ac y clad6yt yn Llan Egwestyl. Deg mlyned a thrugeint a deu cant a mil oed oet Crist pan uu uar6 Maredud ab Grufud argl6yd Hiruryn trannoeth o du6 g6yl Lucy wyry yg kastell Llan Ymdyfri. ac y clad6yt yn Ystrat Fflur. Y vl6ydyn honno y goresgynna6d Llywelyn ab Grufud gastell Gaer Filu. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Lowys brenhin Ffreinc ae uab. a legat y gyt ac ef ar y fford yn mynet y Gaerussalem. ar Lowys h6nn6 yssyd sant enrydedus yn y nef. Y vl6ydyn rac 6yneb y whechet dyd wedy a6st y bu uar6 Maredud ab Rys Gryc yg kastell y Drysl6yn. ac y clad6yt yn y Ty G6ynn rac bron yr alla6r ua6r. Ym penn teir 6ythnos wedy hynny y bu uar6 Rys ieuanc uab Rys Mechyll yg castell Dinef6r. ac y clad6yt yn Tal y Llycheu. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Henri urenhin du6 g6yl Filie Wyry g6edy g6ledychu 6ythnos a mis ac un vl6ydyn ar

[1] Lewes. MS. Ll.

bymthec a deugein. ac y cladóyt yn y Vanachlaóc newyd yn Llundein. A góedy ef y góledychaód y mab hynaf idaó. a góeithredoed hónnó yssyd yscriuenedic yn ystoryacu y brenhined. Y vlóydyn honno góyl Sein Denis yd etholet y decuet Gregori bap. Y vlóydyn rac óyneb yd atueraód Owein a Grufud veibon Maredud ab Qwein y kymót perued y Gynan y braót amgylch góyl Veir y canhóylleu. Y vlóydyn rac óyneb amgylch y pasc bychan y gofóyaód Llywelyn ab Grufud gastell Dol Voróyn. A dyuynnu attaó a oruc Rufud ab Góenóynóyn. ac ymliw ac ef am y twyll ar agkywirdeb a wnathoed idaó. a dóyn y arnaó. Aróystli a their tref ar dec o Gefeilaóc yssyd tu draó y Dyfi yn Riw Helyc. a dala Owein y mab hynaf idaó ae dóyn y gyt ac ef hyt yg Góyned. Y vlóydyn honno y góenaeth y decuet Gregori bap gyffredin gónsli yn Liór duó calan Mei. Y vlóydyn honno duó sul góedy duó góyl Veir yn Aóst y kyssegróyt yn Llundein Etwart uab y trydyd Henri yn urenhin yn Lloegyr. Y vlóydyn honno amgylch góyl Andras yd anuones Llywelyn genadeu at Rufud ab Góenóynóyn hyt yg castell y Trallóg. Ac ynteu ae haruolles óynt yn llawen ac ae duc yr castell. ac ae porthes yn anhóyl. Ar nos honno yd aeth ef y Amóythic ac y gorchymynnaód yr castellwyr attal y kenadeu yg karchar. A phan gigleu y tywyssaóc hynny kynnullaó holl Gymry a wnaeth y ymlad ar castell. A góedy dyuot yno ae lu y rodes y castellwyr idaó y castell. A góedy rydhau o honaó y castellwyr ar kenadeu y llosges y castell hyt y llaór. Ac odyna y goresgynnaód holl gyuoeth Grufud ab Góenóynóyn heb órthóynebed. ac y gossodes y sóydogyon e hun yn yr holl gyuoeth. Yn y vlóydyn honno y bu gyfnewit deu gymót y róg Kynan a Rys ieuanc. ac y deuth Pennard y Gynan. ar kymót perued y Rys Vychan. Y vlóydyn rac óyneb ychydic ar Ieu Kychafel y gossodes Etwart urenhin gónsli yn Llundein. Ac yna y gossodes ef gossodeu newyd ar yr holl deyrnas. Yn y vlóydyn honno yn y pymthecuet dyd o Aóst y bu uaró....ab Maredud ab Owein. ac y cladóyt yn Ystrat Fflur geir llaó y dat. Y vlóydyn honno amgylch góyl Veir ym Medi y deuth Etwart urenhin o Lundein hyt yg Kaer Lleon. ac a dyuynnaód attaó Lywelyn ab Grufud tywyssaóc Kymry y wneuthur idaó górogaeth. Ar tywyssaóc a dyuynnaód attaó ynteu holl varóneit Kymry. ac o gyffredin gyghor nyt aeth ef at y brenhin o achaós uot y brenhin yn kynhal y ffoodron ef. nyt amgen Dauyd ab Grufud. a Grufud ab Góenóynóyn. Ac or achaós hónnó yd ymchoelaód y brenhin yn llidyaóc y Loegyr. ac yd ymchoelaód Llywelyn y Gymry. Y vlóydyn honno yr óythuet dyd o wyl Veir ym Medi y krynaód y dayar yg Kymry amgylch aór echóyd. Y vlóydyn honno y mordóyaód Emri uab Simónt Mónford. ac Elianor y chwaer tu a Góyned. Ac ar yr hynt honno y delit óynt y gan porthmyn Haólfford. Ac y hanuonet yg karchar Etwart urenhin. Ar Elianor honno a gymerassei Lywelyn yn wreic priaót idaó dróy eireu kyndrychaól. A honno dróy wedieu ac annoc Innossens bap a bonhedigyon Lloegyr a rydhaóyt. Ac yna y góenaethpóyt priodas Llywelyn ac Elianor yg Kaer Wynt. ac Etwart urenhin Lloegyr yn costi y wled ar neithaór e hun yn ehalaeth. Ac or Elianor honno y bu y Lywelyn uerch a elwit Góenllian. Ac Elianor a uu uaró y ar etiued. ac y cladóyt yn Llan Vaes ym Mon. Ar dywededic Wenllian wedy maró y that a ducpóyt yg keithiwet y Loegyr. a chyn bot yn oet y góenaethpóyt yn uanaches oe hanuod. Ac Emri a rydhaóyt o garchar y brenhin. ac a duc hynt y lys Rufein. Y vlóydyn rac óyneb yd anuones yr argló yd Lywelyn mynych genadeu y lys y brenhin órth ffurfaó tagnefed y rygtunt. ac ny rymhaaód idaó. Ac yn y diwed amgylch gwyl Veir y kanhóylleu y gossodes y brenhin gónsliyg Kaer Wyragon. Ac yno yd ansodes trillu yn erbyn Kymry. Un y Gaer Lleon ac ef e hun yn y blaen. arall y gastell Baldwin. ac yn y blaen iarll Lincol. a Roser Mortymer. Y rei hynny a dodes Grufud ab Góenóynóyn y goreskyn ae gyfoeth a gollassei kyn no hynny gan attal yr brenhin Gedewein a Cheri a Góerthrynyon a Buellt. Ac yna y goreskynaód iarll Henfford Brecheinaóc. Y trydyd llu a anuones y Gaer Vyrdin a Cheredigyaón. ac yn y blaen Paen uab Padric Dysaós. Y vlóydyn rac óyneb y kylchynaód iarll Lincol a Roser Mortymer gastell Dol Vorwyn ac ym penn y pytheónos y kaóssant ef o eisseu dófyr. Yna y kyfunaód Rys ab Maredud. a Rys Wyndaót nei y tywyssaóc. a Phaen uab Padric Llywelyn y uraót a Howel. a Rys Gryc a adaóssant y kyuoeth ac a aethant y Wyned at Lywelyn. Rys ab Maelgón a aeth at Roser Mortymer ac a rodes darestygedigaeth yr brenhin yn llaó Roser. Ac yn diwethaf oll o Deheubarth y kyfunaód Grufud a Chynan veibon Maredud ab Owein a Llywelyn ab Owein y nei ar brenhin. Ac uelly y darestygóyt holl

Deheubarth yr brenhin. Ac yna y darestyga6d Paen uab Padric yr brenhin tri chym6t o Uch Aeron. Anhunya6c a Meuenyd ar kym6t Perued. Ac yd aeth Rys uab Maredud. a Rys Wynda6t. a deu uab Maredud ab Owein y lys y brenhin y hebr6g g6rogaeth a ll6 kywirdeb ida6. Ar brenhin a oedes gymryt y g6rogaeth hyt y c6nsli nessaf gan ell6g adref Rys ab Maredud a Grufud ab Maredud ac attal y gyt ac ef Gynan ab Maredud a Rys Wynda6t. Ac yna y dodes Paen Lywelyn ab Owein yn uab yg kad6ryaeth o acha6s diffyc oet. G6edy hynny yr 6ythuet dyd o wyl Ieuan y g6naeth Rys ab Maelg6n ar pedwar bar6n vry 6rogaeth yr brenhin yn y k6nsli yg Kaer Wyragon. Y vl6ydyn honno wyl Iago Ebostol y deuth Etm6nt bra6t y brenhin a llu ganta6 hyt yn Llan Badarn. a dechreu adeilat castell Aber Ystwyth a wnaeth. Ac yna y deuth y brenhin ae gedernit ganta6 yr Beruedwlat. a chadarnhau llys a wnaeth yn y Fflint o diru a6r glodyeu yn y chylch. Odyno y doeth hyt yn Rudlan ae chadarnhau hefyt o glodyeu yn y chylch. a thrigya6 yno dalym o amser a wnaeth. Y vl6ydyn honno du6 Sad6rn wedy A6st yd enkilya6d Rys ab Maelg6n y Wyned at Lywelyn rac ofyn y dala or Saeson oed yn Llan Badarn. Ac yna y goresgynna6d y Saeson y holl gyuoeth. A chyt ac ef yd enkilya6d g6yr Geneu yr Glyn oll y Wyned. ac ada6 y tir ae hydeu oll yn diffeith A nos wyl Vatheu yd aeth Etm6nt a Phaen y Loegyr. ac ada6 Roser Mulus yn g6nstabyl yn Aber Yst6yth ac y warchad6 y wlat. A thrannoeth g6edy g6yl Seint ynus yd ymchoela6d Rys Wynda6t a Chynan ab Maredud o lys y brenhin y eu gwlat. Y vl6ydyn honno yn dechreu y kynhayaf yd anuones y brenhin rann ua6r oe lu y Von y losgi llawer or wlat a dwyn llawer oe hydeu. A g6edy hynny y deuth Llywelyn at y brenhin y Rudlan. ac yd hedycha6d ac ef. Ac yna y g6ahodes y brenhin ef y nadolic y Lundein. ac ynteu a aeth yno. Ac yno y rodes y wrogaeth yr brenhin. A g6edy y drigya6 pythe6nos yn Llundein yd ymchoela6d y Gymry. Ac ygkylch g6yl Andras y gellyg6yt Owein Goch ab Grufud ab G6en6yn6yn o garchar Llywelyn dr6y orchymyn y brenhin. Ac yna o cauas Owein Goch y gan Lywelyn y ura6t oe g6byl uod gantref Llyyn. Y vl6ydyn rac 6yneb g6yl Etwart urenhin y rodes Etwart urenhin ac Etwart[1] y ura6t Elianor y kefuither6 merch Sim6nt M6nford y Lywelyn ar dr6s yr egl6ys ua6r yg Kaer Wyragon. ac yno y priodes ar nos honno y g6naethp6yt y neitha6r. A thrannoeth yd ymchoela6d Llywelyn ac Elianor yn lla6en y Gymry. Y vl6ydyn rac 6yneb y peris Etwart urenhin ffurfa6 m6nei newyd. a g6neuthur dimeiot a ffyrlligot yn grynyon. Ac uelly y c6pla6yt proph6ytolyaeth Vyrdin pan dywa6t. Ffuryf y gyfnewit a holltir. ar hanner a vyd cr6n.

Petwar ugein mlyned a deu cant a mil oed oet Crist pan uu uar6 Rickert o Gaer Ri6 escob Myny6 du6 calan Ebrill. Ac yn y le ynteu yd urd6yt Thomas Bec yn escob. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Phylip Goch y trydyd abat ardec o Ystrat Fflur. A g6edy ef y bu abat Ena6n Seis. Ac yn oes h6nn6 y llosges y Vanachla6c. G6edy hynny nos 6yl Veir y canh6ylleu y cant escob Myny6 efferen yn Ystrat Fflur. a honno a uu yr efferen gyntaf y gana6d yn yr escoba6t. a Du6 g6yl Dewi rac 6yneb yd eisteda6d yn y gadeir yn egl6ys Vyny6. Y vl6ydyn rac 6yneb y goresgynna6d Dauyd ab Grufud gastell Penhardlech 6yl Seint Benet abat. ac y llada6d y castellwyr oll eithyr Rosser Clifort argl6yd y castell a Phaen Gameis. Y rei hynny a delis ac a garchara6d. Y vl6ydyn rac 6yneb g6yl Veir y Gehyded y goresgynna6d Grufud ab Maredud. a Rys ab Maelg6n dref Aber Yst6yth ar castell. ac y llosgassant y dref ar castell. ac y distry6assant y gaer a oed ygkylch y castell ar dref dr6y arbet y heneiden yr castellwyr. o acha6s dydyeu y diodeueint a oedynt yn agos. Ar dyd h6nn6 y goresgynna6d Rys ab Maelg6n gantref Penwedic. a Grufud ab Maredud gym6t Meuenyd.

Benedicamus Domino. Deo gratia.

[1] Etmwnt.

Hyn a gymmerais allan o'r LLYFYR COCH O HERGEST *yn y flwyddyn o oed Crist* 1781.

R. DAVIES

DIWEDD

BRUT Y TYWYSOGION, yn ol y *Llyfyr Coch o Hergest.*

BRUT Y SAESON.[1]

YMA Y DECHEREU BRENHINED Y SAESSON.

GWEDY daruod yr anodun vall dymhestylus. ar newyn girat a dywetpwyt vchot. yn oes catwaladyr vendigeit: y doeth y saesson a goresgyn lloegyr or mor pwy gilid. ay chynal adan pymp brenhin. val y buassei gynt yn oes Hors a Hengist pan deholassant Gortheyrn Gortheneu o deruynev lloegyr. ac ay rannassant yn pymp ran ryngthunt. Ac yna y symudassant henweu y dinessyd. ar trefi. ar randiroed. ar cantrefoed. ar swidev. ar ardaloed: herwyd ev Ieith wynt ehvn. London y galwassant caer llud. Evirwic nev Yorck y galwassant caer effrauc. ac val hynny holl dinessyd lloegyr a symudasant ev henweu. or rei yd aduerwyt yr hynny hyt hediw onadunt. Hwndrwd y galweint cantref. sire y galweint swyd. Ac y dwyn ar gof yr neb a delei rac llaw: yr arwyd dwillodrus ysgymun. a uu ryngthunt pan ladassant holl Deledogeon ynys brydeyn ar vynyd Ambri. sef oed hynny draweth hawre sexes. Ac am hynny y galwassant y randiroed west sex. estsex swthsex. yr hynny hyd hediw. A llyna val y ranassant lloegyr. y ryngthunt. y vrenhin kent holl swid geint a dan y thervynev. Ac un esgobot a oed yny gyuoeth. nyt amgen Archesgob keint. ac escob caer raw. Y vrenhyn westsex y doeth wyltessire barrocssire sswthsex sswthamtessire. deuynssire. a chornwayle. A phym esgobot a oed yny gyvoeth. nyt amgen. esgob salysburie. ac escob badon a oed yna yn Wellys. Ac escob chichestyr. ac escob winchestyr. ac escob exestyr. yr honn a rannwyt yna yn deu hanner: y naill hanner i Cridintone. ar hanner arall y seint german yngherniw. Y vrenhin mers y doeth gloucesterssire. wircesterssire. warwicssire. sstatfortssire. derbissire. chestyrssire. schropssire. herfortssire. oxenfortssire. bockinghamssire. hontyndonssire. a hanner betfortssire. northamtonssire. leicestyrssire. nicolessire. notinghamssire. A their esgobot oed yn y gyvoeth: nyt amgen. escob caerlleon. ac escob henfford. ac escob caervrangon. Y vrenhin estsex y doeth cantebruggssire. northfolc. southfolc. estsex a hanner. betfortssire. a their escobot a oed yny gyvoeth: nyt amgen escob norwic. ac escob llundein. ac escob eli. Y vrenhin northhumberlond y doeth or tu hwnt i humyr hyt yn mor prydyn. A dwy escobot a oed yn y gyvoeth. nyt amgen archescob caereffrauc. ac escob durham. Ac val ydoedynt velly yn gwledychu yn hedwch dagnauedus a gwedy peidiaw or dymhestyl.

Ef a doeth Iuor vab alan ac ynyr y nei val y dywetpwyt uchod y dir lloegyr ac ev llu git ac wynt. Sef oed hynny: teir blyned a phedwar vgeint a chwechant gwedi geni duw. Ac yn ev herbyn wyntheu y doeth y saesson: ac ymlad ac wynt yn wychyr creulon calet. ac yn yr ymlad hwnnw y llas lluosogrwyd o bop tu. Ac or diwed y goruu ivor: ac y goresgynws kerniw a dyfneint a gwlat yn haf. Ac yna y doeth y saesson gynnullau. ev nerthoed attadunt idyuot am ben iuor: ac yna y doeth gwyrda ryngthunt. ac y tagnavedwit wynt. Ac yna y cymmyrth ev ethelburga yn wreica idaw. ac eu a beris gwneuthur freutur y meneich yn glastingburie. ar y gost y hûn, a hynny drwy llywodraeth Adelmus manach sant or ty. hwnnw. ac yn yr eil ulwydyn gwedy dyuot iuor ir ynys honn y bu marwolaeth yn iwerdon. Ac ef a rodes iuor i eglwys caer wynt deng hidys ar ugeint o dir lle gelwir ewerlond yn ynys with. a deng hidys a deugeint yn y lle y gelwir verdinges. Pedweryd ulwydyn gwedy y dyuot ef ir ynys honn yn crynws y daear yn manaw. Blwydyn gwedy hynny y bu gwlaw gwaet yn ynys brydein. ac yn iwerdon, ar llaeth ar emenyn a drosas yn waedawl liw. Eil

[1] Bibl. Cotton. Cleopatra B. V. P. 136. Plut. XIX. A.

Ar ol Hanes Gruff. ab Arthur y mae fal hynn. yn y llyfyr yma.

ulwydyn gwedy hynny y cochas y lleuat yn waedawl liw. Pan oed oet crist D.CC.I. y bu uarw Wrcardies brenhin kent, ac y gwnaethpwyt edbert yn urenhin yn ei le. D.CC.IIII. y bu ufarw elvric brenhin y saeson. D.CC.VII. y bu uarw eldred brenhin mers. ac y gwnaethpwyt kenred yn urenhin yn y le. Anno dom. D.CC.VIII. y goleuhaws y nos megys y dyd, ac y bu uarw pipin enrydedusaf brenhin freinc. D.CC.XIIII. y bu uarw cenred brenhin mers, ac y gwnaethpwyd Scelered yn ei le yn urenhin. D.CC.XVI. y bu uarw osbrit brenhin y sacsoniait. D.CC.XVII. y cysegrwyd eglwys mihaugel. Anno dom. D.CC.XX. y bu yr haf tesawc. a gwedy gwelet o iuor vab alan nad oed wiw ymdiried yr byd hwnn. ef a ymedewis, ai holl gyuoeth, ac a gymerasant dillat bydawl amdanadunt ysgeulus ev ai wreic. ac y daethant i ovwyaw duw hyt yn ruvein. Ac ef a wnaeth duw gweledigaeth mawr yrdynt pa ford bynac y cerdeint drwy y treui ar dinesyd. ef a ganei clych y dinas neur drev heb dodi o neb llaw arnadunt. D.CC.XXI. y gwnaethpwyd ethelard yn vrenhin yn west sex, ai urenhines ynteu oed frideswida. o honno a rodes i eglwys caer wynt o dref y thad, cantonam, ai gwr ae achawanegws y rod o serch cyuanned. Ac yn y ulwydyn honno y bu uarw beli vab elphin. ac y bu ryuel heil a rhodri malwynawc ynghernyw. ac y bu gwaith garth maelawc a chat pencoet yn deheubarth cymre. ac ymhob or tri chyfranc hynny y goruu y brytanieit. D.CC.XXII. y bu varw scelered brenhin mers. ac y gwnaethpwyd ethelard yn vrenhin yn ei le. D.CC.XXVIII. y bu ryuel mynyd carno, Anno Dom. D.CC.XXXV. y gwnaethpwyd cuthred car ethelardi yn vrenhin yn west sex. Ac ef a rodes i eglwys caer wynt, yn ynys wicht deugeint hidys o dir lle gelwir muleburnam. a phump ar hugeint lle gelwyr bone. wadam. a LXVytXXII. yn wippingeham. ar tir a elwir drucham. a'r llys a elwir clera. Ac yny ulwydyn honno y bu uarw beda effeiriat yr ystoriawr goreu. ar ysgolheic goreu or a vu ynghyd oes ac ef. DCC.XXXVI. y bu uarw owein brenhin y picteit. Anno Dom. D.CC.XLIX. y gwnaethpwyd sigelert yn urenhin yn west sex, ac y dyneshaws ei gyuoed attaw ac y vynassant ef oe vrenhiniaeth ac y tagwyd ef gan nebun gwas ychen, yndlawd alltudedic. Anno Dom. DCC.L. y gwnaethpwyd cynewlfus yn urenhin y sacsonieit a thrwy ei uredychu y bu uarw. Yn y vl6ydyn hynno y bu ymlad rwng y Brytannieit ar pictieit yr hwn a elwir gweith metgadawc. ac yno y llas dalargan brenhin y pictieit. Ac yny ulwydyn honno y bu uarw tewdwr uab beli. Dcc.liiii. y bu varw rodri maelwynawc. brenhin y brytannieit. Dcc.lvii. y bu uarw edpalt brenhin y saxonieit. Anno dom. Dcc.lx. y bu ymlad rwng y brytaniet ar saeson yr hwnn a elwir gwaith henford, ac y bu varw dyvnanal vab tewdwr. Dcc.lxviii. y symudwyt y pasc y nghymre. ac y emendithiwd elbodii gwr i duw oed. Anno dom. Dcc.lxxiii. y gwnaethpwyd offa yn vrenhin yn mers. a brithrit yn vrenhin yn west sex. ac y bu uarw fermael vab idwal. ar brithrit hwnnw a deholas egbirt or ynys yn ei ieuengctid ac ynteu a aeth i frainc. ac y ymrodes i dysgu marchogaeth. ac ymdwyn arueu. Dcc.lxxv. y bu varw cemoyd brenhin y pictieit. Dcc.lxxv. y bu varw seint enbert abbat. Dcc.lxxvi. gwyr deheubarth cymre a difeithiasant yr ynys hyd ar offa brenhin mers. Dcclxxxiiii. yr haf y difeithws y cymre cyuoeth offa. ac yna y peris offa gwneuthur clawd yn deruyn ryngthaw a chymre ual y bei haws ydaw gwrthuebu y ruthyr y elynion. a hwnnw a elwir yn glawd offa yr hynny hyd hedyw. Dcclxxxxv. y daeth paganieit gyntaf y iwerdon ac y difeithwyt rechreyn. Dcclxxxxvi. y bu varw offa brenhin mers. ac y bu varw maredud brenhin dyued, ac y bu ymlad rudelan. Dcclxxxxviii. y llas caradawc brenhin gwynedd, y gan y saeson.

Anno dom. Dccc. y gwnaethpwyt egbirait yn vrenhin yn west sex, gwedy brithria a dywetpwyt uchot. Ac yna y cynnullws ef llawer or gweison ieuainge dewraf achryvaf. yn eu gyuoeth. ac au gwnaeth yn uarchogion urdolion. ac a dysgws idynt varchogaeth. ac ymdwyn arueu val y dysgasei ynteu gynt yn freinc. ac aruer onadunt ar hedwch. ual y bei vyuyr ganthunt ar ryuel pan vei reit. wrthynt. Dcccii. y gwnaethpwyt cenwlfus yn vrenhin yn y mers. Dcccvii. y bu varw Arthen brenhin ceredigion. ac y bu dific ar yr heul. Dcccviii. y bu varw rein brenhin dyuet. a chadell powys. Dcccix. y bu uarw elvod archesgob gwyned. Dcccx. y duws y lleuat dyw nadolic. ac y llosgas mynyw. ac y bu varwolaeth yr ysgrybyl. drwy holl gymmry. Dcccxi. y bu varw owein vab moredud. ac y llosges deganwy gan dan mellt. Dcccxii. y bu ymlad y rwng hywel a chynan. ac y gorfu howel. Dcccxv. y bu y taraneu mawr. ac y gwnaeth llawer a losgeu. Ac y bu varw gruffud vab rein.

ac y llas griffri vab cyngen. o dwyll elisse ei vrawd. ac y goruu howel o ynys von ar cynan ei vrawt : ac ai deholas ef ai lu gan etivarwch mawr. Dcccxvii. y deholet o vanaw ac y bu varw cynan vrenhin. ac y diffeithws y saeson mynyded erryri. ac y dugant brenhiniaeth rywoniawc y ar y cymre. Dcccxviii. y bu ymlad yn mon. yr hwn a elwir gweith llanfaes. y môn. Dcccxix. y diffeithwyt dyuet y gan cenwlfus brenhin mers. Dcccxxiii. y llosgat degannwy y gan y saeson, ac y distrywywyt powys. Dcccxxv. y bu varw hywel brenhin manaw. Dcccxxvi. y gwnaethpwyt cenelm sant yn vrenhin mers. Dcccxxvii. y gwnaethpwyt ceowfus yn vrenhin mers. Dcccxxviii. y gwnaethpwyt cernwlf yn vrenhin mers. a hwnnw a wnaeth gwatwar am egbirt am dysgu ei wyr val y dywetpwyt uchot. ac anfon a oruc ar egbirt y erchi idaw dyuot i wneythur gwryogaeth idaw. neu ynteu erbynnyeit adelei attaw. ac yna y cauas egbirt yny gynghor bot y degach ganthaw diodef gloes angheu yngwryt gwyr. no dyborthi hir gethiwet waradwydus. ac yna y gysodet oet dyd idunt yr haf hwnnw i ymlad. yn lle gelwyt elle-done lle mae llys yr awrhon y brior caerwynt. a gwedi dyuot pawb i'r oed. ni ddoeth y gyt ac egbirt onyt cant marchawc or rei goachul drycliwiawc a chyda cernwlf y doeth mil or marchogion adwynaf a theccaf a welsei neb. ac ymgyrchu a orugant. ac ymlad yn wychyr creulon. ac ef a oruc duw yn gymeynt yr egbirt. ar gafael o honaw y uudugoliaeth a llad o nadunt hyt na welit y daear. rac celaned. y gwyr ar meirch. ac y goresgynws pymptheg wlat a hanner or rhei a dywetpwyt uchot. ac a dug yn un brenhinyaeth west sex. ar hwn mers. a gwedy cymryt o honaw gwriogaeth y gwyr. anuon a oruc edulfus ei uab. ac ef yn ysgolheic a llu y gyt ac ef hyt yngheint. a hyt yn est sex i erchi idynt ar uyr o amser dyuot i wneuthur gwriogaeth i egbirt. o mynneynt uod yn diboen. Ac ynteu a aeth ac a oresgynws y gwledyd hynny. ac a daeth drachevyn adau goron y dau urenhin hynny yn anrec iw dad. Ac yna y daeth egbirt hyt ynghaer efrawc. ac a oresgynnws holl Northumberlond idaw. a dinas caerllion y ar y Bryttannyeit. A gwedy darostwng pob man idaw. ef a doeth hyd ynghaer wynt. a dyuynnu pawb attaw yno o ysgolheigion a lleygion urdaseid or holl ynys. A gwedy dyuot pawb y gyt. o gytsynnedigaeth hynny o wyrda. y mynws ef ei wneuthyr yn urenhin ar gwbyl o ynys brydein a gwisgaw y goron am ei ben. a galw yr ynys o hynny allan oe henw e hun yn y ieith ef yn eglond. ar ieith yn egliss. ar dyneon yn eglissmen. ac ef cyntaf a dug ynys brydein a dan un brenhin. gwedy yr bruttannyeit gynt. ac ef a rodes i eglwys caerwynt yr er enryded a wnaeth duw yrdaw ynteu. yn ynys wicht lle gelwir cannelburnam tec hide arugeint o dir. ac yn scaldeflet xlii or hydys o dir. a phedeir tref. nit amgen drockensford. wordiam. a weltonham. a bedintonam. Dcccxxxi. y bu dific ar y lluat. viii kl' novembr. ac y bu uarw saturbin esgob mynyw. Dcccxxxvii. y bu varw egbirt vrenhin. ac y glathpwyt ef yn eglwys caer wynt yn enrydedus. ac y doed edulf y uab yn subdiagon yna. ac o eisieu etifed y ducpwyd ef oe yscolheictot y wledychu y lle y dat.

A gwedy gwneuthur edulf yn urenhin. ef a vu idaw pedwar maib. nyt amgen ethelbald. ethelbircht. ethelred. ac aelfryt. yr aelfryt hwnnw a anuones y dat ef hyt ar leo pab pedwyryd iw gysegru yn urenhin ar ynys prydein. ac yr ei uod ef yn urenhin cysegredic ym bewyt y dad. cymmeynt oed ei warder ac na vynnei dim or cyuoeth ym mywhyt ei dat nac ym mywhyt un oe vrodyr. Ac yna ydaeth edwlf hyt yn ruuein. ac a weles ar y ford o amrauaelyon genhedloed rei yn noeth. ac ereill a rwymau hëyrn arnadunt. yn gwneuthur eu penyt drwy y dinessyd lle bei amlaf y pobloed a mwyaf y cohoed. ac yna cyfroi a oruc ei uryt ar warder a thrugared. a phan doeth ar y pab : ef a ymwnaeth ac ef hyt na phenydit dyn oe deyrnas ef byth yn noeth. nac a rwymeu heyrn. nac o dieithyr y wlat e hun. ac yr hynny ef a rodes ceiniawc o bob ty dros wyneb lloegyr unweith pob blwydyn a honno a elwir ceiniawc pedyr. er hynny hyt hedyw. a gwedy ei dyfot o ruuein ef a berys degymmu ei holl gyuoeth a phob decued lloc aradyr o dir ef ac roes i gwuennoed yr eglwyseu drwy ei deyrnas i wasanaethu duw. ac am lloc un aradyr o dir arodasei catuan a chatwallawn i eglwys caerwynt. yn eu hoes hwynt gynt. ac a dugesit i arnei ef a berys y dalu drachevyn. ac a rodes yn chwanec i'r eglwys tri hide a deugeint a chant. a dwy lys nit amgen birchewellam a wembergam. ac a berys gwneuthur eglwys yn yr hon y clathpwyt ef gwedy hynny. Dcccxl. y cysegrwyt escob mynyw. Dcccxlii. a bu uarw idwallawn. Dcccxliiii. y bu gweith ketill. ac y bu uarw merfyn urych. Dcccxlviii. y bu gweith tynnant ac y llas ithel brenhin

gwent y gan wyr brecheyniawc. Dcccxlix. y llas meuric y gan y saeson. Dcccl. y llas cyngen y gan y wyr e hun. Dcccliii. y diffeithwyt mon y gan y llu du. Dccccliii. y bu uarw cyngen brenhin powys yn ruuein. Dcccclvi. y bu uarw cemoyth brenhin y pictieit. ac y bu uarw ionathan pennaeth Abergeleu. Dcccclvii. y bu uarw edwlf brenhin y saeson. ac y cymmyrth y dau uab y gyuoeth yw rannu ryngthynt. nid amgen i ethelbald y doeth west sex. ac i ethelbirt i doeth swydd geint. Dcccclx. y bu uarw mael talaohen. Dcccclxii. y bu uarw ethelbald brenhin west sex. ac y cymmyrth ethelbirt ei vrawt y cyuoeth yn gwbyl yn eidaw ei hun. ac a wledychws pymp mlyned ereill. ac yn y ulwydyn honno y bu cat gweitheu. Dcccclxiiii. y diffeithwyt glywysig ac yd alltudwyd hwynt. Dcccclxv. y bu uarw cynan naut nifer. ac y dyrchauwyt corf saint swithen. Dcccclxvi. y difeithwyt caer efrawc. ac y bu cat dubgynt. Dcccclxvii. y bu uarw ethelbirt brenhin lloegyr. ac y cymyrth edelred. y urawt. y vrenhinaeth yn eidaw e hun. ac y doeth gwyr denmarc naw weith yn un ulwydyn y ymlad ac ef. ac ynteu a oruu arnadunt. ac a ladawd deu urenhin. nid amgen brenhin gnar. ar hwnn unllam. a phedwar ieirll ar deg. ar pedytgant ny wydynt eu rhif. ac yna y llas seint edmund. brenhin est sex. ac ef a wnaeth duw yn dec ac ethelbirt brenhin lloegyr treigl gweith. Gwedy dyuot oseth brenhin denmarc i dir lloegyr. a llu mawr ganthaw. a gossot oet cyfranc yn y lle y gelwir assedone. a gwedy dyuot y deu lu ygyt. ymlad o orugant yn greulon o bob tu yny wahanws y nos y urwydyr. a thranoeth y boreu y trigawd ethelred i wrandaw ei efferen. ac y doeth Aelfryt ei urawt ac a orelwis y llu ynghyt. ac a dechreuws yr ymlad o hir bylgeint yn wychyr creulon. gwyr denmarc yn goruod arnadynt. ac anuon a orugant i erchi ir brenhin dyuot i'r ymlad. ac ni deuei ef un cam yny darfu idaw gwarandaw cwbyl o'r efferen. ac yny drwy ewyllys da kyrchu yr ymlad a oruc. a duw a wnaeth oe enryded rodi y uudugoliaeth idaw. ac yn y llas oseth. urenhin denmarc ai lu. Dccclxix. y bu cat brynn onnen. Anno dom. Dcclxx. y torret twr Alclut. Dcccclxxi. y y bodes gwgann brenhin ceredigiawn. Dcccclxii. y bu uarw ethelred. brenhin lloegyr. ac ai clathpwyt yn Winborne.

Ac yna y cymyrth aelfred y urenhinaeth yn eidaw ei hun. yr hwn a goronhäws pab ruuein ym mywyd edulf ei dat. ac eve a beris gwahanu y pedeir awr ar ugeint y syd yn y dyd yn deir rann. nyt amgen yr wyth awr a dreuliai ef yn ysgriuenu. ac yn darllein. ac yn gwediaw. yr wyth awr ereill y bydei yn ymgynghor am deiliadaeth y deyrnas. y trydyd wythawr y gorfwysei ei gorf. a gwr a oed yn y cappel yny un gweith yn wastad yn gwneuthur teir cannwyll gogymeint beunyd. un o nadunt a barhæ yn llosgi tra barhae wythawr. ac yna y daruydei. ac y menegit ir brenhin. ac yna y llosgit canwyll arall. ac ual hynny yn wastad y gwasaneithyd. ae ual y dywetpwyd uchot am wyr denmarc. bei mynycha y gwrthnebit ydunt. mynycha y cyrchynt wynteu. ac ef a deliit gurmund brenhin denmarc. ac ae gwnaethpwyt yn gristion. A hasteng gwr a doeth gyt a gurmund a watwarws fyd grist. ac y cymmellws aelfryt ef ar fo o'r ynys honn. ac y daeth ynteu ac a gynullws llynghes decgaf or awelsit. ac y doeth y dinas a elwit llynne. ac ay distrywyawd drwy greulonder a hen bredrycheu. A'r aelfryt hwnnw a drossas cyfreithieu y bruttanyeit yn saesnec. ac y gelwit wynt yna cyfreitheu aelfryt. a llawer o lyureu a drosses ef yn y mod honno. ac ef a wnaeth i'r hwndrydeu ar dytangeu y geisiaw y lladron. ac ef a beris gwneuthur dwy uanachlog. un i uenych yn ethelingham. ac arall iuanachesau yn schesteburi. ac a wnaeth manachlog mewn mynwent i'r escobty ynghaer wynt. ac ae cyuoethogas o lawer o allu. ac ay rodes i seint grimbald yr trigaw y honaw yn lloegyr. ac ef a rodes i achwanegu cantoreaeth caer wynt tref a elwyt kinctone. Dccclxxiii. y bu gweith bangoleu a gweith enegyd yn môn. ac y bu uarw escob Mynyw. Dccclxxiiii. y cymyrth limberth escob Mynyw. Dccclxxv. y bodes dungarth brenhin cernyw. Dccclxxvi. y bu gweith duwsul ym môn. Dccclxxvii. y llas rodri a gwriat ei urawt y gan y saeson. Dccclxxviii. y bu uarw Aed uab Mell. Dccclxxx. y bu gweith conwy. yr hwn a elwit dial rhodri. Dccclxxxii. y bu catgweitheu. Dccclxxxv. y bu uarw hywel yn ruuein. Dccclxxxvii. y bu varw certull Dccclxxxix. y bu uarw cubin y doethaf or ysgottieit. Dccccc. y doeth y nordmanniait. y duon drachevyn hyt ar ciwiwn. Dccxci. y bu varw cenneth vab bledut. Dccexciii. y doeth anarawt i gyt a'r saeson i difeithiaw ceredigiawn. ac ystrat twyi. Dccexciiii. y difeithwyt lloeg yr a brecheiniauc. a gwent. a gwynllywc. Dccexcv. y bu dific bara yn iwerdon: ac y syrthiws pryved o'r awyr megis gwadeu a deu deint ydynt. ac yn yssu yr yttkenn yn

llwyr. ac y cat eu bwrw drwy un pryt a gwedi. Dcccxvii. y bu varw elstan brenhin y saeson. Dcccxciii. y bu uarw albryt. brenhin gynoys. Dcccc. y doeth paganieit i ynys von. ac a gynhelws maes meleriann. Dcccci. y bu uarw aelfryt brenhin lloegyr. ac y clathpwyt yny uanachloc a wnathoed e hun ynghaer wynt. ac yny ulwydyn honno y llas merfyn vab rodri y gan ei wyr e hun. ac y bu uarw llywarch vab hyveid. ac y gwnaethpwyt Edward vab aelfryt yn vrenhin yn lloegyr yn lle ei dad.

A gwedy gwneuthur edward yn vrenhin. ef a vu cyn gadarnet hyt na lauasei gwyr Denmarc senghi y gyuoeth oe anvod. ac ef auu idaw. V. meib. a naw merchet. o deir gwraged. a oed idaw. Oe pymp meib: tri onadunt awledychws ol yn ol gwedy ev tat. nyt amgen edelstan ac edmund ac adred. Or naw merchet: teir onadunt a rodet ynghrevyd. nyt amgen aflede auu abbades yn romesi. a seint edburc yn gaer wynt. ac edit oed dryded. Ac ef a rodes y eglwis caer wynt pedeir llys. nyt amgen husseburnam. wite cherche. ouertonham. ac ystockam leiaf. Anno ix^{c}.ij. y llas penn rodi vab huueith yn arwystli. Anno. ix^{c}.iiij. y bu gweith duuneir yn yr hwnn y llas mayauc cam vab peredur. ac y dilewyt mynyw. Ann. ix^{c}.v. y bu varw Gorchywyl escob. a cornoc vrenhin ac escob holl iwerdon. A gwr mawr y grefyd ay gardawt oed. Culennan alas yn yr ymlad hwnnw. ac y bu varw kyrnallt vab muregan brenhin laginensiu' yn diwed yr ymlad. Anno ix^{c}.vi. y bu varw asser archescob y bruttanyeit. Anno ix.^{c}vii. y bu varw cadell vab rodri. Anno dom. ix.^{c}xi. y doeth other y ynys brydein. Anno. ix^{c}.xiii. y bu varw anaraut vab rodri brenhin y bruttanyeit. Anno .ix.^{c}.xiv. y diffeithwyt iwerdon ygan wyr dulyn. ac y bu varw eldfled vrenhines. Anno .ix.^{c}xv. y diffeithwyt mon ygan wyr dulyn. Anno .ix^{c}.xvii. y llas clydawc vab cadell ygan veuric y vraut. Anno .ix^{c}.xviii. y bu varw nercu escob. Anno .ix^{c}.xix. y bu gweith y dinas newyd. Anno dom .ix^{c}.xxiiii. y bu varw edward vrenhin ac y clathpwyt ef yny vanachlawc a wnathoed y dat ynghaer wynt.

Ac yna y gwnaethpwyt Edesltan vab edward yn vrenhin yn lloegyr. Ac y doeth gwyr denmarc y geisiau goresgyn yr ynys y arnaw. Ac y rodes yntev kyffranc ydunt. ac yny kyffranc hwnnw y llas brenhin yr yscottieit. a phymp brenhin o denmarc. a deudeng ieirll ac ev lluoed. Ac ef a ystyngawd ydaw holl brenhined kymre: ac aberys ydunt talu teyrnget ydaw megys y talawd brenhin nortwei idaw. Sef oed hwnnw. try chant pvnt o areant. ac vgeint pvnt o eur. a phymp mil o warthec. pob blwydyn. Ac ydaw yd oed chwaer hilde oed y henw a theckaf morwyn or byt oed. Ac y doeth Edulf iarll boloyn. o Bancewine iarll flandrys. ac anrec y gan huges brenhin freinc y edelstan brenhin lloegyr hyt yn abyndon. nyt amgen try chant cmmys ac ev gwisgoed yn gyweir arnadunt. a chledyf constans amheraudyr ar wein yn eur coeth. ac yn or kethreu auu mewn traet yessu grist pan diodefaut yn gaeyedic yny cledyf. ar gwayw auuassey gan charlemaen vrenhin yn ymlad asarassuneit gynt. a choron seyn moris. a pheth o bren y groc y diodefaut crist mewn maen krissiant yn gayedic. aphet or goron drein auu ar benn crist pan diodefaut. a choron vrenhiniaul o eur coeth a meyn gwyrthuaur o amrauayllion gwyrthyeu. Ac ef ay derbynnws yn enrydedus. ac anvones y chwaer y vrenhin freinc yr honn y buassei yny damvnaw ys llawer o amser kyn no hynny. Ac ef a gynhelis yr ynys yn gyn gadarnhet. nei edewyt torch o eur ar fford: na lauassey neb y dwyn y lledrat. Ac ef a rodes y eglwys caer wynt penn seyn justi merthyr. atheir llys. nyt amgen. Chilboldintone. Enedford. ac Eismeres wordham. Ac a rodes llawer y uanachloc malmesburie. Anno .ix^{c}.xxvi. ydaeth Howel da vab cadell y ruvein. Ac y bu varw Elen. Anno dom. ix^{c}.xxxiii. y llas Grufud vab Oweyn y gan wyr keredigyawn. Anno .ix^{c}.xxxv. y bu ymlad y brune. Anno .ix^{c}.xxxvi. y bu varw hymeith vab clydauc. a meuric. Anno .ix^{c}.xxxix. y bu varw edelstan vrenhin lloegyr ac y clathpwyt ef yn malmesburie.

Anno dom. ix^{c}.xl. y gwnaethpwyt Edmund y vraut yn vrenhin. Ac y bu varw abloyc brenhin iwerdon. Anno .ix^{c}.xli. y gwenwinwt cadell vab arthuael. Ac idwal vab rodri ac ellissed y vab alas y gan y saesson. Anno .ix^{c}.xlii. y bu varw limberth escob menyw. Anno .ix^{c}.xliii. y bu varw vssa vab llaur. A morcheis escop bangor. Anno ix^{c}.xliiii. y peryglwyt a gwenwyn kyngen vab elisse. Ac y bu varw Eneuris escob myniw. Ac y diffeithwyt stratclut. y gan y saesson. Anno .ix^{c}.xlv. yd oed Edmund vrenhin yn kynnal gwled yn manachloc seint austyn yngkeint. ac val yd oed yn bwrw golwc ar hyt y neuad: ef a welei lleidyr ar daroed y dehol or ynys kyn no hynny. Ar

brenhin a gyuodes y vyny ac adoeth hyt yn lle yd oed y lleidyr: ac ymavael ac ef ger wallt y ben ay dynnv dros y bwrt. ay daraw ay dorr y vyny adan y draet. Sef awnaeth y lleidyr tynnv kyllell ac yadanaw brathu y brenhin trwydaw yny golles y eneit. Ac y kyuodes y gwyr ac y lladassant y lleidyr. Ac yna y ducpwyt corf y brenhin hyt yn glastingburie ac yno y clathpwyt ef.

Ac yna y gwnaethpwyt Edredus braut Edmund yn vrenhin lloegyr. Ac ef aragores rac paub oe hennavieit o ovynhau duw. Ac am hynny pob peth or adamunei y gan duw: ef ay kaffei. hedwch a vynnei hedwch agavas. Ac y rodes duw idaw y rat hyt nat argywedunt neb arnaw: namyn paub yny garu yn wahanredaul. A dwy lys agolassei eglwys caer wynt: ac ef aberys ev hatuer drachevyn. nyt amgen no duntunam a husseburnam. Anno .ix°.xlviii. y bu varw howell vab cadell brenhin agogoneaut holl kymre. Ac y llas Cadwgon vab Oweyn ygan y saesson. Ac y bu ymlad caerno y rwng meibion howel. a meibion idwal. Anno dom. ix°.l. y diffeithwyt dyuet dwy weith y gan veibion Idwal. Iago a Ieuaf. ac y llas dungwallaun ygan ev gwyr wynt. Anno ix°.li. y bu varw rodri vab howel. Anno ix°.lii. y bu lladua vaur y rwng meibyon Idwal: a meibion hywel yn lle gelwir Gurgustu. nev gweith conwy hirmaur. ac y llas anaraut vab gwry. Ac y diffeithwyt keredigiawn ygan veibion idwal. ac y bu varw edwyn vab hywel. Anno ix°.liii. y bodes hayardur vab mervyn. Anno ix°.liiii. y llas Congalach brenhin iwerdon. Anno ix°.lv. y bu varw edredus brenhin lloegyr. ac ef a gigleu seynt dunstan abbat glastingburie llef or nef yn dywedut: yr aur hwnn ymae edred' yn mynet at y arglwyt. ac yna y syrthiawd seint dunstan yny varw lewic. ac y ducpwyt corf edred' hyt yngkaer wynt. ac yno y cladpwyt ef yn enrydedus. yny vlwydyn honno y bu yr haf tessauc. ac y llas Gugaun vab guryat.

Ac yn yr vn vlwydyn honno y gwnaethpwyt Edwinus vab edmund yn vrenhin. A hwnnw a dremygws holl annwydeu edredus y ewithyr. Ac agymyrth ryvic a balchter yndaw heb didorbot nac am duw nac am dyn dym. y dyd y gwnaethpwyt ef yn vrenhin: ef aduc gwreic briaut yar y gwr priaut y dreis. am y phryt. ay gwr yn gar idaw. Ac yno ymrodi y odineb ac y ryuelu ac eglwys duw yny uu agos ydaw a divwynaw y dyrnas yn llwyr. Anno ix°.lviii. y diffeithws Oweyn goryuyd. Anno ix°.lix. y bu varw edwinus brenhin lloegyr. ac y cladpwyt ef yngkaer wynt. Ac y gwledychaud meibion Idwal drwy nerth diruaur mis maurth. Ac y diffeithwyt caer kybi alleyn ygan veibion abloic.

Ac yn yr vn vlwydyn honno y gwnaethpwyt Edgar vab edmund braut y edwin yn vrenhin ar loegyr. a hwnnw a ymedewys a holl drwc deuodeu y vraut. ac auu wr da santeid. yny oes ef y kigleu seint Dunstan egylion nef yn canv: ac yn dywedut. hedwch a vyd ac amylder o frwitheu yn yr ynys honn. tra vo bew seint Donstan. ac y gwledycho edgar. Ac nyt edewys edgar dros wyneb y deyrnas na manachloc nac eglwys ny wellhaei arnaw: ay o dir a daear. ay o gwerth arall. A gwedy gweletohonaw diffyc yr eglwysseu ygan y personyeit. ac yn treulyaw y renti lle bei digryf ganthunt. ac yn gadel yr eglwysseu yn noeth y mewn ac allan. ar vicarieit heb na bwyt na dillat. na gallel ymrysson ac wynt. doluriau yny gallon a oruc. ac anvon ar yr escob ac ar yr archescob y ev kynghori trigaw ar ev renti a gwassanaethu duw megys y dylyeint. A gwedy gorchymyn or arch escob ar escob ydunt hynny: yd oed rei anwastad onadunt na wassanaethent y cor vn vlwydyn yr mil o bunnoed o eur ydunt. ac o vnoliaeth dywedut na wnaynt amgen noc y gwnaethant gynt. Ac yno y peris y brenhin bwrw llawer onadunt oc ev renti. agyssot meneich yny manachlogoed a bicarieit ywassaneythu duw yn wastat. A gwedy peri o honaw y y Iewan bab xiii. cadarnhau hynny: ef arodes y eglwysseu caer wynt llys aelwyt auitone. ac yn itinstokam. x. hidas. ac yn madanlegam. iii. hidas. ac yn broedunam. xiii. hidas. ac yn aderinges feldam. ii. hida. ac yn derrucam. vii. hidas. Athra uu vew ny bu vlwydyn ny wnelei. ae manachloc ay eglwys yr enryded y duw ar seint. Anno dom. ix°.lx. y llas Idwal vab Rodri. ac y kyssegrwyt adelwald yn escop yngkaer wynt. Anno ix°.lxi. y llas meibeon Gwynn. ac y diffeithwyt y ty wyn. ac y bu varw Meuric vab catvan. ac y daeth meneich kyntaf y vanachloc caer wynt. Anno ix°.lxii. y bu varw ryderch escop. ac y daeth meneich kyntaf y vanachloc yr hyde. Anno ix°.lxiiii. y bu varw Catwallawn vab oweyn. Anno ix°.lxv. y diffeithwyt kyuoetheu meibion idwal y gan y saesson. Anno ix°.lxvi. y llas rodri vab idwal. ac y diffeithwyt aberfrav gwedy hynny. Anno ix°.lxvii. y dalpwyt Ieuaf vab Idwal y gan Iago y vraut ac y carchar-

wyt ef agevynnev. Anno ix^{c}.lxviii. y diffeithwyt Gwhyr ygan Eino' vab Oweyn. Anno ix^{c}.lxix. y diffeithwyt penn mon y gan y paganyeit a mact vab harald. canys canneat agavas gwyr denmarc ar drigaw yn yr ynys honn tra vynnynt y gan edgar vrenhin lloegyr. Ac yna y daethant kyn amlet hyt nat oed na dinas na thref arall dros wyneb lloegyr na bythynt amlach wynt nor saesson. Ac yna ymrodi y yvet aorugant ac y odineb hyt na ellit reol arnadunt. ac yny uu orthrwm gan y brenhin ar dyrnas wynt. ac na alleynt ev gwrthlad rac ev hamlet. Ac yna y dodet hoyleon yny ffiolev yn dogyn diawt gwr: ac nat yfve neb mwy no hynny. onyt wrth vessur: ac o hynny arafhau peth a orugant. Ac y edgar ybu deuvab vn oy wreic briawt a elwyt edward. ac arall o wreic adylwold iarll adugassei rac y gwr hyt yn fforest o warwelle rac ythecket. ar mab hvnnw aelwit edelret. Pan oed oet Iessu. ix^{c}.lxx. y diffeithwyt mon ygan gotfrit vab harald ac ay goresgynnawd yn drethawl idaw. Anno ix^{c}.lxxi. y dyrchafwyt corf seint swithan yv dodi yn ysgrin yn enrydedus yngkaer wynt. ac y doeth llynghesseu y gan edgar brenhin lloegyr hyt yngkaer llion ar wysc. Anno ix^{c}.lxxii. y diholet Iago vab Idwal oe gyvoeth. a Hywel vab Ieuaf ae gwledychws. Meuric vab idwal a dallwyt. a morgant a uu varw. Pan oed oet crist ix^{c}.lxxiiii^{o}. y bu varw Edgar brenhin lloegyr. Ac y kyrchawd Dungwallawn brenhin strat clut ruvein. ac y bu varw Idwallawn vab oweyn. A chorf edgar a glathpwyt ynglastyngburie. A thra uu vew ni bu blwydyn ny wnelei ay manachlauc ay priorde ae eglwys arrall yn enryded y duw ar seint. ac ny allwyt y gerydu onyt vn o dri pheth. am iarll adelwold. ac am duc Andenere. ac am y vanaches a duc oe manachloc rac y thecket. A hynny a ymendahawd ef oll drwy dysg seint Dunstan. A hynny adangosses duw idaw gwedy y varw. canys gwedy ryvot ygorf yny daear dwy vlyned arbymthec athrugeint mlyned: y doeth yr abat aylward oed y henw amynnv symvdaw ygorf or lle yd oed yn gorwed yle arall. apheri gwneuthur ysgrin o vaen y dodi y gorf yndaw yn enrydedus. A gwedy tynnv y gorf or daear yw dodi yn yr ysgrin ry virr oed yr ysgrin. Ac y perys yr abat torri y aelodev val y genhynt yn yr ysgrin. ac y neidiawd y gwaet o honaw kyn noc aphe bythey ynteu yn vyw. Ac yna y syrthws yr abat val dyn adorrei 'yvynwgyl ac y collas y bwyll. Ac yr aur ydodet ef yn yr ysgrin: ef arodes gwaret y dall ac y vydar ac yr abat.

Pan oed oet crist naw cant aphymthec athrugeint y gwnaethpwyt Edward vab edgar yn vrenhin ar loegyr. Anno ix^{c}.lxxvi. y diffeithwt Gwhyr yr eil weith ygan Einon vab oweyn. Anno ix^{c}.lxxvii. y diffeithwyt lleyn a chelynnauc vaur yr eil weith ygan Hywel vab Ieuaf ar saesson y gyt ac ef. Ac yny vlwydyn honno y doeth Edward vrenhin lloegyr o hely for' ar y lys vam elfride gwreic yr adelwold adywetpwyt vchot ygeissav diawt rac sychet: ac y doeth hi yn rith llewenyd wrthaw ay wasgu rwng y breicheu. ac y doeth nebun diawl creulon ay vrathu achyllell yny gollas y eneit. ac eisswys ef a drewys y varch ac yspardunev ac a ffoas yny syrthws yn varw yr llaur yar y varch ac y foas y march ar kyfrwy yn waetlyt arnaw hyt yn edwardestolle. ac yno y mae y kyfrwy ynghadw yr hynny hyt hediw: y dwyn ar gof y verthyroliaeth ef. Ac yntev aolrewt wrth y gwaet ry gollassei yny gat yn varw. Ay gorf aducpwyt yn gyntaf hyt yn waram: ac odyno yducpwyt hyt yn safftesburie drwy enrydedeu mawr lle y gwnaeth mynych wyrthiev.

Naw cant mlyned atheir arbymthec athrugeint oed oet crist pan wnaethpwyt Edelredus braut edward yn vrenhin ar loegyr. Ac yna vlwydyn honno y dalpwyt Iago y gan wyr Hywel vab Ieuaf. ac ef awledychws kyuoeth iago. Anno dom. ix^{c}.lxxix. y llas Idwal. a gwedy hynny y difeithwyt llyn a mon ygan Custennyn vab Iago. a Gotfrit vab Harald. a gwedy hynny ychydic y llas Custennyn ygan Howel vab Ieuaf yny vrwydyr a elwyt Gweith Hirbaruch. Anno dom. ix^{c}.lxxx. y kymyrth Elfride mam edelred' vrenhin goueilieint yndi am ry lad edward vrenhin drwy ythwyl hi: a ry varw adelwold y gwr priaut o lit wrthi. ac yna y perys hitheu gwneuthur manachloc yn warewelle. ac yna y treulaud y buched drwy dirvaur benyt. Ac yna y gwreickaws edelredus vrenhyn ac agymyrth Eme verch richart. vab richart. vab willam. vab rolond. y gwr a oed yn medu yna Norwandi. ac ohonei y cauas deu vab nyt amgen noc Elvred. ac Edward. Anno dom. ix^{c}.lxxxi. y difeithwyt. dyvet. a myniw. a llangweithenauc y gan wyr Gotfrit vab Harald. Anno dom. ix^{c}.lxxxii. y dyfeithwyt Brecheinyauc. a holl kyuoeth Einon vab Oweyn y gan saesson y duc Alfred a Howel vab ieuaf. ac Einon aladawt llawer onadunt. Anno dom. ix^{c}.lxxxiii.

y llas Einon vab Oweyn ygan y gwyr goreu o went. Anno dom. ix^{c}.lxxxiv. y llas Howel vab Ieuaf ygan y saesson. ac y llas Ionaual vab Meuric: ygan Catwallawn vab Ieuaf. Anno dom. ix^{c}.lxxxv. y llas Meyc vab Ieuaf a Chatwallawn vab Ieuaf: y gan Moredud vab Oweyn ac a wledychaut ev kyvoetheu. nyt amgen. Gwyned a Mon. ac ay darystyngws wynt yn drethaul idaw. Anno dom. ix^{c}.lxxxvi. y ducpwyt lleuver llygeit llywarch vab owein. ac y diffeithwyt Mon y gan Gotfrit vab Harald. ac y deliis dwy vil oy gwyr. ar gwedilyon a duc Moredut vab Oweyn ganthaw hyt yngkeredigiawn adyvet. Ac yny vlwydyn honno y bu marwolaeth ar yr ysgrybyl yn holl kymre. A gwedy gwelet o Edelredus vrenhin amlet gwyr denmarc yn lloegyr: ovynhau y saesson a oruc. canys o deudeng iarllaeth arygeint or a oed yn lloegyr: yd oed gwyr denmarc yn gwledychu vn ar bymthec onadunt. Ac yno y gorelwys y brenhin attaw holl ieirll lloegyr yn gyfrinachus y gymryt kynghor am wyr denmarc: ac yn ev kynghor y caussant llad ev pennev oll yn oet vn dyd ac vn nos. ar neb a attei y vn onadunt diancg: llad pen hwnnw drostaw. Ac yno y llas llawer o vilioed onadunt. ac yna y llas sts' Alfeins yngkeynt. Anno dom. ix^{c}.lxxxvii. y bu varw Ieuaf vab Idwal. ac Oweyn vab Howel. Ac y diffeithwyt llanpadarn vaur. a Menyw. allan ylltut. allan Garbann. allandydoch. Anno dom. ix^{c}.lxxxviii. y llas Glumayn vab abloyc. a Moredud yn dreth a rodes yr llu du keinyauc am bob gwr idaw. yn y vlwydyn honno y bu varwolaeth vaur ar y bobyl o newin. Anno dom. ix^{c}.lxxxix. mlyned y llas Oweyn vab dyfnaual. Pan oed oet crist deng mlyned a phetwar vgeint anaw cant. Moredud vab ywein a diffeithws maes hyveid. A gwedyr lladva adywetpwyt vchot ar wyr denmarc: nyt oed o bennaetheu lloegyr yr vn agarei y gilid onadunt nac ay krettei: namyn pob vn a chwardei wattwar am gollet y llall onadunt. Anno dom. ix^{c}.xci. y diffeithwyt kyuoetheu Moredud nyt amgen dyvet. kerediaun. gwhyr a chetweli ygan Edwyn vab Eyno' allu saesson y gyt ac ef. ac y diffeithwyt mynyw y trydyweith. ac yn dyuot o diffeithiav gwlat vorgant y doeth Moredud yn ev ewyllys. ac y bu varw Catwallawn y vab. Anno dom. ix^{c}.xcii. digwyl kyvarchavel y diffeithwyt ynys von oe holl yt. agwarchadw o veibion meuric gwyned. Anno dom. ix^{c}.xciii. y bu newyn yng kyuoeth Moredud. ac y bu ymlad rwng meibion Meuric a Moredud vab Oweyn. ac y goruu meibion Meuric. ac yno y llas Teudwr vab Eynion. Anno dom. ix.^{c}xciv. y diffeithwyt Manaw y gan Suein vab Harald. Anno dom. ix^{c}.xcv. y llas Idwal vab Meuric. ac y diffeithwyt arthmatha ac y llosgat. Anno dom. ix^{c}.xcviii. y bu varw Moredud vab Oweyn clotuorussaf brenhin y bryttanyeit. ac y dibobylat mynyw o genedyl anffydlaun. ac y lladassant Morgeneu escop Mynyw. Anno dom. ix^{c}.xcix. y diffeithwyt dulyn ygan yscottieit. Ac yd oed Kynan vab Howel yn kynnal gwyned. Pan oed oet crist Mil o vlynyded y diffeithwyt dyvet ygan anfydloneon. Anno dom. M^{o}.i. y bu varw Mor vab Gwyn. ac Ivor Porthalarchi. Anno dom. M^{o}.iii. y llas Kynan vab Howel. Anno dom. M^{o}.iiii. y dallwt Gulfach ac vbiat. Anno dom. M^{o}.v. y bu kyntaf decem nonenalis cicli ii. Anno dom. M^{o}. xi. y diffeithwyt Myniw ygan y Saesson. ac y bu varw vbis haeardur manach o Enlli. Anno dom. M^{o}.xii. y doeth Swan' vab Harald brenhin denmarc a llynghes ganthaw y goresgyn lloegyr. a gyrru edelret vrenhin ar ffo ay wreic ay deu vab hyt yn normandi at Robert braut y wreic.

Ac yna y goresgynaud Swan' holl loegyr drwy dwyll Edrich iarll amhwithic a chaer vyrangon a chaer loew. kanys pob kyvrinach or a vei yn llys edelred' vrenhin ef ay hanvonei ar Swan' brenhin denmarc. A gwedy goresgyn o honaw lloegyr: kyn penn y vlwydyn y bu varw Swan'. ac y detholes gwyr denmarc Chnout y vab yn vrenhin heb gyuarch dim yr saesson. a hagyr uu ganthunt hynny.

A gwedy dyrchauel Chnout yn vrenhin y cafas y saesson yn ev kynghor anvon yn ol Edelred' ev brenhin deledauc hyt yn normandi y dyvot attadunt yn oet dyd tervynedic. sef oed crist. Mil. xiii. o vlynyded. Ac yno y bu kyffro y rwng brian brenhin Iwerdon a mwrchath y vab a brenhined ereill y gyt ac wynt: yn erbyn dulyn a sitruc vab abloic a oed vrenhin yna. a maylmorda ac ev gallu a oed kytt duhyn yn erbyn brian. ac y lloges sitruc llongeidiev o wyr arvauc o ypirateit a brodr dywyssauc arnadunt yn borth vdunt. Ac yny kyffranc hwnnw y llas lluossogrwid o bob parth. yno y llas brian ay vab or neill parth: a brodr a maylmorda or parth arall. A gwedy dyuot Edelred' y dir lloegyr: yr ymgynnvllawd y saesson attaw. ac arodassant kyffranc y Chnout. ay gymhell ar ffo hyt yn denmarc ac adiengys oe lu y gyt ac ef.

A gwedy goresgyn o Edelred' y gyuoeth

drachevyn: ny bu penn y vlwydyn yny glyvychawt o orthrwm heint yn llvndein. A gwedy klywet o Chnout hynny: ef adoeth a llynghes ganthaw y tir lloegyr. ac ay goresgynnawt hyt yn llvndein. A gwedy gwanhau y brenhin ef a rodes y eglwys caer wint. hafynton. a sottun. a hide ahanmer o dir yn lle gelwir celcelhord. a deu bisgotlyn yn brendeford. a dvntvn adugessit dwy weith yarnadunt ef y rodes drachevyn. Ac yna y bu varw Edelred' vrenhin: ac y cladpwyt ef yn seynt y Paulys yn llvndein. Sef oed hynny o oet crist mil ovlwynyded a. xiiii. Ac yna y doeth y saesson ac y detholassant yn vrenhin arnadunt Edmvnd Ireneside mab Edelred o orderch.

A gwedy gwneuthur Edmund yn vrenhin ef agymyrth Edrich iarll amwythic yn ystiward idaw canys hynaf gwr oed or saesson. ar mwiaf a wydeat o drwc. A gwedy bod mynych kyffrangeu ryngthunt: y doeth Edrich oy dwill y wneithur tagneved ryngthut. a rannv yr vrenhiniaeth yn deu hanner y ryngthunt a gadel y Edmund y goron. Anno dom. M°.xv. y llas Oweyn vab Dyfynwal. Anno dom. M°.xvi. y llas Aydan vab Blegywryt ay betwar meib y gan Llywelyn vab Seisyl. brenhin gwyned. Anno dom. M.xvii. yd oedit yn dadnabot twill Edrich yn llys y brenhin. A gwedy gwybot o honaw hynny: ef avynhei rynghu bod y Chnout. ac a rodes rodeon llawer y vn o wassanaethwyr Edmund yr y vrathu aber haearn ar y hyd y vyny pan elei yr geudy gyntaf. Ac val hynny y collas Edmund y eneit. ac y clathpwyt yn glastyngburie. ac yna y kymyrth Chnout y vrenhinniaeth. canys ny vedylhit am elured nac am edward meibion Edelredus vrenhin. y rei a oed yn trigaw gyt ac ev mam yn normandi.

A gwedy dyrchauel Chnout yn vrenhin ar gwbyl o loegyr. ef a orchmynnws ar berygyl eneit ac aylodeu na bei neb owyr denmarc awnelei argywed yr saesson. na neb or saesson ydunt wyntheu: namyn bot yn vn genedyl. ac yn gwassaneithu kyvreithieu aeluryt vrenhin. A gwedy gwastattau y vrenhiniaeth o honaw: anvon aoruc hyt ar Richart duc normandi. y erbynneit emma yn wreicka idaw. yr honn auuassei wreic briawt gynt y edelred: ay phlant hi yn elynneon ydaw. Agwedy y rodi ydaw mab agafas ohonei Hardechnout oed y enw. Anno dom. M°.xix. y llas Meuric vab arthuael. Anno dom. M .xx. y doeth nebun yscot kelwydauc a dywedut y vot yn vab y Moredyd vab Oweyn a Rein oed y henw. ac y kymyrth gwyr ydeheu ef yn bennaf arnadunt. Ac y damunws yntev gwyned yn erbyn Llywelyn vab Seisyll y brenhin clotuorussaf awydit or mor pwy gilid. ac yny oes ef ny bu eissieu da yny gyfoeth. na neb gouudus. nac vn dref wac na diffeith. A gwedy dyuot y lluoed hyt yn aber gweili: y kyrchws Rein yr ymlad yn valch bocsachus gan annoc y wyr. ac yn hynny y goruuwyt arnaw ef. ac y ffoas yn llwynogeid ffyrnic. ac y llas y wyr yn olofrud. ac yd anreithwyt yr holl wlat. Gwedy hynny y doeth Eilaf y dir kymmre athorri Myniw. a diffeithiaw dyfed. Anno dom. M°.xxi. y bu varw Llywelyn vrenhin vab Seisyl. Ac yna yd oed Ryderch vab Iestin yn kynnal dyheubarth. Anno dom. M°.xxiii. y bu varw Morgynnyd escob. Ac val yd oed Chnout yn kynnal kwnsyli yn llundein. ef adoeth Turkill daneis ac Irici. ac ereill or a uuassey ymrat Edmund drwy gynghor Edrich y erchi yr brenhin ev kyuarwysseu. a menegi yr achos. A gwedy menegi ydaw: ef aduc yar Turkill Estsex. ac yar Irici northvmyrlond. ac iar brenhin westsex y gyuoeth yntev. Ac yna y llidiawd Edrich brenhin Mers. a dywedut vrth y brenhin: ystrwe alauur uu yr einym twillaw yn arglwidi dyledauc. ac ev dwyn yaghen ereill ogareat arnat ti: athitheu yn talu y nynheu yn gyndrwc ahynn. Canys ydwyt yn adef dy dwill heb y brenhin yn gwid kyhoed lloegyr: lledwch y benn abwrywch y gorf yn temys. A hynny awnaethpwyt. a dehol ylleill or ynys. Ac yna y perys y brenhin gwneuthur eglwys yn assessdon. y wediaw dros yr eneidev alas yno gyt ac edmund gint. ac ymphob eglwys or a oed yny gyfoeth ef aberys gwediev drostunt. A thrwy gynghor emme y wreic. ef aberys atkyweiriaw yr holl eglwissev. yny gyfoeth. agwneuthur manachloc vch penn corf edmund verthir. a dwyn corf alphegi verthir o lundein hyt yngkeint. Anno dom. M°.xxiiii. y bu dece' nouenalis. Anno dom. M°.xxv. bu varw kynan vab seisyll. Anno dom. M°.xxx. y gorchmynnws Chnout brenhiniaeth denmarc y hardechnout y vab. Anno dom. M°.xxxi. yd aeth Chnout y ruvein. ac y gorchmynnws y gyfoeth y emma y wreic. agorchymyn y baup bot yn hyvyd yv gorchymyn yny delei ef. ac erchi y baub talu y duw yr hwnn adylyhei. nyt amgen alwissenev dros yr ereidyr. a degu' yr aniveilieit y vlwydyn y genit. acheiniauc pedyr. ac aust degum y frwitheu. a gwil Marthin dechreu yr hadeu yr eglwisseu

plwif : yr hwnn aelwyt yn saesnec churche kuth. yny y vlwydyn honno y bu varw Robert brenhin freinc. ac y gwnaethpwyt Henri y vab yn vrenhin yny le. ac y llas Ryderch vab Iestin y gan yr yscotieit. Ac ydoed Iago vab Idwal yn kynnal gwyned gwedy Llywelyn. Ac Edwin a Howel. meibion Moredud dyheubarth. Anno dom. M°.xxxii. y bu gweith irathuy y rhwng y meibion edwin : a meibion ryderch. Ac y doeth Robert Wiscard or poile. Anno dom. M°.xxxiii. y llas Moredud vab edwin y gan veibion kynan. ac y llas Caradauc vab ryderch y gan y saesson. ac y doeth Chnout o ruvein. Anno. dom. M°.xxxiiii. y gwnaeth Herlewin manachloc yn lle y gelwyr Herlewines becc. Anno dom. M°.xxxv. y rodes Chnout y eglwys caer wynt tri hide o dir yn lle y gelwir Hillam. agelor seynt berini escob. a channwillpren maur o aryant gorreureit a chwe breich maur ydaw yr hwnn yssyd yno ettwa. a dwy vaner. Anno dom. M°.xxxvi. y bu varw Chnout ac y clathpwyt ef yngkaer wynt. Ac ydoed Hardechnout y vab dyledauc yna yn trigav yn denmarc. Ac y dyrchafwit Harald Harefot yn vrenhin. canys wynt adywedynt bot hwnnw yn vab y Chnout o verch elfelin iarll. a rac y uuanet y gelwit ev velly.

A gwedy kadarnhau Harald yn vrenhin ef a deholas emme vrenhines or ynys. Anno dom. M°.xxxvii. yr anfydloneon agynhaliasant Meuric vab Hywel. ac y llas Iago vab Idwal brenhin Gwyned : y gan Grufud vab Llywelyn ac a oresgynnws y gyfoeth ac ay gwledychws. ac a oruu ar lawer o kyfrangheu. yn gyntaf yn ryt y groes ar hafren. ac yn llan badarn vaur. ac a oresgynnws deheubarth. ac a deholes howel vab edwin oe gyuoeth. Anno dom. M°.xxxviii. y bu varw Hermini escob Myniw. Anno dom. M°.xxxix. y bu gweith pencadeir yn yr hwnn y goruu Grufud ar Hywel. ac agymyrth y wreic ac ayllywiaud hi. Anno dom. M°.xl. y bu varw Herald brenhin lloegyr. ac y clathpwit yn eglwys paul yn llvndein. ac ydaethpwit y gyrchu Hardechnout hyt yn denmarc. canys nat oed neb yna adywettei vn geir am veibion edelred yrei a oed yn normandi. Ac yna y bu gweith pwll dyuach. En yr vn vlwydyn ydeliit Grufud ygan wyr dulyn.

A gwedy dyuot Hardechnout yn vrenhin. ef a anvones yn ol y vam or lle y diholessyt hyt yn normandi. Ac yn yr amser hwnnw yd oed Godwin iarll yn bennaf o loygyr a dan y brenhin. Ac y kynghorassant yr brenhin tynnv corf Harald or kyssegyr allad y ben ay vwrw yn themys. y dial yr amharch a wnathoed yw vam. a hynny awnaethpwit. Anno dom. M°.xli. y bu varw Hywel vab Oweyn arglwid gwlat vorgant yny heneint. Anno dom. M°.xliii. y kymyrth hywel vab edwin llynghesseu or gwydil yn borth ydaw : ac y kyuaruu Grufud vab Llywelyn ac wynt yn aber tywi ac ymlad ac wynt yn wychyr creulon. ac yn yr ymlad hwnnw y goruu Grufud. ac y syrthyws Hywel. Ac y bu varw Gvilfre a Matt' manach. Anno dom. M°.xliii. y bu varw Ioseph escob teiliau yn ruvein. Ac y bu lladua vaur y rwng meibion Ryderch Grufud a Rys : a Grufud vab Llywelyn. Ac yno yr anvones Gotwin iarll hyt yn normandi y geisiau elured ac edward meibion edelredi y dyuot y loegyr y gymryt ev dylyet. Ac yno yr anvones Robert ev hewythyr eluryt y gyt ar twillwyr hyt yn lloegyr a llawer o veibion bonedigeon y gyt ac ef. Ac Edward a ettelihis y gyt ac yntev. Agwedy ev dyvot y borth hamont yr tir. wynt a anvonassant ar Godwin y venegi ev dyuot. ac yd erchys yntev ydunt kyuaruot ac ef ar vynyd Guldedwn. ac ef adoeth yn ev herbyn hyt yn Guldeforde ac anvon gwyr arvauc yn ev herbyn. ac erchi ydunt lle gweleint y mynyd vchaf plannv kyff yny daear agyssot y meibion bonhedigion o normandi y eiste yn amgylch y kyff a rwymaw elvredus wrth y kyff yn ev perved. a sevyll or gwyr arvauc yn amgylch y meibion. ac ev cledyfev noetheon yn ev llaw. a degymmv y meibion allad y decvet tra gellit ev degymmv. Agwedy na ellit : erchi tynnv ev llygeit a llad ev trwynev. ac ev clustiev. ac ev gweussed. ac ev tafodev. ac ev dwylav. ac ev traet. ac ev crogi wyntev. Ac odena dinoethi elured arwymaw ydwylaw dra ygevyn yam y post. athynnv pennev y goludeon ford y vogel allan. ac ev festinghiaw a hoylion heiern yny kyff. ay droi yntev yn wisc y ystlys yny vydunt y holl coludyon gwedy yr droi yngchylch y kyff megys raf. Ac erchi ydunt na ettyt yr vn dianc onadunt rac ymliw geir bron y brenhin rylad ohonaw yny mod hwnnw y vraut ny didorei yntev yoganv am. y weithret honno. megys tybiaw a wnay na chredit. Ar gwyr creulon a wnaethant o gwybyl : megys yd erchis y creulon arall ydunt. canys y brenhin a oed glaf. A chet ys menechyt ydaw ny allei namyn. tewi rac cadarnhet Gotwin. Ac yn lle gwedy hyny y bu varw Hardechnout yn

lamhicly yn ymyl llundein ac y clatpwyt ef yn yr escopte yngkaer wint. Ac y rodes emme y vam dros y eneit yr escopty llawer o wisgoed maur weirthiauc. ac eur ac areant a mein gwyrth vaur. a dwy lys nyt amgen. West Wode a Piper Mvnster. Agwedy marw Hardechnout y rodet gwarchatwedigaeth y vrenhiniaeth y Gotwin yny deholit brenhin arall ogyt synnedigaeth yvrenhines ar dyrnas. Ac yn yr amser hwnnw yd oed eward vab eluret yn ymdivat yn normandi: canys marw uuassei ygenedyl oll eithyr wiliam vap yduc robert a oed yn was ieuanc y gyt abrenhin freinc. Agwedy gwelet pob peth gwedy ryballu ydaw. bwry y eneit yn antur aoruc a chyrchu lloegyr. adyuot hyt yn llvndein lle yd oed Gotwin yn trigaw yn wastat. Achael ryt ohonaw boregweith ydyuot yr ystauell lle yr oed Gotwin yn neffro. assyrthiaw yn groes ger bron ygwely. ac wylaw gan ywediaw. Ac ykyuodes Gotwin yny eiste agovyn ydaw pwy wyt ti dyrcha dy wyneb agat vi edrech pwy wyt. Arglwyd heb ef nebun tlaut wyf agwas ytt. ac ym mebit ym alltudwyd yn wirion. ac yn dywediaw dithev arglwyd am nawd ym eneit. Agwedy ywelet yn tosturiaw mor dygn ahynny: trugarhau aoruc wrthaw. athynghu y wyneb krist na bydei eneit vadev. kyvot weithon heb ef ac adef pwy wyt. Arglwyd heb ef can gefeis gras ythdeuryd. Edward wyfi a mab yeuaf y edelred' vrenhin o emme verch richard duc normandi. Canys edeweis vot yn da wrthyt mynheu a vydaf heb ef. tyng di ybydy vab ymy ac wrth vyngorchymyn: a minheu avydaf dat ytti: ac ath wnaf yn vrenhin ar loegyr. Ac y tynghaud yntev. Dos ti heb ef hyt yngkaer wint ac aro vi yno. ac yntev a aeth agweithiev ybydei yn llys yr escob gweithiev ereill yn llys y vam heb y adnabot o neb. Ac yno y perys Godwin dyvynnyv paub or tywyssogeon hyd ygkaer wint vrth dethol brenhin. Agwedy dyvot paub onadunt ygyt hyt yr escopty ger bron y vrenhines: ymdidan aorugant llawer am ydetholedigiaeth. Agwedy daruot y baub dywedut y ewyllis: dodi aoruc Godwin ylaw ar ben y mab adywedut. llyma auch brenhin chwi heb ef. llyma Edward vab edelred vrenhin o Emme vrenhines ywreic awelwch ymma. Ahwn adetholaf vi yn vrenhin: ac awnaf gwriogaeth idaw yn gyntaf dyn ohonawch. Agwedy gwelet onadunt Godwin yn gwneuthur gwriogaeth idaw: y rynghws bod ybaub hynny. M°.xliii.

A gwedy kyssegru Edward yn vrenhin: ef a rodes y charter y bop brenhin gwedy ef or agoronheit ynghaer wint nev yngkaer vyranghon nev yn west mvnster. caffel or kovent hanner morc ygan ybrenhin. achant torth o vara symnel. a hanner tynnell owin. ar llythyr hwnnw yssyd yngkadw yn west mvnster. Ac ef agymyrth yn wreika idaw Edith verch Godwin. Ac enrydedu ythat awnay ymlaen paub. Emme y vam nyt maur awnay ymdanei. Anno dom. M°.xliiii. gwedy clywet yn normandi vot Edward yn vrenhin y doeth llawer oy getmeithion odyno y geissiaw gossymeith ganthaw. ac y doeth ysgolheic robert oed y henw: ac y peris ef y wneithur yn escob yn llvndein yn gyntaf. Ac odyno yn archescob yngkeint. ar hynn aannogei hwnnw y brenhin ay gwnai. Ac ef a beris dehol Gotwin ay veibion or ynys: a rodi yr eidunt ev gelynneon. Ac ef aberys dwyn iar yvrenhines yholl da byt ay rodi hitheu mewn manachloc Warwelle yngkarchar ac'ychydic o dreul ydi. Ac ef aberys carcharv Alwin' escob caer wint. adywedut vot kytcnawt ryngthaw ar vrenhines. A mwy y credei ybrenin ef: nogyt yw lygeit ehvn. Ac aberys dwyn yarnaw y holl lleectir odieithyr dinas caer wint. Anno dom. M°.xlv. y llas o goreu gwyr Grufud vab Llywelyn yn ystrattywi amkan ydeugeint achant. ac yn dial y rei hynny: y diffeithws Grufud dyvet ac ystrattywi. Ac yny vlwydyn honno ybu eiry maur abarhaws o galen yonawr hyt wyl badric. Agwedy bot Aldwin' escop yngkarchar yn hir val y dywetpwyt vchot. Anvon llythyrev a oruc ar esgyb lloegyr y rei aoed gedymeithion ydaw y ervynyeit yr brenhin kymryt yganthaw pob gyffryw gwirioned or adamvnei ehvn. hyt na buassei eryoet achwyssiaul or kelwyd a yrwit arnaw. Ac y cafas y brenhin drwy gynghor robert arch escob peri twymnaw naw llad haearn yn wyn yas: apheri ydunt kerdet naw cam ar y naw llath haearn. ac o galleynt hynny yn diargywed. gwirion oedynt. Ar profedigiaeth honno awneythpwyt ydunt yn oet dyd tervynedic yn eglwys seint Swithon yngkaer wynt. Ar nos kyn bot y provedigiaeth trannoeth: yducpwyt y vrenhines o warwelle hyt yno. Ac yno ybi hi yn gwiliaw ac yn gwediaw ger bron seyn Swithon y nos honno. Agwedy hanner nos ysyrthiawt kysgu arney. ac yr ymdangosses seyn Swithon ydi: adywedut wrthi. nev yr giglev duw dy wedi canys wyt wirion. ac nac argyssyrya yr mynet yr provedigiaeth: canys

nyt argyweda arnawch dym. Athrannoeth y doeth holl tywyssogeon yr ynys hyt yno dieithyr robert archescob agymyrth arnaw y vot yn glaf yn dofyr. val y gallei fo or ynys. o dienghynt yn di poen or profedigiaeth. Agwedy dyuot pawb ygyt onadunt. wynt adiarchenwyt ac adodet kykyllev ar ev llygeit ac a dywysswyt nav cam ar hyt yr haearn twym heb argywedu arnadunt. a phob dyn yn wylaw ac yn gwediaw duw amdanadunt. canys ny welsant eryoet kyfriw provedigiaeth ar dyneon a hwnnw. Ac yna y dywat yr escob: arglwydi heb ef paham ydygwch chwi vivi odieithyr yr eglwis pa nyt yn yt eglwis y byd y provedigiaeth. Ac yna y tynnwyt y kykylle ac y dangossat ydaw y gwyrthiev awnathoe d duw yrdunt. aphaub yn wylau otra llewenyd. ac yn diolch yduw y wyrthiev. Ac yna yducpwyt wynt ger bron y brenhin y dangos ev traet ydaw na mannassei yr haearn arnadunt. Ac yna yssyrthyws y brenhin yn groes ger ev bron. adywedut: Mi abecheis yn duw ac ynoch chwithev auch trugared ynghardaut yd archaf. Ac wynt ay madeuassant idaw. Ac yntev arodes ydunt wyntev ev holl tir adugessit yarnadunt. Ac y rodes y brenhines y eglwis seyn Swithon naw llys yn lle y naw cam a gerdassei ar yr haearn twym. Ac yrodes yr escob nav llys ereill odref y dat ehvn. Ac y rodes y brenhin dwy llys nyt amgen. Meones. a Portland. a. v. hides yn lle gelwit Wrockes Hele. Ac y bu ymrysson rwng yr escob ar vrenhines pwy mwyaf arodei y eglwys seyn Swithon onadunt orodeon ereill. Agwedy klywet o robart arch escob hynny: ef a edewys yr ynys ac ny doeth byth ydi drachevyn. ac y bu yr archescobaut yn wac yn hir o amseroed. Anno dom. M.xlvi. y cafas Godwin ay veibion comot ar brenhin drwy wediev y vam. ac y rodet ydunt ev holl dylyet val y buassei orev erioet. Anno dom. M.xlvii. y diffeithwyt y dehev oll. ac y bu varw Edwin' escob caer wint. ac yny le y dodet Stigand' yr hwn awnaeth y groc vaur a delw veir. a delw iewan. ac ay gwisgaut o eur ac aryant. ac ay rodes y eglwis caer wint. o rod emme vrenhines. Anno dom. M°.l. y pergilaud llynghes o iwerdon yn dyheubarth. Ac yd atwnaeth edward vrenhin deneguldon yr hwn awnathoed edelred ydat gynt. Anno dom. M.lii. y bu varw emme vrenhines ac y clathpwyt y eglwis seyn Swithon yngkaer wint. Anno dom. M.liii. ar dyd gwyl vchel val ydoed Godwin iarll yn eiste ar neill llaw yr brenhin wrth y uuyt yn Hodiham. y doeth ybwtiler affioleit olyn ydunt. ac yn hynny pallu or neill troet ydav ay achubeit or llall. a gowenv aoruc Godwin. agovyn or brenhin paham y chwardei. mor ehegyr yd achubawt y neill braut yllall heb ef. Rofi aduw heb y brenhin velly ygwnay vymbraut ymmi pey gedessit yn vew. Sef awnaeth Godwin etivaru adywat. athorri tameit bychan o vara. a gwediaw ar duw boet y angheu ef bei hynny o vara odoeth angev yw vraut oe yweithret ef. Ac yr aur ydodes y bara yny enev: ef aaeth kythreul yndaw. ac ny chavas arvot yr byt: onyt ymchweilit ylygeit athagu. Agwedy gwelet or brenhin hynny: ny chyffroas arnaw dim. namyn erchi y dynnv oger y draet ya dan y bwrt ymeith. Ahynny a wneithpwyt ac yducpwyt ef hyt yngkaer wint ac yno yn yr eglwys vaur y clathpwyt yn enrydedus. Ac y rodes Githa y wreic y eglwys caer wint dwy lys nyt amgen vleodona' a crawcu'ham allawer o rodeon ereill. Ac y eglwyssev ereill hi arodes rodeon llawer. Ac y Harald y rodet ygyvoeth canys oed braut yr vrenhines. Anno dom. M.liii. y lladaut Grufud vab Llywelyn: Grufud vab Ryderch. Agwedy hynny ykyweiriaud ef y lu ytu ahenford. Ac y kyuodes anneirif olu saesson a Randwlf yn dywyssauc arnadunt adyuot yny erbyn aorugant. ac ymlad ac ef y wychyr creulon. allad llawer oboptu. ac or diwed drwy dirvaur dymhestyl ygyrrwyt wynt ar ffo gan ev llad hyt yn henford. athra uuant ar ev bwyt y kyrchassant y gaer ay thorri ay llosgi ay dibobli. a dwyn anreith vaur ganthunt adref. Anno dom. M°.lvi. y doeth Magus vab Harald brenhin denmarc y diffeithiav kyvoetheu y saeson drwy nerth Grufud vab Llywelyn tywyssauc kymre. Anno dom. M°.lvii. y bu varw Oweyn vab Grufud. Anno dom. M°.lviii. y bu varw Siward iarll north hwmbyrlond o heint y gallon. ac ef adywat gwae vi yn varchauc druan or gyniver brwydyr ybvm yndi na bvm varw o nerrh arvev. rac vi marw val beuch. ac erchi gwisgav y arvev ymdanav val y gallei marw yndunt canny allei amgen. Anno dom. M°.lx. y doeth Harald vab Godwin mewn bat pisgot wyr y chware. ac y kyvodes tymhestyl yny mor ac yduc wynt hyt yn pwittif. Ac y deliis iarll pwittif wynt. ac ay hanvones hyt ar William duc normandi kevynderw y Edward vrenhin. Ac yna y tynghaud y kymerei verch William yn wreic briaut ydav. ac nat elei yn vrenhin gwedy Edward byth. A gwedy bu tynghu ohonaw

hynny: y ellwng adref awneythpwyt. Anno dom. M°lxi. y bu varw Grufud vab Llywelyn eurdorchawc brenhin kymre ac ev hamdiffynnwr gwedy llawer o anreithev a chyffrangkev budugawl ar y elyneon gwedy llawer owledev adigriuuch arodeon maur o eur ac areant adillat maur weirthauc. yr hwn oed cledyf atharean dros wyneb holl kymre. Ac yny vlwydyn honno y bu varw Ioseph escob Myniw. Anno dom. M°.lxii. y bu pm' dece' nouenal'. Anno dom. M°.lxiiii. yd aeth Vwnchath vab Brian y ruvein ac yno y bu varw. Anno dom. M°.lxvi. y perys Edward vrenhin kyssegru West Mvnster. duw gwil y meibion gwedyr nodolic. A nos ystwyll y bu varw yntev. Aduw ystwyll yducpwyt ef y Westmvnster yr lle y cladpwyt. Ac yn yr vn dyd hwnnw y kyssegrwyt Harald vab Godwin yn vrenhin yn erbyn yllw annvdon arodassei kyn no hynny y William duc normandi kefynderw Edward vrenhin. Ar Harald hwnnw ny hanoed o lin brenhined. canys yn Edward ydiffygiawd llin brenhined y saesson. Canys tat Edward oed Edelred. vab Edgar. vab Edmwnd. vab Adelstan. vab Edward. vab Alured. vab Edwlf. vab Egbirth y brenhin kyntaf or saesson a oresgynnws teyrnas lloegyr yn vn. Mam Edward oed Emme verch Richard. vab William. vab Rolond. duc normandi.

Agwedy gwneythur Harald vab Godwin yn vrenhin: ef a ymdangosses yn yr awyr llawer o weledigaethev yny vlwydyn honno megys faglev tan: ac ofyn maur ar baub or ay gwelas rac dyuot symvdediaeth ar yr ynys. Acyn y vlwydyn honno y doeth Harald brenhin Norwei. a Tostiu' y vraut a chwechant llong ologeu maur hyt yn aber tine avon. Ac yny erbyn yntev y doeth Harald brenhin lloegyr ay lu yntev. Ac yna y buwyt yn keissiav kyngreiriaw ryngthunt. ac yny gyngreir hwnnw y llas brenhin norwei ay vraut ac y gwasgarwyt ev lluoed. Ac yna y collas y rei goreu o lu brenhin lloegyr. Ac yna yd ymwnaeth yn gyn gallet hyt na lavassei neb gwrthnebu yw greulonder ac ny alley neb ymdiriet ydaw ef. Ac odyna y duc ef y llu kyntaf hyt yn ynys wicht yn erbyn William duc normandi. a oed yn keisiaw goresgyn arnaw. Ac yna y floas ylu oll ywrthaw: ac y dieithrws yntev yr ymlad. Agwedy gwelet o William ysgaelustra Harald am danaw: kynvllaw llu advoyn aoruc adyvot hyt yn penenose ydir. ac yno heb olud gwneithur castell yn lle gelwit hastinges. Agwedy gwybot o Harald hynny: dyuot aoruc ac ychydic olu y ymgyuarvot ac wynt. Ac yn yr ymlad hwnnw y llas Harald ay holl niver. Ac yr anvonet y gorf hyt ar y vam. ac y clathpwyt ef yn waltham. Ac odena ydoeth Aldred archescop caer efrauc. ac Wlstan escop caer vrangon. ac Wallter escob henford ar iarll Gadwin. ar iarll Morcard y rei ny buassei yn yr ymrysson ar rei pennaf o lundein yn erbyn y duc William hyt yn berthamstude ac y dugasant ef hyt yn llvndein. ac y rodassant y dinas ydav. ac y gwnaethant gwriogaeth ydaw. ac y detholassant ef yn vrenhin. ac y kyssegrwit ef ygan Aldred arch escob caer efrauc. yn west mvnster ar duw nodolic. a oed ar duw llvn yny vlwydyn honno. Anno dom. M°.lx°.vii°.

Agwedy vrdaw William bastart yn vrenhin: ef a vynei gwisgaw y goron teir gweith yny vlwydyn nyt amgen duw nodolic ynghaer vranghon. ar pasch ynghaer wynt. ar sulgwyn yn west mvnster yn llvndein. Ac ef aberys gwneithur manachloc yn waltha' lle y buassei y kyffranc yryngthaw a Harald vrenhin. ac yny lle y cat corf Harald y gwnaethpwyt yr allor vaur. Anno dom. M°.lx°.viii°. y ducpwyt Matild gwreic nebun duc yn vrenhines ar loegyr ac y kyssegrwit ynghaer wynt. ygan Aldred archescob caer efrauc. Ac yny vlwydyn honno ybu ymlad rwng meibion Kynvyn. nyt amgen Bledyn a Riwallawn. a meibion Grufyd: Moredud. ac Ithel. ac yn yr ymlad hwnnw y syrthiawt meibion Grufud. ac y llas Riwallawn vab Kynvyn. Ac y gwledychws Bledyn gwedy wynt. Ac yn gwledychu dyheubarth yd oed Maredud vab Oweiu ab Edwin. Anno dom. M°.lx°.ix°. y perys tri ieirll nyt amgen. Hereward'. a Morgar. a Siward. ac Agelwin' escob durham kynvllaw ev gallu hyt yn Enry mevn gwern. Ac y kymellwyt wynt ymrodi yr brenhin oll: dieithyr Herewardu' adihenghys yn yr awr honno. Ac odena y duc William y lu y darystwng prydyn. ac y bu dir yr brenhin ymrodi ydaw. Odyno y duc William ylu dros vor hyt yn dinas Cynomannus ac ydarystyngws idaw ydinas ar wlat. Anno dom. M°.lxx°. y perys William chwilliaw yr holl manachlogoed or a oed yny deyrnas or yd adaussei y saeson daoed yndunt yw dwyn idav ehvn. Ac yny vlwydyn honno y llas Maredud vab Oweyn ygan yfreinc ac y gan Caradauc vab Grufud vab Ryderch ar lan rympni avon. Ac y llas Macmael y clotvorusaf ar cadarnaf ar gorev or auu o vrenhin yn iwerdon eryoet. a hynny yn disyvyt. yny

vlwydyn honno yduc Stigandus arch escob keint iar escob caer wint y escobaut. ac y doeth yntev yr kwnssyli hyt yngkaer wint y gwynaw yngwyd y brenhin a holl esgyb lloegyr a legat o rvuein a deu effeiriat yr cardinalieid Ieuan a Pheris. Ac yna y ducpwyt y arch escobaut iarnaw ac y dodet yngharchar yny uu varw. Anno dom. M°.lxxi°. y gwnaeth y brenhin cwnssyli yn windessowr ac yno y kynnydws ef y effeirieit. ef arodes archescobaut caer effrauc y Thomas. ac escobaut caer wint y Walkelin. ac escobaut swthsex yr hwnn adrossat y chichestyr a rodes ef y Stigand arall. ac escobawt excestyr yr hwnn adrossat y lincolny arodet y Reinigiu'. ac archescobot keint arodet y abbat Lanfranco. Ac yny vlwydyn honno y diffeithwyt keredigeon a dyvet y gan y freinc. ac y diffeithwyt mynyw a bangor y gan wyr anfydlawn. ac y bu varw Bleudyd escob mynyw: ac y kymyrth Sulyen yr escobot. Anno dom. M°.lxxii. y diffeithwyt keredigiawn yr eil weith y gan y freiuc. Anno dom. M°.lxxiii°. y llas Bledyn vab Kynvyn drwy dwyll y gan Rys vab Oweyn a goreu gwyr ystrattywi. gwedy y ryvot yn kynnal brenhiniaeth kymry gwedy Grufud y vraut yn rymhus advwyn: Ac yny ol yntev y doeth Trahaearn vab Caradoc y gevinderyw y gynnal gwyned. A Rys vab Owein: a Ryderch vab Caradoc yn kynnal deheubarth kymmre. Grufud hagen nei Iames a oed yn gwarchadw manaw. ac y llas Kynwric vab Riwallawn y gan y gweyndit. yny vlwydyn honno y bu ymlad Camdwr y rwng meibion Cadwgavn nyt amgen Goronw a Llywelyn gyt a Caradauc vab Grufud or neill parth: a Rys vab Oweyn a Ryderch vab Caradauc or parth arall. y rei a oruuwyt arnadunt. yny vlwydyn honno y bu ymlad bron yr erw rwng Grufud: a Thrahaearn. Anno dom. M°.lxxiiii°. y llas Ryderch vab Caradauc. y gan y gevynderw Meirchawn vab Rys vab Ryderch o dwyll: Anno dom. M°.lxxv°. y bu ymlad gweun y nygyl rwng meibion Cadwgawn yr eil weith: a Rys vab Oweyn. ac y goruuwyt ar Rys yr eil weith: Anno dom. M°.lxxvi°. y bu ymlad pwllgudic y rwng Trahaearn brenhin y gweyndyt: a Rys vab Oweyn. ac y goruu Trahaearn. canys duw adoeth yny erbyn y dial gwaet Bledyn vab Kynvyn y gwr goreu ar trugarocka or a uu o vrenhin eryoet. A gwedy llad gwyr Rys y foas yntev val carw gwyllt ofnus. yn diwed y vlwydyn honno y llas Rys a Hywel y vraut. ygan Caradauc vab Grufud. Ac yny vlwydyn honno yd edewys Sulyen y escobot. ac y kymyrth Abraham hi. Anno dom: M°.lxxvii°. y dechrews Rys vab Teudwr gwledychu. Anno dom: M°lxxviii. y diboblat mynyw yn druan ygan wyr anfydlon. ac y bu varw Abraham escob mynyw. ac y kymyrth Sulyen eilweith yr escobot yn eidaw. Anno dom. M°.lxxix. y bu ymlad mynyd carn. ac yno y llas Trahaearn vab Caradauc a meibion Riwallawn: Caradauc a Grufyd. a Meilir. y gan Rys vab Teudwr canys Grufud nei Iago ac yscottieit llidiauc adoeth yn borth idav. Gwrgenev vab Seisyll alas odwyll: ygan veibion Rys seis. yny vlwydyn honno yd aeth William duc normandi a brenhin lloegyr a chymre y bererindaut hyt yn mynyw. athri meib a uu idaw nyt amgen Robert. a William. a Henri. Anno dom. M°.lxxx. y dechrewt edeiliat caer dyf. Anno dom. M.lxxxi. y bu dece' noucnalis sick. Anno dom. M.lxxxiii. yd edewys Sulien y escobaut. ac y kymyrth Gwilfret hay. Anno dom. M.lxxxiiii. y bu varw Terdelach brenhin yscottieit nev y gwydyl. Anno dom: M°.lxxxvii°. y bu varw William bastart duc normandi a brenhin y saesson ar kymre ar yscottieit gwedy llawer o uudugolaethev a gorvodedigaethev yn ymladev calet: a rodeon gwyrth vaur diamdlavt. yn oetran y deyrnas vn vlwydyn arugeint. y oedran yntev ehvn oed namyn vn vlwydyn trugeint. y gorf yntev agladwyt yn normandi mewn dinas aelwit caine. A gwedy yntev ydoeth Wyllym goch y vab yn vrenhin: Yny vlwydyn honno y diholat Rys vab Teudwr oe gyvoeth hyt yn iwerdon ygan veibion Bledynt vab Kynvyn: Madoc: Cadwgon: a Ririt: Ac yny lle y doeth ef drachevyn allynghes ganthaw ac arodes kyffranc y veibion Kynvyn yny llech ryt. ac yno y llas deu vab y Vledynt vab Kynvyn nyt amgen no Madoc a Ririt. Ac y goruu ar Rys vab Teudwr rodi dreth vaur yr llynghes a dathoed yn borth idaw.

Agwedy gwneithur Willym goch yn vrenhin ny bu vrenhin creulonach noc ef. Anno dom. M°.lx.xxviii. yducpwyt kist Dewi or eglwis yn lledrat. ac o dieithyr y dinas y torrat ac yspeilywt. Yny vlwydyn honno y krynws y dacar yn dirvaur dros wyneb kymre. Ac yny vlwydyn honno y ducpwyt corf seynt Nicholaus o dinas Mirrea ac y dodet mewn yscrin yn lle y gelwir Barwin. Y nauvet dyd o vis mei. Anno dom. M°.lx.xxix. ybu varw Sulien escob Myniw dysgiander y kymre amdiffynnwr yr eglwysev. doethineb y krevyd-

ev. nos calan Ionaur pan oed y oet ran. pedwar vgeint blyned. Ac vn vlwydyn eissiev o vgeint y buassei yn escob. Yny vlwydyn honno y torrat Mynyw ygan gwyr anfydlon or ynyssoed. Ac y bu varw Kediuor vab Gollwyn. y veibion yntev Llewelyn ay vrodyr a wahodassant Grufud vab Moredud yn erbyn Rys vab Teudwr. ac yn ymmyl llan dydoch ybu ymlad rynghunt. ac y goruu Rys arnadunt gan ev hymlit ac ev llad adaly ereill onadunt. Anno dom. M°.lx.xxx. y divaws Willim goch brenhin lloegyr deudec eglwys adeugeint o vam eglwyssev heb gappellev yny forest newyd yn ymmyl Swtham twne. Anno dom. M°.lx.xxxi. y llas Rys vab Teudwr brenhin deheubarth y gan y freinc a yttoed yn trigaw yna yn brecheiniauc. ac yna y syrthws brenhiniaeth kymre. Yny vlwydyn honno Cadwgon vab Bledyn a anreithws dyvet ychydic kyn kalan mei. A deu vis gwedy hynny yn cylch kalan gorffennaf y goresgynnws y freinc dyvet a cheredigion.' ac y gwledychassant yr hynny hyt hediw. A holl kymre a vedassant a gwneithur kestyll yndi a chadarnhav ereill. Yny vlwydyn honno y llas Moelculvm vab Dwnchath brenhin y pictieit nev yscottieit. ac Edward y vab. y gan y freinc. A gwedy klywet o Margaret wreic Moelculum y lad ef: gwediaw a oruc ar duw. nac arhoe hi pellach pen yr wythnos yn vew. Ac y gwarandewis duw y gwedi hi: kyn y seithvet dyd ybu varw. Anno dom. M°.lx.xxx.ii. Willim goch vab William bastart a aeth hyt yn normandi y amdiffyn kyvoeth Robert y vraut. yr hwnn a athoed y Gaervsalem dros y gristionogaeth y ymlad a sarasynnieit. ac a gavas y clot uuyaf or byt tra drigws yno. ar lawer o uudugolaethev. Ac yny vlwydyn honno y bv mynych ymgyrchu yrwng y kymre ar freinc a oed yn gwledychu yna keredigion a dyvet. adwyn anreithiev amynych lladuaev o bop parth. Ac yn hynny y kyvaruu Cadwgon vab Bledyn ac wynt yngkoet yspes yn mynet am benn Gwyned: ac ymlad ac wynt yn wychyr calet. allad lluossogrwyd onadunt. a chymell ylleill ar fo. gan ev hymlit ac ev llad heb drugared. Achyn diwed y vlwydyn ef a oresgynws ev holl kestyll eithyr Penvro a Ryt cors. ac aduc ev hanreithiev yn llwyr ganthaw yu wlat. Anno dom. M° lx.xxxiii. y diffeithws y freinc gwhyr a chetweli ac ystrattywi. Ac y doeth Wyllym goch y loegyr. ac am hanner y kynhayaf yduc ef y lu y gymre. Ac yr amdiffynws y glynnev y kymre: ac y daeth y brenhin adref yn llav wac. Yny vlwydyn honno y detholet Ancelin' yn arch escob keint. Anno dom. M°.lx.xxxiiii. y gyssodes y brenhin treth ar y saesson. Ac y bu varw William vab Baldewyn y gwr adechrews castell ryt cors drwy gorchymyn y brenhin. A gwedy y varw yd edewyt y castell yn wac o wercheitweit. Gwyr brecheynavc. a gwyr gwent. a gwyr gwenllyvc a wrthnebassant gorthrymder y freinc. Ac yna y kyffroas y freinc ev llu hyt yngwent. ac ny chafsant vn lles yr hynny namyn llad llawer onadunt yny lle ygelwyt kelli carnawc. Odena yn lleygys gwedy hynny yd aethant ac eu llu hyt yn brecheynyawc ac ny chaussant vn lles yr hynny. namyn ev llad ygan veibion Idnerth vab Cadwgan. nyt amgen Grufud ac Ivor yn lle y gelwir Aberllech. ac ev kestyll aedewit yn gyfan. ac ev tlodeon adrigassant yn ev tei yn ergrynedic: Yny vlwydyn honno y doeth Vchdryt vab Etwin. a Hywel vab Gronw ygyt athwissogeon ereill atholwyth Cadogon vab Bledyn ac agyrchassant castell penvro. ac a yspeiliassant yr holl wlat. ac ay hanreithiassant. ac ay diffeithiassant. ac y doethant adref yn iach ac ev llwythe o da ganthunt. Anno dm. Mo.lx.xxxv. y rodet swid castell penvro y Gerald wasanaethwr. ac y diffeithws e, tervynev mynyw. Yny vlwydyn honno y dygyvores Willim goch vrenhin anneirif o lu yn erbyn y kymry. Ac ymdiret a oruc y kymre yn duw: drwy ev gwediev. ac vn prydiev. ac alwissenev. a phenydiev. a dodi ev gobeith yn duw. Ac aflonydu ar ev gelynneon: hyt na lavassei y freinc mynet yr coedid nac yr anealwch. namyn rodiaw y tiroed rwid yn vlin lludedic. Ac odyno ymchwelut adref yn llaw wac. Ac velly yr amdiffynws y kymre ev gwlat yn he drwy llewenyd. Ac yny vlwydyn honno y bu varw seyn Wlstan escob caervrangon: ac y clathpwit yny escopty ehvn. Ac yny ol yntev y doeth yn escob Henri y vraut y gwr awnaeth kyvreithev da yn lloegyr. Anno dom. M°.lx.xxx.vi°. y doeth y freinc y drydeweith allu mawr ganthunt hyt yng Gwyned adeu dywyssauc arnadunt. nyt amgen Hugone Goch iarll amhwythic. a Hugo' vras iarll caerlleon. Agwedy ev dyuot hyt yn gwyned: y kiliws y gweyndit yr annealwch mal y gnottahassant gynt: ac y doethant wyntev hyt yn agos ar y mor kyverbyn a mon. y lle y gelwyt aber lliennauc. ac y gwnaethant gastell yno. A gwedy gwelet or gweyndyt na ellynt ym erbynnieit ac wynt: achubeit mon aorugant y geissiaw amdiffyn ygan wyr iwerdon nev herw longhev yar vor.

Agwedy gwybot or freinc hynny: kymryt aorugant Oweyn vab Edwyn yn ev blaen y vynet y von. Pan wybu Cadugon vab Bledyn. a Grufud vab Kynan hynny: ovynhau ev twyl aorugant. ac adaw yr ynys achyrchu iwerdon. Ac yna y doeth y freinc y von ac adrigassant yno ac a ladassant rei or kymre a edewit yno. Ac yn yr amser hwnnw yd oed Magn' brenhin Norwei yn gwiliaw mor ygeisiaw gwassanaethev a llogheu ganthaw. agwelet tir kymre adyuot tu ac ynys von aorugant. Ac yn ev herbyn y doeth y freinc ac ymseithu ac wynt. ac yn yr ymseithu hwnnw y brathwit iarll amwithic yny wyneb olaw brenhin norwei yny golles y eneit. Ac yna o dissyvyt gyghor yr edewys brenhin norwei tervynev yr ynys. Ac yr edewys yr holl freinc ynys von ac y doethant y loegyr at seasson. ac adaw Oweyn vab Etwyn yn dywyssauc y gwr y aduc y freinc y von kynt kyn no hynny. Ac yna ydaeth y gweyndit yr eilweith yn gwrthnebed. can ny ellynt dyborthi kyfvreithiev na brodiev na threis y freinc. Anno dom. M°.lx.xxx.vii°. y doeth Cadugon vab Bledyn. a Grufud vab Kynan o iwerdon ahedychu ar freinc a rodi ran ydunt oc ev kyuoethev. Cadugon agymyrth kerediglon aran o bowys. Grufud awerchetwys mon. Llywelyn vab Cadugon a las y gan wyr brecheynauc. Howel vab Ithel a aeth y iwerdon. Ac yny vlwydyn honno y bu varw Rychemarch vab Sulien escob. y gwr doethaf or kymre. ac ny bu kyn noc ef y gyffelib. eithyr y dat nys dysgws neb ef. ac ynghylch teir blyned adeugeint oed y oetran pan uu farw. Anno dom. M°.lx.xxx.viii°. val ydoed Willim goch brenhin lloegyr a Henri y vraut yn mynet y hely yr forest newyd adywetpwyt vchot. allawer o varchogeon ygyt ac wynt. ef arodes y uuha yn law Sir Walter Tirel atheir saeth yw dwyn. agwedy ev dyvot yn forest y kymyrth y brenhin y uuha a dwy or saetheu a seuyll adan bren y aros ergit. a gossot y marchauc vrdaul adan bren aral kyverbyn ar brenhin. a gorchymyn ydau seithv y mwyaf a welei or hydgant. A hynny aoruc yntev a saeth y brenhin ehvn: a datlamhv y saeth yar gevyn vn or keiriw yny uu adan vron y brenhin. ac or ergyt annodun honno y bu varw. Agwedy gwelet hynny o Henri y vraut: ef a orchymynws yr gwyr kyweiriav y gorff yn enrydedus vrenhiniaul ay dwyn y gaer wint. ac yntev onerth traet meirch a aeth or blaen. canys yno yd oed swllt y brenhin ay angued. Agwedy cladu y brenhin yngkaer wint: ef awahodes paub or tywyssogeon gyt ac ef hyt yn llundein canys penna eistedva oed or ynys honno. ac yno ydyrdwyt ef yn vrenhin. canys arver awnaeth Willim goch agorderch wraged heb gaffel vn etived dedvaul.

A gwedy gwneithur Henri yn vrenhin. ef agymyrth Mahalt verch Moelculu. brenhin y pictieit yn vrenhines ydaw o Margaret y mam hithev. Ac ef a dywedit yna bot Robt. y vraut ef yr hynaf yn dyuot o dir carusalem gwedy yr oruot yno onadunt. Ac yny vlwydyn honno y bu varw Thomas archescob caer efvrauc. Ac yny ol yntev y doeth Gerard' y gwr a uu escob yn henford kyn no hynny. kanys Henri vrenhin avynnei y dyrchauel y vrdas a vei euch noc y buassei gynt. Ac Ancellin' a adaussei archescobot keint rac kreulonder Willym goch: canys ny wnay ef dim nac yr duw nac yr y orchymynnev. Ac yno y perys Henri vrenhin y ansodi drachevyn yny archescobot. Anno dom. M°.lx.xxxix. y bu varw Hyw vras iarll caer llion. ac y rodes y brenhin y gyvoeth y Rog. y vab kyt bei ieuang o garyat y dat. Ac yna y bu varw Gronw vab Cadugon. a Gwynn vab Grufud. Anno dom. M°.C. y bu dece' nouenal' gyntaf. Ac y kynydws ryvel rwng Henri vrenhin: a Robert iarll amwythic debelem oed y lyssenw ac Ernwlf y vraut yr hwnn y doeth dyvet yny rann o goelbrenn. ac y gwnaeth castell penvro yn gadarn ydaw. A gwedy klywet or brenhin y chwedleu hynny drwc oed ganthaw: ac anvon aoruc y edrych a oed wir hynny. ac y dyfynu y gwyr attaw. Ar gwyr nyt oed da yd ymdiredeint yr brenhin. a cheisiav esgusodi. ac ny vynnwit yr esgussot drostunt. Ac yna y killiws y gwyr y ev kedernyt: a gwahaud nerthoed attadunt nyt amgen meibion Bledyn vab Kynvyn. Cadwgon. a Iorwerth. a Moredud, ec ev gallu. Ac a allassant uuyaf ar dor hynny or a gymerei da ac enryded yganthunt yr trigaw yn vn ac wynt. Ac yna cadarnhau ev kestyll o muroed asossid aphop ryw kedernit or a wyppit a orugant. Ac yna yd achubaud Robert petwar castell. nyt amgen. Arwndel. Blydense. Brugge. yr hwnn y bu y ryvel oe achos. am y wneythur heb gorchymyn y brenhin. ac amwithic. Y Ernwlf nyt oed onyt castell Penvro ehun. Agwedy kynullau ev gallu attadunt: kyrchu anreitheu aorugant. adychwelut adref yn llawen hyvryt, Ac yna anvon a oruc Ernwlf: Gerald dapifer a llawer o

kennadeu ereill y gyt ac ef hyt yny Iwerdon. y ervynneit merch Murcard brenhin iwerdon yn wreicka ydaw. Ac y cavas y ervin. Ac yr anvonet llawer o herw logheu agallu maur yndunt yn nerth yv dav gan y verch. ac am hynny ysgeyllussach oed ganthunt am hedychu ar brenhin. Agwedy clywet or brenhin hynny yn lleygys kynullaw llu a oruc. dyvot am ben castell Arundel ay goresgyn. ac odyno y doeth y Blydense allonno a edewyt ydaw ac y kymyrth yny vediant. ac yna y doeth hyt yn Brugge ac y kymyrth kyghor pa furf ygallei ef gorev daristwng yr iarll ay oy daly. ay y dehol or ynys. Ac yno y cavas yny gyghor anvon y wahaud Iorwerth vab Bledyn yn dirgeledic attaw. ac adaw aneirif o da ydaw mwy noc yr edewys yr iarll ydaw. Arodi ydaw yn ryd didreth tra vei vew y brenhin: powys a cheredigion a hannar dyvet. Ar hanner arall adoeth y vab Bladwyn git ac ystrattywi achetweli a gwhyr. Ior. vab Bledyn hagen a gyrchws castell y brenhin ay holl anreithieu or a oed ydaw ehvn. a hynny drwy gorchymyn y brenhin. Ac a anvones y wyr y cribdeiliaw kyvoethev Robert iarll amwithic. acy diffeithiaw gan goffau yr angkyffreithiev awnathoed Roger y dat a Hvgyn y vraut yr kymre kyn no hynny. ac ni widiat yr iarll vot neb or kymre yngwrthnebed idav. Agwedy kynullav yr anreithiev gwympaf ar goludoed mwiaf amynet ymeith ac wynt: yd oed Cadwgawn a Moredud yn vn ar iarll heb wybot dym ohynny. Agwedy clywet or iarll hynny: annobeithiav a oruc yn vaur canys cadarnaf oed Iorwerth or kymry. ac anvon ar y brenhin a oruc y geisiav kyghreir y gantaw: nev yntev gadel ford ydaw y adaw yr ynys. Ac Ernwlf y vraut a aeth yn erbyn y wreic ar nerth a oed gyt ahi o herw logheu. ymplith hynny ydoeth Magnus vrenhin yr eil weith y von. ac a vriwaud adeiliadev prenn: ac adychwelaud y vanaw ac a dechreuawt yno tri chastell. ac a anvones hyt yn Iwerdon y geisiaw merch Mwrcardi vrehin yn wreicka yw vab yntev. A hynny a gavas yn llawen. Ac yno y trigawd Magnus y gayaf honno ac awnaeth y vab yn vrenhin ar vanaw. Pan gigleu Robert iarll hynny: anvon a oruc y geissiaw amdiffyn yno. heb gaffel dim. Agwedy gwelet o honaw y vot yn argaeat aboptu: y rodes y brenhin ydaw kanneat y adaw yr ynys. ac y mordwyaud yntev hyt yn Normandi ac adav pob peth. Ac yna anvon or brenhin ar Ernwlf y vraut y wybot pa vn oed orev ganthaw ay dyvot yn ewyllys y brenhin: ay mynet yn ol y vraut ac adav y gyvoeth. Ac y bu dewissach ganthaw mynet yn ol y vraut ac adaw y gyvoeth ay gastell yr brenhin. Ac ydodes y brenhin gwercheitweit yny castell. yn lleigys gwedy hynny y bu tagneved y rwg Iorwerth vab Bledyn ay vrodyr. yn lle gwedy hynny y delhiis Iorwerth Moredud y vraut. ac ay duc ygarchar y brenhin. Cadwgawn hagen awnaeth hedwch ac ef: ac ydaw y rodet keredigiawn a ran o bowis. Odyna Ior. a gyrchws llys y brenhin o dybygu caffel yr edewidion a edewit ydaw gynt. Agwedy gwelet or brenhin hedwch: ef a dattynnws dyvet ar castell. ac ay rodes y varchauc vrdaul Saher oed y henw. ac ystrattywi a chetweli a gwhyr arodet y Hywel vab Goronw. yn hynny hagen ydalpwyt Goronw vab Rys odwill: ac yn ygarchar y bu varw. Anno dom. M°.C° i°. yd aeth Magn' brenhin g'maynia o vanaw y diffeithiaw tervynev llychlyn. ac y kyuodes y llychlyn wyr yn gyfluhitac ymlit yr anreith ac ymordiwes ac wynt. ac ymlad yn wychyr creulon ac wynt a llad llawer o boptu ac yno y llas Magn' vrenhin ay holl wyr. Ac yno y doeth o y vrth y brenhin. doetheon o eskyb a Iorwerth vab Bledyn hyt yn ammwithic yn rith dosparthu negeseu y brenhin. Ac yna galw ar Iorwerth attadunt: a gwedy ydyvot yn ev plith yr holl negesseu adrodet yny erbyn ef. Ac y buwyt yn kynhennv dadlev arnaw hyt y bu yr dyd. ac y barnwit ef yn euawc. ac nyt o gyfreith namyn o gallu. Ac yno y dalpwyt ef ac y ducpwyt y garchar y brenhin. Anno dom. M°.C°.ii. Owein vab Edwin o hir nychtawt ybu varw. Ricard vab Baldwin a ystoreas castell ryt cors Hywel hagen vab Goronw y gwr y gorchymynnassei y brenhin idaw gwarchadwedigiaeth ystrat tywi a ryt cors ac ev tervynev: a wrthladwyt ac a anreithiwyt allosgi yr ydev ar tei. ac adaw y tir yn diffeith. ac ymchwelut or freinc adref drachevyn heb argywed arnadunt. Ac yntev a droas ynghylch y wlat hwnt ac ymma ac a achubws y castell heb tygiaw dym ydaw: canys y castellwyr a yttoed yn trigaw yny castell yn digyffro. Yn hynny y duc y brenhin y ar Saher casteil penvro ar wlat yn gwbyl. ac ay rodes y Gerald y gwr auuassei geitwat yno atan Ernwlf gynt. Anno dom. M°.C°.iii. y llas Howel vab Goronw y gan y freinc a oed gastellwyr yn ryt cors. Sef mal y llas. Gwgawn vab Meuric a oed tatmaeth mab y Hywel a mwiaf gwr or

byt yd ymdiriedev idaw. a gwahawd a oruc ef Hywel yw dy: ac anvon ar y castellwyr y venegi hynny. A gwedy mynet Hywel y gysgu yn lle adas y tybygassei: y duc Gugawn yn lledrat odiganthaw y gledyf ay waiw ay aruev oll ereill. Aphan oed bylgeint nychaf gawr am ben y ty ar eil ar dryded. Sef aoruc yntev kyuodi yn llym agalw ar y wyr adybygassey ev bot yn barawt y ymlad y git ac ef: ac wynt gwedy yr ffo yr pan glywssant y gaur kyntaf. Ac yno keisiaw y aruev heb gaffel dym: ac yno y foes Hywel ac y hymlynawd Gwgawn ef obell gan ymoralw ay gedymeithion ac nyt ymedewis ac ef yny delhiit. ac yllas y benn ac y ducpwyt yr castell. Yn y vlwydyn honno yr ymdangosses seren aoed anryved y gwelet. Ac ybu varw Henri amheravdyr ruvein gwedy llawer o uudugolaetheu a chrevydus uuched: ac y gwnaethpwit yuab yn amheravdyr yny le. Yny vlwydyn honno yr anvones Henri vrenhin Lloegyr llu ydaristwg normandi idaw. ac yn ev herbyn ydoeth Robert iarll ac Ernwlf y vraut a Robert de belem a William o moretania y gevynderw ac ev kymhel ar fo drachevyn. Agwedy gwybot or brenhin hyny: kynullaw llu a oruc mwiaf or agavas adyvot ehvn y gyt ac wynt hyt yn normandi: ac yn ev herbyn y kyuodes yr iarll ac ymlad ac wynt yn wychyr kalet. a rac amlet lluoed y brenhin: y foas yr iarll. ac yny fo hwnnw y delhiit ef a Gwilliam y gevynderw. ac y ducpwit wynt hyt yn lloegyr yngkarchar. ac ydaristynghwit normandi yr brenhin. Yn diwed y vlwydyn honno yllas Meuric. a Grifri. meibion Trahaearn vab Caradoc: y gan Oweyn vab Cadwgon. Anno dom. M°.C°.iiii. y dienghis Moredud vab Bledyn oe garchar ac ydaeth yw wlat. Ac y bu varw Herwald escop llandaf: ac y doeth yny le yntev Worgan. Ancellin archescob ay kyssegrws yngkeint. Pan oed oet crist mil achant aphymp mlyned ydoeth yflemisseit oflandres gyntaf hyt ar Henri vrenhin y ervynyeit lle yganthaw ydunt ybresswiliaw yndaw: a menegi idaw ry dyuot or mor tymhestylev y ev gwlat wynttwy a rydiva yr ydev ar frwithev amynet ac ef yr mor. ac am hynny ni alleint ymbresswiliaw yny dymhestlus wlat honno. Ac yna yr anvonet wynt hyt yn Ros. ac yr achubassant y wlat honno yn llwyr. a Dyvet hyt yn aber cledif. a dehol y gweinieit or wlat honno yn llwyr. Ac yna yr adeiliaud Gerald gwassanaethwr yr eil weith castell penvro yn lle y gelwit kengarth vachan ac aduc yno yholl engued ay wreic ay veibion. ac a wnaeth claud a phalis yn amgilch y lle hwnnw a phort achlo arnav. Anno dom. M°.C.vi°. ygwnaeth Cadwgon vab Bledyn gwled darparedic yn erbyn nodolic a gwahawd y rei pennaf or wlat a oruc attaw: a gwahawd Oweyn y vab o powys aoruc. Ac y kigleu Oweyn: bot Nest verch Rys vab Tewdwr yn wreic briawt y Gerald wassanaethwrac yngkastell penvro ac yn deckaf or gwraged. ac yn gyntaf ydaeth ef yw hedrych ac ychydic o gedymdeithion ygyt ac ef yn rith ybot yn gares ydaw. canys Cadwgon vab Bledynt a Gwladus verch Riwallawn mam y Nest a oed kevynderw achyfnitherw. ac wynt ylldeu yn gefynderiw. a Bledynt a Riwallawn yn deu vroder. Agwedy y gyflenwi o gythreulaeth ac o gareat y wreic y doeth ef ynos honno amben y castell a dyuot y mewn yn diarwybot. adodi gawr amben yr ystauell lle ydoed Gerald yn kysgu a Nest y wreic: a dodi tan yny tei. ac yna y deffroes Gerald a Nest heb wybot peth a oed hynny. Ac yna yd erchys Nest y Gerald nat elei yr drws allan namyn dyvot ygyt a hi yr geudy. ac yn adyrchauel ystyllen y gevdy ay ellwng ford yno allan. Agwedy gwybot ohonei y diang yn diogel: dyvot yr ystavell a oruc a gweidi a dywedut nat oed yno neb onyt hi ay meibion. Ac yna ydoethant ymewn ygeisiaw Gerald heb gaffael dim o honaw. Ac yna y daliassant Nest ay deu vab. ar trydyd mab amerch agat ogaradas. ac y hyspeiliassant y castell yn llwyr ay llosgi ay hanreithiaw a dyuot hyt ympowys ar anreith a orugant. Ac yn lleigys gwedy hynny y doetth Cadwgon hyt ympowys a hedychu rwng y rei oed annvhvn ryngth unt ac Oweyn y vab. Agwedy klywet o Gadwgon yr anghyfreith awna thoed Oweyn y Gerald: ovynhau a oruc ybrenhin yn vaur ac erchi edryt y wreic drachevin ar anreith ydaw. Ac yna yd erchys y wreic ydaw edryt y blant yw tat ony wnelei amgen no hynny: ahynny aoruc yntev. A hynny o garyat y wreic: anvon y deu vab ay verch ydaw. ac attal ev mam ganthaw yntev. Ac yn yr amser hwnnw yd oed Richard escob llundein yn wassanahwr yr brenhin ny ammwithic. A gwedy klywet o honaw hynny: anvon a oruc y wahaud attaw deu vab Ririt vab Bledyn. nyt amgen Ithel. a Madauc. ac adaw ydunt o enryded mwy nogyt y holl kymre yr keisiaw daly Owein am y kywilid a wnathoed yr brenhin ay wassanaethwr. Ac adaw yn ganhorthwy ydunt: Llywarch vab Trahaearn canys Oweyn aladassei y

vraut ef: ac Vchdryt vab Edwin. Ac yna yr ymgredassant ac ef: achynnullaw llu a orugant. Ae anvon a oruc Vchdryt yn dissyuyt yr wlat y erchi y baub or avyn nei y amdiffyn dyvot attaw. A llawer onadunt adoethant hyt yn arwistli. llawer hyt yn meilenyd. ereill hyt yn ystrattywi. ar ran uuyaf onadunt a foas hyt yn Dyvet lle yd oed Gerald yn mynnv diffeithiav. Ac yna yd erchys y brenhin y Wallter escob caer loyw kymryt saesson gyt ac ef. a mynet yamdiffyn caer vyrdyn. Ac yna y kirchassant arwistli ac y kyuaruuant agwyr maylenyd ac y diffeithiassant wynt. y rei adoeth ar Vchdryt a dianghassant. y rei a aeth y ystrattywi Maredud vab Ryderch ay derbynnawd yn enrydedus. Cadwgon hagen ac Owein a gausant llong yn aber Dyfi a doythassey o Iwerdon achyfnewidiev ychydic kyn no hynny: ac a gilliassant ymeith. Madawc ay vraut a Llywarch ac Vchtryt a doethant hyt yngkastell ryt cornouet. amynnassu kyrchu kyrch nos amben y wlat ac am ben Cadwgon ac Owein. Ac yna y kynghores Vchtryt aros yny vei dyd amynet yr wlat yn reolus: rac bot nerth dirgeledic ganthunt. A hynny aorugant. Athrannoeth pan doethant yr wlat ny chat dym yndi onyt greoed Cadwgon. Ac yna y bu pawb onadunt yn ymgeryd ay gilyd ac yn goganu Vchtryt yn vaur am hynny. Ac yna yllosgassant ytei ar ysguboriev ar ydev ac a dychweiliasant y ev kestyll drachevyn. gwedy diffeithiaw y gwledyd kan mwiaf. a rei or kiwdowtwyr a foas y lan padarn: ereill y dir dewi: ereill adienghys heb ev diffeithiaw. Agwedy klywet onadunt bot rei yn trigaw gyt ac effeirieit yn llan dewi vrevi: wynt ay kyrchassant. ac eu dodi mewn geol drwc yn ev gwlat wynt ev hvn. ac anreithiaw yr eglwissev yn llwyr. lle buessunt. A gwedi klywet Owein ay gedymeithion hynny: wynt a aethant hyt yn Iwerdon at Murcard brenhin Iwerdon. ac ef ay derbynnws yn enryded' wynt. Cadwgon a drigws ympowys ac anvon kennadev at y brenhin y geisiaw kigkreir. ac y cavas trigaw mewn tref a gaffei gan y wreic: canys fraghes oed. merch y Piccot de Saii. Ac yn hynny y doeth Madoc ac Ithel meibion Ririt ac achubeit ran Cadwgon ay veibion o bowis. ac y traithassant yn anadvvyn. Ac yn hynny y cavas Cadwgon hedwch yr cant punt o areant ay gyuoeth. adan amot na chaffei Oweyn byth y ganthaw na nerth na chighor na sengi y dir o hynny allan. Ac nat attalie neb or a doethassei y keredigiawn kyn no hynny y ev chyvanhedu o ystrawn genediloed: namyn ev gellwng yn ryd. Gwedy klywet o Owein ry gael o Gadwgon y gyvoeth ef a doeth ef ay gedymeithion y dir kymre. ac nyt y keredigion a gyrchws: namyn y bowis. Ac yno keisiaw kennadev y wneith' y hedwch ar brenhin. Ac nyt oet neb ay llavassev. Ac yn yr amser hwnnw ydoed Madoc ap Ririt ac anyhvndeb y ryngthav ar freinc ac ar saesson. Sef achos oed derbynnyeit lledradev y ev gyuoeth awnay ac ev canmawl. A gwedy anvon o Ricard wassanaethwr attaw y geisiaw y lladron: y nackau ar gwbyl a oruc. Ac am hynny yd oed yn forfet yn erbyn y brenhyn. Agwedy na wydiat peth a wnay: ymgedymeithiaw a oruc ac Oweyn vab Cadogon. amynet yn vn gar vn esgar ohynny allan. Gwedy ev bot yn elynyon kyn no hynny. Pan oed oyt crist. mil. c. a vii. mlyned y doeth cof y Henri vrenhin carchar Iorwerth vab Bledyn. ac anvon attaw aoruc y wybot ganthaw peth arodei yr y ellwng o garchar. A rac hyt y buassei yngkarchar mwy y hydawei nogyt gallei ef ay holl wyr dyuot ydaw. Sef oed hynny: tri chant punt o areant. nev ev kywerthyth o beth arall. Ac yr hynny y dillyngwyt ef yn ryd. Ac o hynny y rodes y brenhin y vab Cadogon or fraghes a dywetpwyt vchot. Henri oed y henw: cant morc. Ac yna y rodet y gyvoeth ydaw: ac y talawd yntev yn lle y vab Cadogon. Ac yn yr amser hwnnw yd oed Oweyn a Madauc ac ev kedymeithion yn gwneythur llawerodrygev ar y freing ar saesson. A pha drwc bynnac y galleint: y dir Iorwerth ykyrcheint ac ef. ac yno ytrigeint ac y treulieint. A gwedy menegi hynny y Ioru': gorthrwm y kymyrth arnaw rac ovyn anvod ybrenhyn. Ac anvon aoruc attadunt y ymgystlwn kerennyd ac wynt: aphregethu ydunt. Ac ervynneit ydunt gochel y gyuoeth ef: ar hwn Cadogon. Canys odeynt yn ewyllys y brenhin pan wyppyt seghi o Oweyn neu gedymeith ydaw: tir yr vn onadnut. A gwedy menegi hynny: ydunt mynychach y bydent yno no chynt. Ac yna yd erchys Iorwerth ev gwrthlad oy gyuoeth. ac yd aethant wyntev y gyuoeth Vchtryt hyt yn meirionnyd. A gwedy klywet o veibion Vchtryt hynny: anvon aorugant y erchi ev dehol oc ev tir wynttwy. Ac yna y doethant wyntev gyntaf y kyueiliauc lle yr oed meibion Vchtryt. Ac yn ev hol wyntev y doeth gwyr meirionnyd heb olud. Athrannoeth y kyuaruuant ac Oweyn ac

a Madoc ac ev kedymeithon : ac ymlad ac wynt yn wychyr creulon. Agwedy gwelet o Oweyn a Madoc y gwyr yn ymlad mor wrawl ac wynt : kymryt ev hynt ar fo a orugant. Ac ev hymlit aoruc y gwyr ereill hyt ev kyvanhedev ac yna llosgi y tei ar ydev a llad yr ysgrybyl yn llwyr. Ac yno y trossas Madoc y Bowys. Ac y trosses Oweyn y keredigiawn y gyuoeth ydat heb goffau goruot ar y dat ymbrynv ygan y brenhin ychydic kyn no hynny. Ac hynny oy achos ef. Ac yn yr amser hwnnw ydoeth kedymeithyon Oweyn y vynet y yspeiliaw ac y rwymaw y dynneon ac yn ev dwyn ganthunt hyt y llongheu a doethassei gan Owein o Iwerdon kyn no hynny. ac yn trigaw velly yn ymylev y wlat ac yu gwneythur gwaethaf ac ygellynt. Odena wynt a alwassant attadunt ynvydeon o keredigeon y amylhau ev rif. ac adoethant hyt nos am ben tref ac a ladassant a gaussant vwyaf. ac ereill a yspeiliassant ereill a anreithassant. ereill adugant yw llongheu. A llosgi y dref a llad yr anyveilieit ar ny allassant y dwyn ganthunt hyt yngkeredigion. ac yno ytrigassant heb ganeat Cadogon nac hwn y brenhin. Odyno wynt ydoethant y warchadw ford : ford y deuwei primas oflandrys William Braban oed y henw ay lad aorugant ydaw. Agwedy klywet o Cadogon hynny a Iorwerth y vraut: kyrchu llys y brenhin aorugant y ymdigerydu urthaw. Ac yno y doeth manac yr brenhyn ry lad o gedymeithion Owein vab Cadogon William de Braban. Agwedy menegi hynny ydaw ymliw aoruc y brenhin a Cadogon yn chwerw. am na allei lludias Oweyn na y gedymeithion yw gyuoeth. Agorchymyn y Cadogon nat elei or llys. adywedut y gwarchatwei ef y gyuoeth rac Oweyn pryt nas gallei ef. Ac yno y trigawd Cadogon yn llys y brenhin yn digarchar. aphedeir arugeint ydaw bevnyd o bwrs y brenhin. a chware ford y mynnei eithyr nat elei y gymre yv gyuoeth ehvn. Agwedy klywet o Oweyn ry dwyn y gyvoeth y ar y dat : mynet aoruc y Iwerdon gyt a Madoc vab Ririt. Gwedy hynny yn lle anvon aoruc y brenhin yn ol Gilbert vab Richard a oed wr da galluus a chedymeith ydaw. Agwedy ydyvot : ef adywat wrthav. Ti a ervynneist ym llawer gweith kyn no hyn ran o gymre : ac nys geveist. weitheon my arodaf yt tir Cadogon vab Bledyn. Ac ynteu ay diolochas yn vaur yr brenhin. Achynullaw llu aornc amynet y oresgyn keredigiawn. A gwneithu deu gastell yndi. vn yn aberystwith kyuerbyn ac eglwis padarn. Ac arall yn aber teivi lle gelwir dyngereint yr hwn a dechreuaut Rosser iarll. Ac yn lle gwedy hynny y doeth Madoc vab Ririt o Iwerdon. Ac y trigawd Oweyn yno talim o amser gwedy hynny. Ac y doeth Madoc hyt ymphowys ar Iorwerth y gevynderw. Ac ydoed yn gyvreith pwybynnac agytvythei ac ef y vot yn anreith odef. Ac am hynny ny dywat Iorwerth wrthaw mwy yr y vot : noc nabei. Ac yna ymgedymeithiaw a oruc Madoc a Llywarch vab Trahayarn y geisiaw bredychu Iorwerth y gevynderw. Pan oed oet crist mil achant ac wyth mlyned y doeth Iorwerth hyt ynkereinawn athrigaw yno nosweith. Ar nos honno ydoeth Madoc gan ganhorthwy Llywarch vab Trahayarn a rodi gawr assyrthiaw am ben y ty : a chan yr awr honno y dyffroas Iorwerth ay gedymeithion a chadw y ty arnadunt a orugant yn gadarn. Ac yna y dodet tan yny ty yw losgi: a gwedy gwelet oy gedymeithion hynny : fo a orugant drwy yr tan allan ay adaw yntev yny ty. Aphan wyl y ty yn syrthiav keisiaw didor drwy yr tan allan a oruc. Ac yna y derbynnieit ar waywyr awnaethpwit ay lad yny tan. A gwedy klywet or brenhin ry lad Iorwerth : rodi a oruc powys y Gadogon : ac adaw hedwch y Oweyn y vab. ac erchi y gyrchu adref. A gwedy llad Iorwerth ydaeth Madoc arherw adan goet. ac y geisiaw bredychev ar Gadogon hagen adoeth yn hedycheid heb mynnv argywedu ar neb hyt yn Trallwg Llywelyn a hynafgwyr gyt ac ef or wlat y vynnv edeiliat castell yno. ef adoeth Madoc gwedy cael brat arnaw. Ac yntev yn wr prud heb welet yn da heb allel ymlad heb allel fo. agwedy fo y wyr oll y cat ef ehvn ac y llas. Agwedy llad Cadogon anvon a oruc Madoc ar Richart escop llvndein adywetpwit vchot yr hwn aoed yn medu yna swid amhwithic. ac erchi ydaw talu pwith idaw y gweithret honno mal y hadawssei gynt. yr escop a vedyliawt am hynny : ac a rodes hedwch ydaw ar kyuoeth a uuassei yn eidaw Ithel y vraut kyn no hynny. Ac nyt yr ygaru namyn yr chwenychu ev kyuoeth ac wynt pob vn onadunt yn llad y gilid. Agwedi klywet o Maredud vab Bledyn hynny : kyrchu y brenhin aoruc y geisiaw kyuoeth Iorwerth y vraut. Ac y rodes y brenhin ydaw gwarchatwedigaeth y kyuoeth yny delei Oweyn yr wlat. Agwedy dyuot Owein yr wlat dyuot ar y brenhin awnaeth achymryt y dir y ganthaw ac adaw llawer o da ydaw. a dodi gwercheitweit yny gyuoeth. Ac y doeth Madoc vab Ririt y hedychu ar brenhin ac adaw

llawer o da yr hynny. a rodi gwystlon am y da. Ac ymogelei ef ehvn rac y genedyl os mynnei.

Pan oed oet crist M.C. a nav mlyned. y peris Henri vrenhin daly Robert iarll vab Roger de Belem ay rodi yngkarchar. Ac y bu anyhvndeb rwg y vab ar brenhin am hynny. Ac y bu varw Ancellin archescob. keint.

Pan oed oet crist mil achant a deng mlyned yd anvones Maredud vab Bledynt ydolwith y aflonydu ar gyuoeth Llywarch vab Trahayarn. Ac y damchweinws kyuaruot onadunt a gwr y Vadoc vab Ririt. Ac y govynnassant ydaw pale yd oed Madoc: ac nys managei. Agwedy y gymhel arnaw: ymenegys y vot yn agos attadunt. Ac yna dodi gwiliadwrieit arnaw y nos honno. Athrannoeth pan oed dyd: dyuot yn dissyuyt am ben allad llawer oy wyr ay daly yntev ay dwyn ar Voredud. Ac y derbynniawd yntev ef yn llawen ac y dodes gevyn arnaw. ac y ketwys yny doeth Oweyn vab Cadogon. Ac yna y rodi y Oweyn: allawen uu Oweyn oy gael. ac aberys y dallu. Ar hyn aoed idaw o gyuoeth ymphowys wynt ay rannassant rygthynt. sef oed hynny: kereinion. athraen deudwr. ac aberriw.

Pan oed oet crist. M.C.xi. y kyffroas Henri vrenhin y lu y tu a gwyned a phowys. canys nev yr daroed y Gilbert vab Richart kyhudaw Oweyn wrth y brenhin. y vot yn derbynneit lledradev yw gyvoeth o gyuoetheu ereill: ac yn eu kynnal. Ac nev yr daroed y vab Hywe iarll caer llion kyhudaw Grufud vab Kynan. a Goronw vab Oweyn hevyt. Ac yna y manesseynt diva holl kymre hyt na bei atkyuot vdunt tragywyd. Ac yna kynullaw llu aoruc y saesson or van eithiaf o Gyrnyw lle gelwir pengwayd: hyt y vann eithiaf o brydyn lle gelwir penblathaon. Achyt tyngkv nat edewit dyn bew yn kymre. A gwedy klywet o Voredud vab Bledyn hynny kyrchu y brenhin a oruc: a dygymot ac ef. Oweyn vab Bledyn ay wyr a aethant hyt yn Erryri. canys hausaf oed vdunt yno amdiffyn rac ev gelyneon. Ac yna y gyssodas y brenhin tri llu: vn gyt a Gilbert iarll. holl dehev lloegyr a chyrnyw. y vynet y deheubarth kymre. Arall gyt ac Alexander vab Moelkylum. a mab Hywe iarll caer llion a holl prydyn y gyt ac wynt. Trydyd gyt ar brenhyn ehvn. y brenhin a doeth gyt ar deu lu hyt yn lle gelwir mur castell. Alexander ay gedymeith adoethant hyt ym pennant bachwy. Ac anvon ar Grufud y erchi ydaw dyvot y hedwch y brenhin. ac adaw llawer idaw yr dyuot. ac eiswis y sommi oed pei delei. Ar brenhin a anvones ar Owein y erchi idaw dyuot y hedwch ac atdaw y neb ny allei vn amdiffin ydaw. Ac yntev ay nackaawd. Ac ar hynny y doeth nebun wr ar Oweyn amenegi yr hedychu Grufud a mab Moelculum ar iarll ac adaw onadunt ydaw y holl tir dieithyr y kestyll yn didreth ymywyt y brenhin. ac yr hynny ny chytsynniawt ef ac wynt. Ac eilweith yr anvones y brenhin ar Owein kennadev a chyt ac wynt Moredud vab Bledyn y gevynderw. ac y dywat yntev wrth Owein na thremycka di kennadwri brenhin lloygyr: namyn achub di y garyat ymlaen ereill athi ay keffy. Ac yntev a gredawt ydunt ac a doeth gyt ac wynt y lys y brenhin. ac y derbynnwyt wynt yn enrydedus gan ev canmawl. Ac yna ydywat y brenhin wrthaw. Owein heb ef canys doethost attaf oth vod achredu geiriev vygkennadev ii: minnev ath ardyrchavaf ragor rac neb oth kenedyl. ac a dalaf y bwith o rodeon teilwg yt. Ac a rodaf yt dy holl tir yn ryd. val y bo kenvigen gan dy genedyl. Agwedy klywet o Grufud yr hedychu Owein ar brenhin: anvon a oruc yntev ar y brenhin ygeisiaw hedwch: ac y cavas gan dirvawr dreth. Ac yna y dychwelawt y brenhin y loygyr. ac y dywat wrth Owein canlyn di vi heb ef. ac a vo teilwg ytti y gaffel my ay rodaf ytt. ac o deuwy gyt ami y normandi: my agyflawnaf pob peth or a edeweis yt. a hynny a oruc yntev aphaub onadunt auu kywir wrth y gilid.

Pan oed oet crist M.C.xii. y doeth Henri vrenhin y normandi ac Owein gyt ac ef. ac y bu varw Geffrei escop mynyw. ac y perys y brenhin gwneithur yn escop yno Bernard ysgolheic o normandi. bei drwc bei da gan holl ysgolheigion hymre. Yn yr amser hwnnw y gwnaethpwyt gwas ieuanc Grufud vab Rys vab Teudor yn vrenhin yndeheubarth kymre. ac y peris rei oy genedyl ydaw mynet hyt yn Iwerdon yny vei yn oetran. gwedy bot yno yn hir ef adoeth yw wlat. ac y bu ygkylch dwy vlyned gweithev gyt ay genedyl gweithev gyt ay daw Gerald arglwyd penvro canys Nest verch Rys ac yntev oyd chwaer a braut. Ac or diwed y kyhudwit vrth y brenhin. a dywedut bot gobeith holl kymry vrthaw. Ac yna y peris y brenhin y geisiaw. ac y foas yntev hyt ar Grufud vab Kynan o dybygu cael diang y eneit. Ac y doeth kennadev ygan y brenhin y erchi y Grufud vab Kynan dyvot y ymwelet ar brenhin. A hynny agiglev

Grufud vab Rys gyt a Hywel y vraut yr hwn a uuassei yngkarchar Ernulf vab Rosser iarl Montgomeri. ac y rodassei Gwiliam vrenhin gynt ydaw ran o gyvoeth Rys. agwedy torri y alodev y ellwg ymeith aoruc. Ac y doeth yntev ar Grufud uab Kynan ac y bu lawen wrthaw. Agwedi dyuot Grufud vab Kynan y lys brenhin llawen uuwyt vrthaw ac adaw llawer o da idaw yr peri Grufud vab Rys ydaw ay yn vew ayyn varw. Ac yr ymedewys yntev ac wynt. A gwedy y dyvot adref ymovyn a oruc am Grufud vab Rys. Ac y cafas yntev yny gyghor kiliaw iadan y olwc yny wyppey pa chwedlev adelei ganthaw or llys. A gwedy amovyn amdanaw mor vrysahynny: anvon a oruc ar veirch ac ar draet yw geisiaw. nacha un yn dodi gvaed am gwelet marchogeon mor vrys y dyuot. Nacha yntev obreid cael y drws a chyrchu eglwys aber daron a chael y nodua oc ev blaen. A gwedy klywet o Grufud vab Kynan y dianc yr eglwys. anvon a oryc y wyr yw dynnv or eglwys ymmeith: ac nys gadawd yr escyb a gwyr yr eglwys. A gwedy y adaw onadunt ef yno: fo aoruc hyt yn ystrattywi. Ac yna ymgynnullaw llawer attaw a dechreu ryuelu ar y flemissieit ar freinc.

Pan oed oet crist. M.C.xiii. Grufud vab Rys a losgas castell kyverbyn ac arberth. Ac odeno y doeth hyt yn llan ymdyvri achyrchu castell Ricard vab Pvnson a geisiaw y thorri ay llosgi. ac y gwrthnebawt y castellwyr gyt a Moredud vab Ryderch vab Caradauc a oed gwercheitwat ar y wlat honno adan Ricard yna. ac y llosgat y llys ac y brathwyt llawer allad ereill heb caffel dym or castell. Odena ef a anvones y gedymeitheon y geisiaw castell Henri iarll yn aber tawy. ac y llosgassant y llys allad rei or gwyr heb cael dym or castell. A gwedy klywet hynny llawer oweision ieuenc ynvyt a doeth yn borth idaw ac anreithiaw yn ev hamgylch yn olofrud. Ac yna yd aeth y freinc yn ev kyghor a galw attadunt tywyssogeon y wlat. nyt amgen noc Oweyn vab Ryderch. a Ryderch vab Teudwr ay veibion Moredud ac Oweyn. ev mam wynt oed Hynyd verch Vledynt y mwiaf or kymry gwedy Grufud vab Llywelyn. canys wynt oedynt vrodyr vn vam o Agharat verch Voredud brenhyn kymre. Ac Oweyn vab Caradauc o Wenlliant verch Vledynt adywetpwyt vchot. a llawer or rei ereill. Agwedy ev dyuot y gyt: govyn or freinc udunt. a oedynt gywir wynt y Henri vrenhin lloegyr. ac y dywedassant ev bot. Ot ydywch heb yr wynt: chwi bieu cadw castell caer vyrdyn yr brenhin. A llyna val y ketwir. Oweyn vab Caradauc ay keidiw pethewnos. a Ryderch ay veibion pethewnos arall: a Moredud vab Ryer ch vab Caradauc y trydyd pethewnos. A gorchymyn y Vledyn vab Kediuor castell Robert Courtemayn yn aber comnyn. Yn hynny anvon a oruc Grufud vab Rys disgwilieit y gaer vyrdyn y edrych o gellit y llosgi nev y thorri. Ac yn ar amser hwnnw yd oed Oweyn vab Caradauc yny gwarchadw. Ac y doeth Grufud ay niver a dodi gaur amben y gaer. Sef a oruc Oweyn bwrw neit achyrchv lle klywei yr awr ac ymlad yn wychyr odybygu bot y gymedeithion gyt ac ef: sef a orugant wy. y adaw ef a fo. ac yna y llas Oweyn. ac y llosgat hyt y castell ac ny bu da ydieghis y castell hevyt. Odeno y dychweillassant y ev gynottaedic lle gan yspeiliaw y koidyd. ac y syrthiawd attaw anvedred oweision ieuweinc ynvyt or wlat honno. ac y doethant y losgi castell hyt yngwhyr allad llawer owyr aoed yndaw. Ac yd edewys William olundein y gastell rac ovyn Grufud. ar wlat ay holl ysgrybyl. dyeithyr y gwyr aedewis y wlat. Ac yno y kyflewnyt adywat Selif. kyn y kwymp y dyrcheif yr yspryt. A gwedy gwelet or anosparthus bobyl o dyvet hynny: ymgveirav y Geredigion aorugant dwrwy ganhorthwy Kediuor ap Gronow. a Hywel ap Idnerth. a Thrahayarn ap Ithael. y rei a oed gereint agos ydunt: ac am hynny oed well ganthunt pendevigiaeth Grufud no holl wyr keredigion. Ac or kynghor hwnnw yd hanuu wayth holl kymre. canys adaw dyuet awnaethant yn llawn o flemissieit. a freinc. a saesson. a llawer o amrauaylion kenedloed a oed gyt a gwyr keredigion. ac yr hynny yd oed callonniev gelynyaul vrth wyr keredigion am y galanassev awnaythessynt arnadunt gynt. ac ar ev kenedloyd. yr bot hagen Henri vrenhin lloigyr yn darystwg rei oe nerth. ereill ev dehol dros voroed or kymmry. ereill o eur ac areant. ereill o rodeon amrauayleon hyt na wydeat neb ev rif eithyr duw ehvn. nyt argywedawd Grufud dim yr hynny. namyn kyrchu keredigion ysgoit aoruc ac ymlad diwyrnavt a lle kadarn a daroed y Gilbert vab Richard ar flemissieit y adeiliat lle gelwyt blaenporthgwydni. ac or ymlad hvnnw y llas llawer or rei aoed y mewn: ac vn or rei allan. ac alosgassant y ran mwyaf or dref ac y darystwngassant y kymmwt ydunt. ac y foas y saesson ac adaw ev hanreithiev ac ev tei yn diffeith: ac y doeth y kymry ac anreithaw y wlat

ay llosgi hyt yn penwedic. ac odena y goruuant ar gastell ystratpeythill a llad llawer yndav ay losgi. o wyr Rys gvasnaithwr. canys efo bioed y castell. Odyna y doythant hyt y Glasgruc lle messurwit castell milltir o lan badarn. ac yno ỻy gvnaethan an adasrwyd dwyn ysgrybyl or eglwis yn bwyllwr ydunt. Athrannoeth yd oed yn ev bryt mynet am benn castell aberystwyth yr hwn a losgessyt gynt a llad y castellwyr. A gwedy klywet o Rys hynny: anvon a oruc o hyt nos hyt yn ystrat meuric y gastell a adeiliasse Gilbert y arglvyd ef. y ervynneit nerth y ganthunt. ac y rodassant yr hynn gorev or a allassant. Trannoeth y doeth Grufud ap Rys. a Ryderch y ewythyr ay deu vab Maredud ac Oweyn ac ev llu yn dirool y gyrchu castell aber ystwyth. le yd oed Rys wassnaythwr ay nerth yn diarwibot ydunt. A gwedy ev dyuot hyt ar villtir ywrth y castell lle gelwit ystrat antarron y gymryt ev kyghor y vynet am ben y castell. canys ar ben mynyd yd oed y castell ac ar lan avon ystwyth a phont a oed ar yr avon. Agwedy gwelet or freinc trevlav y dyd ganthunt yn ymgyghor: anvon a orugant seithydeon hyt y bont y ev digiav ac y geisiav ev twyllav ydyvot y ymseithu ac wynt. A gvedy gvelet or kymmre hynny: kyrchu y bont aorugant yn dirool ac ymseithu ac wynt yn wychyr calet. ac yn yr ymseithu hynny: y llas march vn or castellwyr. ac yna kyrchu y bont aorugant heb kymmryt kystlwn ganthwnt yny doethant y ben y brynn. A gwedy gwelet or freinc henne ellwng aorugant llu o varchogeon llurugauc ydunt y ev llad yn olofrud. A gwedy gwelet or gwyr ereill hynny: fo a orugant rei ac ev anreithev y wladoed ereill. ereill heb anreithev. Ac y foas Grufud ap Rys hyt yn ystrattywi. canys lle anneal oed hwnnw. A gvedy klywet or brenhyn hynny gvahavd Oweyn ap Cadogon aoruc attaw y ervynneit ydaw ac y Lywarch ap Trahayarn mynet gyt ay vab a llu ganthunt am ben Grufud ab Rys. ac adav talu pwyth ydunt pan deleynt drachevyn. canys mwyaf oed y ymdiret ydunt yll deu. ac y hadawsant wyntheu hynny. A gwedy kynullav ev lluoed ygyt wynt a doethant hyt yn ystrattywi: ac agyttyghassant nat adaweint na gwr na gvreic na mab na merch heb lad ford y kerdynt. Agvedy klywet or wlat hynny fo a orugant rei yr coydyd. rei y wladoed ereill. rei y gestyll cyfnessa attadunt lle tybygynt kael amdiffyn. Ac yno ydywetpwyt y diayreb. y ki a lyf y gvayw y llader ac ef. Agwedy ellwng y llu adan y coet. y doeth Oweyn ac ychydid o tylwith. XC. yr coet ac y cafsant olev dynyon ac ysgrybyl yn fo tu a chaer vyrdyn. ac ev hymlit a oruc ac ev daly yn agos ar y castell ac ev dwyn ar y getymeithion drachevyn. Ac val yd oed yn dyuot nychaf Gerald wasnaythwr a llu or flemissieit yn dyuot y gaervyrdyn yn erbyn mab y brenhyn. nychaf vn or foadureon adan weidi mavr: a menegi ry darvot y Oweyn ev daly ac ev hanreithav. a gwedy klywet or flemissieit ynvyt hynny: coffau a orugant yr hen glwifev a wnathoed Oweyn ydunt gynt llosgi y gastell ay anreithaw adwyn y wreic y dreis a medyliaw am hynny a oruc Gerald arglwyd penvro ay lu a dyuot yn direbud am ben Oweyn ar anreith. a thybygu o Oweyn panyw yn borth ydaw y dathoedynt. agwedy eu dyuot y gyt ymseithu a orugant oboptu: ac yno y brathwyt Oweyn yny syrthiawt. A gwedy kwyrahav Oweyn ychydic adiengys or a oed gyt ac ef. Agwedy klywèt o Lywarch ap Trahayarn ay gedymeithion ry lad Oweyn: ymchwelut y ev gwlat a orugant o achos bot brodyr Oweyn yn kynnal y ran ef o powys dieithyr adugassei Oweyn y gan Moredud sef oed hynuy kereinion a ran Madoc ap Ririt ab Bledyn. Henwev y vrodyr oed: Madoc ap Cadwgon a gat o Wenlliant verch Grufud ap Kynan. Eynion ap Cadwgon a gat o Sanan verch Dyfnaval. Morgant a gat o Ello verch Kedivor ap Collwyn twyssavc dyvet. Henri. a Grufud a gat oy wreic briawt merch y Picot de Sai twyssauc o freinc. Moredud a gat o Euron verch Hoydlyw ap Cadwgon ap Elystan. Oweyn a gat o Iweryd verch Edwyn. Ac yn hynny kytdyhvnaw a oruc Eynon ap Cadwgon a Grufud ap Moredud ap Bledyn y vynet am ben castell Vchdryt ap Edwyn yr hwn a oed yng kymer yn meirionnyd. Canys Cadwgon ap Bledyn arodassey meirionnyd a chyueiliavc y Vchdryt ay ỻveibion yr bot yn borth ac yn ganorthwy y Cadwgon ay veibion yn erbyn gwrthwynebed or odelei arnadunt. Agwedy llad Oweyn heb achos. gorthrwm oed gan y genedyl hynny: a dyuot am ben y castell ay losgi a fo o rei or castellwyr ac ereill adoeth y hedwch yr gwyr. Ac yna yr achubassant meirionnyd. kyveiliawc a phenllyn. ac a rannassant ryngthunt. kyueiliauc a machdwy a hanner penllyn y Grufud ap Moredud. a meirionnyd y veibion Cadwgon.

Pan oed oet crist. mil. C.xiiii. o vlwynyded y doeth tervysc rwng Henri brenhyn

lloegyr a brenhyn freing am normandi. canys yno yd oed y brenhyn yn trigav. yny wlydyn honno y bu varw Gilbert vab Richard o hir nychtawt.

Pan oed oet crist mil. C.xv. mlyned: y bu ryvel rwng Howel ab Ithel yr hwn a oed yn kynnal ros a rywynnyavc: a meibion Oweyn ap Edwin. Ririt a Llywarch ac ev brodyr. Ac yna anvon a oruc Howel ap Ithel yn ol Maredud ap Bledyn a meibion Cadwgon yn borth ydaw. canys wynt a oed yn kynnal y rannev hynny or wlat gan yawn. A gwedy menegy ydunt hynny: wynt a doethant ac ev tylwith amkan petwar cant o wyr da gyt ac wynt hyt yn dyffryn klwit canys ywlat honno oed eidunt meibion Oweyn ap Edwyn. A gwedy klywet onadunt bot Howel. a Moredud. a meibion Cadwgon yn dyuot: wynt a gynullassant ev nerthoed wyntev gyt a meibion Vchtryt ev kevynderw a freyng o gaer lleon. Ac a doethant yn ev herbyn ac ymlad yn wychyr creulon oboptu a llad llawer: ac or diwed y foas meibion Oweyn ac adienghys or eidunt. Ac y llas Llywarch ap Trahayarn. a Iorwerth ap Nud oed wrda enrydedus a llawer gyt a hynny. Ac ereill avrathwyt ac uuant veiriw or brathev. Howel ap Ithel a vrathwyt ac aducpwyt adref ac ympenn y deugeint diev ybu varw. Moredud a meibion Cadwgon a ymchweilyssant adref heb lyvassel trigav yny wlat rac ovyn y freinc.

Pan oed oyt crist mil. c.xvi. o vlwynyded y bu varw Murcherdach brenhyn iwerdon.

Pan oed oyt crist mil. c.xvii. y tagnavedwyt rwng brenhyn lloegyr: a brenhyn freinc. A gwedy ev tagnavedu yd erchys brenhyn lloegyr parattoi y longhev y dyvot y loygyr. ac wynt abarattoet ac adewisswit y gorev o nadunt y dwyn deu vab a merch yr brenhyn drwod gyt a deu cant or rei gorev eithyr y brenhin ehyn owyr a gwraged. A dechrev nos hwylav a orugant yny doethant hyt ynghevyn gweilgi: ac y doeth tympmestel arnadunt ac ev bodi heb diang yr vn onadunt. Ar brenhin oed mewn llong arall heb vynet ywrth y tir hayach. ac adiengys yr tir drachevyn. Agwedy klywet ohonav ry vodi y veibion nychtawt adoed yndaw: yny uu abreid ydaw diang ay eneit.

Pan oed oyt crist mil. c.xviii. mlyned y priodas Henri vrenhyn merch yr duc or Almaen. kyn no hynny ybuassei merch Moelculum yn orderch ydaw ac y buassei varw. Ar haf hwnnw y duc ef llu mawr yn erbyn Moredud ap Bledyn a meibion Cadwgon. Einion. Madoc. a Morgant. ac anvon onadunt wyntev ar Grufud ap Kynan arglwid mon y ervynneit ydaw dyvot yamdiffin ev tervynev rac y brenhin. Ac yntev a wnaeth hedwch adan llav ar brenhin ac adaw ev diva wynt o deleynt yw gyuoeth ef. A gwedy klywet onadunt vot y brenhin yn dyvot auvon gveision ieweinc y ymseithu ac wynt allad llawer onadunt a brathu ereill. amedrut y brenhin a saeth a rac daet yr arvev nyt argywedawt arnaw. Ac yna anvon yn ol Moredud a meibion Cadwgon a dyuot ar gret y ymwelet ac ef. ac yna y gwnaethant hedwch ac ef yr. x mil o warthec. Ac yna y dychwelavd y brenhin y loegyr.

Pan oed oet crist. m. c.xix. hedwch uu y vlwydyn honno. Pan oed oet crist. m. c.xx. y llas Grufud ap Eulhayarn y gan Grufud ap Rys. Pan oed oet crist. m. c.xxi. y bu varw Eyniou ap Cadogon. ac y gorchymynnws y Voredud y vraut y ran obowis a meirionnyd yr hwn adugassei y gan Vchdryt. ac y doeth Moredud ap Bledyn y gevynderw. ac Ithel ap Ririt ap Bledyn a ellynghessit o garchar Henri vrenhyn. adwyn y ar Moredud ap Cadogon y randiroed a orchymynnws y vraut ydaw. Agwedy klywet o Grufud ap Kynan ry wrthlad Moredud ap Cadwgon y gevynderw anvon a oruc y deu vab Cadwallawn ac Oweyn allu gantunt ac goresgynassant meirionnyd hyt yn llyn.

Pan oed oet crist. m. c.xxii. y lladawt Moredud ap Bledyn Ithel ap Ririt ap Bledyn y gevynderw. ychydic gwedy hynny y lladawt Cadwallawn ap Grufud ap Kynan y tri ewythyr. Gronw. Ririt. a Meilir. meibion Oweyn ap Edwyn. Canys Angharat e' Owein oed wreic y Grufud ap Kynan a mam y Gatwallawn. Owein. a Chatwaladyr. a llawer o verchet. Yny vlwydyn honno y lladavt Morgant ap Cadogon Moredud y vraut o dwyll.

Pan oed oet crist. m. c.xxiii. y doeth y rei anuassei yn keisiav normandi gynt. a dwyn peth o normandi o vedyant Henri vrenhyn. Pan oyd oet crist. m. c.xxiiii. y kyhudawt y freinc Grufud ap Rys vrth y brenhin. ac yducpwyt y tir aroassei y y brenhin ydaw kyn no hynny iarnaw. Ac yn diwed y vlwydyn ybu varw Daniel vab Sulien escop mynyw y gwr goreu or kymre ac yn archdiagon athagnauedwr gwyned aphowis.

Pan oyd oet crist. m. c.xxv. you varw Grufud ap Moredud ap Bledyn. Ac y delhis Llywelyn ap Owein: Moredud ay dodi yn llaw Payn vab Ihon y gadw

yngastell brugge. Yn diwed y vlwydyn ydaeth Morgant ap Cadogon y Gaerusalem am lad o honaw y vrawt. agwedy y dyvot drachevyn hyt yn cyprys y bu varw.

Pan oyd oet crist. m. c.xxvi. y lladawt Moredud ap Llywarch y gevynderw gan vab Meuric. A deu gevynderw gan meibion Grifri a dynnawt ev llygeit. A Ieuaf ap Oweyn a dallawt y dev vroder ac ay deholas or wlat ac y llas wynt. Pan oyd oet crist. m. c.xxvii. y llas Iorwerth ap Llywarch ygan Llywelyn ap Oweyn ym powys. Ac yn lleigys gwedy hynny y tynnwit llygeit y Llywelyn hwnnw ac y dispadwyt y gan Moredud ap Bledyn. ac y llas Iuaf ap Oweyn ygan y gevynderw. a Llywarch alas a Madoc y vab. y gan Meuric y gevynderw. Pan oyd oet crist. m. c.xxviii. y tynnwyt llygeit Meuric ay geillev. Pan oyd oet crist. m. c.xxix. y llas Iorwerth ap Oweyn. ac y llas Cadwallavn ap Grufud y gan y gevynderw Cadwgon ap Gronw. ac Einion ap Oweyn yn nanhevdwy. ac ybu varw Moredud ap Bledyn amdiffynnwr gwyr powys. Pan oyd oet crist. m. c.xxx. nyt oed dym adyckit ar gof. nar dwy vlyned nessaf gwedy hynny.

Pan oyd oet crist. m. c.xxxiii. y bu varw Robert Courteheyse oyd ylyshenw yngaerloiw mab William bastart ac yn iarll y normannieit ac y clathpwit yngaerdyv. Pan oyd oet crist. m. c.xxxiiii. ybu varw Henri vrenhyn Lloegyr. iii. d: noueb'. yn normandi ac y clathpwyt yn Redinges.

Ac ydoeth Stevyn uab iarll bloys a nei yr brenhyn oed hwnnw a darystyngaut dehev lloegyr yn wravl. Pan oyd oet crist. m. c.xxxv. y llas Richart a Gilbert y vab ygan Morgant ap Oweyn. Gwedy hynny y duc Oweyn a Chatwaladyr tywyssogyon kymre ev llu hyt yngkeredigion. ac alosgassant castell Wallt' de Bec. achastell aberystwyth. gyt a Howel ap Moredud. a Madoc ap Iorwerth. ac alosgassant castell Richart delamar. a chastell dineyrth. a chaerwedros ac odyno dychwelut adref yn hyvryt lawen. Ac yn diwed y vlwydyn y doethant hyt yn kardigan ac amkan y chwe mil o bedyt kant. a dwy vil o wyr meirch arvauc. gyt a nerth Grufud ap Rys. a Howel ap Moredud o vrecheinawc. a Madoc ap Ior. a deu vab Howel adugant ev lluoed hyt yn aberteiui. Ac yn ev herbyn wyntev y doeth Stevyn konstabyl y dref a Robert vab Martyn. a meibion Gerald. a William vab. ... a holl flandrys-sieit a normanieit ac ev marchogeon hyt yn aber dyvi ac ymlad yn wychyr kalet. ac yn dissyvyt y foas y flandryswyr. ac y llas llawer onadunt: ereill a losgat. ereill a las traet ev meirch ac adalpwyt: ereill a vodas. ereill a dychwelassant yn glaf adref. Agwedy gorut arnadunt y doeth Owein a Chatwaladyr adref ac aneiryf o garcharoreon ac anreithiev a llurugev ac arvev a gwisgoed mawrweirthawc gantunt y hyvryt lawen.

Pan oyd crist. m. c.xxxvi y bu varw Grufud ap Rys arglwid deheubarth. A Grufud ap Kynan tywyssauc gwyned gwedy llawer o weithredoed da. Yn y vlwydyn honno y doeth meibion Grufud eilweith y keredigion ac y llosgassant castell ystratmevric. a chastell ystevyn. a chastell sire Humfray a chaervyrdyn.

Anno. m. c.xxxvii. Ac yna y doeth yr amherodres y darystwg lloigyr y Henri mab hi or amherawdyr. canys merch oed hi y Henri vrenhin kyntaf vab Willam bastart. Ac yny vlwydyn honno y bu diffic ar yr heul. xii. kl'. o ebrill:

Pan oyd oet crist. m. c.xxxviii. y llas Kynwric ap Owein y gan wyr Madoc ap Moredud. Ac ybu varw Wallter vab Richart y gwr a seilawd gyntaf manachloc tyndyrn. Pan oyd oet crist. m. c.xxxix. y bu varw Madoc ap Idnerth. ac y llas Moredud ap Howel y gan meibion Bledyn ap Gwynn. Pan oyd oet crist. m.c.xl. y llas Howel ap Moredud ap Ryderch or cantref bychan drwy dwyll. Ac y llas Rys ap Howel. Pan oyd oet crist. m.c.xli. y llas Howel ap Moredud ap Bledyn. ygan yr eidaw ehvn. yn ymryson hagen yllas Howel a Chadogon. meibion Madoc ap Idnerth.

Pan oyd oet crist. m.c.xlii. y delihis Robert iarll caerloyw Stephyn vrenhin yn lincol. iii°. kl.' ap'l. Ac y llas Annaravt vab Grufud gobeith achedernyt deheubarth y gan wyr Catwaladyr. A gorthrwm oed gan Owein y vraut hynny canys merch Catwaladyr arodessit ydaw. ac yr hynny Howel ac Owein a dugant ran Catwaladyr o karedigion ay gastell yn aberystwyth alosgas. ac y doeth Miles iarll henford megys karw ay varchogion gyt ac ef. ac y llas o ergyt saeth. A gwedy alltudav Catwaladyr oe gyuoeth ef adoeth a llynghes ganthaw y aber menei or gwydyl Occer vab Occer a mab Turkyll. a mab Cherulf. Ac yno y kymodat rwg Oweyn a Chatwaladyr. A drwc oed gan y Gwydyl hynny canys oed amot ydunt dwy vil o vorkev yr dyvot gyt ac ef. A gwedy nas gavssant: wynt adalyassant llawer ac a dugassant gantunt yn attauel ev da.

Agwedy klywet o Oweyn hynny. ymlad ac wynt a oruc allad llawer a daly ereill. Ac ereill a diengys yn waradwydus hyt yn dulyn. Yn y vlwydyn honno yd aeth pererinion o gymre tu a chaerussalem ac y bodassant yn y mor. Ac yr atkyweirawt Hugyn vab Randwlf castell kymaron. a maelenyd. a chastell colunwy. Ac eluayl agavas y freinc ac ay darystwngassant hi. Ac y bu varw Innocent bab. ii. kl. apl. Anno. iiii°. y delihis sir Hywe Mortymer Rys ap Howel ac y llas rei oy wyr. ac ereill adalywyt. Ac y diffeithwyt aberteiui ygan Howel ap Owein. a Chynan y vraut. ac y goresgynnassant castell caer vyrdyn. ac edeiliat castell mab Vchtryt. Anno. v°. y bu varw Sullien vab Richemart mab maeth eglwys llan padarn. ar kyviawnaf or kymre. x. kl.' octob.' Ac y llas Meuric ap Madoc ap Ririt. a Moredud ap Madoc ap Idnerth. y gan Hyw Mortimer. Yny vlwydyn honno y cavas Cadell vab Grufud castell dinwileyr yr hwn a adeilawd Gilbert iarll. A chastell caer vyrdyn drwy Howel ap Oweyn ar gwyr a oed yngarchar gyt ac ef. Ac odyna y doeth Cadell ay vrodyr Moredud a Rys y gastell llan ystiphan ac ymlad yn gadarn ac wynt a llad llawer ac ev gelynneon a brathu ereill. Yn lleigys gwedy hynny y freinc ar flandryssieit ac ev tywyssogeon meibion Gerald. a William or hay adoethant yn dissyvyt y ymlad arvn castell hwnnw. Aphan welas Moredud ap Grufud hynny a oed wercheitwat ar y castell kyt bei mab o oetran annoc y wyr y ymlad yn wrawl aoruc. Agwedy gwelet or freinc nat oed namyn nyver bychan yny castell: bwrw ysgolyon amgylch y gaer aorugant. aphan oedynt yn agos ar bylchev: y byrywt wynt yr klawd. ac y llas ereill val ydoed ev tyghetvenev. ac ereill ev kymhell ar fo. Yn diwed y vlwydyn y bu varw Run ap Owein gorev gwr y darper or kymre a theckaf. Ac y cat castell yr wydgruc ac y torrat yn yssic. ac y llas llawer or castellwyr ac ereill adalpwyt vn garcharoreon. Agwedy menegi i Owein hynny hof oed gantaw achyvodi llywenyd yndaw ac ymadaw ay holl dolur ay dristwch am y vab. Anno. vi°. yd aeth Lewys brenhin freinc ac amherawdyr yr almaen. a ieirll a baroniet lluossogrwyd y Garusalem. Yny vlwidyn yd aeth Cadell ap Grufud ay vrodyr Moredud a Rys am ben castell y wis. ac anvon yn ol Howel ap Owein yn borth ydunt. A gwedy klywet o Willam vap Geralt ay vrodyr hynny: anvon y wahawd Howel a orugant o barthret y brenhin ac adaw llawer o da idav yr dyvot yn borth ydunt. ac yntev adoeth ac a ymdiffynnawt y castell oy nerth ef. Ni bu bell gvedy hynny yny tyvawt tervysc rwg meibion Owein Howel a Chynan. a Chadwaladyr eu bewithyr braut ev tat. Odena y doeth Howel a Chynan hyt yn meirionnyd y darystwg y wlat ydunt. ac y gastell kynvayl a adeiliassey Catwaladyr. ac a oed yngeidwadayth Morvran abbat y ty gwyn. Ac ymlad ar castell allad rei abrathu ereill. a dianc ereill yn vew o getmeithas. Yn y vlwydyn honno y bu varw Robert iarll y gwr auu yn kynnal ryvel yn erbyn Stephyen vrenhin. xii. mlyned. Anno. vii. y bu varw Vchdryt escob llandaf gwr da santeid. ac y rodat yny le Nichol vab Gourgant yn escob. ac y bu varw Bernard escob mynyw gwr da santeid ac y bu escob. xxxiii. Ac yny le yntev y doeth Dauid ap Gerald archdiagon keredigion. Ac y bu varw Robert escob Henford gwr da kredyfus a da wrth tlodeon. Ac yny le yntev y kyssegrwyt Gilbert abat caer loyw. ac yny vlwydyn honno y bu maruolaeth mawr yngymre. Anno. viii. y gwnaeth Owein ap Grufud ap Kynan brenhin gwyned castell yn Ial. ac y gwnaeth Catwaladyr ap Grufud castell llanrystut ac a rodes y ran o keredigion y Cadwgon y vab. Yn diwed y vlwydyn yd adeilawd Madoc ap Moredud castell Croesoswallt. Ac a rodes yw neynt. Owein. a Meuric meibion Grufud y ran o kyveilyauc. Anno. ix°. Cadell ap Grufud a atkyweiriawt ketweli. Yny vlwydyn honno y delhiis Owein brenhin Gwyned Kynan y vab. Ac y delhiis Howel ap Owein Catwaladyr y kevynderw ac adnc y gyvoeth ay gastell iarnaw. Ac y doeth Cadell a Moredud a Rys meibion Grufud ac ev lluoed y keredigion hyt yn Ayron. Ac y daeth Madoc vab Moredud brenhin Powys yn nerth y Randwlf iarll Caer. yn erbyn Owein Gwyned. Ac y llas llawer oc ev gwyr yn konsyllt. agyrru ereill ar fo. Anno. dom. M.C°.l. Cadell. Moredud. a Rys meibion Grufud aganattassant keredigion y Howel ap Owein dieithyr castell pengwern. castell llan rystut a gavas o hir ymlad ac alas y castellwyr oll. Ac yr atkyweiriawt Cadell ay vrodyr castell yst'meuric. Ac val yd oed Cadell yn mynychu hely bevnyd y doeth gwyr Dynbych ay guraw yn yssic ay adaw yn lle marw. Ychydig gwedy hynny y cavas Moredud ap Grufud a Rys y vraut Gohyr ac alosgassant castell aberllychwr. ac a adeiliassant castell dinwyleyr. Ac id

adeiliaud Howel ap Owein castell vab Gumffrei yn dyffryn calettwuyr. Anno .i. Owein ap Grufud a yspeiliaud Cuneda y nei. a Chatwallawn y vraut oy lygeit ay geilliey rac bot etived ydunt. A Madoc ap Moredud a ladawt y Stephen vab Baldwyn. Ac yr alltudwit Catwaladyr o von ygan Owein y vraut. Ac y bu varw Symeon archdiagon kelynnawc gwr da enrydedus. Anno. ii°. y cavas Moredud ap Grufud a Rys y vraut castell peuwedic. a chastell dynbych o vrat nos yr hwn arodessyt y gadw y Willam vab Gerald. A chastell aber avyn agafsant allad llawer allosgi adyvot ac anreith dirvaur adref. Ac y doeth Rys ap Grufud a marchoclu mawr ganthaw ac a diffeithawt castell ystrat kyngen. Ac odyna y diffeithawt yr eil weith kyveiliawc. Yny vlwydyn honn y bu varw Dauid brenhin ysgottieit. ac y doeth Henri tywyssauc y dir lloygyr. Ac y bu varw Randwlf iarll caer lleon. ac ydaeth Cadell ap Grufud y perindawt ac y rodes mediant yv vrodyr Moredud a Rys yny deley drachevyn. Anno. iii. y bu varw Stephvyn brenhin lloygyr y gwr ay kynhelis drwy enwired ac nyt trwy etholediaeth. ac yny ol yntev ydoeth eilweith Henri mab Geffrei plawntegenet iarll peytw a gat o amherodres rvneyn a oed verch y Henri vrenhin vab Willam bastart. ac a gymyrth Elianor brenhines freinc attaw ac a gynheliis y dyrnas yn gadarn. Yny vlwydyn honno y bu varw. Grufud ap Gwynn. Anno. iiii. y bu varw Moredud ap Grufud ap Rys o keredigion ac ystrattywi a dyvet. ac y bu varw Geffrei escob llandaf. ac y bu varw Roger iarll henford. Anno v°. y kiglev Rys ap Grufud bot Owein Gwyned y ewithyr yn dyvot allu maur ganthaw y keredigion. ac ydoeth yntev yny erbyn hyt yn aber dyvi y ymlad ac ef. ac y gwnaeth yno fos a chastell. Yny vlwydyn honno y gwnaeth Madoc ap Moredud tywysauc powys castell yngereinawn kyverbyn kymher. ac y diengys Meuric nei Madoc o garchar. Ac y kyssegrwit eglwys veir yn meivot. Ac y bu varw Terdelach brenhin Connach. Anno. vi°. yduc Henri vrenhin y lu hyt yn morva kaer lleon ac yno gossot y bebyllev. ac yn y erbyn yntev ydoeth Owein Gwyned ay lu hyt yn dinas bassig. ac yno mesurav lle castell a dyrchavel klodiev mawr. a gwedy klywet or brenhin dynny anvon tywyssogyon ierll a barwnieit a llu mawr gantunt hyt yno. Ac yn ev herbyn y doeth Dauid ap Owein ac ev hymlit hyt yn traeth caer gan ev llad yn olouurud. A gwedy gwelet or brenhin hynny kynnullav y lu ygyt a oruc a mynet ar hyt y traeth hyt yn rudelan. ac ydaeth Owein y tal llwyn pennant y vessurav castell. ac odyna gwneithur codiant yr brenhin ay wyr. ac odyna ydaeth Madoc tywyssauc powys a thalm o lu y brenhin gyt ac ef ar longhev hyt yn aber menei. ac yno cyrchu mon ac yspeiliaw eglwys veir. ac eglwys pedyr. A hynny a dangossas duw ydunt. trannoeth y doeth ieigtyt mon y ymlad ac wynt. ac y foas y freinc ac y llas llawer onadunt. ac ereill a vodas. ac ychydic obreid adienghis yr lloghev. ac yna llas Henri vab y Henri vrenhin a thywyssogyon y llonghev oll. ac yna yr hedychwt rwng y brenhin ac Owein. Ac y cavas Catwaladyr y dir. ac ydaeth y brenhin y loegyr. ac y cavas Ior. Goch ap Moredud castell Ial ac ay llosgas. Anno. vii°. y llas Morgant ab Owein o dwyll y gan wyr Iuor ap Meuric. ac y kymyrth Ior. y vraut caerllion a holl tir Owein yn eidaw ehvn. ac y kynheliis Rys ap Grufud ryvel a brenhin lloegyr gwedy hedychu holl tywyssogyon kymmry ac ef. ac a berys y holl deheubarth mvdaw hyt yn diffeithwch tywy. Agwedy klywet or brenhin hynny. anvon kennadev attaw y erchi ydaw dyvot yv lvs kyn dygyvor kymre a lloegyr a freinc am y ben. ac yny gynghor y cavas kyrchu y llys a hedychu ar brenhin a oruc. Ac yna y rodes y brenhin ydaw 'y cantref mawr achantrefoed ereill ymplith kyuoethev barwnyeit ereill. rac torri ac ef rac llaw. Ac y kymmyrth Rys hynny ay gynnal yn hedwch canys o dwyll y gwnaethpwyt ac ef hynny. Yn hynny y doeth Rog' iarll Clar oed wr kadarn a chwannavc y gyuoethev yn gymre. ac ervynneit yr brenhin caffel goresgyn ar y kymmre. ac y cavas. Ac y doeth y keredigion a hedychu a Rys. a gwedy hynny ef a doeth hyt yn ystrat meuric ac ystoriaw y castell. a chastell hwnfrev ar dyvi. achastell dinwrth. a chastell llan rystud. a oyd eidav Wallt' Cliford. achastell llan ymdyvri. ac a berys kyrchu anraith o gyvoeth Rys. Ac y perys Rys menegi hynny yr brenhin. ac id erchis y brenhin gwneith' iawn y Rys ac nys gwnay. Agwedy gwelet o Rys nachaffei dym: ef a oresgynnavt holl kestyll keredigion or a gadarnhaassey ierll abarwnyeit yno. ac ay hanreithiawt. Agvedy klywet or brenhin hynny. ydoeth yr eilweith y deheubarth kymre a chymryt gwystlon ygan Rys ap Grufud adychwelut y loygyr. ac yn lle ydaeth drwy vor. Anno. viii°. y goresgynnws Rys holl gestyll

dyvet or awnaethassey y freinc ac ay llosgas. ac adoeth amben kaervyrdyn. Agwedy klywet o Reinallt vab Henri vrenhin hynny kynullaw a oruc attaw y freing a sayson ar flandryswyr ar kymre ydyuot amben Rys. Ac yna ykiliawd Rys ay wyr ar eidunt hyt yn mynyd kynen rychtir mein. Agwedy dyuot Reinallt ay iarll brustev a iarll clar a deu iarll ereill a Chatwaladyr ap Grufud. a Howel. a Chynan. meibion Owein a lluoed mavr ganthunt hyt yn Dynwylleir. a messuraw castell yno. A gwedy na chafsant dim ywrth Rys yd aythant adref yn llaw wac. Agwedy klywet o Rys hynny: ellwng a oruc yntev ywyr adref. Anno. ix°. y bu varw Madoc ap Moredud tywyssavc powys. ac y clathbwyt y eglwys tysiliav yn meivot. Ac yn lleigys gwedy hynny y llas Llywelyn y vab yn hwn yd oed gobeith holl powys. Ac y dalpwyt Cadwallawn ap Madoc ap Idnerth ygan Einaun Clut y vraut. ac y rodes yntev yngharchar Owein ap Grufud. ac y rodes yntev ef yr freinc. ac y dienghis yntev ohyt nos ogyghor ywyr ay vrodyr maeth. Anno. M°c.lx. gwedy marw Adrian y barnwit y goruodedigaeth o freinc a lloegyr y Alexander ac y dyrchafwyt yn bap. Anno. i°. y bu varw Agharat wreic Grufud. Ac y bu varw Meuric escob bangor. ac y cavas Howel ap Ieuaf castell walwern yngkyueiliawc drwy dwyll. ac am hynny y kymyrth Owein ap Grufud tristwch yndaw am varw y vam. hyt na allei dim y digrifhau. Agwedy mynet hynny heibiaw y doeth Owein ay lu hyt yn llandyunan yn Arwystli a chynullav anreith dirvaur. ac y doeth gwyr arwistli gyt ev harglwyd Howel ap Ieuaf ac ymlit yr anreith hyt yngordwr hafren. ac yna ymchwelud o Owein attadunt ac ev hymlit ac ev llad obreid y dienghis ev traen yn vew. Ac yna y doeth gogonyant mewn Owein ac yr atkyweiriawt y gastell drachevyn. Anno. ii°. y kessegrwyd Thomas Chaunseler cil Henri vrenhin yn archesgob ygkeint. Ac y torrat castell Carrecgova y gan Owein ap Grufud ac Owein ap Madoc. a Moredud a Howel. Ac ydaeth Henri vrenhin allu dirvaur ganthaw y deheubarth kymre hyt ympencadeir. ac a gymyrth gwistlon gan Rys ap Grufud ac a dychwelavd y loegyr drachevyn. Yny vlwydyn honno y llas Eynon ap Anaraut ygan wr idaw ehvn Wallt' ap Llywarch yny gwysc. Ac y llas Cadwgon ap Moredud y gan Walt' vab Richard. Ac y kymyrth Rys ap Grufud y cantref mavr ar tir yn dinefwr yn eidaw ehvn. Ac y bu varw Kedivor vab Daniel archdiagen keredigion. Ac y bu varw Henri vab Arthen yr ysgolheic gorev or kymre or a oed yn un oes ac ef. Anno. iii°. y gwelas Rys ap Grufud nat yttoed y brenhin yn kwpplau y edewyt. ac na allei bychedockau val ydoed. rac tlodi. ef a gymyrth tir Rog' iarll clar a hynny o annoc Eynio' y nei ac a oed tywyssauc llu idaw ac alas. Ac a oresgynavt holl keredigiavn yr eilweith. ac a losgas castell ab' reidaul a chastell mabwynnyaun. ac a anreithaut y flandryswyr yn vynych gan ev llad ac ev llosgi. Ac yn lle gwedy hynny y kytdyhunavt y kymre. a gwrthot kethiwet y freinc iarnadunt. Anno. iiii°. y diffeithawd Dauid ap Owein tegegyl ac aduc y gwyr ac ev holl allu gyt ac ef y dyffryn klwit. A gwedy klywet or brenhin hynny ef adoeth yno a mynnassu gwneithur castell yno. ac y gymmyrth gwystlon ac ydaeth hyt yn rudelan. ac yno y bu tri diev yn messurav castell ac a dychwelawt y loegyr. Ac eilweith y doeth a dethol ymlad wyr o loegyr. a normandi. aflandrys. ac angiw. a gasgwyn. a phrydyn. hyt yn croes Oswallt. Ac yny erbyn yntev y doeth Owein a Chatwaladyr meibion Grufud ap Cynan a llu gwyned. a Rys ap Grufud o deheubarth. ac Owein kyueiliauc. a Iorwerth coch. a meibion Madoc ap Moredud a holl powys. a deu vab Madoc ap Idenerth ac eu holl lluoed hyt yn Edeirnon. Ac yno messuraw castell yn Corvayn. Agwedy klywet or brenhin hynny. dic uu ganthaw. a dyuot ay lu amben coet aber keiriauc ay lad hyt y llawr. Ac y doeth ychydic or kymre heb wybot yw tywyssogyon ac ymlad yn wraul allad llawer or rei gorev oboptu. Ac odena yduc y brenhin y lu hyt yn mynyd berwyn. ac yna pebyllu adyuot glaw arnadunt yny uu veiriw llawer onadunt rei o annwyt ereill o newyn. Ac yno y cavas yny gyghor dychwelut y loegyr. apheri dallu y gwystlon a oed ygkarchar ganthaw y kynt. nyt amgen. deu vab Owein vrenhin. Catwallawn. a Kynwric a Moredud. meibion Rys. a llawer or rei ereill. o lit wrth y kymre. Eilweith y cavas yny gyghor dyvot hyt yngkaer lleon ac yno kyweiriav y castell yny delei llynghes o Dulyn. ac o Iwerdon attaw. Ac ny bu digaun ganthav hynny namyn anvon drachevyn y gyrchu niver avei uuy. ac ydaeth yntev y loegyr drachevyn. Yny vlwydyn honno y cavas Rys ap Grufud Aberteivi ac a losges y castell ac ay drylliaut ac a duc anreith diruawr odyno. ac a achubaud castell kilgarran ac adelhiis

Robt vab Stephvyn ac a dodes yngharchar. Yny vlwydyn honno ydaeth govent gyntaf ystrat flur. ac y bu varw Llywelyn ap Owein. Anno. v°. ydoeth y freinc o benvro ar flandryswyr y ymlad a chastell kylgerran ac y llas llawer onadunt adychwelut adref yn llaw wac. Ar eil weith ydoethant ac ny dygrynhoas dim ydunt. Yny vlwydyn honno y distrywiavt Owein ab Grufud dinasbassig. ac yd alltudwit Diermid vab Mwrchad oy vrenhinyaeth. ac y doeth yntev hyt yn normandi y gwynav vrth brenhin lloegyr ac y ervynneit idaw y gyvansodi yny gyuoeth drachevyn. Yny vlwydyn honno yd alltudwit Ior' coch oy dir yn mochnant y gan y deu Owein. ac a rannassant rygthunt. Mochnant ewch rayadyr y Owein kyueiliauc. ac is rayadyr y Owein vachan. Anno. vi°. y doeth Owein a Chatwaladyr meibion Grufud owyned. a Rys ap Grufud odeheubarth a gyrru fo ar Owein kyueiliauc adwyn kereinavn yarnav. ay gorchymyn y Owein ap Madoc o walwern. Ni bu bell gwedy hynny yny doeth Owein kyueiliauc allu or freinc ganthav ac a dorrassant castell kereinavn ac ay llosgassant. allad yr holl castellwyr. Yn diwed y vlwydyn honno y doeth Owein a Chatwaladyr tywyssogion gwyned a Rys ap Grufud o deheubarth hyt yn rudelan. ac yno ybuant tri mis yn adeiliat castell gvedy torri y castell y gafsant yno ay llosgi achastell prestattvn ac ymchwelut adref y ev gwlat yn hyvryt lawen. Anno. vii°. ydoeth Fredric amheraudyr ruvein a llu mawr ganthaw hyt yn ruvein athorri eglwys pedyr agwneithur afrool mavr. ac y dielys yr holl kyuoethauc llad y lu yntev kynmwiaf. Ac y llas nei y Wrgenev abat y gaa Kynan ap Owein. Anno. viii°. ydillyghwyt Robt ap Stephyn o garchar Rys. Ac y doeth Diermyt vab Mwrchath a marchauc lu mavr ganthav hyt yn Iwerdon ac y llochgarmon y doeth y dir ac ay goresgynnavt. ac yny vlwydyn honno y bu varw Robt iarll leicestyr. Anno. ix°. y llas Meuric ap Adam o buellt ygan Moredud pengoch y gevynderw o dwyll yny gvsc. Ac y bu varw Owein ap Grufud ap Kynan tywyssauc gwyned gvedy llawer o goruodedigaetheu. Anno. dom. M°.c°.lxx°. y lladaut Dauid ap Owein Howel y vraut yr hynaf. Anno. i°. y pymphet dyd gvedyr nodolic y llas Thomas archescob keint yny escopwisc wrth allor ydrindaud yny eglvys ehvn yngkeint achledyfeu ygan Richard Bryton' a Hugus normyrvilc. a William Tran. a Reinallt vab yr arth. o annoc Henri vrenhin lloegyr. am na adei idav trethu yr eglwisev yn erbyn gvahard y tryded Alexander pab. A yna ygversev hyn. Ann' millen' centen' septuagen'. Prim' erat p'ma' corruit ense Thomas. Yny vlwydyn honno y daeth Ric' vab Gilbt Stragbow iarll amhwydic Iwerdon ac a gymyrth merch Diermit vrenhin yn wreic briaut idav. ac awnaeth ladva vaur yn dulyn. Ac yn lleigys y bu varw Diermyt ac y glathpwit ef yn ferna. Ac y bu farw Robt ap Llywarch. ac y bu tervysc rwg brenhin freinc abrenhin lloegyr am lad Thos archescob. canys rodassei meichev y vrenhin freinc na chwyvit wrthaw. nyt amgen no Henri duc borgwyn a Theobaldu' y vraut. Agwedy klywet o Alexand pab anvon at brenhin freinc ar meichev. a gorchymyn ydunt kymhell brenhin lloegyr hyt yn ruvein ywneithur iawn am ry lad yr archescob. Ac anvon o brenhin lloegyr hyt yn ruvein y esgussodi drostaw na allei dyvot yna. Yn hynny ydoeth Rys ab Grufud idaristwng Owein kyveiliavc y dav gan y verch ac agymyrth seith or gwistlon ganthav. Yn hynny ydoed ar y brenhin ofyn ysgymunoliaeth o ruvein. Ac yd oed yny vryt vynet ydarystwng Iwerdon. Ac y doeth pavb oy dywyssogyon attav o loygyr achymre. Ac y doeth Rys y ymhedychu ar brenhin ac yaeth yny ewyllys o trychan meirch. a. iiii°. mil o ychen a. xiiii. o wystlon ar hynny. Odyno yd aeth y Gaerllion ar wysc ac aduc ydinas yar Ior. ab Owein ap Caradoc ap Grufud. Am hynny yd aeth Ior. ay deu vab Owein a Hywel. ev mam oed Angharat verch Vchrit escob llandav. a Morgant ap Seisyll ap Dyfynawal o Dudgu verch Owein chwaer yr dywededic Ior. o llawer gyt ac wynt a anreithiassant ywlat ac a distriwassant ydref hyt y castell. Ac y doeth y brenhin a llu maur ganthav y benvro. ac yno ef arodes y Rys keredigion. ac ystrattywi. ac arwistli. ac alvael. Ar haf hwnnw Rys a atkyweiriavt castell abteivi yr hwn adristiwasse gynt. pan delhiis Robt. vab Stephyn o Nest verch Rys ap Teudwr. Ac ef aberis kynnullav y meirch a edevssyt yr brenhin ac adoeth y ymwelet ar brenhin hyt ym penvro. ac odeno yd aeth y brenhin hyt yn mynyw y perindot ac arodas yn offrwg deu cantelcop o bali a dyrneit o aryant amgilch chweigeint. ac y gvahodes yr escob ef. ac y kymyrth gvahaud ac ychydic o niver ygyt ac ef. Ac yna y doeth Richard iarll oywerdon y ymgetmeithiaw ar brenhin: canys oy anuod y daeth y Iwerdon. Agwedi bwit duw

gwyl vihangel ar law mawr y doeth hyt yn penvro. Ac yno y doeth Rys a chwe meirch a phetwar vgein meirch. Ac o hynny ny chymyrth y brenhin namyn vn arbymthec arugeint. gan ev diolch y Rys yn vaur. Agwedy ev dyuot hyt y ty gwin ygyt. ef a rodes y Rys Howel y vab auuassey yngwystyl yn hir yn lloegyr. Ac yspeit am y gwystlon a oed yny vryt ev kymryt o newyd. ac am yteyrnget yny delei o Iwerdon. Ac yna y peris parattoy llynghes y vynet Iwerdon. a duw gwil Calixti pab yd ellynghaud y llu yr llogheu. Ac y doeth gwynt gwrpwith ac a yrawt y brenhin yr tir drachevyn. Agwedy ev dyvot Iwerdon y trigassant yno y gayaf heb argywedu dim ar y gwidyl. Anno. ii°. y bu marvolayth maur ar lu y brenhin rei o newin. ereill o newyd bwydev. ereill o diffic na ellyt dwyn kyfnewidiev ar vor yn amser gayaf. Yny vlwydyn honno y bu varw Catwaladyr ap Grufud ab Kynan. Ac ydoeth ybrenhin yn wythnos y diodeifein hyt yn penvro ac ychydic o niver gyt ac ef. ac adaw y varwnieit ay varchogeon yn Iwerdon. Ahynny o achos kennadev y pab a rei brenhin freinc. Ac yno ybu duw pasch athrannoeth ac y cafas Rys ymdidan ac ef yn talacharn yn mynet ytu a lloegyr. Agwedy dyvot y loegyr o honaw auvon a oruc kennadev at Ior. ap Owein ierchi ydaw dyvot y ymdidan ac ef ac y gadarnhau hedwch ryngthunt. Ac ydoeth Owein ap Ior. o arch y dat ydyuot gyt ac ef ylys ybrenhin. ac y doeth gwyr iarll brustov o caer dyf ford y castell newyd ar wysg ac y lladassant ef yn was ievanc klotvaur. A gwedy menegi hynny yw dat ac y Howel y vraut ac yr lleill a oed vn ac wynt. nyt ymdiredassant yr brenin ohynny allan namyn gwneith' gwaethaf ac y gellynt ar gyvoeth ybrenhin olad allosgi ac anreithaw heb drugared. hyt ynkaer low ahyt yn henford. Ac yna y gwnaeth ybrenhin Rys ap Grufud yn vstvs ar deheubarth kymre. ac yntev aaeth yfreinc heb olud. Yn hynny mys aust ycavas Seissill a Dyvynwal a Ieuan ap Seissill ap Ririt. castell Aber Gevenny odwyll ygan wyr y brenhin. Anno. iii°. ybu yr hin decgaf yn amser gayaf hyt difiev kyuarchavel ac yna y doeth taranev aglaw achenllysc athorri bric y coet hyt ydaear. ac yssu o bryvet y deil yn llwyr hyt na alley y gwydvilot ymborth. ac y peryglavt llawer or bobyl ac or ysgrybyl. Yny vlwydyn honno y ganet Meuric ap Rys ap Grufud. a mab y verch Moredud y vraut. Ac ydaeth Henri ieuanc vab Henri brenhin lloegyr dros vor at y dat. agovyn yw dat peth awnay canys nat oed ydaw ymborth onyt agaffei gan ydat. Ac yd erchys y dat rodi ugeint pvnt or monei hwnnw beunyd ydaw. Ac y dywat yntev na chiglev rodi lifrei y vab brenhin erioet ac nas mynnei yntev. Ac yny gyghor y cavas mynet ydinas twrws a chymryt areant yn echwyn gan y bwrdeissieit ydref. Aphan giglev y brenhin hynny: gvaharth aoruc na rodyt ydaw vn geiniavc. ac anvon gwyr oy lys ehvn yw daly ay warchadw yny darffei ydaw kymryt kyghor amdanaw. Ac y perys yntev medwi y gweircheitweyt athra uuant yn kysgu. ydaeth ymeith ac ychydic owyr gyt ac ef hyt at brehin freinc y chwegrwn. Yn hynny yr anvones Rys ap Grufud Howel y vab dros vor at Henri vrenhin yw wassneithu. ac y bu llawen ybrenhin wrthaw a diolch yn vaur y Rys y anvon yno. Yn hynny yd oed Henri ieuanc drwy nerth y chwegrwn a Theobaldus duc bwrgwyn a chyghorwr flandrys yn ewyllyssu gwrthnebu y gyvoethev ydat. Duw m'chergwith. xv. kl. aust y doeth Ior. ap Owain amben Caerllion ac ymlad ardinas ynyw kavas. a daly gwyr y dinas yny gafas y gastell. Odeno ydaeth Howel ap Ior. o hyt nos y gastell gwent. athrannoeth y darystynghavt y wlat idaw dieithyr ycastell. ac agymyrth gwystlon or rei goreu or wlat. ac yna y gyrrawd Dauid ap Owein owyned Maelgwn y vraut hyt yn Iwerdon ac agymyrth Mon y eidaw ehvn. Anno. iiii°. y bu varw Kynan ap Owein. Ac y gwrthladawt Dd. ap Owein y vrodyr ay gevynderiw o wyned ac ay kymyrth yn eidaw ehvn. Ac a garcharawt Maelgwn y vrawt. Anno. v. peris Howel ap Ior. ogaerllion heb wybot yv dat daly Owein y gevynderw athynnv y lygeit ay geillev rac kaffel etived o honaw canys ef oed wir etived ar caerllion. Ac yn dissyvyt ydoeth y freinc ac alltudaw Ior. a Howel y vab odeno. Ac y tagnavedwyt rwg Henri vrenhin lloegyr a Henri ieuanc y vab gwedy distrywiaw llawer o Normandi agwladoed ereill. Ac y delhiis Dauid ap Owein. Rodri y vraut dro dwill ac ay dodas mewn carchar kyfync a gevynne arnav. am geisiaw van o dref y dat iganthaw. Ac yna y kymyrth Dd. ap Owein Emme chwaer yr brenhin yn briawt odybygu caffel am hynny kynnal y gyvoeth yn hedwch. Ac yn hynny y dienghys Rodri o garchar y vrawt. achyn diwed y vlwydyn ef aduc Mon iarnav a Gwyned ewch Conwy. Duw gwyl Iago apostol ydaeth Rys ap Grufud y Gaerlow yr kwnsili aholl tvwys-

sogeon kymre gyt ac ef or a uuassei yn erbyn y brenhin. nyt amgen. Catwallawn ap Madoc y gevynderw o vaelenyd. Eynion Clut y daw gan yverch o elvayl. Eynion ap Rys y dav gan y verch o gwerthrynnyon. Morgant y nei ap Gwlad' y chwaer. tat Caradawc ap Iestin owlat vorgant. Grufud y nei vap Nest ychwaer braut Iuor vachan ap Meuric o semhenyd. Ior. ap Owein o gaerllion. a Seissyll ap Dyvynwal o went ewchaf abriodassei Gwladus chwayr y Rys ap Grufud. Agwedy ev dyvot yno y brenhin arodes hedwch ydunt. ac arodes Caerllion y Ior. ap Owein. Ac y llas Seissill ap Dyvynwal o dwill yn gastell ab' gevenni ygan arglwyd brecheynavc. Ac yllas Geffrei y vab a goreugwyr gwent. a Gwlad' y wreic adalpwyt. a Chatwaladyr y mab alas. Agwedyr lladua mordruan ahonno ny allawd kymro ymdiriet y dwyll y freinc ohynny allan. Cadell vab Grufud o orthrwm heint gwedy kymryt habit crevyd amdanaw yn ystrat flur y bu varw ac yno y clathpwyt. Ac Richard abat clerval mewn manachloc yn ymyl dinas ramson y doeth manach ay vrathu a chyllell ac or brath hwnnw y bu varw. Anno vi°. y bu varw Kynan abat y ty gwyn. A Dauid escob mynyw. ac yny le yntev y doeth Perys. Ar nodolic hwnnw y gwnaeth Rys ap Grufud y wled vawr yngastell ab' teiui. y ymryson pwy orev o gerd tant. nev gerd tavot dros wyneb kymre. a lloegyr. a phrydyn. ac iwerdon. a pheri gwneith' dwy gadeir. vn yr gorev or telynoryon. arall yr gorev or beird. Ac or telynnoryon gorev oed gwas ieuanc or llys. or beird gorev oed rei gwyned. ar wled honno o gyhoydwyt blwydyn kyn y wneith'. Yny vlwydyn honno y gwnaethpwyt kwnsili yn llvndain am hanner y grawys y gadarnhav kyfreithev yr eglwysev. ac y tyfawd ymryson y rwng archescop keint. ac archescop caer efrawc am eistedvaev yngwyd y cardinaeliet o ruvein.kyrchu aoruc archescop keint lle delehe vot. Athrannoeth yd achubawt archescob caer efrauc y lle hwnnw yngwyd y cardinaliet. ac y doeth nebvn or tu drachefyn idaw ay dynnv ef ay gadeir yny uu yn wysg y wegyl yr llaur. ay guraw a dwylaw ac a thrayt yn yssic. abreid uu idaw diang ay eneit. Anno. vii°. yllas Einon clut. A Morgant ap Moredud alas hevyt. Ac y gwnaeth Rys ap Grufud castell rayadyr gwy. Anno. viii°. meibion Kynan a ryvelassant ar arglwyd Rys. Anno. ix°. y llas Catwallawn. Ac y prypheythwyt Covent yn nant teyrnon. ereill ay geiliw manachloc devma. ereill manachloc caerllion ar wysg. Anno dom. M°. c.lxxx. ny bu dim or a dyckit ar gof yny vlwydyn honno. Anno. i°. y bu varw Alexander bap. Ac yny le ydetholet Luci'. Ac y bu varw Adaf escob seynt Assaph yn ryt ychen ac y clathpwyt ef yn Osyney. Anno. ii°. y llas Randwlf de Poer ac ychydic o varchogeon gyt ac ef. ygan gweission ieueinc o went. Anno. iii°. y bu varw Henri vrenhin ievanc trydyd Henri oed hwnnw. yn mywyt ydat. Ac y bu varw Richard archescob keint. Anno. iiii°. y bu varw Ryderch abat y ty gwyn. ac y bu varw Meuric abat y Cumhir. Anno. v°. y doeth y padriarch. o garusalem o loegyr y geisiaw nerth gan Henri brenhin lloegyr. canys daroed yr Ideon a Saracinieit distriw caerusalem yn llwyr. Ac y dychwelavt drachevyn ac amdeler o wyr meirch a phedyt ganthaw. Duw kalanmei y symvdavt yr heul y lliw megys. pan vei diffic arnei. Yny vlwydyn honno. Dd. abat ystrat flur auu varw. A Howel ap Ieuaf arglwyd arwystli. ac Einion ap Kynan. ac y clathpwyt wynt yn ystratflur yn enrydedus. Anno. vi°. y bu varw Luci' bap. ac yny ol ydoeth Vrban' tryded. ac y daeth covent ystrat flur hyt y redynavc velen yngwyned. ac y bu varw Perys abat clervall. ac yllas Catwaladyr ap Rys o dyvet yn lledrat ac y clathpwit yny ty gwyn ar daf. Anno. vii°. y bu varw Ithel abat or trallwng. Ac y llas Owein ap Madoc y gorev or kymre drwy dwyll yn garrec gova nosweith ygan veibion Owein kyveiliawc. Gwen oynwyn a Chaswallawn. Llywelyn ap Catwallawn a dalpwyt ygan y vrodyr ac adynhwyt y lygeit. Maelgwn ap Rys o deheubarth adiffeithavd dinas Dynbych ac ay llosgas. Ac vegys llew yn hela y doeth llawer or flandryswyr ac y lladavt ef wynt oll. Anno. viii°. y doeth paganieit a saracinieit y Caerusalem dechrev y grawys ac adugant y groc y diodefavt duw arnaw gantwnt. ac yspeiliav ydinas allad llawer or cristonogyon adyly ereill yngkarchar. Ac amhynny ydaeth Philip brenhin freinc. a Henri brenhin lloegyr. a Baldewyn archescob keint alluossogrwid o gristonogeon a chroes. Anno. ix°. y bu varw Henri vrenhin.

Ac yny ol yntev y doeth Richard y vab y vrenhin. y marchauc gorev ar devraf. Yny vlwydyn honno y cafas Rys ap Grufud castell seinther. ac abercorran. allan ystyphan. Ac aberys daly Maelgwn y vab ay garcharu y gwyr a oed blodev y marchogeon ac amdiffynnwr deheubarth kymre.

Anno dom. M°.c.xc. ydaeth Phelip brenhin freinc. a Richard brenhin lloegyr. a Baldewyn archescob y Gaerusalem a dirvawr llu ganthunt o ieirll a barwnieit. ac y gwnaeth Rys ap Grufud castell yn ketweli. Ac y bu varw Wenlliant verch Rys blodev gwraged kymre otegwch. Anno. i°. y bu varw Grufud Maylor brenhin Powys yr haylaf or kymre. Ac y bu varw Gwion escob bangor gwr mawr ygrefyd. Ac y bu diffic ar yr heul. Ac y bu varw Baldewyn archescop keint. Ac y llas Einion or porth y gan y vraut. Ac y cavas Rys ap Grufud castell dyneinir. Ac y bu varw Owein ap Grufud yn ystratflur. Anno. ii°. y dienghis Maelgwn ap Rys o garchar arglwyd Brecheinoc. Ac y cavas Rys ap Grufud castell llanmadein. Ac y bu varw Grufud vab Cadwgon. Anno. iii°. y dalpwyt Richard vrenhin lloegyr yn dyvot o Gayrusalem ygan nebun iarll ac y rodat yngkarchar yr amherawdyr. yny oruu ar loegyr gwystlaw kareglev y manachlogoed ar eglwyssev ac ev eurlestri yr yellwng or karchar. yny vlwydyn honno y darystyngawd Rodri vab Oweyn ynys von. a hynny o nerth meibion Godrich. A chyn diwed y vlwydyn y gwrthladwyt ef or ynys y gan veibion Kynan. Ac y cavas gwyr Maelgwn vab Rys castell ystratmevric. yn wrawl nos nodolic drwy ev peiriannev. Ac y cavas Howel seis vab Rys pennaeth deheubarth castell gwys drwy dwyll. Ac adelhiis Phelip vab Gwis ay wreic ay deu vab. Agwedy gwasgaru a castell kyt dyhunaw a oruc a Maelgwn y vraut y distrywiaw castell llannuhadein. Agwedy gossot oet dyd. ydoeth y flandryswyr yr dywededic castell ac ymlad yn diobeith ac wynt a gwneith' lladva dirvaur onadunt. a chymhell ev gwyr ar ffo. Ac ymgynnulla a oruc y kymre am ben ydywededic castell ac ydistriwiwt. Ac y delhiis aranaut y deu vroder. Madoc. a Howel. ac ytynnawt ev llygeit. Anno iiii°. y rodes Maelgwn vab Rys castell ystrat meuric yr hwn arodassei Rys ap Grufud idaw. yntev ay rodes yv vraut dros y wystlon. Ac y gwnaethpwyt yr eilweith castell rayadyrgwy. Ac y dalptwyt Rys y gan y veibion ac y carcharwyt a Howel seis o dwyll ar Maelgwn y vraut a ellyngawd Rys y dat o garchar. Ac y kymyrth meibion Catwallawn castell de Nyuer yr hwn a oed eidiaw Maelgwn a chastell rayadyrgwy ac ay llosgassant. Ac y doeth Richard vrenhin y loegyr o gaerusalem. Llywelyn ap Ior. a deu vab Kynan Rodri ac Owein adugant kyvoeth Dauid ap Owein yarnaw onyt tri chastell ay gymhell yntev ar fo. Anno. v°. y doeth Rosser y mortimer allu ganthaw hyt yn Maylenyd ac y gwrthladwyt deu vab Catwallawn o gastell kymaron. Ac y cafas deu vab Rys ap Grufud. Rys a Maredud. castell dinefwr o dwyll a chastell y cantref bychan. a gwyr y wlat honno a gytsynawt ac wynt. ac y delhiis ev tat wynt o dwill ac yn ystrat meuric y carcharwit wynt. Anno. vi°. y bu varw escop bangor. Ac kynvyllaut Rys ap Grufud llu amben caer merdyn ac ay llosgas ac ay diffeithawd. Ac odyno ydoeth allu dirvaur amben castell Colvnwy. ac eiste wrthaw ac eu kymhell ev rodi. a gwedy y rodi y llosgi ay dystriw a orugant. ac odena y bryssiassant hyt yn radynor ac ay llosgassant. ar dyd hwnnw y doeth Rosser Mortimer. a Hvgyn o say. allu diruavr o wyr arvauc ymladgar yn ev bydinev ynbarawt y ymlad. Agwedy gvelet o Rys hynny: kyrchu yelynyon aoruc megys llew ac ev kymhell ar ffo ac ev hymlit yn wraul ac ev eythu gan ev llad yn olofrud. ac ni orfwisavd yny doeth hyt yn chastell paen yn Eluael ac yna eiste wrth y castell a gwneithur ermygyon y ymlad ar castell. Ac y doeth Willyam brewys ac y tagnavedwyt ac ef. Yny vlwydyn honno y doeth Henri archescop keint vstus holl loegyr a chynvllaw tywyssogeon kymre y dyvot amben castell wenhwynwyn yny trallwng ac ymlad ac ef obop amriw ymladdev. ac ny thygiawd ydunt dym. canys val y bwrieyn ermygyon y ben y castell ydyuot y mewn: pan deleint hyt y bylchev y bwrit wynt hyt yn waelawt clawd yny dorrynt eu mynyglev ereill bodi. Ac or diwed wynt arodassant y castell gan ev gellwg yn ryd ar eidunt gantunt. a hynny awnaethpwyt. Odena ydoeth Gwenwinwyn ay gynvlleitva oy wyr ac eistev wrth yr vn castell hwnnw. a chymhel ar ycastellwyr rodi y castell gan ev gellwng yn ryd ar eidunt gantunt. Ac y bu varw abat y trallwng. Anno. vii°. y bu maruolaeth maur yn gymre afreync. a hynny or tywyssogyon gorev. Ac y bu varw Rys ab Grufud tywyssawc deheubarth kymre blodeu y marchogion ar gorev or auu o genedyl gymre er oet iiii. kl. maii. gwedy llawer uudugolaythev. Agwedy marw Rys y gwledychawd yny le Grufud y vab. Ac yny erbyn y doeth Maelgwn y vraut ay wyr agwyr Gwenwynwyn hyt yn ab' ystwyth ac adelhiis Grufud ac aladawt llawer oy wyr acharcharu ereill adarystwng ydaw holl keredigiawn ai gestyll ac anvon

Grufud y garchar Gwenwynwyn. Ac yntev ay rodes yngkarchar saesson. ac adarystyngws idaw holl Arwystli. Ac y delhiis Llywelyn ap Ior. Dauid ap Owein. Yny vlwydyn honno gvedy kymryt habit kefryd amdanav ybu varw Owein kyveiliauc ac y clathpwyt yn ystratmarchell Ac y bu varw Owein ap Grufud Maelor. Ac Owein or brithtir vab Howel ap Ieuaf. A Maelgwn ap Catwallawn o veili nyd. Yny vlwydyn honno y doeth Trahayrn vychan ovrecheinavc gwr da doeth kadarn. a nith verch chwaer y Rys ap Grufud yn wreic briawt y dadlev yr arglwyd William de breusa hyt yn llancors. ac y dalpwyt et yn greulon ay rwymhav yn gadarn achadwynev gerit y draet ay lusgaw wrth y march kryhaf drwy holl ystrytoed Aberhodni hyt y crogwyd. ac yno llad y ben ay grogi ger y draet. ac y clathpwyt yn..... Ac y dial y vraut ay vab ay wreic. pan yw yny ford greulon y divethawd y gwyrda gwirion hynny y torras Maelgwn vab Rys Aberteivi.

LLYMA

VRUT Y TYWYSOGION,

VAL Y BU RYFELOEDD, A GWEITHREDOEDD ENSEILIAD, A DIALEDDAU, A RHYFEDDODAU. GWEDI EU TYNNU O'R HEN GOFION CADWEDIG A'U BLYNYDDU YN DREFNEDIG GAN GARADAWG LLANCARFAN.

Yr Hanes uchod a gopiwyd o Lyfr George Williams o Aber Pergwm Ysgweier, genyf i Thomas Richards Curad Llan Gralio, yn y flwyddyn 1764. *A minnau Iorwerth ab Iorwerth Gwilym ai copiais o Lyfyr y Parchedig Mr. Richards yn flwyddyn* 1790. *Ac ai dadgopiais ef i Owain Myfyr, yn Mesyryd y flwyddyn* 1800.

BRUT Y TYWYSOGION.

Oed Crist 660, y bu farw Cadwallawn ab Cadfan brenhin y Britanniaid ac y daeth ei fab ef Cadwaladr fendigaid yn Frenhin yn ei le; a gwedi dengmlynedd yn heddwch y daeth y Clefyd mawr a elwir y Fall felen ar holl ynys Prydain, a hynny a ddechreues pan oedd oed Crist yn 674. Ac achaws y Fall honno ydd aeth Cadwaladr a llawer o bob goreuwyr y Bryttaniaid i Lydaw lle ydd oedd eu cydwladwyr wedi gwledychu yn hir o amser cyn no hynny; ac achaws y clefyd nis gellid rhyfelu yn ynys Prydain na llafuriaw daear, ac o hynny y digwyddes newyn mawr oni bu farw niferoedd rhyfeddawl o'r Cymry a'r Saeson; a'r Newyn, a'r Fall, a barhëis unmlynedd ar ddeg, onid aethant yn dost eu gormail holl bobloedd ynys Prydain. A gwedi dyfod diwedd ar y dialeddau hynny, fe ddodes Gadwaladr ynys Prydain a'i choron yn nawdd ac adnau Alan Brenin Llydaw, ac a aeth i Ruvain wrth gyngor Angel a welsei efe yn ei lesmair, ac yno y bu efe bum mlynedd ac y bu farw yno, a phan ddel ei esgyrn ef oddiyno yn ol i ynys Prydain y cant y Bryttaniaid eu Braint a'u Coron yn ol y dywaid yr Angel wrth Gadwaladr.

Oed Crist 683, y danfones Alan brenin Llydaw ei fab Ifor ac Ynyr ei Nai a dwy Lynges gadarn i ynys Prydain, a rhyfel a fu rsyngddynt a'r Saeson, a gorfod ychydig arnynt, yna y cymmerth Ifor arnaw Bennaduriaeth y Bryttaniaid. A gwedi hynny y daeth y Saeson yn ei erbyn ef a llu cadarn, a chad ar faes a fu rsyngddynt lle y gorfu Ifor a'r Bryttaniaid wedi ymladd creulawn. ac ynnill Gwlad Cerniw, a Gwlad yr Haf, a Dyfneint yn gwbl. Ac yna y gwnaeth Ifor y Brodyrdy mawr yn ynys y Fallen er diolch i Dduw am ei gyfnerth yn erbyn y Saeson.

Oed Crist 698, y bu'r glaw gwaedliw yn ynys Prydain, onid aeth y llaeth ar ymenyn a'r caws yn gochliw gwaed; ac Ifor a aeth i Rufain lle y bu farw gwedi cynnal Penadurdawd ar y Bryttaniaid wyth mlynedd ar hugain, yn fawr ei glod ai ddoethineb, efe a ddodes lawer o Diroedd at Eglwysi yng Nghymru a Lloegr.

Oed Crist 720, Bu Haf tesawg rhyfeddawl oni bu farw coedydd a llysiau ac ysgrublaid gan sychder ac angerdd y poethder, ac ym mis Medi yr un flwyddyn y bu'r llifeiriaint disyfed ac y torres Eglwys Llancarfan, a llawer o'r Tai, ac y boddes aneirif o'r Gwartheg a'r Defaid oni bu dra mawr y colledion, a'r un peth mewn llawer man arall, a'r un amser y bu llanw aruthrawl ym Mor Hafren oni thorres argaeau, ac y collwyd llawer o'r ynysdir ar hyd lan y mor ym Morganwg, a Gwent, a Gwlad yr Haf, a dirfawr y colledau o hynny.

Yr un flwyddyn y doded Rhodri

Molwynawc yn Frenin ar y Brytaniaid, a rhyfel mawr a fu ryngthaw ef a'r Saeson lle trechasant y Bryttaniaid mewn dwy Gadfaes yn anrhydeddus. Yr un flwyddyn y bu Gad Garthmaelawg, ac un arall yng Ngwynedd, a Chad Pencoed ym Morganwg lle y gorfu 'r Bryttaniaid ymbob un 'r tair.

Yr un flywddyn y bu farw Beli ab Elphin, ac y torres y Saeson di gred lawer o Eglwysydd Llandaf, a Mynyw, a Llanbadarn, ac y lladdasant Aidan Escob Llandaf a llawer o ddoethion ei Blwyf.

Oed Crist 728, y bu Cad Mynydd Carno yng Ngwent lle y gorfu 'r Bryttaniaid gwedi colled dirfawr ar wŷr, ac y gyrrwyd y Saeson drwy Afon Wysg, lle y boddasant laweroed o honynt, achaws llif oedd yn yr Afon.

Oed Crist 733, Bu Cad Ddefawdan lle gwedi ymladd hir a thra chreulawn y gorfu 'r Saeson ar y Bryttaniaid.

Oed Crist 735, y bu waith Henffordd, lle gwedi ymladd tost a chreulawn y gorfu 'r Cymry ar y Saeson.

Oed Crist 750, y bu farw Tewdwr ab Beli, a Rhodri Molwynawc gwedi gwladychu deng mlynedd ar hugain yn glodfawr am gyfiawnder a gwroldeb, ac ai claddwyd yng Nghaerllion ar Wysg, a diweddaf o Eppil Brenhinoedd ynys Prydain a gladdwyd yno oedd efe.—Yn yr un flwyddyn y bu waith Mygedawc lle y gorfu 'r Bryttaniaid ar y Gwyddyl Ffichti gwedi ymladd creulawn.

Oed Crist 754, y gwnaethpwyd Cynan Tindaethwy yn Frenhin ar Gymru oll o fodd yr holl Frenhinoedd a'r Arglwyddi. Yn yr ail flwyddyn y bu ail waith Henffordd lle y gorfu 'r Cymry, ac yno y llas Cyfelach Escob Morganwg.

Oed Crist 755, y symudwyd y Pasg yng Ngwynedd o gyngor Elfod Escob Bangor, ond nis caid hynny gan yr Escobion eraill, ac achaws hynny y daethant y Saeson ar y Cymry yn Neheubarth, lle bu Cad Coed Marchan, a gorfüwyd ar y Saeson yn anrhydeddus.

Oed Crist 757, y bu drydedd waith Henffordd lle y Gorfu Gwyr Deheubarth ar y Saeson, ac y llas Dyfnwal ab Tewdwr y rhyfelwr glewaf o du 'r Cymry, wedi iddaw wneuthur yn orchestawl o neb yn y Gad honno.

Oed Crist 765, y diffeithiwyd Tiroedd y Mers gan y Cymry ac y gorfuant ar y Saeson, ac ai hyspeiliasant yn ddirfawr, achaws hynny y gwnaeth Offa Brenin y Mers y clawdd mawr a elwir Clawdd Offa yn derfynfa rhwng Gwlad Gymru ar Mers, fal y mae fyth yn parhau.

Oed Crist 776, y codes Gwyr Gwent a Morganwg ac a aethant am benn y Mers, ac y torrasant Glawdd Offa yn gydwasted a'r ddaear, a gwedi hynny dychwelyd ag yspail fawr.

Oed Crist 777, y symudwyd y pasc yn Neheubarth, ac y bu farw Ferinol fab Eidwar, ac achaws hynny y bu ryfel teisban rwng y Deheuwyr au Brenin a dinistraw mawr arnynt ganthaw, oni orfu arnynt ladd y Brenin am hynny yn amser Hâf, am hynny y gelwir yr haf hwnnw yr haf gwaedlyd, ac ni rodded fyth wedi hynny i Frenin y Deheuwyr ei air yn air ar y wlâd.

Oed Crist 784, y diffeithiwyd y Mers gan y Cymry, ac Offa a wnaeth glawdd yr ail waith yn nes attaw, a gadael lle Gwlad rwng Gwy a Hafren lle mae Llwyth Elystan Glodrydd lle ydd aethant yn un o bum Brenhinllwyth Cymry.

Oed Crist 795 y daeth y Paganiaid duon gyntaf i ynys Prydain o Wlad Denmarc, ac a wnaethant ddrygau mawr yn Lloegr, wedi hynny daethant i Forganwg, ac yno lladd a llosgi llawer, ond o'r diwedd gorfu 'r Cymry arnynt au gyrru i'r mor gwedi lladd llawer iawn o honynt, ac yna myned i'r Werddon lle y diffeithiasant Rechreyn a lleoed eraill.

Yr ail flwyddyn y bu gwaith Rhuddlan lle y lladdwyd Meredydd Brenin Dyfed, a Charadawc ab Gwyn ab Collwyn Brenin Gwynedd.

Oed Crist 804, y bu farw Arthen Brenin Ceredigiawn, a Rhydderch Brenin Dyfed, a Chadell Brenin Teyrnllwg, a elwir yr awr honn Powys.

Oed Crist 809, y bu farw Elford Archescob Gwynedd, ac y bu diffyg ar yr haul, ac y bu Terfysg mawr ym mhlith y Gwyr Eglwysig achaws y Pasc, canys ni fynnai Escobion Llandaf a mynyw ymroddi dan Archescob Gwynedd lle yr oeddynt eu hunain yn Archescobion hŷn o Fraint.

Oed Crist 810, duawdd y lleuad ddyw nadolic ac y llosges y Saeson Mynyw, ac y llosged Tegauwy gan dan llychaid gwylltion, ac y bu farwolaeth ddirfawr ar yr anifeiliaid hyd holl ynys Prydain ac y tlododd Brenhiniaeth Vôn a Brenhiniaeth Dyfed oblegyd Rhyfel a fu rwng Hywel Fychan a Chynan ei frawd, o gorfu Hywel ynys Fôn

Oed Crist 814, bu Taranau a lluched ofnadwy dros benn yn torri a llosgi Tai a

choedydd yn aruthr, ac y bu farw Gruffydd ab Cynan achaws Brad Elisse ei frawd.

Yr un flwyddyn y bu ryfel yr ail waith rhwng Hywel a'i frawd Cynan, ac a laddes lawer o'i wyr ef, ac yna Cynan a gynhulles attaw Gad niferawg dros benn, ac am benn ei frawd Hywel y rhuthres, ai yrru o Fôn hyd ym Manaw. Ymhen ychydic wedy hynny bu farw Cynan Tindaethwy Brenin Cymry oll. A merch oedd etifeddes iddaw a briodes a Gwr Pendefig ai enw Merfyn Frych; ei Fam ef Nest ferch Cadell Deyrnllwg fab Brochwel Ysgithrawc.

Oed Crist 815, y llas Griffri ab Cyngen ab Cadell Deyrnllwg.

Oed Crist 818, y dechreues Merfyn Frych ac Essyllt ei wraig wladych Gwynedd a Phowys, a'i flwyddyn honno y bu waith Llanfaes ym Môn.

Oed Crist 819, y drygwyd Dyfed yn ddirfawr gan Genwlff Brenin Mers.

Oed Crist 823, y diffeithwyd Gwlad Bowys gan y Saeson, gan ddwyn y meibion bychain i gyd oddiar eu mammau a'u meithrin yn Saeson, canys arferid hynny gan y Saeson, a'r un flwyddyn y llosgasant Deganwy.

Oed Crist 829, y dug Egbert Brenin Caerwynt y danaw Bernwlff Brenin y Mers drwy ymladd drydlew, ac yn ebrwydd gwedi hynny y dug efe y danaw y saith Brenhiniaeth Seisnig, a galw Gwlad Loegr yn Inglont, a galw'r laith Ingles.

Oed Crist 830, y bu diffyg ar y lleuad yr wythfed dydd o Fis Rhagfyrr, a'r un diwarnod y bu farw Morydd ab Llywarch Llwyd Brenin Ceredigion.

Oed Crist 831, y daeth Saeson y Mers ar hyd nos yn ddiarwybod, ac a losgasant Fonachdy Senghenydd, ydd oedd hwnnw yn y man y mae y Castell yn awr, ac oddi yno y daethant hyd yng Nghastell Treoda ac ai llosgasant: a dianc oddiyno dros For Hafren a llawer ganddynt yn lledrad, lle ydd oedd llw cyngrair y pryd hynny rwng Gwyr Morganwg a Gwent a Saeson y Mers.

Oed Crist 833, y daeth y Paganiaid o Ddenmarc i Loegr, ac a ddiffeithiasant lawer o fannau yn yr ynys, ac yn mhen tair blynedd myned i Gymru, ac yn un a'r Cymry ymosod ar y Saeson lle y gorfu'r Saeson arnynt.

Oed Crist 835, bu farw Cadwallon, yr oed efe n wr pendefig mawr ei barch a'i ddoethineb.

Oed Crist 838, Gwaith Cyfeiliawc lle bu ymladd tra thost rhwng y Cymry a Berthwryd Brenin Mers; ac yno y lladd wyd Merfyn Frych Brenin y Bryttaniaid: ac yn amser Merfyn y gorfu ar y Bryttaniaid ac oedd yn Lloegr yn byw ymroddi yn Saeson neu adael eu Gwlad a'u cartrefoedd ym mhen tri Mis. Yr un flwyddyn y bu waith Fferyllwg rwng Gwy a Hafren lle bu law ucha'r Cymry.

Oed Crist 840, y bu farw Escob Mynyw, ac y bu ail waith Fferyllwg lle lladdwyd llawer o bob tu, fal nas gellid barnu'r llaw uchaf nac i'r un na'r llall o honynt.

Oed Crist 843, Rhodri Mawr ab Merfyn Frych a ddechreuwys wladychu ar y Cymry a gorfod ymddifadu ar Bryttaniaid ac oeddynt yn byw yn Lloegr, a myned yn un a'r Saeson a wnaethant hwy. A rhyfel mynych a mawr a fu rwng Rhodri a Berthwryd Brenin Mers. Yr hwnn Ferthwryd a fynnwys gynhorthwy gan Ithelwlf ei frawd ac a ddaeth a llu dirfawr i Fôn gan ddiffeithiaw Gwlad y ffordd y cerddynt, fal y gwnai'r Paganiaid di grêd a bedydd. Myned a wnaeth Rhodri yn eu herbyn a llu dewisawl o'r Cymry gydag ef; ac yn gynhorthwy iddaw y daeth Meuryg ab Hywel Brenin Morganwg a Llu cadarn, a'r Meuryg hwnnw a laddwyd yn y frwydr honno, eithr gyrru ffo ar y Saeson yn y diwedd, gwedi ymladd tost a chreulawn. Ac yna gwnaethpwyd Ithel ab Hywel yn Frenin ar Forganwg a Gwent yn lle ei frawd, ac efe yn myned a Llu cadarn gydag ef i Wynedd yng nghyfnerth Rhodri y gosodasant gwyr Brecheiniawc arnaw ac ai lladdasant yn iawn i Ferthrwyd am fil o wartheg yspail a gawsant ganthaw am hynny o alanas, ac o hynny y dechreuwys y ddiarheb Bradwyr Brycheiniawc.

Oed Crist 850, y bu Gwaith Ffinant ac y llas Cyngen ab Cadell Deyrnllwg yn Rhufain gan ei wyr ei hun.

Oed Crist 860, bu Cad Wythen lle lladded llawer o Gymry a Saeson fal nas galled y llaw uchaf nac i'r naill na'r llall o honynt, a'r un flwyddyn y daeth y Paganiaid duon i Dir Gwyr ac a'u gyrrwyd ymaith gyda galanasdra mawr.

Oed Crist 865, y lladded Cynan nawdd nifer, y dewraf a'r ardderchoccaf yn ei ddydd o Ryfelwyr Cymru.

Oed Crist 868, y bu gwaith Brynnonnen, ac y daeth y Paganiaid duon lawer gwaith yn yr un flwyddyn i Gymru a Lloegr, a chael y gwaethaf ym mhob Gossawd.

Oed Crist 870, y torres y Paganiaid duon Gaer Alclud, ac a ddifethasant Lundain a Gwlad y Mers o'i bronn.

Yr un flwyddyn y bu waith Llangollen a lladdfa fawr yno.

Yn yr un flwyddyn y boddes Gwgan ab Morydd ab Llywarch Llwyd Brenin Ceredigion yn morio dros afon Llychwr yng Ngwyr er gyrru'r Paganiaid duon o'r Wlad honno.

Yn yr un flwyddyn y bu waith Bangor lle y lladdwyd y Saeson wrth y niferoedd a cherrig a dreiglwyd arnynt oddi ar y Brynniau, ac ym mhlith y rhai hynny Escob Bangor.

Oed Crist 871, bu farw Einion Fonheddig Escob Mynyw, ac o gwnaethpwyd Hubert Sais yn escob yn ei le ef.

Oed Crist 872. y bu Waith Bangolau ym Môn, lle gorfu Rhodri a'r Cymry ar y Paganiaid duon mewn Brwydr galed: a gwedi hynny yr un flwyddyn Gwaith Manegid ym Mon, lle difethwyd y Paganiaid duon.

Oed Crist 873, y bu Waith Dyw Sul ym Môn, ac yn honno y llas Rhodri mawr, a Gwriad ei frawd, a Gweirydd mab Owain Morganwg, gan y Saeson; ac yna yn eu llawn angerdd y cymmerth Gwragedd Môn arfau ac a ruthrasant ar y Saeson au lladd yn greulawn oni orfu arnynt ffo.—Yr un flwyddyn y bu Waith Rhiw Saeson ym Morganwg, lle y gorfu'r Cymry ar y Saeson, au lladd yn aruthrawl.

Rhodri Mawr a ddodes drefn newydd ar Lywodraeth Cymry hyd y cerddai ei fraint ef, nid amgen Ceredigion a Chadell ei fab hynaf a'i cafas, ac iddaw ei Lys yn Ninefwr, Gwynedd a ddodes ef i Anarawd ei Fab, ac iddaw ei Lys yn Aberffraw ym Môn, Powys a roddes ef i Ferfyn ei Fab, ac iddaw ei Lys ym Mathrafal, ac ar yr hynaf o honynt Deyrnged i Frenin Llundain, ac i'r hynaf Deyrnged gan y ddau eraill, a'r Tri Thywysawg Taleithiawg eu gelwid am iddynt yn anad fu o'u blaen hwynt wisgaw Taleithiau am eu coronau fal y gwnelai Frenhinoedd yng Ngwledydd eraill, lle cyn no hynny ni wysgynt Frenhinoedd a Thywysogion Cenedl y Cymry namyn hualeu euraid. Ac i'r hynaf o'r Tywysogion Taleithiawc y dodes Rodri'r Unbennaeth, ac arch a gorchymyn arnynt ymddiffyn Gwlad a Chenedl y Cymry rag rhuthr gelynion, a rhag anllywodraeth.

Oed Crist 876, ydd aeth Gadell ab Rhodri mawr yn Frenin Ceredigiawn, ac Anarawd ab Rhodri yn Frenin Gwynedd, a Merfyn ab Rhodri yn Frenin Powys.

Oed Crist 877, y gorfu Gadell ab Rhodri ar Ferfyn ei frawd, a dwyn oddiarnaw ei wlad sef Powys, ac yna efe a wladyches holl Gymry.

Oed Crist 880, y bu waith Conwy rhwng Anarawd ab Rhodri a'r Saeson, lle cafas y Cymry 'r fuddugoliaeth, a lladd llawer o'r Saeson, ac achaws hynny y gelwid y Gadfaes honno Dial Rhodri.

Oed Crist 883, bu farw Cydwithen y gwrolaf a'r doethaf o'r Bryttaniaid, a dirfawr y golled i Wlad Gymru; a'r un flwyddyn y bu farw Cydifor Abad Llanfeithin, gwr doeth a dysgedig oedd efe a mawr ei dduiwoldeb. Efe a ddanfones chwech o wyr doethion ei gor i ddodi addysc i Wyddelod y Werddon.

Oed Crist 890, y gorfu ar wyr Ystrad Clud ymadael a'u Gwlad, y rhai ni fynnent ymunaw a'r Saeson, a dyfod i Wynedd, ac Anarawd a roddes iddynt gennad i wladychu 'r wlad a ddyged oddiarnaw gan y Saeson ni amgen na Maelawr, a Dyffryn Clwyd, a Rhyfoniawg, a Thegeingl, os gyrru ymaith y Saeson a fedrynt, a hynny a wnaethant yn ddihafarch, a'r Saeson a ddaethant yr ail waith achaws hynny yn erbyn Anarawd lle bu waith Cymryd, ac y bu'r Cymry yn fuddugolgyrch ar y Saeson, au gyrru o'r Wlad yn ollawl, ac felly y rhyddhaed Gwynedd oddi wrth y Saeson drwy Nerth Gwyr y Gogledd.

Oed Crist 891, y daeth y Paganiaid duon i Gastell Baldwin, ac a ddiffeithiasant Bowys, ac a feddianasant y goreu o'r tiroedd yno drwy nerth y Saeson a Brad rhai o'r Cymry.—Y flwyddyn honno y bu farw Henydd ab Bledri, gwr hynod o Gymro.

Oed Crist 892, y daeth Narawd Brenin Gwynedd i ddiffeithiaw Ceredigiawn, sef cyfoeth Cadell ei Frawd, ac a losges yr holl dai a'r ydau yn Nyfed ac Ystrad Tywi yn greulawn iawn. Yr un flwyddyn y llas Merfyn Brenin Powys gan ei wyr ei hun. Yr yn flwyddyn y rhuthrasant y Paganiaid duon am ben Caer Wysg ac aladdasant y Saeson: a llawer o'r Bryttaniaid a oeddent yn gwladychu yno a ddaethant at Owain Arglwydd Morganwg, ac a gawsant diroedd a thrigfannau ganthaw, lle arosasant hwy a'u heppil. Ac yng Ngwyr y maent yn Seisnigion.

Oed Crist 893, daeth y Paganiaid duon i Gymru dros For Hafren ac a losgasant Lanelltyd Fawr, a Chynffig, a Llangarfan, ac a wnaethant ddrygau mawrion ym Morganwg, a Gwent, a Brecheiniawc, a Buellt, ac ar ei gwaith yn dychwelyd yng Ngwaunllwg, a nhwy yn anrheithiaw Caerllion ar Wysg y daeth Morgan Tywysawg Morganwg a Chad yn eu herbyn, au gyrru tros Fôr i Wlad yr Haf lle y lladdwyd llawer o honynt gan y Saeson a Bryttaniaid y Wlad honno: a'r haf y flwyddyn

honno y gwelwyd pryfed o rywiau dieithr-on yn y Werddon ar wedd Gwaddod a dau ddaint hirion i bob un o naddynt, a bwyt-ta'r holl ydoedd a wnaethant, a'r holl Bor-dir, a gwraidd pob Gwellt a gwair onid aeth newyn ar y wlad, a'r Paganiaid au dng yno fal y tybid. ac a fynnent eu dwyn hefyd i ynys Prydain. Ond gwedi dodi Gweddiau, at Dduw ac Elusenau i Dylod-ion, a Theilyngdawd ar fuchedd, fe ddan-fones Duw Rew cadarn, a hithau eisioes hyn hâf, oni buant feirw y pryfed hynny.

Oed Crist 894, y bu farw Hywel ab Rhys ab Arthfael Arglwydd Morganwg yn ei lawn henaint yn Rhufain ym mhen tridiau wedi ei fyned yno, sef ei oed chwe-ugeinmlwydd a phedair.

Oed Crist 895, y bu farw Arthfael hen, ab Rhys Arglwydd Morganwg a Brenin ar h Gantref Gwent, yn chweugeinmlwydd d, ei wraig ef oedd Ceinwen ferch Arthen Brenin Ceredigion, a gwedi myned yn hen ni fynnei efe a wnelai a Theyrnedd, am hynny rhoddi'r frenhiniaeth i Hywel ei frawd.

Oed Crist 900, y daeth Igmwnt ai Ba-ganiaid duon i Fôn, ac yna gwaith Rhos Meilon.—Yn y flwyddyn honno y sym-mudwyd Mynyw, ac y bu farw Llywarch ab Henydd. Yr un flwyddyn y bu farw Cadell ab Rhodri mawr, ac y gwnaethpwyd Hywel ei fab yn Frenin Ceredigion, deu fab arall oedd iddaw sef Meyryg a Chlyd-awc. Ac yna gwladychawdd Anarawd ar holl Gymru, yn ol y gosodes Rodri Mawr.

Oed Crist 906, y bu farw Asser ddoeth archesgob y Bryttaniaid, ac y daeth Elys-tan Brenin y Saeson i Gymru, ac a ddug danaw holl Frenhinoedd y Cymry. A'r flwyddyn honno y bu waith Dinerth, a hefyd yr un flwyddyn y diffeithwyd Mynyw gan Uthyr a Rhallt goch, ac y llas Maelawg ab Peredur Gam.

Oed Crist 913, y bu farw Narawd ab Rhodri Mawr Brenin y Bryttaniaid, ac yna Hywel ab Cadell a wladyches holl Gymru, ac Eidwal Foel yn Frenin Aber-ffraw, ab Narawd ab Rhodri Mawr.

Oed Crist 914, y llas Clydawc ab Cadell gan Feuryg ei frawd, ac y diffeithwyd Mon gan wyr y Werddon, a chyn diwedd yr Haf y cad rhyfel cydgenedl achaws i Feuryg ab Cadell ladd ei Frawd Hywel.

Oed Crist 918, y daeth Edelffleda Bren-hines y Mers yn erbyn Morgan Tywysawg Morganwg a Gwent, ac y bu waith y Cas-tell Newydd lle y bu farw Edelffleda ac y ffoes y Saeson.

Oed Crist 926 aeth Hywel Dda fab Cadell Brenin Cymry oll i Rufain, a chyd-ag ef dri escob, sef oeddynt Martin Escob Mynyw, a Mordaf Escob Bangor, a March-lwys Escob Teilaw, a chyda hwnnw Bly-gwryd ab Owain Pencyfeistedd Llandaf, Brawd Morgan Brenin Morgânwg, a'r achaws eu myned yno, ymgynghori a Doethion y modd y gwellhëid Cyfreithiau Gwlad Gymru, a gwybod Cyfreithiau Gwledydd a Dinasoedd eraill, a'r Cyfreith-iau a fuant gan Amherodron Rhufain yn ynys Prydain yn amser eu hunbennaeth hwy, a gwedi caffael gwybodaeth o'r pethau hynny, a chyngor Doethion, dychwelyd i Gymru, lle y galwes Hywel attaw holl Bencenedloedd Gwlad au Teisbanteulaoedd, a phob Doethion a Dysgedigion o wyr Llên a Llëygion yn Ddygynnull Gorsedd hyd y Ty Gwynn ar Daf yn Nyfed. A gwedi chwiliaw a gaffad o bob Gwlad a Dinas y caed yn oreuon o'r cyfan Cyfreith-iau Dyfnwal Moelmud, a thrwy ddysg ac athrawiaethgar ymgais Blegywryd Athraw y trefnwyd y rhai hynny, ac au doded wrth Farn y Dygynnull oni chaed, gan-nynt eglurhâd, a gwellhâd, ac adlanwad ar y rhai hynny, a gwedi myned wrth Farn a Rhaith Gwlad yn y Dygynnull y cadarn-haed y cyfreithiau ac au rhodded yn ddeddf-edigawl ar holl wlad Gymru, a gwedi hynny myned i Rufain yr ail waith o Hywel, a chael Barn Doethion yno, a gwybod bod y cyfreithiau hynny yn gyd-gerddedogion a Chyfraith Duw ac a chyf-reithiau Gwledydd a Dinasoedd Tiroedd Cred a Bedydd, y daeth yn ei ol i Gymru, ac y dodes ei gyfreithiau wrth farn y Can-trefi, a'r Cymmydau, a Rhaith Gwlad, ac o hynny ydd aethant yn gadarn yn holl Arglwyddiaethau Cymru, ac ym mhob Llys Arglwydd a Chenedl hyd nad oedd a gaeai yn eu herbyn, ag nad oeddent o arall yn un Llys Gwlad ac Arglwydd yng Nghy-mru, ac achaws daed ei gyfreithiau y gel wir ef Hywel Dda.

Oed Crist 933, y llas Owain fab Gruff-ydd gan wyr Ceredigion, ac y dug Elystau Brenin y Saeson holl Arglwyddi a Brenin-oedd Cymru y danaw, ac felly y bu hyd oni bu farw Elystan, a hynny yn oed Crist 940. Ac yna'r Cymry a ynnillasant eu rhyddid a hynny drwy wrolder a doethineb Eidwal Foel, ac Elisseu ei frawd, a Chadell ab Arthfael ab Hywel Arglwydd Morgan-wg, ac Idwal fab Rhodri mawr, ac achaws hynny hwy a laddwyd gan y Saeson ym Murn a Chynllwyn.

Oed Crist 942, bu farw Ussa fab Llawr, a Lambert Escob Mynyw.

Oed Crist 943, y bu farw Marchlwys Escob Llandaf, ac y bu cynddaredd ar y cwn oni orfu lladd y maint ac oedd yn y wlad, ac y bu farw Elen gwraig Hywel Dda, yr un flwyddyn, ac Eidwal Foel ab Narawd wedi marw, y cymmerth Hywel Lywodraeth holl Gymry arnaw.

Y flwyddyn honno y daeth y Saeson hyd yn Ystrad Llyr ac a wnaethant yno y mawr ddrygau, gan ysbeiliaw a diffeithiaw'r Wlad y ffordd y cerddynt.

Yr un flwyddyn y diffeithiwyd Ystrad Clud gan y Saeson gan ladd yn dost a gaent, yn eu ffyrdd o'r Bryttaniaid a berthynai yddynt; a'r un flwyddyn y peryglwyd Cynan ab Elisseu a Gwenwyn a roesid iddaw.

Oed Crist 948, y bu farw Hywel Dda fab Cadell Brenin Cymry oll, y doethaf o'r cyfiawnaf o'r holl Dywysogion: efe a garai heddwch a Chyfiawnder ac a ofnai Dduw, ac a lywodraethai yn gydwybodus ymhob iawnder tangnefus, ac efe a gerid yn fawr gan bawb o'r Cymry, a chan lawer o Ddoethion y Saeson a gwledydd ereill, ac achaws hynny y gelwid ef Hywel Dda. Ac yna y cymmerth Owain ei fab Lywodraeth Ceredigiawn.

Oed Crist 949, y llas Cadwgawn ab Owain gan y Saeson, ac y bu waith Carno rhwng meibion Eidwal Foel a meibion Owain ab Hywel Dda, a meibion Eidwal a ddiffeithiasant Ddyfed yn filain a thost.

Oed Crist 950, y daeth meibion Eidwal yr ail waith i Ddyfed ac ai hanrheithiasant ac a laddasant Dynwallawn Brenin Dyfed, ac Owain Tywysawg Ceredigiawn a gynhulles gad yn eu herbyn, ac au hymlidies hwynt yn eu hol i Wynedd mor galed oni foddes lawer o honynt yn Afon Dyfi.

Oed Crist 952, y dug Owain ab Hywel Dda Gad hyd yng Ngwynedd, ac yno y bu waith Aberconwy, a lladdfa fawr iawn o oob tu, oni orfu ar bawb droi yn eu hol o'r ddau du, rhag a'u gwanhäed y ddwyblaid yn y frwydr honno.

Oed Crist 953, y boddes Haearnddur fab Merfyn ac y difieithies meibion Eidwal Geredigion, a meibion Hywel Dda a'u gyrrwys yn eu hol gan eu lladd yn dost.

Oed Crist 955, y bu Eira dirfawr ym Mis Mawrth, a llifeiriant aruthrawl oni thorres lawer o'r Tai ac y boddes lawer o ddynion ac ysgrublaid yng Ngwent, a Gwenllwg, a Morganwg, a lleoedd eraill, ac ar ol hynny bu trathesog yr hâf, ac y bu llawnder ydau a phrinder Aswellt, oni orfu ar lawer gloddio gwreiddiau Gwellt a Rhedyn yn ymborth i'r gwartheg a'r Ceffylau, ac y cafwyd gwair wedi hynny ar y tîr yng Ngwyliau Nadolig yn ddirfawr ei gnwd ac yn iachus ei ansawdd, fal y gwaredwyd y diffyg a'r prinder o ryfeddolder mawr.

Oed Crist 958, y daeth Owain ab Hywel Dda yd yng Ngorwennydd ac ai diffeithwys yn dra milain, ac oddiyna hyd yn Euas ac Ergin gan ddwyn y gwledydd hynny o drais oddi ar Forgan Mawr Brenin Morganwg, a phan y gwybu Edgar Brenin y Saeson hynny, chwiliaw ansawdd yr amryson a orug, ac o hynny caffael Gwybodaeth a deall mai Iawn oedd i Forgan Mawr y gwledydd hynny can mai yng Nghyfoeth a Theyrnedd Morganwg ydd oeddynt er yn oes oesoedd, ac ym mhlwyf Teilaw Llan Dâf, ac arfaethu Dygynnull a wnaeth Edgar o'r Arglwyddi Cyfoeth, a'r Ieirll, a'r Escobion yng Ngwlad Gymru ar Mers, a gweled eu Barn, a phan wybuwyd hynny, cadarnhau Braint i Forgan ar y Gwledydd hynny dros fyth, a hynny ar Allawr Deilaw yn Llan Dâf, ai osod mewn ysgrifen, a melldith Duw a'r Saint ar a dorrai nawdd y Fraint a wnaed felly.

Oed Crist 959, y torres Owain ab Hywel Dda Gor Llan Illdud yng Ngorwenydd achaws cael ynddi Lenogion pendefig o Saeson, a myned oddi yno i Gor Cattwg yn Nant Garfan a orug, ai thorri yn filain.

Oed Crist 960, y llas meibion Gwyn ab Collwyn, ac y bu'r fall fawr ym mis mawrth, a hynny hyd Galan Mai a bu farw llawer iawn o Gymry a Saeson hyd yn y lladdwyd yr haint gan yr Haf a'r Tës.

Oed Crist 961, y daeth Meibion Abloic Brenin y Werddon i Gaer Gybi ac ai diffeithiasant yn gwbl, a dwyn arch Cybi y ganddynt i'r Werddon, lle bu ganmlynedd, ac oddi yno aethant i Wlad Leyn gan ei diffeithiaw yn drathost a hynny a fu o frad meibion Idwal a hwy'n trawswladychu ar y cyfoetheu yng Ngwynedd a Phowys.

Yr un flwyddyn y bu farw Padarn Escob Llan Daf, ac y doded Rhodri ab Morgan mawr yn ei Le, a hynny o anfodd y Pab, ae achaws hynny ai gwenwynwyd ef, a doded ar yr offeiriaid na phriodynt heb fyned yng nghennad y Pab, ac o hynny y bu Terfysc dirfawr ym mhlwyf Teilaw oni farnwyd yn oreu cennad priodas i'r offeiriaid.

Yr un flwyddyn bu farw Rhydderch Escob Dewi, a Chadwallawn ab Owain ab Hywel ab Cadell, ac y gwnaethpwyd Monachlog y Rhydau.

Oed Crist 962, y diffeithiwyd Gwynedd gan Edgar Brenin a Saeson, ac y dodes ef Gwŷr Denmarc yn ynys Fôn, lle y gwledychasant er gwaetha Gwyr y Wlad.

Yr un flwyddyn y daeth Edgar hyd yng Nghaerllion ar Wysg, ac y trefnwyd heddwch cadarn rhyngtho a Morgan Tywysawg Morganwg ac ammod i Forgan dalu canmuw gyflith i Edgar bob blwyddyn ac am hynny ymrwymaw i Edgar gyfnerthu Morgan ym Mraint Teyrnedd Morganwg, ac yno y daeth Owain ab Hywel Dda, ac ymrwymaw o honaw dalu ced i Edgar bob blwyddyn yn ol y doded ar Dywysawg Dinefwr yng Nghyfraith Hywel Dda, gwedi hynny myned i Wynedd a chael attaw Iago ab Idwal a gyrru arnaw yn lle Teyrnged a ddylit o hên ddeddf Trichanpen blaidd yn y flwyddyn, a rhydd lle mynnynt eu lladd yn holl ynys Prydain ac o hynny y cad heddwch yng Ngwynedd: a'r Deyrnged honno a dalwyd yng Ngwynedd dros bum mlynedd a deugain hyd nas gellid Blaidd yn holl ynys Prydain. Gwedi hynny y troes Brenin y Saeson y Deyrnged yn aur ac ariant a gwartheg fal y buasei gynt.

Oed Crist 966, y lladdwyd Rhodri ab Eidwal y gan Wyddelod Môn, ac achaws hynny y diffeithwys Iago ab Eidwal Aberffraw lle ydd oedd y Gwyddelod yn gwladychu ac ef ai lladdes hwynt yn eu holl anneddfäoedd ym Môn, ac nis gallasant fyth wedi hynny ymluyddu yn erbyn y Cymry, gwedi hynny myned hyd yn Arfon, a Lleyn, ac Ardudwy, a gyrru'r Gwyddelod, yn gwbl o'r Gwledydd hynny ac nis gallwyd Cenedl o honynt fyth wedi hynny yng Ngwynedd: a llawer o honynt a ffoasant hyd yng Ngheredigion, a Dyfed, a Gwyr, ac Einion ab Owain ab Hywel Dda a aeth yn eu herbyn, ac au gorchfygcs yn aruthrawl, ac a laddes Wyr Denmarc a ddaethant yng Nghyfnerth y Gwyddelod, ac a ddyges Ysbail fawr o'r Gwledydd yng nglann Morddwr Llychwr, ac yn niwedd yr un flwyddyn y daeth ef eilwaith hyd yng Ngwyr, ac y diffeithwys dai a thiroedd y rhai a roddasant nawdd a gwasgawd i'r Gwyddelod a'r Daeniaid anffyddlawn.

Oed Crist 967, y daeth Einion ab Owain eilwaith i Dir Gwyr dan rith ymlid yr anffyddloniaid, ac ai diffeithwys yn gwbl, ac yna y daeth Owain ab Morgan yn ei erbyn ac ai gyrres yn ffo, ac a ddug holl wyr Gwyr dan ddamdwng iddaw, fal ag ydoedd a hen iawn a braint a phan glybu Edgar Brenin y Saeson hynny, dyfod a Llynges hyd yng Nghaerllion ar Wysg a orug, a gyrru Llywodraeth ar Owain ab Hywel Dda, ai ddwyn yn wr damdwng iddaw, a gwedi hynny myned yn heddwch yn ei ol hyd yng Nghaer Odornant.

Yn yr un flwyddyn ydd ethyw cas dirfawr rhwng meibion Idwal, sef Iago ac Ieuau, ac yn ebrwydd wedi hyny y daliodd Iago ei frawd Ieuau ac ai dug yng Nghyrchar ac ai dallawdd a hëyrn llosg o dân, ac achaws hynny ydd aeth Hywel ab Ieuaf yn erbyn ei Ewythr Iago ac a ddiffeithiodd ei diroedd ac a ddug ysbail ddirfawr o iarnaw.

Oed Crist 968, ydd aeth Hywel ab Ieuaf yr ail waith yn erbyn Iago ei ewythr, a chydag ef lu dirfawr o Saeson, a diffeithiaw Lleyn a Môn, a dodi Saeson yn holl diroedd Iago, a chadarnhau y tiroedd hynny iddynt, a hanped gwaeth i ynys Fôn o hynny, can nas galled ei gwared fyth wedi hynny, ac achaws hynny y doded enw Anglisei ar ynys Fôn, sef hynny ynys y Saeson; a gyrru Iago ab Idwal ar ffo a wnaethpwyd, ac y cymmerth Hywel ab Ieuaf y Deyrnedd arnaw, achaws delli ei Dad, ac a ddaliodd Feuryg ei ewythr ac a dynnodd ei lygaid am ei waith yn dallu Ieuaf Tad Hywel.

Yr un flwyddyn y daeth Macht ab Harallt i ynys Fôn ac a ddiffeithwys Benmon lle ydoedd deccaf cyn no hynny yn holl ynys Fôn, ac ebrwydd wedi hynny y daeth Gotffrid ab Harallt yn erbyn ynys Môn ac ai diffeithes, ac Edgar a roddes gennad i wyr Gotffrid aros ym Môn yn gyfanneddawl ac ymunaw yno a gwyr Edwin a wnaethant yn un ormes, ac nid aethant fyth o honi, ac nis gellid fyth gwedi hynny gwared brad o'r ynys, ac Edgar yn gweled fal ydoedd dyfod a orug a llu dirfawr i Gaerllion Gawr, a myned yn erbyn gwyr Iago au lladd yn greulawn yn holl Gymru.

Oed Crist 972, y bu farw Edgar Brenin y Saeson, yr hwnn a wnaethai Fonachlog Bangor fawr, a llawer o Fonachlogydd eraill yng Nghymru a Lloegr, ac a wnaeth Iawn i Eglwyseu Cymru am a wnaethai efe iddynt o ddrwg yn ei Ieuenctid.

Oed Crist 975, ydd aeth Dunwallawn Brenin Ystrad Clud i Rufain lle y cymmerth Gorun, a'r un flwyddyn y bu farw Idwallawn fab Owain a Brawd Morgan Mawr Tywysawg Morganwg, gwr oedd efe a garai heddwch a Llywodraeth, ac yngneidiaeth gyfiawn, ac a beris adnewyddu trefn a llywodraeth gynnefodawl yn ei wlâd, a chystal ei ddeall a'i wybodau ai haelioni, fal y bu galar i bob Gwlad yng Nghymru ei farw

Oed Crist 976, y dug Einion fab Owain anraith yr ail waith ar Wlad Gwyr, ai hysbeiliaw ai diffeithiaw yn greulawn onid aeth newyn ar y wlad, ac Ithel ap Morgan Mawr a ddug Lu yn ei erbyn o'i wyr goreuon ai ymlid i ffo a wnaethant, a dwyn ei ysbail oddiarnaw, ai roddi'n rhaid y rhai a ysbeiliwyd ganthaw.

Oed Crist 978, ydd aeth Hywel ap Ieuan waith arall yn erbyn ymddifferyn Iago ei Ewythr, a chydag ef lu mawr o Saeson, ac anrheithiaw Lleyn a Clebynog fawr a wnaethant, a thorri yr Eglwysi yn aruthr, a dilygeidiaw llawer o gymmhleidyddion Iago, a difeithiaw yn greulawn.

Yr un flwyddyn y dalwyd Iago gan wyr Hywel ei nai, a Hywel a wladychwys ei gyfoetheu; a gwedi hynny y lladdwyd Idwal Fychan ab Idwal Foel, a diffeithiaw Lleyn ac ynys Fôn, a Chystenyn ab Iago ab Idwal a ddaeth i Fôn, a chydag ef lu o'r Daeniaid duon, a chydag ef y codasant y Saeson a'r Daeniaid a wledychynt yr ynys a diffeithiaw'r wlad honno yn dost aruthrawl, a Gotffrid ab Harallt a Chystenyn a aethant oddiyno hyd yn Lleyn, a diffeithiaw'r wlad honno hefyd yn yr un modd, ac yn eu herbyn y daeth Hywel ab Ieuaf, a chad dost a fu ryngddynt, ac yno y llas Cystenyn ddu yng Ngwaith Hirbarth.

Oed Crist 980, y daeth Hywel ab Ieuaf a Llu mawr o'r Saeson gydag ef i gyfoetheu Einion ab Owain ab Hywel Dda, ac y bu ymladd tost ryngthynt ym Mrwydr Llanwenawc, a Gotffrid ab Aarallt yn gweled hynny a ddaeth ai Lu hyd yn Nyfed ac ai difeithiasant, ac a dorrasant Eglwys Ddewi Mynyw.

Oed Crist 981, y daeth Hywel ab Ieuan ai Lu, a chydag ef Lu mawr o Saeson i Frecheiniawc, a holl gyfoeth Einion ab Owain, ac a ddifeithiasant y Wlad yn greulawn, ac yn eu herbyn y daeth Einion, ab Owain a gwyr Dyfed ac a laddasant y Saeson a lladdfa dost; ac eraill o honynt a ffoasant, ac yn eu ffo y lladdwyd llawer llawer o honynt.

Oed Crist 892, ydd aeth Einion ab Owain ab Hywel Dda hyd yng Ngorwennydd ac y bu waith Pencoed Colwynn, lle y gyrrwyd ffo ar Einion ai wyr hyd yng Nglan y Mor, lle bu Cad yn eu herbyn gan Wŷr Morganwg a Gwent, ac yn honno y llas Einion ab Owain, ac yna ydd aeth y Deyrnedd ar Faredydd ab Owain ab Hywel Dda.

Oed Crist 984, ydd aeth Hywel ab Ieuan i Loegr yn erbyn y Saeson a fuant yn ymladd ym mhlaid Iago ei Ewythr, ac yna y llas ef a llawer iawn oi wŷr; ac yna y cymmerth Gadwallawn ab Ieuau arnaw Lywodraeth holl Wynedd, ac yn ei erbyn y daeth y Saeson a'r Gwyr Duon, ac yn eu penn Ionafal ab Meuryg ei gefnder, ac yno y llas Ionafal.

Oed Crist 985, y dug Maredydd ab Owein ab Hywel Dda Gad fawr ganddaw i Wynedd, a brwydr a fu yno ryngtho a Chadwallawn ab Ieuan ai Frawd Meuryg, ac yno y llas Gadwallawn, ac y dug Faredydd Wlad Wynedd danaw ac a lywodraethawdd arni, ac a ddodes Lywodraeth ar Fôn, ac Arfon, a Meirionydd, lle nid oed Llywodraeth ddyledus wedi bod er yn hir o amser.

Yn yr un flwyddyn y dug Bleidyddion Ieuaf ab Idwal Gotffrid ab Harallt y drydy waith i Fôn, a chydag ef y gosodasant y Cymry a'r Daeniaid ar Lywarch ab Owain, Brawd y Tywysawg Maredydd, ac ai daliasant a dwy fil o'i wyr, ac a dynnasant eu llygaid o'u pennau; a'r flwyddyn honno y bu farw Ieuaf ab Idwal yng Ngharchar, lle y bu yn unig lawer blwyddyn wedi ei ddilygeidiaw, a gwedi hynny gorfu ar Faredydd ab Owain ffoi o Wynedd i Geredigiawn lle y bu mawr a thaer ei wroldeb yn amddiffyn ei gyfoeth yn erbyn cyrch y Daeniaid, a'r Saeson, a Gwyr Gwynedd.

Oed Crist 986, y bu farwolaeth fawr ar yr ysgrublaid yn holl Gymru, onid aeth Drudaniaeth mawr ar yr enllyn yn y Wlad: a'r un flwyddyn y llas gwyr Daenmarc gan y Saeson yn un noswaith oni chaed arnyn y llaw uchaf dros hir o amser wedi hynny, a'r flwyddyn honno daeth y Daeniaid duon i For Hafren mewn Llyngeseu, ac a ddaethant i Dir yng Nghernyw a Dyfnaint a Gwlad yr Haf, ac a diriasant yng Ngwyr ac yno llosci Cor Cennydd ac eraill o'r Eglwysau, ac ysbeiliaw gwŷr y Wlad.

Oed Crist 987, daeth y Daeniaid i foroedd Deheubarth, a dyfod i Dir yng Ngheredigion, a diffeithiaw Llanbadarn, a Llandydoch, a Llanrhystud, a gwedi hynny myned hyd ym Mynyw a diffeithiaw yr Eglwys a dwyn ei thlysau, ac wedi hynny myned ar hyd for Hafren hyd ym Morganwg a diffeithiaw Cor Illdud, a Chor Cattwg, a Chor Cyngar, a Llan Daf, ac eraill o'r Eglwysi goreu yn y Wlad, a hefyd llosgi ydau a lladd ysgrublaid onid aeth newyn angerddawl ar y Wlad, ac y bu farw llawer o ddynion achaws hynny.

Oed Crist 990, ydd aeth Maredydd ab Owain i Faeshyfaid a holl gyfoetheu Arglwyddi y Saeson rwng Gwy a Hafren, ag Edwin ab Einion a ddaeth attaw a chydag

ef ydd oedd Llu mawr o Saeson a Daeniaid, ac ymladd a Maredydd ai yrru ar ffo. Oet Crist 991, y daeth Edwin ab Einion ni wyr, ac yn borth iddaw Adelff Tywysawg o Sais a chydag ef Lu dirfawr, ac anrheithiasant holl diroedd Maredydd, sef Ceredigiawn, a Dyfed, a Mynyw, y Gwyr isaf, a Chedweli.

Yr un flwyddyn ac amser ydd oedd Maredydd yn anrheithiaw Cyfoeth Ithel ab Morgan Tywysawg Morganwg, ac yn heddychu rhwng Edwin a Maredydd a myned 'au holl nerthoedd ac anrheithiaw Gwlad Forgan yn aruthrawl, ac yna Hywel ab Morgan brawd Ithel a ddangoses ei ewyllys i wyr y wlad, ac y goflaenai efe hwynt lle bai onid dau a ddelai gydag ef, ac ar hynny ymgynnullasant bobl y wlad attaw yn wyr ac yn wragedd, ac yn feibion ac yn ferched, pob un ag arf a geffid wrth law, ac yn erbyn Maredydd ac Edwin a gyrru ffo arnynt a dwyn oddiarnynt eu hysbail, a lladd eu gwyr yn dost yng Ngwaith Cors Einion yng Ngwyr, lle y llas Gadwallawn fab Meredydd.

Oed Crist 993, bu newyn mawr yng Nghyfoeth Meredydd, a llawer o farw ar ddynion o haint y Saeson, sef yr haint chwyslyd.

Yr un flwyddyn y daeth y Daeniaid Duon i Ynys Fôn, ac a ddiffeithiasant yr holl ynys fal y mynnynt, canys nid oedd ar Wynedd yr amser hynny na Phenn na Pherchen, na Llys na Llywodraeth, na neb a safai yn mhlaid y wlad rhag estron ac anrhaith, am hynny y cymmerasant y Cymry attynt Idwal ab Meuryg, ac ai dodasant yn Dywysawg arnynt, ac y cawsant borth gan Ithel Tywysawg Morganwg, a gyrru ffo a lladdfa fawr ar y Daeniaid a wnaethant, ac Idwal a fu 'n Dywysawg clodfawr a chyfiawn, ac a wnaeth lywodraeth ar Wynedd, a threfn a weddai ar heddwch a rhyfel, canys ef a ddysged gan Hywel ab Morgan Mawr, ac efe yn Benn Doethion Cymry yn y Gwybodeu a ddylai Tywysawc eu deall au cynnal, tra fu efe ar ffo yn Llys Ithel Tywysawg Morganwg, ac yn nawdd Cor Llanfeithin yn Nant Garfan, a mynych y torred y Gor honno yn amcan ei ddal a'i ladd gan Einion ab Owain a Maredydd ab Owain, a chan y Daeniaid a'r Saeson.

Yn yr un flwyddyn y bu frwydr Llangwm, lle ydd amcanai Feredydd ab Owain adynnil Gwynedd, ac Idwal a orfu arnaw, ac yn y frwydr honno y llys Tewdwr ab Einion ab Owain ab Hywel Dda, nai mab brawd i Faredydd.

Oed Crist 994, y daeth Swaen ab Harallt a'r Daeniaid duon gydag ef i Wynedd lle y bu cad Penmynydd yn Môn, y lle y llas Idwal ab Meuryg Tywysawg Gwynedd. Ac y diffeithwyd Matharn gan y Saeson, ac hwy ai llosgasant.

Yr un flwyddyn y bu farw Maredydd ab Owain ac o hynny y cafwyd gwell byd am heddwch a llywodraeth yng Nghymru.

Yr un flwyddyn y bu farw Ithel Tywysawg Morganwg ac yr aeth Gwrgan ei fab yn ei le, a Thywysawg doeth heddychgar ydoeth efe, ond Iestyn ei fab a garai aflywodraeth, ac a fynnai ryfel ac anheddwch, ac yn y flwyddyn honno y priodes ef ferch Bleddyn ab Cynfyn Tywysawg Powys ai henw Denis, ac efe a gafas gan Wrgan ei Dad Gwmmwd Tref Essyllt, ac yno y gwnaeth ef Gastell, a dodi arnaw enw Denis Powys, ac a gymmerth attaw Aeddan ab Blegywryd ab Morgan Mawr, ac a fwriadasant Ryfel er ynnill Cyfoeth Maredydd ac ymbarottoi Gwyr at hynny, a danfon a wnaethant at y Daeniaid au gwahawdd i Geredigion, ac yno a daethant ac y llosgasant Arberth. Ar flwyddyn honno hefyd y priodes Llywelyn ab Seisyllt Arglwydd Maes Essyllt Yngharad ferch Meredydd ab Owain, ac efe yn wr ieuanc nid mwy nac oed pedwar blwydd ar ddeg.

Oed Crist 996, y daeth y Daeniaid i Ddyfed o gyngor a phorth Iestin fab Gwrgan, ac Aeddan ab Blegywryd, ac a losgasant Fynyw, ac a laddasant Forgeneu Escob Dewi.

Oed Crist 1000, y dug Aeddan ab Blegywryd Gad hyd yng Ngheredigiawn, ac ynnill Cyfoeth Maredydd a orug; herwydd nid oedd Llywelyn ab Seisyllt hyd yn hyn yn oed Gwr i gael Braint ar Gyfoeth Yngharad ei Wraig, a myned hyd yng Ngwynedd y mynnai Aeddan, ac yn ei erbyn ef y daeth Cynan ab Hywel, a bu Cad ar Faes ryngthynt lle gorfu Aeddan, ac o hynny ynnill Gwlad Wynedd ai Chyfoetheu. Gwedi ynnill o Aeddan holl Gymru o'r Mor beugilydd, efe a beris drefnu Llywodraeth a Chyfreithiau, ac adgyweiriaw Eglwysseu a Chorau a dorresid yn Rhyfel, a chan nad oedd iddaw fab efe a drefnwys yn etifedd iddaw Rydderch fab Iestin ab Gwrgan.

Oed Crist 1001, bu farw Morgan Mawr Tywysawg Morganwg yn ddirfawr ei oedran, nid amgen na chanmlwydd a naw mlwydd ar hugain, a gwedi gadael ei Fraint yn nwylaw ei feibion ai wyrion yn hir o flynyddau cyn ei farw achaws henaint ac anallu; efe a gladdwyd dan allawr

Deilaw yn Llan Daf, a chystal ei gariad yn ei wlad a chymmaint ei glod am Ddoethineb fal pan elai yn rhyfel nid oedd a arhosai gartref ac nad elai yn ei Lu nac o wr nac o fab a fedrai afael ar Arfau, eithr mwy a fynnai gynnal yn heddwch nac yn rhyfel ac eissoes ni chaid o wrol ei wrolach, ac efe a fu lwyddfawr ei orchwyl a doeth ei gynghyd a chyfiawn ei ymgais, a mawr ai carai Edgar Brenin y Saeson, achaws hynny rhai o'r Tywysogion eraill nis cerynt ef, lle nid oedd a wnai well erddynt, nac erddynt Genedl y Cymry, a chymmaint addwynder ei Lys yn ail i Lys Arthur onid aeth hynny ar ddiarhebion gwlad a chenhedl, ac y dywedir Mwynder Morganwg, ac Addwynder Morganwg.

Oed Crist 1015, a Llywelyn ab Seisyllt yn ei lawn oedran, efe a feddylies ynnill Cyfoeth Dinefwr a ddylyssid o Fraint iddaw ef oi wraig, canys iawn iddi oedd Cyfoeth ei Thad Meredydd ab Owain, ac Aeddan a ddodai hawl ei fod yn etifeddu o hen Frenhinoedd Cymru nid amgen na Bran ab Llur Llediaith ai Welygordd, a rhoddi Cad ar Faes a wnaeth Llywelyn ab Seisyllt, ac yn honno y llas Aeddan ab Blegywryd ai bedwar Nai, ac yna cymmerth Lywelyn ab Seisyllt y Lywodraeth arnaw, ac efe a gerai heddwch a chyfiawnder, ac yn ei amser ef y bu Gwlad Gymru dros ddeuddeg mlynedd yn ddiryfel, ac ydd aethant y Cymry yn gyfoethawg, dros benn a fu arnynt er yn hir o amser ac oesoedd, a gwedi hir Lwyddiant.

Oed Crist 1020, y bwriadawdd Meuryg ab Arthfael ab Blegywryd adynnill Teyrnedd Cymru oddi ar y Tywysawg Llywelyn ab Seisyllt, a rhoi Cad ar Faes, a gorfu Llywelyn, gan ladd Meuryg ab Arthfael ai gledd ei hûnan.

Oed Crist 1020, ydd ymddangoses Crwydriad o Ddyn Ysgottyn, a alwai ei hun ar Enw Rhun i wyr Deheubarth gan ddywedyd mai mab Maredydd ab Owain ab Hywel Dda ydoedd ef, a rhai ni cherynt Lywelyn ai dodasant yn Dywysawg arnynt, a dodi Cad ar faes a wnaethant, a myned yn ei erbyn a wnaeth Lywelyn, a bu brwydr yn Abergwili, lle gwedi lladdfa drom a dirwaedlyd o bob tu y lladdwyd Rhun. Yna myned i Wynedd a wnaeth Llywelyn, a gosod yn iawn yno, a haeddu cariad ei wlad ai Genedl yn ddirfawr, gwedi hynny daeth i Ddeheubarth lle ydd oedd mawr ei Gariad.

Oed Crist 1021, daeth Eulaff i ynys Prydain gan ddrygu ffordd y cerddai, a dyfod hyd ym Mynyw, a thorri 'r Eglwys a diffeithiaw Dyfed yn greulawn, a Hywel ab Seisyllt, brawd Llywelyn ab Seisyllt a aeth yn eu herbyn, ac efe a lladdwyd yn y frwydr honno. Yna daeth yr Ysgottiaid i Gaerfyrddin a chydag hwynt Hywel a Maredydd meibion Edwin ab Einion a llu mawr o Wyr, ac yn eu herbyn Llywelyn ab Seisyllt a Chynan ab Seisyllt ai feibion, a gyrru ffo ar Auluff, a gwedi hynny y llas yno Llywelyn ab Seisyllt. A mab iddaw a elwid Gruffydd ar ei ol a fu Dywysawg Gwynedd. Gwr oedd Llywelyn ni wnelai Ryfel, nac ymladd namyn yn erbyn ai gwnelai yn ei erbyn.

Gwedi marw Llywelyn ab Seisyllt y cymmerth Rhydderch ab Iestin attaw lywodraeth Deheubarth megys iawn iddaw, ac efe 'n etifedd Aeddan ab Blegywryd.

Oed Crist 1023, bu farw Morgynnydd Escob Dewi, a Bledri Escob Teilaw Ysgolhaig pennaf Gwlad Gymru, achaws hynny y gelwid ef Bledri ddoeth, a chystal y carai wybodau fal y dodes ar yr offeiriaid gynnal addysg Llyfrau Llên bob un yn ei Eglwys, mal y gwypai bawb a ddylynt parth Duw a dynion.

Yr un flwyddyn y priodes Yngharad gweddw Llywelyn ab Seisyllt a Chynfyn ab Gwerystan Arglwydd Cibwyr.

Oed Crist 1029, daeth yr Ysgottiaid ar hyd y mor i Diroedd Gwrgan ab Ithel Tywysawg Morganwg, ac yn eu herbyn Gwyr y Wlad, fal au lladdwyd gymmaint yng Ngwaith Toniwlwg onid oedd y gwaed hyd egwydledau'r meirch ar bychandawd ni laddwyd o honynt a ffoasant hyd Fôr i wlad yr Haf.

Oed Crist 1030, y gwelwyd goleuni rhyfeddawl yn yr wybren hyd nos onid oedd golau fal dydd. Y flwyddyn honno y peris Ioseb Escob Teilaw na wnelid na gwaith na gorchwyl ar y Sulıau ar Gwyliau, ag a wnaeth i'r offeiriaid ddysgu darllain yr ysgrythyr lan heb dal heb ged, ac na wnelynt ac ymrysonau.

Yr un flwyddyn y bu farw Gwrgan Tywysawg Morganwg, Gwr doeth heddychgar ydoedd, ac a wnaeth lawer o elusseni, ac a roddes diroedd i'r Tylodion dros fyth, ac a ddodes nawdd a braint i bob gwr a lafuriai dir er dwyn yd a ffrwythau, sef gair iddynt ymhob cynnadl Gwlad, ac nas gellid swydd arnynt o anfodd, ac efe a gymmerth attaw yn borth iddaw Hywel ab Morgan Hen ei ewythr Brawd Tad gan ei ddoethed fal y gallai yn well o hynny lywodraethu yn heddwch a chyfiawnder. Ac yna wedi marw Gwrgan y cymmerth Hywel y Lywodraeth yn gwbl attaw ei

hun, ac Iestin ab Gwrgan a fynnai hynny, ond nas gallai fedru ar hynny gan anfodd Gwlad, canys cynddrwg ei gampau ydoedd fal nas cerid gan neb a gaid yn wŷr da diargywedd.

Oed Crist 1031, y llas Rydderch ab Iestin gan yr Ysgodogion Gwyddelig a ddygwyd i Ddeheubarth gan Hywel ab Edwin ab Einion ab Owain ab Hywel Dda, ai frawd Meredydd, felly cawsant Hywel a Meredydd adfeddu Tywysogaeth Deheubarth.

Yn yr un flwyddyn y dodes Iestin ab Gwrgan gad ar faes yn erbyn Hywel a Meredydd ymhlaid meibion Rhydderch ab Iestin ei fab, ac iddynt lawer o geraint yn eu plaid, ac y bu waith Traethwy, lle gyrrwyd ffo ar Iestin a meibion Rhydderch; a'r flwyddyn ar ol hynny y bu waith Machwy lle y llas Meredydd ab Edwin gan feibion Cynan ab Seisyllt brawd Llywelyn ab Seisyllt, er dial galanas eu hewythr, ac ymhen ychydig wedy hynny y daeth y Saeson i Went, ac yn eu herbyn Caradawc ab Iestin lle y llas ef; yna daethant y Saeson i Forganwg, ac y bu waith Ystradywain lle y lladdasant Gynan ab Seisyllt ai holl feibion, yna daeth Rhotpert ap Seisyllt, Arglwydd Maes Essyllt a brawd Cynan ab Seisyllt, ir frwydr, ac annog y Cymry drwy son am a wnaethant gynt; yna myned yn erbyn y Saeson, ac yng Ngwaith Llan Cwywan eu lladd yn flin, au gyrru ar ffo o gwasgar, a dwyn yn ysbail oll a feddent, yna heddychwyd rhwng Iestin ab Gwrgan a Rhotpert ab Seisyllt. A merch oedd i Rhotpert ab Seisyllt ai henw Ardden o Efiliau ferch Gwrgeneu gwraig gyntaf Rhotpert, ac unid blentyn o'r wraig honno, ac anwyl iawn ydoedd ganthaw, ac Iestin ai ceisiodd yn wraig iddaw gwedi marw Denis ferch Bleddyn ab Cynfyn ei wraig gyntaf, a hynny nis cai o fodd ei Thad gan ei hyned Iestin; yna gwiliaw wrthi a wnaeth Iestin, ai gordderchu o drais ac anfodd, yn unwedd ac a wnaethai ag eraill o ferched Pendefigion, a blin iawn y bu gan Rhotpert hynny, ac er dial ar Iestin, efe a wahoddes attaw Ruffydd ei nai, ac ai annoges yn erbyn Iestin ab Gwrgan, a chynnull attaw lawer o wyr a wnaeth Gruffydd, ac yng nghyntaf myned yn erbyn Hywel ab Edwin a dodi cad ar faes, ac yn honno y gorfu Ruffydd, ac y ffoes Hywel ab Edwin at Iago ab Idwal Tywysawc Gwynedd, yna myned yn erbyn Iago a orug Gruffydd, a chydag ef ¦Lu dirfawr o wyr dewisawl, a brwydr daer a fy ryngddynt, lle ¦y lladdwyd Iago, ac y cymmerth Ruffydd attaw Lywodraeth Gwynedd, ac felly ydd aeth ef yn Frenin ar Gymru o For Udd hyd ym Mor Hafren.

Gwedi ynnill o Ruffydd ab Llywelyn Lywodraeth holl Gymru, efe a ymroddes ar ddaioni tuag at ei wlad ai genedl drwy amddiffyn rhag estron a rhag anrhaith ac aflywodraeth, a deddfu a fai deg a chyfiawn, a gwared rhag cam.

Oed Crist 1037. bu Waith Pencadair rhwng Hywel ab Edwin a Gruffydd ab Llywelyn, a gorfu ar Hywel ffoi, a'r un flwyddyn y bu waith Rhyd y Grog ar Hafren, lle y gorfu Ruffydd ar y Saeson au gyrru ar ffo.

Oed Crist 1038, y bu waith Llanbadarn lle y gorfu Ruffydd ab Llywelyn ab Seisyllt ar Hywel ab Edwin, ac y dug oddiarnaw ei wraig ac ai cedwis yn ordderch iddaw, a thyna 'r unig weithred, o'r holl weithredoedd a wnaeth Ruffydd, a beris anfoddlondeb i'r Doethion.

Oed Crist 1040, y bu waith Pwll Dyfach rwng Gruffydd a Hywel, canys Hywel a ddaeth y drydedd waith i Ddeheubarth, ac yn ei blaid lawer o'r Daeniaid duon, a Gruffydd yn eu herbyn, a gyrru ffo arnynt, ac yn osgil y rhai hynny y daeth llu arall o Ddaeniaid a Saeson gan ddiffeithiaw Dyfed yn greulawn, a Hywel ai wyr yn eu ffo a gyfarfuant ag hwynt ac au hymlidiasant yn galed gan eu lladd a'u dal, ac eraill a ddianghasant yn ol iddeu llongeu.

Oed Crist 1042, a daeth Cynan ab Iago ab Idwal i Wynedd o'r Werddon a llu mawr ganthaw i Wynedd, a dal y Tywysawc Gruffydd ab Llywelyn, a chodi arfau a wnaeth Gwŷr y Wlad ac achub y Tywysawc o ddwylaw y Gwyddelod, au gyrru 'n ol i'r Mor yn fawr eu colled.

Oed Crist 1043, y bu dwyll a brad rwng Hywel ab Edwin a meibion Rhydderch ab Iestin ac a laddasant gant a hanner o wyr ffyddlonion Gruffydd ab Llywelyn ab Seisyllt yn Ystrad Tywi yn oreugwyr y Wlad honno.

Yr un flwyddyn y bu Eira dirfawr ar Galen Ionawr, ac ni thoddes dan wyl Badric, ac y colled llawer o'r ysgrublaid.

Yr un flwyddyn y bu farw Hywel Arglwydd Morganwg yn gant a dengmlwydd ar hugain oed, y gwr doethaf o Dywysawg yng Nghymru oedd efe, a goreu ei gariad gyda phawb oi genedl, ac efe a garai heddwch a phob cyfiawnder, ac yn ei le y doded Iestin ab Gwrgan, a gwaethaf oedd efe a welwyd erioed o Dywysawg yng Nghymru, ac ni charai efe na heddwch na chyfiawn-

der, ac ni wnathoedd erioed nas dygai ormes a chribddail ar ei wlad ai genedl, achaws hynny ni chafas ai cyfnerthai, lle caid a fai yn ei erbyn, o ddoeth a deddfawl.

Yr un flwyddyn y llas Hywel ab Edwin yng Ngwaith Abertywi gan Ruffydd ab Llywelyn gwedi ymladd caled.

Yr un flwyddyn y bu farw Ioseb Escob Teilaw Gwr tra doeth, a duwiawl, a dysgedig, efe a wnaeth Drefn dda ar wyliau Mabsant, sef nas caid amgen na gweddiaw Duw, a dangos daioni, a gwneuthur elusenau arnynt, a chynnal cof dyledus am Dduw ai Saint, au gweithredoedd molediw.

Oed Crist 1050, y dug Ruffydd ab Llywelyn Lu dirfawr o Gymru a Gwyddelod yn erbyn y Saeson, a dodi cad ar faes yn Henffordd, a gorfu Ruffydd ar y Saeson gwedi ymladd caled, a lladd a llosgi dirfawr.

Yr un flwyddyn y daeth Caradawc a Rhys dau fab Rhydderch ab Iestyn a llu mawr o wyr Morganwg a Gwent yn erbyn Gruffydd ab Llywelyn er ynnill oddiarnaw Lywodraeth Deheubarth, a Gruffydd yn eu herbyn, ac ymladd a fy ryngddynt annhebig i a fu erioed namyn y Gad Gamlan, a lladdwyd cymmaint o bob plaid oni orfu ar y ddau Lu ymchwelyd yn eu hol heb a ellid ei alw yn ynnill i nac un na'r llall o honynt, a gwaedlytted yr aerfa ryngddynt, a thra buant feibion Rhydderch ab Iestyn yn nghyrch y frwydr honno dyfod a wnaeth y Saeson o Wlad yr Haf a llosgi cestyll Caradawc, ab Rhydderch ab Iestin, sef Dindryfan a Threfufered ym Morganwg, a dwyn ysbail anfeidrawl yn yd, a gwartheg, a defaid, a daoedd o bob rhyw a geffynt, a llosgi a thorri tai, a diffeithiaw yn aruthrawl, yn erbyn heddwch ac oedd drefnedig a chadarn a damdyngedig rwng Tywysawg Morganwg a Brenin ac Ieirll y Saeson.

Yn yr un flwyddyn y daeth Cynan ab Iago a llu dirfawr oi Genedl o'r Werddon ar oddeu Gwynedd, ac ynnill ei gyfoeth oddiar Ruffydd ab Llywelyn, ac fal yr oeddynt ar y mor tua Chymru y daeth gwynnygeu temhestlus oni foddes y llongau ar gwyr gan mwyaf, ac yng nghylch yr un amser y daeth rhai o wyr Gwent a Morganwg i Ystrad Tywi a chael yno rai na charent Ruffydd ab Llywelyn, ac a chwenychent ymddyweddu a Charadawc ab Rhydderch, hwy a laddasant lawer o ffyddlonion Gruffydd ab Llywelyn, ac ysbeiliasant ereill yn dost, yna dyfod a wnaeth Ruffydd yn eu herbyn, a diffeithiaw Dyfed, ac Ystrad Tywi, a Gwyr, yn aruthrawl.

Oed Crist 1056, ydd aeth Rhys ab Llywelyn ab Seisyllt, brawd y Tywysawg Gruffydd i Forganwg a Gwent, gan ladd a diffeithiaw gyfled ac y cerddai, a gwyr y wlad a ddygasant gyrch yn ei erbyn, ai yrru hyd ym min y Mers ai ddal ai fyrhau o benn, a danfon y penn at Edwart brenin y Saeson hyd yng Nghaerloyw lle ydd ydoedd y pryd hynny.

Oed Crist 1057, daeth Gruffydd ab Rhydderch ab Iestin yn oed gwr ac a gynnullwys lu niferawg iawn, a myned yn erbyn Gruffydd ab Llywelyn tywysawg Gwynedd a bu cad ar faes ac ymladd trwch a gwaedlyd ac y llas Ruffydd ab Rhydderch.

Yr un flwyddyn cyfunawdd Algar iarll Caerllion Gawr a'r tywysawg Gruffydd ab Llywelyn a rhyngddynt cynnull llu dirfawr a myned yn erbyn y Saeson lle ydd oedd a elwid Rhanwlff yn dywysawg arnynt yn y Mers, ac yn y frwydr honno y gorfu Ruffydd a gyrru ffo ar y Saeson, ai hymlid yn galed hyd yng Nghaer Henffordd, a myned i galon y dref ar eu hol, au lladd yn ddiarbed, onid oedd na cheffid byw o ddyn yn yr holl dref, ac efe a ddug ysbail ddirfawr oddiyno, ar goreugwyr arbededig y dug yng ngharchar.

Yr un flwyddyn ydd aeth Edwart frenhin yn erbyn Gruffudd ac Algar hyd yng Ngwynedd lle bu cad ar faes, a gorfu Ruffydd ar y Saeson yn anrhydeddus yna clybu efe am y diffeithiaw yn Neheubarth gan eraill o'r Saeson, a myned yn eu herbyn au gyrru ar ffo cywilyddus.

Oed Crist 1059, daeth Macht ab Harallt i Gymru a llu dirfawr yn ei osgordd, a'r tywysawg Gruffydd a Macht yn ymgyfun eu lluoedd a aethant yn erbyn y Saeson, ac a ddiffeithiasant wlad Loegr hyd ym mhell yn ei pherfedd; a dychwelasant yn ol i Gymru ac ysbail fawr ganddynt.

Oed Crist 1060, bu farw Owain ab Gruffydd ab Rhydderch ab Iestin oi wenwynaw; yna Caradawc ab Rhydderch ab Iestin a gyfloges Harallt i ddyfod a llu ganthaw i Ddeheubarth, yna yn un a llu mawr o wyr Morganwg a Gwent ydd aethant yn erbyn Gruffydd, yr hwn a ddaethai a llu mawr iawn ganthaw o wyr Gwynedd, a Phowys, a Deheubarth, a bu cad ar faes lle ai lladdwyd drwy frad a thwyll Madawc Min escob Bangor, yr un ac a wnaeth y twyll o ba un y lladdwyd ei dad Llywelyn ab Seisyllt. Gwedi lladd

Gruffydd ab Llywelyn ef a dorrwyd ei benn ac a dyged yn anreg i Harallt. Oed Crist pan fu hynn oedd 1061; ac fel hynny y colles Ruffydd ei fywyd, ac anrhydeddusaf oedd efe ai dad o'r holl dywysogion a fuant hyd yn eu hamser yng Nghymru; a goreu am wroldeb a rhyfel, ac am heddwch ac am lywodraeth ac am haelioni, a chyfiawnder, ac o'u doethineb au deall y dugasant gyfunbeb ar Wynedd, a Phowys, a Deheubarth, fal y gadarn y Cymry yn erbyn y Saeson a phob gelynion ac estroniaid, ac ni chaid Morganwg a Gwent yn gyfun a hynny achaws gwehelyth y gwledydd hynny, nid amgen meibion ac wyrion Iestin ab Gwrgan, er yn amser Aeddan ab Blegywryd Hên, ab Owain ab Hywel o wehelyth Bran ab Llyr Llediaith, a hynny fu'r achaws nas gallasant y Cymry ddadynnill teyruedd ynys Prydain.

Oed Crist 1062, gwedi lladd Gruffydd ab Llywelyn fe ddoded Maredydd ab Owain ab Edwin yn dywysawg Deheubarth gan Harallt ac Edwart brenhin y Saeson. Brodyr unfam y tywysawg a las, sef Gruffydd ab Llywelyn, a gawsant Wynedd a Phowys; nid amgen Bleddyn ab Cynfyn ab Gwerystan arglwydd Cibion a Rhiwallawn ei frawd hwy a ddoded yn dywysogion Gwynedd a Phowys ym mraint etifeddion tywysogion Dinefwr o Gadell ab Rhodri Mawr. Sef etifeddes y dywysogaeth honno ydoedd Yngharad ferch Meredydd ab Owain ab Hywel Dda, a fu'n wraig briod Llywelyn ab Seisyllt; ac wedi lladd Llywelyn hi a briodes Gynfyn ab Gwerystan, Arglwydd Cibwyr yng Ngwent, ap Gwaithfoed, ab Gloddien, ap Gwrydr Hir, ap Caradawc, ap Llew Llawddëawg, ap Ednyfed, ap Gwinau, ap Gwaenoc goch, ap Crydion, ap Corf, ap Cynawg, ap Iorwerth Hirflawdd, ap Tegonwy, ap Tëon, ap Gwineu dda i freuddwyd, ab Bywlew ab Bywdeg, ab Rhun-Rhuddbaladr, ab Llary, ab Casnar Wledig brenin Gwent, ap Gloyw Gwlad Lydan arglwydd Caerloyw, ab Lludd, ab Beli Mawr, ab Manogan brenin ynys Prydain.

Ar brodyr hynn, sef Bleddyn a Rhiwallawn a ddugasant deyrnedd gwlad Bowys o wehelyth Brochwel Ysgithrawc, peth nid oedd iawn ei fod.

Yr amser hynn ydd oedd Cynan ab Iago cyfiawn berchen Gwynedd ar gil yn y Werddon, ac nid oedd a elai yn ei blaid yng Nghymru, canys ni cherit ei wehelyth achaws eu creulonderau yn lladd a dilyg-eidiaw a'u gwrthladdent yn eu hannefodoldeb.

Oed Crist 1066, daeth William Dug Normandi yn ormeswr i Ynys Prydain a bu cad ar faes ryngtho a Harallt; a gwedi ymladd tost a chreulawn, y llas Harallt ac y dug Wiliam y deyrnedd o drais a thrawsfeddiant; ac fal hynny y collasant y Saeson Unbennaeth Ynys Prydain, gwedi bod yn ei dal o drais chwechanmlynedd.

Oed Crist 1068, digwyddes anghydfod yng Ngwynedd, sef Meredydd ac Ithel, meibion Gruffydd ab Llywelyn a ddugasant gad ar faes yn erbyn Bleddyn a Rhiwallawn; er dadennill Gwynedd a ddodesid gan y Saeson o drais oddi wrthynt, ac yn eu herbyn y daeth Bleddyn a Rhiwallawn, a chydag wynt lu dirfawr o Saeson, canys ym Mhowys ydd oedd Saoson yn gwladychu yn heddwch y Cymry yn ogydrif a nhwy, ar ffo rhag gormes y Normaniaid, achaws hynny nid oedd, wrth ag oedd Llu Bleddyn a Rhiwallawn, mawr llu gwyr Gwynedd gyda Maredydd ac Ithel, eithr gwroldeb ai cynhaliai yn erbyn eu deurif, eithr achos twyll a brad colli'r maes a wnaethant, yno y llas Riwallawn o'r naill du, ac Ithel ab Gruffydd o'r tu arall, a gorfu ar Feredydd ffoi, a Bleddyn ai dilynwys yn drachaled gan ei yrru i'r mynyddoedd ynialaf yng Nghymru, lle y bu farw o newyn ac anwyd. A gwedi hynny drwy gyfnerth y Saeson y gwladychawdd Bleddyn ab Cynfyn yn unig frenin Gwynedd a Phowys, a Meredydd ab Owain ab Edwin drwy gyfnerth Saeson yn dywysawg Deheubarth.

Oed Crist 1069, aeth Caradawc ab Rhydderch ab Iestin, a chydag ef lu cyfnerth o Normaniaid Wiliam Fastardd, yn erbyn Meredydd ab Owain brenin Deheubarth, a chad drom ar faes a fu ryngddynt lle y llas Meredydd, ac yna cael o Garadawc dywysogaeth Deheubarth, a'r frwydr honno a elwir Gwaith, Llanfedwy, ac ar lan afon Elerch y mae'r lle y bu'r gâd.

Yr un flwyddyn daeth y Normaniaid i Ddyfed a Cheredigiawn ac ai diffeithiasant yn filain, a Charadawc ab Rhydderch a ddug lu dewisawl o wŷr Gwent a Morganwg a Gwyr yn eu herbyn, a'u gyrru yn ol i'r llongau, a dwyn oddiarnynt eu hysbail, a hynn o waith gwroldebus a ddug i Garadawc lawer a gariad gwŷr Dyfed a Cheredigiawn y rhai cyn no hynny ni charent wehelyth Caradawc

Oed Crist 1070, y bu farw Caradawc ab Rhydderch o glefyd a ddaeth arnaw achaws clwyf a gafas yn rhyfel, a Rhydderch ab Caradawc ab Iestin a gymmerth y lywodraeth yn ei le ef.

Yr un flwyddyn y bu farw Bleuddyd Escob Dewi, ac ydd daeth Sulien yn Escob yn ei le ef, a hwnnw a elwid Sulien ddoeth, ac yr oedd ef yn wr duwiawl a golychwydawl.

Oed Crist 1071, y daeth y Normaniaid yr ail ossawd i Ddyfed a Cheredigiawn, ac y eu erbyn Rhydderch ab Caradawc, a'u gyrru'n ffoedigion gyda cholled mawr.

Oed Crist 1072, y daeth Rhys ab Owain ab Edwin o Fanaw lle bu ar gil, ac a gynnullwys lu mawr o wyr Ystrad Tywi a Brycheiniawc, a dodi cad ar faes yn erbyn Bleddyn ab Cynfyn ai ladd, gwedi hynny myned yn erbyn Deheubarth, a danfon cenhadon heddwch yn gyntaf at Rhydderch ab Caradawc, a Rhydderch a gyfarfu ac ef mewn heddwch, a chyttunaw a wnaethpwyd rhoddi cyfran yn Llywodraeth y Dehau i Rys ab Owain, ac o hynny gwared o Ryfel a diffeithiaw gwlad, ac ammod ganddynt i'r olaf ei fywyd y cwbl o'r Dywysogaeth.

Wedy marw Bleddyn ab Cynfyn, Trahaearn, ab Caradawc ei nai, a wladychawdd yng Ngwynedd; ac yn y Deau Rhydderch ab Caradawc ei ewythr ef, a Rhys ab Owain ab Edwin yn cydlywiaw'r Wlad yn llonydd ac yn heddwch.

Oed Crist 1074, y llas Rhydderch ab Caradawc gan Feirchiawn ab Rhydderch ei gefnderw o genfigen a dig am yr ammod ryngthaw a Rhys ab Owain, ac am ddwyn Gwŷr y wlad dan ddamdwng yr Ammod a ddoded ryngthynt er tynghedu'r Lywodraeth i'r hwyaf ei fywyd.

Yr un flwyddyn daeth Goronw a Llywelyn, meibion Cadwgawn ab Bleddyn ab Cynfyn, a llu ganddynt, a chydag wynt Caradawc ab Gruffydd ab Rhydderch ab Iestin, a Chyfnerth cadarn o Forganwg a Gwent er dial galanas eu Tad cu, a chad ar faes a ddodasant, ac yn eu herbyn Rhys ab Owain, a gorfu meibion Cadwgawn a Charadawc ab Gruffydd ar Rhys ab Owain, a buddugoliaeth enrydeddus a fuassei iddynt, eithr Gruffydd ab Cynan ab Iago a ddaeth o'r Werddon a llu cadarn ganthaw, a goresgyn ynys Fôn, a gorfu ar feibion Cadwgawn ymchwelyd i amddiffyn eu cyfoetheu rhag gossawd Gruffydd ab Cynan, ac o hynny ni aflonyddwyd Rhys ab Owain, ychydic ar ol hynny ydd aeth Trahaearn ab Caradawc yn erbyn Gruffydd ab Cynan a gyrru ffo arnaw, a gorfu arnaw fyned yn ei ol i'r Werddon.

Gwedi myned fal hynny meibion Cadwgawn a ddodasant Gad ar Faes yr ail waith yn herbyn Rhys ab Owain, yna Rhys a ddaeth yn eu herbyn, a brwydr dost a fu rhyngthynt mewn lle a elwir Pwllgwttic, lle gorfu meibion Cadwgawn ar Rys ab Owain, ac efe a ffoes, a Thrahaearn ab Caradawc ai dilynes mor galed onis daliwyd ganthaw, a dal hefyd Hywel ei frawd, ac efe au lladdawdd eill dau er dial galanas ei ewythr Bleddyn ab Cynfyn, a gwaith didrugaredd oedd hynny, canys Tywysogion o fraint a chyfiawnder oeddynt.

Ynghylch yr un amser ydd ymwrthodes Sulien escob Dewi ai Escobaeth, a dewiswyd yn ei le ef Abram, gwr doeth golychwydawl.

Oed Crist 1077, daeth Rys ab Tewdwr o Lydaw ac a ddodes hawl ar Dywysogaeth Deheubarth megis ettifedd cyfiawn, a llawer iawn o wyr gorau y wlad a gymmhleidiasant ag efe, canys mawr oedd y gair iddaw am ddoethineb a gwybodau Llywodraeth, ac efe yn ei lawn henaint ai bwyll a gafawdd ewyllys da goreugwyr y wlad, canys nid oedd a garai Iestin ab Gwrgan ai wehelyth, achaws y cerynt Ryfel yn well na heddwch yn amgen nag a wnelynt eu cynneifiaid o'r Welygordd honno, ac yna diogelwyd Rhys yn ei Lywodraeth.

Oed Crist 1079, y diffeithwyd Mynyw gan Saeson lladronaidd, ac y bu farw Abram Escob Dewi, a gyrru yr Escobaeth yr ail waith ar Sulien Ddoeth, canys nid oedd a wyddai gyngor i wlad a chenedl aflonydd gystal ag efe.

Oed Crist 1080, daeth Gruffydd ab Cynan yr ail waith i Gymru, a chydag ef lu mawr o Ysgodogion y Werddon, ac ymunaw a wnaeth efe a Rhys ab Tewdwr a myned yn erbyn Trahaearn ab Caradawc, a chad a fu rhyngthynt, lle lladdwyd Trahaearn, a chydag ef Gruffydd a Meilir meibion Rhiwallawn ab Gwynn ab Collwyn, ac ar Fynydd Carno y bu'r ymladd, a chreulawn a thost y bu, a lladdwyd dros rhif o'u gwŷr y ddwyblaid, a Gwaith Carno y gelwir y frwydr honno, gwedi hynny meddiannu Gwynedd a wnaeth Gruffydd ab Cynan, a Rhys ab Tewdwr a gafas Ddeheubarth, a'r ddau Dywysawg yn ettifeddion cyfiawn y Gwledydd hynny.

Yr un flwyddyn y daeth William Fastardd i Gymru ym mhererindawd, ac a ddug roddion i'r Eglwysi, ar Escyb, offeiriaid, ac i'r monachlogydd a'r mynaich, a myned hyd ym Mynyw, a Sulien archescawb Dewi a ymwrthodes eilwaith ai escobawd, a Gwilffrid ai cymmerth yn ei le.

Yn yr un flwyddyn daeth Gwŷr Rhys ab Tewdwr am benn Iestin ab Gwrgan ac a dorassant Gastell Denis Powys, a Chastell Llanilltyd, a Chastell Dindryfan, y rhain oeddynt Gestyll Iestin ab Gwrgan, achaws hynny bu Cad ar Faes gan Iestin, a diffeithiaw Ystrad Tywi a Brycheiniawc, a dwyn ysbail fawr, wedi hynny ymroddi a wnaeth ef i adeilad Caer Dyf, ac yny o gwnaeth ef Gastell cadarn, ac o wnaeth Gastell Cynffig, a Chastell Trefufered, yn gadarnach nac a fuant cyn no hynny.

Oed Crist 1085, cyweiriwyd yr heddwch rhwng Iestin ab Gwrgan a'r Brenin Bastardd yn ail ac y bu er yn hir o amser rhwng Tywysogion Morganwg a Brenhinoedd y Saeson, ai ddodi'n gydgyttwng mewn ysgrifen deg fal y mae yn weledig yn Eglwys Teilaw yn Llandaf.

Oed Crist 1087, bu farw Wiliam Fastardd Tywysawg y Francod a Brenin y Saeson—a'r un flwyddyn y daeth meibion Bleddyn ab Cynfyn, sef Cadwgawn a Madawc a Rhirid a llu mawr yn erbyn Rhys ab Tewdwr, a rhag eu caderned gorfu arnaw ffoi i'r Werddon. Yna Iestin ab Gwrgan a ddiffeithiawdd ei gyfoeth; eithr yn ebrwydd wedi hynny efe a ddaeth a llynges drom ganthaw i Ddeheubarth a dodi Cad ar Faes, a gyrru ffo ar ei elynion, a Gwaith Llechryd y gelwir y Frwydr honno, yno lladdwyd Madawc a Rhirid, a Chadwgawn a ffoes ni wyddit i ba le o'r Byd.

Ynghylch yr un amser y dygwyd ni wyddys gan bwy ysgrin Dewi a'r Trysorau auraid ac arianaid o Eglwys Mynyw.

Yn yr un flwyddyn aeth Iarll Henffordd ai Luoedd, ac ynghyfun ac ef wyrion Iestin ab Gwrgan au lluoedd ac a ddiffeithiasant Gaerwrangon, a Chaerloyw, a'r gwledydd o amgylch gyfled ag y cerddynt, a gyrru ar y Brenin adweddu Rhyddyd a Breiniau i'r gwledydd oll yng Nghymru a Lloegr, fal y bu er yn oes oesoedd.

Oed Crist 1088, bu farw Sulien Escob Dewi, y doethaf a chlodforusaf o'r holl Escyb yng Nghymru, goreu ei gynghor, ai addysg, ai grefydd, ac amddiffynwr pob heddwch ac iawnder.

Yr un flwyddyn y bu daeargryn mawr hyd holl Ynys Prydain, ac ydd yspeiliwyd Eglwys Mynyw yr ail waith o'i thrysoreu gan forherwyr Seisnig, a llosgi i'r dref a wnaethant, a lladd a ddelai yn eu ffyrdd.

Ynghylch yr un amser y bu farw Cadifor ab Collwyn Arglwydd Dyfed, ai feibion ef, sef Llywelyn ac Einion, ai frawd Einion ab Collwyn, a annogasant Ruffydd ab Maredydd i ddodi cad ar faes yn erbyn Rhys ab Tewdwr, a dyfod a'u lluoedd ynghyd a wnaethant, a brwydr dost a fu, eithr gorfu Rhys ab Tewdwr arnynt yng Ngwaith Llandydoch, a dalwyd Gruffydd ab Maredydd acai byrhäwyd o benn, a lladdwyd Llywelyn ac Einion meibion Cadifor, ac Einion ab Collwyn Brawd Cadifor a ffoes at Iestin ab Gwrgan Tywysawg Morganwg a Gwent, yr hwn oedd yn rhyfela yn erbyn Rhys, ac adrawdd ei ansawdd iddaw. Einion a fuassai yn wr swydd yn rhyfela gyda Brenin Lloegr ai Farchogion yn Ffrainc a gwledydd eraill, a charedig mawr rhyngddo a'r Brenin ai Farchogion ac Iestin wedi gwybod hynny a addunedwys i Einion ei Ferch yn briodwraig os efe a ddygai gyfnerth iddaw o Loegr yn erbyn Rhys ab Tewdwr, a chyda y ferch honno yn Gyfoeth Arglwyddiaeth Meisgyn, myned i Lundain a orug Einion, ac ammodi a Rhobert fab Amon Tywysawg y Corbwyl yn Ffrainc a chefnderw y Brenin Coch, i Ddyfod yn gyfnerth i Iestin ym Morganwg; a Rhobert a weithiawdd ar ddeuddeg eraill o Farchogion urddasawl nes eu hynnill oi blaid yn un ansawdd ag yntau; dyfod a wnaethant i Forganwg ar frŷs, ac unaw lluoedd ac Iestin, a myned i wledydd Rhys ab Tewdwr, a lladd a llosgi cyfled a'r Tir a gerddynt, a phan glybu Rhys hynny, myned yn eu herbyn, a chyfarfod y ddau Lu ger llaw Brecheiniog, yn y lle a elwir Hirwaen Wrgan, a brwydr waedlydfawr a fu ryngthynt lle gorfu ar Rys ffoi, ai ymlid a wnaeth Iestin ai ddal yng Nglynn Rhodneu, a lladd ei benn, ac enw y lle y bu hynny *Penn Rhys*, gwedi hynny ymlid ei wyr au lladd yn greulawn, a dal Gronwy mab Rhys, a lladd ei benn ynteu, a mab arall oedd i Rys o'i ordderch a elwid Cynan yn wr dewr a thrachalonog, ac efe yn ymchwelyd tuag Ystrad Tywi wedi lladd ei dad ai wŷr ymlidiwyd ef mor galed a thost oni orfu arnaw amcanu dianc drwy Lyn a elwir Cremlyn, lle y boddes ef a llawer o'i wŷr, ac am hynny Pwll Cynan y gelwir y lle fyth wedi hyny, mab arall i Rys a elwid Gruffydd ac nid oedd ond Plentyn pan las ei dad.

Gwedi hynny ymgynnull a wnaeth Gwyr Rhobert ab Amon ai farchogion au Gwyr ar Dwyn Colwynn lle y talawdd Iestin iddynt eu bodd yn aur coeth, ac o hynny hyd heddyw gelwir y lle y Filltir Aur, ac ymchwelyd yn eu hol a wnaethant tua Llundein, ac Einion ab Colwyn a aeth at

Iestin i erchi'r ferch iddaw yn wraig a'r cyfoeth a addawsai gyda hi, eithr naccau hynny a wnaeth Iestin, gan chwerthin am benn Einion, a dywedyd y gwnai efe'n well ai Ferch na'i rhoddi ar enw Bradwr Gwlad ag Arglwydd, yna Einion a lidiawdd yn ddirfawr, a chan gynddaredd ei ddigofaint myned ar ol Rhobert ab Amon ai osgordd a dangaws iddynt y dirmyg a wnaethai Iestyn arnaw, a dangaws hefyd maint oedd anghariad goreugwyr y wlâd honno tuag at Iestin, o brased y wlad, a hawsed ei hynnill oddi ar Iestin, yr hwn achaws ei frad a'i dwyll ni chai gyfnerth gan un Tywysawc yng Nghymru. Blasus oedd gan y Dieithraid wrandaw ar Einion, a hawdd y cymmerasant ei gynghor, ac yna myned at Rhotbert ab Seisyllt a orug Einiawn a dangaws iddaw'r cyfan, ac efe a ddug eraill o'r Pendefigion ni charent Iestin i'r un ansawdd, a gwedi cynnull o'r Pendefigion hynny eu gwyr yng nghŷd ac ymgyfunaw a'r Dieithraid, myned yn erbyn Iestyn, ac yna bu Gwaith y Mynydd Bychan yn ymyl Caer Dydd, lle gyrrwyd ffo ar Iestin. Ymhlaid y dieithraid yn erbyn Iestyn daeth Cadifor ap Cedrych ap Gwaithfoed Arglwydd Ceredigiawn, ac efe a fuassei cyn no hynny ym mhlaid Iestin yn erbyn Rhys ab Tewdwr, ac ni chyflawnai Iestyn ammod ac efe yn ol a addunedai Cedrych ab Gwaithfoed Arglwydd Cibwyr a henyw o Forganwg, ac a aeth yn Ngheredigiawn yng ngosgordd Rhydderch ab Iestin, lle y rhodded iddaw Bendefigaeth a Chyfoeth, ac o garedigrwydd ar Iestin y daeth efe ai Wŷr i Forganwg, a gwedi gweled ei frad myned yn ei erbyn ac ym mhlaid y dieithraid.

Gwedi gyrru ffo ar Iestin ai yspeiliaw oi wlad, Rhobert ab Amon ai wyr a gymmerasant yn eiddaw iddynt eu hunain goreuon y Frodir a'r Tiroedd breision, ac i Einion y mynydddir a'r garwaf a'r anffrwythlonaf o'r wlad, ac fal hynny gwledychasant y Ffrancod yn y wlad honno, gan yrru pawb a gaent ym mhlaid Iestin ar ffo a dwyn eu tiroedd. A llyma enwau y dieithraid Ffreinig a'r lleoedd a gymmerasant iddynt eu hunain.

Rhobert ab Amon yn Dywysawg arnynt a gymmerth iddaw ei hunan y Deyrnedd a Llywodraeth y Wlad oll, a Chastell Caer Dydd, a Chastell Trefufered, a Chastell Cynffig, a'r Tiroedd a berthynei iddynt.

I Wiliam De Lwndwn y doded Aberogwr a'r Tiroedd a bieuffai'r Arglwyddiaeth honno.

I Riccard Grinfil y doded Arglwyddiaeth Glynn Nedd a Thref freiniawl Castell Nedd ac ai perthynai o diroedd.

I Rhobert De Sancwintin doded Arglwyddiaeth Llan-Fleiddan Fawr, a Thref freiniawl y Bont Faen.

I Riccart Siwart Tal y Fan ai Arglwyddiaeth.

I Gilbert Wmffrefil Arglwyddiaeth Pen Marc.

I Rosser Berclos Arglwyddiaeth Llan Dathan.

I Reinallt Sili y rhodded Arglwyddiaeth Abesili.

I Peter Leswr, Arglwyddiaeth Llanbedr ar Fro.

I Ieuan Ffleming Arglwyddiacth Llan Ufelwyn.

I Olifer Sainsiôn Arglwyddiaeth Aberbernant.

I William Desterlin Arglwyddiaeth Llanwerydd.

I Baen Twrbil y daeth Arglwyddiaeth y Coetty o briod Assar ferch Meuryg ab Gruffydd ab Iestyn ab Gwrgan.

Einion ab Collwyn a gafas Sainghenydd a Meisgyn.

Caradawc ab Iestin a gafas Aberafan a'r holl diroedd rhwng Nedd ac Afan yn Arglwyddiaeth Rial.

Madawc ab Iestin a gafas Arglwyddiaeth Rhuthyn.

Hywel ab Iestin a gafas Llan Tryddyd.

Rhys ab Iestin a gafas Arglwyddiaeth Soflen rhwng Nedd a Thawy.

Nest Ferch Iestin a rodded yn Briod i Einion ab Collwyn.

Rotpert ap Seisyllt a gafas Arglwyddiaeth Maes Essyllt.

Wedy gorfod ar Iestin efe a ffoes dros y Mor i ynys y Fallon, ac oddi yno fe aeth i Gaer Faddon ac oddi yno daeth i Went, lle y bu farw ym Monachlog Llangenys.

Gruffydd ab Rhydderch ab Iestin a gynnulles Lu mawr o'r Gwŷr a ffoasant rag y Dieithraid, ac amddiffyn Caerllion ar Wysg, a Gwlad Went, ac ymgadarnhau yno yn erbyn y Dieithraid, a Charadawc ab Gruffydd ab Rhydderch ab Iestin yn Dywysawg ar y Cyfoetheu yng Ngwent a Gwaen Llwg a'r Cynnal yng Nghaer Llion ar Wysg, lle y buassei cyn no hynny Brifgynnalfa Morganwg a Gwent, parth Teyrnedd a Dygynnull Gwlâd.

Yr amser y bu fal hynn ym Morganwg ydd oedd Meibion Cadwgawn ab Bleddyn ab Cynfyn yn diffeithiaw Dyfed a Cheredigiawn, a Huw Iarll Caerllion Gawr yn diffeithiaw Tegeingl a Rhyfoniawc hyd Afon Gonwy, ac yn dwyn y Tiroedd ar

Cyfoetheu oddiar Wyr y Gwledydd hynny, ac yn dodi'r Ffreinc ynddynt, a'r Huw yma, tra bu Gruffydd ab Cynan yn amcanu Cyfnerth i Rys ab Tewdwr, a ddaeth hyd yn Aberlleiniawc ym Môn ac a wnaeth yno Gastell ac ymgadarnhau ynddaw hyd y dydd heddyw, a thrachefnau meibion Cadwgawn ab Bleddyn y dug Iarll y Mwythig y rhannau mwyaf o diroedd Powys a Cheredigiawn, ai fab Arnwlff a ddug lawer o diroedd Dyfed, a Bernard Niwmarc a ymgadarnhäes ym Mrecheiniawc, ac eraill a gymmerasant diroedd mewn parthau ereill o Gymru, ac ym mhob mann yn gwneuthur Cestyll a Dinasoedd cylchwaliedic rhag eu niwedu gan wŷr y Wlad, a'u ffordd dwyn ysbail ar un a'i roddi yn obr i arall, ac fal hynny yn obr i arall, ac fal hynny yn twyllaw annoethiaid a'r rhai ni charent eu cenedl a'u Tywysawc, ac o drech dichell na gwroldeb y gweithiasant y Ffrancod yn unwedd ag y gwnai'r Saeson cyn noe wynt yn y rhyw fodd ac y difreiniasant y Cymry o'u Llywodraethau, a'u Cyfoethau, a'u Tiroedd, a llygru Gwyr y Wlâd a'u Gobrwyon.

Oed Crist 1090, y dug Rosser Mwngwmri Gastell Baldwin ac ai gwnaeth yn drachadarn, ac ai galwawdd ar ei enw ei hunan, sef Mwngwmri.

Oed Crist 1091, gwalgylched y Bont Faen, gan Robert Sancwintin, a gwedi hynny y gwnaeth ef Gastell Llanfleiddan, ac yn yr un flwyddyn y gwnaeth Rosser Berclos Gastell Llandathan ac a rannes ei diroedd a Marchell ap Gwyn ap Arthrwys yr hwn a fuassai berchen ar y cyfan o honynt, ac a ddodes fodd i fyw i'r rhai a golledwyd.

Oed Crist 1092, y dechreuwyd adeilad Castell Llanddunwyd, a Threfufered, a Chynffig, yn gadarnhach nag oeddynt o'r blaen, canys a choed cyn no hynny y gwneid Cestyll, a chyn y bu hir wedi hynny y gwnaeth y Ffrancod eu Cestyll ar hyd y wlâd er diogelwch iddynt eu hunain, ar amser hynny hefyd y dug eraill o'r Ffrancod y tiroedd goreu yn Nyfed a Cheredigion, ac a wnaethant yno Gestyll a Dinasoedd.

Oed Crist 1093, aeth y Brenin Coch i Ffrainc yn erbyn ei frawd Rhobert, ac ai daliodd ef, ac ai dug yng Nghar-char i Gastell Caerdydd, lle y bu hyd farw.

Yr un flwyddyn y bu prinder yd ac enllyn drwy holl Ynys Prydain, achaws y rhyfeloedd a fuassai dros amryw flynyddoedd ym mhob rhan o'r Ynys, a llawer a fuant feirw o newyn.

Oed Crist 1094, y dug y Ffrancod eu lluoedd hyd yn Ngwyr, a Chedweli, ac Ystrad Tywi, ac a ddiffeithiasant y Gwledydd hynny, a Wiliam De Lwndrys a wnaeth gastell cadarn yng Nghedweli, a thra buant yno codasant Wyr Morganwg a Gwaun Llwg yn un Llu, ac a dorrasant Gestyll a Ffrancod, ac a laddasant agos y cyfan o'u Gwyr, a Phaen Twrbil Arglwydd Castell y Coetty yn Dywysawg ar Wyr y Wlad, ac ni fynnai ef ei diroedd namyn ym mraint Assar ei Wraig, yr honn oedd Etifeddes Meuryg ab Gruffydd ab Iestin ac efe a ddug ei luoedd hyd Gaer Dydd, a dechreu torri'r Castell, a phan weles Robert ab Amon hynny, gofyn yr achaws, a Phaen Twrbil ai daugoses, nid amgen nog y mynnei'r Cymry fyned wrth Freiniau a Defodeu cyssefinion eu Gwlad a Chyfreithiau Hywel Dda, a chael eu Tiroedd yn rhyddion, a chan faint y Llu fe weles Robert yn oreu gwneuthur hynny a foddhaei'r Cymry, ac yna doded llonyddwch yn y wlâd, ac y cafas Baen Twrbil ei diroedd ai Fraint yng Nghyfiawnder ei wraig, a Gwyr y Wlad eu tiroedd yn rhyddion, a'u breiniau a'u defodau fal y dylit i'r Cymry, fal y buant erioed cyn amser y Ffrancod. A gwedi dodi'r Drefn honno ar Forganwg ai chadarnhau, fe ddaeth llawer o Genedl y Cymry o Ddeheubarth a Gwynedd i Forganwg er diogelach Byd nag a gaent yn y Gwledydd eraill.

Ynghylch yr un amser y dug Ruffydd ab Cynan a Chadwgawn ab Bleddyn eu lluoedd i Ddyfed a Cheredigiawn, ac a laddasant lawer o'r Ffrancod, gan nas gallai'r Cymry oddef ym mhellach yr anghyfraith, a'r ammraint, a'r trahäusder, a ddodai'r Ffrancod arnynt, ac yna cafas y wlad lawer o'i Braint a'u Rhyddyd.

Yn hym o amser fe ddanfones y Ffrancod Lu mawr i ddiffeithiaw Gwynedd, a Chadwgawn ab Bleddyn a ddug Lu yn eu herbyn a bu waith Coed Yspys lle gorfu Cadwgawn ar y Ffrancod, a gyrru ffo arnynt, a lladd llawer, a Gruffydd ab Cynan a Chadwgawn a gyrchasant Loegr, a diffeithiaw Henffordd, a'r Mwythig, a Chaer Wrangon, a lladd aneirif o'r Saeson, a phan wybu'r Brenin coch hynny, myned yn ẹeu herbyn, eithr ni bu nes iddaw o hynny, canys y Cymry ai darweinasant i'r mynyddoedd, ac yna, heb gad ar faes, y lladdasant hanner ei wŷr a gorfu arnaw ddychwel yn fawr ei golled ai gywilydd.

Yr un flwyddyn bu farw Gwilym ab

Baldwin cyn gorphen gwalgylchu Castell Rhyd Cors, a'r Cymry a ddaethant yn ddisyfyd am benn ei wyr ef ac ai lladdasant, ac a dorrasant y Castell.

Cyn hir wedi hynny yr ymluyddes gwyr Morganwg, a Gwent, a Gwŷr, a Gwaun Llwg yr ail waith, a'r Francod yn eu herbyn, ac yng Ngwaith Celli Darfawc y gorfu 'r Cymry arnynt, au lladd yn ddidrugaredd, a gyrru ffo gwarthus arnynt. Ac ym mhen ychydic ymluyddes y Ffrancod yn erbyn y Cymry, a chydag wynt gyfnerth anfeidrawl o'r Saeson, a'r Cymry a gymmerasant arnynt ffoi o'u blaen i Fynyddoedd Brycheiniawc, yna troi ar eu gelynion, au lladd yn ddiarbed y rhan fwyaf o honynt, ac ychydic buan eu traed a ffoasant gyda chywilydd a cholled, a'r Cymry yn dychwelyd yn eu hol cyfarfuant yn eu herbyn Iarll Arwndel, ac Iarll Caerloyw, ac Arnallt Harcwrt, a Nel Vegwnt, ac eraill o leirll a Thywysogion y Ffrancod yn Gyfnerth i Rhobert ab Amon ai wŷr, a bu cad ar faes, ac yng Ngwaith Celli Gaer y lladdawdd y Cymry bob un o'r leirll hynny a'u gwŷr a lladdfa dost, ac a ddygasant ysbail fawr oddiarnynt, a ffoi'n ol iddeu Cestyll y Ffrancod a'u cadarnhau gwedi hynny, ac amcanu myned i Loegr, eithr ofer eu Gwaith, canys Gruffydd a Chydifor meibion Llywelyn Brenn Arglwydd Sainghenydd a ruthrasant a llu yn eu herbyn. Ac au lladdasant gan mwyaf; a'r gweddilliaid, ffoi i Loegr; yna cafas yr hen Drigolion eu Tiroedd a llonyddwch, a rhai o'r Ffrancod a ymgadarnhasant yn eu Cestyll a genhadhäasant i'r Cymry eu cyfiawnder, sef eu Tir yn rhydd, a'u Braint yn rhâd, au Cyfreithieu yn ddefodawl.

Oed Crist 1095, daeth Ychfryd a Hywel meibion Gronw, a meibion Cadwgawn ab Bleddyn hyd yng Ngheredigiawn a Dyfed, a diffeithiaw tiroedd a chestyll y Ffrancod, au lladd lle au ceffid yn ddiarbed; ac yna dychwelyd i Wynedd ag ysbail fawr dros benn; a chyn hir wedi hynny y diffeithiawdd Gerallt Rhaglofydd y Brenin Coch holl derfyneu Mynwy, a'r Cymry yn ei erbyn, a gorfu arnaw ymchwel i Gastell Penfro.

Oed Crist 1096, daeth y Brenin Coch i Gymru er dial y lladd ar ei genedl a wnaethai'r Cymry, eithr y Cymry a weddiasant yn hyderus ar Dduw ac a ddodasant eluseni a chyfiawnder, a myned yn erbyn Llu dirfawr y Brenin ai lladd yn ddiymosgryd oni orfu arnaw ymchwelyd yn wâg ei law ac yn fawr ei gywilydd.

Yn yr un flwyddyn y troes Pendefigion Môn yn erbyn eu Tywysawc cyfiawn, ac a ddodasant eu hunain yn nawdd Huw Iarll Caerllion ac arglwydd Aberlleiniawc, ac ar eu hol gwyr y wlad a llawer o'r milwyr arfawc, canys brâd a drigawdd yn y wlad hono er amser Edwin Brenin y Saeson. Yna gwyr y wlad a gymmerasant eu Tiroedd gan Huw Iarll, a gorfu ar Ruffydd ab Cynan a Chadwgawn ab Bleddyn ffoi i'r Werddon a gadael iddynt. Yna daethant y Ffrancod a'r Saeson i Ynys Fôn, a dodi Owain ab Edwin yn rhith Tywysawg yno er boddhau 'r Cymry, a'r Owain hwnw 'n benn Brâd yn ail y bu Einion ab Collwyn ym Morganwg, ac efe a ddug y cwbl o luoedd Gruffydd ab Cynan yn un a llu 'r Iarll Huw, a chydag wynt yn gyfnerth Huw Goch Iarll y Mwythig, a diffeithiaw 'r wlad a wnaethant, a lladd y maint ac oedd o bobl y Wlâd yn ffyddloniaid Gruffydd eu Tywysawc cyfiawn, yn wryw ac yn fenyw, yn wr ac yn blentyn.

Oed Crist 1097, bu Morlif aruthrawl oni foddes y morfaidir hyd fin Mor Hafren ym Morganwg a Gwent agos y cwbl, ac yn bennaf hynny Glan Mor Gorwenydd, a boddi Castell Llan Dathan a'r Tir lle ydd oedd ei le; a llawer o ddynion, ac ysgrublaid, ac ydau, a gollwyd; a'r un amser y boddes Morfa Rhianedd yn Arfon, a'r un peth yn Lloegr, a Ffrainc, a Gwerddon.

Oed Crist 1098, daeth Magnus ab Harallt Brenin Denmarch ar oddeu adynnill Coron Loegr, a dyfod i dir yn Ynys Fôn efe a ddodes gad ar faes yn erbyn Huw Iarll Caerllion a Huw Goch o'r Mwythig, a sacthu Huw Goch yn ei lygad ai ladd, a gyrru ffo ar y Ffrancod a'r Saeson, a dodi Owain ab Edwin yn Dywysawc ar Fôn a Gwynedd, ac yn niwedd y flwyddyn honno dychwelawdd Gruffydd ab Cynan a Chadwgawn ab Bleddyn i Wynedd o'r Werddon, a Gruffydd a llu o Ysgotiaid y Werddon ganthaw a ddadynnillwys Fôn; ac adennill Ceredigiawn Cadwgawn, a chyda hynny Gwlad Arwystli a Meirionydd.

Yr un flwyddyn y llas Llywelyn ab Cadwgan ab Bleddyn gan Wyr Brecheiniawc ym mhlaid Bernard Niwmarc, a gorfu ar Hywel ab Ithel o Degeingl ffoi i'r Werddon.

Yn yr un flwyddyn bu farw Rhyddmarch Escob Dewi, (mab oed ef i Sulien ddoeth Escob yr un Eglwys, a doethaf o Genedl y Cymry) heb iddaw nac ail nac eilydd, namyn ei Dâd, am ddysg a doethineb, a dwyfoldeb, a gwedi Rhyddmarch darfu addysg i ddisgyblion yn Mynyw.

Oed Crist 1099, y daeth Harri Bwmwnt i Dir Gwyr yn erbyn meibion Caradawc ab Iestin, ac a ddynnilles lawer o'r tiroedd oddiarnynt, ac a wnaeth Gastell Abertawy, a Chastell Aberllychwr, a Chastell Llan-Rhidian, a Chastell Pen Rhys, yn y man y llas Rhys ab Caradawc ab Iestin, ac ymgadarnhau yno, a dwyn Saeson o wlad yr haf yno lle cawsant diroedd, a mwya gormes o'r holl Ffrancod y bu efe yng Ngwyr.

Yn yr un flwyddyn bu farw Huw Iarll Caerllion, ac y bu gorfoleddu mawr yng Ngwynedd glywed hynny, a'r gorfoledd a beris ddigofaint i Robert ei fab, ac efe a ddaeth a liu i Arllechwedd yn erbyn y Cymry, a nhwy heb neb o'u blaen a'u gyrrasant ar ffo gyda cholled a chywilydd.

Yn yr un flwyddyn bu farw y Brenin Coch, ac y dug Harri ei fab y goron, lle nad oedd iawn iddaw hynny, achaws ei frawd Rhobert oedd hynaf, ac ettifedd o iawn a Dyled.

Oed Crist 1100 y llosged o Caerloyw a dodi hynny hefŷd ar Ruffydd ab Rhydderch ab Iestin, ar Brenin Harri a ddanfones Lu yn ei erbyn, ac yn myned dros for o Gaerodornant efe a godes Dymmhestl aruthrawl oni foddes y Llongau ar gwŷr, a gwedi hynny y gwybu'r Brenhin Harri y cam a wnaethpwyd a Gruffydd o ddodi hynny araw.

Yn yr un flwyddyn y daeth llawer o'r Cymry a ffoasant rag y Ffrancod yn ol i Forganwg, ac a gymmerasant Diroedd yn fodd i fyw, a'r Ffrancod a welasant yn oreu gadael iddynt ac ymheddu a nhwy, a'r un amser y troes y Cymry yng Ngwynedd ar y Ffrancod, a mynnu modd i fyw; a gadael iddynt a wnaethpwyd a hynny yn y diwedd a droes yn gadernyd i'r Ffrancod, ac yn wanhäad i'r Tywysogion.

Oed Crist 1101, y troes Iorwerth ab Bleddyn ab Cynfyn yn mhlaid y Brenin Harri, ac yn erbyn y Francod, gan ddiffeithiaw eu tiroedd a'u cestyll a'u gwŷr, a hynny o gynghor y Brenin Harri dan addewidion gobrwyon anrhydeddus, ond y Brenin au twyllawdd, a gwedi cael ei gyfnerth yn erbyn Iarll y Mwythig (yr hwn oedd anffyddlon i Harri,) efe a ddodes gwyn yn erbyn Iorwerth ei fod yn bwriadu brad a thwyll yn ei erbyn; a bwrw Iorwerth yng Ngharchar yn annhrugarawg ac yn anghyfiawn; a cholled mawr a fu o hynny i'r Cymry. Ynghylch yr un amser bu farw Gronw ab Rhys ab Tewdwr yn Llundain yng ngharchar y Brenin.

Oed Crist 1103, y gwnaed Castell Rhyd Cors o newydd ac yn gadarnach nag ydoedd o'r blaen, a Rhisiart Baldwin, ai cadwai yn ei feddiant, a yrrwys Hywel ab Gronw oi gyfoeth; yna gwyr y Wlâd a fynnasant Hywel yn ei ôl, a myned gydag ef yn erbyn Rhisiart, a lladd ei wŷr, a diffeithiaw eu tiroedd, a dwyn eu dăoedd, a pheth nas gallasant ei ddwyn ei losgi, yn yd, ac yn wair, ac yn dai, a phob peth a gymmerai dân a llosg, a dwyn y wlad y danaw a llywodraethu arni.

Yn yr un flwyddyn y bu farw Owain ab Edwin o nychdawd yr ysgyfeinwst, ac ynghylch yr un amser y bu farw Herwallt archesgob Llan Dâf, ac y gwnaed Gwrfau yn escob yn ei le yr hwn a beris adeilad Eglwys Llan Dâf yn ardderchoccach nac y bu erioed o'r blaen, ac a beris godi'r Eglwysydd a dorresid i lawr achaws Rhyfeloedd Iestin ab Gwrgan.

Oed Crist 1105, gwelwyd seren gynffonog ryfeddawl ei maint ai gosgedd, ac yna bu farw Henri amherawdr Rhufain, a'r un flwyddyn y lladdawdd Owain ab Cadwgawn ab Bleddyn Feuryg a Gruffydd meibion Trahaearn ab Caradawc, a'r un flwyddyn y lladdwyd Hywel ab Gronw gan y Ffrancod o dwyll Gwgan ab Meuryg ei dad maeth a rhag ofn gwyr y wlad y ffoes Gwgan ab Meuryg at fyr Rhobert ab Amon yr hwn a roddes iddaw wobr fawr o aur ac ariant am ei waith ac ai croges am ei frâd.

Yng nghylch hyn o amser y dihanges Meredydd ab Bleddyn o garchar ac ef a ddadynnilles ei gyfoeth yn ddiwrthred.

Oed Crist 1106, chwythawdd y gwynt oedd y tywod yn aruthrawl dros wyneb Tir Galedin hyd onid aeth yn for dwfn lle y buassei'r traethau a'r tywynau, a gorfu ar wŷr y Wlad honno fyned lle gallent am fywyd, a llawer o honynt a ddaethant i Loegr, ac a wnaethant drychineb mawr, a'r Brenin Harri au gyrawdd i Gymru lle tiriasant yn Nyfed yn y lle a elwir y Rhws, lle gwledychasant rai flynyddau ac yna diflannu.

Oed Crist 1107, y gwnaeth Cadwgawn ab Bleddyn ab Cynfyn wledd anrhydeddus, ac a wahoddes attaw Bennaduriaid a Bonheddigion y wlad o bob ardal yng Nghymru iddei Gastell ef yn Aberteifi ac er dangos y goreu o barch i'r gwesteion, efe a wahoddes y Beirdd ar Cerddorion Tafawd a Thant goreu a gaid yn holl Gymru ac a ddodes gadeiriau iddynt a chynadl gorchestion herwydd Defawd Gwleddau y Brenin Arthur, ac yn y wledd honno y dodes ef iddynt ddefodau, a breiniau, a rhoddion anrhydeddus, ac au gollynges yn

obredig o roddion ac yn freiniedig o anrhydedd bob un ar ddychwel ir lle yr henyw, ac yn y Wledd honno y gwelas Owain ab Cadwgawn Nest ferch Rhys ab Tewdwr yr honn oedd Gwraig Gerallt Rhaglofydd Castell Penfro ac ai serchawdd yn ddirfawr rhag ei thecced o bryd a gwedd, a bonheddicced ei moes; ac ym mhen ychydic efe a gynhullawdd attaw gyfeillion ac a weithiawdd o'u cyfnerth oni chafas ffordd i'r Castell a dwyn Nest o drais ac anfodd, ac i Bowys a hi, ac ai cadwawdd yno er a wnelai ei dâd a'r Brenin Harri er ei ddarwedd i roddi'r wraig yn ei hôl i Gerallt, ac yn gweled hynny, y Brenin a gyffroes Bendefigion Powys yn erbyn Owain, a hwy ai hymlidiasant oi wlad, a hefyd ymlid Cadwgawn ei dad o'i gyfoeth a ddiffeithiaw ei diroedd oni orfu arnaw efe ai fab Owain ffoi i'r Werddon.

Oed Crist 1108, daeth Cadwgawn yn ol o'r Werddon ac a ddodes ei hun yn nawdd y Brenin, ac a ddangoses nad oedd iddaw a wnelai yng ngwaith ei fab Owain, yna heddychu a'r Brenin er canpunt a chael meddiant ar ei gyfoeth.

Cyn pen blwyddyn daeth Owain o'r Werddon i Bowys ac a wnaeth ei ymgais er heddychu a'r Brenin ac nis gallei yna cymmodi a wnai ef a Madawc ab Rhirid ab Bleddyn, lle'dd oedd cas a gelyniaeth ryngthunt o'r blaen, ac ymdynghedu y naill a'r llall, ac yna diffeithiaw'r Wlad a drygu ffordd y cerddynt, ac nid oedd o gâr na chyngor a gai amgen arnynt.

Oed Crist 1109, y prynawdd Iorwerth ab Bleddyn ac oedd wedi bod yn hir yng ngharchar ei ryddyd ai gyfoeth er trichanpunt, a gwedi dyfod iddei gyfoeth ymlid Owain a Madawc oi Wlad a orug, a ffoi a wnaethant i Geredigion a Dyfed gan ddrygu ag eitha gallu lle'dd elynt, a dwyn y cyfan o'u hanraith i Dir Iorwerth, ac ym mhen ychydig y lladdasant rai o swyddogion y Brenin, ac achaws hynny y digiawdd y Brenin yn fawr wrth Gadwgawn nas gwrthladdei ei fab Owain, a dwyn oddi arnaw ei gyfoeth, a gwahardd ei wlad iddaw, a'r cyfoeth ei roddi i Gilbert ab Rhiccart, a chynnal Cadwgawn yn anrhydeddus yn Llundain heb ei ddodi yng Ngharchar, ac nas caffai mewn modd na mesur o'r Byd fyned yn ol i Gymru.

Ymhen ychydig wedi hynny daeth Madawc ab Rhirid o'r Werddon i Gymru a chydag ef ysgymyniaid o Wyr Gwyddelig, ac ym Mhowys y cyttrefasant yng Nghyfoeth Iorwerth ei ewythr, a phan wybu Iorwerth hynny, ymlid Madawc ai wyr oni orfu arnynt ymguddiaw mewn creigiau gogofawg, a Llywarch ab Trehaearn a gasäai Iorwerth a ymunawdd a hwynt, ac hwy a wiliasant ar Iorwerth lle ai cawsant mewn ty Car iddaw yng Nghaer Einion ac a ddaethant am ei benn ac ai lladdasant, ac a losgasant y Ty a phob peth ynddaw, a phan glybu Henri Frenin hynny, rhoddi Powys i Gadwgawn ai ddodi yn ei wlad ai gyfoeth, ac anfon at Owain i'r Werddon ac ymheddychu ac ef dan ammod iddaw draddodi Madawc ai wyr yn ei ewyllys ef fal y gwnelai gyfraith arnynt, a phan ddealles Fadawc hynny dychymmig Brad yn erbyn Cadwgawn, ac ym mhen ychydig dyfod yn ddiarwybod am ei benn ai ladd yn annhrugarawc yna, ydd aeth Owain at y Brenin ac a brynes ei dir ai gyfoeth ganthaw er gwerth canpunt, yn ychen a meirch, yna Madawc a gafas heddwch y brenin er gwerth, ac a gafas ei dir ai gyfoeth er gwerth canpunt yn arian.

Oed Crist 1110, daliwyd Madawc ab Rhirid gan Maredydd ab Bleddyn, ac a rodded i Owain ab Cadwgawn yr hwn a dynnawdd ei lygaid ef ac ai gollynges yn rydd, eithr ei gyfoeth ef y dug Owain a Maredydd yn rannedig ryngddynt.

Ynghylch hynn o amser y bu farw Rhobert ab Amon yn ei Gastell yn Newsbri o lwyr Wallgof aruthrawl, yna'r Brenin a roddes ferch Rhobert a elwid Mabli iddei fab Rhobert a gafas ef yn ordderchfab o Nest ferch Rhys ab Tewdwr, un a fu wedi hynny yn wraig Gerallt o Gastell Penfro, a'r Rhobert hwn a fynnai yrru Cyfraith y Brenin ar Wlad Forgan, a phan wybu'r Cymry hynny Ifor ab Cedifor, a elwir Ifor Bach, a ddodes i hunan yn eu blaen ac a ruthrasant am benn Castell Caer Dydd ac ai torrasant yn ddisyfyd, a dal Rhobert ai wraig a'u cau yng ngharchar oni ddodes ef yn ol i'r Cymry eu rhyddid a'u breiniau au cyfreithiau, herwydd y buant er amser Hywel Dda, a chael gan y Brenin ymrwymaw ei law ai lw na wnelai efe a Gwlad Forgan namyn caredigrwydd a gadael iddo; a mynnu arnaw na ddoded ar neb o'r Cymry na swydd na gwaith na chymmhorth heb i bob gwr a ddodid hynny arnaw ei dir yn rhydd ai fraint yn ddyledawl modd ac oedd gyfiawn i Genedl y Cymry, a gwedi cael cadarnhäad ar hynny gan Robert a'r Brenin, Ifor ai wyr a ymheddychasant a'r Brenin ac a Rhobert; a phawb adref, a phawb iddei le ai ausawdd.

Oed Crist 1111, cylchwalwys Robert Dinas Caerdyf, a thynny afon am y Dref

ac am y Castell ac ydd adferwyd Cor Illtyd, ac y gwnaeth Rhobert Consyl Arglwydd Morganwg Fonachlog Margan, a Morys De Lwndwn a wnaeth Frodordy'r Wenni.

Ynghylch yr un amser y daeth Riccart Grinfil a gawsai Arglwyddiaeth Glynn Nedd yn ol i Gymru wedi bod yn ymwel-ed a Bedd Crist, ac a wnaeth Monachlog Glynn Nedd, ac a roddes rann fawr o'i diroedd at ei chynnal, a'r rhann arall efe ai rhoddes i a fuant y perchenogion cyfiawn o Genedl y Cymry; ac efe a ddug wr gydac ef o Wlad y Ganon ai enw Lalys, yn wr gorchestol ar Gelfyddyd Saernïaeth ac efe a wnaeth Fonachlogydd a Chestyll ac Eglwysi, sef y rhai y soniwyd am danynt, ac a gafas Diroedd yn Llangewydd ac a wnaeth Dref Trelalys, ac a symudes yr Eglwys yno, a gwedi hynny myned i Lundain yn Saernïydd y Brenin Harri, a dysgu'r gelfyddyd i lawer o Gymry a Saeson.

Ynghylch hynn o amser yr oedd Owain ab Cadwgawn yn drygu yn ddiymddarwedd o'i amgylch wedi hir ymarfer a drygau hyd nas gallai ar ei galon amgen; a Gruffydd ab Cynan a fynnai adennill ei gyfiawnder o ddwylaw Huw Iarll Caerllion, a phan glybu'r Brenin hynny, cynnull Llu dirfawr o bob ardal o'r ynys a dyfod yn erbyn y Cymry; yna Gruffydd ab Cynan ag Owain a ddygasant eu gwyr au däoedd i Fynyddoedd Eryri; a gwŷr y Brenin o ddilyn arnynt a laddwyd a lladdfa dost, ac nis gellynt niwed i'r Cymry; a phan weles y Brenin hynny danfon Cenhadon at Ruffydd a dodi ammodau heddwch ac ni weles Gruffydd yn iawn yr ammodau ac a wrthneuawdd, yna Owain gan ofn y Brenin a aeth yn ei heddwch, a phan weles Gruffydd ab Cynan hynny myned a wnaeth yntau yn heddwch, ac ni chaffai gystal gan y Brenin ag a gawsai Owain, canys y mwyaf ei dwyll o Bendefigion y Cymry mwyaf ei ddawn ai anrhydedd y ar law y Brenin, a'r Tywysawg Gruffydd a gadarnhäawdd i'r iarll Huw ai wŷr eu tiredd yn Nhegeingl, ac yn Rhyfoniawc, ac ym Môn, fal nas gellid yn ei erbyn fyth gwedi hynny. Gwedi hynny ydd aeth Owain ab Cadwgawn i Lys y Brenin ac ai gwnaed yn Farchawg, a myned gyda'r Brenin i Normandi, a chael anrhydedd mawr ganddaw fal y gweddai i Fradwr oddiar law Brenin o Sais.

Oed Crist 1112, y daeth Sir Owain ab Cadwgawn yn ol o Normandi gyda'r Brenin, ac a ddaeth i Gymry, lle ydd ymofwyawdd y Brenin ac ef yn anrhydeddus.

Yr un flwyddyn y bu farw Griffri Escob Dewi, ac y gwnaeth y Brenin wr a elwid Berned Norman yn Escob yn ei le heb na chennad na chyfarch ysgolheigion y Cymry; ac yna colles escob Dewi ei fraint ac ai dug escob Caint.

Oed Crist 1113, danfoned am Ruffydd ab Rhys ab Tewdwr o'r Werddon ac ai gwnaed yn frenhin Deheubarth, drwy gyfnerth ei gydfrawd Gerallt Arglwydd Castell Penfro ac oedd briawd a Nest ei chwaer ef, a'r Brenin wedi clywed hynny a feddyliawdd ei orfod mawn pryd cyn y gallai ymluyddu, a phan wybu Gruffydd hynny myned yn nawdd Gruffydd ab Cynan a chael rhith anrhydedd ac addewidion hynaws ganthaw, ac ar fyrr wedi hynny y torres Hywel ab Tewdwr o garchar Arnwlff Iarll yng Nghastell Baldwin a myned at ei frawd yn nawdd Gruffydd ab Cynan, a phan ddaeth hynny i Glyw'r brenin danfon cenhadon anrhydeddus at Ruffydd a orug, a gosgordd anrhydeddus i arwain y Tywysawg iddei Lys yn Llundain, a gwedi ei arfolli dros amser yn ardderchawc, a dodi rhoddion anrhydeddus iddaw yn aur ac yn ariant ac ym meini gwyrth, re ddangosos y Brenin ei feddwl i Ruffydd, ac enbytted iddaw ef ac i wlad Wynedd roddi cyfnerth a chefnogaeth i Ruffydd ab Rhys, ac addaw i Ruffydd ei diroedd yn rhydd ai fraint yn ei ewyllys ei hunan, a chyfnerth a fai achaws iddaw os efe a ddanfonai y naill ai Gruffydd ab Rhys yn Garcharor iddaw neu ynteu ei benn ef, a Gruffydd ab Cynan a ymdynghedawdd a'r Brenin y gwnai ef hynny, ac annhrugarocced oedd ei waith, a gwarth used ei wneuthur, ac ef yn ei ddiawd yn Llys y Brenin a ddywedawdd y cyfan yng nghlyw Car i Gerallt ac a ddanfones attaw gennad cyflym, a gwedi dangaws hynny i Nest chwaer Gruffydd ab Rhys hi a ddanfones genhadon brysfawr at ei brodyr yng Ngwynedd, a hwy a ddodasant eu hunain yn nawdd yr Eglwys, a phan ddaeth Gruffydd ab Cynan yn ol i Wynedd gofyn a orug am Ruffydd ab Rhys ai frawd Hywel, a phan glybu efe eu bod yn nawdd yr Eglwys yn Aberdaron, danfon Llu er eu cyrchu attaw, a'r Eglwyswyr ni adawent i hynny fod, na thorri nawdd Duw a'i Saint. a thra bu felly'r ymdynny rhwng yr Eglwyswyr a swyddwyr y Tywysawg, daeth Llong o Ddyfed hyd yn Enlli, a morwyr a drugarhäent wrth Ruffydd ab Rhys ai dug at y Llong yn Enlli, ac yna diane o Ruffydd ab Rhys ai Frawd at ei enedl yn Ystrad Tywi.

Gwedy dyfod o Ruffydd ab Rhys hyd yn ei wlad, sef Ystrad Tywi, dechreu ymluyddu, a gŵŷr ei genedl ac ai carai yn ymnifeiriaw tuag attaw, a chan ossawd ar genedl y Saeson, eu diffeithiaw a'u torri a diffeithiaw terfyneu Dyfed a Cheredigiawn, yna danfones y Brenin Owain ab Caradawc, ac Owain ab Rhydderch, a Rhydderch ab Tewdwr, ac eraill ai carai ac arch iddynt wrthladd Gruffydd ab Rhys, a Gruffydd a aeth yn erbyn Castell Abertawy a wnaethai Harri Bwmwnt ac a losges oi gylch, ac nis gallawdd ei dorri eithr diffeithiaw Tir Gwyr, a dwyn ysbail ddirfawr hyd yn Ystrad Tywi, yna myned i'r Cantref Bychan ai diffeithiaw, a gwarchae Castell Llanymddyfri, eithr Meredydd ab Rhydderch ab Caradawc ai differes yn gadarn, ac nis gallai Rys amgen na llâdd rhai o'r castellwyr, a llosgi tai, a diffeithiaw tiroedd Richard De Pwyns, yna myned yn erbyn Castell Caerfyrddin ai faluriaw a llosgi'r Dref yn ulw, a dwyn ysbail fawr hyd yn Ystrad Tywi.

Yn y flwyddyn honno bu marwolaethau trymion ar y Saeson achaws echryshaint, ac nis gallai'r Brenin gael gwyr wrth ei raid, a haint hefyd ar yr anifeiliaid onid aeth prinder ymborth yn drwm ar Loegr, ac nid felly yng Nghymru, a hynny a fu gyfnerth i Ruffydd ab Rhys, ac yn hynny o amser daeth y Fflandrysiaid yr ail waith i Loegr achaws y Mor yn diffeithiaw eu tiroedd lle y torres Morlif y Tywyneu flynyddau o'r blaen, a'r Brenin ac eisieu gŵŷr arnaw yn erbyn rhuthrau Gruffydd ab Rhys, a ddanfones at ei gastellwyr, ai swyddogion, a'r Ffrancod, a'r Cymry, ai carai, ac arch iddynt arfoll y Flandrysiaid a dodi modd i fyw iddynt yn ammod iddynt fod yn wyr cad a gossawd wrth achaws y Brenin ai ffyddloniaid, ac felly y bu, a'r Dieithraid hynny a gawsant y Rhws yng Ngwlad Penfro Dyfed, ac a wledychasant yno yn wyr ffydd i'r Brenin, ac efe a ddodes Saeson yn eu mysg er dysgu iaith y Saeson iddynt a'r awr honn Saeson ydynt, ac yn ormes Dyfed a Deheubarth, achaws eu twyll a'u celwyddoccrwydd, yn anad neb a wle lychant o fewn i derfynau Ynys Prydain.

Oed Crist 1114, y dug Ruffydd gastell Cedweli oddiar Wiliam De Lwndwn, ac a ddiffeithiawdd ei gyfoeth, ac a ddug ysbail fawr o'r Wlad honno, yna daethant Benedefigion ei genedl attaw o Geredigiawn nid amgen Cadifor ab Gronw, a Hywel ab Idnerth a Thrahaearn ab Ithel, a llawer eraill o wyr dewisawl yn eu gosgorddau, a thrwy gyfnerth y rhai hynny yr ennilles Gruffydd ab Rhys lawer o diroedd a chyfoeth ei Dâd, a thorri llawer o gestyll, a dwyn ysbeiliau mawrion, a phan glybu'r Brenin hynny danfon a orug at Owain ab Cadwgawn a elwid yn Neheubarth Owain Fradwr, a Llywarch ab Trehaearn ab Ithel ac addaw rhoddion a breiniau anrhydeddus iddynt am fyned yn erbyn Gruffydd ab Rhys, ac yna myned wrth arch y brenin a wnaeth Owain a Llywarch; a phan wybu Gerallt Rhaglofydd Castell Penfro ddyfod Owain y Geredigiawn daeth ar gof iddaw a wnaethai Owain am Nest ei wraig, a bwriadu dial hynny o Sarhäad, a myned efe ai wyr am benn Owain ai wŷr, a chynn nemawr o ossawd y lladdwyd Owain a saeth, ac fal hynny y darfu iddaw am a wnaeth o ddrygau i Genedl y Cymry, fwy nag a wnaethpwyd erioed o'i flaen gan y gwaethaf o fradwr a wybuwyd erioed am danaw: o honaw ef y bu dechreu Gwylliaid Mawddwy, a geffir fyth yn anrheithiaw gwlad ym mhell ac agos.

Ynghylch hynny o amser cyrchawdd Gruffydd Ceredigiawn ac a dorres Gastell Porth Gwythain ac a laddes y castellwyr, yna goresgyu yr holl wlad o'i amgylch hyd ym Mhenwedic, yna ynnill Castell Ystrad Peithell. Gwedi hynny ymossawd am Gastell Aberystwyth lle lladdwyd llawer o'i wŷr o dwyll, ac y gorfu arnaw ymchwelyd yn ei golled.

Yr un flwyddyn y gwelwyd goleuni rhyfedd yn yr Ogleddwybr ar hyd Nos.

Oed Crist 1115, aeth Rhobert Consyl yn erbyn Gruffydd ab Rhys a phan ddaethant hyd yn Ystrad Tywi efe a golles agos ag oedd yn ei Lu o'r Cymry, y rhai ai gadawsant ef am na fynnent fyned ym mhlaid Estron yn erbyn Gwr o dywysawg cyfiawn o Gymro diledryw, yna Rhobert a ddychweles adref hyd yn Newsbri, ac ni ymddiriedai efe aros yng Nghastell Caerdŷdd am y gwyddai nas cerid ef yn y wlad honno, achaws y chwennychai newid Defodau Cenedl y Cymry.

Yn yr un flwyddyn y bu ymrysson rhwng Hywel ab Ithel a Rhirid ab Bleddyn, a gynhelynt Rôs a Rhyfoniawc, a Llywarch ab Edwin, a phan nas galled cymmod iddynt anfon a orug Hywel at Feredydd ab Bleddyn a meibion Cadwgawn ab Bleddyn am Gyfnerth, a dyfod a wnaethant a phedwar cant o Wyr Meirch hyd yn Nyffryn Clwyd, ac yno y bu ymladdfa dost yn y llas goreuon Gwyr Gwynedd a Phowys, ac o'r cyfnerth a gafas y gorfu Hywel ar ei elynion, ac yno y llas

Llywarch, a Rhirid a ffoes, a chyn nemawr y bu farw Hywel achaws clwyf a gafas ef yn yr ymladd; yna'r ymchweles meibion Cadwgawn i Wlad Feiriawn, a dwyn ganthynt ysbail ddirfawr, yn yd a gwartheg.

Oed Crist 1116, y bu llifeiriant aruthrawl yn Loegr am wyl y nadolic ac y boddes llawer o'r ysgrublaid, ac y bu drudaniaeth a'r ymborth mewn llawer mann achaws hyny, ac y daeth Saeson lledragar i ysbeiliaw Gwlad Gymru.

Oed Crist 1118, daeth Harri Frenin i Bowys a Llu cadarn ganthaw yn erbyn Meredydd ab Bleddyn a meibion Cadwgawn, sef y rhai hynny Einion, a Madawc, a Morgan, a phan glybuant, danfon at Ruffydd ab Cynan ac erchi Cyfnerth ganthaw ac nis caent hynny canys ni thorrai Ruffydd heddwch y Brenin, ac ni chaent ei nawdd, a phan wybuant hynny ymgaloni yn gadarn, gan nas gellynt amgen, ac yn erbyn y Brenin a gyrru ffo arnaw a lladd llawer oi wŷr yna, heddychwyd ryngddynt a'r Brenin yr hwnn a ymchwelawdd yn ei ol yn ei golled, ac y cafas Bowys lonyddwch dros ychydig amser, ond nid rhy hir.

Oed Crist 1121, bu farw Einion ab Cadwgawn a chymunaw ei dir ai gyfoeth i Faredydd ei Frawd, eithr Meredydd ab Bleddyn ei ewythr, ac Ithel ab Rhirid ab Bleddyn ei gefnder a ddugasant ei Diroedd Cyfoeth oddiarnaw, a phan glybu Gruffydd ab Cynan y modd y bu hynny, danfon Cadwallawn ac Owain ei ddau fab a llu cadarn i Feirion er gyrru cyfiawnder, a dodi yn ol i Feredydd ab Cadwgawn ei Nai ei gyfoeth ai Diroedd, a gorfüant Gadwallawn ac Owain ar Feredydd ab Bleddyn, ac adynnill y wlad i Feredydd ab Cadwgawn, a diffeithiaw Tiroedd Llywarch ab Trehaearn yn greulon am gyfnerthu Meredydd ab Bleddyn.

Yn yr un flwyddyn ymheddychwyd rhwng y Brenin Harri a Gruffydd ab Rhys, a chaniadhäu iddaw ei Gyfiawnder ai Dir yn rhydd, sef Ystrad Tywi, a Chantref Penwedic yng Ngheredigiawn, a Chantrefydd Caerwedros a'r Cantref Bychan, a Chaethinawc, a Chaeaw, a Myfennydd, a Thiroedd eraill; eithr y Brenin a weles eu bod y Tiroedd yn ammhennodawl eu terfyneu modd y caffai achaws ban fai da ganthaw i achwyn ar a wnelai Ruffydd fal y gwelwyd yn y diwedd.

Oed Crist 1122, y llas Ithel ab Rhirid gan ei ewythr Meredydd ab Bleddyn, a Chadwallawn ab Gruffydd ab Cynan a dynnawdd Lygaid ei ewythredd Gronw, Rhirid a Meilir, meibion Owain ab Edwin, a gwedi hynny eu diaelodi, ac ym mhen ychydic wedi hynny efe au lladdawdd. Ac ynghylch yr un amser y lladdawdd Morgan ab Cadifor Meredydd ei frawd ai law ei hun.

Oed Crist 1124, bu farw Meredydd ab Bleddyn yn ei henaint peth nid mynych y gwelid ar Deulu Bleddyn ab Cynfyn. Yr un flwyddyn carcharwyd Meredydd ab Llywarch yn drachyfiawn gan Owain ab Gruffydd ab Cynan, achaws iddaw dynnu llygaid meibion Griffri, eithr efe a dorres ei garchar ac efe a ddaliwyd ac a dynnwyd ei lygaid gan feibion Meuryg ab Griffri, ac a ddoded ar benn mynydd ynial lle y bu farw o newyn a rhyndod, ac fal hynny y dialwyd arnaw am ei greulonder.

Oed Crist 1125, y tynnawdd Ieuan ab Owain lygaid ei ddau frawd, mal ydd arferid yn Nheulüoedd Gwynedd a Phowys.

Oed Crist 1126, lladdawdd Llywelyn ab Owain Iorwerth ab Llywarch, ac yn ebrwydd wedi hynny y tynnwyd llygaid Llywelyn gan Feredydd ab Rhirid, ac yng nghylch yr un amser y lladdwyd Ieuan ab Owain gan yr un Meredydd, ebwydd wedi hynny y lladdwyd Llywarch ab Madawc gan Feuryg ei gefnderw, a chynn hir o amser wedi hynny y tynnwyd llygaid Meuryg ac ai dispaddwyd, a hynn herwydd arfer eu Teuluoedd.

Yng nghylch yr un amser Morgan ab Cadwgawn, ac efe wedi bod a llaw gref yn y gwaith o ladd a dilygeidiaw, a gymmeres attaw ei gydwybod, ac yn ei edifeirwch a aeth ym mhererindawd i Gaersalem; ac ar ei ddychwel bu farw yn Ynys Suprys yn. Mor Groeg.

Oed Crist 1129, y llas Iorwerth ab Owain gan Gadwallawn ab Gruffydd ab Cynan, yna Einion ab Owain a fynnai ddial angau ei frodyr ar Gadwallawn, ac efe a Chadwgawn ab Gronw ab Idnerth yu gwybod y lle y delai Gadwallawn yn Nanheudwy, a aethant yng nghynllwyn, a phan ddaeth ef y ffordd honno, rhuthraw arnaw ai ladd, ai roddi'n fwyd i Gwn.

Oed Crist 1130, y dodes y Ffrancod gwyn at y Brenin yn erbyn Gruffydd ab Rhys, yna'r Brenin a roddes orchymyn difreiniaw Gruffydd a dwyn ei gyfoeth a'i diroedd oddiarnaw, a phan ddanfones Gruffydd i wybod achaws y cwyn ni chai efe gan neb ei ddangaws; yna Gruffydd a gynhullawdd ei genedl ai luoedd, ac amddiffyn ei hunan ai wlad, ac yn gyfnerth iddaw yd aeth Hywel ab Meredydd o wlad Frecheiniawc a llu cadarn, a myned yn erbyn y Ffrancod a'r Saeson a ddaethant i dir Rhys, a gyrru ffo arnynt, ac ni fynnai

Rys lladd lle y gallai amgen, a gwedi gyrru ffo ar ei elynion Gruffydd a ddanfones gennadon anrhydeddus yn nawdd Daniel ab Sulien Escob Dewi i wybod achaws y cwyn a ddodasid arnaw, ac ni chai atteb gan y Brenin, eithr efe a gafas lonydd dros amser wedi hynny.

Oed Crist 1133, bu farw Gwrfan Escob Teilaw yn Llan Dâf, gwr doeth haelionus ydoedd, ac efe a roes feddiannau anrhydeddus i Eglwys Llan Dâf ac i'r Monachlogydd a ddrygesid yn Rhyfel Iestin ab Gwrgan a Rhobert ab Amon. Gwr oedd a waharddai bob drwg-ddefawd ac annwyfoldeb, ac a ddyddiai yn drywyngar ym mhob ymrysonau, ac achaws ei waith felly y cadwed fwy o heddwch yn ei blwyf nac a gaid yn un rhan arall o Gymru. Yn ei amser ef y gwnaethwyd Eglwys Llan Dâf yn fygedicach nac y bu erioed cyn no hynny.

Yr un flwyddyn y bu farw Rhobert fab y Brenin Bastardd yng Nghastell Caer Dydd ac ai claddwyd yng nghaerloyw wedi bod yng ngharchar yng Nghaer Dydd un mlynedd ar bymtheg ar hugain, a'r un flwyddyn y llosged y rhan fwyaf o Dref Caerloyw gan wylliaid o Saeson a ysbeiliwyd o'u tiroedd gan y Brenin coch lle y gwnaeth ef y Gelliwig newydd yn Lloegr.

Oed Crist 1134, bu farw Harri Frenin yn Ffrainc ac y gwnaethpwyd Ystyffan ei Nai yn frenin yn ei le, a bu llonyddwch y flwyddyn honno yng Nghymru.

Oed Crist 1135, y Brenin Ystyffan a ddanfones at Ruffydd ab Rhys i orchymyn iddaw ddyfod attaw yn ddiodor i atteb cwynion a roesid arnaw gan y Ffrancod, a Gruffydd heb wybod achaws cwyn a gynhullawdd ei wŷr, ac ymluyddu, ac yn gyfnerth iddaw daeth Cadwaladr ac Owain meibion Gruffydd ab Cynan, a myned yn ddisyfyd yn erbyn ei elynion yng Ngheredigiawn, a lladd aneirif o'r Ffrancod a'r Saeson, a thorri cestyll iddynt, a dwyn ysbail fawr hyd nas gellid bwyd ac ymborth iddynt ymgynnal yn ei erbyn ef, ac attynt y daeth Hywel ab Meredydd a Rhys ab Madawc ab Idnerth a Llu Mawr, yna ydd aeth Gruffydd i Aberystwyth ac a dorres y Castell yn garnedd, a gwedi hynny lladdasant y Ffrancod a'r Saeson a gadwent Geredigiawn a Dyfed, a'u gyrru ar ffo dros for i Loegr, a dodi'r Cymry a ddoded allan o'u Tiroedd gan y Dieithraid yn ol yn eu Trefydd a'u Tiroedd, a'r Ffrancod a'r Saeson ar eu ffo rhag Gruffydd ab Rhys gerllaw Glynn Nedd, a daeth meibion Caradawc ab Iestin yn eu herbyn, ac au lladdawdd dros dair mil o naddynt, a gyrru ffo ar eraill, ac ychydic o Saeson o ddianghasant i wlad Gwyr lle y cawsant nawdd y Cestyll a wnaethai Harri Bwmwnt yno.

Gwedi adynnill ei diroedd fe wnaeth Gruffydd ab Rhys Wledd anrhydeddus yn Ystrad Tywi; lle y gwahoddes efe attaw bawb a ddeuant yn heddwch o Wynedd, a Phowys, a Deheubarth, a Morganwg, a'r Mers, a pharottoi pob moethus o fwydydd a diodydd, a phob ymryson Doethineb, a phob diddanwch Cerdd arwest a cherdd dannau, a chroesawi prydyddion, a cherddorion, a chynnal pob chwaeruon hud a lledrith, a phob arddangos, a phob campau gwrolion, ac i'r wledd honno y daeth Gruffydd ab Cynan a'i feibion, a llawer o'r Pendefigion ym mhob Ardal yng Nghymru, a chynnal y Wledd dros ddeugain niwarnawd; ac yna gollwng pawb tua'u cartrefi, a dodi rhoddion anrhydeddus i a'u dirperynt o Feirdd, a Cherddorion, a Doethion, a Champusion o bob rhyw.

Gwedi'r Wledd honno fe ymroddes Gruffydd ab Rhys i alw attaw y Gwyr Doethion a'r Ysgolheigion, a myned yn eu cynghor, a dodi Trefn a Chyfraith ar bawb o fewn ei gyfoeth, a threfnu Llys ym mhob Cantref, a Rhaglys ym mhob Cwmmwd, a'r un peth a wnaeth Gruffydd ab Cynan yng Ngwynedd, a drwg y bu gan y Ffrancod a'r Saeson weled y pethau hynny, a dodi cwyn yn erbyn y ddau Dywysawg at y Brenin Ystyffan a wnaethant, ac am nas gwyddai Ystyffan a fai oreu ni ddodes ef atteb i'r cwyneu.

Oed Crist 1136, bu farw Gruffydd ab Rhys y gwrolaf, a'r doethaf, a'r trugaroccaf, a'r haelionusaf, a'r cyfiawnaf, o'r holl Dywysogion, a mawr y bu'r galar o'i farw, a Rhys ei fab a gymerth ei le, ai fam ef oedd Gwenllian merch Gruffydd ab Cynan.

Yr un flwyddyn bu farw Gruffydd ab Cynan Tywysawg Gwynedd wedi goresgyn o honaw Wynedd tros chwech a deugain o flwynyddoedd, a galarus pawb yng Ngwynedd ar ei ol, can ni chaffad er yn hir o ameserau cyn noc ef ei gystal o Dywysawg yn y wlad honno o'i Genedl, sef Gwehelyth Rhodri Mawr.

Oed Crist 1137, Owain ab Gruffydd ab Cynan, a elwir Owain Gwynedd, a ddechreuawdd rioli Gwynedd, ac efe a ddug gyrch yn erbyn y Ffrancod a'r Saeson yng Ngheredigiawn a Dyfed, ac a dorres Gestyll Ystrad-Meuryg, a Chastell Pont Ystyffan a wnathai'r Brenin, a Chastell Caerfyrddin, a llosgi'r Dref ai hysbeiliaw, a dwyn anrhaith ddirfawr ganthaw i Wynedd.

Oed Crist 1138, y llas Cynfrig ab Owain Gwynedd, gan Fadawc ab Maredydd ab Bleddyn ab Cynfyn.

Yn yr un flwyddyn y bu ymryson rwng y Brenin Ystyffan a'r Tywysogion Seisnig, a'r Brenin a ddug warchae ar Gaer Lyncol lle yddoeddynt y Tywysogion yn eu llawn gynghyd, yna Rhobert Consyl a ddug Lu Mawr o'r Cymry yn erbyn y Brenin yn gyfnerth iddei chwaer Mawd yr honn oed briawd ac ymmherawdr yr Almaen, a chydac ef Rhanwlff Iarll Caerllïon a llu o wyr Rhyfoniawc a Thegeingl, a Gilbert Iarll y Clâr a llu mawr o Wyr Dyfed, a llawer o Bendefigion Ffrancod a Saeson, a gwarchae ar y Brenin, a'i ddal, a'i ddodi yng Ngharchar, a goreu am wroldeb y gwelwyd y Cymry; ac yn yr ymladdfa yno y cymmerth Iorwerth ab Owain ab Caradawc y blaen ar Iarll y Clâr, a digiaw'n fawr ei lid a wnaeth yr Iarll, ac efe'n gweled Iorwerth wrtho i hunan yn ymyl afon yn pysgotta, fe aeth attaw ac a roddes iddaw Fonclust, gan ei alw yn Gymro gwladaidd na wyddai fonheddigeiddrwydd, yna Iorwerth a darawawdd yr Iarll ai ddwrn oni bu farw, a phan glybuwyd hynny yng Nghymru myned a wnai'r Cymry yn erbyn Castell meibion Ychtryd, (lle ydd oedd yr Iarlles wedi ffoi o Gastell Caerfyrddin,) a gyrru ffo ar y Castellwyr, a hwy ai ysbeiliasant ac a'i llosgasant; yna y dug Owain ab Gruffydd holl Geredigiawn y danaw, ac a fynnes Gêd ganthynt.

Oed Crist 1140, y llas Hywel ab Meredydd ab Rhydderch, Arglwydd y Cantref Bychan, gan y Ffrancod, ac yng nghylch yr un flwyddyn y llas Hywel ab Meredydd ab Bleddyn gan ei genedl ei hun, ac y bu ymryson rwng Hywel a Chadwgawn meibion Madawc ab Idnerth, ac y lladdasant y naill y llall.

Oed Crist 1142, y bu ymryson rwng Anarawd ab Gruffydd ab Rhys a Chadwaladr ab Gruffydd ab Cynan, Anarawd oedd briawd a merch Cadwaladr, ac efe a fynnai gyfnerthu Rhys ab Gruffydd ei frawd, ac ni fynai Gadwaladr hyny; a geiriau digofus a fu ryngthynt oni wanes Gadwaladr Anarawd yn ei ais ag y bu farw, a phan glybu Owain y Tywysawc hynny, myned yn ei ddig a llu mawr hyd yng Ngheredigion a gyrru ffo ar Gadwaladr dros y mor i'r Werddon, a dwyn Aberystwyth ai holl diroedd; eithr Cadwaladr a ddug gydac ef o'r Werddon Lu dirfawr hyd yn Arfon, a dodi Cad ar Faes yn erbyn Owain, ac ynteu a gynnullawdd ei wŷr, eithr Hywel ab Gruffydd ab Cynan, yn gweled ei frodyr ar ddarpar ymladd, a aeth ryngddynt, ac a weithiawdd arnynt yn y cyfryw fodd onid ymheddychasant, a phan welei'r Gwyddyl hynny, ac na chant ysbail, dal Cadwaladr, ac nis gollyngynt yn rhydd oni thalawdd ef iddynt ddwyfil o wartheg, a gwedi cael hynny yn heddwch hwy a ddygasant lawer yn anrhaith, yna myned yn eu herbyn a wnai Owain, a'u lladd, a dwyn oll a feddynt o'r gwartheg a phob peth arall.

Oed Crist 1143, diffeithiawdd Rhanwlff Iarll Caerllion Faelienydd ac ai dug y danaw, ac a wnaeth Gastell Elfael y Chastell Colunwy.

Oed Crist 1144, y diffeithwyd Aberteifi a Cheredigiawn, ac y lladdwyd llawer o'r Ffrancod a'r Saeson, ac a ddynillwyd y wlad honno gan Hywel a Chynan meibion Owain Gwynedd.

Oed Crist 1145, y cyweiriawdd Iarll y Clâr Gastell Caerfyrddin a Chastell Meibion Uchtryd.

Yr un flwyddyn y bu farw Sulien ab Rhyddmarch mab maeth Eglwys Llanbadarn Fawr, doethaf ei gynghor a dwyfolaf ei ddysg o'r holl Eglwyswyr ym mhlwyf Dewi; a diflinaf ei waith tra fu byw er attal drwg a chreulonder.

Yn yr un flwyddyn y dynilles Rys ab Gruffydd a Chadell ei frawd Gastell Dinefwr, a Chastell Caerfyrddin, ac ni lladdai amgen nag a gaffai yn arfawc yn ei erbyn. Gwedi hynny ynnillawdd ef Gastell Llanstyffan ac a laddes lu mawr o'r Ffrancod, a'r Saeson, a'r Fflandrysiaid a ddaethant yn ei erbyn. Yna mewn llawn ddigofaint y gelynion a gynnullasant lu dirfawr ac ymossawd ar y Castell yn dra ffyrnig, ond Meredydd ab Gruffydd, gwr doeth a chalonawg a'u gyrrawdd yn eu gwrthol gan eu lladd yn dost, oni orfu arnynt ymollwng o'r Gwarchau.

Yn un flwyddyn y dug Owain Gwynedd Gastell yr Wyddgrug ac a laddes luoedd dirfawr o'r Saeson a fynnynt ei gynnal ai amddiffyn, ac efe ai torres i'r llawr, lle nis gallai neb cyn no hynny ei ynnill.

Ynghylch hynn o amser ydd aeth llawer o Saeson, a niferoedd mawrion o'r Cymry ym mhererindawd i Gaer y Salem oni weled diffyg yn fawr o fod hebddynt.

Cylch yr un amser y dodes Robert Consyl fodd i wyr ieuainc ddysgu creffteu a chelfyddydeu, ac a ddug Athrawon o Ffrainc, a chyn no hynny crefftwr pob Gwr iddaw ei hunan yng Nghymru namyn y creffteu breiniawl; sef Gofaniaeth saerniaeth, ac ysgolheigiaeth y rhai hynny.

Oed Crist 1146, ynnilled Castell Gwys gan Gadell a Rhys, a Meredydd, meibion Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr, a Hywel ab Owain Gwynedd yn gyfnerth iddynt, ac efe a wnaeth Beiriannau cyrfin a dorrai muriau mewn modd rhyfeddawl, ac a fwriai gerrig mawrion i'r Castell ac o hynny ei ynnill.

Yr un flwyddyn y diffeithiwyd cyfoeth Cadwaladr ab Gruffydd gan ei neieint ac aethant am benn Castell Cynfael a gadwid tros Gadwaladr gan Ferfyn Abad y Ty Gwynn ar Dâf yr hwn ai amdiffynawdd yn wrol, ac ni chaid er na gwerth na gwobr ganthaw ollwng y Castell iddynt, achaws hynny maenu'r Castell oni thorrwyd ef i'r llawr, a lladd y Gwŷr oll ac oedd ynddaw namyn Merfyn, a hwnnw ni leddynt gan mai mab maeth Eglwys ydoedd, eithr ei ellwng ar ddianc, yna diffeithiaw tiroedd rhai a fynnynt eu gwrthladd, a dwyn ysbail fawr.

Yr un flwyddyn y bu farw Rhobert Consyl Tywysawg Morganwg ac Iarll Caerloyw, Gwr yn bennaf o neb a gynhelis Ryfel yn erbyn y Brenin Ystyffant, a diffeithiaw ei diroedd, fal nas cafas y Brenin nemmawr o Lonyddwch ganthaw.

Yr un flwyddyn y bu farw Uchtryd Escob Llan Dâf, gwr mawr ei ddysg a'i ddwyfoldeb, efe a wnaeth Drefn ar y Suliau a'r Gwyliau, a Gwyliau Mab Sant, a'u cynnal yn olychwydawl lle nas gwnelid hynny o fodd ac arfer; ac yn ei le ef y gwnaed Nicolas ab Gwrgant yn escob yn ei le ef.

Oed Crist 1147, y bu farwolaethau mawrion yng Nghymru, achaws haint, a bu farw Berned Escob Dewi, a Dafydd fab Gerallt a wnaed yn Escob yn ei le.

Yr un flwyddyn y bu ymrysonau rhwng wyrion Iestin ab Gwrgan a Wiliam ab Rhobert Consyl, ond heddychwyd rhyngthynt drwy athrywyndeb Nicolas Escob Teilaw, ac y doded braint ffair a marchnad ym mhob Arglwyddiaeth; ac nas gellid caeth o Gymro Dyledawg hyd nas profid arnaw gwyn galanas, gwedi hynny ymlonyddu a wnaethant y Cymry, a llawer a ddaethant wedi hynny o Drefn i Forganwg i wladychu achaws diogelwch a gaid yno rhag anghyfraith y Ffrancod yn Nyfed, a Cheredigiawn, a mannau eraill.

Oed Crist 1148, gwnaethpwyd Castell Llan Rhystyd gan Gadwaladr ab Gruffydd, ac y dodes y Castell a chyfoeth attaw i Gadwgawn ei fab, ac ni wnai hwnnw a fai iawn yn ei wlâd, achaws ydd aethant ei wyr ef at Hywel ab Owain Gwynedd a damunaw arnaw gymeryd eu blaen, ac y rhoddent gyfoeth Cadwaladr ar ellwng iddaw, a bu fal hynny.

Oed Crist 1149, cyweiriawdd Cadell ab Gruffydd ab Rhys Gastell Caerfyrddin yn drachadarn, wedi hynny myned yn erbyn Cedweli a diffeithiaw'r wlâd, a dwyn ysbail fawr; yna ymgyfunaw Gwyr ac ymgais ai frodyr Meredydd a Rhys, a myned yng Ngheredigiawn, ac ynnill y Wlâd is Aeron a'r holl diroedd a feddai Hywel ab Owain, a gwedi gossawd hir a blin am Gastell Llan Rhystyd ei ynnill a lladd yr holl Gastellwyr ynddaw, ac yna ynnill Castell Ystrad Meuryg ai gyweiriaw a dodi Castellwyr ynddaw, ac yna ymchwelyd i Ystrad Tywi a chanddynt ysbail fawr dros benn 'yn ydoedd, a gwartheg, a däoedd eraill.

Oed Crist 1150, Cadell ab Gruffydd, ac ynteu yn hely yn Nyfed, a rhai o Saeson Gwyr yn gwybod yr amser y byddai yno, dodasant Gynllwyn er ei ladd, a gwedi dyfod arnaw, a gyrru ffo ar ei gyfeillion, rhuthrasant yn ei erbyn, eithr efe yn wr glew a chadarn a ymddiffynawdd ei orsaf ac a laddawdd rai o'i elynion, a gyrru ffo ar y lleill, eithr efe a gafas glwyf trwm, a nychu'n flin o'i achaws yn hir o amser, a phan welassant hynny ei frodyr Meredydd a Rhys, cyrchu Gwyr a'u lluoedd, a galw am y cynllwynwyr, a phan nas cânt, ymossawd ar y wlad ai diffeithiaw, a thorri Castell Aber Llychwyr yn garnedd, a llosgi Castell Llan Rhidian, a dwyn ysbail fawr ganthynt i Gastell Dinefwr, a chadarnhâu'r Castell hynny, a dodi Castellwyr ffyddlon a gwybodus ynddaw.

Ynghylch yr un amser daeth Rhanwlff Iarll Caerllion a Llu dirfawr o Saeson a Ffrancod i Wynedd, ac Owain ab Gruffydd yn ei erbyn a llu o'r ffyddloniaid, ac yn gyfnerth i'r Iarll Madawc ab Meredydd Tywysawg Powys, a bu Cad ar faes, ac yng Ngwaith Cwnsyllt y gorfu Owain ar ei elynion, a'u lladd yn aruthrawl, a gyrru ffo ar y rhai a weddilliwyd.

Cylch yr un amser y mynnes Nicolas ab Gwrgan, Escob Teilaw, adgyweiriaw nawdd yr Eglwysi a dorred er yn amser Iestin ab Gwrgan, ac y doded yn gywair eu nawdd cyssefin i Eglwysi Llan Daf, a Llan Carfan, a Llan Illtud, a Llan Doche, a Llan Ffagan, a Chaer Llion, a Chaer Went, ac i'r Eglwysi eraill herwydd a fu gynt; ac y deddfwyd Nawdd a weddai i'r Mynachlogydd newyddion, hyd onid aeth Rhan fawr o Blwyf Teilaw yn Nawdd yr Eglwysi, ac y bu achaws hynny lonyddwch

ym Morganwg yn amgen nac un mann arall yng Nghymru, a gwedi hynny adgyweiriwyd yr Eglwysi a fwriesid i lawr, ac y gwnaed newyddion lle nad oedd o'r blaen, ac o hynny gwell yn trin eu tiroedd, ac nid cystal yn rhyfel, Gwyr Morganwg a Gwent.

Oed Crist 1151, y tynnes Owain Gwynedd lygaid Cunedda fab Cadwallawn, ei Nai fab ei frawd, ac ai dyspyddawdd, a chylch yr un amser y torres Gadwaladr ab Gruffydd ab Cynan y Carchar ai doded ynddaw gan Hywel ab Owain ei Nai, a myned i Fôn, ac efe a ddug rann fawr o'r ynys y danaw, eithr Owain ei Frawd wedi clywed hynny a gynhullawdd lu yn ei erbyn, a chan fyned i Fôn efe ai gyrrawdd ar ffo, ac a ddug yn ôl yr Ynys iddaw ei hun.

Cylch yr un amser yr aeth Meredydd a Rhys, meibion Gruffydd ab Rhys, yn erbyn Castell Penwedic, ac ai ynnillasant oddiar Hywel ab Owain wedi cynnal y gwarchae yn hir ac yn flin, gwedi hynny ynnillasant Gastell Tinbych yn ddisyfyd, ac a laddasant y Castellwyr, canys i'r Castell hwnnw y ffoesynt y rhai a gynllwynasant er lladd Cadell ab Gruffydd eu brawd. A phethau'n myned fal hynn fe ddanfones Rhys at Forgan ab Caradawc ab Iestin ei gefnder, (canys Gwladys ferch Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr oedd Gwraig Caradawc, a Mam Morgan.) ac erchi cyfnerth ganthaw ac y gyrrynt y Ffrancod a'r Saeson o bob Gwlad yng Nghymru, a danfon yr un neges at Fadawc ab Meredydd Tywysawg Powys, ac nis caffai hynny ar law un o naddynt; yna ydd aeth Rhys i Gyfeiliawc ac ai diffeithiawdd yn flin, a dwyn ysbail drom oddiyno; a Meredydd a ddug ei Lu yn erbyn Morgan ab Caradawc i Forganwg, ac ymossawd am ei Gastell yn Aberafan, ai faluriaw, a dwyn ysbail fawr; eithr Morgan ai Wyr a ffoasant, ac a ddodasant eu hunain au Gwŷr yn nawdd yr Eglwysi a'r Monachlogydd, ac yn nawdd Wiliam ab Rhobet Tywysawg Morganwg.

Ynghylch hynn o amser bu farw Einion Mebydd Celynoc Fawr, doethaf o ysgolheicion Gwynedd; efe a gynghorai ddoethineb, a chyfiawnder, a thrugaredd, ond bychan y caffai o'i gynghor yn y Wlâd honno.

Oed Crist 1152, bu farw Rhanwlff Iarll Caerllïon, gelyn cadarnaf Owain Tywysawg Gwynedd.

Yn yr un flwyddyn y gwnaethpwyd Galffrai ab Arthur (offeiriad Teulu Wiliam ab Rhobert) yn Escob, eithr cyn ei fyned yn ei Ansawdd efe a fu farw yn ei Dy yn Llan Dâf, ac a cladded yn yr Eglwys yno. Gwr ydoedd ni chaid ei ail am ddysg a gwybodau, a phob campau dwyfawl. Mab Maeth oedd ef i Uchtryd Archescob Llan Daf, a nai mab brawd iddaw, ac am ei ddysg a'i wybodau y doded arnaw Febyddiaeth yn Eglwys Teilaw yn Llan Daf lle y bu ef yn Athraw llawer o ysgolheigion a phendefigion.

Oed Crist 1154, bu farw y Brenin Ystyffan, a Harri ei gefnder a wnaed yn frenin yn ei le, a elwir Harri yr ail.

Pan oedd Ystyffan yn Frenin fe ddaeth gydag ef laweroedd o'r Fflandrysiaid i Ynys Prydain, a'r rhai hynny ai carent, ac efe a ddodai lawer o roddion ac anrhydedd iddynt, canys goreuon o'i Bleidyddion oeddynt, a gwedi dyfod Harri'r ail ni chaent aros yn Lloegr, achaws hynny daeth niferoedd mawrion o honynt i Gymru, a llawer o'r Saeson a gerynt Ystyffan, a'r dieithraid hynn a aethant yn wyr damdwng i Bendefigion y Ffrancod yng Ngheredigiawn a Dyfed.

Oed Crist 1156, annogawdd Cadwaladr ab Gruffydd a Madawc ab Meredydd y Brenin Harri i ddiffeithiaw Gwynedd, a phan wybu Owain y Tywysawg hynny, ymluyddu yn ei erbyn, ac yng Ngwaith Coed Eulo y llas y Saeson mal eu lleibiaw, a gorfu Owain arwynt yn anrhydeddus, lle nid oedd o wyr ganthaw namyn un ym mhen pob deg o Wyr Harri, a thra bu hynny ar waith y dug Iorwerth ab Meredydd Gastell Iâl gan ei faluriaw, yna'r Brenin a ymheddyches a'r Tywysawg, ac y cafas Gadwaladr ei gyfoetb.

Yn yr un flwyddyn y llas Gwrgan ab Rhys ab Iestin gwr dysgediccaf o Brydydd a gaid yn ei amser y gan Ifor ab Meuryg o Sainghenydd, a Morgan ab Owain ab Caradawc a fynnai ddial hynny, a myned am benn Ifor ai ladd a dwyn ei diroedd, a'u rhoddi yng Ngyfoeth Iorwerth ab Owain ei frawd Arglwydd Caerllion ar Wysg.

Oed Crist 1157, ymheddychawdd Rhys ab Gruffydd a'r Brenin Harri, a'r Brenin ni chadwai'r heddwch, eithr danfon Iarll y Clar i ddiffeithiaw Tiroedd Rhys, ac ef a laddwyd llawer o'r Cymry ac ysbeiliaw eu dãoedd; yna ydd aeth Rhys am benn Castell Llanymddyfri ac ai ynnillas, ac Einion ab Anarawd nai Rhys a ynnilles Gastell Wmffrai ac a laddawdd y Castellwyr, ac a ddug oddiyno ysbail fawr yn feirch, ac arfau, a pheirianau maenus. Yna daeth Rhys i Geredigiawn, ac a ddiffeithiawdd holl diroedd y Ffrancod a'r Saeson, ac a dorrawdd eu holl Gestyll yn falur, ac

a ddug yr holl wlad y danaw a dyfod a wnaeth y Brenin yn ei erbyn, eithr gweled Cenedl y Cymry yn amnifeiriaw yn ddirfawr o bob man at Rys, efe a ddangoses ammodau heddwch, a Rhys a ymwystlawdd a'r Brenin er cynnal heddwch, a dodi gwystlon a wnaeth Rhys, a dodi Cestyll yng ngwystl i Rys a wnaeth y Brenin, ac efe yn myned i oresgyn y Castell hynny y castellwyr nis gellyngynt iddaw, yna cynnull ei luoedd a wnaeth Rhys a diffeithiaw Dyfed, ac efe a dorres y Cestyll yn garneddau. Yna daeth Rheinallt mab y Brenin i Gymru, a chan addaw Deheubarth i Owain Gwynedd efe a gafes ei gyfnerth, a Chadwaladr brawd Owain, a Hywel a Chynan ei feibion, a ddaethant a'u lluoedd yn erbyn Rhys, eithr efe a droes oddiar eu ffordd, a galw attaw ei lüoedd ymbarottoi yn erbyn ei elynion, a phan wybuant hynny ymchwelyd i Wynedd.

Oed Crist 1159, bu farw Madawc ab Meredydd ab Bleddyn Tywysawg Powys, ac y rhanned ei gyfoeth rwng ei feibion, ac yng nghylch yr un amser y daliwyd Cadwallawn ab Madawc ac Idnerth gan Owain Gwynedd, yr hwn ai dodes yng Ngharchar y Brenin yn Llundain.

Oed Crist 1160, bu ymladd a diffeithiaw cydtiroedd rhwng Owain ab Madawc Arglwydd Cyfeiliawc a Hywel ab Cadwgawn Arglwydd Cyfoeth Elystan Glodrydd, heb nemmawr ynnill a gorfod i'r un na'r llall.

Oed Crist 1161, adnewyddwyd Braint ar a lafuriai Dir a Daear ym Morganwg, ac yn ebrwydd wedi hynny y doded yr un Drefn yng Ngwynedd a Deheubarth a Phowys, ac efe a gaid ar y Brenin ei nawdd ar bawb a wnaent hynay fal nas diffeithid y Tiroedd Ydardd yn rhyfel.

Oed Crist 1162, daeth Harri Frenin yn erbyn rhys ab Gruffydd, a Rhys yn ei erbyn yntau, a dodi Cad ar Faes o'r ddau du, eithr Gŵyr da Gwlad Brecheiniawc a drywanasant rwng Rhys a'r Brenin a dodi Gwystlon o Du Rhys Einion ab Anarawd ei nai, a nai arall iddaw Cadwgawn ab Meredydd ab Gruffydd, a'r Brenin a ymwystles i Rys y Cantref mawr a Dinefwr, eithr Neiaint Rhys a laddwyd, yna goresgyn y Cantref mawr a Chastell Dinefwr heb a ddodai'n ei erbyn a wnaeth Rhys, a myned yn erbyn Rhosser Dacr Iarll Caerloyw a laddasai ei Neiaint a ddodai'r Brenin yn nawdd y Rhosser hwnnw, a Rhys a ddynnilles Gastell Aber Rheidiawl a'r Cestyll ereill o eiddaw'r Iarll yng Ngheredigiawn, au Maluriaw; gwedi hynny ynnill Castell Aberteifi a dwyn y Wlad y danaw, a myned yn erbyn y Fflandrisiaid au lladd, a llosgi a feddynt, a dwyn ysbail ddirfawr o'u Gwlad.

Oed Crist 1163, daeth Brenin Lloegr a Llu dirfawr i Gymru, a Rhys ab Gruffydd ac Owain Gwynedd a aethant yn gydgyfnerth yn ei erbyn, a bu Gwaith Berwyn, lle gyrrwyd ffo ar y Brenin, ac yn ei ddig ai lid achaws hynny efe a dynnawdd lygaid y gwystlon a gawsai er amseroedd yn ol gan Rys ag Owain, sef oeddynt meibion Rhys, Cynwrig a Meredydd; a Meibion Owain Gwynedd, Rhys a Chadwallawn, a dallu hefyd trichant o'r Cymry a ddaliwyd yn Rhyfel, a hynn a wnaeth y Brenin ai law ei hûn.

Oed Crist 1164, daeth Harri Frenin eilwaith yn erbyn y Cymry, a gwedi dyfod hyd yng Nghaerllion gawr, a chlywed bod Rhys ab Gruffydd ac Owain Gwynedd yn ymluyddu'n gadarn yn ei erbyn er dial a wnaeth ef a'u meibion, efe a ddymchweles yn ei ol i Lundain.

Gwedi hynny ydd aeth Rhys ab Gruffydd yn erbyn Cilgeran ai ynnill, a dwyn ysbail, a diffeithiaw tiroedd ei gefnder Rhobert ab Nest ferch Rhys ab Tewdwr a Gerallt Rhaglofydd Castell Penfro, a'i ddodai yntau yng Ngharchar, a rhoi rhoddion anrhydeddus i'r Castellwyr, ac yn erbyn Rhys daeth Llu mawr o'r Fflandrysiaid a Saeson Dyfed hyd yng Nghil Geran, ac ymossawd am benn y Castell, a Rhys a'u gwrthladdawdd ac a laddes lawer o honynt, a gyrru ffo ar y llaill.

Yng nghylch yr un amser y dug Owain Gwynedd Gastell Basing oddi ar y Brenin, a lladd y Castellwyr, a dodi Gwŷr ei hunan ynddaw, a'i gyweiriaw yn gadarn.

Yn yr un flwyddyn y dug Owain ab Madawc ab Meredydd, ac Owain ab Gruffydd ab Meredydd ei gefnderw holl gyfoeth Iorwerth ab Owain, ac ai rhanasant rygthynt, achaws hynny ydd aeth Owain Gwynedd, a Rhys ab Gruffydd, yn eu herbyn, a'u gorfod, a rhannu goreuon ei gyfoeth ryngddynt; eithr Owain Cyfeiliawc a gafas gyfnerth a Saeson, ac a losgawdd Gastell Caereiniawn i'r llawr.

Oed Crist 1169, bu farw Owain Tywysawg Gwynedd, gwedi gwladychu deuddegmlynedd ar hugain, a gwedy hynny ydd aeth amryson rhwng ei feibion am a gai fyned yn ei le, eithr Hywel ab Owain a gymmerth arnaw'r llywodraeth, canys hynaf oedd efe, ei fam oedd Pyfog merch Ar-

glwydd urddasawl o'r Werddon, a gwedi bod yngoresgynaeth y Dywysogaeth dwy flynedd yn heddwch bu farw ei chwegrwn, ac efe a aeth i'r Werddon i oresgyn y cyfoeth a gawsai yn hawl ei fam ai wraig, canys unig ettifeddes oedd hi, a thra bu efe yno, Dafydd ab Owain ei Frawd a gynhullawdd genedl ei fam, sef oedd hi Crisiant merch Gronwy ab Owain ab Ednywain, a chyda hynny daeth attaw lawer eraill ni charent Hywel, a phan weles efe gadernyd yn gyfnerth iddaw, cymmerth arnaw'r Llywodraeth, a goresgyn Gwynedd, a Hywel yn clywed hynny, efe a ddaeth yn ebrwydd i Wynedd, ac a ddodes Gad ar faes yn erbyn ei frawd, eithr llawer mwy nifeiriawg Llu Dafydd nag un Hywel, a gwedi ymladd caled gyrrwyd ffo ar Hywel ai Wŷr, ac efe a glwyfwyd dan ei ais yn flin eithr Rhirid ei frawd ai dug i Long, ac yna i'r Werddon lle y bu Hywel farw ac efe a roddes i Ririd ei frawd ei gyfoeth yno.

Oed Crist 1172, aeth llawer o Bendefigion y Ffrancod a wledychynt Forganwg, a Gwyr, a Dyfed, a Cheredigiawn, i'r Werddon, ac yn blaenu arnynt ydd oedd Richart Iarll Ystrigyl, a lluoedd mawrion gyda nhwy, ac anffyddlonion y Cymry gan weled llwyddiant Rhys ab Gruffydd a aethant gyda nhwy, a hwy ynnillasant helaethled o'r Werddon, ac ai goresgynasant, a hynn a fu ddaionus i Rys ab Gruffydd a Chenedl y Cymry yn Neheubarth a Morganwg.

Yn nghyfle'r amseroedd hynny ymlüyddes Owain Cyfeiliawg yn erbyn Rhys ab Gruffydd, a Rhys a ddodes Gad ar faes yn ei erbyn, a myned hyd yng Nghyfeiliawc lle gorfu ef ar Owain, a Rhys ni ddiffeithiai Diroedd Cenedl y Cymry, eithr dwyn Gwystlon oddiar Owain, a gadael iddaw ei gyfoeth, a dychwelyd i Ystrad Tywi.

Ynghylch yr un amser aeth Harri Frenin i'r Werddon, ac efe yng Nghaer Dydd, fe aeth Rhys heb na gwr na gwas gydag ef yno; ac yn arfoll i'r Brenin erchi iddaw orchymyn a fai raid iddaw o'i gyfoeth ef, a bu garedig hynn gan Brenin, ac efe a gadarnhäawdd i Rys ei holl Diroedd, a Rys a roddes i'r Brenin yr Ossymmaeth iddaw ei hun ai luoedd bedwar cant o wartheg breision, ac yd, a med, a bragawd, a ellid ei gael yn ei gyfoeth, ac a wnaeth wledd anrhyddeddus i'r Brenin ai Wŷr Llys yn Aberteifi; ac yna ydd aeth y Brenin i'r Werddon, eithr daeth echrysaint ar ei wŷr, a bu farw llawer o honynt: achaws hynny gorfu ar y Brenin ymchwelyd yn ei ôl i Ynys Prydain, a Rhys ai orfolles yn anrhydeddus yn Aberteifi, ac a ddodes iddaw roddion a weddai iddaw ar ei ffordd yn cyrchu Llundain.

Yng nghylch yr un amseroedd, a'r Brenin ar ei fyned i'r Werddon, efe a ddug Gaerllion ar Wysg oddi ar Iorwerth ab Owain ab Caradawc ab Rhydderch ab Iestin, ac a ddodes ei wyr ei hun yn y Castell, eithr Iorwerth a alwes attaw ei genedl, ac ymluyddu yn erbyn Gwŷr y Brenin, ac adynnill y dref a'r castell, a danfon y Castellwyr i'r Werddon at y Brenin: a phan ddaeth y Brenin ar ymchwel o'r Werddon efe a ddanfones at Iorwerth ab Owain attaw i'r Castell Newydd ar Wysg, a gosod ammodau heddwch iddaw, ac addaw gwared a diogelwch iddaw ddyfod attaw, a myned yn heddwch yn erbyn y Brenin a wnaeth Iorwerth, a danfon Owain ei fab ag anrhegion i'r Brenin o'r pethau a weddai iddaw yn ei gerdded; eithr gossawd ar Owain a wnaeth Gwŷr y Brenin ai ladd, a gwedi clywed o Iorwerth hynny nid elai at y Brenin, eithr ymlüyddu yn ei erbyn, a gyrru pob enaid o Sais o Wlad Gwent, a lladd llaweroedd o honynt, a chan fyned tros Afon Gwy, diffeithiaw'r Wlâd hyd Gaerloyw, a lladd a llosgi ffordd y cerddai, ac oddiyno hyd yn Henffordd, un ei waith, un ei gerdded, a gwedi llosgi'r Dref honno ai hysbeiliaw; dychwelyd i Gaerllion ar Wysg a chadarnhau'r Dref a'r Castell, a dodi Castellwyr ffyddlawn ynddaw, ac ynghyfle'r amser hynny y dug Sitsyllt ab Dyfnwal Gastell Abergefeni, a Seisyllt ab Rhirid a ddug Gastell Cerrig Hywel, canys y Brenin a bieuffai'r Cestyll hynny, a lladdwyd y Castellwyr, ac Iorwerth a ddodes ynddynt wŷr ei genedl yn gastellwyr ffyddlonion, a Hywel ab Iorwerth a ddug holl Went is Coed yn ewyllys Iorwerth; ac a ddug yr hynaf o feibion dengwr ar hugain o uchelwyr y wlad yn wystlon.

Oed Crist 1173, y dodes Dafydd ab Owain Gwynedd ei holl frodyr yng ngharchar, eithr Maelgwn a gadwawdd Ynys Fôn yn ei erbyn dros dair blynedd, gwedi hynny aeth Dafydd a Llu cadarn yn ei erbyn ac ynnill yr Ynys, ac a garcharawdd Maelgwn, yn ebrwydd wedi hynny efe a dorres ei garchar, ac a dorres garcharau ei genedl ai frodyr, a ffoi i Forganwg, rai o naddynt, ac eraill i'r Werddon.

Oed Crist 1176, aeth llawer o Gymry Gwent a Morganwg i'r Werddon lle cawsant diroedd. A chylch yr un amser daeth

Iorwerth ab Owain Gwynedd i Gaerllïon ar Wysg at Iorwerth ab Owain ab Caradawc yn ffo rhag Dafydd ab Owain ei frawd, yna danfones Dafydd at ei frawd ac addaw iddaw Diroedd a weddai iddaw o dodi Neiaint iddaw yng nghadwedigaeth Iorwerth ab Owain ab Caradawc yn Wystlon er cadarnhau hynny. Gwedi hynny dychwelawdd Iorwerth i Wynedd, ac y cyfiawnhäawd Dafydd ab Owain ac ef yn hynny, a gwedi hynny ei yrru o'i wlad, a Iorwerth a ddodes y Gwystlon yn Nawdd y Brenin, lle nas gallai Ddafydd eu lladd.

Oed Crist 1177, ymheddychawdd Iorwerth ab Owain Arglwydd Caerllion a'r Brenin, ac a gafas ei diroedd yn rhydd, ac yng nghylch yr un amser y llas Seisyllt ab Dyfnwal Arglwydd Gwent uwch Coed o dwyll Wiliam Brews Arglwydd Aberhodni, a chydag ef lladd ei feibion, ai geraint, a thrugain a deg o'i genedl, a thynnu llygaid Hywel Pencarn adodi hynny ar Iorwerth ab Owain o Gaerllïon, sef y dianghes Iorwerth o'r Brad hynny, a thorri ffordd ai gleddyf drwy ganol y Cynllwynwyr.

Yr un amser y torres Rhodri ab Owain Gwynedd ei garchar ac a ddynnilles ynys Fôn, a phawb yn ei gyfnerthu, achaws nid oedd a garai Ddafydd ab Owain, a Chadwaladr ab Owain a ddynnilles Nant Conwy a Rhyfoniawc, ac y daeth Maelgwn ab Owain yn ei ol o'r Werddon.

Yng nghylch yr un amser bu farw Cadell ab Gruffydd ab Rhys, a chylch yr un amser Dafydd ab Gerallt Escob Dewi a fu varw, ac y cynllwynes y Ffrancod y y ffordd y clywynt fyned Einion Clyd Daw Rhys ab Gruffydd, ac ai lladdasant ef, yna ydd aeth Rhys yn eu herbyn ac a ddiffeithiawdd eu tiroedd hwy ym Maelienydd, ac a wnaeth Gastell Rhaiadr Wy.

Yng nghylch yr un amser Iorwerth ab Owain o Gaerllion a Hywel ei fab a ddiffeithiasant diroedd Wiliam Brews, ac a ddygasant ysbail fawr; ac ni arhosai ef yn hwy yng Nghastell Abergefeni, eithr myned i Aberhodni ac ymgadarnhau yno.

Cylch yr un amser daeth meibion Cynan ab Owain Gwynedd yn erbyn Rhys ab Gruffydd, a Rhys yn eu erbyn hwynt a orfu arnynt, a gyrru ffo cywilyddus arnynt.

Oed Crist 1179, y llas Morgan ab Gruffydd ab Ifor Bach, ab Cydrych, gan y Saeson yng Nghaerloyw. Gwr oedd ef a fu gyda Iorwerth ab Owain yn diffeithiaw'r Wlad amgylch Caerloyw, lle yr ymgampiai yn wychaf o neb, ac achaws hynny y lladdwyd cyt bod heddwch yr amser hynny a nawdd y Brenin i bawb a ddelynt yn heddwch o Gymry i Loegyr, a'r Cymry a garaint Forgan a aethant le clywaint y byddai Rhanwlff a'i wŷr ar eu ffordd tuag Aberhodni, ac am ei benn ef, ai ladd efe a'i wŷr, canys efe a fynnawdd ladd Morgan ab Gruffydd ab Ifor Bâch, a'r Brenin a fynnai fyned yn erbyn y Gwenhwyfon a'u harglwyddi, ond Rhys ab Gruffydd a ddangoses y modd y bu i'r Brenin, ac yna cafwyd ei heddwch.

Oed Crist 1183, y llas Gadwaladr mab Rhys ab Gruffydd gan y Ffrancod, ac yng nghylch yr un amser y llas Owain Fychan gan feibion Owain Cyfeiliawc, ac y dallwyd Llywelyn ab Cadwallawn ab Gruffydd ab Cynan gan ei frodyr ei hun. Ac yng nghylch yr un amser bu farw Nicolas ab Gwrgan Escob Llan Dâf, Gwr a garai'r Cymry ac a ddodai gynghorion ac addysg iddynt a'i ddwyfoldeb mawr, ac yn ei le y doded Wiliam De Salmars.

Oed Crist 1184, bu farw Madawc ab Iddon Brenin Gwent achaws dyrnawd a gafas gan Domas ei frawd yn ei ddiawd, gwr cedd Fadawc a wyddai laweroedd o Gelfyddodeu a Gwybodau, ac ni chaid ei gystal yn ei amser, a goreu o Brydydd a Damhegydd ar a wyddid am danynt yng Nghymru.

Oed Crist 1186, yddoedd Herwyr o Saeson ym mhob mann yn Ynys Prydain yn ymgadw dan Goedydd ac yn ysbeiliaw 'r Gwledydd, a dyfod i Gymru a wnaethant, ac yn Nyfed ymgynnal yn nawdd y Flandrysiaid, a Maelgwn ab Rhys ab Gruffydd a ymosodes arnynt, ac a losges y Tai lle 'dd oeddent hyd y llawr, gwedi hynny eu hymlid hyd yng Ngwyr a'u lladd a'u gyrru tros Fôr i Loegr lle ydd hanoeddynt.

Oed Crist 1189, bu varw Harri Frenin, a Richard Galon Llew ei fab a wnaed yn frenin yn ei le.

Oed Crist 1190, dynnilles Rys ab Gruffydd Gastell Abercorran, a Sain Cler, a Llanystyphan, ac a wnaeth Gastell Cedweli yn deccaf a chadarnaf o'r holl Gestyll, a gwedi hynny dynnilles ef Gastell Dinefwr, yng nghylch yr un amser y bu varw Owain ei fab a Gwenllian ei ferch, ac yng nghyfle'r un amser bu farw Gruffydd Maelawr Arglwydd Maelawr, doethaf a haelaf o Bendefigion ei Wlâd.

Yng nghylch yr un amser dynnilles Rhys ab Gruffydd Gastell Llanhuadain, ac a ddug y Wlad honno yn ei ewyllys.

Oed Crist 1192, carcharawdd Rhys ab

Gruffydd ei fab Maelgwn achaws gwallgof oedd arnaw, a chyn hir wedi hynny ef a dorres ei garchar ag a ddug Gastell Ystrad ag ai goresgynnawdd. A chylch yr un amser y dug ei frawd Hywel ab Rhys Gastell Gwys, ac a ddodes y Castellwyr yng ngharchar.

Yng nghylch yr un amser y tynnwyd llygaid Howel a Madawc meibion Rhys gan eu brawd Anarawd, yna Maelgwn ac Anarawd a ddaliasant Rys eu Tâd ac ai dodasant yng Ngharchar, eithr efe a ryddhäwyd gan ei Wyr, ac a ddug Gastell Dinefwr oddiar Faelgwn ei fâb, ag yng nghylch yr un amser y goresgynnes Lywelyn ab Iorwerth ab Owain Gwynedd Dywysogaeth Gwynedd, a difreiniaw ei ewythr Dafydd ab Owain yr hwn nis carid achaws ei greulonder a'i atgasrwydd yn lladd a thynny llygaid pob un nad elai yn ei ewyllys, yn ail i arfer y Saeson.

Oed Crist 1194, dodes Rhys ab Gruffydd ei feibion anffyddlon yng Ngharchar, ac y dug Gastell Caerfyrddin ac ai maluriawdd i'r ddaear, gwedi hynny efe a ddynilles Gastell Clunwy gwedi hir amser yn ei ammos-awd, ac efe ai maluriawdd i'r ddaiar. Gwedi hynny ynnill Castell Maeshyfaid, wedi ymladd cadarn ai elynion, lle gorfu efe arnynt, gan eu lladd a gyrru ffo cywilyddus arnynt. Gwedy hynny y dug ef Gastell Elfael oddiar Wiliam Brews, ac a ddaeth yn ei ol i Ystrad Tywi yn orfoleddus.

Oed Crist 1196, bu varw Rhys ab Gruffydd, y gwrolaf, a'r doethaf, a'r haelionusaf, a'r clodforusaf o'r holl Dywysogion; a Gruffydd ei fab a oresgynnes y Lywodraeth yn ei le.

AC FELLY TERFYNA BRUT Y TYWYSOGION.

Yr hanes uchod a ysgrifenwyd o Lyvyr GEORGE WILLIAMS, Esq, *o Aberpergwm, genyf fi* THOMAS RICHARDS *Curad Llangrallo, yn y flwyddyn* 1764.

A minnau IORWERTH AB IORWERTH *ai hysgrifenais o Lyvyr y* PARCHEDIG MR. RICHARDS *yn y flwyddyn* 1790.

BRUT IEUAN BRECHFA.

SEF COF AM DYWYSOGION, A RHYFELAU, A RHYFEDDOLION, O BETHAU, A DIALEDDAU, AC ERAILL O BETHAU COFADWY, A DYNNWYD O LYFRAU CARADAWC LLANCARFAN AC ERAILL O HEN LYFRAU CYFARWYDDYD. A YSGRIFENODD IEUAN BRECHFA.

O Lyfr Rhys Thomas Argraphydd.

Chwechant a phedwar ugain a chwech oedd oed Crist pan aeth Gadwaladr Fendigaid i Rufain lle y bu farw, ac yna collasant y Cymry Unbennaeth ynys Prydain. Yna daeth Ifor ab Alan Brenin Llydaw i Gymru ac ai gwnaethpwyd yn Dywysawg, ac o hynny ym Maes, Tywysogion a lywynt genedl y Cymry.

Deuddegmlynedd y saith gant oedd oed Crist pan wnaethpwyd Monachlog ynys Afallen gan Ifor ab Alan o Lydaw, yr hwn a fu Dywysawg ar Genedl y Cymry unmlynedd ar bumtheg ar hugain, gwedi hynny efe a aeth i Rufain lle y bu farw.

Ugain mlynedd a saith gant oedd oed Crist pan fu'r Haf Tessawg, ac y bu farw Beli ab Elphin.

Deg a dugain a saith gant pan fu farw Tewdwr ab Beli, a Rhodri Brenin y Brutaniaid.

Trigain mlynedd a saith gant pan fu brwydr rhwng y Brutaniaid a'r Saeson yng ngwaith Henffordd, ac y bu farw Dyfnwal ab Tewdwr.

Deg a thrugain a saith gant pan symudwyd Pasc y Brutaniaid, ac y bu farw Ffermael fab Eidwal, ac y bu dystryw ar y Deheuwyr gan ei Brenin eu hunain, ac y gorfu ar y Deheuwyr ladd eu Brenin yn amser haf.

Wythganmlynedd oedd oed Crist pan laddawdd y Saeson Garadawc Brenin Gwynedd yng Ngwaith Morfa Rhuddlan, ac y bu farw Arthen Brenin Ceredigion, a Rhydderch Brenin Dyfed, a Chadell Brenin Powys, ac Elbod Archescob Gwynedd, ac y bu diffyg rhyfeddawl ar yr haul.

Wyth cant a deg, duodd y lleuad Diw Nydolig, ac y llosged Mynyw, ac y bu farwolaeth mawr ar Anifeiliaid, ac y llosged Tyganwy gan dan lluchaid Gwylltion, ac y bu waith Llan Faes, ac y tloded Brenhiniaeth Fôn a Brenhiniaeth Dyfed oblegid Rhyfel a fu rhwng Hywel fychan a Chynan ei frawd, ac y goresgynawdd Hywel ynys Fôn gan orfod o hir ymladd arni.

Wythgant ac Ugain pan ddystrywyd Castell Tegonwy gan y Saeson, ac y dugasant Frenhiniaeth Powys oddi ar y Brutaniaid, ac y bu farw Hywel Fychan, ac y lladdodd Gwyddelod Mon ac Arfon lawer o'r Cymry.

Wythgant a deg ar hugain bu diffyg ar yr haul yr wythfedydd o Ragfyr, ac y bu farw Morydd ab Llywarch Llwyd Brenhin Ceredigiawn.

Oed Crist wythgant a thrugain pan wledychawdd Meuryg Escob Mynyw, ac y bu Waith Fferyllwg, ac y llas Ithel Brenin Gwent gan wyr Brecheiniawg, ac y torres Paganiaid o Saeson yr holl Fonachlogydd ag Eglwysi yng Ngwent, a Morganwg, a Dyfed, a Cheredigiawn.

Wythgant a thrugain a deg y Paganiaid duon a dorrasant Gaer Alclud, ac y boddes Gwgan fab Morydd fab Llywarch Llwyd Brenin Ceredigiawn, ac y bu Waith Bangor, ac y bu farw Einiawn Escob Mynyw, ac y lladdwys y Saeson Rodri Mawr.

Wythgant a thrugain a deuddeg y rhannwyd Gwlad Gymry yn dair Brenhinaeth rhwng tri meib Rhodri Mawr, sef Cadell y mab hynaf a gafas Geredigiawn a Dyfed. Anarawd yr ail a gafas Wynedd, a Merfyn y drydydd a gafas Bowys, a gadael rhwng Gwy a Hafren i wehelyth Caradawc Freichfras, a Morganwg a Gwent i wehelyth Morgan Mwynfawr, ouid aeth pump Brenhinllwyth ar Wlad a Chenedl y Cymry.

Wythgant a phedwar ugain bu farw

Hywel ab Rhys ab Arthfael Arglwydd Pen rhaith Morganwg yn chweugeinmlwydd oed yn Rhufain gan angerdd y Tes.

Wythgant a phedwar ugain a deg daeth y gwŷr duon i gastell Baldwyn ac ai ynnillasant, ac y bu farw Henydd ab Bledri, ac a daeth Nynawd i ddiffeithiaw Cerèdigiawn ac ystrad Tywi, ac y diffeithiwyd y gwyr duon yn Lloegyr, a Gwent, a Morganwg, a Gwlad Frychan, ac y diffygiawdd bwyd yn y Werddon, canys Pryfed dierth tebig i waddau a ddaethant yno, a dau ddant hirion gan bob un o hanynt, a'r rhai hynny a fwyttäaint yr holl Lafur a llysiau'r meusydd, a thrwy weddiau a theilyngdawd y bobl ef au gwrthladdwyd, ac nis gwelwyd y rhyw bryfaid a'r rhai hynny fyth wedi hynny yno.

Naw cant a thair ar ddeg bu farw Anarawd Tywysawg Gwynedd, a'r amser hwnnw y lladdawdd Meuryg ab Cadell ei frawd Celydawc, ac o'r achaws hynny y bu Rhyfel rwng cydgenedl.

Naw cant a thair a deugain aeth Hywel dda fab Cadell i Rufain a chydac ef dri Escob, sef Marc Escob Bangor, Mordaf Escob Mynyw, a Theibyr Escob Llan Asaff, ac oll Defnydd y Deyrnas gydag ef, sef achaws ei fyned i Rufain ydoedd ymgynghori a Doethion a Dwyfolion, rhag bod y gyfraith a wnai efe ai Ddoethion yn erbyn Cyfraith Duw a Chyfraith Dinasoedd eraill, ac o achaws yr ymladdau, a fuassei o'r blaen rhwng cydgenhedloedd y gwnaeth ef ei gyfreithiau, ac achaws cam arfer yn erbyn Cyfraith Dyfnwal Moel Mud, a chynnull Doethion y Cymry i'r Ty Gwyn ar Daf yn Nyfed a lluniaethu cyfreithiau o farn a chydgyngor y rhai hynny, au dodi yn nawdd Duw a'r saint, ac yn nawdd Gwlad a Llys, a goreu cyfreithiau y cad Cyfreithiau Hywel Dda. Ac agos i'r amser hynny y bu farw Elen Gwraig Hywel Dda, ac am yr un amser y daeth Awlaff o'r Werddon i Gymru a Llu o'r Gwyr duon ac arall o'r Gwyddyl, gydag ef, a daethant i Dir yng Ngwyr, ac yn eu blaen y daethant, a Llywelyn ab Syllt a gyfarfu ac Awlaff, ac ai gyrrodd o'r Wlad i Loegr, a chan ganlyn y gelynion, fe ddanfonodd at Edmunt Brenin y Saeson am gynhorthwy, ac yna daeth Cad fawr a'r Saeson ym mhlaid Llywelyn ai Gymry, a hwy a yrrasant y Gwyddyl a'r Gwyr duon o'r ynys gyda choilledion mawr: a gwedi addunedu o honaw nas drygai ynys Prydain fyth wedi hynny fe aeth Awlaff i'r Werddon lle ai gwnaethpwyd yn frenin.

Nawcant a phedair a deugain bu farw Idwal ab Rhodri, ac y lladdodd y Saeson Elised ab Rhodri, a Lambert Escob Mynyw, ac ysbeiliwyd Ystrad Lur gan y Saeson, ac yno y tagwyd Edmwnt Brenin y Saeson gan ei wyr ei hûnan, ac am yr amseroedd hynny bu farw Hywel Dda ap Cadell, a Chadwgan ab Owain a laddwyd gan y Saeson, ac y bu Waith Carno rhwng meibion Eidwal Dyfed a meibion Hywel Dda.

Oed Crist Nawcant a deuddeg a deugain bu lladdfa fawr rhwng meibion Eidwal Dyfed a meibion Hywel dda yng Ngwaith Abercywyn, ar amser hwnnw y diffeithiodd meibion Eidwal Dyfed Geredigiawn.

Nawcant a thrugain y lladdwyd meibion Eidwal ab Rhodri gan y Saeson, ac y bu Haf Tessog, ac y diffeithwyd Caer Gybi gan feibion Eidwal Dyfed, ac y dystrywyd y Tywyn, ac y bu farw Meuryg ab Cadfan, ac yna ynnillodd y Saeson Arglwyddiaeth meibion Eidwal, ac y lladdwyd Rhodri ab Eidwal, ac y diffeithwyd y Berfraw, a rhyw faint yn ol hynny y dalodd Iago ab Eidwal ei frawd Ifan ac ai rhoddes yng ngharchar a chwedi hynny efe ai crogodd, ac am yr amser hynny rhyfeloedd Einion ab Owain ac a lladdodd Farc ac Eyrlaid.

Nawcant a deuddeg a thrugain y diffeithawdd Catbrig ab Eyrlaid Fôn, ac efe a wnaeth drafael dirfawr i'r ynys, ac yna y daeth Etgar Brenin y Saeson a llu dirfawr yn erbyn holl Gymru hyd yng Nghaerllîon ar Wysg, ac a ddanfones ei wyr i ysbeiliaw'r Wlad, ac nid arbedynt na Llys na Llann, eithr dwyn däoedd a thlysau Eglwysi a manachlogydd, ac y gwrthladdodd Iago ab Idwal o'i gyfoeth, ac a roddes Wynedd i Hywel Ddrwg ab Ifan, ac nid oedd drwg o'r Byd nas gwnelai hwnnw o ladd, a thynnu llygaid, ac yspeiliaw, a thwyllaw.

Nawcant a thrugain a phymtheg bu farw Edgar Brenin y Saeson, ac y daliwyd Iago ab Ifan ab Eidwal, ac a gorfu Hywel ab Eidwal, ac y goresgynodd ei gyfoeth, ac yna y lladdwyd Eidwal, ac y gorfu Cystenin ab Iago ar Hywel Ddrwg ab Ifan, am hynny o amser daeth Gotbrig ab Eyrlaid i Ddyfed ac i Fynyw ac ai dystrywodd, yna bu Gwaith Llanwenog, ac y diffeithwyd Brecheiniog ai holl gyfoeth gan y Saeson, a hwy a laddasant Hywel ddrwg ab Ifan, ac y goresgynodd Cadwallawn ab Ifan ei gyfoeth ef drwy fuddugoliaeth yn erbyn y Saeson, nid amgen ynys Fon, ac Arfon, a Meirionydd, a holl

Wladoedd Gwynedd, a hynny drwy ddeall a synwyr, a'r amser hwnnw y tynnwyd Llygaid Llywarch ab Owain, ac yna daeth Gotbrig ap Eyrlaid a'r llu du gydag ef i ynys Fôn ac y daliwyd dwy fil o ddynion, a'r dryll arall a ddug Meredydd ab Owain ganthaw i Geredigiawn ac i Ddyfed, ac y bu farwolaeth fawr ar anifeiliaid yn holl ynys Prydain, ac y bu farw Owain ab Hywel, ac y diffeithiwyd Cenhedlaeth Llanbadarn, a Mynyw, a Llanylltyd, a Llan Garman, a Llan Rhystyd, a Llandydoch, ac y bu ddirfawr farwolaeth yn ynys Prydain, ac yn yr amser hwnw y bu drudaniaeth yn holl ynys Prydain, megis y bu farw y bobl gan newyn.

Nawcant a phedwar ugain pan ddiffeithiodd Owain ab Einion Frenhiniaeth Meredydd ab Owain, nid amgen Dyfed a Cheredigiawn, a'r amser hwnw y bu newyn dirfawr yng Nghyfoeth Meredydd, ac y bu frwydr rhwng meibion Meuryg a Meredydd, yn ymyl Llangwm, ac y gorfu meibion Meuryg yn erbyn Meredydd, ac yna lladdwyd Tewdwr ab Einion ab Owain ab Hywel dda fab Cadell, a Rhys mab Tewdwr a ffoes i'r Werddon rhag pydoldeb y lleddid ef.

Nawcant a phedwar ugain a deg y diffeithiwyd Môn gan y genedl ddu, bu am yr un amser ryfelu a lladdgarwch mawr rhwng Pendefigion Gwynedd a Phowys, bu rhyfel hefyd rhwng Meredydd ab Owain ac Ithel ab Morgan Brenin Morganwg, achaws anhraith Gwyr Meredydd yn eu newyn, gan ddrudaniaeth, ar amser hwnnw y dechreuwyd bwytta Cregyn y mor yn Neheubarth a Gwyr. Am yr amseroedd hynny y gwnaethpwyd Eidwal ab Meuryg yn Dywysawg gan wŷr Mon lle nid oedd na thywysawg na neb a elai ym mlaen Gwŷr Gwynedd, achaws hynny y diffeithid y Wlad honno gan y genedl ddu yn afrifed, ym mhen ychydig y daeth Suoen ab Eyrlaid i Wynedd ac a laddodd Eidwal ab Meredydd, i'r hwn yr oedd mab o Etifedd ai enw Iago. A chyn pen nemmawr y bu farw Meredydd ab Owain heb adael ei ail ar ei ol, a merch iddaw ai henw Angharad a briodes Llywelyn ab Seisyllt. A gwedi marw Llywelyn hi a fu briod a Chynfyn ab Gwerystan, ac o honi hi y bu Bleddyn ab Cynfyn.

Oed Crist un Mil, Aeddan ab Blegwryd a gafas oresgynnaeth ar Wynedd o synwyr a deall, ac efe a lywodraethodd Gwynedd yn dangnefus ddeuddeg mlynedd.

Mil a deg Oed Crist, a Llywelyn ab Sitsyllt wedi cyrhaedd oedran gwr efe a ddodes hawl ar Lywodraeth Dyfed a Cheredigiawn, ac a gafas oresgynnaeth arni, ac a ddodes Gad ar faes yn erbyn Aeddan ab Blegwryd ac ai lladdodd, yna cafas ef oresgynnaeth ar Lywodraeth Gwynedd, ac efe a ddodes ei frawd Hywel ab Sitsyllt yn Dywysawg ar y wlad honno, ac felly rhyngddynt y llywodraethent holl Gymru yn anrhydeddus a chyfiawn, ac yn yr Amser y buant y bu gyfoethawg y Cymry, a'r ddaiar yn gnydfawr, ar blynyddoedd yn rywiawg, a heddwch a chyfraith yn cael eu lle yn y wlad, ac i'r holl deuluoedd eu Tai, ac i'r holl dai eu Teuluoedd: ac i bob Tir ei lafurwr, ac i bob Llafurwr ei dir, fal y daeth Llawnder digonawl i'r Wlad, ac i'r holl wlad ei llawnder digonawl.

Mil a deg, daeth Rhun mab Meredydd ab Owain, o Ysgottes a fu'n ordderch iddaw, i Gymru, ac a fynnai oresgynnaeth ar Dywysogaeth Deheubarth, a Llywlyn ab Sitsyllt a ddodes Gad ar faes, ac yng Ngwaith Glan Gwili y lladdwyd Rhun, a gorfu ar ei wyr ffoi yn golledus, am yr amseroedd y bu hynn daeth Awlaff ym mlaen y Llu du a'r Ysgottiaid Gwyddelig i Ddyfed ac ai diffeithiasant gan dorri Mynyw ac ei ysbeiliaw, a Hywel ab Seisyllt a ddaeth yn eu herbyn a dewisolion o Wyr Gwynedd ac au lladdodd fwy na'u hanner a gyrru ffo ar eraill yn ôl i'r llongau, a dal llawer au dodi yng Ngharchar, a gwedi hyn fe aeth Hywel a Meredydd Meibion Edwin ab Owain ab Hywel Dda yn erbyn Llywelyn ab Sitsyllt, ac efe a laddwyd yn y frwydr honno, gan adael ar ei ol fab a elwid Gruffydd, a chan y cai Hywel a Meredydd edrych o'i hamgylch, gwelid yn eu herbyn Rhydderch ab Iestin ab Gwrgan, a chydag ef Lu afrifed o Wyr Morganwg a Gwent yn Gad ar faes, a gorfu ar Hywel a Meredydd ffoi, yna cafas Rydderch oresgynnaeth ar Lywodraeth Deheubarth.

Mil a deg ar hugain daeth Hywel a Meredydd o'r Werddon i Ddeheubarth a Llu cadarn o'r Ysgottiaid Gwyddelig yn erbyn Rhydderch ab Iestin, ac efe a laddwyd, a'r ddau frodyr megis etifeddion cyfiawn a gawsant oresgynnaeth a'r Dywysogaeth Deheubarth, ar fyrr wedi hynny y lladdodd meibion Cynan ab Seisyllt Meredydd ab Edwin a Hywel ei frawd, ac yna lladdodd y Saeson Cynan ab Seisyllt, ac ar fyrr o amser wedi hynny y cafas Ruffydd ab Llywelyn ab Sitsyllt Lywodraeth y Dehau, ac efe a roddes faes i'r Saeson yn emyl Rhyd y Groes ar Hafren, ac a gafas y fuddugoliaeth, am yr un amser y bu Waith

Pencadair, ac yno y bu brad ddirfawr a thwyll afrifed rhwng Gruffydd ab Rhys ab Iestin a meibion Rhydderch ab Iestin yn erbyn Gruffydd ab Llywelyn ab Seisyllt, yna lladdwyd amgylch saith ugain o oreugwyr Gruffydd ab Llywelyn, sef o wyr Ystrad Tywi a Dyfed. Am yr amser hynny y bu eira dirfawr ddydd Calan Ionawr, heb doddi hyd Wyl Badric, yn yr amser hwnnw y bu ddiffaith holl Ddeheubarth.

Mil a deugain, bu Waith Pwll Dyfach rhwng meibion Meredydd ab Edwin a Gruffydd ab Llywelyn; ac i Ruffydd y goreu. Ac efe a laddodd a gyrru ffo ar y Cenedloedd Duon a ddaethant i Ddyfed a Cheredigion ar oddau diffeithiaw'r wlâd, yna fe aeth meibion Meredydd i Wynedd, ac o dwyll anffyddloniaid feddalwyd Gruffydd ab Llywelyn gan wyr Cynan ab Iago addaethant i Wynedd ar ymgais gorynnill y Dywysogaeth, eithr Gwyr y Wlad wedy clywed hynny a ymgynnullasant ac achubasan Ruffydd o ddwylaw Gwyr Cynan, a gyrrwyd ffo arnynt.

Mil a deg a deugain daeth y Llu du o'r Werddon i Ddeheubarth ac add aethon gyda Gruffydd ab Llywelyn ap Seisyllt yn erbyn y Saeson, ac yn Henffordd y bu faes rhyngthynt ac y cafas Gruffydd y fuddugoliaeth, ac yna y bu llawer o ladd a llosgi.

Mil a thrugain bu farw Gruffydd ab Llywelyn ab Seisyllt pen, a tharian, ac amddiffynwr yr holl Fruttaniaid; a'r un amser y daeth Wiliam y Bastardd i Loegr a dododd gad ar faes yn erbyn Harolt ac ai lladdodd, ac a ddug oddiar y Saeson Goron y Deyrnas, ail i'r modd y dygai'r Saeson hi oddiar y Cymry gynt. A hynn a wnaeth ef achaws adduned a wnaethai Harolt y cai ef y Goron ar ol Edwart Sant Brenin Lloegr, ac ni chywirai Harolt yr adduned, eithr dwyn y goron iddaw ei hunan gwedi marw Edwart, eithr ni hir lwydd anudon. Am yr amseroedd yma bu anundeb mawr rhwng Bleddyn ab Cynfyn a Rhiwallon ab Cynfyn yn erbyn Meredydd ab Ithel, ac y bu farw Meredydd ab Ithel o anwyd a newyn yn cilio i ynialoedd rhag Bleddyn ab Cynfyn, a gwedi marw Meredydd heddychwyd rhwng Bleddyn a Rhiwallon ab Cynfyn, yna cynhaliodd Bleddyn ab Cynfyn Wynedd a Phowys au cyfoethau yn erbyn Rhiwallon ab Cynfyn; a Meredydd ab Owain ab Edwin yn cynnal Deheubarth, ac yn ol hynny y bu frwydr rhwng Goronwy ab Llywelyn a meibion Cydwgan ab Gruffydd.

Mil a thrugain a deg y bu frwydr Llanfedwy ym Morganwg rhwng Meredydd ab Owain ab Edwin brenin Deheubarth a Charadawc a Gruffydd meibion Rhydderch ab Iestin am Dywysogaeth Deheubarth, a Charadawc ai ennilles ac a laddodd Meredydd, yna goresgynnodd Garadawc y llywodraeth, ac ar fyrr y lladdwyd Bleddyn ab Cynfyn o dwyll Owain ab Edwin, yna Trehaearn ab Caradawc a oresgynnes Wynedd ac ai llywodraethodd, ai frawd Rhydderch ab Caradawc a Rhys ab Owain a oresgynnasant Ddeheubarth, ac am hynn o amser daeth Gruffydd ab Cynan ab Iago i Gymru o'r Werddon a llu mawr gantho ac a ennillodd Fôn, eithr gorfu arno ffoi i'r Werddon cyn nemmawr o wledychu yng Ngwynedd. A gwedi hynny ar fyrr y lladdwyd Rhydderch ab Caradawc ab Iestin o dwyll Meirchion ab Rhys ab Rhydderch ei gefnderw. A Rhys ab Owain ei hunan a gafas Ddeheubarth, eithr cyn amser hir efe a laddwyd gan Drahaearn ab Caradawc ym mrwydr Pwllgwttig.

Mil a thrugain a deg daeth Rys ab Tewdwr o'r Werddon a llu cadarn yn ei blaid ac a ennilles Ddeheubarth lle'r oedd efe yn difedd cyfiawn i'r dywysogaeth honno, a Rhys a ddanfonodd am Ruffydd ab Cynan yn ol i Gymru o'r Werddon, ac ai cynhorthwyodd yn erbyn Trehaearn ab Caradawc ac ai lladdasant wedi ymladd a cholli gwaed yn afrifed.

Mil a phedwar ugain gorfu ar Rhys ab Tewdwr ffoi rhag lluoedd meibion Bleddyn ab Cynfyn i'r Werddon ond ymhen dwy flynedd efe a ddychwelodd a llu cadarn gydag ef ac a gafas gynhorthwy ai carai, ac a ennillodd dywysogaeth Deheubarth.

Mil a phedwar ugain a deg y bu ymladdau gwaedlyd rhwng Iestin ab Gwrgan Tywysawg Morganwg a Rhys ab Tewdwr; ac Einion fab Collwyn Arglwydd Dyfed ymhlaid Iestin, ac yng ngwaith Rhyd yr Ymladd y cafas Rys ab Tewdwr y goreu ar Einion, yr hwn a orfu arno ffoi at Iestin, ac Iestin ai danfonodd i Lundain i gyflogi cynhorthwy gan y brenin Wiliam goch, ar brenin a ddanfones syr Robert fab Hamwn ddeiniog tywysawg y Corbwyl yr hwn oedd gefnderw iddaw, a chydag ef ddeuddeg o farchogion rhyfelgar a llu mawr o wyr at Iestin yn gynhorthwy yn erbyn Rhys ab Tewdwr, ac ym Mrwydr Hirwaun Wrgan y lladdwyd Rhys a goreuon ei Wyr, ac Iestin ni wnai iawn i Einion yn ol ei adduned iddaw, yna troes Einion ai wyr yn ei erbyn ac a ynnillodd ar syr Robert ab Hamwn ai farchogion fal y troesant au gwyr yn erbyn Iestin a chyda

nhwy lawer o bendefigion ac Uchelwyr Morganwg, y rhai a gasäant Iestin am ei dwyll, ai ormes, ai ymrysonusder; ac ym mrwydr y Mynydd Bychan wrth Gaerdyf y gwaethwyd Iestin, ac y gorfu arnaw ffoi, a syr Robert fab Hamwn a gymerodd gyfoeth Iestin, ac a roddes diroedd a chyfoethau y rhai a gefnogaint Iestin i'r deuddeg marchawg a ddaethant gydag ef: ac i Einion y Blaeneudir; ac fal hynny y diweddodd ar Iestin a fu, efe ai feibion, gyhyd o amser yn ormes Deheubarth a Gwynedd, annhebig i'r hynafiaid a fuant iddaw yn dywysogion a gerynt heddwch, a chyfiawnder, a doethineb. Am hynn o amser y dug Huw iarll Caerllion Gawr goreuon tiroedd Gwynedd a Môn, a Bernart Nywmarc a ddug Frecheiniog, ac ym mben deufis wedi gyrru Iestin o'i wlad a dygodd y Ffrancod Geredigiawn a Dyfed dan ddarostwng iddynt. A'r un haf a dygodd Iarll Arwndel goreuon gwlad Bowys, ac achaws creulonder ymladdgar tywysogion Gwynedd a Phowys, a gormes Iestin ai feibion yn Morganwg, a collasant y Cymry eu breiniau au cyfoethau, yn ail ac y bu achaws a wnai Gwrtheyrn Gwrthyneu, lle troesant yr holl Fruttaniaid yn Lloegr yn wŷr i dywysogion y Saeson er cael meddiannu eu däoedd yn heddwch a llonyddwch, a cyfiawnder.

Mil a chant aeth y Cymry yng Ngwyr, a Morganwg, a Gwent, a Brecheiniog yn nyfnder nos am ben gwyr y Ffrancod ac au lladdasant yn eu gwelyau yr un modd ac y lladdodd y Saeson cyn no hynny y Gwyr Duon, ac adoresgyn eu tiroedd a wnaeth llawer o'r Cymry, a thorri rhai o'r Cestyll, yna'r gwyr mawr o'r Ffrancod a ymroddasant i wneuthur cestyll cedyrn ym mhob man lle'r oeddynt yng Nghymru, ac a ddodasant wobrau i bawb o'r Cymry a fyddaint yn wŷr iddynt, ac felly gwanhäwyd y tywysogion dyledog yn fawr.

Mil ac ugain a chant y gwnaed eglwys Llandaf, ac eglwys Llanbadarn fawr, ac eglwys Mynyw a'r Ty Gwyn ar Daf yn newyddion lle yddoeddent dorriedig achaws rhyfeloedd a diffeithiaw; yng nghyfnod yr amseroedd hynn yr oedd bradeu a thwyll ymhlith bonheddigion Gwynedd a Phowys yn annog y Ffrancod yn erbyn y tywysogion tifeddiaethol, a gorfu ar y tywysogion rhoddi rhanneu mawrion o'u tiroedd ir Ffrancod, ynghyfylchau'r amseroedd hynn daeth Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr o'r Werddon i Gymry, ac a gafas dywysogaeth Deheubarth, ac a lywodraethawdd yn anrhydeddus. Am hynn o amseroedd yr oedd tywysogion anrheithgar a chreulawn ym Mhowys a brenin y Saeson yn eu cefnogi yn erbyn tywysogion Gwynedd a Deheubarth, ac o achaws hynny yr oedd colli gwaed afrifed yng Nghymru.

Mil a deg ar hugain a chant, priodawdd Owain ab Gruffydd ab Cynan Wyddeles o ferch Arglwydd urddasol o'r Werddon a elwid Pyfog a honno oedd fam Hywel ab Owain Gwynedd ac a ddamchweiniodd yr arglwyddiaeth i Hywel yn ol marwolaeth Ffyfog ei fam, ac yna yr aeth Hywel ab Owain i'r Werddon i oresgyn ei gyfoeth; dyna'r achos y mae'r Bruttaniaid yn dywedyd mae eiddo hwynt llawer o dir y Werddon yn dragywyddol o hynny allan, yng nghyfylched hynn o amser bu farw Gruffydd ab Cynan, goreu o dywysogion Gwynedd o hil Rhodri Mawr, ac ar ei ol y bu Owain ei fab yn dywysawg Gwynedd.

Mil a deugain a chant y lladdwyd Hywel ab Meredydd ab Rhydderch, arglwydd y Cantref Bychan, o dwyll a brad Saeson Dyfed, a chyn y bu hir y daeth meibion Owain Gwynedd i Aberteifi yn erbyn y Ffrancod a Saeson Dyfed, ac a gawsant fuddugoliaeth anrhydeddus arnynt.

Agos i'r un amser fe ennillodd Gruffydd ab Rhys gastell Caerfyrddin, a chastell Llanstyphan, ac a waethodd y Ffrancod yn afrifed, a gwedi hynny efe ai feibion a ennillasant gastell Gwys a chastell Cynfael.

Mil a deg a deugain a chant, aeth meibion Gruffydd ab Rhys i Geredigion ac a ennillasant y wlad oddiar Hywel ab Owain Gwynedd, ac a oresgynasant gestyll Ystrad Meuryg, a Llanrhystyd, ac au gwnaethant yn gedyrn, ac a ddodasant ynddynt wyr dewisol am galondid gwrol a gwybodau rhyfel, a chwedi hynny ennillassant gastell Llychwr yng Ngwyr ac ai torrasant, a gwedi hynny ennillasant gastell Penwedic yng Ngheredigion.

O Lyfr IEUAN BRECHFA, *gan* RHYS THOMAS, *Argraffydd, o'r Bont Faen ym Morganwg*, 1780.

BUCHEDD

NEU

HANES GRUFFUDD AB CYNAN.[1]

Yn nyddieu Edwart vrenhin Lloegr a Therdellach vrenhin Ywerddon i ganet Gruffudd frenhin Gwynedd yn Iwerddon yn Ninas Dulyn ac yng Cwmwt Colomkell i magwyt, y lle a elwir yng Gwyddeleg Surth Colomcell, a thair milldir yw hynny iwrth y lle yd oedd ei fam ai famfaeth. Ei dad oedd Cynan frenhin Gwynedd, ae fam oedd Raguel verch Awloedd frenin dinas Dulyn a phummet ran Iwerddon, ag wrth hynny bonheddiccaf gŵr oedd y Gruffudd hwnnw o frenhinawl genedl a llinysoedd goruchel; megys i tysta ach a bonedd ei rieni. Canys mab oedd Gruffudd i Gynan frenin mab Iago mab Idwal ab Elised mab Meuric mab Idwal foel,[2] mab Anarawt, mab Rhodri Mawr, mab Essyllt ferch Cynan o gastell Tindaethwy, mab Idwal Dyre, mab Cadwaladr fendigaid mab Cadwallawn mab Catvan ap Iago[3] ap Beli ap Rhun[4] ap Maelgwn Gwynedd, mab Caswallawn Lawhir, Mab Einiawn Yrth mab Cunedda frenhin, mab Edern, mab Padarn Peissrudd mab Tegit, mab Iago, mab Gwidawg, mab Cein, mab Gwrgein, mab Doli mab Gwrddoli, mab Dwfyn mab Gorddwfyn, mab Auwerit, mab Onwedd mab Dwywng,[5] mab Brychwein, mab Ywein, mab Afallach, mab Aflech mab Beli Mawr, &c.

[1] O hên Lyvyr Sir Rich. Gwynn o Wydyr. Ex pervetusto Codice transcript. et examinat ad Exemplar Plaswardense, Itad, librum Guil. Owen Arm. de Porkington. Mae Paladyr Ach Gruffudd yn ddiffygiol yma; cais yn Llyvyr Achau John Jones.

Yr amryw ddarllenladau yn cydganlyn a'r hanes hwn a dynwyd allan o Lyvyr y parchedig Richard Davis o Vangor, yr hwn a ysgrivenasai, yn y vlwyddyn 1788, o Lyvyr yn eiddo Thomas Pennant o'r Dwning, yswain, ac o law, Davydd Jones o Drevriw, allan o Lyvyr o waith Huw Roberts o Nantclwyd, yn y vlwyddyn 1651.

Gwelir mai addasu yr iaith i lavariad gogledd Cymru ydyw yr amryveiliad yn y darlleniad, eithr mewn bell van.

[2] Allan yn Ll. Gwydyr.
[3] Rhun. Ll. R. D.
[4] Allan yn rhai ll.
[5] Diawng. Yn Ll. Porkington.

Rhodri mawr oedd mab Merfyn frych mab Gwryat, mab Elidir mab Sanddef, mab Alcwn, mab Tagit, mab Gweir[1] mab Diwg, mab Llywarch Hen, mab Elidir Lydanwyn mab Meirchiawn gul, mab Gorwst Ledlwn, ab Cenau mab Coel Godebawc, mab Tegvan gloff, mab Deheweint,[2] mab Urban, mab Gradd, mab Rifedel, mab Rhideyrn, mab Endeyrn, mab Endigant, mab Enid, mab Endos, mab Endoleu, mab Afalach, mab Aflech, mab Beli mawr, Mab Manogan, mab Eneit, mab Cyrwyt, mab Crydon, mab Dyfynfarch,[3] mab Prydein, mab Aedd mawr, mab Antonius, mab Seirioel, mab Gwrwst, mab Rhiwallawn mab Cunedda, mab Rhegau ferch Llyr,[4] mab Rhund,[5] mab Bleiddud mab Llywelyt, mab Bruttus Darianlas,[6] mab Efroc, mab Membyr, mab Madawc, mab Locrinus mab Bruttus tywyssauc o Rufein[7] mab Silvius, mab Ascanius, mab Eneas ysgwyddwyn,[8] mab Anchises, mab Capis, mab Assaracus, mab Trois[9] mab Hericthonius[10] mab Dardanus, mab Jubiter mab Sadwrn,[11] mab Cælus mab Cretus mab Siprius, mab Cetyn, mab[12] Ieuan, mab Japheth, mab Noe hên, mab Lamech, mab Methusalem, mab Enoc, mab Jareth, mab Malaleel, mab Cainan mab Enos, mab Seth mab Addaf, mab Duw.

Bonhedd Gruffudd o barth ei fam. Gruffudd frenin fab Rannillt Raonel[13] Afloedd[14] frenin dinas Dulyn a phummet ran Iwerddon, ac Ynys Fanaw a hanoedd gynt o deyrnas[15] Prydain, a brenin oedd ar lawer o ynysoedd eraill, Denmarc a

[1] Gwên.
[2] Deheufreint.
[3] Dyfynarth, Dyfynarch.
[4] Mab Reget verch.
[5] Rud.
[6] Ysgwydwyn.
[7] Brutus.
[8] Ysgwydd dwyn.
[9] Tros.
[10] Enrichonsius.
[11] Saturnus.
[12] Nid yw mewn ereill.
[13] Racuel verch.
[14] Auloedd.
[15] Neu ynys.

Galwei a Rhenneu a Mon, a Gwynedd yn yr hwn le[1] i gwnaeth Afloedd gastell Cadarn ae tom ae ffos ettwa yn amlwc, ag a elwit Castell. Afloedd frenhin, yng Cymraeg hagen i gelwir Bon y Dom. Afloedd ynteu oedd fab i Swtrig frenin mab Afloedd frenhin Cirian, mab Sutric mab Auloedd frenhin ab Horffagyr vrenhin, mab brenin Denmarc. A bit honneit bod Hærallt Harffagyr ai ddeu froder yn fcibion i frenhin Llychlyn, ac Alyn ei vrawt oedd vrenhin cyssegrediccaf ac enwoccaf ym plith holl Denmarc, ac a lladdawdd Tur tywyssawc ym brwydr, a thra yttoedd hwnnw yn ei yspeiliaw ac yn tynnu torch fawr o eur i am ei fwnwgl mal i gnottaei[2] y brenhinedd ar bonheddigion ei arwain gynt y glynodd ei dwylaw wrth y dorch ae linieu wrth ei groth; a hwnnw a fu y gwyrth cyntaf a wnaeth. Duw yrddaw ac o hynny allan i cymmerasant yr holl Daenisseit efo yn sant, ac ir anrhydeddasant or dydd hwnnw allan, a llawer o eglwyseu a adeilwyt yn ei enw[3] ac yn[4] ei anrhydedd ef yn Denmarc, ar Mordwywyr a alwant arnaw yn wanredawl[5] ag a aberthant iddaw, ag a offrymmant iddaw lawer o roddion pan peryglont yn y mor: e tywyssawc ae lladdawdd ynteu a elwit or weithret honno[6] Thwrciawl, am ladd[7] o honno y brenhin gwirion.

A bit honneit rygerdded ar for[8] or tri baoder rhagddywedig hynny[9] i gyrchu Milwriaeth gan frenhinawl lynges, ac yn y diwedd wynt a ddoethant y gyt hyt yn Iwerddon.

Harallt Harffagyr eissioes a gerdasei cyn no hynny[10] a dirfawr lu ganthaw ac ydd amgylchynws[11] holl Iwerddon gan greulonder a lladd ei chiwdawt, ac eu[12] ffo, ae goresεyn ar hyt ac ar llet, ac ydd adeilws[13] ynteu dinas[14] Dulyn a llawer o ddinasoedd ereill a Chestyll a lleoedd cadarn,[15] ag felly cadarnhau a gwastadhau i deyrnas yn ei chylch ogylch[16], ag un oi frodyr a ossodes yn un or dinasoedd a adeilassei yr hon a elwit yn eu hiaith hwy Porthlarg, ae etifedd ynteu a fuant frenhinedd y dinas hwnnw[17] yr hynny hyt heddyw.

Harallt eissioes[18] a wladychwys[19] tros wynep Iwerddon, ac ynyssoedd Denmarc y rhei sydd yn y mor cyfarystlys a thai ynys Prydein, megys i mae ynysedd Siklade[1] y rhwng mor Tyren a Denmark. Eu [2]trydydd brawt ynteu nid amgen Rodwlff a gerddws[3] ae lynges i Ffreinc ac yno i gwastadhäws[4], ag i gorfu ar y Ffreinc o ymladd, ac i gorrescynnws[5] ran fawr o Ffrainc, a elwir yr awron Normandi, kanys [6]gwyr Norddwei[7] ae presswylya, sef yw y rhei hynny cenedl o Lychlyn, ar ddaear honno a rannwyd yn ddeuddeg rhann herwydd y Barwnieit ar Tywyssogion a ddaethant yn gyntaf i rann o Ffrainc a elwir Brytaen[8] neu Lydaw, wynt a adeilassant yno ddinassoedd lawer. Rhodwn[9], nid amgen y gan Rhodwlff frenhin adeiliawdr a enwyt, megis Rhufain y gan Romulus, a Rhemys y gan Remo, a llawer o ddinassoedd ereill a Chestyll a lleoedd cadarn[10] a orug. O hwnnw ydd[11] henynt[12] breninedd[13] Normandyeit[14] a[15] orescynnasant Loegyr, o frwydyr nit amgen, Gwilym brenin ai ddeu fab ynteu y rhei a ddoethant[16] yn ei le, Gwilym Gleddyf-hir a Henri ac Ystyffan ei nei neiaint yr rhei oeddynt gyd oeswyr, ac fegis hynny i bu bonhedd Gruffudd frenhin o barth ei fam herwydd tad ei fam.

Eilweith o barthred ei henfam, nid amgen mam ei fam. Gruffudd frenhin oedd fab Raguel ferch Failcorkre[17] ferch Dimlwg[18], mab [19] Tethel frenin Lain e pumhet rhan[20] Ywerddon. Alam hagen mam Afloedd frenhin oedd ferch i Uilien brenhin Muen[21] dwy ran o Iwerddon. Ac odd yna Gwrmlach[22] oedd fam Swtric frenin, merch oedd honno i Fwrchath frenin Laine, ac i hwnw i bu dri meib clotvawr, nid amgen Dwnchath frenhin Muen[23] a Swtric frenin Dinas Dulyn, a Moelchelen frenin Midif. Moel-Mordaf eissioes oedd fab i'r frenhines honno o Fwrchath frenin Laine. I Ruffudd frenin ir oedd ddeu froder unfam, brenhinedd Wlthw, nid amgen Ranallt mab Mathganyn[24] yr hwn a ennillws[25] ddwy rann[26] Iwerddon ym pythefnos a mis[27] oe ddewredd. Llemhidydd[28]

O LYVYR R. D.

[1] Yn y lle.
[2] Gweddai i.
[3] Enw ef.
[4] Yw.
[5] Waredawl.
[6] Gweithret hwnnw.
[7] Ei ladd.
[8] Bit fal yr aethant i'r mor.
[9] Hwnnw
[10] Yn gynt no hynny.
[11] A ymgylchodd.
[12] Gan eu hymlid.
[13] Yr adeiliodd.
[14] Ddinas.
[15] Cedyrn.
[16] Hamgylch.
[17] Ddinas honno.
[18] Ieissys.
[19] Wladychodd.

O LYVYR R. D.

[1] Cyclades.
[2] Y.
[3] Aeth.
[4] Gwastadhaod
[5] Goresgynodd.
[6] Sef.
[7] Normandi.
[8] Brydain.
[9] Rhodwm.
[10] Cedyrn.
[11] Yr.
[12] Henwynt.
[13] Breninoedd.
[14] Normandi
[15] Ac a.
[16] Yr aethant.
[17] Failcoxere.
[18] Dunlwg.
[19] Ferch.
[20] Pymtheg. rhan.
[21] Innen.
[22] Gwmlach.
[23] Innen.
[24] Mathgynan.
[25] Ennillodd.
[26] Ran or.
[27] Mewn chwech wythnos.
[28] Llamhydydd

anrhyfedd oedd, nit oedd or holl Wyddyl a allai na gwrthwynebu, na chyffelybu iddaw yn ei neit. Ae farch ynteu oedd odidawc yn[1] amrafaelion gampeu o fuander. Islimach[2] oedd ei enw, kymmeint oedd ei neit ef, ac farch tebyccaf oedd i Cynar[3] March Achelarw neu i Bucephal March Alexander amperawdyr.

Y Brawt arall i Ruffudd oedd Ethminach Gawyn brenin Wltw.

Can deryw rhifaw bonedd a charant[4] Gruffudd frenin herwydd byd, rhifwn weithion ei fonedd herwydd Duw, herwydd i dyweit Tad Sant, yn[5] fonedd ef ac o fonedd pop dyn yn yr un exponyat a wnaeth ar y[6] wers or sallwyr[7] Chwi yw[8] y dwyweu a meibion y goruchelaf yw pawb. Wrth hynny Gruffydd oedd fab i Gynan mab Addaf mab[9] Duw, wrth hynny yn i bo canmoledig Gruffydd frenin, o fonedd bydawl ac un dwywawl, cerddwn weithian ar ddargon[10] Merddin Fardd y Brutanyeit o honaw. Ef ae daroganws[11] Merddin ef in i fal hyn.[12]

Llymminawc lledffer a ddaroganer diarfor[13] dygosel llygrer[14] i enw llygrawd[15] llawer. Sef yw hynny yn Lladin. Saltus ferinus præsagitur cujus nomen corruptor, quia multos corrumpet[16].

O garediccaf frodyr Cymry! Coffadwy iawn yw Gruffydd frenin, yr hwn[17] a ganmawl ei fonedd bydawl a darogan Merddin fal hyn.

A chan[18] deryw hynny bryssiwn iw[19] briodlion weithredoedd herwydd yr eddewit gennym trwy hen gyfarwyddyt a Christ a fo Awdwr a Chynhelwr[20] yn hynny, ac nit Diane nac Apollo.

Historia Incipit.

Wrth hynny pan yttoedd Gruffydd etwa yn fab da ei ddefodeu a thrythyll ei fagiat, ac yn yscynnu ar[21] flwyddynedd ieuenctid[22] yn nhy ei fam, ac yn troi ym plith ei chenedl: ym plith hynny i manegei[23] iddaw peuuydd, pwy a pha ryw wr oedd ei dad, a pha tref tad oedd iddaw, a pha ryw frenhiniaeth, a pha ryw treissiwr oedd yn ei phresswylyaw. A phan gigleu[1] ynteu hynny gorthrwm i cymmyrth, a thrist fu lawer o ddyddieu, ac wrth hynny i cerddws[2] ynteu i lys Murchath freniu a chwynaw wrthaw ef yn bennaf, ac wrth[3] frenhinoedd Iwerddon[4] y lleill, bot[5] estrawn genedyl yn Arglwyddi[6] ar ei dadawl deyrnas, ac adolwyn iddynt yn ysmala roddi cannorthwy iddaw y geissiaw tref ei dat, a thruanu[7] wrthaw a orugant[8] ac addaw cannorthwy iddaw pan ddelei amser. A phan gigleu[9] yr atteb, llawen fu a diolwch hynny i Dduw, ac uddunt wynteu.[10] Yn y lle escynnu[11] llong a orug[12] a dyrchafael hwylieu i'r gwynt a cherddet môr parth[13] a Chymru, a chaffel Porth Abermenei, ac yna ydd[14] oeddynt yn arglwyddiaw yn enwir ag yn erbyn deiliaid Trahaearn ap Caradawc a Chynwrig fab Rhiwallawn brenhinyn o Bowys, ar[15] holl Wynedd, ac[16] rhannu rhynddynt[17] a ddaroedd[18] eiddunt.

Ac yna ydd anvones Gruffudd gennadeu ar wyr Mon ag Arfon a thri meib Merwydd o Leyn, Asser a Meiriawn a Gwgawn a gwyrda craill i erchi uddunt ddyfod ar frys i gyfrwch[19] ag ef, ag heb ohir wynteu[20] a ddoethant a chyfarch gwell iddaw, a dywedyd wrthaw o ddamuned rhyddoethost:[21] ena ydd adolygws[22] ynteu oe holl ynni[23] uddunt hwy i gynnorthwyo i gaffael tref[24] ei dad, canys cf[25] oedd eu Harglwydd priodawr[26] a gwrthladd (y)gyt ag ef yn wychyr[27] eu hampriodorion arglwyddi wedi dyfod[28] o le arall. Ac yn i bei terfynedic y Cyfrwch, a gwahanedic y kynghor[29], i cerddws[30] drachefyn y weilgi parth a chastell Rhuddlan hyd at Robert (o) Ruddlan Barwn enwog dewr[31] o gadernyt, nei i Hu[32] Iarll Caer, ae weddiaw a orug am[33] gynnorthwy yn erbyn ei elynion a oeddent ar tref ei dad, a phan gigleu[34] ynteu pwy oedd ef ac i ba beth rhyddothoedd[35], a pha

O LYVYR R. D.

[1] Mewn.
[2] Isliniach.
[3] Cinar.
[4] Ceraint.
[5] Oi.
[6] Y.
[7] Psaltwyr
[8] Yn.
[9] In.
[10] Ddarogan.
[11] Daroganodd.
[12] Ym fal yn.
[13] A wnaeth diarfor.
[14] Llygrwr.
[15] Llygrwyd.
[16] Saltus ferinus præsagitur venturus de mari insidiaturus cujus nomen corruptor, quia multos corrumpet.
[17] Yr.
[18] Chanys.
[19] Yno.
[20] Chynhaliwr.
[21] Preswyliaw ym.
[22] Iefienctid.
[23] I fam.

O LYVYR R. D.

[1] Glybu.
[2] Cerddodd.
[3] Wrth y llaill o
[4] Y Werddon.
[5] Fod.
[6] Argwlyddiaethu.
[7] Thrugarhau.
[8] Wnaethant.
[9] Glybu.
[10] Hwytheu.
[11] Trefnu.
[12] Wnaethant.
[13] Tua.
[14] Yr.
[15] A.
[16] Ai.
[17] Y rhynddynt.
[18] Darfod.
[19] Gyfarfod.
[20] Chyn bir hwy.
[21] I ddymuno beth y daethost.
[22] Y yr adolygodd.
[23] Yr eiraiwl iawn.
[24] Trefi.
[25] Efe.
[26] Priawd.
[27] I gyd yn wrawl.
[28] Dyfodiad.
[29] Gyngor.
[30] Cerddodd.
[31] A dewr
[32] Huw.
[33] Ar fod yn.
[34] Glybu.
[35] Y daethai.

arch aedd yr eiddaw, ef a erddewis bot[1] yn gynnorthwywr iddaw.

Ac yn hynny y doeth gwraig brudd Tangwystyl y henw, ei gares ei hun, gwreig Lywarch Olbiwch i gyfarch gwell i Ruffydd ei char, ag i ddarogan ei fod[2] yn frenin rhagllaw, a rhoddi[3] iddaw y Crys meinhaf a goreu a phais wedi[4] ei wneuthur o yscin Gruffudd[5] frenin mab Llywelyn frenin[6] mab Seisyll: Canys Llowarch ei gwr hitheu oedd wahauredolaf[7] gwas ystafell[8] a throssoryer[9] i Ruffvdd mab[10] Llywelyn.

Odd yna Gruffydd a esgynnws i[11] long ag a ymchoeles oe reidwyf[12] hyt yn Abermenei.

Odd yna ydd anfones[13] ymladdwyr Meibion Merwydd a oeddent yng Celynog[14] ar[15] Noddfa rhag ofn gwyr Powys a oedd yn eu gogyfaddaw a bueddigion ereill oc eu[16] cenedyl a thri ugeinwyr o etholedigion o Degeingyl o gywaeth[17] y Rhobert a enwyt uchod, a phedwar ugeinwyr o Ynys Fon, hyt yng Cantref Lleyn i ymladd a Chynwric frenhinyn eu treisiwr[18]: Oddyna i cerddassant yn[19] ystrywys ag i doethant[20] am ei benn yn ddirybudd ag i lladdassant ef a llawer oe wyr.

Ac yna ydd[21] oedd Gruffudd yn Abermenei nid amgen y porthloedd[22] a ddywedpwyd uchod yn aros pa dynghetfen a ddamweiniai uddunt: ac yna i cerddws[23] or blaen ar frys gwraang[24] o Arfon, Einiawn oedd ei enw, i fynegi: y chwedyl hyrwydd yn gyntaf, nyt amgen ryladd ei[25] orescynnwr, ac erchi yn goelfein enwedig gwraig deg Dylat oedd ei[26] henw, gordderch i Fleddyn frenin cyn no hynny, megis i doeth gynt nebun wreang[27], mab i wr o Amalec ar[28] redeg ar Ddafydd hyt y[29] Philistim[30] or frwydr ryfuassei ym Mynydd Gelboe a theyrnwialen a breichrwy Sawl frenin ganthaw, ar breichrwy a roddes Dafydd iddaw ynteu yn llawen yn i goelfein am ei chwedl llawenydd.

Oddyna i doethant[31] yn[32] ol gan fudd ugoliaeth y nifer a anfonessit ir cyrch ac yn y lle ydd[1] annogasant wynteu[2] iddaw ef cerddet rhagddaw ar[3] coel da hwnnw i orescyn Mon ac Arfon a Lleyn ar Cantrefoedd[4] Cyffinydd i Loegyr, a chymryt gwryogaeth[5] y gan y gwerin[6], o cherddet y velly a[7] gogylchynu[8] holl Wynedd ei wir[9] tref tad ef,[10] a roddassei Duw yn eu llaw hwy oe drugaredd ef. Ac yn y[11] bei wneuthuredic[12] y pethau hynny oc eu[13] hannog wy i dyddwg[14] dirfawr lu parth a Chantref Meirionnydd yn y lle ydd[15] oedd[16] Trahaiarn yn ei erbyn ei orescynnwr ef (y llall), a brwydyr a fu y rhyngthunt yng glyn Cyning[17] y lle yn[18] Gymraeg Gwaeterw, neu y tir Gwaetlyt, o achaws y frwydr a fu yna: a Duw a roddes buddugoliaeth iddaw oe Elynion yn y[19] dydd hwnnw, a llawer o filoedd a ddigwyddasant o barth Trahaiarn, a breidd i diengis[20] ynteu yn gwynfannus ag ychydic gyt ac ef or frwydyr. A Gruffudd ae nifer ae hymlynws ynteu[21] trwy faes tiredd[22], a mynyddedd ar gyffinydd[23] ei wlat ei hun, ac or achos hwnnw i derchefit[24] Gruffudd oe obryn[25] yn frenin Gwynedd, ac i[26] llawenhaws[27] ynteu megis Cawr i redeg ei[28] ffordd gan rhyddau Gwynedd or Arglwyddi a ddothoedd[29] iddi o le arall ag[30] oeddynt yn ei[31] gwledychu yn enwir megys ydd[32] amddeffynws[33] Judas Macabeus gwlat yr Israel y gan[34] y brenhinedd Paganieit, ar cenedloedd Cyd-derfyn, a ruthrei yn eu plith yn fynych. A gwedy gwneuthur y felly pob peth, dechreuws Gruffudd gwastattau ei[35] deyrnas a lluniaethu ei werin ac eu llywiaw yngialen[36] haiarnawl yn ogonianhus[37] yn yr Arglwydd.

Bellum contra Rhuddlan et Francos.

Ac gwedi llithraw oddyna[38] ychydic o amser o annog gwyrda[39] y wlat i cynnull-

O LYVYR R. D.

[1] Addawodd fod.
[2] Fod ef.
[3] Ac i roddi.
[4] Gwedi.
[5] Ab.
[6] Ab.
[7] Wahanredawlaf.
[8] I Gastell.
[9] Thryssorwr.
[10] Ab.
[11] Esgynnodd iw.
[12] Ymchoelodd iw daith.
[13] Anfonodd.
[14] Nghelynog.
[15] Ar i.
[16] Oi.
[17] Gyfoeth.
[18] I treisiwr.
[19] Hwytheu yn.
[20] Daethant.
[21] Yr.
[22] Porthleoedd.
[23] Y cerddodd.
[24] Gwr.
[25] Ddarfod lladd i.
[26] I.
[27] Wrianc.
[28] Ar i.
[29] Yn y
[30] Philistia.
[31] Daethant.
[32] Yn i.

O LYVYR R. D.

[1] Yno yr.
[2] Hwytheu.
[3] Or.
[4] Cantrefoydd.
[5] Gwrogaeth.
[6] Brenin ai werin.
[7] Ac.
[8] Amgylchu.
[9] I iawn.
[10] Nid yw yn Ll. P. P.
[11] Oni.
[12] Wneuthur.
[13] Au.
[14] I ddwyn.
[15] Yr.
[16] I oresgynwr arall ef.
[17] Cyfing. q.
[18] A elwir yn.
[19] Y.
[20] Diengodd.
[21] Ymlidiawdd.
[22] Feusydd.
[23] Mynyddoedd hyd ar derfynau.
[24] Derchafodd.
[25] Or dydd hwnnw allan ac i gelwid.
[26] Y.
[27] Llawenhaodd.
[28] Yn rhedeg y.
[29] Ddaethai.
[30] Ac a.
[31] Yn.
[32] Yr.
[33] Amddefynnodd.
[34] Yn erbyn. [au.
[35] Dechreuodd gwastath-
[36] Gwerin ac llywaw a gwialen.
[37] Ogoneddus.
[38] A chwedi ennyd o ddydd iau (neu ar ol).
[39] Gwyr da.

ws[1] llu mawr ac i cerddws[2] parth a Chastell Rhuddlan i ymladd a Robert gastellwr ac ar marchogion ereill dywal o Ffreinc a ddathoeddynt y diwedd[3] hwnnw o Loegyr, ag oddyna i doethoeddynt[4] i wladychu Cyffinydd[5] Gwynedd. A gwedi byddinaw o honaw a dyyrchafael ei arwyddion[6] y balli ag i llosges, ac i dug anrhaith fawr: llawer or Marchogion llurigawc helmawc or Ffreinc a ddigwyddassant i ar[7] eu Meirch yn ymladd, a llawer o bedyt a breidd i diengis[8] ychydig o naddunt yn y Twr. A phan gigleu[9] Brenin Iwerddon ae farwnieit bot mor hyrwydd damwein Gruffudd eu car ac eu[10] mab Maeth, a hynny i llawenhasant[11] wynteu yn fawr.

Rebellio et Insurrectio contra Griffinum.

Ac oddyna[12] tri meib Merwydd a holl wyr Llein a ddyunasant[13] yn erbyn Gruffydd eu Harglwydd priodawr, ag a laddassant hyt y nos yn eu lettyeu yn y wlat or Gwyddyl ddeuddengwyr a deugeint o farchogion Gruffudd ae teulu. A phan gigleu[14] Trahaiarn hynny yn orchfygedic ac yn ffoedic, llawenhau a wnaeth[15]. Oddyna yr Annyundeb hwnnw (y) rhwng Gruffudd ae wyr, ac yn y lle[16] i cerddws[17] ynteu ar[18] wyr Powys ac annoc uddunt ddyfod ygyt ac ef am ben Gwynedd yn amlder torfoedd i ddial arnaddunt Cynwric y gar.

Ac wrth hynny i daeth Gwrgeneu a Seisyll[19] brenin Powys ae nifer y gyt a Thrahaiarn ae nifer ynteu o gyt ddyundeb[20] i fynnu gorescyn brenhiniaeth Gruffudd frenin.

A phan gigleu[21] tri meib Merwydd, a gwyr Lleyn ac Eifionydd hynny, i bredychassant wynteu Gruffudd frenin eu harglwydd priodawr megys gwyr anudonol anffyddlon, a chynnorthwyaw eu gelynion a bot yn dywyssogion uddunt ir[22] Cywoeth, a dau froder o Fon Tudur a Gollwyn a wnaethant yn gyffelyb i hynny wedi cymryt eu Cyfarwys[23] yn Colynawc[24] fawr y gân Ruffudd. A phan glybu Ruffudd y brad ar dyundeb a[25] oedd yn ei erbyn y[26] gan ei wyr ei hun ae elynion i doeth yn eu herbyn a gwyr Mon ac Arfon ag ychydig o wyr Denmarc ar Gwyddyl ganthaw, a brwydr[27] ddirfawr o gyfodes, (ac) aerfu fawr a fu o bob parth, a llawer a ddigwyddasant o lu Gruffudd frenin, a llawer a ddaliasant yn y frwydr, Cerit ei dadmaeth a Farudri[28] tywyssawc y Gwyddyl ac arglwydd Cruc Breuan (sef oedd[29] hwnnw goruchel fynydd sant Brendan hermidwr enrhyfedd a naw cantref yn ei gylch) ac o oreugwyr Mon i digwyddassant dengwyr a thriugeint ac eissioes[30] Gruffudd frenin yn eistedd ar ei farch yn y fyddin ae gleddyf llathrait yn medi ei fradwyr ae elynion megys Agamemnon brenin y groegwyr gynt yn ymladd Tro[31]. Ac yna i Cyrchws[32] Tudor gwas o Fôn, pen bradychwr[33] Gruffudd, gan ffrydiaw gleif ac i trosses Cyfeiliorn ef iw gyrchu yn ei goryf ol iw gyfrwy, a phan weles Gwyncu[34] Barwn o Fon hynny i tynnws[35] ef or frwydr ae anfon hyt ei long a oedd yn Abermenei, ac yna[36] ydd aethant hyt yn ynys Adron, sef y lle hwnnw (oedd) ynys y Moelrhoniait, oddyna hyt yn Llwch Garmaw yn Iwerddon i cerddasant: ar gyfranc honno[37] a elwir Bron yr Erw, neu Erw yr Allt yr hynny hyt heddyw.

Na ryfedded y bobyl hagen[38] bot gweithieu gorfot, ac weithiau ffo herwydd damwein, canys brad y sydd yr y dechreu, fal hynny i gwnaeth pobyl yr Israel a fredychassant ac a roddassant eu brenhin dyledawc ac eu[39] harglwydd, nit amgen Judas Machabeus i Demetrius frenhin Anffyddlon, ac ynteu eissioes mal ymladdwr Duw, cyffelyb i gawr ac i lew, a ymddialws[40] ei hun yn dda or ddwy bleit. Ulcassar[41] amperawdyr Rhufein gwedi goresgyn o honaw yr holl fyt ae wastattau o ymladdeu, i lladdawdd seneddwyr Rhuf ain ef o frad a phwyntleu ynghabidyldy[42] Rhufein.

Arthur hefyd Brenhin brenhinedd[43] Ynys Prydein, a rhyswr honeit clotfawr a wnaeth ddeuddeg prif ymladd yn erbyn y Saesson ar Fictyeit[44] ac yn gyntaf o naddunt i bu

O LYVYR R. D.

[1] Cynnullodd.
[2] Cerddodd.
[3] O ffreinc a ddaethant i ddiwedd.
[4] Oddiyno y daethant.
[5] Cyffinyd.
[6] Arwyddion yr anrheithiodd.
[7] Oddiar.
[8] Diengodd.
[9] Glybu.
[10] Ai.
[11] Yn fawr.
[12] Yno.
[13] Addunasant.
[14] Glybu.
[15] Or anghyttundeb.
[16] Yno y.
[17] Gyrrodd.
[18] At.
[19] Mab Ithel mab Gwerystan. L. Pl. et Pork. et versio Lat.
[20] Nid ynt yn Ll. P. P. y geiriau. brenin Powys ae nifer gyt a Thrahaiarn ac ynteu o gyt ddyundeb.
[21] Glybu.
[22] Er.
[23] Y cyfarfuant.
[24] Nghellinawc.

O LYVYR R. D.

[25] Adduned.
[26] Gan.
[27] Brad.
[28] Marndri.
[29] Sef lle oedd.
[30] Fal yr oedd.
[31] Troea.
[32] Cyrohodd.
[33] Bradwr.
[34] Gwyn, Gwynn.
[35] Tynnodd.
[36] Oddiyna.
[37] Er hynny hyd heddyw.
[38] Ormod.
[39] Au.
[40] Ymddialodd.
[41] Julius Cæsar.
[42] Cabidyldy.
[43] Ffichtiad.
[44] Ffoadwr.

orchfygedic a ffoawdr[45] ef, o achos brat ynghaer Lwyt Coet sef oedd y lle hwnnw Dinas y Llwyn Coet[46] yn yr ymladdeu ereill i bu vuddugawl ynteu, ac i talws[47] ir Saesson ar Ffictieit[48] eu ormeswyr cyt bei henwr ef, chwyl[49] teilwng yn y gwrthwyneb.

Griffini fuga ad Hiberniam.

A gwedi dyfot Gruffudd i Iwerddon[50] i cwynws[51] yn dost wrth y brenin a'i dywyssogion rhag ei fradwyr ac ormesswyr, ac annioddef[52] fu ganthunt wynteu[53] hynny, ae annog o orugant iddaw[54] ymchwelyt drachefyn yn gyflym a llynges gyweir o reidwyf[55] a rheidiau ac ymladdwyr.

Ac wrth hyn ynteu a ymcheolws[56] parth ae wlat gan rwyaw[57] dyfn-foroedd a degllong ar hugeint llawn o Wyddyl a gwyr Denmarc, ac yn Abermenei i desgynnasant, ac yna i[58] cawssant Trahaiarn yn gwledychu yn y wlat. A phan gigleu[59] Trahaiarn ddyfod y llynges frenhinawl honno, tristau ac ucheneidiaw a oruc[60], ac ergryn ac ofn ai dygyrchws[61], a mudaw gwyr Llyn ac Ardudwy ac eu da a oruc attaw hyt yng Cantref[62] Meirionnydd a gafas o naddunt, a Gruffudd ynteu ae lu a ddugant y rhann[63] arall o Leyn ac Arfon hyt ym Mon, fal i gellynt bot yno yn ddiogel dan ei amddeffyn ef.

Oddyna i llidiws y Daenysseit ef[64] a gwyr ei dy ai dylwyth ei hun can ni cheint eu gorddyfneit mal ir addawodd iddunt ac ir anrheithiassant gan mwyaf Môn o[65] dreis i arnaw ac ymchoelyt i eu[66] gwlat ac eu llongeu yn llawn o ddynion a goludoedd[67] ae ddwyn ynteu ganddynt, ac nit oe fodd[68]. Ac ni bu lei yna[69] i Ruffudd brat y Daenyssyeit noc un[70] Cymry.

Oddyna y tyfawdd[71] llawer o ddrwg a gofid yng Gwynedd.

1. *Invasio Vendotice. i. e. North Wallice per Normannos*[72].

Ac ym plith hynny wedi ychydic o amser i cynnullws Hu[73] iarll Caer a llawer o dywyssogion eraill, nit amgen Rhobert o Ruddlan a Gwarin o Amwythic[74] a Gwalter iarll Henffordd y llu mwyaf yn y byd o farchogion a phedit ac a ddugant ganthunt Gwrgeneu mab Seissyll a gwyr Powys ac a gerddassant y mynyddedd yn i ddoethant hyt yn Lleyn[75] ac yn y Cantref hwnnw i lluestassant wythnos gan ei ddestryw[76] beunydd ae anrheithiaw a lladd aerfa fawr o gelanedd a hadawsant.[77]

Ac oddyna i bu ddiffeith[78] y wlat wyth mlynedd: ac oddyna pobl y wlat[79] honno a wascarassant yn ddielw ar hyt y byt yn rheidussion, a llawer o naddunt a aethant i alltudedd i wladoedd[80] eraill, trwy hir flwyddynedd, ac o freidd i doeth o naddunt i eu gwlat[81] a honno fu[82] y bla gyntaf a dyfodiat agarw[83] y Normanyeit yn gyntaf i ddaear Wynedd, wedi eu dyfodiat[84] i Loegr.[85]

Ac yn hynny wedi bot Gruffudd blwyddynedd[86] yn Iwerddon megis yn trwyddet gyda Diermit[87] frenin, ag y gyt ar gwyrda eraill, efe a gynnullws lynges vrenhinawl o Borthlarc a roddassei y brenhin iddaw yn llawn oe ddaenysseit[88] a Gwyddyl a Bryttanyeit, a gwedi lledu hwylieu ar y mor, ar gwynt yn hyrwydd oc eu hol, ar mor yn dangnefeddus[89], ef a ddoeth i Borth Cleis garllaw Archescobty Mynyw.

Ac yna i cerddws Rhys ab Tudur[90] brenhin Deheubarth Cymru ar Escob ar athrawon ae[91] holl Clas yr Arglwydd Dewi, ac un eglwys Fynyw[92], hyt y borth a Rhys gyntaf a ymadroddes[93] fal hyn a'r Arglwydd Gruffudd. Hanbych well Ruffudd, Brenin brenhinedd[94] Cymru, attat ti ydd wyf i yn ffo rhac[95] dy fron i digwyddaf ar dal fyngliniau i erchi dy gynnorthwy ath nerth. Pwy wyt tithau heb y Gruffudd, ac i ba beth rhyddoethost[96] yma? Rhys wyf i heb ynteu mab Tudur[97] Arglwydd y Cywaeth hwn o fewn ychydic, ac yr awron yn wrthladdedig ac yn ffoedig ac yn ddif-

O LYVYR R. D.

[45] Sef oedd.
[46] Llwyd.
[47] Tâlodd.
[48] Ffichtiaid.
[49] Hyd onid aeth ef yn henwr hwyliad.
[50] Yr Werddon.
[51] Cwynodd.
[52] Anoddef fu hynny.
[53] Hwytheu.
[54] Wnaethant i.
[55] Oreiddwyf, oreiddwyf
[56] Ymchoelodd.
[57] Rwygaw.
[58] Yno y.
[59] Glybu.
[60] Ochneidio a wnaeth.
[61] Cyrchodd.
[62] Gantref.
[63] Ran.
[64] Ac oddiyno y lluddiws y Danisiaid ef.
[65] Wrth.
[66] Arnaw ae ymchwelyd iw.
[67] Golud.
[68] Oi bodd.
[69] Nid oed hi yno le.
[70] O herwydd brad y Danisiaid a fu gwaeth na'r.
[71] Oddiyno y tyfodd.
[72] Nid oes y geiriau hyn na gwahaniaeth yn Ll. R. D.

O LYVYR R. D.

[73] Y Cynnullodd Huw.
[74] Gwarain o Mwythig.
[75] Mynyddoedd hyd yn Llyn.
[76] Lluestasant gan i distryw.
[77] Ac i gadawsant.
[78] O hynny y bu diffaith.
[79] A phobyl y wlad.
[80] Honynt a aethant yn alltudedd i wledydd.
[81] Tros hir flynyddoedd a braidd y daeth neb o honynt byth iw gwlad.
[82] A bu.
[83] O arw ddyfodiad.
[84] Dir Gwynedd wedi i dyfod.
[85] Nid oes y gwahaniaeth yn Ll. R. D.
[86] Flwyddyn.
[87] Diennic.
[88] Or danisiaid.
[89] Hwylus ar mor yn dawel.
[90] Ac yna y cerddodd Rhys ap Theodr.
[91] Ac esgob ac athrawon a.
[92] Mynyw.
[93] Ymadroddodd.
[94] Brenhinoedd.
[95] Ydwyf fi yn ffo gar.
[96] Y daethost.
[97] Tewdwr.

lanedig haeach[98] ydd wyf yn ymddirgelu yn y noddfa hon. Pwy ath ffoes di heb y Gruffudd? Arglwydd heb ynteu tri brenhin or gwladoedd[99] pennaf o Gymry ac eu lluoedd a ddescynnassant im Cywoeth y diwedd hwn a pheunydd i maent yn[100] anrheithiaw. Pwy heb y Gruffudd y brenhinedd[1] a gerddant trwy dy wyr di ath gywoeth mor fyddinawc a hynny?[2] Caradawc mab Gruffudd heb ynteu[3] o Went uch Coet ac is Coet ae Wenhwysson a gwyr Morgannwc a llawer o Albrysswyr Normanyeit[4] ganthaw, Meilir mab Rhiwallon ae Bowysswyr ganthaw, Trahaiaru frenin a gwyr Arwystli. A phan gigleu Gruffudd enw eu[5] ormesswyr ffroeni o gynddaredd a oruc[6] a gofyn iddaw pa beth a roddei yr ymladd trostaw yn erbyn y gwyr hynny? Dyoer heb y Rhys, hanner fy nghyfoeth a roddaf yt, ag y gyt a hynny gwryogaeth a wnaf[7]. A chyfun a hynny a fu Gruffudd[8].

A gwedi ymddyunaw o naddunt yn y lle honno a bendith[9] yr Escob, Gruffudd a gerddws yn yr undydd rhacddaw, ae[10] Ddaenyssyeit ae Wyddyl a llawer oe Wyndyt rhifedi wyth ugeinwyr a Chynddelw mab Comos o Fon oc eu[11] blaen. Rhys ynteu ac ychydic Ddeheuwyr, a gerddws gydac hwy[12] yn llawen ganthaw ei fryt oe gynnorthwwy.

Ac wedi cerddet dirfawr ymdeith diwyrnawt yng cylch gosper wynt a ddoethant i Fynydd yn y lle ydd oedd[13] lluesteu y dywededigion frenhinedd uchod.

Ac yna i dywawt[14] Rhys wrth Ruffudd frenin Arglwydd heb ef, annodwn y frwydyr hyt y foru[15], canys gosper yw yr awrhon, ar dydd sydd yn trengi, annot di heb Gruffudd dan igian, os[16] mynni, myfi am byddin a ruthraf iddynt wy ac felly i bu: a dechrynu a orugant[17] y brenhinedd eissioes pan welsant y torfoedd buddugawl amrafael, a byddinoedd Gruffudd frenin ae arwyddion yn eu herbyn, a gwyr Denmarc ac eu bwyeill[18] deufiniawc, ar Gwyddyl gaflachawc, ac eu peleu[19] haiarnawl cyllellawc, ar Gwyndyt gleifiawc[20] tariannawc.

Gruffudd gyntaf ymladdwr a gyrchws[21] y frwydyr yn gyffelyp i cawr ac i lew heb orphowys o tanu ei wrthwynebwyr o gleddyf[22] lluchedennawl: gyrru grym yn ei wyr a orug i ymwrthladd ac eu[23] gelynion yn wrawl, a hyt na roddynt uddunt eu[24] cefneu o nep rhyw fodd; ac yna i bu brwydr ddirfawr, i clyf yr etifedd wedi ei rhyeni gewri yr[25] ymladdwyr a ddyrchafwyt ir awyr, Seiniaw a oruc[26] y ddaear gan twryf y meirch ar pedyt, y sein ymladdgar a glywit ympell: Cynnwryf yr arfeu a seinyen yn fynych, Gwyr Gruffudd yn dwyssaw yn wychyr, ac eu[27] gelynion yn darestwng uddunt chwys eu[28] llafur a'r gwaet yn gwneuthur ffrydieu rhedegawc, ac yn hynny Trahaiarn a drychwyt yn y cymherfedd yn i yttoedd ir llawr yn farw ae ddannedd yu[29] llysiau ir, ac yn palfalu ar warthaf ei arfeu, a Gwcharis[30] wyddel a wnaeth baccwn o honaw fal o hwch. Ac yn yr un lle hwnnw i[31] digwyddassant yn ei gylch oe deulu ehun pum marchawc ar hugeint, rhei eraill o naddunt[32] a las yn y fyddin gyntaf, llawer o filoedd o honynt a las, ar lleill a roddassant eu cefneu i wyr Gwynedd[33] ac a ymchwelassant ar ffo.

Gruffudd ynteu oe gnottaedic[34] ddefawt yn fuddugawl ae hymlynws wynteu[35] ef ae nifer trwy y llwyneu ar glynneu ar gwerni ar mynyddedd yn[36] hyt y nos honno wrth y lleuat, ac yn hyt[37] y dydd drannoeth, a breidd fu o diengis neb o naddunt[38] or frwydyr i eu gwlad eu hun.[39]

Ac wedi darfot y vrwydyr ofynhau[40] brat o barthret Gruffudd a oruc Rhys ymdynnu a dan gel cyfliw gwr llwyn o gytymdeithas,[41] Gruffudd ae wyr, ac nit ymddangoses i neb o naddunt[42] o hynny allan, ac am hynny i sorres Gruffudd, ac am hynny ydd erchis Gruffudd ae wyr[43]

O LYVYR R. D.

[98] Hefyd.
[99] Gwledydd.
[100] Cywaeth ac beunydd i maent yn i.
[1] Pwy ebr Gruffudd yw'r brenhinoedd.
[2] Byddinawc felly.
[3] Ebr yntau.
[4] Albryswyr a Normaniaid.
[5] Glywodd Gruffudd henwau ei.
[6] A wnaeth.
[7] Wnaf yt.
[8] Hynny fu Ruffudd. Nid oes y gwahaniaeth yn Ll. R. D.
[9] Ac wedi y cyfrwch hwnnw hwynt a gerddasant i eglwys Dewi yn i gweddi; ac yno ydd ymwnaethant yn gymdeithion ffyddlon trwy arfoll i creirieu. Ac wedi ymddifan yn y fan honno o honynt a bendith.
[10] Undydd hwnnw rhagddaw ef ai.
[11] Conys o Fon oi.
[12] Ychydic o ddeheuwyr. a gerddodd gyda hwynt.
[13] Fynydd lle ydd oedd.
[14] Yno y dywawd.
[15] Frwydyr y foru.
[16] Darfod, annog di eb Gruffydd dy annygiono.
[17] A wnaeth.
[18] Ai bwyill.
[19] Ai pelau.
[20] Gleiniawg.
[21] Gyrchodd.
[22] Gawr ac i lew heb orphwys ond tanu i wrthwynebwyr a chleddyf.
[23] A wnai i ymladd ai.
[24] Hyd oni throent i.
[25] Yno bu frwydr ddirfawr, i clyw'r etifedd gwedi i rieni gyfri or.
[26] A wnaeth.
[27] Pwysaw yn wych ac i.
[28] Iddynt chwys a.
[29] Onid oedd ar lawr yn farw yn pori ai ddannedd y honynt.
[30] Wartha yr arfau. A Gwrcharci.
[31] Lle y.
[32] Honynt.
[33] Roddasant i wyr Gruffudd.
[34] O gnotaedig.
[35] Hymlidiawdd hwythau.
[36] Mynyddoedd ar.
[37] Ar hyd.
[38] Braidd a fu o diangodd neb o honynt.
[39] Iw gwlad i hunan.
[40] Ofni.
[41] A wnaeth Rhys, a chilio allan yn ddirgel a wnaeth o gymdeithas.
[42] Ymddangosodd i neb o honynt.
[43] Yr archodd iw wyr.

anrheithiaw Cywoeth Rhys, ac felly[1] i darfu. E mynydd hagen i bu y frwydyr ynddaw, a eilaw[41] ciwdawt y wlat y Mynydd Carn sef yw hynny Mynydd y Garnedd, canys yno i mae dirfawr Garnedd o fein adan[45] yr hon i claddwyt rhysswr yng cynnoesoedd gynt.

A gwedi gwneuthur[46] dirfawr bla yno, a llawer o anrheithiau, i cerddws[47] Gruffudd parth ac Arwystli ac i destrywyws[48] ac i lladdawdd y gwerin, ac i llosces y tei, ac gwragedd ae morwynion a ddug yng ceithiwet ac y felly i talws[49] y chwyl i Drahaiarn.

Oddyna i cerddws[50] Bowys, yn y lle i dangosses[51] ar hynt ei greulonder iw wrthwynebwyr o ddefawt buddugawl, ac nit arbedws kenei yr eglwysseu.[52]

Ac wedi lladd y felly ei elynion a distryw eu daear yn gwbl, ydd ymchwelws[53] iw briodolder a thref ei dad e hun iw meddu ac iw thangnefeddu, ac i bu orphowys yng Gwynedd ychydic o ddieuoedd[54] ac fal ydd oedd y felly[55] yn arfer o fwyniant y frenhiniaeth i cyffroet Meiriawn Goch o saeth Diafol ei farwn ei hun, ac i cyhuddws ef wrth Hu iarll Caer ac i bredychws[56] yn y modd hyn. Peri a oruc[57] y ddeu iarll o Ffreinc, nit amgen yr Hu a ddywedpwyt uchot a Hu iarll Amwythic[58] mab Rosser o Gastell Baldwin ddyfot y gyt ac amlder marchogion a phedyt ganthunt hyt yng Cruc yn Edeyrnion[59] y bradwr hagen ae bredychws ef ar[60] geiriau hyn. Arglwydd heb ef, i mae deu iarll or ardal yth annerch ac yth weddiaw am ddyfot yn ddiogel ti ath wyr diethyr i gyfrwch ac wynt hyt yng Cruc yn[61] Edeyrniawn, a Gruffudd gan gredu yr ymadroddion hynny a aeth hyt yn lle ei deiliadaeth[62], a phan weles yr Ieirll ef, i daliassant ef ae nifer ac i dodassant ef yng geol Gaer[63] y carchar gwaethaf a gefynnau arnaw ddeuddeng mlynedd. Y wyr dieithyr ynteu wedi eu dal, a dorret ei fawt[64] dehau i law pob un o naddunt[65], ac fal hynny i gadawssant wy ymdeith[66], a phan glywyd hynny i gwascarassant[67] y lleill, canys ymadrawdd dwywol a ddywait. Mi a darawaf y Bugail, ar defaid yn genfaint a wascarassant.[68] Cytymdeithion gwahanredawl Gruffudd a ddywedynt ei fod ef yn wr cymmedrawl ei feint, a gwallt melyn arnaw, ac emmenydd gwressawc, ac wyneb erwn da ei liw, a llygeit mawr gweddus, ac aelieu tec, a baryf weddus, a mwnwgyl crwnn, a chnawt gwynn ac aelodeu grymmus a byssedd hirion ac ysceiriau union a thraet tec, cywreint oedd a hyawdyl yn[69] amrafaelion ieithoedd; bonheddic oedd ynteu, a thrugarawc wrth ei giwdawt, a chreulawn wrth ei elynion, a gwychraf ym brwydyr.[70]

Secunda Invasio et Servitus deplorabilis Venedotiæ post capt. Gr. R.

Ac yn y lle wedi ei ddal ef i doeth Hu[71] iarll iw gyfoeth ynteu yn amlder[72] torfoedd, ac i gwnaeth cestyll a lleoedd cadarn o ddefawt y Ffreinc, a bot yn Arglwydd ar y tir; cestyll a oruc[73] ym Mon ac arall yn Arfon yn hen Gaer Custennyn arall[74] a wnaeth ym Mangor, ac arall ym Meirionydd, ac a ossodes ynddynt marchogion a phedit a saethyddion, a chemeint a wnaethant o ddrwg, ag na wnaethpwyd ei gyfrwy er dechreu byt[75], a llef y bobyl a escynnaws ar yr[76] Arglwydd, ac ynteu ae gwrandewis wy[77].

Ac yn hynny i cerddws[78] heibiaw un flwyddyn ar bymthec[79] ac i rhyddhawyt Gruffudd ogarchar[80], canys Gureang o Edeyrniawn, Cynuric Hir oedd ei enw, a ddoeth i gaer ac ychydic o gytymdeithion y gyt[81] ac ef i brynu eu hangenrheitieu, a phan weles[82] ynteu ei frenin yn efynnawc ym plas y ddinas i cymmyrth ar ei gefyn, ac y duc heb wybot, ac i cerddws ymdeith ef ae gytymdeithion prydnawn[83] pan ydoedd y bwrgeissieit[84] yn bwytta ac i porthes yn ei dy e hun ef, rynnawd[85] o ddyddieu a dan gel.

A gwedi terfynu dieuoedd[86] a chryfau Gruffudd i duc ef y nos hyt ym Mon, ac

O LYVYR R. D.

[41] Hwnw a eilw.
[45] Gerrig a than.
[46] Gwneud.
[47] Corddodd.
[48] Ac y distrywiawdd.
[49] I gaethiwed. Ac felly y talodd.
[50] Oddiyna y cerddodd.
[51] Dangosodd.
[52] Fuddugawl ac nid arbedodd moi heglwyswyr.
[53] Distrywio i daiar o gwbl a ymchwelodd.
[54] Ychydig ddyddiau.
[55] Yr oedd felly.
[56] Cyhuddodd ef wrth iarll caer ac ai bradychodd.
[57] A wnaeth.
[58] Huw iarll Caer a Huw iarll y Mwythig.
[59] Rug yn y Deirniawn.
[60] Bradychodd ef or.
[61] A hwynt hyd Rug yn.
[62] Yn y brad gyfarfod.
[63] Yn geol Caer yn.
[64] Wedi dal a dorred y fawd.
[65] O honynt.
[66] Uddynt ymdaith.

O LYVYR R. D.

[67] Y gwasgarodd.
[68] Defaid a wasgarant.
[69] Teg, hy a chwyraint oedd mewn.
[70] A gwychaf gwr yn y frwydr.
[71] Ac yno wedi ddal ef y daeth Hu.
[72] Ac amlder.
[73] Castell a wnaeth.
[74] Custenin amrherawdwr fab Costans fawr, ac arall.
[75] Y cyfryw er dechreu'r byd.
[76] Ddaeth at yr.
[77] Gwrandawodd hwynt.
[78] Yr aeth.
[79] XVI Blwydd.
[80] Oi garchar.
[81] Gymdeithion ynghyd.
[82] Welodd.
[83] Ac a gerddoddd ymdaith pyrnhawn ef ai gymdeithion.
[84] Bwrdeisiaid.
[85] Porthes ef yn ei dy i hun ennyd.
[86] Ac yn ol ychydig ddyddiau.

yna i diwallws[87] Sandef mab Aere ef yng cudd. Ac oddyna wedi ychydic o ddyddieu ydd escynnws i long[88] i fynu mynet i Iwerddon; ac eissioes y gwynt ae duc hyt[89] ym Porth Hodni yn Neheubarth, oddyna i cerddws ir tir[90] a naw cedymmeith etholedic ganthaw; ar nawfet a las ar hynt. Ciwdawt y wlat honno a ymladdws ag ef teirgweith[91] y dydd hwnnw ar teirgweith hynny i gorfu ef arnaddunt[92] hwy, ef ai wyth gytymdeith[93] a lladd o honaw ynteu ehun un or gweision bonheddiccaf a hanoedd or cywaeth hwnnw, ag y felly i diengis y ganthunt[94].

Oddyna[95] ar y cerddet hwnnw i doeth hyt yn Ardudwy yn petrus[96] ganthaw pa le i cerddei[97] rhac brat y Ffreinc. A phan i gweles[98] meibion Collwyn[99] Egnir, Gellan, Merwydd, Ednefed[1], i truanasant wrthaw ac ai diwallassant y a dan gel y mewn gogofeu[2] diffeith: a gwedi diwoedd missoedd i dyunasant[3] iddaw wyth ugeinwyr, ac i crwydrassant o le i le yng Gwynedd dan wneuthur colledeu[4] yn oes yr iarll Hu[5] megis Dafydd frenin fab Isai o Fethlehem yng gwlad Iudea yn oes Saul brenhin. A gwedi gwelet o[6] Ffreinc a oedd yna yn y cestyll, efo yn afroli felly, ei ymlyn a wnaethant, ac wynt[7] a chiwtawt y wlat yng coet ac ym maes megis gellgwn neu gallgwn yn hely[8] ac yn dilyt carw blin. A phan adnabu[9] ynteu na allai ymddiang y felly ydd[10] aeth yn yscraff y Canhonwyr yn Aberdaron[11] ac yn honno a dan rwyf ydd aethant yn Iwerddon[12].

Oddyno eilchwyl ym pen y mis i doeth drachefn ir un[13] yscraff, ac i cafas aber yr un afon ar[14] lle i cychwynassei, ac oddyno i cerddws[15] eilwaith drachefyn hyt Iwerddon[16]. Ac oddyno wedi cymmeryd cynghor i cerddws o hwyl a rhwyf hyt yn ynyssedd Denmarc[17] at Grothrei vrenhin ei gyveill, i adolwyn iddaw llongeu ac eu dodrefyn ac eu rheidiau, canys yna gyntaf rhyddothoedd attaw ymddiriet[18] i geisiaw porth. Ac ynte a gynnorthwyws iddaw ef, gan gyt ddioddef a chyt ddoluriaw ae fynych perygleu ef[19].

Griff. R. redit ap Monam cun auciliis Danicis vel Norweg.

Ag oddyna i cerddws[20] Gruffudd a thrugeinllong ganthaw, ac i doeth hyt ym Mon i arfaethu ef a gwyr yr ynysedd ymladd[21] a chastell y Ffreinc. A gwyr y wlat a wnaethant gormot llesteir uddunt, ac yna i bu frwydr lidiawc, greulawn galet, or boreu hyt brydnawn, a llawer a ddigwyddassant o pob parth, ar gwyr dewraf yn gyntaf, ac ym plith hynny neidiaw a oruc Gruffudd[22] or blaen yn y vyddin gyntaf i drychu y Ffreinc lluricawc a helmawc oe fwyall deufiniawc megis Dafydd vrenhin ymmysc y Philistwysson[23] ar nos a wahanws[24] y frwydr, y llongeu a gerddassant ir ynyssedd, efo hagen ac unllong ganthaw, a drigws[25] yn Ron ynys, nit amgen ynys Dinewyt y mor[26] ac a ysbeiliwys llong[27] yn dyfod o gaer a lladd ei gwerin.

A thrannoeth ir hwyliws parth[28] a Lleyn ac a ddoeth i borth Nefyn, a phan gigleu gwyr y cantrefoedd[29] dyfot ar frys a orugant[30] attaw gwyr Lleyn ac Eifionydd ac Ardudwyac Arfon a Rhos a Dyffryn Clwyt ac arfoll mal i dylyn eu[31] harglwydd dyledawc, a gwedy cadarnhau Gruffudd o lu mawr yn ei gylch trwy nerth Duw ydd amgylchynws y castell a ddywetpwyt[32] uchot a oedd ym Mon, ac a ymladdws[33] ac ef rynnawt[34] o ddyddieu, ar Ffreinc o eu ceyrydd og eu[35] cedernyt, oc eu tyroedd[36] yn bwrw ergytieu o saethau ag o chwareleu ag a magneleu[37] yn gawodau, ac eissioes[38] eu gorchfygu a wnaethpwyt o beunyddiawl ymladd y Cymry, eu hystiwart llys a las yr hwn a cedd yn meddu y Castell a phetwar gwr a chweugein gyt[39] ac ef.

O LYVYR R. D.

[87] Diwallodd.
[88] Esgynnodd i'w long.
[89] Ac gwrthwynt ai dug ef hyd.
[90] Ac yno y cerddodd i dir.
[91] Ymladdodd ag ef dair gwaith.
[92] Arnynt.
[93] Gedymaith.
[94] Ac felly y diengodd ganthynt.
[95] Oddyno.
[96] Yn arswydus.
[97] Cyrchai.
[98] Canfu.
[99] Collwyn ef.
[1] Ac Edneved.
[2] Ac y diwallasant ef dan gel mewn gogoeuau.
[3] Ac wedi rhai misoedd y dyfynnasant.
[4] Coiledion.
[5] Huw.
[6] Ac felly gweled or Ffreinc.
[7] Ymlid a wnaethant hwynthwy.
[8] I goed ac i maes megwn neu gallgwn yn hela.
[9] Wybu.
[10] Ddianc felly yr.
[11] I Aberdaron.
[12] Aeth hyd yn y Werddon.
[13] Yn yr un.
[14] Yn yr un afon or.
[15] Y cerddodd.
[16] Hyd un y Werddon.
[17] Hyd yn Denmarc.

O LYVYR R. D.

[18] Au dodrefnau ai rheidieu canys yn gyntaf y ddiried.
[19] Gynnorthwyawdd iddo ef gan gyt ddioddef.
[20] Y cerddodd. [ladd.
[21] Gwyr ynysoedd i ymwedpwyt.
[22] Orfu i Ruffudd.
[23] Ymhlith y Philistiaid.
[24] Wahanodd.
[25] Drigodd.
[26] Ynys y Moel-rhoniaid, Ynys y Dinewyt.
[27] Ysbeiliodd long.
[28] Ef a hwyliodd tu.
[29] Glybu wyr y cantredaethai attaw gan ymfydd.
[30] Wnaethant.
[31] Ai arfollynt i ddilyn ei.
[32] Yr ymgylchodd a ddywedpwyt.
[33] Ymladdodd.
[34] Ennyd.
[35] Ffreinc ai ceyrydd ai.
[36] Ac ai tyroedd.
[37] Ac a thaflau a magnelau.
[38] Etto.
[39] Ynghyd.

Hic Inserenda est historia occisionis Roberti de Rodolento per Griffinum ap Cynan ex Ordrici lib. 8. *Vid. Nostrum Chronicum Cambriæ ad. p.* 120. *A°.* 1088.

A gwedi llosci y Castell a gorfot ar y gelynion, llawenhau a oruc[40] Gruffudd a cherddet am benn y Cestyll ereill a oeddynt yn y lleoedd ereill yn y teyrnas ac ymladd ac wynt, ac eu llosci ac eu torri[41] a lladd y gwerin ynddynt ymhob lle, rhyddau Gwynedd a oruc oe cestyll a chymmeryt ei gywoeth e hun[42] a thalu eu chwyl yn teilwng iw wrthwynebwyr a heddwch a fu i Wynedd yna[43] ddwy flynedd.

A choffâ hyn hefyd pan ydoedd Ruffudd yn ymladd yn Aberllienawc ym[44] Mon ar ei chweugeinfed o wyr, a phedwar ar ddec a feibion ieueinc, losci o honaw ai anrheithiaw a lladd llawer or Castellwyr ac wedi eu[45] anrheithiaw yn llwyr, ymchwelyt o honaw hyt[46] y tu arall i Fon lle ydd oedd teirllong[47] iddaw, ar Castellwyr eraill a gwyr Mon ae hymlynasant ynteu yn[48] hyd y dydd gan frwydraw yn ei ol yn wychyr. Ac fal cynt i cerddasant wynteu[49] drachefyn ar anrhaith ac ar Ffreinc ar[50] Saesson yn rhwym ganthunt ac yn garcharorion ac a llawer oe hymlynwyr[51] a laddassant o'r hir frwydyr. Ac yna i digwyddws[52] Gellan telynior, pencerdd o barthret Gruffudd yn y llynghes. Padarn er ei gyfarwyddet ae drybelitted a allei mynegi yn llwyr gyfrangeu[53] Gruffudd ae ryfeloedd y rhwng Cymru ac Iwerddon ac ynyssedd Denmarc,[54] ac amrafaelion geneloedd eraill, Myfi a gyfaddefaf nas dichonaf fi pe byddwn cyn hyawdlet a Thwlliws areithiw[55] ym Bros ac a Marw Fardd yn[56] traethawd Mydyr.

Ac fal ydd oedd Ruffudd y felly[57] yn rhwydd; weithiau yn afrwydd rhacddaw; ef a gymmyrth wraic, Angharat ei henw, merch Owein ap Edwin yr hon a ddywedynt[58] doethyon i cywoeth i bod yn fonheddic, hydwf walltwen lygatvras, osceth-

O LYVYR R. D.

[40] Wnaeth.
[41] Ereill oeddynt yn i deyrnas ai llosci ai torri.
[42] Rhuddlan Gwynedd ai chestyll a chymryt i drycywaeth iddo i hun.
[43] Yn Ngwynedd.
[44] Yna ymladd ac Aberllenwawr.
[45] A chwedi i.
[46] Ymchwelyd hyd.
[47] Lle yr oedd tair llong.
[48] Castellwyr a gwyr Mon ai hymlidiasant yntau ar.
[49] Hwythau.
[50] Ac a Ffreinc ac a.
[51] A llawer oi hymlidwyr.
[52] Digwyddodd.
[53] Padern i'r gyfarwyddyd na allai er i drybelitted manegi yn llwyr holl helyntiau.
[54] Cymry y Werddon ynysoedd.
[55] Medrafi ac nas medrwn pei byddwn cyn ddoethed a Thullius fardd
[56] Maro fardd mewn.
[57] Ac felly fal yr oedd Ruffudd weithiau.
[58] Ddywedai.

loyw[59], a chorf gwalcheidd ac aelodau grymmus, ac esceirieu hydwf ar traet goreu a bysedd hirion, ag ewinedd teneu, hynaws a hyawdyl, a da o fwyt a llynn[60] a doeth a chall, a chynghorwraig dda trugarawc wrth ei chywoeth; chardodus wrth achanogion a chyfreithus[61] ymhob peth: ac o honno i bu iddaw meibion a merchet, enw ei meibion a fu Cadwallawn[62] ac Owein a Chadwaladyr ae ferchet oedd Gwenlliant a Maryret[63] a Ranillt[64] a Susanna, ac Annest, e fu[65] meibion a merchet iddaw hefyd[66] o gariatwragedd.

Guil. Ruffus contra Venedotiam compara seq. cum Sim. Dunelmensi.

A phan gigleu[67] Gwilym Cleddyf hir brenin Lloegyr, milwriaeth Gruffudd ac ddy walder ae greulonder yn erbyn y Ffrainc anioddef[68] fu ganthaw, a chyffroi a oruc[69] ei holl teyrnas yn ei herbyn, a dyfot hyt yng Gwynedd yn amlder torfoedd marchogion a phedyt, gan anrheithiaw, deleu a destryw[70] pawb or giwdawt yn llwyr, hyt na bei fyw[71] cymeint a chi, a hefyd a arfaetheassei[72] torri y coedydd ar llwyneu hyt na bei wascawt[73] nac amddeffyn ir Gwyndyt[74] o hynny allan, ac wrth hynny i lluestws ac i pebyllws[75] yn gyntaf ym Mur Castell, a rhei or Cymry yn gyfarwyddyt iddaw.

A phan gigleu Gruffudd hynny i cynnullws[76] ynteu llu ei holl[77] frenhiniaeth ac i cerddws[78] yn ei herbyn ef wrth wneuthur rhagotfaeu iddaw yn[79] lleoedd cyfyng pan ddescynnei or mynydd, ofnhau hynny a oruc ynteu, a chyfarchwelyt[80] ei lu trwy berfedd y wlat yn i ddoeth[81] i Gaer heb wneuthur neb rhyw gollet[82] yn yr hynt honno i giwdawt[83] y wlat, ac ni chafas ei gyfarwyddieit ganthaw, neb cyfryw ffrwyth nac ynnill, namyn un fuch[84], a cholli rhan fawr o farchogion ac asweirieit[85] a gweission a meirch a llawer o ddaoedd ereill. Ac felly i dielwis[86] rhyfyg

O LYVYR R. D.

[59] Osgeddloew.
[60] Fywyd a llun.
[61] Anghenog a chyfreidus
[62] Enwau y meibion fu y cynnullawdd. Caswallawn.
[63] Marred.
[64] Ranwllt.
[65] Fo fu.
[66] Hefyd iddaw.
[67] Glybu.
[68] Anioddefus.
[69] A wnaeth.
[70] Dulyn a distrywiaw.
[71] Yn fyw.
[72] Ef hefyd a archassasai.
[73] Llwyni fel na bai na chysgod.
[74] Gwendid.
[75] Lluestodd ac y pebyll-iodd.
[76] Glybu Ruffudd hynny
[77] I holl.
[78] Cerddodd.
[79] Gan wneuthur rhagodfaeu mewn.
[80] Ac ofni hynny a wnaeth ynteu ac ymchoclyd.
[81] Hyd oni ddaeth.
[82] I neb golled.
[83] O giwawd.
[84] Ennillodd neb arnaw ef cymmaint a buwch.
[85] Esgweiriaid.
[86] Y dialodd.

y Ffreinc hyt ar ddim. Ac yn hynny fyth Gruffudd ae lu ganthaw, ynteu weithiau [87] or blaen, weithieu yn ol, weithieu ar ddeheu, weithieu ar asswy uddunt, rhag gwneuthur o naddunt [88] neb rhwy gollet yn ei gyfoeth. A phei ar wyddai [89] Ruffudd iw wyr ymgymmyscu ag wynt [90] ar y llwyneu, diweddaf dydd fyddei hwnnw i Frenhin Lloegyr, ae Freinc [91]: ynteu hagen a arbedws [92] iddaw megis Dafydd frenin gynt i Sawl.

A gwedi darfot hynny Hu [93] iarll Caer, yr hun a ddywedpwyd uchod, gwraid yr holl ddrwg, megis Antiochus gynt gynnullws [94] lynges a llu dirfawr anrhyfedd ir wlat, gan dristyt a chwynfan a dolur, a choffau y Castellwyr a diwreiddiaw ei gestyll, a lladdfa ei farchogion, ac a gyt ddyunws [95] ac ef Hu [96] arall iarll Amwythic ae lu ynteu fal i delynt y gyt yn gyfun i ddial y colledeu rhywnathoedd [97] Ruffudd uddunt ac wrth hynny i cerddassant ac eu llu [98] yn eu llynges ar for hyt ynghywaeth Gruffudd, ac Ywein fab Edwin, ac Uchdrut ei frawt oc eu blaen ac eu [99] gallu.

A phan fu honneit [1] hynny gwyr Gwynedd a Phowys a gyt-ddyunassant i wrthwynebu uddunt heb ddarostwng. Ac wrth hynny i mudassant Arglwyddi Powys, Cadwgan ap Bleddyn a Maredudd ei frawt, ac eu hanneddeu ganthunt hyt ar Ruffudd. [2]

Ac yna gwedi cymryt cyt gyngor ydd acthant [3] hyt ym Mon, ac wynt [4] a Gruffudd, ac yno ydd [5] ymddifferassant megis y mewn caer a faei ddamgylchynedic o weilgi. Canys i Ruffudd rhyddothoedd [6] unllong ar bymthec o gyfar eu hirion [7] yn borth iddaw o Iwerddon [8], ar rhei hynny i frwydraw ar for yn erbyn llynges yr Ieirll.

A phan ddoeth hynny at yr Ieirll [9] anfonassant wynteu [10] gennadeu hyt ar y llongeu rhyddothoedd [11] i gynnorthwyaw Gruffudd, i erchi uddunt pallu iddaw pan fei cyfyngaf arnaw, a dyfod attaddunt wynteu [12] er a fynnynt o dda, ag felly y darfu wedi credu o naddunt [13] i dwyll y Ffreinc, y tywalldassant yr holl ynys [14] gan dorri eu harfoll wrth Gruffudd, a phan wybu Ruffudd hynny doluriaw a chymmrawu yn fawr a oruc [15], can ni wyddiat pa gyngor a wnei yn erbyn ei wrthwynebwyr o Ffreinc ar brat-longeu.

Ac yna gwedi mynet yng cyngor ef a Chadwgawn fab Bleddynt ei ddaw, i cerddassant y mewn yscraff yn y ddoethant hyt yn Ywerddon [16] ac adaw eu ciwdawt ac a oedd eiddunt [17] yn ewyllys Duw ae amddeffyn, yr hwn a nottaa cannorthwyaw [18] i bob dyn pan fo cyfyngaf arnaddunt [19] o anebryfygedic rybuchet. A phan wybu eu pobyl wynteu hynny ydd [20] ymchwelassant ar ffo gan ymddirgelu ac ymguddiaw yng gogofeu a llwyneu a rhedynossydd ag elldydd [21] a diffysseu a chorsydd a drysswch a cherric ag ymhob rhyw leoedl ereill or y gellynt ymguddiaw rhac ofn Iuddewon nid amgen y Ffreinc, a chenedloedd ereill rhyddoethoeddynt [22] yng cyrch uddunt, canys megis i dywait y dwywawl ymadrodd digwyddaw a oruc [23] y bobyl heb tywyssawc. Ac ni bu ohir ir ieirll ac eu [24] lluoedd, ac eu hemlynassant wynteu yn orawenus [25] y dydd hwnnw hyt ucher, ar hyt ac ar let yr ynys, gan eu hanrheithiaw a lladd y gwerin a thorri aelodau eraill, ar nos a wastattaws [26] yr ymlit, a thrannoeth nachaf [27] trwy weledygaeth Duw, llynghes frenhinol yn agos yn ddirybudd yn ymddangos, a phan welet honno [28] anhyfrydu a oruc [29] y Ffreinc a'r Daenyssyeit bratwyr [30] a dwyllessynt Ruffudd.

Ac fal ydd oedd fradawc [31] y Ffreinc eissioes yn wastat ydd anfonassant wynteu a dan gel [32] yn y lle rhei or Cymry cyfun a hwynt hyt ar wyr yr ynys i erchi [33] uddunt ddyfot ar frys i dangnefedd, ar hoddi [34] diogelrwydd uddunt. Canys ofn fu ganthunt gorfod arnaddunt ymladd [35] ar Cymry ffoedigion [36] or neill parth, ar [37] llynges

O LYVYR R. D.

[87] Ganthaw weithiau.
[88] Asw rhag wneuthur o honynt.
[89] A phan wyddai.
[90] Ymgysgu a hwynt.
[91] A Ffrainc.
[92] Arbedodd.
[93] Huw.
[94] Gynnullodd.
[95] Gyd tynnodd.
[96] Huw.
[97] A wnaethai.
[98] Ai llu.
[99] Oc oi blaen ac ae.
[1] Son.
[2] Nid amgen Cadwgan a Maredudd i frawd meibion Bleddyn ab Cynfyn ac ai hanneddau ganthynt hyd at Ruffudd.
[3] Yr aethant.
[4] Hwynthwy.
[5] Yr.
[6] I daethai.
[7] Gyfarau hurion.
[8] O Werddon.
[9] Ar yr ieirll yr.
[10] Hwythau.
[11] A ddaethai.
[12] Attynt hwy.
[13] Honynt.
[14] Oll hir ynys.
[15] Chynnyrfu yn fawr a wnaeth.
[16] Wedi iddaw ef a Chadwgan fab Bleddyn ymgynghori yr aethant mewn ysgraff hyd yn y Werddon.
[17] Iddynt.
[18] Ddichon gynnorthwy.
[19] Arnynt.
[20] Hwythau hynny yr.
[21] Mewn ogfeydd daiarol a gwerni a choedydd a llwynau a rhedynoedd a gelltydd.
[22] A ddaethant.
[23] Wnaeth.
[24] Hir ir ieirll ai.
[25] Nas ymlidiasant hwythau yn rymus.
[26] Wastadhaodd.
[27] Yr oedd.
[28] Hynny.
[29] Wnaeth.
[30] Danisiaid fradwyr.
[31] Yr oedd frad.
[32] Y danfonasant dan gel.
[33] Cymry at wyr yr ynys a oedd ar ffo ac erchi.
[34] Dangnefedd a hwynt a hwythau a roent.
[35] Orfod ymladd.
[36] Ffoedig.
[37] Ac ar.

frenhinawl or parth arall, ac felly i darfu, ac felly i twyllws [38] y Ffreinc bratwyr, y Cymry o bob parth gwarchaedigion yn yr[39] ynys wedi y bla rhywnacthoeddynt a allei ddyfot [40] ar gof ir etifedd wedi ei ryeni. E llynghes hagen a ry welsynt yn ddeissyfyt, brenin Llychlyn bieuoedd [41] a gyfarwyddassei Duw oe trugaredd i Fon i rhyddhau y bobl warchaeedic gan yr anghyfiaith [42], canys galw rhywnaethoeddynt [43] ar eu harglwydd yn eu dioddefeint ac eu gofid [44] a Duw ac eu gwrandewis [45].

Ac wedi datcanu i'r Brenin trwy ieithydd pa ynys oedd, a phwy oedd eu harglwydd, pa anrheithiaw [46] a pha ymlynu, pwy yr ymlynwyr [47] cyt-ddoluriaw a oruc[48] a llidiaw a dyneshau ir tir a their llong, ar Ffreinc hagen yn ofnawc [49], fal gwragedd pan welsant hynny, a ymladdassant yn llurigawc ac eistedd ar eu meirch oc eu defod a cherddet tu a'r brenhin [50], a nifer y teirllong, ar brenin yn rhyfygus ae nifer a ymladdws yn eu herbyn wynteu [51], a digwyddaw a oruc [52] y Ffreinc, i ar eu [53] meirch fal ffrwyth y ffigys i ar y gwydd [54], rhei yn feirw, rhei yn frathedic o ergytieu y Llychlynwyr, ar brenhin ehun yn ddigyffro or cwrr y blaen ir llong a frathws a saeth Hu [55] iarll Amwythic yn ei lygat, ac ynteu a ddigwyddws oe ochrwm ir ddaear yn friwedic, ddieneit, i ar ei [56] farch arfawc dan ymffustiaw ar ei arfeu ac or damwein hwnnw ydd ymchwelws [57] y Ffreinc ar ffo, a rhoddi eu cefneu i ergytieu y Llychlynwyr, ar brenhin ae lynghes a hwylyassant oddyna ymdeith [58], canys ef rhyddothoedd [59] a gallu mawr ganthaw [60] i edrych ynys Prydein ac Iwerddon y rhei sydd oddieithyr y byt, megis i dyfot Fferil bòt y Bryttanyeit yn ddieithredic yn gwbyl or holl vyt [61].

Ac wrth hynny Hu iarll Caer a'r Ffreinc craill yn llawen o ymchweliat [62] Magnus frenhin, a ddugant y ganthunt y Gwyndyt ar eiddynt oll yn llwyr hyt [63] yng Cantref Rhos, rhac ofn dyfodiat Gruffudd awr pob awr [64], ac yna rhifwyt ysgrubyl pob perchennawc ae anrheith, ac oddyna eu hanneru ag ar hanner i cerddws [65] ef i Gaer.

Eno hagen hydd oeddynt [66] a bratwyr anudonol or Daenyssyeit a fredychessynt Ruffudd yn aros yr eddewidion a addawssei Hu uddunt, a cheith [67] o wyr a gwragedd o weission a morwynion, ac ynteu au talws uddunt hwy megis [68] ffyddlawn i anffyddlawn, yn i cadarnhaei ddwywawl lunyaeth canys neu ryddaroedd iddaw ar chang, cynnullaw holl wrachiot [69] mantach, crwm, cloff, unllygeidiawc, gormessawl, diallu, ac eu cynnyg iddunt yn pwyth eu [70] bratwriaeth; a phan welsant wynteu [71] hynny, gillwng eu llynges a wnaethant a chyrchu y dyfynfor parth ac Iwerddon; y gwr a oedd yn gwledychu yn yr amser hwnnw a beris [72] anafu rhei o naddunt [73], a thorri eu haelodeu, a dehol ereill yn ddybryt oc holl deyrnas.

Adventus Griffini Regis ex Hibernia.

Ac yn yr amser hwnnw nachaf [74] Ruffudd oe nottaedig ddefot yn dyfot o Iwerddon a y cafas yr holl wlat [75] yn ddiffeith, ac chiwdawt wedi rhyfynet [76] i le arall.

Oddyna ydd anfones [77] cennadeu hyt ar yr Iarll Hu, ac i tangnefeddws [78] ac ef ac yn y cantref hwnnw i rhoddet teir tref iddaw ef yno.[79] Ac yno i dwg ei fuchedd flwyddynedd yn dlawt ofidus [80] gan obeithiaw wrth weledigaeth Duw rhagllaw.

Ac oddyna wedi cerddet blwyddynedd [81] heibiaw i cerddws [82] i lys Heuri frenhin [83] yr hwn a fu frenin nessaf [84] iw frawt, a chan hwnnw [85] i cafas ef rybuchet a charyat a chyfadnabot eiriawl, a chyfarwyt [86] erfyn escob Bangor, ag i rhoddes iddaw [87] gan dangnefedd a charyat Cantref Lleyn ac Eifionydd ac Ardudwy ac Arllechwedd ac wynt ac eu gwerin ac eu hanrheithiodd [88],

O LYVYR R. D.

[38] Tywyllawdd.
[39] Gwarchaedigion yr.
[40] Ar y wnaethant allai ddwyn.
[41] Honno a welasant hwy yn dyfod brenin Llychlyn pioedd hi. [iaith.
[42] Warchaedig anghyf-
[43] A wnaethant.
[44] Ai gofid.
[45] Ai gwrandawodd.
[46] Oedd arglwydd pa anrhaith. [erlidwyr.
[47] Erlid a phwy oedd yr
[48] Wnaeth.
[49] Thynnu i'r tir a wnaeth a thair llong ar Ffrainc oedd yn ofnus.
[50] Yn eistedd ar i meirch y deuant tu ag at y brenin.
[51] Rhyfygus a ymladdodd yn i herbyn hwythau.
[52] Wnaeth.
[53] Oddiar i.
[54] Oddiar y ffigwydd.
[55] Huw.
[56] Oddiar i.
[57] Y dymchwelodd.
[58] Oddyno ymaith.
[59] A ddaethai.
[60] Gyt ag ef.
[61] Yn gwbl ddieithra or holl fyd.
[62] Huw iarll ar Ffreinc oedd lawen o ymweliad.

O LYVYR R. D.

[63] Oll hyd.
[64] O awr i awr.
[65] Y cerddodd.
[66] Yno hefyd yr oedd.
[67] Huw iddynt a llawer.
[68] Talodd iddynt megis.
[69] Ni ddarfu iddaw gynnull mor holl wragedd.
[70] Ai cynnyg iddynt yn dal am i.
[71] Hwythau.
[72] Barodd.
[73] Honynt.
[74] Yr oedd.
[75] I holl wlad.
[76] Myned.
[77] Yr anfonodd.
[78] Ar yr iarll Huw ac y tangnefeddodd.
[79] Teirtref iddaw.
[80] Dug fuchedd dlawd un flwyddyn ofidus.
[81] Y flwyddyn.
[82] Cerddodd.
[83] Frenhin Lloegyr.
[84] Yn nesaf.
[85] A chyn hynny.
[86] Chydnabod eiriawl a chyfarwyddyd.
[87] I Dduw.
[88] Hanrheithiau.

ac yn y lle pan ymchwelws [89] Gruffudd or llys i dug eu Cyfannedd ir gwladoedd hynny, gan diolwch [90] i Dduw yr hwn a ddiyt [91] y cywaethogion syberw og eu cadeir yr hwn a wna yr achanawc yn arberthawc [92] yr hwn a ystwng ddyn ac ae dyrchaif.

Oddyna eissoes pob dryll i rhyddhaws [93] pob peth rhac Gruffudd, canys ei obeith oedd yn yr Arglwydd, a pheunydd i llithrynt attaw ereill o Ros ac eu hanreithiau ganthunt heb ganiat Iarll Caer, ac amlhau ei bobyl, ac yn y flwyddyn rhag wyneb i cerddws i Fon ae gwerin ganthaw, ag i gwledychws [94], ac oddyna ir cymmydedd ereill, ac fal hyn [95] i cafas trachafyn oe grym pob peth yng Gwynedd, megis i gwnaeth Maccabeus mab Matathias gynt yn yr Israel. A dwyn a wnaeth ei holl giwdawt o amrafael alltudedd y rhei a athoeddynt [96] i alldudedd or ymlitfa a ddywedpwyt uchot, ac amlhau daoedd yng Gwynedd gan lewenydd, megys am wlat yr Israel ac eu [97] hymchweliat o geithiwet Babilon, a molest a gymyrth yr iarll ynddaw oe orescyn [98] y felly heb y ganyat.

Henrici 1. *mi. prospa indignantis Griff. Pr.* 2. *as. Expeditiones ridiculas contra Venedusque ad mur Castell.*

A phan gigleu [99] frenhin Lloegyr hynny rhyfeddu a orug [1] ag agori ei dryssor, a rhoddi treul ddidlawd i farchogion a phedyt, a dwyn ganthaw brenhin Ysgotland [2] ar Yscotieit a gwyr Deau, ag felly i doeth i gywaeth Gruffudd, a phebylliaw ym Mur Castell [3]. A Gruffudd ynteu o gynnefindra a brwydyr a luestws yn ei erbyn ynteu ym [4] mreichiau Eryri Eiriawg, ac oddyna ymanfon ar brenin, ac ynteu [5] trwy ysbeit dieuoedd [6], a thangnefeddu. Ac oddyna ydd ymchwelws [7] Henri frenhin i Loegyr, a Gruffudd iw gywaeth.

Ag eilweith wedi rhynnawd [8] o amser i doeth Henri frenhin drachefyn a lluoedd mawr ganthaw [9], a phebylliaw a orug [10] yn yr un lle a ddywedpwyd uchot yn y mynydd i arfaethu diwreiddiaw cywaeth Gruff.

O LYVIR R. D.

[89] Ymchwelodd.
[90] Roi diolch.
[91] Ddarostwng.
[92] Ansyber oi cadair ac a ddyrchefiff y rhai ufudd yn i lle yr hwn a wna yr achannawg arberthawy.
[93] Rhwyddws.
[94] Gwledychodd.
[95] Ac fal hynny.
[96] Ddoedynt.
[97] Ai.
[98] O achub i gywaeth ai oresgyn.
[99] Glyb.
[1] Wnaeth.
[2] Yr Ysgotlond.
[3] Mur y Castell.
[4] Luestodd yn i erbyn ym.
[5] Ac or brenhin ag yntau.
[6] Ennyd o ddyddiau.
[7] Yr ymchwelodd.
[8] Ennyd.
[9] A llu mawr oedd ganthaw.
[10] Wnaeth.

udd ae ddestryw [11], a lladd a difa ei giwdawt yngeneu y cleddyf. A phan glywyt hynny wedi cynnullaw llu i doeth Gruffudd yn ei erbyn oi nottaedic [12] ddefawd, a gossot eu anheddeu [13] ae fileinllu ar gwragedd a'r meibion yn dyrysswch mynyddedd Eryri yn y lle ni ddioddefasant un perygl ac wrth hynny ir ofnhaws [14] y brenhin digwyddaw [15] yn llaw Ruffudd oe pydiaw pan ddisgynnei or mynydd, i cerddws drachefn i Loegyr gan [16] wneuthur tangnefedd ac ef. O wi! o Dduw [17] y gynnifer gweith ydd arfaethassant ieirll Caer gwrthwynebu i Ruffudd ac nys gallasant, ar gynnifer gweith gwyr Powys, ac nis gallasant, ar gynifer gweith gwyr Trahaiarn twyllwr, ag nis gallasant eissioes i ddwyn ar gwbylder.

A gwedi hynny i gwledychws Gruffudd [18] llawer o flynyddedd yn hyrwydd gywaeth oc gan arafwch a heddwch ac yn [19] arfer o gymmydogaeth y brenhinedd nessaf iddaw yn gyfun, nit amgen Henri frenhin Lloegyr, a Mwrchath frenhin Iwerddon a brenhin ynyssedd Denmarc, a honneit amlwg fu, ac yn y teyrnassoedd pell iwrthaw, ac yn y rhei agos [20] iddaw, ac oddyna ir amlhaws pob cyfryw dda yng Gwynedd ac i dechreuassant y ciwdawtwyr adeilat eglwysseu ym mhob cyfeir ynddi, a heu coedydd ac eu [21] plannu a gwneuthur perllanneu a garddeu, ag eu damgylchynu [22], o gaeau a ffossydd, a gwneuthur adeiladau murddin ac ymborth o ffrwytheu y ddaear [23] o ddefawt gwyr Rhufein.

A Gruffudd ynteu wnaeth eglwysseu mawr yn y llyssoedd [24] pennaf iddaw ehun, ac adeiladoedd y llyssoedd, a gwleddeu [25] yn wastad yn anrhydeddus. Pa beth hefyd? echtywynnygn a wnei Wynedd yna [26] o eglwysseu calcheit [27] fal y ffurfafen or fyr [28] Llywiaw y bobyl a wnei yng gwialen haearnawl gan wneuthur cyundeb [29] a thangnefedd ar teyrnasscedd nessaf iddaw ae feibion etwa yn weision ieueinc a ossodes ar y cantrefoedd eithaf iddaw i eu rhagfeddu ac i eu [30] cynnal mal mur angcyffroedig [31] yn erbyn estrawn genedl-

O LYVIR R. D.

[11] A distryw.
[12] Arferedic.
[13] Gosod i anhedu.
[14] Ofnodd.
[15] I ddigwydd.
[16] Drachefyn gan.
[17] A Duw.
[18] Gwledychodd Ruffudd
[19] Gan.
[20] A hynny fu amlwg yn y teyrnassoedd pell oddiwrtho ac y rhai nesaf.
[21] Ai.
[22] Ai hamgylchynu.
[23] Ymborth a ffrwythau i daear.
[24] Yn y lusoedd.
[25] I lusoedd a gwladau.
[26] Chwynychu a wnai hefyd Wynedd.
[27] Calchedig.
[28] O ser.
[29] Cyttundeb.
[30] I ragfeddu
[31] O gyrff safedig.

oedd a rhai angcyfieith o darfei [32] uddunt meddyliaw cyfodi o newydd yn ei erbyn, ar brenhinedd bychein craill a gyrchynt ei lys cf ae amddiffyn, i gyrchu ei gannorthwy, ae gynghor y gynnifer gweith i gofuddyei estrawn genedl hwynt [33].

Opera Pietatis Griffini R.

Ac yn y diwedd [34] eissioes Gruffudd a hynaws [35] a cholli trem eu lygeit a oruc a rhoddi a oruc ynteu y ynni i [36] weithredoedd y trugaredd, wedi meddyliaw o honaw ennill enw tragywyddol o filwriaeth, ef a arfaethws hefyd fynet [37] e hun i le dirgel ysgyfala i ddwyn buchedd ddwywawl, a thremygu ei holl Arglwyddiaeth fydawl yn llwyr. Ac eissioes fal ydd oedd ei derfyn [38] i fynet or byt hwn yn nessau, galw ei feibion a oruc [39] a lluniaethu ei farwolaeth fal i gwnaeth y brenhin Ezechias weith arall, ac wrth hynny rhannu a oruc [40] ei holl dda ai gyfiawnder ynteu a bara yn oessoedd [41]. Ef a anfones ugein swllt i eglwys Crist yn Nulun, yn y lle i ganet ac i magwyt, a chymmeint a hynny i holl eglwysseu penaf Iwerddon: ar gymmaint i eglwys Fynyw, ar gymmeint i fanachloc Caer, ar gymmeint i fanachloc Amwythic, a mwy no hynny i eglwys Fangor, a deg swllt i Gaergybi ar gymmaint i Benmon, ar gymmaint i Gelynawc, ar gymmaint i Enlli, ar gymmaint i Feifod, ar gymmeint i Llan Armon, ar gymmeint i Ddineirth, ac i lawer o eglwysseu pennadusaf [42] ereill. A rhoddes ynteu i escob ac archdiacon offeiriaid ac urddelion, ac awthrawon [43] ac i achanogyon cristiawn y daoedd hynny a gymmynaf [44] fi i amddeffyn yr Ysbryd Glan yr hwn a wyr pob peth ac ae hatwen.

Wrth ei ddiwedd ynteu i doethant y gwyr mwyaf a doethaf or holl gywaeth, Dafydd escob Bangor, Symeon archdiagon gwr addfed o oed a doethineb, prior manachloc Caer, a llawer o offeiriaic ac yscolheigion yn iraw ei gorph [45] ac olew cyssegredic herwydd gorchymmyn Iago Ebostol.

Ei feibion hefyt a oedd yno ym plith hynny, ac ynteu yn eu bendigaw wy ac yn dywedyd, pa ryw wyr fyddynt rhagllaw megis Iago Padriarch yn bendigaw ei feibion gynt yn yr Aipht. A gorchymmyn a oruc uddunt [46] bot yn wrawl a gwrthwynebu yn wychyr eu gelynion ar ei gyffelybrwydd [47] ynteu yn ei ddiweddddyddieu. Yno hefyd ydd oedd Angharat frenhines ei wreic briawt ynteu ac iddi i rhoddes ynteu hanner ei dda a dwy randir, a phorthloedd Abermenei. Eno ydd oeddynt ei ferchet a rhai oi neieint [48] ac i bawb or rhei hynny hefyt i rhoddes [49] rhan or eiddaw yn ymborth uddunt wedi ei ddydd ef, Cymry a Gwyddyl a 'gwyr Denmarc ynteu [50] a ddrygyferthassant [51] o ddigwyddedigaeth Gruffudd frenin fegis cwynfou yr Iuddewon am Ioswe fab Nun.

Dwy vlynedd [52] a phedwar ugeint oedd Ruffudd, ac yna i bu farw, ac ym Mangor [53] i claddwyt y mewn yscrin [54] yn y parth asswy ir allawr fawr yn yr eglwys. A gweddiwn ninneu hyt pan orffwysso ei eneit ynteu yn yr un peth, nit amgen yn Nuw, y gyt a brenhinedd da ereill yn oes oessoedd [55].

AMEN.

Examinat. ad exemplar. Plaswardense, transcrip. per Edw. Thelwal, Armiger. Ann. Don. 1574. *It. exam. ad Codicem Guil. Owen, Arm. de Porkington, Brittannicc Brogentyn.*

O LYVYR R. D.

[32] Anghyfiawn a ddarfu. mewn rhan á waherddid
[33] Gofidiai estrawn genedloedd hwynt. — Gellir chwanegu at weithredoedd Grufudd ab Cynan, o ddiwygiaw breiniau a devodau prydyddion a cherddorion; ac yn ol y drevyn à lunies ev drwy gyvraith y cynalied eisteddvodau yn Ngwynedd hyd yr oesoedd diweddar. Yn ei amser ev hevyd y bu ordderchawg yn Nghaerwys; am ba un y mae Robert Grufudd yn crybwyll, gan wrthatteb amryw bynciau, yn Nhrothawd G. Owain o blaid Cadell yn hynav o veibion Hywel Dda. Yn yr ystyr yma y mae ei eiriau:—Dywedwch vod tywysawg Deheubarth yn peri cynnal gorseddau, mal yr ydych yn eu camenwi, er braint i gerddorion Cymru. Evelly Grufudd ab Cynan, brenhin Gwynedd, a gynnaliodd eisteddvod at y cyfryw amcan yn Nghaerwys; i ba le y cyrchodd holl gerddorion Cymru; a rhai hevyd o Loegyr, ac o yr Alban, pan y dirmygai y Cymry ymarver a phibau, ac
[33] Gofidiai estrawn gengantynt; pan yw Ysgodawg oedd yn rhagori ar bawb yn y cyvarvod hwnw o ganu pîb; ac i ba un y rhoddes Grufudd ab Cynan y *Bib Aur*, yn arwydd o ei orchest yn pibianu. *Y* cyvreithiau à sevydled yno sydd etto yn parâu, ac y maent y dydd hwn yn gyvarwyddid i gerddorion holl Gymru. Ni cheisiodd Grufudd ymyru am vraint ar y Deheubarth, gan vod estronion wedi cael goresgyndawd yno yn ei amser ev; ac nis gall chwaith tywysogaethawd Deheubarth, drwy gynnal y vath orseddau a chyvarvodau, holi braint yn Ngwynedd, mwy nog yr holes Grufudd yn y Deheubarth, yn Lloegyr, neu yn yr Alban, o ba wledydd cyrchasei amryvilion gerddorion i yr eisteddvod hono.
[34] En y diwedd.
[35] Hynhaodd.
[36] Wnaeth i ynnilli.
[37] Arfaethodd fyned.
[38] Yr oedd terfyn.
[39] Wnaeth.
[40] Wnaeth.
[41] Oes oesodd.

O LYVYR R. D.

[42] Pennaf.
[43] Urddolion athrawon.
[44] Daoedd a gymynnaf.
[45] Gorff ef.
[46] Rhagllaw'a gorchymyn a wnaeth iddynt.
[47] Gyffelyb.
[48] Rhai naiaint.
[49] Hynny i rhoddes.
[50] Hwythau.
[51] Ddrycerfaethasant.
[52] Flwydd.
[53] Yn eglwys Bangor.
[54] O fewn ysgrin.
[55] Ynghyd ag eneidiau brenhinoedd da ereill yn oes oesoedd.

☞ *Dalier sylw: Nid yw yr Hanes ddim wedi ei ranu yn bennodau; ac nid oes chwaith gynnwysiadau Lladin y pennodau, yn Llyvyr y parchedig Richard Davies.*

PARTHAU CYMRU.

Llyma y modd i mesurwyd[1] ac i rhanwyd Cantrevydd a Chymydau holl Gymru, yn amser Llywelyn ab Grufudd y Tywysawg diweddav o'r Cymry. Tair talaith a fu yn Nghymru; un yn Aberfraw yn Môn; a'r ail yn Ninefwr[2] yn Neheubarth; a'r drydedd[3] yn Mathraval, yn Mhowys; ac wrth Aberfraw i rhoed xv. Cantref Gwynedd, nid amgen.

Cantrevydd Gwynedd a'i Chymydau.

Môn.

1. CANTREV Aberfraw.
   Cwmwd Llivon.
   Malldraeth
   Cemmaes.[4]
   Talebolion.
   Y Twr Celyn.
2. Cantref Rhosyr.
   Tindaethwy.
   Menai.

Caer yn Arfon.

1. Cantref Aber.
   y Llechwedd Uchav.
   y Llechwedd Isav.
   Nant Conwy.
2. Cantrev Arvon.
   Uwch Gwyrvai.
   Is Gwyrvai.
3. Cantrev Dunodig.
   Ardudwy.
   Eivionydd.
4. Cantrev Lleyn.
   Maen.[5]
   Finllaen.[6]
   Caelogion.[7]

Meirionydd.

Cantrev Meirion.
Tal y bont.
Pennal.
Ystum anner.[8]
Cantrev Arwystli.
Uwch Coed.
Is Coed.
Gwarareinion.[9]

Cantrev Penllyn.
Uwch Meloch.
Is Meloch.
Mignaint.

Y Berveddwlad

Cantrev Ystrad.[10]
Uwch Aled.
Is Aled.
Cantrev Rhuvoniog.[11]
Hiraethog.
Cevn Meirch.[12]
Cantrev Rhos.
Uwch Dulas.
Is Dulas.
y Creuddyn.
Cantref Dyffryn Clwyd.
Cwmwd y Golygion.[13]
Llannerch.[14]
Rhuthyn.[15]
Cantrev Tregeingyl.
Cwnsallt.[16]
Prystatyn.
Rhuddlan.

Ac velly i cavad yn y Dalaeth hono, xv. Cantrev. a xxxviii.[17] o Gymydau.

Ac wrth Dalaeth Mathraval i rhoed y Cantrevydd a'r Cymydau sydd yn canlyn.

Powys Vadawc.

Cantrev Barwn.
Cwmwd y Dinmael.
Edeyrnion.
Glyn Dyfrdwy.
Cantrev y Rhiw.
Cwmwd Ial.
Ystrad Alun:
yr Hôb.[18]

[1] Rhanwyd ac i mesurwyd, ac i rhivwyd.
[2] Yn Mathraval.
[3] Yn Ninevwr.
[4] Yn Ll. H. Y. Cantrev yw Cemais, yn Cynwys C. Talybolion, a Twrcelyn.
[5] Cymytmaen.
[6] Tinllaen.
[7] Gafalogion, y Canologion.
[8] Ystymofir. Ystymaner.
[9] Gwerthrynion.
[10] Rhyvoniawg.
[11] Ystrad.
[12] Crymeirch.
[13] Coleion, Coelogion, Colyan.
[14] Llan Arch, Llannarth.
[15] Ruthyn; hevyd Cwmwd Dogveilin.
[16] Cwnsyllt.
[17] xxxix.
[18] Yr Hobeu.

Cantrev Uwch Nant:
Merford.
Maelor Gymraeg.
Maelor Saesneg.[19]
Cantrev Trevred.
Croes Vain.[20]
Trev y Waun.[21]
Croes Oswallt.
Cantrev Rhaiadyr.
Mochnant Is Raiadyr.
Cynllaith.
Nantheudwy.

Hevyd o vewn Powys Vadawg i rhoed swydd y Drevwen gynt: ac felly y dyly vod etto.

Powys Wenwynwy.[22]

Cantrev y Vurnwy.[23]
Mochnant Uwch Rhaiadyr.
Mechain Is Coed
Llanerch Hudol.
Cantref Ystrad.[24]
Deuddwr.
Gorddwr Isaf.
Ystrad Marchell
Cantrev Llyswynav.
Caer Einion.
Mechain Uwch Coed.
Cantrev Cedewain.
Cynan.[25]
Cyveiliog.[26]
Mawddwy.[27]

Rhwng Gwy a Havren.

Cantrev Maelienydd.[28]
Ceri.[29]
Swydd Grev.[30]
Rhiwlallt.[31]
Glyn Ieithon.[32]
Cantrev Elvael.
Uwch Mynydd.[33]
Is Mynydd.
Llech Ddyvnog.[34]
Cantrev y Clawdd.
Teveidiat.[35]
Swyddinogion.[36]
Penallt.[37]
Cantrev Buellt.
Swydd y Van.[38]
Cantrev Swydd Drevlys.
Is Irwon.[39]

Ac velly i cad yn y dalaeth, bedwar cantrev ar Ddeg; ac yn y cantrevydd i mae deugain cwmwd.

Ac wrth Dalaeth Dinevwr i rhoed y Cantrefydd hyn.

Cantref Penwedig.
Geneu y Glyn.
Pervedd.
Creuddyn.
Cantrev Canawl.
Mevenydd.
Anhunawg.[40]
Penardd.[41]
Cantrev Castell.[42]
Caerwedros.
Cantrev Hirwen.[43]
Gwinionydd.
Is Coed.

Caerfyrddin.

Cantref Finiog.
Hirvryn.
Pervedd.
Is Cynnen.[44]
Cantrev y Geiniog.[45]
Gwyr.
Cydweli.
Carnwyllon.[46]
Cantrev Bychan.
Mallaen.
Caeo.[47]
Maenor Deilo.[48]
Cantrev Mawr.
Certhiniog.[49]
Mab Elvyw.[50]
Mab Uchtryd.[51]
Widigada.

Brecheiniog.

Cantrev Selyv.
Selyv.
Tirhaiarn.[52]
Canawl.[53]
Talgarth.
Ystrad Yw Uchaf.
Eglwys Iail.[54]
Cantrev Mawr.
Tir Rawf.[55]
Lliwel.[56]

[19] Seisnig.
[20] Faen.
[21] Trefywen, Trevowain, Lib. Herg. Trefwen.
[22] Wenwynwyn.
[23] Vyrnwy.
[24] Ystllys.
[25] Uwch Hanes, ac Is Hanes.
[26] Havren.
[27] Cantrev Cynan C. Cyveiliawg. C. Mawddwy. O. L. H. Y.—Ac velly y cad yn y Dalaeth hon xiv. cantrev; ac yn y cantrevydd hynny i mae xl. Cwmwd.
[28] Melienydd.
[29] Allan mewn Ll. ereill.
[30] Fuddugre, Swydd Ddygre.
[31] Rhiwllallt, Traillallt.
[32] Swydd Dineithon.
[33] C. Elvael Uwchmynydd. C. Elfael Ismynydd.
[34] Dyvynawg.
[35] Dyfryn Tyveidiad.
[36] Swydhynogion.
[37] Penwellt.
[38] Dinan, y wain.
[39] Irron.
[40] Anhinog
[41] Penuth.
[42] Cantrevwynion, Wynion.—Mal hyn yn Ll. H. Y. Cantrev Cadell Cwmwd Mabwnion C. Caerwedros C. Gwinionydd.
[43] Seirwen.
[44] Iskenen.
[45] Cantrev Eginog. [ion.
[46] Carnwallan, Carnwyll-
[47] Caer.
[48] Deivi.
[49] Cethinog.
[50] Elvydh.
[51] Ychdryd.
[52] Trahaiarn.
[53] Cantrev Canawl, Cwmwd Talgarth, C. Ystrad yw, C. Eglwys Iail.
[54] C. Ystrad yw isaf.
[55] Ralph.
[56] Cantrev Lliwel, C. Tir Rawlf, C. Lliwel, C. Crug Hywel.

Morganwg.

Cantrev Gro Nedd.[57]
rhwng Nedd ac Avan.
Tir yr Hwndrwd.[58]
Tir yr Iarll.[59]
Glyn Ogwr.[60]
Cantrev Pen y Nen.[61]
y Van.[62]
Maenor Rhuthyn.[63]
Meisgyn.
Glyn Rhoddni.[64]
Cantrev Brenhinawl.
Cibwr.[65]
Seinghenydd.[66]
Uwch Cayach.[67]
Is Cayach.
Cantrev Gwaunllwg.[68]
yr Haidd.
Canawl.
Eithias Elogion.[69]
y Mynydd.[70]

Gwent.

Cantrev Gwent Uwch Coed.
Mynwy.[71]
Iscoed.
Llevenydd.[72]
Trev y Grug.
Cantrev Iscoed.[73]
Bryn Buga[74]
Uwchcoed.
y Teirtrev.
Erging.[75]
Bach.[76]

Cantrev Cochion yw y seithved Cantrev o Vorganwg, a hwnw a vesurwyd, o Vynwy hyd yn Mhont Caerloew; neu cantrev Coch yn y Ddena, hyd Gaerloew.

Dyved.

Cantrev Emlyn.
Uwch Cuch.
Is Cuch.
Evelythyr.[77]
Cantrev Arberth.
Penrhyn ar Elan.[78]
Escyrogev.[79]
Talacharn.
Cantrev Daugleddyv.
Amgoed.
Pennant.
y Velvre.[80]
Cantrev y Coed.
Llanhuadain.[81]
Castell Gwis.
Cantrev Penvro.
y Coed.[82]
Cantrev Rhos.
Hwlfordd.
Castell Gwalchmai.
y Garn.
Cantrev Pebidiog.
Mynyw.[83]
Pencaer.
Cantrev Cemmaes.[84]
Cwmwd Uwch Nyver[85]
Is Nyver.
Trevdraeth.

Ac velly i cavad yn y Dalaeth hono chwech cantrev ar hugain; ac yn y Cantrevydd hyny y mae lxxxviii o Gymydau. Ac felly tervyna henwau a rhanau y Cymydau a'r Cantrevydd yn holl Gymru i gyd. Ac velly mae yn y Llyvyr Coch yn Hergest.

PARTHAU CYMRU.

Cantrev Tegeingyl.

Cwmwd Cwmseled.
Prestau.
Rhuddlan.

[57] Cronarth.
[58] Rhwng Nedd a Thawy. Cwmwd arall yw hwn yn Ll. H. Y.
[59] Y Goetty.
[60] Maenawr Ogwr, Maenor Glynogwr.
[61] Penychen.
[62] Maenor Dal y Vann.
[63] Rhythun.
[64] Rhoddnei, Rhoddne.
[65] Cibwrn.
[66] Saint Henydd.
[67] Caeach.
[68] Gwentllwch.
[69] Eithav Edlygion, Edlyglon, Fdlyglon.
[70] Allan yn Ll. H. Y.
[71] Y Mynydd, Uwch Mynydd.
[72] Llevnydd, Llevynydd.
[73] Iscoed Gwent.
[74] Brynbygaf.
[75] Erging ac Euas.
[76] Allan yn Ll. H. Y.

Cantrev Dyfryn Clwyd. 2.

Colian.
Llannerch.
Ystrad.

Cantrev Rhyvoniawg. 3.

Ruthyn.
Uch Aleth.
Is Aleth.

[77] Elved, Llefethyr.
[78] Ar Deivi, ar Elyas.
[79] Esterolef.
[80] Evelore.
[81] Llanihaden.
[82] Cwmwd Coed yr Hav, C. Maenor Byr, Caldey yw Ynys Pyr, o'r Pyr hwnw i cavas Castell Maenawr Pyr ei henw, C. Penvro.
[83] Cwmwd (Cantrev) Miniw; Cwmwd (Cantrev) Pencaer, Cantrev Pebidiog.
[84] Cemmaes a'i Chantrev
[85] Never.

Cantrev Rhos. 4.
Uch Dulas.
Is Dulas.
y Creuddyn.

Môn. 5.
Llanfaes.
Cemmais.
Talebolion.
Aberfraw.
Penrhos.
Rhosyr.

Cantrev Arllechwedd. 6.
Trevriw.
Aber.

Cantrev Arvon. 7.
Uch Conwy.
Is Conwy.

Cantrev Dinodyn. 8
Privnot.
Ardudwy.

Cantrev Llyn.
Dinmael.
Is Clogyon.
Cuandiman.[1]

Cantrev Meirionydd.
Estumanner.
Tal y Bont.

Cantrev
Cyvelawch.
Maden.

Cantrev Eryri.
Uch Meloch.
Is Meloch.

Cantrev.
Llangonwy.
Dinmael.
Glyndyvrdwy.
Swmp Cantrevydd.
Gwynedd xv.
A swmp ei Chymydau
xxxvi.

Powys.

Powys Vadawc.

Cantrev.
Iail.
Ystrad Alun.
yr Hôp.

Cantrev.
Berford.
Uncuan.[2]
Croes Oswallt.
y Treuddyn.

Cantrev.
Nant Odyn.
Cevn Blaidd.
Uch Rhaiadyr.

Powys Wenwynwyn.

Cantrev.
Is Rhaiadyr.
Deuddwvr.
Llannerch Hudwl.

Cantrev.
Ystrad Marchell.
Mechain.
Caereinion.

Cantrev.
Uch Affes.
Is Affes.

Cantrev.
Uchcoet.
Is coet.
Swmp Cantrevydd Powys.
viii.
Swmp y Cymydau. xxi

Maelienydd.

Cantre
eri.
Gwerthryniaw

Cantrev.
Swydd Fuddugre.
Swydd Ieithon.
Llythyvwr.

Buellt.

Cantrev.
Cymwd, Pen Vuellt.
Swyddinan.

Cantrev.
Trevlys.
Is Irvon.

Elvael.

Cantrev.
Uch Mynydd.
Is Mynydd.

Brecheiniog.

Cantrev.
Brwynllys.
Talgarth.

Cantrev Tewdos.
Dyfryn Hodni.
Llywel.
Tir Rawf.

Cantrev Ida.
Ystrad Yw.

[1] Ctandiman. [2] Uchnant.

Cymwd Crug Llywel.
Euas.

Ystrad Tywi.

Cantrev Bychan.

Hirvryn.
Pervedd.
Is Cennen.

Cantrev Eginawg.

Cydweli.
Carn y Williawn.
Gwyr.

Cantrev Mawr.

Mallaen.
Caeaw.
Maenawr Deilaw.
Cetheiniawg.
Mab Elvyw.
Mab Utryd.
Widigada.

Ceredigion.

Cantrev Gwarthav.

Genau y Glyn.
Pervedd.
Creuddyn.

Cantrev Mabwyniawn.

Mevenydd.
Anhuiawg.
Pennardd.

Cantrev Caer Wedros.

Winionydd.
Iscoed.

Emlyn.

Cantrev.

Cymwd Uch Cuch.
Is Cuch.

Cantrev Warthav.

Cantrev Dyved.

Cymwd Elvod.
Derllys.
Penryn.
Estyrlwyv.
Talacharn.
Amgoed.
Peliniawg.
y Velvre.

Dau Gleddyv.

Cantrev.

Llanhuadain.
Castell Hu.

Penvro.

Cantrev.

Coet Raff.
Maenor Birr.
Penvro.

Pebidiawg.

Cantrev.

Pencaer
Mynyw.

Rhos.

Cantrev.

Hawlfordd.
Castell Gwalchmai.

Morganwg.[1]

Cantrev Gorvynydd.

Cymwd rhwng Nedd a Thawy.
Tir yr Hwndrwd.
Rhwng Nedd ac Avyn.
y Coetty:

[1] Saith Cantrev Morgan6c oc e C6ta civar6it.

G6ibeted pobyl Breteinieid, pani6 seith Cantrev essit e Morgan6c, eni argl6itiaeth ai escobaeth.

E cintav i6 e Cantrev Bichan; er ail Cantrev i6 Gwir a Ched6eli; tridet i6 Gor6onit; ped6erit i6 Cantrev Penuchen; pummed i6 G6aenll6c ac Edeligion; e 6eched Cantrev i6 G6ent-is-coed; e seithved Cantrev i6 G6ent-uch-coed, Estrad E6, ac Euas: er rai a el6id en d6i la6es Gwentuchcoed; ac hevid Erging ac Anerging, mal e mae e c6bil tervineu en Llevir Teilo.

Pan etoet Edgar vrenhin eu Lloegir, a He6el Da vab Cadell de6isa6c Dëeubarth Cimru: sev oet heni e dridet dalaeth, et oet i Vorgan Hen oll Vorgan6c en tangnevetus, hit pan geisiot He6el Da i dreisia6 am Estred E6 ac Euas.

Pan glebu Edgar heni, ev a devenoet ato Ae6el Da, a Morgan Hen, ac E6ein e vab hit ei lys ev in Llundein. Ac ev a 6rande6is estir er emrison a oet retint. Sev a dervin6it, tr6i givreithla6n varn i lis, a pani6 He6el Da a dreisiot en andledus, tr6i gam6et, Morgan Hen, ac E6ein e vab; ac am heni divreinia6 He6el Da a orugant o Estrad E6 ac Euas en dragi6it.

Ac en ol heni Edgar vrenin a ganiataot, ac a roes i E6ein vab Morgant Hen, Estrad E6 ac Euas, o ve6n escobaeth Llandav, a chadarnâu heni tr6i 6eithredot ito, ac i6 etivetion vith, o getfinedigaeth a thestiolaeth holl archescib, escib, ieirll, a bar6nieid Lloegir a Chymru, dan roi eu melltith ir neb a divreiniai blwiv Teilo, ac argl6id iaeth Morgan6c or g6ledit hin: a hevid bendigedic vai ae cad6ai mal i delai en dragi6it.

Ar goeithred a 6naeth Edgar ar hin en tresordi Llandav i mae engcad6.

Cymwd Tir yr Iarll.
Maenawr Glynogwr.

Cantrev Penychen.

Cymwd Meisgyn.
Glyn Rhoddni.
Tal y Van.
Rhuthyn.

Cantrev Breiniawl.

Is Caeth.
Uch Caeth.

Cantrev Gwaunllwg.

Cibwr.

Cymwd yr Haidd.
Y Drev Bervedd.
Edelygion.
Eithav.
y Mynydd.

Iscoed Gwent.

Iscoed.
Lle Mynydd.

Cantrev Gwent Uch Coed.

Trev Grug.
Uch Coed.

Felly Tervyna

HENWAU PLWYVAU CYMRU

Bellach soniwn am y Tair swydd ar ddeg yn holl Gymru, a'u Trevydd, Dinasodd, Cymydau, a'u heglwysydd Plwyv.

SWYDD VON.

Cwmwd Malldraeth.

1 Llangadwaladyr.
2 Aberfraw.
3 P. Feirian.
4 Llan Trevdraeth
5 Llan Gwyven.
6 Llan Gristiolus.
7 Llan Geinwen.
8 Llan Hen Eglwys.

Cwmwd Menai

9 Llanddwyn.
10 Mio borth.
11 Llangeinwen.
12 Llangafo.
13 Llanidan.
14 Llan Edwen.
15 Llan Ddeinioel y Bloeg.
16 Plwyv Gredivel.

Yn Mhen Mynydd; ac yn hwnw ydd oedd brivlys Owain ab Maredudd ab Tudur Vychan o Von, hendad y Brenin Harri y Seithved; ac yno y mae Llys Benmynydd.

17 Llan Finan.
18 Llanvihangel Ysgeifiog.
19 Llangevni.
20 Trev Gayan. Ac i mae Amlawdd Gwmwd Menai yn Ynys Gybi.
21 Llanvaen yn Nglyn Rhos.
22 Llanvair.

Cwmwd Llivon.

23 Llan Gwyllog.
24 Llan Drygan.
25 Llech Gynvarwy.
26 Llan y Trisaint.
27 Bod Edeyrn.
28 Llan Llibio.
29 Llanvair yn Neubwll.
30 Llanvihangel yn Nhywyn.
31 Llan Maelog.
32 Llechylched.
33 Llan Beulan.
34 Trev Walchmai.
35 Bodwrog.

Cwmwd Talebolion.

36 Caer Gybi.
37 Llan Babo.
38 Llan Vwrog.
39 Llan Vachraith.
40 Llan Vaethlu.
41 Llan Rhuddlad.
42 Llan Flewyn.
43 Llan Vugail.
44 Llan y Ddeusant
45 Llanvair yn Nghornwy.
46 Llan Rhwydrys.
47 Llan Vechell.
48 Llan Badrig.

Cwmwd Twr celyn.

49 Llan Eleth[1] Vrenin.
50 Llan Elian.
51 Rhos Beirio.
52 Llawen Llwyvo
53 P. Dyvrydog.
54 Coed Dane.[2]
55 Tal y Llyn.
56 Llanvihangel Trev y Bardd:
57 Llanvihangel yn Mhen-Rhos.
58 Llan Allgo.
59 Llan Eigrad.

Cwmwd Tindaethwy.

60 Llanvair yn Mathavarn Eithav.
61 Llan Teystyr.

[1] Elaeth. [2] Coed Ane.

62 Llan Ddyvnan.
63 P. y Pentraeth.
64 Llan Sadwrn.
65 Llanddona.
66 Llanvihangel Glyn Sulwch.
67 Llan Iestin.
68 Llanseirioel.
69 Llan y Saint.
70 St. Cattrin.
71 Llandegvan: ac yn y Plwyv hwnw i mae y Dref Swydd a elwir y Byw Mares; ac yno i mae Dinas Marchnad bob Dyw Sadwrn.
72 Llan Vair yn Mhwll Gwinbill.
73 Llan Dysilio.

Tervyn ar y Swydd hono: ac ynddi mae o Blwyvau Driugain a Deg.

SWYDD GAER YN ARFON.

1 Llan Gynvran.
2 Llan Gwstennyn.
3 Llan Gyfin.
4 P. yr Eglwys Rhos.
5 Llan Dudno uwch Conwy.
6 Llan Vair o Aber Conwy: ac yno i mae Marchnad.
7 Caer Rhun.
8 Llan Bedyr y Cennin.
9 Llan Ddwy Gyvylchi.[1]
10 Llan Vair Vechan.
11 Abergwyngregyn.
12 Llan Llechid.
13 Llan Ddygai: ac yn y Plwyv hwnw y mae y Penrhyn; Gwreiddyn bonedd-igeiddrwydd Cymru.
14 Bangor Vawr yn Ngwynedd.
15 Llan Gedol.
16 Llan Beris.
17 Llan Ddeiniolen.
18 Llanvihangel yn Ryg.
19 Llan Vair is Caer.
20 Llan Beblic: ac yn y Plwyf hwnw i mae Trev Gaer yn Arvon, a marchnad ynddi bob Sadwrn.
21 Bettws Garmon, yn Nhal y Llech.
22 Llan Wnda.
23 Llan Vaglan.
24 Llan Dwrog.
25 Llan Llyvni.
26 Llan Cylynog yn Arfon.

Cwmwd Eivionydd.

27 Plwyv Aelhaiarn.
28 Bedd Gelert.
29 Llanvihangel y Pennant.
30 Penmorva.
31 Dol Benmaen.
32 Cruccaith.
33 Llan Gynhaiarn.
34 Trevlys.
35 Llan Ystumdwy.
36 Llanarmon.
37 Llan Gybi.

Tri Chwmwd Lleyn.

38 Abererch, ereill ai geilw Llan Gawrda.
39 Carn Guwch.
40 P. y Pistyll.
41 Nevyn.
42 Llan Edeyrn.
43 Llan Geidio.
44 P. Tudweiliog.
45 P. y Rhiw.
46 Llan y Pedwarsaint.
47 Penllech.
48 Llan Iestin.
49 Llan Gian.
50 Llan Eingion Vrenin.
51 Llan Bedrog.
52 Llanvihangel.
53 Pen Rhos.
54 Llan Vair yn Lleyn.
55 Bodvayarn.
56 Melldeyrn.
57 Bryn Croes.
58 Llan Gwynoedl.
59 Bod Vrenin.
60 Aber Daron.
61 P. Denio, yn yr hwn i mae Trev Bwll Heli.
62 P. Vaelrys.
63 Llan Dudwen.
64 Bod Wnnog.

Cwmwd Nant Conwy.

65 Pen Machno.
66 Dolwyddelen.
67 Llanvihangel y Bettws
68 Llan Rhychwyn.
69 Trevriw.

Tervyn ar y Swydd hono: ac ynddi mae triugain ac wyth o Blwyvau.

SWYDD VEIRIONYDD.

Cwmwd Ardudwy.

1 Festiniog.
2 Llanvrothen.
3 Maen Twrog.
4 Llan Deccwyn.
5 Llanvihangel y Traethau.
6 Llan Danwg.
7 Llan Vair.
8 Llan Bedyr.
9 Llan Enddwy.[1]
10 Llan Ddwywau.
11 Llan Aber.
12 Llan Ulldud.[2]
13 Trawsvynydd.

[1] Ddygyvylchi.

[1] Enddwyn. [2] Elltyd.

Cwmwd Tal y Bont ar Ddysyni.

14 Llan Vachraith.
15 Yspytty Gwanas.
16 Dolgellau.
17 Llan Gelynin.
18 Llan Egryn.

Cwmwd Ystum Anner.

19 Llanvihangel y Pennant.
20 Tal y llyn.
21 Tywyn Meirionydd.
22 Pennal.

Cwmwd Mawddwy.

23 Mallwyd.
24 Llan yn Mawddwy.

Cwmwd Penllyn.

25 Llan-uwch-Llyn.
26 Llan Gywair.
27 Llan-y-Cil.
28 Llanvor yn Mhenllyn
29 Llan Ddervel.

Cwmwd Edeyrnion.

30 Llandrillo.
31 Llan Gar.
32 Corwen.
33 Llan Silyn.
34 Llansanfraid yn Nglyn Nyvrdwy.
35 Gwyddelwern.
36 Aelhaiarn.
37 Bettws Gweirvyl Goch.
38 Llanvihangel Llyn Myvyr.[1]

Tervyn ar y Swydd hono: ac ynddi i mae 37 o blwyvau.

Swydd Ddinbych.

1 Trev Ddinbych: ac yno mae Marchnad bob Merchyr.
2 Llan Ddyvnoc.
3 Nant Glyn.
4 Henllan.
5 .....
6 Llangwm Ddinmael.
7 Ceryg y Druidion.
8 Ysbytty Ieuan.
9 Llanrwst.
10 Llan Ddoged.
11 Eglwys Vach.
12 Llan Drillo.
13 Llan Elian.
14 Llansanfraid.
15 Y Bettws.
16 Llan Ddulas.
17 Rhuddlan.
18 Abergelau.
19 Llan Sain Sior.
20 Llan Nevydd.
21 Llan Vair Talhaiarn.
22 Llan Gernyw.
23 Gwytherin: ac yno i mae Monwent y Santes; ac yn y vonwent hono i mae Capel Gwenvrewi; ac yn y Capel hwnw i mae ei bedd hi, lle i cladd-wyd y Santes vendigaid.
24 Llansannan.

Cantref Dyfryn Clwyd.

25 Llan Ynys.
26 Llan Gyfylliog.
27 Trillo Caenog.
28 Y Dderwen Anial.
29 Llan Elidan.
30 Llan Vair yn Nyfryn Clwyd.
31 Y Venechdid.
32 Llan Vwrog.
33 Rhuthyn: ac yno i mae Marchnad bob dydd Llun.
34 Llan Bedyr.
35 Llan Gynhafal.
36 Llan Hychan.
37 Llan Gwyven.
38 Llan Dyrnog.

Cwmwd Iâl.

39 Llan Verrys.
40 Llan Armon.
41 Llan Degla.
42 Bryn Eglwys.
43 Llan Dysilio.

Cwmwd Swy ld y Waun.

44 Llangollen.
45 Llan Vair o'r Waun isaf.
46 Llansanfraid y Glyn.
47 Llan Armon Mynydd mawr.
48 Llan Rhaiadyr ym Mochnant.
49 Llan Gedwyn.
50 Llan Silyn Cynllaith.
51 Llan Gadwaladyr.

Cwmwd Maelor Gymraeg.

52 Rhiw Vabon.
53 Y Bistog.
54 Y Marchwiail.
55 Gwrecsam: ac yna i mae marchnad bob Diviau.
56 Y Gresfordd.
57 Yr Holt.

Tervyn ar y Swydd hono: ac i mae ynddi ddau ar bymtheg a deugain o blwyvau.

Swydd y Flint.

1 Llan Elwy.
2 Rhuddlan.
3 Y Ddiserth.
4 Gallt Melydyr.
5 Hasa.
6 Y Chwithfordd.
7 Rhiw Lownwyd.
8 Gwaun Esgar.

[1] Glyn y Myvyr.

9 Din Meirchion.
10 Bodfari.
11 Caerwys.
12 Ysgeiviog.
13 Nannerch.
14 Cil Cein.
15 Trev Fynon.
16 Helygen.
17 Flint.
18 Llan Eurgain.
19 Penarlag.

Cwmwd Ystrad Alun.

20 Y Wyddgrug.
21 Y Nercwys.
22 Y Treuddyn.

Cwmwd yr Hob.

23 Plwyv Cyngar.

Cwmwd Maelor Saesneg.

24 Plwyv Bangor.
25 Y Gwrddymp.
26 Hangmer.
27 P. Wrtyn Vadoc.

Tervyn ar y Swydd hono: ac ynddi i mae saith ar hugain o blwyvau.

SWYDD DREFALDWYN.

Cwmwd Cyveiliog.

1 Machynllaith: ac yno i mae Trev Varchnad bob Merchyr.
2 Y Wirn.
3 Cemmaes.
4 Darowen.
5 Penegos.
6 Llan Bryn Mair.

Cwmwd Arwystli.

7 Plwyv Carno.
8 Trev Eglwys.
9 Llan Idloes: ag yno i mae Marchnad bob Sadwrn.
10 Llan Gurig.
11 Llan Wnnog.
12 Llan Ddinam.

Cwmwd Ceri.

13 P. Bochdrev.
14 Llanvihangel yn Ngheri.

Cwmwd Cydewain.

15 Llan Ddysul.[1]
16 Llam yr Ewig.
17 Llan Llwchaiarn.
18 Y Drev Newydd: ac yn y Drev hono mae Marchnad bob dydd Mawrth.
19 Aberhavesb.
20 P. y Cedwg.
21 Llandie Gynon.
22 Llan Wyddelau.

[1] Llandysul.

23 Llan Lligan.
24 Manavon.
25 Aberiw.

Cwmwd Caereinion.

26 Llan Vair.
27 Llan Ervyl.
28 Llan Gadvan.
29 Garth beibio.
30 Llan Gynyw.

Cwmwd Mechain yn Mochnant.

31 Meivod.
32 Llanvihangel yn Ngwynva.
33 Llanwddyn.
34 Pennant Melangell.
35 Llangynog.
36 Llan Hirnant.
37 Llan Vyllin.
38 Llanarmon yn Mechain.
39 Llansanfraid yn Mechain.

Cwmwd Ystrad Deuddwr.

40 Llan Drinio.
41 Llan Dysilio.

Arglwyddiaeth Marchell.

42 Cegidva.
43 Y Trallwng: ac yno i mae Marchnad bob dydd Llun.
44 Llan Fynhonnwen.
45 Trevaldwin.
46 Yr Ystoc.

Tervyn ar y Swydd hono: ac ynddi i mae saith a deugain o blwyvau.

SWYDD FAES HYVEIDD.

1 Plwyv Llan Badarn vawr yn Maelienydd.
2 Llan Badarn vynydd.
3 Llan Anno.
4 Llan Bister.
5 Llanvihangel y Bugeil Du.
6 Llan Ddewi Hiob.
7 P. St. Edward yn Nhref y Clawdd: ac yno i mae Marchnad bob Diviau.
8 Llan Ddewi yn Hwytyn.
9 Llan Bryn Hir.
10 P. Mair o Bilalai.
11 Llan Degla.
12 Llan Gynllo.
13 Llanvihangel.
14 Rhydieithion.
15 Llan Ddewi Ystrad Ynni.
16 Llanvihanel Cevyn Llys.

Cwmwd Gwrtheyrnion.

17 P. Nant Mêl.
18 Llanvihangel Vach.
19 Llan Llyr yn Rhos.
20 Rhaiadyr ar Wy.
21 St. Armon.

Cwmwd Deuddwr.

22 P. St. Fraid.

Elvael uwch Mynydd.

23 Y Ddiserth yn Elvael.
24 Llan Varraith.
25 Aber Edwy.
26 Llanbadarn y Gareg.
27 Ceryg Runa.
28 Rhiwlen.
29 Glasgwm.
30 P. St. Fraid.
31 P. Y Bettws.

Elvael is Mynydd.

32 Llan Deilo.
33 Llan Ystyphan.
34 Llan Bedyr.
36 Llan Ddewi vach.
36 Castell Päun.
37 Llanvihangel y Bryn Gwyn.
38 Llan Newydd.
39 Llanvihangel y Dyfryn.
40 Y Bettws.
41 Llowes.
42 Cleirwy.
43 Y Clas ar Wy.
44 Bochrwyd.
45 Llanvihangel Nant Melan.
46 Trev Vaes Hyvaidd; yno i mae Marchnad bob dydd Mawrth.
47 Llan Llwythyvwg, neu Llanvair Llwythyvwg.
48 Y Pencraig.
49 Casgob.
50 Llan Andreas ac yno i mae Marchnad bob Sadwrn.
51 Plwyv Bleddvach.
52 Nortyn.

Tervyn ar y Swydd hono: ac ynddi i mae saith a deugain o blwyvau.

SWYDD ABERTEIVI.

Y Parth uchav i Aeron.

1 Llangynvelyn.
2 Llanvihangel Genau y Glyn.
3 Llanbadarn Vawr.
4 Llan Llwchhaiarn.
5 Llan Ilar.
6 Llanvihangel y Creuddyn.
7 Llan Avan o'r Trawsgoed.
8 Ysbytty Rhiw Ystwyth.
9 Ysbytty Cynvyn.
10 Llan Wnnws.
11 Ystrad Meurig.
12 Llanvihangel Lledrod.
13 Llanvihangel Rhos Deiau.
14 Llan y Gweryddon.
15 Aberystwyth: Marchnad bob dydd Iau.
16 Llan Ddeinioel.
17 Llan Rhystyd.
18 Llan St. Fraid.
19 Llan Ddewi Aber Arth.
20 Llan Badarn.
21 Cil y Cennin.
22 Tal y Sarn Grin.
23 Llan Gynllo.
24 Llan Geitho.
25 Llan Badarn Odyn.

Is Aeron.

26 Trev Garon: ac yn y Plwyv hwnw i mae Marchnad bob dydd Llûn.
27 Llan Ddewi Vrevi.
28 Llanvair Cludogau.
29 Cellan.
30 Llan Bedyr Pont Ystyphan.
31 Y Bettws.
32 Plwyv Silian.
33 Llan Gybi.
34 Yr Ystrad.
35 Ciliau Aeron.
36 Hen Vynyw.
37 Llanarth.
38 Llan Ina.
39 Llan Llwchhaiarn.
40 Llan Dysilio.
41 Llan Garanog.
42 Y Penbryn.
43 Bettws Ieuan.
44 Y Bryn Gwyn
45 Blaen y Porth.
46 Aber y Porth.
47 Trev Main.
48 Plwyv y Grog o'r Mwnt.
49 Plwyv y Verwig.
50 Aberteivi: ac yno i mae Marchnad bob Sadwrn.
51 Llan Gocdmor.
52 Llan Ddygwy.
53 Trev Deyrn.
54 Llanvair Trev Lygen.
55 Llan Gynllo.
56 Plwyv Dyvnog.
57 Henllan ar Deivi.
58 Bangor.
59 Llan Vair o'r Llwyn.
60 Llan Dysul.
61 Llanwenog.
62 Llanwnnen.

Terfyn ar y Swydd hono: i mae ynddi driugein a phedwar plwyv.

Ni ellais i, a bod yn ovalus, gael onid dau a thriugain o blwyvau ar lawr yn yr ysgriven o ba un y tynais i hyn o beth.

Iolo Morganwg.

SWYDD BENVRO.

Cwmwd Cemaes.

1 Llan Dydoch.
2 Cil Garan.
3 Y Briddell.
4 Llan Twyd.
5 Trev Wyddel.
6 Y Baisyl.
7 Eglwys Wrw.
8 Y Melinau.
9 Y Nant Gwyn.
10 Yr Eglwys Wenn.
11 Nanhyver.
12 Y Cilgwyn.
13 Trevdraeth.
14 Y Ddinas.
15 Aber Gwain.
16 Llan a Chaer.
17 Y Bont Vaen.
18 Llan Llawen.
19 Llan ach Lwydo.
20 Y Castell Gwyn.
21 Y Castell Newydd.
22 Y Castell.
23 Castell Mâl.
24 Castell y Vuwch.
25 Castell Henri.
26 Y Maen Colchau.
27 Y Morvil.
28 Llan Golman.
29 Y Vanachlog Ddu.
30 Y Clydau.
31 Penrydd.
32 Y Castellan.
33 Llanvihangel Penbedw.
34 Maenor Dewi.

Swydd Cil y Maen Llwyd.

35 Llan Dysilio yn Nyved.
36 Llan y Cevyn.
37 Llan Egyrmwnt.
38 Castell Dyran.
39 Llan Vallde.
40 Llan Ddewi y Velvre.
41 Yr Eglwys Lwyd.
42 Arberth.
43 Rhobestown.
44 Marthau Tywi.
45 Mynwer.
46 Llawr Ynni.
47 Illbastown.
48 Siafretown.
49 Bugeli.
50 Yliverstown.
51 St. Dyved.
52 Caer yw.
53 Costerstown.
54 Llamphe.
55 Amarth.
56 Croyn Wydd.
57 Gwmphreystown.
58 Mair o Ddinbych y Pysgod: ac yno i mae Marchnad bob dydd Merchyr.
59 St. Flowrens.
60 Celde.
61 Ystan pwll.
62 St. Pedrog.
63 St. Dwned.
64 Y Waran.
65 Castell Marthin.
66 Nan Gel.
67 Rhos Gylyddwr.
68 Pwll y Crochan.
69 Hordstown.
70 Maenor Byr.
71 Pennal.
72 St. Deiniel.
73 P. Penvro: ac yno i mae Marchnad bob Sadwrn.

Tir Rhos yn Swydd Benvro.

74 Bwrtown.
75 Ros Marked.
76 Llanystudwal.
77 Ystaintwn.
78 Hobrystwn.
79 Hasgad.
80 Y Dduadl.
81 Morlas
82 Llansan Fraid.
83 Llan Isbel.
84 Waltown.
85 Dôl Beini.
86 Harstwn.
87 Nolstwn.
88 Roeds.
89 Camros.
90 Rhobestown.
91 Bitwal.
92 Ystrawgad.
93 St. Dogwel.
94 Wala sbadl.
95 Fraistr gam.
96 Lamstwn.

Swydd Llanhuadain.

97 Robrstwn.
98 Trev Amlod.
99 Trawgad.
100 Trev Rina.
101 Flimstwn.
102 Bolstwn.
103 Ysblaist.
104 Pictwn.
105 Llanhuadain.
106 Y Drev Velen.
107 Maner Ieuan.
108 Llys y Vrân.
109 Y Môt.

110 Trev Hwlfordd.
111 Marthin.
112 P. Mair.
113 St. Thomas.

A'r tri phlwyv diweddav sydd yn Hwlfordd: ac yno bob dydd Sadwrn Varchnad.

Tir Dewi yn Swydd Benvro

114 P. Dewi yn Mynyw.
115 P. y Groes.
116 Llan Riain.
117 Marthri.
118 St. Cattrin.
119 Nicolas.
120 Llanwnda.
121 Mawr Nawn.
122 Trevwrgan.
123 Llanystinan.
124 Llanvair Nant y Gov.
125 Trev Letert.
126 Hunlle Ddewi.
127 St. Lorns.
128 Castell yr Haidd.
129 Breudeth.
130 Llan Eilvyw.
131 Llan Hywel.
132 Llan Dylwyv.
133 Llan Reithion.
134 Trev Iwerdon.
135 P. y Garn.
136 Ioltwn.

Teavyn ar y Swydd hono: ac ynddi i mae saith ugain a dau o blwyvau.

SWYDD GAER VYRDDIN.

Swydd Lacharn.

1 Marcroes.
2 Cyfic.
3 Pendyn.
4 Eglwys Gymmun.
5 Llansadyrnin.
6 Llacharn.
7 Llan Ddawg.
8 Llanymddyvwy.

Cantrev Derllysg

9 Llanvihangel Aber Cywyn.
10 Meidrym.
11 Llan Ystyfan.
12 Llan Vair y Byri.
13 Llan Gynog.
14 Llan Deilo.
15 Llan Gain.
16 St. Cler.
17 Llan Gynin a'i Weison.
18 Llan Wnio.
19 Mair a Churig.
20 Llan Gan.
21 P. Ddewi o Henllan.
22 Llanvalldeg.
23 P. Dysilio yn Nyved.
24 Cil y Maen Llwyd.

Cantrev Elved.

25 Ebyr Nant.
26 Trev Wlech.
27 Y Bettws.
28 Cynwyl Elved.
29 Merthyr.
30 Llan Llwch.
31 Caervyrddin: y Drev, ac yno Marchnad bob Merchyr, a bob Sadwrn.
32 Plwyv yr Eglwys Newydd.
33 Llan y Pumsant.
34 Llan Llawddog.

Emlyn uwch Cuch.

35 Cenarth.
36 Castell Newydd yn Emlyn.
37 Pen Beyr.
38 Llan Geler.
39 Cil Redyn.
40 Llanvihangel Iorwerth.
41 Llan Llwni.
42 Llan y Byddar.
43 Careg.
44 Aber Gwyliv.[1]
45 Llanvihangel vechan uwch Cothi.
46 Llan Egwad vawr.
47 Llanvynydd.
48 Llanvihangel.
49 Llan Dyvei Sant.
50 Llanvihangel.
51 Llansathes.
52 Llan Deilo vawr.
53 Llan Gadog vawr.
54 Llan y Ddeusant
55 Llanvihangel yn Myddvai.
56 Llan yn Myddvai: marchnad bob Sadwrn.
57 Llanvair y Bryn.
58 Llanvihangel Cil y Cwm.
59 Llanwrda.
60 Llansadwrn.
61 Tal y Llychau.
62 Llanvihangel y Llychau.
63 Cynwyl Gaeo.
64 Llan y Pumsant.
65 Llan y Crwys.
66 Llanvihangel Cil y Cornel.
67 Brechfa Cothi.
68 Llansawel.

Swydd Gydwell.

69 Llan Ismael.
70 Llan y Saint.
71 Llandyvaelog.

[1] Aber Gwili Ieuan.

72 Llan Gynheiddon.
73 Llan Gyndeyrn.
74 Llan Hyddgen.
75 Llan Ddarog.
76 Llan Gwnwr.
78 Llan Arthne.
79 Llanvihangel Aber Bysych.
80 Llandīe.
81 Llan Onn.[1]
82 Llanedi.
83 Penbre.

Tervyn ar y Swydd hono: ac ynddi i mae pedwar ugein a phump o blwyvau.

Y mae Llanymddyvri a Llanelli, dwy Drev varchnad wedi eu gadael allan yn y rhestyr uchod, lle nid oes namyn 83 o blwyvau.

Iolo Morganwg.

SWYDD VRYCHEINIOG.

Cantref Buellt.

1 Llan Wrthwl.
2 Llanvihangel Bryn Pab Ieuan.
3 Llan Avan vawr.
4 Aber Gwesyn.
5 Llan Ddewi Aber Gwesyn.
6 Llan Wrtyd.
7 Llan Gammarch.
8 Llan Ynys.
9 Llan Avan Fechan.
10 Llan Ddewi Maes Mynys.
11 Llan Ganten.
12 Llan Llawenvel.
13 Llanvair yn Muellt: ac yno i mae Marchnad bob dydd Llun.
14 Llan Ddewi y Cwm.
15 Gallt Mawr.

Cwmwd Cantref Selyv.

16 Craig Cadarn.
17 Gwenoldwr.
18 Llan Dyvalle.
19 Llys Wenn.
20 Brwynllys.

Cwmwd Talgarth.

21 Llan Tilo.
22 Talachddu.
23 Talgarth.
24 Llan Elwy.
25 Lan Eingion.
26 Trev y Gelli: ac yno i mae Marchnad bob dydd Iau.

Cwmwd Ystrad Yw uchaf.

27 Llan Vair a Chynedr.
28 Eglwys Iail.
29 Llanvihangel Cwm du.

[1] Nonn.

Cwmwd Ystrad Yw isaf.

30 P. Partrisw.
31 Creig Hywel St. Edmond.
32 Llanbedyr Ystrad Yw.
33 Llan Geneu.
34 Llan Gattwg Crug Hywel.
35 Llan Elli.

Cwmwd Pen Celli.

36 Llan Ddetty:
37 Llan Veugan.
38 Llan Vrynach.
39 P. y Cantrev.

Cwmwd Tir yr Hawlf.

40 P. Maenor Wino.
41 Pen y deryn.
42 Ystrad Vellde.
43 Ystrad Gynlais.
44 Ystrad Walltwen.
45 Y Ddu Vynog.

Cwmwd Lliwel.

46 P. Lliwel.
47 Llan Deilo'r vaen.
48 Llanvihangel Nant Bran.
49 Merthyr Cynog.
50 Llandyvaelog.
51 Garth Brengi.
52 Aber Esgair.
53 Llan Ddwy.
54 Y Bettel.
55 Llanyspyddaid.
56 Llan vaes.
57 Y Trallwng.
58 Aber Hodni: ac yno y mae Marchnad bob Merchyr a phob Sadwrn.
59 Llan Ammwlch.
60 Llan Y Wern.
61 Llan Gors.
62 Llanvihangel Gythedin.
63 Llansainfraid.

Tervyn ar y Swydd hono: ac ynddi i mae triugain a deg o blwyvau.

Os felly, y mae yma yn eisieu saith. Plwyv. Y Vaenor sydd un o honynt.

Iolo Morganwg.

SWYDD VORGANWG.

Cantrev Breiniol.

Cwmwd Cibwyr.

1 Ieuan Fedyddwr, } o Gaerdydd: ac
2 Llan vair, } yno mae Marchnad bob Merchyr, a Sadwrn.
3 Y Rhath.[1]
4 Yr Eglwys Newydd.
5 Llan Isan.
6 Llys Vaen.
7 Llan Edeyrn.

[1] Y Rhaff.

8 Y Rhydri.
9 Llanvedwy.

Swydd Seinghenydd.

10 Eglwys Ilan.
11 Llan Vabon.
12 Celli Gaer.
13 Merthyr Tudvyl.
14 Aber Dâr.
15 Llan Wynno.

Glyn Rhodni.

16†Ystrad Dyvodwg.

Cwmwd Glyn Ogwr.

17 Llandyvodwg.
18 Llan Geinwyr.

☞ Y mae y plwyvau o hyn allan blith draphlith, dwyrain a gorllewin, deau a gogledd.

Iolo Morganwg.

19 Llantrisaint yn Meisgyn.
20 Llan Ulldud o'r Faerdref.
21 Pentyrch.
22†Llan Elldeyrn.
23 Yr Adyr.
24 Llan Dav.
25 Llan Sant Fagan.
26 Llanvihangel Sant Fagan.
27 Llanvihangel y Pwll.
28 Y Caerau.
29 St. Iorys.
30 Llansainfraid ar Lai.
31†Llanbedyr ar Fra.[1]
32 Pendeulwyn.
33 Llanddunwyd.
34 Ystrad Owain.
35 Llan Hari.
36 Llan Haran.
37 Llansannwr.
38†Llanvrych.[2]
39 Llan Ganna.
40 Eglwys Vair y Mynydd.
41 Llan Ulltud a Churig.[3]
42 Llan Grallo.
43†Llanbedyr ar Vynydd.
44 Y Coetty.
45 Llansanfraid ar Ogwr.
46 Llan Ysbyttel.[4]
47 Llan Gwynwyd Vawr.
48 Glyn Corwg.
49 Llan Gattwg Glyn Nedd.
50 Cil y Bebyll.
51 Llan Giwg.
52 Castell Nedd.
53 Llan Ulltud Nedd.[5]
54†Llan Isawel.
55 Llan Vaglan.[6]

[1] Fro. [2] Penllin. [3] Llan Ilid a Churig.—*Iolo Morganwg.* [4] Y Bettws Tir Iarll. [5] Nedd Vach. [6] Moglan.

56 Llanvihangel Ynys Avan.
57 Aber Avan.
58 Margam.
59 Y Pil.
60 Llan Fai.[1]
61†Llan Vawdlen, neu Cynfig.
62 Trev Newydd yn Notais.
63 Llandudwg.
64 Y Merthyr Mawr.
65 Trev Lales.
66 Castell Ogwr.[2]
67 Hen Gastell.[3]
68 Y Wenni.
69 Llansanfraid Vawr.[4]
70 Y Wig Vawr.
71 Yr Aes Vawr.
72†Yr Aes Vach.
73 Marcroes.
74 Sain Dunwyd.
75 Llan Dwf.
76 Llys Ronydd.
77 Trev Golwyn.
78 Llanvleiddan Vawr.
79 Y Bontvaen.
80 Sant Hilari.
81 Llan Doche y Bont vaen.
82†Llanvihangel y Bont vaen.
83 Llan Vair y Bewpyr.
84 Llan Vaes.
85 Eglwys Browys.[5]
86 Llan Dathan.[6]
87 Y Flemin Melyn.
88 Silstwn.
89 Penmarc.
90 Porth Ceri.[7]
91 Aberddawon.[8]
92 Sili.
93 Llywernog.[9]
94 Cogan.[10]
95 Pen Arth.
96 Llan Doche vach.
97†Llanvihangel Legwydd.
98 St. Andras.
99†Llanvleiddan Vach.
100†Uchel Olau.
101 Merthyr Dyvan.
102†Aber Barri.
103 Gwenvo.[11]
104 Crinstwn.[12]
105 Sain Nicolas.
106 Llan Garvan.
107 Llan Treuddyd.
108 Trevsimmwn.

[1] Neu Llan Andras Vechan. *I. M.* [2] Cas Newydd. Ogwr neu Cas Newydd Pen y Pen y Bont. [Bont. [3] St. Brid. [4] Bowys. [5] St. Tathan. [6] Curic. [7] Nid plwyv. *I. M.* [8] St. Lowrens. [9] Y Cock. [10] Genvo. [11] Nid plwyf. *I. M.*

Tir Gwyr.

109 Llan Giwg.[1]
110 Llangyvelach.
111 Llandeilo Tal y bont.
112 Castell Llychwr.
113 Llan Rhidian.
114 Llan Dimwr.[2]
115 Llan Madog.
116 Llan Gennydd.
117 Rhos Sili.
118 Porth Einion.
119 Ogsmids.
120 Pen Rhys.
121 Llan Ddewi.
122 Cinaston.[3]
123 Nicolaston.
124 Llan Deilo Verwallt.
125 Penarth.
126† Renolston.
127† Nelston.
128† Ilston.[4]
129 Pan Main.
130 Ystym Llwynarth.
131 Abertawy.[5]
132 Abertawy.[6]
133† Cheriton.

Tervyn ar y Swydd hono: ac ynddi mae saith ugain plwyv.

Mae yma gamsyniadau mawrion; Cant ac wyth arhugain yw rhivedi plwyvau Morganwg: y rhai a nodir fal hyn † a chwanegais i: gadawer y plwyvau, a'r manau ereill, a nodir velly, allan, ac ev a gair gwir adysgriv o'r Llyvyr o ba un y tynais i hyn.

Iolo Morganwg.

Swydd Vynyw.

1 Trev Vynwy: yno i mae Marchnad bob Sadwrn.
2 Llanwarwg.
3 Llan Iau.
4 Penallt.
5 Trelech.[7]
6 Cwm Carvan.
7 Pen y Clawdd.
8 Llan Govain.
9 Llan Irwydd.
10 Llanvihangel Tor y Mynydd.
11 Llanwnnell.
12 Llan y Cwm Uchav.
13 Llan Isav.
14 Llan Soe.
15 Llan y Trisaint.
16 Llan Giwg.
17 Cil Gwrwg.
18 Eglwys Newydd ar y Cevn.
19 Dinteyrn Uchav.
20 Dinteyrn Isav.
21 Porth Caseg.
22 Yr Hywig vach.
23 Y Carn.
24 Castell Gwent: ac yno y mae Marchnad bob Sadwrn.
25 Matharn.
26 P. Iftwn.
27 Porth Ysgewydd.
28 Caldicot.
29 Y Drev Newydd Gelli varch.
30 Llan Ddeinioel.
31 Caer Went.
32 Llanvair is y Coed.
33 Llan Vaches.
34 Pen Hw.
35 St. Pŷr.
36 Llan varthin.
37 Llanvihangel.
38 St. y Brid.
39 Gwndi.
40 Magwyr.
41 Y Voelgrug.
42 Redwig.
43 Withone.
44 Gallt Eurin.[1]
45 Tre'r Onnen.
46 Trev Escob.
47 Llan Wern.
48 Eglwys y Drindod.
49 Cemmais.
50 Rhogied.
51 Caerllion ar Wysg: ac yno mae Marchnad bob dydd Iau.
52 Sudbrwg.
53 Castell Newydd: ac yno i mae Marchnad bob Sadwrn.
54 Bassaleg.
55 Coed Cernyw.
56 Llansanfraid.
57 Llanbedyr Gwaunllwg.
58 Mechain.
59 Tredelerch.
60 Bedwes.
61 P. Tudur ab Hywel.
62 Bodwellty.
63 Blaenau Gwent.
64 Llan Hyledd.
65 Trev Ddyn.
66 Rhiscav.
67 Henllys.
68 Malpas.
69 Llanvihangel tan y Groes.
70 Llan Vrechfa.
71 Llan Ddewi.
72 Llan Degvedd:

[1] Gallt Clifft.

[1] Nid yn Ngwyr. *I. M.*
[2] Nid plwyf, yn awr o leiav.
[3] Nid plwyv.
[4] Llan Ulltud Gwyr. *I. M.*
[5] Eglwys Ieuan.
[6] Eglwys Vair.
[7] Tryleg.

73 Pant Teg.
74 Llanvihangel Cil Coegen.
75 Llan Hynwg.
76 Trev Rhedynog.
77 Llangybi.
78 Llan Badog.
79 Mam Hilad.
80 Y Goettrev.
81 Llanvair Cil Gydyn.
82 Llan Ovor.
83 Llan Elen.
84 Llan Fwyst.
85 Bryn Buga: ac yno a mae Marchnad bob dydd Llun.
86 Y Trostrev.
87 Y Bettws Newydd.
88 Cemmais Cwmmawrdwr.
89 P. Gwerin Evni.
90 Llan Gyfe.
91 Llan Hywel.
92 Llan Denvi.
93 Castell Rhaglan.
94 Tre'r Gaer.
95 Pen Rhos.
96 Y Bryn Gwyn.
97 Llan Arth.
98 Llanvihangel y Govion.
99 Llansanfraid.
100 Llan Gattwg Dyfryn Wysg.
101 Trev Venni: ac yno a mae Marchnad bob Mawrth a Gwener.
102 Llan Deilo Berth Oleu.
103 Llan Wenarth.
104 Llanvihangel Cil y Cornau.
105 Cwm Iou.
106 Y Grismwnt.
107 Llan Gürn.
108 Ysgynvraith.
109 Llan Gattwg Meib Ionavel.
110 Llan Ferin.
111 Llan Ddewi Ysgyryd.
112 Llan Ddewi Rhydderch.
113 Llan Vablu.
114 Llan Ddeilo Groes Ynyr.
115 Llanvihangel Troddi.
116 Llan Gadwg Lenig.
117 Llanvair Cilgoed.
118 Llan Rhyddol.
119 Llan Vrechva.
120 Yr Hocfild.
121 Llan Ingad.
122 Meiryn.
123 Llan Leirwg.

Ac velly tervyna: ac yn Swydd Fynwy y mae cant a phump o blwyvau.

Ac velly Cyvriv Plwyvau Cymru, y Tair Swydd ar Ddeg; a'u rhifedi i gyd ydyw naw cant a phedwar ar ddeg ar hugain.

Mi Iolo Morganwg ai dadysgrifenais o Lyvyr PAUL PANTON *Yswain, y 6ed o Awst*, 1799.

TERVYN.

A COLLECTION

OF

APHORISMS, PROVERBS, ETHICAL TRIADS, LEGISLATIVE TRIADS, LAWS, AND MUSIC.

Division III.—PROSE.

"Tri dyben addysg a chôv: gwybyddu, diwallu, a dyddanu."
"The three objects of instruction and record: to convey knowledge, to supply defects and to give pleasure.

DEDICATED TO

THE RIGHT HONOURABLE GEORGE PARKER, EARL OF MACCLESFIELD, VISCOUNT PARKER OF EWELME, AND BARON PARKER OF MACCLESFIELD, THE THIRD VOLUME OF ARCHAIOLOGY, CONTAINING THE MORAL PHILOSOPHY, LAWS, AND MUSIC OF THE ANCIENT BRITONS, IS MOST HUMBLY DEDICATED, AS AN ACKNOWLEDGMENT OF THE OBLIGATION CONFERRED BY HIS LORDSHIP UPON US, IN THE LIBERAL USE HE PERMITTED TO BE MADE OF HIS VALUABLE COLLECTION OF WELSH MANUSCRIPTS, TOWARDS FORWARDING OUR PLAN OF LAYING THOSE HIDDEN TREASURES BEFORE THE WORLD.

THE EDITORS.

THE PREFACE.

[THIS DIVISION FORMED THE THIRD VOLUME OF THE ORIGINAL WORK.]

The following summary of the various remains of ancient lore comprehended in the third volume of the *Archaiology of Wales* is necessary to be introduced here, with a view that those persons into whose libraries the book may find its way should have a general idea of the materials therein, so as to create in them an inducement for its preservation, and for exciting the curious in such researches to investigate its contents.

The first division includes the various moral aphorisms of Catoc the Wise, originally copied from the valuable collection of transcripts made in or about the period between 1670 and 1680, by Thomas ab Ievan, of Tre Bryn, in Glamorganshire; and the title of which particular work he gives in these words:—

"The Book of the Bard of intellectual knowledge, composed by Catoc the Wise, son of Gwynlliw, son of Glywis, son of Tegid, son of Cadell Deyrnllwg; that is to say, Catoc abbot of Llanveithin in Llancarvan, Glamorganshire."

The indefatigable collector, who well deserves to be remembered by posterity, has introduced some memorials of Catoc, from which the following extracts are translated:—

"Kind reader: I here present to thee the book of Catoc the Wise, who is likewise called Saint Catoc, which has been for a long period celebrated in our country for the wisdom contained therein. Thou wilt find in it profound maxims, which were greatly revered heretofore, by the ancient poets, and by every other writer:

and that procured for their author the appellation of Catoc the Wise."

"It is thus recorded of him in old books: Saint Catoc, abbot of Llancarvan, son of Gwynlliw, lord of Gwynllwg, son of Glywis, son of Tegid, son of Cadell Deyrnllwg. Gwynllwg was one of the lordships of the ancient Morganoc, and extended from the river Tâv to the river Wysg. Catoc was the eldest son; but he would not accept of the dominion; he chose to be a man of learning and piety. In his time there was a great schism in religion in our island, owing to the delusion and heretical opinions of one of our own countrymen, called in Latin Pelagius, and in Welsh Morgan. This gave an occasion for the few who had gone astray to send for a pious and learned man from beyond the sea, whose name was Saint Garmon. He came to our country, and preached the Gospel in its purity; and in order to instruct others in the things necessary to form teachers of the truth, he erected good schools in sundry places. The chief of them were those of Caer Llion on Wysg, Llancarvan, and Llanilltud the great. The name of the first person placed by Garmon over the school of Llancarvan was Saint Dyvrig. Afterwards Dyvrig was made bishop of London; and thereupon Catoc was appointed the principal of the monastery of Llancarvan, by Saint Garmon. The name of the monastery was Llanveithin; and it has been so called ever since. It is said that Catoc lived there till he was a hundred and twenty years old, most highly celebrated for his learning, wisdom, and piety; and it was in his monastery that many of the most learned men of the age were educated. So greatly did Dyvrig consider the acquisition of his talents, that he used to make him his companion every where, and upon every occasion that required advice and assistance. Catoc was one of the best poets of his time, and so high was his fame for wisdom, insomuch that his councils and his maxims, his proverbs and his wise sayings, became established as the oracular tradition of the country far and near; so that every thing of that kind in the Welsh language became attributed to his name; and thus the fame of Catoc swallowed up that of every one else: and on that account it is not very clear at this day, whether it may be Catoc or some others that must be considered as having given currency to many things which are to be seen in this book, under his name. And, besides, what I found in the original book of Catoc, I have collected together here whatever I found under his name scattered through other ancient manuscripts. [1]

Following the wisdom of Catoc are inserted the Didactics of Geraint Vardd Glâs, or Geraint the Blue Bard; who is also called Bardd Glâs, the Blue Bard, and Bardd Glâs o'r Gadair, or the Blue Bard of the Chair. He was cotemporary with Alfred, and is supposed to be the same person with Asserius Menevensis.[2]

A series of other highly interesting papers will also be found in the following order:—

A series of maxims and old sayings, by various authors.

A collection of triads of the laws of poetry, triads and triplet verses of morality.

An alphabetical collection of proverbs, originally formed by Old Cyrys o Iâl, some time in the 12th century, as it is supposed; and in after times copied successively by Grufydd Hiraethoc the poet, about the year 1500, the Rev. Dr. J. Davies, about 1580, by Mr. W. Maurice of Llansilin, in 1675, and by the Rev. Evan Evans in 1775.

[1] Some additional notices are given by the collector, and which may be also seen in the Cambrian Biography.

[1] See the Cambrian Biography.

A series of triads, the 24 games, and the nine diversions of the chase, from the Macclesfield collection.

The triads of the bards of the isle of Britain, in various classes, mostly copied from the manuscripts of Thomas ab Ievan of Tre Bryn, before quoted.

Several classes of triads of the institutes of the laws of Dyvnwal Moelmud, which are uncommonly interesting and curious; and at the conclusion is this notice: "I, Thomas ab Ievan, of Tre Bryn, in Morganoc, copied these from the old books of Sir Edward Mansel of Margam, in the year of Christ our Lord, 1685."

Triads, commentaries, and various things, which elucidate the ancient laws of Wales. These are extracted from a manuscript of the laws of Hywel Dda, written about the year 1400; and which book was among that part of the Sebright collection, which was sold on April 12th, 1807.

A complete copy of the laws of Hywel Dda, from a manuscript of the 12th century, belonging to the Welsh School in London.

Various particulars on the science of music, from various books; and also some music in a curious and obsolete notation, from the book of Rice Jones, of Blaenau, near Dolgellau.

A collection of ancient British Music in the same obsolete notation, being a complete copy of a manuscript in the Welsh School in London, which manuscript was transcribed by a harper of the name of Robert ab Huw, of Bodwigan, in Anglesey, in the time of Charles I. from the original by W. Penllyn, a harper who lived in the reign of Henry VIII.

The principal body of materials, which remains to be the object of the further attention of the editors, for continuing this work, consists of old romantic tales and poetry.

The romantic tales, as it is supposed, may be contained in a separate volume by themselves.

The collection of poetry already inserted comprehends all that the editors have been able to discover of the works of the bards who flourished from the earliest times to the conclusion of the thirteenth century, or thereabout. If this subject were to be continued regularly on the same plan to the close of the sixteenth century, as observed in the first volume, the department assigned in the *Archaiology* for this period would thus become more extended than might be thought necessary towards gratifying any interest that could be felt for productions so modern; for this reason we must be contented to condense what shall be selected from such a mass of the effusion of genius into the compass of the next volume.

Nothing further of any moment seems necessary to be stated at present of the past or of the future plans of the editors. But it is incumbent on them, before they conclude, to express the many obligations they feel themselves under for the liberal access they have had to various manuscripts, in the prosecution of their labours hitherto; and they feel highly gratified in having their future applications for similar favours anticipated, by receiving unsolicited promises of them, from Sir Watkin Williames Wynne, baronet, and from Colonel Griffith Howel Vaughan. There may still remain other collections not examined by the editors, from their not having had the opportunities of applying for that purpose; but when their plan and their wishes shall be made known, they do not doubt of meeting with the same liberality from the possessors of those collections, at some future period.

DOETHINEB CENEDYL Y CYMRY;

SEV Y GWYDDFARDD CYVARWYDD, TRIODD MOES A DEVAWD, DIARHEBION, TRIODD BEIRDD YNYS PRYDAIN, TRIODD DYVNWAL MOELMUD, HEN GYVREITHIAU, CADWEDIGAETH CERDD DANT, A GORCHESTION EREILL.

[" *Tair sail doethineb: ystyriaeth, gwybodau, ac ymgais.*"

LLYMA DDOETHINEB CATWG DDOETH O LANCARVAN,

AB GWYNLLIW AB GLYWIS AB TEGID AB CADELL DEYRNLLWG, AC EV A ELWIR

CATWG SANT.[1]

AT Y DARLLENYDD HAWDDGAR O GYMRO.

Y Cymro Caredig,

Dyma itti Lyvyr Catwg Ddoeth, a elwir hevyd Catwg Sant, y mae wedi bod er hir o amser yn hynod yn ein Gwlad ni am y doethineb sydd ynddo. Ymadroddion call á gai ynddo; mawr y perchid y rhai hyn gynt gan yr hen Brydyddion, a phob hen awdur arall, a hyny á beris iddeu hawdur gael yr enw Catwg Ddoeth.

Y mae y son am dano val hyn yn yr hen lyvrau achau: Catwg Sant Abad Llancarvan, ab Gwynlliw arglwydd Gwynllwg, ab Glywis, ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg. Yddoedd Gwynllwg yn un o Bendevigaethau yr hen Vorganwg, ac yn myned o avon Tav hyd avon Wysg. Catwg oedd y mab hynav, ond ni vynai eve y Bendevigaeth; dewisai eve vod yn wr o ddysg a duwioldeb. Yn yr amser-oedd hyny yddoedd cyveiliorn mawr ar Grevydd yn ein Ynys ni, achos hud a thwyllvarn un o'n gwlad ein hunain à elwid *Pelagius* yn Lladin, ac yn Gymraeg *Morgan.* Bu hyn yn achos i rai o'r ychydig nad aethant ar gyveiliorn ddanvon am wr duwiol a dysgedig o'r tu draw i'r mor, à elwid *Garmon Sant.* Eve á ddaeth i'n gwlad ni ac á bregethwys yr evengyl yn ei phurdeb, ac er dysgu ereill yn y pethau angenrheidiol iddeu gwneuthur yn ddysg-odron Gwirionedd, eve â ddodwys Ysgol-ion da i vynydd mewn llawer man. Y penav o honynt oedd rhai Caerllion ar Wysg, a Llancarvan, a Llanilltud vawr. Enw y gwr cyntav à ddodwys *Garmon* ar ysgol *Llancarvan* oedd *Dyvrig Sant.* Ve wedir mai yn y *Garnllwyd* ydd oedd e'n byw; ac y mae fynon yno vyth à elwir *Fynon Ddyvrig.* Wedi hyny gwnaeth-pwyd Dyvrig yn esgob *Llandav,* ac ar hyny dodwyd *Catwg* yn ben ar *Vonachlog Llancarvan* gan *St. Garmon.* Enw y von-

[1] Myvi Iolo Morganwg ai ysgrivenais allan o Lyvyr Mr. Siams Thomas o y Maerdy Newydd yn Morganwg. 1799. Dalier sylw: Lle gwelir y pyncynon bychain hyn...dan air yn yr ysgriven, ve ei hargrafid yn lletbeilythyr, val y mae *Masgnacko;* arwydd a chofadwriaeth yw imi ddal sulw manol ar y gair cyn ei ysgrivenu a'i silliadu vel ag y mae yno; ac er vy mod yn meddwl ei vod yn gamsyniadol yno, etto dewisais ei adael val ag y cevais i ev yn yr ysgriv, o ba un y tynais yr adysgriv hwn; gan veddwl mai galledig yw vod y gair yn y modd hyny yn arwain at ei wir dadogaeth, ac y gallai mai nid camysgriv yw y cyfryw eiriau ymhob man; yn enwedig yn y rhai annilys eu tadogaeth, ymhlith pa rai gellir cyvriv y gair *Masnach.* Ve welir ambell waith arall yr hen sillyddiaeth neu lythyriaeth ar air neu vwy mewn hen bethau; y mae hyn mewn rhan yn canatâu barn vod y peth à gynnwys y cyvryw yn-ledhenaidd, ac er yr amser pan arverid y cyvryw lythyriad neu silliadaeth; ac heblaw y cyvan, dengys y cyvryw eiriau nodiedig mai nid o wallsyniad y maent lle eu gwelir, eithyr imi gymmeryd peth goval yn y gwaith. *Iolo Morganwg.*

achlog oedd *Llanveithin*, a'r enw hyn y sy vyth ar y lle. Ve wedir i *Gatwg* vyw yno nes doedd yn gant ac ugain oed; yn hynod dros ben am ei ddysg a'i ddoethineb a'i dduwioldeb. Ac yn ei vonachlog ev y cavas lawer o'r gwyr mwyav dysgedig o'r oes eu dwyn i vynydd; cystal oedd gan *Ddyvrig* esgob *Llandav* am dano val y cymmerai ev gydag ev i bob man, ac ar bob achos y bai eisieu cynghor a chynnorthwy, ac o achos hyny nid ai i vyw o'r *Garnllwyd*. Yddoedd Catwg yn un o'r Prydyddion goreu yn ei amser, a chymmaint ei glod am ei ddoethineb val ag ydd aeth ei gynghorion, a'i ymadroddion, a'i ddiarhebion, a'i wediadau doethion, ar gov a thavod yr holl wlad yn agos ac yn mhell, hyd yn oed iddo gael ar ei enw bob ymadrodd, a diarheb, a gwediad, a gair doeth, yn yr iaith Gymraeg, hyd oni lyncwys glod Catwg eiddo pob un arall; am hyny nid amlwg iawn ini y dydd heddyw p'un ai Catwg ai rhyw un arall à ddywaid ambell peth o'r hyn à welir yn hyn o lyvyr dan ei enw. Y mae ynddo gennyv, heb law hen lyvyr Catwg, y maint à welais i ar ei enw ev ar wasgar mewn llyvrau ereill o hen waith llaw. Y mae llawer o bethau yn cael eu gwedyd yn yr hen lyvrau am Gatwg Sant: un peth yw i'r Brenin Arthur ei wneuthur ev yn un o'i bedwar marchog ar hugain, canys val hyn y gwedir am dano:

Tri chyviawn varchogion Llys Arthur à vuant yn ben ynaid iddo; cyntav, Catwg Sant, ab Gwynlliw Vilwr arglwydd Gwynllwg yn Morgauwg; ail, Blas iarll Lychlyn; trydydd, Padrogyl Baladrddellt iarll Cerniw; cystal oeddynt eu cynneddfau a chymmaint eu gwybodau a'u doethineb val na wnelai un o honynt ond à vai drugar a chyviawn, ac ymroddi á wnaethant i ymddifyn pob un à gai cam ac anghyvraith, a phob ymddivaid, a gweddwon, a gweryddon, a dieithraid, rhag trais a gorddwy: Blas drwy Gyvraith Vyd, Padrogyl drwy Gyvraith Arvau, a Chatwg drwy Gyvraith Duw a'i Eglwys.

Bu Gatwg hevyd yn un o driphen cynghor Arthur: val hyn y gwedir am dano:

Tri doethion Pencynghor Arthur; cyntav, Catwg Sant Abad Llancarvan, ab Gwynlliw Vilwr; ail, Arawn ab Cynvarch; trydydd, Cynon ab Cludno Eiddin. Cystal oeddynt eu cynneddvau a'u deall a'u hystyriaeth, val nas caid amgen no llwydd erioed o wneuthur eu cynghor, nag avlwydd o beidio ei wneuthur.

Ac yn yr un hen lyvyr y mae val hyn. Tri doethion Beirdd Llys Arthur; Catwg Sant vab Gwynlliw Vilwr, Taliesin ben Beirdd, a Llywarch Hen vab Elidir Lydanwyn. Cystal oeddynt eu cynneddvau val na ddodynt amgen no gwir a doeth yn eu cerddi

Tua diwedd oes Catwg ve ddarvu i rai o'r duwiolion vwriadu myned i Ynys Enlli, val y gallent vod oddi ar fyrdd y tervysg ag oedd yr amser hyny yn ein gwlad, o achos brad a gwrthryvel y Saeson. Dymunasant gael cynghor Catwg ar yr achos hyny, ac eve ai rhoddes iddynt ar vesur cerdd: sev a ganlyn.

Pan oedd Saint senedd Vrevi
Yn ol gwiw bregeth Dewi
Wrth arch pryfwn prophwydi
Yn myned i Ynys Enlli,
Er ymwared o bob rhwystri
A hir gymhell cymhelri:
Yna dywedes Gybi
Pa vyd á geir yn ngweilgi,
Pa vwyd yn ymborth ini
Yn nghanol y mor heli?

Catwg á ddywaid wrth Ddewi
Val y gwnai y prophwyd Eli,
Duw á ro gynghor ichwi
Ar vorodd a daieri,
Goddevwch bob caledi
Nid ellir lles o ddiogi,
Trech doethineb no gwegi,
Trech llavur no direidi,
Dirwest a chred a gweddi
A orvydd ar bob cyvyngi,
Mil canhaws gan Dduw roddi
No chan ddyn diddim erchi,
O chredir llyvyr Generi,
Yr hwn à wiria ini
Ni chafas ddyn ei eni
Heb gael gan Dduw ei borthi,
Gwellwell Duw o'i addoli,
Gwaethwaeth y diawl o'i berchi.
Nag ovnwch à ddaw ichwi
Vwy no'r vwyalch yn nghelli
Nid ardd nid erddir iddi,
Nid llawenach neb no hi.
Archwn bawb i Dduw Celi
Arglwydd yr holl arglwyddi
Er Iesu a'i bum weli
Ein dwyn drwy bob cyfrwystri,
A'i gael yn ganllaw ini
Ac ni bydd raid i neb ovni.

Catwg Sant ai Cant.

Mi allwn wedyd llawer mwy no hyn o'r hen lyvrau am Gatwg, ond vy mod yn dymuno na wedwn ond à ddichon fod yn wir. Y mae y Pabyddion wedi gwedyd

pethau am dano y rhai nid oes y gronyn lleiav o gred iddynt, canys val y dywaid Catwg ei hunan,

Nid gwir yw pob rhyveddod, ond rhyveddod yw pob gwir.

Y mae'r lle goreu'n y byd i ni gredu mai celwyddau y Monachod pabaidd yw y pethau rhyfeddol y gwedir am Gatwg: Twyllhanesion i gyd; ond amser á fu arnom y Cymry, val ar genedloedd ereill, pan y credid yr holl bethau anwireddus y sonir am dano. Y Pabyddion á ddodasant lawer peth ar enw Catwg na ddaeth erioed nag yn nag am ei ben ev; a chymmaint ag oedd yn amlwg i'm deall i o'r pethau hyny mi á ymwrthodais â hwynt; ond ve all vod yma rai pethau nas gellir yn hawdd wybod p'un ai Catwg ai rhyw un arall a'u dywaid; canys fal y gwedais o'r blaen, pob peth cyfelyb iddei eiddo ef á ddodid arno; ac nid oes genyv ond gadael i'r darllenydd hawddgar ei varn a'i veddwl am ambell peth; ac yn wir am y peth à vyno, à welo ar lawr yma. Arver y byd yw dodi ar ddoeth ac ar annoeth vwy nog y sydd yn ddyw iddynt: nid gwaeth i ti'r Cymro caredig o ben pwy daethant à weli yma, ac nid oes nag yn well nag yn waeth i neb beth ydynt, nag o bwy ydynt, ond eu bod yn ddoethineb ac yn wirioneddau. Digon i ti eu bod velly. Dilyn di y cynghorion da; ystyr di yr addysg ddoeth; cadw di ar dy gov y gwirioneddau tra mawr eu pwys à gai yn hyn o lyvyr, a Duw a'u bendithio nhwy itti, ac i bawb o genedyl vy ngwlad, ac i bob un o'r byd: ac os cai di les a gwellâad buchedd o honynt, diolch i Dduw am hyny: Cadw enw y gwr sydd wrthynt ar dy gov gyda pharch; rho'th ail ddiolch i Gatwg, er nad wyt yn addolwr saint; ac yn ddiweddav na varn yn angaredig arnav vinau, os dygwydd itti weled yma ryw bethau na vot lwyr voddlon iddynt; minnau á ddymunav hevyd i Dduw dy vendithio yn mhob peth; a hyny o lwyr ewyllys vy nghalon.

Yr eiddot yn mhob amcan dda

THOMAS AB IEVAN.

Tre Bryn, Dydd Calan, 1685.

GWEDDI Y BADER: SEV GAIR DUW YN UCHAV.

EIN Tad hollalluog gwireddgar a thirion
Sy'n trigo'n y lleoedd a'r pethau nevolion,
Glan ydwyd a santaidd, dy enw mawr santeiddier
Hyd eitha'r holl endid lle treigla'th hynawsder.
Deued arnom dy Deyrnas a bydded dy wyllys,
Val y mae yn y nev, ar y ddaiar yn ddilys:
Rho dad i ni beunydd ein bara beunyddiol
Boed ini vyth ynod ymddiried yn hollol.
Rho di'r un vaddeuant i bawb o blant dynion,
Ac y rhoddwn ni'n ddidwyll i'n llidiog elynion.
Bydd drugarog i'n gwared rhag hud ein pechodau,
Rhag a'n ennyg ar gam, rhag pob anian o ddrygau.
Ti Vrenin gogoned yw perchen y Deyrnas,
A'r nerth, a'r gwir glod, a phawb mawl itti'n addas,
Bydd di'n amddifynwr, a'n deddvwr, a'n llywydd,
Hyd oesoedd didervyn, hyd vyth, yn dragywydd.

Amen.

LLYMA Y LLYVYR A ELWIR Y GWYDDVARDD CYVARWYDD,

A GANT CATWG DDOETH, AB GWYNLLIW, AB GLYWIS, AB TEGID, AB CADEL DEYRNLLWG, SEV CATWG SANT ABAD LLANVEITHIN YN LLANCARVAN YN MORGANWG.

1.

A VYNO gynghor govyned i'r doethav,
A vedro ganmol canmoled y penav,
A eirch olud arched i'r cyvoethocav,
A eirch iechyd arched i'r meddyg mwyav,
A gais a vo da govyned i'r haelaf,
A gais nodded govyned i'r un cadarnav,
A gais drugaredd arched i'r mawr trugaraf,
A gyvarcho cyvarched i Dduw'n benaf.

2. CARGYVLWYN CATWG DDOETH.

Y daith ni vydd pellach er gwrandaw oferen,
Nid prinach vydd heiniar er rhoddi elusen.
Nid llawnach yr enaid er trallenwi rhumen,

Nid casach gan Ddovydd yr ynvyd na'r cymmen,
Ni wyr perchen enaid ba beth vydd ei ddien.
Nid clodvawr y gardod o'i rhoddi'n avlawen,
Nid gwala gan gybydd meddiannu y ddaiaren,
Nid isel ond balch be bai gyvuwch a'r haulwen.
Nid caredig ond gwar, nid gwybodus ond hylen,
Nid gwynvyd ond heddwch, nid gwledd ond gorawen,
Nid doeth pob areithgar, nid fol pob anghymmen,
Nid trist pob galarus, nid dyddan pob llawen.
Ni edrych yr angou pwy decav ei dalcen.
Nid caredig gan Dduw un à ddalio genfigen,
Nid hygar gan Grist na vo drugar wrth angen.
Nid cymhwys i'r nev na vo trech ar ai gordden,
Nid call arwain awydd at unpeth anmherchen,
Nid cellwair a dim à vo cynglyn ag asgen.
Nid folineb ond cred ar à ellir yn amgen.
Nid doeth gwerthu nevodd er benthyg elvydden.

Catwg Ddoeth ai cant.

3.

O gadw dy air y cedwi dy wyneb,
O gadw dy gov y cedwi ddoethineb,
O gadw dy ddwrn ti á gedwi dy dda,
O chedwi dy glod cadw heddwch ai gwna.
O gadw dy ddydd ti á gedwi dy ddawn,
O gadw'th gydwybod ti á gedwi pob iawn.

Catwg Ddoeth ai cant.

4. Gwireddau Catwg Ddoeth.

Ni ddigia Duw Dad er erchi cyviawnder,
Nid tlotach Dovydd er rhoddi bob amser,
Nid â neb i'r nev er bonedd a dewrder,
Nid nes y gwynvyd er maint y bo y gwychder,
Ni thry y doeth o'r iawn er maint yr anhawsder.
Nid ingach Nev er à el iddo o niver,
Ni chadwo yr ychydig ni ddaw vyth i lawer,
Ni chair y melus heb wybod i'r chwerwder,
Nid melus iechyd ond yn wysg y clavder,
Nid yn yr arav y bydd vwyav y mwynder,
Nid o chwai davod y daw mwyav doethder,
Nid yn y chwerthin y bydd mwyav yr ysgawnder,
Ni cheir breniniaeth er meddyliau over.
Nid mwyav tlodi y bydd mwyav prinder,
Ni vydd hawdd esgus ar vynydd Goleuver,
Pan welir Cydwybod yn ei holl noethder,
Yn ngwydd Duw Ddovydd a lluodd uchelder,
A Christ yn barnu yn ngolau Cyviawnder.

Catwg Ddoeth ai cant.

5. Cynghorion Catwg Ddoeth.

Na vid esgud dy law ar lw anudon,
Na vid ddrwg rhynghod a'th gymydogion,
Na cherdda y nos heb achosion,
Na ddywed enw Duw mewn geiriau gorweigion,
Na chyfro ar lid y gwrid o'th galon,
Na thor nawdd Duw Ner a'i orchymynion,
Na ro le i'r digder yn dy feddylon,
Na choela na chas na chelwyddon,
Na chyrch ar grair dy air yn greulon
Nag am dda nag am ddawn dynion.
Na ddymuna o'r byd ond dy ddigon,
Na wrthladd y varn a vernir yn gyvion.
Na rwystra y fordd i'r gwan a'r tlodion,
Na chymhell ar neb ond à ddichon,
Na vydd annhrugarog wrth euogion,
Na vydd gyvaill i veilch ynfydion,
Na vydd ddiymdawr am dy gyd-ddynion,
Na vydd galed anvwyn wrth ddierth ac estron.
Na ddangos dy wyneb lle bo'r meddwon.
Nag ymddiried yn vawr i'th elynion,
Na vydd wrth un byw o'r byd yn anhirion,
Na char ond à garo Dduw a'i veibion,
Na chyrch o'th vodd lle byddo'r ymryson,
Na chwennych ymgynnadlu â digllon,
Na vid overwyr dy gyveillion.
Na vydd ddiog yn trin d'orchwylion,
Na vydd anhael wrth reidusion,
Na ddywed air hagyr am drugarogion,
Na chais gyvymbwyll ond a'r doethion,
Na wna gyvrinach heb achos union,
Na ad yn ddibarch y dyn gwirion,
Na wna gyveillach ond a deddvolion,
Na chyrch gwleddau yr annwyvolion,
Na ro dy vryd ar loddestion,
Na ddatriu rin dy gyttrevigion,
Na ymrwyma ond a r rhai cyvion,
Na chais amgen nog à vo Duw yn danvon.
A phynag y bo bydd di voddlon.

Catwg Ddoeth ai cant.

6. Cynghorion ereill.

Nag ymddiried i'r neb a'th fygythio,
Na chred i'r neb a'th wenieitho,
Na chais roesaw dau wg,

Na chais ymgystlwn a'r drwg.
Na chais lawenydd heb wen,
Na chais chware â chlwyvus hen.
Na chais les o ddiogi,
Na chais bwyll yn ngorwegi.
Na chais elw o elusendod,
Na chais lwyddiant o esgeulusdod,
Na chais heddwch o anuvydd-dod,
Na chais iawn ond o gymmod.
Na chais ddiolch am nag,
Na chais ond à vo mewn llestyr gwag.
Na chais barch am ddrygvoesau,
Na chais ddiogelwch o gamweddau.
Na chais gariad o valchedd,
Na chais urddas o faswedd.
Na chais gellwair a'th gaseion,
Na chais glod o hir ymryson.
Na chais ddiwedd da o hir drais,
Na chais fyniant lle na bo ai cais.
Na chais ymryson a'th well,
Na chais wir gan wr o bell.
Na chais hir ddilyn neges ar galed avrywiog,
Na chais mewn cyvyngder gyveillach ag ovnog.
Na chais ond o iawnder i'th enaid lawenydd,
Na chais yn dy vyw ond bodd Duw Ddovydd.

Catwg Ddoeth ai cant.

7. Cynghorion etto.

O myni vod yn ddoeth dywed ychydig,
Yn serchog, yn arav, ac yn bwyllig.
Na ddos i'r cynghor oni'th alwer yno,
A chyn llevaru cymmer amser i wrando;
A phan levarot bydd di'n ddivriv,
Ac nag yngan air hagyr er un cyvriv.
Nag yngan ond à gair wedd i'r amser,
Er heddwch, er cariad a chyviawnder;
Nag yngan ond er helacthu gwybodaeth
A phob deddfoldeb ar lywodraeth,
A chais di ddangos ar bob achosion
Yn gyntaf bodd Duw, yn ail bodd dynion;
Gwna di'n ystyriol yn ol hyn o gynghor,
Ac ymhlith y doethion rhoddir itti'th ragor.

Catwg Doeth ai cant.

8. Deivregwawd Catwg Ddoeth.

Na vydd anystyriol ban rodder it gynghor,
Cau â daint ar dy davod, dy glustiau boent egor,
Bydd addvwyn a gwar nid val blaidd i'th ymogor,
Na vydd di vwythus lle galler dy hebgor,
Na vydd segur o'th fodd ond arail pob tymhor,
Na hir ddilyn pechawd o gryd hyd elor,
Na vydd ddioval oni lenwych dy ysgubor;
Na chwsg Vehevin rhag rhew mis Ionor,
Na chymhell ar ynvyd na dysg na chynghor,
Na ddyro dy roddion i hen Gybydd angor,
Na chytgam â 'sgymmun na ddos iddei oror,
Na ddigia er gweled i arall ei ragor,
Na chred na ymddiried i wylliaid tramor;
Na vyneg i leidyr pa le mae dy drysor,
Nag anmharcha 'th riaint na bugelydd allor;
Na vydd gyveddachwr vywiliau a chatgor.
Na anobeithia dy vwyd o vynydd a dyvor,[1]
Na ymddiried ond i Dduw ar bob tymhor.
Nid cynt neb i'r nev er mawredd a thrysor,
Ni pheirch yr angeu na sidan na phorphor,
Gwna vodd dy Dduw a hyny'n ddiymdor,
A phyrth y nev wen á gai'n eu llawn egor.

Catwg Ddoeth ai cant.

Llyma yr un Ddeivregawd o lyvyr arall yn amryvel ei vodd mewn llawer man.

Na ddywed i leidyr ba le mae'th drysor,
Na vawr ymddiried i wylliaid tramor,
Na vydd ddioval oni lenwych d'ysgubor,
Na chwsg Vehefin rag rhew vis Ionor,
Na vydd vwythus lle gellir dy hebgor,
Na vydd gyveddachwr vywiliau a chatgor,
Na ro glust yn ormod i chwedlau pob goror,
Na vydd gynfonwas lle gellych dy ragor,
Na wna gyveillach ond a'th gyveisior,
Na thebyg mai doeth y ceir pob cerddor,
Na vydd segur o'th fodd ar un tymhor,
Na vydd vleiddig i'th dy a'th ymogor,
Na ddirmyg wr bychan a ovyn dy gynghor,
Na ovna wr mawr na vydd yn ei atgor,[2]
Na amharcha'th Dad na bugail yr allor,
Na ddod vwyd a lletty i hen gybydd angor,
Na chais vyned i'r nev wrth gyvoeth a thrysor,
Na ynvyda wrth neb à vytho dy ragor,
Nag anobeithia luniaeth o vynydd a dyvnvor,
Nag ymddiried i neb ond i Dduw dy Iôr.

Catwg Ddoeth ai Cant.

Ystyfan Vardd Teilo ai Cant
Medd llyvrau eraill.

[1] Dyvnvor. [2] Asgor.

9. Gwireddau.

Y cywir á geidw ei air ar bob achosion,
Y doeth a ry gynghor ac nid ymryson,
Y call a wna ei ran ac a vydd voddlon,
Y cyviawn a wna ei swydd er bygythion,
Y dewr á à'n ei vlaen er gwaethaf gelynion,
Y gwir à vyn ei le er ymlid y trawsion,
Y tangnevgar a gerir gan bob dynion,
Y gwar a gant barch b'le bynag y bython'.
Y tawgar a vernir yn ddoethaf o'r doethion,
Yr hael a voliennir ar gerddi prydyddion,
Y celvydd a vyddant vyw lle'dd â ereill yn feirwon,
Y diwyd a gyvyd i radd pendefigion,
Y deddvol a geif le ymhlith blaenorion,
Y diysgog a ovnir a phawb yn uvyddion,
Y diysgog a gerir gan bob gwrolion,
Y chwilgar a geif ei hun ymhlith dysgedigion,
Yr addvwyn a geif nawdd gan vrodor ac estron,
Yr heddych a geif ei enwi yn un o'r engylion,
Y llawen a vydd yn ysgawn ei galon,
Y dwyvol á geif ei ran ymhlith nevolion.

Catwg Ddoeth ai Cant.

10. Gwireddau.

Nid oes air gwir heb voliant i Dduw Dâd,
Nid oes air celwydd heb ynddo dwyll a brad.
Nid oes weithred dda heb dal yn barod,
Nid oes weithred ddrwg heb ddial yn ei orvod.
Nid oes valchder heb iddaw ostyngiad,
Nid oes ddivalch heb iddo dderchaviad.
Nid oes rwysgus heb iddo warth o'r diwedd,
Nid oes un gwar heb iddo anrhydedd.
Nid oes gyviawn heb lawenydd dîdranc,
Nid oes anghyviawn rhag cosp yn dianc.
Nid oes gywir heb iddo ddiogelwch,
Nid oes euawg na syrth i lwyr dristwch.
Nid oes haelionus heb wynvyd cydwybod,
Nid oes gybydd heb ei lwyth o drallod.
Nid oes diwydrwydd heb ar ei ben goron,
Nid oes ddiogi heb vil o helbulon.
Nid oes ddedwydd heb râd Duw arno,
Nid oes ddireidi heb avlwydd iddo.
Mid oes uvydddod heb iddo ardderchogrwydd,
Nid oes rodres heb iddo y mawr dramcwydd.
Nid oes wirionedd heb oruchaviaeth,
Nid oes anwiredd heb wradwydd ac alaeth.
Nid oes iawn heb iawnder o'i gylchyn.
Nid oes gam heb gami'n ei ddilyn.
Nid oes bwyll na chyrhaedd ragoriaeth,
Nid oes amhwyll heb waethu waethwaeth.
Nid oes ond dwyvol à wel yn y diwedd
Y nev yn dâl am bob dâ mewn buchedd.

Catwg Ddoeth ai Cant.

11. Casbethau Catwg Ddoeth.

Cas bethau Catwg,
Llyma 'nhwy'n amlwg:
Y gwr na charo
Y wlad ai maco;
Milwr llawn dygnedd,
Ni chais dangnevedd;
Ynad annhrugar,
Prydydd avlavar;
Pencenedyl anghall,
Canllaw diddeall.
Gwerin anghyvraith,
Divrawd ac anrhaith;
Cevnogi gwydiau,
Attal gwybodau.
Gwrth ac ymryson
Rhwng cydvrodorion.
Gwr rhaith ariangar,
Bardd yn ymladdgar.
Maclawr heb goedydd,
Cenedyl heb grevydd
Cenad anfyddlon,
Cybydd diddigon.
Ty heb drigiannydd,
Tir heb ddiwyllydd.
Meusydd heb ydau,
Gosgordd heb drevnau.
Canllovi trawsedd,
Rhwystro gwirionedd.
Amharchu rhiaint,
Cynhen rhwng ceraint.
Gwlad heb ei gosgordd,
Addysg ddiarfordd.
Dosparth anhysbys,
Llwybrawd annilys,
Teulu digynneddv,
Dadleuon goleddv.
Cynllwyn a bradau,
Fug yn ngorseddau.
Araith ddiymbwyll,
Aneglur grybwyll.
Gwr heb gelvyddyd,
Meiwyr heb ryddyd.
Cyrch yn ddigynghor,
Bod heb egwyddor.
Geudyst yn nghyngaws,
Barnu'n anhynaws.
Amharchu doethion,
Mawrâu cybyddion.
Chwedlau diaddysg
Gymysg trachymysg.
Gwybod heb awen,
Pleidiwr anghymmen.
Dirmygu gwirion,

Gwlad heb athrawon.
Arver o veddwdod,
Gwr heb gydwybod.
Catwg Ddoeth ai Cant.

12.

Nid iawn i wr doeth ymdravod â chynhen,
Nid cynnydd y da ond llygad y perchen,
Nid anfod i wr ond gwraig o vudrogen,
Ni ddaw iddo lwydd ni chydvydd a'i awen,
Nid clodvawr y rodd o'i rhoddi'n avlawen,
Nid cas ger bron Dovydd ond caled wrth angen,
Nid hysbys i neb b'le bydd ei dywarchen,
Ni wybydd un perchen cnawd beth vydd ai dien,
Nid casach gan Dduw y diddeall na'r cymmen,
Nid llawnach yr cnaid er llenwi y benygen,
Nid cythraul ond gwr à faco genvigen,
Nid dawnus y pwyll na vytho disgywen,
Na chymmer mewn llaw nas gallot ei orphen,
Na wna ddim o'r byd heb ystyr ei ddyben.
Catwg Ddoeth ai Cant.

13.

Na chais gynghor gan lwvr ac ovnog,
Na ddywed à wyddost wrth wr geuog,
Na ro atteb i ddyn dau davodiog,
Na chais ymlid neges ar galed avrywiog,
Nac adrodd à glywaist rhag ei fod yn gelwyddog,
Na vydd yn lle dedyrdd y tavod rhedegog.
Ni chair da o'r peth a geisir yn chwanog,
Ni ddaw i neb lwyddiant à vo ry wagelog.
Nid rhwydd yn ei vyd ond diwyd calonog,
Nid gwell yn y bedd boneddig no thaiog.
Catwg Ddoeth ai Cant.

14. Tremynion Catwg Ddoeth.

Nerth Dryw, ei chelvyddyd,
Nerth gwalch, ei gynghyd,
Nerth gwenynen, ei hamynedd,
Nerth ysguthan, ei hadanedd,
Nerth morgrugyn, ei ddiwydrwydd.
Nerth maban, ei ddiniweidrwydd.
Nerth merch, ei phryd a'i gwedd,
Nerth cryv, ei drugaredd,
Nerth mab, ei ddysg a'i ddoniau,
Nerth athraw, ei wybodau,
Nerth ieuange, ei uvydddawd,
Nerth hen, ei gynghor parawd.
Nerth doeth, ei ystyriaeth,
Nerth blaenor, ei ddarbodaeth,
Nerth call yn ei ymddwyn,
Nerth boneddig, ei voes addwyn,
Nerth feryllt yn ei law,
Nerth ystrywgar yn ei daw,
Nerth glew yn ei galon,
Nerth glwth, ei ddaint llymion,
Nerth tantor yn ei vys,
Nerth llwrv, ei droed hyvrys,
Nerth penteulu yn ei ymdawr,
Nerth anwr, ei frost vawr,
Nerth bardd, yn ei awen,
Nerth clerwr, tavod cymmen,
Nerth cymmen, athrylith rwydd,
Nerth llen, ei ystigrwydd,
Nerth ysgolaig, ei fwriad,
Nerth ynvyd, ei chwerthiniad,
Nerth estron, ymddwyn divrad,
Nerth swyddog, meddwl gwastad,
Nerth gwan, ei syberwyd,
Nerth celvydd, ei ddihewyd,
Nerth awenydd, ei vyvyrdod,
Nerth à vyn barch, frwyn tavod,
Nerth deddvwr, cariad ei wlâd,
Nerth ynad, ei bwyll mad,
Nerth dwyvol, ei ddaionusder,
Nerth brenin ei gyviawnder,
Nerth cadarn yn ei orddod,
Nerth gwirgar, ei gydwybod,
Nerth gwr, ei ddealltwriaeth,
Nerth deall maint ei wybodaeth,
Catwg Ddoeth ai Cant.

15. Tremynion Catwg Ddoeth mewn modd arall.

Nerth Llwynog yn ei ddichell,
Nerth Ci yn ei ddant,
Nerth Algar yn ei gorn,
Nerth Hwrdd yn ei ben,
Nerth Sarph yn ei chloren,
Nerth Pysg yn ei ysgyvaint,
Nerth Eryr yn ei ylvin,
Nerth Arth yn ei breichiau,
Nerth Tarw yn ei ddwyvron,
Nerth Twrch yn ei avlach,
Nerth March yn ei garn,
Nerth Ysguthan yn ei hadanedd,
Nerth Câth yn ei gwinedd,
Nerth Ab yn ei balv,
Nerth Cigvran yn ei froen,
Nerth Clyren, ei chyvlymder,
Nerth Cybydd yn ei ystryw,
Nerth Abwy yn ei ddrewdod,
Nerth Gwraig yn ei Thavod.
Catwg Ddoeth ai Cant.

16. Ereill Unrhyw.

Nerth glwth yn ei ddant,
Nerth tantor ei vys,
Nerth meddwyn ei lwngc,
Nerth anwr ei frost,
Nerth ynvyd ei chwerthin,

Nerth celwyddog ei ddigywilydddra,
Nerth Sais ei ddichell,
Nerth Gwyddyl ei gelwydd,
Nerth Estron ei uvydddawd,
Nerth Cymro ei ddispwyll,
Catwg Ddoeth ai Cant.

17. Ereill etto.

Nerth Plentyn ei ddiniweidrwydd,
Nerth Mab ei ddysg,
Nerth Merch ei thegwch,
Nerth Call yn ei daw,
Nerth Doeth ei ystyriaeth,
Nerth Athraw ei ddosparth,
Nerth Bardd ei awen,
Nerth Blaenor ei wybodau,
Nerth Llên yn ei bwyll,
Nerth Feryllt yn ei law,
Nerth Glew yn ei galon,
Nerth Cymmen eonder,
Nerth Celvydd ei ddihewyd,
Nerth Deddvol ei amynedd,
Nerth Dwyvawl ei gred a'i obaith,
Nerth Gobaith bod ar y gwir,
Nerth Gwirgar ei gydwybod,
Nerth Cydwybod gweled a vo cyviawn,
Nerth à vo Cyviawn ei Dduw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

18. Ereill etto.

Nerth Synwyrol ei Amynedd,
Nerth Myvyr Llonyddwch corf a meddwl,
Nerth Gwlad ei Gwybodau,
Nerth Gwybodau Heddwch,
Nerth Cenedyl Cyvraith,
Nerth Cyvraith Yngneidiaeth,
Nerth Ynad ei Gyviawnder,
Nerth Brenin ei Drugaredd,
Nerth Gwr ei Ddeall,
Nerth Deall Ymgais,
Nerth Ymgais bod ar y Iawn ymhob peth.

19. Ereill etto.

Nerth Llwrv yn ei droed,
Nerth Glew ei galondid,
Nerth Hen ei gynghor,
Nerth Gwan ei uvydddawd,
Nerth Cryv ei drugaredd,
Catwg Ddoeth ai Cant.

20. Athronddysg Catwg Ddoeth a elwir Nidiau Catwg Ddoeth.

Nid Gwir ond yr hyn nis gellir ei amgen,
Nid Cyviawn ond yr hyn nis gellir ei hebgor,
Nid Da ond yr hyn nis gellir ei wellâu,
Nid Drwg ond yr hyn nis gellir ei waeth,
Nid Gwaethaf ond yr hyn nis gellir un da o hono,
Nid Cymhwys ond yr hyn nis gellir ei gamu,
Nid Cam ond yr hyn nis gellir ei gymhwyso,
Nid Cyvlawn ond yr hyn nis gellir difyg ynddo,
Nid Difyg ond yr hyn nis gellir un lles o hano,
Nid Lles ond lle nis gellir gwrth,
Nis gellir gwrth ond ar y drwg,
Nid Gwrth ar y drwg ond Duw,
Nid Duw ond yr hyn nis gellir ei well,
Nid nis gellir ei well ond gwell na'r cyvan,
Nid gwell na'r cyvan, ond cariad,
Nid Cariad ond Duw, nid Duw ond Cariad.
Catwg Ddoeth ai Cant.

21. Athronddysg Arall.

Nid hawdd ond gweled gwirionedd,
Nid anhawdd ond cael gwirionedd,
Nid doeth ond caru gwirionedd,
Nid gwybodus ond à ŵyr wirionedd,
Nid dewr ond o wedyd gwirionedd,
Nid câr ond à ddengys wirionedd,
Nid gelyn ond am lynu wrth wirionedd,
Nid rhyvedd ond uvyddâu i'r gwirionedd,
Nid amlach no chanmol gwirionedd,
Nid anamlach no cheisio gwirionedd,
Nid rhyvedd ond clywed gwirionedd,
Nid pen ar bob peth ond gwirionedd,
Nid ynnill ond cafael gwirionedd,
Nid golud ond gavael ar wirionedd,
Nid ymgais dda ond chwilio am wirionedd,
Nid heddwch ond o gynnal gwirionedd,
Nid diwedd da ond gwirionedd,
Nid bodd Duw ond gwirionedd,
Catwg Ddoeth ai Cant.

22. Arall.

Nid agos ond yr hyn nis gellir ei gyrhaedd, sev hunan.
Nid amyl ond yr hyn nis gwelir mewn un man, sev gwirionedd.
Nid mawr ond hyn nis gwelir yn y byd gan ei leied, sev cyviawnder.
Nid gwaeddvan ond yr hyn ni chlyw neb ei lais, sev cydwybod.
Nid iawn ond a geir ar gam gan bob un, sev gwybodaeth.
Nid ar gais pob un ond yr hyn nad oes neb yn ymovyn am dano, sev doethineb.
Nid golenni ond à welir yn dywyll yn mhob dyn, sev deall.

Nid ymhob man ond yr hyn nis gwel nemawr yn un man, sev Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

23. Arall.

Nid call ond à welo'i hun yn fôl,
Nid adnabyddus ond à adnebydd ei hun,
Nid cadarn ond à vo drech no'i hunan,
Nid gwybodus ond a wyr ei gamsynied,
Nid doeth ond à ddeall ei annoethineb,
Nid gwyliadwrus ond à wilio arno ei hunan,
Nid gochelgar ond à ochel à gais ei chwant,
Nid dall ond na welo'i vai ei hunan,
Nid deallus ond à ddeall ei wall ei hunan,
Nid cryv ond à orvydd ar ei wendidau.
Catwg Ddoeth ai Cant.

24. Ereill.

Nid trais ond twyll,
Nid eiddo ond rhyddyd,
Nid goleuni ond deall,
Nid gwybod ond à vo iawn,
Nid cymwynas ond haelioni,
Nid gwneuthur ond o vodd ac ewyllys,
Nid didal à vo dros dal,
Nid llygad ond pwyll,
Nid cynghor ond cydwybod,
Nid cydwybod ond dyoddev,
Nid dyoddev ond dros y cyviawn,
Nid cyviawn ond Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

25. Ereill.

Nid cwyn ond tost,
Nid tost ond caled,
Nid caled ond cosp,
Nid cosp ond dyoddev o anvodd,
Nid dyoddef o anvodd ond dros y drwg,
Nid drwg ond à vo tost a chaled dyoddev drosto,
Nid caled dyoddev dros unpeth ond dros yr hyn à ddylid ei gospi.
Catwg Ddoeth ai Cant.

26. Ereill.

Nid rhy hir aros daioni,
Nid rhybrid unpeth er daioni,
Nid caled un dyoddev dros ddaioni,
Nid o ddarvodus y mae daioni,
Nid annarvodus ond Duw,
Nid oes eithyr o Dduw un daioni.
Catwg Ddoeth ai Cant.

27. Ereill.

Nid golwg ond bodd ac ewyllys,
Nid dall ond trais ac anvodd,
Nid cariad ond rhydd a dewis,
Nid câs ond caethiwed a gorvod.
Catwg Ddoeth ai Cant.

28. Ereill.

Nid bodd ond esmwyth,
Nid esmwyth ond diogel,
Nid diogel ond gwybod,
Nid gwybod ond cov,
Nid cov ond gweled,
Nid gweled ond goleuni,
Nid goleuni ond Duw.
Catwg Ddoeth ai cant.

29. Ereill.

Nid gweled ond ystyr,
Nid ystyr ond glewineb,
Nid glewineb ond gloewineb,
Nid gloewineb ond goleuni,
Nid goleuni ond deall,
Nid deall ond cydwybod,
Nid cydwybod ond llygad Duw yn enaid dyn.
Catwg Ddoeth ai Cant.

30. Ereill.

Nid Da ond Dwyvol,
Nid Dwyvol ond Crevyddus,
Nid Crevydd ond Cred,
Nid Cred ond Gwir,
Nid Gwir ond Amlwg,
Nid Amlwg ond Goleuni,
Nid Goleuni ond Duw.

Am hyny nid da ond goleuni, nid dwyvoldeb ond goleuni, nid crevydd ond goleuni, nid cred ond goleuni, nid gwir ond goleuni, nid amlwg ond goleuni, nid goleuni ond gweled Duw.
Catwg Ddoeth ai cant

31. Ereill.

Nid llawen ond call,
Nid call ond diniwed,
Nid diniwed ond serchog,
Nid serchog ond trugar,
Nid trugar ond cydwybodawl,
Nid cydwybodawl ond ymedrychgar
Nid ymedrychgar ond ystyrgar,
Nid ystyrgar ond awenawl,
Nid awenawl ond cydwybodawl,
Nid cydwybodawl ond dwyvawl.

Ac am hyny nid llawen ond dwyvawl, ac nid dwyvawl heb lawenydd.
Catwg Ddoeth ai Cant.

32. Arall, Unrhyw.

Nid llawen ond boddlawn,
Nid boddlawn ond ystyrgar,
Nid ystyrgar ond deallus,
Nid deallus ond meddylgar,
Nid meddylgar ond llonydd,
Nid llonydd ond cydwybodawl,
Nid cydwybodawl ond cariadgar,

Nid cariadgar ond anianawl,
Nid anianawl ond cerddgar,
Nid cerddgar ond awengar,
Nid awengar ond goleugar,
Nid goleugar ond gwirgar,
Nid gwirgar ond cyviawn,
Nid cyviawn ond dwyvawl,
Nid dwyvawl heb lawenydd.
Catwg Ddoeth ai cant.

33. Arall.

Nid gwr heb ddysg,
Nid dysg heb voes,
Nid moes heb syberwyd,
Nid syberwyd heb haelioni,
Nid haelioni heb gariad,
Nid cariad heb dangnev,
Nid tangnev heb ddwyvolder,
Nid dwyvolder heb gyviawnder,
Nid cyviawnder heb ymddwyn ag anallu,
Nid ymddwyn ag anallu ond dyndawd,
Nid dyndawd ond o vodd Duw,
Nid bodd Duw ond er daioni,
Nid daioni o Dduw ond yn eithavodd doethineb,
Nid eithavodd doethineb Dyn ond ymuvyddhâu i Dduw ymhob peth, a'i garu ymhob peth.
Catwg Ddoeth ai Cant.

34. Arall.

Nid golud ond gwybodaeth,
Nid gwybodaeth ond awen,
Nid awen ond deall,
Nid deall ond pwyll,
Nid pwyll ond amynedd,
Nid amynedd ond ystyr,
Nid ystyr ond dyben da,
Nid dyben da ond Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

35. Arall.

Nid rhybell cyrch cyvraid,
Nid rhy hir aros daioni,
Nid rhyvawr a wneir tros Dduw,
Nid rhy vach ydd ymddiriedir i'r Byd,
Nid rhy uchel iddei gyrhaedd gwybodaeth,
Nid rhy vynych y gwneir a vo cyviawn,
Nid rhy amyl y gwneir trugaredd,
Nid rhy gadarn y glynir wrth wirionedd,
Nid rhy awyddus y gwneir daioni,
Nid rhy ochelgar y gwylier rhag balchder,
Nid rhy ovalus ydd ymgedwir rhag trachwant,
Nid rhy galed marw dros bob gwir a chyviawn,
Nid rhy hwyr ydd uvuddêir i Dduw.
Catwg Ddoeth ai cant.

36. Arall.

Nid Dwyvoldeb ond trugaredd at bob byw a bod,
Nid doethineb ond ymwrthod â bydoldeb,
Nid hapusder ond pwyll ac iechyd,
Nid cariad ond cyviawnder,
Nid cyfiawnder ond a vynid ei gael gan arall,
Nid gwirionedd ond a wyper heb ei glywed gan arall,
Nid celwydd ond a wypai ei hunan nad gwir vyddai,
Nid folineb ond credu ac anghredu'n bendant à weto arall,
Nid llawenydd ond cydwybod aneuog,
Nid call ond a wyr ymgynnal o hono ei hunan,
Nid haelioni ond dyoddev pob caled er daioni i ereill,
Nid dedwyddwch ond pwyllgarwch,
Nid pwyllgarwch ond dwyvoldeb,
Nid dwyvoldeb ond trugaredd at bob byw a bod.
Catwg Ddoeth ai cant.

37. Arall.

Nid drwg ond à dybio ei hun yn dda,
Nid fol ond à dybio ei hun yn gall,
Nid bach ond à dybio ei hun yn vawr,
Nid annoeth ond à dybio ei hun yn ddoeth,
Nid anwybodus ond à dybio ei vod yn gwybod y cyvan,
Nid celwyddwr ond bostiwr,
Nid lleidyr ond à ddwg oddiarno ei hun ei holl eiddo, sev cybydd,
Nid gormes ond anair nas haedder,
Nid briw ond briw calon,
Nid carchar ond cydwybod euog,
Nid tost ond cosp am ddrygioni,
Nid eisieu ond eisieu deall,
Nid da ond à vo da i arall,
Nid da ond à ymgais vod yn well,
Nid gwybod ond gwneuthur daioni,
Nid doeth ond à athraw annoeth,
Nid dyn ond à vo da'i gynneddvau.
Catwg Ddoeth ai cant.

38. Arall.

Nid drwg à wnelo arall yn well,
Nid annoeth à wnelo arall yn ddoethach,
Nid tlawd à wnelo arall yn verthocach,
Nid annysgedig à wyr ddysgu da i arall,
Nid annedwydd à wnelo arall yn ddedwydd,
Nid da ni bo arall well erddo,
Nid rhybell cyrchu daioni,
Nid rhy hwyr cafael daioni,
Nid rhy hir aros daioni,
Nid rhy brid y prynir daioni,

Nid rhy vawr y boen[1] à gymmer er daioni.
Nid anfodus à gafo ddaioni'n y diwedd.
Nid goddev ond am à vo drwg,
Nid llawenydd ond cydwybod lân,
Nid cydwybod ond deall,
Nid deall ond ystyriaeth,
Nid ystyriaeth ond pwyll,
Nid pwyll ond awenolder,
Nid awenolder ond athrylith,
Nid athrylith ond addysg.
Nid addysg ond à sercher,
Nid serch ond à ganper,
Nid a ganper ond à ddangoser,
Nid dangos ond o gariad,
Nid cariad ond Tad,
Nid Tâd ond Duw,
Nid Duw yn Dâd ond i ddwyvawl.

Catwg ddoeth ai Cant.

39. Arall.

Nid cadernyd heb gevndyr,
Nid lliosogrwydd heb gyvyrdyr,
Nid bygwl heb wyr,
Nid tegwch heb wragedd,
Nid hoewder heb gleddyv,
Nid brwydyr heb wewyr,
Nid bicre heb vwa,
Nid ymladd heb ddagyr,
Nid esmwythder heb dy,
Nid arglwydd heb drugaredd,
Nid gwr heb gydwybod,
Nid gwlad heb lywodraeth,
Nid gwasanaethwr heb ovn,
Nid ofeiriad heb lên,
Nid esgob heb ddysg,
Nid ynad heb gyviawnder,
Nid brenin heb gyvraith,
Nid llavuriaeth heb vab,
Nid hiliogaeth heb verched,
Nid hyder heb vrawd,
Nid argelwch heb chwaer,
Nid ymgeledd heb vâm,
Nid cystlwng heb dâd,
Nid tâd ond Duw.

Ac o veddu Duw yn Dâd y ceir mam, a brawd, a chwaer, a mab, a merch, a chevndyr, a chyvyrdyr, a phob ceraint a chynghor a chynnorthwy ac ymgeledd.

Catwg Ddoeth ai Cant.

40. Arall.

Ni wyr ni wyl,
Ni wyl ni ddysg,
Ni ddysg ni wrendy,
Ni wrendy ond astud,
Nid astud ond dedwydd,
Nid dedwydd ond à ato ei garu,
Ni ad ei garu ond divilain,

[1] Poen.

Nid divilain ond uvydd,
Nid uvydd ond doeth,
Nid doeth ond tawedog,
Nid tawedog ond goddevus,
Nid goddevus ond synwyrus,
Nid synwyrus ond cydwybodus,
Nid cydwybodus ond cywir,
Nid cywir ond meddylgar,
Nid meddylgar ond serchog,
Nid serchog ond cerddgar,
Nid cerddgar ond llavar,
Nid llavar ond ymddyddangar,
Nid ymddyddan ond am Dduw.

Catwg Ddoeth ai Cant.

41. Arall.

Nid cynghor ond[1] tad,
Nid gweddi heb[2] vam,
Nid ymgeledd heb[3] chwaer,
Nid cadernid heb vrawd,
Nid galluog heb gevnder,
Nid cenedlog heb gyvyrder,
Nid ymgynnal heb vab,
Nid hiliogaeth heb verch,
Nid ty heb wr,
Nid gwely heb wraig.
Nid gwr heb gelvyddyd,
Nid annedd heb gymodogaeth,
Nid cenedyl heb vraint,
Nid gwlad heb lywodraeth,
Nid llywodraeth heb gyviawnder,
Nid cyfiawnder heb heddwch,
Nid heddwch heb gariad,
Nid gwerin heb wybodau,
Nid gwybodau heb addysg,
Nid addysg heb ddosparth,
Nid dosparth heb syberwyd,
Nid syberwyd ond cynneddvau da,
Nid tân heb gyf,
Nid hyder ond bwa,
Nid hoewder ond cleddyv,
Nid brwydyr ond gwewyr,
Nid lladd ond dagyr,
Nid tylodi ond clevyd,
Nid envydrwydd ond cariad,
Nid gwall synwyr ond ymryson,
Nid methiant ond musgrelli,
Nid doethineb ond tewi,
Nid diogi ond syrthni,
Nid pechod ond amdden,
Nid amdden ond syrth,
Nid anghenus ond nas cymmer,
Nid gelyn ond athrodwr,
Nid lleidyr ond cybydd.
Nid taiog ond carl,
Nid cerlyn ond afrywiog,
Nid avrywiog ond iangwr,
Nid iangwr ond o arver,

[1] Heb. [2] Ond. [3] Ond.

Nid arver ond camp,
Nid camp ond à vo da,
Nid da ond rhadlondeb,
Nid rhadlondeb ond deall,
Nid deall ond rhyw,
Nid rhyw ond rhyvedd,
Nid rhyvedd ond nad adnebydd dyn ei hun.

Catwg Ddoeth ai Cant.

42. Arall.

Nid gwresog ond yr haul,
Nid oer ond y lleuad,
Nid amlder ond y ser,
Nid buan ond y gwynt,
Nid arav ond y gwlaw,
Nid cyvlym ond goleuni,
Nid ysborth ond milgi,
Nid sionc ond gwraig,
Nid llawenydd ond merch,
Nid digrivwch ond gweilch,
Nid cywir ond ci,
Nid esgeulus ond gweinidog,
Nid anymddiriedus ond diriaid[1]
Nid melus ond pechod,
Nid chwerw ond penyd,
Nid diddrwg ond dibechod,
Nid dibechod ond santaidd,
Nid santaidd ond diwybod am y byd,
Nid diwybod am y byd ond à vo marw cyn ei lev geni.

Catwg Ddoeth ai cant.

43. Arall.

Nid dedwydd ond diddrwg,
Nid diddrwg ond dibech,
Nid dibech ond santaidd,
Nid santaidd ond diwybod,
Nid diwybod ond ynvyd,
Nid ynvyd ond disynwyr,
Nid disynwyr ond di serch,
Nid can Dduw ynvyd na chymmen,
Nid rhyvedd dim à vyno Duw.

Catwg Ddoeth ai Cant.

44. Arall.

Nid hudoliaeth ond ieuengctid,
Nid ieuenctid ond enyd awr,
Nid twyll ond y byd,
Nid cyvoeth ond iechyd,
Nid pruddder ond marwolaeth,
Nid dyvrydwch[2] ond ufern,
Nid llawenydd ond y nev,
Nid hyvryd ond gyda Duw,
Nid gyda Duw ond cariadgar,
Nid cariadgar ond tangnevgar,
Nid tangnevgar ond mab i Dduw.

Catwg Ddoeth ai Cant,

[1] Bradwr.
[2] Dihyvrydwch

45. arall.

Nid moliannus ond cyttundeb,
Nid cyttundeb ond syberwyd,
Nid syberwyd ond llonyddwch,
Nid llonydd ond goreugar,
Nid goreu ond athrylith,
Nid athrylith ond llawen,
Nid llawen ond divalch,
Nid divalch ond boneddig,
Nid boneddig ond trugarog,
Nid trugarog ond deddvawl,
Nid deddvawl ond doeth,
Nid doeth ymryson[1],
Nid diymryson ond cyttundeb.

Catwg Ddoeth ai Cant.

46. Arall.

Nid yspail ond gwynt.
Nid gortrech ond tân,
Nid rhuthyr ond dŵr,
Nid diddim ond trist,
Nid athrywaith ond llawen,
Nid celvydd ond divriv,
Nid pruddder ond eisiau,
Nid helaethrwydd heb ddigon,
Nid amheuthun llawer,
Nid chwannog ond mab,
Nid moethus ond merch.
Nid cadarn ond gwr,
Nid gwr ymladd heb fon,
Nid marchog heb waew,
Nid ovnog ond digasog,
Nid digasog heb achos
Nid achos ond heb achos.

Catwg Ddoeth ai Cant.

47. Arall.

Nid gwenwynig ond cath,
Nid fyrnig ond ci,
Nid creulon ond llew,
Nid cyvrwys ond ab,
Nid dichellgar ond llwynog,
Nid ystrywgar ond ysgyvarnog,
Nid athrylith ond batheiad,
Nid brwnt ond fwlbart,
Nid moethus ond bele,
Nid bywiog ond gwiwair,
Nid esgud cn l dyvrgi,
Nid esmwyth ond pathew,
Nid difaith ond ystlum,
Nid boneddig ond hydd,
Nid rhywiog ond march[2],
Nid gwar ond ych,
Nid taiog on l eidon,
Nid rhadlawn ond davad,
Nid addvwyn ond oen,
Nid llyseuwraig ond gavyr,

[1] Qu.? ond diymryson. I. M.
[2] Nid addwyn ond march

Nid teg ond paun,
Nid hagyr ond llyfant,
Nid tomlyd ond bwch,
Nid syw ond y bi,
Nid sionc ond dryw,
Nid balch ond alarch,
Nid coelvain ond côg,[1]
Nid cantor ond mwyalch,
Nid serchog ond ëos,
Nid rhyvygus ond bronfraith.
Nid cyvannedd ond ceiliog,[2]
Nid avradlon ond iâr,
Nid ynvyd ond gwydd,
Nid budyr ond hwyad,
Nid llechiad ond cyfylog,
Nid anllad ond aderyn y to,
Nid musgrell ond ceilioggwydd,
Nid glwth ond mulvran,
Nid anferth ond garan,
Nid ammaeth ond ych,
Nid cares ond buwch,
Nid chwarêus ond colwyn,
Nid trythyll ond myn,
Nid glan ond pysg,
Nid eidiog ond brithyll.
Nid syber ond gleisiad,
Nid godech ond llysywen,
Nid mwth ond gwenol,
Nid rheipus ond barcut,
Nid llygotwraig ond dylluan.
Catwg Ddoeth ai Cant.

47. Arall.

Nid ysbail ond gwynt,
Nid trais ond ton,
Nid rhwystyr ond dŵr,
Nid gortrech ond tân,
Nid trwm ond daiar,
Nid ysgawn ond awyr,
Nid caled ond maen,
Nid arv ond dur.
Catwg Ddoeth ai Cant.

48. Arall.

Nid dewr ond gwŷr,
Nid ovnus ond gwragedd,
Nid gwenieithus ond merch,
Nid cynnorthwy ond mab,
Nid goval ond mam,
Nid nawdd ond tad,
Nid cariad ond plant,
Nid carennydd[3] ond wyron,[4]
Nid tylwyth ond neiaint,
Nid hiliogaeth ond gorwyr,
Nid eppil ond goresgynydd,
Nid hofder ond etivedd,
Nid amddiried ond cydymaith,
Nid cyvrinach ond rhwng dau,
Catwg Ddoeth ai Cant.

49. Arall.

Ni wyr ni weles,
Nid gwybodus ond à ddeall,
Nid hysbys ond à ymovyno,
Nid cyvarwydd ond a wypo,
Nid dysg heb synwyr,
Nid call ond à gatwo yn ei gôv,
Nid calonog ond à gyrcho,
Nid diarswyd ond à rho,
Nid ovnog ond à vo,
Nid dyoddevgar ond doeth,
Nid milain ond taiog,
Nid llwvyr ond à becho,
Nid euog ond à lecho,
Nid gau ond anwireddgar,
Nid enbyd ond un ni bu enbyd arno,
Nid galluus ond call,
Nid iach ond à vo marw,
Nid trevtad anrhydedd arglwydd,
Nid gair ond o ben à gredir,
Nid anvad ond anvoes,
Nid blaidd ond y bugail,
Nid cyfredin ond cerdd,
Nid cerdd ond cân,
Nid cân ond y gan[1] hofedd,
Nid hofedd ond a sercher,
Nid oll ond anveidrawl,
Nid anveidrawl ond dim,
Nid dim ond Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

50. Arall.

Ni weles ni wyr,
Ni wyr ni ddysg,
Ni ddysg ni wrendy,
Ni wrendy ond ystyriawl,
Nid ystyriawl ond astud,
Nid astud ond athrylithgar,
Nid athrylithgar ond dedwydd,
Nid dedwydd ond addwyn,
Nid addwyu ond anvilaidd[2],
Nid anvilaidd[3] ond uvydd,
Nid uvydd ond doeth,
Nid doeth ond tawedog,
Nid tawedog ond goddevus,
Nid goddevus ond deallus,
Nid deallus ond synwyrol,
Nid synwyrol ond cydwybodus,
Nid cydwybodus ond cywir,
Nid cywir ond meddylgar,
Nid meddylgar ond serchog,
Nid serchog ond cerddgar,
Nid cerddgar ond llavar,

[1] Nid mwynaidd ond côg
[2] Nid gwrol ond ceiliog ty
[3] Etiveddion
[4] Neiaint

[1] Qu.? a gân. I. M.
[2] Divilain.
[3] Divilain.

Nid llavar ond ymddyddan,
Nid ymddyddan ond am Dduw.
Mewn llyvyr arall val hyn.
Nid serchog ond amyneddgar,
Nid amyneddgar ond cerddgar,
Nid cerddgar ond llawen,
Nid llawen ond llavar,
Nid llavar ond ymddyddan[1].
Catwg Ddoeth ai Cant.

51. Arall.

Nid cartrev ond annedd,
Nid annedd ond ty,
Nid ty heb wr,
Nid gwely heb wraig,
Nid teulu ond plant,
Nid etivedd ond mab,
Nid eppil ond wyr,
Nid hiliogaeth ond orwyr,
Nid cenedyl ond goresgynydd,
Nid gwlad ond cenedyl,
Nid cenedyl heb lywodraeth,
Nid llywodraeth heb addwynder,
Nid addwynder ond gwybodau,
Nid gwybodau ond celvyddydau,
Nid celvyddydau heb dangnev.
Nid tangnev ond cariad,
Nid cariad ond pwyll,
Nid pwyll ond deall,
Nid deall ond addysg,
Nid addysg ond athraw,
Nid athraw heb urddas,
Nid urddas ond braint,
Nid braint ond teilyngdawd,
Nid teilyngdawd ond daioni,
Nid daioni ond o Dduw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

52. Arall.

Nid ovnog ond digasog,
Nid digasog heb achos,
Nid dyoddevgar ond doeth,
Nid doeth à ymryson,
Nid mwynder ond merch,
Nid mabgar ond divilain,
Nid milain ond taiog,
Nid taiog ond carl,
Nid cerlyn ond avrywiog,
Nid avrywiog ond iangwr,
Nid iangwr ond nid ymgais â doeth,
Nid doeth ond tawedog,
Nid tawedog ond adnabyddus,
Nid adnabyddus ond à adnebydd ei hun.
Catwg Ddoeth ai Cant.

53. Arall.

Nid gwynvyd ond llawenydd,
Nid doethineb ond tewi,
Nid gwledd ond boddlonedd,
Nid helaethrwydd heb ddigon,
Nid amheuthyn llawer,
Nid siomedigaeth ond gwraig,
Nid llawenydd ond merch,
Nid hofder ond mab,
Nid cares ond buwch,
Nid cyvoeth ond davad,
Nid digrivwch ond gwalch,
Nid hyder ond march,
Nid asborth ond milgi.
Nid cyvarwydd ond à gerddoedd[1].
Nid hysbys ond à weloedd.
Nid gwybodus ond à ymarveroedd.
Nid celvydd ond à ymdrechoedd.
Nid deallus ond à ymchwilioedd.
Nid pwyllus ond à ystyrioedd.
Nid ystyrioedd ond dedwydd.
Nid dedwydd ond cydwybodus.
Nid cydwybodus ond adnabyddus.
Nid adnabod ond adnabod ei hun.
Catwg Ddoeth ai Cant.

54. Arall.

Nid gwr ond a drawo.
Nid govalus ond à laddo.
Nid trist ond cybydd.
Nid llawen ond hael.
Nid hael ond ai cymmero.
Nid ai cymmero ond dedwydd.
Nid dedwydd ond deallgar.
Nid deallgar ond gwybodus.
Nid gwybodus ond ymgeisgar.
Nid ymgeisgar ond cywir.
Nid cywir ond deddvawl.
Nid deddvawl ond dwyvawl.
Nid dwyvawl ond à garo Dduw.
Nid à garo Dduw ond a garo ei gymodog.
Nid cymodog ond a ellir cymwynas iddo.
Catwg Ddoeth ai Cant.

55. Arall.

Nid anneall ond anynad.
Nid gau ond y geuawg.
Nid anudon ymchwelyd er da[2].
Nid dedwydd ni ddyfo pwyll.
Nid cov ond pwyll ymddwyn.
Nid eiddun dedwydd dyhedd.
Nid dev devin namyn devawd.
Nid hyvrydwch ond gyda Duw.
Nid da y blaidd nid da'i gawl.
Nid hybarch rhy gynnevin.
Nid lleidyr ond a ddyco ei eiddo 'i hun.
Nid cyweithas heb vrawd.
Nid cov gan lwth ei grach.
Nid rhy dda neb i wasanaethu ei hun.
Nid edrych newyn y tecav.
Nid hawdd blingo callestren.

[1] Ut supra.

[1] Gredoedd, mewn llyvyr arall.
[2] Ar y da. Ll. arall.

Nid moes gwrthod.
Nid anverth ond ansyberwyd.
Nid melus ond a wahardder.
Nid moesog morwyn ni chlyw lev ceiliog ei thad.
Nid cyvun hun a haint.
Nid hawdd hardd heb gymhar.
Nid hir aros daioni.
Nid eglur edrych trwy dywyll.
Nid adwna Duw a wnaeth.
Nid o rym corf y cenir telyn.
Nid uniaith eos a brân.
Nid gwell rhwy no digon.
Nid â bwyall y mae canu crwth.
Nid da rhy o ddim.
Nid ei veddwl sydd oreu i ddŷn.
Nid hir barâus cymhell.
Nid drwg ond a gefir drwg o hono.
Nid rhaid pedi yn llys arglwydd.
Nid rhyvel ond gwynt.
Nid gormes ond dwr.
Nid dinistyr ond tân.
Nid glân ond glân ei galon.
Nid llai y cyrcher llaith no'r cyvarwys.
Nid gwaeth cywir er ei chwilio.
Nid o gywilydd ond val ai cymmerer.
Nid hawdd chwythu tân â blawd yn ngenau.
Nid eglur edrych yn nhywyll.
Nid call ond call weithiau.
Nid a lawch mab ai câr.
Nid etifeddiaeth gwasanaeth.
Nid call Cymro oni chollo.
Nid gwradwydd ymwellâu.

Catwg Ddoeth ai Cant.

56. Arall.

Nid gwlad heb genedyl,
Nid cenedyl heb wr,
Nid gwr heb urddas,
Nid urddas heb vonedd,
Nid bonedd heb vraint,
Nid braint heb wybodau,
Nid gwybodau heb ddysg,
Nid dysg heb voes,
Nid moes heb hawddgarwch,
Nid hawddgarwch heb syberwyd,
Nid syberwyd heb haelioni,
Nid haelioni heb gariad,
Nid cariad heb gyviawnder,
Nid cyviawnder heb dangnev,
Nid tangnev ond Duw.

Heb dangnev, heb gyviawnder, heb gariad, heb haelioni, heb syberwyd, heb hawddgarwch, heb voes, heb ddysg, heb wybodau, heb vraint, heb vonedd, heb urddas, heb wrhydri, heb genedyl, heb wlad, heb Dduw, ac heb ddim.

57. Arall.

Nid gwr heb genedyl,
Nid cenedyl heb wlâd,
Nid gwlad heb lywodraeth,
Nid llywodraeth heb gyvraith,
Nid cyvraith heb gyviawnder,
Nid cyviawnder heb gydvraint,
Nid cydvraint ond cydvryd,
Nid cydvryd ond cydbwyll,
Nid cydbwyll ond cydwybodoldeb,
Nid cydwybodoldeb ond cydddysg,
Nid cydddysg ond cydgariad,
Nid cydgariad ond cydtangnev,
Nid cydtangnev ond cydddwyvoldeb,
Nid cydddwyvoldeb ond o Dduw, am hyny
Nid gwr ond o Dduw.

58. Arall.

Nid bywyd heb ŷddyd,
Nid rhyddyd heb lywodraeth,
Nid llywodraeth heb ddoethineb,
Nid doethineb heb gyviawnder,
Nid cyviawnder heb drugaredd,
Nid trugaredd heb gariad,
Nid cariad heb haelioni,
Nid haelioni heb ystyr,
Nid ystyr heb ddeall,
Nid deall heb awen,
Nid awen heb bwyll,
Nid pwyll heb athrylith,
Nid athrylith ond anian,
Nid anian ond crevydd,
Nid crevydd ond gwirionedd,
Nid gwirionedd ond gwybodaeth,
Nid gwybodaeth ond crêd,
Nid crêd heb dystiolaeth,
Nid tystiolaeth ond prawv,
Nid prawv ond ymgais, am hyny ymgais y cyvan.

Catwg Ddoeth ai Cant.

59. Arall.

Nid bôd ond yr hyn nis gellir dadvod arno, sev Duw.
Nid bon ond anmon, sev Duw.
Nid byw ond yr hyn nis gellir anmuw arno, sev Duw.
Nid gallu ond yr hyn nis gellir anallu arno, sev Duw.
Nid mawr ond yr hyn nis gellir ei fwy, sev Duw.
Nid cadarn ond yr hyn nis gellir ei yrthio, sev Duw.
Nid gwir ond yr hyn nis gellir ei amgenu, sev Duw.
Nid ëang ond yr hyn nis gellir ing arno, sev Duw.
Nid cyviawn ond yr hyn nis gellir anghyviawn o hono, sev Duw.

Nid cenedlydd ond yr hwn nis gellir ei vod o genedliad, sev Duw.
Nid gwneuthurwr ond yr hwn nis gwnaethpwyd, sev Duw.
Nid berth ond yr hyn nis gellir anmerth arno, sev Duw.
Nid goludog ond yr un a biau y cyvan. sev Duw.
Nid meddiant ond nas gellir diveddiant arno, sev Duw.
Nid piau ond nas gellir nad eve a biau y cyvan, sev Duw.
Nid gwybod ond lle nas gellir amgen no gwybod, sev Duw.
Nid da ond yr hyn nis gellir ei gystal, sev Duw.
Nid gwynvyd ond yr hwn nis gellir advyd ynddo, sev Duw.
Nid goleuni ond yr hyn nis gellir ynddo dywyll, sev Duw.
Nid uniawn ond yr hyn nis gellir cam ynddo, sev Duw.
Nid parâus ond yr hyn nis gellir diwedd iddo, sev Duw.
Nid diogel ond yn nis gellir anniogelwch, sev Duw.
Nid dedwydd ond lle nis gellir amgen no dedwydd, sev Duw.
Nid pen ond yr hwn nis gellir pen arno, sev Duw.
Nid brenin ond nas gellir brenin arno, sev Duw.
Nid arglwydd ond nas gellir arglwydd arno, sev Duw.
Nid cariad ond yr hwn nis gellir angharîad ynddo, sev Duw.
Nid un ond yr hwn nis gellir ail iddo, sev Duw.

Catwg Ddoeth ai Cant.

60. Arall. Bonedd Doethineb.

Nid doethineb ond awen,
Nid awen ond arver,
Nid arver ond cymhell,
Nid cymhell ond cariad,[1]
Nid cariad ond dewis,
Nid dewis ond pwyll,
Nid pwyll ond ystyriaeth,
Nid ystyriaeth ond daioni,
Nid daioni ond Duw.
Am hyny nid doethineb ond o Dduw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

61. Arall. Bonedd Awen.

Nid Awen ond doethineb,
Nid doethineb ond o arver,
Nid arver ond ymgais,
Nid ymgais ond pwyll,
Nid pwyll ond deall,
Nid deall ond ystyr,
Nid ystyr ond cymhell,
Nid cymhell ond serch,
Nid serch ond ar ddaioni,
Nid daioni ond Duw.
Am hyny nid Awen ond o Dduw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

62. Arall. Bonedd Gwybodaeth.

Nid gwybodaeth ond celvyddyd,
Nid celvyddyd ond trevn,
Nid trevn ond deall,
Nid deall ond ymgais,
Nid ymgais ond ymovyn,
Nid ymovyn ond achos,
Nid achos ond eisiwed,
Nid eisiwed ond angen,
Nid angen ond o Dduw.
Am nyny nid Gwybodaeth ond o Dduw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

63. Arall.

Nid rhinwedd ond serch,
Nid serch ond hofder,
Nid hofder ond bodd,
Nid bodd ond arwedd,
Nid arwedd ond addas,
Nid addas ond rhyw,
Nid rhyw ond pwyll,
Nid pwyll ond ystyr,
Nid ystyr ond er lles,
Nid lles ond daioni,
Nid daioni ond Duw,
Am hyny nid Rhinwedd ond o Dduw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

64. Arall.

Nid cymodog ond cyweithas,
Nid cyweithas ond teuluaidd,
Nid teuluaidd ond syber,
Nid syber ond hawddgar,
Nid hawddgar ond divalch,
Nid divalch ond trugarawg,
Nid trugarawg ond deddvawl,
Nid deddvawl ond dedwydd,
Nid dedwydd ond diddrwg,
Nid diddrwg ond santaidd,
Nid santaidd ond cariadgar,
Nid cariadgar ond tangnevgar,
Nid tangnevgar ond pwyllgar,
Nid pwyllgar ond dwyvawl,
Nid dwyvawl ond gyda Duw,
Nid gyda Duw ond gyda phob daioni.
Catwg Ddoeth ai Cant.

65. Arall.

Nid dedwydd ond diddrwg,

[1] Serch. ll. arall.

Nid diddrwg ond santaidd,
Nid santaidd ond diwybod,
Nid diwybod ond disynwyr,
Nid disynwyr ond diserch,
Nid diserch ond didrachwant,
Nid didrachwant ond boddlon,
Nid boddlon ond a vo wrth vodd Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

66. Arall.

Nid Gwr ond Cymro,
Nid gwladwr ond llavurwr,
Nid gweinydd ond ammaeth,
Nid cynnorthwy ond creftwr,
Nid addysg ond ysgolaig,
Nid athraw ond doeth,
Nid doeth ond dwyvawl.
Catwg Ddoeth ai Cant.

67. Arall.

Nid gormes ond gwr boneddig,
Nid twyll ond mynaich,
Nid anrhaith ond ofeiriad,
Nid diva ond milwr,
Nid hud ond arglwyth,
Nid dall ond cyvraith,
Nid cadarn ond cenedyl,
Nid cenedyl ond cyngyd,
Catwg Ddoeth ai Cant.

68. Arall.

Nid hudoliaeth ond ieuenctid,
Nid gwallgov ond balchder,
Nid ynvydrwydd ond cariad,
Nid folineb ond meddwdawd,
Nid annoethder ond llid,
Nid fyrnig ond dialgar,
Nid gelyn ond athrawd,
Nid gwall synwyr ond ymryson,
Nid gwag ond chwedleugar,
Nid doethineb ond tewi,
Nid doeth ond dyoddevgar,
Nid dyoddevgar ond doeth,
Nid melus ond pechod,
Nid chwerw ond penyd,
Nid call ond cywir,
Nid lledrad ond moethusder,
Nid dinistyr ond diogi,
Nid twyll ond y byd,
Nid siomedigaeth ond gwraig,
Nid cynghor ond gadael iddo.
Catwg Ddoeth ai Cant.

69. Arall.

Nid ysbail ond gwynt,
Nid trais ond tân,[1]
Nid anrhaith ond dwr,[2]
Nid ysgawn ond awyr,

[1] Nid anrhaith, &c. Ll. ar.
[2] Nid gormes ond dwr. Ll. ar.

Nid trwm ond daiar,
Nid caled ond maen,
Nid buan ond mellt.
Nid bygwl ond taran.
Nid llwnc ond môr.[1]
Nid rhwystyr ond coedydd.
Nid anhawsder ond mynydd.
Nid attal ond cors.
Nid magyl ond avon.
Nid cadarn ond rhew.
Nid lludd ond eira.
Nid gwresawg ond haul.
Nid oer ond lleuad.
Nid amlder ond ser.
Nid arddwl ond gwlaw.
Nid serchawg ond tes.
Nid nidri ond niwl.
Nid gortrech ond gauav.
Nid rhwyddineb ond hâv.
Nid gobaith ond gwanwyn.
Nid llawenydd ond cynhauav.
Nid newid ond tymhor.
Nid gorvod ond amser.
Catwg Ddoeth ai Cant.

70. Arall.

Nid bywyd heb gyvoeth.
Nid cyvoeth ond tir.
Nid golud ond iechyd.
Nid haint ond tlodi.
Nid tlodi ond clevyd.
Nid clevyd ond pechod.
Catwg Ddoeth ai Cant.

71. Arall.

Nid da cynnal gwr anwadal.
Nid hawdd cydvod â diwybod.
Nid mawr urddas anghyweithas.
Nid edmygir dyn anghywir.
Nid o vradwr y ceir gwladwr.
Nid buchedd gwr ond cyvarwr.
Nid o westlaidd y ceir prestlaidd.
Nid uchel mur gwr ni lavur.
Nid ymgeledd ond tangnevedd.
Nid digonedd ond boddlonedd.
Nid byw mewn gwledd ond amynedd.
Nid anurddas ond moes atgas.
Nid anhylwydd ond y celwydd.
Nid anrhydedd ond byw mewn hedd.
Nid oes à wedd ond gwirionedd.
Nid llwyr anfawd ond o bechawd.
Nid hyvrydwch ond dedwyddwch.
Nid bychander ond hunander.
Nid uniondeb ond fyddlondeb.
Nid mâb llengar ond awengar.
Nid da crybwyll ond gwr hybwyll.
Nid myvyriaeth ond ystyriaeth.
Nid dwyvoldeb ond boddoldeb.

[1] Nid divethaawl, &c. Ll. ar.

Nid da greddvawl na no deddvawl.
Nid gwybodawl ond devodawl.
Nid meistrolaeth heb reolaeth.
Nid da ymddwyn ag anaddwyn.
Nid da gwaith cledd na vo dros hedd,
Nid amyl dedwydd gwr anghelvydd,
Nid amyl trugar gwr moetheugar,
Nid amyl iachus gwr minvelus,
Nid mawr deall gwr amyl ei wall,
Nid amyl dwyvol gwr[1] direol,
Nid mawr awen gwr avlawen,
Nid mynych gwâr dyn chwedleugar,
Nid mynych gŵr mawr ymeiriwr,
Nid mynych call a varn arall,
Nid mynych mâd uchel alwad,
Nid mynych doeth mawr ei gyvoeth,
Nid mynych iawn heb ddysg heb ddawn,
Nid mynych gwir oll a glywir,
Nid ymddiried ond cymmyred,
Nid mawr ond mâd nid glyw ond gwlad,
Nid twn ond twyll nid pen ond pwyll,
Nid bod ond byw nid da ond Duw,
Nid Duw ond ev a wnaeth y nev.

Catwg Ddoeth ai Cant.

Ac felly tervyna y Nidiau.

72. Goddegau catwg ddoeth, a elwir niau catwg ddoeth.

Ni thal dim lle nad ymddywynyco ynddo ryw grynodeb,
Ni thal dim y lle y cydymdeithiocer yndo bawb a wnel ar gyhoedd,
Ni thal dim y llavur nid ennillir o hono na thal na gwobrwy[2],
Ni thal dim cariad dyn ar y llall y lleiâer ei dda o hano,
Ni thal dim y tegwch heb ryw voliant yndo neu gydag ev.
Ni thal dim gwiaig a gymdeithioca gyda phob gwr,
Ni thal dim y ci à ganlyno bob dyn,
Ni thal dim gwasanaeth nid enniller neb rhyw vudd o hano,
Ni thal dim cellweiriaw gwasanaeth arglwydd y del colled o hano,
Ni thal dim y gorvod y dygynnullir doluriau o hano,
Ni thal dim yr anrhydedd y cydseinio cariad twyllodrus ag ev,
Ni thal dim neb rhyw ddyn ni bo fyddlon ei air,
Ni thal dim seithydd na vedro gymmedroli ei ergyd,[3]
Ni thal dim cynghorvynt canys o lavuriaw drwyddo y mae'n orwag y llavur,
Ni thal dim y vyddin y llywio pob dyn drwyddo ei hun,
Ni thal dim y meddiant y delo pob eisiwed o hano,
Ni thal dim breniniaeth nid uvyddâo i'r gyvraith,
Ni thal dim i neb sori val nad arbeto ddim o'i eiriau,
Ni thal dim neb tylawd a wrthoto grynodeb,
Ni thal dim ainc heb awen a phwyll,
Ni thal dim y gobaith lle nad ymgeisier,
Ni thal dim à wneler oni wneler o ymbwyll,
Ni thal dim à varner oni varner o gydwybod,
Ni thal dim à gafer oni chafer gydag ev dangnev,
Ni thal dim a vyvyrier oni bydd yn nawdd cydwybod lân,
Ni thal dim Dim heb Dduw.

Catwg Ddoeth ai Cant.

[1] Dyn.
[2] Na budd, &c. Ll. ar.
[3] Ei anc. Ll. ar.

73. Arall, Amryvel.

Ni ludd bonedd i vethu,
Ni ludd anrhydedd i henu,
Ni ludd golud angau,
Ni ludd doethineb pechawd,
Ni ludd diweirdeb fawd,
Ni ludd anniweirdeb anfawd,
Ni ludd cyvoeth gybyddiaeth,
Ni ludd tylodi haelioni,
Ni ludd buchedd dda angau dybryd
Ni ludd dysg elyniaeth,
Ni ludd nerth aviechyd,
Ni ludd llawenydd dristwch.

Catwg Ddoeth ai Cant.

74. Arall.

Ni bydd hybarch dyn lle y mynych gyrcho,
Ni ddigia Duw er erchi cyviawnder,
Ni edrych angau pwy decav,
Ni pharch diriaid ei well,
Ni levair doeth na vo perthynas,
Ni ymgais diog am à byrth ei ddiogi,
Ni phis boneddig yn ei ddillad,
Ni chach call yn ei gap ei hunan,
Ni wyr bol llawn ba lev bol gwag,
Ni welwys ni wyr,
Ni ddifyg arv ar wâs gwych,
Ni ddawr newynawg pa ŷs,
Ni vysyna y maen â dreiglo,
Ni chred y moel oni wel ei 'menydd,
Ni ryberchir rhyvoddawg,
Ni chais ddewis ei gam gwr yn fo,
Ni lwydd cell gwarseddwraig,
Ni lwyddes ond à dramcwyddes,
Ni moch wna da dyn diawg,
Ni phery cig brâs yn wastad,
Ni thyr pen er dywedyd yn dêg,

Ni wna y gwynt waeth no chwythu,
Ni wyl hawdd vod yn hawdd onid ei hawdd yn anhawdd,
Ni nawd gymmydd tarw â drych[1],
Ni elwir cywrain ni gynnydd,
Ni eing mewn llestyr ond à vo yndo[2],
Ni ddifyg modd be bai myn,
Ni ddifyg fon ar ynvyd,
Ni elwir coed unpren,
Ni chymmydd dedwydd â dadyl,
Ni chwsg dedwydd hun vore,
Ni chlyw y cadno ei ddrewdod ei hunan,
Ni cheir y melus heb y chwerw,
Ni cheir ond ei groen ar gadno,
Ni ad annoeth ei orvod,
Ni bydd chwedyl heb ystlys iddi,
Ni bydd allt heb waered,
Ni bydd cyvoethawg rhygall,
Ni bydd rhybarch rhygynnevin,
Ni ryberchir rhyanvoddawg,
Ni char gwaith nis gorddyvno,
Ni ellir gwr o wâs,
Ni ellir hên ben ar gorf ieuanc,
Ni chaif dda ni oddevo y drwg,
Ni chaif lês nad el yn namwain,[3]
Ni chymmydd diawl â dwyvawl,
Ni eill Duw dda i ddiriaid,
Ni châr dovydd diobaith,
Ni chwsg Duw ban rydd wared.
Catwg Ddoeth ai Cant.

75. Gwarddiadau Catwg Ddoeth.

Na chais nev o'th anudon,
Na chais ddim lle nas dylech,
Na chais hyder o falchder,
Na chais ymdderchu'n uchel rhag dyvod yn îs,
Na chais gyrhaedd goruch ymgyrhaeddwch,
Na chais ddilyn neges ar galed,
Na chais gyvrinach am à wypo lawer,
Na chais lês o wagvost,
Na chais vwrw coel ar dy gelwydd,
Na chais dwymder dan iâ,
Na chais ymwthio[4] a'th gystal,
Na chais ymwrdd a'th well,
Na chais ymddiried i'r un a'th vygythio,
Na chais groesaw dan wg,
Na chais lawenydd heb wên.
Na chais chware â chlwyvus hên,
Na chais lês o vewyd,
Na chais elw o esgeulusdra,
Na chais gellwair a'th gâs,
Na chabla neb à vo arnat ei ovn,
Na veia ar neb am y bai vo arnat dy hunan.
Nag ymladd ag ynvyd,
Na threulia y geiniog onis cefych,
Na werth nev er daiar,
Na sav ar greulonder,
Na ymgynghora ond â doeth,
Na ymdeithia ond â dedwydd,
Catwg Ddoeth ai Cant.

[1] Blaidd â drych. Ll. ar.
[2] Ei lonaid. Ll. ar.
[3] Ni chaif dd. Ll. ar.
[4] Ymwrthio. Ll. ar.

76. Arall, Unrhyw.

Na chais esmwythder o ddigder,
Na chais ddiolch am nag,
Na chais chware a'th gâs,
Na chais barch am ddrygvoes,
Na chais ddiwedd da o hir draâusder,
Na chais urddas o valchder,[1]
Na chais gellwair a'th elyn,
Na chais vicre[2] a'th gystal,
Na chais ymwrdd a'th well,
Na chais ymddiried i'r neb a'th vygythio,
Na chais hyder yn malchder,
Na chais ymddercha'n rhy uchel rhag dy fwrw yn isel,
Na chais ddilyn neges ar avrywiawg,
Na chais gyvrinach am à wypo lawer,
Na chais les o'th wagvost,
Na chais dwymder dan iâv,
Na chais lawenydd gan glâv,
Na chais dwrn da o'th vygwth,
Na chais ddillad lledrad o myni ddiwarthrwydd,
Na chais ynnill paradwys o draha,
Na chais vyned i nev er bod yn chwerw,
Na chais ymweled a'r Drindawd onis cei o undawd.
Catwg Ddoeth ai Cant.

77. Llyma Draethawd y Nerthodd yn amgen o vodd nog o'r blaen.

Nerth Eryr yn ei ylvin,
Nerth Sarf yn ei chloren,
Nerth Gellgarw yn ei gorn,
Nerth Tarw yn ei ben,
Nerth Arth yn ei breichiau,
Nerth March yn ei ddwyvron,
Nerth Ci yn ei ddaint,[3]
Nerth Twrch yn ei avlach,
Nerth Ysguthan yn ei hadanedd,
Nerth Gwenynen ei harogl,
Nerth Cath yn ei phalv,
Nerth Arglwydd ei gyviawnder,
Nerth Gwr yn ei bwyll,
Nerth Gwraig yn ei thavawd.
Catwg Ddoeth ai cant.

[1] Na chais hyder.. Ll. ar.
[2] Na chais ymogyvuwch. Ll. ar.
[3] Ei froen. Ll. ar.

78. Llyma Nidiau amgen nog a ddangoswyd oc y blaen.

Nid llawen ond hael,
Nid trist ond cybydd,
Nid hysbys ond ymofynwr,
Nid llednais ond à daw,
Nid dewr ond à dery,
Nid gofalus ond a laddes,
Nid cyvoethawg ond ai cymmero,
Nid ai cymmero ond dedwydd,
Nid dedwydd ond diddrwg,
Nid diddrwg ond à gar Dduw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

79. Ereill.[1]

Nid cais ond gwerthvawr,
Nid gwerthvawr ond mâd,
Nid mâd ond meuedd,
Nid meuedd ond gwynvyd,
Nid gwynvyd ond gwybod,
Nid gwybod ond newydd,
Nid newydd ond newid,
Nid newid ond er llês,
Nid llês ond hardd,
Nid hardd ond iawn,[2]
Nid iawn ond cariad,
Nid cariad ond Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

80. Arall, amgen nog yr un o'r blaen.

Nid anfawd ond anvodd,
Nid anvodd ond i ni ŵyr,
Ni ŵyr ni wrendy,
Ni wrendy ond ni ddysg,
Ni ddysg ni ddeall,
Ni ddeall ond ystyrgar,
Nid ystyrgar ond astud,
Nid astud ond dedwydd,
Nid dedwydd ond hygar,
Nid hygar ond addwyn,
Nid addwyn ond uvydd,
Nid uvydd ond tawedawg,
Nid tawedawg ond goddevus,
Nid goddevus ond call,
Nid call ond cydwybodus,
Nid cydwybodus ond cywir,
Nid cywir ond meddylgar,
Nid meddylgar ond serchawg,
Nid serchawg ond cerddgar,
Nid cerddgar ond ymddyddangar,
Nid ymddyddan ond am Dduw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

81. Ereill.

Nid dyn ond daioni,
Nid daioni ond bodd Duw,
Nid bodd Duw ond cariad,
Nid cariad ond cyviawn,
Nid cyviawn ond anian,
Nid anian ond awydd,
Nid awydd ond gwybod,
Nid gwybod ond côv,
Nid côv ond cyvun,
Nid cyvun ond oll,
Nid oll ond Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

82. Arall.

Nid dirgel ond dim,
Nid dim ond anveidrawl,
Nid anveidrawl ond Duw,
Nid Duw ond dim,
Nid dim ond dirgel,
Nid dirgel ond Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

83. Arall. Mynegau Catwg Ddoeth.

Nid myn ond myn Duw.
Nid mâd ond myn Duw.
Nid mawr ond myn Duw.
Nid hardd ond myn Duw.
Nid parod ond myn Duw.
Nid blaeniad ond myn Duw.
Nid esgud ond myn Duw.
Nid buan ond myn Duw.
Nid cadarn ond myn Duw.
Nid nerth ond myn Duw.
Nid galledig ond myn Duw.
Nid gorvod ond myn Duw.
Nid gorchymyn ond myn Duw.
Nid diogel ond myn Duw.
Nid trevn ond myn Duw.
Nid cariad ond myn Duw.
Nid cyviawn ond myn Duw.
Nid doethineb ond myn Duw.
Nid didranc ond myn Duw.
Nid hanvod ond myn Duw.
Nid gwynvyd ond myn Duw.
Nid ufydddod ond i vyn Duw.
Nid parch ond i vyn Duw.
Nid Duw ond myn,
Nid myn ond bôd,
Nid bôd ond Duw,
A vyno Duw á vydd,
Rid myn ond myn Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

84. Casbethau Catwg Ddoeth.
Yn amgen o vodd nog o'r blaen.

Tylawd balch,
Cyvoethawg trahâus,
Golychwyd heb ei llusen,
Mab heb ddysg,
Merch heb syberwyd,
Gwraig heb veistrolaeth arni,

[1] Gwersi y Gwyddoniaid. Ll. Sion. I. M.
[2] Cyviawn. Ll. ar.

Gwr heb ystyriaeth,
Ieuainc heb ostyngeiddrwydd,
Henddyn heb ddwyvoldeb,
Benyw heb ddiweirdeb,
Gwasanaethydd heb uvydddod,
Cymydogaeth heb gariad,
Aberthawg heb roi cardawd,
Blaenawr heb bwyll,
Marchog heb brovedigaeth,
Arglwydd heb gynghor,
Escob heb ddysgeidiaeth,
Cyfredin heb gyvraith,
Brenin heb ddoethineb,
Doeth heb weithredoedd da,
Ynad heb gyviawnder,
Gwlad heb heddwch,
Gwerin heb gynneddvau,
Cenedyl heb wybodau,
Athraw heb amynedd,
Gwybodaeth heb voesau,
Rhyvel heb drugaredd,
Llwydd heb wellâad,
Dysg heb ddeddvolder,
Teulu heb gydvod,
Arvaeth heb gelvyddyd,
Celvyddyd heb arvaeth,
Cynneddv heb lesoldeb,
Bardd heb ddosparth,
Ysgolâig heb lyvrau,
Llanc heb gampau,
Camp na vo da,
Dyn heb iddo Dduw, a
Barnu bod Duw heb anveidrawl ddaioni.
Catwg Ddoeth ai Cant.

85. Casddynion Catwg Ddoeth.

Dyn na wypo dda ei hun ac ni chais addysg gan arall.
Dyn à ddyco'n echwyn vwy nog à allo vyth ei dalu.
Dyn à vydd mor hael ag ni cheidw à vo raid iddo ei hun.
Dyn à addawo bob peth ac ni rydd dim.
Dyn à dyngo ac nis crêd neb.
Dyn à vygythio bawb ac na vo ar neb ei ofn.
Dyn à weto gymmaint ag y bo blin ei wrandaw.
Dyn à geisio bob peth ac ni cheif ddim à geisio.
Dyn à addevo 'i rîn iddei gâs a'i elyn.
Dyn à elo i anurddas er urddas i arall.
Dyn heb dda ganto ac ni phaid â masnach pob peth.
Dyn yn prynu pob peth ac heb ynnill ar ddim.
Dyn à wnelo mewn un dydd val nas gallo drannoeth ddim.
Dyn a ogano arall am y beiau vo arno ev ei hunan.
Dyn à dybio ei vod yn well no neb ac yntau yn waethav o bawb oll.
Dyn na vedd ai gwasanaetho ac nas gwasanaetha ei hunan.
Dyn à vo ryvelwr llesg ac ni chais heddwch yn hytrach no rhyvel.
Dyn a veddianno lawer ac ni roddo ddim:
Dyn à ymddirieto i bawb ac ni chair neb a eill ymddiried iddo ev.[1]
Dyn à ymrysono a'i gadarnach onid el iddei vedd.
Dyn à ymddirieto i beth ni bo trigiedig.
Dyn à ymddirieto i rodd.
Dyn à gais orvod o falchder a rhodres.
Dyn à gais avles ei hun er avles iddei gymodawg.
Dyn à gafo'i ddewis ac á ddewis y gwaethav.
Dyn na wnelo ddaioni ac nis gad i arall ei wneuthur.
Dyn à ymgadarnâo mewn peth à vo drwg yr olwg arno.
Dyn à dybio ei hun yn gall ac yntau'n anghall.
Dyn à ddysgo lawer ac ni wypo ddim yn gyvlawn.
Dyn adawo ei gâr cyvlwyn heb achos yn y byd.
Dyn a wnelo ddrygioni ac ni bo edivar gantho.
Dyn tlawd à wrthyd grynodeb.
Dyn à wrthddadla yn erbyn ei Dduw.
Dyn à vo'n fôl ac à gymmero arno vod yn folach.
Dyn à greto i bawb er nas adnapo.
Dyn à wnel gyvrinach â dieithyr.
Dyn à ymyr â phob peth heb achos.
Dyn à gasâo bawb a phawb yntau.
Dyn na chreto neb na neb yntau.
Dyn à weto lawer ac ni wrendy ar a weto arall.
Dyn à welo lawer o voesau a chelvyddydau ac ni ddysgo ddim o honynt.
Dyn à fesneich bob peth ac heb brynu dim.[2]
Dyn à dybio ei vod yn ddoeth ac yntau yn annoeth.
Dyn à dybio ei vod yn well no neb ar bob peth, ac yntau'n waethav o'r cwbyl oll yn mhob peth.
Dyn à wypo'i lès ac à wnelo ei avles.
Dyn à gais lonyddwch ac nis rhydd.
Dyn à ymfrostio o'i gywilydd ei hunan.
Dyn à wnelo vrâd yn mhob peth.

[1] Iddo yntau. Ll. ar.
[2] Unpeth.

Dyn à wypo gyvraith Duw a'i orchymynion, ac a ddadla yn eu herbyn er gwobrwy.
Dyn à ddirmyco Dduw a dyn.
Dyn à ddysgwyd ar yr iawn ac nis gwna.
Dyn à achwyno ar bob achos ar na vo gwir achos cwynaw.
Dyn à ymroddo i vod yn avlawen lle na bo achos.
Dyn à gâr ymgeintach â phawb ac ar bob achos.
Dyn à ddyweto'n vawr ac à wnelo'n vychan.
Dyn glwth à sonia'n wastadawl am fwyd a diawd.
Dyn à wyr ei vai ac nas diwygia.
Dyn à froma wrth à ddengys iddo ei vai.
Dyn à gellwair â phawb ac ni oddev gellwair gan neb.
Dyn à holo gymmaint ag nas gellir ei atteb.
Dyn ni thawr ba beth à wnel nag à levair.
Dyn à drevyd yn ddiovyn iddo yr hyn na pherthyn iddo.
Dyn à ymdristäa lle bo pob un arall yn llawen.
Dyn à ymlawenäo wrth à wnelo bob un arall yn drist.
Dyn à edrydd o'i wir vodd yn amgen nog à glywes.
Dyn à watwar y gwybodau nas gwypo ei hunan.
Dyn ni chymmer ei gynghori onid êl yn ryhwyr.
Dyn à welo'i gâr mewn difyg ac nas cynnorthwya.
Dyn a giddo swydd ac nas gwnel yn gywir.
Dyn à wyr vod yn raid iddo varw ac na veddwl am vyd arall.

Catwg Ddoeth ai Cant.

86. Casddynion Catwg Ddoeth, mewn modd amgen.

Dyn à wypo y da ac nas dysgo.
Dyn ni bo ai gwasanaetho ac ni wasanaetha ei hun.
Dyn y del iddo lawer o bethau ac ni roddo ddim.
Dyn à ymladd a'i arglwydd onid el i'w bwll.
Dyn o ddiau heddwch à ddymuno ryvel ac yntau yn ryvelwr llesg.
Dyn à ogano arall am y beiau à vo arno ev ei hun yn amlwg.
Dyn a debŷg ei vod yn well no neb ar bob peth, ac yntau'n waeth no neb ymhob peth.
Dyn à echwyno o dda gymmaint ag na bo ar ei helw ai talo.
Dyn à roddo à vo o'i eiddo ac ai gato ei hun heb ddim.
Dyn à addawo bob peth ac heb gywiro dim.
Dyn à vasgnacho bob peth a heb brynu dim.
Dyn à vygythio bawb ac ni bo ar neb ei ovn.
Dyn à ddyweto lawer ac nis gwrandawo neb.
Dyn à dyngo llw anudon hyd nes creto neb ev.
Dyn à addevo ei rin i fol, neu i elyn, neu i'r neb à wypo nas cel.[1]
Dyn à archo bob peth ar à welo ac ni chafo ddim.
Dyn à roddo ei hunan mewn anurddas er urddas un arall.
Dyn à welo lawer o voesau a chelvyddydau, ac ni ddysgo ddim.
Dyn à bryno bob peth heb ynnill dim.
Dyn à gasao pawb a phawb yntau.
Dyn ni chreto neb na neb yntau.
Dyn à veio ac yntau'n veius.
Dyn à amryo â phob peth heb achos.[2]
Dyn à geisio yn ddirgel gan ddyn dieithyr.
Dyn à greto i bawb heb ei adnabod.
Dyn à ymddirieto i rodd.
Dyn à wnelo yn un dydd val na allo wneuthur dim dranoeth.
Dyn à veddylio dwyll a hoced.
Dyn à gafo ddewis ac a ddewiso y gwaethav.
Dyn à debyco orvod o valchder a rhodres.
Dyn à gasao ei lês er avles i'w gymodog.
Dyn ni wnel dda ac nas gato i arall ei wneuthur.
Dyn à ymgadarnhao mewn drwg olwg.
Dyn à debyco ei vod yn gall ac yntau yn anghall.
Dyn à ddysgo lawer ac ni wypo ddim.
Dyn à adawo ei gydymaith heb achos.
Dyn à wnelo ddrwg ni bo edivar ganto.
Dyn tylawd a wrthoto grynodeb.
Dyn a watwaro ddysg a gwybodau daionus.
Dyn heb arno ryw gamp à vo da.
Dyn na vo dewr yn mhlaid ei gâr, a'i wirionedd.
Dyn à vostio ei gywilydd ei hun.
Dyn à e gculuso Duw a dyn.
Dyn na vo eiddo iddo ac nid ymgais â chref neu gelvyddyd.
Dyn à vo gâs wrth arall heb ddangos paham.
Dyn anwadal nas gellir ymddiried iddo ddim yn y byd.
Dyn à wypo gyvraith Duw a'i orchymyn-

[1] Y gwypo.
[2] Ar bob.

ion, ac a ddadleua yn eu herbyn er gwobrwy.
Dyn na veddwl ba vo y daw yn y diwedd.
Catwg Ddoeth ai Cant.

87. Y Saith holion a ddodes Catwg Ddoeth i saith o wyr doethion o'i gor yn Llanveithin, ac atteb y gwyr hyny.

Hawl. Pa ddaioni sydd vwyav ar ddyn?
Atteb. Cyfiawnder.
Talhaiarn vardd ai dywawd.

Hawl. Pa ddoethineb y sydd oruchav ar ddyn?
Atteb. Gallu drwg i arall ac heb ei wneuthur.
Teilo Sant ai dywawd.

Hawl. Pa ddireidi sy vwyav ar ddyn?
Atteb. Anniweirdeb.
Arawn ab Cynvarch ai dywawd.

Hawl. Pwy sydd dylotav?
Atteb. Y neb ni chreto gymmeryd ei eiddo ei hun.
Taliesin Ben Beirdd ai dywawd.

Hawl. Pwy sydd gyvoethocav?
Atteb. Y neb ni chwennycho ddim o eiddo arall.
Gildas y Coed Aur ai dywawd.

Hawl. Pa gamp decav ar ddyn?
Atteb. Cywirdeb.
Cynan ab Clydno Eiddin ai dywawd.

Hawl. Pa ynvydrwydd vwyav ar ddyn?
Atteb. Dymuno drwg i arall heb allu ei wneuthur.
Ystyfarc fardd Teilo ai dywawd.

88. Llyma y saith holion mewn modd amgen herwydd llyvyr arall.

1. Pa ddoethineb vwyav ar ddyn?
Atteb. Gallu drwg ac heb ei wneuthur.
Teilo Sant.

2. Pa ddaioni goruchav ar ddyn?
Atteb. Cyviawnder.
Talhaiarn.

3. Pa ddireidi vwyav ar ddyn?
Atteb. Celwydd.
Taliesin Ben Beirdd.

4. Pa gamp decav ar ddyn?
Atteb. Cywirdeb.
Cynan ab Cludno Eiddin.

5. Pa ynvydrwydd vwyav ar ddyn?
Atteb. Dymuno drwg cyd nas gallo.
Ystyfan vardd Teilo.

6. Pwy sydd dylotav?
Atteb. Y neb ni chymmer o'i eiddo ei hunan.
Arawn ab Cynvarch.

7. Pwy sydd gyvoethocav?
Atteb. Y neb ni chwennycho ddim o eiddo arall.
Gildas y Coed Aur.
Ac velly tervyna.

89. Goddegau Catwg Ddoeth.

A vyno ei berchi bid gadarn,
A vyno vodd Duw bid iawn ei varn.
A vyno iechyd bid lawen,
A vyno ei wrandaw bid gymmen.
A vyno ei garu bid uvydd,
A vyno lwyddiant gwyped ai lludd.
A vyno lonyddwch bid dangnevgar,
A vyno vlaenori bid wybodgar.
A vyno ei vodd porthed amynedd,
A vyno glod eled i'r bedd.
Catwg Ddoeth ai Cant.

90. Geiriau gwir Catwg Ddoeth.

Lawer gwan da ei araith,
Llawer cryv drwg ei artaith.
Llawer têg drwg ei ddeunydd,
Llawer hagyr hygar vydd.
Llawer gwir drwg ei ddywedyd,
Llawer eiddil da'i gyngyd.
Llawer gwych drwg ei ymarwedd,
Llawer noeth da ei vuchedd.
Llawer berthawg dan ovalon,
Llawer tlawd a wel ei ddigon.
Llawer clwyvus da'i amynedd,
Llawer iach llawn cynddaredd.
Llawer gobaith a â yn over,
Llawer a ddaw yn mhen ei amser.
Catwg Ddoeth ai Cant.

91. Hoddion Catwg Ddoeth.

Hawdd bodloni dedwydd,
Hawdd digio diriaid,
Hawdd annog dewr,
Hawdd ovni ovnawg,
Hawdd cynghori awenawl,
Hawdd dysgu athrylithaidd,
Hawdd clwyvaw clav,
Hawdd fromi balch,
Hawdd sori boneddig tom,
Hawdd rhadloni serchawg,
Hawdd hudaw baban,
Hawdd twyllaw didwyll,
Hawdd eirioled ar haelionus,
Hawdd lladd brwynen,
Hawdd tynu cleddyv byr o wain,
Hawdd cwympaw clof,
Hawdd diriaw bwyd ar newynawg,
Hawdd ynnill ar anghenoctid,

Hawdd y ceir gwêu ar vinbryd llawen,
Hawdd dal march dall,
Hawdd croni [1] frwd pisodyn,
Hawdd gwedyd castell,
Hawdd gwrandaw, crêdu, gadael iddo,
Hawdd rhydio cornant,
Haws gwedyd mawr no gwneuthur bychan,
Haws gwneuthur da no drwg,
Haws bod yn gall nog yn anghall,
Haws bodloni Duw no diawl,
Haws myned i nev nog i ufern,
Haws gweled pob iawn nog ymddallu yn ei erbyn.

Catwg Ddoeth ai Cant.

92. Hebau Catwg Ddoeth.

Heb serch heb synwyr,
Heb synwyr heb ddeall,
Heb ddeall heb ystyr,
Heb ystyr heb wybod,
Heb wybod heb bwyll,
Heb bwyll heb ddysg,
Heb ddysg heb ddawn,
Heb ddawn heb Dduw,
Heb Dduw heb ddim.

Catwg Ddoeth ai Cant.

93. Cylch Byd a Bywyd.

Tlodi á bair ymgais,
Ymgais á bair llwyddiant,
Llwyddiant á bair cyvoeth,
Cyvoeth á bair balchder,
Balchder á bair cynhen,
Cynhen á bair rhyvel,
Rhyvel á bair tlodi,
Tlodi á bair heddwch,
Heddwch tlodi á bair ymgais,
Ymgais á dreigla yr un cylch ag o'r blaen.

Catwg Ddoeth ai Cant.

94. Goreu Catwg Ddoeth.

Goreu ar wr, gwybodau,[2]
Goreu ar ieuanc, gwylder,
Goreu ar hên, aravwch,
Goreu ar bob dyn, cydwybod,
Goreu chwedyl, gwirionedd.
Goreu celwydd, celwydd amlwg,
Goreu gorchwyl, gwneuthur daioni.
Goreu devawd, ymwellâu.
Goreu cynneddyv, cadw moes.
Goreu arver, doethineb.
Goreu ymddiried, ymddiried i Dduw.

Catwg Ddoeth ai Cant.

95. Goreuau.

Goreu un bwyd, bara.
Goreu un enllyn, halen.
Goreu un llyn, gwin.
Goreu un llaeth, llevrith.
Goreu diod, diod o ddwr.
Goreu neges, ymweled â gŵr yn ngharchar.
Goreu hael, hael ofeiriad.
Goreu taith, cyrch golychwyd.
Goreu ympryd, gochel moethusder.
Goreu haelioni, rhoddi cardawd.
Goreu cardawd, rhoi lletty.
Goreu parodrwydd, bathawd.
Goreu cydymaith, ceiniawg.
Goreu barn, cyviawnder.
Goreu cyvraith, ammod.
Goreu ammod, cyviawnder.
Goreu gwaith, gwneuthur daioni.
Goreu celvyddyd, deall gwirionedd.
Goreu ymladd, ymladd â dryganwydau.
Goreu heddwch, heddwch cydwybod.
Goreu nawdd, nawdd Duw.

Catwg Ddoeth ai Cant.

96. Goreuau.

Goreu gorchwyl uudyn, gwarchadw tŷ yn dda.[1]
Goreu un gair, mi biau.
Goreu i bawb, à ddichon ev ei hunan.
Goreu camwri, cadbyd.
Goreu barn, cyviawnder.
Goreu cyviawnder, trugaredd.
Goreu lle, à ellir ei gyrchu.
Goreu bwyd, un rhag newyn.
Goreu cyfes, talu iawn.
Goreu taith, golychwyd.
Goreu cyvaill, cydwybod lân.
Goreu canwyll, pwyll.
Goreu devawd, daioni.
Goreu i ddyn, ei Dduw.
Goreu Duw, Duw y goreuon.

Catwg Ddoeth ai Cant.

97. Goreuau.

Goreu un dyn, gŵr.
Goreu un tlws, gwraig.
Goreu un mil, march.
Goreu un anivel, buwch.
Goreu un ysgrubyl, davad.
Goreu yngogiaid, geivyr.
Goreu amgyving, moch.
Goreu lluyddion,[2] gwenyn.
Goreu etivedd, pren plan.
Goreu masnach, prynu tir.
Goreu câr, erw o dir.
Goreu parodrwydd, arian.
Goreu deaint, daioni.
Goreu diwedd, diwedd da.

Catwg Ddoeth ai Cant.

[1] Attal. Ll. ar.
[2] Wryd. Ll. ar.

[1] Yn ddiwyd. Ll. ar.
[2] Llwyddiant. Ll. ar.

98. Goreuau.

Goreu eu, mi biau.
Goreu cyvaill, bathodyn.
Goreu bwyd, un rhag newyn.
Goreu llwyn, un a'm cysgoto.
Goreu march, un a'm dyco
Goreu cwd, un â blawd ynddo.
Goreu bwyall, á bieufwyv,
Goreu rhan o'r deisien, rhan à gafwyv.
Goreu peth, peth à veddwyv,
Goreu bach, bach gwair,
Goreu mawr, mawr vodlondeb,
Goreu y goreu o bob rhyw,
Goreu tynged, diwedd da,
Catwg Ddoeth ai Cant.

99. Goreuau.

Goreu lledvegin, davad,
Goreu o'r devaid, y moelion,
Goreu o'r gwartheg, y brithion,
Goreu o'r meirch, y mwynav,
Goreu o'r moch, y tewav,
Goreu o'r geivyr, y gwynion,
Goreu o'r gwyr, y doethav,
Goreu o'r gwragedd, y disymlav,
Goreu o'r meibion, y breisgav,
Goreu o'r merched, y meinav,
Goreu o'r cwn, y cyntav,
Goreu o'r brethyn, y cochav,
Goreu o'r llian, y meinav,
Goreu o'r gwenith, y moelav,
Goreu o'r ceirch, y breisgav,
Goreu o'r haidd, y byrav,
Goreu etiveddion, coed plan,
Goreu cyvnewid, cyvnewid ar dir,
Goreu un arv, cyllell,
Goreu un tudded, mantell,
Goreu ar bob peth, y goreu,
Goreu o'r drygau, y lleiav.
Catwg Ddoeth ai cant.

100. Goreuau.

Goreu un bwyd, bara,
Goreu enllyn, halen,
Goreu llyn, gwin,
Goreu diod, dwr,
Goreu cyvedd, medd,
Goreu gosymaeth, cwrw,
Goreu meddyginiaeth, llaeth,
Goreu helgig, hydd,
Goreu âg [1] ysgrubyl, mollt,
Goreu pysgod mor, llythi,
Goreu pysgod dwr croew, brithyll,
Goreu aeron, avalau,
Goreu ancwyn, bresych,[2]
Goreu gwaith, arddu tîr,
Goreu chware, llawenydd.
Catwg Ddoeth ai Cant.

[1] Cig.
[2] Cenin. Ll. ar.

101. Goreuau.

Goreu gweinyddiaeth, llavuriaw tir,
Goreu llavur, gwenith,
Goreu o'r gwenith, y moelav,
Goreu o'r haidd, y byrav,
Goreu o'r ceirch, y brasav,
Goreu o'r avalau, y lleiav,
Goreu o'r llysiau, bresych,
Goreu o'r gwŷg, fa,
Goreu arlwyad, ammaeth,
Goreu lledvegin, davad,
Goreu llawnder, buwch,
Goreu ynghyving, moch,
Goreu yngnogiaid geivyr,
Goreu hiliadaeth, gre o gesyg,
Goreu golud, gwartheg,
Goreu llaeth, llevrith,[1]
Goreu ymborth, blith,[2]
Goreu ancwyn, perllan,
Goreu heiliad, gardd,
Goreu llwyddiant, gwenyn,
Goreu etivedd, pren plan,
Goreu gallu, tir, [3]
Goreu rhysgwydd, ty annedd,
Goreu gwaith teulu, rhod a chribau,
Goreu o'r brethyn, y cochav,
Goreu o'r llian, y meinav,
Goreu o'r caws, y satav,
Goreu o'r menyn, y melynaf,
Goreu anivel, march,
Goreu o'r cwn, y cyntav,
Goreu o'r meirch, y mwyav,
Goreu o'r pridd, y cochav,[4]
Goreu o'r gwartheg, gwineuon,
Goreu o'r moch, y gwynion,
Goreu o'r devaid, y moelion,
Goreu o'r geivyr, y gwynion,
Goreu trev, trev tad,
Goreu gwlad, gwlad geni,
Goreu arv, cyllell,
Goreu tuddedyn, mantell,
Goreu meddiant, cartrev,
Goreu gwaith un dyn, gwarchadw ty,
Goreu urddas, bonedd cynhenid,
Goreu cymmyred, gwybodaeth,
Goreu trysor, celvyddyd,[5]
Goreu cymodawg, tal pentan,
Goreu dyddanwch, mab,
Goreu careiddwch, merch,
Goreu tlws, gwraig dda,
Goreu cafaeliad, enw da.[6]

[1] Llaeth buwch. Ll. ar.
[2] Goreu moethynon. Ll. ar.
[3] Goreu cyvoeth, tir. Ll. ar. Gwineuav. Ll. ar.
[4] Creft. Ll. ar.
[5] Gair da. Ll. ar.]

Goreu arlwydd, cydwybod.
Catwg Ddoeth ai cant.

102. Goreuau.

Goreu o'r gwyr, y doethav.
Goreu o'r gwragedd, y disymlav.
Goreu o'r meibion, yr uvyddav.
Goreu o'r merched, y syberwav.
Goreu o'r gweision, y fyddlonav.
Goreu o'r cymodogion, y divalchav.
Goreu o'r gweithwyr, y medrusav.
Goreu cerddedydd, gau.
Goreu cynghor, gwas diawg.
Goreu cydymaith, ceiniawg.
Goreu neges, myned â chroesaw.
Goreu hael, hael ofeiriad.
Goreu canwyll, pwyll i ddyn.
Goreu camwri, cedwid.[1]
Goreu meddyg, meddyg enaid.
Goreu cynneddvau, cadw moes.
Goreu devawd, daioni.
Goreu rhan, rhoddi cynnwys.
Goreu i bawb, à ddichon ei hun.
Goreu un gair, mi a biau.
Goreu arv, dwrn moel.
Goreu un tudded, mantell.
Goreu y gware, tra ater.
Goreu gwrthwyneb, gwrthwyneb cwys.
Goreu ediveirwch, ediveirwch gwerthu.
Goreu llawenydd, canu'n iach i gamp ddrwg.
Goreu doethineb, tewi.
Goreu rhyrindawd,[2] cyrchu golychwyd.
Goreu newyn, newyn ariant.
Goreu cyvoeth, boddlondeb.
Goreu adnabod, adnabod ei hun.
Goreu arlwydd, cydwybod.
Goreu dysg, ystyriaeth.
Goreu meddwl, meddwl am Dduw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

103. Goreuau.

Goreu arv gwroldeb.
Goreu gwroldeb, ystyr cyn taraw.
Goreu taraw, taraw hoel ar ei phen.
Goreu pen, pen ar y gynhen.
Goreu cynhen, à vo mwyav edivar am dani.
Catwg Ddoeth ai Cant.

104. Goreuau.

Goreu prinder, prinder geiriau,
Goreu amyl, amyl gardawd,
Goreu mawr, mawr ymgais,
Goreu bach, bach gwair,
Goreu gwryd, heddwch,
Goreu doethineb, anwybodaeth am ddrwg,
Goreu heddychydd, gwir,
Goreu glewder, gochel cynhen,
Goreu synwyr, synwyr prŷn,
Goreu pwyll, ymbellâu,
Goreu eisiau, eisiau cyvoeth,
Goreu sant, sant o bell,
Goreu bardd, nas adnaper,
Goreu gwr, y gwr goreu,[4]
Goreu golud, goleuder,
Goreu crair, anghyngrhair,
Goreu brawd, brawd fydd,
Goreu cynghor, gochel ei eisiau,
Goreu boddio, boddio Duw,
Goreu encil, golychwyd,
Goreu câr, câr a'm cerydd,
Goreu creft, à wypwyv,
Goreu rhad Duw, cydwybod iach,
Goreu tlws, a bieufwyv,
Goreu bwyd, à heliwyv vy hun,
Goreu mantell, un à veddwyv,
Goreu o'r adar, à ddaliwyv,
Goreu o'r main, à allwyv ei ddwyn,
Goreu athraw, caledi,
Goreu llyvyr, myvyrdawd,
Goreu o'r campau, bod yn llonydd,
Goreu o'r chwerthin, un nas clywer,
Goreu o'r cyvedd, bod ymhell oddiwrtho,
Goreu anwylyd, y gwanav,
Goreu cymmwynas, dangos bai,
Goreu caredigrwydd, ceryddu pechawd,
Goreu cystlwn, gado'n llonydd,
Goreu mawl, fy nghredu,
Goreu cyvaill, callineb,
Goreu cymodawg, y callav,
Goreu arglwydd, y folav,
Goreu celvyddyd, medrusder,
Goreu ar hen, ei gynghor,
Goreu cynghor, tâd,
Goreu cyvrinach, mâm,
Goreu ymgeledd, chwaer,
Goreu cynnorthwy, brawd,
Goreu cyveillach, gwraig,
Goreu cymodawg, heddychwr,
Goreu gelyn, a'm ovno,
Goreu ovni, ovni Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

Gnodiau Catwg Ddoeth.

Gnawd i euawg hir oval,
Gnawd i ddiawg hir adwyth,
Gnawd i lythig hir angen,
Gnawd i greulawn hir gâs,
Gnawd i leidyr ei hir ymlid,
Gnawd i lwvr ei hir watwar,
Gnawd i gelwyddawg hir warthrudd,
Gnawd i over hir anmharch,
Gnawd i drachwantus hir ddygnedd,

[1] Cadbyd. Ll. ar.
[2] Pererindawd. Ll. ar.
[4] Y goreu ei gampau. Ll. ar.

Gnawd i ddiriaid hir alar,
Gnawd i ddedwydd hir dangnev,
Gnawd i dangnevgar tadoldeb Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

105. Goreuau. Deunaw Campau dawnus Catwg Ddoeth.

1 Goreu moes, evylldawd.
2 Goreu ymarver, diwydrwydd.
3 Goreu o gynneddv, gwirionedd.
4 Goreu o awen, pwyll.
5 Goreu o serch, trugaredd.
6 Goreu ystyriaeth, adnabod ei hunan.
7 Goreu o swydd, dyddiaw.[1]
8 Goreu goval, bod yn gyviawn.
9 Goreu ymgais, gwybodaeth.
10 Goreu athrylith, haelioni.
11 Goreu trachwant, trachwant heddwch.
12 Goreu dewis, gwneuthur daioni.
13 Goreu o vodd i vyw, creft.
14 Goreu addysg, llên.[2]
15 Goreu galar, galar am bechawd,
16 Goreu dyddanwch, llawenydd cydwybod.
17 Goreu ymryson, pwy oreu ei vuchedd.
18 Goreu myvyrdawd, am Dduw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

Hen vardd á ganodd val hyn:—
Deunaw o gampau dawnus,
A roed ar Wgawn ab Rhys,
Ac ungamp ddrwg ar Wgawn
Yn divwynaw'r deunaw dawn.[3]

106. Hen Vardd a elwid Ysiudvach a yuasai yn Vardd Cystenin Vendigaid a weles Deunaw Campau Dawnus a gant Catwg Ddoeth, ac yna y cant yntau val hyn.

Deunaw campau dawnus Ystudvach,
Bardd Gwrthevyr Vendigaid.

1 Glew mewn trin a thrallawd.
2 Amyneddgar yn dyoddev.
3 Cadarn ei gyngyd.
4 Doeth yn ei ddadyl.
5 Dirodres yn ei glod a'i lwyddiant.
6 Uvydd yn ei voes.
7 Syber ei gampau.
8 Llavurus yn ei orchwyl a'i ymgais.
9 Awyddus am wybodau.
10 Haelionus gair, gweithred, a meddwl.
11 Athrywyngar mewn ymryson.
12 Addvwyn ei ymddugiad.
13 Croesawus yn ei dy.
14 Heddgar yn ei gymodogaeth.
15 Diwair o gorf a meddwl.
16 Cywir ei air a'i weithred.
17 Cyviawn ei vuchedd.
18 Trugar wrth dlawd a thrallodus.

Tydi dy wala, ebai Catwg, ti á ennillaist y goreu arnav—Nage, ebai Ystudvach, nid velly, mi á geisiais ragoriaeth arnat ti, a thi á ddangosaist uvydddawd, am hyny doethav tydi, ac itti y mae y goreu, a myned a wnaeth y varn mai doethav o'r doethion oedd Catwg, a Chatwg á vynai ddodi hyny o air ar Ystudvach.

107. Gwellau Catwg Ddoeth.

Gwell gwr o'i berchi,
Gwell gwraig o'i chanmawl,
Gwell benthyg nog eisiau,
Gwell gwir no chelwydd,
Gwell cyvoeth nog angen,
Gwell angen no chywilydd,
Gwell dyn drwg o'i gospi,
Gwell synwyr no chyvoeth,
Gwell pwyll nog aur,
Gwell tewi no drwgwedyd,
Gwell ceiniawg no brawd,
Gwell goddev no goval,
Gwell byw no marw,[1]
Gwell cerdd o'i breiniaw,
Gwell cywir tylawd no hocedus[2] cyvoethawg,
Gwell bonedd no thaiogrwydd,
Gwell chware nog ymladd,
Gwell bygwth no tharaw,[3]
Gwell taraw[4] no lladd,
Gwell ychydig trwy rad no llawer drwy avrad,
Gwell bodd pob dyn no'i anvodd,
Gwell trugaredd no chreulonder,
Gwell bendith y tlawd no meistrolaeth y cadarn,
Gwell haelioni no chybyddiaeth,
Gwell car mewn llys nog aur ar vys,
Gwell nag no gau eddewid,
Gwell rhan ovn no rhan caru,
Gwell cadw nog olrhain,
Gwell dau ben nog un,
Gwell y drwg à wyddys no'r drwg na gwyddys,
Gwell nerth dwy gath nog un,
Gwell rhy draws no rhy druawr,
Gwell bedd no buchedd anghenawg,
Gwell celvyddyd no thrysor,
Gwell creft no threvtadaeth,
Gwell ymroddwr no dialwr,
Gwell ychydig yn laeth no llawer yn enwyn,

[1] Heddych. Ll. ar.
[2] Goreu o ddysg. Ll. ar.
[3] Pa gamp ddrwg oedd hono? Ai ovn oedd?
Iolo Morganwg.

[1] Gwell byw nog y marw. Ll. ar.
[2] Twyllgar. Ll. ar.
[3] Fystio. Ll. ar.
[4] Fystio.

Gwell deuwae vi nog un gwae ni,
Gwell moes no bonedd,
Gwell am y pared â dedwydd nog am y tan â diriaid,
Gwell goreu no da iawn,
Gwell unpen no chanpen, gwell deuben nog un.
Gwell câr llaw no chár tavawd,
Gwell yn y crochan nog yn y tân,
Gwell bach mewn llaw no mawr gerllaw,
Gwell à ddaliwyv nog à alwyv,
Gwell un dewch no dau ewch,
Gwell un gair gwir no chant gair têg,
Gwell cysgod brwynen no bod hebddi,
Gwell ci à gyvartho no chi à gnotho,
Gwell anfawd o'i gael nog o'i ovni,
Gwell dryw mewn llaw no gwydd ar adain,
Gwell aderyn mewn llaw no dau yn y llwyn,
Gwell dysg no golud, gwell awen no dysg,
Gwell cydwybod nog awen, gwell Duw no dim.

Catwg Ddoeth ai Cant.

108. Goddegau Catwg Ddoeth.

A vo doeth ev á wrendy'n wâr,
A vo dewr ev á dery 'mhlaid ei gâr.
A vo clav eve á orwedd,
A vo dioval ev á gwsg mewn hedd.
A vo ysgawn galon ev á gân,
A vo dedwydd ev à vuchedda 'n lân.
A vo hael ev à drugarâa,
A vo santaidd ev á gàr à vo dâ.
A vo pryderus ev á veddylia,
A vo celvydd ev á ystyria,
A vo tlawd ev á gymhortha,
A vo cyvoethawg ev á lecha.
A vo diwyd ev á weithia,
A vo gwestwr ev a gerdda.
A vo llonydd ev á vydd pena',
A vo twyllodrus Duw ai casâa.

Catwg Ddoeth ai Cant.

109. Ereill.

A vyno gyvoeth govyned genad ei wraig,
A vyno vyw 'n gyviawn govyned genad ei arlwydd,
A vyno yyw 'n heddychlawn govyned genad ei vrenin,
A vyno vyw 'n ddwyvawl govyned genad ei ofeiriad,
A vyno wybodaeth govyned genad ei geraint a'i gymdogion,
A vyno urddas govyned genad ei gampau,
A vyno vod yn ddivalchder govyned genad ei vam,
A vyno vod yn ddoeth govyned genad ei serchiadau,
A vyno vod yn ddioval govyned genad ei blant,
A vyno lwyddiant govyned genad y diogi,
A vyno ei ewyllys govyned genad ei Dduw,
Ac o gael hyny y mae iddo à vyno o bob daioni.

Catwg Ddoeth ai Cant.

110. Saith dyn a yrant y byd yn ymryvgoll.

Gwr heb gôv.
Gwraig heb gywilydd.
Mâb heb ddysg,
Feiriad heb ddwyvolder.
Swyddawg heb gydwybod.
Arglwydd heb gyviawnder.
Brenin heb drugaredd.

Catwg Ddoeth ai Cant.

111. Syniadau Catwg Ddoeth.

Ymhob dyn y mae enaid,
Ymhob enaid y mae deall,
Ymhob deall y mae meddwl,
Ymhob meddwl y mae y naill ai drwg ai da,
Ymhob drwg y mae angau,
Ymhob da y mae bywyd,
Ymhob bywyd y mae Duw.

Catwg Ddoeth ai Cant.

112. Syniadau amryveilion.

Deuparth bywyd yw gwybod,
Deuparth gwybod yw deall,
Deuparth deall yw awen,
Deuparth awen yw ymarver,
Deuparth ymarver yw serch,
Deuparth serch yw synwyr,

Catwg Ddoeth ai Cant.

113. Ereill unrhyw.

Deuparth awen yw moliant,
Deuparth cerdd ei gwrandaw,
Deuparth bonedd yw dysg,
Deuparth dysg yw hyder,
Deuparth clod yw cynneddv,
Deuparth pryd yw trwsiad,
Deuparth iechyd ymrwysiaw,
Deuparth fordd ei gwybod,
Deuparth gwledd yw groesaw,
Deuparth doethineb ystyriaw,
Deuparth golud boddlondeb,
Deuparth celvyddyd ei rhiniau,
Deuparth llywodraeth heddwch.

Catwg Ddoeth ai Cant

114. Ereill amryveilryw.

Cryv pob gwybodus,
Call pob cyviawn,
Doeth pob geirwir,

Da pob cariadgar,
Mawr pob medrus,
Cyvoethawg pob boddlon,
Tylawd pob grwgnachlyd,
Dwyvawl pob cydwybodus,
Moesawl pob uvydd,
Hael pob trugarawg,
Fyddlawn pob cywir,
Cadarn pob amyneddus,
Glew pob gwirgar,
Serchawg pob addvwyn,
Dedwydd pob deddvawl,
Caredig pob tangnevgar,
Pwyllvawr pob tawedawg,
Llwyddiannus pob ymgeisgar,
Gwynvydig pob glan ei vuchedd,
Llawen pob daionus,
Catwg Ddoeth ai Cant.

115. Ereill Cyvunvath.

Fol pob balch,
Diwybod pob diymgais,
Avlwyddus pob diwybod,
Diriaid pob diserch,
Trachwantus pob diriaid,
Llovrudd pob lleidyr,
Lleidyr pob drwg dybus,
Newyn pob awydd,
Digllon pob newynawg,
Gelyn pob digllon.
Catwg Ddoeth ai Cant.

116. Ac mewn modd amryval val hyn.

Trais pob cam,
Ynvyd pob treisiedig,
Gelyn pob ynvyd,
Pob gelyn heb achos.
Catwg Ddoeth ai Cant.

117. Modd Arall.

Digllon pob newynawg,
Newyn pob dialgarwch[1],
Ynvyd pob dialgar,
Dialgar pob gelyn,
Gelyn pob treisiedig.
Catwg Ddoeth ai Cant.

118 Llyma gynghorion a roddes Catwg Ddoeth i Daliesin ben beirdd, pan oedd yn ysgolaig iddo.

Meddylia cyn y gwetych.

1. Yn gyntav, beth y gwetych.
2. Yn ail, paham y gwetych.
3. Yn drydy', wrth bwy y gwetych.
4. Yn bedwerydd, am bwy y gwetych.
5. Yn bummed, beth á ddaw o'r peth a wetych.
6. Yn chwechved, pa les o'r peth à wetych.
7. Yn seithved, pwy à vo'n gwrandaw ar à wetych.

Dod dy air ar ben dy vys cyn ei gwetych,
A threigla ev y saith fordd hyn cyn ai gwetych,
Ac ni ddaw drwg vyth o'r hyn à wetych.
Catwg Ddoeth ai Cant, wrth Daliesin Ben Beirdd yn dodi arno ei vendith.

119. Llyma ddewis bethau gwr.

A Chatwg Ddoeth a'u cant wrth ei dad Gwynlliw Vilwr, ab Glywis ab Tegid ab Cadell Deyrnllwg.

Ei dy yn ddiddos,
Ei dyddyn yn grwn,
Ei dir yn dirion,
Ei wely yn esmwyth,
Ei wraig yn ddiwair,
Ei vwyd yn iachus,
Ei ddiod yn vain vywus,
Ei dân yn oleu,
Ei ddillad yn glydion,
Ei gymodogaeth yn heddychlawn,
Ei wâs yn ddiwyd,
Ei vorwyn yn syw,
Ei vâb yn gywir,
Ei verch yn syber,
Ei gâr yn fyddlawn,
Ei gyvaill yn ddidwyll,
Ei varch yn wâr,
Ei vilgi yn vuan,
Ei hebawg yn chwannawg,
Ei ychain yn gryvion,
Ei wartheg yn lliwiawg[1],
Ei ddevaid yn rhywiawg,
Ei voch yn hirion,
Ei dylwyth yn gynneddvus,
Ei gartrev yn drevnus,
Ei vardd yn ddysgedig,
Ei delynwr yn addwyn,
Ei velin yn agos,
Ei eglwys yn mhell,
Ei arglwydd yn gadarn,
Ei vrenin yn gyviawn,
Ei dad ysbrydawl yn gâll,
A'i Dduw yn drugarawg.
Catwg Ddoeth ai Cant.

120. Hebau amgen nog o'r blaen.

Heb athraw heb ddysg,
Heb ddysg heb wybodau,
Heb wybodau heb ddoethineb,
Heb ddoethineb heb ddwyvoldeb,
Heb ddwyvoldeb heb Dduw,
Heb Dduw heb ddim.
Catwg Ddoeth ai Cant.

[1] Newynawg pob dialgar. Ll. ar.

[1] Yn unlliwiawg. Ll. ar.

121. PEDWAR GWYD Y SYDD O BRIFANSAWDD.

CYNTAV, llid.—Ail, trachwant.—Trydydd, diogi.—Pedwerydd, ovyn.

A'r lle y bytho y naill na'r llall o honynt y ceir pob drwg arall, canys o honynt y tyv yn angerddawl pob drygau ereill ar veddwl a gweithred.

Catwg Ddoeth ai Cant.

322. GORDDODAU CATWG DDOETH.

O DEIMLAW teimla'th galon a'th gydwybod,
O ddisgwyl disgwyl ar y daionus,
O wrandaw gwrandaw gwyn tlawd ac anghenus,
O vlasu blasa ddoethineb,
O rogli rhogla ddiniweidrwydd,
O geisiaw cais wybodaeth,
O gyrhaedd cais gyrhaedd deall,
O ddychymmyg cais ddychymmyg à vo pwyll,
O wneuthur gwna'th ddyledswydd,
O gasâu casâa y drwg o bob rhyw,
O adnabod adnebydd dy hun,
O wybod gwybydd orchymynion Dovydd,
O ystyriaw ystyria dy ddiwedd,
O ovni ovna'th anwydau,
O ddywedyd dywed à vo gwir,
O varnu barna yn dy gydwybod,
O vwriadu bwriada wellâu dy vuchedd,
O anturiaw anturia 'mhlaid pob iawn,
O garu câr tangnevedd,
O lawenâu llawenâa am ddyoddev dros y gwir,
O alaru galara am dy bechawd,
O ymbil ymbil ar Dduw am ei radverthwch,
O ymhyvrydu ymhyvryda mewn dyhewyd ddwyvawl,
O ddiolch am à gevaist diolch i Dduw yn benav,
O ymddiried ymddiried i'th Dduw.

Catwg Ddoeth ai Cant.

123. ARALL UNRHYW.

O DEIMLAW teimla'th wendid synwyr,
O weled gwêl dy vai,
O wrandaw gwrandaw gynghor y doeth,
O geisiaw cais heddwch â phawb a rhwng pawb,
O gredu crêd na wyddost ddim,
O vlasu blasa bereiddder deddvoldeb,
O arogli arogla fieidddra pechawd,
O ddeall deall beth wyd,
O wneuthur gwna gyviawnder,
O gasâu casâa y byd a'i bethau,
O adnabod adnebydd dy galon dy hunan,
O wybod gwybydd mai dyn wyd,
O goviaw covia mai marw à vyddi,
O ystyriaw ystyria y varn ddiweddav,
O ovni ovna dwyll dy galon,
O ddywedyd dywed wirionedd yn benav dim,
O varnu barna varn gyviawn,[1]
O vwriadu bwriada wellâu dy vywyd,
O ymroddi ymrô i wneuthur daioni,
O anturiaw anturia dros heddwch a thangnev,
O ymddiried ymddiried i'r un à wyr dy raid,
O uvyddâu uvyddâa i'r un a roddes itti vyw a bôd,
O ymhewydu ymhewyda ddwyvoldeb,
O garu câr dy Dduw, ac yn Nuw caru pob perchen bôd a bywyd.[2]

Catwg Ddoeth ai Cant.

124. PEIBYL CATWG DDOETH.

1 PEI gwisgid goron am ben pob fôl ni á vyddem bawb yn vreninodd.
2 Pei bai cloch am vwnwgyl pob ynvyd ni chaid nebun vyth mewn eglwys ond ofeiriaid a'u cydglochyddion.
3 Pei bai pob anghall yn marw ni chleddid neb eisiau gwr yn vyw i agor bedd.
4 Pei bai cyrn ar ben pob fôl ve geid arian yn dda am ddangos gwr moel.
5 Pei bai gwilydd pob un yn ysgrivenedig yn ei dalcen, prid iawn y byddai deunydd mygydau.
6 Pei cyn gynted ar draed ag ar davawd y byddai gwraig, hi á ddaliai ddigon o luched i gynu tân y boreu.
7 Pei ni thraethai un tavawd amgen no gwirionedd a doethineb rhyvedd y byddai riv y mudion.
8 Pei gwelai chwedleugar annoethineb ei ddadwrdd ev á gadwai ei davawd i oeri ei gawl.
9 Pei gwelai grocsau overdawd ei gamp ev ai gadawai rag cywilydd.
10 Pei glywai gybydd ddrygsawr ei galon byddai varw gan ddrewdawd
11 Pei gwelai ddiawg y drwg ai ery ev á ymosgreiniai o'i lesgedd rag ovyn a chywilydd.
12 Pei gwelai serch ei wendid ev á drengai gan ovyn.
13 Pei gwelai valch ei galon ve gollai ei holl synwyrau gan arswyd.
14 Pei gwelai bob un galon y llall ev á vyddai yn llawnoed i bawb foi rhag diawlaid.
15 Pei gwelai genvigen ei ddüwch eve á ymgrogai rag cywilydd Duw a dyn.

[1] Gyviawn varn. Ll. ar.
[2] Câr dy gymodawg val ti dy hunan. Ll. ar.

16 Pei gwelai bwyll ei anmhwyll ev á guddiai ei wyneb gan gywilydd.
17 Pei gwelai veddwdawd ei fieidddra ev á ymguddiai dan y domen.
18 Pei gwelai gelwydd ei wydoldeb ev á gollai ei hunan gan gynddaredd.
19 Pei cai dwyll vlas ar ei vrynti eve á chwydai ei bervedd allan.
20 Pei cai drachwant olwg ar ei wrthuni cynnevin iddo y byddai pryd a gwedd cythraul.
21 Pei gwelai athraw à ddaw o'i waith, ev á welai y cyvan yn diweddu ar ei ben ei hunan.
22 Pei gwelai ddichell ei vudredd ev á ymddichellai i ddianc ragddo.
23 Pei gwelai lid ei fyrnigrwydd eve á ymlidiai yn fyrnig wrtho ei hunan am dano.
24 Pei gwelai ddialgarwch ei ddiawligrwydd eve á elai i ddiawl yn hytrach nog ymroi iddo.
25 Pei gwelai y cribddeiliwr agwedd ei gydwybod eve á grochlevai, gwae vi mi á welais gythraul o eithavodd ufern.
26 Pei gwelai ragrith ei aflendid eve á ymddychrynai o'i bwyll.
27 Pei gwelai odineb ei halogrwydd eve á fieiddiai y tir y cerddai.[1]
28 Pei gwelai ryvelgar ei greulondeb eve á ovnai i bob mymryn yn mhelydr yr haul ei wân â chledd.
29 Pei gwelai anwybodaeth ei anharddwch, eve á genvigenai weled hardded y llyfant ragddo.
30 Pei gwelai haerllydrwydd ei ynvyted, eve á wingai gan gynddaredd o'i vod yn ynvytach no neb.
31 Pei gwelai annwyvoldeb ei ddiwedd eve á vyddai varw gan ddychryn.

Catwg Ddoeth ai Cant.

125. Hwftiau Catwg Ddoeth.

Hwft o'r wybodaeth à wna ddyn yn annoeth,
Hwft o'r serchiadau à wna ddyn yn benboeth,
Hwft o'r llawenydd à ddiwedd yn alar,
Hwft lludded hir am à ddervydd yn gynnar.
Hwft o'r gwyllt-vrydus nad ystyr un dyben,
Hwft o'r gelvyddyd na cherddo yn fyrdd awen.
Hwft o'r gwagvonedd à droedied â balchder,
Hwft o'r mawr gudd ar ni thâl ond o'i arver.

[1] A gerddai. L'. ar.

Hwft o'r mawr vost lle bo bach y gwybodau,
Hwft o'r coegddwyvawl anneddvawl ei gampau.
Hwft o'r twylladdysg na ddysgo y gwirionedd,
Hwft o'r ystyriaeth nad ystyr ei ddiwedd.
Hwft o'r carngybydd na chymmer o'i eiddo,
Hwft ni châr heddwch ymhob man lle bytho.
Hwft o'r wael awen à gais bob overdod,
Hwft o bob arver ni thardd o gydwybod.
Hwft o bob gweithred yn erbyn cyviawnder,
Hwft o'r cythreulig à garo greulonder.
Hwft o'r caled à vo'n annhrugarawg,
Hwft i bob un ni bo syber a serchawg.
Hwft o'r un penllwyd à dreulwys ei vuchedd,
Heb Dduw'n ei gydwybod, heb gov am ei ddiwedd.

Catwg Ddoeth ai Cant.

126. Pynciau Gwirionedd[1] Catwg Ddoeth.

1 Duw pob iawn, Diawl pob cam.
2 Duw pob haelioni, Diawl pob anghawrdeb.
3 Duw pob cariad, Diawl pob câs.
4 Duw pob heddwch, Diawl pob rhyvel.
5 Duw pob llawen, Diawl pob trist.
6 Duw pob serchawg, Diawl pob atgas.
7 Duw pob ymbwyll, Diawl pob anmhwyll.
8 Duw pob dedwydd, Diawl pob diriaid.
9 Duw pob mwyn, Diawl pob anvwyn.
10 Duw pob teg, Diawl pob hagyr.
11 Duw pob gwir, Diawl pob celwydd.
12 Duw pob llês, Diawl pob avles.
13 Duw pob rhaith, Diawl pob anrhaith.
14 Duw pob mâd, Diawl pob anvad.
15 Duw pob pur, Diawl pob anmhur.
16 Duw pob cywir, Diawl pob twyll.
17 Duw pob trugar, Diawl pob creulawn.
18 Duw pob glân, Diawl pob avlan.
19 Duw pob llâd, Diawl pob anllad.
20 Duw pob goleu, Diawl pob tywyll.
21 Duw pob menwyd, Diawl pob anfawd.
22 Duw pob deall, Diawl pob anneall.
23 Duw pob trevyn, Diawl pob annhrevyn.
24 Duw pob bywyd, Diawl pob marwoldeb.

Cafael Duw cafael oll,
Colli Duw, colli y cyvan.

Catwg Ddoeth ai Cant.

[1] Gorddodau. Ll. ar.

127. Unodd yn mhen canodd Catwg Ddoeth.

1 Un drwg dybus ymhen cant llovrudd.
2 Un meddyg ymhen cant cigydd.[1]
3 Un twyllwr ymhen cant anrhaith.
4 Un bradwr ymhen cant gelyn.
5 Un saig vras ymhen cant saig wenwyn.
6 Un awr gloddest ymhen cant awr newyn.
7 Un diogi ymhen cant divrawd.
8 Un diymdawr ymhen cant divëydd.
9 Un athrodwr ymhen cant cynllwyn.
10 Un gwastraf ymhen cant goddaith.
11 Un truth ymhen cant athrawd.
12 Un avrad ymhen cant yspail.
13 Un anvoddlondeb ymhen cant anghen.
14 Un gormodedd ymhen cant eisiwed.
15 Un celwydd ymhen cant gosawd.
16 Un rhagrith ymhen cant celwydd.
17 Un anudonwr ymhen cant cythraul.
18 Un cybydd ymhen cant lleidyr.
19 Un tavawd gwraig ymhen cant taran.
20 Un budrogen ymhen cant hwch.
21 Un mursen ymhen cant puten.
22 Un ofeiriad ymhen cant twyllwr.
23 Un hyd ymhen cant anudon.
24 Un cyvreithiwr ymhen cant gwylliad.
25 Un gweniaith ymhen cant dirieidi.
26 Un diriaid[2] ymhen cant ysgar.
27 Un ysgar ymhen cant gormes.
28 Un gormes ymhen cant haint.
29 Un haint ymhen cant newyn.
30 Un annevawd ymhen cant haint.
31 Un drygarlwydd ymhen cant annevawd.
32 Un camraith ymhen cant drygarlwydd.
Catwg Ddoeth ai Cant.[3]

128. Gwrthyddiaid Catwg Ddoeth.

1 Pob fol á wna ofeiriad, rhaid call i wneuthur ysgolâig.
2 Pob gŵydd á wna fermwr, rhaid synwyrawl i vod yn greftwr.
3 Pob cythraul á wna vilwr, rhaid dyn da i vod yn heddychwr.
4 Pob dihiryn á wna gyvreithwr, rhaid doeth i vod yn reithwr.
5 Pob diriaid à wna bencerdd, rhaid dedwydd i vod yn athraw.
6 Pob lleidyr á wna oludawg, rhaid cynneddvawl i vod yn wr boneddig.
7 Pob coegvalch á wna rodresgar, rhaid addwyn i vod yn vlaenor.
8 Pob croesan á wna vydrwr, rhaid dysgedig i vod yn vardd.
9 Pob llyfan á wna gybydd, rhaid na vo gwaeth no lleidyr i wneuthur dyn.
10 Pob ynvyd á wna chwedleugar, rhaid gwr doeth i dewi.[1]
11 Pob diwybod á wna veiwr, rhaid gwr deallus i vod yn varnwr.
12 Pob crwydryn á wna ymsenwr, rhaid pwyllawg i vod yn gynghorwr.
13 Pob ci á wna geryddwr, rhaid dwyvawl i vod yn ddiwygiwr.
14 Pob twrch á ddadredd, rhaid perchen deall i ddattawd.
15 Pob ovnus á baid ag â welo yn ddrwg, rhaid hyderus glew i wneuthur daioni.
16 Pob dyn i ddiawl á wna y da à welo'n dda iddo ei hun yn unig, rhaid dyn i Dduw i wneuthur à vo da i arall er avles iddo ei hun.
17 Pob trachwantus á ynnill aur ac arian, rhaid dedwydd i ynnill golud.
18 Pob ystrywus á ynnill vodd y byd, rhaid cywir cariadus i ynnill bodd Duw.
Catwg Ddoeth ai cant.

120. Llyma ddeuddeg govynion a ddodes Catwg Ddoeth ar i. vebiniaid.

1. Pwy sy ddoeth?
Atteb. Y neb ni ddigia er ei oganu, ac ni ymvalchïa er ei ganmawl.
2. Pwy sy gall?
Atteb. Y neb a ystyr yn dda cyn y gweto ei veddwl.
3. Pwy sy gryv?
Atteb. Y neb à allo veistroli ei anwydau.
4. Pwy sy gadarn?
Atteb. Y neb à allo guddio ei dylodi.
5. Pwy sy ddifaith?
Atteb. Y neb ni chelo ei gyvrinach ei hunan.
6. Pwy sy gymmeradwy yn mysg y bobyl?
Atteb. Y neb à allo ymgynnal arno ei hunan.
7. Pwy sy lawen?
Atteb. Y neb ni chlywo ei gydwybod yn ei geryddu.
8. Pwy sy rydd?
Atteb. Perchen creft a chelvyddyd, à vedyr ymgynnal arni yn y man o'r byd y myno.
9. Pwy sy dda ei arver?
Atteb. Y neb à vedyr ymoddev á dyn llidiawg drygarverus à vo gydag ev:
10. Pwy sy ddaionus?
Atteb. Y neb à gospo ei hun er lles i arall.
11 Pwy sy ddedwydd?
Atteb. Y neb y bo ynddo gâs o gynneddyv at y drwg,[2] a serch o gynneddyv at à vo da.

[1] Cr. gwr. Ll ar.
[2] Diriaidi.
[3] Ystudvach Vardd. medd Ll. ar.

[1] I vod yn dawgar. Ll. ar.
[2] A vo drwg. Ll. ar

12. Pwy sy ddwyvawl?
Atteb. Y neb à grêd yn Nuw ac ai caro,
ac à wêl mai goreu ar bob dim
ei ewyllys a'i weithred ev.
Ac velly tervyna pynciau doethineb
Catwg Ddoeth.

130. Cynghorion parth iechyd ac einioes.

1 A chwennycho vyw'n hir chwareued hyd ugain, llavuried hyd ddeugain, a gorphwysed hyd olaith.
2 Coded gyda'r hedydd, caned gyda yr hedydd, ac aed i gysgu gyda'r hedydd.
3 Bwytaed pan vo arno chwant, yved pan vo arno sychedd, a gorphwysed pan vo arno vlino.
4 Gocheled vwyd rhy voethus, a diod rhy gadarn, a gwaith rhy drwm a thraferthus.
5 Gocheled gormodd o vwyd, a gormodd ddiod, a gormodd o lavurwaith.
6 Gocheled ymryson, cared heddwch, a bydded di-vawrovalon.
7 Bydded lawen, bydded hael, a bydded gyviawn.
8 Bydded wrth un wraig, yn gadarn yn ei fydd, ac yn lân ei gydwybod.
9 Bid vyvyrgar y bore, gweithgar yn nawnddydd, a chyveillgar yn echwydd.
10 Bid dyddan ei vyvyrdawd, diniwed ei gampau, a'i awyr yn iachus.
11 Bydded nid hên ei wisg, yn lanber ei gylched, ac yn vodlon i'r byd à vo.
12 Bydded ysgawn ei wisg, ysgawn ei ymborth, ac ysgawn ei galon.
13 Bydded serchawg ei vryd, a bywiawg ei awen, ac yn amyl ei gyveillion.
14 Cadwed gyvraith ei wlad, a rheawl ei alwad, a gorchymynion ei Dduw.
15 Ac o wneuthur val hyn, bydd iachus ei gorf. ac esmwyth ei veddwl, a glân ei gydwybod.
16 Bydd hir ei einioes, a'i ddiwedd yn wynvyd, a'i Dduw yn ei garu.
Catwg Ddoeth ai Cant.

131. Myvyrdodau Catwg Ddoeth.

Nid oes dim heb ryw rinwedd arno,
Nid ellir drwg heb ryw dda o hano,
Nid rhaid i ddedwydd nac ach nac eiddo,
Ni ellir i ddeddvawl well nog y sydd ynddo,
Nid iawn i undyn ond ai digono,
Nid cyviawn bwyd ond i à lavurio,
Nid oes doethineb ond i ai dysgo,
Nid oes gariad ond i à garo,
Nid oes i'r cybydd ond à gymmero,
Nid oes ar neb wneuthur y peth nas gallo.
Nid oes o Dduw i neb ond à veddo,
Nid iawn i undyn bob peth à vyno,
Nid hardd ar undyn ond hyn a'i gweddo,
Ni ddifyg gwybodaeth ar a'i ceisio,
Ni wiw clod ond i a'i dirpero,
Ni veth digonedd i à wnel am dano,
Nid oes o'r ymryson well-na'i ado,
Nid oes o gyvoeth i neb ond a'i boddlono,
Ni chedwis Duw rag neb à vai da iddo,
Nid tynged i neb ond à ganlyno.
Catwg Ddoeth ai Cant.

132. Nidiau.

Nid penaeth ond à vo pen arno ei hun,
Nid cadarn ond à vo drech na'i hun,
Nid gwaithvuddyg ond à orchvygo ei hun,
Nid gorchest ond i wr lywodraethu ei hun,
Nid athraw y gwr na ddysgo dda iddo ei hun,
Nid deallus ond à ddeallo ei hun,
Nid adnabyddus ond à adnebydd ei hun,
Nid gwybodus ond à wybydd ei vai ei hun,
Nid celvydd ond à vedro wellhau ei hun,
Nid call ond à wêl folineb ei hun,
Nid gwilgar ond à wilio arno ei hun,
Nid doeth ond à ddiwygio ei hun,
Nid glew ond à wrthladd ei hun,
Nid cyvarwydd ond à ŵyr ymsyrth ei hun,
Nid cyfrwydd onda wyr avrwydddeb ei hun,
Nid caeth ond à ymostwng iddo ei hun,
Nid rhydd ond na vo rwym wrtho ei hun,
Nid ymgais ond à ymgais ddiveiaw ei hun,
Nid fôl ond à veddwl yn dda am dano ei hun,
Nid perchenawg ond perchen arno ei hun,
Nid gwr ond à barcho ei hun.
Catwg Ddoeth ai Cant.

133. Casddynion Catwg Ddoeth.

1 Hen heb grevydd.
2 Ieuanc heb ddysg.
3 Gwasanaethwr heb ovn.
4 Gwraig heb gywilydd.
5 Mâb heb voes.
6 Merch heb syberwyd.
7 Hên godinebus.
8 Doeth heb weithredoedd da.
9 Tylawd balch.
10 Cyvoethawg gormesgar.
11 Esgob heb ddeall.
12 Brodyr heb gariad.
13 Trevgordd heb gyviawnder.
14 Plwyv heb addysg.
15 Goludawg heb elusen.
16 Athraw heb amynedd.
17 Bardd heb ddosbarth.
18 Teulu heb drevyn.
19 Cenedyl heb wybodau.
20 Gwlad heb gyvraith.

21 Cyvraith heb ddeddvolder.
22 Cymodogaeth heb heddwch.
23 Plant heb uvydddawd.
24 Gwerin heb gariad.
25 Llys heb haelioni.
26 Gwledd heb gerddau.
27 Cynnadyl heb arweddau.
28 Ysgolâig heb awen.
29 Creft heb vreiniau.
30 Dieithyr heb roesawau.
31 Dinas heb bendodau.
32 Cyvar heb atgorau.
33 Gorsedd heb arverau.
34 Gwr heb gampau.
35 Ty heb olau.
36 Perllan heb avalau.
37 Gardd heb lysiau.
38 Cyvaill heb gynneddvau.
39 Call heb gymhwyllau.
40 Gosgordd heb dynghedau.
41 Araeth heb ymbwylliadau.
42 Barn heb ddangosau.
43 Gwr heb rinweddau.
45 Doethineb heb huolder, yr hyn sydd sydd yn debyg i gleddyv yn llaw dyn clav o'r parlys.
46 Huolder heb ddoethineb, y sydd debyg i gleddyv yn llaw dyn ynvyd.
Ac velly tervyna.
Catwg Ddoeth ai Cant.

134. Llyma gynghorion y rhoddes Catwg Ddoeth i Arawn vab Cynvarch brenin y Gogledd pan ai gollynges ev o'i vebindawd.

Tro y clust byddar at bob drygiaith,
Tro dy gevyn ar bob drygwaith.
Tro y llygad cauad at bob anverth,
Tro'th olwg a'th galon at bob prydverth.
Tro dy law egor at bob tylodi,
Tro dy veddwl at bob haelioni.
Tro dy bwyll at gynghorau doethion,
Tro dy serch at bethau dwyvolion.
Tro'th ddyhewyd ar bob daioni,
Tro'th holl awen ar ymragori.
Tro dy ddeall i ddeall dy hunan.
Tro'th holl wybodau y'nghyngyd anian.
Tro'th holl gynneddvau ar à vo dedwydd,
Tro'th galondid a'th nerthoedd oll ar Dduw Ddovydd.
Catwg Ddoeth ai Cant.

135. Llyma syniadau Catwg Ddoeth.

Pa hynav y dyn gwaethav ei gampau,
Pa vwyav y gallu lleiav y bydd gwyllys,
Pa vwyav y brys mwyav y rhwystyr,
Pa vwyav y cas mwyav y cywilydd,
Pa uchav y dring enbytav y cwymp,
Pa decav y bore hacrav yr ucher,
Pa vwyav y frost mwyav y celwydd,
Pa decav y dŷn mwyav y pyd a'i erys,
Pa ddyvnav yr avon lleiav oll ei thrwst,
Pa isav y galon uchav y bydd i'r enaid,
Pa ddoethav y dyn uvyddav ei gamp,
Pa dylotav dwyvawl goreu vydd ei gynneddyv,
Pa gallav y dyn anamlav ci eiriau,
Pa decav y chware goreu vyth ei adael,
Pa haelav y rhoddwr mwyav vyth ei ynnill,
Pa vwyav y gwîr mwyav oll y bydd ei dâl,
Pa iawnav y gwaith iawnav i gyd y dywedd,[1]
Pa gyvyngav gan ddyn ehengav gan Dduw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

136. Cynghorion a roddes Catwg Ddoeth i Asswr vab Cynhaiarn.

Na vydd debyg i'r ci yn dy gyves,
Na vydd debyg i vwch[2] yn dy vuches.
Na vydd debyg i lyfant yn dy loches,
Na vydd debyg i vlaidd wrth dy gyvnes.
Na vydd debyg i gath yn dy anwes,
Na vydd debyg i hwch yn dy wales.
Na vydd debyg i'r mor yn dy vynwes,
Na vydd debyg i wraig yn dy hanes.
Catwg Ddoeth ai Cant.

137. Cynghorion ereill a roddes Catwg Ddoeth i'r un gwr.

Cyhudda dy hun ac nid arall,
Darostwng dy hun ac nid arall,
Addysga dy hun cyn y dysgot arall,
Adnebydd dy hun er adnab arall,
Cerydd dy hun na cherydd arall,
Gwna les i dy hun o gwnei les i arall,
O weled dy hun yn folach nog arall
Y dichyn itti vyned yn ddoethach nog arall.
Catwg Ddoeth ai Cant.

138. Cynghorion ereill Catwg Ddoeth i'r un gwr.

Na vydd swrth na diawg segurllyd,
Na châr veddwi val y gwna ynvyd.
Na châr verched anllad eu campau,
'Mogel dyngu a phob cras eiriau.
Bydd haelionus y lle bo achos,
Gwna ddaioni, a gwna'n ddiaros.
Na wna gam, na chymmer ormod,
A'th gynodogion bydd mewn cymmod.
Cais vyth ymgynnal yn ddiwegi,
Yn mhob trova tra vych ynddi.
Ymro i Dduw yn y cwbyl o'th vuchedd,
A meddwl ba vodd y daw'n y diwedd.
Catwg Ddoeth ai cant.

[1] Diwedd.
[2] Vuwch. I. M.

139. Llyma y gorddau a ddangoses Catwg Ddoeth i Daliesin pen beirdd, yn ymollwng ag ev.

Tawedigrwydd yw mam pob callineb,
Amynedd yw mam pob doethineb.
Pwyll yw mam pob gwybodau,
Trevyn yw mam pob darbodau.
Angen yw mam pob celvyddyd,
Rhinwedd yw mam pob dedwyddyd.
Ymgais yw mam pob rhagoriaeth,
Awen yw mam pob cerddoriaeth.
Ystyr yw mam pob deallau,
Anystyr yw mam pob gwallau.
Arver yw mam pob meistrolaeth,
Cadernyd yw mam pob buddugoliaeth.
Cydwybod yw mam pob deddvoldeb,
Cariad yw mam pob dwyvoldeb.
Catwg Ddoeth ai Cant.

140. Ereill i'r un gwr, sef y campau a vyddant ar wr.

1 Bod yn ddoeth yn ei ddadyl.
2 Bod yn oen yn ei ystavell.
3 Bod yn lew yn nhrin a brwydyr.
4 Bod yn baen ar yr hëol.
5 Bod yn vardd ar ei leithig.
6 Bod yn athraw yn ei deulu.
7 Bod yn gynghor yn ei genedyl.
8 Bod yn ddyddiwr yn ei gwmwd.
9 Bod yn veudwy yn ei lan.
10 Bod yn ddeddvwr yn ei wlâd.
11 Bod yn gydwybodawl yn ei weithred.
12 Bod yn ddedwydd yn ei vywyd.
13 Bod yn ddiwyd yn ei dyddyn.
14 Bod yn gyviawn yn à wnelo.
15 Bod à wnelo wrth vodd Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

141. Nerthodd Catwg Ddoeth.

Nerth dysg ei ymgais,
Nerth athraw ei ddosparth,
Nerth doeth ei bwyll,
Nerth call ei ystyriaeth,
Nerth celvydd ei wybodau,
Nerth glew ei galondid,
Nerth gwestwr ei syberwyd,
Nerth alldud ei heddlonder,
Nerth bardd ei awen,
Nerth teuluawg ei ddiwydrwydd,
Nerth cyviawn ei gydwybod,
Nerth dedwydd ei amynedd,
Nerth dwyvawl ei Dduw.
Catwg Ddoeth ai cant.

142. Ansoddau Catwg Ddoeth.

Ni ludd cyviawnder tangnev,
Ni ludd cerydd serch,
Ni ludd barn cariad,
Ni ludd cariad pwyll,
Ni ludd glewder drugaredd,
Ni ludd dwyvoldeb lawenydd.
Catwg Ddoeth ai Cant.

143. Nidiau.

Nid nerth ond rhyddyd,
Nid rhydd ond cariad,
Nid cariad ond dewis,
Nid dewis ond deall,
Nid deall ond gallu,
Nid gallu ond gwybod,
Nid gwybod ond gwirionedd,
Nid gwirionedd ond cadernyd.
Nid cadernyd ond anghyvnewidiawl,
Nid anghyvnewidiawl ond Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

144. Modd arall ar yr un.

Nid nerth ond rhyddyd,
Nid rhyddyd ond cariad,
Nid cariad ond dewis,
Nid dewis ond gallu,
Nid gallu ond gwybod,
Nid gwybod ond deall,
Nid deall ond ystyr,
Nid ystyr ond canvod,
Nid canvod ond gwirionedd,
Nid gwirionedd ond cadernyd,
Nid cadernyd ond anghyvnewidiawl,
Nid anghyvnewidiawl ond Duw,
Nid Duw ond nerth, &c., &c.[1]
Catwg Ddoeth ai Can t.

145. Nidiau ereill.

Nid bôd ond byw,
Nid byw ond cartrev,
Nid cartrev ond teulu,
Nid teulu ond ymgynnal,
Nid ymgynnal ond meddiant,
Nid meddiant ond eiddo,
Nid eiddo ond eiddo Duw,
Nid eiddo Duw à water,
Nid eiddo Duw ond er ai govyn,
Nid ai govyn ond angen,
Nid angen ond anian,
Nid anian ond daioni,
Nid daioni ond bodd Duw,
Nid bodd Duw ond cyviawn,
Nid cyviawn ond cariad.
Catwg Ddoeth ai Cant.

146. Ereill.

Nid gwlâd heb genedyl,
Nid gwlâd heb gyvraith,
Nid gwlâd heb vraint,
Nid gwlâd heb ammaeth,
Nid gwlâd heb ŷd,
Nid gwlâd heb gelvyddydau,
Nid gwlâd heb ddoethion,

[1] Ut supra.

Nid gwlâd heb athrawon,
Nid gwlâd heb nawdd,
Nid gwlâd heb grevydd,
Nid gwlâd heb ddwyvoldeb,
Nid gwlad heb Dduw yn ben.
Catwg Ddoeth ai Cant.

147. Ereill.

Nid cadernyd ond cyvraith,
Nid cyvraith ond cynghor,
Nid cynghor ond doethion,
Nid doethion ond addysg,
Nid addysg ond deallau,
Nid deall ond à vo iawn,
Nid iawn ond cariad,
Nid cariad ond nas gellir ei orvod.
Catwg Ddoeth ai Cant.

148. Ereill.

Nid byw heb veddiant,
Nid meddiant heb wlad,
Nid gwlâd heb gartrev,
Nid cartrev heb deulu,
Nid teulu heb wraig,
Nid gwraig heb blant.
Nid plant heb uvydddawd,
Nid uvydddawd heb addysg,
Nid addysg heb athraw,
Nid athraw ond tad,
Nid tad ond dedwydd,
Nid dedwydd ond doeth,
Nid doeth ond cyviawn,
Nid cyviawn ond cariad,
Nid cariad ond Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

149. Ereill.

Nid bonedd ond gwybodaeth,
Nid golud ond gwybodaeth,
Nid doethineb ond gwybodaeth,
Nid urddas ond gwybodaeth,
Nid anrhydedd ond gwybodaeth,
Nid nerth ond gwybodaeth,
Nid câr ond gwybodaeth,
Nid cyvaill ond gwybodaeth,
Nid harddwch ond gwybodaeth,
Nid clôd ond gwybodaeth,
Nid meddiant ond gwybodaeth,
Nid deall ond gwybodaeth,
Nid rhwydd ond gwybodaeth,
Nid braint ond gwybodaeth,
Nid addwyn ond gwybodaeth,
Nid deddvawl ond gwybodaeth,
Nid cyviawn ond gwybodaeth,
Nid dedwydd ond gwybodaeth,
Nid cadarn ond gwybodaeth,
Nid daioni ond gwybodaeth,
Nid gorvod ond gwybodaeth,
Catwg Ddoeth ai Cant.

150. Nidiau Brodyrdde.

Nid gwlâd ond gwerin,
Nid gwerin ond brodyrdde,
Nid cadarn ond brodyrdde,
Nid amug ond brodyrdde,
Nid edmug ond brodyrdde,
Nid cystlwn ond brodyrdde,
Nid cyvawd ond brodyrdde,
Nid cynnadyl ond brodyrdde,
Nid corawd ond brodyrdde,
Nid cynnal ond brodyrdde,
Nid cyvraid ond brodyrdde,
Nid cysswyn ond brodyrdde,
Nid cyttrev ond brodyrdde,
Nid cyssulw ond brodyrdde,
Nid cywaith ond brodyrdde,
Nid cywaeth ond brodyrdde,
Nid cyttrym ond brodyrdde,
Nid cymyn ond brodyrdde,
Nid cymhwyll ond brodyrdde,
Nid cychwedyl ond brodyrdde,
Nid cydnerth ond brodyrdde,
Nid cyvnerth ond brodyrdde.
Nid cyvar ond brodyrdde,
Nid cydvod ond brodyrdde,
Nid cydwedd ond brodyrdde,
Nid cyvun ond brodyrdde,
Nid cymmraint ond brodyrdde,
Nid cymmrawd ond brodyrdde,
Nid cov ond brodyrdde,
Nid cyvannedd ond brodyrdde,
Nid cymmyred ond brodyrdde,
Nid cymhrain ond brodyrdde,
Nid cyvurdd ond brodyrdde,
Nid cyvoeth ond brodyrdde,
Nid cymmod ond brodyrdde,
Nid cymmedyr ond brodyrdde,
Nid cymhorth ond brodyrdde,
Nid cywir ond brodyrdde,
Nid cysgordd ond brodyrdde,
Nid cyvraith ond brodyrdde,
Nid cenedyl ond brodyrdde,
Nid Cymry ond brodyrdde,
Catwg Ddoeth ai Cant.

151. Nidiau ereill.

Nid hawdd dangaws annoeth,
Nid hawdd dysgu anwar,
Nid hawdd deddvoli anwir,
Nid hawdd cadarnâu gormes,
Nid hawdd ysgog serch,
Nid hawdd gorvod ar athrylith,
Nid hawdd gwrthladd angen,
Nid hawdd newid nawtur,
Nid hawdd symud awen,
Nid hawdd dilëaw cariad,
Nid hawdd cymmod â chas,
Nid hawdd gochel drygioni,
Nid hawdd drwg o ddaioni,

Nid hawdd gwarthruddiaw cyviawn,
Nid hawdd hudaw call,
Nid hawdd llygru cywir,
Nid hawdd digiaw dedwydd,
Nid hawdd rhadloni llidiog,
Nid hawdd gyru pwyll ar ddiriaid,
Nid hawdd ovni glew,
Nid hawdd hyder ar lwvyr,
Nid hawdd darbwyll anwybodus,
Nid hawdd deall dichell,
Nid hawdd addwynâu balch,
Nid hawdd can yn erbyn à ŵyr pawb,
Nid hawdd ynnill gelyn,
Nid hawdd ammeu gwirionedd,
Nid hawdd rhadloni cenvigen,
Nid hawdd taw ar gydwybod,
Nid hawdd gorthaw ar y gwir,
Nid hawdd digaloni dwyvawl,
Nid hawdd gwarau anynad,
Nid hawdd llygru dedwydd,
Nid hawdd gyru à vyner ar ddoeth,
Nid hawdd ond ymvoddau ar ddaioni,
Nid hawdd ond uvyddau i Dduw,
Nid hawdd twyllaw Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

152. Arall unrhyw.

Nid hawdd gwybod y cyvan,
Nid hawdd ammeu gwirionedd,
Nid hawdd cadarnau celwydd,
Nid hawdd difrwythaw cyviawnder,
Nid hawdd gweled y pell,
Nid hawdd canvod à vydd,
Nid hawdd casau pechawd cynnwynawl,
Nid hawdd boddloni pawb,
Nid hawdd galw doe yn ôl,
Nid hawdd cydymddwyn à gormes,
Nid hawdd attal amser,
Nid hawdd diwreiddiaw serch,
Nid hawdd dilëaw cariad,
Nid hawdd ysgog fyddlondeb,
Nid hawdd llygru cywirdeb,
Nid hawdd rhadloni trachwant,
Nid hawdd gostegu cenvigen,
Nid hawdd gyru pwyll ar valch,
Nid hawdd darbwyll annoeth,
Nid hawdd darwedd anwybodus,
Nid hawdd deall dichell,
Nid hawdd ovni glew,
Nid hawdd annog llwvyr,
Nid hawdd dyspwyllaw anwar,
Nid hawdd gwerinaw diriaid,
Nid hawdd dygnu dedwydd,
Nid hawdd arail annysg,
Nid hawdd dangaws anneallus,
Nid hawdd gorvod ar ddoeth,
Nid hawdd dattawd athrylith.
Nid hawdd newid nawtur,
Nid hawdd gwrthladd angen,
Nid hawdd symud awen,
Nid hawdd cymmod â châs,
Nid hawdd cywilyddiaw deddvawl,
Nid hawdd gwad ar à ŵyr pawb,
Nid hawdd cau yn erbyn cydwybod,
Nid hawdd gwarthruddiaw daioni,
Nid hawdd digaloni dwyvawl,
Nid hawdd ond gwneuthur daioni,
Nid hawdd ond boddiaw Duw,
Nid hawdd dianc o ddrwg,
Nid hawdd twyllaw Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

153. Ereill.

Nid anvodd ond prid,
Nid prid oud prid o anvodd,
Nid prid o anvodd ond ediveirwch,
Nid edivar awr angau ond anvoddiaw Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

154. Ereill.

Nid gwladwr heb urddas,
Nid urddas heb vonedd,
Nid bonedd heb ddysg,
Nid dysg heb voes,
Nid moes heb syberwyd,
Nid syberwyd heb ddeddvoldeb,
Nid deddvoldeb heb gyfiawnder,
Nid cyviawnder heb uvyddâad,
Nid uvydddawd heb ddwyvoldeb,
Nid dwyvoldeb heb gariad,
Nid cariad ond Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

155. Ereill.

Nid divyr ond cyweithas,
Nid cyweithas ond syber,
Nid syber ond trwsiadus,
Nid trwsiadus ond gweddusder,
Nid gweddusder ond uvydddawd,
Nid uvydddawd ond anmalchineb,
Nid anmalchineb ond cariad.
Nid cariad ond à vo gas gantho boen i un byw a bod.
Catwg Ddoeth ai Cant.

156. Ereill.

Nid gwybod heb weled,
Nid gweled heb awen,
Nid awen heb ei harver,
Nid arver heb serch,
Nid serch ond o bwyll,
Nid pwyll ond ystyriaeth,
Nid ystyriaeth ond ar ddaioni,
Nid dim[1] ond o Dduw, am hyny
Nid gwybod ond o Dduw,
Nid awen ond o Dduw,
Nid pwyll ond o Dduw,

[1] Nid ond o Dduw. Ll.

Nid daioni ond o Dduw,
Nid dim ond y sydd o Dduw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

157. Ereill.

Nid call ond à wrendy gynghor,
Nid pwyll ond à wyr gynghor,
Nid doeth ond à gais gynghor,
Nid deall ond à ystyr gynghor,
Nid hawdd dodi cynghor,
Nid cwbyl nemawr o gynghor,
Nid amyl y gwedd un cynghor,
Nid trahäus ond ni pheirch gynghor.
Catwg Ddoeth ai Cant.

158. Ereill.

Nid bôd ond Duw,
Nid byw ond Duw,
Nid da ond Duw,
Nid doeth ond Duw,
Nid gwybod ond Duw,
Nid gallu ond Duw,
Nid cariad ond Duw,
Nid cyviawn ond Duw,
Nid hollwybedydd ond Duw,
Nid cadarn ond Duw,
Nid diddarvod ond Duw,
Nid barn ond barn Duw,
Nid arglwydd ond Duw,
Nid tragywydd ond Duw,
Nid anveidrawl ond Duw,
Nid hollawl ond Duw,
Nid digon ond Duw,
Nid dim ond Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

159. Ereill.

Nid nerth ond Duw,
Nid bywyd ond Duw,
Nid cyvnerth ond Duw,
Nid cynneiliawdyr ond Duw,
Nid cywyl ond Duw,
Nid câr ond Duw,
Nid cyvaill ond Duw,
Nid ceidwad ond Duw,
Nid agos ond Duw,
Nid yn mhob man ond Duw,
Nid à ŵyr y cyvan ond Duw,
Nid à varn yn gyviawn ond Duw,
Nid à wna à vyno ond Duw,
Nid cael ond cael Duw,
Nid gobaith ond yn Duw,
Nid gwared ond Duw,
Nid dim ond yn Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

160. Ereill.

Nid hawdd symud awen,
Nid hawdd newid nawtur,
Nid hawdd gorvod ar athrylith,
Nid hawdd dihenu anian,
Nid hawdd gorthaw ar gydwybod,
Nid hawdd ammeu y gwir,
Nid hawdd cynnal celwydd,
Nid hawdd ovni glew,
Nid hawdd annog llwvr,
Nid hawdd darbwyll anwybodus,
Nid hawdd gwrthladd à ŵyr pawb,
Nid hawdd rhadloni cenvigen,
Nid hawdd gyru pwyll ar ddiriaid,
Nid hawdd llygru dedwydd,
Nid hawdd dirywo rhyw,
Nid hawdd divenwi serch,
Nid hawdd gwrthol ar gariad,
Nid hawdd lluddio cyviawnder,
Nid hawdd trechu ar gelvyddyd,
Nid hawdd difawd gwybodau,
Nid hawdd galw y drwg yn ôl,
Nid hawdd attal daioni,
Nid hawdd rhadverth o drachwant,
Nid hawdd trymysg ar gall,
Nid hawdd dangos balch,
Nid hawdd cywilyddio deddvawl,
Nid hawdd mevlu dwyvawl,
Nid hawdd à vyner i ddoeth,
Nid hawdd dyspwyll ar annoeth,
Nid hawdd celwyddu synwyrau,
Nid hawdd cuddiaw rhag amser,
Nid hawdd dianc rhag awr ddiwedd,
Nid hawdd gwâd ar bechodau,
Nid hawdd gochel barn,
Nid hawdd twyllaw Duw,
Catwg Ddoeth ai Cant.

161. Ereill.

Nid glew ond à orvydd arno ei hunan,
Nid cadarn ond à vo drech no ei hunan,
Nid gwybedydd ond à edwyn ei hunan,
Nid llyw and à lywio ei hunan,
Nid gwiliedydd ond à wilio arno ei hunan,
Ni ochel ond à ochelo ei hunau,
Ni orvydd ond à orfo arno ei hunan,
Ni ymgeidw ond á ymgeidw rhag ei hunan,
Nid deallus ond à ddeallo ei hunan,
Nid doeth ond à wŷl folineb ei hunan,
Nid call ond à ystyr ei hunan,
Nid athraw ni addysg ei hunan,
Nid câr ond à vo gâr iddei hunan,
Nid gelyn neb ond ei hunan,
Nid gwall ond à ato iddei hunan,
Nid gwybod ond cydwybod dyn ei hunan,
Nid trevyn ond à drevno arno ei hunan,
Nid iawn ond à iawnäo arno ei hunan,
Nid dim o vlaen Duw ond à vo dyn ei hunan.
Catwg Ddoeth ai cant.

162. Ereill

Nid iawn ond cyviawn,
Nid da ond cyviawn,
Nid hardd ond cyviawn,
Nid cadarn ond cyviawn,
Nid paräus ond cyviawn,
Nid cywir ond cyviawn,
Nid llwydd ond cyviawn,
Nid braint ond cyviawn,
Nid rhydd ond cyviawn,
Nid hawl ond cyviawn,
Nid deddyv ond cyviawn,
Nid diddarvod ond cyviawn,
Nid digon ond cyviawn,
Nid pen ar bob peth ond cyviawn,
Nid cyviawn ond Duw.
Catwg Ddoeth ai cant.

163. Ereill.

Nid goludawg ond à ddonio Duw,
Nid diogel ond à nawdd Duw.
Nid tlawd ond à vo gâs gan Dduw,
Nid dawn ond rhadverthwch Duw,
Nid doeth ond o addysg Duw,
Nid dedwydd ond à vo tros Dduw,
Nid ynnill ond bodd Duw,
Nid digon ond Duw.
Catwg Ddoeth ai cant.

164. Llwyrau.

Llwyrav gallu gallu Duw,
Llwyrav gwybod gwybod Duw,
Llwyrav gwyllys gwyllys Duw,
Llwyrav nawdd nawdd Duw,
Llwyrav cariad cariad Duw,
Llwyrav gwaith gwaith Duw,
Llwyrav dig dig Duw,
Llwyrav dyrnawd dyrnawd Duw,
Llwyrav barn barn Duw,
Llwyrav dial dial Duw,
Llwyrav gobrwy gobrwy Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

165. Trechau.

Trech gwir no chadarn,
Trech ammod no chyvraith,
Trech à gais nog à geidw,
Trech à gâr nog à gâs,
Trech traha no thrais,
Trech anian nog addysg,
Trech awen nog athraw,
Trech athrylith no phwyll,
Trech pwyll no châd,
Trech arglwydd gwan no gwâs cadarn,
Trech gwlâd nog arglwydd,
Trech serch no chawr,
Trech ymgais nog ymddiried,
Trech tynged nog arvaeth,
Trech Duw no drwg obaith.
Catwg Ddoeth ai Cant.

166. Trechau ereill.

Trech clôd no chynneddyv,
Trech pwyll no dichell,
Trech awen nog ystyr,
Trech nawtur no dysg,
Trech dygwydd no deall,
Trech arver nog arfaeth,
Trech diwydrwydd no golud,
Trech celvyddyd no llu brenin,
Trech glew no gwlâd,
Trech pwyll no glew,
Trech serch no chawr,
Trech llavur no direidi,
Trech rhaid no dewis,
Trech ymgais no chyvoeth,
Trech bryd no nerth,
Trech gwir no chadarn,
Trech cyviawnder no thrais,
Trech Duw no dim.
Catwg Ddoeth ai Cant.

167. Syniadau.

Advyd á ddod addysg,
Addysg á ddod wybodaeth,
Gwybodaeth á ddod ddoethineb,
Doethineb á ddod varn,
Barn á ddod gydwybod,
Cydwybod á ddod ddaioni,
Daioni á ddod ddwyvoldeb,
Dwyvoldeb á ddod vywyd tragywydd.
Catwg Ddoeth ai Cant.

168. Deuparthau.

Deuparth gwaith ei ddechreu,
Deuparth taith ymbarotôi,
Deuparth fordd ei gwybod,
Deuparth gorchest ymgais,
Deuparth llwyddiant diwydrwydd,
Deuparth dwyvoldeb dedwyddyd,
Deuparth dedwyddyd uvydddawd,
Deuparth trev eu harverau,
Deuparth clôd myned yn mhell,
Deuparth awen moliant,
Deuparth parch arver,
Deuparth pryd ymdrwsiaw,
Deuparth bonedd dysg,
Deuparth dysg hyder,
Deuparth dawn cwyllys,
Deuparth rhodd syberwyd,
Deuparth cerdd datgan,
Deuparth anrhydedd moes,
Deuparth celvyddyd ei rhin,
Deuparth athrylith arver,
Deuparth daioni cariad,
Deuparth fydd yn nghalon,
Catwg Ddoeth ai Cant.

169. Ymhobau Catwg Ddoeth.

Ymhob daioni y mae ai gobrwy,
Ymhob drwg y mae ai cysb,
Ymhob dig y mae pechawd,
Ymhob nwyv y mae trythyllwg,
Ymhob dyn y mae awen,
Ymhob awen y mae rhagor,
Ymhob câs y mae gelyniaeth,
Ymhob gormodd y mae traha,
Ymhob avraid y mae direidi,
Ymhob trachwant y mae lledrad,
Ymhob coel y mae celwydd,
Ymhob gwybod y mae gwir,
Ymhob cyfredin y mae iawn,
Ymhob cêl y mae cywilydd,
Ymhob taw y mae doethineb,
Ymhob dewis y mae cyvyngder,
Ymhob cyvyngder y mae addysg,
Ymhob creft y mae celvyddyd,
Ymhob celvyddyd y mae rhin,
Ymhob clwyv y mae pyd,
Ymhob rhyvel y mae goval,
Ymhob pechod y mae foledd,
Ymhob twyll y mae cynllwyn,
Ymhob llid y mae murn,
Ymhob cudd y mae twyll,
Ymhob traha y mae pechawd,
Ymhob gwlad y megir glew,
Ymhob maddeu y mae cariad,
Ymhob cariad y mae Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

170. Ereill unrhyw.

Ymhob dyn y mae enaid,
Ymhob enaid y mae deall,
Ymhob deall y mae meddwl,
Ymhob meddwl y mae rhyw ddrwg neu dda,
Ymhob gorchest y mae ymgais,
Ymhob ymgais y mae diwydrwydd,
Ymhob diwydrwydd y mae ennill,
Ymhob ennill y mae anrhydedd,
Ymhob anrhydedd y mae urddas,
Ymhob urddas y mae braint,
Ymhob braint y mae dyledswydd,
Ymhob dyledswydd y mae gwared,
Ymhob gwared y mae daioni,
Ymhob daioni y mae cariad,
Ymhob cariad y mae Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

171. Goreuau.

Goreu o'r galluau synwyrau,
Goreu o'r synwyrau deall,
Goreu o'r deall pwyll,
Goreu o'r pwyll dewis,
Goreu o'r dewis cyvoeth,
Goreu o'r cyvoeth doethineb,
Goreu o'r doethineb daioni,
Goreu daioni cariad,
Goreu cariad tangnev,
Goreu tangnev tangnev Duw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

172. Namynau.

Namyn Duw nid oes à ŵyr,
Namyn Duw nid oes gallu,
Namyn Duw nid oes cyviawn,
Namyn Duw nid oes gariad,
Namyn Duw nid oes gadarn,
Namyn Duw nid oes myn,
Namyn Duw nid oes gwyllys,
Namyn Duw nid oes handid,
Namyn Duw nid oes ymmod,
Namyn Duw nid oes nawdd,
Namyn Duw nid oes gobaith,
Namyn Duw nid oes ymddiried,
Namyn Duw nid oes gyvnerth,
Namyn Duw nid oes wared,
Namyn Duw nid oes bywyd,
Namyn Duw nid oes dim.
Catwg Ddoeth ai Cant.

173. Triodd Catwg Ddoeth.

1 Tri dyn anhawdd eu credu, rhodiadur o bell, darllenwr llyvyr anghyviaith, ac à vo hŷn no'i gymodogion.

2 Tri ovn á gadarnâa galon dyn, ovni gwedyd y cyvan á glywo gan arall, ovni trallwyddiant, ac ovni digiaw Duw.

3 Tri ovn á wanâa galon dyn, ovni dywedyd [1] y gwir, ovni tylodi advydig, ac ovni diawl.

4 Tripheth á gaif dedwydd, cariad perfaith, bywyd heddychlawn, a llawenydd nevawl.

5 Tair breniniaeth dedwydd, gair da y byd, cydwybod lawen, a gobaith cadarn am y byd à ddaw.

6 Tripheth á gaif y drwg annedwydd, tlodi, gair drwg, a phoen cydwybod.

7 Tripheth á gaif y gwallus, cywilydd, colled, a gwatwar.

8 Tripheth á gaif y divalch, amlder, llawenydd, a chariad ei gymodogion.

9 Tripheth á gair o godi yn fore, iechyd, cyvoeth, a santeiddrwydd.

10 Tripheth á gaif y cysgadur, cywilydd, aviechyd, ac advyd.

11 Tripheth á gaif y cywir, dawn, parch, a fyniant.

12 Tripheth à gaif anghywir, byd drwg, gair drwg, a diwedd drwg.

[1] Gwedyd.

13 Tripheth á gaif dyoddevus, cariad, heddwch, a'i wynvyd ar bob gwrthwynebiad.

14 Tripheth á gaif cynhenus, cynhen, cywilydd, ac anmharch.

15 Tripheth á gaif trugarawg, dawn, cariad, a thrugaredd Duw.

16 Tripheth á gair o hir ddilyn drwg, newyn, carchar, ac ufern.

17 Tripheth â gaif dwyvawl, digonedd bydawl, heddwch cydwybodawl, a llawenydd nevawl.

18 Tripheth á ddylid eu hystyr gan bob dyn, o ba le y daeth, yn mha le y mae, ac i ba le ydd â.

19 Tri chydymaith y diawl, balchedd, cenvigen, a thrais.

20 Tri anghyvartal byd, berthedd, cariad, ac angen.

21 Tri glŵth byd, mor, arglwydd, a dinas.

22 Tri dyn á ddygant eu dadleuon i ben yn hawdd, hael, doeth, a chyvoethawg.

23 Tri ardymyr einioes dŷn, gobaith, cariad, a llawenydd.

24 Tri magwriaeth traha, rhyvyg, cyvoeth, a rhysiant.

25 Tri buddugoliaeth doeth, urddas, greddv, a chanmawl.[1]

26 Tripheth over iawn, hustyng â byddar, hiraethu am varw, a chynghori gwraig yn erbyn ei gwyllys.

27 Tripheth ni wêl dyn hanner ei ddigon o honynt, einioes, iechyd, a chyvoeth.

28 Tri rhyw o dda y sydd ac nis byddir gwell erddynt, à gafer o anudon, à gafer o ddadlau anghywir ac yn erbyn cywir, ac à gafer am drevtadaeth oni phrynir tir o honynt neu gost mâb mewn ysgol.

29 Tripheth á yspeiliant lle delont, dwr, tan, a melldith Duw.

30 Tri chas á drig vyth, rhwng priawd a'i lysblant, rhwng cwn a moch, a rhwng Cymry a Saeson.

31 Tripheth rhaid aros yn hir cyn a'u cefir, cywirdeb o drachwant, doethineb o valchder, a chyvoeth o ddiogi.

32 Tri sail doethineb, synwyr i ddysgu, côv i gadw, a chymhendawd i adrawdd.

33 Tair gormes doeth, gwraig, diawd, a dryganian.

34 Tair bôst fôl, bostiaw maswedd, bostiaw cyvoeth, a bostiaw bonedd.

[1] Urddas, goddev, a chanmawl. Ll. ar.

35 Tri chwerthin fôl, am ben y da, am ben y drwg, ac am ben nas gwyr beth.

36 Tripheth nid call iawn ei gwneuthur, canu cloch i vyddar, pisaw yn erbyn y gwynt, ac addysgu henddyn.[1]

37 Tripheth á gaif pob diymgais a'i ddyled, tlodi, anmharch, a chydwybod vlin.

38 Tripheth à gaif gwr o dlodi, iechyd, addysg, a nawdd Duw.

39 Tripheth a ynnill gwr o ynnill cyvoeth, câs rhyngtho a dŷn, câs rhyngtho a'i hun, a châs rhyngtho a Duw.

40 Tri dyn y sydd, dyn i ddyn, dyn i Dduw, a dyn i ddiawl: dyn i ddyn a wna dda dros dda a drwg dros ddrwg, dyn i Dduw a wna dda dros drwg, dyn i ddiawl a wna ddrwg dros dda.

41 Tri cholled y corf a bair ynnill i'r enaid, colli cár, colli iechyd, a cholli cyvoeth.

42 Tri rhyw gelwydd y sydd: celwydd ar air, à bair i arall wedyd na vo gwir; celwydd ar weithred, à bair i arall weithredu yn erbyn y gwir; a chelwydd arddangos, neu o ymddwyn, à bair i arall veddwl a chredu y peth na vo gwir.

43 Tri dyn melltigedig y sydd, à doro orchymyn Duw yn ddietivar: ni wypo ddim o dda ac ni chais ei ddysgu, ac à wypo lawer ac nas dangoso i neb arall.

44. Tripheth nis gellir bod hebddynt, tudded, trwydded, a gwasgawd.

45 Tripheth gwell no chyvoeth, iechyd, rhyddyd, a synwyr.

46 Tripheth à ddylai gristion eu gwneuthur, ovni Duw yn vwy no dim, gwasanaethu Duw o vlaen neb arall, a charu Duw uwchlaw pob dim.

47 Tripheth angenrheidiawl i bechadur eu gwneuthur, cydnabod ei bechodau, ymgais â daioni, ac ymochel ag ai denai at ddrwg.

48 Tri gelyn enaid cristion, y byd, y cnawd, a'r cythraul.

49 Tri meddyg enaid, ympryd, gweddi, a chardawd.

50 Tripheth nis gellir ddim o dda hebddynt, gwir, heddwch, ac haelioni.

51 Tri ychydig à bair colli llawer, ychydig o anwydau drwg, ychydig o wall, ac ychydig o anghyviawnder.

[1] A throi meddwl henddyn. Ll. ar.

52 Tri chynghor Lasar, câr dy Dduw, canys eve a'th wnaeth; gobeithia yn Nuw, canys eve a'th gynnal; ac ovna Dduw, canys eve a'th varn.

53 Tripheth serchawg eu gweled, diriaid yn myned yn ddedwydd, cybydd yn myned yn hael, a phechadur yn myned yn santaidd.

54 Tripheth a ddyly gristion eu coviaw yn wastad rhag pechu yn varwawl, gorchymynion Duw, llawenydd nev, a phoenau ufern.

55 Tripheth sy'n arwyddocau vod dŷn yn gadwedig, casau pob drwg, caru pob daionus, ac ymgais â Duw ar weddïau.

56 Tripheth y sydd ar Dduw yn arbenigion, bod yn hollalluawg, yn ollgyvoethawg, ac yn olldrugarawg.

57. Tripheth à ynnill gariad Duw, fydd lân, gobaith cryv, a chariad diysgawg.

58. Tripheth a gymhellant i weddïo ar Dduw, hir glevyd, hir advyd, a hir dristyd.

59 Tripheth sydd yn gwaethygu y byd, seguryd, balchder, ac avraid.

60. Tripheth y sy'n trallodi y byd, cenvigen, llid, a thrachwant.

61 Tripheth y sydd ac nid dim hebddynt, nerth Duw hollalluawg, cariad Duw holldrugarawg, a doethineb Duw hollwybodawl.

62 Tripheth à ddysg dyn o vod yn segur, meddwl drwg, dywedyd yn ddrwg, a gwneuthur drwg.

63 Tripheth anhawdd i wir gristion eu gwneuthur, caru drwg, balchïaw yn ei ddâ, ac esgeulusaw ei ddyled i Dduw a dŷn.

64 Tripheth à ganlyn seguryd, campau drwg, gair drwg, a diwedd drwg.

65 Tripheth daionus i ddŷn, meddwl yn dda, gwedyd yn dda, a gwneuthur yn dda.

66 Tripheth ni all dŷn eu cuddiaw, cariad mawr, câs mawr, a chyvoeth mawr.[1]

67 Tripheth à arwain ddyn i dlodi, chwareuon, glythineb, a phuteindra.

68 Tripheth à gaif dŷn wrth ymgyvreithiaw, cost, goval, a thraferth.

69 Tripheth anhawdd i ddŷn eu gwneuthur yn gwbyl, adnabod ei hun, gorchvygu ei chwant, a chadw ei rïn.

70 Tripheth cyntav à dwyllant ddyn, geiriau têg, chwant ynnill, ac anwybodaeth.

[1] A synwyr mawr. Ll. ar.

71 Tripheth gwerthfawrocav i ddŷn, iechyd, rhyddyd, a rhinwedd.[1]

72 Tripheth ardderchawg ymhlith pethau bydawl, casâu folineb, caru rhinwedd, ac ymgais am ddysg yn wastad.

73 Tripheth sydd raid i gristion ryvela yn eu herbyn, y byd, y cnawd, a'r cythraul.

74 Tripheth sy raid wrthynt i wneuthur pob gwaith, gwybodaeth y modd ai gwnair, gallu iddei wneuthur, ac ewyllys iddei ddwyn i ben.

75 Tripheth à geidw gwr mewn iechyd, ymborth mesurawl, llavur cymmedrawl, a gwres noturiawl.[2]

76 Tripheth da pan vônt gymmesur, a drwg pan vônt anghymmesur, dŵr, tân, a gwynt.

77 Tripheth gwrthwyneb gan ŵr ymadael â hwynt, gwlâd lle ai ganed ac ai maged, ceraint à gavoedd yn gywir iddo, a chyvoeth à gasgloedd drwy lavur ei ddwylaw ei hûn.

78 Tripheth sydd yn cadw trevyn a dosparth ar bob peth o'r byd, rhiv, pwys, a mesur.

79 Tripheth à ddaw ar ddyn heb yn wybod iddo, cwsg, pechawd, a henaint.

80 Tri sylvaen doethineb, ieuenctid mabawl i ddysgu, ceudawd i gadw à ddysger, a synwyr call yn ymarver a gwybodau.

81 Tripheth à ddylai ddyn bryderu yn ddiysgog eu gwneuthur, gwrandaw yn uvydd, atteb yn gall, ac ymddangos yn wybodus.

82 Tripheth à ennillant enw da i ddyn, gwedyd ychydig, gwneuthur daioni, ac ymlavuriaw.

83 Tair cynneddyv ddrwg ar ddŷn, balchedd heb haelioni, trachwant heb gyviawnder, a llid heb drugaredd.

84 Tri modd y sydd i adnabod dŷn, ei ymadrawdd, ei ymddygiad, a'i arverion.

85 Tripheth anhawdd i ddŷn eu gwneuthur, oeri y tân, sychu y dwr, a boddloni y bŷd.

86 Tripheth à wna wr yn vlaenawr ar ei gymodogion, bod yn ddoeth, bod yn hael, a bod yn gyvoethawg.

87 Tripheth à bair i wr gariad ei gymodogion, bod yn heddychwr, bod yn gynnorthwywr, a bod yn hyforddwr.[3]

[1] A chydwybod lan. Ll. ar.
[2] Trafaelu cymmedrawl. Ll. ar.
[3] Bod yn athrywynwr. Ll. ar.

88 Tair cynneddyv anweddus ar ddŷn, bod yn daer ei gais, yn galed i roi, ac yn ddrwg ei dyb.

89 Tripheth canmoladwy ar ŵr, bod yn ddoeth ei ymadrawdd, yn gyviawn ei weithredodd, ac yn gochel pob gormodd.

90 Tripheth rhyvedd sydd yn y byd gan vod cymmaint o wahaniaeth rhyngthynt, wynebau dynion, llaverydd dynion, ac ysgriveniadau dynion.

91 Tripheth nid ydynt yn gorphwys un amser mewn dŷn, y galon yn gweithiaw, yr anadyl yn goreiliaw, a'r enaid yn meddwl.

92 Tri rhyw o ddynion anhawdd eu cael yn yr un meddwl, y call a'r fol, yr hael a'r cybydd, a'r cywir a'r twyllwr.[1]

93 Tri rhyw o ddynion à gollant eu har avwch yn debyg i rai allan o'u pwyll, helwyr, corelwyr, ac ymladdwyr.

94 Tri rhyw o ddynion y sydd heb bris am à vo iawn a chywir, meddwyr, anudonwyr, a bradwyr.

95 Tri rhyw o ddynion y sydd heb ovni Duw, bradwyr, treiswyr, a chybyddion.

96 Tri rhyw o ddynion cythreulig y sydd, bradwyr, cynllwynwyr, ac athrodwyr.

97 Tri dyn ni ddylid eu gwawdd i dŷ, twyllwr gwenieithus, testunwr gwatwarus, a bradwr cenvigenus.

98 Tripheth nid hawdd eu cael pan vyner, benthyg arian gan ocrwr yn ddilog, pleidiaw dadyl mewn llys cyvraith yn ddiwobrwy, a chiniaw moethusvwyd mewn ty cybydd.

99 Tri châs gan Dduw a chan ddyn, celwyddwr, cynhenwr, a chybydd angawr.

100 Tripheth angenrhaid i ddyn à elo i davarn, pen cadarn, bola gwydyn, a chôd drom.

101 Tripheth à geif dyn mewn tavarn, divyrwch ai gwna'n dlawd, digrivwch ai gwna'n bechadur, a llawenydd ai gwna'n drist.

102 Tripheth à bair amlâu gwahoddiadau i ddŷn, gwedyd ychydig, a'r hyn à weto'n gall ac athrawaidd; llawenydd tawel heb vawr ymdravod arno; ac ymddwyn anormesgar yn mhob peth.

103 Tripheth à bair i ddyn golli gwahoddedigaeth, bwyta gormodd, gwedyd gormodd, a cheisiaw gormodd.

[1] Lleidyr. Ll. ar.

104 Tair ymgais hardd a chanmoladwy ar ŵr, llavuriaw ei dir, amlâu ei wybodau, a chynnyddu mewn rhinwedd.

105 Tripheth à wna ysgrivenydd da, cov tragywyddawl am bob ardderchawg o gamp a gweithred, rhoi addysg dangosawl i'r oesodd ar ei ôl, a pheri cofâad a mawl iddei enw dros vyth.

106 Tripheth y gâd prydydd da ar ei ol, cov am voliannus, dyddanwch i'r meddwl, ac addysg i'r gwybodaethgar.

107 Tripheth à erys ar ôl pob dyn da rhinweddvawr, gair ac enw da iddo ei hun; addysg dda i'r etiveddion a'r lle y bu; ac amgerddediad da ar bob peth à dravodes ev ar ymddwyn a gweithred.

108 Tripheth gwell no golud y gâd deawydd iddei blant a'u hetiveddion, addysg o bwyll, addysg arddangos, ac annogiad i wneuthur val y gwnaeth yntau, achos y parch a'r clôd à gefir iddo.

109 Tripheth à wna ddyn dedwydd, ymwellâu beunydd yn ei vuchedd, ymvoddloni yn wastadawl i'r peth à vo, ac uvyddâu yn ddibaid i orchymynion Duw.

110 Tripheth ni vydd gwell yr etiveddion o honynt, golud cybydd angawr, clod cyveillion tavarn, a gorchestion chwaryddiaeth.[1]

111 Tripheth nid gwr un dyn hebddynt, gwraig, cartrev, a chelvyddyd.[2]

112 Tripheth hofaidd i wr eu meddu, gwraig rinweddus, ty trevnus, a thir cyvanneddus.

113 Tripheth à nerthant wr i ymgyvoethogi, gwraig yn casglu, tylwyth divrad, ac yntau'n lavuriad.

114 Tripheth à wnant wr yn hoenus, ei ei wraig yn ei garu, ei ymgais yn fynu, a'i gydwybod yn esmwyth.

115 Tripheth a welir ar ddedwydd, ei dylwyth yn ei garu, ei dda'n cynnyddu, a'i Dduw yn ei nerthu.

116 Tripheth canmoladwy ar wraig, ei hwyneb yn ddawnus, ei hymadroddion yn synwyrus, a'i harverion yn ddaionus.

117 Tripheth à barant gymmeriad mawr i ŵr, ei wraig yn dda ei champau, ei dir yn driniedig, a'i gynneddvau 'n rinweddus.[3]

[1] A gair am orchestion, &c. Ll. ar.
[2] Creft. Ll. ar.
[3] Ac yntau 'n ddedwydd, Ll. ar.

118 Tripheth à geif gwr o vod ei wraig yn rinweddus a da ei champau, ei dylwyth yn uvyddion o gariad arno, ei blant yn voneddig eu moesau, a pharch gan ei gymodogion.

119 Tripheth gweddus i ŵr eu bod yn ei dŷ, ei wraig yn ddiwair, ei dylwyth yn ddianair, a'i delyn yn ei chywair.

120 Tripheth cysurvawr i ŵr eu bod gantho, ei wraig yn ei wely, ei dân yn ei aelwyd, a'i arian yn ei gôd.

121 Tripheth à wnant ŵr yn voddlon iddei giniaw, ei wraig yn vedrus, ei vwyd yn voethus, a'i gylla'n iachus.

122 Tripheth hofaidd i ŵr ar ei giniaw, cyllell awchus, pwyned flaenllem, ac alawr glân.

123 Tripheth hof mewn teulu, trevyn dda, gwybodau daionus, a llawnder digonawl.

124 Tripheth à wnant annhrevnusder mewn tŷ a theulu, y gŵr yn veddwyn, y wraig yn ysgymun, a'r plant yn anhydyn.

125 Tripheth à bair i wraig gael tyb ddrwg am dani, bod yn chwannawg i gytgam â gwyr a gweision, bod yn chwannawg i amheuthynion, a gwedyd yn ddrwg am wragedd ei chymodogion.

126 Tripheth à wnant wraig yn anniwair, tegwch ei phryd, folineb yn ei phen, a balchder yn ei chalon.

127 Tripheth à wnant wr yn angenus, ei wraig yn voethus, ei dylwyth yn wallus, ac yntau'n avradus.

128 Tripheth ni ddygant i ŵr gymmeriad mawr, ei wraig yn veistres, ei dy'n anghynhes, a'i dir yn ores.

129 Tripheth anesmwyth ar wr yn ei dŷ, ei wraig yn ymdaeru, ei gronglwyd yn dyveru, a'i sawell yn mygu.

130 Tripheth gwell i ŵr ei grogi no 'u meddu, tylwyth anghywir, plant anuvyddion, a gwraig veddw.

131 Tripheth y fydd â gwyn ei vyd y dyn a'u cafo, iechyd corforawl, gwraig rinweddawl, a rhadverthwch Duw.

Ac velly terfyna.

174. Llyma drioedd y wraig dda.

Gwraig dda a ddylai vod—

1 Yn gwilyddgar, yn ddiystryw, ac yn uvydd.

2 Yn ddianllad ei meddwl, yn ddiavrad, ac yn gyviawn ei bwriad.

3 Y naill law'n casglu, y llall yn cyvranu, a'i phen yn pryderu.

4 Yn dda ei chydwybod, yn radlawn ei thavawd, ac yn gywir iddei phriawd.

5 Yn ddivalch ei chalon, yn hardd ei harverion, ac yn drugarawg wrth dlodion.

6 Ei gorchwyl yn gryno, yn vedrus ei dwylaw, ac ar Dduw yn gweddïaw.

7 Ei hymddyddan yn serchus, ei gwisg yn weddus, a'i thy yn drevnus.

8 Yn gyvlym ei llaw, yn gyvlym ei llygad, ac yn gyvlym ei deall.

9 Ei chorf yn lluniaidd, ei hymddwyn yn hofaidd, a'i chalon yn bur.

10 Ei hwynebpryd yn ddawnus, ei phen yn ddeallus, ac yn wybodus.

11 Yn gymodogaidd, yn ddivalch, ac yn haelionus ei meddwl.

12 Yn hyforddi'n gall, yn gwiliaw rhag gwall, ac yn meithrin ei phlant yn famawl.

13 Yn caru ei gwr, yn caru heddwch, ac yn caru Duw.

14 Yn voddlon i'r byd à vo, yn cynnal mesuroldeb ymhob peth, ac yn govalu am vod yn gyviawn.

15 Yn amcanu y goreu, yn gwarchadw rhag y gwaethav, ac yn gweled â vo reitav.

16 Yn rhoi bwyd yn ei bryd, yn gorwedd gyda'r ddavad, ac yn cwnu gyda'r hedydd.

17 Yn amyneddus, yn dangneveddus, ac yn rinweddus.

18 Yn voneddig ei moesau, yn roesawgar ei geiriau, ac yn gristionogaidd ei devodau.

19 Yn gymmedrawl ei geiriau, yn deall amserau, ac yn deuluaidd ei gwybodau.

20 Yn ddoeth ei llawenydd, yn wellêugar ei cherydd, ac yn gydwybodlawn ei chrevydd.

21 Yn vaddeugar, yn gymodgar, ac yn wirioneddgar.

22 Yn warcheidwad ei meddiant, yn athraw iddei phlant, ac yn veddyges ei theulu.

23 Yn difawd cynhenau, yn gwasgar gwybodau, ac yn rhoi y blaen i bob goreu.

24 Yn cywilyddiaw diriaid, yn llawenâu dedwydd, ac yn boddâu Duw.

A'r wraig à vytho val hyn á gerir gan ei gwr a'i theulu, a chan bawb ai hadnapo, a chan Dduw: a gwyn ei vyd y gwr ai mêdd.

Er hyny—

Rhyw wraig á gar myned lle myno, a a chael crêd ar á weto, a chafael à geisio,

a gwneuthur val y chwennycho, a gwareded Duw bob dyn rag hono.

A rhy amyl y gwelir y cyvryw wragedd.
Ac velly tervyna.

175.

Da vyddai genyv wybod mwy nog à wn am danat: dywed imi ba vath ydwyd o ddyn, ebai Daliesin wrth Gatwg, ac yn atteb iddo y dywed Catwg, gwell y dylit ti wybod am danav no mi vy hun, canys ti á glywi drach vy nghevyn y peth na ddaeth erioed i'm clust i am danav, a gwlâd á biau barnu, ac nid mi no neb arall â ŵyr yr holl wir am dano ei hunan.

176. Triodd ereill Catwg Ddoeth.

1 Tair camp ddwyvawl ar ddŷn, maddeu y cam à wnelir iddo, gwellâu pob peth à allo, ac ymwrthod â phob anghyviawn o ddyn ac o gamp.

2 Mèwn tripheth ydd ymdebyga ddyn i Dduw, cyviawnder, gwybodau, a thrugaredd.

3 Tripheth nis gellir hâr arnynt, amser, ehengder, a gwirionedd.

4 Tri y sydd ac nis gellir vyth iddynt eu llawn dâl, rhieni, athraw da, a Duw Dâd.

5 Tripheth goreu yn ein meddiant y dwg y balchder oddiarnom, ein arian, ein amser, a'n cydwybod.

6 Tair priv anvadgamp dŷn, llesgedd, twyll, a balchder.

7 Tair priv vadgamp dyn, diwydrwydd, cywirdeb, a gostyngeiddrwydd.

8 Tair priv ddwyvolgamp dyn, haelioni, cariad, a maddeu y cam à gafo.

9 Tripheth à gâr Duw, têg o rîv, têg o bwys, a thêg o vesur.

10 Tri adnabod anhebgor doeth, ei Dduw, ei hunan, a thwyll y bŷd.

11 Tripheth y dylai bob dyn eu hystyried, o ba le y daeth i'r byd, at ba ddyben y daeth i'r bŷd, ac i ba le ydd â o'r byd nis gwyr ba awr neu winced.

12 Tripheth y sydd, a buan yr un à allo gydgerdded ag wynt, llucheden, meddwl dyn, a chynnorthwy Duw[1].

13 Tripheth nis gellir eu cael, tlodi o roi cardawd, golud o ledrad, a doethineb o lwyddiant.

14 Tri dyn à vyddant wrth vodd Duw, athraw cywir, llavurwr da, a dyddiwr rhwng ymrysonau.

15 Tripheth dwyvawl yn mysg dynion, creft, llavuriaeth, ac ysgolêicdawd.

[1]Ac ewyllys da. Ll. ar.

16 Tripheth annwyvawl i ddyn ymyryd ag wynt, swydd arglwydd, ocryddiaeth, a rhyvel.

17 Tripheth ni chair heb i bob un ei gyvaill, dydd heb nos, diogi heb newyn, a doethineb heb barch.

18 Tripheth y sydd, cynghor, colled, a chywilydd, na chymmer o'r cyntav, á geif y ddau ereill.

19 Tripheth nid hawdd eu rhivo, banynau y goleuni, geiriau benyw siaradus, a a dichellion cybydd.

20 Tripheth à dyvant ynghyd, oedran, pechawd, a govid.

21 Tripheth y sydd ac wrthynt y bernir ar ddŷn, ei olwg, ei ymmod, a'i lavar.

22 Tripheth ydynt lai no dim, benyw heb ddiweirdeb, gŵr heb wybodau, ac athraw heb amynedd.

23 Tripheth yw rhan y goludawg, mwyvwy y trachwant, vwy y goval, a lleilai yr ymvwynâad.

24 Tripheth goreu yn y byd er llês dyn, tlodi, clevyd, a phlant; canys o'u meddu y cair gwybod llawer gwir nis gellid hebddynt.

25 Tri meddyg annifygiawl i bob clwyv a chlevyd, anian, amser, ac amynedd.

26 Tripheth à geir o dylodi, iechyd, pwyll, a santeiddrwydd.

27 Tripheth nid gwell eu cael no'u colli, trallwydd, trachlod, a thraurddas.

28 Tri anverth byd, ieuanc heb voes, gwraig heb gywilydd, a gŵr heb gydwybod.

29 Tri gwynvyd gwr doeth, tir rhywiawg, gwraig ddiwair, a mâb addwyn.

30 Tripheth ni waeth bod hebddynt no'u meddu, llygad dall, cell heb vwyd, a cheudawd heb ddysg[1].

31 Tripheth o reddv á ddygant eu perchenogion ar gyveiliorn, ieuenctid, llwyddiant, ac anwybodaeth.

32 Tri chydvod doethineb, haelioni a golud, gwybodau ac anmalchineb, a dewrder a thrugaredd, ac nid na doeth na gwr lle nis cefir yn nghydvod y pethau hyn.

33 Tripheth à ddygant wr drwy y byd, iechyd, creft, a champau da.

34 Tripheth à geif cybydd o'i gyvoeth, poen yn casglu, goval yn cadw, ac ovyn colli.

35 Tripheth à ddygant eu cyrch ar y gwanav, gelyn, cyvoeth, a balchder.

36 Tripheth na chreder dros yr hanner á

[1]A cheudawd heb wybodaeth. Ll. ar

vostier o honynt, am olud, am ddeall, ac am ddaioni.

37 Tripheth na ddangos i neb y cyvan o honynt, à vo yn dy gîst, à vo yn dy ddeall, ac à vo yn dy veddwl, canys o veddu, a deall, a meddwl vwy ac yn amgen nog arall y bernir mawredd arnat.

38 Tripheth ni ddengys gwr à vo call, gwaelawd ei gôd, gwaelawd ei wybodaeth, a gwaelawd ei galon.

39 Tripheth à ddylid eu frwynaw'n dda, march ieuanc nwyvus, merch ieuanc ammhwyllus, a thavawd siaradus.

40. Tripheth tebyg y naill i'r llall, ysgubawr dêg heb yd, fiol dêg heb ddiawd, a merch dêg heb ei gair da.

41 Tripheth ys dir cael o honynt gant govid am un dyddanwch, helwriaeth, rhyvel, a serch ar venyw.

42 Tripheth à yr gwr[1] o'i dy, cronglwyd ddyverllyd, sawell vyglyd, a gwraig geintachlyd.

43 Tripheth nid da y cyvan o honynt, gwneuthur y cyvan à chwennycho lid, credu y cyvan à weto ben gwlâd, a dangos y cyvan à wyper.

44 Tripheth mawr o ymchwydd ymborth ar waed, gele, horen, a rhyvelwr.

45 Tri da iawn yn weision, a drwg iawn yn veistri, tân, dŵr, a gwynt.

46 Tripheth er cael beunydd á geisiant yn ddiorphwys, môr, meddwyn, a chybydd.

47 Tripheth a droant y byd wyneb i waered, pendodaeth gwraig, digywilydddra merch, ac anwybodaeth mâb.

48 Tripheth à wnant briodas hapus, cydoedran, cydvonedd, a chydveddiant.

49 Tri dyn nid call eu credu, dierth am ei vonedd, hen yn canmawl y dydd à vu gynt, a gwr à vostio ei ddoethineb.

50 Tripheth ni welir ymgais arnynt ond mewn eisieu mawr, Duw, hen gefyl dall, a chachdy.

51 Tripheth gogyval a'u gilydd, cerdded ar ben a dwylaw, llyvu y baw oddiar din arall, a bod yn valch rodresgar yn ceisiaw mawredd byd.

52 Tripheth cyfelyb iddeu gilydd, cleddyv gloew à ryda o'i hir gadw yn ei wain, dwr gloew à ddrewa o hir sevyll yn llonydd, a doethineb à vydd varw o'i hir anarver.

53 Trichardawd i'r oes à ddêl, planu coed, gwellâu celvyddyd, a magu plant yn ddeddvolion.

54 Tripheth à wnant lawnder mewn gwlâd, plànu coed, llavuriaw tir, a chribaw a nyddu.

55 Tripheth a ddylid sylwi'n bènav ar bob peth, anian, agwedd, a gweithred.[1]

56 Tripheth à bair iechyd, gwaith cymmedrawl, ymborth cymmedrawl, a llawenydd cymmedrawl.

57 Tri ymborth dyn à barant iechyd, hiroes, a synwyr gloew, ydvwyd, blithvwyd, a garddvwyd.

58 Tri ymborth à barant aviechyd, byroes, a synwyr pŵl, cigvwyd, cyveithvwyd, a gwyrawdvwyd.

59 Tair cynneddvgamp ar ddyn ai parant yn iachus a hiroedawg, gwaith o lavuriaw'n gymmedrawl, codi'n fore, a llawenydd diniwed.[2]

60 Tair cynneddvgamp ar ddyn à barant vyroes ac aviechyd, trallavur, trachwsg bore, ac anynadrwydd.[3]

61 Tri newid mynych à barant hiroed, newid bwyd, newid gwaith, a newid dyddanwch.

62 Tripheth o'u hadver à estynant einioes dŷn, y wlad ai magwys yn blentyn, yr ymborth ai maethwys yn blentyn, a'r divyrwch ai dyddanwys yn blentyn.

63 Tri ychydig ar y pryd à wnant lês mawr, ychydig o vwyta ac yved, ychydig o oval, ac ychydig o davawd.

64 Tripheth da i ŵr a garo iechyd, digon o gwsg y gwanwyn, digon o vwyd yr hâv, a digon o dân y gauav.

Ac velly tervyna hyn o driodd Catwg Ddoeth.

177. Triodd ereill.

1 Tri anrhydedd bydawl goruch pob un arall, aredig trev tâd, arddadlu hawl yn dda, a dwyn plant ar vonedd.

2 Tripheth nid oes namyn dedwydd neu ddoeth à veidyr ymochel ag wynt, godineb, med lwdawd, ac overedd.

3 Tri dyn iawn rhoddi bwyd iddynt, ymdeithydd, golychwydwr, a llavurwr.

4 Tri charelyn dyn, tân, dwr, ac arglwydd.

5 Tri gorvoledd dedwydd, dirwest, tangnevedd, a gwadaledd.

6 Tri gorvoledd diriaid, glythineb, ymladd, ac anwadalwch.

7 Tri bendith ni adant ar ddyn na ne-

[1] A yrant wr.

[1] Anianoldeb, agweddoldeb, a gweithredoldeb. Ll. Twm Sion ab Evan.

[2] Llavur cymmedrawl. Ll. ar.

[3] Anghymmedrolwaith, sev y naill ai rhywaith ai rhyddiogi, hirgwsg bore, ac anvoddlondeb. Ll. ar.

wyn na noethni, bendith ei dad fydd, bendith ei arglwydd priodawr, a bendith bardd llinolingerdd.

Tri bendith arall y sydd well no'r cyvan, bendith tad a mam, bendith clav a chlwyvus, a bendith dyn advydig.

9 Tripheth à ardderchavael gŵr, gwraig ddiwair ddiwyd, arglwydd diwyd diwith, a difleisedd.

10 Tripheth à ddarostwng gŵr, tir drwg, gwraig ddrwg, ac arglwydd tir drwg.

11 Tri rhyvel yn heddwch, gwraig ddrwg, tir drwg, a drwg arlwydd.

12 Tri ymborth gŵr, hela, aru tir, a chyvnewid.

13 Tri thywysogaeth dedwydd, bod yn dda ei wasanaeth, yn dda ei anian, ac yn dda ei gyvrinach: a hyny ni chyngain namyn a chrevyddus neu voneddig.

14 Tri glŵth byd, brenin, môr, a dinas.

15 Tripheth à syrth ar ddyn heb yn wybod iddo, cwsg, henaint, a phechawd.

16 Tri melus byd, methu, fynu, a phechu.

17 Tri chadarn byd, arglwydd, drud, a diddim.

18 Tripheth ni ellir yn iawn hebddynt er maint à wnelont o ddrwg, tan, dwr, a brenin.

19 Tri merthyrolaeth heb ladd, haelder tylawd, diweirdeb dyn ieuanc, a chaingynnal heb gyvoeth.

20 Tripheth nid hawdd eu hofi, milgi hwyr, bardd annigriv, a gwraig hagyr.

21 Tri dyn à ddylid bod yn drugar wrthynt, alltud, gweddw, ac amddivad.

22 Tripheth à ddylid eu diolch, gan hawsed hyny o dal am danynt, gwahawdd, anrheg, a rhybudd.

23 Tripheth à gynnal hir ddireidi ar ddyn, drygioni, dryganian, a glythineb.

24 Tri chadernyd dedwyddyd ar ddyn, cynneddvau daionus, hawddgarwch, a goddevusder.

25 Tri rhwydd hynt, golychwyd, ciniaw, a chydymaith da.

26 Tri avrwydd hynt, diaspad, dryghin, ac ymladd.

27 Tri gogyvlawnder dedwyddyd, caingynnal [1] arno ei hun, dadlau syniannus. ac ymoddev yn gadarn.

28 Tripheth hardd ar ddyn, gwybodaeth, campau da, ac addvwynder.

Cainymgynnal.

29 Tripheth câs ar ddŷn, anwybodaeth, dryggampau, ac atgasrwydd.

30 Tri anhebgor gwybodaeth, calon yn meddwl, iaith i ddadgan, a cheudawd i gadw.

31 Tri chyw o'r un nyth, fermwr tavawd,[1] bardd dosparth, a dwyvawl cyfes.

32 Tripheth à gywirant eu gair yn ddiffuant, angeu, dial Duw, ac ediveirwch.

33 Tripheth ni oddevant gellwair, iechyd, llwyddiant, ac amser.[2]

34 Tripheth ni ellir santeiddrwydd lle bythont, gloddest, balchder, a thrachwant.

35 Tri nôd santeiddrwydd, cariad perfaith, uvydddawd gwrawl, a thawedigrwydd serchawg.

36 Tri nôd lleidyr, tavawd holgar, llygad chwilgar, ac wynebpryd brawychus.

37 Tripheth à ddengys gywiriad, genau tawedawg, llygad diymdawr, ac wyneb divraw.

38 Tripheth anhebgor tuag at wneuthur pob peth, gwybodaeth, gallu, ac ewyllys.

39 Tripheth à geif dedwydd, cariad, heddwch, a llawenydd.

40 Tripheth à geif diriaid, casineb, cystrin, a thristwch.

41 Tripheth gwrawl uvyddâu iddynt, i'r gwir, i'r byd à ddêl, ac i'r ceiliawg pylgain.

42 Tri châs Duw a dyn, golwg ymladdgar, tavawd twyllodrus, ac asbri drygionus.

43 Tripheth nid da myned yn eu cylch mewn brys, rhyvela, gwleddoca, a dadlaethu.

44 Tri nôd doethineb, cartrevgarwch, ymgais, ac amynedd.

45 Tripheth goreu gadael iddynt, ci dieithyr, lliv disyved, a doeth yn ei olwg ei hun.

46 Tri harddwch gwlâd, ysgubawr, cvail, ac ysgol.

47 Tripheth, er eu dryced, gwell eu meddu no bod hebddynt, ofeiriad, brenin, a gwraig.

48 Tri anfawd llavurwr, gwas diawg, hâd lledryw, a thir tragolwg.

49 Tripheth anghysurus, ty heb wraig, cell heb vwyd, a chorf heb iechyd.

50 Tripheth ar ddyn sy'n boddâu Duw, cyviawnder, trugaredd, ac uvyddawd.

Aç velly tervyna.

Catwg Ddoeth ai cant.

[1] Creftwr tavawd. Ll. ar.
[2] Ac oedran. Ll. ar.

178. Llyma etto driodd Catwg Ddoeth.

1 Triodd Catwg ab Gwynlliw à ddysgant dripheth, boddâu Duw, llesâu dŷn, a gwellau gwybodau a syberwyd.
2 Tri chyverddonau dyn, deall, cariad, a goluch.
3 Tri ardymhyr einioes dyn, gobaith, cariad, a llawenydd.
4 Tripheth à geif dyn goddevus, cariad dynion da, bodd ei gydwybod ei hunan, a rhadverthi Duw.
5 Tripheth à geif tyn trugarawg, cariad y byd, tangnev calon a meddwl, a bôdd Duw.
6 Tri chosp y sydd am bechawd, cosp cyvraith gwlad, cosp cydwybod, a chosp Duw.
7 Tripheth à geif dyn o gredu yn Nuw, digonedd bydawl, tangnev cydwybodawl, a llawenydd nevawl.
8 Tripheth sy'n dallu y byd, twyll, goruchaviaeth, a thraserch ar ddyn a dynolion.
9 Tripheth sy'n arwain y byd ar ddidro, addewidion arglwyddi, gwisgodd myneich, a syberwyd merch.
10 Tripheth à drallodant y byd, cenvigen, anwiredd, a thrachwant.
11 Tri phriv lygredigaeth y byd, balchder, glythineb, a seguryd.
12 Tripheth à nerthant ddyn i sevyll yn erbyn yr holl vyd, gweled ansawdd a phrydverthwch gwirionedd, gweled dan bais y celwydd, a gweled y modd y mae y gwir a'r celwydd yn diweddu.
13 Tripheth à geif dedwydd, cariad, heddwch, a llawenydd.
14 Tripheth angenrhaid i bechadur, cydnabod ei bechodau, edivarâu, ac ymegnïaw daioni yn iawn am danynt.
15 Tripheth y sydd a'r naill yn debyg i'r llaill o honynt, hen varch dall yn canu telyn a'i garnau, hwch mewn sidanwisg, ac annhrugarawg yn ymddadwrdd am ddwyvolder.
16 Tri addysg y rhydd seguryd, i veddwl yn ddrwg, i wedyd yn ddrwg, ac i weithredu'n ddrwg.
17 Tair ysgol doeth, cydwybod, pwyll, ac addysg.
18 Tair ysgol annoeth, cosp cyvraith, dygwydd drwg yn mywyd, ac ufern yn y byd à ddaw.
19 Tri chadernyd doethineb, cov, ystyr, ac arver.
20 Tripheth anweddus ar ddyn, tybied ei hunan yn ddoeth, tybied arall yn annoeth, a thybied y gwedd iddo à vyno.
21 Tri ychydig à ddangosant lawer o ddoethineb, ychydig balchder, ychydig trachwant, ac ychydig chwedleua.
22 Tripheth serchawg ar ddŷn, tangnevedd, doethineb, a charedigrwydd.
23 Tripheth ni waeth eu colli na'u cadw, cyvoeth, ieuenctyd, a chariad y byd.
24 Tripheth y sydd a gwâe a'u collo, gwybodau doethineb, cydwybod lân, a chariad Duw.
25 Tripheth y sydd a melltigedig y neb a'u symuto, fin tir, hynt dwr, ac arwydd fordd ac arllwybyr.
26 Tripheth à wnânt ŵr yn vlaenawr ar ei gymodogion, meddiannau, gwybodau, a haelioni.
27 Tripheth à geif dyn diwyd, blaenoriaeth, cyvoeth, a chlôd gan ddoethion.
28 Tripheth à geif dyn cywir, dawn, a pharch, a fyniant.
29 Tri ynnill dyn dedwydd, cariad ei wlâd, heddwch dioval, a llawenydd nevawl.
30 Tri ynnill dyn dyoddevgar, cariad, llonyddwch, a chynnorthwy.
31 Tri hardd byd, dwyvawl, celvydd, a syber.
32 Tri pheth ar un à vydd, ac anhawdd yw cael ar arall eu cyvunwedd, wyneb, llavar, a deall.
33 Tair fynon gwybodaeth y sydd, pwyll, ansawdd, a gorvod.
34 Tripheth a ddylai ddyn à vynai addysg, gwrandaw yn graf, golygu yn graf, a thewi yn ddidoriant.
35 Tri dyn gwahanryw y sydd, dyn i Dduw à wna dda dros ddrwg, dyn i ddyn à wna dda dros dda a drwg dros ddrwg, a dyn i ddiawl à wna ddrwg dros dda.
36 Tripheth y sydd ac nid hawdd ynnill dyn oddiarnynt, ei gred, ei awen, a'i genedyl.
37 Tripheth à geif gŵr o deithiaw i wlâd estrawn, newyn, anwyd, a gwatwar.
38 Tair llathvesur pob dŷn, ei Dduw, ei ddiawl, a'i ddidawr.
39 Tripheth à gair o ddilyn drwg; cywilydd, colled, a chosp.
40 Tripheth à ddylai à gafo gymwynas, ei ddiolch, ei goviaw, a thalu y pwyth.
41 Tripheth à ddylai bob un ei wneuthur, gwrandaw'n uvydd, atteb yn gall, a barnu'n hynaws.
42 Tair camp à ddangosant ddoethineb,

dyoddev yn gall, meddeu y cam, ac ymgais am wybodau.

43 Tripheth â ennillant enw da, gwedyd ychydig, gwneuthur daioni, a llavuriaw am gynnaliaeth.

44 Tair fordd yr adnebydd dyn, ei ymadroddion, ei arverion, a'i gyveillion.

45 Tripheth sy'n cadw y byd mewn trevyn, rhiv, pwys, a mesur.

46 Tair cynneddyv anweddus ar ddŷn, taerni cais, caled i roi, a drwg dybiaw.

47 Tripheth à gadwant gorf a meddwl mewn iechyd, ymborth mesurawl, llavur cymmedrawl, a llawenydd cydwybodawl.

48 Tair afaith cynghor, dwyn ewyllys da, rhyddyd llavar, a gwybodaeth parth ac at yr achos.

49 Tri athrawon ynïau dŷn, synwyr awenaidd o reddv ac anian, pwyll o ystyriaeth a chydwybod, a damweinoldeb cylch einioes, ac hebddynt nis gellir gwybyddiaeth gyviawn.

50 Tripheth anhawdd eu cael; tân oer, dwr sych, a thrachwantus deddvawl.[1]

51 Tripheth anhawdd eu gwneuthur, tori syched â thân, sychu y gwlyb â dwr, a boddloni y byd.

52 Tripheth ni adant ddyn mewn newyn a noethni, bendith tylawd a thraHodus, bendith arglwydd priodawr, a bendith bardd llinolingerdd.

53 Tripheth ardderchawg ar ddyn; gwroldeb, dysg, a phwyll.

54 Tripheth o'u tra arver á vyrâant einioes dyn, cigvwyd, meddwdawd, a thrachyd â gwraig.

55 Tripheth o'u hadver à estynant einioes dyn, y wlâd ai magwys yn blentyn, yr ymborth ai maethwys yn blentyn, a'r myvyrdawd ai dyddanwys yn blentyn.

56 Tripheth gwell no chyvoeth, iechyd, rhyddyd, a phwyll.

57 Tripheth à gryvâant y meddwl a'r deall, gweled llawer, ystyried llawer, a dyoddev llawer.

58 Tripheth a gryvâant y corf, gorwedd ar wely caled, wybren oerllyd, a bwyd sych.

59 Tripheth à ddichonant bob peth, ac hebddynt nis gellir dim, nerth corf a a meddwl, gwybodaeth, a serch awenbwyll.

60 Tripheth nis gellir deddvoldeb o Dduw hebddynt, maddeu gelyn a chamwedd,

[1] Dwyvawl. Ll. ar.

haelioni barn a gweithred, a glynu wrth à vo cyviawn deled à ddelo.

61 Tripheth à geif dyn cywir, fyniant, anrhydedd, a diwedd da.

62 Tripheth à geif dŷn twyllodrus, drygvyd, drygair, a drwg ddiwedd.

63 Tripheth à geif dŷn deddvawl, iechyd, llwyddiant, ac anrhydedd.

64 Tripheth à geif dyn o godi'n fore, iechyd - corforawl, cyvoeth bydawl, a bywyd tragywyddawl.

65 Tair bost fôl, ei gyvoeth, ei vonedd, a'i oferedd.[1]

66 Tripheth à vostier ar ddoeth, ei ddeall, ei gelvyddyd, a'i gynneddvau dâ.

67 Tri chwerthin fôl, am ben y drwg, am ben y dâ, ac am ben nis gŵyr beth.

68 Tripheth à geif dyn govalus, parch, amledd, a boddlonedd,

69 Tripheth a geif dyn gwallus, cywilydd, eisiwedu, a galar.

70 Tripheth fy'n harddu meddwl, casau folineb, rhinwedd hylaw, ac awydd dysgu.

71 Tripheth ardderchawg ar ddyn, caru gwybodaeth, gwneuthur daioni, a bod yn gyviawn yn yr hyn à wnelo.

72 Tri thwyll dŷn, gair têg, chwant ynnill, ac anwybodaeth.

73. Tri dŷn ymgadwer rhagddynt: yr avlawen, y testunwr, ac à chwarddo am ben y drwg.

74 Tri gevellod cyntavanedig y cythraul, balchedd, anwiredd, a chenfigen.

75 Tripheth à geif dyn divalch, esmwythder meddwl, cariad ei gymodogion, ac awenbwyll ddwyvawl.

76 Tripheth à geif dyn dedwydd, llwyddiant, anrhydedd, a thangnev cydwybod.

77 Tripheth y ceif dyn annedwydd, dirmyg, avlwyddiant, a phoen meddwl.

78 Tripheth à gair o dlodi, iechyd, pwyll, a nerth Duw.

79 Tripheth à geif dyn dwyvawl, gair dâ, byd dâ, a diwedd dâ.

80 Tri dŷn nid call credu gormodd iddynt, rhodiadur o bell, darllenwr llyvrau anghyviaith, a gwr hŷn no'i gymodogion.

81 Tri cholled y corf à bair ennill i'r enaid, colli golud a meddiant, colli iechyd corforawl, a cholli câr a chyvaill.

[1] A'i vaswedd. Ll. ar.

82 Tri chynghor Lasar, car dy Dduw a'th wnaeth o ddim, ymgais a Duw a'th brynwys a gwaed ei Vab Iesu Grist, ac uvyddâa i Dduw a'th varn drwy air ei Vab Iesu Grist.

83 Tri athraw dŷn, un yw dichwain, sev addysg o weled a chlywed; ail yw deall, a hwnw á ddaw o ytsyr ac ymbwyll; trydydd yw awen yniawl o ddawn Duw yn radverthwch cynhenid.

84 Tair priv ddyledswydd dŷn parth gwlad[1] a theulu, ynnill meddiant drwy ddiwydrwydd a chywirdeb; llesau ei wlad a'i genedyl ymhob gorchwyl à wnelo; a gyru addysg deddvoldeb ar bob un lle ydd elo.

85 Tri ovyn à gadarnâant galon dŷn, ovni credu y cyvan à glywo gan arall, ovni llwyddiant bydawl, ac ovni anvoddau Duw.[1]

86 Tri ovyn à wanâant galon dŷn, ovni gwedyd y gwir, ovni advydigrwydd, ac ovni diawl.

87 Tair sylvaen deddyv a chynneddyv, trevn, cyviawnder, a thangnev.

88 Tripheth canmoladwy ar ŵr, ymaddrawdd doeth, trevnu 'n hardd, a gweithredu 'n gyviawn.

89 Tri diogelder dyn, iechyd, rhyddyd, a chydwybod dda.

90 Tripheth anhawdd i ddyn eu gwneuthur yn gwbyl, adnabod ei hun, gorchvygu ei chwantau, a chadw ei rîn.

91 Tripheth à gynnail gŵr ymhob peth à wnelo, serch ar à wnelo, gwybod y modd ai gwneler, a bod cyviawn yn marn cydwybod ai gwnelo.

92 Tripheth à geif gŵr o'i gyvoeth trais, cas rhyngtho a dyn, cas rhyngtho a'i hun, a chas rhyngtho a Duw.

93 Tripheth serchawg eu gweled, diriaid yn myned yn ddedwydd, cybydd yn myned yn hael, a phechadur yn myned yn ddwyvawl.

94 Tripheth à ellir o gyvoeth cyviawn, digonedd bydawl, llusendawd brawdawl, a dàioni gwladawl, ac o'r tri hyn bodd Duw nevawl.

95 Tripheth à eilw fôl yn anmhwyll, ceisio gwybodaeth döed à ddêl, rhoddi cardawd heb veddwl am à ddêl, a dyoddev dros wir a chyviawn heb ovni am à ddêl.

96 Tripheth ni ellir cudd arnynt, cariad, câs, ac awenbwyll.

[1] Digiaw Duw. Ll. ar.
[2] Santaidd. Ll. ar.

97 Tripheth hawdd eu gweled lle bont, cyvoeth, gwybodaeth, a gwroldeb.

98 Tri chelwydd y sydd, celwydd ar air à bair i arall wedyd y peth na vo gwir, celwydd ar weithred à bair i arall weithredu o grêd yn erbyn à vo gwir, a chelwydd ymddwyn â rhîth, à bair i arall veddwl a barnu yn wrthwyneb i'r gwir.

99 Tripheth à wnant ŵr yn hoenus, ei wraig yn ei garu, ei orchwyl yn llwyddaw, a'i gydwybod wrth vodd Duw.

100 Tripheth y dylai ddyn eu cadw yn wastadawl o vlaen ei lygaid, ei ddyledswydd bydawl, ei gydwybod, a deddvau Duw.

Ac velly tervyna—Catwg Ddoeth ai Cant.

179. Triodd etto amryval.

1 Tripheth nid hawdd eu hattal, frwd rhaiadyr, saeth o vwa, a thavawd ynvyd.

2 Tripheth ni hir barâant, têS Mawrth, bwa y gwlaw, a pharch cellweirgar.

3 Tri nôd cristion, caru gelyn, celu à wna o ddaioni, a chymodi rhwng caseion.

4 Tair athrawiaeth nid call a'u crêd, â rotho gŵr yn mhlaid à vo ar ei lês a'i lwyddiant ei hun, à rotho ag ynddi gâs at arall, ac á rotho gŵr doeth yn ei olwg ei hun.

5 Tri dyn nyw mawr gerir, balch, llwvyr, ac achwyngar.

6 Tri dyn hawdd eu hebgor, na wnelo lês i neb, na pharo lawenydd i neb, ac nas gadawo lonyddwch i neb.

7 Tair priv gynneddyv y sydd ar ddyn i ddiawl, balchder cenvigenus, cybydd-dra trachwantus, a gweniaith dwyllodrus.

8 Tri chynghor yr aderyn melyn, na vawr alara am à ddarfo, na chrêd yr hyn na allo vod, ac na chwennych na allech ei gael.

9 Tripheth à yrant ŵr allan o'i dŷ, mwg, to anniddos, a gwraig anynad.

10 Tripheth sy 'n dyvethu y bŷd, brenin fôl ei gynghor, ynad heb gydwybod, a mab heb ovyn.

11 Tri nôd cywir y sydd ar ddŷn i ddiawl, ac nis gall ymddyhebu ag wynt, ei air, ei olwg, a'i ymmod.

12 Tri gwreiddyn pob drwg, trachwant, celwydd, a balchder.

13 Tair cynneddyv y sydd yn nglyn a dyn i ddiawl, trachwant, cenvigen, a balchder.

14 Tripheth ebrwydd y darvyddant, rhyvyg heb urddas, cadernyd heb gydwybod, a golud heb gyviawnder.

15 Tri nodau cywirion ar ddyn à ddangosant beth ydyw, gair, gowg, ac ymddwyn.

16 Tri chynghor à roddes Branwen verch Llyr, na ddwg alar am a ddervydd, na chrêd yr hyn na ddychyn vod, ac na chais nas gallot ei gael.

17 Tripheth à ddifeithiant y byd, brenin fôl heb gynghor, barnwr heb gyviawnder, a gwas heb ovyn.

18 Tripheth ni hir barâant, rhwysg heb urddas, cadernyd heb gydwybod, a pharch heb haeddiant.

19 Tri dyn ni vyddant wyrynigion vyth, à wreicäo wrth gynghor ei gnawd, à wleddo wrth gynghor ei vlys, ac ac à ymladdo wrth gynghor ei wŷn.

20 Tri dedwyddwch teulu, gwarcheidwad cywir, bugail govalus, a negeswr doeth.

21 Tair dedwyddgamp gŵr, bôd yn llawen yn ei dŷ, bod yn dda yn ei eglwys, a bod yn ddyddiwr rhwng ei gymodogion.

22 Tripheth nid hawdd eu gweled, balch yn hael, ieuanc yn ddoeth, a hên yn voesgar.

23 Tripheth ni wnant avles i neb, celu drygvoes, rheoli drygnaws, a difawd drwg veddwl.

24 Tripheth à geif gŵr deddvawl, digonedd bydawl, heddwch ysbrydawl, a llawenydd nevawl.

25 Tripheth à wnant ddyn yn ddiawl, balchder, cenfigen, a lledrad.

26 Tripheth ni cheir ddyn à welo 'n ddigon o honynt er à gafo, iechyd, hoedyl, a chyvoeth.

27 Tri dyn à gerir gan Dduw, cadarn cyviawn, dewr trugarawg, a hael diedivar.

28 Tripheth à ŵyrant varn gyviawn, cariad cyveillion, ovyn cedyrn, a chwant da bydawl.

29 Tri glŵth byd, mor, dinas, ac arlwydd.

30 Tripheth ni mad-ddiwedd a'u hymddirieto, iechyd yn henaint, hindda y gauav, a gwynfyd o bethau y byd.

31 Tripheth à dwyllant à ymddirieto iddynt, addewid gordderchwr, fyddlondeb taiawg, ac amser ieuenctyd.

32 Tripheth nid oes ond y twyll o honynt, serch trythyll, diniweidrwydd arglwyddiaeth, a dwyvoldeb clâv gwelyvawg.

33 Tripheth ni ddylid eu credu, breuddwyd hên wrach, llw gordderch, a chwedyl heb warant.

33 Tripheth à geif cybydd angawr, poen yn casglu, goval yn cadw, a thristwch yn colli.

35 Tair sail doethineb, dysg yn ieuenctid, cov yn cadw, a synwyr yn deall.

36 Tripheth ni ddervyddant vyth, cardawd vlodeuawg, enaid dyn, a chariad perfaith.

37 Tripheth nid oes namyn Duw a'u gŵyr, dechreu pob peth, achos pob peth, a diwedd pob peth.

38 Tri gavael y sydd ar Dduw, deall pwyllgar, cariad goddevgar, a chydwybod ystyrgar.

39 Tri phriv roddedigion Duw, awen, deall, a rhadverthwch.

40 Tripheth à ddygant ddyn at Dduw, amynedd, cariad, a chydwybod.

41 Tair priv gynneddyv dwyvoldeb, deall yn gyviawn, cariad perfaith, a goddev cadarn.

42 Tri chyverlyniaid doethineb, awen, ystyr, ac ymgais.

42 Tri chyverddonau doethineb, gwarâu gwylltovaint, mwyâu tangnev, a gwellau deddvau.

44 Tri rhagweinyddiaid doethineb; addysg ddeddvawl, arver weithredawl, a serch awenawl.

45 Tri arddangos awen o Dduw, ymddwyn doeth, ymgais er gwell, ac ymddal ar bwyll.

46 Tri arddangos doethineb, ymddal ar bwyll, ymddal ar awen, ac ymddal ar welliedigaeth.

47 Tripheth à ddyvydd o dangnev, amlâad meddiannau, gwellâad moesau, a mwyâad gwybodau.

48 Tripheth ni waeth bychodedd no gormodedd onaddynt, gwleddoldeb, goludoldeb, a boddoldeb.

49 Tri dyn goreu pa bellav y bont, gwenieithwr truthgar, athrodwr cynhengar, a chwedleuwr celwyddgar.

50 Tri chydgyveillion prifordd y nevodd, tlawd amyneddgar, doeth ymbwyllgar, a gwelliedydd goddevgar.

51 Tri dyn ni welir amgen iddynt no chas yn vyw a chlôd yn varw, doeth tangnevgar, athraw gwireddgar, a chyvaill cywir cerydd gar.

52 Tri arddangos dynoldeb, haelioni serchus, ymddwyn cariadus, a gwybodau moliannus.

53 Tripheth ni lwydd à el yn eu herbyn, anianoldeb, govynoldeb, a darweiniol deb.

54 Tri rhyvedd byd, caru rhyvel yn vwy no heddwch, caru gormes yn vwy no chymmes, a charu gau yn vwy no gwir.

55 Tripheth à ddylid eu dambwyll ar bob dyn, 'nertholdeb, tueddoldeb, a devnyddiol deb.

56 Tri gwrthgevnyddion daioni, balchder, llîd, a thrachwant.

57 Tri chyvodolion[1] doethineb; deall, ystyriaeth, ac addysg.

58 Tri rhagvodolion doethineb; deddvoldeb, tangnevoldeb, a dwyvoldeb.

59 Tri chyvystyr doethineb; rheidioldeb, moddoldeb, a buddioldeb.

60 Tripheth à gau yn erbyn doethineb, balchder, trachwant, ac ovnoc rwydd.

61 Tri harddwch gwlad, llavuriaeth ddeallus, cymydogion cydvyddus, a llywodraeth gydwybodus.

62 Tripheth à bair llwyddiant a golud, gwneuthur o ŵr à vo raid iddo ei hunan yn lle ymddiried i arall ei wneuthur, gwneuthur à ellir heddyw yn lle oedi hyd y voru, a gwneuthur devnydd pwyll ac ystyr o bob peth à ddelo ger bron synwyr a deall.

63 Tri phwyll y sydd dros dewi, rhag dywedyd y peth nas dylid, rhag dywedyd y modd nas dylid, a rhag dywedyd y lle nas dylid.

64 Tri phwyll y sydd dros ddywedyd a deued à ddêl, addysg rhag anwybodaeth, cynghor rhag amryson, a gwirionedd rhag celwydd argyweddus.

65 Tripheth nis gall namyn Duw yn unig, gwneuthur yr hyn na vu erioed o'r blaen, gwybod à ddaw, a barnu ar gydwybod.

66 Tripheth nid oes namyn Duw a'u gŵyr, dechreu, cynnal, a diwedd.

67 Tripheth goreu eu gadael i Dduw, barn, gobrwy, a dial; canys nid oes ond eve à ŵyr à ddylid o un nac arall o'r tri.

[1] Tri chynvodolion.

68 O dripheth y gwybyddir a vu, y sydd, ac a vydd; yn gyntav, o vyw mor gyviawn, o barth ymgais â Duw; yn ail, o vod mor rhydd oddiwrth a gaethai arnat â Duw; yn drydydd, o *garu* a *chasâu* yr un pethau ag a wnai Duw: ac o hyn y gweli pob gwirionedd, a phob hardd, a phob iawn, a phob dyled, a phob hygar, a phob addas, yn un ansawdd ag a'u gwêl Duw; ac y gwybyddi di ba bethau a ddygwyddant yn ddiymball; canys nis dichyn amgen nog y myn Duw bob peth yn ei amser herwydd y soniwyd am eu noturiaethau a'u cynneddvau; canys yn Nuw y mae nerth a'u dichon, a gwybodaeth a ŵyr eu medru, a chariad at bob iawn a'u myn, ac nas goddev amgen.

Ac velly tervyna—Catwg Ddoeth ai Cant.

180. Traethawd las Catwg Ddoeth.

Gwna ddaioni unwaith ti ai gwnai yr ail waith rhag cywilydd, a'r drydydd waith o voddlondeb, a'r bedwerydd waith o serch, a chwedi y delo serch atto ti ai gwnai dros vyth; canys nis gellir diwedd serch cynneddvawl: nid oes na varw namyn serch.

A gafo air da unwaith ev á chwennych ei gadw a'i gynnal, o cheif yr ail waith eve á lawenâa o'i achos, o cheif y teirgwaith eve ai serch, ac o'i serchu, eve á ymgadarnâa yn ai dirper; a chadarn o serch cadarn tragywydd.

O chwennychi troi dyn oddiwrth ei vai rho iddo air da, ac etto ac etto, hanpid gwell gŵr o'i ganmawl, hanpid gwaeth a woganer, a gollo a'i bôdd yn unpeth ai cais yn arall, a gafo ai bôdd yn unpeth, bynag y bo, eve ai ceidw gyhyd ag y bo galladwy iddo; canys dyn á ymgais ai bôdd; canys nid byw ond bôdd, ac addwyn i bob un ai bôdd.

A elwir yn gall á gais vod yn gall, ac o chais ev á lwydd, ac o lwydd ev á chwennych, ac o chwennych ev á serch, ac o serch eve á ymgadarnäa ynddo.

A vernir yn gall á ymgais i vod yn gall, o ymgais cael, o gael gobaith, o obaith adymgais, o adymgais pwyll, o bwyll cyvlwydd; ac ni ddifyg nerth a llwydd lle a'u hymgyrch gobaith, pwyll, ac ymgais.

Lle chwennycher gyru daioni moler ev: mawl á gyfry ystyr, ystyr á bair bwyll, pwyll á bair serch, serch á bair egni, egni á lwydd, llwydd á ddwg lawenydd, llawenydd á gyrch ei adgael, adgael á gyrch lwybrau y cael, ac yn un naws â hyn yr hen ddiarhebawd.

Nid daioni ond gallu,
Nid gallu ond cyfraw,
Nid cyfraw ond serch,
Nid serch ond mawl,
Nid mawl ond daioni.

Mawl a wna dripheth, nid amgen,
Y gobaith yn gadarn,
Y pwyll yn ddychymygvawr,
A'r gorchwyl yn hawdd.

Ac wrth hyn bid weledig modd y dylai athraw parth ei ddarymgais, er dysgu a dangos gwybodau daionus, a phob gwir, a phob gorau, a phob rhyw a rhith, ar ddaioni, sev y dylai eve—

1 Dangos rhyw a rhin,
2 Moli daioni,
3 Cyfroi serch.
4 Cadarnâu gobaith.
5 Amlygu llês.
6 Dychymyg moddoldeb.
7 Frwythloni deall.
8 Cevnogi pwyll.
9 Dangos cyviawn ac anghyviawn.
10 Arwain ystyr.
11 Hawddâu gorchwyl.
12 Cadarnâu gwirionedd.
13 Datrin twyll.
14 Deall ei ddigon a'i vodd ar y pethau hyn.
15 A bod à eirch ar arall ymhob cyfur.

Ac velly tervyna'r draethawd lâs: Catwg Ddoeth ai Cant.

181. Osau Catwg Ddoeth.

Os dilys o dyst dy wybodaeth fyrv, na ddawr a'th amheuant.
Os call pob ymgais ag amcanwyd, na ddawr a'th watwarant.
Os doeth o lwyr ystyrbwyll dy varn, na ddawr ai gwrthvarnant.
Os cyviawn a phwyllgar dy vuchedd, na ddawr a'th oganant.
Os iawn a'th geir bob gair a gweithred na ddawr a'th ryveiant.
Os dedwydd o ddevawd a'th welir, na ddawr a'th ddivrïant.
Os bydd à vo cyvraid yn dy gell, na ddawr à loddestant.
Os gwir á vydd ar vlaen dy davawd, na ddawr a'th gelwyddant.
Os parch a'th ddyvydd am iawnder o gamp, na ddawr a'th enllibant.
Os tlawd o wneuthur elusen a phwyll, na ddawr a'th ddibrisant.
Os dyoddev er mwyn boddâu dy Dduw, na ddawr a'th ddirmygant.
Os wyd o gorf a chydwybod yn iach, na ddawr a'th wrthenwant.
Os gwell o'th gymhlegyd y gwelir y byd, na ddawr a'th wrthvynant.
Os rhodiwr hyd fyrdd cyviawnder wyd, na ddawr a'th wrthgyrchant.
Os drwg á syrth yn ddirym dan dy draed, na ddawr à deyrnasant.
Os perchir dy gampau gan deulu nev, na ddawr a'th anmharchant.
Os cynnull awenddysg a'th holl nerth wyd, na ddawr a'th wrthbwyllant.
Os cyvaill cydwybod dangnevgar lân, na ddawr a'th adawant.
Os gobaith a'th gysur i'th ddydd a'th awr, na ddawr a'th ryvlinant.
Os llawen dy galon wrth vodd Duw ner, na ddawr a'th rywestlant.
Os mawr wyd yn ngolwg Duw dovydd dad, na ddawr a'th vychanant.
Os engyl a'th nawdd yn nydd a nos, na ddawr a'th erlidiant.
Os Duw yn mhob amcwydd a saiv o'th blaid, na ddawr a'th erbyniant.
Os cefi'n y diwedd wlâd nev i'th rân, na ddawr a'th ysbeiliant.

Catwg Ddoeth ai Cant.

182. Llyma oreuau a ddoder ar Gatwg Ddoeth mewn rhai lyvrau, ac ar Gedivor Vardd mewn un llyvyr arall: chwilied a gafo le.

Goreu ar gardawd ei rhoi yn y dirgel,
Goreu ar venyw ei drwg yn ddiymgel.
Goreu y chwareuon ymwrthod a'r cyvan,
Goreu pob ynnill adynnill dy hunan.
Goreu o'r gwyr yr hawddgarav ei ddevawd,
Goreu o'r gwragedd y byrav ei thavawd.
Goreu ar lencyn ymgynghor a'i athraw,
Goreu ar lances o ddevawd yn ddistaw.
Goreu o'r campwyr y lleiav ei draferth,
Goreu moesgarwch ymarwedd yn brydverth,
Goreu pob chwareu yw gado y croen gartrev.
Goreu ar wlâdwr ei gael yn ei addev,
Goreu cymodawg cymodawg didervysg,
Goreu ar athraw cydvyne l a'i addysg.
Goreu gwaith criston ymroi ar gyviawnder,
Goreu athrylith athrylith o vwynder.

Goreu boneddig boneddig gwareddawg,
Goreu ar antur anturiaw'n galonawg.
Goreu divyrwch cân adar boreuddydd,
Goreu cyveillach ymgyvrin â dedwydd.
Goreu creftwriaeth llavuriaw tòn daiar,
Goreu doethineb doethineb avlavar.
Goreu gwaith undydd rhoi bwyd i newynawg,
Goreu cyverddawn hynawsder trugarawg.
Goreu gwaith celvydd ymarbwyll a'i amcan,
Goreu adnabod ymnabod dy hunan.
Goreu gweithredon gweithredon trugaredd,
Goreu gwaith ystyr iawn ystyr y diwedd.
Goreu pob meddiant meddiannu llaw gelvydd,
Goreu trysorau trysorau gwybedydd.
Goreu pob cynnull yw cynnull gwybodau,
Goreu gwaith ymbwyll deddvoli cynneddau.
Goreu gwroldeb darostwng ei valchder,
Goreu pob ymddwyn ymddwyn yn ddidrawsder.
Goreu gorchestion gorchestu tangnevedd,
Goreu pob deall yw deall gwirionedd.
Goreu pob awen cywirdeb cynneddvawl,
Goreu diwydrwydd ymvydio'n ddarbodawl.
Goreu gwaith synwyr ymddyspwyll difuant,
Goreu pob dirwest ymddirwest rhag trachwant.
Goreu pob gochel yw gochel cybydddawd,
Goreu pob golud yw golud cydwybod.
Goreu deddvoldeb deddvoldeb o grevydd,
Goreu y goreuon, boddloni Duw ddovydd.
Catwg Ddoeth ai Cant.

183. Nidiau odledigion.

Nid gallu ond nerth i'w arver,
Nid da un peth nas cymmerer.
Nid doethineb heb ddarwybod,
Nid gwybodaeth heb ddangos nôd.
Nid dewr ond un à darawo,
Nid doeth ond dewr à beidio.
Nid addysg heb ddoethineb,
Nid callder ond cywirdeb.
Nid ymgynnal heb ddarbod,
Nid crevydd ond cydwybod.
Nid darbod ond cyviawnder,
Nid cydwybod ond daionusder.
Nid daionusder ond o fwriad,
Nid bwriadus ond o gariad.
Nid cariad ond uvydddawd rhad,
Nid uvydddawd ond i Dduw dovydd dâd.
Nid caru Duw ond cadw ei orchymyn,
Nid gwir gwir ond ei gredu a'i ganlyn.
Catwg Ddoeth ai Cant.

184. Hardd bethau Catwg Ddoeth.

Harddwch mâb ei addwynder,
Harddwch merch ei gwylder.
Harddwch gŵr ei ddoethineb,
Harddwch gwraig ei fyddlondeb.
Harddwch teulu syberwyd,
Hardd ar bob gŵr celvyddyd.
Hardd ar hên ei wybodau,
Hardd ar ieuanc glân gampau.
Hardd ar vlaenor ystyriaeth,
Hardd ar athraw dysgeidiaeth.
Harddwch llavar gwâr oslev,
Hardd ar bawb byw yn nghartrev.
Hardd ar gyvaill cywirdeb,
Hardd ar gymodogaeth undeb.
Harddwch cerdd ei gwirionedd,
Hardd ar ddwyvawl glân vuchedd.
Hardd ar arglwydd haelioni,
Hardd ar bob dŷn daioni.
Hardd ar vrenin cyviawnder,
Hardd ar wladwr gwrolder.
Harddwch eglwys ei rhiniau,
Harddwch llys llês gorddodau.
Harddwch gwlâd glan arverion,
Harddwch cenedyl ei doethion.
Harddwch dinas ei moesau,
Harddwch dysg gloew ddosparthau.
Harddwch dedwydd santeiddrwydd,
Hardd ar bob tlawd boddlonrwydd.
Harddwch awen ei hasbri,
Harddwch pob peth ei deithi.
Harddwch doeth ei amynedd,
Hardd ar bob hardd tangnevedd.
Catwg Ddoeth ai Cant.

185. Llenwyddion Catwg Ddoeth.

1.

Awengar a leinw ei ddeall â gwybodau,
Celvydd a leinw ei gov â dosparthau,
Anianus á leinw ei chwant a'i serchiadau,
Gloddestgar á leinw ei vol â phob moethau,
Diwyd a leinw ag yd ei ysguboriau.
Darbodus á leinw ei gell â chyvreidiau,
Haelionus a leinw newynawg â bwydau.
Deddvol á leinw ei bwyll â rhinweddau.

2.

Drygionus á leinw ei vro ag anvawl pob doethion,
Daionus á leinw y bŷd a'i glôd o gylchon.
Doeth á leinw ei vryd a phwyll fyddlawn,
Tangnevgar á leinw ei vro a deddvolion,
Cybydd à leinw ei gist ag aur ddigon,
Diawl a leinw ufern â chybyddion.
Dedwydd â phob daioni a leinw ei galon,
Duw á leinw ei nevodd â dedwyddon.
Catwg Ddoeth ai Cant.

186. Damunedau Catwg Ddoeth.

1.

Bydded imi wŷr drygion,
A phob enaid anghriston,
Hyd olaith yn elynion.

2.

Na vydded ryngwyv dangnev
A gelynion brenin nev,
Ac nas carant ei saint ev.

3.

Nam bydded le bwyv i'm traill,
Mâb diriaid imi'n gyvaill,
Addwyn a'u bodd bawb eraill.

4.

Bwyv gâr i bob cynneddvawl,
Ar wedd sant, canys Duw a'u mawl,
Boed ev i mi gâr dwyvawl.

5.

O'm cyrch doeth dwyvawl vuchedd,
Yn mygyr ovwy tangnevedd,
Bwyv a'i ervyll mal ai gwedd.

6.

Brenin a thad ac athraw,
Boed imi a'm parch iddaw,
A vo dwyvawl i'm cyviaw.
Catwg Ddoeth ai Cant.

187. Englynion a gant Catwg Ddoeth.

1.

Un ansawdd lle bo'n lledrad,
Cudyn gwlan a'r holl ddavad,
Drwg yw Drwg yn mhob tyviad.

2.

Un achreth ar groen y tân,
Bid mawr eirias bid bychan,
Drwg yw drwg yn mhob anian.

3.

Un angeu á ddaw o haint,
Ai bach ai mawr gwynovaint,
Drwg yw drwg, drwg yn mhobmaint.

4.

Ni ddawr ai dyfo 'n anghlod,
Ai mawr ai bach y pechod,
Drwg yw drwg yn mhob travod.

5.

Ni vawr bwys parth argywedd,
Ai mawr ai bach y caredd,
Drwg yw drwg yn mhob agwedd.

6.

Na ystyr maint y pechawd,
Ystyr maint anuvydddawd,
Dod bob peth ar ei waelawd.
Catwg Ddoeth ai Cant.

188. Deivregawd a gant Catwg Ddoeth.

Ni omedd yr haul ei dês i'r ynvyd à boer yn ei wyneb,
Ni omedd Duw nêr ei lês i'r diriaid er maint ei gasineb,
Ni adawodd Duw neb heb nerth à weryd o bob folineb,
Ni ettail Duw dad ei nawdd i'r dedwydd à garo doethineb,
Ni ddianc dros vyth rag cosb y drygwr à wna drawsineb,
Ni ddifyg ond aros y dydd anrhydedd i bob gwarineb,
Ni waeth pan ddêl awr ddiwedd ar ddyn ai dyvu 'n groesineb,
Ni veth ar ai cais oleuni Duw yn eithav gloewineb.
Catwg Ddoeth ai Cant.

189. Nidiau odledigion.

Nid hir y pery yr abwy lle bo llawerodd[1] o vrain,
Nid melus bydd erddigan lle bo gormodedd o sain,
Nid hawdd yw cysgu'n esmwyth lle bo gormodedd o chwain,
Nid mawr y cerir gorwedd lle bo gormodedd o ddrain,
Nid hyvryd rhodiaw llwybrau lle bo gormodedd o vain,
Nid mawr synwyrau geneth lle gormod o'i phrid yn gain,
Nid mawr moesgarwch llances ni wisg am ei thavawd wain,
Nid call undyn o'i wybod à ddymgais ag un o'r rhai'n.
Catwg Ddoeth ai Cant.

190. Gwasgaredd Catwg Ddoeth.

1.

Diriaid á glud i ddedwydd,
O vorodd ac o vynydd,
O gwll daiar alavon,
Ac o eigion avonydd.

2.

Eiry mynydd bydd ar vai,
Bei canfai bawb ai dyddysgai,
Ni chefid annysg yn neb rhai.

[1] Gormodedd.

3.

Cain cynwyre gwynt am lwyv,
Gnawd gwynvyd gwr ei gymwyv,[1]
Gwae ni chein à vo dawn dwyv.

4.

Ar bob bôd ac ai bob byw,
Yn mhob rhith ac yn mhob rhyw,
Gorev tangnev tangnev Duw.

5.

Cyrchid diriaid yn abell,
Cyrchid doeth ei ystavell,
Gwae à syrth mevyl o'i avell.[2]

6.

Cyrchid dedwydd ei adail,
Cyrchid diriaid y dan ddail,
Gwae à syrth mevyl o'i gesail.

7.

Gwell enw nôd no nerth unben,
Gwell dysg no golud cyvrben,
Gwell awen no dysg cymhen,
Gwell cydwybod nog awen.

8.

Cais ddedwydd yn ei addev,
Cais ddiriaid pob anghartrev,
Doeth ni ysgar a'i ystrev.

9.

Gnawd i lwrv ei ladd yn fo,
Gnawd i ddewr ddianc o daro,[3]
Gnawd i wâs gwych à vyno.

10.

Godidawg wyneb o gâr cu,
Gyda mynych athrevu,
Gwae ev ni wêl gâr o'i du.

11.

Ni chyll un dedwydd ei swydd,
Ni chyll iawn yngais ei lwydd,
Ni chyll ymbwyll ei amrwydd,

12.

Cyd bo dy lwybr dan wasgawd,
Ni'th ddyvu pwys pob gosawd,
Na cherydd a'i dêl anfawd.

13.

Gwilia ba gyrch dy fwriad,
Iawn i ddoeth wiliaw'n wastad,
Ni wyl dyn a'i dyddaw'n vrad.

14.

Gwilia dro dy droed beunydd,
Anamlwg yt a'th orvydd,
Gwell angen no chywilydd.

[1] *Ai* gynnwyv?
[2] *Ai* asell?
[3] Wrth daro.

15.

Gwilia verw dy vryd beunoeth,
Gwell pwyll i ddyn nog aur coeth,
Gwell angeu no byw annoeth.

16.

Gwilia bwyll dy ben beuawr,
Anmhwyll o'th bell nid nemawr,
Gwell bedd no bywyd gwydvawr.

17.

Gwilia'th davawd ac à wnêl,
Ond llavar nid diymgel,
Pob un á glyw lle nas gwêl.

18.

Gwilia wrth dy Dduw beunydd,
Na ddifygia di'n dy fydd,
Gwell no byd buchedd dedwydd.

19.

Tavawd ni chêl ei yni,
Gwaethav dysg ymdavodi,
Nid hwyr lle hawdd dirieidi.

20.

Ystyr pob gair a'i ddiwedd,
Dir tâl i bob amynedd,
Ac ni thwyll pwyll pen a'i medd.

21.

Yn mhob gwall yn mhob blinder,
Amynedd a'th vudd lawer,
Rhag pob clwyv eli amser.

22.

Ystyr a'th vydd o bob tu,
Na ddidawr naws o'th neilltu,
Nid rhy hên neb i ddysgu.

23.

Dod ddarbod à veddylych,
Ar dy law a'i lwyr edrych,
Gwybydd pan cyn y gwnelych.

24.

Dig, bid dawn Duw er cerydd,
Ac er dangos barn Dovydd,
Hawdd y diwedd dig dedwydd.

25.

Edrych dy gamp a bydd gall,
Cymmer hyn ar dy ddeall,
Cas gan ddrwg drwg yn arall.

26.

A golles air am dano,
Da o gamp á gaid arno,
A golles nas bu'n eiddo.

27.

Gwna y goreu yn mhob angen,
O'r peth à vo'n dy berchen,
Gwell no dim gwasgawd brwynen.

28.

Cymmer à vo'n dy veddiant,
A thitmwya dy fawrchwant,
Haws no'u cadw cynnull ariant.

29.

Gwilia gyfroi dy galon,
Ac nas cefi'n vall i'th vron,
Gwaeth no chledd cerydd doethion.

30.

Gwybydd droion dy veddwl,
Yn mhob ainc yn ing arddwl,
Ni hawdd baid pechawd â chwl.

31.

Yn mhob rhwy, yn mhob rhyvel,
A welir hawdd ei ochel,
Nid drwg ond drwg yn ymgel.

32.

Ni mad ddiwedd trythyllwg,
Cyd nas cafer yn ngolwg,
Gwaethav gelyn calon ddrwg.

33.

A wnêl ormes o drawsedd,
A thrais, a thrai tangnevedd,
Ovned ev na ovno vedd.

34.

A wnêl drwch o'i greulonder,
Yn ngwlad, a phob difeithder,
Ovned na ovn ond Duw nêr.

35.

A wnêl anneddyv ar gampau,
A phob anrhaith, a phob gau,
Ovned pob diovn angau.

36.

Cynghor á roes mâb Morvryn,
I arglwydd mawr drwg o ddyn,
Ovna na ovn un gelyn.

37.

Cynghor á roes Cadeiriaith,
I ddiriaid á wna'n anrhaith,
Ovna na ovn ei olaith.

38.

Cynghor gan Vâb Duw á gaid,
Ac ev o'i bèn ai dywaid,
Ovner ev à ladd enaid.

Catwg Ddoeth ai Cant.

191. Chwedlau y vran.

1.

Bran á gant chwedyl yn nyfryn,
Wrth chwiliaw am ei gronyn:
Nid dysg dysg heb ei ddilyn.

2.

Brân à gant chwedyl ar uchder
Derwen, uch deufrwd aber:
Trech deall no grymusder.

3.

Brân á gant chwedyl yn ngelltydd,
Man y cafai awr lonydd:
Digon Duw da i ddedwydd.

4.

Brân á gant chwedyl o vrig dâr,
Man ai clywai yr holl adar:
Ni chenir cloch i vyddar.

5.

Brân á gant chwedyl gan wawr,
Wrth ai holai'n ei hattawr:
Doeth ni threvyd nyw ymdawr.

6.

Brân á gant chwedyl yn mlaen traeth,
Wrth nas gellynt ymarvaeth:
Nid meddiant ond gwybodaeth.

7.

Brân á gant chwedyl yn nidrain,
Ac o bell clywid ei sain:
Gorvydd dewr ar bob dichwain.

8.

Brân á gant yn ngellïau,
Lle 'ddoedd beilchion yn nadlau:
Un gyvlwr pawb yn angau.

9.

Brân á gant o vrig gwydd,
Yn nghlyw holl adar coedydd:
Doeth á ymdwng â Dovydd.

10.

Brân á gant chwedyl yn nghilvach,
Wrth à gâed yn nghyveddach:
Nid pyd ond drwg gyveillach.

11.

Brân á gant chwedyl o vrig ôn,
Wrth adar o gybyddion:
Tlawd pawb nyw gwel eu digon.

12.

Brân á gant chwedyl yn nifaith,
Wrth ag oedd ei chydymaith:
Ys gwynvyd bodd heb obaith.

13.

Brân á gant chwedyl yn gall,
Wrth nad elynt gan ddeall.
Gwledd nid gwledd ar barth arall.

14.

Brân á gant chwedyl wrth ei chyw,
Am ydd elynt yn nghydvyw:
Pob peth a gar ei gyvryw.

15.

Brân á gant chwedyl gan bwyll:
Wrth à gafai'n annarbwyll:
Wrth ddall ni wiw dal canwyll.
Catwg Ddoeth ai Cant.

Ac velly tervyna llyvyr cyntav y Gwyddvardd Cyvarwydd, *ac yn canlyn (ar ol Athrawiaeth y* Bardd Glas *ac ereill) y mae yr ail lyvyr, a hwnw gwalystawd y Diarhebion Cymreig yn ddosparthus o lythyr, herwydd trevyn y llythyrenau Cymreig, pob diarheb yn ngwalystawd ei llythyren gyssevin, mal y bai hawdd ei chael; a'r cwbyl wedi ei dynu o'r hen lyvrau doethineb lle 'ddoedd à gant* Catwg Ddoeth *yn nghymysg a phethau ereill cyvnotur a'r pethau à geir yma; dan obaith y bydd hyn er lês a chynnydd gwybodaeth a doethineb i'm gwlad a'm cenedyl, y rhov ddiolch a chlod i Dduw am yr ewyllys a'r nerth â gevais gantho i orphen à gymerais mewn llaw.*

THOMAS AB IEVAN.

ATHRAWIAETH GERAINT VARDD GLAS.

LLYMA GYNGHORION Y BARDD GLAS O'R GADAIR I BOB GWR DOETH A DDYMUNAI RENGU BODD DUW A DYNION YN Y BYD YMA AC YN Y BYD ARALL: SEV YDYNT.

1 CAR dy Dduw yn vwy no dim, canys eve á wyr bob peth, a wêl y sydd yn mhob calon, ac yn mhob cydwybod, ac nid oes dim yn nghudd ragddo, ac ar bob gweithred, a gair, a myvyrdawd, a meddwl, eve a ddod varn gywir a chyviawn.

2 Car dy gymodawg yn gymmaint a thi dy hunan, a gwna erddo à ddymunit iddo ev ei wneuthur i tithau; ac o hyny y cai di dy Dduw itti yn gymodawg agos i'th gynnorthwy ar bob achos, yn ddidwyll ac yn ddiaddoed.

3 Car dy enaid yn vwy no'th dri gelyn, nid amgen y byd, y cnawd, a'r cythraul, canys pa lês ai oddi wrth amgen à garot, os â'th enaid ar goll o'th anghariad tuag atto?

4 Car di bawb a'th garo dithau, bid gas genyd à vo'n casau Duw: Duw a eirch it garu'th gymodawg yn ail i'th hunan, Duw ai gorchymyn itti, ac nid car ti i Dduw os tydi na wnei oll o'i orchymynion ev; ac na wrthot ti y neb a'th garo, canys Duw ni wrthyd y neb ai car; eithyr gwrthyd yr hwn na wnelo, yn y bo gallu, val y gwna ev, canys ni char hwnw Dduw, *onis* na gwarthäer ac nas anuvyddäer y neb à garer.

5 Whechryw gariad y sydd yn y byd, nid amgen, un yw cariad nevawl, ail yw cariad ufernawl, trydydd, cariad noturiawl, pedwerydd, cariad gorchymynawl, pummed, cariad corforawl, chwechved, cariad gymydawl: sev hyny cariad nevawl, caru Daw a'i saint, a phob santaidd, a phob daioni a daionus, a phob hardd a gweddus, a phob annrygionus; cariad ufernawl yw caru pob pechawd, canys cas yw pechawd gan Dduw er lleied y bo, a gelyn hevyd i ddyn, er bychaned y bo; cariad noturiawl yw i ddyn garu ei rieni, a'i briawd, a'i blant, a'i vrodyrdde, a'i genedyl, a'i gymdeithion; cariad gorchymynawl yw i ddyn garu ei dad a'i vam, a'i gymrawd, a'i dad ysbrydawl, a'r estron, a'r tlawd, a'i gymodawg, a'i elyn. Ac yn y cariad hynny y car ev Dduw, canys nid llai no charu a wneir à wneler ei orchymynion yn uvyddäawl; cariad corforawl yw i ddyn garu ei gymhar cyvreithlawn, a'i dda byd hyd y bo cyviawn, a'i eppil, a'i geraint, a'i o genedl ai amgen; cariad ysbrydawl yw i ddyn garu ei enaid ei hunan, ac enaid pob Cristion fyddlawn, a phob daioni, a phob gwirionedd, a phob iawn, a'i Dduw, a'r dyn à garo ymhob cariad yn fyddlawn ys dir y cerir ev gan Dduw; a llwyrav cariad cariad Duw; ac o vodd arall yn ddiarheb, namyn Duw nid oes gariad; ac arall a ddywed, namyn cariad nid oes Duw; ac un arall, namyn cariad nid oes gwynvyd; ac etton, namyn cariad nid oes nev; a namyn cas nid oes gythraul; namyn cas nid oes ufern.

Sev ai dywawd Y Bardd Glas o'r Gadair.

LLYMA EREILL O GYNGHORION Y BARDD GLAS O'R GADAIR.

NA ddos i'r cynghor na'th elwir iddo yn gyntav, canys divlas gan bob un yr hyn à gynnygir heb ei ovyn.

Arver dy hun ar gampau daionus a chanmoladwy, canys o hyny y cei vodd Duw a dyn, ac o hir ymarver ag wynt, ys dir y greddvant ynot, val nas gelli amgen no champau à wnant vodd dy gymodawg a bodd dy Dduw.

Bydded itti gyvalleu o wraig briawd gyfreithlawn, val nas whenychot odineb, a mal y gwypot y cariad à ddylit at briawd a phlant, ac ydd ymarverot ag ev, canys heb ymarver â phob cariad ni elli wybod pob daioni, ac heb wybod daioni o bob rhyw nis gelli ymddarbod yn griston fyddlawn a pherfaith, na gwneuthur

bodd Duw; ac heb vodd Duw nis gelli vyned i deyrnas nev.

Dysg dy blant ar ddaioni, ac i wybod ac i wneuthur à vo gyviawn a thrugar, ac i ddeall govynion cariad o bob rhyw; canys diarheb á ddywed, gwell i blentyn heb ei eni no heb ddysg, canys am bob daioni à wnelo dyn y mae Duw yn bendithiaw ei dâd, a'i vam, a'r sawl ai dysgwys; ac am bob gweithred ddrwg à wnelo, y mae Duw yn melldithiaw ei ei dâd a'i vam, ac a'i dysgwys, am vagu tivedd a dyn heb ddysg; a phob daioni à wnelo ddyn, o ddysg y gwna ev hwynt; a phob drwg à wnelo, difyg dysg yr achos; ac eithyr dysg nis gellir daioni, val y dywed diarhebydd, a phynag heb ddysg à wneler yn dwyn rhith daioni o ansawdd anivel y daw, yr hwn ni ŵyr na drwg na da, achos hyny nis dylit yn dâl iddo.

Na vynycha oddigartrev, canys yn nghartrev pob un y mae ei ddyn a'i dda; a diarhebion á ddywedant, gormes pob anghartrev, a goreu trev yw cartrev; a gwedi treiglaw pob trev hawddvyd i gartrev; ac medd ereill, cais ddedwydd yn ei gartrev; ac elwaith cais ddoeth yn ei dyddyn; ac etton, cais annoeth yn mhob man eithyr yn ngartrev; a hevyd, cais ddiriaid ni wyddys yn mha le; ac arall, na dyn na da ni lwyddant i anghartrevawg; ac arall hevyd á ddywed, na charo ei gartrev yn y byd hyn, ni cheif gartrev yn y byd à ddaw; ac arall, ni charo ei drev ni cheif y nev: canys o gartrevogion y ceir gwlad a chenedyl, ac o anghartrevogion, herwyr, a divrawd, a gormes, ac ymdrin, ac arverion gwyddelig.

Na ddyro echwyn heb edrych i bwy: os i ddyn cywir ti á gai dripheth, nid amgen, clôd, a chariad yr anghenus, a'th vendithiaw i'th drachevyn fordd y clywer am danat; ac o hyny cariad dy wlâd a diolch tragywyddawl gan Dduw: os i anghywir, ti á gai dripheth arall, nid amgen, côst, a blinder, a digovaint am eu ceisiaw, heb itti ronyn o ddiolch gan na Duw na dŷn.

Bydd gywir i'th arglwydd cyvoeth, ac na ddos gantho yn à vyno cyn y gwypot ai iawn ai amgen y bo; dos yn ei gyviawnder, ac na ddos yn ei ymdrin lle na bo govynion gwlâd, ac na ddos yn gartrevawg yn nghyvoeth brenin amgen, lle na bo cwyn gormes, a lle bo dos yn nghynghor dy wlâd a'th genedyl, hyd y bo'th gymrawd; canys diarheb á ddywed, gweddw barn un, cadarn barn llawer; a threch gwlad nog arglwydd; a'r cyviawn á geif ei le; a'r gwir á ddaw'n wir; ac un arall, têg a ddaw'n dêg yn y diwedd.

Trîn dy dîr, ac na thrîn dîr arall yn llôg. Saved pob un ar ei draed ei hunan, val y mae diarheb, na vydd ormes ar neb am à vo'th raid, lle na bot hên a than dy nam; a diarheb arall a ddywed, Duw a gâr à garo ei hunan, ac nis câr ei hunan nas caro yr iawn. Covia ddiarheb arall, goreu cyvlog gwâs à vo gwás iddo ei hunan. Gwybydd dri pheth, gwneuthur dy dŷ, dy arad, a dy lyvyr: a'r neb na wypo y tripheth hyn, ni wybydd ei raid o gelvyddydau gwlâd. Na vydd ddiawg, hedyn pob drwg yw diogi: nid tlawd ond diawg; nid goludawg ond diwyd; nid rheithgar ond gweithgar; nid doeth na vo doeth drosto ei hunan; nid call ond call er ei lês ei hunan: llês hunan llês gwlâd, llês gwlâd llês byd.

Na'th weler mewn un drwg, ac nag aros lle bytho; bid arnat vraw ac ymswyn ei weled, a chlywed am dano. O myni wybod mesurlath drwg, ti ai gwybyddi wrth à vynit ac wrth nas mynit i arall wneuthur itti: yn hyny hevyd y cefi vesurlath daioni; a llyna briv bwnc gwybodaeth à ddodes Crist yn ddysg i bob criston, ac ai dodes yn brivorchymyn.

Na watwar neb, na dyn clâv, na dolurus, na dyn clôf, nac à vo dall, na byddar, na hagyr, nac à vo dan un nam corforawl, nac à vo difyg synwyr arno, nac à vo dlawd, nac à vo anverth a drwg ei gampau, na neb oblegid bai ac anav à vo arno; eithyr cysura di y clav a'r dolurus, a'r anavus, a'r clwyvus, ac à vo vlinderus, a phortha y tlawd, a chynnorthwya y gwàn, a dod addysg ar y drwg ac anverth ei gamp, a dangos iddo dy gynghor, a rhybuddia ef yn hybwyll, ac na watwar neb o'r rhai à ddangosed, canys gnawd yw i'r neb ai gwnel syrthiaw yn yr unrhyw, naill ai yn y byd hwn ai yn y byd tragwyddawl.

Na ryarver à gormodd ymgyveilliaw â neb ryw o ddyn; canys goreu gan bob dyn ei hunan, ac ni châr ev ryhir ymgyrch ag ev; canys o hyny ni vydd iddo ev ei hunan, modd y bo gorhof gantho; a divlas y bydd ar ba bynag o ddyn, na vo hamdden iddo herwydd à garai, ac à ddymunai; ac ni hir gâr ev y neb nas gedy yn ei ansawdd, ac nid rhyw i neb eithyr ei ansawdd; mal y mae diarheb,

a diarheb arall, nid dwyn oddiar neb ond ei ddwyn oddiarno ei hunan; nid lledrad ond oddiar à vo serch; nid anrhaith ond divuddiaw i wr ei hunan; ac etton, nid rhwym ond rhwymaw awen; ac arall, nid anghyvaill ond rhygyvaill; nid yspail ond yspeiliaw amser.

Gochel dramwy gormodd i davarn, canys tripheth a geif dyn o'i hîr ddilyn; nid amgen, colled da byd, colled iechyd corf, a cholled enaid, ac o'r tricholl, colli Duw a'i saint.

Gochel drwg-wragedd, canys nis gellir llês oddiwrthynt, eithyr y mawr avles. Tri enw y sydd ar wraig ddrwg, nid amgen, porth ufern, rhwyd y cythreuliaid, a'r gwenwyn melus; a diarheb arall à ddywed, gwraig ddrwg yw y drycav o bob drwg, a gwraig ddrwg yw y llwybyr i bob drwg arall; ac o ddal pwyll ar à welir yn myd, odid o vil un drwg nad gwraig ddrwg a vu yn achos iddo, y naill ai o gynhyrviad ai o gynnaliad: bys ymhob drwg yw gwraig ddrwg.

Na vawr ogana ddyn canmoledig er maint à vo dy gâs arno, ac er maint y bo ei gas ev arnat ti; canys ni choelir ei gas ar neb; val y mae diarheb, ac arall, cas ni ddywed à vo gwir ar ei gas; ac arall, ni choelir neb ar ei gas; ac arall, ni chydvydd cas a gwirionedd.

Na vawr ganmola ddyn goganedig, er maint y bo dy gariad arno; canys ni chredir y dyn hyny yn erbyn llawer o ddynion; canys à ddyweto bob un gwir yw; ac arall o ddiarheb, ni ellir camsyniad ar bawb; ac arall, celwydd o ben un, gwir o benau pawb.

Na haedd velltithion dynion y ddaiar; canys Crist ei hun a ddywed, à velltigir ar y ddaiar, minnau ai melltigav yn y nêv, hyd pan ddelynt i'r iawn, nid amgen treiswyr, a lladron, a chyhuddwyr, ac anudonwyr, a godinebwyr, a murnwyr, a chybyddion, ac nas parchont y suliau, a meddwon, a gloddestwyr, a'r diawg, a'r llidiawg, a'r twyllwyr o bob rhyw, a'r athrodwyr, a'r cynhenogion, a'r beilchion, a phob trahäus; canys Duw nis gad yn rhydd yn y nêv à vont ar y drygau hyny, ac nis gellir yn y nêv amgen no bodd Duw.

Na ymddiried yn ormodd i olud bydawl; canys tripheth nis gellir craf a gavael arnynt, amser, gwynt, a golud bydawl; canys nid golud trysor nas travoder, ac à dravoder ni wyddys ei helynt, ai yn ei ôl, ai amgen y daw.

No vostia yd ddim, canys nid oes itti na byd, na iechyd, na chyvoeth, na gallu o'r byd, ond benthyg anniogel, ac am hyny cam y dywedi di vod itti veddiant ar y peth à ellir ei ddwyn rhagod pan y mynir gan Dduw.

Cydnebydd di dy hun, achos tri goruchavion doethineb y rhoddes Duw i ddŷn, nid amgen, adnabod ei Dduw ai gwnaeth, adnabod ei hun, sev o galon a deall a chydwybod, ac adnabod ei dda ei hun oddiwrth dda arall, ac à vo da iddo ei hun yn amgen nog à vo da i arall, ac o'r gwybodau hyn y mae doethineb.

Na chrêd yn ormodd gyhudded dy wraig ar neb; gnawd yw i'r wraig ethrawd y y neb à vo ei gwr yn ei garu vwyav; canys ni char gwraig à garo ei gŵr, nag à garo ev; a lle bo hael y gŵr, gnawd y wraig yn anhael; canys tripheth ni chân gwraig, cariad ei gŵr at arall, gwybod o'i gŵr à wnelo hi, a dangos cyvrinach.

Gwna ddaioni a'th olud bydawl tra bych yn meddu arnynt, val y bo it dal a gobrwy erbyn y pan elych yn maes o'th veddiant, val y dywaid Io oludawg, "Dyro tau tra vo tau, wedi tau nid ti a biau," canys nid tlawd tragwyddawl ond cybydd chwanawg, canys ni chymmer hwnw hanner digon yn y byd yma, ni cheif yntau ddim yn y byd arall pan el oddyma. Rhodd i dlawd rhodd i Grist, ac eve ai tal itti ddydd brawd; val y mae diarheb, à roddir i dlawd a delir dydd brawd.

'Mogel pan voch ddedwydd rhag syrthiaw yn nirieidi, canys gwrthwyneb yw gweled dedwydd yn myned yn ddiriaid, val y dywaid y ddiarheb, pa dyna y llinyn cyntav y tyr; a hof gweled diriaid yn myned yn ddedwydd, neu bechadur yn myned yn santaidd, neu gybydd yn myned yn hael, neu ynvyd yn myned yn ddoeth, neu valch yn myned yn war, neu wyddelig yn myned yn addwyn; a diarheb arall, nid gwaradwydd ymwellau; nid gogoniant ymwaethu; a diarheb arall, gorau gorchwyl ymwellau, gwaeth no phob gwaethav ymwaethu.

Dod mawr ddiolch i Dduw beth bynag y rhotho ev itti; canys am dri achos dyledig dyn i ddiolch i Dduw ei roddion: cyntav, nid yw Duw dan ddyled i neb, a phawb dan ei ddyled ev; ail yw, ni ellir cymhell arno roddi ond à vyno ev ei hun y rhydd; trydydd, ni ddyry Duw i neb ond à vo er llês iddo, ai golud ai tlodi y bytho; ac am hyny, iawn yw rhoi diolch i Dduw am beth bynag y rhotho: ac ni rydd y cythraul dda i neb

ond er drwg iddo; a phob golud cybydd, a phob mawredd beilchion, a phob cafael o dwyll, a phob elwch gloddest, a meddwdawd, a godineb, cythraul a'u rhydd er dinystyr i enaid dyn. Canys nid o Dduw y daw i neb o ddyn à vo er avles, nac iddo ei hun nac i arall. Rhodd Duw i ddedwydd rhodd i bawb, rhodd diawl i ddiriaid nid rhodd i neb; eithyr addawd à ddwg oddiar ai rhother yn ngavael ac oddiar oll à wnelo a hi ac ai perthyn.

Parcha bawb, a phawb a'th barchant dithau; ac yn enwedig rho barch i'r neb à vo gwell no thi ger bron Duw, a Duw a'th barch dithau. Parcha bawb à vo'th well ger bron dyn rhag cael cas ac anmharch oddiwrtho; parch y neb à vo is no thi, er cael clôd gan ddynion a gobrwy gan Dduw, canys Duw ei hun a ddywaid, lle bytho cariad perfaith rhwng dau y byddai yntau yn drydydd.

Car di'th dygystal er cael ei vodd a'i gymdeithas, ac or gwnai di velly, ti a gai garedigrwydd a gair da gan bawb; car na vo'th dygystal er boddau Duw, a chael bendith y neb cyvryw à garot; a lle rhotho dlawd ei vendith Duw ai rhy hevyd, ac a ry atto yn gadarn a thra mesur hyd nas gellir na hyd na lled arno; car hevyd dy well, a diogelwch a gai yn dy wlad a'th gyvystred; ac y mae dydd yn aros y goreu ac ys dir y daw, y bydd da iddo gariad ei waeth ac à vo'i oris, ac yna eve a'th gymmer yn oddygystal ag eve ei hunan: sev o garu pob rhyw; ev a'th gerir dithau gan bob rhyw, ac o gael cariad pob rhyw y daw itti glôd, a pharch ac ynnill, a chydwybod lân ac ymadverthwch Duw.

Na vydd lidiawg, na balch, nac ystyvnig, na diriaid, gnawd drwg ddiwedd i à vont velly; ond bydd di addwyn, a gwar, a mwyn, a charedig, a maddeugar, canys gnawd yw i à vo velly gael goruchaviaeth, val y dywed Crist, "dyoddevus a orvydd ar bob peth," a llîd y sydd vab i valchedd, a balchedd yn vab i ddiawl, a gwrthwyneb i Dduw, a gelyn dyn, ac eginyn pob drygioni, ac nis gellir a gymmaint ei ddrwg yn y byd a balchedd: nid oes ond y drwg o bob rhyw herwydd y bo achos iddo, ac ai cynnail, ac nid llai iddo ei waith no chynnal pob drwg, anhebgor iddo hyny o gyvymwaith ag ai cynnail yn ei ansawdd.

Na sòra wrth Dduw er bychaned o'i dda bydawl à rotho ev itti yn y byd hwn; canys po leiav vo y meddiant lleiav vydd y cyvriv, a pho leiav vo y cyvriv lleiav vydd y goval, a pho leiav y goval, mwyav vydd y llawenydd; canys pan vo raid itti atteb am bob gwerth ás ar à vu ar dy helw erioed, pa vodd y cevaist, ai yn ddrwg ai yn dda, yna y gelli ddywedyd mae gwyn ei vyd yr hwn à vu leiav iddo o dda byd, ac y gweli'n oreu ar y neb à vu leiav ei veddiant yn y byd yma, lle nas gosodes ev a vu o dda bydawl ar dda, ac er llês y neb na chawsant gan Dduw ond y bychandawd a'r tlodi. Yna y dychon dyn ddywedyd mae gwae ev pan aned, pan fo y cyvriv yn vawr, ar llaw yn ddiddim; y varn yn agos, a'r brawdwr yn gyviawn, a'r holwr yn llwyr, gan wybod y cyvan, a'r gydwybod yn euawg, a'r carchar yn barawd; ac yna y gwelir yn amlwg mae goreu yw i ddyn y maint à ddanvono Duw iddo yn ddibechawd, ac nid à ddymunai y corf ei gael, ac à vynai y trachwant yn ei avael; canys pwy bynag à ddilyno ei wyllys, a chwant y corf, yn y byd yma, ve gyll gwyllys yr enaid yn y byd arall; canys à lavurio yn gywir, ac à gymedrola yn hybwyll, ac a drugarao 'n haelionus, ac à weddïo yn deilwng, ac à vucheddo yn gyviawn, ac à vo mewn cariad perfaith, ev a ddenvyn Duw iddo ai gwasanaetho yn y byd yma yn ddibechawd, ac a rydd iddo wynvyd a golud tragwyddawl yn y byd à ddaw: a phoed gwir hyny gan bawb yn y byd yma.

A phoed velly y bo.

Sev y Bardd Glas o'r gadair ai dywed.

Llyma ddewisbethau y Bardd Glas o'r gadair.

Bore tawelgain,
Ac adar cydsain;
A meillion yn vrith,
Gan ddevni byrwlith;
Digwmwl wybren,
A maeslawr addien;
A gwawrgan hedydd,
A mwyalch ar wydd;
Crechwengerdd eos,
O gilgoed agos;
Crychnant raianllawr,
Blodeuawg ambawr;
Llaverydd adar,
Hin heulaidd glaiar;
Iachusber wybyr,
A charw ar frith lwybyr;
Cydgerdd bytheiaid,
Llais ŵyn a devaid;

Cyweirben delyn,
Nwyvusber ynglyn;
Caniadaeth traserch,
O bervin gwenverch;
Medrusverch lawen,
Frwythlonder awen;
Glaslwyn caruaidd,
Geiriau serchogaidd;
Cyveillach addwyn,
Gweled camp drylwyn;
Hen vedd blasusber,
Cynneddvawl vwynder;
Rhian dlos berfaith,
A doethgain araith;
Llwybrvrys cynnevin,
Celu pob cyfrin;
Mwythusber gilwg,
Serch heb drythyllwg;
Cusanu gwenverch,
Ar lawr g'âs lanerch;
Llatai cywirgall,
Cyvaill da'i ddeall;
Parabyl caredig,
Casâu hên eiddig;
Rhodle dirgelvan,
I garu meingan;
Caru a'm caro,
Call a'm cynghoro;
Cartrevu'n ael nant,
Sychbridd areulbant;
Ty bychan cynhes,
Gerwyneb gwyndes;
Llyvyr doeth awenbwyll,
Deallus gymhwyll;
Govwy prydyddion,
Groesawu doethion;
Cynnadledd cerddau,
Cywreinber chwedlau;
Cael vy nghyveillon,
O bryfwnt beirddion;
Cael vy nghariadverch,
Yn rhwymau traserch;
Ac o'i chael bun gu,
I'm byw ei chelu.
Y Bardd glâs o'r Gadair ai Cant.

CASDDYNION Y BARDD GLAS O'R GADAIR.

1 DYN heb grevydd a rhinwedd dda.
2 Mâb heb ddysg a chelvyddyd.
3 Merch neu wraig heb gywilydd.
4 Gwâs heb ovn ac uvydddawd.
5 Tylawd rhyvalch.
6 Balch ar ei gampau drwg.
7 A ymfrostia'n à vo cywilydd iddo.
8 Cyvoethawg o ledrad a gormes.
9 Bardd annivyr annevodus.
10 Esgob heb wybodau daionus.
11 Gwr na charo ei garennydd.
12 Plwyv heb ofeiriad.
13 Ocrwr digydwybod.
14 Brenin cribddeilgar.
15 Brawdwr heb gyviawnder trugarawg.
16 Doeth heb weithredoedd da.
17 A chwardd am ben pob peth heb ystyriaw paham.
18 A froma'n ddiachos.
19 A gavas ddysg heb ymwellâu'n ei fywyd.
20 Ni welwys ac ni vyn weled.
21 Cadarn yn erbyn pob ymbwyll.
22 Ovnus ymhob peth.
23 Celwyddawg cynneddvawl.
24 A ddywed ïe gyda phob un.
25 A ddadyl yn erbyn pob un.
26 A ddywed ei veddwl lle nas ceisier.
27 A ery'n ôl ymhob rhwystri.
28 Athrodwr cynnwynawl.
29 Gwenicithwr wrth bawb.
30 A garo drîn ac ymladd heb achos.
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

ABER i longau,
Ysgol i lyvrau,
Tolvordd i lwau,
Gorsedd i ddadlau,
Melin i gydau,
Llys i seigiau,
Marchnad i gyvnewidiau,
Arwyl i weddïau,
Neithior i gerddau,
Cadlas i warëau,
Deall i wybodau,
Cydwybod i rinweddau.
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai Cant.

GORDDODAU.

PERCHI gwr er ei vawed,
Prynu bwyd er ei brited,
Eiriach llyn er ei iached,
Treulo yr aur er ei gysdled,
Ovni clâv er ei lesged,
Cosbi y corf er ei vryted,[1]
Cablu y byd er ei gryved,
Aru y tîr er ei leied,
Cau y buarth er ei gwaced,
Erlyn taith er ei meithed.
Gorphen gwaith er anhawsed,
Ymlid gâl er ei ddewred,
Rhoi elusen er ei thloted,
Gwneuthur iawn er ei dosted,
Arvoll tlawd er ei waeled,
Caru y gwir er ai cydred,
Gochel diawl rhag ei ddryced,
Caru Duw gan ei ddäed.
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai Cant.

LLAWER cryv drwg ei arlaith,[2]

[1] Vrynted. Ll. ar.
[2] Artaith. Ll. ar.

Llawer gwan da ei araith.
Llawer gwir drwg ei wedyd,
Llawer doeth dwys ei advyd.
Llawer têg drwg ei ddeunydd,
Llawer hagyr hygar y bydd.
Llawer tlawd mâd [1] ei vuchedd,
Llawer berthawg drwg ymarwedd.
Llawer llên drwg ei wyddor,
Llawer mul mâd ei gynghor,
Llawer diriaid ar ei varch,
Llawer dedwydd mewn dir anmharch.
Llawer cam yn dwyn enw barn,
Llawer cyfiawnder dan draed yn sarn.
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai Cant.

Advyd á rydd addysg,
Addysg á bair gwybodaeth,
Gwybodaeth á ddyry ddoethineb,
Doethineb á gais ddaioni,
Daioni á dry'n ddwyvoldeb,
Dwyvoldeb á gyrch wynvydoldeb.
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai Cant.

Athronddysg y Bardd Glas o'r Gadair.

Yn y talcen y mae y deall,
Yn y gwegil y mae y côv,
Yn y iâd y mae y dosparth,
Yn y deall, a'r cov, a'r dosparth, yn un, y mae y pwyll,
Yn yr ysgyvaint y mae yr anadyl,
Yn y ddwyvron y mae y chwant,
Yn yr avu y mae y gwrês,
Yn y gwythi y mae y gwaed,
Yn y bustyl y mae y digofaint,
Yn y ddueg y mae y llawenydd,
Yn y galon y mae y cariad,
Yn y rhai hyn i gyd y mae y serch,
Yn y serch y mae yr enaid,
Yn yr enaid y mae y meddwl,
Yn y meddwl y mae y fydd,
Yn y fydd y mae Mâb Duw,
Ym Mâb Duw y mae y bywyd didranc,
Yn mywyd didranc y mae y gwynvyd.
Anorphen, a gwyn ei vyd à wnelo yn iawn a'r ynïau à ddodes Duw ynddo, er cyrhaeddyd gwynvyd anorphen hyd vyth bythoedd. Amen.
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

Saith deunydd dyn.

1 Daiar, ac o hano y mae y corf.
2 Dwr, ac o hano y mae y gwaed a'r llynor.
3 Haul, ac o hano y mae y gwrês a'r goleuni.
4 Awyr, ac o hano y mae yr anadyl a'r ymmod.
5 Nwyvre, ac o hano y mae y teimlad a'r serch.
6 Ysbryd glân, ac o hano y mae y pwyll a'r deall.
7 Duw, ac o hano y mae y bywyd tragywydd.
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

[1] Da. Ll. ar.

Llyma saith gynnevnyddion byd.

1 Cyntav, daiar, ac o hano pob corf a chaled, a phob saw cadarn.
2 Ail, dwr, ac o hano pob llyn ac îr.
3 Trydydd, awyr, ac o hano pob anadyl ac ymmod.
4 Pedwerydd, haul, ac o hano pob gwrês a goleuni.
5 Pummed, nwyvre, ac o hano pob teimlad, a serch ac ymnwyv.
6 Chweched, ysbryd glân, ac o hano pob deall, a phwyll, ac awen, a gwybodau.
7 Seithved, Duw, ac o hano pob bywyd, a chadernyd, a chynnal hyd vyth bythodd.
Ac o'r saith cynnevnyddion y mae pob bód a byw: a phoed ar drevyn Duw y cyvan oll. Amen.
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

Saith rhoddion yr Ysbryd Glan.

1 Deall, yn yr enaid, i rynu.
2 Pwyll, i ddosparthu.
3 Synwyrau, i weithredu,
4 Nerthodd corforawl, i allu.
5 Cariad, i serchu y da, a chasâu y drwg.
6 Awen, i ddychymyg a myvyriaw gwybodau.
7 Cydwybod, i varnu ar bob daioni a drygioni: ac o'r rhai hyn y tardd pob gwybodau a chelvyd lyd, a phob llawenydd, a dyddanwch, a gwynvyd.
Y Bardd Glas o'r Gadair ai dywed.

Llyma yr un peth yn amgen o ddosparth.

1 Deall, yn y meddwl, yn rhynu.
2 Pwyll, yn y deall, yn dosparthu.
3 Gwybodau, o bwyll, yn arail barn.
4 Nerthodd corforawl, yn gweithredu yn ol y bo barn.
5 Serch, o nerthodd synwyrau, yn caru yr iawn, ac yn casâu y cam.
6 Cynneddvau daionus, yn dyvod o wneuthur à vo iawn, herwydd barn o bwyll a deall, a herwydd serch corforawl.
7 Cydwybod, yn trevnu rhag myned ar gam yn à wneler, ac o hyn y bydd boddâu Duw, ac ymgynnal yn ei ysbryd ev.
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

ARALL.

O RYNIAD y pen y tardd y pwyll,
O ymdawr y pwyll y tardd yr ystyr,
O dravodion yr ystyr y tardd y deall,
O dravodion y deall y tardd y meddwl,
O gadernyd y meddwl y tardd gwyllys,
O chwantau yr wyllys y tardd yr ymgais.
O arverion yr ymgais y tardd y prawv,
O graf y prawv y tardd y gwybodau,
O ganvod y gwybodau y tardd y serch,
O irder y serch y tardd y cariad,
O ansawdd cariad y tardd pob daioni.
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

ARALL.

O YNIAU y corf y tardd y synwyrau,
O ynïau yr enaid y tardd y pwyll,
O brawv pwyll a synwyrau y tardd y deall,
O lavur y deall y tardd y gwybodau,
O nwyv y galon y tardd yr awen,
O ansawdd yr awen y tardd y serch,
O ymddwyn y serch y tardd yr athrylith,
O ansawdd yr athrylith y tardd y cynneddvau,
O ddarwain y cynneddvau y tardd y campau,
O afaith y campau y tardd pob drwg a da,
O ystyr pob afaith y tardd barn.
O ddysbwyll barn y tardd y gwybodau,
O gynghor gwybodau y tardd cydwybod,
O gydwybod y tardd y dyledau,
O wneuthur à vo dyled y boddëir Duw,
O voddâu Duw y ceir gwynvyd tragywydd.
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

ARALL.

O DDIRDER angen y daw yr ystyr,
O'r ystyr y daw y pwyll,
O'r pwyll y daw y deall,
O'r deall y daw y meddwl,
O'r meddwl y daw y serch,
O'r serch y daw yr awen,
O'r awen y daw yr ymgais,
O'r ymgais y daw y gwybodau,
O'r gwybodau y daw y barn,
O'r barn y daw cydwybod,
O'r cydwybod y daw y dewis,
O'r dewis y daw y weithred,
O'r weithred y daw pob drwg a da.
Bardd Glâs y Gadair ai Cant.

ERAILL.

NID gŵr heb ddysg,
Nid dysg heb ddawn,
Nid dawn heb awen,
Nid awen heb serch,
Nid serch heb ymgais,
Nid ymgais heb lwydd,
Nid llwydd ond o ddaioni,
Nid daioni ond cyviawn,
Nid cyviawn ond cariad,
Nid cariad ond uvydddawd,
Nid uvydddawd ond i Dduw.
Bardd Glâs y Gadair ai dywed.[1]

O MYNI gadw dy vudd cadw dy gartrev,
O myni gadw dy gartrev cadw dy vraint,
O myni gadw dy vraint cadw dy vro,
O myni gadw dy vro cadw dy dda,
O myni gadw dy dda cadw dy ddwrn,
O myni gadw dy ddwrn cadw dy wyneb,
O myni gadw dy wyneb cadw dy air,
O myni gadw dy air cadw dy gôv,
O myni gadw dy gôv cadw dy bwyll,
O myni gadw dy bwyll cadw dy awen,
O myni gadw dy awen cadw dy gydwybod,
O myni gadw dy gydwybod cadw gorchymynion Duw, ac o gadw y rhai hyny, ti à gedwi y cyfan.
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai Cant.

GOLUDAWG pob gweithgar,
Doeth pob pwyllgar,
Llwyddiannus pob ymgeisgar,
Hybarch pob cariadgar,
Diogel pob tangnevgar,
Call pob ystyrgar,
Addwyn pob meddylgar,
Dysgedig pob awengar,
Awenaidd pob aniangar,
Dihavarch pob celvyddgar,
Cadarn pob gwybodgar,
Gwybodus pob cerddgar,
Cerddolion pob cydwybodgar,
Cydwybodgar pob dwyvawl,
Dwyvawl pob ambwyllgar.
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai Cant.

BEILCHION Y BARDD GLAS O'R GADAIR.

BALCH geivyr ar y rhew,
Balch hwyaid ar y gwlaw,
Balch hedydd ar y tês,
Balch mychiad ar wynt,
Balch costog ar ei domen,
Balch baw ar bèn pren,
Balch Sais ar ei anrhaith,
Balch Cymro ar ei wlâd.
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

HOF pob newydd,
Diddestyl pob hên,
Rhyvedd pob anghynnevin,
Doeth pob dieithyr,
Call pob hyfordd,
Dall pob anghyvarwydd,
Rhwydd pob parawd,
Da pob gwellâad,

[1] Gwel Llyvyr Catwg.

Mawr pob daioni,
Hawdd pob galledig,
Hylaw pob medyr,
Cryv pob gwybodus,
Gwàn pob anallu,
Nerth pob gallu,
Hardd pob trevnus,
Llwyddus pob diwydrwydd,
Braint pob gwybodaeth,
Cyvoeth pob creft,
Moliannus pob ymgais,
Digon pob boddlondeb,
Diogel pob dedwydd,
Cadarn pob cyviawn,
Llawen pob serchawg,
Hygar pob awenaidd,
Nwyvus pob gobaith,
Glew pob dwyvawl.
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

LLYMA GYVORDDODAU Y BARDD GLAS O'R GADAIR.

1.

GAIR á bair iaith,
Iaith á bair ddangos,
Dangos á bair ystyr,
Ystyr á bair addysg,
Addysg á bair ymbwyll,
Ymbwyll á bair ddeall,
Deall á bair wybod,
Gwybod á bair ymgais,
Ymgais á bair gallu,
Gallu á bair gwyllys,
Gwyllys à bair gwneuthur,
Gwneuthur á bair celvyddyd,
Celvyddyd á bair dosparth,
Dosparth á bair iawn ar bob peth,
Iawn ar bob peth a bair bodd Duw,
Bodd Duw á bair bywyd tragywydd.
Nid bywyd ond iawn ar bob peth,
Nid iawn yn mhob peth ond bywyd,
Nid bywyd o iawn ar bob peth ond yn Nuw,
Nid byw ond à vo iawn ymhob peth,
Nid byw ond à vytho yn Nuw,
Nid yn Nuw ond à vo iawn yn mhob peth,
Nid yn nechreu ond gair Duw,
Nid yn niwedd ond yn Nuw.

2.

Gair á wna iaith,
Iaith á ddengys,
Dangos á bair ystyr,
Ystyr á ddysg,
Dysg á bwyll,
Pwyll á ddeall,
Deall á wybydd,
Gwybod á ymgais,
Ymgais á eill,
Gallu á wyllys,
Gwyllys á wna,
Gwneuthur á gelvydd,
Celvydd á ddosparth,
Dosparth á wna iawn,
Iawn á â yn vywyd,
Bywyd bôd yn Nuw,
Bôd yn Nuw bôd â byw tragywydd,
Byw tragywydd bôd yn Nuw,
Bôd yn Nuw bôd yn iawn,
Bôd yn iawn bôd yn nosparth,
Bôd yn nosparth bôd yn nghelvydd,
Bôd yn nghelvyddyd bôd yn ngweithred,
Bôd yn ngweithred bôd yn ngwyllys,
Bôd yn ngwyllys bôd yn ngallu,
Bôd yn ngallu bôd yn ymgais,
Bôd yn ymgais bôd yn ngwybod,
Bôd yn ngwybod bôd yn neall,
Bôd yn neall bôd yn mhwyll,
Bôd yn mhwyll bôd yn nysg,
Bôd yn nysg bôd yn ystyr,
Bôd yn ystyr bôd yn nangos,
Bôd yn nangos wrth à levair,
Bôd wrth à levair bôd ar air cyviawn,
Bôd gair yn gyviawn bôd wrth wir,
Bôd wrth wir bôd yn Nuw.

3.

Gair cyviawn gwir,
Gair anghyviawn celwydd,
Nid gwir cadarn ond gair cyviawn,
Nid celwydd cadarn ond gair anghyviawn,
Nid cadarn ar bob cadarn ond gwir,
Nid gwir cadarn heb ei wybod,
Nid gwybod ond o'i ddangos yn gyviawn,
Nid dangos cyviawn ar wir ond o iaith gyviawn.
Nid celwydd ond iaith anghyviawn.

4.

Nid cyviawn ond iawn ar bob peth,
Nid iawn ar bob peth ond bywyd,
Nid bywyd ond iawn ar bob peth,
Nid iawn ar bob peth ond yn Nuw,
Nid bywyd ond yn Nuw,
Nid byw ond à vytho yn Nuw,
Nid yn Nuw ond à vo iawn ymhob peth.

5.

Gair á levair,
Llavar á ddengys,
Dangos á ystyr,
Ystyr á ddysg,
Dysg á veddwl,
Meddwl á bwyll,
Pwyll á ddeall,
Deall á wybydd,

Gwybod á ymgais,
Ymgais á eill,
Gallu á wyllys,
Gwyllys à wna,
Gwneuthur a gyrch dyben,
Dyben pob peth iawn,
Iawn ymhob peth bywyd,
Bywyd o iawn bywyd tragwyddawl,
Bywyd tragwyddawl bôd yn ngwir,
Bôd yn ngwir bôd yn Nuw,
Bôd yn Nuw bôd yn iawn,
Bôd yn iawn bôd wrth air Duw,
Nid gair ond gair Duw,
Nid llavar ond gair Duw,
Nid dangos ond gair Duw,
Nid ystyr ond gair Duw,
Nid dysg ond gair Duw,
Nid meddwl ond gair Duw,
Nid pwyll ond gair Duw,
Nid deall ond gair Duw,
Nid gwybod ond gair Duw,
Nid ymgais ond gair Duw,
Nid gallu ond gair Duw,
Nid gwyllys ond gair Duw,
Nid gwneuthur ond gair Duw,
Nid dyben ond gair Duw,
Nid iawn ond gair Duw,
Nid bywyd ond gair Duw,
Nid gair Duw ond gwir,
Nid gwir ond cyviawn ar air a llavar,
Nid gair ond cyviawn o air,
Nid gair ar bob gair ond gair Duw.

6.

Nid iawn ar bob peth ond bywyd,
Nid bywyd ond iawn ar bob peth,
Nid iawn ond o allu,
Nid gallu ond o wybod,
Nid gwybod ond o ddeall,
Nid deall ond o bwyll,
Nid pwyll ond ystyr,
Nid ystyr ond o addysg,
Nid addysg ond o ddangos,
Nid dangos ond gair,
Nid gair ond gair cyviawn,
Nid gair cvviawn ond gair Duw,
Am hyny nid gair ond gair Duw.

7.

Gair à levair bob peth,
Llavar à ddengys bob peth,
Dangosedig à ystyr bob peth,
Ystyr à ddysg bob peth,
Dysg à bwyll bob peth,
Pwyll à ddeaill bob peth,
Deall à wybydd bob peth,
Gwybod à ymgais bob peth,
Ymgais à ennill bob peth,
Ennill pob peth ennill à vo iawn yn mhob peth,
Ennill à vo iawn ymhob peth ennill bywyd tragwyddawl,
Ennill bywyd tragwyddawl ennill y cyvan.

8.

Heb air nis gellir iaith,
Heb iaith nis gellir dangos,
Heb ddangos nis gellir ystyr,
Heb ystyr nis gellir addysg,
Heb addysg nis gellir pwyll,
Heb bwyll nis gellir deall,
Heb ddeall nis gellir gwybod,
Heb wybod nis gellir gallu,
Heb allu nis gellir gwyllys,
Heb wyllys nis gellir ymgais,
Heb ymgais nis gellir gweithred,
Heb weithred nis gellir iawn,
Heb iawn nis gellir bywyd,
Heb vywyd nis gellir bod.

9.

Gair yn ngham iaith yn ngham,
Iaith yn ngham dangos yn ngham,
Dangos yn ngham ystyr yn ngham,
Ystyr yn ngham addysg yn ngham,
Addysg yn ngham pwyll yn ngham,
Pwyll yn ngham gwybod yn ngham,
Gwybod yn ngham, ymgais yn ngham,
Ymgais yn ngham, gallu yn ngham,
Gallu yn ngham, gwyllys yn ngham,
Gwyllys yn ngham, gweithred yn ngham,
Gweithred yn ngham, pob peth yn ngham,
Pob peth yn ngham, marw,
Marw, na vytho yn Nuw,
Na vytho yn Nuw, ni vydd yn môd.

10.

Gair cyviawn, iaith gyviawn,
Iaith gyviawn, dangos cyviawn,
Dangos cyviawn, ystyr cyviawn,
Ystyr cyviawn, addysg gyviawn,
Addysg gyviawn, pwyll gyviawn,
Pwyll cyviawn, deall cyviawn,
Deall cyviawn, gwybod cyviawn,
Gwybod cyviawn, ymgais cyviawn,
Ymgais cyviawn, gallu cyviawn,
Gallu cyviawn, gwyllys cyviawn,
Gwyllys cyfiawn, gweithred gyviawn,
Gweithred gyviawn, pob peth yn gyviawn,
Pob peth yn gyviawn, bywyd cyviawn,
Bywyd cyviawn, bywyd yn Nuw,
Bywyd yn Nuw, bywyd tragywydd.

Ac velly tervyna Cyvarddodau y Bardd Glâs o'r Gadair.

AMRYW BETHAU GWIW EU DAL AR GOV.

Pump peth nid doeth ymddiried iddynt: I gi dieithyr, i gefyl llôg, i wraig siaradus, i wâs balch, ac i gorbwll avon.

Pedwar peth ni ddylai neb eu rhwystro:—

Un à vyno briodi yn gyvreithlawn, un yn myned i ysgol, un à vo yn gynnorthwy anghenus, ac un yn amcanu ymadael â'i ddrwgvuchedd.

Pedwar peth nid da myned yn eu cylch mewn gormod brys:—

Rhyfel neu ymladd, gwlêdd heb wahoddiad, ymgymhwyll â fol, a phriodi gwraig.

Pedwar peth à yrant ŵr tu hwnt w bwyll:—

Newyn taer, serch gwyllt, trachwant rheipus, a llid cynddeiriog.

Tri dyn nid call credu y cyvan à ddywedant:—

Darllenwr llyvyr anghyviaith, rhodieddydd o bell, a gwr hŷn no'i gymodogion.

Saith peth câs ar verched:—

Bwyta gormod mewn gwledd, yved gwin lle bo iechyd, siarad o'r neilldu â gwyr a gweision, derchavu golygon mewn eglwys, edrych yn hir drwy y fenestri, myned allan o'u tai heb eu gwŷr, a goganu gwragedd eu cymodogion.

Chwech casbeth gan Dduw, a'r seithved casach no'r cyvan:—

Llygad ymladdgar, tavawd twyllodrus, llawenâu gweled drwg, ymgyveilliaw ag anghynneddvawl, tyst anudonaidd, ac athrodwr ymhlith brodyr a chymodogion.

Pump dirgel goreu gadael iddynt:—

Pa vodd y mae ar arall, amcanion arglwydd mawr neu vrenin, bwyd y pysgod, newidiadau y byd, a dirgelion Duw.

Pedair fordd lithrig ac amyl y syrthier arnynt:—

Lle bo ia, addewidion têg, wyneb glanverch, a blys cyvoeth.

Pedwar peth hanpid gwaeth o'u gormodau:—

Esmwythder, iechyd, cyvoeth, parch, neu anrhydedd.

Pedwar gwyn à gair, a'r bummed yn ddysglair:—

Blodau y drain, eira Ionawr, têS hâv, a chalon lân iselvryd.

Tri gwyn a'r bedwerydd à dywyn:—

Gwyn à gafer ar elyn, gwyn serch, gwyn llawenydd o bell, a gwyn calon à vaco gydwybod lân.

Tri pheth anghyfredin:—

Ieuanc heb lawenydd, hên ysgubawr heb lygod, a hên ddyn anghybyddgais.

Pedwar peth nid amyl eu gwelir:—

Dyn glwth yn iachus, dŷn balch yn ddoeth, dyn cysgadur yn ddysgedig, a dyn o gybydd yn gywir.

Pedwar peth à ddylent vod gartrev yn wastadawl:—

Tavlawd iair, sawell dân, câth, a gwraig dda.

Naw casbeth llavurwr:—

Iair na ddodwant, hwch heb vychain, gweithiwr diawg, gwas anghywir, morwyn dew, cath gysgadur, merch buteinaidd, plant anuvyddion, tir annhirion, a gosgod heb arian.

Tri pheth raid chwiliaw yn hir cyn a'u cefir:—

Arian yn nhy yr avradlon, cyvoeth gan meistyr ysgol, a synwyr mewn bol bras.

Chwech peth nid da gwaint rhynggdynt:—

Cyvaill da â llawenydd, merch ddigywilydd â flangell, foadur â fordd dêg, ysgolaig â'i lyvrau, baban â brônau llaethawg, a lleidyr â chrogbren.

Chwech peth à ddigalonant wr:—

Tir drwg, arglwydd caled, gwraig anvedrus, merch anniwair, mab gwrthnysig, a chymodawg wrth vil y gyvraith:

Naw peth ni chyttunant ynghyd:—

Llyvryn a rhyvel, gweithiwr da ag un nas talo iddo am ei waith, gwr sychedig â fiol vechan, cwn a chathau mewn cegin, garddwr a geivyr, cofwrn mawr a thylodi, hên ŵr a gwraig ieuanc, hael a chybydd, a gwr doeth a dyn coegvalch tavodrydd.

Pedwar peth anesmwyth lle bont:—

Ty dyverllyd, sawell vyglyd, gwraig geintachlyd, a chymodawg cynhenllyd.

Chwech peth gwareded Duw bobun rhagddynt:

Cenedyl anwybodus, cyvaill o drachwant, gelyn o genvigen, teulu anneddvawl, cyvraith anghyviawn, a chydwybod euawg.

Ac velly y tervyna.

Llyma driodd am a weddant vod ar ddyn ac ar ddoethineb.

Tripheth anhawdd eu cael, tân oer, dwr sych, a thrachwantus deddvawl.

Tripheth anhawdd eu gwneuthur, tori syched â thân, sychu y gwlyb â dwr, a boddloni y byd.

Tripheth goreu eu gadael i'r sawl a'u caro chwaryddiaeth, gloddest, ac ymrysonau.

Tripheth nid da gadael iddynt, llong o flaen y gwynt, gwraig yn ei gwŷn, a mab yn ei anwybodaeth.

Tripheth à wnant wr yn hoenus, ei

wraig yn ei garu, ei gyvoeth yn mwyau, a Duw yn ei nerthu.

Tripheth canmoledig ar wr, ymadrawdd doeth, gweithredodd cyviawn, ac heb ddywedyd na gwneuthur gormodd.

Tripheth canmoledig ar wraig, wyneb dawnus, ymadrawdd synwyrus, ac arverion daionus.

Tri dyn nis dylid eu gwahawdd i dŷ, twyllwr gwenieithus, testynwr gwatwarus, a bradwr cenvigenus.

Tripheth hof i'w cael, gwraig rinweddus, ty trevnus, a thir cyvanneddus.

Tripheth à wnant wr yn gyvoethawg, ei wraig yn gasglai, ei dylwyth yn ddivrad, ac yntau yn llavuriad.

Tripheth à wnant wr yn voddlon i'w giniaw, ei wraig yn vedrus, ei vwyd yn voethus, a'i gylla yn iachus.

Tripheth anesmwyth ar wr yn ei dŷ, ei wraig yn ymdaeru, ei aelwyd yn mygu, a'i dy yn dyveru.

Tripheth sy yn cadw y byd mewn trevn, rhif, pwys, a mesur.

Tripheth ynghyd rhaid yw eu cael cyn y bo un da o honynt, meddwl yn dda, dywedyd yn dda, a gwneuthur yn dda.

Tair fordd sy yn arwain i dlodi, chware, glythineb, a phuteindra.

Tri dyn à gollant eu haravwch val o'u pwyll, helwyr, corelwyr, ac ymladdwyr.

Tripheth anhawdd i ddŷn, adnabod ei hun, gorvod ar ei chwant, a chadw ei rin.

Tripheth anhawdd eu cuddiaw, cariad, câs, a balchder.

Tripheth gwerthvawrocav i ddyn, iechyd, rhyddyd, a rhinwedd.

Tair fordd y sydd i adnabod dyn, wrth ei arverion, ei ymadroddion, a'i gyveillion.

Tripheth à gadwant wr mewn iechyd, ymborth mesurawl, llavur cymmedrawl, a gwres noturiawl.

Tripheth à ennill enw da i ddyn, dywedyd ychydig, gwneuthur daioni, a diwydrwydd yn ei alwad.

Tripheth ardderchawg ar ddyn, caru rhinwedd, casâu folineb, a dysgu yn wastadawl.

Tripheth à ddylai bob un ei wneuthur, gwrandaw yn uvydd, atteb yn gall, ac ymgais am wybodaeth.

Tripheth à ddylai à gafo gymwynas, ei goviaw, ei ddiolch, a thalu y pwyth i'r cyntav à vo ei raid wrtho.

Tripheth sydd well no chyvoeth, iechyd, rhyddyd, a synwyr.

Tripheth à geif dyn divalch, amledd, llawenydd, ac esmwythder.

Tripheth à geif dyn o gyvodi y bore, iechyd, cyvoeth, a santeiddrwydd.

Tripheth à geif dyn cysgadur, cywilydd, aviechyd, a thlodi.

Tripheth à geif dyn cywir, dawn, a pharch, a fyniant.

Tripheth à geif dyn twyllgar, drygair, drygvyd, a drwg ddiwedd.

Tripheth à geif dyn dyoddevus, cariad, parch, a chynnorthwy.

Tripheth à geif dyn anynad, câs, cywilydd, a gadael iddo yn ei angen.

Tripheth à geif dyn diwyd, clôd, blaenoriaeth, a chyvoeth.

Tripheth à geif dyn gwallus, cywilydd, gwatwar, a cholled.

Tripheth à geif dyn dedwydd, cariad perfaith, bywyd heddychawl, a llawenydd nevawl.

Tripheth à geif dyn diriaid, câs, gelyniaeth, a phoen calon.

Tripheth à geif dyn trugarawg, cydwybod lân, bodd doethion, a thrugaredd gan Dduw.

Tripheth à geif dyn creulawn, cydwybod ddirboenus, anghlod doethion, a digofaint Duw.

Tripheth à geir o ddilyn daioni deddvawl, cariad yr holl vyd o ddoethion, digonoldeb bydawl, a thâl gan Dduw yn y byd à ddaw.

Tripheth à geir o hirddilyn hirddrwg, carchar, eisiwed, a phoen tragwyddawl.

Tripheth à geif dyn dwyvawl, digonedd boddâawl, heddwch cydwybod, a gobrwyau nevawl.

Tripheth à geif dyn pechodgar, difygion bydawl, poen cydwybod, a chosp tragwyddawl.

Tripheth à geif dyn doeth, llwyddiant, urddas, a llawenydd.

Tripheth à geif dyn annoeth, avlwyddiant, gwarthrudd, a thristwch.

Tripheth à ddylai dyn eu hystyried, o ba le y daeth, yn mha le y mae, ac i ba le ydd a yn y diwedd.

Tri gelyn enaid dyn, y byd, y cnawd, a'r cythraul.

Tri meddyg enaid dyn, gweddi, dirwest, a chardawd.

Tri ychydig a wnant golli llawer, ychydig o wall, ychydig o dwyll, ac ychydig o anwydau drwg.

Tri chydymaith diavol, cenvigen, trais, a balchder.

Tripheth sy'n arwyddaw bod dyn yn gadwedig, caru y daionus, casau y drygionus, a buchedd haelionus.

Tripheth à wnant wr yn vlaenawr ar ei

gymodogion, cyvoeth, haelioni, a doethineb.

Tripheth sy yn gwaethygu y byd, balchder, llid, a thrachwant.

Tripheth à ddiweddant yn ddrwg, celwydd, cenvigen, a dichell.

Tripheth à geif cybydd, poen yn casglu, goval yn cadw, a cholli y cyvan yn y diwedd.

Tripheth à gant gariad Duw, fydd, cariad, a gobaith.

Tripheth à geif hael ei galon, llawenydd o'i ennill, gwynvyd yn rhoddi, ac ennill anveidrawl yn y diwedd.

Tripheth ni ellir drwg lle bont ynghyd, deddvoldeb, gwybodaeth, a chariad.

Tair rhinwedd arbenig doethineb, haelioni, diwydrwydd, a phwyll.

O dripheth y cyrhaedder doethineb, awen, addysg, ac ystyriaeth.

Velly y tervyna.

O Lyvyr Edward Lewys, yswain, o Ben Llîn, yn Morganwg.

Llyma rai triodd ereill o'r un llyvyr.

Tripheth à wnant wraig yn anniwair, wyneb têg, pen fol, a chalon valch.

Tripheth à wnant i wraig gael meddwl yn ddrwg am dani, bod yn chwannawg i gytgam â gwyr a gweision, caru ammheuthynion, a dywedyd yn ddrwg am wragedd ei chymodogion.

Tripheth à barant i wraig briawd gael cas yn lle cariad, bod yn anynad, chwennych blaenori, a bod yn dda wrth ei bola ei hunan.

Tripheth ar wraig briawd à bair iddi gariad gan ei gwr, serchusder ymadrawdd, uvudddawd yn ei hymddwyn, a diwydrwydd yn ei gorchwyl.

Tripheth ar wraig à wnant ei gwr yn flaenawr ar ei gymodogion, medrusder, diwydrwydd, a doethineb.

Tripheth ar wraig à dyn arni anmharch y byd a chas ei gwr, bod yn hir ei bore, bod yn warseddgar, a bod yn vudrogen.

Tair anurddas gwraig, bod yn chwedleugar, bod yn achwyngar, a bod yn athrodgar.

Tripheth à ddygant urddas i wraig, ymadroddion pwyllgar, boddlondeb i'r bŷd à vo arni, a bod yn heddychgar ymhlith ei chymodogion.

Y mae ereill ar goll, achos briwaw y llyvyr.

Tripheth à attaliant wahoddedigaeth i wr, bwyta gormodd, dywedyd gormodd, a cheisiaw gormodd.

Tair cynneddv anweddus ar wr, taerni yn ceisiaw, caled yn rhoi, a bod yn ddrwg ei dyb.

Tripheth à ddangosant wr yn ddoeth, dywedyd ychydig, gwneuthur llawer drwy ddiwydrwydd, a bod yn haelionus ei varn.

Tri achos y sydd i wr ddywedyd celwydd yn esgusedig, i gadw bywyd dyn diniwed, i gadw heddwch cymodogion, ac i gadw gwraig yn voddlon.

Tripheth à wnant wahoddiad mynych i ddyn, ymddwyn serchawg, llawenydd syber, a gochel gormesu.

Tripheth à ennillant gariad i wr ba le bynag ydd elo, cyvarwyddyd, tangnevoldeb, a syberwyd.

Tripheth à ddygant barch i wr ymhlith ei gymodogion, byw arno ei hunan, bod yn ddoeth ei gynghor, a bod yn gymmwynasgar.

Ac ni wyddys ba vaint ragor ar goll achos y briw yn y llyvyr.

Tripheth à wnant wr yn ddysgedig, addysg ar lyvyr, pwyll yn ystriaw, a deall craf.

Tripheth à wna ysgrivenydd da, cofadwriaeth dragwyddawl am wyr a gweithredodd ardderchogion, rhoi dangosiad i'r do à ddel, a gwneuthur ei enw ei hun yn barchedig dros byth.

A'r cyvan à ganlyn ar goll.

Tripheth amryvel o fyrdd eu gochelir: benyw o'i blaen, march o'i ôl, ac ofeiriad o bob tu.

Tri chelwyddawg y sydd ag nid oes eu cymheiriaid: arglwydd dros ei vraint, ofeiriad dros ei swydd, a merch dros vab à garo.

Llyma y naw celvyddyd wladaidd.

Garddoriaeth,
Govaniaeth,
Saernïaeth,
Barddoniaeth,
Telynoriaeth,
Gwehyddiaeth,
Llywyddiaeth,
Meddyginiaeth,
Newidyddiaeth,

Y rhai hyn oeddynt ar wybod ac arver gan yr hen Gymry, cyn bod iddynt ddinasodd, a dosparth teyrnedd.

Y naw celvyddyd dinesic.

Llythyryddiaeth,
Rhivyddiaeth,
Meidryddiaeth,
Seryddiaeth,
Pleidyddiaeth,

Ieithyddiaeth,
Milwriaeth,
Llongwriaeth,
Yngneidiaeth,
Y rhai hyn á ddychymygwyd gwedi ymgyviaw o'r Cymry mewn trevi a dinasodd, a gwneuthur dosparth ar deyrnedd a chelvyddydau breiniawl.

O Lyvyr y parch. Evan Evans.

Llyma ddewis bethau Bardd Ivor Hael.

(O Lyvyr Mr. Cobb o Gaer Dydd.)

Boregwaith hâv tawelglaer,
Byrwlith ar veillion,
Berwserch awengerdd,
Perfeithdlos iiain,
Wybrsygn digwmwl,
Coedgeirw ar frithlwybr,
Cytgerdd bytheiaid,
Doethveirdd eiriaw cerdd,
Llatai gywirgall,
Cusanu mygrverch,
Casâu eiddig,
Celu cyvrinchwedl,
Llatai cywirgall,
Cywydd carueiddserch,
Telyn gyweirber,
Teuluwr digrivgall,
Can cymmhriawdlev,
Cilwg mwythusdlws,
Cyvaill cywir,
Lleverydd adar mân,
Crechwengerdd eos,
Llais cerygnant raianloyw,
Llev mordon,
Llwybrvrys gynnevin,
Llawenverch vedrus,
Meidrol gariadwiw,
Modryb serchawgbwyth,[1]
Parabl caredigber,
Crychddwr graianwyn,
Cywraint ehawngall,
Perllan gaeadgerth,
Deildy caeredberth,
Cael vy nghariadverch, a'i chelu i'm bywyd—
Cariad îr vwriad ar vorwyn liwgalch,
Lunieiddvalch lôn addvwyn,
Hiraeth am winvaeth wenvwyn
Y sydd am y dydd i'm dwyn.

Davydd Morganwg, Bardd Ivor Hael a'i cant; sev *oedd hwnw Davydd ab Gwilym.*

Ac val hyny y cevais hwn yn Llyvyr Mr. Cobb; llyvyr à ysgrifenwyd yn swydd Vrecheiniawg ynghylch y vlwyddyn 1600. Davydd Maelienydd a'i cant medd ereill: ve gasgloedd Davydd Maelienydd, sev Davydd Bâch ab Madawg Gwladaidd, lawer o'r cyvryw bethau yn nghyd; ond pwy mewn gwirionedd à gant yr un uchod nis gwn; mi a'i gwelais yn Ngwynedd dan enw Dewisbethau Mabwaith Hengrys o Iâl; Dewisbethau Taliesin, mewn llyvyr arall; Dewisbethau serchawg yw enw arall á gair arno mewn rhai llyvrau.

Iolo Morganwg.

[1] Modrwy serchawglwys.

Casbethau Bardd Ivor Hael.

(Llyvyr Mr. Cobb, o Gaer Dydd.)

Boreu tywyll niwlog,
A brasbigawg oerwlaw,
A chapan dollvriw,
A theneuwynt rhynchwyth,
Ac hosanau byrion,
A chunog surllyd,
A bara caledlwyd,
A llymru y nôs,
A hên chwedleu y dydd.
A havod heb laeth,
A barynllŷs heb wîn,
A gwynt drwy bared,
Ac adwy ddreiniawg vudr,
A chwerwvrith lasdwr,
A chig mynyglau geivr,
A gorwedd ar oerlawr,
A chrechwen piod,
A chwn yn ymladd,
A gwrysgwern wleb,
Ac ysgol ddamchwelgar,
A negeswr anghywir,
A gwraig gul ymgeingar,
A bardd gwladeiddgamp anghyvarwydd,
A cherdd heb awen,
A bwyd heb halen,
A gwledd heb lawenydd.

Davydd Morganwg a'i dywawd.

Casbethau Owain Cyveiliawg.[1]

(O Lyvyr Mr. Cobb.)

Crynwas heb gamp,
Crynvarch heb rygyng,
Crynavon heb bont,
Bardd annigriv,
Cyvarwydd gwladaidd,
Syberwyd anghyvarwydd,
Dysgedig anmhenigamp,
Hen avallen ber heb frwyth,
Hen arglwyddes weddw,
Hen varch Sais,
Hen ŷch Cymro,
Henswrth deulüwr,

[1] Ieuan Gyfylog, medd Llyvyr Mr. Cobb o Gaer Dyv: Cyfoled ag Ieuan Gyfylog, *meddant yn Morganwg.*

Hen esgid crydd,
Hen hosanau gwraig y taeliwr,
Havod heb laeth,
Hendrev heb vara,
Dyn bach cul dolevgar,
Dyn mawr achwyngar,
Gwraig ymgeingar,
Mammaeth vrasnoeth.
Adwy vudr ddreiniawg,
Fordd arw gerygawg,[1]
Gordderchwraig serth,
Priawd anniwair ordderchiaith.[2]
Newyn gwedi bwyd,
Gwynt oer drwy bared,
Milgi bychan anghraf,
Gwraig gul gedorhir,
Hirnos heb chwedlau talpentan,
Hen chwedlau liw dydd,
Siarad mewn gwely,
A chorddi mewn castell.

Owain Cyveiliawg a'i cant.

Ac ereill o lyvrau á ddywedant mai Davydd Maelienydd a'i cant, yr hwn á elwid Bâch Buddygre, a Davydd Bâch o Vuddygre, a Davydd Bâch ab Madawg Gwladaidd, ac yn mhlwyv Llanystyphan yn Muddygre Maelienydd ydd oedd eve yn byw. *Velly Llyvyr Mr. Cobb.* Chwilied yn mhellach à welo yn addas, ac o bwys.

Iolo Morganwg.

DEWISBETHAU YR HEN VARDD LLWYD O VORGANWG.

TYDDYN bâch rhywiawg;
Pell pob cyvoethawg;
Heddgar gymodawg;
Gwra'g ddiwair serchawg;
Mab à gâr wybod;
Merch glof ar davod;
Gwâs diwyd fyddlawn;
Morwyn syw radlawn;
Cywledd heb veilchion;
Llŷs heb anudon;
Ymddal â doethion;
Gochel ymryson;
Mawrygu gwirion;
Coledd pob gweinion;
Haeddu parth calon
Bôdd Duw a dynion;
Gochel pob travod
A vag anghydvod;
Gochel llawenydd
A'm daw'n gywilydd;
Gochel pob awydd
A'm gwnai'n ry gybydd;
Gochel pob devnydd
Drygserch annedwydd;
Boddlonder beunydd
I'r traill a'm dyvydd;
Cyvaill a'm cerydd
Lle bwyv anvebydd;
Myvyrgil didrain,
Ymddadl â chywrain;
Pabell gaeadwerdd,
Awen edlingerdd;
Areulgwm sychbant
Am loew garegnant;
Annedd dirgelvan
O dŷ gwyn bychan;
Llwybrau llonyddgyrch
Hyd wyrddion lenyrch;
Cefyl carngadarn,
Anvynych davarn;
Negeswr didwyll,
Cynghorwr trybwyll;
Cyvarch mwyneiddlais,
Moliannus ymgais;
Cyvedd heb veddwi,
Cerydd heb sori;
Ymddwyn cynneddvawl,
Syber anianawl;
Campus gelvyddyd,
Teuluaeth ddiwyd,
Awengerdd bwyllber,
Cartrevgamp syber,
Llyvyr doeth cyweithas,
Coviaw cymmwynas;
Eglwysgor cyvlith,
Haelioni trylith;
Enllynvwyd o vlith,
A bara gwenith;
Graianddwr ddiod,
Dirwest oddevod;
Trevnus ymddarbod,
Gorchwyl yn barod;
Doethbell vyvyrdod
Ar bob madwybod;
Corf iachus gwisgi,
Bryd ar ddaioni;
Perllan gaeadberth;
Gerwyneb anterth;
Amgall ymadverth,
Cyveillion prydverth;
Boreuwawr godi,
Ymdawr diwegi;
Mynych wyddeli,
Anvynych drevi;
Dangos deddvoldeb,
Gwrthladd folineb;
Arail amynedd,
Casâu pob trawsedd;
Arwedd pob ystawd
Wrth vodd y Duwdawd;
A glân gydwybod
I'r bedd yn barod.

[1] Fyrdd graianawg.
[2] Priawd anwadal gordderchveddwl.

Yr Hên Vardd Llwyd o Vorganwg a'i cant; sev oedd hwnw Rhys Llwyd Brydydd ab Rhys ab Rhicart, o Vlaen Cynllau; tâd Lewys Morganwg.

Mi á welais yr un uchod dan ênw Thomas Llywelyn o Regoes.

Iolo Morganwg.

DEWISBETHAU GWR DOETH, NID AMGEN NOG

Ei vrenin yn gyviawn,
Ei arglwydd yn gadarn,
Ei wraig yn ddiwair,
Ei vorwyn yn syw,
Ei wâs yn ddiwyd,
Ei gyvaill yn gywir,
Ei gâr yn garedig,
Ei vâb yn wrolgamp,
Ei verch yn addwyn,
Ei gymodog yn ddidwyll,
Ei dîr yn dirion,
Ei dŷ yn ddiddos,
Ei ychain yn gryvion,
Ei ddevaid yn rywiawg,
Ei vôch yn hirion,
Ei varch yn vawr,
Ei vilgi yn vuan,
Ei hebog yn chwannawg,
Ei vwyd yn iachus,
Ei ddiod yn vain,
Ei ddillad yn glydion,
Ei wely yn esmwyth,
Ei ystavell yn lân,
Ei dân yn oleu,
Ei deuluwr yn ddoeth
Ei saer yn gelvydd,
Ei ôv yn feryllt,
Ei osb yn vardd,
Ei vugail yn fyddlawn,
Ei arwr yn wybrydd,
Ei dylwyth yn syber,
Ei ddosparth yn gall,
Ei dravod yn ei amser,
Ei drevn yn ymddwyn,
Ei velin yn agos,
Ei eglwys yn ngobell,
Ei wlâd yn heddwch,
Ei dâd ysbrydol yn ddedwydd,
Ei gydwybod yn lân,
A'i Dduw yn drugarawg.

Ac velly tervyna.

(O Lyvyr Edward Sanders o Lansanfraid Vawr.)

DEVISAV GWR TALIESIN.

Gwr à vo yn athraw yn ei dŷ,
Yn oen yn ei ystavell,
Yn vardd ar ei vwrdd,
Yn ddoeth yn ei ddadyl,
Yn walch ar yr hëol,
Yn llew yn y drîn,
Yn iwrch ar y maes,
Yn varch yn ei wely.

Llyvyr y Bardd Coch o Von.

DEWIS BETHAU HYWEL BWR BACH.

(*Llyvyr Mr. Sanders.*)

Eisyddyn gwasdadlawr,
Rhywiocdir meillionawg,
Caeadberth ysbyddaid,
Fynonddwr iachusdardd,
Tewgoed eosgyrch,
Trevedlawr araul,
Tŷ cynhes calcheidwyn,
Perllan yn ngwynoed,
Gardd lyseuber,
Yttardd tymhorgael,
Rhywiogion o wartheg,
Sidanwisg ddevaid,
Bychain o gefylau,
Esmwythvwyn duthvarch,
Gweinyddwas fyddlawn,
Gweinyddes sywdeg,
Erylgi da,
Llawengerdd medel,
Tân da yn y gauav,
Cymodawg llonyddgar,
Cyvaill cywir,
Cynghorbwyll serchawg,
Mwysgerdd adar,
Llais telyn o bell,
Agos melin a marchnad,
Cynhauavdeg ŷd a gwair,
Rhodva ddirgelfordd,
Llyvyr doeth,
Teuluaeth dawgar,
Annhaw cerygnant,
Gwraig serchawg ddiweirgall,
Mab gwybodgar,
Merch uvyddgamp,
Iach corf a meddwl,
Byw yn ddedwydd,
A marw mewn heddwch â Duw.

Duw i'm oes da yw i mi,
Duw enwav er daioni,
Duw 'mhob modd i'n rhynoddi,
Da yw o nêr Duw i ni;
Duw Nav á vynav enwi'n ddifynwr,
Duw i eiddilwr da i addoli.

Hywel Bwr Bach a'i cant.

DEWIS BETHAU DEIO MAELIENYDD.

Boreu tawelglaer,
Tewwlith ar veillion,
Gwawrgan ehedydd,
Crechwenber eos.
Crychnant raianllawr,
Cylched serchoglawr,
Lleverydd adar.

Llwbr dywyllgoed,
Carw ar frithlwybr,
Cydgerdd bytheiaid,
Nwyvusber gywydd,
Cyweirber delyn,
Caruaidd lasvedd,
Medrus lawenverch,
Serchiaith ganiad,
Perfeithdlos riain,
Doethion vydreiriau,
Cilwg mwythusdlws,
Celu cyvrinach,
Llwybrvrys cynnevin,
Cusanu glanverch,
Llatai gywirgall,
Caredigber barabl,
Casâu eiddig,
Dirgelvan garu,
Caru a'm caro,
A chael vy nghariadverch a'i chelu i'm bywyd.
Cariad hir vwriad ar vorwyn—liw calch,
Lunieiddvalch lòn addvwyn,
Hiraeth am wenvaeth winvwyn
Y sydd nôs a dydd i'm dwyn.
Dwyn serch at lwysverch edlaesvain—yr wyv
Er oed unarugain,
Glasgorf yn dwyn pryd glwysgain,
Ail Enid valch, 'Luned vain.

Deio Maelienydd a'i cant (*Llyvyr Mr. Sanders*)

Y mae hwn mewn llawer hên lyvyr yn Morganwg ac o amgylch yn cael ei dadogi ar Ddavydd ab Gwilym; a gellir barnu yn ddigon hybwyll nad oedd Davydd Maelienydd amgen yn y byd na chynnullydd y cyvryw bethau â hwn yma.

CASBETHAU SION GOCH O'R HENDREV.

Llyseiriau coegnith,
Chwerthin heb achos,
Mursen o daiogaeth,
Wylaw heb alar,
Cellwair â henddyn,
Dirmygu doeth,
Holi overedd,
Chwedl heb ei govyn,
Celwydd heb achos,
Gwir heb alw am dano,
Llawenydd yn anmhryd,
Ysmalâwch henddyn,
Pruddder ieuanc,
Anghovio câr a chyvaill.
Cyveillach ag ynvyd,
Rhoi arv i elyn,
Hofi distadledd,
Anmerchi rhagorder,
Gormod chwedleua,
Divannu o serch,
Rhyadrawdd à glywer,
Llavar wrth dawedawg.
Gormodd ar drevn,
Dosparth ryvanylvaith,
Beio ar y bwyd a'i vwyta,
Beio ar waith Duw,
Pendrondod Cymro,
Mydryddiaeth Sais,
Doethineb Gwaenllwg,
A chwaryddiaeth Llundain.

Sion Goch o'r Hendrevargod a'i cant.
(*Llyvyr Sanders.*)

CASBETHAU HEN GOCH Y DANT.

Cyvaill meddw,
Mab trythyll,
Gwas diawg anghywir,
Cymodawg anynad,
Glwth bolvras,
Cybydd anghawr,
Anwr ovnog yn bostio gwroldeb,
Cynghorwr byrbwyll,
Drwg ar gamp o ddevawd,
Chwerinthar ar bob achos,
Ieuanc mewn swydd,
Hen mewn advyd,
Deddvol mewn eisiwed,
Teulu heb syberwyd,
Gwr heb gelvyddyd,
Goludog heb haelioni,
Anwadal o varn,
Na chreter ei air yn ei wlâd,
A vo aml ei elynion o'i genedl ei hun,
Cardotyn o Sais,
Ac anghartrevawg o Gymro.
Doethineb Da yw'th enau—yn siarad
Dy seirian orddodau,
Boed yn reddv dy gynneddvau
O ynni mad yn y mau.

Iolo Morganwg a'i cant.

DEWIS BETHAU SION CWM TRIDWR.

(*Ll. Sanders.*)

Myvyr encilgoed,
Trem serchawg,
Wynebpryd siriol,
Boddlondeb i'r byd à vo,
Cov am gâr a chyvaill,
Hofi rhagorgamp,
Blasu y bwyd à vo,
Ymddwyn syber,
Hunander hybwyll,
Hunanovnocrwydd,
Cyvanred ymgais,
Ymorheula pen mynydd,
Ymwervela caeadlwyn,

Gwrthruthraw rhuthr.
Teuluwr gwybodbell,
Canmoliaeth cydwybod,
Caru à garo,
Maddeu à gasäo,
A Duw yn maddeu i bawb.

Sioni Cwm Taidwr a'i cant.

Dywedai llyvyr Sion Bradford mai Sion y Cent oedd Sioni Cwm Tridwr; mai hynod am awen a deall oedd yn vachgen; ond (vel ag y bu erioed, ac y bydd byth) ei gymodogion á genvigenent wrtho ac a'i anmharchent yn anghyvion, ac yntau yn vachgenyn tylawd wedi colli tâd a mam, nid oedd gantho vodd yn y byd i vyw ond à ennillai wrth weithio gyda fermwyr ac ereill. Un diwarnod oer iawn yr oedd eve yn bugeila'r brain ac ve ddaeth i dy ei veistr i ymdwymo: govynwyd iddo pam y delei oddiar y maes a gadael y brain ar yr ŷd? Y mae y brain, ebai ve, yn ddiogel yn nghastell Caerfili. Yn nghastell Caerfili? ebai ei veistr, ac a'i pwyodd yn greulawn gan ei droi i maes o'r tŷ. Y bachgen á gymmerwys ei fordd tua phen uchav Gwent, ac ni welwyd ev mwyach yno. Ei veistr á aeth i maes yn mhen ychydig, a thua'r cae gwenith, lle nid nid oedd gymmaint â brân iddei gweled: rhyveddu yn vawr; ond o du â Chaerfili clywed grawg a llevau anghyfredin gan vrain; myned tuag yno, a gweled y brain wrth y milodd mewn gwirionedd; ac er nad oedd na drws na fenestr yn nghaead, nis gallai gymmaint ag un o'r brain ddianc i maes; myned i mewn a cheisio eu gyru i maes o'r twr; ond yn lle myned i maes ymgrynôi am ei ben ev a phigo ei lygaid o'i ben; yna daeth ar gov iddo y sarâed a'r anmharch à wnaeth ev ar y bachgen tylawd, à alwai eve Sioni Cwm Tridwr, a danvon i chwilio am dano; ond nid oedd neb à wyddai ronyn am dano.

Sioni, bydded à vyno, á aeth yn y blaen tua gwlad Went, ac i blwyv Cent, à elwir yn Saesoneg Censiestr; ac yno mewn tŷ gwr mawr ve gavas le gwas mewn ystabl, i edrych ar y cefylau a'u bwydo; eve á orweddai bob nôs dan y preseb; ac mor ovalus oedd ev am y cefylau, val y dalwys y gwr boneddig sulw nid bychan arno; ac eve á roddai rywvaint o arian ar brydiau iddo; ac á'r arian hyny y prynai y glasvachgen lyvrau a phapur ac á ysgrifenai ryw beth neu i gilydd yn vynych. Daliwyd sulw ar hyn, a gwelwyd y gallai y bachgen vod yn wasanaethus mewn fordd amgenach yn y teulu na bod yn yr ystabl; ac anaml iawn yr oes hòno y ceid neb à vedrai ddarllen, ac ysgrivenu, yn mysg uwch o radd no'r bachgen tylawd; cymmerwyd ev i'r tŷ a holwyd ev, a deallwyd y medrai Ladin: derbynwyd ev i barch, a rhoddwyd iddo swydd a chyvlog à weddai i ysgolâig; a phan ddaeth i'r oedran govynedig, urddwyd ev yn ofeiriad. Bu dros rywvaint o amser yn ngwasanaeth yr eglwys yn Emlyn; ond yn mhen tro ve gavas eglwys plwyv Cent, yn ngwasanaeth pa un y bu hyd varw; ac yno y claddwyd ev dan wàl y ganghell, nid yn yr eglwys nac i maes o heni, yn ol ei ddymuniad. Yr oedd yn wr hên iawn yn marw; ydd oedd ev yn gweled y mawr lygredigaethau ag oeddent wedi ymlusgo i mewn i'r eglwys; ac yn dwyn ei dystiolaeth yn vawr yn eu herbyn; am hyny cyvrivid ev yn un o'r Loleriaid. Yr oedd yn byw yn nghylch yr un amser â Davydd ab Gwilym; ac ve allai ychydig ar ei ol ev, yr hyn sy debyg wrth yr ymryson rhyngtho â Rhys Goch o Eryri y'nghylch drwg ymarweddiad beirdd yr amser hyny. Hyn yw sylwedd hanes Sion Bradford. Dywedir chwedl y brain am Gattwg Llan Carvan, yn gystal ag am Sion Cent; ac un o overgoelion yr oes dywell hòno yw hi.

Iolo Morganwg.

Dewis bethau yr hen gap du.

(*Llyvyr Sanders.*)

Myvyr yn nirgel,
Llyvyr doeth,
Ysgriven deg,
Memrwn cywaith,
Digon o daw,
Hinon taweldes,
Canwyll vawr,
Tan da y gauav,
Awenvardd gwybodgar,
Cyvarwyddyd amlwg,
Hanes wirioneddol,
Cywair ar gywir,
Cyviawn o ddiareb,
Doeth awengerdd,
Iaith gyviawn,
Ymadrawdd gall,
Parabl ddilediaith,
Mâb dystaw gwrandawgar,
Gwylverch ddiwair,
Tŷ cynnesglyd,
Ymdaith ar draed,
Cwnnu yn voreu,

Ceiniog mewn llaw,
Synwyr yn mhen,
Ynni yn y galon,
Doeth heb olud,
A gwraig heb davod,
Wiliam Cap Du a'i cant.

LLYMA Y NAW CELVYDDYD WLADAIDD.

GARDDORIAETH,
Govaniaeth,
Saernïaeth,
Barddoniaeth,
Telynoriaeth,
Gwehyddiaeth,
Llywyddiaeth,
Meddyginiaeth,
Newidyddiaeth.

Y rhai hyn oeddynt ar wybod ac arver gan yr hen Gymry, cyn bod iddynt ddinasoedd, a dosparth teyrnedd.

Y NAW CELFYDDYD DINESIG.

LLYTHYRYDDIAETH,
Rhivyddiaeth,
Meidryddiaeth,
Seryddiaeth,
Pleidyddiaeth,
Ieithyddiaeth,
Morwriaeth,
Llongwriaeth,
Yngneidiaeth.

Y rhai hyn á ddychymygwyd gwedi ymgyviaw o'r Cymry mewn trevi a dinasodd, a gwneuthur dosparth ar deyrnedd a chelvyddydau breiniol.
O Lyvyr y Parch. Evan Evans.

NAW LLAWENYDD Y NEF.

(*O Lyvyr Brith y Coed Sion Bradford.*)

DYDD heb nôs, sev goleuni heb dywyllwch;
Heddwch heb ryvel, sev cariad heb gâs;
Iechyd heb glevyd, sev hyvrydwch heb vlinder;
Llawenydd heb dristwch, sev bodd heb anvodd;
Golud heb drythyllwch, sev meddiant heb bechod;
Deall heb anneall, sev gwybodaeth heb anwybodaeth;
Urddas heb warthrudd, sev parch heb anmharch;
Rhyddid heb gaethiwed, sev à vyner heb vod ar gam;
Bywyd heb angau, sev Duw a digon.
Amen, a phoed velly y bo.

HEBAU.

HEB ystyr heb bwyll;
Heb bwyll heb ddysg;
Heb ddysg heb Dduw;
Heb Dduw heb ddim.
Wrth hyny y gwelir mai heb ystyr heb ddim; gan hyny priv erddyl pob dŷn ymarver ag ystyr, ac o ystyr pwyll, ac o bwyll dysg, ac o ddysg Duw a phob daioni.
O'r un Llyvyr.

(*Modd arall, o'r un Llyvyr.*)

HEB bwyll heb ddysg,
Heb ddysg heb Dduw,
Heb Dduw heb ddim.
Wrth hyny y gwelir mai heb bwyll heb ddim, gan hyny priv ddyledigaeth dyn ymarver a phwyll, ac o bwyll y bydd dysg, ac o ddysg ydd adnebyddir Duw, ac o adnabod Duw pob daioni.

TRYWIAU.

TRYW i vâb iâr ddarogan,
Tryw i hwch dyrvu,
Tryw i lwynog ei ddichell,
Tryw i wâdd dywyllwch,
Tryw i eidion bori meillion,
Tryw i daiawg ddirieidi,
Tryw i ddoeth dedwyddyd,
Tryw i ddedwydd dwyvoldeb,
Tryw dwyvoldeb i Dduw,
Tryw i Dduw eithavedd daioni,
Catwg Ddoeth a'i dywawd.
O Lyvyr Harri Sion o Bont y Pwl.

Bu cariad a'i drawiad o dryw,
Rhyngo i'n sail a'r ddŷn syw oreu 'i serch,
Ail Elen lon lanav o liw,
Dyn ddivai vwyna 'n vyw veinwen verch.
Davydd Lewys o Verthyr Tudvyl a'i cant, 1760.

Ai nid *Rhyw* à ddylai vod yn lle *Tryw?* Dichon mai Tryw yw yr iawn; bydded à vyno, gwreiddyn *Ystryw*, *Trywedd*, ac ereill ydyw; a'i ystyr yw ve allai, *Anian*, *Ansawdd*, *Tueddiad*, *Anwyd*, mal yr arverir y gair etwa ar gyfiniau Morganwg a Brecheiniawg.
Iolo Morganwg.

CYNGHORION Y DRYW O'R LLWYN GLAS.
O lyvyr Mr. Cobb o Gaer Dyv.

BYDD ddwyvol a golychwydgar;
Bydd gyviawn a gwirgar;
Bydd ddewr a doeth ymbleidgar;
Bydd wastad a dosparthgar;
Bydd hybwyll a gochelgar;
Bydd gwybodawl a barngar;
Bydd drugarawg a llusengar;
Bydd gadarn ac ymgeisgar;

Bydd ddeddvawl ac amcangar;
Bydd ddaionus ac iawngar;
Bydd gan addysg yn wybodgar;
Bydd hywaith a gorchwylgar;
Bydd gywir a chyveillgar;
Bydd vyvyr ac ymdawgar;
Bydd uvydd ac ymchwilgar;
Bydd fyddlawn a chymwynasgar;
Bydd ddeddvol a dyoddevgar;
Bydd ddiwair a sywydgar;
Bydd ddiwyd ac ymbwyllgar;
Bydd arav ac ystyrgar;
Bydd hywedd a devodgar;
Bydd gynneddvol a moesgar;
Bydd hael ac ewyllysgar;
Bydd gòrawg ac ymroddgar;
Bydd eorth a meddylgar;
Bydd ddoeth ac ymovyngar;
Bydd gelvydd ac awengar;
Bydd dadawl a chartrevgar;
Bydd weddaidd ac arosgar;
Bydd wrth gynghor a gwrandawgar;
Bydd drevnus a rheolgar;
Bydd voneddig a hawddgar;
Bydd hynaws ac amyneddgar;
Bydd o Dduw yn vaddeugar;
Bydd gymodog heddychgar;
Bydd benteulu llywodraethgar;
Bydd wladwr ymdrechgar;
Bydd i'th geraint yn ymddiriedgar;
Bydd i'th elyn yn annïalgar;
Bydd dawel a thangnevgar;
Bydd o vuchedd dda yn obeithgar;
Bydd i'th wlâd yn gyvlesgar;
Bydd i'th blwyv yn wellêugar;
Bydd i'th dyddyn yn dravodgar;
Bydd i'th deulu yn athrawiaethgar;
Bydd i'th lŷs yn gyvnerthgar;
Bydd gan nawdd Duw yn ymnoddgar;
Bydd rhag anraith yn ddialgar;
Bydd i'r iawn yn gyvnerthgar;
Bydd val Duw yn gariadgar.

Ac velly y tervyna.

Llyma gynghorion Gwas y Dryw.

(O'r un llyvyr.)

1.

Cais addysg a chynghor, a gwna val y bo pwyll.

2.

Nac ymddiried i neb ond i Dduw, a'r nerth a roddes eve iti.

3.

Goreu gallu, gallu o bwyll; gallu o bwyll, gallu o Dduw.

4.

Goreu dysg, dysg awen.

5.

Goreu cyvaill, cydwybod lân.

6.

Gwrolav o bob gweithred, ymwellâu.

7.

Bydd yn oll o honot dy hunan, yn nawdd a nerth Duw, ac nid o ddŷn nac o dda, nac o ddeddv nac o ddyoddev, amgen no chydwybod lân, ac à vynai Duw.

Ac velly tervyna.

Arvollion.

(O'r un llyvyr.)

Arvoll câr â doethineb;
Arvoll dierth â gwlêdd;
Arvoll benyw â syberwyd;
Arvoll boneddig â gwrolder;
Arvoll balch â gweniaith;
Arvoll dysgedig â thawedigaeth;
Arvoll ieuanc â chân a serchogrwydd;
Arvoll hên â hawddgarwch;
Arvoll dedwydd â dwyvoldeb;
Arvoll Duw â dedwyddyd.

Ac velly tervyna.

Yr wyth brivwyd.

Cribddail neu dwyll,
Lledrad,
Balchder,
Godineb,
Diogi,
Glythineb,
Cenvigen,
Creulonder.

Ac yn eu gwrth y mae wyth weithred y Drugaredd; nid amgen,

Gwirionedd,
Cywirdeb,
Ymgais,
Hawddgarwch,
Diweirdeb,
Cymmedroldeb,
Cariad,
Heddwch.

(Or un llyvyr.)

Wyth defnydd dyn.

(Or un llyvyr.)

O'r ddaiar y cnawd,
O'r dwr y gwaed,
O'r awyr yr anadl,
O'r calas yr esgyrn,
O'r halen y teimlad,
O'r haul, sev y tân, ei gynhyrviad,
O'r gwirionedd ei ddeall,
O'r ysbryd glân, sev Duw, ei enaid, sev y bywyd.

Triodd.

(O Lyvyr Iago ab Dewi.)

1 Tri peth à edrych dŷn am danynt, a goreu ganto nas gwelo: gwadn ei esgid yn codi, pryv ar ei ysgwydd wedi cribo ei ben, ac un arall yn caru ei wraig.

2 Tri dedwyddgamp gwr: codi ei blant ar vonedd, adeilad trev ei dâd, a dwyn ei ddadl i ben.

3 Tri goreugamp gwreng: bod yn llawen yn ei dŷ, yn ddeddvol yn ei eglwys, a dyddio rhwng cymodogion.

4 Tri anharddwch gwledd: pwyned ryver, cyllell vinbwl, a'r saig yn rybell.

5 Tri pheth milain eu natur: meddyg, eiddig, a phorthor.

6 Tri pheth, medd Selyv Ddoeth, à yr y gwr allan o'r tŷ à drico ynddo; mwg, devni drwy'r tô, a gwraig anynad.

7 Tri anwybod dŷn: gyru mud yn llatai, ymweled â dall, ac ymhustyng â byddar.

8 Tri pheth ni wella ar neb o'r diwedd: hyder lledrad, haelder tylodi, a dewrder o veddwdawd.

9 Tri pheth anhawdd eu cael: taeliwr diorwag, melinydd cywir, a thavarnwraig ddidrachwant.

10 Tri pheth nid boddlon Duw iddynt: dŷn ni wellâo ei vuchedd yn y grawys, ni vwyâo ei boen yn y cynhauav, ac ni wellâo ei vwyd y nadolig.

11 Tri anurddas gwr mewn gwledd: pesychu yn ei ddiod, briwo ei law gan gyllell, a cholli ei bottes.

12 Tri anweddusrwydd gwledd: tòri o bob pen i'r saig, rhoi yn y pen gymmaint ar unwaith val nad allo ateb ei gydymaith, ac yved â'i damaid yn ei savn: a phedwerydd anweddusder goganu y bwyd a'i vwyta.

13 Tri pheth y dylai bawb ddiolch lle a'u cefir: gwahawdd, rhybudd, ac anrheg.

14 Tri pheth ni vaddeu Duw i ddŷn: ei oganu, ei anghredu, a'i anobeithio.

15 Tri pheth à ddyvetha'r byd: brenin ynvyd heb gynghor, ynad heb gydwybod, a gwâs heb ovn.

16 Tri dŷn ni bydd gwyrenig byth: gwr à wreico wrth gynghor ei gnawd, à lewo wrth gynghor ei vòl, ac à addawo wrth gynghor ei wraig.

17 Tri pheth y ceif dŷn dyoddevus: cariad, parch, a chanmoliaeth.

18 Tri pheth à geif dŷn cyndyn: cynhen, cywilydd, ac anmharch.

19 Tri pheth à geif dŷn divalch: amlder bydol, esmwythder cydwybod, a llawenydd nevol yn dragywydd.

20 Tair priv gynne ldv y sydd ar ddiawl: balchder cenvigenus. cybydddra trachwantus a chelwydd twyllodrus.[1]

21 Tri nodau diawl: gair, golwg, a gweithred; ac nis geill eu gochel.

22 Tri mâb sydd yn yr ysbryd: mâb i Dduw, mâb i ddŷn, a mâb i ddiawl; mâb i Dduw á wna dda dros ddrwg. mâb i ddŷn á wna dda dros dda a drwg dros ddrwg, mâb i ddiawl á wna ddrwg dros ddrwg a drwg dros dda.

23 Tri pheth ni hir barâant: rhyvyg heb urddas, cadernyd heb gydwybod, a phechod heb ediveirwch.

24 Tri chynghor yr Aderyn melyn: na alara am à ddarfo, na chred beth na alla bod, ac na chais na allech ei gael.

25 Tri lle y tywynoedd goleuni ac ni thywyna byth mwy: eigion y môr pan oedd Moesen yn foi rhag llu Pharao, llawr yr Iorddonen pan oedd Iesu yn myned i gael ei vedyddio gan Ieuan Vedyddwr, a phyrth ufern pan aeth Crist i gyrchu allan eneidiau yr etholedigion

26 Tri gwreiddyn pob drwg: celwydd, trachwant, a balchder.

Ac velly tervyna.

O Lyvyr yn Llan Bryn Mair, medd Iago ab Dewi.

Triodd.

1 Tri peth à gâr Cymro: tân, halen, a diodydd da.

2 Tri peth à gâr Sais: bwyd, a thir, a masnach pob peth.

3 Tri peth à gâr Gwyddel: trais, a thwyll, a cherdded.[2]

4 Tri peth à gâr Scot: pysgod, gwybodau, a gwledydd pellenigion.[3]

5 Tri peth à gâr Franc: gwraig, march, ac arvau llivedig.[4]

6 Tri pheth nid hawdd eu dal: carw ar vynydd, llwynog y'nghoed, a cheiniog cybydd anghawr.

7 Tri annedwyddwch teulu: cadw mursen, drygwas diog, a llettyva ofeiriad.

8 Tri pheth nid gwell y byd o ddim ag à wnant, er maint eu sôn am ddoethineb, a chelvyddyd, a dwyvoldeb: cybydd anghawr, bardd gorchest, ac ofeiriad teulu.

9 Tri pheth y bydd gwr yn ceisio eu

[1] Neu val hyn, mewn llyvyr arall:—
Tri chynneddv à wnant ddiawl: cenvigen o valchder, dichell er twyll, a chybydddra o drachwant.
Neu o vodd arall:—
Tair priv gynddev à wnant ddiawl cyvlwyr: balchder cenvigenus, cybyddiaeth o drachwant, a thwyll-ddichell er gwaethygu arall.

[2] Cherddi, Triodd Gwynedd.

[3] Nid yw yn Triodd Gwynedd.

[4] Lliwedig. Tdd. Gwynedd.

gweled beunydd, ac ni vyn eu gweled byth: twll yn ei esgid, adwy yn ei gae, ac arall yn bod gan ei wraig.

10 Tri dŷn à vynant eu tamaid yn vrâs ac yn voethus: coges, gordderchwraig, ac ofeiriad teulu.

(*Llyvyr Twm Robert.*)

Ac velly tervyna.

Triodd Cerdd.

O lyvyr y Plâs Gwyn, yr hwn ydoedd adysgriviad o lyvyr Rhobert Vychan o Hengwrt, yan Evan Evans.

1 Tair cainc y sydd ar Gerdd Davawd: clerwriaeth, teuluwriaeth, a phrydyddiaeth.

2 Tair cainc à berthynant ar glerwriaeth: ymsènu, dyvalu gair tra gair, a danwared.

3 Tair cainc à berthynant ar deuluwriaeth: sev, testuniaw, a dyvalu gwers tra gwers yn deuluaidd arav, a gordderchgerdd deuluaidd drwy eiriau ymwys.

4 Tair cainc à berthynant ar brydyddiaeth: cywyddau, ynglynion, ac odlau cerddwraidd anhawdd eu caniad a'u dychymyg.

5 Tair enaid cerdd y sydd: mesur, synwyr, a chynghanedd.

6 Tri thwyll y sydd ar gerdd: twyll gynghanedd, twyll awdl, a thwyll gymmeriad.

7 Tri bai cyfredin ar gerdd: tòr mesur, drwg ystyr, a cham ymadrawdd.

8 Tri thòr mesur y sydd: hir, byr, a thwyll yn yr awdl.

9 Tri rhyw ddrwg ystyr y sydd: cam ddychymyg, anmherthynas, ac eisieu enaid.

10 Tri cham ymadrawdd y sydd: unig a lliosog ynghyd, gwryw a banyw ynghyd, a gwydd ac absen ynghyd.

11 Tri anmherthynas cerdd: moliant a gogan ynghyd, rhwy ac eisieu ynghyd, ac eisieu berv.

12 Tri rhàn ymadrawdd y sydd: enw, a rhagenw, a berv.

13 Tri rhyw ymadrawdd y sydd: ymadrawdd perfaith, cyviawn, ac addurnedig.

14 Tri rhàn prydyddiaeth y sydd: sillav, gair, ac ymadrawdd.

15 Tri bai gwahanredawl y sydd ar gerdd davawd: prost ac unodl yn gyd, lleddv a thalgron yn gyd, a thrwm ac ysgavn yn gyd.

16 Tri bai gwahanredawl ereill y sydd ar englyn unawdl: carn-ymorddiwes, tin ab, a drygosodiad; sev yr achos y gelwir yn wahanredawl, neu yn wahanedig, am eu bod yn rhyw vànau yn veiau, ac mewn mànau ereill heb vod.

17 Tri pheth à berthyn ar wr wrth gerdd davawd: cerdd, a chôv, a chyvarwyddyd.

18 Tair cainc y sydd ar gerdd davawd: cywyddau, ynglynion, ac odlau.

19 Tri chov y sydd: achau, arvau, a rhandirodd.

20 Tri chyvarwyddyd y sydd: hengerdd, ystorïau, a barddoniaeth.

21 Tri pheth à berthynant ar glerwriaeth: goganu, ymbil, a gwarthruddiaw.

22 Tri pheth a berthynant ar deuluwriaeth: haelioni, digrivwch, ac emynhaedd, neu ervyn da yn deulüaidd.

23 Tri pheth à berthynant ar brydydd: clodvori, digrivâu, a gwrthwynebu gogangerdd.

24 Tri pheth a hofant gerdd: dyvnder ystyr, godidawg veddwl, ac awdurdawd y prydydd.

25 Tri pheth a anhofant gerdd: baster ystyr, sathredig ddychymyg, ac anurddas y prydydd.

26 Tri pheth à gyweiriant gerdd: addurn-gyvansoddiad ymadroddion, amlder Cymraeg, a dychymygvawr gerddwriaeth.

27 Tri pheth à urddant gerdd: deheurwydd, neu hyawdledd parabl, awdurdawd y prydydd, a chyvarwyddiaid à wypont varnu.

28 Tri pheth a anurddant gerdd: ei datganu yn anamser heb ei govyn, ei chanu yn anmherthynas i'r neb nas dylyai, ac eisieu cerddwyr à wypont varnu ar gerdd.

29 Tri pheth à amlâant awen cerdd: hengerdd, barddoniaeth, ac ystorïau.

30 Tri pheth à bylant awen: anghyvarwyddyd, angherddwriaeth, ac anghanmawl.

31 Tri pheth à lwgyr awen oll: tra meddwdawd, tra godineb, a thra ysgymyndawd.

32 Tri pheth à ddyly cerddawr eu gochel: llyna, nei ddiota, puteinio, a disio, neu dablera.

33 Tri pheth à ddyly cerddawr eu canmawl: haelder, a digrivwch, a cherddwriaeth.

34 Tri pheth a ddistrywia gerddawr: noethi, ac anghydnabod ac anghanmawl.

35 Tri pheth à vawrâant gerddawr: gwisgodd, cydnabod, a chanmawl.

36 Tri pheth ni chyngain mewn cerddawr: anwadalwch, ysmalâwch, ac angherddwriaeth.

37 Tri gwarant cerdd: cerddwriaeth, hengerdd, a meddwl da.

38 Tri pheth y cau cerdd arnynt heb vyned yn eu herbyn: hengerdd yr hên gerddorion, dychymygvawr gywreindeb y

prydydd newydd, a chelvyddyd o gerddwriaeth ni aller myned yn ei herbyn.

39 Tri pheth ni ddyly cerddawr eu credu yn hawdd: gogan clêr lle pryto prydyddion, cam-ganu o bencerdl canmoledig, a pheth ni allo bod herwydd y doethion.

40 Tri pheth à ddyly cerddawr eu gwneuthur: iawn ganu, iawn ddysgu, ac iawn varnu.

41 Tri pheth ni ddyly cerddawr eu gwneuthur o'i vodd: cam-ddysgu, cam-varnu. a goganu yn ddiachos.

42 Tri pheth à lawenycha cerddawr: ei ganmawl, gwrandaw ei gerdd yn ganmoledig, a rhoi rhoddion iddo.

43 Tri pheth à goddant gerddawr ac a'i tristâant: ei anmherchi, goganu ei gerdd, a'i nacâu.

44 Tri gwarthrudd cerdd: ei anghredu, ei goganu, a'i cham-varnu.

45 Tri anhebgor cerdd: eglur barabl, hyder ëovn, a cherddwriaeth.

46 Tri pheth à gyweiriant gerdd ac a'i teilyngant: deheurwydd parabl, cywreindeb synwyr, ac anianawl ddeall.

47 Tri pheth a anghyweiriant gerdd, neu ymadrawdd: pwl ddatgeiniad, ac anghywraint synwyr, ac anystyriol ddeall y parablwyr.

48 Tri pheth ni ddyly cerddawr eu cyvaddev: cyvrinach, cywilydd cydymaith, a chelwydd argyweddig.

49 Tri pheth ni ddyly cerddawr eu celu: barn uniawn ar gerdd, a gwir diwaradwydd, a chlôd dyledus.

50 Tri pheth anweddus ar gerddawr: frost, gogangerdd, a chroesanaeth.

51 Tri pheth à ganmolant gerddawr: haelder, digrivwch, a devodau da.

52 Tri pheth à waradwyddant gerddawr: cybyddiaeth, gwladeiddrwydd, a drygddevodau.

53 Tri pheth à ganiedir i gerddawr: clodvori pawb, barn gyviawn, a dyddanwch.

54 Tri pheth à bair caru cerddawr: cyttundeb, cynnilrwydd, a chlodvori dynion da.

55 Tri pheth à bair casâu cerddawr: anghyttundeb, anghynnilrwydd, a goganu dynion da.

56 Tri frwythlawn gerddawr: prydydd, bardd, ac ystoriawr.

57 Tri over gerddawr: clerwr, bardd y blawd, a hudol.

58 Tri pheth à wna frwythlawngerdd: dyddanu meddwl, gwellâu côv ac athrylith, a distrywio dryg-veddyliau.

59 Tri pheth à wna over-gerdd: methu, llygru synwyr, a mwyâu pechod.

60 Tri sylvaen doethineb: ieuenctid i ddysgu, côv i gadw, a synwyr i ddeall.

61 Tri chyweirgorn cadwedig cerdd davawd: calon i veddyliaw, ceudawd i gadw, a thavawd i draethu.

62 Tri pheth à ddyly vod ar voliant gwr: clôd, gweddi, a chynghor.

63 Tri pheth à ddyly vod ar ovyngerdd: deisyv, dyvalu, a diolch.

64 Tri pheth à ddyly vod ar varwnad: argyllaeth, cwynvan, a dadolwch.

65 Tri pheth à ddyly vod ar ogangerdd, pei perthyn i gerddawr eu gwneuthur: edliw, divenwi, a rhegu.

66 Tri pheth à ddyly vod ar rieingerdd: moliant, serchawgrwydd, a chariad.

67 Tri rhyw brivgerdd y sydd: cerdd davawd, a cherdd dant, a cherdd vegin.

68 Tair privgerdd davawd y sydd: prydu, datganu, a chanu gan dant.

69 Tair privgerdd prydyddiaeth y sydd: gwengerdd, rhieingerdd, ac unbengerdd.

70 Tair rhàn cerdd y sydd: sillav, gair, ac ymadrawdd.

71 Tair rhan sillav y sydd: llythyren, amser, ac accen.

72 Tair rhàn gair y sydd: llythyren, sillav, ac amser.

73 Tair rhyw lythyren y sydd: bogail, llythyren vud, a llythyren dawdd.

74 Tri rheolaeth sillav: ei hŷd, ei phwys, a'i natur.

75 Tri pheth à berthyn ar gynghanedd groes: cydatteb, cyvnewid, a gorphwysva.

76 Tair rhàn iaith y sydd: rhàn veddyliedig, rhàn ddywededig, a rhàn ysgrivènedig.

77 Tair gwarant ymadrawdd y sydd: llythyr, lliaws, ac arver: ac nid gwarant camarver.

78 Tri braint y sydd i bennill o gywydd: pencerddaidd, disgyblaidd, ac iselradd, neu dincerddaidd.

Triodd ereill o gorf yr un Gramadeg.

Tri rhyw gynghanedd lysg y sydd: llusg levn, llusg o gyswllt, a llusg ddwbl gyswllt:—

1. *Levn*:—"Odid i'n gael dy haelach."
2. *O gyswllt*:—"Ni â dyn gall dan alldud."
3. *Ddwbl gyswllt*:—"Y gwr cadrvraich paladrvriw."

Tri rhyw sain y sydd:—

1. *Sain levn*:—"Llyr i gadw gwyr gydag ev."
2. *Gadwynawg*:—"Pab Rhuvain bro Eurgain braf.
3. *O gyswllt*:—"Vy ngherdd am y ddager ddu."

Tri rhyw groes gyswllt:—

1. *Cyvan gyswllt*, val y mae:—"A theg yw'r llwyth Eigr a Llŷr."
2. *Haner cyswllt:*—"Gwinllanau Frainc yn llawn frwyth."
   A "Dug voliant i Gyveiliog."
3. *Dwbl gyswllt:*—"Drwy'r gwelydr a'i aur goler."

Tri rhyw groes-gynghanedd y sydd:—

1. *Croes-rywiawg:*—"Cu adardy coed irdeg."
   "Coed irdeg cu adardy."
2. *O gyswllt:*—"A thêg yw'r llwyth Eigr a Llŷr,"
3. *Disgyniedig:*—"Pwy ni'th gâr penaeth gwrol."

Tri rhyw gymmeriad llythyrènol, cynghaneddol, a synwyrol:—

1. *Llythyrenol:*—
   "Calon dynion dwy Wynedd,
   Credo'r beirdd o'r cryd i'r bedd."
2. *Cynghaneddol:*—
   "Canu bum yn Mryn Cunallt;
   Cwyno'r wyv accw'n yr allt."
3. *Synwyrol:*—
   "Ni ddwg neb yn ddigon abl
   Bleth vanaur heb lwyth venabl."

Y gynghanedd bengoll á ddeolwyd ac á gaethwyd yn y sevydliad diweddav à vu ar gynghaneddion a mesurau, yn amser yr awdur ariandlysawg Davydd ab Edmwnd; eithr mewn paladr englyn unawdl union, ac yn y cyvle hwnw y gadawyd hi yn gymmeradwy. Gynt yr oeddid yn arver o gynghanedd braidd gyfwrdd; a hòno á vydd pan vo un clo cynghan neu ddau yn nghanol braich o gerdd, a'r deupen yn colli, val hyn:—

"Y gwr *hael* o *hil* Rhodri."

A hòno hevyd á ddeolwyd yr un amser, neu cynt.

Cynghanedd groes rywiawg N goll, y cyntav á vydd val hyn:—

"Ond treulio da trwy lid oll."
"Ni thynir byth hwn i'r bŷd."
"Nid yw hawdd ei dihuddaw."

Rhydebyg á vydd pan vo yr orphwysva gynghaneddol ar awdl mewn accen ddisgynedig, ac yn debyg bob un i'w gilydd; o achos na bydd ond un gydsain neu ddwy yn ei diweddiad yn ei llestair i gydodli yn gwbl, val hyn:—

"*Ieuan* vy nghariad *ieuanc*."
"Llawer diwrnod llawen."
"*Rhydeg* vu yr *anrhydedd*."

O bydd y vath beth yn yr accen derchavedig, ni ellir dim mo'i alw yn rhydebyg: ac nid yw vai; val y canoedd Davydd ab Edmwnd i verch, herwydd ei gwallt:—

"I mae a pheth am ei phen,
Yr hâv val y Rhiw Velen."

Ymsathr odlau, á vydd pan vo yr orphwysva gynghanedd, neu rân o'r sillav hòno yn ymsathr ar awdl, val hyn:—

"Y *Gwr* o Gaerlleon *Gawr*."

Canys balch yw'r awdl, ac hi yn llygad y gerdd; ac am hyny ni oddev ddim i'w briwo:—

"Y mâb rhy *hydr* y'mhob *brwydr*."

Weithiau ereill y bydd ymsathr odlau, pan sathrer dau bennill neu dri mewn cywydd wrth eu gilydd yn unawdl, val hyn:—

"Goreu gwr a deddvwr da,
Gwir ammod yw'r gwr yma;
A goreu un a gara',
A goreu dim yw gwr da."

Weithiau y cenir unawdl cyrch yn brovest cyrch, val hyn:—

"Nerth yw dy ran wrth dy rym:
Aeth yn dy râs a'th wayw'n drwm;
Aethost iawnlwyth Ystanlai,
Lle nad ai y llew na dim.

Ynglyn o'r hên ganiad, ynglyn garhir, ynglyn milwr, ac ynglyn cildwrn, overvesurau ynt, ac nid ydynt yn y pedwar mesur ar ugain.

Triodd Taliesin.

(O Gell Gymysg O. Myvyr.)

Tri pheth à ddifeithia y byd: brenin fôl heb gynghor, ynad heb gydwybod, a gwas heb ovn.

Tri pheth ni hir barâa: rhyvyg heb urddas, cadernid heb gydwybod, a hir bechawd heb ediveirwch.

Tri dŷn ni bydd gynllwyniog byth: y gwr à wreica wrth gynghor ei gnawd, y gwr a vwyta wrth gynghor ei vol, a gwr à ymladdo wrth gynghor ei wraig.

Tri glwth byd: môr, dinas, ac arglwydd.

Tri pheth à ddyly pawb ddiolch lle y cafai: gwahawdd, rhybudd, ac anrheg.

Tri phechawd ni chyvaddevir: ovn ar elyn, poen serch, a drwg dyb eiddig am ei wraig.

Tri chodiad serch: anerch, cael, a chusan.

Tri ymlyniad serch: cywydd, englyn, a llatai.

Tri rhwydddeb serchog: noswaith dywell, tylwyth cysgiadur, a dôr dawedawg.

Tri avrwydddeb serchog: noswaith vèr wlawiawg, gwrach anhunawg, a chi tom llavarddrud.

Tri ymlyniad serchog: digrivwch, haelioni, a syberwyd.

Tri llavarwch serchog: havdy, côg, a llatai.

Tri avlavarwch serchog: cornant, eiddig, a chyfylog.

Tri anmhorth serchog: yspeilwynt hydrev, brawd pregethwr, a chi.

Tri dŷn sy noturiawl i dri pheth: melinydd i ladrata, brawd pregethwr i gardota, a broliwr i ddywedyd celwydd.

Tri pheth ni cheif dŷn ddigon er à gafo: iechyd, hoedl, a chyvoeth.

Tair sail doethineb: ieuenctid i ddysgu, côv i gadw, a synwyr i ddeall.

Tri pheth ni ddyleïr eu credu: breuddwyd gwrach, a llw gordderchwraig, a chwedl heb warant.

Tri pheth sy dda gan gybydd: twca carnvras, esgidiau uchel clytiawg, a goganu hael.

Tri pheth ni hwyrach iddeu sorâu eu perchenog à wneler yn dda am danynt: gwraig, march, a chi.

Tri pheth à geif dŷn dedwydd: cariad perfaith, bywyd heddychlawn, a llawenydd nevawl.

Tri pheth à geif dŷn drwg annedwydd: tylodi, avlwyddiant, a phoenau.

Tri pheth à geif dŷn gwallus: cywilydd, gwatwar, a cholled.

Tri pheth à geif dŷn am godi y bore: iechyd, cyvoeth, a santeiddrwydd.

Tri pheth nid hawdd eu coeliaw: llw porthmon, addewid gordderchwr, a gair heliwr am ei gi.

Tair dedwyddgamp gwr: codi ei blant ar vonedd, adeiliad trev ei dâd, a dwyn ei ddadl i ben

Tair dedwyddgamp gwr a gwraig: bod yn llawen yn eu tŷ, bod yn dda yn eu heglwys, a bod yn ddyddiwr eu cymydogion.

Tri avraid byd: crîb i wr moel, drych i wr dall, a bwcled i wr unllawiawg.

Tri pheth ni hir bery: llestr pridd i wraig veddw, llestr gwydr i veddyg from, a hoelion cocos melinydd anghywraint.

Tri pheth sy gystal â'r goreu: bara a llaeth rhag newyn, pais wen rhag anwyd, a mâb gwreng ar adwy.

Tri pheth a vàg iechyd i ddŷn: digon o dân vis Mawrth, digon o gysgu vis Mai, a digon o vwyd vis Gorphenav.

Tri pheth à geif dŷn cysgadur: cywilydd, aviechyd, a methiant.

Tri pheth à geif dŷn cywir: dawn, parch, a chanmawl.

Tri pheth à geif dŷn fals: drygvyd, drygair, a drygweddi.

Tri pheth a gaif dŷn goddevus, cariad, parch, a fyniant.

Tri pheth à geif dŷn trugarawg: dawn, cariad, a thrugaredd.

Tri pheth à geif dŷn o ddylyn hirddrwg: carchar cystuddiawl, newyn penydiawl, ac ufern dragwyddawl.

Tri pheth à geif dŷn deddvawl: digonedd bydawl, heddwch corforawl, a llawenydd nevawl.

Tri pheth à ddyly dŷn eu hystyried: o ba le y daeth, yn mha le y mae, ac ovni pa le yr â.

Tri pheth ni ellir eu divlanu byth: cyvoeth Frainc, porvadir Cymru, a falsder Lloegyr.

Tri chydymaith sydd i ddiawl: balchder, cenvigen, a lledrad.

Llyma Englynion Cain Cynnwyre.

(O Lyvyr Ioseph Ionos.)

Cain cynnwyre gwynt am lwyv,
Gnawd gwynvyd gwr ei gynnwyv:
Gwae ni chein à vo dawn Dwyv.

Cain cynnwyre gwawl hyd vŷr,
Gnawd pwyll yn y bo myvyr:
Gwae ni chlyw air a'i cynghyr.

Cain cynnwyre gwynt am lwyn,
Gnawd cudd yn ni bo ymddwyn:
Nid glew à bair mwyav cwyn.

Cain cynnwyre gwynt am ddâr,
Gnawd diogel pysg yn nhonniar:
Nid ar davawd llavar câr.

Cain cynnwyre tarth am vôr,
Gnawd cadarn llong wrth angor:
Namyn Duw nid oes gynghor.

Cain cynnwyre llwyd tònau,
Hygoll dôs yn nghydverau:
Nid mawr y câr doeth chwedlau.

Cain cynnwyre amlwg baint,
Gnawd cwsg yn more gan vraint:
Fawd i ddiawg nid rhyvaint.

Cain cynnwyre gwlith ar ddrain,
Gnawd cre yn more gan vrain:
Fawd i ddiawg ni ryvain.

Cain cynnwyre gwlith am berth,
Gnawd anghais y cyd bei nerth:
Nid rhwydd yd na bo yn merth.

Cain cynnwyre cànwel brîth,
Yd geisynt buain braenar îth:
Anfawd a gyrch yn mhob rhîth.

Cain cynnwyre esgud mîl,
Gnawd yn mherth eaws hywil:
Gwawd ebrwydd neud obryn gîl.

Cain cynnwyre tarthawg byrn,
Esgudnaid ceirw tros ebyrn:
Gnawd aml ei amcwydd trachwyrn.

Cain cynnwyre gwynt ar led,
Gnawd diogelder yn nhrevred:
Ni ddaw mâd mynych dreigled.

Cain cynnwyre pluv hyd vaes,
Nid aml i ddigared waes:
Namyn iawnder ni enwir aes.

Cain cynnwyre amlwg hoeth,
Ceisyd mâb megin ys maeth:
Nid goreu golud cyvoeth.

Cain cynnwyre caled llêch,
Blaidd ar vaen ni vedr odech:
Ni aned ni wyddiad bêch.

Cain cynnwyre gwynhawg bâl,
Gnawd i euawg hîr oval:
Gwell cyviawnder neg aur mâl.

Cain cynnwyre yn ngholais,
Trengid maran yn mlaen bais:
Ni ddifyg gallt o bei cais.

Cain cynnwyre hydd yn ngwâl,
Anrheithid rhywynt annal:
Gnawd i ddiawg hîr oval.

Cain cynnwyre gwawl am làn,
Dwyn ais yn na bo gwaeddvan:
Namyn Duw nid oes wyddan.

Cain cynnwyre gwynt am gawn,
Gorhofid rhïedd rhwysg llawn:
Namyn Duw nid oes uniawn.

Cain cynnwyre lluwch ar vàn,
Cyrch ar uchel gan daran:
Nid mawredd sydd oreu rhan.

Cain cynnwyre pwl pill sèr,
Gorchwythid gwynt uwch aber:
Trwch á ddaw er à wneler.

Cain cynnwyre glâs addail,
Llawen aethnen o'i gwynddail:
Pob dedwydd Duw a'i arail.

Cain cynnwyre gwae berchen tâl
Yn y bo hawl ac attal:
Ys dir am y gwŷd dial.

Cain cynnwyre croch tòn drèn,
Cyrchid carw dan vrig derwen:
Edwyn anfawd ei pherchen.

Cain cynnwyre, fug yn nghawdd,
Gnawd gwrm y bo a'i amllawdd:
Chwedl á dŷv yn ei hadrawdd.

Cain cynnwyre amlwg mall,
Bid diogel dryw yn ei ball:
Ys nid goreu gwynvyd gall.

Cain cynnwyre rhancus brân,
Gnawd gwynt yn gwasgar lluwch mân:
Gwae eiddil rhag cis baran.

Cain cynnwyre llwyd ceinon,
Tawgar o'i dyvnder avon:
Nid mawr serch lle mawr y sôn:

Ystyfan Bardd Teilaw a'i cant.

CERDD Y BARDD GLAS O'R GADAIR, O LYVYR IOSEPH IONES O GAER DYV, A YSGRIVENWYD Y'NGHYLCH Y VLWYDDYN, 1590.

DEG gormes caredvorion
A ddiväant y byd o'i vron,
Lle y bont gwae hwy 'r dynion!

Trais y cedyrn a'u hymdrin
Ar y llavurgar werin,
Gwae a'u teiml; gwae dysgethrin!

Esgeulusder esgobion
Yn ceryddu drwg ddynion,
Gwae wynt ddydd brawd ger bron Huon!

Chwant, o gribddail ac ocr noeth,
Ennill däodd a chyvoeth,
Gwae wynt yn mrawd, wyr annoeth!

Anudon digywilydd
Ymhlith cenedl annedwydd,
Gwae wynt yn mrawd ger Dovydd!

Gorwagedd brwysg y'ngwisgodd,
Yn ngwrth doethion hen oesodd,
Gwae a'u nawdd rhag Nêr nevodd!

Llyvreidddra cenedl werin
Yn ovni egor y mîn,
Gwae wyntwy 'n nydd cyvrwysdrin!

Oervel ymhlith cerennydd
Yn difawd cariad gwledydd,
Gwae y rhai'n gan rhwysg tre'sydd!

Meddwdawd a phob glythineb,
Hyd nas cyll neb ei wyneb,
Gwae wynt rhag eu folineb!

Godinebau cyhoeddus,
Heb neb a'u beirn yn veius,
Gwae wynt rai annosparthus!

Trin cyvraith yn anghyviawn,
Heb ovalu am uniawn,
Gwae a'u gwnel rhag a'u cyvrddawn!

Gwae wynt wy, medd y Bardd Glâs,
A warchetwis ei addas,
Gwae a'u bont rhag anurddas!

Gwae wynt wy âl y gethern
A wladychant oer vigwern,
Gwae wynt rhag a'u cysb, ufern!

Amboed anymgoll vywyd,
Nam boed ymgydrin a gwŷd,
Ac a'm dawn Duw am gweryd.

Amboed anhylwgr vuchedd,
Yn ystyriaw vy niwedd,
Ys mau nawdd Ner tangnevedd.

Amboed hybwyll vyvyrdawd
Yn ymysgar â phechawd,
Ys Duw a'm nawdd yn nydd brawd.

Y Bardd Glâs o'r Gadair a'i cant.

Yr oedd y Bardd Glâs o'r Gadair yn byw yn amser Alfred brenin Lloegyr; ac á

aeth at y brenin hwnw yn *Vardd Teliaw* iddo, medd Edward Davydd o Vargam. —*Pa beth yw Bardd Teliaw?*

LLYMA ENGLYNION A VUANT RHW NG CARADAWG LLANCARVAN A GWGAN VARVAWG O LANDATHAN.

(O lyvyr Ioseph Iones o Gaer Dyv, 1590.)

GWGAN Varvawc, hanpyll gwell,
A'm rothwy eb ryvawr gymhell
Eiriau cynghor a'm cywell.

Ai da gan Dduw garu merch,
Ac arail amddi draserch?
Am bo'th addysg i'm annerch.

Gwgan mwyav gwybedydd
Er à welais yn ngwledydd,
Ai da cân a llawenydd?

Gwgan gwybedydd cyvrgain,
Mygr fawd myvyrdawd mirain,
Ai da canu mawl rhiain?

Gwgan gwybedydd cyfrgall,
Mycrav ys gwn ei ddeall,
Ai da gadáel i anghall?

Gwgan gelvyddyd barddas,
Gwr ni rygyll ei urddas?
Ai da gogan, ai addas?

Gwgan briv awen gytgerdd,
Ail eos barddes dôl werdd,
Ai da i Ddovydd gwengerdd?

Gwgan gelvyddyd gyvlawn,
Gwr à geidw y'mhob uniawn,
Ai da dysg lle na bo dawn?

Caradawc Llancarvan a'i cant.

ATEB GWGAN VARVAWG.

HANPYLL gwell, ti Garadawg
Awen-viniad ceinvoddawg,
Wyd gyvaill Gwgan Varvawg.

Llyma vy nghynghor iti,
Can nid teg imi dewi,
Cyt y gwyddost gwell no mi.

Duw à wnaeth merch yn nghyntav
O asswyn assen Addav,
Mal a'i carai'n anwylav.

Ac am hyn, wr cerddgyvrain,
Man y bo beirdd cyvurddain,
Bodd Duw caru gwenriain.

Duw à wnaeth cân ac awen,
Er peri nev yn llawen;
Ac am hyn da cerdd gymhen.

O adael anghall á wna
Heb addysg a'i dyspwylla,
Nid ymchwel vyth ar y da.

Duw à wnaeth dŷn o'r ddaiar,
Ac a'i pyrth yn athrugar,
Ev ai mawl am hyn a'i câr.

Caradawg ymbwyll dyddan,
Gwr ni lithr yn ei amcan,
I bob drwg addas gogan.

Caradawg ymbwyll cyviawn,
Ys gyrid dyn yn mhob iawn,
Lle bytho dysg ys dir dawn.

Gwgan Bardd Iestin a'i cant; sev Gwgan Varvawg o Landathan.

Y DIARHEBION CYMRAEG,

A GASGLOEDD YR HEN GYRYS O IAL, AC A ARGRAFED YMA YN OL ADYSGRIVIAD Y PARCH. EVAN EVANS, YN 1775, O LYVYR A YSGRIVENOEDD GWILYM MAURICE O LANSILIN, YN 1675, O GASGLIAD Y PARCH. DR. JOHN DAVIES, O VALLWYD.

AT YR HAWDDGAR GYMRO.

DYMA i ti, y Cymro anwyl, weddillion doethineb yr hen Gymry gynt; sev yw DIARHEBION DY WLAD, yn gywirach, ac yn amlach nog y printiwyd hwynt o'r blaen.

Y rhai à ddodwyd yma yn anghwaneg sy â serenod o'u blaen, val hyn *. Ac y mae ambell un o honynt yn o dywyll; a'r rhai hyny á nodir val hyn ɑ.

Y casgyl cyntav o'r Diarhebion hyn á elwid gynt *Madwaith Hên Gyrys o Iâl;* o herwydd val hyn y mae wedi eu hysgrifenu o'u blaen hwynt yn yr hen lyvrau—*Madwaith Hên Gyrys o Iâl, yr hwn á elwid Bâch Buddygre, a Gwyddvarch Gyvarwydd; a'r hên wyrda gynt á ddywawd y Diarhebion hyn val y buent gadwedig gwedi hwynt i roddi addysg i'r neb à syniai arnynt.*

Pa amser yr oedd yr *Hên Gyrys* yma nis gwn i. Cymmer di addysg a gwybodaeth oddiwrth y Diarhebion hyn; ac velly y teli di iddo ev bwyth ei lavur yn eu casglu hwynt, ac i minnau bwyth vy llavur yn eu taclu, ac yn eu gosod allan er dy vwyn di—A bydd wych,

JOHN DAVIES.

DIARHEBION.

A ACHWYNO heb achos, gwneler achos iddo.
A addev rydau.
A aeth ynghyd aeth o'r byd.
A arbedoedd ei lwyn á golloedd ei vwyn.
A arbeto ei vach arbeted ei gynnogyn.
Abl i bawb a'i bodlono.
Abl i bawb a'i gweinyddo.
Abl i bawb ei gydradd.
Abl yw soeg i vôch.
Ac yna mi á ddefroais.
Achles calon cwrwv.
Achos bychan y daw blinder.
Achos heb achos o hono.
Achos i'r bysen vod ar y barth.
Achub maes mawr â dryg-varch.
Achub yr adeg.
Achwyn rhag achwyn rhagddo.
Adail dedwydd yn ddiddos.
Advyd pob hir dristwch.
Adneu cyhyryn gan gath.
Adneu gan berchen.
A Duw yn y (o'r) blaen.
A gair Duw yn uchav.'
Adwaen laeth can nis dyvnwyv.
Adwaen mâb a'i llawch.
Adwyawg cae anhwsmon.
Addas i bawb ei gydradd.
Adwyth diriad heb achos.
Addaw mab addaw vaen.
Addaw mâch ac addaw mâb.
Addaw mawr a rhodd vechan.
Addaw y môr a'r mynydd.
Addaw têg á wna ynvyd yn llawen.
Addev yw tewi.
Addved angeu i hên.
Addug yr hydd i'r llyn.
Addug yr hydd i'r maes mawr.
Adduned herwr hirnos.
A ddwg angau nid adver.
A ddwg da drwg gynghor?
A ddyvo can-car á ddyvydd can-nos.
A ddyvo i dorth ai dyhaith,
Ev á ddyvydd à wnel ei waith.
A ddygo y gôd ymborthed o honi.
A ddygo yr wy á ddwg à vo mwy.
A ddysger i'th vâb ddywsul ev a'i gwybydd ddywllun.
Aed lew i gynhwrv câd Duw a'i ddifer.
A êl i lys heb neges doed a'i neges ganto.
A êl i'r gware adawed ei groen gartrev.
Aelwyd a gymhell.
Aerwy cyn buwch.

A esgyno yn hwyr ebrwydd y disgyn.
Aeth ynghyd aeth o'r byd.
Aviach pob trwm galon.
Avieuthus pob mammaeth.
Avlan dwylaw diawgswrth.
Avlan genau anudonawl.
Avlednais pob gwyllt.
A vo a'i vryd ar ddebed (gerdded)
  Ni wna dda cyn ei vyned.
A vo aml ei vara,
  Tan ganu aed i laetha.
A vo aml ei veibion,
  Bid wâg ei goluddion.
A vo aml ei vêl rhoed yn ei uwd.
A vo caled yn nghynghaws,
  Dadleued ar bob achaws.
A vo dda gan Dduw ys dir.
A vo digywilydd á vydd digolled.
A vo diried ar vôr diried vydd ar dîr.
A vo goreu i ryvel goreu i heddwch.
A vo hên arched weddi.
A vo hyborth hywir vydd.
A vo marw ni ymogelir.
A vo marw er ei vygwth a'i vaw y cymmuner.
A vo nesav i'r eglwys
  Vydd pellav oddiwrth baradwys.
A vo pen bid pont.
A vo trechav treisied,
A vo gwanav gweiddied.
Avrad yw gwrthod.
Avrad pob avraid.
Avrwydd pob dyrys.
A vu ben cwd aeth yn din cwd.
A vu ddyn aeth yn adyn.
A vyno barch bid gadarn.
A vyno glôd bid varw.
A vyno Duw dervid.
A vyno ddrwg i'w gymydog iddo ei hun y daw.
A vyno gymhell bid glâv.
A vyno iechyd bid lawen.
A fôl nid doeth ymryson.
A gavas y carn á gavas y llavn.
A gafo ddyrnod y bore hyd ucher ydd âa ag ev.
A gair Duw yn uchav.
A Duw o'r blaen.
A garo ei vam cared ei elltrewyn.
A garo ei gilydd nid adnebydd ei gabl.
A garo ei gilydd nis dirmyg.
A garo yr iau, cared ei waryau.
A garo ei gwr, cared ei chwegr.
A gasgler ar varch Malen tan ei dòr ydd âa.
A gatwer á geir wrth raid.
A grawn cybydd á ys glwth.
A grëa y vrân vawr á grëa y vrân vechan.
A gwyn cwyn bychan,
  Cwyn mawr á ddarogan.
A gwyn rwy ni rygwynvan.
A gyvodes á golles ei le.
A gymmero ddysg cadwed.
Alwysen tam o garw.
A'i wregys ar dro.
A lygrwys Duw á lygrwvs dyn.
Allan o olwg allan o veddwl.
Allwedd calon cwrwv da.
Amaerwy adnabod amynedd.
Amaerwy direidi drwg anian.
Amcan cyn gwneuthur.
Amcan á vydd gan bawb.
A'm caro i cared vy nghi.
Amgeledd y ci am y cwd halen.
Am gwymp hên y chwardd ieuanc.
Am gwymp hên y chwardd gwên gwas.
Amlach yw y brain no'r gweilch.
Aml tro ar veddwl serchog.
Amlav cwrwv tra hitler.
Amlav y mêl tra hitler.
Aml bai lle ni charer.
Amlwg cas a chariad.
Amlwg gwaed ar ben crâch.
Amlwg gwaed ar varch gwelw.
Ammau pob anwybod.
Ammheuthun pob dieithrvwyd.
Ammod á dyr ddeddv.
Amser i vwyd amser i olochwyd.
Amser sydd i bob peth.
Anavus pob drygvoesawg.
Anav yn ngïau angau yn ngwythi.
Aneglur genad yw ceudawd.
Anfawd i'r dyn a'm twylloedd ddwywaith.
Anfawd i minnau o'm twylla y drydedd waith.
Ancirian pob diriad.
Anmharawd pob anallu.
Anmraint pob tòr devod.
Angau angen dyhewyn dir.
Angau á ddyvrys.
Angau garw drud a'i heirch.
Angel pen fordd a diawl pen tân.
Angen á bair i hên wrâch duthio.
Angen á bryn ac á werth.
Angen á dyr ddeddv.
Angen á ddysg hên i redeg.
Anghall mall dall á dwyllir.
Anghariadus pob diriad.
Anghenawg pob tylawd.
Anghwbl pob eisiau.
Anghymmen pob fôl.
Anghynhes pob oer.
Anghwanecid mevl mawrair.
Anghyvarwydd á dyr ei dîn yn cachu.
Anhael pob cybydd.
Anhapus pob trwch.
Anhawdd i weniaith
  Dwyllaw ond unwaith.

Anhawdd chwythu tân â blawd yn ngenau.
Anhawdd gwreica a fynu yn yr un
vlwyddyn.
Anhawdd rhedeg oni ellir cerdded.
Anhyderus pob ovnawg.
Anhydyn pob avrywiawg.
A noddo Duw rhynoddir.
Annoeth llithrig ei davawd.
Annog gi ac na ddos gantho.
Annos ci i gell agored
Anrhaith gyvludwydd (gyvludd vydd)
Taiawg yn nhy ei gilydd.
Anwadal barn pob ehud.
Anwar vu (vu i) Velyn ei vraint.
Anwydawg chwannawg i dân.
Anwyl gan bawb à gâr.
A oddevo á orvydd.
A oddev rydau.
A ogano á ogenir.
Arav dân á wna vrâg melys.
Araith doeth a drud ni ddygymmydd.
A ràno i liaws rhâned yn hynaws.
Arbed geisiaw ac arbed gael.
Arbed law ac arbed droed.
Ar bob da Duw sydd athraw.
Ardd cyd byth, ardd cyn ni bych.
Ar ddiwedd y mae barnu.
Arv á geidw leddwch.
Arver á wna meistri.
Arvawg á gafo rybudd.
Arv doeth yw pwyll.
Arglwydd á gymhell.
Arglwydd biau à wrthoter.
Arglwydd gwan gwae ei was.
Arglwydd pawb ar ei eiddo.
A'r gwellaiv y llas y weirglawdd.
Ar hindda mae gweithio
Rhag newyn pan ddelo.
Ar hindda y mae cynuta,
Rhag anwyd y gaua'.
Arian á bryn ac á werth.
Ar ni allo trais twylled.
Ar ni ochelo y mwg ni ochel ei ddrwg.
Ar nid yw pwyll pyd yw.
Ar ni oddevo gwas bid was iddo ei hun.
Ar ni phortho ei gath porthed ei lygod.
Ar ni roddo à garo ni cheif à ddamuno.
Ar ni wano yn ddraen ni wan yn gipyll.
Arovyn drwg vugel.
Ar ol gwlaw tês a ddaw.
Ar ol cymmylau
Yr â'r wybren yn olau.
Arwaesav á ddifydd ddifaith.
Arwaesav ar leidyr ei ddal. (vynag)
Arwydd drwg mwg yn nifaith.
Arwydd nad cîg bwch.
Aseth ni phlyco nid da.
Asglodyn gwern yn mhen cath.
Asgre lân diogel ei pherchen.
Asgwrn yr hên yn yr angen.
Astrus pob anav.
Atvai gell i gi mynych ydd âa iddi.
Atgas direid-ddyn.
Atteb arnav gan ddysgedig.
Athraw pawb yn ei dy.
Athrodwaith o genvigen.
Aur gan bawb á chwennych.
A wahanoedd cnawd gwahanoedd ddolur.
Awchus arv à eillio.
Awdur cerdd a'i gwnel.
Awgrym pawb nis gwybydd.
A wnêl drwg arŏed y llall.
A wnel drwg ymogeled.
A wnel dyn Duw a'i barn.
A wnel Duw nid âa yn adwaith.
A wneler yn rhîn nant
Ev a'i gwybydd cant.
A wnel mâd mâd á ddyly.
A wnel mawr-ddrwg á rydd mawr llw.
A wnel dwyll ev á dwyllir.
Awr ddrwg cafaeliad falswr.
A wreiddio mewn drygioni,
Anhawdd vydd ei gynghori.
Awydd á dyr ei wddyv.
A yvo lawer bid veddw.
A ymgyweirioedd á gychwynoedd.
A yso dam y mâb ysed ei vevyl gantho.

Bai ar wrach dòri ei chlun.
Bai ar varch dòri ei droed.
Balchder heb droed.
Balchder a'i gydymmaith
A gavas gwymp ar unwaith.
Balchder o bell.
Bara ac ymenyn yw un tamaid.
Barv nid ardd ni chwardd ei chlas.
Bâs pan wahèner hyny.
Basav dwvr yn yd levair.
Bawddyn wrth ei grybwyll.
Be â bawd y gweuid gwe.
Be cafai bawb à vynai,
Ni byddai hiraethawg neb rhai.
Bellach, bellach, val chwedl y barcud.
Bendith i'r hwch biau y bloneg.
Berwid calon llew (glew, lew).
Bid anian dedwydd.
Bid anniwair diveriawg (deueiriawg).
Bid anwadal ehud.
Bid aha byddar.
Bid ddrwg gwraig o vynych warth.
Bid ddiriad ddryganianus.
Bid ehud drud er chwerthin.
Bid evain alltud.
Bid gwrandaw glau wrth awr.
Bid gyva ran rybuchir.
Bid hyvagl gwyar ar on.
Bid lâs lluarth.
Bid lawen iach.

Bid lawen meddw.
Bid lyvn dy baderau,
  Bid rydlyd dy arvau.
Bid nych cwyn clâv.
Bid reiuiad yn nghyvarch.
Bid reniad yn nghyvarth.
Bid trist pob galarus.
Bid wagelawg lleidr.
Bid wâr antur glew wrth awr.
Bid wastad gwraig o'i mynych warth.
Bid wraig ddrwg o'i mynych warth.
Bid wyw gwr heb vagwriaeth.
Bid wyw (vyw) march à gnîth wellt mai.
Blaengar ymadrawdd pob fôl.
Blawd yn y gîst.
Blingaw y gâth hyd ei llosgwrn.
Blodau cyn mai, mal pei (gorau) na bai.
Blys pob peth vydd ar wan.
Bo amlav y bleiddiaid,
  Gwaethav vydd i'r devaid.
Bob eilwers y rhêd y cwn.
Bod yn glâv a marw eisys.
Bo hynav y dyn gwaethav vydd ei bwyll.
Bo hynav vo y rhyg tebycav vydd i'w dâd.
Boloch ovnawg vydd daw.
Boloch vydd daw.
Bonedd á dywys, dillad á gynnwys.
Bore brwynawg bradawg ieir.
Bore coch a mawredd gwraig.
Bore i bawb pan goto.
Bo tynav y llinyn cyntav y tyr.
Braith ei gôd á gynnull.
Brawd i vud pob anghyviaith.
Brawd i sevyll ar adwy.
Brawd yw celwyddawg i leidyr.
Brawd yw cymmwynas i ddireidi.
Brawd yw mygu i dagu.
Brenin vydd unllygeidiawg yn mysg y deilliaid.
Brenin y bwyd yw y bara.
Breuddwyd gwrâch wrth ei hewyllys.
Brodyr pob cerddorion.
Buan barn pob ehud.
Buan y saetha ynvyd ei vollt.
Budd cyn tymp.
Bu mor edivar ganddo a'r gwr à laddoedd ei vilgi.
Bu weil i'r gwr à grwydrws nog à vu varw rhag newyn.
Bwrw a'th unllaw, cais a'th ddwylaw.
Bwrw câth (caeth) i gythraul.
Bwrw ceir dros gyfion.
Bwrw dwyvyr am ben gwr marw.
Bwrw gwyddiv ar ol yr hwyaid.
Bwrw heli yn y môr.
Bwrw nôs dros benben.
Bwystlawn genau callawr.
Bwyta y mêl o'r cwch.
Bwyta divyn val y rhuddo. *Sevar lech ynpobi.*
Bychan vydd mam y cynvyl.
Bychodedd minialedd.
Bydd vyw march a'th vi wellt mai.
Byddar á geif gyfelyb.
Byr ddryganian á wna hir oval.
Byr veddwl á wna hir oval.
Byr-ddydd ni ddervydd cynghor.
Byrhoedlawg digasawg saint.
Byw ar garu y mae Dyddgu.

Cadarnach yw yr edau yn gyvrodedd nog yn ungorn.
Cadw dy lîn ev âa yn eurllin.
Cadw dy wlân ev âa yn eurwlan.
Cavas dda ni chavas ddrwg.
Cafad malu cafad ei werth.
Cais varchawg da dan droed ei varch.
Cais yn y mwlwg.
Caledach glew no maen.
Calon ni gynnydd cysgid.
Calon y Sais (estron) wrth Gymro.
Cân grwth na chân.
Cau ddieued ag ysu o'r llygod y cwlltyr.
Can ebrwydded yn y varchnad
  Croen yr oen â chroen y ddavad.
Can boethed a'r tân.
Can veddwed a'r dwsel.
Can velysed a'r mêl.
Can gynted a'r gwynt.
Can iached a'r brithyll.
Can iached a'r glain.
Can loywed a'r dwvyr.
Can oered a'r iâ.
Can wyned a'r eira.
Can wired a'r evengyl.
Can rewydd ni bydd pell rîn.
Càn-car sydd i ddyn a chan-esgar.
Can ehud ni ddawr pa faig.
Canymdaith ci ei losgwrn.
Càn mîl gwraig.
Canmoled pawb y rhyd mal y cafo.
Cant mwyn mâb yn y tŷ.
Càn pen càn synwyr.
Canu heb gywydd.
Càn wst gan henaint.
Cared chwaer ddiriad.
Câr cywir yn yr ing y gwelir.
Carth gwaelawd y bellen.
Câr y wraig aed i'r gell,
  Câr y gwr aed ymhell.
Câs dyn yma câs Duw vry.
Câs vydd à oreilitio.
Câs vydd y neb à geisio.
Câs myharen mwyeri.
Câs gwirionedd lle ni charer.
Caseg glôf clôf ei hebawl.
Castell pawb ei dŷ.
Cau y drws wedi myned y devaid allan.

Cau tîn wedi bramu.
Ceinmygyr pob newydd.
Ceisied asgre ei vam à gollo.
Ceisied pawb ddwvyr i'w long.
Ceisiaw diriad yn ei dyddyn.
Ceisiaw bod yn Lleucu cyn bod yn Vabli.
Ceisiaw ei vam yn y vorwyn ieuanc.
Celvydd celed ei arvaeth.
Cell arglwydd y weilgi.
Cell havodwr ei vuarth.
Ceneu milgi a morwyn ni cheif eu mwyn a'u maco.
Ceneu yn ei wâl a gâst lem.
Cenvigen á ladd ei pherchen.
Cenvigen wrth well.
Cenmyl gwraig mawrdda.
Cènad vud drud a'i cretwy.
Cènad hwyr drwg ei neges.
Cerddwys à rwymwys.
Cerid chwaer ddiriad can ni charer.
Ceugant yw angau.
Ci chwyrnawg halawg ei bais.
Ci à helio bob llwdyn ni bydd da ar yr un.
Clwm anghenawg ar y geiniawg.
Clwm gwrâch ar ei dimai.
Clwm eiddil moch ellwng.
Clywir corn can ni weler.
Clywitor corn can ni weler.
Cnu y ddavad varw.
Coel càn-hadain.
Coel gwrâch o'i heistedd.
Coeliaw llai clust no golwg.
Coes yn lle morddwyd.
Côv á lithra, llythyr á geidw.
Côv gan bawb à gâr.
Côv pob diweddav.
Covyl gwâs diawg.
Cofa dy dîn pan entrewych.
Cogor iâr yn ydlan.
Coll, medd y vrân pan gafo ddigon.
Colled à hofed.
Colles dy lad cystal i'r vuwch.
Colles ei glydwr à gyrchoedd ty i adwr.
Côsp ar ben iâr.
Cospi yr arth yn ngwydd y llew.
Côs dîn taiawg ev a gâch yn dy ddwrn.
Crâf ci, caledach asgwrn.
Crâf vydd llygad y gwestwr.
Crafach no'r evail.
Crechwen yn ngenau ynvyd.
Crevydd iâr wrth ei gylvin.
Croesaw dwvyr i long.
Cryd ar hên angeu ys dir.
Crynu val y vorwialen.
Crywyn cyn môch, môch á ddamwain.
Cuall cleddyv byr o wain.
Cu annair wedi praidd (buwch).
Cwymp ar galedlawr.
Cwymp y gwr yn y rhych.
Cwyn bychod ceiliawg yn aerwy.
Cyd boed da nid gwîr dda.
Cyd boed da nid Mordav.
Cyd boed doeth diriad ys drud.
Cyd boed hir hav-ddydd dybydd ucher.
Cyd celer naw-nos, ni chelir naw-mis.
Cydvwyta â mâb arglwydd, ac na chyd-chwara.
Cyd gwichio y ven hi á ddwg ei llwyth.
Cydles i bawb galw yr ychain.
Cyd yso gîg march, bid ar gîg ebawl.
Cyva ran rhybuchir.
Cyvaill blai d bugel diawg.
Cyvareddion gwrâch waethwaeth.
Cyvarwydd dwvyr yn ei ddyvrlle.
Cyvarwydd llaw lle y doto.
Cyvled mantell ar ei gwrthwyneb ag ar ei gwyneb.
Cyvled mantell, mewn celli,
Gwrthwyneb a'i hwyneb hi;
Ac nid cyvled gweled gwîr
Ar ei wyneb ar anwir.
Ior Vynglwyd.
Cyvnewid â hael,
Cyvoed vydd da â dedwydd.
Cyvoethawg i werthu, tylawd i brynu.
Cyvrin pen â chalon.
Cyfes pob rhwydd.
Cymmwythach corach a simach.
Cymmwedd Corach a Sinach.
Cymmyrid haiarn hoedyl dyn.
Cynddrwg a'r Vad Velen.
Cyngheusedd wedi brawd.
Cynghor hên nith attwg (addwg).
Cynghor iâch i glâv.
Cynghori'm gwâs yn hên.
Cynghori diriad nid hawdd.
Cynghor y gobenydd.
Cynnadyl taiawg yn ei dŷ.
Cynnelw cinyn gan gadechyn.
Cynt y llysg yr odyn no'r ysgubawr.
Cyntav ei ôg cyntav ei gryman.
Cyrch cabrytai.
Cyrched vryn à ddysgwylio.
Cyrch ci ar y vreuan.
Cysgu val y pathew.
Cyssul hên ni'th addwg.
Cystal ar draed â marchogaeth fòn.
Cystal Hywel â Hwlyn.
Cystal modvedd o lêd â modvedd o hŷd.
Cystal y march a'i advarchwerth.
Cywala gweddw gwraig unben.
Cywrys am vwyd, carant am ovid.
Chwannawg annoeth i ymliw.
Chwannawg trwch i drîn.
Chwannawg mâb i hynt,
Chwannawg adrev à vo cynt.
Chwara ac na vriw, cellwair ac na chywil yddia.

Chware broch yn nghôd.
Chware hên gi a chenau.
Chware hwch a pharchell.
Chwarëid mâb noeth, ni chwery mâb newynawg.
Chwarëus yn awr, nid chwarëus yn mlwyddyn.
Chwarddiad dwvyr dan iâ.
Chwedlau y gwreigedd yn y velin.
Chwevrawr chwyth neidyr o'i (i'w) nyth.
Chwêg medd, chwerw pan daler.
Hoyw vydd gwîn gloyw gan glêr,
Chwerw, poen dielw, pan daler.
D. ab Gwilym.
Chwegach bwyd cybydd (cilydd).
Chwerddid bryd wrth à garer.
Chwerthin á wna ynvyd yn boddi.

Moody madness, laughing wild,
Amid severest woe.—GRAY.

Chweirys, gnawd o anianawd (anynawd).
Chwîl gan nôs.

Da angau ar eidiawg (eiddiawg).
Da daint rhag tavawd.
Da daint rhag tavawd, daw dydd,
Yn nghilvach savn anghelvydd.
Iolo Goch.
Dadleu gwedi barn.
Dadlau mawr mynych ac engi ar lygoden.
Da gwaith Duw roi cyrn byrion i'r vuwch à hwylio.
Da gweddai y bêr i'r golwyth.
Da gwr val pawb.
Da hîl ceirch gan ddrwg gynnogyn.
Daint y ci wrth yr hwch.
Dala dy dŷ am y vo,
A diovryd à atvo.
Dala llyswën erbyn ei llyw.
Dall vyddar pob trwch.
Dall pob anghyvarwydd.
Dall yn barnu ar liwiau.
Da mâb y gôv.
Damwain pob hely.
Dangos llwyr i gyvarwyre.
Dangos diriaid i gwn.
Dangos dy vys i vàlawg yntau ai heirch yn llwyr.
Dangos llwybr i gyvarwydd.
Dangos nêv i bechadur.
Dangos y llo ac na ddangos y llaeth.
Dau bryd newynawg á wna y trydydd yn lwth.
Dau waith á vydd gan gywraint.
Dawn y dydd ydyw y borau.
Da y cynnydda meddwl gwr da.
Da y gwel-och gwell y dêl.
Da yw à saiv ac ni waner.
Da yw côv mâb.
Da yw Duw, a hîr yw byth.
Da yw y maen gyda'r evengyl.
Da yw y sant y creter iddo.
Dechreu blaen carai o voly.
Dedwydd á gâr dadolwch.
Dedwydd á geif ddraen yn ei uwd.
Dedwydd i'r ai gwyl ai câr.
Dedwydd Dovydd ai rhydd rád.
Devnyddvawr pob anghywraint.
Dellis da yn yd vu.
Delor a ddwg drwg i'w nyth.
Deuid (devod) y ci wrth yr hwch.
Deuparth clôd yn mhenglog.
Deuparth fordd ei gwybod.
Deuparth fydd y'ngàlon.
Departh gwaith ei ddechreu.
Deuparth parch yw arver.
Deuparth pryd ymdrwsio.
Deuparth bonedd yw dysg.
Deuparth dysg yw hyder.
Deuparth taith ymbarotoi.
Deuparth trev eu harverau.
Deuparth cerdd ei gwrandaw.
Deuparth rhôdd yw ewyllys.
Deuwch brydnawn.
Dewin pob eiddig.
Dewin pob diawg.
Dewis ai yr iau ai y vwyall.
Dewis o'r ddwy vach ddu hwch.
Dewis pawb o'i giniaw.
Dianc ar Glwyd a boddi ar Gonwy.
Diau gynnadl taiawg o'i dŷ.
Dibech vywyd gwyn ei vyd.
Diddrwg didda megys hengi.
Diengid gwan, erlid rhygadarn.
Difaith llyfant dan iâ.
Diferwy Duw ddiawg.
Dig pawb rhag ai câr.
Digawn Crîst trîst yn llawen.
Digawn da diwyd gènad.
Digon Duw da i unig.
Digon o grwth a thelyn.
Digawn yw chwareu rhynawd.
Digon yw digon o vêl.
Digriv gan bob aderyn ei lais.
Digu pawb o anadyl y pibydd.
Dihuniad à brydero.
Dillad à gynnwys.
Dillyn ieuanc carpiawg hên.
Dillyn yn llaw henvab.
Dinas a ddifydd ddifaith.
Dir yw gadael peth o'r dwvyr heibio.
Diriaid a gabl ei orau.
Diriaid a geif ddraen yn ei uwd.
Diriaid a glud i ddedwydd
Ac o vôr ac o vynydd.
Diriaid ni vyn wrandaw.
Diriaid ni hawddvaidd heddwch.
Dirmygir ni welir.
Dirwest odyn.

Dirwest a chred a gweddi
A orvydd bob caledi.
Disymmwth vydd dryglaw i anmhwyll.
Diwedd hên cadw devaid.
Diwyl yw angau,
Diwylach à edau.
Diwytav i Vleiddan ei gènad ei hunan.
Dyled ar bawb ei addaw.
Dod dy law ar dy gàlon.
Dod venthyg i noeth
Nis cei dranoeth.
Doeth â dwyllir deirgwaith;
Ni thwyllir drud ond unwaith.
Doeth pawb tra tawo.
Dogyn sydd ar bob peth.
Dolurus càlon dolurvawr
Drud à dal dau cyvled.
Drud à dŷb wrth ei vam.
Drud i ddal, doeth i estwng.
Drud ganu deulw.
Drwg à drevn wrth ei drwyddedawg.
Drwg o lŷs ni ater gwâd.
Drwg pawb o'i wybod.
Drwg pawl ni savo vlwyddyn.
Drwg pechod o'i hîr erlid.
Drwg wrth dranoeth.
Drwg un drwg arall.
Drug y ceidw diawl ei wâs.
Drwg yw y deg ewin.
Drwg yw y drwg, a gwaeth yw y gwaethav.
Drwg yw y fordd ni cherdder ond unwaith.
Drwg yw y drygwas, a gwaeth yw bod hebddo.
Drwg yw peth ni thâl ei ovyn.
Drwg y swydd nis tâl ei gwasanaethu.
Drych i bawb ei gymydawg.
Drygwaith dwywaith y gwneir.
Drythyll pob digraid (diriaid).
Drythyll maen yn llaw esgud.
Drythyllwg drwg ei ddichwain.
Duw á vedd, dyn à levair.
Duw a ranoedd, nêv a gavoedd.
Duw a ran yr anwyd val y rhan y dillad.
Duw biau gwneuthur.
Duw cadarn à varn bob iawn.
Dwrdd gan deulu.
Dybydd hinon gwedi gwlaw.
Dwyn oddiar draed y saint.
Dwyn y carth o'r pared.
Dybydd rew i lyfant.
Dycer ni weler ei ran.
Dycid anmhwyll ei ran.
Dycid chwant dros beiriant.
Dycid Duw dafar o law.
Dychyvervydd trwch â thrîn.
Dyddaw drwg, hanbyddir gwell.
Dyval à dyr y gareg.
Dyvydd dihirwaith aros.
Dihirwaith aros.

Dygas gwaith erlyn.
Dygyn yw addaw à garawr.
Dygymmyrid haiarn hoedyl dyn.
Dygystudd deurudd dagrau.
Dyly mâch ni ddyly ddim.
Dylyn hael onid êl yn gi.
Dylluan yn llaw henvab.
Dyrnod gwâs hir yw ei gâs.
Dyro lyn i ddoeth ev a vydd ddoethach.
Dyryswys y garthen.
Dysg ddedwydd â gair; dysg ddiriaid â gwiail.
Dysg gan ynvyd ymogelyd,
A chan y doeth dysg wneuthyd.
Dysgu grâdd i henvarch.
Dywed llavar ni wypo.
Dywal dir vydd ei laith.
Dyweddi o wnc, galanas o bell.

Ebawl yr ebawl i Dduw.
Ebrill garw parchell marw.
Echwyn yw nag.
Edivar cybydd am draul.
Edwyn pawb adain.
Edrych dannedd march rhodd.
Eddewid gwreigedd daueiriawg.
Eddewid gwraig odid yw.
Eddewid nis gwneler nid yw.
Eddyw (ethyw) corn heb ysgyvarn.
Edwyn hengath levrith.
Ev a aeth ar gyrn a phibau.
Ev a baroedd ei ran yn egin.
Ev a ddaw hâv i gi.
Ev a vydd am y maidd, ac ni bu am y caws.
Ev a geif dyn ddysg o'i vebyd hyd ei henaint.
Ev a gair cynghor gan ynvyd.
Ev a gair gwall ar y callav.
Ev a gwsg galarus,
Ac ni chwsg govalus.
Ev a wyr dyn pen êl,
Ac ni wyr pan ddêl.
Ev a wŷr y gâth pa varv a lŷv.
E vu ddewr ond ve ddarvu.
Ev y molir pawb wrth ei waith.
E vynai y gâth a'r ddwy gynfon.
E vynai y gath bysgod, ond ni vynai wlychu ei thraed.
Egor dy gwd pan gaech barchell.
Ehang yw y byd i bawb.
Ehegyr vydd dryglaw i anmhwyll.
Eidduned herwr hirnos.
Eilvam modryb dda.
Eiriach law, nag eiriach droed.
Eiriawl ni garawr ni gyngain.
Eithyr gallu nid oes dim.
E las a gavas rybudd, ac ni las a'i cymmyrth.

Elid bryd yn ol breuddwyd.
Elid ci i gell agored.
Elid gwraig yn ol ei henllib.
Elid llaw gan droed.
Elid rhyw ar barth pa yw.
Elid un i gant; elid cant i un.
Elid ysgubor gan ddrygdorth.
Elid y wrâch i'r vreuan
  Er ei genau ei hunan.
Elusen tam o garw.
Enw heb senw.
Enwawg meichiad o'i vôch.
Enwir divenwir ei blant.
Erchi i ynvyd redeg.
Ergryn llwvr lliaws addoed.
Ergyd ar gais
Ergyd yn llwyn cyssul heb erchi.
Er heddwch nac er rhyvel
  Gwenynen varw ni chasgla vêl.
Esgud drygvab yn nhŷ arall.
Esmwyth gwaith yw gwrandaw.
Esmwyth gwaith yw methu.
Esmwythdra o'i ddilyn á ddianc; o'i ochel a ddaw attad.
Ewyllys y gwyngam am ei lawdyr.
Ewyn dwr eddewid gwâs.

Fawd pawb yn ei dàl.
Flwring i dlawd ei geinog.
Fol pob tylawd.
Fordd bell i wr o Benllyn.
Fordd Llan Vaglan yr eir i'r nev.
Fordd Llan Vechan ydd ai y wenynen yn ei phreseb.
Fo rhac drycdir, ac na fo rhag drwg arglwydd.

Gadu gwraig un vevyl a'i chymmeryd â dwy.
Gadu y nos waethav yn olav.
Gair dannod yw am un à vethoedd.
Gair drwg anianol
  A lysg drwg yn ei ol.
Gair gwraig val gwynt yn vaweidiau.
Gair gwraig gwneler.
Gair gwraig val gwynt yn cychwyn.
Gair gwraig val gwynt yn ngwden.
Gair gwr o gastell.
Gair gwr yn gwreica.
Galanas o bell, dyweddi o agos.
Gedwch le i'm modryb i neidiaw.
Gelyn gan gerlyn ei gar.
Gelyn i ddyn ei ddynion (ddamwain)
Gollwng drygwr i ysgubor gwrda.
Genau mwyalch ag arch blaidd.
Gènid rhybyched rhwng llaw a llawes.
Gènid i'm wŷs yn nhy Duw.
Geuawg ni gafo gopinod.
Glân y gwyl yr avyr ei myn,
  Bid ev ddu, bid ev wyn.
Glew a vydd llew hyd yn llwyd.
Gnawd adneu yn llan.
Gnawd aelwyd difydd yn ddifaith.
Gnawd avlwydd gan ddiriaid.
Gnawd à vo dogyn diovryd.
Gnawd am annerch un arall.
Gnawd am air serth un arall.
Gnawd anav ar ddiriaid.
Gnawd ar eiddil ovalon.
Gnawd a'i tyr gan orchymyn.
Gnawd bod anav ar annoeth.
Gnawd brònrain balch.
Gnawd buan o vain.
Gnawd buan o vras.
Gnawd gorfawg o vain.
Gnawd cyssul dedwydd yn ddoeth.
Gnawd dial anghwbl gan anghelvydd.
Gnawd divrawd ar blant enwir.
Gnawd digarad yn llys.
Gnawd dyn atgas heb olud.
Gnawd eddewid gwraig gwaith ryphall.
Gnawd fo ar fraeth.
Gnawd gan rewydd rychwerthin.
Gnawd gorphwysva lle bo croes.
Gnawd gwarth o vynych gyswyn.
Gnawd gwedi llyn lledvrydedd.
Gnawd gwîn yn llaw gwledig.
Gnawd i veddw addev ei veddwl.
Gnawd i wraig dda vod yn arav yn ei chell a'i chlôd yn mhell.
Gnawd lledrad yn ddiymgel.
Gnawd dwvyr lle bo brwyn.
Gnawd llwyr dal llwyr dwng.
Gnawd mab taer yn vilain.
Gnawd màn ar ràn cyniviad.
Gnawd merydd yn mro.
Gnawd mynych awn i vechdaith.
Gnawd o ben drythyll draha.
Gnawd o egin meithrin das.
Gnawd osb er nas gwahodder.
Gnawd pob dedwydd yn niddos.
Gnawd rhiau eu rhadau yn wasgarawg.
Gnawd rhygas gwedi rhyserch.
Gnawd seithug ar lwvr.
Gnawd serchawg ymlyniad.
Gnawd syn syml anghyviaith.
Gnawd tawel yn delaid.
Gnawd uch pen dedwydd diddos.
Gnawd gwedi rhedeg attregwch.
Gnawd gwedi traha tramgwydd.
Gnawd gwedi traha tranc hîr.
Gnawd gwedi traha attregwch.
Gnawd y ceir colled o vraw.
Gnawd yn ol dryc-hin hindda.
Gnawd y bo cydwyr y bydd cyrch.
Gnawd y bo dwyvyr y bydd brwyn.
Gnawd yw dyanc glew o ing.
Gnotav cyrch gan vore.

Gnotav cwymp o'r uchelder.
Gochel davarn ac na ochel ildio.
Godroid buwch o'i phen.
Goval dyn Duw a'i gweryd.
Govyn i mam á wyv vi leidyr.
Goganu y bwyd a'i vwyta.
Gogyveirch pawb ar ni wyped.
Goleu vreuddwyd à welir liw dydd.
Golwg Duw ar adyn.
Golwg dyn ar a'i dyhudd.
Golwg pawb ar a'i caro.
Golwg serchawg syberw vydd.
Golwg yn yd gwyl yd gâr.
Golwg y perchen yw cynnydd y da.
Gorddiweddid hwyr vuan.
Gorau anghenogiaid geivyr.
Gorau barn cyviawnder.
Gorau canwri cedwid.
Gorau canwyll pwyll i ddyn.
Gorau cardawd rhoi lletty.
Gorau clof clof aradyr.
Gorau cydymaith ceiniog.
Gorau cyfnewid cyfnewid o dîr.
Gorau cyvraith ammod.
Gorau ammod cyviawnder.
Gorau cynghawg gwâs diawg.
Gorau cynghor à gadbwyd.
Gorau cynneddvau cadw moes.
Gorau devawd daioni.
Gorau ediveirwch ediveirwch gwerthu.
Gorau enw mi biau.
Gorau gan vy mam ei lladd.
Gorau gwaith diwrnod dal dyn wrth vedydd.
Gorau gwaith undyn gwarchadw y ty.
Gorau gwrthwyneb gwrthwyneb cwys.
Gorau hael hael ofeiriad.
Gorau haelioni rhoddi cardawd.
Gorau i bawb ei ddigon.
Gorau i bawb mi biau.
Gorau llaeth llevrith.
Gorau llwyddiant gwenyn.
Gorau llyn gwîn.
Gorau meddyg meddyg enaid.
Gorau meistyr à vu wâs.
Gorau newyn un arian.
Gorau neges myned â chroes.
Gorau o'r brethyn y cochav.
Gorau o'r ceirch y breisgav.
Gorad o'r cwn y cyntav.
Gorau o'r gwenith y moelav.
Goreu o'r gwyr y doethav.
Gorau o'r gwreigedd y ddisymlav.
Gorau o'r lliain y meinav.
Gorau o'r moch y tewav.
Gorau o'r meirch y mwyav.
Gorau prodrwydd arian.
Gorau peddestyr yw gau.
Gorau pererindawd, cyrchu oferen sul.
Gorau rhan rhoddi cynnwys.
Gorau un anivel buwch.
Gorau un arv cyllell.
Gorau un bwyd bara.
Gorau un dyn gwr.
Gorau un ddiod o ddwvr.
Gorau un enllyn helyn.
Gorau un gair mi biau.
Gorau un mîl march.
Gorau un tlws gwraig.
Goreu un tudded mantell.
Gorau y celid peth nis gwypid.
Gorau ympryd ympryd Wener.
Gorau yw y gwareu tra ater.
Gorau ysgrubl devaid.
Gorllyvnu pen ci tra eler heibio.
Gormes y taiawg ar ei gilydd.
Gormodd bw ar ebol.
Gormodd iaith yw twt ar yarch.
Gorug ei waith à vâch vachdaith.
Gosymdaith dyn Duw ai rhan.
Goiaen á wêl yn gyving.
Grawn cybydd á ŷs glwth.
Gwaddawd gwythlonedd gair blwng.
Gwae à arŏo ei giniaw
O dín davad gwedi gwlaw.
Gwae à drŏo o glun i glun,
Ac na veddo beth ei hun.
Gwae à ddyco ei henwas i lŷs.
Gwae à vo a'i vevl yn ei vynwes.
Gwae à vyn vevl er bychod.
Gwae à gawdd Duw ac nis crêd.
Gwae à gâr ac ni garer.
Gwae à gafo ddrygair yn ieuanc.
Gwae à wnel dda i ddiawg,
Gwae à wyl ei arglwydd beunydd.
Gwae ddigariad llys.
Gwaedlyd wrth vaint dy drachywedd.
Gwae vyrwr (overwr) y'nghynhauav.
Gwae glâv a'i clyw anvoddawg.
Gwae hên à gollo ei ymogor.
Gwae ieuanc à eiddun henaint.
Gwae ieuanc ni wnêl gynghor.
Gwae ni wna da a'i dyvydd.
Gwae y mil ni wêl ei berchen.
Gwaethav anav anvoes.
Gwaethav gwîr yw gwradwydd.
Gwaethav i'r yd rhyvel teisban.
Gwaethav ystor o verch.
Gwaeth un blaidd clof no dau iach.
Gwaewaeth chwedl Wilmot,
Gwaethwaeth vaensaer,
Gwellwell brensaer.
Gwaeth val mab gavyr.
Gwaethwaeth y rhed y cwn.
Gwae un dyn à wnel gant yn drîst.
Gwae wr à gafo ddrygwraig.
Gwae wraig à gafo ddrygwr.
Gwag ty heb vab.

Gwaith celvydd celu rhîn.
Gwaith y nôs dydd a'i dengys.
Gwaith gylvin iâr.
Gwaith ysgawn ymogelyd.
Gwala gweddw gwraig unben.
Gwall ar nis mynych welir.
Gwallt bonwyn a gwyn estronion.
Gwan dy bawl yn Havren.
  Havren vydd hi val cynt.
Gwareu gweli îr.
Gwareu hengi a cholwyn.
Gwareu mi trêch.
Gwartheg arall yn adnau,
  Pan vo chwecav ni bydd tau.
Gwarëid mab noeth, ni chwery mab newynawg.
Gwâs da a geif ei le.
Gwâs da bronwala ei arglwydd.
Gwâs i wâs chwibanwr.
Gwasgu haid cyn ei cherdded.
Gwas gwraidd cyn noi gerdded.
Gwatwar y dydd am waith y nôs.
Gweddill mâb iach.
Gweddw creft heb ei dawn.
Gweddw pwyll heb amynedd.
Gweini fawd heb vrawd ys dir
Gweithred llary llywiaw niver.
Gweliüs nid diddolur.
Gweled deubeth o'r un.
Gweled ei glust a'i lygad.
Gwell còrawg no chybydd:
Gwell egor na chynnwys.
Gwell am y pared â dedwydd nog am y tân â diriaid.
Gwell anghanawg môr nog anghanawg mynydd.
Gwell arver nog athraw.
Gwell aros no mevl gerdded.
Gwell aros o alltudedd, Nog aros o vedd.
Gwell a-gell yr hedydd No chorf y barcut.
Gwell bêdd no buchedd angheuawl.
Gwell benthyg noc eisieu.
Gwell bendith y tylawd no meistrolaeth y cadarn.
Gwell bod yn ben ar yr hyddod
  Nog yn din ar yr iyrchod.
Gwell bodd pawb no'i anvodd.
Gwell bonedd no thaiogrwydd.
Gwell buarth hysp nog un gwâg.
Gwell yw bwrw ty i lawr drwy gynghor no'i adeilad heb gynghor.
Gwell buchod y'ngbôd no chôd wâg.
Gwell byr eistedd no byr sevyll.
Gwell byw no marw.
Gwell cadw nog olrhain.
Gwell cafael nodwydd no cnoli y cwlltyr.
Gwell can muw i gannyn
  Noc un muw i undyn.
Gwell câr pell no chär pennill.

Gwell câr yn llŷs noc aur ar vys.
Gwell ceiniog no brawd.
Gwell celvydd no thrysor.
Gwell cerdd o'i breiniaw.
Gwell ci à rodio no chi à eisteddo
Gwell clwt no thwll.
Gwell ceginiaeth no breniniaeth.
Gwell creft no golud.
Gwell cul cyva no byr anghyva.
Gwell cybydd lle y bo
  No hael lle ni bo.
Gwell cymydog yn agos
  No chär o bell.
Gwell cynghor hên no'i vaeddu.
Gwell yw cynnwys got nog un lleidyr.
Gwell chwareu noc ymladd.
Gwell drygsaer no drygov.
Gwell drygsaer no drygdaeliwr.
Gwell Duw no dim.
Gwell Duw no drwgobaith:
Gwell Duw wrth ei volawd.
Gwell Duw yn gâr no llu y ddaiar.
Gwell dwylaw y cigydd
  No dwylaw y sebonydd.
Gwell dychymygwr no goruwchwiliwr.
Gwell dyvod yn hwyr noc na ddeler byth.
Gwell dyhuddo no rhyssedda.
Gwell dyn drwg o'i gospi.
Gwell dynoliaeth no drych.
Gwell ediveirwch gwerth noc ediveirwch prynu.
Gwell edrych ar ddyn yn cachu
  Noc yn cymmynu.
Gwell eidion gwerth noc un prŷn.
Gwell eistedd ar y gwellt noc ar y llawr.
Gwell erlid arglwydd no'i ragod.
Gwell ganu hwyr no chanu borc.
Gwell gochel mevl no'i ddial.
Gwell goddev no goval.
Gwell goval no golaith.
Gwell golaith no govid.
Gwell golud no rhysedd
Gwell gorne golchi
  Noc un glythni.
Gwell gwae vi no gwae ni.
Gwell gwegil câr no gwyneb estron.
Gwell gwestai gwr noc un gwraig.
Gwell gwichio'r coludd
  No chochi'r ddeurudd.
Gwell gwr à ddaeth y'mhen y vlwyddyn no'r gwr ni ddaeth byth
Gwell gwîr no chelwydd.
Gwell gwr no gwyr.
Gwell gwr no'i ràn.
Gwell gwr o'i berchi.
Gwell hanner hâd no hanner hâv.
Gwell hên hawl no hên alanas.
Gwell hir bwyll no thraha.
Gwell hir weddwdawd no drwg briawd.

Gwell hygarwch no phryd.
Gwell i ddyn y drwg a ŵyr no'r drwg nis gŵyr.
Gwell iddo à ddonier
Noc à vonedder.
Gwell i'r gâth nad elid i havota.
Gwell i'r gwr aeth i'r vaneg i yta noc i'r fetan.
Gwell y march à vo yn ei vorddwyd
Noc à vo yn ei breseb
Gwell i wraig y pysgodwr
Noc i wraig y gwynvydwr.
Gwell maen garw a'm attalio
No maen llyvn a'm gollyngo.
Gwell mam godawg no thâd rhieddawg.
Gwell marchwr gwerthu noc un prynu.
Gwell marw no hir nychdawd.
Gwell marw no mynych ddivrawd.
Gwell mawredd gwr noc un gwraig.
Gwell mevl vod no mevl gerdded.
Gwell migwrn o wr no mynydd o wraig.
Gwell moes law no voes vam.
Gwell nag no gau addewid.
Gwell nerth dwy wrâch noc un.
Gwell peidiaw noc ymddireidiaw.
Gwell penloyn mewn llaw noc hwyad yn awyr.
Gwell pren cyhuddiad no dyn cyhuddgar.
Gwell pwyll noc aur.
Gwell rhan ovn no rhan cariad.
Gwell rhan ovni no rhan lyncu.
Gwell rhydraws no rhydruan.
Gwell synwyr no chyvoeth.
Gwell tewi no drwg ddywedyd.
Gwell toliaw no huriaw.
Gwell trwch noc arovuniad.
Gwell un blaidd clof no dau iâch.
Gwell un ceidwad no dau ymlyniad
Gwell un crywyn no dau vuddelw.
Gwell un dyrnawd a'r ordd no dau a'r mwrthwyl.
Gwell un gair y'mlaen no dau ar ôl.
Gwell un hwda no dau addaw.
Gwellwell hyd varv, gwaethwaeth hyd varw.
Gwellwell pob fynedig.
Gwell wyneb no gwala.
Gwell ychydig gan râd
No llawer gan avrad.
Gwell y'nghysgod y gawnen no bod dim
Gwell y lle y foes Wilmot no'r lle y llâs.
Gwell y llysg dau etewyn noc un.
Gwell y'mlaen iyrchod
Noc yn ol yr hyddod.
Gwell y tyn merch no rhâf.
Gwell y wialen à blygo
No'r hon à dòro.
Gwell yw y ddirwy no'r anrhaith.
Gwenwyn ar levrith.
Gwerthvawr pob godidawg.
Gwg o bell, gwraig o agos.
Gwerthu cig hwch a phrynu cig môch.
Gwîr á ddywed Gwion Gwd.
Gwir á ddywed gwraig Davydd Dew am danat ti.
Gwirion pawb ar ei air hun.
Gwisg orau merch yw gwylder.
Gwiw aur i a'i dirper.
Gwlana ar yr avyr.
Gwna dda dros ddrwg,
Ufern ni'th ddwg.
Gwnelid anghelvydd annerth
Gwnelid serch saeth i syberw.
Gwnelid da diwyd gànad.
Gwneuthur deuddrwg o'r un.
Gwneuthur ei vin yn dîn.
Gwrâch á vydd marw etto yn Rhiw Vabon.
Gwraig ddiawg á wna verch esgud.
Gwr ni'th gâr ni'th gydvydd.
Gwr pawb yn hâv.
Gwr llys i bob llys á vydd.
Gwrthawd gwahawdd a myned i wêst.
Gwyl yw hanes.
Gwynt á lyv dda gwraig weddw.
Gwynvyd herwr yw hirnos.
Gwyw calon gan hiraeth.
Gyda'r ci y cerdd ei gynfon.
Gyr vâb cai nag.
Gyriawg yr ŷch llôg.
Gyru brân i geisio tîr.
Gyru hael oni el yn gi.
Gyru y cŷn à gerddo.

Haeddu annerch yw caru.
Haeddu ar nyth y cacwn.
Hael byrllawiawg.
Hael Owain (Hywel) o bwrs y wlâd.
Hael pob colledig achenawg.
Hâv hyd galan, gauav hyd vai.
Hai gyda'r ci, hai gyda'r ysgyvarnog.
Hanbid gwaeth y ddryc-câth o dori ei hewinedd.
Hanbid gwell y ci varw y llall.
Hanes ty hanes coed.
Hanbydd ychwaneg y môr o bisodyn y dryw.
Hanner y wlêdd hofedd yw.
Hap Duw ddewryn.
Hawdd pob newydd.
Hawdd cymmod lle bo cariad.
Hawdd cynnu tân yn hên aelwyd
Hawdd cysgu mewn eroen cyva.
Hawdd dyddio rhwng fals a chwannawg
Hawdd eiriawl ar à garer.
Hawdd nawdd y'ngwasgawd gorwydd.
Hawdd peri i vingam wylaw.
Hawdd peri i voneddig sori.

Hawdd talu fug i fôl,
Hawdd tynu gwaed o bèn crâch.
Hawdd yv a wyl ei wely.
Hawdd yw clwyvaw clâv.
Hawdd yw digiaw dîg.
Hawdd yw tynu carai hir o groen un arall.
Hawdd yw tynu cleddyv byr o wain.
Haws barnu no saethu saeth.
Haws cau â bys noc â dwrn.
Haws dadlu o goed noc o gastell.
Haws dieneidiaw no dinaturiaw.
Haws dringaw no disgyn.
Haws dywedyd mynydd no myned drosto.
Haws gan hwyr no chan bore.
Haws gwneuthur hebog o varcut no marchawg o daiawg.
Haws llenwi bol no llygad.
Haws llosgi ty no'i adeilad.
Haws twyllaw maban no thwyllaw gwrachan.
Heb Dduw heb ddim, Duw a digon.
Hên bechod á wna gywilydd newydd.
Hên hawdd gorvod arno.
Hir ammod nid â i dda.
Hir chwedl anghenawg.
Hiraeth am varw ni weryd.
Hir addewid i nag.
Hirddydd merydd mall.
Hir ei gôv ni mynych rydd
Hir ei hedeu gwraig eiddil.
Hir eistedd i ogan (ddiogi).
Hir lygad a wrthgriv.
Hirvrydig a yv ei holl dda.
Hir vydd i gybydd ei gabl.
Hir gniv heb esgor lludded.
Hir hun Maelgwn yn eglwys Rhôs.
Hir hynt a chyrchu llawgar.
Hir ledrad i grôg.
Hir lyngeswriaeth i vawdd.
Hir nych i angau.
Hir pob aros.
Hir sevyll i drwm.
Hir weddwdawd i vevyl.
Hir wyniau i ddireidi.
Hir y bydd blewyn yn myned yn nhin y blaidd.
Hir y bydd chwerw hên alanas.
Hir y bydd enderig ŷch drygwr.
Hir y byddir yn cnoi tamaid chwerw.
Hir y byddir yn magu Ofeiriad.
Hir y bydd march bach yn ebol.
Hir y bydd y mud yn mhorth y byddar.
Hir yw'r mâb yn y ceubren.
Hoedl dyn ni chanlyn y da.
Hoedl dyn nid gelyn a'i rhan.
Hôf ymmenyn Trathan.
Hôf gan anghenawg ei goeliaw
Hôf gan bawb à bryno.
Hôf gan bob edn ei lais.
Hôf gan vadyn ei vaw ei hun.
Hôf gan bob ynvyd ei gnwpa.
Hôf tam mâb ni charer.
Hun yr aderyn.
Hun yr ëos.
Hwch o bob heledd.
Hwr hên hawdd ei orddiwes.
Hwy clôd no golud.
Hwy clôd no hoedyl.
Hwyr y bydd dyn o'r dyniewed du.
Hwyrav dial dial Duw.
Hwyrwaith i anfynedig.
Hydr gwr o'i gymydogaeth.
Hydr pob costawg ar ei dom ei hun.
Hydr waedd gwaedd wrth vro.
Hyd tra vych na vydd over.
Hyd yn oed yr undydd yr â y crochan ar y tân.
Hyvryd meichiad pan vo gwynt.
Hygar pawb wrth à garo.
Hu pawb ar ei vabsant.
Hu pawb yn absen ovn.

Iâch rydd, rhyvedd pa gwyn.
Iâch yn ymovyn meddyg.
Iawnchwedlawg mâb.
Iawn i bawb ei gadw ei hun.
Iro blonegen.
Iro tin hwch â bloneg.
I'r pant y rhêd y dwr.

Lladd gwaed a'i ddwylaw ac a'i draed.
Lladd y gwadyn val y bo'r troed.
Llais maen yn oerddwr.
Llaw à estyn a gymmer.
Llanw mewn llu.
Llaw ddiriaid a ddidawl ei pherchen.
Llawen meichiad pan vo gwynt.
Llaw vrys llaw gywraint.
Llaw mâb yn llawes ei dâd.
Llaw lân diogel ei pherchen.
Llaw lliaws ar waith.
Llaw pawb ar ei anaele.
Llawer un a ddwg newyn,
Ond er hyn gwraig a vyn.
Llawer a weddill o veddwl chwannog.
Llawer câr baw ymdeg.
Llawer gair yn wynt a â heibio.
Llawer dyn à wna cynnyg drwg dros dda.
Llawer gwîr drwg ei ddywedyd.
Llawer dyn mawr ei eisiau
A eilw ei gi gydag ev.
Llawer math sydd o'r ynvydrwydd.
Llawer o'r dwr a â heibio heb wybod i'r melinydd.
Llawer rhwng byw a digon.
Llawer têg drwg ei ddevnydd.
Llawer hagr hygar vydd.

Llawn i bobi golwyth.
Lle y bo dolur y bydd y llaw.
Llechu ar gevn y gist.
Lle da i bawb lle y carer.
Lledvryd lladd ei gydymaith.
Lledled rydau.
Lleddid mollt ni ddyvydd.
Lleilai llymed gauav.
Lle ni bo dysg ni bydd dawn.
Lle ymgreinio y march y gedu beth o'i vlew.
Llês pawb pan veddyger.
Lletâv vydd y bisweilyn o'i sathru.
Llewid bwyd ni bo beichiawg.
Llewid cywestach.
Lle byddo da y rhoir ac y tycia.
Lle y caffo Cymro cais.
Lle y syrthio y fon.
Lliaws ei anav ni garer.
Llidiawg lliosawg.
Lliv yn avon hinon vydd.
Llòn colwyn ar arfed ei veistres.
Llòn costog ar ei domen ei hun.
Llòn vydd y llygoden pan na bo y gâth gartrev.
Llòn llygod lle ni bo câth.
Llwvr lladd ei gydymaith.
Llwm o vam a tham o dorth.
Llwm tîr ni phoro davad.
Llwyd ac ynvyd ni ddygymmydd.
Llwyd pob hên.
Llwyd yw y varchnad.
Llwyrav dial dial Duw.
Llwyth gwr ei gorwg.
Llyvid y ci y gwayw y brather ag ev.
Llygad Duw ar adneu.
Llygad cywraint yn mhen anghywraint.
Llymav vydd y gwayw yn ei vlaen.
Llymav y maes llymav yr ysgyvarnog.
Llywodraeth gwyr sy anhaws
Nog aniveiliaid ar gevn rhôs.

Mâb côv gwr a'i côv.
Mâb Gwenlliant esgeulus.
Mâb heb ddysg tŷ a lysg.
Mâb rhyvech rhyvènid.
Mae baw yn y caws.
Mae cloch wrth bob daint iddo.
Maeddu y dylluan wrth y maen.
Magu chwileryn yn mynwes.
Mai oer a wna ysgubawr gynhes.
Mal adain i walch.
Malaen a ddyly ei daith.
Mal bwyd hely.
Mal ci â baw ar ei ben.
Mal cogail gwraig vusgrell.
Mal cwn gan gyvreion.
Mal dall yn tavlu ei fon.
Mal dan eurych.
Mal drwg voneddig a'i vaich.
Mal dyrnawd pen.
Mal aderyn ar y gainc.
Mal eiry mawrth ar y maen.
Mal fon Hywel ab Goronwy.
Mal gwaith Emrys.
Mal llwyth maen Cetti.
Mal llygad yn mhen.
Mal llyn melin ar drai.
Mal llyvu mel oddiar ddrain.
Mal mursen nôs nadolig.
Mal moel rhwng dwy leithig.
Mal myn magawd.
Mal rhaw yn miswail.
Mal rhybudd hyd Wem.
Mal tynu bâch trwy goed.
Mal un yn ieud Grygunan.
Mal y mollt yr ieud Grygunan.
Mal wy ar drosol.
Mal bo y dyn y bydd ei lwdyn.
Mal y cant y gwr.
Mal y cerych dy vawl.
Mal y ci a'r hwch.
Mal y cwn am y môch.
Mal achenawg am ei geiniawg.
Mal y gath am y pysgod.
Mal y gwalch tros vîn yr ellyn.
Mal y Gwyddel am ei yru allan.
Mal y Gwyddel am y faling.
Mal y iar a'i baw i mewn, a'i hwy allan.
Mal y llîn ar y maen.
Mal y llwynog am yr ogvaen.
Mal y llyfant dan yr ôg.
Mal y llygoden dan balv y gath.
Mal y môch am y fawydd.
Mal y neidyr gribawg.
Mal y peilliant ymdeg.
Mal y peilliaid i Indeg.
Mal y pysg am y dwvr.
Mal yr ab am ei chenau.
Mal yr aran am ei ddwy gocs.
Mal yr eddi am y garvan.
Mal y rhisg am y prèn.
Mal yr hwch dan y vwyall.
Mal yr hydd a'r blaidd.
Mal y saeth i'r llinyn.
Mal y tan yn y carth.
Mal y tan yn yr aelwyd.
Mal y try y ddôr ar ei cholyn y try y diawg yn ei wely.
Mam esgud a wna verch ddiawg.
Mam vechan a ddivanw ei phlant.
Man yd vydd trwyn yd vydd trew.
March a syrth oddiar ei bedwar carn.
Marchawg a vydd gwedi gwyl.
March a wyl yr ŷd ac ni wyl y cae.
March i ddiawg, ci i lwth.
Mawr arth oddiallan
Mawredig pendevig castell.
Mawrth a ladd Ebrill a vling.

Mawr yw toraeth yr avlwydd.
Mecid llwvr llawer addoed.
Mecid llwvr llawer cynghor.
Mecid tristyd lledvryd l.wyr.
Meddiant bychan i ewyllys drwg.
Mevyl ar dy varv.
Mevyl i'r cŏg ni lyvo ei law.
Mevyl i'r llygoden untwll.
Mevyl ys gnawd o weddwdawd hîr.
Mehevin heulawg
A wna vedel mochddwyreawg.
Meithrin chwileryn.
Mêl a'i gôl.
Melina tlawd ei gwynos.
Melys bys pan losgo.
Melys geirda am à garer.
Melysav vydd y cig pan vo nesav i'r asgwrn.
Melys pan gaer, chwerw pan daler.
Mi adwaen iwrch er nas daliwyv.
Mi á gawn à vai gan vy mam.
Moch barn pob ehud.
Moch dysg nawv mâb hwyad.
Moes pob tud yn ei dud.
Moled pawb y rhyd mal y cafo.
Moliant gwedi marw.
Mor edivar gantho a'r gwr à laddoedd ei vilgi.
Mor esgud a'r gâth rhwng y tŷ a'r ysgubawr.
Morwyn ieuanc mâb yn arfed.
Mud arynaig y llavar.
Mursen vydd o wr mal o wraig.
Mursen nôs nadolig.
Mwy llygad no bol.
Mwy no breuan dinvoel.
Mwy nog un bwa yw yn nghaer.
Mwy nog un ci am cyvarthoedd.
Mwy nog y bydd da y blaidd ni bydd da ei isgell.
Mwy no'r avyr er dangos ei thîn.
Mwy no'r bêl dan yr humog.
Mwy no'r cyvrwy i'r hwch.
Mwy no'r rhegen yn y rhych.
Myned â gogyr i'r avon.
Mynych heb raid bod ar wall.
Mynych i'r praidd bod ar wall pan vo tywysawg yr enderig.
Mynych y daw drwg vugail.
Mynych y syrth mevyl o gesail.

Na bele i vêl na gwraig i selsig.
Nag îr wadyn hanbydd waeth.
Nag untrew na dau
Ni nawdd rhag angau.
Nag ymddiried i estron.
Na choll dy henfordd er dŷ fordd newydd.
Na chred vyth verch dy chwegrwn.
Na ddal dy dŷ wrth gynghor dy drwyddedawg.
Na ddefraw y ci à vo yn cysgu.
Naddiad dy voch na ad yn rhwy.
Na ddivanw dy beriglawr.
Na ddos â gwr wrth ei vaint.
Na varn ddyn na'th ran hyd yn mhen y vlwyddyn.
Na vid dy elyn dy gymydog.
Na vid dy wraig dy gyvrin.
Na vràm oni'th wthier.
Na vydd vrâd vugail i'r a'th greto.
Na vydd oreisteddgar yn ystavell.
Na vydd ryvwvthus lle galler dy hebgor.
Na vydd ry hy ar rywiawg.
Na vynych gur lwvr.
Naill ai llwynog ai llwyn rhedyn.
Namyn Duw nid oes dewin.
Natur yr hwch vydd yn y porchell.
Nawv maen hyd waelawd.
Na werth nev er benthyg y byd.
Na wreica ond yn agos.
Na wrthawd dy barch pan y cynnycier.
Neges pendevig yn rhâd.
Nesav i bawb ei nesav
Nês imi vy nghrys no'm pais.
Nesnes y llevain i'r drev.
Nes no choel.
Nes penelin nog arddwrn.
Neuadd pob diddos.
Neur vegaist a'th ddirprwy.
Newydd bènyg yn henvon.
Newid y gwewyr.
Newid y penweig.
Ni ad annoeth ei orvod.
Ni ad diriaid ei garu.
Ni ad môr hyd ei wregys.
Ni ad môr marwolus yuddo.
Ni aing yn mro ni bydd wrth wir.
Ni baidd llwvr llam ehelaeth.
Ni bu Arthur ond tra vu.
Ni bu ddrwg i un na bai dda i arall.
Ni bu eiddil hên yn was.
Ni bu esgynu gorwydd oddiar gefyl.
Ni bu rygu na bai rygas.
Ni butra llaw dyn
Er gwneyd dà iddo ei hun.
Ni butra llynwyn.
Ni byddav na thoryn dwyn na chapan gwlaw.
Ni bydd allt heb waered.
Ni bydd atglav o glavwr.
Ni bydd brawd heb ei hadvrawd.
Ni bvdd budd o ychydig
Ni bydd bual o losgwrn y ci.
Ni bydd byw cyw heb à lyw.
Ni bydd cymmen neb oni bydd ynvyd gyssevin.
Ni bydd chwedyl heb ystlys iddo.

Ni bydd dal tŷ heb vynach yt.
Ni bydd dialwr diovn.
Ni bydd gwaethawg rygall.
Ni bydd diriaid heb hawl.
Ni bydd doeth ni ddarllêno.
Ni bydd doeth yn hîr mewn llid.
Ni bydd dyun dau Gymro.
Ni bydd dyun hun a haint.
Ni bydd ehovn noeth yn ysgall.
Ni bydd gwan heb ei gadarn.
Ni bydd gwr wrth ddim.
Ni bydd hunawg serchawg byth.
Ni bydd marw march ar unnos.
Ni bydd moesawg merch à glywo geiliog ei thâd.
Ni bydd mynyglwen gwraig drygwr.
Ni bydd mysoglawg maen o'i vynych dravawd.
Ni bydd nag namyn un vlwyddyn.
Ni bydd neb llyvn heb ei anav.
Ni bydd preswyl pasc.
Ni bydd rhybarch rhygynnevin.
Ni bydd uchenaid heb ei deigyr.
Ni bydd y dryw heb ei lyw.
Ni chavoedd ddrwg mae yn ei aros.
Ni cheif chwedyl nid êl o'i del.
Ni cheif rhy anvoddawg rhybarch.
Ni cheif y mud arynaig.
Ni châr buwch hesp lo.
Ni châr Dovydd diobaith.
Ni châr fol a'i cynghoro.
Ni châr gwaith nis gorddyvno.
Ni châr gwilliaid hîr gynghrair.
Ni châr morwyn mab o'i threv.
Ni charawdd Crîst a'i croges.
Ni charo ei vam cared ei lysvam.
Ni chefir da heb prid.
Ni chefir hoedyl hîr er ymgeledd.
Ni chefir gwastad i bêl.
Ni chefir gwaith gwr gan wâs.
Ni cheif mwy no chôd gan wrâch.
Ni cheif dda ni oddevo ddrwg.
Ni cheif dda nid êl yn namwain.
Ni cheif ei ddewis gam à foö.
Ni cheif bwyll nis pryno.
Ni cheidw Cymro oni gollo.
Ni cheidw diriaid ei dda.
Ni cheidw ei wyneb ni roddwy.
Ni chein sywedydd yn unvron.
Ni cheir aval pêr ar bren sur.
Ni cheir bwyaid à fo.
Ni cheir bwyd taiawg yn rhad.
Ni cheir da o hîr gysgu.
Ni cheir geirda heb prid.
Ni cheir gan y llwynog ond ei groen.
Ni cheir gwlan rhywiawg ar glyn gavyr.
Ni cheir y melys heb y chwerw.
Ni chêl drygdir ei egin.
Ni chêl grudd gystudd calon.
Ni chêl ynvyd ei veddwl.
Ni cherir newynawg.
Ni cherir yn llwyr oni ddelo'r wyr.
Ni chlyw madyn ei ddrygsawr ei hun.
Ni chlyw Wilcyn beth nis myn.
Ni choelir dyn ar ddigrain.
Ni choelir y moel oni welir ei ymmennydd.
Ni chovia y chwegr pan vu waudd.
Ni cholles mam anmynedd.
Ni cholles ei gyvriv à ddechreuis.
Ni chrêd eiddig er à dynger.
Ni chryn llaw ar vâb dysg.
Ni chwennych morwyn vynach baglawg.
Ni chwery câth dros ei blwydd.
Ni chwsg dedwydd hun vore.
Ni chwsg Duw pan rydd wared.
Ni chwsg govalus, ac i gwsg galarus.
Ni chwsg gwag voly.
Ni chwyn ci er ei daraw ag asgwrn.
Ni chwyn yr iâr vod y gwalch yn glâv.
Ni chyveirch angen ei borthi.
Ni chyll yr iâr ei hirnos.
Ni chyll ni ddyvydd.
Ni chymmerai gogyl am ei gâr.
Ni chymmero ei barch
Cymmered ei anmharch.
Ni chymmer llu ceid (raid) ar fo.
Ni chymmydd dedwydd â dadlau.
Ni chymmydd diawl â dwywawl.
Ni chyngain gan gènad gywilydd.
Ni chyngain gwarthol gan ddewis.
Ny chynny gweinid arall.
Ni ddaliav ddilys o ddyn.
Ni ddaw gov i lwth ei grâch.
Ni ddaw doe byth.
Ni ddaw drwg i un na ddaw da i arall.
Ni ddawr croesan pa gabl.
Ni ddawr puten pa gnuch.
Ni ddawr yr iâr vod y gwalch yn glâv.
Ni ddeil yr eryr ednogyn.
Nid elir (nid ellir) coed o unpren
Ni ddervydd cynghor.
Ni ddichon gwan ond gwaeddi.
Ni ddyddawr newynawg pa yso.
Ni ddifyg arv ar wâs gwych.
Ni ddifyg esgus ar wraig.
Ni ddifyg fon ar ynvyd.
Ni ddiylch angen ei borthi
Ni ddwg newyn man weision.
Ni ddychwennyg budd pydi.
Ni ddygymmydd mêdd â chybydd.
Ni ddyly cyvraith nis gwnel.
Ni ddyly drygvoly namyn drwg ysu.
Ni ddyrllydd hael ar ni bo.
Ni eill barnu ni wrandawo.
Ni eill Duw dda i ddiriaid.
Nid eill dyn ochel tynged.
Ni erch gwrâch gwared ei phen.

Ni eill neb namyn ei allu.
Ni eing deuvras yn unsach.
Ni eing mewn llestyr ond ei lonaid
Ni elwir daw hyd tranoeth.
Ni elwir cywrain ni gynnydd.
Ni elwir yn euawg onis geirydd.
Ni ellir cwbl o anghwbl.
Ni ellir lliaws o undyn.
Ni ellir o bell à hanfo o agos.
Ni erchyll enaid ni ddiwyg.
Ni varn dyn â charn hyd y'mhen y vlwyddyn.
Ni vawr ddiolchir rhodd gymhell.
Ni vawrâa neges ni ragwyl ei lês
Ni vawrêir tra oganer.
Ni bydd uchenaid heb ei ddeigyr.
Ni vyn drygwraig ddal ei chwd.
Ni vyno Duw ni lwydd.
Ni vyn y sant mo'r caws.
Ni heuir ni vedir.
Ni hena ceudawd.
Ni hena eiddigedd.
Ni hena hawl er ei hoedi.
Ni hena meddwl.
Ni haedd diriaid ei garu.
Ni ladd cawod mal y dygynnull.
Ni ladd gogyvaddaw.
Ni las cenad erioed.
Ni ludd anmraint fawd.
Ni ludd bendith ddifeithwch.
Ni lwgr y da ar y llall,
Ni lwydd bendith ni haedder.
Ni lwydd cell goreisteddwraig.
Ni lwydd golud à wader.
Ni lwydd gwenyn i geiliog.
Ni lwydd hil corf anniwair.
Ni lwydd rheuvedd i ddiriaid.
Ni lwyddoedd ond à dramgwyddoedd.
Ni mâd newid ni cheif elw.
Ni moch ddial mevl nerydd.
Ni moch wna da dyn segur.
Ni nawdd eing llyvrder rhag llaith.
Ni nawd caledi rhag bychodedd.
Ni nawd divenwir cywraint.
Ni nawd gymmydd blaidd â drych.
Ni nawd uchenaid rhag gwael.
Ni orddyvnwys câth cebystyr.
Ni phara cywydd namyn un vlwyddyn.
Ni phell anrhegir tylawd.
Ni phell ddygwydd aval o avall.
Ni phella yr ehegr neb tylawd.
Ni phery cig brâs yn wastad.
Ni phis boneddig ei hun.
Ni phrynav gâth yn fetan:
Ni phyrth newyn neb cywilydd.
Ni roddir gwlâd i vud.
Ni rown erddo seren bren.
Ni rydd hi ei baw i'r ci.
Ni rydd Duw dda i ddiriaid.
Ni rygelir dryglam.
Ni saiv gwlaw ar geiliogwydd.
Ni saiv gogan ar gadarn.
Ni sengis yr ŷch du ar dy droed.
Ni thâg namyn wy.
Ni thâl dim cenad.
Ni thâl dim drwg ymrëad.
Ni thangnev gwynnawn â goddaith.
Ni thawdd dyled er ei haros.
Ni thebyg drud ei drengi.
Ni thelir gweli tavawd namyn i arglwydd.
Ni thelir saeth i ebawl.
Ni thòres Arthur nawdd gwraig.
Ni thrîg diriaid ar dda.
Ni throav yn vy amnwlch.
Ni thycia rhybudd i drwch.
Ni thyv egin yn marchnad.
Ni thynav ddraen o droed yr un
A'i ddodi yn vy nhroed vy hun.
Ni thyr pen er dywedyd yn dêg.
Ni thyr llestyr ni bo llawn.
Ni wedd deu-vras yn un-sach.
Ni welais lam rhwydd i ewig.
Ni weles da yn nhy ei dâd à hofes dda yn nhy ei chwegrwn.
Ni wich ci er ei daraw ag asgwrn.
Ni wisg cain ni wisg liain.
Ni wnaeth ddrwg a'i diwygioedd.
Ni wna y llygoden ei nyth yn llosgwrn y gâth.
Ni wna y môr waeth no boddi.
Ni wnêl gynghor ei vam
Gwnaed gynghor ei lysvam.
Ni wyddis eisio y fynnon onid êl yn hesp.
Ni wyl mâb am beth ni wŷl.
Ni wŷl diriaid arno vai.
Ni wŷl dyn a'i pyrth.
Ni wyr dyn ddolur y llall.
Ni wŷl dyn nid êl o'i dy.
Ni wyr hawdd vod yn hawdd
Onid el hawdd yn anhawdd.
Ni wyr neb pa esgid ddiweddav á wisg.
Ni wyr ni weloedd, ni veidyr ni ddysg.
Ni wyr ond à wrandawo.
Ni wyr pryder nis prydero ac nis pryno.
Ni wyr yn llwyr namyn llyvyr.
Ni wyr yr hwch lawn pa wich y wâg.
Ni wyr yr iâr nesav i'r ceiliog.
Nid â bawd yd ddyvnir llâth hir.
Nid aeth rhyhir i goed.
Nid â cosp ar ynvyd.
Nid â cynnyg arglwydd i lawr.
Nid adchwelawg gair.
Nid adwna Duw à wnaeth.
Nid â drwg val y dêl.
Nid adwyth rhêg ni haedder.
Nid â gair i adwedd.
Nid â gwayw yn ngronyn.
Nid ammwys à wnel gwarth.

Nid anghov brodyrdde.
Nid anudon ymchwelyd ar y da.
Ni â y post ar ynvyd,
A'r ynvyd á ddaw ar y pôst.
Nid à red á geif y budd.
Nid a ar vôr nid ymlevair.
Nid ar redeg y mae aredig.
Nid ar unwaith y caed Herbin.
Nid asgyr à gafo trevgordd.
Nid a'th garwys a'th anvonwys yma.
Nid â swllt yn ddiebryd.
Nid â untrew a dau i angau.
Nid à wyl dyn a'i pyrth.
Nid benthyg ni hanfo gwaeth.
Nid bwrn nid baich.
Nid bwyd gwenynen i geiliog.
Nid bwyd rhyvedd i ddiriaid.
Nid cadarn ond diniwaid.
Nid cau fau ar lwynog.
Nid côv gan yr ofeiriad ei vod yn glochydd.
Nid cur llavur wrth ddim da.
Nid cyvoethawg ond a'i cymmero.
Nid cymmaint Bleddyn a'i drwst.
Nid cymmen neb oni bo ynvyd cyssevin.
Nid cynnevin brân â chanu.
Nid cynnevin cath â chebystyr.
Nid cyttun hun â haint.
Nid cyweithas ond brawd.
Nid chwareu à vo erchyll.
Nid chwareu chwareu â thân.
Nid da rhy o ddim.
Nid da yr awr waethav ar neb.
Nid dedwydd ni ddyvo pwyll.
Nid digon heb weddill.
Nid diswrth neb diawg.
Nid diwyd heb nai.
Nid diwyg rhag drwg weithred
Ymattreg wedi y darfo;
Ni ddychwennyg budd pydi,
Ys gwell delli wrth à vo,
Ac ymganlyn a dedwydd,
A diovryd à atvo;
Ni lwydd rheuvedd i ddiriaid,
Ni cheir bwyaid ar fo;
Ni nawdd uchenaid rhag gwael,
Ni ddyrllydd hael ar ni bo.
Nid drwg arglwydd namyn drwg was.
Nid drwg dim à wneler drwy gynghor.
Nid drygwr wrth ddrygwraig.
Nid edrychir yn llygad march rhodd.
Nid ev enir pawb yn ddoeth.
Nid eglur edrych yn nhywyll.
Nid ei arvaeth á byrth dyn,
Namyn ei dynged a'i herlyn.
Nid ev á byrth dyn ei debyg.
Nid ev á ddiwyg dyn ei ddrwg amynedd.
Nid ev á geif pawb à vyn.
Nid ev hwn y mis nis gwn.
Nid eiddo Duw à water.
Nid eiddun dedwydd dyhedd.
Nid eir â bwyd taiawg yn rhad.
Nid ellir coed o unpren.
Nid erchis bwyd ond ei brovi.
Nid erchis yr Hen Gyrys ond à vai rhwng y newidiau.
Nid ergyd ni gywirer.
Ni crys Malldraeth am Owain.
Nid esmwyth ymgyvlogi.
Nid gair alltud ar Gymro.
Nid gnawd dialwr diovn.
Nid gwaeth cywir er ei chwiliaw.
Nid gwaeth gan Dduw cnaid y fôl no'r cymmen.
Nid gwaeth geilwad anghraf no rheut.
Nid gwaeth i'r ymladd dîg no glew.
Nid gwradwydd gwellâu.
Nid gwely heb wraig.
Nid gwell can-muw i'r can-nyn
Noc un-muw i'r un-dyn.
Nid gwell dim no digon.
Nid gwell gormodd no rhyvychan.
Nid gwell got no lleidyr.
Nid gwell i'r rhoddwr noc i'r lleidyr.
Nid gwell rhwy no digon.
Nid gwiw gwylder rhag eisieu.
Nid gwr namyn gwrthmuni.
Nid hawdd blingaw ag elestren.
Nid hawdd chwythu tân â blawd yn ngenau.
Nid hawdd deuddaw o'r unverch.
Nid hawdd divenwi cywraint.
Nid hawdd gwlana ar yr avyr.
Nid hawdd lledrata oddiar leidyr.
Nid hawdd tynu mêr o bôst.
Nid hofedd meuedd bro.
Nid hwyrach yn y varchnad
Croen yr oen no chroen y ddavad.
Nid iach ond à vo marw.
Nid iangwr neb ar Verwyn.
Nid llavurus llaw gywraint.
Nid llai gwerth mevl no gwerth fawd.
Nid llu á dyr namyn Duw.
Nid llai y cyrch dyn ei laith no'i gyvarwys.
Nid llywiawdyr namyn Duw.
Nid mawr i'th gerid
Os rhwy á erchid.
Nid mal aur da ydd â'r dyn.
Nid mi, nid ti,
Llewad cig y ci.
Nid moel gwr yn aros gwallt.
Nid moesawg merch à glyw lev ceiliog ei thâd.
Nid mwy gwaith no chanu.
Nid mynechdid maeroni.
Nid mynod á ddel eilwaith.
Nid neges heb varch.
Nid newid heb voch.

Nid oedd hôf can ni ddivenwid.
Nid oes ar ufern ond eisieu ei threvnu.
Nid oes cambren ond cam ran.
Nid oes gantho na chwyr na phabwyr.
Nid oes cywilydd rhag govid.
Nid oes gantho'r iâr i gravu'r barth.
Nid oes gantho'r ewinedd i ymgravu.
Nid oes dogyn ar gardawd.
Nid oes drygair namyn drygwraig.
Nid oes drygwraig namyn drygwr.
Nid oes gwyl rhag elusen.
Nid oes nawdd rhag tyngedven.
Nid oes neb heb ei vai.
Nid oes neb can ddalled
A'r neb ni vyno weled.
Nid oes o ddim ond val y cymmerer.
Nid oes rhodd namyn o vodd.
Nid oes wâd dros waesav.
Nid oes wyledd rhag anverthedd.
Nid o'i gorf ydd ymre gwybedyn.
Nid prophwyd neb yn ei wlâd ei hun.
Nid rhaid cymhell ond ar glâv.
Nid rhaid dangos diriaid i gwn.
Nid rhaid dodi cloch am vwnwgyl yr ynvyd.
Nid rhaid dodi cloch wrth vursen.
Nid rhaid i ddedwydd ond ei eni,
A'i vwrw i'r berth vieri.
Nid rhaid pedi yn llys arglwydd.
Nid sant neb yn ei vater ei hun.
Nid sòri ar dy vam.
Nid tân heb eirias.
Nid tebyg neb i Nêst.
Nid trevtad anrhydedd arglwydd.
Nid trymach y blewyn llwyd no'r gwyn.
Nid twyll twyllo twyllwr.
Nid un anian iâch a chlâv.
Nid unnaws gwyraws a gwern.
Nid unvryd ynvyd a chall.
Nid uniaith bronvraith a brân.
Nid wrth bryd yd gerid gwreigedd.
Nid wrth ei bîg y mae prynu cyfylog.
Nid y borau y mae canmawl diwrnod têg.
Nid ei vam á ddywed ar bawb.
Nid ydyw y byd ond bychydig.
Nid ymgais diriaid â da.
Nid ymgar y llateion.
Nid ymgel cariad lle y bo.
Nid ymgel drwg lle y bo.
Nid ymweis à vo parch.
Nid yn undydd yr adeilwyd Rhuvain.
Nid ysgar anghenawg ag anhychvryd.
Nid ysgar diriaid ag anhyedd.
Nid ystyn llaw ni rybuch càlon.
Nid ystyr cariad cywilydd.
Noswyl iâr gwae a'i câr.
Ni wyr ni ddysg;
Ni ddysg ni wrendy;
Ni wrendy ond astud;
Nid astud ond dedwydd;
Nid dedwydd ond à ato ei garu;
Ni âd ei garu ond divilain;
Nid divilain ond uvydd;
Nid uvydd ond tawedawg;
Nid tawedawg ond goddevus;
Nid goddevus ond synwyrawl;
Nid synwyrawl ond cydwybodus;
Nid cydwybodus ond cywir;
Nid cywir ond meddylgar;
Nid meddylgar ond serchawg;
Nid serchawg ond cerddgar;
Nid cerddgar ond ymddyddangar;
Nid ymddyddan ond am Dduw.
Nid cynghor ond tâd.
Nid gweddi ond mam.
Nid ymgeledd ond chwaer.
Nid cadernid ond brodyr.
Nid galluawg ond cevndyr.
Nid cenedlawg ond cyvyrdyr.
Nid hoywder ond cleddyv.
Nid amddifyn ond tarian.
Nid hyder ond bwa.
Nid brwydyr ond gwewyr.
Nid lladd ond dager.
Nid tŷ heb wr.
Nid tân heb gyf.
Nid gwely heb wraig.
Nid ynvydrwydd ond cariad.
Nid folineb ond meddwdawd.
Nid tylodi ond clevyd.
Nid gwall synwyr ond ymryson.
Nid methiant ond musgrelli.
Nid doethineb ond tewi.
Nid diogi ond syrthni.
Nid syrthni ond pechawd.
Nid pechawd ond temtasiwn.
Nid tylawd ond nas cymmer.
Nid cyvoethawg ond syber.
Nid gwresawg ond yr haul.
Nid oer ond y lleuad.
Nid amlder ond sêr.
Nid buan ond gwynt.
Nid moliannus ond cyttundeb.
Nid cyvoeth ond iechyd.
Nid yspail ond gwynt.
Nid pruddder ond marwolaeth.
Nid llawenydd ond nêv.
Nid anhyvryd ond ufern.
Nid hyvrydwch ond gyda Duw.
Nid athrylith ond llawen.
Nid diddim ond trîst.
Nid dedwydd ond diddrwg.
Nid diddrwg ond dibechawd.
Nid santaidd ond diwybod.
Nid diwybod ond disynwyr.
Nid hudoliaeth ond ieuenctid.
Nid ieuenctid ond ennyd awr.

Nid twyll ond y byd.
Nid pruddder ond eisieu.
Nid helaethrwydd heb ddigon.
Nid amheuthun llawer.
Nid somedigaeth ond gwraig.
Nid divyrwch ond milgi.
Nid llawenydd ond march.
Nid digrivwch ond gwalch.
Nid ovnawg ond digasawg.
Nid digasawg heb achos.
Nid dyoddevgar ond doeth.
Nid doeth à ymryson.
Nid mwynder ond merch.
Nid mabgar ond divilain.
Nid milain ond taiawg.
Nid taiawg ond cerlyn.
Nid cerlyn ond avrywiawg.
Nid avrywiawg ond iangwr.
Nid iangwr ond o arverau.
Nid hawddgar ond divalch.
Nid divalch ond trugarawg.
Nid trugarawg ond deddvawl.
Nid marchawg heb fon.
Nid peddestyr heb vwa.
Nid chwannawg ond mâb.
Nid esgeulus ond gweinidawg.
Nid cywir ond ci.
Nid melys ond pechawd.
Nid chwerw ond penyd.
Nid ymddiried ond cydymaith.
Nid hofder ond etivedd.
Nid glân ond y pysg.
Nid cyvrinach ond rhwng dau.
Ni wyr ond à weles.
Nid hysbys ond à ymovyno.
Nid cyvarwydd ond à wypo.
Nid call ond à gatwo yn ei gôv.
Nid dysg heb synwyr.
Nid gwenieithus ond merch.
Nid avieuthus ond dioval.
Nid gwenwynig ond cath.
Nid fyrnig ond ci.
Nid creulawn ond llew.
Nid cyvrwys ond epa.
Nid dichellgar ond llwynog.
Nid ethrylithgar ond bytheiad.
Nid diswrth ond byrhwch.
Nid brwnt ond fwlbart.
Nid mwythus ond bele.
Nid bwyiawg ond gwiwair.
Nid esgyd ond dyvrgi.
Nid esmwyth ond pathew.
Nid difaïth ond ystlym.
Nid boneddig ond hydd.
Nid rhywiawg ond march.
Nid gwâr ond ŷch.
Nid taiawg ond eidion.
Nid rhadlawn ond davad.
Nid llysieuawg ond gavyr.

Nid tomlyd ond bwch.
Nid têg ond paun.
Nid rhyvygus ond bronvraith.
Nid serchawg ond ëos.
Nid balch ond alarch.
Nid syw ond y bi.
Nid sionc ond y dryw.
Nid cyvannedd ond ceiliog.
Nid avradlawn ond iâr.
Nid ynvyd ond gwydd.
Nid budyr ond hwyad.
Nid gwrawl ond ceiliog du.
Nid mwynaidd ond ëog.
Nid llechiad ond cyfylog.
Nid anllad ond aderyn y tô.
Nid musgrell ond ceiliogwydd.
Nid glwth ond mulvran.
Nid anverth ond garan.
Nid trais ond tân.
Nid rhwystyr ond dwvyr.
Nid ysgavn ond wybyr.
Nid trwm ond daiar.
Nid dewr ond gwyr.
Nid calònawg ond à gyrcho.
Nid diarswyd ond à aröo.
Nid ovnawg ond à föo.
Nid llwvr ond à lecho.
Nid anveidrawl ond dim.
Nid dim ond Duw.
Nerth eryr yn ei ylvin.
Nerth unicorn yn ei gorn.
Nerth sarf yn ei chloren.
Nerth hwrdd yn ei ben.
Nerth arth yn ei breichiau.
Nerth tarw yn ei ddwyvron.
Nerth ci yn ei ddant.
Nerth twrch yn ei avlach.
Nerth ysguthan yn ei hadanedd.
Nerth gwraig yn ei thavawd.
No drygddyn ys gwell ei dda.

O achos y vammaeth y cusenir y mâb.
O bob ceinmyged cyfes orau.
O bob fordd o'r awyr ydd ymchwelo y gwynt y daw gwlaw.
O bob trwm trymav henaint.
O bychydig y daw llawer.
O bydd cell i gi mynych ydd â iddi.
O bydd gwlân gan vursen
Ve vydd am bob brwyn.
O bydd llawen y bugail llawen vydd y tylwyth.
O bydd neb ar ôl bid y bawav.
O bydd uwch bawd no sawdl.
O cheri di ni'th garo
Collaist à geraist yno.
Och wyr nad aethant yn wreigedd.
O chyrhaedd vry ni ddaw obry.
O daw ymenyn doed.

Odid à ardd.
Odid à rydd atteb.
Odid à gatwo ei wyneb o eisiwed.
Odid archoll heb waed.
Odid da diwaravun.
Odid divro diwyd.
Odidawg à vo didwyll.
Odid dyn diriaid di hawl.
Odid dyn têg dianav.
Odid eddewid à ddel.
Odid elw heb antur.
Odid o'r cant cydymaith.
O down ni ni á ddown.
O down ni er pedwar ar ddeg
Ni ddown er pymtheg.
Oed á ardd.
Oed á rydd atteb.
Oedran dyn ni chanlyn y da.
Oedd rhaid deall i alltud.
O eisieu gwrda y dodir bawddyn ar y bwrdd.
O englyn ni ddaliav haid.
Oer pob gwlyb.
Oer yw isgell yr alanas.
Oer yw y cariad à ddifydd er un chwa o wynt.
O vlewyn i vlewyn ydd â y pen yn voel.
Ovni ei gysgawd.
O vôr ac o vynydd
Ac o waelawd avonydd
I denvyn Duw dda i ddedwydd.
Oferen pawb yn ei galon.
Ogvaenen yn ngenau henhwch.
O gywirdeb y galon
Y dywaid y gwirion.
O hir ddyled ni ddylir dim.
O hoenyn i hoenyn ydd â'r march yn gwta.
O lymaid i lymaid y darvu y cawl.
O lladd y gâth llygodyn
Ar vrys hi a'i hŷs ei hun.
O myni nodi iwrch, ti á vwri naid amgen; o myni vod yn iyrchgi, ti á vwri naid à vo mwy.
Oni byddi cyvarwydd cyvarch.
Oni byddi gryv bydd gyvrwys.
Oni byddi wrth gynghor dy vam,
Bydd wrth gynghor dy lysvam.
Oni chefi gennin dwg vresych.
Oni hëir ni vedir.
Onid march ys caseg.
O ovrys ni wys cw dda.
O ddeuddrwg gorau yw y lleiav.
O'r bore hyd ucher y newid yr amser.
Os gwr mawr cawr, os gwr bychan còr.
O sul i sul ydd â y vorwyn yn wrâch.

Pa ham y bydd cul y barcut? Am ysglyviad.
Pa ham y llyv y ci y maen? Am nas gall ei ysu.
Pa le yn y vuddai y mae yr enwyn.
Pan bwyser arnad
Tyn dy droed attad.
Pan dywyso y dall ddall arall, y ddau á ddygwydd i'r pwll.
Pan dywyso yr enderig ei braidd, ni bydd da i'r ysgrubl y dydd hwnw.
Pan êl lladron i ymgyhuddaw y ceif cywiriaid eu da.
Pan vo addoed ar y geivyr y bychod a ridiïr.
Pan vo gwlân gan vursen
Y bydd pais i bob brwynen.
Pan vo ingav gan ddyn, ehangav vydd gan Dduw.
Pan vo culav yr ŷch, gorau vydd yn y gwaith.
Pan vo meilierydd ar ben maluria
Y bydd esgud asgell gwipia.
Pan vo mwyav dy galedi,
Gobeithia y gorvyddi.
Pan vo tecav y chwareu gorau vydd peidiaw.
Pan gair mihi, ni chair miha.
Pan laddo Duw y lladd dyn.
Pan laddo Duw y lladd yn drwm.
Pan gysgo pawb ar gylched
Ni chwsg Duw pan rydd wared.
Pan wypo dyn ladd ci, cynddaredd á yr arno.
Pan yrer y Gwyddel allan, ynvyd ydd haerir ei vod.
Pan yrer y Gwyddel i maes, ennaint á gyrch yntau.
Pa waeth y dring y gâth o dòri ei hewin edd?
Pawb á chwennych anrhydedd.
Pawb á drais yn mhais ei dád.
Pawb á gâr ei gywala.
Pawb á gnith gedor ynvyd.
Pawb a'i chwedl cantho.
Pawb yn llosgwrn ei henvon.
Pawb yn y gorphen.
Pei dywetai davawd á wypai geudawd, Ni byddai gymydawg neb rhai.
Pei y gâth á vyddai gartrev gwaeth á vyddai ichwi.
Pen carw ar ysgyvarnog.
Pen ci ar voreu gwanwyn.
Pen punt a llosgwrn dimai.
Pen saer pob perchènawg.
Pen tros bawb lle ni charer.
Perchi gwr er ei vawed.
Petwn dewin ni vwytäwn vurgyn.
Pieuvo y vuwch aed yn ei llosgwrn.
Pieuvo yr henvon,
Ymavled yn ei chynfon.

Pilio yr wy cyn ei bobi.
Pystolwyn i'r allt.
Pob cadarn gwan ei ddiwedd.
Po cyvyngav gan ddyn, changav gan Dduw.
Pob cyfelyb á ymgais.
Pob darogan dydderpid.
Pob diarhcb gwîr, pob coel celwydd.
Pob dryll ydd â'r aing yn y pren.
Pob edn á edwyn ei gymhar.
Pob enwir divenwir ei blant.
Pob gwlâd yn ei harver.
Pob llwybr mewn ceunant
I'r unfordd á redant.
Pob llwrv llemitior arno.
Pob peth yn ei amser.
Pob traha yn y gorphen.
Po dyvnav y môr, diogelav vydd i'r llong.
Po hynav vo y Cymro ynvytav vydd.
Po hynav vo yr ŷd tebycav vydd i vyd.
Po mwyav vo y brys mwyav vydd y rhwystyr.
Po mwyav vo y dravod mwyav vydd y gorvod.
Po mwyav vo y llanw mwyav vydd y trai.
Po tecav vo y chwareu gorau vydd peidiaw.
Po tynav vo y llinyn cyntav y tyr.
Pren yn nghoed arall biau.
Prydnawn côch a mawredd gwraig.
Pryn hên pryn eilwaith.
Pryn tra vlingych.
Pryn ŷd e vydd drud;
Pryn vlawd ti á ei yn dylawd.
Pwy bynag sydd heb wraig sy heb ymryson.
Pwyll á ddyly padell.
Pwy wyr tranc mâb wrth veithrin?
Pysgota yn mlaen y rhwyd.

Rhag anwyd ni weryd canwyll.
Rhag bod y sul heb siglaw.
Rhag myned un Hôg o'r tŷ.
Rhag newyn nid oes wyledd
Rhagnythed iâr cyn dodwy.
Rhag trymvryd ochid achenawg.
Rhaid i'r vuwch wrth ei llosgwrn.
Rhaid vydd nithiaw ni bo pur.
Rhaid i segur beth i'w wneuthur.
Rhaid wrth anmhwyll bwyll parawd.
Rhaid yw cropian cyn cerdded.
Rhaid yw genau glân i oganu.
Rhan druan rhan draian.
Rhan gorwydd o dâd.
Rhan y gwas o gig yr iar.
Rhànu rhwng y boly a'r cevn.
Rhetid càr gan orwaered.
Rhetid maen oni gafo wastad.
Rhew i lyfant.
Rhewydd pob rhyveddawd.
Rhieddawg achenawg yn fo.
Rhîn tridyn cannyn a'i clyw,
Rhôdd ac adrawdd rhôdd bachgen,
Rhodd Ivor ar ei gapan,
Rhodd gwyr Erging,
Rhodd i hên nag adolwg,
Rhoi y càr o vlaen y march,
Rhoi yr ordd dan y celynllwyn,
Rhuthyr ci o gribardd,
Rhuthyr enderig i'r allt,
Rhuthyr mammaeth,
Rhwng y ddwy ystol ydd a'r dîn i lawr,
Rhwng y rhisg a'r pren,
Rhwy vu rhyvychod gynnen,
Rhwydd ni bo dyrys,
Rhybrynwys rhy erchis,
Rhybrynawdd barvawg à eirch,
Rhybuched baw gares,
Rhybuched drygvab i'w vam,
Rhybudd ovnawg a dal y ci,
Rhybudd i ddedwydd,
Rhy dyn á dyr,
Rhy lawn á gyll,
Rhy uchel á syrth,
Rhydd i wraig ei thavawd,
Rhyvoddawg rhy vawr á wŷl.
Rhygâs rhywelir.
Rhygu pob rhyvychod.
Rhyw i vâb iwrch làmu.

Saith mlynedd y darogenir delli.
Sev á ladd á gyhudd.
Sev á lwydd i vevl ei chelu.
Sev yw y blaidd y bugail.
Siarad cymmaint â mâb Saith Gudyn.
Siarad cymmaint â Merddin ar bawl.
Sicrav yw yr hyn sicrav.
Siefrai piau y troed, Siefrai biau y vwyall.
Somi Duw â mynach marw.
Son am Awst wyliau y nadolig.
Swrth pob diawg.
Sychu trwyn y swch.
Symudaw addev rhag drwg.
Syrthid march oddiar ei bedwar carn.
Syrthid mevl o gesail.

Tabler i lyvau, tavarn i chwedlau.
Tavawd á dyr yr asgwrn.
Tavawd aur yn mhen dedwydd.
Tavawd gelyn ar ddannedd,
Ni chytsain ar wirionedd.
Tavl a'th unllaw, cais a'th ddwylaw.
Talwys à ryveichwys.
Tawedawg tew ei ddrwg.
Tebyg oedd cwd i gyvrwy.
Tebyg oedd hwch i garegyl.
Têg pob dianav.
Têg pob hardd.
Têg tân pob tymp.

Têg pob chwedyl ni bo gwrthwyneb iddo.
Teirgwaith y dywaid mursen, bendith Dduw yn y tŷ.
Teir-gwers gwraig rewydd.
Telitor gwedi halawglw.
Temyl glwth ei gegin.
Tervyn cywirav cyngwystyl.
Toll vawr á wna doll fechan.
Tòriad hên daeliwr.
Tòri divyn ar y dorth,
Ni wna wala e wna warth.
Tôst á vydd mwg coll.
Tra voy borvayntyvu y bydd marw y march.
Tra vo y ci yn maesa ydd â'r ysgyvarnog i'r coed.
Traferth ŷch hyd echwydd.
Traha a threisiaw y gweinion
A ddiva yr etiveddion.
Tranoeth wedi y dygwyl.
Tra rheto yr ôg rheted y fraean.
Tra rheto yr ôg rheted y ddraenglwyd.
Trech ammod no gwir.
Trech à gais noc à geidw.
Trech anian noc addysg.
Trech blaidd no'i gènad.
Trech Duw no drwg obaith.
Trech gwan arglwydd no chadarn was.
Trech gwlâd noc arglwydd.
Trech llavur no direidi.
Trech tynged noc arvaeth.
Trech y tyn merch no rhâf.
Treigyl maen hyd wastad.
Trengid golud, ni threing molud.
Trengis à vremis.
Tricid can ni wahodder.
Tricid gwr wrth ei barch, ni thrîg wrth ei gyvarwys.
Trîst pob galarus.
Troi y gâth yn yr haul.
Trychni nid hawdd ei ochel.
Trydydd troed i hên ei fon.
Ty ni vyno Duw ni lwydd.
Tw! varch benthyg.
Twyll drwy ymddiried.
Twyllid rhyvegid rhyvygiaid.
Twyllwr yw gwobyr.
Twymo y dwr a'i vwrw allan.
Tyvid ebawl o hyd gàr.
Tyvid enderig o'i dòr.
Tyvid maban, ni thyv ei gadachan.
Tyngedven gwraig.
Tynu bâch trwy goed.
Tyn y cwyr o'th glusiau.
Tyst yw y chwedyl i'r englyn.
Tywyll boly hyd pan levair.
Tywyll vydd gau, go'au gwîr.
Tywynaid graienyn ei ran.

Uchenaid at ddoeth.
Uchenaid gwràch ar ol ei huwd.
Ucher á ddaw gan ddryc-hin.
Un arfed á vâg i gant.
Un cam diogi á wna ddau a thri.
Un dyn á ddryga ar gant.
Unllaw ar wlân canllaw ar wlân.
Unllawiawg vydd mammaeth.
Unllygeidiawg vydd brenin yn ngwlâd y deilliaid.
Un geiniog á ddyly cant.
Un o blant Angharad segur.
Unpryd yr iâr yn yr ysgubor.
Untrew o garchar.
Unwaith yr aeth yr arglwyddes i noviaw hi a voddoedd.
Utgorn yw cwrw da.
Uwch pen no dwy ysgwydd.
Uwch yw y brâg no'r gwenith.

Wylid ni wŷl ei berchen.
Wyneb trîst drwg á ery.
Wythnos y llwynog.

Y bendro wibwrn.
Y bol á bil y cevn.
Y budd á ludd y lludded.
Y car cywir yn yr ing y gwelir.
Ychydig laeth ac hyny yn enwyn.
Ychydig yn aml á wna llawer.
Y ci à vynir ei grogi á ddywedir ei vod yn lladd devaid.
Y cŷn à gerddo á yrir.
Y cyntav à ddelo i'r velin maler iddo yn gyntav.
Y cyntav a'i clybu dan ei dîn y darvu.
Y davyn á dyll y gareg, nid o gryvder ond mynych syrthiaw.
Y diweddav à oddiwedder ar v vreuan ar hwnw y dielir.
Ydyw corn heb ysgyvarn.
Y vevl à wneler yn rhîn nant
Hi á dywynyg yn ngwydd cant.
Y velin à val a vyn ddwvyr.
Y verch à ddel i'w phrovi,
Hwyr y del i'w phriodi,
Y gath à vo dda ei chroen á vlinger
Y gwr yn ceisio ei gaseg, a'i gaseg dano,
Y llaw à rydd á gynnull,
Y march á vydd marw tra bo y gwellt yn tyvu,
Y march à vram á ddwg y pwn,
Y march á wich ys ev á ladd,
Ymbell ambeuthyn á wna mevl,
Ymchwel yma, na ddymchwela; nid oes o'r byd ond ymchwelyd,
Ymchwelid Duw ei law yn ngauavnos,
Ymganlyn â dedwydd,
Ymgeledd ci am y cwd halen,
Ymguddiaw ar gevn y gîst,

Yn mhob daioni y mae gobrwy.
Yn mhob drygioni y mae pechawd.
Yn mhob creft y mae falsder.
Yn mhob dewis y mae cyvyngder.
Yn mhob clwyv y mae perygl.
Yn mhob gwlad y megir glew.
Yn mhob dyn y mae enaid.
Yn mhob enaid y mae deall.
Yn mhob deall y mae meddwl.
Yn mhob meddwl y mae naill ai drwg ai da.
Yn mhob rhîth y daw angau.
Yn mhob rhyvel y mae goval.
Yn mhob pechawd y mae foledd.
Ymryson a'r gôv yn ei evail.
Ymryson a doeth ti à vyddi ddoethach.
Y mud a ddywed y gwîr.
Y mud á vynaig i'r llavar.
Y naill vlwyddyn á vydd vam i ddyn, a'r llall ei elldrewyn.
Y naill wenwyn a ladd y llall.
Yn ceisiaw y blewyn glas y boddoedd y gaseg.
Yn ceisiaw y cyrn colli y clustiau.
Y neb à saetho ar adrybedd a gyll ei saeth.
Y neb à vo a march ganddo a geif varch yn menthyg.
Ynvyd a gabl ei wrthban.
Yn y croen y ganer y blaidd y bydd marw.
Yn y lle y bo y da y rhoir ac y tycia.
Yn yr ing gorau yw y car.
Y parchell byw bid vau.
Yr aderyn à vacer yn ufern yn ufern y myn drigaw.
Yr avyr ddu a las.
Yr hai a laddoedd yr hwch.
Yr hwch a dau a vwyty y soeg.
Yr oen yn dysgu i'r ddavad bori.
Yr un asgwrn a dal.
Ys da velin à balloedd.
Ys dir angau i eidiawg.
Ys dir drwg rhag drwg arall.
Ys dir i hael à roddo.
Ys dir lladd y gwadyn wrth revedd y troed.
Ys dir nithiaw ni bo pur.
Ys drwg y deg ewin
Ni bortho i'r un gylvin.
Ys ev vy nghâr à orvo.
Ysgavnllwyth á glud coed.
Ysgavn y daeth, ysgavn yr aeth.
Ys gwell can mesur no chan trwch.
Ys gwell deli wrth à vo.
Ys id ar bawb ei bryder.
Ysid bwyd drygwr heb ei ddiolch.
Ysbys pawb pan ddarvo.
Ysu bwyd yr ynvyd yn y blaen.
Ys marw á vo diobaith.
Ys mevl iddo ni ddyto ei vâch.
Ystum llawgar yn rhànu.

EREILL DDIARHEBION A CHWANEGED ALLAN O AMRYW GASGLIADAU.

A vo ar ei gerdded
Ni wna dda cyn ei vyned.
A ddyco'r nodwydd,
A ddwg y crogwydd.
Anhawdd dwyn dyn oddiar eu dylwyth.
A ddywaid y peth à vyno,
A glyw y peth nis myno.
Amlav ei gwys amlav ei ysgub.
Amser á â heibio,
Wrth chwareu ac wrth weithio.
A vo byw yn ddwiol á vydd marw yn ddedwydd.
Adar o'r unlliw a ymgasglant i'r unlle.
Am y novio vo, ni waeth ganddo pwy à voddo.
Aml ddyrnod á dyr y gareg.
A varchoco y march pedoled.
A gano yn ei wely á gria cyn cysgu.
Anivel a vydd yr eidiou pei tòrid ei gynfon.
Amgen no nhwy, pedvai amgenach no'u gilydd.
Arglwydd, eb y naill arglwydd wrth y llall, Beth a wnawn am vlawd potes: Ai codi melin i valu pecaid? Adeilio melin i valu mesur?
A ddyweto y gwîr tòrir ei ben.
A ddigio heb achos cymmoded heb iawn.
Avlwyddiannus pob diriaid.
A gavoedd y dyn a gavoedd y da.
A garo y byd, aed i'r bont.
Amravaelus pob ymladdgar.
Amlwg tom ar varch gwyn.
Anhawdd tynu henvarch o rygyng.
A garer neu gasêir a welir o bell.
Ar ol rhodio pob lle, hawddvyd i gartre'.
Ail i chwedyl chwiliais.
A bryn dîr a bryn geryg.
A bryn vlawd a bryn eisin.
A bryn gîg a bryn esgyrn.
Addaw gyda mâb, a thalu gyda merch.
A chwennycho ddrwg i arall, iddo ei hun y daw.
A eistedd yn dlawd, a ymdwym yn gyvoethawg.

Allwedd arian a egyr bob clo.
A geir yn rhodd a gerdd yn rhwydd.
Arwydd ddrwg ar ddyn gweled ei bervedd.
A vu ddyn aeth yn adyn.
Amlach yw y brain no'r gweilch.
A recho ar y bryn
A rech lle nas myn.
A recho yn y nant,
A rech yn ngwydd cant.
Ammod a dyr gyvraith.
Ar ni roddo à garo,
Ni cheif à ddymuno.
Angen à ỳr hên i redeg.
A vo dda gan Dduw ystyrgar vydd.
Addewid ni weler nid yw.
Advyd a ddwg wybodaeth, a gwybodaeth ddoethineb.
Advyd a bair i rai edrych o'u deutu.
A garo Duw a gospa.
A gadwo Duw cadwedig vydd.
A losgo ei odyn a vyn i arall losgi.
Anhardd pob drwg voesawg.
Antur hir ledred heb ddial.
Ar ni allo drais twylled.
Ar ol yved syched sydd.
A rhinweddau da gorthrechir drwg.
A ymoreuro ymoreured â'r gorau.
A eiriach ei wialen,
A ddivwyna ei vachgen.

Berwi y dwvr a'i davlu allan.
Bachgen diriaid a wna wr da.
Blewyn i gi a'i brathoedd.
Brau din brau davawd.
Blingo hwch â chyllell bren.
Bara gwyn sych.
Bara gwyn a chig moch a chwrw, a bair i wr werthu ei dir.
Berwant yn eu hisgell eu hunain.
Bwyd yr ynvytav a vwytir gyntav.
Bid gwrm biw, bid llwyd blaidd.
Bid rhwng y din a'r wialen.
Brith yn ieuanc, carpiawg hên.
Byr ei hun, hir ei hoedyl.
Bwyta llymru â mynawyd.
Bwrw dwvr i Havren.
Bydded y gerdd yn ol y testyn.
Bwrw ergyd ar gais.
Beth gwedi celwydd? cernawd:
Boddi y melinydd.
Balch yw geivyr ar y rhew.
Balch yw hwyaid ar y gwlaw.
Bawddyn wrth ei grybwyll.

Can valched o'i gwd ag yntau o'i sâch.
Can wirioned â diawl dwyvlwydd.
Can galled ag Ieuan Cydewain.
Can lased a'r genninen.
Can gyvrwysed â barcud vis gorphenav.
Ceir gweniaith gan bob un.
Ceir y drwg ymhob man.
Can wyned a'r càn.
Can ddued a'r vrân.
Can haeled â Nudd.
Can goched a'r gwaed.
Can gryned a'r bêl.
Can valched â chribau y bleiddiau.
Cochwallt y gwaethav o'r holl ddynion.
Cwrv yn mol twrv yn mhen.
Cysgu val y pathew.
Cystadl yved o'r cawl â bwyta o'r cîg.
Cwyn rhugl rhag cwyn rhagddo.
Cwrw Aber Conwy goreu pei pellav.
Cyvri'r cywion cyn eu dëor.
Cyhyd ag ystol ufern.
Cywir yn ing y gwelir.
Cywain y cwbl i'r bol val y gigvran.
Cynt i'r gell nog allan.
Cymmerwch y mynydd o'i ben e ddervydd.
Cynt meddwl no gweithred.
Cyvathrach i vwyta, cenedl i ymladd.
Cyvathrach o agos, galanas o bell.
Cyvrwy i hwch.
Cyvrwy i vuwch.
Cyving ac ehang yw dewis.
Coel gwrách yn y lludw.
Cydwybod lân diogel ei pherchen.
Câs gan ynvyd a'i cynghoro.
Canys ve vethws ebai y ddylluan.
Câs gan y gâth y ci a'i bratho.
Ceir pob peth am arian.
Côv pob diweddav.
Cynt i'r dorth nog i'r cauad pobi.
Cystal â llwybyr aradyr.
Cynghor yn ôl.
Cyvoethawg pob dedwydd.
Cymmer dy barch a gwrthod dy anmharch.
Cyvuwch a'r sêr.
Chwynwch eich gardd eich hun yn gyntav.
Cadw peth val carth rhag tân.
Cardota Gwyddelwern.
Colli y clustiau cyn cael y cyrn.
Can esgor i ieuanc.
Castell pob dyn yw ei dŷ.
Canmawl dy vro a thrig yno.
Cadarn ovyn a wna gadarn nacâu.
Cadarn wrth gadarn.
Cadw ci a chyvarth vy hun.
Cwlwm oediawg a ddetyd.
Chwannawg mâb i'w hynt,
A chwannawg adrev à vo cynt.
Chwi a'i cewch â fònod ar eich cevn.
Cosyn glân o gawsellt budyr.
Chwi piau y byd, cechwch ynddo.
Clâv o'r un clwyv.
Crâch a ddywed crâch gyntav.
Cneua mewn brwyn.

Cadw dy avraid, ti a'i cei wrth dy raid.
Ceisiaw swllt yn ngwalva blaidd.
Cnoi awel.
Côv a lithyr, llythyr a geidw.
Col, medd y vran pan gafo hi ddigon.
Chwareu plant yn y pistyll.
Chwareu am bob peth ac ymladd am y bwyd.
Câr a glyw, bid varw bid vyw.
Cerid yr avyr ei myn,
Bid o ddu bid o wyn.
Câs gweled a geisio.
Cariad a orchvyga bob peth.
Ceintach wedi brawd.
Cymmaint ar y werthyd ag ar y bellen.
Cludo heli i'r môr.
Cneivier wedi praidd.
Cneuan yn ngenau hen-hwch.
Cymydawg da ydyw clawdd.
Curaw ei chwch wrth y graig.
Curaw un o dwll ac o draves.
Cyntav ei ôg cyntav ei gryman.

Digon o dân er llosgi Llundain.
Duw gatwo pawb rhag meddwl ei vam.
Da cael us gan ddrwg dalwr.
Da cynghor gwraig heb ei ovyn.
Drwg y dialoedd ei gam, a vwyaoedd ei oval.
Dilyn hael hyd varw.
Dwy wedd i'r llech, ac un i'r pobty.
Dysgu rhygyng i henvarch.
Dwyn ei fon oddiar ddewr.
Da cael ynys mewn môr mawr.
Dianc rhag y mwg i'r davlod.
Dianc rhag y mwg a syrthiaw i'r tân.
Dal canwyll i'r vall.
Dal y llygoden a'i bwyta.
Da dal crothell mewn cawell cregyn.
Da i gyrchu angau i wr boneddig.
Da yr edwyn hen gath levrith.
Da i gyrchu angeu at wr clav.
Dioval a vydd diovyn.
Dioval yw dim.
Drwg yw y chwareu ni ennillo neb.
Dod i gadarn ei ran, neu ve a'i myn.
Dotiedig pob anghovus.
Dysgu oferen i ofeiriad.
Diddestl pob hen.
Dedwydd pob fyddlawn.
Dawn dedwydd yn ngolwg.
Divlas vydd barn heb ei govyn.
Da cyfelyba y byddar os clyw o beth.
Da gan y nail gi grogi y llall.
Da ydyw dyn â gwddw hir a hwp yn ei chwedyl.
Darvu y pen darvu yr ammod.
Digon i bawb à gafo.
Diboen i ddyn dybio'n dda.
Dim anair i wyr yr eglwys.
Drwg ei hun a debyg arall.
Dioval a gân yn ei wely
Duw piau gwneyd etivedd.
Da ysgavn à dwysga.
Dwyn dwr tros avon.
Dywsul y pŷs.
Dala y gath erbyn ei chynfon.
Da cynnydd medel gwrda.
Delis da yn yd vu.
Dewin pob diawg.
Diddrwg didda, megis hen gi.
Dyvydd dihir-waith aros.
Dysg gan yr ynvyd ymogelyd,
A chan y doeth dysg wneuthyd.
Dig pob colledig.
Diddig pawb wrth à garo.
Dyced chwant dros ben.
Dyn a gerir lawer gwaith
Er mwyn ei gydymaith.

Edrych val gavyr wyllt ar daranau.
E ddaw drygddyn wrth ei grybwyll.
Eli i bob dolur yw amynedd.
Eli calon cwrw da.
Edrych y naid cyn ei neidiaw.
Ev a wnäai y peth ni wnäai.
Egor y varchnad cyn canu y gloch.
Ev aeth glastwr yn ei glustiau.
Er maint vo'r dryc-hin,
Hi a â o'r diwedd yn sych-hin.
Er na wnei ddrwg na wna debyg.
Ev a dyv y draen a'i vlaen arno.
Elid bryd yn ol breuddwyd.
Ewyllys heb allu.
Ennill y gronyn a cholli dau cymmaint.
Ennill nodwydd ddur a cholli y trosol haiarn.
Ev a gair cynghor gan ynvyd.
E ddaeth y caws o'r un cawsellt.
Ev a ddaw haid i gwch.
Ev a wnäai ddrwg rhwng cardotyn a'i gwd.
Eddewid gwraig odid yw.
Enw heb senw.
Esmwyth gwaith gwrandaw.

Velly vinnau, chwedyl y mochyn.

Foi rhag yr hwrdd i gorlan y devaid.
Fordd Buallt i Henfordd.

Gormod caws mewn maidd.
Gormod gormes bendith Dduw'n tŷ.
Gyda'r nos y cyvyd malwen.
Gwasgu y mê. cyn ei dyru.
Gwlad i gymmen yw pob gwlad.
Gwell yw i'r ymarŏwr nog i'r dialwr.
Gochel ymladd â thridyn: ofeiriad, gwraig, ac ynvyd.

Gorau cyvrwysdra gonestrwydd.
Gwr ar vwrdd a llanc ar vaes.
Gair i gall.
Gogana dy vro a thrig yno.
Gwae y vo à wertho ei wrthban.
Goreu cyttys, cyttys pentan.
Gwr dyeithyr yw vory.
Gnawd i ddyn ddwylaw.
Gwaethav i ddyn ei ddyn ei hun.
Gwell yw dau ben nog un.
Gwae à vo yn brudd rhag ovn brâd.
Goddev van gàmau.
Gyru halen i'r Heledd.
Gauav glâs á wna vynwent vras.
Gorau y gwna gwas da ei hun.
Gwaethav byriau byriau hwch.
Gwaethav blŷs blŷs eisieu.
Gwan ei galon a gyll, gwnaed orau gallo.
Gyru y swch yn swmbwl.
Gyru y llettam i'r ystol.
Gwell cariad y ci no'i gas.
Gwell piso y ddavad no thòm y vuwch.
Gwynvyd hwyaid Plas y Ward.
Gormodd o ddim nid yw dda.
Gwag gwely heb wraig.
Gormod awydd a dyr ei wddv.
Gorau cyvoeth yw iechyd.
Gwaeth no'r vad velen.
Gwayw yn nghalon gan hiraeth.
Gwell yr heddwch gwaethav no'r rhyvel gorau.
Gwnaed pawb y peth à vedro, ebai Coch y Cefylau.
Gwyn y gwel y vran ei chyw.
Gyru yr hwyaid i gyrchu y gwyddau o'r dwr.
Gloyw pob glân.
Gwyddau yn pencawna.
Gwna gynghor dy hen gyvaill.
Gynt, gynt, i'w dechreu pob hen chwedyl.
Gwell awr o lawenydd no dwy o bruddder.
Gwell rhinwedd cardotyn no mawredd brenin.
Gwell no da dienbyd.
Gwell un à wellâo no dau à waethygo.
Gwell drwg ordderchu no drwg briodi.
Gwên dêg â gwenwyn dani.
Gwyl gwna dy orau.
Gwell y gwyr Sion oddi wrth gyweiriaw swch.
Gwyliaw croes wylvor.
Gwell ychydig gan râd no llawer gan avrad.
Gwyn pob newydd, llwyd pob hên.
Gwenhwyvar, verch Ogyrvan Gawr,
Drwg yn vechan, gwaeth yn vawr.
Gweithiaw castell ar ben cawnen.
Gorau cam, cam cyntav.
Gwell angau no chywilydd.

Gwin coch, mêr moch, a mwg,
Ynt dri gelyn i'r golwg.
Gwartheg Huw Conwy Vychan,
Diawl a dòro ar eich rhedeg.
Gobaith a vyw, diobaith a varw.
Gwir a ddywed y vrân,
Odid o drachwant gàlon lân.
Gorau y gwineuwallt ar bawb.
Gan Dduw y ceir pob daioni os ceisir.
Gwallt du, gwallt dewr.
Gwae à wêl ac ni wêl ei hunan.
Gwae ni adwaen ei hunan.
Gwae à wnel ac ni wyr paham.
Gwae à greto i bob chwedyl à glywo.
Gwae y verch ni vedro vod gan ei hunan.
Gwisgi pob troed at y drwg.
Gorau i bawb ei bieusawd;
Gorau pieufawd deall.
Gorau deall doethineb;
Gorau doethineb iawnder;
Gorau iawnder cariadoldeb;
Gorau ar garu Duw caru ei blant.

Hy pob ceiliog ar ei domen.
Hy y gall un vramu wrth ei dân ei hun.
Hir ddarogan dervydd.
Hawdd addaw, ond anhawdd cywiraw.
Haws cadw nog olrhain.
Hir yw byth a da yw Duw.
Hiroed anniolch.
Hanner gair i gall.
Hawdd pobi yn ymyl blawd.
Hof gan bob bwch ei ddigrivwch.
Heddyw yn ddyn a vory yn adyn.
Hesbin yw pob davad hyd na ddelo.
Hof gan bawb ei gariad.
Hwy byddis yn arovyn gwaith da no'i wneuthur.
Hindda gwyr Môn
Yw gwynt Iwerddon.
Hywav yn y bŷd aeth bellav i'r coed.
Heb na thŷ nag ymogor.
Hên arver, hon a orvydd.
Hên a wyr ieuanc à debyg.
Hawdd yw ovni ovnawg.
Hawdd cael drwg ac anhawdd myned oddi wrtho.
Hên hwyr hawdd ei orddiwes.
Hir y byddis yn llenwi llestyr à ollyngo.
Hir vydd bys gwden gwanwr.
Hwi! cwn y drev; hai! ein ci ninnau.
Hof pob newydd.
Hy pawb ar ei eiddo:
Hirbryd a wna vawrbryd, a mawrbryd a wna'r mawr gywilydd.
Hun yr eos.
Hwi! gyda'r ci; hai gyda'r geinach.
Hawdd cysgu mewn croen cyva.
Haws llenwi bol no llygad.

I ti yr heddyw; i bwy y vory?

Lladd maer Caer ar Gevn Cerwyni.
Llong i longwr, a melin i velinydd.
Lledled rydau, waethwaeth ddeddvau.
Llawer a ddyvynwyd, ychydig a ddewiswyd.
Llathen o'r un brethyn.
Lleiav rhan rhan y rhanwr.
Lladd yr iâr a cholli y cywion.
Llawer o waith a wna llawer o ddwylaw.
Llawer a sieryd llawer o wragedd.
Llawer ammau diau vydd.
Llawer o dda a wna llawer o ddynion.
Lle yr ydych ddicav rhowch eich twca.
Llywelyn pob lle weithiau gartrev.
Lluchiaw cwn â cheryg.
Llygaid segur a wilia.
Llygriad y peth gorau yw y llygriad gwaethav.
Lle crava'r iâr e biga'r cyw.
Llygaid diawl tan gareg.
Lladd y gwirion yn nghysgawd yr cuawg.
Lle clyd i vethu,
Lle oer i fynu.
Llev yn avon hindda vydd.

Mae dwy fordd i'r coed.
Mae achos i'r iâr bigo'r bysgen.
Mae modvedd yn llawer yn nhrwyn gwr,
Mae pwll y'mhob drws weithiau,
Manwl pob rhan, hardd pob cyvan,
Mwth y rhydd yr hyn ni'm addug.
Meddylia dy ymadrawdd cyn ei draethu,
Mae dau vaw ci yn Nghaer,
Mae brân i vrân y vron,
Mal baedd cynddeiriawg,
Mae mêl yn ngallt Ddygai; ond pwy sy well er ei vod?
Mae yn rhyhwyr cynnilaw pan eir i dîn y y cwd.
Melys yw cig lledrad.
Mynych y daw beunydd, val ynvydion Cyveiliog.
Mae sawyr y cennin ar y cewyll.
Mor glaiar â llyn llevrith.
Mae dechreu i bob peth; ond nid oes diwedd ond i rywbeth.
Meddyg i bawb ei lygaid.
Modrwy aur yn nhrwyn hwch.
Mae yn rhaid i'r gwychav gachu.
Mae yn rhaid i'r adar mân gael bwyd.
Mae newid gwaith gystal a gorphwysaw.
Magu cynrhonyn mewn cig.
Mae dau olwg ar varch gwyn.
Mae achos i'r gath lyvu'r pentan.
Mae modd i ladd ci heb ei grogi.
Mal côv gwrach.
Mae vo ar y gwir,
A minnau ar y tir.
Mal pais Caradawg.
Mal dannedd i genawon.
Mal ysgubor ofeiriad.
Manwl gyvrif á wna hir gyveddach.
Mesur pawb wrth ei lathen ei hun.
Mwy y twrw no'r taraw.
Mwy y braw no'r briw.
Mor ddiles a halen i'r iâr.
Mi adwaen lwynog er nas goddiweddwyv.
Mwyav poen yw poen methu.
Mud pob anghyviaith.
Myvi yn cael yr enw, ac ereill yn cael yr ennill.
Mal y bwytâes y cannwr y can myharen.
Mal gwydd am guddiaw ei hwyau.
Mwyav clod lleiav ddyweto.
Mae yn dangos ar eich barv pa saig a vu ar eich bwrdd.
Mae modvedd yn ddigon er dianc.
Mi wn chwedyl yr ysguthan wrth y bi.
Mae brân i vrân, a gwalch i walches,
A dylluan i'w chymhares.
Mal gwîb mammaeth.
Mab synwyrawl a wna dad llawen.
Mwy no'r dwr ar gevn ceiliogwydd.
Mynych y barn pob ehud.

Ni chwythoedd na bai da i rywun.
Na vynych dramwy lle bo mwyav dy groesaw.
Na hir ddilyn hirddrwg.
Newid y penwag yn Nevyn.
Nid gwell rhwy no digon.
Nid o nerth braich ac ysgwydd y mae canu crwth.
Nos á yr y brain adrev.
Nid da rhy o ddim.
Ni verchyg varch, ni chár verch, ni chanlyn vilgi.
Ni wyr y gôg ond yr ungainc.
Nid marw y tad vo tradoeth,
A vo byw dewr ei vâb doeth.
L. Gl. Cothi.

Ni ercha bwyd ond ei brovi.
Na chabla neb y gorfo arnat ei ovn.
Ni bu lanw na bai drai.
Ni bu wala na bai weddill.
Naill ai mammaeth ai gwraig o'i chov.
Ni bydd arno niwed.
Nerth cath yn ei chynfon.
Na sav yn dy greulonder.
Ni wiw galw doe yn ol.
Ni bydd gwr gwyllt heb ei wae.
Ni ddelir hen adar âg us.
Ni wna geiriau têg hau y tir.
Ni waeth ganddo o ba du i'r tŷ yr hauer y cywarch.

Ni vedd ev ewin i ymgravu.
Naill ai rhydraws ai rhydruan.
Ni ddisgyn brân ond unwaith ar y braenar.
Nugiaw gan y cawn.
Ni chyll cybydd mo'i lês er ei gywilydd.
Ni bu draha na bai gyhydiad.
Nid oes mwy o goel arno nog ar din dyn bach.
Ni châr hen vuwch ddiniawed.
Ni thrig march er unnos.
Ni thâl y swydd i'w gwasanaethu.
Nid tebyg dim bod heb ddim.
Nid â rhinwedd i'r bedd byth.
Ni wna na byw na marw.
Ni wybod pwy sydd iâr na phwy sydd geiliog.
Ni waeth tewi no siarad.
Ni thâl cam bach mo'i wrthawd.
Ni chair gan ddrwg dalwr ond drwg davawd.
Nid pob dyn cryv a vedr ganu telyn.
Ni bu erioed y vath beth yn Ynys y Cedyrn.
Ni wiw i'r llygeden ymryson piso â chaseg.
Ni adnapo amnaid yr iâr bid heb ŵy i'w swpper.
Ni ddervydd cynghor.
Ni ddilid a'i cynghoro,
Eve geif a'i cospo.
Ni chwery hengi â chenau.
Nid eglur y drych yn y tywyllwch.
Nid ei veddwl y geif dyn.
Nid hwyrach yr ammau no'r diau.
Nid hir barâus beth cymhellus.
Nis gwyr ar ba droed y sang.
Nis gwyr pa elin i'w gosi.
Nid etiveddiaeth yw gwasanaeth.
Ni ddaw henaint ei hunan.
Na werth mo'th iâr ar y gwlaw.
Ni vyn à gafo, nis ceif à ddymuno.
Ni ludd parawd ei gymmeryd.
Ni wella gwas drwg er ei oganu.
Ni wneir dyn o'r eidion du.
Ni thyv gwellt ar fordd vawr.
Ni vynag haelav pan gaer.
Na ymddiried i'r glwth am dy giniaw.
Na ymddiried i'r trythyll am dy wraig.
Novio val y gareg.
Ni thyr gwlaw un asgwrn.
Ni sai barn ar gadarn.
Ni ddelir hen gefyl âg us.
Ni waeth pa liw ar y bol am y dalio vo y bwyd.
Ni chyttal goval â chân.
Ni vagoedd sychder erioed ddrudaniaeth.
Ni vu erioed ddigon na byddai beth yn ol.
Ni cheir y dyn ond val y bo,
Gwnewch iddo'r tro a vyno.
Ni bu ddrwg erioed o hirymaros.
Ni thyr calon er rhoi ochenaid.
Ni wyddoch o ba le y daw haid i hwch.
Ni hyna meddwl henwr.
Ni ddaw gair drwg yn ol.
Ni ddeil y crochan pridd mo'i daraw wrth y pres.
Nid oes mwy dolch nog i'r avyr am ei godro.
Ni newid ev y bysen am y fäen.
Nid amheuthyn caws i wyr Trawsvynydd.
Nid call Cymro oni chollo.
Nid drwg ond y ceir drwg oddi wrtho.
Nid oes neb na ddaw wrth ddywedyd hwda.
Ni chân y gôg ond à ganoedd.
Nid cyvarwydd ond à gerddo.
Nid oes am y peth a aeth heibio
Ond tewi sôn a gadael iddo.
Nid rhyvel ond gwynt.
Niwl y gauav gwasarn eira.
Niwl y gwanwyn gwasarn ir-vrwyn.
Ni wiw myned i brynu dwr gan lysŵen.
Ni bu drwg erioed heb verch yn rhywben.
Nid eiddo ond a'i cymmero.
Ni ddyry ev vaw i gi, pe cäai gareg i roi arno.
Nid glân ond glân ei galon.
Ni thwyllwyd à rybuddiwyd.
Ni waeth itti hyny no phregeth.
Ni ddygymydd ynvyd a'i geiniog.

O'r aeron gorau yw yr eirin.
O ddau ddrwg gorau y lleiav.
O ddau dda gorau y mwyav.
Os ei yn was i eurych rhaid itti garío ei gôd.
O wir waith goddau.
O cheif yr avyr vyned i'r eglwys, hi âa i'r allor.
Odid hir gynnydd ar gam.
Odid venthyg na bo gwaeth.
Odid vâb cystal a'i dad.
O lygad y colloedd y bachgen y bunt.
Os saiv dim saved y bara a'r llaeth.
Oni chedwir y ddimai, nid âa hi byth yn geiniog.
O geiniog i geiniog ve âa'r arian yn bunt.
Os cybydd a vydd evo,
E gyll gwnaed orau gallo.
O gwmpas yw y fordd nesav.
O pryni gaws pryn van gaws.

Piso yn y môr.
Pam y piga'r iâr y badell? Eisiau tavawd i'w llyvu.
Pan vo y gâth oddicartre',
Ceif y llygod le i chware.

Pob peth yn anmhorth i wan.
Po llyvnav vo y dwvr, dyvnav vydd y rhŷd.
Pan vo marw y sarf bydd marw ei cholyn.
Po mwyav gafoch, mwyav geisiwch.
Pan doddo'r vrân
Ve ryna'r baban.
Parchell o'i hwch ei hun.
Pan ddel tro ar y geivyr,
Yr avyr glof a vydd o'r blaen.
Pan vo y bol yn llawn y myn yr esgyrn orphwys.
Pawb drosto ei hunan.
Pen ci yn y crochan.
Pob sorod i'r gôd ag ev.
Po mwyav o ddevaid drutav vydd y gwlân.
Po hynav vydd y dyn gwaethav ei bwyll.
Pwn i'r odyn a baich i'r velin.
Pryn yn y drev, a gwerth gartrev.
Priodas yr iâr a'r ceiliog: provi cyn priodi.
Pan ddicav vo'r ceiliog uchav y cân.
Pe dywedwn gyhyd a chywydd.
Pan bellav gwaetha'r gwerth.
Po glanav vo'r verch blinav vydd ei thynged.
Pawb â'i vys ar ei ddolur.
Pob cynnevin dichwith.
Prynu câth mewn cwd.
Prawv dy gymydog cyn bo raid.
Pob peth o hir arovyn a ddervydd.
Pan gollir y gwlaw
O'r dwyrain y daw.
Pan gollir yr hindda
O'r gogledd y daw gynta'.
Pan soniwyv i am gefyl,
Soniwch chwithau am gaseg.
Petai y mynydd yn ymenyn, e wneid pen ag evo.
Poeri am ben ei gadach ei hun.
Pryn vara, ti a ei i gardota.

Rhaid i'r dryw gael ei lyw.
Rhoi y pwn trymav ar y march gwanav.
Rhaid enllyn da gyda bara llwyd.
Rhaid côv da i ddywedyd celwydd.
Rhaid i bob ceg gael bwyd.
Rhan ddrwg rhan o draian.
Rhaid gwerthu lle bo prynu.
Rhyhwyr cynnilo pan eir i dîn y cwd.
Rhewi'r carth yn y pared.

Son am Awst ddydd calan-gauav.
Saeth i bob nôd.
Synwyr y vawd.
Sawyr y cennin ar y cewyll.
Sâl y ci ni thâl chwibanu arno.
Saved pob llestyr ar ei waelod ei hun.
Swch heb gwlltyr.
Sadia'r mur po garwa'r gareg.
Siglo'r ddor rhag bod yn segur.
Soniwch am ddiawl, ac ve ymddengys.
Sion piau'r meirch, Sion piau'r ceirch.

Têg y dywedir am vab o bell.
Tôst vydd ar ddyn pan gafo ei ddewis.
Trech dwy wrâch nog un.
Troi'r gwn i daro'r gawnen.
Tinddu, ebai'r vrân wrth y wylan.
Tanllwyth y llwynog am y pentwr ceryg.
Tynu llaw hyd ben ci drwg.
Tranoeth gwedi'r dyddgwyl.
Troi dalen newydd.
Trymav baich baich o bechod.
Tôst a vydd mwg coll.
Taw wrth ynvyd.
Taclau gwraig weddw.
Taer yw'r gwir am y golau.
Truan teyrn heb ei ddeiliaid.
Tàrio val yr abad am y cwvaint.
Tyngu nad ocs ceryg yn Nghornattun.
Têg pob chwedl heb wrthwyneb.
Tra bo'r cythraul yn ufern y mae lle i waethygu.
Tlws pob peth bychan.
Trwy bwyll y mae dirwyn y bellen.

Un wennol ni wna wanwyn.
Unwaith am ganwaith i'r gwr.
Uvydddod i gyvoeth, a balchder i dylodi.
Un drwg a lwgr ar gant.
Un peth yw addaw, peth arall yw cywiraw.
Uvydd ac anmharod.
Un awr o ddiogi a wna ddwy o wylovain.
Un trwyn budyr a wna gant trwyn glân.

Wyneb llawen llawn ei dŷ.
Wrth ovregedd y ceir drwg.
Wrth hir ymgeisio da'r ymgawsoch.
Wedi novio y llyn yn mîn y làn boddi.

Yn y gwîn y ceir y gwir.
Y llaw à estyn a gymhell; diymwâred galed a gyll.
Ychydig yw mam y gynnen.
Y genedl a ymgasâa
Duw a'i diva.
Yn arav deg yr â gwr ymhell.
Ymhob pen y mae piniwn.
Ystig diog yn nhy ei gymydog.
Ymryson â diawl am gudyn o wellt.
Yn yr adwy galetav y tyr y garwden.
Yr un ddiod â chefylau Syr Rossier.

Ymgynghora â doeth.
Ymgymdeithasa â dedwydd.
Yr adar a vyn rodio
Yr un vath er ei wn vo.
Y maen à dreigla ni vwsogla.
Y dillad yw'r dyn ar dyn ydyw'r truan.
Y ci olav piau'r asgwrn.
Y gneuen goeg sy galetav.
Ymwrthod a'r diriaid.
Ymolertha a'r glew.
Ymchwedd a'r hael.
Ys dir angau i'r eiddawg.

ADYSGRIVIAD ARALL

o

DRIODD MOES,

O LYVYR A ELWIR "Y CASGLIAD DIDREVN," EIDDO IARLL MACCLESFIELD.

Tri pheth nid ymguddiant: gwelltyn mewn esgid, mynawyd mewn cwd, a phuten mewn tyrva.

Tri dyn nid call rhygoellaw iddynt: hyn no'i gymydogion, rhodiadur o bell, ac à vo vaen dros iaen.

Tri amryson à ddygwydd ar varwolaeth cadarn cyvoethawg: cythreuliaid am ei enaid, perthynasau am ei eiddo, a phryved am ei abwy.

Tri math ar ddyn à sy velltigedig: à doro orchymynion Duw ac na bo edivar ganto, a'r hwn na wypo ddim o dda ac na cheisio ei ddysgu, a'r dyn à wypo lawer o ddysg ac nas dangoso i neb.

Tri pheth ni all dyn vyw hebddynt: tudded, a thrwydded, a gwasgod.

Tri pheth à sydd well no chyvoeth: iechyd, a rhyddid, a synwyr.

Tri pheth à ddylai cristion daionus eu gwneuthur: caru Duw yn vwy no neb, ovni Duw yn vwy no neb, a gwasanaethu Duw yn vwy no neb.

Tri pheth sydd angenrhaid i bechadur eu gwneuthur: cydnabod ei bechodau, edivarâu am ei bechodau, a deisyv maddeuant am ei bechodau.

Tri pheth à geif dyn dedwydd: cariad perfaeth, a bywyd heddychlawn, a llawenydd nevawl.

Tri pheth à geif dyn drwg annedwydd: tylodi, ac avlwyddiant, a phoeni.

Tri pheth à geif dyn divalch: amledd, llawenydd, ac esmwythder.

Tri pheth à geif dyn gwallus: cywilydd, a gwatwar, a cholled.

Tri pheth à geif dyn o gyvodi y bore: iechyd, a chyvoeth, a santeiddrwydd.

Tri pheth à geif dyn cysgiadur: cywilydd, ac aviechyd, a methiant.

Tri pheth à geif dyn cywir: dawn, a pharch, a fyniant.

Tri pheth à geif dyn falst: drygvyd, a drygair, a drygddiwedd.

Tri pheth à geif dyn dyoddevus: cariad, a pharch, a chanmoliaeth.

Tri pheth à geif dyn trugarawg: dawn, a chariad, a thrugaredd.

Tri pheth a geif dyn o ddylyn hirddrwg: carchar cystuddiawl, a newyn poenydiawl, ac ufern dragwyddawl.

Tri pheth à geif dyn dwyvawl: digonedd bydawl, a heddwch corforawl, a llawenydd nevawl.

Tri pheth à ddyly dyn eu hystyried: o ba le ei daeth, a gwybod pa le y mae, ac ovni pa le ydd âa.

Tri gelyn enaid cristion y sydd: y byd, a'r cnawd, a'r cythraul.

Tri meddyg enaid dyn y sydd: ympryd, a gweddi, a chardawd.

Tri ychydig à wna golli llawer: ychydig o anwydau drwg, ychydig o wall, ac ychydig o ledrad.

Tri gair o gynghor à roddes Lasar i ddyn: nid amgen, câr dy Dduw yn vwy no dim, canys ev a'th wnaeth di; gweddia ar Dduw, canys ev a'th brynoedd di; ac ovna Dduw yn vwy no dim, canys ev a'th varna di.

Tri pheth serchawg ei gweled: diriad yn myned yn ddedwydd, cybydd yn myned yn hael, a phechadur yn myned yn santaidd.

Tri pheth à ddaw ar ddyn heb wybod iddo: cysgu, pechawd, a henaint.

Tri chydymdaith à sydd i'r diawl: balchedd, a chenvigen, a lledrad.

Tri pheth sydd yn arwyddocâu bod dyn yn gadwedig: casâu pethau drygionus, caru pethau daionus, a gweddïaw yn ddiwallus.

Tri pheth à ddyly Cristion eu coviaw yn wastad, rhag pechu yn varwawl: gorchymynion Duw, llawenydd nev, a phoenau ufern.

Tri pheth a wna gwr yn vlaenor ar ei gymodogion: bod yn ddoeth, a bod yn hael, a bod yn gyvoethawg.

Tri pheth à wna gwraig yn anniwair: tegwch yn ei hwyneb, folineb yn ei phen, a balchedd yn ei chalon.

Tri pheth ni ddiolchant eu harbed: ni ddiolch pren arbed ei dòri, ni ddiolch gwraig arbed myned arni, ni ddiolch lleidyr arbed ei gospi.

Tri pheth à bair i ddyn golli gwahoddiaeth: bwyta gormodd, dywedyd gormodd, a cheisiaw gormodd.

Tair cynvedd anweddus ar ddyn: bod yn daer i geisiaw, bod yn galed i roi, a bod yn ddrwg ei dyb.

Tri pheth à bair i wraig gael tybied yn ddrwg am dani: bod yn chwannawg i gytgam â gwyr a gweision, a bod yn chwannawg i ymoethynion, a dywedyd yn ddrwg am wragedd ei chymodogion.

Tri pheth nid ydynt yn gorphwys un amser mewn dyn: y bladyr (bledr) yn sugnaw, yr anadyl yn cerdded, a'r enaid yn meddyliɛd.

Tri pheth à sydd, ac nid dim hebddynt: Duw Dâd Hollalluawg, Duw Vâb Holldrugarawg, Duw Ysbryd Glân Hollgyvoethawg.[1]

Tri phriv achaws y sydd i ddyn garu Duw: am i Dduw Dâd ei greu, am i Dduw Vâb ei brynu, am i Dduw Ysbryd Glân ei lywodraethu.

Tri pheth à ennill gariad Duw: fydd lân ddivrychau, a gobaith cryv diveiau, a chariad perfaeth dieisieu.

Tri pheth à gymhell ddyn i weddïaw ar Dduw: hir glevyd, hir advyd, a hir dristyd.

Tri pheth à sydd yn gwaethygu y byd: seguryd divyr, balchedd diystyr, ac avrad divesur.

Tri pheth à sydd yn trallodi y byd: cenvigen wenwynig, a llid cythreulig, a thrachwant baiedig.

Tri achaws y sydd i ddyn ddywedyd yn esgusedig: i gadw bywyd ei gyd-gristion, i heddychu ei gymodogion, ac i gadw e wraig yn vodlon.

Tri pheth anhawdd i ddyn eu gwneuthur: oeri y tân, sychu y dwr, a bodloni y byd.

Tri pheth à ddysg dyn o vod yn segur: dysgu meddwl yn ddrwg, dysgu gwneuthur yn ddrwg, a dysgu dywedyd yn ddrwg.

Tri pheth à geidw gwraig yn vodlon: ei cheiliogi pan vyno, ei thrwsiad val y ceisio, a'i chadw rhag digiaw.

Tri pheth à wna wr yn hoenus: gweled ei wraig yn ei garu, ei gyvoeth yn mwyâu, a Duw yn ei nerthu.

Tri pheth canmoledig ar wr: bod yn ddoeth ei ymadrawdd, yn gyviawn ei weithredoedd; ac heb wneuthur dim gormodd.

Tri pheth canmoledig ar wraig: ei hwyneb yn ddawnus, ei hymddiddan yn synwyrus, a'i harveron yn ddaionus.

Tri pheth rheidiawl i ddyn wrthynt wrth vynych vyned i davarn: ei ben yn gryv, ei vol yn gadarn, a'i bwrs yn drwm.

Tri pheth à geif dyn mewn tavarn: divyrwch i bechu, divyrwch i vethu, a divyrwch i ymwaethu.

Tri dyn ni ddylai wr eu gwahawdd i'w ciniaw: twyllwr gwenieithus, testynwr gwatwarus, a bradwr cenvigenus.

Tri pheth hofaidd i wr eu bod gantho: ei wraig yn rhinweddus, ei dŷ yn drevnus, a'i dir yn gyfanneddus.

Tri pheth à nertha gwr i vod yn gyvoethawg: ei wraig yn gasglad, ei dylwyth yn ddiavrad, ac yntau yn llavuriad.

Tri pheth à wna wr yn anghenus: ei wraig yn voethus, ei dylwyth yn wallus, ac yntau yn avradus.

Tri pheth ni ddygant wr i gymmeriad mawr: ei wraig yn veistres, ei gefyl yn llymes, a'i dir yn ores.

Tri pheth gweddus i wr eu bod yn ei dy: ei wraig yn ddiwair, ei glustog yn ei gadair, a'i delyn yn gywair.

Tri pheth rheidiawl i ddyn eu bod gantho: ei wraig ar ei wely, ei dân yn ei aelwyd, a'i arian yn ei bwrs.

Tri pheth à wna i wr vod yn vodlon i'w giniaw: ei wraig yn vedrus, ei vwyd yn voethus, a'i gylla yn iachus.

Tri pheth anesmwythav ar wr yn ei dŷ: ei wraig yn ymdaeru, ei simnai yn mygu, a'i dŷ yn dyveru.

Tri pheth nis ceif dyn yn ddifael wrth ei amgen: benthyg arian gan ocrwr yn ddi lôg, pledo ei vatter yn y llŷs gan wr o gyvraith yn ddi fys, a'i giniaw o vwyd

[1] Nid wyv yn coeliaw vod personau y Drindawd yn dri pheth. *Iago ab Dewi.*

moethus yn nhŷ cybydd angawr yn ddi rybudd.

Tri rhyw o ddynion anhawdd eu cael yn yr un meddwl: y call a'r fôl, yr hael a'r cybydd, a'r cywir a'r lleidyr.

Tri pheth y sydd yn cadw y byd mewn trevyn: rhiv, a phwys, a mesur.

Tri pheth à geif dyn wrth ymgyvreithiaw: côst, a goval, a thravael.

Tri rhyw o ddynion à gyll eu haravwch yn debyg i rai allan o'u pwyll: helwyr, dawnswyr, ac ymladdwyr.

Tri rhyw o ddynion y sydd heb brisiaw eu gonestrwydd: meddwyr, anudonwyr, a bradwyr.

Tri rhyw o ddynion à sydd heb ovni Duw: traeturiaid, cynllwynwyr, a threiswyr.

Tri pheth à sy ddaionus i ddyn: meddwl yn dda, dywedyd yn dda, a gwneuthur yn dda.

Tri pheth à arwain ddyn i dylodi: aviachus chware, glothineb, a phuteindra.

Tri pheth ni all dyn eu cuddiaw: cyvoeth mawr, cariad mawr, a châs mawr.

Tri pheth à sy raid i gristion da ryvelu yn eu herbyn: y byd, y cnawd, a'r cythraul.

Tri pheth à sy raid wrthynt wrth wneuthur pob gwaith: gwybodaeth pa vodd ei gwnelir, a gallu i'w wneuthur, ac ewyllys i'w ddwyn i ben.

Tri pheth anhawdd i ddyn eu gwneuthur yn gwbyl: adnabod ei hunan, gorchvygu ei chwant, a chadw ei rîn.

Tri pheth da pan vont yn gymmesur, a drwg pan vont yn anghymmesur: y tân, y dwr, a'r gwynt.

Tri pheth gwerthvawrocav i ddyn: iechyd, a rhyddid, a rhinwedd.

Tri chynvedd ddrwg eu bod ar ddyn: balchedd heb haelioni, trachwant heb gyviawnder, a llid heb drugaredd.

Tair modd y sydd i adnabod dyn: ei ymadrawdd, ei ymddygiad, a'i arveron.

Tri pheth cyntav à dwylla ddyn: geiriau têg, chwant ennill, ac eisieu gwybyddiaeth.

Tri pheth à geidw wr mewn iechyd: ymborth yn vesurawl, travaelu yn gymmedrawl, a chadw ei wres yn naturiawl.

Tri pheth gwrthwynebus gan wr i ymadael ag hwynt: y wlad lle y ganed ac ei maged, y cyvoeth yr hwn à gasgloedd ev ei hun, a'i gyveillion y rhai à oedd ev gwedi eu provi yn gywir iddo.

Tri pheth ardderchawg ymhlith pethau bydawl: casâu folineb, caru rhinwedd, a dymunaw dysgu yn wastad.

Tri pheth à ennill enw da i ddyn: dywedyd ychydig, gwneuthur daioni, a llavurio.

Tri pheth à wna ysgrivenydd da: tıagwyddawl gofedigaeth am wyr ardderchawg, a rhoi dangosiad i'r etiveddion ar eu hol, a gwneuthur i'w enw ei hun barâu byth.

Tri pheth à ddyly dyn bryderu eu gwneuthur: gwrandaw yn uvydd, atteb yn gall, a dangaws ei huuan yn wybodus.

Tri pheth rhyvedd à sydd yn y byd gan gymaint o wahaniaeth y sy rhyngddynt: wynebau dynion, dywediad dynion, ac ysgrivenadau dynion.

LLYMA DRIODD GWEDDUS EU BOD AR WRAIG I VODDAU EI GWR, AC I'W GWNEUTHUR YN WELL NO GODDOL.

Bod yn gywilyddgar, bod yn ddystawgar, a bod yn uvyddgar.

Ei hwyneb yn ddawnus, ei hymddyddan yn vedrus, a'i llun yn weddus.

Meddwl di anllad, buchedd ddi avrad, a chyviawn vwriad.

Ar Dduw yn gweddïaw, yn sywon e dwylaw, a'i gorchwyl yn gryno.

Ei phryd yn hofaidd, ei chorf yn llunaidd, a'i chalon yn buraidd.

Y lleill law yn casglu, a'r llall yn rhànu, a'i phen yn pryderu.

Yn dda ei chydwybod, yn rhadlawn ei thavawd, yn gywir i'w phriawd.

Yn ddivalch ei chalon, yn lân ei harverion, yn drugarawg i dylodion.

Yn caru Duw yn hyvryd, yn ovni Duw hevyd, yn gwasanaethu Duw yn ddiwyd.

Er hyny rhyw wraig a gâr cael myned lle myno, credu à ddywedo, a chael à geisio.

LLYMA DRIODD GWEDDUS EU BOD AR WRAIG RHAG CWCWALLTU EI GWR O HONI, O BYDD YN GORVOD ARNO VOD YN VYNYCH ODDI GARTREV.

Ei sodlau yn ibawg, ei thraed yn agawg, a'i cherddediad yn fallachawg.

Ei choesau yn vreisgon, ei morddwyddon yn veinion, a'i gliniau yn gulion.

Yn llaesion ei brònau, yn geimion ei breichiau, a'i dwylaw yn gigweiniau.

Ei dannedd yn hirion, ei gwevlau yn vyrion, a'i llygaid yn drawsion.

Ei haelau yn vlewawg, ei hwyneb yn ddosawg, a'i mîn yn drevlawg.

Ei chlustiau yn llydain, ei deurudd yn druain, a'i lliw val ysgevain.

Ei llais yn gryg, ei thavawd yn vloesg, a'i geiriau yn chwerwon.

LLYMA DRIODD CERDD.

Tri bai cyfredin à sydd ar gerdd: tòr mesur, drwg ystyr, a cham ymadrawdd.

Tri thòr mesur à sydd ar gerdd: hir, a byr, a thwyll yn yr awdl.

Tri rhyw ystyr drwg à sydd: cam ddychymyg, anmherthynas, ac eisiau enaid.

Tri cham ymadrawdd à sydd: unig a lliosawg i gyd, gwrryw a benyw i gyd, a gwydd ac absen i gyd.

Tri anmherthynas cerdd: moliant a gogan i gyd, rhy ac eisiau i gyd, ac eisiau beryv.

Tri rhan ymadrawdd à sydd: enw, a rhagenw, a beryv.

Tri rhyw ymadrawdd y sydd: ymadrawdd berfaeth, ymadrawdd gyviawn, ac ymadrawdd addurn.

Tri rhyw sillav à sydd: sillav dalgron, sillav leddyv, a sillav dipton.

Tair rhyw sillav dalgron à sydd: dipton dalgron, a dipton leddyv, a dipton wîb.

Tair dipton gymmeriad à sydd: dipton dalgronleddyv, a dipton bengamleddyv, a dipton dawddleddyv.

Tair rhyvedd ddipton à sydd: dipton ddiaith, a dipton losgyrnawg, a dipton wîb.

Tair dipton odidawg ganiad à sydd: dipton dalgronleddyv, a dipton losgyrnawg, a dipton gadarnleddyv.

Tair sillav gadarnleddyv ganiad à sydd tromleddyv, byddarleddyv, a chadarnleddyv

Tair sillav ysgavn ganiad à sydd: sillav dalgron, a sillav bengamleddyv, a sillav vud.

Tair dipton à sydd ni cheir proest yn eu herbyn: dipton dawddleddyv, a dipton dalgron, a dipton wîb.

Tri bai gwahanredawl à sydd ar gerdd: nid amgen, ar broest englyn, ac unodl trwm ac ysgawn, a lleddyv a thalgron.

Tri bai gwahanredawl à sydd ar englyn unodl: carn-ymorddiwes, a thîn âb, a drwg osodiad ar odlau.

Tri pheth à gydvreiniant ymadrawdd, ac ei teilyngant: ehudrwydd parabl, a chywreindeb synwyr, ac anianawl ddeall y datganiad.

Tri pheth à anghywiriant ymadrawdd: pwl ddatganiad, ac anghywirdeb synwyr, ac anystyriawl ddeall y parablwr.

Tri rhydd cerdd davawd à sydd: clerwriaeth, teuluwriaeth, prydyddiaeth.

Tri pheth à berthynant ar glerwr: gcganu, ac ymbil, a gwarthruddiaw.

Tri pheth a berthynant ar deuluwriaeth: haelioni, a digrivwch, ac erbyniad â da heb ymbil am danynt.

Tri pheth à berthynant ar brydydd: clodvori, a digrivâu, a gwrthwynebu gogangerdd.

Tri un peu cerdd à sydd: prydu, a chanu englynion, a chyvrwyddyd.

Tri pheth à anurddant gerdd: ei datganu mewn anamser, heb ei govyn; a chanu yn anmherthynas, nid amgen, i'r neb nas dylai; ac eisieu cerddwr i'w barnu.

Tri pheth à urddant gerdd: ehudrwydd ac eovnder parabl, ac ethrylithr y datgeiniad, ac awdurdawd y prydydd.

Tri pheth à hofant gerdd: dyvnder synwyr ac ystyr, odidawg ddychymyg, ac awdurdawd y prydydd

Tri pheth a anhofant gerdd: brasder synwyr, a sathredig ddychymyg, ac anurddas y prydydd

Tri pheth à gywreiniant ar gerdd gywraint: cyvansoddiad ymadroddion, ac amlder Gymraeg wrth ei chyvansoddi, a dychymygwr y gerddwriaeth wrth gyvansoddi y gerdd.

Tri pheth à anghywiriant gerdd: eisiau modd i gyvansoddi ymadroddion, ac anamalder Gymraeg, ac angherddwriaeth.

Tri pheth à amlâant mewn cerddwr: hen gerdd, a barddoniaath, ac historïau.

Tri pheth à bylant awen cerddwr: anghyvrwyddyd, angherddwriaeth, ac anghanmawl.

Tri pheth à lygrant o gwbyl awen cerddwr: tra meddwdawd, a thra godineb, ac ysgymmyndawd.

Tri pheth a ddyly eu gochel: llynau, a phuteiniaw, a chlerwriaeth.

Tri pheth à ddyly cerddwr eu canmawl: haelioni, a digrivwch, a cherddwriaeth.

Tri pheth à vawrâa gerddwr: gwisgodd, a chydnabod, a chanmawl.

Tri pheth à ddistrywiant gerddwr: noethi, ac anghydnabod, ac anghanmawl.

Tri pheth ni chynghan mewn cerdd: anwadalwch, ac ysmalâwch, ac angherddwriaeth.

Tri pheth y cae cerdd arno heb vyned yn eu herbyn: hên gerdd yr hên brydyddion, a dychymygawl awdurdawd y prydyddion newydd, a chelvyddyd y gerddwriaeth.

Tri rhyw broest à sydd: proest dalgron, proest gadwynawg, a lleddyv broest.

Tri rhyw unodl à sydd: unodl union, unodl cyrch, ac unodl crwca.

Tri pheth ni ddyly cerddwr eu credu: gogan clerwr lle prydo prydydd, a chanu angherdd o brydydd canmoledig ag awdurdawd iddo, a dywedyd celwydd yn ystig a gogan yn ddiachaws.

Tri pheth à lawenâa cerddwr: ei berchi, a chanmawl ei gerdd, a rhoddion gwyr da.

Tri pheth à goddant gerddwr ac ei tristâ: ei anmherchi, ac anghanmawl ei gerdd, a'i nacâu.

Tri pheth à warthrudd cerddwr: ei anghredu, ei anghanmawl, a cham varn.

Tri anhebgor cerdd à sydd: eglurder parabl, ac eonder, a cherddwriaeth.

Tri pheth à ddyly cerddwr eu haddev: cyvrinach, a chywilydd cydymddaith, a chelwydd argyweddus.

Tri pheth ni ddyly cerddwr eu celu: gwirionedd diargywedd, a barnu ar gerddwriaeth, a chlod dyledus y dynion da.

Tri pheth à waharddir i gerddwr: camvarnu ar gerddwriaeth, a goganu heb ei haeddu, a chroesangerdd.

Tri pheth à ganmolant gerddwr: haelder, a digrivwch mawl, a devodau da.

Tri pheth à wradwyddant gerddwr: cybyddiaeth, a devodau drwg, a thra chynnildeb.

Tri pheth à barant garu cerddwr: cyvundeb, a haelioni, a rhywiogrwydd.

Ac velly tervyna.

Y PEDAIR CAMP AR UGAIN,

A'R ACHOS Y GWNAETHBWYD HWYNT.

Amryveilion lawenydd ydoedd gynt yn mhl'th cenedl y Cymru pan oeddynt â Phrydeiniaeth naturiawl davodau ei ganedig wlâd yn ddigymysg ganthynt, a breninawl allu ganthynt, a llywodraeth teyrnasoedd ganthynt. Ac velly y dengys eu tri arbenig ragoriaeth arver, nid amgen, bywiogrwydd, nerth, a synwyr, yr henwed yn ddewisawl ac y graddwyd pedair camp ar ugain yn amser yr amherawdyr Arthur, ac á vuant arveredig yn hir o amser, oni ddifygioedd meddiant tywysogion Cymru; ac yna gwedi hyny val ciwdawd heb lawenydd, ni vawr arverwyd o'r campau hyny, onid aethant dros gôv haiachen, val nad oes nemmor o ddyn yn Nghymru à wyr henwau y pedair camp ar ugain. chwaethach eu gwneuthur; a phan glvwir eu henwi ni wyddys beth yw llawer o naddynt; ac am eu bod mor ddyeithyr â hyny á wnaeth i mi ysgrifenu yn y llyvyr yman, am nad adwaen le mor addas i veddiannu cadwedigawl gofadwriaeth yr hen Brydeiniaid, ac i'ch meddiant chwi, ac á dybiais drwy ddarllen amryveilion bethau y cadwech yn well yn eich côv ych ganedig naturiawl wlâd, yr hon ych dyco y Goruchav Dduw chwi iddi wrth vodd eich calon eich hun. *Amen.*

HENWAU Y PEDAIR CAMP AR UGAIN.

Cryvder.
Ymavael.
Rhedeg.
Neidiaw.
Noviaw.
Marchogaeth.
Saethu.
Chwareu cledd a bwcled.
Chwareu â chledd deuddwrn.
Cwareu â fon ddwybig.
Hely â milgi.
Hely pysg.
Hely adar.
Barddoniaeth.
Canu telyn.
Darllen Cymraeg.
Canu cywydd gan dant.
Canu cywydd pedwar ac acenu.
Portreiaw.

Herodiaeth.
Chwareu gwyddbwyll.
Chwareu tawlbwrdd.
Chwareu fristial.
A chyweiriaw telyn.

DOSBARTH Y CAMPAU UCHOD.

O'r pedair camp ar ugain, deg gwrolgamp y sydd, nid amgen, o hyny chwech o rym corf, val hyn:
Cryvder.
Rhedeg.
Neidiaw.
Noviaw.
Ymavael.
Marchogaeth.
A phedwar o rym arvau, nid amgen:
Saethu.
Chwareu â chledd deuddwrn.
Chwareu â chledd a bwcled.
Chwareu â fôn ddwybig.
A deg mabolgamp y sydd, ac o hyny tair helwriaeth, nid amgen;
Hela â milgi.
Hela pysg.
Hely ederyn.

Saith teuluaidd o'r mabolgampau sydd, sev ynt;
Barddoniaeth.
Canu telyn.
Darllen Cymraeg.
Canu cywydd gan dant.
Canu cywydd pedwar ac acenu.
Portreiaw.
Herodiaeth.
Pedair o'r campau sydd val hyn;
Chwareu gwyddbwyll.
Chwareu tawlbwrdd.
Chwareu fristial.
Cyweiriaw telyn.
O'r pedair camp ar ugain uchod pedair sydd benav, ac á elwir tadogion gampau, nid amgen;
Rhedeg.
Neidiaw.
Ymavaelyd.
Noviaw.
Yr achos y gelwir hwynt yn bènav, ac yn dadogion, am nad rhaid devnydd yn y byd i wneuthur yr un o honynt, eithyr val y gwnaed dyn o'r pedwar devnydd sydd yn mhob dyn, ac wele val dyna yr achos.

Y NAW HELWRIAETH.

O'r naw Helwriaeth, tair helva gyfredin sydd; 1. Carw. 2. Haid wenyn. 3. Gleisiad: A thair helva gyvarthva: 1. Arth. 2. Dringedydd. 3. A cheiliog coed: A thair helva ddolev, 1. Llwynog. 2. Ysgyvarnog. 3. Iwrch. Y Carw á ddywedir ei vod yn un o'r tair helva gyfredin; yn gyntav, am ei vod yn wychav ac yn wrolav anivel y mae helwriaeth arno â bytheiaid ac â milgwn; yn ail, am ei vod yn rhanog rhwng pawb à ddêl atto wedi ei lâdd, cyn tynu y croen oddiamdano: oblegid, os bydd gŵr ar ei daith yn dyvod heibio yr amser hwnw, ev á geif ran o hono wrth gyvraith, cystal a'r neb a'i lladdo. Haid wenyn sy helva gyfredin, oblegid pwy bynag a'i cafo ar ei dir ei hun, neu ar dir arall, y mae yn rhanog pawb o honi ar à ddêl atti cyn rhoi o hono wystl, sev yw hyny rhoi nôd wrthi i ddangos mai eve a'i cavas gyntav; ac onis gwna, pawb à ddelo yno á geif ran o honi, ond bod iiii^{d} yn myned i berchenog y tir. Gleisiad a elwir yn helva gyfredin, oblegid pan vydder yn ei hely â rhwyd, neu â thryver, neu mewn modd arall, pwy bynag a ddêl atto cyn ei ranu, y mae iddo ran o hono cystal a'r neb a'i dalio, os bydd mewn dŵr cyfredin.

Yr Arth sy helva gyvarthva, am ei bod yn gig hely o'r penav, ac am na bydd vawr ymlid arni, am nas gall gerdded ond yn arav, ac ni bydd ond ei baeddu, a'i chyvarth, a'i llâdd.

Dringedydd yw pob peth à ddringo i vrig pren i'w amddifyn ei hun. Ac ni ddyly heliwr ddywedyd Bele, neu Gâth goed, neu Wiwair neu Fwlbart, ond eu galw dringedydd llwyd, dringedydd du, dringedydd côch. Ac am nas gall dringedydd ddiainc yn mhell, ond dringo i'r pren, ac yno ei vaeddu a'i gyvarth á wneir.

Ceiliog coed á elwir yn helva gyvarthva, oblegid pan ddêl y bytheiaid ar ei hynt ev, ei ymlid á wnânt oni gymmero bren, ac yno ei gyvarth a'i vaeddu á wneir.

Y Cadnaw sydd helva ddolev, oblegid er maint vo'r gwaeddi a'r canu cyrn ar ei ôl, ev á gynnal ei helynt oni vlino.

Ysgyvarnog sydd helva ddolev am ei bod yn cadw ei helynt er maint vo'r ymlid arni.

Yr Iwrch á elwir yn helva ddolev oblegid yr un achos.

Penav cig hely yw Carw, ac Ysgyvarnog, a Baedd gwŷllt, ac Arth.

Os gollyngir milgwn i garw, neu anivel arall, a'i ymlid o'r milgwn dros vryn, allan o olwg, a'i lâdd, y milgi blaenav yn y golwg diweddav biau'r croen. Ond ni cheif miliast groen er ei ennill, oni bydd hi yn dorog o vilgi à ennilloedd groen, ac yna hi a'i ceif.

Am Ysgyfarnog, pa beth bynag a'i lladdo, y ci neu'r peth arall a'i coto o'i gwâl a'i piau os ei cheisio y byddir i'w hymlid.

Y naw helwriaeth á ddyly bawb eu gwybod ar à ddyco gorn. Ac oni veidr roi atteb amdanynt, ev á gyll ei gorn. Ac os daw neb i hely a'i gynllyvan amdano, oni veidr roi atteb am y naw helwriaeth, ev á gyll ei gynllyvan. Ond ev á all vod a'i gynllyvan am ei vraich yn ddiddial.

Ni all neb illwng na milgi na miliast i un anivel pan vo'r bytheiaid yn ei ymlid, oni bydd iddo yntau vytheiaid yn ei ymlid; ac oni bydd, ve all y neb à vo yn canlyn y bytheiaid dori llinyn gar ei vilgi, os eve a'i gillwng.

Nid rhŷdd i neb saethu anivel y bo helwriaeth arno, pan vo yn ei esmwythdra, tan boen colli ei vwa a'i saeth i arglwydd y tir. Ond eve á geif ei saethu, a'i lâdd, os gall, pan vo'r huaid ar ei ôl; ond na cheif saethu yn mysg y cŵn.

Os â neb i hely, a gillwng ar anivel, a chyvarvod o gŵn segur ag ev, a'i lâdd, y cŵn cyntav bieuvydd, onid cŵn y brenin vydd y rhai segur.

Yr anivel à helier vydd ar arddelw yr heliwr cyntav, hyd oni ymchwelo ei wyneb parth a'i gartrev, a'i gevn ar yr hely. Ond o bydd ei gŵn ev yn hely, ac yntau wedi ymadael â'i gwn, ni ddyly ev ddim cyd lladdo y cŵn segur ev, ond perchènog y cŵn segur bieuvydd.

Velly yr oedd y gyvraith hely gynt.

LLYMA

LYVYR TRIODD BEIRDD YNYS PRYDAIN,

A GASGLWYD O AMRYVEILION HEN LYVRAU YSGRIVEN,

GAN IOLO MORGANWG, B.B.D. 1796.

Llyma Lyvyr Triodd Beirdd Ynys Prydain, à gasglwyd genyv vi, THOMAS AP IEVAN, *o Dre Bryn, yn Morganwg,* 1680.

Y CYMRO CAREDIG,

DYMA Lyvyr o hên Driodd; llawer o arver á vu gynt ar y cyvryw bethau, ac ydd wyv yn covio imi weled mewn tŷ hên garwr imi, pan oeddwn yn vachgen, amryw gopïau o Driodd, wedi eu dodi y'nglud ar welydd ei neuadd. Peth cyfredin oedd hyn, meddai ev, yn yr hên amserocdd; ni deallwn wrth hyn vod ein hên deidiau yn caru doethineb yn well o lawer no'u heppil. Pwy ynawr á ry'nglud ar wàl ei barth unpeth à vo nag yn dysgu, nag yn arwyddo doethineb? neb ar à wn i. Gweled amryw bethau o'r vath hyn, yn enwedig Triodd Llelo Llawdrwm o'r Coettŷ, ar wal fenestr neuadd vy hên garwr, á dynoedd vy serch i gyntav at ddarllen hên iaith vy ngwlâd, a chwilio ei hen ysgrivèniadau; ac ni bu vychan y dyddanwch à gevais yn yr hên lyvrau Cymreig. Yr wyv yn credu hyn yn vy nghalon, pe bai rhai pethau o'r natur hyn mewn print i'w dodi ar welydd mewn tai, y tynai hyny sylw llawer dyn ieuanc at bethau gwell nog y sydd yn awr vynychav yn cael eu gosod o'u blaen; ac nid cywilydd y byddai i ambell hên ddyn pengaled, a phengaled y gwelav i pob hên ddynion, ystyried ei bod hi'n llawnoed bellach iddo ve neu hithau ymarver ychydig â doethineb: Medd hên Drïodd Cerdd—

"Tri Thrïodd à vuant gynt ar gov a gwybod yn Nghymru, Trïodd Cerdd, Trïodd Cyvarwyddyd, a Thrïodd Doethineb.

Nev i eneidiau yr hên ddynion da gynt à vuant yn dwyn ar gov a gwybod y cyvryw bethau; ond os o hyny y bu nêv iddynt, y mae arnav ovn mawr ni welant vyth vawr o'u heppil yn y lle y mae nhwy.—Bydd wych, bydd iach, a bydd ddoeth! a Duw vo gyda thi, a'i nev i'th enaid!

THOMAS AB IVAN.

CYNNWYSIAD Y LLYVYR HWN.

1. 2. 3. 4. 5. TRIODD DOETHINEB.
6. TRIODD LLELO LLAWDRWM.
7. TRIODD Y GWRAGEDD.
8. TRIODD Y GWRAGEDD PRIOD.
9. TRIODD Y CYBYDD.
10. TRIODD MAB Y CRINWAS.
11. TRIODD Y MEDDWYN.
12. TRIODD Y CYMRO.
13. TRIODD Y SAIS.
14. TRIODD GWILYM HIR SAER.
15. —— EREILL A'U HANES.
16. TRIODD GWIW EU GWYBOD A'U COVIO, ER ADDYSG DOETHINEB.

1. Triodd doethineb, o Lyvyr Mr. Lewys o Ben llin, yn Morganwg; un o lyvrau Tre bryn.

1. Tair sail doethineb y sydd: ystyriaeth, gwybodau, ac ymgais.

2. Tri pheth à ddangosant ddoethineb lle y bytho: llavar, camp, ac anwydau.

3. Tri anhebgor doethineb: deall cadarn, awen lathraidd, a chydwybod lân.

4. Tri pheth à welir lle bo doethineb: trevn brydverth ar bob travod, cyviawnder yn mhob ymgais, a thangnev yn mhob ymarweddiad.

5. Tri pheth hawdd vydd adnabod dyn wrthynt: wrth à gâr, wrth a'i câr, ac wrth nas câr y naill a'r llall.

6. Tri pheth a ddangosant beth yw dyn: ei ddyddanwch, ei gâs, ac ni welir ar ymdawr gantho.

7. Tri theyrnedd gwybodau: gwellâu moes a devawd, diwallu pob eisiwed, a dyddanu meddwl.

8. Tair privddyledswydd gŵr: dwyn plant i vynydd ar ddysg ac yn ddeddvawl, dangos daioni ar ei weithredoedd, a dangos gwybodaeth i'r diwybod.

9. Tri pheth à wna gwr deddvawl: ynnill cariad a pharch ei genedl a'i wlâd, ynnill boddlondeb a llawenydd iddei hunan, a gadael côv anrhydeddus ar ei ôl.

10. Tri chyveillion goreu dyn, lle byddont dda, a gwaethav lle y byddont ddrwg: ei serch, ei ddeall, a'i gydwybod.

11. Tair privddyledswydd y sydd: dwyvawl, gwladawl, a theuluawl.

12. Tri pheth à gadwant drevn ar bob peth: nerth, cosp, a gobrwy.

13. Tri pheth cyntav à ddylid eu hystyried y'mhob gorchwyl a thravod: y lle, y pryd, a'r dyben.

14. Tri pheth yn ail à ddylid eu hystyried cyn ydd eler y'nghylch un gorchwyl ba bynag ei ryw: trevn, moddion, a galluoldeb.

15. Tri pheth anhebgor i bob gorchwyl: modd, medr, a myn.

16. Tri pheth yn gyvun a'u gilydd à lwyr amddifynant, ac nis gellir eu gortrechu: cyviawnder, deall, a chariad.

17. Tri pheth à geir o iawn ddeall ar dravodau bywyd: golud, nerth, ac anrhydedd.

18. Tri pheth à ddangosant arlywodraeth: y crŷv yn gormesu'r gwan, y celwydd yn drech no'r gwir, a gloddest yn drech nog arbedoldeb.

19. Tri pheth à amddifynant wladoldeb: cariad, ovn, ac ynnill.

20. Tri pheth à ddyvethant wladoldeb: creulondeb yn lle cosp, diymdawr o bwyll yn lle trugaredd, a gwastraf yn lle gwobrwyon.

21. Tri pheth y dylai bob doeth ymarver ag wynt yn ei dŷ, a'i deulu, a'i gymmodogaeth: tangnevoldeb, ynadoldeb, a thadoldeb; sev o'r deddvau hyn y bydd heddwch, a chariad, a chynghorion doethion a daionus; a donioldeb haelionus a govalus bob un tuag at y lleill; ac o hyny cymmodogaeth dda; ac heb hyny nis gellir na bydoldeb, na chydvodoldeb, val y bo iawn a daionus herwydd dymunoldeb doethion.

22. Tri pheth anhebgor ar bob pencynghor: bod yn ystyrgar, yn iawngar, ac yn ystrywgar i chwilio i maes à vo twyll ar wirionedd.

23. Tri goreuon menwydoldeb: iechyd, boddlondeb, a heddwch.

24. Tri syrth y sydd ar bob travod: agweddoldeb, cylchiadoldeb, a damweinioldeb.

25. Tri chyflwr y sydd ar bob peth: ynniawl, cylchiadawl, a galledigawl.

26. Tri pheth nis gellir neb yn ddedwydd hebddynt, pei bei onid ev ei hun yn byw ac yn bod: iechyd, caredigrwydd, a gwybodau.

27. Wrth dri pheth y dylid o iawn ystyried pob peth: ei ansawdd, ei le, a'i amser.

28. Tri pheth y dylid eu hystyried yn bybyrbwyll deirgwaith bob dydd: deddvau cariad haelionus, dyled teulueiddrwydd, a govynion Duw; a myned yn ôl y tri govynion dyled hyn.

29. Tri drwg y sydd ac nis gellir eu cynddrwg: murn cynllwyn, godineb, a meddwdawd; canys màmau ydynt i bob drwg arall.

30. Tair elusen y sydd yn bènav ar bob elusen: nawdd, ymborth, a chynghor da.

31. Tri arwyddion à welir ar bob dyn, ac wrth y rhai hyny ei adnabod: ei ddivyrwch, ei gâs, a'i gyveillion.

32. Tair gormes gwlâd: anymgais, cybydddawd, a glythineb.

33. Tair gormes teulu: gwr anwybodus, gwraig anynad, a phlant anuvydd.

34. Tair gormes teyrnedd: anmrawd, anrhaith, ac anymdawr.

35. Tair gormes ymgais: difyg oferyndawd, difyg gwybodaeth, a difyg tâl a gobrwy.

36. Tair gormes gwybodaeth: celvyddyd annoeth, dosparth anghywir, ac iaith aneglur; ac ni ddylid ymarver ag un o naddynt.

37. Tair gormes celvyddyd: iaith gyving aneglur, dosparth annhrevnus, ac avreidioldeb.

38. Tair gormes awen: difyg addysg a gwybodau, eisiwed corforawl, ac anghydnabyddiaeth.

39. Tair gormes doethineb: cymmodawg geuawg diriaid, arglwydd cyvoeth anghyviawn, a gwraig anynad vlysig.

40. Tair gormes cymmodogaeth: treiglaw chwedlau, tavarndŷ annosparthus, a chybydd anghawr.

41. Tri pheth nis dylid eu govyn: ced ac elusen gan gybydd anghawr, cynghor gan annoeth, a nawdd gan anwr.

42. Tri drygddyn y sydd ac nis gellir eu gwaeth: cybydd, enllibwr, a gwenieithwr.

43. Tri rhagoriaeth daioni: addvwynder, daioni, a phwyllgarwch.

44. Tri pheth à ddielir ag anmenwedigrwydd: cribddail, anudon, a chreulondeb.

45. Tri pheth à ddylid eu frwynaw yn gadarn: llaw, tavawd, a blŷs.

46. Tri chyflawnder doethineb: serchogrwydd, pwyll, a chywirdeb.

47. Tri arwyddion anwybodaeth: ymddwyn anvoesus, iaith anghyviawn, a holi dirgelion y cymmodogion.

48. Tri chyttundeb à wnânt wr yn gyvoethawg: cyttundeb â gair Duw, cyttundeb â'i wraig a'i deulu, a chyttundeb a'i gymmodogion.

49. Tri pheth y sydd, ac hebddynt nis gellir à wnânt wladwr: bonedd, celvyddyd, a daionusder.

50. Tri pheth nis dylid eu credu: gair gwr o bell drosto ei hunan, addewid mâb i verch with gael y llaw uchav arni, ac à ddyweto ddiriaid am arall.

51. Tair arwydd tangnevgarwch ar ddyn: trugaredd at ei ysgrubl, caru cartrev, a chanu gyda ei orchwyl.

52. Tair arwydd bonedd o gwnad ar ddŷn: haelioni, cyvarch hawddgar, a gwybodau deddvolion.

53. Tri arwyddion creulonder: tarvu anivel yn ddiraid, briwa coed a llysiau yn ddiachos, a bod yn daer am gymmwynas.

54. Tri arwyddion trugaredd: syniadu cwyn plentyn, troi oddiar fordd anivel gorweddawg, ac ymddwyn serchawg tuag at ddierth ac estron.

55. Tri arwyddion anian ddrwg mewn dyn: rhoi cynghor cyn a'i ceisier gantho, à wnelo na bo rhaid nag achos iddo, ac à sôn am à welo ar ei gymmodogion.

56. Tri pheth à ddiweddant yn ddrwg vynychav, am hyny goreu yw eu gadael: cyveddach, ymryson, a chwilio helynt dŷn arall.

57. Am dri pheth ni cherir neb gan ei gallach: caswir heb achos cyviawn drosto, cynghor ni ovyner, ac athrodion.

58. (Gwel riv 42). Tri dyn y sŷdd ac nis gellir cythraul eu gwaeth: enllibwr, rhagrithwr, a chybydd.

59. Tri pheth à ddylid eu diolch: gwahawdd, rhybudd, ac annerch.

60. Tri thywysogaeth serchog: digrivwch, haelioni, a syberwyd.

61. Tair gormes doethineb: meddwdawd, godineb, a dryganian.

62. Tair sail doethineb: ieuenctid mabawl i ddysgu, côv awengar i gadw dysg, a synwyr oedran i ddatganu.

63. Tri gwreiddyn doethineb: gwirionedd, dysg, a chydwybod.

64. Tri pheth à gadarnäa gynnevawd: addvwynder, awdurdawd, o doethineb.

65 Tri pheth anhardd ar bob rhyw o ddŷn, beth bynag, pa le bynag, a phryd bynag y bo: dioglydrwydd, surllydrwydd, ac annysg herwydd ei râdd.

66. Tri pheth hardd ar ddŷn y'mhob lle, ac ar bob amser, ac y'mhob gradd a chyvlwr, ac à ennillant barch ac anrhydedd iddo: caredigrwydd, diwydrwydd, a gwybodau moliannus.

67. Tri argae doethineb: gwirionedd, cariad, a phwyll.

68. Tri pheth à gau yn erbyn doethineb: celwydd, llid, a rhyodres.

69. Tri argae awen: gwybodau, haelioni, a diwydrwydd.

70. Tri pheth à gau yn erbyn awen: diawgswrth o gamp, cybydddawd, ac anwybodaeth.

71. Tri chyvrwym gwybodaeth: llythyr, dosparth gyviawn, a lles gwlâd a chenedl.

72. Tri ymglywed doeth a deddvol: ymglywed â'r gwirionedd, ymglywed â'i serch, ac ymglywed â'i nerth.

73. Tri pheth à lanwant wagder: dadwrdd diddysg y'mhen gwâg, crochwerthin diystyr y'nghalon wâg, a llaid budreddus mewn fynon wâg.

74. Tri pheth à geif dŷn trugarog: cariad ei gymmodogion, parch doethion, a thrugaredd Duw.

75. Tri pheth à geif gwr deddvol: digonedd bydawl, heddwch cydwybod, a bodd Duw.

76. Tri pheth à geir o hir ddilyn drwg: cosp cyvraith ei wlâd, ei gasâu gan bawb, a digovaint Duw.

77. Tri dyn y mae Duw yn eu caru: cadarn cyviawn, dewr trugarawg, a haol diedivar.

78. Tri dyn à vyddant noturiol i dri pheth: melinydd i ladrata, eglwyswr i ragrithaw, a chlerwr i gelwyddu.

79 Tri ynnill cybydd: poen yn casglu, goval yn cadw, a thristwch yn colli.

80. Tri pheth à geif dyn dyoddevus: cariad a'i adnapo, fyniant yn ei dravodion, a rhâd Duw ar a wnelo.

81. Tri pheth à geif dedwydd: cariad pob doeth a deddvol, bywyd heddychlawn, a llawenydd nevol.

82. Tri pheth à geif diriaid: ei gasau gan a'i adnapo, byw mewn ovn, a chosb yn y byd ar ol hwn.

83. Tair dedwyddgamp gwr: bod yn llawen yn ei dŷ, yn ddiwyd yn ei orchwyl, ac yn ddyddiwr rhwng ei gymmodogion.

84. Tri pheth sy'n dyvethu'r byd: brenin fol heb gynghor, barnwr heb gyviawnder, a gwas heb uvydddawd.

85. Tri pheth a geir o godi yn vore: iechyd corf, ysgawnder deall, a chyvoeth bydol.

86. Tri menwydigion teulu: pendawd govalus, bugail cywir, a negeswr doeth brysgar.

87. Tri anfawd teulu: gorichwiliwr dioval, bugail anghywir, a chènad annoeth na ddelo yn ôl o'i neges.

88. Tri glwth byd: môr, dinas, ac arglwydd.

89. Tri pheth nid iawn ymddiried iddynt: iechyd henaint, hinon gauav, a diniweidrwydd arglwydd.

90. Tri pheth nid callach credu y naill no'r lleill: llw gordderchwr, breuddwyd gwrâch, a chwedl heb warant.

91. Tri pheth anhebgor i ddoeth: gwrandaw, gweled, a thewi.

92. Tri pheth ar ddyn à bair hofi ei gyveillach: syberwyd, pwyll, a daioni.

93. Tri pheth byr eu parâad: rhyveddoldeb, gwagogoniant, a thegwch ienengctid.

94. Tri dyn à ddywedant y gwir: plentyn, fôl, a dioval.

95. Tri pheth di glwyv di glevyd à vawr gystuddiant a'u harwain: cariad, cas, a galar.

96. Tri pheth à frwythlonant ddoethineb: gwybod am à vu, ystyr am y sydd, o phryderu am o ddaw.

97. Tri pheth à arwain i dylodi: gloddest, diogi, a mercheta.

98. Tri pheth ni wna ddyn doeth: myned ar hyd vôr lle gellir tir, gellwng i maes ei gyvrinach, a gellwng dydd i vyned heibio heb wneuthur daioni.

99. Tri pheth à bair cywreinrwydd: galluogrwydd, awen ewyllysgar, a gwybodaeth o gelvyddgarwch.

100. Tri pheth cythreulig ar ddyn: cenvigen, trachwant, a balchder.

101. Tri pheth à barant hawddvyd iechyd corf, meddiant ddiangen, a chydwybod lân.

102. Tri pheth à geir o ymgynneddvu yn dda: parch ac anrhydedd y bŷd, boddlondeb meddwl a chydwybod, a derbyn da gan Dduw.

103. Tri pheth à bair i wr glôd a chymmeriad caredig: dywedyd yn dêg yn wyneb, rhoi gair da y'nghevn, a fyddlondeb cyveillach.

104. Tri pheth annivyr eu gweled: cyvoethog hael yn myned yn dlawd, deddwydd yn myned yn ddiriaid, a chwerthin am ben y dŷn doeth ymbwyllgar.

105. Tri à vyddant oreu'r byd arnynt lle nas adnaper: celwyddogion, bradon, a lladron.

106. Tri pheth fôl eu gwneuthur: gweiddi hoi ô! cyn ynnill y gamp, cyvriv a bwrw ar ddydd cyn y delo, a barnu cyn gweled y diwedd.

107. Tri pheth à hir gynnail ddirieidi ar ddyn: meddwdawd, godineb, ac ymladdgarwch.

108. Tri pheth ni wna ddoeth: dysgwyl am analladwy, tristau am anadveradwy, ac ovni anocheladwy.

109. Tri pheth balch: ceiliog ar ei domen ei hun, colwyn ar arfed ei weinyddes, a chrachswyddwr yn ei ansawdd.

110. Tair camp ganmawledig: haelioni Cymro, syberwyd Franc, a hyder Sais.

111. Tri rhywiogrwydd meddwl à bair syberwyd: tymmer goddevus, parodrwydd i roddi, a llawen o gynneddv.

112. Tri pheth ni wrandawant ar gynghor ba cystal bynag y bo: brys, dig, a thrachwant.

113. Tri pheth iawn i wr ymladd yn eu plaid: ei wlad, ei gâr, a'i vywyd ei hunan.

114. Tri anhebgor priodas, er gwynvydigrwydd o honi: cyttundeb diddig, cariad cydgalon, a chyvawch y ddau mewn daioni.

115. Tri pheth hardd eu gweled: cyttundeb rhwng brodyr, cymmwynasgarwch rhwng cymmodogion, a chariad fyddlon rhwng gwr a gwraig.

116. Tri pheth, lle bo a'u percheno, nid rhaid mwy: tir rhywiog da ei drinaeth, gwraig dda ei champau, a deall da ynddo ei hunan.

117. Tair privgamp rhagrithwr: tystiolaethu yn wrthwyneb i air Duw, cyhuddaw yn anghyviawn, a barnu heb awdurdawd.

118. Tri pheth anwadal dros ben: cymmeriad gwŷr mawr neu arlwyddi, cariad merch, a llygedyn o haul mis Ionawr.

119. Tri dyn nid call rhygoelio i'r naill no'r lleill o honynt: hŷn no'i gymmydogion, rhodiadur o bell, a darllenwr llyvrau anghyviaith.[1]

120. Tri pheth a gydgerddant â phob daioni à wneler: ynnill bydawl, anrhydedd a pharch gan ddoethion, a llawenydd cydwybod.

121. Tri pheth nid call ymyryd â nhwy: llywodraeth tŷ arall, cynghori pendevigion goludawg, a chwilio dirgelion Duw.

122. Tri pheth à ddiogelant i wr wasanaeth o gywirdeb: cariad a'i gwasanaetho, a'r modd a'i diogeler yw cariad am gariad; ynnill a budd, ac o'i roddi y diogelir cywir o wasanaeth; a chymmyred, à ddengys gymmeradwy ar à wneler yn wasanaeth, ac o'i ddodi y diogelir cywir ar wasanaeth.

123. Tair camp canmoladwy ar verch: tawedocrwydd, lledneisrwydd, a diweirdeb.

124. Tri dyn gwynvydig pei gwelent eu bod velly: gwr diangen, gwr di ddyled, a gwr di wraig.

125. Tri amryson à ddygwydd ar varwolaeth traws cadarn: ei gyvneseiviaid am ei olud bydawl, pryvaid am ei gorf abwyawg, a chythreuliaid am ei enaid anvarwol.

126. Tri bendith à ddygant vendith Duw ar a'u cafo: bendith tad a mam, bendith y tlawd, a bendith bardd llinolingerdd.

127. Tri pheth anhawdd eu cuddio: menyn mewn cawl pŷs, mynawyd mewn cwd, a mursen mewn cell.

128. Tri rhyvel yn heddwch, ac nid ebrwydd y darvyddant: tir drwg, arglwydd drwg, a gwraig ddrwg.

129. Tri gair cynghor Teilo Sant: gwybydd dy allu, gwybydd dy wybodaeth, a gwybydd dy amser; ac o wybod y tri hyn cais ymwybod â'r deddvau y sydd arnad, y gan Dduw, a chan ddŷn, a chan ddosparthau doethineb.

130. Tri pheth à ddylid eu hystyried cyn gwedyd: y modd, y man, a'r amser.

131. Tri pheth y sydd ac nid hawdd dwyn dyn oddiarnynt: ei varn, ei awen, a'i genedl.

132. Tri phen byd: dedwydd, celvydd, a diwyd.

133. Tri pheth à wnant wr yn vlaenor ar ei genedl a'i gymmodogion: golud, doethineb, a haelioni.

134. Tri chael mwyav yn y byd: gwybodau doethineb, cydwybod lân, a chariad Duw.

[1] Neu. ac *a vo vaen dros iaen.* Llyvyr arall.

135. Tri cholled, a rhagddynt nid colled dim arall: colli pwyll ac ystyr, colli cydwybod lân, a cholli cariad Duw.

136. Tri pheth anhawdd eu cafael: tân oer, dwr sych, a thrachwantus deddvol.

137. Tri pheth rhydd i bob dyn: ei vyvyrdawd, ei varn, a'i lavar; achos heb hyny nis gellir na gwellâad na dangos ar wybodau daionus.

138. Tri diogelwch dŷn: iechyd, rhyddyd, a chalon lân.

139. Tri pheth sy'n gyru'r byd ar gyveiliorn: addewidion arglwyddi, gwisgodd brawd llwyd, a syberwyd rhieinverch.

140. Tri ovn a waethygant galon dyn: ovni gwedyd y gwîr, ovni tylodi, ac ovni diawl.

141. Tri ovn à wellâant galon dŷn: ovni credu pob peth à glywer, ovni da y Byd, ac OVNI DUW.

Ac velly tervyna hyn o Driodd.

2. LLYMA DRIODD DOETHINEB EREILL O'R UN LLYVYR.

1. Tair cainc y sydd ar ddoethineb: doethineb parth ag at Dduw, doethineb parth ag at bob cyd-ddyn, a doethineb parth ag at ddyn ei hunan.

2. Tri adnabyddiaeth à barant ddoethineb: adnabod Duw, adnabod calon dyn, ac adnabod calon ei hunan.

3. Tri anhebgor doethineb: awen, gwybodau, a dosparth.

4. Tri chadernyd doethineb: iawn, prydverth, a galledig.

5. Tri pheth à geir o ddoethineb: da'r byd, dyddanwch meddwl, a chariad Duw.

6. Mewn tri pheth ydd ymddengys doethineb: awen, gwybodau, ac ymddwyn (ymarwedd).

7. Tair ymgais doethineb: deall anian o awen, gweled gwirionedd o'i ymbwyllaw, ac ymarver â chariad a thangnevedd.

8. Tri pheth ar ddyn a'i gwnant yn ddoeth ac yn dda: cynneddvau, gwybodau, a gallüau.

9. Tri pheth nis gellir doethineb lle byddont: trachwant, gloddest, a balchder.

10. Tri pheth nis gellir doethineb hebddynt: haelioni, dirwest, a rhadverthwch.

11. Tri nôd cywirddyn: genau tawedog, llygad digildrem, a gwynebpryd divraw; sev a'r tri yn un.

12. Tri nôd lleidyr: tavawd holgar, llygad chwilgar, a gwyneb brawychus gocheldrem; sev a'r tri yn un.

13. Tri chynneiliad doethineb: calon yn ymsynwyraw, iaith i ddadgan, a chôv i gadw.

14. Tair fordd ydd edrycher am à vo dyn: yn y peth nas gwypo, y pryd nas gwypo, a'r màn nas gwypo.

15. Tri pheth à ddylid eu selwi gyntav ar ddyn: tavod, defod, ac ymmod: can mai o'i anian a'i athrylith y tyvant.

16. Tri pheth ebrwydd yn ymddangos ar ddyn: pwyll, serch, a châs.

17. Tri pheth nid hawdd i ddyn eu cuddiaw ynddo ei hunan: llawenydd, tristwch, ac asbri.

18. Tair fordd ydd adnebyddir dyn: wrth ei ymadrawdd, wrth ei ymarwedd, ac wrth varn ei gymmodogion am dano.

19. Tri pheth à barant anmhwyll: edludd awen, gormes anoddeviadawl, a gwrthladd cydwybod.

20. Tair llwybr doethineb: llwybr ymgais, llwybr gwybodau, a llwybr cydwybod.

21. Tair priv gamp doethineb: edrych ar bob peth, dyoddev wrth achos pob peth, ac ymgadaw yn rydd oddiwrth bob peth.

22. O dri pheth y mae barn gyviawn: o wybod y gwîr, o ganvod angen, ac o gariad haelionus.

23. Tri phriv athraw dŷn: synwyr o anian yn dirnad, pwyll o ymgais yn ystyried, a chydwybod o achreth yn barnu; ac nis gellir cyvlawn a chyviawn ar wybodau doethineb heb addysg y tri hyn.

24. Tri pheth nid ydynt ond un o gysevin ymdardd: gwirionedd, cyviawnder, a thrugaredd; sev o'r un cariad y daw y tri hyn; sev yw cariad y cwbl ar ddoethineb.

25. Tair sail deall: gwybod pwys a gwrthbwys, gwybod dygwydd a gwrthddygwydd, a gwybod barn a gwrthvarn; ac o'r rhai hyn deall; sev yw deall medru ar vod a gwrthvod, herwydd dichonoldeb.

26. Tri pheth à rwym ddaioni ar ddŷn: ei wneuthur unwaith ei hun, ei ovyn unwaith gan arall, a'i ganmawl unwaith yn arall, neu yn nghlyw arall.

27. Tair fordd y mae gyru daioni ar ddŷn: canmawl daioni à wnaeth ev yn nghlyw arall o ddaionus, gwneuthur daioni yn ei ŵydd ev, a thewi ar vai à vo arno ev.

28. O dri chynghor ynghyd y cefir un cynghor da: cynghor câr, cynghor gelyn, a chynghor ei gydwybod ei hun.

29. O dair iaith y ceir iaith gwirionedd: iaith anian, iaith ymbwyll, ac iaith cydwybod.

30. Tri devnydd pob deddvoldeb: addysg, pwyll, a chydwybod.

31. Tri pheth à wnânt varn a beirniad cywir: ystyriaeth, ymoddev, a medru ar à êl wrth varn.

32. Tri bànogion doethineb: pwyll, cyviawnder, a thangnev o garedigrwydd.

33. Tri phriv gynneddvau daioni: dywedyd y gwir er gwaethav oll, caru pob daioni, a dyoddev yn lew dros pob gwir a daioni.

34. Tri pheth nid rhaid goval nas ceir o garu'r iawn yn mhob peth a'i wneuthur: cariad, clôd, a chyvoeth.

35. O dripheth y mae celvyddyd: deall, cov, ac arver.

36. Tri pheth à wedant yn well no thavawd beth à vo mewn dyn: ei law, ei lygad, a'i ymdawr.

37. Tri pheth da iawn eu meddu cyn y dyweter à vo'n gelwydd: synwyrbwyll cadarn i ddychymyg, cov da rhag gwrthddywedyd à ddywetpwyd yn ôl llaw, a fol i wrandaw ar à ddyweder.

38. Tri pheth trwsgl y sydd, a lle a'u gweler trwsgl pob peth arall ar gorf a meddwl: troed, llaw, a llavar.

39. Tri pheth à gydgerddant â phob daioni à wneler: ennill bydawl, parch ac anrhydedd gan ddoethion, a llawenydd cydwybod.

40. Tair cainc dyledswydd dŷn: ymgyfarchwel â Duw, llesâu dŷn, a gwellhau gwybodau.

41. Tri chyvarwel deall: iawn, hardd, a llesawl.

42. Tri pheth, nid gwlâd lle nas cafer: llavuriaeth, cyvraith, a chrevydd, sev golychwyd.

43. Tri pheth à wnant ddŷn yn anneddvol: ovn, chwannocrwydd, ac anwybodaeth

44. Tri pheth anhawdd eu gorchvygu: glewder, cariad, a chydwybod.

45. Tri pheth ni vawr brisier am danynt onid elo yn ry hwyr: cynghor câr, rhybudd oedran, a barn cydwybod.

46. Tri pheth er cael beunydd yn ddibaid á geisiant ragor: môr, meddwyn, a chybydd.

47. Tri pheth à ddylid eu cadw vyth yn egored: clust, llygad, o deall.

48. Tri pheth gorau vydd eu cadw y'nghaued oni bo achos cyviawn: dwrn, genau, a meddwl.

49. Tri pheth à wnant ddyn yn waeth nog anivel: caru'r bol, caru golud, a charu clôd dynion yn vwy no bodd Duw.

50. Tri pheth à wnant ddyn yn ogyvuwch ag angel: caru pob daioni, caru ymgardodi, a charu boddâu Duw.

51. Tri pheth er cael y cyvan ni welant vyth eu digon: môr, corflan, ac arglwydd.

52. Tri pheth o'u dirmygu à dynant ddial: cynghor gweledydd, barn pwyllog, a chwyn tylawd.

53. Tri chynghor y dylid yn bènav eu gwrandaw, can nas buant erioed amgen no da: cynghor tymmor, cynghor oedran, a chynghor cydwybod.

54. Tri chynghor nid mynych y byddant ar gam: cynghor cyvamwain, cynghor doeth bucheddol, a chynghor gwr ni wrandawoedd erioed ar un cynghor.

55. Tri pheth melltigedig eu symmud: fin tîr, hynt dwr, ac arwydd fordd ac arllwybr.

56. Tri phriv gyverthi doethineb: cariad, gwirionedd, a gwrhydri.

57. Tri pheth nis gellir vyth eu gweled yn ngwirvodd eu llawnvaint: sev cynneddvau da, cynneddvau drwg, a chynneddvau awenbwyll.

58. Wrth dripheth y bydd oll à wnelo dyn: wrth ryddyd, wrth gosp, ac wrth obrwy: ac nis gellir à vo amgen ar à wnelo dyn yn ei iawn bwyll.

59. Mewn tri pheth y gwelir privgynneddvau enaid dyn: yn à vo yn ei ovni, à vyno ei gelu, ac à vyno ei ddangos.

60. Tri gweddus y sydd, ac ni bydd llawer yn anweddus lle a'u gweler ac a'u cafer: iaith weddus, dillad gweddus, ac ymmod gweddus.

61. Tri pheth sy'n dangos gallu dŷn: nas gall vod hebddo, nas gall ei guddio, ac nas gall na ei garu na ei gasâu.

62. Tair llàth vesur pob dŷn: ei Dduw, ei ddiawl, a'i ddidawr.

63. Tri ymgyfarwel gwybodaeth: awen, pwyll, ac egni.

64. Tri pheth à geir ynghyd yn ddiamgen: ymgais, ymgar, ac ymgael.

65. Tri pheth ni ddifyg vyth eu cael: peth golud o ddiwydrwydd mawr, peth anrhydedd lle a'i dirperer yn vawr, a pheth gwybodaeth lle a'i ceisier yn vawr.

66. Tri ymgael à gadarnâant ymgais: bôdd dyn, bôdd cydwybod, a bôdd Duw.

67. Tri pheth ni ddifyg iddynt eu mawl: haelioni, cyviawnder, a gwybodau.

68. Tri pheth moladwy ar ieuanc: tawedigrwydd, diwydrwydd, a boneddigeiddrwydd.

69. Tri pheth moladwy ar hên: cynghori yn serchawgvwyn, haelioni dwyvolgamp, a doethineb diymged.

70. Tri pheth ni saiv dim o'u blaen a'u gwrthwynepont: pwyll, amynedd, a gwirionedd.

71. Tri pheth ni ddifyg llwydd iddynt lle y bont gyviawn: pwyll, ymgais, a gobaith.

72. Tri pheth y gwna mawl dyledus ac haelionus: y gorchwyl yn hawdd, yr ymbwyll yn ddychymygvawr, a'r gobaith yn gadarn.

73. Tri pheth da iawn eu meddu: cartrev o drev tâd, creft o gelvyddyd, a braint o vonedd cynhenid.

74. Tri pheth gwell no'r rhai hyny: corf iachus, gwybodau a chynneddvau moliannus, a rhyddyd o hawl.

75. Tri pheth gwell no'r cwbl: pwyll ynnïawl, calondid amyneddgar, a chydwybod lân.

76. Tri arddangos llesioldeb gwybodau: doethineb, dwyvoldeb, a thangnevoldeb.

77. Tri dyn nid call rhygoelio yn vawr à ddywetont: gwr o bell, gwr hŷn no'i gymmydogion, ac à vo vaen dros iaen.

78. Tri pheth y sydd ar wirionedd ni waeth beth à vo ev à ddylid ei ddywedyd, ni waeth pryd na lle nag achos a'i dyweter, ac ni waeth beth à ganlyn o'i ddywedyd.

79. Tri phrif anghudd dŷn, ac wrthynt a'i adwaenir: trem ei olwg, achaniad ei lavar, a'r modd ydd ymchwyv.

80. Tri pheth ni cheir o'u caru a'u chwennych yn ormodd: canmoliaeth, hawddvyd, a golud.

81. Tri pheth à ddivlanant o'u covleidiaw gormodd: hawddvyd, clôd, a da'r bŷd.[1]

82. Tri pheth ni châr Duw à garo eu gweled: gweled ymladd, gweled anghenvil, a gweled rhodres balchder.

83. Tri pheth y sydd a chyda 'r trydydd nis gellir hebgor y ddau gyntav: sev à ddichon, à ddylai, ac à vynai.

84. Tri pheth à ddylid eu hystyried cyn y gweter ambell peth: y môdd, y màn, a'r amser.

85. Tri dyn o garu tri pheth à garant à ddylaint: gorddyar y gwynt, baran,[2] y tònau, ac angerdd y daran.

86. Tri pheth na chared neb a'u hangharo: rhogleu y meillion, blâs llaeth, a chân adar.

87. Tri thebygaeth dŷn i ddiawl: ovni plentyn, maglu'r fordd, a chwerthin am ben y drwg[3]

88. Tri dyn y dylai pawb edrych yn serchog arnynt: sev à edrych yn serchog ar bryd a gwedd y ddaiar, ac ar blant bychain, ac ar ymbwyll celvydd.[4]

[1] Tri pheth à gollir o'u mawrygu.

[2] Qu. Baranllev? I. M.

[3] *Mewn llyvyr arall val hyn:* mewn tri pheth y bydd tebyg dyn i ddiawl, &c.

[4] *Llyvyr arall val hyn:* Ar wyneb y ddaiar, ar blant bychain, ac ar gelvyddwaith ragorgamp.

89. Tri dyn ni châr ei wlâd: a garo ei vol, à garo gyfoeth, ac a garo esmwythder corforawl.[1]

90. Tri pheth nid call eu canmawl, neu eu hanghanmawl: ymborth, gwlâd, a cheraint.

91. Wrth dri pheth ydd adnebyddir dŷn yn ebrwydd: wrth à gâr, wrth nas câr, ac wrth a'i câr, neu a'i anghar.[2]

92. Tri nôd dwyvolder: gwneuthur cyviawnder, hofi trugaredd, ac ymddwyn yn uvydd.

93. Tri ovn gŵr: ovni digio Duw, ovni gwneuthur trais ac anghariad, ac ovni camddarwedd ar ei gynneddvau.

94. Tri ovn anwr: ovni dŷn, ovni diawl, ac ofni tylodi.

95. Tri pheth â wnant ŵr: glewder, cyviawnder. ac hynawsder.

96. Tri pheth byr eu parâad: rhyveddoldeb, gwagogoniant, a thegwch ieuenctid.

97. Tri pheth nid hawdd ymddarbod ag wynt: bànau celvyddyd a gwybodaeth, treiglad awen ac athrylith, a thervynau doethineb: can nis gwelir ac nis gellir craf ar hyd, a lled, a dyvnder, ac uwchder y pethau hyn.

98. Tri pheth à barant gywreindeb: gallu corforawl, medrusder celvyddyd, ac awen ewyllysgar.

99. Tri pheth nid hawdd ac ev á ddylid deddv a dosparth arnynt: parch, llawenydd, ac arveroldeb.

100. Tri pheth ni vyddant hardd heb arnynt ddeddf a dosbarth: syberwyd, gwroldeb, ac addysg.

101. Tri pheth nis gellir na deddv na dosbarth gadarn arnynt: serch, awen, ac angen.

102. Tri chyvreidiau doethineb: awen, dysg, ac ymddwyn.

103. Tri pheth à lanwant wagder: dadwrdd anghall y'mhen gwâg, chwerthin anghall o galon wâg, a llaid budreddus mewn fynon wág; sev doethineb á yr i maes y dadwrdd, a syberwyd cynneddvol á yr i maes y chwerthin, a dwr gloywfrwd á yr i maes y llaid.

104. Tri pheth anrhydeddus ar ddŷn: ymgaloni mewn advyd, ymwarâu mewn llwyddiant, ac ymddwyvoli y'mhob un o'r ddau.

105. Tri phriv athraw dŷn: awenserch ymgais pwyll ystyrgar, a chydwybod ddeddvol; ac hebddynt nis gellir gwybyddiaeth gyviawn ar ddim; sev ydynt y tri athraw anianawl.

[1] *Llyvyr arall val hyn:* Tri dyn ni châr na'i wlâd, na'i Dduw, &c.

[2] *Llyvyr arall:* Wrth à gâr, wrth à gasâa, ac wrth a'i câr neu a'i casäa

106. Tri athraw dwyvolion dŷn: avlwyddiant bydawl, nychdawd corforawl, a gelyniaeth anhaeddiannawl; ac nid oes namyn Duw yn wared rhagddynt

107. Tri pheth gorau eu cadw yn nghauad: genau, dwrn, a meddwl.

108. Tri pheth gorau eu cadw yn egored: clust, llygad, a dëall.

109. Tri chydymaith y sydd i ddiawl: balchder, cenvigen, a thrais (a thrachwant.)

110. Tri bànogion daioni: doethineb, gwroldeb, a chariad; a lle ni byddant y tri y'nghyd ni cheir cynneddvau daionus.

111. Tri pheth à ddadanhuddant athrylith a chynneddvau anianawl dŷn; ei olwg, ei lavar, a'i ymodiadau.

112. Tri pheth à barant i ddŷn ymddoethâu: advyd, aviechyd, a gelynion.

113 A thri pheth y dylid amcanu pob gweithiau a gwybodau daionus: â'r holl serch, â'r holl ddeall, ac â'r holl allu.

114. Tri pheth à ddangosant liw meddwl dŷn: à geisio ei gelu, à chwennycho ei ddangos yn amlwg, ac à ovno'n vawr.

115. O dri pheth y ceir gwybodaeth gyviawn ar bob peth: gweled, clywed, a theimlaw; ac o'r tri hyn y mae'r deall; ac hebddynt nis gellir na phwyll, na deall, na gwybod ar ddim yn iawn.

116. Tair barn à vydd ar bob peth, a heb y tair y'nghyd nis gellir barn gyviawn ar ddim: barn câr, barn gelyn, a barn cydwybod.

117. Tri thŷb anweddus ac anghyviawn ar bob dŷn o'r bŷd: tybied ei hun yn ddoeth, tybied pawb ereill yn annoeth, a thybied y gwedd arno bob peth à vyno.

118. O dri pheth y ceir crêd ar wirionedd: o gredu pob peth, o anghredu pob peth, ac o gredu ni waeth beth.

119. Tri pheth o'u deall yn iawn à barant heddwch a thangnev: syrth anian, hawl cyviawnder, a llavar gwirionedd.

120. Tri pheth à gynnal addysg: synwyr, ymgais, a dichwain.

121. Tri ymwrdd annoethineb: ymwrdd rhyvel, arv tros arv, neu ladd tros ladd; ymwrdd cyvraith, cosp dros gosp; ac ymwrdd casineb, gogan tra gogan.

122. Tri ymwrdd doethineb: addysg tros addysg, pwyll dros bwyll,[1] a chariad tra chariad.

123. Tri pheth hawdd ag un llygad hanner egored eu gweled: syrth anian, deddvau cyviawnder, a govynion cariad: a'r un modd mor hawdd gweled eu

[1] *Llyvyr arall:* pwyll tra phwyll, a chymmwynas tros gymmwynas.

gwrthyddion; sev ydynt dirieidi, câs, ac anwiredd (anghyviawnder).

124. Tri lleverydd gwirionedd: gair, gweithred, ac awendawr; a chanddynt y ceir à vo gwîr; a lle y bo'r tri yn un y ceir diogel ar wirionedd.

125. Tri anhebgor cynghor da: dwyn ewyllys da, rhyddyd ymadrawdd, a deall yr achaws.

126. Tri pheth nid rhaid pryder nas cefir: peth llwyddiant lle bo mawr a'i hymgais, peth parch lle bo mawr a'i dirper, a pheth doethineb, lle bo mawr a'i myvyria.[1]

127. Tri pheth à welant yn y tywyll: cariad, crebwyll, a chydwybod.[2]

128. Tri pheth ni welant ddim, er maint y goleuni: trachwant, trachas, a diogi.

129. Tri pheth à wneir yn y tywyll o vôdd a dewis; à wneler gan drais, à wneler gan drachwant, ac à wneler gan anwr.

130. A welo dri pheth ni wel ddim arall: balchder yn hardd, tragolud yn vuddiol, a diogi yn wynvyd.

131. Tair sail celvyddyd: pwyll, ansawdd, a gorvod; ac o'r tri hyn y daw pob dosparth ar wybodau a chelvyddydau; ac nid oes à êl yn eu herbyn.

132. Tair cors anwybodaeth, ac a lyno ynddynt ni vawr wybydd à ddylai: balchder, trachwant, ac annarbodrwydd.

133. Tair pont y sydd dros y corsydd hyn: addvwynder, haelioni, a diwydrwydd.[3]

134. Tri pheth à ddivwynant awen a gwybodau: ysmalâwch, ovnocrwydd, ac anynadrwydd.

135. Tri anghydvodogion doethineb: balchder â gwynvyd, gloddest ag iechyd, ac ysmalâwch â llawenydd o gallineb.[4]

136. Tri pheth analledig eu bod yn wastadawl gydag un dŷn ba bynag: nerth, gwynvyd, a challineb.

137. Tri pheth y dylai pob dŷn sôn am danynt yn wahanol; llawer am à gâr ac am à gafo'n gymmwynas, ychydig am a'i anghâr, ac à gafo 'n anghymmwynas, a dim am á wnelo ei hunan yn gymmwynas i gâr, neu yn anghymmwynas i elyn, neu i a'i hanghar.

138. Tair gweithred ddwyvol y sydd; cynnorthwyaw gwàn a thlawd, cymmwynas i elyn, a dyoddev yn galònog y'mhlaid pob iawn.

139. Tri pheth à ddylid eu traselwi ar bob dŷn: y son am dano, yr olwg arno, a'i sôn ei hunan am ereill ac am bethau.

140. Tri achosolion pob peth o gyntevigaeth: angen, dewis, a dygwydd; ac o un o honynt y daw ac y gwneir pob peth.

141. Tri chyntevigaeth deall: serch, egwyddawr, a gwrthddrych.

142. Tri chyntevigaeth gallu: bryd, ymgais, a threvn.

143. Tri chyntevigaeth gwybod: syniaw, deall, ac ewyllys.

144. Tri chyntevigaeth bodoldeb hanedigawl: devnydd, ansawdd, ac ymmod.

145. Tri chyntevigaeth hanvod, sev ydynt tri angeneddyl Duw, nid amgen; nerth, gwybod, a chariad; ac o gynghyd y tri bodoldeb a hanvodoldeb.

146. Tri angeneddyl bodoldeb Duw: sylwedd, bywyd, ac ymmod; ac o'r rhai hyn pob sylwedd, a bywyd, ac ymmod, yn dreigledig o hán; sev o Dduw a'i ddevnyddion y mae pob peth.

147. Tri angeneddyl bywyd; gni, gwybodoldeb, ac ymmod.

148. Tri pheth à ddylid eu deall yn gyviawn ar bob celvyddyd: bànogion, advànogion, ac anmànogion; ac heb eu deall a'u gwybod yn gyviawn nis gellir na dysg na dosparth ar unrhyw gelvyddyd ba bynag.

149. O dripheth y ceir llwydd a bendith: bôdd arglwydd prïodawr, bôdd golychwydwr neu ofeiriad fydd, a bôdd bardd llinolingerdd.

150. O dri bendith y ceir bendith Duw: bendith tâd a mam, bendith clâv a chlwyvus, a bendith estron advydig.[1]

151. Tri thryvydolion gwybodaeth, ac nid gwybodaeth gyviawn lle nis cefir hwynt: heddwch, gwirionedd, a threvn; a'r tri hyn á wnànt gyviawnder, ac o hyny gwybodau yn lle dichellion.

152. Tair sylvaen doethineb: ieuenctid i ddysgu, côv i gadw â ddysger, a deall i ymarver yn gyviawn a'r gwybodau à ddysged, a'u trevnydu er lles ac anrhydedd a'u gwypo.

Ac velly y tervyna hyn o Drïodd Doethineb, à gevais i o Lyvyr Thomas Lewys o Lechau.

(Ebai Thomas ab Ivan o Dre Bryn.)

3. Llyma Driodd Doethineb ereill, *à gasglwyd o Lyvrau amryvaelion Rhisiart Iorwerth, a Davydd Benwyn, a Watkin Powel, a Syr Sion Grufydd o Langrallo,*

[1] *Llyvyr arall:* Lle bo mawr a'i ymchwil.
[2] *Llyvyr arall:* Cariad, awen, a chydwybod.
[3] *Llyvyr arall:* gwarineb, haelioni, ac ymgais ddiwyd.
[4] *Llyvyr arall:* Tri anghydvodogion gan ddoethineb, &c.

[1] *Llyvyr arall:* bendith tâd a mam, bendith tlawd a chlav, &c.

a Morys Davydd o Ben y Bont ar Ogwr, genyv vi Thomas ab Ivan o Dre Bryn, yn y vlwyddyn 1679.

1. Trirhyw doethineb y dylai bob dŷn eu hystyried, a'u gwybod, a myned yn eu hôl: parth ag at Dduw, parth ag at ei gyd ddŷn, a pharth ag at ei hunan.

2 Tri ardderchogion doethineb: heddgarwch, cyviawnder, a gwybodau moliannus.

3. Tri ymleveryddiaid doethineb: awen, deall, a chydwybod.

4. Tri blaenoriaid doethineb: ystyriaeth awengyrch, prawf o ddiwydrwydd ymgais, a serch ar wybodau daionus.

5. Tri deivnogaeth doethineb: ystyriaeth, gwybodaeth, a chynneddvau meddwl serchogaidd.

6. Tri anhebgorion doethineb: serch, ymgais, a gweithred.[1]

7. Tri pheth o'u cael y'nghyd à wnânt ddoethineb: deall ystyrgar, diwydrwydd ymgeisgar, ac addvwynder tangnevgar.[2]

8. Tri anhebgorion ystyriaeth: gwybodaeth parth ag at à ystyrier, serch dewisgyrch at yr hyn a ystyrier, a rheidioldeb er lles y peth à vyther yn ei ystyried.

9. Tri anhebgorion diwydrwydd ymgais: gallu corforawl, deall digonawl, a serch awenawl.

10. Tri devnyddion anhebgor addvwynder: tangnevgarwch, llawenydd serchogaidd, ac uvyddawd gwylderus.

11. Tri pheth ar ddŷn y dylai bob doeth eu hystyried yn ddyvnbwyll: nwydoldeb golwg, a chaniad llavar, ac arwyddoldeb ymmod.

12. Tri pheth nis gellir doethineb cyfiawn hebddynt: awen leuverlawn, ymgais egnïawl, ac athrawiaeth ddeddvawl.

13. Tri pheth à wnânt lwybrau doethineb yn ddirwystrau: meithriniad buchedawl gan rieni, addysg ar ddeddvoldeb cyviawn gan athrawon, ac ymgyveillachu â doethion cynneddvawl yn unig.

14. Tri phriv athraw doethineb: pwyll deallgar, addysg ar wybodau moliannus, a chydwybod ochelgar.

15. Tri chadernyd doethineb: côv i gadw, ystyriaeth awenserch, ac ymarver cynneddvawl.

16 Tri pheth a yrantaddysg a gwybodau ar ddoeth: ystyrbwyll, syniadu yn awengyrch, ac ynnïau cydwybod.

17. Tri athraw annoeth: anfodion o ddrwg ymddwyn, cyvraith gwlâd, a dialon Duw.

18. Tri angeneddyl doethineb: anrhydedd gan ddynion, llawenydd meddwl, a bôdd Duw.

19. Tri angeneddyl annoethineb: câs ac ymlid anmharchus gan ddynion, tristwch cywilyddvawr meddwl, a digovaint Duw.

20. Tair gobyr doethineb: ennill bydawl, meddwl heddychawl, a llawenydd tragwyddawl.

21. Tair gobyr annoethineb: colledion bydawl, meddwl cystuddiawl, a gweled pob iawn pan y bo'n ry hwyr mewn coll tragywyddawl.

22. O dripheth y ceir doethineb: ystyried syrth ac anian, ymovyn am wirionedd, a goddev dros bob iawn a phrydverth.

23. Tri pheth à ddangosant ddoethineb: medru ar y celwydd lle cyfyrdder ag ev, caru ac ymarver â gwirionedd, a gochelyd pob peth à ovyn cêl a chudd.

24. Tri ychydig a ddangosant lawer o ddoethineb: ychydig valchder, ychydig trachwant, ac ychydig chwedleia.

25. Tri pheth ni wna na doeth na dwyvawl: dysgwyl ag un llygad, gwrandaw ag un glust, a chynnorthwyaw ag un llaw.

26. Tri pheth nid hawdd ymddarbod ag wynt: bànau celvyddyd a gwybodaeth, treiglad awen, a thervynau doethineb; can nis gellir gweled hyd, a lled, ac uwchder, a dyvnder y pethau hyn, ac nid oes ond Duw à'u gwyr.

27. Tri pheth nid oes à saiv o'u blaen ac à'u gwrthrym: gwirionedd, pwyll, ac amyncdd.

28. Tri phriv wrthyddion y sydd: mawr a bach, oer a thwym, a goleu a thywyll; ac o addasder neu anaddasder trevn ar y pethau hyn y bydd cyviawnder neu anghyviawnder.

29. Tri phrivynnïau 'r enaid: serch, deall, ac ewyllys.[1]

30. Tri rhagynnïau 'r enaid: pwyll, cydwybod, a gwaith,[2] sev gweithred; sev a'u bernir yn ragynnïau am nas byddant ond o dadogaeth a pheiriad y tri phrivynnïau.

31. Tair privweithred deall dŷn: ystyr, dewis, a gwneuthur.[3]

32. Tri pheth à darddant o iawn ymarver ag ynnïau yr enaid: gwybodau, gallüau, a chynneddvau da.

33. Tri athrawon ynnïau dyn: synwyr o reddv awenawl, cydwybod o varn ystyrgar gan ddeall, a dichwain bywyd; ac o'r tri hyn y mae gwybodau.

[1] *Llyvyr arall:* awen, ymgais, a chynneddvau moliannus.
[2] Deall, diwydrwydd ac addvwynder.

[1] *Llyvyr arall:* serch, deall, a myn.
[2] *Llyvyr arall:* pwyll, cydwybod, a gweithred.
[3] *Llyvyr arall:* ystyr, dewis, ac ymarver.

34. Tri pheth da eu syniadau ar bob peth: agweddoldeb, peiriadoldeb, a chynglyniadoldeb.

35. Tri oferyndawd pob gweithred: serch, cås, ac ymbrawv.

36. Tair sylvaen deddv a chynneddv: cyviawnder o ymbwyll, cydwybod o drugaredd, a threvn o ddeall ar well a gwaeth.

37. Tair sail gwynvydigrwydd: boddlondeb, haelioni, a deall.

38. O dri pheth y mae deall gwahanredawl: selw ar agweddoldeb, ymoddev â gweithredoldeb, ac o hyny barnu ar lesioldeb

39. Tri dawn penav Duw i ddŷn: llavar, deall, a serch.

40. Tri rhagorau daionusder: addvwynder, haelioni, a phwyllgarwch.

41. Tri achos pob anneddvoldeb: hunanoldeb, anystyriaeth, a llerwineb diymdawr.

42. Tri pheth à wedant beth à geir y'mhob dŷn: tavawd, llaw, a llygad;[1] sev o syniadu yn vanolddoeth ar bob un o'r tri.

43. Tri pheth anrhydeddus ar ddŷn: bod yn gywir, bod yn wrol, a bod yn gelvydd.

44. Tri pheth à ddangosant ddoethineb dŷn: ei vod yn govus o'i wybodaeth, yn gyvarwydd yn ei orchwyl, ac yn ystyriaethus yn ei amcan.

45. Tri pheth à ddywedant yn dda am ddŷn: bod yn syniadus, bod yn gyveillgar, a bod yn heddgar.

46. Tri pheth à ddylynt vod ar bob cår a chyvaill: cywirdeb, deddvoldeb, a gwroldeb.[2]

47. Tri pheth à wnânt ddŷn yn ddaionus: gwyllys, gwybodaeth, a moddion; ac nis gellir nemmawr o ddaioni yn nifyg un o'r tri hyn.

48. Tri pheth y'nghyd à wnânt olud: deall, daionusder, a da 'r byd; ac o iawn ymwneuthur â'r tri hyn y ceir bendith a bôdd Duw.

49. Tair llathvesur pob dŷn: ei Dduw, ei ddiawl, a'i ddidawr.

50. Tri pheth anweddus ac anverth ar bob dŷn: traserch diymbwyll, trachas diachos, a bod yn ddiymdawr â phob peth.[3]

51. Tri pheth o'u deall à barant heddwch a thangnevoldeb: syrth anian, hawl cyviawnder, a llavar gwirionedd.

52. Tri pheth à wnânt gyviawnder: gwirionedd, pwyll, a thrugaredd.

53. Tri pheth à wnânt ddwyvoldeb: cariad, cyviawnder, ac uvudddawd.

54. Tri pheth y sydd ac ni chår Duw a'u caro: gweled ymladd, gweled anghynvil, a gweled rhodres balchder.

55. Tri pheth y dylai ddŷn à vynai addysg: gwrandaw, gweled, a thewi.

56. Tair fordd y chwilir calon dŷn: sev yn y peth nas gwypo, y modd nas gwypo, a'r pryd nas gwypo.[1]

57. Tair sylvaen dedwyddyd: cyviawnder gweithredawl, gwirionedd gwybodedig, a thrugaredd ynnïawl.

58. Tair fordd y daw crêd ar bob peth: sev o gredu pob peth yni wyper amgenach, o anghredu pob peth yni wyper paham ac ydd adnaper y tystion, ac o gredu ni waeth beth lle bo a'i tystia yn gredadwy.

59. Tair fynon gwybodaeth y sydd: pwyll, ansawdd, a gorvod.

60. Am dri achos y ceisir gwybodaeth: budd, prydverthwch, a dyledswydd.

61. Tri pheth serchog ar ddŷn: haelioni, doethineb, a thangnevoldeb.

62. Tri pheth y sydd na chared neb a'u hangharo: blâs llaeth, sawyr meillion, a chân adar y coed.

63. Tri chyvreidioldeb daioni: gwybodaeth, ystyriaeth, a chariadoldeb.

64. Tri pheth y sydd ac nid hawdd dwyn dŷn oddi arnynt: ei varn, ei serch, a'i genedl.[2]

65. Tri pheth à ddylid eu syniadau ar bob peth: ei hynodrwydd, ei briodoldeb, a'i weithredoldeb.[3]

66. Tri pheth y sydd iddeu hystyried cyn gwedyd: y modd, y màn, a'r amser.

67. Tri pheth à lygrant gynueddvau dŷn yn gwbl: tra meddwdawd, tra godineb, a thra ysgymmyndawd.

68. O dri pheth y mae gwybodaeth gyviawn: awen, pwyll, a gwirionedd gwybodedig.

69. O dri pheth y mae pwyll: serch, ovn, ac ymbrawv.[4]

70. Tri anhebgorion cynghor: gwyllysgarwch, gwybodaeth, a rhyddyd llavar.

71. Tri thyb anweddus ar ddŷn: tybied ei hun yn ddoeth, tybied arall yn fôl, a thybied y gwedd iddo à vyno.

72 Thri thywysogaeth serchog: digrivwch, haelioni, a syberwyd.

[1] *Llyvyr arall*—Llavar, llaw, a llygad.
[2] *Llyvyr arall*—Cywirdeb, gwroldeb, a thangnevoldeb.
[3] *Llyvyr arall*—A bod heb na serch na chas at ddim yn y byd.

[1] *Llyvyr arall*—Yn y peth nas tybio, y modd nas tybio, a'r pryd nas tybio.
[2] *Llyvyr arall*—I ri pherchenog y sydd ar bob dyn, ac nid hawdd ei ddwyn oddi ar un o honynt: ei serch, ei varn, a'i genedl.
[3] *Llyvyr arall*—Ei nodoldeb, ei briodoldeb, a'i weithredoldeb.
[4] *Llyvyr arall*—Serch, ovn, a buddioldeb.

73. Tri thywysogaeth pwyllgar: mwynder, aravwch, a chadernyd.

74. Tri thywysogaeth doeth: gwybodaeth, heddwch, a golud bydawl.

75. Tri thywysogaeth dedwydd: gwybod gwirionedd, gwneuthur daioni, a goddev yn amyneddgar.

76 Tri thywysogaeth awen: myvyrdawd, llwyddymgais, a bodd doethion.

77. Tri pheth à wnânt wroldeb: cyviawnder, haelioni, a chadernyd meddwl.

78. Tri pheth anverth ar bob dŷn: gloddest, dichell, a llid; a hwy a'i dyfethant ev yn y diwedd.

79. Tri pheth anverth eu clywed: serthedd neu vrynti, celwydd, ac athrawd; ac nid gwell a'u gwrandaw nog a'u gweto.

80. Tri pheth fiaidd ar bob dŷn a'u harweddo: bod yn gelwyddgar, bod yn ddialgar, a bod yn ariangar.

81. Tri pheth diserch ar ddyn: rhospusder, anynadrwydd, a bod yn ogangar.

82. Tair camp gythreulig ar ddŷn: gormes, cenvigen, a balchder.[1]

83. Tri pheth sy'n ymborth ar dwyll: serch, ovn, a diogi.

84. Tri pheth y ceif diwydrwydd: llwyddiant bydawl, iechyd corforawl, ac anrhydedd gwladawl.

85. Tri pheth y ceif deddvawl: anrhydedd gan ddoethion, braint gwladawl, a llawenydd meddwl

86. Tri pheth à wna gwybodaeth: goruchaviaeth gwladawl, ynnill bydawl, a dyddanwch cydwybodawl.

87. Tri pheth y ceif dedwydd: câs pob diriaid, cariad pob doeth, a gwynvyd nevawl yn dragywydd.

88. Tri pheth anghall i ddyn eu gwneuthur: ymladd dwrn moel â haiarn gwynias, llochi pen ci cyndeiriawg, a chellwair ag anghall gwladaidd.

89. Tri anghallder call: dadlu ag anghall, ymgyvrinaw ag anghall, a cheisiaw gyru syberwyd a moesgarwch ar anghall.

90. Tri pheth nid rhaid ovni nas cafer: peth llwyddiant o vawr ymgais, peth parch i'r neb a'i dirper yn vawr, a pheth doethineb lle a'i myvyrier o serch mawr parth ag atto.

91. Tri pheth à welant yn y tywyll: cariad, crebwyll awen, a chydwybod lân yn canvod gwirionedd ac iawnder.

92. Tri pheth ni welant y gwir a'r iawn er cymmaint vo'r goleuni: trachwant, balchder, a gelyniaeth.

93. Tri pheth o'u gweled ni welir un peth arall: balchder yn hardd, tragolud yn vudd, a diogi yn wynvyd.

94. Tri pheth à wneir yn y tywyll: â wnelo trais, â wnelo trachwant, ac â wnelo cenvigen.

95. Tri dŷn y sydd ac nis gellir o gythraul eu gwaeth: cybydd, rhagrithwr, ac enllibwr.[1]

96. Tri chyttundeb à wnânt wr yn dda ei vyd: cyttundeb â gair Duw, cyttundeb â'i wraig a'i deulu, a chyttundeb â'i gymmodogion.

97. Tri pheth y dylid uvyddau iddynt: gorchymynion Duw, cyvraith gwlâd, a govynion cydwybod.

98. Tri pheth y dylid yn llwyr eu hystyried cyn gwneuthur à veddylier: syrth amser, syrth gwlâd a chenedl, a syrth anian.

99. Tri pheth nis gellir awen ddeallus hebddynt: addysg o athraw, gossymaith rhag newyn, a dyddanwch meddwl.

100. Tri pheth nis gellir bôd iddynt heb awen ddeallus: celvyddyd gyfiawn, cynneddvau daionus, a dyddanwch diargyvedd.

101. Am dri rhyw ymadrawdd ni cherir neb gan ei gallach: caswir o'i le a'i amser, cynghor heb ei ovyn, ac athrawd.

102. Tri pheth á wnant ddŷn yn wybodawl: bod yn ymovyngar, yn ymweledgar, ac yn ymbwyllgar.

103. Tair priv dyledswydd dŷn y sydd ac y dylid myned ganthynt yn mhob peth à welir: ennill meddiant bydawl drwy gywirdeb a diniweidrwydd, llês ei wlâd a'i genedl hyd eithav deall a gallu, a hyd y galler gyru deddvoldeb o Dduw ac o ddyn ar bawb lle ydd elo tra vo yn y byd.

104, Tri pheth à ddiweddant yn ddrwg vynychav, am hyny goreu yw eu gadael a'u gochel: ymrysonau, cyveddau, a chwannogrwydd i wybod helynt ac à wnelo arall.

105. Tri pheth y sydd a'r dŷn deddvawl a'u canlyn ac a'u cais hyd vedd: lles a lluniaeth ei deulu, lles a llwyddiant ei genedl cywlad, a mwyâu gwybodaeth ar wirionedd.

106. Tri pheth y sydd, a'r dŷn à wnelo un o honynt á wna'r lleill: bychanu eiddo arall, trachwantu eiddo arall, a dwyn yn lledrad eiddo arall.

107. Tri pheth nis gellir à vo deddvawl a dwyvawl hebddynt: maddeu cam a gelyn, bod yn haelionus meddwl ac ymddwyn, a bod yn gywir a chyviawn tuag at bob byw a bôd.

108. Tri phrivymmod bywydolion: ymganvod, ymbwyll, ac ymgais.

[1] *Llyvyr arall*—Trais, cenvigen, a balchder.

[1] *Llyvyr arall*—Cybydd, lledrithwr, ac enllibwr.

109. Tri pheth, sev gloddest, gwŷn, a diogi, à wnant dri pheth arall, sev diva'r meddiant, tywyllu 'r deall, a byrâu 'r einioes.

110. Tri arwydd anwybodaeth: anvoes ymddwyn, iaith anghyviawn, a holi dirgelion y cymmodogion.

111. Tri arwyddon bonedd: haelioni, cyvarch hawddgar, a gwybodaeth deddvawl.

112. Tri arwyddon awen: llygad llym, golwg serchog, a chyviawnder ymadrawdd.

113. Tri arwyddon trugaredd: troi oddiar fordd ysgrubl yn gorwedd, syniadau cwyn plentyn bach, a pharchu henaint.

114. Tri arwyddon tangnevoldeb ar ddyn: trugaredd tuag at ei ysgrubl, chwannog i aros yn ei gartrev, a chanu gyda ei orchwyl.

115. Tri arwyddon dryganian: à roddo gynghor cyn a'i govyner, à wnelo na bo raid, ac à sieryd am ei gymmodogion.

116. Tri arwyddon creulondeb: tarvu anivel lle na bo raid, briwa coed a llysiau yn ddiachos, a bod yn daer ei ovyn.[1]

117. Tri pheth da iawn eu meddu: cartrev o drev tâd, creft o gelvyddyd, a braint o vonedd cynhenid.

118. Tri pheth gwell no'r rhai hyny: corf iachus, gwybodau moliannus, a rhyddyd o hawl diymdwng.

119. Tri pheth gwell no'r cwbl: pwyll ynnïawl, calondid amyneddgar, a chydwybod lân.

120. Tri pheth à ddylai vod gan bob gwr iddo ei hunan: ei wraig ei hunan, ei gartrev ei hunan, a'i varn ei hunan.

121. Tri pheth lle nas gwylier arnynt à syrthiant yn hawdd i dwyllansawdd: synwyrau corf a meddwl, athrylith awen, a dosbarth celvyddyd.

122. Tri pheth nid hawdd eu gweled yn amlwg mewn arall, ac am hyny nid iawn rhyvarnu arnynt: tuedd a syrth awen, ymgais deall, a barn cydwybod; ac nid oes namyn Duw a'u gwyr ac a'u barn yn gyviawn.

123. Am dri achos y casglwyd y Triodd hyn o'r hên ysgriveniadau Cymreig genyv vi, Thomas ab Ivan o Dre Bryn yn Morganwg, yn y vlwyddyn 1679: yn gyntav, er cov a chadw ar hên ddoethineb ein cenedl ni y Cymry, yn yr hên amseroedd; yn ail, er dyddanwch, a chwanegiad gwybodaeth ac ystyriaeth rinweddol i'm hunan; yn drydydd, er addysg rinweddol i'r oesodd à ddêl.

Ac velly tervyna.

[1] *Llyvyr arall*—A bod yn daer am ei gardawd.

4. Llyma Driodd Doethineb etto, *o Lyvyr Cwrt Colman, à ysgrivenwyd genyv vi, Thomas ab Ivan o Dre Bryn, yn y vlwyddyn* 1679; *(o'r un Llyvyr.)*

1. Tri pheth nis gellir eu gweled yn eu llawnder o gynneddv: cynneddvau moliannus, cynneddvau drygionus, a chynneddvau awenbwyll.

2. Tair colovn daioni: calondid, cariad, a doethineb; a lle ni bo y tri yn un nis gellir amgen no difyg.

3. Tri arwvdd dŷn dâ: ymovyn am wirionedd, gwneuthur cyviawnder, ac ymarver â thrugaredd.

4. Tri pheth y sydd ac erynt y cadarnêir gwirionedd o'i ganlyn: er maint yr anhawsder, er maint y colled, ac er maint y cosp a'r poen.

5. Tri cholled à bair ynnill yn y diwedd: colli à vo mwy no rhaid, colli iechyd, a cholli à vo pen iddo ev a'i collo ar bob peth; canys yn hwnw y bydd mwyav o'i bechodoldeb ev.[1]

6. Tri pheth y dylai bob dyn ymostwng iddynt: ei allu corforawl, ei ddymbwyll deall, a'i gydwybod ei hunan, bynagobeth ei govyniou.

7. Tri phriv cynnysgaeth gwybodaeth dŷn: à ddengys ei synwyr ei hun iddo, à ddysgo ei gyvymbwyll ei hun iddo. ac à ovyn ei gydwybod ei hun gantho.[2]

8. Tri pheth nis gellir na threchant yn y diwedd: cariad, gwirionedd, a gwynvyd.[3]

9. Tri pheth anhebgor i ddoeth: gwrandaw, gweled, a thewi â sôn.

10. Tri rhywiogrwydd meddwl à bair syberwyd: tymmer goddevus, parodrwydd rhoddi, a llawen o gynneddv.

11. Tri pheth cythreulig ar ddŷn: cenvigen, trachwant, a balchder.

12. Tri pheth ar ddŷn à barant hofi ei gyveillach; pwyll, syberwyd, a haelioni.

13. Tri pheth y dylid eu cadw dan llaw: chwant y cnawd, rhwysg y tavawd, a gwŷn digovaint.

14. Tri nôd annoethineb: ymolygu yn vawr, ymchwantu yn vawr, ac ymchwedleua yn vawr.

15. Tri nod creulondeb: niwedu gwirion, anymdawr ag à weler, ac ymgellwair â thrallodus.

16. Tri pheth à geir o gampau moliannus: dysg, dawn, a llawenydd.

[1] *Llyvyr arall*—Tri cholled i ddyn à bair iddo ennill yn y diwedd: colli à vo'n ormodd gantho, colli iechyd rhodresgamp, a cholli à vo nesav at ei galon, canys yn hwnw y bydd mwyav ei bechawd ev.

[2] *Llyvyr arall*—ac a orchymyn ei gydwybod ei hun iddo.

[3] *Llyvyr arall*—Daioni, gwybodaeth, a gwynvyd.

17. Tri pheth à geir o godi'n vore: iechyd, golud, a doethineb.[1]

18. Tri pheth anhawdd i anghall eu gwneuthur: attal ei serch, attal ei lîd, ac attal ei dawawd.

19. Tri pheth a ddangosant ddoethineb mawr ar ddŷn: dyòddev cam yn amyneddgar, rheoli chwant yn ddeddvawl, a chadw ei veddwl yn ystyriawl.

20. Tri chyntevigaeth pob peth: deall, nerth, a chariad.

21. Tri anveidrolion y sydd, ac nis gellir amgen no phob peth bodiadawl ynddynt: ehangder, tragwyddoldeb, a Duw. Can nis gellir amgen no eu bod yn mhob màn, ac yn mhob amser, ar unwaith heb ymsymud.

22. Tri pheth nis gellir o bwyll bod ar y tri anveidrolion: dechreu, diwedd, a chanol.

23. Tri pheth nis gallant vod heb eu gwrthyddion: gwynvyd, gwirionedd, a gwybodaeth.[2]

24. Tri pheth nid ydynt ond un: gwirionedd, gwybodaeth, a goleuni.

25. Tri govynion dwyvoldeb a'i holl berthynasau: eitha'r ymgais, eitha'r deall, ac eitha'r serch.

26. Tri armerth à ennillant gariad Duw o'u rhoddi yn llwyr o galon er Duw a daioni bŷd: ymgais o gorf a deall, cydwybod, a bywyd lle bo achos.[3]

27. Tri pheth à ddangosant ynnîoldeb dŷn yn o gwbl: y tri pheth cyntav y tery olwg arnynt, y tri dasmal cyntav, a'r tri-pheth cyntav y sôn ev am danynt.

28. Tri anhebgor byd: gwybodaeth, trevn, a diwydrwydd.

29. Tri anhebgor gwlâd a chenedl: tëyrnedd, cyvraith, a golychwyd [4]

30. Tri anhebgor tëyrnedd: awdurdawd, cyviawnder, a doethineb.

31. Tair priv golovn tëyrnedd: arglwydd, rhaith, ac ynad.

32. Tri anhebgor cyviawnder: gwir, hardd, a chyvlesawl.

33. Tri pheth à geir o ymgynneddvu yn ddâ: parch ac anrhydedd y byd, boddlondeb meddwl, a derbyn da gan Dduw.

34. Tri pheth à frwythlonant ddoethineb: gwybod am à vu, ystyr am y sydd, a phryderu am à ddaw.

35. Tri pheth à barant hawddvyd: iechyd corf, meddiant ddiangen, a chydwybod làn.

36. Tri pheth hardd eu gwcled: cyttundeb rhwng brodyr, cymmwynasgarwch rhwng cymmydogion, a chariad fyddlon rhwng gwr a gwraig.

37. Tri anhebgor priodas er gwynvydigrwydd o heni: cyttundeb diddig, cariad cydgalon, a chyvawch y ddau mewn daioni.

38. Tair camp ganmoladwy: haelioni Cymro, syberwyd Franc, a hyder Sais.[1]

39. Tri pheth à bair i wr glôd a chymmeriad caredig yn ei wlâd: gwedyd yn dêg yn wyneb, rhoi gair da y'nghevn, a fyddlondeb cyveillach.

40. Tri pheth a ddiogelant i wr wasanaeth o gywirdeb: cariad a'i gwasanaetho, a'r modd a'i diogeler yw cariad am gariad; ynnill, neu elw a buddioldeb, ac o'i roddi y diogelir cywir o wasanaeth; a chymmyred à ddengys gymmeradwy ar à wneler yn wasanaeth, ac o'i ddodi y diogelir cywir ar wasanaeth.

41. Tri pheth annyddan eu gweled: cyvoethawg hael yn myned yn dlawd, dedwydd yn myned yn ddiriaid, a devodau gwlâd a chenedl yn myned yn waethwaeth.[2]

42. Tri rhyw o ddynion à vyddant yn oreuron hyd yn y man y bont ac a'u hadnaper: cywiriaid deddvolion, goludogion haelionus, a gwybodolion dedwyddgamp.

43. Tri dynion à vyddant yn oreu'r bŷd arnynt lle nas adnaper: celwyddogion, bradon, a lladron.

44. Tri pheth byr eu parâad: rhyveddoldeb, gwagogoniant, a thegwch ieuengctid.

45. Tri pheth fôl iawn eu gwneuthur: gweiddi ho! wi! cyn ynnill y gamp, cyvriv a bwrw ar ddydd cyn y delo, a barnu cyn cyn gweled y diwedd.

46. Tri pheth ni wnâ un dŷn doeth: dysgwyl am analladwy, tristâu am anadveradwy, ac ovni anocheladwy.

47. Tair priv gamp rhagrithwr: tystiolaethu yn wrthwyneb i air Duw, cyhuddaw yn anghyviawn, a barnu heb awdurdawd.

48. Tri pheth à hir gynnail ddirieidi ar ddŷn: meddwdawd, godineb, ac ymladdgarwch.

49. Tair cyvarmerth dedwydd: yn erbyn anfodion, yn erbyn pechodau, ac yn erbyn marwolaeth.

50. Tri arwyddoldeb dedwydd: rhadlondeb, rhywiogrwydd, a gwiliadoldeb.

51. Tri arwyddoldeb diriaid: avradlondeb, avrywiogrwydd, ac ysgeulusdawd.

[1] *Llyvyr arall*—Iechyd, dysg, a chyvoeth.
[2] *Llyvyr arall*—Daioni, cariad, a gallu.
[3] *Llyvyr arall*—Tair aberth, &c.
Llyvyr arall—addysg ar ddoethineb daionus.

[1] *Llyvyr arall*—Tair camp ganmoledig, &c.
[2] *Llyvyr arall*—Tri pheth annyddan eu gweled: cyvoethog hael yn myned yn dlawd, dedwydd yn myned yn ddiriaid, a chwerthin am ben y doeth ymbwyllgar.

52. Tri pheth goreu yn y bŷd: iechyd, rhyddyd, a synwyr.

53. Tri pheth balch: ceiliog ar ei domen ei hun, corgi ar arfed ei veistres, a chrach swyddwr yn ei ansawdd.

54. Tri pheth di glwyv di glevyd à vawr gystuddiant a'i harweinio: cariad, câs, a galar.[1]

55. Tri pheth ni wna un gwr doeth: myned hyd vôr lle gellir tir, gellwng i maes ei gyvrinach, a gellwng dydd i vyned heibio heb wneuthur rhyw ddaioni.

56. Tair camp ganmoladwy ar verch: tawedocrwydd, lledneisrwydd, a diweirdeb.

57. Tri pheth anhawdd eu tawelu: tònau 'r môr, rhysgyr gwynt, a thavawd gwraig anynad grintachlyd.

58. Tri chasbeth Cattwg Ddoeth: gwr heb wraig, mâb heb ddysg, a theulu heb drevnau.

59. Tri pheth casach no'r cwbl: bardd heb ddoethineb, ofeiriad heb gydwybod, a barnwr heb gyviawnder.

60. Tri pheth dyddan gan wr eu gweled: tanwyd o dân, yr aelwyd yn lân, a'r wraig yn llawen.

61. Tri pheth digon annyddan: cell wâg, bwyd heb halen, a thy heb olau.

62. Tri dŷn à welant eu hunain yn ddigon call: dwl ni welwys, balch ni ddysgwys, a fôl à gredwys.

63. Tri dŷn à welant eu hunain yn ddigon anghall: divalch à ŵyr ei ddifyg, awengar yn vawr ei ymchwil, a phwyllgar yn ovni y gwaethav o ddifyg canvod y goreu.

64. Tri dyn ni waeth gadael iddynt no'u dangos a'u cynghori: avradlawn blysig, trachwantus cybyddlyd, a doeth yn ei olwg ei hun.

65. Tri dyn goreu vydd eu gadael ar eu bwyd eu hunain: ansyber, annysgedig, ac anymgeisgar.

66. Tri dŷn goreu pa vwyav o dir vo ryngthynt â phawb: anynad, anwireddus, ac anwybodus.

67. Tri pheth hardd eu gweled: parchu dyeither ac estron, gwrol trugarawg, a heddwch mewn teulu.[2]

68. Tri dŷn er maint à wneir iddeu boddloni á anvoddlonant bawb: cybydd, merch dêg, a brenin.

69. Tri pheth ni ddylai neb o ddŷn ymvalchïo arnynt: ei wybodau, ei ddwyvoldeb, ac à wnel o gymmwynas; am nas gŵyr ac nas gwna vyth ei ddigon.

[1] *Llyvyr arall*—Cariad, galar, a chenvigen.
[2] *Llyvyr arall*—mewn teulu a chymmydogaeth.

70. Tri phwyll y sydd dros dewi: rhag dywedyd y peth nas dylid, rhag dywedyd y modd nas dylid, a rhag dywedyd y lle nas dylid.

71. Tri pheth y dylid eu diolch: gwahawdd, rhybudd, ac annerch.

72. Tri pheth à ddylai vod gan wr cyn ydd elo i ryvela: achos cyviawn, cleddyv cywir, a chariad ei wlâd a'i genedl.

73. Tri pheth anhebgor i wr cyn myned i ymgyvreitha: clawdd aur, wyneb pres, a chalon gareg.[1]

74. Tri pheth iawn i ddŷn ymladd trostynt er eu hamddiffyn: ei wlâd, ei gâr, a'i vywyd ei hun

75. Tri pheth y ceif dŷn o dreiglo ymhell o'i wlâd: newyn, anwyd, ac ammharch.

76. Tri pheth y dylai bob dŷn eu gwybod: devodau ei wlâd a'i genedl, dosparthau doethineb, a chelvyddyd y gallo ev ymgynnal ganthi.

77. Tri pheth ni wrandawant ar gynghor ba cystal bynag y bo: brŷs, llîd, a thrachwant.

78. Tri pheth nid call ymyryd â nhwy: llywodraeth tŷ gwr arall, cynghori pendevigion goludog, a chwilio dirgelion.

79. Tri pheth tu hwnt i bob deall dŷn: eithavodd maintioli, eithavodd bychander, a dirgelion Duw.

80. Tri gwall cadarn à ddygwydd ar ddŷn: gwall ovn, gwall llid, a gwall serch.

81. Tri angerdd à barant wallgov a gwallbwyll ar ddŷn: angerdd ovn, angerdd llid, ac angerdd serch.

82. Tri dŷn y dylid eu gochel: à weto ïe gyda phob dŷn, ac ar bob achos, à ochelo varnu nag y'mhlaid nag yn erbyn un dŷn ba bynag, ac à wrthepo bob dŷn, achos neu heb achos.

83. Tri pheth y gŵyr pob dŷn diwydgall eu gwneuthur: ei arad, ei lyvyr, a'i vara.

84. Tri moddion ymborth dŷn: hela, cyvnewidiaeth, ac aru daiar.

85. Tri pheth o'u hadver a estynant einioes dŷn: y wlâd a'i magwys yn blentyn, yr ymborth a'i maethwys yn blentyn, a'r myvyrdawd a'i dyddanwys yn blentyn.[2]

86. Tri pheth anwadal: cymmeriad neu garedigrwydd gwŷr mawr, cariad merch, a llygedyn o haul vis Ionawr.[3]

87. Tri dŷn nid call rhygoelio iddynt: hŷn no'i gymmodogion, rhodiadur o bell, a darllenwr llyvrau aghyviaith.[4]

[1] *Llyvyr arall*—ddûr.
[2] *Llyvyr arall*—Ei wlâd gynhenid, ei ymborth gynhenid, a'i vyvyrdawd gynhenid.
[3] *Llyvyr arall*—cymmeriad arlwyddi, &c.
[4] *Llyvyr arall*—ac a vo vaen dros iaen.

88. Tri ymryson à ddygwydd ar varwolaeth goludawg cadarndraws: cyvneseivíaid am ei dda bydawl, pryvaid am ei gorf abwyawl, a chythreuliaid am ei enaid anvarwawl.

89. Tri pheth sy'n cynnal y byd: cariad, diwydrwydd, a chyvraith gyviawn.

90. Tri pheth ar ddŷn à gauant ar bob daioni arall: dwyvoldeb, tangnevoldeb, a gwroldeb.

91. Tri areiliaid gwybodaeth: golwg, clyw, a deall.[1]

92. Tri pheth goreu o bob peth i bob dŷn: awen ddeallgar, iechyd corf, a chydwybod lân.

93. Tair camp ar ddŷn a'i gwnant yn debyg i gythraul: twyll, cynhen, ac enllib.

94. Tri pheth anverth eu gweled: teulu heb wybodaeth, gwlâd heb gyvraith, a chelvydd heb gyviawn o ddosparth.

95. Tri pheth cythreulig ar ddŷn: cybdddra, balchder, a chreulonder.

96. Tri gwrthred pob drwg: dirwest, amynedd, a haelioni.[2]

97. Tri amysgre pob peth: amser, lle, a rhyw.[3]

98. Tri pheth à gynnalant hir dylodi ar ddŷn: glythineb, ymryson, a balchder.

99. Tri pheth ni hawdd ortrecher arnynt: serthedd, cariad, ac angau.

100. Tri pheth à wna y gwâs yn well no'i veistyr: mynych ymgais â dysg, ymsynwyraw yn ddoeth ei awen, ac ymgynneddvu yn dda, ebai 'r Bardd Glâs o'r Gadair.

101. Tair dedwyddgamp gŵr: aru trev ei dâd,[4] cwnu plant ar vonedd, ac ymgadw rhag ymrysonau.

102. Tri pheth y dylai bob dŷn eu hystyried yn ddivrivawl: o ba le y daeth, yn mha le y mae, ac i ba le ydd â.

103. Tri pheth à geif pob doeth dedwydd: digonedd bydawl, llawenydd cydwybod, a gwynvyd nev yn dragywydd.

104. Tri pheth over dros bèn: amnaid ar ddall, ymgyvrinaw â byddar, a gyru fol i neges.

105. Tri pheth à wnant droedled gadarn i ddoethineb: ieuenctid i ddysgu, synwyr i ddeall, a cheudawd i gadw.

106. Tri pheth nid call ymddiried iddynt: iechyd henddyn, hinon gauav, a diniweidrwydd arglwydd cyvoeth.

107. Tri glwth byd: môr, dinas, ac arglwydd cyvoeth.

108. Tri pheth à ddifeithiant y bŷd: brenin fol heb gynghor, ynad heb gydwybod, a gwerin heb uvyddawd.

109. Tri anhebgor gwlâd a chenedl: priodasau, cyvodau dosparthus,[1] a chyvarwyddyd; canys heb y pethau hyn nis gellir cyvrwym ar wlâd a chenedl.

110. Tri chael à gar pob cybydd eu cael: cael clôd lle y dirper anghlod, cael ei wyn ar bob hael à welo yn myned yn dlawd, a chael y dorth a chadw ei geiniog hevyd.

111. Tri madvanogion bŷd: bardd, feryllt, a llavurwr. Sev bardd yn athraw gwybodau, deall, a doethineb; feryllt yn cynnal celvyddydau llaw ac oferyndodau daionus; a llavurwr yn aru daiar er ymborth dŷn ac anivel.

112. Tri anvad vanogion bŷd: tëyrn, cyvnewidydd, a chybydd. Sev drwg o bwyll ac ansawdd ac amcanion eu cyvlyrau y byddant, ac á wnânt ddaioni o ansawdd anghyvednaws; tëyrn yn gwarogi dirieidi ac yn gwerinaw anwar; cyvnewidydd yn diwall eisiwed; a chybydd yn cyvoethogi'r to à ddêl; a drwg o ansawdd cyvednaws ydynt; sev y bydd tëyrn yn anghyviawn gan olud a galluocrwydd, cyvnewidydd á wna dwyll ac avrad ac avraid o drachwant a blys anghyvednaws, a chybydd á newyna ei dylwyth a'i deulu a phawb o'r byd hyd y gallo er ynnill golud, ac ni wna ddaioni o'i vodd, sev daioni cyvednaws, oni newyno ev ei hunan o'r byd.

113. Tri pheth y dylai pob dŷn synwyrawl eu gwneuthur: darllen er gwybod, ystyr er addysg, a choviaw er daioni iddo ei hun ac i bawb ereill.

Ac velly tervyna.

3. Llyma Driodd Doethineb ereill.

O Hen Lyvyr mawr Margam. (*o'r un Llyvyr.*)

1. Tri pheth gwrol uvyddâu iddynt: i'r gwîr, i gynghor da, ac i'r ceiliog pylgain.

2. Tri dŷn atgas: tylawd balch, cyvoethawg celwyddawg, a hên godinebus.

3. Tri pheth ni ddylynt vod un orig vechan ar anghov: gorchymynion Duw; cafaeliad twrn da; a'r marw; gan ganlyn neu ymwrthod, val y bo govyn, à ddywedasant ac à wnaethant hwy.

4. Tri pheth ni vyddant anmrycheulyd: dwylaw y crochenydd, olwyn mèn, a'r un à ganlyno ddrwg gyveillach.

5. O dri pheth y daw cynghor da, sev pan gyvymgydiant y tri: gwybodaeth, ewyllys da, a rhyddyd ymadrawdd.

6. Tri pheth à ddylynt vod bob amser gartrev: y gâth, y funell, a'r wraig.

[1] *Llyvyr arall*—Tri areiliant, &c.
[2] *Llyvyr arall*—Tri gwrthrediaid, &c.
[3] *Llyvyr arall*—Tri amosgre, &c.
[4] *Llyvyr arall*—aru tir tattrev, &c.

[1] *Llyvyr arall*—Cyvundodau dosparthus, &c.

7. Tri pheth annaturiawl: marchnattrev heb ladron, hên gybydd heb arian, a merch lân heb garwr.

8. Tri pheth nid call myned yn eu cylch mewn brŷs: rhyvel, gwleddocrwydd, ac ymddadlu.

9. Tri pheth nid call iawn eu bostio: cwrw da, gwraig làn, a phwrs llawn.[1]

10. Tri pheth nid hawdd gan neb eu benthyca: ei varch, ei arvau, a'i wraig.

11. Tri pheth hardd ger bron Duw a dŷn: cyttundeb rhwng brodyr a chwiorydd, cariad rhwng cymmodogion, a gwr a gwraig yn cadw eu fydd mewn cyttundeb.

12. Tri pheth sy raid byw hebddynt os mynir heddwch: golud, arvau, a gwraig.

13. Tri dŷn à vydd ddiogel a diangol ba le bynag ydd elont, ai heddwch ai rhyvel y bo: benyw, gwr cyn barv, a gwr heb arv; ac nis dylid niwed corforawl iddynt.

14. Tri chasbeth Duw a dŷn: golwg ymladdgar, tavod twyllodrus, ac asbri drygionus.

15. Tri pheth puteinaidd eu lliw ar venyw: bod yn voethus, yn chwerthinus, ac yn chwannog i ymdrwsiadu yn wych a chostus.

16. Tri pheth sydd o ddiawl: peri anghydvod rhwng brodyr a chyveillion, anudoniaeth, sev gau dystiolaeth, a chwannocrwydd i dywallt gwaed.

17. Tri nôd anwr: dal gormod sylw ar à vo distadl, drwgdybio yn ddiachos, ac heb ynddo draserch â nebun o'r byd.

18. Tri nôd bradwr: chwannocrwydd i ymgyswllt â'r drwg, tavawd gwenieithus, a serch ar bob newydd.

19. Tri nôd gwroldeb: treiglyddiaeth mynych gartrevgyrch, anvoethusder, ac anmalchineb.

20. Tri nôd callineb: bod yn ymgeisgar, bod yn amyneddgar, a bod yn gartrevgar.

21. Tair camp à vydd ar wraig odinebus: chwedleua llawer am ei chymmodogion, myned oddigartrev heb ei gwr, ac edrych llawer drwy 'r fenestri.

22. Tri pheth anhardd anweddus ar verch neu wraig: chwedleua llawer lle a'i gwahodder, siarad o'r neilldu â gwyr a gweision, a siarad am ei chymmodogion amgen nog á vo da am danynt.

23. Tri arwydd rhagrith: beio arall yn vawr, codi llygaid yn y llan, ac ymddwyn gochelgar.

24. Tair privgamp dŷn fôl: glythineb, chwaryddiaeth, ac ymddadlu ag un à vo llai nog ev ei hun mewn gwybodaeth.

25. Tri pheth ni ddylid ymddiried gormod, iddynt: i gefyl cyvlog, i was balch, ac i wraig à sonio lawer am ei threvnidaeth.

26. Tri pheth goreu gadael iddynt: ci dierth, lliv disymmwth, a doeth yn ei olwg ei hun.

27. Tri pheth melltigedig eu rhwystraw: priodas gyvreithlawn, cynnorthwyaw 'r anghenus, a thröedigaeth at vuchedd gwell.

28. Tri dŷn ni ddylynt gerydd: plentyn yn llevian am dad neu vam, dŷn yn myned yn dlawd drwy gynnull gwybodaeth, a dŷn yn ymdrallodi mewn serch.

29. Tair bôst gwr: merch à briodawdd, bywyd á waredawdd, à chamsyniad à iawnhäawdd.

30. Tair bôst anwr: merch à dwyllawdd, maint a laddawdd, a'r eshwyn à roddawdd.[1]

31. Tri harddwch gwlâd: ysgubawr, eglwys, ac ysgol.[2]

32. Tri phall melltigedig: pallu bwyd i'r newynog, pallu lletty i ddierth ac estron, a phallu addysg i'r un a'i govyno.

33. Tri pheth er eu dryced gwell bod â nhwy no bod hebddynt: brenin, ofeiriad, a gwraig.

34. Tair llwybr, na ddoder avrwyddiant arnynt: llwybr plentyn i ysgol, llwybr dierth i bèn ei daith, a llwybr meddyg at y clâv.[3]

35. Tri pheth ni ddylid yn vawr ymchwilio iddynt: bywioliaeth y cymmodogion, cyvrinach serchogion, a dirgelion Duw.

36. Tri anfawd maeronydd: gwâs twyllodrus, morwyn dew, a gwraig valch.

37. Tri anfawd llavurwr: gweithiwr dïog, had lledryw, a thir tragolwg.

38. Tri phrivanmhorth llavurwr: tir drwg, arglwydd drwg, a gwraig ddrwg.

39. Tri gwrthwynebrwydd gŵr: plant gwrthnysig, gwraig buteinllyd, ac anair ei gymmodogion.

40. Tri pheth anghysurus: corf heb iechyd, tŷ heb wraig, a phwrs heb arian.

41. Tri pheth ni wnant voddlondeb i neb: tŷ heb olau, aelwyd heb wrês, a bwyd heb halen.

42. Tri pheth ni wnant wr yn oludawg: gwraig gysgadur, merch buteinllyd, a mâb tringar.

43. Tri pheth anhawdd eu gweled: hên vwch heb varv, hên ysgubawr heb lygod, a hên ddŷn heb drachwant.

44. Tri deuodd anhawdd eu cael ynghŷd:

[1] *Llyvyr arall*—Ac arian mewn côd.

[1] *Llyvyr arall*—A dirieidi à wnaeth.

[2] *Llyvyr arall*—Arad, evail, ac ysgol. Hevyd,—*Llyvyr arall*—Ysgubawr, evail, ac Ysgol.

[3] *Llyvyr arall*—Llwybr ysgol, llwybr priodas, a llwybr golychwyd.

doethineb a chyvoeth, awengamp a bòl brâs, ac anrhydedd ac anneddvoldeb.

45. Tri pheth over chwiliaw am danynt: aur y'mhwrs prydydd, iechyd y'nghorf meddwyn, a doethineb mewn meddwl balch.

46. Tri pheth ereill over chwiliaw am danynt: callineb mewn pèn chwaldodog, diwydrwydd mewn cyvingder, a fyddlondeb mewn calon ariangar.

47. Tri chais doeth: gwraig dawedog o blith ei gymmodogion, boddlondeb yn ei gartrev ei hun, a santeiddrwydd yn ei gydwybod.

48. Tri breninoldeb gwr: dodrevn tŷ a thir o'i wneuthuriad ei hun, ymdaith o'i drevdir ei hûn, a doethineb o'i awenbwyll ei hun.[1]

49. Tri pheth ni weled hyd yn hyn yn y bŷd: glwth iachus, cysgadur celvydd, a balch anrhydeddus.

50. Tri pheth over dysgwyl am danynt: gwirionedd mewn rhagreithwr, cywirdeb mewn gwenieithwr, a chyviawnder gan gyvreithwr.

51. Tri pheth gwrthun eu gweled: ieuanc heb lawenydd, hir addysg heb gelvyddyd, a chlâv heb grevydd.

52 Tri pheth anverth eu gweled: cymmodogaeth heb gymmwynasau, athraw ansyber, a phenteulu digrevydd.

53. Tri pheth gwradwyddus mewn gwlad: bardd heb urddas, llandrev heb ysgol, a chenedl heb gywilydd.

54. Tri pheth ni oddevant ymgellwair ag ŵynt: iechyd, llwyddiant, ac oedran.

55. Tri anhebgor doethineb: calon yn meddwl, iaith i ddatgan, a cheudawd i gadw.[2]

56. Tair cynneddv anweddus ar ddŷn: bod yn daer ei gais, yn galed ei rôdd, ac yn ddrwg ei dŷb.

57. Tri pheth y ceif dŷn dwyvawl: digonedd bydawl, heddwch cydwybodawl, a llawenydd nevawl.

58. Tri pheth y ceif dyn trugarawg: cariad y byd, bôdd ei galon ei hun, a bôdd Duw.

59. Tri pheth y ceif dyn goddevus: llonyddwch, cariad, a'r goreu ar ei gaseion.

60. Tri pheth y ceif dŷn dedwydd: cariad y bŷd, bywyd heddychlawn, a gwynvyd yn y byd à ddaw.

61. Tri pheth y ceif diriaid: câs y bŷd, avlwyddiant, a digovaint Duw.

62. Tri pheth y ceif dyn divalch: amledd da'r bŷd, llawenydd cyveillgar, ac esmwythder yn ei ansawdd.

63. Tri pheth y ceif dyn balch: câs ei gymmodogion, colled beunyddiawl, ac anesmwythder gwastadawl.

64. Tri pheth y ceif dyn diwyd: clôd, cyvoeth, a blaenoriaeth.

65. Tri pheth y ceif dyn gwallus: colledion mynych, tristwch calon, a chywilydd.

66. Tri pheth y ceif dyn gofalus: llwyddiant ar ei amcanion, boddlondeb meddwl, a pharch anrhydeddus.

67. Tri pheth y ceif dŷn cywir: dawn, cariad, a gair da, gan bawb a'i adnapo.

68. Tri pheth y ceif dyn twyllodrus: pawb yn ymwrthod ag ev, 'drygvyd anesgorawl, a diwedd drwg.

69. Tri pheth a geir o hirddilyn drwg: bod yn ddrwg ei barch, yn ddrwg ei vŷd, ac yn ddrwg ei ddiwedd.

70. Tri gair cynghor y Bardd Glâs: câr dy Dduw yn vwy no dim, canys eve a'th wnaeth, ac à ddarmerthes erod; gweddïa ar Dduw yn bènav o ddim, canys eve a'th wared ac a'th geidw; ac ovna Dduw yn fwy no dim, canys eve a'th varn.

71. Tri arwydd ar ddŷn ei vod yn gadwedig gan Dduw: casâu pethau drygionus, caru pob pethau daionus, ac ymolychwydaw yn ddiwall ovalus.

72. Tri pheth à geir o godi yn vore: iechyd, golud, a dedwyddyd.

73. Tri pheth à geir o hirgwsg y bore: aviechyd, tylodi, a dirieidi meddwl.

74. Tri pheth ar ddŷn à bair i'r diawl ei garu: balchder, cenvigen, a thrais.

75. Tri pheth y dyly cristion eu coviaw bob awr ac orig rhag pechu yn varwawl: gorchymynion Duw, llawenydd y nêv, a phoenau ufern.

76. Tri pheth à ddaw ar ddŷn heb yn wybod iddo: cwsg, henaint, a phechawd.

77. Tri gelyn enaid cristion: y bŷd, y cnawd, a'r cythraul.

78. Tri meddyg enaid dŷn: dirwest, trugaredd, a chyviawnder.

79. Tri pheth serchog iddeu gweled: diriaid yn myned yn ddedwydd, cybydd yn myned yn hael, a phechadur yn myned yn sântaidd.

80. Tri dyn melltigedig y sydd: á dòro orchymynion Duw heb vod yn edivar gantho, na wypo ddim o ddaioni ac nas cais ei ddysgu, ac à wypo lawer ac nas dengys i neb, na gwneuthur yn ol ei wybodaeth.

81. Tri pheth y dylai cristion daionus eu gwneuthur: caru Duw yn vwy no dim, ovni Duw yn vwy no dim a gwaranaethu Duw o vlaen pob peth.

[1] *Llyvyr arall*—Dodrevn o'i vedrusder ei hûn, &c. &c.

[2] *Llyvyr arall*—A chôv i gadw.

82. Tri pheth sydd anghenraid i bechadur eu gwneuthur: cydnabod ei bechodau, ymwellâu ac ymiawnâu yn ei vuchedd, a deisyf maddeuant gan Dduw.

83. Tri pheth y dylai bob dyn eu hystyried: o ba le y daeth, y'mha le y mae, ac i ba le ydd â ev.

84. Tri pheth y dylai bob cristion eu gwneuthur: iawn ystyried à vu, iawn ddevnyddiaw y sydd, ac iawn ovni a gwiliad à vydd.

85. Tri pheth à gymmhellant weddi ar Dduw: hir-glevyd, hir-advyd, a hir-dristyd; ac i'r neb à weddïo ni ddifyg ymwared.

86. Tri rhyw o ddynion nid ovnant Dduw: bradwyr, murnwyr, a threiswyr.

87. Tri rhyw o ddynion ni phrisiant vawr am onestrwydd: anudonwyr, meddwon, a chribddeilwyr.

88. Tri pheth iawn i ddynion meddwl am danynt a'u gwneuthur: cyviawnder, heddwch, a chariad.

89. Tri daioni ar ddŷn à gauant ar bob daioni arall: meddwl yn dda, dywedyd yn dda, ac o'i holl egni amcanu yn dda.

90. Tri pheth sydd raid i bob cristion bucheddawl ryvela yn eu herbyn: twyll y byd, twyll y cnawd, a thwyll y cythraul.[1]

91. Tri pheth os cefir ni waeth beth arall à gollir: gair da doethion, heddwch cydwybod, a bòdd Duw.

92. Tri pheth à ennillant gariad Duw: fydd lân ddivrychau, gobaith cariad diammheuau, a chariad diwallau.

93. Tri achos y dylai bob dŷn garu Duw: am ei grëedigaeth, am ei waredigaeth, ac am vod Duw yn llywodraethu arno.

94. Tri rhyw ddŷn y sydd: dŷn i Dduw, dŷn i ddŷn, a dŷn i ddiawl; dŷn i Dduw à wna dda dros ddrwg, dŷn i ddŷn à wnâ dda dros dda a drwg dros ddrwg, a dŷn i ddiawl à wnâ ddrwg dros dda.

95. Tri pheth a gywirant eu gair yn ddifuant: angeu, dial Duw, ac ediveirwch.

96. Tri pheth ni ellir santeiddrwydd lle byddant: gloddest, balchder, a thrachwant.

97. Tri nôd santeiddrwydd: cariad perffaith, uvydddawd gwrol, a thawedigrwydd serchawg.

98. Tair sylvaen doethineb: mab-icuenctid i ddysgu, côv i gadw dysg, ac aml synwyrau i drevnidaethu à ddysger.

99. Tri pheth hardd ar ddŷn: gwybyddiaeth, llywodraeth, a dwyvolaeth.

100. Tri pheth sy'n gwaethygu'r byd: seguryd, balchder, ac avradlondeb.

101. Tri pheth sydd yn trallodi'r byd: cenvigen, twyll, a thrachwant.

102. Tri pheth y dysg ddŷn o vod yn segur: dywedyd celwydd, cyvrinach dichellion, a chelvyddydau lladron.

103. Tri pheth canmoledig ar wr: bod yn ddoeth ei ymadrawdd, yn gyviawn ei weithred, ac yn gymmedrawl ei vuchedd.

104. Tri pheth sydd well no chyvoeth: iechyd, rhyddyd, a synwyr.

105. Tri pheth à wnant wr yn vlaenor ar ei gymmodogion: bod yn hael, bod yn ddoeth, a bod yn gyvoethawg.

106. Tri ychydig à bair colli llawer: ychydig o anwydau drwg, ychydig o wall, ac ychydig o dwyll (o ledrad.)

107. Tri pheth à ddwg ar ddysg i ddŷn yr hyn à wna lês iddo: ei synwyrau, ei syniadau, a'i ddygwyddiadau.

108. Tri pheth anhawdd i ddyn: llwyr-adnabod ei hunan, gorchvygu chwant naturiawl, a chadw ei rîn.

109. Tri pheth gwerthvawrocav yn y byd i ddŷn: iechyd, rhyddyd, a rhinwedd.

110. Tri pheth à ennillant enw da i ddŷn: dywedyd ychydig, dangos cymmwynasgarwch, a diwydrwydd.[1]

111. Tri pheth ardderchawg ymhlith pethau ceudodawl: casâu folineb, caru rhinwedd, a dymunaw dysgu yn wastad.

112. Tair cynvedd ddrwg ar ddŷn: balchder heb haelioni, trachwant heb gyviawnder, a digovaint heb drugaredd.

113. Tri modd y sydd i adnabod dŷn: ei ymadroddion, ei ymddygiad, a barn ei gymmodogion am dano.

114. Tri pheth à vawr dwyllant ddŷn: geiriau têg, chwant elw ac ennill, ac eisieu gwybyddiaeth.

115. Tri pheth anhawdd i ddŷn eu gwneuthur: oeri'r tân, sychu'r dwr, a boddloni'r byd.

116. Tri pheth à gadwant wr mewn iechyd: ymborth mesurawl, travaelu cymmedrawl, a chadw gwrês naturiawl.

117. Tri pheth à arweiniant ddŷn i dylodi: chwareu aviachus, glythineb, a phuteindra.

118. Tri pheth ni all dŷn eu cuddiaw: cyvoeth mawr, cariad mawr, a châs mawr.

119. Tri pheth gwrthwyneb gan wr ymadael â nhwy: y wlad lle ei ganed ac a'i magwyd, cyvoeth á gasgloedd eve ei hun, a chyveillion ei ieuenctid a brovoedd eve eu bod yn gywir iddo.[2]

[1] *Llyvyr arall*—Twyll b d, chwant y cnawd, a dichell y cythraul.

[1] *Llyvyr arall* — Dywedyd ychydig, gwneuthur daioni, ac ymlavuriaw yn ei alwad.

[2] *Llyvyr arall*—a brovwyd yn gywir iddo.

120. Tri pheth anwylav gan ddŷn yn hyn o vŷd: ei wlâd enedigawl, ei gyveillion fyddlawn, a'i eppil gweinion.

121. Tri achos esgusedig i ddŷn ddywedyd celwydd: i gadw bywyd ei gydgristion, i heddychu cymmodogion, ac i gadw ei wraig yn voddlon.

122. Tri pheth sy'n cadw y byd mewn trevn: rhiv, pwys, a mesur.

123. Tri pheth anhebgor i wneuthur pob peth: gwybodaeth pa vodd a'i gwneler, gallu iddei wneuthur, ac ewyllys iddei wneuthur.

124. Tri pheth y sydd ac hebddynt nis gellir dwyn un peth o'r byd i bèn: modd, medr, a myn.

125. Tri pheth da pan vont gymmesur, a drwg pan vont yn anghymmesur: tân, dwr, a gwynt.[1]

126. Tri chyw o'r un nŷth: creftwr tavawd, bardd dosbarth, a dwyvol cyfes.[2]

127. Tri pheth ni all nebun vyw hebddynt: trwydded, gwisg, a gwasgawd.

128. Tri nôd lleidr: tavawd holiadgar, llygad gwiliadus, ac wynebpryd brawychus.

129. Tri pheth à ddangosant gywirddyn: genau tawedog, llygad diymdawr, ac wyneb divraw.

130. Tri pheth à geif dŷn wrth ymgyvreitha: côst, goval a thraferth.

131. Tri rhyw o ddynion à gollant eu haravwch yn debyg i ddynion allan o bwyll a chôv: corelwyr, helyddion, ac ymladdwyr.

132. Tri rhyw o ddynion anhawdd vydd eu cael yn yr un veddwl: y call a'r fôl, yr hael a'r cybydd, a'r cywir a'r lleidr.

133. Tri nuvydrwydd mawr ar ddŷn: bwyta wrth gynghor ei vola, gwreica wrth gynghor ei gnawd, ac ymladd wrth gynghor ei lid.

134. Tri rhyvedd bŷd: hên heb drachwant, gwraig heb wagedd, a dŷn da heb iddo elynion.

135. Tri dŷn ni ddylai neb eu gwahawdd iddei gʻniaw: twyllwr gwenieithus, tystyniwr gwatwarus, a bradwr cenvigenus.

136. Tri pheth à bair i ddŷn golli gwahoddiad: yved gormodd, dywedyd gormodd, ac aros gormodd.

137. Tri pheth à geir o vyned yn vynych i davarn: colli golud, colli iechyd, a cholli deall a phell.

138. Tri pheth da iawn eu meddu lle ydd êir yn vynych i davarn: bola gwydn, pèn cadarn, a phwrs trwm.

[1] *Llyvyr arall*—Tri brenin byd: tân, dwr, a gwynt; canys hwy a wnant a vynant lle nas cauer yn eu herbyn.

[2] *Llyvyr arall*—celvydd tavawd, &c.

139. Tri pheth à geir yn rwydd o vyned yn vynych i davarn: diod à vyner tra phery yr arian, pechu à vyner tra bydder yn y byd, ac edivaru à vyner yn y byd nesav.[1]

140. Tri pheth nis ceif un dŷn yn ddifael wrth ei angen: benthyg arian gan ocrwr yn ddi lôg, pleidio ei hawl yn y llŷs gan wr o gyvraith yn ddi dwnc, a chiniaw moethusvwyd yn ddirybudd yn nhŷ cybydd anghawr.

141. Tri pheth y dylai bob dŷn bryderu yn wastadawl eu gwneuthur: gwrandaw yn uvydd, atteb yn gall, ac ymddwyn yn serchog.

142. Tri pheth nid ydynt yn gorphwys un amser mewn dŷn: yr anadl yn cerdded, y gwaed yn rhedeg, a'r enaid yn meddylied.[2]

143. Tri pheth à wnânt wraig yn anniwair: tegwch ei hwyneb, folineb ei phen, a balchder ei chalon.

144. Tri dedwyddwch teulu: pènor deallus, bugail govalus, a negeswr cywir.

145. Tri annedwydd teulu: llettya ofeiriad, cadw mursen, a drygwas diog.

146. Tri pheth sydd gystal a'r goreu: bara a llaeth rhag newyn, gwisg lwyd rhag anwyd, a mâb gwreng ar adwy.

147. Tri ansawdd y sydd ar bob peth: amser, lle, a chynneiryd.

148 Tri chynryw y sydd ar bob peth corforawl: lliw, llûn, a sylwedd.

149 Tri pheth hyvryd i'r clyw: telyn gyweirber, newyddion dâ, a llais dŷn à gerir.

150. Tri pheth hyvryd i'r olwg: goleu o dywyllwch, gorchwyl gyweirdeg, ac wyneb dŷn a gerir.

151. Tri pheth hyvryd eu teimlaw: arogl, blâs, ac ardymyr gwres ac oervel.[4]

152. Tri pheth hyvryd i'r deall: gwir, hardd, a rhyw.

153. Tri pheth à wnant wr yn voddlon iddei vyd: tŷ trevnus, tîr cyvanneddus, a gwraig rinweddus.

154. Tri pheth y dylai à gafai gymmwynas: ei ddiolch, ei goviaw, a thalu y pwyth lle bo galw.

155. Tri difeithwch trev: llîv, tân, ac ymrysonau.

156. Tri llawenydd gwr ar gyveiliorn:

[1] *Llyvyr arall*—ac edivaru à vyner pan bo'n ry hwyr.

[2] *Llyvyr arall*—a'r bledren yn sugno. — *hevyd arall:* y bledren yn sugno, yr anadl yn ymrwyllo, a'r enaid yn meddylio.

[3] *Llyvyr arall*—a pherthynas. *Arall:* amser, lle, a chyvymwain.

[4] *Llyvyr arall*—a merch a gerir wrth ystlys yn y gwely.

lliw tân, ci yn cyvarth, a mâb bychan yn gweiddi

157. Tair elusen à vydd bènav o bob eluseni: ymborth, nawdd, a chynghor da.[1]

158. Tri pheth melltigedig y dŷn a'u symmuto: fin tîr, pont ar avon, a maen gobaith.

159. Tri pheth y dylai bob Cymro tiriog eu cadw a'u cynnal: gwraig briod, gwr wrth arv lle nas dyco arv ei hunan, ac athraw teuluaidd.

160. Tri pheth sy'n llygru'r bŷd: balchder, avradlondeb, a segurdawd.

161. Tri pheth ar ddŷn a'i gwna yn bechadur: ovnau, trachwant, ac anwybodaeth (anystyriaeth.)

162. Tri gorevras dirieidi: glythineb, ymladd, ac anwadalwch.

163. Mewn tri pheth y bydd dŷn yn debyg i ddiawl: maglu y fordd, ovni plentyn bach yn ddiachos, a chwerthin am bèn y drwg.

164. Tri phriv dremynt corforawl dŷn: gweled, clywed, a theimlaw.

165. Tri phriv dremynt enaid dŷn: cariad, câs, a deall.

166. Tri chelwydd y sydd: celwydd o wedyd, celwydd o dewi, a chelwydd o ymddwyn; sev y pair pob un o'r tri i arall gredu y peth nas dylai.

167. Tri pheth sy'n gwbl o Dduw: gwirionedd, tangnevedd, a gwybodau moliannus.

168. Tri pheth sy'n gwbl o gythraul: anwiredd, tringarwch, ac anwybodaeth.

169. Tri amryson dwyvawl: pwyll dros anmhwyll, dawn dros annawn, a chariad dros gâs.

170. Tri amryson annwyvawl: rhyvel dros ryvel, cyvraith dros gyvraith, a gwarth dros warth.

171. Tri devnyddion barn gywir: deddv o gyviawnder, trugaredd o gariad, a chydwybod o iawn bwyll a deall ar y ddau gyntav.

172. Tri pheth nis gellir o ddŷn barn gyviawn arnynt: syrth awen, ymgais deall, a barn y gydwybod; am nad oes namyn Duw à'u gŵyr.

173. Tri pheth ni wêdd ar ddwyvawl dedwydd: edrych ag un llygad, gwrandaw ag un clust, a chynnorthwyaw ag un llaw.

174. Tri anhebgor deddv a chynneddv: trevn hardd, cyviawnder, a thrugaredd o gariad perfaith.

175. Tri pheth à ddygant ar gôv i ddŷn ei ddyled i Dduw a dŷn: elusen, unpryd, a gweddi.

[1] *Llyvyr arall*—Gosymaith, lletty, a rhybudd.

176. Tri pheth à wnânt gyviawn ddwyvoldeb: cariad tuag at Dduw, cariad tuag at bob byw, a chariad tuag at bob gwir a chyviawn.

177. Tri argae doethineb: gwirionedd, cariad, ac awenbwyll.

178. Tri pheth à gauant yn erbyn doethineb: trachwant, trablys, a thrafull.[1]

179. Tri ennill à geir yn golled yn y diwedd: ennill clôd am argyweddus o gamp a gweithred, ennill golud o gribddail a phob anghyviawnder, ac ennill y goreu mewn drwg ymryson.

180. Tri cholled à dry yn ennill mawr yn y diwedd: colli da'r byd o roddi cardawd, colli clôd a pharch y byd am ddedwydd o gamp a gweithred a chynneddv, a cholli bywyd dros wir a chyviawn.

181. Tri gwrthrym pob gwybodaeth a chelvyddyd: anymgais, gorymgais, a dallymgais.

182. Tri pheth rhyvedd sydd yn y byd, gan gymmaint y gwahaniaeth y sy rhynddynt: wynebau dynion, llavarlais dynion, ac ysgriveniadau dynion; can nis cefir ar un o'r tri ddau yn gynhebyg y naill i'r llall

183. Tri pheth ni ddarvyddant vyth: cerdd o awen vlodeuawg, enaid dŷn, a chariad perffaith.

184. Tri pheth à wna ysgrivenydd da, nid amgen: tragwyddoli côv ar weithred ardderchawg, gadael addysg gadarn i'r oesoedd à ddelont, a phery clôd à bery dros vyth iddei enw ei hunan.

Ac velly tervyna.

5. Llyma Driodd Llelo Llawdrwm o'r Coetty.

O'r un Llyvyr.

1. Tri pheth nyw moler am eu gwaith: iâr am ganu, caseg am redeg ymaith, a gwraig am ymladd.

2. Tri dŷn à vyddant mor hên ar fordd vawr cyn y moler: celwyddog, avrywiog, a chybudd.

3. Tri dŷn a fydd a gwae à gorfo arno aros yn ufern nes cafont air dâ: gwraig veddw, gwr diog, ac athrodwr.

4. Tri dyn câs gan bawb am danynt: trachwantus, gwenieithus, a balch.

5. Tri dŷn à vyddant gasach nô diawl gan bawb: ymgynhenwr, anudonwr, a bradwr.

6. Tri brodyr unbarch â mochi: glwth, meddwyn, a diogyn.

7. Tri pheth over eu dodi, gan nas gwneir lles yn y byd ag hwynt: drych o

[1] *Llyvyr arall*—trachwant, llîd, a thraull.

vlaen dall, cleddyv yn llaw baban, a dysg y'mhen balch.

8. Tri dŷn nid doeth ymddiried iddynt: nad ymwel â chelvydd, nad ymgais â cherdd, ac nag ymgar â'i blant.

9. Tri dŷn goreu y lleiav o'u cymdeithas: na chatwo gyvrinach, na charo benyw, ac na wypo gelvyddyd ddaionus.

10. Tri dŷn y chwardd pawb am eu pènau: hunandybus, dŷn anwadal, ac à ovno ei gysgod ei hun.

11. Tri dŷn nid hawdd y cant à gâr eu gwrandaw: achwyngar, sengar, a doeth yn ei olwg ei hun.[1]

12. Tri anfawd cymmodogaeth: tŷ cwrw, gyr o helgwn, a gwarsedd-dy benywod.

13. Tri rhyw o ddynion nid rhaid ond myned i ufern i gael à vyner o honynt: mawrion pèn tomen, penaethiaid trawsion, ac ofeiriaid meddwon.

14. Tri pheth à wnant wr mor gyvoethawg a'r Sais à werthwyd gan ei dâd i'r diawl: gwraig amheuthyngar, merched à ymbincio, a meibion segurllyd.

15. Tri dŷn à dòrant eu gyddygau eisieu edrych dan eu traed: balch trwyn uchel, awyddus poethvryd, ac anarbodus penchwiw.

16. Tri anfawd cymmodogaeth: privavon, monachlog dlawd, a rhyvel castell; am nas symmudant vyth o'r llëodd y byddant.

17. Tri pheth à wnant wlâd yn dlawd: cnwd mawr o ofeiriaid, graddu llawer o brydyddion, a rhyvel pendevigion.

18. Tri chymmodogion goreu yn y bŷd: dedwydd, celvydd, a chybydd crogedig.[2]

19. Tri pheth prydverth eu gweled: dedwydd yn ei gartrev, celvydd yn ei orchwyl, a chybydd ar y grogbren.

20. Tri pheth nid ydynt ond rhith a lledrith: diweirdeb merch binc drwsiadgar, crevydd ofeiriad, a gwybodaeth arglwyddi cyvoeth.

21. Tri pheth à ddangosant buten: min moethus, gwisgodd teganllyd, a thavawd rhedegawg.

22. Tri pheth ni waeth pa mor bell y byddys oddiwrthynt: gwragedd chwedleugar, ofeiriaid meddwon, a chwn cynddeiriogion.

23. Tri ennill à gavas y gwr a losged ei dŷ: gwared llygod o'i gell, gwared chwain o'i wely, a gwaredu gwraig ddrwg; sev y llosged y tri ar unwaith gyda'r tŷ.

24. Tri pheth da iawn eu meddu cyn y dyweder à vo'n gelwydd: synwyrbwyll cadarn i lyvelu, fol i wrandaw, a chôv da rhag ei wrthddywedyd yn ol llaw.

25. Tri pheth ni thalant vawr ond tra vont yn y tŷ: y gath, y sawell, a'r wraig.

26. Tri pheth à vyddant o'u pànu yn dda: brethyn llwyd, pysgodyn hallt, a gwas diog.

27. Tri dŷn ni thalant eu cwnu oddi ar y dòmen: gloddestwr, ymbinciwr, a chrochwerthinwr.

28. Tri pheth goreu vydd eu crogi: eog hallt, het wleb, a chybydd.

29. Tri chymmodog goreu yn y bŷd: celvydd ei law, dedwydd ei vuchedd, a chadarn gybydd yn nghrôg.

30. Tri pheth à gâr cybydd: goganu hael, gormesu tlawd, adwyn eiddo ei hunan.

31. Tri pheth nid hawdd eu dala: carw ar vynydd, cadno mewn coed, a cheiniog cybydd anghawr.

32. Tri dewisbeth y Bardd Glâs o'r Gadair: tân heb vwg, fordd heb laid, a gwraig heb davawd.

33. Tri pheth à wnant arglwydd cyvoeth cystal a'r goreu: cynfon llo, post clwyd, a chi crogiedig.

34. Tri pheth y dylai gwr eu meddu cyn ydd elo i ymgyvreitha: clawdd aur, wyneb pres, a chalon ddûr.

35. Tri pheth ni wnant ddaioni ond tra eu gwylier yn graf: tân, dwr, a benyw; can nad oes o honynt eu hunain à wna ddaioni.

36. Tri pheth goreu ar vrys eu gwneuthur: dal chwain, troi oddiar fordd ci cynddeiriog, a gochel ymryson.

37. Tri pheth fol eu gwneuthur: piso yn erbyn y gwynt, ceisio dal llucheden, a cheisio attal tavawd gwraig.

38. Tri pheth nis gwelir yn ebrwydd: glendid mewn hwch, moesgarwch mewn Sais, a doethineb mewn Cymro.

39. Tri pheth ni châr nemmor o ddŷn eu cael: bwyd mâb marw, goleu lluched i'r nos, a chariad Sais.

40. Tri pheth ni chywirir vyth: breuddwyd gormwyth, gobaith ynvyd, ac addewid Sais.

41. Tair cenedl amravael eu divyrwch: Cymro, cerdd a thelyn; Franc, minddumanddell; a Sais, meddwi.

42. Tri pheth ni wyr neb pa bryd nac yn mha le y ceir eu gweled: mantell Tegau Eurvron, llŷs Gwyn ab Nudd, a syberwyd Sais.

43. Tri pheth nid aml a'u clywer: cân y vôrvorwyn, gwahoddiad i wledd gan gybydd, a doethineb o ben Sais.

[1] *Llyvyr arall*—yn ei veddwl ei hûn.
[2] *Gwel riv* 26.

44. Tri pheth ni waeth pa leiav y clywer o honynt: cân hwch ar wynt, cnec hên wrach, a phregeth brawd llwyd.

45. Tri pheth annhebyg iawn y naill i un o'r lleill o honynt: dŷn, bram hên wrach, a chybydd.

46. Tri pheth nid rhaid eu casach: llyfant ar vynwes merch dêg, cybydd y man y bo dynion, a diriaid y man y bo doethion dedwydd.

47. Tri pheth anesmwyth iawn iddeu perchenogion: gwely chweiniog, ystôl gygnog, a gwraig oludog, lle na bo golud o du'r gwr.

48. Tri dŷn digon da eu cyvlyrau pei gwelent hyny: diangen, diddyled, a diwraig.

49. Tri pheth ni hawdd eu digoni: bol gwraig maerwr, balchder gwraig brenin, a ..... merch tavarnwr.

50. Tri pheth ni hawdd ymguddiant: gwellyn mewn esgid, mynawyd mewn cwd, a phuten mewn tyrva.

51. Tri pheth o chârr gwraig weled y ddau cyntav, hi á gâr weled y trydydd: wyneb ei hun mewn drych, cevn ei gwr o bell, a gordderchwr wrth ei gwely.

52. Tri pheth ni rydant vyth: cleddyv gwas gwych, pedolau cefyl melinydd, a thavod gwraig.

53. Tri pheth ni wnant les iddeu perchenogion: gwybodau diriaid, trythgwd cybydd a thavod gwraig.

54. Tri pheth ni hir-barânt: llestr pridd gwraig veddw, tân asglodyn, a morwyndawd merch drwsiadgar.[1]

55. Tri pheth à ddeuant a'r vrŷs: diawl at ei wâs, ci at olwyth, a phuten at . . .

56. Tri pheth ni hawdd welir: tân heb wrês, avon heb geulan, a benyw heb avrad.

57. Tri pheth à newid yn vynych: ceiliog gwynt, y lleuad, a meddwl merch.

58. Tri nôd budrog o gwbl: bod yn ddigywilydd yn ei budrogaeth, bod yn haerllyd yn ei amddiffyn ac eiste yn esmwyth yn ei ganol.

59. Tri dŷn o vod yn ddrwg goreu pa waethav: brenin, ofeiriad, a gwraig; sev goreu eu bod cynnryced ag nas gellir eu caru mwyach.

60. Tri pheth anaml eu gweled: crŷn daiar, difyg o gwbl ar yr haul, a gwraig gall.

61. Tri hên ni ŵyr neb o ddŷn eu dichell: hen vilwr, hen gadno, a hen buten.

62. Tri hên niw mawr berchir: hen gyhuddwr anudonllyd, hen gybydd à ysbeiliwyd o'i gist, a hen gyfoden benllwyd.

63. Tri pheth à arwain i dylodi: gloddest, diogi, a mercheta.

64. Tri chynghor y sydd a gwae y neb a'u gwnelo; cynghor llid, chynghor bòl, a chynghor . . .[1]

65. Tri anallu Duw: digoni gwagedd merch, digoni rhyvyg balch, a digoni trachwant cybydd

66. Tri dŷn nid doeth ymladd ag ŵynt: fol geni, ofeiriad, a gwraig.[2]

67. Tri dŷn y sydd ni wyddys yn iawn pa un gyntav o honynt á â i ddiawl: twyllodrus, balch, a chybydd anghawr.

68. Tri thincwd a dybiant eu hunain yn bencwd: cyvoethawg o ledrad a chribddail, gwybodus ar ddichellion dihirdawd, a mab à gredwys y cyvan à ddywed ei vam am dano.

69. Tri pheth à dybiant eu hunain yn ben ar bob peth: costog tom ar ei domen ei hun, baw ar ben derwen, a chybydd anghawr.

70. Tri pheth sydd gystal a'r goreu: pais wen rhag anwyd, mâb gwreng ar adwy, a gwr hanner call yn ofeiriad.

71. Tri pheth er llyncu y cyvan ni welant vyth eu digon: mor, mynwent, ac arglwydd cyvoeth.[3]

72. Tri pheth nid oes ar y byd vawr o'u heisieu: cwn cynddeiriog, breninodd, ac ofeiriaid.

73. Tri pheth llocher eu penau wrth vyned heibio iddynt: ci cynddeiriog, brenin, ac ofeiriad.

74. Tri dŷn medrus iawn ar y gelvyddyd o ymdavodi yn dda: hên edwicwr cribddeilgar, hên davarnwr segurllyd, a hên buten havog.

75. Tri pheth goreu yr hynav o bob un o honynt: hên gwrw, hên glêdd, a hên gyvaill.[4]

76. Tri pheth gwaethav vydd yr hynav o bob un o honynt: hen varch, hen gath, a hen vrenin.[5]

77. Tri dyn à welant eu hunain yn ddigon call: dwl ni welwys, balch ni ddysgwys, a fôl à gredwys.

78. Tri pheth à lygrant ac à bylant awen prydydd: cynghanedd orchestawl, a graddoliaeth eisteddvod, a mawl rhai dynion.

[1] *Llyvyr arall*—crochan pridd, &c.

[1] *Llyvyr arall*—tri chynghor nis dylid eu gwrandaw: cynghor llid, cynghor bòl, a chynghor cnawd.

[2] *Llyvyr arall*—nid gwrol ymladd ag wynt, &c.

[3] *Llyvyr arall* môr, mynwent, a brenin.

[4] *Llyvyr arall* hên vêdd, hên gledd, a hen gyvaill. Hevyd, *Llyvyr arall*—hen gwrw, hen vamwydd, a hên gyvaill.

[5] *Llyvyr arall*—Hên vara llwyd, hên bais dyllog, a hen arglwydd cyvoeth.

79. Tri ymryson à ddygwydd ar varwolaeth cadarndraws goludog: cyvneseiviaid am ei dda bydawl, pryvaid am ei gorf abwyawl, a chythreuliaid am ei enaid anvarwawl.

80. Tri pheth anhawdd eu hattal, ac nid haws lludd ar y pedwerydd: merch ieuanc wingllyd am a'i gorddercho, llidiawg am ddial, a thrasychedig rhag yved y ddiod à ddoder o'i vlaen; pedwerydd yw dadwrdd yr anuoeth, mwy anhawdd no'r cwbl ei attal.

Ac velly tervyna Triodd Lle'o Llawdrwm o'r Coetty: ac eve á elwid velly achaws y dyvelid ei ymadroddion ev i law drom yn ergydiaw yn galed a'i holl nerth; ac nid arbedai ev y nebun o ddŷn à wel'ai ev yn ddrwg ei ddevodau, ac yn ansyber ei gampau.

6. Triodd y Gwragedd.

(O'r un Llyvyr)

1. Tri pheth canmoledig ar wraig: ei hwyneb yn ddawnus, ei hymddyddan yn synwyrus, a'i harferion yn ddaionus.

2. Tri pheth à barant i wraig gael tybied yn dda am dani: ei gwr a'i phlant yn lân olchedig eu dillad, ei dodrevn yn lân a threvnus, a'i bod yn ymgadw gartrev.

3. Tri pheth à barant i wraig gael tybied yn ddrwg am dani: bod yn chwannog i gytgam â gwŷr a gweision, yn ammheuthungar, a dywedyd yn ddrwg am ei chymmodogion.[1]

4. Tri pheth à wnant wraig yn dda ei chymmeriad: sywder yn ei gwisgodd, gwylder yn ei hymadroddion, a rhadlondeb yn ei hymarweddiad.

5. Tri pheth à ddangosant wraig yn aniwair: bod yn chwerthingar heb wybod pam, yn valch ar ei phryd a'i gwedd, ac yn achwyngar ar ei gŵr.

6. Tri pheth hofaidd gan wr eu gweled ar ei wraig: ei bod yn rinweddus, yn cadw ei thŷ yn drevnus, ac yn ei gorchwyl yn vedrus.

7. Tri pheth à ennillant barch i wr o'u bod ar ei wraig: yn dda ei chynneddvau, yn anaml ei geiriau, ac yn aml ei gwybodau.

8. Tri pheth à wnant wr yn oludog: ei hunan yn ddiwyd, ei wraig yn lywodraethus, a'i dylwyth yn fyddlawn iddo.

9. Tri pheth à wnant wr yn hoenus: ei dda byd yn mwyâu, ei wraig yn ei garu, a'i Dduw yn ei nerthu.

10. Tri pheth à wnant wr yn anghenus: tylwyth gwallus, gwraig voethus, ac yntau yn avradus,

[1] *Llyvyr arall*—ei chymmodogeaau.

14. Tri pheth gweddus i wr eu bod yn ei dŷ: ei glustog yn ei gadair, ei delyn yn iawn gywir, a'i wraig yn ddiwair.

12. Tri pheth angbysurus i wr fod hebddynt: tân yn ei aelwyd, arian yn ei bwrs, a gwraig yn ei wely.

13. Tri pheth à wnant wr yn voddlawn iddei ginio: ei gylla yn iachus, ei vwyd yn voethus, a'i wraig yn vedrus.

14. Tri pheth à barant i wr hofi cartrev: ei deulu yn ddosparthus, ei orchwylion yn llwyddiannus a'i wraig yn gariadus.

15. Tri pheth à wnant wr yn llôn ei wynebpryd: ei dir yn dirion, ei berllan yn frwythlon, a'i wraig yn radlon.

16. Tri pheth à wnâut i wr cwnu ei galon: ei gâr yn ymweled ag ev, ei gwrw yn hoenus, a'i wraig yn llawen.

17. Tri pheth anesmwyth i wr yn ei dŷ: ei funell yn mygu, ei gronglwyd yn dyveru a'i wraig yn ymdaeru.

18. Tri pheth serchog ar wraig: bod yn dawel ei nwydau, yn hawddgar ei hymadrawdd, ac yn hael ei chalon.

19. Tri pheth prydverth ar wraig: bod yn voneddigaidd ei champau, yn voliannus ei chynneddvau, ac yn ddwyvawl ei meddyliau.

20. Tri pheth hyvryd gan wr eu gweled: ei wartheg yn rhywiog, ei âr yn frwythlawn, a'i wraig yn ddiwyd.

21. Tri pheth à wnant wr yn hawddvydig: ei dŷ yn llawn, ei wraig yn syber, a'i blant yn brydverth ar gorf a meddwl.

22. Tair camp lân ar wraig: groesew i yn hawddgar, diwallu yn wyllysgar, ac arlwyaw yn avlavar.

23. Tri pheth y dylai gwraig brîod eu caru uwchlaw pob peth arall yn hyn o vŷd: ei gwr, ei phlant, a'i chartrev.

24. Tri pheth à ddylid i bob gwraig ddâ gan ei gwr: cariad fyddlon, ymgeledd tirion, a bôdd ei chalon.

Ac velly tervyna.

7. Llyma Driodd y Gwragedd Priod:

yn dangos y campau, a'r cynneddvau, a'r cyverddonau, à ddylai vod ar bob gwraig, val y boddlono hi ei gŵr, ac y cafo air da gan ei chymmodogion, a pharch ac anrhydedd yn ei gwlâd, gan bob dyn doeth a deddvol.

(O'r un Llyvyr.)

Y pethau à ddylaint vod ar bob gwraig er boddloni ei gwr ydynt val hyn, nid amgen—

1. Ei phryd a'i gwedd yn ddawnus, ei hymadrawdd yn serchus, a'i chynneddvau yn voliannus.

2. Yn dawel ei hysbryd, yn serchog ei hwynebpryd, a'i dwylaw yn ddiwyd.

3. Ti thŷ yn drevnus, yn ei gorchwyl yn vedrus, a'i phlant yn vagwriaethus.

4. Ei deall yn llathraidd, ei gwybodau yn deuluaidd, a'i moesau yn voneddigaidd.

5. Yn brydverth ei hystavell, yn syw yn ei chell, ac yn trevnu yn ddigymhell.

6. Yn gyviawn ei bwriad, a meddwl ananllad, a buchedd diavrad.

7. Uvydddod rhywiog, genau tawedog, a gwylder serchog.

8. Yn hoyw yn ei thro, yn sywion ei dwylo, a'i gorchwyl yn gryno.

9. Yn ddwyvol ei devod, yn lân ei chydwybod, ac yn gywir iddei phrïod.

10. Ei llavar yn rhadlon, yn hael ei chalon, ac yn gweled ei digon.

11. Yn bur ei buchedd, yn ddoeth ei hymarwedd, ac yn caru tangnevedd.

12. Ei thrwsiad yn syber, yn garuaidd ei mwynder, ac yn gall ei hyder.

13. Unllaw yn casglu, llaw arall yn rhànu, a'i phen yn pryderu

14. Yn gywair ei fydd, a'i champau yn ddedwydd, ac yn ddoeth ei llawenydd.

15. Yn brydverth ei hymddwyn, yn erchi yn addvwyn, ac yn gwrandaw ar bob cwyn.

16. Yn dda i'r cymmodogion, yn drugarog wrth dylodion, ac yn coledd estron.

17. Ei theulu yn ei chanmol, ei deddvau yn rinweddol, a'i phlant yn eu hysgol.

18. Ei saig yn vlasus, ei hannerch yn weddus, a'i derbyn yn serchus.

19. Yn cael parch doethion, a chlod ei chymmodogion, a bendith y tylodion.

20. Yn dda yn ei heglwys, yn dysgu yn ddiorphwys, ac ar Dduw yn ymbwys.

21. Yn ovni Duw beunydd, yn caru Duw'n ddedwydd, ac yn gweddïo'n burfydd.

Ac velly tervyna.

8. Llyma Driodd y Cybydd.

(O'r un Llyvyr.)

Pwy bynag o ddŷn à vytho yn gybydd ni vydd ev heb y saith bechod marwawl, oni bydd tra hên, ac er ei hened ni ymedy ev â phechod nes i'r pechod ei adael ev yn gyntav; a hyn á vydd mewn dau vodd; un o'r ddau, yw *rhâd yr Ysbryd Glan* yn ei orddiwes, ac yn rhagberi ar à wnelo ac à veddylio; a lle bo velly, *Nev i'r Enaid;* ail yw colli gan henaint, neu haint, pob galluogrwydd pechu, ac nid diolch hyny i neb, ac nid gobaith amgen noc ufern i'r cyvryw.

1. Tair camp a vydd ar gybydd, nid amgen; ovni cadarn, casâu tylawd, a bygwth gwan.

2. Tair cynneddv à vydd ar gybydd, nid amgen: caru arwylion, casâu genedigaethau, a chwennych tir arall.

3. Tri châs gan gybydd: tavarn, cerddawr, a neithiawr.

4. Tri pheth nis ceif cybydd vyth: bendith y gwan, clôd doethion, a rhâd Duw arno yn myned o'r bŷd.

5. Tri pheth ni wedd i gybydd: parch gan haelion, credu à ddyweto, a diolch gan à gafo'r meddiant ar ei ôl.

6. Tri pheth y cyll cybydd yn dragywyddawl: ei dda bydawl, cariad y da rhinweddawl, a rhoddion gan Dduw.

7. Tri pheth à wna'r dyn à elo yn gybydd: rhoddi ar ei ol lle na bo raid wrthynt, colli pob rhinwedd ddâ à allai vod arno, a thybied ei hunan yn ddoeth cyd y bo ev yr annoethav o bob annoethav o bob annoeth.

8. Tri pheth y mae dŷn yn ymadael ag wynt pan ydd elo yn gybydd: ei glôd bydawl, ei gywilydd, a'i gydwybod.

9. Tri pheth a lawenâa y cybydd: ei vynych wahawdd, ei anvynych ovwy, a chafael tylawd dan ei gravanc.

10. Tri pheth ereill à wnant gybydd yn llawen: goganu hael, colledu tylawd, a thwyllaw cyviawn.

11. Tri pheth à wnânt gybydd yn drist: mynych weled ceisiaid, colli gwaith, a rhyvel pendevigion.

12. Tri pheth à wnant gybydd yn glâv: cardoteion aml, newid ar y marchnadodd, a dyddanwch cerddau.

13. Tri pheth à wnant gybydd yn iach: aruthr o waith gan ei wasanaethyddion, ei wala yn ddi gost, a drudaniaeth yn y marchnadodd.

14. Tri pheth anwyl gan gybydd: cafaeliad yn lledrad, ei wraig yn tynu o vlaen yr ychain, a'i blant yn marw.

15. Tri pheth nid cywilydd gan gybydd eu gweled: llau ar ei ddillad, gwan yn ei regi, a doeth yn ymswyn rhagddo.

16. Tri pheth ni hawdd gefir gan gybydd: bwyd yn rhâd, gair da i gymmodogion, a chynghor er daioni.

17. Tri pheth à ddeuant ar gybydd pan y bo'n ry hwyr: deall, cydwybod, a thiveirwch.

18. Tri pheth ni ymadawant vyth â'r cybydd: y cythraul, canys hwnw yw y pechod, melldith y tylawd, sev yw hyny eisiau tragwyddawl, a chov cydwybod yn y byd à ddaw.

19. Tri pheth à wnant i gybydd ymyn-

vydu: moliannu hael, goganu trachwant, a govyn rhoddion gantho.

20. Tri pheth y mae y cybydd yn eu hennill: melldith y tylodion, drygair y byd, a digovaint Duw.

21. Tri thâl y ceif y cybydd yn y byd hwn am ei ddâ: traferth yn eu casglu, goval yn eu cadw, a thristwch am orvod ymadael ag wynt a'u colli.

22. Tri brodyr cyweithas y sydd: brawd llwyd, bradwr, a chybydd.

23. Tri dŷn sy'n troi y byd wyneb i waered: celwyddawg, balch, a chybydd.

24. Tri phriv-gampau y cybydd: cribddeiliaw, gormesu, a dwyn yn lledrad ei eiddo ei hunan.

25. Tri dŷn à vyddant yn hên eu gwala cyn y cafont air da y byd: celwyddawg, avrywiawg, a chybydd.

26. Tri dŷn y sydd, ac à garo eu cyveillach, acd i ufern ac eve á geif ei wala wen o honynt: cyhuddwyr anudonllyd, ofeiriaid godinebgar, a chybyddion.

27. Tri pheth ymgadwed pob dŷn rhagddynt: ci cynddeiriog, athrodwr celwyddawg, a chybydd.

28. Tri pheth nid hawdd eu dala: carw gwyllt ar ben mynydd, llwynog mewn creigle coediog, a cheiniog cybydd anghawr.

29. Tri pheth nid mynych y cefir eu clywed: cân adar Rhianon, cân ddoethineb o ben Sais, a gwahoddiad i wledd gan gybydd.

30. Tri pheth yr un mor anhebyg y naill a'r llaill o honynt i ddŷn: cnec hen wrachan, chwyd llyfant, a chybydd.

31. Tri pheth à dybiant eu hunain yn ben ar y byd: costog ar ei domen ei hun, baw ar ben derwen, a hen gybydd.

32. Tri divrawd bŷd: celwyddawg, athrodgar, a chybydd; a'r cybydd yn bob un o'r tri; sev, o vod yn gybydd nis gellir amgen na bod yn bob un o'r ddau ereill.

33. Tri anallu Duw: digoni gwagedd merch, digoni rhyvig balchder, a digoni trachwant cybydd.

34. Tri dŷn nis gwyddys yn iawn pa un y dwg y diawl gyntav: twyllodrus, balch, a chybydd.

35. Tri pheth ni wnant les iddeu perchenogion: gwybodau diriaid, tavawd gwraig, a thrythgwd cybydd.

36. Tri thâl am ei olud y ceif cybydd mewn byd ar ol hwn: bod lle nis gall ymgyvoethogi, bod lle mae pob ceudodawl yn canvod eithavodd ei ddirieidi, a gorvod edrych o bell ar bob hael mewn gwynvyd heb dranc heb orphen.

37. Tri chymmydog goreu yn y byd: celvydd ei law, dedwydd ei vuchedd, a cybydd ar y grogbren.

38. Tri pheth goreu vydd eu crogi: eog hallt, het wleb, a chybydd.

39. Treth à gâr cybydd yn ei galon: gweled hael yn myned yn dlawd, gweled tŷ cymmodog ar dàn, a gweled rhyw ddarwall i gael craf yn lledrad ar eiddo arall.

40. Tri pheth hawdd eu cyvriv: rhoddion gwr wrth gerdd yn ngwledd Sais, cynneddvau da crachvoneddig, a'r maint cybyddion à geir yn y nev.

41. Tri pheth gweddïed pob dŷn nad elo vyth: yn nghrôg, yn valch, nac yn gybydd. Poed velly y bo vyth.

Ac velly tervyna Trïodd y Cybydd.

9. Triodd Mab y Crinwas.

(*O'r un Llyvyr.*)

1. Tri chyving bŷd: crau nodwydd ddûr, carn Sais ar gelfaint, a drws cell mab y crinwas.

2. Tri chaled byd: dur naw gwynias, maen cellt, a chalon mab y crinwas.

3. Tri pheth ni wyddys ba le y maent: cydwybod anudonwr, diweirdeb merch tavarnwr, a gonestrwydd mab y crinwas.

4. Tri pheth nid hawdd eu dattod: creigiau'r Eryri, cwlwm cariad cywir, a chlo cist mab y crinwas.

5. Tri thrwm bŷd: Maen Cetti, llwyth yr Ychain Banawg, a golwg mab y crinwas.

6. Tri oer bŷd: trwyn milgi, clöen iâ, ac aelwyd mab y crinwas.

7. Tri llwm bŷd: maen calas, cevn anghenog yn nhir Sais, a bwrdd mab y crinwas.

8. Tri lle y bydd mawr newŷn dŷn: yn ymlid meirch gwylltion ar vynydd, gwersyll pen hwyl, a gwedi ei ginio yn nhŷ mab y crinwas.

9. Tri lle y bydd prudd calon dŷn: yn nghyvedd Sais, myned iddei grogi, ac ar uchel wyl yn nhy mab y crinwas.

10. Tri pheth ni wyr neb o'r bŷd pa liw y sydd arnynt: rhawn paun yn castellu, mantell Tegau Eurvron, a cheiniog mab y crinwas.

11. Tri pheth nis gellir eu gwacach: masgell dedwydd, bwmbwl ar y dwr, a llaw mab y crinwas.

12. Tri pheth goreu foi ymhell oddi wrthynt: llong dyllog ar vôr, cwn cynddeiriogion, a chyveillach mab y crinwss.

13. Tri pheth ni waeth i ddŷn ychydig no llawer o honynt: bara oferen, nawdd y creiriau, a rhoddion mab y crinwas.

14. Tri lle y bydd mawr anwyd dŷn: pen Banuwchdèni, marchogaeth caseg eira, a rhwng y vainc a'r tân yn nhŷ mab y crinwas.

15. Tri atgas bŷd: meddw yn chwydu ar ei vwyd, balchder ofeiriad, ac ymarwedd mab y crinwas.

16. Tri pheth ni bydd gwell dŷn er à gafo ev o honynt: melldith tad a mam, dwr swvn, a chymdeithas mab y crinwas.

17. Tri annhirion bŷd: blaidd rheipus newynllyd, tònau Caswènan, ac anian mab y crinwas.

18. Tri lle nid mawr y chwennychir bod ynddynt: ogov Wyth ac Annwyth,[1] fau dreigiau Faraon, a neuadd mab y crinwas.

19. Tri pheth over meddwl am danynt: cerdded ar ben, nyddu rhaf o dywod, ac ymddiried i vab y crinwas.

20. Tri pheth anhawdd eu gwneuthur, dispyddu y môr, symmud mynydd yn gyvan, a gwr da o vab y crinwas.

21. Tri pheth lleiav yn y bŷd: synwyr bwyll etiveddes deg oludog, tangnevoldeb gwr llys, a haelioni mab y crinwas.

22. Tri pheth ni wyddys pa vodd a'u gwneir: seilio tŷ ar ei nenbren, rhewi dwr y'nghanol tawdd poeth, a chynghori mab y crinwas.

23. Tri pheth nis gellir gweled eu maint: cyvlediad goleuni, y wlad draw i'r wybren, a thrachwant mab y crinwas.

24. Tri pheth nid oes namyn yn mhervedd ufern le iddynt: twyll y Saeson, celwydd y Francod, ac enaid mab y crinwas.

25. Tri pheth nid ebrwydd a'u gwneir: arllwys pwll ufern, rhivo gronynau y mwg, a gwellâu calon mab y crinwas.

26. Tri pheth a aethant dros y byd: goleu y dydd, bawdd llyn llïon, ac anghlod mab y crinwas.

Ac velly tervyna; sev a'u dywed,
Davydd ab Gwilym.

10. Llyma Driodd y Meddwyn.

(O'r un Llyvyr.)

1. Tri anivel avlan dros ben: hwch yn ymloi mewn drewdod, ci yn ymloddestu ar abwy pryvedlawn, a meddwyn uwch ben ei ddiod.

2. Tri lledvegin mwyav disynwyr yn y byd: ysgerbwd o gybydd ni chymmer o'i eiddo ei hun, hen geiliacwydd dall, a meddwyn.[2]

3. Tri balch ar ei campau: lleidyr gorwlad, ymladdwr pen fair, a bwystvil o veddwyn.

4. Tri pheth gwrthun gan ddoeth: ymddyddan â hen wrachïod eissingrug, ymgystlwn â diriaid cyvaddev, ac ymgyveillachu â meddwyn.

5. Tri dŷn a ostyngant eu gwarau val lladdgwn devaid: hên odinebwr yn gwân o buteindy, gwibleidr yn nyvnder nos lle gwelo eilun dŷn o bell, a meddwyn lle cyvarfo â dŷn ymarweddgall.

6. Tri dyn diriaid hawdd iawn eu hebgor ymhob cymmodogaeth: cybydd lledradgar, anudonwr cyvlog, a dihiryn meddw.

7. Tri pheth fiaidd yr olwg arnynt: hwch yn bwyta ei gwared, ci yn ymborth ar ei chwydion, a bwystvil o veddwyn yn glavoerio uwch ben ei ddïod.

8. Tri pheth y bydd meddwyn bob amser: mochynaidd ar ei gorf, ynvydfol yn ei veddwl, a chythraul yn ei gynneddv.[1]

9. Tri pheth anfaeledig ar veddwyn: gweniaith twyllodrus, dichellion hocedgar, a chenvigen at bob un à ovno ei vod yn brydverthach noc eve ei hunan.

10. Tri lletty cyfredin meddwyn: bol clawdd, gwalva cŵn, a thwlc môch.

11. Tri pheth ymrwysgus dros bèn: ynvyd a'i fon yn bygwth lle na bo neb yn gweled noc yn clywed drwy wybod iddo, taiog yn ei ddillad newydd ddyw sul, a meddwyn yn ei davarn tra bo grôd yn ei valleg.[2]

12. Tair bost digriv dros ben eu clywed: Sais yn bostio ei radlondeb, cybydd yn bostio ei haelioni, a meddwyn yn bostio ei synwyr pen.

13. Tri pheth o'i dda bydawl y cyll meddwyn yn llwyr: ei olud, ei iechyd, a'i ymbwyll.

14. Tri pheth o'i dda tragwyddawl y cyll meddwyn yn llwyr: ceudawd gwybodawl, awen gysevin, a bodd Duw.[3]

15. Tri pheth ydd â'r dŷn goreu yn y byd pan elo yn veddwyn: yn gelwyddwr, yn vradwr, ac yn lleidr.

16. Tri pheth naturiawl i veddwyn: caru y cwrw yn vwy no'i blant anghenus, caru y celwydd yn vwy no'r gwir, ac angharu, cymmaint à bod heb gwrw, pob un na vytho yn gydveddwyn iddo.

17. Tri pheth ni waeth gan veddwyn

[1] Oeth ac Annoeth. *Triodd Ynys Prydain.*
[2] *Neu*, a mochyn o veddwyn.

[1] *Llyvyr arall*—Tri pheth y gwna y meddwyn: ymddevodi yn vochynaidd, ymchwedleua yn vwystvilaidd, ac ymgynneddvu yn gythreulaidd.
[2] *Llyvyr arall*—Tri ymrwysgwr gwych dros ben yn eu meddyliau eu hunain; Ynvyd a'i fon yn mysg plant a benywod, mab gwreng yn ei ddillad sul, a meddwyn yn ei davarn tra chafo echwyn.
[3] *Llyvyr arall*—Ymbwyll ceudodawl, awen naturiawl, a chariad Duw.

ronyn o'u tòri yn y lle bo gantho: gair da pob dŷn na vo mor ddiriaid a'i hunan, addewid à wnelo dan dwng ac adduned, a gorchymynion Duw heb ronyn yn talmu arno.

18. Tri lle ni châr veddwyn vod ynddynt vwy noc y câr y tân ar ei groen: ei gartrev ei hun, cyveillach dynion prydverth, a man lle na bo digon o gwrw y naill ai yn llâd neu yn lledrad.

19. Tri dirieidi a gydgerddant yn anesgorawl â meddwdawd: puteindra, lledrad, a llovruddiaeth.

20 Tri pheth serch eu crogi ni wna y meddwyn: talu am à gafo, perchi deddvoldeb, ac arbed o'r bola y gronyn lleiav i'r cevn.

24. Tri chyveillion meddwyn: puteiniaid, bradwyr, a lladron.

22. Tri chorn enllib ac athrawd: puten pen fordd, bardd yspyddaid, a meddwyn.

23. Tri pheth à welir yn wastadawl ar veddwyn: tylodi mawr, aviechyd mawr, a mawr dros ben o bob dirieidi.

24. Tri pheth anverth eu clywed: hogi lliv, brevoriad asyn, a dadwrdd meddwyn mewn tavarn.

25. Tair camp à vyddant yn eu trevn ar veddwyn: ymserthu yn avlau, enllibaw yn gelwyddgar, ac ymorphwyllaw yn gynddeiriog

26. Tri pheth à geir gan veddwyn am volaid dda o gwrw: gwedyd y celwydd à vyner, dangos yr anvoes à vyner, a gwneuthur y gyvlavan à vyner.

27. Tri pheth cyvarwydd arnynt y bydd pob meddwyn: enllib i bob dŷn dosbarthus, meginaw cynhenau, ac ymddichellu i gael cwrw ei wala heb na thal na diolch.

28. Tri pheth a wna pob meddwyn heb ronyn yn talmu ar ei gydwybod: gwedyd ïe gyda phob dŷn a'i portho â chwrw ai ar wir ai ar gelwydd y gweto, gwaradwyddaw pob un na roddo ddïod iddo, a chenvigenu wrth bob un na vytho gynnryced ag ev ei hunan.[1]

29. Tri thal à vydd i veddwyn am ei veddwdawd: ei gasâu gan bob doeth a deddvol, ei ovni gan blant a benywod, ac am hyny cael curo ei ben yn ddiogel ac yn dda gan bob arall, a chan bob un y trotho ev davawd yn ei ben yn eu herbyn.

30. Tri pheth y dylid eu pwyaw yn dda: gwenith ar y llawr dyrnu, brethyn mewn pandy, a chlopa meddwyn pa le bynag y bytho.

[1] *Llyvyr arall*—Gwedyd ïe gyda phòb un o vlaen ei wyneb, gwedyd yn erbyn pob dyn drach ei gevn, a gwedyd cynnrwg ag a'i dysgo'r diawl am bob da ei gynneddvau.

31. Tri châs gan veddwyn: gwedyd y gwir, ymarver â syberwyd, a thalu i bawb ei eiddo.

32. Tri pheth ni vawr ymarver meddwyn ag wynt: rhadlondeb, tangnevgarwch, a gwybodau daionus.

33. Tri pheth ynghylch meddwyn à ddrewant yn fiaidd: ei ddillad, ei anadl, a'i ymadroddion.

34. Tri pheth sy'n drewi yn velennydd ymhob màn: clôd coegyn tringar, mawl cybydd goludvalch, ac enw meddwyn.

35. Tri pheth echrys eu drygsawr: hên gadno bras mewn prysgle, morvil marw ar y veisdon, a mochyn o veddwyn.

36. Tri pheth y bydd meddwyn: cyvaill gwâl cwn a moch, rhyswr puteiniaid, a gwarthruddwr pob dŷn bucheddawl.

37. Tri dŷn a vyddant bob amser yn yr un-groen â meddwyn: dihiryn twyllvawr, anrheithwr, ac anudonwr.

38. Tair privgamp meddwyn: chwydu ar ei vywyd, piso yn ei eistedd, ac ymdomi yn ei wâl.[1]

39. Tri hofder meddwyn: divrïaw y mwyav a'i câr ac a'i coledd, ymgyvrinaw â phob dihiryn à roddo iddo gwrw, a meddwi yn orchestawl.

40. Tri gormes cymmodogaeth: melinydd lladronig, cybydd anghawr, a rheipusdwrch o veddwyn, am nad diogel i neb ei eiddo ei hunan lle bytho un neu arall o honynt.

41. Tri pheth à welir amlav ar veddwyn: ymvydiaw yn vochyn, ymvucheddu yn gythraul, ac ymorvoleddu yn ei ddihirwch.

42. Tri pheth à welir ar veddwyn, a moled a'u molo: ei syberwyd parth ag at ddyeithriaid, ei gyviawnder parth ag at y dylai ev yn vwyav eu caru, a'i wroldeb lle cafo y vuddugoliaeth ar blant bychain a benywod egwan.

43. Tri dŷn y sydd ni waeth peidiaw na'u cynghori: ysgotyn o gybydd anghawr, dŷn celwyddawg anudonllyd, a meddwyn.

44. Tri pheth ni waeth i verch gael ei chrogi wrth ei sodlau no'u cael: cariad mab arglwydd, gair da gan garnbuten, a gwr o veddwyn.

45. Tri gweision pênav y diawl yn hyn o vŷd: godinebwr, anudonwr, a meddwyn; canys blaenoriaid pob divrawd ac anrhaith ydynt.

46. Tri dihiryn anynad y sydd, ac nid teilwng y diawlicav o'r diawlaid i ddala canwyll iddynt, nac i'r naill neu'r llall o honynt: cybydd, hocedydd, a meddwyn;

[1] *Llyvyr arall*— Piso yn y gwely, a gwneuthur ei raid yn ei vreccan.

a phencreft ar bob drwg yw pob un o'r tri.

47. Tri phrivorchest meddwyn: gwedyd celwydd a goreuwyr y greft, darllaw twyll â chadeiriogion y celvyddyd, a thravlyncu diod ag un avanc à vu erioed.[1]

48. Tri pheth rhy avlan i ymgyfwrdd â nhwy: ysgarthion geudy, abwy mewn clawdd, a meddwyn mewn tavarn.

49. Tri pheth ymswyned pob dŷn rhag ei vyned: yn anudonwr, yn gybydd, ac yn veddwyn; canys o vod yn un o'r cyvryw ddrygwyr, y bydd arno bob drwg arall yn anesgorawl.

50. Tri pheth cadwed Duw bob dŷn rhagddynt: meddwl gwallgovus, gwallobaith anghenawl, a chyveillach meddwyn.

Ac velly tervyna.

11. Llyma Driodd y Cymro.

Y rhai hyn y dylai bob Cymro eu gwybod a'u hystyried yn drybwyll, a gwneuthur yn eu hôl, rhag dwyn gwaradwydd arno ev ei hunan, ac ar ei wlâd, a'i genedl.

(*O'r un Llyvyr.*)

1. Tri pheth y dylai bob Cymro vod val nas gwaradwyddo na'i hun, na'i wlâd, na'i genedl: yn hael, yn ddewr, ac yn drugarawg.

2. Tri pheth sy glodvawr i Gymro eu diwyllio: ei dattrev, ei deulu, a'i varn.[2]

3. Tri pheth y dylai Gymro vod er ennill cariad ei wlâd a'i genedl: yn ddivalch, yn ddidrachwant, ac yn ddiniwed.

4. Tri ymddwyn à ddylid ar Gymro parth ag at a'i anmharcho, a hyn i gyd yn yr un amrant: ymwrth, maddeu, ac anghoviaw.

5. Tri pheth y dylai bob Cymro eu covio yn ddi dòr, rhag eu hanmharchu o hano: ei dâd, ei wlâd, a'i enw o Gymro.

6. Tri pheth y dylai bob Cymro eu cadw yn ei veddwl ac ar ei gov yn wastad: ei ddyled, a'i dylai, ac à ddylir gymmain un; a bydded ei ddyled à ddylir, ac yna iawn a mâd a'i dylai.

7. Tri pheth y dylai Cymro eu cadw a'u hamddifyn hyd varw: ei gledd, ei gyvrin, a'i gyvaill.

8. Tri pheth y dylai Cymro varw yn eu plaid: ei wlâd, ei air da, a'r gwirionedd ba bynag y bo.

9. Tair cynneddv gynhenid Cymro y dylai ev eu gwellâu: rhy lew, rhy laryaidd, a rhy lawen.

10. Tri pheth dan bwyll a rhïol à vyddant hardd ar Gymro: glewder, llaryeidder, a llawenydd.

11. Tri pheth y dylai Gymro eu caru o vlaen dim: cenedl y Cymry, devodau a moesau y Cymry, ac iaith y Cymry.

12. Tri pheth à ddylaint vod bob amser ar gov pob Cymro cynhenid: ei Dduw, ei ddŷn, a'i ddyled.

13. Tri pheth y câr pob Cymro cywir: iaith ei wlâd, doethineb ei wlâd, ac ymborth ei wlâd.

14. Tri anrhydedd Cymro: ymarver â champau yr hên Gymry, myvyriaw gwellâu y campau sydd yn awr, a chwilio'r byd am gampau daionus nas gwybuwyd am danynt hyd-yn-hyn.

15. Tair camp waradwyddus ar Gymro: edrych ag un llygad, gwrandaw ag un clust, a chynnorthwyaw ag un llaw.

16. Tri pheth y dylai bob Cymro cynneddvol eu gwneuthur: ei arad, ei lyvyr, a'i gyvraith.

17. Tri pheth anrhydeddus eu bod ar bob Cymro, mal y bo gyvungamp â'r hên Gymry gynt: bod yn hael, bod yn wrawl, a bod yn hawddgar.

18. Tri pheth o'u bod ar ddyn tynger mai nid Cymro ydyw: cybyddiaeth, llyvredd, a sarugrwydd.

19. Tri pheth na choelied un Cymro: à weto ddierth, à weter yn erbyn dierth, ac à weter yn erbyn a ddylai vod.

20 Tri gair y dylai bob Cymro eu hystyried yn llwyr, ac ymddarbod yn gyviawn a'u pwyll a'u hystyr: Duw, Dŷn, a Chymro.

21. Tri pheth à weddant yn oreu i Gymro o'u cael o'i genedl a'i wlâd ei hunan: brenin, gwraig, a chyvaill.

22. Tri pheth dierth ac estrawn y dylai Gymro lwyr ymwrthod ag wynt: iaith, devawd, a chyvrin.

23. Tri pheth à gadwant yr enw o Gymro rhag dirywiaeth: cynnal o Gymro hawl ac anrhydedd ei genedl, byw arno ei hunan, a byw val y dylai parth ag at Dduw a Dŷn.

24. Tri pheth y sydd o genedl y Gymry yn oreuron o'u rhyw yn y bŷd: barddas, rhaith, a cherdd dant.

25. Tri pheth à anrhydeddant Gymro: cadernyd tangnevus, doethineb haelionus, a llawenydd o gallineb.

26. Tri pheth clodvawr eu bod ar Gymro: gwybodau doethineb, devodau rhadlondeb, ac ymbwyll ystyrgar.

27. Tri pheth à urddant Gymro o iawn ymarver ag wynt: divyrwch ei genedl, boneddgamp ei genedl, a nwyvusder ei genedl.

[1] *Llyvyr arall*—ag un morvil, &c.
[2] *Llyvyr arall*—ei dir, ei dylwyth, a'i varn.

28. Tri chyntevigaeth Cymro ar bob cenedl arall yn Ynys Prydain: cyntevig o briodawr, cyntevig o vrodoriaeth, a chyntevig o Gristionogaeth.

29. Tri pheth anhebgor i Gymro val nas gwarthrudder ei wlâd a'i genedl: ymddarbod yn ddoeth, ymfydiaw yn gall, ac ymvucheddu yn lân.

Hopgin Twm Philip o'r Gelli Vid a'u dywed. Ac velly tervyna.

12. Triodd y Sais.

(O'r un Llyvyr.)

1. Tair cenedl ormes Ynys Prydain: y Gwyddyl Fichti, cywdawd y Coraniaid, a chenedl y Sais.

2. Tri dinystr byd: trachwant cyvoeth, ymgais am rwysg, a brâd Sais

3. Tri pheth nis gellir eu chwilio i maes: dirgelion Duw, y devnyn cyntav o'r môr, a dichellion Sais.

4. Tri pheth à gyrhaeddant bedryvan bŷd: goleu yr haul, clôd gwas gwŷch, a frost Sais.

5. Tri pheth goreu pa bellav y bônt: cwn cyndeirogion, melltith Duw, a Sais.

6. Tri pheth gocheléd pawb val tân ar ei groen: benyw newyddiongar, llochi pen neidr, a chyveillach Sais.

7. Tri pheth hawdd eu gweled: haul ganol-dydd tesog, dwr yn môr Havren, a gwylltviledd Sais.

8. Tri pheth anhawdd eu cael: aur gan gybydd, cariad gan ddiawl, a moesgarwch gan Sais.

9. Tri pheth anwadal: lleuad newydd, ceiliog gwynt, a fyddlondeb Sais.

10. Tri pheth nid oes eu caletach: maen cellt, torth haidd cybydd, a chalon Sais.

11. Tri pheth goreu pa leiav o honynt yn Nghymru: tylodi, cynneddvau drwg, ac eppil Sais.

12. Tri enw hyd yn mhedryvan byd y rhoddir ar à ddyco eiddo arall, anrheithwr, carn-leidr, a Sais.

13. Tri lle ni vyddant heb lawer o waed: bola horen, lladdva cigydd, a gwareuva Sais.

14. Tri pheth y sy yn ymborth ar waed: chwanen, rhyvelwr cyvlog, a Sais.

15. Tri gormail mawr ar Gymro: bod yn nghrog gervydd ei sodlau, gorwedd ar varwor bywlosg, a bod yn ngwlâd Sais.

16. Tri gelyn pènav Cymro: ei galon hygred ei hûn, cythraul adeiniog o ufern, a charn Sais.

17. Tri pheth ni vawr gysger lle bônt: gwrach ymgeintachgar, cathau catherig, a dadwrdd Sais.

18. Tri pheth anverth i glust Cymro: rhinc lliv yn ei hogi, bonllev ysbryd Mallt y Cwd, a chwaldodach Sais.

19. Tri llais à gydgynghaneddant yn gywair dros ben: ystgwrlwgach drain dan grochan, llais maendwr braen yn syrthio, ac iaith y Sais.

20. Tri pheth tragerwin a thrwsgl eu saïn: llev iâr à vyddis yn ngavael â'i chynfon, mèn olwynog yn treiglo carnedd a chlogwyn, ac ymadroddiaeth Sais.

21. Tri pheth à wnant gân gytgerdd o'r vath ag y bo: dannedd ysgyrnyglyd, llev paen yn darogan gwlaw, a llavar Sais.

22. Tri pheth ni chodir o'r tân iddeu clywed: dwr yn difod marwor, hên wrach yn bràmu, a chywydd Sais.

23. Tri pheth à vyddant oreu lle nas clywer: crochwerthiniad hên verchetach, ubain cwn ganol nôs, a pharablaeth Sais.

24. Tri pheth anhebgor mewn cân i ddiawl: gwich hŵch pan a'i lladder, ofeiriad rheglyd, a brygawthen Sais.

25. Tri pheth cared a'u caro: ofeiriad bolvras yn canu oferen, llev enaid gan ddiawl, a charol Sais.

26. Tri pheth anhydrevn eu devnydd: nyth ysguthan, cernydd Moel Maen Llwyd, ac iaith y Sais.

27. Tri pheth nid oes daw arnynt: clap y velin, bwmbwr y môr, a chelwydd Sais.

28. Tri pheth à wnant leidr: newyn anlloesiadwy, anmhwyll geni, a chymdeithas Sais.

29. Tri pheth goreu ganddynt eu hunain: twrch, llyfan, a Sais.

30. Tri phêll bŷd: pen eithav taith y gwynt, caerau y gorllewydd, ac eithavodd twyll Sais.

31. Tri pheth à vyddant oreu pan a'u croger: gleisiad hallt, het wlêb, a charn Sais.

32. Tri pheth annigriv à barant ddigrivwch: merch binvalch yn bràmu yn y corelwi, meddw yn ymladd a phost, ac ymfrost gwag Sais.

33. Tri pheth à vyddant yn hir cyn a'u gorphener: dispyddu y Morwerydd, tringo ar hyd ysgwl i'r haul, a dadvileiniaw Sais.

34. Tri garw anhawdd ei llyvnu: creigiau Glyn Tornant, friw cybydd, a moesau Sais.

35. Tri pheth ni vydd difyg canu iddynt pan a'u gweler: môr yn sych, haul yn codi yn y llywynydd, a serchogrwydd gan Sais.

36. Tri pheth hawdd iawn eu hebgor: tân ar groen, cynghorion cybydd, a syberwyd Sais.

37. Tri pheth ni vydd neb well o'u cael: chwain yn ei wely, drain yn ei iŵd, a chymmwynason Sais.

38. Tri pheth ni vawr ymddiriedir iddynt: mur crinwellt rhag tân, cleddyv brwynen rhag gelyn, ac addewidion Sais.

39. Tri pheth ni welir yn ebrwydd: môr dros Vànuwchdeni, medi gwenith ar wyneb Morwerydd, a gwirionedd gan Sais.

40. Tri pheth ni wnant lês i wlad Gymru: mawr dês yn Ebrill, mawr wlaw yn y cynhauav, a thavod têg Sais.

41. Tri dŷn ni vawr hofant eu cyvlwr: cybydd lle bo traul arian, gwr call yn mhlith cenvaint o veddwon, a Chymro yn nhir Sais.

42. Tri anhebgor ufern: rhingyll, brawd llwyd, a Sais.

43. Tri pheth goreu i Gymro po leiav y gwypo am danynt: y cywyn du, melltith Duw, a chyvrwysder Sais.

44. Tri pheth ni ddygant osod ond ar eu gwànach: cath, morvran, a Sais.

45. Tri pheth ni vydd da eu damwain: cath yn ufern, cyw colomen lle bo cyrch barcutod, a Chymro yn nghyveillach Sais.

46. Tri pheth ni mawr gyttunant: cwn â moch, cybydd â hael, a Chymro â Sais.

47. Tri pheth anaml eu cael: y sêr à syrthiant o'r wybren, aur o law cybydd, a diogelwch i Gymro yn nghartrev Sais.

48. Tri pheth anhawdd eu cael: nyth cog yn mhen derwen, cist cybydd heb glô, a thegwch gan Sais.

49. Tri pheth ni wyddis pa bryd a'u gwrthreder: tollt y daran, trenlliv Bwlch Havren, ac anrhaith Sais.

50. Tri pheth ni waeth genyv weled un noc arall o honynt: crogi vy nhâd, vy nghartrev a'm teulu ynddo ar dân, a llawenydd Sais.

51. Tri pheth à gâr vy nghalon eu gweled: mêl ar vy mrechdan, wyneb y verch à garav, a chebystr am wddwg Sais.

52. Tri dŷn à vawr gerir gan Gymro: bardd wrth vraint a devod yr hen Gymry, deiviwr barv cybydd, a chrogwr Sais.

Ac velly terryna Trïodd y Sais; sev ydynt rhiv wythnosau y vuyddyn. Hopgin Twm Philip o'r Gelli Vîd a'u cant, ger bron cadair wrth gerdd davawd Tir Iarll, y bymtheg vuyddyn o goroniad y Vrenines Esbed; sev gwyliau y Sulgwyn, 1572.

[Hyd yma o lyvyr Thomas ab Ivan; y mae genyv gyvysgriv arall o Drïodd y Sais a Thrïodd y Cymro, o lyvyr Sion Philip o Drcôs, à ysgrivenwyd, wrth bob tebygaeth, ynghylch yr amser y bu Oliver Cromwell yn ei rwysg.

Iolo Morganwg.]

Yn gymmaint â bod Trïodd y Cymro a Thriodd y Sais yn myned dan enw Hopgin Thomas Philip o'r *Gelli Vid* ve welir rhywvaint o gyvathrach rhwng à ganlyn â'i enw ev. O'r Llyvyr Coch o Hergest y tynwyd y cyvysgriv cyntav, a'r ail o hên ysgrivlyvr y diweddar Ivan Wiliam o'r Ferm yn mhlwyf Llanvleiddan gerllaw y Bont Vaen yn Morganwg.

Iolo Morganwg.

(*O'r Llyvyr Coch o Hergest.*[1])

Llyma Driodd Gwilym Hir, Saer Hopgin ab Thomas ab Philip.

1. Tri chasbeth Gwilym Hir Saer: eferen sul, dadleu, a marchnad.

2. Tri pheth arall sydd gas gantho: nid amgen, tavarnau, a cherddau, a chreiriau.

3. Tri pheth y sydd gasach gantho no'r cwbl: efeiriad, a phrydydd, a chlerwr.

[Y mae Edward Llwyd (Arch. Brit. p. 264.) yn sôn am y Trïodd hyn a'u bod yn y Llyvyr Coch o Hergest, yn mhlith Triodd ereill. Iolo Morganwg.]

Ysgriv, o lyvyr Ivan Wiliam o'r Ferm; a'u hanes, val y canlyn:—

Hopgin Thomas Philip oedd yn byw yn y *Gelli Vid* yn mhlwyv *Glyn Ogwr*, yn berchen ar y lle, ac eve á wnaeth dŷ newydd yno: wedi ei gwblâu eve á roes wahoddiad i lawer o brydyddion y wlâd i ddyvod yno i giniawa ac i ganu. Nid oedd na threvnus na gweddus, ar hyny o bryd ac achos, i neb ond bardd vyned i mewn i'r neuadd; ond un *Gwilym Hir*, gwr o *Saer*, ag oedd yno ar hyny o amser yn gweithio, á aeth i mewn; a chan y gwyddid mai dŷn synwyrol, deallus, ac ysmala iawn oedd ev, ve archwyd iddo eiste i lawr; hyny á wnaeth ev, gan wrandaw yn ddivlin iawn ar y cerddau à ganai rai ac à ddatganai ereill yno. Yn mhlith y prydyddion ydd oedd un yn ofeiriad y *Rhath;* un a vuasai, nid yn hir cyn hyny, ar dreigl *Clera* ar hyd y wlâd; hyny yw yn canu cerdd ac yn chwareu y crwth, wrth ganu o dŷ beugilydd, ac ar ben fair a marchnad, yr hyn nid oedd yn beth yn ei le herwydd arver y prydyddion dysgedig.

Ve hapiwys vod yno ddadlu tyn yn eu plith am greiriau, llw, a thwng, yr hen veirdd Cymreig: a chanu am y varchnad ag oedd Hopgin Thomas Philip wedi ei

[1] Mewn llaw diweddarach no chorf y llyvyr neu o leiav mi á debygwn hyny—

sevyllu yn *Nglynogwr*. Ac am y tavarn newydd yno a'i gwrw da; a rhai o'r ofeiriaid o brydyddion á vynaint ddadlu yn dyn ac yn daer yn mhlaid y grevydd o Ruvain, ac eferen ar bob sul a gwyl: O'r diwedd, gwedi datgan cerdd, a rhywvaint o drïodd gan un ag arall o honynt, govynwyd i *Wilym Hir* am ryw beth ar gerdd, neu am ryw ddoethineb ar un neu arall o geinciau cerdd davawd. Chwi á gewch ryw beth, ebai ve; ac os rhy anmrwd y bydd, nid oes i chwi ond ei bobi ev. Yna eve á ddywed y trïodd hyn yn sèn i'r dadleu ag oedd ganddynt am greiriau, ac eferen sul, a'r tavarn, a'r varchnad dlawd à vuwyd yn canu iddi, val hyn:—

1. Tri chasbeth *Gwilym Hir Saer*; eferen sul, a dadlau, a marchnad dlawd.

2. Tri pheth arall sy gâs gantho: nid amgen, tavarn, a cherddau, a chreiriau.

3. Tri pheth sydd gasach gantho no'r cwbl: efeiriad, a chybydd, a chlerwr.

Ac yna eve a'u dywed ar vesur triban, val hyn:—

Tri pheth sy gâs avrived:
Dadleuon dyn pengaled,
Sain di lês eferen sul,
A marchnad gul heb drwydded.

Câs havyd tri pheth arall:
Y creiriau à gâr anghall,
Tavarn lle mae'r drwg a'i dardd,
A cherddau bardd diddëall.

Tri pheth mwy câs no'r cyvan:
Ofeiriad balch ei anian,
Prydydd pwl yn vardd y blawd,
A chlerwr tlawd ei driban.

Gwilym Hir Saer a'i cant.

Wrth yr hanesan uchod gwelir vod yr arver o brydu Trïodd wedi parâu ymhlith y prydyddion Cymreig hyd yn llediddiweddar; gwelir hyn hevyd wrth yr hanes à roddir am Drïodd y Cymro a'r Sais; ac am Dribanau *Gwilym Hir*, nid aml, yr wyv yn meddwl, y ceir eu henach, yn enwedig yn y modd a'u cenir ganthoev; sev yw hyny, yn yr un moddag y cenir Triban Morganwg hyd y dydd heddyw; sev ar accen a chorvànau cyvlavar, a'r breichiau yn gydwastad, ac nid ar gorvànau amryveilion eu pwys a'u haccenion, val y cenid yr *Hên Driban Cyrch*, o ba un y mae Triban Morganwg yn deilliaw, ac i ba un y mae Llywelyn Sion ac ereill yn rhoi enw Triban Morganwg.

Iolo Morganog.

14. Triodd gwiw eu gwybod ac eu covio, er addysg doethineb, ac er ymddevodi yn lan ac yn voliannus.

(*O Lyvyr Sion Philip o Dreôs.*)

1. Tri unben cerdd: prydu, canu telyn, a chyvarwyddyd.

2. Tri fyniant gwr: aredig trev tâd, arddadlu ei hawl yn dda, a dwyn ei blant ar vonedd.

3. Tri gorevras dirieidi: glythineb, ymladd, ac anwadalwch.

4. Tri bendith ni advant dŷn nac i newyn nac i noethnî: bendith ei beriglawr, bendith arglwydd priodawr, a bendith bardd linolingerdd.

5. Tri bendith y sydd well no'r tri bendith hyn: bendith tâd a mam, bendith clav a chlwyvus, a bendith dŷn advydig.

6. Tri pheth ni vedr namyn doeth neu ddedwydd ymgadw yn amserawl rhagddynt: godineb, meddwdawd, ac overedd.

7. Tri ymborth gwr: hela, a chyvnewid, ac aredig.

8. Tri rhyvel yn heddwch: drygwraig, dryg-dir, a dryg-arglwydd.

9. Tri thywysogaeth dedwydd: bod yn dda ei wasanaeth, yn dda ei anian, ac yn dda ei gyvrinach; a hyny ni chyngain namyn a chrevyddes neu voneddig.

10. Tri dŷn y mae iawn rhoddi bŵyd iddynt: ymdeithydd, golychwydwr, a llavurwr.

11. Tri charelyn dŷn: tân, dŵr, ac arglwydd cyvoeth.

12. Tri pheth à ddarestwng gwr: gwraig ddrwg, trevn ddrwg, a gair drwg amdano.

13. Tri pheth a arddyrchavael gwr: gwraig ddyun ddiwair, arglwydd diwyd diwith, a diflais heddwch.

14. Tri anghyvartal byd: berthawg, a charu, ac angau.

15. Tri glwth byd: brenin, môr, a dinas.

16. Tri pheth ni ellir bod hebddynt er maint o ddrwg à wnelont: tân, dwr, a thywysawg

17. Tri chyfredin bŷd: gwraig, clawr tawlbwrdd, a thelyn.

18. Tri pheth à syrth ar ddŷn heb yn wybod iddo: hun, henaint, a phechawd.

19. Tri merthyrolaeth heb ladd dŷn: haelder yn nhlodi, diweirdeb yn ieuenctid, a chaingynnal heb gyvoeth.

20. Tri melys byd: methu, a synu, a phechu.

21. Tri chadarn byd: arglwydd, a dryd, a diddim.

22. Tri ystyr y sydd i hustyng: meddiant, a thwyll, a gwylder.

23. Tri chasbeth doethion Rhuvain: milgi hwyr, bardd annigriv, a gwraig hagr.

24. Tri rhwydd hynt: eferen, a chiniaw, a chydymaith da.

25. Tri avrwydd hynt: diaspad, drychin, ac ymlid.

26. Tri dŷn y mae yn iawn bod yn dda wrthynt: gweddw, ac alltud, ac amddivad.

27. Tri pheth y sydd hawdd eu diolch i ddŷn: gwahawdd, rhybudd, ac anrheg.

28. Tri dŷn yn hawl a braint ceraint: gweddw, alltud, ac amddivad.

29. Tri pheth ni wêl dŷn ei ddigon o honynt: hoedl, iechyd, a chyvoeth.

30. Tri pheth á gynnal hir ddirieidi ar ddŷn: drygioni, dryganiaŋ, a glythineb.

31. Tri gogyvlawnder gwr yn myned y'nghyrch a gorsedd dadlau: fyniant yn ceisio da, dawn yn ei gafael, a dedwyddyd yn ymgynnal ynddo wedi ei cafer.

32. Tri chaingynnal dedwydd: nawdd, elusenau, a dyddanwch.

Ac velly tervyna.

15. Triodd y Doethion.

Sev cynghorion er daioni yr enaid, a lles bywyd corforawl, o Lyvyr Gwilym Tew Brydydd.

(*O'r un Llyvyr.*)

1. Tri madgael y sydd, ac a'u cafo nid rhaid iddo ychwaneg: câr cywir, cydwybod lân, a deall ar iawn a gwirionedd.

2. Tri pheth à barant hir iechyd ac einioes: gweithgarwch cymmesurawl, myvyrdawd awenaidd, a thangnev meddwl.

3. Tri pheth goreu y byd hyn: iechyd corf, pwyllgarwch meddwl, a chydwybod dangneveddus.

4. Tri pheth à wnant ddedwydd: gwybodau daionus, devodau moliannus a thangnev cydwybod; ac a'u medd nid rhaid iddo mwy.

5. Tri pheth goreu vydd eu gochelyd â holl nerth traed ac ymbwyll: neidyr ddu, merch gnawdgar, a phechawd amlwg.

6. Tri pheth, bod hebddynt, bod heb y cwbl à wedd ar ddŷn eu meddu: heb gywilydd, heb wybodaeth, a heb gywirdeb.

7. Tri pheth ni chywelyvant vyth: cwsg mawr â gwybodau, golud â haelder, a fydd yn Nuw â bydoldeb.

8. Tri pheth nid call rhwy ymddiried iddynt: gwyntodd gwanwyn, breuddwyd meddwyn, a llwyddiant bydawl.

9. Tri pheth ni chydvyddant byth: dwy wraig yn yr un tŷ, dwy gâth am yr un lygoden, a dau vab am yr un verch.[1]

[1] Gwel riv 132.

10. Tri pheth à gydgerddant â serch ar verchaid: traferth corf, colli cwsg, a gwall ymswyn.

11. Tri pheth nid call eu bostio: blas dy gwrw, tegwch dy wraig, a rhiv yr arian yn dy bwrs.

12. Tri pheth nid raid addysg arnynt: cysgu, chwerthin, a charu.

13. Tri anghysur gwr yn ei dŷ: sawell vyglyd, tô dyverllyd, a gwraig grintachlyd.

14. Tri choll à vyddant goll dros byth: coll morwyndawd, coll amser, a choll gair da.

15. Tri chlwyv nis gellir eu meddyg: poethni gwynovaint, cariad rhieinverch, a chnöad cydwybod

16. Tri pheth goreu pa bellav oddi wrthynt: ci cynddeiriog, merch anllad, a gwr gwenieithus.

17. Tri pheth iachus eu harver: rhodio yn vywus, llavaru yn soniarus, ac ymborth lywodraethus.

18. Tri anhebgor travaelwr: march da, bathgod lawn, a chyvaill cywir.

19. Tri anhebgor meddyg: llaw rhieinverch, llygad hebog, a chalon llew.

20. Tri anhebgor celwyddwr: côv da, wyneb cadarn, a fol i wrandaw.

21. Tri pheth à welir ar y paen: gwisg angel, rhodiad lleidyr, a llev cythraul.

22. Tri anghudd pob llysewyn: ei vlâs, ei vloteuaeth, a'i addon.

23. Tri pheth anverth eu gweled: mâb diddysg, merch drythyll, ac ofeiriad ymladdgar.

24. Tri dŷn y chwerddir am eu pènau: hên wrach yn ymbincio, hen wr yn neidio, a hen ofeiriad meddw.

25. Tri pheth nid hawdd eu cael: cywirdeb mewn gweniaith, pwyll mewn bòl brâs, a dysg ar dda mewn cyveillach ddrwg.

26. Tri pheth da clustveinio arnynt: cynghor doeth, llavar gwirionedd, a'r ceiliog pylgain.

27. Tri overwaith bŷd: cyrchu dwr mewn gwagyr, rhybuddiaw serchawg, a cynghori henddyn.

28. Tri anhawsder bŷd: dadwallgovi balchder, dadblygu calon cybydd, a dattroi meddwl henddyn.

29. Tri pheth à vrathant yn dôst: hen gostog tom, hen neidyr dan sawdl, a chydwybod euog.

30. Tri pheth à wnant oludog yn dylawd: gwraig valch, tŷ mawr, a gwâs anghywir.

31. Tri pheth à barant yn ddrwg y neb y bont arno: anwydaeth, balchder, a thrachwant.

32. Tri pheth arall hanpid gwaeth à vont arno: glythineb, ysmaläwch, a godineb.

33. Tri arwydd fol ac annoeth: digio yn ddiachos, chwerthin heb achos, a rhagu ar arall y beiau vont arno ev ei hûn.

34. Tri fôl pendavad: cynghorwr merch wingllyd, rhybuddiwr mab diodgar, ac à ddoto addysg o vlaen à dybio ei hunan yn gall.

35. Tri dŷn y sydd, a gwae à ddelo dan eu cravangau: cyfeswr o vrawd llwyd, llogwr arian, ac arglwydd tir o gostoglwyth.

36. Tri pheth sy yn cadw y bŷd yn ei le: cosp, gobrwy, a rhyddid.

37. Tri pheth à ddettry y bŷd yn ei wrthwyneb: cosb anghyviawn, gobrwy annheilwng, a rhyddid i bechu.

38. Tri pheth à ddengys corawg: rhoi yn llawen, rhoi yn ddiattreg, a chadw yn rhin à roddwyd.

39. Tri pheth à ddengys anghawr: rhoi yn drîst avlawen, rhoi yn hwyr gan hir ymattreg, a dadgan ar gyhoedd à roddwyd.

40. Tri pheth à vyddant gyda dŷn dros byth: ei serch, ei gâs, a'i gydwybod, a'r drydedd yn barnu byth ar y ddau ereill.

41. Tri pheth lle nas deddvoler à barant wae yn y diwedd: serch, câs, a chydwybod.

42. Tri pheth à lynant dros byth wrth bob dŷn: ei awen, ei ryniad, a'i gydwybod.

43. Tri gorchymyn à ddodwys Duw ar ddŷn: ymgais â gwybodau moliannus, gwneuthur à ellir o ddaioni, a chenedlu plant o briodas gyviawn; canys o'r tri hyn y cedwir y bŷd yn ei le.

44. Tri pheth gydag amser anianawl à dyvant hyd addon yn ddiymfael: yr hâd à ddoder yn naiar, y daioni à wneler o gydwybod, a'r drwg à wneir o ddirieidi.

45. Tri pheth à gâr diriaid: anwybodaeth yn arall, anwireddu ymhob peth à weto ac à wnelo, ac argyweddu y fordd y cerddo.

46. Tri pheth à gâr dedwydd eu gwneuthur: ymwellâu o gydwybod, llesâu arall, a gwyliaw rhag argyweddu.

47. Tri ymattal dedwydd: ei davawd, ei ddwrn, a'i vlysigrwydd.

48. Tri ymattal diriaid: ei bwyll, ei barch, a'i lês tragywydd.

49. Tri goruchaviaeth dedwydd: bod yn ddeallus mewn daioni, yn serchog tuag at bob daioni, ac yn llwyddiannus yn mhob daioni.

50. Tri goruchaviaith diriaid: deallus mewn drwg, serch at bob drwg, a llwydd yn mhob drwg.

51. Tri pheth ni chydvydd á dedwydd: rhaccraf, rhagrith, a rhagraith.[1]

52. Tri pheth ni chydvydd â diriaid: rhagddarbod, rhagddeall, a rhagddangos.

53. Tri pheth y gwna dedwydd: ymgais â gwybodau gan arall, ymarver â'i wybodau ei hunan, a dangos gwybodau i arall.

54. Tri pheth y gwna diriaid: gwaradwyddaw gwybodau yn arall, ymvoddloni yn anwybodaeth ei hunan, a chuddiaw à ŵyr o wybodau rhag arall.

55. Tri arwydd dedwydd: gwneuthur daioni, gochel niwedu, a myvyriaw dwyvoldeb.

56. Tri arwydd diriaid: ymwynvydu mewn drwg, ymegnîaw i niwedu, a myvyriaw cythreuligrwydd o bob rhyw a rhith.

57. Tri bànogion dedwyddyd: uvyddawd, diweirdeb, a dirwest.

58. Tri bànogion dirieidi: gwrthneuad, anlladrwydd, a gloddest.

59. Tri gwynvyd dedwvdd: ei ddiwydrwydd, ei wybodau, a'i ddeddvoldeb.

60. Tri gwynvyd diriaid: ei ddiogi, ei ddichell, a'i anrhaith.

61. Tri ymwrthod dedwydd: ymwrthod â'i rynwyv, ymwrthod ag anneddvoldeb, ac ymwrthod â bydoldeb.

62. Tri ymwrthod diriaid: ymwrthod â phob dirwest, ymwrthod â phob deddvoldeb, ac ymwrthod â Duw.

63. Tri pheth hôf gan ddedwydd eu bod ar ei law eu gwneuthur: gwirioneddu ar varn, gyru addysg ar wybodau, ac amwellâu ar wybodau a çynneddvau.

64. Tri pheth hôf gan ddiriaid eu cael ar ei law a'u gwneuthur: anwireddu ar air a gweithred, argyweddu gwybodau, a gwaethyg pob devodau a chynneddvau daionus.

65. Tri thywysogaeth dedwydd: diwydrwydd, galledigaeth, a chyviawnder.

66. Tri thywysogaeth diriaid: overedd, trais, a dichellion.

67. Tri pheth y pwys dedwydd arnynt: ar ei ddiwydrwydd, ar ei wybodau moliannus, ac ar ei Dduw.

68. Tri pheth y pwys diriaid arnynt: ar à gafo yn râd, ar ei ddichell, ac ar ni ddaw byth i ben.

69. Tri pheth à wna ddiriaid: lle nas gallo ddichell murn, lle nas gallo ei obaith lledrad, lle nas cafo ddawn ymgrogi.

70. Tri anfawd cymmodogaeth: diriaid ysgymyn, cybydd anghawr, a gwâs i ragwas arglwydd.

[1] Sev yw hyny *rhagvarn*. I. M.

71. Tri pheth a vlaenllymant y pwyll a'r deall: bodd cydwybod, budd corforawl, a chlôd doethion.

72. Tri pheth à gynhyrvant awen: gobaith, serch, a llawenydd.

73. Tri pheth à ddivenwant awen: anobaith, câs, a thristwch.

74. Tri phrivgyferddawn cnaid: serch, pwyll, a chydwybod.

75. Tri gwrthuniaid bŷd: oer a thwym, mawr a bach, a thwyll a goleu.

76. Tair sail camp a gweithred: barn doeth, arver gwlad, a serch cydwybod.

77. Tri pheth à barant lwydd ar awen a deall: cynneddvau daionus, digonedd bydawl, a myvyrdodau doethion.

78. Tri pheth à ddwyvolant awen: cariad perfaith, pwyll gwybodgar, a chalondid haelionus.

79. Tri anhardd ar ddŷn: glythni, diogi, a digllonedd.

80. Tri pheth à yrant bob peth ar wâllymsawdd: byrbwylldra, trachwant, a balchder.

81. Tri pheth à geif glwth: cywilydd, aviechyd, a digovaint Duw.

82. Tri hollawd à ddylit yn mhob ymgais: yr holl serch, yr holl ddeall, a'r holl allu.

83. O dri pheth y ceir gwybodau: côv er yn oes oesodd, ymgafaeliad pwyll, ac addysg athraw dysgedig.

84. Tri overion bŷd: ceisiaw attal y gwynt, croywâu y môr, a gyru addysg ar ddiriaid.

85. Tri arwydd doethineb: devodau daionus, uvyddawd rhag athraw, a threvnu yn ddosparthus.

86. Tri pheth à geir o vyvyrdawd gyviawn: gwybodau, boddlondeb, a pharch doethion.

87. Tri pheth à ennillant barch i ŵr: gwybodau moliannus, cynneddvau daionus, a chaingynnal dosparthus.

88. Tri pheth a ddangosant wybodaeth: ymddwyn haelionus, buchedd gynneddvus, ac ymgynnal yn anrhydeddus.

89. Tri pheth cythreulig ar ddŷn: twyll, cynnen, ac enllib.

90. Tri pheth ni ddifyg ar neb i ddierth o bydd haelionus: tywarchen orphwys, dwr rhag syched, a glangyvarch cariadus.

91. Tri dŷn nid oes gan Dduw à wnel ag wynt: à ymvalchïo yn ei ddrwg, a ymvoddlono yn ei anwybodaeth, ac à ymddarostyngo dan bob dihiryn dryglawn er ennill bydawl.

92. Tri dŷn da eu gochelyd: clavr, cynddeiriawg, a thavodrydd.

93. Tair merch gocheler eu prïodi: merch bengoch, merch chwedleugar, a merch vudrogled.

94. Tri pheth à wnant ddŷn yn ddiawl parod: gloddest, balchder, a chreulondeb.

95. Tri dŷn y dylid gadael yn rhydd y fordd iddynt: oedranus, dolurus, a llwythog.

96. Tri pheth cystal y naill a'r lleill o honynt: seren bren, march brwynen, a bardd annysgedig.

97. Tri pheth byr eu parâad: cariad crotyn, tân asglodyn, a lliv cornant.

98. Tri pheth moladwy ar wraig: aravwch, tawedocrwydd, a sywder.

99. Tri goreuron bywyd: iechyd, boddlondeb, a chydwybod lân.

100. Tri pheth à barant ddyddanwch anhygoll: ymbwys ar à ellir o hunan, ymbwys ar ddaioni, ac ymbwys ar Dduw.

101. Tri pheth nis gellir dyddan o honynt: ymbwys ar à ddysgwyler gan arall, ymbwys ar ddrwg, ac ymbwys ar wagobaith.

102. Tri sylwedd ystyriaeth: à vo hardd, à vo daionus, ac à ellir ei ddwyn i ben.

103. Tri sylwedd gwallystyr: overedd ansyber, argyweddus o ansawdd, a'r hyn nis gellir ei ddwyn i ben.

104. Tri pheth ni ddaw ond à vo drwg o honynt: à wneir yn vyrbwyll, à wneir gan ovn, ac à wneir gan ddiogi neu lesgymgais.

105. Tri dŷn ni waeth ba leiav à ymwneler âg wynt: ovnus, anystywallt, a byrbwyll

106. Tri pheth à ddangosant ddŷn yn gythraul cyvlwyr: balchder ar ddrwg, twyll diynnill, a drygu diniwed

107. Tri dangos y sydd ar bob peth: yr enw arno, y màn y bo, a'r ansawdd; a'r gair à gamddengys, ys gwaethav o gelwydd hwnw.

108. Tri pheth ni ddifyg arnynt vaddeuant am bechawd a chamwedd: maddeu cam, cariad haelionus, a diwygiaw à wnaed o gam i arall.

109. Tair cynneddv ddwyvawl ar ddŷn: bod yn drugar, bod yn wirgar, a bod yn wybodgar.

110. Tri ufernolion bŷd: enllibwr, ymladdwr, a lleidyr.

111. Tri phrivanraith bŷd: enllib, à ddwg à vo iawn ac eiddo arall o'i glod a'i air da; godineb, à ddwg à vo iawn ac eiddo i arall o'i briawdserch a'i vraint o etiveddiaeth; a thrachwant, à ddwg o ledrad, a chribddail, a thwyll, à vo iawn ac eiddo i

arall o ddäodd bŷd a meddiannau gwladawl.

112. Tri chynghor y llavurwr iddei vâb: bydd ddeallus y gwanwyn, bydd lavurgar y cynhauav, a bydd ystrywgar[1] bob amser.

113. Tri llavar y marw o'r bedd: gwyddost beth oeddwn, gwel beth ydwyv, a chovia beth vyddi.

114 Tri chyveirnod ymgais a diwydrwydd: byw glân, gwybodau doethineb, a chynneddvoldeb dwyvawl.

115. Tair fordd ddaionus y ceir golud: ymlavuriaw yn ddiwyd drwy gyviawnder, o ddoethineb gwellêugar ar wybodau a chelvyddydau, ac o ddawn cywiriaid o geraint a chyveillion.

116. Tair deddv sy benav i bawb: gobrwy i'r daionus, cosp i'r drwg, a llonydd a gadael i bawb ereill yn y wyper eu hansawdd parth camp ac athrylith.

117. Tri chyspwyll teyrnedd: nawdd cywiriaid, cosp dihiriaid, a chyviawnder i bawb.

118. Tri anhebgor gwybodaeth: cywirdeb meddwl, awen anianawl, a diwydrwydd tryserch.

119. Tri chyvrwym gwybodaeth: ysgolêigdod llythyr a llyvrau, athrawon trwyddedigion, a chôv gwlâd a chenedl.

120. Tri anhebgor ysgolêigdod: awydd diwydgais, pwyll awenvryd, a llyvrau cyvraith.

121. Tri anhebgor pwyll: nwyv, aravwch, a gwybodau.

122. Tri pheth à wnant ddoethineb: gwybodau, pwyll, ac awen.

123. Tri chyverddawn doethineb: digonedd bydawl, dyddanwch meddwl, a gwynvyd trgwyddawl.

124. Tri pheth à barant wynvyd calon i ddŷn: iechyd corf, llwyddiant bydawl, a bôdd cydwybod.

125. Tri pheth à geir o vyw yn vras ac yn voethus: aviechyd corf, pylder deall, ac anwydau pechadurus.

126. Tri pheth à geir o vyw ar lysiau y ddaiar: doethineb, iechyd, ac einioes hir dawelvyd.

127. Tri pheth à wnant wr yn ben ar y bŷd: bod yn ddiwyd yn ei orchwyl, yn ddoeth ei ymddwyn, ac yn gywir ei gynneddvau.

128. Tri pheth sydd gystal a'r goreu: bara drwyddo rhag newyn, dwr fynon rhag syched, a phais lwyd rhag anwyd.

129. Tri pheth à vyddant gystal a'u hamgen: dwr brwnt i ddifod tân, gwraig hagr i wr dall, a chleddyv pren i wr llwvr.

[1] *Neu*, ystyrgar.

130. Tri pheth nid rhaid eu gwell yn hyn o vŷd: iechyd i weithio, gwybodaeth i wneuthur gwaith, a gwaith iddei wneuthur.

131. Tri pheth ni ddylaint vod byth oddi gartrev: câth, sawell, a gwraig y tŷ.

132. Tri dau ni vawr ymgyttanant: dau gi am yr un asgwrn, dwy wraig yn yr un tŷ, a dau vab am yr un verch.

133. Tri pheth ni waeth gadael iddynt no cheisiaw tro arnynt: ci cynddeiriog, trenlliv avon, a doeth yn ei olwg ei hun.

134. Tri ansyberwyd gwledd: trachwerthin, ymrysonau anghysbwyll, a meddwdawd.

135. Tri pheth canmoladwy ar ŵr: hyder, aravwch, a diwydrwydd.

136. Tri pheth serchog ar ddŷn: haelioni, llawenydd, ac awen.

137. Tri pheth ar ddŷn à ennillant anmharch iddo: bod yn daer am ei gardawd, yn vyr ei gymmwynas, ac yn hir ei eistedd lle ydd elo.

138. Tri pheth ar ddŷn à ennillant iddo barch a chymmeriad: gwylder yn govyn, parod ei gymmwynas, a gochelyd gormes.

139. Tri anhebgor celvyddyd: awen gynhenid, addysg gynuwysbwyll, ac ymgais diymball

140. Tri chadernyd celvyddyd: ansawdd gwirbwyll, dosbarth gyweirglaer, a llesioldeb cyfrediu.

141. Tri chyvles celvyddyd: trevnu gwybodau, hawddâu gorchwyl, a mwyâu deall.

142. Tri chyvrwym celvyddyd: cywirdeb, galluoldeb, a buddioldeb.

143. Tri chyvrwym cenedl: teyrnedd, rhaith, a braint.

144. Tri chyvrwym teulu: pendawd, dosparth gywair, a chariadoldeb.

145. Tri chyvrwym cyveillach: llawenydd, cymmwynas, a syberwyd.

146. Tri chyvrwym teyrnedd: cadernyd, cyviawnder, a thrugaredd.

147. Tri chyvrwym gwybodau: cyviaith, cyvnerth, a chyvarwyddyd.

148. Tri chyvrwym dosbarth: gloywder, hawsder, a chyviawnder.

149. Tri chyvrwym doethineb: awen anianawl, gwybodau gloywon, a chynneddvau cyviawnbwyll.

150. Tri chyvrwym cyviawnder: deall, gwirionedd, a chariad.

151. Tri chyvrwym dwyvoldeb: crêd, serch, a gobaith.

152. Tri chyvrwym crêd: tyst, galledigrwydd, a goreuder.

153. Tri chyvrwym deddwyddyd: dwyvoldeb, goddevoldeb, a chadernyd.

154. Tair colovn cyviawnder: *gwarineb*, sev ymattal rhag ymddarsang ar arall mewn na gair, na gweithred, nac ymddwyn; *caredigrwydd*, a hyny ni wna yr hyn à boeno neu à vlino arall ar na gair, na gweithred, nac ymddwyn; a *haelioni*, yr hyn ni ettail rhag arall à fo cyviawn iddo, ai meddiant, ai meddwl, ai cymmyred y bo

155. Tair colovn anghyviawnder y sydd: *balchder*, yr hyn à ddamsaing arall ac a'i gormeilia ar air, a gweithred, ac ymddwyn; *creulondeb*, yr hwn á bair i arall boen a blinder corf a meddwl yn amgen noc à ddylit iddo o gosp gyviawn; a *chribddail*, yr hyn drwy ledrad à thwyll ac ymball, á ddivuddia yn anghyviawn arall o'i dda bŷd, ac o'i barch, ac o'i veddwl cyviawn.

156. Tri pheth y sydd lai no dim: benyw heb ddiweirdeb, gwr heb ddoethineb, ac athraw heb amynedd.

157. Tri pheth y rhoddes Duw ar bob dŷn à ddanvonwyd i'r byd: ymgais â gwybodau doethineb, ymarver â chyviawnder, a gwneuthur trugaredd hyd eithav gallu.

158. Tri pheth à ddygant ddŷn yn bensych drwy'r byd: iechyd, celvyddyd, a gair da.

159 Tri pheth à wnant wr yn voddlawn iddei vyd: gwraig rinweddawl, llwyddiant ar ei ymgais, a chydwybod ddiargyvedd.

160. Tri pheth nis gellir dedwydd hebddynt: uvydddawd, cyviawnder, a chariad.

161. Tri chyvarlludd dedwydd: trachwant awyddus, gwyniau avreolus, a choegwybodau twyllodrus.

162. Tri chyvarlludd daioni: gwendid corf, anwybodaeth, a chwantau anosparthus.

163. Tri chyvarlludd awen: trachwant bydawl, gwalladdysg, a thrallesgedd.

164. Tri chyvarlludd doethineb: cybydddra, glythineb, ac overgampau.

165. Tri chyvarlludd llwyddiant: anwybodaeth, anniwydrwydd, ac anueddvoldeb, neu anghywirdeb.

166. Tri chyvedliw doethineb: trachwant, dichell, ac ovn; a phènav ydynt ar à ellir yn folineb.

167. Tri chyvergyr doethineb: gwerinaw gwlâd a chenedl, tangnevoli meddwl a chynneddv, a medru ar wynvyd tragywydd, sev hyny boddâu Duw.

168. Tri chyvnerth awen: cyvarwyddyd, côv, a llwyddiant.

169. Tri chyvergyr awen: harddwch, deall, a llesioldeb.

170. Tri chadernyd deall: darbod, côv, a dosparth.

171. Tri chyvnerth deall: trevnusder, ystyr, a chyssulw.

172. Tri amgyfred deall: amser, lle, a dichwain.

173. Tri chyvarfordd anesgorol dŷn fordd ydd elo drwy y byd: haint, colled, a phechawd.

174. Tri ardymmyr enaid dŷn: serch, cov, a deall; ac o'r tri hyn y tardd yr holl wybodau ar celvyddydau; ac heb y lleill ni vydd y naill ond difrwyth; a difrwyth y llaill heb y naill.

175. Tri ardymmyr gwybodaeth: ceudawd, cynneddv, a dosbarth

176. Tri ardymmyr ceudawd: cav, deall, ac awen.

177. Tri chyvnywydd ceudawd: dychymygu, diongli, a chyvarwyddaw.

178. Tri dafarolion ceudawd: amlygu gwirionedd, amlâu gwybodau, a threvnu dosparthau cedeirn.

179. Tri chadernyd ceudawd: awen, côv, a gwybodau dosparthus.

180. Tri chyviawnder ceudawd: gwirionedd, lleuerawd, a dedwyddyd.

181. Tri ardymyr dedwyddyd: doethineb, tangnevoldeb, a dwyvoldeb.

182. Tri pheth y cyvymbwys dedwyddyd arnynt: ar ddiwydrwydd cynneddvawl, ar wybodau mad-ddafarolion, ac ar gydwybod lân.

183. Tri pheth ydd ymegnïa dedwydd eu gochel: trachwant cybyddaidd, gelyniaeth fyrnig, a balchder amrwysgus.

184. Tri pheth y fy dedwydd oddiwrthynt: ymrysonau cynnenllyd, trythyllwg annoeth, a gweithredoedd argyweddus.

185. Tri pheth ni châr dedwydd: distadledd, anwiredd, a sarugrwydd.

186. Tri pheth ni chymmer dedwydd: cynghor diriaid, rhodd diriaid, a gair diriaid.

187. Tri châs gan ddedwydd: dychymygion over, rhynwyv corforawl, a champau anneddvolion.

188. Tri gorvod dedwydd: ar ei drachwant, ar ei drythyllwg, ac ar ei ddigllonedd.

189. Tri pheth ni levair dedwydd: annoethineb, rhin arall, a gwir argyweddus.

190. Tri dŷn ni ymgais dedwydd ag ŵynt: tragoludawg, anneddvawl, a doeth yn ei olwg ei hun.

191. Tri dŷn ni ymgyvrin dedwydd ag ŵynt: gwenieithwr, dichellgar, a gwraig gwr arall.

192. Tri myvyrdawd gwastadawl dedwydd: doethineb dwyvawl, uvydddawd cynneddvawl, a daioni anveidrawl.

193. Tri pheth y câr dedwydd yn ddiymbaid: arverion daionus, doethineb cynnyddiawl, a phob peth yn ei ryw cyviawn a noturiawl.

194. Tri pheth ni ddifyg ar ddedwydd: hir iechyd ac einioes, da bŷd digonawl, a pharch doethion.

195. Tri pheth y ceif dedwydd yn anfaeliadawl ac yn gadarn eu gorvodoldeb: anrhydedd didervyn, a dyddanwch cydwybod annarvodiadawl, a gwynvyd nevawl gan Dduw yn dragywydd heb dranc heb orphen.

196. Tri pheth gwastadawl ar ddedwydd ac ni vethant arno: deddvoldeb, tangnevoldeb, a chariadoldeb; sev y tri hyn ac nid amgen o geinmyged á wnant ddwyvoldeb, ac nid dwyvoldeb ond dedwyddyd, ac nid deddwyddyd ond dwyvoldeb.

197. Tri chadernyd dedwyddyd: diniweidrwydd o gariad perfaith, diwydrwydd madweithredgar, a thangnevoldeb o gyviawnder trugar.

198. Tri chadernyd dedwyddyd: boddlondeb meddwl a chydwybod, cariad trugareddbell, a dwyvoldeb awenbwyll.

199. Tri anhebgor dwyvoldeb: gwybodaeth, cariad ymbwyllgar, a chyviawnder trugareddbwyll; ac heb y tri hyn ynghŷd nis gellir dwyvoldeb ansoddawl.

200. Tri chyvliwiau dwyvoldeb a dedwyddyd: doethineb gwybodgar, ymbwyll gwirioneddgar, a chyviawnder trugareddgar.

201. Tri enw cymmherthynas à ddoded ar un daioni cysevin: doethineb, dedwyddyd, a dwyvoldeb; can nas gellir un heb y llaill o'r tri pheth hyn.

202. Tri dysgleirdeb doethineb: awen, haelioni, a thangnev.

203. Tri anhebgor cardawd gyviawn: haelioni llawen, mwynder divalch, a chydwybod drugareddgar.

204. Tri phriv golovnau cardawd: nawdd i ddierth ac estron, ymborth i nèwynog a sychedig, a dangos anwybodus.

205. Tri dihiryn à ddygaut gyrch a gosod ar y gwànav, ac à föant â'u cynfonau yn llusgo y llawr rhag y cryvav: gwr balch, gwr cyvoethawg, a lleidyr pen fordd.

206. Tri pheth y gwel gwr o bell: ei gâr, ei gâs, a'i ovynwr.

207. Tri achos clevyd: gormodd, seguryd, a thristwch.

208. Tri anesgor clevyd: gwanâu y corf, pylu y deall, a byrâu yr einioes.

209. Tri chadernyd iechyd: ymborth iachus a chymmedrawl, gweithgarwch neu ymdravod cymmedrawl, a llawenydd o voddlondeb meddwl a chydwybod.

210. Tri pheth nid hawdd gwr o honynt: llostwrn câth, mochyn marw, a chybydd anghawr.

211. Tri pheth sydd raid eu porthi yn vynych: cywion mân, plant bychain, a chwant gwraig ievanc.[1]

212. Tri dŷn à vyddant hir oesawg: ârwr sychdir, havotwr mynydd, a physgotwr môr.

213. Tri ychydig à vyddant well no llawer ar y pryd: ychydig o vwyta, ychydig o yved, ac ychydig o chwedleua.

214. Tri pheth daionus à vagant bob daioni arall: cariad priodas, cymmwynasgarwch cymmodogion, a heddwch gwlâd.

215. Tri llavarwch syberwyd: llaw, llygad, a llais.

216. Tri pheth ansyber ar wr yn ei dŷ ei hunan: ymfistrain[2] â'i dylwyth lle gwypo ei westeion, ymsyllu ar à welo arnynt a chanthynt, a bod yn ddiymarbod parth ag attynt.

217. Tri anverthwch gwlêdd: meddwdod, ymrysonau, a chrochwerthin am ben bychanigion o chweiniau.

218. Tri harddwch gwledd: haelioni graesawgar, ymddyddan doethineb, a chywirdeb ymgyvrin.

219. Tri chyvrwym gwybodaeth: cymmwynasau, cadernyd devodau, a gwybodau gwladolion.

220. Tri chyvrwym gwybodaeth: athraw gwarantedig, dosparth gywair, a chôv llythyr cyviawn.

221. Tri cheinmyged gwybodaeth: gwirionedd, buddioldeb, a dyddanwch.

222. Tri cheinmyged dosparth: rhwyddâu deall, cyweiriaw côv, a llwybreiddiaw addysg.

223. Tri cheinmyged celvyddyd: mwyâu galluodd, lleiâu traferth, a chyweiriaw deall.

224. Tri pheth anverth eu gweled: celvyddyd heb ddosparth gywair, teulu heb wybodau bucheddawl, â gwlâd heb arverau daionus.

225. Tri pheth nis gellir gwlâd hebddynt: gwybodau bucheddawl, cyvraith gyviawn, ac athrawon gwarantedig.

226. Tri ynnïoldeb pob peth: plaid, gwrth, a chynghyd.

227. Tri harddwch gwlâd: ysgubawr dêg, eglwys lawn, a llŷs heb hawl.

228. Tri harddwch tŷ a'i gylch: aelwyd lân, celvi gloywon, a chaeadgylch trefnusdeg.

229. Tair arwydd cymmodog da; diwyd

[1] *Llyvyr arall*—a gwing gwraig ivanc.
[2] Ymsisial.

rwydd llawen, syberwyd moesau, a chyvarch hawddgar.

230. Tair arwydd gwr doeth: gair da cymmodogion, boddlondeb i'r byd à vo, a diwydrwydd yn ei alwad.

231. Tair arwydd gwraig dda: ei thŷ yn drevnus, ei phlant yn drwsiadus, a'i gwr yn gartrevgar.

232. Tri pheth da iawn yn weision a drwg iawn yn veistri: tân, dwr, a gwynt.

233. Tri pheth à wnant lewndid mewn gwlâd, a golud mewn teulu: llavuriaw tir, plànu coed, a gwaith rhôd a chribau.

234. Tri pheth serchus am gylch tŷ: gardd lysieulawn, perllan driniedig, a fyrdd sychion.

235. Tri phriv anverthwch dŷn: diogi, celwydd, a thrachwant; ac o honynt y tŷv pob peth arall à vo yn anverth.

236. Tri pheth ni vyddant byth yn wahaniaid: tavod hîr, pwyll byr, ac awen bôl.

237. Tri pheth ni waeth eu colli no'u cael: cell heb vwyd, tŷ heb gronglwyd, a dŷn heb iddo aïr da.

238. Tri pheth à gymmerant vwy no'u rhan gyviawn: meddwyn, cybydd, a chist melinydd.

239. Tri pheth à dröant y bŷd wyneb i waered: digywilydddra merch, anwybodaeth mâb, a phendodaeth gwraig.

240. Tri pheth ni chefir yn hawdd: dydd heb nôs, avon heb geulan, a gwraig heb avrad.

241. Tri chynhebygion y naill i'r lleill o henynt: ysgubawr dêg heb ŷd, fiol dêg heb ddïod, a merch dêg heb rinweddau da

242. Tri pheth à ddiflanant yn ebrwydd: ewyn ar ddwr, niwl bore tesog, a charedigrwydd gwr goludog.

243. Tri pheth nid hawdd eu gweled: tân gwlŷb, dwr sych, a benyw dawgar.

244. Tri haelion bŷd: haul, môr, a chwsg.

245. Tri phriv gyvnerth dŷn: pwyll, amynedd, a chydwybod lân.

246. Tri pheth o'u cael ni waeth beth amgen nas ceir: bodd pwyll, bodd cydwybod, a bodd Duw.

247. Tri pheth y sydd a gwyn ei vŷd a'u cafo: cyvaill cywir, llonyddwch cartrevawl, a bodd ei gydwybod ei hunan.

248. Tri pheth à wnant vywyd dŷn yn gysurus: gwraig dda, câr fyddlawn, a chymmodog tangnevgar.

249. Tri nid call eu coelio: dierth yn bostio ei vonedd, hên yn canmawl à ru gynt, ac à vostio ei ddoethineb ei hunan.

250. Tri pheth à newidiant yn vynych: y gwynt, y lleuad, a meddwl merch.

251. Tri pheth'er cael beunydd à geisiant vwy yn ddiorphwys: môr, meddwyn, a chybydd.

252. Tri pheth ni rydant byth: arian haelion, pedolau cefyl melinydd, a thavawd gwraig.

253. Tri dŷn ni vawr welir yn ddaioni arnynt: ymladdgar, ymfrostgar, a godinebgar.

254. Tri dŷn hawdd eu nabod: glwth, trachwantus, ac anwybodus.

255. Tri pheth goreu yn y bŷd: cydwybod lân, gwybod y gwîr, ac iechyd corf a meddwl.

256. Tri pheth nis gellir yn iawn heb wybodau: cymmydio yn dangnevus, amddifyn bywyd, a deall cyviawnder.

257. Tri pheth nid addev hebddynt: cartrev ddosparthus, braint o genedl, a chyvarwys yn warantedig.

258. Tri pheth ni hawdd gefir: pren mawr heb un golven gam arno, avon heb un tro ynddi, a chenedl heb ynddi ryw un neu gilydd â champ gywilyddus arno.

259. Tair colovn dedwyddyd: dwyvoldeb, doethineb, a syberwyd.

260. Tri pheth y dylai bob dŷn gadw yn graf gydag ev bob amser: ei gôv, ei gywilydd, a'i gydwybod.

261. Tri chynnoriaid doethineb: dispaid, dispwyll, a dosparth.

262. Tri cheinmyged myvyrdawd pob doeth dedwydd: bodd Duw, llês dŷn, a syrth anian.

263. Tri phriv ddiawligrwydd dŷn: balchder, cybyddiaeth, a chelwydd; canys o'r tri hyn y tardd pob drwg arall.

264. Tri pheth y bydd pob dŷn da: gweithgar, heddgar, ac elusengar.

265. O dri digon y mae pob annigon ac eisiwed: digon o gyvoeth bydawl, digon o iechyd cnawdawl, a digon o esmwythder corforawl.

266. Tair arwydd cydwybod lân: doethineb, caredigrwydd, a llawenydd.

267. Tair arwydd cydwybod wallbwyll ac avlan: annoethineb, ovnusder, ac anynadrwydd.

268. Tri y sydd ac ni wyddys pa un waethav o naddynt: gwr creulawn annhrugarawg, celwyddog anudongar, a'r cythraul mawr ei hunan.

269. Tri pheth y bydd meddwyn: mochyn yn ei gampau, ci cynddeiriog yn wŷn, a blaidd yn ei ddadwrdd; ac o'r tri hyn y bydd cythraul yn ei gynneddv.

270. Tair camp ar ddŷn à barant ar

bawb ei lwyr gasâu: bod yn enllibgar, yn gafaelgar, ac yn ddoethach no neb yn ei veddwl ei hun.

271. Tri pheth atgas ar ddŷn: meddwdawd, glythineb, a diogi; ac nis gellir glân o gamp ar à vo yn ymarver a'r bryntion hyn o gampau.

272. Tri chydvaeth doethineb: iechyd corf, llawenydd meddwl, a pharch pob da cynneddvawl.

273. Tri chydvaeth dirieidi: aviechyd corf, avlawen veddwl, a gwarthrudd gan bob daionus o vyw a bôd.

274. Tri chydvaeth gwybodau: doethineb hunanbwyll, llwyddiant bydawl, ac urddas yn ngwlâd gan anrhydedd.

275. Tri chyvargoll dirieidi: awen gysevin, iechyd corf, a dyddanwch meddwl.

276. Tri pheth anghyfredin: ieuanc heb lawenydd, ysgubawr heb lygod, a hên ddŷn digybydddra.

277. Tri chymmediwiau trevn a dosparth; rhiv, pwys, a mesur.

278. Tri argyfred pob peth: llun, lliw, a sylwedd.

279. Tri goreuon gwybodau doethineb: i ddŷn adnabod ei hunan, ac adnabod Duw a'i ddaioni, a gyru ar ei gydwybod wneuthvr â ddangosant y privwybodau hyny.

280. Tri goreuon gwybodau celvyddyd: llên, ferylltaeth, ac araduriaeth.

281. Tri goreuon gwybodau llawenydd: cerdd arwest deuluaidd, ymgorelwi, a chwedlau divyrbwyll; sev y dichon pob dŷn ymgyngyd a'r pethau hyn, er iechyd corf a dyddanwch meddwl.

282. Tri pheth ni wneir yn hawdd: tòri syched â thân, sychu'r gwlyb â dŵr, a boddloni pawb yn mhob peth à wnelir.

283. Tri pheth y dylai ddŷn vod bob amser yn ddiymattal yn eu gwneuthur: gweithredodd daionus, dysgu gwybodau, a darostwng ei wyniau; canys er maint à wnelo eve o'r pethau hyn, ni wna eve byth ei ddigon, ac à ddylai.

284. Tri pheth ni wyr neb y myrddiynved rhan o'u maint yn eu heithavodd: llês doethineb, nerth celvyddydau, a dyddanwch cydwybod lân.

285. Tair gwobyr diwydrwydd: digonoldeb o vodd i vyw, blaenoriaeth ar ereill, a chanmoliaeth doethion.

286. Tri pheth à wnant wr yn vlaenor ar ei gymmodogion: haelioni, doethineb, a chelvyddydau.

287. Tri dŷn à wnant ddaioni yn y byd: arwr hywaith, bardd awenddysg, a dwyvawl cariadgar.

288. O dri pheth y tardd gwybodau: angen yn ymddiwallu, côv yn ymgyvluniaw, a hofder dyddanwch.

289. Tri pheth y sydd ar bob ceinmyged: dechreu, canawl, a diwedd; a lle bo da y diwedd, da pob un o'r ddau ereill; a lle bo drwg y diwedd, ni ellir un da o'r lleill.

290. Tri pheth y dylai bob un ei wneuthur yn ddwysbwyll à gafo gynghorion da: eu coviaw yn grâf, eu hystyried yn ddiwyd, a gwneuthur ar eu hol yn ddiymbaid.

Ac velly tervyna Triodd y Doethion: a phoed i bawb eu coviaw, a'u hystyriaw, a'u dylyn!

16. Llyma Driodd y Brodyr.

(O'r un Llyvyr.)

1. Tri brodyr doethineb: à wrendy, à edrych, ac à daw.

2. Tri brodyr folineb: diymdawr, geneurwth, a chwerthinus.

3. Tri brodyr callineb: arav, ymbwyllgar, a diwyd.

4. Tri brodyr casineb: anynad neu vyrbwyll, trachwantus, a diawg.

5. Tri brodyr cyvenrhaith: hael, tangnevus, ac ewyllysgar.[1]

6. Tri brodyr cyveillach: cyvarchgar, uvydd, a chelvydd.

7. Tri brodyr cyviawnder: deddvawl, trugar, a serchawg.

8. Tri brodyr tangnev: gwirioneddus, tawedawg, a maddeugar.

9. Tri brodyr cynhwrv a thervysg: tringar, cribddeilgar, a chelwyddawg.

10. Tri brodyr prydverthwch: glân o gamp, syber, a syw.

11. Tri brodyr fieidddra: budr o gorf, ansyber ei voes, ac anmhrydverth ei gamp.

12. Tri brodyr celvyddbwyll: cerddgar, myvyrgar, ac anvalch.

13. Tri brodyr cerddoriaeth: penigamp, ymchwelawg, a boneddig.

14. Tri brodyr anrhydedd: doeth, moesgar, a gwrawl.

15. Tri brodyr gwarth a gwaradwydd: annoeth, anwr, ac anvoesgar.

16. Tri brodyr braint ac urddas: buddygawl, difyngar, a diwyllgar.

17. Tri brodyr anmraint: foadur, anniwyll, a bradwr.

18. Tri brodyr cyvannedd: bardd, feryllt, a thelynwr.

19. Tri brodyr ferylltawd: gôv, maensaer, a phrensaer.

20. Tri brodyr teuluaeth: prydydd, ysgolydd, ac yspeinydd.[2]

[1] Enraith yw cyvaill, yn Morganwg. I. M.
[2] Pa beth yw yspeinydd? I. M.

21. Tri brodyr cyweithas: deddvwr, llavurwr, a gwëydd.

22. Tri brodyr anghyweithas: ynad, milwr, a masnachwr.

23. Tri brodyr gwroldeb: cydwybodawl, cartrevawg, a gweithgar.

24. Tri brodyr gwladolder: meddiannawg, heddgar, a gwybodus.

25. Tri brodyr cadernyd: gwladog, trasog, a boddog.

26. Tri brodyr trevogaeth: dewr, tirion, ac amyneddgar.

27. Tri brodyr cymmod: cyvymbrawv, tostur, ac anvalch.

28. Tri brodyr boddlondeb: haelionus, anvoethus, ac avrwysgus.

29. Tri brodyr cyvoeth: gwâr, cywir, a hyddysg.

30. Tri brodyr tylodi: gwrthnysig, diddysg, ac anghywir.

31. Tri brodyr gwirionedd: glew, cymmedrawl, a chydwybodawl.

32. Tri brodyr harddwch: rhadverthus, cyviawn, a chariadus.

33. Tri brodyr rhadverthwch: trevnus, gochelgar, ac awengar.

34. Tri brodyr deall: ymgeisgar, gwybodgar, a phroviadawl.

35. Tri brodyr dysg: awen, athraw, ac ymgais.

36. Tri brodyr awen: selgar, chwilgar, a gavaelgar.

37. Tri brodyr gwybodaeth: côv, trevn, ac ystyriaeth.

38. Tri brodyr cyvundeb: deallus, hywedd, a dwyvawl.

39. Tri brodyr cyvrinach: bardd, brenin, a gwrol.

40. Tri brodyr blaenoriaeth: medrus, addvwyn, a fyddlawn.

41. Tri brodyr cymmyred: cyweithas, telediw, a dyledgar.

42. Tri brodyr fydd: cyvrin, cywir, ac à garer.

43. Tri brodyr dwyvolder: dyoddevgar, cariadgar, a gwirioneddgar.

44. Tri brodyr llwyddiant: goval, hyder, a diwydrwydd.

45. Tri brodyr cymmodogaeth: cymmwynasgar, trywyngar, a chynneddvawl.

46. Tri brodyr gwladoldeb: teuluawg, llonyddgar, a gwelleugar.

47. Tri brodyr dyddanwch: cerddgar, cyvarwydd, a divyr.

48. Tri brodyr celvyddyd: covus, anghenus, a myvyr.

49. Tri brodyr teuluaeth: syberwyd, sywder, a serchogrwydd.

50. Tri brodyr dedwyddyd: cariad, cywirdeb, ac iselvryd calon.

Ac velly tervynant.
Rhisiart Iorwerth a'u cant.

17. Llyma ereill o Driodd y Brodyr.

1. Tri brodyr cân a chwiban: iâch, digonawl, ac à ddwg air da.

2. Tri brodyr chwaryddiaeth: hawddvydig, llawen anianawl, a chyveillgar.

3. Tri brodyr overwaith: gormeddawg, diswydd, ac ynvyd.

4. Tri brodyr llawenydd: nwyvus, buddugawl, a chlodgael.

5. Tri brodyr cyveddach: prydydd, pibydd, ac ofeiriad.

6. Tri brodyr gwallgov: chwareugar, diodgar, a phuteingar.

7. Tri brodyr celwydd: gwr llên, henddyn, a theithiwr o bell.

8. Tri brodyr cynnen: arglwydd cyvoeth, rhingyll, a gwr diawg.

9. Tri brodyr brâd a chynllwyn: tlawd, trachwantus, a gorthrymedig.

10. Tri brodyr cyvathrach: anudonwr, bradwr, a brawd llwyd.

11. Tri brodyr cyveilin: cybydd, tollwr, a chythraul o ufern.

12. Tri brodyr benywiaeth: trwsiadgar, cellweirgar, a gwenieithgar.

13. Tri brodyr mursendod: minvoethus, chwedleugar, ac anwybodus.

14. Tri brodyr camwaith: arianog, didrev, a diglod.

15. Tri brodyr gosmeilgarwch: anneddvawl, anneallus, ac anvoneddig.

16. Tri brodyr tringarwch: swyddog llŷs, eglwyswr, ac anfodus.

17. Tri brodyr gormes: meddwyn, masnachwr, a llogwr arian.

18. Tri brodyr abwyaid: celwyddawg, ymfrostiawg, ac anghalonawg.

19. Tri brodyr diawl: creulawn, daueiriawg, a chenvigenus.

20. Tri brodyr syrvddandod: carwr nwyvwyllt, campiwr awenboeth, a hên wr cilpentan.

21. Tri brodyr divyrwch: dideulu, diymgais, a mâb ei vam.

22. Tri brodyr pen tai: maensaer, prensaer, a datgeiniad.

23. Tri brodyr pen mynydd: havodwr, heliwr, a myvyrgar.

24. Tri brodyr diovalwch: di arglwydd, di wraig, a diddyled.

Ac velly tervyna Trïodd y Brodyr[1]*: a*

Trïoedd ar gyhoedd á gaid, yr addysg
Gan wiwddoeth hynaviaid;
Dysg inni yn dês cànaid,
Doethineb byw, rhyw, a rhaid.

Iolo Morganwg a'i cant.

Rhisiart Iorwerth *a'u cant yrhain hevyd, gerbron Twmpath Prydyddion Tir Iarll.*

18. Llyma Driodd yr Arglwydd William Herbert, Iarll Rhaglan.

(*Llyvyr Thomas ab Ivan o Dre Bryn.*)

Triodd y Pedair Cenedl.

1. Tri pheth hynod ar Gymro: awen, haelioni, a llawenydd.

2. Tri pheth hynod ar Sais: aravwch, hyder, a diwydrwydd.

3. Tri pheth hynod ar Franc; gwychder, syberwyd, ac anwadalwch.

4. Tri pheth hynod ar Wyddel: truth, dichell, a frost.

5. Tri pheth à wnant yn hynod am ddoethineb y neb y bont arno: awen Cymro, syberwyd Franc, a diwydrwydd Sais.

6. Tri pheth à wnant gymmodog da: haelioni Cymro, aravwch Sais, a syberwyd Franc.

7. Tri pheth à wnant gyvaill cyvedd cystal ar goreu: llawenydd Cymro, hyder Sais, a syberwyd Franc.

8. Tri pheth à wnant ordderchwr cadeiriog: haelioni Cymro, gwychder Franc, a thruth Gwyddel.

9. Tri pheth à wnant vradwr drwyddo draw: aravwch Sais, truth Gwyddel, ac awen Cymro.

10. Tri pheth à wnant dwyllwr gorchestol: gwychder Franc, dichell Gwyddel, a diwydrwydd Sais.

11. Tri pheth à wnant ddŷn ynvyd: llawenydd Cymro, anwadalwch Franc, a frost Gwyddel.

12. Tri pheth à wnant ddiawl cybèned ag a vagwyd erioed yn ufern: hyder Sais, dichell Gwyddel, ac awen Cymro.

13. Tri pheth à wnant ddyn a chwardd bawb am ei ben: gwychder Franc, frost Gwyddel, a llawenydd Cymro.

14. Tri pheth nis gwelir yn ebrwydd ar yr un dŷn: haelioni Cymro, diwydrwydd Sais, a syberwyd Franc.

Ac velly tervyna Triodd'y Pedair Cenedl; a'r Arglwydd William Herbert *Iarll Rhaglan a'u gwnaeth.*

19. Triodd y Gwragedd.

(*O Lyvyr Sion Philip o Dre Os.*)

1. Tair rhagorgamp benyw: addvwynder, diweirdeb, a gloywlander yn ei gorchwyl a'i gwisg.

2. Am dri pheth y cerir benyw: harddwch corforawl, serchogrwydd meddwl, a threvnusder teuluaidd.

3. Tri pheth canmoliadawl ar venyw: gwylder ymarwedd, cynnildeb llaw ac amcan, a diwydrwydd teuluaidd.

4. Tri pheth hawddgar ar venyw: addvwyn o ddevawd, gwisg drevnusloyw, a llavar serchogaidd.

5. Tri pheth moliannus ar venyw: caru bod yn nghartrev, na bo yn rylavargar, a bod yn drugarawg parth ag at a'i govyno; sev wrth dlawd, a chlav, a dyeithr; a hyny er mwyn Duw a'i nawdd.

6. Tair dyledswydd gartrevawl benyw: goval trevnus am ei thŷ a'i thylwyth, bod yn roesawgar wrth ei gwesteion, a bod yn garedig iddei gwr.

7. Tri pheth y canmolir benyw am danynt: glendid camp a devawd, glendid trevnusdeg ei thŷ, a hawddgarwch ei hymddwyn.

8. Tri pheth ar venyw à ennillant gariad ei gwr: uvydddawd serchogaidd, cynnilgamp ar orchwyl, a govalu yn warcheid wadawl am ei meddiant ac a vo dan ei llaw.

9. Tri pheth à ennillant air da i venyw: ei chell yn brŷdd,[1] ei thŷ yn loyw, a'i thylwyth yn drwsiadus.

10. Tri pheth dwyvawl ar venyw: bod yn vaddeugar, yn elusengar, ac yn anvoethus.

11. Tri pheth ni ddylai gwraig eu rhoddi i neb ond iddei gwr: ei serch, ei chorf, a'i chyvrinach.

12. Tri pheth à ddangosant wraig dda: ei gwr yn drevnuslan ei wisg, dwyn ei phlant ar wybodau boneddig, a bod gair da iddi gan ei chymmodogion.

13. Tri pheth à ddengys ddoethineb gwraig: ei gweinyddesi yn aros yn hir yn ei gwasanaeth, ei gwr yn caru bod y'nghartrev, a boreuder ei theulu.

14. Tri pheth hardd ar vorwynverch: gwylder, addvwynder, a deddvau boneddigion.

15. Tri pheth anverth ar vorwynverch: bod yn drachwerthinawg, yn drachwedleugar, ac yn drasengar.

16. Tair arwydd gwraig ddrwg: bostio ei champ a'i gweithred ei hunan, beio ar ei chymmodogesau, ac ymdynu am y trechav

17. Tri govynion benyw: gossymmaeth, gwisgodd, a charedigrwydd.

18. Tri pheth à wnant wr yn vodlon iddei wraig: glân a chyvan yn ei gwisg, serchog ei hymddwyn, a threvnu yn lân yn ei thŷ

19. Tri pheth à vyddant lle bo cariad rhwng benyw a'i gŵr: golud, anrhydedd, a gwynvyd.

[1] Prydd, very good, rich, substantial. *Glamorgan.*

20. Tri pheth hardd mewn teulu: gwr doeth deddvol, gwraig lanwaith serchogaidd, a phlant addvwyngamp gwybodgar.

21. Tri pheth y dylai gwraig ddwyn ei phlant arnynt: dwyvoldeb, deddvoldeb, ac addvwynder bonedd cenedyl y Cymry.

22. Tri anrhydedd gwraig: ei thŷ yn lân ac yn drevnus, ei gwr yn llwyddiannus, a'i phlant yn wybodus.

23. Tri pheth fieiddvrwnt ar wraig: avlendid corf a dodrevn, sengarwch, a diogydrwydd.

24. Tair gorhofgamp gwraig: iaith groyw, synwyr croyw, a chynneddvau croywon.

25. Tair anhofgamp gwraig: twyll-wybodau, twyll-gynneddvau, a thwyll-ymddangos ar ei thŷ a'i dodrevn.

26. Tri thwyll ar wraig à vyddant bènav o'r holl dwyllau, ac yn unrhyw y byddant ar bob dyn arall: twyll-ddwyvoldeb, twyll-gywirdeb, a thwyll-gariad; a lle bo un neu arall o'r tri hyn, bydd ar gydvod pob twyll arall yn y bŷd.

27. Tri pheth ar wraig, (ac ar bob dyn arall,) a'i dengys yn ddwyvawl: anvalch yn hawddvyd, avlorv mewn advyd, ac yn ddiachwyn ar bob gwaith Duw.

28. Tri pheth à weddant ar bob gwraig dda: llawenydd diargywedd, sywder tlysaidd ar ddillad, a mwythusder didwyll iaith ac ymadrawdd.

29. Tri pheth y dylai bob gwr eu gwneuthur parth ag at ei wraig: ei charu yn ddidwyll, ei chynnal yn ddiddifyg yn ol y byd à vo arno, a gadael iddi yn à berthyn i drevn ei thŷ, a'i thylwyth, a'i gorchwyl.

30. Tri pheth y dylai gwr ddwyn ei blant arnynt: dysgeidiaeth ar lyvyr, celvyddydau anrhydeddus, a chelvyddydau cartrevawl.

31. Tair celvyddyd anrhydeddus y dylai bob gwr ddwyn ei veibion arnynt: milwriaeth, rheithyddiaeth, a llyvryddiaeth.

32. Tair celvyddyd anrhydeddus y dylai ddwyn ei verched arnynt: syberwyd bonedd y Cymry, dosbarth y Gymraeg a'i darllen yn gyviawn, a cherdd davawd ac arwest.

33. Tair celvyddyd gartrevawl y dylai ddwyn ei veibion arnynt: trîn tîr ac ysgrublaid, saernïaeth, a meddyginiaeth.

34. Tair celvyddyd gartrevawl y dylai ddwyn ei verchaid arnynt: coginiaeth, gwëyddiaeth, a gwiniaduriaeth.

35. Tair celvyddyd ddinesig à weddant ar veibion boneddigion: nid amgen, ysgolêigiaeth, ferylltaeth, a chyvnewidiaeth.

36. Tair celvyddyd wrolion à weddant ar verchaid: barddoniaeth, meddyginiaeth, ac ysgolyddiaeth.

37. Tri pheth y dylai y meibion eu gwneuthur parth ag at y merchaid: ymgyveillach garedig, anrhegion gweddeiddbarch, ac ymddwyn syberwydbwyll.

38. Tri pheth à wedd ar verchaid parth ag at y meibion: gwylder serchogaidd, caredigrwydd parodbwyll, a syberwyd benywaidd gweddeiddbarch.

Ac velly tervyna Triodd y Gwragedd.

20. Triodd Addwynder.

(*Llyvyr Tre Bryn.*)

1. Tair colovn addwynder: cyvarch parchus herwydd moes a devod, derbyniad serchogaidd a groesawus, ac ymddwyn syber wrth vodd à barcher.

2. Tri enaid addwynder: parch, haelioni, a dyddanwch.

3. Tri anhebgor addwynder: groesaw, nawdd, a syberwyd cynneddvawl.

4. Tri hawddgarwch addwynder: cerdd davawd, cerdd dant, a chyvarwyddyd, herwydd doethineb a dyddanwch.

5. Tri harddwch addwynder: doethineb, gwybyddiaeth, a serchogrwydd.

6. Tri chyvarch addwynder: llysair, govyn hynt a helynt y dŷn a'i dylwyth, a gwahawdd ymarvoll.

7. Tri chyvarch cyvarvod à ddylit gan addvwynder: sev ydynt rhâd Duw arnoch, neu ar eich gwaith a'ch gorchwyl; pryd bynnag y bo o'r dydd yn dda i chwi; a Duw vo gyda chwi.

8. Tri chyvarch ymadael: Duw vo gyda chwi; y dydd, herwydd ei bryd, yn dda i chwi; a hanpych well, neu hanpo gwell y boch.

9. Tri phriv roddion addwynder: ymborth, nawdd, a chyvarwyddyd.

10. Tri chyfredinion llettyaeth herwydd addwynder: bwyd, gwely, a thelyn.

11. Tri rhyw ymdeithydd y dylit gerdded yn ymravael gydag wynt, herwydd moes a devod addwynder, a devod bonedd cenedyl y Cymry: ar ôl à vo gogynnevin â'i fordd, o vlaen à vo anghynnevin a'r fordd, a gadael ar ddeheulaw à gerddo gydag ev, neu à ymgyvervydd ag ev ar y fordd, gan vyned heibio iddo yn gyvarchus gan syberwyd.

12. Tair devawd voneddig y sydd gan addwynder: ymgytgerdd, ymgyspwyll, ac ymgychwedl.

13. Tri pheth herwydd addwynder nis dylit eu govyn i à lettyer: o ba yr henyw, ei helynt bydawl, a'i vynediad.

14. Tair hawl addvwynder, a hyny o'r

gwahoddiad diweddav gan a'i llettyo: nawdd tridiau, gossymmaeth, a charedigrwydd.

15. Tri rhagorion addwynder: moethau, llawenydd, ac anrhegion.

16. Tri ennill addwynder: cariad, anrhydedd, a nawdd rhag y bo achaws.

17. Tair gobrwy rhagorion addwynder: bodd Duw, bodd dŷn, a bodd calon a chydwybod a'i dafair.

18. Tri ynnïau addwynder: cariad, llawenydd, ac haelioni.

19. Tri arddelwyddion addwynder: estron, rhagorgamp, a chyveiliornus ei fordd.

20. Tri dyledogion addwynder: tylawd, gwàn, a benyw.

21. Tri blaenoriaid addwynder: advydig, benyw, ac estron.

22. Tri à vlaenorant o vlaenoriaid addvwynder: y gwànav, y tylotav, a'r anghyviaith.

23. Tair cynnosparth addwynder: lletty, cywirdeb, a chariad.

24. Tri holiadolion addwynder: pènaeth, benyw, a dyeithr cymmrawd.

25. Tri breiniedigion addwynder: gwr llên, crevyddwr, a phlentyn.

26. Tri govynion er mwyn, nis gellir gan addwynder eu nacâu: er mwyn Duw a'i dangnev, er mwyn a'i govyn, ac er mwyn à ddichon, dygwydd a damwain.

27. Tri dŷn y dylit addwynder parth ag attynt yn mraint syberwyd: boneddig o barch ac anrhydedd iddo, benyw o hawddgarwch a nawdd iddi, a phlentyn o nawdd ac addysg iddo.

28. Tair braint bonedd y sydd gan addwynder cenedyl y Cymry: braint gynhenid, llên a gwybodau, a gorchestolion moliannus er gwlâd a chenedyl.

29. Tri brâd addwynder: cyhuddaw ar y llettyedig, datgan ei rîn, á thòr nawdd tridiau: sev y bydd y nawdd hòno o'r pryd y derbynier hyd ymhen y tridiau, ac o hyny hyd ymhen y trigeinawr wedi pryd y gwetawr Duw yn rhwydd i chwi, neu Duw à vo gyda chwi, neu hanpo gwell gan Dduw erddoch.

30. Tair braint gyfredin addwynder: nawdd Duw a'i dangnev, trugaredd anianawl, a syberwyd o vonedd cenedyl y Cymry.

31. Tair braint wahanredawl addwynder: hawddgarwch o serchogrwydd, mal y bydd parth ag at venyw; addysg, mal y bydd i blentyn, ac arall o anwybodus; ac arbenieder parch, mal a'i dylit i gelvyddgar a gorchestolgamp voliannus; megis y bydd milwr à wnelo yn orchestwaith, a doeth celvydd yn gwellâu gwybodau.

32. Tri pheth gan addwynder y dylit parth â gwesteion: derbyniad serchawgvwyn, diwalliad parawdlwys, acymddyddan cyveillgar.

33. Tri pheth y dylai gwesteion vod wrth ymadael: yn ddiwallaid o vwyd a llyn, yn forddiadol eu hymdaith, ac yn gynnerchiadol o barch a syberwyd.

34. Tri y dylai gwr eu rhoddi ar vwyd a chyveillach gyda ei westeion: ei wraig, ei vab hynav, a'i verch hynav, neu à vythor o henynt; ac eve ei hun yn goreiliaw.

35. Tair devawd gyntav lle delo gwesteion: dwr i olchi traed, cyvarch groesaw gan bendodiaid y teulu, a chadair ger aelwyd.

36. Tri pheth nesaf at y rhain: ei arvau i'r gwestwr, ymborth o vwyd a diod, a dangaws ei wely, val y gallor gymmeryd y gorphwys y bo'r corf yn govyn.

37. Tri pheth hardd ar westwr a gwestai: bod yn addvwyn, bod yn dawedawg, a bod yn ddiovn.

38. Tri nawdd gwesteiaeth: nawdd Duw a'i dangnev, nawdd iawn a chariadoldeb, a nawdd devodau syberwyd ac addvwynder cenedyl y Cymry.

39. Tri chyvarch bendith gwestwr a gwestai: wrth ddyvod i mewn, bendith Duw yn y tŷ; tra vythor ynddo, am bob dawn a chymmwynas, bendith Duw i chwi, neu Duw a'ch bendithio; ac wrth ymadael, dewch a bendith Duw i chwi, yn wahoddiad dros bob addwynder.

40. Tri attebion bendith: bendith Duw arnoch, bendith Duw yn rhad i chwi, ac ewch â bendith Duw gyda chwi.

41. Tri devawd arveriadawl gwesteion: cyvarch yn nawdd Duw a'i dangnev, ymddiosg â'u harvau a'u hestyn yn llaw ei osb, a dangos rhaid ac achaws mal y gwyper à wnelor iddo ac erddo.

42. Tri pheth boneddig ar west a gwestai eu rhoddi lle delawr: ei arvau, ei enw, a'i hanvod; a lle gwnelo iawn iddo dri nawdd gwesteion, a'i brodor a'i estron y bo.

43. Tri phriv syberwyd groesaw gan addwynder: dangos caredigrwydd haelionus, dangos à ddiwallawr yn ymborth a gorphwys yn y bo achaws a rhaid, ac arvau yn ôl yn llaw a'u pieufo.

44. Tair camp addwynder herwydd pa rai y dylit aroll gwesteion: trugaredd haelionus, deddvoldeb trevnus gan syberwyd, a llawenydd gweddus a diargywedd.

45. Tri harddwch gwesteiaeth ac addvwynder: aravwch, trevnusder teulüaidd, ac ymddwyn cysbwyllus.

46. Tri anhardd gwesteiaeth: bod yn rwyholgar, yn loddestgar, ac yn athrodgar.

47. Tair urddas gwesteiaeth: rhywiogrwydd devodau a moesau herwydd à ovyn syberwyd, gwybodau moliannus ac urddasawl, a llavariaeth gyviawn heb ledryw ar bwyll a cheinmyged y Gymraeg a'i hymadroddion.

48. Tri pheth anhardd ac anaddwyn ar bob rhyw a gradd o ddŷn, beth bynag, a pha le bynag, a phryd bynag y bo: sev dioglydrwydd, surllydrwydd, ac annysg herwydd ei râdd a'i ansawdd.

49. Tair camp anverth, anaddwyn, ac ansyber: tyngllydrwydd anudonllyd, celwyddgarwch, ac athraw enllibgar.

50. Tri anaddwynder ni waeth cythraul noc a'u gwnelo: datrin cyvrinach, ansyberwyd parth ag at à rotho letty a groesaw yn ddosparthus gan syberwyd haelionus ac addwynder devodawl, ac anniolch lle delawr yn y tro atto ar westeiaeth.

51. Tri ansyberwyd à wrthladdant addwynder yn gyvlwyr: ansyberwyd parth ag at venyw, ansyberwyd parth ag at ddoeth a gwybodus cyhoeddglod, ac ansyberwyd parth ag at gwr wrth grevydd a dwyvoldeb.

52. Tri mygedigion cyntav pob cyvarch syberwyd ac addwynder: benyw, gwr wrth ddysg a gwybodau, a gwr wrth vraint ac urddas gwlâd.

53. Tri rhyw y sydd o ddynion wrth vraint ac urddas gwlâd a chenedyl addwyn: gwŷr wrth deyrnedd, megis y bydd arglwydd cyvoeth a'i wŷr swydd dosparthus a gwarantedig; gwŷr wrth grevydd a dwyvoldeb dosparthus; ac athrawon celvyddydau a gwybodau gwladolion, lle bont warantedig o vraint a swydd; sev heb y tri hyn, nis gellir addwynder ar wlâd a chenedyl.

54. Tri anmharch ac anurddas tŷwr gan syberwyd ac addwynder, o'u gweled liw dydd a'i funon yn mygu: ci cyvarthgar yn y baili, drain ar ei gymmad, neu borth yn nghaead, ac anatteb cyvarch drŵs.

55. Tri pheth anverth ar lavar gan westeiaeth: celwyddau, budreddair, a beiaw neu achwyn ar arall, lle nas govyner gan wr na chan achaws dosparthus a gorvod o gyspwyllad.

56. Tri anaddwynder anverth ar bob dŷn, ac a'i dyvethant yn y diwedd: dichell, llid, a glythineb ar vwyd a diod, rhag anmoneddiced y cynneddvau hyny.

57. Tri pheth anweddus ar vwyd: rhychwedleua, mursendod, a chanmawl neu veiaw y bwyd; can y dylit ei gymmeryd mal y danvono Duw ev.

58. Tri pheth à vawr weddant eu bod ar west a gwesteiwr: glander corf a gwisg, glander ymadrawdd, a glander moes a devawd; can nis gellir addwynder a syberwyd hebddynt y cynneddvau hyn.

59. Tri pheth ni ddylai neb gymmeryd tâl gan ddyeithr, neu ddŷn ar ymdaith, a'u govyno: llaeth, halen, a bara; ac am amgen o bethau gwerth nid anaddwyn derbyn tâl lle à'u govyner dros dâl.

60. Tri pheth à ddylit yn rhydd heb na thâl na gwobr i bob gwr ar ymdaith lle ydd elo: dwr, tân, a gwasgawd rhag drychin.

61. Tair rhodd elusen à ddylit i bob dierth ac anghenus: ymborth, nawdd, a dangaws.

62. Tair anaddwyngamp gythreulig ar ddŷn: gormes, cenvigen, a balchder.

63. Tri pheth à ddylit o addwynder eu diolch gan syberwyd: gwahawdd, budd, ac annerch.

64. Tri pheth y dylit parth ag at gwesteion yn barch arnynt: eu haroll o bell yn garedig lle gwyper eu dyvod, eu groesawu yn voneddigaidd ac yn anrhydeddus gyda phob llawenydd ac haelioni tra'dd arosont, a'u hebrwng yn garedig a pharchusbwyll y pryd ydd elont.

Ac velly tervyna Trïodd Addwynder: a'r rhain á dynwyd o lyvyr yr hên Syr Edward Stradlin o Gastell San-Dunwyd, gen y vi, Thomas ab Ivan *O Dre Bryn.*

21. Llyma Driodd Dyfnwal Moelmud, a elwir Triodd y Cludau, a Thriodd y Cargludau.

(*Llyvyr Tre Bryn.*)

1. Tair Clud gyvarwedd y sydd: barddoniaeth, govaniaeth, a thelynoriaeth. Neu val hyn, tair clud gyvannedd y sydd yn mraint devodau cenedyl y Cymry; bardd, feryllt, a thelynior.

2. Tri pheth à wnant glud-gartrev: cenedyl, braint, a rhyvel.

3. Tri chartrevoldeb y sydd: cyviaith, cyvar, a chyvarv.

4. Tair clud arvoll y sydd: cynghaws, cyvathrach, a difyn; sev nawdd a chyvnawdd.

5. Tair clud gyvnawdd y sydd: dinauclud, mesori, a chyvar; sev yw dyled i bawb ei law yn à vetro.

6. Tair clud udcorn y sydd: dygynnull gwlâd gan riaint a phencenedlodd, corn cynhauav, a chorn câd a rhyvel rhag gormes gorwlad ac estron.

7. Tair clud gyvarv y sydd: rhag estron

a gormes gorwlad, rhag à doront vraint a chyvraith, a rhag gwylltvilod rheipus.

8. Tair clud gymhorth y sydd: beirdd yn eu cylch clera, dymchwel o ryvel, ac eillion yn nawdd cenedyl y Cymry.

9. Tair clud ddychwel y sydd: iaith, braint, a chenedyl. Neu, o vodd arall, ceraint, cyvar, a chyviaith; sev nis gellir carddychwel yn ddiormes oni bydd un o'r tri dros hyny.

10. Tair clud ormes y sydd: symmud câr heb vraint heb gènad, cyrch gosgordd estron heb rybudd heb ammod, a barn heb wlâd heb ynad, neu heb wlâd ac arglwyddi rhiaint.

11. Tair clud varlin y sydd: cenedyl gysevin yn ngorsedd gwlâd a rhiaint, ynad a'i bleidorion yn myned gan varn a chyvraith, a thywysawg a'i osgordd yn myned yn rhyvel gorwlâd. Sev yw barlin, rhiaint a phencenedlodd, neu bèneiviaid cenedyl a chynghaws.

12. Tair clud y sydd, ac ar y lle delont eu cynnal a'u porthi: a vont yn mraint barlin, à vont yn mraint beirdd, ac à vont yn mraint amddivad.

13. Tair clud addwyn y sydd: beirdd yn darogan heddwch, cyrch cynhauav, a phrïodas.

14. Tair clud gymmrawd y sydd: dygynnull gwlâd a rhiaint yn dosbarth cyvreithiau a barn cywlad, beirdd yn athrawon gwybodau lle cyrchont yn ngorsedd, a chydgyvarch cenedyl yn nghyrch golychwyd, ar y privwyliau arbènigion.

15. Tair clud vargad y sydd: cyrch gelyn gorwlad; llev, neu gorn murn a chynllwyn; a threv ar dân; sev y dylit gynnorthwy gan bawb.

16. Tri chorn cynghlud y sydd: corn cynhauav, corn dadlau, a chorn golychwyd.

17. Tair clud gynhwrv y sydd: corn gwlâd, llongau o wlâd estron yn medru tîr, ac annychwel cènad gwlâd a rhiaint o wlâd estron.

18. Tair clud gyvarch y sydd: aredig, gwylgampau, a goddeithio coedydd; sev o gyvarch nis dylit eu hattal.

19. Tri chyvarch gwlad: corn cychwyn, gwaedd yn llŷs, a gosteg golychwyd.

20. Tair clud anghyvarch y sydd: helwriaeth, ydgyrch, a chlawdd haiarn; sev nid rhaid cyvarch o a'u cyrchont. Neu, o vodd arall, nid rhaid cyvarch eu cyrchu.

21. Tair clud ymlid y sydd: blaidd, gwilliaid, a chi cynddeiriog; a phawb à glywont y gwaedd à ddylynt ymgydgyrch.

22. Tair dinauclud y sydd: cyrch estron yn anghyvarch, anrhaith gorwlad, a chnud bleiddiau.

23. Tair clud vreiniawl y sydd: cylch brenin, neu riaint yn eu cyvoethau, cyrch beirdd yn ngorsedd gyvallwy, a chyrch dwyvolion yn ngolychwyd; ac yn rhai llyvrau val hyn, Cyrch yngneidiaeth, cyrch beirdd a chlêr, a chyrch golychwyd.

24. Tair cludgyrch vreiniawl o addwynder gwarantedig cenedyl y Cymry y sydd, ac ni ddylit à elai yn eu herbyn: cyrch cènad gorwlad, cyrch beirdd gorwlad yn ngorsedd wrth vraint a devawd beirdd Ynys Prydain, a chyrch eillion yn hedd ac yn nawdd Duw a'i dangnev.

25. Tair clud gychwyn gyfredin y sydd: serch, budd, a gochel cosp ac anmraint.

26. Tair clud ddeol y sydd: murn a chynllwyn; brâd teyrnedd, sev brâd gwlâd a chenedyl; ac anrhaithledrad anwyllyniawg; sev y dylai bawb yn nghlyw y corn fordd y cerdder vyned yn nghyrch y dëol hyny, bob rhyw ac oedran, a chynnal cyvarth gan gŵn yn ydd eler hyd rhoddi ar vôr, ac ydd elo à ddëoler driugeinawr o'r golwg.

27. Tair clud gymmhill y sydd, a govyn cynghlud ar bob dyledawg cynhwynawl: cyrch yn ngorseddau gwlâd a chenedyl, cyrch rhyvel gorwlad, a chyrch carllawedrog; sev yw carllawedrawg, un à vo braint a symmud ei gàr neu ei vwd pan y myno.

28. Tri charllawedrawg y sydd: anghydvrawd, ac anghyttir, ac à vo wrth vraint o bencenedyl; sev yw carllawedrawg, à vo braint iddo symmud ei gàr lle y myno, neu symmud i arall o vàn heb golli braint a brodoriaeth yn y lle y symmuto o hano, tra nad elo yn ngwlâd gelyn ac estron; sev yw gwlâd estron amgen o briv genedyl, a gorwlad amgen o gyvoeth o'r un briv genedyl.

29. Tair clud gyvattal y sydd: pencenedyl, prïodasawg, ac à vo wrth swydd gwlâd a chyvoeth; a chargyvattal, a'u gelwir, am nis gellir eu hebgor yn ngwlâd a chenedyl.

30. Tair clud vànawg y sydd: pencenedyl a'i osgordd, beirdd a'u noddedigion o awenyddion, ac ynad a'i wŷr llŷs; sev yn màn y bont y bydd eu braint a'u trwydded.

31. Tair clud gyvran y sydd: braint clud varlin, âr gysevin, a helwriaeth; sev y bydd i'r rhai hyn hawl a chyvran yn y vrodoriaeth wrth hyn o bethau pan y myner.

32. Tair clud angen y sydd: newyn yn ngwlâd, daiardor neu liveiriant, a gortrech estron; sev rhagddynt y dervydd braint a brodoriaeth yn ngwlâd, a myned o'r genedyl

ar encil ac yno dechreu o'r newydd yn nghymmrawd y genedyl.

33. Tair caethglud y sydd: gelyn gorvodedig, a gwilliaid cywlad, a chychwyn anghènad; sev à symmudo ei gàr neu ei vwd heb vraint heb gènad; a'r tri rhyw hyn o ddynion á ddoder yn nghaethglud, ac yn eillion hyd yn mhen y nawved âch.

34. Tair clud gynniwair y sydd: bugeiliaid trevgordd yn arail eu preiddiau, ymlid gwylltvilod rheipus gan gorn gwlâd, a beirdd yn darogan wrth raid gwlâd a chenedyl.

Ac velly tervyna.

A Thriodd y Cargludau a'u gelwir; a Dyfnwal Moelmud, brenin y Cymry a'u cadarnâes er dangos à vai iawn a chyvraith mewn gwlâd a chenedyl; a goreu deddvwr à vu eirioed oedd Dyvnwal Moelmud; a goreu am vraint a nawdd i vrodor ac aillt, rhag bod neb à wnelai yn ngham ac yn anghyvraith. A gwedy hyny Hywel Dda brenin Cymru oll a'u cadarnâes yn gauedig yn erbyn a'u gwrthreithiai ac a'u gwrthvreiniai.

22. Llyma ereill o Driodd Dyfnwal Moelmud, *à elwir*

Triodd Gwladoldeb a chywladoldeb; *sev ydynt hên driodd breiniau a devodau cenedyl y Cymry, cyn colli eu braint a'u coron, o drais a thwyll a brad y Saesou.*

1. Tair sail gwladoldeb: braint, meddiant, a chyvraith.

2. Tair sail cyvraith: amddifyn, cosp, ac anrhydedd, parth ag at à wneler er llês gwlâd a chenedyl.

3. Tri nawdd ac amddifyn gwladoldeb: nawdd bywyd a chorf, nawdd meddiant ac addev, a nawdd braint gynhenid.

4. Tri pheth à ddifynant wladoldeb: cariad, ovn, a chymmudd.

5. Tri pheth à gadarnâant wladoldeb: nawdd gadarn i bob dŷn a'i eiddo, cosp gyviawn lle a'i dylit, a thrugaredd o gyviawnder lle a'i gweler yn ovyniadawl gan achaws gyviawn.

6. Tri pheth à ddyvethant wladoldeb: creulonder yn lle cosp; trugaredd, o gariad a pharch, yn gwyraw cyviawnder; a thwyllgymmrawd, lle nas cafer nawdd gynneddvawl i bob dŷn, a'i brodor a'i aillt y bo.

7. Tair colovn gwladoldeb: tëyrnedd, rhaith gwlâd, ac yngneidiaeth.

8. Tri pheth à ddylit ar bob un o'r tair colovn hyn: iawn i bawb, nawdd ac amddifyn i bawb, a dosbarthau hydrevn er addysg a gwybodaeth a chôv i bawb o'r vrodoriaeth.

9. Tri pheth à gadarnâant ar wladoldeb: nerth, nawdd, a chosp o gyviawnder cyvraith gynneddvaid.

10. Tri devnydd cyvraith: gwybodaeth, iawn cynhenid, a chydwybod.

11. Tri thlws gwladoldeb: ysgolâig dysgedig, feryllt celvydd, ac ynad cyviawn.

12. Tri phrawv ynad: gwybod y gyvraith, gwybod devodau gwlâd na chauo cyvraith yn eu herbyn, a gwybod syrth ei amserau a'u dichweiniau.

13. Tri pheth y dylai ynad ymarver ag wynt yn wastad: gwirionedd cynneddvawl, trugaredd cydwybodawl, a gwybodau cedeirnbwyll.

14. Tri pheth à ddylai vod ar ynad mal y gallo wybod ac ymgydwybodi yn gyviawn â phob hawl a dadl à ddelawr ger ei vròn: bod yn ystyrgar i ymrynu yn geudodawl â'r gwirionedd, a'i chwilio i maes o'i bwyll cysevin ei hunan; bod yn ymovyngar, er cafael gwybod gan arall o ddŷn a thrwy arall o ddichwain â vytho yn wirionedd; a bod yn ystrywgar i chwilio a chafael i maes à vythawr yn dwyll parth ag at à vo dadl yn ei lŷs ev, a phei cafawr yn ei ansawdd, à guddiai neu à dywyllai wirionedd, ac â barai dwyll ar varn à roddai eve, cyd y bai cydwybodawl; canys ynad á ddylai wybod drwy bervedd à ddelai ger ei vròn cyn y gallai varn à vai cyviawn a chydwybodawl.

15. Tair priv ddyledswydd teyrnedd: cainymgynnal; cadarnâu addysg ar wybodau gwladolion, mal y gallor ymgynnal gan raith a chyvraith, a chan wlâd a theyrnedd; a chadarnâu nawdd cywiriaid y genedyl a'r vrodor aeth a'r nawdd à ddylit i eillion yn nawdd y vrodoriaeth.

16. Tair gormes teyrnedd: anmrawd, sev gwallymnawdd parth ag at gywiriaid a'u däodd; anrhaith, sev lledrad, a murn, a chynllwyn, a chadernyd anghyvraith yn cau yn erbyn gwlâd a chyvraith; ac anymdawr, sev yw hyny gwall-ymbwyll ar syrth amserau a dichweiniau, ac ereill orvodau, lle cauont yn erbyn cyvraith; ac nis gellir eu gwared namyn o raith gwlâd a theyrnedd i weled ac i ymwybodi a buadau, ac i wellâu ac amnewyddu à vo achaws gorvodawg yn darogan.

17. Tri phriv geinmyged teyrnedd: nawdd cywiriaid, cosp a gwared dihiriaid, a gwared anwybodaeth rwng cywir a chywir a gyru barn gyviawn y rhyngddynt.

18. Tri chadernyd cyvraith: ynad dysgedig, tyst cywir, a rhaith gydwybodawl.

19. Tair cosp gadarn y sydd: bod yn eneid-vaddeu, toraelawd, à deol yn aethwlad gan waedd a chyrch gwlad a chyvarth; ac i'r brenin yr un à vyno.

20. Tair cosp eneidvaddeu y sydd: byrâu o bèn, crogi, a llosgi; ac i'r brenin, neu arglwydd y cyvoeth, ei ddewis yr un à vyno.

21. Tair cosp ormail y sydd: dwyn gavael meddiant, carchar, a cholli braint; sev pan goller braint y syrthier i ansawdd aillt hyd yn mhen y nawved âch.

22. Tair cosp gamlwrw y sydd: dwyn gavael lle nas taler yn hawl, gyru swydd a gorchwyl ar à gosper hyd onis gwaretor o dalu y sarâad, a cherydd gwlâd; sev hyny cyhoeddi gan gorn a gwaedd gwlâd yn mhob llŷs, a llàn, a fair, a marchnad, ac ymhob tyrva ddosparthus, y peth à vo ar à gerydder yn vai cospiadawl; sev nis gellir eu gwared un o'r tri hyn namyn o dalu camlwrw cyvreithawl.

23. Tri chyswynbwyll y sydd drosgwared llŷs ac ynad ar gosp gadarn: mam yn gwared ei phlant, mâb cyn barv, ac estron anghyviaith à wnelo yn erbyn cyvraith a brodoriaeth.

24. Tair asswyn y sydd yn nghyvraith dros gwared cosp gadarn: anallu, anwybod, ac eisiwed angheuawl; a'r tri pheth hyn a asswynant rag cosp gadarn, ac a'u gwaredant.

25. Tri dŷn nis dylit eu cospi: mud a byddar geni, a phlentyn cyn deall, ac ynvyd cynhwynawl; sev y dywedir, *nid â cosp ar ynvyd;* eithr rhybudd gwlâd yn ysgriven ar bŷst neu veini y brenin, yn waedd gadarn er i bawb ymochel â'r ynvyd, ac a'r mud byddar geni; a'u dodi dan eu nodau gan gorn a gwaedd gwlâd a chywlad; achaws hyny y dywedir, *ynvyd á â ar y post.*

26. Tri chyvrwym gwlâd a chenedyl: tadoldeb, maboldeb, a brawdoldeb. Sev tadoldeb, teyrnedd yn govalu, ac yn lluniaethu, ac yn diwallu, er caingynnal brodoriaeth; maboldeb, yn uvyddâu i'r tadoldeb, er trevn a dosbarth gyviawn; a'r brawdoldeb, yn ogydbwyll â'r ddau ereill yn eu llëodd yn ymgynnorthwyaw er cadarnâu cymmrawd ar wlâd a chenedyl a theyrnedd ddosparthus.

27. Tri chyvrwym brodoriaeth a chenedyl: trwydded warantedig, breiniau cydgynneddv, a chyviawnder cyvreithiau.

28. Tri phrydverthwch brodoriaeth: gwybodau doethineb, celvyddydau gwaredawl, a syberwyd addwynbwyll.

29. Tri chadernyd gwybodau a chelvyddydau: addysg o athrawon wrth vraint a thrwydded; breinioldeb gwybodau a chelvyddydau ar a'u gwypont; a gobrau gwarantedig o gyvraith, am à wneler yn ddosparthus, o arch ac ammod, gan wybedyddion a chelvyddiaid.

30. Tair sail gadarn cywladoldeb: cymmhwyll amlwg a thrywel, nas gellid à elai o bwyll yn ei erbyn; braint gadarn, nas gellid gan gyviawnder ei gwrthrym; a brawd gadarn, nas gellid godidawg o vraint a swydd a'i divrodai.

31. Tri pheth à ddivrodant wladoldeb a chywladoldeb: breiniau gormeslawn, anghyviawn o varn cyvraith, a gwallymarbod yn peri annosparth ar drevnau gwlad a chenedyl.

32. Tri pheth ni savant yn gadarn ond tra bont ar y tair sail gadarn: cyvraith, meddiannau, a thangnev cenedyl.

33. Tri pheth à ddylynt vod yn ddevnyddion pob cyvraith gyvrwym: cadernyd, iawn, a chydwybod.

34. Tri deivnogaeth barn gyviawn: pwyll ystyrbell, deddvoldeb gymmrawd ar gyvreithiau, a chydwybodawl raith ynad a theyrnedd.

35. Tri deivnogion teyrnedd: angen gwlâd a chywlad, pwyll doethion, a dedvryd rhaith gwlâd a chymmrawd

36. Tri anhebgor gwladoldeb: arglwydd yn vrenin, rhaith gwlâd, ac yngneidiaeth.

37. Tri anhebgor cywladoldeb: teyrnedd benadur, rhaith gymmrawd, a barn dygynnull cywlad yn mraint a'i govynai, ai gwr gwlâd ai gwr gorwlad, y byddai.

38. Tri anhebgor pob un o'r tri hyny: pwyll o gymmhrawv dichweiniau, cyviawnder o gydwybod, a chariad brawdol rhwng gwlâd a chywlad: a rhwng gwr a gwlâd, a rhwng gwr a gwr; a lle nas byddont nid hawdd gwared rhag anweledig o anmrawd ac anghyviawnder.

39. Tri deivnogion cywladoldeb: cydamddifyn, cyvnawdd gwybodau a chelvyddydau, a chadarnâu cynneddvau ac arverau tangnevgar.

40. Tri pheth nis gellir cadernyd a chynnal arnynt heb gywladoldeb: llavuriaeth daiar, celvyddydau, ac ereill wybodau breiniawl, a thangnevedd dosparthus.

41. Tri pheth à gadarnâant dangnev cywlad: breiniau cymmrawd, gwladoldeb gymmraint, a gwybodau doethineb, dan gyvnawdd cywlad o vrawd ac o vraint gynhenid.

42. Tri chynghlwm cywladoldeb: cyviaith; cymmrawd, a chymmraint; ac hebddynt nis gellir cywladoldeb gadarn.

43. Tri phrydverthwch cywladoldeb: gwybodau moliannus, syberwyd cariadus, a chymmrawd ddosparthus.

44. Tri pheth à wnant wlâd: ceraint, iaith, a breiniau; a thri chyvrwym gwlâd a'u gelwir.

45. Tri chynghlwm gwladoldeb: cyvnawdd, cyvar, a chyvraith; ac hebddynt nis gellir gwlâd a brodoriaeth.

46. Tri pheth nid gwlâd lle nas byddont: cyviaith, cyvraith, a chyvardir; canys heb y rhai hyn nis gellir ymgynnal yn hêdd a chymmrawd.

47. Tri phriv gynneddvau gwladoldeb gadarn: celvyddydau breinawl, gwybodau doethineb, ac arddoriaeth; canys o'r tri hyn y teirdd pob cynneddvau ereill ar wladoldeb; a chyn privgynneddvau nis gellir adgynneddvau; achaws hyny anhebgorion gwladoldeb yw cadarnâu yn vreiniedig a dosbarthus y tri phriv gynneddvau.

48. Tri pheth nid da gwlâd lle nas cafer: coed, ceryg, a fynonau dwvr.

49. Tri chyfredinion gwlâd a chenedyl: mesgoed, helwriaeth, a chlawdd haiarn; ac nis dylit perchenogaeth wahanredawl ar nac un nac arall o henynt.

50. Tri phriodolion gwahanredawl à vyddant i wr o'r tri chyfredinion gwlâd a chenedyl: nid amgen, cig hely wedi y tyner y croen oddiamdano, mesgasgl, a haiarn cloddiedig.

51. Tri phriodolion gwahanredawl gwr gwlâd a chymmrawd; sev hwnw Cymro cynhenid o gysevindawd braint: tŷ, buarth, ac ydarth.

52. Tri phriodolion gwahanredawl pob gwr rhag arall, ai aillt ai Cymro y bo: gwraig, plant, a da cychwynawl.

53. Tri phriodolion gwahanredawl pob gwr rhag arall, ac nis gellir eu rhànu ag arall, ac nis telir yn nghamlwrw: gwraig, plant, ac argyvreu; sev yw argyvreu, gwisg, ac arvau, a pheiriannau celvyddyd vreiniawl; canys hebddynt nis gellir ei gyviawn ansawdd i ŵr; ac nid iawn i gyvraith anwriaw gwr, neu anghelvyddu celvyddyd.

54. Tri thlws cenedyl: llyvyr, telyn, a chleddyv; ac nis dygir yn ngavael gan ddedryd llŷs a chyvraith.

55. Tri thrwyddedawg teulu, ac ni vyddant wrth lavur a gorchwyl a swydd: baban, oedranus, ac athraw teuluaidd; sev nis byddant law ar gledd, nac ar gorn, nac ar arad.

56. Tri dŷn breiniawl ni bydd noeth arv yn eu herbyn: bardd, pencenedyl, a chènad gorwlad.

57. Tri dŷn cyfredin ni bydd noeth arv yn eu herbyn: gwr di arv, gwr cyn barv, a benyw.

58. Tri lle breiniawl ni bydd arv yn erbynu: gorsedd gwlâd ac arglwydd; gorsedd cynghyd cynnal, sev yw hòno gorsedd ddygynnull; a gorsedd beirdd.

59. Tair gorsedd vreiniawl Ynys Prydain yn nawdd cenedyl y Cymry: gorsedd beirdd, a hòno yn hynav ei bonedd; gorsedd gwlâd ac arglwydd, sev hòno llŷs cyvraith ac yngneidiaeth o ddygynnull yngnaid a brawdwyr rhaith; a gorsedd cynghyd cynnal, sev hòno gorsedd ddygynnull gwlâd a gorwlad gan wŷr teyrnedd, a phencenedlodd, a doethion gwlâd a gorwlad, er deddvu cymmrawd a chyvraith yn ngwlâd a chywlad, a rhwng gwlâd a gorwlad, o gymhwyll a chymmrawd a chymmod gwlâd a gwlâd, a thëyrn a thëyrn, a rhaith a rhaith, er iawn a thangnev, a braint à ddylit yn ngwlâd a chywlad: ac nis dylit noethi arv rhag y rhyw orseddau o vewn eu swyddau, na rhag eu hamserodd.

60. Tair gorsedd vreiniawl y sydd, ac iawn iddynt wàrogaeth y gan y neb à vythont parth nawdd, neu swydd, neu urddas, neu dda wrth gelvyddyd a gwybodau, yn mraint a brawd un ac arall o'r gorseddau hyny, ar wàrogaeth á vydd herwydd braint, ac a ddylit i'r orsedd yn nghysbwyll: gorsedd beirdd Ynys Prydain, ac wrth ei barn y bydd pob un o wàrogaeth à geisio dda wrth gerdd a chelvyddyd barddoniaeth, a phawb à vythont yn nawdd yr orsedd hòno dan dervynau ei swydd a'i breiniau'; gorsedd brenin, neu arglwydd cyvoeth, a'i vrawdwyr, a'i yngnaid, a brëyriaid, sev hyny pob Cymro tiriawg, er cynnal llŷs a dadlau cyvraith; a gorsedd cynghyd cynnal, sev gorsedd ddygynnull gwlâd a chywlad; ac i hon y dylyid wàrogaeth y ddwy ereill, ac à vont yn eu braint; canys cyd y bo hynav yn monedd gorsedd beirdd, o ba un y henyw pob gwybodau, eisoes hynav yn mraint rhaid a gorvod, gan bwyll a gallu cenedyl, yw gorsedd rhaith ddygynnull gwlâd a chywlâd, er trevnu a chadarnâu iawn a nawdd ac amddifyn gwlad a chywlad, a chenedlodd cymmrawd, a'u gwahanredolion yn gywiriaid gwlâd a chyvoeth; ac hebddi, sev gorsedd cynghyd cynnal, nis gellid braint na chadarn ar un o'r ddwy orsedd ereill; canys o dri pheth y mae gorsedd rhaith ddygynnull gwlâd a chenedyl; nid amgen, pwyll, nerth, ac ewyllys gwlâd a chywlad, a chenedyl a chydgenedyl, er gwneuthur, a gwellâu, a chadarnâu cyvraith a chymmrawd; a chadarnâu iawn a braint i vrod-

orion gwlâd a chywlad a'u gwahanredolion, ai *Aillt* ai *Cymro*, gan gyspwyll hyd a lle nad eler yn erbyn y cŷd cyvoll; canys gorsedd ddygynnull cywlad á gau yn erbyn pob arall o vraint, a gallu, a chyvraith, ac awdurdawd, na vont gymmrawd â hi. Ac yn nawdd gorsedd cynghyd cynnal y cawsant gyntav eu braint a'u cadernid gorseddau arglwydd cyvoeth a'i wlâd, a gorseddau beirdd; ac yn amgen nid oes ac nid oedd braint yn y byd, namyn syberwyd gwlad a chenedyl iddynt.

61. Tair gorsedd yn mraint gwlâd a chenedyl y Cymry y sydd: cyntav, gorsedd beirdd Ynys Prydain, a'u bonedd a'u braint â vydd o bwyll, ansawdd, a gorvod; neu herwydd ereill athrawon a doethion, o bwyll, ansawdd, a dichwain. A'u braint a'u swydd, noddedigion gorsedd beirdd, yw cynnal a chadw a dodi addysg warantedig ar wybodau dwyvoldeb, a doethineb, a syberwyd; a chôv a chadw ar bob moliannus ar wr a chenedyl; a phob dichwain amserau; a phob rhyveddawd anianawl; a rhyvelodd; a dosparthau gwlâd a chenedyl; a dialeddau; a gorvodaethau moliannus; a chadw côv gwarantedig ar achau, a phrïodasau, a bonedd, a breiniau, a devodau cenedyl y Cymry: a bod wrth raid gorseddau ereill yn darogan à orfer ac à ddylawr dan osteg a rhybudd cyvreithawl. Ac amgen na hyn nid oes nac o swydd nac o vraint ar orsedd beirdd; sev ydynt y beirdd athrawon gwarantedig gwlad a chenedyl y Cymry; a thrwyddedd iddynt yn warantedig o'u swydd yn amgen noc à ddylaint yn Gymry cynhwynawl; sev i bob un ei bumerwi rhyddion, a moddion celvyddyd yn warantedig i bob un.

Ail, gorsedd gwlâd a chyvoeth; sev gorsedd yngneidiaeth a brawd cyvraith, er iawn a nawdd gwlad a chenedyl, a'u noddedigion, a'u heillion; sev y gwnant y gorseddau hyn, nid amgen gorsedd cynghyd cynnal á wna gyvraith lle bo achaws, ac a'i cadarnâa yn ngwlâd a chywlad; ac nid rhydd i wlâd heb gywlad hyny. Gorsedd brawd ac yngneidiaeth á varn ar à wnelo yn anghyvraith ac a'i cysp: a gorsedd beirdd á ddysg wybodau moliannus ac à varn arnynt, ac á geidw bob covion cenedyl yn ddosparthus a gwarantedig; ac nid iawn i un o'r gorseddau ymwneuthur â chyspwyll un o'r ddwy ereill, namyn eu cadarnâu a'u cyvnoddi yn gynneddvawl.

Trydedd orsedd, sev cynghyd cynnal, ei phwyll cysevin a thervynedig yw gwneuthur à vo raid o newydd ac o wellâad ar gyvreithiau gwlâd a chywlad gan raith cywlad o bencenedlodd, a doethion, a theyrnedd benadur; sev yw teyrnedd benadur, neu deyrnedd benraith, yr hynav ei oresgyn o'r breninodd a'r tywysogion cywlad; ac ar hwnw bydd y cyfraw cadarn; a gair ei air ev ar bob gair arall yn nghyfraw gwlâd.

62. Tair gorsedd anghyvarch y sydd: swyddawg gwarantedig o gyvraith yn dafar lluniaeth yn nghyvoeth ei arglwydd, er dyspwyllaw barn, neu gynhenau, neu anmrawd, megis symmud neu wrthladd cyvreithiau y brenin; sev y bydd y dafar hyny er cynnal gorsedd wahanredawl neu ddygynnull gwlâd a chenedyl yn rhaith, lle bo galw ac achaws; ac ni ddyly gwlâd erbynu y swyddawg à wnelo y dafar; canys nid braint i neb ond i arglwydd wneuthur cyvraith; ac nid braint hyny iddo yntau namyn o ddyundeb ei wlâd a'i genedyl yn nygynnull; ac nis gellir dygynnull heb luniaeth o le, ac amser, ac amcan, a bwyd, a llyn, a gwasgawd, a gorphwys, a thân, a chynnorthwyon.

Ail, gorsedd rhaith gwlâd gan bencenedyl, o gwyn anmrawd ac anghyvraith y gan y brenin a'i yngnaid; neu lle nas cefir cyvraith à wnelo iawn amlwg a chadarn; a lle bo hyny iawn i bob Cymro cynhwynawl ei raith; ac ar ei bencenedyl y bydd y cyfraw teyrnedd, a lluniaethu gan gymhorth a chynnorthwy ei genedyl a'i ddoethion; ac ni ddylai gwlâd ei herbynu; canys braint i bencenedyl cyfraw teyrnedd, ac i bob Cymro cynhwynawl hyny yn nawdd braint ei bencenedyl; a llw trichannyn o wŷr cyvraith, sev dyledogion o dirogion à gadarnâa à wnelawr gan raith gwlâd o gyfraw gwr o Gymro cynhwynawl, yn nawdd a braint ei bencenedyl. Sev iawn yw i bob Cymro ei lavar, a'i gwyn, a'i hawl, o bwyll anianawl, yn nawdd a braint ei bencenedyl; ac iawn i bob pencenedyl ei wlâd a'i raith; a lle govyner, iawn i bob rhaith ei theyrnedd; ac iawn i bob teyrnedd ei chywlad yn rhaith ddygynnull, rhag gadael i à gauai yn erbyn cyvraith a braint gymmrawd; ac yn hyn o nawdd, braint i bob Cymro cynhwynawl ei wlâd, a'i raith, a'i deyrnedd, a'i gywlad, yn nygynnull.

Trydydd vydd er dyspwyll teilyngdawd dwy gyvraith, neu vwy, lle bo gosodedig y naill yn ogyvuwch â'r llall, ac o ddichweiniau amserau, a newidiau byd, a bywyd, a chyvlwiw; tyviannus anghyviawnder ar un yn amgen noc ar y llall; ac nis gellir iawn cyn adnabod y cam; ac nis dylit iawnâu heb yn wybod i wlâd ac arglwydd; ac nis dylai arglwydd a'i wlâd hyny, ond o

wybod a dyundeb ei gwlad yn ddevodawl. Achaws y pwyllau hyn, iawn dan osteg a rhybudd cyvreithawl undydd o blwyddyn, cynnal gorsedd raith drwy wybod i wlâd a chenedyl, er ymgyspwyll â'r à vytho yn ngham, ac er ei iawnâu gan gymmrawd deilwng, a threiglaw y cyfraw hyd y bo achaws gyviawn ac anghenawl; a lle symmuter cyvraith rhaid vydd rhybuddiaw gwlâd a chenedyl yn deilwng, mal y gallont adnabod à ddoter yn lle à symmutawr.

63.[1] Tri pheth nis dylit eu gwneuthur ond o ddyundeb gwlâd a chywlad a chenedyl benbaladr: symmud cyvraith y brenin, diarglwyddiaethu y brenin, a dysgu gwybodau newyddion yn ngorsedd beirdd; canys nis dylit hyny cyn y gwypo wlâd a chenedyl eu rhywiau, a'u cynneddvau, a'u dosparthau, o varn a dangos cyvreithawl dysgedigion a doethion o athrawon gwarantedig yn ngorsedd gyvallwy beirdd Ynys Prydain yn ngwlâd a chywlad. A lle ydd eler yn erbyn hyny o bwyll a chysbwyll, overion y gelwir y gwybodau hyny; ac nis dylit braint a da wrth gelvyddyd arnynt; ac nid oes i na chyvraith, na dosparth, na chelvyddyd, nac i unrhyw bwyll ar wybodau, vraint yn y byd onis cafawr ar ddangaws ac addysg; ac o hyny barn athrawon a doethion gwarantedig o ddysg, a gwybodau, ac awdurdawd, yn mraint dosparthau gwlâd a chenedyl. Ac o ddiarglwyddiaethu brenin, nis dylit hyny namyn gan raith gwlâd a chywlad; sev o gywlad y bydd llw trichannyn yn rhaith yn mhob cyvoeth arglwydd breiniawl gorseddawg y dan y brenin penraith; a'r trechav, sev y mwyav o riv cyvoethau, yn cadarnâu' à wneler yn rhaith. Sev yw brenin penraith, brenin neu dywysawg y bo hynav ei oresgyn o'r breninodd cywlad.

64. Tri dyundeb cadarn à ddylit ar wlâd a chenedyl y Cymry: dyundeb gwlâd a chenedyl, sev cymro y bydd Cymro yn mhob gwlâd a chyvoeth yn Nghymru, a chyvun a chyvuwch ei vraint cymmrawd yn un cyvoeth ag yn arall, pa un bynag; cyd y bo iddo ei vraint wahanredawl ar dir yn nghyvoeth ei arglwydd llŷs a henyw o heni.

Ail yw dyundeb teyrnedd; sev nis dylit namyn un brenin Cymru oll; a hwnw vydd yr hynav ei oresgyn o'r tywysogion cywlad, a gair ei air ev ar bob tywysawg arall; sev hyny yn nygynnull cywlad, ac nid yn amgen; canys yn mhob amgen, gair ei air ev tywysawg ac arglwydd cyvoeth llŷs a gorsedd arall yn Nghymru o vewn ei wlâd a i gyvoeth ei hun dan ei thervynau; a'r hynav ei oresgyn á elwir brenin Cymru oll, a brenin Cymru benbaladr: sev yw Cymry penbaladr, holl grynsyrth cenedyl y Cymry yn eu holl gyvoethau dan eu tervynau, gymmraint a chymmrawd, un ac arall, yn mhob un, ac yn mhob arall o'r cyvoethau; namyn dâodd a breiniau prîodolion a gwahanredawl anghychwynawl; mal y bydd tîr, a swydd gwlâd a llŷs; achaws hyny diarheb yw "Rhydd i Gymro pob gwlâd yn Nghymru." Ac ar y brenin penraith y mae cyfraw a lluniaethu rhaith cywlad, à elwir gorsedd ddygynnull, a gorsedd cywlad, a gorsedd cynghyd cynnal, a gorsedd benbaladr, a rhaith Cymry benbaladr. Ac nis gellir ar un yn wahanredawl, ai gwr ai gwlâd y bo, à ddylit ar oll o baladr ac yn benbaladr.

Trydydd, dyundeb cyvraith, a braint, a brawd: sev yr un gyvraith á ddylit yn mhôb gwlâd yn Nghymru; a chymmraint, a chymmrawd, a Chymro pob cynhwynawl o genedyl y Cymry, yn mhob gwlad a chyvoeth yn Nghymru, un gystal ac arall; sev gwlâd i bob Cymro pob gwlad yn Nghymru, heb yn amgen dim, namyn prîodolion gwahanredawl anghychwynawl; am hyny y dywedir gwlâd Gymru benbaladr, a chenedyl Gymry benbaladr, a braint Cymry benbaladr.

65. Tair braint gynhenid pob Cymro cynhwynawl; ac eisoes dan enw Cymro y cauir ar Gymräes: cyvarwys a thrwydded pumerwi rhyddion yn mraint ei hân o Gymro cynhenid; ac epil aillt ac estron a'i câant ar y pedwerygwr o brîodasau teilyngion; sev yn ngrâdd goresgynydd; braint arvau difyniadawl, a'u harwyddion, sev nas dylit hyny namyn i Gymro cynhwynawl o vonedd gwarantedig; a braint rhaith yn nawdd ei bencenedyl, ac yn oed barv a'u dodir ar Gymro, ac ar Gymraes ban wr o.

66. Tri thaiawg y sydd, ac nis cyrchant vonedd a braint Cymro cynhwynawl hyd yn mhen y nawved âch: cyntav yw cyswynvab y bo mab à water yn gyvreithawl gan ei dâd; neu o vôdd arall, herwydd cyvraith, achaws nas ganed o briodas deilwng a dosparthus; neu yn amgen o vôdd, yn erbyn cyvraith a braint gwlâd a chenedyl; ail, gwr à gollo drev ei dâd a'i vraint, yn gosp am ddrygweithred, à vo eneidvaddeu, neu arall o ddrŵg cospiadawl a'i govyn; ac aillt, neu estron à wladycho yn Nghymru: ac ni chyrch un o naddynt vraint a bonedd Cymro cynhwynawl hyd yn mhen y nawved âch. A'r drevn hon á ddoded yn nghyvraith am dri achos. Sev—

[1] Mae gwall yn hwn.

67. Tri achaws taiogaeth y sydd ar wyr annosparthus na bont yn wŷr cyvaith a a chymmrawd: rhagvlaenu brâd gan estronion a'u cyswyniaid; rhag cafael o alltudion tirodd y Cymry cynhwynawl; a rhag anmhrïodasau, a geni plant yn annosparthus ac yn anghyvreithus o gyswyn godineb ac ymorddechu llwyn a pherth. Sev gan y rhyw gyspwyllau, bernir yn eillion estron a'u hepil; cyswynvab á water a'i epil, a drygwyr cywlad a'u hepil, hyd yn mhen y nawved âch: ac ar bob aillt a thaiawg y mae bod yn wr twng a damdwng arglwydd y cyvoeth, a'i arglwydd prïodawr; sev ei brïodawr un a'i cymmero yn ei nawdd, ac à ddoto iddo dîr yn daiawedrev: ac wrth ewyllys a chènad hwnw y bydd mâb aillt, oni chyrcho vonedd a braint Cymro cynhwynawl; sev y gellir hyny ar ei bedwerygwr o'i epil o brïodasau teilyngion â Chymraesi cynhwynawl. A llyma y modd y dosparther y prïodasau hyny, nid amgen—

Mâb Aillt, yn wr twng i arglwydd y cyvoeth, à brïoto Gymraes gynhwynawl o vodd ei chenedyl, á vydd o'r briodas hòno yn mraint yr ail râdd âch a bonedd; ar eu meibion hwy ve saiv braint y drydedd râdd; ac un o'r rhai hyny o ymbrïodi â Chymraes o waed teilwng á gyrch y bedweredd râdd; mâb o'r brïodas hòno á saiv yn mraint y bummed râdd; sev yw hwnw ŵyr y mâb aillt cysevin; a'r mâb hwn o ymbrïodi â Chymraes gynhwynawl, á esgyn hyd yn mraint y chweched râdd achau; a mâb i'r brïodas hòno, sev orwyr y mâb aillt cysevin, á vydd o'r seithved rádd; ac o ymbrïodi â Chymraes gynhwynawl eve á gyrch yr wythved radd yn mraint ei wraig; canys braint i bob Cymraes gynhwynawl yru grâdd ar ei gwr o vâb aillt à ymbrïoto hi ag ev; a mâb i'r orwyr hwn, o'r brïodas gyvryw, á gyrch hyd yn mraint y nawved âch; ac am hyny a'i gelwir ev GORESGYNYDD; canys goresgyn ei dir á wna; sev ei drwydded o bumerwi rhyddion, a'i gyvarwys, a'i vraint o bencenedyl, a phob cymmrawd arall à ddylit i Gymro cynhwynawl; a chyf cenedyl y bydd ev; sev y saiv yn mraint pencenedyl iddei epil, a hevyd iddei hyneiviaid; canys y neb à vo byw o naddynt, megis tâd, neu hendad, neu orhendad, ac nid tros hwnw yn mhellach, á gafant yn eu goresgynydd braint Cymry cynhwynolion; ac nid mâb ei dâd a'i gelwir ev yn nghyvraith, gan hawl a dadlau tîr, eithr ei oresgynydd; a goresgynydd ei hendad yw ev, a hevyd goresgynydd ei orhendad, a goresgynydd ei ewythredd, a'i gevnderwydd, a'i gyverddyron, lle bont un ac arall o brïodasau teilyngion; a'r goresgynydd á vydd bencenedyl iddynt oll, wedi dyvod o hono hyd yn nghyvlawnoed gŵr; a gŵr a châr pob un o henynt hwy iddo ev; a gair ei air ev arnynt un ac arall; ac nis dylit gyru twng a damdwng arno; sev cyd y cyrchont genedyl y goresgynydd, a'u breiniau yn rhyddion yn nawdd a braint eu pencenedyl, ni chafant eu tirodd namyn à gyrchont yn wahanredawl grâdd neu vraint y nawved âch, sev goresgynydd.

68. Tair celvyddyd vreiniawl y sydd, a braint trwydded, nid amgen no phumerwi rhyddion tir a chyvarwys i bob un o naddynt; sev i bob gwr a'u gwypont yn warantedig, ac a'u gwasanaethont, yn wahanred, ac yn amgen no'r tîr à ddylit iddo yn mraint Cymro cynhwynawl: sev ydynt barddoniaeth, ferylltaeth, a llenoriaeth, neu lyvryddiaeth; sev y dylit iddo ei bumerwi rhyddion yn mraint y gelvyddyd i bob un à vytho yn ansawdd ac yn ngwasanaeth un neu arall o'r celvyddydau hyny yn warantedig o athraw a gwybodau; ac ni ddylai un gwr ymarver â dwy gelvyddyd; ac o gwna ev hyny, nid iawn iddo vraint trwydded ar amgen noc un o'r ddwy; ac nis gallawr un à wasanaetha ddwy gelvyddyd, neu ddwy swydd ar unwaith, yn gyviawn a dosparthus.

69. Tair celvyddyd ni ddylai meibion aillt eu dysgu heb gènad eu harglwyddi prïodawr, ac arglwydd y cyvoeth: nid amgen y tair celvyddyd vreiniawl, sev barddoniaeth, ferylltaeth, a llenoriaeth; ac o goddev ei arglwydd prïodawr a'r brenin i vâb aillt ddysgu un o'r tair celvyddyd hyn, a goddev hevyd i un neu arall vyned yn ansawdd ac yn ngwasanaeth y celvyddyddau hyny, ac yn eu braint yn warantedig o wybodau, ni ddylit herwydd cyvraith eu hattal, namyn gadael iddynt, a rhyddion tra vytho byw pob gwr yn mraint celvyddyd vreiniawl, a rhydd iddo yn mraint ei gelvyddyd drwydded o bumerwi rhyddion; canys braint bonedd á ddoded ar gelvyddydau a gwybodau moliannus er yn oes oesodd, er cyvanneddu a gwerinaw gwlâd a chenedyl, ac er cynneddvoli moesau ac arverau syberwyd a doethineb, a'u dysgu yn ddosparthus, ac er cyvnawdd yn nhangnev a chymmrawd i wlâd a chenedyl a'u cywiriaid; can nis gellir cyvannedd a gwerindawd tangnevus heb gelvyddydau a gwybodau moliannus; ac ernynt nis gellir cadernid heb vraint boneddwr a'u gwasanaethwynt. Achaws hyny barn cyvraith a chymmrawd yw nas dylit nac attal, na

gwahardd, na divreiniaw celvyddyd nac ychwaith y neb a'i gwasanaetho.

70. Tri mâb rhydd o gaeth y sydd: nid amgen, bardd, feryllt, a gwr llên, o veibion eillion; sev cyd y bo caeth y tâd, a mâb aillt neu daiawg, rhydd vydd y mâb à ddyel yn ansawdd, a gwasanaeth, a braint o swydd un neu arall o'r tair celvyddyd vreiniolion; a rhydd tra bo byw; ac iawn iddo yn mraint ei gelvyddyd ei bumerwi rhyddion; sev nis dylit na chaeth na divraint à wypo, ac à vedro wasanaethu celvyddyd yn warantedig o wybodau. Eisioes, cyd y bont ryddion y cyvryw wŷr wrth gelvyddyd, caethion a meibion aillt vydd eu meibion hwy; ac ev a'u gelwir tri mâb caeth o rŷdd; ac eillion vyddant oni chyrcher grâdd goresgynydd ar âch a bonedd, ac o hyny braint Cymro cynhwynawl. Eisioes doethion á ddywedant y dylit grâdd angholladwy ar gelvyddyd vreiniawl; achaws hyny barn yw mai nes vydd yr hiliogaeth i râdd goresgynydd o gafaeliad braint celvyddyd; a lle nis gellir namyn ar y pedwerygwr braint goresgynydd o âch ac epil a phrïodasau, ev á ellir hyny ar y trydygwr yn mraint celvyddyd; canys pob gwasanaeth celvyddyd vreiniawl á ddyddwg ei grâdd yn nês at oresgynaeth gynhwynawl no phei heb hyny y bythawr; canys iawn i gelvyddyd vreiniawl ei grâdd yn nhreigl bonedd hyd oresgynaeth; sev y dywedir, o chaniatäa yr arglwydd prïodawr, a'r brenin, i vâb y mâb rhydd o gaeth vyned yn ansawdd, a gwasanaeth, a braint un o'r celvyddydau breiniolion, a bod gyda hyny priodasau yn deilyngion, nis gellir caeth ar un o'r epil wedi hyny. Ac val hyn, sev yn nawdd a braint celvyddyd vreiniawl, y cyrch cenedyl eillion oresgynaeth a braint Cymry cynhwynawl ar y trydygwr: sev iawn i gelvyddyd ei braint a'i thrwydded o bumerwi rhyddion yn wahanred â braint âch a bonedd o waed cynhwynawl. A grâdd à ennillawr o gelvyddyd vreiniawl, ni syrther o heni, ac ni ddygwydd hi oddiar y genedyl.

71. Tair cangen celvyddyd barddoniaeth: cyntav, privvardd, neu vardd trwyddedawg o vraint, ac iddo ei râdd a'i vraint, o drovedgaeth gan athraw gwarantedig o vardd gorseddawg; ac arno y mae pob côv celvyddyd a gwybodau hyd y bont yn ei swydd ev o vardd gwarantedig o râdd a braint; a hevyd pob cov a chadw gwlâd a chenedyl ar brïodasau, ac achau, ac arvau, a rhandirodd, a breiniau gwlâd a chenedyl y Cymry.

Ail, ovydd, a'i râdd iddo yn mraint awen a gwybodau moliannus à ddangoso yn warantedig, ac ydd atepo am danynt yn brawvedig ger brŏn gorsedd beirdd ddevodawl a theilyng, neu lle na bo hòno, eisteddvod gyvreithawl warantedig o ròdd cenedlad arglwydd y cyvoeth, neu ddeuddeg o'i yngnaid llŷs ev, neu ddeuddeg brawdwr llŷs yn y bo devodawl hyny; ac nis govyner trovedigaeth arno, nac amgen yn hawl na gwybodau gwarantedig; a hyn er cyvnawdd gwybodau rhag nas cefid athrawon devodolion, ac o hyny myned gwybodau a chelvyddyd côv a doethineb ar gyvargoll, o ddifyg athrawon a throvedigion dosparthus; ac eisioes er gwellâu a mwyâu gwybodau celvyddyd, o ddodi pob newydd arnaddynt, wrth varn athrawon a doethion, ac o hyny eu cadarnâu a'u breiniaw yn warantedig, a hevyd rhag cau yn erbyn gwybodau doethineb à ddelawr o syrth anianawl awen ac athrylith reddvawl.

Trydydd, derwyddvardd, a hwnw á vydd o vardd gorseddog graddedig a gwarantedig o ddoethineb, a gwybodau, ac o davawd i ddangaws barn a phwyll ar wybodau; a'i swydd á vydd yn mraint rhodd o bwyll a chenedlad gorsedd ddevodawl yn warantedig o raith gorsedd gan goelbren; a'i swydd dodi addysg, a dangaws gwybodau doethineb a dwyvoldeb, yn ngorsedd beirdd, ac yn llŷs, ac yn llàn, ac yn y teulu y bytho ynnod ei swydd yn drwyddedawg. Ac iawn a chyvraith i bob un o'r tri hyn ei bumerwi rhyddion yn mraint ei swydd celvyddyd yn wahanredawl rhag à ddylit iddo yn amgen yn mraint Cymro cynhwynawl; sev ni ddifydd braint gynhwynawl un celvyddyd; nac un celvyddyd y gynhwynawl

72. Tair cangen llenoriaeth y sydd: nid amgen tavodawg cyvraith, sev hyny à vytho yn davodawg y rwng Cymro ac alltud anghyviaith; à vetro arwyddaw arvau a gweithredodd moliannus, a dichweiniau rhyveddolion yn a'u dealler gan a'u gwelont; ac ev á elwir y rhyw un â hwnw, arwyddvardd; ac yn drydydd, à vetro ar lyvyr a llythyr, ac ysgrivènu a darllen y Gymraeg yn gyviawn, a dodi addysg ar hyny, a chadw côv llythyr ar dri chôv beirdd Ynys Prydain; sev ydynt achau bonedd o brïodasau, a rhandirodd, a gweithredodd a gwybodau moliannus. A braint i bob un o'r tri hyn ei bumerwi rhyddion yn mraint a nawdd ei gelvyddyd, yn amgen noc à gafo yn mraint Cymro cynhwynawl; ac eve á vydd yn wr llŷs gwlâd ac arglwydd, ac yn ewyllys y llŷs a'i hyngnaid a'i brawdwyr, yn nyddiau llŷs a gor-

sedd, gan ddosparth cyvraith; ac am addysg à ddotawr, iawn yw trwydded a rhoddion yn mraint ammod yn wahanredawl.

73. Tair cangen ferylltaeth y sydd o brivgeinciau: nid amgen, gôv, maensaer, a phrensaer; neu o vodd arall, govaniaeth, saernïaeth coed, a saernïaeth cèryg; a gogymmraint y tri; ac iawn i bob un à wasanaetho un o'r tair celvyddyd hyn ei drwydded cyfarwys o bumerwi rhyddion, yn amgen noc à ddylit iddo yn mraint Cymro cynhwynawl, a bod yn ngwyllys yr arglwydd cyvoeth i ddodi addysg ar eillion y brenin, neu yr arglwydd, ac ar à vynawr o'i daiogion dan dervynau cyvraith; sev yn nawdd nas doder grâdd celvyddyd ar nebawr o naddynt, namyn drwy gènad yr arglwydd prïodawr a'r brenin.

74. Tri rhyw y sydd ar gelvyddydau cynhwynawl cenedyl y Cymry: celvyddydau doethineb, ac ar veirdd gorseddogion y côv a'r cadw ar addysg gan athrawon gwarantedig o swydd wrth gelvyddyd barddoniaeth; celvyddydau ferylltaeth, ac ar ferylltiaid y cadw a'r addysg gan athrawon gwarantedig o swydd; a chelvyddydau teuluaidd, ac ar y pencenedlodd lluniacthu a gyru addysg gan benteuluodd dan dervynau cenedyl hyd y nawved âch, a grâdd carennydd.

75. Tair celvyddyd deuluaidd o brivgeinciau y sydd: llavuriaeth, sev aru tîr, maeronaeth, a gwëyddiaeth; ac ar y pen cenedlodd gyru addysg arnynt, ac ateb o hyny yn llŷs ac yn llàn, ac yn mhob cyrch golychwyd.

76. Tair celvyddyd llŷs y sydd: yngneidiaeth; cyvarwyddyd ar ddosparthau a threvnau gwlâd a chyvraith a côv cadwedig arnynt; a chènadwriaeth gorwlad.

77. Tair celvyddyd ddinesig y sydd: meddyginiaeth, cyvnewidiaeth, a llongwriaeth; a braint dinas wahanredawl i bob un o henynt; sev y bydd braint dinas o rodd cenedlad arglwydd y cyvoeth yn warantedig o yngneidiaeth, ac yn wahanred rhag breiniau cyfredinion gwlâd a chenedyl, er cyvnawdd cyvnewidiadau dosparthus yn mraint cyviawnder.

78. Tair braint gyfredin dinasodd: nas gyrer swydd ar a'u cyvanneddont amgen noc à ddylit arnynt yn mraint a than dervynau eu dinasdrevydd; nawdd nas gormeser ac nas argywedder alltudion anghyviaith à gyrchont y dinasodd er cyvnewidiadau; ac nas dylit marchnadodd breinolion namyn yn y dinasdrevydd teilyngion.

79. Tair celvyddyd voneddig y sydd: arvau, marchogaeth, a helwriaeth; ac nid rhydd namyn i Gymro cynhwynawl un o'r rhai hyny.

80. Tair priv vraint pob Cymro cynhwynawl: goresgynaeth ar bumerwi rhyddion yn nhrwydded; braint cyfraw rhaith gwlâd yn nawdd ac yn mraint ei bencenedyl; a braint clud cywlad, sev yw hyny ymsymmud i'r màn y myno yn nghywlad heb goll braint a brawd, oni bydd swydd gwlâd a llŷs arno, a lle bo, deddv arno ei gwasanaethu, ac nas dylit ei hebgor yn ngwlâd.

81. Tri pheth y dylai pob Cymro tiriawg eu cadw a'u cynnal: gwraig briawd, gwr arvawg lle nas dyco arv ei hunan, ac athraw teuluaidd.

82. Tri pheth nid iawn y naill heb y lleill o honynt: glyw, glew, a gwlâd; sev o'r tri y bydd nawdd, nerth, a meddiant yn ddosparthus a chadarn.

83. Tri chyvarwys Cymro cynhwynawl: pumerwi rhyddion, cyvar gobaith, a helwriaeth.

84. Tri chyfredinion cywlad a gorwlad: priv avon, priv fordd, a chyrch golychwyd; ac yn nawdd Duw a'i dangnev y byddant y rhai hyny, cyd nas noether arv gan a'u cyrchont yn erbyn à gyvarvyddont; ac à wnelo hyny ai brodor ai estron y bo, hawl galanas gan gwyn arno gan arglwydd y cyvoeth.

85. Tri breiniawl gorwlad: bardd, golychwydwr, a phencenedyl; ac nis dylit braint cènad gorwlad namyn i un o'r tri hyn; ac nis dylit arv noeth yn erbyn un nac arall o'r tri hyn, ai yn rhyvel ai yn heddwch y byddai gwledydd a chenedlodd y breiniolion hyny; canys heb vraint a nawdd ar ddoethineb, a dwyvoldeb, a gwybodau gwladawl, nis gellir tangnevu cenedlodd yn rhyvel; achaws hyny, anhebgor gwlâd a gorwlad yw nawdd a braint i genadon gorwlad ymgyrch yn hedd a diogelwch, cyd y bont warantedig o swydd herwydd devodau cynghrair.

86. Tri chyfredinion gwlâd: cammawn, dadlau, a golychwyd; canys gwŷs á saiv ar bawb iddynt o Gymry cynhwynawl; sev a'u gelwir y tri chyrch cyfredin.

87. Tri chyvanneddrwydd gwlâd: plant bychain, cwn, a cheiliogau; a lle a'u cafer y tri hyn, iawn yw i'r lle hyny vraint llŷs a llàn; ac o hyny holl vreiniau gwlâd gyvannedd.

88. Tri anhebgor cenedyl: ei phencenedyl, ei dialwr, a'i theisbantyle. Pencenedyl á vydd hynav o wr cyvallwy yn y genedyl hyd y nawved âch; a'i vraint a'i

swydd yw cyfraw gwlâd a llŷs yn rhaid ei wr; a thavodawg ei genedyl yw ev yn rhaith ddygynnull gwlâd a chywlad, a deddv ar bob gwr o'r genedyl ei wrandaw ev, ac iddo ev wrandaw ei wr. Dïalwr cenedyl a'i dwg yn nghâd a rhyvel yn y bo achaws, ac á ymlid ddrygweithredwyr, ac a'u dwg ger bron llŷs, ac a'u cysp wrth varn llys a brawd gwlâd. Teisbantyle, sev yw hwnw gwr cyvrwng yn llŷs, ac yn llàn, ac yn nghammawn, ac yn mhob pellenigaeth; ev á vydd o ddoethion y genedyl gan raith penteuluodd y genedyl, ac yn gydgyvarail â'r pencenedyl yn mhob rhaith a dygynnull gwlâd; a'i vreiniaw gan raith ei genedyl hyd nawved âch, y gan goelbren, sev hyny rhaith avlavar.

89. Tair cyvlavan à bair i vâb un a'i gwnelo golli ei drev tâd, a syrthiaw i rådd ac anmraint alltud hyd yn mhen y nawved âch, neu gyrchu ar ei bedwerygwr grâdd goresgynydd o briodasau teilyngion; lladd ei bencenedyl, lladd ei arglwydd, a lladd ei deisbantyle; rhag trymed y galanasau hyny.

90. O dri pheth y cyll Cymro vraint ei wlâd a'i genedyl: cwbl gargychwyn i wlâd estron, cwbl gyvymdanc ag estron à vo yn rhyvel â chenedyl y Cymry, a chwbl ymrodd i lu gortrech gorwlad ar genedyl y Cymry; sev yw hyny brâd gwlâd ac arglwydd.

91. O dri pheth ydd ennill Cymro vraint ei wlâd a'i genedyl à golles eve: cwbl garddychwel o wlâd estron dan ddamdwng a gwystlon hyd yn ngrâdd goresgynydd; ac yna difydd gwystleidiaeth; cwbl gargoll dros Gymry a Chymro lle bytho yn ngwlad estron; a chwbl ymwrthladd â llu gortrech lle gallesid iddo ddawn a braint o lwyr a chwbl ymgyvladd ag wynt.

92. Tair hawl goresgyn gyfredin ar dîr y sydd: hawl etivedd gwarantedig o gôv a chadw llŷs a llên yn warantedig; hawl mâb aillt ar ei bedwerygwr cynhwynawl; a hawl prid cyvreithawl gan varn llŷs ac ynad i wr damdwng y brenin, neu i Gymro cynhwynawl.

93. Tair hawl goresgyn wahanredawl y sydd ar dir: hawl etivedd cyvreithawl yn attychwel o wlâd estron neu alltudedd, lle a'i barnwyd yn ngholl gan varwolaeth, a chael o arall ei dîr o varn llŷs a brawd; a hawl gwrthriviad, sev hwnw etivedd cysevin à wrthbrito dîr ei genedyl à brided dan gôv a chadw a chlyw gwlâd, lle dangoso ei vonedd yn warantedig, a dodi y gwrthbrid yn llaw ynad y llŷs y bo ynddi yr hawl a'r ddadl; ac o hyny cyvraith á ddywed iawn iddo ei dîr, a'r ynad á ddyrydd dros hyny y gwrthbrid i ai dylai; a hawl mâb aillt ar ei bedwerygwr cynhwynawl, sev yw hyny goresgynydd cyvraith o briodasau teilyngion, ac eve á ddylai dir trwydded yn rhydd ac yn mraint cymmrawd y gan yr arglwydd à vo brenin y tîr a'r llŷs a'i barn, ac a'i dod iddo dan dervynau.

94. Tair dadl am dîr à ddylit eu barnu gan wlâd yn rhaith tri channyn, lle a'u gwrthrymer: dadl mâb aillt ar ei bedwerygwr o briodasau cynhwynolion yn hawl ei bumerwi rhyddion; dadl carddychwel o wlâd estron yn dangaws dau dyst yn warantedig ei bentanvaen, neu ei esgynvaen, neu ei vaen tervyn; a hyny yn warantedig o gôv, a chadw, a chlyw gwlâd, a gwybyddiaid coeladwy; a dadl gwrthriviaid; sev yw gwrthriviad, etivedd cysevin à ddoto yn llaw ynad, neu ger bron llŷs brawd a chyvraith, y gwrthbrid i à brynes tîr ei genedyl dan gôv gwarantedig, sev oes gwrthriviad á vydd gan à bryno dîr ar y goresgyn, a hyny á vydd yn y delo y gwrthriviad yn warantedig o etiveddiaeth, a dodi cyviawn wrthbrid i à ddalio y tîr ar y pentanvaen, neu ar esgynvaen, neu ar vaen tervyn y tir, neu ar y maen gwyn nesav à gefir i'r lle, neu yn llaw ynad llŷs y cwmmwd, neu ar glawr ger bron y llŷs; a lle gwnelo hyny, gwlâd á ddywed y dylit iddo ei dîr, ac i'r gwrthrym y gwrthbrid.

95. Tair dadl y dylit eu barnu gan ddedryd a rhaith gwlâd yn erbyn haerllydrwydd: dadl am wystleidiaeth lle ydd ymwystler â'r brenin; dadl y bo ymddifyn neu wâd am dîr ynddi; a dadl o wrthrym brenin yn erbyn cyvraith; a'r cyfraw ar bencenedyl gwr à ddyco yr hawl, yn llŷs ac yn llàn, ac ar osteg a rhybudd cyvreithawl undydd a blwyddyn.

96. Tri chyveiliorn cyvraith y sydd: hawl anhysbys, ateb anghwbl, a chôv anghyttyst.

97. Tri gwared y sydd rhag y tri chyveiliorn: cadw a chynnal côv dosparthus ar âch a bonedd gan briodasau teilyngion; ac ar randirodd a'u perthynasau, ac atteb cwbl, a chan dŷst gwarantedig, a chan à gatwawr y côv yn warantedig, ai o vyw ai o varw y bo; a rhaith gwlâd gan gyfraw pencenedyl y neb à ddyco yr hawl yn llŷs. Sev achaws anhysbysder hawl y dosparthwyd ac y cadarnâwyd ar veirdd, gwarantedig o vraint a gradd gorsedd, yn wahanredawl y cadw ar âch a bonedd, ac ar randirodd; ac wrth hyny côv meini pentan, a

thervynvain, ac esgynvain, ac am a'u symmutai yn anghyvarch llŷs ac yngnaid.

98. Tri anghydwybod cyvraith: tervynu yn gwbl cyn ymovyn yn drychwil am wirionedd; barnu ar draws anian a syrth anesgorawl dichweiniau ac amserau; a chymhell dŷn er ei avles lle na bo na chyvraith na chyviawn yn gyvlavar â'r varn à gymhellawr.

99. Tri pheth à gadwant gôv tîr a thyle, ac á savant yn mraint tystadon: pentaenvaen, meini odyn, ac esgynvaen; canys nod y genedyl á vydd ernynt; a hawl lledrad vydd ar a'u symmuto heb gènad arglwydd y cyvoeth, gan varn llŷs a chyvraith; achaws tystion cedeirn ydynt, ac enaidvaddeu pob un à ddinystrio dystiolaeth gadarn.

100. Tri maen arall y sydd â hawl lledrad ar a'u symmuto; maen tervyn, maen gwyn gorsedd, a maen gobaith; ac enaidvaddeu à wnelo hyny.

101. Tri pheth ni ddylit heb gènad arglwydd a'i llŷs: adeilad yn ngobaith, aredig yn ngobaith, a digoediaw tir gwyllt yn ngobaith; a hawl lledrad ar a'u gwnelo; canys gwlâd a chenedyl yn gyfredin bieufynt pob gwyllt a gobaith; ac nid iawn meddiant wahanred i nebun ar vawr na bychan o'r cyvryw dirodd.

102. Tri pheth rhydd i bob dŷn, ai brodor ai estron y bo, ac nid iawn herwydd cyvraith eu hattal: dwr o fynon, neu o nant, neu avon; tanwydd o geubren; a maen na vo yn ngwaith.

103. Tri pheth ni ddylit eu dwyn i wlâd estron heb gènad gwlâd ac arglwydd: aur, llyvrau, a gwenith.

104. Tri pheth nis dyly mab aillt eu gwerthu heb gènad ei arglwydd prïodawr, rhag y prynai eve hwynt gantho: gwenith, mêl, a meirch; a lle nas pryno ei arglwydd wynt, rhydd iddo eu gwerthu lle y myno, cyd nas gwertho i wlâd estron.

105. Tri dŷn à dalant alanas ac ni chant rân o alanas: gwraig, ysgolâig, a dŷn ni thalo geiniog baladyr.

106. Tri dŷn y dylit eu cadw rhag arvau: caeth, mâb cyn pedwar ar ddeg oed, ac ynvyd cyhoedd ar byst gwlâd ac arglwydd.

107. Tri dŷn nis dylit gyru arvau arnynt: bardd gorseddawg, ysgolâig llŷs a llân ac ynad; gan nas gellir eu hebgor yn eu hansawdd a'u swyddau, ac am nas dylit arv yn llaw à vytho yn mraint Duw a'i dangnev gan gelvyddyd a gwybodau dwyvolion, a chan swydd yn rhaid gwlâd a chenedyl.

108. Tri dŷn à gadwant vraint llŷs ar y tŷ neu y lle bynag y bwynt yn ngwrthwydd y brenin neu arglwydd y llys: ynad llŷs, golychwydwr llys, a'r rhaglaw; sev bynag o van neu dŷ y bwynt y tri ynghyd, braint llŷs ar y lle hyny, cyd na bai cyttrych y brenin.

109. Tri dyn nid â cyvraith arnynt: meddw, llai na phedwar ar ddeg oed, ac à gymhellawr o'i anvodd i wneuthur anghyvraith.

110. Tri dŷn ni ellir canlyn cwynau ernynt yn unig ac yn odidogion: gwraig heb ei gwr, mab dioedran heb ei dâd, a mâb aillt heb ei arglwydd prïodawr.

111. Tri dŷn nid gair eu gair ar ddim yn y byd: golychwydwr gwedi y tòro ei gynghrair; tyst à gavwyd yn anudon à ddywed yn llŷs, neu yn arall o van, ar grair; a lleidr cynnevodig cyhoeddgwbl.

112. Tri dŷn nid oes sarâad iddynt: clavr, ynvyd cynhwynol, ac alltud na vytho yn wr prïawd Cymraes gynhwynawl; sev eisioes y bydd gwerth cyvraith ar bob un onaddynt, a dirwyawg à wnelo gam ag wynt, ac a'u drygont yn nghorf a meddiant.

113. Tri enw rhybuddiwr gwlâd: garwgychwedyl, gwaedd gwlâd, a rhingyll; a rhydd i hwnw fordd a diarfordd ddydd a nôs ba le bynag ydd elo yn ei swydd, cyd y bo yn ei law ei gorn dan nôd arglwydd y cyvoeth.

114. Tair gorsav arv y sydd, sev nas dycer yn llaw neu yn noeth: un yw cyrch golychwyd yn mraint beirdd Ynys Prydain dan nawdd Duw a'i dangnev; ail yw yn ngorsedd gwlâd, a llŷs gwlâd ac arglwydd; trydydd, arv gwestai yn ei lletty dan nawdd Duw a'r brenin.[1]

115. Tri rhyw wr y sydd: alltud cynhwynawl, sev hwnw estron o gysevin hanvod, neu vab, neu ŵyr iddo, a phob un o vamau estronion; mâb aillt mamwysawl, sev à vo ei vam yn Gymraes gynhwynawl, ac eillion yn mraint mamwys a'u gelwir y cyvryw; a brodorion, sev yw brodorion Cymry cynhwynawl, heb gaeth, heb alltud, heb ledach, yn y gwaed, ac ar y pedwerygwr y saiv braint brodor neu Gymro cynhwynawl ar aillt o vamwys cynhwynawl.

116. Tair gwraig y dylai eu meibion vamwys herwydd cyvraith: mâb gwraig à rother i alltud o vodd ei chenedyl, mâb gwraig à wystler yn ngwlâd anghyviaith o bcichioger hi yno, gan ei gwystlaw o'i chenedl a'i harglwydd; a gwraig y dyco alltud drais erni; sev y dylit i veibion y

[1] Gwel Driodd Addwynder.

gwragedd hyny drev eu mamau, ac nis dylit ei oedi hyd y nawvedydd, drev ei vam i un o'r meibion hyny.

117. Tri cheidwadaeth tîr y sydd: arglwydd á geidw y tîr à ddisgyno iddo o varwolaeth perchenawg ni adnaper ei etiveddion, hyd oni ddelo etivedd gwarantedig iddei ovyn; a thîr Cymro cynhwynawl à gollo ei dîr a'i vraint hyd yn mhen y nawved âch; a thîr mâb dioedran yn y delo i oedran goresgyn.

118. Tri gwad cyswynblant: tâd, os byw, ar ei lw ei hunan; lle bo marw y tâd, pencenedyl a seithlw cenedyl gantho a'u cymmer ac a'u gwâd; lle na bo pencenedyl llw dengwr a deugain o'r genedyl a'u gwâd; a chyswynvab á wedir, mab aillt a chaeth a'i bernir hyd ei bedwerygwr, neu hyd oresgyn nawvedydd.

119. O dri pheth ni ellir gwadu mâb o genedyl: ei eni yn y gwely cyvreithawl a'i vagu undydd a blwyddyn heb wâd; rhoi gwerth er ei vagu cyd bo mab llwyn a pherth; a'i gymmeryd ar osteg; a gwedi un o'r tri hyn nis gall y tâd ei wadu.

120. Tri chymmeriad à vydd ar vâb: un yw ei dâd, a'i lw ev ei hunan a'i gwad neu a'i cymmer; ail yw lle na bo byw y tâd, pencenedyl ar ei seithved o wŷr twng o'r genedyl a'i gwad ac a'i cymmer; trydydd, oni bydd pencenedyl, un gwr ar hugain o'r genedyl a'i gwad ac a'i cymmer; sev saith yn lle y tâd, a saith yn lle y pencenedyl, a saith gyda'r pencenedyl, ac nid rhaid tyngu drwy bervedd a phervedd, namyn hyd eithav rhyn pwyll a chydwybod. A lle a'i cymmerir, val hyn a'i gwneir; sev y pencenedyl a'i cymmer gervydd ei law ddehau â'i law ddehau, ac a'i rhydd yn llaw y gwr hynav o'r seithwyr; ac velly o hynav i hynav hyd yn mhen y seithved gwr; ac nid oes na nôd na dinod ar y gwŷr hyny, namyn eu bod yn henuriaid y genedyl, ac nas dylynt rànu tîr ag ev, ac yn ogydgerdded ag a'i cymmerir ac a'i gwedir.

121. Tair fordd y dialltuder dŷn: tâd ar ei lw ei hunan, lle bo y tâd hwnw yn vrodor o Gymro cynhwynawl; pencenedyl ar ei seithwyr cyttwng; ac ar à ddywetont dengwr cenedyl a deugain ar lw gan rŷn pwyll a chydwybod; ac yna brodorawg vydd.

122. Tri llw gwared: llw pencenedyl a'i saith henuriaid cynghenedyl; llw henuriaid cynghenedyl yn dri seithwyr; a llw gwlad yn ddengwr a deugaint; a lle nis gellir y cyntav, rhaid vydd yr ail; a lle na bo yr ail, yna y trydydd.

123. Tri phrawv dŷn ar ei lw ei hunan: gwraig am drais gwr, hwrdd a chyrch anghyvarch ar ddŷn, a thâd yn gwadu neu yn cymmeryd mâb, sev cyswynvab.

124. Tri etivedd y sydd: mâb o brïodas gynhwynawl; mâb cyswyn à gymmero y tâd ar ei lw er cael etivedd, sev ni saiv hawl a dadl ar vonedd cyswynvab à gymmerawr ar lw tâd; a mâb o genedyl lle na bo na mâb prïodas na chyswynvab.

125. Tair merched ni thalant amobrau: merch brenin neu arglwydd cyvoeth, merch edlin, a merch pencenedyl.

126. Tair breniniaeth y sydd: tywysawg hynav ei oresgyn yn benteyrnedd; arglwydd cyvoeth gorseddawg yn vrenin yn ei lŷs; a phencenedyl yn rheol a chyvnawdd ei genedyl a'i geraint; a braint cyfraw gwlâd i bob un o'r tri brenin hyny; sev yw cyfraw gwlâd, lluniaethu rhaith lle nis gellir iawn yn nghyvraith yn amgen o vodd.

127. Tair pla cenedyl: magu mâb arglwydd, dwyn mâb yn ngham i genedyl, a gwarchadw penrhaith.

128. Tri sarâad gwr: cyvlavan arno, bod gan ei wraig, a thòri ei nawdd gwedi y rhotho.

129. Tri sarâad brenin: tòri ei nawdd, cyrch cyvlavan yn ei ŵydd, a bod gan ei wraig.

130. Tri gwasanaeth ysgolâig neu wr llên llŷs: cadw dadl ar lythyr yn y bo tervyn, dilëu llythyr gwedi tervyn, a bod bob amser yn ei swydd wrth ewyllys arglwydd y llŷs a'i yngnaid.

131. Tri chyfredin cenedyl: pencenedyl, teisbantyle, a mâb gwraig à rother o vodd cenedyl i estron; sev y cafant bob un o'r tri eu trwydded o creidr y genedyl: sev i'r pencenedyl yn mraint ei rïawd, y teisbantyle yn mraint ei swydd a'i ansawdd, a'r mâb yn mraint mamwys.

132. Tair aelwyd à ddyly wneuthur iawn tros na bo arglwyddoddev: tâd, brawd hynav, a chwegrwn.

133. Tair braint wahanredawl pencenedyl: braint carchar, braint amddifynblaid i atteb gwrthrym, a braint nawdd mâb aillt à gafer gan ei genedyl, val nas cafo gam a thasg nas dylit o gyvraith a chydwybod.

134. Tri rhieni dŷn: tâd, hendad, a gorhendad.

135. Tri chydetiveddion gwr: brawd, cevnderw, a chyverdderw.

136. Tri dŷn à vyddant enaidvaddeu, ac nis gellir eu prynu: bradwr gwlâd a chenedyl, à latho arall o fyrnieder, a lleidyr provedig am werth mwy no phedair bygant.

137. Tri lleidyr ni vyddant enaidvaddeu: gwraig o gydledrad â'i gwr, mâb dioedran, a rheidus am ymborth lledrad wedi cerdded o hano dâir trev, a naw tŷ yn mhob trev, heb gael rhodd er ei govyn.

138. Tri lleidyr camlwrw: lleidyr ci, lleidr llysiau gerddi, a lleidyr anivel gwyllt o dîr dinllan.

139. Tri lledrad y sydd: cymmeryd yn lledrad, attal yn lledrad, a lladd da bywydawl yn lledrad; ac eneidvaddeu pob un o'r tri, ac nis gellir eu prynu.

140. Tri lledrad prŷn y sydd: lledrad o dwyll, lledrad o gribddail, a lledrad o gudd dichweiniau, a'u prynu dros eu gwerth cyvreithiawl dair gwaith.

141. Tri phriodolder y sydd ar bob dŷn: etiveddiaeth, braint, a rhyw; etiveddiaeth à vydd herwydd braint, a braint herwydd rhyw; rhyw, val y mae benyw a gwryw, brodor ac aillt, a hen ac ieuanc.

142. Tri rhydd cenedyl a'i heillion yn mraint mamwys; coed adeilad o goed gwyllt, helwriaeth yn nhîr gwyllt, a mesori tîr gwyllt.

143. Tri phriv davodogion llŷs: arglwydd, brawdwr, a mâch.

144. Tri attavodogion llŷs: plaid, tyst, a gwaedd gwlâd.

145. Tri thawedogion llŷs: arglwydd yn gwrandaw ar yngnaid a brawdwyr, yngnaid a brawdwyr yn gwrandaw hawlwr ac amddifynwr, a phawb o naddynt yn gwrandaw tystiadon hyd yn y tawont eu hunain; sev cyvraith á ddywed ni ddylit yru taw ar dyst rhag difawd y gwirionedd.

146. Tri chanol cyvraith: arglwydd i gadarnâu cyviawnder, mâch neu wystyl i gadw cywirdeb, ac yngnad neu vrawdwr cyviawn i amlycâu gwirionedd.

147. Tri dŷn à ddinystriant wlâd a chenedyl: arglwydd twyllgar, ynad anghyviawn, a chyhuddwr cyvlog.

148. Tri dŷn à vyddant anrhaithoddev: un na savo wrth varn cyvraith, ac na safo yn wyneb llŷs, ac à latho ei gywlad; sev goddevadwy cyrch anraith arnynt; sev yw cyrch anrhaith, dwyn yn ngavael y maint à gafer o'u dâodd cynhwynawl, heb werth heb dwng arnynt, ac eneidvaddeu à latho.

149. Tri châs cyhoedd cenedyl: à latho ddŷn o'i gydgenedyl, lleidyr, a thwyllwr; sev a'u gelwir velly am y bydd iawn i ddialwr y genedyl eu cyhoeddi gan gorn gwlâd, yn llys, ac yn llàn, ac yn mhob tyrva ddosparthus, ac ar byst ynvydion y brenin.

150. Tri achaws gosod cyvraith: addysg er gochel anghyvraith, gwared anghyvraith o darfawr ei gwneuthur, ac er cospi anghyvraith yn ol y bai ag y dylit.

151. Tair ceinmyged cyvraith: gwared rhag anrhaith, cospi drygwaith, a chadarnâu iawn am anghyvraith, er cynnal iawn a thangnev cymmrawd ar wlâd a chenedyl, o'r tri pheth hyny.

152. Tri bonedd cyvraith: devod gwlâd a chenedyl cyn côv, dosparth gwlâd a chenedyl ac arglwydd yn rhaith dygynnull gwlâd a chenedyl benbaladyr, a chyviawnder wrth bwyll, ac ansawdd, a gorvod: neu val hyn y dywed ereill o ddoethion, wrth bwyll gwirionedd, wrth syrth dichweiniau, ac wrth rŷn cydwybod; sev y bydd herwydd à ddywedaint.

153. Tri chyviawnder cyvraith: gwirionedd, gwybodaeth, a chydwybod; a lle na chyvleddont y tri hyn yn gyvanian ni ddylit i gyvraith ei henw; gwirionedd yw gwreiddyn barn, cydwybod yw gwreiddyn cyvryngiad, a gwybodaeth yw gwreiddyn cynhebryngiad a threigl hyd yn nhervyn, gan hawl ac amddifyn a dadlau a thystiadon.

154. Tair colovn cynghaws: naw afaith galanas, naw afaith lledrad, a naw afaith tân.

155. Tair colovn cyvraith: devod cyn côv a chlyw, brenin drwy gyvraith warantedig, a gwlâd yn marn gan raith lle ni bo na devod na chyvraith.

156. Tri pheth nid oes namyn rhaith ddygynnull gwlâd a chenedyl benbaladyr gan gyfraw penteyrnedd à biau eu tòri, neu eu symmud: cyvraith warantedig o dëyrnedd; devawd cyn côv a chlyw gwlâd a chenedyl nas prover argywedd erni ac o heni, sev ei bod yn erbyn cyviawnder; ac ammod gydgyvaddev.

157. Tri thòr cyvraith anesgorawl; ammod warantedig o dystiadon, devawd gyviawn cyn côv a chlyw gwlâd a chenedyl, ac anghenocder anesgorawl.

158. Tri thòr ammod cyvreithawl: angau arglwydd lle nas cafed tervyn llŷs erni o bydd tragywydd, clevyd yn attal cywiraw, ac anghenocdid anesgorawl.

159. Tri pheth ni ddyly llŷs ac yngnaid varnu arnynt yn amgen no chlo tervyn; pryn cyviawn ar dîr herwydd cyvraith gymmrawd, arglwydd yn ymlid gwirionedd rhwng gwr a gwr, a hiroddev gwlâd; sev gwlâd a chenedol benbaladyr yn rhaith ddygynnull á biau barnu, ac nid amgen.

160. Tri pheth à gadarnâa gynneddvawd: ei haddwynder, ei gallediceder er lles gwlâd a chenedyl, a'i hawdurdawd o

vonedd a hawl nad elo yn erbyn cyvraith; a lle bo felly hi á gau yn erbyn cyvraith.

161. Tri phrivachos rhaith gwlâd: gwneuthur neu symmud cyvraith; barnu lle nis gellir o gyvraith parth difyg, neu ddichwain, ac angen; a braint gwlâd a chenedyl yn gwarchadw rhag anghyvraith drwy gau yn erbyn a'i gwnelo.

162. Tri gwyr rhaith cenedyl: ei phencenedyl, ei saith henadur yn nghyvnerth ei phencenedyl, a'i theisbantyle; sev yw hwnw gwr o'r genedyl à ddewiser am ei ddoethineb a'i wybodau llên: a'i ddewis gan goelbren neu raith avlavar henaduriaid y genedyl.

163. Tri pheth o byddant ar wr eve á wedd iddo vod yn bencenedyl: à ddyweto gyda ei gâr ac à wrandawer, à ymladdo gyda ei gâr ac à ovner, ac à vechnïo gyda ei gâr ac à gymmerer.

164. Tri phriv anhebgor gwr rhaith: bod yn Gymro cynhwynawl, sev yw hyny heb anach heb ledach parth bonedd; bod yn wr cyvallwy; a bod yn benteulu; sev yw hyny, yn ŵr gwraig a phlant o briod; sev heb y rhai hyny nis gellir teulu yn nghyvraith; sev ni wda wr yn anmraint ac yn anmrawd à vo perchen teulu, can ys erddynt ev á wna gydwybod.

165. Tri anhebgor pencenedyl: bod yn wr cyvallwy, a bod yn hynav o wyr cyvallwy ei genedyl hyd yn mhen y nawved âch, à bod yn benteulu, sev yn wr gwraig a phlant o brïodas deilwng; a phob un o'r genedyl á vydd yn wr ac yn gar iddo, a gair ei air ev ar air pob un o'r genedyl.

166. Tri anhebgor teisbantyle: gwr cyvallwy o Gymro cynhwynawl; gwr gwarantedig o ddoethineb awenbwyll, a gwybodau anrbydeddus gwladolion; ac yn wr teulu o brïodas deilwng, yn berchen gwraig a phlant. Ac o raith avlavar doethion y genedyl ai breinier ev yn nawdd a braint pencenedyl, ac eve á vydd dros y genedyl, ac yn eu plaid, yn wr llŷs a llàn, ac yn wr penraith gan ddoethineb a gwybodau, ac yn wr pell ac agos yn nhravodau a dichweiniau y genedyl, a braint iddo drwydded paladyr o'i genedyl, yn un a'r pencenedyl; ac yn mhob tyrva cenedyl athraw a chynghor y bydd, ac yn gydgyvarail â'r pencenedyl.

167. Tri achaws breiniaw teisbantyle: dirprwyaw yn nhra nas gallai y pencenedyl; addysg doethineb i'r genedyl; ac achub doethineb cenedyl a gwlâd a chywlad drwy ddywain priv ddoethion cenedlodd y Cymry yn wŷr llŷs a barn yn ngorsedd ddygynnull Cymru benbaladyr, a hevyd yn nygynnull arglwydd cyvoeth a'i wlâd; ac yn mhob rhaith wahanredawl gwlad a chenedyl, ac nis gellir hyn yn amgen o vodd no braint i ddoethion; can nas dylit na deddv na dir ar ddoethion; ac eisioes nis dylit dygynnull heb ddoethion, can ys goreu barn barn doethion; sev nis gellir gwarantu doethineb ar bencenedyl; achaws hyny, braint ac angen i bob cenedyl ei theisbantyle.

168. Tri pheth à wnant gyvallwy: cyvlawn a pherfaith y synwyrau corforawl; sev yn arbènigion, y clyw, a'r olwg, a'r ymmod; sev y dywed cyvraith tri chyvallwy corf, clyw, golwg, ac ymmod; synwyrbwyll meddwl a deall, o reddv ac athrylith, a chadernyd; sev y tri á wnant gyvallwy ar geudawd, a gwybodau gwladolion gwarantedig o athraw a dangaws, neu o raith avlavar dengwyr a deugain o Gymry cynhwynawl o'i genedyl ei hun.

169. Tair fordd y cadarnâer ac y breinier pob deddvedigaeth ar wlâd a chenedyl: gorsedd ddygynnull Cymru benbaladyr; sev hyny holl wladodd, a chyvoethau, a theyrneddau, a chorvenau cenedyl y Cymry, gan bencenedlodd, a theisbantylëodd, a gwyr rhaith, yn gydgymmrawd yn ngorsedd ddygynnull gwlâd a chywlad, a chenedyl a chydgenedyl. CAN NID OES NAMYN UN GWLAD AC UN GENEDYL AR GYMRU BENBALADYR: ac yn yr orsedd hòno gwneuthur neu symmud neu wellâu cyvreithiau yn ol y bo achos, a'u deddvu yn warantedig o gymhwyll, a chymmrawd, a chydsynwyr y dygynnull. Ail fordd, braint gorsedd gyvallwy gwlâd a chywlad, nid amgen, llŷs teyrnedd gwlâd a chywlad, ac ynddi deddvu à vo govyn ar newydd, neu ar wellâu, neu ar symmud hên o gyvraith a chymmrawd; a dodi a wneler ar osteg a rhybudd y llysodd yn holl gyvoethau gwlâd a chenedyl Cymry benbaladyr, er gwellâu, neu gadarnâu, neu wrthryn a gwrthod, val y barnawr yn achaws gan bwyll a chyviawnder; a a chynnal y cerdded val hyn yny wyper barn y genedyl, ac y cafer cymmrawd y gan yr holl lysodd heb wrthryn heb wrthneu; a phan a'i cafer, dodi hyny ar osteg a rhybudd y gorseddau a'r llysodd oll hyd yn mhen y tair blynedd; a chymmrawd gorsedd pen y tair blynedd á elwir gorsedd gyvallwy, a'i threiglaw drwy yr holl gyvoethau; a hòno á dderchaiv ar à ddeddver braint dygynnull gwlâd a chenedyl Cymru benbaladyr. Trydydd fordd y doder neu y symmuder cyvraith yn warantedig o awdurdawd gwlâd a chenedyl á vydd dan osteg a rhybudd hyd yn nghyvallwy; sev

dodi à vyner ei ddeddvu yn gadarn, ar osteg a rhybudd undydd a blwyddyn, gan waedd gwlâd a chywlad, yn mhob llŷs ac yn mhob llàn, a phob fair a marchnad, a phob arall o dyrva ddosparthus gwlâd a chywlad, hyd oni chafer barn y gwladodd a'r llysodd, a gwellâad a chyweiriad ar à geinmygawr wrth vodd gwlâd a chywlad, a gwybod nad oes na gair na gwrthryn yn ei erbyn; a phan wyper hyny, dodi hyny ar osteg a rhybudd undydd a blwyddyn gan waedd gwlâd, val o'r blaen, hyd yn nghyvallwy, sev hyd yn ngwbl gwaedd y tair blynedd; ac yna cadarn o gymmrawd Cymru beubaladyr y bydd; a chyvraith gan bob gwlâd a chyvoeth, a phob teyrnedd, a phob llŷs a llàn gwlâd a chywlad; a gogyvuwch a gogyvurdd â gorsedd ddygynnull gwlâd a chywlad y bydd à wneler val hyn; ac nid rhaid cyrchu rhaith cywlad ar gyvraith à wneler velly; canys cyvraith á ddywed, *cavas vodd a chymmrawd Crmru benbaladyr heb wrthryn heb wrthair, am hyny cadarn;* can ys onis cyrcher rhaith ar à wneler val hyn cyn pen y tair blynedd a'r trinydd traphen, bernir bodd gwlâd a chywlad, a chenedyl a chydgenedyl, ar à ddeddvwyd; can nis gellir llai no bod gwybodus i bawb à wnaethpwyd gan waedd gwlâd yn gyvreithawl o leodd ac amser, dan goron neu vraint y deyrnedd neu y cyvoeth wahanredawl y buad, gan roddi lle a llwydd i bob gwrthneu, a gwrthair, a gwrthryn galledig o bwyll ac achaws yn geinmygiadawl.

170. Tair colovn rhaith gwlâd o ba ryw bynag y bo: teyrn cywlad neu arglwydd cyvoeth; pencenedlodd; a henaduriaid cenedyl a doethion gwlâd, sev teisbantylëodd, yn warantedig o vraint, gan raith avlavar cenedyl, sev gan goelbren ddosparthus henadur ar henadur.

171. Tri chyvraw gwlâd, ai yn rhaith ai yn amgen y bo: tëyrn neu arglwydd cyvoeth, pencenedyl, a theisbantyle; sev o davawd neu air un neu arall o'r tri hyn y cyfröer gwlâd a chywlad, gan waedd gwlâd yn ddosparthus gan ddevawd a chyvraith.

172. Tair gorsedd gwlâd y sydd: gorsedd ddygynnull gwlâd ac arglwydd, gorsedd neu lys barn a chyvraith gan yngnaid, a gorsedd beirdd wrth vraint a devawd beirdd Ynys Prydain.

173. Tair nawdd gyfredin y sydd: nawdd gorsedd neu lŷs gwlâd, nawdd golychwyd, a nawdd arad ac atgor yn ngwaith.

174. Tri pheth anhebgor ar orsedd neu lŷs gyvallwy: ei bod yn warantedig o vraint ac awdurdawd a'i lluniaetho ac a'i cynnalio; ei bod dan nawdd gosteg a rhybudd undydd a blwyddyn gan waedd gwlâd yn gyvreithawl. a threiglaw hyd ymhen y tair blynedd a thridiau traphen, a'i bod yn warantedig o le ac amser ai cynnelir; sev hyny egored lle ac amser yn ddevodawl, a lle bo velly nid rhaid amgen ar osteg a rhybudd; a deddvedig vydd à wneler gan varn hyd gyvallwy yn mhob llŷs a gorsedd gwlâd a chywlad, hyd y cerddo swydd a braint yr orsedd a'r llŷs a'i gwnelo.

175. Tair rhaith cyvraith y sydd; rhaith ddygynnull teyrnedd a chenedyl gwlâd a chywlad er deddvu, gan wneuthur, neu symmud, neu wellâu cyvraith, ac à elwir rhaith teyrnedd a chywlad; ail, rhaith gwlâd, á elwir rhaith trichannyn; trydydd, rhaith llŷs, a hòno á vydd gan vrawdwyr neu henuriaid gwlâd neu genedyl yn nawdd ac yn mraint llŷs a'i doto, o seithnyn hyd yn nengwyr a deugain.

176. Tair llŷs cyvraith y sydd: llŷs cantrev a chymmwd, llŷs benadur, sev llŷs arglwydd neu vrenin a'i gyvoeth, a llŷs ddygynnull teyrnedd a chywlad, a hòno yn ben ar y ddwy ereill.

177. Tri awdurdawd devodau llŷs a chyvraith: llŷs benadur y brenin, cyvraith gwlâd, ac arver o bob un onaddynt.

178. O dri pheth y mae cyvraith: anghenion dichweiniau, deall cyvryn y doethion, a chyvundeb cenedyl a theyrnedd yn rhaith.

179. Tri anhebgor gorsedd a chyvraith: rhwym devodau, côv cyvarwyddyd, a dadleuon.

180. Tri pheth á gau yn erbyn cyvraith: hir oddev gwlâd a chenedyl, cyvnewidiau amser a dichweiniau yn difrwythaw cyvraith a devawd, ac ammod warantedig o dystiadon cyvreithawl.

181. Tri gwrthrym devawd: bonedd angheugant, ei gorthrymder, ac anghraith ddrwg: a lle bo un o'r tri petrus vydd, a lle bo y tri yn nghyd cauedig vydd yn ei herbyn.

182. Tri phetrus cyvraith: twyll, cêl, a chamvarn, gwedi llithraw amser arnynt; ac yna nis gellir na dëail na diwyg ar un o'r tri, rhag annilysrwydd yr hawl.

183. Tri pheth nid oes ar nebun atteb drostynt: abredig nad elo yn erbyn cyvraith, gweithred nas gellir dangaws argywedd o heni, a chafaeliad cyll ni wypo neb yn ngwlâd pwy a'i colles; ac nid oes ar neb atteb yn nghyvraith am y tri pheth hyn, namyn hawl arddangaws; a lle nas galler hyny, tervyn.

184. Tair tystiolaeth gadarn: llw drwy bervedd, cydgyvaddev, a dichweiniau anesgorawl nas gellir petrusder ernynt.

185. Tri pheth à drechant ar gyvraith: à wnelo y brenin, i ddilyd gwir a chyviawn, ac i wneuthur cydwybod a thrugaredd; braint, lle nis gellir à elo yn ei herbyn; ac ammod gydgyvaddev yn warantedig o dystiadon.

186. Tri gwrandaw llŷs ac ynad: cwyn, deisyv, ac atteb; a braint rhaith gwlâd gan gyfraw ei bencenedyl i na chafo ei wrandaw.

187. Tri datgan llŷs ac ynad: hawl, atteb, a barn.

188. Tri pheth yn bendivaddeu y dylai teyrnedd ac yngneidiaeth eu cynnal, a'u cyvnawdd, a'u cadarnâu yn ngwlâd a chenedyl: gwirionedd, cyviawnder, a thangnev. Sev y dywed ereill, gwirionedd, gwybodau, a thangnev.

189. Tri devnydd hawl: golwg, gair, a gweithred.

190. Tri diwyneb gwlâd y sydd: brenin, golychwydwr gorseddawg, a chyvraith; sev lle bont y tri nid rhaid gwyneb gwlâd.

191. Tri difer rhag gwŷs gorsedd neu lŷs y sydd: llivodd yn avonydd, heb bynt, heb geubalau, gwaedd gwlâd rhag llu gorwlad yn nghlyw yr udgyrn, a chlevyd anesgorawl yn gorvod.

192. Tri avlavar anianawl: maban cyn oed pedwar ar ddeg; clâv a dolurus gorweddawg; a mud cysevin, neu vud o ddichwain na wypo ar lythyr.

193. Tri rhyw briodorion y sydd: cynhwynolion anianawl, gwŷr llŷs, a gwyr llên; sev y cyntav o'r tri á elwir llëygion, ac iddynt y mae braint lle ar dir a chyvarwys; ac i'r ail y bydd braint swydd herwydd à ddyweto cyvraith; ac i'r trydyddion, sev y gwŷr llên, y mae braint athrawon; sev dogn iddo o bob arad o vewn y swydd y bo ynddi yn warantedig yn athraw; a'i dir braint yn rhydd iddo, a'i drwydded yn mraint ei wybodau.

194. Tair braint gyvreithawl y sydd: braint anianawl, braint tîr, a braint swydd; ac yn nawdd gwlâd a chenedyl yn rhaith y doded pob braint, a'r cyfraw ar bencenedlodd.

195. Tair swydd y sydd ar athrawon gwlâd a chenedyl o wŷr llên: dodi addysg i'r lleygion, yn eu teuluodd, ac yn ngolychwyd, ac yn llysodd y cyvoeth, ac yn ngorseddau gwarantedig o le ac amser; ail, cadw côv gwarantedig ar vreiniau, a devodau, a gwelygorddau, ac achau bonedd, gan briodasau teilyngion, ac ar weithredodd anrhydeddus, ac ar bob goreuau gwlâd á chenedyl, ac ar à wneler yn llŷs ac yn llàn, ac yn heddwch, ac yn rhyvel; trydydd, dylynt vod yn barod bob lle ac amser gwarantedig wrth raid gwlâd a chenedyl, ac à wasanaethont dan obr a thrwydded, i ddodi addysg a chynghor a gwybod ar geinmygedau, ac i ddatgan côv gwarantedig, ac i ddangos cyvarwyddyd, ac i yru cyvarwyddyd ar à vo rhaid a govyn gan achaws gwlâd a chenedyl; megis y bydd negyddiaethau[1] gwlâd a gorwlad, a llŷs a llàn; ac i drevnu gostegau, a rhybuddiau, yn warantedig o gyvraith ac awdurdawd, a'u dodi yn mhen gwaedd gwlâd, ac i lyvraw à ddoter gan varn a devawd ar gôv llyvyr a llythyr; ac amgen no hyn o swyddau nis dylit eu gyru ar athrawon gwlâd o wŷr llên a'llythyr a gwybodau ceudawd a doethineb, rhag nas gellynt eu gwasanaethu a gwneuthur à ddylynt parth eu swyddau o athrawon gwarantedig.

196. Tri chyvrwym gwladoldeb: gwybodau, brawd, a llavuriaeth.

197. Tri thrwyddedawg gorseddawg y sydd: bardd, ynad, a theisbantyle.

198. Tri thrwyddedawg dichwain y sydd: celvydd anianawl à wnelo nid llai no gorchest ar gelvyddyd er lles brodoriaeth; anghyviaith à ddihangawr o long a dòro yn môr; a brŷdd. sev à wareto Gymro yn mhyd angheuawl.

199. Tri thrwyddedawg bydavawg y sydd: oedranus; maban, sev plentyn, ai gwr ai gwraig y bo; ac estron anghyviaith; sev yw bydavawg, un na vytho arno na swydd na gorchwyl, a'i drwydded yn rhâd gan gyswyn paladyr

200. O dri pheth y cafant drwyddedogion eu cyvarwys: pumerwi rhyddion; a lle nis gellir hyny gan ddichwaint, ceiniog arad; a lle nis gellir hyny, ceiniog baladyr, neu gyswyn paladyr; sev hyny dogned gymmedr ac achaws gan bob teuluawg o'r genedyl.

201. Tair palvawd ni ddiwygir: un tâd ar ei vâb yn ei geryddu er addysg, neu am ei vai; un pencenedyl ar ei gâr er cosp am ei wall ac er côv a chynghor; ac un arglwydd ar ei wr yn nydd cad a brwydyr yn ei reoli

202. Tair dyrnawd arglwydd ar ei ŵr yn ei reoli: un á'i vrysyll, sev ei swyddwialen; un â phaeled ei gledd; ac un â phaeled ei law; ac nid oes sarâad ar un o'r tri hyny, namyn addysg, a dangaws, a rhybudd rhag à ddrycai.

203. Tair gorsav cynnevawd: cynnal

[1] Negesyddiaethau, ond odid.

dydd devodawl i ddechreu gorsedd a dadl a barn; lle hònaid gwybodedig yn ngolwg a chlyw gwlâd a chenedyl, mal y gwypo bob un y man a'r lle, megis y gwyr yr amser a'r dydd; a braint cyrch yn hedd a thangnev gan ddevawd gadarn gwlâd a chenedyl, ac na bo noeth arv yn erbyn neb-un à gyrchai yr orsedd; ac heb y cyvryw vraint nis gellir cynnal gorsedd deilwng er dosparth, a barn, ac addysg gwlâd a chenedyl, mal a'i govyn cyviawnder, a thangnev, ac anghenion, a dichweiniau gwlâd a chywlad, ac mal y gweddai ar wlâd addwyn yn arail trevnau, a gwybodau daionus ac anrhydeddus.

204. Tri anhebgor llŷs: arglwydd yn trevnu gwaranred, ysgolâig neu lên yn gov a datgan, ac yngnaid neu vrawdwyr i varnu; ac hebddynt nis gellir llŷs cyvreithawl.

205. Tri anhebgor cyvraith: braint sev gwarant, ac ynad, a thyst; sev y bydd anghyfraw pob cyvraith hebddynt.

206. O dri pheth y mae tyst cyvreithawl: gwr cyvallwy, gwr fydd, a gwr cymmrawd.

207. O dri pheth y mae barn yn mraint cyvraith: tyst, dichwain, a chydwybod; ac nis dylit ar gyvraith, ac à varnai cyvraith, namyn cydwybod yn nesav ac à aller herwydd tyst a gwirionedd gan gyviawnder.

208. Tair rhagswydd llŷs: cynghellawr, canllaw neu bleidiwr, a rhingyll; sev rhagovynion llŷs a'u gelwir, can y gellir llŷs hebddynt

209. Tri dŷn à ddylynt gan y brenin, neu arglwydd llŷs, davodogion drostynt yn llŷs: gwraig neu venyw, avlavar anianawl, ac alltud anghyviaith; ac i'r alltud hevyd y dylit nawdd ac ymborth gan ddogned paladyr; sev hyny dawn gwlâd ac arglwydd, rhag ei varw o newyn ac anwyd yn a'i doter yn ei ansawdd parth gwlâd a chenedyl.

210. Tri mud gorsedd: un arglwydd, neu vrenin, sev nid iawn iddo ev vod yn raglavar, namyn gwrandaw, a gwedi clywed à glywawr, llevaru à welo yn raid ac yn mhwyll cyvraith, a herwydd barn à ddylit gan gyvraith; ynad, ac nid iawn iddo ev ei lavar onis dospartho ei varn herwydd à ddangoser yn ei llŷs gan warant a thyst, ac à ddywetont y brawdwyr; a mâch, sev nid rhwym iddo atteb namyn i'r ynad neu y brawdwyr.

211. Tair dadl nis dylit ond ger bron yngnaid a brawdwyr cyweithas: cymmeryd dŷn i genedyl, neu ei wrthladd o genedyl, neu varnu goresgynaeth i vab aillt o vamwys ar ei bedwerygwr, neu i Gymro carddychwel; ail, dadl tir a daiar; trydedd, tangnevu rhwng gwledydd a chenedlodd yn rhyvel a galanasau; sev nis dylit tragwyddoli y dadlau hyny, onid yn oes yr arglwydd, neu à ddoto yn ei le.

212. Tri pheth y sydd ar ynad eu gwneuthur yn llŷs: dillwng cyvarchau wrth raid y brenin neu raid gwlâd a chenedyl; datgan a dosparthu dadleuodd a chynhenau o vewn ei llŷs; a chadarnâu ar ei air cyvraith. à varnont y brawdwyr; a hyny dan wystleidiaeth lle a'i govyno cyvraith.

213. Tri rhyw ynad y sydd: ynad llŷs benadur, un; a hwnw á vydd yn ben cynghor ac yn ben cymmrawd teyrnedd y cyvoeth, ac á ddyly vod yn ddiymbaid gyda'r brenin, neu arglwydd y cyvoeth, yn gov cyvraith iddo, er iawn varnu à ddelo ger bron[1]—a'i swydd o vrawdwr yr holl deyrnas dan ei thervynau; ail, ynad cwmmwd, ac arno y mae cynnal llŷs, a chôv cyvraith, a'i datgan, a llŷs y cwmmwd à vydd man y bythawr yn nghwyn ac yn hawl, ac yno y cynnail yr ynad hi, a chynnal dadleuau; canys cyvraith á ddywed, goreu a'i barnawr man a'i gwelawr; trydydd ynad, brawdwr braint, sev hwnw tiriog, ac eve á vydd wr llŷs yn rhaith, ac yn nghymmrawd llŷs cymmwd a chantrev, yn Nyved a Morganwg a Gwent; canys brawdwr pob tiriog cyvallwy herwydd devawd y gwledydd hyny; ac ar varn nis dylit llai no saith o'r cyvryw vrawdwyr, ac o hyny hyd yn neugwr a deugain; a'u barn a'u brawd hwy á elwir rhaith llŷs.

214. Tri dŷn ni ddylit yngneidiaeth iddynt: dŷn anghyvallwy, sev byddar, neu ddall, neu evrydd, neu glavr, neu orphwyllog, neu vud, neu à vo ag attal anianawl ar ei lavar; ail yw alltud, neu vâb aillt cyn goresgynaeth; sev cyn y cyrcho vraint gynhwynawl; sev braint nawved âch: ac ni ddylai vâb aillt oruchavu ar briodorion cynhwynawl; trydydd, gwr annysgedig yn nghyvraith a gwybodau gwladolion, sev lleygwr na wypo cyvraith a devodau gwlâd a chenedyl, na barnu ar vraint tîr, neu ar vraint swydd, neu ar afeithiau galanasau, ac ereill o bethau yn nghyvraith, am nas cavas ei athrawiaethu yn ddosparthus, ac ni ddylai anwybodus ac annysgedig varnu ar un peth o'r byd mewn cyvraith ba bynag y bo; can nis gellir ar hwnw na phwyll na synwyr namyn o wyniau anianolion, ar ba rai nis gellir cydwybodus cyviawn.

215. Tri anghyviawnder barn a brawd: barnu ar na vytho ger bron llŷs yn clywed

[1] Mae rhyw wall yma.

ac nas gwysiwyd yn warantedig mal y gallai amddifyn; ail, barnu ar à vo ger bron yn ngwrthrym cyvraith, gan vrenin neu arglwydd y llŷs, neu gan vrawdwr llŷs, neu arall o wr llŷs, à wyrai gyvraith; trydydd, barnwr annosparthus heb warant ar ei swydd; sev a'i gelwir ynad neu varnwr annheilwng; a lle ydd elo gyvryw varn ar nebun o Gymro cynhwynawl, rhydd iddo ei raith gwlad yn nawdd a braint cyfraw ei bencenedyl: ac i vâb aillt y bydd ei briodawr; ac i hwnw braint rhaith à ddylit i Gymro cynhwynawl er diwygiaw cam ei wr o vâb aillt; ac i vâb aillt yn mraint mamwys y bydd cyviawn nawdd pencenedyl; canys iawn i bob Cymräes gynhwynawl nawdd ei phencenedyl. Ac os arglwydd priodawr mâb aillt ei hunan à wna yn ngham àg ev, ac yn anghyvraith, nawdd arglwydd y cyvoeth iddo, neu y brenin; ac os gwr brenin neu arglwydd cyyvoeth y bydd à wnelo ag ev yn ngham, nawdd brenin neu arglwydd cywlad iddo, ac i hwnw varnu herwydd cyvraith, ac nis dylit corn gwlâd ar vâb aillt yn fo.

216. O dri choll y bydd trais: colli dŷn, colli tîr, a cholli da cychwynawl; a lle dyco y brenin neu arglwydd cyvoeth un o'r tri yn amgen nog a'i rhotho cyvraith, rhydd i a'u collo ei raith, a'r un a'u dyco a'u tâl, ac a'i diwygia, a lle a'i dyco arall, hawl á ddylit yn nghyvraith ar a'i gwnelo.

217. Tri cholled nis gellir damdwng arnynt: blawd, gwenyn, ac arian bath; canys llwyr gynhebyg a chyfelyb á vydd iddynt; ac nis gellir hawl, namyn o dyst neu gyvaddev, ar a'u dyco yn lledrad.

218. Tri dŷn à ddylynt ymwystlaw â'r brenin neu arglwydd y cyvoeth rhag cam y ganddynt, ac er diogelwch gwlâd a gwerin; cwyn ovn bywyd ac aelawd arall drwy dwng ar grair, neu ar gydwybod yn nawdd Duw a'i wirionedd, achaws bygwth; ail, à wrthoto iawn cyvraith am argywedd à gafai; a gorseddwr à vo hwy no thri diwarnod mewn gwlâd ac na rotho warogaeth yn gyvreithawl i arglwydd y cyvoeth, neu i vrehyr, a hyny rhag gwneuthur cam ohano, cyd na bo cwyn arno; sev yw brehyr, cynhwynawl tiriawg o benteulu yn mraint brawdwr llŷs.

219. Tri chrair twng y sydd: brysyll golychwydwr, enw Duw, a llaw yn llaw à dynger iddo; a llawgreiriau a'u gelwir. Tri thwng arall y sydd, nid amgen, gair ar gydwybod, gair yn wyneb haul, a chadarnâu yn nawdd Duw a'i wirionedd. Gwedi hyny doder y dengair deddv, ac evengyl Ieuan, a'r groes vendigaid.

220. Tri pheth nis gellir addev hebddynt: cartrev ddosparthus, braint gwlâd a chenedyl, a chyvarwys yn warantedig o gymmrawd.

231. Tri dŷn y sydd, a'u braint nas byddant wrth gorn gwlâd na llaw ar gledd; sev hyny nid ânt yn rhyvel: bardd, feryllt, a gwr llŷs; sev nis gellir hebgor un nac arall o'r tri.

222. Tri arv cyvraith y sydd: cleddyv, gwayw, a bwa a deuddeg saeth yn nghawell; ac ar bob gwr teulu eu cadw yn barawdgyrch, rhag llu gorwlad ac estron, ac ereill o wyr anrhaith; ac nis dylit arvau i amgen no Chymro cynhwynawl, neu aillt ar ei drydygwr, er gwarchadw rhag brâd a chynllwyn.

223. Tri pherchenogaeth tîr: âr gyntevig heb wahardd hyd yn nghwbl y trydedd âr, pentan gyntevig, a brodoriaeth gyntevig; sev yw hyny rhoddi y vrawd gyntav yn llys yn mraint à berchenocai y tîr hyny o Gymro cynhwynawl, a bod prawv o hyny hyd gylch rhieni; sev yw rhieni gwr, ei dâd, ei hendad, a'i orhendad; ac o hyny hyd y nawved âch ac edryd, gerni a'u gelwir.

224. Tri argae tervyn y sydd: cynwarchadw, braint, a phriodolder. Sev y dywed llyvyr arall yn hyn o vôdd: Tri argae tervyn, RHYW, sev yw hyny DARLIN o gysevin hawl, neu o gysevin genedyl; BRAINT, sev yw à rodded o rodd cenedyl i wr am à wnaeth drostynt ac erddynt; a GWARANT, sev rhodd gwlâd ac arglwydd yn ngorsedd am à ddylai gyviawnder gan BRID, neu i BEDRORION ALLTUDION yn mraint mamwys, neu unrhyw beth arall ba ryw bynag y barnwr gwarant llŷs a gorsedd; sev a'i dywawd cyvraith Dyvnwal Moelmud; a goreu deddvwr o genedyl y Cymry ydoedd ev.

225. Tri chôv cenedyl y sydd: côv llŷs cyvraith; côv pencenedyl ar ei saith henadur, a chôv barddas: côv llŷs cyvraith á saiv ar yngnaid, côv pencenedyl á saiv ar ei saith henadur, nid amgen na breiniau a dichweiniau eu cenedyl, ac ar y saith henadur ei dreiglaw i'r pencenedyl à vydd wedi yr un à vo marw: a chôv barddas á saiv ar veirdd gwarantedig o athrawon a braint gorsedd. Sev y gelwir y trichov hyn, tri chôv gwarantedig gwlâd a chenedyl; ac arnynt y mae gwarantu pob âch bonedd, a phob braint arvau; canys o vraint tîr y mae braint arvau; a lle cefir braint arvau yn warantedig o gôv ac arwydd, tŷst vydd hyny y'mhob dadl tîr a daiar.

226. Tri thywys côv llŷs: côv cyvundeb dwyblaid; côv tervyn dadl o daw cynghaws, a'i wadu o'r naill, a'i haeru o'r llall; a chôv anghyvraith à wnel arglwydd a'i ddŷn yn ei lŷs.

227. Tri marwdyst y sydd am dîr: tystiolaeth etiveddion hyd eu gorwyron neu dra hyny à gredir yn llŷs am à glywsant gan eu rhieni à vu gynt, a'r rhai hyny á elwir gwybyddiaid côv a chydwybod; ail, henaduriaid gwlâd a chenedyl am à wyddant parth âch ac edryd; a thrydydd, pentanvaen tâd y govynwr, neu un ei hendad, neu un ei orhendad, neu ereill o'i genedyl, neu le adail ei rieni ar y tîr; a phrovi hyny wrth nôd, a gair cenedyl a gwlâd; y rhai hyn á savant yn lle tystiadon lle nis gellir mwy o bwys ar a'u gwrthrym ac a'u gwrthair, o vyned gwrth-yn-ngwrth ger bron llŷs cyvraith neu raith gwlâd.

228. Tair cynnevawd gadadwy y sydd: cynnevawd a erlid gyvraith, cynnevawd à ragvlaena gyvraith gan gyviawnder lle bo iddi awdurdawd o varn llŷs brenin o arver a devawd cyn côv, ac nid iawn iddi namyn dan dervynau y man a'i cafer yn warantedig o arver; trydydd, un à ragvlaena gyvraith o ddichwain aniawnawl, a hòno ni chymhell nac yn mhlaid nac yn ngwrth, namyn difawd cwyn a chanlyn, a dodi rhaith gwlâd arni, nid amgen no llw dengwyr o deugain o henaduriaid cenedyl; a lle a'i cadarnâer o hyny, ni vydd wedi hyny à gau yn ei herbyn; sev y dywedir, cyvraith yw, a chôv a chadw llŷs arni.

229. O dri achaws y cyll gwr drev ei dâd: rhybuddiaw gorwlad rhag eddyl arglwydd a'i genedyl, brâd arglwydd neu ynad; a lladd dŷn o vurn a chynllwyn; ac eneidvaddeu vydd pob un o'r tri, ac nis gellir eu prynu, a chenedyl o epil pob un o'r tri á vyddant eillion yn un ausawdd ag ereill o veibion eillion cyn braint o vamwys.

230. Tri anhebgor cyvraith: braint gwarantedig o wlâd ac arglwydd; gwyr llŷs, sev yngnaid a brawdwyr; a chôv cyvarwyddyd.

231. Tri chôv cyvarwyddyd: cerdd davawd, llyvyr llŷs, a gwybedydd o lîn cerdd, sev bardd gwarantedig o athraw a chôv gwybodau.[1]

232. Tri dyben addysg a chôv: gwybyddu, diwallu, a dyddanu.

233. Tri anhebgor athraw o vardd: awen o Dduw; addysg o athraw; a'i swydd yn warantedig o varn gorsedd.

234. Tri thlws trevgordd: llyvyr, Athraw o lin cerdd, a gov geveiliawg.

235. Tri anhebgor hendrev: tanwydd, dwr croyw, a bugail trevgordd.

236. Tri anhebgor havodwr: bŵd, bugeilgi, a chyllell.

237. Tri anhebgor bŵd havodwr: nenbren, nenfyrch, a bangor; a rhydd iddo eu tòri yn nghoed gwyllt à vyno.

238. Tri phren nid rhydd eu tòri heb gènad gwlâd ac arglwydd: mesbren, sev derwen, a bedwen, a rhavnwydden.

239. Tri anhebgor boneddig cynhwynawl: brecan, telyn, a challawr; ac yn ddogned paladyr iddo.

240. Tri anhebgor taiawg: pentan, glaiv, a chavn; ac iddo o ddogned paladyr.

241. Tri pheth ni rènir ag arall: cledd, cyllell, a brecan; sev a'u pieusont a'u ceidw o iawn cyvraith.

242. Tri arlludd tîr: hawl yn llŷs, tòr arad, a llosgi tŷ ar y tîr.

243. Tri chadarn bŷd: arglwydd, ynvyd, a diddim.

244. Tri ni vyddant garddychwel o ddir a gorvod, sev nid iawn gyru swydd ar un o henynt: gwraig, bardd, ac annhiriog; sev nid iawn gyru ar un o henynt na swydd gwlâd, na llaw ar gledd, ac ni vyddant wrth gorn a gwaedd gwlâd; sev ar vardd y mae braint Duw a'i dangnev, a'i swydd wrth gerdd, ac nis dylit gwasanaethu dwy swydd; ac ar wraig y mae gwr, a braint arglwydd prïodawr iddo erni, ac nid iawn dwyn oddiar arall ei briawd o ddŷn nac o dda; ac ar annhiriog nis dylit gyru llaw ar gledd, achaws nid oes gantho dîr iddei golli, ac nid iawn iddo golli bywyd ac aelawd tros arall; namyn gadael iddo ei serch a'i gynghyd, a lle ydd elo llaw ar gledd, brŷdd a'i gelwir, a braint brŷdd á ddylit iddo.

245. O dri pheth y cyll Cymro cynhwynawl dîr ei dâd, a braint ei genedyl: cwbl gargychwyn i wlâd estron; cwbl ymdanc â llu estron yn rhyvel â chenedyl o Gymry; a chwbl ymrodd i lu estron gortrech, o vôdd, lle y gallai ddianc.

246. O dri pheth ydd ennill Cymro vraint ei genedyl, a'i dîr yn rhydd gwedi a'i collo: cwbl garddychwel o wlâd estron, cwbl gargoll dros Gymru a Chymro, a chwbl ymwrthvyn â llu estron gortrech lle gallasai vraint a thirodd y ganddynt yn warantedig, o ymgyvladd ag wynt.

247. Tri chargychwyn heb attychwel y sydd: gwraig briawd, sev ydd aeth ei braint

[1] *Mae gwall yn hwn:* gwybedydd o lîn cerdd *mewn amgen eiriau yw* cerdd davawd. Côv pencenedyl a'i henuriaid *a ddiwygiasai y gwall.*

oddiwrth ei chenedyl, ac yn nghenedyl ei gwr prïodawr, a hyny yn mraint a bodd cyvraith, ac ni ddylai ddychwelyd drachevn yn mraint ei chenedyl hi, sev ni adwna cyvraith à wnelo unwaith yn ngwybod; trevtadawg wedi bod yn hir yn alltudedd yn ngwlâd estron, a dychwelyd wedi hyny iddei wlâd ei hun, a chafael ei dîr; od â ev eilwaith yn ddilys yn alltudedd, nid ymchwel drachevn o iawnder, ac o gwna, ni roddir iddo drev ei dâd; yr arglwydd cyvoeth a'i piau yn ngwarchadw yny wypo pwy arall o'r genedyl a'i dyly, ac yna ei roddi i hwnw; a chyswynvab à gymmerer neu à water gan y genedyl, pa un bynag à wnelawr ni ddylit ei adwneuthur; sev yw cyswynvab, mâb i arall, neu vâb llwyn a pherth, à gymmerawr yn gyvreithawl er cael mâb o etivedd.

248. Tair llys gwlâd a chyvraith amryval eu cynnal, parth gorddawd ac ansawdd gwyr llŷs a'i swyddwyr: un Bowys; un Gaerllion ar Wysg, sev un Morganwg a Deheubarth; ac un Gwynedd. Eisioes yr un cyf cymmrawd y sydd ar y tair gwlâd hyny, nid amgen gorsedd dygynnull gwlâd a chywlad yn rhaith; ac yn amgen o vodd nid rhydd gwneuthur cyvreithiau yn Nghymru; sev nid braint o iawn cyvraith a chymmrawd i *un* neu *arall* o'r gwledydd wneuthur cyvraith namyn yn nghyswyn y rhai ereill.

Sev yw arver Powys, maer, canghellawr, un brawdwr o ynad swydd, ofeiriad i ysgrivenu dadleuodd, a rhingyll; ac yn hòno nid oes amgen o wyr llŷs a swyddau herwydd arver cyn côv a chlyw y wlâd a'r genedyl yn Mhowys.

Llŷs gwlâd a chyvraith yn Ngwynedd á vydd yn hyn o vodd; nid amgen, arglwydd y cwmmwd, oni bydd yno y tywysawg ei hunan; maer, canghellawr, un ynad swydd, ofeiriad Clynawg, neu un Bangor, neu un Penmon, i ysgrivènu dadleuodd; a rhingyll.

Llŷs Deheubarth, sev hòno cysevin llŷs Caerllion ar Wysg; tywysawg neu vrenin, ac ei le ev, pan nas bytho, arglwydd y cantrev neu y cwmmwd; a chydag ev maer, a changhellawr, ac ysgolâig llŷs i ysgrivènu dadlau a chov llŷs; a rhingyll, a lliaws brawdwyr, neu yngnaid; sev brawdwr neu ynad pob tiriawg o benteulu cyvreithiawl yn Neheubarth, a Morganwg, a Gwent; a'r lliaws brawdwyr o saith i bedwar ar ddeg, ac o hyny hyd un ar ugain, ac o hyny yn nengwyr a deugain; a'u barn á elwir *Rhaith Llys.*

Sev yn Mhowys a Gwynedd un brawdwr swydd, ac yn ngwledydd Deheubarth, nid amgen, Ceredigion, a Dyved, a Morganwg, a Gwent, lliaws brawdwyr braint; sev hyny o vraint tîr a theulu, ac nis dylit yno vrawdwr neu ynad swydd; sev y bydd y brawdwyr wrth raith avlavar henaduriaid a phencenedyl. Sev y dywedir y gellir llŷs yn Neheubarth o'r tri hyn, nid amgen, brenin, neu arglwydd cwmmwd yn ei le; canghellwr o ysgolâig; a lliaws brawdwyr; ac un neu arall o'r brawdwyr á wna swydd rhingyll yn y llŷs, neu'r cynghellawr a'i gwna.

Ag velly tervyna Trïodd Dyvnwal Moelmud, à elwir Trïodd Gwladoldeb a Chywladoldeb: a phob prydydd ac achwr à vynai wybod breiniau a devodau gwlâd a chenedyl y Cymry benbaladyr; a braint bonedd, a'i rhyw o gyviawnder; a braint arvau parth bonedd a rhandirodd, a braint ac anmraint ar eillion; á ddylai wybod y trïodd hyn, cyn y bo iawn iddo radd warantedig yn ngorsedd wrth gerdd davawd, wrth vraint o devawd beirdd yr hên Gymry.

A myvi Thomas ab Ivan o Drev Bryn yn Morganwg a'i ysgrivenodd o hen lyvrau Syr Edward Mawnsel o Vargam, pan oedd oedran Crist ein Harglwydd ni 1685.

Triodd Cyvraith.

Sev y triodd canlynawl á dynwyd o gyvysgriv ar groen o Gyvreithiau Hywel Dda, yr hwn lyvyr á brynoedd O. Iones yn Llundain, Ebrill y 12. 1807. *pan werthwyd y rhan oedd ar ol o ysgrivlyvrau Edward Llwyd, yn meddiant Sir John Sebright.*

Triodd Braint Etiveddiaeth.

Tair etiveddiaeth cyvraith y sydd à drigiant yn ddilys yr etiveddion: un yw etiveddiaeth trwy ddylyed o blaid rhieni; ail yw etiveddiaeth à gafer trwy ammod cyvreithiawl y gan y perchenawg er gwerth; trydydd yw etiveddiaeth à gafer trwy ammod cyvreithiawl o vodd y perchenawg, a heb werth.

Tair gwaith y rhènir yr un trev tâd rhwng tair gradd cenedyl: yn gyntav, rhwng brodyr; ail waith, rhwng cevndyrw; trydedd waith, rhwng cyverdyrw: oddyna nid oes priawd ran arni.

Tri rhyw brid y sydd ar dir: un yw gobyr gwarchadw; ail yw yr hyn à rodder i chwanecâu tir neu vraint; trydydd yw

llavur cyvreithiawl à wneler ar y tîr, y bo gwell y tîr o'i blegid.

O dri modd ydd ỻolir tîr: o gamoresgyn; ac o ddadenhudd, trwy veddiant tâd neu vam; ac o âch ac edryd: can ni thycio govyn tîr o'r modd cyntav nac o'r ail, ni bydd hwyrach no chynt y cesir o'r trydydd.

Tri chamoresgyn y sydd: goresgyn yn erbyn y perchenawg o'i anvodd, a heb vrawd; neu oresgyn trwy y perchenawg, ac yn erbyn ei etivedd o'i anvodd, a heb vrawd; neu oresgyn trwy warchweidwad, ac yn erbyn y iawn dylyedawg, o'i anvodd, a heb vrawd. Perchenawg yw y neb à vo yn meddu y ddylyed dilys; gwarcheidwad yw y neb à gynnalio neu a warchatwo ddylyed dyn arall.

O dri modd y dosperthir dadyl dadenhudd, rhwng etiveddion; nid amgen, trwy vraint anianawl: cyntav yw braint oed, rhwng hynav a ieuav; ail yw braint priodawl, rhwng etivedd cyvreithawl ac un anghyvreithawl, (canys y cyvreithawl á'i ceif oll;) trydydd yw braint dylyed rhwng dylyedawg ac annylyedawg. Os tadau y rhai hyny hagen á gynnaliasant yr un tîr, wers tra gwers hyd angeu, os eu meibion á ddaw i erchi dadenhudd, mâb y dylyedawg á geif ddadenhudd o gwbyl, py bryd bynag y dêl. Or doant etiveddion un radd ygyd, ac yn yr un amser, i ovyn dadenhudd, megis brodyr, o drev eu tâd, neu gevndyrw, neu gyverdyrw, o dîr eu tadau, yr hwn à gynnalio eu tadau yn ddiran, wers tra gwers, hyd varw, ni ddichawn un o honynt wrthladd ei gilydd na ei oedi; namyn pob un á geif ran dadenhudd.

Tri rhyw vraint y sydd: braint anianawl, a braint tîr, a braint swydd.

Tri phriodolder y sydd i bob dyn: rhyw, a braint, ac etiveddiaeth: etiveddiaeth hagen herwydd braint, braint herwydd rhyw, rhyw herwydd y gwahan à vydd rhwng dynion herwydd cyvraith; megis y gwahan brenin a breyr, breyr a bilain, gwr a gwraig, hynav a ieuav.

Triodd Brawdwr.

Tri pheth á berthyn wrth vrawdwr: un yw dillwng cyvarchau wrth raid y brenin; ail yw datganu a dosparthu cynhènau y mywn llŷs; trydydd yw yr hyn à ddospartho trwy varn ei gadarnâu trwy wystyl a brawdlyvyr, or ymwystlir ag ev, neu os govyn y brenin iddo heb ymwystlaw ag ev.

Tri amheu brawd y sydd: un yw bod amryson rhwng hawlwr ac amddifynwyr am varn à rodded iddynt, ac yna y dosparth a â ar y brawdwr à roddasai y varn: ail yw bod amryson rhwng hawlwr a brawdwr, ac ymwystlaw; trydydd yw bod ymwystlaw rhwng amddifynwr a brawdwr am ei vrawd, ac am y ddau ymwystlaw: hyny yd vydd y dosparth ar awdurdawd lythyrawl; canys dileddyv gyfredin vydd awdurdawd; sev vydd hyny brawd lyvyr Dewi Brevi.

Tri rhyw vrawdwr y sydd yn Nghymru, herwydd cyvraith Hywel Dda: brawdwr llŷs beunyddiawl, herwydd swydd, gyda brenin Dinevwr, neu Aberfraw, yn wastad; ac un brawdwr cymwd, neu gantrev, herwydd swydd, yn mhob llys o ddadlau Gwynedd a Phowys; a brawdwr o vraint tîr, yn mhob llŷs, cymwd, neu gantrev 6 Ddeheubarth.

Pan ddygwydd brawdwr, swyddawg llŷs, neu gymwd, neu gantrev, yn ngwerth ei davawd, tri pheth a gyll yna: cyntav y cyll ei swydd; oddyna y cyll vraint brawdwr, o eisieu swydd; trydydd, gwerth ei davawd.

O dri modd y dosperthir brawd gynghaws: cyntav yw trwy oddev; canys goddev a dyr bob cynghaws; (os brawdwr a oddev roddi gwystyl yn erbyn ei vrawd yn dangneveddus, heb roddi gwystl yna i gadarnâu ei vrawd, dygwyddedig vydd ei varn;) ail yw brawdlyvyr rhwng dau wystl; sev yw hyny gwystyl à rodder yn erbyn brawd, a gwystl arall à rodder gyda y vrawd hòno; trydydd yw, brawdwr biau ddosparth rhwng deuddyn yn nghynghaws am y varn à roddasai iddynt, heb ymwystlaw ag ev.

Tri dyn ni allant ymwystlaw yn erbyn brawd, o gyvraith: un yw brenin; can ni ddichawn, o gyvraith, sevyll y mywn dadyl ger bron brawdwr, i holi neu i ateb, trwy vraint anianawl, neu vraint tîr, mal breyr, neu arall; ail yw dyn eglwysig rhwymedig yn urddau cyssegredig; trydydd yw dyn eglwysig rhwymedig yn nghrevydd; can ni ddichawn neb, herwydd cyvraith, roddi gwystyl yn erbyn brawd, onid dau berygl gwerth tavawd, ac nad oes werth gosodedig yn nghyvraith Hywel ar aelawd, a gwaed, a sarâed dyn eglwysig; ac wrth hyny, ni eill neb o honynt roddi gwystyl yn erbyn brawd, na chyda brawd. Holl argywedd segyrllyd à wneler i ddyn eglwysig a ddylyir ei dalu iddo yn senedd herwydd cyvraith eglwysig.

Tri pheth à ddyly pob brawdwr ei wrandaw y gan y dadleuwyr, cyn barnu

neb o honynt i ennill nag i golled: nid amgen, cwyn, a devnydd, ac ateb.

Tri rhyw varn dremyg y sydd: un yw barn à rodder yn erbyn dyn nis clywo, pan ddatganer gyntav yn y llŷs, nac yn mhell y bo yna, nac yn agaws; os yn agaws y bai, y rhingyll a ddyly ei alw, mal y clywo y varn à roddid arno; os yn mhell y bai, ei araws a ddylid, hyd pan ymddangosai yn y llŷs, or gellid ei gafel yn amserawl wrth gyvraith; ail yw barn à rodder ar ddyn cyndrychawl trwy wrthdrymder o blaid y brenin, neu y brawdwr, neu wyr y llŷs; trydydd yw barn brawdwr annheilwng.

Tri dyn ni eill un o honynt vod yn vrawdwr teilwng o gyvraith: un yw dyn anavus, megis dall, neu vyddar, neu glavwr, neu ddyn gorbwyllig (sev yw hwnw dyn à orfo ei rwymaw unwaith am ei ynvydrwydd,) neu ddyn ni allo ddywedyd yn iawn, megis cryg anianawl; ail yw dyn eglwysig, rhwymedig wrth urddau cysegredig, neu wrth grevydd; trydydd yw lleyg, heb allu o gyvraith iddo varnu o vraint tîr, neu o vraint swydd.

O dair fordd y gellir gwrthawd brawdwr teilwng: un yw o'i vod yn anghyfredin rhwng y pleidiau yn llys cyn barn; ail yw o'i vod yn gyvranawg ar yr hyn y bo y ddadyl am dano, pei gellid ei ennill trwy varn; trydydd yw cymeryd gobyr am y ddadyl, ar ni bo gosodedig yn y gyvraith o'r brawdwr.

Amryveilion Driodd Cynghawsaeth.

Tri pheth à ddyly gwarant diball eu gwneuthur: un yw gwrtheb yn ddiohir drosto ehunan, a thros y da cynhenus, a thros amddifynwr y da; ail yw sevyll wrth gyvraith, a barnu tros yr holl ddadyl, trwy ddedryd gwlâd; trydydd yw gwneuthur cwbyl dros yr holl ddadyl mal y barner iddo.

Tri oed cyvraith i ddial celain rhwng dwy genedyl ni hanfont o'r un wlâd: un yw ennynu hawl yn y dydd cyntav o'r wythnos gyntav gwedi lladder y gelain; ac oni ddaw ateb erbyn pen y pythevnos, cyvraith yn rhyddâu dial: ail yw, or byddant y ddwy genedyl yn un cantrev, ennynu hawl yn y trydydd dydd gwedi lladder y gelain; ac oni ddaw ateb pen y nawveddydd, cyvraith á ryddâa dial; trydydd yw, os yn un cymwd y byddant, ennynu hawl yn y trydydd gwedi lladder y gelain; ac oni ddaw ateb erbyn pen y chweched dydd, cyvraith a ryddâa dial, o herwydd na ddaeth ateb.

Tair dirwy brenin ynt, dirwy ymladd cyvaddev, a dirwy trais, a dirwy lledrad. Divwyn dirwy ymladd, deuddeg mu; divwyn dirwy trais morwyn yw gwialen ariant, a fiol aur, a chlawr aur, val y dywesbwyd am eu mesurau yn divwyn sarâed y brenin; divwyn dirwy lledrad yw cyswynaw lledrad ar y dyn, a gwadu o hono yn dda ar ei davawd, a gosawd rhaith arno a'i phallu.

Tri phedwar y sydd. Cyntav ynt, pedwar achaws ydd ymchwelir brawd: ovyn gwr cadarn, a chas galon, a chariad cyveillon, a serch da. Ail pedwar, pedair tarian à ânt rhwng dynion a rhaith gwlâd rhag hawl lledrad: un yw cadw gwestai yn gyvreithawl; nid amgen, ei gadw o bryd gorchyvaerwy hyd y bore, a dodi ei law drosto o'i gywely tair gwaith y nôs hòno, a hyny tyngu o ddynion y tŷ ganto; ail yw geni a meithrin, tyngu o'r perchenawg ar ei drydydd o wyr un vraint ag ev, geni a meithrin yr anivel ar ei helw, heb ei vyned tair nôs i wrtho, nac o werth, nac o rodd; trydydd yw gwarant, nid oes warant namyn ar dair llaw, a'r trydydd amddifyned trwy gyvraith; pedwerydd yw cadw cyn coll, a hyny yw gwneuthur o'r dyn ar ei drydydd o wyr un vraint ag ev, cyn colli o'r llall ei dda, bod y da hyny ar ei helw ev. Trydydd pedwar yw pedwar dyn nid oes nawdd iddynt, nac yn llŷs, nac yn llan, gan y brenin: un yw dyn à dòro nawdd y brenin, yn un o'r tair gwyl arbenig, yn y llys; ail yw dyn à wystler o vod i'r brenin; trydydd yw ei gwynosawg, dyn à ddylyo ei borthi y nôs hono, ac nas portho; pedwerydd yw ei gaeth.

Tri thawedawg gorsedd: arglwydd gwir yn gwrandaw ar ei wyrda yn barnu eu cyvreithiau; ac yngnad yn gwrandaw hawlwr, ac amddifynwr yn ateb; a mâch yn gwrandaw hawlwr, a thalawdyr yn ymateb.

Tri gwanas gwaew cyvreithiawl yn nadlau: un yw gwân ei arllost yn y ddaiar ag un llaw, oni vo abraidd ei dynu â dwy law; ail yw gwân y pen y mywn twyn oni guddio y mwn; trydydd yw ei ddodi ar llwyn à vo cyvuwch â gwr; ac oni bydd y gwaew yn un o'r tair gwanas hyny, a myned dyn arno a'i varw, traian ei alanas a ddygwydd ar berchen y gwaew.

Tri over ymadrawdd à ddywedir yn llŷs, ac ni fynant: gwâd cyn dedryd; a llŷs cyn amser; a chynghaws gwedi brawd.

Tair sarâed ni ddiwygir, or cefir trwy veddawd; sarâed yr ofeiriad teulu, a'r yngnad llŷs, a'r meddyg teulu; can ni

wyddant wy py amser y bo raid i'r brenin wrthynt; ni ddylyant wyntau vod yn veddw byth.

Tair gwraged à ddyly eu meibion trev eu mam: gwraig à rodder yn ngwystyl tros ei thâd, a chafel mâb o heni yn ei gwystloriaeth; a gwraig à rodder o rodd cenedyl i alltud; a gwraig à ladder gwr o'i chenedyl, a dial o'i mâb hwnw, ni ddylyir ei oedi am drev ei vam, nac araws nawveddydd yn ei erbyn.

Tri meib ni ddylyant gyvran o dîr gan eu brodyr un vam ac un dâd ag hwynt: un yw mâb à gafer yn llwyn ac yn mherth, ac yn anneddvawl, a gwedi hyny cymeryd mam y mâb o hono o rodd cenedyl, a chafel mâb arall o honynt, ni ddyly hwnw gyvrànu tîr â'r mâb à gâad cyn nog ev, yn llwyn ac yn mherth; ail yw cymeryd o ysgolaig wraig o rodd cenedyl, a chafel mâb o honei, ac oddyna cymeryd o'r ddau ofeiriadaeth, ac oddyna cafel o'r ofeiriad vâb o'r unwraig, ni ddyly y mâb à gâad cyn nog ev gyvranu tir à hwnw; trydydd yw mud, can ni roddir gwlâd i vud, can ni ddyly dîr nid atebo drosto.

Tri pheth ni âd cyvraith eu damdwng: blawd, a gwenyn, ac ariant; canys cyfelyb a gefir iddynt.

Tri phren rhydd yn forest y brenin: pren crîb eglwys; a phren peleidyr à elont yn rhaid y brenin; a phren elawr.

Tri cheheryn canastyr y sydd: un yw lledrad fordd y cerddo cyvran o hono, canys naw afaith y sydd iddo; ail yw hydd brenin i neb a'i cyllello; trydydd yw abo blaidd i neb à wnel cam amdano.

Tri edyn ni ddylir eu lladd ar dîr dyn arall, heb ei gènad: eryr, a garan, a chigvran. Y neb à laddo un o honynt, taled ddeg a deugaint i berchenawg y tîr.

Tri pheth or cefir ar foidd nid rhaid ateb i neb o honynt: pedol, a nodwydd, a cheinawg.

Tri dyn ni ddyly y brenin eu gwerthu: lleidyr gwedi barner i grog, a chynllwynwr, a bradwr arglwydd.

Tri ergyd ni ddiwygir: i garw yn ŷd, ac i gi yn ŷd, ac i ebawl gwyllt yn ŷd.

Tair nodwydd gyvreithiawl y sydd: nodwydd gweinigawl y vrenines, a nodwydd meddyg llys i wnîaw gweliodd, a nodwydd y pencynydd i wnîaw y cwn rhwygedig. Pedair ceinawg cyvraith a dâl pob un o honynt.

Tair sarâed cèlain ynt, pan lladder, pan yspeiler, pan wthier yn ei gorwedd o'i sevyll.

Tair gwarthrudd celain ynt, govyn, Pwy a laddawdd hyn? piau yr elawr hon? piau y bedd newydd hwn?

Tri pheth ni thelir, can coller yn rhaid tŷ: cyllell, a chleddyv, a llawdyr.

Tair gavel nid adverir; un dros ledrad, ac un ar vâch ni chymhello, ac un dros alanas.

Tri rhyw dâl y sydd i gwynwr: gau dwng, neu adwerth, neu edvryd

Tri ymddillwng o rwym hawl y sydd: gwir dwng, neu waesav, neu ynvydrwydd.

Tri chargychwel heb attychwel: un yw gwraig gwedi ydd ysgaro â'i gwr yn gyvreithawl; a chyswynvab gwedi gwater o genedyl yn gyvreithawl; a threvtadawg gwedi dêl yn ddilys; gwedi y bo yn arglwyddiaeth arall, o iawnder nid ymchwel drachevyn.

O dri achaws y gosoded cyvraith: cyntav yw i geisaw dysg rhag gwneuthur anghyvraith; ail yw gwared anghyvraith, or darfai ei gwneuthur; trydydd yw er cospi y neb à wnelai anghyvraith, trwy ddirwy, a chamlwrw, a'r cyvryw à ddylyai.

Tri da nid rhaid mâch arnynt: da à roddo arglwydd i wr, a chymyn à ddêl i ofeiriad y gan y marw, a da à ddêl i veddyg y gan y clav.

Tair marw-dystiolaeth y sydd am dîr, ac a savant yn nghyvraith a barn: un yw, or cyfroir dadyl am dîr yn llŷs, a'i thervynu yn ngwydd gwyr y llŷs, gwedi bo marw y rhai hyny oll, tystiolaeth eu hetiveddion hyd eu gorwyron, neu achwaneg, a gredir am yr hyn à vu gynt, ac à glywsant gan eu rhieni o'r ddadyl hòno, a'r rhai hyny a elwir gwybyddiaid am dîr; ail yw henaduriaid gwlâd, i wybod âch ac edryd rhwng cenedyl a charant y dyn à ovyno dîr trwy âch ac edryd, o nawved-dydd mai neu ragvyr; trydydd yw pan weler pentanvaen tâd y dyn à ovyno dîr, neu ei hendad, neu ei or-hendad, neu ereill o'r genedyl, neu le adail, neu dîr ei rieni, y rhai hyny a savant yn lle tystion ar ei ddylyed iddo.

Tri thorllwyth y sydd un werth ag eu mam, nac un à vo na lliaws, or dygir yn lledrad: torllwyth gellast, a thorllwyth hwch ar eu thyleu, a nyth hebawg.

Tri llwdyn unwerth yn y genvain bob amser: baedd cenvain, ac arbenig y moch, a hwch a gatwer yn nghyver gwestva arglwydd.

Tri rhyw wybyddiaid y sydd am dîr: un yw henaduriaid gwlâd, i wybod âch ac edryd, i ddwyn dyn ar ddylyed o dîr gyd â'i geraint; ail yw amhinogion tîr, nid amgen, gwr o bob rhandir o'r drev, i wybod

rhànau a finiau rhwng y welygordd; trydydd yw meiri, a chynghellorion, a rhingyllaid, i gadw tervynau y cymydau, canys y brenin a biau y tervynau hyny.

Tri pheth à geidw gôv, ac à saiv yn lle tystion i ddyn ar ddylyed o dîr: lle hên odyn, neu bentanvaen, neu esgynvaen.

Tri dyn y telir gweli tavawd iddynt: i'r brenin, pan ddyweter gair hagyr wrtho; ac i'r brawdwr, pan ymwystler ag ev am ei iawn vrawd; ac i ofeiriad yn ei eglwys, yn y tair gwyl arbenig, neu yn darllen llythyr rhag bron y brenin, neu yn ei wneuthur.

Tri chowyllawg llŷs: cerwyn vedd, a bragawd, a chathyl cyn ei dangaws i'r brenin.

Tair hela rydd y sydd yn mhob gwlâd ar dir dyn arall: hela iwrch, a hela cadno, a hela dyvrgi.

Tri devnydd hawl y sydd: golwg, a gair, a gweithred.

Tair golwg à ddygir yn nghyvraith: golwg tysto'i dystiolaeth, a golwg mynegiad o'i vynag, a golwg llygadrydd celus, am ladd, neu losg, neu ledrad.

Tri gair celus y sydd: gair y bo gweli tavawd amdano; a gwallawgair yn llŷs; a thavodryddiaeth, am ladd, neu losg, neu ledrad.

Tri rhyw gwallawgair y sydd: gair gwall yn holi, o rwy neu eisieu; a gair gwall yn amddifyn, o rwy neu eisieu; a gair gwall yn gwadu. O'r cyntav y cyll hawlwr ei hawl o'r à berthyno wrth y gair, or dygir tystion yn eu herbyn, ac ni chyll gamlwrw, can nid oes cam gwyn celus yn nghyvraith eithyr tri; o'r ail, neu o'r trydydd, y cyll amddifynwr gamlwrw, a divwyn yr hawl o'r à berthyno wrth y gair y tystwyd o'i wall.

Tri thervyn hawl y sydd: gwadu, neu brovi, neu lysu tyston.

Tri pheth ni chynghain yn nghyvraith: prawv ar weithred, eithyr tri; gwâd dros waesav; a chôv gwedi brawd.

Tri gweithred y sydd ar brawv llavur cyvreithawl neu anghyvreithawl ar dir, y megys tòri fin, neu wneuthur fin, neu lavur arall, a gweithred llwdyn yn lladd y llall yn ngwydd bugel trevgordd, tystiolaeth y bugel á saiv am hyny; a gweithred cydleidyr lleidyr a grocer am ledrad, tystiolaeth hwnw ar ei gydleidyr á saiv; tystiolaeth gwybyddiaid hevyd á saiv am dîr.

Tri gwaesaf y sydd: arddelw, neu warant, neu amddifyn heb warant.

Tri chôv gwedi brawd y sydd: goddev o vrawdwr roddi gwystyl yn erbyn ei vrawd, heb roddi gwystyl, yna ei chadarnâu, a gwedi hyny cynnyg ei wystyl, ni ddylyir ei erbyniaw o gyvraith, onid barn dremyg vydd; neu roddi gwystyl yn erbyn brawd gwedi y goddev; neu addaw ymadrawdd yn wallus ar gyvraith a barn, a gwedi barn, ceisaw gwared gwall nis dyly.

Tri lle y tywys côv llŷs: am gyvundeb pleidiau; ac am dervyn dadyl, or daw cynghaws un yn dywedyd ei thervynu, a'r llall yn dywedyd na thervynwyd; ac am anghyvraith à wnel arglwydd â'i wr yn ei lŷs.

Tair tystiolaeth ddilys y sydd: tystiolaeth llâs yn dwyn i gôv; a thystiolaeth y gwybyddiaid à gredir pob un yn y gyvraith ar wahan, megis tâd rhwng ei ddau vâb, neu yn lliosawg am dîr; a thystiolaeth y gwrthdyston.

Tair tystoliaeth marwawl y sydd: tystu ar ddyn cyn ei holi o'r hyn y tyster; neu tystu ar ddyn na wadwys, neu nad amddifynwys erbyn à ddaroedd iddo ei wadu, neu ei amddifyn; neu tystu ar ddyn ddywedyd yr hyn nis dywed y llŷs, a'r brawdwyr a'i clywo á ddylyant ei ddwyn yn varwawl, trwy arch yr amddifynwr, os cofa. A llyna y tri lle y mae trech gwybyddiad no thyston.

Tri gwahan y sydd rhwng gwybyddiaid a thyston: gwybyddiaid am yr hyn à vu cyn ymhawl yn y llŷs y dygant eu tystiolaeth, ac nid ev y dwg tyston; ail yw, gwybyddiaid biau dedryd eu gwybod yn ngyvraith tyston, can ni rydyster iddynt, ac nis piau tyston; trydydd yw, gwybyddiaid biau ddwyn eu tystoliaeth yn erbyn gwâd ac amddifyn, sev yw hyny, gwybyddiaid biau brovi gwîr gwedi gau, ac nis piau tyston.

O dair fordd y mae cadarnach gwybyddiaid no thyston: un yw gallu dwyn lliaws o wybyddiaid am un peth yn y gyvraith, neu un gwybyddiad, megis mâch, ac ni ellir dwyn na mwy no llai no dau o'r tyston; ail yw gallu dirwyaw dyn, neu ei werthu, trwy wybyddiaid, ac ni ellir trwy dyston, o gyvraith; trydydd yw gallu o wybyddiaid brovi yn erbyn gwâd ac amddifyn, ac nis dichawn tyston. Pan dysto tyst yn ei dystoliaeth beth yn gyvreithawl ereill yn erbyn amddifynwr, neu pan dysto amddifynwr beth yn gyvreithawl yn erbyn tyston, y rhai hyny á elwir gwrthdyston yn nghyvraith, ac ni ellir eu llysu.

Tair tystoliaeth y sydd ar air, ac ni ddygir i grair: tystoliaeth lleidyr ar ei gydleidyr wrth y grog; a thystoliaeth nid eler yn ei herbyn pan ddycer ar air: a

thystoliaeth y gwrthdyston. Gwybyddiaid, yn mhob dadyl, grym tyston á gynnaliant; a chystal á allant yn mhob dadyl ag à ddichawn tyston. Dewi Brevi.

O tri modd y telir dirwy trais: un yw pan ballo ei amddifyn i amddifynwr yn erbyn dyn: ail yw pan ballo ei raith i ddyn yn gwadu trais; trydydd yw pan ballo ei warant i ddyn à'i galwo yn nadyl trais.

O dri modd y cyll dadyl trais ei braint mwyav: na wneler ei theithi; ac o dystoliaeth vywawl yn nadyl trais; ac o gwynaw o'r hawlwr ddwyn o'r eiddo ev yr hyn à ddycbwyd i drais rhag arall, ac nid y ganto ev. Nid mwy hagen y rhaith yn y tri phwnc hyny no llw tri dyn; ac nid mwy y dial no thri buyn camlwrw, oni ellir ei wadu neu ei amddifyn.

Un o dri pheth á gyll y neb à dreiser: ei ddyn; neu ei dir neu ei dda arall cychwynawl, neu ei vraint.

Tri rhyw amddifyn y sydd: un yw nad ateper yn anamserawl er govyn; ail yw amddifyn val nad ateper byth er govyn; trydydd yw amddifyn gan ateb, mal na choller dim ar yr hawl.

Tri pheth nid rhaid ateb i neb o honynt: un yw peth ni bo diebredig yn erbyn cyvraith; ail yw gweithred y galler dangaws ei argywedd, or gwneir, ac ni ddangoser; trydydd yw colled ni wypo gwlad neb rhyw hysbysrwydd i'r hawlwr ei golli.

Tri rhyw ddiebryd y sydd: un yw dwyn peth ac nad adverer trachevyn; ail yw addaw argywedd ar ddyn, neu ar yr eiddo, heb wneuthur iawn na heddwch amdano; trydydd yw diebryd dyn o'r dylyed dros amser edryd.

O dri modd y caua cyvraith rhwng hawlwr ac amddifynwr: un yw, o golli ei amser, a hwnw á ddamweina o lawer modd; ail yw, o hawl heb berchen; trydydd yw, o dervynu ei ddadyl cyn no hyny.

Tri thervyn hawl cyvreithawl y sydd: un yw tervyn o gyvundeb pleidiau; ail yw tervyn gosodedig rhwng pleidau trwy gymrodeddwyr; trydydd yw tervyn trwy varn.

Tair dadyl à ddylyant eu hiachâu ac eu barnu trwy ddedryd gwlâd yn erbyn haerllugedd: un yw dadyl am venfyg neu wystyl, neu avel y sydd un gyvraith; ail yw dadyl y bo amddifyn ynddi, nid amgen gwâd am dîr; trydydd yw dadyl o wrthrymder brenin yn erbyn cyvraith.

Tair cynnevawd y sydd: cynnevawd a erlid gyvraith, a hòno y sydd gynnaliadwy; cynnevawd à ragvlaena gyvraith, or bydd iddi awdurdawd breniniaeth, cynnaliadwy yw; cynnevawd a lwgyr gyvraith, ac yna y dyly ei chymhell.

Tri pheth à gadarnâa ddevawd: awdurdawd, a gallu, ac addwynder.

Tri pheth à wànâa gynnevawd: gwrthrymder, angheugant vonedd, a drygangraith.

O dri modd y cyll brawdwr gamlwrw o varnu, ac ni chyll gwerth ei davawd: un yw, pan ddivarno cyvryw à varnasai ev gynt, trwy y cyfelybion achwyson; ail yw, pan êl ar gyveilorn yn datganu dadyl, or cadarnâa mwy neu lai yn ei ddadyl nog a vu o ciriau grym; trydydd yw, na roddo gwystyl gyd â'i varn, pan rodder gwystyl arall yn ei herbyn. O'r modd cyntav y varn gamav á ddilëir; o'r ail y datganu á iawnêir; o'r trydydd y varn hevyd á ddilëir yna, can boed iawn, canys cadarnâwys y brawdwr hi yn amserawl trwy wystyl. Os y dadleuwr á ebryvyca ymwystlaw â brawdwr, nid amgen pan y datgano gyntav iddo, ni cheif ymwystlaw ag ev am y varn hòno byth gwedi hyny, cyd boed cam ei varn. Yn gyfelyb i hyny, od ymwystla ev yn amserawl, ac nad ymwystla y brawdwr ag ev, ei varn hevyd á ddygwydd.

Tri rhyw vynag y sydd, ac am bob un o honynt y gosodir rhaith gwlâd ar ddyn am ledrad: un yw, dyvod y colledwr a'r mynegwr gyd ag ev, à dyngo yn erbyn arall, clybod a gwybod arno y lledrad; ail yw, tyngu o'i mynegwr, gweled a gwybod arno y lledrad, a hwnw yw lliw; trydydd yw, lluddias rhag dyn ceisaw ei dda yn y lle y tebycai ei vod. Ni ddyly neb roddi rhaith gwlâd am ledrad, heb un o'r mynegau hyny yn ei erbyn, onid pallu o lw gweilydd á wna i'r colledig. O'r palla, nid rhaid mynag arno, eithyr hyny, i gymhell rhaith gwlâd arno.

Tri rhyw dwng y sydd: cadarnâu gwîr, gan dyngu trwyddo bervedd; ail yw gwadu gau, gan dyngu trwyddo bervedd; trydydd yw tyngu peth petrus, o herwydd cydwybod. Sev yw peth petrus, yr hyn ni wyper beth vo, ai gwir, ai gau.

Tair gosodedigaeth y sydd o herwydd cyvraith i gwblâu y gyvraith a'i harverodd yn bryfaith, hyd na aller eu cablu, o eiseu, neu o ormodedd, neu o bethau annheilwng: cyntav yw o'r cyfelybion, cyfelyb varn à roddir; ail yw o'r ddwy gyvraith ysgrivenedig erbyn yn erbyn, yn dosparth yr un peth; yr un à vo deilyngach no'r llall á gynnelir; trydydd yw pob rhyw gyvraith ysgrivenedig, ar ni bo gwrthwyneb iddi yn

ysgrivenedig, á ddylir ei chadw, hyd govynont y pendevig a'i wlad i ddilëu hòno, gan osawd arall à vo teilyngach.

Tri rhyw gamddosparth y sydd y cefir ymodwared amdanynt, herwydd cyvraith, heb vod yn rhaid nac yn berthynasawl ymwystlaw â brawdwr, ac ni chyll amser yn nghyvraith i amheu y ddosparth o blaid goddev, hyd pan vo llithredig un dydd a blwyddyn o ddydd y camddosparth, nac yn erbyn ei etivedd, os am dîr y tyv y gynhen; ac or damweina carcharu cyvraith o blaid arglwydd, er hyd y bo heb iawn, ni chyll amser y gyvraith o amheu, onid gan wallocâu canlyn gwedi caniatâer cyvraith iddo, hyd pan lithro undydd a blwyddyn; ac ni chyll amser yn nghyvraith hevyd i'r neb à ddechreuo gynhebrwng dadyl; or damweina rhyvel cyn tervynu y gynhen, onid gan ebyrgovi undydd a blwyddyn gwedi gwastatâer heddwch, ac adnabod yr arglwydd à wledycho. Cyntav yw rhoddi barn o ddyn yn erbyn plaid, heb allu iddo ei varnu o vraint tir, neu o vraint swydd, neu rwymedig yn urddau cysgredig, neu ddyn anavus, neu veius, neu ddyn o glevyd anianawl, a'r pyncau hyny yn deor iddo deilyngdawd ei vod yn vrawdwr o gyvraith; neu vrawdwr á ddótid yn ei erbyn lysiant cyvreithawl, neu wrthnead cyvreithawl, heb dervynu â rhai yn yr achaws; neu gwedi darfai ei vod yn yr achaws roddi barn; neu roddi barn o vrawdwr cyn agau ar y ddadyl, a deisyv o bob parth; neu cyn dodi o blaid arglwydd yn ol deisyv o bob parth; neu roddi barn o vrawdwr yn ddisyved cyn cyvarch dyundeb ei gydvrawdwr; neu roddi barn o vrawdwr ar ddyn yn erbyn cyvraith, drwy gymhell o blaid arglwydd, neu geisaw mwynant dosparth yn lluniaeth barn, neu gymrodedd am berchenogaeth tîr à ddosperthid oddieithyr gweithred gorsedd gyvreithawl; ond yn y lle y damchweinai i arglwydd o'i dir ehun estynu perchenogaeth i wr iddo, ai yn nghyvarws, ai yn rhybuched arall: llyna yr un lle y gellir cadarnâu perchenogaeth i ddyn ar dîr a daiar oddieithyr gweithred gorsedd gyvreithawl. Ail dosparth yw gallu dodi yn erbyn brawdwr, neu roi o'i gydvrawdwyr un o'r pedwar achaws ydd ymchwelir brawd; nid amgen, câs o blaid gelyniaeth; sev yw hyny, gallu provi ar vrawdwr roddi cam varn, neu gadarnâu gau, ai ev ai rhai o'i gydvrawdwyr, mewn cov neu ddedryd yn erbyn dyn, a hyny o gâs o achaws gelyniaeth; neu brovi ar vrawdwr o vraint tîr, neu rai o'i gydvrawdwyr, erbyniaw gwerth neu obyr neu eddewid arno; neu vrawdwr swyddawg, eithyr yr hyn à osoded yn nghyvraith, iddo drosvarnu, ac o'r achaws hwnw barnu cam, neu gadarnâu gau, drwy gôv neu ddedryd, yn erbyn plaid, a hyny o serch da; neu allu dodi yn erbyn brawdwr, neu rai o'i gydvrawdwyr, dyundeb drwy rwym ac eddewid; nid amgen, rhoddi hovnder i blaid, drwy gadernid py ddadyl bynag y dangoso yr hawlwr, neu amddifynwr, yn y goddevydd yn vrawdwr cadarnâu ei ewyllys iddo, neu ddosparth ar y pwnc hwnw à eilw cyvraith yn gariad cyveillen; neu allu provi yn erbyn brawdwr, neu rai o'i gydvrawdwyr, gosawd bygwth arnaddynt, megis argyweddu corf dyn, neu ei eiddo, hyd na lyvasai roddi tervyn ar y pwnc hwnw à eilw cyvraith yn ovn gwyr cedeirn: sev modd y dylir provi hyny, trwy ddedryd gwlâd, eithyr y lle y damchweino ac y perthyno ei orchwiraw i gôv llŷs. Pwybynag à gynhebryngo yn nghyvraith gorsedd ar vrawdwr ei golledu drwy ryw un o'r pyncau à ddywesbwyd uchod, ev á ddyly gafel côv neu ddedryd yn ddiohir rhyngto a'r brawdwr, neu rai o'i gydvrawdwyr, y gosoter yr achaws yn ei erbyn; ac os côv neu ddedryd á amlycâa bod yn wir à ddywed y neb y sydd yn provi yn erbyn y brawdwr, neu ei gydvrawdwyr, cosper y neb à orddiwedder yn achwysawl i'r anghyvraith, yn y modd y dyweto cyvraith oreu, a gwneler tervyn o newydd am y gynhen, trwy gyvraith a chyviawnder. Trydydd yw lle gorfo ar y neb y perthyno arwain cynhen ynıryson rhag bron canonwyr; nid amgen, pan vo dwy gyfraith ysgrivenedig erbyn yn erbyn yn dosparth yr un peth, ac nad adnapo y brawdwr o'r ddwy gyvraith pwy deilyngav onaddynt; neu od amheu hawlwr, neu amddifynwr, y dosparth à wnel y brawdwr cyvrwng y ddwy gyvraith hyny; neu or dervydd i'r hawlwr neu i'r amddifynwr amheu y dosparth à wnel gwysawdyr á voynt alwediglon o blaid y brenin i ddosparth cynhen amryson cyvrwng gwystyl a gwrthwystyl erbyn yn erbyn, à rodder yn llaw y brenin, neu alwedigaeth barn à rodder ar ddyn ni allo herwydd cyvraith roddi gwystyl yn erbyn barn; yna y dyly y brenin arwain y gynhen hòno, a'i chaderiaw yn rhwymedig yn oed y dydd gosodedig yn nghyvraith, ger bron canonwyr, i wneuthur dileddyv dderbyn tragwyddawl, drwy ddeall ei ganonwyr; a chyd gwnel plaid amheu, a galw ar y dosparth à wnel canonwyr, nid erbynir, ac ni wrandewir herwydd cyvraith. Canys Hywel Dda vrenin Cymru, o gyng-

hor ei ddoethon awdurdodwyr á osodes yn ei gyvraith ev, gorvod a pherthynu erbyniaw deall ei ganonwyr, i ddosparth perygl a phetrusder herwydd synwyr canon dileddyv; a hyny lle nid adnepid gallu o'i awdurdodwyr ev wneuthur tervyn teilwng, dyledus, herwydd ei gyvraith ev yn y lleodd dywededigion tragwyddolion.

Tair gorsedd ddygynnull á osoded yn nghyvraith Hywel Dda, mal na bai neb rhyw ddifyg yn y gyvraith, na neb rhyw eiseu o deilyngdawd na chyviawnder; ac ni roddid braint brawdwyr i neb o'r gwyr dygynnull hyny o herwydd na braint tir na braint swydd; canys pan ddarfai i wyr y llŷs hòno ragreithaw côv, a chadarnâu y dull, trwy dwng henuriaid, am yr hyn à osodid arnaddynt, yna y dyly y brawdwr à osoter o blaid y brenin roddi barn rhwng y cynhenusion, herwydd dull gwyr y llŷs hòno, y rhai à voynt oddevedigion o bob parth, heb na'u llysu, na'u gwrthneu: sev yw hyny, pan ddamweinio bod amryson am dîr cyvrwng amryveilion arglwyddiaethau, megis cymmydau, neu gantrevodd, na barwniaid eu hunaint bieufynt, nac arglwyddi ereill, lleygawl neu eglwysig, y rhai à gynnelynt eu harglwydd diweddav dan arglwyddiaeth y brenin, y rhyw orsedd hòno à gynnelir o blegid y brenin; canys wrth vraint y brenin y gosoded ynddi gyfraw y rhyw llŷs hòno, herwydd cyvraith; sev fordd yw hyny, arglwydd yw y brenin ar bawb o'i deyrnas, ac nad arglwydd neb o'r arglwyddi ereill ar eu cilydd; ac wrth hyny y deallwyd, herwydd y gyvraith, na allai neb gynnal y rhyw llŷs hòno, eithyr y brenin; ac wrth hyny y dylyir, o blaid y brenin, gymhell o wys a rhybudd hên awduriaid a doethon o'r cynghelloriaethau o bob parth, o'r rhai cymhenav, i'r lle amrysonawl; a hyny yn nyddiau y gyvraith, a'i hoedau, megis ydd amlycêid mewn cynhen amryson cyvrwng llŷs a llan, a chymydau a chantrevodd. Neu vod neb un yn cynnal tîr trwy weithred gan y brenin, ac iddo ehun, ai i un o'i rieni, a dyvod neb un arall i ganlyn am y tîr hwnw; nac ag ev y dyweto, nac ag un o'i rieni, mai trwy orthrymder y gwahanwyd, ac anghyvraith; neu ddyvod un i ovyn y tîr o blaid gweithred à gefid gan arglwydd y tîr, ai y neb à vai canlyn ar un o'i rieni, y cafai y tîr ac y tyvai yr iawn iddo yntau o'i blegid, a bod neb yn cynnal y tîr hwnw trwy oresgyn o ryw vodd arall y delai hyny, hevyd á ddylyir eu cynnal yn llŷs dygynnull, ac eu tervynu; canys ni osoded y neb ag à vai yn cynnal tîr, trwy weithred o blaid arglwydd, pa fodd bynag y cafai, ai ar werth, ai yn nghyvarws, ai yn rhybuched arall, ateb yn llŷs a dadlau cymwd neu gantrev, trwy na chôv na dedryd, megis breyr neu arall; can ni osoded yn nghyvraith tervynu iawn arglwydd yn y llŷs hòno. Os y llŷs dygynnull á amlycâa gwneuthur gorthrymder, megis y dywesbwyd vry, y brenin á ddyly yn ddiohir gwared yr anghyvraith; can ni ddyly neb, herwydd cyvraith, gynnal gweithred à wnelid yn anghyvreithawl. Or dervydd na allo goresgynwr anghyvreithloni y gweithred, ac amheu iawn yr arglwydd y cavad y tîr ganto, y brawdwr á ddyly varnu y tîr i berchen y gweithred, val y dyweto ei weithred oreu, ac à orddiweddo ar y tîr o dda cyfraw á'i pieuvydd yn ddilys. Ail yw, na ellir canlyn cwyn galanas, eithyr ger bron y brenin, neu y neb à gynnalo yn lle y brenin; canys ni osoded gallu o neb gymhell cwbyl dâl tros alanas, eithyr y neb à vai arglwydd ar bawb; sev yw hwnw y brenin; canys ni chynghain o gyvraith cwynaw o orsedd i orsedd, i ganlyn am yr un devnydd; am hyny y gynhen hòno yn llŷs dygynnull y gosoded i'r brenin draian o bob galanas ar y gymhello y lle cosp, dros gymhell i'r rhan arall i'r genedyl, megis y rhan cyvraith rhyngtynt. Trydedd orsedd ddygynnull yn y lle y bo amryson cyvrwng awdurdodwyr am ddeallu dwy gyvraith erbyn yn erbyn, yn dosparth yr un peth, heb vod un o honynt yn coelaw deall ei gilydd; neu na wyppynt pwy deilyngav o'r ddwy gyvraith hyny; yna y dylyir, o blaid y brenin, cymhell o wys rhybuddiaw'l, canonwyr, na gwyr o grevydd voynt, nac eglwyswyr ereill, i dervynu y gynhen hòno, trwy ddeall canon dileddyv; gan gadarnâu drwy dlwng, or bydd à dybio; ac yna y dyly brawdwr, o blaid y brenin, roddi barn, herwydd dull ei ganonwyr. Dewi Brevi.

Tri rhyw dremyg cyndrychawl y sydd: un yw rhoddi barn ar ddyn y perthyno iddo ysbaid un dydd a blwyddyn o'i hamheu; sev yw hyny lluddiaw o wyr y llŷs, neu y brawdwyr, neu ereill, i ddyn roddi gwystyl diohir, neu ballu o blaid y brenhin, neu yr arglwydd bieufai y llŷs, o erbyniaw gwystyl; ac wrth hyny ni chyll ev ei amser hyd pan vo llithredig un dydd a blwyddyn o'r pan ganiatâer cyvraith gyntav iddo; ac ev á gyngheinai vod y varn yn dda ac yn briodawl yn ei devnydd, herwydd dadlwriaeth ei dadyl. Ail tremyg cyndrychawl yw barnu rhwym anmherthynawl ar amddifynblaid cywlad, i

wrandaw côv a barn gwedi cadeiriaw dadyl, yn ol deisyv o bob parth; a'r tremyg hwnw sydd yn pwysaw ar yr hawlblaid; canys o gyvraith, amser brawdwr barn gwedi deisyv o bob parth. Trydydd tremyg cyndrychawl yw rhoi barn yn erbyn dyn yn llwrw colled neu ennill cyn cadeiriaw dadyl. Dau ryw dremyg absen y sydd: un yw diveddiannu dyn o'i dîr cyn bod yn aeddved amser yn nghyvraith; canys hyd yna y dylyir ei araws ev; ail tremyg absen yw rhoddi barn yn erbyn dyn yn llwrw colled tragwyddawl cyn cadeiriaw dadyl. Y tremyg cyntav o'r ddau á ddeallir o anamserolder; a'r ail á ddeallir oblegid amserolder cymysgedig eu devnydd: can ni alleramheu y varn o gwbyl o blaid y devnydd, oddieithyr cyvladd yr amser; pei gwedi cadeiriaw dadyl ni byddai varn absen; canys y deisyv á gofa y cyndrycholder, i dremygu y varn. Pob rhyw wall dadlwriaeth ni chyvladdo â grym dadyl, ei devnydd o gwbyl á beir goll i'r ddadyl, heb goll tragwyddawl; ac am hyny y mae cenatâedig cyrchu cyvraith o newydd. Pob rhyw wall dadlwriaeth à gyvladdo â grym dadyl a'i devnydd o gwbyl, hyd na bo yn pwysaw ar vodd dadyl, arver dadlwriaeth á gynghain ei disgynu yn golled tragwyddawl, oddieithyr dadleuodd à osoded tervynau hysbys o gyvraith iddynt; megis mewn hawl drablwyddyn a'i chyfelyb; a hyny argauedigaeth ennill yw hyd ar dervyn gosodedig. Dewi Brevi, *ora, ora.*

Canys tri rhyw argauedigaeth dadyl ynt: un onaddynt yw pei damchweinai i ddyn govyn tîr i arall, trwy gwyn a hawl, gan arwain iawn disgynedig hyd ato ehun, neu neb un o'i rieni, neu ystlysion, oblegid cydetivedd, can ni hanfai y tîr o iawn rieni; a gallu o'r atebwr ddodi yn erbyn yr hawlwr, gwahanu yr iawn â hwynt drwy gyvraith ddilys, a'i ddyvod drwy gyvraith ddilys i un o'i rieni yntau, y gallo yntau arwain iawn difoddedig hyd ato ev ehun, neu gydetivedd iddo, cyd bai gwr dyvod iddo ehun, neu estrawn y cafai y tir ganto; megis y gallai ddadleu yn eu hiawn neu amser i ymwystlaw â barn. Ail argauedigaeth yw gallu o'r atebwr ddodi yn erbyn hawlwr à arddelwo iawn o blaid rhieni, neu o'i ansawdd ehun, neu pa un bynag arall à vai difoddedig yr iawn, trwy ddadlwriaeth dadyl anianawl, a barn yn mherson y neb a'i harddelwo iawn o'i blegid; neu ei gydetivedd, trwy orddiwes neb un o'i rieni yn gamoresgynwr; neu allu o'r atebwr gadarnâu perchenogaeth hwy no'i ansawdd yr hwn ag à geiser ei wneuthur yn gamoresgynwr; neu vwrw arddelw cyvreithawl yn erbyn yr hawlwr, megis pei damchweinai i ddyn erbyniaw perchenogaeth ar dîr; sev yw hyny drwy estyn arglwydd; a gwedi hyny dyvod neb un arall yn absen hwnw i'r orsedd, ac erbyniaw estyn anallu ar yr un tîr o law y gorseddawg, a thrwy hyny rhedeg yn y goresgyn hwnw; y cyntav à ddichawn ei vwrw y maes pan y myno, o vewn un dydd a blwyddyn; a chyd cwyno y llall rhagddo am y camoresgyn hwnw, nid ennill ddedryd arno; canys trech yw pob goresgyn cymysgedig yn yr iawn, no goresgyn oddieithyr yr iawn, a bod cyvraith yn deallu bod ansawdd yr hynav, yn llwrw perchenogaeth, yn iawnav, hyd pan ddifodder drwy gyvraith a barn; a hòno yn argauedigaeth dragwyddawl y cynnelir, megis y rhai uchod, am ddamchweinaw perchenogaeth drwy ddadlwriaeth wyneb yn wyneb, yr hawlblaid ar yr amddiffynblaid, trwy gyvraith a barn; neu allu dodi yn erbyn hawlwr argauedigaeth oesodd rhieni, o vewn un orsedd cymwd neu gantrev; canys pwy bynag à vo yn cynnal, na dyn dirgeledig o'r gwaed y tyvo yr iawn, oblegid ei hiroddev, nac estrawn à'i herbyno, gwedi bo ennilledig yr iawn drwy amserodd y teiroes; canys i hwnw y mae dirgeledig y gyvraith; megis i'r neb à hanfai o'r gwaed; oni bai allu provi ei vod yn gamoresgynwr ar y neb y tyvai yr iawn iddo o'i blegid; a'r ddadlwriaeth hòno nid perthynawl yn erbyn y camoresgynwr hwnw, onid lle y rheto un o'r hen ddyledogion ar ei oresgyn, gan ddywedyd yn ei amddifyn, na ddamchweinawdd etivcddiaeth iddo ev gan y neb à arddelwo, ac yn y modd hwnw amheu ei berchenogaeth yn gwbyl, yn lle pallo iddo arwain iawn ar gyfelybion. Dewi Brevi *yn gannorthwy.* Trydydd argauedigaeth dadyl yw gallu o'r atebwr ddodi yn erbyn hawlwr goddev ohono ehun hawl dra blwyddyn; neu ovyn dylyed cychwynawl yn y dyddiau deddon; neu ovyn tîr a daiar o âch ac edryd yn amser cauedig cyvraith am dîr a daiar; neu ddechre cyvraith gwedi hanner dydd provedig hysbys, a'r cyfelybion; a'r gyvryw argauedigaeth hòno, a'i chyfelyb, á gynnelir yn argauedigaeth amserodd; a'r ddwy ereill, a'u cyfelybion, tragwyddolion ynt; a hyny o achaws eu bod yn tervynu ar yr iawn. Gwenoc, *helpa* !

Grym argauedigaeth yw dëor rhag dyn y rhwym a'r cadernid à ddoto i orwiraw ymadrawdd; megis côv llŷs, neu ddedryd gwlâd, am ddadyl tîr a daiar, neu vechnïaeth ar gyvnewid, neu wybyddiaid, neu

ammodwyr ar ammod, à arddelwer ni boynt gyngheinawl; sev yw hyny am dda cychwynedig, gan drosi i ddadlwriaeth ai devnydd ai deall cyvraith dileddyv. Yn mhob lle y dichawn dyn govyn iawn anianawl o blaid rhieni, a'i ennill, lle ni aller dodi yn ei erbyn ddifoddi yr iawn mewn gweithred y gyvraith; a hyn i gadw amser. Pedwar rhwym dadyl ynt, Pwy à holych; beth à holych; py vaint à holych; a pha amser y holych. Sev modd yw hyny, mynegi yn gyntav enw prîawd yr hawlwr, ac enw prîawd yr amddifynwr, a hevyd py at y bo dy gwyn; megis wrth y cynghellawr, neu swyddogion yr orsedd hòno. Ail yw, pa beth à holych; sev yw hyny, pa fordd yth wahanwyd o'th dda, ai o drais, ai o ledrad, ai o anghyvarch, ai o lôg, ai o adneuaeth, ai o venfyg, ai by argywedd bynag à wneler it', neu ar dy eiddo; a hevyd, pa ryw dda voynt, ai aniveilaid, ai aur, ai ariant, ai dylyedogaeth o dîr a daiar, trwy un o'r dadenlluddau, ai o gamoresgyn, ai by un o'r tri, ai trwy âch ac edryd; os llôg, neu o adneuaeth, neu o venthyg, enwi pa ryw gadernid y sydd ar eu cafel drachen; neu, os trwy gyvnewid, neu ammod, neu luniaeth arall, enwi pa ryw gadernid à vo arnynt. Trydydd yw mynegi pa vaint à holych; sev yw hyny, mynegi pa rivedi o aniveilaid, neu aur, neu ariant, a pha deithi à voynt; os argywedd, pa vaint vo, a pha vraint vo yr hawlwr; os am dîr, enwi pa rivedi o erwydd, a pha beth à ddylir dros yr eiddo; os am goed, pa rivedi voynt, a pha ryw goed, a pha beth à ddylyer dros yr argywedd, herwydd cyvraith, ai arian cyvraith, ai arian cwtäon. Pedwerydd yw, py amser y holych; sev yw hyny, mynegi y dydd a'r vlwyddyn yth wahanwyd o'th eiddo, neu y gwnaethbwyd yr argywedd, neu yr ammod, neu y lluniaeth, a pha le; os cyvnewid, pa ddydd y bu; neu lôg, neu adneuaeth, neu venthyg, pa ddydd, a pha vlwyddyn, y dylyid ei gael drachen, neu dalu dros ei gyvnewid; os tîr, pa ddydd yth oresgynwyd, a pha le y mae y tîr, a pha vraint y sydd iddo, a mynegi pa un o'r tri diebryd yth ddioberwyd o'th eiddo, neu yth argyweddwyd, a mynegi pa bersonoliaeth vo yr hawlwr, neu yr amddifynwr, yr amser y gwnaethbwyd anghyvraith â thi. Pwy bynag à adawo un o'r pedwar rhwym rhagddywededig heb ddywedyd, y mae anhysbysrwydd yn ei hawl; ac ni ddylir ateb o'i hawl, oddieithyr amser, megis yn blaid atebawl. Ac o dywedir peth o bob un o'r pedwar rhwym, heb ddywedyd cwbyl, megis na ddeisyvier dros yr eiddo onid mwy neu lai nog à ddylyer drosto herwydd cyvraith, gwallawgair yw, val y dyly yr hawlwr golli ei hawl, val y perthyno wrth y gwallawgair; ac ni ddylyir ateb, ond gan golli o'r hawlwr yn y modd y dywesbwyd vry: a llyna y gwahan y sydd rhwng gwallawgair ac anhysbysrwydd; ac oni ellir cadarnâu bod yn wir un o'r pedwar rhwym rhagddywedig, ni ddylir ateb vyth i'r hawl. Dewi Ddyfrwr, *ora pro nobis!*

Tri dyn à gynnail dîr, ac á'i herbyn o vewn llŷs cymwd neu gantrev, ac ni ddylyant vod yn bleidiau i ateb i neb, o'u tiredd, yn llwrw cwynau, na bod yn vrawdwyr yngnaid o vraint tîr, megis brëyrion: nid amgen, dyn eglwysig y rhoddo y brenin dîr iddo drwy weithred, a hyny o'i dîr dilys ei hun; ail yw lleyg y rhoddo y brenin dîr iddo, ai yn nghyvarws, ai yn rhybuched arall, yn y cyfelybion vodd; trydydd yw dyn à gynnalo berchenogaeth o daiawgdir dan y brenin. Y cyntav a'r ail rhag bron y brawdwr pènav y dylant ateb, or bydd à'i govyno, ac nid y llŷs vrëyrawl; y trydydd yn llŷs y daiawgdrev y dyly ateb, ac nid y llŷs uchod.

Tair dadyl y sydd anghynnwysedig yn nghyvraith; un yw dadyl o blaid hawlwr à ddisgyno ar wallawgair, neu anhysbysrwydd, neu lithraw amser; ail yw dadyl o blaid amddifynwr, o'r gyfelyb vodd; trydydd yw lle y gwnel dyn arddelw mewn dadyl à vo anghynnwysedig yn nghyvraith herwydd amheu dadlwriaeth dadyl.

Tri rhyw warcheidwad y sydd ar dîr herwydd cyvraith: un yw arglwydd, à vydd warcheidwad ar dîr à ddisgyno yn ei law o varwolaeth perchenawg yny ddel i'r iawn ddyledawg ei ovyn; ail yw cydetivedd, à warchatwo ddylyed ei gydetiveddion yny ddelont i gymeryd eu hiawn a dylyed, meis brodyr, neu gevndyrw, neu gyverdyrw; canys y rhai hyny y sydd gydetiveddion; trydydd yw dyn y rhoddo perchenawg gwarcheidwadaeth iddo o'i dîr, trwy ammod gafel ei dir a'i vraint pan y myno drachevyn.

Tri chwynawdyr celus y sydd à ddylir eu poeni am eu cwynaw hwy eu hunain: cyntav yw dyn à roddo gwystyl yn erbyn barn à aller ei chadarnâu o wrthwystyl, trwy awdurdawd ysgrivenedig o gyvraith —hwnw á gyll gwerth ei davawd; ail yw dyn à roddo gwystyl yn erbyn gwystyl à rodder ar ddyn arall amgen nog arno ev ei hun—a hwnw à ddylir ei boeni drwy gamlwrw; trydydd yw dyn à roddo gwystyl yn erbyn barn ar na bo braint iddo ymwystlaw

â barn, megis efeirad, neu ddyn arall crevyddus; cenatedig hagen yw i'r cyfelyb ddyn hwnw gwrthwynebu i'r varn drwy awdurdawd y gyvraith; ac os yr awdurdawd á balla iddo, camlwrw á gyll. Ni chyll neb mwy no chamlwrw y lle ni bo ymwystlaw drwy rodd gwystyl a gwrthwystyl.

Tri lle y sydd o rhoddir meichau ni ellir ei wadu: un yw yn nghyhoedd plwyv; ail yw yn ngorsedd gyvreithawl; trydydd yw yn nghyndrycholder arglwydd: wrth vod y tri lle hyny yn dri chyhoedd cyvraith; ac nad oes dim or à wnaler yn gyhoeddawg à aller ei wadu yn nghyvraith; a chan na ddylyo yr amddifynwr wadu meichau, nid ydyw cyvraith yno yn cadarnâu na ddylyo y mâch wadu ei vyned yn vâch, yn erbyn gyr y rhingyll; canys cyvraith á ddywed, pan wato mâch ei vechnïaeth yn erbyn gyr y rhingyll, rhodded lw ar ei chwechedo wyr un vraint ag ev; can ni ddyly gwrthdwng vod eithyr ar vâch am gynddylyed; eithyr mâch à el yn nghyhoedd, gwaded drwy ddedryd gwlâd, eithyr lle y perthyno côv llŷs.

Tair uchel lŷs y sydd yn Nghymru: nid amgen, llŷs Aberfraw, a llŷs Dinevwr a llŷs Mathravael. Pob arglwydd, o arglwyddi Gwynedd a'r Deheu, á ddylyant ateb yn y llŷs nesav ei gyvoeth ei hun, o'r tair uchel lŷs uchod, o bob hawl a govyn or vai arno. Cyd gallo arglwydd vod yn hawlwr yn ei lŷs ehun ar y neb à vyno, ni ddyly ev, herwydd cyvraith, vod yn amddifynwr yn ei lŷs ei hun, o neb rhyw ovyn or à vo arno; can ni ddyly ev sevyll ger bron brawdwr o'i lŷs ehun; ac ni ddylir ei ovyn yntau yn ei lŷs ehun o neb rhyw hawl ag vo arno. Ni ddyly un brawdwr hevyd, herwydd cyvraith, roddi barn, heb dair plaid cyndrychawl, val y dywesbwyd vry: nid amgen, hawlwr sevydlawg, yn holi ac yn cynhebrwng; ac amddifynwr sevydlawg, yn amddifyn; ac arglwydd gwir cyfredin, yn gwrandaw.

Tri mâch y sydd ni cheif un o honynt ddwyn mechni ar ei lw ei hun, cyd gwato ran ac addev rhan arall o'r vechni: un yw dyn à el yn vâch yn ngwydd llŷs; a mâch diebredig; a mâch cynnogyn. Peth bynag à ddyco y cyntav yn y llŷs á ddyly dyngu gydag ev, neu yn ei erbyn. Ail, neu y drydedd yw, beth bynag à ddyco, ar ei seithved o'i gyvneseiviaid o wyr y twng; canys talawdyr, o gyvraith, vydd pob un o honynt yn amser cynnocnaeth. A llyma y gwahan y sydd rhwng mâch diebredig a mâch cynnogyn. Mâch diebredig y geilw cyvraith mâch à ballo y mechnïaeth gyda hawlwr, gan rybuddiaw yn nyddiau gorsedd. Mâch cynnogyn, o gyvraith, y gelwir y neb à el yn vâch dros ddyn ni allo sevyll wrth gyvraith, o blegid tylodi: ac yn y lle hwnw y cymhell y blaid y mâch yn gynnogyn. Dau ryw balledigaeth á gynghain ar vâch i sevyll wrth gyvraith. Un onaddynt yw tylodi o eiseu tri thuddedyn, megis y gallai dalu dau bob amser, a chynnal y trydydd iddo ehun. Amser y rhyw dâl hwnw yw o wyth niwrnawd i gilydd, o'r pan enniller y da; ac yn y dydd y difycio y cynnogyn, taled y mâch gwbyl ag oedd yn ol heb dalu: a llyma vechnïaeth à bara dros oed dydd tâl. Ail yw o adaw y wlâd o'r cynnogyn cyn oed dydd tâl; yno taled y mâch hanner y ddylyed, a pharâed ei vechnïaeth ar yr hanner arall, hyd ar dervyn un dydd a blwyddyn; ac yna taled y mâch gwbyl ag à vo yn ol, oni seiv y cynnogyn wrth gyvraith; a bid i'r mâch ovyn y cynnogyn pan ŷ myno. Os gwedi yr oed dydd tâl, edrycher ai o wall yr hwlblaid am gyrchu amserawl, ai nad ev. Amser y gyvraith yw gwneuthur cyfraw o vewn i dervyn naw niwrnawd, gan rivo oed y dydd tâl, wrth nad perfaith rhoddi amser à vo byrach no hyny, rhag damchweinaw dylyed hawlblaid yn amryvyeilon leodd: ac onys cyfry, drwy gyvraith gorsedd, achwyn, bid llithredig amser rhwym y vechnïaeth yn llwybr ymddillwng, yn un modd â phei darfai i'r govynawdyr roddi oed i'r cynnogyn yn absen y mâch, gwedi oed dydd tâl.

Tri pheth nis dichawn mâch ei gafel dros blaid estronawl: un yw amddifyn o rwym; ail yw oed dydd côv; trydydd, dadleu yn nghyvraith y blaid nis dyly.

Tri meib y sydd ni ddylyant gafel rhan o drev eu tadau, herwydd cyvraith: nid amgen, mâb efeirad à enniller gwedi ymrwymaw mewn urddau efeiradaeth; ail yw mâb clavwr à enniller gwedi gwahaner y wrth ei bobyl oblegid clevri; trydydd yw mâb à dalo ei dâd ei dîr dros gelain yn waettir, er heddwch i'r mâb val i'r tâd.

Tri rhyw wrogaeth y sydd: cledren waesavwr, ac aswynwr, ac adlamwr.

Tri pheth ni ddyly tavodiawg eu dadleu dros neb un arall: un yw rhoddi gwystyl yn erbyn barn; ail yw dadleu dros warant arall; trydydd yw dadleu dros ddyn yn mherygl enaid ac aelodau.

Tri chwyn goruchel y sydd: un yw cwyn am dîr o âch ac edryd; ail yw cwyn i ymwystlaw â barn; trydydd yw cwyn galanas.

Tri rhyw berchenogaeth y sydd ar dîr herwydd cyvraith: un yw estyn heb oresgyn; ail yw goresgyn heb estyn; trydydd yw goresgyn ac estyn.

O dair fordd ydd â cogail yn mraint paladyr: un yw o'i oddev, canys goddev á dyr bob cynghaws; ail yw o eiseu etivedd cyvreithawl o wr; trydydd yw o brynu, canys y drydedd etiveddiaeth gyvreithawl yw

Tri argau tervyn y sydd: rhyw, a braint, a chyngwarchadw.

Tri aelawd à ddyly gwneuthur iawn dros ddyn, a'i gymeryd, er na bo i arglwydd oddev iddo: tâd, a brawd hynav, a chwegrwn.

Tair dadyl nid oes oed i vrawdwr am eu barnu: un yw dadyl y bo ymdystu ynddi; ail yw dillwng cyvarchau wrth raid y brenin; trydydd yw barnu dadenhudd i ddyn à'i dylyo o gyvraith.

Tri dyn à gynnail dîr yn llŷs y brenin, ac á'i herbyn gan y brenin, os herwydd iawn etiveddiaeth y disgyn iddynt y tîr, ac ni ddylyant wneuthur i'r arglwydd un o'r tri rhyw wasanaeth y sydd ar dîr, eithyr talu ei rent a'i westva iddo: gwraig weddw, a mâb dioedran, ac ysgolâig rhwymedig wrth urddau cysegredig. Sev achaws i wr wraig, a'r mab o eiseu awdurdawd synwyr a chorfolaeth, ac ysgolâig am nad oes werth ar ei davawd yn nghyvraith, ac na ddichawn neb varnu eithyr dan berygl gwerth ei davawd.

Tri dyn à ddyly y brenin, neu ei swyddogion, vynu meichau gantynt er diogelrwydd i bawb o'i werin ev, rhag gwneuthur cam o honynt, er na bo na chwyn na chanlyn arnynt gan neb: un yw gorseddwr à vyno breswyliaw mewn gwlâd heb roddi gwrogaeth i'r brenin, nac i un nchelwr; ail yw dyn à vygytho arall yn ei absen yn ngwydd yr arglwydd, neu ei swyddogion; trydydd yw dyn à ymwrthoto â chyvraith yn y llŷs, neu yn un o'r tri chyhoedd, gan ddywedyd y mynai ei ewyllys, oddieithyr canlyn cyvraith neu gwynau. Pob rhyw ddyn à gwyno gwyn bygwth enaid a chorf, neu aelodau, neu dda, rhag arall, trwy dwng ar grair, ev á ddyly cafel meichau ar ddiogelrwydd iddo.

Tri dyn ni ddyly un o honyt sevyll mewn barn: un onaddynt yw dyn gorphwyllawg o ynvydrwydd, ac à orfo ei rwymaw neu ei gadw weithiau; ail yw dyn à ambryno o ledrad cyvaddev unwaith, neu à orddiwedder yn lleidyr ar gyhoedd heddwch; trydydd yw dyn à ddygwyddo yn ngwerth ei davawd unwaith o blegid cam vrawd à roddasai cyn no hyny.

Tri chyfredin gwlâd y sydd: cyman, dadlau, ac eglwys.

Tri chenawl y sydd yn nghyvraith: un yw cenawl i gadarnâu cyviawnder; ail yw cenawl i gadw cywirdeb; trydydd yw ceuawl i eglurâu gwirionedd: sev ynt y tri hyny, arglwydd, a mâch, a brawdwr teilwng rhwng pleidau.

Tri pheth y sydd uwch no chyvraith, ac á dyr ar gyvraith, pan gyfarfont â hi: arglwydd yn lle y gwnel well no chyvraith i ddilid gwirionedd, neu wneuthur trugaredd; a braint ni aller provi yn ei erbyn; ac ammod addevedig.

Tri phwngc y sydd iawn eu gwadu yn y sarâed: na wnaethodd na sarâed, na mevyl, nac iddo, nac o'i arglwydd, nac o'i genedyl. Sev achaws y gwedir i'r arglwydd rhag ei dirwy; sev achaws y gwedir i'r genedyl rhag ei dial o honynt; canys gwaradwydd yw i'r genedyl sarâu eu câr; ac oni thelir, neu oni wedir, cyvreithawl ei dial; o telir iddo yntau ei sarâed, neu or gwedir, diwaradwydd vydd y genedyl; a'r lle ni bo gwaradwydd ni bydd hawl.

Tri goddev y sydd yn cydgerdded â chyvraith, hyd ar amser, ac nid ynt gorgyvuwch â chyvraith ac ni ddylir mwyniant o honynt herwydd cyvraith; sev yw hyny dangaws yr achwyson. Un yw goddev o ddyn orthrymder gan swyddawg arglwydd yn gwneuthur anghyvraith arno yn lle cyvraith; a hwnw á eilw cyvraith yn anrhaith oddev. Ail yw goddev o ddyn ddyn cybydd, neu anghydnaws, à vai yn cyngwarchadw swydd, neu ddiddysg ddidda; a'r rhai hyny á eilw cyvraith yn annheilwng oddev; a herwydd cyvraith ni ddylir mwyniant o un goddev annheilwng, namyn ei ddifrwythaw. Trydydd yw goddev o ddyn i arglwydd ei gymhell ar ei avles yn ngwydd y llŷs; a hwnw á eilw cyvraith yn dwyll anianawl yn ngwydd yr yngneidwyr; a hwnw á ddylir ei adver, herwydd y dywed cyvraith, val y hadverir trais; canys cospadwy yw llys y brenin i roddi cynghor i neb, pryd nas govyno; ac er yr anghyvraith hòno ymodwared á wna cyvraith iddo pan y govyno.

Tri chwyn à ddifydd bob cwyn, pan gyvarfont yn y llys: un yw y cyntav à gafer gwasanaeth yn y llys arno; ail yw cwyn dylyedawg; trydydd yw cwyn gorthrymder.

Tri pheth nid ateb cyvraith ddilys drostynt: un yw barnu yn drugarawg; ail yw esgynu dyn cyn ateb; trydydd yw crogi dyn am bedair ceiniawg cyvraith, ac ni ellir ond crogi am gant punt.

Tri anghydwybod cyvraith y sydd: un yw dwyn tervyn yn gwbyl cyn ymovyn gwir; ail yw barnu ar draws angen; trydydd yw cymhell dyn ar ei avles.

Tri chyveiliorn cyvraith y sydd: hawl anhysbys, ac ateb anghwbyl, a chôv anghydun.

Tri anghyvraith y sydd: un yw govedd iawn i arall yn lle cyvraith; ail yw dwyn anivel yn un o'r tair gavael rhydd, mwy no'r deuparth a'r traian'; trydydd yw dwyn tervyn i ddyn mwy no mesur ei hawl.

Tri pheth y sydd vwy no chyvraith: sev yw y tri hyny, gwir brid ar dir, yn lle y galler ei brovi, ac ni aller myned yn ei erbyn; ac arglwydd yn erlid gwirionedd rhwng deuwr; a hir oddev gwlâd à vo yn lle cyvraith. Ac yn y tri lle hyny ni ddyly brawdwr varnu, can ni henydd o gyvraith, ac na ddyly yntau varnu namyn cyvraith: gwlâd ac arglwydd hagen á ddyly varnu yna.

Ni ddylir herwydd cyvraith gredu tystoliaeth gwr ar wraig, ac un gwraig ar wr; canys traianawg yw pob gwraig ar wr; ni ddyly ei chredu hithau arno ev, can ni ddyly y traian ei gredu ar y ddeuparth. Tystoliaeth á ellir ar air ac ar weithred, ac ni ellir ar veddwl calon; ac yna y tervyna y ddwy gyvraith, cyvraith eglwysig a chyvraith Hywel, can eu braint. Onid y tri lle yma, cystal ammhrïodawl â phrïodawl: un yw yn y braint y ganer; ail, yn ei lw; trydydd yw lle ni aller dangaws o'r corf un dyn teilyngach nog ev; canys cyvraith á ddywed na bydd anmhrïodawl yr etivedd hwnw, pei un o'r dynion gwaharddedig vai; canys ev á biau holl ovynion ei dâd, a'i holl amddifynion. Cyvraith à ddywed y dichawn y brenin roi tîr y deyrnas i'r neb à wasanaetho drosto, ac yntau yn barawd i roi yr anghenion: yna dywed cyvraith un lle y perthyn barn ar draws anghenion: ni chynghain un esgus i'r neb allo ei wiriaw, neu arall drosto: cyvraith à ddywed, y neb à dòro ei gorchymynau à ddwg eu poenau.

Tri dyn à geif dda cyfroedig a ddylyed cyfroedig varwolaeth y perchen o gyvraith etiveddion, ac ni ellir cymhell un o honynt yn blaid i dalu yn nghyvraith etiveddion: nid amgen, aillt brenin neu vreyr, yr hwn à eilw cyvraith yn aillt prïodawl, yr hwn à drico gyda ei arglwydd yn ddisymud hyd y pedwerydd dyn o bob parth; ail yw brenin pan ddamchweino etiveddiaeth iddo o dda ei vâb aillt à vo marw heb etivedd o'i gorf; trydydd yw pan ddamchweino i vreyr ddisgyn yn nghyvraith etivedd yn y gyfelyb vodd i vâb aillt à vo marw heb etivedd o'i gorf. Ni ellir cymhell neb yn blaid i dalu dylyed dros arall yn nghyvraith etivedd neu gydetivedd, oni bydd disgynedig neu dreigledig yr etivedd neu gydetivedd iawn anianawl oblegid ei rieni neu gydetivedd; ac wrth hyny ni thâl mâb alltud, yr hwn à elwir yn vâb aillt, ddylyed ei rieni, neu gydetiveddion, wrth na cheif yntau anianolder o'u plegid hwyntau, o iawn disgynedig neu dreigledig: ni ellir cymhell neb yn dalawdyr dros ddyn à vo marw cyn talu dylyed, oddieithyr tri dyn, nid amgen, etivedd à gafo anianolder oblegid tâd; ail yw mâch; trydydd yw cydetivedd à gafo anianolder oblegid cydetivedd arall.

Tri dyn à saiv tavodiawg absen drostynt: un yw dyn à vo mewn pererindawd tu â Rhuvain, neu at vedd Crist; a dyn à vo clav gorweiddiawg, o vriw, neu vrâth, neu glevyd anianawl arall, hyd na allai ddyvod, nac ar varch, nac ar draed; a dyn à vo mewn caethiwed carchar: a hevyd dyn à vo mewn lluydd arglwydd; canys penav gwasanaeth tîr yw mewn lluydd, o raid neu uvylldawd; a hwnw y sydd bedwerydd achaws. Dewi Brevi.

Tri etivedd cyvreithawl y sydd yn nghyvraith nid ynt gywiw yn ngwasanaeth y brenin, ac ni ddylyant gynnal tîr dan y brenin gwedi eu tadau: nid amgen, dall, a byddar, ac evrydd; o achaws na allant gwblâu gwasanaeth perthynawl i'r brenin o'i dîr; a hyny o ddifyg nerth corforawl, mewn dadlau, a lluyddau, a llawer o leodd ereill. Y dianav o'u clustau, a'u traed, a'u llygaid, er eu bod hwynt anghyvreithawl, tîr eu tadau, gwedi eu tadan, à ennillant, herwydd cyvraith, gan y brenin yn hollawl, ac a'i cynnaliant yn berthynawl iddynt eu hunain, oni bydd i'r rhai anavus hyny etiveddion o'u cyrf. Or cyll perchen tîr ei lygaid, megis na welo, a'i glustau, megis na chlywo, neu ei draed, megis y bo evrydd, ni ddyly ev gynnal tîr dan y brenin gwedi hyny, namyn or bydd etivedd iddo, neu gydetiveddion tîr, megis brodyr neu ereill, rhag difygiaw gwasanaeth i'r brenin o'i dîr. Pwy bynag à gymero ddyled dyn anavus o dîr, pryderu y dyn anavus à orvydd arno tra vo byw o vwyd a dillad tra vo byw.

Tri dyn à ellir eu llysu o'r unrhyw achwyson, nid amgen no galanasdra, a thirda, a gwreicdra: tyst, gwybyddiad, a lliwad cyvreithawl.

Tri pheth y sydd y dichon dyn golli ei ddadyl o honynt, er daed vo y devnydd o

wir a chyvraith; sev ynt y tri hyny, llys cyn amser, a thyst ar vâch, a chadw gwedi gwrthawd.

Tri brodyr y dyly un o honynt drev ei dâd ac nis dyly y ddau ereill, ac yn ei hunvam ac yn ei hun-dad o'r un gwr prïawd, ac o'r un wraig brïawd: sev yw yr un à'i ceif, dianav; sev yw o'r ddau ereill mud, arall yw clâv gwahan; sev fordd y diferir y clâv gwahan, am na henyw o'r byd; trydydd yw mud, canys anghwbyl yw o davawd, ac ni ddyly yntau vod yn vrawdwr; canys ni ellir cwbyl o anghwbyl, ac wrth hyny nid dyn yntau; ac am nad dyn ev, ni ddyly vod yn vrawdwr.

Tri gwreiddyn anianawl y syddi'r un gair cyvraith: gwirionedd, cydwybod, a dysg. Oni chyvladd y rhai hyny ni cheif cyvraith ei henw; gwirionedd yw gwreiddyn barn; cydwybod yw gwreiddyn cyvraniad; dysg yw gwreiddyn cynhebryngiad dadyl, a'i herbyniad annhervynadwy yw pob cynghaws ni thervyner drwy y gwreiddyn hyny.

Tri perchenogaeth y sydd ar dîr hyd ar amser, ac à vyddant gargychwyn, ac oesodd y sydd iddynt: oes adeilad ar dîr dyn arall undydd a blwyddyn a thri niwrnawd nawdd; oes estynawl hyd pan roddo ei vraint a'i ansawdd o'i law; oes gwrthriviad hyd pan y cymhello yr arglwydd i wellâu ei vraint a'i ansawdd: ac os gwrthyd, cauedig vydd cyvraith rhyngto ag ev yn un o'r moddion y mae i ddylyedawg golli ei dîr. Sev yw gwrthriviad etivedd cysevin i gafel dadenhudd.

Tri goresgyn y sydd ni ddylir cafel mwynant o honynt: un yw goresgyn o anvodd; ail yw goresgyn heb wybod; trydydd yw goresgyn y bo ymrwym a phoen arno er hyd y bo ynddo, megis rhwymiad,[1] neu ysgriven arall. Ni chyll dyledawg ei dîr er myned rhivedi o ddynion dros ben nawved âch, pei gallai wiriaw vod llev treisig yn ol ar yr amserodd cyvreithawl; canys nid â hawl yn llwrw gwyddwaledd yn erbyn dylyedawg nes tervynu yr achwyson uchod.

Ni chynghain cwyn sevydlawg namyn o dri modd: sev yw y rhai hyny: o dervydd i hawlwr ddevnyddiaw cwyn at swyddogion yr orsedd, ac yn y dydd cyntav galw plaid, ac na ddel yr hawlwr wrth ei alw; ac yno deisyv o'r amddifynwr varn o ryddid, a'i varnu iddo; ac ar hyny yr hawlwr yn dyvod i'r orsedd, ac yn achwyn wrth yr arglwydd a'i swyddogion, vod yr iawn a dylyed yn dioberu o gyvraith cyn llithraw y dydd à rosoedd y brenin i roddi cyvraith; canys diodor yw pob peth ar gymaint ag y gwallocâoedd yr hawlwr ei vyned dan ei gamlwrw; ac wrth hyny y dichawn yr hawlwr dystu i'r arglwydd nad ydyw yr amddifynwr yn gwadu; ac yna y dichawn gwynaw yn sevydlawg. Ail modd y cynghain cwyn sevydlawg: o dervydd i hawlwr holi yn y llys dygynnull, a gwr y brenin yn eiste ar y llys hwnw, nid oes oed iddo i ateb; y dydd hwnw y dervydd y gwallgyvreithau a'r camddevodau, a gwan-gymydau; ac nid oes i amddifynwr; canys mwy yw y dystoliaeth hòno nog oed. Trydydd lle y cynghain cwyn sevydlawg yw, pan adawo swyddawg ei wialen swydd yn y lle hwnw, ni osoded oed yn y gyvraith hòno; canys y brenin á ddyly ddangaws gwialen ei swydd yn ddigam i bawb. Dewi Brevi I C.

Tair cyvlavan nid oes sarâed ynddynt: un yw dyrnawd mâb cyn oed cyvreithawl pedair blwydd ar ddeg, a dyrnawd o eiddigedd cyvreithawl, a dyrnawd o anvoddau: y gwaed ar weli, á ddylir, a'r asgwrn twn, o bydd.

Tair diasban uwch advan y sydd: un yw dylyedawg am dîr, gwedi bo yn ngwlâd arall hyd yn mhen y nawved âch, a dawed o hono at yr arglwydd, a dodi diasbad ger ei vron am ei iawn a'i ddylyed, a govyn o'r arglwydd i'r hen awduriaid a'i tyngant ei âch; canys y dylyedawg biau ddwyn ei âch yn eu blaen â henawduriaid, gwedi yntau ei dyngu. Ac onis gwybyddant ar ddylyedawg yn govyn i'r arglwydd gwedi pallo i'r henawduriaid o dyngu ei âch, ac yntau yn dwyn ei âch i'r tîr a'r ddaiar ac i'r drev y henyw o heni, arglwydd á ddyly roddi y tîr iddo, can ni thyngo yr henawduriaid ei âch, gwedi y bo y rhyw ddyn hwnw y maes o'i wlâd hyd yn mhen y nawved âch, ai ev o ddeol, ai o alanas, ai o vâr arglwydd, ai o wystloriaeth; a'r nawved dyn hwn yn myned o brïodawr yn anmhrïodawr, yna y gyvraith yn mynu ei gynnwys ar ei ddylyed: sev yw hyny, cymaint â'r gwr mwyaf à warchatwo yn yr oes y dêl ev i'r tîr: a hwnw á elwir yn ddiasbad uwch advan; ac ni wrandewir dyn o'r nawved âch allan. Ail yw mâb uchelwr am ei alltudion, pan ymadawant ag ev heb wneuthur iawn iddo. Trydydd yw gwraig am ei gwr; can ni ddyly cenedyl gymeryd dilysdawd heb ei chènad gwedi gwra.

Tri pheth ni chain: hoced mewn llw, esgus yn nghyfes, ac ymddiried i hireinoes.

Tri dyn à ddianc heb vod yn eneidvaddeu am ledrad cyvaddev: ysgolâig

[1] "Obligation."

coronawg, ni ddylir am ei ledrad cyntav namyn ei ddiurddaw a'i ellwng yn lleyg; ail yw mâb cyn ei vyned yn bedair blwydd ar ddeg; trydydd yw dyn anghyviaith, ni wypo gyvraith wlâd a'i devawd, hyd yn mhen tridiau a theirnos. Dewi Brevi.

Tri dygyn goll cenedyl: cyntav yw o honynt, bei darfai vod mâb ar arddelw y tâd yn váb dyoddev, a lladd dyn o hono gelain, a meichau o genedyl y tâd hwnw ar yr alanas drosto; a gwedi hyny ei ddwyn o'i vam i dâd arall, a dawed o'r genedyl à ryladder eu câr i ovyn ei alanas i'r genedyl à ryveichiasai ar yr alanas; a dywedyd o'r genedyl rhydwngadoedd y llovrydd ohonei, ac na ddylyant hwy dalu galanas, namyn dros gâr iddynt; ac nad oedd gâr hwnw iddynt hwy, y gwr à ddycbwyd o'u plaid; ac oddyna dyvod y genedyl i ovyn galanas i'r lle y dathoedd y llovrydd, a dywedyd o'r genedyl, na wnaeth ev ddim cam, er pan oedd ev gâr iddynt hwy; ac na ddylynt hwy wneuthur dim iawn, namyn dros y cam à wnêl ev yn gâr iddynt hwy; ac yna herwydd y ddau acco y dywed cyvraith, talwys à vechniwys: sev yw hyny, talu o'r neb à ryvechniwys yn gwbyl, cyd boynt gwirion am ei veichau a'i dâl. Yr ail yw, bei darfai damchweinaw meichau ar alanas dros y llovrydd, a bod un geinawg yn ôl heb dalu, ac am hyny lladd y llovrydd, cyvraith á ddywed, na ddylir nac edryd yr alanas drachevyn, na dim amdano yntau; can ni thaloedd ev gwbyl; ac ni ellir cwbyl o anghwbyl. Trydydd yw, bei darfai cyswynaw dyn o ladd arall, ac nad ymarddelwo yntau o wâd ar y llwon y dylyai, ac esgaelysu ei genedyl, a bocsachu am y gyvlavan; cyvraith a ddywed, o hyny allan na ddylyid cymeryd gwâd ganto; can ni ddechreuwys gymeryd arddelw ar wâd: sev oedd hyny anvon at ei genedyl, ac at yr arglwydd: ac am golli da y gelwir yn ddygyn goll cenedyl.

Tri gwarthrudd celain: cyntav yw lladd celain; a'r ail ysbeilaw; a'r drydedd govyn py gelain yw hon, a gwân gwth ynddi. Am y tri hyny y telir sarâed. Am y cyntav sarâed heb ddyrchavel; ac am y ddau ereill y dygwydd y traian i'r llawr: sev achaws yw na ddylir arddyrchavel ar y sarâed gyntav, wrth na liwir er à sarâer dros waith y cyntav; a llyma yr achaws y gostwng y ddwy sarâed gyntav, wrth vod yn llai gwarthrudd y marw no'r byw.

Tri argau gwaed: gwaed hyd ran, a gwaed hyd gwll, a gwaed hyd lawr; sev yw hyny, gwaed hyd wyneb, gwaed hyd ddillad, a gwaed à reto hyd lawr. Am y gwaed diweddav, can ni chwyner amdano, yr arglwydd á ddyly ymherw, wrth waedlydu ei dîr a'i ddaiar; ac sev yw maint cosp am hyny, pedair ar hugaint am y gwaed, a phunt am waedlydiaw y tîr.

Tri gwaed ni ddiwycir: gwaed o ben crach, gwaed trwyn, a gwaed o graith tra vo agored. Sev achaws na ddiwygir y gwaedau hyny, wrth vod yn anianawl gantynt redeg bob amser.

Tair craith ogyvarch: craith ar wyneb, ac ar law, ac ar droed. Am y gyntav, gwerth gwaed, a gweli, a gogyvarch dair gwaith; am yr ail, gwerth gwaed, a gweli, a gogyvarch ddwy waith; am y drydedd, gwerth gwaed, a gweli, a gogyvarch un waith. Sev achaws y rhagora cosp am y gyntav, yn vwy nog am yr ail; am yr ail, yn vwy nog am y drydedd; canys, amlycach, ac anurddedicav, yw craith ar wyneb, nog ar law; ar law, nog ar droed; ac wrth hyny y dyrchaiv yr hon rhag y llall.

O dri modd y sarêir pob dyn: o gyvlavan arno, a bod gan ei wraig, a thòri nawdd gwedi as rhoddo. Sev achaws y diwygir sarâed gwr o vod gan ei wraig, yn vwy nog arall, am ei hanfod o alanasdra.

Tri mâb ni ddyly drev tâd: mâb efeiriad, mâb clavwr, a mâb gwr à daler ei dîr yn waed-dir. A llyna yr achaws nas dyly mâb y clavwr, wrth ddarvod i Dduw ei ddethol, a gwahanu ei vraint i wrth iachweddawl. Sev val y mae hyny o vâb à gafo clavwr gwedi y bo barnedig i glavdy; a mâb à gafo efeiriad gwedi ydd urdder yn efeiriad.

Tri argau tervyn: braint, a chyngwarchadw, a phriodolder. Sev val y mae hyny, braint breiniawg a'i hargaua rhag anvreiniawg ei dervyn; can ni ddyly anvreiniawg dervynu ar dòr dyn â braint iddo; a hevyd prïodawr, can ni ddyly dervynu arno; ac hevyd hên warchadw á argaua dervyn, rhag un à vo iau nog ev. Cyd boed dau brïodawr o gymeriaid, a chyhyd eu gwarchadw ag unrhyw brïodorion, ac na wypo henuriaid gwlâd iawn dervyn rhyngtynt, rhànu yn ddau hanner á ddylir, herwydd cyvraith cyhydedd.

Tair gorsedd gyvreithawl y sydd: gorsedd arglwydd, a gorsedd hon esgob, a hon abad: a'r tair hyny gwrogaeth gwyr; ac ni ddyly gwr o un o honynt gwneuthur iawn, namyn yn ei orsedd ev ehun; oni bai ddamchweinaw i wr yr esgob wneuthur cam i'r arglwydd, neu wr yr arglwydd, yn ngorsedd yr esgob; neu wr yr abad yn un

o'r ddwy ereill. Pob un o'r rhai hyny gwnaed iawn lle gwnel y cam.

Tair gwanas gwystyl y sydd: llaw, a braich, ac ysgwydd. Sev achaws y gelwir y rhai hyny yn wanas gwystyl, can ni ddylir ar ni aller ei arwain yn un o'r tri lle hyny; onid yr bawlwr â'i myn, onid un peth, bod y ddylyed yn gymmaint ag na ellid gwystlaw amdano namyn peth mawr. Sev achaws na ddylyir hyny, wrth na ddylir peth anghyvodedyn am ddylyed cychwyn.

Tri gwystyl gogymeriaid y sydd: o law mâch, ac o law cynnogyn, ac o arglwydd, neu wasanaethwr, am ddylyed addevedig, heb vâch arnei; a heb gadarn vâch, ac eisoes ei vod yn addevedig.

Tri gwystyl nid rhaid meichau ar eu dilysrwydd: gwystyl o law mâch, a gwystyl à ddyco yr hawlwr ar y mâch or na vyno gwasanaethu ei vechnïaeth, a gwystyl o law arglwydd, neu wasanaethwr. Sev achaws yw nad rhaid mâch ar ddilysrwydd gwystyl o law mâch, neu o law yr arglwydd, can ni wata hyny o ddynion rywystlaw oc eu llaw, nac er chwant da, nac er peth arall: bei gwedynt gwystlaw hwnw, hwynt á ddylynt gwystlaw un arall. A llyna yr achaws nad rhaid mâch ar ddilysrwydd gwystyl a ddycer i ar vâch, canys o'i anvodd y dygir; ac os rhydd yntau o'i vodd, cymmered yr hawlwr vâch ganto ar ei ddilysrwydd, rhag gwadu ohono nas rhoddes.

Tri pheth nid rhaid mâch ar eu dilysrwydd: cynnysgaeth gan wraig, ac ennill meddyg gan glâv, a chyvarws gwr gan ei arglwydd.

Tri rhyw ddadenhudd y sydd, a'r tri hyny ni ddylir eu barnu namyn i'r mâb yn lle y tâd: dadenhudd âr ac eredig, a dadenhudd bwrn a baich, a dadenhudd cardd. Pwybynag y barner dadenhudd o âr ac eredig iddo, ev á ddyly eiste yn ddidwryv, dieniwed, heb ateb i neb, oni vo â'i gevyn ar ei ddâs, ac yna ateb. Pwybynag y barner iddo ddadenhudd o vod tâd yn cyvanneddu, a march a chàr ganto, ev á ddyly vod yn ddieniwed hyd yn mhen y nawved-dydd heb ateb, ac yn mhen y nawved-dydd cyvraith. Pwybynag y barner iddo ddadenhudd o vod tâd yn gyvreithawl â bwrn ac â baich ganto yn cyvanneddu, a dyly vod yn ddidwryv, ddieniwed, hyd yn mhen y trydydd ŷd heb ateb; ac yn mhen y trydydd ŷd cyvraith.

Tri chàr gychwyn heb ad-ddychwel: mâb à wato ei dâd unwaith, neu à gymmero unwaith; pa un bynag à wnel, ni ddyly ei adwneuthur; a'r ail yw dyn à êl unwaith yn gyvreithawl o briodolder, ni ddyly byth ddyvod drachevyn; a'r drydedd yw gwraig à el unwaith ei braint oddiwrth ei chenedyl yn gyvreithawl, ni ddyly ymchwelyd byth drachen yn mraint ei chenedyl. Sev achaws yw hyny, wrth nad adwna cyvraith à wnêl; ac na ddylir gwneuthur un o'r tri hyny namyn yn gyvreithawl.

Tri gorsav gwraig: cyntav, lle cysger genthi, hi á ddyly vod yno hyd yn mhen nawved-dydd; ail yw, lle desgaro ei gwr â hi, hi á ddyly vod yno hyd yn mhen nawved-dydd, i edrych a'i cyvreithawl ydd esgarwyd â hi, ac i vod yno ar ol y geinawg ddiweddav or à eiddiai; trydydd yw gwraig y bo marw ei gwr, hi a ddyly vod yno uwch ben ei haelwyd hyd yn mhen y nawved-dydd, ac oddyna ar ol y geinawg ddiweddav or à eiddiai.

Tair rhwyd brenin ynt, ei deulu, ac aswellt ei veirch, a'i re. Sev achaws yw, carcharawr à ddalo ei deulu, brenin bieuvydd; ac anivel à ddaler ar aswellt ei veirch, pedair ceinawg cyvraith o hono; ac velly march à ddaler ar ei re, ev a ddyly pedair ceinawg cyvraith o hono.

Tair rhwyd mâb uchelwr: aswellt ei veirch, a'i genvaint voch, a'i re. Ac o cheif anivel ni bo ei eiddo yn aswellt ei veirch, neu ar ei re, neu ar genvaint ei voch, unrhyw gosp y sydd iddo ag à vo i'r brenin.

Tair rhwyd mâb aillt: ei braidd wartheg, a'i voch, a'i hendrev. O cheif anivel ni bo eiddo ei hun ar ei braidd wartheg, ev a geif bedair ceinawg gota o hono; ac enivel à gafai yn ei hendrev, neu yn mblith ei voch, ev a ddyly bedair ceinawg gota o hono.

Tri chynghawawg cyvraith: rhaniad galanas, a gwerth tai a dodrevyn, a dadyl mâch a chynnogyn. Sev achaws y gelwir y tri hyny yn gynghawawg cyvraith, rhag anhawsed eu dwyn ar gôv ac ethrylith.

Tri mud gorsedd: mâch, ac ynad, ac arglwydd; sev achaws y gelwir hwynt yn vudion gorsedd, wrth vod amser i bob un onaddynt y dylyai vod yn vud: mâch, o'r pan eler yn nghyvraith am ei vechni ni dyly ateb, namyn gwedi govyno yr ynad ai mâch ai nad mâch; a'r ynad hevyd, nid rhaid iddo ateb oni vo rhaid iddo ddosparthu o'i ben; ac arglwydd hevyd, nid rhaid iddo vod yn rhaglavar: ac wrth hyny y gelwir yn dri mud gorsedd.

Tri aryv cyvreithawl, cleddyv, a gwaew, a bwa â deuddeg saeth. Gwerth cleddyv

gwynsaid pedair ar ugaint; or bydd breulif un ar bymtheg; o bydd grymsaid deuddeg ceinawg; gwerth pob un o'r ddau ereill pedair ceinawg.

Tair helynt rydd y sydd: llewynawg, a dyvrgi, a haid wenyn. Sev achaws y mae y tri hyny yn rhydd, wrth eu bod yn dri treiledig enivel ac na wastadant yn un lle rhagor ar ei gilydd.

Tair asgavaeth milgi: ysgyvarnawg, iwrch, a llewynawg. Sev achaws y gelwir y rhai hyny yn asgavaethau milgi, canys y cyntav a'u coto bieuvydd; onid un peth, cyvarvod cwn y brenin neu gwn yr arglwydd â'r llwdyn à gyvotai gwn mâb uchelwr: pwybynag hagen à gyvodai un o'r tri enivel a'i asgyvaetha o'i vilgi, ev a'i pieuvydd.

Tri enivel cymmaint gwerth eu troed a'u henaid: march, a hebawg, a milgi. Sev achaws yw hyny, canys hydroed yw pob un o honynt; ac enivel divwyn ac allo bydd gwedi na aller arver o honynt; ac arver o bob un o honynt y sydd o'i draed; ac wrth hyny y mae cymmaint gwerth troed pob un o honynt â gwerth ei enaid, pob un o'r tri hyny.

Tair sarâed ni ddiwygir: hon à gafo mâb gan ei dâd, a'r hon à gafo gwraig gan ei gwr am un o'r tri achaws cyvreithawl, a sarâed gwr gan ei arglwydd.

Tri achaws y sydd y dyly gwr vaeddu ei wraig: o unaw mevyl ar ei varyv, ac am gyvlavanu arno, ac am gafel gwr arall genthi. Os maedd yntau amgen no hyny, can cymerth ei ddwyn yn ei law ev ei hun ni ddyly iawn.

Tri lle y rhan cyvraith yn ddeuhanner: cyntav, o damchweinai vod dylyed a mâch arno, a gadaw o'r cynnogyn ei wlâd, y mâch à ddyly dalu hanner y ddylyed, cyd bo gwirion, am beri o hono i'r hawlwr ei gredu; a'r ail yw, o damchweinai amryson am dervyn ar wyr yn unrhyw briodorion braint gwarchadw, ac na wypai henuriaid gwlâd yr iawn dervyn rhyngthynt, rhànu yn ddeuhanner y ddylyed rhyngthynt; a'r trydydd yw, o damchweinai vod ynys rhwng dwy avon, ac na bai nes yr un no ei gilydd, eu rhànu yn ddeuhanner a ddylyant. Velly y mae cyvraith cyhyddedd: sev yw cyhydedd, pob dadlau à hebrynger yn gyhyd ac yn gystal.

Tair dirwy y sydd: dirwy ymladd, dirwy drais, dirwy ledrad. Am bob gweithred à wnel dyn ni hanfo o'r tri hyny, camlwrw a dâl amdano. Sev yw cosp am bob un o'r tri uchod tair punt; a mesur camlwrw yw naw ugaint.

Tair over groes: croes risg pren, a chroes à waharddo lwybyr, a chroes ni hebrynger â llaw. Am yr un o'r tair hyny ni ddylir na divwyn na dial.

O dri achaws y dylir amobyr i wraig: o gywelogaeth cyhoeddawg, ar ni bo na rhodd nac estyn; ac o veichogi ac o rodd ac estyn, can ni bo cywelogaeth; llathruddiaeth hevyd ev á ddylir amobyr; ac eisoes ni henyw o un o'r tri achaws; sev achaws yw wrth ei hanvod o bob un o'r ddau, o rodd ac o gywelogaeth; canys pan aeth hi gan y gwr yn llathrudd, yna ydd ymroes hi ei hun i'r gwr: o hyny ydd henyw llathruddiaeth o rodd ac estyn: o gywelogaeth cyhoeddawg pan henyw; canys cyvraith á ddywed, can ni chysgo gwr gan wraig à ddyco yn llathrudd, oni chymer gwr y tŷ vâch ganto ar ei hamobyr, taled ev ei hun yr amobyr.

Tri dyn à ddyly dalu amobyr: y neb à vo roddiad arnei, a hithau ei hun, a'r hyn a ddywedasam ni uchod.

Tri dygiad a vydd ar vâb: un ei vam ar ei llowydd: a dygiad tâd neu genedyl yn y vameglwys; a'r trydydd ev ei hun, oni orddiwedd ei vam yn vyw, o gorddiweddasai ei vam yntau ei ddwyn, a'i vod yntau yn amheuedig, cyvraith a ddywed, na ddyly ev ymddwyn, na chenedyl ei gymeryd; canys cyvraith a gydsynioedd gwybod o heni nad oedd vab y mab hwnw i'r tâd y tybygai ev ei vod yn vâb iddo; canys dug ei vam iddo, a hi yn gweled ei vod yn amheuedig.

Tri chymeriad a vydd ar vâb: un tavawd a'i gwata ac a'i cymer, ei dad ei hun yw hwnw; a'r ail yw, oni bydd byw y tâd, pencenedyl ar ei seithved o wyr, yn lle y tâd, gydag ev o'r genedyl; a'r trydydd yw, oni bai na thâd na phai cenedyl, un gwr ar ugaint o'r genedyl a'i gwata ac a'i cymer; saith yn lle y tâd, saith yn lle y pencenedyl, a saith gyda'r pencenedyl: sev yw val y mae ei gymeryd o'r pencenedyl yn ei law, a'i roddi yn llaw y gwr hynav o'r gwyr; ac velly o hynav i hynav hyd ymhen y seithved gwr hyny: nid oes noddiad arnaddynt, namyn eu bod yn genedyl or ni ddylynt rànu daiar ag ev. Un ansawdd â hyny y cymer: ac ynad a ddyly varnu yr hwn a wnelont na'i wadu na'i gymeryd. Ac velly y mae cymeryd mâb neu ei wadu. O darfai bod mâb ar arddelw y tâd yn dyoddev, ac yn mywyd y tâd hwnw nas dyco ei vam iddo; cyvraith a ddywed na ddyly y genedyl na'i gymeryd na'i wadu; canys gollyngwys hi yr amser y dylai ei ddwyn, os mynai; ac am hyny

y dywed cyvraith, na ellir dwyn mâb i varw; namyn gallu ei ddwyn o'i vam i dâd arall, os myn; can ni ddug hwnw o'r blaen. Os hithau á'i dygasai hwnw, na da na drwg vai y tâd, cyvraith á ddywed, na ddyly ev gafel tâd byth gwedi hyny, namyn hwnw; ac am hyny y dywed cyvraith, na ellir dwyn mâb i varw.

Tair celvyddyd ni ddyly mâb taiawg eu dysgu, heb genad ei arglwydd: ysgoleigdawd, a govaniaeth, a barddoniaeth. O damchweinai i vâb taiawg ddysgu un o'r tair hyny heb genad ei arglwydd, cyvraith á ddywed, na bydd ryddach no chynt; canys yn anghyvreithawl y dysgwys; ac nad oes anghyvraith à ddylyo ddyvod yn gyvraith; ac na ddylyant hwyntau wrth ddylyed mâb uchelwr ymryddâu namyn o arddelw cyvreithawl; a phwybynag ni chafo arddelw cyvreithawl i ymryddâu, bid gaeth val cynt.

Tri pheth ni ddyly taiawg eu gwerthu o bydd ar ei helw, mêl, a môch, a march ceillawg, heb gènad ei arglwydd. Rhai a ddywed, os gwerth, y dyly o'r gyvnewid ddyvod drachevyn, can nid oedd gyvreithawl y gwerthu; ac nad oedd ychydig dim à wnelid yn anghyvreithawl; eisoes mwyav a gadarnâa, na ddyly ddyvod drachevyn, namyn o gwnathoedd y mâb aillt gam, y dylyai ei arglwydd arno os mynai.

Tri phriv raniad a vydd ar dîr: rhan rhwng brodyr, adran rhwng cevndyrw, a chyhydedd rhwng cyverdyrw. Ni ddyly na nai nac ewythr na rhànu nac adrànu na chyhydeddu; sev achaws yw hyny, or na orddiweddoedd ev ail rhan, ac na ddaeth ato yntau y rhan arall. Sev fordd oedd oedd hyny; os nai vab brawd vai ev i'r ewythyr hwnw ni orddiweddoedd ev ei ran gyntav; sev oedd hòno rhan brodyr; ac na ddaeth ato yntau ran arall, oedd hòno adran cevnderw; ac velly y divernir y nai vab cevnderw, neu nai vab cyverderw. Ni ddyly cafael ateb, namyn cyttir cenedyl, yr hyn à ddywedasam ni uchod a ddylyir o dîr or à vai rhan gynt arno; tîr rhydd hagen ev a ellir ei rànu â nai ac ewythyr, ac ewythyr a nai. O dervydd i ddyn mynu adran ag arall or à ddylyed, ev a ddyly ddwyn yr avel à vu yn llaw y tâd, bei damchweinai colli peth o wir a chyvraith o hyny; ac o achaws ei ddyvod yn annilys ato, ac na wypai ei vod yn annilys pan ddathoedd ato.

Tair marw dystoliaeth y sydd: cyntav yw o honynt, o damchweinai i ddyn holi tir o âch ac edryd, o fordd arall, a dodi yn mhen tyston barnu o gyvreithau tâd, neu hendad, neu orhendad, a na bai à watai ei ddwyn ar y crair à vo yn llaw ynad ryataw oc y tadau gantynt hwy barnu cyvraith rhieni i neb y sydd yn holi y tîr hwnw, neu o àch ac edryd ydd hawl, a'i ddodi yn mhen y tyston, yr unrhyw lw à ddaw ar y rhai hyny ag ar y rhai ereill uchod; ail yw odyn; trydydd yw rhych neu fos. O dervydd bod dyn à ryveddo cymeryd dedryd gan dyst yr hyd à welo, cyvraith à ddywed yn y lleodd hyny y dylir; canys peth tragwyddawl yw: ac wrth hyny y dyly vrawd gyvreithawl barâu yn hwy no'r neb à'i barno; wrth hyny y mwynêir tyston o edryd y neb à'i rhywelai; ac wrth nad er yr hyn à welsant eu hun à atebant, namyn yr hyn à ddewis y gwyr à vu varw gantynt; wrth hyny y gelwir yn farw dystoliaeth.

Tri llysiant y sydd ar dyston: tirdra, galanasdra, a charennydd nês. Gweicdra y sydd lŷs; ac wrth ei hanvod o genedlaeth galanasdra, ni rivir namyn tri. Pwybynag à vyno lysu tyst o garennydd nês, ev a ddyly ddwyn tyston cydgenedyl; can ni ddyly estrawn ddwyn câr i neb, ac ni ddyly ddwyn ei garennydd.

Tri pheth à â rhwng dyn a thalu damdwng: cadw cyn coll, a geni a meithrin, ac arwaesav. Sev val y mae cadw cyn coll, gwedi adwaeno y colledig yr amser y colles yr eiddo, cafel o'r amddiffynwr ceidwaid ar vod y da hwnw ganto ev yn ei berchenogaeth ev cyn no'r amser hwnw: sev yw hyny cymodawg uwchlaw y drws, ac arall islaw y drws; or cefir hyny, digawn yw; ac oni chefir, advered i'r perchen yr eiddo.

Tri pheth ni ddylir eu damdwng: cîg heb groen, ac ariant heb lestyr, ac ŷd or à el i ar ysgub. Sev val y mae hyny, o chollai ddyn enivel byw, ac na orddiweddai y dyn lle bai ei dyb, namyn cîg heb groen, cyvraith a ddywed na ddyly dyn ddamdwng anivel gwelw. A'r ail yw ariant heb lestyr à gollo dyn, ni ddyly ei ddamdwng; canys unrhyw vydd pob ariant a'i gilydd: os collai yntau yn y llestyr, herwydd braint y llestyr y dyly ddamdwng. Trydydd yw bei collai ddyn ŷd ar ei golovyn, cyvraith a ddywed, na ddyly ev ei ddamdwng, namyn ei gyvryw ag à gollo.

Tri chanlyn diwall y sydd: canlyn cwyn hyd ar rwym, canlyn rhwym hyd ar varn, canlyn barn hyd ar dervyn. Deuryw ddifyg canlyn y sydd: un na chanlyner ddim; ail yw amryveilu o'r canlyn i'r llall.

Tri dyn hérwydd cyvraith ni savant

wrth à wnelont: un yw dyn meddw; ail yw mâb cyn ei bedair blwydd ar ddeg; trydydd yw dyn à gymheller o'i anvodd.

Tri braint y sydd i gynghellawr: braint castell, a braint amddifynblaid; a braint dyn disgyvraith. Sev achaws y mae braint castell iddo ev, carcharu à ddyco pan y myno; sev achaws y mae braint amddifynblaid iddo, am orvod arno ateb i orthrymder; sev achaws y mae braint dyn disgyvraith iddo ev, am nad oes i neb dasgu arno.

Tri dyn ni advwynêir dim or à ddywetont mewn llys: dall, a meddw, a byddar. Sev achaws yw, am nad gwneuthuredig dim or à wnelont yn nghyvraith.

Tri dyn à ddyly sarâed, ac ni ddylyant galanas: un yw, o dervydd tybiaw ar ddyn ladd arall, ac nas gwato, cyd boed gwirion, ac am hyny ei sarâu, ev á ddyly dâl sarâed, a phei lleddid ni chai ddim; ail yw, o dervydd i ddyn dalu cwbyl o alanas, namyn un geinawg, ac am hyny ei sarâu, ev à ddyly dâl sarâed, a phei lleddid ni chai ddim; trydydd yw caeth, nid oes alanas iddo, namyn talu ei werth, iddei arglwydd, mal gwerth llwdyn.

Dosparth Cyvraith,

à dynwyd oc yr un llyvyr o Gyvreithiau Hywel Dda.

Pwybynag à wnel avles iddo ei hun, neu ei etivedd, am dda cyfröedig, neu anghyfröedig, megis tîr a daiar, tra vo mâb o vewn pedair blwydd ar ddeg, neu ddyn meddw, neu ddyn clâv, ni saiv neb rhyw amddifyn yn eu herbyn, pan ddelont, yn eu synwyr perfaith, i adovyn y ddadyl hòno ger bron brawdwr; neu yn erbyn eu hetiveddion, os am dîr y byddai y gynhen. Canys dau ryw oed à vydd ar y gyvryw vâb hwnw; pan vo yn saith mlwydd o vewn yr oed hwnw, ni vydd plaid atebawl i neb, namyn o dair dadyl: o goddiant à wnel ev i arall, oddieithyr sarâed; ac o dîr à ennillo ev iddo ehun o le arall; ac o dîr à holer iddo o ddadenhudd, ac o âch ac edryd; a hyny gan vod arfedawg fyddlawn, à roddo arglwydd iddo gwedi bo marw ei dâd: ac yna gyntav y dichawn dyngu: oed arall y sydd ar vâb, pan vo pedair blwydd ar ddeg; ac yno gyntav y dichawn roddi a gwerthu da cyvodedig ac anghyvodedig, ac y bydd dyn oed cwbyl iddo i sevyll yn nghyvraith gorsedd a barn, herwydd cyvraith gyfredin Cymru. Dewi Brevi.

Pedair allwedd yngneidiaeth y sydd: un yw mynych ovyn dy ddysg, ail yw cadw genyd dy ddysg à gefych; trydydd yw caru ac ovni dy athraw; pedwerydd yw caru cywirdeb, a chasâu cam; a hyny er cariad Duw a'i ovn, a thremygu yr oes, o bydd heddyw, ni wyddost à vyddi evory; a hevyd cyvraith à ddywed, pan vo y tavawd yn barnu y bydd yr enaid yn crynu; ac wrth hyny, dau beth y sydd doethineb o gyvraith ynghyd; nid amgen, dysg a doethineb anianawl; ac wrth hyny y dywedir, ni bydd ynad neb er dysg, ac ni bydd ynad neb heb ddysg: sev yw hyny, er à ddysgo dyn, ni bydd ynad ev, oni bydd doethineb yn ei galon; ac er maint vo y doethineb anianawl, ni bydd ev ynad heb ddysg. Dewi Brevi.

Mae yn nghyvraith Hywel hawl, a gwrthhawl, ac arhawl, ac arabhawl. Sev yw deall hyny, megis pei damchweinai i i ddyn werthu march i arall, trwy vechni, erbyn diwrnawd, ar gafel tâl, a chwynaw am ei werth; a dodi o'r amddifynwr yn erbyn yr hawlwr, am y march à brynasai, un o'r pyncau hyn, ai y ddera, ai y llynveirch, ai y dn ysgyvaint, a bod yn llywygus; a dywedyd y dylai iddo yr hyn à varnai gyvraith iddo am yr hyn à ddotai yn ei erbyn o'r pyncau hyny; cyvraith à ddywed, na ddylir ylwyaw iddo yr ateb hwnw; sev achaws, am ei bod yn withhawl, a bod cyvraith yn dywedyd, na ddylyir dodi gwrthhawl yn erbyn hawl. Sev yw deall arhawl, or damchweinai i ddyn venthyciaw march, neu beth arall, gan ddyn, a chyn dawed y march adrev at ei berchen, cyvodi hawl o arall ar y march yn llaw benthyciwr, a gwneuthur rhyw dâl o dda i'r neb à i holai; ai rhoddi meichau ar y march i'r neb à holai, mewn diwrnawd, oni chafai warant amdano; a gwedi hyny dawed at y neb à'i benfyciawdd iddo, a ceisiaw ganto ddawed i warantu y march iddo, neu dalu y da i'r benfygiwr à daliesai i'r neb a holysai y march iddo, ni ddyly y neb à roes y march i venthyg vyned i warantu iddo, na thalu neb rhyw dda i'r benfygiwr, am luniaeth na masnach à wnelai benfygiwr yn absen y neb à roddasai y march yn menthyg; canys bod hyny yn arhawl ar y benthyg, a bod cyvraith yn dywedyd, pwybynag à venfycio enivel, na dim arall, y dyly ddawed adrev heb hawl a heb arhawl drachevyn arnynt. Deall arabhawl yw, pei damchweinai i ddyn govyn a holi peth à ddarfai ei dderbynu yn y blaen drwy dervyn cyvreithawl, ni ddyly; canys arabedd mawr a gwatwar y geilw cyvraith gwynaw am y rhyw hawl hòno mwy, ac ni wrandewir byth. Dewi Brevi.

CYFRAITH ACH.



Y fugyr uchod á ddengys i ddyn wybod dosbarth a synwyr ar ei rieni, a'i gydetiveddion, a'i blant: canys rhieni dyn yw ei dâd, a'i hendad, a'i orhendad; cydetiveddion ynt brodyr, a chevndyr, a chyvyrdyr; etiveddion i ddyn yw y rhai à hanfo o'i gorf; megis mâb, a gwyr, a gorwyr. Ac os cyvrwys vydd y dyn à vyro y fugyr enwedig uchod, pan vo marw dyn o un o'r tair âch o gorf y cyf cynnalawdyr yn ddietivedd o'i gorf, ev à wyr pwy a ddyly cafael tîr hwnw herwydd cyvraith; canys hyd y drydedd âch y mae priawd ran ar dîr, yn llys cymwd neu gantrev, ac y gellir ei holi yn y gyvryw lys hòno; ac ni ellir canlyn cwyn âch ac edryd y maes o lys dygynnull, lle bo brawdwr penadur o blaid y brenin yn eiste ac yn rhoi cyvraith, trwy vraint penaduriaeth y llys oruchel, heb neb rhyw ddifyg yn y gyvraith hòno, na neb rhyw eisieu teilyngdawd na chyviawnder; canys serthain o bynciau à berthyn ar y llys oruchel i dervynu o'r rhai à gefir eu gweled rhag llaw yn ysgrivenedig yn amlycach; ac ni ellir eu tervynu yn llys cymwd neu gantrev, o herwydd amryeilon achwyson, val y cefir ei weled rhag llaw, o herwydd na ddylir tervynu nac arver o un rhan o awdurdawd y gyvraith yn ei gilydd, ond ei gadael megis y gosoded o'r dechreu; ac o herwydd hyny y mae yn rhaid i ddyn ddysgu a manoli ar ddosparth pob rhan o'r awdurdawd, val y tystiolaethir rhag llaw.

Pwybynag à vyno gwybod beth yw cyvraith, ac ei rhànau, ac adnabod devnydd hawl, a pha wedd yr ateper i hawl a hyny ar ddeall a grym tair testyn o'r brawdlyvyr; nid amgen, tair rhan awdurdawd cyvraith, ac ar dri devnydd hawl, ac ar dri rhyw ateb y sydd yn y gyvraith; a'r llyvyr hwn à elwir gwyddor cyvraith Hywel Dda —Pwybynag à vyno ddysgu cyvraith, rhaid vydd iddo wybod beth yw cyvraith. Canys cyvraith y sydd osodedigaeth gyviawn, wneuthuredig o gyvundeb y brenin a ei deyrnas, a deall y doethon i ddosparth cynhènau amryson cyvrwng hawlwr ac amddifynwr, trwy gyvarnodedigaeth pedwar peth: arglwydd cyfredin, yngnad cadeiriawg, a dwy blaid gyndrychawl, ac yn nesav y gellid i wirionedd.

Gwedi gwypo dyn beth yw cyvraith, a phy sawl rhan awdurdawd y sydd, val y gallo ddeall pob rhan ar neilltu, a pheth a berthyn ar bob rhan; canys tair rhan yw yr awdurdawd; nid amgen, cyvraith llys benadur y brenin, a chyvraith y wlâd, ac arver o bob un ohonynt—

Ar y rhan gyntav y perthyn amlycâu braint y brenin a'r vrenines, a'u hetiveddion, a holl swyddogion y llys benadur, a thervynu pynciau ni ellir eu tervynu mewn llys cymwd neu gantrev oddieithyr pynciau à osoded i'r llys dygynnull; nid amgen, un pwngc ar bymtheg, yr hwn à gefir yn lle arall, yn Lladin, val y mae haws ei goelaw a'i weled yn ysgrivenedig.

Hysbys yw mai yn y llys benadur y tervynir amryson rhwng gwystyl a gwrthwystyl, neu osodedigaeth barn, hyd pan dderchaver ger bron canonwyr; ac yna llys dygynnull biau, a thir gweithred, a rhybuchedd, a chyvarws; a phob tîr à vo dan vraint y llys benadur, llys benadur à'i tervyna.

Llawer o bethau a ellid eu tervynu mewn llys cymwd neu gantrev, od unir yn y llys benadur am danynt, nid yw cyvraith yn cadw, hyd na aller tervynu yn y llŷs benadur, or cwynir yno am danynt; oddieithyr peth myriedig à orfo herwydd deall cyvraith ei ddwyn i'r llys i hanfo. Hevyd, tîr à holer o âch ac edryd o'r priawd ran allan a ddylir ei dervynu yn y llys benadur. Ac hyd y drydedd âch ev a ddylir holi tîr yn yr orsedd y hanfo y tîr; megis rhwng brodyr a chevnderw a chyverderw; canys pob un o'r rhai hyny a ŵyr ei ran briawdyr à ddylyo ei gafel, o herwydd cyvraith: o hyny allan nid oes briawd ran ar dîr, cyd bont briodorion; am hyny y soded herwydd cyvraith yṙhyw ddadyl hòno wrth y llys benadur; canys cwyn goruchel y gelwir hwnw, o herwydd deall y doethon.

Llyma yr achaws na ellir tervynu cwyn âch ac edryd, o'r drydedd âch allan, yn llys cymwd neu gantrev; am na ellir canlyn cwyn âch ac edryd, eithyr ar welygordd o gydgeraint, i'r neb à holo y tîr, ac à vont yn cynnal y tîr hwnw trwy yr un rhyw gyf cynnalawdyr y bo yntau yn holi rhan gyda hwy o'i blegid, ac yn gallel arwain ei âch yn ddiddifoddedig, trwy dwng henuriaid gwlâd hyd ato, ac nad el tair gwaith ar gogail. A rhag damchweinaw y rhyw dir hwnw mewn amryveilon gynghelloriaethau gwedi rhànu rhwng y welygordd, a dyvod rhan rhai o'r welygordd mewn rhyw rai o'r cynghelloriaethau, a rhan ereill mewn rhyw rai ereill o'r cynghelloriaethau, val na ellid eu cafel dan lŷs cymwd neu gantrev, y gosoded y rhyw ddadyl hòno wrth y llys benadur; mal y gellir cymhell pawb o'r welygordd drwy rym un cwyn cysylltedig i gyd-ateb i'r neb a'u holai; can ni cynghain cwynaw o orsedd i orsedd am un devnydd; na chwynaw rhag un dyn, neu ddau, neu dri, cwyn âch ac edryd o'r drydedd âch allan, gan vod mwy o'r welygordd yn cynnal y tir yn eu herbyn. Sev achaws yw hyny, ev ddamchweinai vod etiveddiaeth o dir gwedi disgyn mewn mân ranau rhwng deugaint neu driugaint o gyd-ddylyedogion, a bod un o'r welygordd, ev a'i dâd, a'i hendad, a'i orhendad, y maes o'r wlâd heb gafel rhan, os hwnw a ddelai a holi un o'r welygordd ar neilltu, od ennillai ev ddim, yno ev a gafai gystal â hwnw, er maint à vai yn ei law; canys, lle ni bo priawd ran ar dir, ni ddyly priodwr ragor â'i gilydd; ac velly yr ai ev ehunan yn yr hanner o'r holl etiveddiaeth, lle ni ddylyai ev, o herwydd cyvraith, namyn cymmaint ag un o'r cyvrivedi à vai yn cynnal y tîr yn ei erbyn; ac wrth hyny y gosoded yr hawl hòno wrth y llys benadur, lle y gellir cymhell pawb i gyd ateb. Ac os ennill a wnelai ev, yno rhoddi cynnwys iddo ev gyda hwynt: sev vyddai hyny cymmeint ag un o'r cyvrivedi à vai yn cynnal y tir yn ei erbyn. Eithyr o darfai i un wneuthur adail neu lavur arall cyvreithawl, na chychwynai erddo oddiarno, o dichawn ddangaws tu athal iddo yn lle arall cystal â'i le yntau, ped vai heb y llavur cyvreithawl arno; ac onis dichawn, rhaid vydd ei gynnwys yno, eithyr gwneuthur iawn am yr adail a'r llavur à wnathoeddid ar y tir o'r blaen; canys y trydydd prid ar dir yw llavùr cyvreithawl à wneler ar dir, y bo gwell y tir erddo; a hyny a ddyly ev ei dalu, o cheif ei ran heb gwyn, megis y dyly dalu gobyr gwarchadw.

O dervydd tybgygu gallael o vrawd, neu gevnderw, neu gyverderw, neu gyd-ddylyedawg arall, holi cyvran o dîr o'i gyddylyedawg, trwy gamoresgyn, nis dichawn o herwydd cyvraith. Sev achaws, am na ellir, trwy gamoresgyn, eithyr ennill cwbyl, neu golli cwbyl, eithyr yn un lle, pan ddisgyno anddylyedawg yn briodwr ar dîr, a dyvod dylyedawg diddifoddedig ei briodolder i holi hwnw, ni ellir gwrthladd y priodwr o'i ddylyed; am na ddifoddes ei briodolder; na gyru y llall y maes, am ei ddisgyn yn briodwr: a llyna yr un lle y cefir cyvran trwy gwyn camoresgyn. Os y dylyedawg a oddev yr anddylyedawg i gynnal tîr yn ei erbyn, drwy dair oes rhieni o bob parth, yn un orsedd cymwd neu gantrev ag ev, ni wrandewir y dylyedawg gwedi hyny; canys argauedigaeth dragwyddawl yw. Os yntau a vydd mewn gwlâd arall, o achwyson cyvreithawl, pa amser bynag y dêl, o vewn y nawved dyn, ev a wrandewir, ac a roddir cynnwys iddo, val y dywesbwyd o'r blaen.

A llyna dalym o bynciau à berthyn ar y rhan gyntav o awdurdawd cyvraith.

Ar yr ail rhan o'r awdurdawd yr amlycêir y gyvraith osodedig à osoded rhwng y brenin a gwyr y deyrnas, a rhwng pob rhai o'r rhai hyny a'u cilydd; ac yn hòno y mae tair colovyn cyvraith, a gwerth gwyllt a dôv, y rhai y harvero dynion o honynt, a chyvraith tîr a daiar, a theithi mâch a chynnogyn, a devodau cyvreithawl, a llawer o bynciau ereill, val y mae y brawdlyvyr yn eu dangaws; a'r rhai hyny oll a orvydd eu gwybod, a'u deallu yn llwyr, ac yn vanol, cyn bo teilwng dyn yn vrawdwr mewn cyvraith.

Yn y drydedd ran o'r awdurdawd y mae rhan o bob un o'r ddwy gyvraith; o gyvraith y llys ac o gyvraith y wlâd, yr hwn a elwir yn arver cyvraith. Ac yn y rhan hòno y mae amser i ddechreu amryveilon holion; val nawved dydd mai neu ragvyr, am dîr a daiar o âch ac edryd; neu at ovyn dadyl ebryvygedig; a chynnal amser i dystu, neu i alw gwybyddiaid, neu eu llysu, neu eu gwrthneu; neu amser ymwystlaw a barn. A'r rhan hòno a ddengys cadw modd pob dadyl rhag gwallawgair, neu anhysbysrwydd, neu lithraw amser; a hyny drwy ymhawl, val y dewiso gwyr y llŷs a'r brawdwyr, a'u gair tra gair, a'u gwers tra gwers.

Gwedi y gwelo dyn bob rhan o hwn ar neilltu, a phob testyn yn mhob rhan, a phob gair yn mhob testyn, haws vydd iddo ddeallu cyvraith; canys ni wyr cyvraith onid y neb à wypo ei deallu. Gwedi gwypo ev hyny oll, yna y mae iddo ev wybod gwneuthur hawl ac ateb.

Pwybynag à vyno gwneuthur hawl, rhaid vydd iddo wybod by sawl devnydd hawl y sydd. Canys tri devnydd hawl y sydd: golwg, a gair, a gweithred. Er bod golwg a gair a gweithred yn dri devnydd hawl, nid ydyw cyvraith yn dywedyd vod pob golwg a phob gair a pob gweithred yn ddevnydd hawl; wrth hyny rhaid yw gwybod pa rai y sydd ddevnydd hawl, a pha rai nid ydyw.

Ac yn gyntav am yr olwg y mynegir, val y mae yn y brawdlyvyr yn dywedyd, tair golwg a ddygir yn nghyvraith: golwg tyst o'i dystoliaeth, a golwg mynegwr o'i vynag, a golwg llygatrydd celus, am ladd, neu losg, neu ledrad. Sev modd y deallir hyny: pan holo dyn beth i arall trwy wybyddiaid, y gwybyddiaid hyny a eilw cyvraith yn dyston yn y lle hwnw; canys pwybynag a allo ddwyn tystoliaeth, iawn yw ei alw yn dyst; a chyvraith a ddywed y dichawn gwybyddiaid ddwyn tystoliaeth yn erbyn gwâd ac amddifyn; ac y dichawn ddwyn tystoliaeth am à vu cyn ymhawl; a chyda hyny, y dichawn ddwyn tystoliaeth yn llawer lle; ac wrth hyny y gellir eu galw hwyntau yn dyston. A phan dyngo y rhyw dyst hwnw, rhaid vydd iddo dyngu gwybod a gweled yr hyn à dyngo, val y dywed cyvraith; canys llw gwybyddiad yw tyngu gwybod a gweled yr hwn à dyngo. A llyna ollwng tyst o'i dystoliaeth; achaws trwy ei dystoliaeth ev am yr hyn à welas y dylynir yr hawl hòno; velly y dywed cyvraith vod yn ddevnydd hawl ei olwg ev o'i dystoliaeth. Llw tyst arall, megis tyst ar wallawgair, yw tystu iddo gynt yr hyn y bo yn ei dyngu.

Ail yw golwg mynagiad o'i vynag; sev modd y deallir hyny: o dygir da yn lledrad rhag dyn, a'i wadu o'r llovrydd, a dyvod y colledig a mynagwr ganto, a lliwaw ar y llovrydd y lledrad; llw y mynagwr hwnw yw tyngu gwybod a gweled ar y llovrydd y lledrad; a hwnw yw golwg mynagiad o'i vynag; ac o rym yr olwg hòno y dylynir yr hawl ar y llovrydd, ac y gyrir dan raith gwlad; ac am hyny y gelwir yn ddevnydd hawl; a hòno yw yr ail olwg à ddygir yn nghyvraith.

Trydydd yw golwg llygatrydd celus, am ladd, neu losg, neu ledrad; sev modd yw hyny: o dervydd i ddyn vod yn afeithiwr, drwy lygatryddiaeth; megis gweled lladd dyn, gan ei oddev, devnydd hawl vydd i rieni y lladdedig hwnw, a'i gydetiveddion, ar yr afeithwr hwnw; canys iddynt hwy y telir tâl am afeithiau, a gwad am lovryddiaeth hevyd; ac iddynt, ac i'r genedyl, os holant, a chamlwrw i'r arglwydd; can nid oes am afaeth, heb weithred llaw neu droed, i'r arglwydd namyn camlwrw.

Ail devnydd hawl yw gair; canys tri gair celus y sydd: gair y bo gweli tavawd am dano, a gwallawgair mewn llŷs, a thavodryddiaeth, am ladd, neu losg, neu ledrad.

Sev modd yw hyny: or dywed un gair hagyr wrth vrenin, devnydd hawl i'r brenin a vydd arno; canys ev ddyly talu camlwrw yn ddeuddyblyg iddo; neu or dywed un gair hagyr wrth efeiriad brenin, yn un o'i dair gwyl arbenig, neu yn darllen llythyr, neu yn ysgrivenu rhag bron y brenin; ac i vrawdwr, pan ymwystler yn ei erbyn am ei iawn varn, os ev a'i cadarnâa; devnydd hawl vydd i'r brawdwr arno; canys ev a ddyly dalu sarâed iddo: hevyd ev a ddywedir y dyly y brenin gosb am air hagyr à ddyweto dyn parth a'r llall mewn eglwys, mewn mynwent, ac mewn gorsedd gyvreithawl; devnydd hawl vydd i'r brenin arno o gamlwrw, cyd ni chafo y neb y dyweter wrtho ddim iawn.

Ail gair celus yw gwallawgair mewn llŷs; a hyny vydd o'r tri modd hyn: gair gwall yn holi, o'r rhwyv neu eiseu; gair gwall yn amddifyn o'r rhwyv neu eiseu; a gair gwall yn gwadu. O'r cyntav y cyll hawlwr ei hawl o'r à berthyno wrth y gair, or dygir tyston yn ei erbyn, ac ni chyll gamlwrw; can nid oes gwynau celus eithyr tri: o'r ail neu o'r trydydd y cyll amddifynwr gamlwrw, a divwyn yr hawl or à

berthyno wrth y gair y tystwyd o'i wall; a devnydd hawl à vydd i'r brenin o gamlwrw arno. Sev yw deall gair rhwyv, dywedyd mwy no mesur y gyvraith; deall gair eiseu yw dywedyd llai no mesur y gyvraith.

Trydydd gair celus yw tavodryddiaeth, am ladd, neu losg, neu ledrad; sev modd yw hyny: o dervydd i ddyn, drwy gydsynied, vynegi i'r llovrydd ba le bai y dyn à leddid, a'i gyfelybion yntau, devnydd hawl a vydd i rieni y lladdedig hwnw, a'i gydetiveddion, ar yr afeithiwr hwnw; canys iddynt hwy y telir tâl am afeithau, a gwâd am lovryddiaeth hevyd iddynt, ac i'r genedyl hevyd, os holant. Rhai a ddywed, na ddyly cenedyl dâl dros afeithau; canys na ddyly cenedyl namyn tâl galanas a thâl sarâed; ac na heuyw arian diwad o un o'r rhai hyny: cyvraith a ddywed, mai i rieni a chydetiveddion y lladdedig y telir tâl am afeithau à voynt gyvaddev: hevyd, cyvraith a ddywed, holl afeithau gweithred, o afeithau galanas, neu losg, neu ledrad, dirwyus vydd pob un o honynt: tavodryddiaeth, a llygadryddiaeth, heb weithred llaw neu droed, camlyryus vydd y neb à'u gwnel. Tâl dros afeithau galanas addevedig, i rieni a chydetiveddion y lladdedig y telir o gyvraith, or cwynant amdano. Ac iddynt hwy, ac i'r genedyl hevyd, y dylir talu y rhaith i wadu llovryddiaeth, neu dalu galanas iddynt.

Trydydd devnydd hawl yw gweithred; ac er bod cyvraith yn dywedyd vod gweithred yn ddevnydd hawl, nid ydyw cyvraith yn gallel dangaws na mynegi by sawl gweithred y sydd devnydd hawl; namyn pob gweithred à wneler yn erbyn cyvraith, devnydd hawl yw i'r neb y gwneler gweithred iddo ar y neb a'i gwnelo; megis trais, lledrad, ac anghyvarch, a'r cyfelybion; oddieithyr gweithred ci cynddeiriawg, a'i gyfelybion. Hevyd y mae tri gweithred ar brawv i'r neb à'i dylyo, megis y dywed cyvraith yn y brawdlyvyr am lavur cyvreithawl, neu anghyvreithawl, à wneler am dîr, a'i gyfelybion.

Gwedi gwypo dyn by sawl devnydd hawl y sydd, rhaid vydd iddo wybod pa vodd yr holir, a pha vodd yr atebir; canys o bedwar gair a'u perthynasau y holir, ac o dri gair yr atebir. Sev ynt y pedwar gair y holir, nid amgen: Pwy à holych, beth à holych, pa vaint à holych, a pha amser y holych. Gwedi gwypo dyn hyny, rhaid vydd iddo wybod beth a berthyn wrth bob gair ar neilltu. Wrth y gair cyntav, nid amgen, Pwy à holych, y perthyn hen-wi henw priodawl yr hawlwr, a henw priodawl yr amddifynwr. Hevyd py at y bo dy gwyn; megis wrth swyddogion yr orsedd hòno, neu wrth gynghellawr; megis hyn, Namyn Ithel ab Cyvnerth, cyndrychawl yn canlyn cwyn wrth swyddogion yr orsedd hon; (ac o myn dywedyd, yn bènav swyddawg, wrth y cynghellawr, neu wrth y dystain, os yn y llŷs dygynnull y bydd; ac onis myn, nid oes na gwall nac eiseu, er na ddyweter) rhag Tudyr ab Gronwy yn nghyvleu amddifynblaid. Hyny a berthyn wrth y gair cyntav o'r hawl; wrth yr ail gair, nid amgen, Beth à holych, y perthyn henwi pa fordd yth wahanwyd o'th da: ai o drais, ai o ledrad, ai o anghyvarch, ai o lôg, ai o adneuaeth, ai o venfyg, ai by argywedd bynag à wneler it', neu ar dy eiddo; a hevyd, pa ryw dda wynt; ai aniveilaid, ai aur, ai ariant, ai dylyedogaeth o dîr a daiar drwy un o'r ḍadenhuddiau, neu o gamoresgyn o un o'r tri, ai trwy ach ac edryd; os o lôg, neu adneu, neu venfyg, henwi pa ryw gadernid y sydd ar ei gafel drachevyn; neu os drwy gyvnewid, neu ammod, neu luniaeth arall, henwi pa ryw gadernid y sydd arnynt; megis hyn: Drwg ddevnydd ac achaws, nid amgen fodd vu, noc i'r Tudyr ddwyn march coch yn anghyvarch arno ev. A hyny a berthyn wrth yr ail gair. Wrth y trydydd gair y perthyn, nid amgen, Pa vaint à holych; sev yw hyny, os aniveilaid, mynegi pa rivedi à voynt, a pha deithi arnynt; os march, neu eidon, cyn ei gyvlawn deithi, mynegi ei oedran; os aur, neu ariant, mynegi pa rivedi voynt; os argywedd, pa vaint, a pha vraint vo yr hawlwr; os am goed, pa rivedi voynt, a pha ryw goed voynt, ai derw, ai cyll, ai drain, ai pob un o honynt, ai coed ereill, os tîr a daiar, henwi pa rivedi o erwydd; a pha beth a ddylir dros yr eiddo, neu dros yr argywedd, ai arian cyvraith, ai arian cwtäon; megis hyn: Yr hwn varch oedd gyvlawn deithiawl, yr hwn a eilw cyvraith yn varch tom, ac a gywerthyddiai driugaint o'r ceinogau cwtäon. A hyny a berthyn wrth y trydydd gair. Wrth y pedwerydd gair, nid amgen, Pa amser y holych, y perthyn mynegi y dydd a'r vlwyddyn yth wahanwyd o'th eiddo, neu y gwnaethbwyd yr argywedd, neu yr ammod, neu y lluniaeth; neu os cyvnewid, pa ddydd, a pha le y bu; neu os llôg, neu adneu, neu venfyg, pa ddydd, a pha vlwyddyn y dylesid ei gafel drachevyn, neu dalu dros ei gyvnewid; os tîr, pa ddydd yth oresgynwyd ohono, a pha le y mae y tîr, a pha vraint y sydd iddo;

a mynegi pa un o'r tri diebryd yth dioberwyd o'th eiddo, neu yth argyweddwyd; a mynegi py ryw bersonoliaeth vo i'r hawlwr, neu i'r amddifynwr, yr amser y gwnaethbwyd yr anghyvraith. A hyny a berthyn wrth y pedwerydd gair o'r hawl; megis hyn, henw y dydd a'r vlwyddyn y gwnaeth ev yr anghyvarch: Dydd mawrth nesav gwyl Luc diweddav à lithroedd yn y vlwyddyn hon, lle yr oedd y march, pan ddycbwyd dan vraint gwialen y gynghellorıaeth hon, ac à elwir Glan Marlais, a bod Ithel yn berson cyvreithawl i ovyn, a Thudyr yn berson cyvreithawl i ateb; a bod cyvarch arno ev ar ddydd mawrth nesav yn ol calangauav, à lithroedd yn y vlwyddyn hon; a negydd vu, ac herwydd y negyddiaeth ei vod ev yn tynu yn un o'r tri diebryd, nid amgen, dwyn peth ar ddyn heb adver, a deisyv gwrtheb; ac o bydd neb ryveddo gosawd dydd cyvarch ar yr hawl, heb ei vod yn berthynas i un o'r pedwar gair rhwym, rhaid yw ei enwi; canys ni byddai diebrydig nes ei vod yn annegydd, ac na ddoed brawd ar negyddiaeth, nes ei gyvarch; ac nad oes achaws hawl heb ddiebryd; ac wrth hyny, rhaid yw henwi y dydd cyvarch.

Gwedi y gwypo dyn pa vodd y holir, rhaid vydd iddo wybod pa vodd yr atebir; canys o dri gair yr atebir, o wâd, neu addev, neu amddifyn.

Am y gwâd cyntav y treithir. Tri rhyw wâd y sydd: gwadu oll y ddadyl à ddoter ar ddyn; a hòno à wedir drwy raith osodedig, heb na mwy na llai. Ail yw addev rhan o ddadyl y ddrygweithred, a a gwadu cwbyl o'r gweithred; a hòno a wedir gan chwanecâu rhaith osodedig; megis yn ngholovnau cyvraith am lovryddiaeth, hyn y dyngai degwyr a deugaint, gan wadu llovryddiaeth a'i hafeithau yn hollawl; yna y twng cant, neu ddeucant, neu drichant, gan wadu llovryddiaeth, ac addev afaeth: sev modd y gellir hyny, anhaws vydd credu y neb à addevo ran o ddadyl y ddrygweithred, no'r neb à wado y ddadyl oll; ac wrth hyny y chwanecêir à vo wrth vraint yr hwn à addevo. Trydydd yw addev rhan, a gwadu rhan arall, heb weithred ynddo; a hòno a wedir gan leiâu rhaith osodedig; megis mewn mechni, llw mach ar seithved o'r dynion nesav i werth, gan wadu y vechni oll; yna y twng ev ehun, gan wadu rhan ac addev rhan arall o'i vechni; sev modd y deallir hyny: haws vydd ei gredu herwydd iddo addev rhan o'i vechni, no phei gwatai y cwbyl; canys rhag talu y gwedir; ac am hyny y lleiêir rhaith arno; ac herwydd nad oes drygweithred ynddi; cyfelyb i hyny, megis pei holai ddyn bunt i arall, ac addev o hono y lleill chweugaint, a gwadu chweugaint arall; yna y gwedir gan leiâu rhaith osodedig; lle tyngai wythwyr a deugaint gan wadu puut, hanner y rhaith vydd eiseu am yr hyn à addevoedd; can nid oes gynghaws gan addev. Ac velly pob gwâd a vydd cwbyl wrtheb i'r neb à'i harddelwo, tan dalu cwbyl raith, ac à berthyno wrth vraint yr hyn à holer, na llw un dyn, na llw lliaws. Lle bo un tavawd yn gyru, ac arall yn gwadu, llw un dyn y sydd ddigawn i wadu hyny, ar amser gwrthdwng, lle perthyno; rhaith osodedig a'i gwata. Od enwir bangor ar yr hawl yn gadernid ei harchwiriaw, megis briduw, neu vechniaeth, neu wybyddiaid, ammodwyr, a'u cyfelybion; y rhai hyny oll drwy raith osodedig y gwedir pob un o honynt; a hyny herwydd braint y bangor à osoter i archwiraw yr hawl; ac nid o herwydd maint y ddylyed yn y lle hwnw.

Ail gwrtheb yw amddifyn. Tri rhyw amddifyn y sydd: un yw, na wrtheber yn anamserawl i'r govyn. Sev modd y deallir hyny, nid amgen, cadw amser; megis y gallo archwiraw i ddedryd gwlâd; eithyr lle perthyno côv llŷs, nad oedd gollamser yr amser ei hamddifynwys, neu y gwadwys, neu 'y gwrthebwys yr hawl, megis na wrtheper cyn ei holi, neu na thalai wâd yn oed y gyvraith, neu nad amddifynai, cyn ateb i'r devnydd, neu na lysai, neu na wrthneu, neu nad ymwystlai yn amserawl, a'r cyfelybion: megis y dywed cyvraith yn ei harveron; canys cyvraith a ddywed vod yn rhaid cadw amser yn mhob peth. Ail yw amddifyn mal nad atepo byth i'r hawl; sev modd y deallir hyny, megis bei damchweinai wrtheb i hawl, gan allu provi, drwy un o'r tervynau uchod, vod gwall dadlwriaeth, à vai yn cyvladd â grym a devnydd y ddadyl o gwbyl, hyd na bai yn pwysaw ar vod dadyl nac arver dadlwriaeth, megis gwyddwaledd cywlad, neu arab hawl, neu hawl heb berchen, neu golli amser, megis y bai yn argauedigaeth dragwyddawl, a'i chyfelybion. Trydydd yw amddifyn gan ateb, mal na choller dim o yr hawl. Deall hyny yw, pan wrthepai amddifynwr gan dystu gwallawgair neu anhysbysrwydd ar hawlwr, oddieithyr colled tragwyddawl, neu dystu hawl dra blwyddyn, neu wrthhawl yn erbyn hawl, neu ovyn dylyed cychwynawl yn y dyddiau deddvon, neu ovyn tîr a daiar yn amser caeth cyvraith, yr hyn a ddisgyn yn

argauedigaethau amserodd; ac yna y mae cènatâedig cyrchu cyvraith o newydd.

Ni chaua cyvraith rhwng dyn a'i dîr dylyed yn llai ysbaid no thair oes rhieni o bob parth; a hyny yn dangneveddus. Sev yw tair oes rhieni, naw ugaint mlynedd; triugaint mlynedd yn mhob oes.

Amryveilion bethau gwiwgov oc yr un llyvyr.

Saith esgobdy y sydd yn Nyved: un yw Mynyw, yn eisteddva arbènig yn Nghymru; ail yw Llan Ismael; trydydd yw Llan Degeman; pedwerydd yw Llan Ussyllt; pymmed yw Llan Teilaw; chweched yw Llan Teulydawg; seithved, Llan Ceneu. Abadau Teilaw a Theulydawg, ac Ismael, a Degeman, a ddylyant vod yn llythyrawl urddon. Ebediw pob un o'r pedwar hyn, deuddeg punt; ac i arglwydd Dyved y telir; a'r neb à ddel yn eu lle â'i tâl. Mynyw a ddyly vod yn rhydd o bob dylyed. Llan Ceneu, a Llan Ussyllt, a ddylyant eu bod yn rhydd o ebediw, can nid oes tîr iddynt. Y neb à wnel gwaed ar un o abadau yr eisteddväau arbènig vry, taled iddo saith bunt, a golchyddes o'r genedyl, er gwaradwydd i'r genedyl, ac er cadw côv am y dial.

Pan symudawdd Hywel Dda gyvreithiau cyfredin Cymru o ddull Dyvnwal, tri llyvyr a osodes: un wrth ei lŷs beunyddiawl breswyl iddo ei hun; a'r ail yn Ninevwr, o vraint Deheubarth; y trydydd yn Aberfraw, o vraint Gwynedd a Phowys. Amryval vreinnau a osodes i amryveilon lyvrau: a hevyd, yn Ngwynedd a Phowys un brawdwr swyddawg, a chyvraith pencenedyl, a chyvraith..... ac alltudion, a'r dadenhuddau byrion, a phrawv i hawlwr, a dadyl ymwrthrym, ac oed wrth borth: ac ni osodes ev yn llyvrau Deheubarth un o hyny byncau dywededigion: ac ev a wahanawdd amryveilon vreinnau i amryveilon drevydd, a chymydau, a chantrevodd rhagddywededigion. Dewi Brevi.

Pan adnewyddawdd Hywel Dda, brenin Cymru, gyvreithau Cymru yn hollawl, ev a gadarnâoedd amryveilon vreinnau i amryveilon ddynion o'i deyrnas ev. Ac yn gyntav i bob arglwydd èglwysig, megis archesgob Mynyw, neu esgob, neu abad, y cenatâoedd braint breninawl i gynnal dadleuodd ar eu lleygion, trwy gyvraith gyfredin Cymru. Gwedi hyny ev a genatâoedd i bob pènaeth or à vai iddo gymwd, neu achwaneg, gynnal breninawl lys peunyddiawl o swyddogion breiniawl yn y rhivedi y myno, megis iddo ei hunan; a braint i gynnal breninawl lŷs o ddadleuodd yn ei wlâd ar ei uchelwr. A gwedi hyny ev a genatâoedd i bob uchelwr or à vo yn cynnal ei dîr prïodawl, dan ei arglwydd, vraint ei dîr, ac arglwyddiaw ei vileinaid, herwydd cydwedd ammodawl yn Neheubarth, a chaethiwed tragywyddawl yn Ngwynedd: taiogau y brenin a ddylir eu cynnal herwydd braint a chyvraith y daiawgdrev y boynt yn preswyliaw ynddi; a hyny herwydd gwasanaeth y daiawgdrev. A gwedi hyny ev a genatâoedd i bob dyn or à vai heb swydd vreninawl, neu vraint tîr iddo, y braint anianawl y ganed ynddo.

Llyma lyvyr o gyvraith à wnaeth Hywel Dda, yn y Tŷ Gwyn ar Dav yn Nyved, yr hwn y daeth yno o wys Hywel chwegwyr doethav o bob cymwd yn Nghymru o leygion; a saith ugaint baglawg, o archesgyb, ac esgyb, ac abadau, a phrioriaid; o ddoethion Cymru oll ev a wnaethbwyd y deuddeg doethav ar neilltu, i wneuthur y gyvraith; a'r un ysgolâig hynotav o Gymru oll i ysgrivenu y gyvraith, ac i edrych rhag gwneuthur dim yn erbyn cyvraith eglwys na chyvraith yr amherawdyr. Llyma henwau y gwyr lleygion hyny.

Morgeneu Ynad.
Cyvnerth, ei vâb.
Gweiri vâb Cyviawn.
Gronwy vâb Moriddig.
Rhewydd Ynad.
Iddig Ynad.
Gwiberi Hen ò Iscenain.
Gwrnerth Llwyd, ei vâb.
Meddwon ail Cerisg.
Gwgawn Dyved.
Bledrws vab Bleiddyd.
Gwyn Vaer, y gwr oedd

berchenawg ar Lantavwin bioedd y tŷ y gwnaethbwyd y gyvraith ynddo. A Blegewryd archdiagon Llandav a oedd yr ysgolâig; a doctor yn nghyvraith yr amherawdyr ac yn nghyvraith yr eglwys oedd ev.

Gwedi darvod gwneuthur y gyvraith oll, a'i hysgrivenu yn gwbyl, ev a aeth Hywel Dda, a theyrnedd o Gymru gydag ev, a Lambert esgob Mynyw, a Mordav esgob Bangor, a Chebur esgob Saint Assaph, a Blegewryd archdiagon Llandav, hyd at Anestacius hyd yn Rhuvain, i ddarllen y gyvraith, ac i edrych a oedd dim yn erbyn cyvraith Duw ohonei; ac am nad oedd

dim yn gwrthwynebu iddi, hi a deilyngwyd, ac a elwid yn gyvraith Hywel Dda o hyny allan.

Oedran yr Arglwydd Iesu Grist yr amser hwnw, naw cant mlynedd a phedair ar ddeg. A llyma y gwersau à wnaeth Blegewryd yn dystiolaeth ar hyny:

Explicit editus legib; liber bene fenit;
Qu'e regi scripcit Blaugoridus et quoq; fuit
Hweli turbe doctor' tunc legis in urbe
Cornando tunc iudice cotidiano
Rex dabat ad p'tem dexteram
Nam sum'at artem.

T. D. 282.

Sev oedd oed Crist pan aeth Hywel Dda vrenin i Ruvain i gadarnâu ei gyvreithiau, drwy...:...awl veddiant, xiiii a lx c. mlynedd. Oed Crist xl a lx c. mlynedd pan vu varw Hywel Dda penav moliant yr holl Brydeiniaid.

T. D. 258.

CYVREITHIAU HYWEL DDA

YN OL

HEN GYFYSGRIF

O EIDDO

YSGOL Y CYMRY YN LLUNDAIN.

In nomine Trino hoc opus incipio. Amen. Amen Amen.

HYGWEL DA MAB CADEL, ty6ysa6g CYBRU ol, a g6eles y Cybry yn camarmeru o'r cyvreitiau ac y dyvyn6s ato c6eg6yr o pob cymod yn y ty6ysogaet; y ped6ar yn leygion, a'r dau yn yscolêigion. Sev aca6s y dyvyn6yd yr yscolêigion rac gosa6d o'r leygion dim a bai yn erpyn yr yscrytyr glân. Sev amser y daetant yno y gara6ys; sev aca6s y daetant y gara6ys 6rt dylyu o pa6b bod yn ia6n yn yr amser glân h6n6, ac na g6nelynt cam yn amser gleindid. Ac o cyd cycor a cydsyniedigaet y doetion a daetant yno, yr hen cyvreitiau a ystyriasant; a rai onadynt a gada6sant i redeg, a rai a emendäasant, ac ereil yn c6byl a dileasant, ac ereil o ne6yd a gosodasant.

A g6edi honi onadynt y cyvreitiau a barnasant eu cad6, Hyg6el a rodes ei a6durda6d idynt, ac a gorcymyn6s eu cad6 yn craf. A Hyg6el a'r doetion a buant y cyd ag ev a gosodasant eu hebentit a'r hon Cybry ol ar y neb ni cad6ai y cyvreitiau; ac a gosodasant eu hebentit ar yr ygnad a cymerai diobryd bra6d, ac ar yr arcl6yd a ei rodai ido ar ni g6ypai tair colovyn cyvrait, a gw6ert g6ylt a dov, a pob pet or a pertyn arnadynt or y mae raid i dynion armer onadynt.

A'R LYS a cymyrt decreu, ac a gosodes ped6arg6yr ar ugain o g6asanaetg6yr yn l$\hat{y}$s.

S6ydg6yr y Brenin.

Penteulu	Penhebogyd
Efeiriad	Bra6dg6i'l$\hat{y}$s
Dystain	Peng6astra6d
G6as ystavel	Medyg
Bard teulu	Truliad
Gosteg g6r	Drysa6r
Pencynyd	C$\hat{o}$g
Medyd	Cang6ylyd

S6ydgwyr y brenines.

Dystain y brenines
Efeiriad y brenines
Peng6astra6d y brenines
G6as ystavel y brenines
La6mor6yn
Drysa6r y brenines
Cog y brenines
Cang6ylyd y brenines

Y s6ydogion a rivasam ni ucod di6edav ar b6yd ynt.

Teirg6ait yn y bl6ydyn y dylyant y ped6ar s6yda6g ar ugaint ucod cafael her6yd cyvrait eu bretyng6isg y can y brenin, ac eu lieing6isg y can y brenines: nadolig, a pasc, a sulg6yn.

Y brenin a dyly rodi i'r brenines traian a cafo o ennil o tir a daiar; ac y mely g6asanaetg6yr y brenin a dylyant traianu a g6asanaetg6yr y brenines.

G6ert y brenin y6 ei sarâed teirg6ait. Tair ford y g6neir sarâed i'r brenin. Un y6 pan torer ei na6d, pan rodo na6d i d$\hat{y}$n a'i lad; aral y6, pan del dau brenin ar eu cyd tervyn o aca6s ymarmol, ac yn g6yd y dau brenin a'r deulu lad o g6r i'r nail g6r i'r lal; trydyd y6 camarmeru o'i g6raig, a hono a dercevir ar bod i hanner yn m6y.

Sarâed brenin Aber Fra6, mal hyn y telir: can bu6 6rt pob cantrev yn ei arcl6ydiaet, a g6ialen aur cyhyd ag ev ehun,

a can brased â'i bys y bycan, a cla6r aur cyvled â'i g6yneb, a can te6ed ag e6in amaet a bo amaet sait blyned.

Ni telir aur namyn i brenin Aber Fra6.

Tair ford y sarêir y brenines: Un y6 tori y na6d a rodo; aral y6 ei tara6; y trydyd y6 cribdeilia6 pet a'i la6. A tryderan sarâed y brenin a telir idi hi am ei sarâed; a hyny heb aur heb ariant.

Y brenin a dyly bod yn ei cydymteitas un dyn ar pymteg ar ugain yn marcogaet: y ped6ar s6yda6g ar ugain, a'r deudeg gwestai, heb ei teulu, a'i g6yrda, a'i g6eision, a'i cerdorion, a'i acanogion; a hyny a gel6ir goscord y brenin.

Edlig y6 yr h6n à dyly g6ledycu g6edi y brenin; ac a dyly bod yn anrydedusav g6edi y brenin a'r brenines. Ev a dyly bod yn mab, neu yn nai i'r brenin. Ei le yn y lŷs y r6g yr osb a'r penhebogyd, yn c6ecedg6r ar saig y brenin. Ei lety yn y neuad, a'r mac6yaid y cyd ag ev; a'r cynnutai yn cynneu tân, ac yn cau y drysau; a'i anc6yn yn dimesur ar b6yd a lyn, a'i hol traul o covrys y brenin, hyd yn oed ei fr6yn, a'i meirc, a'i c6n, a'i modr6yau, a'i tlysau, y can y brenin; a'i arvau hevyd. Ni dyly yntau rodi dim o hyny heb caniad y brenin. A pan bo mar6 yr edlig ev a dyly gada6 ei meirc a'i c6n i'r brenin, can ni dyly ev talu ebedi6, namyn h6n6. Sev aca6s nas dyly 6rt ei bod yn aela6d i'r brenin. Sev y6 aelodau y brenin ei meibion, a'i neiaint, a'i cevndyr6. Rai a dyg6ed bod yn edlig pob un o'r rai hyny. Ereil a dyg6ed nad edlig neb namyn y neb y rodo y brenin ido gopait a g6rtdryciad. Trydydyn y6 à dyly cyndal cymedac yn lŷs; a'r g6asanaetg6yr a dylyant sevyl rac ei bron yn ei g6asanaet, megis rac bron y brenin. Ni dyly myned un nôs i 6rt y brenin, os myn.

G6ert edlig y6 traian g6ert y brenin. Ei sarâed y6 traian sarâed y brenin, heb aur. Na6d yr edlig y6 d6yn dŷn hyd yn diocel. Ebran ei marc y6 dimesur. Ei c6n un g6ert â c6n y brenin. Yr edlig, a'r rai rydyg6edasam ni ucod a bydant ar y braint h6n6 yny cafont tîr; a g6edi hyny 6rt braint y tîr à cafont yd â eu braint 6yntau, eityr hyn: O derbyd idynt cafael bileintir, braint y tîr à dercaiv yny bo tîr ryd. Yn y tair g6yl arpenig nid oes dylyed i neb g6asanaetu arno ev; ac evo a dyly cafael ei g6asanaet yn râd.

PEDWAR g6yr ar deg y syd yn y lŷs: ped6ar onadynt îs cory, a deg uc cory.

CYNTAV y6 y brenin, à dyly eisted yn nesav i'r celvi; ac y nesav ido yntau y cycela6r; a g6edi hyny yr osb; a g6edi hyny yr edlig; a g6edi hyny y penhebogyd, a'r troedia6g i am y dysgyl ag ev; a'r medyg yn bon y colovyn, i am y tân ag ev; yn nesav i'r celvi aral yr efeiriad teulu 6rt bendiga6 y b6yd a canu y pader; a'r colovyn u6c ei pen y dyly y gosteg6r ei maedu; yn nesav ido yntau yr ynadlŷs; yn nesav ido yntau y bard cadeiria6g; y gov lŷs yn pen y mainc r6g deuglin yr efeiriad; y penteulu a dyly eisted ar y tal isav i'r neuad, a'i la6 as6 ar y taldr6s; a'r hyn à myno o'r teulu y cyd ag ev; a'r rai ereil o'r part aral i'r dr6s; y bard teulu ar neilla6 y penteulu; y peng6astra6d i am y celvi â'r brenin; y pencynyd i am y celvi a'r efeiriad.

Penteulu a dyly bod yn mâb i'r brenin, neu yn nai, neu yn cyvuc g6r ag y galer penteulu o hano. Ni dyly mâb ucelg6r bod yn penteulu; sev aca6s nas dyly, 6rt myned ei braint 6rt y brenin, ac nad a un mâb ucelg6r. Wrt hyny y dyg g6yr G6yned y penteulu o riv y ped6ar s6yda6g ar ugain i a tan y dystain. Ei g6ert y6 traian g6ert y brenin. Ei sarâed y6 traian ei sarâed; eityr yr aur. Ei na6d y6 d6yn dŷn hyd yn y diocel, g6edi g6nel y cam. Ei le y6 â'i la6 as6 ar y dr6s. Ev a dyly dodi y telyn yn la6 y bard teulu yn y tair g6yl arpenig. Ei lety y6 y tŷ m6yav yn y trev, a cypermedav; ac y cyd ag ev y rai à myno o'r teulu, a'r leil y cylc ei lety yntau yny bo prydbert ido ei g6neutur ei raid. Yr eilsaig anrydedusav yn y lŷs a dyly ei cafael; a hyny yn cyntav g6edi y brenin. Ei anc6yn yw tair saig, a tri cornaid o'r lyn goreu à bo yn y lŷs. Traian à g6neler îs y cynted o cefir dir6y amtano ev a'i dyly. O derbyd i dyn g6neutur cam u6c y cynted, a'i daly o hano ev, neu o un o'r teulu yn fo, traian y dir6y a dyly y penteulu. Ev a dyly g6isg y brenin yn y teirg6yl arpenig; a'i meirc yn g6astad, a'u c6n, a'i hebogau, a'i arvau; ac yn ung6ert ei c6n â c6n y brenin, a'i hebogau; a d6yran i'6 marc o'r ebran; a'i lieing6isg y can y brenines; a pedair pedol ac eu tô hoelion ung6ait yn y bl6ydyn y can y gov lŷs; tair punt pob bl6ydyn y can y brenin yn ei cyvar6ys; ac ugaint o pob punt à del i'r brenin am dadlau tîr a daiar; ac ugaint y can pob g6r ar teulu y bl6ydyn cyntav y marcoco. Od â g6r ar teulu y can y brenin o aca6s irloned ev a dyly ei g6aha6d 6rt ei g6yd a'i cybodi â'r brenin. Pan bo raid myned y teulu i anreitia6, neu i neges aral, ev a dyly etol y rai à myno;

ac ni dylyir ei gomed. Ev a dyly cyvannedu y neuad heb y brenin; a'r sŏydgŏyr a dylyant gŏasanaetu arno ev mal ar y brenin. Ni dylyant y teulu rodi eu dilad onid can caniad y penteulu. Ev a dyly bod yn pob le yn eu blaen; ac na gŏnelŏynt dim namyn can ei cycor ev. Ev a dyly ran dàu gŏr o yr anreitiau à dycer eityr y gŏlâd; ac o traian y brenin ev a dyly traian. Ev yŏ y trydydyn à dyly traianu â'r brenin: y dau ereil yŏ y brenines a'r penhebogyd. Ev a dyly tri cornaid: un y can y brenin, a'r ail y can y brenines, a'r trydyd y can y dystain: a'r rai hyny a dyly bodar ei ancŏyn. Ev a dyly cerdy can y bard teulu pan myno. Ev a dyly medyginiaet rad pan myno, eityr ei gŏaeddilad; onid un o'r tair gŏeli arperygyl byd: sev yŏ y rai hyny, dyrnaŏd yn pen hyd yr emenyd, dyrnaŏd hyd yr ymyscar, neu tori un o'r pedair colovyn. Ev a dyly cylc y can y brenin gŏedi gŏahano ag ev y nadolig, ev a'r teulu: A tair ran a dyly bod; yr henran, a'r ran permed, a'r ran ieuainc; a pob eilgŏers y dyly bod y cyd ag ŏynt: a'r ran y bo ev y cyd ag ŏynt a dyly deŏis y tŷ. A hyd tra bo ev ar y cylc hŏnŏ y dyly bod sŏydgŏyr ido, a drysaŏr, a cog, a sŏydgŏyr bŏyd. A'r rai hyny a dylyant crŏyn yr aniveiliaid a lader idynt hŏy; a'r cogau a dyly y gŏêr, a'r dihynion, a'r ymyscar. A gŏedi darfo y cylc hŏnŏ, deued ar y brenin, a triced y cyd ag ev hyd yn pen y blŏydyn: ac ni dyly myned y canto hyd i pen y blŏydyn, onid i'ŏ negesau ev. A lyna yr acaŏs; canys trydyd anhebcor brenin yŏ y penteulu: y dau ereil efeiriad teulu, ac ynad lŷs. Pan bo marŏ y penteulu, y brenin a dyly ei marc, a'i arvau, a'i cŏn, a'i hebaŏg: a hyny yn le ei ebediŏ; can ni dylyir ebediŏ i aelaŏd y brenin, namyn ei hernais.

Yr ail yŏ efeiriad teulu. Hŏnŏ a dyly ei tir yn ryd, a'i gŏisg teirgŏait yn y blŏydyn; ei liain y can y brenines, a'i bretyngŏisg y can y brenin. Ei le yn y neuad i am y tân â'r brenin, yn nesav i'r celvi ŏrt bendigaŏ bŏyd a canu pader. Ei lety yn tŷ y clocyd, a'r yscolêigion y cyd ag ev. Ei sarâed yŏ herŏyd braŏd sened. A'i ancŏyn yŏ saig a cornaid lŷn. Ev a dyly ofrŏm y brenin, a paŏb or y rodo ev ofrom ido yn y tair gŏyl arpenig. Ev a dyly traian degŏm y brenin. Ev a dyly degŏm y teulu. Ev a dyly à del yn eu daered. Ev a dyly pedair ceiniaŏg am pob insail agored à roder am tîr a daiar, a negesau ereil maŏr. Ev a dyly ofrŏm y brenin peunyd ar oferen; ac ofrom y sŏydgŏyr aclan; a traian gŏeini a'r deupart i'r le pan hanfo; a pob pet à pertyno part a'r lŷs o'r hol dynion, ev piau traian eu gŏasanaet. Ev a dyly y dilad à bo am y brenin tra bo yn ei garaŏys. Ev a dyly bod yn gŏastad y cyd â'r brenin; canys trydyd anhebcor yŏ. Ev a dyly cafael ei marc mal y treulio y can y brenin. Ni dyly escob personi neb ar sapelau y brenin heb ei caniad.

Trydyd yŏ y dystain. Ev a dyly ei tîr yn ryd, a'i marc presŏyl, a'i gŏisg teirgŏait yn y blŏydyn: sev yŏ hyny ei bretyngŏisg y can y brenin, a'i lieingŏisg y can y brenines. Ei sarâed yŏ naŏbuŏ a naŏugaint. ariant. Ei gŏert yŏ naŏbuŏ naŏugeinbuŏ. Ev a dyly gŏisg y penteulu yn y tair gŏyl arpenig. Ev a dyly ranu y letyau: ido ehun yn nesav i'r lŷs, a'r hol sŏydgŏyr y cyd ag ev. Ev y sy pen ar yr hol sŏydgŏyr. Ev a dyly pedair ar ugaint y can pob un o'r sŏydgŏyr, pan estyner sŏyd ido. Crŏyn y gŏarteg à lader yn y cegin i'r sŏydgŏyr a'r dystain yd ânt, ac i'r dystain y dŏyran onadynt, eityr gŏarteg y maer. Y côg a'r dystain piau crŏyn y manyscrubyl: sev yŏ y rai hyny, devaid, a'r ŏyn, a'r mynau, a'r yrc, a'r alaned, a pob anivel mân à del ei croen i'r cegin amtano. Ev a dyly deg ceiniaŏg o pob punt à del i'r breniu, am dadlau tîr a daiar. Ev a dyly traian dirŏy a camlŏrŏ y sŏydgŏyr. Ev a dyly traian dirŏy à gŏneler uŏc cynted. O derbyd i dyn gŏneutur cam îs corv, a fo hano uŏc corv, a'i daly ev cyn cafael naŏd, traian y dirŏy a dyly y distain. Ei naŏd yŏ dŏyn y dyn à gŏnel y cam hyd ar y penteulu; ac yntau hyd yn diocel. Y dystain a dyly medu yn gŏastad y bŏyd yn y cegin, a'r lyn yn y medcel. Ereil a dygŏed y mai hyn yŏ ei naŏd: or pan decreuo sevyl yn ei sŏyd yny el y dyn diŏedav i cysgu, dŏyn y dyn. Y dystain a dyly gŏasanaetu ar cŏedyn ar bŏyd, a'r seitmed ar lyn: Sev yŏ y rai hyny, y brenin, a i hynaiv, a'i osb, a'i edlig, a'i penhebogyd, a'i troediaŏg, a'i pengŏastraŏd yn seitmed ar lyn; canys can ni dylyo cydbŏyta ag ev, ev a dyly cydyved. Ev a dyly gosaŏd naŏd, a tystu gŏirodau. Pŏypynag à toro y naŏd cyfredin à gosoto ev, nid oes i hŏnŏ un naŏd. Ev à dyly dau ebran i'ŏ marc, a pedair pedol ac eu tò o hoelion ungŏait yn y blŏydyn y can y gov lŷs. Ev a dyly hŏyedig hebaŏg y can y penhebogyd pob gŏyl Mihagel. Ev a dyly y can y cynydion, o hanner cŏevraŏr hyd yn diŏed y gŏäantŏyn croen eŏig pan mynoynt; o'r dyd hŏnŏ hyd hanner hvdrev, croen hyd

canys yn y tymporiau hyny yd heliir. Ev a dyly cad6 ran y brenin o'r anrait à del o gorg6lad, yny myno y brenin ei devnydia6. A pan myno y brenin ei traian, y dystain a dyly de6is ei eidion o traian, y brenin. Y dystain a dyly tygu tros y brenin. Y dystain a dyly ranu ariant y c6ynnos. Mal hyn y renir ariant y c6ynnos: sev y6 hyny pedair ar ugaint o pob g6led y bo med arnei; ac o hyny unarpymteg i s6ydg6yr y brenin, ac 6yt i s6ydg6yr y brenines; o'r unarpymteg à da6 i s6ydg6yr y brenin, 6yt i'r dystain a'r cogau; a'r dystain a dyly d6yran, ac un i'r cogau; a pedair i'r g6eision ystevyl; d6y i drysa6r y neuad; un i drysa6r yr ystavel; un i'r cang6ylyd. O'r 6yt à pertyn ar s6ydg6yr y brenines, pedair i'r dystain a'r cogau: a'r d6yran i'r dystain; un i'r g6âs ystavel; un i'r la6mor6yn; un i'r drysa6r; un i'r cang6ylyd.

